Welsh National Library of America
at
Brigham Young University
Provo, Utah

From ~~Mrs. Nancy Jones~~

Call No. Welsh 823.42 P64lw

Acc. No. 162

Morgan Jones Married march 16th - 1866

Given by Mrs Nancy Jones.
of Ton Pentre Glam.
South Wales.

Sept. 2nd 1951 now of Tucson - Arizona

THE PILGRIM'S PROGRESS;
Grace abounding to the Chief
THE HOLY WAR;
and other selected works by
JOHN BUNYAN.
With explanatory notes and comments on "The Pilgrim's Progress" by John Hughes; and a sketch of the life and writimg of the author by Josiah Conder, Esq; translated by the Rev. W. Jones, Bridgeend. Embellished with beautiful steel-engravings to explain the meaning of the text.

Printed and published by
The London Printing
and Publishing Company, Ltd.
London and New York.

# The PILGRIM'S PROGRESS,

# THE HOLY WAR,

## AND OTHER SELECTED WORKS OF

# JOHN BUNYAN,


With Notes and Explanatory Observations on the "Pilgrim's Progress,"
By JOHN HUGHES;

And a Sketch of the Life and Writings of the Author,
By JOSIAH CONDER, Esq.




LLE GENEDIGOL BUNYAN.

Ganwyd yn Elstow, ger Bedford, 1628.—Bu farw yn Snow Hill, Llundain, 1688; ac a gladdwyd yn Mynwent Bunhill Fields.

Welsh
823.42
P64 lW

# TAITH Y PERERIN;

HELAETHRWYDD O RAS I'R PENAF O BECHADURIAID;

# Y RHYFEL YSPRYDOL;

YN NGHYD AG ERAILL O WEITHIAU DETHOLEDIG

## JOHN BUNYAN.

GYDA NODAU A SYLWADAU EGLURHAOL AR DAITH Y PERERIN, GAN JOHN HUGHES;
A BRASLUN O HANES BYWYD AC YSGRIFENIADAU YR AWDWR, GAN JOSIAH CONDER, YSW.;
A GYFIEITHIWYD GAN Y PARCH. W JONES, PENYBONT-AR-OGWY.

WEDI EU HADDURNO GYDA CHERFLUNIAU HARDDWYCH AR DDUR,
ER EGLURO MEDDWL Y TESTYN.

PRINTED AND PUBLISHED BY
THE LONDON PRINTING AND PUBLISHING COMPANY, LIMITED,
LONDON AND NEW YORK.



we pray you
in the bowels of Christ
Jo: Bunyan 1682

# HANES BYWYD AC YSGRIFENIADAU

# JOHN BUNYAN.



AITH Y PERERIN, yn mysg llyfrau o gymmeriadau crefyddol, ydyw un o'r mwyaf derbyniol a phoblogaidd mewn llënyddiaeth Seisnig. Cyfansoddiad gwr gwledig, annysgedig, yr hwn a weithiodd ei ffordd o'r drygioni a'r anwybodaeth ddyfnaf, nid yn gymmaint drwy rinwedd ei athrylith, a thrwy gynhyrfiad, yr hwn a gyffrödd ei athrylith i weithrediad, ac a' dull-newidiodd ef ar unwaith o ran ei olygiadau a'i foesau. Y siampl odidocaf, mewn unrhyw iaith, o'r dull cyffelybiaethol o ysgrifenu, yw cyfansoddiad y delff hunan-ddysgedig yma, yr hwn nid amcanodd eithr ychydig at enwogrwydd llënyddawl, yn y ddammeg drosgl a ysgrifenodd i ddifyru oriau ei garchariad, er addysg crefyddol y bobl gyffredin. Yr esponiad ardderchocaf o elfenau duwinyddiaeth Gristionogol,—un o gymmeriad mor annadleuol ac anmhleidiol, fel y gall Protestaniaid syml o olygiadau gwahanol ei darllen, fel yr addefir yn gyffredin, yn ddidramgwydd, ac eto mor gynhwysfawr, fel y mae yn ffurfio y corph duwinyddiaeth mwyaf poblogaidd,—yw cyfansoddiad pregethwr teithiol anenwog, yr hwn a daflwyd, yn nyddiau y Stuardiaid, i garchar Bedford, dros ddeuddeng mlynedd, am ei lafur apostolaidd, heb unrhyw drosedd arall, eithr ei anghydffurfiaeth. A pheth rhyfeddach eto, y gwaith hwn, Cerdd Arwraidd y Saeson,—anwylyd ieuanc a hen,—yr hwn y mae'r bardd yn ei fawrygu herwydd ei odidawgrwydd dychymygol, ac yn yr hwn y mae y gwr celfydd yn

cael y defnyddiau difrifaf i'r pwyntr; i deilyngdod hynodol yr hwn, y mae beirniaid na's meddant unrhyw gydymdeimlad âg amcan nac yspryd crefyddol y gwaith, na'r golygiadau duwinyddol cyd-weuedig âg ef, y rhai a gyfrifant y sylweddau cysgodedig yn y gyffelybiaeth, yn mysg crëadau gweledigaethol ffug-chwedlau, wedi dwyn eu cydunol dystiolaeth; —y gwaith hwn—nid oes anghen ei enwi—Taith y Pererin, sydd, mewn gwirionedd, yn gyfeiriad nerthol at y gydwybod, heb unrhyw amcan arall iddo eithr darlunio graddau olynol y fuchedd ysprydol, a phortreiadu ymdrechion mewnol crefydd brofiadol, yr hon, i ddynion dibrofiad, a ymddengys, o anghenrheidrwydd, yn gam-gymmeriad gan ysprydoliaeth, neu benboethdra crefyddol. Y mae'n rhyfedd fod gallu i ddifyru dychymyg dyn digrefydd, mewn gwaith, yr hwn a ddeallir yn unig gan galon yn yr hon y mae crefydd yn cartrefu,—fod y rhai na's meddant allwedd y dirgel-nod, eto yn mawrygu y cymmeriad dan yr hwn y mae'r arwyddocâd ysprydol wedi ei ddirgelu, a'r hwn a gywir ddeonglir yn unig gan brofiad. Eto fel hyn y mae yn bod. Y gwaith hwn, fel y sylwyd, mewn modd ardderchog, gan feirniad Americanaidd, "sy debyg i baentiad wedi ei fwriadu i'w arddangos wrth oleu tân; y darllenydd cyffredin a edrych arno wrth oleu dydd. I'r Cristion—y gwir bererin—y mae yn dryloywder gogoneddus; a'r goleuni sy'n llewyrchu drwyddo, gan roddi i'w amgylchiadau y fath fywyd, i'w liwiau y fath ddyfnder, ac i'r holl weledïad y fath ragorol ogoniant, sydd oleuni o dragywyddoldeb, meddwl y nef."

Nid yw crefydd un amser yn rhoddi tramgwydd, cyhyd ag y bo yn unig yn cyfarch y dychymyg: yr hwn ffaith a ddefnyddiwyd yr un modd gan Awdwr pob gwirionedd ac apostolion cyfeiliorni; gan y blaenaf, i ennill dyfodfa, drwy y ffordd hon, i'r dealltwriaeth a'r gydwybod; a chan y lleill, er denu y dychymyg i bleidio coel-grefydd. Efe, yr hwn a lefarai megis na lefarodd neb arall, a ddysgai ei wrandawyr mewn dammegion, a thrwy hyny, a dynai sylw y rhai na fedrent oddef ei ymadroddion celyd, pan lefarai yn eglur; ac y mae, o hyd, yn aros, yn ei gyffelybiaethau dwyfol ef—er engraifft, yn nammeg ddigffelyb y mâb afradlon,—swynion effeithiol, hyd y nod i ddarllenwyr, y rhai ni chymmerant i'w mynwesau, un pryd, eu harwyddocâd ysprydol. Canmolodd Rousseau, mewn modd hyawdl, farddoniaeth oruchel yr Ysgrythyrau Santaidd. Y mae Taith y Pererin yn orllawn o yspryd barddonawl, wedi ei ennyn gan awen uwchddaearol. Meithrinwyd athrylith Bunyan yn gyfangwbl yn ffynnonell ysprydoliaeth. Meddyliodd yn mhriod-iaith y Bibl ei hun; ac, os goddefir yr ymadrodd, yr oedd portreiadau y Bibl yn wastadol yn bresennol i'w feddwl megis gweledfa gynhenid ei enedigaeth ysprydol. Cafodd ei addfurfio gan y Bibl; ei addysgu drwy fyfyrdod ynddo; llyfr "ei holl ysgolheigdod ydoedd;" a'r symledd dyben a'r awydd gwresog â'r rhai, megis trysorfa doethineb nefol, y chwiliai ei gynhwysiad, a'i gwnaethant ef, fel Apolos, yn "wr ymadroddus," tra yr oedd ei feddwl yn cael ei dryliwio fwy fwy â'u "hyspryd a u bywyd." Dywedwyd gydâ pheth priodoldeb fod anian ei waith yn Hebreaidd. "Nid oedd barddoniaeth y Bibl," fel y sylwa y beirniad rhag-grybwylledig, "yn llai yn

achos gallu barddonol Bunyan, nag oedd ei fyfyrdod yn yr holl ysgrythyr yn achos o symledd a phurdeb ei iaith. Nid yn unig cyfnewidiwyd ei galon drwy yspryd y Bibl, ond hefyd cerddodd ei ddylanwad drwy ei holl enaid, gan ei ddull-newid i'w ddelw ei hun. Yr holl yspryd a'r nerth a gasglodd drwy gyfrinach arbenig a hirfaith â'r prophwydi a'r apostolion, a ddygwyd ganddo i gyfansoddi pob dalen o Daith y Pererin. I'r dull defodol yma o feddwl, ac i weithrediad dychymyg wedi ei ddisgyblu yn y modd hwn, y gellir olrhain symledd ei holl bortreiadau, a grym ei bersonoliadau . . . . . . . Ysgrifenodd drwy gynhyrfiad anian wedi ei santeiddio a'i goleuo drwy nefol ddylanwad; a'i symmudiadau oeddynt mor ddi-ddichell ag eiddo plentyn bychan yn chwareu, wrth ei hun, ar y llanerch werdd-lâs."* Dichon mai yn y symledd a'r anghymmendod digyffelyb a welir ynddo, y mae y gwaith yn dyfod yn agosach i gymmeriad yr ysgrythyrau santaidd, nag un cyfansoddiad anysprydoledig.

Ac, fel yr ysgrythyrau, y mae dammeg Bunyan, tra yn arddelwi rhyfeddiad meddyliau diwylliedig drwy y cynneddfau hyny a ddifyrant y dychymyg, gwedi trosglwyddo addysg a chysur i filoedd analluog o fawrygu ei hathrylith, a diarwybod o'r swyn a weithredodd ar eu meddyliau. I'r plentyn, y mae yn llofft-rodfa portreiadau; i'r dyn o chwaeth, y mae yn chwareu-dynwaredol cywrain; i'r Cristion syml, o ddychymyg îs, y mae yn argraff-len, neu gyfarwyddwr ei ymdaith ddaearol. Gyda golwg ar laweroedd a swynir gan Daith y Pererin, gellir dywedyd am ei Hawdwr, fel am y prophwyd Hebrëaidd: "wele, di hefyd iddynt hwy fel cân cariad un hyfrydlais, ac yn canu yn dda: canys gwrandawant dy eiriau, ond nis gwnant hwynt." Ar y llaw arall, y mae miloedd nas meddent glust at ei gynghanedd, wedi hoffi geiriau y gân, a chanlyn yr addysg y mae yn ei drosglwyddo: yn niffyg hyn, nis gallasai fod yn ddefnyddiol i'r werin gyffredin, i ba rai y cafodd ei bwriadu, ac ar y rhai, dros yspaid dwy ganrif, y mae wedi cael dylanwad mor annhraethadwy rinweddol. Ond y wythen werthfawr o synhwyr cynhenid, da, a'r digrifwch sobr sy'n rhedeg drwy'r gwaith, yn ei gymmell i sylw pob graddau o ddarllenwyr; ac, yr oedd Taith y pererin mewn bri ymhlith y bobl gyffredin, ymhell cyn i enwogrwydd ei Awdwr dynu sylw y rhai a gyfenwir y *cyhoedd*. Yn y chwedl hyfforddus hwn,

"Tyb chwêg, a hyfryd wir diwall
Yn ffynnu sy, y naill unwêdd a'r llall.'
Ei swyn, ei bwyll, a'i hynod syml iaith
All ddysgu hurt, difyru'r llipa llaith.
Coeth a defnyddiol, fel dy nefol Ri,
Ei air, mewn dammeg, a lefari di:
Ni'th enwaf, rhag i'th enw greu
Chwerthiniad rhyw rai, wrth ei leu."

Felly y prydyddai Cowper er ys hanner can mlynedd yn ol: ond nid oes un perygl yn

* North American Review, No. lxxix. p. 462.

awr i gynhyrfu chwerthiniad neb wrth enwi Awdwr Taith y Pererin, ac y mae yr ystyriaeth o hyny yn arwyddo fod trigolion y wlad hon gwedi dyfod rywfaint yn gallach nag oeddynt gynt.

Mewn chwanegiad at swynion amrywiog y gwaith hwn, gellir enwi y gynneddf ddeniadol o hunan-fuchdraethiad; canys, wrth ei ddarllen, nis gellir llai na theimlo, fod yr Awdwr, yn symmudiadau ei bererin, yn gosod ger ein bron ei hanes ysprydol ei hun. Ac yn odlau anghymmen, dywed,—

> "O'm calon fau, i'm siol y daeth,
> Yna, i'm bysedd, llifo wnaeth."

Y mae y nodweddiad gwahan-nodol hwn, yn gwahaniaethu y ddammeg, mewn modd dedwydd a helaeth, oddiwrth gywreindebau trymaidd cyffelybiaethwyr addysgiadol neu egwyddorol, sef y nyth-lwyth hwnw o ddynwaredwyr a godasant mewn canlyniad i'w lwyddiant ef, yn gystal a'r rhai a aethant o'i flaen yn y rhywogaeth yma o gyfansoddiad. Y cyhuddiad o fod yn llên-leidr, neu o gael ei gynnorthwyo yn y cyfansoddiad, y mae Bunyan ei hun, mewn modd cyffröus, yn ei gilgwthio;

> "Fy eiddo i yw'r dull a'r defnydd oll."

"Ond er mor wreiddiol," fel y sylwa y Dr. Southey, "y credai Bunyan fod ei waith ef, ac, ar y cwbl, yw, eto cafodd yr un gyffelybiaeth ei thrin yn aml cyn ei amser ef."*

* Yn ei Draethawd Rhaglithiol, godidog, i Daith y Pererin, y mae Mr. Montgomery yn crybwyll am gân, a gyfenwyd y Pererin, yn Nghysgod-luniau Witney, (1585,) ar ddarlun rhag-ddodol yr hon, y portreiadir y pererin yn gadael y byd—y belen ddaearol—ac yn ymsymmud tua chysgod-lûn yr Enw Dwyfol. Gallasai y darlun hwn, fel y tybir, mewn cyssylltiad â'r pennill canlynol, gynnysgaeddu Bunyan â meddyl-ddrych cyntefig ei chwedl; er nad oes yno, ar yr un pryd, unrhyw ychwanegiad at y gyffelybiaeth gynnefin ysgrythyrol:—

> "Dedwyddach hwy, ystyriant hyn yn awr,
> Cyn terfyn eu hymdeithiad ar y llawr,
> Adawant fyd yn ol;—ac ant ar frys
> Ar hyd yr uniawn ffordd, i'r nefol lŷs,
> A thra bo modd, drysorant, yn ddilyth,
> Drysorau gwell, mewn lle i bara byth."

Crybwylla y Dr. Southey am gân Ffrengig boblogaidd, a gyfansoddwyd, B. A. 1310, dan yr enw "*Le Pelerin de la Vie Humaine*," o'r hon y cymmerodd y Carmeliad Ffrengig, Jean de Cartheray, ddychymyg cyntefig y cyfansoddiad a elwir Mordaith y Marchog Crwydraidd; a'r hwn a gyfieithiwyd i'r Saesonaeg, ac a argraffwyd yn Lloegr, yn amser y Frenhines Elizabeth; ond nid oes yn hwnw eithr cyfeiriad cyffredinol at y mater dan sylw, a rhyw gyffelybrwydd cyffredinol yn unig i'w amgylchiadau. Y mae y Dr. Southey gwedi hollol ddynoethi ansawdd gyfeiliornus y dybiaeth wrthwynebol, drwy ddangos, nad oes unrhyw sylfaen iddi, gan nad oes un tebygolrwydd cyffredinol rhwng y gweithion a'u gilydd. Y mae "Dammeg y Pererin" gan y Deon Patrick, 1663, yn dwyn mwy o debygolrwydd cyffredinol i waith Bunyan; ond traethawd yn hytrach na dammeg yw hwnw, wedi ei sylfaenu, yn o. tystiolaeth yr awdwr, ar ddarlith yn "*Sancta Sophia*" Mr. Baker. "Ynys Dyn, neu Gynghaws yn erbyn Pechod yn Sir Dyn," o waith Bernard, yw y gwaith tebycaf wedi dyfod tan sylw Bunyan, gan ei fod yn waith poblogaidd yn ei amser ef; ac, os cafodd efe olwg arno, i fod gwedi effeithio ar ei iaith; ond, y mae hyd yn nod hwnw yn gwbl ddiffygiol o swyn chwedl a difyrwch dychymygol dammeg Bunyan.

A pha fodd yr oedd yn alluadwy i hyny beidio a dygwydd, ymmaith ysgrifenwyr crefyddol, gan fod yr Ysgrythyrau Santaidd, yn cynnwys ei chynlluniau? Yn Heb. xi. 13—16, y mae y fuchedd Gristionogol yn cael ei darlunio megis pererindod i wlad well, ac un nefol; ac, yn y bennod olaf o'r un epistol, y mae ei awdwr, yn ei enw ei hun a'i frodyr Cristionogol, yn dywedyd, "Nid oes i ni yma ddinas barhaus, eithr un i ddyfod yr ym ni yn ei dysgwyl." Yn sicr, nid oes anghen edrych ymhellach am darddiad gwreiddiol dammeg Bunyan, gyd â golwg ar brif ddychymyg y gyffelybiaeth. Ond y mae dull ffortuniol a llwyddiannus o drin mynediad y pererin Cristionogol ymlaen yn ei ymdaith, yn briodol yn unig iddo ef ei hun; ac y mae y Dr. Southey yn terfynu ei ymchwiliad manylaidd o'r gweithion a olygir yn meddu'r tebygolrwydd mwyaf i'r un dan sylw, gyd â'r casgliad têg a phenderfynol hwn,—"Os dygodd un gwaith erioed argraff gwreiddioldeb, yn ei holl ranau, gwaith John Bunyan yw hwnw."

Pe buasai hawl ein Hawdwr mewn gwreiddioldeb yn gorphwys ar y gwaith hwn yn unig, buasai ei enwogrwydd yn ddiogel ddigon; ond, y mae efe wedi arddangos galluoedd dychymygol rhagorach, yn ei Ryfel Ysprydol, nag yn Nhaith y Pererin; ac, os nad yw y cyfansoddiad hwnw o'i eiddo, a gyfenwir "Bywyd a Marwolaeth Mr. Dryg-ddyn," wedi cael darlleniad mor gyffredinol a Thaith y Pererin, yr achos o hyny, yn ol barn y Dr. Southey, yr hwn yr ydym yn ei goffau fel barnydd anmhleidiol, yw, "nid am fod y mater cynnwysedig ynddo wedi ei drin gydâ llai o enwogrwydd, ond am ei fod yn llai hyfryd."

"Ychydig yn llai poblogaidd na Thaith y Pererin, er yn gyfartal mewn teilyngdod, y Rhyfel Ysprydol, pa un bynag ai fel gwaith duwinyddol ai fel cyffelybiaeth y golygir ef, sydd eto yn methu cyffroi yr un digrifwch dychymygol, yn benaf oherwydd nad ydym, wrth ei ddarllen, yn cydymdeimlo cymmaint âg ansodiadau y chwareu-dynwaredol; gan ein bod, yn lle cael ein harwain drwy olygfa fywiog breuddwyd, yr hwn nid yw eithr cysgod sylweddau bywyd effro, yn ymwybodol nad ydym ond yn unig yn edrych ar gywrain beirian-waith chwedl. Teimlwn wrth ei ddarllen ein bod yn cyfrinachu â dansoddiadau; ac nid ydym, un pryd, yn anghofio'r gyffelybiaeth." Y mae Mr. Montgomery yn sylwi, "mai un prif reswm fod Taith y Pererin y cyfansoddiad hyfrydaf o'i rywiogaeth, yn yr holl fyd, yw, nad oes eithr ychydig iawn o gyffelybiaeth ddigymmysg ynddo, er iddo gael ei ysgrifenu yn null breuddwyd; ac, hefyd, nad oes nemawr o gynneddfau arbenig, neu nwydau wedi cael eu personoli ynddo . . . . Os bydd cymmeriadau cyffelybiaethol, un pryd, yn cynhyrfu cyd-ymdeimlad neu serch, pan y byddom yn anghofio mai cyffelybiaethol ydynt, ac, o ganlyniad, y gyffelybiaeth yn attaliedig gydâ golwg arnynt, y mae hyny yn bod." Wrth ddarllen Taith y Pererin, yr ydym yn hunaniaethu yr Awdwr a'i wron mor gyson, fel y profwn anhawster i'w hysgar oddiwrth eu gilydd yn ein teimladau; ac y mae yr ystyr gyffelybiaethol yn ymddangos megis yn cael ei arosod ar yr adroddiad, yr hwn, mewn gradd helaeth, a ymddengys yn gyffelyb i

fuchedd sylweddol. Y mae y pererin, nid yn unig yn ymddangos fel cymmeriad sylweddol, ond hefyd yn cynnysgaeddu y drychiolaethau cysgodol â pha rai y mae wedi ei gyssylltu, â sylweddoldeb; ac y mae meddwl y darllenydd yn agored i dwyll, cyffelyb i'r hwn a effeithir ar y llygad effro, drwy gynhyrfiad arbenig yr ymenydd, deiliad yr hwn sy'n gweled dulliau drychiolaethol, yn ymgymmysgu âg agweddau bywiol, ac yn analluog i wahaniaethu rhwng y rhai sylweddol a'r rhai drychiolaethol.

Gwir yw y gellid meddwl fod cymmeriadau sylweddol,* gan belled a hyny, yn ngolwg Bunyan, yn nynsodiadau îs-raddol y gyffelybiaeth, fel yr oedd y sylweddol megis wedi ei gerfio ar y darlun. Yn holl amrywiaeth y cymmeriadau a osodir ganddo ger ein bron, y mae neillduoldeb, drwy yr hwn y gellir eu hadnabod, yn argraffedig arnynt. Ond y mae yr undeb bywgraffiadol, drwy y cyhoeddusrwydd a roddir i'r prif weithredydd, yn cael ei gadw mor gywir ag mewn cerdd arwraidd awdurol. Y Cristion yw Ulysses yr hanes. Ac y mae yr undod elw hwn yn deilliaw o sylwedd dyben yr Awdwr, yr hyn a'i harweiniodd ef i gadw ei brif amcan mewn golwg yn gyson. Herwydd hyn, y gyffelybiaeth, os yw yn ddiffygiol neu anghyson mewn rhanau, (ar gyfer yr hyn y darparodd yr Awdwr ddiffyniad digonol wrth ei galw yn freuddwyd; canys nid ydym yn ymwybodus mewn breuddwydion o'r fath ddiffygiadau,) sydd wedi ei chyfaddasu yn hollol, fel y sylwa Mr. Montgomery, i'r dyben i'r hwn y cafodd ei chyfansoddi; sef "darlunio profiad arbenig un ymdeithydd Cristionogol, profedigaethau ac ymdrechion yr hwn, er nad yn hollol o'r un graddau a rhywiogaeth, ydynt siamplau o'r hyn y mae pechaduriaid dychweledig i'w dysgwyl. Gellir, gan hyny, ystyried y Cristion *fel portreiad cyflawn o'r Awdwr ei hun;* a'r cymmeriadau ail-raddog, y rhai a dalfyrir, yn fwy neu lai, fel dangosiad o'r amrywiaeth a gyfarfyddir mewn cymdeithasau crefyddol." . . . . . "Taith y Pererin sydd adroddiad *cyflawn* o brofiad un dyn, a *rhanol* o brofiad amryw ereill; o ba herwydd, er fod y cynllun yn ddiffygiol yn ei berthynas â'r lluaws, y rhai ydynt oll islaw y gwron—y Cristion, eto yn ei berthynas âg ef, y mae yn gyflawn, yn gyson, yn hollol, ac yn foddhaol. Hyn, yn benaf, oedd y cwbl a fwriadai yr Awdwr; a'r cwbl uwchlaw hyn ydoedd yn dyfod yn ddamweiniol yn ei ffordd, yn hytrach nag yn hanfodol i'w amcan gweithredol. Nid yw undod y cynllun, yn anturion personol y Cristion, yn cael ei ddinystrio drwy y cymmeriadau achlysurol, neu ddamweiniol, y mae efe yn dyfod yn gydnabyddus â hwynt ar ei daith, eithr ei addurno a'i gyfoethogi."

Y mae Mr. Montgomrey wedi pennodi engraifft nodadwy o'r medrusrwydd odiaethol, eto anghymmen, a ddangosodd Bunvan, yn yr olwg yma, yn nygiad cydymaith i mewn

* "Gallwn fod yn sicr," medd Dr. Southey, "fod Mr. Gwrol-dros-y-gwirionedd, Hen Gywir, o drei Syfrdandod, Mr. Digalondid a'i ferch, Dirfawr-ofnus, a'u cymdeithion, yn gymmeriadau digon adnabyddus yn 'egobaeth Esgob Bunyan;' ac, os nad oedd efe yn golygu cymmeriadau sylweddol wrth y rhai a ddygir mewn ganddo mewn modd llai ffafriol, megis y rhai oeddynt yn troi yn ol, yn troi i groes-ffyrdd, ac yn heppian ar y ffordd, ymddangosai tebygoliaethau lle na fyddent wedi cael eu bwriadu."

i'r Cristion, drwy yr hyn, heb ddinystrio undod yr hanes, y mae ei buddioldeb wedi derbyn adgyfnerthiad. "Ni fuasai profiad personol un dyn, yn alluog, fel y sylwia'r beirniad enwog hwn, i egluro holl wersi defnyddiol yr efengyl, heb gymmysgu profedigaethau amryw bersonau o wahanol oedran, rhyw, a thueddiad, âg ef. Ni allasai y Cristion ddioddef merthyrdod, yn Ffair Gwagedd, a chyflawni gweddill ei daith i'r ddinas nefol; eto, yn amser Bunyan, (yr hwn a erlidiwyd mewn modd creulon yn achos cyfiawnder ei hun,) yr oedd yn anghenrheidiol rhoddi cynllun o Gyffeswr, nid yn unig parod i gymmeryd ei rwymo, ond hefyd i farw dros yr Arglwydd Iesu. Gwnawd hyn yn amgylchiad Ffyddlon, yr hwn sy'n selio ei dystiolaeth â'i waed; tra y mae Cristion, mewn modd nad eglurwyd, (yr hyn nid yw, pa fodd bynag, yn gwneud un bwlch yn y cynllun, gan iddo gael ei fabwysiadu yn fwriadol,) yn diangc *ar hyn o bryd*, ac yn myned ymlaen i'w daith yn nghymdeithas Gobeithiol, yr hwn a ddychwelwyd drwy farwolaeth Ffyddlon."

Os nad yw yr Ail Ran o Daith y Pererin o gymmaint pwys a'r un gyntaf, nid yw yn llai difyrus. Y mae hyd yn nod yn fwy llwyddiannus; ac, y mae yr Awdwr wedi dangos ffrwythlondeb ei ddychymyg ynddi, yn y newydd-deb a roddodd i'r ail-fynediad dros yr un tir, heb ail-adrodd dim ond sydd yn rhoddi cyflawn foddlonrwydd, oherwydd effaith unol atgofiad a chyferbyniad. Yn mhererindod y Cristion, a'i gymdeithion olynol, ymddengys mai ei amcan ydoedd, fel y sylwia Mr. Montgomery, darlunio profiad unigol credadyn, neu ynteu y gymdeithas fynwesol rhwng dau gyfaill Cristionogol yn unig. Yn nhaith Cristiana a'i theulu, yr hwn, yn raddol, sy'n cynnyddu yn llu golygus, ymddengys mai yr hyn yn benaf oedd yn ei olwg, oedd darlunio cymmundeb y saint a manteision aelodaeth eglwysig. Y mae yn hyfryd teithio yn y fath gymdeithas, a gwrando arnynt, nid yn unig yn adrodd eu hamrywiol helyntion eu hunain, ond hefyd anturion ereill a aethent o'u blaen; ac, hyd yr olygfa olaf, yn y Tir a Reibiwyd, pan y maent yn cyfarfod â Diysgog ar ei liniau, y mae yn cynnwys cymmysgedd hyfryd o fyr-hanesion a buch-draethiadau. Yn mysg y cymmeriadau sydd mor ragorol yn bywiogi ac yn addurno yr Ail Ran o Daith y Pererin, Trugaredd yw'r mwyaf ennillgar; ac, ymhlith y darluniadau ardderchocaf o eiddo y prif-feirdd, byddai yn anhawdd cael un yn cyfatteb i hwn, er ei fod yn eithaf syml mewn cywirdeb portreiad a lliwiau. Wrth gynnyg corphori personoliad rhinwedd fenywaidd mewn darlun dychymygol, y mae rhai o'r prif-feirdd wedi methu; ac wrth ystyried amgylchiadau hanes foreuol Bunyan, rhwymir ni i ystyried ei lwyddiant yn hyn, fel prawf nodadwy o rinwedd crefydd i buro a choethi yr archwaeth. Ond yma eto y Bibl oedd patrwm a ffynnonell ei ysprydoliad ef; a gellid cymmeryd Trugaredd bron am gymmeriad ysgrythyrol. Taera ambell un nad yw y gyffelybiaeth yn yr Ail Ran mor berffaith ag yn yr un gyntaf, gan fod pererindod Cristiana a'i theulu yn ymddangos yn cynnwys cynnifer o flwyddi ag oedd o wythnosau yn eiddo ei gwr; canys y mae y rhai nad oeddynt eithr plant pan y dechreuodd ei thaith, erbyn ei bod wedi

cyrhaedd hanner y ffordd, sef tŷ Gaius, wedi tyfu i fyny a phriodi. Ond nis gellir, mewn modd têg, i briodoli yr anghysondeb ymddangosiadol yma, y rhai a gyfrifir yn rhyddid maddeuadwy mewn cyfansoddydd chwareuon dynwaredol, i ddiffyg medrusrwydd yn ein "breuddwydiwr celfydd." Amcan Bunyan oedd trosglwyddo addysg; ac, i'r dyben pwysfawr yma, boddlon fuasai o'i galon i aberthu cysondebau. Ond, ar y cyfan, y mae y gyffelybiaeth wedi ei thrin mewn modd medrus. Y mae yn beth cryn amheus a allasai hyd y nod Bunyan fod yn llwyddiannus yn nghyfansoddiad Trydedd Ran.

Ond, yn awr, gadewch i ni droi oddiwrth ddammeg yr Awdwr, at y cynllun gwreiddiol, sef ei brofiad ef ei hun, o ba un y gadawodd adroddiad yn cynnwys un o'r darnau hyfrydaf o hunan-fuchdraethiad crefyddol mewn unrhyw iaith. Fel pob cyffelyb gyfansoddiad, gan nad oes un sail i ammeu cywirdeb yr ysgrifen, y mae i'w ystyried fel adysgrif o deimladau ac argraffiadau mewnol yr ysgrifenydd, yn hytrach na hanes lythyrenol gywraint. Yn natguddiadau gwir edifeirwch y mae, bob amser, rydd-helaethiadau, y dylid eu caniattâu; ac, yn narluniad agweddau mewnol ymdrech meddyl-iaidd cyffelyb i eiddo Bunyan, pan fyddo'r dyoddefydd ei hunan yn darlunio ei amgylchiad, nis gall y meddwl mwyaf ystyriol lai na theimlo anhawsder weithiau i wahaniaethu rhwng gweithrediad iachusol, a'i wrthwyneb. Y fath weithion a gynnwysant ddefnyddiadau gwerthfawrocaf bywgraffiadau; ond, eto y mae y gwahaniaethiad, y tegwch, a'r adna-byddiaeth fanylaf o'r galon, yn ofynol, fel y dengys yr hyn a ganlyn, er cyd-ddwyn, mewn modd dyladwy, âg amgylchiadau arbenigol yr adroddwr mwyaf cydwybodol o'i hanes ei hun.

Ganwyd JOHN BUNYAN yn mhentref Elstow, gerllaw Bedford, yn y flwyddyn 1628. Ei linach, yn ol ei dystiolaeth ei hunan, ydoedd "o genedlaeth isel ac anghyfrifol, a thŷ ei dad o'r gradd gwaelaf a diystyraf o holl deuluoedd y wlad." Y gelfyddyd i'r hon y ganwyd ac y magwyd ef, fel ei dad o'i flaen, ydoedd eiddo gôf pres neu eurych; a dywedir iddo wasanaethu fel hur-weithiwr yn Bedford. Er iseled a gwaeled oedd sefyllfa ei rieni, rhoddasant ysgol i'w mab, yn yr hon y dysgodd efe ddarllen ac ysgrifenu, "yn gyffelyb i blant tlodion ereill;" eithr, yn ol ei gyfaddefiad ei hun, anghofiodd y cwbl a ddysgodd ymron, yn ebrwydd. Gwedi syrthio ymhlith cymdeithion halogedig, dysgodd yn foreu dyngu a rhegu, dywedyd celwydd, ynghyd â phob rhyw ddrygioni plentynaidd ac annuwioldeb; a'r unig arwydd o'i fod yn meddu galluoedd rhagorach na phlant y pentref yn gyffredin, oedd ei fod yn flaenor arnynt yn eu drygioni. Ond, er hyny, pan nad oedd eithr naw neu ddeg oed, yn nghanol ei gampau, ei ddigrifwch plentynaidd, a'i gymdeithion gwageddol, delid ef yn fynych gan ddwys-bigiadau llymion cydwybod euog; ac, yn ei gwsg gan weledigaethau dychrynllyd, cyffelyb i frawiau ei feddwl pan yn effro. "Yr oeddwn yn aml," medd efe, "yn cael fy mwrw i lawr a'm blino yn ddirfawr ganddynt, eto nis medrwn ymadael â'm pechodau; ïe, yr oeddwn hefyd, y pryd hwnw, wedi fy ngorchfygu i'r fath raddau gan anobaith am fywyd a

dedwyddwch nefol, fel y dymunaswn yn fynych, naill ai na buasai un boenfa, neu ynteu fy mod i fy hun yn gythraul, gan y tybiwn mai poenydwyr yn unig oeddynt hwy; ac, os byddai rhaid i mi fyned yno, fy mod yn boenydiwr yn hytrach nag yn dioddeu fy hun." Ar ol talm o amser, y breuddwydion dychrynllyd hyn a'i gadawsant ef, a'i ofnau terfysglyd yn mherthynas i gospedigaethau uffernol a wisgasant ymaith. Collodd "bob ystyriaeth ddaionus ynghylch nefoedd ac uffern allan o'i feddwl;" "ac oni buasai i ras goruchiawl i'w luddias, buasai," medd efe, "nid yn unig wedi ei ddinystrio â dyrnod cyfiawn ddialedd y nef, ond wedi gwneud ei hun yn agored i ddyrnod dialeddol cyfraith y tir, a dwyn ei hun i derfyniad gwaradwyddus." Gellir casglu, pa fodd bynag, oddiwrth ei rydd-gyfaddefiad, iddo gael ei gadw rhag cyflawni unrhyw weithred gospadwy gan y swyddog gwladol. Yr oedd yn wyllt, afreolus, nwyfus, a phenrydd; yn dirfawr ymhyfrydu mewn campau pentrefol, megis canu'r clych, dawnsio, chwarae'r gath, a chyffelyb daplusau; yn dorrwr Sabbothau, yn dyngwr arswydus, ac yn hollol annuwiol. Ond ymddengys mai dyma eithafed ei ddrygioni boreuol; ac nad oedd efe na meddwyn na phuteiniwr. Mewn attebiad i'w gyhuddwyr, y mae wedi tystiolaethu, yn y modd mwyaf difrifol, "nad oedd un ddynes, yn un o'r ddau fyd, a allasai dystiolaethu i'w erbyn." "Cefais fy nghadw yn y modd hwn," medd efe, "nid oherwydd un daioni oedd ynof fi, yn fwy nag ereill, ond oblegid i Dduw drugarhâu wrthyf, a'm cadw." Amlwg yw, er i'w gydwybod fyned i gysgu, na chaledwyd erioed mo honi; canys tra yr oedd yn medru ymhyfrydu yn niffeithder ei gymdeithion, eto yr oedd canfod "proffeswyr crefydd" yn cyflawni pethau anweddus, yn peri i'w enaid arswydo. Unwaith, pan yn uchder ei oferedd, wrth glywed un a gyfrifid yn wr crefyddol yn tyngu, "gadawodd y fath argraff," medd efe, "ar ei feddwl, ag i beri cur yn ei ben."

Nid oedd Bunyan ond dwy-ar-bumtheg pan yr ymresodd yn myddin y Senedd. Yn 1645, cafodd ei neillduo, gydag ereill, i fyned i warchae Leicester; ond pan yr oedd ar fod yn barod i gychwyn, amlygodd un o'r fyddin chwenychiad i fyned yn ei le, â'r hyn y cydsyniodd Bunyan, a chymmerodd y gwirfoddiad ei le, aeth i'r gwarchae, a chafodd ei saethu pan yn sefyll yn wyliedydd. Y mae Bunyan yn cofnodi y cyfryngiad hynod yma o eiddo Dwyfol Ragluniaeth, yn gystal a gwaredigaethau ereill rhag marwolaeth, gydâ diolchgarwch crefyddol; eithr nid ymddengys iddynt, ar y pryd, i adael ond ychydig argraff ar ei feddwl. Nis gallasai fod yn hir yn filwr; eto y mae yn debygol ein bod ni yn ddyledwyr am ei driniaeth gelfydd o'i gyffelybiaeth filwraidd, yn ei Ryfel Ysprydol, i'r amgylchiad hwnw.

Yn ebrwydd ar ol yr amgylchiad rhag-ddywededig, tra yr oedd eto yn ieuanc, (tua phedair-ar bumtheg, yn ol barn Dr. Southey,) priododd Bunyan; "a thrugaredd," medd efe, "oedd i mi ddygwydd ar wraig, tâd yr hon a gyfrifid yn wr duwiol." Yr oeddynt ill deuoedd mor dlodion fel nas meddent rhyngddynt gymmaint o ddodrefn tŷ a llwy

a chwppan; ond dug hi iddo ef, fel ei chynnysgaeth, ddau lyfr a adawodd ei thâd iddi, pan y bu efe farw; y naill a gyfenwid, "Llwybr Hyffordd Dyn i'r Nefoedd," a'r llall, "Yr Ymarferiad o Dduwioldeb."* Yn y ddau lyfr yma, y darllenai Bunyan a'i wraig, ambell i waith; ac er na chyrhaeddasant ei galon i'w ddihuno i ystyriaeth o'i wir gyflwr, eto cynhyrfasant ryw ddymuniadau ac ymdrechion ynddo am ddiwygiad. Cafodd y rhai'n hefyd eu meithrin, drwy fynych gyfeiriadau ei wraig at fywyd dichlynaidd a santaidd ei thâd. "Cwympodd Bunyan, yn awr, gydag awyddfryd gwresog, i mewn â chrefydd yr oes; ai i'r eglwys ddwy waith bob Sabboth, ac adroddai a chanai gydâ'r rhai blaenaf ynddi;" ac ar yr un pryd, yn ol ei hanes ei hun, "yr oedd wedi ei orlenwi i'r fath raddau â choel-grefydd," fel y parchai, mewn modd crefyddol, bob peth perthynol i'r eglwys,—"yr allor, yr offeiriad, y clochydd, yr offeren-grys," a phob peth perthynol i'r gwasanaeth: cyfrifai yr offeiriad a'r clochydd yn dra dedwydd, ac yn ddiau yn fendigedig, fel gweision Duw; a chan mor gryfed ei gariad at yr offeiriaid, herwydd y golygai hwynt fel gweinidogion y nef, gallasai orwedd wrth eu traed, a goddef iddynt ei sathru; gan gryfed yr oedd eu henw, eu gwisgoedd, a'u swydd, ar hyn o bryd, yn ei "bendroi a'i swyno" ef. Y cyfryw yn union yw teimlad y bobl gyffredin at yr offeiriad yn y gwledydd Pabaidd; ac, ar y pryd hwn, pan oedd ei ddychymyg yn gryfach na'i ddeall, a'i feddwl heb ddadsuddo o ddygn anwybodaeth, pe dygwyddasai cennadwr Pabaidd, cyfrwys, ddyfod yn ffordd Bunyan, rhwymasid ef, mewn modd annattodadwy, â gefynau coel-grefydd. Nid oedd efe, fel y mae yn tystio, dros yr holl amser yma, yn ystyriol o ddrwg pechod, ei berygl ei hun, nac yn meddwl un pryd am y Gwaredwr. Nid oedd "Llwybr Hyffordd Dyn i'r Nefoedd" wedi ei gyfarwyddo ef at y Groes. "Y mae y dyn hwn," medd efe, "yn ddall, eto yn ymboeni mewn oferedd, canys ni ŵyr efe y ffordd i ddinas Duw." Mewn gwirionedd, nid oedd Bunyan hyd yma wedi rhoddi heibio arferyd ymadrodd llygredig; canys ychydig ar ol hyn cafodd gerydd trwm oddiwrth wraig, yr hon oedd ei hunan o gymmeriad drwg, eithr a ardystiai fod iaith halogedig Bunyan yn gwneuthur iddi hi grynu, "a'i fod yn ddigon i lygru holl ieuenctid y dref a ddeuent i'w gyfeillach." "Wrth y cerydd hwn," medd efe, "cefais fy nharo yn fud, a'm llenwi â dirgel gywilydd, a hyny hefyd, fel yr oeddwn yn tybied, ger bron Duw y nef; herwydd hyny, tra yn sefyll yno, ac yn plygu fy mhen, dymunaswn o'm calon fod eilwaith yn faban, fel y gallasai fy nhâd fy nysgu i siarad heb y ffordd ddrygionus yma o dyngu; canys meddyliwn mai ofer oedd i mi feddwl diwygio, ac na fuasai hyn byth yn cymmeryd lle, gan fy mod wedi arferyd cyhyd â hyny. Ond pa fodd y bu, nis gwn: o hyny allan, er syndod i mi fy hun, gadawias dyngu yn hollol; ac yn flaenorol i hyny, nid oeddwn yn

* Yr oedd y gwaith olaf, o eiddo Dr. Bayly, Esgob Bangor, un amser mor boblog, fel y cafodd ei argraffu uwchlaw hanner cant o weithiau, yn yspaid can mlynedd, a'i gyfieithu nid yn unig i iaith gysefin trigolion yr esgobaeth hono, sef y Gymraeg, ond hefyd i iaith y Pwyl a'r Hungariaid.

gwybod y ffordd i siarad heb osod llŵ o flaen ac ar ol yr hyn a ddywedwn, i'w gadarnhâu; eithr wedi hyny yr oeddwn yn medru siarad yn well, a hyfrydach, nag erioed er blaen, heb roddi un llŵ."

Y dymuniad gwresog yma, yr hwn a adroddwyd mor gyffröus, a ymddangosai fel cynhyrfiad cyntaf gwir edifeirwch yn nghalon Bunyan, y fath ag oedd holl ddychryniadau cydwybod euog, hyd yn hyn, wedi methu ei genedlu. Ar y mynydyn enbyd yma o ddechreuad tröedigaeth, dygwyddodd "syrthio i gymdeithas dyn tlawd yn proffesu crefydd," yr hwn, fel y golygai efe y pryd hyny, a chwedleuai yn ddifyrus am yr Ysgrythyrau ac am grefydd; "herwydd hyn," medd efe, "gan syrthio mewn gradd o gariad a hoffder at yr hyn a ddywedai, cymmerais at fy Mibl, a dechreuais ymhyfrydu yn fawr yn ei ddarllen, yn fwy neillduol, y rhan hanesiol o hono; ond, am Epistolau Paul, a rhanau cyffelyb, nid oedd gennyf unrhyw hoffder ynddynt, gan fy mod hyn yn hyn, naill ai yn ddyeithr i lygredigaethau fy natur, neu i'm hanghen o Grist yn Waredwr, a'r gwerthfawrogrwydd o'i feddu. Herwydd hyn, ymroddais i ddiwygio mewn modd allanol, a gosodais y gorchymynion o'm blaen fel y ffordd i'r nef; y rhai hefyd yr ymdrechais i'w cadw, ac yn fy mryd fy hun, a gedwais, ambell dro, yn lled dda . . . . Fy nghymydogion oeddynt yn rhyfeddu at fy nhröedigaeth ddirfawr o'r fath halogedigaeth i rywbeth tebyg i fywyd moesol: ac felly, yn wir, y gallasent; canys yr oedd fy nhröedigaeth hwn yn o gymmaint a phe buasai gwallgof-ddyn yn dyfod i'w iawn bwyll. Yn awr, gan hyny, dechreuasant fy nghanmol, a dywedyd yn dda am danaf, yn gystal yn fy wyneb ac yn fy nghefn." Yn cael gwenieithio iddo drwy y clodydd hyn, ac yn ymfalchio yn ei dduwioldeb dychymygol, penderfynodd "nad allasai yr Hollalluog lai, yn awr, na bod yn foddlawn iddo." "Ië," medd efe, "a dywedyd yn fy ffordd fy hun, meddyliais nad allasai un dyn yn nheyrnas Loegr foddloni Duw yn well na mi."

Cafodd ei ddihuno o'r twyll hunan-gyfiawn yma, drwy glywed tair neu bedair o wragedd tlodion, y rhai a eisteddent wrth ryw ddrws yn un o heolydd Bedford, yn yr haul, mewn modd damweiniol, yn ymddiddan ynghylch pethau Duw. Cafodd sylw Bunyan ei dynu, wrth glywed iaith hollol newydd iddo ef, yr hon a glywai, ond ni ddeallai. Yr hyn yn neillduol a'i tarawodd ef oedd, eu bod yn ymddiddan "megis pe buasai rhywun yn peri iddynt siarad, ac megis pe buasent wedi cael allan fyd newydd." . . . . "Wrth hyn," medd efe, "teimlwn fy nghalon yn dechreu crynu, a dechreuais ammeu nad oedd fy nghyflwr yn dda." Pan adawodd hwynt i ddilyn ei alwedigaeth, yr oedd eu geiriau a'u hymddiddanion yn aros gydag ef, a'i galon yn trigo ar ol; "canys," medd efe, "yr oedd eu geiriau yn fy mlino i yn ddirfawr, yn gystal am fy mod wedi cael fy argyhoeddi drwyddynt, fy mod yn ddiffygiol o nodau dyn gwir dduwiol, ac hefyd am fy mod wedi canfod drwyddynt hapusrwydd a gwynfydedigrwydd cyflwr yr hwn oedd felly."

Y gwragedd tlodion yma oeddynt aelodau cynnulleidfa fechan o Fedyddwyr yn

Bedford, yr hon oedd ganddi ddyn yn weinidog, hanes grefyddol yr hwn nid yw yn llai hynod nag eiddo Bunyan ei hun. Gynt yn uwch-gadpen yn myddin y brenin, ac o'r braidd wedi diangc rhag cael ei ddihenyddio fel gwrthryfelwr, John Gifford a ddaeth yn wr dyeithr i Bedford, lle yr arferodd physygwriaeth; ar yr un pryd arweiniai fywyd pendefig. Yn afradlon ac afreolus, yn feddwyn, a chwareuydd, ac yn atgas annuwiol, coleddai y casineb creulonaf tuag at y Puritaniaid. Eto cafodd y dyn hwn, pan mewn sefyllfa o anobaith, a achlysurwyd drwy golledion wrth chwareu am arian, "ei frawychu i ystyriaeth o'i wir gyflwr," drwy gyfarfod âg un o weithion Robert Bolton; darlleniad yr hwn, mewn canlyniad i wasgfa meddwl dros rai wythnosau, a feddyginiaethodd ei feddwl a'i galon; ac wedi ymuno â chymdeithas y rhai gynt a ddirmygai fwyaf, daeth o'r diwedd yn weinidog dewisol iddynt. Oddiwrth aelodau y praidd bychan yma, y derbyniodd Bunyan egwyddorion dechreuol ei addysg efengylaidd; a pha amlaf yr elai efe i blith y bobl dlodion hyn, at y rhai y cafodd ei arwain, fel y crybwyllwyd ar y cyntaf, mewn modd mor ddamweiniol, mwyaf i gyd yr amměuai ei sefyllfa ei hun, a mwyaf i gyd y tymmerid ei galon "drwy argyhoeddiad o'r hyn, ar sylfaen y Bibl, a fynegid ganddynt." Daeth ei feddwl yn awr yn sefydlog ar dragywyddoldeb, ac i gael ei gymmeryd i fyny ymron yn hollol gan bethau perthynol i deyrnas nefoedd; ond nid oedd ei wybodaeth eto eithr yn ei mhabandod. O hyn yma yr oedd efe yn awr yn ostyngedig ymwybodol; a chafodd ei yru ar ei liniau drwy anymddiried doeth ynddo ei hun. Ynghylch y pryd yma cyfarfu â rhai o gyhoeddiadau y Ranteriaid; daliadau y rhai, yn ol darluniad Mr. Baxter, oeddynt gymmysgedd o gyfrinioliaeth y Crynwyr a'r Antinomiaeth ymarferol waethaf. Yr oedd y gweithion y cyfeirir attynt, mewn parch mawr ymhlith rhyw ddosparth arbenig; a thebyg eu bod, ar yr un pryd, yn olygus a chyfrinol; canys yr oedd Bunyan yn analluog i'w hamgyffred hwynt, mewn modd digonol, i ffurfio un farn yn eu cylch. Parodd hyn iddo ef i weddïo yn y modd difrifol a ganlyn:—"O Arglwydd, yr ydwyf yn ffol, ac yn analluog i wahaniaethu y gwirionedd oddiwrth gyfeiliornad: Arglwydd, na ad fi i'm dallineb fy hun, nac i gymmeradwyo, nac i gondemnio yr athrawiaeth: os ydyw o Dduw na oddef i mi i'w diystyru; os o ddiafol y mae, na oddef i mi i'w chofleidio." Ni chafodd gweddi o'r fath erioed ei gwrthod. Ychwanega Bunyan, "Bendigedig fyddo Duw, yr hwn a roddodd yn fy nghalon, i lefain arno ef, am gael fy nghadw a'm cyfarwyddo, ac o hyd i beidio ag ymddiried i'm deall fy hun; canys gwelais effeithiau y weddi honno, yn ei waith ef, nid yn unig yn fy nghadw i rhag cyfeiliornadau y Ranteriaid, ond hefyd oddiwrth y rhai a godasant wedi hyny. Yr oedd y Bibl yn y dyddiau hyny yn werthfawr i mi. A'r pryd yma meddyliwyf fy mod yn dechreu edrych arno â llygaid newyddion, ac yn ei ddarllen fel na ddarllenais erioed er blaen; ac, yn neilltuol, Llythyrau yr Apostolion oeddynt felus a hyfryd i mi: ac, yn wir, nid oeddwn y pryd hwnw un amser heb fod naill ai yn darllen neu yn myfyrio y Bibl; gan lefain o hyd ar Dduw, am i mi allael adnabod y gwirionedd a'r ffordd i'r nefoedd, ac i ogoniant."

Yr oedd cadwriaeth Bunyan oddiwrth y cyfeiliornadau twyllodrus a niweidiol yma yn hynottach, herwydd i'w gyfaill mynwesol, y gŵr tlawd, "ymadrodd hyfryd" yr hwn, ynghylch yr Ysgrythyrau, a'i tueddodd ef gyntaf i ddarllen y Bibl i droi oddeutu y pryd hwn, yn Ranter erchyll; ïe, mewn gwirionedd, yn ol yr hanes am dano, yn atheist a phenrhydd hollol. Gan arswydo wrth ei egwyddorion halogedig, torrodd Bunyan yn hollol bob cyfrinach âg ef. Ond syrthiodd hefyd i gymdeithas amryw ereill, y rhai, er eu bod cyn hyny yn fanwl mewn crefydd, a lithiwyd hefyd gan y Ranteriaid, ac a ymdrechasant ddefnynu eu hegwyddorion peryglus i feddwl anniwylliedig y newyddian hwn yn y ffydd. Er iddo ddiangc o'r fagl, cafodd ei aflonyddu, dros dymmor hirfaith, â'r ammheuon terfysglyd, y dadleuon Ysgrythyrol, a'r anhawsterau ymarferol, sydd yn amgylchu llwybr ymofyniad crefyddol, ar hyd yr hwn yr oedd efe, dan balfalu, yn ymlwybro wrth ei hun. Wedi ei gylch-arwain gan y diafol a'i anwybodaeth ei hun, yr oedd efe weithiau mewn dyruswch, heb wybod beth i'w wneuthur. Ni feddai un cyfaill i ymgynghori âg ef, un arweinydd ysprydol i'w gyfarwyddo ar yr uniawn. Tra yr oedd yn y sefyllfa yma o ran ei feddwl, cafodd hapusrwydd y bobl dlodion yn Bedford, ei osod o'i flaen mewn math o weledigaeth, neu freuddwyd, tra yr oedd naill ai yn syn-fyfyrio, neu yn pendrymu, rhwng cysgu ac effro, fel y mae y trallodedig ei feddwl, yn fynych, mewn modd diarwybod iddo ei hun. Gan nad pa un ai breuddwyd neu syn-fyfyrdod oedd, gadawodd argraff ddwys ar ei ol; ac ynddo, golyga Dr. Southey, "y gellir canfod, mewn modd eglur, flaen-darddiad Taith y Pererin:" ond, oni ellir dywedyd yn hytrach, "blaen-darddiad y dychymyg, yr hwn, wedi hyny, oedd i addfedu mewn athrylith." "Gwelais hwynt," medd Bunyan, "fel pe buasent ar ochr rhyw fynydd uchel yn ymgynhesu yn hyfryd belydr yr haul, tra yr oeddwn i yn crynu a sythu yn yr oerni, y rhew, yr eira, a'r niwl dudew. Meddyliais hefyd fy mod yn gweled rhyngof fi a hwythau fûr, yr hwn oedd yn cylchynu'r mynydd. Drwy y mûr yma yr oedd fy enaid yn dirfawr awyddu myned, am y golygwn, pe gallaswn hyny, yr aethwn innau hefyd i'w canol, ac yr ymgysuraswn yn ngwres eu haul hwynt. Tybiaswn fy mod yn myned oddi amgylch y mûr yma drachefn a thrachefn, gan yspio, wrth ei amgylchu, am ryw ffordd neu adwy i fyned drwyddo; ond ni ellais, dros beth amser, ganfod un. O'r diwedd canfyddwn fwlch cul, fel rhag-ddor, yn y mûr, drwy yr hwn y cynhygiais fyned. Gan fod yr adwy yn gyfyng a chul, gwnaethum amryw gynhygion i fyned drwyddo, hyd nes fy mod bron wedi cwbl ddiffygio wrth ymdrechu er nad oeddwn ronyn nes i gyrhaedd fy amcan. O'r diwedd, wrth ddirfawr ymdrechu, tybiwn i mi yn nghyntaf allael cael fy mhen drwyodd, ac yna drwy ymwthio ar fy lled-ochr fy ysgwyddau a'm holl gorph. Mewn canlyniad, teimlwn fy hun yn hynod ddedwydd, aethum ac eisteddais yn eu mysg hwynt, ac felly cefais fy lloni â goleuni a gwres eu haul hwy. Yn awr, cafodd y mynydd hwn, y mûr, &c., eu hegluro i mi yn y modd canlynol:—Y mynydd a arwyddai eglwys y Duw byw; yr haul a dewynai arno, llewyrchiad hyfryd ei wynebpryd trugarog ar y rhai oeddynt ynddi; y

mûr oedd y Gair, yr Lwn a ranai rhwng Cristionogion a'r byd; a'r adwy yn y mûr, debygswn i, oedd Iesu Grist, yr hwn yw'r ffordd at Dduw'r Tad . . . . Ond yn gymmaint a bod yr adwy yn hynod gul, mor gul fel nas gallaswn fyned drwyddi, eithr gydag anhawster mawr; yr oedd hyn yn dangos i mi nad eill neb fyned i'r bywyd, ond y rhai sydd yn wir awyddus, ac hefyd yn llwyr gefnu ar y byd drwg presennol; canys nid oedd yma le eithr yn unig i'r corph a'r enaid, ac nid i'r corph a'r enaid a phechod."

Arosodd y cyffelybrwydd yma ar ei feddwl ef "amryw ddyddiau," gan gynhyrfu ynddo "ddymuniad cryf am fod yn un o'r rhai a eisteddent yn nhywyniad yr haul." Eto ymddengys iddo fod fwy na blwyddyn cyn gallael cymmeryd calon i amlygu sefyllfa ei feddwl i'r bobl dlodion hyny yn Bedford. Pan y gwnaeth felly, arweiniasant ef at eu hathraw, yr hwn a wahoddodd Bunyan i'w dŷ, ac a ymddiddanodd ychydig âg ef, ond eglur yw nad oedd efe yn ddigon craffus i ddarganfod cymmeriad y gwr hynod a ddygwyd yn y modd yma i'w sylw. Yn y cyfamser, ac yn hir wedi yr ymweliad hwn, meddwl Bunyan, wedi ei adael i'w anrheithio ei hun, a orchuddiwyd â'r ing ysprydol dyfnaf. Gweithrediadau ei feddyliau, tra parhaodd y profiad tanllyd yma, o ba un y rhoddodd efe ddarluniad mor fywiog, oeddynt yn ddiau o'r cymmeriad afiachus hwnw ag y mae pryder hirfaith a chyffröadau nerthol yn dueddol i'w argymmeryd, pan y dechreuo y meddwl effeithio ar y cyfansoddiad corphorol, ac effethiau anianyddol i wrth-ergydio ar weithrediadau y meddwl. Y mae y Dr. Southey wedi ewyllysio darlunio y radd yma o brofiad Bunyan, fel "penboethder cynneuol a phoeth," dros yspaid yr hwn "yr oedd efe yn cael ei siglo yn ddidor, gan bangau poethion ac oerion cryd ysprydol." Bod ei ddychymyg "wedi ei weithio i sefyllfa o gyffröad, yn yr hwn yr oedd ei rithiau hunan-ffurfiedig ef yn ymddangos mor fyw a phe buasent yn sylweddau gwirioneddol, ac yn effeithio yn fwy nerthol arno nag argraffiadau oddiwrth bethau gweledig, sydd eglur," ac yn hawdd i'w ganiattau. Ond nid oedd dim gwneuthuredig yn nheimladau Bunyan, dim afresymol yn ei ofalon, dim penboeth yn ei gredo. Os cafodd gweithrediad pwyllog ei ddeall, yr hwn nid oedd wedi ei gadarnhâu yn ddigonol â gwybodaeth grefyddol, ei orchfygu, dros dymmor, gan weithrediad afiachus ei ddychymyg, nid yw yr effaith naturiol yma o deimladau wedi eu cynhyrfu yn ormodol drwy achos sylweddol a rhesymol, i'w cyfrif ymhlith camsyniadau synwyr wedi dyrusu. "Lle na byddo un camsyniad o eiddo y dychymyg, un camgymmeriad ynghylch sylweddau gwirioneddol, un cyfrifiad afresymol, nid oes yno," fel y sylwiodd ysgrifenydd athronyddol, (Hanes Anianyddol Penboethder, t. d. 7,) "ddim penboethder, er i'r enaid fod ar dân drwy gyflymdra ei symmudiad wrth erlyn ei wrthrych dewisol." Os yw y darluniad hwn o'r gair yn gywir, ni bu Bunyan erioed yn benboethiad; ac y mae ei wrthwynebiad i olygiadau penboeth y Ranteriaid yn brawf diamheuol o hyny. Yn ol golygiad y Dr. Southey, cafodd y llwyth gorthrwm hwnw o drallod meddwl, "cyfartal o ran ei bwysau â'r baich oedd yn gorwedd ar ei Gristion ef pan ddechreuodd ei bererindod," ei osod ar enaid Bunyan drwy gam-olygiadau mwyhaol,

ynghylch llygredigaeth y natur ddynol. Ond nid oes dim yn yr adroddiad, nac yn effaith na thuedd ymarferol y golygiadau a dynodd Bunyan o'r Ysgrythyrau, y rhai oeddynt brif a bron unig ffynnonell ei wybodaeth, yn cefnogi y cyfryw olygiad. Nis gallasai yr ystyriaeth "o lygredigaeth mewnol a gwreiddiol," yr hwn a effeithiodd y fath hunan-ffieiddiad a digalondid dychrynllyd, gael ei achosi drwy unrhyw dybiaeth athrawiaethol, gywir nac anghywir, eithr y cyfryw argraff ar yr yspryd ydoedd, ag nad eill neb ond y meddwl archolledig yn unig ei amgyffred, na neb ond yr Hwn a wnaeth yr yspryd ei feddyginiaethu. Y mae gwreiddyn y cyfryw deimladau yn gorwedd yn ddyfnach yn y natur ddynol, nag y gall athrawiaeth y byd hwn ei gyrhaedd. Ond pan yr ydym yn cael cyffelyb deimlad yn gafaelu yn meddyliau y gŵr santaidd o wlad Uz, a'r seraphaidd Esay, tan ystyriaeth o'r purdeb a'r mawrhydi Dwyfol, yn sicr, y mae yn ddoeth i ni betruso cyn priodoli trallod meddwl o'r fath a nodwyd, mewn modd byrbwyll, nac i dybiau penboeth a chyfeiliornus, nac ychwaith i afiechyd anianyddawl. Nid yw anobaith, mae'n wir, yn gyson â sefyllfa iachusol y meddwl; ac y mae gwan-obaith ysprydol yn anghyson â golygiadau cywir am yr efengyl, yr hon sy'n gwahardd anobeithio am Ddwyfol drugaredd. Nid yw crefydd yn achosi anobaith mwy nag anghrediniaeth, neu mwy nag y mae goleuni yn achosi dallineb. Gellir caniattau, pa fodd bynag, fod y cyfryw sefyllfaoedd meddwl, yn wendid meddylaidd a moesol. Y mae gwasgfa meddwl, os goddefir yr ymadrodd, yn achosi siglad amserol y farn, ac y mae y galon yn ymboeni dan bwys hunllef arswydus. Nid ydym yn cymmeryd i mewn yr ystyriaeth pa mor bell y dichon y meddwl, yn y cyfryw amgylchiadau, fod yn cael ei effeithio oddi allan iddo ei hun, ac y dichon awgrymiadau allanol ychwanegu at ddychryn ac anesmwythder yr yspryd. Ond nis gallwn ymattal rhag sylwi fod y cyfryw gyfnodau o dywyllwch ac aflonyddwch meddwl, os nad ydynt i'w golygu fel gweinyddiadau union-gyrchol, yn cael eu goddef a'u goruwch lywodraethu, yn aml, i ddybenion moesol-ddisgyblaeth. "Dyoddefodd" yr Iachawdwr ei hun, "gan gael ei demtio." Yn y goleu yma y mae yn addas ystyried profiad crefyddol Bunyan. Goddefwyd iddo, dros dymmor, i ymdrechu wrtho ei hun, yn y tywyllwch, fel y byddai iddo ddyfod allan o'r ymdrech, yn gryfach a gwell dyn. Yn ngeiriau beirniad galluog, yr hwn y cyfeiriwyd yn flaenorol ato, "Yspryd Duw oedd ei ddysgawdwr; disgyblaeth ysprydol oedd gwir ddisgyblaeth ei ddealltwriaeth; a ffynnonellau ei nerth ysprydol oeddynt yr ymdrechion a ddioddefodd ei enaid â galluoedd y tywyllwch."* Tra parhaodd y profiad llym yma, cafodd, fel y dywed ei hun, mewn modd grymus, "ei dywys gan Dduw o'r naill wirionedd i'r llall; canys ni bu neb erioed yn llai

* North American Review, No. lxxix. Art. Southey's Life of Bunyan. "Tueddir ni i feddwl," medd yr Adolygydd, "nad oedd Southey a'i holl dalentau yn alluog i brisio cymmeriad o'r fath uniondeb a gwreiddioldeb ag oedd Bunyan, nac i wneud cyfiawnder â gweithrediadau ei feddwl ef. Pe dywedasai fod Yspryd Duw yn parottoi Bunyan, drwy y ddisgyblaeth erwin hon, i ddanfon Taith y Pererin allan i'r byd, y gwirio edd a'r athronyddiaeth oreu fuasai hyny

dyledwr i ddynion am addysg." Yr hyn a ddysgodd ereill drwy lyfrau, a sillebodd ac a gyssylltodd efe, drwy gynnorthwy y Bibl ei hun, a'r nefol oleuni yr hwn a lewyrchodd i'w enaid tywyll. Trwy y gweithrediad meddwl yma, cafodd ei addysgu; a'r drel garw, afreolus, anwybodus, annuwiol hwn, a gafodd ei ddull-newid yn gyffelyb i'w bererin, yr hwn, wedi iddo ddyfod allan o Gors Anobaith, a gollodd ei bwn a'i garpiau wrth droed y Groes.

Pan oedd ar ddyfod allan o'r profedigaethau hyn, dygwyddodd cyfieithiad o Esponiad Luther ar y Llythyr at y Galatiaid, i syrthio i'w ddwylaw; hen lyfr, parod i fyned yn ddarnau yn ei law, wrth droi ei ddail. Nid oedd wedi darllen fawr o hono, cyn iddo ganfod ei gyflwr ei hun "wedi ei drin yn helaeth a dwys ynddo," a'i brofiad ei hun yn cael ei ddarlunio mor gywir ar ei ddalenau, fel yr ymddangosai iddo "fel llyfr wedi ei ysgrifenu allan o'i galon ef." Y cyfryw lyfr yr oedd efe wedi hir ddymuno am ei weled; a thros yr amser hwnw, gadawodd yr effaith fwyaf hyfryd ar ei feddwl. Wrth ysgrifenu ei hanes ei hun, yn hir ar ol hyny, y mae yn tystiolaethu ei fod yn golygu gwaith Martin Luther yn rhagorach na dim a welodd efe ond y Bibl, ac "yn addasach i gydwybod archolledig." Y mae Mr. Southey yn golygu fod cyffelybrwydd i'w ganfod rhwng meddwl tanllyd a grymus Luther ac eiddo Bunyan. "Fel Luther, dyoddefodd Bunyan arteithiau anghrediniaeth, ac ofn marwolaeth; ac, yn ol ei grêd ei hun, bu mewn ymdrech â'r gelyn." Ond yma y mae y cyffelybrwydd yn dechreu ac yn diweddu. Yr oedd y ddau yn wŷr o ddychymyg cryf, ond o yspryd hollol groes, ac ansawdd meddwl cwbl wahanol.

Yr hyder disigl a'r tawelwch digwmmwl ag yr oedd Bunyan wedi eu cyrhaeddyd yn awr, nid oeddynt o hir barhâd; ac y mae y Dr. Southey yn cyfrif y sefyllfa meddwl i ba un yr adlithrodd, nid heb reswm, megis "y rhan hynottaf o'i hanes." Syrthiodd i brofedigaeth bron ddigyffelyb, yr hon, fel y sylwa ei Fywgraffydd dysgedig, "y gallasai yn hawdd ei chyfrif y fwyaf anhyfryd ac arswydus, o'r holl rai a ddioddefodd yn flaenorol: profedigaeth i werthu ac ymadael â Christ—i'w gyfnewid am bethau y bywyd hwn—am unrhyw beth." Dros yspaid blwyddyn, blinwyd ef gan yr awgrymiad hynod a phoenus yma; a hynny hefyd mor gyson, fel nad oedd yn rhydd oddiwrtho, oddigerth pan yn cysgu, un diwrnod mewn mis, nac, ambell i waith, un awr dros amryw ddiwrnodau olynol. Y fath yw adroddiad Bunyan ei hun, yr hwn sy'n priodoli yr awgrymiad i ddylanwad union-gyrchol y temtiwr; ac yn darlunio yr ymosodiadau olynol a wnaethpwyd arno gan y gelyn, mewn iaith mor fywiog, fel nas gallwn lai na meddwl, wrth ei ddarllen, am ei ddarluniad ef o ymdrech gyffelybiaethol Cristion âg Apolyon.

Y mae gorchwyl bywgraffydd, pan yn cyfeirio at sefyllfa meddwl Bunyan yn yr amser yma, yn orchwyl tra chynnil, gan ei fod yn ei rwymo i gyffwrdd âg amryw ddirgeledigaethau anolrheinadwy. Y mae ffynnonell ein meddyliau o anghenrheidrwydd yn wastadol allan o'r golwg. Gŵyr pawb eu bod yn gyffredin yn ddarostyngedig i gyfraith

cymdeithasiad; ac y mae hyn yn ddiamheuol yn cymmeryd lle yn fynych, mewn amgylchiadau, ymha rai, nas gellir canfod y ddolen-gydiol. Ond weithiau bydd i olygiad bresennu ei hun yn holl effeithioldeb awgrymiad estronol, ef allai, wedi ei wisgo â geiriau anadnabyddus i'r meddwl; yn gyffelyb i gyfeillachau breuddwydiol, yn y rhai y mae pob wyneb yn ymddangos yn ddyeithr i ni. Dan deimladau cyffredin, nid ydym yn trafferthu i ymofyn am darddiad y cyfryw olygiadau, eithr y maent yn dyfod ac yn myned ymaith, heb adael eithr ychydig neu ddim argraff ar eu hol. Gall yr awgrymiad drychioliaethol fod yn ysgafn neu chwerthinus. Ond y mae y rhan amlaf o ddynion meddylgar yn adgofus o amgylchiadau, ar ba rai yr oedd gweithrediadau ac amgylchiadau o'r pwys mwyaf iddynt hwy eu hunain, yn troi, ar ryw olygiad a saethodd i'w meddwl, ef allai, mewn modd disymmwth a bywiog anghyffredinol. Y fath ddygwyddiad meddwl, ni fyddai dyn duwiol yn llai parod i'w briodoli i ragluniaeth oruwch-lywyddol ac oll-dreiddiol Duw, nag un rhyw amgylchiad allanol cyffelyb; ac, yn yr olwg yma, nid yw yn gwneud un rhyw wahaniaeth pa un a olygom y cyfryw feddyliau megis yn deilliaw oddiwrth weithrediad naturiol adfyfyrdod, neu yn cael eu cyfranu i'r enaid. Y dynion hyny, pa fodd bynnag, y rhai a addefant "i fod pob dymuniadau santaidd a bwriadau daionus yn deilliaw oddiwrth Dduw," ydynt yn rhwym o gredu fod ein meddyliau a'n calonau yn agored i ysprydoliaeth gyffredin, mor sylweddol, os nad mor ddirgelaidd o ran dull ei dylanwadiad arnom, ag oedd ysprydoliaeth anghyffredin a chyfiawn y prophwydi a'r apostolion pan yn llefaru ac ysgrifenu "megis y cynhyrfid hwynt gan yr Yspryd Glân." Heblaw hyny, y mae'r Ysgrythyrau Sanctaidd, nid yn unig yn cynnwys addewid o'r gyfryw ysprydoliaeth nefol fel ffynnonell doethineb a chysur, ond hefyd y maent mewn modd tra eglur yn awgrymu fod drwg-feddyliau, nid yn unig yn ffrwyth naturiol y galon ddynol, ond hefyd, weithiau, yn effaith ysprydoliaeth o gymmeriad drygionus ac adwythig. Priodolir cenedliad pechod yn meddwl Judas ac Ananias, mewn modd pendant i ddylanwad Satanaidd yn gweithredu ar y galon, a hyny mewn hollol gysondeb â dynol ddarbwylliad ac ymwybodaeth o gyfrifoldeb. Nid oedd un trais yn cael ei weithredu ar y meddwl, yn un o'r ddau amgylchiad, mwy nag mewn breuddwydion anhyfryd, neu y dylanwadau cymdeithasol sydd yn wastadol yn llywyddu ac yn cyflunio ein meddyliau a'n gweithrediadau, effeithiolaeth gweithredol pa rai nis gallwn mwy ei arddangos nag y gallwn eiddo'r awyr ar ein synhwyrau corphorol; ac, oherwydd hyny, rhaid ei fod yn beth anmhosibl gwahaniaethu rhwng gweithrediad naturiol y meddwl a'r ysprydoliaeth ddaionus neu ddrygionus, eithr drwy weithrediad adfyfyriol y meddwl. Y mae amryw ddynion o dymher benboeth, yn ddiammeu, wedi priodoli, mewn modd cyfeiliornus, gyrbwylliadau naturiol eithr anadnabyddus eu meddyliau eu hunain, i ddylanwad estronol; yn neillduol, pan oedd y meddwl ei hun mewn sefyllfa afiachus. Y mae yr anmhosiblrwydd darganfod ffynnonell wirioneddol meddyliau afiachus, yn cael ei ddarlunio mewn modd ardderchog gan Bunyan ei hun, na'r hwn nid oedd neb yn addasach i'r gorchwyl.

gan nas dioddefodd neb, ysgatfydd, fwy nag efe oddiwrth y cyfryw deimladau mewnol. Wrth ddarlunio Cristion yn croesi Glyn Cysgod Angau, lle y cafodd y Pererin "ei boeni yn waeth nag yn ei ymdrech âg Apolyon,"—gan gyfeirio yn eglur at yr hyn a ddioddefodd ef ei hun gwedi ynnill y fuddugoliaeth ar y brofedigaeth i anffyddiaeth,—dywed Bunyan: "Ni chwennychwn ollwng un peth i golli. Cymmerais sylw fod Cristion druan wedi ei frawychu gymmaint, yn awr, fel *nad adwaenai lais ei hun;* ac yn y modd yma y canfyddais hyny. Yn union pan ddaeth gyferbyn â genau y pydew llosgedig, daeth un o'r rhai drwg o'r tu ol iddo, gan gerdded yn ddistaw tuag atto, a sibrwd amryw gyrbwylliadau cableddus wrtho, y rhai yn ei fryd ef a ddeilliasant o'i galon ef ei hun. Parodd hyn fwy o flinder i'r Cristion na dim a gyfarfu er blaen, meddwl iddo yn awr gablu un a garodd yn flaenorol gan gymmaint; eto, pe gallasai beidio, ni fuasai yn gwneud hyny; ond nid oedd ganddo ddigon o synhwyr, nac i gau ei glustiau, nac i ganfod o ba le yr oedd y cableddau wedi dyfod."

Gan nad allasai Cristion, pa fodd bynnag, gyrhaedd sicrwydd o hyn drwy ddim yr oedd efe yn wybodus o hono ar y pryd, rhaid oedd i'r wybodaeth mai oddiwrth gyrbwylliadau yr un drwg yr oedd y cableddau poenus yma wedi deilliaw, i gael ei chyrhaeddyd yn unig drwy gasgliad oddiwrth eu cymmeriad drygionus a'u gwrthwynebiad i'r meddwl. Ond, er y dichon gwybodaeth a gyrhaeddir drwy gasgliad, fod mor sicr a'r un ddeilliedig oddiwrth ymwybodaeth, y mae rhyw le, yn yr amgylchiad dan sylw, i ammeu cywirdeb y casgliad. Oddi eithr i ni fod yn barod i ddadlu, fod i'r holl feddyliau drwg sy'n codi yn y meddwl, ac eto sy'n wrthwyneb i'r teimladau a'r farn, ac yn cael eu condemnio a'u gwrthod gydâ ffieiddiad, ryw ffynnonell heblaw y dychymyg, ac nad eill y meddwl fod yn awdwr neb rhyw feddyliau sydd yn ei effeithio â'r cyfryw deimlad o wrthwynebiad ac atgasrwydd, ac o ba rai y dymunai ryddâu ei hun,—oddieithr, hefyd, fod breuddwydion anhyfryd, croes i rediad y meddwl pan y byddo'r corph yn effro, yr un modd i gyfrif am danynt yn unig drwy ryw weithrediad allanol a goruwch-naturiol,—y mae yn anghenrheidiol i ni wrth ryw amgenach rheswm dros briodoli meddyliau drwg a chableddus, mewn un rhyw amgylchiad arbenig, i ysprydoliaeth Satanaidd, na'u cymmeriad atgas.

Y gallant ddeillio o'r ffynnonell hon, sydd yn eithaf posibl. Ond, er hyny, y mae eu gwrthwynebedd i feddwl eu deiliad, ynddo ei hun, yn rheswm golygus yn erbyn y dybiaeth. Y mae pob ysprydoliaeth nefol yn gydrywiol â chymmeriad santaidd y rhai oeddynt yn dderbynwyr o honi, ac yn offerynau trosglwyddiad ei chynhwysiad i ereill; a chan belled y mae yr Ysgrythyrau yn rhoddi goleuni ar y pwngc mewn dadl, gellid barnu fod dylanwad Satanaidd, yr un modd yn gydrywiol â chymmeriad ei ddeiliad; ei fod, ymhob amgylchiad, yn gynhyrfiad *cydunol,* heb fod nac yn dreisiol na gwrthwynebol. Gellid dadleu i'n Harglwydd bendigedig ei hun gael ei demtio â chyrbwylliadau Satan; ond yr oedd y rhai hyny, ar yr un pryd, oddifaes i'w feddwl ef, ac yn gyfryw ag oeddynt yn cyfranogi o ansawdd annogaethau rhesymol i weithrediadau arbenigol. Yr oedd

grym y demtasiwn yn gorwedd yn rhesymoldeb ymddangosiadol y cyngor dichellgar, ac yn nerth yr annogaethau; a lle nad oes unrhyw appeliad at annogaethau rhesymol, nis gall fod yno un demtasiwn. Yn sicr, nis gall dim fod yn fwy anmhosibl, na chymmysgu, dan yr un enw cyffredin, ddrychiolaethau moelion y dychymyg, â ffeithiau sylweddol yr hanes efangylaidd.

Gwir yw, fod Bunyan, yn ei hunan-fuchdraethiad, yn darlunio y meddwl erchyll, ond afresymol, ag oedd yn feunyddiol yn rhedeg drwy ei enaid, yn "demtasiwn;" ond, pa le yr oedd yr abwyd? Pe buasai gobaith am ryw fantais fydol yn cael ei ddal allan o'i flaen, ar yr ammod iddo ymwrthod â'i gred, neu fod yn anffyddlon i'r Iachawdwr; pe buasai efe, yn ngwyneb gwawd y byd, neu erledigaeth danllyd, yn cael ei dueddu i wadu'r ffydd; neu pe buasai rhyw elw anghyfiawn o hyd cyrhaedd iddo, pan yn ymdrechu âg angeu;—buasai yno demtasiwn. Ond, yn yr amgylchiad dan sylw, yr ymosodiad, y cyrbwylliad, y cydsyniad ymddangosiadol, â'r cabledd ffieiddiedig, oeddynt oll mewn dychymyg, heb un annogaeth, ac yn wrthwyneb i reswm. Y ddioddefaint a'r cyfyngder yn unig oeddynt yn sylweddol; ac yr oedd y rhai'n yn cyfansoddi profedigaeth o'r fath lemaf, disgyblaeth o'r natur erwinaf; dra chyffelyb i'r hyn a allasai gymmeryd lle mewn unrhyw amgylchiad arall cyffelyb o flinder corph neu feddwl.

Nid ydym, gan hyny, yn canfod un rheswm dros wadu, nad oedd y sefyllfa yn yr hon y bu Bunyan yn ymdrybaeddu yn cyfodi oddiwrth anhwylder gweithrediad y dychymyg, yr hwn sydd yn effaith gyffredin cynhyrfiad anghymmedrol. Nid oes un arwydd sicrach o anhwylder corphorol, na bod y rhanau dolurus yn gweithredu yn groes i'r modd y gweithredent yn eu sefyllfa naturiol ac iachus. Sylwyd fod rhywbeth cyffelyb i hyn yn cymmeryd lle mewn amgylchiadau o anhwylder meddwl. Y mae'n hawdd gweled, gan hyny, y dichon meddwl anhwylus genedlu golygiadau arswydus, afresymol, atgas, y rhai, oherwydd hyny, sydd yn fwy arosol, ac aflywodraethus, yn ymsefydlu yn y côf drwy'r boen y maent yn roddi, ac yn cymmeryd meddiant o'r dychymyg megis â phresennoldeb sylweddol. Gwyddus fod hyn yn cymmeryd gweithredol le, mewn amgylchiadau o wallgofrwydd cyflawn. Ond y mae amgylchiadau o anhwylder perthynol i'r cyfansoddiad dynol, y rhai nid ydynt yn cyrhaedd sefyllfa o wallgofrwydd cyflawn; yn y rhai y mae'r dychymyg yn anhwylus, er nad oes syfrdandod yn dygwydd; yn y rhai y mae tybiau direswm yn gafaelyd yn y meddwl, er na byddo'r dealltwriaeth dan un attaliad; yn y rhai y mae argraffiadau croes i'r ewyllys, ond nid penderfyniadau, yn cymmeryd lle. Yn y cyfryw amgylchiadau, y rhai ydynt, mewn modd eglur, i'w gwahaniaethu oddiwrth wallgofrwydd, er mor agos y gallant fod yn dyfod ato, byddai gweithrediad anhwylus y meddyliau, y fath a ddarlunir gan Bunyan, yn effaith achosion naturiol. Pa mor bell y dichon anhwylder corphorol, ac yn neillduol anhwylder y meddwl, fod yn effaith dylanwad maleisus y bod *hwnw* i'r hwn y priodolai Bunyan ei "demtasiwn," sydd bwngc arall. Y mae hanes y Patriarch Job, a rhai cyrbwylliadau ereill yn y gyfrol santaidd,

wedi tueddu amryw wŷr dysgedig a duwiol i gredu, fod Duw yn caniattau i'r ysprydion drwg i fod yn offerynau i boeni dynion nas medrant eu niweidio, mewn ystyr foesol, drwy eu temtio yn effeithiol i bechu. Wrth wrthod priodoli rhyfeddodau sy'n alluog o ddeongliad mwy syml, a'r rhai y mae o gymmaint pwys i'w gwahaniaethu oddiwrth yr ymdrech foesol ag y gelwir pob Cristion iddi, â hudoliaethau'r byd a themtasiwnau'r prif elyn, nid ydym yn caniattau dim i'r anffyddiwr.

"Pe buasai Bunyan wedi llyngcu y goel-grefydd Babaidd," medd Dr. Southey, "gallasai gystadlu â P. Dominic y Cuirassier, neu y Jesuaid Joan d'Almeida, fel poenydiwr ei gorph truenus ei hun." Ond ni bu Bunyan erioed yn hunan-boenydiwr; ei feddwl ydoedd rydd oddiwrth goel-grefydd; a'r golygiadau iachus a gofleidiasai efe o'r athrawiaeth Gristionogol, ac wrth ba rai y glynodd drwy brawf hirfaith o ddioddefiadau, oeddynt, ar yr un pryd, yn ardystio iachusrwydd ei farn, ac yn ei diogelu. Dros y ddwy flynedd a haner a dreuliodd efe bron mewn cynhyrfiad a digalondid gwastadol, yr Ysgrythyrau oeddynt unig falm ei yspryd cystuddiedig; ac ymysg y manteision a ynnillodd drwy y "temtasiwn" hwn, y mae efe yn cyfrif iddo "gael ei wneyd yn fwy adnabyddus o natur yr addewidion" nag erioed o'r blaen. "Yr Ysgrythyrau hefyd oeddynt ryfeddodau i mi: canfyddais mai allweddau teyrnas nefoedd oeddynt eu gwirionedd a'u ffyddlondeb . . . . Canfyddais yn awr mai yr apostolion oeddynt henuriaid y ddinas noddfa. Y rhai yr oeddynt hwy i'w derbyn i mewn, oeddynt i gael eu derbyn i fywyd; ond y rhai a gauent hwy allan, oeddynt i gael eu gosod i farwolaeth gan ddialydd y gwaed . . . . Gwae fydd i hwnw y gogwyddo yr Ysgrythyrau i'w erbyn." Tueddwyd ef, yn y modd yma, i chwilio'r Bibl, ac i aros arnynt gydâ theimlad mor ddwys-ddifrifol nad allasai unrhyw benderfyniad o eiddo meddwl llai awyddus ei beri. "Os nad ydym," medd Dr. Southey, "yn cael dim o'r iaith wresog, yn ngweithion ereill Bunyan, yn neillduol, yn y dernyn hwnw sydd wedi anfarwoli ei enw, yn yr hon y cofnodwyd ei gyfaddefiadau a'i hunan-ymchwiliadau ef,—dim o'r 'ymadroddion sy'n per-arogli ac yn llosgi,'—dim o'r teimladau, yn y rhai y mae y darllenydd yn cyfranogi gan belled ag i gael ei aflonyddu a'i gythryblu ganddynt,—eto yr ydym yn canfod, yn y rhai hyn, y modd y cyrhaeddodd efe y fath gydnabyddiaeth hollol a charuaidd â'r Ysgrythyrau, ag sydd yn amlygedig ynddynt.'

Byddai hyd y nod y cyfansoddiad cryfaf yn debyg o roi ffordd dan effeithiau y fath gynhyrfiad a chystudd meddwl hirfaith; ac fel y mae'r meddwl yn gwella mewn cywair, nid peth anarferol fod y corph yn dechreu dangos arwyddion o'r niwed rhwydawl. Yn fuan wedi i Bunyan gyrhaeddyd sefyllfa meddwl ddedwyddach, a chael ei dderbyn yn aelod o'r gynnulleidfa yn Bedford, dan ofal gweinidogaethol Mr. Gifford, dechreuodd arwyddion o afiechyd ysgyfeinaidd ymddangos ynddo. Cafodd ei ddarostwng yn ddisymmwth i'r fath sefyllfa o wendid drwy gynnydd heinyf yr arwyddion hyn, fel y tybiodd nas gallasai fyw. Y cymmylau a ddychwelasant, ac a orchuddiasant ei feddwl ef drachefn;

eithr cafodd ei gyffroi o'i ddigalondid yn ebrwydd drwy lais yr Ysgrythyr, ac ofn marwolaeth a ddiflanodd o flaen sicrwydd o rad drugaredd Duw. "Yn awr," medd efe, "yr oedd angau yn ymddangos yn hawddgar a phrydferth i mi; canys gwelais nad allasem fyw mewn gwirionedd, nes myned i fyd arall. Oh! meddwn i, nid yw y bywyd hwn amgen hun mewn cymhariaeth i'r un uchod. Y pryd yma, hefyd, gwelais fwy yn y geiriau hyn, 'Etifeddion Duw' (Rhuf. viii. 17), nag a fedraf adrodd tra fyddwyf yn y byd hwn." Dro arall, pan oedd yn glaf a gwan iawn, y geiriau, "O angau pa le mae dy golyn?" &c. (1 Cor. xv. 55,) a ddisgynasant mor rymus ar ei feddwl, fel, "yr iachaodd ei gorph a'i feddwl ar unwaith;" ei afiechyd a giliodd yn ddisymmwth, ac "efe a aeth ymlaen, eilwaith, yn gysurus, yn ngwaith ei Dduw." Y mae y cyssylltiad agos rhwng dychweliadau y prudd-der meddwl a'r gwendid corphorol yma, yn eglur oddiwrth ei hanes ef ei hun; ond nid oes dim hynod yn ngwelliant anhwylder corphorol drwy foddion moesol. Y mae llawenydd yn adfywiad grymus i'r ysprydoedd anifeiliaidd; ac y mae hyn, yn neillduol, yn wirionedd yn mherthynas i lawenydd ysprydol.

Derbyniwyd Bunyan yn aelod o eglwys y Bedyddwyr yn Bedford, yn y flwyddyn 1653, pan yr oedd yn bump-ar-hugain oed. Bu farw y gweinidog, Mr. Gifford, yn 1655. Ymddengus i'r eglwys, cyn ei farwolaeth ef, i gymmell Bunyan yn llwyddiannus, unwaith neu ddwy, i roddi gair o gynghor i'r aelodau mewn cyfarfodydd anghyoedd. Ar ol hyny, tueddwyd ef, yn achlysurol, i fyned gyda rhai o honynt, i'r pentrefi cylchynol, i gynghori; "ymha lefydd," medd efe, "er nas gellais, ac nas beiddiais, arfer fy nawn eto mewn modd cyhoeddus, er hyny, pan ddeuwn i blith pobl dda y llefydd hyny, rhoddwn, weithiau, air o gynghor iddynt hwythau hefyd, mewn dull mwy dirgel. Yn cael fy nghymell yn barhaus gan yr eglwys, cefais, o'r diwedd, ar ol gweddi ddwys ac ympryd, fy ngalw allan yn fwy neillduol, a'm trefnu i bregethu'r gair yn fwy cyffredin a chyhoeddus, nid yn unig ymhlith y rhai oeddynt eisoes wedi credu, ond hefyd i gynnyg yr efengyl i'r rhai, hyd yn hyn, nid oeddynt wedi derbyn ei thystiolaeth hi." Nis gellir cyhuddo Bunyan o ymwthio i gyhoeddusrwydd, nac o ymaflyd yn rhyfygus yn swydd athraw. Ymosododd ar yr ymarferiad prawfiadol "o'i ddawn mewn modd cyhoeddus," gyd â gwylder ac ofn; ac yn raddol yn unig y cyrhaeddodd yr ymwybodaeth hôno o'i gymhwysderau ag a'i tueddodd i gredu iddo gael ei alw at y gwaith. Ac, yn hyn, yn gystal a phethau ereill, nid ymfoddlonai heb sicrwydd fod ei ymddygiad yn gyson â chyfarwyddiadau gair Duw; a phennododd yr adnodau hyny, o'r Testament Newydd, a'i tueddodd ac a'i calonogodd ef i gydsynio â dymuniadau ei gyfeillion duwiol, yn yr achos tan sylw, sef, 1 Cor. xvi. 15, 16. Act. viii. 4; xvii. 24, 25. 1 Pedr iv. 10. Rhuf. xii. 6. 2 Cor. ii. 2: ix. 2. Nis gallasai ei bregethiad ef lai na thynu sylw mawr; ac nid cynt yr aeth y sôn am dano oddiamgylch, nag, fel y dywed ef, "y daeth dynion wrth y cannoedd, o wahanol barthau, i wrando'r gair; er fod eu dybenion, wrth ddyfod, yn amrywio." Yr oedd efe, yn awr, yn pregethu yn deithiol mor gyson, fel y gwrthododd

yr eglwys yn Bedford ei ddewis i'r swydd ddiaconaidd, er iddo, yn y flwyddyn ganlynol, i gael ei enwi fel un addas i'w gwasanaethu; a hyny yn unig oherwydd nad oedd ganddo amser i gyflawni ei dyledswyddau, gan amledd ei alwadau pregethyddol. Ar yr un pryd, parhaodd i weithio â'i ddwylaw, pan fyddai cyfle ganddo, er ei gynhaliaeth ei hun a'i deulu. Tra yr oedd yn llafurio, yn y dull hwn, mewn modd defnyddiol ac anhunangar, "doctoriaid ac offeiriaid y wlad," medd efe, "a ymagorasant yn llydan yn fy erbyn;" ac, yn niwedd y flwyddyn 1657, dygwyd cyhuddiad i'w erbyn am bregethu yn Eaton. Nid yw hanes y canlyniad genym; ond gan ei fod yn bresennol yn nghyfarfod eglwys y Bedyddwyr yn Bedford, yn Ionawr 1658, ac yn Ngorphenaf canlynol, gellir casglu, naill ai na chafodd y cynghaws ei ddwyn ymlaen; neu yntau, iddo fethu gostegu y pregethwr anurddedig, yr hwn oedd wedi cyffroi eiddigedd y gweinidogion Henuriadyddol. Gellir rhyfeddu peth i erlyniaeth o'r fath gael ei gosod ar droed dan lywyddiad Cromwell; ond y mae y Dr. Southey wedi sylwi yn gywir, "fod rhagor o erledigaeth yn ystod yr Amddiffyniad, nag oedd Cromwell yn foddlawn i'w ganiattau, pe gallasai wrtho."* Y pryd hwn, yr oedd y cyfreithlondeb o fod dynion diurddau yn pregethu yn gyhoeddus, yn bwngc a ddadleuid yn wresog, a'r Henuriadyddion yn taeru na, gan ffugio hawl ddwyfol yn ogyfuwch â neb o brif gampwyr Esgobyddiaeth; yr hyn a achlysurodd gellweirgnoad Milton, sef,—

> "Nad yw Henuriad newydd,
> Fel mae, yn awr, yn dygwydd,
> Ond hen Offeiriad wedi troi
> Ei flaen-ben, o'i gyneirydd."

Y mae'n debyg, pa fodd bynnag, nad oedd y cynnygiad hwn i attal defnyddioldeb Bunyan, amgen gweithrediad gelyniaeth personol. "Ei brif amcan yn nghyflawniad ei weinidogaeth," fel y tystiolaetha ei hun, "ydoedd myned i'r lleoedd tywyllaf, a phregethu yr efengyl lle ni enwid Crist." Ni ofalai efe, un amser, am gyffwrdd â phethau dadleugar." "Yr oeddwn," medd efe, "yn cael dirfawr hyfrydwch, wrth ymdrechu yn ddyfal dros air y ffydd, a maddeuant pechodau drwy farwolaeth a dyoddefaint Crist; ond, am bethau ereill, gadawn hwynt yn llonydd, am y gwyddwn eu bod yn cenedlu ymryson." Nid oedd y dull doeth a gweddaidd hwn, pa fodd bynag, yn alluog nac i'w gadw ef rhag cael ei gyfrif fel ymyrwr gan yr anoddefus, na rhag cael ei enllibio yn atgas gan yr anwybodus a'r cenfigenllyd, y rhai, drwy ddrwg-liwio ei gymmeriad moesol, a ymdrechent attal dynion rhag myned i wrando arno. Taenwyd y sôn mai "swynwr, Jesuad, lleidr-pen-ffordd, a dyn penrhydd" ydoedd. "Y celwyddau a'r enllibiau hyn, yr wyf," medd Bunyan, "yn eu rhwymo wrthyf fel addurn; y mae cael fy niraddio, fy enllibio, fy ngwawdio, a'm difenwi, yn perthyn i'm proffes Gristionogol; a chan nad yw hyn oll

* "Nid oes dim a'u boddlona hwynt," ebe Cromwell, wrth sôn am y blaid Henuriadyddol, "oni chant osod eu bysedd ar gydwybodau eu brodyr, a'u gwasgu hwynt yno."



See how this man trembles at the word of God

# The Arrest of Bunyan.

Bunyan yn cael ei Ddal

ddim amgen, fel y mae fy Nuw a'm cydwybod yn tystiolaethu, yr wyf yn llawenâu mewn gwaradwyddiadau er mwyn Crist."

Ond bwriadwyd profi ei ddiysgogrwydd a'i wrolder ef, drwy brawf llymach: "rhwymau a charchar oeddynt yn ei aros." Dros bump neu chwech mlynedd yr oedd efe, yn ddibaid, wedi pregethu yr efengyl yn rhad;" ond yn mis Tachwedd, 1660, cymmerwyd ef i fynui wrth warant, oddiwrth ynad o'r enw Wingate, mewn lle a elwid Samsel yn swydd Bedford, i'r lle y cawsai ei wahodd i bregethu; gan fod yr ynad, fel y dywedai, "wedi penderfynu tòri gwddf y fath gyfarfodydd." Yr oedd y warant yn darllen i'r perwyl hwn: "Ei fod yn myned oddi amgylch i amryw gyfarfodydd yn y sir, er gwarth mawr ar lywodraeth Eglwys Loegr," &c. Dyma un o flaen-ffrwythau yr Adferiad! Y Dr. Southey, yn ewyllysio esgusodi ymddygiad ei erlidwyr, a awgryma "fod yn wybodus ei fod yn elynol i'r eglwys adferedig, a bod yn debygol y cofid iddo wasanaethu yn myddin y senedd." O'r peth blaenaf, nid oes un prawf; a'r olaf sydd ddychymyg gwirfoddol, a phe caniatteid ef ni fyddai amgen prawf o gymmeriad dialgar yr ymddugiadau. Ymddengys mai y ffaith oedd, bod ei hen gaseion yn cymmeryd mantais oddiwrth newidiad y llywodraeth, i gyflawni eu hên fwriad i osod terfyn ar ei bregethiad; a phe buasai ansawdd y gyfraith yn caniattau, cyfarfuasai â'r un driniaeth dan Cromwell, oddiwrth yr un pleidiau, ag a gyfarfu dan Siarls. Darlunir un o'r pleidiau ag oedd a llaw yn y gorchwyl hwn, un Dr. Lindale, gan Bunyan, "fel hên elyn i'r gwirionedd," yr hwn, pan glywodd fod yr Eurych wedi ei ddal, a ddaeth i mewn, gan ei watwar ef âg amryw ymadroddion difenwol. Ond yr oedd Bunyan, pa fodd bynag, yn llawn ddigon o ŵr i gyfarfod â'i gyhuddwyr, yn gystal mewn synwyr parod a rheswm ysgrythyrol. A phan ddywedodd y Dr. Lindale yma, gan gyfeirio at ei alwedigaeth, "i fod yn gofus ganddo ddarllen am un Alexander, gôf-copr, yr hwn a wnaeth ddrygau lawer i'r apostolion;" atebodd Bunyan, "iddo yntau ddarllen am yr offeiriaid a'r phariseaid, y rhai a drochasant eu dwylaw yn ngwaed ein Harglwydd Iesu Grist." "Ië," atebai Lindale, "ac yr wyt ti yn un o'r ysgrifenyddion a'r phariseaid hyny; canys yr wyt dan rith yn hir-weddïo, i lwyr-fwytta tai gwragedd gweddwon." Derbyniodd yn ateb,—pe na buasai efe (Dr. Lindale) yn derbyn mwy wrth bregethu a gweddïo nag yr oedd Bunyan yn ei dderbyn, na buasai efe mor gyfoethog ag oedd. Cafodd Bunyan rybudd o'r bwriad i'w ddal ef, a gallasai ochelyd y warant; ac ar ol ei ddwyn gerbron yr ynad, gallasai gael ei ryddâu ar yr ammod o adael pregethu, a glynu wrth ei alwedigaeth. Ond nid oedd ei gydwybod yn caniattau iddo wneuthur y fath ymrwymiad. Bwriwyd ef mewn canlyniad yn ngharchar. Gwedi iddo fod yn gorwedd yno bedwar neu bum diwrnod, rhai o'i gyfeillion a gynnygiasant fachnïaeth dros ei ymddangosiad yn yr eisteddfod; ond gwrthododd yr ynad, at yr hwn y cyfeiriasant y cais, a'i dderbyn.

Oddiamgylch saith wythnos wedi iddo gael ei ddal, cynhaliwyd eisteddfod tri misol yn Bedford, a dygwyd Bunyan yno i gael ei brofi ger bron yr ynadon. Yr ysgrifen

gyhudded gyflwynedig i'w erbyn, ydoedd dan y weithred o'r ddegfed flwyddyn ar hugain o deyrnasiad Elizabeth, ac yn rhedeg fel y canlyn:—"Fod John Bunyan, gweithiwr, o dref Bedford, dyn o'r sefyllfa a'r sefyllfa, mewn modd dieflig a dinystriol, wedi ymogelyd rhag dyfod i'r eglwys i wrando gwasanaeth Dwyfol, a'i fod yn gynhalydd cyffredin cyfarfodydd anghyfreithlawn, er dirfawr derfysg a chythrwfl i ddeiliaid ffyddlon y deyrnas hon, yn groes i gyfreithiau ein goruchaf arglwydd frenin," ac felly ymlaen. Wedi ei ddarllen, gofynodd yr ynadon iddo, beth oedd ganddo i'w ateb iddo. Yn anwybodus iddo gael ei gyhuddo, caniattaodd Bunyan, gydâ pharodrwydd, nad oedd efe yn arferol o fyned i eglwys y plwyf, a'i fod yn arferol o fyned i gyfarfodydd dirgel lle y pregethai: ymosododd, ar yr un pryd, i amddiffyn ei ymddygiad ar seiliau ysgrythyrol, drwy yr hyn ni wnaeth efe eithr yn unig dwyn arno ei hun ogan-eiriau taeogaidd ei farnwyr. "Pwy yw dy Dduw di, Beelzebub?" ebe un o'i farnwyr; a dywedasant, amryw weithiau, ei fod wedi ei berchenogi gan gythraul. Ar derfyniad yr holiad nodadwy, wedi ysgrifenu ei atebion fel cyffes o'i euogrwydd, heb unrhyw brawf arall, heb farn rheithwyr, cafodd ei ddedfrydu yn y geiriau canlynol:—"Rhaid i ti gael dy gymmeryd yn ol i'r carchar, a gorwedd yno dros y tri mis canlynol; ac yn niwedd y tri mis, yn niffyg i ti ymostwng i fyned i'r eglwys, a gadael pregethu, rhaid dy alltudio di o'r deyrnas hon; ac os dychweli yn ol heb drwydded arbenig oddiwrth y brenin, rhaid, dywedaf yn eglur wrthyt," ebe'r barnwr, "dy dynu di gerfydd dy wddf:" yna gorchymynodd i geidwad y carchar symmud ei garcharor. Atebodd Bunyan, yn ddigryn, pe cawsai ei ollwng, y diwrnod hwnw o'r carchar, drwy gymmorth Duw, y buasai yn pregethu yr efengyl dranoeth.

Ffurfiwyd tybiau gwahanol, ymherthynas i waith Bunyan yn gwrthod rhoi heibio pregethu. Y mae y Dr. Southey, fel y gallasid dysgwyl, yn cymmeryd plaid ei farnwyr; gan ddywedyd, "nad yw Bunyan, yn un o'i ysgrifeniadau, yn ymddangos mor afresymol, nac mor anoddefus, ac ar yr holiadau hyn." Nid yw yn bur eglur, yn mha beth yr oedd ei anoddefgarwch yn gynnwysedig; ond, ysgatfydd, fod y Bywgraffydd dysgedig yn cyfeirio at wrth-ddadl John onest, yn erbyn arfer y Llyfr Gweddi Gyffredin, am nad yw o Ddwyfol awdurdod. Fel prawf o'i afresymoldeb, haerir, "nad oedd efe yn cael ei alw i ymwrthod â dim ag oedd yn gredu, nac i broffesu dim nad oedd; bod y gynnulleidfa y perthynai efe iddi, yn cynnal ei chyfarfodydd, ar y pryd hwnw, heb gael ei therfysgu; y gallasai efe addoli pan y mynasai, lle y mynasai, ac yn y dull y mynasai; ac nad oedd efe eithr yn unig yn cael gofyn iddo i beidio myned oddiamgylch y wlad i gynnal cyfarfodydd anghyfreithlawn.* Ymddengus eithaf annhegwch y gosodiad hwn, wrth ystyried

* Ychwanega y Dr. Southey:—"Mai yr achos o'r gwaharddiad hwnw oedd, nid fod dynion, yn y cyfryw gyfarfodydd, yn cael eu hannog i ymdrechu am iechydwriaeth, ond eu bod yn cael eu cynghori i edrych yn ddirmygus ar yr eglwys Brotestanaidd hôno sydd yn rhan hanfodol o gyfansoddiad y deyrnas hon." Nid yw hwn amgen haeriad yn cynnwys camddarluniad hanesiol ac enllib, a wasanaethai yr un cystal i gyfiawnhâu erlidiad Ymneillduwyr yr oes hon. Os oedd cyfraith cyfarfodydd ymneillduedig yn dda, yr oedd cyfraith goddefiad yn ddrwg.



MAYSON

G. GREATBACH

Bunyan in Prison.

Bunyan yn Ngharchar

fod y gyfraith dan yr hon y cafodd efe ei gyhuddo, yn gwneuthur ei anghydfurfiaeth, ynddo ei hun, yn drosedd; bod ei waith yn peidio a myned i'r eglwys, wedi ei osod yn nghyntaf yn y cyhudd-gŵyn; ac, y gofynid iddo, nid yn unig i broffesu, yr hyn, ynddo ef, fuasai yn rhagrith, ond hefyd i ymwrthod â'r hyn yr oedd efe yn gredu fod yn ddyledswydd grefyddol arno. "Syr," ebe Bunyan, mewn holiad canlynol, wrth ysgolhaig yr heddwch, yr hwn a geisiai ganddo ymattal dros ychydig,—"Dywed Wicliff, fod y neb a addawo bregethu a gwrando gair Duw rhag ofn esgymmuniad dynion, yn barod wedi ei esgymmuno gan Dduw, ac y cyfrifir ef, yn nydd y farn, yn fradychwr Crist." Pan gyrbwyllwyd wrtho fod yr Ysgrythyr yn gorchymyn ufudd-dod i'r awdurdodau sydd; atebodd, "Fod Paul yn cydnabod yr awdurdodau yn ei amser ef o Dduw; ond, er hyny, ei fod ef, yn aml, yn ngharchar ganddynt; ac hefyd, er i Iesu Grist ddywedyd wrth Pilat, nad oedd ganddo un awdurdod yn ei erbyn ef, ond a dderbyniodd oddiwrth Dduw, eto iddo gael ei osod i farwolaeth dan y Pilat hwnw. Ond eto," ychwanegai, "gobeithiwyf na ddywedwch, fod na Phaul, na Christ, yn gyfryw ag oedd yn gwadu awdurdod, nac iddynt bechu yn erbyn Duw drwy ddirmygu'r ordinhad. Syr, trefnodd y gyfraith ddwy ffordd i ufuddâu: un yw, gwneuthur yr hyn a gredwyf, yn gydwybodol, y dylwn yn weithredol ei gyflawni; a lle nad allwyf ufuddâu yn weithredol, yno yr wyf yn ewyllysgar i orwedd i lawr, ac i ddioddef yr hyn a wnelont i mi." Y fath oedd cymmeriad "afresymol" ei amddiffyniad ef; ac am ei fod, yn nhŷb Amddiffynydd Laud,* yn ddireswm, dywedir wrthym, "fod Bunyan wedi cael ei ddarlunio yn y modd mwyaf canweddus megis aberth cyfreithiau anoddefus a gorthrymder preladaidd." Er hyn oll, caniatteir iddo o leiaf amlygu ewyllysgarwch, calondid, gwrolder, ac amynedd grymus merthyr. Ac nid heb ymgyrch meddwl poenus y penderfynodd yn ffafr canlyniadau ei ddianwadalwch, fel yr ymddengys oddiwrth ei adroddiad effeithiol o'i deimladau, yn amser ei garchariad, cynnwysedig yn ei Hanes. "Cefais," medd efe, "fy mod yn ddyn wedi ei amgylchu â gwendidau: yr oedd ymadawiad â'm gwraig a'm plant tlodion i mi, yn y lle yma, yn aml, fel tŷnu'r cnawd oddiwrth yr esgyrn; a hynny, nid yn unig oherwydd fy mod yn eu caru ryw gymmaint yn ormodol, ond hefyd am fy mod yn rhagfeddwl am y caledi, y trueni, a'r anghenion amrywiog yr oedd fy nheulu tlawd yn debygol o'u cyfarfod, os cymmerasid fi oddiwrthynt; yn neillduol fy mhlentyn dall, yr hwn oedd yn agosach at fy nghalon na'r cwbl. Oh! yr oedd meddwl am y caledi yr oedd fy un dall yn debygol o fod yn ddarostyngedig iddo, yn dryllio fy nghalon yn ddarnau. Druan blentyn! meddyliwn i, y fath flinder yw dy gyfran yn y byd yma yn debyg o fod! Rhaid i ti ddioddef dy guro, rhaid i ti gardotta, dioddef newyn, oerni, noethni, a myrdd o ofidiau, er nas gallaf fi, yn awr, ddioddef i'r gwynt chwythu arnat.

* A Bywgraffydd Wesley, yr hwn, oni bai Cyfraith Goddefiad, y buasai y weithred hono yn ei ddedfrydu i garchariad ac alltudiad!

Ond, eto, gan adgofio fy hun, meddyliwn, rhaid i mi eich gadael oll yn llaw Duw, er fod ymadael â chwi yn dolurio fy meddwl i'r byw."

Yr oedd y gospedigaeth gynnwysfawr a osododd yr ynadon ar Bunyan, nid yn unig yn weithred o orthrymder ffiaidd, ond hefyd, mewn modd eglur, yn estyniad ar y gyfraith, yn gystal am iddo gael ei ddal cyn i gyhoeddiad gael ei wneuthur yn erbyn y cyfarfodydd, dan weithred ag oedd yn gorwedd yn farw, ac am iddo gael ei euog-farnu yn unig ar sylfaen y deongliad a roddwyd ar ei eiriau, pan yr oedd dan holiad. Yr oedd ei garchariad ar ol hynny, yn gorphwys ar ei fod wedi ei euog-farnu yn y dull yma, mewn modd afreolaidd.

Ar goroniad y Brenin, Ebrill, 1661, cyhoeddwyd rhyddhad cyffredinol; a miloedd a garcharasid am anghydffurfiad a throseddau ereill, a gawsant eu gollwng yn rhydd. "Yn y rhagor-fraint yma, gallaswn inau," medd Bunyan, "gyfranogi, oni bai iddynt fy ystyried fel dyn wedi ei brofi yn euog; o ba herwydd, oddigerth i mi, fel y dywedent, roddi cwyn am bardwn, nis gallaswn gael budd oddiwrth yr amgylchiad." Bunyan, gan hyny, a gadwyd o hyd yn gaeth; ac, yn y brawdlys canlynol, Awst, 1661, am nad ewyllysiai adael un moddion cyfreithlon i gael diangfa, heb ei ddefnyddio, efe a gyflwynodd, drwy ei wraig, ddeiseb at y barnwyr deirgwaith am wrandawiad ac ystyriaeth o'i amgylchiad. Yr oedd Syr Matthew Hale yn un o'r barnwyr; ac, oddiwrth dystiolaeth Mrs. Bunyan, gynnwysedig yn yr Hanes, ymddengys iddo ef, pan dderbyniodd y ddeiseb, i amlygu ei barodrwydd i wneud ei oreu drosti, er yr ofnai nas gallesid gwneuthur dim; ac mewn canlyniad i sicrhâd un o'r ynadon a ddodasant Bunyan yn ngharchar, mai cydymaith penboeth oedd efe, iddo roddi y matter i fynu, a gwrthod cyfryngu. Wedi cael annogaeth, pa fodd bynag, gan yr Uchel Sirydd, i wneud cynnyg arall, cyn i'r barnwyr adael y dref, Elizabeth Bunyan, yr hon oedd yn feddiannol ar gyfran o yspryd ei gwr, a wnaeth ei ffordd, "gydâ wyneb gwylaidd a chalon grynedig," i ystafell y barnwyr. Gan gyfarch y Barnwr Hale, dadleuodd anuniondeb ei ddyfarniad; ychwanegodd iddi glywed yn Llundain, gan bendefig, i'r hwn y traddododd ddeiseb dros ei gwr, gyfeiriedig at Dŷ y Cyffredin, i fod ei ollyngdod wedi ei osod yn nwylaw y barnwyr yn y brawdlys nesaf. "Ac, yn awr," "ebe hi, "daethum i edrych a ellid gwneud dim yn yr achos hwn, ac nid ydych yn rhoddi i mi na gollyngdod nac ysgafnhâd." "Fy Arglwydd," ebe'r Barnwr Chester, "cydymaith terfysglyd yw efe; nid oes un cyffelyb iddo ar ei ol yn y wlad." "A fydd i'th wr di adael pregethu?" ebe'r Barnwr Twisdon; "os gwnaiff hyny, danfon am dano." "Fy Arglwydd," attebai Elizabeth Bunyan, "nis beiddia wneud hynny, tra y gallo lefaru." "Gwelwch yma!" ebe Twisdon, "i ba ddyben i ni siarad ymhellach am y fath gydymaith?" "Ai rhydd iddo wneud fel y myno? Terfysgwr yw efe." "Chwenychai," atebai Mrs. Bunyan, "fyw yn dangnefeddus, a dilyn ei gelfyddyd, er cynnal ei deulu. Heblaw hyny," ychwanegai hi, "y mae genyf bedwar




Elizabeth Bunyan before Judge Hale.

Elizabeth Bunyan o flaen y Barnwr Hale.

o blant bychain, analluog i gynnorthwyo ei hunain, un o'r rhai sydd ddall; ac nid oes genym ddim i fyw arno ond haelioni pobl dda." "A oes genyt ti," ebe y Barnwr Hale, "bedwar o blant? Nid ydwyt ond ieuanc i fod â phedwar o blant." "Fy Argwydd," ebe hithau, "nid wyf fi eithr llys-fam iddynt, heb fod yn briod âg ef lawn ddwy flynedd eto." Ychwanegodd, ei bod gerllaw ei gwelyfod, pan gymmerwyd ei gŵr i fynu; ac, i'r braw achosi gwewyr anmhrydlawn, ac i'r plentyn farw. Y Barnwyr Hale, gan edrych yn dra difrifol, a waeddodd, "Och! fenyw druan." Y Barnwr Twisdon, mewn modd dideimlad a nododd, ei bod yn gwneuthur tlodi yn glogyn; a bod Bunyan yn cael ei gynhaliaeth yn well wrth redeg yma a thraw i bregethu, nag wrth ganlyn ei gelfyddyd." "Beth," ebe'r Barnwr Hale, "yw ei gelfyddyd?" "Eurych, fy Arglwydd," atebai rhyw edrychwr. "Ië," atebai Elizabeth Bunyan, "ac oblegid mai eurych a dyn tlawd yw, y mae yn cael ei ddirmygu, ac yn methu cael cyfiawnder." Yr oedd peth gwirionedd yn yr apeliad trwsgl hwn, a theimlodd y Barnwr Hale ei rym. "Dywedaf wrthyt, wraig," eb efe, yn dra mwynaidd, "gan mai felly y mae'n bod, gan iddynt gymmeryd geiriau dy ŵr yn lle prawf, rhaid i ti fyned dy hun at y brenin, rhoi cwyn am bardwn, neu geisio ysgrif-camgarchariad." Y Barnwr Chester, wrth glywed y barnwr uniawn yn rhoi y cynghor hwn iddi, ni allai ddirgelu ei anfoddlonrwydd; a waeddodd, "Fy Arglwydd, efe a bregetha, ac a wna fel y myno." "Nid yw efe yn pregethu dim ond gair Duw," eb ei wraig. "Efe bregethu gair Duw!" ebe Twisdon, mewn cynddaredd; "y mae efe yn rhedeg yma a thraw, ac yn gwneud drwg." "Na, fy Arglwydd," ebe hithau, "nid felly y mae yn bod; y mae Duw wedi ei arddel ef, ac wedi gwneuthur llawer o lês drwyddo." "Duw!" ebe Twisdon, ei athrawiaeth ef sydd athrawiaeth y cythraul." "Fy Arglwydd," atebai y wraig addfwyn, ond ysprydol hon, unwaith drachefn, "pan ymddangoso y Barnwr cyfiawn, gwybyddir nad yw ei athrawiaeth ef yn athrawiaeth y cythraul." Nid oedd modd ateb hyn; a Twisdon, gan droi at y Barnwr Hale, a attolygodd arno i beidio sylwi arni, eithr i'w danfon ymaith. Y Barnwr, mewn modd amlwg yn dwys-deimlo, a ddywedodd drachefn wrth Mrs. Bunyan, mewn tôn garedigol, "Y mae yn ddrwg genyf, wraig, na's gallaf wneud un daioni i ti. Rhaid i ti wneuthur un o'r tri pheth rhag-ddywedig, sef, naill ai myned dy hun at y brenin, rhoi cŵyn am bardwn, neu geisio ysgrif-camgarchariad: yr olaf fydd rattaf."

Yn y modd yma y terfynodd yr olygfa ryfeddol hon. Gadawodd Elizabeth Bunyan y llys mewn dagrau; "nid yn gymmaint," fel y tystiodd, "am eu bod mor galon-galed ati hi a'i gŵr, ag wrth feddwl am y cyfrif galarus y rhaid i'r cyfryw greaduriaid gwael ei roddi yn nyfodiad yr Arglwydd. Pa fodd y gallasai hi olygu fod un o'r barnwyr hyn yn ddyn enwog mewn crefydd a rhinwedd! Ac mor lleied y meddyliai y barnwr hwnw fod y carcharor, achos yr hwn a ddadleuid mor wresog, wedi ei fwriadu drwy ei ysgrifeniadau, i ynnill iddo ei hun enw tragywyddol, fel arweinydd pererinion i'r ddinas nefol! Yn nyfodiad yr Arglwydd, Hale a Bunyan ni chant eu gwahanu.

Er nad oes yn Nhaith y Pererin ddim ag y gellir ei ddeongli yn ogan personol, eto rhaid golygu fod ei amgylchiad ei hun yn fywiog ar feddwl ei Awdwr, wrth ddarlunio y driniaeth a gyfarfu Cristion a Ffyddlon yn Ffair Gwagedd. Y mae ysgrif-gyhudded y pererinion, os nad yn drawsgyfal-air (*parody*) ar y cyhuddiadau a ddygwyd yn erbyn Bunyan, yn trosglwyddo yr un drych-feddwl, mewn ymadroddion cyffelybiaethol:—"Eu bod yn elynion a therfysgwyr y gelfyddyd; eu bod yn achosi cynhyrfiadau ac ymraniadau yn y dref, ac wedi ynnill pleidwyr i'w tybiau peryglus, mewn dirmyg ar gyfraith eu brenin." Bydd i ymadroddion y tystion hefyd adalw i gôf yr holiad rhagflaenorol.

"Cenfigen. Fy Arglwydd, y mae y dyn hwn yn un o'r rhai gwaethaf yn yr holl wlad; nid yw efe yn parchu brenin na deiliaid, cyfraith na defod; eithr yn ymdrechu, hyd eithaf ei allu, i lenwi pawb â rhyw olygiadau bradwrus, y rhai, yn gyffredin, a elwir ganddo yn *egwyddorion ffydd a santeiddrwydd.* Ac, yn neillduol, clywais ef fy hun unwaith yn haeru, fod Cristionogaeth ac arferion ein tref ni, Tref Gwagedd, yn hollol groes y naill i'r llall; ac nas gellir, mewn un modd, eu cysoni hwy â'u gilydd; drwy yr hwn ddywediad, y mae efe, fy Arglwydd, ar unwaith, nid yn unig yn condemnio ein holl weithredoedd canmoladwy ni, ond hefyd ni ein hunain, fel y cyflawnwyr o honynt.

"Coel-Grefydd. Fy Arglwydd, nid llawer a wn i am y dyn hwn, ac nid wyf yn dewis gwybod dim ymhellach am dano: pa fodd bynag, gwn hyn, *mai cydymaith tra pheryglus ydyw*, oddiwrth ryw ymddiddan, y dydd arall, a fu rhyngof âg ef, yn y dref hon; canys wrth siarad âg ef, y pryd hwnw, clywais ef yn dywedyd, nad oedd ein crefydd ni werth dim, gan nas gallasai dyn, mewn modd yn y byd, foddloni Duw drwyddi.

"Ffyddlon. A allaf fi ddywedyd ychydig eiriau mewn amddiffyniad i mi fy hun?

"Barnwr. Syre, syre! nid wyt yn haeddu byw yn hwy, eithr cael dy ladd yn ddisymmwth yn y fan. Eto, fel y caffo pawb wybod ein tiriondeb ni attat, gad i ni glywed beth sydd genyt ti, y crwydryn diffaith, i'w ddywedyd.

"Ffyddlon. Dywedaf, am hyny, mewn ateb i'r hyn a ddywedodd Mr. Cenfigen, na ddywedais i erioed ddim ond hyn: Y rheol, y cyfreithiau, yr arferion, y bobl, y rhai sydd yn eglur yn wrth-wyneb i air Duw, ydynt hollol groes i Gristionogaeth. Os dywedais ar fai yn hyn, argyhoeddwch fi o'm camsyniad, ac yr wyf yn barod, yma o'ch blaen chwi, i alw fy ngeiriau yn ol. Ymherthynas i'r ail, sef Mr. Coel-grefyddol a'i gyhuddiad yn fy erbyn, ni ddywedais i ond yn unig hyn: I fod ffydd ddwyfol yn ofynol yn addoliad Duw; ond nad eill ffydd ddwyfol fod heb ddatguddiad o ewyllys Duw. Gan hyny, nad ellir cyflawni dim croes i ddwyfol ddatguddiad a wthir i mewn i addoliad Duw, eithr â ffydd ddynol, yr hon ffydd, nid yw o un lles er caffael bywyd tragywyddol."

Nid oes unrhyw amheuaeth nad ar y fath seiliau a hyn, (pa un a ydynt gadarn neu

beidio, nid yw yn addas ymofyn yma,) y gwrth-wynebodd Bunyan, fel yr Anghydffurfwyr yn gyffredinol, yr arferiad, llawer mwy yr arddodiad o'r Llyfr Gweddi Gyffredin. Y mae efe yn dywedyd ei hun, pan gafodd ryddid gan geidwad y carchar, (yr hwn, fel yr ymddengys, oedd yn ymddiried ynddo, gan belled a chaniattau rhyddid iddo, ar ei air, i fyned lle y mynai,) ei fod yn pregethu fel arferol, yn defnyddio pob cyfle a gawsai i ymweled â'i ymwrandawyr; "yn eu cynghori hwynt i fod yn ddiysgog yn ffydd Iesu Grist, ac i ochelyd cyffwrdd â'r Weddi Gyffredin, &c.* eithr i ystyried gair Duw, yr hwn sy'n cyfarwyddo Cristionogion ymhob peth, ac yn abl i wneuthur dyn Duw, drwy y ffydd yr hon sydd yn Nghrist Iesu, yn berffaith ymhob peth, wedi ei berffeithio i bob gweithred dda." Galluogwyd ef, gan yr hynawsedd a dderbyniodd ar y cyntaf, i fod yn bresennol yn nghyfarfodydd dirgel y gynnulleidfa yn Bedford, yn Mehefin a Gorphenhaf, 1661, gan fod ei enw i'w weled ar lyfr yr eglwys; ac unwaith caniattaodd ceidwad y carchar iddo fyned ar daith i Lundain. Mewn modd anhapus, daeth hyn i glustiau gelynion Bunyan, a gorfu i'w geidwad tirion, dan berygl colli ei swydd, i gadw ei garcharor yn gaethach; fel y dywedodd Bunyan, "Rhaid i mi yn awr beidio edrych i'r drws." Dysgwyliodd gael ei alw i gyfrif yn y brawdlys canlynol, Tachwedd 1661; ond cafodd ei esgusodi. Yn Ionawr canlynol, cynhaliwyd y brawdlys drachefn; a chan ei fod yn awyddus am ymddangos gerbron y barnwyr, llwyddodd gydâ cheidwad y carchar i osod ei enw ar y *calendar*; ond rhwystrodd ei elynion iddo gael ymddangos. Nid oes un cyrbwylliad yn yr Hanes, paham na chymmerwyd rhyw fesurau er cyflawni cynghor y Barnwr Hale; ond lled-dybir mai yr achos o hyny oedd, analluogrwydd i ddyfod o hyd i ddigon o arian i dalu y costau. Gellid dychymygu fod ei ymweliad â Llundain, yn gysylltiedig â rhyw gynhygiad i wrthdroi ei ddedryd, gan nad yw yn ymddangos y gallai un gwrthddrych llai gydbwyso â'r perygl yr oedd efe yn gwneuthur ei hun yn agored iddo drwy hyny; ond nid yw Hanes ei fywyd yn cynnwys unrhyw grybwylliad am hyn ychwaith. Yr oedd efe, yn awr, yn ymddangos megis wedi ymroddi i'w dynged. Oddiwrth ddiflaniad ei enw oddiar lyfr yr eglwys, o Orphenaf 1661, hyd Awst 1668, cesglir iddo gael ei gadw, dros y saith mlynedd hyn, yn garcharor caeth. Gan i derfyniad gael ei osod ar ei waith yn gweithio ei gelfyddyd, dysgodd wneuthur ysnodenau pwyntiog, (*tagged laces,*) drwy yr hyn y cynnorthwyai i gynnal ei deulu. Y mae y Dr. Southey yn cymmeryd yn ganiattaol, nad oedd sefyllfa ei deulu "yn waeth o'i garchariad," gan fod yr amgylchiad hwnw yn eu gwneuthur yn wrthddrychau "tosturiaethau eu cymmydogion," a bod Bunyan, ar y cwbl, yn dra chysurus yn ngharchar. "Yr oedd yno," medd efe, "yn mwynhau

* "*Et-cetera* (&c.)," medd Dr. Southey, "yn cynnwys llawer mwy na'r un a achlysurodd y dadwrdd anonest yn erbyn &c. y llŵ." Pe argraffasai y Bywgraffydd dysgedig yr holl ddryll-ymadrodd, buasai meddwl Bunyan yn fwy amlwg, pa fodd bynag, oddiwrth y cynghor i lynu wrth yr Ysgrythyr fel unig a digonol reol ffydd. Eiddigedd dros awdurdod unigol gair Duw, yr egwyddor a bleidiwyd mor wrol gan Chillingworth, oedd gwir ffynnonell y teimlad cryf a amlygwyd, yn gystal yn erbyn y Weddi Gyffredin, a'r *et-cetera*.

cymdeithas rhai oeddynt yn ddioddefwyr yn yr un achos;* yr oedd ei Fibl a Hanes y Merthyron ganddo; ac yr oedd ganddo hamdden i ddeor ar ei feddyliau ei hun." Defnyddiau cyfyng dedwyddwch bydol; mor genfigenadwy oedd y dyn a allasai dynu dedwyddwch allan o honynt! A oes unrhyw ddiolch yn ddyledus i'w erlidwyr anghyfiawn, "fod Taith y Pererin yn un o ffrwythau ei garchariad?"

"Y treisiwr câs yn rhwymo ei gorph y sydd,
Heb wybod fawr am gylch ei feddwl rhydd,
Ac, mai ynfydrwydd ceisio rhwymo yw
Anwyliaid nef a themlau santaidd Duw."—Cowper.

Y mae Bunyan yn dywedyd am ei garchariad ei hun yn y modd yma:—"Dygwyd fi o gartref i garchar, lle yr wyf yn awr yn aros er ys deuddeng mlynedd gyflawn, yn dysgwyl gweled beth a wel Duw yn dda i oddef i'r dynion hyn i'w wneuthur o honof.† Yr wyf, drwy râs, wedi para yn dra boddlongar i'm cyflwr, er fod llawer o gyfnewidiadau wedi dygwydd yn fy nghalon;" oddiwrth ba rai, medd efe, y derbyniais "lawer o argyhoeddiadau, addysgiadau, a gwybodaeth." Dros yspaid y pedair blynedd olaf o'i garchariad—sef, o 1669 hyd 1672, yn gynnwysol—mwynhaodd gryn raddau o ryddid. Oddiwrth y llyfriadau yn llyfr-eglwys y Bedyddwyr, ymddengys ei fod ef, yn gyson, yn bresennol, yn y cyfarfodydd cymdeithas; ac, yn Hydref 1671, iddo gael ei ddewis yn gyd-weinidog, neu henuriad y gymdeithas hòno. Côf-restrir y gweithion canlynol ymhlith ei ysgrifeniadau yn yspaid ei garchariad:—Am Weddi drwy'r Yspryd—Grâs yn Amlhâu, neu Hanes ei Fywyd—Y Rhan Gyntaf o Daith y Pererin—Diffyniad i Athrawiaeth Cyfiawnhâd, yn erbyn Esgob Fowler, dyddiedig o'r carchar, yr 21ain o'r unfed fis ar ddeg, 1671.

Gwyddys i'r Rhan Gyntaf o Daith y Pererin gael ei hysgrifenu yn ystod ei garchariad; ond gan nad oes un adysgrif o'r argraffiad cyntaf ar gael yn awr, y mae y flwyddyn y cafodd ei gyhoeddi yn anhyspys. Y mae adysgrif o'r ail argraffiad, yn yr Amguddfa Frutanaidd, a'i hamseriad yw 1678. Os cafodd y gwaith, gan hyny, ei argraffu cyn ei ollyngdod, neu yn ebrwydd ar ol hyny, rhaid nad oedd y gwerthiad, ar ei

* Dywedir "nad oedd, un amser, lai na thri ugain o ymneillduwyr yn y carchar gydag ef, tra y parhaodd ei garchariad; gan fod rhai yn cael eu dwyn i mewn, fel y byddai ereill yn ccel gollyngdod. Ymhlith y rhai'n yr oedd dau o weinidogion y Bedyddwyr, Mr. Wheeler a Mr. Dun."—Ivimey's Life of Bunyan.

† Dichon mai h·l yspaid ei garchariad, gydâ'i gilydd, oedd yngolwg Bunyan. Dywed Helaethwr Hanes ei Fywyd, iddo, ar y cyntaf, gael ei garcharu dros chwe mlynedd, hyd nes caniattau "Gweithred Cyd-ddygiad yr Ymneillduwyr," derbyniodd ei ollyngdod drwy eiriolaeth rhyw ŵyr o ymddiried ac awdurdod, a gymmerasant dosturi wrtho; ond, ymhen chwe mlynedd, (*chwe niwrnod, tebyg,*) cymmerwyd ef i fyny drachefn, sef yn y flwyddyn 1666; a chadd ei garcharu eilwaith dros chwe mlynedd. Pan ddaliwyd ef y tro diweddaf, yr oedd yn pregethu ar y geiriau, "A wyt ti yn credu yn Mab Duw?" Parhaodd y carchariad hwn chwe mlynedd; ac, wedi i hwnw derfynu, cafodd chwe mis o garchar drachefn. Ychwanegir, "yn yr olaf o ddeuddeng mlynedd ei garchariad, bu farw gweinidog yr eglwys yn Bedford; a chafodd yntau ei ddewis yn weinidog i'w ganlyn, Rhagfyr 12fed, 1671."

ymddangosiad cyntaf, ond araf a chyfyng. Ond wedi iddo weithio ei ffordd, a chael lledaeniad cyffredinol, galwyd am argraffiad ar ol argraffiad, yn gyflym ar ol eu gilydd. Cyhoeddwyd yr wythfed argraffiad yn 1682; y nawfed yn 1684; a'r degfed yn 1685.* Yn y cyfamser, amryw efelychiadau anonest o'r gwaith a ymddangosasant; rhai yn ffugio ei enw poblogaidd, ac ereill yn ymrithio yn nghymmeriad Ail Ran. Dichon fod yr ymyrwyr hyn wedi cynnysgaeddu Bunyan âg annogaeth ychwanegol i'w barhâd ei hun o'r ddammeg, yr hwn a ymddangosodd Ionawr 1684. Yn ei ragymadrodd barddonol i'r Ail Ran, y mae efe yn cyfeirio gydâ boddlonrwydd onest at y cyfrifiad helaeth yr oedd y Pererin wedi ei ennill :—

"Yn Ffrainc a Fflanders, ymhob teulu rhydd,
Yn frawd a chyfaill fy Mhererin sydd.
Yn Holland, hefyd, os yw gwir y gair,
Mwy gwerthfawr yw nag arian, ac nag aur.
Ysgotiaid a Gwyddelod sydd, yn awr,
Yn uno i'w ganmol ef yn fawr.
Yn ehang diroedd yr Amerig draw,
Mae'n cael derbyniad helaeth, ar bob llaw.
Ei daclu maent, a'i drwsio yn hardd o hyd,
Mae hwn mewn parch cyffredin yn y byd.
Ymdeithio mae mewn agwedd dêg a glân,
A llawer sydd yn canmol hwn ar gân."

Yn yr un llinellau trwsgl, eithr nid gwaelion, y mae efe yn cyfeirio at rai o'r gwrthddadleuon a wnaethpwyd yn erbyn y Rhan Gyntaf :—

"Rhy lawen yw, medd rhai, o lawer ffydd;
Nagê, medd ereill, athrist yw a phrudd.
Mae'n abl gwneud i'r dŷb i wenu'n wir,
Pan eto mae y galon drom mewn cur.
*Niwl didew sydd,* medd rhai, *yn llond ei ben,*
Arwydd yw hyn, fod synhwyr dan ei lèn."

Y mae yn dra thebygol fod Bunyan eisoes wedi dyfod yn adnabyddus drwy ei ysgrifeniadau, pan gafodd ei ollwng yn rhydd. Pa fodd y cymmerodd hyn le, nid yw yn wybodus; ond, cadwyd diwrnod o ddiolchgarwch am yr amgylchiad, gan ei braidd,

* Cafodd un darn hirfaith, yr holl olygfa rhwng Mr. Gau-ddybenion a'i dri chyfaill, a'u hymddiddan canlynol â Christion a Ffyddlon, ei ychwanegu wedi yr ail-argraffiad. Y mae y Dr. Southey yn dychymygu iddo ei osod i mewn ar y cyntaf yn y pedwarydd argraffiad, "at yr hwn yr ychwanegwyd amryw ddarnau ereill nad oedd yn y rhai blaenorol." Adroddir hyn mewn hyspysiad ar gefn rhagaddurn (*frontispiece*) yr wythfed, lle y dywedir hefyd, "I'r cyhoeddwr, wrth sylwi fod llawer yn awyddus am i'r gwaith gael ei addurno â lluniau, ymdrechu boddhâu eu dymuniad; ac at y rhai cysylltiedig yn gyffredinol â'r pummed argraffiad, iddo ddarparu tri-ar-ddeg o luniau wedi eu cerfio mewn modd cywrain ar gopr, er mwyn y rhai a chwenychont eu cael. Hyspysa y Dr. Southey, wedi cymharu yr argraffiadau a'u gilydd, na wnaethpwyd neb rhyw ychwanegiadau at y gwaith, ar ol yr wythfed argraffiad, na dim newidiadau, oddigerth geiriol yn unig.

rywbryd yn 1672. Y mae Awdwr Helaethiad Hanes ei Fywyd, mewn ychwanegiad at ei adroddiad ei hun,* yn hyspysu, "fod Dr. Barlow, y pryd hwnw Esgob Lincoln, ac eglwyswyr ereill, wedi eu cyffroi gan ei amynedd i dosturio wrth ei ddioddefiadau celyd ac afresymol, gan belled ag iddynt sefyll yn gyfeillion iddo, er effeithio ei ryddhâd. Priodolir cyfryngiad Esgob Barlow, yn ei achos, mewn modd credadwy, i eiriolaeth y Dr. Owen. Rhaid fod rhyw sylfaen i'r hanes yma. Eto ni wnaethpwyd Dr. Barlow yn Esgob hyd 1675;† ac y mae yn dra amheus a allasai dim llai na gorchymyn breninol sicrhau, y pryd hwnw, i Bunyan fwynhâd tawel o'i ryddid personol a gweinidogaethol. Cafodd Gweithred Cyfarfodydd Anghyfreithlon ei hadnewyddu yn ei holl erwindeb yn 1670. Er hyny, yn ebrwydd wedi ei ollyngdod, galluogwyd Bunyan, drwy rydd-roddion ei gyfeillion, i adeiladu tŷ cyfarfod. Nodwyd yn llyfr yr eglwys; "Awst 11eg, 1672, pwrcaswyd y tir ar yr hwn y mae'r tŷ cyfarfod yn sefyll, drwy dansgrifiad." Parhaodd i bregethu yma, i gynnulleidfaoedd lliosog, heb un aflonyddwch gwerth ei enwi. Yn nghyflawniad ei swydd "cafodd aml ddadleuon," medd Helaethydd Hanes ei Fywyd, "âg ysgolheigion, a ddeuent i'w wrthwynebu, gan dybied mai gwr anwybodus oedd; ac, er y dadleuai yn syml, mewn iaith ysgrythyrol, eto dyrusai hwynt â'i atebion perthynasol. Arferai bob blwyddyn ymweled â'i gyfeillion yn Llundain, lle yr oedd ei enwogrwydd, fel pregethwr, gymmaint, fel "ar ddiwrnod o rybudd, nad allai tŷ cyfarfod Southwark, lle yr arferai bregethu yn gyffredin, ddal hanner y bobl a ymgasglent i wrando arno. Casglodd tair mil ynghyd, i'r dyben hwnw, mewn rhan bellenig o'r dref; a dim llai na deuddeg cant, am saith o'r gloch, ar fore tywyll yn y gauaf, ar ddiwrnod gwaith." Dywedir fod Dr. Owen yn achlysurol ymhlith ei wrandawyr; ac i Charles yr Ail ofyn iddo unwaith, pa fodd y gallasai gwr dysgedig fel efe eistedd i wrando ar eurych annysgedig yn bragaldian; ac iddo yntau ateb, "Bydded foddlawn i'ch mawrhydi, pe gallwn berchenogi talentau yr eurych hwnw i bregethu, boddlawn fyddwn i ymadael â'm holl ddysgeidiaeth."‡ Gellir golygu yr hanesyn hwn, os gwir ydyw, yn ddarluniadol o wylder a mwyneidd-dra boneddigaidd y Dr. Owen, yr hwn oedd ei hun yn areithiwr pulpidaidd perffeith-lawn, megis yr oedd Bunyan yn areithiwr galluog genedigol; eto, y mae yn

* Tybir mai Mr. Charles Doe, un o weinidogion y Bedyddwyr, oedd y gwr hwn. Y mae efe yn darlunio ei hun, fel "cywir gyfaill, a hen gydnabod Mr. Bunyan.

† Y mae Mr. Orme yn cyfaddef ei fod ef yn analluog i gysoni yr hanes yn Nghofiant y Dr. Owen, gan Asty, ynghylch gwaith Esgob Barlow yn gwrthod cydsynio â chais Dr. Owen, heb orchymyn oddiwrth y canghellwr, â'r amseriad uchod; oddieithr ei fod yn cyfeirio at ryw garchariad canlynol.—Orme's Life of Owen, p. 398.

‡ Y mae y Dr. Southey yn trin yr hanesyn uchod fel un amheus, heb un sylfaen amgenach na'i fod, os oedd yn wir, yn warth i synhwyr y Dr. Owen. Eto, y mae efe yn cymmeradwyo yr hanesyn canlynol megis yn gredadwy:—"Unwaith, wedi iddo bregethu yn wresog a hwylus, rhai o'i gyfeillion, yn nherfyniad y gwasanaeth, a ddaethant i'w gyfarch, gan ddywedyd, iddo draddodi 'bregeth hyfryd.' 'Ië!' ebe yntau, 'nid oedd angen i chwi ddywedyd hyny wrthyf, gan i'r diafol ei ddywedyd cyn i mi ddisgyn o'r pulpud.'" —Ivimey's History of English Baptists, Vol. II. p. 41.




Taking down and purchase of Bunyan's Pulpit by Howard the Philanthropist.

Cwerthu Pulpud Bunyan

hollol gredadwy, y gallasai Owen brisio athrylith naturiol y pregethwr anniwylliedig, mewn cyssylltiad â'r eneiniad arbenig âg oedd yn ymddangos yn cydfyned â'i weinidogaeth ef, uwchlaw ei holl gaffaeliadau ysgolheigaidd ei hun. "Cafodd," medd Helaethydd Hanes ei Fywyd, "hyd y nod amryw a gawsant gam-ddarluniad o hono, fel dyn annysgedig, eu hargyhoeddi o'i werth a'i wybodaeth mewn pethau crefyddol, gan iddynt ei gael yn ŵr o feddwl cryf, ac yn ymadroddwr eglur a grymus; a llawer a ddaethent, o gywreinrwydd i edrych, yn hytrach nag i gael lles ac adeiladaeth, a aethant ymaith, wedi eu dirfawr foddloni â'r hyn a glywsant, gan ryfeddu, fel yr Iuddewon gynt, "o ba le y daeth y pethau hyn i'r dyn hwn."

Heblaw ei ymweliad blynyddol â Llundain, byddai Bunyan, yn achlysurol, yn ymweled â rhanau ereill o'r wlad; a hyny, bob dwy neu dair blynedd, "yr hyn," medd yr un gwr, "a achosodd iddo gael ei alw, gan rai, mewn ffordd o wawd, a chan ereill, mewn ffordd o anrhydedd, herwydd ei lafur, yn Esgob Bunyan." Tybir i eglwys y Bedyddwyr yn Hitchin, yn Swydd Hertford, gael ei sylfaenu ganddo ef. Mewn coedwig gerllaw Preston, y mae ceubant galluog o gynnwys mil o ddynion, yn yr hwn, yn fynych, y pregethai Bunyan i dyrfaoedd lliosog. Y mae eto gornel simnai mewn tŷ, yn yr un goedwig, yr hwn a berehir herwydd mai ynddo yr arferai efe ymborthi.* O fewn pum milltir i Hitchin, y mae pregeth-le puritanaidd enwog, yr hwn a elwir Bentish,|| lle hefyd yr arferai Bunyan bregethu, mewn hen frâg-dŷ; a chafodd y pulpid ei symmud oddiyno yn ofalus, fel hen relyw anrhydeddus, pan summudodd y gynnulleidfa, yn 1787, i Coleman's Green. Credir am eglwysi ereill, yn Swydd Bedford, iddynt gael eu sefydlu drwy ei bregethau nosweithiawl ef, yn amser ei garchariad, pan ganiatteid iddo, gan geidwad y carchar, i fyned allan yn ddirgel i ymweled â'i gyfeillion. Reading, yn Swydd Berk, oedd le arall yr arferai efe ymweled yn aml âg ef; ac y mae eglwy y Bedyddwyr yno wedi cadw traddodiad, ei fod weithiau, rhag cael ei adnabod, yn myned drwy'r dref, yn ngwisg certynwr, â gwialen hir yn ei law. Y tŷ yn yr hwn yr addolai y Bedyddwyr ydoedd yn sefyll mewn heol; ac yr oedd ganddynt, o'r drws cefn, bont i groesi rhan o afon Kennet, dros yr hon, yn achos perygl, y gallasent ddiangc. Ar ymweliad â'r lle hwnw, yr hwn a achlysurwyd drwy garedigrwydd nodweddiadol ei galon, y cafodd efe yr afiechyd a derfynodd yn ei farwolaeth. Mab gwr bonheddig ag oedd yn byw yno, yr hwn oedd wedi syrthio dan anfoddlonrwydd ei dad, yr hwn a fygythiai ei ddietifeddu, a

* Cadwyd yr hanesyn canlynol drwy draddodiad. Y gweinidogion anghydffurfiol a arferent gyfarfod â'u gilydd, i ymddiddan, mewn tŷ ger Preston Castle, dair milltir o Hitchin. Yn un o'u cyfeillachau yr oedd y testun dyrus, Rhuf. viii, 18, 22, dan sylw. Pan ddaeth tro Bunyan i ddywedyd ei feddwl, "Yr Ysgrythyrau," eb ebe, "ydynt ddyfnach na mi." Cyffesai Luther nad allodd efe erioed gael allan feddwl yr adnodau hyny.

|| Tŷ croes, isel, tô gwellt, oedd. Yr oedd pulpid ysgwar, helaeth, yn sefyll yn ei gongl, a chôr uchel, wrth ei ochr, lle yr eisteddai y gweinidogion o olwg hyspyswyr; ac, o'r hwn, yn achos perygl, y gallasent ddiangc i ogof gyfagos.

geisiodd gan Bunyan gyfryngu drosto; yr hyn hefyd a wnaeth mewn modd llwyddiannus; ond ei lafur cariad olaf oedd. Wrth ddychwelyd i Lundain ar geffyl, goddiweddwyd ef â gwlawogydd trymion, a chymmerodd anwyd. Canlynodd twymyn ffyrnig; ac ar ol deng niwrnod o gystudd, "rhoddodd ei yspryd i fyny i ddwylaw ei Brynwr trugarog."* Bu farw yn nhŷ ei gyfaill Mr. Struddock, neu Stradwick, perlysieuwr, Awst 12fed, 1688, yn un a thriugain oed; a chafodd ei gladdu yn mŵd (*vault*) ei lettywr, yn Bunhill-fields, lle y mae bêdd-adail ardderchog wedi ei gyfodi i'w goffadwriaeth.

Y mae ei Fywgraffydd cyntaf yn rhoddi y darluniad canlynol o'i berson a'i gymmeriad: "Yr oedd ei wynebpryd yn ymddangos yn sarrug a gerwin, ond yn ei gyfeillach yr oedd yn fwyn a llariaidd; nid oedd yn dueddol i fod yn siaradus, neu i ddywedyd llawer mewn cyfeillach, oddigerth fod galwad eglur am hyny; nid oedd un amser yn canmol ei hun na'i alluoedd, ond yn hytrach yn wael yn ei olwg ei hun, ac yn ddarostyngedig i farn rhai ereill . . . . . Yr oedd yn caru gwneud i fyny ymrafaelion, a bod yn gyfeillgar â phob dyn. Yr oedd ganddo lygad llym, bywiog, craffus i adnabod dynion; a'i synwyr hefyd ydoedd gryf, a'i atteb yn barod. O ran ei berson, yr oedd yn dàl, esgyrnog, er nad yn drwchus. Ei fochau oeddynt yn hytrach yn gochion, a'i olygon yn wreichionllyd. Nid arferai eillio ei wefus uwchaf, eithr gadawai ei farf i dyfu yn hir arni, yn ol yr hen ddull Brutanaidd. Yr oedd ei wallt yn gôch, eithr, yn ei amser diweddaf, yn dechreu britho. Ei drwyn oedd wedi ei osod yn dda, ond nid yn gam a chrwca; a'i safn o faintioli canolig. Ei dalcen ydoedd yn hytrach yn uchel; a'i agwedd bob amser yn syml a gostyngedig."

O'i bedwar plentyn, (nid oedd un o'r ail wraig,) yr oedd tri yn fyw ar ei ol:|| bu farw y ferch ddall, am yr hon yr oedd efe mor ofalus, ychydig flwyddi o'i flaen. Ni bu ei wraig, Elizabeth, yr hon a ddadleuodd ei achos mor rymus a bywiog ger bron y barnwyr, (er iddi weled terfyniad ei lafur a'i ofidiau, a'i fynediad oddiwrth ei waith at ei wobr,) fyw yn hir ar ei ol; canys yn 1692, bu farw, a chanlynodd ei phererin ffyddlon o'r byd hwn i'r byd arall; "tra y mae ei weithion cynnwysedig," fel yr ychwanega yr un Bywgraffydd, mewn modd cymhen, "o driugain llyfr, yn aros ar ol i adeiladu y darllenydd, ac i ganmol yr Awdwr."

Yr oedd Bunyan yn ysgrifenydd ffrwythlon. Heblaw y gweithion rhag-grybwylledig,

* Yn amser ei farwolaeth, ymddengys fod yr Arglwydd Faer, Syr John Shorter, yn un o'i braidd yn Llundain. Cadwyd y cofnodiad canlynol, o'i farwolaeth, yn ngohebiaethau Elis, Medi 6fed, 1688:— "Ychydig ddyddiau yn ol bu farw Bunyan, athraw a chaplan ei Arglwyddiaeth; dyn duwiol, fel y dywedir, yn y ffordd hôno, er ei fod unwaith yn gobler."

|| Derbyniwyd Thomas, ei fab hynaf, i gymmundeb eglwys y Bedyddwyr yn Bedford, Tachwedd 6fed, 1673, yn ebrwydd ar ol gollyngdod ei dad o'r carchar, a pharhaodd yn aelod o honi bump-ar-hugain o flynyddoedd, gan bregethu, yn achlysurol, yn y pentrefi oddiamgylch. Golygir mai ei wyrion oedd Catharine Bunyan, yr hon a dderbyniwyd yn aelod yn 1692, a John Bunyan, yr hwn a dderbyniwyd Mehefin 27ain, 1693. Yn mynwent y capel hwnw, y mae bedd-lech er coffadwriaeth am ei ôr-wyres, Hannah Bunyan, yr hon a fu farw Chwefror 15fed, 1770, yn 76 oed.

cyhoeddodd, o bryd i bryd, liaws o draethodau duwinyddol a dadlwriaethol; a rhaid cyfaddef ei fod yn ymddangos yn rhagori yn fawr ar ei wrthwynebwyr pigog ac anoddefus, yn y cymmeriad olaf. Cafodd ei ddwyn o'i anfodd i ddadlwriaeth â rhai o weinidogion y Bedyddwyr y pryd hwnw, y rhai a ymosodasant arno gydâ ffyrnigrwydd cywilyddus, am amddiffyn egwyddor ac adferiad cymmundeb rhydd; hyny yw, am dderbyn dynion o enwadau ereill, at fwrdd yr Arglwydd, ar yr egwyddor, "nad oedd gwahaniaeth barn ynghylch dull a deiliaid bedydd, yn un rhwystr i Gristionogion gyd-gymmuno." Yn ei draethodau ar y pwngc dadleuol yma, y mae efe wedi arddangos yspryd mwy goleu a rhydd, nid yn unig na'i frodyr culion a rhagfarnllyd y pryd hwnw; ond hefyd nag oedd yspryd yr oes hono yn ei ganiattâu. Buasai y Rhyfel Ysprydol, yr hwn a gyhoeddwyd yn ei fywyd ef, (cyn yr Ail Ran o Daith y Pererin, mae'n debyg,) yn ddigon ei hun i anfarwoli ei enw, pe na wnaethai ddim arall. Yn fuan ar ol ei farwolaeth, cyhoeddodd ei weddw hypysiad, yn arwyddo ei hanalluogrwydd i argraffu yr ysgrifeniadau a adawodd efe heb eu cyhoeddi, er fod rhai o honynt wedi eu parottoi i'r argraff-wasg. Ond, er hyny, aeth pedair blynedd heibio, cyn i'w weithion gael eu casglu at eu gilydd, a'u cyhoeddi, yn 1692, yn un gyfrol, yn cynnwys amryw ysgrifeniadau a gyhoeddwyd wedi ei gladdedigaeth, gan Edward Chandler, ei olynwr fel athraw eglwys y Bedyddwyr yn Bedford, a John Wilson, gweinidog cyntaf eglwys y Bedyddwyr yn Hitchin. Ond nid oedd y gyfrol hon yn cynnwys ei holl waith ef. Yn 1735-6, ymddangosodd argraffiad arall, yn ddwy gyfrol un-plyg, wedi ei gyhoeddi gan y Parch. Samuel Wilson o Dŷ Cyfarfod Heol Prescot, ŵyr y rhag-grybwylledig John Wilson. Cynnysgaeddodd y Parch. George Whitfield yr ail argraffiad o'r cyfrolau hyn, â rhagymadrodd cymmeradwyol. Cyhoeddwyd argraffiad diweddarach yn chwe chyfrol wyth-plyg; ac argraffiad arall o'i "Weithion Detholedig," yn 1808. Nid yw y Drydydd Ran o Daith y Pererin, yr hon a ymddangosodd ar ol ei farwolaeth, ac sydd yn gynnwysedig mewn amryw argraffiadau o'i weithion anghydmarol, yn gywir; eithr yn dwyn arwyddion diammheuol o ddynwaredydd aflwyddiannus.

Rhy anhawdd yw ffurfio un dychymyg am rifedi argraffiadau Taith y Pererin. Y mae y Dr. Southey yn golygu na chafodd un llyfr arall, yn yr iaith Seisnig, werthiad mor gyson a helaeth. Y lluniau a gerfiwyd i'r dyben i'w harddu a'i egluro, a allent wneud i fynu gasgliad cywraint a helaeth, er arddangos pob amrywiaeth o siamplau, o'r waethaf, ar goed a chopr, i fynu hyd at yr addurn-daleithiau argraffyddol o ddyfeision ysprydlawn Harvey, a chopr-lafnau Martin, y rhai a addurnant yr argraffiad ardderchog wrth yr hwn y rhag-ddodwyd Bywyd yr Awdwr, gan Dr. Southey, a'r rhesau cywraint o Luniau Eglurhaol gan Melville, cyflwynedig yn awr i sylw mawrygwyr Tywysog y Breuddwydwyr. Ni fyddai côf-restr o'r amrywiol ieithoedd i ba rai, y cafodd Taith y Pererin ei gyfieithu, yn llai o ryfeddod. "Bychan," medd Dr. Southey, "y gallasai Bunyan ddychymygu y gallasai ei lyfr ef fod yn addas i werthiad ymhlith y Pabyddion. 'Pa un

a gymmerodd hyn le gydâ golwg ar y cyfieithad Ffrencig cyntaf, nid wyf yn gwybod; ond nid oes un Cawr Pab yn yr ail . . . . . Y Rhan Gyntaf, dan yr enw, '*Le Pelerinage d'un nommé Chrétien,*' sydd yn gwneud i fynu un o gyfrolau y '*Petite Bibliothéque du Catholique,*' ac yn dwyn ar y wyneb-ddalen ben mawrygiedig y Wyryf! Cafodd cyfieithiad Portugeaidd o'r Rhan Gyntaf hefyd, ei gyhoeddi yn 1782, wedi ei gyfaddasu, yn yr un dull, at olygiadau y werin gyffredin, i ba rai y bwriadwyd ef. Credwyf, mewn gwirionedd, nad oes un iaith Europaidd, i'r hon nad yw Taith y Pererin wedi cael ei gyfieithu." Y mae priodoliaith y gwaith, pa fodd bynag, mor hollol ac arbenigol yn Seisnig, fel y mae yn nesaf peth i anmhosiblrwydd i gadw ei gymmeriad ef, yn ddigymmysg, mewn iaith estronol. "Y mae gwresawgrwydd yspryd y Bardd," fel y sylwa y beirniad Americanaidd rhag-gyrbwylledig, (ac nid yw yr enw darluniadol yn gamenw,) yn gweithredu drwy gyfrwng yr iaith ddigyffelyb a ddysgodd efe allan o'n cyfieithad cyffredin ni o'r Ysgrythyrau, wedi cyfansoddi rhai o'r siamplau ardderchocaf o allu grymus a phrydferthwch caruaidd y dafod-iaith Seisnig!" Gellid llenwi tu-dalenau cyflawn â'r canmoliaethau â pha rai y mae prydyddion a beirniaid wedi hoffi yn ddiweddar i anrhydeddu yr ysgrifenydd crefyddol hwn â hwynt; er, unwaith, ei fod yn ddisylw a dirmygedig. Y mae Scott, Byron, a Wordsworth, heblaw Southey a Montgomery, wedi adseinio y deyrnged o fawrygawd a serchus gydymdeimlad, yr hon yr anturiodd Cowper gyntaf i'w hoffrymu i'w goffadwriaeth, er iddo wrthod, y pryd hwnw, i gyhoeddi ei enw anseintiedig.

"Ni'th enwaf di,—ond, eto, tra fo chwyth,
Nis gallaf lai, trwy'm heinioes, yn ddilyth,
Na pharchu'r gwr, mewn llyfr, i bob byw
Ddengys y ffordd, yn oleu iawn, at Dduw."

# RHAGARAITH.

MAE y Cymry uniaith, yn gystal a gwyr Lloegr, mor gyfarwydd âg enw MR. JOHN BUNYAN, fel nad oes fawr o achos canmawl ar ei waith, ac yn enwedig ei waith mwyaf enwog, TAITH Y PERERIN, yr hwn sydd wedi cael derbyniad mor roesawus mewn amryw ieithoedd ; ac nid oes cenedl y mae hoffach ganddynt y dull hwn o ysgrifenu na'r Cymry.

Mae llawer o'r dysgedigion mewn syndod, wrth feddwl am yr athrylith naturiol, a'r cynneddfau llym a grymus, a ganfyddir yn y gwaith presenol, ac yn enwedig gan mai dyn tlawd, heb fawr o ysgolheigtod oedd yr Awdwr. Ynddo ef gwiriwyd y ddihareb, *Gwell ansawdd na dysg*. Er y dichon gwyr craff a deallus ganfod rhai beiau ynddo, gwaith ydyw, a'i gymmeryd o ben bwygilydd, yn rhagori ar ddim a osodwyd allan erioed o'r un fath.

Mae y gwaith yn Saesneg wedi ymddangos, gyda sylwadau ar y pethau a ddichon fod yn dywyll i ambell un; ac fe ddysgwylir na fydd ymgais o'r un fath yn annerbyniol i'r Cymry, er eglurhau y mannau nad yw yr ystyr o honynt mor amlwg, neu dynnu sylw y darllenydd at bethau o bwys neillduol. Gallasem anturio cynnyg rhyw faint o ddiwygiad ar ambell dro yn ystod y gwaith, ond gan fod cymmaint o barch yn ddyledus i'r Awdwr, ni farnwyd hynny yn weddus. Mae y cyfieithiad mor llythyrenol ag oedd modd, ac yn rhoi meddwl yr Awdwr yn gywir, am hynny nid oes fawr o gyfnewid ar yr hen gyfieithiad, ac yn enwedig y rhan gyntaf.

## RHAGARAITH.

Hysbys yw, fod Bunyan yn garcharwr am ei ddiffyg o gyd-ymffurfio â'r drefn sefydledig mewn matterion eglwysig, pan ysgrifenodd efe y gwaith rhagorol hwn. Mae genym yma brawf hynod, nid yn unig o rymusrwydd ei ddychymyg, ac o'i dueddfryd siriol a thawel dan y fath amgylchiad, ond o'r gras a'r cymhorth a rydd Duw i'w weision, i ymddwyn mor bwyllog ac mor amyneddgar dan eu dyoddefiadau. Wrth ddiwedd yr Argraffiad hwn o Daith y Pererin, rhoddir hanes by o fywyd Mr. John Bunyan, yr Awdwr.

Mae dychymyg cywrain yr Awdwr yn ymddangos trwy yr holl orchwyl; ac er fod y gwaith mor orchestol, mae y cyfan yn rhedeg mor esmwyth ac mor llithrig, ag i ddwyn i'n cof ymadrodd y Salmydd:—"Traetha fy nghalon beth da: fy nhafod sydd bin ysgrifenydd buan." Nid yw Bunyan yn taenu ei aden ac yn ehedeg o'r golwg am ennyd, ac wedi hynny yn disgyn i'r ddaear yn ddisymmwth; eithr y mae yn debyg i ryw afon lydan a gloyw, yn rhedeg heb flino, yn hyfrydu ac yn ffrwythloni y bröydd a'r gwastadedd, dan gynnyddu ac ymledaenu, nes ymgolli o honi yn y cefnfor. Mewn cysondeb â'i brif-amcan, y mae efe yn cyfrodeddu amryw geinciau difyrus, fel nad oes arnom chwant iddo ddwyn ei chwedl i ben mor fuan. Hyd yn nod y darllenwyr ag ydynt yn anneallus o amcan yr Awdwr, a gânt ddifyrwch, os nid adeiladaeth, wrth fyned trwy y gwaith.

Eithr os teilwng o glod yw Awdwr Taith y Pererin, o herwydd cywreinrwydd ei ddychymyg, a chyflawniad cywir ei amcan yn y modd mwyaf trefnus a chyson, fel y gellir dywedyd am dano, *Ni orug dynol athrylith ei gyffelyb*, mae clod sydd uwch na hyn yn ddyledus iddo;—nid ein difyru, ond yn fwy neillduol ein hadeiladu, oedd amcan yr Awdwr. Efe a welai fod yr Ysgrythyr Lân yn llawn o gyffelybiaethau a dammegion; ac ar y sail safadwy honno, fod yn iawn iddo ddwyn matterion o eithaf pwys ger bron ei ddarllenydd yn y dull mwyaf ennillgar. Wele yma waith gras yn yr enaid yn cael ei osod megys mewn drych o flaen ein llygaid; mae pob Cristion profiadol, gyda'r

## RHAGARAITH.

Pererin, wedi canu yn iach i Ddinas Dystryw, ac wedi dianc am ei fywyd at Grist croeshoeliedig, a thrwy ffydd yn ei waed a'i gyfryngdod, yn rhydd o dan ei faich o euogrwydd ac o ofn slafaidd. Wedi ei gyfiawnhâu trwy ffydd, mae yr enaid adnewyddol yn cyrchu yn ei flaen dan gynnyddu mewn gras, a chryfhâu yn y bywyd dwyfol, gan gadw ar y llwybr cul, heb roi clust i demptasiynau y byd, a deniadau y cnawd a'r synwyrau. Mae y Pererin ysbrydol yn derbyn amlygiadau newydd o'r nefoedd ar ei daith, ac os trwy rym profedigaeth y denir ef oddiar y ffordd tua'r ddinas, ei gysur a adferir trwy ymostwng ger bron yr Arglwydd, a cheisio ei wyneb ef. Dysgir ni nad oes unrhyw gymhwysiad i'n gwneuthur yn addas i deyrnas nef, ond gwir santeiddrwydd, yn deillio o waith Ysbryd Duw ar yr enaid. Eithr cyn y gallwn gyrhaeddyd at y cyfryw 'stad, rhaid ymwrthod â ni ein hunain, a chael ein cyfiawnhâu trwy ffydd yn Nghrist, "yr hwn a'n carodd ni, ac a roddes ei hun drosom ni." Mae y Pererin yn ymgadw ar y naill du rhag ymbwyso ar gyflawniadau deddfol, ac etto yn rhoi pob diwydrwydd i wneuthur ei alwedigaeth a'i etholedigaeth yn sicr. Felly rhaid i ninnau, os mynnwn fod yn gadwedig.

Mae i ni weled yn yr ail a'r drydedd ran, fod amrywiaeth yn ngweithrediadau gras, er fod y brif egwyddor yr un yn wastadol. Dychymyg prydferth oedd dwyn i mewn y rhyw fenywaidd, fel y byddai i'r rhan honno o'r gwaith ddenu sylw merched a gwragedd mewn modd neillduol. Mae hefyd yn y drydedd ran rai pethau rhagorol, yn cynnwys chwedlau ac ymadroddion hardd a gweddaidd, yn neillduol addas i gyflwr Cristionogion o amgylchiadau esmwyth mewn bywyd.

Hawdd sylwi gan bob dyn deallus, fod Bunyan yn dal allan ffurf yr ymadroddion iachus yn ol yr ysgrythyrau, ac yn darlunio i'r bywyd ddull a dichell y gau broffeswr. Gwaith i'w ddechreu yn ystyriol ac yn bruddaidd, i'w ganlyn gyda diwydrwydd ac amynedd, ac i lynu wrtho dan bob profedigaeth, yw gwaith gwir grefydd; ond yr enaid ffyddlawn a gynnorthwyir ac

a ddiddenir tan bob gorthrymder, ac yn y diwedd a gaiff lawn oruchafiaeth ar ei holl ofidiau.

Yr wyf yn cymmeryd hyfrydwch i weled Taith y Pererin yn debygol o ddyfod i blith y Cymry mor drefnus a hardd ei drwsiad.

Anghofied ein Cydwladwyr dros ennyd eu gwahanol opiniynau dadleugar, a chytuned pawb i ymosod, gyda Christion a Gobeithiol, i ymdeithio tua thir y bywyd. O herwydd y difyrwch a'r cyfarwyddyd a gefais lawer tro oddiwrth ddarllain y gwaith rhagorol hwn, mi a gymmerais mewn llaw ar ddymuniad y Cyhoeddwyr, i edrych tros y gwaith, a chynnyg fy sylwadau arno. Mae yr hen gyfieithiad wedi ei drwsio mewn mannau, ond y mae gwaith yr Awdwr yma yn gyflawn, er y gallesid diwygio rhyw faint o'i ymadroddion, heb gynnyg niwaid i'r synwyr. Dymuniad y Cyhoeddwyr ydyw rhoddi argraffiad llawn a chywir o'r llyfr buddiol hwn, ac mewn gwisg a threfn yn rhagorach nac a ymddangosodd o'r blaen yn y Gymraeg. Dan obeithio y bydd hyn er boddhâd ac adeiladaeth y Cymry,

Yr ydwyf,

Eu Gwasanaethwr,

J. H.

# AMDDIFFYNIAD YR AWDWR

AM

## GYHOEDDIAD EI LYFR.

Pan gynta'm pin mew llaw cymmerais
I ysgrifenu ni ddeallais,
Yn y fath ddull gwnawn Lyfyr bychan:
Na ddo, 'ro'wn wedi 'mroi fy hunan
I wneyd un arall, pan ar ddarfod,
Ar hwn dechreuais yn ddiwybod.
Ac felly wrth 'sgrifenu'n gynnil,
Am yrfa'r Saint yn nyddiau'r 'Fengyl,
Syrthiais yn frau ar ddull cyff'lybiaeth,
Am eu taith a'u ffordd i'r gwynfyd perffaith,
Mewn mwy nag ugain o ryw bethau,
'Nol dodi rhai'n i lawr yn ddiau,
'R oedd ugain ragor ynw'i'n llenwi,
A'r rhai'n drachefn yn ymgynnyddu,
Fel gwreichion tân yn esgyn fynu.
Yna meddyliais ynof f'hunan,
Os amlhau yr y'ch mor fuan,
Ar y neilldu dodaf chwithau,
Rhag i chwi fyn'd dros ben terfynau,
Ac felly'n hollol bwyta i fynu
Y llyfr yn awr wyf yn 'sgrifenu.

## AMDDIFFYNIAD YR AWDWR.

Felly gwnes, ond ni fwriedais
Gyhoeddi i'r byd yr hyn 'sgrifenais
Yn y fath ddull ; fy amcan didwn
Oedd gwneuthur rhywbeth a'r na's gwyddwn
Ac ni feddyliodd chwaith mo'm calon
Trwy hyn i foddio fy nghym'dogion :
Na ddo ddim, fy unig amcan
Oedd rhyw foddlondeb im' fy hunan.
    Ond gwag-oriau 'chwaith ni threuliais
Wrth fy llyfryn, ac ni cheisiais
Ond difyru fy huń ar brydiau,
A chadw allan waeth meddyliau.
Ac felly pin ar bapur dodais,
Ar ddu a gwỳn fy meddwl rhoddais :
Yna 'nol cael pen y llwybr
Tynnais, daeth, ac felly'n eglur
I lawr ymroddais i'w 'sgrifenu,
Nes daeth i'r hyd a'r lled y gweli.
    Felly, wedi ynghyd ei osod,
I rai dangosais er cael gwybod,
Beth a dd'wedent hwy am dano,
Pa un ai ganmol ai gondemnio.
Medd rhai, " Caffed fyw'n ddiammau,"
Medd ereill, " Gad e' i farw yn ddiau."
Medd rhai, " Ioan, printia'n ddiball,"
Gochel wyro, " Paid," medd arall ;
Medd rhai, " Gall wneuthur mawr ddaioni,"
Ereill dd'wedent " Nas gwnai felly."
    'Nawr mewn cyfyng-gyngor oeddwn,
Beth oedd oreu i wneyd nis gwyddwn ;
O'r diwedd d'wedais, " Os ymranu
Yr ydych, mynnaf benderfynu
Y matter, gan ei roi i'w brintio,
A'i gyhoeddi, doed a ddelo."
Can's meddyliais fod rhai'n sicr
Am ei weled wedi ei wneuthur,
Er nad oedd ereill o'r meddyliau ;
I gael gwel'd pa un oedd oreu

Ei gynghor, rhoddais i'w argraffu,
Fel at faen prawf i gael diweddu.
Meddyliwn eilwaith, os nas boddiwn
Y rhai oedd am ei wneyd yn ddidwn,
Nis gwyddwn na all'swn fod yn rhwysu
O'r hyn roi iddynt hwy fawr gysur:
Wrth y rhai ydoedd am ei guddio
D'wedais, Anhawdd geny 'ch digio;
Gan fod eich brodyr yn ei hoffi,
Nes gwel'd ymhellach, oedwch farnu.
Os nas darllenwch, rhowch lonydd iddo;
Câr rhai fwyd, rhai asgwrn-bigo,
Er gallu'n well eu tangnefeddu,
A hwynt ymroddais i ymddadlu:
A allaf finnau ddim 'sgrifenu
Yn y fath ddull heb gyfeiliorni?
Fy amcan yw'th ddaioni pennaf.
A'm hewyllys, pa'm nas gallaf?
Dwg cwmmwl tywyll wlaw yn ddibrin
Pan na's rhy'r goleu mo'r diferyn.
Tywyll neu oleu, os eu dafnau
Wna i'r ddaear roddi ei ffrwythau,
Caiff pob un glod yn ddiwahaniaeth,
Crynhoir y ffrwyth ry'r ddau'n ddiweniaith
Ië, cymmysgu wneir eu ffrwythau,
Fel na's gwahaniaethir hwythau;
Os y ddaear fydd newynog,
Ymroir i'w phorthi yn odidog;
Os llawn ni ddyry ddim daioni,
Eithr chwyda'r ddau i fynu;
Ac felly llwyr ddifuddia'r fendith
Allasid gael trwy'r dafnau dilith.
Edrychwch ar bysgodwr hynod,
Pa offer wna i ddal y pysgod!
Gwel fel defnyddia ei holl synhwyrau
I wneyd anweiri, bachau, rhwydau;
Er hyn mae pysg nas gall eu dala,
A rhwyd ac anweir, gwnaed ei eitha'.

Rhaid chwilio â llaw yn deg, a'u coglais,
On'te nis delir trwy un ddyfais.
    Hefyd gwel 'r adarwr gwisgi
'N dychymyg ffyrdd (rhy faith i'w henwi)
I ddal yr adar, dryll a rhwydau,
Gwiail-cydio, cloch a golau;
Fe 'mlusg, fe gerdd, fe saif yn llonydd,
Pwy all ddewyd ei luniau celfydd!
Ac er hyn mae'n methu'n gryno
Dal'r aderyn mae am dano.
I ddal un math rhaid pib a chwiban,
Yr hyn os gwna, y llall yn fuan
Ehed i'w ffordd gan fraw a dychryn,
Ac felly cyll ei ddewis 'dderyn;
Os gellir cael rhyw berlyn purlan,
Gwerthfawr iawn ynghoryn llyffan',
A chaffel hefyd yn dra chywren
'R un peth ynghragen yr oystrysen;
Os ydyw pethau gwael i'w gweled,
Yn dal peth gwell nac aur er hardded;
Pwy ddiystyra, sy'n ei garu,
Edrych yno i gael ei feddu!
    'Nawr am fy llyfyr bychan innau,
Er bod yn wag o'r addurniadau
A allai ei wneuthur yn dderbyniol
Gyda hwn neu'r llall yn hollol,
Nid yw yn wag o'r pethau hynny
Mewn modd geirwir sy'n rhagori
Ar yr hyn ag sydd (rwy'n tystio)
Mewn pennau mawr ond gwag yn trigo.
    "Wele, nid wyf yn cwbl gredu
Y saif eich gwaith pan ddel i'w brofi."
Pa'm beth yw'r matter? "Mae yn dywyll;"
Pa beth er hynny? dichon sefyll.
"Rhyw beth dych'mygol yw eich gorchwyl',"
Pa beth er hynny? gwn, ddyn anwyl,
I rai dynion trwy'r fath eiriau
Ag sydd mor dywyll a'm rhai innau,

## AMDDIFFYNIAD YR AWDWR.

Wneyd y gwirionedd i ymddyscleirio,
A'i belydrau yn hardd di-ango'.
"Ond y mae ynddynt ddiffyg dwysder;
D'wed, ddyn, dy feddwl yn ddibryder:
Y maent yn boddi'r gwan yn ddiau,
Ein dallu mae cyffelybiaethau."
Dwysder, yn wir, sydd dra pherthynol
I ysgrifenydd pethau dwyfol:
A raid bod dwysder arna'i'n eisiau
Am lefaru mewn cyffelybiaethau?
Oni cha'dd deddfau yr Iehofa,
Ië, ei 'fengyl ddeddfau mwyna,'
Gynt eu dal allan mewn cysgodau,
A rhyw ddoethion gyff'lybiaethau,
A throell-'madroddion? ac er hynny
Anhawdd gan sobr-ddyn eu barnu,
Rhag d'od yn euog o ryfela
Yn erbyn y doethineb ucha',
Na, yn hytrach 'mostwng mae a cheisio
Deall beth mae Duw'n ddewyd wrtho,
Trwy bob hoel a dolen hynod,
Anneirod, defaid, lloi a hyrddod;
Adar, llysiau, gwaed ŵyn difeius;
A dedwydd yw y dyn yn ddilys,
A gaffo'r gras a'r gwir oleuni
Sydd gynnwysedig yn y rhei'ny!
    Na fydd ry ehud, ddyn, i farnu,
Diffyg dwysder yn fy 'sgrifenu,
Na'm bod hefyd yn anweddus
Yn fy ymadrodd, ac anfedrus.
Nid yw pob peth dwys mewn golwg
Yn wir ddwys pan ddel i'r amlwg;
Ychwaith nid ydym yn diystyru
Pob peth mewn dammeg roddir ini,
Rhag wrth ochelyd 'chydig dd'ryswch,
Ddifuddio'n henaid o ddiddanwch,
'Dyw tywyll a chymmylog eiriau,
Ond dal y gwir fel aur mewn blychau.

## AMDDIFFYNIAD YR AWDWR.

Mynych arferai y prophwydi
Ryw gyffelybiaethau difri',
I osod allan y gwirionedd:
Pwy bynnag a edrycho'r unwedd,
Ar Grist a'i apostolion hefyd,
Hwy gânt wel'd yn eglur hyfryd,
Fod y gwirionedd dwys hyd heddyw
Yn y fath fentyll yn ymgadw.
A ofnaf dd'wedyd fod y 'Sgrythyr,
Sy am ddull a iaith uwchlaw pob synwyr,
Ymhob lle'n llawn o'r cyfryw bethau,
Troell-'madroddion, cyff'lybiaethau;
Etto oddiwrth y llyfyr hwnnw,
Llewyrcha'r fath oleuni hoyw,
Ac sydd yn troi'r nosweithiau t'w'llaf
Yn ganol-ddyddiau o'r goleuaf.
Fy meiwr doed, edryched 'rawran
At ei fywyd ef ei hunan,
Rhag gwel'd yno dduach leine
Nag sydd yn fy llyfr i yn un-lle;
Iё, gwybydded fod'r un ffunud,
'N ei bethau goreu waeth rhai hefyd.
Pe gallem sefyll ger bron dynion
A f'ai diduedd o wraidd calon;
Am ei dlawd un anturia'n fanwl,
Dd'od â deg a gymrai'm meddwl,
Yn llawer gwell fel rhoddais allan,
Na'r eiddo ef mewn temlau arian.
Tyr'd, mae'r gwir, er gwisgoedd trwsgwl,
Yn goleuo'r farn, unioni'r meddwl,
Yn boddio'r deall, plygu'r 'wyllys,
Yn llanw'r cof o'r hyn sydd felus,
In' ei ddilyn trwy'n holl ddyddiau,
A hefyd mae'n lleihau'n trallodau.
Gwn fod Timotheus yn ddilys,
I arfer ffurf 'madroddion iachus,
Eithr i ochel chwedlau gwrachaidd;
Ond ni waharddodd Paul, wr gweddaidd,

## AMDDIFFYNIAD YR AWDWR.

Iddo arfer doeth ddammegion,
Lle maent gwedi cuddio'n ddyfnion
Yr aur, y perls, a'r meini costus,
Dâl cloddio am danynt yn ofalus.
Gad im' chwanegu un gair etto,
Wr Duw a wyt ti yn tramgwyddo?
A ydwyt yn dymuno'n ddiwall,
Pe 'sgrifenaswn mewn dull arall?
Neu pe dodaswn fy meddyliau
Allan mewn rhyw ddull mwy goleu?
Gadewch im' osod tri pheth gwiwlwys,
Ger bron fy ngwell fel ag mae'n gymhwys,
Ac yna 'mostwng yn ddifwstwr
Y cyfan oll i'r Bendith-roddwr:
1. Nid wyf yn gwel'd gwaherddir imi
Y dull yma o 'sgrifenu,
Gan nad wy'n rhoddi dianrhydedd
Ar neb darllenwyr dwys diduedd.
Ddarllenwyr, 'ngeiriau a'm pethau gwisgwch,
Neu ynte yn anweddaidd byddwch;
Wrth ddefnyddio troell-'madroddion,
Neu gyffelybiaethau doethion,
Mewn cymhwysiad; ceisio'r ydwyf
Ddyrchafu'r gwir trwy'r hyn 'sgrifenwyf.
Gwaherddir, dd'wedais? na, mae cennad,
(Esamplau hefyd 'ddiwrth rai difrad,
Foddlonodd Duw mewn ffyrdd a geiriau
Yn well na neb sydd yn ein dyddiau)
I draethu 'meddwl fel y gweli,
Am y pethau sydd yn tra rhagori.
2. 'Rwy'n gwel'd gwyr uchel yn 'sgrifenu
Ar ddull ymddiddan, heb gael anfri,
Am wneyd felly; os di'styrant
Yr hyfryd wir, melldigaid fyddant,
A phob cyfrwysdra maent yn arfer,
I'r dyben hwnnw ar bob amser.
Rho di ffordd rydd i'r gwir heb ammau
I weithio arnat ti a minnau,

Y ffordd foddlono Dduw y nefo'dd;
Pwy wyr yn well nâ'r hwn a'n dysgodd
Gynta' i arddu, p'odd i dywys
Ein bryd a'n llaw i'w amcan dilys?
Mae'n gwneyd i bethau gwael allanol
Drosglwyddo i ni bethau dwyfol.
3. Yr wyf yn gwel'd ei santaidd bethau
Mewn llawer lle'n cyttuno'n ddiau,
A'm trefn, lle geilw un peth dwys-gall
I'w egluro help lle arall;
Gan hynny gallaf ei ddefnyddio,
Mewn modd gweddus heb ddarnguddio
Pelydrau euraidd y gwirionedd:
Ië, mi allaf yn ddigamwedd
Wneyd i'w belydrau hardd lewyrchu,
Fel hanner dydd o ran goleuni.
Cyn rhoi heibio'm pin 'sgrifenu,
Dangosa'r lles wna'm llyfran i ti,
Yna'th orchymyn di a minnau,
I'r llaw honno yn ddiammau,
"Sy'n tynnu lawr y cadarn eon,
Yn gwneyd y gwan yn ddiogel ddigon."
Mae'n gosod allan i ti'n hollol,
Y dyn syn'n ceisio'r perl trag'wyddol;
O b'le mae'n d'od, i ble mae'n teithio,
Yr hyn mae'n wneyd, a'r hyn mae'n beidio;
Mae'n dangos fel y rhed ar gyhoedd,
Gan frysio 'mlaen i borth y nefoedd:
Dengys hefyd pwy sy'n rhedeg
Fel rhai am ynnill coron hardd-deg;
Cai wel'd p'am collant eu gwaith gloyw,
Ac fel ynfydion byddant feirw;
Gwna'r llyfr hwn o honot deithiwr,
Os cymmeri e'n gynghorwr:
Fe'th dywys di i dir y bywyd,
Os dilyni ei gyf'rwyddyd.
Ië, gwna'r llesg i weithio'n wisgi,
A'r dall wel'd pethau dâl eu hoffi.

## AMDDIFFYNIAD YR AWDWR.

A wyt am ryw beth gwych a buddiol,
Am wel'd y gwir mewn chwedl ddynol?
Os byr-gof? neu am gofio'n gywir,
O'r Calan-ddydd i ddiwedd Rhagfyr?
Yna darllen fy nych'mygion,
Fel cyngaf glynu wnant yn gyson,
A gallant fod i'r gwan ysbrydol,
Yn gysurwyr tra rhagorol.
Mi a 'sgrifenais hyn o lyfrau,
Yn y dull y gweli'r awrau,
Fel y gallo gael rhyw effaith
Ar feddyliau'r gwyr di'styriaeth:
Mae fel peth newydd, etto'n rhigyl
Yn cynnwys dim ond geiriau'r 'fengyl;
Os am ddifyru rhag gor-brudd-der,
Cael meddwl hoff heb ddim yn ofer,
Darllen dych'mygion, a'u hystyriaeth,
Neu'n dy feddylfryd boddi ar unwaith:
Os am bigo bwyd, neu wel'd mewn cwmmwl
Ddyn yn dywedyd it' ei feddwl;
Os am freuddwydio, a bod yn effro,
Neu yn chwerthin, ac yn wylo;
Neu golli'th hun heb dy niweidio,
A chael dy hun drachefn heb swyno?
A wyt am ddarllen dy hun trwyddot,
A darllen hefyd beth na's gwyddot,
Gwybod ai dedwydd wyt ai nagê,
Wrth ddarllen yr unrhyw linellau?
O! gan hynny, tyred yma,
Fy llyfr hwn â'th ben cyssyllta;
A'th galon hefyd yn yr un-man,
A rhwydd-deb iti, medd

JOHN BUNYAN.

# TAITH Y PERERIN:

TAN GYFFELYBIAETH

# BREUDDWYD.

---



Y CARCHAR.

MI yn rhodio trwy anialwch y byd hwn, daethum i ryw fangre lle yr oedd ffau,[a] a gorweddais i lawr i gysgu yno: ac fel yr oeddwn yn cysgu, mi a freuddwydiais freuddwyd. Ac yn fy mreuddwyd, mi a welais wr wedi ei ddilladu â bratiau,[b] yn sefyll ar ryw fan,[c] a'i wyneb wedi ei droi oddiwrth ei dŷ ei hun, a llyfr[d] yn ei law, a baich[e] mawr ar ei gefn. Esay lxiv. 6. Luc xiv. 26. 33. Heb. ii. 2. Sal. xxxviii. 4. Mi a edrychais ac a'i gwelais ef yn agor y llyfr, ac yn darllen ynddo; ac fel yr oedd efe yn darllen, efe a wylodd ac a grynodd gan ofn: ac oblegid na allai efe ymattal yn hwy, efe a ddyrchafodd ei lef yn alarus iawn, gan ddywedyd, "Beth a wnaf fi i fod yn gadwedig?" Act. ii. 37. xvi. 29, 30.

[a] Wrth y ffau mae i ni ddeall y carchardy, lle bu yr Awdwr yn gaeth am ddeuddeng mlynedd, am ei waith yn pregethu fel Ymneillduwr. Byddwn ddiolchgar ein bod ni yn mwynhau rhyddid mor gyflawn yn yr oes bresenol. Yn y flwyddyn 1810, yr oedd rhai am geisio cwttogi breintiau yr Ymneillduwyr, ond llais y wlad a wrandawyd yn y Senedd, a'r Tywysog Rhaglaw ei hun a ddywedodd yn bendant, na roddai efe ei gydsyniad i unrhyw *Act* a fyddai yn rhwystr ac attaliad i Grefydd. Yn y flwyddyn 1812, trwy erfyniad yr amryw bleidiau yn Llundain, *Act* newydd a bassiwyd yn y Senedd, er sicrhau ac ymhelaethu rhyddid crefyddol, trwy ddiddymu y Gyfraith a wnaethpwyd yn erbyn yr Ymneillduwyr yn amser y Brenin Siarls yr Ail.

[b] Y mae dyn wedi syrthio trwy bechod i'r cyflwr truenusaf, ac nid oes ganddo un trwsiad addas i guddio ei noethni ysbrydol.

[c] Mae yr enaid sydd dan argyhoeddiad am bechod yn barod i ymwrthod â'i holl bleserau cnawdol, ac i ymadael â'i hen gyfeillach, er mwyn Crist.

[d] Y llyfr yw Gair Duw, yr hwn sydd yn rhoddi hyfforddiadau cymhwys i'n tywys ni yn ffordd y bywyd.

[e] Baich gorthrwm yw baich pechod ac euogrwydd.

D

Yn y cyflwr hwn efe a ddychwelodd adref, ac a ymattaliodd cyhyd ag y gallai, fel y byddai ei gystudd ef yn guddiedig oddiwrth ei wraig a'i blant; ond ni allai efe gelu y peth yn hir, am fod ei gyfyngder yn ymhelaethu: ac am hynny, o'r diwedd, efe a ddatguddiodd ei feddwl iddynt, ac a ddechreuodd ymddyddan â hwy fel hyn, gan ddywedyd, 'O fy ngwraig anwyl, a chwithau plant fy ymysgaroedd, yr wyf fi eich cyfaill anwyl wedi fy andwyo ynof fy hun, canys y mae baich trwm yn fy llethu i yn dost: heblaw hyn, fe hysbyswyd i mi yn wir, y llosgir ein dinas ni â thân o'r nefoedd, (2 Pedr iii. 10.) ac yn y difrod ofnadwy hwn, nid yn unig myfi, ond tithau hefyd fy ngwraig, a chwithau fy anwyl blant bychain, a ddifethir mewn modd echrydus, oddieithr i ni gael (yr hyn nid wyf fi yn ei weled etto) rhywffordd i ddianc fel ein gwareder.' [f]

Y BYD.

NI WYR EFE ETTO AM UN FFORDD O DDIANGFA.

Ar hyn o hanes, ei dylwyth a'i geraint ef a synnasant yn ddirfawr, heb gredu fod y pethau a lefarodd efe wrthynt yn wir; eithr oblegid eu bod hwy yn tybied ei fod wedi penwannu,[g] ac am ei bod hi yn hwyrhau, a hwythau yn gobeithio y sefydlai cwsg ei ymmenydd ef, hwy a'i gosodasant ef yn ei wely ar frys; ond yr oedd y nos mor flin iddo ef a'r dydd; ac am hynny, yn lle cysgu, efe a'i treuliodd mewn ocheneidiau a dagrau. A thrannoeth, pan y mynnent wybod pa fodd yr ydoedd ef, efe a'u hattebodd hwynt, ei fod ef yn waeth, ac efe a ddechreuodd ymddyddan â hwy drachefn; ond dechreuasant ymgaledu, meddyliasant hefyd i yrru ymaith ei anhwyl ef trwy fod yn afrywiog ac yn sarrug tuag atto. Weithiau hwy a'i gwatworent ef, weithiau hwy a'i ceryddent, ac weithiau hwy a'i llwyr ddibrisient ef; ac am hynny efe a ddechreuodd ymneïllduo i'w ystafell i weddïo drostynt, i dosturio wrthynt, ac i ymofidio hefyd am ei drueni ei hun. Ac ar ryw brydiau efe a rodiai wrtho ei hun yn bendrist yn y meusydd, weithiau yn darllen, ac weithiau yn gweddïo; ac fel hyn y treuliodd efe ei amser tros rai dyddiau.

MEDDYGINIAETH GNAWDOL I ENAID CLAF.

Yn awr ar ryw brydiau, mi a'i gwelwn yn rhodio yn y meusydd, ac yn ol ei arfer, yn darllen yn ei lyfr (eithr yn gystuddiedig iawn yn ei ysbryd), ac wrth ddarllen efe a dorrodd allan megys o'r blaen, gan ddolefain, "Pa beth a wnaf fel y byddwyf cadwedig?" [h]

Mi a'i gwelais ef hefyd yn edrych yma ac accw, fel pe buasai yn ei fryd i ffoi, etto efe a safodd yn ddiysgog; oblegid, fel y tybygwn i, nis gwyddai pa ffordd i fyned.

Yna mi a welwn wr a'i enw Efengylwr, yn nesâu atto ef, ac yn gofyn iddo, Pâham

[f] Yr oedd y Pererin yn taer-ddymuno cadwedigaeth ei deulu, yn gystal a bod yn gadwedig ei hun.

[g] Peth cyffredin gan y byd yw barnu ar y dull hwn, am y sawl sydd yn brudd ac yn ddifrifol yn ceisio iechydwriaeth eu heneidiau.

[h] Ni ŵyr rhai crefyddwyr beth yw bod dan y fath wasgfa yn eu henaid, ond y mae yn rhaid adnabod ein clwyf, a theimlo ein bod yn golledig, cyn y gallwn fod yn gadwedig.

yr wyt ti yn llefain?[i] Yntef a'i hattebodd ef, Syr, yr wyf yn deall wrth y llyfr sydd yn fy llaw, fy mod i wedi fy nghondemnio i farwolaeth, ac ar ol hynny i ddyfod i'r farn, ac nid wyf yn ewyllysgar i farw, nac yn abl i ymddangos yn y farn. Heb. ix. 27. Iob xxxvi. 20. Ezec. xxii. 14.

Yna ebe yr Efengylwr, Paham yr wyt ti yn anewyllysgar i farw, gan fod y bywyd hwn mor llawn o helbul? Iob xiv. 1. A'r gwr a'i hattebodd ef, Am fy mod yn ofni y gwesgir fi i lawr gan y baich sydd ar fy nghefn, yn îs na'r bedd, ac y bydd i mi syrthio i Tophet. Esay xxx. 33. Ac, Syr, os nid wyf yn foddlawn i fyned i garchar, llai o lawer yr wyf yn barod i fyned i'r farn, ac oddi yno i le y gospedigaeth. A'r meddyliau ynghylch y pethau hyn sydd yn peri i mi wylo.

ARGYHOEDDIAD O'I ANGEN AM FFOI.

Yna ebe yr Efengylwr, Os ydwyt ti yn y cyflwr hwn, paham yr wyt ti yn sefyll yn llonydd? Yntef a attebodd, Am na wn i pa le i fyned: yna efe a roddes iddo rol o femrwn, ac yr oedd yn ysgrifenedig ynddo, "Ffowch rhag y llid a fydd." Mat. iii. 7.

NIS GELLIR CAEL CRIST, A'R FFORDD ATTO, HEB Y GAIR.

Fe ddarllenodd y gwr y geiriau, a chan edrych yn graff ar Efengylwr, efe a ofynodd iddo, I ba le y ffoaf? Yna ebe yr Efengylwr, gan ddangos â'i fys tros faes ehang, A weli di y porth bychan accw? Na welaf, ebe y gwr. Yna ebe y llall, A weli di y goleuni dysclaer accw? Yntef a'i hattebodd, Mi debygwn fy mod yn ei weled ef. Yna ebe yr Efengylwr wrtho, Cadw dy olwg yn wastadol ar y goleuni accw, a dos yn uniongyrch tuag atto; ac felly y cei di weled y Porth; a phan y curech wrtho, fe ddangosir i ti beth sydd raid i ti ei wneuthur. Matt. vii. 14. Sal. cxix. 105. Ioan ix. 39. 2 Pedr i. 19.[k]

Yna mi a welwn yn fy mreuddwyd y gwr yn dechreu rhedeg; ac nid aethai efe neppell oddiwrth ei dŷ ei hun, ond wele yr oedd ei wraig a'i blant, wrth ganfod hynny, yn gwaeddi ar ei ol ef, gan alw arno i ddychwelyd; eithr efe a osododd ei fysedd yn ei glustiau, ac a redodd yn mlaen, gan grochwaeddi, 'Bywyd, bywyd, bywyd tragywyddol!' Ac nid edrychodd efe yn ol, ond efe a ffodd tua chanol y gwastadedd. Luc xiv. 26. Gen. xix. 17.[l]

MAE Y RHAI A FFOANT RHAG Y LLID A FYDD YN WAWD I'R BYD.

Y cymmydogion hefyd a ddaethant allan i'w weled ef yn ffrystio ymaith, ac fel yr oedd efe yn brysio, rhai a'i gwatworent, ereill a'i bygythient, a rhai a waeddent ar ei ol ef, gan alw arno i ddychwelyd adref; ac yn eu plith yr oedd dau a ymroisant trwy daerni ei ddychwelyd yn ol; enw un oedd Cyndyn, ac enw y

[i] Er fod gennym y gair ysgrifenedig, etto trwy weinidogaeth gweision Duw mae y rhan fwyaf o'r pererinion yn cael eu dwyn i fwynhau dyddanwch ysbrydol a rhyddid enaid.

[k] Mae amryw bethau yn barod i rwystro yr enaid yn ei ddyfodiad at Grist, am hynny, cyfyng yw y porth trwy yr hwn mae i ni fyned i mewn i'r bywyd.

[l] Mae yn rhaid myned yn groes i ewyllys ein cyfeillion anwylaf, os ni chyttunant i fod yn gymdeithion i ni yn y ffordd sydd yn arwain i fywyd tragywyddol. Ni thâl ymgyssylltu â chig a gwaed, pan fo enaid anfarwol mewn perygl o fod yn golledig.

llall oedd Meddal. Ac erbyn hyn yr oedd y gwr wedi myned yn lled bell oddi wrthynt; er hynny yn ol eu bwriad, hwy a'i canlynasant ef, ac o fewn ychydig o amser a'i goddiweddasant; yna ebe y gwr, Fy nghymmydogion, paham yr ydych yn dyfod ar fy ol i? hwythau a'i hattebasant ef, I'ch cynghori chwi i ddyfod adref gyda ni. Eithr nid allaf fi (ebe yntef) wneuthur felly mewn modd yn y byd. Yr ydych chwi yn trigo, ebe fe, yn Ninas Dystryw (y lle hefyd y'm ganwyd innau ynddo), yr wyf yn gwybod fod y peth yn wir: ac os marw a wnewch chwi yno, yn gynnarach neu yn hwyrach, chwi a soddwch yn îs na'r bedd, i le sydd yn llosgi â thân a brwmstan. Dat. xxi. 8. Byddwch foddlawn, gan hynny, fy nghymmydogion, a dewch yn mlaen gyda mi.[m]

Beth! ebe Cyndyn, a gadael ein cyfeillion a'n meddiannau ar ol?

Ië, ebe Cristion, (canys felly y gelwid ef,) oblegid nid yw y cwbl a adawsoch chwi yn ol yn deilwng i'w cystadlu âg ychydig o'r pethau yr wyf fi yn ymegnïo i fod yn gyfranog o honynt. Rhuf. viii. 18. Ac os deuwch chwi gyda mi i ben y daith, chwi a gewch fwynhau yr unrhyw bethau daionus ag a fwynhaf finnau, canys y mae digon a gweddill i'w gael yn y lle yr wyf fi yn teithio tuag atto. Luc xv. 17. Deuwch a phrofwch fy ngeiriau.[n]

CYNDYN. Pa bethau yr ydych chwi yn eu ceisio, gan eich bod yn ymadael â'r holl fyd fel y gallech eu meddiannu hwynt?

CRISTION. Yr wyf yn ceisio "etifeddiaeth anllygredig, ddihalogedig, a diddiflanedig, yr hon sydd yn nghadw yn y nefoedd," ac yn ddiogel yno i'w rhoddi ar yr amser nodedig i'r sawl a'i ceisiant hi yn ddyfal. Chwi a ellwch, os mynnwch, ddarllen y peth felly yn fy llyfr i. 1 Pedr i. 4. Heb. xi. 16.

Pw, ebe Cyndyn, ymaith â'ch llyfr, attebwch i mi, a drowch chwi yn ol gyda ni, ai nis gwnewch?

CRIS. Na wnaf fi, canys mi a osodais fy llaw ar yr aradr. Luc ix. 62.

Dewch, gan hynny, ebe Cyndyn, fy nghymmydog Meddal, a dychwelwn adref hebddo; y mae brawdoliaeth o ddynion penweinion, y rhai pan dderbyniont ryw fympwy i'w pennau, y maent yn ddoethach yn eu golwg eu hunain na seithwyr yn adrodd rheswm.

Peidiwch a difenwi, ebe Meddal, os gwir a ddywed ein cymmydog Cristion, mae y pethau y mae ef yn eu ceisio yn well na'r cwbl o'n meddiannau ni: mi allwn glywed ar fy nghalon fyned gydag ef.

CYN. Pa beth! rhagor o ffyliaid fyth? cymmer dy reoli gennyf fi, a thro yn ol:

[m] Fe fynnai y Pererin ddwyn ei gymmydogion gydag ef, ond gan na chydsynient, yr oedd yn penderfynu myned hebddynt.

"Gwell pwyll nac aur, gwell gras na grym,
Gwell Duw na dâ, gwell Crist na dim."

[n] Mae cariad ein Harglwydd grasol mor helaeth, fel yr ewyllysiai efe i bawb fod yn gadwedig; ond pechaduriaid ni fynnant ddyfod atto ef i gael bywyd. 1 Tim. ii. 4. Ioan v. 40.




H. WARREN. J. ROGER.

# Christian leaving his Family.

Cristion yn ymadael â'i Deulu.

THE LONDON PRINTING AND PUBLISHING COMPANY

pwy a ŵyr i ba le i'th dywysir gan y fath ddyn penwan a hwn? dychwel, dychwel, a bydd gall.[o]

Nagê, ebe Cristion, eithr tyred di Cyndyn gyda'th gymmydog Meddal, canys yn y lle yr wyf fi yn ymdrechu myned iddo, mae y cyfryw bethau i'w cael ag a soniais i am danynt, ac amryw o bethau gogoneddus heblaw hynny. Oni choeliwch chwi fi, darllenwch yma yn y llyfr hwn am y pethau hyn, ac am wirionedd yr hyn a fynegir ynddo, wele mae y cwbl wedi ei sicrhau â gwaed yr hwn a'i gwnaeth ef. Heb. ix. 17—21.

MAE CRISTION A CHYNDYN YN YMRYSON AM ENAID MEDDAL.

MEDDAL. Felly, fy nghymmydog Cyndyn, ebe Meddal, yr wyf yn dechreu ymsefydlu yn fy meddyliau: yr wyf yn bwriadu ymdeithio gyda'r gwr da yma, a bwrw fy nghoelbren i mewn gydag ef: eithr fy nghyfaill anwyl, ebe fe wrth Gristion, a wyddoch chwi y ffordd i'r lle dymunol hwn?

MEDDAL YN CYDSYNIO I FYNED GYDA CHRISTION.

CRIS. Gwr a'i enw Efengylwr a'm cyfarwyddodd i, i frysio tua phorth bychan sydd o'n blaen, lle y dangosir i ni y ffordd.

MEDD. Dewch, gan hynny, gymmydog da, gadewch i ni gychwyn; yna hwy a aethant ill dau ynghyd.[p]

Minnau a ddychwelaf adref, ebe Cyndyn, ac ni byddaf gydymaith i'r cyfryw ddynion pengeimion, a hudwyd oddiar yr union ffordd.

CYNDYN YN DYCHWELYD DAN DDIFRIO.

Ar ol i Gyndyn ddychwelyd yn ol, mi a welwn Gristion a Meddal yn myned ymlaen, tan ymddyddan â'u gilydd ar hyd y gwastadedd, ac fel hyn y dechreuasant eu hymddyddanion.

CRIS. Deuwch, fy nghymmydog Meddal, pa fodd yr ydych chwi? mae yn dda gennyf eich bod chwi wedi eich perswadio i fyned gyda mi; pe profasai Cyndyn ynddo ei hun nerthoedd a dychryniadau y pethau sydd etto yn anweledig, megys y profais i hwnt-hwy, ni throisai e ei gefn arnom mor ysgafn.

YMDDIDDAN RHWNG CRISTION A MEDDAL.

MEDD. Deuwch, fy nghymmydog Cristion, gan nad oes yma neb onid nyni ein dau, mynegwch i mi yn awr yn mhellach pa ryw bethau sydd i'w cael yn y lle yr ydym ni yn myned tuag atto, a pha fodd y mwynheir hwynt.

CRIS. Gwell y gallaf eu hamgyffred hwynt yn fy meddwl, na'u hadrodd hwynt â'm tafod; etto gan eich bod yn chwennychu eu gwybod, mi a ddarllenaf i chwi am danynt yn fy llyfr.

PETHAU DUW YN ANNHRAETHADWY.

MEDD. A ydych chwi yn tybied fod geiriau eich llyfr chwi yn wir?

CRIS. Ydwyf yn ddilys, canys y digelwyddog yw ei awdwr ef. Tit. i. 2. 2 Tim. iii. 16. 2 Pedr i. 19, 20, 21.

[o] Y mae gwŷr y byd yn barod i farnu, fod pob hyfrydwch a mwyniant yn myned ar goll, pan y trown at grefydd; eithr mae gan y gwir grefyddwr fwyniant tu hwnt i holl hyfrydau a meddiannau y byd hwn.

[p] Mae rhai yn troi oddiwrth grefydd gyda dirmyg, ereill ydynt hawdd eu perswadio, nes cyfarfod â phrofedigaethau, ac ar hynny y maent yn cilio yn eu hol yn fuan.

MEDD. Da y dywedasoch; pa bethau ydynt?

CRIS. Y mae teyrnas annherfynol i ni breswylio ynddi, a bywyd tragywyddol i'w roddi i ni, fel y gallom gyfanneddu yn y deyrnas honno tros fyth. Esay xlv. 17. Ioan x. 27—30.

MEDD. Da y dywedasoch, a pheth hefyd?

CRIS. Y mae coronau o ogoniant i'w cael yno, a gwisgoedd a bair i ni ddisgleirio fel yr haul yn ffurfafen y nefoedd. 2 Tim. iv. 8. Dat. vii. 9. Mat. xiii. 43.

MEDD. Y mae hyn yn dra hyfryd; a pheth hefyd?

CRIS. Ni bydd yno na newyn, na syched, na marwolaeth, nac wylofain, na thristwch, na phoen, oblegid fe sych Arglwydd y lle bob deigr oddiwrth ein llygaid. Dat. vii. 16, 17. xxi. 4.

MEDD. A pha gyfeillion a gawn ni yno?

CRIS. Ni a gawn fod yno gyda seraphiaid a cherubiaid, sef creaduriaid a bair i'n llygaid serenu wrth edrych arnynt. Esay vi. 2. Yno hefyd y cyfarfyddwn â miloedd a deng miloedd o rai a aethant o'n blaen ni i'r lle hwnnw; nid oes yr un o honynt yn gwneuthur niweid i'w gilydd, ond y maent yn byw yn gariadus ac yn santaidd, pob un yn rhodio yn ngŵydd Duw, ac yn aros yn gymmeradwy yn ei bresenoldeb ef tros fyth. Dat. v. 11. Mewn gair, yno y cawn ni weled yr henuriaid, a'u coronau aur ar eu pennau. Dat. iv. 4. Yno y cawn ni weled y gwyryfon santaidd â'u telynau aur. Dat. xiv. 4. Yno y cawn ni weled y rhai a ddrylliwyd gan y byd yn ddarnau, a losgwyd yn y tân, a fwytawyd gan fwystfilod, ac a foddwyd yn y moroedd, am eu cariad at Arglwydd y lle, pob un yn holl-iach, wedi eu dilladu âg anfarwoldeb megys â gwisg. Ioan xii. 25. Dat. vii. 14, 15. 2 Cor. v. 1—5.

MEDD. Mae y pethau hyn yn ddigon i dreisio calonau dynion ar eu hol: eithr a ydyw y pethau hyn i'w cael? Pa fodd y deuwn ni i fod yn gyfranogion o honynt?

CRIS. Brenin y wlad a 'sgrifenodd yn y llyfr hwn, os byddwn ni yn wir ewyllysgar i'w derbyn, efe a'u rhydd hwynt i ni yn rhodd ac yn rhad. Esay lv. 1. Dat. xxii. 17.

MEDD. Fy nghydymaith anwyl, mae yn hoff gennyf fi glywed y pethau hyn; awn rhagom, a cherddwn yn dynnach.

CRIS. Mae y baich sydd ar fy nghefn yn fy rhwystro i fyned mor ebrwydd ag y dymunwn.

Yn awr mi a welwn yn fy mreuddwyd, wedi iddynt orphen eu hymadroddion, nesâu o honynt at ryw gors domlyd, yr hon oedd ynghanol y gwastadedd; a thrwy fod yn wallus, CORS ANOBAITH. hwy a syrthiasant ill dau yn ddisymmwth i'r gors; a'i henw hi oedd Cors Anobaith: ac yno y buont hwy tros ennyd yn ymdrybaeddu, wedi eu diwyno yn erchyll gan y dom; ac fe ddechreuodd Cristion soddi yn y llaid, o achos y baich oedd ar ei gefn.[q]

[q] Yma ni a gawn ddangosiad o gyflwr enaid yn syrthio i ddigalondid, ar ei waith cyntaf yn ceisio yr



"Then, said he, give me thy hand." p. 15.

H. WARREN J. ROGERS

## The Slough of Despond.

Y Cors Anobaith

Wbwb! ebe Meddal, fy nghymmydog Cristion, yn mha le yr ydym ni yn awr?

CRIS. Mewn gwirionedd, ebe Cristion, nis gwn i yn mha le.

Yna y tramgwyddodd Meddal, ac a lefarodd yn llidiog wrth ei gydymaith, gan ddywedyd, Ai dyma y dedwyddwch a grybwyllasoch chwi am dano yr holl amser hyn? os cawsom y fath aflwydd yn nechreuad ein taith, pa beth a allwn ddysgwyl rhwng hyn a phen ein taith? Os gallaf fi ond dianc o'r plwcca hwn yn fyw, chwi a gewch, o'm rhan i, feddiannu y wlad dda eich hunan. Ac wedi ymdreiglo yn egniol unwaith ac eilwaith, efe a ddaeth allan o'r llacca ar yr ystlys honno o'r Gors ag ydoedd yn nesaf at ei dŷ ei hun; ac felly efe a aeth ymaith, ac ni welodd Cristion ef mwyach.[r]

NID DIGON BOD YN FEDDAL.

Ac fel hyn y gadawyd Cristion i ymdroi yn y llaid o anobaith, wrtho ei hun: eithr dan ymwthio, efe ymdrechodd fyth i ymlusgo tua'r ochr honno i'r Gors ag ydoedd bellaf oddiwrth ei dŷ ei hun, a nesaf i'r Porth Cyfyng;[s] yr hyn a wnaeth, ond nid allai ddyfod allan o'r Gors o achos y baich oedd ar ei gefn.

CRISTION, MEWN TRALLOD, ETTO YN CEISIO MYNED YN MHELLACH ODDIWRTH EI DY EI HUN.

Ond yna mi a welais yn fy mreuddwyd wr yn dyfod atto a elwid Cymhorth,[t] ac yn gofyn iddo, Pa beth oedd efe yn ei wneuthur yno?

CRIS. Syr, ebe Cristion, gwr a elwir Efengylwr a archodd i mi fyned y ffordd yma, ac efe a'm cyfarwyddodd i hefyd i'r Porth bychan accw, fel y gallwn ffoi rhag y llid a fydd; ac fel yr oeddwn i yn myned tuag yno, mi a gwympais i mewn yma.

CYMHORTH. Ond paham nad edrychasech chwi am y cerrig?[u]

YR ADDEWIDION.

CRIS. Ofn a'm dilynodd mor galed, fel ag y ffoais y ffordd nesaf, ac felly syrthiais yma.

CYM. Moes i mi dy law, ebe Cymhorth; a Christion a roddes iddo ef ei law, ac efe a'i tynnodd ef i'r lân, ac a'i gosododd ef ar dir caled, ac a barodd iddo gerdded ei ffordd yn y blaen. Sal. xl. 2.

CYMHORTH YN EI DYNNU I'R LAN.

Wedi hynny mi a neseais at y gwr a'i tynnasai allan o'r Gors, ac a ofynais iddo, Syr, gan fod y ffordd o Ddinas Dystryw i'r Porth accw trwy y lle yma, paham nas cyweiriwyd y man hyn, fel y gallai ymdeithwyr tlodion deithio tuag yno yn ddiberygl? Yntef a'm

Arglwydd. Trwy golli ei olwg ar addewidion yr efengyl, y mae yn syrthio dan rym anghrediniaeth, a chyflwr tost yw hwn i'r saw' a'n ymdrybaeddu ynddo.

[r] Dyma fel mae yn digwydd gyda llawer crefyddwr tawel; yn lle gweddïo, y mae'r dyn yn diffygio; ac yn lle ymdrechu, y mae yn rhoddi lle i ddiofalwch ac esmwythdra, ac yna y mae darfod am ei grefydd.

[s] Y mae Cristion y dwyn i gof eiriau Efengylwr, ac yn cymmeryd calon; a thrwy ddyrchafu golwg tua'r porth cyfyng, er cymmaint oedd ei faich yn wasgu arno, trwy ymwroli yn erbyn anghrediniaeth, efe a dderbyn gysur ac annogaeth.

[t] Y mae geiriau Crist yn yr efengyl fel ffon i gynnal yr enaid, a chymhwysiad o honynt at y gydwybod sydd yn torri grym anobaith.

[u] Addewidion yr efengyl sy ddigonol i gynnal yr enaid edifeiriol, fel na soddo yn y pydew erchyll o anobaith.

hattebodd, Mae y Gors front hon yn gyfryw le nas gellir ei gwellhau hi; canys i'r gwaelod hwn y mae yr holl fudreddi sydd yn canlyn argyhoeddiad am bechod yn rhedeg yn wastadol, ac am hynny y gelwir hi y Gors o Anobaith; oblegid er cynted y deffroir pechadur i weled ei gyflwr colledig, y mae llawer o ddychryniadau ac amheuon, a meddyliau anghysurus yn cyfodi yn fynych yn ei enaid ef; a'r rhai hyn oll sydd yn ymgasglu ynghyd ac yn ymsefydlu yn y man hwn; a dyma i chwi y rheswm paham mae y lle yma cynddrwg.

DEFNYDDIAU CORS ANOBAITH.

Nid ewyllys y Brenin yw fod y ffordd hon cynddrwg ag y mae hi. Esay xxxv. 3, 4. Y mae ei weithwyr hefyd, trwy gyfarwyddiadau golygwyr ffyrdd ei Fawrhydi, wedi bod er ys mwy nag un cant ar bymtheg o flynyddoedd yn gweithio yma, i edrych a ellid cyweirio y clwtyn tir hwn; ïe, ac myfi a wn, ebe fe, lyncu yma o'r lleiaf ugain mil, ïe myrddiynau o fennau yn llawn o hyfforddiadau iachus, a ddygwyd yma o bryd i bryd o bob ardal a goror yn nheyrnasoedd y Brenin, i brofi a ellid cyweirio y ffordd hon: a'r rhai wyddent beth oedd eu defnydd, a ddywedent, mai y pethau goreu oeddynt a ellid eu cael, i wneuthur y tir hwn yn sych ac yn galed. Eithr Cors Anobaith yw hi fyth, ac felly y bydd hi, er gwneuthur o bawb eu goreu i'w gwellhau hi.[w]

Gwir yw, fod, trwy gyfarwyddiad Rhoddwr y gyfraith, ryw gerrig mawr a chadarn wedi eu gosod ar hyd ganol y Gors; eithr pan y bo'r lle yma yn chwydu i fynu lawer o fudreddi, megys ag y mae yn gwneuthur ar newid tywydd, yna braidd y gwelir y meini: ac os canfyddir hwy, y mae dynion o herwydd gwendid eu pennau yn troi oddi arnynt, ac yna, wedi syrthio i'r Gors, diwynir hwy yn erchyll, er fod y cerrig yno fyth; ond mae y ffordd yn dda (1 Sam. xii. 23.) wedi myned i mewn unwaith i'r porth.[x]

ADDEWIDION O FADDEUANT A DERBYNIAD I FFAFR DRWY FFYDD YN NGHRIST.

Yna mi a welwn yn fy mreuddwyd, fod Meddal erbyn hyn wedi dyfod yn ol i'w dŷ ei hun; a'i gymmydogion a ddaethant i ymweled âg ef; a rhai o honynt a'i galwasant ef n wr call, am iddo ddychwelyd adref, a rhai a'i galwasant ef yn ffol, am beryglu ei hun gyda Christion; ac ereill a'i gwatworasant ef, am ei fod cyn wanned ei galon, gan ddywedyd wrtho, Yn ddiau wedi dechreu anturio, ni ddylasech chwi fod mor ofnus a chefnu ychydig o anhawsder yn y ffordd. Ac felly dan ostwng ei war fel crwydryn, fe eisteddodd Meddal i lawr yn eu plith hwynt. Ond o'r diwedd efe a ymhyfhaodd, ac yna hwy oll a droisant eu chwedlau, ac a ddechreuasant

MEDDAL WEDI CYRAEDD ADREF, A'I GYMMYDOGION YN YMWELED AG EF.

[w] Er fod pregethwyr yr efengyl yn ceisio oll a fedrant i gysuro eneidiau trist, trwy ddwyn o'u blaen helaethrwydd gras a thrugaredd Duw yn Nghrist, etto cymmaint yw grym profedigaeth, a'n gwendid ni, fel y mae anghrediniaeth yn barod i'n dwyn ni dan draed. Heblaw hyn, y mae tuedd neillduol mewn rhai i feithrin meddyliau prudd, yn lle ymddiried yn y drugaredd ddwyfol. Cofied y cyfryw rai am yr hwn a ddywedodd, *Na fydd anghredadyn, ond credadyn.*

[x] Nid oes diogelwch i ni nes dyfod at Grist trwy ffydd, ac wedi hynny yr ydym wedi cael gafael ar y noddfa gadarn

ddywedyd yn ddrwg am Gristion, druan gwr, o'r tu cefn iddo. A digon bellach am Feddal.

Yn awr, fel yr oedd Cristion yn myned yn mlaen, heb neb gydag ef, efe a ganfyddai wr o hirbell yn croesi y maes; a dygwyddodd iddynt gyfarfod ynghyd yn y man hynny lle yr oedd y naill yn croesi ffordd y llall. Enw y gwr bonheddig a gyfarfu âg ef oedd Mr. Bydol-ddoethyn, a thrigo yr oedd efe yn Ninas Doethineb Cnawdol, tref fawr iawn, ac yn gyfagos hefyd i'r lle y daethasai Cristion. A'r gwr hwn a glywsai ryw son am dano, canys mynediad Cristion allan o Ddinas Dystryw a daenasid ar led yn ddirfawr, nid yn unig yn y dref lle yr ydoedd efe yn preswylio ynddi, eithr hefyd mewn amryw o drefi ereill oddi amgylch. Mr. Bydol-ddoethyn gan hynny, wrth ddal sylw ar ei gerddediad cyflym, ac ar ei ocheneidau a'i ruddfanau ef, a'r cyffelyb argoelion ereill, a frith-dybiodd mai hwn oedd Cristion, ac efe a ddechreuodd siarad âg ef fel hyn.

BYDOL-DDOETHYN YN CYFARFOD A CHRISTION.

BYDOL-DDOETHYN. Iddo yn awr y gwr da, i ba le yr ydych chwi yn myned yn llwythog fel hyn?

YMDDIDDAN RHWNG BYDOL-DDOETHYN A CHRISTION.

CRIS. Yr wyf wedi fy llwytho yn ddiau, cyn dosted, i'm tyb i, ag y llwythwyd un creadur truan erioed; a chan ofyn o honoch tua pha le yr wyf yn teithio, dywedaf wrthych, Syr, fy mod yn myned tua y porth bychan accw sydd gyferbyn a mi; canys fe ddywedwyd wrthyf, y cawn i gyfarwyddyd yno pa wedd i gael fy nilwytho o'm baich pwysfawr.

BYDOL-DD. A oes i ti wraig a phlant?

CRIS. Oes, eithr yr wyf fi wedi fy llwytho â'r baich yma, fel nas gallaf ymhyfrydu ynddynt hwy megys cynt; ïe, mi dybygwn fy mod i fel pe bawn hebddynt

BYDOL-DD. A gymmeri di gynghor gennyf fi, os rhoddaf ef i ti?

CRIS. Gwnaf, os da fydd eich cynghor, canys digon rhaid i mi wrtho.

CYNGOR BYDOL-DDOETHYN I GRISTION.

BYDOL-DD. Mi a fynnwn i ti gan hynny i ymegnïo i gael rhyddhad oddiwrth dy lwyth mor gynted ag y gallech; oblegid ni byddi di byth yn esmwyth yn dy feddwl, ac nid elli di fwynhâu llesâd oddiwrth y bendithion a roddes Duw i ti, nes y gwnelych di felly.

CRIS. Dyna y peth yr wyf fi yn ymorchestu am dano, sef cael fy nilwytho o'm baich pwysfawr: nis gallaf fi ei fwrw ef i lawr fy hunan, ac nid oes neb yn ein gwlad a ddichon ei dynnu ef oddiar fy ysgwyddau: ac am hynny yr wyf yn teithio ar y ffordd hon, fel y gallwyf gael gwared o hono.

BYDOL-DD. Pwy a barodd i ti fyned ar hyd y ffordd yma i gael gwared o'th faich?

CRIS. Gwr o wedd barchedig ac anrhydeddus, yn fy ngolwg i, a'i enw ef, hyd ag yr wyf yn ei gofio, yw Efengylwr.

BYDOL-DDOETHYN YN CONDEMNIO CYNGOR EFENGYLWR.

BYDOL-DD. Yn nghrog y byddo am ei gynghor, nid oes yn yr holl fyd un ffordd yn fwy peryglus a blin na'r hon y cyfarwyddodd efe dydi i

ymdeithio ynddi; a thi a gei brofi hynny, os dilyni di ei gyngor ef. Mi a welaf wrth dom y Gors o Anobaith sydd yn glynu wrth dy ddillad di, gael o honot ti beth trafferth eisoes; eithr nid yw y gors honno ond dechreuad y gofidiau sydd yn canlyn y sawl sydd yn teithio yn y ffordd yma. Gwrando arnaf fi, yr wyf yn hŷn na thydi, mae yn debyg y cyfarfyddi ar y ffordd yr wyt ti yn ymdeithio ynddi, â lludded, blinder, newyn, peryglau, noethni, cleddyf, llewod, dreigiau, tywyllwch, ac i fod yn fyr, â marwolaeth, a pheth nis cyfarfyddi? Mae yn ddilys fod hyn oll yn wir; canys fe sicrhawyd y cwbl gan lawer o dystion: a phaham y dyfetha ddyn ei hunan mor ddiofal trwy goelio alltud.

CRIS. Syr, mae y baich hwn sydd ar fy nghefn yn fwy brawychus i mi na'r cwbl oll a grybwyllasoch chwi am danynt; ïe, mi a debygwn nas gwnawn gyfrif yn y byd o ddim a ddygwyddai i mi yn y ffordd, pe gallwn gael ond fy nilwytho o'm baich.

AGWEDD CALON CRISTION IEUANC.

BYDOL-DD. Pa fodd y gwybuost ar y cyntaf dy fod yn llwythog?

CRIS. Wrth ddarllen y llyfr yma sydd yn fy llaw.

BYDOL DD. Felly yr oeddwn yn tybied; ac fe ddamweiniodd i ti megys ag y dygwyddodd i bobl anneallus ereill, y rhai trwy ymyrreth â phethau yn mhell uwchlaw eu dealldwriaeth, a gollasant eu cof yn ddisymmwth; ac mae y gwallgof hyn, nid yn unig yn eu gosod hwynt mewn gradd îs na dynion, megys, i fy nhyb i, yr wyt ti wedi dy osod ganddo, eithr y mae hefyd yn eu gyrru hwynt yn mlaen i anturio ar bethau echrydus, mewn amcan i feddiannu nis gwyddant pa beth.

NID YW YN FODDLON I BOBL DDARLLEN Y BIBL YN DDIFRIFOL.

CRIS. Myfi a wn beth yw fy nymuniad i, sef cael fy esmwythau o'm baich gorthrwm.

BYDOL-DD. Eithr paham yr wyt ti yn ceisio esmwythâd yn y ffordd hon, gan fod cymmaint o enbydrwydd ynddi? yn enwedig pan y gallwn i, pe byddai gennyt amynedd i wrando arnaf, dy gyfarwyddo di i gael y peth yr wyt yn ei chwennychu, heb y peryglon a orfydd arnat i daflu dy hunan iddynt yn y ffordd hon, ïe, mae y cynnorthwy yn agos: gwybydd hyn yn mhellach, y cai di yn lle y peryglon hyn lawer o ddiogelwch, a charedigrwydd, a boddlonrwydd.

CRIS. Attolwg, Syr, agorwch i mi y dirgelwch hwn.

BYDOL-DD. Wele, y mae yn y pentref accw a elwir Moesoldeb, wr bonheddig a elwir Deddfoldeb, yr hwn sydd ddeallus iawn, a gair da iddo, ac a fedr ddilwytho pobl o'r fath lwythau ag yw dy lwyth di; ïe, myfi a wn iddo wneuthur llawer o ddaioni yn y matter yma eisoes. Ac heblaw hyn, efe a fedr iachau y sawl sydd yn agos a gwallgofi oblegid eu llwythau: atto ef, meddaf, y gelli di fyned a chael cymhorth mewn ychydig amser. Nid yw ei dŷ gwbl filldir oddiyma; ac oni bydd efe ei hunan gartref, y mae ganddo fab ieuanc glân, yr hwn a elwir Geirda, ac i ddywedyd wrthyt y gwir, efe a ddichon dy gynnorthwyo gystal a'r hen wr bonheddig

MAE YN DEWIS MOESOLDEB O FLAEN Y PORTH CYFYNG.




Christian and Evangelist.

Cristion a'r Efangylwr.

ei hunan; yno, meddaf, y gelli di gael dy esmwythâu o'th faich. Ac onid wyt yn bwriadu dychwelyd yn ol i dy hen drigfa, (ac yn ddiau nis mynnwn i ti wneuthur felly,) yna ti a elli anfon am dy wraig a'th blant i ddyfod i fyw gyda thi yn y pentref yma; lle y mae yn awr dai heb drigolion ynddynt, a thi elli gael un o'r rhai hynny am ychydig o ardreth; y mae yno hefyd ymborth da, a newid fawr arno; ac i wneuthur dy fywyd yn ddedwyddach, ti a elli sicrhau dy hunan, y byddi di byw yno yn mhlith cymmydogion gonest, mewn cymmeriad a ffasiwn o'r goreu.

Ar hyn yr oedd Cristion yn petruso, ac efe a resymodd ynddo ei hunan fel hyn: Os gwir y mae y gwr bonheddig hwn yn ei ddywedyd, gwell i mi gymmeryd ei gyngor ef.[y] A chyda hynny, ebe fe wrth Bydol-ddoethyn, Syr, dangoswch i mi y ffordd i dŷ y gwr gonest hwn.

DYRYSU CRISTION GAN EIRIAU BYDOL-DDOETHYN.

BYDOL-DD. A weli di y bryn uchel accw?

MYNYDD SINAI.

CRIS. Gwelaf yn eglur ddigon.

BYDOL-DD. Rhaid i ti fyned wrth ystlys y bryn accw; a'r tŷ cyntaf yr elych atto yw ei dŷ ef.

Felly fe drodd Cristion allan o'i ffordd, i fyned i dŷ Mr. Deddfoldeb i geisio cymhorth: ond wedi nesâu at y bryn, wrth ei weled ef mor uchel, a bod yr ochr nesaf at y ffordd yn gogwyddo allan yn ddirfawr, efe a ofnodd fyned allan yn mhellach, rhag i'r mynydd syrthio ar ei ben ef; ac am hynny efe a safodd yno yn llonydd, heb wybod pa beth a wnai. Yr oedd ei faich hefyd, yn ol ei dyb ef, yn drymmach yr awr hon na chynt, tra yr oedd efe yn ei ffordd. Daeth hefyd fflammau tân allan o'r mynydd, y rhai a wnaethant i Gristion ofni y llosgid ef. Exod. xix. 16, 18. Heb. xii. 21. Yma, gan hynny, y chwysodd ac y crynodd efe gan ofn Ac yn awr yr oedd yn ddrwg ganddo, am iddo dderbyn cynghor Mr. Bydol-ddoethyn A chyda hynny, fe ganfu Efengylwr yn dyfod i'w gyfarfod ef; ac wrth ei weled ef, efe a wridiodd gan gywilydd. Efengylwr gan hynny a ddaeth atto, ac a edrychodd arno â gwynebpryd digllawn, ac a ymresymodd â Christion fel hyn.[z]

CRISTION YN OFNI I FYNYDD SINAI SYRTHIO AR EI BEN.

EFENGYLWR YN CAEL CRISTION DAN FYNYDD SINAI.

EFENG. Cristion, ebe fe, pa beth a wnei di yma? Ond ni wyddai Cristion pa beth a attebai iddo; ac am hynny efe a safodd ennyd fechan yn fud ger ei fron ef. Yna y dywedodd Efengylwr yn mhellach wrtho, Onid tydi yw y dyn a glywais i yn llefain yn irad o'r tu allan i furiau Dinas Dystryw?

EFENGYLWR YN AIL YMRESYMU A CHRISTION.

CRIS. Ië, barchedig Syr, myfi ydyw y dyn hwnnw.

EFENG. Oni chyfarwyddais i di i'r ffordd sydd yn arwain tua'r Porth Cyfyng?

CRIS. Do, barchedig Syr, ebe Cristion.

[y] Er i'r Pererin gael rhyw radd o gysur ac ymwared, y mae efe yn awr yn ymorphwys yn lle myned yn ddioed at y porth cyfyng. Mae yn ymgysuro yn ei foesoldeb a'i ddyledswyddau, ac yn gwrando ar lais y byd.

[z] Yr oedd Cristion erbyn hyn yn gweled ei gyfeiliornad, ac yn cywilyddio am iddo ymwrthod â ffordd iechydwriaeth, a chymmeryd ei hudo gan Bydol-ddoethyn.

EFENG. Pa fodd gan hynny y cyfeiliornaist ti mor ebrwydd; canys yr wyt ti yn awr allan o'r ffordd?

CRIS. Mor gynted ag y daethum i allan o Gors Anobaith, mi a gyfarfyddais â gwr bonheddig, yr hwn a'm perswadiodd, fod un yn trigo yn y pentref o'm blaen ag a allai fy nadlwytho i o'm baich.

EFENG. Pa fath wr ydoedd efe?

CRIS. Yr oedd gwedd gwr bonheddig ganddo, ac efe a siaradodd lawer â mi; ac o'r diwedd a wnaeth i mi fod yn foddlawn i ddilyn ei gyngor ef: ac felly mi a ddaethum yma: eithr pan welais i uchder y mynydd hwn, a'r modd mae yn gogwyddo uwch ben y ffordd, mi a ymatteliais yn ddisymmwth oddiwrth fyned yn nes atto, rhag iddo syrthio ar fy mhen.

EFENG. Pa beth a ddywedodd y gwr bonheddig hwnnw wrthych chwi?

CRIS. Efe a ofynodd i mi i ba le yr oeddwn yn myned? ac efe a'm holodd i a oedd teulu gennyf? Ac mi a fynegais iddo fy mod yn myned tua mynydd Sïon, a bod gennyf deulu; eithr, ebe fi, yr ydwyf mor llwythog gan y baich sydd ar fy nghefn, fel nas gallaf ymhyfrydu ynddynt megys gynt.

EFENG. A pha beth a ddywedodd yntef ynghylch hynny?

CRIS. Fe'm cynghorodd i ymorchestu i ddilwytho yn ebrwydd. Minnau a'i hattebais ef, Mai esmwythdra oedd dymuniad fy nghalon i; ac am hynny, ebe fi, yr wyf yn myned tua y porth accw i gael gwybod pa le y caf fi ymwared. Yntef a ddywedodd wrthyf, y dangosai efe i mi well a nesach ffordd, ac â llai o beryglon ynddi, nac sydd yn y ffordd, Syr, y gosodasoch chwi fi arni: a'r ffordd hon, ebe fe, a'ch dwg chwi yn union i dŷ gwr bonheddig a fedr ddilwytho pobl o'r fath lwythau a hyn. Felly mi a'i credais ef, ac a droais i'r ffordd hon oddiar y ffordd yr oeddwn i arni trwy eich cyfarwyddiad chwi, i edrych a gawn i esmwythder, yn rhyw fodd, oddiwrth fy maich. Eithr pan ddaethum i'r lle hwn, a gweled y pethau sydd yma, mi a ymattaliais oddiwrth fyned yn mhellach, rhag ofn perygl: ac yn awr nis gwn i pa beth a wnaf.[a]

EFENG. Yna ebe Efengylwr, Saf yn llonydd ychydig, ac mi a hysbysaf i ti eiriau Duw. Ac felly efe a safodd yn ddychrynedig. A dywedodd Efengylwr wrtho fel hyn: "Edrychwch na wrthodoch yr hwn sydd yn llefaru, oblegid oni ddiangodd y rhai a wrthodasant yr hwn oedd yn llefaru ar y ddaear, mwy o lawer ni ddiangwn ni, y rhai ydym yn troi ymaith oddiwrth yr hwn sydd yn llefaru o'r nef." Heb. xii. 25. "A'r cyfiawn a fydd byw trwy ffydd; eithr os tŷn neb yn ol, nid yw fy enaid yn ymfoddloni ynddo." Heb. x. 38. Ac efe a gymhwysodd

EFENGYLWR YN EI ARGYHOEDDI O'I GYFEILIORNAD.

[a] Nid diwygiad moesol, a chyflawniadau deddfol, a ddichon ddwyn heddwch parhaus i'r gydwybod. Y mae cyflwr pechadur mor druenus, nad oes dim ond gras yr efengyl a ddichon iachau ei glwyfau; wedi i ni unwaith gael golwg ar hynny, ni a ddylem lynu yn ddiysgog wrth y ffordd newydd a bywiol, heb gymmeryd ein twyllo gan Phariseaid yr oes.

yr ysgrythyrau yma at Gristion, fel hyn; 'Tydi yw y dyn sydd yn rhedeg i'r trueni hwn; ti a ddechreuaist ddiystyru cyngor y Goruchaf, trwy droi oddiar ffordd tangnefedd, ïe, o fewn ychydig i berygl damnedigaeth.'

Ar hyn fe syrthiodd Cristion i lawr wrth ei draed ef megys yn farw, gan lefain, 'Gwae fi! canys darfu am danaf.' Ac wrth weled hynny, fe ymaflodd Efengylwr yn ei law ddehau ef, gan ddywedyd, "Pob pechod a chabledd a faddeuir i ddynion" Mat. xii. 31. "Na fydd anghredadyn ond credadyn." Ioan xx. 27. Yna yr ymadfywiodd Cristion ychydig drachefn, ac a safodd yn ddychrynedig megys ar y cyntaf o flaen Efengylwr.

A chan fyned rhagddo, fe lefarodd Efengylwr wrth Gristion, fel hyn: 'Craffa yn well ar y pethau a adroddaf wrthyt, ac mi a ddangosaf i ti yn awr pwy oedd yr hwn a'th dwyllodd di, a phwy hefyd ydyw yntef at yr hwn y'th ddanfonodd di.

EFENGYLWR YN DARLUNIO BYDOL-DDOETHYN

Y gwr a gyfarfu â thi yw Bydol-ddoethyn; ac, mewn rhan, iawn y gelwir ef felly, oblegid nid yw efe yn blasu un math o athrawiaeth ond athrawiaeth y byd hwn; ac am hynny mae yn cyrchu yn ddibaid i Dref Moesoldeb, (1 Ioan iv. 5,) oblegid ei fod yn caru yr athrawiaeth honno yn oreu, am ei bod yn ei gadw ef, mewn rhan, rhag y groes. Gal. vi. 12. Ac o herwydd ei fod ef o'r dymmer gnawdol yma, mae yn ymdrechu i droi pobl oddiar fy ffyrdd i, er uniawned ydynt. Y mae tri pheth yn nghyngor y gwr hwn ag sydd raid i ti eu ffieiddio yn llwyr.

1. Ei waith yn dy droi di allan o'r ffordd.

2. Ei ymdrechiad ef i wneuthur y groes yn gas yn dy olwg di.

3. Ei waith ef yn gosod dy draed di ar y ffordd sydd yn tywys i weinidogaeth angeu.

Yn gyntaf, Rhaid i ti ffieiddio ei waith ef yn dy droi di allan o'r ffordd; ïe, a'th waith dithau yn cyttuno âg ef yn hynny: oblegid i ti drwy gofleidio cyngor Bydol-ddoethyn, ddiystyru cyngor Duw. "Ymdrechwch," medd yr Arglwydd, "am fyned i mewn trwy y porth cyfyng," sef y porth tua yr hwn y cyfarwyddais i dydi ar y cyntaf; oblegid "cyfyng yw y ffordd sydd yn arwain i'r bywyd, ac ychydig sydd yn ei chael." Luc xiii. 24. Mat. vii. 14. Ac yn awr fe ddarfu i'r dyn drwg hwn dy droi di oddiwrth y Porth Cyfyng yma, ac oddiar y ffordd sydd yn arwain tuag atto, gan dy ddwyn di o fewn ychydig i ddystryw. Casâ gan hynny ei waith ef yn dy droi di oddiar y ffordd, a ffieiddia dy hunan am wrando arno ef.

Yn ail, Rhaid i ti ffieiddio ei ymgais ef i wneuthur y groes yn atgas yn dy olwg di; canys yr wyt i barchu croes Crist, yn fwy na thrysorau yr Aipht. Heb. xi. 25, 26. Heblaw hyn, Brenin y gogoniant a fynegodd i ti, "Y caiff yr hwn sydd yn ewyllysio cadw ei einioes ei cholli hi;" ac medd efe, "Os daw neb attaf fi, ac ni chasâ ei dad, a'i fam, a'i wraig, a'i blant, a'i frodyr, a'i chwiorydd, ïe, a'i einioes ei hun hefyd, ni all efe fod yn ddisgybl i mi." Marc viii. 34, 35. Luc xiv. 26. Ac am hynny, meddaf, rhaid i ti ffieiddio yr athrawiaeth honno a dderbyniaist ti oddiwrth Bydol-ddoethyn, yr hwn a'th

berswadiodd, y bydd y peth hynny yn farwolaeth i ti, heb yr hwn, medd y gwirionedd ei hun, nid elli di gael bywyd tragywyddol.

Yn drydydd, Rhaid i ti ffieiddio ei waith ef yn gosod dy draed di ar ffordd sydd yn arwain i weinidogaeth angeu. Ac felly rhaid i ti ystyried at bwy yr anfonodd efe dydi, ac hefyd mor analluog oedd y gwr hwnnw i'th waredu di oddiwrth dy faich.

Y gwr a elwir Deddfoldeb, at yr hwn y'th anfonwyd di i geisio esmwythâd, yw mab y wasanaeth-ferch, yr hon sydd yn awr tan gaethiwed, hi a'i phlant; ac mewn dirgelwch, hi ydyw y mynydd Sinai yma, yr hwn a ofnaist rhag iddo syrthio ar dy ben. Gal. iv. 21, &c. Yn awr, os yw hi a'i phlant yn gaethion, pa fodd y galli di ddysgwyl cael dy wneuthur yn wr rhydd ganddynt hwy? Ac am hynny ni ddichon y Deddfoldeb hwn dy ryddhâu di oddiwrth dy faich. Nis gwaredodd efe neb erioed etto oddiwrth ei faich; na ddo, ac nid oes tebygoliaeth byth y gwna. Ni chyfiawnheir neb trwy weithredoedd y ddeddf, canys ni ddichon neb trwyddynt hwy gael eu rhyddhâu oddiwrth eu beichiau. Rhuf. iii. 29. Act xiii. 38, 39. Ac am hynny nid yw Mr. Bydol-ddoethyn ond estron, a Mr. Deddfoldeb ond twyllwr, ac nid yw ei fab Geirda ond rhagrithiwr, er ei edrychiad ar ei wên, ac nis gall dy gymhorth di.—Coelia fi, nid oes dim yn holl drwst a dwndwr y dynion angheuol hyn, ond amcan i'th siommi di am dy iechydwriaeth, trwy dy droi di oddiar y ffordd y gosodais i di arni. Ac wedi hynny fe grochwaeddodd Efengylwr am gadarnhad o'r nefoedd i'r pethau a lefarasai efe am danynt: ac yn y man daeth geiriau a thân allan o'r mynydd, tan yr hwn yr arosodd Cristion druan, y rhai a wnaethant i wallt ei ben a blew ei gnawd ef sefyll i fynu. Y geiriau oeddynt y rhai hyn: "Cynnifer ag y sydd o weithredoodd y ddeddf, tan felldith y maent: canys ysgrifenwyd, Melldigedig yw pob un nid yw yn aros yn yr holl bethau a 'sgrifenir yn llyfr y ddeddf, i'w gwneuthur hwynt." Gal. iii. 10.

Yn awr nid oedd Cristion yn edrych am ddim ond marwolaeth; ac efe a ddechreuodd waeddi yn alarus, gan felldithio yr amser y cyfarfu ef â Mr. Bydol-ddoethyn, gan alw ei hunan fil o weithiau yn ffol, am iddo wrando ar ei gyngor ef. A chywilyddio yn ddirfawr a wnaeth efe hefyd, wrth feddwl i resymau cnawdol y gwr yma ei orchfygu ef yn y fath fodd, fel y parent iddo wyro oddiar y ffordd uniawn. Ac ar ol hynny efe a nesaodd drachefn at Efengylwr, gan lefaru wrtho i'r perwyl hyn.

CRISTION YN GOFYN A OES OBAITH.

CRIS. Syr, beth a dybygwch chwi? a oes obaith? A allaf fi ddychwelyd yn awr, a myned i fynu tua y Porth Bychan? Oni wrthodir fi am fy nhrosedd, ac onis gyrrir fi yn ol oddi yno gyda chywilydd? Mae yn ddrwg gennyf i mi wrando ar gyngor y gwr hwn; eithr a ellir maddeu fy mhechodau i?

EFENGYLWR YN EI GYSURO.

Yna y dywedodd Efengylwr wrtho, Y mae dy droseddiad di yn fawr iawn; canys ti a wnaethost ddau ddrwg; ti a adewaist y ffordd dda, ac a aethost i rodio llwybrau gwaharddedig: er hynny ti a gai dy dderbyn gan y gwr sydd wrth y porth; canys y mae efe yn ewyllysio yn dda i ddynion: yn unig, ebe fe, gwylia



Cristion yn myned i fyny at y Porth.

THE LONDON PRINTING AND PUBLISHING COMPANY LIMITED

rhag gwyro drachefn, "rhag dy ddifetha o'r ffordd, pan gynneuo ei lid ef, ond ychydig." Sal. ii. 12.

Yna yr ymdaclodd Cristion i ddychwelyd,[b] ac Efengylwr, wedi ei gusanu ef, a wenodd arno, ac a ddywededd 'Duw yn rhwydd' wrtho. Felly efe a aeth yn mlaen ar frys, heb ynganyd gair wrth un-dyn ar y ffordd; ac os gofynai neb ddim iddo, ni chai efe atteb yn y byd oddi wrtho. Yr oedd ef yn cerdded megys un yn troedio o hyd ar dir gwaharddedig: ac ni allai efe dybied ei hun yn ddiogel mewn unrhyw fodd, hyd oni ddaeth efe drachefn i'r ffordd a adawsai efe trwy gyngor Bydol-ddoethyn; ac felly efe a ddaeth o'r diwedd hyd at y porth. Yn awr yr oedd y geiriau hyn wedi eu 'sgrifenu uwch ben y porth, "Curwch, ac fe agorir i chwi." Mat. vii. 7, 8. Ac wedi curo mwy nac unwaith, efe a ddywedodd,

A agor neb y porth i mi,
A ddarfu bechu'n 'sgeler?
Os felly gwneir, mi ganaf glod,
Yn wastad i'm Duw tyner.

Yn mhen ennyd, daeth i'r porth wr pwyllog sobr, a elwid Ewyllysiwr-da, ac efe a ofynodd pwy oedd yno; ac o ba le yr oedd efe yn dyfod; a pha beth a fynnai efe.

CRIS. Y mae yma bechadur truan trwm-lwythog; dyfod yr wyf fi o Ddinas Dystryw, eithr yr wyf yn myned i Fynydd Sïon, fel y'm gwareder rhag y llid a fydd. Am hynny, Syr, yn gymmaint a chlywed o honof mai trwy y porth hwn mae y ffordd tuag yno, dymunwn wybod, a ydych chwi yn ewyllysgar i fy ngollwng i mewn?

AGORIR Y PORTH I BECHADURIAID EDIFEIRIOL.

EWYLLYSIWR-DA. Yr wyf yn ewyllysgar, ebe yntef, o'm holl galon; ac ar hynny efe a agorodd y porth.[c]

A phan oedd Cristion yn myned i mewn, y llall a'i cipiodd ef atto. Yna ebe Cristion, Beth yw hyn? O fewn ychydig at y porth hwn, ebe y llall yr adeiladwyd castell cadarn, a Beelzebub sydd gadben arno: ac oddi yno y mae efe a'i filwyr yn saethu piccellau at y rhai sydd yn dyfod i fynu at y porth hwn, mewn bwriad i'w lladd hwynt cyn yr elont i mewn. Weithian, ebe Cristion, yr wyf yn ymlawenychu, ac etto yn dychrynu. Ac wedi dyfod i mewn, gofynodd y porthor iddo, pwy oedd yr hwn a'i cyfarwyddodd i fyned tuag yno.

SATAN YN DDIG WRTH Y SAWL A ANT TRWY'R PORTH.

CRISTION YN MYNED I MEWN TRWY LAWENYDD A DYCHRYN.

CRIS. Efengylwr a barodd i mi ddyfod yma a churo fel y gwneuthum; ac efe a ddywedodd wrthyf y cawn wybod gennych chwi, Syr, pa beth sydd raid i mi ei wneuthur.

YMDDIDDAN RHWNG EWYLLYSIWR-DA A CHRISTION.

[b] Mae y Pererin yn awr yn llwyr benderfynu, na chymmerai efe na hun na gorphwys, nes trwy ganlyn cyfarwyddyd yr efengyl, y delai at y fan lle y gallai gael gwared o'i faich, a gwir esmwythyd i'w enaid trwm-lwythog.

[c] Y porth a agorir i bob enaid edifeiriol. Ni ddichon Crist fwrw allan neb a ddelo atto ef, dan deimlad o'i drueni, er maint ei bechod.

EW.-DA. Y mae drws agored wedi ei osod o'th flaen di, ac ni ddichon neb ei gau ef.

CRIS. Yn awr yr wyf fi yn dechreu medi ffrwyth fy mheryglon.

EW.-DA. Ond pa fodd y daethost ti heb neb gyda thi?

CRIS. Am nad oedd neb o fy nghymmydogion yn gweled eu perygl fel yr oeddwn i yn gweled fy mherygl fy hun.

EW.-DA. A oedd neb yn gwybod am eich dyfodiad?

CRIS. Oedd, canys fy ngwraig a'm plant a'm gwelsant i yn cychwyn, ac a alwasant ar fy ol, i geisio gennyf ddychwelyd; rhai hefyd o'm cymmydogion a alwasant arnaf i ddychwelyd. Eithr myfi a osodais fy mysedd yn fy nghlustiau, ac a gymmerais fy ffordd.

EW.-DA. Eithr a ganlynodd neb o honynt chwychwi, i'ch perswadio i ddychwelyd adref?

CRIS. Do, Cyndyn a Meddal a'm canlynasant, ond pan y gwelsant na thyciai eu cyngor hwynt, fe ddychwelodd Cyndyn dan ddifenwi, eithr Meddal a ddaeth gyda mi ychydig o'r ffordd.

EW.-DA. Ond paham na ddaeth efe gyda chwi o hyd?

CRIS. Yn wir ni a ddaethom ein dau ynghyd nes i ni ddyfod at Gors Anobaith, i ba un y cwympasom yn ddisymmwth: ac ar hynny, fy nghymmydog Meddal a ddigalonodd, ac ni anturiai yn mhellach. Ac yna wedi esgyn o'r gors, ar yr ochr nesaf at ei dŷ ei hun, efe a ddywedodd wrthyf, y gallwn i, erddo ef, feddiannu y wlad deg fy hunan.

GALL DYN GAEL CYDYMAITH PAN GYCHWYNO TUA'R NEF, AC ETTO MYNED YNO WRTHO EI HUN.

Yna ebe Ewyllysiwr-da, Och o druan gwr! A ydyw gogoniant nefol mor wael yn ei olwg, fel nad yw efe yn cyfrif y tâl rhedeg trwy ychydig rwystrau i'w fwynhâu?

Myfi a ddywedais, ebe Cristion, y gwir am Feddal, a phe dywedwn i y cwbl o'r gwirionedd am danaf fy hun, fe gaid gweled, nad wyf fi well nac yntef. Gwir yw, efe a ddychwelodd i'w dŷ ei hun, eithr minnau hefyd a droais i'r ffordd sydd yn arwain i farwolaeth, wedi fy annog i hynny trwy gyngor cnawdol Mr. Bydol-ddoethyn.

CRISTION YN EI GYHUDDO EI HUN WRTH Y PORTH.

EW.-DA. Oh, a gyfarfu efe â chwi? pa beth! efe a fynnai i chwi fyned at Mr. Deddfoldeb i geisio esmwythder. Twyllwyr ydynt hwy ill dau; eithr a ddilynasoch chwi ei gyngor ef?

CRIS. Do, cyn belled ag y meiddiwn: mi a aethum i ymofyn am Mr. Deddfoldeb, hyd oni thybiais y syrthiai y mynydd oedd wrth ei dŷ ef ar fy mhen i; ac am hynny gorfu arnaf ymattal rhag myned yn mhellach.

EW.-DA. Fe fu y mynydd hwnnw yn ddinystr i fagad, ac a fydd etto i laweroedd. Da ydyw i chwi ddianc, ac na faluriwyd chwi yn chwilfriw ganddo.

CRIS. Yn ddiau, ni wn beth a ddygwyddasai i mi yno, oni buasai i Efengylwr, ar awr dda, gyfarfod â mi drachefn, fel yr oeddwn yn myfyrio yn fy hurtrwydd ar fy nghyflwr. Eithr trugaredd Duw oedd ei ail ddyfodiad ef attaf fi; onidê ni ddaethwn i



"Three Shining ones came to him" p33

Christian relieved of his burthen.

Tri Disglaer yn dyfod at Cristion

byth yma. Ond yn awr yr wyf wedi dyfod, y fath ddyn ag ydwyf, mwy cymhwys i gael fy nystrywio gan y mynydd hwnnw, nac i sefyll yma fel hyn i ymddyddan â'm Harglwydd: eithr oh! pa ffafr yw hyn, fy mod i er hynny yn cael fy nerbyn i mewn i'r lle hwn.

EW.-DA. Nid ydym ni yn edliw dim i neb,[d] er cymmaint a wnaethant cyn dyfod yma: ac nis bwrir hwynt allan ddim. Ioan vi. 37. Ac am hynny, Gristion anwyl, dere gyda mi ychydig yn mhellach, ac myfi a'th ddysgaf di ynghylch y ffordd sydd raid i ti fyned ar hyd-ddi. Edrych o'th flaen, a weli di y ffordd gul accw? Dyna y ffordd y dylit ti fyned ar hyd-ddi. Fe a'i gwnaed hi gan y patriarchiaid, y prophwydi, Crist a'i apostolion, ac y mae hi cyn uniawned ag y gallai rheol ei gwneuthur hi. Dyma y ffordd sydd raid i ti ei theithio.[e]

CYSURO CRISTION DRACHEFN, A'I ANFON RHAGDDO AR EI DAITH.

CRIS. A oes yno ddim traws-ffyrdd trwy y rhai y dichon dyn dyeithr golli ei ffordd?

CRISTION YN OFNI COLLI'R FFORDD.

EW.-DA. Oes, y mae amryw o ffyrdd yn dyfod i dy ffordd; ond y maent hwy oll yn geimion ac yn llydain: eithr wrth hyn y gelli di adnabod yr iawn ffordd oddiwrth y croes-ffyrdd; hi yn unig sydd uniawn a chul, mae y lleill yn geimion ac yn llydain Matt. vii. 13, 14.

Yna mi a glywn Gristion yn gofyn iddo ef yn mhellach, A allai efe ei ddadlwytho ef o'r llwyth oedd ar ei gefn; canys hyd yn hyn ni chawsai efe ymwared o hono, ac nis gallai efe mewn modd yn y byd fwrw ei faich i lawr heb gymhorth.

CRISTION YN FLIN O'I FAICH.

Yntef a'i hattebodd ef, Ymfoddlona i aros dan dy faich hyd oni ddelech di i'r lle o esmwythad, canys fe a gwymp oddiar dy gefn di yno o hono ei hun.[f]

NID OES YMWARED ODDIWRTH EUOGRWYDD A BAICH O BECHOD, OND TRWY WAED AC ANGAU CRIST.

Yna dechreuodd Cristion wregysu ei lwynau, ac ymbarottoi i'w daith: a dywedodd y llall wrtho y deuai ef at dŷ y Dehonglwr,[g] pan elai efe ychydig oddiwrth y porth: ac efe a barodd iddo guro wrth ei ddrws ef; a dywedodd wrtho, y dangosai y Dehonglwr iddo bethau rhagorol. Ac wedi hyn cymmerodd Cristion ei gennad oddiwrth ei gyfaill, ac yntef hefyd a ddywedodd wrth Gristion, 'Rhwydd daith i ti.'

Yna efe a aeth rhagddo hyd oni ddaeth at dŷ y Dehonglwr, lle y curodd ef lawer gwaith: o'r diwedd daeth un i'r drws, ac a ofynodd, Pwy sydd yna?

CRISTION YN DYFOD I DY Y DEHONGLWR.

[d] Pan ddychwelodd yr afradlon adref i dŷ ei Dad, anghofiwyd ei drosedd gynt. Nid yw ein Harglwydd grasol yn dannod ein beiau i ni, wedi dychwelyd o honom atto ef.

[e] Yr un yw y ffordd i'r bywyd yn mhob oes, sef llwybr santeiddrwydd a hunan-ymwadiad. Trwy lawer o orthrymderau mae yn rhaid myned i mewn i deyrnas Dduw.

[f] Y mae sicrhad am drugaredd yn gweini gradd o gysur i'r enaid; ond nid oes gwir hedd a gorphwysfa i'w gael, nes dyfod at Grist, a chael datguddiad tufewnol o'i gariad ef.

[g] Un a ddichon egluro pethau tywyll—goleuni yr Ysbryd Glân, yn agor y deall, ac yn dwyn y meddwl i iawn wybodaeth am drefn iechydwriaeth, a'i hawl i fendithion ysbrydol.

CRIS. Syr, ymdeithydd ydwyf fi: ac fe orchymynwyd i mi gan un sydd yn gydnabyddus â gwr da y tŷ hwn, alw yma er llesâd i mi; ac am hynny, myfi a ewyllysiwn ymddyddan âg ef: felly fe alwodd wr y tŷ, ac yn y man fe a ddaeth at Gristion, ac a ofynodd iddo, Pa beth yr ydych chwi yn ei geisio yma?

CRIS. Syr, dyn wyf fi a ddaeth allan o Ddinas Dystryw, ac yr wyf yn myned tua Mynydd Sïon; fe ddywedodd y gwr sydd yn sefyll wrth y porth yn mhen y ffordd hon wrthyf, os galwn i yma, y dangosech chwi i mi bethau rhagorol, y cyfryw ag a'm cynnorthwyent yn fy nhaith.

Yna ebe Dehonglwr, Tyred i mewn; ac mi ddangosaf yr hyn a fydd buddiol i ti.

EI GROESAWIAD.

GOLEUNI.

Felly fe archodd i'w was ennyn canwyll, ac a barodd i Gristion ei ddilyn ef; felly efe a'i harweiniodd i ystafell ddirgel: ac wrth orchymyn ei feistr, fe agorodd y gwas ryw ddrws, ac yna fe welai Cristion lun gwr sobr iawn, wedi ei osod i fynu wrth y pared, a dyma oedd ei wedd ef:—Yr oedd ei lygaid ef wedi eu dyrchafu tua'r nefoedd, yr oedd y llyfr goreu yn ei law ef, a chyfraith gwirionedd yn ysgrifenedig ar ei wefusau ef, a'r byd o'r tu cefn iddo; yr oedd efe yn sefyll fel pe buasai efe yn dadleu â dynion, ac yr oedd coron o aur ynghrog uwch ei ben ef.

YN GWELED LLUN HARDD.

DARLUNIAD O HONO.

Yna ebe Cristion, beth yw ystyr y peth hwn?

DEHONGLWR. Mae y gwr a osodir allan trwy y llun hwn yn un o fil: efe a ddichon genhedlu plant, ac esgor arnynt, a'u meithrin hefyd pan enir hwynt. 1 Cor. iv. 15. Gal. iv. 19. 1 Pedr ii. 2. A lle y gwelaist ti ef a'i lygaid wedi eu derchafu tua'r nefoedd, a'r llyfr goreu yn ei law, a chyfraith gwirionedd yn ysgrifenedig ar ei wefusau; mae hynny yn dangos i ti, mai ei waith ef ydyw gwybod ac egluro pethau tywyll i bechaduriaid, fel y gwelaist ti ef yn sefyll megys pe buasai yn dadleu â dynion. A lle y gwelaist ti y byd fel peth wedi ei fwrw o'r tu cefn iddo, a bod coron yn crogi uwch ei ben ef; y mae hynny yn dangos i ti ei ddibrisdod a'i ddirmyg ef o'r pethau presennol, o gariad at wasanaeth ei feistr, yn ei sicrhau y caiff ef ogoniant tragywyddol yn wobr yn y byd a ddaw. 1 Pedr v. 4.[h]

YSTYR Y LLUN.

Yn awr, ebe Dehonglwr, myfi a ddangosais i ti y llun hwn yn gyntaf, o herwydd y gwr a osodir allan trwy y drych hwn ydyw yr unig ddyn a awdurdodwyd gan Arglwydd y lle yr wyt ti yn myned tuag atto, i'th arwain di trwy bob man dyrys a gyfarfyddi di yn dy daith: ac am hynny craffa di yn ddifrifol ar yr hyn a ddangosais i ti, a chofia yn fanwl yr hyn a welaist ti, rhag i ti gyfarfod yn dy daith â

PAHAM Y DANGOSWYD Y LLUN IDDO YN GYNTAF.

[h] Yma y rhoddir darluniad o weinidog yr efengyl, a fyddo yn gywir ac yn ffyddlawn yn ei waith, wedi ei addasu gan Ysbryd Duw at y fath alwad santaidd a phwysfawr. Y mae efe yn gyntaf wedi ei gyfnewid trwy ras, a'i wneuthur yn brofiadol o gariad Duw yn Nghrist, cyn cymmeryd arno fod yn ddysgawdwr i ereill. Eithr nid pob un duwiol sydd gymhwys at y gwaith, oddieithr fod iddo ddawn neillduol, a galwad oddiwrth Dduw, ynghyd â chymmeradwyaeth eglwys Dduw.

rhai a gymmerant arnynt dy arwain di yn yr iawn ffordd, er bod eu ffordd hwy yn tywys i farwolaeth.

Yna efe a ymaflodd yn ei law ef, ac a'i harweiniodd ef i ystafell helaeth iawn, yr hon oedd yn llawn o lwch, am nad ysgubasid hi erioed; ac wedi edrych arni ennyd fechan, fe alwodd y Dehonglwr am wr i'w hysgubo hi: a phan ddechreuodd efe ysgubo, fe gododd cymmaint o lwch o amgylch fel y bu Cristion agos a thagu ganddo. Yna ebe Dehonglwr wrth y llances oedd yn sefyll gerllaw, Dwg yma ddwfr, a thaenella ef ar hyd y 'stafell; a phan wnaeth hi hynny, y lle a ysgubwyd gyda hyfrydwch.

Beth yw meddwl hyn? ebe Cristion.

A'r Dehonglwr a attebodd, Yr ystafell hon yw calon dyn, heb ei glanhâu erioed gan ras hyfryd yr efengyl; y llwch yw ei bechod gwreiddiol ef a'i lygredigaethau oddifewn, y rhai a halogasant yr holl ddyn, a'r hwn a ddechreuodd ysgubo ar y cyntaf yw y gyfraith; eithr yr hon a ddygodd ddwfr, ac a'i taenellodd ef ar hyd y 'stafell, yw yr efengyl: yn awr, lle gwelaist ti y llwch yn ehedeg felly o bob parth, yn y man y dechreuodd y cyntaf ysgubo, fel nad allai efe lanhâu y 'stafell, ond ei fod yn mron dy dagu di; y mae hyn yn dangos i ti, fod y gyfraith trwy ei gweithrediad, sef trwy ei gwaith hi yn gorchymyn, yn gwahardd, ac yn bygwth, yn lle puro y galon oddiwrth bechod, yn rhoi achlysur neu achos iddo ymadfywio, i gasglu grym, ac i gynnyddu yn yr enaid; ïe, y pryd hynny pan y bo hi yn datguddio ac yn gwahardd pechod, canys nid ydyw hi yn rhoddi gallu i'w ddarostwng. Rhuf. vii. 8, 12, &c. 1 Cor. xv. 56. Rhuf. v. 20.

A thrachefn, megys y gwelaist y forwyn yn taenellu dwfr ar hyd y 'stafell, trwy yr hyn y glanhawyd hi yn esmwyth; y mae hynny yn dangos i ti, mai pan ddelo yr efengyl i'r galon yn ei gweithrediadau hyfryd a rhagorol, yna meddaf, megys y gwelaist y llances yn gostwng y llwch, trwy daenelliad y dwfr ar hyd y llawr; felly hefyd y gorchfygir ac y darostyngir pechod, ac y glanheir yr enaid trwy ffydd yn yr efengyl; ac fel hyn fe wneir y galon yn gymhwys i Frenin y gogoniant i breswylio ynddi. Ioan xv. 3. Ephes. v. 26. Act. xv. 9.[1]

Yna mi a welais y Dehonglwr yn arwain Cristion wrth ei law i ystafell fechan, lle yr oedd dau o feibion ieuainc yn eistedd yn mhob ei gadair, enw yr hynaf oedd Cynnwrf, ac enw y llall oedd Amynedd. Mi a debygaswn fod Cynnwrf yn llawn o anfoddlonrwydd; ond yr oedd Amynedd yn llonydd iawn. Yna y gofynodd

YN DANGOS IDDO GYNNWRF AC AMYNEDD.

[1] Mae calon dyn, trwy naturiaeth, yn llawn o bob drwg; eithr yn lled debyg i'r llwch yn yr ystafell, nes ei gynhyrfu ni sylwir arno. Mae cyfraith Dduw, pan y cymhwysir hi at y gydwybod, yn dangos natur pechod, a grym ein llygredd; ac yr un pryd, yn rhoi i ni weled mor analluog ydym i gynnorthwyo ein hunain. Rhuf. vii. Nid oes ond rhinwedd gwaed Crist a'i Ysbryd a'n gwared ni o'n cyflwr caethiwus. Hyn a gyflawnir mewn gradd helaeth, pan fo pechadur yn cael ei gyfiawnhâu, ond nid yn gyfan-gwbl nes y caffom ein santeiddio, a'n calon wedi ei glanhâu oddiwrth bob anghyfiawnder. Yna bydd i Grist ynghyd â'r Tad, ddyfod a chyfaneddu yn y fath eneidiau dedwydd, ac os parhant yn ffyddlawn hyd angau, hwy a fyddant orfoleddus yn y gwynfyd tragywyddol.

Cristion paham yr oedd Cynnwrf mor anfoddlawn? A'r Dehonglwr a'i hattebodd ef, Y mynnai eu Llywodraethwr hwy iddynt aros am ei bethau goreu ef, hyd ddechreuad y flwyddyn nesaf; ond fe fyn Cynnwrf gael y cwbl yr awr hon, eithr y mae Amynedd yn foddlawn i ddysgwyl hyd yr amser nodedig.

MYN CYNNWRF Y CWBL YN AWR, OND AMYNEDD A DDISGWYL.

Yna mi a welwn un yn dyfod at Gynnwrf, ac yn dwyn iddo drysor mewn cwd, ac yn bwrw ei sach i lawr wrth ei draed ef; yntef a'i cyfododd hi i fynu, ac a orfoleddodd ynddi: ac heblaw hynny, efe a chwarddodd yn watwarus am ben Amynedd: ond ar ol gronyn o amser, mi a welwn ei fod ef wedi afradloni y cwbl, ac nad oedd ganddo ddim wedi ei adael ond bratiau.

CYNNWRF YN CAEL EI DDYMUNIAD, OND YN FUAN YN GWASTRAFFU Y CWBL.

Attolwg, ebe Cristion wrth y Dehonglwr, esponiwch i mi y matter hwn yn eglurach.

Arwyddion yw y ddau lanc hyn, ebe Dehonglwr: Cynnwrf sy'n arwyddoccâu dynion y byd hwn, ac Amynedd sy'n arwyddoccâu dynion y byd a ddaw; canys megys y gweli di yma, fe fyn Cynnwrf gael y cwbl yr awr hon, sef y flwyddyn hon, hynny yw, y byd presennol: felly y mae awydd gwŷr y byd hwn i gael eu holl bethau da yn awr: nis gallant hwy aros yn esmwyth hyd y flwyddyn nesaf, hynny yw, y byd a ddaw, am eu cyfran o bethau daionus. Mae y ddihareb honno, "Gwell yw un aderyn mewn llaw na dau yn y llwyn," â mwy o bwys ynddi gyda hwy, na'r holl dystiolaethau dwyfol ynghylch daioni y byd a fydd. Eithr megys ag y gwelaist ti Gynnwrf yn gwario y cwbl ymaith yn ebrwydd, ac nad oedd dim o fewn ychydig o amser wedi ei adael iddo ond bratiau, felly y bydd hi gyda phawb o'r cyfryw ddynion yn niwedd y byd hwn.

MAE Y DYN BYDOL AM ADERYN MEWN LLAW.

CRIS. Yr wyf yn deall yn awr, ebe Cristion, mai Amynedd sydd a'r doethineb mwyaf; yn gyntaf, o herwydd ei fod ef yn foddlawn i aros am y pethau goreu i'w meddiannu hwy yn y byd a ddaw, er ei fod ef etto hebddynt; yn ail, oblegid y caiff efe fwynhâu ei gyfran gogoneddus, pan na bo dim gan y llall ond bratiau.

AMYNEDD OEDD A'R DOETHINEB MWYAF.

DEHONGLWR. Nagê, chwi a ellwch angwanegu rheswm arall, sef, o herwydd bod gogoniant y byd a ddaw yn parhâu dros byth; ond y mae pethau y byd hwn yn myned ymaith yn ddisymmwth. Diar. xxiii. 5. Ac am hynny nid oedd gan Gynnwrf gymmaint o achos i chwerthin am ben Amynedd, ag a fydd gan Amynedd i chwerthin am ben Cynnwrf, er i Gynnwrf gael ei bethau da yn gyntaf, ac na chafodd Amynedd ddim o honynt hwy ond yn ddiweddaf; canys rhaid i gyntaf roddi lle i ddiweddaf, oblegid rhaid i ddiweddaf gael yr amser a ddaw: ond nid yw diweddaf yn rhoddi lle i ddim arall, canys nid oes peth arall i ddyfod yn ei le ef. Rhaid gan hynny i'r hwn a gaiff ei ran yn gyntaf, gael amser hefyd i'w threulio hi; ond rhaid i'r hwn a gaiff ei gyfran yn ddiweddaf, ei chael dros byth; ac am hynny y dywedir am Ddeifes, "Ti a dderbyniaist dy wynfyd yn dy fywyd, ac felly Lazarus ei adfyd; ac yn awr y diddenir ef ac y poenir dithau." Luc xvi. 25.[k]

PETHAU CYNTAF A ANT HEIBIO; OND PETHAU OLAF A BARHANT.

CAFODD DEIFES EI BETHAU GOREU YN GYNTAF.

[k] Nid yw dynion cnawdol yn ceisio dim ond pethau daearol, a chyflawni eu blys a'u chwant; eithr y mae

CRIS. Mi a welaf yn awr, ebe Cristion, mai gwell yw dysgwyl am y pethau sydd i ddyfod, na thrachwantu ar ol y pethau presennol.

DEHONGLWR. Chwi a ddywedasoch y gwir, "Canys y pethau a welir sydd dros amser, ond y pethau ni welir sydd dragywyddol." 2 Cor. iv. 18. Eithr er bod y matter felly, etto gan fod y pethau presennol a'n blys cnawdol ni yn gymmydogion agos i'w gilydd; a thrachefn, oblegid fod y pethau i ddyfod a'n synhwyrau cnawdol ni yn ddyeithriaid i'w gilydd, hynny yw y rheswm paham mae y cyntaf o'r rhai hyn yn dyfod mor ebrwydd i ymgyfeillachu â'u gilydd yn garedig, a bod yr ail yn aros mor bellenig y naill oddiwrth y llall.

NID YW PETHAU CYNTAF OND DROS AMSER.

Yna mi a welais y Dehonglwr yn ymaflyd yn llaw Cristion, ac yn ei arwain ef i fan lle yr oedd tân wedi ei gynneu wrth fagwyr; ac un yn sefyll wrtho, yn bwrw llawer o ddwfr arno yn wastadol iw ddiffoddi ef, etto yr oedd y tân yn fflamio yn uwch ac yn boethach.

Beth sydd i ni ddeall wrth hyn? ebe Cristion.

A'r Dehonglwr a attebodd, Y tân hwn yw gras Duw wedi ei weithio yn y galon, a'r hwn sy'n bwrw dwfr arno i'w ddiffodd ef yw y diafol: ond lle y gwelaist ti y tân yn llosgi yn uwch ac yn boethach er bwrw y dwfr arno, tydi a gei weled hefyd yr achos o hynny: ac felly fe'i harweiniodd ef oddiamgylch i ystlys arall y fagwyr, ac efe a welai yno wr a llestr yn ei law, o'r hwn yr oedd efe yn tywallt allan olew yn ddibaid, etto yn ddirgel, i'r tân. Yna ebe Cristion, Pa beth yw ystyr y pethau hyn?[1] Hwn yw Crist, ebe y Dehonglwr, sydd yn wastadol, âg olew ei ras, yn cynnal y gwaith da a ddechreuodd efe eisoes yn nghalonau ei bobl; ac am hynny, er a allo y diafol ei wneutheur, y mae eu heneidiau hwynt yn parhâu yn rasol fyth. 2 Cor. xiii. 9. Phil. i. 6. Ac lle y gwelaist ti y gwr yn sefyll tu hwnt i'r fagwyr, i gadw y tân rhag diffodd, mae hynny yn dangos i ti, mai peth anhawdd ydyw i'r temptiedig weled pa fodd yr ydys yn cynnal y gras yma yn ein heneidiau.[m]

Myfi a ganfum hefyd y Dehonglwr yn cymmeryd Cristion drachefn wrth ei law, ac yn ei dywys ef i fan hyfryd, lle yr adeiladwyd llys gwych a phrydferth i'r golwg; ac wrth edrych ar y neuadd-dy hwn, fe ymlawenychodd Cristion yn ddirfawr; ac efe a welodd hefyd rai yn rhodio ar nen y tŷ, wedi eu dilladu oll â brethyn aur. Yna ebe Cristion, A allwn ni fyned i mewn i'r tŷ hwn? Eithr y Dehonglwr a'i cymmerodd ef, ac a'i

rhai duwiol yn byw trwy ffydd, ac yn cadw pethau tragywyddol mewn golwg; canys ffydd sydd yn sicrhâu yr enaid fod byd arall tu draw i'r bedd.

[1] Fe ddichon Duw ein cadw ni trwy ras, a dwyn ei waith yn y blaen ar gynnydd, yn ngwyneb holl demptasiynau Satan; eithr y mae yn rhaid i ni wylio a gweddïo, a phara hyd y diwedd, canys nid oes un addewid i'r swrth a'r dioglyd. Duw fydd yn gynnorthwy i'r enaid ymdrechgar.

[m] Y mae Duw yn cynnal yr enaid profedigaethus, mewn modd dirgelaidd, yn yr oriau mwyaf tywyll Dysgwn i ymddiried yn ei anfeidrol allu a'i ras, yn ol ei addewidion, ac efe a gyflawna ynom y gwaith a ddechreuodd efe trwy ei ras a'i Ysbryd.

ha weiniodd ef i fynu tua drws y palas, ac wele yr oedd lliaws mawr o bobl yn sefyll wrth y drws, megys rhai yn chwennychu myned i mewn, ond nis meiddient. Ac yr oedd gwr hefyd yn eistedd yno, yn lled agos i'r drws, wrth fwrdd, a llyfr a chorn du ysgrifenydd o'i flaen ef, i 'sgrifenu i lawr enwau y sawl a aent i mewn i'r llys. Ac efe a welai hefyd lawer o wŷr arfog yn sefyll ar y ffordd oedd yn arwain i'r drws, i'w chadw hi, wedi ymroi i wneuthur cymmaint o adwyth a niwed a allent i'r dynion a fynnent fyned i mewn. Act. xiv. 22. 2 Tim. iii. 12. A synnu a wnaeth Cristion ar hyn. O'r diwedd, pan yr oedd pawb yn cilio yn ol rhag ofn y gwŷr arfog, fe welai Cristion wr a gwynebpryd glew ganddo, yn dyfod i fynu at yr hwn oedd yn eistedd yno i 'sgrifenu, gan ddywedyd wrtho, Syr, dodwch i lawr fy enw i, a phan y gwnaeth efe hynny, fe welai y gwr yn tynnu ei gleddyf, ac yn gosod helm ar ei ben, ac yn rhuthro tu a'r drws ar draws y gwŷr arfog, y rhai a ymosodasant yn ei erbyn ef yn gynddeiriog âg arfau angeuol: eithr nid allent hwy ei ddigaloni ef mewn modd yn y byd, ac am hynny fe ymladdodd â hwy yn ffyrnig: ac felly wedi cael ei glwyfo ganddynt, a rhoddi amryw archollion iddynt, sef i'r sawl oedd yn ceisio ei gadw ef allan, fe a wnaeth ei ffordd trwyddynt hwy oll, ac ymwthiodd yn mlaen i'r llys:[n] ac ar hynny y clybuwyd llais hyfryd y rhai oedd yn y palas, sef y rhai oedd yn rhodio ar nen y tŷ, yn dywedyd,

Y DYN GWROL.

Dere, dere i mewn yn wrol,
Ti ennilli fraint drag'wyddol.

Felly efe a aeth i mewn, ac fe'i gwisgwyd ef yno â'r unrhyw ddillad a hwythau; yna y gwenodd Cristion, ac a ddywedodd, Yn ddiau mi debygwn y gwn i beth yw ystyr a meddwl hyn i gyd.

Yn awr, ebe Cristion, gadewch i mi fyned oddi yma. Nagê, ebe y Dehonglwr, aros hyd oni ddangoswyf i ti ychydig ragor, ac wedi hyn ti a gei fyned i dy ffordd. Felly fe ymaflodd yn ei law ef drachefn, ac a'i harweiniodd ef i ystafell dywell iawn, lle yr oedd gwr yn eistedd mewn cyffion o haiarn, wedi ei gau i fynu megys aderyn mewn cawell.

ANOBAITH MEGYS CYFFION O HAIARN.

Yn awr fe ellid tybied wrth edrych ar y gwr, ei fod ef yn athrist iawn; canys yr oedd ef yn eistedd a'i olygon tua'r ddaear, a'i ddwylaw wedi eu plethu ynghyd: ac yr oedd efe yn ocheneidio fel pe buasai ef ar dorri ei galon. Yna ebe Cristion, Pa beth sydd i mi ddeall wrth hyn? Ar hynny fe archodd y Dehonglwr iddo ymddyddan â'r gwr.

CRIS. Yna ebe Cristion wrth y dyn, Pwy wyt ti? Yntef a'i hattebodd, Yr wyf fi yr hyn nid oeddwn i gynt.

CRIS. Pa beth a fuost ti gynt?

GWR. Dywedodd y gwr wrtho, Mi a fum tros amser yn broffeswr teg blodeuog, yn

[n] Wele yn y darluniad yma, mor angenrheidiol yw i'r Cristion ymddwyn yn wrol, gan ymdrechu ymdrech y ffydd. Ni thal i ni roi lle i'n hofnau; ond trwy ymgryfhâu yn yr Arglwydd, ni a gawn nerth yn ol ein dydd a'n heisiau, ac fe'n gwneir ni yn fwy na gorchfygwyr, trwy yr hwn a'n carodd ni.

fy ngolwg fy hunan, ac yn ngolwg ereill hefyd. Mi a debygais unwaith, fy mod i yn y ffordd i'r Ddinas Nefol; ac yr oedd yn llawen gennyf y pryd hynny, pan feddyliwn yr awn i yno.

CRIS. Eithr pa beth wyt ti yn awr?

GWR. Yr wyf fi yn awr yn ddyn ag sydd yn llawn o anobaith, ac fe'm cauwyd i ynddo, megys yn y cyffion haiarn yma; nis gallaf fi ddyfod o hono mewn modd yn y byd.

CRIS. Eithr pa fodd y daethost ti i'r cyflwr hwn?

GWR. Peidio a wnaethum i a gwylio a bod yn sobr: myfi a adewais i garreion y ffrwyn i gwympo ar wddf fy nhrachwantau. Mi a droseddais yn erbyn goleuni y gair, a daioni Duw: myfi a dristeais yr Ysbryd Glân, ac efe a ymadawodd â myfi. Mi a demptiais y diawl, ac efe a ddaeth attaf. Myfi a gyffroais Dduw i ddigofaint, ac fe'm gadawodd i; a chaledais fy nghalon yn y fath fodd, fel nas gallaf edifarhâu.

Yna ebe Cristion wrth y Dehonglwr, A oes dim gobaith i'r fath ddyn a hwn? Gofyn iddo ef, ebe y Dehonglwr.

CRIS. Yna ebe Cristion wrtho ef, A oes dim gobaith? A gedwir di dros fyth yn y cawell haiarnaidd hwn o anobaith?

GWR. Nid oes gennyf obaith yn y byd.

CRIS. Mae Mab yr hwn sydd Fendigedig yn dra thosturiol.

GWR. Myfi a'i hail-groeshoeliais ef i mi fy hun; mi a ddirmygais ei berson ef, ac a ddibrisiais ei gyfiawnder ef, ac a fernais ei waed ef yn aflan, ac a ddifenwais Ysbryd y Gras; ac am hynny nid oes un o'r addewidion ynghylch trugaredd yn perthyn i mi; ac nid oes dim wedi ei adael i mi yn awr ond y bygylau, sef y bygythion echrydus ac ofnadwy, ynghylch cospedigaeth dilys, ac angerdd tân, yr hwn a'm difa i megys gwrthwynebwr. Heb. vi. 6. Luc. xix. 14, 27. Heb. x. 28, 29.

CRIS. Am ba bethau y dygasoch chwi eich hunan i'r cyflwr hwn?

GWR. Am drachwantau, a melyswedd, a golud y byd hw : ac mi addewais y pryd hynny im' fy hunan lawer o hyfrydwch, trwy eu mwynhâu hwynt; ond yn awr, y mae pob un o honynt yn fy nghnoi ac yn fy nifa i megys pryf poeth gwenwynllyd.

CRIS. Eithr oni elli di yn awr edifarhâu a dychwelyd?

GWR. Duw a naccaodd ac a ballodd edifeirwch i mi:° nid yw ei air ef yn rhoddi dim annogaeth i mi i gredu: ïe, fe'm cauodd i â'i law ei hun yn y cawell haiarnaidd hwn;

° Nid yw yr Ysgrythyr yn ein dysgu ni, y dichon neb fod yn y fath gyflwr, ag i bechu tu hwnt i obaith am drugaredd. Y neb a fyddo i ymostwng ger bron Duw, a cheisio trugaredd, mae trugaredd iddo gan y Duw graslawn a daionus. Da fuasai cadw y gwrthddrych hwn, sef y dyn yn y cawell haiarn, o'r golwg. Os y pechod neu y cabledd yn erbyn yr Ysbryd Glân a feddylir, mae genym bob rheswm i feddwl, nad oes un pechod yn anfaddeuol, oddieithr cyndyn a pharhaus wrthodiad o'r efengyl, a llwyr ymwadiad â'r gwirionedd. Fe ddichon y gwrthgiliwr mwyaf anfad gael adferiad, trwy wir edifeirwch, a ffydd yn haeddiant y Cyfryngwr. Da ydyw symmud tramgwydd oddiar ffordd y rhai sydd mewn perygl o gael eu traflyncu gan ormodedd o dristwch.

ac ni ddichon holl ddynion y byd fy ngollwng i allan oddiyma. O, Tragywyddoldeb! Tragywyddoldeb! Pa fodd y dyoddefaf y trueni a orfydd arnaf fi fyned tano, pan y delwyf i'th fôr annherfynol di!

DEHONG. Yna ebe y Dehonglwr wrth Gristion, cofia resyndod y dyn hwn, bydded hyn yn rhybudd i ti dros fyth.

CRIS. Wele, ebe Cristion, y mae hyn yn ofnadwy; Duw a'm cynnorthwyo i, i wylio a bod yn sobr, ac i weddïo fel y gallwyf ochelyd yr achos o drueni y dyn hwn. Syr, onid yw yn bryd i mi fyned i'm ffordd bell.

DEHONG. Aros hyd oni ddangoswyf i ti un peth ychwaneg, ac wedi hyn ti a gai fyned i'th ffordd.

Felly fe ymaflodd yn llaw Cristion drachefn, ac a'i harweiniodd ef i ystafell, lle yr oedd un yn cyfodi o'i wely; ac fel yr oedd efe yn gwisgo ei ddillad, yr oedd yn crynu ac yn ofni. Yna ebe Cristion, Paham y mae y dyn yma yn crynu fel hyn? A'r Dehonglwr a barodd iddo fynegi i Gristion yr achos o'i ddychryndod. Yntef, ar hynny a adroddodd iddo freuddwyd a welsai ef y noson honno. Mi a welais, ebe fe, y nefoedd yn duo yn ddirfawr. Mat. xxiv. 19. Bu hefyd daranau a mellt mor ofnadwy, ag y crynais i gan ofn: ac wedi edrych i fynu, mi a welais y cymmylau yn ymrwygo mewn modd anarferol; ac ar hynny myfi a glywais uchel sain udgorn, ac a welais wr (Crist) hefyd yn eistedd ar gwmmwl, a miloedd neu lu y nefoedd gydag ef; yr oeddynt hwy oll megys tân fflamllyd; yr oedd y nefoedd hefyd ar dân poeth. 1 Thes. iv. 16. Dan. vii. 10, 13. Iude 15 2 Thes. i. 7, 8. 2 Pedr. iii. 10. Yna mi a glywais lef yn dywedyd wrth y meirw, "Cyfodwch a deuwch i'r farn;" a chyda hynny y creigiau a holltwyd, y beddau a agorwyd, a'r meirw ag oedd ynddynt a ddaethant allan: yr oedd rhai o honynt yn llawen iawn, ac yn edrych tuag i fynu; ond rhai a geisiasant ymguddio tan y mynyddoedd. Ioan. v. 28, 29. Luc xxi. 28. Dat. vi. 16, 17. Yna mi a welais y gwr oedd yn eistedd ar y cwmmwl yn agoryd llyfrau, ac yn erchi i'r byd nesâu. Mat. xxv. 32. Dat. xx. 12, 13. Etto yr oedd, o achos y fflam danllyd oedd yn dyfod oddi ger ei fron ef, ennyd o le rhyngddo ef a hwynt-hwy, megys rhwng y barnwr ar y frawdle a'r carcharorion wrth y bar. Myfi a glywais hefyd gyhoeddi i'r sawl oedd yn canlyn y gwr oedd yn eistedd ar y cwmmwl, "Cesglwch ynghyd yr efrau, a'r ûs, a'r sofl, a bwriwch hwynt i'r llyn o dân." Mat. xiii. 30. Mat. iii. 12. Mal. iv. 2. Ac ar hynny yr ymagorodd y pwll diwaelod yn gymhwys ynghylch y fan lle yr oeddwn i yn sefyll arno; a daeth llawer o fwg, ynghydâ marwor tanllyd, a chrochleisiau dychrynllyd allan o'i safn. A dywedwyd hefyd wrth y gweision, "Cesglwch fy ngwenith i'm hysgubor." Mat. xiii. 30. Ac ar hynny mi a welais gipio llawer i fynu, a'u dwyn ymaith i'r cymmylau, eithr fe'm gadawyd i yn ol. 1 Thes. iv. 17. Minnau hefyd a ymdrechais i ymguddio, ond nis gallwn i; oblegid bod y gwr oedd yn eistedd ar y cwmmwl yn cadw ei olwg arnaf yn wastadol; fy mhechodau hefyd a ddaethant

i'm cof, a'm cydwybod oedd yn fy nghyhuddo i am danynt. Rhuf. ii. 15. Ar hyn mi a ddeffroais o'm cwsg.[p]

CRIS. Eithr pa beth a wnaeth i chwi fod mor ofnus wrth weled y pethau hyn?

GWR. Meddwl a wnaethum i, fod dydd y farn wedi dyfod, a'm bod innau yn ammharod erbyn y dydd hwnnw: ond hyn a'm dychrynodd i fwyaf, i'r angylion gasglu llawer i fynu, a'm gadael i yn ol: pwll uffern hefyd a agorodd ei safn yn gymmwys yn y man lle yr oeddwn i yn sefyll: heblaw hyn, yr oedd fy nghydwybod yn fy nhrallodi, ac (fel y tybygwn i) yr oedd y Barnwr yn cadw ei olwg arnaf yn wastadol, gan ddangos llidiogrwydd yn ei wynebpryd. Yna, ebe'r Dehonglwr wrth Gristion, A ystyriaist ti y pethau hyn oll? Do, ebe Cristion, ac y maent yn peri i mi obeithio ac ofni.

DEHONG. Wele, cadw dithau'r cwbl felly yn dy gof, fel y gallont fod megis symbylau yn dy ystlysau, i'th gymmell di ymlaen yn y ffordd sydd raid i ti fyned ar hyd-ddi. Yna y dechreuodd Cristion wregysu ei lwynau, ac ymbarottoi i gychwyn. Yna, ebe'r Dehonglwr, Cristion anwyl! y Diddanydd a fyddo gyda thi bob amser, i'th gyfarwyddo di yn y ffordd sy'n arwain i'r ddinas nefol. Felly Cristion a aeth rhagddo ar hyd ei ffordd dan ganu:

Yma y gwelais bethau buddiol,
Pethau ymheuthyn a rhyfeddol,
Pethau hyfryd ac ofnadwy,
Pethau i'm gwneuthur yn safadwy.
Glynu a wnelwyf bob munudyn,
Yn y pethau ymaflais ynddyn';
Rhaid im' gofio, ac ystyried,
Herwydd pa'm y ce's eu gweled.
A bid i mi byth (dan ammod,
Tra fo ynof rym na chwythod)
Roddi diolch i tithau beunydd,
Am dy gariad, fy Nehonglydd.

Yn awr, mi a welais fod y brif-ffordd, ar yr hon yr oedd yn rhaid i Gristion fyned ar hyd-ddi, wedi ei chau o'r ddau tu â magwyr, enw yr hon oedd Iechydwriaeth. Esay xxvi. 1. Cristion gan hynny a redodd i fynu ar hyd y ffordd hon, ond nid heb anhawsdra mawr, o achos y baich oedd ar ei gefn ef.

Efe a redodd hyd oni ddaeth efe i le oedd yn esgyn ychydig, ac yr oedd croes yn sefyll yn y man hwnnw; ac ychydig bach islaw hynny, ar y gwaelod, yr oedd bedd. Yna mi a welais,[q] wedi i Gristion ddyfod i fynu at y groes, fod ei faich wedi ei ollwng oddiar

[p] Mae llawer un wedi cael ei ddwyn dan argyhoeddiad, trwy ymddangosiad o ddydd y farn mewn breuddwyd.

[q] Yr oedd y Pererin cyn hyn o bryd yn credu fod gollyngdod i'w gael trwy Grist, ond yn awr y mae efe yn cael y fath olwg ar ei Geidwad, ag a bâr iddo fwrw ymaith ei ofnau, ac ymddiried yn hollol yn yr hwn a

ei ysgwyddau ef; ac ar hynny fe syrthiodd oddiar ei gefn ef, ac a ddechreuodd dreiglo, ac a barhaodd yn gwneuthur felly, hyd oni ddaeth i enau y bedd, lle y syrthiodd i mewn iddo, ac ni welais i ddim o hono mwyach.

PAN DYNO DUW YMAITH Y BAICH O BECHOD, YR YDYM FEL RHAI YN LLAMU O LAWENYDD.

Yna y llawenychodd Cristion, ac efe a lefarodd â chalon gysurus, gan ddywedyd, Trwy ei ofid ei hun a'i farwolaeth y rhoddodd efe esmwythdra a bywyd i mi. Yna efe a safodd ennyd yn llonydd, gan edrych a rhyfeddu; canys yr oedd yn dra rhyfedd ganddo, i olwg ar y groes ei esmwythâu ef o'i faich fel hyn. Am hynny efe a edrychodd, ac a edrychodd drachefn, hyd oni tharddodd dyfroedd allan o ffynhonau ei ben ef, i wared ar hyd ei ruddiau. Zec. xiii. 10. Yn awr, fel yr oedd efe yn edrych ac yn wylo, wele dri o rai disglair gogoneddus yn dyfod atto, ac yn cyfarch gwell iddo, gan ddywedyd, Tangnefedd i ti; a dywedodd y cyntaf wrtho, O Gristion! maddeuwyd i ti dy bechodau. Mat. ix. 2. A'r ail a ddiosgodd ei fratiau oddi am dano, ac a'i gwisgodd ef â dillad newydd. Zec. iii. 4. A'r trydydd a osododd nod ar ei dalcen ef, ac a roddodd iddo blyg-lyfr, a sêl arno; ac a archodd iddo edrych ar hwnnw wrth ymdeithio, a'i roddi ef i mewn yn mhorth y ddinas nefol. Eph. i. 13. Ac ar ol hynny hwy a aethant ymaith, a Christion a lammodd dair gwaith o lawenydd, ac a aeth rhagddo dan ganu.

GALL Y CRISTION GANU, ER YN UNIG, PAN OSODO DUW LAWENYDD YN EI GALON.

Mi ddaethum hyd yn hyn mewn gofid,
Dan ddirfawr faich fy mhechod enbyd,
Yn llwythog iawn, heb allu canfod
Dim a allai laesu nhrallod.
Daethum yma dan ofidio;
'Nawr 'rwy'n cael fy llwyr gysuro:
A raid i'r lle bendigaid yma
Ddechreu fy happusrwydd mwya'?
Ai yma syrth fy maich aflawen
Yn rhydd, yn rhwydd, oddi ar fy nghefn?
Ai yma torrir y rheffynau,
A rwymodd hwnnw ar fy 'sgwyddau?
B ndigaid groes a beddrod buddiol!
Yn hytrach tra bendigaid bythol,
A fo'r gwr aeth yn ei unswydd,
Er fy mwyn i oddef gw'radwydd.

ANGHALL, DIOG A RHYFYG.

Yna mi a welais Gristion yn myned rhagddo, hyd oni ddaeth efe i orwared, lle y gwelodd ef, ychydig allan o'r ffordd, dri o wŷr yn cysgu'n drwm, a'u traed â llyffetheiriau arnynt; a'u henwau oedd Anghall, Diog, a Rhyfyg.

fu farw dros ei bechodau. Dyma'r ffydd sydd yn dwyn i ni wybodaeth o'n cyfiawnhad, dan gyfranu i ni wir ddedwyddwch, yn y mwynhad o gariad Duw yn Nghrist Iesu.

Cristion, wedi eu gweled hwynt yn gorwedd fel hyn, a aeth attynt, i edrych a allai efe eu dihuno hwy: ac a waeddodd, gan ddywedyd, Yr ydych chwi yma fel rhai yn cysgu ar ben hwylbren, ac y mae y môr marw, sef y pwll diwaelod, oddi tanoch. Diar. xxiii. 34. Deffrowch, gan hynny, a dewch ymaith: byddwch ewyllysgar hefyd, ac myfi a'ch rhyddhaf chwi o'ch heiyrn. Dywedodd hefyd wrthynt, Os yr hwn sydd yn rhodio oddi amgylch fel llew rhuadwy a ddaw heibio, chwi a fyddwch yn ddiammau yn ysglyfaeth i'w ddannedd ef. 1 Pedr. v. 8. Ar hynny hwy a edrychasant arno, ac a'i hattebasant ef fel hyn: Anghall a ddywedodd wrtho, "Ni welaf fi ddim perygl:" Diog a ddywedodd, "Etto ychydig hepian:" a Rhyfyg a ddywedodd, "Rhaid i bob llestr sefyll ar ei waelod ei hun:" ac felly hwy a orweddasant i lawr i gysgu drachefn, a Christion a aeth i'w ffordd.

NI LWYDDA UN ANNOGAETH, ONI EGYR DUW Y LLYGAD.

Etto yr oedd yn flin ganddo ef feddwl, i wŷr oedd yn y perygl hwnnw, ddibrisio ei garedigrwydd ef, gan iddo gynnyg eu helpu hwy mor rhwydd ac mor rhad, trwy eu deffroi, a'u cynghori, a dangos ei ewyllysgarwch i'w rhyddhâu hwy o'u heiyrn: ac fel yr oedd efe yn ymofidio ynghylch hynny, fe a ganfu ddau wr yn dyfod bendramwnwgl dros y mur, ar y llaw aswy i'r ffordd gyfyng; a hwy a ddaethant i fynu atto ef yn ebrwydd: enw un o honynt oedd Ffurfiol, ac enw'r llall oedd Rhagrithiwr; yntef a ddechreuodd ymddiddan â hwy fel hyn.

CRISTION. Foneddigion, o ba le y daethoch chwi, ac i ba le yr ydych yn myned.

CRISTION YN YMDDIDDAN Â HWYNT.

FFURF. A RHAG. Fe a'n ganwyd ni yn nhir Gwag-ogoniant, a myned yr ydym ni tua mynydd Sïon am glod.

CRISTION. Paham na ddaethoch chwi i mewn trwy'r porth sydd yn mhen y ffordd? Oni wyddoch chwi fod hyn yn 'sgrifenedig: "Yr hwn nid yw yn myned i mewn trwy'r drws, eithr sydd yn dringo ffordd arall, lleidr ac yspeiliwr yw." Ioan x. 1.

FFURF. A RHAG. Hwythau a ddywedasant, Fod eu holl wladwyr hwy yn cyfrif y ffordd i'r porth yn rhy bell o amgylch, ac am hynny eu harfer hwy oedd ei chwttogi hi, a dringo dros y mur, fel y gwnaethant hwythau.[r]

CRISTION. Eithr oni chyfrifir hyn yn gamwedd, sef, i rai droseddu fel hyn, yn erbyn ewyllys datguddiedig Arglwydd y ddinas yr ydym ni yn myned tu ag atti?

FFURF. A RHAG. Hwythau a ddywedasant wrtho, Nad oedd raid iddo ef flino ei ben ynghylch hynny; o blegid fod ganddynt hwy ddefod am y peth yr oeddynt yn ei wneuthur, ac y gallent (ped fyddai raid) ddwyn tystiolaeth a dystiolaethai hynny, er ys mwy na mil o flynyddoedd.

CRISTION. Eithr, ebe Cristion, a fydd eich gwaith chwi yn gymmeradwy, os profir ef wrth y gyfraith?

[r] Mae llawer am fyned i'r nefoedd ar hyd ffordd esmwyth, yn lle ymwadu â'u hunain, ac ymwrthod â'u chwantau bydol. Rhaid i ni rodio yn ol yr Yspryd, nid yn ol cwrs y byd.

MAE'R SAWL A DDEUANT I MEWN, OND NID TRWY'R DRWS, YN MEDDWL Y GALLANT AMDDIFFYN EU HYMDDYGIAD.

FFURF. A RHAG. Hwythau a ddywedasant wrtho ef, Y caffai hen ddefod, oedd wedi sefyll cyhyd, sef, er ys mwy na mil o flynydoedd, ei chyfrif yn awr yn ddiammau yn lle cyfraith gan farnwr dibartiol. Ac heblaw hynny, ebe hwy, Os daethom ni i'r ffordd, pa fatter ydyw, pa fodd y daethom ni iddi: os ydym ni ynddi, yr ydym ni ynddi: nid wyt ti ond yn y ffordd, yr hwn a ddaethost, fel y gwyddom ni, trwy'r porth; ac yr ydym ninnau hefyd yn y ffordd, y rhai a ddaethom iddi bendramwnwgl dros y mur; yn mha beth weithian y mae dy gyflwr di yn well na'r eiddom ni?

CRISTION. Yr wyf fi yn rhodio yn ol rheol fy Meistr, a chwithau ydych yn rhodio yn ol eich tyb gwrthun eich hunain. Yr ydych chwi yn lladron eisoes yn nghyfrif Arglwydd y ffordd; am hynny mae yn ddiammau gennyf, na chair chwi yn wŷr cywir yn ei diwedd hi. Ioan. x. 1. Chwi a ddaethoch i mewn yn ol eich cyngor eich hunain, heb ei gyfarwyddyd ef; a chwi a gewch eich gyrru allan wrthych eich hunain, heb ei drugaredd ef. Luc xiii. 25, 26, 27.[s]

Eithr nid attebasant hwy nemawr i hyn: yn unig hwy a archasant iddo ef edrych atto ei hun. Yna mi a'u gwelais hwynt yn myned rhagddynt, bob un ar hyd ei ffordd, heb ymddiddan ond ychydig iawn â'u gilydd; namyn dywedyd o'r ddau wr yma wrth Gristion, mai am ddeddfau ac ordinhadau, nad oeddynt yn ammau, na's cadwent y rhei'ny mor gydwybodol ag yntef: am hynny ni wyddom ni, ebe hwy, pa wahaniaeth sydd rhyngot ti a ninnau, ond bod y siacced yna am dy gefn di, yr hon a roddwyd i ti (debygwn ni) gan rai o'th gymmydogion, i guddio gwarth dy noethni.

MAE GAN GRISTION SIACCED EI DAD AM EI GEFN, YN MHA UN Y MAE YN YMGYSURO.

CRISTION. Ni achubir chwi trwy ddeddfau ac ordinhadau. Gal. ii. 16. Ni dderbynir neb i'r ddinas nefol, ond y sawl sy'n dyfod yno trwy'r drws. Ioan x. 9. Ioan xiv. 6. A'r siacced yma sydd am fy nghefn, hi a roddwyd i mi gan Arglwydd y lle yr wyf yn myned iddo; a hynny fel y dywedasoch chwi, i guddio fy noethni â hi. Ac yr wyf yn ei chymmeryd hi fel arwydd o'i garedigrwydd ef tu ag attaf, canys nid oedd gennyf ddim ond bratiau o'r blaen: ac heblaw hynny, yr wyf yn cysuro fy hunan yn y modd yma wrth deithio. Yn ddiau, debygaf fi, pan ddelwyf i borth y ddinas, ei Harglwydd hi a'm hadnebydd i yn ddigon da, gan fod gennyf ei siacced ef am danaf; y siacced a roddodd efe i mi yn rhad, yn y dydd y diosgodd efe fy mratiau oddi am danaf. Y mae gennyf fi hefyd nod ar fy nhalcen (yr hwn ond odid ni ddaliasoch sylw arno) a osodwyd yno gan un o gyfeillion anwylaf fy Arglwydd, yn y dydd y syrthiodd fy maich oddi ar fy ysgwyddau. Ac mi a ddywedaf i chwi yn ychwaneg, roddi i mi y pryd hynny blyg-lyfr wedi ei selio, i'm cysuro i wrth ei ddarllen ar hyd y ffordd: ac fe orchymynwyd i mi hefyd ei roi ef i mewn yn mhorth y ddinas nefol, yn arwydd o'm mynediad sicr innau i mewn ar ei ol ef i'r fan honno.

YMGYSURA HEFYD YN EI NOD A'I BLYG-LYFR.

[s] Dyma y gwahaniaeth rhwng y gwir Gristion a'r gau-broffeswr; y naill sydd yn rhodio yn ol rheol gair Duw, tra fyddo y llall yn myned yn ol ei ddyfais a'i opiniwn ei hunan.

Y mae'n sicr gennyf, fod arnoch chwi eisiau yr hyn oll ag yr ydych chwi hebddynt hwy, am na ddaethoch i mewn trwy'r porth.[t]

Nid attebasant hwy ddim iddo ef ynghylch y matterion yma; yn unig hwy a edrychasant ar eu gilydd, ac a chwarddasant. Yna mi a'u gwelais hwy oll yn myned ymlaen, ond bod Cristion yn cerdded yn dynnach, gan eu gadael hwynt-hwy ar ei ol, ac nid ymddiddanodd efe ddim mwyach â hwy; ond yr oedd e'n myfyrio ynddo ei hun, weithiau tan ocheneidio, ac weithiau tan ymgysuro: hefyd efe a fyddai yn ddarllen yn fynych yn ei blyg-lyfr, ac yr oedd efe yn cael diddanwch oddi wrtho.[u]

CRISTION YN MYFYRIO YNDDO EI HUN.

Mi a'u gwelwn hwy wedi hyn yn myned oll yn mlaen hyd oni ddaethant i ymyl bryn Anhawsdra, ac wrth y bryn hwnnw yr oedd ffynnon: ac hefyd yn yr un lle yr oedd dwy ffordd arall, heblaw yr hon oedd yn dyfod yn union oddi wrth y porth; un yn troi ar y llaw aswy, a'r llall ar y llaw ddehau, wrth droed y mynydd: eithr yr oedd y ffordd gyfyng yn myned yn union i fynu i'r bryn. Fe aeth Cristion yn awr i'r ffynnon, ac a yfodd o honi i adfywio ei hun. Esa. xlix. 10. Ac yna efe a ddechreuodd fyned i fynu'r bryn, dan ganu.

YN DYFOD AT FRYN ANHAWSDRA.

Yr wyf yn chwennych myn'd yn gefnog,
I ben y bryn sydd fawr a chribog:
Er ucheled yw ei goppa,
Ni'm rhwystrir i gan ddim anhawstra.
Can's mi wn mai dyma'r hyfryd
Ffordd sy'n arwain dyn i fywyd:
Cyfod galon, awn yn wisgi,
Llwyr ymlaen, heb ball nac ofni.
Gwell yw cerdded y ffordd union,
Er bod rhwystrau yn ei chylchion,
Na myn'd ar hyd y traws gau lwybr,
Er ei fod e'n hawdd ddirwystr.

Y ddau eraill hefyd a ddaethant hyd at droed y bryn; eithr pan y gwelsant fod y bryn yn serth, a bod yno ddwy ffordd arall i fyned; a chan dybied hefyd, y cyfarfyddai y ddwy ffordd hynny drachefn â'r ffordd yr aethai Cristion ar hyd-ddi, ar yr ystlys arall i'r bryn; hwy a ymroisant am hynny i fyned ar hyd y ffyrdd yma (enw un o'r ffyrdd oedd Perygl, ac enw'r llall oedd Distryw) felly y naill wr a gymmerodd y ffordd a elwir Perygl, yr hon a'i harweiniodd ef i goedwig fawr; a'r llall

Y PERYGL O DROI ODDI AR Y FFORDD.

[t] Mae y Pererin yn ymgryfhâu yn ei ffydd, gan fod ganddo sicrwydd o waith Ysbryd Duw ar ei galon, a'i fod wedi ei gyfiawnhâu yn rhad, trwy rinwedd gwaed y cymmod.

[u] Arwyddion newydd a roddir i'r credadyn o'i hawl i ffafr Duw, a thrwy chwilio i mewn i'r sail o'i gymmeradwyaeth, y mae efe yn llawenychu yn ddirfawr ar ei daith.

a aeth yn union, ar hyd y ffordd oedd yn arwain i Ddistryw, yr hon a'i harweiniodd ef i fan ehang, yn llawn o fynyddoedd tywyll, lle y tramgwyddodd ac y syrthiodd ef, ac ni chyfododd ef mwyach.[w]

Yna mi a edrychais ar ol Cristion, i'w weled ef yn myned i fynu i ben y bryn: ac mi a'i gwelwn ef wedi rhedeg ar y cyntaf; yn cerdded yn awr, ac o'r diwedd yn crippian i fynu ar ei draed a'i ddwylaw, oblegid fod y lle yn serth ac yn llithrig. Ac ynghylch hanner y ffordd i ben y bryn, yr oedd llwyn hyfryd o goed plan wedi ei osod gan Arglwydd y bryn, i adfywio ymdeithwyr diffygiol. Ac am hynny fe aeth Cristion yno, ac a eisteddodd i lawr i gymmeryd gorphwysfa yn y lle hwnnw. Yna efe a gymmerodd ei blyg-lyfr allan o'i fynwes, ac a ddarllenodd ynddo, ac a gafodd ddiddanwch oddi wrtho: efe a ddechreuodd hefyd yn awr ail edrych ar y siacced a roddasid iddo pan yr oedd efe yn sefyll wrth y groes: ac wedi iddo gael boddlonrwydd yn y pethau hyn tros ennyd, o'r diwedd efe a syrthiodd i hepian, ac ar ol hynny i drwm gysgu: a'r cwsg hwn a'i cadwodd ef yn y man hwnnw, hyd onid oedd hi ymron nos, a'i blyg-lyfr a syrthiodd o'i law ef wrth gysgu.[x] Dat. iii. 2. 1 Thes. v. 7, 8. Ac fel yr oedd efe yn cysgu, daeth un atto, ac a'i deffrodd ef, gan ddywedyd wrtho, "Cerdda at y morgrugyn, tydi ddiogyn, edrych ar ei ffyrdd ef, a bydd ddoeth." Diar. vi. 6. A chyda hynny fe neidiodd Cristion i fynu yn orwyllt, ac a aeth ar ffrwst i'w ffordd, ac a gerddodd yn ebrwydd, hyd oni ddaeth ef i ben y bryn.

GAIR GRAS.

Y CYSGADUR SYDD GOLLEDWR.

Yn awr, pan ddaeth efe i fynu i ben y bryn, fe welai ddau wr yn rhedeg yn gyflym tu ag atto: enw un o honynt oedd Ofnog, ac enw'r llall oedd Anhyderus: a Christion a ddywedodd wrthynt, Ha wyr! paham yr ydych yn rhedeg tu ag yma? Ofnog a attebodd, mai myned yr oeddynt tua dinas Sion, a darfod iddynt ddyfod i fynu o'r llethr neu'r rhiw oedd anhawdd ei ddringo; eithr, eb efe, pa bellaf yr elem ni, mwy a fyddai y perygl a gyfarfyddai â ni; am hynny ni a droisom, ac yr ydym yn myned yn ol drachefn: ïe, ebe Anhyderus, canys yr oedd dau lew yn gorwedd yn gymwys yn y ffordd o'n blaen (pa un ai yn cysgu ai yn effro, ni's gwyddom), ac ni allem ni dybied llai, os deuem ni o fewn eu cyrhaedd, na byddai iddynt yn ebrwydd ein llarpio a'n rhwygo ni yn gandryll. Diar. xxii. 13. a xxvi. 13.

CRISTION YN CANFOD OFNOG AC ANHYDERUS.

Yna, ebe Cristion, yr ydych chwi yn peri i mi ofni; eithr i ba le y ffoaf i fod mewn diogelwch? Os af yn ol i'm gwlad fy hun, y mae honno wedi ei pharottoi i dân a

[w] *Bryn Anhawsdra*, sydd yn dangos i ni fod llwybr ufudd-dod yn rhwystrus i natur ddirywiedig dyn; y rhau broffeswyr ni fynnant ddringo llwybr mor serth, ond y mae y Credadyn yn ddewr ac yn galonog, gan ei fod wedi yfed o win y deyrnas: gwell ganddo gadw yr iawn ffordd, er serthed ydyw, na throi at gau lwybr a fo yn esmwythach.

[x] Peryglus ydyw ymddiried yn yr hyn a dderbyniasom yn ein cyfiawnhad, a myned i gysgu mewn difrawch am i ni unwaith gael gras, a phrofi gwaith yr Yspryd. Rhaid gwylio a gweddïo, a gochelyd rhag ein chwyddo ni gan falchder ysprydol, a thristâu o honom Lân Yspryd Duw.




H. WARREN J. GREATBACH

Christian shewn the Delectable Mountains.

Dangos y Mynyddoedd Hyfryd i Gristion.

brwmstan; ac fe dderfydd am danaf fi yno yn ddiamman; os gallaf fyned i'r ddinas nefol, y mae'n sicr gennyf y byddaf fi yno mewn diogelwch. Rhaid i mi anturio i fyned yn mlaen: nid yw myned yn ol ddim amgen na marwolaeth; ac nid yw myned ymlaen ond ofn marwolaeth; eithr y mae bywyd tragywyddol yn ei ganlyn ef; ac am hynny myfi a af rhagof etto.[y]

CRISTION YN YSGWYD YMAITH OFN.

Felly Anhyderus ac Ofnog a redasant i waered ar hyd y llethr, a Christion a aeth rhagddo yn ei ffordd. Eithr wedi meddwl drachefn am yr hyn a glywsai ef gan y gwŷr, efe a chwiliodd yn ei fynwes am ei blyg-lyfr, fel y gallai ddarllen ynddo, a chael cysur oddi wrtho; eithr er ymofyn am dano, ni's cafodd. Yna yr oedd Cristion mewn cyfyngder mawr, ac ni wyddai pa beth a wnelai, am fod arno eisiau y peth oedd yn arfer ei adfywio, a'r peth a ddylasai fod megis Pass (neu lythyr) yn ei law ef, fel y byddai iddo gael ei dderbyn i'r ddinas nefol. Yn y trallod yma efe a gofiodd o'r diwedd iddo gysgu dan y llwyn oedd ar ochr y bryn: a chan syrthio ar ei liniau, efe a ofynodd faddeuant gan Dduw, am iddo fod mor ynfyd a chysgu yno: ac wedi hynny efe a ddychwelodd yn ei ol i ymofyn am ei blyg-lyfr. Eithr pwy a ddichon fynegi faint oedd gofid ei galon ar hyd yr holl ffordd yr oedd efe yn dychwelyd yn ei ol ar hyd-ddi; weithiau yr oedd e'n ocheneidio, weithiau yn wylo, ac yn fynych yn beio arno ei hun, am fod mor ynfyd a chysgu yn y lle hwnnw, a wnelsid yn unig i ddadebru ychydig arno yn ei ludded. Fel hyn gan hynny y dychwelodd yn ol, gan edrych yn ofalus, y tu yma, a'r tu arall, ar hyd yr holl ffordd yr oedd efe yn tramwy arni, i brofi a allai ef ysgatfydd gael cwrdd â'i blyg-lyfr, yr hwn a'i cysurodd ef cyn fynyched yn ei daith. Ac yn y modd hyn y cerddodd efe, nes canfod y llwyn drachefn lle y buasai yn eistedd ac yn cysgu: eithr yr olwg honno a adnewyddodd ei dristwch yn fwy, trwy ddwyn ar gof iddo eilwaith ei gwsg pechadurus. Eithr efe a aeth ymlaen, dan alaru am y cysgu yma, gan ddywedyd, Ys truan o ddyn ydwyf fi! i mi gysgu liw dydd! i mi gysgu ynghanol peryglon! i mi foddhâu y cnawd cyn belled, ag arfer yn lle esmwythdra i'r corph, yr orphwysfa honno a bwyntiasai Arglwydd y Bryn yn unig i gysuro eneidiau Pererinion! Pa sawl cam a gerddais i yn ofer! (Fel hyn y digwyddodd i'r Israeliaid am eu pechodau; hwy a anfonwyd yn eu hol drachefn ar hyd ffordd y môr coch,) ac yr wyf finnau yn awr yn cerdded y llwybrau hynny mewn gofid, y rhai a allaswn i eu cerdded mewn hyfrydwch, oni buasai y cwsg pechadurus hwn.[z] Pa belled y buaswn i yn fy ffordd erbyn hyn? Y mae'n gorfod i mi gerdded dair gwaith

CRISTION WEDI COLLI EI BLYG-LYFR.

AC MEWN TRALLOD AM DANO.

CRISTION YN GALARU AM EI GWSG YNFYD.

[y] Mae'n rhaid bwrw ymaith yspryd ofnus, a dal proffes ein ffydd yn ddiysgog; eithr os cymmerwn ein dychrynu gan bob awel o brofedigaeth, a rhoddi lle i ddigalondid, o herwydd pob rhyw anhawsder a ddaw ar ein traws, hawdd y gallwn gilio yn ol. Cofiwn fod ffydd y Pererin yn awr yn dechreu diffygio, ond y mae efe yn penderfynu myned rhagddo ar ei daith.

[z] Nid peth anhawdd yw colli tir mewn matter enaid, trwy ysmaldod a difräwch; ond pan ddelom i chwilio ein hunain, ac i deimlo ein colled, ni a brofwn alar a chwerwder wrth ystyried ein ffolineb a'n cysgadrwydd.

y camrau na buasai raid i mi eu cerdded ond unwaith; ïe, yn awr hefyd y mae'n debyg o fyned yn nos arnaf, canys y mae'r dydd yn darfod: O na buaswn i heb gysgu!

Erbyn hyn yr oedd efe wedi dyfod at y llwyn drachefn, ac efe a eisteddodd yno ennyd, ac a wylodd: eithr o'r diwedd, (fel yr oedd rhagluniaeth yn ewyllysio,) wrth edrych â chalon drom tua'r llawr, efe a ganfu ei lyfr dan y faingc; ac yn ddychrynllyd efe a'i cipiodd i fynu ar frys, ac a'i gosododd yn ei fynwes: eithr pwy a all fynegi mor llawen oedd y gwr hwn, pan y cafodd ei blyg-lyfr drachefn? Canys y llyfr yma oedd sicrwydd ei fywyd ef, a'i sicrwydd ynghylch ei dderbyniad i mewn i'r porthladd dymunol, sef i'r nefoedd; am hynny efe a'i gosododd i gadw yn ei fynwes, ac a ddiolchodd i Dduw am gyfarwyddo ei lygaid ef at y man lle yr oedd y llyfr yn gorwedd. Ac wedi hyn, dan lawenhâu ac wylo, efe a aeth ym mlaen yn ei ffordd.* Eithr, O mor wisgi y cerddodd efe i fynu ar hyd y rhan arall o'r bryn! Etto cyn iddo fyned i fynu, fe fachludodd yr haul ar Gristion; a hyn a wnaeth iddo alw ei gwsg ofer i'w gof drachefn. Ac fe a ddechreuodd eilwaith gwyno wrtho ei hun fel hyn, O tydi gwsg pechadurus! mor debygol yw hi i nosi arnaf yn fy nhaith o'th achos di! Rhaid i mi rodio heb yr haul; a thywyllwch a orchuddia fy llwybr i! Ac o'th blegid ti, O fy nghwsg pechadurus, fe orfydd arnaf fi glywed rhuad creaduriaid blinion! Yn awr hefyd efe a gofiodd y 'stori a ddywedasai Anhyderus ac Ofnog wrtho, y modd y dychrynwyd hwynt-hwy wrth weled y llewod. Yna y dywedodd Cristion wrtho ei hun drachefn, Y mae'r bwystfilod hyn yn rhodio oddi amgylch yn y nos i geisio ysglyfaeth; ac os cyfarfyddant â mi yn y tywyllwch, pa fodd y gyrraf hwynt ymaith? Pa fodd y diangaf rhag cael fy llarpio ganddynt? Fel hyn yr aeth ef rhagddo yn ei ffordd: eithr tra yr ydoedd efe yn galaru o blegid ei gamymddygiad anhappus, fe a dderchafodd ei lygaid, ac a ganfu yno yn ymyl y ffordd o'i flaen, balas gwych iawn, ac enw'r palas oedd Prydferth.†

CRISTION YN CAEL EI LYFR LLE Y COLLASAI EF.

Felly mi a'i gwelais ef yn brysio ac yn myned rhagddo, fel os byddai bosibl y gallai ef gael lletty yno: eithr cyn iddo fyned yn nepell, fe a ddaeth i le cul iawn, yn hwn oedd ynghylch tair ystang oddiwrth Babell y Porthor; a chan edrych yn ofalus o'i flaen wrth gerdded, efe a ganfu ddau lew yn y ffordd.[a] 'Nawr, eb efe, mi a welaf y peryglon a yrrasant Anhyderus ac Ofnog i ddychwelyd yn ol; (yr oedd y llewod wedi eu cadwyno, ond nid oedd e'n gweled y cadwyni;) yna efe a ofnodd, ac a fwriadodd ddychwelyd yn ol megis y gwnaethent hwythau; canys yr oedd efe yn meddwl nad oedd dim ond marwolaeth

* Wedi cael datguddiad newydd o gariad a heddwch dwyfol yn ei fynwes, fe ddichon y Pererin ganlyn ai ei daith yn rhwydd ac yn wisgi. Dylem, o ddydd bwygilydd, fod yn fawr ein hawydd i fwynhâu gwedd wyneb Duw. Nis meddwn fawr o rym duwioldeb, tra fyddom yn amddifad o'r cyfryw fraint.

† Wrth yr adeilad gwych hwn mae i ni ystyried yr Eglwys, neu Gymdeithas Gristionogol. Braint ragorol yw mwynhau cymmundeb y saint, trwy gyfrannu o bob ordinhad sanctaidd, a chydblethu ein doniau a'n profiadau, er adeiladaeth ein gilydd.

[a] Wrth y llewod mae i ni ddeall rhuad satan a'r byd, yn ein herbyn, i'n hattal ni rhag llwyr ymroddi o honom i Dduw, trwy ymuno â'i bobl.



Y Palas a elwid Prydferth

THE LONDON PRINTING AND PUBLISHING COMPANY LIMITED

o'i flaen ef: eithr y Porthor, (enw yr hwn yw Gwyliadwrus. Marc xiii. 34,) wrth weled Cristion yn ymattal rhag myned ymlaen, fel pe buasai ar feddwl troi yn ei wrthol, a waeddodd arno ef, gan ddywedyd, 'A wyt ti mor wan-galon a hynny? Nac ofna y llewod; canys y maent wedi eu cadwyno, ac wedi eu cyfleu yn y man yna i brofi ffydd lle y mae hi, ac i ddatguddio y rhai sydd hebddi: cadw di dy hunan ynghanol y llwybr, ac ni bydd niwed i ti.' 2 Petr ii. 4.

Yna mi a'i gwelais ef yn myned ymlaen dan grynu rhag ofn y llewod: eithr trwy ymgadw yn ol hyfforddiad y Porthor, efe a'u clybu hwynt yn unig yn rhuo, ond ni wnaethant hwy ddim niwed iddo: yna efe a gurodd ei ddwylaw ynghyd, ac a aeth rhagddo hyd oni ddaeth a sefyll o flaen y porth, lle yr oedd y Porthor yn aros. Yna y dywedodd Cristion wrtho, Syr, Pa dŷ yw hwn? A allaf fi gael lletty yma heno? A'r Porthor a attebodd, Y tŷ hwn a adeiladwyd gan Arglwydd y bryn, er mwyn adfywio a diogelu pererinion.[b] Y Porthor hefyd a ofynodd i Gristion, O ba le yr wyt ti yn dyfod? Ac i ba le yr wyt ti yn myned?

CRISTION. Dyfod yr wyf fi o Ddinas Dystryw, ac yr wyf yn myned tu a mynydd Sïon: eithr o blegid fod yr haul wedi machludo, yr wyf yn dymuno cael lletty yma dros noswaith.

PORTHOR. Pa beth yw eich enw chwi?

CRISTION. Fy enw i yr awr hon yw CRISTION; eithr fy enw i ar y cyntaf oedd DIRAS: yr wyf fi yn un o hiliogaeth Japheth, yr hwn a ennill Duw i breswylio yn mhebyll Sem. Gen. ix. 27.[c]

PORTH. Pa fodd y digwyddodd eich bod chwi yn dyfod cyn hwyred; y mae'r haul wedi machludo?

CRISTION. Myfi a fuaswn yma'n gynt; eithr ys truan o ddyn ydwyf fi: mi a gysgais dan y llwyn sy'n sefyll ar ystlys y bryn:[d] nage, mi a fuaswn yma er hynny yn gynt o lawer, oni buasai i mi golli fy sicrwydd wrth gysgu, a dyfod hebddo hyd at ael y bryn. Ac yna wedi ymofyn am dano, ac heb ei gael, gorfu i mi gyda gofid calon droi'n ol i'r lle y cysgaswn ynddo, lle y cefais i ef: ond o'r diwedd yr wyf wedi dyfod yma.[e]

PORTH. Wele, mi a alwaf ar un o langcesau y lle yma, yr hon (os bydd hi yn

[b] Mae gwylwyr Sïon am roddi pob annogaeth i ymgeiswyr iechydwriaeth, a'u meithrin hwy yn lletty y pererinion, sef yr eglwys.

[c] O yr anfeidrol fraint fod adyn truenus yn cael enw newydd ac yspryd newydd! Peth mawr yw bod yn Gristion gwirioneddol, ac nid yn unig yn myned tan yr enw o grefyddwr.

[d] Wedi i ni golli ein sicrwydd, trwy roi lle i bechod ac esgeulusdra, O'r fath drugaredd yw cael adnewyddiad o hono!

[e] Yr oedd yr eglwysi gynt yn bur ofalus pwy a dderbynient yn eu plith. Fe allai eu bod yn gwneuthur y ffordd yn rhy gyfyng, ond y mae perygl yn y dyddiau hyn, rhag i ni ei gwneuthur yn rhy esmwyth. Nid ein lle yw cau y drws yn erbyn unrhyw enaid ymdrechgar, er na fyddo yn mwynhâu sicrwydd iechydwriaeth canys trwy ddyfod i blith eneidiau profiadol mae y rhai trist i dderbyn diddanwch nefol.

foddlon i'ch ymadroddion) a'ch dwg chwi i mewn at y teulu, yn ol defod y tŷ. Ar hynny canodd y Porthor gloch; ac wrth ei swn hi, daeth llangces sobr brydferth allan i'r drws, (a'i henw hi oedd Pwyllog)[f] ac a ofynodd, Paham yr oeddid yn galw arni hi? A'r Porthor a attebodd, Y gwr hwn sydd ym ymdeithio o Ddinas Dystryw i fynydd Sïon; eithr gan ei fod yn ddiffygiol, a'i bod wedi nosi arno, efe a ofynodd i mi a allai ef gael lletty yma dros nos: felly myfi a ddywedais wrtho, Y galwn i arnat ti, yr hon a elli ar ol ymddiddan âg ef, wneuthur fel y byddo da yn dy olwg, yn ol defod y tŷ.

Hithau a wenodd ar Gristion, ond yr oedd y dwfr yn sefyll yn ei llygaid hi: ac wedi sefyll ychydig heb ddywedyd un gair, hi a ddywedodd, Myfi a alwaf allan ddau neu dri yn rhagor o'm teulu. Felly hi a redodd i ddrws y tŷ, ac a alwodd am Ddoethineb, Duwioldeb, a Chariad, i ddyfod allan, y rhai wedi ymddiddan âg ef ychydig ymhellach, a'i harweiniasant ef i mewn i'r tŷ: a llawer o honynt, gan ei gyfarfod ef wrth drothwy'r drws, a ddywedasant wrtho, 'Tyred i mewn, tydi fendigedig yr Arglwydd; fe adeiladwyd y tŷ hwn gan Arglwydd y bryn i'r diben yma, sef i roesawu pererinion ynddo.' Yna efe a gyfarchodd iddynt, ac a'u canlynodd hwynt i'r tŷ. Ac wedi dyfod i mewn ac eistedd i lawr, hwy a roisant iddo rywbeth i yfed; ac a gyttunasant ynghyd, mai hyd oni byddai swpper yn barod, y cai rhai o honynt, er mwyn gwneuthur defnydd da o'r amser, ymddiddan â Christion yn neillduol ynghylch pethau crefyddol: a hwy a drefnasant Ddoethineb, Duwioldeb, a Chariad, i chwedleua âg ef, a hwy a ddechreuasant fel hyn.[g]

DUWIOLDEB YN YMDDIDDAN AG EF.

DUW. Pa beth a'ch hannogodd chwi ar y cyntaf i fod yn bererin? A pha fodd y digwyddodd i chwi ddyfod allan o'ch gwlad y ffordd yma?

CRISTION. Fe'm gyrrwyd i allan o wlad fy ngenedigaeth gan swn ofnadwy oedd yn fy nghlustiau, sef, bod distryw anocheladwy yn fy nghanlyn, os trigwn i yn y man lle yr oeddwn.

PA FODD Y GYRRWYD CRISTION O WLAD EI ENEDIGAETH.

DUW. Eithr pa beth a wnaeth i chwi ymadael â'ch gwlad eich hun, a dyfod y ffordd hon?

CRISTION. Bu fel y mynnai Duw: a phan y dychrynwyd fi âg ofn y distryw yma, ni wyddwn i ba le yr awn; ond trwy ragluniaeth Duw, fel yr oeddwn yn crynu ac yn wylo, fe ddaeth gwr attaf fi a elwid Efengylwr, ac efe a'm cyfarwyddodd i i'r porth cyfyng; a phe amgen ni chawswn i gwrdd âg ef byth: ac felly fe'm gosododd i yn y ffordd a'm harweiniodd i yn union i'r tŷ hwn.

PA FODD Y DAETH I'R FFORDD TUA SION.

DUW. Eithr oni ddaethoch chwi heibio i dŷ y Dehonglwr?

CRISTION. Daethum, ac a welais yno y fath bethau ag y glŷn eu coffadwriaeth

[f] Gyda phwyll ac ystyriaeth y dylid derbyn aelodau i blith cymdeithas o Gristionogion, rhag fod rhai â gau ddibenion am ymlusgo i mewn, ac wedi hynny yn gwaradwyddo achos Duw.

[g] Nid ar ein dyfodiad cyntaf i'r eglwys, ond hefyd o bryd bwygilydd, y dylem gael ein holi ynghylch ein cyflwr ysprydol, a'n rhodiad beunyddiol. Lle na bo aelodau eglwysig yn cynnal disgyblaeth o'r cyfryw fath, mae yno ddiffyg mawr iawn.

hwy wrthyf tra fyddwyf byw; yn enwedig tri pheth, sef, y modd mae Crist, er gwneuthur o Satan ei waethaf, yn cynnal gwaith ei ras ynghalonau ei bobl: y modd y pechodd rhyw wr mor echrydus, hyd onid oedd efe yn gwbl allan o obaith am drugaredd Duw; ac hefyd breuddwyd yr hwn a dybiasai fod dydd y farn wedi dyfod. Yr oedd fy nghalon i yn crynu pan yr adroddodd y gwr ei freuddwyd, etto y mae'n llawen gennyf i mi ei glywed ef.

ADRODDIAD D'R HYN A WELODD AR Y FFORDD

DUW. Ai dyma y cyfan a welsoch yn nhŷ y Dehonglwr?

CRISTION. Nagê; canys efe a'm cymmerodd ac a ddangosodd i mi balas gwych a godidog, ac yr oedd y rhai a breswylient yno wedi eu dilladu â gwisgoedd o aur: a dangoswyd i mi y gwr dewr calonog, yr hwn a dorrodd ei ffordd trwy y gwŷr arfog oedd yn sefyll wrth y drws; ac efe a gafodd orchymyn i ddyfod i mewn, ac ennill coron o ogoniant: tybiais fod yr olwg yma yn gorlenwi fy nghalon o lawenydd. Arosaswn yno flwyddyn gyfan, oni buasai fy mod yn gwybod fod gennyf siwrnai o fy mlaen.

DUW. Beth arall a welsoch ar eich ffordd?

CRISTION. Llawer o bethau eraill a welais i ar y ffordd; ond un peth oedd fwyaf nodedig, sef, pan y gwelais i un yn crogi ac yn gwaedu ar y groes, fe wnaeth yr olwg arno ef i'm baich i syrthio oddiar fy nghefn; a'r baich hwnnw a fu yn fatter o flinder mawr i mi. Zec. xii. 10. a xiii. 1.[h] Golwg rhyfeddol i mi oedd y golwg hwnnw, canys ni welais i y fath o'r blaen; ïe, a thra yr oeddwn yn edrych tu ag i fynu, tri o rai disglair a ddaethant attaf: un a dystiodd fod fy mhechod wedi ei faddeu; arall a'm diosgodd i o'm bratiau, ac a roddodd i mi y wisg harddwych a welwch chwi am danaf; a'r trydydd a osododd y nod a welwch chwi ar fy nhalcen, ac a roddodd i mi y plyg-lyfr seliedig hwn; ac ar hynny efe a'i tynnodd o'i fynwes.

DUW. Eithr chwi a welsoch fwy na hyn?

CRISTION. Mi a adroddais i chwi y pethau goreu; eithr mi a welais rai matterion eraill; ac yn enwedig, gwelais dri o wŷr, Anghall, Diog, a Rhyfyg, yn gorwedd yn eu cwsg, yn agos i'r ffordd ar hyd yr hon y daethum, a heiyrn ar eu traed; eithr nis gellais eu dihuno hwynt! Mi a welais hefyd Ffurfiol a Rhagrith yn dyfod dan dreiglo dros y mur, i fyned, fel y dywedent hwy, tua mynydd Sïon; eithr hwy a gollwyd yn ddisymmwth, fel y dywedais wrthynt, er na choelient fi. Ond uwchlaw y cyfan, profais mai gorchwyl caled oedd dringo i ben y bryn, ac anhawdd iawn oedd gennyf ddyfod heibio i'r llewod; ac yn wir, oni buasai'r gwr da, y Porthor, ni's gwn na buaswn yn troi yn fy ol wedi'r cyfan: eithr yn awr, diolch i Dduw am fy mod yma; ac yr wyf yn ddiolchgar hefyd i chwithau am roddi i mi dderbyniad a chroesaw.

DDETHINEB YN YMDDIDDAN ÂG EF.

DOETH. Onid ydych chwi yn meddwl weithiau am y wlad o'r hon y daethoch allan?

[h] Y mae cariad ac ofn yn gweithio yn y Cristion. Y mae cariad Crist yn ei gymmell ef, ac ar yr un pryd y mae efe yn gweithio allan ei iechydwriaeth trwy ofn a dychryn.

CRISTION. Ydwyf, eithr gyda llawer o gywilydd a ffieidd-dra: yn wir pe buaswn i yn meddwl gyda hyfrydwch am y wlad honno, o'r hon y daethum allan, gallaswn gael amser cyfaddas i ddychwelyd yn ol; eithr yn awr, gwlad well yr wyf fi yn ei chwennych, hynny ydyw un nefol. Heb. xi. 15, 16.

MEDDWL CRISTION AM EI WLAD ENEDIGOL.

DOETH. Onid ydych chwi etto yn canfod ynoch eich hunan rai o'r pethau yr oeddych chwi y pryd hynny yn gynnefin â hwynt?

CRISTION. Ydwyf; eithr y mae'r pethau hynny ynof yn erbyn fy ewyllys yn fawr iawn, yn enwedig fy meddyliau cnawdol, y rhai oeddynt yn dra hyfryd gennyf gynt: eithr yn awr y mae'r meddyliau hyn oll yn flinder i mi: a phe gallwn i ddewis yr hyn sydd dda, myfi a ddewiswn, na's meddyliwn i y fath feddyliau byth mwyach: eithr pan fyddwyf yn ewyllysio gwneuthur yr hyn sydd oreu, y mae yr hyn sydd waethaf yn bresennol gyda mi. Rhuf. vii. 21.[i]

CRISTION YN ACHWYN AR EI FEDDYLIAU CNAWDOL.

DOETH. Onid ydych chwi yn edrych ar y pethau hyn weithiau fel pe byddent wedi eu gorchfygu, y rhai sydd brydiau eraill yn flinder a dyryswch i chwi?

CRISTION. Ydwyf, ond nid yw hynny ond yn anfynych iawn: eithr oriau euraidd yw y rhei'ny i mi, yn y rhai y digwydd i mi gael yr oruchafiaeth ar fy llygredigaethau.

ORIAU EURAIDD CRISTION.

DOETH. A ellwch chwi gofio trwy ba foddion y mae y llygredigaethau blinderus hyn yn cael eu darostwng ynoch, fel pe byddent wedi eu gorchfygu?

CRISTION. Gallaf; 1. Pan feddyliwyf am yr hyn a welais i wrth y groes; 2. Pan edrychwyf fi ar fy ngwisg gyfrestrog (*embroidered*); 3. Pan ddarllenwyf yn y plyg-lyfr wyf yn ei ddwyn yn fy mynwes; 4. A phan fyddo fy meddyliau ynghylch y lle yr wyf yn myned tu ag atto yn ymwresogi; fe rydd hynny ergyd marwol i'm llygredigaethau.[k]

Y MODD Y MAE CRISTION YN CAEL GRYM YN ERBYN EI LYGREDIGAETHAU.

DOETH. A pha beth sy'n peri i chwi fod mor chwannog i fyned i fynydd Sïon?

CRISTION. Yr wy'n gobeithio cael gweled yr hwn a fu farw ar y groes yn fyw yno: ac yr wyf yn gobeithio y rhyddheir fi yno oddiwrth yr holl wendid sydd yn fy aflonyddu i hyd y dydd hwn. Y maent yn dywedyd hefyd, nad oes dim marwolaeth yno: ac mi a gaf fod yno gyda'r fath gymdeithion a'r y sydd oreu gennyf. Ac i ddywedyd wrthych chwi y gwir, yr wyf yn caru yr hwn a fu farw ar y groes, am iddo ef fy esmwythâu i o'm baich. Luc vii. 47. Ac y mae fy afiechyd oddi

PAHAM Y DYMUNAI CRISTION FOD WRTH FYNYDD SION.

[i] Felly y dichon fod, os collwn ein golwg ar Grist; ond tra fyddo gras ar waith yn yr enaid, "y mae deddf yspryd y bywyd yn Nghrist Iesu, yn ein rhyddhâu oddiwrth ddeddf pechod a marwolaeth." Rhuf 8. 2. Gwel yn y blaen.

[k] Y mae cofiant am drugaredd Duw yn ein cyfiawnhad trwy ffydd yn Nghrist, amlygiad o'n cymmeradwyaeth trwyddo ef, a gobaith bywiol am y gwynfyd tragywyddol, yn cael y cyfryw effaith ar y meddwl ag i'w ddwyn i ymdrechu yn wrol, a cherdded ar hyd ei ffordd o nerth i nerth.



"Christian gave him a deadly thrust" p 52

# Christian's Fight with Apollyon.

Cristion yn ymladd ag Apolyon

THE LONDON PRINTING AND PUBLISHING COMPANY

fewn yn ofidus i mi; ac yr wyf yn ewyllysio bod yn y fan honno lle na bydd nac afiechyd na marwolaeth mwyach, a chyd â'r cymdeithion a gânt lefain yn wastadol, Sanct, Sanct, Sanct. Dat. xxi. 4. Esa. vi. 3.[l]

*CARIAD YN YMDDIDDAN AG EF.*

Yna y gofynodd Cariad i Gristion, A oes i chwi dylwyth? A ydych chwi yn wr priod?

CRISTION. Y mae gennyf wraig a phedwar o blant bychain.

CAR. A phaham na ddygasoch chwi hwynt-hwy gyda chwi?

*CARIAD CRISTION AT EI WRAIG A'I BLANT.*

CRISTION. Ar hynny fe wylodd Cristion, ac a ddywedodd, O mor ewyllysgar oeddwn i iddynt hwy ddyfod gyda mi! ond yr oeddynt hwy oll yn gwbl anfoddlon i'm pererindod.

CAR. Eithr chwi a ddylasech ymddiddan â hwy, a dangos iddynt y perygl o aros yn ol.[m]

CRISTION. Felly y gwnaethum, ac mi a fynegais iddynt hefyd yr hyn a ddangosai Duw i mi am ddinystr ein dinas ni: eithr yr oeddwn i yn eu golwg hwy fel un yn cellwair, ac ni choelient fi. Gen. xix. 14.

CAR. A ddarfu i chwi weddïo ar Dduw am fendithio eich cyngor iddynt?

CRISTION. Do, a hynny gyda gwresogrwydd calon; canys rhaid i chwi feddwl, fod fy ngwraig a'm plant druain yn anwyl iawn gennyf.

CAR. Eithr a fynegasoch chwi iddynt hwy eich gofid eich hun, a'ch ofn i gael eich dinystrio?

*GALLESID GWELED YN WYNEBPRYD CRISTION EI OFN O FOD YN GOLLEDIG.*

CRISTION. Do, eilwaith ac eilwaith: a hwy a allasent ganfod fy ofn i yn ngwedd fy wynebpryd, yn fy nagrau, ac hefyd yn fy nychryn wrth ystyried y farn oedd ynghrog uwch ein pennau: eithr nid oedd y cwbl yn ddigonol i'w hennill hwy i ddyfod gyda mi.

CAR. Eithr pa beth a allent hwy ddywedyd trostynt eu hunain, am na ddaethant hwy gyda chwi?

*PAHAM NAD AETH EI WRAIG A'I BLANT GYDAG EF.*

CRISTION. Yr oedd fy ngwraig yn ofni colli ei meddiannau, a chariad dynion y byd presennol; a'm plant oeddynt yn ymroddi i ynfyd ddigrifwch ieuengctid; ac felly hwy a rwystrwyd, rhai gan un peth, a rhai gan beth arall, hyd oni's gadawsant hwy myfi i deithio wrthyf fy hunan yn y modd yma.

CAR. Eithr oni ddarfu i chwi ddiwyno a halogi â'ch ymarweddiad ofer yr hyn oll a lefarasoch chwi mewn ffordd o gyngor, i'w hannog hwynt i ddyfod gyda chwi?[n]

[l] Trwy rinwedd gwaed Crist, a gwaith ei Ysbryd, ni a allwn gael ein llwyr lanhâu oddiwrth ein pechod yma ar y llawr. Ond y mwyaf fyddo dedwyddwch y Cristion yma, mwyaf fydd ei awydd i fod gyda ei Anwylyd.

[m] Y mae yn ofid mawr i'r Pererin ysprydol, pan fo ei geraint yn nacâu ymdeithio gydag ef yn ffordd yr Arglwydd.

[n] Oddieithr i ni fyw yn gyson â'n proffes, ac ymddwyn mewn modd hardd ac ennillgar tu ag at ein cyddylwyth, fe ddichon y diffyg o hynny eu caledu hwynt yn erbyn ein holl gynghorion.

YMARWEDDIAD DA CRISTION O FLAEN EI WRAIG A'I BLANT.

CRISTION. Mewn gwirionedd ni allaf fi ganmol fy ymarweddiad; canys myfi a wn fy mod i yn llithro mewn llawer o bethau. Iago iii. 12. Myfi a wn hefyd y dichon dyn, trwy ei fywyd drwg, ddymchwelyd mewn ychydig o amser yr hyn a osodo efe mewn ffordd o addysg, rheswm, cyngor, a cherydd, o flaen pobl i'w troi hwy at yr hyn sydd dda. Etto mi a allaf ddywedyd hyn, fy mod i yn ofalus iawn, na byddai i mi roddi iddynt achlysur trwy un weithred anweddus, i'w gwneuthur hwy yn wrthwyneb i ddyfod i bererindod; ïe, yn y matter yma, hwy a ddywedent wrthyf, fy mod i yn rhy fanol, ac fy mod i yn gwadu fy hun (er eu mwyn hwy) o ran rhyw bethau yn y rhai nid oeddynt hwy yn gweled dim drwg ynddynt. Nagê, yr wyf yn tybied y gallaf fi ddywedyd hyn; os ydoedd dim a welsant hwy ynof fi yn rhwystr iddynt, mai fy ofn mawr i rhag pechu yn erbyn Duw, a gwneuthur cam â'm cymmydogion, ydoedd hynny.

CRISTION YN RHYDD ODDIWRTH EU GWAED.

CAR. Cain yn wir a gasaodd ei frawd, am fod ei weithredoedd ei hun yn ddrwg, a'r eiddo ei frawd yn dda: ac os hyn a fu'n rhwystr i'th wraig a'th blant, ac a wnaeth iddynt ddigio wrthyt, y maent trwy hynny yn ymddangos eu bod yn anghymmodlon i ddaioni, a thi a waredaist dy enaid oddiwrth eu gwaed hwynt. 1 Ioan iii. 12. Ezec. xxxiii. 9.

PA BETH A GAFODD CRISTION I'W SWPPER.

EU HYMDDIDDANION WRTH SWPPERA.

Yn awr mi a'u gwelais hwy yn eistedd fel hyn, gan ymddiddan â'u gilydd hyd onid oedd swpper yn barod: ac wedi iddynt ei barottoi, hwy a eisteddasant i fwytta: ac yr oedd y bwrdd wedi ei lenwi â phasgedigion, ac â gwin, ïe gloyw win puredig. Esa. xxv. 6. Mat. xxii. 4. A'u holl ymddiddan hwy wrth y bwrdd oedd ynghylch Arglwydd y bryn, yn enwedig ynghylch yr hyn a wnaeth, a phaham y gwnaeth yr hyn a wnaethpwyd ganddo, a phaham yr adeiladodd efe y tŷ hwnnw. Ac wrth yr hyn a lefarasant hwy, myfi a wybum ei fod ef yn rhyfelwr mawr, ac iddo ymladd â'r hwn oedd a nerth marwolaeth ganddo, a'i ddinystrio ef, eithr nid heb berygl dirfawr iddo ei hun, yr hyn a wnaeth i mi ei garu ef yn fwy. Heb. ii. 14, 15.

Ac megis y dywedasant hwy, ac yr wyf finnau yn credu, efe a gollodd lawer o waed wrth wneuthur hynny, eithr y peth sy'n gogoneddu ei ras ef ydyw hyn, sef, iddo wneuthur y cwbl o wir gariad i'w wlad. Ac heblaw hynny, yr oedd yno rai o'r teulu yn dywedyd, eu bod yn ymddiddan âg ef ar ol ei farwolaeth ar y groes, a'i adgyfodiad oddiwrth y meirw; a hwy a dystiolaethasant, iddynt glywed allan o'i enau ef ei hun, fod ganddo gariad mawr tu ag at bererinion truain, hyd onid ellir dywedyd, nad oes gyffelyb iddo i'w gael, o'r Dwyrain i'r Gorllewin.

MAE CRIST YN GWNEYD TYWYSOG O'R CARDOTYN.

Drachefn, hwy a roddasant siampl o'r hyn a ddywedasant; a honno oedd, iddo ef ymddiosg o'i ogoniant fel y gallai wneuthur hyn dros y tlawd; a dywedasant iddynt hwy ei glywed ef yn dywedyd, Na phreswyliai efe yn mynydd Sïon yn unig, ond y mynnai efe eraill i breswylio gyd ag ef yno. Phil. ii. 6, 7, 8. Ioan xvii. 24. A hwy a fynegasant ymhellach, iddo ef ddyrchafu llawer o bererinion i



"I perceived the mouth of Hell." p 54.

H. WARREN

# The Valley of the Shadow of Death.

Dyffryn Cysgod Angau.

fod yn dywysogion, er eu bod hwy wrth natur wedi eu geni yn dlodion, a'u dechreuad o'r dommen. 1 Sam. ii. 8. Dat. i. 6.

Ac fel hyn yr ymddiddanasant, hyd onid aeth hi'n llawer o'r nos: ac wedi iddynt eu gorchymyn eu hunain i gadwraeth eu Harglwydd, hwy a aethant i'w hesmwythdra: a gosodasant y Pererin i orwedd mewn goruwch-ystafell ehang, a'i ffenestr yn agored tua chodiad yr haul (enw'r ystafell oedd Tangnefedd) lle yr hunodd hyd y wawr ddydd, ac yna efe a ddeffrodd ac a ganodd; YSTAFELL WELY CRISTION.

Ymh'le yr wyf yn awr yn gorwedd?
O! dyma ddirfawr gariad rhyfedd!
A gofal Iesu Grist am ddynion,
Y rhai a fydd yn bererinion;
Yn rhagddarbod a thosturio,
Fel y cawn i fy arbed ganddo,
Ac anneddu o fewn y gwiwlwys
Drothwy nesaf i baradwys.°

Felly hwy a gyfodasant oll y boreu drannoeth, ac wedi iddynt ymddiddan ynghylch rhyw bethau yn rhagor, hwy a ddywedasant wrtho, na chai ef ymadael hyd oni ddangosent iddo dlysau'r ty. Ac yna hwy a'i harweiniasant ef i'r llyfr-gell, lle y gosodasant hwy o'i flaen ef y llyfrau coffadwriaethau hynaf yn y byd; yn y rhai y dangosasant hwy iddo ef, yn gyntaf achau Arglwydd y bryn, sef, ei fod ef o dragywyddoldeb yn fab i'r Hen ddihenydd: ac wedi hynny ei weithredoedd ef, y rhai oeddynt wedi eu hysgrifenu yma yn gyflawn, gyd ag enwau llawer cant a gymmerasai efe i'w wasanaeth: a'r modd y cyfleuasai efe hwynt-hwy yn y cyfryw breswylfeydd, na allai heneidd-dra eu hadfeilio. 2 Cor. v. 1. ARWAIN CRISTION I'R LLYFR-GELL, A PHA BETH A GANFU YNO.

Yna hwy a ddarllenasant iddo ef rai o'r gweithredoedd anrhydeddus a wnaethai rhai o'i weision ef: megis y modd "y goresgynasant deyrnasoedd, y gwnaethant gyfiawnder, y cawsant addewidion, y cauasant safnau llewod, y diffoddasant angerdd y tân, y diangasant rhag min y cleddyf, y nerthwyd hwy o wendid, y modd hefyd y gwnaethpwyd hwy yn gryfion mewn rhyfel, ac y gyrrasant fyddinoedd yr estroniaid i gilio." Heb. xi. 33, 34.

Wedi hynny hwy a ddarllenasant mewn rhan arall o lyfrau coffadwriaethau'r ty: a dangoswyd yno mor ewyllysgar oedd eu Harglwydd hwynt i dderbyn i'w ffafr bob un, ïe, pob un, er iddynt gynt anmharchu ei berson a'i ffyrdd ef, os troent ac os deuent yn awr atto ef. Ioan vi. 37. Yr oedd yma hefyd amryw o 'storïau am lawer o bethau enwog eraill, y rhai a gafodd Cristion eu gweled oll, sef, 'storïau hen a newydd, ynghyd

° O faint yw heddwch gwir fforddolion Sïon! Y mae pob credadyn yn meddu sail o happusrwydd yn ei brofiad o gariad Crist tu ag atto, ond y mae ei gysur yn chwanegu trwy gymdeithasu yn ysprydol â'i frodyr yn yr Arglwydd, cyd-etifeddion bywyd.

â phrophwydoliaethau ynghylch pethau a gyflawnir yn eu hamser yn ddilys, er dychryn a syndod i elynion Arglwydd y bryn, ac er cysur a diddanwch i bererinion. Drannoeth hwy a'i tywysasant ef i'r arf-dŷ, ac a ddangosasant iddo yno bob math o arfogaeth, y rhai a barottoisai eu Harglwydd hwynt i bererinion, megis cleddyf, tarian, helm, dwyfroneg, pob rhyw weddi, ac esgidiau ni heneiddiant; ac yr oedd yno ddigon o honynt i arfogi cynnifer o wŷr i wasanaeth eu Harglwydd ag sydd o sêr yn y nefoedd. Eph. vi. 14, &c.

TYWYS CRISTION I'R ARF-DY.

Hwy a ddangosasant iddo hefyd rai o'r peiriannau, â'r rhai y gwnaethai rhyw wŷr enwog ymysg ei weision ef ryfeddodau; megis gwialen Moses, y morthwyl a'r hoel â'r rhai y lladdasai Jael Sisera, y pisserau, yr udgyrn, a'r lampau â'r rhai y gyrrasai Gideon fyddinoedd y Midianiaid i ffoi, y ierthi ychen â'r hon y lladdasai Samgar chwe' chan wr, y gên asyn â'r hon y gwnaethai Samson bethau aruthrol, y ffon-dafl a'r garreg â'r rhai y lladdasai Dafydd Goliath o Gath, a'r cleddyf hefyd â'r hwn y lladd eu Harglwydd hwy fab y golledigaeth, yn y dydd y cyfodo efe i ysglyfaethu. Hwy a ddangosasant lawer o bethau rhagorol i Gristion, heblaw yr hyn a enwyd, y rhai oedd dda iawn ganddo eu gweled, ac wedi hynny hwy a aethant i'w gorphwysfa drachefn.[p]

CRISTION YN CANFOD HEN BETHAU.

Ac wedi cyfodi yn fore, mewn bwriad i fyned rhagddo, fe attolygodd y teulu arno aros hyd drannoeth: ac yna, ebe hwy, nyni a ddangoswn i chwi (os bydd y diwrnod yn eglur) y mynyddoedd hyfryd, y rhai, ebe hwy, a chwanegant at eich cysur, gan eu bod yn nes at y porthladd dymunol na'r man yr y'ch chwi ynddo yn bresennol. Fell efe a gydsyniodd, ac a arosodd. A'r boreu nesaf, hwy aethant gyd ag ef i nen y tŷ, ac a archasant iddo edrych tua'r Dehau, ac efe a wnaeth felly: ac wele canfu ymhell oddi wrtho wlad dra hyfryd, wedi ei harddu â choedydd, gwinllanoedd, a ffrwythau o bob rhyw, blodau hefyd, a ffynhonau hyfryd iawn. Esa. xxxiii. 16, 17.

DANGOS I GRISTION Y MYNYDDOEDD HYFRYD.

Yna efe a ofynodd enw'r wlad; a hwythau a'i hattebasant ef, mai Tir Emmanuel oedd ei henw hi; ac y mae hi, ebe hwy, mor gyffredin i'r holl bererinion i ddyfod iddi, ac i gael croesaw ynddi, ag ydyw'r bryn yma. A phan y delych di i'r wlad honno, ti a elli ganfod porth y ddinas nefol oddi yno, trwy gyfarwyddyd y bugeiliaid sy'n byw yn y lle hwnnw.[r]

Yna efe a ymbarottodd i gychwyn, ac yr oeddynt hwythau yn foddlon hynny; eithr yn gyntaf, ebe hwynt, awn drachefn i'r arf-dŷ; a hwy a wnaethant felly; ac a'i gwisgasant ef yno, o wadn y troed hyd y pen, âg arfau profedig, fel

CRISTION YN CYCHWYN.

[p] Mae hyn oll yn dangos y goleuni a'r diddanwch sydd yn dylifo i'r enaid, trwy chwilio yr Ysgrythyrau, a than weinidogaeth gweision Duw. Gallwn ddysgu llawer oddiwrth hanesiaeth ysgrythyrol.

[r] Yma ystyriwn y golygiadau hyfryd a chysurus a roddir i'r enaid, wrth deithio yn y blaen yn ffyrdd yr Arglwydd; sef tra fyddom yn cynnyddu mewn gras a thymmer nefolaidd.

y gallai amddiffyn ei hun, os byddai i neb ruthro arno yn y ffordd. Ac wedi ei arfogi fel hyn, [s]efe a rodiodd gyd a'i gyfeillion i'r porth, ac a ofynodd i'r Porthor, a welsai ef un pererin yn myned heibio? A'r Porthor a'i hattebodd, ef, Do.

EI ANFON YMAITH YN ARFOG.

CRISTION. Attolwg a adwaenoch chwi ef? ebe Cristion.

PORTH. Myfi a ofynais ei enw ef, ac yntef a ddywedodd wrthyf, mai Ffyddlon oedd ei enw ef.

CRISTION. O! ebe Cristion, yr wyf yn ei 'nabod ef, y mae yn gymmydog agos i mi: fe ddaeth o'r dref y'm ganwyd i ynddi. Pa belled yr ydych chwi yn tybied y gall efe fod ymlaen?

PORTH. Y mae efe erbyn hyn wedi myned islaw y bryn.

CRISTION. Wele, Borthor anwyl, ebe Cristion, yr Arglwydd a fyddo gyda thi, ac a fawr chwanego at dy holl fendithion di, am y caredigrwydd a ddangosaist i mi.[t]

CYFARCHIAD CRISTION A'R PORTHOR WRTH YMADAEL.

Yna y dechreuodd Cristion fyned rhagddo; eithr Pwyllog, Duwioldeb, Cariad, a Challineb a aethant gyd ag ef, gan ymddiddan drachefn ynghylch y matterion a ddarfu iddynt hwy chwedleua o'r blaen am danynt, nes dyfod hyd at ael y bryn. Yna, ebe Cristion, Megis yr oedd yn anhawdd esgyn i fynu, felly hefyd, hyd y gwelaf, y mae'n beryglus i ddisgyn i waered. Y mae'r peth felly, ebe Callineb; canys matter caled ydyw i ddyn fyned i wared i Ddyffryn Darostyngiad (fel yr wyt ti yn awr yn myned) ac heb gael cwymp ar y ffordd: a dyma'r achos paham yr ydym ni yn dyfod gyda thi i droed y rhiw.[u] Felly efe a ddechreuodd fyned i waered, eithr yn gynnil iawn, er hynny efe a lithrodd unwaith neu ddwy.

DYFFRYN DAROSTYNGIAD.

Yna mi a welais y cymdeithion da hynny yn rhoddi i Gristion (wedi iddo ddyfod i waered o'r byrn) dorth o fara, costrelaid o win, a swp o resin, ac wedi hyn efe a aeth i'w ffordd.

Tra mae Cristion gyda'i gyfeillion,
Gwir dduwiolion Sïon blant;
A'u haur-eneuau am eu gofidiau,
Iawn yn ddiau iddo wnant;

[s] Edrych ar Ephes. vi. lle rhoddir i ni ddesgrifiad o'r arfogaeth ysprydol.

[t] Y mae gwir Gristionogion yn parchu ac yn caru gweinidogion yr efengyl, o herwydd yr adeiladaeth a'r cysur a dderbyniant tan eu gweinidogaeth.

[u] Y mae pwyll ac arafwch yn gymdeithion hyfryd ac angenrheidiol i fod mewn cyngrair â gwir dduwioldeb, canys heb eu cwmpeini yr ydym yn dueddol i syrthio i amryw faglau. Wedi i ni gael mwynhad neillduol o freintiau a chysuron, mae yn angenrheidiol profi ein grasusau, ac yn enwedig rhaid i ni ddysgu y wers o hunan-ddarostyngiad, dan foddloni i gyfarfod â chroesau a gwrthwynebiadau ar ein taith.

A phan y gollyngont ymaith,
Ganddynt caiff arfogaeth gref,
O'i ben i'w draed â dur gogleddol
Yn dra rhagorol gwisgir ef.

Eithr yn y Dyffryn yma o Ddarostyngiad, bu'n galed iawn ar Gristion, canys nid aethai efe yn nepell ymlaen, ond wele canfu ellyll echrydus yn dyfod ar hyd y maes i'w gyfarfod, a'i enw oedd Apolyon: a gwnaeth y drych hwn i Gristion ofni, ac i feddwl ynddo ei hun, pa un oedd oreu iddo, ai dychwelyd yn ei ol, ai ynte aros yn y fan. Eithr efe a ystyriodd eilwaith, nad oedd ganddo ddim arfogaeth i'w gefn; ac o herwydd hynny meddyliodd y gallai ei waith yn troi ei gefn tu ag at Apolyon, roddi iddo fwy o achlysur i'w drywanu yn hawsach â'i biccellau; ac am hynny efe a roddes ei fryd i anturio, ac i gadw ei sefyllfa; canys, eb efe, pe bawn i heb edrych ar ddim amgen na chadw fy einioes, gwell i mi sefyll na chilio.[w]

NID YDOEDD CEFN CRISTION YN ARFOG.

Felly efe a aeth rhagddo, ac Apolyon a gyfarfu âg ef; yn awr yr oedd yr anghenfil yn ofnadwy yn ei wedd; canys yr oedd efe wedi ymwisgo â chen fel pysgodyn, y rhai yw ei falchder ef; yr oedd ganddo adenydd fel draig, a thraed fel traed arth, a thân a mwg oedd yn dyfod allan o'i fol, a'i safn oedd fel safn llew. A phan nesaodd efe at Gristion, efe a edrychodd arno âg wynebpryd dirmygus, ac a'i holodd ef fel hyn:

YR YMDDIDDAN RHWNG CRISTION AC APOLYON.

APOL. O ba le y daethoch chwi? ac i ba le yr ydych chwi yn myned?

CRISTION. Yr wyf fi yn dyfod o Ddinas Dystryw, yr hon yw trigfan pob drygioni, ac yr wyf yn myned tua dinas Sïon.

APOL. Mi a wn wrth hyn, mai un o'm deiliaid i ydwyt ti, canys myfi a biau yr holl wlad honno, ac myfi yw ei thywysog a'i duw hi. 2 Cor. iv. 4. Eph. ii. 2. Pa fodd gan hynny y rhedaist ti ymaith oddi wrth dy frenin? Oni bai fy mod i yn gobeithio y gwnei di i mi etto fwy o wasanaeth, myfi a'th darawn yn ebrwydd âg un dyrnod i'r llawr.

CRISTION. Fe'm ganwyd i yn wir o fewn eich arglwyddiaeth chwi: eithr yr oedd eich gwasanaeth chwi yn galed, a'ch cyflog yn gyfryw, na's gallai dyn fyw arno; canys cyflog pechod yw marwolaeth, Rhuf. vi. 23, ac am hynny, pan y daethum i beth oedran, myfi a ystyriais, fel y gwnaeth dynion pwyllog eraill, a allwn i wellhâu fy nghyflwr.

GWENIAITH APOLYON.

APOL. Nid oes un tywysog a gyll ei ddeiliaid cyn ysgafned a hyn: ac myfi a wnaf fy ngoreu na chollwyf finnau dithau. Eithr gan dy fod di yn achwyn ar dy wasanaeth a'th gyflog; bydd foddlon i fyned yn ol, ac yr wyf fi yn addaw yma roddi i ti ran o'r pethau goreu ag sydd yn ein gwlad ni.

[w] Yr oedd gan y Pererin y fath arfogaeth nad oedd achos iddo ofni Satan. Fe gafodd brofiad, na ddichon y gwrthwynebwr hwnnw sefyll o flaen y sawl a'i gwrthsafo yn gadarn yn y ffydd.

CRISTION. Myfi a roddais fy hunan i fod yn wasanaethwr i Frenin y brenhinoedd, a pha fodd y gallaf fi gyda gonestrwydd dorri âg ef, i ddychwelyd gyda thi?

APOL. Tydi a wnaethost yn hyn yn ol y ddihareb, Newid drwg am waeth: eithr y mae'n arferol i'r rhai sydd yn eu haddef eu hunain eu bod hwynt yn weision iddo ef, ar ol ennyd fechan, ei adael ef, a dychwelyd attaf fi! gwna dithau felly, a bydd pob peth yn dda.[x]

APOLYON YN DIFENWI GWASANAETH CRIST.

CRISTION. Myfi a roddais iddo ef fy nghred, ac a dyngais y byddwn i ufudd iddo: pha fodd y gallaf fi dynnu yn ol oddi wrth hyn, heb gael fy nghrogi fel bradwr?

APOL. Tydi a wnaethost yr un peth i minnau; ac etto ni's craffaf ar dy waith di yn gadael fy ngwasanaeth i, os dychweli yn awr yn dy ol.

CRISTION. Yr oeddwn i y pryd hynny tan fy oed; ac heblaw hynny, myfi a wn y gall y Tywysog, dan faner yr hwn yr wyf fi yn awr yn rhyfela, fy rhyddhâu i oddiwrth fy rhwymedigaethau, ïe, a maddeu i mi hefyd fy ngwaith yn ymrwymo i fod yn was i ti. Ac i ddywedyd y gwir, O tydi, Apolyon dinystriol! gwell gennyf ei wasanaeth, ei gyflog, ei weision, ei lywodraeth, ei gyfeillach, a'i wlad ef, na'r eiddot ti: ac am hynny na themtia fi mwyach i ddychwelyd i'th wasanaeth di; canys ei was ef ydwyf fi, ac mi a'i canlynaf.

APOL. Ystyria drachefn, pan fyddi'n bwyllog, O Gristion! pa beth yr wyt ti yn debyg i gyfarfod âg ef yn y ffordd yr wyt ti myned. Tydi a wyddost, fod gweision yr hwn yr wyt ti yn awr wedi ei gymmeryd yn lle'th arglwydd, gan mwyaf yn dyfod i ddiwedd drwg, am eu bod hwy yn fy ngwrthwynebu i a'm ffyrdd. Pa sawl un o honynt hwy a roddwyd i farwolaeth gywilyddus? A lle yr wyt ti yn cyfrif ei wasanaeth ef yn well na'r eiddo fi; gwybydd hyn, na ddaeth efe erioed etto o'r man y mae efe ynddo i waredu neb o'r rhai a'i gwasanaethasant ef o'm dwylaw i; eithr am danaf fi, pa sawl gwaith, fel y gŵyr y byd yn ddigon da, y gwaredais i, naill ai trwy nerth, neu ynte trwy ddichell, y rhai a'm gwasanaethasant i yn ffyddlon, oddi tan ei ddwylaw ef a'i eiddo, er iddynt eu dal hwynt yn eu rhwydau; ac felly y'th waredaf dithau os mynni.[y]

APOLYON YN DADLEU DIWEDD GALARUS CRISTIONOGION, I'R DYBEN O DROI CRISTION YN OL.

CRISTION. Ei bwrpas ef, trwy beidio yn bresennol a gwaredu rhai o'i bobl o'th garcharau a'th gadwynau di ydyw, er mwyn cael prawf, a ydynt hwy yn ei garu, ac a lynant hwy wrtho ef hyd y diwedd. Dat. ii. 10. Ac am y drwg ddihenydd yr wyt ti yn dywedyd fod rhai o honynt yn dyfod iddo, y mae hynny yn dra gogoneddus yn eu golwg hwynt; canys nid ydynt hwy yn disgwyl nemawr am warediad presennol: oblegid eu

[x] Rhy wir oedd y gair hwn, er yn dyfod o enau Satan celwyddog. Gormod ysywaeth yw nifer y cyfryw a'r sydd yn tynnu yn ol i golledigaeth, rhai trwy ddiofalwch, eraill trwy garu y byd a'i drachwantau.

[y] Dyma'r modd y mae y gelyn uffernol yn ceisio dychrynu a rhwydo pererinion. Cofiwn fod gweision Duw, ar y pryd yr ysgrifenodd Bunyan, yn dioddef pethau trymion, trwy yspryd erledigaethus yr oes honno. Y mae Cristion yn rhoddi atteb gwrol i'w wrthwynebwr ar y pen hwnnw.

bod yn aros am eu gogoniant; yr hwn a gânt hwy yn ddilys ei fwynhâu, pan ddelo eu Tywysog yn ei ogoniant gyd a'i angylion gogoneddus. Rhuf. viii. 18. Col. iii. 4.

APOL. Tydi a fuost anffyddlon eisoes yn ei wasanaeth ef, a pha fodd yr wyt ti yn meddwl cael cyflog ganddo ef?

CRISTION. Ymha beth, O Apolyon! y bum i yn anffyddlon iddo ef?

APOL. Ti a wanheaist yn dy fynediad cyntaf allan, pan yr oeddit ymron soddi yn y llyngclyn o anobaith. Ti a amcenaist trwy gau foddion, ymddilwytho oddi wrth dy faich, lle y dylasit ti aros hyd oni buasai i'th Dywysog ei gymmeryd ef ymaith. Tydi a gollaist dy dlysau mewn cwsg pechadurus. Ti a fuost hefyd o fewn ychydig i ddychwelyd yn dy wrthol wrth ganfod y llewod. A phan yr wyt ti yn crybwyll ac yn llefaru am dy daith, a'r hyn a glywaist, ac a welaist ti, y mae dy galon yn chwennychu gwag-ogoniant, yn y cwbl yr wyt ti yn ei ddywedyd ac yn ei wneuthur.

APOLYON YN DADLEU GWENDID CRISTION.

CRISTION. Y mae hyn oll yn wir, a llawer mwy nag a adroddaist ti; ond mae y Tywysog, yr hwn wyf fi yn ei wasanaethu ac yn ei anrhydeddu, yn drugarog, ac yn barod i faddeu gwendid ei bobl. Eithr cofia hyn, O gyhuddwr y brodyr! mai yn dy wlad di y dysgais i bechu; ac yno y sugnais i bob drwg i'm calon: ond o'r diwedd mi a ruddfenais dan lwyth fy mhechodau, gan fod yn ofidus o'u plegid hwynt, a'm Tywysog a faddeuodd i mi'r cwbl.

APOL. Ar hyn y llefarodd Apolyon mewn cynddaredd angerddol, gan ddywedyd, Yr wyf fi yn elyn i'r Tywysog yma; ac yr wyf fi yn casâu ei berson, ei ddeddfau, a'i bobl ef: ac myfi a ddaethum allan mewn llawn fwriad i'th wrthwynebu di.

APOLYON MEWN CYNDDAREDD YN SYRTHIO AR GRISTION.

CRISTION. Apolyon, synia pa beth a wnelych; canys yr wyf fi yn teithio ar brif-ffordd y Brenin, sef yn y ffordd o sancteiddrwydd; ac am hynny edrych attat dy hun. Esa. xxxv. 8.

APOL. Yna y croes-gammodd Apolyon tros holl led y ffordd, ac a ddywedodd, Nid oes arnaf fi ofn yn y matter yma: ymbarottoa i farw; canys mi a dyngais i'm ffau uffernol, nad ai di ddim pellach; ac mi a fynnaf weled gwaed dy galon di yn y lle hwn; a chyda hynny efe a daflodd biccell danllyd tu ag at ei ddwyfron ef: ond yr oedd gan Gristion darian yn ei law, ac efe a amddiffynodd ei hunan â honno, ac felly efe a ymgadwodd rhag niweid y pryd hynny. Eph. vi. 6.

Yna y tynnodd Cristion ei gleddyf allan, canys, yr oedd yn ei gweled yn bryd iddo edrych atto ei hun; ac Apolyon ar frys a ymosododd yn lew yn ei erbyn ef eilwaith, gan daflu piccellau cyn amled a'r cenllysg tu ag atto ef; ac â'r rhai'n, er cymmaint a allodd Cristion ei wneuthur, i ymgadw rhagddynt, fe'i clwyfwyd ef gan Apolyon, yn ei ben, yn ei law, ac yn ei droed, yr hyn a wnaeth i Gristion gefnu ychydig: ac am hynny fe gwympodd Apolyon arno yn bybyrach neu'n fwy nerthol: eithr fe gymmerodd Cristion galon drachefn, ac a'i gwrthwynebodd ef mor wrol ag y gallai

CLWYFO CRISTION YN EI DDEALL, EI FFYDD, A'I YMARWEDDIAD.

Yr ymladd tost yma a barhaodd fwy na hanner diwrnod, ïe, hyd onid oedd Cristion ymron diffygio; canys rhaid i chwi wybod ei fod ef, o achos ei glwyfau, yn myned wannach wannach.[z]

Apolyon ar hyn, wedi cael y fath fantais, a ddaeth nes-nes at Gristion; a chan ymdrech âg ef, a'i taflodd i lawr mewn modd echrydus, a chyda hynny syrthiodd cleddyf Cristion allan o'i law. Yna, ebe Apolyon, yr ydwyf yn sicr o honot ti yn awr; a chan gwympo arno, efe a'i llethodd ef o fewn ychydig i farwolaeth, hyd oni ddechreuodd Cristion betruso am ei fywyd. Eithr fel yr oedd Duw yn mynnu, tra yr oedd Apolyon ar roddi ei ddyrnod diweddaf i'w ladd ef, estynodd Cristion ei law allan yn egniol, ac a ymaflodd yn ei gleddyf, ac a ddywedodd, "Na lawenycha i'm herbyn, O fy ngelyn! pan syrthiwyf mi a godaf drachefn." Mic. vii. 8. A chyda hynny efe a roddes frath angeuol i Apolyon, yr hwn a wnaeth iddo gefnu, megis un wedi derbyn ei glwyf marwol. Cristion wrth weled hynny a fwriodd arno ef drachefn, gan ddywedyd, "Nage, yn y pethau hyn oll yr ydym ni yn fwy na chongcwerwyr, trwy yr hwn a'n carodd ni;" ac ar hynny Apolyon fel draig a daenodd ei adenydd ar led, ac a frysiodd ymaith, fel na welodd Cristion ef mwyach. Rhuf. viii. 37. Iago iv. 7.[a]

APOLYON YN TAFLU CRISTION I LAWR.

BUDDUGOLIAETH CRISTION AR APOLYON.

Yn yr ymdrech hwn, ni ddichon calon dyn feddwl (oni buasai iddo weled a chlywed fel y gwnaethum i) mor ofnadwy yr oedd Apolyon, trwy gydol amser yr ymdrech, yn bloeddio ac yn rhuo, gan lefaru fel draig; ac o'r tu arall, pa ocheneidiau a gruddfanau oedd yn dyfod allan o galon Cristion: ni welais i ef, trwy gydol yr amser, yn edrych gymmaint ag unwaith yn siriol, hyd oni wybu iddo glwyfo Apolyon â'i gleddyf daufiniog. Eph. vi. 17. Heb. iv. 12. Ond wedi dirnad hynny, efe a wenodd, ac a chwarddodd.

DARLUNIAD BYR O'R FRWYDR GAN YR EDRYCHYDD.

Ac wedi gorphen yr ymdrech hwn, efe a ddywedodd, Myfi a ddiolchaf yn y lle yma i'r hwn a'm gwaredodd i o safn y llew, ac a'm nerthodd i yn erbyn Apolyon: ac ar hynny efe a ganodd fel hyn:

CRISTION YN DIOLCH I DDUW AM EI WAREDIGAETH.

Belzebub, pen-tywysog hyll,
Yr anfad ellyll yma,
(Am ei fod ar feddwl-fryd,
Digyngyd i'm difetha)
A'i gyrrai i maes mewn llurig gref,
Yntef yn gynddeirioccaf,

[z] Anhawdd iawn i'r Cristion, ar bob amser, ddiangc yn lân heb ei glwyfo mewn unrhyw le gan y gelyn; naill ai yn ei ben, sef ei ddeall; neu yn ei law, hynny yw, ei ffydd; neu ynte yn ei droed, sef ei ymarweddiad. Yr oedd yr Awdwr wedi myned trwy lawer ymdrech gyfyng, ac wedi cael llawer buddugoliaeth.

[a] Y mae yr holl ddarluniad hwn wedi ei dynnu yn dra medrus, gan hen ymladdwr yn y rhyfel ysprydol. Gwelwn, er y dichon y Cristion ar droiau ddigaloni, a myned yn isel; etto pan fo ffydd yn adfywio, ac yntau trwy hyfforddiad y gair, a chymhorth yr Yspryd, yn ymwroli, mae'r gelyn yn rhwym i golli'r maes.

Mewn tanllyd ac uffernol fodd,
A chwimmwth ruthrodd arnaf;
Ond Michael, fendigedig borth,
A ddaeth i'm cynnorthwyo;
Ac mi a'i gyrrais (gwych yw'r wedd)
A min y cledd i gilio,
Am hynny bid i mi roi mawl,
A diolch bythawl iddo,
A bendithio â llafar lef
Ei enw ef heb beidio.

Wedi hynny daeth atto ef law, gan ddwyn iddo rai o ddail pren y bywyd; a Christion a'u cymmerodd, ac a'u rhoddodd wrth y clwyfau a gawsai efe yn yr ymladdfa; ac efe a iachawyd yn ebrwydd. Dat. xii. 2. Ac efe a eisteddodd yno hefyd i fwytta bara, ac i yfed o'r gostrel, a roddasid iddo ychydig o'r blaen: felly wedi ymadfywio, efe a ymdaclodd i fyned ymlaen, gan ddwyn ei gleddyf noeth yn ei law; Canys, eb efe, ni wn i nad oes rhyw elyn arall ger llaw; eithr ni ruthrodd Apolyon mwyach arno trwy'r holl ddyffryn.

CRISTION YN MYNED RHAGDDO A'I GLEDDYF NOETH YN EI LAW.

Yn awr, ynghwr y dyffryn hwn yr oedd dyffryn arall a elwid Dyffryn Cysgod Angau, ac yr oedd yn rhaid i Gristion fyned trwyddo, am fod y ffordd i'r ddinas nefol yn myned trwy ei ganol ef. Eithr lle anghyfannedd iawn ydyw'r lle hwn, megis yr anialwch yr aeth yr Israeliaid gynt trwyddo. Jer. ii. 6. Yn awr hi a fu gwaeth ar Gristion yn y dyffryn yma, nag yn ei ymdrech âg Apolyon.[b]

DYFFRYN CYSGOD ANGAU.

Yna mi a welwn, wedi i Gristion ddyfod i gyffiniau Dyffryn Cysgod Angau, ddau wr yn cyfarfod âg ef, meibion i'r rhai a roisant anglod gynt am wlad Canaan, yn brysio i fyned yn ol, Num. xiii. 32, wrth y rhai y llefarodd Cristion fel hyn.

PLANT YR YSBIWYR YN TROI YN OL.

CRISTION. I ba le yr ydych chwi yn myned?

GWYR. Hwythau attebasant, Yn ol, yn ol; ac nyni a fynnem i chwithau hefyd wneuthur felly, os yw eich einioes neu'ch heddwch yn werthfawr gennych.

CRISTION. Pa beth yw'r matter? ebe Cristion.

GWYR. Matter, ebe hwy; yr oeddym ni yn myned fel yr ydych chwithau, ar hyd y ffordd yma, ac ni a aethom mor belled ag y meiddiem: ac yn wir, pe buasem yn myned ychydig ymhellach, ni allasem ni byth ddyfod yn ol, ac ni chlywsit ti byth y newyddion yma allan o'n geneuau ni.

CRISTION. Eithr pa beth a welsoch ac a glywsoch chwi? ebe Cristion.

[b] Wrth Ddyffryn Cysgod Angau, deallwn y profedigaethau blinion yn yr yspryd, sydd yn dyfod i gyfarfod â rhai pererinion mewn modd neillduol ar eu taith, nes y byddont yn barod i lwyr ddiffygio, neu mewn eithaf perygl i ymwadu â'u proffes.

GWYR. Nyni a welsom Ddyffryn Cysgod Angau; canys ni a ddaethom o fewn ychydig iddo, ac i'r enbydrwydd sydd ynddo: eithr trwy ddamwain dda, nyni a edrychasom o'n blaen, ac a ganfuom y perygl cyn dyfod iddo. Sal. xxiii. 4. a cvii. 18. Y mae'r dyffryn cyn dywylled a'r pyg: nyni a welsom yno ellyllon a dreigiau y pwll uffernol; ac a glywsom udo a chwynfan dibaid yn dyfod o'r dyffryn hwnnw, megis oddiwrth ddynion yn gorwedd yn rhwym yno, mewn heiyrn a thrueni annhraethadwy. Ac y mae cymmylau tew iawn, y rhai a allant daro dychryn mewn pobl, yn crogi uwch ben y dyffryn yma, ac y mae angau hefyd yn lledu ei adenydd drosto ef yn wastadol: ac i fod yn fyr, y mae pob mymryn o hono i'w arswydo, gan ei fod yn gwbl wrthun a hagr.

CRISTION. Er hyn oll, ebe Cristion, dyma fy ffordd i tu a'r porthladd dymunol.

GWYR. Bydded yn ffordd i tydi, ni's dewiswn ni hi yn ffordd i nyni: felly hwy a ymadawsant, a Christion a aeth rhagddo, ond yn wastadol a'i gleddyf noeth yn ei law, rhag ofn i neb ruthro arno.

Wedi hynny mi a welais yn fy mreuddwyd, fod ffos ddofn iawn ar yr holl ystlys ddehau i'r dyffryn hwn: ac i'r ffos hon y bu'r dall yn tywys y dall ymhob oes, ac ynddi hi y darfu am danynt mewn modd echrydus. Mat. xiv. 15. A thrachefn, wele ar y tu aswy yr oedd cors beryglus iawn, ïe, i'r hon os syrthiai gwr da, ni chai un gwaelod caled ynddi i'w draed sefyll arno: i'r gors honno y syrthiodd y brenin Dafydd unwaith; ac yn ddiammau darfuasai am dano ef yno, oni buasai i'r hwn sydd alluog ei dynnu ef i'r lan. Sal. lxix. 2, 14.

Yr oedd y llwybr hefyd yn y dyffryn hwn yn gyfyng iawn, ac am hynny bu yn galed ar Gristion yn y lle yma; oblegid pan y ceisiai efe yn y tywyllwch ochelyd y ffos ar y naill law, byddai yn barod i syrthio i'r llaid ar y llaw arall: a phan y ceisiai efe hefyd ymgadw rhag y llaid, oni byddai yn dra gofalus, fe fyddai yn barod iawn i syrthio i'r ffos. Ac fel hyn yr oedd yn myned rhagddo; ac mi a'i clywais ef yma yn ocheneidio yn dost: canys heblaw y perygl a grybwyllwyd am dano uchod, yr oedd y llwybr mor dywyll, fel na wyddai yn fynych, pan y codai ei droed i fyned ymlaen, yn mha le, nac ar ba beth y gosodai ef nesaf.

Heblaw hyn, yr oedd safn uffern ynghanol y dyffryn hwn, ac yr oedd hi hefyd yn agos iawn at fin y ffordd; a phan y gwybu Cristion hynny, efe a ddywedodd, Pa beth a wnaf fi yn awr? ac yr oedd y fflam a'r mwg, a'r gwreichion, ynghyd a lleisiau irad ac erchyll yn dyfod allan yn ddibaid ac yn aml iawn oddi yno. Ac o blegid nad allai Cristion â'i gleddyf wneuthur niweid i'r pethau hyn, fel y gwnaeth o'r blaen i Apolyon, efe a'i dododd yn ei wain, ac a gymmerodd arf arall yn ei law, a elwid Pob rhyw Weddi. Eph. vi. 8. Ac mi a'i clywn ef yn gweddïo, Attolwg, Arglwydd, gwared fy enaid. Sal. cxvi. 4. Ac er myned o hono rhagddo fel hyn, dros gryn ennyd, etto yr oedd y fflam yn ymgyrchu tu ag atto ef yn wastadol; ac efe a glywai hefyd leisiau cwynfanus, a thrwst mawr yma a thraw, megis pe buasai rhai yn nesâu tu ag atto, a hynny dros amryw

filltiroedd; a'r olwg echrydus, a'r lleisiau ofnadwy yma a wnaeth iddo ofni y cai ei larpio yn ddrylliau, neu ei sathru fel dom yn yr heolydd. Ac wedi dyfod i fan, lle y tebygasai ei fod yn clywed bagad o ellyllon yn dyfod ymlaen i'w gyfarfod, efe a safodd, ac a ddechreuodd feddwl pa beth oedd oreu iddo wneuthur. Weithiau yr oedd yn ei fryd ef droi yn ol; wedi hynny efe a ystyriodd, ei fod wedi dyfod ynghylch hanner y ffordd trwy'r dyffryn; ac yn ddiweddaf, efe a feddyliodd ddarfod iddo eisoes orchfygu llawer o beryglon, ac y gallai yr enbydrwydd o fyned yn ol fod yn fwy o lawer nag o fyned ymlaen; ac ar hynny efe a ymrodd i fyned rhagddo. Eithr yr oedd yr ysprydion drwg yn dyfod nes-nes, a phan y daethant o fewn ychydig o ffordd atto, efe a waeddodd â llef uchel iawn, gan ddywedyd, Myfi a rodiaf yn nerth yr Arglwydd Dduw; a chyda hynny hwy a droisant eu cefnau, ac ni ddaethant ymhellach.

CRISTION YN SEFYLL DROS ENNYD.

Fe ddigwyddodd un peth i Gristion, nad allaf adael heibio heb ei adrodd. Mi a ddeliais sylw, ei fod ef, druan gwr, trwy y gorthrymderau hyn, megis un yn agos a gwall-gofi, oblegid nid adwaenai ei leferydd ei hun; ac fel hyn y gwybum i hynny; pan gyntaf y daeth drosodd gyferbyn a safn y llyn, y sydd yn llosgi â thân a brwmstan, daeth un o'r ysprydion drwg y tu cefn iddo, ac a nesaodd atto yn araf, ac a wthiodd lawer o gableddau blin i'w enaid ef, y rhai a debygasai Cristion, mai allan o'i galon ei hun yr oeddynt hwy yn dyfod. A gwasgodd hyn arno yn fwy na dim arall a'r a ddigwyddodd iddo o'r blaen, sef meddwl iddo yn awr gablu yr hwn oedd efe yn ei fawr garu yn yr amser gynt; etto yr oedd efe yn ystyried, pe gallasai beidio, ni wnaethai efe hynny; ond nid oedd ganddo ef y doethineb yn awr, nac i gau ei glustiau, nac i ddirnad o ba le yr oedd y cableddau hynny yn deilliaw.[c]

CRISTION YN OFNI IDDO LEFARU CABLEDDAU PAN MAI SATAN A'U GWTHIODD I'W FEDDWL.

Wedi i Gristion ymdeithio dros ennyd yn y cyflwr anghysurus hwn, efe a glywodd leferydd rhyw wr, yr hwn oedd yn myned o'i flaen ef, yn dywedyd fel hyn, "Pe rhodiwn ar hyd glyn cysgod angau, nid ofnaf niweid, canys yr wyt ti gyda mi." Sal. xxiii. 4. Yna efe a gymmerodd galon a chysur; a hynny oherwydd y rhesymau a ganlynant.

Yn gyntaf, Am ei fod ef yn casglu oddiwrth hynny, fod rhai ag oeddynt yn ofni Duw yn ymdeithio yn y dyffryn hwn yn gystal ag ef ei hun.

Yn ail, Am ei fod yn deall fod Duw gyda hwynt, (er eu bod hwy mewn tywyllwch a chyflwr anghysurus tros yr amser presennol;) ac onid yw efe gyda minnau, ebe Cristion, er nad wyf fi yn ei weled ef, o achos y rhwystrau sydd ynglyn wrth y lle yma?

Yn drydydd, Am ei fod yn gobeithio (os gallai efe eu gorddiwes hwy) y cai ef

[c] Mae rhai yn cymmeryd eu digaloni yn ddirfawr, oherwydd y meddyliau cableddus, sydd yn dyfod oddiwrth Satan i'w temtio. Trwy weddïo, a throi ein meddyliau at bethau daionus, ni gawn oruchafiaeth ar y cyfryw ddichellion. Mae rhai trwy ormod pendrymu, a meithrin rhyw resymiadau ynghylch pethau tu hwnt eu cyrhaedd, yn darostwng eu hunain i demtasiynau. Bod yn iselfryd, yn syml, ac yn ostyngedig, sydd yn weddus i ni, a'r ffordd oreu i ymgadw rhag meddyliau blin. Cofiwn er ein cysur, os digwydd i ryw ddychymyg cableddus daro ar y meddwl, a ninnau yn ei ffieiddio yn lle ei goleddu, ni chyfrifir gan Dduw fel yr eiddom ni.



Cristion yn myned heibio i Ogof y Pab a Phagan

gyfeillion ymhen ennyd. Felly efe a aeth rhagddo, ac a alwodd ar yr hwn oedd yn myned o'i flaen; ond ni wyddai hwnnw pa beth a attebai, am ei fod yntef hefyd yn tybied ei fod wrtho ei hun. A gwawriodd y dydd ymhen ychydig wedi hyn; yna y dywedodd Cristion, "Duw a drodd gysgod angau yn foreu ddydd." Amos v. 8.

CRISTION YN LLAWEN AM DORI'R WAWR.

A phan ddaeth y boreu efe a edrychodd yn ei ol; eithr nid o chwant dychwelyd, ond i weled wrth liw dydd y peryglon yr aethai efe trwyddynt yn y tywyllwch: ac wele efe a ganfu yn eglurach y ffos oedd ar y naill law, a'r gors oedd ar y llaw arall; ac hefyd gyfynged oedd y ffordd sydd yn arwain rhyngddynt hwy trwy'r dyffryn: efe a welodd hefyd yn awr yr ysprydion drwg, a dreigiau y pwll diwaelod, eithr oll o hirbell; canys ni ddeuent hwy yn agos wedi i'r dydd wawrio; etto hwy a amlygwyd iddo ef, yn ol yr hyn a 'sgrifenwyd, "Duw sy'n datguddio pethau dyfnion allan o dywyllwch, ac yn dwyn cysgod angau allan i oleuni." Job xii. 22.[d]

Yn awr, yr oedd yn hoff gan Gristion gael o hono ei waredu oddi wrth holl beryglon ei ffordd anial; y peryglon hyn, er ei fod yn eu hofni'n fwy o'r blaen, etto yr oedd efe yn eu gweled hwy yn eglurach yn awr, am fod goleuni y dydd yn eu gwneuthur hwy yn amlwg iddo. Ac ynghylch y pryd hyn y codasai yr haul; ac yr oedd hynny yn drugaredd arall i Gristion: canys rhaid i chwi wybod, mai er bod y rhan gyntaf o Ddyffryn Cysgod Angau yn enbyd; etto yr oedd yr ail ran, i'r hon yr oedd efe yn myned yn awr (pe b'ai bosibl) yn fwy peryglus o lawer; canys o'r man yr oedd efe yn sefyll arno yr awr hon, hyd at gwr eithaf y dyffryn, yr oedd yr holl ffordd cyn llawned (mewn rhyw leoedd) o faglau, o gynllwynion i dwyllo, ac o rwydau, ac (mewn lleoedd eraill) cyn llawned o byllau a thyllau dyfnion, ac o fannau yn pwyso tu ag i waered, fel ped fuasai yn dywyll yn awr, megis yr oedd pan daeth y rhan gyntaf o'r ffordd, a chanddo fil o eneidiau (yngolwg rheswm) fe'u collasai hwynt bob un. Ond yr oedd yr haul (megis y dywedais i) yn awr yn codi; yna y dywedodd Cristion, Duw a wnaeth i'w oleuni lewyrchu ar fy mhen, wrth oleuni yr hwn yr aethum trwy dywyllwch. Job xxix. 3. Ac wrth y goleuni hwn y daeth efe i gwrr eithaf y dyffryn.

YR AIL RAN O'R DYFFRYN YN FWY PERYGLUS.

Wedi hynny mi a welais yn fy mreuddwyd, ac wele yn y man eithaf o'r dyffryn yma, yr oedd gwaed, esgyrn, lludw, ac aelodau cyrph rhyw ddynion, ïe, pererinion (y rhai a aethant y ffordd yma gynt) yn gorwedd ar wyneb y ddaear; a thra yr oeddwm i yn meddwl pa beth a allai fod yr achos o hyn, myfi a ganfum ogof, ychydig o'm blaen, lle y buasai dau gawr yn trigo yn yr hen amser, trwy awdurdod a chreulondeb y rhai y rhoddwyd y dynion hynny i farwolaeth boenfawr. Eithr Cristion a aeth heibio i'r lle hwn heb fawr o berygl, yr hyn a fu yn lled ryfedd gennyf fi: eithr myfi a wybum wedi hynny, fod un o'r cawri, sef y Pagan, wedi marw er ys talm: ac am y llall, sef Pabyddiaeth, er

[d] Wedi i ni gael ein dwyn yn ddiangol trwy luaws o brofedigaethau cryfion, mor hyfryd yw myfyrio ar ein hymwared, a ninnau wedi ein llyngcu i fynu gan syndod a diolchgarwch.

ei fod ef etto yn fyw, y mae efe er hynny, o achos ei henaint, a'r amryw friwiau diriaid a gafodd efe o bryd i bryd, mor glynhercyn, ac mor anystwyth yn ei gymmalau, fel na ddichon wneuthur nemawr gyd ag eistedd yngenau ei ogof, gan chwyrnu ar y pererinion a fyddo yn myned heibio, a chnoi ei ewinedd, am nad yw efe yn gallu dyfod attynt hwy 2 Thes. ii. 3.[e]

Yna mi a welwn Gristion yn myned ar hyd ei ffordd; etto wrth ganfod yr hen wr oedd yn eistedd yngenau yr ogof, ni wyddai pa beth i dybied, yn enwedig am ei fod yn llefaru wrtho (er na allai ddyfod ar ei ol ef) gan ddywedyd, 'Ni pheidiwch chwi byth, ac ni wellhewch chwi, hyd oni losgir rhagor o honoch:' eithr efe a dawodd a son, ac a edrychodd arno ef âg wynebpryd gwrol; ac felly efe a aeth heibio, ac ni chafodd ddim niweid oddi wrtho. Yna y canodd Cristion fel hyn:

Ni allaf ddywedyd llai o'm genau,
Na chryn fyd o ryfeddodau
Oedd fy achub, a'm gwaredu,
Trwy'r gofidiau a'm cyfarfu.
Tra fum yn y dyffryn yma,
Trwch dywyllwch o'r enbeitta,
Diawliaid, uffern, pechod gwrthun,
A'm cylchynent bob munudyn,
Pyllau, rhwydau, a chroglathau,
Oedd yn llawn bob tu i'm llwybrau,
Ys truan mulaidd! fe allasid
Dal a maglu fy enaid hefyd.
O! bendigaid byth heb derfyn,
A fo'r llaw a'm cadwodd rhagddyn',
A chan fy mod yn fyw yr awr'on,
Boed i'r Iesu wisgo'r goron.

Ac fel yr oedd Cristion yn myned rhagddo, efe a ddaeth i esgynfa fechan, yr hon a godasid i'r diben hyn, fel y gallai pererinion ganfod o'r blaen; ac wedi dyfod i fynu yno, ac edrych rhagddo, efe a ganfu Ffyddlon o'i flaen ar ei daith. Yna Cristion a waeddodd â llef uchel, 'Hai, Hai, Hai-how, aroswch ac mi a fyddaf gydymaith â chwi.' Ar hynny Ffyddlon a edrychodd yn ei ol, a gwaeddodd Cristion arno ef drachefn, gan ddywedyd, 'Aroswch, aroswch, hyd oni ddelwyf i fynu attoch:' ond Ffyddlon a ddywedodd, 'Na wnaf, yr wyf fi yn rhedeg am fy mywyd, ac y mae dialydd y gwaed yn fy nilyn.' A Christion a gyffrowyd ychydig ar hyn; a chan ymegnio â'i holl

CRISTION YN CANFOD FFYDDLON.

[e] Nid oes gennym, yn y dyddiau hyn, i ymdrechu nac â Phaganiaeth na Phabyddiaeth, er fod gormod o goel-grefydd yn cae lle yn ysprydoedd rhai dynion. Diolchwn am y fath ddyddiau dedwydd o ryddid a goleuni.

nerth, efe a oddiweddodd Ffyddlon yn ebrwydd, ac a redodd hefyd yn gynt nag ef, felly yr olaf a fu flaenaf. Yna y chwarddodd Cristion yn wag-ogoneddgar, oblegid iddo gael y blaen ar ei frawd; eithr heb wylio yn dda ar ei draed, efe a dramgwyddodd yn ddisymmwth ac a syrthiodd, ac ni's gallai gyfodi drachefn, hyd oni ddaeth Ffyddlon i fynu i'w gynnorthwyo ef.[f]

Yna mi a'u gwelwn hwy yn myned ynghyd yn garedig iawn, gan ymddiddan yn hyfryd â'u gilydd am yr holl bethau a ddigwyddasai iddynt yn eu pererindod: a Christion a ddechreuodd fel hyn.

CWYMP CRISTION YN PERI I FFYDDLON AC YNTAU FYNED YN MLAEN YN GARIADLON.

CRISTION. Fy anwyl frawd Ffyddlon, y mae'n llawen gennyf i mi'ch goddiweddyd chwi, a bod Duw wedi cyd-dymheru ein hysprydoedd ni yn y fath fodd, fel y gallom rodio ynghyd megis cymdeithion yn y llwybr yma yr hwn sydd mor hyfryd.[g]

FFYDDLON. Gyfaill anwyl, myfi a obeithiais gael eich cymdeithas chwi o'n tref ni o hyd; eithr chwychwi a gawsoch y blaen arnaf fi; ac am hynny gorfu i mi ddyfod hyd yma wrthyf fy hunan.

CRISTION. Pa hyd yr arosasoch chwi yn Ninas Dystryw, cyn i chwi ddyfod allan ar fy ol i ar eich pererindod?

FFYDD. Hyd nad allwn i aros dim yn hwy, canys yr oedd yno son mawr yn y man, wedi i chwi ymadael â ni, y byddai i'n dinas ni ar fyrder gael ei llosgi â thân o'r nefoedd hyd y llawr.

EU HYMDDIDDAN AM Y WLAD A ADAWSENT.

CRISTION. A oedd eich cymmydogion chwi yn siarad felly? Ac a ddaeth neb o honynt hwy allan o'r ddinas ond chwy-chwi, i ddiangc rhag y perygl yma?

FFYDD. Er fod yno, ac oddi amgylch mewn lleoedd eraill, son mawr y difethid ein dinas ni â thân a brwmstan oddi uchod; etto nid wyf fi yn tybied bod ein dinasyddion ni yn coelio hynny yn ddiymmod; canys myfi a glywais rai o honynt, (pan yr oeddit yn siarad fwyaf am y matter hwn) yn dywedyd yn watwarus am danoch chwi a'ch taith ryfygus, (canys felly y galwasant hwy eich pererindod chwi); eithr yr oeddwn i, ac yr wyf fi fyth yn credu, mai felly y difethir ein dinas ni; ac am hynny myfi a ddiangais allan o honi.

CRISTION. A glywsoch chwi ddim son am fy nghymmydog Meddal? Ac os do, pa fodd yr oedd pobl yn ymddwyn eu hunain tu ag atto ef?

FFYDD. Myfi a glywais iddo eich canlyn chwi hyd oni ddaeth i Gors Anobaith, yn yr hon y syrthiodd efe, (meddai rhai,) ond ni fynnai ef i neb wybod hynny; ond mi a wn ei fod wedi ei ddiwyno yn ddirfawr â dom y gors honno. Ac wedi iddo ddychwelyd yn ol, y mae pob math o bobl yn ei watwor ac yn ei ddirmygu

PA GYFRIF A WNAED O MEDDAL PAN DRODD YN OL.

[f] Mor anweddaidd yw balchder ac hunan-ymffrost, ac mor beryglus hefyd!

[g] Mae y Pererin yn llawen, wrth orddiwes cydymaith cywir i gyd-deithio âg ef yn ffordd y bywyd. Er fod gennym deimladau o gariad a pharch at yr holl gorph o Gristionogion, etto y mae yn hyfryd gan y Pererin gyfarfod âg un cyfaill mynwesol.

ef: a phrin y gesyd neb ef wrth orchwyl, ac y mae yn awr yn seithwaith gwaeth nag y bu erioed o'r blaen.

CRISTION. Eithr paham y maent hwy wedi ymosod yn ei erbyn ef felly, gan eu bod hwythau hefyd yn dibrisio'r ffordd y trodd efe oddi arni?

FFYDD. Ow! meddant hwy, Crogwch ef, crogwch ef, y dihiryn gwammal; ni bu ef gywir i'w broffes: ïe, yr wy'n tybied fod gelynion Duw wedi eu gosod ar waith i'w ddwrdio, ac i'w wneuthur yn ddihareb, am iddo gilio allan o'i ffordd, a dychwelyd yn ol i Ddinas Dystryw. Jer. xxix. 18, 19.

CRISTION. A fu dim ymddiddan rhyngoch chwi âg ef cyn eich dyfod oddi cartref?

FFYDD. Myfi a gyfarfum âg ef unwaith yn yr heol, eithr efe a giliodd ymaith i'r ochr draw, fel un a chywilydd arno am yr hyn a wnaethai, felly nid ynganais i air wrtho.

CRISTION. Pan y dechreuais i fy nhaith, yr oeddwn yn gobeithio yn dda am y gwr hwnnw; ond yn awr yr wyf yn ofni y derfydd am dano yn nistryw y ddinas; canys

Y CI A'R HWCH.

digwyddodd iddo yn ol y wir ddihareb, "Y cî a ddychwelodd at ei chwydiad ei hun, a'r hwch wedi ei golchi i'w hymdreiglfa yn y dom." 2 Pedr ii. 20. Yr wyf finnau yn ofni hynny, ebe Ffyddlon, eithr pwy a all rwystro yr hyn a fydd. Eithr, gymmydog Ffyddlon, ebe Cristion, gan adael Meddal, siaradwn am y pethau a berthyn i ni ein hunain yn fwy digyfrwng. Mynegwch i mi gan hynny, pa bethau a ddigwyddasant i chwi ar y ffordd wrth ddyfod; canys myfi a wn i chwi gyfarfod â rhyw ddrygau; os amgen, gellir ysgrifenu hynny yn lle rhyfeddod.

FFYDD. Myfi a ymgedwais rhag y gors, i'r hon y syrthiasoch chwi iddi, ac a

YMOSODIAD TRYTHYLL AR FFYDDLON.

ddaethum i fynu i'r porth, heb gael prawf o'r perygl hwnnw:[h] eithr mi a gyfarfum âg un a elwid Trythyll, yr hon a fu debyg i wneuthur i mi niweid.

CRISTION. Da fu i chwi ddiangc rhag ei rhwyd hi: y fath un a honno a fu galed iawn i Joseph, ond yntef a ddiangodd rhagddi, er y bu agos iddo ef a cholli ei fywyd o'i phlegid. Gen. xxxix. 11—13. Ond beth a wnaeth hi i chwi?

FFYDD. Chwi a ryfeddwch (oni ba'i eich bod yn gwybod rhyw beth) pa fath dafod gwenieithus oedd gan y faiden: hi a fu'n galed wrthyf am wyro gyda hi, gan addaw i mi bob math o foddlonrwydd cnawdol, ond nid y boddlonrwydd sy'n tarddu allan o gydwybod dda.

CRISTION. Diolchwch i Dduw a'ch cadwodd chwi rhagddi. "Y neb y byddo'r Arglwydd yn ddig wrtho, a syrth yn y ffos honno." Diar. xxii. 14.

FFYDD. Nage, ni wn i pa un a wnaethum ai diangc yn gwbl oddi wrthi ai peidio.

[h] Nid yw pob un wrth ddyfod at Grist, yn dioddef yr un trymder, nac yn myned dan yr un baich o brofedigaeth. Ni a welwn fod y pererin hwn yn fwy parod i gwympo dan brofedigaeth arall, yn hytrach nac i anobaith. Mae amryw fath o demtasiynau yn ffordd y Cristion.

CRISTION. Ow! yr wy'n gobeithio na roddasoch le i'w themtâsiynau hi!

FFYDD. Naddo, i halogi fy hun yn gorphorol gyda hi, canys yr oeddwn yn cofio hen ysgrifen a welswn i, yr hon oedd yn dywedyd, "Ei thraed hi a ddisgynant i angau, a'i cherddediad a sang uffern." Diar. v. 5. Am hynny mi a gauais fy llygaid, rhag ofn cael fy llygad-dynnu gan ei golygon hi. Job xxxi. 2. Yna hi a'm difenwodd i, a minnau a aethum i'm ffordd.

CRISTION. A gyfarfuoch chwi âg un brofedigaeth arall wrth ddyfod tu ag yma?

FFYDD. Wedi i mi ddyfod i odrau y bryn a elwid Anhawsdra, myfi a gyfarfum â gwr oedranus iawn, yr hwn a ofynodd i mi, Pwy oeddwn i, ac i ba le yr oeddwn yn myned? A minnau a'i hattebais ef, Mai pererin oeddwn i, yn myned tua'r ddinas nefol: yna ebe'r hen wr, Yr wyt ti'n edrych fel dyn gonest; a fyddi di foddlon i aros gyda mi; os gwnei di felly, mi a roddaf i ti gyflog. Yna mi a ofynais iddo ei enw, a pha le yr oedd yn trigo. Yntef a'm hattebodd, mai ei enw ef oedd ADDA Y CYNTAF, a'i fod ef yn preswylio yn y dref a elwir Twyll. Eph. iv. 22. Jer. xvii. 9. Wedi hynny mi a ofynais iddo, Pa beth oedd ei waith ef, a pha gyflog a roddai efe? Yntef a'm hattebodd i, mai dilyn pleserau oedd ei waith ef, ac yn lle cyflog y cawn i fod yn etifedd iddo yn y diwedd. Mi a ofynais iddo ymhellach, Pa fath dŷ yr oedd efe yn ei gadw, a pha weision eraill oedd ganddo ef? Ac efe a'm hattebodd i, Fod yn ei dŷ ef holl ddanteithion y byd hwn, ac mai rhai a genhedlasai ef ei hun oedd ei weision ef. Yna mi a ofynais, Pa sawl un o blant oedd ganddo? A dywedodd yntef wrthyf, Nad oedd ganddo ond tair o ferched, sef, Chwant y cnawd, Chwant y llygad, a Balchder y bywyd, ac y cawn i briodi un o honynt os mynnwn. 1 Ioan ii. 16. Yna mi a ofynais iddo, Pa hyd y mynnai efe i mi fyw gyd ag ef? Ac fe'm hattebodd i, Cyhyd o amser ag y byddai byw ei hun.

YMOSOD ARNO GAN ADDA Y CYNTAF.

Wedi clywed hyn, yr oeddwn i ar y cyntaf yn gogwyddo peth i fyned gyda'r hen wr, canys yr oedd efe yn dywedyd yn deg iawn; ond wrth edrych yn ei dalcen ef, gwelwn yno yn 'sgrifenedig, "Dod heibio yr hen ddyn a'i weithredoedd." Eph. iv. 22. Rhuf. xiii. 12.

Yna yr oedd hyn yn rhedeg yn fy meddwl, er tecced oedd ei eiriau ef, y gwerthai ef myfi yn lle caeth-was, os awn i'w dŷ ef i gyfanneddu: ac am hynny mi a erchais iddo dewi a son, oblegid na ddeuwn i yn agos at ddrws ei dŷ ef. Ar hynny fe'm difenwodd i, ac a ddywedodd wrthyf, y danfonai efe y cyfryw un ar fy ol, ag a wnai fy ffordd yn chwerw i'm henaid. Yna mi a droais i ymadael âg ef; eithr pan gyntaf ag yr ymdroais i fyned oddi yno, mi a'i clywn ef yn ymaflyd ynof, ac yn rhoddi i mi y fath dynfa greulon, mewn amcan i'm tynnu yn ol, hyd oni thybiais iddo gippio ymaith ran o'm cnawd i: a gwnaeth hyn i mi waeddi allan, "Ys truan o ddyn wyf fi!" Ac ar ol hynny aethum ar hyd fy ffordd tua phen y bryn; ac wedi i mi fyned ynghylch hanner y ffordd i fynu, mi a edrychais drach fy nghefn, ac a welwn un yn dyfod ar fy ol, yn chwimmwth fel y

gwŷnt; ac fe'm goddiweddodd yn gymmwys ynghylch y man lle yr oedd llwyn wedi ei blannu: a chyn gynted ag y darfu iddo fy ngorddiwes i, nid oedd ei driniaeth â myfi ond gair a dyrnod; canys fe'm curodd i lawr, ac a'm gosododd i orwedd ar y ddaear fel dyn marw: ond pan ddaethum ychydig attaf fy hun drachefn, gofynais iddo paham y gwnaethai ef felly â mi? Yntef a ddywedodd, O achos fy ngogwyddiad dirgel i at yr Adda Cyntaf; a chyda hynny efe a roddodd i mi ddyrnod angeuol arall ar fy nwyfron, ac a'm bwriodd i lawr ar fy nghefn: felly mi a orweddais i lawr wrth ei draed fel dyn marw megis o'r blaen: a phan adfywiais i eilwaith, mi a lefais arno am drugaredd: eithr efe a'm hattebodd, na's medrai efe ddangos trugaredd, ac ar hynny efe a'm curodd i lawr drachefn: ac yn ddiammau efe a'm lladdasai, oni buasai i un ddyfod heibio ac erchi iddo beidio.

CRISTION. Pwy oedd yr hwn a archodd iddo ef beidio?

FFYDD. Ni's adwaenwn i ef ar y cyntaf, ond pan yr aethum heibio iddo, canfum dyllau yn ei ddwylaw ac yn ei ystlys ef: yna mi a wybum mai ein Harglwydd ni ydoedd efe. Felly mi a aethum i ben y bryn.

CRISTION. Y gwr hwnnw a'ch goddiweddodd chwi oedd Moses. Nid yw efe yn arbed neb; ac ni fedr efe ddangos trugaredd i'r rhai a droseddant ei gyfraith ef.[1]

TYMHER MOSES.

FFYDD. Mi a'i hadwaen ef yn ddigon da; nid y pryd hynny y cyfarfu ef â mi gyntaf. Efe oedd yr hwn a ddaeth attaf pan oeddwn yn trigo yn ddiofal gartref, ac a ddywedodd wrthyf, y llosgai ef fy nhŷ am fy mhen os aroswn yno.

CRISTION. Eithr oni welsoch chwi y tŷ oedd ar ben y bryn, yn agos i'r lle y cyfarfu Moses â chwi.

FFYDD. Do, a'r llewod hefyd; ond i'm tyb i yr oeddynt hwy yn cysgu; canys ynghylch hanner dydd ydoedd; ac am fod gennyf gymmaint o'r dydd o'm blaen, mi a aethum heibio i'r Porthor, ac a ddaethum i waered o'r bryn.

CRISTION. Yn wir efe a ddywedodd i mi, iddo eich gweled chwi yn myned heibio; eithr buasai dda gennyf pe galwasech wrth y tŷ; canys hwy a ddangosasent i chwi gynnifer o bethau rhyfedd, fel prin yr anghofiasech hwynt yn eich byw. Ond attolwg a welsoch chwi neb yn Nyffryn Darostyngiad?

FFYDD. Do, myfi a gyfarfum â gwr a elwid Anfoddlonrwydd, yr hwn a fynnai fy mherswadio i ddychwelyd yn ol drachefn gyd ag ef, am yr heswm hwn, sef, oblegid nad oedd dim anrhydedd i'w gael yn y dyffryn hwnnw: Ac heblaw hynny, eb efe, os byddwch chwi mor ffol a myned y ffordd honno, chwi a ddigiwch

YMOSOD AR FFYDDLON GAN ANFODDLONRWYDD.

[1] Rheol bywyd ac ymarweddiad yw'r gyfraith, a phan droseddir hi, mae euogrwydd yn canlyn, a'r enaid yn ddarostyngedig i gospedigaeth. Yr efengyl yn unig sydd yn mynegu i bechadur y ffordd i gael gollyngdod a maddeuant, trwy gyfryngdod ac aberth Crist. Mae naturiaeth lygredig dyn, yn magu trachwant ynddo, ac yn ei ddwyn i droseddu cyfraith sanctaidd y Goruchaf.

eich holl gyfeillion, megis Balchder, Uchder, Hunan-dyb, Gogoniant-bydol, gyda llawer eraill; y rhai, fel ag y gwyddai ef, a fawr anfoddlonent wrthyf, os gwnawn y cyfryw ffol o honof fy hun a theithio trwy y dyffryn hwnnw.

CRISTION. Pa fodd yr attebasoch chwi ef?

ATTEBIAD FFYDDLON I ANFODDLONRWYDD

FFYDD. Mi a'i hattebais ef, mai er y gallai y rhai oll a enwasai ef fy arddel i o ran carennydd (canys fy ngheraint i oeddynt yn ol y cnawd) etto pan yr aethum i yn Bererin, hwy a'm diarddelasant i, a minnau a'u gwrthodais hwythau; ac am hynny mi a ddywedais, nad oeddynt hwy yn awr ddim mwy i mi, na phe buasent erioed heb fod o'm cenhedl: ac heblaw hynny, mi a ddywedais wrtho, iddo lwyr gam-osod allan y dyffryn yma; "canys o flaen anrhydedd yr â gostyngeiddrwydd, ond balchder sydd yn myned o flaen dinystr, ac uchder yspryd o flaen cwymp." Ac am hynny, ebe fi, gwell gennyf fyned trwy'r dyffryn yma, i feddiannu y peth y mae'r doethaf yn ei gyfrif yn anrhydedd, na dewis yr hyn yr wyt ti yn ei gyfrif yn deilwng o'm serchiadau. Diar. xv. 33. a xvi. 18.[k]

CRISTION. A gyfarfuoch chwi â neb arall yn y dyffryn hwnnw?

CYWILYDD YN YMOSOD ARNO.

FFYDD. Do, myfi a gyfarfum âg un a elwir Cywilydd; ond o bawb a gyfarfum â hwynt yn fy mhererindod, yr wyf yn meddwl ei fod ef yn cael ei gam enwi. Fe dawai'r llall wedi ychydig o ymresymu âg ef, a rhyw beth arall; ond ni thawai Cywilydd wyneb-bres hwn byth.

CRISTION. Pa beth a ddywedodd wrthych?

FFYDD. Beth! Efe a lefarodd lawer yn erbyn crefydd ei hun, gan ddywedyd, mai peth gwael iawn oedd i ddyn feddwl am grefydd, ac nad oedd cydwybod dyner ond peth anwraidd; ac nad oedd gwylio ar ein geiriau a'n gweithredoedd (fel y bo'm dan rwymedigaeth i ymgadw oddiwrth y rhyddid gwrolwych y mae gwŷr calonog y byd presennol yn ymarfer âg ef) ond gwatworgerdd i'r amseroedd. Efe a ddywedodd hefyd, nad oedd nemawr o'r rhai galluog, ac o'r rhai cyfoethogion, a'r doethion, o'r un feddwl â mi; ac nad oedd neb o honynt hwy ychwaith o'm barn i, nes eu denu yn gyntaf i fod yn ffyliaid, trwy anturio yn ewyllysgar i golli y cwbl ag a feddont, i feddiannu na's gŵyr neb pa beth. 1 Cor. i. 26. a iii. 19. Phil. iii. 8. Heblaw hynny, efe a osododd ger fy mron i wael ac isel-radd, a chyflwr y rhai oeddynt yn fwy enwedigol yn bererinion yn mhob oes. A darfu iddo edliw i mi eu hanwybodaeth a'u hannealldwriaeth hwy yn mhob math o ddysgeidiaeth naturiol. Ioan vii. 48, 49. Iĕ, efe a ddywedodd ymhellach, mai matter o gywilydd ydoedd, fod neb yn wylo ac yn galaru dan bregethiaid y gair, gan ddyfod oddi yno wedi'n gan ocheneidio a gruddfan; mai cywilydd oedd ceisio maddeuant gan gymmydogion am feiau bychain, a thalu adref yr hyn a ladratawyd neu a gam-attaliwyd oddiwrth neb. Dywedodd hefyd, fod crefydd yn peri i ddyn ymddieithro oddiwrth y gwŷr mawr,

[k] Mae yr hyn a ddywed Ffyddlon yn deilwng o'n sylw difrifol, gan mai gwell yw rhodio mewn gostyngeiddrwydd, na rhannu'r yspail gyda'r rhai cedyrn.

oblegid ychydig o feiau, i'r rhai, er eu bod yn feiau anafus, y rhoddes efe enwau teccach; a dywedodd fod crefydd yn peri i rai arddel a derbyn wyneb dynion gwael, am eu bod o'r un frawdoliaeth grefyddol a hwythau. Ac onid yw hyn, eb efe, yn fatter o gywilydd?[1]

CRISTION. A pha beth a ddywedasoch chwithau wrtho ef?

FFYDD. Dywedyd! ni wyddwn i pa beth i ddywedyd ar y cyntaf, ïe, efe a'm cyffrodd i yn y fath fodd, fel y cododd fy ngwaed yn fy ngwyneb, a braidd na'm curwyd i ymaith oddiwrth grefydd, trwy'r pethau a adroddodd y dyn digywilydd hwn wrthyf. Eithr o'r diwedd mi a ystyriais, fod yr hyn sydd uchel gyda dynion yn ffiaidd ger bron Duw. Ac mi a feddyliais drachefn, fod y dyn digywilydd hwn, a fynnai daro cywilydd ynof, i'm hattal i trwy hynny rhag myned ymlaen i fod yn grefyddol, meddyliais, meddaf, fod y dyn hwn yn mynegu i mi pa beth yw dynion, ond nad oedd efe yn dywedyd dim wrthyf fi pa beth oedd Duw yn ei air. Ystyriais heblaw hynny, na fernir ni yn nydd y farn i farwolaeth neu fywyd, yn ol yspryd gwrolwych y byd, ond yn ol doethineb a chyfraith y Goruchaf. Am hynny, ebe fi, yr hyn y mae Duw yn ei ddywedyd ei fod yn oreu, sydd oreu yn wir, er bod holl ddynion y byd yn ei erbyn. Yn awr, gan fod Duw yn gwneuthur gwell cyfrif o'r grefydd a appwyntiodd efe ei hun, ac o gydwybod dyner, nag yr wyt ti yn ei wneuthur o honynt, O ddyn digywilydd! a chan fod y rhai sy'n gwneuthur eu hunain yn ffyliaid, er mwyn teyrnas nefoedd, yn ddoethach na neb arall yn marn yr Arglwydd; a chan fod y gwr tlawd sy'n caru Crist yn gyfoethoccach na'r gwr mwyaf yn y byd sydd yn ei gasâu ef; dos ymaith gan hynny, O ddyn digywilydd, oddiwrthyf! canys gelyn wyt ti i'm iachawdwriaeth i. A wrandawaf fi arnat ti, trwy fod yn wrthwyneb i'm Harglwydd goruchaf? Os felly y gwnaf, pa fodd yr edrychaf yn ei wyneb ef yn ei ddyfodiad? A gywilyddiaf fi yn awr oherwydd ei ffyrdd a'i weision ef? Os felly y gwnaf, pa fodd y gallaf ddisgwyl am ei fendith ef? Marc viii. 34. Mat. x. 32. A braidd y gellais i, â'r ymadroddion hyn, yrru ymaith o'm cyfeillach y dihirwr digywilydd hwn, a fynnai weithio cywilydd ynof, i ymarddel â Duw, a'i ffyrdd, a'i bobl. Ië, efe a sybrydai yn fy nghlustiau yn dra mynych amryw o bethau yn y rhai yr oedd pobl grefyddol yn dangos llawer o wendid ynddynt: eithr o'r diwedd mi a ddywedais wrtho ef, na fyddai ei drafferth ef yn y gorchwyl hwn rhagllaw ond gwaith ofer: canys yn y pethau, ebe fi, yr y'ch chwi yn eu diystyru, yr wyf fi yn gweled y gogoniant mwyaf. Ac wedi gyrru'r dyn taerllyd hwn ymaith, a chael gwared o hono, cenais fel hyn:

Y temtasiynau sy'n cyfarfod
Pawb sy'n teithio mewn ufudd-dod,
I'r wir alwad nefol hyfryd,
Y'nt yn aml ac yn enbyd.

[1] Ni ddichon dim fod yn gadarnach prawf ein bod yn amddifad o gariad Duw, na'r tuedd hynny sydd ynom i gywilyddio oherwydd achos Duw. Mae y cywilydd hwn, ynghyd ag ofn dynion, yn elyniaethol i wirioneddau Duw, i ogoniant Crist, a chysur yr enaid. Harddach o lawer, a mwy diboen, yw arddel achos Crist yn hyderus, na bod dan ofn o golli ein henw da, a gair teg y byd.

Wedi eu trefnu a'u gweddeiddio
I'n drwg natur sydd yn effro :
Deuant am ein pennau beunydd,
Deuant, deuant, fyth o newydd,
Fel y gallom yn aflawen,
Naill ai 'nawr ai rhyw bryd amgen,
Trwyddynt gael ein dal a'n gorfod,
Ac o'u plegid cael ein gwrthod.
O gan hynny ! nac anghofied
Pererinion fod yn gwylied,
I wrth'nebu twyll drwg-ddynion,
Cyn wroled ag y gallon'.

CRISTION. Y mae yn dda gennyf, fy mrawd, i ti wrthsefyll y filain hwnnw mor wrol o bawb fel y dywedaist; yr wyf yn meddwl ei fod yn cael ei gamenwi, oherwydd y mae mor eofn a'n dilyn ni yn yr heolydd, ac yn amcanu gwneuthur cywilydd i ni ger bron pawb, hynny yw, gwneuthur i ni gywilyddio oherwydd yr hyn sydd dda; ac oni buasai ei fod ef ei hun yn ddigywilydd, ni buasai byth yn amcanu gwneuthur fel ag y mae; eithr gadewch i ni ei wrthwynebu yn wastadol; canys er ei holl wroldeb, nid yw yn dyrchafu neb ond ffyliaid. "Y doethion a etifeddant anrhydedd," medd Solomon, "eithr gwarth fydd dyrchafiad ffyliaid," Diar. iii. 35.[m]

FFYDD. Mae yn rhaid i ni weddïo yn erbyn y Cywilydd slafaidd yma, i'r hwn sydd am i ni fod yn lewion tros y gwirionedd ar y ddaear.

CRISTION. Yr wyt ti yn dywedyd y gwir: ond a gyfarfuoch chwi â neb arall yn y dyffryn hwnnw?

FFYDD. Naddo, canys yr oedd yr haul yn llewyrchu arnaf yn yr holl ran arall o'r ffordd, trwy'r dyffryn hwnnw, ac hefyd trwy Ddyffryn Cysgod Angau.

CRISTION. Yr oedd hynny yn dda i chwi, yr wyf yn sicr nad felly y bu gyda myfi, canys mor gynted agos ag y daethum i'r dyffryn hwnnw, bu brwydr hir ac ofnadwy rhyngof â'r ellyll aflan hwnnw Apolyon; ïe, mi a feddyliais yn wir y buasai yn fy lladd, yn enwedig pan y cafodd fi i lawr, ac y gwasgodd fi dano, fel pe buasai am fy llethu yn ddarnau mân: canys fel ag y taflodd fi i lawr, syrthiodd fy nghleddyf o'm llaw: ïe, efe a ddywedodd wrthyf, ei fod yn sicr o honof: eithr mi a lefais ar Dduw, ac efe a'm gwaredodd o'm holl drallodion. Yna daethum i Ddyffryn Cysgod Angau, ac ni chefais i ddim goleuni tros agos i hanner y ffordd trwyddo. Mi a feddyliais y cawswn fy lladd

[m] Pan yr ystyriom mor bwysig ac anrhydeddus yw achos gwir grefydd, rhyfedd fod neb yn cywilyddio o Grist a'i ordinhadau a'i orchymynion. Mor hyf ac mor ddewr y mae pechaduriaid yn canlyn gwagedd ac oferedd! Nid oes y rheswm lleiaf gan neb gywilyddio o'r efengyl.

vno drachefn a thrachefn; eithr o'r diwedd fe wawriodd y dydd, ac fe gyfododd yr haul, ac mi a aethum trwy'r hyn oedd yn ol o'r ffordd yn llawer llonyddach ac esmwythach.

DARLUNIO CHWEDLEUGAR.

Hefyd, mi a welais yn fy mreuddwyd, fel ag yr oeddynt yn myned yn y blaen, digwyddodd i Ffyddlon edrych ar y naill du, ac efe a welai wr a elwir Chwedleugar, yn rhodio ymhell oddi wrthynt (canys yr oedd yn y fan honno ddigon o le iddynt gyd-deithio). Yr oedd efe yn wr mawr o gorpholaeth, ac yn deccach yr olwg arno o bell nac yn agos; a gofynodd Ffyddlon iddo ef, Y cyfaill! i ba le yr ewch chwi? a ydych chwi yn teithio tua'r wlad nefol?

CHWED. Yr ydwyf fi yn myned tua'r wlad honno.

FFYDD. Os felly, yr wyf yn gobeithio cael eich cyfeillach chwi.

CHWED. Mi a fyddaf o ewyllys fy nghalon yn gydymaith i chwi.

FFYDDLON A CHWEDLEUGAR YN YMDDIDDAN.

FFYDD. Awn ynghyd gan hynny, a threuliwn ein hamser mewn ymddiddan ynghylch rhyw bethau buddiol.

CHWEDLEUGAR YN GAS GANDDO YMDDIDDANION DRWG.

CHWED. Mae yn dda iawn gennyf siarad â chwi neu â neb arall, am bethau da; ac yr wyf yn llawenychu am i mi gyfarfod â rhai sy'n tueddu i ymdreulio mewn ffordd mor dda; canys, i ddywedyd wrthych chwi y gwir, nid oes nemawr yn gofalu am dreulio eu hamser fel hyn wrth ymdeithio, ond dewisant yn hytrach o lawer ymddiddan am bethau anfuddiol; a bu hyn yn flinder i mi.

FFYDD. Y mae hynny yn beth i alaru o'i blegid; canys y mae pethau ysprydol yn deilwng o'n hymddiddan o flaen holl bethau y byd hwn.

CHWED. Yr wyf yn dra boddlon i chwi, canys y mae eich ymadroddion chwi yn llawn o reswm da: ac mi a chwanegaf hyn, pa beth sydd mor hyfryd, ac mor fuddiol ag ymddiddan am bethau Duw?

Pa beth sydd mor hyfryd? ïe, os ydyw dyn yn cymmeryd dim hyfrydwch; er siampl, os bydd yn hyfryd gan ddyn chwedleua am ystori, neu ddirgeledigaethau mawrion; neu os bydd dyn yn caru ymddiddan am wyrthiau, rhyfeddodau, neu arwyddion; ymha le y caiff ef y pethau hyn wedi eu coffâu cyn hyfrytted, a'u hysgrifenu mor luniaidd, ag yn yr ysgrythyr sanctaidd.

FFYDD. Gwir yw; etto wrth siarad ynghylch y fath bethau da, ein diben ni a ddylai fod i dderbyn llesâd i'n heneidiau oddiwrth y cyfryw ymddiddanion.

ARAITH ORCHESTOL CHWEDLEUGAR.

CHWED. Dyna'r hyn a ddywedais i;[n] canys y mae ymddiddanion ynghylch pethau Duw yn dra llesol; oblegid trwy hynny fe ddichon dyn ddyfod i wybod llawer ynghylch pethau daearol, ac ynghylch godidogrwydd pethau nefol. Ond, yn fwy neilltuol, oddiwrth hyn y gall dyn ddysgu mor angenrheidiol yw'r ailenedig-

[n] Mae llawer un tra thebyg i meistr Chwedleugar yn y byd, yn medru dywedyd yn wych am grefydd, a thrin pyngciau o atnrawiaeth, a chael ei gyfrif yn wr call dros ben, ond yn amddifad o symledd cristionogol. Fe ddichon ei farn fod yn iach, a'i galon yn dwyllodrus, ac yn ddibrofiad o gariad Duw a thufewnol lywodraeth gras. Beth a dâl proffes y cyfryw un?

aeth a byrdra ein gweithredoedd; a pha fath ddiffyg sydd arnom am gyfiawnder Iesu Grist. Heblaw hynny, trwy hyn y dichon dyn ddysgu pa beth yw edifarhâu, credu, gweddïo, dioddef dros Grist, a chyffelyb bethau eraill: trwy hyn y dichon dyn ddysgu pa beth yw sylwedd a natur addewidion mawr a chysuron yr efengyl, er cysur i'w enaid ei hun; a pha fodd hefyd i ymgadw rhag gau opiniynau, ac i amddiffyn y gwirionedd, ac i roddi addysg i'r anwybodus.

FFYDD. Y mae hyn oll yn wir; ac y mae'n llawen gennyf glywed y pethau hyn oddi wrthych chwi.

CHWED. Och! esgeulusdra pobl i ymddiddan am y cyfryw fatterion, sydd yn achos fod cyn lleied yn deall yr angenrheidrwydd o ffydd, ac o waith gras yn eu heneidiau, i'w cymhwyso hwy i feddiannu bywyd tragywyddol: ac o eisiau chwedleua am y fath bethau a hyn y mae pobl yn byw mewn anwybodaeth, gan hyder uar weithredoedd y ddeddf am gael teyrnas nefoedd trwyddynt, er na chair hi yn y ffordd honno mewn modd yn y byd.

FFYDD. Ond, trwy'ch cennad chwi, rhodd Duw yw gwybodaeth nefol o'r pethau hynny; ac ni all un dyn eu gwybod hwynt trwy ei ddyfalwch ei hun, nac yn unig trwy ymddiddan am danynt.

CHWED. Mi a wn hynny yn ddigon da; oblegid ni ddichon dyn dderbyn dim oni bydd wedi ei roddi iddo o'r nef: o ras y mae'r cwbl, ac nid o weithredoedd: gallwn roddi i chwi gant o ysgrythyrau i brofi hynny.

OH, MR. CHWEDLEUGAR!

FFYDD. Am ba beth gan hynny yn neillduol, ebe Ffyddlon, y cawn ni ymddiddan yr awr hon?

CHWED. Mi a chwedleuaf â chwi am y pethau a fynnoch, pa un bynnag ai pethau nefol, ai pethau daearol: pethau moesol, ai pethau efengylaidd; pethau ysprydol, ai pethau cnawdol; pethau a fu, ai pethau a fydd; pethau mewn gwledydd dieithr, ai pethau yn ein gwlad ein hunain; pethau hanfodol, ai pethau amgylchiadol y byddant hwy; etto rhaid yw gwneuthur y cwbl er adeiladaeth ein heneidiau.

OH, MR. CHWEDLEUGAR!

FFYDD. Ffyddlon wedi clywed hyn a ryfeddodd; a chan droi at Gristion (canys yr oedd Cristion trwy'r holl amser yma yn rhodio wrtho ei hun), efe a ddywedodd wrtho ef, ond yn ddistaw, Pa fath gydymaith gwych a gawsom ni! yn ddiau fe fydd y gwr hwn yn bererin rhagorol.

FFYDDLON YN CAEL EI HUDO GAN CHWEDLEUGAR.

CRISTION. Ar hynny y gwenodd Cristion yn araf, ac a ddywedodd, Fe dwylla y gwr yma, yr hwn yr ydych chwi yn ei ganmol, â'i dafod, ugain o'r rhai sydd heb ei adnabod ef.

CRISTION YN DEALL PWY YDYW CHWEDLEUGAR, AC YN HYSBYSU FFYDDLON.

FFYDD. A ydych chwi yn ei adnabod ef?

CRISTION. Ydwyf, yn well nac y mae ef yn ei adnabod ei hun.

FFYDD. Attolwg, pwy ydyw ef?

CRISTION. Ei enw ef yw Chwedleugar; y mae ef yn aros yn ein dinas ni;

ac oni bai fy mod yn ystyried fod ein tref ni yn fawr iawn, myfi a ryfeddwn nad yw ef yn adnabyddus i chwithau hefyd.

FFYDD. Mab i bwy yw ef? ac ynghylch pa fan y mae efe yn trigo?

CRISTION. Mab yw efe i un a elwir meistr Geiriau teg; ac yr oedd efe yn trigo yn heol y Gwag-siarad; ond er tecced yw ei dafod ef, nid yw efe ond dihiryn drwg.

FFYDD. Ow! fe dybygid ei fod ef (o ran crefydd) yn ddyn gwych.

CRISTION. Hynny yw, gan y rhai sydd heb ei gwbl adnabod ef; canys oddi cartref y mae ef yn oreu; gerllaw gartref y mae ef yn ddigon ffiaidd. A lle yr ydych chwi yn dywedyd, mai dyn gwych yw ef, y mae hynny yn dwyn ar gof i mi yr hyn a greffais i arno yn ngwaith paentiwr; y mae'r lluniau y mae efe yn eu paentio yn ymddangos yn oreu o bell, ond yn ammhrydferth yn agos.

FFYDD. Yr wyf yn barod i dybied nad ydych chwi ond cellwair, am i chwi wenu.

CRISTION. Na atto Duw i mi gellwair yn y cyfryw fatter a hyn, na cham-achwyn ar neb, er i mi wenu am eich gwaith chwi yn canmol y dyn hwn. Myfi a hyspysaf i chwi ymhellach pa fath un ydyw efe. Y mae efe'n ddyn sydd am bob math o gyfeillach, ac am bob math o siarad. Fel y mae efe yn chwedleua â chwi yn awr, felly y chwedleua efe pan y bo yn y dafarn ymysg y meddwon; a pha fwyaf o gwrw a fyddo yn ei ben ef, mwyaf oll y bydd y pethau hyn yn ei enau. Nid oes gan grefydd le yn ei galon ef, nac yn ei dŷ ef, nac yn ei ymarweddiad; ond y mae hi yn sefyll yn unig ar ei dafod ef; a'i grefydd ef yw gwneuthur swn am bethau yr Arglwydd â'r tafod hwnnw.°

FFYDD. A ddywedwch chwi felly? Yna fe'm twyllwyd i yn ddirfawr yn y gwr hwn.

CHWEDLEUGAR YN SIARAD, OND HEB WNEUTHUR.

CRISTION. Twyllwyd chwi! Do yn sicr. Cofiwch y ddihareb, "Dywedant, ac ni's gwnant;" ond "nid mewn ymadrodd y mae teyrnas Dduw (yn sefyll), eithr mewn gallu." Mat. xxiii. 3. 1 Cor. iv. 20. Y mae fe'n chwedleua am weddi, am edifeirwch, am ffydd, ac am yr adenedigaeth; eithr nid oes ganddo yn ei enaid ei hun brofiad o honynt; fe fedr yn unig chwedleua am danynt. Myfi a fum yn ei deulu ef, ac a ddeliais sylw arno ef gartref ac oddi cartref; ac mi a wn mai gwir ydyw'r hyn yr ydwyf fi yn ei ddywedyd am dano ef. Y mae ei dŷ ef cyn wacced o grefydd ag yw

NID OES CREFYDD YN EI DEULU.

gwŷn ŵy o flas. Nid oes yno na gweddi, nac argoel o edifeirwch am bechod, ïe, y mae'r anifail yn ei ryw yn gwasanaethu Duw yn llawer gwell nag efe. Esa. i. 3. Y mae crefydd yn dioddef gogan, gwarthrudd a chywilydd o'i

MAE YN WARTH AR GREFYDD.

achos ef; ac y mae'n anhawdd iddi gael gair da, yn yr holl ran hynny o'r dref lle y mae efe yn preswylio ynddi, am fod ei fuchedd ef yn ei diwyno

° Nid hawdd i enaid syml a diragrith weled ar unwaith y ddichell sydd mewn rhai crefyddwyr tafod-teg; canys lle bo'r gwirionedd, mae yno yspryd cariad, ac nid hoff gan y gwir Gristion gondemnio neb, nes y gweio achos cyfiawn am hynny. Eithr ni fydd y twyllwr, er maint ei ymffrost, yn hir cyn dyfod i'r goleuni, a gorfod ymddangos yn ei liw priodol.



"A Fair wherein was sold all sorts of Vanity"
p. 76.

H. WARREN — T. HOLLIS

# Vanity Fair.

Ffair Gwagedd.

[illegible] DON P[illegible]NTING AND PUBLISHING [illegible]

hi. Rhuf. ii. 23, 24. Fel hyn y dywed y bobl gyffredin sydd yn ei adnabod ef, 'Angel pen ffordd, Diawl pen pentan.' Y mae ei deulu wedi cael profiad o hyn oll. Y DDAMMEG AM DANO. Y mae efe yn ddifenwr, ac mor anfwyn, mor daeog, ac mor afresymol wrth ei weision, fel na wyddant hwy pa fodd i'w foddloni ef yn eu gwaith a'u gorchwylion, na pha fodd i lefaru wrtho heb gyffroi ei ddigofaint ef. Y mae'r rhai sydd yn gwerthu pethau iddo, ac yn prynu pethau ganddo, yn dywedyd, mai gwaeth yw iddynt farchnatta a masnach âg ef nag â Thwrc; am fod rhei'ny yn onestach nag efe yn eu bargenion a'u haddewidion. NI FYN POBL FASNACHU AG EF. Fe dwylla bawb os dichon ef. Ac heblaw hynny, y mae fe'n dysgu ei feibion i ganlyn ei lwybrau ef: ac os cenfydd efe yn neb o'i blant ddim *amheuon ynfyd* (canys felly y mae ef yn galw yr ymddangosiad cyntaf o gydwybod dyner sydd yn eu gogwyddo hwy at onestrwydd) efe a'u geilw hwy yn ynfydion ac yn hurtaidd; ac ni esyd ef un o honynt, mewn modd yn y byd, i drin llawer o'i fatterion ef, os bydd ef yn deall fod arnynt ofn twyllo neb: ac ni chanmol un o honynt yngwydd eraill, os bydd hwnnw yn tueddu at onestrwydd cyffredinol. O'm rhan i, yr wy'n tybied iddo ef, trwy ei fuchedd annuwiol, beri i lawer dramgwyddo a syrthio, ac fe a fydd (oni ragflaena Duw hynny) yn achos o ddistryw i laweroedd mwy.*

FFYDD. Wele, fy mrawd, yr wyf yn rhwym i'ch coelio chwi; nid yn unig am eich bod yn dywedyd yr adwaenoch ef, ond hefyd am eich bod chwi fel Cristion yn datguddio beth yw'r dyn yma: canys ni allaf fi feddwl eich bod chwi'n dywedyd y pethau hyn o ddrwg ewyllys, ond am fod y peth fel yr ydych chwi yn dywedyd.

CRISTION. Pe buaswn i heb ei adnabod ef yn well na chwychwi, gallaswn ond odid fel chwithau dybied, mai gwr da ragorol ydoedd efe; ïe, pe buasai fe yn cael yr anair yma oddi wrthynt hwy yn unig ag sydd yn elynion i grefydd, tebygaswn mai enllib ydoedd hynny; (sef anghlod ag sydd yn dyfod yn fynych yn ddiachos allan o eneuau y rhai drygionus, ar enwau dynion da a'u proffes;) eithr yr holl bethau a adroddais i am dano ef, ïe, a llawer mwy o gampau cynddrwg a hwythau, a allaf fi o'm gwybodaeth fy hun brofi ei fod yn euog o honynt. Heblaw hynny, y mae ar wŷr da gywilydd o'i blegid ef; ni allant na'i alw yn frawd nac yn gyfaill; os enwir ef ymhlith y rhai crefyddol o'i gydnabod, hwy a wridant gan gywilydd o'i herwydd.

FFYDD. Myfi a welaf yn awr, mai un peth yw dywedyd, a pheth arall yw gwneuthur; ac o hyn allan, mi a graffaf yn well ar y gwahaniaeth sydd rhwng y naill a'r llall.

CRISTION. Y maent yn ddau beth yn wir, ac mor wahanredol yr un oddiwrth y llall, ag yw'r enaid a'r corph; canys megis nad yw'r corph heb yr enaid, felly hefyd nid yw dywedyd yn dda, heb wneuthur yn dda, ond celain farw. Enaid YSGERBWD CREFYDD. crefydd yw buchedd dda: "crefydd bur a dihalogedig ger bron Duw a'r Tad yw hyn,

* Ystyriwch hyn ac arswydwch, chwi broffeswyr, y rhai mae eich crefydd ar flaen y tafod, ac ni adwaenoch ddim am gariad a gras Crist yn dufewnol. Pa fodd yr ymddangoswch, heb y wisg briodas am danoch, yn y dydd diweddaf?

ymweled â'r amddifaid a'r gwragedd gweddwon yn eu hadfyd, a'i gadw ei hun yn ddifrycheulyd oddiwrth y byd." Iago i. 27. Nid yw meistr Chwedleugar yn meddwl am hyn: y mae'n tybied, fod gwrando a dywedyd yn ddigon i wneud dyn yn Gristion da, (er nad yw gwrando heb ddwyn ffrwyth ond megis derbyn yr had a hauir,) ac fel hyn y mae fe'n twyllo ei enaid ei hun. Nid yw gwaith dyn yn chwedleua am grefydd yn ddigonol i brofi fod ganddo galon a buchedd ffrwythlon a daionus. Gwybydd yn sicr, mai yn ol eu ffrwythau neu eu gweithredoedd (ac nid yn ol eu geiriau yn unig) y bernir dynion yn nydd y farn. Dat. xxii. 12. Mat. xvi. 27. Ni fydd cymmaint o holiad y pryd hynny, 'A ddarfu i chwi gredu a dywedyd yn dda?' ag a fydd, 'A ddygasoch chwi ffrwythau da yn eich buchedd a'ch ymarweddiad?' Dyma fydd un cwestiwn mawr ar y dydd hwnnw, 'Pa un ai gwneuthurwyr y gair, ai ynte chwedleuwyr yn unig am y gair a fuoch chwi?' Ac yn ol hynny y bernir dynion. Diwedd y byd a gyffelybir i'n cynhauaf ni, a chwi a wyddoch nad yw dynion yn y cynhauaf yn edrych ar ddim ond ffrwyth (nid am y gall dim fod yn gymmeradwy gyda Duw oni bydd yn tarddu oddi ar ffydd. Gal. v. 6). Ond dywedyd yr wyf fi hyn, i ddangos i chwi mor aflesol y bydd proffes meistr Chwedleugar yn y dydd hwnnw, heb fod yn wneuthurwr y gair.[p]

FFYDD. Mae hyn yn dwyn ar gof i mi y peth a ddywedodd Moses am yr anifail glân: y mae fe yn gyfryw un a'r y sydd yn fforchogi'r ewin ac yn cnoi ei gil. Lef. xi. 3. Nid yr hwn sy'n hollti'r ewin yn unig, neu yn cnoi ei gil yn unig sydd lân, ond yr hwn sy'n gwneuthur y ddau. Y mae'r ysgyfarnog yn cnoi ei chil; ond er hynny y mae hi'n aflan, am nad yw hi'n hollti'r ewin. Ac mewn gwirionedd, y mae meistr Chwedleugar yn gyffelyb i'r ysgyfarnog; y mae fe'n cnoi'r cil, y mae fe'n ceisio gwybodaeth trwy fyfyrio ar y gair; ond nid yw ef yn fforchogi'r ewin, nid yw ef yn ymado â ffordd pechaduriaid; ond megis yr ysgyfarnog, y mae ganddo droed cî neu arth, ac am hynny y mae fe'n aflan.

FFYDDLON WEDI EI ARGYHOEDDI O DWYLL CHWEDLEUGAR.

CRISTION. Myfi a ychwanegaf un peth arall. Y mae Paul yn galw chwedleuwyr mawr (y rhai sydd heb ras yn eu calonau) yn efydd yn seinio, a symbal yn tingcian; hynny yw, fel y mae efe yn dehongli y geiriau mewn lle arall, pethau dïenaid ydynt, sef, yn rhoddi sain yn unig a dim ond hynny: pethau dienaid ydynt; hynny yw, dynion ydynt, heb wir ffydd a gras yr efengyl yn eu calonau; a thrwy ganlyniad, y maent yn gyfryw rai, na chyfrifir hwy byth yn nheyrnas nefoedd, ymhlith y rhai sydd yn blant y bywyd; er eu bod hwy yn seinio yn eu hymadroddion, fel pe b'ai tafodau neu leferydd angylion ganddynt. 1 Cor. xiii. 12. a xiv. 7.

CHWEDLEUGAR FEL DAU BETH SONIARUS HEB FYWYD.

FFYDD. Y mae ei gymdeithas ef, yr hyn a fu ar y cyntaf yn fatter o hoffder, yr awr hon yn fatter o flinder i mi. Pa beth a wnawn ni i gael gwared o hono ef?

[p] Iawn fyddai i ddynion ystyried hyn. Llawer sydd yn gwrando pregethau, heb feddiannu nac edifeirwch na ffydd. Peth mawr yw bod ein profiad yn ysgrythyrol, ein hyspryd a'n serchiadau dan lywodraeth gras, a'n hymarweddiad yn y teulu ac yn y byd yn unol â'n proffes.

CRISTION. Cymmerwch fy nghyngor i, ac yna (megis yr ydych chwi yn blino ar ei gymdeithas ef) y blina yntef hefyd yn ebrwydd ar eich cymdeithas chwithau, oddi eithr i Dduw droi ei galon ef.

FFYDD. Pa beth a fynnech i mi wneuthur?

CRISTION. Beth! myned atto ac ymddiddan âg ef yn ddifrifol ynghylch grym crefydd, a gofynwch iddo, a ydyw y peth yma wedi ei weithio yn ei galon ef? ac a ydyw hynny yn ymddangos yn ei ymarweddiad ef? [q]

Yna yr aeth Ffyddlon drachefn at Chwedleugar, ac a ofynodd iddo, Pa fodd yr oedd efe?

CHWED. Diolch i chwi, ebe yntef, yr wy'n wrol. Mi a obeithiais y cawsem ni erbyn hyn lawer mwy o gyd-ymddiddan.

FFYDD. Wele, os mynnwch chwi, ni a ddechreuwn eilwaith: a chan eich bod chwi wedi gosod arnaf fi i ofyn y cwestiwn, byddaf mor eofn a gofyn i chwi, Pa fodd y gallwn adnabod fod Duw wedi gweithio gras iachusol yn nghalon dyn?

CHWED. Mi a welaf wrth hyn, y gorfydd ar ein hymddiddan ni fod ynghylch grym crefydd: da iawn yw eich cwestiwn; ac yr wyf yn ewyllysgar i'ch atteb chwi. Ac yn fyr fy atteb i yw hyn. Yn gyntaf, lle bo gras Duw yn y galon, y mae hynny yn peri i ddyn waeddi'n ddirfawr yn erbyn pechod. Yn ail—

GOLYGIAD CYFEILIORNUS CHWEDLEUGAR AM WAITH GRAS.

FFYDD. Nagê, arafwch, digon ydyw i ni ystyried un peth ar unwaith; yr wy'n tybied y dylasech chwi ddywedyd yn hytrach, fod gras yn amlygu ei hun, trwy ogwyddo'r enaid i ffieiddio ei bechod.

CHWED. Pa wahaniaeth sydd rhwng gwaeddi yn erbyn pechod a'i ffieiddio ef?

FFYDD. O! llawer iawn; fe ddichon dyn waeddi yn erbyn pechod trwy gyfrwystra; eithr ni ddichon efe gasâu pechod, ond trwy rinwedd dduwiol ag sydd wrthwyneb iddo. Myfi a glywais laweroedd yn gwaeddi yn erbyn pechod yn y pulpit, y rhai er hynny a gyd-ddygent âg ef, ac a ymfoddlonent ynddo (yr hyn oedd hawdd ei adnabod oddiwrth eu ffrwythau hwy) yn eu calonau, eu tai, a'u hymarweddiad. Gwaeddodd meistres Joseph â llef uchel yn erbyn pechod, fel pe buasai hi yn dra sanctaidd; ond er hynny ei hewyllys hi oedd bod yn aflan gyd ag ef. Y mae rhai yn gwaeddi yn erbyn pechod, megis ag y mae mam yn gwaeddi yn erbyn plentyn ar ei harffed, gan roddi drwg enwau i'r plentyn, megis hwrswn neu hwrli, ac wedi hynny cwympo i gofleidio a chusanu'r plentyn.

NID YW GWAEDDI YN ERBYN PECHOD YN ARWYDD O RAS.

CHWED. Mi debygwn eich bod yn chwennychu fy nal i trwy ddyfais?

FFYDD. Nac ydwyf yn ddiau: eithr ceisio yr wyf fi yn unig drefnu pob peth yn ei

[q] Y maent yn cymmeryd yr iawn drefn â'r ymffrostiwr hwn. Nid yw y gwaith o holi a chwestiynu'r galon a'r profiad, yn gystal a'r ymddygiad, wrth flas y cyfryw rai. Gwir ffydd a ddangosir wrth ei heffeithiau a'r enaid sydd wedi ei wir ddychwelyd at Dduw a ŵyr pa fodd i roi hanes didwyll am y gobaith sydd ynddo.

iawn le. Eithr pa beth ydyw'r ail arwydd sydd gennych, trwy yr hwn y mynnech chwi brofi fod gras yn y galon.

CHWED. Gwybodaeth fawr yn nirgeledigaethau yr efengyl.

FFYDD. Dylasai'r arwydd hwn fod yn gyntaf; ond cyntaf neu olaf, y mae hwn hefyd yn ffals: canys fe ddichon dyn gyrhaeddyd gwybodaeth, ïe, llawer o wybodaeth yn nirgeledigaethau'r efengyl, ac etto bod heb ras yn ei galon, ïe, pe byddai gan ddyn bob math o wybodaeth, efe a ddichon er hynny fod yn ddyn anrasol, a thrwy ganlyniad, ymhell oddiwrth fod yn blentyn i Dduw. 1 Cor. xiii. 2. Pan ofynodd Crist i'w ddisgyblion, "A ydych chwi yn gwybod y pethau hyn oll?" Hwythau a'i hattebasant ef, "Ydym." Yntef a ddywedodd wrthynt, "Os gwyddoch y pethau hyn, gwŷn eich byd os gwnewch hwynt." Ioan xiii. 17. Nid yw Crist yn dywedyd, fod y fendith yn perthynu i'r sawl sy'n gwybod ewyllys Duw; ond i'r sawl ag sydd yn ei gwybod ac yn ei gwneuthur hi: canys y mae math o wybodaeth heb weithredoedd da yn ei chanlyn, "yr hwn sydd yn gwybod ewyllys ei Arglwydd, ac nid yw yn ei gwneuthur." Luc xii. 47. Gall fod gan wr gymmaint o wybodaeth ag sydd gan un o'r angylion, ac etto heb fod yn wir Gristion: ac am hynny, nid yw gwybodaeth fawr yn nirgeledigaethau yr efengyl yn arwydd didwyll o ras yn y galon. Y mae gwybodaeth yn wir yn boddloni siaradwyr ac ymffrostwyr: ond byw a gwneuthur yn ol ein gwybodaeth ydyw'r hyn sydd yn rhyngu bodd Duw. Gwir yw, ni ddichon y galon fod yn dda, eithr y mae hi'n ddrwg, heb wybodaeth. Diar. xix. 2. Y mae gan hynny wybodaeth a gwybodaeth. Y mae gwybodaeth yn gyntaf, yr hon sy'n ymfoddloni yn unig i edrych ar bethau, er mwyn deall eu natur a'u priodoliaethau; ac yn ail, y mae gwybodaeth yr hon y mae'r gras o ffydd a chariad ynglyn wrthi; ac y mae hi yn gosod dyn ar wneuthur ewyllys Duw o'r galon. Y cyntaf o'r rhai'n a foddlona'r Chwedleugar; ond ni foddlonir y gwir Gristion heb yr ail. "Gwna i mi ddeall," medd Dafydd, "a chadwaf dy gyfraith; ïe, cadwaf hi â'm holl galon." Sal. cix. 34.[r]

*NID ARWYDD O RAS YDYW GWYBODAETH FAWR.*

*GWYBODAETH A GWYBODAETH.*

*MAE YMDRECH YN NGLYN Â GWIR WYBODAETH.*

CHWED. Yr ydych chwi yn ceisio fy rhwydo i drachefn. Nid yw hyn er adeiladaeth yn y byd.

FFYDD. Wele, os mynnwch chwi, rhoddwch arwydd arall o'r modd y mae gras yn datguddio ei hun lle y mae ef.

CHWED. Na wnaf, canys mi a welaf nad allwn ni gyttuno â'n gilydd.

FFYDD. Wele, oni wnewch, a roddwch chwi gennad i mi wneuthur hynny?

CHWED. Gwnewch yn y matter yma fel y gweloch yn oreu.

FFYDD. Y mae gwaith gras yn yr enaid yn ei ddatguddio ei hun, naill ai i'r hwn sydd yn ei feddiannu, neu i eraill.

[r] Y mae gennym yma ymddiddan dwys a difrifol, ynghylch y cyttundeb a ddylai fod rhwng gwybodaeth a chyflawniad o'r hyn yr ydym yn ei wybod. Nid yr hwn sydd yn gwybod ewyllys ei Arglwydd, ond yr hwn sydd yn ei wneuthur, a dderbynia'r fendith.

I'r hwn sydd â'r gras yma ganddo y mae'n datguddio ei hun fel hyn. Mae yn argyhoeddi dyn am ei bechod, yn enwedig am lygredigaeth ei natur, a'r pechod o anghrediniaeth, am ba un y mae'n gweled yn eglur y bydd ef ddamnedig, oddi eithr cael o hono drugaredd ar law Duw, trwy ffydd yn Iesu Grist. Ioan xvi. 8, 9. Rhuf. vii. 24. Sal. li. 5. Marc xvi. 16.

UN ARWYDD DA O RAS.

Yr olwg a'r ystyriaeth yma sydd yn gweithio ynddo dristwch a chywilydd am bechod. Sal. xxxviii. 18. Jer. xxxi. 12. Ac yn mhellach, y mae Iachawdwr y byd wedi ei wneud yn gydnabyddus iddo, a'r hollol angenrheidrwydd hefyd o lynu wrtho ef am fywyd: ac oherwydd hynny y mae fe'n newynu ac yn sychedu am Grist; ac i'r newyn a'r syched yma y mae addewidion Duw yn perthynu. Gal. i. 16. Act. iv. 12. Mat. v. 6. Dat. xxii. 16. Yn awr, yn ol cadernid, neu wendid ei ffydd yn ei Achubwr ef, y mae ei serch hefyd at sancteiddrwydd, a'i ddymuniad i adnabod Crist yn well, ac i'w wasanaethu ef yn y byd presennol. Eithr er fy mod yn dywedyd, fod gwaith gras yn ymddangos fel hyn yn yr enaid lle byddo; etto ni ddichon yr enaid ond yn anfynych iawn farnu, mai gwaith gras ydyw'r peth y mae fe'n ei gymmeryd tan yr enw hwnnw: oblegid ei lygredigaethau weithiau, a'i reswm wedi ei gam-arfer ar brydiau eraill, a rwystrant iddo iawn farnu ynghylch y matter yma: ac am hynny rhaid yw bod barn bwyllog iawn yn yr hwn sydd a'r gwaith yma ynddo, cyn y gallo gasglu'n ddilys, mai gwaith gras ydyw'r peth.[s]

Y mae'r gras yma mewn dyn yn ymddangos i eraill fel hyn: yn gyntaf, trwy gyfaddefiad profiadol o'i ffydd yn Nghrist. Rhuf. x. 10. Yn ail, trwy fuchedd gyfattebol i'r gyffes honno, gan fod yn sanctaidd yn ei ymarweddiad ac yn ei galon; gan ymdrechu hefyd i wneuthur ei deulu yn sanctaidd, os bydd ganddo deulu; a thrwy ymarweddiad sanctaidd yn y byd, yr hyn yn gyffredinol sydd yn dysgu iddo gasâu pechod o'i galon, i ffieiddio ei hunan yn y dirgel am dano, ac i ymegnïo ei ddarostwng yn ei deulu; ac i ddyrchafu sancteiddrwydd yn y byd; nid trwy siarad yn unig, megis y gwna y Chwedleugar a'r Rhagrithiwr; ond trwy ddarostyngiad beunyddiol mewn ffydd a chariad i nerth gair yr Arglwydd, gan ymorchestu byw yn ei ol ef. Ac yn awr, Syr, od oes gennych ddim i ddywedyd yn erbyn yr eglurhad byr yma, ynghylch gwaith gras yn yr enaid, neu yn erbyn y modd y mae'n datguddio ei hunan lle y byddo, mynegwch i mi hynny; onidê rhoddwch gennad i mi ofyn i chwi ail gwestiwn.

CHWED. Nagê, nid fy rhan i yn awr ydyw gwrthddadleu, ond gwrando. Moeswch glywed gan hynny eich cwestiwn arall.

FFYDD. Fy nghwestiwn i yw hyn. A oes gennych chwi brofiad ynoch eich hun o'r rhan gyntaf o'r eglurhad yma o waith gras yn y galon? Ac a ydyw eich buchedd

[s] Yn ddiammau fod gwaith gras yn yr enaid yn adnabyddus i'r hwn sydd yn ei feddiannu, ac hefyd i eraill. Effaith gras yw darostwng ein llygredd, a gweithio y fath gyfnewid yn ein cyflwr ysprydol, na ddichon dim arall ei ddwyn i ben. Mae Duw yn llewyrchu ar ei waith ei hun, ac yn rhoddi amlygiad goleu i'r Cristion, ei fod yn blentyn iddo ef. Y dystiolaeth a ddichon gael ei chymmylu ar brydiau, eithr nid mor anhawdd i ni farnu barn gywir am ein cyflwr ger bron Duw.

ARWYDD DA ARALL O RAS.

a'ch ymarweddiad chwi yn tystiolaethu hynny? Canys lle bo calon lân, y mae buchedd lân. Mat. xii. 23. Neu ynte a ydyw eich crefydd chwi yn sefyll yn unig mewn geiriau ac ymadroddion, ac nid mewn gweithred a gwirionedd? Attolwg, os ydych chwi ar fedr fy atteb i yn y matter yma, na ddywedwch ddim rhagor nag a wyddoch y bydd i'r Goruchaf ddywedyd Amen gyd ag ef; na dim hefyd ond y peth a allo eich cydwybod eich cyfiawnhâu chwi ynddo. "Canys nid yr hwn sydd yn ei ganmol ei hun sydd gymmeradwy, ond yr hwn y mae'r Arglwydd yn ei ganmol." 2 Cor. x. 18. Heblaw hynny, anwiredd mawr iawn ydyw i ddyn ddywedyd, Yr ydwyf fel hyn, ac fel hyn, pan fyddo ei ymarweddiad a'i holl gymmydogion yn dywedyd mai celwyddog ydyw ef.

CHWED. Yna y dechreuodd Chwedleugar wrido, ond wedi dyfod o hono ychydig atto ei hun, efe a attebodd fel hyn: Chwi a ddaethoch yn awr at brofiad, at gydwybod, at Dduw, ac i appelio atto ef am gyfiawnhad o'r hyn a lefarir: nid oeddwn i yn disgwyl am y fath ymddiddanion a hyn; ac nid oes yn fy mryd i roddi atteb i'r cyfryw gwestiynau; oblegid nad wyf yn fy nghyfrif fy hun yn rhwym i hynny, oddi eithr eich bod chwi yn cymmeryd arnoch fod yn ymholydd; a phe byddech chwi y fath wr, etto gallwn wrthod eich cymmeryd chwi yn farnwr arnaf: eithr attolwg, a gaf fi wybod gennych, paham yr ydych yn gofyn i mi y cyfryw gwestiynau?

CHWEDLEUGAR YN ANFODDLON I HOLIADAU FFYDDLON.

FFYDD. Am fy mod yn eich gweled chwi yn hylithr i siarad; ac oblegid fy mod yn tybied nad oes dim ynoch ond gwybodaeth yn unig; ac i ddywedyd i chwi y gwirionedd trwyadl, mi a glywais am danoch, mai gwr ydych chwi ag sydd a'i grefydd yn sefyll yn unig mewn geiriau, a bod eich ymarweddiad yn rhoi'r celwydd i'ch proffes. Dywedant hefyd mai brycheuyn ydych ymhlith Cristionogion; a bod crefydd yn dioddef llawer o waradwydd oblegid eich ymarweddiad annuwiol; a bod rhai eisoes wedi tramgwyddo oherwydd eich ffyrdd drygionus chwi; a bod bagad etto mewn enbydrwydd, i gael eu cyfrgolli trwy eich siampl ddrwg chwi. Eithr y mae crefydd a meddwdod yn y tafarndŷ, a chybydd-dod, ac aflendid, a thyngu a rhegu, a dywedyd celwydd, a chadw cyfeillach ofer, yn cyd-sefyll gyda chwi. Y mae'r ddihareb yn wir am danoch chwi, yr hon a ddywedir am buttain, sef, 'Ei bod hi yn gywilydd i'r holl wragedd!' felly yr ydych chwithau yn gywilydd i'r holl broffeswyr.[t]

RHESWM FFYDDLON AM EI HOLI.

FFYDDLON YN DDIDDERBYN WYNEB WRTH CHWEDLEUGAR.

CHWED. Gan eich bod cyn barotted i goelio pob chwedl, ac i farnu mor fyrbwyll, nid allaf fi dybied llai, nad rhyw wr surllyd pendrwm ydych, ac anaddas i neb ymddiddan â chwi; ac am hynny byddwch wych.

CHWEDLEUGAR YN FFROMI.

CRISTION. Yna y nesaodd Cristion at Ffyddlon, ac a ddywedodd wrtho, Fy mrawd!

[t] Y sawl sydd yn addoli yn yr eglwys ac yn y capel, ac wedi hynny yn hoffi'r tafarndŷ, ac yn cyrchu i blith ysgafnder, a chybydd-dod, yn byw fel eraill yn y byd, neu fe allai heb fod mor foesol a rhai dynion dibroffes; y cyfryw ydynt yn waradwydd i grefydd, ac yn dramgwydd i laweroedd. Gallwn ddysgu gwers fuddiol oddiwrth hanes Chwedleugar.

mynegais i chwi ymlaen llaw yr hyn a ganlynai eich ymddiddanion grasol chwi â'r dyn yma. Mi a wyddwn yn ddigon da na chyttunai eich geiriau chwi â'i drachwantau ef. Gwell oedd ganddo ymadael â'ch cyfeillach chwi, na gwellhâu dim ar ei fuchedd. Eithr efe a aeth ymaith, gadewch iddo fyned; nid oes colled i neb ond iddo ef ei hun; ni roddes y draffaeth i nyni i ymadael âg ef yn gyntaf: os parhâ fe, megis yr wyf GWARED DA O HONO. fi yn tybied y gwna, yn y cyflwr drwg y mae ynddo, ni buasai ef ond brycheuyn yn ein cwmpeini; ac medd yr apostol, "Gochel y rhai sydd a rhith duwioldeb, eithr wedi gwadu ei grym hi." 2 Tim. iii. 5. 2 Thes. iii. 6.

FFYDD. Eithr y mae'n dda gennyf gael o honof yr ychydig ymddiddan yma âg ef: fe ddaw y pethau hyn ysgatfydd i'w gof ef drachefn: pa wedd bynnag, myfi a osodais bethau yn eglur o'i flaen ef, ac felly yr wyf yn ddieuog oddiwrth ei waed, os bydd ef golledig.

CRISTION. Da iawn y gwnaethoch, gan i chwi yn eich ymddiddan ddangos iddo mor eglur y drwg gyflwr y mae ef ynddo. Nid oes nemawr yn y dyddiau hyn mor ffyddlon i'w cymmydogion yn y matterion yma, a thyna un achos paham y mae crefydd mor ddrewllyd yn ffroenau llaweroedd; canys y siaradwyr ynfyd hyn, crefydd pa rai sy'n sefyll yn unig ar flaen eu tafodau, gan fod yn frwnt ac yn ofer yn eu hymarweddiad, ydynt yn peri i'r byd synnu yn y fath fodd, fel na wyddant hwy pa beth i dybied am ddynion crefyddol, gan fod bagad o'r gwag siaradwyr hyn wedi eu derbyn i'w cymdeithas hwynt; ac y mae'r byd yn mesur eraill wrth y rhai hyn: ac felly o achos diffeithdra y cyfryw ddynion swrddanllyd, y mae crefydd yn cael ei 'nurddo, a'r rhai diragrith yn cael eu tristâu. Mi fynnwn pe ymddygai pawb mor onest tu ag at y cyfryw, ag y darfu i chwi gyda Chwedleugar; canys trwy ddelio felly â'r fath ddynion, fe'u gwneid hwy naill ai yn fwy cydffurfiol â chrefydd, neu ynte fe fyddai cyfeillach y saint yn rhy dwym iddynt.[u] Yna y canodd Ffyddlon fel hyn:

Dechreuodd y Chwedleuwr serfyll,
Ar y cyntaf ddercha'i esgyll,
Gan ryfygu cwympo a gorfod
Pawb o'i flaen wrth nerth ei dafod.
Mor hyawdlaidd y chwedleuodd!
Ond pan gyntaf y dechreuodd
Ffyddlon son am ras iachusol,
Fe aeth y cyfaill yn ei wrthol.

[u] Mae yn ddyledus arnom ymddwyn yn ffyddlon tu ag at y sawl sydd yn twyllo eu heneidiau; ond hyn ni a ddylem wneuthur mewn yspryd llariaidd, er mwyn eu hennill i lwybr y gwirionedd. Eithr y rhai ni ddioddefant eu ceryddu ac ni fynnant droi oddiwrth eu rhagrith, gan flino eu cymdeithion, a dwyn gwaradwydd ar achos crefydd, da fyddai cael gwared o honynt o blith y gwir ddisgyblion. Felly yr ydym yn barod i ddywedyd, ond nid yw dydd y farn etto wedi dyfod. Chwilio a holi y cyfryw rai, yn ddwys ac yn fanwl, yw y ffordd fwyaf tebygol o'u diwygio, neu ynte cael gwared o honynt.

Fe aeth y lloer o'i llawn oleuni,
Sy'n myn'd lai lai hyd at ei geni;
Felly hefyd yr â'r holl ddynion,
Ond sy'n adnabod gwaith y galon.

Ac fel hyn hwy a aethant ymlaen dan siarad ynghylch y pethau a welsent yn eu taith; a thrwy hynny hwy a aethant y ffordd honno yn ddifyr, yr hon yn ddiamau, heb y cyfryw ymddiddanion, a fuasai yn anhyfryd iddynt; canys mewn anialwch yr oeddynt hwy yr holl amser hyn.

Yn awr, wedi dyfod o honynt o fewn ychydig allan o'r anialwch, digwyddodd i Ffyddlon daflu ei olwg o'i du ol, a gweled un yn dyfod ar eu hol hwynt, ac yr oedd yn ei adnabod ef. Oh! ebe Ffyddlon wrth ei frawd, pwy sydd yn dyfod accw? Yna yr edrychodd Cristion, ac a ddywedodd, Fy hen gyfaill yr hwn a fu da i mi; Efengylwr yw efe: ïe, ebe Ffyddlon, bu dda i minnau hefyd, canys efe a'm gosododd i ar y ffordd tu a'r porth. Ar hyn daeth Efengylwr i fynu attynt, ac a'u cyfarchodd hwynt fel hyn: Tangnefedd i chwi fy anwyl garedigion, ac i bawb o'ch cynnorthwywyr.

EFENGYLWR YN EU GORDDIWES.

CRISTION. Groesaw, groesaw, garedig Efengylwr; wrth weled eich wynebpryd, ni's gallaswn lai na chofio eich hen garedigrwydd, a'ch llafur diflin er fy nhragywyddol ddaioni.

MAENT YN LLAWENHÂU WRTH YR OLWG ARNO.

FFYDD. A groesaw fil o weithiau, ebe Ffyddlon ddewrwych; pa mor ddymunol, O anwyl Efengylwr, yw'th gyfeillach i ni bererinion truain!

EFENG. Yna, ebe Efengylwr, pa fodd y bu gyda chwi, gyfeillion, er pan ymadawsom ddiweddaf; a pha beth a gyfarfuoch, a pha fodd yr ymddygasoch?

Yna Cristion a Ffyddlon a fynegasant iddo y cwbl oll a ddigwyddasai iddynt yn y ffordd: pa fodd, a pha mor anhawsed y daethant i'r lle hwnnw.

EFENG. A llawen iawn wyf finnau, ebe Efengylwr, nid am i chwi gyfarfod â phrofedigaethau, ond am i chwi fod yn orchfygwyr, ac am i chwi ddal ymlaen eich ffordd, er eich amryw wendidau, hyd y dydd hwn.[w]

EI GYNGOR IDDYNT.

Yr wyf y dra llawen, meddaf, am y pethau hyn, yn gystal er fy mwyn fy hun, ac er eich mwyn chwithau: myfi a heuais, a chwithau a fedasoch: ac y mae'r dydd yn dyfod, yn yr hwn y caiff y sawl sy'n hau a'r sawl sy'n medi gyd-lawenhâu, (hynny yw, os parhewch chwi hyd y diwedd yn eich ffordd,) canys yn ei iawn bryd y medwch oni ddiffygiwch. Y mae coron anllygredig o'ch blaen chwi, felly rhedwch fel y caffoch afael arni. Y mae rhai yn myned allan i geisio meddiannu y goron hon, ac wedi myned ymhell am dani, y mae arall yn dyfod ac yn ei dwyn hi oddi arnynt. Deliwch gan hynny yr hyn sydd gennych, fel na ddygo neb eich coron chwi. Nid ydych chwi etto allan o gyrhaedd

[w] Llawenydd pennaf gweinidogion Crist yw gweled eu plant ysprydol yn dal eu proffes yn gywir, ac yn harddu achos Duw.

ergydion Satan. "Ni wrthwynebasoch etto hyd at waed, gan ymdrech yn erbyn pechod." Heb. xii. 4. Bydded teyrnas nefoedd yn wastadol o flaen eich llygaid; a bydded gennych ffydd gadarn ynghylch y pethau sydd anweledig. Na choeliwch fod eich happusrwydd yn sefyll mewn dim sydd tu yma i'r nefoedd: ac yn bendifaddeu, edrychwch yn fanol at eich calonau eich hunain a'u trachwantau; canys y maent yn fwy eu twyll na dim, ac yn ddrwg ddiobaith. Jer. xxii. 10. Gosodwch eich wynebau fel callestr yn eu herbyn: mae'r hwn sy'n hollalluog yn y nef ac ar y ddaear yn eich plaid chwi.[x]

Yna y diolchodd Cristion iddo am ei gyngor, gan ddymuno arno, yn ei enw ei hunan a Ffyddlon, eu hyfforddi ymhellach pa fodd i fyned y rhan olaf o'u ffordd; oblegid, eb efe, ni a wyddom yn ddilys, mai prophwyd ydych, ac y gellwch chwi ragfynegu y pethau a ddigwyddant i ni rhagllaw yn ein taith, ac hefyd hyspysu i ni pa fodd y gallwn wrthwynebu a gorchfygu y profedigaethau a gyfarfyddwn â hwynt.

MAENT YN DIOLCH IDDO AM EI GYNGHORION.

EFENG. Yna ebe Efengylwr, fy mhlant anwyl, chwi a glywsoch allan o'r ysgrythyr, mai trwy lawer o orthrymderau y mae yn rhaid i ni fyned i deyrnas Dduw; ac hefyd fod rhwymau a blinderau ymhob dinas yn ein haros ni; ac am hynny na ddisgwyliwch fyned ymhell ar eich pererindod hebddynt, yn rhyw fodd neu gilydd. Chwi a gawsoch beth tystiolaeth am y gwirionedd yma yn barod: a chwi a gewch ychwaneg ar fyr; canys yr ydych yn awr, megis ag y gwelwch, ar fyned allan o'r anialwch hwn; a chwi a ddeuwch yn ebrwydd i dref, yr hon a ganfyddwch chwi yn y man o'ch blaen, ac yn y dref honno y gwarchaeir chwi yn galed gan elynion, y rhai a ymdrechant â'u holl nerth i'ch lladd chwi. A byddwch sicr o hyn, y gorfydd ar un o honoch, oni orfydd ar y llall, selio â'i waed y dystiolaeth yr ydych yn ei dal: eithr byddwch ffyddlon hyd angau, a'r Brenin a rydd i chwi goron y bywyd. Dat. ii. 10. A'r hwn a fyddo marw yno, er y bydd ei farwolaeth ef yn annaturiol, a'i boenau ond odid yn ddirfawr, a gaiff y goreu er hynny ar ei gyfaill; nid yn unig oherwydd y derbynir ef yn gynt i'r ddinas nefol, eithr hefyd oblegid y bydd iddo ddiangc rhag llawer o drueni a helbulon, y rhai a ddigwyddant i'r llall, cyn ei ddyfod ef i ben ei siwrnai. Eithr pan ddeloch i'r dref, a gweled yr hyn oll a ragfynegais i chwi yma wedi eu cyflawni, yna cofiwch eich cyfaill; ac ymwrolwch, a gorchymynwch gadwedigaeth eich eneidiau i Dduw, megis i Greawdwr ffyddlon, gan wneuthur yr hyn sydd dda yn ei olwg ef. 1 Pedr iv. 19.[y]

MAE YN RHAGFYNEGU IDDYNT Y TRALLODAU A GYFARFYDDANT YN FFAIR Y GWAGEDD, AC YN EU HANNOG I FOD YN DDIYSGOG.

YR HWN A FYDD MARW YNO A GAIFF Y GOREU AR EI GYFAILL.

Yna mi a welais yn fy mreuddwyd, pan gyntaf ag y daethant allan o'r anialwch,

[x] Mae yma rybuddion ac annogaethau. Dylid cysuro ac annog y pererinion ffyddlon, ac ar yr un pryd dangos iddynt yr angenrheidrwydd o wylio a gweddïo. Nid oes diogelwch i'r goreu, ond tra fyddo yn gweithio allan ei iechydwriaeth trwy ofn a dychryn.

[y] Dylai pererinion Sïon fod yn barod ar bob amser i gyfarfod â gorthrymderau, gan weddïo am gymmorth ymddwyn yn addas i'r efengyl, beth bynnag a ddelo i'w cyfarfod.

ganfod o honynt dref ar eu cyfer, a'i henw hi yw Gwagedd, ac ynddi hi y cedwir ffair trwy'r holl flwyddyn, yr hon a elwir Ffair y Gwagedd, am fod y dref lle yr ydys yn ei chadw hi yn ysgafnach na gwagedd; ac hefyd am nad yw y cwbl a werthir yno, neu sy'n dyfod yno, ddim amgen na gwagedd; megis y dywedodd y gwr doeth, "Gwagedd yw'r cwbl." Esa. xl. 17. Preg. i. 2.

HYNAFIAETH Y FFAIR.

Nid ffair newydd, ond hen ffair ydyw hon: mi a ddangosaf i chwi ei dechreuad hi.

Er ys agos i bum mil o flynyddoedd yr oedd pererinion yn ymdeithio tua'r ddinas nefol; a Belzebub, Apolyon, ynghyd a'r cythreuliaid eraill, a wybuant wrth y llwybr a wnaethai y pererinion, fod eu ffordd hwy i'r ddinas nefol yn myned trwy ganol tref Gwagedd; ac am hynny hwy a ddychymygasant godi yma ffair, i barhâu trwy gydol y flwyddyn, yn yr hon y gwerthid pob math o wagedd. Am hynny fe werthir ynddi bob

MARSIANDIAETH Y FFAIR.

rhyw o farsiandiaeth, megis tai, tiroedd, celfyddydau, swyddau uchel, anrhydedd, gwledydd, teyrnasoedd, trachwantau, trythyllwch o bob math, megis putteiniaid a'u lletteion, gwragedd, gwŷr, plant, meistriaid, gweision, bywydau, gwaed, cyrph ac eneidiau pobl, arian, aur, perlau, a pha beth na's cair ar werth yma![z]

Ac heblaw hynny, cair gweled yn y ffair hon bob amser, hudolwyr, twyllwyr, chwareyddion, ynfydion, eppaod, cnafiaid, a rogiaid o bob math. Lladron, llofruddion, godinebwyr, ac anudonwyr, wedi eu diwyno â gwaed gwirion.

Ac megis ag y mae mewn ffeiriau eraill, (llai eu bri,) felly hefyd y mae yma amryw heolydd, tan eu henwau priodol, lle y gwerthir y cyfryw farsiandiaeth. Y mae yma heol

HEOLYDD Y FFAIR.

y Brutaniaid, heol y Ffrangcod, heol yr Italiaid, heol yr Hyspaenwyr, a heol y Germaniaid, lle y mae amryw fath o wagedd ar werth. Ond megis mewn ffeiriau eraill, y mae rhyw bethau yn fwy enwedigol i'w cael ar werth, felly marsiandiaeth Rhufain sydd yn cerdded oreu yn y ffair yma, ond bod y Brutaniaid, a rhyw bobloedd eraill, yn dibrisio'r marsiandiaeth hynny.

Yn awr, fel y dywedais, y mae'r ffordd i'r ddinas nefol yn myned yn union trwy'r dref hon; a'r neb a fynno fyned i'r ddinas honno, heb fyned trwy'r dref gyforog yma, rhaid iddo fyned allan o'r byd. 1 Cor. v. 10. Fe orfu ar Dywysog y tywysogion, pan yr oedd

AETH CRIST TRWY Y FFAIR HON.

efe ar y ddaear, fyned trwy'r dref a'r ffair hon i'w wlad ei hun; ac fe'i gwahoddwyd ef gan Belzebub, penllywodraethwr y ffair, i brynu o'i wagedd ef: ïe, cynnygiodd ei wneuthur ef yn arglwydd y ffair, pe buasai ef ond ymgrymu iddo, a'i addoli ef wrth fyned trwy'r dref; ac oblegid fod y Tywysog yn dra anrhydeddus, dygodd Belzebub ef o heol i heol, gan ddangos iddo holl deyrnasoedd y byd mewn munud

[z] Ffair gwagedd yw'r byd hwn, ag sydd mor llawn o deganau a hudoliaeth. Gwaherddir i Gristionogion gydsynio â ffyrdd llygredig a gwageddus y byd. Mae dynion bydol am werthu pob peth, hyd yn oed eu cydwybodau a'u heneidiau, naill ai am wag-ddigrifwch, neu ynte am olud ac anrhydedd daearol. Eithr ystyriwn, fod yr hwn sydd yn caru y byd yn elyn i Dduw: ond yr hwn sydd yn berchen o fywiol ffydd, y mae efe yn gorchfygu'r byd, a'i holl ddrygau.

awr; fel y gallai ef (pe buasai bosibl) ddenu'r Bendigedig hwnnw i brynu peth o'i wagedd ef. Eithr nid oedd ganddo ef ddim serch at y cyfryw farsiandiaeth, ac am hynny efe a aeth ymaith o'r dref heb wario cymmaint ag un hatling ar y gwagedd yma: y mae'r ffair hon gan hynny yn hen beth, o hir barhad, ac yn ffair fawr iawn. Mat. iv. Luc iv.

OND NI PHRYNODD DDIM YNDDI.

Yn awr, fel y dywedais i, yr oedd yn rhaid i'r Pererinion fyned trwy'r ffair yma: eithr cyn gynted ag y daethant yno, fe gyffrowyd yr holl werin oedd yn y ffair; a'r holl dref a ymgasglasant o'u hamgylch hwynt, fel pe buasent mewn hwb-bwb; a hynny oherwydd amryw resymau.

MYNEDIAD Y PERERINION I'R FFAIR.

Yn gyntaf. Yr oedd y Pererinion wedi eu dilladu â'r cyfryw wisgoedd, nad oedd gan neb yn y dref a'r ffair honno eu bath: ac oblegid hynny yr oeddynt yn llygadrythu yn rhyfeddol arnynt. Rhai a ddywedent mai ynfydion oeddynt, rhai mai bedlemiaid, ac eraill a ddywedent mai gwŷr o wlad ddieithr oeddynt.

Y FFAIR MEWN HWB-BWB YR EU CYLCH.

ACHOS CYNTAF YR HWB-BWB.

Yn ail. Megis yr oeddynt yn rhyfeddu wrth weled eu dillad; felly hefyd yr oeddynt yn rhyfeddu wrth glywed eu hiaith hwynt; canys nid oedd nemawr yn deall yr hyn a lefarent. Eu hiaith hwy ydoedd iaith gwlad Canaan; ond gwŷr y byd hwn oedd pobl y ffair; canys yr oeddynt yn tyngu ac yn rhegu, ac yn offrwm eu heneidiau i'r diafol yn ddibaid: ac felly o'r naill ben o'r ffair i'r llall, yr oedd yr Pererinion, a'r sawl oedd yn marchnatta yno, megis barbariaid y naill i'r llall. 1 Cor. ii. 7, 8.

AIL ACHOS YR HWB-BWB.

Yn drydydd. Y peth mwyaf rhyfeddol gan y marsiandwyr ydoedd, fod y Pererinion yma yn llwyr ddibrisio eu holl farsiandiaeth hwy; canys ni wnaent hwy gymmaint ag edrych ar y pethau oedd ar werth yno: ac os gelwid arnynt i brynu dim, hwy a osodent eu bysedd yn eu clustiau, ac a waeddent, "Tro heibio fy llygaid, rhag edrych ar wagedd;" ac a edrychent i fynu, gan arwyddoccâu trwy hynny fod y pethau yr oeddynt hwy yn eu trin ac yn eu trafod, i'w cael yn unig yn y nefoedd. Sal. cxix. 37. Phil. iii. 19, 20.[a]

TRYDYDD ACHOS YR HWB-BWB.

Digwyddodd i ryw watwarwr, wrth ddal sylw ar eu hymddygiad, ofyn iddynt, 'Pa beth a brynwch chwi?' A hwythau yn sobr iawn a'i hattebasant, 'Ein hewyllys ni yw prynu'r gwirionedd.'[b] Ac ar hynny y cymmerwyd mwy o achlysur i'w dirmygu hwynt: canys rhai yn awr a'u gwatworent, rhai a'u henllibient, a rhai a annogent eraill i'w curo hwynt. O'r diwedd yr oedd yr holl ffair mewn terfysg ac hwb-bwb, hyd onid oedd pob peth allan o drefn. Yna y mynegwyd

PEDWERYDD ACHOS YR HWB-BWB.

EU DIRMYGU.

[a] Y mae y rhai duwiol yn rhyfeddod i'r byd, ac yn myned dan wawd a dirmyg, gan eu bod yn distadlu gwrthddrychau gweledig, ac yn rhoddi eu serch a'u hoffder ar bethau anweledig. Mor sanctaidd a diniweid ac mor amddifad o gybydd-dod a thrachwant, y dylai fod ymddygiad Cristionogion ar daith eu pererindod.

[b] Y gwirionedd a ddylai fod yn uwch ei werth gennym na holl fasnach a marsiandiaeth y byd.

hynny i arglwydd y ffair; ac yntef a ddaeth i waered yn ddïoed, ac a archodd i rai o'i gyfeillion ffyddlonaf eu holi hwynt yn fanwl, o achos y rhai yr oedd y fath gynnwrf yn yr holl ffair.

Felly fe ddygwyd y gwŷr o flaen y sawl a appwyntiwyd i'w holi hwynt; a gofynwyd

EU HOLI HWYNT

iddynt, i ba le yr oeddynt yn myned, ac i ba bwrpas y daethant yno yn y fath wisgoedd anarferol? Hwythau a'u hattebasant, mai dieithriaid a phererinion

MAENT YN DYWEDYD PWY YDYNT, AC O BA LE Y DAETHANT.

oeddynt yn y byd hwn, a'u bod hwy yn myned tua'u gwlad eu hunain, sef y Jerusalem nefol, ac na roisant hwy ddim achos, nac i wŷr y dref nac i'r marsiandwyr ychwaith, i'w hamharchu ac i'w lluddias hwy yn eu taith; oddi eithr bod hyn yn achos, sef, pan y gofynodd un iddynt pa beth a brynent, atteb o honynt hwythau mai'r gwir a brynent.

NI CHOELIR MO HONYNT.

Eithr ni choeliai y swyddogion eu bod hwy ddim amgen na bedlemiaid, a dynion allan o'u cof, neu ynte mai pobl oeddynt a'r a ddaethai yn bwrpasol i wneuthur cynnwrf yn y ffair. Am hynny hwy a gurasant y pererinion, gan eu

EU GOSOD YN Y CYFFION.

trybaeddu hwy â dom, ac wedi hynny hwy a'u gosodasant yn y cyffion, fel y byddent yn ddrychau i'r holl ffair.

Mae'r Pererinion yn Ffair Gwagedd,
Yn cael eu dal a'u curo'n giaidd;
Felly'r oedd: fe gafodd Iesu,
Gan y byd ei drin a'i faeddu.

Ac yno y buont dros ennyd yn wrthddrychau i watwarwyr a maleiswyr; ac arglwydd y ffair oedd yn y cyfamser yn chwerthin wrth weled eu hamharchu hwy yn y modd yma.

EU HYMDDYGIAD YN Y CYFFION.

Eithr yr oe y gwŷr yn amyneddgar iawn, heb roddi sen am sen, ond i'r gwrthwyneb, yr oeddynt yn bendithio, gan roddi geiriau da am rai drwg, a pharch am anmharch.

Ond rhai o'r ffair, wrth graffu yn well ar y Pererinion, ac heb farnu yn fyrbwyll am danynt, megis eraill, a ddechreuasant geryddu a beio'r bobl gyffredin, am eu bod hwy yn wastadol yn gwneuthur cam â'r dieithriaid yma yn y fath fodd dirmygus. Hwythau yn llidiog a attebasant y sawl oedd yn eu ceryddu hwynt, gan ddywedyd wrthynt, eu bod hwy cynddrwg a'r gwŷr oedd yn y carchardŷ, a'u bod hefyd (mewn pob tebygoliaeth) mewn cyngrair â hwynt, am eu bod yn pledio drostynt; ac oherwydd hynny y caent fod yn gyfranogion o'u haflwydd hwynt. A'r lleill a ddywedasant, am ddim a'r a welsent hwy, fod y dynion yn llonydd ac yn sobr, heb chwennych drwg i neb: a bod bagad yn marchnatta yn y ffair, y rhai a haeddent eu carcharu, ïe, a'u gosod yn y pilwri yn hytrach na'r dieithriaid yma. Ac wedi ymdaeru digon â'u gilydd, (a'r Pererinion trwy gydol yr amser yn ymddwyn eu hunain yn ddoeth ac yn bwyllog iawn ger eu bronau hwynt,) hwy a ruthrasant y naill ar y llall, gan guro a chlwyfo un eu gilydd.

Yna y dygwyd y ddau Bererin drachefn o flaen y swyddogion, i'w holi yn fanylach

ac achwynwyd arnynt, mai hwynt-hwy a fu'r achos o'r terfysg diweddar a fuasai yn y ffair. Ac am hynny fe'u curwyd hwy yn ddidrugaredd, a gosodwyd hwy mewn heiyrn, a dygwyd hwy mewn cadwynau i fynu ac i waered trwy yr holl ffair, er siampl a dychryn i eraill, rhag dywedyd o neb ddim yn eu plaid, neu ymgyfeillachu ac ymgyssylltu â hwynt. Eithr Cristion a Ffyddlon a ymddygasant eu hunain yn ddoethach etto, gan dderbyn y sarhâd a'r dirmyg a gawsant, gyda chymmaint o amynedd a llarieidd-dra, hyd oni ennillasant hwy trwy hynny lawer o bobl y ffair i'w plaid, er nad oeddynt ond nifer fechan i'w cydmaru â'r lleill. A gwnaeth hynny i'r lleill gynddeiriogi yn fwy; a dywedasant wrth y ddau wr, na chai carchar a heiyrn wasanaethu eu tro, ond y caent eu gosod i farwolaeth am y cynnwrf a wnaethant, ac am hudo rhai o'r ffair i fod ar eu rhan hwynt

EU CYHUDDO O ACHOS Y TERFYSG.

EU HARWAIN I FYNY AC I WAERED MEWN CADWYNAU, ER DYCHRYN I ERAILL.

ENNILL RHAI O BOBL Y FFAIR O'U PLAID

EU GWRTHWYNEBWYR YN PENDERFYNU EU LLADD.

Yna y danfonwyd hwy drachefn i'r carchar, hyd oni chymmerwyd cwrs ymhellach â hwynt, ac yn y carchar fe ddodwyd eu traed hwy yn sicr yn y cyffion.

Ac yno y daeth i'w cof hwynt yr hyn a ddywedasai eu cyfaill anwyl Efengylwr wrthynt; a hwy a gadarnhawyd yn fwy yn eu ffyrdd a'u dioddefiadau, gan iddo ef ragfynegu yr hyn a ddigwyddasai iddynt. Dechrenasant hefyd yn awr gysuro y naill y llall, gan farnu, mai'r hwn a ddioddefai farwolaeth yn gyntaf a gai'r goreu ar y llall; ac am hynny yr oedd pob un yn chwennych yn ei galon gael y rhagorfraint honno.[c] Eithr gan eu gorchymyn eu hunain i ddoeth ragluniaeth yr hwn sy'n llywodraethu pob peth, hwy a ymroisant gyda llawer o foddlonrwydd i ddwyn eu croes, hyd oni threfnid iddynt ryw gyflwr arall.

EU HANFON I'R CARCHAR DRACHEFN, AC WEDI HYNNY EU DWYN I'R FRAWDLE.

Yna wedi ordeinio amser cyfaddas, fe'u dygwyd hwy allan i'r frawdle, i gael eu barnu gan eu gelynion: enw'r barnwr oedd Casäwr pob daioni. Eu cyhyddiad ydoedd yr un fath mewn sylwedd, er fod ychydig o wahaniaeth yn y dull. Y matter cynnwysedig ynddo ydoedd hyn:

Fod y Pererinion yma yn elynion i'w crefftau a'u marsiandiaeth hwynt; a gwneuthur o honynt hwy derfysg ac ymryson yn y dref, gan hudo llaweroedd i dderbyn eu hopiniynau cyfeiliornus hwynt mewn matterion crefydd, gan ddiystyru a dirmygu cyfraith eu tywysog trwy wneuthur felly.

EU CYHUDDIAD.

Yna Ffyddlon a attebodd drosto ei hun, gan ddywedyd, 'Ni wrthwynebais i neb, ond y sawl oedd wrthwyneb i'r hwn sydd uwch na'r uchaf ar y ddaear; ac ni wnaethum i ddim terfysg, gan fy mod fy hun yn heddychlon: ac am y rhai a ennillwyd i'n plaid, fe'u hennillwyd trwy ystyried y gwirionedd a'r diniweidrwydd sydd ynom; ac y maent wedi troi yn unig oddiwrth y gwaeth at y gwell. Ac am y

FFYDDLON YN ATTEB DROSTO EI HUN.

[c] Y mae ymddygiad addfwyn y Pererinion, yn gystal a'u dewrder, yn harddu achos eu Meistr, Brenin y Nefoedd. Rhaid i bob gwir bererin ddioddef gwawd ac erlid oddiwrth y byd, er nad oes galwad ar bawb i fyned trwy yr unrhyw orthrymderau a threialon.

brenin yr ydych chwi yn son am dano, gan mai Belzebub ydyw ef, sef gelyn mawr i'n Harglwydd ni, yr wyf yn ei ddiystyru ef a'i holl angylion.'

Yna y cyhoeddwyd, od oedd gan neb ddim i ddywedyd ymhlaid eu Harglwydd Frenin Belzebub yn erbyn y carcharor wrth y frawdle, ymddangos o honynt ar frys i roddi eu tystiolaeth i'r llys; ac ar hynny daeth tri o dystion i mewn, a'u henwau oedd Cynfigenus, Coel-grefyddol, a Gwenieithgar.[d] Yna y gofynwyd iddynt, a adwaenent hwy y carcharor wrth y bar? a pha beth oedd ganddynt i ddywedyd yn ei erbyn ef tros eu Harglwydd Frenin.

Yna y safodd Cynfigenus i fynu, ac a ddywedodd fel hyn, 'Fy arglwydd ustus, myfi a adwaen y gwr yma er ys talm o amser, ac mi a dystiolaethaf ar fy llŵ, o flaen yr orseddfaingc anrhydeddus-hon, ei fod ef ——

CYNFIGENUS YN DECHREU.

BARNWR. Arafwch, rhoddwch ei lŵ iddo ef; ac wedi gwneuthur felly, efe a ddywedodd, 'Nid yw'r gwr hwn er tecced yw ei enw, ond un o'r dynion diffeithiaf yn ein gwlad: nid yw yn gwneuthur pris yn y byd o'n tywysog, nac o honom ninnau ei ddeiliaid ef, o gyfreithiau nac o ddefodau; ond y mae'n gwneuthur a allo i lanw pennau pobl â rhyw opiniynau gwrthwyneb i'r awdurdod goruchel; a'r cyfryw opiniynau y mae efe yn eu galw, yn egwyddorion ffydd a sancteiddrwydd: ac yn neillduol myfi a'i clywais ef â'm clustiau fy hun yn taeru, fod Crist'nogrwydd a defodau ein tref ni yn gwbl wrthwyneb i'w gilydd, ac na's gellir eu cymmodi hwynt: a thrwy yr ymadrodd hwn, fy arglwydd ustus, y mae efe ar unwaith yn condemnio nid yn unig ein holl weithredoedd canmoladwy ni, eithr ninnau hefyd sydd yn eu gwneuthur hwynt.'

BARN. Yna y gofynodd y barnwr iddo, A oes gennych ddim mwy i ddywedyd?

CYNFIG. Fy arglwydd, gallwn ddywedyd llawer mwy; eithr ni fynnwn flino'r llys: etto os bydd rhaid, (wedi i'r gwŷr boneddigion eraill roddi eu tystiolaeth i mewn,) yn hytrach nag y bo dim yn eisiau i wneuthur diben o hono, myfi a helaethaf fy nhystiolaeth yn ei erbyn ef. Yna fe archwyd i Gynfigenus sefyll heibio, a galwyd Coel-grefyddol, a gorchymynwyd iddo edrych ar y carcharor wrth y frawdle, a gofynwyd iddo, pa beth a allai ef ddywedyd dros ei Arglwydd Frenin yn ei erbyn ef: ac wedi rhoddi ei lŵ iddo, efe a lefarodd fel y canlyn:

COEL-GREFYDDOL YN DILYN.

COEL-GREF. Fy arglwydd, nid ydwyf hanner cydnabyddus â'r gwr hwn, ac nid wyf yn chwennych bod yn fwy cydnabyddus âg ef: er hynny myfi a wn hyn, oddiwrth ryw ymddiddan a fu rhyngof fi ag yntef y dydd arall yn y dref yma, mai dyn diriad a thra peryglus ydyw ef; canys mi a'i clywais ef y pryd hynny yn dywedyd, fod ein crefydd ni yn ddrwg, sef yn gyfryw un, nad yw bosibl i neb foddloni Duw trwyddi. Ac

[d] Cynfigen, coel-grefydd, a gweniaith, ydynt y gelynion gwaethaf i wir grefydd a duwioldeb. Yspryd y fall yw cynfigen; ac ni ddichon coel-grefydd gyd-ymddwyn â'r gwirionedd, yr hwn sydd yn argyhoeddi pob amryfusedd a chymmysgedd; ac am y gwenieithgar, efe a ddwg dystiolaeth yn erbyn gwirionedd a gonestrwydd, er mwyn boddio'r byd, a'r mawrion.

oddiwrth yr ymadroddion yma, fy arglwydd, chwi a wyddoch yn ddigon da, fod hyn yn canlyn, sef, mai ofer yw'n haddoliad ni yn wastadol, a'n bod ni etto yn ein pechodau, ac y byddwn ni yn ddamnedig yn y diwedd; a hyn sydd gennyf fi i ddywedyd.

TYSTIOLAETH GWENIEITHGAR.

Yna y rhoddwyd Gwenieithgar i'w lŵ, ac fe archwyd iddo ddywedyd yr hyn a wyddai, yn mhlaid ei Arglwydd Frenin, yn erbyn y carcharor wrth y frawdle.

MAE PECHODAU OLL YN ARGLWYDDI, AC YN RHAI MAWRION.

GWEN. Fy arglwydd, a chwithau wŷr boneddigion oll, myfi a adwaen y cyfaill yma er ys talm o amser, ac a'i clywais ef yn difenwi ein hardderchog dywysog Belzebub, ac yn llefaru yn ddirmygus am ei gyfeillion anrhydeddus ef, sef am yr arglwydd Henddyn, yr arglwydd Hyfrydwch cnawdol, yr arglwydd Gloddest, yr arglwydd Trachwantus am wag-ogoniant, yr hen arglwydd Anlladrwydd, Syr Cybydd angawr, ynghyd a phawb eraill o'n pendefigion ni;* ac efe a ddywedodd ymhellach, Pe b'ai pawb o'r un feddwl âg ef, os byddai bosibl, na chai un o'r rhai hyn aros yn hwy yn y dref yma. Heblaw hynny, fy arglwydd, nid arswydodd efe eich difenwi chwithau hefyd, yr hwn sy'n awr wedi ei osod i fod yn farnwr arno ef, gan eich galw chwi yn filain annuwiol, wrth fytheirio allan lawer o eiriau enllibaidd eraill am danoch chwi, ac am y rhan fwyaf o uchelwyr ein tref ni. Wedi i hwn ddywedyd ei chwedl, fe drodd y barnwr at y carcharor wrth y frawdle, gan ddywedyd wrtho, 'Tydi, y crwydriad, yr heretic, a'r bradwr, a glywaist pa beth a dystiolaethodd y gwŷr gonest hyn i'th erbyn di?'

FFYDD. A gaf fi gennad i ddywedyd ychydig drosof fy hun?

BARN. Syr, syr, yr ydych chwi yn haeddu cael eich gosod i farwolaeth yn ddiattreg, yn y man hyn; ond etto, fel y gallo pawb weled ein llarieidd-dra ni tu ag attoch, moeswch glywed beth sydd gennych, y crwydriad budr, i ddywedyd drosoch eich hunan.

['Nawr, chware'r gwr, O Ffyddlon!
Llefara dros dy Dduw;
Nac ofna di mo falais,
Na gwialen neb drwg-ryw;
Llefaru'n hŷ, O ddewr-ddyn!
Mae'r gwir o'th blaid a'th du,
Bydd farw trosto yma,
Cai goron freiniol fry.]

AMDDIFFYNIAD FFYDDLON.

FFYDD. Am yr hyn a lefarodd Mr. Cynfigenus, yr wyf fi'n atteb, Na ddywedais i ddim ond hyn, sef, fod y rheolau, cyfreithiau, y defodau, a'r bobl hynny y sy'n wrthwyneb i air Duw, (fod y rhei'ny i gyd, meddaf fi,) yn wrthwyneb

* Y mae gloddest, a thrachwant, a chybydd-dod, yn gyfeillion i ormod o wŷr mawrion y byd, ac anhawdd ganddynt glywed fod dynion o isel-radd, yn dwyn tystiolaeth yn erbyn y cyfryw bethau pechadurus, fel pe baent yn chwennych gwaradwyddo boneddigion a gwŷr o raddau uchel.

i Gristionogrwydd. Os dywedais i ar fai yn hyn, yr wyf fi yn barod, ond i chwi ddangos i mi fy nghamsyniad, i alw fy ngeiriau yn ol.

Yn ail, am y peth a dyngodd Mr. Coel-grefyddol i'm herbyn, hyn yn unig a ddywedais, sef, fod ffydd ddwyfol yn beth gofynol yn addoliad Duw; eithr ni ddichon ffydd ddwyfol ddim bod heb ddatguddiad dwyfol o ewyllys Duw. Ac am hynny ni ellir cyflawni pa bethau bynnag a wesgir i mewn i addoliad Duw, anghyttunol â'r datguddiad dwyfol hynny, ond trwy ffydd ddynol, yr hon sydd yn anfuddiol i fywyd tragywyddol.

Ac am yr hyn a dyngodd Mr. Gwenieithgar, yr wyf fi'n atteb (heb ddal sylw ar ei waith yn haeru fy mod i yn difenwi, &c.) fod Belzebub, tywysog y ddinas hon, a'r holl dorf o'i weision ef, yn gymhwysach i fod yn uffern, nac yn y wlad neu'r ddinas yma. Felly Duw a drugarhao wrth fy enaid i.†

Yna y dywedodd y Barnwr wrth y cwest, (y rhai tros yr holl amser a safasant gyferbyn, i wrando ac i ddal sylw,) Chwy-chwi, wŷr boneddigion o'r cwest, a welwch y gwr yma, o achos pa un y bu cymmaint o gynnwrf yn ddiweddar yn ein tref ni: chwi a glywsoch pa bethau a dystiolaethodd y boneddigion hyn yn ei erbyn ef; ac hefyd ei wrth-attebion a'i gyfaddefiad ei hun. Y mae yn sefyll arnoch chwi yn awr ei fwrw, neu ei gadw ef. Ond etto yr wyf fi yn gweled hyn yn beth cymmwys, sef, i'ch addysgu chwi ynghylch natur ein cyfreithiau ni.

ARAITH Y BARNWR WRTH Y CWEST.

Yn nyddiau'r brenhin Pharao (gwas i'n Tywysog Belzebub) y gwnaethpwyd cyfraith, yn yr hon y gorchymynwyd bwrw plant gwrryw yr Israeliaid i'r afon, rhag ofn i'r rhai o grefydd wrthwyneb i'w grefydd ef amlhâu, a myned yn drech nag ef. Gwnaethpwyd act hefyd yn nyddiau Nebuchodonosor fawr (gwas arall i'n Tywysog ni) y byddai i bwy bynnag ni syrthiai i lawr ac addoli ei ddelw aur ef, gael eu bwrw i ffwrn o dân poeth. Gwnaethpwyd act hefyd yn nyddiau Darius, y byddai i'r sawl a alwai ar un Duw (tros ryw amser terfynedig) onid yn unig arno ef, gael eu taflu i ffau'r llewod. Ecsod. i. Dan. iii. a'r vi. Yn awr, y mae'r gwrthryfelwr yma wedi troseddu y cyfreithiau hyn i gyd, nid yn unig mewn meddwl, eithr hefyd mewn gair a gweithred, yn hyn ni's gellir ei ddioddef.

Pharao a wnaeth ei gyfraith i ragflaenu ac i luddias anghydfod a niweid; canys nid oedd un bai etto yn weledig, fel y mae y beiau yn amlwg yma. Am yr ail a'r drydedd gyfraith, chwi a glywsoch fel y mae'r carcharor yn dadleu yn eu herbyn, trwy ddywedyd yn erbyn ein crefydd ni: ac yn awr y mae'n haeddu marw am y teyrnfradwriaeth a gyfaddefodd efe.

Yna yr ymneillduodd y cwest, a'u henwau ydoedd, Mr. Dall, Mr. Diddaioni, Mr.

† Mae Ffyddlon y Pererin yn atteb yn ddïarswyd drosto ei hun, ger bron gelynion ei Arglwydd. Y mae efe yn sefyll ar gadarn sail y gwirionedd dwyfol, ond yr oedd ei wrthwynebwyr yn casâu ac yn ffieiddio y gwirionedd, ac o herwydd hynny ni dderbynient ei dystiolaeth.

Maleisus, Mr. Anllad, Mr. Oferddyn, Mr. Pen-galed, Mr. Uchel-drem, Mr. Gelyniaeth yn erbyn pob daioni, Mr. Celwyddog, Mr. Creulondeb, Mr. Casäwr y goleuni, Mr. Anghymmodlon; a'r rhai hyn i gyd a roisant eu barn yn bennodol yn erbyn y carcharor yn eu plith eu hunain; ac wedi hyn hwy a gyttunasant yn un fryd ei ddwyn ef i mewn yn euog o farwolaeth o flaen y Barnwr. Ac yn gyntaf, yn eu plith eu hunain, ebe Mr. Dall, y blaenor, Myfi a welaf yn eglur, mai heretic ydyw'r dyn yma. Ymaith a'r cyfryw un oddi ar y ddaear, ebe Mr. Diddaioni. Ië, ebe Mr. Maleisus, ymaith ag ef; canys y mae yn gas gennyf yr olwg arno. Ni ellais i erioed ei aros ef, ebe Mr. Anllad: na minnau ychwaith, ebe Mr. Oferddyn, canys fe fyddai bob amser yn condemnio fy ffyrdd i. Crogwch ef, crogwch ef, ebe Mr. Pen-galed. Nid yw efe ond dihiryn salw, ebe Mr. Uchel-drem. Mae 'nghalon i yn codi yn ei erbyn ef, ebe Mr. Gelyniaeth yn erbyn pob daioni. Gwylliad brwnt yw ef, ebe Celwyddog. Mae crogi yn rhy dda iddo, ebe Mr. Creulondeb. Moeswch i ni yn ebrwydd ei ddanfon ef allan o'r byd, ebe Mr. Casäwr y goleuni. Pe rhoddid i mi yr holl fyd, ni ellwn i ymheddychu âg ef, ebe Mr. Anghymmodlon. Gadewch i ni gan hynny yn ebrwydd ei ddwyn ef i mewn yn euog o farwolaeth: ac felly y gwnaethant, a'r farn a roddwyd arno ef oedd ei gymmeryd oddiwrth y frawdle i'r carchar drachefn, ac oddi yno i'r ddihenyddfa, i ddioddef y farwolaeth greulonaf a ellid ei dychymyg.[e]

MAENT YN PENDERFYNU EI DDWYN YN EUOG O FARWOLAETH.

Yna hwy a'i dygasant ef allan i'w ddihenyddu, yn ol eu cyfraith hwynt: ac yn gyntaf hwy a'i fflangellasant ac a'i cernodiasant ef; ac wedi hynny hwy a frathasant ei gnawd ef â chyllill, ac a'i llabyddiasant ef â meini: ac yn ddiweddaf, wedi ei wanu ef trwyddo â'u cleddyfau, hwy a'i llosgasant ef yn ulw wrth y dihenydd-bawl. A thyma i chwi ddiwedd Ffyddlon.

DIHENYDDIAD CREULAWN FFYDDLON.

Eithr mi a welais (o'r tu ol i'r fintai oedd yn bresennol wrth ei losgi ef) gerbyd a chwpl o feirch yn disgwyl am dano; a phan gyntaf ag y bu ef farw trwy'r poenau hyn, fe'i dygwyd ef i'r cerbyd; ac yn ddisymmwth cipiwyd ef i fynu trwy'r cymmylau, gyda sain udgorn, y ffordd nesaf i'r ddinas nefol.

Ffyddlon enwog am dduwiol-fryd,
Da mewn gair, a gweithred hefyd,
Ni allai barnwr, cwest, na thystion,
Wneuthur i ti ddim niweidion.
Ond lle d'orchfygu'n hyrwydd,
Dangosasant gynddeiriogrwydd;
Pan b'ont hwy a'u henwau'n feirwon,
Byddi byth ymhlith y bywion.

[e] Gwŷn eu byd y sawl a euog fernir gan arglwydd ffair gwagedd, a'i bendefigion. Na fydded i'r gwir bererinion chwennychu gair da gan elynion Crist. Y rhai a gollant eu parch, eu clod, a'u bywyd, er mwyn eu Harglwydd, a dderbyniant wobr dragywyddol.

Eithr hwy a arbedasant Gristion y tro yma, gan ei ddanfon ef yn ol i'r carchar, lle y gadawsant ef dros ryw ennyd. Ond Duw, yr hwn sy'n goruwch-reoli pob peth, (gan fod ganddo allu i ffrwyno eu cynddaredd hwynt,) a wnaeth ffordd iddo ddiangc y pryd hyn rhag malais ei elynion; ac felly efe a aeth ar hyd ej ffordd dan ganu:

CRISTION ETTO YN NGHARCHAR.

Ffyddlon, cywir a fuost ti,
  I'th unig * Ri rhagorol;
Gyda'r hyn cai ar ol hyn,
  Fawr wynfyd yn drag'wyddol.
Pan fyddo'r anffyddloniaid fflwch,
  A'u holl ddigrifwch ofer,
Yn uffern boeth yn udo'n rhost,
  Yn ddigon tost eu † piner,
Cân, Ffyddlon, cân; bo i'th enw mad,
  Barch a pharhad trag'wyddol;
Er cael dy ladd, Gwirionedd yw,
  Dy fod yn fyw'n wastadol.

Yn awr mi a welais yn fy mreuddwyd, nad aethai Cristion ymaith yn unig wrtho ei hun; canys yr oedd yno un a elwid Gobeithiol, (calon yr hwn a gyffyrddwyd, ac a wnaethpwyd yn obeithiol, trwy ddal sylw ar eiriau ac ymddygiad Cristion a Ffyddlon dan eu dioddefiadau yn y ffair,) yr hwn a lynodd wrth Gristion, ac a wnaeth gyfammod brawdol âg ef, gan ddywedyd wrtho, y byddai efe gydymaith iddo yn ei daith. Fel hyn yu b farw i ddwyn tystiolaeth i'r gwirionedd; ac wele un arall yn cyfodi o'i ludw ef i fod yn gyfaill i Gristion yn ei bererindod.[f] A dywedodd Gobeithiol wrth Gristion, fod llawer o bobl yn y ffair honno y rhai mewn amser oeddynt debygol i'w canlyn hwynt.

CRISTION YN CAEL CYDYMAITH ARALL.

ERAILL O BOBL Y FFAIR YN CANLYN.

A phan gynted ag y daethant allan o'r ffair, hwy a oddiweddasant wr a elwid Cam-ddibenion; a hwy a ofynasant iddo, Syr, gwr o ba wlad ydych chwi? a pha belled yr ydych chwi yn teithio ar hyd y ffordd hon? Yntef a'u hattebodd hwynt, ei fod e'n dyfod o dref Teg-ymadrodd, a'i fod yn myned tua'r ddinas nefol, eithr ni fynegodd iddynt ei enw.

GODDIWEDDYD CAM-DDIBENION.

CRISTION. A ddichon dim da, ebe Cristion, ddyfod allan o dref Teg-ymadrodd? Diar. xxvi. 25.

CAM-DDIBENION. Dichon, yr wyf yn gobeithio, ebe Cam-ddibenion.

CRISTION. Attolwg, Syr, beth yw eich enw chwi?

* Arglwydd. † Cyflwr.

[f] Trwy ymarweddiad addfwyn a syml y Pererinion, rhai a ennillwyd i fod ar ochr yr Arglwydd; ac y mae un yn enwedigol yn penderfynu myned gyda Christion, a bod yn gyfaill cywir iddo.

CAM-DDI. Yr wyf fi'n ddieithr i chwi, a chwithau i minnau; os ydych yn trafaelu y ffordd hon, bydd yn dda iawn gennyf gael eich cymdeithas; onid ydych, rhaid i mi fod yn foddlon.

CAM-DDIBENION YN ANFODDLAWN I DDWEYD EI ENW.

CRISTION. Myfi a glywais son am y dref hon, sef, Teg-ymadrodd, ebe Cristion, a hyd yr wyf fi'n gofio, hwy a ddywedant ei bod hi yn lle cyfoethog.

CAM-DDI. Ydyw ar fy ngair i, ac y mae i mi lawer iawn o geraint cyfoethogion yn byw yno.

CRISTION. Pwy yw eich ceraint chwi yno?

CAM-DDI. Yr holl dref gan mwyaf; ond yn enwedigol yr Arglwydd Chwyldroi, yr Arglwydd Gwasanaethydd-amser, yr Arglwydd Teg-ymadrodd (oddi wrth henafiaid pa un y cafodd y dref ei henw) ac hefyd Mr. Tafod-llyfn, Mr. Dau-wynebog, Mr. Pobpeth, a pherson ein plwyf; Mr. Dau-dafod, yw fy ewythr, brawd fy mam; ac i ddywedyd i chwi'r gwir, yr wyf fi yn awr yn wr bonheddig, o gymmeriad mawr, ac enw da; er nad oedd fy hen daid i ond morwr, yn rhwyfo un ffordd, ac yn edrych ffordd arall; ac wrth y gelfyddyd honno yr ennillais innau y rhan fwyaf o'm golud.

CRISTION. A ydych chwi yn wr priod?

CAM-DDI. Ydwyf, ac y mae fy ngwraig i yn llawn o rinweddau da, a merch ydyw hi i'r Arglwyddes Rhagrithiol; a chan fod ei thylwyth hi'n anrhydeddus, hwy a roisant y cyfryw ddygiad i fynu iddi, fel y medr hi ymddwyn yn weddaidd, yn gystal o flaen tywysog ac o flaen cyffredin. Gwir yw, fod peth gwahaniaeth mewn crefydd rhyngom ni a'r gwŷr o'r sect fanylaf, etto nid yw hynny ond mewn dau o byngciau bychain. Yn gyntaf, nid ydym ni yn ymdrechu un amser i rwyfo yn erbyn y gwynt a'r llanw. Yn ail, yr ydym ni bob amser yn awyddus i fod yn grefyddol, pan y bo crefydd yn myned yn ei sandalau arian: canys da iawn gennym rodio gyda hi yn yr heolydd, os bydd yr haul yn tewynnu arni, a'r bobl yn ei chlodfori.[g]

GWRAIG A THEULU CAM-DDIBENION.

Y GWAHANIAETH RHWNG CAM-DDIBENION AC ERAILL MEWN CREFYDD.

Yna Cristion a drodd ychydig o'r neilldu, at ei gyfaill Gobeithiol, ac a ddywedodd wrtho, 'Yr wyf fi yn tybied mai Mr. Cam-ddibenion, o dref Teg-ymadrodd, yw'r dyn hwn; ac os efe ydyw'r gwr, y mae gennym yn ein cwmpeini cyn benned cnaf a'r pennaf yn y parthau hyn. Yna ebe Gobeithiol, Gofynwch iddo beth yw ei enw ef: yn sicr mi debygwn na's dylai ef gywilyddio datguddio ei enw. Felly Cristion a aeth atto drachefn, ac a ddywedodd, Syr, yr ydych chwi'n siarad, megis un a fai yn tybied ei hun yn meddu ychwaneg o wybodaeth na llaweroedd eraill: ac onid wyf yn eich cam-gymmeryd, mi

[g] Onid yn y modd yma y mae hi'n bod yn rhy aml gyda chrefyddwyr yr oes hon? Yspryd y gwirionedd a ddywed, bod yn rhaid "i bawb sy'n byw yn dduwiol yn Nghrist Iesu gael eu herlid." 2 Tim. iii. 12. Eithr y mae llaweroedd yn ymddwyn megis pe gallent ddyfeisio y ffordd o wneuthur Yspryd Duw yn gelwyddog! canys y maent yn troi ac yn trafod felly, yn ol eu dychymyg gwag eu hunain, megis pe gallent ganlyn Crist, ac ar yr un pryd byw yn heddychlon â'r byd, yr hwn sydd mewn gelyniaeth yn ei erbyn ef. Twyllo eu hunain yn dosturus y mae y cyfryw ddynion!

debygwn fy mod yn eich hanner adnabod chwi; onid Mr. Cam-ddibenion yw eich enw chwi? ac onid ydych yn byw yn nhref Teg-ymadrodd?

CAM-DDI. Nid Cam-ddibenion yw fy enw i: eithr gwir ydyw, fod rhai o'm caseion yn fy llysenwi felly; ac mae'n rhaid i mi ymfoddloni i ddioddef eu hanmharch, megis y dioddefodd gwŷr da eraill o'm blaen.

CRISTION. A roisoch chwi ddim achos erioed i neb i'ch galw chwi wrth yr enw hwn?

PA FODD Y CAFODD CAM DDIBENION EI ENW.

CAM-DDI. Na ddo erioed, ond fe gymmerodd pobl achlysur i'm galw i wrth yr enw hwnnw, am fy mod i yn tueddu yn wastadol i farnu, fel yr oedd pobl eraill yn arfer o farnu, beth bynnag a fyddent, os defod a dull y wlad oedd hynny: ac yr oeddwn i yn lwcus iawn i ennill yn dda wrth y gwaith yma; ac os digwyddodd i mi gasglu cyfoeth yn y modd hyn, rhaid i mi eu cyfrif yn fendithion; eithr na anmharched y maleisus fi am hyn o beth.[h]

CRISTION. Yr oeddwn i yn tybied yn wir mai chwi oedd y gwr a glywais i son am dano: ac i ddywedyd wrthych chwi fy meddwl, yr wyf fi yn ofni fod yr enw hwn perthyn yn fwy priodol i chwi nag y mynnech i ni dybied ei fod.

MAE YN CHWENNYCH MYNED GYDA HWYNT.

CAM-DDI. Wele, os mynnwch ddychymyg pethau felly, ni allaf fi wrthych: ond os byddwch mor fwyn a'm cymmeryd i'ch cymdeithas, chwi a'm cewch yn gydymaith teg.

CRISTION. Os dewch chwi gyda ni, rhaid i chwi fyned yn erbyn gwynt a llanw, yr hyn sy'n wrthwyneb i'ch barn chwi: a rhaid i chwi hefyd ymddangos tros grefydd, pan y b'o hi yn ei hen gadachau, yn gystal a phan y b'o hi yn ei sandalau arian: a'i harddel hi hefyd pan y byddo hi yn rhwym mewn cadwynau, yn gystal a phan y byddo hi yn rhodio yr heolydd mewn anrhydedd.

CAM-DDI. Nid oes i chwi arglwyddiaeth ar fy ffydd i: gadewch fi i'm rhydd-did, a deuaf gyda chwi.

CRISTION. Na ddewch gam ymhellach gyda ni, oni wnewch fel yr y'm ninnau yn gwneuthur.

CAM-DDIBENION A HWYTHAU YN YMADAEL.

Yna ebe Cam-ddibenion, Ni ymadawaf fi byth â'm hen brif-byngciau a'm dibenion, gan eu bod yn ddiniweid ac yn fuddiol: oni chaf fi deithio gyda chwi, rhaid i mi fyned wrthyf fy hunan, fel y gwnaethum cyn eich gorddiwes chwi, nes y delwyf yn mysg rhai a fyddo da ganddynt fy nghwmpeini.[i]

YNTAU YN CAEL CYMDEITHION NEWYDD.

Yn awr, mi a welwn yn fy mreuddwyd, Gristion a Gobeithiol yn ei adael ef ar eu hol: eithr digwyddodd i un o honynt edrych drach ei gefn; ac efe a welai dri o wŷr yn dyfod ar ol Mr. Cam-ddibenion: ac wele, pan y darfu iddynt nesâu atto, efe a ymgrymodd iddynt hyd y llawr, a hwythau hefyd a ymgrymasant iddo

[h] Cymmerwn ofal rhag ein maglu gan hûd a thwyll y fath ragrithwyr. Na fyddwn yn ddau-ddyblyg, yn ceisio gwasanaethu Duw a mammon; bydded i ni yn hytrach ymdrechu i fod yn gywir ac yn ddidwyll, yn ein holl ymarweddiad.

[i] Er nad oedd y Pererinion am roddi barn fyrbwyll yn achos y gwr hwn, etto wedi adnabod ei dwyll, maent yn ymwrthod â'i gyfeillach, gan na allent ei ddwyn i'r iawn ffordd.

yntef. Enwau'r gwŷr oedd Mr. Cofleidio'r Byd, Mr. Llygad-arian, a Mr. Crintach; sef gwŷr y buasai Mr. Cam-ddibenion gynt yn gydnabyddus â hwynt; canys cyd-ysgo - heigion a fuasent yn eu hieuengctid, a'u meistr hwy oedd Mr. Dal-gafael ar y byd, yn nhref Câr-elw, yn hon sydd dref farchnad yn Sîr Trachwant yn y gogledd: a'u hathro a ddysgodd iddynt y gelfyddyd o elwa, naill ai trwy drais, twyll, gweniaith, dywedyd celwydd, neu ynte trwy wneuthur lliw o grefyd. A'r gedwar pendefig yma a ddysgasant gymmaint o gelfyddyd eu hathro, hyd oni fedrai pob o honynt gadw yr unrhyw ysgol ag yntef.*

Ac yn ol iddynt (fel y dywedais) gyfarch gwell i'w gilydd, gofynodd Mr. Llygad-arian i Mr. Cam-ddibenion, Pwy ydyw'r rhai accw sydd o'n blaen ar y ffordd? Canys yr oedd Cristion a Gobeithiol etto o fewn golwg iddynt.

CAM-DDI. Dau wr o wlad bell ydynt, rhai sydd yn myned ar bererindod. DARLUNIAD CAM-DDIBENION O'R PERERINION.

LLYGAD-ARIAN. Och! paham na's arosent, fel y cawsem eu cwmpeini da hwy; canys y maent hwy, a ninnau, a chwithau, Syr, yr wyf fi yn gobeithio, yn myned ar bererindod.

CAM-DDI. Yr ydym ninnau felly yn wir, ond y mae'r gwŷr accw y sydd o'n blaen ni mor styfnig ac mor anystwyth, trwy garu eu hopiniynau eu hunain, gan ddibrisio opiniynau rhai eraill, fel bydded gwr mor dduwiol ag a mynno, etto oni bydd ef yn cyttuno â hwynt-hwy ymhob pwngc, nid ymgyfeillachant âg ef.

MR. CRINT. Drwg iawn yw hynny; yr ydym ninnau yn darllen am rai ag sydd yn rhy gyfiawn, ac y mae styfnigrwydd y fath wŷr yn eu gyrru hwynt i farnu a chondemnio pawb onid eu hunain. Eithr, attolwg, pa fath, a pha sawl un oedd y pethau yr oeddech yn anghyttuno â hwynt-hwy yn eu cylch?

CAM-DDI. Yr oeddynt hwy yn ol eu pen-galedrwydd yn barnu, mai eu dyledswydd hwy ydoedd teithio trwy bob tywydd, a minnau wyf yn disgwyl am wynt a llanw. Y maent hwy am anturio y cwbl oll a feddont dros Dduw mewn munud, a minnau ydwyf yn disgwyl pob odfa i sicrhâu fy einioes a'm golud. Y maent hwy am arddel eu crefydd, pe byddai'r holl fyd yn eu herbyn; eithr yr wyf finnau dros grefydd, cyn belled ag y byddo'r amseroedd a'm diogelwch fy hun yn rhoddi lle i hynny. Y maent hwy am ymlynu wrth grefydd, pan y byddo hi mewn dirmyg a diystyrwch; eithr yr wyf finnau am lynu wrthi pan y byddo hi yn rhodio yn ei sandalau auraidd, a'r haul yn llewyrchu arni, a'r holl bobl yn ei chlodfori.†

MR. COFLEIDIO'R BYD. Mr. Cam-ddibenion, da iawn y gwnewch chwi, os parhewch felly byth; canys i'm tyb i, y mae'r dyn hwnnw'n ynfyd, yr hwn a gyll ei feddiannau pan y gallo eu cadw hwynt. Byddwn ddoeth fel seirph: da cyweirio'r gwair pan fo'r haul yn llewyrchu. Chwi a welwch fel y mae'r wenynen yn llechu yn y gauaf,

* Ni a ganfyddwn ambell dro ysmala yn rhai o ymadroddion yr Awdwr, er bod yr ystyr yn ddwfn.
† Mae y twyllwr yn ddigon rhydd yr awrhon, ymhlith y rhai a chwareuant ar yr un tant ag ef ei hun.

ac yn llafurio yn unig pan y gallo hi gael budd gyda phleser. Y mae Duw yn rhoddi gwlaw weithiau, a thegwch weithiau eraill: os bydd neb mor ynfyd a mŷned trwy'r dymmestl, gadewch iddo fyned; etto o'n rhan ein hunain, moeswch i ni fod yn foddlon i orphwys, hyd oni chaffom y tywydd yn deg, a'r hin yn dawel. O'm rhan i, yr wyf fi yn caru'r grefydd honno yn oreu, ag a safo gyda'r sicrwydd mwyaf, y bydd i ni feddiannu y bendithion a roddes yr Arglwydd i ni: canys mae'n hawdd i ni ddeall, (onid y'm ni wedi gwallgofi,) y myn Duw i ni gadw er ei fwyn ef yr holl bethau daionus a gawsom oddi wrtho i'n cynnal ni yn y byd hwn: Abraham a Solomon a ymgyfoethogasant er eu bod yn grefyddol. Ac y mae Eliphaz yn dywedyd, y rhydd gwr da aur i gadw fel llwch: nid felly y dywed y gwŷr o'n blaen, os ydynt y cyfryw rai ag y dywedasoch chwi eu bod.

MR. CRINT. Yr wyf fi yn meddwl ein bod ni oll wedi cyttuno ar y pwngc hwn, ac am hynny nid oes achos siarad ymhellach am dano.

MR. LLYGAD-AR. Nid rhaid yn ddiau ddywedyd gair ymhellach ynghylch y matter; canys yr hwn nid yw yn credu na 'sgrythyr na rheswm (a chwi a welwch fod y ddau ar ein plaid) nid yw hwnnw yn adnabod ychwaith mo'i rydd-did, nac yn ceisio ei ddiogelwch ei hun.

CAM-DDI. Fy mrodyr, yr ydym ni oll yn awr (fel y gwelwch) yn myned ar bererindod; ac o ran difyrru yr amser yn well, rhowch gennad i mi ofyn i chwi gwestiwn.

Bwriwch fod gweinidog, neu grefftwr, &c. mewn cyfleu a ffordd i ennill bendithion daionus y bywyd hwn; etto felly, fel na allo mewn modd yn y byd fod yn gyfrannog o honynt, oddi eithr iddo (mewn lliw o leiaf) ymddangos yn dra gwresog tu hwnt i arfer gyffredin y wlad, mewn rhai pyngciau crefydd, y rhai nad oedd ef erioed o'r blaen yn eu harddel; ond dichon ef ddewis y ffordd yma, er mwyn cael ei ddiben, ac etto bod yn wr gonest iawn.

MR. LLYGAD-AR. Yr wyf fi yn deall eich meddwl yn eglur; a thrwy gennad y gwŷr parchus yma, myfi a wnaf fy ngoreu i roddi atteb i'ch cwestiwn. Ac yn gyntaf am y gwr eglwysig yn bennodol. Bwriwch fod gweinidog yr hwn sydd yn wr gweddol, a chanddo ond personiaeth neu gynnulleidfa fechan iawn; ond y mae ef a'i olwg ar un a fo mwy, a brasach, a chyfoethocach o lawer, ac yr awr hon y mae ganddo gyfle i'w chael hi; etto felly, ag y rhaid iddo astudio yn ddwysach, ac i bregethu yn fynychach ac yn wresocach: ac os bydd tymmer y bobl yn gofyn iddo newid rhai o'i wyddorion; o'm rhan i, nid wyf fi yn gweled rheswm yn y byd, na ddichon gwr wneuthur hynny (yn enwedig os bydd ganddo alwad i'r peth) ïe, a llawer mwy na hyn, ac etto bod yn wr gonest. Canys,

1. Y mae ei waith ef yn dymuno gwell personiaeth yn gyfreithlon, (ni's gellir gwadu hynny,) gan ei bod wedi ei gosod o'i flaen ef trwy ragluniaeth; ac am hynny efe a ddichon ei chymmeryd hi os gall, heb ofyn un cwestiwn er mwyn cydwybod.

2. Y mae ei waith ef yn dymuno y bersoniaeth honno yn ei wneuthur ef yn fwy

gofalus i ddilyn ei lyfrau, i fod yn bregethwr gwresocach, i gynnyddu yn ei ddoniau, ac hefyd i fod yn well gwr; yr hyn oll sydd yn gyttun âg ewyllys Duw.

3. Yn awr am ei waith ef yn cydymffurfio â thymmer ei bobl, trwy ymadael â rhai o'i wyddorion i'w boddloni hwynt, y mae hynny yn argoel, 1. Ei fod ef yn wr a ddichon ymwadu âg ef ei hun. 2. Ei fod ef o ymddygiad hyfryd ac ennillgar. 3. Ac oherwydd hynny yn gymmwysach i'r weinidogaeth.[k]

4. Yr wyf fi yn dal, gan hynny, na ddylid barnu y gweinidog hwnnw yn wr bydol, yr hwn a newidio bersoniaeth fechan am un a fo mwy; eithr yn hytrach, gan ei fod ef trwy hynny wedi cynnyddu yn ei ddoniau a'i ddiwydrwydd yn ei weinidogaeth, fe ddylid ei gyfrif ef yn wr sydd yn dilyn ei alwad yn well, ac yn un a wnaeth ddefnydd da o'r achlysur a'r odfa a roddwyd yn ei law ef i wneuthur daioni. Ac

Yr awr hon i roddi atteb i'r ail ran o'ch cwestiwn, sef, ynghylch y crefftwr: Bwriwch nad oes gan grefftwr ond ychydig i gynnal ei hun yn y byd; eithr trwy ddyfod i broffesu crefydd, efe a ddichon gael odfa i wellhâu eu gyflwr; naill ai trwy gael gwraig gyfoethog, neu ynte trwy ennill mwy, a gwell prynwyr i'w siop. O'm rhan i, nid wyf yn gweled rheswm yn y byd, na's gellir gwneuthur hyn yn gyfreithlon. Canys, 1. Rhinwedd mawr yw bod yn grefyddol, trwy ba fodd bynnag y delo dyn i fod felly. 2. Nid yw yn anghyfreithlon ceisio gwraig gyfoethog, neu fwy o brynwyr i'm siop. 3. Heblaw hynny, y mae'r gwr a ennillo y pethau hyn, trwy fod yn grefyddol, yn ennill yr hyn sydd dda, oddiwrth y sawl sydd dda, trwy ddyfod ei hun i fod yn dda: felly, dyma wraig dda, prynwyr da, ac elw da, a'r rhai hyn i gyd wedi eu hennill trwy ddyfod i broffesu crefydd, yr hyn sydd beth da: ac am hynny, gwaith da a buddiol ydyw bod yn grefyddol, er mwyn ennill yr holl bethau yma.

Wedi i Mr. Llygad-arian roddi'r atteb hwn i gwestiwn Mr. Cam-ddibenion, hwy a ganmolasant ei atteb ef yn ddirfawr, ac a farnasant fod y cwbl a lefarodd yn dra buddiol ac iachus. Ac oblegid eu bod hwy yn tybied nad oedd neb a allai ddywedyd dim yn wrthwyneb i'r atteb yma: ac oherwydd fod Cristion a Gobeithiol o hyd galw, hwy a gyttunasant yn un fryd mor gynted ag y byddai iddynt eu gorddiwes, i osod y cwestiwn hwn attynt; yn enwedig oblegid iddynt hwy o'r blaen wrthwynebu Mr. Cam-ddibenion yn y matterion yma. Felly hwy a alwasant ar y Pererinion, a hwythau a safasant yn yr un man hyd oni ddaeth y lleill hyd attynt: eithr wrth ddyfod tu ag attynt, hwy a gyttunasant, mai nid Mr. Cam-ddibenion, ond yr hen wr Mr. Cofleidio'r byd, a gai ofyn y cwestiwn iddynt, oherwydd eu bod hwy yn tybied y byddent dynerach wrtho ef, ac na's byddent mor danbaid ag y buant ychydig o'r blaen wrth ymadael â Mr. Cam-ddibenion.

[k] Mor naturiol y mae doethineb a chyfrwysdra bydol yn cael eu darlunio yma. Dichelldra uffernol yw hyn oll; ac er hynny, yn y ffordd esmwyth a sidanaidd yma mae llawer un yn ymddwyn; sef rhoi heibio gydwybod dda, a myned yn groes i'n barn a'n goleuni, er mwyn golud ac esmwythdra bydol. "Gwreiddyn pob drwg," yn ddiammau, "yw arian-garwch."

Felly hwy a ddaethant hyd attynt: ac wedi iddynt gyfarch gwell i'w gilydd, Mr. Cofleidio'r byd a osododd y cwestiwn ger bron Cristion a'i gydymaith, gan ddymuno arnynt ei atteb os gallent.

CRISTION. Yna, ebe Cristion, Gall baban mewn crefydd atteb deng mil o'r fath gwestiynau a'r rhai'n. Canys gan ei bod hi yn awr, fel yr oedd hi gynt, yn anghyfreithlon dilyn Crist am y torthau bara, pa faint mwy ffiaidd ydyw ei wneuthur ef a chrefydd i fod megis Marchcynfas, i ennill a mwynhâu'r byd? ac ni bu neb ond paganiaid, rhagrithwyr, diafliaid, a swynwyr o'r meddwl hyn.

1. Paganiaid, canys pan ewyllysiai Hamor a Sichem gael merch ac anifeiliaid Jacob, a phan y gwelsant nad oedd modd yn y byd eu mwynhâu hwynt, ond trwy dderbyn yr enwaediad, hwy a ddywedasant wrth eu cyfeillion, "Os enwaedir ein holl wrrywiaid ni, fel y maent hwy wedi eu henwaedu, oni fydd eu hanifeiliaid, a'u cyfoeth, a'u holl ysgrubliaid hwynt yn eiddom ni? Y ferch a'r anifeiliaid oedd y cwbl yr oeddynt hwy yn ei ddisgwyl am danynt, a'u crefydd oedd y Marchcynfas a arferasant i'w mwynhâu hwynt, yn ol y darllenwn. Gen. xxxiv.

2. Y Phariseaid rhagrithiol oeddynt hefyd o'r grefydd yma, canys tan rith hir weddïo, eu diben hwynt oedd llwyr fwytta tai gwragedd gweddwon: ac am hynny y bygythiodd Crist hwy â damnedigaeth mwy echrydus na damnedigaeth troseddwyr eraill. Luc xx. 47.

3. Yr oedd Judas y cythraul hefyd o'r grefydd yma: yr oedd ef yn grefyddol er mwyn y gôd; gan obeithio, y gallai ef trwy hynny feddiannu yr arian oedd yn y pwrs: eithr efe a gyfrgollwyd, ac a fwriwyd ymaith, ac yr oedd ef yn wir fab y golledigaeth.

4. Simon y swynwr oedd hefyd o'r grefydd yma, canys efe a fynnai gael yr Yspryd Glan, fel y gallai wneuthur elw o hono, a'i farn o enau Pedr oedd yn ol hynny. Act. viii. 18—21.

5. Ac ni's gallaf fi dybied llai na's gwerth hwnnw ei grefydd am y byd, yr hwn a'i proffesodd hi er mwyn y byd. Canys cyn sicred ag yr oedd Suddas yn amcanu ennill arian trwy fod yn grefyddol, mor sicr y gwerthodd efe grefydd ei feistr am arian. Ac i roddi atteb i'ch cwestiwn, gwybyddwch hyn, pe dywedwn i, ïe, gyda chwi yn y matter yma, mai da y gellir fy ngalw i, megis y gellir galw pob un o honoch chwithau, yn bagan, yn rhagrithiwr, ac yn gythraul, y rhai y bydd eu cyflog yn ol eu gweithredoedd.

Yna hwy a safasant gan lygadrythu y naill ar y llall; ac nid allent hwy roddi atteb yn y byd i Gristion ynghylch y peth yma. Gobeithiol hefyd a ymfoddlonodd yn yr hyn a lefarodd Cristion wrthynt; ac felly y bu distawrwydd mawr yn eu plith hwy. Ar hyn Mr. Cam-ddibenion a'i gyfeillion a safasant yn ol, fel y gallai Cristion a Gobeithiol gael y blaen arnynt, am eu bod yn chwennychu cael gwared o'u cwmpeini.[1] Yna ebe Cristion wrth ei gyfaill, Os na all y gwŷr hyn sefyll o flaen barn dynion, pa fodd y safant hwy

[1] Y mae y gau-grefyddwr yn anghofio hyn, canys y mae cariad bydol yn taflu'r enaid i gwsg dwfn o hurtwch a difatterwch, nes byddo pethau tragywyddol yn llwyr golli pob argraff ar y meddwl.

dan farn Duw? Ac os ydynt yn fudion pan eu trinir gan lestri pridd, pa beth a wnant, pan y ceryddir hwynt gan fflammau o dân ysol?

Yna Cristion a Gobeithiol a'u blaenasant hwy drachefn, nes iddynt ddyfod i wastadedd hyfryd, yr hwn a elwid Esmwythdra; a hwy deithiasant yno gyda boddlonrwydd mawr; ac am nad oedd y gwastadedd yma ond bychan iawn, hwy a aethant drosto yn ebrwydd.[m] Yn awr, yr oedd ynghwr eithaf y gwastadedd hwn fryn bychan a elwid Elw; ac yn y bryn hwn yr oedd mwyn-glawdd arian; i weled yr hwn y gwyrdroasai bagad yn yr amser gynt wrth fyned heibio; oherwydd bod y cyfryw leoedd yn anaml iawn: eithr wrth fyned yn rhy agos at ymyl y pwll, y tir, gan ei fod yn dwyllodrus oddi tanynt, a dorrodd, a hwythau a ddifethwyd: ac eraill o honynt a ddaethant ymaith yn anafus, y rhai ni lwyr iachawyd hyd ddydd eu marwolaeth.

NID YW ESMWYTHDRA PERERINION OND BYR YN Y BYWYD HWN.

BRYN'R ELW YN BERYGLUS.

Yna y gwelwn yn fy mreuddwyd, ychydig dros y ffordd, ar gyfer y mwyn-glawdd arian, Demas yn sefyll fel gwr bonheddig, i alw fforddolion i droi tu ag yno: ac efe a ddywedodd wrth Gristion a'i gyfaill, Ho, trowch yma, a myfi a ddangosaf i chwi ryw beth godidog.

DEMAS AR FRYN'R ELW.

MAE YN GALW AR GRISTION A GOBEITHIOL.

CRISTION. Pa beth sydd yn y lle yma mor odidog, ag a allai ein temptio ni i droi oddi ar y ffordd i'w weled ef?

DEM. Dyma fwyn arian, a rhai yn cloddio ynddo am drysor: os dewch chwi yma, chwi a ellwch ymgyfoethogi wrth ychydig o boen.

GOBEITH. Yna ebe Gobeithiol, Awn i weled y peth yma.

CRISTION. Nag af ddim, ebe Cristion; myfi a glywais son am y lle yma cyn hyn, a pha nifer a ddifethwyd yma; ac heblaw hyn, mae'r trysor accw yn fagl i'r rhai sy'n ei geisio ef; canys mae efe yn eu rhwystro hwy yn eu pererindod.[n] Yna Cristion a alwodd ar Ddemas, gan ddywedyd wrtho, Onid yw'r lle yna yn beryglus?

GOBEITHIOL A CHWANT MYNED, OND CRISTION YN EI ATTAL.

DEM. Nac ydyw yn beryglus iawn, oddi eithr i'r rhai sydd yn ddiofal; ac wrth ddywedyd hynny efe a wridodd.

CRISTION. Yna ebe Cristion wrth Obeithiol, Moeswch i ni gadw ein ffordd, ac nac ysgogwn droedfedd oddi arni.

[m] Y mae hawddfyd yn ddymunol i ni fel dynion, ond cyflwr llawn o berygl ydyw i'r pererinion, yn enwedig os dechreuant lwfrhâu ar y ffordd. Anhawdd cario cwppan llawn heb golli dim a'r sydd ynddo, ond mwy anhawdd ennill y byd, heb golli cariad Duw o'r enaid.

[n] *Cyfaill cywir, yn yr ing y gwelir.* Da yw cael cyngor mewn pryd. Eithr yn anaml y cymmerir rhybudd, pan fo da bydol mewn golwg. Mae llawer o broffeswyr yn ddiystyr am unrhyw gyngor a fo yn tueddu i'w hattal rhag ennill y byd. Eithr eilun-addoliaeth yw cybydd-dod. Yr achos i Ddemas ymwrthod â'i broffes, oedd am garu o hono y byd presennol; ond y mae llawer un yn dal at ei broffes, ac yn dal a gybydd-dod hefyd.

GOBEITH. Yna yn ddiau pan ddelo Cam-ddibenion heibio, os gwahoddir ef fel y gwahoddwyd nyni, efe a dry accw.

CRISTION. Diammau hynny, canys y mae opiniynau Cam-ddibenion yn ei arwain ef at y cyfryw deganau: a chant punt i geiniog, oni's difethir ef.

DEM. Yna Demas a alwodd arnynt drachefn, gan ddywedyd, Oni ddewch chwi drosodd, a gweled yr hyn sydd yma?

CRISTION YN SARRUG WRTH DDEMAS.

Cristion a'i hattebodd ef yn dra sarrug, gan ddywedyd, 'Demas, yr wyt ti yn elyn i union ffyrdd yr Arglwydd, wedi'th euog-farnu eisoes gan un o farnwyr ei Fawrhydi: a phaham yr wyt ti yn ceisio ein denu ninnau i'r un ddamnedigaeth? Ac heblaw hynny, os trown ni fymryn oddi ar y ffordd, fe glyw ein Brenin ni hynny: ac yna y cawn ni ddioddef cywilydd, lle y gallasem sefyll yn ei ŵydd ef yn hyderus.'

Yna Demas a waeddodd drachefn arnynt, ac a ddywedodd, mai un o'u brawdoliaeth hwy oedd yntef, ac os arosent ychydig, y deuai efe gyda hwynt.

CRISTION. Yna ebe Cristion, Onid Demas yw dy enw di?

DEM. Ië, Demas yw fy enw, ac yr wyf yn fab i Abraham.

CRISTION. Mi a'th adwaen di: Gehezi oedd dy hen daid, a Suddas oedd dy dad; a thi a rodiaist yn eu llwybrau hwynt: gwaith y cythraul yr wyt ti yn ei wneuthur, trwy ymdrechu hudo pobl oddi ar ffordd yr Arglwydd. Fe grogwyd dy dad di am deyrnfradwriaeth; ac nid wyt tithau yn haeddu gwell gwobrwy. Bydded hysbys i ti, mai pan ddelom at y Brenin, y gwnawn ef yn gydnabyddus o'th ymddygiad di tu ag attom: ac ar ol hynny hwy a aethant i'w ffordd.

CAM-DDIBENION YN MYNED TROSODD AT DDEMAS.

Erbyn hyn Mr. Cam-ddibenion a'i gyfeillion oeddynt wedi dyfod drachefn mewn golwg; ac ar yr amnaid gyntaf hwy a aethant trosodd at Ddemas: yn awr, pa un a wnaethant, wrth edrych dros ymyl y pwll, ai syrthio iddo, ai myned i lawr i gloddio'r mwyn arian, neu ynte gael o honynt eu tagu gan y tarth sydd yn arferol o godi o'r mannau hynny, ni's gwn i: eithr hyn a ddeliais i sylw arno, sef, na welwyd hwynt mwyach ar y ffordd.°

Mae Cam-ddibenion a Demas arian,
Eill dau yn ymgyttuno'n fuan:
Mae un yn galw a'r llall yn rhedeg,
Am ran o'i elw yn ddiattreg:
Yn rhoi eu serch ar fyd presennol,
Gan syrthio yn fyr o'r fraint drag'wyddol;
Yn ol cael elw gwael i'w cyfran,
Yn marw yn y mwyn-glawdd arian.

° Dyma'r fath ddiwedd i ba un y daw y rhai sy'n colli gras a bywyd Duw, er mwyn y byd. Cofiwn, *Duw a digon*, ond *heb Dduw heb ddim*. Pa lesâd i ddyn ennill yr holl fyd, a cholli ei enaid ei hun.

Yna y daeth y Pererinion i ryw fan lle yr oedd hen golofn fawr yn sefyll ar fin y brif-ffordd; a hwy a ryfeddasant yn ddirfawr wrth weled ei dull a'i gwedd anghyffredin hi: canys yr oedd hi yn ymddangos megis gwraig wedi ei throi yn golofn: a hwy a safasant yno dros dro, gan edrych yn fynych arni: eithr ni's gwyddent dros ennyd, pa beth a wnaent o honi: ond o'r diwedd Gobeithiol a ganfu beth yn ysgrifenedig ar ei phen hi, mewn 'sgrifen-law anarferol: eithr am ei fod ef yn wr anllythyrenog, efe a alwodd ar Gristion atto (canys yr oedd ef yn wr dysgedig) i edrych a allai efe ddirnad yr ysgrifen: ac wedi i Gristion gyssylltu y llythyrenau ynghyd, efe a ddeallodd, mai hyn oedd y geiriau; "*Cofiwch wraig Lot.*" Ac efe a'u darllenodd hwynt i'w gydymaith; yna y gwybuant, mai honno ydoedd y golofn o halen i'r hon y tröwyd gwraig Lot, am edrych drach ei chefn, â chalon drachwantus am y pethau a adawsai hi yn ol yn Sodom, pan yr oedd hi yn diangc allan o honi am ei bywyd: a'r golofn yma a fu yn achos iddynt ymddiddan fel hyn.

MAENT YN GWELED COLOFN RYFEDDOL.

CRISTION. Ah! fy mrawd, dyma olwg a welsom mewn amser cyfaddas, ychydig ar ol i Ddemas ein gwahodd ni i weled y bryn lle yr oedd y mwyn arian ynddo; a phe buasem ni yn myned yno fel yr oedd efe yn dymuno, a thithau fy mrawd yn ewyllysio, fe'n gwnaethid ninnau fel y gwnaethpwyd hithau, ar ddim ag a wn i, yn ddrych i'r rhai a ddeuent ar ein hol i edrych arnom.

GOBEITH. Mae yn edifar gennyf fy mod i mor ynfyd; ac yr wyf yn rhyfeddu nad ydwyf fi yn awr fel gwraig Lot; canys pa wahaniaeth sydd rhwng ei phechod hi a'r eiddo finnau? Yn unig hi a edrychodd drach ei chefn, a minnau a ewyllysiais fyned a gweled: diolch sydd yn ddyledus i Dduw am fy nghadw i rhag myned i fryn yr arian; a chywilydd i minnau am fod y fath ewyllys erioed yn fy nghalon i fyned yno.[p]

CRISTION. Cymmerwn hyn yn lle rhybudd rhagllaw: y wraig hon a ddiangodd rhag un farnedigaeth; canys ni ddistrywiwyd hi yn ninystr Sodom; etto difethwyd hi trwy farnedigaeth arall, megis y gwelwn hi yma heddyw wedi ei throi yn golofn o halen.

GOBEITH. Gwir yw, hi a all fod yn rhybudd ac yn siampl i ni rhagllaw: yn rhybudd i ni ochelyd ei phechod, neu yn arwydd o'r farnedigaeth a ddigwydd i'r sawl na chymmerant rybudd oddi wrthi. Felly Corah, Dathan, ac Abiram, a'r dengwr a deugain a dau cant a ddifethwyd yn eu pechod, a wnaed yn rhybudd neu'n siampl i ni ochelyd eu drwg weithredoedd hwynt; eithr yr wyf yn rhyfeddu yn ddirfawr am un peth tu hwynt i ddim arall, sef, pa fodd y gall Demas a'i gyfeillion sefyll accw mor hyderus, i chwilio am y trysor hwnnw am ba un y cafodd y wraig yma (yr hon ni wnaeth ond yn unig edrych drach ei chefn gan ei serchu ef) ei throi yn golofn o halen, canys nid y'm yn darllen iddi fyned droedfedd oddi ar y ffordd, yn enwedig gan i'r farnedigaeth a'i goddiweddodd ei

[p] Mae achos i bob pererin gywilyddio, pan fo wedi cynnwys ynddo ei hun unrhyw duedd i garu'r byd drwg presennol, a chilio oddiar y llwybr cul. Dysgwn fyw trwy ffydd, ac ymwadu â'r byd.

gwneuthur hi'n siampl gyferbyn a'r man lle maent hwy yn preswylio ynddo; canys ni allant lai na'i chanfod hi, os dyrchafant eu golygon i fynu.

CRISTION. Gwir yw, ei fod ef yn beth rhyfeddol, ac y mae yn dangos fod eu calonnau hwy wedi eu caledu yn 'sgeler yn y cyflwr hwnnw: ac ni's gwn i bwy y gellir eu cyffelybu hwy yn well, nag i'r rhai a fo yn pigo poccedau o flaen y barnwr, neu i rai a dorrant byrsau dan y crogbren. Fe ddywedir am bobl Sodom, mai pechaduriaid dirfawr oeddynt, am eu bod yn bechaduriaid ger bron yr Arglwydd, hynny yw, yn ei ŵydd ef, er cymmaint o garedigrwydd a ddangosodd efe tu ag attynt; canys yr oedd tir Sodom y pryd hynny megis gardd Eden gynt, yr hyn a wnaeth i Dduw fod yn fwy eiddigus, a'u plaau hwythau cyn boethed ag y gallai tân yr Arglwydd o'r nefoedd eu gwneuthur hwynt; y mae yn sefyll gan hynny gyda rheswm, y bydd i'r cyfryw bobl a hyn fod yn gyfranogion o'r barnedigaethau tostaf; sef, y cyfryw bobl ag sydd yn pechu yn ei ŵydd ef, a hynny hefyd mewn dirmyg o'r fath esiamplau, y rhai sydd wedi eu gosod yn wastadol ger bron eu llygaid, i'w hattal hwy rhag pechu yn erbyn Duw.

GOB. Yn ddiammau ti a ddywedaist y gwir: ond pa fath drugaredd ydyw hyn, nad wyt ti, ac yn enwedig myfi, wedi fy ngwneuthur yn siampl yn y modd yma? Y mae'r matter hyn yn rhoddi i ni achlysur i fod yn ddiolchgar i'r Arglwydd, ac i arswydo ger ei fron ef, gan gofio gwraig Lot yn wastadol.

Wedi hynny mi a'u gwelais hwynt yn myned yn mlaen hyd oni ddaethant at afon hyfryd, yr hon a alwai y brenin Dafydd yn "Afon Duw." Ond Ioan a'i geilw hi "Afon dwfr y bywyd."[r] Yn awr yr oedd eu ffordd hwy yn myned yn union ar hyd glan yr afon. Yma gan hynny y teithiodd Cristion a'i gydymaith gydag hyfrydwch mawr: a hwy a yfasant hefyd o ddwfr yr afon, yr hwn oedd ddymunol, am iddo adfywio eu heneidiau diffygiol hwynt: ac heblaw hynny, yr oedd ar hyd glan yr afon yma, o bob tu, goed iraidd, yn dwyn pob math o ffrwythau; a hwy a fwyttasant o ddail y coed, i ragflaenu glythineb a chlefydau eraill, y rhai sydd arferol o ddamwain i drafaelwyr, yn ol gwresogi eu gwaed wrth deithio. Yr oedd hefyd o ddautu glan yr afon weirglodd yn llawn o lili: ac yr oedd hi'n wyrddlas trwy'r holl flwyddyn. Yn y weirglodd yma y gorweddasant ac y cysgasant; canys hwy a allent gysgu yma mewn diogelwch; a phan y deffroisant, hwy a fwyttasant drachefn o ffrwythau'r coed, ac a yfasant eilwaith o ddwfr yr afon: ac wedi hynny hwy a orweddasant i lawr i gysgu drachefn: fel hyn y gwnaethant dros amryw ddyddiau a nosweithiau. Yna hwy a ganasant y gân hon:—

AFON HYFRYD.

COED AR LAN YR AFON.

DAIL A FFRWYTHAU Y COED.

GWEIRGLODD, YN YR HON Y GORWEDDASANT I GYSGU.

[r] Gelwir yr afon hon, "Afon bur o ddwfr y bywyd, yn ddisglaer fel y grisial, yn dyfod allan orseddfaingc Duw a'r Oen," Dat. xxii. 1. Hyn sydd yn arwyddoccâu cysuron yr Yspryd Glân, a'r amlygiadau disglaer ac hyfrydlon a ganiatteir i gredinwyr, ar eu taith tua'r byd nefolaidd. Dyma'r afon yr hon y mae ei ffryddiau yn llawenhâu dinas Duw. O y llawnder o fendithion sydd yn dylifo i eneidiau duwiol, y rhai sydd yn myned rhagddynt ar gynnydd yn ffyrdd yr Arglwydd. canys ffyrdd heddwch ac hyfrydwch ydynt!

Gwelwch fel y rhed yn glau,
  Grisialaidd ffrydiau gloywon,
Wrth fin y ffordd, er mawr ddidrwch
  Ddiddanwch pererinion;
A'r gweirgloddiau teg eu gwedd,
  A pher arogledd ganddynt,
Yn rhoddi (trwy ddoeth drefniad Iou)
  Ddidwyll ddanteithion iddynt.
Yr hwn sy'n gwybod rhin eu gwŷdd,
  A'r dail, a'r ffrwythydd ddygant,
A werth ei feddiant oll yn wir,
  I brynu'r tir lle tyfant.

Ac wedi myned ychydig ymlaen (canys nid oeddynt wedi dyfod etto i ben eu siwrnai) hwy a ganfuant, fod yr afon yn ymadael â'r ffordd dros ennyd;[s] yr hyn a fu yn ddrwg dros ben ganddynt: ond etto ni feiddient fyned oddi ar y ffordd: yn awr yr oedd y ffordd yr hon oedd yn myned oddiwrth yr afon yn arw ac yn gerrigog, ac yr oedd eu traed hwy yn ddolurus oherwydd eu teithiau: a chyfyng ydoedd ar eneidiau y Pererinion oherwydd y ffordd. Num. xxi. 4. Ac am hynny yr oeddynt yn wastadol, wrth fyned ymlaen, yn dymuno cael gwell ffordd. Yn awr, ychydig o'u blaen hwy, yr oedd ar y llaw aswy i'r ffordd weirglodd, a chamfa i fyned trosodd iddi; a'r weirglodd honno a elwir Gweirglodd y traws-lwybr: yna, ebe Cristion wrth ei gydymaith, os ydyw y weirglodd hon yn gorwedd o hyd, at ystlys y ffordd, gadewch i ni droi iddi. Yna efe a aeth i ben y gamfa i edrych; ac efe a welai lwybr yn myned o hyd, o'r tu fewn i'r weirglodd, gydag ymyl y ffordd. Y mae hyn oll yn ol fy ewyllys i, ebe Cristion; Gobeithiol, fy nghyfaill anwyl, tyred trosodd yma: canys dyma'r ffordd esmwythaf.[t]

GWEIRGLODD Y TRAWS LWYBR.

Y NAILL DEMTASIWN YN ARWAIN I'R LLALL.

GOB. Eithr pa beth os arwain y llwybr yma ni dros y ffordd?

CRISTION. Nid yw hynny yn debygol, ebe'r llall; gwel fel y mae yn myned gydag ymyl y ffordd. Felly Gobeithiol, wedi ei berswadio gan ei gyfaill, a aeth ar ei ol ef dros y gamfa. Ac wedi iddynt fyned trosodd, a dyfod i'r llwybr, hwy a'i cawsant yn esmwyth iawn i'w traed: ac wrth edrych o'u blaen, hwy a ganfuant

GALL Y CRYFION YN Y FFYDD ARWAIN GWEINIAID DROS Y LLWYBR.

[s] Tra fyddo yr enaid yn rhodio gyda Duw, ni ddichon golli yr hyfrydwch sydd yn tarddu oddiwrth ei wybodaeth o'i hawl yn ffafr Duw, a'i obaith o fywyd tragywyddol. Ond yr ydym yn rhy dueddol i lwfrhâu dan ein treialon, er y gallwn gael gwedd wyneb ein Hanwylyd dan bob math o orthrymder yn y byd.

[t] Gocheled pererinion y traws-lwybr cyfeiliornus hwn. Y mae rhai yn colli awch a grym eu crefydd, ac yn cerdded ar hyd llwybr esmwythder cnawdol, yn ddiofn ac yn rhyfygus. Hawdd yw cael allan y llwybr hwn, dim ond i ni fyned dros y gamfa, hynny yw, ymadael â ffordd y groes, a'n dyledswydd; yn ganlynol ni a fyddwn mewn ennyd yn y weirglodd yr hon sydd yn ymddangos mor wyrddlas ac mor bleserus, ond yn dra pheryglus i'r enaid. Mae llawenydd ysprydol yn cryfhâu yr enaid, ond esmwythyd y cnawd a ddwg flinder i'r yspryd yn y diwedd.

wr yn teithio yno megis hwythau (a'i enw oedd Gwaghyderus); felly hwy a alwasant arno, ac a ofynasant iddo, i ba le yr oedd y ffordd honno yn myned? Yntef a ddywedodd, 'Tua'r porth nefol.' Gwelwch, ebe Cristion, oni ddywedais i felly wrthych? wrth hyn y gellwch weled ein bod ni ar yr uniawn ffordd: felly hwy a'i canlynasant ef, eithr hi a hwyrhaodd arnynt yn y man, ac a aeth yn dywyll iawn, hyd oni chollasant eu golwg ar y gwr, yr hwn oedd o'u blaen hwynt.

GWELWCH BETH YW SYRTHIO YN DDIRYBUDD I BLITH DIEITHRIAID.

Gwaghyderus, gan hynny, o ddiffyg gweled y ffordd o'i flaen, a syrthiodd ar ei ben i bwll dwfn: yr hwn a gloddiwyd yno o bwrpas gan arglwydd y tiroedd hynny, i ddal ynfydion gwag-ymffrostus ynddo: a thrwy ei gwymp, efe a friwyd yno yn chwilfriw.[u]

PWLL I'R GWAGHYDERUS SYRTHIO YNDDO.

Yn awr Cristion a'i gydymaith a'i clywsant ef yn syrthio, a hwy a alwasant arno i wybod beth a ddarfu iddo: eithr nid attebodd efe ddim iddynt; yn unig hwy a'i clywsant ef yn gruddfan yn y pwll. Yna ebe Gobeithiol, Yn mha le yr ydym ni yn awr? A chyda hynny yr aeth Cristion yn fud, gan ofni iddo arwain ei gydymaith oddi ar y ffordd. Ac yn awr yr oedd gwlaw a tharanau, a mellt, a llif anguriol yn yr afon yn eu brawychu hwynt.

YMRESYMU RHWNG CRISTION A GOBEITHIOL.

Yna y gruddfanodd Gobeithiol ynddo ei hun, gan ddywedyd, O na buaswn i yn cadw fy ffordd!

CRISTION. Pwy a allai ddychymmyg y buasai y llwybr yma yn ein harwain ni allan o'r ffordd?

GOB. Yr oeddwn i yn ofni hyn ar y cyntaf; ac oblegid hynny y rhybuddiais i chwi yn addfwyn: myfi a ddywedaswn fy meddwl yn eglurach, oni buasai eich bod yn hŷn na myfi.

EDIFEIRWCH CRISTION AM ARWAIN EI GYFAILL DROS Y FFORDD

CRISTION. Fy mrawd anwyl, na ddigia wrthyf; y mae'n ddrwg gennyf i mi dy arwain di allan o'r ffordd, a'th ddwyn di i'r fath enbydrwydd mawr: attolwg maddeu i mi, canys nid o ddrwg-fwriad y gwnaethum i hyn.

GOB. Bydd gomfforddus, fy mrawd, canys yr wyf fi yn maddeu i ti: ac yr wyf fi yn credu hefyd, y bydd hyn er daioni i ni.

CRISTION. Y mae'n llawen gennyf fod gyda mi frawd trugarog; ond ni ddylem ni sefyll fel hyn; edrychwn a allwn ni fyned yn ein hol.

GOB. Eithr fy mrawd anwyl, gadewch i mi fyned o'ch blaen.

CRISTION. Nagê, os rhynga bodd i chwi, gadewch i mi fyned ymlaenaf, fel os bydd dim perygl, y gallwyf fi fod ynddo ef yn gyntaf: canys trwy'm camsyniad i yr aethom ni ein dau allan o'r ffordd.

GOB. Nagê, ebe Gobeithiol, ni chewch chwi fyned ymlaenaf; canys fe ddichon trwbl eich meddwl eich tynnu chwi dros y ffordd drachefn. Yna er mawr gysur iddynt,

[u] Wedi i ni ymadael â'r iawn ffordd, mae gwag hyder yn barod i ymaflyd ynom, gan fod yn anhawdd genym gydnabod i ni golli'r llwybr uniawn.

hwy a glywsant leferydd un yn dywedyd wrthynt, "Gosod dy galon tu a'r brif ffordd; y ffordd yr aethost dychwel." Jer. xxxi. 21. Erbyn hyn yr oedd y dyfroedd wedi codi yn uchel; ac oherwydd hynny yr oedd y ffordd yn enbyd iawn, (yna mi a feddyliais, mai hawsach ydyw myned allan o'r ffordd pan y byddom arni, na dyfod iddi pan y b'om ni allan o honi); etto hwy a anturiasant fyned yn ol: eithr yr oedd hi cyn dywylled, a'r llif cyn uched, fel y buant agos a boddi ddengwaith wrth ddychwelyd.[w]

MAENT BRON A BODDI WRTH FYNED YN OL.

Methasant y noson honno, er cymmaint eu hymgais, ddyfod yn ol at y gamfa. Ond o'r diwedd, wedi cael ychydig o wasgod, hwy a eisteddasant i lawr, hyd oni wawriodd y dydd: eithr gan eu bod yn ddiffygiol, hwy a gysgasant yno.[x] Yn awr, yr oedd o fewn ychydig i'r man lle yr oeddynt yn gorwedd gastell, a elwid Castell Amhëus; a'r Cawr Anobaith oedd berchenog o hono; ac ar ei dir ef yr oeddynt hwy yn awr yn cysgu, yr hwn wrth rodio yn ol ei arfer, ar y boreu ddydd ar hyd ei gaeau, a gafodd Gristion a Gobeithiol yn cysgu ar ei dir ef. Yna, â lleferydd garw a sarrug, efe a archodd iddynt ddihuno: a gofynodd hefyd iddynt, gwŷr o ba wlad oeddynt; a pha beth yr oeddynt yn ei wneuthur ar ei dir ef? Hwythau a fynegasant iddo, mai Pererinion oeddynt; ac iddynt golli eu ffordd. Yna ebe'r Cawr wrthynt, Fe ddarfu i chwi neithiwr droseddu arnaf fi, trwy fathru fy nhir i, a gorwedd arno; ac am hynny mae'n rhaid i chwi ddyfod gyda mi. Felly fe orfu arnynt fyned gydag ef, oherwydd ei fod ef yn drech na hwynt: ac hefyd, nid oedd ganddynt nemawr i ddywedyd yn ei erbyn ef; canys yr oeddynt yn gwybod eu bod ar fai. Y Cawr gan hynny a'u gyrrodd hwy o'i flaen, ac a'u gosododd hwy yn ei gastell, (Sal. cvii. 16, 17,) mewn daeardŷ tywyll iawn, yr hwn oedd ffiaidd a drewllyd i ysprydoedd y ddau Bererin.

MAENT YN CYSGU AR DIR Y CAWR ANOBAITH.

MAE YN EU CAEL AR EI DIR, AC YN EU GYRRU I GASTELL AMHEUS.

[Mae'r Pererinion i foddloni
Y cnawd, yn ceisio ei esmwythder e';
Ond O! fel maent yn cael trwy hynny,
Ofidiau newydd yn ei le:
Y mae'r rhei'ny sydd am foddio
Y cnawd trwy droi i lwybrau gau,
Yn andwyo yn dost eu hunain,
Yn cael anghysur, gwewyr, gwae.]

[w] Pan fyddwn wedi gwyro oddi ar lwybrau'r bywyd, da yw i ni weled fod yn llwyr angenrheidiol i ni droi yn ein hol, yn lle parhâu yn esmwyth yn ein cyfeiliornad. Dangosir i ni yn hanes Cristion a Gobeithiol, yr anhawsder a'r ymdrechiad gorchestol mae rhai yn ei brofi, cyn cael o honynt eu hadferu drachefn i heddwch a ffafr gyda Duw.

[x] Mae y Pererinion wedi iddynt geisio troi yn ol, a'u nerth yn diffygio, yn rhoi lle i ddigalondid, ac yn gorphwys yn lle cadw i fynu yr ymdrech. Yn y canlyniad maent yn syrthio i ddwylaw y Cawr Anobaith, ac yn cael eu caethiwo yn ei gastell ef.

Yno y buont yn gorwedd o'r boreu ddydd Mercher hyd nos Sadwrn, heb gymmaint a thammaid o fara, na defnyn o ddwfr, nac un math o oleuni, na dyn na dynes i ofyn pa fodd yr oeddynt: yma gan hynny yr oeddynt yn ddrwg eu cyflwr, ymhell oddiwrth eu carenydd, a'u cyfathrach, a phob math o gydnabyddiaeth. Yma hefyd y cafodd Cristion dristwch dau ddyblyg; un am eu bod hwy yn garcharorion, a'r llall oblegid mai trwy ei gyngor annoeth ef, y dygasid hwynt i'r dyryswch hwn.

EU CARCHARIAD TRUENUS.

Yr oedd gan y Cawr Anobaith wraig, a'i henw hi oedd Anhyderus; ac wedi iddo fyned i'w wely, efe a fynegodd iddi, yr hyn oll a wnaethai, sef, iddo ddal dau garcharwr, a'u taflu hwy i'w ddaeardŷ, am iddynt droseddu ar ei dir ef. Ac efe a ofynodd hefyd iddi, pa peth oedd oreu iddo wneuthur iddynt ymhellach. Hithau a ofynodd, pwy oeddynt, ac i ba le yr oeddynt yn myned? Ac yntef a fynegodd iddi. Yna hi a'i cyngorodd ef pan gyfodai fe'r boreu, eu curo hwy yn ddidrugaredd; felly pan gyfododd efe y boreu dranoeth, cymmerodd law-ffon dost gangheuog o afallen sûr, ac a aeth i waered attynt i'r daeardŷ; ac yno yn gyntaf efe a ddechreuodd eu difenwi hwy megis pe buasent gŵn, (er na roddasent hwy erioed iddo ef air anweddus,) ac wedi hynny efe a ruthrodd arnynt, ac a'u curodd yn y fath fodd, fel na's gallent eu cynnorthwyo eu hunain, nac ymdroi ar y llawr.[y] Wedi iddo wneuthur felly, efe a aeth ymaith, ac a'u gadawodd hwynt yno i gydgwyno eu gofid, ac i alaru dan eu cystudd: felly hwy a dreuliasant yr holl ddiwrnod hwnnw mewn ocheneidiau a galarnadau chwerwon. Yr ail nos Anhyderus a ymddiddanodd â'i gwr yn eu cylch drachefn: a chan ddeall eu bod hwy'n fyw etto, hi a'i hannogodd ef eu cynghori hwynt i wneuthur diwedd o honynt eu hunain: felly pan ddaeth y boreu, efe a aeth attynt mewn modd sarrug megis o'r blaen, a chan wybod eu bod hwy yn glwyfus iawn gan y cleisiau a roddasai efe iddynt o'r blaen, efe a ddywedodd wrthynt fel hyn, 'Gan nad oes tebygoliaeth y dewch chwi byth allan o'r lle yma, goreu peth a wnewch chwi yw gwneuthur diwedd o honoch eich hunain yn ebrwydd; naill ai â chyllell, cebystr, neu â gwenwyn; canys paham, eb efe, yr ydych chwi yn dewis bywyd, gan weled fod cymmaint o flinderau ynglyn wrtho?' Eithr hwy a attolygasant arno ef eu gollwng hwynt ymaith: a chyda hynny efe a edrychodd arnynt â golwg erchyll. A chan ruthro arnynt, diammau y buasai efe ei hun yn gwneuthur diwedd o honynt y pryd hynny, oni buasai iddo syrthio mewn llewyg, (canys yr oedd efe weithiau ar dywydd tesog yn cael ambell lewygfa,) a cholli grym ei law dros amser. Am hynny efe a aeth ymaith, ac a'u gadawodd hwynt, megis o'r blaen, i ystyried pa beth a wnaent. Yna y carcharorion a ymgyngorasant rhyngddynt eu hunain, pa un oreu oedd cymmeryd cyngor y Cawr ai peidio, ac fel hyn y dechreuasant ymddiddan.

CAWR ANOBAITH YN CURO EI GARCHARORION, AR DDYDD IAU.

DYDD GWENER YN EU CYNGHORI I LADD EU HUNAIN.

Y CAWR YN CAEL LLEWYGFA AMBELL WAITH.

CRISTION. Fy mrawd, ebe Cristion, pa beth a wnawn? y mae'r bywyd yr ydym

[y] Tosturus yw cyflwr y Pererinion, ond y mae yn addas i'r sawl sydd wedi gadael llwybr uniondeb a dyledswydd, i brofi chwerwder enaid cyn ei adferiad. Rhai a syrthiant i'r fath gyflwr, trwy drymder

ni yn ei fyw yma yn druenus iawn: o'm rhan i, nid wyf yn gwybod, pa un oreu yw byw fel hyn, neu ynte gwneuthur diwedd o honom ein hunain yn ebrwydd: y mae fy enaid yn dewis ymdagu yn fwy na hoedl. Job vii. 15. Ac y mae'r bedd yn esmwythach i mi na'r daeardŷ tomlyd hwn; a wnawn ni gyngor y Cawr, ai nis gwnawn? *

CRISTION YN DIGALONI.

GOB. Mewn gwirionedd y mae ein cyflwr presennol yn ofnadwy, a gwell o lawer fyddai gennyf farw na byw fel hyn dros fyth; ond er hynny ystyriwn, i Arglwydd y wlad (tua'r hon yr ydym ni yn teithio) ddywedyd, "Na ladd," ïe, na ladd un arall; mwy o lawer gan hynny y mae ef yn gwarafun i ni dderbyn cyngor y Cawr, sef, i ladd ein hunain. Heblaw hyn, ni all yr hwn sy'n lladd un arall, ond lladd ei gorph ef; eithr y mae'r hwn a laddo ei hun, yn lladd ei enaid a'i gorph ar unwaith: ac ymhellach, fy mrawd, yr wyt ti yn son am esmwythdra yn y bedd; eithr a anghofiaist ti'r uffern, lle y gorfydd ar y lleiddiaid yn ddiammau aros ynddi tros fyth? Canys ni chaiff un lleiddiad etifeddu bywyd tragywyddol. Ioan iii. 15. Ystyriwn hefyd, nad yw yr holl gyfraith ynghylch bywyd a rhyddid pobl, yn sefyll yn llaw y Cawr Anobaith: fe ddaliwyd eraill, cyn belled ag yr wyf fi yn deall, yn ei rwydau ef, yn gystal a ninnau: ac etto hwy a ddiangasant o'i ddwylaw ef; pwy a ŵyr, na symmud Duw y Cawr hwn trwy farwolaeth allan o'r byd yma, neu nad all efe ryw bryd neu gilydd anghofio cloi y drws arnom; neu na's dichon efe ar fyrder syrthio eilwaith mewn llewyg ger ein bronau, a cholli grym ei aelodau: ac os digwydd y fath beth iddo drachefn, o'm rhan i, mae yn fy mryd gymmeryd calon a bod yn wrol, i brofi â geithaf fy ngallu, i ddiangc oddi tan ei law ef. Mi a fum yn ffol iawn na's gwnaethum hynny eisoes: er hynny, fy mrawd, byddwn amyneddgar, a dioddefwn ychydig; fe allai y cawn ni ymwared dedwyddol oddi wrtho mewn amser; eithr na laddwn ein hunain mewn modd yn y byd. Ac â'r geiriau hyn y llonyddodd Gobeithiol galon drom ei frawd Cristion; ac felly hwy a arosasant ynghyd yn y carchar tywyll y diwrnod hwnnw, yn eu cyflwr athrist a galarus.

GOBEITHOL YN EI GYSURO.

A phan hwyrhaodd hi, fe aeth y Cawr i waered i'r daeardŷ drachefn, i edrych a oedd ei garcharorion wedi gwneuthur yn ol ei gyngor ef? ond wedi iddo ddyfod yno, efe a'u cafodd hwynt yn fyw; ac yn sicr dyna'r cwbl; canys yn awr o eisiau ymborth, ac o achos y clwyfau a gawsant pan y curodd efe hwynt, braidd yr oedd ffûn yn eu geneuau; eithr efe a'u cafodd (megis y dywedais) yn fyw; ac ar hynny efe a aeth yn gynddeiriog, ac a ddywedodd wrthwynt, mai yn gymmaint ac nad ufuddhasant i'w gyngor ef, y cai eu cyflwr hwy fod yn waeth na phe buasent erioed heb eu geni.

Ar hyn hwy a ddychrynasant yn ddirfawr; ac yr wyf yn tybied i Gristion syrthio mewn llewyg; eithr pan y dadebrodd efe ychydig, hwy a adnewyddasant eu hymddi-

* Oni bai fod llaw ddaionus Duw yn gwylio dros y rhai sydd yn ei geisio ef, y baich gorthrwm o anghrediniaeth a wasgai rai i lawr nes suddo o honynt yn lân dan y tonnau. Mae yr hyn a osodir allan yma yn cydseinio â phrofiad yr hen Awdwr ei hun.

ddanion ynghylch cyngor y Cawr, ac a ddechreuasant ystyried pa un oedd oreu iddynt ai dilyn ei gyngor ef ai peidio. Yr oedd Cristion drachefn am wneuthur yn ol ei gyngor ef, eithr Gobeithiol eilwaith a'i gwrthwynebodd fel hyn.

GOBEITHIOL YN EI GYSURO DRACHEFN, TRWY ALW I GOF BETHAU A AETHENT HEIBO.

GOB. Fy mrawd, eb efe, onid wyt ti yn cofio mor ddewrwych y buost ti gynt? Methodd Apolyon dy orchfygu di: methodd hefyd yr holl bethau a welaist, a glywaist, ac a deimlaist ti yn nyffryn cysgod angau dy orchfygu di: pa galedi, dychryn a syndod, yr aethost ti eisoes trwyddynt! ac a wyt ti yn awr mor ofnus? Ti a weli fy mod i yn y carchar gyda thi; yr hwn ydwyf (wrth natur) yn wannach gwr o lawer na thydi; fe'm harchollwyd gan y Cawr yma yn gystal a thithau: fe'm cadwyd hefyd oddiwrth bob ymborth a lluniaeth yn y byd, ac yr ydwyf yn galaru yma yn y tywyllwch gyda thi: attolwg gad i ni fod yn amyneddgar tros ychydig amser etto.[a] Cofia fel y chwareuaist ti'r gwr yn Ffair Gwagedd, ac nad oeddit yn ofni na'r gadwyn na'r carchar, nac un math o farwolaeth waedlyd ychwaith; gad i ni gan hynny (rhag y gwaradwydd, yr hwn nid yw gymmesur clywed fod Cristion yn gorwedd tano) ddioddef trwy amynedd hyd yr eithaf o'n gallu.

Yn awr, wedi i'r nos ddyfod drachefn, a myned o'r Cawr a'i wraig i'w gwely, hi a ofynodd iddo beth a ddaethai o'r carcharion, ac a wnaethent hwy yn ol ei gyngor ef a'i peidio? Yntef a'i hattebodd hi, mai dihirwyr pen-galed oeddynt; a gwell oedd ganddynt ddioddef pob math o galedi, na difetha eu hunain. Yna ebe hi, Cymmer hwynt y foru i gyntedd y Castell, a dangos iddynt esgyrn a phenglogau y rhai a ddifethaist ti eisoes; a gwna iddynt goelio, y bydd i ti cyn pen wythnos eu rhwygo hwythau yn ufflon, fel y rhwygaist ti eu cyfeillion o'u blaen hwynt.

DYDD SADWRN MAE Y CAWR YN BYGWTH EU DRYLLIO.

Felly pan ddaeth y boreu, y Cawr a aeth attynt drachefn, ac a'u cymmerth i gyntedd y Castell, ac a ddangosodd iddynt yr esgyrn a'r penglogau megis y gorchymynasai ei wraig iddo. Yr oedd y rhai'n, ebe fe, yn bererinion unwaith fel chwithau: ac fe ddarfu iddynt droseddu ar fy nhir i megis y gwnaethoch chwithau; a phan y gwelais i fod yn dda, mi a'u drylliais hwynt yn chwilfriw: a chyn pen deng niwrnod, mi a'ch drylliaf chwithau yn yr un modd. Ewch i waered i'ch lloches drachefn, a chyda hynny efe a'u curodd hwy o hyd, nes iddynt ddyfod i'w gwâl: ac yno buant yn gorwedd yr holl ddydd Sadwrn mewn cyflwr gofidus, megis y buasent o'r blaen. Yn awr, wedi iddi nosi, a myned o meistres Anhyderus a'r Cawr ei gwr i'w gwely, dechreuasant ymddiddan â'u gilydd ynghylch y carcharorion; a rhyfeddu yn ddirfawr a wnaeth yr hen Gawr, ei fod ef yn methu, yn gystal trwy ei ffonnodiau a thrwy ei gynghorion, eu dwyn hwy i drangc drwg. Ac ar hynny ei wraig a ddywedodd wrtho, Yr wyf yn ofni, ebe hi, eu bod hwy yn gobeithio y daw rhyw rai i'w gwaredu hwynt; neu, mae ganddynt ryw offerynau i agoryd cloion â hwynt-hwy, trwy ba foddion

[a] Pan fo'r Cristion yn ymroi i fod yn wrol, a dal gafael yn yr addewid, y mae gobaith o ymwared yn ei gysuro ef, trwy gariad a gallu'r Iachawdwr.

y maent yn gobeithio diangc. A wyt ti yn dywedyd felly, fy anwylyd? ebe'r Cawr. Myfi a ddyfal chwiliaf eu llogellau a'u dillad hwynt y boreu foru, i edrych a oes ganddynt y cyfryw beiriannau.

Ac wele, nos Sadwrn, ynghylch hanner nos, hwy a ddechreuasant weddïo; ac a barhausant mewn gweddi yn agos hyd y wawr ddydd.[b]

Yn awr, ychydig cyn ei bod hi yn ddydd, Cristion fel un wedi hanner amhwyllo, a waeddodd allan yn gythryblus fel hyn, Pa fath ffol, eb efe, ydwyf fi, i orwedd yn y modd yma mewn daeardŷ drewllyd, pan y gallwyf rodio mewn rhydd-did; y mae gennyf agoriad yn fy mynwes, a elwir Addewid,[c] yr hon, y mae'n ddiammau gennyf, a ddetgly bob clo yn Nghastell Amhëus. Yna ebe Gobeithiol, Dyma newydd da, fy mrawd anwyl; tynn hi allan o'th fynwes, a gwnawn brawf o honi; yna Cristion a'i cymmerodd hi allan o'i fynwes, ac a ddechreuodd ar ddrws y ddaear-gell: a phan gynted ag y troes yr agoriad yn y clo, fe aeth y follt yn ei hol, a'r drws a ymagorodd yn ebrwydd; a Christion a Gobeithiol a ddaethant allan eill dau. Yna y daethant at y drws nesaf i gyntedd y castell, yr hwn hefyd a agorodd Cristion â'i allwedd yn ddiattreg. Wedi hynny efe a ddaeth at y porth haiarn, canys yr oedd yn rhaid agor hwnnw hefyd: eithr peth anhawdd iawn ydoedd agoryd clo y porth yma; etto fe'i hagorwyd ef â'r allwedd hon: ac wedi hyn hwy a wthiasant y porth led y pen yn agor, fel y gallent ddiangc ar ffrwst; eithr y porth, wrth ei agor, a wnaeth y fath drwst, fel y deffrowyd y Cawr Anobaith; yr hwn a gyfododd yn ebrwydd i ddilyn y carcharorion; eithr ei aelodau a ballasant, canys ei lewygfeydd a'i cymmerasant ef drachefn, fel na allai mewn modd yn y byd fyned ar eu hol hwynt. Yna hwy a aethant ymaith, ac a ddaethant i brif-ffordd y Brenin: erbyn hynny yr oeddynt mewn diogelwch, gan eu bod wedi dyfod allan o diroedd ac arglwyddiaeth y Cawr.

AGORIAD YN MYNWES CRISTION, A ELWIR ADDEWID, A DDICHON AGOR POB CLO YN NGHASTELL AMHEUS.

Yn awr, wedi iddynt fyned dros y gamfa, hwy a ddechreuasant ddychymmyg ynddynt eu hunain, pa beth a osodent yma, i rwystro'r sawl a ddeuent ar eu hol i ddyfod dan ddwylaw'r Cawr Anobaith. A hwy gyttunasant godi yno golofn, ac i argraffu ar ei hystlys hi yr ysgrifen yma: 'Dyma'r gamfa sydd yn tywys i'r Castell Amhëus, lle y mae'r Cawr Anobaith yn trigo, yr hwn sydd yn dirmygu Brenin y wlad nefol, ac yn ceisio hefyd ddifetha y pererinion sanctaidd.' Llawer gan hynny o'r rhai a'u canlynasant hwy, a ddarllenasant yr ysgrifen, ac a ddiangasant rhag y perygl yma.[d] Ac ar ol hynny hwy a ganasant fel hyn:

CRISTION A'I GYFAILL YN CYFODI COLOFN.

[b] Gweddi daer sydd yn sicr o ddwyn cysur i'r enaid mewn atteb i'n herfyniadau. Mae grym anghrediniaeth erbyn hyn yn dechreu llesgâu, er ei bod yn berfedd y nos; y mae ymwared gerllaw.

[c] Addewidion Duw yw sail ein gobaith. Trwy weddïo'n ddwys mae'r enaid yn ymgryfhâu, ac yn cael cymmorth i ddal ei afael yn graff ar yr addewidion, nes y gwawrio'r dydd, ac y bo Duw yn datguddio ei hun i'r enaid.

[d] Braint neillduol yw cael gollyngdod o grafangau anobaith, yn enwedig i'r sawl sydd wedi bod hir amser

Trwy droi o'r ffordd nyni brofason,
Beth yw rhodio yn anghyfreithlon,
Goch'led y rhai a'n canlynant,
Wyro a phrofi yr un aflwyddiant,
Pan eu delir yn garcharorion,
Gan y Cawr a'i wraig echryslon.

Wedi hynny hwy a aethant ymlaen hyd oni ddaethant i'r mynyddoedd hyfryd, y rhai a berthynant i Arglwydd y bryn, am yr hwn y soniais i o'r blaen:* felly hwy a aethant i fynu i'r mynyddoedd i weled y gerddi, a'r perllanau, a'r gwinllanoedd, a'r ffynhonau dyfroedd oedd yno; lle yr yfasant o'r dwfr ac yr ymolchasant, ac a fwyttasant o'r grawnwin yn rhad. Yn awr, yr oedd ar bennau y mynyddoedd hyn Fugeiliaid yn porthi eu praidd; ac yr oeddynt yn sefyll yn agos i fin y ffordd fawr. Y Pererinion gan hynny a aethant attynt, a chan bwyso ar eu ffyn (fel y mae'n arferol i bererinion diffygiol, pan y byddont yn sefyll i ymddiddan â neb ar y ffordd), hwy a ofynasant iddynt, Eiddo pwy yw'r mynyddoedd hyfryd hyn? A phwy a biai'r defaid sydd yn pori arnynt?

Y MYNYDDOEDD HYFRYD.

EU HADFYWIO YN Y MYNYDDAU.

YMDDIDDAN A'R BUGEILIAID.

BUGEILIAID. Y mynyddoedd hyn ydynt Dir Immanuel, ac y maent hwy yn ngolwg ei ddinas ef; ei eiddo ef ydyw'r defaid hefyd, ac efe a osododd ei einioes i lawr drostynt.

CRISTION. Ai dyma'r ffordd i'r ddinas nefol?

BUG. Yr ydych chwi yn gymmwys yn eich ffordd.

CRISTION. Pa mor belled yw hi oddi yma yno?

BUG. Rhy bell i neb, ond i'r sawl sy'n myned tu ag yno mewn gwirionedd.

CRISTION. A ydyw'r ffordd yn ddiogel, neu yn beryglus?

BUG. Diogel i'r cyfiawn, ond troseddwyr a dramgwyddant ynddi. Hos. xiv. 9.•

CRISTION. A oes yn y lle yma letty ac ymgeledd i bererinion llesg lluddedig i'w gael?

BUG. Fe orchymynodd Arglwydd y lle hwn i ni, nad anghofiem lettygarwch; ac am hynny chwi a ellwch gael rhan o'r pethau da y sydd yma. Heb. xiii. 2.

Mi a welais hefyd yn fy mreuddwyd, mai pan wybu y Bugeiliaid mai fforddolion

dan gaethiwed iddo. Wedi dwyn o honom ein hunain i gystudd a gofid trwy wrthgiliad, nid rhyfedd fod ein henaid yn syrthio i drymder annioddefol, tu hwnt i'r hyn a deimlasom dan ein hargyhoeddiadau cyntaf. Pan fyddom wedi diangc oddiwrth y perygl hwn, ni a allwn rybuddio eraill rhag iddynt gael eu maglu yn yr un modd.

* Wrth y mynyddoedd hyfryd, deallwn y datguddiad diddanus a rydd Yspryd Duw i'r enaid, sydd wedi ei gadarnhâu mewn gras. Mae yma fwyniant neillduol o bresenoldeb Duw, a gobaith gogoneddus o'r wlad nefol, yn llenwi'r meddwl â gorfoledd a llawenydd.

• Mae rhai ysywaeth, wedi iddynt hir dramwy'r ffordd, yn llwfrhâu ac yn troi oddi wrthi, eithr yr hwn a barhao hyd y diwedd a fydd cadwedig. Gras a gallu Duw a ddichon gadw yn ddiogel y rhai sy'n ymddiried ynddo ef. Bydded i'r rhai sydd wedi derbyn Crist ac adnabod ei ddaioni, fod yn ofalus i rodio ynddo ef.



THE DELECTABLE MOUNTAINS

Y Mynyddoedd llyfryd

oeddynt; hwythau hefyd a ofynasant gwestiynau iddynt, (a'r Pererinion a roddasant yr unrhyw attebion iddynt hwy ag a roddasent i eraill,) megis, Gwŷr o ba wlad ydych? A pha fodd y daethoch i'r ffordd? A thrwy ba foddion y parhausoch chwi ynddi fel hyn? canys nid oes ond ychydig o'r rhai sydd yn dechreu dyfod tu ag yma, yn dangos eu hwynebau ar y mynyddoedd hyn. Ond pan glybu y Bugeiliaid eu hattebion hwynt, boddlonwyd hwy yn fawr; a hwy a edrychasant yn gariadus arnynt, ac a ddywedasant wrthynt, 'Groesaw i'r mynyddoedd hyfryd.' Y BUGEILIAID YN EU CROESAWU.

A'r Bugeiliaid,[f] meddaf, y rhai a elwid Gwybodaeth, Profiad, Gwyliadwrus, a Phurdeb, a'u cymmerasant erbyn eu dwylaw, ac a'u harweiniasant i'w pebyll, ac a osodasant ger eu bron yr hyn oedd barod ganddynt. A hwy a ddywedasant ymhellach wrthynt, Nyni a ewyllysiem i chwi aros gyda ni ryw ychydig o amser, fel y galloch fod yn gydnabyddus â nyni; ac hefyd fel y caffoch ychydig o esmwythyd a diddanwch, trwy fod yn gyfranogion o'r pethau daionus y sydd i'w cael yn yr hyfryd fynyddoedd yma. A'r Pererinion a ddywedasant wrthynt, eu bod hwy yn foddlon i aros; ac felly hwy a aethant i'w gorphwysfa y noson honno, canys yr oedd hi yn hwyr iawn. ENWAU Y BUGEILIAID.

A'r boreu drannoeth mi a glywn y Bugeiliaid yn galw ar Gristion a Gobeithiol i ddyfod gyda hwy i rodio ar y mynyddoedd; felly hwy a aethant allan gyda hwynt, ac a rodiasant ennyd, ac a ganfuant fod y tir yn dra ffrwythlon ar bob tu. Yna ebe'r Bugeiliaid wrth eu gilydd, A gawn ni ddangos rhyw ryfeddodau i'r Pererinion hyn? Ac wedi iddynt gyttuno gwneuthur felly, hwy a'u tywysasant hwynt yn gyntaf i ben bryn a elwid Cyfeiliorni, yr hwn oedd yn serth iawn ar yr ystlys bellaf oddi wrthynt; a'r Bugeiliaid a archasant iddynt edrych tua'r gwaelod. Felly Cristion a Gobeithiol a edrychasant tua'r gwaelod tan y bryn: a hwy a welent wrth droed y bryn nifer mawr o ddynion wedi eu dryllio yn ddarnau, gan y cwymp a gawsant yno. Yna ebe Cristion, Pa beth yw hyn? A'r Bugeiliaid a'u hattebasant, Oni chlywsoch chwi son am y rhai a ddadymchwelwyd o ran eu ffydd, trwy goelio athrawiaeth Hymeneus a Philetus, y rhai o ran y gwirionedd a gyfeiliornasant, gan ddywedyd, ddarfod yr adgyfodiad eisoes, 1 Tim. i. 19, 20. 2 Tim. ii. 17, 18, (a thrwy ganlyniad na bydd adgyfodiad i'r meirw drachefn). A'r Pererinion a ddywedasant, 'Do, ni a glywsom son am danynt.' Yna ebe'r Bugeiliaid, 'Y rhai a welwch chwi eu haelodau yn gorwedd yn ddarnau wrth odreu'r bryn yma ydyw'r bobl hynny: ac fe'u gadawyd hwy yma heb eu claddu hyd y dydd hwn, fel y gwelwch, er siampl i eraill, i ochelyd na ddringont yn rhy uchel, ac na ddelont yn rhy agos i ymylau y mynydd hwn.'[g] DANGOS IDDYNT RYFEDDODAU. BRYN CYFEILIORNI.

[f] Beth yw Bugail yn eglwys Crist heb wybodaeth? a pheth dâl gwybodaeth athrawiaethau, &c. heb brofiad ysprydol? Fe ddylai bugeiliaid hefyd fod yn ddiwyd ac yn wyliadwrus, canys *Cyfaill blaidd yw bugail diog.* Purdeb yspryd ac ymarweddiad, sydd lwyr angenrheidiol i weision Duw, y rhai sydd i hyfforddi eraill yn llwybr sancteiddrwydd.

[g] Mae gormod o resymmu ar byngciau dwfn a dyrus wedi bod er niweid i laweroedd. Mae rhai wedi gwadu Duwdod yr Iachawdwr, ac eraill ei Ddyndod; rhai yn gwadu adgyfodiad y corph, ac eraill yn gwadu

Yna mi a'u gwelais hwy yn eu harwain i ben mynydd arall, yr hwn a elwid Gocheliad; BRYN GOCHELIAD. a'r Bugeiliaid a archasant iddynt edrych ymhell oddi wrthynt: yr hyn pan y gwnaethant, hwy a debygent eu bod yn canfod llawer o ddynion yn rhodio i fynn ac i waered yn mysg beddau y rhai oedd yno; a hwy a ddeallasant fod y gwŷr yn ddeillion, am eu bod yn tramgwyddo weithiau wrth y beddau, ac am eu bod yn methu dyfod allan oddi yno. Yna ebe Cristion, 'Pa beth sydd i ni ddeall wrth y pethau hyn?' [h]

A'r Bugeiliaid a attebasant, 'Oni welsoch chwi y gamfa, ychydig islaw y mynyddoedd hyn, yr hon sydd yn arwain i weirglodd, o'r tu aswy i'r ffordd yma?' A'r Pererinion a attebasant, Gwelsom. 'Yno,' ebe'r Bugeiliaid, 'y mae llwybr yn myned o'r gamfa honno, yr hwn sydd yn tywys yn gymmwys i Gastell Amhëus, yn yr hwn y mae'r Cawr Anobaith yn trigo: a'r gwŷr accw (sef y rhai a welsoch ymysg y beddau) a fuant yn bererinion fel yr ydych chwi yn awr, hyd oni ddaethant at y gamfa honno. Ac o herwydd bod y iawn ffordd yn arw yn y man hynny, hwy a droisant i'r weirglodd honno, ac yno y daliwyd hwy gan y Cawr Anobaith, ac efe a'u carcharodd yn ei gastell; ac wedi iddo eu cadw hwy dros dalm o amser yn ei ddaeardŷ, efe o'r diwedd a dynnodd allan eu llygaid hwy, ac a'u harweiniodd i blith y beddau accw, lle y gadawodd efe hwynt i grwydro hyd y dydd heddyw, fel y cyflawnid ymadrodd y gwr doeth, "Dyn yn myned ar gyfeiliorn oddi ar ffordd deall, a orphwys ynghynnulleidfa'r meirw." Diar. xxi. 16. Yna Cristion a Gobeithiol a edrychasant y naill ar y llall, a'r dagrau yn diferu ar hyd eu gruddiau; er hynny ni ddywedasant hwy ddim wrth y Bugeiliaid.[i]

Wedi hynny mi a welwn y Bugeiliaid yn myned a hwy i le arall, mewn pant, lle yr oedd drws yn ochr bryn; a hwy a agorasant y drws, ac a barasant iddynt edrych i mewn: a hwy a wnaethant felly; ac wele yr oedd y lle oddi fewn yn dywyll ac yn fyglyd iawn; ac wele, hwy a debygent hefyd eu bod yn clywed megis swn rhyw dân, a lleisiau rhai yn dioddef poenau dirfawr, a'u bod yn arogli arogl brwmstan. Yna ebe Cristion, TRAWS-LWYBR I UFFERN. Pa beth yw hyn? A'r Bugeiliaid a attebasant, 'Traws-lwybr i uffern yw hwn: dyma'r ffordd y mae rhagrithwyr yn myned i mewn yno; yn enwedig y sawl sydd yn gwerthu eu genedigaeth-fraint gydag Esau; y rhai a werthant eu Meistr gyda Suddas; y rhai sydd yn cablu yr efengyl gydag Alexander; y rhai sydd yn dywedyd celwydd ac yn rhagrithio gydag Ananias a Sapphira ei wraig ef.'

Yna ebe Gobeithiol wrth y Bugeiliaid, 'Yr wyf fi yn deall fod gan y rhai hyn, ïe, bob un o honynt, liw o bererindod, megis y mae gennym ninnau yr awr hon; onid oedd y peth felly?'

tragywydol boenau y colledigion. Ceisiwn gadw mewn yspryd symylrwydd, a glynu wrth dystiolaeth gair Duw.

[h] Dysgwn fod ar ein gocheliad ar bob amser. Gwyliwn a gweddiwn.

[i] Ystyriaeth o'n diogelwch, tra fo'm yn gweled eraill yn cael eu maglu gan Satan, a ddylai ein gwneuthur yn ddiolchgar i'r hwn sydd yn ein cadw. "Yr hwn sydd yn tybied ei fod yn sefyll, edryched na syrthio."



"Yna ebe'r bugeiliaid wrth eu gilydd, gadewch i ni ddangos oddi yma byrth y ddinas nefol i'r pererinion, os medrant edrych trwy'n drych olwg-ni."

PRINTING AND PUBLISHING COMPANY, LIMITED

BUG. Oedd yn ddiau, a hwy a barhasant felly hefyd yn hir o amser.[k]

GOB. Pa belled y gallent hwy (sydd yn awr wedi eu cyfrgolli yn echrydus yn y modd yma) fyned mewn pererindod yn yr amser gynt?

BUG. Rhai a aethant ymhellach, a rhai ni ddaethant cyn belled a'r mynyddoedd hyn.

Yna ebe'r Pererinion wrth eu gilydd, 'Rhaid i ni alw ar yr Hollalluog am nerth.'

BUG. Gwir yw hynny, a rhaid i chwi wneuthur defnydd o hono wedi ei gael ef.

Erbyn hyn yr oedd y Pererinion yn ewyllysio myned ymlaen, a'r Bugeiliaid oeddynt foddlon i hynny; felly hwy a rodiasant ynghyd hyd gwr eithaf y mynyddoedd. Yna ebe'r Bugeiliaid wrth eu gilydd, 'Gadewch i ni ddangos oddi yma byrth y Ddinas Nefol i'r Pererinion, os medrant edrych trwy'n drych-olwg ni:' a'r Pererinion oeddynt dra boddlon i hynny. Felly hwy a'u cymmerasant i ben bryn uchel, yr hwn a elwid Eglur, ac a roddasant iddynt y drych i edrych trwyddo; ond wrth adgofio y peth diweddaf a ddangosasai'r Bugeiliaid iddynt, yr oedd eu dwylaw hwy'n crynu gan ofn; ac oherwydd hynny yr oeddynt yn methu edrych yn ddiysgog trwy'r drych; er hynny tybiasant eu bod yn gweled rhyw beth tebyg i'r porth, ac hefyd beth o ogoniant y lle.

DRYCH-OLWG Y BUGEILIAID.

FFRWYTHAU OFN SLAFAIDD.

O'r bryniau hyfryd esgynasant,
  Lle y mae Bugeiliaid *syth;
Y rhai iddynt ddangosasant
  Bethau yn denu i'w goch'lyd byth:
Trwy ffydd ac ofn mae'r Pererinion
  Yn cael eu cadw yn ffordd y gwir,
Yn ddiogel rhwng peryglon,
  Nes d'od i Sïon dirion dir.

Pan yr oeddynt ar ymadael, un o'r Bugeiliaid a roddodd iddynt ysgrifen o hyspysrwydd ynghylch eu ffordd; a'r llall a archodd iddynt ochelyd y dyn gwenieithus; a'r trydydd a archodd iddynt ochelyd rhag cysgu ar y tir a reibiwyd; a'r pedwerydd a ddywedodd wrthynt, Duw fo'n rhwydd i chwi. Yna hwy a aethant, ymaith ac a ganasant:—

RHYBUDD DYBLYG.

Y mae'r Bugeiliaid yn datguddio
  Pethau cudd rhag pawb o'r byd;
Attynt hwy mae myn'd yn gryno,
  Os ydym am gael gwel'd mewn pryd

[k] Mor druenus meddwl am neb, wedi iddynt am hir amser rodio yn y ffordd ddaionus, ac yn y diwedd yn troi at bechod a thrachwant, neu ynte yn syrthio i drymgwsg o glaearineb, a cholli eu hawl i fendithion y wlad nefol. Dylai y pererinion ddangos pob diwydrwydd a ffyddlondeb, a bod o yspryd gostyngedig, llariaidd, a chall.

* Parod.

Bethau mawrion, bethau dyfnion,
Pethau tra chuddiedig sydd,
Pethau dirgeledig ddigon,
Yn oed i'r saint nes gwawrio'r dydd.

Yna mi a gysgais, ac a freuddwydiais drachefn, ac mi a welwn y ddau Bererin yn myned i waered o'r mynyddoedd, ar hyd y ffordd fawr tua'r Ddinas Nefol. Yn awr, ychydig islaw y mynyddoedd yma, ar y llaw aswy, yr oedd gwlad Hunan-dyb yn sefyll; ac o'r wlad hon yr oedd ffordd gam (sef lôn neu foidir fechan) yn dyfod i'r ffordd yr oedd y Pererinion ynddi; ac yma y cyfarfuant â llangc pert a ffraeth, yr hwn oedd yn teithio o'r wlad honno, a'i enw ef oedd Anwybodaeth. Felly Cristion a ofynodd iddo, o ba le yr oedd ef yn dyfod, ac i ba le yr oedd ef yn myned?

GWLAD HUNAN-DYB, O'R HON Y DAETH ANWYBODAETH.

CRISTION AC ANWYBODAETH YN YMDDIDDAN.

ANWYB. Syr, fe'm ganwyd i yn y wlad accw, ychydig ar y llaw aswy; ac yr wyf fi yn myned tua'r ddinas nefol.

CRISTION. Eithr pa fodd yr ydych chwi'n meddwl myned i mewn trwy'r porth, canys chwi a ellwch gyfarfod â rhyw anhawsder yno?

ANWYB. Fel y mae pobl dda eraill yn myned, ebe yntef.

CRISTION. Eithr pa beth sydd gennych i ddangos yno, fel y bo iddynt agor y porth i chwi?

SAIL GOBAITH ANWYBODUS.

ANWYB. Mi a wn ewyllys fy Arglwydd, ac a fum yn fucheddwr da, yr wyf yn talu i bawb ei eiddo; yr wyf fi yn gweddïo, yn ymprydio, yn talu fy negymau, ac yn rhoddi elusenau, ac mi a adewais fy ngwlad er mwyn y lle yr wyf yn myned iddo.[1]

CRISTION. Eithr ni ddaethost ti i mewn trwy'r porth cyfyng, yr hwn sydd ymhen y ffordd yma: ond tydi a ddaethost i mewn i'r ffordd hon, trwy'r llwybr cam accw; ac am hynny yr wyf yn ofni, pa beth bynnag yr wyt ti'n dybied am danat dy hun, pan ddelo'r dydd cyfrif, y rhoddir i'th erbyn, mai lleidr ac yspeiliwr wyt, yn lle cael myned i'r ddinas.

ANWYB. Foneddigion, yr ydych yn ddieithriaid i mi, nid adwaen ddim o honoch; byddwch foddlon i ddilyn crefydd eich gwlad chwi: a minnau a ddilynaf grefydd fy ngwlad innau. Yr wyf fi yn gobeithio y bydd pob peth o'r goreu. Ac am y porth y soniasoch am dano, fe ŵyr yr holl fyd fod hwnnw ymhell o'n gwlad ni; nid wyf fi 'chwaith yn tybied fod neb yn ein holl barthau ni yn gwybod y ffordd tuag yno; ac ni's gwaeth pa un a'u bod yn ei gwybod hi ai peidio, gan fod gennym, fel y gwelwch, heol hyfryd yn dyfod o'n gwlad ni i union gyrchu'r ffordd yma.

MAE YN DANGOS I BAWB MAI YNFYD YW.

[1] Dyma lais y gwag-broffeswr defodol sydd heb adnabod ei gyflwr colledig, ac heb ddyfod at Grist fel ei unig Geidwad. Mae ei holl hyder ar ei gyflawniadau moesol a'i rinweddau, ac ni ŵyr efe ddim am waith yr Yspryd, yn gweithio cyfnewid grasol ynddo, gan ei adnewyddu ef ar ddelw Duw.

Pan y gwelodd Cristion fod y gwr yn ddoeth yn ei olwg ei hun, efe a ddywedodd wrth Obeithiol yn ddistaw; "Gwell yw'r gobaith am ffol, nac am dano ef." Diar. xxvii. 12. Ac efe a ddywedodd ymhellach, "Y ffol pan rodio ar y ffordd, sydd a'i galon yn pallu, ac y mae'n dywedyd wrth bawb ei fod yn ffol." Preg. x. 3. 'Pa beth a wnawn ni? A ymddiddanwn âg ef ymhellach? Neu ynte myned o'i flaen yn bresennol, i adael iddo fyfyrio ar yr hyn a glywodd eisoes, ac yna ei aros ef drachefn, i edrych a allwn bob yn ychydig wneuthur dim daioni iddo ef.'

Anwybodaeth 'nawr myfyried;
Ychydig ar a gadd ei glywed;
Cyngor da gocheled wrthod,
Rhag cael aros byth heb wybod
Dim am ei wir a'i brif-ddaioni,
A chael ei hollol gyfrgolli:
Can's y mae Duw yn dweyd yn ddiwall,
Am y rhai y sydd heb ddeall,
Er mai fe yw eu Creawdwr,
Na fydd iddynt yn Waredwr.

PA FODD I YMDDWYN TUAG AT FFOL.

Yr wyf yn tybied, ebe Gobeithiol, nad yw yn dda dywedyd y cwbl ar unwaith wrtho ef; gadewch i ni ei adael ef y pryd hyn os mynnwch, a siariadwn âg ef yn y man, fel y bo'n abl derbyn ein haddysg a'n cynghorion.

DINYSTR TOR-BROFFES.

Felly hwy a aethant ymlaen ill dau, ac Anwybodaeth a ddaeth ar eu hol. Yn awr wedi iddynt ei ragflaenu ef ychydig, hwy a ddaethant i heol fechan dywyll iawn, lle y cyfarfuant â gwr wedi ei rwymo gan saith gythraul, Mat. xii. 45, â saith o raffau cedyrn, Diar. v. 22, ac yr oeddynt yn ei gario ef yn ol i'r drws a welsent ar ochr y bryn. Cristion yn awr a'i gyfaill Gobeithiol a ddechreuasant arswydo a chrynu'n aruthr. Etto fel yr oedd y cythreuliaid yn dwyn ymaith y gwr, Cristion a edrychodd yn graff arno, i weled a oedd ef yn ei adnabod; ac efe a dybiodd mai un Tor-broffes ydoedd y gwr, yr hwn oedd yn byw yn nhref Gwrthgiliad; ond ni allai efe weled ei wyneb ef yn amlwg, am ei fod yn gostwng ei ben i lawr, fel lleidr wedi ei ddal; eithr wedi iddo fyned heibio, Gobeithiol a edrychodd ar ei ol ef, ac a ganfu bapur ar ei gefn ef, lle yr oedd yr ysgrifenad hwn: '*Proffeswr anllad a gwrthgilwr damnedig.*' Yna y dywedodd Cristion wrth ei gydymaith, 'Yn awr yr wyf yn adgofio yr hyn a fynegwyd i mi, am beth a ddigwyddodd i wr da ynghylch y man yma; ei enw ef oedd Ychydig-ffydd, eithr gwr da rhinweddol ydoedd efe; ac yr oedd yn trigo yn Nhref Diragrith.—Hyn oedd y matter; ymhen y ffordd yma y mae heol fechan, yn dyfod i waered o Borth y ffordd lydan, a elwir Heol y dyn marw; a hi a elwir felly, o achos y llofruddiaeth a wneir yno yn fynych: a'r gwr yma (yr hwn a elwid Ychydig-ffydd) oedd yn myned ar bererindod, megis yr ydym

CRISTION YN ADRODD HANES YCHYDIG-FFYDD.

PORTH Y FFORDD LYDAN.

HEOL Y DYN MARW.

ninnau yn awr; ac fe ddigwyddodd iddo eistedd i lawr a chysgu yno. Yn awr fe ddamweiniodd y pryd hynny, i dri o wylliaid cryfion ddyfod i waered ar hyd y lôn o Borth y ffordd lydan, a'u henwau ydoedd Gwan-galon, Gwan-gred, ac Euogrwydd, tri brawd; a phan ganfuant hwy Mr. Ychydig-ffydd yn gorwedd yno, hwy a ddaethant atto ar ffrwst. Yn awr yr oedd y gwr da wedi newydd ddihuno o'i gwsg, a'i fryd ar gyfodi i fyned i'w daith.—Felly hwy a archasant iddo sefyll. Ar hyn, Ychydig-ffydd a gollodd ei liw, ac a aeth cyn wynned a'r pared; ac nid oedd ynddo na chalon i ymladd, na gallu i ffoi. Yna ebe Gwan-galon, 'Rhowch i mi eich pwrs;' eithr ni frysiodd efe i wneuthur felly, canys yr oedd yn anhawdd ganddo golli ei arian; Gwan-gred gan hynny a redodd i fynu atto, a chan wthio ei law i'w gôd ef, efe a dynnodd allan ddyrnaid o arian. Yna efe a waeddodd yn groch, 'Lladron, lladron.' Ar hynny, Euogrwydd a darawodd Ychydig-ffydd ar draws ei ben â ffon fawr, yr hon oedd ganddo yn ei law; ac â'r ffonnod honno efe a'i bwriodd yn ei hyd ar y llawr; lle y bu ef yn gwaedu, a'i waed yn ffrydio fel un a fai am waedu hyd angau: a'r lladron yn y cyfamser yn sefyll yn ei ymyl ef: ond o'r diwedd hwy a glywent megis trwst rhai yn dyfod i waered ar hyd y ffordd, a chan ofni mai un Gras mawr ydoedd, yr hwn sydd yn trigo yn nhref Hyfder-dda, hwy a gymmerasant y traed, ac a adawsant Ychydig-ffydd i ymdaro drosto ei hun fel y gallai. Yn mhen ennyd efe a ddaeth atto ei hun, a chan gyfodi ar ei draed, efe a ymdrechodd grippian i fyned ymaith.[m]

YSPEILIO YCHYDIG-FFYDD GAN GWAN-GALON, GWAN-GRED, AC EUOGRWYDD.

MAENT YN DWYN EI BWRS, AC YN EI DARO I LAWR.

GOB. Eithr a ddygasant hwy oddi arno gymmaint oll ar a feddai?

CRIS. Na ddo, ni anrheithiasant hwy y man lle yr oedd ei dlysau ef; felly efe a gadwodd y rhei'ny o hyd; eithr mi a glywais fod yn gyfyng iawn ar y gwr da hwn oherwydd ei golled; canys y lladron a'i hyspeiliasant ef o'i arian traul gan mwyaf. Yr hyn a ddihangodd o'u dwylaw hwy, fel y dywedais i o'r blaen, oedd ei dlysau ef; ac nid oedd yr ychydig arian oedd ganddo ond prin ddigon i'w ddwyn i ben ei daith. 1 Pedr iv. 18. Nagê, oni cham-ddywedwyd wrthyf, fe orfu iddo gardotta a hela ei fwyd ar y ffordd honno (canys ni allai efe werthu ei dlysau); eithr er cardotta a gwneuthur a allai, efe a aeth, fel y dywedwn ni, a'i gylla yn wag y rhan fwyaf o'r ffordd oedd yn ol i ben ei siwrnai.

NI CHOLLODD YCHYDIG-FFYDD EI BETHAU GOREU.

GORFU ARNO GARDOTTA HYD DDIWEDD EI DAITH.

GOB. Ond rhyfedd yw, na ddygasent hwy ysgrifen ei sicrwydd oddi arno, trwy'r hon yr oedd ef i gael ei dderbyn i mewn ymhorth y ddinas nefol.

CRIS. Mae hynny yn rhyfeddod; eithr ni chawsant hwy yr ysgrifen hynny; er na

[m] Bod gennym ychydig ffydd, sydd nesaf peth at fod heb ddim, a thrwy gysgu ar ein taith yr ydym yn ddarostyngedig i gael ein hanrheithio. Wedi syrthio o honom i'r fath gyflwr, nid oes ynnom na chalon nac yspryd i ymroi at ein gwaith. Yr achos fod rhai yn cwyno cymmaint am wendid eu ffydd, ydyw, na's cawsant erioed iawn afael ar Grist, ac nid ydynt yn gweddïo ac yn taer-ddisgwyl am iechydwriaeth yr Arglwydd. Y ffydd honno sydd heb ddwyn yr enaid i wybodaeth brofiadol o'i hawl yn Nghrist, nid yw werth yr enw o ffydd. Lle byddo y gras hwn ar waith yn yr enaid, ac yn ein cadw yn effro ac yn wyliadwrus, nid oes achos gennym ofni unrhyw elyn.

fethasant ei gael trwy unrhyw gyfrwysder o eiddo Mr. Ychydig-ffydd; oherwydd nid oedd ganddo ef allu na medr i guddio dim, gan ei fod mewn syndod a braw trwy eu dyfodiad hwy atto; felly trwy ragluniaeth ddaionus yr Arglwydd, yn fwy na thrwy ei ddyfalwch a'i ofal ef, y methasant gael y peth da hwnnw. 2 Tim i. 14.[n]

NID TRWY EI GYFRWYSDRA EI HUN Y CADWODD EI BETHAU GOREU.

GOB. Eithr yr oedd yn gysur mawr iddo na ddygasant ei dlysau oddi arno.

CRIS. Fe allasai hynny fod yn gysur mawr iddo, pe buasai'n gwneuthur defnydd o hono fel y dylasai; eithr y rhai a adroddasant wrthyf fi yr ystori yma, a ddywedasant, na wnaeth efe ond ychydig ddefnydd o'r peth, yr holl ran arall o'r ffordd; a hynny oherwydd y braw a gawsai efe, pan y dygasant ymaith ei arian ef: gwir ydyw, efe a anghofiodd yr hyn a'i cysurai ef y rhan fwyaf o'r ffordd oedd yn ol o'i daith; ac heblaw hynny, pan ddigwyddai ar un amser iddo ei adgofio, ac y byddai yn dechreu cael cysur oddi wrtho; yna meddyliau newydd ynghylch ei golled am ei arian a lyngcai bob math o fyfyrdodau eraill.

GOB. Och! O druan gwr, nid oedd fodd nad oedd hynny yn dristwch mawr iddo.

Y DDAU YN TOSTURIO WRTHO.

CRIS. Mae hynny yn ddiammau, ac oni buasai yn dristwch i nyni, pe gwnaethid â ni megis y gwnaethpwyd âg ef, trwy ei yspeilio, a'i glwyfo hefyd, a hynny mewn lle dieithr, fel yr oedd ef ynddo? Rhyfeddod ydyw, na buasai efe, druan gwr, yn marw gan ofid! Myfi a glywais, ei fod ef yn dolefain ac yn cwynfan yn alarus y rhan fwyaf o'r ffordd wedi hynny, gan achwyn wrth bawb a'i goddiweddasant ef, ac wrth y sawl yr oedd yntef yn eu gorddiwes ar y ffordd; gan achwyn meddaf fi, yn mha le yr yspeiliwyd ef, a pha fodd, a phwy oedd y gwŷr a wnaethant hynny, a pha beth a gollasai, a'r modd y clwyfwyd ef, ac mai prin y dihangodd ef yn fyw.

GOB. Eithr peth rhyfeddol ydyw, na pharodd ei angen iddo ef werthu neu wystlo rhai o'i dlysau, fel y gallai efe ei ddianghenu ei hun yn ei daith.

CRIS. Yr wyt ti yn siarad megis un o'r ynfydion: canys am ba beth y gwystlai ef ei dlysau? neu i bwy y gwerthai ef hwynt? nid oeddid yn gwneuthur cyfrif yn y byd o'i dlysau ef yn y wlad honno yn yr hon yr yspeiliwyd ef ynddi, ac nid oedd arno ef eisiau dim o'r fath gymmorth ag oedd gan bobl y wlad honno i'w weini iddo. Heblaw hynny, pe buasai ei dlysau ef yn eisiau wrth borth y ddinas nefol, fe'i cauasid ef allan o'i etifeddiaeth oedd yno (a hynny a wyddai ef yn ddigon

CRISTION YN YMLIW A'I GYDYMAITH AM SIARAD YN DDIYSTYR.

[n] Mae yma ryw beth nid mor hawdd ei ddeall, pan y ceisiwn ddehongli'r hanes, a'i gwneuthur i gerdded yn gyson; sef fod gan ddyn ysgrifen sicrwydd, ac heb dderbyn budd na chysur oddiwrth hynny. Onid yw fy sicrwydd wedi myned ar goll, pan y byddwyf trwy ddiofalwch wedi syrthio tan ddwylaw y gelynion, gwanhyder, gwan galon, ac euogrwydd? Bydded i'r sawl sydd dan faich o euogrwydd ac ammheuaeth, ddyfod at Grist fel rhai sydd yn amddifad o bob peth, iddynt gael eu dwyn yn iawn i ben y llwybr trwy ffydd fywiol, a chael eu cerddediad wedi ei hwylio gan Yspryd Duw. Y sawl sydd yn colli y ffordd, sydd yn colli gwedd wyneb Duw, ac wedi hynny yn teimlo argyhoeddiadau dwys a dyfnion, cyn cael mwynhâd ac adferiad o'u cysuron gynt.

da) a gwaeth a fuasai hynny iddo ef nag ymddangosiad a chreulondeb myrddiwn o ladron.

GOB. Paham yr wyt mor chwerw, fy mrawd? Fe werthodd Esau ei enedigaeth-fraint, a hynny am phiolaid o gawl. Heb. xii. 16. A'r enedigaeth honno oedd ei dlws pennaf ef; ac os gallai efe, paham na's gallai Ychydig-ffydd wneuthur felly hefyd?

CRIS. Gwir yw, Esau a werthodd ei enedigaeth-fraint, yr hyn beth y mae llawer o rai eraill yn ei wneuthur, a thrwy hynny yn cau eu hunain allan oddiwrth feddiannu y fendith bennaf, megis y gwnaeth y drygddyn hwnnw.

Eithr mae yn rhaid i chwi wneuthur peth gwahaniaeth rhwng Esau ac Ychydig-ffydd, ac hefyd rhwng eu cyflyrau hwynt. Yr oedd genedigaeth-fraint Esau yn gysgodol, ond nid oedd tlysau Ychydig-ffydd felly. Bol Esau oedd ei dduw, eithr nid felly yr oedd bol yr Ychydig-ffydd. Eisiau Esau oedd yn ei flys naturiol, ond blys Ychydig-ffydd nid oedd felly. Heblaw hynny, nid oedd Esau yn edrych am ddim ond am gyflawni ei drachwantau; canys "Wele fi yn myned i farw," ebe fe, "a pha les a wna'r enedigaeth-fraint hon i mi?" Gen. xxv. 32. Eithr Ychydig-ffydd a dybiodd mai rhan o'i etifeddiaeth ef oedd ei ffydd, er gwanned oedd hi; a thrwy y ffydd honno efe a gadwyd rhag y fath afradlondeb, ac a ddysgwyd i iawn brisio ei dlysau, yn lle eu gwerthu hwynt, megis y gwerthodd Esau ei enedigaeth-fraint. Nid ydych yn darllen fod gan Esau ffydd yn y mesur lleiaf: ac am hynny nid yw yn rhyfedd, lle byddo'r cnawd yn unig yn dwyn rhwysg, (megis y gwna yn y dyn hwnnw, lle na byddo ffydd i'w wrthwynebu ef,) os gwerth efe ei enedigaeth-fraint, a'i enaid, a'r cwbl oll y sydd ganddo, a hynny hefyd i'r diafol o uffern; canys y mae'r cyfryw ddynion yn debyg i asen wyllt, "Yr hon wrth ei hachlysur ni's gellir ei throi ymaith." Jer. ii. 24. Felly hwythau, pan y b'ont wedi gosod eu bryd ar gyflawni eu trachwantau, a fynnant y pethau y maent yn eu blysio, pa beth bynnag a gostio iddynt. Eithr yr oedd Mr. Ychydig-ffydd o dymmer arall, yr oedd ei feddwl ef ar bethau nefol: a phethau ysprydol, ac oddi uchod yr oedd ei gynnaliaeth ef. I ba ddiben gan hynny y gwerthai efe, yr hwn ydoedd o'r cyfryw dymmer, ei dlysau, pe buasai yno un a'u prynasai hwynt, i borthi ei drachwantau â phethau gweigion? A ddyry gwr geiniog am gael llanw ei fol â gwair? neu a ellwch chwi beri i'r ddurtur ymborthi ar furgyn, megis y gwna'r gigfran? Ac er y dichon y rhai digred wystlo, neu werthu yr hyn oll a feddont, er mwyn cyflawni eu trachwantau cnawdol, a'u hunain hefyd yn lle gwarthol; etto ni ddichon y rhai sydd a ffydd ganddynt, sef ffydd iachusol,° wneuthur felly, er nad yw eu ffydd ond ffydd wan iawn. A dyma dy gam-gymmeriad di, fy mrawd.

YMDDIDDAN YNGHYLCH ESAU AC YCHYDIG-FFYDD.

ESAU DAN LYWODRAETH EI FLYS.

NI BU GAN ESAU ERIOED FFYDD.

NIS GALLAI YCHYDIG-FFYDD FYW AR GAWL ESAU.

CYDMARU Y DDURTUR A'R GIGFRAN.

° Y mae ffydd wirioneddol yn cadw'r enaid, ond pan fyddo neb yn syrthio i yspryd rhyfyg, neu i yspryd diofalwch, ac wedi hynny yn y canlyniad yn cael ei fathru gan euogrwydd, y mae efe wedi colli ei ffydd, er y dichon trwy drugaredd Duw gael ei adferyd.

GOB. Yr wyf fi yn cydnabod hynny; etto bu eich gwaith chwi yn troi arnaf fi mor sarrug, yn agos a pheri i mi ddigio wrthych.

CRIS. Paham? ni wnaethum ond dy gyffelybu di i rai o'r adar gwylltion, y rhai a redant yma a thraw ar hyd llwybrau anhygyrch, a'r plisg ar eu pennau: eithr gad hynny heibio fy mrawd; ac ystyria y peth sydd yn llaw gennym, ac fe fydd pob peth o'r goreu rhyngot ti a myfi.

GOB. Yr wyf fi yn credu yn fy nghalon, nad oedd y tri chyfaill hynny ond gwŷr llyrfion: pe amgen, a redasent hwy ymaith, debygech chwi, fel y gwnaethant wrth glywed trwst rhyw un dyn yn dyfod yn unig ar hyd y ffordd fawr? Paham na buasai Ychydig-ffydd yn cymmeryd gwell calon? Yr wyf yn tybied y gallasai ddal un frwydr â hwynt-hwy, a rhoi i fynu pan y buasent yn myned yn rhy galed iddo.

GOBEITHIOL YN YMFFROSTGAR.

CRIS. Mi a glywais lawer megis chwithau yn eu barnu hwy yn llwfr; eithr nid oes ond ychydig a brofasant y peth felly mewn awr o brofedigaeth. Ac am fod yn fwy gwrol, nid allai Ychydig-ffydd fod o'r fath galon a hynny. Ac mi a debygwn wrthyt tithau, fy mrawd, pe buasit ti yn ei le ef, ni fuasit ti gwell nag yntef; canys nid wyt ti ond tros un yn taro, ac wedi hynny ni wnei di ond rhoi i fynu. Ac yn ddiammau, gan mai uchder dy feddwl sy'n peri i ti siarad yn y modd yma, (am eu bod hwy yn awr ymhell oddi wrthym) pe digwyddai iddynt ymddangos i ti, megis y gwnaethant iddo ef, hwy allent beri i ti newid dy feddyliau.

NID OES FAWR O WROLDEB AT DDAIONI LLE BO YCHYDIG FFYDD.

YR YDYM YN FWY GWROL PAN FO'M ALLAN O BROFEDIGAETH NAG YDYM YNDDI.

Eithr ystyria drachefn, mai lladron ar gyflog ydynt, yn gwasanaethu tywysog y pwll diwaelod, yr hwn, os bydd rhaid, a ddaw ei hun i'w cynnorthwyo hwynt, a'i lais ef sydd fel rhuad llew. 1 Pedr v. 1. Mi a fum fy hun yn y frwydr yma, fel y bu Ychydig-ffydd, a dychrynllyd iawn oedd y peth yn ol fy marn i. Y tri dihiryn yma a ruthrasant arnaf, a minnau a ddechreuais fel Cristion eu gwrthsefyll hwy; eithr ni wnaethant ond rhoddi un alw, a'u meistr a ddaeth ar droad llaw attynt; yna, megis y mae'r ddihareb, y rhoddaswn fy mywyd er ceiniog: ond fel yr oedd Duw yn mynnu, yr oeddwn wedi fy ngwisgo âg arfogaeth brofedig; ac etto, er fy mod wedi fy arfogi felly, bu anhawdd iawn i mi ymgadw fel gwr: ni ddichon un dyn draethu pa fodd y mae arnom yn yr ormes honno, ond y sawl a fu yn y frwydr ei hun.[p]

CRISTION YN ADRODD EI BROFIAD EI HUN.

GOB. Eithr hwy a ffoisant pan y tybiasant fod gwr a elwir Gras mawr ar y ffordd.

CRIS. Gwir yw, hwynt-hwy a'u meistr hefyd a ffoisant yn fynych pan na wnai Gras mawr ond ymddangos; a cnid rhyfedd, canys prif ryfelwr y Brenin yw efe: eithr yr wyf yn tybied y gwnewch chwi beth gwahaniaeth rhwng Ychydig-

PRIF RYFELWR Y BRENHIN.

[p] Gwir yw hyn. Rhaid myned trwy ambell frwydr gyfyng, heb son am brofedigaethau cyffredin, os mynnwn ddal dechreuad ein hyder yn ddiysgog hyd y diwedd. Ond trwy nerth Crist fe ddichon y Cristion wneuthur pob peth.

ffydd a phen cawr y Brenin: nid cawri y brenin yw ei holl ddeiliaid ef; ac ni's gallant chwaith, pan y profir hwynt, wneuthur y fath orchestwaith mewn rhyfel, ag a ddichon efe ei wneuthur. Ai gwiw coelio, y gallasai rhyw fachgenyn bychan drin Goliath fel y gwnaeth Dafydd? Neu fod nerth ŷch mewn dryw. Y mae rhai yn gryfion, a rhai yn weiniaid; y mae rhai a llawer o ffydd ganddynt, eithr nid oes ond ychydig ffydd gan eraill. Un o'r gweiniaid oedd y gwr hwn, ac am hynny y syrthiodd efe i'r clawdd.[q]

GOB. Mi a ddymunaswn pe buasai Gras mawr yno, er eu mwyn hwynt.

CRIS. Pe buasai efe yno, gallasai gael ei lawn waith, canys rhaid i mi ddywedyd hyn wrthych chwi, er fod Gras mawr yn dra medrus ar ei arfau i amddiffyn ei hunan, ac er gwneuthur o hono lawer; ac er y dichon efe etto wneuthur llawer yn erbyn y gelynion hyn, tra y cadwo efe hwynt wrth flaen ei gleddyf; er hynny, os gall Gwan-galon, Gwan-gred, ac Euogrwydd ddyfod i mewn atto, a chael gafael arno, deugain i un oni chyfodant ei sodlau: a phan elo gwr i lawr, pa beth a all efe wneuthur?

Pwy bynnag a edrycho yn graff yn ngwyneb Gras mawr, fe a gaiff weled y fath greithiau a thorriadau yno, y rhai a wiriant yr hyn a leferais i am dano. Ië, mi a glywais iddo ddywedyd unwaith, a hynny pan yr oedd yn y frwydr, iddo ddywedyd, meddaf, 'Yr wyf fi yn ofni y collaf fy mywyd!' Pa fodd y gwnaeth y dihirwyr cyndyn yma, a'u cyfeillion, i Ddafydd ruddfan, galaru, a rhuo? Ië, fe orfu i Hezeciah a Haman hefyd, er eu bod yn gawri yn eu dyddiau, ymdrechu yn galed, pan y rhuthrodd y rhai hyn arnynt; ac er hynny i gyd, hwy a gawsant eu trybaeddu yn dost ganddynt. Fe chwennychodd Pedr ar ryw amser brofi pa beth a allai efe ei wneuthur: ond er bod rhai yn dywedyd mai efe oedd tywysog yr apostolion, etto fe driniodd y gwŷr hyn ef yn y cyfryw fodd, fel ag y parasant iddo o'r diwedd ofni morwynig wael.[r]

Heblaw hyn, y mae eu brenin hwy yn barod wrth eu chwibaniad: nid yw efe un amser allan o glyw iddynt; ac os ar ryw achlysur y digwydda gael o honynt y gwaethaf, os bydd bosibl, efe a ddaw ei hun i mewn i'w cynnorthwyo hwynt: ac am dano ef gellir dywedyd mewn rhan, yr hyn a ddywedir am y Lefiathan, "Cleddyf yr hwn a'i tarawo ni ddeil; y waywffon, y biccell, na'r llurig; efe a gyfrif haiarn fel gwellt, a phres fel pren pwdr. Ni phâr saeth iddo ffoi; cerrig tafl a droed iddo yn sofl. Piccellau a gyfrifir fel soflyn, ac efe a chwardd wrth ysgwyd gwayw-ffon." Job xli. 26, &c. Pa beth a all gwr ei wneuthur yn y cyflwr hwn? Gwir yw, pe b'ai gan wr farch Job bob amser, a medr a grymusder i'w farchogaeth ef, efe allai wneuthur pethau nodedig: "Canys ei wddf sydd wedi ei wisgo â tharan; ni ddychryna efe fel ceiliog y

NERTH Y LEFIATHAN.

MARCH JOB.

[q] Mae yn sicr fod gras Duw yn gryfach mewn rhai na'u gilydd, ond pob gwir filwr i Grist a gaiff nerth yn ol ei raid, trwy weddïo mewn awr o gyfyngder, a chymmeryd atto gleddyf yr yspryd a tharian iechydwriaeth.

[r] Ni fuasai y rhai hyn yn syrthio i'r fath amheuaeth a digalondid, pe buasent yn cadw'r llwybr cul. Pan fyddom wedi tristâu Yspryd yr Arglwydd, dyna'r pryd y mae efe yn cuddio ei wyneb oddi wrthym.

rhedyn: dychryn ydyw ardderchogrwydd ei ffroen ef. Ei draed ef a gloddiant yn y dyffryn; ac efe a lawenycha yn ei gryfder; ac efe a â allan i gyfarfod arfau; efe a ddiystyra arswyd, ac ni ddychryn efe; ac ni ddychwel yn ei ol rhag y cleddyf. Y cawell saethau a drystia yn ei erbyn ef, y ddisglaer wayw-ffon a'r darian. Efe a lwngc y ddaear gan greulondeb a chynddaredd; ac ni chred efe mai llais yr udgorn yw. Efe a ddywed ymhlith yr udgyrn, Ha, ha; ac a arogla ryfel o bell, twrf tywysogion a'r bloeddio." Job xxxix.

Ond am y fath wŷr traed a thi a minnau, na fydded i ni byth ddymuno cyfarfod â gelyn, nac ymffrostio (fel pe gallem ni wneuthur yn well) pan glywom i eraill gael eu maeddu; nac ymfalchio wrth feddwl am ein gwroldeb ein hunain; canys y cyfryw rai fynychaf a orchfygir pan brofir hwynt. Y mae'r apostol Pedr yn siampl yn y matter yma, am yr hwn y crybwyllais o'r blaen; efe a arferai eiriau uchel, ïe, a pha beth ni's gwnai? Efe a wnai (megis yr oedd ei galon dwyllodrus yn ei annog ef i ddywedyd) fwy na neb, ac a safai gyda'i Feistr pan y gadawai pawb ef: eithr pwy a gafodd y fath ffŵyll, a phwy a orchfygwyd gan y dihirwyr hyn, fel y gorchfygwyd ef?

Nyni a ddylem gan hynny gyflawni dau ddyledswydd, pan y clywom wneuthur y fath anrheithiadau ar ffordd fawr y Brenin. Yn gyntaf, arfogi ein hunain pan yr elom allan ynghylch ein gorchwylion; a bod yn sicr o gymmeryd ein tarian gyda ni; canys dyma'r achos (sef, am ei fod heb y darian hon) paham y methodd yr hwn a osododd mor gefnog ar y Lefiathan ei orchfygu ef; canys mewn gwirionedd, os bydd honno yn eisiau, ni's ofna efe nyni. Am hynny y dywedodd yr hwn oedd fedrus, "Uchlaw pob dim, cymmerwch darian y ffydd, â'r hon y gellwch ddiffoddi holl biccellau tanllyd y fall." Eph. vi. 16.

Da fyddai i ni hefyd alw ar y Brenin am gynnorthwy; ïe, ar iddo ddyfod ei hun gyda ni: canys dyna'r peth a wnaeth i Ddafydd orfoleddu, pan yr oedd efe yn nyffryn cysgod angau: a gwell oedd gan Foesen farw yn y fan lle yr oedd ef yn sefyll, na myned cymmaint ag un cam heb ei Dduw gydag ef. O fy mrawd! os efe a â gyda ni, pa raid i ni ofni rhag myrddiwn o rai a ymosodant yn ein herbyn; ond hebddo ef, y cynnorthwywyr beilchion a grynant, ac a syrthiant. Sal. xxiii. 4. Ecs. xxxiii. 15. Sal. xxvii. 1, 2, 3. Job. ix. 13.[*]

DA YW CAEL GWARCHEIDWAD Y BRENIN.

O'm rhan i, myfi a fum yn y frwydr hon cyn hyn: ac er diangc o honof yn fyw, trwy ddaioni a gallu yr Hollalluog, etto, nid oes achos gennyf i ymffrostio am fy ngwroldeb. Fe fydd llawen gennyf, os ni chyfarfyddaf yn ol hyn â'r fath ymdriniaeth: yr wyf yn ofni nad aethom ni etto tu hwnt i bob enbydrwydd. Pa wedd bynnag, gan na ddarfu i'r

[*] Cynghorion gwerthfawr ac addas yw y rhai hyn. Trwy gredu a gweddïo ni a fyddwn yn ddiogel, ni a gryfheir trwy y gras sydd yn Nghrist Iesu; canys nid oes achos ofni un gelyn, tra fyddo ein Harglwydd gyda ni ar y maes.

llew na'r arth fy nifa hyd yn hyn, yr wyf yn gobeithio hefyd y gwared Duw ni oddiwrth y Philistiad dienwaededig nesaf.—Yna y canodd Cristion fel hyn:

Ychydig-ffydd, p'le buost di,
Ai ynghwmpeini lladron?
Ai felly gwnaeth yr enwir bla,
Ai'th bocced a yspeiliason'?

Cais gan hynny ychwaneg ffydd,
Os mynni dorfeydd orfod;
Fel hyn dros ddeng mil yr ai di,
Onidê mae tri yn ormod.

Felly hwy a aethant ymlaen, ac Anwybodoeth a'u canlynodd, hyd oni ddaethant lle yr oedd ffordd arall yn dyfod i'w ffordd hwynt; yr hon a ymddangosai mor uniawn a'r

FFORDD ARALL.

ffordd oedd ganddynt hwy i fyned ar hyd-ddi: ac ni wyddent hwy yma, pa un o'r ddwy a gymmerent;[t] canys yr oedd pob un yn union o'u blaen hwynt; ac am hynny hwy a safasant yma dro i ystyried; ac fel yr oeddynt yn myfyrio ynghylch y ffordd, wele wr o wynebpryd pygddû yn dyfod attynt, wedi ei ddilladu â gwisg wen iawn, ac yn gofyn iddynt, paham yr oeddynt yn sefyll yno? Hwythau a'i hattebasant ef, eu bod yn myned tua'r ddinas nefol, ond ni's gwyddent pa un o'r ddwy ffordd a gymmerent. Dilynwch fi, ebe'r gwr, canys yno yr wyf finnau yn myned. Felly hwy a'i canlynasant ef

CRISTION A'I GYFAILL YN CAEL EU RHWYDO.

ar hyd y ffordd newydd, yr hon oedd yn arwain i'r brif-ffordd: a'r ffordd yma bob yn ychydig a drodd, ac a drodd, ac a'u harweiniodd hwynt oddiwrth y ddinas yr hon yr oeddynt yn chwennychu myned iddi, hyd onid oeddynt, mewn ychydig amser, wedi troi eu hwynebau oddi wrthi: er hynny hwy a'i canlynasant ef. Eithr ymhen ennyd, efe a'u tywysodd hwy i rwyd yn ddiarwybod iddynt; yn yr hon y

EU MAGLU ILL DAU.

maglwyd hwy ill dau, fel na wyddent pa beth a wnaent: ac ar hynny, y wisg wen a syrthiodd oddi am gefn y gwr dû: yna y gwybuant yn mha le yr oeddynt; ac yno y buont ryw dalm o amser yn cwyno, ac yn ocheneidio, canys yr oeddynt yn methu dyfod allan o'r rhwyd.[u]

CRIS. Yna ebe Cristion wrth ei gydymaith, Yn awr yr wyf yn gweled fy ngham-

[t] Mae y Pererinion trwy ddiofalwch yn colli eu ffordd, ac yn rhoi lle i wag-hyder, ac felly yn dwyn eu hunain i gyflwr o enbydrwydd.

[u] Mae Satan yn medru ymddangos dan rith Angel goleuni, ac felly y mae ei genhadon ef. Maent yn hudo eneidiau trwy dwyll a gweniaith. Hyn a ellir ei wneuthur trwy ddysgu dynion, ar y naill du, eu bod wedi cyrhaeddyd i'r cyfryw stad o ras, nad oes arnynt angen mwyach o haeddiant y Cyfryngwr, a thrugaredd Duw, ac nad yw ordinhadau allanol yn angenrheidiol iddynt hwy; neu ar y tu arall, trwy eu perswadio, y gallant fod yn blant i Dduw, a bod yn anwybodus o hynny, neu ynte barhâu mewn ffafr gydâ Duw, heb fyw mewn ufudd-dod i'w sanctaidd orchymynion ef.

syniad. Oni archodd y Bugeiliaid i ni ochelyd y Gwenieithiwr? Y mae gennym brofiad yr awr hon, mai gwir a ddywedodd y gwr doeth, sef, "Y dyn a ddywedo weniaith wrth ei gymmydog, sydd yn taenu rhwyd i'w draed ef." Diar. xxxix. 5.

MAENT YN CWYNO AM EU CYFLWR.

GOB. Hwy a roddasant i ni hefyd ysgrifen o gyfarwyddiad am y ffordd, fel y gallem ni ei chadw hi yn sicrach: eithr fe ddarfu i ni anghofio darllen yn honno hefyd, ac nid ymgadwasom rhag llwybrau yr yspeilydd. Yn hyn yr oedd Dafydd yn ddoethach na ni; canys ebe fe, "Tu ag at am weithredoedd dynion, wrth eiriau dy wefusau yr ymgedwais rhag llwybrau yr yspeilydd." Sal. xvii. 4. Fel hyn y buant yn cwyno ac yn ymofidio, am eu bod mewn cyflwr truenus yn y rhwyd. O'r diwedd hwy a ganfuant wr, mewn gwisg ddisglaer, yn dyfod tuag attynt, a fflangell o gyrd mân yn ei law; ac wedi iddo ddyfod attynt, efe a ofynodd iddynt, o ba le yr oeddynt yn dyfod? a pha beth oeddynt yn ei wneuthur yno? Hwythau a ddywedasant, mai Pererinion tlodion oeddynt, yn myned tua Sion, eithr wedi eu hudo allan o'u ffordd gan wr dû, wedi ei ddilladu mewn gwisg wen; yr hwn, ebe hwy, a archodd i ni ei ganlyn ef; canys yr oedd yntef, meddai ef, yn myned tuag yno hefyd. Yna ebe'r hwn oedd a fflangell yn ei law, Gwenieithiwr ydyw ef, a gau apostol, "yr hwn a ymrithiodd yn rhith angel goleuni." Diar. xxix. 5. Dan. xi. 32. 2 Cor. xi. 13, 14. Felly efe a dorrodd y rhwyd, ac a'u gollyngodd hwynt allan. Yna ebe fe wrthynt hwy, Canlynwch fi, fel y gosodwyf chwi ar eich ffordd drachefn. Felly efe a'u tywysodd yn eu hol i'r ffordd yr hon a adawsent hwy i ganlyn y Gwenieithiwr. Yna efe a ofynodd iddynt, Yn mha le y llettyasoch neithiwr? Hwythau a attebasant, Gyda'r Bugeiliaid ar y mynyddoedd hyfryd. Gofynodd iddynt ymhellach, Oni chawsoch gan y Bugeiliaid ysgrifn o hyspysrwydd am y ffordd? Hwythau a attebasant, Cawsom. Eithr, ebe fe, pan yr oeddych yn ammau ynghylch y ffordd, a edrychasoch chwi yn yr ysgrifen honno i gael cyfarwyddiad am dani? Naddo, ebe hwythau. Paham na's gwnaethoch felly, ebe yntef? Ni a anghofiasom wneuthur hynny, ebe'r Pererinion. Yna y gofynodd efe iddynt ymhellach, Oni rybuddiodd y Bugeiliaid chwi i ochelyd y Gwenieithiwr? Do, ebe hwy; eithr nid allem ni dybied mai'r gwr tofodber hwn oedd ef. Rhuf. xvi. 18.

Y GWR MEWN GWISG WEN YN DYFOD ATTYNT, AC YN EU FFLANGELLU.

EU HOLI, A'U PROFI YN EUOG O ESGEULUSDRA.

TWYLLWYR YN DAFOD-LYFN.

Yna mi a glywn yr Un disglaer yn gorchymyn iddynt orwedd i lawr; yr hyn pan y gwnaethant, efe a'u curodd hwy yn dost; i beri iddynt gofio yn well y ffordd dda, yn yr hon y dylasent rodio ynddi: ac wrth eu fflangellu hwynt, efe a ddywedodd, "Yr wyf fi yn argyhoeddi ac yn ceryddu y sawl yr wyf yn eu caru; am hynny bydded gennyt zêl, ac edifarha."[w] Ac wedi iddo wneuthur felly, efe a

EU FFLANGELLU A'U HANFON I FFORDD.

[w] Mae yn iawn i ni dderbyn cerydd pan fyddom wedi cymmeryd ein twyllo, a'n troi o'r ffordd. Yn mha fodd, neu yn mha fesur bynnag y caffom ein ceryddu, dylem ddiolch i'n Harglwydd tirion, am gerydd angenrheidiol yn gystal ag am ein cysuron.

archodd iddynt fyned i'w ffordd; ac i fod yn fwy gofalus i ddal sylw rhagllaw ar hyfforddiadau eraill y Bugeiliaid. Deut. xxv. 2. 1 Chron. vi. 26, 27. Dat. iii. 19. Felly hwy a ddiolchasant iddo am ei holl garedigrwydd, ac a aethant yn araf ar y ffordd union, dan ganu—

Y sawl sy'n rhodio llwybrau'r saint,
Edrychwch faint yw'r archoll
A gafodd Pererinion gwâr,
Wrth fyned ar gyfyrgoll.

Mewn rhwydau, maglau, myglyd maith
Eu dal yn gaeth a wnaethpwyd,
Am eu gwaith hwy'n gwrthod gwir
Gynghorion difyr, dofwyd:

Gwir ydyw, i'w Gwaredydd pur,
Eu dwyn o'u cur a'u cystudd:
Ond derbyniasant fflangell drwch;
Am hyn cymmerwch rybudd.

Yn mhen ennyd, hwy a ganfuant o hirbell, un yn dyfod yn araf wrtho ei hun, ar hyd y ffordd fawr, i'w cyfarfod hwynt. Yna ebe Cristion wrth ei gydymaith, Daccw wr, a'i gefn tua Sion, ac y mae efe yn dyfod i'n cyfarfod ni.

GOB. Mi a'i gwelaf ef yn dyfod, edrychwn attom ein hunain yn awr, rhag iddo yntef fod yn wenieithiwr hefyd: felly efe a ddaeth nes-nes; ac o'r diwedd a ddaeth i fynu attynt, a'i enw ef oedd Atheist; ac efe a ofynodd iddynt, i ba le yr oeddynt yn myned?

ATHEIST YN EU CYFARFOD.

Yr ydym ni yn myned, ebe Cristion, i fynydd Sion. Yna y chwarddodd Atheist yn groch iawn.

CRIS. Paham yr ydych yn chwerthin? ebe Cristion.

ATH. Yr ydwyf yn chwerthin i weled eich anwybodaeth, ac am i chwi gymmeryd cyn flined siwrnai; pan nad ydych chwi debyg i gael dim ond eich poen am eich llafur.

MAE YN EU GWAWDIO.

MAENT YN YMRESYMU.

CRIS. Paham, ddyn? Ai tybied yr wyt ti na dderbynir ni i'r ddinas nefol.

ATH. Eich derbyn! Nid oes y fath le ag ydych chwi yn breuddwydio am dano, yn yr holl fyd yma.

CRIS. Eithr y mae yn y byd a ddaw.

ATH. Pan yr oeddwn i gartref yn fy ngwlad fy hun, mi a glywais rai yn siarad megis yr ydych chwi yr awr hon, am y cyfryw ddinas, ac wrth glywed hynny, mi a ymadewais â'm gwlad, ac a fum yn ymofyn am y ddinas hon er ys ugain mlynedd: eithr

ni bum i ddim nesach: ac ni welais i fwy o honi na'r dydd cyntaf yr aethum allan. Preg. x. 3.

CRIS. Nyni a glwysom, ac yr ydym yn credu fod y cyfryw le i'w gael.

ATH. Oni buasai i minnau gredu hynny pan oeddwn gartref, ni ddaethwn i cyn belled a hyn i ymofyn am dani: eithr gan na chefais i y fath le, (ac etto myfi a'i cawswn pe buasai i'w chael, canys mi a aethum i ymofyn am y ddinas hon ymhellach na chwi,) yr wyf fi yn myned yn ol drachefn, ac mi a ymdrechaf i adfywio fy hun â'r pethau a fwriais i ymaith y pryd hynny, mewn gobaith i fwynhâu y pethau yr ydwyf yn gweled yn awr nad ydynt i'w cael.

YR ATHEIST YN YMFODDLONI YN Y BYWYD HWN.

CRIS. Yna ebe Cristion wrth ei gydymaith Gobeithiol, Ai gwir yw yr hyn a ddywed y gwr yma?

CRISTION YN PROFI EI FRAWD.

GOB. Gwyliwch, un o'r gwenieithwyr ydyw ef; cofiwch beth a gostiodd i ni eisioes am wrando ar y fath gymdeithion a'r rhai'n. Pa beth! Nid oes dim o'r fath le a mynydd Sïon? Oni welsom ni byrth y ddinas oddi ar bennau y mynyddoedd hyfryd? Ac hefyd, onid ydym ni yn awr i fyw wrth ffydd, ac nid wrth olwg? 2 Cor. v. 7. Awn rhagom, ebe Gobeithiol, rhag i'r gwr a'r fflangell ein gorddiwes ni drachefn.*

ATTEBIAD SYNHWYROL GOBEITHIOL.

Chwychwi a ddylasech ddysgu'r wers yma i mi, yr hyn a ddysgaf fi yr awr hon i chwi. "Fy mab, paid a gwrando ar addysg a bair i ti gyfeiliorni oddiwrth eiriau gwybodaeth." Fy mrawd, meddaf, paid a gwrando arno ef, "a chredwn i gadwedigaeth yr enaid." Heb. x. 39.

MAE COF AM GERYDD YN ATTAL RHAG TEMTASIWN.

CRIS. Fy mrawd, ni ofynais i y cwestiwn yma i ti, o herwydd fy mod yn ammau dim o'r gwirionedd, yr hyn yr ydym ni yn ei gredu, ond i'th brofi di; ac i gael gweled ffrwyth gonestrwydd dy galon. Ac am y gwr yma, myfi a wn ei fod ef wedi ei ddallu gan dduw y byd hwn: awn rhagom, gan wybod ein bod 'yn credu'r gwirionedd, yn yr hwn nid oes gelwydd.' 1 Ioan ii. 21.

FFRWYTH CALON ONEST.

GOB. Yr wyf yn gorfoleddu yn awr, mewn gobaith i feddiannu gogoniant Duw: felly hwy a droisant eu cefnau ar y gwr; ac yntef a aeth i'w ffordd dan chwerthin.

Yna y gwelwn yn fy mreuddwyd y Pererinion yn myned yn eu blaen, hyd oni ddaethant i ryw wlad lle yr oedd yr awel yn naturiol yn peri i ddynion gysgu, yn enwedig os dieithriaid fyddent: ac yma y dechreuodd Gobeithiol fod yn farwaidd iawn, ac yn drwmluog gan gysgu; am hynny ebe fe wrth Gristion, Yr

Y TIR RHEIBUS.

* Mae amryw fath o elynion yn cyfarfod â ni ar ein taith. Wedi cael o'r Pererinion ymwared oddiwrth un brofedigaeth, wele dyma un arall yn ymosod arnynt. Er eu bod wedi myned cyn belled ar eu ffordd, y maent yn awr yn cael eu temtio â'r demtasiwn erchyll o ddidduwiaeth. Mae rhai siamplau yn bod, o ddynion yn proffesu crefydd am hir amser, ac wedi hynny yn syrthio i'r fagl ofnadwy hon, i wadu Duw yn gyhoeddus, ac ymwrthod â phob crediniaeth yn yr ysgrythyrau, gan daeru nad oes na byd na bywyd arall yr ochr draw i'r bedd. Mor hyfryd yw cael tystiolaeth yr Yspryd ynom ein hunain, yn cydsynio â thystiolaeth y gair ysgrifenedig!

GOBEITHIOL YN GYSGLYD.

wyf fi yn awr mor gysglyd, fel mai prin yr ydwyf yn gallu cadw fy llygaid yn agored: gorweddwn yma, a chymmerwn hûn.

CRISTION YN EI GADW YN EFFRO.

CRIS. Na wnawn, ebe fe, mewn modd yn y byd, rhag wedi cysgu na ddeffrôm mwyach.

GOB. Paham fy mrawd, melus yw hûn y gweithiwr, fe allai yr adfywid ni trwy gysgu ychydig.

CRIS. Onid ydych chwi yn cofio i un o'r Bugeiliaid erchi i ni ochelyd rhag y tir a reibiwyd? Ei feddwl ef wrth ddywedyd felly ydoedd, am i ni ochelyd cysgu; am hynny na chysgwn fel rhai eraill, eithr gwyliwn a byddwn sobr. 1 Thes. v. 7.

GOB. Yr wyf fi yn cydnabod fy mod i ar fai; a phe buaswn yma yn unig, buaswn yn debygol o gysgu hyd angau.

Mi a welaf mai gwir a ddywedodd y gwr doeth; "Gwell yw dau nag un." Trugaredd fawr a fu dy gyfeillach di i mi hyd yn hyn; "a thi a dderbyni wobr am dy lafur." Preg. iv. 9.[y]

MAE YMDDIDDANION DA YN CADW RHAG CWSG.

CRIS. Yna ebe Cristion, Gadewch i ni ymddiddan ynghylch rhyw beth buddiol, fel y byddo i ni trwy hynny gadw ein hunain yn effro.

GOB. O ewyllys fy nghalon, ebe'r llall.

CRIS. Pa le y dechreuwn;

GOB. Dechreuwn, os gwelwch fod yn dda, ynghylch y modd y dechreuodd Duw weithio arnom: Eithr, ebe Cristion, mi a ganaf i chwi yn gyntaf y gân hon—

Pan fyddo'r duwiol werin,
A chwsg i'w tryblio'n dra-blin;
Gwrandawent yr ymddiddan clau,
Sydd rhwng y ddau Bererin.

A dysgent gym'ryd cyffro,
A'u cadw eu hun yn effro,
Rhag cael arnynt ormod gwall,
A bod i'r fall eu twyllo.

Am hyn i'r sawl sydd berffaith,
Cwmpeini'r saint sydd odiaeth:
I gadw eu llygaid rhag cau ynghyd,
Er gwaetha'r yspryd diffaeth.[z]

[y] Mor fuddiol yw bod gennym gydymmaith ffyddlon a chywir, i'n rhybuddio rhag anghofio ein hunain, a chymmeryd ein byd yn rhy esmwyth, a llaesu ein dwylaw oddiwrth ein gwaith fel Cristionogion, pan fyddo'r hîn yn deg, a phethau yn myned wrth ein bodd. Gochelwn fod yn rhy ddiogel yn ein tyb ein hunain, mae perygl yn mhob man.

[z] Pwy ddichon gyfrif mawr werth cymdeithas Pan fo'r enaid yn gysglyd, mae'r tafod yn fud ynghylch matterion ysprydol, ac ar yr un pryd yn ddigon parod i ymddiddan am gwrs y byd, ac am bethau

CRIS. Yna Cristion a ddechreuodd, ac a ddywedodd, Myfi a ofynaf i chwi un cwestiwn: Pa fodd y daethoch chwi ar y cyntaf i feddwl am y pethau yr ydych chwi yn awr yn eu gwneuthur?

MAENT YN DECHREU AR EU HARGYHOEDDIAD.

GOB. Ai meddwl yr ydych, pa fodd y daethum i ar y cyntaf i ymofyn am iachawdriaeth fy enaid?

CRIS. Ië, hynny yw fy meddwl i.

GOB. Myfi a fum dalm o amser yn cymmeryd hyfrydwch yn y pethau a welid ac a werthid yn ein ffair ni; pethau yr wyf yn credu yr awr hon, pe buaswn yn eu canlyn yn wastadol, a fuasent yn fy arwain i golledigaeth a distryw.

CRIS. Pa bethau oeddynt hwy?

GOB. Holl drysorau a chyfoeth y byd. Ac hefyd mi a gymmerais hyfrydwch mawr mewn cyfeddach, meddwdod, tyngu, rhegu, gan offrwm fy enaid i'r diawl, dywedyd celwydd, aflendid, torri'r sabbath; a pheth ni's gwnawn i, er fod hynny yn tueddu i ddinystrio fy enaid? Eithr deallais o'r diwedd, wrth wrando ac ystyried geiriau Duw, y rhai a glywais i allan o'ch genau chwi, ac hefyd o enau Ffyddlon fendigedig, (yr hwn a ddioddefodd yn ffair gwagedd, am ei ffydd a'i fuchedd duwiol,) sef, mai diwedd y pethau hyn yw marwolaeth; ac mai o blegid y pethau hyn y mae digofaint Duw yn dyfod ar blant yr anufudd-dod. Rhuf. vi. 21. Eph. v. 6.

BYWYD GOBEITHIOL CYN EI ARGYHOEDDI.

CRIS. A ymroisoch chwi yn ddioed i dderbyn yr argyhoeddiad hwnnw?

GOB. Na ddo; nid oeddwn yn ewyllysgar yn ddiattreg i adnabod y gwenwyn a'r drwg sydd mewn pechod, na'r damnedigaeth sydd yn ei ddilyn ef; eithr pan y dechreuodd fy nghalon grynu dan y gair, mi a ewyllysiwn gau fy llygaid yn erbyn goleuni'r gair.

GOBEITHIOL AR Y CYNTAF YN CAU EI OLYGON RHAG Y GOLEUNI.

CRIS. Eithr pa beth oedd yr achos, yr ymddygasoch fel hyn tan weithrediadau cyntaf yr Yspryd Glân ynoch chwi?

GOB. Yr achosion oeddynt, yn gyntaf, am na's gwyddwn i mai gwaith Yspryd Duw oedd yr argyhoeddiadau yma; ac ni wybum i erioed o'r blaen, mai trwy ddeffroad am bechod yr oedd Duw yn dechreu gweithio tröedigaeth pechadur. Yn ail, yr oedd pechod yn felus etto i'm cnawd; ac yr oedd yn anhawdd gennyf ymadael âg ef. Yn drydydd, ni wyddwn i pa fodd yr ymadawn â'm hen gyfeillion,[a] gan mor ddymunol oedd eu cymdeithas, eu hymadroddion, a'u gweithredoedd gennyf. Yn bedwerydd, yr oedd yr oriau hynny, yn y rhai yr argyhoeddid fi am fy mhechod, mor

Y RHESYMAU IDDO WRTHSEFYLL Y GOLEUNI.

ofer. Ond y mae yr enaid sydd yn llwyddo mewn crefydd yn caru ymddiddanion ysprydol, a thyna un ffordd neillduol i gadw y meddwl yn effro, ac yn wyliadwrus.

[a] Y mae rhai yn ymgyndynu mwy na'u gilydd yn erbyn gweithrediadau gras, ac wedi bod yr enaid yn dechreu ymddarostwng i oleuni Duw, ac argyhoeddiadau cydwybod, anhawdd iawn troi cefn ar yr hen gyfeillion ofer. Eithr un a ddywed,

"Cyntaf peth a raid ei wneuthur,
Yw tynnu o blith y drwg weithredwyr."

gythryblus ac mor ddychrynllyd i mi, fel na allwn gymmaint a meddwl am danynt heb arswyd yn fy nghalon.

CRIS. Mae'n debygol wrth hynny, eich bod weithiau yn cael esmwythdra oddiwrth y gofid ag oedd yr argyhoeddiadau yma yn ei weithio ynoch.

GOB. Oeddwn yn ddiau, eithr hwy a ddeuent i'm cof drachefn; ac yna y byddwn mor ddrwg, ïe, yn waeth fy nghyflwr nag erioed o'r blaen.

CRIS. Paham, beth oedd yn peri i chwi adgofio eich pechodau drachefn?

GOB. Llawer o bethau; megis, 1. Pan y cyfarfyddwn â gwr duwiol yn y ffordd: 2. Pan glywn neb yn darllen y Bibl: 3. Pan ddechreuai dolur yn fy mhen: 4. Pan y clywn fod rhai o'm cymmydogion yn gleifion: 5. Fod cloch yn canu, am fod rhyw un wedi marw: 6. Pan feddyliwn am farw fy hunan: 7. Pan y clywn i am angau disymmwth a ddigwyddodd i rai o'm cymmydogion: 8. Yn bennaf dim, pan y meddyliwn y gorfyddai arnaf fy hun ddyfod i'r farn ar fyrder.

PAN BEIDIODD A THEIMLO EI BECHOD, BETH A'I HADGOFIODD.

CRIS. Eithr a allech chwi yn hawdd un amser fwrw ymaith euogrwydd pechod pan y cymmerai afael arnoch trwy un o'r pethau hyn?

GOB. Na allwn; canys y pryd hynny hwy a wasgent yn drymach ar fy nghydwybod. Ac yna, os meddyliwn am droi yn ol at fy mhechodau, er fod gennyf fwriad i ymadael â hwynt, fe fyddai hynny yn boen dau-ddyblyg i mi.

CRIS. A pha fodd y gwnaech y pryd hynny?

GOB. Mi a feddyliais, fod yn rhaid i mi wellhâu fy muchedd; onidê, ebe fi, y mae'n sicr gennyf y byddaf ddamnedig.

PAN NA ALLAI YSGWYD YMAITH EUOGRWYDD TRWY BECHU, CEISIODD WELLA.

CRIS. Ac a ddarfu i chwi ymegnïo i wellhâu eich buchedd?

GOB. Do, gan droi nid yn unig oddiwrth fy mhechodau, ond hefyd oddiwrth bob cwmpeini annuwiol a drygionus; ac mi a ymroddais i gyflawni dyledswyddau crefyddol, megis gweddïo, darllen, galaru am fy mhechodau, dywedyd y gwir wrth fy nghymmydogion, &c. Dyma'r pethau a wnaethum, a llawer eraill, gormod i'w hadrodd yn y man yma.

CRIS. A oeddych chwi yn tybied eich bod weithiau mewn cyflwr daionus?

GOB. Oeddwn dros ennyd; eithr o'r diwedd, daeth gofid ar fy nhraws bendramwnwgl drachefn, ar wddf fy holl ddiwygiadau.

YNA TYBIODD EI HUN YN IACH.

CRIS. Pa fodd y digwyddodd hynny, gan eich bod yn awr wedi adnewyddu eich buchedd?

GOB. Yr oedd amryw o bethau yn peri i'r gofid hwnnw ddyfod arnaf drachefn, yn enwedig y cyfryw ymadroddion a'r rhai hyn: "Ein holl gyfiawnderau sydd megis brattiau budron: ni chyfiawnheir un cnawd trwy weithredoedd y ddeddf: wedi i chwi wneuthur y cwbl oll, dywedwch, Gweision anfuddiol ydym." Esa. lxiv. 6. Rhuf. iii. 20. Luc xvii. 10, ynghyd â llawer o'r cyfryw ymadroddion. Ac oddiwrth hynny yr oeddwn yn ymresymu ynof fy hun fel hyn—Os ydyw fy holl gyfiawn-

NIS GALLAI DIWYGIO EI HELPIO, A PHAHAM.

derau i fel brattiau budron—os ni chyfiawnheir un cnawd trwy weithredoedd y ddeddf—ac os nad ydym ond gweision anfuddiol wedi i ni wneuthur y cwbl oll a orchymynwyd; yna ffolineb mawr yw ceisio'r nefoedd trwy weithredoedd y ddeddf. Mi a feddyliais hefyd ymhellach fel hyn—os â gwr mewn dyled siopwr gant o bunnau, a thalu am yr hyn oll a elo ganddo o'r siop yn ol hynny, etto er hynny i gyd, os bydd ei hen ddyled yn aros ar y llyfr yn wastadol, heb ei groesi, fe ddichon y siopwr gwyno arno am ei hen ddyled, a'i fwrw yngharchar hyd oni thalo ef y ddyled honno.

EI FOD YN DDYLEDWR I'R GYFRAITH YN EI FLINO.

CRIS. Wele, pa ddefnydd a wnaethoch o'r pethau hyn?

GOB. Mi a feddyliais ynof fy hun fel hyn—myfi, trwy fy mhechodau, a redais ar ysgôr ymhell yn llyfr Duw; ac nad oedd fy ngwellhad presennol yn talu dim o'r ddyled honno; ac am hynny y dylwn i feddwl yn wastadol, dan fy holl gyfnewidiadau, pa fodd y rhyddheid fi oddiwrth y ddamnedigaeth oedd ddyledus i mi am fy nhrosedd-iadau gynt.

CRIS. Cymhwysiad rhagorol; ond attolwg ewch rhagoch.

GOB. Peth arall a'm blinodd, er pan ddechreuais i wellhâu fy muchedd, ydoedd hyn—sef, pan edrychwyf yn fanwl ar y pethau goreu ag ydwyf yn eu gwneuthur yr awr hon, yr wyf yn canfod pechod yn wastadol (ïe, pechodau newyddion) yn gymmysg â'm gweithredoedd goreu, hyd onid ydwyf yn rhwym yn awr i farnu (er fy holl feddyliau anghall a balch am danaf fy hun a'm dyledswyddau o'r blaen) ddarfod i mi droseddu digon mewn un dydd i'm danfon i uffern, pe buasai fy muchedd o'r blaen yn ddifeius.[b]

EI FLINO WRTH WELED PECHOD YN EI BETHAU GOREU.

CRIS. Beth a ddarfu i chwi wneuthur wedi hyn?

GOB. Gwneuthur! Ni's gwyddwn i pa beth i wneuthur, hyd oni adroddais fy meddwl wrth Ffyddlon; canys yr oeddym ni yn gydnabyddus iawn â'n gilydd. Ac efe a ddywedodd wrthyf, oddi eithr i mi gael cyfiawnder un na phechasai erioed, na's gallai na'r eiddo fy hun, na chyfiawnderau'r holl fyd fy achub.

GWNAETH HYN IDDO DDWEYD EI GWYN WRTH FFYDDLON, YR HWN A FYNEGODD IDDO PA FODD I FOD YN GADWEDIG.

CRIS. A oeddych chwi yn tybied ei fod yn dywedyd y gwir?

GOB. Pe buasai yn dywedyd felly wrthyf, pan yr oeddwn yn ymhyfrydu ac yn ymfoddloni yngwellhad fy muchedd, mi a'i galwaswn ef yn ynfyd am ei waith; eithr yn awr, gan fy mod yn gweled fy ngwendid fy hun, a'r pechodau sydd yn glynu wrth fy nghyflawniadau goreu, fe orfu i mi fod o'r un meddwl ag yntef.

[b] Mae yn angenrheidiol i ni, nid yn unig weled drwg pechod, ac ymwrthod âg ef, ond trwy olwg ar ein colledigaeth, fwrw ein hunain yn llwyr ar drugaredd Duw yn Nghrist. Ni ddichon gwellhad presennol ein buchedd wneuthur iawn a chymmod am ein trosedd gynt, ac os ydym yr awr hon yn well, trwy waith gras Duw y mae hynny. Rhaid edrych am un perffaith gyfiawn, a wnaeth iawn a chymmod dros bechod; ac os tröwn ein golwg at y groes, ni a welwn yno yr hwn a wnaeth berffaith iawn drosom; canys "Crist a ddioddefodd, y cyfiawn dros yr anghyfiawn, i'n dwyn ni at Dduw." 1 Pedr iii. 18. "Efe yw yr iawn dros

CRIS. Eithr a oeddych chwi yn tybied, pan y dywedodd efe hynny gyntaf wrthych, fod y fath wr i'w gael, am yr hwn y gellid dywedyd yn hŷ, na wnaeth efe bechod erioed?

GOB. Y mae'n rhaid i mi gyfaddef, fod yn rhyfedd gennyf glywed y geiriau hyn ar

WRTH YR HYN Y RHYFEDDODD AR Y CYNTAF.

y cyntaf; eithr yn ol ymddiddan âg ef ymhellach, a chael o honof ychydig ychwaneg o'i gyfeillach, fe a roddes i mi gyflawn foddlonrwydd am y peth.

CRIS. A ofynasoch chwi iddo ef, pwy oedd y gwr hwn; a pha fodd eich cyfiawnhaer chwi trwyddo ef?

GOB. Do; ac efe a ddywedodd, mai yr Arglwydd Iesu ydoedd; yr hwn sydd yn

YMDDIDDAN MWY NEILLDUOL AM LWYBR ACHUB.

eistedd ar ddeheulaw y Goruchaf: ac fel hyn, ebe fe, y cyfiawnheir chwi trwyddo ef, sef trwy ymddiried yn yr hyn a wnaeth efe yn nyddiau ei gnawdoliaeth, a'r hyn a ddioddefodd pan fu ynghrog ar bren. Heb. x. Rhuf. iv. Col. i. 2 Pedr i.[c] Mi a ofynais iddo ymhellach pa fodd y gallai cyfiawnder y gwr hwn fod yn effeithiol i gyfiawnhâu un arall ger bron Duw? Ac efe a ddywedodd mai Duw Hollalluog ydoedd efe; ac iddo wneuthur yr hyn a wnaeth, a marw hefyd, nid trosto ei hun, ond trosof fi; ac y cyfrifid ei ufudd-dod ef, a'i haeddedigaethau i mi, os credwn i ynddo.

CRIS. A pha beth a wnaethoch wedi hyn?

MAE YN AMMAU EI DDERBYNIAD.

GOB. Myfi a wrth-ddywedais na's gallwn i gredu fod Crist yn ewyllysgar i'm hachub.

CRIS. Pa beth a ddywedodd Ffyddlon am hynny?

GOB. Efe a archodd i mi fyned atto, a phrofi, pa un a wnai efe ai fy achub ai peidio. Yna minnau a'i hattebais, mai rhyfyg ydoedd hynny. Yntef a ddywedodd,

DYSGIR EF YN WELL.

Nagê, canys fe'th wahoddwyd i ddyfod atto. Mat. xi. 28. Yna efe a roddodd i mi lyfr o ysgrifeniad Iesu ei hun, i'm hannog i ddyfod atto yn hyfach. Ac efe a ddywedodd am y llyfr hwnnw, fod pob iot a thitl o hono ef yn fwy safadwy na'r nefoedd a'r ddaear. Mat. xiv. 35. Yna mi a ofynais iddo, ba beth a wnawn pan ddelwn atto? Yntef a ddywedodd wrthyf, fod yn rhaid i mi ymbil ar fy ngliniau, â'm holl galon ac â'm holl enaid, ar y Tad, am ei ddatguddio ef i mi. Sal. xcv. 6. Jer. xxix. 13. Gal. i. 16. Wedi hynny mi ofynais iddo ymhellach, yn mha le y gallwn i gael cyfarfod âg ef? Ac yntef a'm hattebodd, Dos, a thi a gei ei gyfarfod ef ar orseddfa o drugaredd, (Ecsod. xxv. 22,) lle y mae yn eistedd trwy'r holl flwyddyn, i roddi gollyngdod a

ein pechodau ni." 1 Ioan ii. 2. Dyma'r modd y mae Ysspryd Duw yn tywys yr enaid yn gyntaf i adnabod ei golledigaeth, ac wedi hynny i ffoi at Grist ein hunig noddfa.

[c] Dyma sail ein cyfiawnhad yn ddiamau, sef credu o honom yn yr hyn a wnaeth ein Cyfryngwr Crist Iesu drosom ni bechaduriaid. Yn y golwg hwn gallwn ddywedyd fod cyfiawnder Crist yn cael ei gyfrif i'r rhai crediniol, sef, mai fel y cospwyd ef am ein beiau ni, fe'n cyfrifir ni yn gyfiawn, neu fe'n trinir fel rhai cyfiawn er ei fwyn, a thrwy rinwedd yr hyn a wnaeth efe drosom ni. Eithr mae yn rhaid hefyd i ni trwy ras, gael cyfiawnder neu sancteiddrwydd personol, cyn y gallom fod yn addolwyr cymmeradwy i Dduw yma, neu gael hawl i fywyd tragywyddol.

maddeuant i'r sawl a ddeuant atto. Minnau a ddywedais na's gwyddwn i pa beth i ddywedyd wrtho, pan y delwn atto. Yna ebe fe, Dywed wrtho yn y modd hwn—'Duw, bydd drugarog wrthyf bechadur; a phar i mi adnabod Iesu Grist, a chredu ynddo; canys mi a welaf pe buasai ei gyfiawnder ef heb fod, ac oni bydd gennyf finnau ffydd i gredu y cyfiawnheir fi, trwy ei gyfiawnder ef, ddarfod am danaf yn dragywydd: Arglwydd, mi a glywais dy fod di yn Dduw trugarog, ac i ti ordeinio dy Fab Iesu Grist i fod yn Iachawdwr y byd: ac ymhellach, dy fod di yn ewyllysgar i'w roddi ef i fod yn Achubwr i'r fath bechadur truan ag ydwyf fi, ac yn wir yr wyf fi yn bechadur mawr; cymmer gan hynny, Arglwydd, yr odfa hon, a gogonedda dy ras ynghadwedigaeth fy enaid i, trwy dy Fab Iesu Grist. Amen.'

GORCHYMYN IDDO WEDDIO.

CRIS. A wnaethoch chwi fel y gorchymynwyd i chwi?

GOB. Do, drachefn, a thrachefn, a thrachefn.

MAE YN GWEDDIO.

CRIS. A ddatguddiodd Duw ei Fab i chwi?

GOB. Na ddo, y tro cyntaf, na'r ail, na'r trydydd, na'r pedwerydd, na'r pummed, nac etto ar y chweched waith.

CRIS. Pa beth a wnaethoch ar ol hynny?

GOB. Pa beth a wnaethum! Ni's gwyddwn i pa beth a wnawn.

CRIS. Oni feddyliasoch roi heibio weddïo?

GOB. Do, gannoedd o weithiau.

MAE YN MEDDWL RHODDI HEIBIO WEDDIO.

CRIS. A phaham na's gwnaethoch felly?

GOB. Am fy mod yn credu mai gwir oedd yr hyn a ddywedwyd wrthyf, sef, heb gyfiawnder Crist na's gallai yr holl fyd fy achub i: ac am hynny mi a feddyliais ynnof fy hunan, os rhoddaf heibio weddïo, mai marw fyddaf; ac ni's gallaf fi ond marw, os gweddïaf o flaen gorseddfaingc y gras. Ac ar hynny fe ddaeth y geiriau hyn i'm cof; "Os erys y weledigaeth, disgwyl am dani; canys gan ddyfod y daw, ac nid oeda." Hab. ii. 3. Felly mi a ddyfal-barheais yn gweddïo, hyd oni ddatguddiodd Duw ei Fab i mi. Gal. i 16.

NI FEIDDIAI RODDI HEIBIO, A PHAHAM.

CRIS. A pha fodd y datguddiodd Duw ef i chwi?

GOB. Ni welais i ddim o hono ef â'm llygaid corphorol, ond â llygaid fy neall, ac fel hyn y bu—Yr oeddwn ar ddiwrnod yn athrist iawn, (i'm tyb i yn dristach nag y bum i un amser o'm heinioes,) a'r tristwch hwn a ddaeth arnaf, wrth weled o'r newydd fawredd a ffieidd-dra fy mhechodau: a phan nad oeddwn i y pryd hynny yn disgwyl dim ond uffern a damnedigaeth dragywyddol i'm henaid, yn ddisymmwth mi a dybiais weled o honof yr Arglwydd yn edrych i lawr o'r nefoedd arnaf, ac yn dywedyd wrthyf, "Cred yn yr Arglwydd Iesu, a chadwedig fyddi." Act. xvi. 31.

AMLYGU CRIST IDDO, A PHA FODD.

Eithr myfi a attebais, Arglwydd, yr wyf yn bechadur, O yn bechadur mawr dros ben! Yntef a attebodd, "Digon i ti fy ngras i." 1 Cor. xii. 9. Yna y dywedais innau, Arglwydd, pa beth yw credu? Ac wedi hynny y deallais i, oddiwrth yr ymadrodd yma,

"Yr hwn sydd yn dyfod attaf fi ni newyna: a'r hwn sydd yn credu ynnof fi ni sycheda un amser." Ioan vi. 35. Mai'r un peth yw credu yn Nghrist a dyfod atto; a bod yr hwn sydd yn dyfod atto, hynny yw, y sydd yn sychedu yn ei galon ar ol iachawdwriaeth trwy Grist, fod hwnnw, meddaf fi, yn credu ynddo mewn gwirionedd. Yna, a'r dwfr yn sefyll yn fy llygaid, mi a ofynais iddo ymhellach, Arglwydd, a ddichon y fath bechadur mawr ag wyf fi gael ei dderbyn gennyt, a bod yn gadwedig trwyddot? Ac yntef a attebodd, "Yr hwn a ddel attaf fi, ni's bwriaf ef allan ddim." Ioan vi. 37. Yna mi a ddywedais, Eithr pa fodd, Arglwydd, y mae'n rhaid i mi dy ystyried di, wrth ddyfod attat; fel y byddo fy ffydd wedi ei gosod yn union arnat ti? Yna efe a ddywedodd, "Crist Iesu a ddaeth i'r byd, i gadw pechaduriaid." 1 Tim. i. 15. "Crist yw diwedd y ddeddf, er cyfiawnder i bob un sydd yn credu." Rhuf. x. 4. "Efe a draddodwyd dros ein pechodau ni, ac a gyfodwyd i'n cyfiawnhâu ni." Rhuf. iv. 25. "Efe a'n carodd ni, ac a'n golchodd ni oddiwrth ein pechodau, yn ei waed ei hun." Dat. i. 5. "Efe yw y Cyfryngwr rhwng Duw a dyn." 1 Tim. ii. 5. "Y mae efe yn byw bob amser, i eiriol trosom ni." Heb. vii. 24, 25. Oddiwrth yr hyn oll y cesglais, y byddai rhaid i mi ddisgwyl am gyfiawnder yn unig yn ei Berson ef, ac am iawn tros fy mhechodau yn ei waed ef, ac nid trwy ddim arall: ac mi a gesglais ymhellach, fod yr hyn a wnaeth ef mewn ufudd-dod i gyfraith ei Dad, a'i ddarostyngiad ef i ddioddef cospedigaethau am rai wedi troseddu y gyfraith honno (fod hyn oll, meddaf) wedi ei wneuthur, nid drosto ei hun, ond dros y sawl a'i derbyniai yn Iachawdwr iddynt, ac a fyddai ddiolchgar iddo. Ac yn awr yr oedd fy nghalon yn llawn o lawenydd, fy llygaid yn llawn o ddagrau, ac yr oedd gennyf serchiadau rhyfeddol tu ag at enw, a phobl, a ffyrdd yr Arglwydd Iesu Grist.[d]

CRIS. Dyma ddatguddiad o Grist i'ch enaid mewn gwirionedd: eithr dywedwch i mi yn fwy neillduol, pa beth a weithiodd hyn ar eich yspryd chwi?

GOB. Fe wnaeth hyn i mi weled fod yr holl fyd, er ei holl gyfiawnderau, mewn 'stad o ddamnedigaeth: fe wnaeth i mi weled, er bod Duw'r Tad yn gyfiawn, y dichon efe, er hynny i gyd, gyfiawnhâu y pechadur a ddel atto. Fe wnaeth hyn i mi gywilyddio yn ddirfawr am frynti fy muchedd gynt; ac fe'm gwaradwyddwyd i'n ddirfawr wrth feddwl faint oedd fy hen anwybodaeth; canys ni feddyliodd fy nghalon i erioed o'r blaen, fod Iesu Grist mor hawddgar. Fe wnaeth i mi garu buchedd sanctaidd, ac i hiraethu am wneuthur rhyw beth er anrhydedd a gogoniant i enw'r Arglwydd Iesu. Ië, yr wyf fi'n

[d] Natur gwir ffydd yw rhoddi holl bwys yr enaid ar Grist, nes teimlo o honom, fod gennym heddwch cydwybod, a gollyngdod oddiwrth ein holl euogrwydd, "trwy yr hwn a'm carodd, ac a roddes ei hun drosof fi." Mae tystiolaeth ddwyfol yn cael ei roddi i'r enaid, fod iddo hawl yn nghariad a ffafr Duw trwy Grist, ac ar yr un pryd, mae nerth a grym yn cael ei roddi yn erbyn pechod a llygredd. Mor druenus fod cynnifer o grefyddwyr yn byw yn amddifad o'r cyfryw brofiad, trwy yspryd deddfol; tra fo eraill yn ymffrostio o gyfiawnder Crist, ac yn pledio tros bechod. Mae y gwir gredadyn yn cael ei gyfiawnhâu trwy haeddiant Crist. a'i sancteiddio gan Yspryd Crist yn preswylio ynddo.

tybied yn awr, pe b'ai bosibl fod gennyf fi fil o alwyni o waed yn fy nghorph, y gallwn golli pob dafn o hono er mwyn yr Arglwydd Iesu.

Yna y gwelwn (yn fy mreuddwyd) Gobeithiol yn edrych drach ei gefn, ac efe a ganfu y gwr a elwid Anwybodaeth, (yr hwn adawsent ar eu hol,) yn eu canlyn hwynt. Gwelwch, ebe fe wrth Gristion, fel y mae y glaslangc accw yn loitran ar ein hol.

CRIS. Ië, ïe, mi a'i gwelaf ef; ond ni waeth ganddo fawr am ein cwmpeini ni.

GOB. Eithr yr ydwyf yn tybied, na chawsai efe niweid yn y byd o'n dilyn ni hyd yn hyn.

CRIS. Gwir iawn yw hynny; eithr mi a warantaf i chwi ei fod ef yn meddwl yn amgen.

GOB. Felly yr wyf finnau yn tybied hefyd: ond er hynny gadewch i ni aros am dano ef, ac felly y gwnaethant. Yna Cristion a alwodd arno, gan ddywedyd wrtho, Deuwch yn mlaen wr, paham yr ydych yn sefyll ar ol yn y modd yna?

ANWYBODAETH YN EU CYRAEDD EILWAITH.

ANWYB. Y mae'n fwy dewisol gennyf fi rodio wrthyf fy hun, na chyda chwmpeini, oni b'ai fy mod yn caru y cwmpeini hynny yn well na'ch cwmpeini chwi.

EU HYMDDIDDAN.

Yna ebe Cristion yn ddistaw wrth Gobeithiol, Oni ddywedais i wrthych chwi, nad oedd ef yn prisio ein cyfeillach ni? Eithr pa wedd bynnag, ebe fe, deuwch, a siaradwn â'n gilydd, i ddifyrru'r amser yn y lle anghyfanedd hwn: yna gan gyfeirio ei ymadrodd at Anwybodaeth, efe a ddywedodd wrtho, Pa fodd yr ydych? Pa fodd y mae'r matter yn sefyll rhwng Duw a'ch enaid chwi yn awr?

ANWYB. O'r goreu, yr wyf yn gobeithio; canys yr wyf bob amser yn llawn o gynhyrfiadau duwiol, y rhai a redant ar fy meddyliau, i'm cysuro ar fy nhaith. Diar. xxviii. 26.

HYDER ANWYBODAETH, A'I SAIL.

CRIS. Attolwg, dywedwch i mi, Pa gynhyrfiadau da ydyw y rhai hynny?

ANWYB. Yr ydwyf yn meddwl am Dduw ac am y nefoedd.

CRIS. Y mae'r diafliaid ac eneidiau'r damnedig yn gwneuthur hynny hefyd.

ANWYB. Eithr yr ydwyf fi yn meddwl am danynt, ac yn dymuno cael eu mwynhâu hwynt.

CRIS. Felly y mae llawer yn dymuno, nad ydynt debygol fyth o ddyfod i'r nefoedd: "Enaid y diog a ddeisyf, ac ni chaiff ddim." Diar. xii. 14.

ANWYB. Eithr yr ydwyf fi yn meddwl am danynt, ac mi a ymadewais â'r cwbl, er mwyn cael eu mwynhâu hwynt.

CRIS. Yr wyf yn ammeu hynny; canys matter caled ydyw ymadael â'r cwbl, ïe, mae'n beth anhawsach i'w wneuthur nag y mae llawer yn dybied. Eithr pa beth sydd yn dy breswadio di i goelio dy fod wedi ymadael â'r cwbl er mwyn Duw a'r nefoedd?

ANWYB. Mae fy nghalon yn tystiolaethu i mi hynny.

CRIS. Y gwr doeth a ddywed, "Y neb a ymddiriedo yn ei galon ei hun sydd ffol." Diar. xxviii. 26.

ANWYB. Y mae ef yn son yn y man hynny am galon ddrwg; eithr y mae fy nghalon i yn galon dda.

CRIS. Pa fodd y gwyddost ti hynny?

ANWYB. Am fod fy nghalon yn fy nghysuro i, mewn gobaith y caf fi'r nefoedd.

CRIS. Fe ddichon hynny fod trwy dwyll dy galon di. Jer. xvii. 9. Canys fe all calon dyn ei gysuro ef mewn gobaith o ryw beth na byddo ganddo ddim sail i obeithio am dano.

ANWYB. Eithr y mae fy nghalon i a'm buchedd yn gylattebol i'w gilydd, ac am hynny y mae gan fy ngobaith i sylfaen dda.

CRIS. Pwy a ddywedodd wrthyt ti, fod dy galon a'th fuchedd yn cyttuno â'u gilydd?

ANWYB. Fy nghalon i sydd yn dywedyd felly wrthyf.

CRIS. Os gofynir i'th fam, pwy sydd leidr? hi a atteb, Nid fy mab i (er ei fod ef mewn gwirionedd yn lleidr); felly os dywed dy galon di ei bod hi a'th fuchedd yn cyttuno â'u gilydd, oni bydd gair Duw yn dwyn yr un dystiolaeth yn y matter yma, ni thal tystiolaeth dy galon di mo'r blewyn.

ANWYB. Onid ydyw'r galon honno'n dda, yn yr hon y mae meddyliau da? Ac onid buchedd dda ydyw yr hon sydd wedi ei threfnu yn ol gorchymynion Duw?

CRIS. Gwir ydyw, mai calon dda ydyw'r galon honno ymha un y mae meddyliau da yn cartrefu, a buchedd dda ydyw'r fuchedd honno ag sy'n gyfattebol i orchymynion Duw; eithr un peth yw bod â'r rhai hyn mewn gwirionedd ynnom, a pheth arall yw tybied eu bod hwy gennym.[e]

ANWYB. Attolwg, pa feddyliau yr ydych chwi yn eu cyfrif yn feddyliau da? A pha fuchedd yr ydych chwi yn ei chyfrif ei bod yn gyfattebol i orchymynion Duw?

CRIS. Y mae amryw fath o feddyliau da, rhai yn perthyn i ni ein hunain, rhai i Dduw, rhai i Grist, a rhai i bethau eraill.

ANWYB. Pa rai yw'r meddyliau da ag sydd yn perthyn i ni ein hunain?

BETH YW MEDDYLIAU DA. CRIS. Y cyfryw ag sydd yn gyttunol â gair Duw.

ANWYB. Pa bryd y mae'n meddyliau am danom ein hunain yn gyttunol â gair Duw.

CRIS. Pan fyddom yn rhoddi yr un farn arnom ein hunain ag y mae'r gair yn ei roddi. Eithr i wneuthur y peth yn eglurach, y mae gair Duw yn dywedyd am ddynion (yn eu cyflwr naturiol) fel hyn—"Nid oes neb cyfiawn, nac oes un: nid oes un yn gwneuthur daioni." Rhuf. v. 10, 12. Y mae'r gair yn dywedyd hefyd, "Fod holl feddylfryd calon dyn yn unig yn ddrygionus bob amser." Gen. vi. 5. A thrachefn, "Fod calon

[e] Drwg yw calon pob dyn wrth naturiaeth, ond y mae gras yn rhoi i ni galon newydd. Anhawdd iawn gan ddyn ymostwng i gydnabod pla a drygioni ei galon; eithr nid yw ei dyb dda am dano ei hunan, ond dangos mor ddwfn yw gwreiddyn ei lygredd. Gair Duw ydyw ein rheol, yn ol pa un y mae i ni ffurfio ein hyspryd a'n buchedd.

dyn yn ddrygionus o'i ieuengctid." Gen. viii. 21. Yn awr, pan fo gennym y cyfryw dyb a hon am danom ein hunain, gan fod a theimlad o hynny yn ein calonau, yna y mae ein meddyliau yn dda, oherwydd eu bod yn gyttunol â gair Duw.

ANWYB. Ni choeliaf fi byth fod fy nghalon i cynddrwg a hyn.

CRIS. Am hynny ni bu gennyt erioed yn dy holl fywyd gymmaint ag un meddwl da am danat dy hun. Eithr dyro gennad i mi ddywedyd hyn wrthyt ymhellach; megis y mae gair Duw yn rhoddi barn ar ein calonau, felly hefyd y mae'r un gair yn rhoddi barn ar ein ffyrdd; a phan y byddo ein barn ni ein hunain ynghylch ein calonau a'n ffyrdd yn cyttuno â'r farn y mae gair Duw yn ei rhoddi arnynt, yna y mae'r ddau yn dda, am eu bod yn cyttuno â gair Duw.

ANWYB. Eglurhewch eich meddwl yn well.

CRIS. Y mae gair Duw yn mynegi, fod ffyrdd dyn yn geimion; ac nid yn dda, ond yn gildyn; a bod dynion (trwy naturiaeth) allan o'r ffordd dda, heb ei hadnabod hi. Diar. ii. 15. Rhuf. iii. 12, 17. Yn awr, pan y byddo dyn wedi cael prawf o hyn oll ynddo ei hunan; a phan y bo yn ostyngedig yn barnu fel hyn am dano ei hun a'i ffyrdd; yna y mae yn synied yn dda am ei galon a'i ffyrdd, oblegid fod ei farn ef yr awr hon yn cyttuno â barn gair yr Arglwydd.

ANWYB. Pa beth yw meddyliau da am Dduw?

CRIS. Pan fyddom (megis y dywedais am danom ein hunain) yn synied am Dduw yn ol yr hyn y mae ei air yn ei osod ef allan; hynny yw, pan fyddom yn meddylied am ei hanfod a'i briodoliaethau ef, megis ein dysgir gan ei air, am yr hyn ni's gallaf yn awr draethu yn helaethach; ond i ddywedyd am dano mewn perthynas i ni ein hunain, y mae gennym y pryd hynny dyb da a chymhwys am Dduw, pan fyddom yn synied ei fod ef yn ein hadnabod ni yn well nag yr y'm ni yn adnabod ein hunain; ac y dichon ef weled pechod ynom, y pryd a'r man na chanfyddom ni ddim o hono ynom ein hunain; a phan yr ydym yn cydnabod ei fod ef yn gwybod ein meddyliau dirgelaf, a bod ein calonau a'n holl ddwfn fwriadau bob amser yn noeth ac yn agored i'w olygon ef; ac hefyd pan yr ydym yn tybied fod ein holl gyfiawnderau ein hunain yn drewi yn ei ffroenau ef, ac am hynny na's dichon ef aros ein gweled ni yn sefyll yn ei wydd ef pan y byddom yn hyderu ar ein cyfiawnderau ein hunain, ïe, neu ar ein dyledswyddau goreu, am gael iachawdwriaeth trwyddynt.

ANWYB. A ydych chwi yn tybied fy mod i mor ynfyd a meddwl na ddichon Duw weled yn mhellach nag y gallaf fi weled? Neu y deuwn i at Dduw, gan hyderu ar fy nyledswyddau fy hun, er cystal y byddont hwy?

CRIS. Pa fodd yr wyt ti'n synied yn y pwngc yma?

ANWYB. Wele, i fod yn fyr, yr wyf fi yn meddwl fod yn rhaid i mi gredu yn Nghrist am gyfiawnhad.

CRIS. Pa fodd! tybied yr wyt ti, fod yn rhaid i ti gredu yn Nghrist, cyn gweled o

honot ei eisiau ef! Nid wyt ti yn gweled ynot na phechod gwreiddiol na phechod gweithredol, eithr y mae gennyt y fath dyb dda am danat dy hunan a'th weithredoedd, a'r sydd yn dangos yn eglur, dy fod ti'r cyfryw un na wybu erioed fod yn rhaid i ti wrth y cyfiawnder a gyflawnodd Crist yn ei berson ei hun i gyfiawnhâu pechaduriaid edifeiriol trwyddo ger bron Duw. Pa fodd gan hynny y meiddi di ddywedyd dy fod di'n credu, neu fod yn rhaid i ti gredu yn Nghrist?

ANWYB. Yr wyf fi yn credu ynddo yn dda ddigon er hynny.

CRIS. Pa fodd yr wyt ti yn credu?

ANWYB. Yr wyf fi yn credu i Grist farw dros bechaduriaid; ac y cyfiawnheir fi CREDO ANWYBODAETH ger bron Duw oddiwrth y felldith, trwy ei rasol dderbyniad ef o'm hufudd-dod i'w gyfraith ef: neu fel hyn, y mae Crist yn gwneuthur fy nyledswyddau crefyddol i yn gymmeradwy gyda'i Dad, trwy rinwedd ei haeddedigaethau ei hun, a dyna'r modd y caf fy nghyfiawnhâu.[f]

CRIS. Yr wyf yn atteb i'r gyffes yma o'th ffydd di.

Yn gyntaf. Nid yw dy ffydd di ond ffydd ffugiol; ac nid yw hi yn gynnwysedig yn un rhan o air Duw.—Yn ail. Gau ffydd yw dy ffydd di, am dy fod ti yn ymwrthod â chyfiawnhad trwy'r cyfiawnder a gyflawnodd Crist yn ei berson ei hun; ac am dy fod di hefyd yn disgwyl am gael dy gyfiawnhâu trwy dy weithredoedd dy hunan.—Yn drydydd. Nid yw dy ffydd di yn gwneuthur Crist yn Gyfiawnhawr o'th berson, ond o'th weithredoedd di; ac yn Gyfiawnhawr o'th berson di er mwyn dy weithredoedd, yr hyn sydd ffals.—Yn bedwerydd. Am hynny y mae dy ffydd di yn dwyllodrus; ïe, y mae hi yn gyfryw un ag a'th âd di dan ddigofaint yn nydd y Duw Hollalluog; canys y mae y wir ffydd, trwy ba un ein cyfiawnheir, yn peri i'r eneidiau sydd yn deimladwy o'u cyflwr colledig trwy'r gyfraith, i ffoi am noddfa at gyfiawnder Crist, i gael eu cyfiawnhâu trwy hynny. (A'r cyfiawnhad yma nid yw weithred o ras, trwy ba un y mae Crist yn gwneuthur dy ufudd-dod di yn gymmeradwy gyda Duw i'r diben hyn, fel y byddo i ti gael dy gyfiawnhâu trwy dy ufudd-dod dy hun; eithr gweithred o ras yw'r cyfiawnhad hynny, trwy ba un y mae'r enaid yn cael ei gyfiawnhâu er mwyn yr ufudd-dod a gyflawnodd Crist yn ei berson ei hun, gan wneuthur a dioddef trosom ni yn yr hyn oll y mae'r gyfraith yn ei ofyn ar ein dwylaw ni.) Y cyfiawnder hwn, meddaf, o eiddo Crist y mae gwir ffydd yn ei dderbyn, tan orchudd yr hwn y mae'r enaid yn llechu; ac wedi ei gyflwyno yn ddifrycheulyd yn y cyfiawnder yma, ger bron Duw, y mae'n cael ei dderbyn yn gymmeradwy gydag ef, ac yn cael ei waredu oddiwrth ddamnedigaeth dragywyddol.

ANWYB. Pa beth! a fynnwch chwi i ni ymddiried yn yr hyn a wnaeth Crist yn ei berson ei hun, hebom ni? Y gyfryw dyb a hon a ollyngai awenau ein trachwantau yn

[f] Mae achos i ofni, fod gormod yn ceisio am gyfiawnhad yn y modd hwn. Mae yn rhaid i ni ymwrthod â'n cyflawniadau ein hunain, a cheisio gollyngdod a maddeuant fel pechaduriaid damniol, ac wedi ein cyfiawnhâu ni trwy ffydd yn yr Iesu, fe fydd ein dyledswyddau yn dderbyniol fel ffrwythau ffydd.

rhyddion, ac a oddefai i bob un fyw fel y mynno: canys ni waeth pa fodd y byddom byw, os cawn ni ein cyfiawnhâu trwy gyfiawnder personol Crist oddiwrth ein holl feiau, ond i ni gredu hynny.*

CRIS. Anwybodaeth yw dy enw; ac fel y mae dy enw, felly hefyd y mae dy ddealldwriaeth: a'th attebion di a wiria yr hyn yr wyf yn ei ddywedyd: yr wyt ti yn anwybodus o gyfiawnder Crist, trwy ba un y'n cyfiawnheir; ac yr wyt ti yn anwybodus hefyd ynghylch y modd i ddiogelu dy enaid, trwy ffydd ynddo ef, oddiwrth bwysfawr ddigofaint Duw. Ië, yr wyt ti yn anwybodus o wir effeithiau bywiol ffydd yn nghyfiawnder Crist, sef, i blygu ac i ennill y galon at Dduw yn Nghrist, i garu ei enw, ei air, ei ffyrdd, a'i bobl ef; ac nid i ddilyn eu trachwantau eu hunain, ac i fyw fel y mynnont, megis yr wyt ti yn dy anwybodaeth yn dychymmyg.

GOB. Gofynwch a ddatguddiwyd Crist erioed iddo o'r nefoedd.[g]

ANWYB. Pa beth! Gwr ydych chwi am ddatguddiadau! Yr wyf yn coelio nad yw yr hyn a ddywedasoch chwi eich dau, a'r hyn y mae pawb eraill o honoch yn ei ddywedyd ynghylch y matter yma, ond ffrwyth eich ynfydrwydd, a gwendid eich pennau.

ANWYBODAETH YN YMGYNHENU Â HWYNT.

GOB. Paham, wr! Y mae Crist mor guddiedig yn Nuw oddiwrth ddealldwriaeth naturiol yr holl ddynion cnawdol, fel na's dichon un dyn ei adnabod ef i'w iachawdwriaeth ei hun, oddi eithr i Dduw'r Tad ei ddatguddio ef iddo.

ANWYB. Hynny yw eich ffydd chwi, ac nid fy ffydd i; ac etto nid wyf yn ammau nad yw fy ffydd i gystal a'ch ffydd chwithau; er nad oes yn fy nghopa i gynnifer o opiniynau gwag ag y sydd yn eich pennau chwi.

MAE YN SIARAD YN DDIYSTYR AM YR HYN NA WYR.

CRIS. Rhoddwch gennad i minnau lefaru un gair: ni ddylech siarad mor ysgafn am y pwngc yma; canys hyn a ddywedaf yn ëon (megis y dywedodd fy nghydymaith anwyl o'r blaen) na ddichon un dyn adnabod Iesu Grist, oddi eithr i'r Tad ei ddatguddio ef iddo. Mat. xi. 25. Ië, ffydd hefyd, â'r hon y mae'r enaid yn dal gafael ar Grist, os gwir ffydd yw hi, a weithir yn nghalon dyn trwy ryfeddol a mawr allu Duw; ond yr wyf yn dirnad, O Anwybodaeth, na wyddost ti (druan gwr) ddim yn y byd ynghylch gweithrediad y

* Mae gormod achos i ofni fod yr athrawiaeth o gyfiawnder cyfrifedig, fel y mae yn cael ei dal allan gan rai ysgrifenwyr a gweinidogion, yn tywys at *Antinomiaeth;* oherwydd os dygir dynion i gredu unwaith eu bod yn Nghrist, a bod ei gyfiawnder ef i fod yn orchudd dros eu bryntni, ac i guddio eu drygioni, ac nad oes iddynt gael ymwared oddiwrth gorph pechod a marwolaeth tra fyddont byw yma: nid oes lle i ddisgwyl, y bydd i'r cyfryw fod yn ymdrechgar i gyrhaedd y purdeb a'r sancteiddrwydd hwnnw y mae Duw yn ei ofyn ac heb yr hwn ni ddichon neb etifeddu teyrnas nefoedd. Y mae athrawiaeth Paul am gyfiawnhad yn llawn cysur i'r enaid edifeiriol, a thra fyddom yn dal at ymadroddion ysgrythyrol, ni fydd i ni wyro at gyfeiliornad yr Antimoniaid, mwy nac at eiddo y Phariseaid.

[g] Cwestiwn pwysig yw hwn ynghylch peth ag a gyfrifir yn ynfydrwydd gan y byd. Wrth y datguddiad o Grist, mae i ni ystyried y fath amlygiad a gwybodaeth tufewnol a phrofiadol o Grist, ac o'i iechydwriaeth ef, ag a wnelo i'r galon ei gofleidio, yr enaid i lynu wrtho, a'r yspryd i lawenhâu ynddo, gan ddywedyd, "Dyma fy Anwylyd, fy Ngheidwad, a Duw fy Iechydwriaeth."

ffydd yma yn dy enaid dy hun. Deffro gan hynny, a dwys-ystyria dy drueni dy hun, a ffo at yr Arglwydd Iesu; a thrwy ei gyfiawnder ef, yr hwn yw cyfiawnder Duw, canys y mae ef ei hun yn Dduw, fe'th waredir di rhag damnedigaeth.[h]

ANWYB. Yr ydych chwi yn cerdded mor gyflym fel nad allaf fi gyd-gerdded â chwi, ewch rhagoch; y mae yn rhaid i mi aros ychydig ar ol. Sal. cxxv. 5

TORRI Y DDADL I FYNY.

Yna y Pererinion a ganasant fel hyn:—

Anwybodaeth, Ow! pa hyd!
A fyddi ynfyd eilchwaith?
A wrthodi gyngor ffri,
A'i gynnyg i ti ganwaith?

Os gwrthodi mewn modd syn,
Cydnebydd hyn yn fanwl,
Cyn pen nemawr cai'n ddinam
Roi cyfrif am y cwbwl.

Mewn pryd ac amser cofia hyn,
Darostwng ddyn, nac
Gyngor da; os cym'ri, fo
A'th achub, gwrando arna'.

Os byddi byw mewn cyflwr caeth,
Mewn anwybodaeth ryfedd;
Gwybydd hyn, y byddi'n siwr
Golledwr yn y diwedd.

Yna Cristion a lefarodd wrth ei gydymaith fel hyn:—

CRIS. Tyred, fy nghydymaith Gobeithiol, mi a welaf fod yn rhaid i ni ymdeithio wrthym ein hunain drachefn.—Felly mi a welwn Gristion a Gobeithiol yn cerdded ymlaen yn fuan; ac Anwybodaeth a ddaeth dan grychneidio ar eu hol. Yna ebe Cristion wrth ei gydymaith, Y mae'n ddrwg iawn gennyf dros y gwr gresynol yma; y mae'n ddiammau gennyf y bydd yn galed arno yn y diwedd.

GOB. Och! Och! Y mae llaweroedd o'n tref ni yn ei gyflwr ef, sef teuluoedd, ïe, heolydd cyfain, (a'r rhai hynny, mewn proffes ar y lleiaf, yn Bererinion hefyd,) ac od oes cynnifer yn ein parthau ni, pa sawl un, debygwch chwi, y sydd yn y man lle y ganwyd hwn ynddo?

CRIS. Yn wir, y mae'r gair yn dywedyd, "Efe a ddallodd eu llygaid fel na welent," &c. Eithr yn awr yr ydym ni wrthym ein hunain; pa beth a feddyliwn ni am y

[h] Mae yma gyngor gwerthfawr yn cael ei roddi, eithr ni fynnai Anwybodaeth agor ei lygaid a gweled ei gyfeiliornad. Gwŷn eu byd y rhai a waredir rhag damnedigaeth, trwy ffydd yn Nghrist, y rhai y mae deddf yspryd y bywyd yn eu rhyddhâu oddiwrth ddeddf pechod a marwolaeth.

cyfryw ddynion a'r rhai'n? A ydynt hwy ar ryw amseroedd, debygwch, dan argyhoeddiadau am bechod, a thrwy ganlyniad mewn ofn fod eu cyflwr yn enbydus?

GOB. Nagê, attebwch chwi y cwestiwn hwnnw eich hunan, canys yr ydych chwi yn hŷn na myfi.

CRIS. Yr wyf yn atteb gan hynny, eu bod hwy weithiau, i'm tyb i, dan argyhoeddiadau ac arswyd; ond oherwydd eu bod wrth naturiaeth yn anwybodus, nid ydynt yn deall fod yr argyhoeddiadau hynny er daioni iddynt; ac am hynny y maent yn ddewr yn ymdrechu i'w tagu a'u llethu hwynt; ac y maent yn parhâu yn rhyfygus i rodio yn ffordd eu calonau twyllodrus, gan ddywedyd heddwch wrth eu heneidiau yn y cyflwr hwnnw.

GOB. Yr ydwyf yn credu fod y peth megis yr ydych chwi yn dywedyd, sef bod ofn yn gwasanaethu yn fawr, i weithio, trwy gymhorth Yspryd Duw, ddaioni mewn dynion, ac i'w cymhwyso hwy i fyned ar bererindod pan y dechreuant eu taith. DEFNYDD OFN.

CRIS. Diammau yw hynny, os bydd fel y dylai fod; canys felly y mae'r gair yn dywedyd, "Dechreuad doethineb yw ofn yr Arglwydd." Job xxviii. 28. Sal. xli. 10. Diar. ix. 10.

GOB. Pa fodd y deallwn ni pa beth yw gwir ofn yr Arglwydd?

CRIS. Gwir ofn Duw a adnabyddir wrth y tri pheth yma— GWIR OFN.

Yn gyntaf. Wrth ei ddechreuad, yr hwn ydyw argyhoeddiad iachusol o bechod.

Yn ail. Y mae'n gyrru yr enaid i ddal gafael yn dŷn ar Grist am iachawdwriaeth.

Yn drydydd. Y mae'n gweithio ac yn cynnal i fynu yn yr enaid barch mawr i'r gwir Dduw, a'i air, a'i ffyrdd, gan gadw yn yr enaid dynerwch calon, ynghyd â gofal ac arswyd, rhag troi oddi wrthynt, ar y llaw ddehau na'r aswy, at ddim a'r a ddichon, 1. ddianrhydeddu Duw; 2. dorri heddwch yr enaid; 3. dristâu yr Yspryd Glân; neu 4. roddi achlysur i elynion yr Arglwydd gablu. Rhuf. ii. 23. Sal. li. 8. Esa. lxiii. 10. 2 Sam. xii. 14.

GOB. Chwi a ddywedasoch yn dda? yr wyf yn credu iwch' ddywedyd y gwir. A ydym ni yr awr hon yn agos myned tros y tir a reibiwyd?

CRIS. Paham yr ydych yn gofyn hynny, a ydych chwi'n blino ar yr ymddiddan yma?

GOB. Nac ydwyf, yn wir; eithr dymunwn wybod ymha le yr ydym ni.

CRIS. Nid oes gennym yn awr oddi ar ddwy filltir o'r tir a reibiwyd i fyned trosto. Eithr dychwelwn at y matter oedd gennym yn llaw. Nid yw'r dynion anwybodus yn deall fod yr argyhoeddiadau yma, sydd yn peri ofn a braw ynddynt, er daioni iddynt; ac am hynny y maent yn ceisio eu mygu hwynt.

GOB. Pa fodd y maent yn ceisio eu mygu hwynt?

[1] Nid oes neb, nad ydynt, mewn rhyw fesur, yn cael goleuni ac argyhoeddiadau yr Yspryd i ddangos iddynt eu trueni, ond y mae llaweroedd yn eu bwrw hwynt heibio fel cymdeithion cythryblus, yn lle gadael iddynt gael eu priodol effaith, sef eu dwyn i adnabod eu hunain yn iawn, fel blaen-ffrwyth eu hymwared.

PAHAM Y MAE YR ANWYBODUS YN DIFFODD ARGYHOEDDIADAU.

CRIS. 1. Y maent yn tybied mai'r cythraul sydd yn gweithio'r dychryniadau hyn ynddynt (er yn ddiau oddiwrth Dduw y maent); ac oherwydd eu bod hwy yn tybied felly, y maent yn eu gwrthsefyll, megis pethau ag sydd yn rhag-ddarparu eu dinystr hwynt. 2. Y maent hwy o'r opiniwn yma hefyd, fod y dychryniadau hyn yn tueddu i anrheithio eu ffydd hwy, pan nad oes ganddynt, druain gwŷr, ffydd yn y byd! ac am hynny y maent yn caledu eu calonau yn eu herbyn hwynt. 3. Heblaw hyn, y maent yn meddwl na ddylent ofni un amser; ac am hynny, gan ddirmygu a thagu y cyfryw ddychryniadau, y maent yn twyllo eu hunain trwy eu hymffrost a'u gau-hyder, heb fod ganddynt reswm yn y byd am yr hyder hwnnw. Ac yn ddiweddaf, y maent yn gweled fod y dychryniadau hyn yn rhag-ddarparu dwyn oddi arnynt eu gwael sancteiddrwydd eu hunain; ac am hynny y maent yn eu gwrthwynebu hwynt â'u holl egni.[k]

GOB. Yr wyf yn gwybod peth o hyn trwy brofiad; canys cyn i mi fy adnabod fy hun, dyma fel yr oedd hi gyda mi.

CRIS. Gadawn heibio'n chwedl ynghylch ein cymmydog Anwybodaeth ar hyn o bryd, a moeswch i ni ymddiddan am ryw gwestiwn arall a fo buddiol.

GOB. O lwyr ewyllys fy nghalon; ond mae'n rhaid i chwi ddechreu.

CRIS. Oni adwaenech chwi, ynghylch deng mlynedd i 'nawr, wr o'ch parthau chwi

SIARAD AM AMSEROL.

a elwid Amserol, (Mat. xiii. 20, 21,) yr hwn oedd yn dangos (yngolwg dynion) lawer o zêl mewn crefydd y pryd hynny?

GOB. Ei adnabod ef! oeddwn yn dda ddigon; yr oedd ef yn byw yn nhref Diras, yr hon sydd ynghylch dwy filltir oddiwrth y dref a elwir Gonestrwydd; ac yr oedd ef yn byw y drws nesaf i un Troi-yn-ol.

CRIS. Gwir a ddywedwch chwi, yr oeddynt hwy eill dau yn byw dan yr un tô.

BU YN LLED HYWAETH UNWAITH.

Wele, yr oedd y gwr hwnnw (yr amser hynny) wedi ei ddeffroi yn fawr iawn; canys yr wyf yn credu iddo gael peth golwg, y pryd hynny, ar ei bechodau, ac ar y gyflog sy ddyledus iddo am danynt.

GOB. Yr wyf fi o'r un meddwl a chwithau; canys efe a ddeuai yn fynych attaf fi, oherwydd nid oedd fy nhŷ i oddi ar dair milltir oddi wrtho ef, a'r dwfr yn diferu i lawr ar hyd ei ruddiau. Yn wir yr oeddwn i yn tosturio wrtho, ac yr oedd gennyf beth gobaith da am dano; ond gan iddo droi ei gefn ar grefydd, ni a allwn gasglu oddiwrth hynny, mai "nid pob un sydd yn dywedyd, Arglwydd, Arglwydd, a ddaw i mewn i deyrnas nefoedd."

[k] Mae yma bethau a ddylid eu hystyried yn ddwys gennym. Gwell i ni gael ein dychrynu mewn pryd, na myned rhagddom mewn hunan-dwyll a chyfeiliornad. *Ein gwael sancteiddrwydd ein hunain,* neu ffug-sancteiddrwydd, yn ddiammau, ydyw yr hyn a berthyn i ddyn cyn iddo gael ei ail-eni, neu ei gyfnewid trwy waith yr Yspryd. Ond gochelwn ddistadlu gwir sancteiddrwydd; nid amcan yr Awdwr oedd hynny, yn hytrach yr oedd yn llwyr groes i'w feddwl.

CRIS. Efe a ddywedodd wrthyf unwaith, ei fod ef yn bwriadu myned ar bererindod megis yr ydym ninnau yn awr; eithr yn ddisymmwth efe a gafodd gydnabyddiaeth âg un Cadw-ei-hunan; ac yna efe a aeth yn ddieithr i mi.

GOB. Yn awr, gan ein bod ni'n siarad am dano ef, gadewch i ni ystyried, beth a allai fod yr achosion o'i ymchweliad disymmwth ef, a llawer eraill o'i fath.

CRIS. Fe ddichon hynny fod yn fuddiol iawn, eithr dechreuwch chwi.

GOB. Y mae, yn fy marn i, bedwar o resymau am hynny.

Yn gyntaf. Er fod cydwybodau y cyfryw ddynion wedi eu deffroi; etto nid oes dim cyfnewidiad yn eu calonau hwy: ac am hynny, pan y bo grym euogrwydd eu pechodau wedi ei wisgo ymaith oddi ar eu cydwybodau, fe ddarfu am yr hyn oedd yn eu cyffroi hwy i fod yn grefyddol; ac yno y troant yn naturiol i'w hen ffyrdd llygredig drachefn: megis y gwelwn ni gî pan y bo yr hyn a fwyttaodd ef yn gwasgu arno; tra y parhao ei glefyd ef, y mae'n chwydu ac yn bwrw y cwbl i fynu: nid ei fod e'n gwneuthur hynny o'i fodd; ond oherwydd fod y peth a fwyttaodd ef yn gorwedd yn drwm ar ei gylla: eithr pan y gwellhao ef, a phan y teimlo ei gylla yn ysgafn ac yn esmwyth, nid yw ef ronyn llai ei awydd er hyn i gyd at ei chwydiad; ond y mae'n troi atto drachefn, ac yn llyfu'r cwbl i fynu; ac am hynny, gwir yw'r hyn sydd ysgrifenedig, "Y cî a ymchwelodd at ei chwydiad ei hun." 2 Pedr ii. 22. Felly y mae'r peth yn sefyll gyda'r dynion yma; y maent hwy yn wresog am y nefoedd yn unig rhag ofn poenau uffern; ac megis y byddo eu hystyriaeth am uffern ac ofn damnedigaeth yn oeri ac yn lleihâu, felly mae eu dymuniad i'r nefoedd ac iachawdwriaeth yn oeri hefyd.[1]

RHESYMAU PAHAM Y MAE RHAI HYWAETH YN GWRTHGILIO.

Ac fel hyn, pan y darfyddo am eu harswyd a'u heuogrwydd, y mae eu dymuniadau yn ol y nefoedd ac happusrwydd tragywyddol yn marw hefyd; ac y maent hwy yn dychwelyd at eu drwg arferion drachefn.

Yr ail reswm yw hyn: Mae ofn slafaidd yn arglwyddiaethu arnynt. Yr wyf yn dywedyd yn awr am eu gwaith yn ofni dynion; "Canys ofn dyn sydd yn dwyn magl." Diar. xxix. 25. Ac am hynny, er eu bod yn ymddangos yn fywiog ac yn wresog am y nefoedd, pryd y byddo tân uffern o amgylch eu clustiau, etto pan êl yr arswyd hwnnw ychydig heibio, hwy a fyddant o feddwl arall, sef, mai da yw bod yn ddoeth, ac nid rhedeg am ni wyddant pa beth, i berygl o golli y cwbl a'r a feddant er mwyn crefydd; neu ar y lleiaf i fwrw eu hunain i ofidiau anocheladwy ac afreidiol; ac felly y maent yn syrthio i ymgyfeillachu â'r byd drachefn.

Yn drydydd. Y mae'r cywilydd sydd ynglyn wrth grefydd, yn gorwedd megis maen tramgwydd yn eu ffordd hwynt. Y maent hwy yn uchel ac yn feilchion, ac y mae

[1] Nid yw arswyd neu ofn damnedigaeth, yn egwyddor ddigon grymus, i wneuthur i ni barhâu yn ffyrdd yr Arglwydd; canys pan ddarfyddo yr arswyd hwnnw, a'r gydwybod yn dechreu ymlonyddu, y mae yn syrthio ymaith o ddiffyg rhagorach egwyddor. Eithr cariad Duw a wna i ni ddioddef pob peth, a pharhâu yn ein hymdrechiadau i fyned ar ol yr Arglwydd, gan ganlyn yr Oen i ba le bynnag yr elo.

crefydd yn beth gwael a dirmygus yn eu golwg hwynt; ac am hynny, pan yr anghofiont boenau uffern a'r llid a fydd, hwy a ddychwelant at eu drwg fucheddau drachefn.

Yn bedwerydd. Y mae myfyrio am euogrwydd pechod a'r cospedigaethau dychrynllyd a orfydd ar yr annuwiolion eu dioddef yn uffern, yn flinderus iddynt: nid ydynt hwy foddlon i ddwys-ystyried eu trueni cyn y delo arnynt; er y gallai yr olwg arno, ysgatfydd, pe byddent yn caru yr olwg honno, beri iddynt ffoi i'r lle y mae'r cyfiawn yn ffoi iddo ac yn cael diogelwch: eithr oherwydd eu bod hwy, fel y dywedais i o'r blaen, yn casâu myfyrdodau am euogrwydd a dychryn; am hynny pan y caffont wared unwaith o'u myfyrdodau a'r braw sydd yn canlyn hynny, ynghylch digofaint Duw, y maent yn ewyllysgar yn caledu eu calonau, ac yn dewis y cyfryw ffyrdd a moddion ag a'u caledo hwy fwy-fwy.[m]

CRIS. Yr ydych chwi yn amcanu yn agos at y nôd; canys sylfaen y cwbl yw diffyg cyfnewidiad yn eu dealldwriaeth a'u hewyllys. Ac am hynny nid ydynt ond megis y lleidr sydd yn sefyll o flaen y barnwr, yr hwn sydd yn crynu ac yn arswydo yn ddirfawr, ac yn ymddangos fel pe b'ai efe yn edifeiriol o'i galon am ei ddrygioni; eithr nid yw'r cwbl ond rhag ofn y cebystr; ac nid oherwydd ei fod yn casâu ei ddrwg-weithredoedd, megis y mae'n eglùr; oblegid os caiff y gwr hwn ei ryddid, efe a fydd yn lleidr drachefn; eithr pe b'ai gyfnewidiad grasol yn ei feddwl a'i ewyllys, efe a fyddai yn amgenach gwr.

GOB. Yn awr myfi a ddangosais i chwi yr achosion o'u hymadawiad â chrefydd; dangoswch chwithau i minnau y dull neu'r modd o'u hymadawiad hwynt.

CRIS. Hynny a wnaf yn ewyllysgar.

PA FODD Y TRY GWRTHGILWYR YN OL.

1. Maent yn gwyrdroi eu meddyliau, cyn belled ag y gallont, oddi wrth feddwl am Dduw, am farwolaeth, ac am y farn fydd.

2. Wedi hyn, maent bob yn ychydig yn rhoddi heibio ddyledswyddau neillduol, megis gweddi ddirgel, ffrwyno eu trachwantau, gwylio, galaru am bechod, a'r cyffelyb.

3. Yna y maent yn ymgadw rhag cwmpeini Cristionogion bywiog a gwresog.

4. Ar ol hynny, y maent yn myned yn ddifraw ac oerllyd ynghylch dyledswyddau cyhoeddus, megis gwrando, darllen, ymddiddan duwiol, a'r cyfryw.

5. Mewn amser, hwy a bigant dyllau (megis y dywedwn) yn mheisiau rhai o'r gwŷr duwiolaf, a hynny yn fileinig iawn, fel y gallont gael lliw (oherwydd rhyw wendid yr oeddynt yn ei weled mewn gwŷr da) i daflu crefydd o'r tu ol i'w cefnau.

6. Yna hwy a ddechreuant lynu wrth, ac ymgyfeillachu â dynion cnawdol, ofer, anllad.

7. Wedi hynny hwy a roddant le yn y dirgel i ymddiddanion cnawdol a thrythyll; a

[m] Mor ofer y mae rhai pregethwyr yn treulio eu nerth, ac yn ymboeni, trwy fytheirio yn nghlustiau dynion, dim ond swn uffern a damnedigaeth, yn lle ceisio eu dwyn i brofiad o gariad Crist. Mae yn rhaid dychrynu pechaduriaid gwrthnysig ond nid yw y gwaith o ddelio cymmaint yn y bygythion yn atteb y diben Ymdrechwn i ddwyn eneidiau dynion i fynydd Sïon, ac at Iesu, a gwaed y taenelliad.

hoff iawn a fydd ganddynt os gallant weled y fath bethau mewn rhai a gyfrifir yn onest, fel y gallont siarad yn hyfach am y cyfryw faswedd, trwy eu siampl hwy.

8. Yna hwy a ddechreuant chwareu â phechodau bychain yn gyhoeddus.

9. Ac yn ddiweddaf, wedi eu caledu, hwy a ymddangosant yn eu lliw eu hun. Ac yn ol llithro o honynt fel hyn i'r llyngclyn o drueni, oddieithr i ryfeddol ras Duw eu rhagflaenu, fe dderfydd am danynt yn dragywydd yn eu twyll a'u hudoliaethau eu hunain.[n]

Yn awr mi a welais yn fy mreuddwyd, fod y Pererinion erbyn hyn wedi myned tros y tir a reibiwyd, ac yn dechreu myned i wlad Beulah, (Esa. lxvii. 4,) yr hon sydd wlad iachus a hyfryd; ac yr oedd y ffordd yn myned yn union trwyddi; ac yma hwy a gymmerasant eu hesmwythyd dros ryw yspaid o amser.

Yr oeddynt yma yn wastadol yn clywed yr adar yn canu, ac yn gweled y blodau o ddydd i ddydd yn ymddangos ar y ddaear; ac yr oeddynt yn clywed llais y ddurtur yn y tir yma. Can. ii. 10, 11, 12. Yn y wlad hon hefyd yr oedd yr haul yn tewynnu nos a dydd. Ac erbyn hyn yr oeddynt ymhell oddiwrth Ddyffryn Cysgod Angau, ac hefyd o gyrhaedd y Cawr Anobaith, ac ni allent chwaith gymaint a gweled Castell Amhëus o'r man hyn. Yr oeddynt hwy yma wedi dyfod mewn golwg i'r ddinas yr oeddynt yn myned iddi. Hwy a gyfarfuant yma hefyd â rhai o drigolion y wlad; canys yr ANGYLION. oedd y rhai disglaer yn rhodio yn gyffredinol yn y wlad hon, am ei bod hi ar gyffiniau'r nefoedd. Yn y wlad hon hefyd yr adnewyddwyd cyfammod rhwng y Priod-fab a'r Briod-ferch; ïe, â llawenydd priod-fab am briod-ferch y llawenychodd eu Duw o'u plegid hwynt. Esa. lxii. 5.

Nid oedd arnynt eisiau na gwîn nac ŷd; canys hwy a gawsant yma ddigonolrwydd o'r cwbl oll a fuasent yn ymofyn am danynt yn eu holl bererindod. Hwy a glywsant yma uchel lef yn dyfod allan o'r ddinas, yn cyhoeddi, "Dywedwch wrth ferch Sïon, Wele dy Iachawdwr yn dyfod, wele ei gyflog gydag ef: a holl drigolion y wlad a'u galwasant yn bobl sanctaidd, gwaredigion yr Arglwydd." Esa. lxii. 11, 12.[o]

Yn awr wrth ymdeithio yn y wlad hon, hwy a gawsant fwy o ddiddanwch nag a gawsant mewn parthau oedd bellach oddiwrth y deyrnas i ba un yr oeddynt yn myned;

[n] Gwelwn fel y mae gwrthgilwyr yn troi yn eu hol, bob yn dippyn, o gam i gam. Anghrediniaeth ydyw'r gwreiddyn, ac y mae yn diweddu mewn aflendid buchedd. Dylem edrych attom ein hunain, gan chwilio ein calon a'n hyspryd, rhag i'r byd a'i drachwantau ennill ein serch, a llenwi ein calon. Mae yspryd cybydd-dod mor groes i Gristionogrwydd ag ydyw yspryd anlladrwydd. Mae rhai yn troi yn ol i'r byd, ac yn gwadu eu proffes, oherwydd na chawsant wreiddyn; ond y mae eraill, er iddynt unwaith brofi gwaith gwirioneddol, yn diffygio ac yn myned yn ol i golledigaeth.

[o] Dyma gyflwr happus yr enaid yn y llawn fwynhâd o gariad Duw, ac yn nesâu at ddiwedd ei yrfa. Megis Moses yn cael ei ddwyn i ben Nebo, o fewn golwg i'r Ganaan nefol. O hyfrydwch annhraethadwy yr enaid sydd wedi ymddwyn yn ffyddlon, a rhodio yn gywir yn llwybrau sancteiddrwydd, yn barod ac yn addas i fyned wrth alwad ei Arglwydd!

ac fel yr oeddynt yn nesâu at y ddinas, yr oedd hi'n ymddangos yn eglurach iddynt nag o'r blaen: yr oedd hi wedi ei hadeiladu â pherlau ac â meini gwerthfawr; yr oedd ei holl heolydd hi wedi eu palmantu âg aur. Cristion, wrth weled gogoniant naturiol y ddinas, a thewyniad pelydr yr haul arni, a glafychodd o wir serch atti. Gobeithiol hefyd a gafodd loes neu ddwy o'r un clefyd; ac am hynny, buant yma dros dro yn gorwedd ac yn gwaeddi allan yn eu llewygfeydd, "Os gwelwch fy anwylyd, mynegwch iddo fy mod yn glaf o gariad."[p]

Eithr wedi iddynt wellhâu a chryfhâu ychydig, hwy a aethant i'w ffordd, ac a ddaethant yn nes-nes i fan lle yr oedd perllanau, a gwinllanoedd, a gerddi, a'u pyrth yn agored tua'r brif-ffordd. Yn awr, wedi dyfod o honynt i fynu at y lleoedd yma, wele y Garddwr yn sefyll ar y ffordd; a'r Pererinion a ofynasant iddo, Eiddo pwy yw'r gwinllanoedd a'r gerddi hyfryd hyn? Yntef a attebodd, Eiddo'r Brenin ydynt; a hwy a blanwyd yma er difyrwch iddo ei hun, a diddanwch i Bererinion; felly'r Garddwr a'u dygodd hwynt i mewn i'r gwinllanoedd, ac a archodd iddynt lonni eu hunain â'r danteithion oedd yno: efe a ddangosodd iddynt hefyd rodfeydd y Brenin, a'r llwyni lle yr oedd efe yn hoffi rhodio ynddynt a thanynt; ac yma yr arosasant ac y cysgasant.

Yr awr hon deliais sylw yn fy mreuddwyd, eu bod hwy'n siarad mwy trwy eu cwsg y pryd hyn nag un amser yn eu holl daith: ac fel yr oeddwn yn rhyfeddu eu clywed, dywedodd y Garddwr wrthyf, Paham yr wyt ti'n rhyfeddu ynghylch y matter hyn? Y mae grawn y gwinllanoedd yma mor felus, ag y paraut i wefusau y rhai sydd yn cysgu lefaru.

Felly wedi iddynt ddeffroi, mi a'u gwelwn yn ymdacclu i fyned tua'r ddinas nefol. Eithr, fel y dywedais i, yr oedd tewyniad yr haul ar y ddinas, canys yr oedd hi o aur pur, (Dat. xxi. 18,) yn ogoneddus dros ben, fel na's gallent etto graffu arni â'u llygaid, ond trwy beiriannau a wnaethpwyd i'r perwyl hwnnw. 1 Cor. xiii. 12. Felly, fel yr oeddynt yn myned ymlaen, mi a welwn ddau wr yn cyfarfod â hwynt, mewn gwisgoedd yn disgleirio fel aur, a'u hwynebau yn llewyrchu fel yr haul.

Y gwŷr hyn a ofynasant i'r Pererinion, O ba le yr oeddynt yn dyfod? A hwy a fynegasnt iddynt y gwirionedd. Gofynasant hefyd, yn mha le y buasent yn llettya? Pa anhawsder a pheryglon, pa gysuron a difyrwch a gawsant hwy yn eu ffordd? Hwythau a adroddasant y cwbl oll iddynt. Yna ebe'r gwŷr a gyfarfu â hwynt, Nid oes i chwi mwyach ond dau anhawsder i fyned trwyddynt, ac wedi hyn yr ydych chwi yn y ddinas.[q]

[p] Mae rhai o seintiau Duw yn cael eu llenwi o gariad i'r graddau hynny, a'r fath olwg ysprydol o'r gogoniant sydd wedi ei ddarparu iddynt, nes byddo y babell freuol yn mron a suddo i lawr, dan bwys y fath hyfryd fwynhâd.

[q] Pa anhawsderau ydyw y rhai hyn? Yr ymdrech olaf gyda galluoedd y tywyllwch, a phoenau angau corphorol. O! yr awr hon am ffydd rymus a bywiol, yn orchfygol dros y byd a'r cnawd, ac angau, y gelyn olaf. Mewn bywyd, ac wrth fyned o'r byd, Crist sydd yn rhoddi y fuddugoliaeth. Iesu, ein Harglwydd, llefara di y gair, ac anghredinaeth a ffy ymaith, a'n gobaith a fydd gadarn a diysgog!

Yna Cristion a'i gydymaith a attolygasant ar y gwŷr i ddyfod gyda hwynt; hwythau a'u hattebasant, y deuent gyda hwy: eithr ebe'r gwŷr, Y mae'n rhaid i chwi ennill hynny trwy eich ffydd eich hunain. Felly mi a'u gwelwn hwy yn myned ynghyd, hyd oni ddaethant mewn golwg i'r porth.

Yn awr mi a welwn ymhellach, fod afon rhyngddynt a'r porth, heb un bont i fyned trosti; a'r afon oedd yn ddofn iawn: a'r Pererinion pan welsant yr afon yma, a synnasant yn ddirfawr: a'r gwŷr a ddaethai gyda hwynt a ddywedasant, Mae'n rhaid i chwi fyned trwy'r afon yma, onidê ni ellwch chwi ddyfod at y porth.[r]

Yna'r Pererinion a ddechreuasant ymofyn, a oedd un ffordd arall i fyned at y porth? Hwythau a attebasant, Oes; ond ni chafodd neb ond dau, er pan seiliwyd y byd, droedio'r llwybr hwnnw, sef Enoc ac Elias; ac ni chaiff neb ei droedio ef hyd oni seinio'r udgorn diweddaf. 2 Cor. xv. 51, 52. Yna'r Pererinion (yn enwedig Cristion) a ddechreuasant ddigaloni yn ddirfawr, gan edrych yma a thraw; eithr ni fedrent gael ffordd yn y byd i ochelyd yr afon. Yna hwy a ofynasant i'r gwŷr, a oedd yr afon yn mhob man o'r un dyfnder? Nac ydyw, ebe hwy; etto ni allent eu cyn northwyo hwynt yn y matter yma; canys ebe hwy, Chwi a'i cewch hi'n ddyfnach neu'n fasach, fel y b'och yn credu yn Mrenin y lle.

NID YW NATUR YN CROESAWU ANGAU, ER MAI DYNA'R DRWS I OGONIANT.

NIS GALL ANGYLION WNEYD ANGAU YN FELYS.

Yna hwy a ymbarottoisant i fyned i'r dwfr; a phan yr aethant i mewn iddo, Cristion a ddechreuodd soddi; a chan waeddi ar ei gydymaith Gobeithiol, efe a ddywedodd wrtho, "Yr wyf yn soddi mewn dyfroedd dyfnion; y tonnau a'r llifeiriant a aethant trosof fi." Sal. xlii. 7. a lxix. 1, 2, 3.

Yna ebe'r llall, Bydd gysurus, fy mrawd, myfi a deimlaf y gwaelod, ac y mae'n galed ac yn dda. Yna ebe Cristion, Ah, fy nghyfaill! Gofidiau angau a'm cylchynasant; ni chaf fi weled y tir sydd yn llifeirio o laeth a mêl.[s] A chyda hynny tywyllwch mawr a dychryndod a syrthiodd ar Gristion, fel na allai weled yr hyn oedd o'i flaen ef; yma hefyd y pallodd ei synhwyrau mewn mesur mawr, fel na fedrai gofio nac ymddiddan yn drefnus am ddim o'r holl bethau y cawsai efe ei lonni trwyddynt yn ei bererindod; ond cymmaint ag a ddywedai efe ydoedd yn arwyddoccâu ei fod ef mewn echryd meddwl ac arswyd calon, rhag iddo foddi yn yr afon, ac na's cai efe byth fyned i mewn i'r porth. Yma hefyd y deallodd y rhai oedd yn sefyll gerllaw iddo ei fod ef yn gythryblus yn ei feddwl, oherwydd y pechodau a wnaethai cyn ac wedi iddo ddechreu ei bererindod. Fe ddaliwyd sylw hefyd, ei fod ef yn cael ei flino wrth

YMDRECH CRISTION YN AWR ANGAU.

[r] Mae angau ynddo ei hun yn annymunol i natur, hyd yn oed yn y duwiolion: ffydd yn unig sydd yn dyrchafu yr enaid uwchlâw teimladau natur, ac yn peri i ni ddywedyd, "O angau, pa le mae dy golyn! O fedd, pa le mae dy fuddugoliaeth!

[s] Mae rhai o'r duwiolion wedi myned yn ddewrach trwy yr afon, nac eraill. Mae rhagor rhwng teimladau rhai a'u gilydd yn ngwyneb pob peryglon; ond y mae gwir ffydd yn gweini nerth i'r enaid, ac yn ei ddyrchafu uwchlaw pob ofnau.

weled (fel y tebygai efe) ellyllon ac ysprydion drwg, fel y gellid dirnad yn fynych wrth ei eiriau ef. Gobeithiol, gan hynny, a gafodd yma ei lawn waith i gadw pen ei frawd uwchlaw'r dwfr; ïe, weithiau efe a suddai yn gwbl dan y dwfr, ac ymhen ennyd efe a gyfodai i fynu drachefn yn hanner marw. Gobeithiol hefyd a geisiai ei gysuro ef gan fynegi iddo, Fy mrawd, mi a welaf y porth, a gwŷr yn sefyll wrtho, i'n derbyn ni i mewn; eithr Cristion a attebai, Am danoch chwi y maent yn disgwyl; canys yr oeddych yn obeithiol er pan eich adnabum chwi. Felly y buoch chwithau, ebe fe wrth Gristion: Ah! fy mrawd, ebe yntef, diau yw, pe bawn i yn wir Gristion, fe ddeuai Crist yn awr i'm cynnorthwyo i; eithr oherwydd fy mhechodau efe a'm dygodd i'r fagl, ac a'm gadawodd i ynddi; yna ebe Gobeithiol, Fy mrawd, ti a lwyr anghofiaist y testun, lle y dywedir am yr annuwiolion, "Nid oes rhwymau yn eu marwolaeth, a'u cryfder sydd heinyf: nid ydynt mewn blinder fel dynion eraill; ac ni ddialeddir arnynt hwy gyda dynion eraill." Sal. lxxiii. 4, 5. Nid yw'r gofidiau a'r blinderau yr ydych chwi yn myned trwyddynt yn y dyfroedd yma, yn arwydd yn y byd fod Duw wedi eich gadael chwi; ond hwy a ddanfonwyd i'ch profi chwi, i edrych a gofiwch y daioni a'r trugareddau a dderbyniasoch ar ei law ef eisoes, a byw arno yn eich cyfyngderau.[1]

Yna y gwelwn Gristion yn syn-feddylgar dros ennyd; a Gobeithiol a ddywedodd hyn yn ychwaneg wrtho, Bydd gysurus, y mae'r Arglwydd Iesu yn dy iachâu di. Esa. xl. 1, 2. Ar hynny y gwaeddodd Cristion â llef uchel, O myfi a'i gwelaf ef drachefn! ac y mae'n dywedyd wrthyf, "Pan elych trwy'r dyfroedd, myfi a fyddaf gyda thi; a thrwy'r afonydd fel na lifont trosot." Esa. xliii. 2. Yna hwy a ymwrolasant eill dau, a'r gelyn wedi hynny a fu mor llonydd a diysgog a'r garreg, hyd onid aethant trosodd. Yna Cristion a gafodd dir caled yn ebrwydd i sefyll arno, ac fe ddigwyddodd nad oedd y rhan arall o'r afon ond bas; ac fel hyn yr aethant trosodd. Yn awr, ar lan yr afon o'r tu arall, hwy a ganfuant y ddau wr mewn gwisgoedd disglaer drachefn, yn disgwyl am danynt hwy yno. Cyn gynted ag y daethant allan o'r afon hwy a gyfarchasant well iddynt, gan ddywedyd, "Ysprydion gwasanaethgar ydym ni, wedi ein danfon i weini er mwyn y rhai a gânt etifeddu iachawdwriaeth." Heb. i. 14. Fel hyn yr aethant ynghyd tua'r porth. Yn awr, mae'n rhaid i chwi wybod fod y ddinas yn sefyll ar fryn uchel; eithr y Pererinion a aethant i fynu i'r bryn hwn yn esmwyth, am fod y ddau wr yn eu tywys erbyn eu dwylaw; a hwy a adawsant hefyd eu gwisgoedd marwol ar eu hol yn yr afon; canys er eu bod wedi eu gwisgo â'r dillad hynny pan yr aethant i'r afon, etto hwy a ddaethant allan o honi

CRISTION YN CAEL YMWARED O'I OFNAU YN ANGAU.

ANGYLION YN DISGWYL AM DANYNT AR EU MYNEDIAD O'R BYD HWN.

DIOSGASANT FARWOLDEB.

[1] Y mae rhai yn teimlo cerydd yn eu horiau diweddaf, wrth feddwl am eu pechodau gynt, er cael maddeuant am danynt. Mae rhai hefyd yn rhy barod i roi lle i resymiadau y cnawd, yn lle cadw eu golwg ar yr Arglwydd. Heblaw hyn, y mae clefyd yn gwasgu yn drwm ar rai, a thrwy fod eu teimladau yn ddwys oblegid hynny, maent yn rhoi lle i ddigalondid a phrudd-der yspryd. Eithr ein Harglwydd a ddwg yr enaid, sydd yn ymddiried yn hollol ynddo ef, yn iach i ben ei daith.

hebddynt. Hwy a aethant i fynu gan hynny yn chwimwth iawn, er fod y sylfaen ar yr hon yr oedd y ddinas wedi ei hadeiladu, yn uwch na'r cymmylau. Hwy a aethant gan hynny trwy ardaloedd yr awyr dan ymddiddan yn ddifyr ac yn gysurus; oblegid iddynt ddyfod trwy'r afon yn ddiberygl, a bod ganddynt y cyfryw gyfeillion gogoneddus i weini iddynt.

Yr ymddiddan rhyngddynt â'r rhai disglaer oedd ynghylch gogoniant y lle: a'r gwŷr a ddywedasant fod ei brydferthwch a'i ogoniant yn annhraethadwy. Yno, ebe hwy, y mae mynydd Sïon, y Jerusalem nefol; yno y mae lliaws anneirif o angylion, ac ysprydoedd y rhai cyfiawn a berffeithiwyd. Heb. xii. 22, 23, 24. Yr ydych chwi yn awr, ebe hwy, yn myned i baradwys Duw, lle y cewch weled pren y bywyd, a bwytta o'i ffrwyth annifianedig ef; a phan ddeloch chwi yno, fe roddir i chwi "wisgoedd gwynion," (Dat. iii. 4,) a chwi a gewch gydrodio ac ymddiddan â'r Brenin beunydd; ïe, a hynny dros holl ddyddiau tragywyddoldeb. Ni chewch weled yno mwyach y fath bethau a'r a welsoch pan yr oeddych yn y parthau isaf, yn ardal y ddaear, sef tristwch, clefyd, blinder, a marwolaeth, (Dat. xxi. 4,) canys y pethau cyntaf a aethant heibio. Yr ydych chwi'n myned yn awr at Abraham, Isaac, a Jacob, ac at y prophwydi, y rhai a gymmerodd Duw ymaith o flaen drygfyd oedd i ddyfod; y rhai ydynt yn awr yn gorphwys yn eu 'stafelloedd, pob un yn rhodio yn ei uniondeb. Esa. lvii. 1, 2, 3. Yna y Pererinion a ofynasant iddynt, Pa beth a allwn ni ddisgwyl am dano, a pha beth sydd i ni i'w wneuthur yn y lle sanctaidd hwnnw? Hwythau a attebasant, Yno y derbyniwch ffrwyth eich holl lafur: yno y cewch lawenydd yn lle tristwch; yno y medwch yr hyn a hauasoch, sef ffrwyth eich holl weddïau, eich elusenau, eich dagrau, a'ch dioddefiadau tros y Brenin ar hyd y ffordd. Yno y cewch wisgo coronau o aur, a mwynhâu tragywyddol bresennoldeb y Sanctaidd hwnnw; "canys yno chwi a gewch ei weled ef megis ag y mae." 1 Ioan iii. 2. Yno hefyd y gwasanaethwch ef yn wastadol â mawl, llawenydd, a diolchgarwch, yr hwn yr oeddych chwi yn chwennychu ei wasanaethu yn y byd; er fod hynny gyda llawer o anhawsder, oherwydd gwendid eich cnawd.

Yno y bydd hoff gan eich llygaid weled, a'ch clustiau glywed, hyfryd lais yr Hollalluog. Yno y cewch fwynhâu eich cyfeillion drachefn; y rhai a aethant i'r ddinas o'ch blaen chwi; ac yno y derbyniwch yn roesawus gyda llawenydd mawr, gynnifer un ag a ddelo ar eich hol i'r lle sanctaidd hwnnw. Yno hefyd eich gwisgir â gogoniant ac ardderchogrwydd, a chwi a gewch y fath wisgoedd trwsiadus a'r a'ch gwna chwi'n gymmwys i farchogaeth gyda Brenin y gogoniant. A phan y dêl gyda sain udgorn yn y cymmylau, megis ar adenydd y gwynt, chwi a gewch ddyfod gydag ef; a phan eisteddo efe ar orseddfa barn, chwi a gewch eistedd yn ei ymyl ef; ïe, a phan roddo efe farn ar weithredwyr anwiredd, pa un bynnag ai angylion ai dynion fyddont, chwithau hefyd a gewch roddi eich gair yn ei blaid ef yn y farn honno; oherwydd eu bod yn elynion iddo ef ac i chwithau hefyd. A phan ddychwelo i'r ddinas, chwithau hefyd a gewch fyned gydag ef â

sain udgorn, lle y cewch breswylio yn dragywydd yn ei ŵydd ef. 1 Thes. iv. Jud. 14. Dan. vii. 9, 10. 1 Cor. vi. 2, 3.

Yn awr tra yr oeddynt fel hyn yn nesâu tua'r porth, wele liaws o'r llu nefol a ddaeth allan i'w cyfarfod hwy, wrth ba rai y dywedodd y ddau wr disglaer, Dyma'r gwŷr a garasant ein Harglwydd ni pan yr oeddynt yn y byd; ac a ymadawsant â'r cwbl er mwyn ei enw sanctaidd ef, ac efe a'n danfonodd ni i'w cyrchu hwynt; ac ni a'n dygasom hwynt hyd yma yn eu taith ddymunol, fel y gallont fyned i mewn, ac edrych yn wyneb eu Prynwr gyda llawenydd. Yna y llu nefol a floeddiasant yn groch, gan ddywedyd, "Bendigedig yw y rhai a elwir i neithior swpper yr Oen." Dat. xix. 9.[u]

Daeth allan hefyd ar yr amser hynny amryw o udganwyr y Brenin i'w cyfarfod hwynt, wedi eu gwisgo â dillad gwynion disglaer, y rhai â'u peraidd gerdd a'u hyfryd lais soniarus, a wnaethant i'r nefoedd ddatseinio. Yr udganwyr hyn a gyfarchasant well i Gristion a'i gydymaith, ac a ddywedasant, Groesaw wrthych filoedd o weithiau o'r byd; a hyn a wnaethant gyda bloedd a sain udgyrn.

['Nawr, gwelwch fel mae'r Pererinion.
Yn marchogaeth fry i Sïon;
Cymmylau yw'r cerbydau dedwydd,
Angylion anwyl eu harweinydd:
Pwy na anturiai tros y Iesu,
Yr hyn all mae yn feddiannu?
  Yr hwn y sy, o'i gariad cu
  'N darparu yn rhagorol,
Bethau anwyl mor ddymunol,
Dros ei eiddo yn drag'wyddol!]

Ar ol hyn hwy a'u cylchynasant hwy ar bob tu; rhai a aethant ymlaen a rhai yn ol, rhai ar y llaw ddehau a rhai ar y llaw aswy, megis i'w gwarchod a'u cadw trwy'r parthau uchaf, dan seinio yn ddibaid â phob rhyw felusgerdd hyfryd, hyd oni thybiai'r sawl a allai eu gweled hwynt ddisgyn o'r nefoedd ei hun i'w cyfarfod hwy. Ac fel hyn hwy a aethant yn mlaen ynghyd: ac fel yr oeddynt yn rhodio, yr oedd yr udganwyr yn canu yn fynych gyda llais llawen a hyfryd, gan eu hymddwyn eu hunain yn dirion ac yn garuaidd tuag at Gristion a'i frawd, gan arwyddoccâu, trwy eu hymddygiad hyfryd tuag attynt, y croesaw oedd iddynt i'w cymdeithas, ac mor llawen y daethant i'w cyfarfod hwynt: ac yn awr, yr oedd y ddau wr megis yn y nefoedd cyn iddynt ddyfod atti; ac yr oeddynt yn ymfoddloni yn ddirfawr wrth weled yr anneirif lu o angylion oddi amgylch, ac wrth wrando

[u] Uwchlaw ein hamgyffred ni ydyw deddfau y byd anweledig, i fyw yno yn ddiboen, heb un flinderus dôn, nac awel groes i gyfarfod â ni byth. Gwir yw, ar ambell awr ddedwydd, yr ydym wedi mwynhâu rhyw gip-olwg, rhyw flaen-ffrwyth trwy ffydd. Wele y Pererinion yr awr hon yn rhydd o'u holl beryglon a'u gofidiau; eu ffydd wedi troi yn olwg, a'u gobaith yn fwynhâd tragywyddol o'r addewidion o fywyd tragywyddol. Mae cymdeithas gyda'r Iesu a'i saint yn hyfryd yma, ond mil o weithiau yn hyfrydach yr ochr draw i angau.

ar eu melus-geidd a'u peraidd-gân soniarus. Erbyn hyn yr oeddynt mewn golwg i'r ddinas; a hwy a debygent glywed o honynt yr holl gylch yn canu i'w croesawu hwy yno; eithr uwchlaw'r cwbl, yr oedd eu calonau hwy wedi eu llenwi o lawenydd, pan y meddylient y caent breswylio yn y ddinas hon yn dragywyddol gyda'r cyfryw gyfeillion: O! pa bin ysgrifenydd neu dafod sydd yn abl datgan eu gogoneddus lawenydd hwynt yn y matter yma! Ac fel hyn y daethant i fynu at y porth.[w]

Yn awr pan ddaethant at y porth, yr oedd yn ysgrifenedig uwch ei ben ef, mewn llythyrenau aur, "Gwyn eu byd y rhai sy'n gwneuthur ei orchymynion ef, fel y byddo iddynt fraint yn mhren y bywyd, ac y gallont fyned i mewn trwy'r porth i'r ddinas." Dat. xxii. 14.[x]

Yna y clywais y gwŷr disglaer yn erchi iddynt guro wrth y porth; a phan y gwnaethant felly, rhai o'r gwŷr oddi fewn a edrychasant dros y porth, sef Enoc, Moses, ac Elias, &c. Ac fe ddywedwyd wrthynt, Dyma Bererinion wedi dyfod o Ddinas Dystryw, oherwydd y cariad oedd ganddynt at Frenin y lle yma: ac ar ol hynny y Pererinion a roddasant i mewn iddynt eu tystiolaeth, y rhai a dderbyniasent yn nechreuad eu taith: hwythau a'u dygasant i mewn ac a'u dangosasant i'r Brenin; ac wedi iddo eu darllen, efe a ofynodd, Pa le y mae'r gwŷr? Hwythau a attebasant, Y maent yn sefyll wrth y porth: yna y Brenin a orchymynodd agor y porth, "Fel y dêl," ebe fe, "y genedl gyfiawn i mewn, yr hon a geidw wirionedd." Esay xxvii. 2.

Yn awr gwelwn yn fy mreuddwyd y ddau wr yn myned i mewn trwy'r porth: ac wele, cyn gynted ag yr aethant i mewn fe newidiwyd eu gwedd, ac fe'u gwisgwyd hwynt â dillad yn disgleirio fel aur. Yno hefyd y cyfarfu â hwynt rai â thelynau a choronau ganddynt; y rhai a roddasant iddynt hwy y telynau i ganu mawl â hwynt, a'r coronau yn arwydd o anrhydedd; yna mi a glywais holl gylch y ddinas yn canu drachefn, o wir lawenydd: a dywedwyd wrth y Pererinion, "Ewch i mewn i lawenydd eich Arglwydd." Myfi a glywais hefyd y gwŷr eu hunain yn canu â lleferydd uchel, gan ddywedyd, "I'r hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfaingc, ac i'r Oen, y byddo y fendith, a'r anrhydedd, a'r gogoniant, a'r gallu, yn oes oesoedd." Dat. v. 13.

Yn awr, cyn gynted ag yr agorwyd y porth i ollwng y Pererinion i mewn, mi a edrychais ar eu hol hwynt; ac wele, yr oedd y ddinas yn disgleirio fel yr haul; yr heolydd hefyd oeddynt wedi eu palmantu âg aur, a nifer mawr o wŷr yn rhodio ynddi a choronau ar eu pennau, a phalmwydd yn eu dwylaw, a thelynau aur i ganu mawl â hwynt.

Yr oedd yno rai hefyd ag adenydd ganddynt; ac yr oeddynt yn atteb y naill y llall

[w] Er fod yr Awdwr yn rhoddi i ni ddesgrifiad hardd o wynfyd y Pererinion, anmhosibl oedd iddo ef nac i neb o ddaearolion, roddi i ni bortreiad gweddaidd o'r dedwyddwch hwnnw. Eithr y mae efe yr awr hon yn meddu rhagorach gwybodaeth am y wlad nefol, lle y mae efe a'i gyd-bererinion yn moli ac yn caru ei Arglwydd byth. Ymdrechwn fod yn fwy nefolaidd yn ein hyspryd a'n hymarweddiad, tra fyddom yma ar daith ein pererindod.

[x] Mae ffydd yn Nghrist yn gweithio trwy gariad ac ufudd-dod. Ni dderbynir neb i'r gogoniant, ond y sawl sydd yn gwneuthur gorchymynion Crist.

heb orphwys ddydd na nos, gan ddywedyd, "Sanct, Sanct, Sanct, yw Arglwydd y lluoedd." Esa. vi. 2, 3. Ac o'r diwedd hwy a gauasant y pyrth; a phan y gwelais i hynny, mi a ddymunais fod yn eu mysg hwy.

ANWYBODAETH AR LAN YR AFON.

Yn awr, fel yr oeddwn yn meddwl ynof fy hun am yr holl bethau a welswn, mi a edrychais yn fy ol, ac a ganfum Anwybodaeth yn dyfod i lan yr afon; eithr efe a ddaeth trosodd yn ebrwydd; oblegid ni chafodd efe hanner y rhwystr a gawsai y ddau wr arall wrth ddyfod trwyddi. Canys fe ddigwyddodd y pryd hynny fod yno fadwr, yr hwn a elwid Gwag-obaith, yr hwn a'i dygodd ef trosodd yn ei fad: felly efe a esgynodd i'r bryn, i ddyfod tua'r porth fel y lleill; eithr efe a ddaeth wrtho ei hunan; canys ni ddaeth neb i'w gyfarfod ef, i roddi iddo y cysur lleiaf yn y byd. A phan ddaeth i fynu at y porth, efe a edrychodd ar yr ysgrifen yr hon oedd uwch ben; ac wedi'n efe a ddechreuodd guro, gan dybied y cawsai ei dderbyn i mewn yn ddiattreg: eithr y gwŷr a edrychasai dros y porth a ofynasant, o ba le yr oedd ef yn dyfod? a pha beth a fynnai? Yntef a attebodd, "Myfi a fwytteais ac a yfais gyda'r Brenin, ac efe a ddysgodd yn ein heolydd ni." Luc xiii. 26, 27. Yna hwy a ofynasant iddo am ei dystiolaeth, fel y gallent fyned i mewn a'i dangos i'r Brenin. Felly efe a chwiliodd yn ei fynwes, ond ni chafodd yr un. Yna ebe hwy, A oes un gennych? Eithr nid attebodd efe iddynt un gair. Felly hwy a fynegasant y cwbl i'r Brenin; eithr efe a naccaodd ddyfod i waered i'w weled ef; ond efe a orchymynodd i'r ddau wr disglaer (y rhai a fuasent yn cyfarwyddo ac yn cynnorthwyo Cristion a Gobeithiol i ddyfod i'r ddinas) i fyned allan, a chymmeryd Anwybodaeth, a rhwymo ei draed a'i ddwylaw, a'i ddwyn ymaith. Mat. xxii. 13.[y] A hwy a'i cymmerasant ac a'i dygasant ef trwy'r awyr i'r drws a welswn ar ochr y bryn, ac a'i bwriasant ef i mewn yno. Yna mi a welais fod ffordd i uffern o byrth y nefoedd, yn gystal ag o Ddinas Dystryw. Felly mi a ddeffroais, ac wele breuddwyd oedd.

GWAG OBAITH YN EI GLUDO DROSODD.

[y] Ofer yw gobaith pob un am fyned i'r nefoedd, heb hawl yn Nghrist trwy ffydd, a gwaith ei Yspryd yn cyfnewid ei galon. Fe ddichon dyn ddal ei wag-hyder hyd y diwedd, a marw (fel y mae'r chwedl) mor esmwyth a'r oen; eithr arswydus fydd ei gyflwr, pan agorir ei lygaid mewn tragywyddol boenau.

---

Wedi i ni ddwyn y ddau Bererin i ben eu taith, a gweled yn y gwrthwyneb alarus gyflwr y rhagrithiwr, bydded i bob darllenydd gofio, er mai tan rith breuddwyd y mae yr adroddiad yn cael ei osod ger ein bron, fod yn rhaid i bob un a ewyllysio fod yn gadwedig, droedio yr un llwybr a'r Pererinion, gan barhâu yn ffyddlon hyd angau. Mae llawer gwirionedd mwyaf ei bwys yn cael ei roddi i lawr gan yr Awdwr, i ddangos i ni dwyll a gwagedd y byd, a'r angenrheidrwydd sydd yn cael ei osod arnom i godi'r groes, ac ymwadu â ni ein hunain. Trwy Grist yn unig y daw iechydwriaeth i bechaduriaid colledig; ond y mae yn rhaid i ni ffoi atto am noddfa, a'i gofleidio ef trwy ffydd. Dysgir ni hefyd, fod yn rhaid cael tufewnol dystiolaeth, neu sicrwydd o'n hawl yn mendithion y cyfammod newydd, oherwydd heb hynny ni fydd i ni gysur sylweddol a pharhaus, ac os digwydd i ni golli ein sicrwydd, fod yn rhaid i ni, heb orphwys, gael adferiad o hono. Rhaid hefyd parhâu mewn ufudd-dod i Grist, a chynnyddu mewn gras, nes i ni gyrhaeddyd cyflawn addasrwydd i fyned i mewn i'r nefol fyd. Cymmerwn ynte gyngor yr apostol, i "redeg yr yrfa a osodwyd o'n blaen, gan roddi heibio bob rhyw faich, a'r pechod sydd barod i'n hamgylchu, gan edrych ar Iesu, pen-tywysog a pherffeithydd ein ffydd ni."

## DIWEDD-GLO Y RHAN GYNTAF.

Yn awr ddarllenydd, d'wedais i ti
Fy mreuddwyd, cais im' ei ddehongli;
I ti'th hunan, neu'th gymmydog,
Rhag cam-ddehongli bydd wagelog ;
Can's yn lle gwneuthur it' ddaioni,
Ni ddaw i ti ond yr anfri;
Trwy gam-ddehongli pethau tywyll,
Y mae yn digwydd ddrygau erchyll.
Na fydd ry fanwl yn dy amcan,
Wrth chwareu â'm breuddwyd o'r tu allan;
Na âd i'm cysgod neu'm cyfflybiaeth
Dy yrru i chwerthin neu lid diffaith ;
Gad hyn i fechgyn ac ynfydion,
Cais di wel'd sylwedd fy 'madroddion.
Tro heibio'm llenni, i mewn edrych
Trwy'm cyffylybiaethaethau, gwel na fethych;
Yno cai, os chwili'n ddirwest,
Ryw bethau da i feddwl gonest;
Beth bynna' o'm sorod yno weli,
Tafl ef ymaith heb bryderu ;
Ond etto cadw'r aur yn hygar,
Mae'n werthfawr iawn er bod mewn daear:
Beth er fod fy aur i'n guddiedig
Mewn mwyn priddlyd ? pwy ddyn diddig
A deifl ymaith beraidd afol,
Am fod plisg cnewyll yn ei ganol ?
Os tafli'r cwbl fel gwag-beth heibio,
Ni's gwn na's gwna im' ail-freuddwydio.



THE PILGRIMS.

Y Pererinion.

# TAITH Y PERERIN:

TAN GYFFELYBIAETH

# BREUDDWYD.

## YR AIL RAN

GYMDEITHION MWYNLAN,



SONIAIS wrthych amser yn ol, am y breuddwyd a gefais ynghylch Cristion y Pererin, a'i daith tua'r Wlad Nefol, yr hyn oedd hyfryd i mi, a buddiol i chwithau.* Mynegais hefyd i chwi y pryd hynny, yr hyn a welswn i ynghylch ei wraig a'i blant ef, a pha mor wrth wyneb oeddynt hwy i fyned gydag ef ar bererindod; fel y gorfu arno fyned i'w daith hebddynt: canys yr oedd arno ofn y perygl o ddinystr, ag oedd sicr i ddyfod arno, os arosai yn Ninas Dystryw gyda hwynt. Gan hynny, fel y dangosais i chwi, efe a'u gadawodd hwynt, ac a aeth ymaith.

Digwyddodd i mi, trwy amryw achosion, gael fy rhwystro a'm hattal, yn fy nheithiau arferedig i'r ardaloedd hynny, i ba le yr aethai ef; ac felly ni ellais i gael odfa, hyd yn awr, i ymofyn am y sawl a adawodd ef o'i ol, fel y gallwn roi eu hanes i chwi. Gan i mi gael yn ddiweddar ryw achosion yn y goror hynny, aethum i waered yno: ac wedi cymmeryd lletty mewn coedwig, o fewn milltir i'r lle, ac wrth gysgu, mi a freuddwydiais drachefn.

Ac fel yr oeddwn yn fy mreuddwyd, gwelwn hen wr bonheddig yn dyfod i'r fangre lle yr oeddwn i yn gorwedd; a chan ei fod ef yn myned rhyw faint o'r ffordd ag oeddwn i yn drafaelu, tybiais i mi godi a myned gyd ag ef. Ac fel yr oeddwn yn rhodio, fel y bydd ymdeithwyr yn arferol, yr oeddwn fel pe buaswn yn ymddiddan âg ef; a'n hymddiddan a ddigwyddodd fod ynghylch Cristion a'i deithiau: canys fel hyn y dechreuais i â'r hen wr:

Syr, ebe fi, pa dref yw yr un accw, ar y llaw aswy i'n ffordd ni?

* Mae yn yr ail ran yma, amrywiol bethau nad oeddynt yn y rhan gyntaf, er mwyn dangos i ni y gwahanol brofiadau a threialon, sydd yn perthyn i'r ffyddloniaid, ar eu pererindod trwy y byd hwn. Mae ymddygiad y Pererinion, dan eu blinderau a'u temtasiynau, yn cael eu darlunio gyda harddwch a threfnusrwydd. Ni a welwn mai nid yr un fath yw'r dull a'r modd o weithrediadau Yspryd Duw ymhob enaid, er fod yr egwyddor a'r tuedd yr un ymhob cywir ddychwelwr.

Yna ebe Mr. Synwyrol, (canys felly y gelwid ef,) Dinas Dystryw yw hi; lle llawn o drigolion, ond eu bod o gynneddfau drwg dros ben, ac yn segurllyd.

Mi a dybiais mai dyna'r ddinas honno, ebe fi: mi a aethum trwy'r dref hon unwaith fy hun: ac oherwydd hynny mi a wn fod yr hanes yr ydych chwi yn roi o'r lle yn ddigon gwir.

SYN. Rhy wir: pe gallwn ddywedyd y gwir, dymunwn ddywedyd yn well am ei thrigolion.

Felly Syr, ebe fi, yr wyf yn deall mai gwr o feddwl da ydych chwi, ac felly yn ymhoffi gwrando ac adrodd yr hyn sydd dda: attolwg, a glywsoch chwi erioed beth a ddigwyddodd i wr o'r dref hon, a elwid Cristion, ag a aethai ar bererindod tua'r ardaloedd uchod?

SYN. Clywed am dano! Do; a chlywais hefyd am y blinderau, y trallodau, y rhyfeloedd, y caethiwed, y llefau, y griddfanau, y dychryniadau, a'r ofnau a gyfarfu ac a gafodd yn ei daith: heblaw hynny, rhaid i mi ddywedyd wrthych, fod ein holl wlad ni yn seinio yn ei gylch ef; nid oes nemawr o dŷ, a'r a glybu am dano ef a'i weithredoedd, na's mynasant hanes o'i bererindod ef: ac yr wyf fi yn meddwl y gallaf ddywedyd, i'w siwrnai beryglus ef ennill llawer o ewyllyswyr da i'w ffordd ef; er ei fod ef, tra fu yma, yn ffol yn ngenau pawb; ond yn awr, pawb yn ei ganmol: canys dywedant ei fod ef yn byw yn wych lle mae; a llawer o'r rhai sydd yn bwriadu na redant byth i'w beryglon, etto â dwfr yn rhedeg o'u dannedd oherwydd ei hawddfyd ef.[a]

CANMOLIR CRISTIONOGION AR OL EU HYMADAWIAD, ER EU GALW YN FFYLIAID YMA.

Felly y gallant hwy, ebe fi, debyg yn dda, os tybiant yr hyn sydd wir, ei fod ef yn byw yn odidog lle mae; oblegid y mae yn byw gerllaw Ffynnon y Bywyd, ac y mae yr hyn sydd ganddo heb lafur na phoen, canys nid oes dim gofid yn gymmysgedig âg ef. Ond attolwg pa beth a ddywed y bobl am dano ef?

SYN. Hwy a ddywedant bethau hynod dros ben am dano; rhai a ddywedant, ei fod ef yn awr yn rhodio mewn dillad gwynion; a bod ganddo gadwyn aur am ei wddf; a choron wedi ei gosod â pherlau ar ei ben: eraill a ddywedant, fod y rhai disglaer a ymddangosent ryw brydiau iddo ef ar ei daith, yn awr yn gymdeithion iddo ef, a'i fod ef mor gyfeillgar â hwynt yno ag y mae'r naill gymmydog â'r llall yma. Heblaw hynny, fe ddywedir yn sicr, fod Brenin y lle y mae efe wedi rhoddi iddo eisoes breswylfa oludog a hyfryd yn ei lŷs, a'i fod ef yn bwytta ac yn yfed, yn rhodio ac yn ymddiddan âg ef, a bod Barnwr pawb yno yn gwenu arno, ac yn dangos ei nawdd iddo. Drachefn, y mae rhai yn disgwyl ei Dywysog ef, Arglwydd y wlad honno, i ddyfod ar fyrder i'r parthau hyn, ac a fyn wybod pa reswm oedd gan ei gymmydogion i'w fychanu a'i wawdio fel y gwnaethant, pan wybuant ei fod yn myned ar bererindod.

[a] Y mae niferi o ddynion yn ddigon parod i roi clod i'r duwiol, a sôn am eu rhinweddau wedi ymadael o honynt â'r byd, er na fynnent roi enw da iddynt tra'r oeddent yn y byd. Mae enwau rhai gweinidogion a difeinyddion yn uchel eu clod yr awr hon, er myned trwy lawer o anmharch a dirmyg yn amser eu bywyd, oherwydd gelyniaeth rhai i'r gwirionedd, a chenfigen rhai eraill.

Canys fe ddywedir ei fod ef yn awr yn gymmaint yn nghariad ei Dywysog,[b] a bod ei Lywydd ef mor anfoddlon oherwydd yr anmharch a wnaethpwyd i Gristion, pan yr aeth yn bererin, ac yr edrych ef ar y cwbl a wnaed iddo, fel pe gwnaethid iddo ef ei hun; ac nid yw ryfedd, canys ei gariad at ei Dywysog a wnaeth iddo anturio fel y gwnaeth. Zech. iii. 7. Luc xv. 15.[c]

CYMMERIR PLAID CRISTION GAN EI FRENIN.

Mae yn llawen gennyf fi hynny, ebe fi; er mwyn y gwr druan, oherwydd ei fod ef yn awr yn gorphwys oddiwrth ei lafur, (Dat. xiv. 13. Psal. cxxvi. 5, 6,) a'i fod ef yr awr hon yn medi ffrwyth ei ddagrau mewn llawenydd; ac oherwydd ei fod ef wedi myned tu hwnt i ergyd ei elynion, ac o gyrhaedd ei gaseion. Mae yn llawen gennyf hefyd, fod y sôn am y pethau hyn wedi myned trwy'r wlad hon; pwy a ŵyr na's gall weithio rhyw effaith dda ar y sawl a adawodd efe ar ol? Ond attolwg Syr, tra y mae ef yn fy meddwl i, a glywch chwi ddim ynghylch ei wraig a'i blant ef? Druain, yr wyf yn syn-feddylio beth y maent hwy yn ei wneuthur.[d]

SYN. Pwy, Cristiana a'i meibion? Y maent yn debyg i wneuthur cystal a Christion ei hun; er iddynt oll chwareu'r ffyliaid ar y cyntaf; ac na fynnent eu perswadio mewn un modd, trwy ddagrau na thrwy ymbiliau Cristion, etto ail-feddyliau a weithiodd yn rhyfeddol ynddynt; ac felly hwy a ymdaclasant, ac a aethant ar ei ol ef.

NEWYDDION DA AM WRAIG A PHLANT CRISTION.

Wel, wel, ebe finnau: Beth! Y wraig a'r plant a'r cwbl?

SYN. Digon gwir, mi a allaf roddi i chwi hanes o'r matter, canys yr oeddwn i yno y pryd hynny, ac yn llwyr adnabyddus â'r holl achos.

Yna ebe fi, A all dyn ei ddywedyd yn lle gwir?

SYN. Nid rhaid i chwi ofni ei sicrhâu ef: sef, eu myned oll ar bererindod, y wraig dda ynghyd a'i phedwar mab. A chan ein bod, fel yr wyf yn tebygu, yn cyd-ymdaith ennyd o ffordd ynghyd, mi roddaf i chwi hanes o'r holl fatter.

Cristiana, (canys felly y gelwid hi er y dydd yr ymroddodd hi a'i phlant i fywyd pererindod,) wedi myned ei gwr dros yr afon, ac na's gallai hi glywed am dano ef yn mhellach, ei meddyliau a ddechreuodd ymgynhyrfu o'i mewn. Yn gyntaf, oblegid y golled am ei gwr, o achos fod y cwlwm cariadus hwnnw o berthynas rhyngddynt wedi ei gwbl dorri. Canys rhaid i chwi wybod, ebe fe, na's gall natur lai na chynnwys llawer

[b] Amser cystudd a gostyngiad yw'r bywyd presennol i'r gwir Gristion, ond mawr fydd ei anrhydedd, ac uchel ei ddyrchafiad yn y byd arall. Fe ddichon fod y groes yn pwyso yn drwm ar brydiau, ond y mae cariad Crist yn esmwythâu pob baich.

[c] Cariad gwresog a diffuant at Grist, yw'r olew yn ein llusern, ac hebddo ni thâl ein proffes ni ddim, ni fydd ond tywyll a marwaidd. Oddi eithr fod y rhinwedd hwn yn cynnyddu ac yn gwresogi ynom, ni a gloffwn ar ein taith, ac ni a fyddwn barod ar bob digalondid, i flino ar y llwybr sydd yn arwain i'r bywyd.

[d] Er fod rhai gwŷr duwiol yn methu cael gan eu ceraint i wasanaethu Duw mewn cyttundeb â hwynt etto wedi marw o honynt, mae eu cynghorion a'u gweddïau megis yn ail gyfodi, ac yn foddion o ddeffroi ystyriaethau y rhai a adawsant ar eu hol. Mae coffadwriaeth y cyfiawn yn parhâu yn dragywydd.

meddwl trwm, wrth gofio y golled am berthynas mor anwyl. Costiodd hyn iddi lawer deigryn hallt. Eithr nid hyn oedd y cwbl, ond dechreuodd Cristiana ystyried, Pa un a bod ei hanweddus ymddygiad hi at ei gwr yn un achos na's gwelodd hi ef mwyach; ac iddo gael ei gymmeryd oddi wrthi yn y cyfryw fodd. Ac yn heidiau, daeth i'w meddwl hi, ei holl angharedigol, annaturiol, a'i hannuwiol ymddygiad tuag at ei phriod; yr hyn a lyfetheiriodd ei chydwybod hi, ac a'i llwythodd âg euogrwydd. Trallodwyd hi yn ddirfawr hefyd, wrth adgofio ei riddfanau dibaid, ei ddagrau heilltion, a'i waith yn ei ofidio ei hun, a'r modd y caledodd hi ei chalon yn erbyn ei holl ymbiliau ef a'i garedig annogaethau (iddi hi a'i meibion) i ddyfod gydag ef; ïe, nid oedd dim a'r a ddywedodd Cristion wrthi, neu a wnaeth ef ger ei bron hi, trwy gydol yr amser yr oedd ei faich ynghrog ar ei gefn ef, na's dadymchwelodd arni fel mellten, ac a rwygodd orchudd ei chalon; yn enwedig ei chwerw lef ef, "Beth a wnaf fel y byddwyf cadwedig?" a seiniodd yn dra irad yn ei chlustiau hi.[e]

NODWCH HYN, CHWI RAI ATGAS TUAG AT EICH PERTHYNASAU CREFYDDOL.

Yna hi a ddywedodd wrth ei phlant, 'Fy meibion, fe ddarfu am danom oll. Pechais ymaith eich tad, ac efe a aeth: mynnasai i ni ddyfod gydag ef, eithr nid awn i fy hun: ac attaliais chwithau hefyd o fywyd.'

A chyda hynny syrthiodd yr holl fechgyn i wylo, ac a lefasant am fyned ar ol eu tad. 'O,' ebe Cristiana, 'na buasai ein rhan ni i fyned gydag ef, yna y buasai gwell i ni nag y mae'n awr yn debyg i fod. Er i mi ddychymyg gynt, fel ffol, fod blinderau eich tad yn tarddu oddiwrth ryw wag fympwy oedd yn ei ben ef, neu fod prudd-der wedi ei orfod ef; eithr yn awr nid â o'm meddwl i, lai nad oedd efe yn tarddu oddiwrth achos arall, sef, bod goleuni wedi ei oleuo ef, (Iago i. 23, 24,) trwy help yr hwn, fel yr wyf yn deall, y diangodd efe rhag maglau angau.' Yna wylasant oll drachefn, gan ddolefain, 'Och, ni drueiniaid, gwae i ni!'[f]

Y nos nesaf Cristiana a freuddwydiodd; ac wele, fel pe buasai femrwn llydan wedi ei agoryd ger ei bron, yn yr hwn yr ysgrifenwyd swm ei holl ffyrdd, a'r troseddiadau, ac fel y tybiai hi, yn edrych yn ddû iawn arni. Yna hi a a lefodd allan yn ei chwsg, 'Arglwydd, trugarha wrthyf fi bechadur!' a'r plant a'i clywsant hi.[g]

BREUDDWYD CRISTIANA

Wedi hyn tybiodd weled o honi ddau o rai drwg iawn eu gwedd, yn sefyll wrth ochr ei gwely, ac yn dywedyd, 'Beth a wnawn ni i'r wraig hon; canys y mae hi yn llefain am drugaredd yn nghwsg ac yn effro: os dioddefir iddi

DALIWCH SYLW: DYMA UFFERN EI HUNAN.

[e] O mor flin ac mor ofidus y rhaid fod meddyliau y rhai sydd wedi croesi ac anmharchu eu ceraint a'u cyfeillion duwiol, pan ddelont i ystyried eu cam-ymddygiad, ac i droi at yr Arglwydd.

[f] Cofied y sawl a ddibrisiant yr eneidiau sydd yn ceisio trugaredd, fod yn rhaid iddynt hwythau os mynnant gael trugaredd, ei thaer-gesio. Pan welom ein heisiau o drugaredd, gan deimlo ein colledigaeth, mae Duw yn agos, a'i glustiau ef yn agored i'n griddfanau ni.

[g] Mae yn rhyfedd gan y plant ei gweled hi mor daer, a hwynt yn cofio fel y darfu iddi gynt wawdio eu tad yn ei gystudd.

fyned rhagddi fel y mae hi yn dechreu, ni a'i collwn hi, fel y collasom ei gwr o'r blaen. Gan hynny, mae'n rhaid i ni geisio ei denu, trwy ryw fodd neu gilydd, oddiwrth y meddyliau am yr hyn a fydd yn ol llaw, onidê hi aiff yn bererin er a allo yr holl fyd.

Yna hi ddeffrodd mewn chwys mawr, ac â dychryn arni; ond yn mhen ychydig hi a gysgodd drachefn. Ac yna hi a dybiodd weled o honi Gristion ei gwr mewn lle gogoneddus, yn mhlith llawer o anfarwolion, a thelyn yn ei law, yn chwareu arni ger bron yr hwn oedd yn eistedd ar yr orsedd-faingc, ac yr oedd enfys oddi amgylch ei ben ef. Gwelodd ef hefyd fel pe buasai yn ymgrymu â'i wyneb tuag at y gwaith palmantedig oedd tan draed y Tywysog, gan ddywedyd, "Diolchaf â'm holl galon i ti, fy Arglwydd a'm Brenin, am ddwyn o honot fi i'r lle hwn." Yna y bloeddiodd tyrfa o'r sawl a safai gerllaw, a chanasant â'u telynau: eithr nid allai un dyn byw ddirnad yr hyn a ddywedent, ond Cristion a'i gyfeillion.

CYMHORTH MEWN PROFEDIGAETH.

Y boreu nesaf, pan oedd wedi codi, a gweddïo at Dduw, ac ymddiddan dros ennyd â'r plant, curodd rhyw un wrth y drws; i'r hwn yr attebodd fel hyn, 'Os ydwyt yn dyfod yn enw Duw, tyred i mewn.' Yntef a ddywedodd, 'Amen;' a chyda hynny agorodd y drws, ac a gyfarchodd iddi gyda "Tangnefedd i'r tŷ hwn." Ac wedi hynny ebe fe, 'Cristiana, a wyddost ti o ba herwydd y daethum i?' Yna hi a wridiodd, ac a frawychodd, a'i chalon a ddechreuodd gynhesu o chwant i wybod o ba le y daeth efe, a pha beth oedd ei neges ef â hi. Felly efe a ddywedodd wrthi, mai DIRGELWCH oedd ei enw ef, a'i fod yn trigo gyda'r sawl sydd yn yr uchelder.[h] 'Yr ydys yn dywedyd lle yr wyf fi yn preswylio, megis pe chwennychit ti ddyfod yno; chwedleuant hefyd fod yn edifar gennyt dy feiau gynt yn erbyn dy wr, trwy galedu'th galon yn erbyn ei ffyrdd ef, a chadw'th rai bychain hyn mewn anwybodaeth. Mae yr Un Trugarog wedi'm danfon i fynegi i ti, mai Duw parod i faddeu yw efe, a'i fod ef yn ymhoffi i ddilëu camweddau. Mynnaf i ti hefyd wybod, ei fod ef yn dy wahodd i ddyfod i'w ŵydd, ac i'w fwrdd, ac y portha efe di â brasder ei dŷ, ac âg etifeddiaeth Jacob dy dad.

NERTHU ARGYHOEDDIAD TRWY BARODRWYDD DUW I FADDEU.

'Yno y mae Cristion dy wr, a lluoedd eraill o'i gymdeithion, fyth yn gweled y gwyneb sydd yn gweini bywyd i'r golygwyr; a hwy a lawenychant oll, pan glywont drwst dy draed yn myned dros drothwy dy Dad.'

Cristiana ar hyn a gywilyddiodd yn ddirfawr ynddi ei hun, a chrymodd ei phen tua'r llawr. Ac felly yr ymwelwr hwn a chwanegodd, gan ddywedyd, 'Dyna lythyr i ti, a ddygais i ti oddiwrth Frenin dy wr;' hithau a'i cymmerodd, ac a'i hagorodd, ond yr oedd efe yn sawri fel y per-arogl goreu. Can. i. 2. Ysgrifenasid ef hefyd mewn llythyrenau aur; a'i ystyr ef oedd: Y mynnai'r Brenin iddi hi wneuthur fel y gwnaeth Cristion ei gwr, oblegid mai honno oedd y ffordd i ddyfod i'w ddinas ef, ac i breswylio mewn llawen-

[h] "Dirgelwch yr Arglwydd sydd gyda'r rhai a'i hofnant ef." Psal. xxv. 14. Happus yw'r enaid, pan fo Yspryd Duw yn llefaru wrth ei galon, ac yn dangos iddo, mor hoff gan Dduw ei iechydwriaeth dragywyddol ef.

ydd ger ei fron ef yn dragywydd. Erbyn hyn y wraig dda a orchfygwyd yn gwbl, yna hi

GORCHFYGU CRISTIANA YN GWBL.

a lefodd ar ei hymwelwr, gan ddywedyd, 'Syr, a ddygwch chwi finnau a'm plant gyda chwi, fel yr addolom ninnau'r Brenin hefyd?'

Yna ebe'r ymwelwr, 'Cristiana! mae'n rhaid i'r chwerw fyned o flaen y melus. Gorfydd i ti fyned trwy drallodau, fel yr hwn a aeth o'th flaen i'r Ddinas Nefol. Gan

HYFFORDDIADAU YCHWANEGOL I GRISTIANA.

hynny mi a'th gynghoraf i wneuthur fel Cristion dy wr: dos i'r porth bychan accw dros y gwastadedd, canys y mae hwnnw yn sefyll yn mhen y ffordd y gorfydd i ti fyned, ac mi ddymunaf i ti rwydd-deb. Mi a'th gynghoraf di hefyd i osod y llythyr* hwn yn dy fynwes, fel y gellych di ddarllen ynddo i ti dy hun, ac i'th blant, nes y gwreiddio yn eich calonau, canys un o'r caniadau yw ef a raid i chwi eu canu tra fyddoch yn nhŷ eich pererindod, (Psalm cxix. 55,) a gorfydd i ti roddi hwn i mewn yn y porth eithaf (yn y diwedd).'[1]

Gwelwn yn fy mreuddwyd, fod yr hen wr bonheddig, wrth adrodd y chwedl hon wrthyf, fel pe buasai yn ymgynhyrfu yn ddirfawr o'i phlegid. Ac felly a chwanegodd gan ddywedyd: Yna Cristiana a alwodd ei meibion ynghyd, ac a ddechreuodd dorri attynt

CRISTIANA YN DEISYF AR EI PHLANT FYNED I'R DAITH

fel hyn: 'Fy mhlant, bum yn ddiweddar, fel y gellwch ddeall, mewn blinder mawr yn fy enaid, ynghylch marwolaeth eich tad; nid o ran fy mod yn ammau oblegid ei ddedwyddwch ef: canys y mae yn ddiogel gennyf fi hynny. Bum hefyd yn drallodedig iawn yn fy meddyliau ynghylch fy nghyflwr fy hun a chwithau, yr hyn wyf fi yn gredu yn ddilys sydd resynol wrth natur. Fy ymddygiad hefyd at eich tad yn ei adfyd, sydd faich trwm ar fy nghydwybod: canys mi a galedais fy nghalon fy hun a chwithau yn ei erbyn ef, ac a wrthodais fyned gydag ef ar bererindod.

'Y meddyliau am y pethau hyn a'm llwyr ddifethent i, oni buasai fy mreuddwyd neithiwr, ynghyd a'r annogaeth a roddes y gwr dieithr yma i mi y boreu hwn. Deuwch, fy mhlant, gadewch i ni ymbarotoi i fyned tua'r porth sy'n arwain i'r wlad nefol, fel y gwelom eich tad, ac y b'om gydag ef a'i gyfeillion mewn tangnefedd, yn ol cyfreithiau y wlad honno.'

Yna ei phlant a dorrasant allan mewn wylofain, o dra llawenydd fod calon eu mam yn tueddu felly. A chyda hynny yr ymwelwr a ganodd yn iach iddynt: a hwythau a ddechreuasant ymdacclu i fyned i'w taith.

Ond tra yr oeddynt fel hyn ynghylch myned, daeth dwy wraig o gymmydogesau i

OFNUS A THRUGAREDD YN YMWELED Â CHRISTIANA.

Gristiana, ac a gurasant wrth ei drws. Y rhai a attebodd hi fel o'r blaen, 'Os ydych yn dyfod i mewn yn enw Duw, deuwch i mewn.' A

EI CHYMMYDOGESAU YN SYNNU WRTH EI HYMADRODDION.

synnodd y gwragedd wrth hyn; oblegid nid oeddynt yn arfer clywed y fath iaith, nac yn ei ddisgwyl o enau Cristiana. Ond er hynny

* Holl ddeddfau Duw.

[1] Mae y Dyddanydd yn tystiolaethu am Grist, ac yn tywys yr enaid i bob gwirionedd: efe sydd yn dangos pethau i ddyfod. Ioan xv. 26. xvi. 13.

hwy a ddaethant i mewn: ac wele, hwy a gawsant y wraig dda yn ymbarotoi i adael ei thŷ.[k]

Felly hwy a ddechrenasant, gan ddywedyd, Ein cymmydoges, beth ydych yn amcanu wrth hyn?

CRISTIANA a attebodd ac a ddywedodd wrth yr hynaf o honynt, enw yr hon oedd Mrs. Ofnus, Yr wyf yn ymbarotoi i daith. (Yr Ofnus hon oedd ferch i'r hwn a gyfarfu â Christion ar fryn anhawsdra, ac a fynnasai iddo ddychwelyd rhag ofn y llewod.)

OFNUS. Pa daith, attolwg?

CRIS. Sef myned ar ol fy ngwr da: a chyda hynny hi a wylodd.

OFN. Gobeithio nad felly, fy nghymmydoges anwyl; attolwg, na theflwch eich hunan ymaith er mwyn eich plant anwyl.

CRIS. Nagê, fe gaiff fy mhlant fyned gyda mi, nid oes un o honynt yn foddlon aros yn ol.

OFN. Y mae yn rhyfedd gan fy nghalon i, pwy neu pa beth a'th ddygodd i'r meddwl hyn.

CRIS. Oh, fy nghymmydoges, pe gwypech chwi gymmaint ag a wn i, nid wyf yn ammau na's deuech chwi gyda mi.

OFN. Attolwg, pa wybodaeth newydd a gefaist ti, ag sydd yn troi ymaith dy feddyliau oddiwrth dy gyfeillion, ac yn dy demtio i fyned na's gŵyr neb i ba le?

CRIS. Yna Cristiana a'i hattebodd, Cefais fy nghystuddio yn flin er pan ymadawodd fy ngwr oddi wrthyf; ond yn enwedig er pan yr aeth ef dros yr afon. Ond yr hyn sydd yn fy mlino i fwyaf ydyw, fy ymddygiad sarrug tuag atto ef yn ei gyfyngder. Heblaw hynny, yr wyf fi yn awr fel yr oedd yntef y pryd hynny; nid oes dim a wasanaetha i mi, ond myned ar bererindod. Breuddwydiais neithiwr fy mod yn ei weled ef. O na buasai fy enaid gydag ef! Y mae ef yn preswylio yn ngŵydd Brenin y wlad; y mae yn eistedd ac yn bwytta gydag ef ar ei fwrdd, ac efe a aeth yn gydymaith i anfarwolion, (1 Cor. v. 1—14,) a chanddo dŷ yn awr wedi ei roddi iddo, nad yw'r palas goreu ar y ddaear o'i gystadlu iddo, i'w weled yn well na thommen. Y mae Tywysog y llys hwnnw hefyd wedi danfon am danaf fi, gydag addewid o dderbyniad, os deuaf atto ef; yr oedd ei gennad ef yma yr awr hon, ac a ddug i mi lythyr, ag sydd yn fy ngwahodd i ddyfod. A chyda hynny hi a dynnodd allan ei llythyr, ac a'i darllenodd, ac a ddywedodd, Pa beth a ddywedwch chwi yn awr wrth hyn?[l]

[k] Ystyria, ddarllenydd, a chwilia dy hun. Os gwir Gristion ydwyt, mae yn gof gan dy gymmydogion am ryw gyfnewid yn dy eiriau a'th arferion, yn peri i ti ymddangos megis rhyfeddod iddynt.

[l] Y mae hi wedi ei goleuo i weled meddwl Duw yn ei air, yr hwn sydd fel trysor cuddiedig i ni, nes deffroi ein hystyriaeth, ac agoryd ein llygaid, gan yr Yspryd Glân, i weled pethau a chraffu arnynt, y rhai nid oeddym o'r blaen nac yn eu deall nac yn eu hystyried. Mae yn yr efengyl y gwahoddiadau mwyaf tirion i'r sawl sydd yn drist ac yn alarus oherwydd eu pechodau; mae Crist yn galw y cyfryw atto i gael gorphwysdra a heddwch.

OFN. Oh! pa ynfydrwydd a'th feddiannodd di a'th wr, i'ch rhedeg eich hunain i'r fath anhawsdra! Y mae yn ddilys gennyf, i chwi glywed am yr hyn a gyfarfu â'ch gwr, yn mron y cam cyntaf o'i ffordd, fel y gall ein cymmydog Cyndyn dystiolaethu etto, canys efe a aeth gydag ef; a Meddal hefyd, nes iddynt, fel gwŷr call, ofni myned yn mhellach. Clywsoch hefyd, fwy na mwy, y modd y cyfarfu ef â'r llewod. Apolyon, Cysgod Angau, a llawer o bethau eraill. Ac nid yw'r peryglon a gyfarfu ef yn Ffair Gwagedd i'w hanghofio gennyt ti. Canys os bu cyn galetted arno ef, ac yntef yn wr, beth elli di, O wraig, ei wneuthur? Ystyria hefyd mai'th gnawd a'th esgyrn yw'r pedwar plentyn serchog-lân yma. Gan hynny, pe byddit mor fyrbwyll a'th daflu dy hun ymaith; ond etto, er mwyn ffrwyth dy gorph, cadw di gartref.[m]

YMRESYMIADAU'R CNAWD.

Ond Cristiana a ddywedodd wrthi, Na themtia fi, fy nghymmydoges: canys y mae gennyf yn awr werth wedi ei roddi yn fy llaw i elwa âg ef, a mawr fydd fy ffolineb, os gwan-galoni a wnaf, a chynnygiad mor deg o'm blaen. Ac o ran yr holl drallodau a ddywedwch chwi, ag wyf yn debyg o'u cyfarfod ar y ffordd, y maent cyn belled o'm digaloni i, fel y maent yn dangos fy mod ar yr iawn, 'Rhaid i'r chwerw fyned o flaen y melus,' a hynny a wna y melus yn felusach. Gan hynny, am na ddaethoch i'm tŷ i 'yn enw Duw,' fel y dywedais, attolwg ewch ymaith, ac na aflonyddwch fi yn hwy.[n]

ATTEBIAD PAROD I RESYMAU CNAWDOL.

Yna Ofnus a'i gwawdiodd hi, ac a ddywedodd wrth ei chyfeilles, Deuwch, fy nghymmydoges Trugaredd, ni a'i gadawn hi i'w dwylaw ei hun, gan ei bod hi yn dibrisio ein cyngor a'n cyfeillach ni. Ond Trugaredd oedd ar sefyll, ac nis gallai hi mor barotted gyd-synio â'i chymmydoges, oherwydd dau reswm; yn gyntaf, Ei hymysgaroedd a gyffrodd er mwyn Cristiana. Ac felly hi a ddywedodd ynddi ei hun, Os bydd i'm cymmydoges ymadael, mi af ychydig o ffordd gyda hi, i'w chynnorthwyo. Yn ail, Ei hymysgaroedd a gyffrodd o achos ei henaid ei hun (oherwydd i'r hyn a ddywedodd Cristiana gymmeryd peth gafael ar ei meddwl hi). Gan hynny, hi a ddywedodd ynddi ei hun drachefn, Mynnaf ychwaneg o siarad â'r Gristiana yma, ac os profaf wirionedd y bywyd yn yr hyn a ddywedo hi, mi af â'm holl galon gyda hi. Gan hynny, Trugaredd a attebodd ei chymmydoges Ofnus fel hyn:—

YMYSGAROEDD TRUGAREDD YN CYFFROI ER MWYN CRISTIANA.

TRUG. Fy nghymmydoges, mi a ddaethum yn wir gyda chwi y boreu hwn i weled Cristiana; a chan ei bod hi, fel y gwelwch chwi, yn cymmeryd ei chennad ddiweddaf o'i gwlad, yr wyf fi yn meddwl rhodio ychydig gyda hi, y boreu haulog hwn, i'w chynnorthwyo yn ei ffordd. Ond nid ynganodd hi am ei hail reswm, ond a'i cadwodd ef iddi ei hun.

[m] Dyma gyngor y byd. Eithr y mae gan Cristiana well addysg, trwy yr hyn y gwybu hi, mai trwy lawer o orthrymder mae yn rhaid i ni fyned i mewn i deyrnas nefoedd.

[n] Da yw bod yn ddewr ac yn hyderus yn ein gwrthwynebiad i gynghorion cig a gwaed. Ni thyccia i ni ymresymu â'r cnawd, na gwrando ar lais y byd, os mynnwn feddu bywyd a iechydwriaeth. *Ffordd y groes yw'r llwybr i baradwys.*




"Methought I saw Christianna and Mercy and the boys, go all of them up to the gate." p.163.

The approach to the Wicket Gate.

Yr Arweinfa i'r Porth-bychan

OFN. Felly, mi a welaf eich bod chwithau ar feddwl myned i chwareu'r ffol hefyd: ond gochelwch mewn pryd a byddwch gall; tra yr ydym allan o berygl, yr ydym allan; ond pan yr ydym ynddo, yr ydym ynddo. Felly Mrs. Ofnus a ddychwelodd i'w thŷ, a Christiana a ymroddodd i fyned i'w thaith. Ond wedi dyfod Ofnus adref i'w thŷ, hi a ddanfonodd am rai o'i chymmydogesau, sef Mrs. Llygaid-ystlym, Mrs. Anystyriol, Mrs. Ysgafn-feddwl, a Mrs. Diwybodaeth. Felly wedi eu dyfod hwy i'w thŷ, hi a ddechreuodd adrodd ei chwedl ynghylch Cristiana, a'r daith oedd hi yn fwriadu myned iddi. Ac fel hyn y dechreuodd hi:—

OFNUS YN TROI EI CHEFN, OND TRUGAREDD YN GLYNU WRTHI.

OFNUS YN ADRODD I'W CHYMMYDOGESAU EI CHWEDL YNGHYLCH CRISTIANA.

OFN. Fy nghymmydogesau, gan nad oedd gennyf ond ychydig i wneud y boreu yma, mi aethum i ymweled â Christiana; a phan ddaethum at y drws, a churo, yn ol yr arfer: hi a'm hattebodd, 'Os ydych yn dyfod yn enw Duw, deuwch i mewn.' Felly i mewn yr aethum i, gan debyg fod pob peth o'r goreu: ond pan aethum i mewn, mi a'i gwelwn hi yn ymbarotoi i ymadael o'r dref, ynghyd a'i phlant. Yna mi a ofynais iddi, beth oedd yr achos o hynny? Hithau a'm hattebodd, ei bod hi yn awr ar feddwl myned ar bererindod, fel yr aeth ei gwr. Hi a adroddodd wrthyf hefyd ei breuddwyd, a'r modd y danfonodd Brenin y wlad honno, lle y mae ei gwr, lythyr atti, i'w gwahodd hi i ddyfod yno.

Yna ebe Mrs. Diwybodaeth, Beth! a ydych chwi yn tybied yr aiff hi? MRS. DIWYBODAETH.

OFN. Aiff, deued a ddelo o honi; ac y mae yn sicr ddigon gennyf wrth hyn; oblegid fy rhesymau pennaf i i'w pherswadio hi i aros gartref (sef y trallodau oedd hi yn debyg o'u cyfarfod yn ei ffordd) oedd un rheswm gyda hithau, i'w hannog yn nechreu ei thaith. Canys hi a ddywedodd wrthyf mewn cynnifer o eiriau, 'Fod y chwerw yn myned o flaen y melus:' a hynny a wna'r melus yn felusach.

MRS. LLYGAID-YSTLYM. O ddallineb ac ynfydrwydd y wreigen hon! ebe hi; a gymmer hi ddim rhybudd oddiwrth drallodau ei gwr? O'm rhan i, yr wyf yn gweled, pe deuai ef yma etto, y byddai foddlon i orphwys mewn croen cyfan, ac na redai fyth i'r fath beryglon am ddim. MRS. LLYGAID-YSTLYM.

Yna Mrs. Anystyriol a'i hattebodd hi gan ddywedyd, Ymaith a'r fath ffyliaid gwall-gofus, o'r dref: gwared da o honi, o'm rhan i; pe arosai hi lle y mae, a chadw'r fath feddwl ynddi, pwy allai fyw yn esmwyth gerllaw iddi? canys hi a fydd naill ai yn astud, neu yn anghymmydogol, neu ynte yn siarad y cyfryw bethau nas gall neb call eu haros: gan hynny, o'm rhan i, ni bydd fyth ddrwg gennyf fi ei hymadawiad; eled, a deued ei gwell yn ei lle: ni bu fyth yn fyd da er pan ddaeth y ffyliaid pen-ysgafn yma i drigo ynddi.[p] MRS. ANYSTYRIOL.

Yna Mrs. Ysgafn-feddwl a chwanegodd fel hyn: Deuwch, a rhowch heibio'r fath ymsiarad. Yr oeddwn i ddoe yn nhŷ Madam Trythyll, lle yr oedd pawb MRS. YSGAFN-FEDDWL.

[p] Dyma'r chwedl sydd gan blant y cnawd. Y mae crefydd a grym duwioldeb yn eu blino yn dost, ac anhawdd ganddynt feddwl fod niweid yn eu coel-ddigrifwch. Eu harfer yw dirmygu a dibrisio pawb sydd am rodio, a thrin eu hymddygiad, yn ol rheolau'r Ysgrythyr a gwir sancteiddrwydd.

yn ddigon llawen: a phwy debygech chwi oedd yno, ond myfi, a Mrs. Caru'r-cnawd, a thair neu bedair ychwaneg, ynghyd â Mr. Anlladrwydd, Mrs. Fudr, a rhai eraill: felly yr oedd gennym gerddoriaeth a dawnsio, a phob peth arall a weddai i gyflawni ein pleserau. Ac mi a ddywedaf yn hŷ, fod madam yn wraig o uchel radd, a Mr. Anlladrwydd sydd gystal cyfaill a hithau.

MADAM TRYTHYLL, YR HON FU AGOS A GORCHFYGU FFYDDLON GYNT.

Erbyn hyn yr oedd Cristiana wedi cychwyn, a Thrugaredd a aeth gyda hi: ac wrth fyned, a'r plant gyda hwy, dechreuodd Cristiana chwedleua â Thrugaredd fel hyn: Yr wyf fi yn ei gymmeryd ef yn garedigrwydd heb ei ddisgwyl, i ti osod troed allan o'r drws i gyd-rodio â mi ychydig yn fy ffordd.

CRISTIANA YN CHWEDLEUA Â THRUGAREDD.

Yna ebe Trugaredd ieuangc, (canys nid oedd hi ond ieuangc,) Pe gwypwn y byddai er lles i mi ddyfod gyda chwi, nid awn i fyth mwyach yn agos i'r dref.

TRUGAREDD YN TUEDDU I FYNED.

Felly Cristiana a ddywedodd wrth Drugaredd fel hyn: Bwrw dy goelbren i mewn gyda mi, canys mi a wn beth fydd diwedd ein pererindod ni; ni fynnai fy ngwr i lai na bod lle y mae ef, er yr holl aur sydd yn mwn-gloddiau'r Spaniaid. Ac ni'th wrthodir dithau, er dy fod ar fy ngwahoddiad i. Y mae'r Brenin a ddanfonodd am danaf fi a'm plant, yn un ag sydd yn ymhoffi mewn trugaredd. Heblaw hynny, os mynni mi a'th gyflogaf di, a thi a gai fyned gyda mi fel morwyn. Ond er hynny bydd pob peth yn gyffredin rhyngof fi a thi, yn unig tyred gyda mi.[q]

TRUG. Ond pa fodd y caf fi sicrwydd o'm derbyniad? Pe byddai'r gobaith hyn gennyf oddiwrth un ag a wyddai, ni phrisiwn i ddim, ond mi a awn, trwy gael fy helpu gan yr hwn a ddichon, er meithred yw'r ffordd.[r]

TRUGAREDD YN AMMAU DERBYNIAD.

CRIS. Gâd iddo, Trugaredd anwyl, mynegaf i ti yr hyn a wnai; dere gyda mi hyd y Porth Bychan, ac ymofynaf yno yn mhellach drosot ti; ac oni chei di annogaeth yno, byddaf foddlon i ti ddychwelyd i'th le: a minnau hefyd a dalaf i ti am dy gymmwynas tu ag attaf fi a'm plant, yn cyd-ymdaith â ni yn ein ffordd.

CRISTIANA YN EI DENU AT Y PORTH, SEF CRIST, AC YN ADDAW YMHOLI YNO.

TRUG. Minnau a af yno, deued a ddelo: a'r Arglwydd a ganiattao i'm coelbren i syrthio yno, fel y gosodo Brenin y nef ei galon arnaf.

TRUGAREDD YN GWEDDIO.

Yna y llawenychodd Cristiana yn fawr, nid yn unig oherwydd iddi gael cydymaith, ond hefyd oherwydd iddi ennill y forwynig hon druan i gwympo mewn cariad â'i hiachawdwriaeth ei hun. Ac felly hwy a gychwynasant ynghyd a Thrugarddd a ddechreuodd wylo. Paham y mae fy chwaer yn wylo? ebe Cristiana.

CRISTIANA YN LLAWEN OHERWYDD CWMPEINI TRUGAREDD.

TRUG. Och! ebe hi, pwy ni alara, ag a iawn ystyria yn mha gyflwr y mae fy mherthynasau truain ynddo, ag sydd yn aros etto yn ein tref

TRUGAREDD YN YMOFIDIO DROS EI PHERTHYNASAU YN OL Y CNAWD.

[q] Y mae gwir Gristion yn hoffi gweled eraill yn ceisio llwybrau'r bywyd, ac yn cael eu dwyn i fod yn gyfrannog o'r unrhyw fendithion ag ef ei hunan. Y mae cwmpeini hefyd yn gwneuthur y ffordd yn fwy difyr.

[r] Ni a welwn yma lun enaid ymofyngar, yn chwennych cael addysg ac annogaeth, ond dan deimlad o amheuon ac ofnau.

bechadurus ni: a'r hyn sydd yn gwneuthur fy ngofid i yn drymach, yw, o achos nad oes ganddynt un hyfforddiad, na neb i fyned iddynt yr hyn sydd i ddyfod.[s]

CRIS. Ymysgaroedd a weddai i bererinion: ac yr wyt ti yn gwneuthur dros dy gyfeillion, fel y gwnaeth fy ngwr drosof finnau pan y'm gadawodd; efe a ymofidiodd oherwydd nad oeddwn i yn gwrando arno, nac yn ystyried; ond ei Arglwydd ef a ninnau a gasglodd ei ddagrau ef, ac a'u gosododd yn ei gostrel; ac yn awr yr wyf fi a thithau, a'm plant anwyl hyn, yn medi'r ffrwyth a'r budd o honynt. Yr wyf fi yn gobeithio, Trugaredd anwyl, na chollir dim o'th ddagrau dithau; canys y Gwirionedd a ddywedodd, am y "sawl sydd yn hau mewn dagrau, y medant mewn llawenydd a chanu." Psal. cxxvi. 5, 6. "A'r hwn sydd yn myned ac yn wylo, gan ddwyn hâd gwerthfawr, a ddaw mewn gorfoledd tan gludo ei ysgubau."[t]

GWEDDIAU CRISTION YN CAEL EU HATEB AR OL EI FARW.

Yna Trugaredd a ganodd fel hyn:—

'Boed i'r Arglwydd Dduw fy arwain,
Yn ei ffyrdd a'i 'wyllys gywrain,
I mewn i'w borth, a'i galon sanctaidd,
Ac i'w fryn nefol â'i drugaredd.

Ac na ddioddefed y Goruchaf
I'm wyro byth o'i ffyrdd sancteiddiaf,
Rhag im' flino'r Yspryd sanctaidd,
Beth bynna' ddelo i mi yn y diwedd.

A chasgled Duw y neb sydd etto
O'm ffryns sy'n ol, ac heb ymado
A'u pechodau: O! gwna hwy'n foddlon
I ddyfod attat â'u holl galon.'

Felly fy hen gyfaill a aeth rhagddo, gan ddywedyd——Ond pan ddaeth Cristiana i fynu at y Gors Anobaith, hi a ddechreuodd lwfrhâu; canys ebe hi, dyma lle y bu fy ngwr anwyl debyg o gael ei dagu gan y llaid. Hi a wybu hefyd, er fod gorchymyn y Brenin i wneuthur y fan hon yn dda i'r pererinion, ei fod ef yn hytrach yn waeth na chynt? Felly mi a ofynais a oedd hynny yn wir? Ydyw, ebe yr hen wr bonheddig, yn rhy wir; oherwydd fod llawer ag sydd yn cymmeryd arnynt fod yn weithwyr y Brenin, ac yn dywedyd eu bod am gyweirio prif-ffordd y Brenin, yn dwyn tom a llaid yn lle cerrig, a

[s] Mae hyn yn dra naturiol: pan ddelom i deimlo gwerth ein heneidiau ein hunain, fe fydd ynom ofal a gofid am eneidiau ein ceraint a'n cyfneseifiaid.

[t] Mae yn hoff gan Dduw am ddagrau y sawl sydd yn galaru oblegid eu pechodau eu hunain, ac ar yr un pryd, yn ymofidio dros eraill. Pe b'ai chwaneg o'r teimladau hyn yn ein plith, fe fyddai achos duwioldeb yn fwy blodeuog.

EU CASGLIADAU CNAWDOL YN LLE GAIR Y BYWYD.

TRUGAREDD YN DDEWRAF WRTH GORS ANOBAITH.

thrwy hynny yn ei niweidio yn lle ei gwella.[u] Felly Cristiana a'i meibion a safasant yn syn; eithr ebe Trugaredd, Deuwch ac anturiwn, gan fod yn ofalus. Felly hwy a edrychasant yn fanwl at eu traed, ac a aethant drosodd dan ymsiglo.

Ond er hynny Cristiana a fu yn mron syrthio iddi, ychwaneg nag unwaith na dwy. A chyn gynted ag y daethant drosodd, tybient glywed o honynt eiriau yn dywedyd fel hyn, "Dedwydd yw yr hon a gredodd, canys cyflawnir iddi yr hyn a ddywedwyd gan yr Arglwydd." Luc i. 45.

Felly hwy a gychwynasant drachefn: ac ebe Trugaredd wrth Gristiana, Pe byddai gennyf fi gystal sail i obeithio am dderbyniad yn y Porth Bychan, ag sydd gennych chwi, yr wyf yn tebygu na chai un Gors Anobaith fy nigaloni i.

Yna ebe'r llall, chwi a wyddoch eich clefyd chwi, a minnau a wn fy eiddo innau; a'm cyfeilles anwyl, ni a gawn ein lloned o drallodau cyn y delom i ddiwedd ein taith. Canys nid oes disgwyl amgen i bobl sydd yn amcanu mwynhâu y fath ogoniant rhagorol ag ydym ni, a chymmaint o genfigen sydd yn ein herbyn, na chyfarfyddwn â'r fath ofnau a maglau, â'r fath drallodau a chystuddiau, ag sydd bosibl i'n caseion osod arnom.

DYLID GWEDDIO MEWN OFN A DYCHRYN YN GYSTAL AG MEWN FFYDD A HYDER.

Y CI—DIAFOL, YN ELYN GWEDDI.

CRISTIANA A'I CHYMDEITHION YN PETRUSO YNGHYLCH GWEDDI.

Ac yn awr Mr. Synwyrol a'm gadawodd i orphen fy mreuddwyd wrthyf fy hun. Gan hynny mi debygaswn fy mod yn gweled Cristiana a Thrugaredd, a'r bechgyn, yn myned oll i fynu at y porth: a phan ddaethant atto, hwy a ymresymasant â'u gilydd, ynghylch pa fodd y trefnent eu neges wrth y porth: a pha beth a ddywedent wrth yr hwn a agorai iddynt. Cyttunwyd, gan mai Cristiana oedd yr hynaf, iddi guro am dderbyniad, ac iddi hi lefaru wrth yr hwn a agorai iddynt, dros y lleill i gyd. Felly Cristiana a ddechreuodd guro, fel y gwnaethai ei gwr, hi a gurodd unwaith ac eilwaith,[w] eithr yn lle neb yn atteb, hwy a dybiasant oll glywed o honynt megis pe buasai gî yn dyfod tan gyfarth tuag attynt, a chî mawr hefyd; a gwnaeth hyn i'r gwragedd a'r plant frawychu. Ac ni feiddiasant dros ennyd guro yn ychwaneg, rhag ofn i'r gwaed-gî redeg arnynt. Erbyn hyn yr oeddynt yn drallodedig dros ben yn eu meddyliau, ac ni wyddent beth i'w wneuthur: ni feiddient guro rhag ofn y cî; myned yn ol ni feiddient, rhag ofn i'r Porthor

[u] Mae rhai yn twyllo'r enaid, trwy dywys dynion i ymbwyso ar gyflawniadau deddfol, a rhinweddau, moesol; tra fyddo eraill yn bloeddio allan ddychryniadau'r gyfraith, ac yn gadael y pechadur, heb ei ddwyn, megis erbyn ei law, at Grist y bywyd. Dylid dangos i bechadur edifeiriol, na fyn Crist fwrw neb allan a ddelo atto ef dan faich o euogrwydd, gan ei fod ef wedi marw drosom, ac yn ewyllysio i bob enaid fod yn gadwedig. Dylai gweinidògion Duw ddal allan addewidion yr efengyl yn eu helaethrwydd, a dangos i'r enaid y ffordd i ddal gafael arnynt trwy ffydd.

[w] Cyn gynted ac y dechreuo pechadur lefain am drugaredd, y mae Satan yn barod i ruo, ac i'w ddychrynu rhag curo o hono wrth y porth; canys efe a ŵyr mai gwrandawr gweddi yw ein Harglwydd. Eithr nac ofned; os gwrthwynebwn ddiafol, efe a ffŷ oddi wrthym. Dylem weddïo heb ddiffygio, canys yr hwn sydd yn ceisio sydd yn cael, a'r hwn sydd yn gofyn efe a dderbyn.



"Peace be to thee, stand up" p. 166

S. MAYSON. J. MOORE.

Mercy at the feet of the Keeper of the Gate.

Trugaredd wrth draed y Porthor



THE WICKET GATE.

Y Porth Nefol

THE LONDON PRINTING AND PUBLISHING COMPANY LIMITED

eu canfod, ac anfoddloni wrthynt: ond o'r diwedd bwriadasant guro drachefn, a churo a wnaethant yn fwy dwys nac ar y cyntaf. Yna ebe Ceidwad y porth, Pwy sydd yna? a thawodd y cî, ac efe a agorodd iddynt.

A Christiana a blygodd ei phen, ac a ddywedodd, Na ddigied ein Harglwydd wrth ei lawforwynion, oherwydd i ni guro wrth ei Borth breiniol ef. Yna ebe'r Ceidwad, O ba le y daethoch chwi? A pha beth a fynnwch chwi yma?

A Christiana a'i hattebodd, Ni a ddaethom o'r lle y daeth Cristion, ac ar yr unrhyw neges ag yntef; sef, os rhynga bodd i chwi ein derbyn yn rasusol trwy'r porth hwn, i'r ffordd sydd yn arwain i'r Ddinas Nefol. Attebaf, fy Arglwydd, yn y lle nesaf, mai myfi yw Cristiana, gwraig Cristion y pererin.

Ar hynny rhyfeddodd y Porthor, gan ddywedyd, Beth, a ddaeth hi yn awr yn bererin, ag oedd gynt yn ffieiddio'r bywyd hwnnw? Yna hi a blygodd ei phen, ac a ddywedodd, Ydwyf, ac felly y mae fy mhlant hyn hefyd.

Yna efe a'i cymmerth hi erbyn ei llaw, ac a'i harweiniodd hi i mewn, dywedodd hefyd, "Gadewch i blant bychain ddyfod attaf fi;" a chyda hynny efe a gauodd y porth. Wedi hyn, efe a alwodd ar udganwr, ag oedd uwchlaw'r porth, i roesawu Cristiana gyda bloeddio, a llais udgorn, o lawenydd. Yntef a ddaeth, a chan seinio, efe a lanwodd yr awyr âg adsain ei gerddoriaeth.

DERBYNIAD CRISTIANA WRTH Y PORTH.

A Thrugaredd oedd trwy gydol yr amser yn sefyll oddi allan, yn crynu ac yn llefain rhag ofn cael ei gwrthod. Ond wedi i Gristiana gael ei derbyn, ynghyd a'i phlant, hi a ddechreuodd eirioli dros Drugaredd, gan ddywedyd, Fy Arglwydd, y mae cyfeilles i mi yn sefyll etto oddi allan, ac wedi dyfod yma ar yr un achos a minnau: un ag sydd mewn cyfyngder meddwl, oherwydd iddi ddyfod, fel y mae hi yn tebygu, heb alwad: lle yr oeddwn i wedi'm gwahodd i ddyfod trwy orchymyn y Brenin.

CRISTIANA YN EIRIOL DROS DRUGAREDD.

Erbyn hyn yr oedd Trugaredd yn dra annioddefgar, a phob munud cyhyd ag awr yn ei golwg hi; gan hynny hi a ragflaenodd Gristiana rhag eirioli yn mhellach drosti, trwy guro ei hun wrth y porth. A churodd cyfuwch nes y cyffrodd Cristiana. Yna ebe Ceidwad y porth, Pwy sydd yna? O! ebe Cristiana, fy nghyfeilles sydd yna.

Felly efe a agorodd y porth, ac a edrychodd allan, ond Trugaredd a syrthiodd mewn llewyg, canys llesgaodd ei hyspryd, rhag ofn nad agorid y porth iddi.

TRUGAREDD MEWN LLEWYG.

Yna efe a'i cymmerodd hi erbyn ei llaw, ac a ddywedodd wrthi, Y llangces, cyfod.

O Syr, ebe hi, yr wyf fi yn dra llesg; prin y mae bywyd ynof. Yntef a'i hattebodd, ddywedyd o ryw un gynt, (Jona ii. 7,) "Pan lesgaodd fy enaid ynof, cofiais yr Arglwydd, a'm gweddi a ddaeth at ei deml sanctaidd." Nac ofna, ond saf ar dy draed, a mynega i mi o ba herwydd y daethost.

TRUG. Mi a ddaethum am yr hyn na's gwahoddwyd fi erioed, megis fy ffrind

Cristiana. Ei galwad hi oedd oddiwrth y Brenin, a minnau oddi wrthi hithau. Gan hynny yr wyf fi yn rhyfygu.[y]



CEIDWAD. A geisiodd hi gennyt ti ddyfod gyda hi yma?

TRUG. Do; ac, fel y gwel fy Arglwydd, mi a ddaethum. Ac os oes dim gras a maddeuant yngweddill, attolygaf i mi, dy law-forwyn wael, i gael bod yn gyfranog o hono.

Wedi hynny efe a'i cymmerodd hi erbyn ei llaw, ac a'i harweiniodd yn fwynaidd i mewn, ac a ddywedodd wrthi, Yr wyf yn gweddïo dros bawb ag sydd yn credu ynof fi, trwy ba foddion bynnag y delont attaf. Ioan xvii. 20. Yna efe a ddywedodd wrth y rhai oedd yn sefyll gerllaw, Cyrchwch ryw beth i'r eneth i'w arogli, i attal ei llewygfeydd. Hwythau a gyrchasant swp o fyrr iddi; ac yn mhen ychydig hi a adfywiodd.

Ac yn awr Cristiana a'i meibion, a Thrugaredd, a dderbyniwyd gan yr Arglwydd yn mhen y ffordd, ac efe a ddywedodd yn deg wrthynt.

Yna hwy a chwanegasant lefaru wrtho, Y mae yn ddrwg gennym o achos ein pechodau, ac yn attolwg i'n Harglwydd eu maddeu i ni, a'n haddysgu yn mhellach pa beth sydd raid i ni ei wneuthur.

Ebe yntef, Yr wyf yn cenhadu pardwn, trwy air a gweithred; (Can. i. 2. Ioan xx. 20.) trwy air, yn yr addewid o faddeuant; trwy weithred, yn y ffordd y gwnaethpwyd ef. Cymmerwch y cyntaf o'm genau gyda chusan, a'r llall megis y datguddir ef.

[y] Mae Yspryd Duw yn gweithio yn ddirgelaidd ar feddyliau rhai heb foddion allanol, tra fyddo eraill yn cael eu denu gan wahoddiad a chyngor rhyw gyfaill neu gymmydog, ond wedi hynny yn cael eu dwyn i adnabyddiaeth bersonol o'r gwirionedd.

Yn awr mi a welwn yn fy mreuddwyd, ei fod ef yn llefaru bagad o eiriau llesol wrthynt, y rhai a'u llawenychodd hwynt yn ddirfawr. Dug hwynt i fynu hefyd uwch ben y porth, ac a ddangosodd iddynt trwy ba weithred yr achubid hwynt; ac a ddywedodd wrthynt hefyd, y caent weled yr olwg honno drachefn yn eu ffordd, i'w cysur.

GWELED CRIST CROESHOELIEDIG O BELL.

Felly efe a'u gadawodd hwynt dros ennyd mewn haf-dŷ ag oedd i waered yno, lle y dechreuasant ymddiddan â'u gilydd; ac fel hyn y dechreuodd Cristiana; O Arglwydd! pa mor llawen wyf fi, ein bod ni wedi ein derbyn i mewn yma.

YMDDIDDAN RHWNG Y CRISTIONOGION.

TRUG. Felly gellwch chwi; ond yn enwedig y mae gennyf fi achos i lammu o lawenydd.

CRIS. Mi a dybiais unwaith, pan yr oeddwn yn sefyll wrth y porth, (oherwydd i mi guro ac heb neb yn atteb,) fod ein holl boen ni wedi ei golli, yn enwedig pan oedd y cî diffaith hwnnw yn cyfarth arnom.

TRUG. Ond fy ofn mwyaf i oedd, pan welais chwi wedi eich derbyn i'w nawdd ef, a minnau wedi fy ngadael yn ol. Yn awr, meddwn i, y cyflawnwyd yr hyn a ysgrifenwyd, "Dwy a fydd yn malu mewn melin, y naill a gymmerir a'r llall a adewir." Mat. xxiv. 41. Cefais waith ymattal rhag llefain allan, 'Colledigaeth, Colledigaeth.' Ac yr oedd arnaf ofn curo ychwaneg; nes edrychais ar yr hyn oedd ysgrifenedig uwch ben y porth, ac yna cymmerais galondid: a thybiais fod yn rhaid i mi naill ai curo drachefn, neu farw: felly mi a gurais, ond nis gwn i pa fodd; oblegid yr oedd fy yspryd y pryd hynny yn ymdrechu rhwng bywyd a marwolaeth.

CRIS Oni's gwyddoch chwi pa fodd y curasoch? Mi a'ch attebaf, fod eich ergydion mor ddwys, ag y parodd eu hadsain i mi gyffro; tybiais na chlywais i erioed y fath yn fy mywyd; mi a dybiais y deuech chwi i mewn trwy drais, neu y cymmerwch chwi y deyrnas trwy orthrech. Mat. xi. 12.

CRISTIANA YN MEDDWL FOD GWEDDI EI CHYDYMAITH YN RHAGORI.

TRUG. Och! pwy na's gwnai felly, a fyddai yn fy nghyflwr i? Chwi a welsoch y drws wedi ei gau yn fy erbyn, a bod cî tra chreulon oddi amgylch yno. Pwy meddaf, a fyddai mor wan-galon a myfi, na churent â'u holl egni? Ond attolwg, beth a ddywedodd fy Arglwydd am fy ngwaith trwsgwl? Onid oedd ef yn ddig?

CRIS. Pan glybu efe eich swn afiaethus chwi, efe a chwarddodd yn ddiniweid ryfedd: fel yr wyf fi yn credu yn ddilys, ei fod ef yn dra boddlon i'r hyn a wnaethoch; canys ni ddangosodd efe un arwydd i'r gwrthwyneb. Ond yr wyf fi yn rhyfeddu yn fy nghalon, paham y mae ef yn cadw'r

CRIST YN FODDLON I WEDDI DAER.

PE GWYDDAI YR ENAID AR Y CYNTAF BETH A'I CYFERFYDD AR EI DAITH I'R NEF, PRIN Y CYCHWYNAI.

* Gwelwn yma effaith argyhoeddiad dwfn am bechod. Da yw bod yn daer ac yn brudd yn ein hymbiliau. Os yw ein Harglwydd megis yn oedi ei ddyfodiad, na ddigalonwn, mae yr addewid yn sicr, ac am hynny nac ofnwn fod yn hyderus wrth ddyfod at orsedd gras. Ar yr un pryd byddwn yn isel-fryd, ac yn barchus ein gwedd, pan y nesawn ger bron yr Arglwydd.

fath gî; pe gwybuaswn i hynny o'r blaen, yr wyf yn ofni na buasai gennyf fi ddigon o galon i fentro fel y gwnaethum. Ond yn awr yr ydym i mewn, ac yr wyf yn llawen o'm calon.

TRUG. Os gwelwch chwi fod yn dda, mi a ofynaf iddo, pan ddelo yma nesaf, paham y mae ef yn cadw'r fath gî yn ei rodfa? Gobeithio na bydd ef yn anfoddlon i mi.

MAE AR Y PLANT OFN Y CÎ.

Gwnewch felly, ebe'r bechgyn, a pherswadiwch ef i'w grogi ef, oblegid y mae arnom ni ofn iddo ein cnoi ni wrth fyned ymaith.

Ac o'r diwedd efe a ddaeth i waered attynt eilwaith, a Thrugaredd a syrthiodd i lawr ar ei hwyneb ger ei fron ef, ac a addolodd, ac a ddywedodd, Bydded cymmeradwy gan fy Arglwydd aberth o fawl, yr hwn a offrymaf iddo gyda lloi fy ngwefusau. Jer. xii. 1, 2.

Yntef a ddywedodd wrthi, 'Tangnefedd i ti, saf ar dy draed.'

TRUGAREDD YN ACHWYN YN ERBYN Y CÎ.

Eithr hi a barhaodd ar ei hwyneb, ac a ddywedodd, "Cyfiawn wyt ti, O Arglwydd, pan ddadleuwyf, etto ymrysonaf â thi am dy farnedigaethau:" paham yr wyt ti yn cadw y fath gî creulon ar dy dalwrn? yr olwg arno a ddichon beri i'r fath wragedd a phlant ag ydym ni, ffoi oddiwrth y porth rhag ofn.

Y DIAFOL.

Yntef a attebodd, gan ddywedyd, 'Mai eiddo arall yw y cî yna, cedwir ef yn ddiogel ar dir un arall, yn unig fy mhererinion a glywant ei gyfarthiad ef; y mae ef yn perthyn i'r castell a welwch chwi accw draw, ond fe ddichon ddyfod i fynu at furiau'r lle hwn. Fe frawychodd lawer pererin gonest o waeth i well, trwy fawr sŵn ei ruad ef. Yn wir, nid yw ei berchen ef yn ei gadw o ddim ewyllys da attaf fi na'm heiddo, ond ar amcan i gadw'r pererinion rhag dyfod attaf fi, ac fel yr ofnont guro wrth y porth hwn am dderbyniad. Torrodd allan hefyd weithiau, a drygodd rai ag oeddwn i yn garu; ond yr wyf fi yn cymmeryd pob peth yn bresennol yn amyneddgar. Yr wyf fi hefyd yn rhoddi help wrth raid i'm heiddo, fel na rodder hwynt yn ei allu ef, i wneuthur iddynt yr hyn y cynhyrfai ei natur giaidd ef iddo. Ond beth! fy mhridwerth, gobeithio, pe buasit yn gwybod cymmaint yn mlaen llaw, na buasai arnat ofn cî. Y mae'r tlodion ag sydd yn

ATTALIAD I OFNAU CNAWDOL Y PERERINION.

myned o ddrws i ddrws, yn hytrach nag y collont eu helusen, yn rhedeg i berygl chwyrniad, cyfarthiad, a chnoad cî hefyd: ac a gaiff cî ar dalwrn un arall, a chyfarthiad y cyfryw gî ag ydwyf fi yn droi er lles i'r pererinion, gadw neb rhag dyfod attaf fi? "Gwaredaf hwynt rhag y llewod, a'm hanwylyd o feddiant y cî." Psal. xxii. 20, 21.

CRISTIONOGION PAN YN DDIGON DOETH, YN YMOSTWNG I DDOETHINEB EU HARGLWYDD.

Yna ebe Trugaredd, Yr ydwyf yn cyffesu fy anwybodaeth: llefarais yr hyn ni ddeallais; yr ydwyf yn cydnabod dy fod yn gwneud pob peth yn dda.

Yna y dechreuodd Cristiana chwedleua am ei thaith, ac ymofyn ynghylch y ffordd. Felly efe a'u porthodd hwynt, ac a olchodd eu traed, ac a'u gosododd hwy yn ei lwybrau ei hun, fel y gwnaethai ef â'i gwr hi o'r blaen. Felly mi a welwn yn fy mreuddwyd, eu myned yn mlaen yn eu ffordd, a chawsant yr hîn yn dra dymunol.

A Christiana a ganodd fel hyn :—

‘Bendigaid, yr wy’n addeu,
Fo’r dydd, a’r gwr, a’i bethau,
A’m troes i yn bererin gwael,
Ein Duw sydd hael o ddoniau.

Mi fuo’n dra hir heb ddechrau
Ymadael â’m pechodau :
Gwell yw hwyr na hwyrach, clyw,
I ddyfod at Dduw a’i lwybrau.

Ein dagrau a’n hofnau aethlyd
A droed i ffydd lawen-fryd ;
Fe ddengys hyn beth sydd yn ol
I’r duwiol ddeddfol fywyd.’

GARDD Y DIAFOL.

Yr oedd o’r tu arall i’r mur, ag oedd yn cau i mewn y ffordd yr oedd Cristiana a’i chwmpeini yn myned, ardd, ac yr oedd honno yn perthyn i’r hwn a biodd y cî oedd yn cyfarth, am yr hwn y crybwyllais i o’r blaen. Ac yr oedd rhai o ganghenau’r coed ffrwythydd oedd yn tyfu yn yr ardd yn lledu tros y mur; a chan eu bod yn dyner, y rhai a’u cawsant, a’u casglasant, ac a’u bwyttasant i’w niweid eu hun. Felly bechgyn Cristiana, fel y mae bechgyn yn dueddol i wneuthur, gan eu bod yn foddlon i’r coed a’u ffrwythydd, a ddechreuasant eu cipio a’u bwytta.[b] Ond eu mam a’u ceryddodd hwy am hynny, eithr y bechgyn ni pheidient. Ah, fy meibion, ebe hi, yr ydych chwi yn troseddu, canys nid ein heiddo ni yw’r ffrwyth yna; ond ni wyddai hi mai eiddo’r gelyn oeddynt: mi a warantaf i chwi, pe gwybuasai hi hynny, hi fuasai yn barod i farw rhag ofn. Ond hynny a ddarfu, a hwy a aethant i’w ffordd.

Ond erbyn eu myned ynghylch dau ergyd bwa o’r fan y daethant i’r ffordd, canfyddent ddau hagr iawn yn dyfod yn brysur i waered i’w cyfarfod hwynt.[c] Ac ar hynny Cristiana a Thrugaredd a’u gorchuddiasant eu hunain â’u llen-gudd, ac felly yr aethant yn mlaen : a’r plant hefyd a aethant o’r blaen; ac o’r diwedd hwy a ymgyfarfuant.

DAU HAGR YN YMOSOD AR GRISTIANA A THRUGAREDD.

Ac felly hwy a ddaethant yn gymmwys at y gwragedd, fel pe buasent am eu cofleidio; eithr ebe Cristiana, Sefwch yn ol, neu ewch ymaith yn heddychol fel y dylech. Eithr y ddau hyn, fel byddariaid, ni wnaethant gyfrif o’i geiriau hi, ond a ddechreuasant osod dwylaw arnynt hwy; ac ar hynny Cristiana a ddigiodd yn greulon, gan wingo â’i thraed yn eu herbyn. A Thrugaredd hefyd a wnaeth a allodd i’w gyrru

[b] Beth yw’r ardd ond y byd? A pha fath yw y ffrwyth a geir ynddo? Chwant y cnawd, chwant y llygad, a balchder y bywyd. 1 Ioan ii. 16. Gochelwn y fath ffrwyth gwaharddedig, cymmerwn ofal rhag ein twyllo gan swyniadau y byd.

[c] Gallwn feddwl mai rhyw drachwantau ffiaidd oedd y ddau ddrygddyn hyn, y rhai a fynnent anrheithio y pererinion o bob rhinwedd ac o bob daioni.

hwy ymaith. Ebe Cristiana drachefn wrthynt, Ewch ymaith, canys nid oes gennym ni ddim arian i'w colli, gan mai pererinion ydym ni, fel y gwelwch chwi, a'r fath hefyd ag sy'n byw ar gariad ein cyfeillion.

Y RHAI HAGR. Yna ebe un o'r ddau wr, Nid ydym ni yn ymosod arnoch er mwyn arian, ond ni a ddaethom i fynegi i chwi, y cymmerwn ni chwi yn wragedd i ni tros fyth, os gwnewch chwi ond caniattâu un arch bychan a geisiom gennych.

CRIS. A Christiana a ddychymygodd beth a allent feddwl, ac a'u hattebodd fel hyn: Ni wnawn ni na gwrando nac ystyried, na chaniattâu yr hyn a ofynoch; canys y mae brys arnom, ac ni's gallwn ni aros, y mae'n hachos yn achos bywyd a marwolaeth. Felly hi a'i chyfeilles a amcanasant fyned heibio iddynt eilwaith; eithr hwy a'u hattaliasant yn eu ffordd.

Y RHAI HAGR. Eithr ebe hwy, Nid ydym ni yn bwriadu dim yn erbyn eich bywyd, peth arall a fynnem ni.

CRIS. Ië, ebe Cristiana, chwi a'n mynnech ni gyrph ac eneidiau, canys mi a wn mai i hynny y daethoch; eithr ni a fyddwn feirw yn hytrach yn y fan hon, nag y goddefom ein dwyn i'r cyfryw faglau a fyddo peryglus i'n dedwyddwch ar ol hyn. A chyda hynny

MAENT YN CROCH-WAEDDI.

a groch-waeddasant eill dwy, ac a lefasant, 'Llofruddiaeth, Llofruddiaeth.' A thrwy hynny hwy a'u gosodasant eu hunain tan y cyfreithiau a barottowyd er diogelwch i wragedd. Deut. xvii. 23, 26, 27. Ond y gwŷr hyn a nesasant yn ddibaid attynt, mewn amcan i'w gorchfygu. Hwythau a waeddasant drachefn.[d]

Ond nid oeddynt, fel y dywedais i, yn neppell oddi wrth y porth, a chan hynny clybuwyd hwy oddi yno: a daeth rhai allan o'r tŷ, wedi adnabod llais Cristiana, gan

DA LLEFAIN MEWN PERYGL.

frysio i'w chynnorthwyo. Ond erbyn eu dyfod o fewn golwg iddynt, yr oedd y gwragedd mewn ymrafael mawr, a'r plant yn sefyll gerllaw ac yn llefain. Ac yna yr hwn a ddaethai i'w cynnorthwyo, a waeddodd ar yr wttreswyr, gan ddywedyd, Beth yw hyn yr ydych chwi yn wneuthur? A berwch chwi i bobl yr Arglwydd droseddu? Cynnygiodd hefyd eu dala, eithr hwy a ddiangasant dros y mur, i ardd yr hwn a biodd y

Y RHAI HAGR YN DIANGC AT Y DIAFOL AM AMDDIFFYN.

ci mawr; ac felly daeth y ci yn amddiffynwr iddynt. Ac yna'r Cynnorthwywr hwn a ddaeth i fynu at y gwragedd, ac a ofynodd iddynt pa fodd yr oedd oeddynt. Hwythau a'i hattebasant, Yr ydym ni yn iawn-dda, ond yn unig cawsom ychydig o fraw; yr ydym yn ddiolchgar i'th Dywysog, ac i tithau hefyd, am ddyfod i'n helpu, pe amgen, fe'n gorchfygasid.

CYNNORTHWYWR YN YMDDIDDAN Â'R GWRAGEDD.

CYN. Wedi rhyw faint chwaneg o ymddiddan, y Cynnorthwywr a lefarodd fel hyn: Mi a ryfeddais yn fawr, pan gawsoch y fath roesaw

[d] Yma ni a welwn, mai nid pechod yw i ni fod yn ddarostyngedig i'r brofedigaeth fwyaf erchyll, os bydd i ni yn lle ymostwng iddynt, eu gwrthsefyll yn gadarn. Ein Harglwydd a demtiwyd i anghrediniaeth, ac hyd yn oed i hunan-lofruddiaeth ac eilun-addoliaeth, gan ddiafol; eithr efe a wrthsafodd ac a orchfygodd y gelyn hwnnw. Efe a rydd i ni ymwared yn yr awr gyfyng pan y galwom arno.

yn y porth fry, a chwithau yn gwybod nad oeddych ond gwragedd gweinion, na buasech yn deisyf cael cynnorthwywr gan yr Arglwydd: yna chwi a allasech ddiangc rhag y trallodau a'r peryglon yma; canys efe a roisai yn ddilys un i chwi.[e]

CRIS. Och! ebe Cristiana, yr oeddym ni mor gyflawn o fendithion presennol, fel yr oeddym wedi anghofio y drygau a ddeuai yn ol llaw: heblaw hynny, pwy a feddyliasai fod y fath ddiffeithwyr yn llechu mor agos i lys y Brenin! Yn wir, fe fuasai yn dda i ni, pe buasem yn ceisio un gan ein Harglwydd; ond gan y gwyddai efe y buasai yn llesol i ni, y mae yn rhyfedd gennyf fi na's danfonodd ef un gyda ni![f]

CYN. Nid yw yn angenrheidiol caniattâu pethau yn wastad heb eu ceisio, rhag trwy hynny eu dyfod yn ddigyfrif; ond pan deimlir y diffyg o ryw beth, yna y mawrygir ef yn ei gyfwerth yn ngolwg yr anghenog, ac yn ganlynol, felly yr arferir ef yn ol llaw. Pe buasai fy Arglwydd yn caniattâu Cynnorthwywr i chwi, ni buasech yn ymofidio oherwydd eich gwallusdra yn ceisio un, fel y mae yn awr gennych i wneuthur. Felly y mae pob peth yn cyd-weithio er daioni, ac yn tueddu i'ch gwneuthur yn fwy gofalus.[g]

YR YDYM YN COLLI PAN NA OFYNOM.

CRIS. A awn ni yn ol at fy Arglwydd, a chyfaddef ein ffolineb, a cheisio un?

CYN. Y gyffes o'ch ynfydrwydd mi a'i dygaf iddo: myned yn ol, nid rhaid i chwi; canys ni chewch weled dim diffyg yn un lle ag y deloch; oblegid mae yn holl deiau lletty fy Arglwydd, y rhai a barottodd efe i roesawi y pererinion, ddigonedd i'w harfogi gyferbyn a phob ymosodiad. Ond fel y dywedais, myn ef iddynt ymofyn âg ef, am wneuthur hyn iddynt. Tlawd yw'r peth na thâl ei geisio. Wedi iddo ddywedyd hyn, efe a ddychwelodd i'w le, a'r pererinion a aethant i'w ffordd.

TRUG. Yna ebe Trugaredd, Pa gyffro yw hyn! Mi a dybiais ein bod wedi myned heibio pob perygl, ac na chyfarfyddem â gofid yn mhellach.

CAMSYNIAID TRUGAREDD.

CRIS. Tydi wyt mor ieuangc, fy chwaer, fe ddichon dy esgusodi; ond y mae fy mai i yn fwy, yn gymmaint ag i mi weled y perygl hwn cyn fy myned allan o'r drws, ac ni pharottoais gyferbyn âg ef pan y gallaswn; o ba herwydd, yr wyf fi yn feius.[h]

EUOGRWYDD CRISTIANA.

TRUG. Ebe Trugaredd, pa fodd y gwyddech chwi hyn cyn eich dyfod oddi cartref? Attolwg agorwch i mi y dychymyg hwn.

[e] Dysgwn weddïo am gyfarwyddyd a nerth yn mlaen llaw, rhag i ni fod yn amddifad pan ddelo cyfyngder arnom.

[f] Y mae y credadyn yn ei gariad cyntaf mor llawn o serch a hyder, nad yw efe am ddarparu erbyn amser profedigaeth; ac y mae perygl dywedyd llawer wrtho ynghylch y cyfryw bethau, rhag iddo ddigaloni; eithr da yw i ni fod yn wyliadwrus, ac mewn yspryd gweddi.

[g] Mor gariadus y máe ein Harglwydd yn ymddwyn tuag attom, yn oed yn ei geryddon. Mae llawer o addysg ac hyfforddiad yn angenrheidiol i Gristion ieuangc.

[h] Dyma ymddygiad gweddaidd a gostyngedig—y mae Cristiana yn cymmeryd y bai arni hi ei hun. Y ddwy Bererin hyn ni syrthiasant i bechod; ond o ddiffyg darparu a chael cyfarwyddyd mewn pryd, hi aeth yn gyfyng arnynt.

CRIS. Mi a ddywedaf i chwi: cyn im' osod troed allan o'r drws, ar noswaith, pan oeddwn yn fy ngwely, mi a freuddwydiais ynghylch hyn; tybiais fy mod yn gweled dau

CRISTIANA YN CAEL YR UN BREUDDWYD DRACHEFN.

ddyn, gyffelyb i'r rhai hyn o neb yn y byd, yn sefyll wrth draed fy ngwely, yn cynllwyn pa fodd y rhagflaenent fy iachawdwriaeth. Meddent hwy, (pan oeddwn i yn fy ngofid oedd hyn,) Pa beth a wnawn ni â'r wraig hon? Canys y mae hi yn llefain am drugaredd yn nghwsg ac yn effro: os dioddefir iddi hi fyned yn mlaen fel y mae hi wedi dechreu, ni a'i collwn hi fel y collasom ei gwr. Hyn, fel y gwyddoch chwi, a allasai beri i mi ymogelyd, a pharottoi pan oedd parottoad i'w gael.

TRUG. Megis y mae'r esgeulusdra hwn yn gweini i ni achos i weled ein hanmherffeithrwydd ein hunain; felly ein Harglwydd a gymmerodd achlysur trwy hyn i amlygu

TRUGAREDD YN IAWN DDEFNYDDIO EU HESGEULUSDRA.

golud ei ras; canys efe a'n canlynodd ni, fel y gwelwn, â charedigrwydd diofynol, ac o'i wir ewyllys da, a'n gwaredodd ni o ddwylaw y sawl oedd drech na ni.[1]

Felly wedi iddynt ddifyrru ychydig o amser yn ychwaneg, hwy a nesasant at dŷ ag oedd yn sefyll ar eu ffordd, yr hwn a adeiladesid er cymmorth i'r pererinion, fel y gellwch weled yn y rhan gyntaf o *Daith y Pererin:* ond pan ddaethant at ddrws y tŷ, (sef tŷ y Deonglwr,) hwy a glywent ymsiarad mawr yn y tŷ; a chan glustfeinio hwy a dybient

SIARAD YN NHY Y DEONGLWR AM FYNEDIAD CRISTIANA AR BERERINDOD.

eu bod yn clywed sôn am Gristiana wrth ei henw. Canys rhaid i chwi wybod fod y sŵn am ei mynediad hi a'i phlant ar bererindod wedi myned o'i blaen hi. Ac yr oedd hyn yn fwy hyfryd ganddynt, o achos iddynt glywed mai gwraig Cristion ydoedd hi; sef y wraig honno ag oedd gynt mor wrthwyneb i glywed am fyned ar bererindod. Ac felly hwy a safasant yn llonydd, gan wrando ar y bobl dda oddi

MAE YN CURO'R DRWS.

fewn yn ei chanmol, yr hon ni's meddyliasant ei bod yn sefyll wrth y drws. O'r diwedd Cristiana a gurodd, fel y gwnaethai hi wrth y porth o'r blaen. Ac

DINIWEID YN AGOR Y DRWS.

wedi iddi guro, daeth llangces ieuangc, a elwid Diniweid, i'r drws: ac wedi iddi ei agor, hi a ganfyddai ddwy wraig yno.

LLANGCES. Yna ebe hi wrthynt, A phwy yr ewyllysiwch chwi chwedleua yn y lle hwn?

CRIS. Cristiana a'i hattebodd, Yr ydym yn deall mai lle breiniol yw hwn i bererinion, ac yr ydym ninnau yn gyfryw rai: oherwydd hynny ni a ddeisyfwn gael bod yn gyfrannog o'r hyn y daethom yma am dano; canys y mae'r dydd wedi myned yn mhell, ac yn anhawdd gennym fyned yn mhellach heno.

LLANGCES. Attolwg beth yw eich enw chwi, fel y gallwyf ddywedyd wrth fy Arglwydd oddi fewn?

CRIS. Fy enw i yw Cristiana; gwraig i'r pererin hwnnw a aethai er's rhai blynydd-

[1] Hyfryd yw bod yn ddiolchgar am ryfeddol ddaioni Duw tuag attom, a chydnabod ein gwendid a'n gwaelder ein hunain; ac y mae hyn yn werthfawr ac yn brydferth yngolwg Duw, ein cynnaliwr haelionus.

oedd y ffordd hon, a thyma ei bedwar mab ef. Y forwynig hon yw fy nghyfeilles, ac y mae hithau yn myned ar bererindod hefyd.

LLANGCES. Yna y rhedodd Diniweid i mewn, (canys felly y gelwid hi,) ac a hyspysodd i'r rhai oedd oddi fewn, fod Cristiana, a'i phlant, a'i chyfeilles, yn disgwyl oll am dderbyniad. Yna y llammasant o lawenydd, ac a aethant i'w fynegi i'w Meistr. Yntef a ddaeth i'r drws, a chan edrych arni, efe a ddywedodd, 'Ai tydi yw Cristiana, yr hon a adawodd Cristion, y gwr da hwnnw, o'i ol, pan aeth yn bererin?'

LLAWENYDD YN NHY Y DEONGLWR AM FOD CRISTIANA WEDI TROI YN BERERIN.

CRIS. Myfi yw'r wraig honno a fu mor galon-galed a diystyru trallodau fy ngwr, ac a'i gadewais ef i fyned ar ei daith wrtho ei hun, a dyma ei bedwar mab ef; ond yn awr minnau a ddaethum hefyd, canys profais nad oes ffordd uniawn ond hon.[k]

DEONG. Yna y cyflawnwyd yr hyn a ddywedodd y tad wrth ei fab, "Dos, gweithia heddyw yn fy ngwinllan: yntef a ddywedodd wrth ei dad, Nid af; ac wedi hynny a edifarhaodd, ac a aeth." Mat. xxi. 29.

Yna ebe Cristiana, Amen, boed felly y b'o. Duw a wirio yr ymadrodd hwnnw ynof fi, ac a ganiattao i'm cael i ynddo ef yn y diwedd mewn tangnefedd, yn ddifeius ac yn ddifrycheulyd!

DEONG. Ond paham yr wyt yn sefyll fel hyn wrth y drws? Tyred i mewn, ti ferch Abraham: yr oeddym ni yn siarad gynne am danat ti, canys daethai'r chwedl i ni o'th flaen, y modd y daethost yn bererin. Deuwch blant, deuwch i mewn; tyred forwynig, tyred: felly efe a'u cafodd hwy oll i'r tŷ.

Ac wedi eu dyfod i mewn, parwyd iddynt eistedd i lawr, a gorphwys: yna y daeth y rhai oedd yn gweini i'r pererinion yn y tŷ, i'r ystafell i'w gweled hwynt. Ac un a wenodd, a'r llall a wenodd, o lawenydd fod Cristiana wedi dyfod yn bererin: edrychasant hefyd ar y bechgyn; a thynnasant eu dwylaw dros eu hwynebau, yn arwydd o'u caredigol dderbyniad: ymddygasant hefyd yn fwynaidd tuag at Drugaredd, gan ddywedyd fod iddynt oll roesaw i dŷ eu Meistr.[l]

HEN SEINTIAU YN LLAWENHAU GWELED YR IEUAINC YN RHODIO YN FFYRDD DUW.

Am ben ennyd, gan nad oedd swpper yn barod, y Lladmerydd a'u dygodd hwynt i'w Ystafelloedd Arwyddoccaol, ac a ddangosodd iddynt yr hyn a welsai Cristion o'r blaen. Yma gan hynny y gwelsant y gwr yn y cyffion, y gwr a'i

YSTAFELLOEDD ARWYDDOCCAOL.

[k] Dyma gyfaddefiad syml a gonest, effaith gras Duw ar y galon. Er fod Paul wedi ei dderchafu mor uchel gan ei Arglwydd, y mae yn cyfrif ei hunan yn bennaf o bechaduriaid, am iddo erlid eglwys Crist. Felly Cristiana sydd yn ffieiddio ei hunan, oherwydd iddi gynt fod yn euog o erlid ei gwr, a naccâu rhoi clust i'w gynghorion duwiol ef.

[l] Dyma'r llawenydd sydd yn nheml Dduw wrth weled cynnydd yr eglwys a throëdigaeth pechaduriaid; ïe, dyma lawenydd seintiau ac angylion yn ardaloedd gwynfyd. O! y cariad a ddylai fod ynom at yr eneidiau a brynwyd â gwerthfawr waed Crist! ac mor hyfryd gennym weled un pechadur yn cael ei ddwyn at Dduw trwy edifeirwch a ffydd.

freuddwyd, y gwr a dorrodd ei ffordd trwy ei elynion, a llun yr hwn sydd fwy na phawb, ynghyd â phethau eraill a fu mor fuddiol i Gristion.

Ar ol i Gristiana a'i chwmpeini amgyffred y pethau hyn, y Deonglwr a'u cymmerodd hwy o'r neilldu, ac a'u dug hwy yn gyntaf i ystafell, lle yr oedd gwr na's gallai edrych

EGLURO Y DYN A'R RESSEL-DOM.

un ffordd ond i lawr, a chanddo racca (neu ressel-dom) yn ei law: safai gwr hefyd wrth ei ben ef â choron nefol yn ei law, ac yn cynnyg y goron honno iddo am ei racca; eithr nid oedd y gwr yn edrych i fynu, nac yn ystyried, ond yn rhaccanu iddo ei hun y gwellt, y briwydd, a mân lwch y llawr.

Yna ebe Cristiana, Yr wyf yn tebygu yn hollol y gwn i ryw beth o ystyr hyn: canys dull yw hwn o ddynion y byd hwn: onidê, Syr?

DEONG. Ti a ddywedaist yn union, ebe fe, ei ressel ef sydd yn dangos ei feddwl cnawdol. A lle y gweli ef yn gofalu am gasglu gwellt a briwydd, a llwch y llawr, yn hytrach na'r hyn y mae yr hwn sydd a'r goron nefol yn ei law, yn ei ddywedyd oddi uchod wrtho; y mae hyn yn amlygu nad yw'r nefoedd ond fel chwedl gan rai, a'r pethau yma a gyfrifir yr unig bethau sylweddol. A'r lle y dangoswyd i ti, na's gallai y gwr edrych un ffordd ond i lawr; y mae i ddangos i ti, fod pethau daearol, pan gaffont eu grym ar feddyliau dynion, yn llwyr ddwyn ymaith eu calonau oddiwrth Dduw.

GWEDDI CRISTIANA RHAG Y RHESSEL-DOM.

CRIS. Yna ebe Cristiana, Duw a'm gwaredo i rhag y rhessel-dom hwn.

DEONG. Y mae'r weddi hon wedi ei gosod heibio, nes ydyw hi yn mron rhydu; prin y gweddïa un o ddeng mil, "Na ddyro i mi gyfoeth." Gwellt a briwydd, a llwch y ddaear, yw'r prif bethau a edrychir ar eu hol yn awr gyda'r rhan fwyaf.

A chyda hynny Trugaredd a Christiana a wylasant, gan ddywedyd, Och! y mae yn rhy wir.[m]

Wedi i'r Deonglwr ddangos y pethau hyn iddynt, aeth a hwynt i'r ystafell oreu yn y tŷ; (a lle gwych iawn oedd efe) a pharodd iddynt edrych oddi amgylch, ac yspïo a welent hwy ddim buddiol yno. Yna hwy a edrychasant oddi amgylch ogylch; oblegid nid oedd

Y PRYF COPPYN.

yno ddim i'w weled ond pryf-coppyn: ac edrychasant ar hwnnw.

TRUG. Yna ebe Trugaredd, Ni welaf fi ddim, Syr: eithr Cristiana a dawodd a sôn.

DEONG. Ond edrychwch etto: hithau a edrychodd eilwaith, ac a ddywedodd, Nid

YMDDIDDAN A MY PRYF-COPPYN.

oes yma ddim ond corryn brwnt, yn crogi erbyn ei ddwylaw ar y pared. Yna ebe fe, A oes ond un pryf yn yr holl le helaeth hwn? Yna y dwfr a safodd yn llygaid Cristiana, oblegid yr oedd hi yn wraig o ddeall cyflym: a hi a ddywedodd, Oes, Arglwydd, yma ychwaneg nag un; ïe, a phryfed ag y mae eu gwenwyn yn llawer mwy

[m] Ddarllenydd, oni ddarfu i ti erioed, gyda'r pererinion hyn, dywallt dagrau o dristwch duwiol, oherwydd dy gam-ymddygiad ffiaidd tuag at dy Arglwydd, yn dy waith yn dibrisio y golud tragywyddol a iachawdwriaeth dy enaid, gan serchu pethau darfodedig y byd, y rhai nid ydynt ond gwellt a sofl, a'u cydmaru â'r goron anfarwol sydd uwch dy ben?

dinystriol nag eiddo yr un yna. Yna yr edrychodd y Deonglwr yn siriol arni, ac a ddywedodd, Ti a lefaraist y gwir. Gwnaeth hyn i Drugaredd wridio, ac i'r bechgyn guddio eu hwynebau, oblegid yr oeddynt oll erbyn hyn yn dechreu deall y dychymmyg.

Yna y dywedodd y Deonglwr drachefn, "Y pryf-coppyn a ymeifl â'i ddwylaw, (fel y gwelwch,) ac y mae yn llys y brenin." A phaham yr ysgrifenwyd hyn, ond i ddangos i chwi, mai pa lawned bynnag o wenwyn pechod y byddoch, er hynny gellwch ymaflyd â llaw ffydd, a thrigo yn ystafelloedd goreu y Brenin uchod.

CRIS. Mi feddyliais ryw beth o hyn, ebe Cristiana; ond ni ddeallais i y cwbl. Meddyliais ein bod ni yn gyffelyb i'r fath bryfed, a'n bod yn edrych fel rhyw greaduriaid hagr, pa le bynnag y byddom; ond wrth y pryf-coppyn, y creadur hagr gwenwynig hwn, yr addysgir ni pa fodd i weithredu ffydd, y mae yn gweithio â dwylaw, ac fel y gwelaf, y mae yn trigo yn yr ystafell oreu yn y tŷ. Ni wnaeth Duw ddim yn ofer.[o]

Erbyn hyn yr oeddynt oll yn ymddangos yn llawen; ond yr oedd y dwfr yn sefyll yn eu llygaid: ond er hynny hwy a edrychasant ar eu gilydd, ac a ymgrymasant ger bron y Deonglwr.

Ac wedi hynny aeth a hwynt i ystafell arall, lle yr oedd iâr a chywion, ac a barodd iddynt ddal sylw ar y rhai hynny dros ennyd. Ac wele aeth un o'r cywion i'r cafn i yfed, a phob gwaith yr yfai, efe a godai ei ben, â'i lygaid tua'r nef. Gwelwch, ebe fe, beth mae y cyw bach hwn yn ei wneuthur, a dysgwch ganddo gydnabod o ba le y mae eich trugareddau yn dyfod, gan edrych tuag i fynu wrth ei derbyn. Edrychwch, a deliwch sylw etto, ebe fe; ac felly y gwnaethant, a deallasant fod gan y iâr bedwar math o ymddygiad tu ag at ei chywion. 1. Yr oedd ganddi *alwad gyffredin*, yr hwn fyddai ganddi trwy'r dydd. 2. Yr oedd ganddi *alwad neillduol*, a hwn ni fyddai ganddi ond rhai gweithiau. 3. Yr oedd ganddi *lais magwriaethol*. Ac 4. Yr oedd ganddi *groch-lef*. Mat. xxiii. 7. YR IÂR A'R CYWION.

Yna ebe fe, Cyffelybwch yr iâr hon i'ch brenin chwi, a'r cywion hyn i'w rai ufudd ef. Canys yn gyfattebol iddi hi, y mae ei ymddygiadau ef tuag at ei bobl: nid yw ef yn rhoddi dim trwy ei alwad gyffredinol; ond y mae ganddo ef yn wastadol ryw beth i'w roddi trwy ei alwad neillduol: y mae ganddo hefyd lais magwriaethol i'r sawl sydd tan ei aden; ac mae ganddo groch-waedd, i roddi alarwm (o rybudd) pan welo efe'r gelyn yn nesâu.[p] Yr wyf fi yn dewis, fy rhai anwyl, i'ch arwain i'r ystafell y mae'r cyfryw bethau, oherwydd eich bod yn weinion, a'r pethau hyn yn hawdd eu dirnad.

[o] Y mae gwenwyn y pryf-coppyn, a'i ddull hagr, yn bortreiad o gyflwr pechadur trwy naturiaeth, ond trwy ffydd fywiol fe'n dygir ni i mewn i'r 'stafell oreu. Da i ni gael ein harloesi o wenwyn pechod, ac os bydd ein ffydd yn fywiol ac yn weithgar, efe a ddifetha ein llygredd a'n pechod.

[p] Am yr hyn a ddywedir yma ynghylch rhyw alwad gyffredin, lle mae Duw yn galw ac yn rhoddi dim, ni chydsaif â llais yr efengyl; nid yw yn cyssoni â'r athrawiaeth sydd gynnwysedig yn yr ysgrythyrau, nac yn cyd-uno â chywirdeb y Duw sanctaidd a daionus. "O Jerusalem, Jerusalem," medd ein Harglwydd, "pa sawl gwaith y mynnaswn dy gasglu fel iâr ei chywion dan ei hadenydd, ond ni's mynnech." Pryd bo Duw

CRIS Attolwg, Syr, ebe Cristiana, dangoswch i ni ryw bethau yn rhagor; felly efe a aeth a hwynt i'r lladd-dŷ, lle yr oedd cigydd yn lladd dafad: ac wele'r ddafad yn llonydd, ac yn cymmeryd ei marwolaeth yn ddioddefgar. Yna ebe'r Deonglwr, Rhaid i chwi ddysgu dioddef, gan y ddafad hon, a chymmeryd cam heb rwgnach nac achwyn. Gwelwch mor llonydd y mae hi yn cymmeryd ei hangau, ac, heb wrthwynebu, yn goddef tynnu ei chroen dros ei chlustiau. Y mae eich Brenin yn eich galw chwi yn ddefaid iddo. Ezec. xxxiv. 11. Ioan x.

Y CIGYDD A'R DEFAID.

Wedi hynny efe a'u harweiniodd hwynt i'w ardd, lle yr oedd amryw fath o flodau; ac a ddywedodd wrthynt, A welwch chwi y rhai hyn oll? A Christiana a ddywedodd, Gwelwn. Yna y dywedodd ef drachefn, Wele y mae'r blodau yn amrywiol mewn maint, dull, lliw, arogl, a rhinwedd, a rhai yn well na'u gilydd; a lle y gosododd hwynt, yno y maent, yn ddi-ymrafael â'u gilydd.[r]

YR ARDD.

Dug hwynt drachefn i'w faes, yr hwn a hauasai efe â gwenith ac ŷd: a phan edrychasant, yr oedd y tywysenau wedi eu torri ymaith, a'r gwellt yn unig wedi eu gadael; yna efe a ddywedodd, Y tir hwn a deilwyd, ac a hauwyd; ond beth a wnawn ni â'r cynnull? Yna ebe Cristiana, Llosgi peth, a gwneuthur tom o'r llall. Yna ebe'r Deonglwr eilwaith, Ffrwyth, chwi a welwch, yw yr hyn a ddisgwyliwch am dano, ac o eisiau hynny yr ydych yn ei gondemnio ef i'w losgi, a'i sathru dan draed: ymogelwch rhag eich condemnio eich hunain yn hyn.[s]

Y MAES.

Ac wrth ddyfod i mewn o'r maes, canfyddent fronrhuddyn bach, â chorryn mawr yn ei ylfin: yna ebe'r Deonglwr, Gwelwch yma. Felly hwy a edrychasant, a rhyfeddodd Trugaredd; ond Cristiana a ddywedodd, Pa wrthuni yw hyn, fod y fath aderyn bach glân ag yw'r bronrhuddyn, yr hwn sydd yn amgenach na bagad, yn caru cadw math ar gyfeillach â dynion; mi dybiais ei fod yn byw ar friwsion bara, neu'r cyfryw bethau diniweid; yr wyf fi yn anfoddlonach iddo yn awr nag oeddwn.

Y BRONRHUDDYN A'R CORRYN.

Yna y Deonglwr a attebodd, Y bronrhuddyn yma sydd arwydd cymmwys iawn i osod allan rai proffeswyr; canys mewn golwg y maent yn debyg i'r aderyn hwn, yn bert o ran llais, lliw, ac ymddygiad; cymmerant arnynt hefyd fod ganddynt gariad mawr at wir broffeswyr, ac yn chwennych ymgyfeillachu â hwynt yn fwy nac eraill, a bod yn eu cwmpniaeth, fel pe gallent fyw ar friwsion y gwr da. Cymmerant arnynt hefyd mai oherwydd hynny y maent yn cyrchu i dŷau y duwiol, ac at odfeydd gras: ond pan y

yn galw, mae ganddo ef fendithion i gyfranu; canys un didderbyn wyneb yw efe, heb ewyllysio i neb fod yn golledig, ond dyfod o bawb i edifeirwch. Gwrandawn ar lais rhybuddiol ein Harglwydd, fel y byddom i lechu dan ei gysgod ef, yn nydd digofaint.

[r] Dysgwn gymhwyso hyn at eglwys Crist yn y byd presennol. Mae rhai yn rhagori mewn rhinwedd a sancteiddrwydd, ac eraill o ran eu doniau. Lle byddo y doniau helaethaf, y dylai fod y cariad gwresoccaf, defnyddiad o'r cyfan er adeiladaeth gyffredinol.

[s] Gochelwn segurdod ac anffyddlondeb yn yr eglwys, a dilynwn y pethau hynny sy'n meithrin bywyd yn yr enaid, ac yn peri i ni fod yn ffrwythlon mewn gweithredoedd da, er gogoniant i Dduw.

maent o'r neilldu, fel y bronrhuddyn, daliant a llyngcant i fynu gorrynod; gallant newid eu lluniaeth, gan yfed anwiredd a llyngcu pechod fel dwfr.[1]

Ac wedi dyfod i mewn i'r tŷ gan nad oedd swpper etto yn barod, dymunodd Cristiana drachefn ar y Deonglwr, naill ai dywedyd neu ddangos rhyw bethau buddiol eraill iddynt. GWEDDIWCH, A CHWGEWCH ALLAN YR HYN SYDD GUDDIEDIG.

Yna y dechreuodd y Deonglwr, gan ddywedyd, Pa frasaf y byddo'r mochyn, mwyaf y chwennych ef ymdreiglo yn y dom; pa frasaf y byddo'r ŷch, mwyaf chwareugar yr â ef i'r lladdfa; a pha iachaf a mwyaf heinif y byddo dyn, mwyaf tueddol yw ef i bechod.

Y mae chwant mewn benyw i fyned yn hoyw ac yn bert, a pheth dymunol yw ei bod wedi ei haddurno â'r hyn sydd werthfawr yn ngolwg Duw.

Hawsach yw gwylied noswaith neu ddwy, na blwyddyn gyfan; felly y mae yn hawsach i ddyn ddechreu proffesu yn dda, na pharhâu fel y dylai hyd y diwedd.

Pob meistr llong, pan fyddo mewn tymhestl, a fwria trosodd o'i wirfodd y pethau gwaelaf yn ei lestr: ond pwy a deifl ymaith y pethau goreu yn gyntaf? Nid neb, ond y sawl nid ofna Dduw.

Un agen mewn llong a'i sudda; ac un pechod a ddinystria bechadur.

Yr hwn a anghofio ei gyfaill, sydd angharedig tu ag atto; ond yr hwn sydd yn anghofio ei Iachawdwr, sydd annhrugarog iddo ei hun.

Yr hwn sydd yn byw mewn pechod yma, ac yn disgwyl dedwyddwch ar ol hyn, sydd yn debyg i'r hwn a hauo efrau, ac a feddwl lanw ei ysgubor â gwenith neu haidd.

Os myn neb fyw yn dda, cyrched ei ddydd olaf atto, a gwnaed ef yn gydymaith beunyddiol iddo.

Ymhustyng a chyfnewidiad meddyliau sydd yn profi fod pechod yn y byd.

Os yw y byd, yr hwn y mae Duw yn gwneuthur cyn lleied cyfrif o hono, yn cael ei fawrygu mor werthfawr gyda dynion; pa fath yw'r nefoedd, y mae Duw yn ganmol.

Os yw mor anhawdd gennym ymadael â'r bywyd hwn, ag sydd mor llawn o helbul, pa fodd y dylem ddal gafael ar y bywyd a ddaw?

Pawb a ganmolant ddaioni dynion; ond pwy sydd yn gosod allan ddaioni Duw, fel y dylai?

Anfynych yr ydym yn eistedd i lawr i fwytta, nad ydym yn cael ein gwala a'n gweddill. Felly y mae mwy o haeddedigaethau a chyfiawnder yn Iesu Grist, nag a raid i'r holl fyd wrtho.

Ac wedi i'r Deonglwr ddarfod, efe a'u dug hwynt allan i'w ardd drachefn, ac a aeth a hwynt at bren ag oedd wedi cwbl bydru oddi fewn, ac er hynny yr oedd efe yn tyfu, ac â dail arno. 'Beth yw'r ystyr o hyn,' ebe Trugaredd? Y pren hwn, PREN PWDR ODDI FEWN.

[1] Ymholed pob crefyddwr ei hun, rhag syrthio o hono i'r rhagrith, a'r twyll hynny yn ei broffes, sydd yn cael ei ddarlunio yma. Beth dâl ymddangosiad cyhoeddus o grefydd, tra na fyddo ein hyspryd a'n hymarweddiad yn harddu yr efengyl.

ebe fe, ag sydd dêg oddi allan, a phwdr oddi fewn, sydd gyffelyb i fagad yn ngardd Duw, y rhai sydd yn siarad yn uchel â'u genau dros Dduw, ond ni wnant hwy ddim mewn gwirionedd drosto; y mae eu dail yn dêg, ond nid yw eu calonau yn dda i ddim, ond i fod yn denyn i bob gwreichionen uffernol.[u]

Erbyn hyn yr oedd swpper yn barod, a'r bwrdd wedi ei osod, a phob peth arno; felly MAENT YN SWPPERA. hwy a eisteddasant, ac a fwytasant, wedi i un roddi diolch. A'r Deonglwr a arferai roesawi llettywyr â cherddoriaeth, ar eu prydiau bwyd; felly y cerddorion a chwareuasant. Ac yr oedd yno un hefyd yn canu, a chanddo lais tra pheraidd. A hyn oedd ei gân ef:—

'Yr Arglwydd yw'm cynhaliwr gwiw,
A'm porthwr yw heb ddiffyg;
Ni'm gad mewn eisiau dim sydd dda,
Os mi a'i hofna'n ystig.'

YMDDIDDAN WRTH SWPPER. Wedi darfod y gân a'r gerddoriaeth, y Deonglwr a ofynodd i Gristiana, beth a'i cyffroasai hi ar y cyntaf i ddyfod yn bererin?

Cristiana a'i hattebodd: Yn gyntaf, y golled am fy ngwr a ddaeth i'm meddwl, yr CRISTIANA YN ADRODD EI PHROFIAD. hyn a ofidiodd fy nghalon; ond nid oedd hyn i gyd ond serch naturiol. Ac wedi hyn, daeth trallodau a phererindod fy ngwr i'm meddwl, a'm sarrugrwydd innau tuag atto ef. Ar hynny euogrwydd a ymaflodd yn fy meddwl, ac a'm llusgasai i'r pwll, oni buasai freuddwydio o honof mewn pryd am ddedwyddwch fy ngwr, ynghyd â llythyr a ddanfonasid i mi oddiwrth lywydd y wlad lle y mae ef yn trigo, i'm gwahodd i ddyfod atto. Y breuddwyd, ynghyd â'r llythyr, a weithiodd gymmaint ar fy meddwl, fel y gorfu i mi ddyfod i'r ffordd hon.

DEONG. Eithr a gyfarfuoch chwi â dim rhwystrau cyn eich dyfod allan.

CRIS. Do; cymmydoges i mi, un Mrs. Ofnus, (cares oedd hi i'r hwn a fynnasai berswadio fy ngwr i droi yn ol rhag ofn y llewod,) a'm cyfrifodd yn dra ynfyd, galwodd fy mwriadau i yn ynfyd ac ehud; hi a haerodd gymmaint ag a allodd hi i'm digaloni, trwy fy nghofio â'r adfyd a'r helbulon a gyfarfuasai fy ngwr yn ei ffordd: ond mi aethum dros y rhai hyn i gyd yn dda ddigon. Ond breuddwyd a welais i am ddau ddyn hagr iawn, ag oedd yn dyfeisio pa fodd i'm dwyn i fethu yn fy siwrnai, a'm blinodd i yn fawr; ïe, y mae yn trywanu fyth trwy fy meddyliau, ac yn peri im' ofni pawb a gyfarfyddaf, rhag iddynt fy nghyfarfod er niweid, a'm troi allan o'r ffordd. Ië, mi a ddywedaf wrth fy Arglwydd, er na fynnwn i bawb ei wybod, mai rhwng hyn a'r porth, trwy yr hwn y daethom i'r ffordd hon, yr ymosododd dau arnom, o rai cyffelyb i'r rhai a welais yn fy mreuddwyd, fel y gorfu i ni lefain allan, 'Llofruddiaeth, Llofruddiaeth.'

[u] Gwael iawn yw proffes y cyfryw rai, nad oes ond dail yn ymddangos arnynt, a dim ffrwyth. Maent yn medru siarad yn uchel ac yn ffraeth, ond dedwydd yw y rhai sydd yn gogoneddu Duw yn eu gweithredoedd.

Yna ebe'r Deonglwr, Y mae dy ddechreu yn dda, a'th ddiwedd a gynnydda yn ddirfawr. Felly efe a drodd at Drugaredd, ac a ddywedodd wrthi, Beth a'th gyffrodd di'i ddyfod yma, anwylyd? HOLI TRUGAREDD

TRUG. Yna Trugaredd a wridiodd ac a grynodd, a thawodd a sôn dros ennyd.

DEONG. Yna y dywedodd ef, Nac ofna, cred yn unig, a dywed dy feddwl.

TRUG. Yna hi a ddechreuodd, ac a ddywedodd, Yn wir, Syr, fy niffyg o brofiad sydd yn peri i mi chwennych tewi, a hynny hefyd sydd yn fy llanw âg ofn i fod yn fyr yn y diwedd. Ni allaf fi adrodd gweledigaethau a breuddwydion, fel Cristiana: ac nis gwn i beth yw galaru o achos fy ngwrthodiad o gyngor perthynasau da. EI HATTEBIAD.

DEONG. Beth ynte, fy anwylyd, a'th ennillodd di i wneuthur fel y gwnaethost?

TRUG. Beth, pan oedd fy ffrind yma yn ymdacclu i fyned o'n tref ni, myfi ac un arall a aethom ar ddamwain i'w gweled hi; ac wedi curo wrth y drws ni a aethom i mewn. A chan weled yr hyn oedd hi yn ei wneuthur, ni a ofynasom iddi beth oedd ystyr hynny? Hithau a'n hattebodd, ei bod hi wedi cael danfon am dani i ddyfod at ei gwr: ac yna hi a adroddodd wrthym y modd y gwelsai hi ef yn ei breuddwyd, yn trigo mewn lle godidog, yn mysg anfarwolion, yn gwisgo coron, yn chwareu ar delyn, yn bwytta ac yn yfed ar fwrdd ei Dywysog, ac yn canu mawl iddo am ei ddwyn ef yno, &c. Mi a dybiais, tra yr oedd hi yn adrodd y pethau hyn wrthym, fod fy nghalon yn llosgi ynof. A dywedais yn fy nghalon, Os yw hyn yn wir, mi a adawaf fy nhad a'm mam, a gwlad fy ngenedigaeth, ac a âf, os gallaf, o hyd gyda Christiana.

Felly mi a ofynais iddi yn mhellach am wirionedd y pethau hyn, ac a fyddai hi boddlon i mi ddyfod gyda hi; canys yr oeddwn i yn gweled erbyn hyn, nad oedd tario yn hwy yn ein tref ni heb berygl dinystr. Ond er hynny mi a ddaethum ymaith â chalon drom; nid o ran fy mod yn anewyllysgar i ymadael, ond o achos fod cynnifer o'm perthynasau wedi aros yn ol. Ac yr wyf yn dyfod o lwyr ewyllys fy nghalon, ac a âf, os gallaf, gyda Christiana, at ei gwr a'i Frenin.[w]

DEONG. Y mae dy osodiad allan yn dda, canys ti a goeliaist y gwirionedd; Ruth ydwyt, yr hon, o achos y cariad oedd ganddi at Naomi, ac at yr Arglwydd ei Duw, a adawodd ei thad a'i mam, a gwlad ei genedigaeth, i ddyfod at bobl ni's adwaenai hi o'r blaen. "Yr Arglwydd a wobrwyo dy waith, a llawn wobr a rodder i ti, gan Arglwydd Dduw Israel, tan adenydd yr hwn y daethost i ymddiried." Ruth ii. 11, 12.

Erbyn hyn yr oeddynt wedi darfod swppera, ac yn ymbarottoi i fyned i'w gwelyau: y gwragedd wrthynt eu hunain, a'r bechgyn wrthynt eu MAENT YN YMDDIOSG I FYNED I'R GWELY.

[w] Y mae rhai o yspryd isel, ac mewn cymmaint o ofn rhag myned dros derfyn y gwirionedd yn eu geiriau, fel braidd na chelant yr hyn a wnaeth Duw erddynt. Ond os ydym o lwyr ewyllys calon am fyned ar ol yr Arglwydd, nac ofnwn, mae'r Brenin ar ein hochr, ac efe a'n cyfarwydda ni, ac a'n hamddiffyn ni a ein pererindod.

hunain. A phan oedd Trugaredd yn y gwely, ni allai hi gysgu o lawenydd, oblegid yr oedd ei hamheuon o fethu yn y diwedd yn awr wedi eu symmud yn mhellach oddi wrthi nag **NOS O ORPHWYSFA I DRUGAREDD.** erioed o'r blaen. Felly hi a orweddodd, gan fendithio a moliannu Duw, am ei nawdd tuag atti hi.[y]

Cyfodasant y boreu gyda'r haul, ac a ymbarottoisant i ymadael, eithr y Deonglwr a fynnai iddynt aros dros ennyd; canys ebe fe, y mae yn rhaid i chwi fyned yn drefnus oddi yma. Yna y dywedodd efe wrth y llangces, a agorasai iddynt ar y cyntaf, Dos a **GOLCHFA SANCTEIDDHAD.** hwy i'r ardd, i'r olchfa, a golch hwy yn lân oddiwrth y budreddi a gasglasant hwy yn eu siwrnai. Yna y llangces Diniweid a'u harweiniodd hwynt i'r ardd, âc a'u dug hwynt i'r olchfa; yna hi a ddywedodd wrthynt, fod yn rhaid iddynt ymolchi yno, a bod yn lân, canys felly y mynnai ei Meistr i'r gwragedd ag oedd yn galw wrth ei dŷ ef i wneuthur, wrth fyned ar bererindod. Yna hwy a aethant i mewn, ac a ymolch- **MAENT YN YMOLCHI YNDDI.** asant, hwynt-hwy a'r bechgyn a phawb; a hwy a ddaethant i fynu o'r olchfa, nid yn unig yn beraidd ac yn lân, ond hefyd wedi eu bywioccâu a'u nerthu yn eu cymmalau. Ac wedi eu dyfod i'r tŷ, yr oeddynt yn edrych yn deccach o lawer na phan aethant allan i'r olchfa.[a]

A hwy yn dyfod allan o'r ardd, oddiwrth yr olchfa, y Deonglwr a'u cymmerth, ac a edrychodd arnynt, ac a ddywedodd wrthynt, "Teg fel y lleuad." Can. vi. Yna efe a **EU SELIO.** alwodd am y sêl, â'r hon yr arferid selio y rhai a ymolchent yno. Felly y sêl a ddygpwyd, ac efe a osododd ei nôd arnynt fel yr adnabyddid hwynt yn mha le bynnag y byddent yn ol hyn. Yn awr, y sêl oedd ystyr a swm y pasg a fwyttasai meibion Israel, (Ecs. xiii. 8, 9, 10,) pan ddaethant allan o wlad yr Aipht; a'r nôd a osodwyd rhwng eu llygaid. Y sêl hon a chwanegodd lawer at eu tegwch hwynt, canys yr oedd hi yn harddwch i'w hwynebau. Ychwanegodd hefyd at eu prydferthwch, a gwnaeth eu gwedd yn debyccach i angylion.[b]

Yna y dywedodd y Deonglwr drachefn wrth y forwynig ag oedd yn gweini i'r wraig, **EU DILLADU.** Dos i'r dillad-dŷ, a dwg allan wisgoedd i'r bobl hyn: hithau a aeth, ac a ddygodd allan wisg wen, ac a'i gosododd ar lawr ger ei fron ef; yna efe a orchymynodd iddynt ei dodi am danynt; "yr oedd hi o liain main gwŷn a glân." Pan oedd y

[y] Dyma y diddanwch sydd yn dylifo oddiwrth wir ffydd. Pan gryfhao ein ffydd, y mae yn gyrru ymaith ein hamheuon, yn adfywio ein calonau, ac yn ein gosod ni ar yr hyfryd waith o fendithio a chlodfori Duw. Dylai disgyblion Crist weddïo, "Arglwydd, chwanega ein ffydd ni."

[a] Y mae yn dra angenrheidiol i'r pererinion ymolchi yn fynych yn y dyfroedd bywiol, a chael eu hadferu yn eu nerthoedd ysprydol. Pan fo yr enaid wedi anurddo ei hun, mewn rhyw fesur, dylai weddïo am i Yspryd Duw ei lanhâu oddiwrth bob sorod, canys fe ddylai priodasferch Iesu fod heb frycheuyn na chrychni.

[b] Wrth y sêl mae i ni ddeall seliad yr Yspryd, yn ein cadarnhâu ni yn eiddo i Grist, erbyn dydd y tragywyddol brynedigaeth. Ni ŵyr neb y cysur a'r llawenydd o hyn, ond y sawl sydd yn brofiadol o hono. Y mae yn cryfhâu ein ffydd, yn sefydlu ein gobaith, ac yn gwresogi ein cariad. "Y mae yr Yspryd ei hun yn cyd-dystiolaethu â'n hyspryd ni, ein bod ni yn blant i Dduw." Rhuf viii. 16. Gochelwn dristâu yr Yspryd sanctaidd hwn.

gwragedd w d eu haddurno fel hyn, yr oeddynt fel pe buasent yn arswyd i'w gilydd; canys ni allent weled y gogoniant hwnnw bob un arni ei hun, ag a welent ar eu gilydd.[c]

GWIR OSTYNGEIDDRWYDD. Yn awr gan hynny y dechreuasant gyfrif y naill y llall yn well na hi ei hunan. 'Yr ydych chwi yn deccach na mi,' meddai un; ac, 'Yr ydych chwithau yn harddach na minnau,' meddai y llall. A'r plant a safasant mewn syndod, wrth weled i ba ddull y dygpwyd hwynt.[d]

Yna y galwodd y Deonglwr ar was iddo, un Dewr-galon, ac a barodd iddo gymmeryd ei gleddyf, a'i helm, a'i darian; a chymmer fy merched hyn, ebe fe, ac arwain hwynt i'r tŷ a elwir Prydferth, yn mha le y gorphwysant nesaf. Felly efe a gymmerodd ei arfau, ac a aeth o'u blaen hwynt; a'r Deonglwr a ddywedodd, Duw yn rhwydd. A'r rhai oedd yn perthyn i'r teulu, a'u hanfonasant ymaith, gyda dymuniad o bob rhwyddineb iddynt. Felly hwy a gychwynasant dan ganu :—

'Dyma'r fan bu'n hail orphwysfa,
Gan wel'd a chlywed pethau o'r rheita,
Ag oedd ynghudd er's amryw oesoedd,
Heb eu dirnad gan neb pobloedd.

Y gwr a'i racca-dom, a'r corryn,
Hagar, aflan, brwnt, ysgymun,
A'r iâr a'i chywion, sy'n dangos i ni
Bethau buddiol i'n haddysgu.

Y cigydd gwaedlyd, a'r ardd-lysiau,
A'r maes cnyd-fawr heb ddim ffrwythau;
Ynghyd a'r robin-fron-goch hauwedd,
Ag oedd yn llyngcu'r corryn ffiaidd

Y pren pwdwr, drwg, diddefnydd,
Teg oddi allan, heb ddim ffrwythydd,
Sydd dra thebyg i'r rhagrithiwr,
O broffes deg a chalon bwdwr.

Rho'ent achos i ni o weddi a gwylio,
Ac mewn purdeb bod yn neffro,
Gan ddwyn y groes, ac ofni'r Arglwydd
Hyd ein diwedd, mewn sancteiddrwydd.'

[c] Dyma gyfiawnder y saint, y wisg briodas, wedi ei harddu nid âg amryw liwiau a thlysau, ond â phob grasusau a rhinweddau, sef ffrwythau sancteiddrwydd.

[d] Dyma effaith gwir dduwioldeb, a pha fwyaf fyddo ein cynnydd mewn gras, hynny a ymddengys fwy-fwy trwy wir ostyngeiddrwydd ac iselder yspryd. Diffyg o ras a duwioldeb yw'r gwir achos, fod y fath yspryd uchel mewn rhai crefyddwyr; ond y rhai sydd wedi cyrhaeddyd i radd uchel o dduwioldeb, ni edrychant ar eraill gyda dirmyg a dibrisdod.

Yn awr mi a welwn yn fy mreuddwyd, iddynt fyned rhagddynt, a Dewr-galon a aeth o'u blaen hwynt; a chychwynasant nes eu dyfod i'r fan y syrthiasai baich Cristion oddi ar ei gefn, ac yr ymdreiglodd i fedd. Yma y safasant yn synn, ac y bendithiasant Dduw. Yn awr, ebe Cristiana, y mae yn dyfod i'm meddwl yr hyn a ddywedwyd wrthym yn y porth, sef, y caem bardwn trwy air a gweithred: trwy air, sef trwy yr addewid; a thrwy weithred, sef yn y ffordd y cyrhaeddwyd ef. O barthed yr addewid, mi a wn ryw beth: ond cael pardwn trwy weithred, neu trwy y ffordd yr ennillwyd ef, yr wyf yn tybied y gwyddoch chwi, Mr. Dewr-galon; gan hynny, os gwelwch chwi fod yn dda, gadewch i ni glywed eich ymddiddan yn ei gylch.

ESBONIAD AR YR HYN A DDYWEDASID WRTH Y PORTH, NEU EGLURHAD AR GYFIAWNHAD TRWY GRIST.

DEWR-GALON. Maddeuant trwy y gwaith a wnaed, yw maddeuant wedi ei gyrhaeddyd gan ryw un, tros arall ag sydd mewn diffyg o hono: nid gan yr hwn y maeddeuwyd iddo, ond ebe un arall, 'trwy y ffordd y cefais i ef.' Ac felly, i ddyfod yn nes at y cwestiwn, y pardwn ydych chwi a Thrugaredd, a'r bechgyn yma wedi ei gael, a ennillwyd trwy un arall; sef, trwy y gwr a'ch gollyngodd i mewn trwy'r porth: ac yntef a'i cafodd mewn dwy ffordd. Efe a gyflawnodd gyfiawnder i'ch gorchuddio, ac a dywalltodd ei waed i'ch golchi.

CRIS. Ond os ymedy ef â'i gyfiawnder i ni, pa beth a wna efe iddo ei hun?

DEWR. Y mae ganddo ragor o gyfiawnder nag a raid i ni, nac yntef ei hun wrtho.

CRIS. Attolwg amlygwch hynny.

DEWR. Gwnaf o lwyr-ewyllys fy nghalon; ond yn gyntaf gorfydd i mi ddywedyd, fod yr hwn ag yr ydym ni yn awr ynghylch siarad o'i blegid, yn un heb ei gyffelyb. Y mae ganddo ddwy natur mewn un person, yn eglur i'w dosparthu, yn anmhosibl i'w gwahanu. Ac y mae cyfiawnder perthynasol i bob un o'r naturiaethau hynny, a chyfiawnder pob natur yn hanfodol i'r natur honno: fel y mae cyn hawsed diddymu y natur honno, ag yw gwahanu ei chyfiawnder oddi wrthi. Ni's gwneir ni gan hynny yn gyfranogion o'r cyfiawnderau hyn, fel os bydd iddynt hwy, neu rai o honynt, gael eu gosod arnom, fe'n cyfiawnheir, ac ni a fyddwn byw trwyddynt. Heblaw y rhai hyn, y mae gan y Person hwn gyfiawnder ag sydd yn sefyll yn nghyssylltiad y ddwy natur hyn yn un. Ac nid yw hwn gyfiawnder y Duwdod yn ddosparthol oddiwrth y dyndod; na chyfiawnder y dyndod, yn wahanol oddiwrth y Duwdod; ond cyfiawnder yw efe ag sydd yn sefyll yn undeb y ddwy natur, ac a ellir yn briodol ei alw yn gyfiawnder ag sydd hanfodol i'w fod wedi ei barottoi gan Dduw i fod yn gymmwys i'r swydd gyfryngol, am yr hon yr ymddiriedwyd iddo. Os ymedy â'i gyfiawnder cyntaf, fe ymedy â'i Dduwdod; os ymedy â'i ail gyfiawnder, fe ymedy â phurdeb ei ddyndod; ac os ymedy â'i drydydd gyfiawnder; efe ymedy â'r perffeithrwydd hynny ag sydd yn ei wneuthur yn gymmwys i'r swydd gyfryngol. Y mae ganddo gyfiawnder arall, ag sydd yn sefyll mewn cyflawniad, neu ufudd-dod i ewyllys datguddiedig Duw: a hwnnw y mae efe yn osod am bechaduriaid,

ac â hwnnw y cuddir eu pechodau. O herwydd paham y mae efe yn dywedyd, "megis trwy anufudd-dod un y gwnaethpwyd llawer yn bechaduriaid: felly trwy ufudd-dod un y gwneir llawer yn gyfiawn."[e] Rhuf. v. 19.

CRIS. Eithr a ydyw'r cyfiawnderau eraill o ddim defnydd i ni?

DEWR. Ydynt: er eu bod yn hanfodol i'w naturiaethau a'i swyddau ef, ac yn anghyfranogol i eraill, er hynny trwy eu rhinwedd hwynt y mae y cyfiawnder sydd yn cyfiawnhâu, yn bod yn effeithiol, i'r diben hynny. Cyfiawnder ei Dduwdod sydd yn rhoddi rhinwedd i'w ufudd-dod; a chyfiawnder ei ddyndod sydd yn rhoddi cymhwysdra i'w ufudd-dod i gyfiawnhâu: a'r cyfiawnder sydd yn sefyll yn undeb ei ddwy natur tuag at ei swydd, a rydd awdurdod i'r cyfiawnder hwnnw i wneuthur y gwaith yr ordeiniwyd ef o'i blegid.

Felly y mae gan Grist gyfiawnder, fel y mae efe yn Dduw, nad rhaid iddo wrtho; canys y mae efe yn Dduw hebddo: a chanddo gyfiawnder, fel y mae efe yn ddyn, nad rhaid iddo wrtho i'w wneuthur ef felly, o blegid y mae efe yn berffaith ddyn hebddo: drachefn, dyma gyfiawnder nad oes ar Grist fel Duw-ddyn, ddim o'i eisiau, canys y mae efe yn berffaith hebddo. Dyma gan hynny gyfiawnder nad oes ar Grist, fel Duw, ac fel Duw-ddyn, ddim o'i eisiau; mewn perthynas iddo ei hun, gan hynny fe all ei hepgor: nid oes arno ef eisiau cyfiawnder cyfiawnhaol, ac yna y mae yn ei roi ymaith. Oddi yma y gelwir ef yn "ddawn cyfiawnder." Gan i'r Arglwydd Iesu ei wneuthur ei hun tan y ddeddf, rhaid i'r cyfiawnder hwn gael ei roddi ymaith; canys y mae y ddeddf nid yn unig yn rhwymo y sawl sydd tani, i wneuthur cyfiawnder, ond i arferu cariad. Rhuf. v. 17. O herwydd hynny gorfydd, neu fe ddylai yn ol y ddeddf, i'r hwn sydd ganddo ddwy bais, roddi un i'r sawl sydd heb yr un. Yn wir mae gan ein Harglwydd ddwy bais, un iddo ei hun, ac un i hepgor: gan hynny, mae yn ei rhoddi yn rhad i'r sawl sydd heb yr un. Ac fel hyn, Cristiana a Thrugaredd, a'r lleill o honoch ag sydd yma, y mae eich pardwn yn dyfod trwy waith gwr arall. Eich Arglwydd Crist a weithiodd, ac y mae yn rhoddi ymaith ei waith i'r cardottyn cyntaf a gyfarfyddo.

A thrachefn, mewn perthynas i bardwn trwy weithred, rhaid yw talu rhyw beth yn iawn i Dduw, yn gystal a pheth i'n gorchuddio ni. Pechod a'n rhoddodd ni i fynu i ddyledus felldith cyfraith gyfiawn; oddiwrth y felldith hon, rhaid i ni gael ein cyfiawnhâu mewn ffordd o brynedigaeth, trwy fod gwerth wedi ei dalu dros ein drygau ni; a hyn a wnaed trwy waed eich Harglwydd, yr hwn a ddaeth ac a safodd yn eich lle chwi, ac

[e] Gwaith Crist yn rhoi cyflawn ufudd-dod i bob peth gofynedig ganddo fel Cyfryngwr, ydyw yn ddiau y cyfiawnder a gyfrifir i'r credadyn, lle y dywedir, "y gwnelir ni yn gyfiawnder Duw trwyddo ef." Felly Crist yw "Yr Arglwydd ein cyfiawnder." Pe buasai Duw yn torri y troseddwr ymaith yn ddiymwared, pa le y buasai ei drugaredd? A phe buasai yn maddeu heb dderbyn cymmod, ni fuasai gogoniant ei gyfiawnder, ei wirionedd, a'i sancteiddrwydd, yn cael ei amlygu ger bron yr holl fyd; eithr ni a welwn gyfiawnder, heddwch, trugaredd, a gwirionedd, yn cyfarfod ynghyd yn nhrefn prynedigaeth, trwy y Cyfryngwr Iesu Grist.

a fu farw y farwolaeth dros eich troseddiadau chwi. Fel hyn y'ch prynwyd oddiwrth eich pechodau, trwy ei waed ef, ac y cuddiwyd eich eneidiau halogedig ac afluniaidd â'i gyfiawnder ef. Rhuf. viii. 34. Er mwyn yr hwn y mae Duw yn myned heibio i chwi, ac ni wna i chwi ddim niweid, pan ddel i farnu y byd. Gal. iii. 13.[f]

CRISTIANA YN YMFODDLONI YN Y FFORDD HON O IACHAWDWRIAETH.

CRIS. Gwych yw hyn. Mi a welaf yn awr fod rhyw beth i'w ddysgu trwy ein bod wedi cael pardwn trwy air a gweithred. Trugaredd anwyl, a chwithau fy mhlant, gadewch i ni gymmeryd poen i gadw hyn mewn cof yn ddiwall. Ond Syr, onid hyn a barodd i'r baich syrthio oddi ar ysgwyddau Cristion, ac iddo yntef lammu dair gwaith o lawenydd?

PA FODD Y TORWYD Y CARREION OEDD YN RHWYMO BAICH CRISTION.

DEWR. Ië, y ffydd o hyn a dorrodd y carreion, nad ellid eu torri trwy foddion eraill; ac i roddi prawf iddo o rinwedd hyn, y goddefid iddo ddwyn ei faich at y groes.

CRIS. Mi a feddyliais hynny, canys er fod fy nghalon yn ysgafn ac yn llawen o'r blaen, y mae hi yn awr ddeng-waith mwy ysgafn a llawen. Ac y mae yn ddiogel gennyf, wrth yr hyn a deimlais i, (er na theimlais i ond ychydig etto) pe byddai y dyn mwyaf llwythog yn y byd yma, yn gweled ac yn credu fel yr wyf fi yn awr, fe wnai ei galon yn fwy llawen a hoenus.[g]

PA FODD Y CENHEDLIR ANWYLDEB YN YR ENAID AT GRIST.

DEWR. Y mae nid yn unig ddiddanwch ac esmwythâd o faich yn cael ei ddwyn i n trwy yr olwg a'r ystyriaeth o'r pethau hyn, eithr y mae yn cenhedlu anwyldeb ynom tuag atto trwy hyn: o blegid pwy a all (ag a iawn ystyrio fod pardwn yn dyfod nid yn unig trwy addewid, ond fel hyn) lai na serchu ffordd a moddion ei brynedigaeth, ac felly hefyd y gwr a'i gwnaeth ef drosto.

ACHOS CANU A RHYFEDDU.

CRIS. Gwir; mi a debygwn ei fod yn peri i'm calon waedu ynof, i feddwl iddo ef waedu trosof fi. Oh! tydi Anwylyd: Oh! tydi Fendigedig! Ti haeddit fy nghael i gyd; telaist am danaf ddeng mil o weithiau fwy na'm gwerth! Nid rhyfedd i hyn wneuthur i'r dwfr sefyll yn llygaid fy ngwr, a pheri iddo frysio yn mlaen mor chwimmwth; mae yn ddiogel gennyf y mynnasai efe i mi ddyfod gydag ef; ond, creadur truenus ag oeddwn, mi a'i gadewais i fyned wrtho ei hun. O Drugaredd, na bai'th dad a'th fam yma; ïe, a Mrs. Ofnus hefyd: a dymunwn o lwyr ewyllys fy nghalon fod Madam Anllad yma hefyd. Yn sicr, yn sicr, eu calonau a

[f] Ni a welwn yma fywyd a marwolaeth yr Arglwydd Iesu, yn hanfodol i ddwyn i ben ein hiachawdwriaeth ni. Mae pob un o'r ddau yn wrthddrych ein ffydd ni yn ol yr efengyl. Trwy ei fod ef yn sanctaidd ac yn ddifrycheulyd, yr oedd efe yn gymmwys i gael ei offrymu i fynu, fel Oen difeius, i ddwyn ymaith ein pechodau ni.

[g] Golwg ar Grist croeshoeliedig, a'r meddwl dan arweiniad y goleuni dwyfol, a ddwg yr enaid i wir ryddid a thangnefedd: yr hwn sydd brofiadol o rinwedd gwaed y Cyfryngwr, a fydd byw bellach iddo ef, yr hwn a roddes ei hun dros bechaduriaid, gan farw yn eu lle. Mae ganddo lawenydd tu hwnt i amgyffred y meddwl cnawdol, ac er cael gwawd a senn oddiwrth blant y byd, ni allant ddwyn ei lawenydd oddi wrtho.

gyffroai; ac ni allai ofnau y naill, na thrachwantau grymus y llall, eu hennill i fyned adref drachefn, ac ymwrthod a dyfod yn bererinion da.[h]

DEWR. Yr ydych chwi yn awr yn siarad yngwresogrwydd eich cariad: a ydych chwi yn tybied y bydd hi fel hyn gyda chwi bob amser? Heblaw hynny, ni chyfranir dim o hyn i bawb, nac i bob un a welodd yr Iesu yn gwaedu. Yr oedd rhai yn sefyll gerllaw, ac yn gweled y gwaed yn rhedeg o'i galon ef i'r llawr; ac etto cyn belled oddiwrth hyn, fel, yn lle galaru, hwy a chwarddent am ei ben ef; ac, yn lle dyfod yn ddisgyblion iddo, hwy a galedent eu calonau yn ei erbyn ef. Felly y mae yr hyn oll sydd gennych chwi, fy merched, trwy argraffiad neillduol a wnaethpwyd trwy ddwyfol fyfyrdod ar y pethau a lefarais i wrthych. Cofiwch yr hyn a ddywedwyd wrthych, nad yw'r iâr trwy ei galwad gyffredin, yn rhoddi dim bwyd i'w chywion. Gan hynny y mae yr hyn sydd gennych chwi trwy ras enwedigol.[i]

MAE CARIAD AT GRIST, A'R HYN A WNAETH DROSOM, YN BETH NEILLDUOL.

Yn awr mi a welwn yn fy mreuddwyd, iddynt gychwyn nes eu dyfod i'r fan lle yr oedd Anghall, Diog, a Rhyfyg yn gorwedd ac yn cysgu, pan aeth Cristion heibio ar bererindod: ac wele yr oeddynt yr awr hon wedi eu crogi i fynu mewn heiyrn, ychydig o ffordd o'r tu arall.[k]

TRUG. Yna ebe Trugaredd wrth eu harweinydd, Pwy yw'r tri gwr accw? a phaham y crogwyd hwynt?

ANGHALL, DIOG, A RHYFYG YN GROGEDIG, A PHAHAM.

DEWR. Tri gwr o gynneddfau drwg iawn ydoedd y rhai accw; nid oedd ganddynt ddim meddwl i fod yn bererinion eu hunain, a phwy bynnag a allent, hwy a'u rhwystrent; yr oeddynt am ddiogi ac ynfydrwydd eu hunain, ac yn perswadio pwy bynnag a allent i fod felly hefyd; a chyda hynny yn eu dysgu i ryfygu yr ymdarawent o'r goreu yn y

[h] Y mae pob credadyn, ar brydiau, yn barod i ddywedyd gyda Christiana, pe b'ai pechaduriaid ond cael golwg ar Grist trwy ffydd, hwy a ymroddent i'w garu ef, a llwyr ymwrthod â'u pechod. 'Pe adwaenai y byd annuwiol,' medd y Cristion newydd eni, 'y fath felusder wyf fi yn ei deimlo, ni orphwysent nes mwynhâu o honynt yr un hyfrydwch.'

[i] Bydded i ni yma sylwi; 1. Fod perygl i ni trwy ryw ymadroddion sychlyd, wanhâu sêl a gwresogrwydd y proffeswr ieuangc. 2. Er fod llawer yn colli eu cariad cyntaf, nid oes angenrhaid o hynny. 3. Yr un drugaredd ddwyfol a ddygodd Gristion a Christiana i fwynhâu y fath fendithion gwerthfawr, sydd yn dywedyd wrth bechaduriaid, "Ni fynnwch ddyfod attaf fi fel y caffoch fywyd." Pa fwyaf y bo'r nifer a ddelo at yr Iesu, mwyaf oll fydd y croeso. Nid Duw sydd yn attal ei law, ond pechaduriaid sydd yn diystyru ei alwad, ac yn dwyn dinystr arnynt eu hunain, trwy "esgeuluso iachawdwriaeth gymmaint."

[k] Fe ddylai pob Cristion feddu doethineb nefol, fel na byddo i gael ei dwyllo a'i ddenu gan bob swn, ac ofer chwedl. Dylem fod yn gall fel y sarph, ac yn ddiniwed fel y golommen, canys y mae yr anghall yn dueddol i syrthio i amryw faglau. Y mae Diogi yn glynu wrth rai proffeswyr i'r gradd hynny, fel na fynnant glywed sôn am ddiwydrwydd ysprydol, rhag ymfalchïo o neb yn ei weithredoedd da! Ac am Ryfyg, onid oes yn ein plith rai am fyned i'r nefoedd, ac heb fod ganddynt na ffydd na gweithredoedd? Maent yn llwyr ddibrisio gweithrediadau tufewnol yr Yspryd, ac yn distadlu y sawl fo yn ymdrechu rhodio yn hardd ac yn weddaidd yn eu hymddygiad beunyddiol. Y tri dihiryn hyn a ddygant i warth a chywilydd, bawb a rodiant yn ol eu moesau anhygar.

diwedd. Yr oeddynt yn cysgu pan aeth Cristion heibio; ac yn awr y maent, fel y gwelwch, yn nghrog.

TRUG. Eithr a allasent hwy berswadio neb i fod o'u tyb a'u ffordd eu hunain?

DEWR. Do, hwy a droisant amryw allan o'r ffordd. Perswadiasant un Llesg-gerdded i wneuthur fel hwythau. Troisant un Anadl-byr, ac un Digalon, ac un Llercian-ar-ol-trachwant, ynghyd âg un Pen-gysglyd, a benyw ieuangc a elwid Hurt, allan o'r ffordd, ac i ddyfod fel hwythau. Heblaw hynny, hwy a ddygasant ddrygair i'ch Harglwydd, gan berswadio eraill mai meistr caled yw efe. Dygasant i fynu hefyd anair i'r wlad dda, gan ddywedyd, Nad yw hi hanner cystal ag y mae rhai yn ceisio ymddangos ei bod. Dechreuasant hefyd ddwyn enllib ar ei weision ef, a chyfrif y rhai goreu o honynt yn rhai ymmyrus, anesmwyth, manylgais; yn mhellach, galwent fara Duw yn gibau; diddanwch ei blant ef, yn ddychymygion; teithiau a phoen y pererinion, yn bethau diles.

EU TROSEDDAU.

CRIS. Nagê, ebe Cristiana, os dyna y fath oeddynt, ni chwynaf fi fyth o'u plegid, ni chawsant ond a haeddent; ac yr wyf yn tybied mai da eu bod cyn agosed i'r brif-ffordd, fel y gwelo eraill, ac y cymmeront rybudd. Eithr oni buasai yn dda fod eu beiau wedi eu hargraffu mewn rhyw lech o haiarn neu bres, a'u gadael yma lle y gwnaethant eu drygau, er rhybudd i ddrwg ddynion eraill.

DEWR. Felly y mae, fel y gellwch yn hawdd weled, ond i chwi fyned ychydig yn nes at y fagwyr.

TRUG Nagê, nagê; gadewch hwy yn nghrog, a'u henwau i bydru, a'u drygau i fod byth yn eu herbyn: yr wyf fi yn ei gymmeryd yn ffafr fawr eu bod wedi eu crogi cyn ein dyfod ni yma; canys pwy a ŵyr beth a wnaethent hwy i'r fath wragedd tlodion a ni? Yna hi a'i troes ef ar gân fel hyn:

'Gwelwch yma'r tri diffeith-ddyn,
Ynghrog mewn heiyrn, am fod mor 'sgymmun
A gwrth'nebu'r duwiol tawel;
Gocheled pawb i wrando eu cwnsel.

Cymmer ofal, f'enaid anwyl,
Rhag gwrando ar neb sy'n troi gwegyl.
Ar yr 'fengyl a sancteiddrwydd:
'Does neb a'i gwnel na ddaw i aflwydd.

Fel hyn yr aethant, nes eu dyfod at droed y bryn Anhawsdra, lle y cymmerth Mr. Dewr-galon achlysur drachefn i adrodd wrthynt yr hyn a ddigwyddodd yma pan aeth Cristion ei hun heibio. Felly efe a aeth a hwynt at y ffynnon. 1 Sam. xlix. 10. Ezec. xxxiv. 8. Wele, ebe fe, dyma y ffynnon yr yfodd Cristion o honi cyn ei fyned i fynu i'r bryn yma; yr oedd hi yn loyw ac yn dda y pryd hynny, ond yn awr y mae hi yn

llychlyd, oddiwrth draed y rhai nad ydynt yn ewyllysio i'r pererinion dorri eu syched o honi. Ond paham y maent mor genfigenus, ebe Trugaredd? Ond, ebe yr arweinydd, fe wneir yn ddifai ag ef etto, os codir ef, a'i osod mewn llestr peraidd da, o herwydd fe sudda'r dom i'r gwaelod, a daw y dwfr yn loywach allan. A chymmellwyd Cristiana a'i chyfeillion i wneuthur felly. A hwy a'i cymmerasant ef, gan ei osod mewn llestr pridd, a gadawsant ef i sefyll nes myned y llacca i'r gwaelod, ac wedi hynny hwy a'i hyfasant.[1]

ANHAWDD YW CAEL ATHRAWIAETH IACHUS MEWN AMSERAU CYFEILIORNUS.

Yna efe a ddangosodd iddynt y ddau draws-lwybr ag oedd wrth ymyl y bryn, lle y collodd Ffurfiol a Rhagrithiol eu hunain. Ac, ebe fe, Llwybrau enbyd iawn yw y rhai hyn: collwyd dau yma pan aeth Cristion heibio. Ac er bod y ffyrdd hyn ar ol hynny wedi eu cau i fynu, fel y gwelwch, â chadwynau, pyst, a chlawdd, ac er hynny mae rhai a anturiant i'r ffyrdd hyn, yn hytrach na chymmeryd poen i fyned i fynu i'r bryn hwn.

Y GAU-LWYBRAU, ER EU CAU, A DRAMWYIR GAN RYWRAI.

CRIS. "Ffordd troseddwyr sydd galed." Diar. xiii. 15. Y mae yn rhyfedd pa wedd y gallent fyned i'r ffyrdd yna heb berygl o dorri eu gyddfau.

DEWR. Hwy a fentrant: ïe, ac os digwydd un pryd i neb o weision y Brenin eu canfod, a dywedyd wrthynt, eu bod ar y gau lwybr, a pheri iddynt ochelyd y perygl, yna hwy a'u hattebant gyda sarhad, gan ddywedyd, "Am y gair a lefaraist di wrthym yn enw'r Brenin, ni wrandawn ni arnat ti: ond gwnawn yn ddiau bob peth a ddel allan o'n genau," &c. Jer. xliv. 16, 17. Ac os edrychwch chwi ychydig yn mhellach, cewch weled fod y ffyrdd hyn wedi eu gwneuthur yn ochelgar ddigon, nid yn unig trwy y pyst, a'r clawdd, a'r gadwyn, ond hefyd wedi eu hargau i fynu, er hynny hwy a ddewisant fyned yno.

CRIS. Segur ydynt; nid ydynt yn caru ymboeni; ni fynnant rodio ar hyd llwybrau serth. A chyflawnwyd ynddynt yr hyn a ysgrifenwyd, "Ffordd y diog sydd fel cae drain." Diar. xv. 19. Jë, dewisant yn hytrach rodio ar y rhwyd, na myned i fynu i'r bryn hwn, ac yn mlaen tua'r ddinas.

Y RHESWN PAHAM Y Y DEWIS RHAI Y GAU-LWYBRAU.

Yna hwy a aethant ymlaen, gan ddechreu myned i fynu i'r bryn, ac i fynu yr aethant; ond cyn eu dyfod i'w goppa, Cristiana a ddechreuodd lesmeirio, ac a ddywedodd, Dyma fryn tynn i'n hanadl ni; nid rhyfedd fod y sawl sydd yn caru eu hesmwythderau yn fwy na'u heneidiau, yn dewis iddynt eu hunain ffordd esmwythach. Yna ebe Trugaredd, Gorfydd i mi eistedd i lawr; a'r lleiaf o'r plant a ddechreuodd lefain: Dewch, dewch, ebe Dewr-galon, nac eisteddwch yma, canys ychydig

Y BRYN YN PROFI Y PERERINION.

[1] Fe ddichon hyn arwyddoccâu, fod yr efengyl yn cael ei llygru gan gau-athrawon. Rhai ni phregethant Grist fel cyflawn Waredwr, gan bwyso at gyfeiliornad y Phariseaid; tra fo eraill yn cymmeryd arnynt bregethu rhad ras yr efengyl, ac yn distadlu gorchymynion Duw, a gweithredoedd da, ac felly yn gwyro at gyfeiliornad yr Antinomiaid.

i fynu y mae Cysgodwydd y Tywysog. Yna efe a gymmerth y bachgen bach gyferbyn ei law, ac a'i tywysodd i fynu iddo.[m]

Pan ddaethant i'r Cysgodwydd, yr oeddynt yn dra ewyllysgar i eistedd i lawr, canys yr oeddynt i gyd mewn gwres mawr. Yna ebe Trugaredd, Mor felus yw gorphwysfa i'r lluddedig! ac mor dda yw Tywysog y pererinion, yn parottoi y fath orphwys-leoedd iddynt! Clywais lawer o sôn am y Cysgodwydd hwn; ond ni welais i y lle erioed o'r blaen. Mat. xi. 28. Eithr cymmerwn ofal rhag cysgu; o blegid mi a glywais iddo gostio yn ddrud i Gristion druan.

MAENT YN EISTEDD YN Y CYSGODWYDD.

Yna ebe Mr. Dewr-galon wrth y rhai bach, Dewch, fy mechgyn glân, pa fodd yr ydych chwi? Beth a debygwch chwi yn awr am fyned ar bererindod? Syr, ebe'r lleiaf, yr oeddwn i ymron digaloni; ond y mae gennyf ddiolch i chwi am roddi i mi help eich llaw wrth fy rhaid. Ac yr wyf fi yn awr yn cofio yr hyn a ddywedodd fy mam wrthyf, sef, fod y ffordd i'r nef yn gyffelyb i fyned i fynu ysgol, a'r ffordd i uffern megis i wared i fryn. Ond gwell gennyf fi fyned i fynu yr ysgol i'r bywyd, na myned i wared y bryn i farwolaeth.

ATTEB Y BACHGEN BACH I'R ARWEINYDD, AC HEFYD I DRUGAREDD.

Yna ebe Trugaredd, Eithr y ddihareb yw, 'Mai hawdd yw myned i wared y bryn:' eithr ebe Iago, (canys felly y gelwid ef,) Y mae y dydd yn dyfod, yn ol fy nhyb i, y bydd myned i wared y bryn y gwaith calettaf. Dyna fachgen da, ebe ei feistr, ti a'i hattebaist yn uniawn. Yna Trugaredd a wenodd, ond y bachgen bach a wridiodd.[n]

CRIS. Dewch, ebe Cristiana, a fwyttewch chwi damaid i flasu eich genau, tra fyddoch yn eistedd yma i esmwythâu eich aelodau? canys y mae gennym ni yma ddarn o bomgranad, yr hwn a osododd Mr. Deonglwr yn fy llaw pan yr oeddwn i yn dyfod allan o'i ddrws ef; rhoddodd i mi hefyd ddarn o ddiliau mêl, a phottel o wîn. 'Mi a dybiais iddo roddi i chwi ryw beth,' ebe Trugaredd, 'canys fe a'ch galwodd chwi o'r neilldu.' 'Do, felly y gwnaeth ef,' ebe'r llall. Ond ebe Cristiana, 'bydd pob peth fel y dywedais i y byddai, pan ddaethom gyntaf oddi cartref; ti a gai fod yn gyfranog gyda mi.' Yna hi a roddes iddynt hwy, a hwy a fwyttasant, Trugaredd a'r bechgyn. Ac ebe Cristiana wrth Ddewr-galon, 'Syr, a wnewch chwi fel finnau?' Yntef a attebodd, 'Yr ydych chwi yn myned ar eich taith, a minnau a ddychwelaf yn fuan. Mawr les i chwi o'r hyn sydd gennych. Yr wyf fi beunydd yn bwytta yr un peth gartref.'

MAENT YN GORPHWYSO.

Ac wedi iddynt fwytta ac yfed, ac ymresymu ychydig yn hwy, ebe eu harweinydd wrthynt, 'Y mae'r dydd ar ddarfod, os gwelwch chwi fod yn dda, gadewch i ni ymbarottoi i gychwyn.' Felly hwy a godasant i fyned, a'r bechgyn a aethant o'r blaen: ond Crist-

[m] Ffordd hunan-ymwadiad yw llwybr y bywyd. Ond y mae rhai yn barod i feddwl eu bod yn myned ar goll, cyn gynted ag y delo unrhyw anhawsdra i gyfarfod â hwynt.

[n] Harddwch mawr, ac yn enwedig i'r rhai ieuaingc, yw gwylder a gostyngeiddrwydd; eithr y mae rhai yn barod i gymmeryd clod cyn y rhoddir iddynt.

tiana a anghofiodd gymmeryd ei phottel wîn gyda hi; felly hi a anfonodd y bachgen bach yn ol i'w chyrchu hi. Yna ebe Trugaredd, 'Yr wyf fi yn tybied mai lle colledus yw hwn. Yma y collodd Cristion ei blyg-lyfr, ac yma y gadawodd Cristiana ei phottel ar ol; Syr, beth yw yr achos o hyn?' Eu harweinydd a attebodd ac a ddywedodd, 'Mai yr achos oedd cwsg neu anghof; rhai a gysgant pan ddylent wylied; a rhai a anghofiant pan ddylent gofio: a thyna yr unig achos y mae rhai pererinion yn myned o'r gorphwys-leoedd ar eu colled am ryw bethau. Fe ddylai'r pererinion wylio, a chofio am yr hyn a dderbyniasant o'r blaen tan y mwynhad mwyaf: ond o ddiffyg gwneuthur hynny, y mae eu gorfoledd yn terfynu mewn dagrau yn fynych, a llewyrch eu haul tan gwmmwl; tyst o hyn yw'r stori am Gristion yn y lle hwn.'[o]

CRISTIANA YN ANGHOFIO EI PHOTTEL WÎN.

COFIWCH HYN.

Pan ddaethant i'r fan y cyfarfu Anhyderus ac Ofnus â Christion, i'w berswadio i fyned yn ol rhag ofn y llewod, canfyddent megis colofn, ac o'i blaen, tua'r ffordd, llech-faen llydan, a braich o bennill yn ysgrifenedig arni; ac oddi tani, yr achos y gosodwyd y golofn i fynu. Y gerdd oedd hyn:

'Synned pawb a welo hyn
O golofn uchel ar y bryn,
At ei galon a'i holl eiriau,
Rhag bod yn siampl megis hwythau.'

Y geiriau oddi tan y gerdd oedd hyn, 'Y golofn hon a gyfodwyd i gospi arni y sawl, trwy Ofn ac Anhyder, a arswydant fyned yn mhellach ar bererindod: ar y golofn hon hefyd y llosgwyd Anhyderus ac Ofnog, trwy eu tafodau, â haiarn poeth, am gynnyg rhwystro Cristion yn ei daith.'[p]

Yna ebe Trugaredd, Y mae hyn yn debyg i ymadrodd yr Anwylyd, Psal. cxx. 3, 4, "Beth a roddir i ti? neu pa beth a wneir i ti, dydi dafod twyllodrus? Llymion saethau cawr, ynghyd â marwor meryw."

Felly hwy a gychwynasant nes eu dyfod o fewn golwg y llewod. Yn awr yr oedd Mr. Dewr-galon yn wr nerthol, fel nad oedd arno ofn llew: ond etto pan ddaethant i fynu i'r fan lle yr oedd y llewod, y bechgyn ag oedd yn myned o'r blaen, oeddynt yn llawen i lercian ar ol, o blegid yr oedd arnynt ofn y llewod; felly hwy a roisant adlam, ac a aethant ar ol. Ar hynny gwenodd eu harweinydd, ac a ddywedodd, 'Pa fodd yn awr, fy mechgyn i, a ydych chwi yn caru myned o'r blaen pan na byddo perygl yn agosâu, ac yn caru dyfod ar ol cyn gynted ag yr ymddangoso y llewod?

DARLUNIAD O'R RHAI A ANT RHAGDDYNT YN DDEWRION PAN NA BO BERYGL, OND A FFOANT PAN DDELO.

[o] Cofiwn pan fyddo hi ar y goreu gyda ni, y dylem fod ar ein gofal, rhag i ni trwy anystyriaeth a diofalwch golli dim. Mawr yw tiriondeb ein Harglwydd, ond byddwn ofalus rhag i ni dristâu ei Yspryd.

[p] Gwae y rhai sy'n digaloni pererinion ar eu taith. Mae rhai yn rhy barod ar eu tafodau, wedi iddynt golli eu crefydd, i daflu pob rhwystr ar ffordd proffeswyr ieuaingc, megis pe baent yn cenfigenu wrth eu llwyddiant a'u dedwyddwch.

Yn awr, wrth fyned yn mlaen, Mr. Dewr-galon a dynnodd ei gleddyf, gyda bwriad i wneuthur ffordd i'r pererinion er gwaethaf y llewod. Yna yr ymddangosodd un, mae'n debygol, i gymmeryd arno gefnogi y llewod; a dywedodd wrth arweinydd y pererinion,

GARW-GUCHIOG YN CEFNOGI Y LLEWOD.

'Beth yw'r achos o'ch dyfodiad chwi yma?' Enw y gwr yma oedd Garw-guchiog, neu Gwr-gwaedlyd, o herwydd ei fod yn lladd y pererinion; ac yr oedd efe o eppil y cawri.[q]

DEWR. Yna ebe arweinydd y pererinion, Y gwragedd a'r plant hyn ydynt yn myned ar bererindod; a dyma'r ffordd y rhaid iddynt fyned, a myned hyd-ddi a gânt hwy, er dy waethaf di a'r llewod.

GARW-GUCH. Nid hon yw eu ffordd hwy, ni chânt fyned ar hyd-ddi ychwaith. Mi a ddaethum allan i'w gwrthwynebu, ac i'r diben hynny mi a gefnogaf y llewod.

Ac yn awr, i ddywedyd y gwir, o herwydd ffyrnigrwydd y llewod, a sarrug ymddygiad eu cefnogwr, yr oedd y ffordd hon yn ddiweddar wedi myned yn ddidramwy iawn, a glaswellt wedi tyfu yn agos drosti i gyd.

CRIS. Yna ebe Cristiana, Er bod y brif-ffordd wedi myned gynt yn anghyfanedd, ac er gorfod i'r pererinion yn yr amser a basiodd rodio ar hyd traws-lwybrau, ni bydd hi felly yr awr hon, yr ydwyf fi wedi cyfodi, "myfi yn awr a gyfodais yn fam yn Israel." Barn. v. 6, 7.

GARW. Yna efe a dyngodd, 'myn y llewod,' y byddai; a chan hynny parodd iddynt droi heibio, o blegid nis caent fyned y ffordd honno.

YMLADDFA RHWNG DEWR-GALON A GARW-GUCHIOG.

DEWR. Ond eu harweinydd a ddynesodd yn gyntaf at Garw-guchiog, ac a osododd mor ddwys arno â'i gleddyf, fel y gorfu iddo droi yn ol.

GARW. Yna ebe yr hwn a gynnygiodd gefnogi y llewod, A leddwch chwi fi ar fy nhir fy hun?

DEWR. Prif-ffordd y Brenin yr ydym ni ynddi, ac yn ei ffordd ef y gosodaist di y llewod; ond y gwragedd hyn a'r plant, er eu gwaned, a gânt gadw eu ffordd ymlaen er gwaethaf dy lewod. A chyda hynny a'i tarawodd ef drachefn hyd lawr, ac a'i dygodd ef ar ei liniau. A yr ergyd hwnnw efe a dorrodd ei helm ef, ac â'r nesaf efe a dorrodd ymaith ei fraich ef. Yna y rhuodd y cawr mor erchyll, fel y brawychodd ei lais ef y gwragedd, ac er hynny yr oeddynt yn llawen ei weled ef yn ymdrybaeddu ar y llawr.

Y FUDDUGOLIAETH.

Yn awr yr oedd y llewod wedi eu cadwyno, ac felly ni allent wneuthur dim o honynt eu hunain. A chan hynny, pan oedd hen Garw-guchiog, ag oedd yn bwriadu eu cynnorthwyo, wedi marw, Mr. Dewr-galon a ddywedodd wrth y pererinion,

[q] Pwy yw y Cawr hwn, ond anghrediniaeth, neu yr ofnau hynny sydd mor barod i gyfarfod â ni mewn awr o brofedigaeth, Eithr lle bo Calon-ddewr, neu yspryd a hyder cadarn yn yr addewid, mae'r gelyn yn sicr o gilio draw. Ffydd sydd yn magu calon ynom i wrthwynebu peryglon, ond anghrediniaeth a wna i ni arswydo wrth weled y cysgod lleiaf.

Deuwch yn awr, a chanlynwch fi, ac ni ddigwydd i chwi ddim niweid oddiwrth y llewod. Yna hwy a aethant ymlaen, ond y gwragedd a grynasant wrth fyned heibio iddynt; a'r bechgyn hefyd oeddynt yn edrych fel pe buasent i farw, ond hwy a aethant oll heibio heb ychwaneg o niweid.[r]

MYNED HEIBIO I'R LLEWOD.

Erbyn hyn yr oeddynt o fewn golwg i letty y Porthor, a daethant yn fuan i fynu atto; ond hwy a wnaethant fwy o ffrwst wedi myned yno, o herwydd ei bod yn enbyd i ymdeithio yno wedi nos. A phan ddaethant at y porth, yr arweinydd a gurodd, a'r Porthor a waeddodd, 'Pwy sydd yna?' Ond cyn gynted ag y dywedodd yr arweinydd, 'Myfi,' efe a adnabu ei lais ef, ac a ddaeth i lawr, (canys buasai yr arweinydd yn fynych o'r blaen yno megis Hyfforddwr i Bererinion;) ac wedi ei ddyfod i lawr, efe a agorodd y porth, a chan weled yr arweinydd yn sefyll yn gymmwys o'i flaen, (canys nid oedd efe yn gweled y gwragedd, am eu bod o'r tu ol iddo) efe a ddywedodd wrtho ef, 'Beth yn awr, Mr. Dewr-galon, beth yw eich neges chwi yma mor hwyr heno?' Ebe yntef, 'Mi a ddygais yma rai pererinion, lle mae yn rhaid iddynt lettya, yn ol gorchymyn fy Arglwydd: mi a fuaswn yma yn gynt, oni buasai i mi gael fy ngwrthwynebu gan y cawr sydd yn arfer cefnogi y llewod. Ond wedi hir a maith ymladd âg ef, mi a'i torrais ymaith, ac a ddygais y pererinion yma mewn diogelwch.'

DYFOD AT Y PORTH.

PORTHOR. Ai nid ewch chwi i mewn, a thario hyd y boreu?

DEWR. Na wnaf, mi a ddychwelaf at fy Arglwydd heno.

DEWR-GALON YN CEISIO DYCHWELYD.

CRIS. O, Syr, ni wn i pa fodd i fod yn foddlon i chwi ein gadael ni yn ein pererindod, chwi a fuoch mor ffyddlon a charedig tuag attom, chwi a'n cyngorasoch mor galonog, fel nad anghofiaf fi byth eich hynawsedd tuag attom.

TRUG. Yna y dywedodd Trugaredd, O nad allem gael eich cymdeithas hyd ddiwedd ein taith! Pa fodd y gall y fath wragedd tlodion ag ydym ni, ddal allan mewn ffordd sydd cyn llawned o helbul ag yw hon, heb na chyfaill nac amddiffynwr?

Y PERERINION YN DYMUNO EI GWMPEINI YN MHELLACH.

IAGO. Yna ebe Iago, yr ieuengaf o'r bechgyn, Attolwg, Syr, cymmerwch eich perswadio i ddyfod gyda ni, i'n helpu, o herwydd ein bod cyn wanned, a'r ffordd mor beryglus.

DEWR. Yr wyf fi wrth orchymyn fy Arglwydd: os efe a'm trefna i fod yn arweinydd i chwi trosodd, myfi a fyddaf foddlon i'ch gwasanaethu. Ond yn hyn y buoch yn fyr ar y cyntaf; canys pan barodd efe i mi ddyfod gyda chwi hyd yma, dylasech geisio ganddo fy ngollwng gyda chwi hyd y diwedd, ac efe

COLLI HELP O EISIAU EI OFYN.

[r] Wrth y llewod, fe allai, fod yr Awdwr yn chwennych i ni ddeall, yr erledigaeth a fu ar achos crefydd mewn rhai oesoedd; a phan fyddo ei angerdd wedi llaesu, mae rhyw Gawr, sef ein hofnau a'n gwan-hyder, yn barod i'n digaloni. Nac ofnwn, er rhuo y llewod, y maent dan gadwyn gan ein Harglwydd.

a ganiattasai eich deisyfiad.[s] Pa fodd bynnag, gorfydd i mi ymadael yn bresennol; ac felly, Cristiana anwyl, Trugaredd, a'm bechgyn gwych, Byddwch iach.

Yna y Porthor, Mr. Gwyliadwrus, a ofynodd i Gristiana am ei gwlad a'i cheraint: a hithau a'i hattebodd ef, ei dyfod hi o Ddinas Dystryw; Gwraig weddw ydwyf fi, a'm gwr a fu farw, ei enw oedd Cristion, y pererin. 'Beth!' ebe y Porthor, ai eich gwr chwi oedd efe?' Ië, ebe hi, a dyma ei blant ef; a thyma un o'n tref ni, (gan ddangos Trugaredd iddo). Yna y Porthor a ganodd ei gloch, fel yr arferai ar y cyfryw achosion, a daeth un o'r llangcesau i'r drws, enw yr hon oedd Isel-fryd. Ac ebe y Porthor wrthi hi, 'Dos i mewn, a dywed fod Cristiana, gwraig Cristion, a'i phlant, wedi dyfod yma ar bererindod.' Hithau a aeth i mewn, ac a'i mynegodd. Ond Oh, pa mor llawen oeddynt oddi fewn wrth glywed y gair o enau y llangces!

LLAWENYDD AM DDYFOD Y PERERINION.

Felly hwy a ddaethant yn ebrwydd at y Porthor, o blegid yr oedd Cristiana yn sefyll etto wrth y drws. Yna rhai o'r pruddaf o honynt a ddywedodd wrthi: 'Tyred i mewn Cristiana, tyred i mewn, wraig y gwr da hwnnw; tyred i mewn, wraig fendigedig, tyred i mewn, ynghyd a'r rhai oll sydd gyda thi.' Felly hi a aeth i mewn, a phawb ag oedd gyda hi. Ac wedi eu myned i mewn, aethpwyd a hwynt i ystafell dda ehang, lle y parwyd iddynt eistedd i lawr: felly hwy a eisteddasant i lawr, a'r pennaf yn y tŷ a elwid i weled ac i groesawu y llettywyr. Yna hwy a ddaethant i mewn, ac, wedi deall pwy oeddynt, a gyfarchasant eu gilydd â chusan, gan ddywedyd, Groesaw wrthych, chwi lestri gras Duw; groesaw attom ni eich ffyddlon gymdeithion.[t]

ENNYN CARIAD CRISTIANA WRTH YR OLWG AR Y NAILL A'R LLALL.

Yn awr, o achos ei bod hi yn hwyr, a'r pererinion yn ddiffygiol o achos eu taith, ac wedi llewygu wrth yr olwg ar yr ymladdfa, a'r llewod dychrynllyd, gan hynny hwy a chwenychasant ymbarottoi i orphwys, cyn gynted ag y gellid. Ecs. xii. 31. Nagê, ebe hwythau o'r teulu, llonwch eich hunain â thamaid o fwyd; canys hwy a barottoisent Oen iddynt, ynghyd a'r saws arferedig ag oedd berthynol iddo. Ioan i. 29. Canys y Porthor a glywsai o'r blaen am eu dyfodiad, ac a'i mynegodd iddynt hwy oddi mewn. Wedi iddynt swpperu, a diweddu eu gweddi ynghyd â Psalm, dymunasant gael myned i orphwys.[u]

Ni a ddylem fod yn helaeth ein gofynion; y mae ein Harglwydd wedi addo i ni nerth yn ol y dydd. Yr arweinydd Dewr-galon oedd gyda'r gwragedd, i ddangos y fath wrolder ysprydol mae Duw yn roddi, hyd yn oed i'r rhai ydynt yn ol naturiaeth y llestri gwannaf.

[t] Mae gras a dedwyddwch plant Duw yn cynnyddu mewn cymdeithas â'u gilydd; mwyaf y bo'r tanwydd, mwyaf fydd y gwres; eithr os cymmerwn y marwor o'r tân, fe oera yn fuan. Dylem gyd-ymdrechu er adeiladaeth a chysur ein gilydd.

[u] Crist yw ymborth y ffyddloniaid, trwyddo ef mae i ni gael cynnaliaeth ysprydol, canys efe yw gwir Oen y Pasg a aberthwyd drosom ni, fel y byddo i ni gael byw yn dragywyddol, trwy haeddiant ei ddioddefaint ef drosom ni.

Ond gadewch i ni, ebe Cristiana, os gallwn fod mor eon a dewis, i gael bod yn yr ystafell honno y bu fy ngwr, pan fu yma ; felly yr aethant a hwy i fynu yno, a gorweddasant oll yn yr un ystafell. Pan oeddynt yn eu hesmwythdra, Cristiana a Thrugaredd a ymddiddanasant â'u gilydd ynghylch pethau ag oedd gyflens.

CRIS. Ychydig a feddyliais i, pan aeth fy ngwr ar bererindod, y byddai i mi byth ei ganlyn ef. MYNWES CRIST YN AGORED I BOB PERERIN

TRUG. A chyn lleied a dybiasoch chwi o orwedd yn ei wely, a gorphwys yn ei ystafell ef, fel yr ydych chwi yr awr hon.

CRIS. A llai o lawer y tybiais i y cawn weled ei wyneb ef gyda chysur, ac o addoli yr Arglwydd y Brenin gydag ef, fel yr wyf fi yn awr yn credu y caf.

TRUG. Gwrandewch ! A glywch chwi ddim sŵn ? CERDDORIAETH.

CRIS. Clywaf, ac yr wyf fi yn credu, mai sŵn cerddoriaeth ydyw ef, o lawenydd ein bod ni yma.

TRUG. Rhyfeddol gerddoriaeth yn y tŷ, cerddoriaeth yn y galon, a cherddoriaeth yn y nefoedd hefyd, o orfoledd ein bod ni yma.

Fel hyn yr ymddiddanasant dros ennyd, ac yna ymroddasant i gysgu. Felly y boreu, pan oeddynt wedi dihuno, Cristiana a ddywedodd wrth Drugaredd :

CRIS. Beth oedd y matter a barodd i chwi chwerthin yn eich cwsg neithiwr ? Yr wyf fi yn tebyg eich bod mewn breuddwyd. TRUGAREDD YN CHWERTHIN YN EI CHWSG.

TRUG. Felly yr oeddwn, a melus oedd y breuddwyd ; ond a ydych chwi yn sicr i mi chwerthin ?

CRIS. Do, a chwarddasoch yn uchel hefyd ; ond attolwg, Trugaredd, rhowch i mi glywed eich breuddwyd.

TRUG. Mi a freuddwydiais fy mod yn eistedd mewn lle anghyfannedd, wrthyf fy hun, ac yn cwynfan o achos caledwch fy nghalon. BREUDDWYD TRUGAREDD.

Eithr nid eisteddais i yno yn hir, nes bod bagad o bobl, a debygaswn i wedi ymgasglu o'm hamgylch, i'm gweled, ac i wrando beth oeddwn i yn ddywedyd. Felly yr oeddynt hwy yn clust-feinio, a minnau a aethum rhagof gan gwynfan o achos caledwch fy nghalon. Erbyn hyn rhai o honynt a chwarddasant am fy mhen, a rhai a'm galwasant yn ynfyd, ac eraill a ddechreuasant fy nghilgwthio. A chyda hynny, mi dybiais im' edrych i fynu, a chanfod un yn dyfod ar adenydd tuag attaf. Felly efe a ddaeth yn union attaf, ac a ddywedodd, Trugaredd, Beth sydd arnat ti ? BETH OEDD EI BREUDDWYD. Yna pan glybu fi yn gwneuthur fy nghwyn, efe a ddywedodd, Tangnefedd i ti : sychodd hefyd fy llygaid i â'i napcyn, ac a'm gwisgodd i mewn aur ac arian. Ezec. xvi. 8—11. Efe a osododd gadwyn am fy ngwddf, a chlust-dlysau yn fy nghlustiau, a choron hardd ar fy mhen. Yna efe a'm cymmerth i wrth fy llaw, ac a ddywedodd wrthyf, Canlyn fi. Felly efe a aeth i fynu, a minnau a'i canlynais ef, nes y daethom at borth aur. Yna efe a gurodd : a phan agorasant hwy oddi fewn, y gwr a aeth i mewn, a minnau a'i canlynais

ef i fynu at orseddfaingc, ar yr hon yr oedd un yn eistedd, ac efe a ddywedodd wrthyf, Groesaw, ferch. Yr oedd y lle yn ymddangos yn ddisglaer ac yn ogoneddus, fel y sêr, neu yn hytrach fel yr haul, ac mi a dybiais i mi weled eich gwr chwi yno; felly mi a ddihunais o'm breuddwyd. Ond a chwerddais i?

CRIS. Chwerthin! do, a hawdd y gallech chwi, wrth weled eich hun cystal. Canys y mae yn rhaid i chwi ganiattâu i mi ddywedyd, mai breuddwyd da oedd efe; ac fel yr ydych wedi dechreu profi y rhan gyntaf yn wir, felly y cewch brofi y rhan arall o hono yn y diwedd. "Y mae Duw yn llefaru unwaith, ïe, dwywaith, ond ni ddeall dyn; trwy hûn, a thrwy weledigaeth nos, pan syrthio trym-gwsg ar ddynion, wrth hepian ar wely." Job xxxiii. 14, 15. Nid rhaid i ni orwedd yn neffro yn ein gwelyau i ymddiddan â Duw: fe all ymweled â ni yn ein cwsg, a pheri i ni glywed ei lais ef y pryd hynny. Y mae ein calon yn fynych yn neffro, pan yr ydym ni yn cysgu; gall Duw lefaru wrth honno, trwy ddamhegion, ac arwyddion, a chyffelybiaethau, gystal a phan byddo un yn neffro.[w]

TRUGAREDD YN LLAWEN O'I BREUDDWYD.

TRUG. Wel, yr wyf fi yn llawen o'm breuddwyd, canys yr wyf fi yn gobeithio y caf weled ei gyflawni cyn byddo hir, fel y chwarddwyf fi etto.

CRIS. Yr wyf fi yn tybied fod yn llawn bryd i ni gyfodi, fel y gwypom beth sydd raid i ni ei wneuthur.

TRUG. Er 'tolwg, os gwahoddant hwy ni i aros dros dro, byddwn ewyllysgar i dderbyn eu cynnyg. Yr wyf fi yn foddlonach i aros yma, fel y byddom fwy cydnabyddus o'r merched yma; mi a dybiwn fod gan Ddoethineb, Duwioldeb, a Chariad, wynebpryd tra hawddgar a sobr.

CRIS. Ni a gawn weled beth a wnant hwy. Ac wedi iddynt gyfodi ac ymbarottoi, daethant i lawr, a gofynasant i'w gilydd am eu hesmwythder, a fuant yn gysurus ai peidio.

TRUG. O'r goreu, ebe Trugaredd; un o'r nosweithiau goreu ydoedd hi a gefais i yn fy holl fywyd.

Yna ebe Doethineb a Duwioldeb, Os cymmerwch chwi eich perswadio i aros yma dros ennyd, chwi a gewch yr hyn a fyddo y tŷ yn ei ddarparu.

CARIAD. Cewch, gydag ewyllys da, ebe Cariad. Felly hwy a gydsyniasant, ac a arosasant yno ynghylch mis o amser, neu ychwaneg, ac a fuont yn dra buddiol i'w gilydd. Ac o herwydd y mynnai Doethineb wybod pa fodd

MAENT YN AROS YNO AM DYMHOR.

[w] Yr oedd Trugaredd yn wylo, ac fe droir ei thristwch yn llawenydd. Am ei bod hi yn cwyno o blegid caledwch calon, ystyriwn fod dynion duwiol, er profi o honynt waith gras yn eu cyfnewid mewn rhyw fesur, etto yn chwennych bod yn fwy tyner yn eu teimladau, a phrofi cariad gwresoccach, at yr hwn a wnaeth gymmaint, ac a ddioddefodd gymmaint drostynt. Pan y b'om yn cwyno am ein diffygiadau ger bron Duw, y mae ei Ysbryd yn barod i gyflawni ein heisiau, ac i gysuro ein calon. Cariad Crist a'n gwared ni oddiwrth galon galedwch.

y dygodd Cristiana ei phlant i fynu, gofynodd gennad iddi i'w holi hwynt: hithau a ganiattaodd yn rhydd iddi. Yna hi a ddechreuodd ar yr ieuangaf o honynt, enw yr hwn oedd Iago.

DOETH. A hi a ddywedodd, Tyred, Iago, a elli di ddywedyd wrthyf pwy a'th wnaeth di? HOLI IAGO.

IAGO. Duw'r Tad, Duw'r Mab, a Duw'r Yspryd Glân.

DOETH. Da machgen i. Ac a elli di ddywedyd wrthyf pwy sydd yn dy achub di?

IAGO. Duw'r Tad, Duw'r Mab, a Duw'r Yspryd Glân.

DOETH. Dyna fachgen da fyth. Ond pa fodd y mae Duw'r Tad yn dy achub?

IAGO. Trwy ei ras.

DOETH. Pa fodd y mae Duw'r Mab yn dy achub di?

IAGO. Trwy ei gyfiawnder, a'i farwolaeth, ei waed, a'i fywyd.

DOETH. A pha fodd y mae Duw'r Yspryd Glân yn dy achub di?

IAGO. Trwy ei oleuad, a'i adnewyddiad, a thrwy ei amddiffyniad.

Yna ebe Doethineb wrth Gristiana, Yr ydych chwi i'ch canmol, am ddwyn eich plant fel hyn i fynu. Yr wyf fi yn tebyg nad rhaid i mi ofyn y cwestiynau hyn i'r lleill, gan y medr yr ieuangaf eu hatteb cystal. Mi a âf gan hynny yn nesaf at yr ieuangaf onid un.

DOETH. Yna ebe hi, Deuwch, Ioseph, (canys hynny oedd ei enw ef,) a fyddwch chwi boddlon i mi eich holi chwithau? HOLI IOSEPH.

IOSEPH. Byddaf, o lwyr ewyllys fy nghalon.

DOETH. Beth yw dyn?

IOS. Creadur rhesymol, a wnaethpwyd felly gan Dduw, fel y dywedodd fy mrawd.

DOETH. Beth a feddylir wrth y gair hwn *achub?*

IOS. Fod dyn trwy bechod wedi ei ddwyn ei hun i gyflwr o gaethiwed a thrueni.

DOETH. Beth a feddylir wrth fod yn gadwedig gan y Drindod?

IOS. Fod pechod y cyfryw ormeswr galluog, na's gallai neb ein tynnu allan o'i grafangau, ond Duw; a bod Duw mor dda a charedig tuag at ddyn, a'i gipio allan o'r cyflwr truenus hwn.

DOETH. Beth oedd diben Duw yn achubiaeth dyn?

IOS. Gogoneddu ei enw, ei ras, ei gyfiawnder, &c. a thragywyddol ddedwyddwch ei greadur.

DOETH. Pwy yw'r sawl a achubir?

IOS. Y sawl a dderbynio ei iachawdwriaeth ef.

DOETH. Dyna fachgen da, Ioseph; dy fam a'th ddysgodd di yn dda, a thithau a wrandewaist ar yr hyn a ddywedodd hi wrthyt.

Yna ebe Doethineb wrth Samuel, yr hynaf onid un:

HOLI SAMUEL. DOETH. Dewch, Samuel, a fyddwch chwi foddlon i mi eich holi chwithau?

SAMUEL. Byddaf, yn wir, os gwelwch chwi fod yn dda.

DOETH. Beth yw nefoedd?

SAM. Lle a chyflwr tra gwynfydedig, o herwydd fod Duw yn preswylio yno.

DOETH. Beth yw uffern?

SAM. Lle a chyflwr tra gresynol, o herwydd mai trigfan pechod, diafol, a marwolaeth yw ef.

DOETH. Paham y mynnit ti fyned i'r nefoedd?

SAM. Fel y gallwyf weled Duw, a'i wasanaethu yn ddi-flino; fel y gallwyf weled Crist, a'i garu yn dragywydd; fel y caffwyf y fath gyflawnder o'r Yspryd Glân ynof na's gallaf ei feddiannu mewn un modd yma.

DOETH. Dyna fachgen da hefyd, ac un a ddysgodd yn dda.

HOLI MATTHEW. Yna hi a drodd at yr hynaf, enw yr hwn oedd Matthew; ac a ddywedodd wrtho, Deuwch, Matthew, a gaf fi eich holi chwithau hefyd?

MATTHEW. Cewch yn rhwydd ddigon.

DOETH. Gofynaf i chwi ynte, a oedd hanfod i ddim o flaen Duw?

MAT. Nac oedd; canys y mae Duw yn dragywyddol; ac nid oedd dim, oddi eithr efe ei hun, a bôd iddo cyn dechreu y dydd cyntaf: "canys mewn chwe' diwrnod y gwnaeth yr Arglwydd y nefoedd a'r ddaear, y môr, a'r hyn oll sydd ynddynt."

DOETH. Beth a debygwch chwi am y Bibl?

MAT. Gair sanctaidd Duw ydyw.

DOETH. A oes dim yn ysgrifenedig ynddo a'r nad ydych chwi yn ei ddeall?

MAT. Oes, llawer iawn.

DOETH. Beth ydych chwi yn wneuthur pan gyfarfyddoch â'r lleoedd hynny ynddo a'r nad ydych yn eu deall?

MAT. Yr wyf fi yn credu fod Duw yn ddoethach na myfi. Yr wyf yn gweddïo hefyd ar ryngu bodd iddo ef ganiattâu i mi gael gwybod pob peth yno ag a ŵyr efe a fyddo er lles i mi.[y]

DOETH. Pa fodd yr ydych chwi yn credu ynghylch adgyfodiad y meirw?

MAT. Yr wyf fi yn credu y cyfyd yr unrhyw a gladdwyd: yr un mewn natur, ond nid mewn llygredigaeth. Ac yr wyf fi yn credu hynny o herwydd dau beth. Yn gyntaf, o blegid fod Duw wedi ei addo. Yn ail, o blegid ei fod yn abl i'w gyflawni.

Yna Doethineb a ddywedodd wrth y bechgyn: Rhaid i chwi wrando yn wastad ar

[y] Dyma atteb cymmwys, yn llawn doethineb, er iddo ddyfod o enau plentyn. Ni ddichon neb roi atteb a fo mwy pwrpasol. Dedwydd yw y rhai sydd wedi eu meddiannu âg yspryd isel ac efengylaidd! Gweddus hyd yn oed i Gristionogion o'r graddau uchaf mewn gwybodaeth, i ymostwng i drefn Duw, gan gydnabod fod amryw bethau rhy ddwfn i ni, tra fyddom yn y byd isod hwn.

eich mam, canys hi a ddichon ddysgu i chwi ragor. Rhaid i chwi hefyd roddi clust esgud i'r ymddiddanion da a glywoch gan eraill: canys er eich mwyn chwi y maent hwy yn siarad pethau da. Deliwch sylw hefyd, a hynny gyda manyldra, beth mae y nefoedd a'r ddaear yn ei ddysgu i chwi; ond yn enwedig byddwch ddiwyd i fyfyrio yn y llyfr hwnnw a fu yr achos o fynediad eich tad ar bererindod. Ac o'm rhan i, feibion, dangosaf i chwi yr hyn a allwyf tra fyddoch chwi yma, a bydd lawen gennyf os gofynwch chwithau gwestiynau i minnau a fyddo yn tueddu i adeiladu yn dduwiol.

CASGLIADAU DOETHINEB AR OL HOLI'R PLANT.

Pan oedd y pererinion wedi bod yno ynghylch wythnos, cafodd Trugaredd ymwelwr, a gymmerai arno ddwyn peth ewyllys tuag atti hi, ai enw ef oedd Mr. Hoyw-waith, yr oedd ef yn wr o ddygiad da i fynu, ac yn cymmeryd arno fod yn grefyddol, ond yr oedd efe yn ymlynu yn fawr wrth y byd. Felly efe a ddaeth unwaith neu ddwy, neu ychwaneg, at Drugaredd, gan gynnyg ei gariad iddi. Yn awr yr oedd Trugaredd yn llangces deg o bryd, ac o herwydd hynny yn fwy llithiog.

TRUGAREDD YN CAEL CARIAD.

Ei meddylfryd hi hefyd oedd, bod yn ddiwyd yn ddibaid yn ei goruchwyliaeth; o blegid pan na byddai ganddi ddim i'w wneuthur iddi ei hun, hi a arferai wneuthur hosanau a gwisgoedd i eraill, ac a'u rhoddai i'r anghenus. A Mr. Hoyw-waith, yr hwn ni's gwyddai pa fodd yr oedd hi yn dosparthu yr hyn a wnelsai, oedd yn dra boddlon iddi, o blegid nad oedd ef yn ei chael un amser yn segur. Y mae yn sicr gennyf, ebe fe wrtho ei hun, mai hyswi o'r goreu ydyw hi.

Yna Trugaredd a ddatguddiodd y matter i ferched y tŷ, ac a ymofynodd â hwynt yn ei gylch ef, o blegid hwy a'i hadwaenent ef yn well na hi. Felly hwy a ddywedasant wrthi, mai dyn ieuangc diwyd oedd efe, ac un ag oedd yn cymmeryd arno fod yn grefyddol; ond yr oedd, fel yr oeddynt yn ofni, yn ddieithr i rym yr hyn sydd dda.

TRUGAREDD YN HOLI MERCHED Y TY YN NGHYLCH MR. HOYW-WAITH.

Os felly ebe Trugaredd, nid edrychaf fi mwyach arno; o blegid yr wyf yn bwriadu na chymmeraf fyth faich i fy enaid.[a]

Yna Doethineb a'i hattebodd, nad oedd raid cael peth mawr i'w ddigaloni ef; canys ei pharhâd i wneuthur fel y dechreuasai dros y tlodion, a oera yn ebrwydd ei awydd ef.

Felly y tro nesaf ag y daeth, efe a'i cafodd hi ar ei hen waith, yn gwneuthur pethau i'r tlodion. Yna ebe fe, 'Beth, ai wrthi yn wastad?' 'Ië,' ebe hithau, 'naill ai trosof fy hun neu eraill.' A pha beth a ennillwch chwi yn y dydd?' ebe fe. 'Yr wyf fi yn gwneuthur y pethau hyn,' ebe hithau, 'fel y byddwyf gyfoethog mewn gweithredoedd da, gan osod sail dda erbyn yr amser a ddaw, fel y cymmerwyf afael ar y bywyd tragywyddol." 1 Tim. vi. 17—19. 'Attolwg,' ebe fe, 'beth yr ydych chwi yn wneuthur â hwynt?' 'Dilladu y noeth,' ebe hithau. A chyda hynny

YMDDIDDAN RHWNG TRUGAREDD A MR. HOYW-WAITH.

[a] Atteb digon addas gan ferch ieuangc dduwiol. "Na ieuer chwi yn anghydmarus" yw cyngor yr apostol. Cymmered rhai ieuaingc eu dysgu oddiwrth siampl Trugaredd.

syrthiodd ei wynebpryd ef. Felly efe a ymattaliodd rhag dyfod atti mwyach: a phan ofynwyd iddo y rheswm paham? attebodd, Fod Trugaredd yn llangces lân ddigon, ond ei bod wedi ei haflonyddu â champau drwg.[b]

MAE YN EI GADAEL, A PHAHAM.

Wedi iddo ei gadael hi, dywedodd Doethineb, Oni fynegais i ti, y byddai i Mr. Hoyw-waith dy adael yn ebrwydd? ïe, efe a gyfyd anair i ti: o blegid er ei fod yn cymmeryd arno fod yn grefyddol, ac yn caru Trugaredd, er hynny y mae Trugaredd ac yntef mor wahanol o dymherau, fel yr wyf fi yn credu na ddeuant hwy byth ynghyd.

TRUGAREDD YN YR YM ARFERIAD O DRUGAREDD YN CAEL EI GWRTHOD, TRA YR HOFFIR TRUGAREDD DAN ENW TRUGAREDD.

TRUG. Gallaswn gael gwŷr cyn yn awr, er na ddywedais i ddim o hynny wrth neb: ond y cyfryw oeddynt nad oedd yn hoffi fy nghynneddfau i, er na chafodd neb o honynt erioed fai ar fy mherson i. Felly nis gallwn i na hwythau gyttuno.

DOETH. Ychydig gyfrif wneir yn ein dyddiau ni o Drugaredd, yn ychwaneg na'i henw: yr ymarferiad o honi, yr hyn a osodir allan trwy y moesau, ni all ond rhai ei haros.

TRUG. Wel, ebe Trugaredd, onis myn neb fi, mi a fyddaf farw yn forwynig, neu ynte fe fydd fy moesau yn lle gwr i mi. Canys ni allaf fi gyfnewid fy natur: ac yr wyf fi yn bwriadu na chymmeraf yn fy mywyd, un a fyddo gwrthwyneb i mi yn hyn. Yr oedd i mi chwaer a elwid haelionus, yn briod âg un o'r rhai taeog-sur yma; ond nis gallai hi ac yntef fyth gyttuno; ond o achos fod fy chwaer yn bwriadau myned ymlaen fel y dechreuasai hi, sef i ymgeleddu yr anghenus, gan hynny, ei gwr a'i criodd hi yn gyntaf wrth y groes, ac wedi hyn efe a'i trodd hi allan dros y drws.

PENDERFYNIAD TRUGAREDD.

PA FODD Y GWAHANWYD CHWAER TRUGAREDD ODDI WRTH EI PHRIOD.

DOETH. Ac mi a warantaf i chwi mai proffeswr oedd efe!

TRUG. Ië, o'r fath ag oedd efe, ac o'r fath y mae'r byd yn awr yn llawn: ond nid wyf fi am neb o honynt oll.

Yn awr Matthew, mab hynaf Cristiana, a syrthiodd yn glaf, a'i glefyd oedd yn drwm arno, canys blinid ef yn ddirfawr yn ei ymysgaroedd, fel yr oedd ef ar brydiau, fel pe tynnesid ei ddeu-pen ef ynghyd ganddo. Yr oedd yn trigo gerllaw yno un Mr. Medrus, hen physygwr profadwy. Felly Cristiana a ddymunodd ei gael, a hwy a ddanfonasant am dano, ac yntef a ddaeth: wedi ei ddyfod i'r ystafell, a dal ychydig sylw ar y bachgen, barnodd ei fod yn glaf o'r gwayw yn ei gylla. Yna ebe fe wrth ei fam ef, 'Pa luniaeth yr ymborthodd Matthew arno yn ddiweddar?' 'Lluniaeth!' ebe Cristiana; 'nid dim ond yr hyn sydd iachus.' Y physygwr a'i hattebodd, 'Mae y bachgen hwn wedi cymmeryd rhyw beth ag sydd yn aros heb ei dreulio yn ei gylla, ac nid â efe oddi yno heb foddion. Ac yr wyf fi yn mynegu i chwi, y gorfydd ei garthu yn lân, onidê efe a fydd marw.'

MATTHEW YN CLAFYCHU.

CNOFAAU CYDWYBOD.

BARN Y PHYSYGWR.

[b] Ni all y rhai cybyddlyd roi gair da i'r rhai tosturiol a haelionus. Ond y mae gwobr yn y nefoedd i'r cyfryw rai, heblaw yr hyfrydwch o rodio mewn llwybr mor hardd, ac mor gyttunol â gwir Gristionogrwydd.

SAM. Yna ebe Samuel, Mam, mam, beth a gasglodd fy mrawd, ac a'i bwyttaodd, cyn gynted ag y daethom oddiwrth y porth sydd yn mhen y ffordd hon? Chwi a wyddoch fod yno berllan o'r tu hwnt i'r mur, ar y llaw aswy, ac yr oedd rhai o'r canghenau yn tyfu dros y mur, a'm brawd a gymmerodd rai o honynt, ac a'u bwyttaodd.

SAMUEL YN DWYN AR GOF I'W FAM Y FFRWYTH A FWYTASAI EI FRAWD.

CRIS. Mae yn wir, fy mhlentyn i, efe a'u cymmerodd, ac a'u bwyttaodd; bachgen drwg fel ag oedd, mi a'i ceryddais ef, er hynny efe a fynnai fwytta o honynt.

MEDRUS. Gwybum iddo fwytta rhyw beth a'r nad oedd yn ymborth iachus; a'r ymborth hwnnw, sef y ffrwyth hwnnw, sydd y mwyaf niweidiol o'r cwbl. Ffrwyth perllan Belzebub ydyw ef. Y mae yn rhyfedd gennyf na's rhybuddiodd neb mo honoch o'i blegid; bu llawer farw o'i achos.[c]

CRIS. Yna y dechreuodd Cristiana lefain; a hi a ddywedodd, O fachgen drwg; ac O fam ddiofal! beth a wnaf i fy mab!

MEDR. Dewch, na ddygn-flinwch; gall y bachgen wella etto, ond rhaid iddo gael pethau cryfion a chwerw i'w glirio.

CRIS. Attolwg, Syr, profwch yr eithaf o'ch deall arno, beth bynnag a gostio.

MEDR. Nagê, gobeithio y byddaf gymmedrol. Heb. x. 1—4. Felly efe a wnaeth iddo ef *burge,* ond yr oedd yn rhy wan; dywedwyd ei wneuthur ef o waed geifr, lludw anner, ac ychydig o sudd hysop, &c. Pan welodd Mr. Medrus fod y moddion hynny yn rhy wan, efe a barottodd un i bwrpas; gwnaethpwyd ef *ex carne et sanguine Christi,* sef, o gnawd a gwaed Crist. Ioan vi. 54—57. Marc ix. 49. Heb. ix. 14. [chwi a wyddoch fod physygwyr yn rhoddi cyffeiriau dieithr i'r cleifion]; a gwnaethpwyd ef i fynu yn belenau, ynghyd ag addewid neu ddwy, a mesur cyfattebol o halen.[d] Yr oedd iddo eu cymmeryd dair ar y pryd yn ei gythlwng, mewn hanner chwarter peint o ddagrau edifeirwch. Pan oedd y physygwriaeth yma yn barod, a'i ddwyn at y bachgen, yr oedd yn anhawdd ganddo ei gymmeryd ef, er ei fod yn cael ei rwygo gan y cnofeydd, fel pe buasai yn ei dynnu ef yn llaprau. 'Dewch, dewch,' ebe y physygwr, 'rhaid i chwi ei gymmeryd ef.' 'Y mae ef yn fy stumog i,' ebe y bachgen. 'Mae yn rhaid i mi'th gael i'w gymmeryd ef,' ebe ei fam. Zec. xii. 10. 'Mi a'i chwydaf ef i fynu drachefn,' ebe y bachgen. 'Attolwg, Syr,' ebe

YR WYF YN BENTHYCIO Y LLADIN.

ANHAWDD GAN Y BACHGEN GYMERYD Y PHYSYGWRIAETH.

[c] Y mae'r llangc wedi derbyn goleuni i weled y drwg o'r peth a wnaethai efe gynt. Cristiana a'i gwaharddodd ef ar y pryd, ond y mae hi yn awr yn beio arni ei hunan, am na chymmerasai ychwaneg o boen i geryddu ei phlentyn, a dangos iddo y drwg ganlyniad o fyned yn ol ei chwant ei hun. Dylai rhieni duwiol fod yn fawr eu gofal ynghylch moesau eu plant, a bod yn ddiwyd yn y gwaith o'u ceryddu mewn pryd.

[d] Er fod yr adroddiad am glefyd Matthew, mab Cristiana, a llawer tro ysmala ynddo, o ran y dychymyg mewn ffordd gyffelybiaethol, ac yn enwedig am ei fod yn dwyn i mewn y geiriau Lladin, fel y mae arfer y pen-meddygon; etto mae yma ystyr dwfn yn rhedeg trwy y cyfan, i ddangos i ni nad oes adferiad i bechadur o dan ei glefyd ysprydol, ond trwy rinwedd corph a gwaed Crist, canys efe yw yr unig Physygwr i enaid claf. Ond y mae natur yn barod i wrthwynebu y meddyginiaeth gwerthfawr hwn.

Cristiana wrth Mr. Medrus, 'pa flas sydd iddo?' 'Nid oes dim blas drwg,' ebe y physygwr, a chyda hynny hi a gyffyrddodd âg un o'r pelenau â blaen ei thafod. 'Oh, Matthew,' ebe hi, 'mae y physygwriaeth hwn yn felusach na mêl. Os ydwyt ti yn caru dy fam, os ydwyt ti yn caru dy frodyr, os wyt ti yn caru Trugaredd, os wyt ti yn caru dy fywyd, cymmer ef.' Felly trwy lawer o waith, ar ol gweddi fer am fendith Duw arno, efe a'i cymmerodd ef, ac fe weithiodd yn fwynaidd gydag ef. Parodd iddo arloesi, i gysgu a gorphwys yn esmwyth; gosododd ef mewn gwres hyfryd a chwŷs cymhedrol, ac a'i llwyr ryddhaodd o'i wayw.[e]

**CRISTIANA YN EI BROFI, AC YN EI BERSWADIO.**

**GAIR DUW YN LLAW FFYDD.**

Felly mewn ychydig amser, efe a gododd i fynu, ac a rodiodd oddi amgylch ar bwys ei ffon, ac a aethai o ystafell i ystafell, ac ymddiddanai â Doethineb, Duwioldeb, a Chariad, ynghylch ei afiechyd, a'r modd y gwellhawyd ef.

Wedi i'r bachgen wella, Cristiana a ofynodd i Mr. Medrus, gan ddywedyd, 'Syr, beth a'ch boddlona chwi am eich poen a'ch gofal am danaf fi a'm mab?' Yntef a ddywedodd, 'Rhaid i chwi dalu i Feistr prifysgol y physygwyr, (Heb. xiii. 11—15,) yn ol y rheolau a wnaethpwyd ac a barottowyd yn yr achos hynny.'

CRIS. Eithr, Syr, ebe hi, i ba beth y mae y pelenau hyn yn dda heblaw hyn?

MEDR. Pelenau cyffredinol ydynt; y maent yn dda yn erbyn yr holl glefydau ag y mae pererinion yn ddarostyngedig iddynt; a phan iawn barottoir hwynt, hwy a gadwant yn dda amser allan o feddwl.

**PELENAU YN FEDDYGINIAETH GYFFREDINOL.**

CRIS. Attolwg, Syr, gwnewch i mi ddeuddeg blwchaid o honynt: o blegid os caf fi y rhai yma, ni chymmeraf fi byth un physygwriaeth arall.

MEDR. Mae y pelenau yma yn dda i ragflaenu clefydau, yn gystal ag i iachâu un pan fyddo glaf. Ië, gallaf ddywedyd, a sefyll wrtho, os arfer gwr y physygwriaeth hwn fel y dylai, fe wna iddo fyw yn dragywydd. Ioan vi. 55. Ond, Cristiana anwyl, nid oes i ti roddi y pelenau yma mewn un ffordd arall, ond fel y rhag-ddangosais i; canys os gwnewch, ni wnant ddim llesâd. Felly efe a roddes i Gristiana physygwriaeth iddi ei hun, a'i phlant, ac i Drugaredd: a gorchymynodd i Matthew ochelyd bwytta eirin gwyrdd-leision ond hynny; a chusanodd hwynt, ac a ymadawodd.

**MEWN GWYDRAID O DDAGRAU EDIFEIRWCH.**

Dywedwyd wrthych o'r blaen, i Ddoethineb orchymmyn i'r bechgyn, os ar un pryd y chwennychent ofyn iddi ryw gwestiynau a fyddai buddiol, y rhoddai hithau ryw atteb iddynt hwy.

MAT. Yna Matthew, yr hwn a fuasai glaf, a ofynodd iddi, Beth oedd yr achos fod physygwriaeth, gan mwyaf, yn chwerw i'n geneuau ni?

**AM PHYSYGWRIAETH.**

DOETH. I ddangos leied croesaw sydd i air Duw, a'r effaith o hono, gyda chalon gnawdol.

[e] Ni a welwn yma ddangosiad o'r effeithiau cysurus a b ofir gan yr enaid sydd wedi gwneuthur derbyniad o Grist trwy ffydd; y mae wedi myned i mewn i orphwysfa, ac yn mwynhâu gwir dangnefedd.

MAT. Paham y mae physygwriaeth, os bydd efe yn llesâu, yn carthu ac yn peri cyfogi? AM EI EFFEITHIAU.

DOETH. I ddangos fod y gair, pan fyddo yn gweithio yn effeithiol, yn glanhâu y galon a'r meddwl; canys fel y mae un yn gwneuthur i'r corph, y gwna y llall i'r enaid.

MAT. Beth a ddylem ni ei ddysgu wrth weled fflam y tân yn myned i fynu? Ac oddiwrth weled pelydr a hyfryd rinwedd yr haul yn taro i wared? AM DAN AC AM YR HAUL.

DOETH. Wrth ddyrchafiad y fflam y dysgir i ni esgyn i fynu i'r nefoedd, mewn dymuniadau gwresog. Ac oddiwrth fod yr haul yn danfon ei wres, a'i belydr, a'i hyfryd rinweddau i lawr; y dysgir ni fod Achubwr y byd, er ucheled, yn cyrhaedd i lawr attom ni yn ei ras a'i gariad.

MAT. O ba le mae y cymmylau yn cael dwfr?

DOETH. O'r môr. AM Y CYMYLAU.

MAT. Beth sydd i ni ddysgu oddiwrth hynny?

DOETH. Y dylai gweinidogion gyrchu eu hathrawiaeth oddiwrth Dduw.

MAT. Paham y mae y cymmylau yn ymarllwys ar y ddaear?

DOETH. I ddangos y dylai gweinidogion roddi allan i'r byd yr hyn a wypont am Dduw.

MAT. Paham y mae yr haul yn achos o fwa y gwlaw?

DOETH. I ddangos fod cyfammod gras Duw wedi ei sicrhâu i ni yn Nghrist. AM YR ENFYS

MAT. Paham y mae'r ffynhonau yn dyfod o'r môr trwy y ddaear i ni? AM Y FFYNHONAU.

DOETH. I ddangos fod gras Duw yn dyfod i ni trwy gorph Crist.

MAT. Paham y mae rhai ffynhonau yn tarddu o bennau bryniau uchel?

DOETH. I ddangos y bydd i Yspryd y Gras darddu mewn rhai mawr a galluog, yn gystal ag mewn rhai tlawd ac isel.

MAT. Paham y mae y tân yn ymaflyd yn mhabwyryn y ganwyll? AM Y GANWYLL.

DOETH. I ddangos mai oddieithr i ras ennyn ar y galon, na bydd gwir oleuni y bywyd ynom.

MAT. Paham y mae y pabwyryn a'r gwer, a'r cwbl yn treulio, i gynnal goleuni y ganwyll?

DOETH. I ddangos y dylai y corph a'r enaid, a'r cwbl, fod i wasanaeth Duw, ac i'w treulio i gynnal mewn gwedd dda, ras Duw yr hwn sydd ynom.

MA Paham y mae y pelican yn gwanu ei dwyfron â'i phîg? AM Y PELICAN.

DOETH. I fagu ei rhai bach â'i gwaed, a thrwy hynny i ddangos fod y Crist bendigedig yn caru ei rai bychain, sef ei bobl, fel yr achubodd efe hwynt rhag marwolaeth trwy ei waed.

AM Y CEILIOG.

MAT. Beth a ddichon dyn ei ddysgu wrth glywed y ceiliog yn canu?

DOETH. Dysgu cofio pechod Pedr a'i edifeirwch. Y mae caniad y ceiliog yn dangos fod y dydd yn nesâu; bydded ynte i ganiad y ceiliog dy osod dithau mewn cof am ddydd ofnadwy y farn ddiweddaf.

Ac yn awr ynghylch hyn yr oedd eu mis allan, gan hynny gwnaethant y tŷ yn gydnabyddus, fod yn addas iddynt ymbarottoi i fyned. Yna ebe Ioseph wrth ei fam, 'Y mae yn addas nad anghofioch ddanfon i dŷ Mr. Deonglwr, i ddeisyf arno ganiattâu

GALLY GWAN WEITHIAU ALW Y CRYF I WEDDI.

anfon Mr. Dewr-galon attom ni, i fod yn hyfforddwr i ni yn y rhan arall o'n ffordd.' 'Da machgen i,' ebe hi, 'bum agos i anghofio.' Felly hi a wnaeth betisiwn, ac a ddeisyfodd ar Mr. Gwyliadwrus, y porthor, ei anfon ef yn llaw gwr cymmwys, at ei chyfaill da Mr. Deonglwr; yr hwn pan ei derbyniodd, ac edrych ar ystyr y petisiwn, a ddywedodd wrth y gennad, 'Dos a dywed wrthynt y danfonaf fi ef.'

Pan welodd y tylwyth lle yr oedd Cristiana, eu bod yn bwriadu myned rhagddynt,

MAENT YN PAROTOI I FYNED RHAGDDYNT.

galwasant yr holl deulu ynghyd i roddi diolch i'w Brenin, am ddanfon y cyfryw lettywyr buddiol a'r rhai hyn attynt. Wedi hyn, dywedasant wrth Gristiana, 'Oni chawn ni ddangos i ti ryw bethau, yn ol ein harfer i'r pererinion, ar yr hyn y gallot fyfyrio pan fyddot ar y ffordd?' Felly hwy a gymmerasant Gristiana a'i

AFAL EFA.

chwmpeini i'r ystafell, ac a ddangosasant iddynt un o'r afalau y bwyttasai Efa o honynt, ac a'i rhoisai hefyd i'w gwr, ac o achos bwytta o hono y trowyd hwynt eill dau allan o Baradwys; a gofynasant iddi, beth oedd hi yn dybied ydoedd hwnnw? Yna

ARSWYDUS YW GOLWG AR BECHOD.

ebe Cristiana, 'Naill ai bwyd a'i gwenwyn yw ef, nis gwn i pa un.' Felly hwythau a agorasant y matter iddi, hithau a gyfododd ei dwylaw i fynu, a rhyfeddodd. Gen. iii. 5. Rhuf. vii. 24.[f]

Yna yr aethant a hi i fan arall, ac a ddangosasant iddi ysgol Iacob. Ac yr oedd

YSGOL IACOB.

y pryd hynny rai angylion yn esgyn i fynu ar hyd-ddi. A Christiana a edrychodd ac a edrychodd i weled yr angylion yn myned i fynu; ac felly y gwnaeth y lleill o honynt. Yna yr oeddynt yn myned i le arall, i ddangos iddynt ryw bethau

DYMUNOL YW YR OLWG AR GRIST.

heblaw hynny: ond Iago a ddywedodd wrth ei fam, am geisio ganddynt aros ychydig yn hwy, o achos mai golwg ddymunol oedd honno. Felly hwy a droisant eilwaith, i borthi eu llygaid ar edrychiad mor dirion. Wedi hyn yr

ANGOR AUR.

aethant a hwy i le yr oedd angor aur yn crogi, yna parasant i Gristiana ei thynnu i lawr; Canys, ebe hwy, chwi a'i cewch hi gyda chwi, (Gen. xxviii. 12,) o blegid y mae hi yn llwyr angenrheidiol i chwi, fel y galloch gymmeryd gafael ar yr hyn sydd tu fewn i'r llen; yna bydd i chwi sefyll yn ddiogel os cyfarfyddwch â thywydd garw: ac yr oeddynt yn dra llawen o honi. Ioan i. 15. Heb. vi. 19.

[f] Buddiol i ni edrych yn ol at wreiddyn ein trueni, yr achos dechreuol o bob drwg, fel y bo i ni ymostwng ein hunain ger bron Duw, a'i glodfori ef am ei werthfawr ras trwy Iesu Grist yr Ail Adda. Wedi i ni gael ein dwyn at Dduw, gochelwn rhag i'r temptiwr ein twyllo ni i fwytta'r ffrwyth gwaharddedig.

Gen. xxviii. 12.[g] Yna y cymmerasant hwy, ac a aethant i'r mynydd lle yr offrymodd Abraham ein tad Isaac ei fab, ac a ddangosasant iddynt yr allor, y coed, y tân, a'r gyllell, o blegid y maent i'w gweled hyd heddyw. A phan y gwelsant ef, codasant eu dwylaw i fynu, ac a ddywedasant, Oh! pa fath wr a chariad at ei Feistr, ac o hunan-ymwadiad, oedd Abraham! Ar ol dangos y pethau hyn iddynt, Doethineb a'u dug hwynt i'r ciniaw-le, lle yr oedd offer cerddoriaeth; felly hi a chwareuodd arnynt, ac a drodd yr hyn a ddangosasid iddynt ar fesur cerdd, gan ddywedyd:

AM ABRAHAM YN OFFRYMU ISAAC.

OFFER CERDD DOETHINEB.

'Yma y gwelsoch afalau Efa,
Cymmerwch rybudd rhag eu bwytta;
Gwelsoch hefyd ysgol Iaco',
A'r angylion yn ei dringo.

Yr angor aur a roddwyd i chwi;
Na adewch hynny i'ch boddloni,
Nes offrwm gydag Abraham ffyddlon,
Eich goreu i Dduw o 'wyllys calon.'

Ynghylch y pryd hyn y curodd un wrth y drws: a'r Porthor a'i hagorodd, ac wele Mr. Dewr-galon oedd yno! Ond pan ddaeth efe i mewn, O y llawenydd oedd yno! o blegid daeth yn awr o'r newydd i'w cof, y modd y lladdasai efe yn ddiweddar yr hen gawr Garw-guchiog waedlyd, a'u gwared rhag y llewod.

DEWR-GALON YN DYFOD EILWAITH.

Yna ebe Mr. Dewr-galon wrth Gristiana a Thrugaredd, 'Danfonodd fy Arglwydd gostrelaid o wîn i bob un o honoch, ac ychydig gras-ŷd hefyd, a chwpl o bomgranadau: danfonodd beth ffigys hefyd i'r meibion, i'w llonni ar y ffordd.[h]

DYGODD ANRHEG ODDI WRTH EI ARGLWYDD.

Yna hwy a ymbarottoisant gyferbyn a'u siwrnai; a Doethineb a Duwioldeb a aethant gyda hwy. Pan ddaethant at y porth, gofynodd Cristiana i'r Porthor a aethai neb yn ddiweddar heibio? Yntef a ddywedodd, nad aethai oddigerth un, yr hwn hefyd a fynegodd iddo fod yspeilio mawr wedi bod yn ddiweddar ar brif-ffordd y Brenin, y ffordd yr ydych chwi yn myned; ond bod y lladron wedi eu dala, ac y profid hwy am eu bywyd ar fyrder. Yna yr ofnodd Cristiana a Thrugaredd; eithr ebe Matthew, 'Mam, nac ofnwch ddim, cyhyd ag y byddo Mr. Dewr-galon gyda ni, ac i fod yn flaenor i ni.'

Yna ebe Cristiana wrth y Porthor, 'Syr, yr wyf yn dra rhwymedig i chwi am yr

[g] Gobaith bywiol sydd angor yr enaid, yn ein cadw mewn diogelwch trwy'r stormydd. Ffydd yw sail gobaith, sef y mae hi yn ein dysgu ni i fyw mewn disgwyliad o'r pethau daionus sydd gynnwysedig yn yr addewidion dwyfol. Y mae ffydd yn eu cofleidio, ac yn ymddiried ynddynt, a gobaith sydd yn edrych am y cyflawniad a'r mwynhâd o honynt.

[h] Y mae eu Harglwydd yn danfon cymhorth iddynt yn ol eu rhaid, gydag arwyddion newydd o'i gariad.

CRISTIANA YN DIOLCH I'R PORTHOR.

holl garedigrwydd a ddangosasoch tuag attaf fi er pan ddaethum yma; ac hefyd am eich bod mor fwyn a charedig at fy mhlant; nis gwn i pa fodd i fod yn ddigon diolchgar i chwi am eich caredigrwydd: gan hynny, attolwg, derbyniwch y rhodd fechan hon oddi wrthyf, megis arwydd o'm parch i chwi; felly hi a osododd ddarn o aur yn ei law ef, yntef a ymgrymodd iddi, ac a ddywedodd, "Bydded dy wisgoedd yn

BENDITH Y PORTHOR.

wŷnion bob amser, ac na fydded diffyg olew ar dy ben." Preg. ix. 8. 'Bydded Trugaredd fyw, ac nid marw, ac na fydded ei gweithredoedd yn anaml.' A dywedodd wrth y bechgyn, 'Ffowch oddiwrth chwantau ieuengctid, a dilynwch y duwiol, gyda'r sawl sydd bwyllog a doeth, (2 Tim. ii. 22,) a thrwy hynny y gosodwch lawenydd yn nghalon eich mam, ac y cewch glod gan bawb fydd o feddwl sobr:' felly hwy a ddiolchasant i'r Porthor, ac a ymadawsant.

Yn awr mi a welwn yn fy mreuddwyd, iddynt fyned ymlaen nes eu dyfod at ael y bryn, lle yr adgofiodd Duwioldeb ei hunan, a gwaeddodd allan, Och fi! mi a ebargofiais yr hyn a fwriedais ei roddi i Gristiana a'i chwmpeini; mi a âf yn ol i'w gyrchu; felly hi a redodd ac a'i cyrchodd ef. Tra yr aeth hi, Cristiana a dybiodd glywed o honi mewn coedwig, ychydig ar y llaw ddehau, dôn felus-gerdd dra hyfryd, a geiriau cyffelyb i'r rhai hyn:

'Trwy'm bywyd oll dy nawdd y sydd
Yn rhwydd bob dydd yn dyfod,
Fel y gallwyf anneddu byth
A'm nyth yn nhŷ fy Ynod.'

A chan glust-feinio yn hŵy, hi a dybiai glywed un arall yn ei atteb, fel hyn:

'Yn wir ein Harglwydd sydd Dduw da,
Ei ras sy'n parhâu bythoedd;
A'i wirionedd, diysgog yw,
At bob peth byw'n oes oesoedd.'

Yna gofynodd Cristiana i Ddoethineb, Beth oedd yn gwneuthur y llais peraidd hynny? Can. ii. 11, 12. 'Adar ein gwlad ni ydynt hwy,' ebe hi: 'nid ydynt yn canu'r nodau yma ond weithiau, oddi eithr yn y gwanwyn, pan y mae'r blodau yn torri allan, a'r haul yn llewyrchu yn dwym, ar y prydiau hynny chwi a ellwch eu clywed hwy trwy'r dydd. Yr wyf fi,' ebe hi, 'yn myned yn fynych i'w clywed; ni a fyddwn yn arfer yn fynych eu cadw yn wir yn ein tai. Y maent hwy yn gymdeithion rhagorol i ni pan y byddom mewn prudd-der; gwnant hefyd y coedydd a'r llwyni, a lleoedd anghyfannedd, yn lleoedd dymunol i fod ynddynt.'[1]

[1] Mae hyn yn arwyddoccâu y pleser a'r hyfrydwch a feddiannir gan blant yr Arglwydd ar eu taith. Mae efe yn tywynnu arnynt â llewyrch ei wyneb, ac yn eu gwneuthur yn ddedwyddach na'r rhai a fwynhânt holl anrhydedd a golud y byd.




The Valley of Humiliation.

Dyffryn Darostyngol

Erbyn hyn yr oedd Duwioldeb wedi dyfod drachefn; 'Gwel yma,' ebe hi wrth Gristiana, 'dygais i ti ddull yr hyn oll a welaist yn ein tŷ ni, ar yr hyn y gelli edrych pan fyddi anghofus, a galw'r pethau hynny i gof drachefn, er adeiladaeth a chysur i ti.

DUWIOLDEB YN EU HANRHEGU WRTH YMADAEL.

Yn awr dechreuasant fyned i wared i Ddyffryn Darostyngiad. Yr oedd y disgyniad yn serth, a'r ffordd yn llithrig; ond yr oeddynt hwy yn dra gofalus, ac aethant i lawr yn hollol dda. Pan oeddynt i lawr yn y dyffryn, dywedodd Duwioldeb wrth Gristiana, mai dyna'r lle y cyfarfu ei gwr â'r ellyll echrydus Apolyon, a lle bu yr ymladdfa fawr honno rhyngddynt: mi a wn na's gallasech lai na chlywed o'i blegid. Ond byddwch galonog, gobeithio yr ymdarewch chwi yn well, cyhyd ag y byddo Dewr-galon yn arweinydd ac yn gynnorthwywr i chwi. Ac wedi i'r ddwy hyn roddi y pererinion i ofal eu harweinydd, efe a aeth o'r blaen, a hwythau a'i canlynasant ef.

DEWR. Yna ebe Mr. Dewr-galon, Nid rhaid i ni gymmaint ofni'r dyffryn yma, o blegid nid oes yma ddim ag a wna niweid i ni, onis tynnwn ni ef arnom ein hunain. Y mae yn wir, fe gyfarfu Cristion âg Apolyon yma, â'r hwn hefyd y cafodd frwydr chwerw; ond y gynnen hynny oedd ffrwyth ei lithriadau ef, wrth ddyfod i wared i'r bryn: canys rhaid i'r sawl sydd yn llithro yno, ddisgwyl am frwydr yma. Ac o'r achos hynny y cafodd y dyffryn hwn cyn galetted enw. O blegid mae y bobl gyffredin, pan glywont fod rhyw beth dychrynllyd wedi digwydd i'r cyfryw un yn y lle a'r lle, o'r opiniwn, fod rhyw ellyll echrydus, neu ddrwg yspryd, yn aflonyddu'r cyfryw le; eithr eu camymddygiad eu hunain yw'r achos fod y cyfryw bethau yn digwydd iddynt.

DEWR-GALON YN NYFFRYN GOSTYNGEIDDRWYDD.

Y mae Dyffryn Gostyngeiddrwydd, o hono ei hun, mor ffrwythloned lle ag un yr ehedodd brân drosto; ac y mae yn sicr gennyf fi, pe gallem ni gyfarfod âg ef, y caem weled rhyw beth yn rhyw le oddi amgylch yma ag a roddai i ni hanes o ba herwydd yr ymosodwyd mor galetted ar Gristion yn y lle hwn.

PAHAM YR YMOSODWYD MOR GALED AR GRISTION YN NYFFRYN GOSTYNGEIDDRWYDD.

Yna ebe Iago wrth ei fam, 'Wele accw draw golofn yn sefyll, ac y mae hi yn edrych fel pe byddai ryw beth wedi ei ysgrifenu arni, gadewch i ni fyned i weled beth yw ef. Felly hwy a aethant, ac a gawsant yn ysgrifenedig arni fel hyn: 'Bydded i lithriadau Cristion cyn ei ddyfod yma, a'r brwydrau a gyfarfu ef yn y lle hwn, fod er rhybudd i'r sawl a ddelo ar ol.' Wele, ebe eu harweinydd, oni fynegais i chwi fod yma ryw beth oddi amgylch ag a arddangosai y rheswm o ba herwydd yr ymosodwyd mor galetted ar Gristion yn y lle hwn. A chan droi at Gristiana, efe a ddywedodd, Nad oedd ef yn fwy o warth i Gristion, nac i lawer eraill ag oedd yn digwydd iddynt fel yntef. O blegid y mae yn hawsach myned i fynu y bryn hwn na myned i wared, ac ni ellir dywedyd hynny ond am ychydig o fryniau yn yr holl ranau yma o'r byd. Ond ni a adawn y gwr da, y mae efe yn ei esmwythder, efe a gafodd fuddugoliaeth

COLOFN AG YSGRIFEN ARNI.

wych ar ei elyn: a chaniattaed Preswylydd yr uchelder, na ddigwyddo gwaeth i ninnau pan ein profer, nag iddo yntef.[k]

Ond ni a ddeuwn etto i'r Dyffryn o Ddarostyngiad. Y darn goreu a mwyaf ffrwythlon o dir yw hwn yn yr holl ardaloedd hyn. Tir bras yw efe, ac fel y gwelwch chwi, y mae llawer o hono yn weirgloddydd; a phe byddai i ddyn ddyfod yma yn amser haf, fel ag yr ydym ni yn awr, heb wybod dim oddi wrtho o'r blaen, ac os byddai yn ymhyfrydu yngolwg ei lygaid, fe allai gael gweled yr hyn fyddai bleserus iddo. Gwelwch pa mor wyrddlas yw y dyffryn hwn, ac wedi ei harddu hefyd â lili. Can. ii. 1. Iago iv. 6. 1 Pedr v. 5. Myfi a adwaenwn lawer o wyr diwyd a ennillasant ystad dda yn y Dyffryn hwn o Ostyngeiddrwydd; (canys y mae Duw yn gwrthwynebu y beilchion, ond yn rhoddi mwy-fwy o ras i'r gostyngedig;) canys yn wir tir tra chnydfawr yw ef, ac yn dwyn ffrwyth yn ddyrneidiau. Rhai hefyd a chwennychasant, pe buasai y ffordd i dŷ eu Tad yma o hyd, fel na flinasid hwy mwyach trwy orfod myned tros fryniau a mynyddoedd; ond y ffordd yw y ffordd, a thyna ddiwedd.

Y DYFFRYN HWN YN LLE FFRWYTHLON.—

MAE POBL YN LLWYDDO YN NYFFRYN DAROSTYNGIAD.

Ac yn awr wrth fyned ymlaen, gan ymddiddan, canfyddent fachgen yn bugeilio defaid ei dad. Yr oedd y bachgen mewn dillad gwael iawn, ond o wynebpryd bywiog a serchoglân; a chan eistedd wrtho ei hun, efe a ganodd. 'Gwrandewch,' ebe Mr. Dewr-galon, 'beth y mae y bachgen bugail yn ei ddywedyd:' felly hwy a wrandawsant, ac yntef a ddywedodd:

'Nid rhaid i'r difalch isel ofni
Syrthio'n îs, ond goch'lyd pechu:
Fe gaiff y gostyngedig duwiol,
Dduw'n arweinydd i'r wlad nefol.

Boddlon wyf i'r hyn sydd genni,
Os bydd e'n fychan neu i ragori;
A boddlonrwydd byth wy'n fegian,
Gyda'm cadw o grampau Satan.

Byd rhy lawn i'r pererinion
Sy'n faich trwm yn pwyso'r galon,
Rhag myn'd yn hwylus yn eu siwrne,
Trwy'r byd hwn i'w nefol artre.

[k] Mae rhai Cristionogion yn treulio dyddiau eu hoes yn y dyffryn; hynny yw, y maent yn cyfarfod â llawer o orthrymder i flino ac i ddarostwng eu hysprydoedd, ond y mae hynny yn angenrheidiol ac yn llesol iddynt. Dylem gymmeryd ein cystudd yn addfwyn ac yn ddiddig, ac felly Duw a bereiddia y dyfroedd chwerwon i ni. Nid oes achos i'r Cristion, er cael llawer o dreialon, ymollwng i dristwch a thrymder yspryd, o herwydd mae ffydd a gobaith yn ddigon i gynnal yr enaid, fel y byddo i ni ymorphwys yn ngariad Duw mewn tawelwch, er cael llawer dyrnod gan Satan a'r byd.

Cael ychydig yma i'n cynnal,
A chael yn ol hyn y nef reial,
Ydyw'r goreu ar les y duwiol,
Yn ol meddwl eu tad nefol.'

Yna ebe'r arweinydd, A glywch chwi ef? Mi allaf ddywedyd, fod y bachgen hwn yn byw yn llawenach, ac yn gwisgo mwy o'r llysieuyn a elwir esmwythdra calon yn ei fynwes, na'r rhai sydd wedi eu gwisgo mewn sidan a melfed; ond ni a awn ymlaen yn ein hymddiddan.

Yn y dyffryn hwn yr oedd gynt dŷ gan ein Harglwydd: yr oedd ef yn hoffi yn fawr fod yma; yr oedd efe hefyd yn caru rhodio yn y gweirgloddydd hyn, canys yr oedd efe yn profi yr awyr yn hyfryd. Heblaw hynny, bydd dyn yma yn rhydd oddiwrth swn a thrafferth y bywyd hwn; y mae pob cyflwr yn llawn swn a therfysg, ond Dyffryn Gostyngeiddrwydd, yr hwn sydd le gwag a neillduol. Ni chaiff dyn ei attal a'i luddias yma yn ei ddwys-fyfyrdod, megis y mae yn dueddol mewn lleoedd eraill. Dyffryn yw hwn na rodia neb ynddo, ond y sawl sydd yn caru bywyd pererindod.[1]

CRIST PAN YN Y CNAWD A HOFFAI Y DYFFRYN HWN.

Ac er i Gristion gael cyfarfod Apolyon yma, a myned mewn ymdrechfa wrolwych âg ef; er hynny rhaid i mi ddywedyd wrthych, i wŷr gynt gyfarfod âg angylion yma, a chael perlau yma, ac yma y cawsant air y bywyd. Hos. xii. 4, 5.

A ddywedais i wrthych fod gan ein Harglwydd annedd yma yn y dyddiau gynt, a'i fod ef yn caru rhodio yno? Mi a chwanegaf, ei fod ef wedi gadael yn yr ardd yma, i'r bobl sydd yn byw, ac yn rhodio y tiroedd hyn, ardreth flynyddol, i'w dalu yn ffyddlon iddynt ar amserau nodedig, tuag at eu cynnaliaeth ar y ffordd, ac er ychwaneg o annogaeth iddynt fyned ymlaen yn eu pererindod. Mat. xi. 29.

SAM. Ac wrth fyned ymlaen, dywedodd Samuel wrth Mr. Dewr-galon, Syr, yr wyf fi yn deall mai yn y dyffryn hwn y bu y frwydr rhwng fy nhad ag Apolyon; ond ynghylch pa fan y bu yr ymladd? canys yr wyf fi yn deall fod y dyffryn hwn yn helaeth.

DEWR. Bu y frwydr honno rhyngddynt, accw draw o'n blaen ni, mewn ffordd gul, y tu hwnt i Faes Anghof. Ac yn wir dyna y lle enbyttaf yn yr holl ardaloedd hyn. O blegid os rhuthrir ar y pererinion un pryd, fe fydd pan anghofiont y ffafr a dderbyniasant, a'u hannheilyngdod o honynt. Dyna'r fan hefyd yr ymosodwyd yn galed ar eraill; ond rhagor am y lle pan y delom iddo: canys yr wyf fi yn fy mherswadio

MAES ANGHOF.

[1] Addfwyn a gostyngedig oedd ein Harglwydd, a bywyd o flinder oedd ei fywyd ef yn y cnawd. Dylai y disgybl fod fel ei Arglwydd, o ran ei yspryd a'i ymarweddiad, a rhaid iddo gyfarfod â blinderau a gofidiau wrth ganlyn ei Arglwydd. Ond gochelwn ddwyn blinder arnom ein hunain, a chael ein gwasgu i lawr dan faich o euogrwydd trwy aml lithriadau. Dysgwn fod yn wyliadwrus, ac ni a gawn bresennoldeb ein Harglwydd wrth fyned trwy ddyffryn wylofain, ac efe a sancteiddia bob croes a chystudd i ni.

2 E

fy hun, fod yno hyd heddyw naill ai rhyw argoel o'r frwydr, neu ynte ryw golofn coffadwriaeth i dystiolaethu fod y fath ymladd wedi bod yno.

TRUG. Yna ebe Trugaredd, Yr wyf fi yn meddwl fy mod cystal yn y dyffryn hwn ag y bum i yn un lle arall yn fy holl daith: yr wyf fi yn meddwl fod y lle yn cyd-weddu â'm hyspryd i. Yr wyf yn caru bod lle na byddo trwst cerbydau, na gwag swn y byd: mi a debygwn, y dichon un yma, heb lawer o aflonyddwch, feddwl beth yw efe, o ba le y mae yn dyfod, pa fodd y dylai ymddwyn, ac i ba beth y galwodd y Brenin ef: yma y gall un fyfyrio, a bod yn ddrylliedig o galon, ac yn doddedig o yspryd, nes y bo ei lygaid fel y "pysgod-lynoedd yn Hesbon." Can. vii. 5. Psalm lxxxiv. 5, 6, 7. Hos. ii. 15. Y sawl a ânt yn iawn trwy y dyffryn Bacca hwn, a'i gwnant ef yn ffynnon, a'r gwlaw a ddenfyn Duw o'r nefoedd ar y rhai sydd yma, "a leinw y llynoedd." O'r dyffryn hwn hefyd y rhydd y Brenin winllanoedd i'w eiddo; a'r rhai a ânt trwyddo a ganant fel y gwnaeth Cristion, er iddo gyfarfôd âg Apolyon.

GRAS HYFRYD YW GOSTYNGEIDDRWYDD.

DEWR. Gwir yw, ebe eu harweinydd, mi a aethum trwy y dyffryn hwn lawer gwaith, ac ni buais i erioed gwell na thra byddwn yma.

PROFIAD O HONO.

Mi a fum hefyd lawer gwaith yn hyfforddwr i bererinion, a hwythau a addefent yr un peth, "Ar hwn yr edrychaf, (ebe y Brenin,) sef ar y truan, a'r cystuddiedig o yspryd, ag sydd yn crynu wrth fy ngair i." Esa. lxvi. 2.[m]

Erbyn hyn yr oeddynt wedi dyfod i'r fan lle y bu y frwydr a grybwyllwyd o'r blaen. Yna ebe'r arweinydd wrth Gristiana, ei phlant, a Thrugaredd, Dyma'r fan: ar y tir hwn yr oedd Cristion yn sefyll, ac i fynu yna y daeth Apolyon yn ei erbyn ef: a gwelwch, oni ddywedais i wrthych chwi, dyma beth o waed eich gwr ar y cerrig hyd heddyw: wele, hefyd, fel y mae yma ac accw i weled ar y lle rai darnau o biccellau drylliog Apolyon; gwelwch hefyd, y modd y curasant y tir â'u traed wrth ymladd, i wneuthur eu lleoedd yn dda yn erbyn eu gilydd; a'r modd hefyd yr holltasant y cerrig yn ddrylliau â'u gwrth-ergydion; yn wir Cristion a chwareuodd y gwr yma, ac a ddangosodd ei hun mor lew a phe buasai Hercules ei hun yma. Wedi i Apolyon gael ei orthrechu, ciliodd yn ol i'r dyffryn nesaf, a elwir Dyffryn Cysgod Angau, at yr hwn y deuwn ar fyrder.

Y LLE Y BU CRISTION AC APOLYON YN YMLADD.

ARWYDDION O'R FRWYDR YN AROS.

Wele, y mae draw hefyd golofn o goffadwriaeth yn sefyll, ar yr hon y mae yn argraffedig y frwydr honno, a buddugoliaeth Cristion, i'w glod, trwy yr holl oesoedd: ac o herwydd ei bod yn sefyll yn ymyl y ffordd yn gymmwys o'u blaen, hwy a aethant atti, ac a ddarllenasant yr ysgrifen, yr hon oedd fel hyn:

COFADAIL O FUDDUGOLIAETH CRISTION.

[m] Gan fod yspryd isel a gostyngedig o gymmaint gwerth yngolwg Duw, dylem fod yn ddiolchgar am bob goruchwyliaeth a fo yn tueddu i ddwyn i lawr ein meddyliau uchel, ac i feithrin ynom dymmer mor hardd ac mor weddaidd. Gwell i ni gael ein difwyno o bob meddiant bydol, a cholli y byd, a'n hiechyd, a'n parch, nac ymchwyddo ac ymfalchïo, a cholli gras a chariad Duw o'n calonau.

'Gerllaw y bu ymladdfa faith,
Tra dieithr, ac etto'n sicr,
Rhwng Cristion ac Apolyon hyll,
Yn erchyll ac yn 'sgeler.

Y gwr a wnaeth ei ran fel gwr,
Fe wnaeth i'r dryg-wr ffeio ;
'Rwy'n sefyll yma yn arwydd fyth,
I bawb dros fyth i'w dystio.'

Wedi eu myned heibio i'r lle hwn, hwy a ddaethant i gyffiniau Cysgod Angau, ac yr oedd y dyffryn hwn yn hŵy na'r llall; a lle yw ef hefyd ag sydd yn cael ei aflonyddu â phethau drwg, fel y gall llawer dystiolaethu : ond y gwragedd a'r plant hyn a aethant yn well trwyddo, o herwydd iddynt gael goleu dydd, ac o achos bod Mr. Dewr-galon yn arweinydd iddynt.

Wedi iddynt ddechreu myned i'r dyffryn hwn, tybient eu bod yn clywed griddfanau, megis dynion yn meirw; griddfanau trist iawn. Tybient hefyd eu bod yn clywed geiriau o alarnad, yn cael eu llefaru gan rai megis mewn dirboenau. Gwnaeth hyn i'r llangciau grynu, ac i'r gwragedd edrych yn llwyd-las ; ond eu harweinydd a barodd iddynt fod yn gysurus. GRIDDFANAU.

Felly hwy a aethant ychydig yn mhellach, a thybient eu bod yn teimlo'r tir yn dechreu crynu danynt, fel pe buasai yno ryw le cau; clywent hefyd fath o chwibaniad, megis gan seirph, ond nid oedd dim etto yn ymddangos. Yna ebe'r llangciau. 'A ydym ni ddim etto yn agos i ddiwedd y lle alaethus hwn?' Ond eu harweinydd a barodd iddynt fod yn galonog, ac i ddisgwyl yn fanwl at eu traed, rhag digwydd eu dala mewn rhyw fagl. Y TIR YN CRYNU.

Erbyn hyn Iago a ddechreuodd fod yn glaf, ond yr achos o hono, fel yr wyf fi yn tybied, oedd ofn; ond ei fam o roddodd iddo ychydig o wîn o'r bottel a roddasid iddi yn nhŷ y Deonglwr, a thair o'r pelenau a ddarparasai Mr. Medrus, a'r bachgen a adfywiodd. IAGO YN GLAF GAN OFN.

Fel hyn yr aethant ymlaen, nes eu dyfod i ganol y dyffryn; ac yna ebe Cristiana, 'Mi a debygwn fy mod yn gweled rhyw beth draw ar y ffordd o'n blaen ni; peth o'r fath agwedd na's gwelais i ei gyffelyb.' Yna ebe Ioseph, 'Mam, beth yw ef?' 'Peth diffaith yw efe, fy mab; peth hagr yw efe,' ebe hi. 'Ond tebyg i beth yw ef?' ebe fe. 'Tebyg i beth nis gwn i,' ebe hithau. Ac erbyn hyn nid oedd efe yn neppell o ffordd; yna ebe hi, 'Y mae efe gerllaw.' Y DIAFOL YN YMDDANGOS. Y PERERINION YN OFNI.

'Wel,' ebe Mr. Dewr-galon, 'Cadwed y rhai mwyaf ofnus yn agos attaf fi;' felly yr ellyll a ddaeth yn mlaen, a'r arweinydd a'i cyfarfu ef; ond pan ddaeth DEWR-GALON YN EU CALONOGI.

efe hyd atto ef, efe a ddiflanodd allan o'u golwg hwynt; yna y cofiasant yr hyn a ddywedwyd gynt; "Gwrthwynebwch ddiafol, ac efe a ffy oddi wrthych." Iago iv. 7.

Hwy a aethant ymlaen gan hynny, wedi iddynt ymadfywio ychydig; ond nid aethant yn neppell, cyn i Drugaredd edrych o'i hol, a hi a ganfu, fel y tybiai hi, ryw beth tebyg i lew, yn cerdded yn dra thrwsgl ar eu hol: a chanddo lais rhuadwy; gwnai i'r holl ddyffryn ddadseinio pan ruai, a'u calonau hwythau i grynu, oddieithr calon eu harweinydd. Felly efe a ddaeth i fynu; a Mr. Dewr-galon a aeth o'u hol, ac a osododd y pererinion i gyd o'i flaen. Felly y llew a ddaeth yn mlaen bob yn ychydig, a Mr. Dewr-galon a ymbarottodd i ymladd âg ef. 1 Pedr v. 8. Ond pan welodd efe ei fod yn bwriadu ei wrthwynebu ef, yntef a dynnodd yn ei ol, ac ni ddaeth efe yn mhellach.[n]

Wedi hynny yr aethant ymlaen drachefn, a'u cynnorthwywr a aeth o'u blaen hwynt, nes y daethant i fan yr oedd pwll wedi ei gloddio dros lêd y ffordd; a chyn iddynt fod

PWLL A THYWYLLWCH.

yn barod i fyned trosodd, syrthiodd niwl a thywyllwch mawr arnynt, fel nas gallent weled. Yna ebe'r pererinion, 'Gwae ni! beth a wnawn ni yn awr?' Ond eu harweinydd a'u hattebodd, 'Nac ofnwch, sefwch yn llonydd, a gwelwch pa ddiwedd a wna efe i hyn hefyd;' felly hwy a arosasant yno, o achos bod eu ffordd wedi ei chau i fynu. Tybient hefyd eu bod yn clywed yno eglurach swn a rhuthr eu gelynion; yr oeddynt yn canfod hefyd yn eglurach y tân a'r mwg o'r pydew. Yna ebe Cristiana wrth

CRISTIANA YN DIRNAD BETH A DEIMLASAI EI GWR.

Drugaredd, 'Yn awr y gwelaf beth yr aeth fy ngwr druan trwyddo; mi a glywais lawer am y lle hwn, ond ni bum i yma erioed o'r blaen: druan gwr! efe a aeth wrtho ei hun y ffordd hon, ar hyd nos; cafodd hi yn nos gan mwyaf trwy yr holl ffordd; ac yr oedd yr ellyllon hynny yn ddibaid o'r ddau tu iddo, fel pe mynasent ei dynnu ef yn ddarnau. Llawer a chwedleuant am dano, ond ni ddichon neb fynegu beth yw meddwl Dyffryn Cysgod Angau nes y delont iddo eu hunain. "Y galon a ŵyr ei chwerwder ei hun, ac nid yw dieithr gyfranog o'i llawenydd hi." Peth ofnadwy yw bod yma.'

DEWR. Y mae hyn yn debyg i'r sawl fo'n teithio ar y dyfroedd mawrion, neu yn debyg o fyned i wared i'r dyfnder; y mae hwn yn gyffelyb i fod ynghanol y môr, ac yn debyg i fyned i wared i waelod y mynyddoedd: y mae yn ymddangos yn awr fel pe byddai y ddaear, â'i barrau cedyrn, o'n hamgylch yn dragywydd. "Ond bydded i'r neb sydd yn rhodio mewn tywyllwch ac heb lewyrch iddo, obeithio yn yr Arglwydd, ac ymddiried yn ei Dduw."

O'm rhan i, fel y dywedais wrthych o'r blaen, mi aethum yn fynych trwy y dyffryn hwn; a bu galettach arnaf o lawer nac yn awr, ac etto yr wyf fi yn fyw fel y gwelwch chwi. Nid ymffrostiaf, canys nid wyf achubwr i mi fy hun. Ond yr wyf fi yn credu y

[n] Er cymmaint a fo ffyrnigrwydd Satan, nis gall efe ddistrywio na chwaith ymosod yn galed ar y pererinion, os hwy a'i gwrthsafant ef yn ddewrion yn y ffydd.

cawn ni ymwared daionus. Deuwch, a gweddïwn am oleuni at yr hwn a ddichon oleuo ein tywyllwch, ac a ddichon geryddu, nid yn unig y rhai hyn, ond holl gythreuliaid uffern.

Felly hwy a waeddasant ac a weddïasant, a Duw a ddanfonodd oleuni ac ymwared iddynt, ac nid oedd erbyn hyn rwystr yn eu ffordd, nac yno ychwaith lle yr attaliesid hwy gan y pwll hwnnw. Eithr nid oeddynt wedi myned etto trwy y dyffryn: felly hwy a aethant ymlaen o hyd, ac wele ddrewiant mawr ac arogl gwrthwynebus, yr hyn a'u blinodd hwynt yn ddirfawr. Yna ebe Trugaredd wrth Gristiana, 'Nid yw mor hyfryd yma ac wrth y porth, neu dŷ'r Deonglwr, neu y tŷ ag y buom ddïweddaf ynddo.'

MAENT YN GWEDDIO.

'Ond O!' ebe un o'r llangciau, 'nid yw cynddrwg myned trwy'r lle hwn, ag yw aros yma yn wastadol; ac ar ddim a wn i, un rheswm o ba herwydd yr ydym ni yn gorfod myned y ffordd hon i'r tŷ a barottowyd i ni yw, fel y byddo ein cartref yn felusach gennym.'

UN O'R LLANGCIAU YN ATTEB.

'Dyna ddywedyd o'r goreu, Samuel,' ebe'r arweinydd, 'ti a lefaraist yn awr fel gwr.' 'Beth, os gallaf fi fyth fyned allan oddi yma,' ebe'r llangc, 'yr wyf fi yn tebyg y prisiaf fi oleuni a ffordd dda, yn well nac y gwnaethum erioed o'r blaen.' Yna ebe'r arweinydd, 'Ni a fyddwn i maes cyn bo hir.'

Felly hwy a aethant ymlaen, ac ebe Ioseph, 'Onis gallwn ni weled pen draw y dyffryn hwn etto?' Yna ebe'r arweinydd, Edrychwch at eich traed, canys ni a fyddwn yn ebrwydd ymhlith croglathau: felly hwy a edrychasant at eu traed, ac a aethent ymlaen; ond yr oeddynt yn cael eu blino yn fawr â'r maglau. Yn awr pan oeddynt ymhlith y maglau, canfyddent wr wedi ei daflu i'r clawdd ar y llaw aswy, a'i holl gnawd wedi ei rwygo a'i dorri. Yna ebe'r arweinydd, Un Anochelgar ydoedd hwn, ag oedd yn myned y ffordd hon; y mae efe yn gorwedd accw er's llawer o amser. Yr oedd un Gochelgar gydag ef pan y cymmerwyd ac y lladdwyd ef; ond dihangodd hwnnw rhag eu dwylaw hwynt. Ni ellwch chwi ddychymmyg pa nifer a laddwyd o ddeutu yma, ac er hynny y mae dynion mor ynfyd, ag i anturio gosod allan yn ysgafn ar bererindod, ac i ddyfod heb arweinydd. Cristion druan! yr oedd yn rhyfedd iddo ef ddiangc yma; ond yr oedd ef yn anwyl gan ei Dduw; a chanddo hefyd galon dda ynddo ei hun, pe amgen ni allasai ef fyth ddiangc. Erbyn hyn daethant tua diwedd y ffordd; ac yn gymmwys yno, lle gwelodd Cristion yr ogof wrth fyned heibio, daeth Gorddwyn y cawr allan. Y Gorddwyn hwn a arferai anrheithio pererinion ieuaingc â chyfrwys ddadlwriaeth: a galwodd ar Ddewr-galon wrth ei enw, ac a ddywedodd wrtho, 'Pa sawl gwaith y gwaharddwyd chwi i wneuthur y pethau hyn?' Yna ebe Mr. Dewr-galon, 'Pa bethau?' 'Pa bethau!' ebe'r cawr; 'chwi a wyddoch pa bethau; ond mi a wnaf ddiwedd ar eich celfyddyd.' 'Ond attolwg,' ebe Mr. Dewr-galon, 'cyn y cwympom ni ynghyd, gadewch i ni ddeall o ba herwydd y gorfydd i ni

LLADD ANOCHELGAR, A GOCHELGAR YN DIANGC.

Y CAWR GORDDWYN YN SARRUG WRTH DDEWR-GALON.

ymladd.' (Yr oedd y gwragedd a'r plant yn sefyll yn awr yn ddychrynedig, heb wybod beth i'w wneuthur.) 'Yr ydych chwi yn anrheithio y wlad,' ebe'r cawr, 'canys lladron o'r rhyw gwaethaf ydych.' 'Dewch yn nes at y pwngc, y dyn,' ebe Mr. Dewr-galon, gan eglurhâu yn fwy neillduol beth yw eich meddwl.' Yna ebe'r cawr, 'Yr wyt ti yn un o'r rhai sydd yn lladratta plant, ïe, yr wyt ti yn casglu gwragedd a phlant, ac yn eu dwyn i wlad ddieithr, er gwanhad i deyrnas fy meistr.' Ond Dewr-galon a'i hattebodd ef, 'Gwas ydwyf fi i Dduw'r nefoedd; a'm neges i ydyw perswadio pechaduriaid i edifeirwch: parwyd i mi wneuthur fy ngoreu i droi gwŷr, gwragedd, a phlant, o dywyllwch i oleuni, ac o feddiant Satan at Dduw; ac os hyn yn wir yw sail yr ymryson, ni gwympwm ynghyd a hi mor fuan ag y mynnot ti.'

CYFRIF GWEISION DUW YN LLADRON DYNION.

RHAID I'R CAWR A DEWR-GALON YMLADD.

Yna y daeth y cawr i fynu, a Mr. Dewr-galon a aeth i'w gyfarfod ef: ac wrth fyned, efe a dynnodd ei gleddyf, ond yr oedd gan y cawr ffon-gnwppa. Felly heb ragor o ymdaro, hwy a gwympasant ynghyd, a'r cawr ar yr ergyd cyntaf, a darawodd Mr. Dewr-galon i lawr ar ei liniau; a chyda hynny y gwragedd a'r plant a lefasant: felly Mr. Dewr-galon a adnewyddodd ei hun, ac a osododd arno yn nghyflawnder ei nerth, ac a glwyfodd y cawr yn ei fraich; fel hyn yr ymladdodd dros yspaid awr, i'r fath uchder o wres, nes oedd yr anadl yn dyfod allan o ffroenau y cawr, fel gwres o bair berwedig.

Yna hwy a eisteddasant i lawr i orphwys, ond Mr. Dewr-galon a aeth i weddïo: ni wnaeth y gwragedd a'r plant ddim trwy gydol yr amser y parhaodd yr ymladd, ond ocheneidio a llefain.



Wedi iddynt orphwys a chymmeryd eu hanadl, hwy a aethant ynghyd eilwaith eill dau, a Mr. Dewr-galon ar gyflawn ergyd, a gyrhaeddodd y cawr hyd lawr. 'Nagê,

TARO'R CAWR HYD LAWR.

deliwch, gadewch i mi gyfodi,' ebe fe : felly Mr. Dewr-galon a'i gadawodd i gyfodi yn deg. Ac atti yr aethant hwy drachefn, ac ni bu agos i ddim rhwng y cawr a thorri asgwrn pen Mr. Dewr-galon â'i ffon.

EI LADD, A THORI EI BEN.

Pan welodd Mr. Dewr-galon hynny, efe a redodd atto ef yn mhoethder ei yspryd, ac a'i gwanodd ef dan ei bummed ais ; gyda hynny dechreuodd y cawr lewygu, ac nis gallai ddal i fynu yn hŵy. Yna Mr. Dewr-galon a'i hail darawodd ef, ac efe a dorrodd ymaith ben y cawr oddi ar ei ysgwyddau. Yna y llawenychodd y gwragedd a'r plant, a Mr. Dewr-galon hefyd a foliannodd Dduw am y waredigaeth fawr a wnaethai.[o]

Wedi gorphen hyn, cyfodasant rhyngddynt â'u gilydd golofn, ac a sicrhasant ben y cawr arni, ac a ysgrifenasant oddi tani mewn llythyrenau, fel y gallai ymdeithwyr eu darllen :

'Dyma gloppa'r cawr fu'n arfer
Anmharchu'r seintiau wrth ei bleser,
Trwy gau eu ffordd, heb arbed undyn,
A blino pawb yn dra ysgymmun.

Nes i mi Dewr-galon gwnni,
I ledio'r seintiau heb ei ofni ;
Nes i mi orfod a difethu
Y gelyn oedd yn eu gwrth'nebu.'

Yn awr mi a'u gwelwn hwynt yn myned i esgynfa, a gyfodasid ychydig o'r blaen, i fod yn wrthddrych gwelediad i bererinion, (oddi ar y fan honno y cafodd Cristion yr olwg gyntaf ar ei frawd Ffyddlon,) gan hynny hwy a eisteddasant i lawr yno, ac a orphwysasant ; a bu iddynt fwytta ac yfed, a bod yn llawen yno, o herwydd iddynt gael y fath ymwared rhag y cyfryw elyn echrydus. Ac fel yr oeddynt yn eistedd ac yn bwytta, gofynodd Cristiana i'r arweinydd, A gafodd ef ddim niweid yn y frwydr ? Na ddo, ebe yntef, oddi eithr ychydig ar fy nghnawd ; a bydd hefyd cyn belled oddiwrth wneuthur i mi golled, fel y mae efe yn bresennol yn brofiad o'm cariad at fy Meistr a chwithau, ac a fydd yn foddion, trwy ras, i 'chwanegu fy ngwobr yn y diwedd. 2 Cor. iv. 17, 18.

Ond a ydoedd arnoch chwi ddim ofn, Syr, pan welsoch ef yn dyfod â'i ffon gnwppa ?[p]

YMDDIDDAN AM Y FRWYDR.

Fy nyledswydd i, ebe fe, yw anymddiried i'm nerth fy hun, fel y pwyswyf ar yr hwn sydd gryfach na phawb.

[o] Wrth y cawr hwn mae i ni ddeall, y ffordd o geisio twyllo y duwiolion, a'u llygru trwy gau resymau cnawdol, gan fod yn llwyr elyniaethol i bob egwyddor ac athrawiaeth efengylaidd, ac erlid a gwawdio gwir weinidogion yr Arglwydd. Trwy ffyddlondeb a dewrder mae i ni, dan fendith Duw, orchfygu y fath elynion i'r gwirionedd, gan arferyd cleddyf yr yspryd, sef y Gair, fel ein hofferyn pennaf yn y frwydr.

[p] Wrth y ffon mae i ni ddeall gallu dynol, a chymhorth y llywodraeth yn taro ar blaid eglwyswyr a swyddogion erledigaethus, fel y cafodd yr awdwr brofiad digon chwerw.

Ond beth a feddyliasoch chwi pan y tarawodd efe chwi i'r llawr ar yr ergyd cyntaf?

Beth, mi a feddyliais, ebe fe, mai felly y gwasanaethwyd fy Meistr ei hun, er hynny efe a gafodd y fuddugoliaeth yn y diwedd.

MATTHEW YN RHYFEDDU AM DDAIONI DUW.

MAT. Pan dybioch chwi i gyd yr hyn a fynnoch, yr wyf fi yn tybied i Dduw fod yn rhyfedd dda tuag attom, trwy ein dwyn allan o'r dyffryn yma, a'n cadw rhag y cyfryw elyn; o'm rhan i, ni welaf fi un rheswm i ni fod yn anhyderus yn ein Duw ond hynny, gan iddo yn awr, yn y fath le a hwn, roddi y fath dystiolaeth o'i gariad.

HEN ONEST YN CYSGU DAN DDERWEN.

Yna hwy a godasant, ac a aethant yn mlaen. Yn awr ychydig o'u blaen yr oedd derwen: a phan ddaethant atti, hwy a gawsant hen bererin tani, yn ei drym-gwsg: gwybuant mai pererin oedd efe wrth ei ddillad, a'i ffon, a'i wregys.

Felly yr arweinydd, Mr. Dewr-galon, a'i deffrodd ef; a'r hen wr bonheddig, wrth gyfodi ei lygaid, a lefodd allan, 'Beth yw'r matter? Pwy ydych chwi? A pha beth yw eich neges chwi yma?'

MAE AMBELL SANT YN CYMERYD EI FRAWD YN ELYN IDDO.

DEWR. Deuwch, wr, na fyddwch mor dwym, nid oes yma neb ond cyfeillion: ond er hynny yr hen wr a gyfododd i fynu, ac a safodd ar ei amddiffyniad, ac a fynnai wybod beth oeddynt. Yna ebe'r arweinydd, 'Fy enw i ydyw Dewr-galon; arweinydd ydwyf i'r pererinion hyn, sydd yn myned i'r wlad nefol.'

YMDDIDDAN RHYNGDDO A DEWR-GALON.

ONEST. Yna ebe Mr. Onest, Eich nawdd; mi gefais ofn eich bod o'r dorf hynny a yspeiliodd Mr. Ychydig-ffydd gynt o'i arian; ond yn awr, gan edrych yn well o'm hamgylch, yr wyf yn eich cymmeryd yn gywirach pobl.

DEWR. Paham, beth a wnaethech chwi, neu a allasech chwi ei wneuthur, neu pa fodd y buasai i chwi gynnorthwyo eich hun, pe buasem ni yn wir o'r fintai honno?

ONEST. Gwneuthur! beth, mi a fuaswn yn ymladd tra fuasai chwyth ynof; ac o wneuthur hynny, y mae yn ddilys gennyf na's gallasech chwi fyth fy ngorfod; canys ni orchfygir Cristion byth, oni ymostwng ef o hono ei hun.[q]

DEWR. O'r goreu, y tad Onest, ebe'r arweinydd; canys wrth hyn mi a wn dy fod di yn geiliog o'r iawn ryw, o blegid ti a ddywedaist y gwirionedd.

ONEST. Minnau a wn wrth hyn y gwyddost tithau beth yw gwir bererinion: o blegid y mae pawb eraill yn tebyg, mai y rhai hawsaf eu gorchfygu ydym ni o neb.

DEWR. Wel, gan ein bod mor ddedwydd a chyfarfod, attolwg, beth yw eich enw chwi? a pha beth ydyw enw y lle y daethoch o hono ef?

O BA LE Y DAETH MR. ONEST.

ONEST. Fy enw nis gallaf: ond mi a ddaethum o dref Gorphwylldra; y mae hi yn gorwedd ynghylch pedwar gradd tu hwnt i Ddinas Dystryw.

[q] Dyma air gwir, a theilwng o'n sylw mwyaf difrifol. Tra fo y Cristion a'i arfogaeth ysprydol am dano, ac yn barod i chwareu ei gleddyf, ni orchfygir byth ddim o hono. Rhaid iddo ymostwng o hono ei hun, cyn caffo Satan yr oruchafiaeth arno.

DEWR. Oh! ai gwr o'r wlad honno ydych chwi? Yr wyf yn brith fwrw pwy ydych chwi: eich enw yw Onest, onidê? Yna yr hen wr bonheddig a wridiodd, ac a ddywedodd, Nid onestrwydd ei hun, er mai Onest yw fy enw i, ac mi a ddymunwn fod fy natur yn gyttun â'm henw.[r]

ONEST. Ond, Syr, ebe'r hen wr bonheddig, wrth beth yr ydych chwi yn tybied mai'r cyfryw ddyn ydwyf fi, gan fy nyfod i o'r cyfryw le?

DEWR. Clywais am danoch o'r blaen, gan fy Meistr; o blegid efe a ŵyr bob peth a wneir ar y ddaear: ond mi a ryfeddais yn fynych i neb ddyfod o'ch parthau chwi, o blegid y mae eich tref chwi yn waeth na Dinas Dystryw ei hunan.

MAE Y CYSGLYD YN WAETH NA'R CNAWDOL.

ONEST. Ië, yr ydym ni ymhellach oddiwrth yr haul, ac o achos hynny yn fwy oer ac anhybwyll: ond pe byddai dyn mewn mynydd o iâ, os cyfodai Haul Cyfiawnder arno, gwnai i'w galon rewllyd doddi. Ac felly y bu gyda mi.

DEWR. Yr wyf fi'n credu hynny, y tad Onest, yr wyf fi yn credu hynny; canys mi a wn fod y peth yn wir.

Yna yr hen wr bonheddig a gyfarchodd y pererinion â chusan sanctaidd o gariad; a gofynodd iddynt eu henwau, a pha fodd y bu arnynt er pan ddaethant yn bererinion.

CRIS. Yna ebe Cristiana, Y mae yn debyg i chwi glywed am fy enw i, Cristion oedd fy ngwr, a'r pedwar hyn yw ei blant ef. Ond prin y gellwch chwi feddwl y modd yr ymgynhyrfodd yr hen wr bonheddig, pan ddywedodd pwy oedd hi? Efe a lammodd, efe a chwarddodd, ac a'u bendithiodd hwynt â mil o ddymuniadau da: gan ddywedyd,

HEN ONEST A CHRISTIANA YN YMDDIDDAN.

ONEST. Mi a glywais lawer o sôn am eich gwr, a'r teithiau a'r rhyfeloedd yr aeth ef trwyddynt yn ei ddyddiau. Dywedir hyn i'ch cysur chwi, y mae enw eich gwr yn glodfawr dros yr holl barthau hyn o'r byd; ei ffydd, ei wroldeb, ei ddioddefgarwch, a'i burdeb tan y cwbl, a wnaeth ei enw ef yn hynod. Yna efe a drôdd at y llangciau, ac a ofynodd iddynt am eu henwau; hwythau a fynegasant iddo. Yna efe a ddywedodd wrthynt: 'Matthew, bydd di debyg i Matthew y publican, nid mewn beiau, ond mewn rhinweddau. Samuel, ebe fe, bydd dithau debyg i Samuel y prophwyd, yn wr o ffydd a gweddi. Ioseph, ebe fe, bydd dithau fel Ioseph yn nhŷ Potiphar, yn ddiwair, ac yn ffoi rhag temptasiwn. Iago, bydd dithau fel Iago'r Cyfiawn, a Iago brawd yr Arglwydd.' Yna y mynegasant iddo am Drugaredd, a'r modd yr ymadawodd hi â'i thref a'i cheraint i ddyfod gyda Christiana a'i meibion. Ac ar hynny ebe'r hen wr Onest, Trugaredd yw dy enw: a thrugaredd a'th gynnal, ac a'th ddwg trwy yr holl anhawsdra a'th gyferfydd

GONEST YN EU BENDITHIO.

MAE YN BENDITHIO TRUGAREDD.

[r] Harddwch neillduol i ni, fel dynion a Christionogion, ydyw gonestrwydd. Yr hen bererin hwn ni fynnai ymddangos fel pe b'ai y rhinwedd o onestrwydd, neu un rhinwedd arall yn perthyn iddo ef yn berffaith-gwbl. Da yw bod yn gywir ac yn drwyadl yn ein proffes.

yn dy ffordd, nes y delot i'r lle y cai edrych yn wyneb ffynnon trugaredd gyda chysur.

Yr oedd yr arweinydd Mr. Dewr-galon yn dra boddlon iddo trwy gydol yr amser, ac yn gwenu ar ei gyfaill.

Yn awr, pan oeddynt yn cyd-rodio, gofynodd yr arweinydd i'r hen wr bonheddig, Os oedd efe yn adnabod un Mr. Ofnus, a ddaethai ar bererindod o'i ardaloedd ef?

YMDDIDDAN AM UN OFNUS.

ONEST. Adwaenwn o'r goreu, ebe fe. Dyn oedd efe a gwreiddyn y matter ynddo; ond un o'r pererinion blinaf oedd efe a'r a welais i erioed.

DEWR. Mi a wn yr adwaenoch chwi ef; o blegid chwi a roisoch ei hanes ef yn gymmwys.

ONEST. Ei adnabod ef! cydymaith mawr iddo ef oeddwn i: yr oeddwn i gydag ef yn agos hyd y diwedd; pan ddechreuodd efe feddwl am yr hyn a ddeuai arnom yn ol hyn, yr oeddwn i gydag ef.

DEWR. Myfi oedd ei arweinydd ef o dŷ fy Meistr hyd borth y Ddinas Nefol.

ONEST. Yna chwi a wyddoch mai trallodus oedd efe.

DEWR. Gwn; ond mi allaswn gyd-ddwyn âg ef o'r goreu: canys yr ydys yn fynych yn ymddiried i wŷr o'm galwad i am hyfforddiad y fath ag oedd efe.

ONEST. Wel ynte, attolwg gadewch i ni glywed peth yn ei gylch ef, a pha fodd yr ymddygodd ef tan eich golygiad chwi?

DEWR. Pa fodd, yr oedd arno bob amser ofn i ddyfod yn fyr o'r lle yr oedd ef yn chwennych myned iddo. Yr oedd pob peth yn ei frawychu ef a'r a glywai neb yn son am dano, ag a fyddai'r ymddangosiad lleiaf o wrthwynebiad ynddo. Clywais ei fod ef yn rhuo wrth Gors Anobaith, uwchlaw mis o amser ynghyd; ac ni feiddiai efe anturio, er gweled llawer yn myned drosodd o'i flaen ef, a bod amryw o honynt yn cynnyg iddo fenthyg eu dwylaw. Ni fynnai fyned yn ol ychwaith. Dywedai, y byddai ef farw, oni's gallai fyned i'r Ddinas Nefol; ac er hynny byddai yn cael ei daflu i lawr wrth bob dyryswch, a thramgwyddai wrth bob gwelltyn ag a daflai neb yn ei ffordd ef. Wel, ar ol iddo orwedd yn hir, fel y dywedais i wrth Gors Anobaith, ar foreu-gwaith heulog, efe a anturiodd, ac a aeth trosodd, ni's gwn i pa fodd: ond pan oedd efe trosodd, o braidd y credai efe hynny. Mae yn debyg gennyf fod ganddo Gors o Anobaith yn ei feddwl, yr oedd efe yn dwyn y gors honno gydag ef i bob man, pe amgen ni allai ef fyth fod fel ag yr oedd ef. Felly efe a ddaeth i fynu at y porth (chwi a wyddoch beth wyf yn feddwl) sydd yn mhen y ffordd hon; ac yno hefyd y safodd yn hir, cyn iddo gynnyg curo. Pan fyddai'r porth yn agored, efe a laesai yn ol, ac a roddai le i eraill, ac a ddywedai nad oedd efe yn deilwng: er iddo ddyfod o flaen rhai at y porth, er hynny aeth amryw o honynt i mewn o'i flaen ef. Yno yr oedd y dyn druan yn crynu ac yn ofni; mi allaf ddywedyd y buasai yn

PERERINDOD ANNEDWYDD MR OFNUS.

EI YMDDYGIAD WRTH GORS ANOBAITH.

EI YMDDYGIAD WRTH Y PORTH

drueni ar galon neb ei weled ef, ac o'r diwedd efe a gymmerodd y morthwyl oedd yn crogi wrth y porth yn ei law, ac a roddodd ergyd gwan neu ddau; yna yr agorodd un iddo, ond efe a aeth yn ngwysg ei gefn megis cynt. Yr hwn a agorodd, a neidiodd allan ar ei ol ef, ac a ddywedodd wrtho, Tydi ddyn dychrynedig, beth sydd yn eisiau arnat ti? a chyda hynny efe a syrthiodd i lawr ar y ddaear. Yr hwn a lefarodd wrtho, a ryfeddodd ei weled ef mor llewygedig. Efe a ddywedodd wrtho, 'Heddwch i ti! cyfod, canys myfi a agorais y drws i ti; tyred i mewn, o herwydd bendigedig ydwyt.' Gyda hynny efe a gyfododd, ac a aeth i mewn yn ddychrynedig: a phan oedd efe oddi fewn, yr oedd arno gywilydd i ddangos ei wyneb. Wel, ar ol iddo gael ei roesawi yno dro, (fel ag y gwyddoch y mae y matter,) parwyd iddo fyned yn mlaen yn ei ffordd, a dywedwyd wrtho pa ffordd a gymmerai. Felly efe a ddaeth hyd ein tŷ ni: ond megis ag yr ymddygodd ef wrth y porth, felly y gwnaeth ef wrth ddrws fy meistr y Deonglwr. Efe a arosodd oddi amgylch yno yn hir yn yr oerfel cyn iddo anturio galw; er hynny ni fynnai fyned yn ol: ac yr oedd y nosweithiau yn hir ac yn oerllyd y pryd hynny. Heblaw hynny, yr oedd ganddo lythyr o angenrheidrwydd yn ei fynwes, at fy Meistr, am ei dderbyniad ef, a chaniattau iddo ddiddanwch ei dŷ, ac hefyd i drefnu iddo arweinydd dewr a glew, o achos ei fod ef ei hun mor wan galon a chyw; ac er hyn oll yr oedd arno ofn galw wrth y drws. Felly efe a fu o ddeutu yno i fynu ac i wared cyhyd, nes, druan gwr, ei fod yn mron sythu: ïe, yr oedd ei ddigalondid gymmaint, er ei fod yn gweled llawer trwy guro yn cael myned i mewn, etto yr oedd arno ef fraw i anturio. O'r diwedd, digwyddodd i mi edrych trwy'r ffenestr, a chan fod dyn yn myned i wared ac i fynu oddi amgylch y drws, mi aethum allan atto ef, a gofynais beth oedd ef; ond, druan gwr! y dwfr a safodd yn ei lygaid ef: felly mi a ddeallais beth oedd yn eisiau arno. Mi aethum gan hynny i mewn, ac a fynegais hynny yn y tŷ, ac ni a ddangosasom y pethau i'n Harglwydd: felly efe a'm hanfonodd i allan drachefn i'w gymmell ef i ddyfod i mewn; ond, yn wir, mi gefais waith caled gydag ef. O'r diwedd efe a ddaeth i mewn, ac mi a ddywedaf hynny o ran fy Arglwydd, iddo ymddwyn yn rhyfedd garedig tuag atto ef. Ni byddai nemawr o dameidiau da ar y bwrdd, na's gosodid peth o hono ar ei ddysgl ef. Y pryd hynny efe a roddodd y llythyr; a'm Harglwydd, gan edrych arno, a ddywedodd, Y cai ef ei ddymuniad. Felly wedi iddo aros yno yn hir, yr oedd ef yn ymddangos yn fwy calonog, a chomfforddus. Canys rhaid i chwi wybod fod fy Meistr yn un o ymysgaroedd tyner iawn, yn enwedig tuag at y rhai ofnus; o achos hynny efe a ymddygodd yn y modd mwyaf annogaethol tuag atto ef. Wel, wedi iddo gael golwg ar y pethau oedd yn y lle, ac yn barod i fyned i'w daith tua'r ddinas, fy Arglwydd, fel y gwnaeth i Gristiana o'r blaen, a roddodd iddo gostrelaid o wîn, a phethau cysurus i'w bwytta. Fel hyn a cychwynasom, a myfi a aethum o'i flaen ef; ond ni chwedlenai'r gwr ond ychydig, eithr efe a ocheneidiai yn uchel.

EI YMDDYGIAD WRTH DDRWS Y DEONGLWR.

Y DERBYNIAD A GAFODD YNO.

CALONNOGWYD EF YCHYDIG YN NHY Y DEONGLWR.

OFNODD YN FAWR PAN WELODD Y CROGBREN, ON SIRIOLWYD EF PAN WELODD Y GROES.

Pan ddaethom lle yr oedd y tri dihiryn wedi eu crogi, efe a ddywedodd, fod arno ofn, mai dyna a fyddai ei ddiwedd yntef hefyd. Ond yr oedd efe yn ymddangos yn siriol pan ganfu efe y groes a'r bedd. Yr wyf yn addef ei fod ef yn dymuno aros yno dro i edrych, ac yr oedd efe yn ymddangos wedi hynny dros dro yn siriol. Pan ddaethom at fryn Anhawsdra, ni wnaeth efe ddim ond sefyll wrth hwnnw, ac nid oedd arno fawr o ofn y llewod; canys rhaid i chwi wybod, nad oedd ei drallod ef ynghylch y cyfryw bethau a'r rhai hyn; ond ei ofn mwyaf ef oedd ynghylch ei dderbyniad yn y diwedd.[s]

YMNEILLDUAI YN Y TY PRYDFERTH.

Yr wyf fi yn tybied i mi fyned âg ef i mewn i'r tŷ Prydferth cyn ei fod yn ewyllysgar; pan oedd ef i mewn hefyd, dygais ef yn gydnabyddus â'r llangcesau ag ydoedd yno, ond yr oedd arno ef gywilydd rhoddi ei hun i lawer o gwmpniaeth: yr oedd ef yn dymuno yn fawr fod wrtho ei hun, er hynny yr oedd efe yn caru ymddiddan da bob amser, ac fe fyddai yn fynych yn myned y tu hwnt i'r yscrin i wrando: yr oedd ef hefyd yn hoffi yn fawr weled hen bethau, ac fe fyddai yn eu hystyried yn ei feddwl. Dywedodd wrthyf wedi hynny, ei fod ef yn caru bod yn y ddau dŷ hynny o ba rai y daethai ef ddiweddaf, sef y porth, a thŷ'r Deonglwr, ond na's gallai ef fod mor hŷ a gofyn bod yno.

WRTH EI FODD YN NYFFRYN DAROSTYNGIAD.

Pan aethom hefyd o'r tŷ Prydferth, i wared y bryn, i Ddyffryn Darostyngiad, efe a aeth i lawr cystal ag y gwelais i ddyn erioed; canys nid oedd ef yn gofalu pa mor wael y byddai ef, trwy ei fod yn ddedwydd yn y diwedd. Ië, yr wyf fi yn tybied fod rhyw gyd-anian rhwng y Dyffryn hwnnw ag ef: canys ni welais i ef yn well yn ei holl bererindod, nag yn y dyffryn hwnnw.

Yma y gorweddai i lawr, cofleidiai y ddaear, a chusanai y blodau ag oedd yn tyfu yn y dyffryn hwn. Galar. iii. 27—29. Efe a gyfodai yn awr bob boreu ar y glas-ddydd, gan rodio yma a thraw yn y Dyffryn.

MEWN DYRYSWCH MAWR YN NYFFRYN CYSGOD ANGAU.

Ond pan ddaeth efe i ymyl Dyffryn Cysgod Angau, mi a dybiais y collwn i y dyn; nid o ran fod ganddo ddim tueddiad i fyned yn ol, yr oedd efe yn ffieiddio hynny bob amser; ond yr oedd ef yn mron marw rhag ofn. Gwaeddai, 'O, yr ellyllon a'm dygant, yr ellyllon a'm dygant?' ac ni allwn yrru hynny o hono ef. Efe a wnaeth y fath swn, a'r fath oer-lais yma, yr hyn, pe buasent ond ei glywed ef, fe fuasai yn ddigon o annogaeth iddynt ddyfod a chwympo arnom ni.

Ond hyn a ddeliais i fawr sylw arno, fod y Dyffryn hwn mor llonydd tra yr aethom

[s] Mae rhai yn poeni eu hunain yn aruthr ynghylch hyn, yn ddiachos, canys ein gofal pennaf ddylai fod am gael yr iawn ffordd, ac wedi hynny rhodio ynddi yn gywir. Rhai dynion ydynt mor wan eu meddwl, ac mor isel eu hysprydoedd beth bynnag fo'r neges, fel y mae yn anhawdd iddynt ymddiosg â hyn yn llwyr yn eu proffes grefyddol; a phan ddigwyddo y peth lleiaf i'w haflonyddu, maent yn barod i feddwl eu bod wedi dwyn barn Duw arnynt eu hunain. Methu deall trefn yr iachawdwriaeth yw'r achos fod rhai yn y fath gyflwr. Cofiwn, "Ni roddes Duw i ni ysbryd ofn, ond ysbryd nerth, a chariad, a phwyll." 1 Tim. i. 7.

ni trwyddo ef, ag yr adnabum i ef erioed na chynt na chwedi'n. Mae yn debyg gennyf fi, i'r gelynion yma gael cerydd enwedigol yr awr hon gan ein Harglwydd, a gorchymyn na rwystrent nes elai Mr. Ofnus trosodd.

Fe fyddai yn rhy faith adrodd y cwbl wrthych; gan hynny ni a grybwyllwn yn unig am un peth neu ddau yn ychwaneg. Pan ddaeth efe i Ffair Gwagedd, mi dybiais yr ymladdai efe â'r holl bobl yn y ffair; mi gefais ofn y tarewid ni yn ein pennau, gan dwymed oedd efe yn erbyn ynfydion; yr oedd ef yn ddeffrous iawn hefyd ar y tir a reibiwyd. Ond pan ddaeth ef at yr afon nad oes un bont arni, yno drachefn y bu ef mewn cyflwr blin: 'Yn awr, yn awr,' ebe fe, 'y bydd i mi foddi yn dragywydd, ac felly ni chaf byth weled y wyneb hwnnw gyda chysur, ag y daethom gynnifer milldir er mwyn ei weled.'

EI YMDDYGIAD YN FFAIR GWAGEDD.

Yma hefyd y deliais sylw ar yr hyn oedd dra nodedig: yr oedd dwfr yr afon honno yn îs y pryd hynny, nag y gwelais i ef erioed: felly efe a aeth drosodd o'r diwedd, heb nemawr gyda gwlychu ei esgidiau. Pan oedd efe yn myned i fynu tua'r porth, Mr. Dewr-galon a ddechreuodd gymmeryd ei gennad oddi wrtho, gan ddymuno iddo dderbyniad da fry; felly efe a ddywedodd, 'Mi gaf, mi gaf;' a chyda hynny ni a ymadawsom, ac ni welais i ef mwyach.

EI WROLDEB YN Y DIWEDD.

ONEST. Mae yn debyg ynte ei fod yn ddedwydd yn y diwedd?

DEWR. Oedd, oedd, ni amheuais i erioed yn ei gylch ef; dyn o yspryd dewisol oedd ef: yn unig yr oedd yn cael ei gadw yn dra isel yn wastad, a hynny a wnaeth ei fywyd mor llwythog iddo ei hun, ac felly yn llwythog iawn i eraill. Psal. lxxxiii. Rhuf xiv. 11. 1 Cor. viii. 13. Yr oedd, tu hwnt i lawer, yn ofalus rhag pechu; yr oedd efe mor ofnus rhag gwneuthur cam i eraill, fel ag yr ymwadai âg ef ei hun yn fynych o'r hyn oedd gyfreithlon, rhag iddo roddi tramgwydd.

ONEST. Ond beth oedd yr achos fod cystal gwr dros ei holl fywyd mewn tywyllwch?

DEWR. Y mae dau fath o resymau am hynny; un ydyw, Mai felly y mynnai Duw doeth iddo fod; rhaid i rai ganu, a rhaid i rai wylo. Mat. xi. 16, 17, 18. Yr oedd Mr. Ofnus yn un ag oedd yn chwareu ar y tant isaf. Y mae efe a'i gyfeillion yn seinio'r *sac-but*, nodau y rhai sydd fwy alaethus na cherddoriaeth arall: er yn wir, rhai a ddywedant mai'r îs-gywair ydyw sail cerddoriaeth. Ac, o'm rhan i, nid wyf fi yn gofalu dim am y broffes honno nad yw yn dechreu mewn trymder meddwl. Y tant cyntaf yr ymarfer y cerddor gyffwrdd âg ef, yw yr îs-gywair, pan y byddo yn bwriadu dodi'r cwbl mewn tôn. Y mae Duw hefyd yn chwareu yn gyntaf ar y tant hwn, pan fyddo yn gosod yr enaid mewn hwyl iddo ei hun.[1] Hynny yn unig oedd anmher-

RHESYMAU PAHAM Y MAE POBL DDA FELLY YN Y TYWYLLWCH.

[1] Da yw dechreu ein proffes mewn trymder a thristwch meddwl, ond diben yr efengyl yw dwyn yr enaid gyflwr o ryddid a dedwyddwch, canys ffrwyth cyfiawnder yw heddwch a llawenydd. Gwell bod yn ofnus, gwir yw, na bod yn rhyfygus; ond gochelwn feithrin yspryd anghrediniaeth, dan rith gostyngeiddrwydd.

ffeithrwydd Mr. Ofnus, na's gallai efe chwareu ar un gerdd arall ond hon, hyd oddi fewn ychydig i'w ddiwedd.

[Yr wyf yn gwneuthur yn hŷ i siarad fel yma yn draws-symmudol er mwyn aeddfedu synwyrau darllenwyr ieuaingc; ac o herwydd fod y rhai cadwedig, yn llyfr y Datguddiad, yn cael eu cyffelybu i dyrfa o gerddorion, yn canu ar eu hudgyrn a'u telynau, ac yn canu eu caniadau ger bron yr orseddfaingc. Dat. viii. Ioan xiv. 2, 3.]

ONEST. Yr oedd ef yn wr o sêl fawr, debygai un wrth yr hanes a roisoch chwi am dano ef. Nid oedd ef yn ofni un o'r diafliaid, y llewod, na Ffair Gwagedd: pechod, marwolaeth, ac uffern, oedd y pethau dychrynedig iddo ef; o herwydd fod ganddo beth amheuaeth ynghylch ei hawl yn y wlad nefol honno.

DEWR. Chwi a ddywedwch yn union, y pethau hynny oedd ei drallodwyr ef; ac GORPHEN YN EI GYLCH. yr oeddynt yn tarddu, fel ag y darfu i chwi sylwi yn dda, oddiwrth wendid ei feddwl ef ynghylch y pethau hynny, nid o wendid yspryd o barthed y rhan arferedig o fywyd pererin. Mi allaf gredu hynny, fel ag y mae'r ddiareb, 'Fe gnoisai yr attewyn, pe buasai yn ei ffordd ef:' ond y pethau hynny ag oedd yn ei orthrymu ef, ni's gallodd un dyn erioed etto eu hysgwyd ymaith yn esmwyth.

CRIS. Yna ebe Cristiana, Y mae yr hanes yma am Mr. Ofnus wedi gwneuthur i mi BARN CRISTIANA. les: mi a dybiais nad oedd neb yn debyg i mi; ond mi a welaf fod rhyw gyffelybrwydd rhwng y gwr da hwnnw a myfi: yn unig ein bod yn gwahanu mewn dau beth: Yr oedd ei flinderau ef cymmaint, fel yr oeddynt yn torri allan; ond fy rhai innau a gedwais i mewn. Yr oedd hi mor galetted arno ef hefyd, fel na's gallai guro wrth y tai a barottowyd er cynnorthwy; ond yr oedd fy ngofid i yn wastad y fath, âg oedd yn gwneuthur i mi guro yn uwch.[u]

TRUG. Pe byddai i minnau hefyd fynegi fy nghalon, gorfyddai i mi ddywedyd, fod BARN TRUGAREDD. rhyw beth o hono yn trigo ynof finnau hefyd; canys fe fyddai arnaf fi yn wastad fwy o ofn y llyn, a cholli lle yn mharadwys, nag o golli dim arall. O! meddwn i, bydded i mi gael yr happusrwydd o gael trigfan yno, y mae yn ddigon, er ymadael â'r holl fyd i'w ennill ef.

MAT. Yna ebe Matthew, Ofn oedd un peth a wnaeth i mi debyg fy mod yn BARN MATTHEW. mhell o berchenogi ynof fy hun, yr hyn sydd ynglŷn wrth iachawdwriaeth; ond os oedd hi felly gyda'r fath wr da ag efe, paham na's gall fyned o'r goreu gyda minnau.

BARN IAGO. IAGO. Heb ofn heb ras, ebe Iago. Er nad oes gras yn wis-

Mae rhai yn aros dan draed, rhag iddynt syrthio; ac fel na bo iddynt ddringo yn rhy uchel, maent yn aros ar lawr o hyd. Eithr mae modd i ni fod yn hyderus, heb fod yn rhyfygus, gan gael gwared o'n hofnau caethiwus, tra fyddom yn gwasanaethu Duw gyda gwylder a pharchedig ofn.

[u] Ein hofnau a ddylai ein gyrru ni at orsedd gras, ac i lefain yn daer am gymhorth, a thyna y ffordd i ni weithio allan ein hiachawdwriaeth gydag ofn a dychryn.

tadol lle mae ofn uffern; er hynny, mae yn sicr nad oes dim gras lle nad oes dim ofn Duw.[w]

DEWR. Dyna ddywedyd o'r goreu, Iago; ti a gyffyrddaist â'r nôd: o herwydd mai "ofn yr Arglwydd yw dechreuad doethineb;" ac y mae'n ddilys, am y sawl sydd heb ddechreu, nad oes ganddynt na diben na dosparth. Ond ni a ddibenwn ein hymddiddan yma am Mr. Ofnus, wedi i ni ganu fel hyn ar ei ol ef:

'Ffarwel Mr. Ofnus, a ofnodd o hyd
Ei Dduw yn dra ffyddlon, fe ofnodd mewn pryd
Wneuthur anwiredd a myned o'i le,
Rhag twyllo ei enaid, a cholli y ne'.

Y llyn mawr diwaelod a ofnodd e'n drist;
Pe ofnai pawb eraill i'w gyrru at Grist,
Fe fyddai da gennyf: ond y'nt mor gall,
Ac felly hwy gollant eu hunain o wall.'

Yn awr mi a'u gwelwn oll yn myned ymlaen yn eu hymddiddan; canys wedi i Mr. Dewr-galon ddibenu ynghylch Mr. Ofnus, Mr. Onest a ddechreuodd fynegi iddynt am un arall, ond ei enw ef oedd Mr. Hunan-ewyllys. Yr oedd ef yn cymmeryd arno fod yn bererin, ebe Mr. Onest; ond yr wyf fi yn gadael, na ddaeth ef erioed i mewn i'r porth sydd yn mhen y ffordd. AM HUNAN EWYLLYS.

DEWR. A chwedleuasoch chwi ddim erioed âg ef ynghylch hynny?

ONEST. Do, fwy nag unwaith na dwywaith; ond efe a fyddai yn wastad yn debyg iddo ei hunan, yn myned ar ol ei ewyllys ei hun. BU MR. ONEST YN CHWEDLEUA AG EF.

Nid oedd efe yn prisio am ddyn, na rheswm, na siampl: yr hyn a gynnhyrfai ei feddwl ef iddo, a wnelai efe, ac ni ellid ei ddenu ef ddim arall.

DEWR. Er dolwyn, pa egwyddorion yr oedd efe yn eu dal? o blegid yr wyf fi yn tybied y gwyddoch chwi.

ONEST. Yr oedd efe yn dal y gallai dyn ganlyn beiau, yn gystal a rhinweddau y pererinion; ac os gwnelai y ddau, y byddai ef yn sicr o fod yn gadwedig. EI DDALIADAU.

DEWR. Beth! pe dywedasai fod yn bosibl i'r gwŷr goreu fod yn gyfranog o feiau, yn gystal a rhinweddau y pererinion, ni buasai fawr achos i'w feio ef. Canys yn wir nid ydym ni yn gwbl rydd oddiwrth un bai, ond tan ammod i ni wylio ac ymdrechu. Ond yr wyf fi yn tybied nad hyn yw'r peth: ond os wyf fi yn eich iawn ddeall, eich meddwl yw, ei fod ef o'r opiniwn, bod hynny yn ganiattaol i fod felly.

[w] Yr ofn sydd yn peri i ni fod yn ostyngedig yn ein hysbryd, ac yn ddiwyd ein hymgais rhag bod ar ol yn y diwedd, sydd ofn llesol. Eithr nac ofnwn ymddiried yn yr addewidion o drugaredd dwyfol, nac ofnwn hefyd wynebu pob perygl yn ngwasanaeth ein Harglwydd.

ONEST. Ie, ïe, felly yr wyf yn meddwl; ac felly yr oedd yntef yn credu ac yn gwneuthur.

DEWR. Ond pa sail oedd gydag ef i'r fath ddywediad?

ONEST. Paham, efe a ddywedodd fod yr ysgrythyr yn sail iddo.

DEWR. Attolwg, Mr. Onest, dywedwch i ni am rai o'r pethau neillduol.

ONEST. Felly gwnaf. Efe a ddywedodd, fod ymarfer â gwragedd gwŷr eraill yn cael ei wneuthur gan Ddafydd, anwylyd Duw; ac am hynny y gallai yntef wneuthur felly. Dywedodd, fod cadw mwy nag un wraig, yn cael ei arferyd gan Solomon; a chan hynny y gallai yntef wneuthur felly. Dywedodd, i Sara a byd-wragedd duwiol yr Aipht ddywedyd celwydd, ac felly y gwnaeth Rahab; ac am hynny y gallai yntef wneuthur felly. Dywedodd, i'r disgyblion fyned, wrth arch eu Meistr, a chymmeryd ymaith asyn y perchenog; ac am hynny y gallai yntef wneuthur felly hefyd. Dywedodd, i Iacob ennill etifeddiaeth ei dad trwy dwyll a lledrithiad; ac am hynny y gallai yntef wneuthur felly hefyd.

DEWR. O rhyfedd, yn wir! Ac a ydych chwi'n sicr ei fod ef o'r opiniwn hwn?

ONEST. Mi a'i clywais ef yn dadleu trosto, yn dwyn ysgrythyr i'w brofi, yn dangos rhesymau am dano, &c.

DEWR. Opiniwn nad yw addas ei oddef yn y byd.

ONEST. Y mae yn rhaid i chwi fy neall yn iawn: ni ddywedodd, y gallai pawb wneuthur hynny; ond y gallai y sawl ag oedd â rhinweddau y cyfryw rai ynddynt wneuthur yr un pethau hefyd.

DEWR. Ni ddichon fod penderfyniad mwy di-sail a thwyllodrus, canys y mae hyd gymmaint a dywedyd, o herwydd i wŷr da gynt bechu trwy wendid, gan hynny fod ganddo yntef ganiattad i'w wneuthur ef mewn meddwl rhyfygus: neu o herwydd i blentyn, o achos awel o wŷnt, neu daro ei droed wrth garreg, gwympo, a difwyno ei hunan yn y llacca, gan hynny y dichon yntef o'i wirfodd orwedd i lawr, ac ymdreiglo fel baedd ynddo. Pwy a debygasai y gallasai un dyn gael ei ddallu gymmaint trwy rym trachwant? Ond yr hyn a ysgrifenwyd a raid fod yn wir: "hwy a dramgwyddasant wrth y gair, gan fod yn anufudd, i'r hyn yr ordeiniwyd hwynt hefyd." 1 Pedr ii. 8.

Efe gan dybied fod gan y rhai hynny rinweddau gwŷr duwiol, ag sydd yn ymroddi eu hunain i'w beiau, sydd hefyd hudoliaeth gymmaint a'r llall. Y mae yr un peth a phe dywedai y cî, Y mae gennyf, neu mi a allaf gael cynneddfau plentyn, am fy mod yn lleppian i fynu ei fudredd drewllyd ef. Nid yw bwytta pechodau pobl Dduw (Hos. iv. 8) ddim argoel o fod un yn meddiannu eu rhinweddau. Ni allaf fi gredu ychwaith, fod gan neb sydd o'r tyb hwn na ffydd na chariad ynddo. Ond mi a wn i chwi ddadleu yn egniol yn ei erbyn ef, attolwg beth a allodd ef gael i ddywedyd drosto ei hun?[x]

[x] Fe ellir bod sôn dan yr hen oruchwyliaeth am bechodau pobl Dduw, wedi iddynt droi eu gogoniant yn warth; sef dywedir hynny am genedl Israel, ond nid oes ymadroddion o'r fath yn y Testament Newydd, am

ONEST. Pa beth! efe a ddywedodd, fod gwneuthur hynny trwy opiniwn, yn ymddangos yn onestach o lawer na'i wneuthur ef, ac etto dala mewn barn yn ei erbyn ef.

DEWR. Atteb drwg dros ben; canys er bod gollwng y ffrwyn yn rhydd i drachwantau, pan y mae ein barn yn erbyn y cyfryw bethau, yn ddrwg; etto, pechu, ac ymddadleu dros ganiattad i hynny, sydd waeth: y mae'r naill yn tramgwyddo yr edrychwyr yn ddamweiniol, a'r llall yn eu gyrru i'r rhwyd.

ONEST. Y mae llawer un o feddwl y dyn yma, er nad yw ei dafod ef ganddynt: a hynny sydd yn gwneuthur myned ar bererindod mor ddigyfrif.

DEWR. Chwi a ddywedasoch y gwir, a blin yw'r peth: ond yr hwn sydd yn ofni Brenin Paradwys, a ddaw allan o honynt oll.

CRIS. Y mae opiniynau dieithr yn y byd: mi adwaenwn un ag a ddywedodd, Ei bod yn bryd difai i edifarhâu pan y byddom yn myned i farw.

DEWR. Nid yw y cyfryw yn ddynion call dros ben: fe fyddai anhawdd gan hwnnw, os cai ef wythnos i redeg ugain milltir yn ei fywyd, i oedi'r siwrnai honno hyd yr awr ddiweddaf o'r wythnos honno.

ONEST. Chwi a ddywedasoch yn union; ac etto y mae y rhan fwyaf o'r sawl sydd yn cyfrif eu hunain yn bererinion, yn wir yn gwneuthur felly. Yr wyf fi, fel y gwelwch chwi, yn hen wr, ac yn ymdeithydd ar y ffordd hon er ys llawer dydd; ac mi a ddeliais sylw ar lawer o bethau.

Mi a welais rai yn taro allan fel pe gyrrasent yr holl fyd o'u blaen, y rhai, er hynny, a fuant feirw yn mhen ychydig o ddyddiau fel y rhai hynny yn yr anialwch, ac felly ni chawsant fyth olwg ar wlad yr addewid.

Mi a welais rai nad oedd debyg o fod yn ddim, wrth daro allan i fod yn bererinion, ac fe feddyliasai dyn na buasent fyw ddiwrnod, er hynny a ddaethant yn bererinion da.

Mi a welais rai yn rhedeg yn fuan yn mlaen, ac yn mhen ychydig amser yn rhedeg mor gyflym yn ol drachefn.

Mi a welais rai ag oedd yn canmol bywyd pererindod ar y cyntaf, yn mhen ychydig wedi hynny yn dywedyd cymmaint yn ei erbyn.

Mi a glywais rai, pan ddechreuasant gychwyn tua Pharadwys, yn dywedyd yn ddiamheuol fod y cyfryw le; ac wedi myned gerllaw yno, yn dychwelyd yn ol drachefn, ac yn dywedyd, nad oes y cyfryw un. Mi a glywais rai yn ymfawrygu o'r hyn a wnaent hwy, ac am eu dewrder pan ddelai treialon; er hynny yn cael eu dychrynu gan gysgod, ac yn ffoi oddiwrth y ffydd, a ffordd y pererinion, a chwbl.[y]

y gwir Israel: dywedir yn hytrach, am bob un a aned o Dduw, nid yw yn pechu. Am y seintiau gynt rhaid ystyried, pan y darfu i Ddafydd bechu mor ffiaidd, efe a gollodd hedd a ffafr Duw, nes iddo trwy edifeirwch dwfn a diffuant gael ei adferu a derbyn maddeuant.

[y] Mae geiriau yr hen wr yn deilwng o ddifrifol ystyriaeth pob crefyddwr. Gwaith gofalus yw cymmeryd arnom fyned ar bererindod tua gwlad yr addewid; rhaid teithio yn ddyfal, a pharhâu hyd y diwedd, os mynnwn fod yn gadwedig.

Yn awr fel yr oeddynt yn y modd hwn ar y ffordd, daeth un ar redeg i'w cyfarfod hwynt, ac a ddywedodd, 'Foneddigion, a chwi y rhai gwanaf, os ydych yn caru bywyd, dihengwch, o herwydd y mae yr yspeilwyr o'ch blaen chwi.'

HYSBYSIAD AM DRALLODAU NEWYDDION.

DEWR. Yna ebe Mr. Dewr-galon, Y tri a ymosodasant ar Ychydig-ffydd gynt ydynt hwy. Felly, ebe fe, yr ydym ni yn barod iddynt; yna hwy a aethant yn mlaen yn eu ffordd. Yn awr yr oeddynt yn edrych ar bob troad, pa bryd y cyfarfyddent â'r dihirwyr; ond pa un a glywsant am Mr. Dewr-galon, neu ynte iddynt gael rhyw ddifyrwch arall, ni ddaethant i fynu at y pererinion.

PENDERFYNIAD DEWR-GALON.

Erbyn hyn Cristiana a chwennychodd gael lletty iddi ei hun a'i phlant, o achos eu bod mor ddiffygiol. Yna ebe Mr. Onest, Y mae un ychydig o'n blaen ni, lle y mae disgybl tra chyfrifol, un Gaius, yn trigo. Felly hwy a gyttunasant oll i droi i mewn yno, (Rhuf. xxi. 28,) ac yn hytrach, o herwydd i'r hen wr bonheddig roddi'r fath air da iddo. Felly pan aethant at y drws, hwy a aethant i mewn heb guro, o herwydd nid yw pobl arferol a churo wrth ddrws lletty fforddolion. Yna hwy a alwasant am feistr y tŷ, ac efe a ddaeth attynt. Felly hwy a ofynasant os caent orwedd yno y noswaith honno.

CRISTIANA YN DYMUNO CAEL LLETTY.

GAIUS. Cewch, wŷr boneddigion, os ydych chwi yn wŷr cywir, canys nid yw fy nhŷ i neb ond pererinion. Yna yr oedd Cristiana, Trugaredd, a'r plant yn llawenach, o herwydd fod eu llettywr yn caru pererinion. Felly hwy a alwasant am ystafelloedd, ac efe a ddangosodd un i Gristiana a'i phlant a Thrugaredd, ac un arall i Mr. Dewr-galon a'r hen wr bonheddig.

GAIUS YN EU CROESAWU, A PHA FODD.

DEWR. Yna ebe Mr. Dewr-galon, Gaius anwyl, beth sydd gennyt ti i swpper? canys fe ddaeth y pererinion hyn o bell heddyw, ac y maent yn lluddedig.

GAIUS. Y mae hi yn hwyr, ebe Gaius, felly ni allwn yn addas fyned allan i ymofyn bwyd; ond fe fydd i chwi roeso i'r fath sydd gennym, os byddwch chwi foddlon iddo.

DEWR. Ni a fyddwn foddlon i'r hyn sydd gennyt ti yn y tŷ; o blegid cyn belled ag y profais i dydi, nid ydwyt un amser heb yr hyn sydd gyfaddas.

Yna efe a aeth i lawr, ac a barodd i'r cogydd, enw yr hwn oedd Profi yr hyn sydd dda, i barottoi swpper i gynnifer o bererinion. Wedi hynny, efe a ddaeth i fynu eilwaith, ac a ddywedodd, Deuwch, fy nghyfeillion da, y mae i chwi roeso attaf fi, ac yr wyf fi yn llawen fod gennyf dŷ i'ch derbyn chwi; ac os gwelwch yn dda, tra fyddir yn parottoi swpper, gadewch i ni roesawi ein gilydd â rhyw ymddiddan da: felly hwy a ddywedasant i gyd eu bod yn foddlon.[z]

COGYDD GAIUS.

MAE YN DYFOD I FYNU EILWAITH.

GAIUS. Yna ebe Gaius, Gwraig i bwy yw'r un oedranus yma? a merch i bwy yw'r llangces ieuangc hon?

YMDDIDDAN RHWNG GAIUS A'I LETTYWYR.

[z] Mor hyfryd yw i Gristionogion ymddiddan ynghylch matterion ysprydol. Da fyddai i broffeswyr fod yn barod ar bob amser i'r fath ymarferiad duwiol a llesol.

DEWR. Y wraig sydd wraig i un Cristion, pererin yn yr amser gynt; a'r rhai yma yw ei bedwar mab ef. Y ferch sydd un o'i chydnabyddiaeth hi; un a berswadiodd hi i ddyfod ar bererindod gyda hi. Y mae'r llangciau yn myned oll ar ol eu tad, ac yn chwennych rhodio yn ei lwybrau ef: ïe, os canfyddent un lle ag y gorweddodd yr hen bererin ynddo, neu yn ôl ei droed ef, y mae yn gweini llawenydd i'w calonau, a chwennychant orwedd neu sengu yn yr un lle.

GAIUS. Yna ebe Gaius, Ai hon yw Cristiana, a'r rhai hyn yw ei phedwar mab hi? Mi a adwaenwn dad eich gwr, ïe, tad ei dad ef hefyd. Bu llawer o wŷr da o'r llwyth hwn; eu hynafiaid oedd yn preswylio ar y cyntaf yn Antiochia. Act. xi. 12. Yr oedd teidiau Cristion yn wŷr ardderchog iawn, (mae yn debyg gennyf i chwi glywed eich gwr yn sôn am danynt hwy). Fe ddarfu iddynt hwy, tu hwnt i neb a'r a adwaenwn i, ymddangos yn wŷr o rinweddau mawr, a gwroldeb dros Arglwydd y Pererinion a'i ffyrdd, a'r sawl oedd yn ei garu ef. Mi a glywais am lawer o berthynasau eich gwr, ag a wrthsafodd bob profedigaeth er mwyn y gwirionedd. Stephan, un o'r rhai cyntaf o'r tylwyth o ba le y tarddodd eich gwr chwi, a labyddiwyd â cherrig. Act. vii. 59, 60. a xii. 8. Iago, un arall o'r genedl yma, a laddwyd â mîn y cleddyf. Heb sôn am Paul a Phedr, gwŷr gynt o'r tylwyth o ba un y daeth eich gwr chwi; yr oedd un Ignatius a fwriwyd i'r llewod; Romanus, cnawd yr hwn a dynnwyd oddiwrth yr esgyrn yn ddrylliau; a Policarpus, yr hwn a chwariodd y gwr yn y tân. Yr oedd un a grogwyd i fynu mewn basged yn yr haul, i'r caccwn ei fwytta; yr hwn a osodwyd mewn sach, ac a fwriwyd i'r môr i'w foddi. Fe fyddai yn anmhosibl llwyr gyfrif pawb o'r teulu hwnnw ag a ddioddefodd niweidiau a marwolaeth, o gariad at fywyd pererindod. Ni allaf fi lai na llawenychu, o weled y fath langciau wedi i'ch gwr eu gadael o'i ol. Yr wyf fi yn gobeithio y cynnaliant hwy i fynu enw eu tad, y rhodiant yn llwybrau eu tad, ac y deuant i ddiwedd eu tad.

HYNAFIAID CRISTION.

DEWR. Yn wir, Syr, y maent yn llangciau dymunol: y maent yn ymddangos eu bod yn dewis ffordd eu tad yn hollol.

GAIUS. Dyna'r peth wyf fi wedi ddywedyd: gan hynny y mae teulu Cristion yn debyg o ymdaenu etto dros wyneb yr holl ddaear, ac i fod yn aml yn ol hyn trwy'r holl fyd · gan hynny bydded i Gristiana ymofyn am ryw langcesau i'w meibion, i'w dyweddïo iddynt, fel na byddo i enw eu tad a thŷ eu hynafiaid gael fyth eu hanghofio yn y byd.

CYNGOR I GRISTIANA YNGHYLCH EI PHLANT.

ONEST. Y mae yn drueni i'w deulu ef syrthio a diffoddi.

GAIUS. Syrthio nis gall, ond lleihâu efe a ddichon: ond cymmered Cristiana fy nghyngor i, a thyna'r ffordd i'w gynnal ef.

A Christiana, ebe'r llettywr hwn, y mae yn llawen gennyf dy weled di a'th gyfeilles Trugaredd gyda'ch gilydd yma, mor gariadus ynghyd. A bydded i mi gael cynghori, Cymmer Drugaredd yn nes perthynas i ti: os bydd hi foddlon, rhodder hi i Matthew, dy

PRIODAS RHWNG TRUGAREDD A MATTHEW. fab hynaf: dyna'r ffordd i gynnal eich hiliogaeth ar y ddaear: felly y cyttunwyd ar hynny, a'r briodas a gyflawnwyd yn mhen amser: ond mwy ynghylch hynny ar ol hyn.

Gaius hefyd a chwanegodd, ac a ddywedodd, Llefaraf yn awr o blaid gwragedd, i gymmeryd ymaith eu gwarth. Canys megis ag y daeth angau a melldith i'r byd trwy wraig, (Gen. iii.) felly hefyd y daeth bywyd ac iechyd: "Duw a ddanfonodd ei Fab, wedi ei wneuthur o wraig." Gal. iv. Ië, i ddangos y modd yr oedd y rhai a ddaeth ar ol yn ffieiddio gweithred y fam, y rhyw hyn tan yr Hen Destament a chwennychent blant, fel os digwyddai fod y wraig hon neu arall yn fam i Iachawdwr y byd. Mi a ddywedaf PAHAM Y BYDDAI GWRAGEDD GYNT MOR AWYDDUS AM BLANT. drachefn, pan ddaeth yr Iachawdwr, yr oedd y gwragedd yn llawenychu ynddo, o flaen na dyn nac angel. Luc. ii. a viii. 2, 3. a vii. 37, 50. Ioan xi. 2. a ii. 3. Luc xxiii. 27. Mat. xxvii. 55, 56, 60. Luc xxiv. 22, 23. Nid wyf yn darllen i un gwr erioed roddi cymmaint ag un geiniog i Grist; ond gwragedd a'i canlynasant ef, gan weini iddo o'r hyn ag oedd ganddynt. Gwraig a olchodd ei draed ef â dagrau, a gwraig a enneiniodd ei gorph ef i'r gladdedigaeth. Gwragedd oedd yn wylo, pan oedd ef yn myned tua'r groes: a gwragedd a'i canlynasant oddiwrth y groes, ac a eisteddasant wrth ei fedd ef pan ei claddwyd. Gwragedd oedd gyntaf gydag ef ar foreu ei adgyfodiad; a gwragedd a ddug y newydd gyntaf at ei ddisgyblion, o'i fod ef wedi cyfodi oddiwrth y meirw. Gan hynny, y mae gwragedd yn dra chyfrifol, ac yn ymddangos wrth y pethau hyn, eu bod yn gyfranogion â ni o ras y bywyd.

Erbyn hyn y cogydd a ddanfonodd i fynu i arwyddo fod swpper bron yn barod; SWPPER YN BAROD. ac a ddanfonodd un i osod y lliain, a'r dysglau, ac i osod halen a bara mewn trefn.

Yna ebe Matthew, Y mae yr olwg ar y lliain yma, a'r rhag-redegwr hwn o'r swpper, yn ennill ynof fi fwy o awydd at fy lluniaeth nag oedd gennyf fi o'r blaen.

GAIUS. Felly bydded i'r holl athrawiaethau gweinidogaethol i ti yn y bywyd hwn, genhedlu ynot fwy o awydd i eistedd ar swpper gyda'r Brenin mawr yn ei deyrnas; BETH A ELLIR GASGLU ODDI WRTH OSOD Y BARA, A'R LLIAIN A'R DYSGLAU AR Y BWRDD. o blegid nid yw yr holl bregethau, llyfrau, a'r ordinhadau yma, ond fel gosod y dysglau a'r halen ar y bwrdd, mewn cyffelybrwydd i'r wledd a wna ein Harglwydd i ni pan ddelom i'w dŷ ef.

Felly y swpper a ddaeth i fynu: ac yn gyntaf, palfais-dderchafael, a pharwyden y gyhwfan (Lef. vii. 32, 33, 34. a x. 14, 15. Psal. xxv. 1. Heb. xiii. 15. Deut. xxxii. 14. Barn. ix. 13. Iob xv. 5.) a osodwyd ar y bwrdd ger eu bron hwynt, i ddangos fod rhaid ddynt ddechreu eu prydiau bwyd gyda gweddi a mawl i Dduw. Yr ysgwyddog dderchafael, gyda'r hon y derchafodd Dafydd ei galon i fynu at Dduw; ac â'r ysgwyddog gyhwfan, lle yr oedd ei galon ef yn gorwedd, â honno yr arferai bwyso ar ei delyn wrth chwareu. Yr oedd y ddwy ddysglaid hyn yn iraidd ac yn dda, a hwy a fwyttasant oll yn ddigonol o honynt.

Y peth nesaf a ddygwyd i fynu oedd costrelaid o wîn, cyn goched a gwaed. Felly Gaius a ddywedodd wrthynt, Yfwch yn helaeth, dyma wir ffrwyth y winwydden, ag sydd yn llawenychu calon Duw a dyn. Felly hwy a yfasant ac a fuant lawen.

Yn nesaf daeth dysglaid o laeth wedi ei gymmysgu yn dda: felly Gaius a ddywedodd, Caffed y bechgyn hwn, fel y cynnyddont trwyddo. 1 Pedr ii. 1, 2. DYSGLAID O LAETH.

Yna y dygasant i fynu yn ol y drefn ddysglaid o ymenyn a mêl. Yna ebe Gaius, Bwyttewch yn helaeth o hwn, o blegid y mae yn dda i fywioccâu ac i gryfhâu eich barn a'ch dealldwriaeth. Hon ydoedd dysglaid ein Harglwydd ei hun (Esa. vii. 15.) pan oedd yn blentyn; "Ymenyn a mêl a fwytty, fel y medro ymwrthod â'r drwg, a dewis y da." DYSGLAID O YMENYN A MEL.

Wedi hynny y dygasant i fynu ddysglaid o afalau, ac yr oeddynt yn ffrwyth blasus iawn. Yna ebe Matthew, A allwn ni fwytta afalau, gan mai trwyddynt hwy y twyllodd y sarph ein mam gyntaf? DYSGLAID O AFALAU.

Yna ebe Gaius,

'Trwy 'falau ar y cynta'
Y llygrwyd y byd yma;
Nid 'falau, ond pechod, sy'n gwneud drwg,
Trwy'n dwyn dan ŵg Iehofah.

Os bwyttewch pan eich perir,
Ac yfed cwppan cysur,
Hwy'ch gwnant yn iach o'ch anhwyl trist,
Trwy ffrwythau Crist fe'ch cedwir.

Yna ebe Matthew, Yr achcs o'm amheuaeth i oedd, o blegid i mi fyned yn glaf unwaith wrth fwytta ffrwythau.

GAIUS. Ffrwyth gwaharddedig a'ch gwna yn glaf, ond nid yr hyn a ganiattaodd eich Arglwydd.

Tra yr oeddynt yn ymddiddan fel yma, gosodwyd dysglaid arall ger eu bron hwynt, sef dysglaid o gnau. Can. vi. 11. Yna ebe rhai o honynt ag oedd wrth y bwrdd, Y mae cnau yn ddrwg i ddannedd tyner, yn enwedig i ddannedd y plant: yr hyn pan glybu Gaius, efe a ddywedodd: DYSGLAID O GNAU.

'Cnau tra chaled yw damhegion,
A'u plisg o ddeutu'r cnewyll ffrwythlon,
(Nid twyllwyr y'nt) am hynny torrwch
Y plisg yn glau, a'r ffrwythau bwyttwch.'

Yna yr oeddynt yn llawen iawn, a hwy a eisteddasant wrth y bwrdd dro hir, gan ymddiddan ynghylch amryw bethau: gan hynny dywedodd yr hen wr bonheddig, Fy

anwyl lettywr, tra byddoch chwi yma yn torri eich cnau, os gwelwch yn dda, agorwch y dychymyg hwn;[a]

DYCHYMYG YN CAEL EI OSOD ALLAN GAN HEN ONEST.

‘Gwr oedd, yr hwn gyfrifai rhai yn ffol,
Pa fwyaf wasgarai, mwy-fwy oedd ar ol.’

Yna hwy a wrandawsant oll, gan ryfeddu beth a ddywedai Gaius; yntef gan eistedd yn synn dros ennyd, ac wedi hynny a'i hattebodd ef:

GAIUS YN EI EGLURO.

‘Yr hwn sy'n rhoi'i feddiant i'r tlodion yn rhydd,
A'i caiff ef drachefn, deg cymmaint a fydd.’

IOSEPH YN RHYFEDDU. Yna ebe Ioseph, Y mae yn rhaid i mi ddywedyd, Syr, na feddyliais i y gallech chwi ei chwilio ef allan.

O, ebe Gaius, fe'm haddysgwyd i yn hir yn y ffordd hon: nid oes athraw fel profiad: mi a ddysgais gan fy Arglwydd i fod yn garedig; ac mi a wn trwy brofiad, i mi ennill trwy hynny. “Y mae ag a wasgar ei ddâ, ac fe 'chwanegir iddo; ac un a attal fwy nag a weddai, ac a syrth i dlodi: y mae rhyw un yn ymgyfoethogi, er hynny heb ddim; y mae rhyw un a'i tloda ei hun, ac er hynny y mae ganddo lawer o olud.” Diar. ix. 24. a xiii. 7.

Yna Samuel a sisialodd yn nghlust Cristiana, ei fam, ac a ddywedodd, Mam, dyma dŷ gwr da iawn; gadewch i ni aros yma dro, a bydded i'm brawd Matthew briodi Trugaredd yma, cyn yr elom yn mhellach.

A Gaius eu llettywr a'i clybu ef, ac a ddywedodd, Gydag ewyllys da fy machgen i.

MATTHEW A THRUGAREDD YN PRIODI. Felly hwy a arosasant yma uwchlaw mis o amser, a rhoddwyd Trugaredd yn briod i Matthew.

Tra yr oeddynt yn aros yno, Trugaredd, yn ol ei harfer, a wnai beisiau a gwisgoedd i'w rhoddi i'r tlodion, trwy yr hyn y dygodd hi air da i'r pererinion.

Ond i ddychwelyd drachefn at ein stori: Wedi darfod swpper, y llangciau a ddymunasant gael myned i'w gwelyau, o herwydd eu bod yn lluddedig gan y daith: yna Gaius a alwodd am danynt, i ddangos iddynt eu hystafell: ond ebe Trugaredd, Y mae'n rhaid i mi eu cael i'w gwelyau. Felly hi a'u cafodd hwynt i'r gwelyau, hwythau a gysgasant o'r goreu; ond y lleill a eisteddasant i fynu trwy yr holl nos; o blegid yr oedd Gaius a hwythau y fath gwmpeini cyfaddas, fel na's gwyddent pa fodd i ymadael. Ac wedi hir siarad am eu Harglwydd, eu hunain, a'u taith, hen Mr. Onest, yr hwn a roddodd allan y dychymyg i Gaius, a ddechreuodd heppian. Yna ebe Mr. Dewr-galon, Beth, Syr, yr ydych chwi yn dechreu cysgu;

Y LLANGCIAU YN MYNED I'R GWELY, A'R LLEILL YN EISTEDD I FYNU.

HEN ONEST YN HEPPIAN.

[a] Nid yw awdwr y gwaith hwn yn taflu gorchudd hagr ar grefydd y pererinion. Nid oes achos i ymdeithwyr tua Sïon fod yn drist ac yn brudd eu gwedd, canys y mae ganddynt wir sail o lawenydd ysprydol. Dylai Cristionogion geisio bod yn siriol yn eu holl ymarweddiad, fel yr ymddangoso eu crefydd yn hawddgar ger bron y byd. Ar yr un amser rhaid ymochelyd gwag-hyder a digrifwch cnawdol.

deuwch, ymysgydwch, yn awr dyma i chwi ddychymyg. Gadewch i ni ei glywed ef, ebe Mr. Onest.

Yna ebe Mr. Dewr-galon,

DYCHYMYG.

'Os myn un dyn ladd neb arall,
Rhaid ei orchfygu e'n gynta'n ddiwall:
Rhaid i'r neb fo'n byw o gartre,
Farw yn nhre cyn dechreu'r siwrne.

Ha! ebe Mr. Onest, un caled yw ef, caled i'w esponio, a chalettach i'w ddefnyddio. Ond deuwch, fy llettywr, ebe fe, os gwelwch chwi fod yn dda, mi a adawaf i chwi ei esponio ef, a minnau a wrandawaf, beth a ddywedwch chwi?

Nagê ebe Gaius, gan ei osod ef attoch chwi, disgwylir i chwi ei atteb ef.

Yna ebe yr hen wr bonheddig,

Y DYCHYMYG YN CAEL EI EGLURO.

'Rhaid yn gynta' i ras i orfod
Dyn, cyn gorfo'r dyn ei bechod;
A rhaid i'r neb a fynno'r goron,
Farw i'w hunan a'i amcanion.'

O'r goreu, ebe Gaius; athrawiaeth iachus, a phrofiad sydd yn dysgu hyn. Canys yn gyntaf, nes i ras egluro ei hun, a gorfod yr enaid â'i ogoniant, y mae efe yn llwyr ddigalon i wrthwynebu pechod; heblaw hynny, os pechod yw rhaffau'r diafol, trwy ba rai y rhwymir yr enaid, pa fodd y gwrth-saif ef, cyn ei ryddhâu o'r gwendid hwnnw.

Yn ail, nid all neb, ag a adwaen reswm na gras, gredu y dichon dyn fod yn golofn fywiol o ras, ag sydd gaethwas i'w lygredigaethau ei hun.

Ac yn awr y mae yn dyfod i'm cof ystori a dâl ei chlywed. Yr oedd dau wr ag a aeth ar bererindod, un a ddechreuodd pan oedd yn ieuangc, a'r llall pan oedd yn hen; yr oedd gan y gwr ieuangc lygredigaethau cryfion i ymdrechu â hwynt, a rhai yr hen wr yn weinion gyda dadfeiliad natur: yr oedd y gwr ieuangc yn troedio ei lwybr mor gymmwys a'r hen wr, ac yn gwbl mor heinyf ag yntef: pa un yn awr oedd a'u grasusau yn llewyrchu egluraf, gan fod y ddau yn ymddangos yn debyg i'w gilydd?

GOFYNIAD GWERTH EI WRANDO.

ONEST. Gras y gwr ieuangc, yn ddiau. Canys y mae yr hyn sydd yn blaenori yn erbyn y gwrthwynebrwydd cryfaf, yn eglurhâu mai efe yw'r cryfaf; yn enwedig pan y mae yn cyd gerdded â'r hyn nad yw yn cyfarfod â hanner cymmaint, fel y mae yn ddilys nad yw henaint.

CYDMARIAETH.

Yn mhellach, mi a ddeliais sylw, fod hen bobl yn bendigo eu hunain â'r camsyniad hwn: sef, cymmeryd dadfeiliad natur yn lle buddugoliaeth rasol ar eu

CAMSYNIAD

llygredigaethau, ac felly ydynt debyg o'u twyllo eu hunain. Yn wir, hen bobl rasol, sydd gymmwysaf i roddi cyngor i'r rhai ieuaingc,[b] canys hwy a welsant fwy o wagder pethau : ond er hynny, o ran i'r hen a'r ieuangc osod allan ynghyd, y mae y flaenoriaeth gan y gwr ieuangc o wneuthur yr eglurhâd tecaf o waith gras o'i fewn, er bod llygredigaethau yr hen wr yn naturiol yn wanaf.

Fel hyn yr eisteddasant yn ymddiddan hyd y wawrddydd. Yn awr pan oedd y tylwyth i fynu, Cristiana a barodd i'w mab Iago ddarllen pennod ; yntef a ddarllenodd y liii. o Esay. Wedi iddo ddarfod, Mr. Onest a ofynodd, paham y dywedwyd, "fod yr Iachawdwr yn cael dywedyd am dano ei fod yn dyfod o dir sych," ac hefyd, "nad oedd na phryd na thegwch ynddo ef?"

GOFYNIAD ARALL.

DEWR. Yna ebe Mr. Dewr-galon ; I'r cyntaf, yr wyf yn atteb : Mai o achos bod eglwys yr Iuddewon, o ba un yr hanodd Crist, yn mron colli y pryd hynny irder ac yspryd crefydd. I'r ail, yr wyf yn atteb, Fod y geiriau wedi eu llefaru yn mherson yr anghredinwyr, y rhai, o achos nad oes ganddynt olwg i ganfod i galon ein Tywysog, ydynt yn ei farnu yn ol ei waeledd oddi allan.

Yn dra chyffelyb i'r rhai hynny, na's gwyddant fod meini gwerthfawr wedi eu gwisgo â chrammen arw ; y rhai, pan gaffont un o honynt, a'i taflant hi ymaith fel carreg arall, o achos na's gwyddant pa beth y maent wedi ei gael.

Wel, ebe Gaius, yr ydych chwi yr awr hon yma, a chan fod Mr. Dewr-galon, fel y gwn i, yn dda ar ei arfau, os gwelwch chwi fod yn dda, yn ol i ni lonni ein hunain, ni a rodiwn i'r maesydd, i weled a allwn ni wneuthur rhyw ddaioni. Y mae ynghylch milldir oddi yma, un Lladd-daioni, cawr ag sydd yn gwneuthur llawer o sarhâd ar brif-ffordd y Brenin yn y parthau yma : ac mi a wn o ddeutu pa le y mae ei gynniweirfa ef, y mae efe yn feistr i nifer o ladron : fe fyddai da pe gallem ei yrru ymaith o'r ardaloedd hyn.

Felly hwy a gydsyniasant, ac a aethant : Mr. Dewr-galon a gymmerodd ei gleddyf, ei helm, a'i darian, a'r lleill eu gwaywffyn a'u ffyn.

Pan y daethant i'r lle yr oedd ef, cawsant ef âg un Gwan-feddwl yn ei grafangc, yr hwn a ddygodd ei weision ef iddo, wedi ei gymmeryd ef oddi ar y ffordd: yr oedd y cawr yn awr yn ei ddirdynu ef, ac yn bwriadu pigo ei esgyrn ef: canys yr oedd efe o natur bwyttawyr cnawd.

Y CAWR LLADD-DAIONI A GWAN-FEDDWL YN EI GRAFANGC.

Wel, cyn gynted ag y canfu efe Mr. Dewr-galon a'i gyfeillion yn arfogion wrth enau ei ffau, gofynodd iddynt beth oeddynt yn ei geisio ?

DEWR. Dy geisio di, canys ni a ddaethom i ddial ymrysonau yr amryw bererinion a leddaist ti, pan lusgaist hwynt o brif-ffordd y Brenin ; gan hynny tyred i maes o'th ogof.

[b] Dylid rhoi pob annogaeth i'r rhai fo'n dechreu taro at grefydd yn ieuangc, a chyd-ddwyn â hwynt, gan weini pob annogaeth a chyfarwyddyd iddynt. Mae'r nwydau yn gryfion yn y rhai ieuaingc, ac fe ddichon hen bobl gamsynied gweddeidd-dra yn lle gwir dduwioldeb a thröedigaeth.

Yntef a'i harfogodd ei hun, ac a ddaeth allan: ac i frwydr yr aethant, ac ymladdasant ychwaneg nag awr, ac wedi hynny hwy a safasant i gymmeryd eu hanadl.

LLADD-DAIONI. Yna ebe'r cawr, Paham yr ydych chwi yma ar fy nhir i?

DEWR. I ddial gwaed y pererinion, fel y dywedais wrthyt o'r blaen: ac ynghyd yr aethant hwy drachefn, a'r cawr a wnaeth i Mr. Dewr-galon gilio yn ol; ond efe a ddaeth eilwaith i fynu, ac yn nghryfder ei feddwl efe a fwriodd yn dra glew ar ben ac ystlysau y cawr, fel y gorfu iddo adael i'w arf syrthio o'i law: felly efe a'i tarawodd ac a'i lladdodd, ac a dorrodd ymaith ei ben ef, ac a'i dygodd gydag ef i'r lletty. Cymmerodd hefyd Gwan-feddwl y pererin, ac a'i dug gydag ef yno. Pan ddaethant adref, dangosasant ei ben ef i'r tylwyth, ac a'i gosodasant i fynu, fel ag y gwnaethent i eraill o'r blaen, er dychryn i'r sawl a gynnygiai wneuthur felly rhagllaw.

YMOSOD AR Y CAWR A'I LADD.

Yna gofynasant i Mr. Gwan-feddwl, pa fodd y syrthiodd efe i'w ddwylaw ef?

GWAN-FEDDWL. Yna ebe'r truan gwr, Dyn afiachus ydwyf fi, fel ag y gwelwch, ac o achos bod angau yn feunyddiol yn curo wrth fy nrws i, meddyliais na's byddwn byth iach gartref: felly mi a ymroddais i fyned yn bererin: ac a ddaethum hyd yma, o'r dref a elwir Annilys, lle y ganed fi a'm tad. Dyn dirym o gorph a meddwl ydwyf fi; ond a fynnwn, pe gallwn, er na's gallaf ond ymlusgo, dreulio fy mywyd yn ffordd y pererinion. Pan ddaethum i'r porth sydd yn mhen y ffordd hon, Arglwydd y lle hwnnw a'm croesawodd i yn ddi-draul; ni ddywedodd ef ddim ychwaith yn erbyn fy edrychfa wan, nac yn erbyn fy ngwan-feddwl i: ond efe a roddes i mi'r fath bethau ag oedd angenrheidiol i'm taith, ac a barodd i mi obeithio hyd y diwedd.[c] Pan ddaethum i dŷ'r Deonglwr, mi a dderbyniais lawer o garedigrwydd yno: a chan eu bod yn barnu fod bryn Anhawsdra yn rhy galed i mi, dygpwyd fi i fynu yno gan un o'i weision ef. Yn wir mi a dderbyniais lawer o ymgeledd oddiwrth bererinion, er nad oedd neb yn foddlon i fyned mor araf ag yr wyf fi yn gorfod myned: er hynny wrth fyned heibio, parent i mi fod yn gysurus, ac a ddywedent, mai ewyllys eu Harglwydd oedd diddanu'r gwan-feddwl, (1 Thes. v. 4,) ac felly hwy a aent yn mlaen. Pan oeddwn yn dyfod tua Heol-ymgyrch, yna'r cawr hwn a'm cyfarfu, ac a archodd i mi ymbarottoi i ymladd; ond och! yn un gwan fel ag oeddwn, yr oedd yn rheitiach i mi wrth gordial: felly efe a ddaeth i fynu, ac a'm cymmerodd i. Yr oeddwn i yn lled feddwl na's lladdai efe fi: hefyd pan aeth efe â mi i'w ffau, gan nad aethum i yn ewyllysgar gydag ef, yr oeddwn i yn credu y deuwn allan drachefn yn fyw; canys mi a glywais, nad oes i un pererin, ag a ddelir yn gaeth trwy orthrech, os efe a geidw galon gyfan tuag at ei feistr, i farw trwy ddwylaw'r gelyn, yn ol cyfraith rhagluniaeth. Fy yspeilio oeddwn i yn ddisgwyl, a'm hyspeilio yn sicr a gefais i; ond mi a ddihengais yn fyw, fel y gwelwch

PA FODD Y DAETH GWAN-FEDDWL I FOD YN BERERIN.

NODWCH HYN.

[c] Achos holl ofidiau y gwr hwn oedd ei ddiffyg o gryfder meddwl, ac eisiau ffydd nerthol. Heb fod gennym ffydd yn ymaflyd yn yr addewid, ac yn ein cryfhâu yn erbyn ein gelynion ysprydol, gwael a distadl fydd ein crefydd.

chwi, am yr hyn y diolchaf i'm Brenin megis awdwr, a chwithau megis y moddion. Yr wyf fi yn disgwyl am ruthrau eraill hefyd; ond hyn wyf wedi fwriadu, sef rhedeg tra gallwyf, cerdded pan na's gallwyf redeg, a chripian pan na's gallwyf gerdded. O ran y peth pennaf, yr wyf yn diolch i'r hwn a'm carodd i, myfi a ymsefydlais; fy ffordd sydd o'm blaen i, fy meddwl sydd tu hwnt i'r afon heb bont drosti, er fy mod, fel y gwelwch, yn wan-feddwl.

ONEST. Yna ebe hen Mr. Onest, Oni buoch chwi yn gydnabyddus gynt âg un Mr. Ofnus, o bererin.

GWAN. Cydnabyddus âg ef! oeddwn: efe a ddaeth o dref Hurtrwydd, yr hon sydd yn gorwedd bedwar gradd tua'r gogledd oddiwrth Ddinas Dystryw, a chyn belled o'r fan lle y ganed finnau; er hynny yr oeddwn yn gydnabyddus iawn, canys yn wir fy ewythr i, brawd fy nhad ydoedd ef; yr oedd ef a minnau yn dra thebyg ein tymherau; yr oedd ef ychydig yn fyrrach na myfi, ond er hynny yr oeddym ni yn gyffelyb iawn o wynebpryd.

MR. OFNUS YN EWYTHR I GWAN-FEDDWL.

ONEST. Yr wyf fi yn credu yr adwaenech chwi ef; ac yr wyf yn cael fy nhueddu i gredu eich bod yn perthyn i'ch gilydd, o blegid y mae ei edrychfa glaer-wen ef gennych chwi, a thafliad o'ch llygaid fel yntef, ac y mae eich lleferydd yn debyg iddo ef.

GWAN-FEDDWL YN DEBYG O RAN PRYD A GWEDD I MR. OFNUS.

GWAN. Y rhan fwyaf a ddywedant felly, ag oedd yn gydnabyddus â ni ein dau; ac heblaw hynny, mi a gefais ynof fy hun gan mwyaf, yr hyn a ddarllenais i ynddo ef.

GAIUS. Deuwch, Syr, ebe Gaius, byddwch ddiddanus, y mae i chwi roeso attaf fi, ac i'm tŷ, a galw am yr hyn y bo eich meddwl atto yn rhwydd; a'r hyn a fynnoch i'm gweision i wneuthur trosoch, hwy a'i gwnant ef o barodrwydd meddwl.

GAIUS YN EI GYSURO.

Yna ebe Mr. Gwan-feddwl, Dyma ffafr annisgwyliadwy, megis tewyniad yr haul allan o gwmmwl tywyll iawn. A oedd y cawr Lladd-daioni yn bwriadu hyn o nawdd i mi pan y'm hattaliodd i, ac y bwriadodd na's cawn fyned yn mhellach? A oedd efe yn meddwl, wedi iddo bigo fy mhocced i, y cawn i fyned at Gaius fy llettywr? Ac etto felly y mae.

DYLID DAL SYLW AR RAGLUNIAETH.

Yn awr pan oedd Mr. Gwan-feddwl a Gaius yn ymddiddan fel hyn, daeth un ar redeg, ac a alwodd wrth y drws, ac a ddywedodd, mai ynghylch milltir a hanner oddi yno yr oedd un Mr. An-union, o bererin, wedi cael ei daro yn farw ar y lle yr oedd, â mellten.

NEWYDD AM AN-UNION WEDI EI LADD GAN FELLTEN.

GWAN. Och! ebe Gwan-feddwl, a laddwyd ef? Efe a'm goddiweddodd i ychydig ddyddiau cyn fy nyfod cyn belled a hyn, ac a fynnai fod yn gydymaith i mi: yr oedd efe hefyd gyda mi pan ddaliodd Lladd-daioni fi, ond yr oedd efe yn gyflym ar ei draed, ac a ddihangodd: ond y mae yn debyg iddo ef ddiangc i farw, ac fe'm cymmerwyd innau i fyw.

SYLWADAU MR. GWAN-FEDDWL AR HYNY.

‘ Dirgelwch yw rhagluniaeth,
Sy'n edrych weithiau'n ddiffaith ;
Fel angau trwch yn gorthrech dyn,
A throi yn sydyn eilwaith.

Y cawr a'm dug i'w ogo',
Ac yntef a ddihangodd rhagddo ;
Er hynny efe a fu farw'n syth,
A minnau fyth yn scappio.’

Ynghylch yr amser hwn Matthew a Thrugaredd a briodasant; a Gaius a roddodd ei ferch Phœbe i Iago, yn wraig : a thrigasant uwchlaw deng niwrnod wedi hynny yn nhŷ Gaius; gan dreulio eu hamser, fel y bydd pererinion yn arfer.

Pan oeddynt i ymadael, Gaius a wnaeth wledd iddynt, a bu iddynt fwytta ac yfed, a bod yn llawen. Erbyn hyn yr oedd yr awr wedi dyfod ag oedd yn rhaid iddynt gychwyn ; gan hynny Mr. Dewr-galon a alwodd am gyfrif. Ond Gaius a ddywedodd wrtho, nad oedd arferol i'r pererinion dalu dim am eu croeso yn ei dŷ ef. Yr oedd efe yn eu byrddio wrth y flwyddyn, ond yn disgwyl am ei daledigaeth oddiwrth y Samaritan da, yr hwn a addawodd ei dalu ef yn ffyddlon ar ei ddychweliad, pa gost bynnag y byddai ynddo. Luc x. 24, 36. Yna ebe Mr. Dewr-galon wrtho ef:

Y PERERINION YN PAROTOI I GYCHWYN.

DEWR. Anwylyd, “ gwnaethost yn ffyddlon, yr hyn a wnaethost, i'r brodyr ac i ddieithriaid, y rhai a ddygasant dystiolaeth o'th gariad ger bron yr eglwys, y rhai os hebryngi (etto) yn eu taith, fel y gweddai i Dduw, da y gwnai.” 3 Ioan 5, 6.

PA FODD Y CYFARCHANT EU GILYDD WRTH YMADAEL.

Yna Gaius a gymmerodd ei gennad oddi wrthynt oll, a'i blant, ac yn enwedig â Mr. Gwan-feddwl; efe a roddodd hefyd ryw beth iddo i'w yfed ar y ffordd.

TIRIONDEB OLAF GAIUS I GWAN-FEDDWL.

Yn awr pan oeddynt yn myned allan o'r drws, Mr. Gwan-feddwl oedd fel pe buasai am sefyllian yn ol : yr hyn pan ganfu Mr. Dewr-galon, efe a ddywedodd, Deuwch Mr. Gwan-feddwl, er dolwyn deuwch gyda ni, myfi a fyddaf yn hyfforddwr i chwi, a chewch ymdaro fel y lleill.

GWAN. Och ! y mae arnaf fi eisiau cydymaith addas ; yr ydych chwi i gyd yn gryf ac yn heinif ; ond yr wyf fi, fel ag y gwelwch, yn wan ; yr wyf fi gan hynny yn dewis yn hytrach i ddyfod ar ol, rhag, o achos fy amryw wendidau, i mi fod yn faich i mi fy hun a chwithau. Yr wyf fi, fel y dywedais, yn wr llesg a gwan-feddwl, ac fe'm tramgwyddir ac a'm gwanheir trwy yr hyn a ddichon eraill ei ddwyn. Nid wyf fi ddim yn hoffi chwerthin : nid wyf fi ddim yn hoffi gwisgoedd gwychion : nid wyf fi yn hoffi cwestiynau anfuddiol. Nagê, yr wyf fi cyn wanned dyn, ag y tramgwyddaf fi wrth yr hyn y bo gan arall ryddid i'w wneuthur. Nis gwn i yr

GWAN-FEDDWL AM DDYFOD AR OL.

EI ESGUS AM HYNY.

holl wirionedd: Cristion anwybodus iawn ydwyf fi: weithiau, pan glywyf rai yn ymlawenychu yn yr Arglwydd, fe fydd yn flin i mi, o achos na's gallaf finnau wneuthur hynny hefyd. Y mae gyda mi, fel y mae gyda dyn egwan yn mhlith y cryfion, neu fel lamp ddiystyredig; (yr hwn sydd barod i lithro â'i draed, sydd fel lamp ddiystyredig yn meddwl yr hwn sydd mewn esmwythder, Iob xii. 5.) felly ni wn pa beth i'w wneuthur.

DEWR. Ond, fy mrawd, ebe Mr. Dewr-galon, y mae yn fy nghommissiwn i gysuro'r

COMMISSIWN DEWR-GALON.

gwan-feddwl, a chynnal y gweiniaid. 1 Thes. v. 15. Rhuf. xiv. 1 Cor. viii. 9, 22. Gorfydd i chwi fyned gyda ni: ninnau a aroswn wrthych, ac a'ch cynnorthwywn chwi; ni a ymwadwn â ni ein hunain o ryw bethau, mewn opiniwn ac ymarferiad, er eich

YSBRYD CRISTIONOGAIDD.

mwyn chwi; ac nid ymyrwn ni â matterion amhëus yn eich gŵydd chwi; ni a fyddwn yn bob peth er eich mwyn chwi, yn hytrach nag y gadawom chwi ar ol. Psal. xxxviii. 16.[d]

Yn awr yr oeddynt trwy gydol yr amser hyn wrth ddrws Gaius; ac wele, tra yr oeddynt fel hyn yn dwym yn eu hymddiddan, Mr. Parod-i-gloffi a ddaeth heibio a'i ffyn-

ADDEWIDION.

baglau yn ei law, ac yr oedd yntef hefyd yn myned ar bererindod.

GWAN. Yna ebe Mr. Gwan-feddwl wrtho, Pa fodd y daethost ti yma? Yr oeddwn

GWAN-FEDDWL YN LLAWEN WRTH WELED PAROD-I-GLOFFI.

i gynne yn achwyn o eisiau cydymaith addas i mi, ond yr wyt ti yn ol fy nymuniad. Groeso, groeso, Mr. Parod-i-gloffi anwyl, gobeithio y byddi di a minnau o r y help i'n gilydd.

PAROD-I-GLOFFI. Fe fydd yn llawen gennyf dy gyfeillach, ebe'r llall; ïe, Mr. Gwan-feddwl anwyl, yn hytrach nag yr ymadawom, gan ein bod mor ddedwydd a chyfarfod, mi a roddaf i ti fenthyg un o'm ffyn-baglau.

GWAN. Nagê, ebe fe, er fod gennyf ddiolch i ti am dy ewyllys da, yr wyf fi yn dueddol i lercian cyn y cloffwyf. Er hynny yr wyf fi yn tybied y gall hi fod yn llesol, pan byddo achos yn erbyn ci.

PAROD-I-G. Os gallaf fi neu'm baglau wneuthur i ti lesâd, yr ydym yn barod wrth dy arch, Mr. Gwan-feddwl anwyl.

Fel hyn gan hynny y cychwynasant: Mr. Dewr-galon a Mr. Onest a aethant o'r blaen, Cristiana a'i phlant yn nesaf, a Mr. Gwan-feddwl a Mr. Parod-i-gloffi â'i ffyn-baglau, a ddaethant ar ol. Yna ebe Mr. Onest,

YMDDIDDAN NEWYDD.

ONEST. Attolwg, Syr, yr ydym ni yn awr ar y ffordd, adroddwch i ni ryw bethau buddiol am rai ag aeth ar bererindod o'n blaen ni.

DEWR. Gydag ewyllys da. Yr wyf fi'n tebyg i chwi glywed y modd y cyfarfu Cristion gynt âg Apolyon yn Nyffryn Darostyngiad, ac hefyd y fath orchwyl caled

[d] Ein dyledswydd yw cyd-ddwyn â'r gweiniaid, ac yn enwedig y rhai a fo yn weiniaid o ran eu deall, ac yn barod i ddigaloni dan dreialon, er eu bod yn gywir eu hegwyddor, ac yn ddiargyhoedd eu rhodiad. Ond os yw rhai am lusgo ar ol, ni ddylai y rhai sydd yn fwy bywiog a gweithgar ymollwng iddynt hwy, ond ymdrechu eu dwyn gyda hwynt, a'u dysgu i fod yn gryfion yn y gras sydd yn Nghrist Iesu.

a gafodd efe i fyned trwy Ddyffryn Cysgod Angau. Hefyd y mae yn debyg gennyf i chwi glywed pa mor galed yr ymosododd Madam Anllad ar Ffyddlon, ac Adda y Cyntaf, ynghyd ag un Anfoddlonrwydd a Chywilydd; pedwar o'r dihirwyr mwyaf dichellgar ag a allai dyn eu cyfarfod ar y ffordd.

ONEST. Do, yr wyf yn credu i mi glywed am hyn i gyd; ond yn wir, Cywilydd a fu galettaf o'r cwbl i Ffyddlon; yr oedd efe yn un rhyfedd flin.

DEWR.Ië; canys, fel ag y dywedodd y pererin yn dda, efe o neb a gafodd y cam enw.

ONEST. Ond attolwg, Syr, yn mha le y cyfarfu Cristion a Ffyddlon â Chwedleugar? Un hynod oedd hwnnw hefyd.

DEWR. Ffol hyderus oedd efe, er hynny y mae llawer yn dilyn ei ffyrdd ef.

ONEST. Efe a fu debyg o hudo Ffyddlon.

DEWR. Do, ond Cristion a'i gosododd ef mewn ffordd i'w chwilio ef allan yn fuan. Fel hyn yr aethant yn mlaen nes dyfod i'r fan y cyfarfu Cristion a Ffyddlon âg Efengylwr, yr hwn a brophwydodd iddynt yr hyn a ddigwyddai iddynt yn Ffair Gwagedd.

DEWR. Yna ebe eu Harweinydd, Oddi amgylch i'r fan yma y cyfarfu Cristion a Ffyddlon âg Efengylwr, yr hwn a brophwydodd iddynt am y blinderau a gyfarfyddent yn Ffair Gwagedd.

ONEST. A ddywedwch chwi felly? Mi warantaf iddo ef ddarllen pennod galed iddynt y pryd hynny.

DEWR. Fe wnaeth felly, ond efe a roddodd iddynt annogaeth ynghyd â hynny Ond beth ydym ni yn siarad am danynt hwy; gwŷr tebyg i lewod oeddynt hwy; hwy a osodent eu hwynebau fel callestr. Onid ydych chwi yn cofio mor ddewrwych y safasant ger bron y barnwr?

ONEST. Wel, Ffyddlon a ddioddefodd yn wych.

DEWR. Felly y gwnaeth ef, a gwych oedd y peth a ddaeth o hono; o blegid Gobeithiol, a rhai eraill, fel y mae yr ystori yn rhoddi, a ddychwelwyd trwy ei farwolaeth ef.

ONEST. Wel, ond attolwg ewch rhagoch; canys yr ydych chwi yn dra chydnabyddus â phethau.

DEWR. O'r cwbl a gyfarfu â Christion wedi iddo fyned trwy Ffair Gwagedd, un Cam-ddibenion oedd y mwyaf dichellgar.

ONEST. Cam-ddibenion! Beth ydoedd ef?

DEWR. Cyfaill hoccedus iawn, rhagrithiwr trwyadl: un ag a fynnai fod yn grefyddol, yn mha ffordd bynnag ag yr oedd y byd yn myned; ond mor gyfrwys, ag y byddai ef sicr na's cai na cholled na dioddef byth o'i phlegid.

Yr oedd ganddo ef ei ddull o grefydd i wasanaethu ar bob achos newydd, ac yr oedd ei wraig ef gystal wrthi ag yntef. Efe a droai o opiniwn i opiniwn; ïe, efe a ddadleuai

tros wneuthur felly hefyd. Ond, cyn belled ag y gellais i ddysgu, efe a ddaeth i ddiwedd drwg â'i gam-ddibenion ganddo; ac ni chlywais i erioed fod neb o'i blant ef o ddim cyfrif gyda neb ag oedd yn gwir ofni Duw.[e]

Erbyn hyn yr oeddynt wedi dyfod o fewn golwg i dref Gwagedd, lle y cedwir Ffair Gwagedd. Felly pan welsant eu bod cyn nesed i'r dref, hwy a gydymgynghorasant pa fodd yr elent trwyddi: a rhai a ddywedent un peth, ac eraill beth arall. O'r diwedd Mr. Dewr-galon a ddywedodd, Myfi a fum, fel y gellwch chwi ddeall, yn fynych yn arweinydd i'r pererinion trwy'r dref hon: yn awr yr wyf fi yn gydnabyddus âg un Mr. Mnason, Cypriad o genedl, a hen ddisgybl, yn nhŷ yr hwn y gallwn ni lettya. Os gwelwch chwi fod yn dda, ni a drown i mewn yno.

MAENT O FEWN GOLWG I FFAIR GWAGEDD.

Boddlon, ebe hen Onest; Boddlon, ebe Cristiana; Boddlon, ebe Mr. Gwan-feddwl; ac felly y dywedasant i gyd. Yn awr, y mae yn rhaid i chwi feddwl ei bod yn hwyr erbyn eu bod hwy y tu faes i'r dref; ond Mr. Dewr-galon a wyddai y ffordd i dŷ yr hen wr. Felly yno y daethant; ac efe a alwodd wrth y drws, a'r hen wr oddi fewn a adnabu ei lais ef cyn gynted ag y clybu efe ef; felly efe a agorodd, a daethant oll i mewn. Yna ebe Mnason eu gwestai, 'O ba mor belled y daethoch chwi heddyw?' Felly hwy a ddywedasant, 'O dŷ eich cyfaill Gaius.' 'Mi warantaf,' ebe yntef, 'i chwi ddyfod bwythyn da ynte, ni allwch lai na bod yn ddiffygiol; eisteddwch i lawr. Felly hwy a eisteddasant i lawr.

MAENT YN TROI I LETTYA I DY MR. MNASON.

DEWR. Yna ebe eu harweinydd, Deuwch, pa fodd yr ydych chwi, anwyl Syrs? Mi a wn fod i chwi roeso at fy nghyfaill.

MNASON. Y mae gennyf finnau hefyd, ebe Mr. Mnason, roeso i chwi; a pha beth bynnag sydd arnoch eisiau, dywedwch, a ni a wnawn ein goreu ei gael ef i chwi.

ONEST. Ein mawr ddiffyg er's meittyn, oedd gwasgod-le a chyfeillach dda, ac yr awr hon yr wyf fi yn gobeithio i ni gael pob un o'r ddau.

MAENT YN LLAWEN O'U CROESAW.

MNASON. Am wasgod-le, chwi a welwch pa fath yw ef; ond am gyfeillach dda, fe ymddengys hynny yn y profiad o hono.

DEWR. Wel, ebe Mr. Dewr-galon, a ewch chwi â'r pererinion i'w hystafelloedd?

MNASON. Mi wnaf, ebe Mr. Mnason. Felly efe a'u dug hwynt i'w lleoedd perthynol; ac efe a ddangosodd iddynt giniaw-le gwych iawn, lle y gallent fod, a swpperu ynghyd, nes y byddai yn amser iddynt fyned i'w gorphwysfa.

Yn awr wedi iddynt eistedd yn eu lleoedd, ac ymloni ychydig ar ol eu taith, Mr. Onest a ofynodd i'w lettywr, os oedd nemawr o bobl dda yn y dref?

MNASON. Y mae gennym ychydig, canys yn wir nid ydynt ond ychydig, mewn cyffelybrwydd i'r blaid arall.

[e] Gochelwn egwyddorion y gwr hwn, sef gwneuthur crefydd i wasanaethu fel cochl-wisg i bob rhyw bwrpas. Rhai ni fynnent ymyraeth â chrefydd, rhag iddynt golli wrth hynny yn eu matterion; ac y mae rhai wedi dwyn eu hunain i barch a golud fel proffeswyr, ac wedi hynny yn troi eu cefnau ar achos Duw.

ONEST. Ond pa fodd y gwnawn ni i gael gweled rhai o honynt? canys y mae yr olwg ar bobl dda i'r pererinion, yn debyg i ymddangosiad y lleuad a'r sêr i'r neb sydd yn hwylio ar y môr.*

MAENT YN DYMUNO GWELED RHAI A BOBL DDA Y DREF.

MNASON. Yna Mr. Mnason a roddodd ergyd i'r llawr â'i droed, a'i ferch Gras a ddaeth i fynu: felly efe a ddywedodd wrthi, Gras, ewch, dywedwch i'm cyfeillion, Mr. Briwedig-o-galon, Mr. Gwr-sanctaidd, Mr. Caru-y-saint, Mr. Digelwyddog, a Mr. Edifeiriol; mae gennyf gyfaill neu ddau yn fy nhŷ, ac y chwennychaf yn yr hwyr yma eu gweled hwy.

Felly Gras a aeth i'w galw hwynt, a hwythau a ddaethant; ac wedi cyfarch eu gilydd, hwy a eisteddasant ynghyd wrth y bwrdd.

Yna ebe Mr. Mnason, eu llettywr, Fy nghymmydogion, fe ddaeth cwmpeini o ddieithriaid, fel y gwelwch, i'm tŷ i; pererinion ydynt: hwy a ddaethant o bell, a myned y maent tua Mynydd Sïon. Ond pwy, ebe fe, a feddyliwch chwi ydyw hon? gan ddangos Cristiana â'i fys: Cristiana ydyw hi, gwraig Cristion, y pererin hynod hwnnw, yr hwn, ynghyd â'i frawd Ffyddlon, a driniwyd mor gywilyddus yn ein tref ni. Ac ar hynny hwy a safasant yn synn, gan ddywedyd, Ychydig oeddym ni yn feddwl o weled Cristiana, pan ddaeth Gras i'n galw ni: o blegid hynny newydd cysurus iawn ydyw hwn. Yna hwy o ofynasant iddi am ei hiechyd, ac os meibion ei gwr hi oedd y llangciau hynny. Ac wedi iddi ddywedyd mai hwy oeddynt, hwythau a ddywedasant, 'Y Brenin ag ydych chwi yn ei garu ac yn ei wasanaethu, a'ch gwnelo fel eich tad, ac a'ch dygo lle y mae yntef mewn heddwch.'

ONEST. Yna Mr. Onest (wedi iddynt i gyd eistedd i lawr) a ofynodd i Mr. Briwedig-o-galon, a'r lleill, yn mha agwedd yr oedd eu tref hwynt yn bresennol.

YMDDIDDAN RHWNG MR. ONEST A MR. BRIWEDIG-O-GALON.

BRIWEDIG-O-GALON. Y mae yn ddilys i chwi ein bod ni oll yn llawn terfysg amser Ffair. Y mae yn anhawdd gennym gadw ein calonau a'n hysprydoedd mewn dim cymhwysder, pan fyddom mewn cyflwr trafferthus. Y neb a fyddo yn byw yn y fath le a hwn, ac yn ymarfer â'r cyfryw ag ydym ni, mae yn angenrhaid iddo wrth amnaid, i'w rybuddio ef i edrych atto ei hun bob moment o'r dydd.

FFRWYTH GWYLIADWRIAETH.

ONEST. Ond a ydyw eich cymmydogion yn ymddwyn yn llonydd yn bresennol tuag attoch?

BRIW. Y maent yn weddeiddiach yn awr o lawer nag o buont gynt. Chwi a wyddoch pa fodd y triniwyd Cristion a Ffyddlon yn ein tref ni: ond yn ddiweddar, mi a allaf ddywedyd, eu bod yn fwy gweddaidd o lawer. Yr wyf yn tybied fod gwaed Ffyddlon yn gorwedd yn drwm arnynt hwy etto; o blegid er pan

NID YW ERLEDIGAETH MOR BOETH AG Y BUASAI YN FFAIR GWAGEDD.

* Y mae rhai gwŷr duwiol yn gorfod byw yn Ffair Gwagedd, hynny yw, mewn amgylchiadau sydd yn eu darostwng i fod yn mhlith y rhai a dreuliant eu hamser yn ol arferion y byd gwag hwn. Yn wir, "gwagedd o wagedd" yw y cyfan sydd yn y byd.

y llosgasant ef, bu cywilydd arnynt losgi neb ar ei ol; yr oedd arnom ofn rhodio yr heolydd yn y dyddiau hynny, ond yn awr ni a allwn ddangos ein penau. Yr oedd enw proffeswr yn gas y pryd hynny; yn awr, yn enwedig mewn rhai rhanau o'n tref (canys chwi a wyddoch fod ein tref ni yn helaeth) y mae crefydd yn cael ei chyfrif yn anrhydeddus.

Yna ebe Mr. Briwedig-o-galon wrthynt, Attolwg, pa fodd yr ydych chwi yn ymdaro yn eich taith? Pa fodd y mae y wlad yn ymddwyn tuag attoch chwi?

ONEST. Y mae hi yn digwydd i ni, fel ag y mae wedi digwydd i ddynion pellenig; y mae ein ffordd ni weithiau yn lân, weithiau yn frwnt, weithiau i fynu, weithiau i wared; anfynych yr ydym ar wastadrwydd: nid yw'r gwynt o'n cefnau bob amser, ac nid yw pob un a gyfarfyddom ar y ffordd yn gyfaill i ni. Yr ydym wedi cyfarfod â rhuthrau hynod eisoes: a pheth sydd etto yn ol, ni's gwyddom ni: ond ni a brofasom yn wirionedd gan mwyaf, yr hyn a ddywedpwyd gynt, Bod yn rhaid i ddyn da ddioddef adfyd.

BRIW. Yr ydych yn siarad am ruthrau: Pa ruthrau a ddarfu i chwi gyfarfod â hwynt?

ONEST. Nagê, gofynwch i Mr. Dewr-galon, ein harweinydd, o blegid efe a all roddi i chwi yr hanes goreu o hynny.

DEWR. Ymosodwyd arnom dair gwaith neu bedair eisoes. Yn gyntaf, ymosododd dau wttreswr ar Gristiana a'i phlant, fel yr ofnasant y collent eu bywyd. Ymosodwyd arnom gan y cawr Garw-guchiog, y cawr Gorddwyn, a'r cawr Lladd-daioni. Yn wir nyni yn hytrach a ymosodasom ar y diweddaf, yn lle iddo ef ymosod arnom ni. Ac fel hyn y bu: Wedi ein bod ni tros ennyd yn nhŷ Gaius, fy llettywr i a'r holl eglwys, meddyliasom ar ryw bryd i gymmeryd ein harfau gyda ni, a myned i edrych a allem ni gael gafael yn neb o elynion y pererinion (canys ni a glywsem fod un hynod o ddeutu yno). Yn awr fe wyddai Gaius am ei gynniweirfa yn well na myfi, o achos ei fod ef yn byw gerllaw yno; felly ni a edrychasom, ac a edrychasom, nes canfuom o'r diwedd enau ei ffau; yna y llawenychasom, a chyffroisom i fynu ein hysprydoedd. Felly ni a nesasom i fynu at enau ei ogof ef: ac wele, pan ddaethom yno, efe a lusgasai, trwy wir drais, i'w rwyd, y dyn tlawd hwn, Mr. Gwan-feddwl, ac yr oedd efe ynghylch ei ddihenyddio ef. Ond pan ganfu efe ni, tybiodd, fel y meddyliasai, iddo gael ysglyfaeth arall; efe a adawodd y dyn druan yn ei dwll, ac a ddaeth allan. Felly ni a gwympasom ynghyd âg ef yn drwch, ac yntef a ymroddodd iddi yn heinif; ond yn y diwedd, efe a ddygpwyd i'r llawr, a thorrwyd ymaith ei ben ef, a gosodwyd ef i fynu ar ochr y ffordd, er dychryn i'r sawl a wnelai y fath annuwioldeb rhagllaw. O'm bod i yn dywedyd y gwir, dyma y gwr ei hunan i sicrhâu y peth, yr hwn a gymmerwyd megis oen o safn y llew.

GWAN. Yna ebe Mr. Gwan-feddwl, Mi a brofais hyn yn wir, i'm traul a'm cysur: i'm traul pan oedd efe yn bygwth pigo'm hesgyrn i bob munud; ac i'm cysur, pan welais Mr. Dewr-galon a'i gyfeillion â'u harfau, yn nesâu mor agos er ymwared i mi.

GWR-SANCTAIDD. Yna ebe Mr. Gwr-sanctaidd, Y mae yn angen i'r rhai a fyddo yn myned ar bererindod feddiannu dau beth; gwroldeb, a bywyd difrycheulyd. Os byddant heb wroldeb, ni allant byth ddal ymlaen yn eu ffordd; ac os bydd eu bywyd yn fudr, hwy a wnant i enw pererinion ddrewi. ARAITH MR. GWR-SANCTAIDD.

CARU-Y-SAINT. Yna ebe Mr. Caru-y-saint, Gobeithio nad yw y rhybudd hwn yn angenrheidiol yn eich plith chwi. Ond yn wir y mae llawer yn ymdaith ar y ffordd, ag sydd yn hytrach yn eu cyhoeddi eu hunian yn ddieithriaid i bererindod, na bod yn ddieithriaid a phererinion ar y ddaear. ARAITH MR. CARU-Y-SAINT.

DIGELWYDDOG. Yna ebe Mr. Digelwyddog, Y mae yn wir, nid oes ganddynt na dull na dewrder pererinion; ni cherddant yn union, ond bydd eu traed fingamfongam; y naill esgid i mewn, a'r llall i maes, a'u hosanau yn anniben trostynt y tu ol; cerpyn yma, a rhwyg accw, er gwaradwydd i'w Harglwydd. ARAITH MR. DIGELWYDDOG.

EDIFEIRIOL. Hwy a ddylent ymofidio o achos y pethau hyn, ebe Mr. Edifeiriol; ac nid yw'r pererinion na'u ffordd yn debyg o gael eu harddu fel y dymunent, nes y glanhaer y ffordd o'r cyfryw frychau ac anafau. ARAITH MR. EDIFEIRIOL.

Fel hyn y treuliasant yr amser tan ymddiddan nes dodi swpper ar y bwrdd: at yr hwn yr aethant, a llonasant eu cyrph lluddedig; ac wedi hyn hwy a aethant i orphwys. Yn awr hwy a arosasant yn y ffair hon dro hir, yn nhŷ Mr. Mnason, yr hwn yn mhen ennyd o amser a roddodd ei ferch Gras i Samuel, mab Cristiana, yn wraig, a'i ferch Martha i Ioseph.

A buant yma yn hir, meddaf, (canys nid oedd hi yn awr fel gynt). Gan hynny y pererinion a ddaethant yn gydnabyddus â llawer o bobl dda y dref, a gweiniasant iddynt yr hyn a allent. Trugaredd, yn ol ei harfer, a ymboenodd lawer tros y tlodion; a chan hynny, eu boliau a'u cefnau a'i bendithiasant hi, ac yr oedd hi yno yn harddwch i'w phroffes. Ac i ddywedyd y gwir, yr oedd Gras, Phœbe, a Martha, o natur dda iawn bob un, ac yn gwneuthur llawer o les yn eu lleoedd. Yr oeddynt i gyd hefyd yn ffyddlon iawn; fel yr oedd enw Cristiana, fel y dywedwyd o'r blaen, yn debyg o fyw yn y byd.

Tra yr oeddynt yn aros yma, daeth bwystfil allan o'r coed, ac a laddodd lawer o bobl y dref. Dygai ymaith hefyd eu plant, ac a'u dysgodd hwynt i sugno ei genawon. Yn awr nid oedd un gwr yn y dref a feiddiai gymmaint ag wynebu yr anghenfil hwn; ond pawb a ffoent pan glywent swn ei ddyfodiad ef.† ANGHENFIL.

Nid oedd yr anghenfil debyg i unrhyw anifail ar y ddaear: ei gorph ef oedd debyg i ddraig, ac yr oedd ganddo saith gorn. Dat. xii. 3. "Gwnaeth aerfa fawr o blant, er hynny gwraig oedd yn ei reoli ef." Y bwystfil hwn a gynnygiai EI LUN. EI NATUR

† Wrth yr anghenfil hwn, mae yn debygol, rhaid i ni ddeall Pabyddiaeth. Yr oedd yn angenrhaid cael Calon-ddewr i ymosod arno, a gwŷr dewr-wych oedd yr hen Ddiwygwyr.

ammodau i ddynion; a'r rhai a garent eu bywyd yn fwy na'u heneidiau, a wnaent dderbyniad o'r ammodau hynny.

Yn awr Mr. Dewr-galon, ynghyd a'r rhai a ddaethent i weled y pererinion i dŷ Mr. Mnason, a aethant mewn cyngrair i fyned ac ymladd â'r bwystfil, i edrych a allent wared trigolion y dref hon o grafangc a safn y fath sarph ddifrodus.

Yna yr aeth Mr. Dewr-galon, Mr. Briwedig-o-galon, Mr. Gwr-sanctaidd, Mr. Digelwyddog, a Mr. Edifeiriol, â'u harfau, i'w gyfarfod ef. Yr oedd y bwystfil, ar y cyntaf, yn dra ffyrnig, ac yn edrych ar ei gaseion gyda dirmyg; eithr hwy a'i blinasant ef, gan eu bod yn wŷr o freichiau cryfion wrth arfau, fel y gwnaethant iddo gilio yn ol: felly hwy a ddychwelasant i dŷ Mr. Mnason drachefn.

EI YMDDYGIAD.

Rhaid i chwi wybod, fod gan y bwystfil ei amserau nodedig i ddyfod allan, ac i ymosod ar blant pobl y dref: ar y prydiau hynny hefyd y gwyliodd y cedyrn gwrol-wych hyn ef, gan ymosod arno yn fynych; yn gymmaint ag y cafodd ef, yn mhen amser, nid yn unig ei archolli, ond ei gloffi; heblaw hynny, nid oedd efe yn gwneuthur y fath ddihenydd o blant pobl y dref ag a wnaethai ef gynt. Ac y mae rhai yn credu yn ddilys, y bydd y bwystfil hwn farw o'i glwyfau.

Gwnaeth hyn gan hynny Mr. Dewr-galon a'i gyfeillion yn dra enwog yn y dref: fel yr oedd llawer o'r bobl mwyaf diystyr am bethau ysprydol, yn eu parchu ac yn eu hanrhydeddu hwy yn fawr. Ar y cyfrif hyn gan hynny, ni chafodd y pererinion fawr o niweid yma. Ond yn wir, am rai o'r rhai gwaelaf, nad oedd yn gweled mwy na'r wâdd, nac yn deall mwy nac anifail, nid oedd ganddynt barch yn y byd i'r gwŷr hyn, ac ni ddaliasant ddim sylw ar eu glewder na'u hanturiaethau.

Wel, yr amser a nesaodd ag oedd yn rhaid i'r pererinion fyned yn mlaen yn eu ffordd, gan hynny hwy a ymbarottoisant i'w taith. Danfonasant am eu cyfeillion, ac ymddiddanasant â hwy; trefnasant beth amser neillduedig yn hynny, i roddi eu gilydd i amddiffyniad eu Tywysog. Rhai hefyd a ddygasant iddynt o'r pethau ag oedd ganddynt, ag oedd addas i'r gwan a'r cryf, a'r gwŷr a'r gwragedd; ac felly a'u llwythasant hwynt â phethau angenrheidiol. Act. xviii. 10.

Wedi hyn aethant rhagddynt i'w ffordd; a'u cyfeillion a gyd-ymdeithiasant â hwy cyn belled ag oedd yn gyfleus; gorchymynasant eu gilydd drachefn i gadwraeth eu Brenin, ac a ymadawsant.

Hwy, gan hynny, ag oedd o gwmpeini'r pererinion a aethant rhagddynt, a Mr. Dewr-galon a aeth o'u blaen hwynt; yn awr, gan fod y gwragedd a'r plant yn weinion, gorfu iddynt fyned yn araf; trwy hyn cafodd Mr. Parod-i-gloffi a Mr. Gwan-feddwl fwy i gyd-ymdeimlo â'u cyflyrau.

Wedi iddynt ymadael â phobl y dref, a rhoddi ffarwel i'w cyfeillion, daethant yn fuan i'r fan lle y gosodwyd Ffyddlon i farwolaeth; gan hynny hwy a safasant yno, ac a

ddiolchasant i'r hwn a'u nerthodd hwynt i ddwyn ei groes cystled; ac yn hytrach o herwydd eu bod hwy yn awr yn cael budd oddiwrth y fath ddioddefiadau gwrol ag oedd yr eiddo ef.[f]

Yna hwy a aethant ymlaen, gan hynny, yn ol hyn, ennyd o ffordd yn mhellach, gan ymddiddan ynghylch Cristion a Gobeithiol; a'r modd yr ymunodd Gobeithiol ei hun â Christion, wedi marwolaeth Ffyddlon.

Erbyn hyn, yr oeddynt wedi dyfod i fynu i'r bryn Elw, lle yr oedd y mŵn arian, yr hwn a hudodd Ddemas o'i bererindod, ac i'r hwn, fel y mae rhai yn tybied, y syrthiodd Cam-ddibenion, ac a gollwyd; a hwy a ystyriasant hynny. Ond pan ddaethant at y golofn oedd yn sefyll ar gyfer y bryn Elw, sef y golofn halen, ag oedd yn sefyll hefyd o fewn golwg i Sodom a'i llyn drewllyd; bu ryfedd ganddynt, fel Cristion o'r blaen, fod gwŷr o'r cyfryw wybodaeth ac aeddfedrwydd synwyrau a'r rhai hynny wedi eu dallu gymmaint ag i droi i mewn yma. Eithr ystyriasant drachefn, nad yw natur yn ymgynhyrfu wrth y drygau y mae eraill yn gyfarfod, yn enwedig os bydd y peth a ganfyddont o natur ennillgar ar eu llygaid ynfyd.

Mi a'u gwelwn hwynt yn awr yn myned yn mlaen, nes y daethant at yr afon ag oedd y tu yma i'r Mynyddoedd Hyfryd; at yr afon lle yr oedd coedydd teg, yn tyfu o bod tu; a dail y rhai o'u cymmeryd yn dufewnol, sydd yn dda rhag glothineb, (Psal. xxiii.) y mae'r gweirgloddydd yma yn wyrddion trwy'r flwyddyn, ac yma y gallant orwedd mewn diogelwch.

Wrth lan yr afon hon, yn y gweirgloddydd, yr oedd lluestai a chorlanau defaid, a thŷ wedi ei adeiladu i fagu a dwyn i fynu yr ŵyn, sef babanod y gwragedd ag oedd yn bererinion. Heb. v. 2. Esa. xl. 11. Hefyd, yr oedd yma un ag oeddid yn ymddiried iddo am danynt, yr hwn a allai dosturio, a chasglu yr ŵyn hyn â'i fraich, a'u dwyn yn ei fynwes, ac arwain y rhai hynny ag oedd â rhai bychain ganddynt. Yn awr i ofal y Gwr hwn Cristiana a gynghorodd ei phedair merched i roddi gofal eu rhai bychain, fel y caent trwy y dyfroedd hyn eu cartrefu, eu gwasgodi, eu hymgeleddu, a'u magu, fel na byddai neb o honynt yn eisiau yr amser a ddêl. Os â neb o honynt ar ddisperod neu ar goll, y Gwr hwn a'u cais hwy drachefn; efe a rwym hefyd yr hyn sydd wedi briwio, ac a nertha y rhai sydd gystuddiol. Ier. xxiv. 4. Ecs. xxxiv. 11, 16. Ni bydd arnynt fyth eisiau yma na bwyd, na diod, na dillad; cedwir hwynt yma rhag lladron ac yspeilwyr; o blegid bydd y Gwr hwn farw yn hytrach nag y cyfrgollir un o'r rhai yma a roddwyd i'w ofal ef. Heblaw hynny, byddant sicr o gael yma naturiaeth dda ac addysg; a hwy a gânt eu dysgu i rodio mewn llwybrau union, a thyna ffafr tra mawr, fel y gwyddoch chwi. Y mae yma hefyd, fel y gwelwch chwi, ddyfroedd peraidd, dolydd hyfryd, blodau

[f] Ein lle ni yw parchu coffadwriaeth y Merthyron a gollasant eu gwaed a'u bywyd, ac eraill o wŷr enwog a ddioddefasant gymmaint o orthrymder, tra f'om ni yn mwynhâu ffrwyth eu llafur hwy a ddygasant bwys y dydd a'r gwres.

godidog, amryw o goedydd, a'r fath ag sydd yn dwyn ffrwythau iachus: ffrwythau annhebyg i'r rhai a fwyttaodd Matthew, y rhai a syrthiasant tros y gaer o ardd Beelzebub; ond ffrwyth ag sydd yn dwyn iechyd lle nad yw ef, ac yn ei barhâu ac yn ei gynnyddu lle y mae ef.

Felly hwy a fuont foddlon i roddi eu rhai bychain iddo ef; a'r hyn oedd annogaeth iddynt i wneuthur felly hefyd, oedd, fod hyn i gyd i fod ar draul y Brenin, a gwnaeth hynny y lle yn elusendŷ i blant ieuaingc ac amddifaid.

Yn awr hwy a aethant yn mlaen: a phan ddaethant at weirglodd y Traws-lwybr, at y gamfa yr aethai Cristion a'i gyfaill Gobeithiol trosti, pan gymmerwyd hwynt gan y cawr Anobaith, a'u gosod yn Nghastell Amhëus: hwy a eisteddasant i lawr, i ymgynghori beth oedd oreu iddynt ei wneuthur; sef, gan eu bod mor gryf, a chanddynt y fath wr da a Mr. Dewr-galon yn arweinydd iddynt, pan un ai oedd goreu iddynt wneuthur cynnyg ar y cawr, dymchwelyd ei gastell ef, ac os oedd neb pererinion ynddo, eu gollwng yn rhydd, cyn yr elent yn mhellach. Felly un a ddywedodd un peth, ac arall a ddywedodd i'r gwrthwyneb. Y naill oedd yn ammeu, os oedd yn gyfreithlon iddynt fyned i dir anghyssegredig: arall a ddywedai, y gallent, gan fod eu diben yn dda. Ond ebe Mr. Dewr-galon, Er nad all yr hyn a ddywedwyd yn ddiweddaf fod yn wir yn mhob achos, etto y mae gennyf fi orchymyn i wrthwynebu pechod, i orfod y drwg, i ymdrech yn mhlaid y ffydd: ac, attolwg, â phwy yr ymdrechaf fi yr ymdrechfa dda hon, onis gwnaf â'r cawr Anobaith? Gan hynny mi a amcanaf ddwyn ei fywyd ef, a dymchwelyd Castell Amhëus. Yna ebe fe, Pwy a â gyda mi? 1 Ioan ii. 13, 14. Yna ebe hen Onest, Myfi a ddeuaf. A ninnau a ddeuwn hefyd, ebe pedwar mab Cristiana, Matthew, Samuel, Iago, a Ioseph; canys yr oeddynt yn ieuaingc ac yn gryfion.

WEDI CYRHAEDD CAMFA TRAWS-LWYBR, MAE ARNYNT CHWANT YMOSOD AR Y CAWR ANOBAITH.

Felly hwy a adawsant y gwragedd ar y brif-ffordd, (Esa. xi. 6,) a chyda hwynt Mr. Gwan-feddwl, a Mr. Parod-i-gloffi a'i ffyn-baglau, i fod yn osgordd iddynt, hyd oni ddychwelent, (canys yn y lle hwnnw yr oedd y cawr Anobaith yn trigo,) mor agos, fel os byddai iddynt gadw ar y ffordd, fe allai plentyn bychain eu harwain hwynt.

Felly Mr. Dewr-galon, hen Onest, a'r pedwar gwr ieuangc, a aethant i fynu at Gastell Amhëus, i edrych am y cawr Anobaith. Pan ddaethant at borth y castell, hwy a gurasant am dderbyniad gyda thwrf anarferol. Gyda hynny daeth yr hen gawr at y porth, ac Anhyder, ei wraig, a'i canlynodd ef. Yna ebe fe, Pwy a pheth yw efe ag a anturiai fel hyn aflonyddu y cawr Anobaith? Mr. Dewr-galon a'i hattebodd, Myfi, Dewr-galon, un o arweinyddion pererinion Brenin y Wlad Nefol i'w lle eu hunain: ac yr wyf yn gofyn gennyt agoryd dy byrth i mi ddyfod i mewn; parottoa dy hun hefyd i ymladd, canys mi a ddaethum i dorri dy ben di, ac i ddymchwelyd Castell Amhëus.

Yn awr y cawr Anobaith, gan mai cawr oedd efe, a dybiodd na's gallai un dyn ei orfod ef; a thrachefn, efe a feddyliodd, yn gymmaint ag iddo gynt gael

TRECHODD ANOBAITH ANGYLION.

y fuddugoliaeth ar angylion, na chai Dewr-galon ei frawychu ef. Felly efe a osododd ei lurig am dano, ac a ddaeth allan; yr oedd ganddo gap o ddur ar ei ben, a dwyfroneg o dân wedi ei gwregysu oddi amgylch iddo, a daeth allan mewn esgidiau haiarn, a phastwn mawr yn ei law. Yna y daeth y chwech gwr hyn i fynu, ac a ymosodasant arno yn ol ac yn mlaen: ond pan ddaeth Anhyder, y gawres, i fynu i'w helpu ef, hen Mr. Onest a'i torrodd hi i lawr ar un ergyd. Yna hwy a ymladdsant am eu bywyd, a'r cawr a ddygpwyd i'r llawr, ond yr oedd yn anhawdd iawn ganddo farw: efe a ymdrechodd yn galed, ac yr oedd ganddo, fel y dywedant, gynnifer bywyd a châth; ond Dewr-galon a fu yn angau iddo, canys ni adawodd ef lonydd iddo nes gwahanu ei ben oddiwrth ei ysgwyddau.[g] ANHAWDD GANDDO FARW.

Yna hwy a gwympasant i ddadymchwelyd Castell Amhëus; a gwnaethant hynny yn hawdd, fel y gwyddoch chwi, gan fod y cawr Anobaith wedi marw. Hwy a fuant saith niwrnod yn ei ddinystrio ef: a chawsant o bererinion ynddo un Mr. Gwan-gred, yn mron rhynnu i farwolaeth, ac un Ofnus-iawn, ei ferch ef; a'r ddau hyn a achubasant hwy yn fyw. Ond chwi a ryfeddech weled y celaneddau meirwon ag oedd yn gorwedd yma ac accw yn nghyntedd y castell, a chyn llawned oedd y daeardŷ o esgyrn y meirw. DADYMCHWELYD CASTELL AMHEUS.

Wedi i Mr. Dewr-galon a'i gwmpeini orphen hyn o ddewis-gamp, hwy a gymmerasant Mr. Gwan-gred a'i ferch Ofnus-iawn, tan eu hamddiffyniad, canys pobl onest oeddynt hwy, er eu bod yn garcharorion yn Nghastell Amhëus, i'r cawr Anobaith. Cymmerasant hefyd ben y cawr gyda hwynt, (o blegid hwy a gladdasant ei gorph ef tan bentwr o gerrig,) ac i waered i'r ffordd, ac at eu cyfeillion y daethant, ac a ddangosasant iddynt yr hyn a wnaethent. Yn awr pan welodd Gwan-feddwl a Pharod-i-gloffi mai pen y cawr Anobaith oedd efe yn wir, yr oeddynt yn dra difyr a llawen. Yn awr Cristiana, pe buasai raid, a allasai chwareu ar y crwth, a'i merch Trugaredd ar y delyn: a chan eu bod mor llawen-fryd, hi a ganodd gaingc iddynt, a Pharod-i-gloffi a fynnai ddawnsio. Felly efe a gymmerth Ofnus-iawn, merch Gwan-gred, erbyn ei llaw, ac i ddawnsio yr aethant ar y ffordd fawr. Gwir, ni's gallasai efe ddawnsio heb gael ffon fagl yn ei law; ond mi a sicrhaf i chwi, ei fod ef yn ei throedio hi o'r goreu; yr eneth hefyd oedd i'w chanmol, o blegid yr oedd hi yn atteb y gerddoriaeth yn gyson. CHWAREU DAWNS O LAWENYDD.

Ond am Mr. Gwan-gred, nid oedd y gerddoriaeth nemawr iddo ef; yr oedd am ymborthi yn hytrach na dawnsio, o blegid yr oedd efe yn mron newynu. Felly Cristiana a roddodd iddo ychydig o wîn o'i chostrel, yn gymhorth presennol, ac yna hi a barottodd iddo ryw beth i'w fwytta; ac yn mhen ychydig, yr hen wr bonheddig a ddaeth atto ei hun, ac a ddechreuodd ymadfywio yn wych.

[g] Mae y cawr hwn wedi cael ei faeddu lawer gwaith, a'i gastell megis wedi ei ddwyn i'r llawr, ond y mae modd i'w adferu ef drachefn. Bydded i'r pererinion gadw ar y llwybr, a bod yn wrol ar blaid gwirionedd a chyfiawnder, a hwy a ddiangant rhag pob perygl.

Yn awr mi a welwn yn fy mreuddwyd, wedi gorphen yr holl bethau hyn, i Mr. Dewr-galon gymmeryd pen y cawr Anobaith, ac a'i gosododd ar drostan yn ymyl y ffordd fawr, yn gymhwys gyferbyn a'r golofn a godasai Cristion er rhag-rybudd i'r pererinion a ddeuent ar ol hynny, i gymmeryd gofal nad elent i'w diroedd ef.

Yna efe a ysgrifenodd oddi tani, ar faen mynor, y pennillion canlynol:—

'Dyma ben y cawr Anobaith,
A wnaeth fraw i'r seintiau ysywaeth;
Ei *Gastell Ammeu, a'i wraig Ddihyder,
A ddrylliwyd oll, er maint eu cryfder.

Anobeithiol, a'i ferch Ofnus,
A gaed yn fyw o gastell dyrus.
Trwy waith Dewr-galon a'i gwmpeini;
Gwych yw'r gwaith o allu eu gorchfygu.

COLOFN ER COFIANT AM WAREDIGAETH.

Mae'n argoel fod hyn yn wirionedd,
Pan mae cloffion, gweinion agwedd,
Yn canu a dawnsio mor llawened,
O waith cael y fath ymwared.'

* Er torri pen y cawr Anobaith,
A dinystrio ei Gastell diffaith,
Gall pechod roi 'ddo fywyd etto,
A bildio ei Gastell yn dra chryno.

Wedi i'r gwŷr hyn ymddangos mor wrol-wych yn erbyn Castell Amhëus, a lladd y cawr Anobaith, hwy a gychwynasant, ac a aethant, nes eu dyfod i'r Mynyddoedd Hyfryd, lle y llonnodd Cristion a Gobeithiol eu hunain â phob ymheuthyn yn yr ardal. Gwnaethant eu hunain hefyd yn gydnabyddus â'r Bugeiliaid yno, y rhai a'u croesawasant hwynt i'r Mynyddoedd Hyfryd, fel y gwnaethent i Gristion o'r blaen.

Pan welodd y Bugeiliaid y fath dyrfa yn canlyn Mr. Dewr-galon, (canys yr oeddynt yn gydnabyddus ddigon âg ef,) hwy a ddywedasant wrtho ef, Syr, y mae gennych chwi gwmpeini glân yma; er dolwyn yn mha le y cawsoch chwi y rhai hyn i gyd?

'Mae yma yn gynta' Gristiana a'i gwedd,
Ei meibion a'i merched yn rhodio mewn hedd,
Yn cychwyn wrth gwmpas, gan gadw at eu pôl,
At ras oddiwrth bechod; 'does neb a dry'n ol.

Mae'n nesa' ar ei siwrnai, hen Onest yn brudd;
A Pharod-i-gloffi, a'i amcan e' sydd
I fod yn wir galon: 'rwy'n coelio fe ddaeth
Gwan-feddwl yn ffyddlon hyd yma yn ei daith:

ARAITH YR HYFFORDDWR I'R BUGEILIAID.

(Y gwr da) Anobeithiol sy'n dyfod ar ol,
A'i ferch ef, Tra-ofnus, er trymed ei chôl;
A gawn ni yma'n derbyn? neu orfydd i ni
Fyned yn mhellach? Rhowch atteb yn ffri.'

Yna ebe'r Bugeiliaid, Dyma gwmpeini cysurus; y mae i chwi roeso attom ni, canys yr ydym ni am y gwan yn gystal a'r cryf; y mae gan ein Tywysog ni olwg at yr hyn a wneir i'r lleiaf o'r rhai hyn, (Mat. xxv. 40,) gan hynny ni ddylai gwendid fod yn rhwystr i'n derbyniad. Felly hwy a aethant a hwy at ddrws y palas, ac a ddywedasant wrthynt, 'Deuwch i mewn, Mr. Gwan-feddwl; deuwch i mewn, Mr. Parod-i-gloffi; deuwch i mewn, Mr. Gwan-gred, a Mrs. Ofnus, ei ferch ef.' 'Y rhai hyn, Mr. Dewr-galon,' ebe y Bugeiliaid wrth yr arweinydd, 'ydym yn alw i mewn wrth eu henwau, o achos eu bod yn fwy tueddol i dynnu yn ol; ond am danoch chwi, a'r lleill ag sydd yn gryfion, yr ydym yn eich gadael i'ch rhyddid arferol. Yna ebe Mr. Dewr-galon, Mi a welaf heddyw fod gras yn llewyrchu yn eich wynebau, ac mai Bugeiliaid fy Arglwydd ydych chwi yn wir, (Ezec. xxxiv. 21,) gan na wthiasoch y briwedig nac âg ochr nac âg ysgwydd, ond yn hytrach a daenasoch eu ffordd i'r palas â blodeu fel y dylasech.

EU CROESAWIAD.

DARLUNIAD O FUGEILIAID TWYLLODRUS.

Felly y gwan a'r llesg a aethant i mewn, a Mr. Dewr-galon a'r lleill a ganlynasant. Pan oeddynt hefyd wedi eistedd i lawr, dywedodd y Bugeiliaid wrth y rhai llesgaf o honynt, Beth sydd ag a fynnech chwi ei gael? Canys, ebe hwy, rhaid trin pob peth yma er cynnaliaeth i'r gweiniaid, yn gystal ag er rhybudd i'r afreolus.

Felly hwy a wnaethant iddynt wledd o bethau hawdd eu treulio, a'r hyn ag oedd flasus ac yn llesol: yr hyn yn ol iddynt fod yn dderbyniol o honynt, a aethant i'w gorphwysfa, bob un i'w lleoedd perthynol. Pan ddaeth y boreu, gan fod y mynyddoedd yn uchel, a'r diwrnod yn eglur; ac o herwydd mai arfer y Bugeiliaid oedd dangos i'r pererinion, cyn eu hymadawiad, ryw bethau newyddion, gan hynny, ar ol iddynt wneuthur eu hunain yn barod, ac ymadfywio eu hunain, y Bugeiliaid a'u dygasant hwynt allan i'r meusydd, ac a ddangosasant iddynt yn gyntaf yr hyn a ddangosasent i Gristion o'r blaen.

Yna hwy a aethant â hwynt i ryw leoedd newyddion. Y cyntaf oedd Bryn Rhyfeddod, lle yr edrychasant, a chanfuant ddyn o bell, yn treiglo'r mynyddoedd o amgylch â geiriau. Yna hwy a ofynasant i'r Bugeiliaid beth oedd meddwl hynny? Hwythau a fynegasant iddynt, Mai'r gwr hwnnw oedd fab i un Mr. Gras-mawr, [am yr

BRYN RHYFEDDOD.

hwn y gellwch ddarllen yn y rhan gyntaf o Daith y Pererin]. Gosodwyd ef accw i ddysgu pererinion pa fodd i gredu i lawr, neu i dreiglo allan o'u ffyrdd, pa anhawsderau bynnag a gyfarfyddai â hwynt, trwy ffydd. Marc xi. 23, 24. Yna ebe Mr. Dewr-galon, Yr ydwyf fi yn ei adnabod ef; y mae efe yn wr uwchlaw llawer.

BRYN DINIWEIDRWYDD.

Wedi hyn aethant a hwy i le arall, a elwid Bryn Diniweidrwydd: ac yno hwy a welent wr wedi ei wisgo mewn dillad gwynion; a dau wr, Rhagfarn a Drwg-ewyllys, yn taflu tom yn ddibaid arno. Ond wele, pa dom bynnag a daflent arno, fe syrthiai i lawr drachefn yn mhen ychydig, a'i wisgoedd a ddisgleirient cyn laned a phe buasid heb daflu dim budreddi arnynt.

Yna ebe'r pererinion, Beth yw ystyr hyn? Y Bugeiliaid a'u hattebasant, Y gwr hwn a elwir Gwr-duwiol, a'r wisg sydd yn dangos diniweidrwydd ei fywyd ef. Yn awr, y rhai sydd yn taflu tom atto, yw y sawl sydd yn casâu ei waith da ef; ond fel ag y gwelwch chwi, ni lŷn y dom ar ei ddillad ef; felly y bydd gyda'r hwn sydd yn byw yn wir ddiniweid yn y byd. Pwy bynnag a fynno ddiwyno y cyfryw rai, a ymboenant yn ofer; o herwydd fe wna Duw, yn mhen ychydig amser, i'w diniweidrwydd hwy dorri allan fel goleuni, a'u cyfiawnder fel canol dydd.

BRYN CARIAD.

Yna hwy a'u cymmerasant, ac a aethant â hwy i Fryn Cariad, lle y dangosasant iddynt wr ag oedd a dryll o frethyn o'i flaen, o'r hwn yr oedd efe yn torri peisiau a gwisgoedd i'r anghenus ag oedd yn sefyll oddi amgylch iddo; er hynny nid oedd ei ddarn brethyn ef ronyn llai.[h]

Yna ebe hwy, Beth yw'r ystyr o hyn? Y mae hyn, ebe y Bugeiliaid, i ddangos i chwi, na bydd fyth ddiffyg ar y sawl a fyddo ganddo galon i roddi o'i lafur i'r tlawd. Yr hwn a ddwfrhao, a ddwfrheir. Ac ni bu y deisen a roddodd y weddw i'r prophwyd achos yn y byd fod ganddi hi lai yn ei chelwrn.

GWAITH UN FFOL AC UN DISYNWYR.

Aethant a hwy hefyd i fan lle gwelsant un Ffol ac un Disynwyr yn golchi Ethiopiad, mewn amcan i'w wneuthur yn wŷn; ond pa fwyaf a olchent arno, duach oedd efe. Yna gofynasant i'r Bugeiliaid, Beth oedd yr ystyr o hynny? Hwythau a fynegasant iddynt, gan ddywedyd, Fel hyn y mae gyda'r drygionus; pa foddion bynnag a arferir i gael enw da i'r cyfryw, ni wasanaetha ond i'w wneuthur ef yn hytrach yn ffieiddiach. Fel hyn yr oedd gyda'r Phariseaid, ac felly y bydd gyda'r holl ragrithwyr.

TRUGAREDD A CHWANT ARNI WELED Y TWLL YN Y BRYN.

Yna ebe Trugaredd, gwraig Matthew, wrth Gristiana ei mam, Y mae arnaf chwant gweled y twll sydd yn y bryn, neu fel y gelwir ef yn gyffredin, y traws-lwybr i uffern. Felly ei mam a agorodd ei meddwl hi i'r Bugeiliaid. Hwythau a aethant at y drws; yr oedd efe ar ochr bryn. a hwy a'i hagorasant ef, a phar-

[h] Y mae bendith neillduol yn canlyn haelioni. Gwŷn fyd y sawl sydd yn iawn ddefnyddio eu golud daearol, trwy gyfranu yn helaeth at angenrheidiau eu cyd-greaduriaid. Yr hyn a roddir tros Dduw, ni chollir y gwobr o hono hyd yn oed yn y byd hwn.

asant i Drugaredd glustfeinio yno dro. Hithau a wrandawodd, a chlybu un yn dywedyd, ‘Melldigedig a fyddo fy nhad, am attal fy nhraed o ffordd tangnefedd a bywyd;’ ac ebe un arall, ‘O na ddrylliasid fi yn ddarnau, cyn i mi, i achub fy mywyd, golli fy enaid!’ ac ebe un arall, ‘Pe cawn i fyw etto, pa fodd yr ymwadwn â mi fy hun, yn hytrach nag y deuwn i'r lle hwn!’ Yna, yr oedd fel pe buasai y ddaear yn ochain ac yn crynu tan draed y wraig ieuangc hon rhag ofn; hithau oedd yn disgwyl yn las-wyn, ac a ddaeth ymaith yn ddychrynedig, gan ddywedyd, Bendigedig yw pob un a waredir rhag y lle hwn!

Wedi i'r Bugeiliaid ddangos iddynt yr holl bethau hyn, aethant a hwy yn ol i'r palas, gan eu croesawu â goreuon y tŷ: ond Trugaredd, gan fod yn ieuangc ac yn feichiog, a chwantodd ryw beth a welsai hi yno, ond yr oedd arni gywilydd i'w ofyn ef. Ei chwegr a ofynodd iddi beth oedd arni, o blegid yr oedd hi yn edrych fel un heb fod yn iach. Yna ebe Trugaredd, Y mae drych yn hongian i fynu yn y ciniaw-le, ac ni allaf fi dynnu fy meddwl oddi arno; gan hynny onis caf fi ef, yr wyf yn meddwl yr erthylaf. Yna ebe ei mam, Mi a grybwyllaf dy ddymuniad wrth y Bugeiliaid, ac ni ommeddant hwy ef i ti. Ond ebe hithau, Y mae arnaf fi gywilydd i'r gwŷr hyn wybod i mi chwantu. Nagê, fy merch, ebe hithau, nid yw ef gywilydd, ond rhinwedd, i chwennychu'r cyfryw beth a hynny; felly Trugaredd a ddywedodd, Yna, mam, os gwelwch chwi fod yn dda, gofynwch i'r Bugeiliaid, a fyddant hwy boddlon i'w werthu ef.

CHWANT AR DRUGAREDD, AC AM BABETH.

Yn awr y drych hwn oedd un o fil. Dengys ddyn mewn un ffordd yn llwyr yn ei agwedd ei hunan; a throwch ef ffordd arall, a dengys i chwi wyneb a dull Tywysog y pererinion ei hun.Ië, mi a chwedleuais â rhai ag a allent fynegi, a hwy a ddywedent, iddynt weled y goron ddrain ar ei ben ef, trwy edrych yn y drych hwn, (Iago i. 33. 1 Cor. xiii. 12. 2 Cor. iii. 18,) hwy a welsant ynddo hefyd y tyllau yn ei ddwylaw, ei draed, a'i ystlys.Ië, y mae y fath odidogrwydd yn y drych hwnnw, ag y dengys efe i un, yn mha le bynnag y dymunent ei weled ef; pa un ai yn fyw neu yn farw; pa un ai yn y nefoedd ai yn uffern; pa un ai mewn cyflwr o ddarostyngiad, neu yn ei dderchafiad; pa un ai dyfod i ddioddef, neu ddyfod i deyrnasu.[1]

GAIR DUW.

Cristiana gan hynny a aeth at y Bugeiliaid o'r neilldu, (enwau y rhai oedd Gwybodaeth, Profiad, Gwyliadwrus, a Phurdeb,) ac a ddywedodd wrthynt, Y mae un o'm merched i, gwraig feichiog, fel ag yr wyf fi yn tybied, wedi chwantu rhyw beth a welodd hi yn y tŷ hwn, ac y mae hi yn tebyg y bydd iddi erthylu, os gommeddwch ef iddi.

PROFIAD. Gelwch hi, gelwch hi; hi a gaiff yn sicr yr hyn y gallom ni ei helpu hi iddo. Felly hwy a alwasant arni, ac a ofynasant iddi, Trugaredd, Beth ydyw y peth hwnnw ag a fynnit ti ei gael?

[1] Y mae drych yr efengyl yn dangos Crist i ni yn ei holl swyddau, ac yn ei osod ef o'n blaen ni, fel ein Ceidwad ac fel ein Barnwr.

Yna hi a wridiodd, ac a ddywedodd, Y drych mawr sydd yn hongian i fynu yn yr ystafell oreu. Felly Purdeb a redodd, ac a'i cyrchodd ef, a chyda llawenfryd hwy a'i rhoisant ef iddi. Yna hi a ymgrymodd, ac a ddiolchodd iddynt, gan ddywedyd, Wrth hyn y gwn gael o honof ffafr yn eich golwg chwi.

NID OES DORRI AR EI CHWANT.

Rhoddasant hefyd i'r gwragedd ieuaingc eraill y cyfryw bethau a ddymunasant, ac i'r gwŷr ganmoliaeth fawr, o blegid iddynt gyd-uno â Mr. Dewr-galon i ladd y cawr Anobaith, ac i ddadymchwelyd Castell Amhëus.

Gosododd y Bugeiliaid gadwyn am wddf Cristiana, ac felly y gwnaethant am yddfau ei phedair merched; gosodasant hefyd glust-dlysau wrth eu clustiau, a thlysau ar eu talcenau.

Y BUGEILIAID YN ADDURNO Y PERERINION.

Pan oeddynt yn barod i ymadael, gadawsant iddynt fyned mewn heddwch, ond ni roisant iddynt hwy y rhybuddion a roisant i Gristion a'i gyfaill o'r blaen. Y rheswm am hynny oedd, o achos fod ganddynt Mr. Dewr-galon yn arweinydd iddynt, yr hwn oedd un ag oedd dra chydnabyddus â phethau, ac felly a allai eu rhybuddio yn fwy amserol; sef, pan fyddai enbydrwydd yn agosâu.

Yr hyfforddiadau a gafodd Cristion a'i gydymaith gan y Bugeiliaid, a gollasant erbyn fod yn rhaid iddynt wrthynt. Gan hynny, hyn oedd y blaenoriaeth ag oedd gan y cwmpeini hyn ar y rhai hynny.

Gan hynny hwy a aethant yn mlaen dan ganu, a dywedasant;

> 'Gwelwch mor gymhwysed
> Mae lletty i'r dieithriaid,
> Wedi ei osod yn ddi-wall,
> A groeso heb ball i weiniaid.
>
> Cawn ganddynt bob ymheuthyn
> I'n llonni, a lluniaeth diflin;
> Fel y gwypo pob dyn byw,
> Ein bod i Dduw yn perthyn.'

Pan aethant ymaith oddiwrth y Bugeiliaid, daethant yn ebrwydd i'r lle y cyfarfu Cristion âg un Tor-broffes, ag oedd yn trigo yn nhref Gwrthgiliad; o ba un gan hynny y gosododd Mr. Dewr-galon, eu harweinydd, hwynt mewn cof, gan ddywedyd, Dyma'r fan y cyfarfu Cristion âg un Tor-broffes, yr hwn oedd yn dwyn nôd o'i wrthryfel ar ei gefn. A hyn sydd gennyf i ddywedyd am y gwr hwn; ni wrandawai efe ar un cyngor, ond, wedi unwaith lithro, nid oedd rheswm ag a allai ei attal ef.

PA FODD Y GWRTHGILIODD TOR-BROFFES.

Pan ddaeth efe i'r fan yr oedd y groes a'r bedd, cyfarfu âg un a geisiodd ganddo edrych yno, yntef a ringciodd ei ddannedd, ac a drystiodd â'i draed, ac a ddywedodd, Ei fod ef yn llwyr fwriadu myned yn ol i'w dref ei hun. Heb. x. 26, 27, 28. Cyn ei ddyfod

at y porth, cyfarfu âg Efengylwr, yr hwn a gynnygiodd osod dwylaw arno ef, i'w droi ef i'r ffordd drachefn. Ond y Tor-broffes hwn a'i gwrthwynebodd ef, ac wedi gwneuthur llawer o ddirmyg iddo, efe a ddiangodd rhagddo ef tros y mur, ac felly a aeth ymaith o'i ddwylaw ef.

Yna hwy a aethant yn ymlaen; ac yn agos i'r fan yr yspeiliwyd Ychydig-ffydd gynt, yr oedd gwr yn sefyll â'i gleddyf noeth allan, ac yr oedd ei holl wyneb yn waedlyd. Yna ebe Mr. Dewr-galon, Beth ydwyt ti? Y gwr a'i hattebodd, gan ddywedyd, Myfi sydd un ag a elwir Glew-dros-y-gwirionedd, pererin ydwyf, ac yr wyf fi yn myned tua'r Ddinas Nefol. Yn awr, fel yr oeddwn ar fy ffordd, ymosododd tri gwr arnaf fi, ac a gynnygiasant i mi y tri pheth hyn: 1. Pa un a ddeuwn i fod yn un o honynt hwy? 2. Neu ddychwelyd i'r lle y daethum o hono? 3. Neu farw yn y fan? I'r cyntaf yr attebais, Mi fum yn wr cywir dros hir amser, a chan hynny nid ellir

LLADRON YN YMOSOD AR MR. GLEW-DROS-Y-GWIRIONEDD.



dim disgwyl i mi yn awr fwrw fy nghoelbren i blith lladron. Diar. i. 10—14. Yna hwy a fynasant wybod beth oedd gennyf i ddywedyd am yr ail. Felly mi a fynegais iddynt y lle y daethum o hono, oni buasai yn wrthwynebus i mi aros yno, ni buaswn fyth yn ei adael ef: ond gan ei brofi ef yn gwbl anaddas i mi, ac yn dra anfuddiol, mi a'i gadewais ef er mwyn y ffordd hon. Yna hwy a ofynasant i mi beth a ddywedwn am y trydydd? Ac mi a ddywedais wrthynt, Mae fy mywyd wedi costi yn ddruttach o lawer nag yr ymadawn âg ef yn ysgafn: heblaw hynny, nid oes gennych chwi ddim i'w wneuthur, a gosod pethau fel hyn i'm dewis i; gan hynny, nac ymyrrwch â mi ar eich perygl. Yna

y tri hyn, sef Penwyllt, Anystyriol, ac Ymofyngar, a ymosodasant arnaf fi, a minnau hefyd a osodais arnynt hwythau.

Felly ynghyd yr aethom ni, un yn erbyn tri, tros yspaid tair awr. Hwy a adawsant arnaf fi, fel y gwelwch, beth o nodau eu gwychder, a hwythau a ddygasant hefyd gyda hwy beth o'm heiddo innau. Nid ydynt hwy yn awr ond braidd wedi myned ymaith: yr wyf fi yn tybied, fel y mae'r dywediad, y gallent glywed trwst eich ceffyl chwi, ac felly hwy a ymroisant i ffoi.

DEWR. Ond yr oedd yma wahaniaeth mawr, tri yn erbyn un.

GLEW-DROS-Y-GWIR. Y mae yn wir; ond nid yw ychydig na llawer ddim i'r hwn sydd a'r *gwirionedd* o'i ochr: "Pe gwersyllai llu yn fy erbyn," ebe un, "nid ofnai fy nghalon: pe cyfodai rhyfel yn fy erbyn, yn hyn y byddaf hyderus," &c. Psalm xxvii. 3. Heblaw hyn, ebe fe, mi a ddarllenais mewn rhai hanesion, i un gwr ymladd â châd: a pha rifedi a laddodd Sampson â gên asyn?[k]

DEWR. Yna ebe yr arweinydd, Paham na floeddiasoch chwi, fel ag y gallasai rhyw rai ddyfod i'ch cynnorthwyo chwi?

GLEW. Felly y gwnaethum at fy Mrenin, yr hwn a wyddwn a allasai fy nghlywed i, a gweini cymhorth anweledig, a hynny oedd ddigon i mi.

DEWR. Yna ebe Mr. Dewr-galon wrth Mr. Glew-dros-y-gwirionedd, Ti a'th ddygaist dy hun yn urddasol; dangos i mi dy gleddyf; felly efe a'i dangosodd ef iddo.

Wedi iddo ei gymmeryd ef yn ei law, ac edrych arno dro, efe a ddywedodd, Ha! iawn lafn o Gaersalem yw. Esa. ii. 3.

GLEW. Felly y mae ef. Os bydd gan wr un o'r llafnau yma, a llaw i'w reoli, a medr i'w arferu, fe all anturio ar angel âg ef. Nid rhaid iddo ofni na's dal ef, os gŵyr efe pa fodd i fyned ymlaen âg ef. Ni phwla ei awch ef fyth. Efe a dyrr gnawd ac esgyrn, ac enaid ac yspryd a chwbl. Eph. vi. 12—17. Heb. iv. 12.

DEWR. Eithr chwi a ymladdasoch yn hir; y mae yn rhyfedd gennyf nad oeddych wedi blino.

GLEW. Mi a ymleddais nes y glynodd fy nghleddyf wrth fy llaw, ac yna yr oeddynt

Y GAIR, Y FFYDD. wedi ymlynu ynghyd, fel pe buasai gleddyf yn tyfu o'm braich i; a phan

GWAED. redodd y gwaed rhwng fy mysedd, yna y ymleddais i gyda mwy o wroldeb. 2 Sam. xxiii. 10.[l]

DEWR. Ti a wnaethost yn dda; ti a wrthwynebaist hyd at waed, gan ymdrech yn

[k] Nid oes dim tebyg i'r gwir, i fagu gwroldeb yspryd, a'r hwn fo'n caru'r gwir, bydd raid iddo ymdrechu drosto, a chael ei wrthsefyll gan ddynion penwyllt ac anystyriol, a'r sawl fo yn barod i ymryson am bethau ni ddeallant, ac nid oes achos ganddynt ymyrryd â hwynt.

[l] Gwŷn eu byd y rhai ydynt yn gadarn ar blaid y gwirionedd. Y mae rhai am roddi fynu Duw a'i wirionedd, er mwyn boddhâu'r byd, ond y pererin hwn oedd yn mawrygu y gwir uwchlaw ei fywyd. Dywedwn yn hyderus, Y GWIR YN ERBYN Y BYD.

erbyn pechod; ti a gei aros gyda ni, a dyfod i mewn, a myned allan gyda ni, canys cymdeithion i ti ydym ni.

Yna hwy a'i cymmerasant ef, ac a olchasant ei glwyfau, ac a roisant iddo o'r hyn oedd ganddynt i'w lonni ef: ac felly hwy a gychwynasant ynghyd. Yn awr fel yr oeddynt yn myned yn mlaen, o herwydd fod Mr. Dewr-galon yn ymhoffi ynddo ef, (o blegid yr oedd efe yn caru yn fawr y neb a welai ef yn wr o'i ddwylaw ef,) ac o herwydd fod yn ei gwmpeini ef rai ag oedd yn wan ac yn llesg: gan hynny efe a ymholodd âg ef ynghylch llawer o bethau; megis yn gyntaf, pa wladwr oedd efe?

GLEW. Yr wyf fi o Dir Tywyllwch, canys yno y ganed fi, ac y mae fy nhad a'm mam yno etto.

DEWR. Tir Tywyllwch! ebe'r arweinydd; onid yw hwnnw yn gorwedd ar yr un terfynau a Dinas Dystryw?

GLEW. Ydyw, y mae ef. Yn awr yr hyn a barodd i mi ddyfod ar bererindod, oedd hyn: Fe ddaeth un Mr. Geirwir i'n hardaloedd ni, ac efe a fynegodd i ni yr hyn a wnaethai Cristion, yr hwn a aethai o Ddinas Dystryw; sef, y modd y gadawsai efe ei wraig a'i blant, ac a ymroddodd ei hun i fywyd pererindod. Clywsom hefyd pa wedd y lladdasai efe sarph, a ddaeth allan i'w wrthwynebu ef yn ei siwrnai; a'r modd yr aethai efe trwodd i'r lle yr oedd efe yn bwriadu. Mynegwyd hefyd, pa roesaw a gafodd efe yn holl deiau-lletty ei Arglwydd, yn enwedig pan ddaeth efe i borth y Ddinas Nefol; canys yno, ebe'r gwr, efe a dderbyniwyd gyda llais udgorn, gan dyrfa o rai disglaer. Mynegodd hefyd, y modd y canodd holl glychau'r ddinas o lawenydd ar ei dderbyniad, a'r fath ddillad euraidd y gwisgwyd ef â hwynt; ynghyd â llawer o bethau eraill, nad rhaid i mi eu hadrodd yr awr hon. Ac i bennu ar y cyfan, y gwr hwnnw a adroddodd felly am Gristion a'i deithiau, fel y llosgodd fy nghalon i, o chwant myned ar ei ol ef; ni allai na thad na mam fy attal i! Felly mi a ymadawais â hwynt, ac a ddaethum hyd yma yn fy ffordd.

PA FODD Y DAETH MR. GLEW I FOD YN BERERIN.

DEWR. Chwi a ddaethoch i mewn i'r porth, onid do?

GLEW. Do, do; canys yr un gwr a fynegodd i ni hefyd, na thalai'r cwbl ddim i ni, oni ddechreuem y ffordd hon trwy'r porth.

DECHREUODD YN IAWN

DEWR. Gwelwch yna, ebe'r arweinydd wrth Gristiana, fel y mae pererindod eich gwr, a'i ennill ef trwy hynny, wedi ei daenu yn mhell ac yn agos.

ENW CRISTION YN HYNOD.

GLEW. Beth, ai gwraig Cristion yw hon?

DEWR. Ië, hi ydyw; a'r rhai hyn hefyd yw ei bedwar mab ef.

GLEW. Beth; ac yn myned ar bererindod hefyd?

DEWR. Ydynt, yn wir, y maent hwythau yn canlyn ar ol.

GLEW. Y mae yn llawenychu fy nghalon i: wr anwyl. Pa lawened fydd efe, pan welo hwynt, y rhai ni fynent ddyfod gydag ef, i gael myned i mewn o'i flaen ef i byrth y Ddinas Nefol!

MAE YN LLAWENHAU YN FAWR WELED GWRAIG CRISTION.

DEWR. Yn ddiammeu fe fydd yn gysur iddo; canys y llawenydd nesaf at ei weled ei hun yno, a fydd cyfarfod â'i wraig a'i blant yno.

GLEW. Ond, gan eich bod yn awr ar hynny, attolwg rhowch glywed eich opiniwn chwi ynghylch hynny. Y mae rhai yn ammeu, Pa un ai yr adnabyddwn ni ein gilydd yno?

DEWR. A ydynt yn tybied yr adnabyddant hwy eu hunain yno? neu y llawenychant o weled eu hunain yn y cyfryw ddedwyddwch? ac os ydynt yn tybied y gwybyddant ac y gwnant y pethau hynny, paham na's adnabyddant eraill? ac y gorfoleddant yn eu happusrwydd hwy hefyd?

Drachefn: gan fod ein perthynasau yn ail hunain i ni, er y bydd i'r 'stad honno gael ei dattod: er hynny, oni's gellir barnu yn ol rheswm, y bydd yn llawenach gennym eu gweled hwy yno, na gweled eu bod yn eisiau.

GLEW. Wel, yr ydwyf fi yn deall ynghylch pa le yr ydych chwi o ran hyn. A oes gennych chwi ddim ychwaneg o bethau i ofyn i mi ynghylch fy nechreuad i ddyfod ar bererindod?

DEWR. Oes: a oedd eich tad a'ch mam yn foddlon i chwi ddyfod yn bererin?

GLEW. O nag oeddynt! hwy a arferasant bob math ar foddion i'm perswadio i aros gartref.

DEWR. Beth oedd ganddynt i ddywedyd yn erbyn hynny?

GLEW. Yr oeddynt yn dywedyd, mai bywyd segurllyd oedd efe; ac oni buaswn innau yn tueddu at segurdod a diogi, na buaswn i fyth yn hoffi cyflwr o bererindod.

Y RHWYSTR MAWR A OSODWYD AR EI FFORDD.

DEWR. A pha beth a ddywedasant gyda hynny?

GLEW. Pa beth; dywedasant hefyd mai ffordd beryglus ydoedd hi; ïe, y ffordd fwyaf peryglus yn y byd, ebe hwy, yw yr hon ag y mae pererinion yn myned.

DEWR. A ddangosasant hwy i chwi yn mha beth yr oedd y ffordd yn beryglus?

GLEW. Do, a hynny mewn llawer o bethau.

DEWR. Enwch rai honynt.

GLEW. Dywedasant wrthyf am y Gors Anobaith, lle y bu Cristion yn mron trengu.

Y RHWYSTR CYNTAF.

Dywedasant wrthyf, fod saethyddion yn sefyll yn barod yn Nghastell Beelzebub, i saethu y sawl a gurai am dderbyniad wrth y Porth Bychan. Dywedasant wrthyf hefyd am y goedwig a'r colofnau tywyll, am y Bryn Anhawsdra, am y llewod; ac hefyd am y tri chawr, Gwr-gwaedlyd, Gorddwyn, a Lladd-daioni: dywedasant hefyd heblaw hynny, fod ellyll echrydus yn cynniwair yn Nyffryn Darostyngiad; ac iddo yn mron dwyn bywyd Cristion. Heblaw hynny, ebe hwy, y mae yn rhaid i chwi fyned trwy Ddyffryn Cysgod Angau, lle y mae gwag-ysprydion, lle y mae'r goleuni yn dywyllwch, lle y mae'r ffordd yn llawn rhwydau, pyllau, croglathau, a maglau. Dywedasant wrthyf am y cawr Anobaith, am Gastell Amhëus, a'r difrod a gyfarfu'r pererinion âg ef yno.

Yn mhellach, dywedasant, fod yn rhaid i mi fyned dros y Tir a Reibiwyd, yr hwn oedd beryglus. A chyda hynny, ar ol hyn i gyd, y cyfarfyddwn âg afon, dros yr hon ni chawn un bont; a bod yr afon honno yn gorwedd rhyngof fi a'r Wlad Nefol.

DEWR. Ai hyn oedd y cwbl?

GLEW. Nagê: dywedasant wrthyf hefyd, fod y ffordd hon yn llawn twyllwyr: ac o ddynion yn cynllwyn yno, i droi gwŷr da allan o'u llwybrau. YR AIL.

DEWR. Ond pa fodd y gwnaethant hynny allan?

GLEW. Dywedasant wrthyf, fod Mr. Bydol-ddoethyn yn cynllwyn yno i dwyllo. Dywedasant hefyd, fod Ffurfioldeb a Rhagrith yn wastadol ar y ffordd fawr. Dywedasant hefyd, y buasai i Gam-ddibenion, Chwedleugar, neu Demas, ddyfod i'm casglu i fynu: y daliai y Gwenieithiwr fi yn ei rwyd; neu ynte, y rhyfygwn i, fel Anwybodus ieuangc, i fyned at y porth, o ba le y danfonwyd ef yn ol i'r twll yn ochr y bryn, a gwnaethpwyd iddo fyned ar hyd y traws-lwybr i uffern.

DEWR. Mi addawaf i chwi, fod hyn yn ddigon i'th ddigaloni di. Ond a wnaethant hwy ddiben ar hynny?

GLEW. Na ddo, aroswch. Dywedasant wrthyf hefyd am lawer a brofasai y ffordd honno gynt, ac a aethent yn mhell ar hyd-ddi, i edrych a gyfarfyddent â pheth o'r gogoniant hynny, ag oedd cynnifer yn ymsiarad am dano o bryd i'w gilydd; a'r modd y dychwelasant drachefn, gan gyfrif eu hunain yn ffyliaid am osod troed allan o'r drws yn y llwybr hwnnw, er boddlonrwydd i'r wlad. A hwy a enwasant amryw o honynt ag a wnaethai felly, megis Cyndyn, Hydro, Anhyderus, ac Ofnog, Tor-broffes, a hen Atheist, ynghyd â llawer yn ychwaneg; y rhai, meddynt hwy, a aethant yn mhell i weled pa beth a allasent ei gael; ond ni chafodd un o honynt gymmaint elw wrth fyned ag a bwysai blyfyn.[m] Y TRYDYDD.

DEWR. A ddywedasant hwy ddim yn ychwaneg i'ch digaloni chwi.

GLEW. Do; dywedasant wrthyf am un Mr. Ofnus, ag oedd yn bererin; a pha mor anghyfannedd oedd ei ffordd ef, fel na's cafodd efe erioed awr gysurus ynddi; hefyd, fel y bu Mr. Anobeithiol yn mron fferru ynddi: ïe, ac hefyd, (yr hyn a fum agos ei anghofio,) Cristion ei hun, ynghylch yr hwn y bu cymmaint o ddwndwr, ddarfod iddo wedi ei holl anturiaethau am y goron nefol, yn ddiammeu foddi yn yr afon ddû, ac nad aeth efe droedfedd yn mhellach; pa fodd bynnag, yr oeddid yn ceisio arddangos hynny. Y PEDWERYDD.

DEWR. Ai ni ddigalonodd un o'r pethau yma chwi?

GLEW. Na ddo; yr oeddynt megis cynnifer o bethau diddym yn fy ngolwg i.

DEWR. Pa fodd y daeth hynny oddi amgylch?

[m] Y mae gwrthgilwyr wedi tynnu gwarth ar ffyrdd yr Arglwydd, ac y mae hynny weithiau yn barod i ddigaloni y Cristion cywir, tra fo y byd neu eu ceraint annuwiol yn eu gwawdio, gan haeru, 'Chwi a flinwch yn debyg i'r cyfryw rai, ac a drowch yn eich hol, megis y gwnaeth ereill o'ch blaen.'

GLEW. Pa fodd! yr wyf fi fyth yn credu yr hyn a ddywedasai Mr. Geirwir, a hynny a'm dygodd i dros y cwbl.

PA FODD Y GORFU YR HOLL RWYSTIAU HYN.

DEWR. Hyn ynte oedd eich goruchafiaeth chwi, sef eich ffydd?

GLEW. Felly yr oedd; credais, a chan hynny mi a ymleddais â phob un a ymosododd i'm herbyn, a chan gredu, yr wyf wedi dyfod i'r lle hwn.[a]

'Y neb a fynno wel'd gwrolwych
Tros y gwir, a hynny'n fynych,
Dyma'r gwr na's gall un tywydd
Byth ei yrru oddiwrth ei grefydd

Nid oes rhwystr ag all beri
I'w feddyliau droi na llaesu;
Gan fod ei fwriad ar y dechrau
Fyn'd i'r nef trwy bob trallodau.

Er bod rhai yn ei amgylchu
A phob 'stori i'w frawychu,
Nid y'nt ond dangos gallu dewr-wych,
I'w gw'radwyddo eu hun yn fynych.

Nid oes na llew na chawr a ddichon
Fyth droi'n ol y dewr-wych galon;
Ond ymlaen fe aiff trwy rwystrau,
Nes y delo i ben ei siwrnai.

Nid yw'r gwylliaid na'r ellyllon,
Yn abal pylu ei yspryd ffyddlon,
Fe ŵyr y caiff ef yn y diwedd,
'Tifeddu bywyd a thrugaredd.'

Erbyn hyn yr oeddynt wedi dyfod i'r Tir a Reibiwyd, lle y mae anian yr awyr yn tueddu i drymdid; ac yr oedd drain a mieri wedi tyfu dros y lle hwnnw i gyd, oddieithr yma ac accw, lle yr oedd cysgodwydd swynedig, ar ba un pe eisteddai dyn, neu yn mha un pe cysgai dyn, y mae yn gwestiwn, medd rhai, pa un a gyfodai ef byth mwy, neu a ddeffroai mwyach yn y byd hwn. Tros y goedwig hon, gan hynny, yr aethant ynghyd; a Mr. Dewr-galon a aeth o'u blaen, o achos mai eu harweinydd hwy oedd efe, a Mr. Glew-dros-y-gwirionedd oedd yn dyfod ar ol, yn edrychwr arnynt, rhag ofn i ryw ellyll,

[a] Ffydd yn Nghrist, a hyder ar yr addewidion, sydd yn gweini nerthoedd newydd i'r enaid, i wynebu pob brwydr. Ffydd sy'n cynnal y bywyd dwyfol yn yr enaid, canys "Y cyfiawn a fydd byw trwy ffydd." Heb. x. 38.

neu ddraig, neu gawr, neu leidr gwympo arnynt o'r tu ol, a'u drygu. Cychwynasant yma, bob un a'i gleddyf noeth yn ei law, canys hwy a wyddent mai lle peryglus oedd efe. Annogasent eu gilydd hefyd oreu ag y gallent; parodd Mr. Gwan-feddwl gadw yn agos atto ef, a Mr. Gwan-gred oedd tan olygiad Mr. Glew-dros-y-gwirionedd.[o]

Eithr nid aethant yn neppell, nes i niwl a thywyllwch mawr syrthio arnynt oll; fel na's gallent, tros ennyd, ond prin canfod y naill y llall; o ba herwydd gorfu iddynt, dros dro, deimlo a galw am eu gilydd; canys nid oeddynt yn rhodio wrth olwg.

Ond fe all pawb wybod, nad oedd yma ond cerdded salw gan y goreu o honynt; ond pa faint gwaeth gan y gwragedd a'r plant, y rhai oedd a'u traed a'u calonau yn dyner! Ond etto, trwy eiriau annogaethus yr hwn ag oedd yn mlaen yn eu harwain, ynghyd a'r hwn ag oedd yn eu dwyn hwy i fynu ar ol, hwy a ymdarawsant yn weddol i fyned trwyddo.

Yr oedd y ffordd yma hefyd yn dra blinderus, o achos y llacca a'r gwlybaniaeth. Nid oedd ychwaith gymmaint ag un lletty, neu dŷ i gael ymborth, i lonni'r gweiniaid, ar yr holl dir hwn. Yma gan hynny yr oedd rhochian, a chwythu, a griddfan: tra fyddai un yn ymdreiglo dros lwyn, fe fyddai y llall yn ymdrybaeddu yn y dom, yn ffaelu dyfod o hono; a rhai o'r plant oedd yn colli eu hesgidiau yn y llacca; fe fyddai un yn gwaeddi, 'Yr wyf wedi cwympo;' a'r llall, 'Ho, pa le yr ydych chwi?' A'r trydydd, 'Mae y llwyni wedi cymmeryd y fath afael arnaf fi, fel yr wyf yn ofni na's gallaf ymddadrysu o honynt.'

Yna y daethant at gysgodwydd cynnes, ac yr oedd yn addaw llawer o ddiddanwch i'r pererinion: canys yr oedd ef wedi ei weithio yn wych dros ben, a'i harddu â llannerchau gleision, a'i osod âg eisteddleoedd. Yr oedd ynddo hefyd wely esmwyth, i'r lluddedig i bwyso arno. Chwi a wyddoch, ac ystyried pob peth, fod hyn yn demtasiwn fawr: o blegid yr oedd y pererinion yn mron ffaelu eisoes o achos cynddrwg oedd y ffordd, ond ni wnaeth un o honynt gymmaint a chynnyg aros yno. Ië, hyd y gellais i ddeall, yr oeddynt hwy o hyd yn cymmeryd y cyfryw ofal i wrando cyngor eu harweinydd, yr oedd yntef mor ffyddlon yn mynegi am beryglon, a'u naturiaethau, pan fyddent ger llaw iddynt, fel pa nesaf y byddent attynt, mwyaf i gyd y cyffroent eu hysprydoedd i fynu, ac yr annogent eu gilydd i ymwadu â'r cnawd. Y cysgodwydd a elwid Cyfaill y Diog, wedi ei osod yno ar y diben i ddenu rhai o'r pererinion i orphwys yno, pan fyddent yn ddiffygiol.[p]

CYSGODWYDD AR Y TIR RHEIBUS.

EI ENW.

Yna mi a welwn yn fy mreuddwyd, iddynt gychwyn ar hyd y tir anghyfannedd hwn,

[o] Gwelwn yma, er fod y pererinion wedi teithio mor bell, ac wedi derbyn y fath arwyddion o gariad dwyfol, mae peryglon o hyd y ffordd yn eu hamgylchu. Mae hen bererinion yn dueddol i syrthio i yspryd esmwyth a chysglyd. Rhaid gwylio a gweddio i ochelyd y fath gyflwr enbydus.

[p] Mae llawer ffordd i gael esmwythdra i'r cnawd, a magu yspryd diogi ar ein taith, ond gochelwn golli ein bywiogrwydd, a myned yn glaear fel Laodicea.

Y FFORDD YN HAWDD EI CHOLLI.

nes y daethant i fan y bydd dyn dueddol i golli ei ffordd. Yn awr tra yr oedd hi yn oleu, fe allai eu harweinydd fynegi yn hawdd ddigon iddynt pa fodd i ochelyd y camffyrdd, ond gan ei bod hi yn dywyll, gorfu iddo sefyll: ond yr oedd ganddo yn ei gôd ddarlun o'r holl ffyrdd ag oedd yn arwain tua'r Ddinas Nefol, ac oddi wrthi; gan hynny efe a darawodd oleu, (o blegid fod ganddo foddion i wneuthur felly,) ac a edrychodd yn ei lyfr neu ei ddarlun, yr hwn a barodd iddo fod yn ofalus, yn y fan honno, i droi ar y llaw ddehau. Psalm cxix. 114, 115. Ac oni buasai iddo fod yn ofalus yno i edrych yn ei ddarlun, wrth bob tebygolrwydd, fe'u collasid hwy oll yn y baw a'r llaid; o blegid o fewn i ychydig bach o'u blaen, yn niwedd y ffordd lân hefyd, yr oedd pwll, na's gwyddai neb ei ddyfnder, wedi ei wneuthur yno ar y diben i ddistrywio pererinion ynddo.[q]

YR OEDD GAN YR ARWEINYDD DDARLUN O'R HOLL FFYRDD.

Yna mi a feddyliais ynof fy hun, nad oedd dda i neb fyned ar bererindod, heb un o'r darluniau yma gydag ef, fel y gallai edrych ynddo pan fyddai yn amhëus pa ffodd i gymmeryd. Psal. vii. 8. a cxix. 105.

LLYFR DUW.

Hwy a aethant yn mlaen, gan hynny, ar y Tir Swynedig hwn, nes eu dyfod at gysgodwydd arall, yr hwn a adeiladasid yn ymyl y brif-ffordd. Ac yn y cysgodwydd hwnnw yr oedd dau wr yn gorwedd, enwau y rhai oedd Diofal a Rhyfyg. Y ddau hyn a aethent hyd yma ar eu pererindod: ond yma, gan fod yn lluddedig o achos eu taith, a eisteddasant i lawr i orphwys, ac felly a syrthiasant mewn trym-gwsg. Pan ganfu'r pererinion hwynt, hwy a safasant yn synn, gan ysgwyd eu pennau; canys hwy a adnabuant fod y cysgaduriaid mewn cyflwr gresynol. Yna hwy a ymgynghorasant â'u gilydd pa beth i'w wneuthur, pa un ai myned yn mlaen, a'u gadael hwy i gysgu, neu ynte myned attynt, a chynnyg eu dihuno hwynt. Felly hwy a gyttunasant fyned i'w deffroi hwynt, os gallent, tan ammod iddynt wylied arnynt eu hunain rhag eistedd yno, na derbyn y lles ydoedd y cysgodwydd hwnnw yn ei gynnyg.

CYSGODWYDD, A DAU YN CYSGU YNDDO.

Felly hwy a aethant i mewn, ac a lefarasant wrth y gwŷr, ac a alwasant bob un wrth ei enw, (canys yr oedd yn arweinydd, fel y mae yn debygol, yn eu hadnabod hwynt,) eithr nid oedd na llais nac atteb. Yna yr arweinydd a'u hysgydwodd hwynt, gan wneuthur dim ag a allai ef i'w cyffroi hwynt. Yna ebe un o honynt, 'Mi a'ch talaf pan gymmerwyf fy arian.' Ar hynny yr arweinydd a siglodd ei ben. 'Myfi a ymladdaf cyhyd ag y gallwyf ddal fy nghleddyf yn fy llaw,' ebe'r llall. Wrth hynny, un o'r plant a chwarddodd.

Y PERERINION YN CEISIO EU DIHUNO.

Yna ebe Cristiana, Beth yw yr ystyr o hyn? Yna ebe'r arweinydd, Chwedleua yn eu cwsg y maent; os bydd i chwi eu taro, neu eu curo, neu os gwnewch un peth arall iddynt, hwy a'ch attebant yn y modd yma; neu, fel y dywedodd un o honynt gynt, pan oedd tonnau'r môr yn curo arno, ac yntef fel un yn cysgu ar ben yr hwylbren, "Pan ddeffrowyf, mi a'i ceisiaf drachefn." Diar. xxiii. 34, 35. Chwi

EU CAIS YN AFLWYDDIANNUS.

[q] Gair Duw ydyw darlun neu *map* y gwir bererin, i'w gyfarwyddo ef ar ei ffordd tua thir y bywyd.

a wyddoch, pan y mae dynion yn siarad yn eu cwsg, y dywedant un peth, eithr nid yw eu geiriau yn cael eu rheoli na thrwy ffydd na rheswm. Y mae anghyssondeb rhwng eu geiriau hwy yn awr, fel yr oedd ef gynt rhwng eu mynediad hwy ar bererindod, a'u heisteddiad i lawr yma. Dyma gan hynny y niweid o hono, pan y mae rhai diofal yn myned ar bererindod. Ugain i un onid fel hyn y gwasanaethir hwynt. Canys y Tir Swynedig hwn yw un o'r noddfeydd olaf ag sydd gan elyn y pererinion; o ba herwydd, fel ag y gwelwch, y gosodwyd ef cyn nesed i ddiwedd y ffordd, ac felly mae yn ein gwrthsefyll gyda mwy o achlysur. Canys pa bryd, medd y gelyn, y bydd yn fwy dymunol gan y rhai gwallgofus hyn eistedd i lawr, na phan y byddont yn ddiffygiol? A pha bryd y byddant debyccach o fod yn ddiffygiol, na phan y byddont gerllaw pen eu taith? O herwydd hynny, meddaf, y gosodwyd y Tir a Reibiwyd cyn nesed i wlad Beulah, ac i ddiwedd eu gyrfa. Bydded i'r pererinion gan hynny edrych attynt eu hunain, rhag digwydd iddynt hwy megis i'r rhai hyn,[r] y rhai, fel ag y gwelwch, a gysgasant, ac nid oes neb a all eu dihuno hwynt.

Yna'r pererinion a ddymunasant, gydag arswyd, i gael myned yn mlaen; yn unig ymbiliasant ar eu harweinydd daro goleu, fel y gallent fyned y rhan arall o'r ffordd wrth oleu y llusern. 2 Pedr i. 19. Felly efe a darawodd oleu, ac wrth lewyrch hwnnw yr aethant y rhan arall o'r ffordd hon, er fod y tywyllwch yn fawr iawn.

GOLEUNI Y BYD.

Ond y plant a ddechreuasant fod yn dra diffygiol, a llefasant at yr hwn sydd yn caru pererinion, am wneuthur eu ffordd hwy yn fwy cysurus. Felly erbyn hyn yr oeddynt wedi myned ychydig yn mhellach, cyfododd y gwynt, yr hwn a yrrodd ymaith y fagddu, fel y daeth yr awyr yn eglurach.

Y PLANT YR LLEFAIN GAN FLINDER.

Eithr nid oeddynt etto yn agos wedi myned tros y Tir a Reibiwyd, yn unig hwy a allent yn awr weled eu gilydd yn well, a'r ffordd pa un y dylasent rodio ynddi.

Yn awr, pan oeddynt yn mron a myned tros y tir hwn, hwy a glywsant, ychydig o'u blaen, leferydd galarus, megis rhyw un mewn achos pwysfawr. Felly hwy a aethant, gan edrych o'u blaen: ac wele canfuasant ddyn ar ei liniau, yn dyrchafu ei ddwylaw a'i lygaid i fynu, ac yn llefaru yn ddwys, fel y tybient hwy wrth ryw un oddi uchod. Hwy a aethant nes-nes atto, ond nis gwyddent beth oedd ef yn ei ddywedyd; felly hwy a aethant yn ddistaw, nes y darfu. Wedi darfod, efe a gyfododd, ac a ddechreuodd redeg tua'r Ddinas Nefol. Yna Mr. Dewr-galon a alwodd ar ei ol ef, gan ddywedyd, Hoho, gyfaill, gadewch i ni gael eich cwmpeini, os ydych yn myned, fel yr wyf fi yn tebyg eich bod, tua'r Ddinas Nefol. Felly y gwr a arosodd, a hwythau a ddaethant i fynu atto. Ond cyn gynted ag y canfu Mr. Onest ef, efe a ddywedodd, Yr wyf fi yn adnabod y gwr hwn. Yna ebe Mr. Glew-dros-y-gwirionedd, Attolwg, pwy yw efe? Un yw efe, ebe yntef, ag sydd wedi dyfod oddi amgylch i'r fan yr oeddwn i yn byw: ei enw yw Sefyll-yn-ddiysgog; pererin cywir a da yw efe yn sicr.

SEFYLL-YN-DDIYSGOG AR EI LINIAU AR Y TIR A REIBIWYD.

HANES SEFYLL-YN-DDIYSGOG.

[r] Dyma gyflwr rhai proffeswyr, wedi syrthio i drymgwsg o gariad bydol.

Felly hwy a ddaethant i fynu at eu gilydd; ac yn ebrwydd ebe Sefyll-yn-ddiysgog wrth hen Onest, Ho, y tad Onest, a ydych chwi yna? Ydwyf, ebe yntef, hynny yr ydwyf, mor sicr a'ch bod chwi yma? Yr wyf fi yn dra llawen, ebe Mr. Sefyll-yn-ddiysgog, i'ch cael chwi ar y ffordd hon. A chyn llawened yr oeddwn innau, ebe'r llall, pan ganfum chwi ar eich gliniau. Ar hynny Mr. Sefyll-yn-ddiysgog a wridiodd, ac a ddywedodd, A welsoch chwi fi felly? Do, hynny a welais, ebe'r llall, a llawenychodd fy nghalon ar yr olwg. Paham, beth a feddyliasoch chwi? ebe Sefyll-yn-ddiysgog. Meddwl! ebe hen Onest, Beth a allaswn i feddwl? mi a feddyliais i ni gael gwr gonest ar y ffordd, gan hynny y caem ni ei gwmpeini ef yn y man. Os na chamsyniasoch chwi, mor happus ydwyf; eithr os nad ydwyf fi fel y dylwn, myfi fy hun a orfydd ei ddwyn ef. Hynny sydd wir, ebe'r llall; ond y mae eich ofnau yn fy nghadarnhâu i yn mhellach, fod pethau yn gymhwys rhwng Tywysog y pererinion a'ch enaid chwi: canys ebe fe, "Gwŷn ei fyd y dyn a ofno yn wastadol." Diar. xxviii. 14.

YMDDIDDAN RHYNGDDO A MR. ONEST.

GLEW. Felly, fy mrawd, ond mynega i ni attolwg, yr achos o'th fod gyne ar dy liniau? Ai o herwydd fod rhyw drugaredd wedi dy rwymo i hynny, neu beth?

CAWSANT EF YN GWEDDIO.

SEFYLL-YN-DDIYSGOG. Wele ynte, yr ydym, fel y gwelwch, ar y Tir a Reibiwyd; ac wrth ddyfod, meddyliais rhyngof a mi fy hun pa fath natur beryglus oedd y ffordd yn y lle hwn; a pha nifer, wedi dyfod hyd yma yn eu pererindod, a attaliwyd ac a ddinystriwyd. Meddyliais hefyd â pha fath farwolaeth y mae y lle hwn yn difetha dynion. Nid yw y rhai sydd yn marw yma, yn marw o un clefyd creulon; y farwolaeth ag y mae y cyfryw yn marw, nid yw ofidus iddynt; canys yr hwn sydd yn ymadael mewn cwsg, sydd yn dechreu ei daith yn ddymunol a hoff: ïe, y mae'r cyfryw yn ymlonyddu yn y clefyd hwnnw.

PA BETH A'I DYGODD AR EI LINIAU.

ONEST. Yna ebe Mr. Onest, gan ei luddias ef, A welsoch chwi y ddau ddyn yn cysgu yn y cysgodwydd?

SEFYLL-YN-DD. Do, do, mi a welais Ddiofal a Rhyfyg yno; ac am ddim a wn i, yno y byddant nes y pydront, (Diar. x. 7,) ond gadewch i mi fyned yn mlaen yn fy chwedl. Fel yr oeddwn i fel yma yn myfyrio, fel ag y dywedais, daeth un attaf mewn gwisg lân-wych, ond ei bod hi yn hen, gan gynnyg i mi dri pheth; sef, ei chorph, ei phwrs, a'i gwely. A thyma'r gwir, yr oeddwn i yn ddiffygiol ac yn gysglyd; a chyn dlotted hefyd a'r dylluan, ac y mae yn debyg y gwyddai yr hudoles hynny. Eithr mi a'i gwrthwynebais hi unwaith ac eilwaith; ond hi a droes heibio fy ngwrthwynebiadau i, ac a chwarddodd. Yna mi a ddechreuais ddigio; ond ni phrisiodd hi ddim o hynny. Yna hi a ymgynnygiodd drachefn, gan ddywedyd, Os cymmerwn i fy rheoli ganddi hi, hi a'm gwnelai i yn fawr ac yn ddedwydd; canys, ebe hi, myfi yw arglwyddes y byd, a thrwof fi y gwneir pobloedd yn ddedwydd. Yna mi a ofynais iddi ei henw, hithau a ddywedodd, mai Madam Gorferw ydoedd hi. Gyrrodd

MADAM GORFERW, NEU Y BYD OFER HWN.

hyn fi y'mhellach oddi wrthi; ond hi a'm dilynai i fyth â'i hudoliaeth. Yna mi a aethum ar fy ngliniau, fel y gwelsoch chwi fi, a chan ddyrchafu fy nwylaw a'm llef i fynu, mi a weddïais ar yr hwn a addawodd helpu. Felly pan ddaethoch chwi i fynu, y wraig fonheddig a aeth yn union i'w ffordd. Yna mi a barheais i roddi diolch am y waredigaeth fawr hon; canys y mae yn sicr gennyf, nad oedd hi yn bwriadu dim daioni, ond yn hytrach yn ceisio'm hattal yn fy nhaith.[8]

ONEST. Yn ddiammau, yr oedd ei diben yn ddrwg. Ond aroswch, gan eich bod chwi yn awr yn siarad am dani, yr wyf yn meddwl i mi naill ai ei gweled hi, neu ddarllen rhyw hanes o'i phlegid hi.

SEFYLL-YN-DD. Fe allai bob un o'r ddau.

ONEST. Madam Gorferw! ai nid gwraig hir, brydweddol, ydyw hi, o wynebpryd gwineu-ddû.

SEFYLL-YN-DD. Da iawn, dyna hi, dyna'r fath un yw hi i'r blewyn.

ONEST. Onid yw hi yn llefaru yn llyfn iawn, ac yn glas-wenu ar ddiwedd pob rheswm?

SEFYLL-YN-DD. Yr ydych chwi wedi dywedyd am dani yn union, canys dyna ei hymddygiad hi yn hollol.

ONEST. Onid yw hi yn dwyn pwrs mawr wrth ei hystlys? ac onid yw ei llaw yn fynych ynddo, yn trafod ei harian, fel pe byddai hynny yn hyfrydwch ei chalon?

SEFYLL-YN-DD. Felly y mae yn ddiau: pe buasai hi yn sefyll gerllaw yr holl amser hyn, ni allasech chwi fyth ei gosod allan yn fwy grymus o'm blaen, na chwaith ddangos yn well ei phryd.

ONEST. Yna yr oedd hwnnw a dynnodd ei dull hi yn lluniwr da, a'r hwn a 'sgrifenodd am dani a ddywedodd y gwir.

DEWR. Dewines yw'r wraig hon, a thrwy rinwedd ei swyn-gyfaredd hi y rheibiwyd y tir hwn: byddai cystal i bwy bynnag a osodo ei ben i lawr ar ei harffed hi, ei osod ef ar y cyff dan y fwyall; a phwy bynnag a edrycho ar ei thegwch hi, a gyfrifir yn elynion i Dduw. Iago iv. 4. 1 Ioan ii. 15. Hi sydd yn cynnal yn eu gloywwychder holl gaseion y pererinion. Ië, hi yw yr hon a dynnodd lawer dyn o ffordd y pererinion. Y mae hi a'i merched yn wastadol wrth sodlau y naill bererin neu'r llall, (1 Ioan ii. 16,) yn awr yn canmol, ac wedi hynny yn mawrygu godidogrwydd y bywyd hwn. Meiden hŷ a digywilydd yw hi, a gwynebpryd o bres ganddi. Hi a fydd yn wastad yn gwawdio'r pererinion tlodion: ond yn canmol y cyfoethogion yn fawr. Os bydd un medrus i ynnill arian mewn rhyw le, hi a'i canmol ef o dŷ bwygilydd; y mae hi yn caru cyfeddach a gwledda; y mae hi yn wastad wrth y naill fwrdd llawn neu'r llall. Hi a

Y BYD.

[8] Rhoddir i ni yma ddesgrifiad cywir o hudoliaeth y byd. Gochelwn ein twyllo gan ei wag-bleserau neu ei wychder, na'i olud. "Gwreiddyn pob drwg yw arian-garwch." Rhaid i'r pererinion synied pethau ysprydol, a bod a'u hymarweddiad yn nefolaidd.

roddodd allan mewn rhyw leoedd, mai duwies yw hi, ac o herwydd hynny y mae rhai yn ei haddoli hi. Y mae ganddi hi ei hamserau a'i lleoedd cyhoeddus i dwyllo; hi a ddywed, ac a'i twng ef, na ddichon neb ddangos golud cyffelyb i'w heiddo hi. Hi a wna addewid o drigo gyda phlant y plant, os carant hwy hi, ac os bydd iddynt ei mawrhâu. Hi a wasgar aur o'i chôd fel llwch, mewn rhai mannau, ac i rai dynion. Y mae yn hoff ganddi ei cheisio, a'i chanmol, a llechu yn mynwesau dynion. Nid yw hi fyth yn blino canmol ei nwyfau, ac y mae hi yn caru fwyaf y sawl sydd yn tybied oreu am dani. Y mae hi yn addaw coronau a theyrnasoedd i rai, os cymmerant hwy ei chyngor hi; er hynny hi a ddygodd lawer i'r cebystr, a deng mil mwy i uffern.

SEFYLL-YN-DD. O! ebe Sefyll-yn-ddiysgog, pa drugaredd yw i mi ei gwrthwynebu hi! canys i ba le y gallasai hi fy llusgo i?

DEWR. I ba le? na, ni ŵyr neb ond Duw. Ond, yn gyffredinol, hi a fuasai yn dy dynnu di i "lawer o chwantau ynfyd a niweidiol, y rhai sydd yn boddi dynion i ddinystr a cholledigaeth." 1 Tim. vi. 9.

Hi a osododd Absalom yn erbyn ei dad, a Ieroboam yn erbyn ei feistr. Hi ydoedd yr hon a berswadiodd Iudas i werthu ei Arglwydd, ac a dyciodd gyda Demas i wrthod â bywyd pererin duwiol: ni all neb fynegi faint o ddrwg y mae hi yn ei wneuthur. Y mae hi yn gwneuthur anghydfod rhwng rheolwyr a'r deiliaid; rhwng rhieni a'r plant, rhwng y naill gymmydog a'r llall, rhwng gwr a'i wraig, rhwng dyn a'i hunan, rhwng y cnawd a'r yspryd.

Gan hynny, Mr. Sefyll-yn-ddiysgog, byddwch debyg i'ch enw; ac wedi i chwi wneuthur pob peth, sefwch.

Yr oedd cymmysg o lawenydd ac arswyd ymhlith y pererinion ar yr ymddiddan yma; ond o'r diwedd hwy a dorrasant allan, ac a ganasant:

'O! pa faint yw peryglon,
A chaseion pererinion!
A pha nifer ffordd sy' i bechu!
Nid oes dyn ag all fynegu.

Mae rhai yn goch'lyd cloddiau dyfnion,
Ac etto'n troi mewn llacca ddigon;
A rhai yn goch'lyd y badell ffrio,
Ac etto yn neidio i'r tân i friwlio.'

Wedi hyn, mi a edrychais nes y daethant i dir Beulah, lle y mae'r haul yn tewynnu nos a dydd. Yma, o herwydd eu bod yn ddiffygiol, hwy a roisant eu hunain i orphwys dros dro: ac o achos bod y wlad h n yn gyffredin i bereriniou, ac o achos fod y perllanau a'r gwinllanoedd ag oedd yma yn perthyn i Frenin y Wlad Nefol, gan hynny caniattawyd



Gwlad Beulah

THE LONDON PRINTING AND PUBLISHING COMPANY, LIMITED

iddynt fod yn hŷ ar ei feddiannau ef. Ond ychydig amser a'u hadfywiodd hwy yn fuan yma, o herwydd yr oedd y clychau yn y fath fodd yn canu, a'r udgyrn yn seinio mor felus-ber o hyd, fel na's gallent gysgu: ac er hynny hwy a gawsant y fath adfywiad, a phe buasent wedi cysgu hûn mor drwm ag y buasai modd. Llef y rhai oedd yn rhodio yn yr heolydd yma hefyd, oedd, 'Ychwaneg o bererinion a ddaeth i'r dref.' Ac arall a attebai, gan ddywedyd, 'A chynnifer a aethant tros yr afon, a hwy a gawsant eu gollwng i mewn trwy y porth euraidd heddyw.' Hwy a floeddient drachefn, 'Y mae yn awr leng o rai disglaer newydd ddyfod i'r dref: wrth yr hyn, ni a wyddom, fod mwy o bererinion ar y ffordd; canys yma y maent yn dyfod i ddisgwyl am danynt, ac i'w cysuro hwynt wedi eu holl ofid.' Yna y pererinion a godasant, ac a rodiasant yma a thraw: ond pa fodd yr oedd eu llygaid yn awr wedi eu llanw â gweledigaethau nefol! Yn y tir hwn, ni chlywent ddim, ni theimlent ddim, ni welent ddim, ni aroglent ddim, ni phrofent ddim, ag oedd wrthwynebus i'w cylla neu eu meddwl; yn unig pan brofasant ddwfr yr afon, tros yr hon yr oeddynt i fyned, tebygasant fod ei flas ychydig yn chwerw yn y genau, ond efe a drodd allan yn felus wedi myned i lawr.*

ANGAU YN CHWERW I'R CNAWD, OND YN FELYS I'R ENAID.

Yr oedd coffadwriaeth yn cael ei gadw yma o enwau y rhai a fuasai yn bererinion gynt, a hanes o'r holl weithredoedd hynod a wnaethent hwy. Chwedleuant lawer yma hefyd, pa fodd y byddai yr afon yn llanw i rai, a pha fodd yr oedd hi yn treio pan fyddai eraill yn myned trosodd. Hi a fu mewn dull yn mron sych i rai, pan i eraill yr oedd wedi llifo dros y ceulanau.

MAE TRAI A LLANW YN AFON ANGAU.

Yn y lle hwn, byddai plant y dref yn myned i erddi y Brenin, a hwy a gasglent flodau i'r pererinion, a hwy a'u dygent iddynt gyda llawer o serch. Yma hefyd yr oedd yn tyfu gamphir, a speicnard, saffrwn, calamus, sinamon, ynghyd â'i holl goed o thus, myrr, ac aloes, ynghyd â phob prif-lysiau. A'r rhai hyn y peraroglent ystafelloedd y pererinion tra yr arosent yma; ac â'r rhai hyn yr enneiniwyd eu cyrph, i'w parottoi i fyned dros yr afon, pan fyddai yr amser gosodedig wedi dyfod.

Yn awr tra yr oeddynt yn aros yma, ac yn disgwyl am yr awr dda, yr oedd swn yn y dref, fod rhedegwr wedi dyfod o'r Ddinas Nefol, â rhyw fatterion pwysfawr at un Cristiana, gwraig Cristion y pererin. Felly gwnaethpwyd ymofyniad am dani, a chafwyd y tŷ lle yr oedd hi, felly y rhedegwr a'i hanrhegodd hi â llythyr; ystyr yr hwn oedd, 'Henffych well, wraig dda; yr wyf fi yn dwyn newyddion i ti, fod fy Meistr yn galw am danat ti, ac yn disgwyl i ti sefyll yn ei ŵydd ef, mewn dillad o anfarwoldeb, o fewn y deng niwrnod hyn.'

ANFON RHEDEGWR ANGAU AT GRISTIANA.

EI GENNADWRI.

Wedi iddo ddarllen y llythyr hwn iddi, rhoddodd iddi gyda hynny arwydd o'i fod ef yn gennad cywir, a'i fod ef yn dyfod i geisio ganddi frysio i fyned ymaith. Yr arwydd oedd—Saeth wedi ei chlymmu â chariad, a'i gollwng yn rhydd at ei chalon, yr hon yn

* Y mae angau yn chwerw i'r cnawd, ond mae yn hyfryd gan enaid y Cristion feddwl am ymddattod, i gael bod gyda'i Arglwydd.

raddol a weithiodd mor effeithiol gyda hi, fel y gorfydd iddi fyned pan ddel yr amser appwyntiedig.

Pan welodd Cristiana fod ei hamser wedi dyfod, ac mai hi oedd y gyntaf o'r cwmpeini hyn ag oedd i fyned trosodd, hi a alwodd am Mr. Dewr-galon ei harweinydd, ac a fynegodd iddo y modd yr oedd pethau yn sefyll. Felly efe a ddywedodd wrthi, Fod yn llawen gan ei galon ef glywed y newydd, ac y buasai yn dda ganddo pe daethai y gennad i ymofyn am dano yntef. Yna hi a ddeisyfodd arno roddi hyfforddiad pa wedd i osod pob peth yn barod gyferbyn a'i thaith.

MOR GROESAWUS YW ANGAU I'R SAWL NAD OES GANDDYNT DDIM I'W WNEYD OND MARW.

EI HANNERCHIAD I'W HARWEINYDD.

Yntef a fynegodd iddi, ac a ddywedodd, Fel hyn ac fel hyn y bydd rhaid iddi fod; a ninnau a fyddo byw ar eich ol, a gydymdeithiwn gyda chwi hyd lan yr afon.

Yna hi a alwodd am ei phlant, ac a'u bendithiodd hwynt; ac a ddywedodd wrthynt, ei bod hi wedi darllen gyda chysur, y nod a osodwyd yn eu talcenau, a bod yn llawen ganddi eu gweled hwy gyda hi yno, a'u bod wedi cadw eu gwisgoedd cyn wynned. Yn olaf, hi a roddodd i'r tlodion yr ychydig ag oedd ganddi, ac a archodd i'w meibion a'i merched fod yn barod erbyn y deuai'r gennad i ymofyn am danynt hwythau.

I'W PHLANT.

Wedi iddi ddywedyd y pethau hyn wrth ei harweinydd a'i phlant, hi a alwodd am Mr. Glew-dros-y-gwirionedd, ac a ddywedodd wrtho, 'Syr, chwi a'ch dangosasoch eich hun yn gywir-galon yn mhob lle; byddwch ffyddlon hyd angau, a'm Brenin a rydd i chwi goron y bywyd. Mi a ddeisyfaf arnoch hefyd fwrw golwg ar fy mhlant i; ac os gwelwch hwy un amser yn llyfrhâu, llefarwch yn gysurus wrthynt. Canys fy merched, gwragedd fy meibion, a fuant ffyddlon, a chyflawniad yr addewid arnynt a fydd eu diwedd hwynt.' Ond hi a roddodd fodrwy i Mr. Sefyll-yn-ddiysgog.

I MR. GLEW-DROS-Y-GWIRIONEDD.

I MR. SEFYLL-YN-DDIYSGOG.

Yna hi a alwodd am Mr. Onest, ac a ddywedodd am dano, "Wele Israeliad yn wir, yn yr hwn nid oes dwyll." Ioan ii. 47. Ebe yntef, 'Mi a ddymunaf i chwi ddiwrnod têg, pan osodoch allan tua Mynydd Sïon, a bydd yn llawen gennyf eich gweled yn myned yn droed-sych dros yr afon.' Hithau a'i hattebodd ef, 'Deued gwlyb, deued sych, yr wyf fi yn hiraethu am gael myned; canys pa wedd bynnag y byddo yr hîn yn fy nhaith, caf ddigon o amser pan ddelwyf yno i eistedd ac esmwythâu fy hun, ac i ymsychu.'

I'R HEN MR. ONEST.

Yna y daeth i mewn y gwr da Mr. Parod-i-gloffi i'w gweled hi. Hithau a ddywedodd wrtho ef, 'Dy daith hyd yma fu drallodus; ond gwna hynny dy orphwysfa yn felusach. Ond gwylia a bydd barod; canys yn yr awr ni thybiost, y gall y gennad ddyfod.'

I MR. PAROD-I-GLOFFI.

Ar ei ol ef daeth Mr. Gwan-gred, a'i ferch Ofnus-iawn; wrth y rhai y dywedodd, 'Chwi a ddylech, gyda diolchgarwch, fyth gofio eich ymwared o law y cawr Anobaith, ac allan o Gastell Amheus. Effaith y drugaredd honno yw, eich

I MR. GWAN-GRED A'I FERCH.

bod wedi eich dwyn yma mewn diogelwch. Gwyliwch etto, a bwriwch ymaith ofn; byddwch sobr, a gobeithiwch hyd y diwedd.'

Yna hi a ddywedodd wrth Mr. Gwan-feddwl, 'Ti a waredwyd o safn y cawr Lladd-daioni, fel y gellit fyw yn ngoleuni y rhai byw yn dragywydd, a gweled y Brenin gyda chysur; yn unig mi a'th gynghoraf i edifarhâu am dy barodrwydd i ofni ac ammau ei ddaioni ef, cyn y danfono am danat; rhag pan ddelo, y gorfydd i ti sefyll yn ei ŵydd, am y bai, gyda chywilydd.'

I MR. GWAN-FEDDWL.

Erbyn hyn y dydd a nesaodd, ag oedd raid i Gristiana ymadael. Felly y ffordd oedd lawn o bobl, i'w gweled hi yn cymmeryd ei thaith. Ond wele, yr oedd holl lan yr afon o'r tu draw iddi yn llawn meirch a cherbydau, y rhai a ddaethent i waered oddi uchod i gyd-ymdaith â hi hyd borth y ddinas. Felly hi a ddaeth allan, ac a aeth i'r afon, gan ogwyddo ei phen yn arwydd o'i hymadawiad â'r rhai a'i canlynasant hi hyd lan yr afon. Y geiriau diweddaf a glywyd hi yn ddywedyd, oedd, 'Yr wyf yn dyfod, Arglwydd, i fod gyda thi, ac i'th fendithio.'

EI DYDD OLAF, A DULL EI HYMADAWIAD.

Felly ei phlant a'i chyfeillion a ddychwelasant yn ol i'w lle, o herwydd i'r rhai oedd yn disgwyl am Gristiana ei dwyn hi allan o'u golwg hwynt. Felly hi a aeth ac a alwodd, ac a aeth i mewn trwy'r porth gyda'r holl seremoniau o lawenydd ag yr aethai Cristion o'r blaen.

Ar ei hymadawiad, y plant a wylasant. Ond Mr. Dewr-galon a Mr. Glew-dros-y-gwirionedd a chwareuasant ar y symbal a'r delyn yn soniarus o lawenydd. Felly pawb a ddychwelasant i'w hamryw leoedd.[1]

---

Yn mhen ennyd, daeth rhedegwr i'r dref drachefn, a'i neges ef oedd at Parod-i-gloffi. Felly efe a'i cafodd ef, ac a ddywedodd wrtho, 'Mi a ddaethum attat yn enw yr Hwn a geraist ac a ddilynaist, er ar ffyn-baglau: a'm cennadwri yw, mynegi i ti, ei fod ef yn dy ddisgwyl di ar ei fwrdd, i swpperu gydag ef, yn ei deyrnas, y dydd nesaf ar ol y Pasg: gan hynny ymbarottoa erbyn dy daith.'

GWYSIO MR. PAROD-I-GLOFFI.

Yna efe a roddodd iddo arwydd gyda hynny mai cennad cywir oedd efe, gan ddywedyd, "Mi a dorrais y cawg aur, ac a ryddheais y llinyn arian." Preg xii. 5.

Ar ol hyn, Mr. Parod-i-gloffi a alwodd am ei gyd-bererinion, ac a ddywedodd wrthynt, 'Danfonwyd am danaf fi, a Duw a ymwel hefyd yn sicr â chwithau.' Felly efe a ddymunodd ar Mr. Glew-dros-y-gwirionedd i wneuthur ei lythyr cymmun ef; ond gan nad oedd ganddo ddim i'w roddi i'r rhai ag oedd fyw ar ei ol ef, ond ei ffyn-baglau a'i ddymuniadau da; gan hynny efe a ddywedodd fel hyn, 'Y ffyn-baglau

ADDEWIDION.

[1] Dyma Cristiana yn gorphen taith ei phererindod, ac yn ymadael â'i gofidiau, yn meddwl mwynhâu yr un dedwyddwch a'i phriod, ac yn ymgysuro hefyd ar ei hymadawiad fod ei phlant yn debyg i'w chanlyn i'r un lle gogoneddus.

EI LYTHYR-CYMMYN. hyn wyf fi yn eu rhoddi i'm mab a rodio yn fy llwybrau, gyda chant ewyllys da iddo ef wneuthur yn well na myfi.'

Yna efe a ddiolchodd i Mr. Dewr-galon am ei hyfforddiad a'i garedigrwydd, ac felly efe a ymdacclodd i'w daith. Pan ddaeth efe i lan yr afon, efe a ddywedodd, 'Nid rhaid i mi bellach wrth fy ffyn-baglau, gan fod draw gerbydau a meirch i mi farchogaeth arnynt.' EI EIRIAU DIWEDDAF. Y geiriau diweddaf a glywyd ef yn eu dywedyd, oedd, 'Groesaw fywyd!' Felly efe a aeth ymaith.

---

Ar ol hyn, mynegwyd i Mr. Gwan-feddwl, fod rhedegwr yn chwythu ei gorn wrth ddrws ei ystafell ef. GWYSIO MR. GWAN-FEDDWL. Yna efe a ddaeth i mewn, ac a ddywedodd wrtho, 'Mi a ddaethum i fynegi i ti, fod yn rhaid i'th Feistr wrthyt ti; ac yn mhen ychydig iawn o amser bydd rhaid i ti weled ei wyneb ef mewn disgleirdeb. A chymmer hyn yn arwydd o wirionedd fy nghennadwri: "Y tywyllir y rhai sydd yn edrych trwy'r ffenestri." Preg. xii. 3.

Yna y galwodd Mr. Gwan-feddwl am ei gyfeillion, ac a fynegodd iddynt pa gennadwri a ddygpwyd iddo ef, a pha arwydd a gawsai o wirionedd y gennadwri. Yna ebe fe, 'Gan nad oes gennyf ddim i'w roddi i neb, i ba ddiben y gwnaf fi fy ewyllys? O ran fy ngwan-feddwl, mi a'i gadawaf ar ol, canys ni bydd rhaid i mi wrtho yn NI WNAETH LYTHYR-CYMMYN. y lle yr wyf fi yn myned; ni thâl efe ei roddi ychwaith i'r pererin tlottaf: gan hynny, wedi i mi ymadael, yr wyf fi yn dymuno arnoch chwi, Mr. Glew-dros-y-gwirionedd, ei gladdu ef mewn tommen.' Pan ddarfu hynny, a'r dydd wedi dyfod iddo ymadael, EI EIRIAU DIWEDDAF. efe a wynebodd yr afon fel y lleill: ei eiriau diweddaf ef oedd, 'Dal allan, ffydd ac amynedd.' Felly efe a aeth trosodd i'r ochr arall.

---

Wedi bagad o ddiwrnodau, danfonwyd am Mr. Gwan-gred; canys rhedegwr a ddaeth, ac a ddygodd iddo y gennadwri hon: GWYSIO MR. GWAN-GRED. 'Ddyn dychrynedig, y mae hyn i'th wysio di i ymbarottoi erbyn dydd yr Arglwydd nesaf, i fod gyda'r Brenin, i floeddio o lawenydd, am y waredigaeth o'th holl amheuon.'

Hefyd, ebe'r gennad, cymmer hyn yn arwydd o wirionedd fy nghenadwri: felly efe A'I FERCH HEFYD a roddodd iddo "geiliog y rhedyn yn faich." Preg. xii. 5. Pan glybu Ofnus-iawn, ei ferch, yr hyn a wnaethpwyd, hi a ddywedodd yr elai hi gyda'i thad. Yna Mr. Gwan-gred a ddywedodd wrth ei gyfeillion, 'Chwi wyddoch pa fath un oeddwn EI LYTHYR-CYMMYN. i a'm merch, a pa mor flined yr ymddygasom ein hunain yn mhob cyfeillach: fy ewyllys i a'm merch yw, na dderbynio neb ein hanobeithiau a'n hofnau slafaidd, yn ol dydd ein hymadawiad, byth: canys mi a wn yr ymgynnygiant hwy eu hunain i eraill yn ol fy marwolaeth i. Ac i ddywedyd y gwir, gwestwyr ydynt hwy, ag a lettyasom ni pan ddechreuasom fyned yn bererinion, ac ni's gallasom byth eu hysgwyd hwy

ymaith mwyach: a hwy a rodiant oddi amgylch, ac a geisiant dderbyniad gan y pererinion; eithr er ein mwyn ni, cauwch y drysau arnynt.'

Pan ddaeth yr amser iddynt ymadael, hwy a aethant i lan yr afon. Geiriau diweddaf Mr. Gwan-gred oedd, 'Ffarwel, nos! groesaw, ddydd!' Aeth ei ferch ef trwy yr afon dan ganu, ond nid oedd neb yn deall pa beth oedd hi yn ddywedyd.[u] EI EIRIAU DIWEDDAF.

---

Yn mhen tro drachefn, yr oedd rhedegwr yn y dref honno, yn ymofyn am Mr. Onest. Felly efe a ddaeth i'r tŷ lle yr oedd efe, ac a roddodd y llinellau hyn yn ei law ef: 'Gorchymynir i ti fod yn barod erbyn wythnos i heddyw, i ymddangos ger bron dy Arglwydd, yn nhŷ ei Dad.' Ac yn lle arwydd fod fy nghenadwri yn wir, "Holl ferched cerdd a ddygir yn isel." Preg. xii. 4. Yna Mr. Onest a alwodd am ei gyfeillion, ac a ddywedodd wrthynt, Yr wyf fi yn marw, ond ni wnaf fi un ewyllys. O ran fy onestrwydd, fe gaiff fyned gyda mi; bydded i hyn gael ei ddywedyd wrth yr hwn a ddelo ar ol. Pan ddaeth y dydd yr oedd efe i ymadael, efe a ymdacclodd i fyned tros yr afon. Yr oedd yr afon y pryd hyn wedi llifo dros y ceulanau; ond Mr. Onest, yn amser ei fywyd, a ddywedasai wrth un Cydwybod-dda am ddyfod i'w gyfarfod ef yno; yr hyn hefyd a wnaeth efe, ac a roddodd iddo fenthyg ei law, ac felly a'i cynnorthwyodd ef trosodd. Geiriau diweddaf Mr. Onest oedd, 'Y mae gras yn teyrnasu.' Felly efe a ymadawodd â'r byd.

NI WNAETH LYTHYR-CYMMYN.

CYDWYBOD-DDA YN RHODDI I ONEST FENTHYG LLAW.

---

Wedi hyn, aeth y swn o ddeutu, fod Mr. Glew-dros-y-gwirionedd wedi cael ei ddal â gwysiad gan yr un rhedegwr a'r llall: a chafodd yn lle arwydd fod y gwysiad yn wir, fod "Ei biser wedi torri gerllaw'r ffynnon." Preg. xxii. 6. Pan ddeallodd efe hynny, efe a alwodd am ei gyfeillion, ac a'i mynegodd iddynt. Yna ebe fe, 'Yr wyf fi yn myned at fy Nhad; ac er i mi ddyfod hyd yma trwy lawer o anhawsdra, etto yn awr nid yw edifar gennyf yr holl drallodau yr aethum trwyddynt er mwyn cyrraedd lle yr wyf fi. Fy nghleddyf wyf yn ei roddi i'r hwn a'm canlyno yn fy mhererindod, a'm gwroldeb a'm medrusrwydd i'r hwn a allo ei ennill ef. Fy nodau a'm creithiau a ddygaf gyda mi, i dystiolaethu trosof fi, i mi ymladd ei ryfeloedd ef yr hwn yn awr a'm gwobrwya i.' Pan ddaeth y dydd yr oedd efe i orfod myned ymaith, llawer a gyd-ymdeithiasant ag ef i lan yr afon, i'r hon wrth fyned, efe a ddywedodd, "Angau, pa le y mae dy golyn?" Ac fel yr oedd yn myned yn ddyfnach, efe a ddywedodd, "Uffern, pa le y mae dy fuddugoliaeth?" Felly efe a aeth trosodd, ac yr oedd yr holl udgyrn yn canu am dano yr ochr arall.

GWYSIO MR. GLEW-DROS-Y-GWIRIONEDD.

EI LYTHYR-CYMMYN.

EI EIRIAU DIWEDDAF.

Yna y daeth allan wysiad am Mr. Sefyll-yn-ddiysgog. Hwn oedd y Mr. Sefyll-yn-

[u] Gwelwn drugaredd Duw, fod rhai a fu yn ofnus eu holl ddyddiau yn ymgryfhâu, ac yn y diwedd yn gadael tystiolaeth dda am danynt eu hunain.

GWYSIO MR. SEFYLL-YN-DDIYSGOG. ddiysgog a gafodd y pererinion ar ei liniau ar y Tir a Reibiwyd. A'r rhedegwr a'i dygodd yn agored yn ei law. Ystyr yr hwn oedd, Fod yn rhaid iddo ymbarottoi i newid bywyd, o herwydd nad oedd ei Feistr yn ewyllysio bod cyn belled oddi wrtho yn hŵy. Ar hynny Mr. Sefyll-yn-ddiysgog a darawyd mewn syndod. Nagê, ebe'r gennad, nid rhaid i chwi ammau gwirionedd fy nghennadwri; canys dyma i chwi arwydd o'r gwirionedd o honi: "Yr olwyn a dorrwyd gerllaw'r ffynnon." Preg. xii. 6. Yna efe a alwodd am Mr. Dewr-galon, yr hwn oedd eu harweinydd, ac a ddywedodd wrtho, Syr, er na ddigwyddodd i mi fod ond ychydig yn eich cyfeillach chwi yn nyddiau fy mhererindod; etto, er pan adnabum chwi, buoch yn fuddiol i mi. Pan ddaethum oddi cartref, mi a adewais wraig a phump o blant bychain o'm hol; attolygaf arnoch chwi (canys mi a wn yr ewch ac y dychwelwch i dŷ eich Meistr, mewn gobaith y byddwch hyfforddwr i 'chwaneg o'r pererinion sanctaidd) i ddanfon at fy nhylwyth a'u gwneuthur yn gydnabyddus o'r cwbl a ddigwyddodd, ac a ddigwydd i mi. Mynegwch iddynt hefyd am fy nyfodiad diogel i'r fan hon, ac o'r cyflwr gwynfydedig ag wyf ac a fum yn ddiweddar ynddo. Mynegwch iddynt hefyd, pa ddiwedd dedwydd y daeth hi iddo, ac i ba le yr aeth hi. Nid oes gennyf ond ychydig neu ddim i ddanfon i'm tylwyth, oddieithr iddo fod fy ngweddïau a'm dagrau trostynt; yr hyn a wna'r tro os gwnewch hwynt yn gydnabyddus o hynny, fe allai y bydd iddynt dyccio.'

MAE YN GALW AM MR. DEWR-GALON.

AC YN EI ANNERCH.

EI NEGES AT EI DEULU.

Wedi i Mr. Sefyll-yn-ddiysgog osod pethau fel yma mewn trefn; a'r amser wedi dyfod iddo ef brysuro i fyned ymaith, yntef hefyd a aeth i wared i'r afon. Yr oedd tawelwch mawr yn yr afon y pryd hynny; gan hynny Mr. Sefyll-yn-ddiysgog wedi myned ynghylch hanner y ffordd iddi, a arosodd dro, ac a ymddiddanodd â'i gyfeillion ag oedd yn gweini iddo yno: ac efe a ddywedodd,

EI EIRIAU DIWEDDAF. 'Bu yr afon hon yn ddychryn i laweroedd; ïe, y meddyliau am dani a'm dychrynodd innau yn fynych: yn awr, mi debygwn, fy mod yn sefyll yn esmwyth; mae fy nhroed wedi ei osod yn ddiysgog ar y fan yr oedd traed yr offeiriaid ag oedd yn dwyn arch y cyfammod yn sefyll, tra yr oedd Israel yn myned tros yr Iorddonen hon. Ios. iii. 17. Y mae'r dyfroedd, yn wir, yn chwerw i'r genau, ac yn oer i'r cylla; etto y mae'r meddyliau am yr hyn yr wyf fi yn myned atto, ac o'r croesaw sydd yn fy aros yr ochr arall, yn gorwedd megis marwor tanllyd ar fy nghalon.

'Yr wyf yn fy ngweled fy hun yn awr ar ddiwedd fy nhaith; fy nyddiau blinion a ddarfuant. Yr wyf fi yn myned i weled y pen hwnnw a goronwyd â drain, a'r gwyneb hwnnw a boerwyd arno er fy mwyn i.

'Bum fyw gynt wrth y gair, a ffydd; ond yn awr wyf yn myned lle y caf fyw wrth olwg, ac mi gaf fod gyda'r hwn ag wyf yn ymhyfrydu bod yn ei gyfeillach.

'Mi a gerais glywed ymddiddan am fy Arglwydd; a pha le bynnag y gwelwn ôl ei esgid ef ar y ddaear, mi a chwennychwn osod fy nhroed yno hefyd.

'Ei enw a fu i mi fel blwch o enaint; ïe, yn bereiddiach na'r holl ber-lysiau. Ei lais oedd dra pheraidd i mi; ac mi a ddymunais gael ei wynebpryd ef yn fwy na'r rhai a ddymunasant fwyaf gael goleuni yr haul. Arferais gasglu ei eiriau ef yn ymborth i mi, ac yn lle cyfaredd yn erbyn fy llesmeiriau.

'Efe a'm daliodd i, ac a'm cadwodd i rhag fy anwireddau; ie, fy ngherddediad a nerthwyd yn ei ffyrdd ef.'[w]

Yn awr, tra yr oedd ef fel hyn yn ei ymddiddan, ei wedd a newidiwyd, ei wr cadarn a ymgrymodd tano: ac wedi iddo ddywedyd, 'Cymmer fi, canys yr wyf fi yn dyfod attat,' ni welwyd ef ganddynt mwyach.

Ond gogoneddus ydoedd gweled, fel yr oedd yr ardal agored wedi ei llenwi â meirch a cherbydau, gydag udganwyr a phibyddion, ynghyd â chantorion, a chwareuwyr ar offer tannau, i roesawi'r Pererinion wrth fyned i fynu, ac vn canlyn y naill y llall i mewn i borth Prydferth y Ddinas.

Ac am feibion Cristiana, y pedwar a ddygodd Cristiana, ynghyd â'u gwragedd a'u plant, nid arosais i lle yr oeddwn nes eu myned hwy trosodd. Hefyd, mi a glywais un yn dywedyd, wedi i mi ddyfod oddi yno, eu bod hwy etto yn fyw, ac felly y byddant er cynnydd i'r Eglwys honno lle yr oeddynt, tros amser.[y]

Os bydd fy nghoelbren i fyned y ffordd honno etto, fe allai y rhoddaf hanes, i'r rhai a fyddo yn ewyllysio, o'r pethau ag wyf fi yma yn ddistaw o'u plegid; yn y cyfamser yr wyf yn cymmeryd fy nghennad gan y darllenydd.

BYDD WYCH.

[w] Mor orfoleddus yw ymadawiad y pererin ffyddlon hwn. Bydded i ninnau fyw trwy ffydd, a sefyll yn ddiysgog tros achos Duw a'i wirionedd. Dilynwn ôl ein Harglwydd, ac efe a'n harddel ni yn ogoneddus, ac a'n dwg ni yn fuddugoliaethus o'r byd trafferthus hwn, tros afon angau.

[y] Cysur hen bererinion yw gweled rhai ieuaingc yn tyfu i fynu i gyflawni eu lle, wedi eu hymadawiad oddi yma.

---

DIWEDD YR AIL RAN.

AT EI GYFAILL MWYNLAN

# AWDWR Y DRYDEDD RAN

O

## DAITH Y PERERIN.

---

Mae llawer dull a dyfais o bob moes,
Ar amryw drefn, o ddifyrru'r oes;
Ond nid oes rhagorach ffordd i fod,
Na champ sydd well a welir tan y rhod,
Na dangos allan werth a phwys y gwir,
A'r ffordd sy'n arwain tua'r nefol dir.
Tan rith breuddwydio mae rhoi dysg i rai,
I'w dwyn i och'lyd y trag'wyddol wae,
Trwy droedio'r ffordd i'r addawedig dir,
A bod yn gampiwr dewrwych dros y gwir.
   Fe welir yma mewn rhyw oleu ddrych
Y wlad addawyd i'r pererin gwych,
A'r modd mae iddo redeg tua'r nôd
Trwy fod yn ddewr i ennill uchel glod—
Cael meddiant llawn o'r gwynfyd sy'n parhâu,
Tu hwnt i'r sêr, heb ofni byth leihâu.
   Mae yma freuddwyd, nid fel chwedlau gynt,
Am ofer bethau chwelir gan y gwynt;
Ond breuddwyd gwir, a sylwedd yn ei sail,
Am yrfa'r saint a rhinwedd Adda'r ail.
Mewn tristyd mae'r Pererin ar ei daith,
Wrth gychwyn gyntaf at ei ddyrys waith,
A thrwy'r porth cyfyng rhaid ymdrechu'n ddwys,
A dioddef gwres y dydd a dirfawr bwys,
Nes cael mynegiad hyfryd oddi fry
O'i hawl i'r gwynfyd, gan ei Arglwydd cu;
Mae nerthoedd newydd yn cryfhâu ei fron,
A than bob croes mae'n cadw ei ffordd yn llon:
Mae'n teithio'n ddewr trwy droion chwith o hyd,
Nes cyrhaedd at orphwysfa'r nefol fyd.

B. D.

# TAITH Y PERERIN:

TAN GYFFELYBIAETH

# BREUDDWYD.

## Y DRYDEDD RAN.

A bu, wedi y ddau freuddwyd cyntaf, mewn perthynas i Gristion, a Christiana ei wraig, ynghyd â'u plant, a'u cyd-ymdeithwyr ar bererindod, o ddinas Distryw i ardaloedd y gogoniant, fe ddigwyddodd i mi syrthio i gysgu drachefn, a gweledigaethau fy mhen a ddychwelasant arnaf: ac mi a freuddwydiais freuddwyd arall, ac wele yn ymddangos i mi dyrfa fawr o bobl, mewn amrywiol o wahanol gymdeithasau a thylwythau, yn ymdeithio o ddinas Distryw, tref Llywodraeth gnawdol, a dyffryn Moesoldeb; ac oddiwrth y dinasoedd eraill, a'r trefydd, a'r dyffrynoedd, ac oddiwrth yr ardaloedd sydd yn perthyn i Ddyffryn Distryw; canys felly y gelwir yr holl wlad yma ag sydd yn gorwedd yr ochr hyn i'r Porth Cyfyng, yr hwn a ddangosodd Efengylwr i Gristion; ac felly hefyd y gelwir yr holl wlad ehang sydd oddi amgylch y porth, ar y llaw ddehau ac ar y llaw aswy, yr hon sydd yn cyrhaedd ymlaen hyd at gyffiniau gwlad y gogoniant, o'r tu allan i'r mur, lle mae'r ffordd i'r ddinas nefol, a'r holl ardaloedd hynny, a elwir Dyffryn Distryw.[a]

Yn awr mi a welwn yn fy mreuddwyd, fod yr holl brif-ffordd a'r heolydd sydd yn arwain o Ddyffryn Distryw tuag at borth y bywyd, yn llawn o bobl, y rhai oedd yn ymdeithio tuag at y porth; ac yr oedd rhai o honynt yn cerdded yn mlaen yn heinyf iawn; ac yr oedd eraill yn barod i gloffi, ac yn myned yn fwy diffygiol gan wres angerddol y tymhor, yr hyn oedd yn eu gwneuthur agos a llewygu; canys yr oedd yn amser poeth trwy'r flwyddyn, ac yr oedd yr haul yn llosgi'r llysiau yn y maes,[b] ac yn poethi'r ymdeithwyr tlodion mor flin nes peri i lawer o honynt eistedd i lawr ac ymorphwys ychydig; ond pan aeth yn nos, llawer o honynt a ddychwelasant yn ol drachefn i'w hen drigfanau; eithr rhai o honynt ag oeddynt yn fwy cadarn na'r lleill, a aethant rhagddynt hyd at Gors

[a] Gwlad ehang, mae'n sicr, ydyw y wlad lle mae pechaduriaid annychweledig yn byw, canys mewn cyflwr o golledigaeth y mae pawb, nes iddynt ymofyn am ffordd y bywyd, trwy fyned i mewn trwy y porth cyfyng.

[b] Mae yr Awdwr yn golygu amser o erledigaeth cyhoeddus ar grefydd, yr hyn a bâr i'r rhai ofnus droi yn eu hol, ac ymwrthod â'u proffes.

Anobaith, y man y gadawodd Meddal Cristion; ac yno y syrthiasant yn ddisymwth i'r budreddi a'r dom oedd yn y lle hwnnw, yna hwy a ddigalonasant ac a droisant yn eu hol yn dorfeydd mawrion i'w preswylfeydd eu hunain drachefn: eithr ychydig o honynt a anturiodd fyned trwy'r gors, ac yna y rhai oedd yn lled gyfarwydd o'r cerrig oedd yno, a aethant drosodd heb eu difwyno gan y dom; eithr eraill, trwy eu hanwybodaeth a'u hesgeulusdra yn colli'r cerrig hynny, a yrrwyd dan ymdrybaeddu trwy'r dom, yr hwn oedd yn ddwfn iawn, yr hyn a barodd fod eu mynediad drwodd yn dra phoenus a blinderus; eithr o'r diwedd hwy a gawsant hîn ganolig, ac o braidd y diangasant yn fyw; ac a orchfygasant trwy y rhwystrau dychrynllyd ag oedd yn y tir crynedig hwnnw, ac a aethant drosodd yn ddiogel i'r tir sych.[c]

Yn mhlith y lleill o'r pererinion a aethant drosodd, sef trwy Gors Anobaith, mi a welwn un dyn ieuangc o wynebpryd hawddgar yn rhodio wrtho ei hun, wedi myned allan o'r gors yn ddihangol; eithr yr oedd efe wedi ei ddifwyno yn dost gan y budreddi ffiaidd oedd yn y lle hwnnw; o ba achos yr oedd efe yn myned ymlaen yn hwyr-drwm iawn, canys wrth ymdrechu ac ymegnio i fyned trosodd, ynghyd â'r drwgdybiau erchyll a wasgodd arno o herwydd meithder ei daith (yn y gors) yr oedd wedi gwanychu yn ddirfawr; ac yr oedd ei gymhalau wedi rhyddhâu, yn gymmaint a bod natur y llaid sydd yn y lle hwn yn achos o gryndod ac anhwyldeb yn aelodau y rhai sydd yn syrthio ac yn difwyno ynddo; a pha ran bynnag o'u corph y glŷn wrtho, y mae yn gwneuthur iddynt flinder, colled, neu sarhâd. Yn awr yr oedd y dyn ieuangc wedi ymlwytho â'r clai hwn, yn cerdded yn bwyllig iawn, ei ben oedd yn gogwyddo i lawr, ei ddwylaw yn crynu, a'i draed yn tramgwyddo wrth bob anwastadrwydd a'r gerwindeb lleiaf yn y ffordd; ac yr oedd tamaid neu ddau o'r dom wedi ei ddifwyno yn agos i'w lygaid, yr hyn a'i gwnaeth yn bŵl ei olwg, ac felly yr oedd efe yn ymbalfalu fel hyn megis un dall, ac yn gwyr-gamu allan o'r llwybr ambell waith.

CYDWYBOD-DYNER.

Yn y cyflwr hwn yr ydoedd, nes, o'r diwedd, mi a welwn yn fy mreuddwyd ei fod yn eistedd i lawr ar y ddaear, gan riddfan yn brudd oblegid ei gyflwr annedwydd, ac efe a wylodd yn chwerw-dost; ac yn y man wele gwmmwl gwŷn yn ymdaenu uwch ei ben, yr hwn, yn raddol, a ddisgynodd arno, ac a'i gorchuddiodd ef; ac o'r cwmmwl y daeth llaw atto, yr hon ynghyd â'r dagrau oedd yn rhedeg yn afonydd o'i lygaid, a olchodd ymaith y dom oddi ar ei wyneb, ac oddi ar ei holl gorph; felly, megis mewn munud, ei olwg a'i nerth a ddychwelodd ac a adnewyddodd iddo drachefn: a llais a ddaeth allan o'r cwmmwl, gan ddywedyd, "Ti, fab dyn, dos rhagot yn nerth yr Arglwydd dy Dduw." Felly efe a gryfhawyd yn gysurus, ac a ymddadebrodd wedi hyn, ac a ddechreuodd gyfodi i fynu ei hun, ac yr oedd yn fwy gwisgi, a bywiog, a chwimwth, ac yn fwy pybur a grymus, nag y bu erioed o'r blaen; a'i lygaid hefyd a iachawyd, ac efe a welai yn eglur y goleuni bychan

[c] Dangosir yma fod rhai yn syrthio yn ddyfnach i drymder yspryd a digalondid na'u gilydd, trwy ddwysdeimlad o euogrwydd pechod.

a ddangosodd Efengylwr gynt i Gristion. Yna efe a gerddodd yn fuan dros y gwastadedd, ac a ddaeth ar frys i fynu at y goleuni disglaer, wrth lewyrch pa un y cafodd afael yn fuan yn y porth cyfyng, wrth yr hwn y curodd yn uchel, wedi iddo ystyried yr hyn oedd yn ysgrifenedig uwch ben y porth, sef, "Curwch, ac fe agorir i chwi."

Yn awr mi a welwn yn fy mreuddwyd, cyn gynted ag y curodd efe wrth y porth cyfyng, lawn gawod o saethau yn cael eu gollwng atto ef, allan o gastell Belial, ac felly clwyfwyd ef mewn amrywiol fannau, a brawychwyd ef yn ddirfawr trwy'r fath ddamwain beryglus; a hyn a barodd iddo guro drachefn a thrachefn, a hynny yn ddwys iawn, rhag ofn i rai oedd yn saethu atto ddyfod a'i ladd o'r tu allan, cyn iddo gael dyfod i mewn; eithr yn y man, er mawr gysur iddo, fe agorwyd y porth; yna pan welodd yr hwn a agorasai y porth ef, a'r saethau yn eu sefyll yn glynu yn ei gorph, efe a barodd iddo frysio i mewn rhag ofn ychwaneg o niweid.[d] Felly efe a redodd i mewn, ac a gyfarchodd yn ostyngedig i'r hwn a agorasai y porth, canys yr ydoedd yn gweled fod y gwr hwn yn haeddiannol o gael ei anrhydeddu, gan mor hawddgar a phruddaidd oedd ei wynebpryd, ac o ymarweddiad hynod iawn: felly efe a ymddiddanodd â'r gwr, enw yr hwn oedd Ewyllysiwr-da, gan ddywedyd, Syr, myfi a glywais y sôn sydd am y wlad nefol, ac y mae wedi ei hyspysu hefyd, gan amrywiol o'r pererinion, fod y ffordd tuag yno trwy'r porth hwn.—Wedi i mi glywed hyn, yr oeddwn wedi blino byw yn Nyffryn Distryw, ac yn difrifol ddymuno cael gweled yr ardal wynfydedig, yr hyn a barodd i mi yn ostyngedig anturio curo wrth y porth yma, yr hwn a welsoch chwi fod yn dda o'ch hynawsedd ei agoryd i mi; am yr hon ffafr yr ydwyf o'm calon yn ddiolchgar i chwi. Eithr fel yr oeddwn yn sefyll wrth y porth, wedi i mi guro y waith gyntaf, fe'm saethwyd â'r saethau hyn ag a welwch chwi yn glynu yn fy nghnawd, ac yr wyf yn ofni fod fy nghlwyf yn farwol; canys y mae fy yspryd yn pallu ynof: ac yna efe a syrthiodd wrth draed Mr. Ewyllysiwr-da, gan attolygu arno fynegu iddo ef yn mha le y gallai efe gael rhyw un medrus i chwilio ei glwyfau, ac i'w hiachâu, os nad oeddynt yn farwol.[e]

Yna Mr. Ewyllys-da a gymmerodd drugaredd ar y gwr ieuangc, ac a ofynodd iddo beth oedd ei enw. Fy enw, ebe'r gwr ieuangc, yw Cydwybod-dyner; ac fe'm ganed, ac a'm maethwyd, yn nhref Gwag-hyfrydwch. Yna Mr. Ewyllysiwr-da a ysgrifenodd enw y dyn ieuangc ar y cofrestr, ac a roddodd lythyr tystiolaeth iddo yntef, i'w ddwyn i'r tŷ nesaf, er mwyn iddo gael derbyniad, yr hwn yw tŷ'r Deonglwr, ac a ddangosodd y ffordd iddo; canys nid oes ond ychydig o ffordd oddiwrth y porth i dŷ y Deonglwr. Ac

[d] Nid oes dim yn fwy atgas gan Satan, gwrthwynebwr, na gweled enaid yn taer ymdrechu mewn gweddi; o ba herwydd, y mae efe trwy bob moddion am ddigaloni y rhai sydd yn dyfod at y porth i geisio trugaredd.

[e] Trwy geisio Duw mewn gweddi, mae i ni gael iachâd o bob briw a chlwyf ysprydol; canys pa beth bynnag a ofynwn yn enw'r Iesu, fe'i rhoddir i ni.

yno, ebe fe, y cewch iechyd oddiwrth eich clwyfau, ac y cewch weled llawer o bethau gogoneddus.[f]

Yna mi a welwn yn fy mreuddwyd, fod Ewyllysiwr-da wedi rhoddi i Gydwybod-dyner ffon-fagl gref, a wnaed o *lignum vitæ*, neu bren y bywyd, er mwyn iddo ymorphwys a phwyso arni, i esmwythâu ei draed wrth gerdded yn ei ffordd; canys nid oedd ganddo ef ddim yn ei law o'r blaen, ond gwialen wan o wag-dybiau, yr hon a gasglodd efe oddi ar bren gwybodaeth, yr hwn sydd yn tyfu ar hyd geulanau afonydd Babilon, neu ar lan dyfroedd cymmysgedig. Y gorsen wan hon oedd yn lle ffon gan Gydwybod-dyner i bwyso arni yn ei daith, hyd yr amser yma pan y parodd Ewyllysiwr-da iddo ei thaflu ymaith, ac a roddodd yn ei lle, megis ag y dywedais, y ffon-fagl gref honno, yr hon a orchymynodd hefyd gymmeryd gofal ei chadw gydag ef mwy, oblegid y byddai hi o wasanaeth neillduol iddo yn ei holl ffordd, yn enwedig yn awr pan y mae efe glwyfus; canys y mae ynddi rinwedd neillduol i attegu clwyfau gwaedlyd.[g] Felly Ewyllysiwr-da, wedi rhoddi hyfforddiadau helaeth i Gydwybod-dyner, ynghylch y ffordd, a ganodd yn iach iddo, ac a'i gadawodd i fyned rhagddo yn ei daith.

Yna Cydwybod-dyner a ddechreuodd ymgryfhâu yn ei yspryd, trwy yr aml gysuron, a'r diddanwch, a'r esmwythder, a'r cynnaliaeth a dderbyniasai oddiwrth y ffon-fagl a roddasai Ewyllysiwr-da iddo ef; canys ni bu ei bath yn ei feddiant erioed o'r blaen: ond yn awr fe attaliodd y gwaed redeg o'i glwyfau; ac yr oedd megis yn cynnyddu yn wresog yn ei law, ac yr oedd yn dyfod oddi wrthi arogl peraidd iawn, yr hwn a adfywiodd ei yspryd yn dra rhagorol; ac yr ydoedd yn profi ei fod yn myned gryfach gryfach, trwy y rhinwedd a'r feddyginiaeth oedd yn y ffon-fagl ryfeddol yma. Fel hyn yr ymdeithiodd nes y daeth o'r diwedd yn mlaen hyd at dŷ y Deonglwr, ac yno fe gurodd wrth y drws; yn y man daeth rhyw un i'w agoryd ef, ac a ofynodd iddo beth oedd ei neges? Cydwybod-dyner a attebodd, ac a ddywedodd, ei fod yn dymuno cael gweled gwr y tŷ, sef y Deonglwr. Felly efe a alwodd ar y Deonglwr, yr hwn a ddaeth allan at Gydwybod-dyner, ac a ofynodd iddo, beth a fynnai efe?

TY Y DEONGLWR.

CYDWYBOD-DYNER. Yna Cydwybod-dyner a ddywedodd, Syr, mi a gefais fy nghyfarwyddo yma gan un Mr. Ewyllysiwr-da, yr hwn sydd yn cadw'r porth cyfyng accw, yr hwn sydd yn arwain oddiwrth y dref i'm ganed i, yn Nyffryn Distryw, tuag at ardaloedd y gogoniant, mi a ddaethum at y porth Cyfyng, megis i'm cyfarwyddwyd; a chyn gynted ag y curais wrth y porth, fe'm saethwyd â'r saethau hyn, y rhai a welwch chwi yn awr yn glynu fy nghnawd; a phan yr agorwyd y porth, mi a wnaethum fy nghyflwr yn

[f] Wedi i ni geisio gwyneb yr Arglwydd mewn gweddi, fe'n danfonir i dŷ'r Deonglwr, i ddysgu ewyllys yr Arglwydd yn fwy cyflawn, ac i gael cyfarwyddyd yn y ffordd tua'r ddinas nefol.

[g] Wrth y ffon-faglog, deallwn y cymhorth a'r cryfhâd a dderbyniwn, trwy fyfyrio ar yr addewid o fywyd tragywyddol yn yr efengyl.

hyspys i Mr. Ewyllysiwr-da, ac a ddywedais wrtho, fy mod yn ofni fod fy nghlwyfau yn farwol, gan ddymuno arno hyspysu i mi pa le y gallwn gael meddyg cyfarwydd ; yna efe a'm cyfarwyddodd i ddyfod attoch chwi, ac a roddodd y llythyr tystiolaeth yma, ac a archodd i mi ei roddi ef i chwi, ac a sicrhaodd y cawn yn y lle hwn iechyd i'm clwyfau, ac y cawn hefyd weled llawer o bethau gogoneddus ; hefyd efe a roddodd i mi y ffon-fagl yma, yr hon yr ydych chwi yn ei gweled yn fy llaw, yr hon a wnaeth i mi lawer o ddiddanwch a chynnorthwy, trwy adfywio fy yspryd lluddedig, a'm cynnal yn y ffordd, ac a attaliodd hefyd archollion fy nghlwyfau gwaedlyd. Eithr yn awr yr ydwyf yn gobeithio y caf gennych chwi berffaith iachâd.

EI GROESAWU GAN Y DEONGLWR.

DEONGLWR. Groesaw, groesaw, wr ieuangc, ebe'r Deonglwr, wedi iddo ddarllen y llythyr ; tyred i mewn, a bydd gyfranog o'r pethau da sydd yn y tŷ hwn : ac yr ydwyf yn gobeithio, cyn yr elych ymaith, y caf dy weled yn holliach.

Felly efe a'i harweiniodd ef i mewn i'r ystafell, ac a ofynodd iddo amryw o holiadau mewn perthynas i'r wlad o'r hon y daethai, ac am ddull ei fywyd ef yno. I'r hyn yr attebodd Cydwybod-dyner yn ffyddlon, ac a roddodd iddo hanes cywir o'i ddygiad i fynu, a pha fodd y treuliasai efe holl amser ei ieuengctid hyd y dydd hwn. Wedi hyn y Deonglwr a fanwl chwiliodd ei glwyfau, y rhai a gawsai efe gan y saethau, ac a rwymodd wrthynt falsam gwerthfawr, trwy yr hyn y gwnaethpwyd Cydwybod-dyner allan o law yn holliach ; a'r Deonglwr a gymmerodd y saethau a dynnasai efe allan o'i gorph ef, ac a'u crogodd i fynu yn goffadwriaeth iddo ddiangc rhag angau yn y fath gyfyngder. Yna efe a'i dygodd ef i fynu i'r ciniaw-le, ac a'i llonnodd â phethau gwerthfawr, etto gwledd gymmhedrol oedd, gan ymborthi ar y pethau goreu ag a ellid arferyd yn yr holl fyd ; canys yr oedd yn gweled fod Cydwybod-dyner yn wan ac yn llesg, ac fod ganddo siwrnai faith i fyned ; ac efe a farnodd fod yn angenrheidiol i drin iddo ymborth cryf hefyd er magwriaeth, fel y byddai yn fwy galluog i ddioddef y gorthrymderau blin ar ei daith yn y ffordd.

Wedi iddynt giniawa, efe a'i dygodd ef i'r amrywiol ystafelloedd oedd yn y tŷ, ac a ddangosodd iddo yr holl bethau ardderchog ag y cawsai Cristion, a Christiana a'i phlant, ynghyd â'u cyfeillion olwg arnynt yn y lle hwn : a phan oedd hi yn tynnu tuag at fachludiad yr haul, efe a arweiniodd Gydwybod-dyner i'r ciniaw-le drachefn, ac a gymmerasant fesur cymmedrol o luniaeth iddynt ei hunain, ac felly hwy a dreuliasant y rhan arall o'r prydnawn mewn ymddiddanion buddiol ; a'r Deonglwr a gymmerodd y cyfleusdra hwn i'w addysgu ef ynghylch cyfreithiau a defodau y wlad honno, a pha fath gwmpeini a gadwai efe, a pha fath rai a ochelai, ynghyd â chyfarwyddyd o'r ffordd, a pha fodd y byddai iddo ymddwyn ynddi o hyd, hyd y diwedd. Yna efe a ddangosodd iddo ystafell i orphwys, ac yna fe'i gadawodd ef i gymmeryd esmwythder.

Y boreu nesaf, ar godiad y wawr, Cydwybod-dyner a gyfododd ac a ymdaclodd i

CYDWYBOD-DYNER YN CYCHWYN I'W DAITH.

fyned i'w daith; a'r Deonglwr a ddarparodd iddo bethau cymhwys a da allan o'i letty, ac a ddywedodd wrtho, y deuai efe gyd ag ef ychydig o ffordd; yr hyn oedd yn gynnyg dymunol gan Gydwybod-dyner, ac a'i derbyniodd yn llawen, a hynny o herwydd dau o resymau; yn gyntaf, o herwydd ei fod yn ddieithr yn y parthau hynny; ac yn ail, o blegid ei fod yn caru cyfeillach dda y Deonglwr. Felly hwy a aethant ill dau ynghyd, ac a aethant drosodd i le yr oedd cae helaeth o ŷd, trwy'r hwn yr oedd llwybr yn arwain o dŷ'r Deonglwr i'r brif-ffordd; felly hwy a ddaethant i heol fechan, ar bob ochr i ba un yr oedd yn sefyll arglwydd-dŷ, ynghyd â thir yn perthyn iddynt, neu i bob un o honynt.

Yna Cydwybod-dyner a ddaliodd sylw fod tir un o'r tyddynod yno i gyd yn flodeuog ac yn hardd, ac mewn dull llwyddiannus yn dwyn cyflawnder o ffrwyth toreithiog o ŷd, ac wedi ei wisgo a'i lenwi âg anifeiliaid, y perthi a'r argaeau hefyd oedd yn gryf, yn sicr, ac yn ddiogel, a phob peth mewn trefn odidog a rhagorol: ond ar y llaw arall i'r gwrthwyneb, yr oedd tyddyn yn gorwedd mor agos a chwech i saith (fel y dywed y ddihareb) i'w gilydd; yr oedd peth o hono wedi ei orchuddio â danadl, drain, a mieri, a phob math o chwyn diffrwyth; y rhan arall oedd mor annhrefnus a thrwsgl, wedi ei orchuddio â cherrig a'i gloddiau a'i argaeau wedi syrthio a thorri, ac anifeiliaid gwylltion i fynu ac i waered yn ysglyfaethu yr hyn a allent gael; a phob peth yn eithaf annhrefnus. Felly nid oedd yno y gobaith lleiaf am un arwydd i gael cynhauaf ffrwythlon; a hyn a wnaeth i Gydwybod-dyner ryfeddu yn fawr; ac yna efe a ofynodd i'r Deonglwr, pa fodd yr oedd cymmaint o wahaniaeth rhwng y ddau dyddyn, y rhai oedd yn gorwedd mor agos i'w gilydd, ac oedd beunydd hefyd y naill yn gwaradwyddo y llall? Yna ebe'r Deonglwr, Yr hwn a bia'r tyddyn sydd ar y llaw ddehau, yr hwn yr ydych chwi yn ei weled yn hardd, yn flodeuog, ac mewn dull a threfn rhagorol, sydd yn perthyn i'r Brenin, megis yr oedd y llall hefyd, canys yr oedd y ddau dyddyn yn perthyn i Frenin y wlad. Ac ar yr amser yr oedd y Brenin yn cymmeryd ei gwrs unwaith y ffordd hon, efe a feddyliodd y gallasai gael dau dyddyn rhagorol yn y man hyn, a rhoddi rhai i edrych attynt, rhag eu myned yn ddinystriol, (canys yr oedd y ddau y pryd hynny yr un dull) felly efe a'u rhoddodd yn nwylaw y dynion hyn sydd yn awr yn byw ynddynt: ac a ddywedodd wrthynt hefyd, er eu calonogi, y caent nid yn unig fyw yn ddi-rent yno, (oddieithr talu eu gwasanaeth yn ei lys ef,) eithr y caent eu symmud yn y diwedd i leoedd urddasol a ddarparwydd er eu mwyn, eithr yr oedd yn rhaid iddynt fod yn ddiwyd i lanhâu ei dir ef, a'i wellhâu trwy'r hwsmonaeth oreu ag a fedrent; canys nid oes ganddo ef ddim hyfrydwch mewn neb o'r tiroedd diffrwyth ag sydd yn myned yn ddinystriol. Felly y ddau wr hyn a roddwyd mewn meddiant o'r tyddynod, a phob un a'i dŷ a'i dir o'r neilldu.

Yn awr y gwr sydd ar y llaw aswy a gymmerodd olwg ar ei dyddyn newydd, ac a ganfu ei fod i gyd drosto wedi tyfu yn chwyn, a mieri, a dyryswch, ac wedi ei orchuddio â cherrig, a'r cloddiau ar lawr, ac anifeiliaid gwylltion yn gwibio ac yn rhedeg i fynu ac i

waered ar hyd-ddo oll, a phob peth fel anialwch: yna efe a eisteddodd i lawr, ac a blethodd ei ddwylaw, gan anobeithio y glanhâi efe ei dyddyn tir byth, na'i ddwyn i un math o drefn: felly efe a aeth i loddesta, a meddwi, ac i chwarae, a champio, ac ymdrythyllu, heb ofalu byth am ei dir, na chymmaint a meddwl unwaith am dano ychwaith; ac felly efe a redodd yn ddwfn mewn dyled, ac a gollodd ei gymmeriad yn mhlith ei gymmydogion; ac oddieithr iddo yn fuan ymroddi i lanhâu a gwrteithio ei dir, efe a fydd yn sicr o syrthio dan anfoddlondeb y Brenin, yr hwn a'i tafl i garchar am esgeuluso a dibrisio ei dyddyn, (megis y bygwthiasai ef hwy ar y cyntaf,) ac ni all ddiangc nes iddo roddi llawn foddlonrwydd i'r Brenin am sarhâd mor atgas.

Eithr yn y gwrthwyneb, y deiliad sydd ar y llaw ddehau a gymmerodd olwg ar ei dyddyn, megis ag y gwnaeth y llall, ac a ganfu ei fod yn yr un dull, i gyd yn anrheithiedig ac allan o drefn. Eithr efe a ystyriodd ynddo ei hun yr anrhydedd mawr a dderbyniasai, yn gymmaint ag ymddiried iddo am un o ffermau y Brenin; a pha fath fai atgas a fyddai iddo ddiystyru y fath gymmwynas, a'r llesâd a amcanwyd ac a gynnygiwyd iddo, a'r daioni a fyddai iddo yn awr, ac yn ol hyn, os byddai iddo ddefnyddio ei dalent: ac efe a ystyriodd hefyd, er ei fod yn dyddyn helaeth, ac oll yn anialwch anghyfannedd, etto trwy ymdrechu bob dydd i'w lanhâu, y gallai mewn amser ei gwmpasu i gyd.

Yr ystyriaethau hyn a barodd iddo fyned ynghylch ei dyddyn gyda diwydrwydd, ac felly fe ddechreuodd bob yn ychydig ac yn ychydig ei chwynnu ef, a thaflu y cerrig ymaith oddi arno ef; ac fel hyn efe a ymdrafferthodd yn feunyddiol wrtho, nes o'r diwedd iddo ei ddwyn i'r drefn ragorol hon, megis ag yr ydych chwi yn gweled yn awr; ac y mae ef yn sicr mewn gobaith yn awr o feddiannu yr hyn a addawodd y Brenin, ac yn y man y caiff ei symmud i sefyllfa a fyddo yn fwy anrhydeddus.[h]

I'm tyb i, ebe Cydwybod-dyner, y mae y gwr sydd ar y llaw aswy ar fai yn fawr am esgeuluso y fath gyfleusdra da i ddyrchafu ei hun; pe buasai ond dilyn camrau ei gymmydog, a gwneuthur rhywbeth bob dydd tuag at lanhâu ei dyddyn, fe allasai, erbyn yr amser hyn, gael mwynhâu y budd o hynny, ac a fuasai yn dychwelyd iddo gnwd yn helaeth: heblaw hyn, fe fuasai yn parhâu ac yn cynnyddu yn ffafr y Brenin, yr hwn, yn ddi-ddadl, a fuasai cystal a'i air mewn amser, ac a fuasai yn ei ddyrchafu ef i sefyllfa fwy anrhydeddus.

DEONG. Gwir yw, ebe y Deonglwr, dyma fel y mae eich sefyllfa chwi y pererinion sydd yn myned o Ddyffryn Distryw tuag at wlad y gogoniant a'r bywyd. Y mae Brenin y wlad hon yn gofyn gennych lafurio yn ddiwyd ar y rhoddion a'r grasusau, er mwyn cynnyddu yn eich talentau, ac i barhâu felly hyd ddiwedd eich pererindod; ac yna chwi a gewch eich cyfnewid i'ch cartref tragywyddol. Ac yn awr y ffordd i wneuthur hyn yw, nid digaloni a llwfrhâu o blegid meithder eich ffordd, na brawychu o blegid y blin-

[h] Dysgwn ei fod yn llwyr angenrheidiol i ni fod yn wyliadwrus, ac yn ddiwyd, yn ngwaith yr Arglwydd rhag i ni yn y diwedd gael ein cospi, fel gweision anfuddiol a thwyllodrus.

derau ydych yn gael wrth fyned trwy yr anhawsderau a'r peryglon sydd wrth ymladd yn y ffordd. Eithr rhaid i chwi ymarfogi âg ymroad cryf dianwadal i fyned trwyddynt oll, gan ymdeithio bob dydd; canys yr hwn sydd yn sefyll sydd yn myned yn ol; felly megis y llafurwr diwyd hwn ar y llaw ddehau, yr hwn a chwynnodd ac a ddigarregodd ei dir bob dydd, felly rhaid i chwi, fel yntef, feunyddiol fyned yn mlaen, ac ennill tir, nes y caffoch chwi, fel yntef, mewn amser cyfaddas, lwyr-feddiannu eich llafur, a gorphen eich gyrfa mewn llawenydd.

Y Deonglwr a roddodd iddo ef lawer rhagor o gynghorion da, a rhybuddion,[i] fel yr oeddynt yn myned ymlaen, nes iddynt ddyfod i'r brif-ffordd, yr hon sydd wedi ei hamgylchu o bob tu â mur yr iachawdwriaeth: ac yna y rhoddes y Deonglwr lythyr sicrwydd i lys y Brenin i Gydwybod-dyner, gan dystiolaethu y byddai o neillduol wasanaeth iddo yn ei holl ffordd i'r wlad nefol: felly efe a ddymunodd iddo daith lwyddiannus, a thragywyddol ddedwyddwch, ac a ganodd yn iach iddo.

DEONGLWR YN CANU YN IACH IDDO.

Yna mi a welwn yn fy mreuddwyd fod Cydwybod-dyner yn wylo pan yr ymadawodd â'r Deonglwr, canys yr oedd ei yspryd mewn cariad annhraethadwy at ei gyfeillach, o herwydd iddo iachâu ei friwiau, a'i lettya mor garedigol, a dangos iddo y fath bethau rhyfeddol a gogoneddus, a rhoddi iddo hefyd lythyr i'w gymmeradwyo yn llys y Brenin, trwy yr hwn y gallai gerdded gyda mwy o ddiogelwch ac esmwythder i ardaloedd y gogoniant. Ac heb hyn, yr oedd efe o natur fwynaidd, garuaidd iawn; ac ni's gallasai ymadael â'r fath gyfaill, heb dorri o wylofain a dagrau: eithr o'r diwedd efe a ymhyfhaodd, ac a aeth rhagddo yn ei daith, nes y daeth i'r man lle yr oedd y groes yn sefyll, lle y syrthiodd y baich oddi ar gefn Cristion, ac y treiglodd i'r bedd (yr hwn oedd yn y glyn islaw y man lle yr oedd y groes yn sefyll), ac yno y claddwyd ef.

Yn awr mi a welwn yn fy mreuddwyd fod yn gyfagos at y groes ddau dŷ wedi eu hadeiladu; enw y naill oedd Tŷ Galar, ac enw y llall oedd Tŷ Gwledd;[k] ac yr oeddynt yn sefyll bob ochr i'r groes, un ar y llaw ddehau a'r llall ar y llaw aswy.

TY GALAR A THY GWLEDD.

Yn awr, fel yr oedd Cydwybod-dyner yn cerdded y llwybr i fynu'r bryn, daeth allan oddiwrth Dŷ Gwledd rai gwŷr ieuaingc i'w gyfarfod ef, ac a ymddiddanasant âg ef, gan ddywedyd, O ba le yr wyt ti yn dyfod? ac i ba le yr wyt ti yn myned? yna ebe Cydwybod-dyner, Yr wyf yn dyfod o Ddyffryn Distryw, ac yr wyf yn myned tua'r Ddinas Nefol, sef gwlad y gogoniant; eithr yr wyf yn gweled ei bod yn tynnu'n hwyr, a minnau yn ddieithr yn y ffordd, ac am hynny fe fyddai yn llawen gennyf gael esmwythder heno mewn rhyw le oddi amgylch yma, os gallaf gael cymmaint a hynny o ffafr gan neb o'r

[i] Mae y pererin iauangc yn sefyll mewn diffyg o amryw gynghorion a hyfforddiadau mewn perthynas i'r ffordd, a gwŷn ei fyd yr hwn sydd yn ymostwng i addysg a chyfraith Duw yn cael eu hargraphu ar ei feddwl.

[k] Mae yma amryw bethau yn gosod allan y gwahaniaeth rhwng gwag-ddigrifwch y byd, a droir yn wylofain yn y diwedd, a gwir lawenydd, yr hwn nid oes neb yn berchen o hono, nes profi yn gyntaf chwerwder enaid, a thristwch o herwydd pechod.

trigolion sydd yn yr ardal hon. Yna ebe y gwŷr ieuaingc, nid oes ond y ddau dŷ hyn, y rhai yr ydwyt yn eu gweled, yn yr holl blwyf hwn, yn croesawu dieithriaid; ac os bydd i ti ddyfod gyda ni i'r tŷ accw, (gan gyfeirio at yr hwn oedd ar y llaw aswy,) ti a gai driniaeth dda, a chwmpeini llawen, a phob peth a'r a allo dy galon ddymuno, ac yn y boreu nyni a ddeuwn gyda thi ar bererindod, canys nid ydym ni ond yn unig yn llettya yma heno, ac yn y boreu yr ydym am fyned ymlaen tua'r Ddinas Nefol. Trwy y fath eiriau dengar, a'r fath gynghorion, hwy a ennillasant Cydwybod-dyner i fyned gyda hwynt: felly fel ag yr oedd efe yn nesâu tuag at y tŷ, efe a glywai swn mawr, megis rhai a fuasai yn llawenhâu, yn canu, yn dawnsio, ac yn chwarae ar offer cerdd, ynghyd â llawer o grechwen chwerthingar, yr hyn a barodd i Gydwybod-dyner synnu yn fawr: eithr fel yr oedd yn dyfod i fyny at y tŷ, efe a welai uwch ben y drws y geiriau hyn yn ysgrifenedig, sef, 'Dyma Dŷ Gwledd;' yna fe gofiodd eiriau y gwr doeth, "Gwell yw myned i dŷ galar na myned i dŷ gwledd." Preg. vii. 2. Drachefn, "Calon y ffyliaid sydd yn nhŷ gwledd, eithr calon y doeth sydd yn nhŷ galar." Preg. vii. 4. Yna efe a ofynodd i'r gwŷr ieuaingc pa beth oedd enw y tŷ ar y llaw arall i'r groes; a hwy a ddywedasant mai Tŷ Galar oedd hwnnw. Yn mhellach hefyd, hwy a ddifenwasant ac a wawdiasant y bobl oedd yn byw ynddo, ac a ddywedasant nad oeddynt ond ychydig o bobl hurt, oerllyd, ffol, ac ynfyd, ac heb amlhâu ynddo. Eithr Cydwybod-dyner a wnaeth fwy o gyfrif o eiriau y gwr doeth, nac o'u hymadroddion enllibaiddd hwynt, ac a ddywedodd wrthynt, yr âi ef i geisio lletty i Dŷ Galar; yna hwy a chwarddasant am ei ben ef, ac a alwasant y lleill o'u cyfeillion i ddyfod allan i'w watwar ef: eithr efe a ymadawodd oddi wrthynt, ac a aeth heibio'r groes, golwg ar ba un a drosglwyddodd iddo ryw gariad annhraethadwy, ac ymysgaroedd tosturiol, a'r cyffelyb dueddiadau melus: a'r gwŷr ieuaingc ynghyd â'u cyfeillion, a'u canlynasant ef, gan ei watwar ef o hyd, o blegid ei dynerwch; a phan yr oedd efe yn wylo wrth droed y groes, yr oeddynt hwythau yn chwerthin, yn baldan, ac yn rhuo, nes iddo, o'r diwedd, gyfodi a brysio i fyned i Dŷ Galar, i ba le y daeth yn fuan, ac yr oedd yn bruddaidd iawn: er hynny y gwragedd a'i derbyniasant ef yn roesawgar, gan ddywedyd wrtho, Yr oeddym ni yn eich gweled chwi yn debyg o gael eich hudo i fyned i Dŷ Gwledd, ac yr oeddym yn llawenhâu wrth weled eich bod yn ymroddi nad aech i mewn yno, i eisteddfa gwagedd. Yr oeddym hefyd yn gweled eich dianwadalwch i wrthsefyll yr holl faldan, a'r gwawd, a'r gwaradwydd, ac nad oedd gywilydd gennych y groes, eithr fod yr olwg arni yn llenwi eich calon o gariad duwiol, yr hyn a barodd i afonydd o ddagrau redeg o'ch llygaid, tra yr oedd y twyllwyr truenus hynny yn chwerthin ac yn eich gwawdio—hyn oll a welsom gyda mawr foddlonrwydd. Bellach, gan hynny, "Tyred i mewn, tydi fendigedig yr Arglwydd," ac aros yma hyd y boreu, ac yna ti a gai fyned mewn heddwch: felly Cydwybod-dyner a aeth i mewn gyda y gwragedd caredigol hyn, y rhai a olchasant ei draed, ac a'i llonasant â thamaid o fara ac ychydig o wîn, ynghyd ag ychydig ffigys, resins, ac almonau: ac felly hwy a ymddi-

ddanasant ynghylch yr hwn a ddioddefodd angau ar y groes; a'r wraig hynaf a ddechreuodd lefaru i'r pwrpas hwn:

Y WRAIG HYNAF. Pa mor wag ac mor dwyllodrus ydyw y trueiniaid tlodion hyn, y rhai sydd yn dirmygu croes Crist, ac sydd yn elynion perffaith iddo ef, a'i ddioddefiadau; y maent yn proffesu eu bod yn credu yn Nuw, ac yn ei wasanaethu ef, etto ar yr un pryd y maent yn rhoddi y celwydd iddo ef, ac iddynt eu hunain: yn eu hymarweddiad y maent yn proffesu eu bod yn credu yn Nghrist croeshoeliedig, er maddeuant pechodau, etto ar yr un pryd y maent yn ei groeshoelio iddynt eu hunain o newydd, ac yn ei osod yn watwor: y maent yn caethiwo eu ffydd, heb ddioddef iddi fyned dros y terfynau culion sydd yn eu synhwyrau eu hunain, ac yn cymmeryd crefydd i fynu er mwyn boddio cîg a gwaed, a'u nwydau cnawdol sydd yn arwydd sicr o hynny yn eu hymarferiad; canys pa beth bynnag a fyddo yn wrthwynebol i'w chwantau hwy, y mae yn fuan yn cyfnewid eu hymddygiad; ac oddi yma y mae yn digwydd iddynt yn gyntaf i gymmeradwyo pethau ffol ac anweddaidd, a phob yn ychydig i ddibrisio daioni, a'i wrthwynebu, a'i wneuthur o'r diwedd yn wrthrych o'u gwawd a'u gwatwor, megis yr ydych chwi yn brofiadol, ac y gwelsoch y prydnawn yma yn Nhŷ Llawenydd.

Y WRAIG IEUANGAF.Ië, ac y mae hyn yn fwy hynod etto, sef fod pob un o'r gwŷr hyn yn cymmeryd arnynt anrhydeddu y groes, a disgyblion Iesu Grist, a'u tŷ wedi ei adeiladu oddi allan mor agos i'r groes ag yw ein tŷ ninnau, ac etto ar yr un pryd y maent yn elynion i'r rhai sydd yn dilyn ei gamrau ef, yr hwn a ddioddefodd angau gwaradwyddus ar y groes er ein mwyn ni.[1]

CYDWYBOD-DYNER.Ië, ebe Cydwybod-dyner, yr oedd y tri gwŷr ieuaingc yn dywedyd i mi eu bod hwy yn myned tua'r Ddinas Nefol, megys yr oeddwn innau; ac os cymmerwn i esmwythder dros y nos yn Nhŷ Llawenydd, y deuent hwy yn gyfeillion i mi y fory ar bererindod; eithr cyn gynted ag yr adnabuant fy mod i ar fedr myned i geisio lletty i Dŷ Galar, hwy a droisant eu mwyneidd-dra yn wawd, a'u rhith foesoldeb yn daeogrwydd sarrug, a'u dychymmogol fwriadau duwiol yn ynfydrwydd amlwg, gan eich difenwi chwi, a'r tŷ, a'r cwbl a feddech, a chwerthin, a'm gwawdio i fel ffol a dyn ynfyd, fel y Groegiaid hynny, y rhai yr oedd croes Crist yn ffolineb ganddynt, a phawb a'i cymmerai hi i fynu, neu a fyddai yn hoffi hynny. Dyma fel y buasai i mi yn eu plith hwy, canys yr oeddynt hwy o'r blaen mor llawen yn y tŷ yn canu a dawnsio, ac yn chwareu offer cerdd yn hyfryd: eithr cyn gynted ag y crybwyllodd y gwŷr ieuaingc iddynt fy mod i yn bwriadu myned ymaith, gadawsant eu cynghanedd, a rhedasant allan o'r tŷ i'm gwatwar a'm difenwi i, gan faldan a chleberddan mwy na mwy, a chodasant y fath grechwen o chwerthin ynfyd, cyhyd ag y bum yn aros ac yn wylo wrth y groes.

[1] Y mae rhai yn cymmeryd arnynt fod yn bur grefyddol yn eu ffordd eu hunain, ac heb ymwadu â dim o hyfrydau y byd, gan obeithio myned i'r nefoedd yn gystal a'r sawl sydd yn ymwrthod âg oferedd a gwagedd, ac yn rhodio yn y ffordd o hunan-ymarweddiad, a gwir dduwioldeb.

Y WRAIG HYNAF. Fe dalai i ni etto ddal sylw ac i weled trwy ba foddion y mae dynion yn dyfod i'r fath uchder cywilyddus o wagedd, yn gystal a datguddio eu drygioni diras. Yn gyntaf, y maent yn rhoddi ffrwyn i'w chwantau gwamal, mewn pethau bychain a chyffredin, heb ymhyfrydu mewn dim ond gwawd a chellwair, yn eu hymarweddiad cyffredin, a'u hymddygiad cyfeillgar; ac fel hyn yn cynnefino ac yn arfer eu hunain mewn cellwair gwag neu lawenydd diniwed (fel y dywedant), fel hyn yn ymgaledu, nes bod yn gyfarwydd i chwarae yn gyfrwys, a hynny hefyd â phethau o fwy eu pwys a'u sylwedd, megys matterion y llywodraeth gyhoeddus; ac yna y maent yn ymorphwys ac yn ymgaledu yn yr arferion llygredig hyn, nes iddynt o'r diwedd fyned i gellwair, a gwawdio, a gwatwor y pethau mwyaf sanctaidd a chrefyddol, i wirio ymadrodd y gwr doeth, "Yr hwn sydd yn diystyru pethau bychain, a syrth bob yn ychydig ac yn ychydig." Diddadl yw, fod gwag-lawenydd a chwerthin anghymmedrol yn codi llwch i lygaid yr enaid, ac yn ei luddias ef i ymsefydlu ei olygiadau disglaer ar bethau gwell: ac os fel y dywed rhai, y caniattawn eu bod yn ddiniwed, etto nid oes na lles na ffrwyth ynddynt. Pa fodd bynnag, y mae gwisg yr enaid yn debyg o gael ei halogi; ac y mae yr ymarferiad o chwerthiniad anghymmedrol yn beth anhawdd iawn i'w orchfygu, oblegid fod y fath duedd sydd yn ein nwydau naturiol mor barod i ynfydrwydd; a phwy bynnag sydd yn rhoddi ffordd rydd iddo, ac i gellwair cyffredin, sydd yn bradychu ei feddwl ei hun i ysgafnder ffol, a'i gynnefino mewn gwagedd, yr hwn, wedi iddo gynnefino felly, a fydd anhawdd i'w ddiwreiddio ymaith; ac am hynny y mae yn llawn bryd i ystyried barn yr apostol Paul dduwiol, pan y mae yn cynghori yr Ephesiaid i roddi heibio serthedd, ac ymadrodd ffol, a choeg-ddigrifwch, (Eph. v. 4,) a'r Thessaloniaid i ymgadw rhag pob rhith drygioni, 1 Thes. v. 22. Ac yn awr pa beth sydd i'w ddywedyd wrthynt hwy? y mae yn ddiddadl ei fod wedi ei ysgrifenu er eu hyfforddiad; ac y mae pob Cristion yn rhwymedig i dderbyn yr un cynghorion yn hyn ac mewn pethau ereill; ac nid pigo a dewis rhyw orchymyn a chynghor a welir yn dda i ufuddhâu iddo, megys pe byddem yn cyttuno â Duw i gwblhâu pedwaran neu hanner ei ewyllys ef. Er hynny y mae gwaharddiad i wag ddigrifwch a llawenydd ffol, er na edrych rhai arno mewn dim; er hynny da yw sylwi ar bob sillaf o air Duw, a hynny gyda pharch. Ac yn wir fe ddarfu i chwi chwareu rhan gwr doeth i ymadael â Thŷ Llawenydd, a dyfod i Dŷ Galar; canys y maent yn tybied fod y bywyd hwn o hyd yn spleddach a difyrrwch, neu farchnad i elw cnawdol; "Y maent yn yfed gwîn mewn cwpanau; ac yn eu gwleddoedd mae y delyn, a'r nabl, a'r dympan, a'r bibell, a'r gwîn; ond am waith yr Arglwydd nid edrychant, a gweithred ei ddwylaw ef nid ystyriant: am hynny yr ymehangodd uffern, ac yr agorodd ei safn yn anferth; ac yno y disgyn eu gogoniant, a'u lliaws, a'u rhwysg, a'r hwn sydd yn ymhyfrydu ynddynt." Esa. v. 12, 14.

Y WRAIG IEU. Nid yw yn beth anghymhwys sylwi hefyd, gyda pha fath gamddarluniad celfyddgar y mae y dynion hyn sydd yn perthyn i Dŷ Llawenydd yn ym-

drechu i ofni a brawychu yr ymdeithwyr sydd yn dyfod tuag at ein tŷ ni, gan roddi ar ein tŷ ni bob enw drwg, a dywedyd wrthynt ein bod yn wael, athrist, ynfyd, ac nad oes dim i'w gael yma ond ocheneidio, galaru, a griddfanau; a hyn sydd yn peri i lawer o'r ymdeithwyr tlodion gael eu gyrru i anobeithio troi yma, a myned ymaith gyda hwynt i Dŷ Llawenydd. Eithr mewn gwirionedd, nid oes dim o hyn oll yn wir; canys nid bydol dristwch, yr hwn sydd yn gweithio angeu, yw ein tristwch ni; eithr galar edifeiriol, yr hwn sydd yn dwyn bywyd, am yr hwn ni bydd rhaid edifarhâu o'i blegid. Yn ein ocheneidiau y mae llawenydd, ac yn ein dagrau y mae hyfrydwch; megys y mae yn ysgrifenedig, "Y rhai sydd yn hau mewn dagrau a fedant mewn gorfoledd." Ac y mae ein griddfanau trymaf megys blaen-ffrwyth o fuddugoliaeth ein heneidiau ar bechod ac angeu; ac y mae agosrwydd neillduol rhwng tristwch o'r natur hyn, â goruchel wir hyfrydwch; ac y mae yn anhawdd gwahanu rhwng y naill a'r llall o honynt: canys pan byddo ein llygaid yn rhedeg o ddagrau, trwy hyn y gwasgerir y cymmylau oddiar ein calonau; ac y mae pob tymhestl o riddfan, a galaru, ac ocheneidiau, sydd yn peri i ni guro ein dwyfron, yn clirio ac yn glanhâu yr awyr ar ein heneidiau, ac yn adferyd i ni fwy o dawelwch disglaer nac o'r blaen. Y mae hyn yn dwyn goleuni o dywyllwch, yn dwyn heddwch o ganol rhyfel, a bywyd o farwolaeth; a pha mor bell yw y tŷ hwn o arwain neb i anobaith, neu fod yn foddion i beri iddynt ddystrywio eu hunain? eithr yn y gwrthwyneb, llawer a ddaeth o Dŷ Llawenydd yn y dull hwn, wedi gwario eu harian wrth loddesta, a llawenydd gwageddus, gan ddymuno cael nodded gyda ni; ac mewn ychydig amser yma yn adnewyddu eu barn, eu rheswm, a'u synhwyrau eilwaith, ac a gawsant fyned i'w ffordd yn gysurus, ac mewn llawn foddlonrwydd.[m]

Erbyn hyn yr ydoedd hi wedi hwyrhâu, am hynny hwy a ymadawsant, ac un o'r tylwyth a ddangosodd yr ystafell-wely i Gydwybod-dyner, gan ddymuno esmwythder iddo, ac yntef a ddiolchodd iddynt am eu cynghorion da, ac am eu hymddiddanion buddiol, ac a gymmerodd ei gennad oddi wrthynt, ac a aeth i orphwys. Boreu drannoeth efe a gyfododd yn foreu iawn, ac a ymdaclodd i fyned i'w daith, ac yr oedd wedi ei foddhâu yn ddirfawr, o herwydd y croesaw a gawsai yn y lle hwn; am hynny efe a ganodd fel hyn yn ei ystafell:—

Bendigaid fo f' Arglwydd, gwir Geidwad ei braidd,
O dan ei adenydd rhag gweniaith y blaidd,
Fy nhraed fu ar lithro pan aethum, heb lai,
I geisio gorphwysfa yn Nhŷ Llawenhâu;

[m] Bydded i grefyddwyr gymmeryd gofal rhag syrthio i ysbryd gwag-ddigrifwch, a chwerthiniad anllad. Y mae y cnawd yn barod i lithro, ond gwyliwn, a bydded ein hymddygiad yn weddaidd ac yn bwysig, fel disgyblion Crist. Mae gan y Cristion sail o wir lawenydd, er fod y byd yn barod i'w wawdio fel un digyfrif, llebanaidd, a sarrug. Nid oes dim pleser a hyfrydwch sylweddol i'w gael, ond yn llwybrau gwir grefydd a duwioldeb.

Gwell pethau, pan gofiais, dychwelais yn ol,
Trwy ras mi edrychais, a 'nillais y gôl.
Pan oeddwn yn wylo hwy wawdient mewn gwg,
Ac am Dŷ Galarnad dywedent yn ddrwg.
Fe welir Tŷ Galar yn hyfryd mewn gwledd,
Pan fyddo llawenydd yn ffiaidd ei wedd.

Yn awr, fel yr oedd efe yn canu y geiriau diweddaf, efe a glywai ryw swn mawr oddi allan; ac wedi edrych trwy y ffenestr, efe a ganfu amryw o ddynion o Dŷ Llawenydd, yn amgylchu Tŷ Galar, ac yn gofyn am y dyn a ddaethai yno y nos o'r blaen, gan erchi iddynt ei roddi ef iddynt hwy. Ar hyn Cydwybod-dyner a frawychodd yn fawr; pa fodd bynnag, efe a syrthiodd i weddi; ac wele yn ymddangos iddo ef dri gwr disglaer, a dywedasant wrtho am fod yn gysurus, canys y byddai iddynt hwy ei wared ef o ddwylaw ei elynion. Ac un o honynt a anadlodd arno, gan ddywedyd, 'Ymgyfnewidia;' ac yn y man efe a ymadnewyddodd, ac a ddaeth megys yn greadur newydd; a'i wyneb, yr hwn oedd o'r blaen yn edrych yn gul, yn druan, ac yn wyn-las, a ddaeth yn awr i edrych yn goch ac yn ddisglaer, a'i lygaid oedd yn serenu fel diamond, fel na allai y rhai a'i gwelsant ef o'r blaen ei adnabod ef yn awr. Yna yr ail a'i hanrhegodd ef â gwisg wèn ddisglaer; canys o'r blaen yr oedd efe mewn dillad o liw scarlet. A'r trydydd a roddodd nôd ar ei dalcen, ac a roddodd iddo blyg-lyfr, a sêl arno, megys ag y cawsai Cristion gynt. Felly y tri gwr disglaer a'i bendithiasant ef, gan orchymyn iddo fyned rhagddo mewn heddwch, ac na ddygwyddai iddo ddim niwed. Yna Cydwybod-dyner a fynegodd i'r gwragedd yr hyn oll a ddygwyddasai iddo ef, ac a gymmerodd ei gennad oddi wrthynt, ac a aeth allan yn hyf, a'i ffon-fagl yn ei law, ac a aeth trwy ganol y twyllwyr oedd yn ei ddysgwyl, ac nid adnabu neb ef, na gallu gofyn iddo, Pwy wyt ti? Eithr efe a ymadawodd oddi wrthynt mewn heddwch, megys y rhag-ddywedasai y tri gwr disglaer wrtho ef o'r blaen.

Yna mi a welwn yn fy mreuddwyd fod Cydwybod-dyner yn cerdded yn mlaen yn mhell, hyd nes aeth allan o olwg y tŷ, ac allan o olwg y twyllwyr hynny; canys yr oedd arno beth arswyd yn aros etto, yr hyn a'i hyspardunodd i frysio allan o'u cyrhaedd hwynt. Fel hyn y cerddodd, hyd nes daeth at droed y Bryn Anhawsdra: ac ni chafodd ddim i'w yfed trwy yr holl ddiwrnod hwnnw; gan hynny efe a ymostyngodd at y ffynnon oedd yn tarddu o dan ochr y bryn, ac a yfodd o honi. Yna efe a eisteddodd ychydig i lawr i gael ystyried pa ffordd i fyned; canys yr oedd yno dair ffordd: un oedd yn myned i fynu i'r bryn, a'r ddwy arall oedd yn myned gydag ochr y bryn oddi amgylch, un ar y llaw ddehau a'r llall ar y llaw aswy. Yn awr, yr oedd y ffordd sydd yn myned i fynu yn uniawn i'r bryn yn gul, yn serth, ac yn arw; eithr yr oedd y ffordd sydd yn myned gydag ochr y bryn, ar y llaw aswy, yn llydan ac yn wastad, ac yr oedd rhestr o goed ar bob ochr yn ei chysgodi yn gywrain iawn, ac yr oedd dwfr y ffynnon honno hefyd yn

BRYN ANHAWSDRA.

cerdded yn mlaen gydag ochr y ffordd, yr hyn oedd yn ddengar ac yn ddifyr iawn dros ben: eilwaith, yr oedd y ffordd ar y llaw ddehau yn wastad, yn esmwyth, yn hardd, ac yn gysgodol, ac yn ymddangos megys ar godiad tu ag i fynu. Yna Cydwybod-dyner a feddyliodd fod y ffordd yma yn arwain i ben y bryn cystal a'r ffordd gul a serth, am hynny efe a wnaeth ddewisiad o honi: ac yn awr enw y ffordd yma oedd Perygl, ac enw yr hon oedd ar y llaw aswy oedd Dystryw: felly Cydwybod-dyner a aeth yn mlaen yn ffordd Perygl, yr hon a'i harweiniodd ef oddi amgylch gydag ochr y bryn, i goedwig fawr, i ba le yr aeth efe i mewn; canys yr oedd y ffordd yn ei arwain ef yn uniawn trwy ganol y goedwig. Yn awr yr oedd y goedwig yn ymddangos yn hyfryd a difyr iawn ar y mynediad cyntaf i mewn iddi, canys yr oedd yr adar yn pyncio yn felys, a'r awel oedd yn sideru ac yn cynhyrfu y dail ar y coed, nes oedd yno ryw gynghanedd difyr iawn, a'r ffordd yn laswyrdd ac yn esmwyth: eithr, fel ag yr oedd efe yn myned yn mlaen yn mhellach, y coed oedd yn cau yn dew oddi amgylch iddo, ac yn ei gysgodi, nes oedd yn dechreu tywyllu yn dywyll, ac yn edrych yn ddychrynadwy. Yn mhellach, yr oedd efe yn awr yn dechreu clywed rhuadau ac udfäau bwystfilod gwylltion, canys yr oedd y goedwig yn llawn o fleiddiaid, a llewod, a dreigiau gwylltion, a phob math o greaduriaid creulawn ac ysglyfaethus, yr hyn a wnaeth i Gydwybod-dyner grynu gan ofn, a'i galon a lewygodd, am hynny efe a ddychwelodd yn fuan yn ei ol, ar hyd yr un ffordd ag y daethai, ac a redodd cyn gynted ag y gallai, nes iddo ddyfod allan o'r goedwig, ac yna efe a ddaeth ychydig yn fwy pwyllig yn ei ffordd, nes iddo ddyfod o'r diwedd hyd at y ffynnon oedd wrth ochr y bryn eilwaith, ac yno efe a eisteddodd, er mwyn ystyried pa ffordd i gymmeryd, a pha beth i'w wneuthur. Eithr o'r diwedd, wedi hir fyfyrio, efe a alwodd i'w gof yr ymadrodd hwn o eiddo y gwirionedd, "Cul yw y ffordd sydd yn arwain i'r bywyd, ac ychydig yw y rhai sydd yn ei chael hi." A thrachefn, "Llydan yw y ffordd sydd yn arwain i ddystryw, a llawer yw y rhai sydd yn myned i mewn iddi." Yna efe a sylwodd ar y ffordd oedd yn myned i fynu yn uniawn i'r bryn, ac wele yr oedd hi yn gul dros ben; a'r ddwy ereill oeddynt yn ffyrdd llydain, y rhai oedd yn troi gydag ochr y bryn: yn y man efe a ymddybenodd ac a benderfynodd ynddo ei hun fod yn rhaid iddo gerdded y llwybr cul serth hwnnw, pa faint bynnag a fyddai o rwystrau yn ymddangos ynddo i gig a gwaed.[a] Felly efe a aeth i fynu, gan fawr hiraethu am nerth i ddringo y ffordd flinderus hon: ac yn awr pan oedd efe ynghylch hanner y ffordd i fynu y bryn, yr oedd agos a diffygio, ac yn gwanhâu fwy-fwy, ac fel dyn penwan, canys yr oedd yr esgynfa i fynu mor serth a llithrig, nes oedd efe bron syrthio yn ol yn wysg ei gefn, gan fod y camrau neu y grisiau yn fawr i'w dringo gan weiniaid. Ond o'r diwedd efe a ddaeth i fynu i'r man lle yr oedd llwyn ar ochr y bryn, ac yr oedd yno hefyd babell, ac

[a] Pan fyddom wedi gwyro oddiar y llwybr uniawn, da yw ymostwng o honom i geryddon cydwybod a goleuni dwyfol, a cheisio cael gafael ar y ffordd a gollasom; gan weled mai gwell yw myned ar hyd llwybr lyledswydd, er ei fod yn serth ac yn flinderus, na chanlyn gau-lwybr a fyddo yn ymddangos yn esmwythach.




The Banishment of Diabolus.

Alltudied Diabolus

wrth ddrws y babell yr oedd gwr yn eistedd, enw yr hwn oedd Ymroddiad. Yn awr efe a ddaliodd sylw ar Gydwybod-dyner yn dyfod i fynu i'r bryn, yn lluddedig ac yn hiraethlawn, a'i liniau yn barod i guro ynghyd wrth ddringo, yna efe aeth allan ac a'i cyfarchodd ef fel hyn :—

YMRODDIAD. Frawd anwyl, yr ydwyf yn dy weled yn wan ac yn lluddedig, gan hynny tyred i mewn yma, attolwg, i'r babell hon, ac ymorphwys ychydig; a phan byddech wedi ymadnewyddu ac ymnerthu dy hun, tydi a gai fyned yn mlaen yn enw yr Arglwydd dy Dduw, canys yr ydwyf wedi fy rhoddi yn y man hyn wrth orchymyn y Brenin, i'r dyben i weini cysur i'r pererinion tlodion ar eu taith.

CYDWYBOD-DYNER. Yna ebe Cydwybod-dyner, Yr wyf yn wir yn ddiolchgar i chwi, Syr, am eich gwahoddiad croesawgar, ac a'i derbyniaf yn llawen; canys yn wir yr ydwyf wedi llwyr ddiffygio, ac y mae fy nghalon yn pallu ynof.

Felly efe a aeth i mewn gyda'r gwr i'r ogof, a hwy a eisteddasant ill dau ynghyd mewn eisteddfaoedd wedi eu naddu yn y graig. Yna mi a welwn yn fy mreuddwyd fod y 'stafell lle yr oeddynt yn eistedd wedi ei gwneuthur o faen gwerthfawr, ac yr oedd ffenestr yn y pen uchaf, trwy lewyrch yr hon y cafodd Cydwybod-dyner ddal sylw ar amryw o ddarnau rhagorol yr hen oesoedd, a naddasid allan o'r graig, ac yr oedd yno osgedd a dull dangosiadol o wyrthiau clodfawr a wnaeth amryw o wŷr enwog yn y dyddiau gynt, (Heb. xi. 4—8,) y rhai, trwy ffydd, a wnaethant lawer o bethau rhyfeddol; yno yr oedd llun Abel yn offrymu aberth rhagorach na Chain; ac Enoch yn rhodio gyda Duw, ac yn cael ei gyfnewid heb weled angeu; a Noah, yr hwn a fu ugain mlynedd a chan tyn adeiladu arch er mwyn achub ei dŷ, a phob peth byw; yr oedd yma hefyd ddangosiad o Abraham, yr hwn pan alwyd a ufuddhaodd i Dduw, ac a aeth allan i'r lle yr oedd efe wedi hynny i'w dderbyn yn etifeddiaeth, ac a aeth allan heb wybod i ba le yr oedd efe yn myned. Yr oedd yno hefyd ddangosiad pa fodd yr ymdeithiodd efe, trwy ffydd, yn ngwlad yr addewid, megys gwlad ddyeithr, megys un yn trigo mewn pebyll gydag Isaac a Iacob, cyd-etifeddion o'r un addewid; canys "dysgwyl yr oeddynt am y ddinas ac iddi sylfeini, saer ac adeiladydd yr hon yw Duw. Y rhai hyn oll a fuant byw mewn ffydd, gan gredu yr addewidion." A'u derbyn yn ddiolchgar, "gan gyfarch a chyfaddef, mai dyeithriaid a phererinion oeddynt ar y ddaear; canys mae y rhai sydd yn dywedyd y cyfryw beth yn dangos yn eglur eu bod yn ceisio gwlad; canys pe buasent yn meddwl am y wlad honno, o'r hon y daethant allan, hwy a allasent gael amser i ddychwelyd. Eithr gwlad well yr oeddynt yn ei cheisio, a honno ydoedd un nefol: o ba herwydd nid yw gywilydd gan Dduw ei alw yn Dduw iddynt hwy, canys efe a barottodd iddynt hwy ddinas."[o]

[o] Addysg ysgrythyrol sydd i ni ddeall wrth hyn oll. Mae hanesiaeth dwyfol ac esamplau y saint, yn cael eu gosod o flaen llygaid y pererin, er mwyn dysgu iddo ddoethineb nefol, a'i annog ef i barhâu yn ei ymdaith tua'r ddinas nefol.

Yn awr Cydwybod-dyner a gafodd ei foddloni a'i gysuro yn fawr, wrth weled ac ystyried y pethau hyn: felly efe a edrychodd yn mhellach, ac yna efe a welai ddelw Abraham yn offrymu ei fab Isaac, am yr hwn y dywedasid wrtho, "Yn Isaac y gelwir i ti hâd." A phortreiad o Iacob yn bendithio ei feibion, sef y deuddeg patriarch. Yna efe a edrychodd yr ochr arall i'r ystafell, yr hon oedd gyferbyn a'r ffordd yr elych i mewn i'r babell, ac yr oedd yno waith wedi ei ysgrifenu ar faen, yn dangos pa fodd y gwrthododd Moses, pan aeth efe yn fawr, ei alw yn fab merch Pharaoh, gan ddewis yn hytrach ddyoddef adfyd gyda phobl Dduw, na chael mwynhâu hyfrydwch pechod dros amser. A pha fodd y gadawodd efe yr Aipht, heb ofni llid y brenin; eithr efe a ymddiriedodd yn yr hwn sydd anweledig: a pha fodd yr arweiniodd efe blant Israel trwy y môr coch megys ar dir sych; yr hwn pan brofodd yr Aiphtiaid, boddi a wnaethant; a pha fodd y syrthiodd caerau Iericho, wrth udganu mewn cyrn hyrddod; ynghyd â llawer mwy o bethau rhagorol, megys gwroldeb rhyfeddol Iosuah, Gideon, Barac, Sampson, a Jephtha; ac hefyd Dafydd, Samuel, a'r prophwydi, y rhai, trwy ffydd, a oresgynasant deyrnasoedd, a wnaethant gyfiawnder, a dderbyniasant yr addewidion, a gauasant safnau llewod, a ddiffoddasant angerdd y tân, a ddiangasant rhag min y cleddyf, a nerthwyd o wendid, a wnaethpwyd yn gryfion mewn rhyfel, ac a wnaethant i fyddinoedd yr estroniaid gilio: ac ereill a gawsant brofedigaeth trwy watwar a fflangellau creulawn; ïe, trwy rwymau a charchar; hwynt-hwy a labyddiwyd, a dorrwyd â llif, a demptiwyd, a laddwyd yn feirw â'r cleddyf, a grwydrasant mewn crwyn defaid a chrwyn geifr, yn ddiddim, yn gystuddiol, yn ddrwg eu cyflwr, y rhai nid oedd y byd yn deilwng o honynt, yn crwydro mewn anialwch, a thyllau, ac ogofeydd y ddaear; y rhai hyn oll, wedi cael tystiolaeth trwy ffydd, ni dderbyniasant yr addewid.

Ac yr oedd yr holl ystafell, lle yr oeddynt yn eistedd, wedi ei haddurno oddi amgylch o gylch â'r fath luniau a hyn, ar y rhai yr edrychodd Cydwybod-dyner gyda hyfrydwch mawr, ac efe a gafodd ei galonogi trwy edrych ar y fath bethau gogoneddus o eiddo yr hen deidiau; ei ysbryd hefyd, yr hwn oedd o'r blaen wedi gwanychu yn fawr, yn awr a ddechreuodd ymadnewyddu ac ymadfywio o'i fewn drachefn; yna efe a dorrodd allan i ganu fel hyn:—

O! f'enaid eiddil oedd mewn trafael,
Fel yr ûs o flaen yr awel!
Mi fum yn hir, do, yn bwhwman:
Ond af yn mlaen yn ëon weithian:
'Waith gwel'd fath bethau mewn golygiad
Mi 'heda i'r bryn ar aden cariad,
Mi debygwn fod fy nghalon
O'm mewn yn llosgi 'nawr yn gyson:

Rhyw ryfedd wres nefolaidd gariad,
Rhodd i'm hysbryd felus brofiad:
Megys phenix mae'n adferyd,
I ogoniant didranc fywyd.

Yna pan welodd Eglurwr-daioni fod Cydwybod-dyner felly wedi ymddadebru mor rhagorol trwy y pethau hyn a welodd, efe a ddywedodd wrtho, fod ganddo etto bethau mwy na'r rhai hyn i'w dangos iddo ef, y fath bethau a lenwai ei enaid o lawenydd wrth yr olwg arnynt. Felly efe a aeth âg ef allan o'r ystafell honno trwy gyntedd helaeth yr hon a wnaethid o feini gwerthfawr, a'i phen uchaf yn llawn ffenestri; ac efe a'i dug ef i ystafell arall, lle yr oedd gwr yn byw, a elwir Dwys-fyfyrdod. Ac yr oedd y gwr yn eistedd mewn ystôl o ddiamond pur, ac yn myfyrio mewn distawrwydd; ac ni ddywedasant hwy ddim wrtho ef, nac yntef wrthynt hwythau: eithr cyn gynted ag y canfu ef eu bod yn dyfod i mewn, efe a dynnodd ymaith y llen ag oedd yn sefyll rhyngddynt a'r rhan bellaf o'r ystafell, ac yn gorchuddio hanner yr ystafell, oblegid nis gellir gweled y pen pellaf i'r ystafell pan eler i mewn gyntaf: eithr mor gynted ag y byddo i'r gwr hwn, Dwys-fyfyrdod, i dynnu ymaith y llen, â'r llinyn yr hwn sydd yn ei law, y mae yn ymddangos yno yn fuan bethau ardderchog a gogoneddus, y rhai sydd yn abl dallu llygaid gan ddisgleirdeb; canys yr oedd yn y rhan hyn o'r ystafell, wedi ei rhoddi i'r rhai a elai i mewn, amrywiol o ffenestri o ddiamond, y rhai, yn y fan, oedd yn taro ar y llygaid yn ddisymmwth, â mil o ryfeddodau ardderchog! ac yr oedd y rhan hyn o'r babell wedi ei wneuthur i gyd oll o ddiamond, ac wedi ei gerfio yn gywrain iawn; a thrwy lewyrch pelydr yr haul yn tewynu arno, yr oedd yn arddangos gogoniant y Ddinas Nefol, yr hon y mae ei heolydd wedi eu palmantu âg aur pur, a'i thrigolion yn rhodio mewn gwisgoedd llaesion, ac yn disgleirio fel y ser. Yr oedd yno hefyd bortreiad o Frenin y lle hwnnw yn eistedd ar orsedd ei ogoniant, a thân fflamllyd yn dyfod allan ger ei fron ef, ac yr oedd mil o filoedd yn gweini iddo ef, a deng mil o filoedd yn sefyll ger ei fron ef, a'u hwynebau fel disgleirdeb goleu, a'u llygaid fel lampau o dân; eu traed hefyd a'u dwylaw oedd fel pres coeth: yn fyr, yr oedd yr holl bethau yno yn ymddangos yn llawn ardderchogrwydd gogoneddus a disgleirwych.[p]

Erbyn hyn yr oedd Cydwybod-dyner yn synnu yn fawr dros ben, wrth weled y fath bethau gogoneddus, canys yr oedd efe yn hoffi y fath ddigrifwch annhraethadwy a hwn mor fawr, fel y dymunasai fyw a marw yn y lle hwnnw, canys nis gwelsai efe erioed o'r blaen trwy ei holl fywyd ddim cyffelyb i'r fath bethau daionus a hyn: felly efe a barhaodd i edrych yn graff ar y gwrthddrychau dymunol hyn, heb gymmaint a throi ei lygaid ymaith unwaith oddi arnynt, nes o'r diwedd i Eglurwr-daioni dynnu y llen yn ol drachefn, a'u cuddio hwy allan o'i olwg ef; canys yr ydoedd yn ofni, os byddai iddo syllu yn hir

[p] Mae yn angenrheidiol i ni ddwys-fyfyrio ar wirioneddau dwyfol, fel y gallom gyrhaedd at yr iawn ystyr o honynt, a meddiannu y cysur sydd yn dylifo oddi wrthynt, i'r Cristion duwiol a deallus.

ar y fath wrthddrychau disglaer y cai ei lygaid ef eu niweidio ; canys yr ydoedd yn cofio ymadrodd y gwr doeth, " Yr hwn sydd yn craffu ar bethau ardderchog, a orchfygir gan eu gogoniant hwynt." Felly efe a'i dug ef yn ol drachefn, trwy y cyntedd, ac a'i harweiniodd ef i'w babell ei hun : a phan ddaethant i mewn yno, efe a ddymunodd ar Gydwybod-dyner i eistedd i lawr, ac i fyfyrio ar yr hyn a welsai : felly efe a eisteddodd i fyfyrio ychydig tra yr ydoedd Eglurwr-daioni yn parottoi iddo ychydig o ffwythau, llysieuau, a gwîn, i'r dyben i'w adnewyddu ef, a'i wneuthur yn fwy heinif a bywiog i ddringo y rhan arall o'r bryn. O Syr, ebe Cydwybod-dyner, na flinwch eich hunan o'm plegid i, ac na ofalwch am ddim bwyd na diod i mi, canys y mae y pethau gogoneddus a welais er pan y daethum i mewn yma wedi bod yn fwyd ac yn ddiod i mi ; ac yr ydwyf yn teimlo fy hun wedi fy ymnerthu trwyddynt, ac y mae fy ysbryd wedi ei fywhâu yn rhyfeddol, fel yr ydwyf yn profi y gallaf yn awr ehedeg i fynu i'r rhan arall o'r bryn.

Yna yr attebodd Eglurwr-daioni ef fel hyn, Os ydyw golwg yn unig ar y fath bethau gogoneddus wedi gwneuthur y fath effaith ryfeddol arnoch chwi, pa faint mwy effeithiol a fydd cyflawn fwynhâd o honynt mewn addfedrwydd addas ! ac os ydyw golwg ar lun y wlad mor hawddgar, pa faint mwy hyfryd a godidog ynte ydyw y ddinas a'r wlad yr ydych chwi yn myned iddi i'w mwynhâu, ac i fyw ynddi byth ; ac yno y cewch eich gwisgo â gwisgoedd gwŷnion, a'ch coroni â choron ddiddiflanedig o ogoniant ! Eithr rhaid i mi eich rhybuddio i ochelyd un peth, yr hwn a ddygwydd i chwi cyn pen ychydig wedi i chwi ymadael oddi yma, yr hyn sydd yn fynych yn dygwydd i'r pererinion ag sydd yn cael golwg ar y pethau gogoneddus sydd yn y babell hon, fel na byddo iddynt ymdderchafu trwy odidogrwydd y datguddiedigaethau ; am hynny y rhoddir iddynt yn fynych swmbwl yn y cnawd, a chennad Satan i'w cernodio, fel na thra-ddyrchafer hwynt ; ac yn awr fe fydd i hyn ddygwydd fel peth dyeithr i chwi ond odid pan yr eloch ymaith oddi yma : eithr fel na byddo i chwi ddigaloni pan ddel hynny arnoch, yr wyf yn ei fynegi i chwi yn awr, fel wedi eich rhag rybuddio y byddoch hefyd wedi rhag-ymarfogi ; ac yr wyf hefyd yn eich cynghori chwi i gadw yn eich cof yn wastadol yr esamplau hynod hyn, y rhai a bortreiadwyd o flaen eich llygaid yn y lle hwn, sef y rhai a flinwyd gan lifeiriant o groesau ac erledigaethau y byd, ac a safasant mewn profedigaethau a themtasiynau tanllyd, nes o'r diwedd iddynt chwareu eu parth fel gwŷr dewrion, a pheri i'r byd, a'r cnawd, a'r cythraul ffoi a chilio ymaith ; ac a aethant i mewn i lawenydd eu Harglwydd, ac a gymmerasant lawn feddiant o'u hetifeddiaeth dragywyddol. Y mae yn angenrhaid i chwi gadw y pethau hyn yn eich cof yn wastadol, fel y byddoch yn myned yn mlaen ar eich pererindod, yn enwedigol pan fyddoch yn cyfarfod â rhyw demtasiynau neu beryglon, megis ag y rhaid dysgwyl bob dydd yn y fath daith a hon ; yn y fath amser rhaid i chwi ail-alw i'ch cof yr holl bethau gogoneddus a welsoch yn fy mhabell i ac yn mhabell Dwys-fyfyrdod, ac o wneuthur felly chwi gewch brofi llawer o gysur a dyddanwch. Felly efe a ddymunodd arno gymmeryd ychydig luniaeth er mwyn

lloni ei hun, o'r hyn ag oedd yno, gan sicrhâu iddo ei fod yn ymborth da a didwyll, ac fod iddo eithaf groesaw i fwytta o hono: canys, ebe fe, chwi a gewch brofi y budd o hono wrth ddringo i fynu i'r rhan arall o'r bryn. Yna, wedi i Gydwybod-dyner ymborthi a diwallu ei hun, Eglurwr-daioni a ail-goffaodd ei gynghorion iddo ef drachefn, ac a fynegodd iddo pa fath deiau a ddewisai efe i lettya ynddynt ar ei ffordd, a pha fath rai oedd raid iddo eu gwrthod a'u gochelyd; ac a chwanegodd hefyd iddo lawer yn ychwaneg o hyfforddiadau iachus, nes o'r diwedd fod Cydwybod-dyner yn llawn calondid a llawenydd. Felly efe a gymmerodd ei gennad oddi wrtho, ac a ddiolchodd iddo yn ostyngedig am ei holl gymmwynasgarwch a wnaethai efe iddo.

Yn awr mi a welwn yn fy mreuddwyd, pan aeth Cydwybod-dyner i fynu ryw encyd o ffordd oddiwrth y babell, wele ddyn yn ei gyfarfod ef, enw yr hwn oedd Balchder-ysprydol. Eithr nid oedd Cydwybod-dyner yn ei adnabod ef ar y cyntaf; yna y gwr a'i cyfarchodd ef fel hyn: 'Henffych well, anwylyd yn mhlith meibion dynion! tydi wyt anwylyd Brenin y nefoedd, ti a gymmeraist daith hir a blinderus, o Ddyffryn Dystryw i fyned tuag ardaloedd y bywyd; tydi a ddiengaist rhag hudoliaeth Tŷ Llawenydd, ac a ddewisaist yn hytrach fyned i Dŷ Galar; tydi a ddiengaist rhag ffordd Perygl a ffordd Dystryw, ac a anturiaist yn galonog i ddringo y ffordd arw anhyfryd sydd yn myned i fynu i Fryn Anhawsdra; ti a gefaist y ffafr o fyned i babell Eglurwr-daioni, ac a welaist yno lawer o bethau gogoneddus, a phethau mwy gogoneddus yn mhabell Dwys-fyfyrdod: ac yn awr yr wyf fi wedi fy anfon i gyd-lawenhâu â thi am dy holl lwyddiant daionus, ac i fynegi i ti fod dy daith bellach ar ddarfod; ti a ymdrechaist o hyd ymdrech dda, tydi a gedwaist dy ffydd, ac yn awr yr wyt yn gorphen dy yrfa, ac y mae coron cyfiawnder wedi ei rhoddi i gadw i ti: tyred, a thro i mewn gyda mi, ac mi a ddangosaf i ti dy wobr, yr hwn sydd wedi ei sicrhâu i ti, canys ni raid i ti ymdeithio, na llafurio, na phoeni dy hun byth mwyach, eithr ti a gei gymmeryd dy orphwysfa gyda mi.

Yna Cydwybod-dyner a synnodd yn fawr oblegid geiriau y gwr, gan ryfeddu pa fodd y gallasai efe ddywedyd mor gywir yr hyn ag oedd efe wedi ei wneuthur, a pha leoedd yr oedd efe wedi bod, ac a ddywedodd ynddo ei hun, Sicr y mae y gwr hwn yn brophwyd, neu yn fwy na phrophwyd. Yna efe a ddechreuodd ymchwyddo i fynu yn ei feddwl, wrth ystyried pa fodd y galwasai y gwr hwn ef, yr hawddgaraf yn mhlith meibion, ac anwylyd Brenin y nefoedd. Yn ddiddadl, ebe fe yn ei galon, "Y mae fy llinynau wedi syrthio mewn lleoedd hyfryd, ac y mae i mi etifeddiaeth deg." Felly efe a ganlynodd y gwr, ac yntef a'i harweiniodd ef o'r neilldu, allan o'r ffordd ag oedd yn myned i fynu yn uniawn i'r bryn, ac a'i dug ef tuag at gastell anferthol o faintioli, pen yr hwn oedd uwch na phen y bryn ei hunan: eithr cyn iddynt ddyfod at y castell, megys ag yr oedd yn myned yn mlaen, fe ddygwyddodd i Gydwybod-dyner daflu ei olwg ar gefn y gwr, ac efe a welai yno wedi ei ysgrifenu, 'Balchder-ysbrydol:' yna efe a gofiodd y cyngor a gawsai efe gan Eglurwr-daioni, yn mhlith llawer o hyfforddiadau iachus, pa fodd y

rhybuddiodd efe ef i ochelyd Balchder-ysprydol, yr hwn a gyfarfyddai âg ef yn sicr yn ei ffordd, ac y byddai iddo ymegnïo i'w hudo ef i gastell mawr o feddyliau uchel; ac yn ol iddo ei ddwyn ef i'r pen uchaf, y byddai iddo ei daflu ef i lawr dibyn-dobyn, nes ei dorri yn ddarnau gwahanol. Yna Cydwybod-dyner yn ddiattreg a redodd ymaith cyn gynted ag y gallai, ac a ddychwelodd yn ol drachefn i'r ffordd, ac a gerddodd yn mlaen ar hyd-ddi, gan lawenhâu iddo ddiangc rhag Balchder-ysbrydol, yr hwn a geisiodd, trwy ei araith wenieithus a'i ymadroddion twyllodrus, ei ddenu ef allan o'r ffordd, a'i ddwyn i golledigaeth a dinystr buan.[q]

Yn awr mi a edrychais ar ol Cydwybod-dyner, ac mi a'i gwelwn ef yn myned rhagddo yn ei flaen, nes daeth o'r diwedd i fynu i ben y bryn, i'r lle yr oedd esgynfa fechan, a gyfodasid yno i'r dyben i gospi y sawl ag oedd yn ofni myned yn mlaen yn mhellach yn ei bererindod, lle yr oedd Ofnog a Gwan-gred yn crogi, wedi serio eu tafodau â haiarn poeth, am iddynt geisio rhwystro Cristion yn ei daith, megys ag yr oedd wedi ei ysgrifenu ar ddalenau o bres, y rhai oedd yn crogi o'u blaen.

Yn awr mi a welwn yn fy mreuddwyd, megys yr oedd Cydwybod-dyner yn myned yn mlaen heibio y pethau hyn, wele hen wr oedranus yn dyfod i fynu i gyfarfod âg ef ar y ffordd, enw yr hwn oedd Sicrwydd-cnawdol, ac fe siaradodd â Chydwybod-dyner fel hyn: Gyfaill, o ba le y daethost, ac i ba le yr wyt ti yn myned?

YMDDIDDAN RHWNG CYDWYBOD-DYNER A SICRWYDD-CNAWDOL.

Cydwybod-dyner a'i hattebodd ef fel hyn: Syr, myfi a ddaethum o Ddyffryn Dystryw, ac yr ydwyf yn ymdeithio tuag at y Wlad Nefol.

SICRWYDD-CNAWDOL. Yn wir chwi a gymmerasoch daith hir a pheryglus, ac a aethoch trwy lawer o beryglon: eithr yn awr mae y rhan waethaf o'ch ffordd wedi darfod, ac y mae yr hyn sydd yn ol o honi yn fwy hyfryd, diogel, ac esmwyth: ac yn awr y mae yn gymhwys i chwi ymorphwys ychydig wedi eich holl boen a'ch lludded, a'r holl ffordd flinderus a gerddasoch er pan y daethoch allan o wlad eich genedigaeth, yn enwedig yn awr, pan yr ydych wedi bod yn dringo llwybr serth sydd yn dyfod i fynu i Fryn Anhawsdra, yr hwn a ddringasoch chwi yn awr; gan hynny, rhaid eich bod wedi diffygio a blino bellach agos allan o anadl: am hynny, os gwelwch chwi fod yn dda gymmeryd eich lletty gyda mi fe fydd i chwi gyflawn roesaw, ac hefyd chwi a fyddwch yn fwy cadarn a nerthol i fyned rhagoch yn eich taith; ac nid yw fy nhŷ i yn sefyll yn mhell oddi yma, ac os derbyniwch chwi fy nghynghor i, mi a ddeuaf fy hun i'ch arwain i'r fan yr wyf yn preswylio.

CYDWYBOD-DYNER. Syr, mae yn rhaid i mi gyfaddef fod eich mwyneidd-dra

[q] Y mae Cristion ieuangc yn rhy dueddol i feithrin meddyliau uchel am dano ei hun, dan anghofio ei gyflwr pechadurus gynt, ac mai trwy ras a thrugaredd Duw y mae efe yn sefyll, canys pe gadewid ef gan Dduw, y bywyd dwyfol a ddiflanai o'r enaid. Er fod yr haiarn yn frwd ac yn goch, tra arhoso yn y tân, ni fydd felly yn hir os tynnir ef o'r tân. Yr hwn sydd yn tybied ei fod yn sefyll, gwylied rhag iddo syrthio.

yn dra boddlawn gennyf fi, ac yn fuddiol i mi hefyd y pryd hwn, canys yn wir yr wyf wedi fy maeddu yn fawr wrth ymdeithio; ac heblaw hynny, y mae hefyd yr awr hon yn hwyrhâu; gan hynny, os gwelwch chwi fod yn dda, mi a ddeuaf gyda chwi.

Felly hwy a aethant ymaith ynghyd, a'r hen wr a'i dug ef lan o'r brif-ffordd ar y llaw aswy, trwy heol fechan, yr hon a'u harweiniodd hwynt i le ardderchog, a'i byrth yn llydain ac yn agored: felly hwy a aethant i mewn i'r cyntedd cyntaf, yr hwn oedd oll yn wyrddlas hyfryd, ac yn llawn blodau, ac wedi ei amgylchu â gwasgodwydd hyfryd, ac adeilad cywreinwaith celfyddgar; ac yr oedd yn nghanol y llys ffynnon o ddwfr gloyw fel grisial; ac yr oedd yno hefyd goedydd a llwyni hardd iawn wedi eu plannu oddi amgylch y llys, ar y rhai yr oedd peth dirifedi o adar o bob math, yn dringo, yn hedfan, ac yn canu peroriaeth hoff a difyr iawn. Yn awr, fel yr oeddynt yn rhodio ynghyd trwy y llys yn y blaen, hwy a gyfarfuant â hen wraig fonheddig, ynghyd â dwy langces lân odiaeth, ar y rhai yr oedd hi yn pwyso: enw y bendefiges oedd Anghymmedroldeb, a hi ydoedd wraig Mr. Sicrwydd-cnawdol: a hwynt-hwy eill dau oedd wedi adeiladu y tŷ hwn, er mwyn twyllo y pererinion, a'u denu allan o'r ffordd sydd yn myned tua'r wlad nefol; megys yr oedd enw y tŷ, sef Prydferth, i arwyddo ei fod wedi ei adeiladu i'r dyben o ddyddanu, a chysuro, a chyfarwyddo y pererinion yn eu taith. Eithr nid oedd Cydwybod-dyner, druan gwr, yn gwybod dim am yr holl dwyll yma: er iddo yn ddiweddar ddiangc rhag cael ei faglu gan Falchder-ysbrydol, etto, yn awr a ddaliwyd yn y rhwyd gan Sicrwydd-cnawdol.

Y BENDEFIGES ANGHYMMEDROLDEB.

Yn awr mi a welwn yn fy mreuddwyd, fod y bendefiges Anghymmedroldeb yn gwahodd Cydwybod-dyner i'w thŷ yn roesawgar; felly yr oedd y ddwy langces ieuangc ybord an i weini iddi, canys ei merched hi oedddynt; enw un oedd Chwantau, ac enw y llall oedd Anghofus. Felly hwy a ddeisyfasant arno i nesâu tuag at y tŷ; yna hwy a rodiasant ynghyd trwy y cyntedd hwnnw, sef y llys cyntaf, ac a ddaethant i mewn i'r ail lys; ac yno fe ddymunodd y bendefiges arnynt oll i eistedd i lawr tra byddai iddi hi gyrhaedd rhai o'r grawnsypiau ag oedd yn crogi i lawr oddiwrth y winwydden, yr hon oedd yn gorchuddio y fan lle yr oeddynt yn eistedd; felly hi a'u tynnodd, ac a'u sypiodd hwynt i'r cwppan aur oedd ganddi yn ei llaw; yna hi a'i profodd, wedi hynny hi a'i rhoddodd ef i Gydwybod-dyner, gan ei gymhell ef i'w yfed i gyd; ac yntef a wnaeth felly, ac yn y man efe a feddwodd, ac a ddechreuodd fyned i chwareu â Miss Chwantau, tra yr ydoedd y bendefiges Anghymmedroldeb a'i gwr Sicrwydd-cnawdol yn edrych, heb eu hanfoddloni yn y mesur lleiaf, eithr yn hytrach cefnogasant ef yn mhellach, trwy roddi iddo lawn gwppaned arall o sudd y grawnwin, yr hwn a weithiodd mor gadarn yn ei ben gwan ef, nes iddo gwympo i chwareu dro gyda Miss Chwantau, ar ben twmpath hardd o flodau peraidd, ac yn y diwedd iddo syrthio i gysgu yn mreichiau Miss Anghofus. Yna hwy a barasant ei gludo ef i'r tŷ rhwng dau o'u gweision, ac a'i rhoddasant ef i orwedd mewn gwely esmwyth, yn y 'stafell oreu yn yr

holl dŷ, gan ymroddi, os oedd bosibl, ei berswadio trwy bob moddion, i drigo gyda hwy, ac i beidio myned yn mlaen yn mhellach yn ei daith; ac i'r dyben hwn hwy a barottoisant gynghanedd rhagorol o gerddoriaeth melys, yr hwn a roddasant mewn sefyllfa o'r tu allan i'r man lle yr oedd efe yn gorwedd, ac yr oeddynt i'w clywed mor amlwg wrth ochr ei wely ef, a phe buasent yn y fan honno; etto o'r tu allan yr oeddynt er mwyn bod yn anweledig iddo ef os dygwyddai iddo ddeffroi o'i gwsg: a gorchymynwyd iddynt chwareu yn felys ar y nwydau gynghanedd flasus, ar y dôn oreu ag a fedrent, ac felly o hyd i byncio yn felys, tra byddai efe yn cysgu; ac hefyd os byddai iddo ddeffroi, rhaid oedd iddynt barhâu i chwareu ar eu hoffer cerddoriaeth, oblegid yr oedd natur y grawnwin hwnnw, sudd yr hwn a yfodd Cydwybod-dyner o hono, yn dueddol iawn i beri i ddynion gysgu lawer o flynyddoedd, ac y mae llawer o honynt yn cysgu holl ddyddiau eu bywyd, ac ychydig iawn sydd yn gallu dihuno byth, yn enwedig i ddeffroi yn fuan, wedi iddynt gysgu: ac yr oedd natur y gerddoriaeth yn peri i ddynion oedd yn cysgu freuddwydio llawer, yn felys, ac yn hyfryd, a breuddwydio anghyfnewidiol hefyd o'r fath ag ydoedd: a'r rhai ag oedd yn meirw yn eu cwsg oeddynt yn eu cludo i ryw le o'r neilldu, o ba le yr oeddynt yn eu bwrw i lawr i'r llyn o ddystryw, i'r hwn yr oedd y ffordd sydd ar y llaw aswy wrth odre Bryn Anhawsdra yn arwain, ac yma yr oedd hi yn diweddu. Ac y mae hwn yn llyn llosgedig, ac y mae yn llosgi o dân a brwmstan, oddiar ddechreu y byd hyd y dydd hwn, ac felly y bydd i barhâu byth bythoedd. Ac yn awr, dyma yw diwedd y trueiniaid tlodion hyn, y rhai sydd yn cael eu hudo i dŷ Mr. Sicrwydd-cnawdol, ac yn yfed gwîn Mrs. Anghymmedroldeb, ac yn gwneuthur ynfydrwydd gyda Miss Chwantau, nes o'r diwedd iddynt syrthio i gysgu yn mreichiau Miss Anghofus; a phwy bynnag a fydd marw yn eu cwsg, sydd yn cael eu bwrw i'r llyn sydd yn llosgi o dân a brwmstan, yr hon yw yr ail farwolaeth.

Yn awr, wedi i Gydwybod-dyner gysgu dro hir, trwy gael ei lwlian gan swn peraidd y gynghanedd, er hynny ni ddaliasant hwy ddim sylw ar y ffon fagl gref oedd yn ei law ef, ac ni wyddent hwy ddim am y dirgel rinweddau rhyfeddol oedd ynddi, am hynny ni chymmerasant hwy ddim o honi oddi wrtho: a thrwy y moddion hyn efe a ddeffrodd o'r diwedd o'i gwsg, ac a gyfododd i fynu, gan ryfeddu yn fawr o ba le yr oedd y fath gynghanedd peraidd yn dyfod, canys yr oedd ei ffon yn ei law yr holl amser y bu ef yn cysgu, ac fel yr oedd efe yn troi yn ei gwsg, fe ddygwyddodd daro ei hun yn ei lygad â'r ffon, yr hon a'i dihunodd ef. Yna efe a ddechreuodd ryfeddu, megys ag y dywedais, yn mha le yr oedd efe, a pha fodd y daethai ef yno, a pha beth oedd y gerddoriaeth oedd ef yn ei glywed. O'r diwedd efe a alwodd i'w gof, y modd y denodd yr hen wr ef i'w dŷ mor gariadus, a pha fodd y rhoddasai y bendefiges wîn iddo i'w yfed; a pha fodd y buasai yntef yn chwareu gyda Miss Chwantau; ond yr oedd yn methu galw i'w gof pa fodd y daethai i'r gwely hwnnw; eithr efe a farnodd o'r diwedd iddo feddwi, ac iddo gael ei ddwyn yno heb wybod iddo ei hun: ac wrth feddwl y pethau hyn, ynghyd â chy-

nghanedd hyfryd y gerddoriaeth, yr oedd efe yn barod, agos, a syrthio i gysgu drachefn; eithr y cyfryw amser yn ddisymmwth, fe ddaeth y fath glap o daran ddychrynllyd, swn yr hon, agos, oedd yn ddigon i beri i'r meirw gyfodi o'u beddau. Yna ei galon a grynodd o'i fewn, a'r cerddorion a ddystawsant; yntef a gyfododd o'i wely, ac a edrychodd allan trwy y ffenestr, ac a welai fod yr awyr yn bygddu ac yn dywyll iawn, heb fawr o oleuni, ond yn unig llewyrch y mellt o flaen y taranau, ac yr oedd yn edrych mor ofnadwy a dychrynllyd a phe buasai yr holl fyd yn cael ei ddystrywio. Yna Cydwybod-dyner, druan gwr, a wylodd yn chwerw-dost, wrth ganfod fod y fath dymhestl arswydus yn crogi uwch ei ben, ac yntef mewn lle dyeithr, ac heb fod etto hanner y ffordd i ben ei daith, yr hyn a'i gwnaeth ef yn ofidus ac yn brudd iawn, ac, yn chwerwder ei enaid, efe a dorrodd allan i gwynfan yn alarus wrtho ei hun fel hyn:—

"Ys truan gwael wyf fi! pa beth a ddaw o honof? pa fodd yr ymguddiaf rhag angerdd llid digofaint yr Arglwydd? neu pa fodd y dihangaf rhag ei anfoddlonrwydd pwysig ef? O! y fath ddrwg mawr a wnaethum i wrth ddyfod i mewn i'r lle hwn, a threulio fy amser gwerthfawr wrth gysgu yn ddiofal; a hyn yw yr achos fod yr Hollalluog wedi digio, a tharanau yn swnio yn nghlustiau fy enaid. Dychryn, ac arswyd, a chywilydd sydd yn trywanu trwy fy nghydwybod fel mellt: ni wn i pa beth i wneuthur, nac i ba le y troaf fy wyneb i edrych am gysur."[r]

Yna efe a edrychodd am ei ffon fagl, ac nis cafodd hi ar y cyntaf, yr hyn a chwanegodd ei ofid a'i alar yn fawr iawn drachefn; eithr o'r diwedd efe a feddyliodd y gallasai fod yn y fan lle y bu ef yn cysgu, felly efe a redodd yno ac a'i cafodd, yr hyn oedd yn gysur nid bychan, ac yn llawenydd iddo; felly efe a ymbarottodd i fyned i lawr y grisiau, eithr yn sydyn, fel yr oedd efe yn myned heibio i'r ffenestr, daeth taran drachefn, yr hon a wnaeth i'r holl dŷ grynu; ac ar ol y daran efe a glywai lais dystaw main yn sisial yn ei glustiau, gan ddywedyd wrtho ef, 'Dos allan o'r lle hwn ar frys, a gochel y wraig sydd a'r cwppan aur yn ei llaw, a gochel bawb sydd yn perthynu iddi hi; canys ffordd i angeu yw ei ffordd hi, a'i cherddediad a sang yn uffern: na phecha mwyach, rhag dygwydd i ti beth a fyddo gwaeth.' Hyn a barodd i Gydwybod-dyner, druan gwr, i grynu o newydd, a'i liniau a ddechreuasant guro y naill yn erbyn y llall gan ddychryn: yna efe a frysiodd i fyned lawr y grisiau, ar ba amser y dechreuodd y cerddorion ganu yn felys iawn eilwaith, ac yr ydoedd mor beraidd, fel yr oedd braidd yn anmhossibl iddo ymadael âg ef: eithr efe a ystyriodd drachefn am y mellt, a'r taranau, a'r llais a glywsai,

[r] Yr oedd yn bryd iddo erbyn hyn ddeffroi i ystyriaeth o'i gwymp truenus. Mae y sicrwydd sydd yn tarddu oddiwrth ffydd fywiol, yn rhagori llawer ar sicrwydd cnawdol. Mae y cyntaf a'i sail ar addewidion Duw, ac yn dwyn yr enaid i rodio gyda Duw, gan wylio a gweddïo beunydd; eithr llais sicrwydd cnawdol yw, 'Nid oes achos ofni weithian, mae y gwaith wedi ei ddechreu, ac y mae Duw yn rhwym o'i ddwyn i ben, anmhossibl i mi weithian byth golli ei hedd a'i ffafr.' Cofiwn mai peryglus iawn ydyw ymddiried mewn hen brofiadau, dylem edrych beunydd at ein buchedd a'n hymarweddiad, a bod ar ein gocheliad yn ddibaid, rhag meithrin ysbryd o esmwythder, a rhoi lle i'r cnawd.

ac am hynny efe a ymroddodd i fyned ymaith; ond fel ag yr oedd efe yn myned trwy y gegin, efe a welai fwrdd wedi ei arlwyo â phob math o ddanteithion, ac yna efe a glywai wyr ieuaingc a llangcesau yn canu â llais peraidd iawn, i'w dyb ef, y melysaf yn y byd; a hyn a barodd iddo aros ychydig drachefn, i glustfeinio ar eu cerddoriaeth hwynt: yna y daeth llangc mwyn atto ef, enw yr hwn oedd Mr. Glythineb, ac a ddymunodd arno eistedd i lawr, a bwytta pa bethau bynnag ag oedd efe yn ei garu oreu; canys, ebe fe, y mae yr holl ymborth hwn yr ydych chwi yn ei weled o flaen eich llygaid, wedi ei barottoi i'r dyben o lonni y pererinion; ac y mae pawb ag sydd yn myned ar bererindod i'r Wlad Nefol yn galw yma, ac yn cael cyfran o'r danteithion hyn; canys er mwyn dyddanu a difyru y pererinion yr adeiladwyd y lle hardd hwn. Yn awr, y gwŷr ieuaingc a'r llangcesau, tra yr oedd Mr. Glythineb yn ymddiddan âg ef, oeddynt hwythau yn canu ar eu hoffer cerdd gynghanedd hyfryd iawn, er mwyn ei hudo ef; a chyhyd ag yr wyf yn cofio, dyma swm eu cân:—

Fe all y pererinion druain, fwytta ac yfed yma'n llawen,
Ac hefyd gysgu yma'n ddifrad, tra mae Duw'r nefoedd yn eu gwarchad:
Eistedd, eistedd, enaid egwan, cymmer bleser i ti dy hunan.
Mewn pleser natur nid oes niwed, ond ei gym'ryd mewn gweddoldeb.
Fe rodd ein Brenin tirion i ni, fod i'n nwydau gael eu porthi;
Pwy gan hynny, ond dyn ynfyd, a'i gwrthodai yn ei fywyd?

Yn wir yr oedd hyn yn ddigon peri i gryfach gwr nac oedd Cydwybod-dyner i betruso, ac nis gallasai yntef chwaith orchfygu y fath brofedigaeth gadarn ag oedd hon, ond trwy goffadwriaeth o'r taranau a'r llais a glybu efe; hefyd efe a alwodd i'w gof ymadrodd ein Harglwydd Iesu, yr hwn sydd yn dywedyd, "Fy mwyd i, a'm diod hefyd, yw gwneuthur ewyllys fy Nhad, yr hwn sydd yn y nefoedd." Felly efe a drodd ymaith oddiwrth Mr. Glythineb, ac a aeth allan o'r gegin, heb atteb un gair iddo: yntau a'i canlynodd ef, gan ddymuno arno eistedd i lawr, ac i wneuthur yn llawen o'r hyn ag oedd wedi ei barottoi iddo ef. Yn awr pan oedd ef wrth ddrws y gegin, yr hwn sydd yn myned allan i'r cyntedd nesaf i mewn, yr hen wr Sicrwydd-cnawdol a gyfarfu âg ef, ac a'i cymmerodd erbyn ei law, ac a ofynodd i ba le yr oedd efe yn myned gyda'r fath frys.

CYD-DY. Cydwybod-dyner a ddywedodd wrtho, Yr ydwyf yn myned rhagof ar fy nhaith.

SICR-CNA. Felly: aroswch ychydig fel y galloch fwytta yn gyntaf, canys y mae i chwi lawer o ffordd i gerdded cyn y caffoch un tŷ arall ar eich ffordd: gan hynny y mae yn angenrheidiol i chwi wledda cyn yr eloch allan, rhag i'ch ysbryd lewygu o eisiau ymborth ar y ffordd.

CYD-DY. Y mae yn 'sgrifenedig, Mai nid ar fara yn unig y bydd byw dyn, ond ar bob gair sydd yn dyfod allan o enau Duw.

SICR.-CNA. Ië, nid yw hyn yn perthyn dim i'ch amgylchiad chwi; canys nid oes dim lle i chwi ddysgwyl cael eich porthi trwy wyrthiau, ac y mae bwyd a diod wedi eu trefnu i'r dyben o gynnal ein corph breuol ni, wrth fyned trwy y byd; ac am hynny y mae yn rhyw fanylrwydd ffol i ni ymattal oddiwrth fwytta, pan y byddom mewn angenrheidrwydd o fwytta.

CYD.-DY. Er hynny nid oes arnaf ddim angenrheidrwydd yn awr i fwytta nac yfed chwaith; canys y mae yn rhy foreu etto i fwytta nac yfed, oblegid yr wyf yn cofio i mi ddarllen mewn rhyw lyfr fel hyn, "Gwae di y wlad sydd a'th dywysogion yn bwytta yn foreu; ond gwŷn dy fyd di y wlad sydd a'th dywysogion yn bwytta eu bwyd yn ei bryd, er cryfder, nid er meddwdod a gloddest."

SICR.-CNA. Ië, nid yw yr ymadrodd hwn yn perthyn dim oll i chwi, canys nid tywysog na brenin ydych chwi, ond pererin tlawd: eithr wrth dywysogion yn unig y mae hyn i gyd yn cael ei lefaru.

CYD.-DY. Ië, brenin ydwyf fi, ac yr ydwyf yn myned i gymmeryd meddiant o'm coron a'm teyrnas, canys fe'n gwnaethpwyd ni yn frenhinoedd ac yn offeiriaid i Dduw, ac ni a deyrnaswn gydag ef yn oes oesoedd; ac am hynny na cheisiwch fy annog i yn mhellach, na'm rhwystro yn fy nhaith, canys mi a af yn mlaen yn nerth yr Arglwydd fy Nuw.

SICR.-CNA. Wel, gan eich bod mor gyndyn ag na fynnwch wrando ar fy llais yn y pwngc hwn, er hynny yr wyf yn attolwg arnoch i yfed cyn yr eloch heibio i'r winwydden accw, lle y gwelwch y sypiau grawnwin yn crogi cyn llawned, ac yn addfed hefyd.

CYD.-DY. Na wnaf na bwytta nac yfed yn y lle hwn, canys yr ydwyf yn cofio pa fodd yr yfais i sudd y grawnwin dinystriol hwn, ac fel y darfu iddynt fy meddwi, ac yr aethum i chwareu ynfydrwydd gyda Miss Chwantau, ac hefyd cysgu yn ofer fy amser gwerthfawr, pan y dylaswn fod yn myned yn mlaen ar fy nhaith; ac yn wir yr wyf fi yn barod i gredu eich bod yn bwriadu drwg yn fy erbyn, trwy beri i mi yfed o honynt etto, ac onidê nis byddech yn gwasgu arnaf mor galed.

Erbyn hyn yr oeddynt wedi myned yn mlaen wrth ymddyddan â'u gilydd, nes iddynt ddyfod at ffynnon o ddwfr gloyw fel y grisial, ac yn awr yr oedd Miss Chwantau yn ymolchi yn y ffynnon: a phan welodd hi Cydwybod-dyner a'i thad yn dyfod allan i'r cyntedd dan ymddyddan, hi a redodd i fynu o'r ffynnon yn noeth fel ag yr oedd hi, ac a aeth atto, ac a'i cofleidiodd ef, gan ymhwedd arno i aros gyda hi ychydig yn mhellach: yn awr yr oedd yn ddygn brofedigaeth, ac nis gwyddai ef pa fodd i'w maeddu, canys yr oedd hi yn arferyd y fath ddyfais ddengar, gyda y fath ddichell hudoliaethus, nes ydoedd yn agos a'i orchfygu ef dros byth: eithr o'r diwedd efe a alwodd i'w gof drachefn y mellt a'r taranau dychrynllyd, ynghyd â'r llais a'u canlynodd: yna yn ddisymmwth efe a neidiodd allan o'i breichiau, ac a redodd ymaith ar ffrwst, cyn gynted byth ag y gallai, ac ni safodd hyd nes aeth o'r tu allan i'r porth pellaf oddiwrth y tŷ, ac a redodd drachefn, hyd nes y

daeth i'r brif-ffordd, sef i'r man lle y cyfarfu Sicrwydd-cnawdol âg ef ar y cyntaf: ac yna efe a aeth yn y blaen dan ganu fel hyn:[s]

Daeth f'enaid fel aderyn o rwyd adarwyr cas,
Diengais wedi'm dala, o'u rhwydau'n deg i ma's:
Er fod eu ffyrdd yn hyfryd, o'r diwedd rhoddant glwy',
Bydd gwae i'r rhai a ddelir yn eu croglathau hwy.
Mae rhwydau wedi eu lledu yn llydan ar bob llaw,
I hudo rhai anwadal sy'n crwydro yma a thraw:
Eu gwedd sydd deg oddiallan, o fewn yn ffiaidd mae,
Er hardded yw eu dechreu, eu diwedd hwy fydd gwae.

Erbyn hyn yr oedd efe wedi dyfod yn mlaen i olwg y fan lle yr oedd y llewod yn gorwedd, a phan y gwelodd y llewod ef, hwy ddechreuasant ruo yn erchyll: Y LLEWOD. yna efe a frawychodd trwy ei galon, ac a safodd yn synn dros ennyd o amser, heb wybod pa beth i wneuthur, ond yn y man efe a alwodd i'w gof drachefn yr hyn a welsai efe yn mhabell Eglurwr-daioni, pa fodd y bu rhai yn ymdrechu ynghanol peryglon mor hynod, ac o'r diwedd yn cael goruchafiaeth arnynt: ac yna efe a ymgryfhaodd o newydd, ac a aeth rhagddo yn ei flaen, gan fygwth ei ffon fagl ar y llewod, ac felly bu iddynt ddystewi, a gorwedd i lawr yn llonydd, tra y bu efe yn myned heibio; ac yntef a aeth ymlaen, ac a ddaeth i fynu at borth y tŷ, yr hwn a elwir Prydferth, yn mha le yr oedd y porthor yn sefyll i'w dderbyn ef: eithr yn gyntaf efe a ofynodd iddo, o ba le yr oedd efe yn dyfod, ac i ba le yr oedd efe yn myned.

CYD.-DY. Syr, myfi a ddaethum o Ddyffryn Dystryw, ac yr ydwyf yn myned tuag at y ddinas santaidd, neu y Jerusalem Newydd.

PORTHOR. Oni ddaethoch chwi i mewn trwy y porth cyfyng, yr hwn sydd yn mhen y ffordd yma, yr hon sydd yn arwain i'r bywyd?

CYD.-DY. Do, Syr, ac mi a gefais fy nghyfarwyddo gan un Ewyllysiwr-da, yr hwn sydd yn cadw y porth hwnnw, i alw yn nhŷ Dehonglwr.

PORTHOR. Dangoswch i mi eich llythyr tystiolaeth, fel y gallwyf ei roddi i un o'r morwynion sydd yma; ac os caiff ei boddloni yn y gwirionedd o honoch, hwy a'ch derbyniant i ymgeledd y tŷ, ac a ddangosant i chwi bob tiriondeb ag sydd yma i'r pererinion.

Yna Cydwybod-dyner a dynnodd allan ei lythyr tystiolaeth, ac a'i rhoddodd ef i Mr. Gwyliadwrus, canys felly y gelwid y porthor, ac yntef a ganodd gloch fechan, ac yn y

[s] Hwyrach y buasai yn well dywedyd llai am y maglau a osodwyd o flaen y pererin, trwy roddi gwrandawiad i Sicrwydd-cnawdol; canys y mae yspryd anllad yn barod i ymgysuro yn eu rhodiad anweddaidd, a holl annybendod eu bywyd, oherwydd gwendidau a llithriadau y saint. Eithr nid yw cysuron crefydd a duwioldeb yn perthyn i ni, pan fyddom wedi gwyro oddiar ffyrdd cyfiawnder. Pwy bynnag sydd wedi troi oddiwrth y ffordd uniawn, y mae mewn perygl o golli ei enaid, nes troi o hono yn ei ol i'r iawn lwybr.

man y daeth allan attynt forwyn, yr hon a elwid Synhwyrol; a'r porthor a fynegodd iddi am Cydwybod-dyner, ac o ba le y daeth, ac i ba le yr oedd efe yn myned, ac a roddes lythyr y Dehonglwr iddi hefyd i'w darllen; ac wedi iddi ei ddarllen, a sylwi ar y sêl oedd arno, hi a archodd iddo ddyfod i mewn; felly hi a'i dug ef i mewn i'r neuadd; yna y daeth Doethineb, Duwioldeb, a Chariad i'w gyfarfod ef, ac i'w roesawi ef i mewn i'r tŷ; dygasant hefyd iddo ef ychydig wîn a ffigys, fel y gallai lonni ei hun hyd nes y byddai ciniaw yn barod, canys yr oeddent hwy yn tybied ei fod ef yn ddiffygiol ac yn flinderus, ar ol bod yn dringo Bryn Anhawsdra, heb ddeall ei fod ef wedi bod dro hir yn gorphwys ac yn cysgu yn nhŷ Mr. Sicrwydd-cnawdol: eithr efe a adroddodd y cwbl o'i wirfodd wrthynt, fel y cyfarfu hen wr âg ef ychydig wedi iddo ddyfod heibio i'r esgynfa ar ben y bryn, a'r modd y tynnwyd ef i'w dŷ, adeilad gwych dros ben, yr hwn sydd yn sefyll ar y llaw aswy oedd ar y brif-ffordd: felly efe a adroddodd wrthynt hefyd yr hyn oll a ddygwyddodd iddo yn y lle hwnnw, a pha fodd y gorfu arno gymmeryd y traed o'r diwedd, a rhedeg ymaith ar ffrwst oddiwrth Miss Chwantau.

DUWIOLDEB YN HOLI CYDWYBOD-DYNER.

Yna Duwioldeb a ddeisyfodd gael gwybod ei enw; yntef a ddywedodd wrthi, Fy enw yw Cydwybod-dyner.

Wel, ebe hi, Cydwybod-dyner, chwi a ddiangosoch rhag un o'r peryglon mwyaf sydd ar y ffordd yma; canys yr hen wr a gyfarfu â chwi, ac a'ch hudodd i'w dŷ, a elwir Sicrwydd-cnawdol, a'i wraig yw yr arglwyddes Anghymmedroldeb, yr hon sydd â chwppan aur yn ei llaw, yn llawn o swyn-gyfaredd, â'r hwn y mae hi yn meddwi y sawl sydd yn yfed o hono.

CYD.-DY. Ië, ebe Cydwybod-dyner, yr wyf yn credu mai dyma yr arglwyddes a gyfarfu â mi wrth ddyfod trwy y cyntedd i mewn, ac a roddodd i mi i'w yfed sudd grawnwin mewn cwppan aur.

DUWIOLDEB. A welsoch chwi ei merched hi, sef Miss Chwantau a Miss Anghofus?

CYD.-DY. Nis gwn i beth oedd eu henwau, ebe fe, eithr mi a welais ddwy langces landeg iawn yn gweini i'r arglwyddes; a phan yr oeddwn i wedi fy ngorchfygu gan y gwîn, mi a aethum i chwareu gydag un o honynt, nes o'r diwedd i mi syrthio i gysgu yn mreichiau y llall.

DUWIOL. Felly yr oeddwn i yn tybied, canys felly y maent hwy yn arferol o hudo dynion i ddystryw tragywyddol, os unwaith y deuant o fewn gafael yn eu breichiau, yn enwedig os syrthiant i gysgu yno: ond attolwg pa fodd y daethoch chwi oddi wrthynt drachefn? canys y mae ganddynt lawer o swyn melys, a llawer dyfais ddichellgar, er mwyn attal y sawl a ddel o'r tu fewn i'w drysau hwy unwaith rhag myned ymaith, ac nid oes un o ddeg yn diangc o'u croglathau hwy heb ddyoddef peth colled.

CYD.-DY. O, ebe fe, mi a fum yn aros yn hir i ymddyddan ac yn pledio y matter â'r hen wr, nes oeddwn yn wir bron colli y dydd yn llwyr; ac fel yr oeddem yn ymbledio

â'n gilydd, ei ferch ef a ddaeth allan yn noeth lymun, ac a'm cofleidiodd, ac a ddywedodd y fath eiriau mwyaf gwenieithus ag a allasai hi ddychymygu, i'm hattal rhag myned ymaith; ac yn wir nid oedd ynof ddim grym i sefyll, nac i ymdrechu, na gorfod y fath brofedigaeth angerddol, eithr yn ddisymmwth mi a neidiais â'm holl nerth allan o'i breichiau, ac a redais ymaith mor gynted byth ag y medrwn.

DUWIOL. Yn hyn yr wyf yn canmol eich ymddygiad, o herwydd er y dywedpwyd, "Gwrthwynebwch ddiafol," mae hynny yn perthyn i brofedigaethau o fath arall, oblegid pan y byddo un yn cael ei demtio i drythyllwch, neu feddyliau anllad, nid oes dim amser yn bod i ymddadleu; eithr ymroi yn fuan i ffoi ymaith yw yr unig ffordd sicr o gael goruchafiaeth: y mae llawer yn sefyll brwydr yn erbyn adfyd, a chroesau, ac erledigaethau, a'r cyffelyb, eithr y mae hawddfyd a hyfrydwch yn fwy parod i oresgyn a gorchfygu y rhai sydd yn ymhyfrydu ynddo; yr hwn sydd yn cyffwrdd â phyg a ddifwynir, medd y gwr doeth; a phwy bynnag a ymgyfammodo â phrofedigaethau aflan sydd mewn perygl o syrthio: y mae yr enaid fel cŵyr, y mae yn caledu yn yr oerfel a'r tywydd garw rhewlyd, ond yn ngoleu yr haul a'i wres llwyddiannus, a nwydau melys gwresog, y mae yn meddalhâu, yn tyneru, ac yn barod i roddi fynu y maes; ac am hynny da y dywedodd un o'r hen dadau gynt, "Ffo oddiwrth chwantau ieuengctid, y rhai sydd yn rhyfela yn erbyn yr enaid:" nid da gwneuthur nac ymddyddan â hwy, na sefyll i'w gwynebu hwy, na'u gwrthwynebu hwy, eithr ffoi oddi wrthynt, eu gochelyd hwy megis pla, a rhedeg ymaith oddi wrthynt ar frys; y mae hyn wedi tyfu, o fesur ychydig ac ychydig, yn fai cyffredin yn yr oes hon, ac yn cael ei wneuthur a'i gyflawni yn aml mewn modd gwaradwyddus, sef yfed yn anghymmedrol: y mae dynion yn anturio i blith cwmpeini, gan dybied eu bod yn ddiogel, heb fod neb yn eu cymhell i yfed, a phan ddelont at eu cyfeillion, y maent yn meddwl na wna yfed ychydig ddim niwed yn y byd iddynt, heb ystyried hyn, fod ychydig yn eu calonogi hwy i anturio i gymmeryd mwy: pob gwydraid y maent yn ei ollwng i waered, sydd yn eu difeddiannu o'u bwriadau, a'u nerth i wrthsefyll y brofedigaeth; a phan y maent yn llawn wrth flâs y gwîn, nid ydynt yn petruso pa un a wnant ai yfed ychwaneg neu beidio, eithr rhyfygu i foddi eu synhwyrau, eu cof, eu deall, a'u holl resymau, ac n eu gosod mewn perygl o'u halogi gan ormod rhysedd, ac ynfydrwydd, a ffolineb, ac yn myned yn anwyliadwrus ar eu meddyliau, trwy ollwng i mewn ffrwd o nwydau llygredig, a thrwy eu gwaith yn yfed yn anghymmedrol. Fel hyn, bob yn ychydig ac ychydig, y mae yr eneidiau truain yn dyfod o'r diwedd i ddyoddef llongddrylliad o'u ffydd. Mewn gwirionedd, yn y fath achosion a hyn, yr unig feddyginiaeth yw ffoi ar y cyntaf oddiwrth yr achlysur lleiaf o brofedigaeth, ac attal eu mynediad yn yr enaid, a chadw gwyliadwriaeth fanwl ar y synhwyrau, a mygu bwriadau drwg yn eu hymddangosiad lleiaf: y mae y dyn yr hwn nid yw yn hoffi neu yn serchu y fath gyfeillion difyr llawen, ac etto yn eu cadw, yn rhedeg ar antur i golli ei iachawdwriaeth, trwy eu canlyn hwy, er mwyn, fe allai, eu boddhâu: ond y mae yn llawer gwell i ddyn gael ei

gyfrif yn angharedig tuag at ereill, na bod felly mewn gwirionedd tuag atto eu hun, trwy ddinystrio ei hunan er mwyn boddhâu ei gymdeithion.[1]

CARIAD. Fel hyn y mae gyda rhai dynion, y rhai sydd a'u natur yn hynaws, yn gariadus, ac yn fwynaidd, ac hefyd yn feddal ac yn llaith; y maent yn cydsynio yn fynych â chymdeithion drwg, drwy feddalwch a rhywiogrwydd eu natur eu hunain, yn fwy na thrwy un tuedd sydd ynddynt i loddesta; nagê, pryd y maent heb eu gorchfygu gan wîn, nis gallant gyd-ymddwyn â'r fath gyfeillach afresymol a hyn. Y mae hyn yn wendid mawr; er hynny y maent yn medru esgusodi peth arnynt eu hunain, oblegid meddalwch eu tymherau oddiwrth ba le y mae hyn yn deilliaw: etto er hyn i gyd y mae yn beryglus iawn, ac am hynny ni ddylid rhoddi esgusodion drosto, i'w guddio yn y mesur lleiaf, canys, o wneuthur felly, ni a droem yn ddadleuwyr dros ddrygioni, yn erbyn daioni.

SYNWYROL. Os gwelwch chwi fod yn dda, gadewch i ni roi ein hymddiddan heibio yn bresennol, a myned i giniaw, gan ei fod yn awr yn barod, canys y mae y gloch wedi canu. Felly hwy a gyfodasant oll, ac a aethant i'r bwyd-dŷ, neu ystafell y gwîn, lle yr oedd ychwaneg o law-forwynion o'r un gyfeillach, yn dysgwyl am eu dyfodiad hwy yno, a bu iddynt oll roesawu Cydwybod-dyner i mewn, a phob un o honynt a'i cyfarchodd ef gyda hawddgarwch neillduol: yna hwy a eisteddasant wrth y bwrdd, mewn trefn ddichlin a rhagorol, ac mewn dystawrwydd; ac wedi iddynt ymbil am fendith ar eu hymborth, un o'r llaw-forwynion, enw yr hon oedd Cymmedroldeb, a dorrodd ymborth i'r lleill, canys hi oedd y goges; ac un arall, enw yr hon oedd Gweddeidd-dra, oedd yn gwasanaethu y bwrdd; nid oedd yno ddim chwerthiniad ynfyd, na dim niweidiol, na chellwair dychymygol i'w glywed gan neb, ond gwyliadwriaeth ddi-ymffrost oedd yn coroni y gyfeillach. Yr oedd ganddynt gyflawnder o bob peth, heb loddesta; digonedd heb afradloni; cymmedroldeb a syberwyd oedd mewn golwg ar eu dysgleidiau hwynt oll: nid oeddynt yn maethu y cnawd, er mwyn porthi eu chwantau, nac mewn bri i ddigoni eu blys; a hwy a gyfodasant oddiwrth y bwrdd yn brydferth, wedi llonni eu calonau â lluniaeth ac â llawenydd, ac a ddychwelasant y clod i'r anrhydeddus Roddwr o bob rhodd ddaionus, Creawdwr a Cheidwad holl ddynolryw, am roddi rhinwedd yn ei greaduriaid i'w llonni hwy mor ddaionus.

Yna un o'r llaw-forwynion, enw yr hon oedd Iechyd, a osododd ger bron y cymdeithion fod yn gymhwys ac yn fuddiol iddynt rodio yn y gerddi wedi ciniaw, a chyttuno â hi a wnaethant oll yn fuan; a Doethineb, Synwyrol, Duwioldeb, Cariad, a Chymmedroldeb, a gymmerasant Cydwybod-dyner gyda hwynt i ben y bryn bychan, o ba le yr oeddent yn cael golygiadau hyfryd ar y wlad oddiamgylch ogylch, ac yno hwy a eisteddasant i lawr dan gysgod sycamorwydden frigog hardd iawn, ac yna hwy a ddechreuasant ymddyddan drachefn; a Chydwybod-dyner a ddeisyfodd gael gwybod yr achos o'u bywioliaeth hwy

[1] Mae yma ddywediadau a chynghorion euraidd, yn deilwng o ystyriaeth ddwys pob crefyddwr; ac y mae rhai yn dwyn gwaradwydd mawr ar achos Duw, o eisiau ffrwyno eu nwydau, ac ymwadu â'u hunain.

fel hyn gyda eu gilydd mewn cyd-gyfeillach, a chael gwybod hefyd ddull a threfn eu bywyd; i'r hyn yr attebodd Doethineb fel hyn:—

DOETH. Pan oeddem ni gartref yn ein ieuengctid, yn byw gyda ein cyfeillion, yr oeddym yn cael ein gosod mewn perygl bob dydd, mewn gwagedd ac ynfydrwydd fwy na mwy, ac yn cael ein cludo ymaith gan ffrwd o arferion cnawdol; ond er hynny yr oeddem yn cael ein tueddu at grefydd er yn blant bychain: ac yn raddol, fel yr oeddem yn cynnyddu i fynu, ni a ddechreuasom fod yn glaf oblegid ein hymddygiadau cnawdol, a dibrisio gwagedd ac ynfydrwydd y byd, a dymuno cael lle, fel y gallem fod yn rhydd oddi wrthynt, ac y gallem wasanaethu Duw ddydd a nos mewn gwir sancteiddrwydd a phurdeb bywyd. Felly wedi llawer o ymholi a dyfal chwilio, o'r diwedd fe fynegwyd i ni am ryw wraig santaidd, enw yr hon oedd Crefydd, yr hon a adeiladodd dŷ yn y fan yma, a'i bod hi o gymmeriad mawr gyda Brenin y wlad nefol, a'i bod yn caniattâu i amryw o lawforwynion i ymgynnull atti, y rhai a fyddai yn ewyllysgar i ymwrthod â'r byd, ac i fyw yn y fath sefyllfa hunan-ymwadol gyda hi, gan ganiattâu iddynt amryw freintiau neillduol; yn mha le y byddent byth yn rhydd oddiwrth amryw ardreth, toll, a gwrogaeth, ynghyd â phethau ereill oeddent yn ddarostyngedig i'w talu, ar y cyfrif iddynt fod yn ffyddlawn i wneuthur eu goreu i ystyried a sylwi ar y fath gyfreithiau a deddfau ag oedd y wraig dduwiol yma, sef Crefydd, yn eu hordeinio iddynt, a rhaid iddynt fyw mewn gwir ufudddod i'w gorchymynion hi holl ddyddiau eu bywyd. Wedi clywed hyn, yr oeddem ni yn y fan yn ennyn mewn dymuniad gwresog i gael gweled y wraig, ac os oedd yn bossibl, i ddyfod atti, a byw gyda hi: (yr ydwyf fi yn dywedyd dros y lleill i gyd, canys mi a glywais am y lleill o'm cyfeillion fod ynddynt hwy yr un tueddiadau ag oedd ynof finnau). Felly nid ymgynghorasom yn mhellach â chig a gwaed, eithr yn fuan nyni a ymroisom i chwilio a dysgwyl am dani, ac a wnaethom ein bwriadau yn hysbys iddi, gan obeithio cael ffafr yn ei golwg, a chael derbyniad i'w chyfeillach; ac felly nyni a ddaethom i ymweled â hi, ac a glywsom ei llais nefolaidd hi, ac yna yr oeddem yn synnu mwy o lawer nac o'r blaen, ac yn flin ac yn annyoddefol o eisiau cael cennad i ddyfod i'r tŷ. O'r diwedd ein hewyllysiau a gyflawnwyd, a'n dymuniadau a gawsant eu caniattâu; ac felly dyma lle yr ydym yn byw hyd y dydd heddyw, ac ni chymmerem yr holl fyd am newid ein cyflwr, canys y mae y wraig hon o dymher addfwyn a mwynaidd, y mae ei holl gyfreithiau yn hyfrydwch, ac y mae ei hiau yn esmwyth, a'i baich yn ysgafn.

CARIAD. Nid ydym yn condemnio pawb o'r rhai nad ydynt yn byw yn yr un dull â ni, nac yn ol ein rheolau ni yn gywir; canys diddadl yw fod llawer yn byw yn nghanol y byd, etto er hynny yn cadw eu hunain yn ddifrycheulyd oddiwrth feiau y byd; eithr y maent mewn llawer mwy o beryglon nac yr ydym ni, ac yn anturio eu hunain yn ngwyneb mwy o brofedigaethau na nyni, canys un ysbryd ac un enaid, megys y mae yma, yw ein bywyd ni oll: sancteiddrwydd a phurdeb yw y cwbl ag yr ydym ni yn ei amcanu; ac yr ydym ni, yn ein cylchoedd, yn annog ac yn cadarnhâu y naill y llall i fyned ymlaen,

a chynnyddu yn yr unrhyw. Nid oes arnom ni ddim llawer o ofalon i'n haflonyddu, na gwag bleserau i'n llygru; nid oes yma ddim i fagu ynom awydd at anrhydedd a mawredd bydol, na chyfoeth lawer i'n gwneuthur i garu y byd. Ein holl awydd yw profi ein hunain a ydym yn ddifai ger bron Duw; a'r holl gyfoeth ydym yn chwennychu ydyw yr un nad yw yn diflanu yn dragywyddol, sef doniau a grasusau yr Yspryd Glân.

CYD.-DY. Yr ydwyf fi yn tybied fod gennych chwi gyfreithiau a rheolau neillduol, wrth ba rai yr ydych yn rhwymo eich hunain i gyd-ymffurfio â hwynt, ac fe fyddai yn dda gennyf i gael eu gwybod hwynt.

DUWIOL. Oes, y mae gennym ni gyfreithiau felly, a mi a'u gwnaf hwynt yn hysbys i chwi yn y dull mwyaf eglur ag y medraf.

1. Yr ydym ni yn rhwym i gyfodi bob boreu ar doriad y dydd, ac yna yr ydym yn cyttuno mewn gweddi a mawl i Dduw mawr y nefoedd, gan ddiolch iddo am y bendithion a dderbyniasom, ac ymbil ar fod ei ffafr a'i ymgeledd arnom rhagllaw.

2. Yna y mae pob un yn myned at eu gorchwylion gweddus, perthynol i'w galwad, hyd amser ymborth y boreu: ac felly drachefn ar hanner dydd, yr un modd.

3. Yr ydym yn rhwym i ymgeleddu yr holl bererinion y rhai sydd yn ymdeithio tua'r wlad nefol, a pheri iddynt ddangos eu tystiolaeth, neu roddi y fath gyfrif o honynt eu hunain, ag sydd weddus ac angenrheidiol ar y fath achlysur.

4. Yn yr hwyr, drachefn, yr ydym ni yn rhwymedig i gyd-uno mewn gweddi a mawl, megys ag yr ydym ar doriad y dydd.

5. Yr ydym yn rhwym i gadw ac amddiffyn arfdŷ y Brenin, ac i wisgo pawb o'r pererinion mewn arfogaeth, sef arfau profedig yn erbyn pob math o beryglon a drwg-ddamweiniau, pa beth bynnag a fyddo.

Y rhai hyn yw y pyngciau cyffredinol mwyaf pwysig o gyfreithiau ein cymdeithas ni: eithr heblaw hyn, y mae gennym ni amrywiol o reolau neillduol sydd lai eu pwys, ond y maent yn dda iawn, ac yn gwbl angenrheidiol eu bod gennym ni, ond y maent i gyd yn rhy faith eu hadrodd yn awr.[u]

SYNIADAU CYMMEDROLDEB.

CYMMEDROLDEB. Ië, ond yn unig rhoddwch gennad i mi i ddal ar yr ordinhâd o fwytta ac yfed mewn gweddeidd-dra, yr hyn yr ydym ni yn gofalu yn fanwl i'w gadw, dan gospedigaeth lem; a mi a feddyliais i chwi anghofio son am hynny yn awr.

DUWIOL. Gwir iawn; mewn gwirionedd mi a anghofiais grybwyll am dano, ac yr ydwyf yn llawen yn awr o'm hanghof, yn gymmaint a bod gennyf gyfleusdra yn awr i chwi ymddyddan yn fwy helaeth ar y pwngc hwn, canys yr ydych yn fwy cyfarwydd na

[u] Gellir meddwl ar y cyntaf, fod gan yr Awdwr yn ei olwg ryw gymdeithas neillduol o dduwiolion, yn byw yn wahân oddiwrth bawb ereill, yn ol dull a threfn y prif-oesoedd; eithr ni a allwn ddeall y cyfan am Eglwys Gristionogol dan iawn ddisgyblaeth, lle mae pob peth dan lywodraeth *duwioldeb, cariad, doethineb*, a'r holl rasusau a rhinweddau a berthynant i wir Gristionogrwydd.

myfi, ac wedi eich ordeinio yn neillduol i eglurhâu yr ordinhâd hon; gan hynny, attolwg, addysgwch y pererin ynddi.

CYM. Y mae yr ordinhâd neu y ddeddf hon o fwytta ac yfed mewn gweddeidd-dra i'w hystyried ar y cyfrifon hyn: am gwymp Adda, trwy fwytta o'r ffrwyth gwaharddedig. Y pechod cyntaf a wnaethpwyd yn y byd gan ddynolryw a ddaeth trwy fwytta. Yn awr nid oes dim sicrwydd pa un ai oddiwrth ryw sugnglwyf ag oedd yn y ffrwyth a fwyttaodd Adda a barodd hynny, neu oddiwrth anadl gwenwynig y sarph wrth ei gymmeradwyo ef i Efa, neu ynte oddiwrth ryw achos dirgel arall, nid ydym ni yn hysbys; etto yr ydym yn sicr o hyn, fod Adda o'r blaen yn gwbl berffaith o ran ei natur ddynol, ac yn fywiog ar ddelw ogoneddus Duw, a'i enaid yn llawn o belydr y goleuni tragywyddol, ei ddeall yn oleu ac yn disgleirio fel ser y boreu, ei ewyllys yn rheolaidd ac yn ufudd i'w reswm, a'i gorph yn berffaith rymus ac yn iach, yn hardd, yn gymmesur, yn anhawdd ei orchfygu, ac yn anfarwol: eithr cyn gynted ag y bwyttaodd efe y tamaid chwerw, fe ddaeth arno gyfnewidiad rhyfeddol; delw Duw yn fuan a halogwyd ac a ddifwynwyd ganddo, ei enaid a aeth yn gymmylog ac yn dywyll, ei ddeall a'i reswm a aeth yn ynfyd, yn swrth, ac yn fusgrell, a'r ewyllys a aeth yn gwbl wrthwyneb i Dduw. Yn fyr, holl gynneddfau grymus ei enaid a ddadglymwyd, ac a draws-symmudwyd allan o'u lle. Ei gorph a aeth yn wan ac yn afiachus, yn ddarostyngedig i amryfal ddamweiniau anghysurus, clefydau, gwendidau, ac angeu ei hun o'r diwedd. Dyma y fath ganlyniad anweddaidd ac aflywodraethus a ddaeth trwy fwytta! Ac ni safodd y niwed hyn yma yn unig; eithr efe a drosglwyddwyd trwy ei holl hiliogaeth ef, a'r holl ddrwg-dymherau hyn, ar gorph ac enaid, a ddaeth ar ei holl blant, fel ag y mae yr holl genhedlaethau o ddynion sydd ar wyneb y ddaear o dan yr un annedwyddwch, wedi eu llygru mewn corph ac enaid, ac wedi eu geni felly mewn pechod, a'u llunio mewn anwiredd. Eithr megys pe na buasem yn ddigon truenus trwy y ffynnon hon o lygredigaeth ein natur, mae y rhan amlaf o ddynolryw fel pe baent yn ymdrechu i wneuthur eu trueni yn fwy, trwy gyflawni yn eu hymarweddiad beunyddiol yr unrhyw rysedd; canys glythineb a meddwdod sydd yn awr fel yn teyrnasu ar y rhan amlaf o'r byd. A thyma yr achos paham y mae yr ordinhâd hon, o fwytta ac yfed mewn cymmedroldeb, yn cael ei rhoddi gyda'r fath fanyldeb yn ein cymdeithas ni; a phe buasai hi felly trwy yr holl fyd, a'u bod yn ei chadw hi, byddai ganddynt well meddyliau ac iachach cyrph.

CYD.-DY. Mewn pa beth mae y gweddeidd-dra hwn mewn bwytta ac yfed yn gynnwysedig?

CYM. Mae yn gynnwysedig yn hyn, sef ffrwyno a rheoli ein blys, rhag cymmeryd dim ond digonedd cymmesurol o fwyd a diod.

CYD.-DY. Attolwg, dangoswch i mi pa fodd y mae yn gynnwysedig mewn ffrwyno y blys a'r chwant megys at fesur digonol.

CYM. Fe'n dysgir ni i beidio bwytta nac yfed ar y pryd, nac yn fynychach yn y

dydd, mwy nac a fyddo yn angenrheidiol i gadw y corph mewn iechyd, ac i adnewyddu yr ysbryd, ac i ddofi y corph, a'i ddwyn yn ddarostyngedig i'r enaid; ac felly mae y gwaelaf mewn grym yn wasanaethgar i'r hwn sydd fwyaf ardderchog, sef yr enaid.

CYD.-DY. Eithr pa fodd y dichon dyn wybod yn berffaith pa faint o ymborth sydd ddigon i gadw y corph mewn iechyd, ac i gynnal natur ac adnewyddu yr ysbryd, gan fod cymmaint o wahanol gyflyrau a thymherau yn y byd ag sydd o dybiau yn y byd?

CYM. Y ffordd i adnabod hyn yw i bob un sylwi ar ei dymherau ei hun, ac yna ceir gwybod yn hawdd pa faint a pha fodd i wneuthur felly yn weddaidd, a pha amser y mae yn angenrheidiol i fwytta ac yfed; a hynny yn unig trwy gymmeryd y rheol gyffredinol hon, sef fod yn weddus i ddyn gyfodi oddiwrth ei fwrdd yn erbyn ei flys, a phan fyddo ei feddwl, wedi bwytta ac yfed, yn tueddu at fyfyrio, a llafurio, ac ymholi, a gweddïo, megys ag yr oedd o'r blaen cyn bwytta: a phwy bynnag sydd yn bwytta ac yn yfed uwchlaw hyn, sydd yn torri y rheol o gymmedroldeb; canys dyben bwytta ac yfed yw, er mwyn adnewyddu a chynnal natur, ai gwneuthur yn fwy bywiog a gweithgar, ac nid ei gwneuthur yn fwy ffol ac anghymhwys.

CYD.-DY. Attolwg, mynegwch i mi pa ryw effeithiau da y mae y gweddeidd-dra hyn mewn bwytta ac yfed yn ei ddwyn i'r enaid, a pha fodd y mae yn gweithredu yno?

CYM. Mewn gwirionedd, y mae llawer o fudd a lles helaeth iawn yn dyfod i'r enaid oddiwrth y gweddeidd-dra hyn mewn ymarferiad cyffredinol o fwytta ac yfed; oblegid er fod yr enaid ynddo ei hun yn anfarwol ac yn annyoddefadwy, etto tra y mae wedi ei gyduno â'n corph marwol ni, y mae yn gyfranog o'r holl gymhwysderau a'r anghymhwysderau ag sydd yn y corph. Os y corph fydd yn ddolurus, y mae yr enaid yn cyd-ddyoddef; os y corph a fydd yn llawen ac yn hyfryd, mae yr enaid yn cyttuno âg ef yn yr un modd. Neu, yn hytrach, y mae yr enaid ynddo ei hun yn deimladwy o'r hyn oll sydd yn dygwydd i'r corph; canys y corph ynddo ei hun, heb yr enaid, fydd yn fusgrell, yn farw, ac heb deimlad na symmudiad ynddo ei hun; eithr yr enaid yw yr hwn sydd yn rhoddi bywyd, synwyr, a symmudiad i'r corph yn mhob dim. Yn awr, gan hynny, megys y mae y corph yn cadw neu yn cynnal iechyd, a grym, a gwychder, felly y mae yr enaid yn cael ei wneuthur yn llawen ac yn hyfryd o'i fewn: ac yn y gwrthwyneb, pan mae y corph yn glaf ac yn wan, mae yr enaid yn gwanychu ac yn llesgâu, trwy gyd-ddyoddef â'r corph. Pwy bynnag, gan hynny, sydd yn bwytta ac yn yfed i ormodedd, y mae yn llenwi ei hun yn llawn sudd gwenwynig ffiaidd, ac felly yn hau yn ei ymysgaroedd ei hun hadau llawer o glefydau. Ac nid yw y dyn hwn yn caru ei enaid ei hun, canys wrth loddesta felly y mae ei enaid yn myned yn ddwl, yn fusgrell, yn ddu-dywyll, ac yn drist a galarus, ac yn ei ddifuddio oddiwrth bob hyfrydwch a chysur: felly yn uniawn ar y llaw arall, yr hwn sydd yn ffrwyno ei flys a'i chwant, ac heb fwytta nac yfed un amser fwy nag sydd yn weddus tuag at gynnal natur, a bywhâu ei yspryd, y

mae hwn yn wastad â'i enaid yn heinif, yn fywiog, ac yn disgleirio megys y wawr y boreu, yn llawn o oleuni a chysur, ac yn y fath hyfrydwch nefol, ac yn ehedeg i fynu i ymlonni wrth wres tragywyddol y disgleirdeb uchod. Y mae yn dibrisio y byd a'r cwbl sydd ynddo, heblaw ei dabernacl ei hun, yr hwn sydd yn cael ei gadw yn wastadol yn lân ac yn hardd, ac am hynny y mae yn cymmeryd ei hyfrydwch yn yr orphwysfa honno, pan y mae fel yr eryr yn ffoi i'r uchelderau gogoneddus. Ein cyrph ni sydd yn demlau i'r Ysbryd Glân; pwy bynnag gan hynny a'i halogo trwy loddest ac aflendid sydd yn euog o gyssegr-ladrad. Am hynny da y dywedodd Solomon, "Na fydd gydymaith i loddestwyr a meddwon, canys anlladrwydd a thrythyllwch sydd yn difa y cnawd."

CYD.-DY. Y mae gennyf lawer o ddiolch i chwi am eich ymadroddion iachus a buddiol. Yn awr, dangoswch, attolwg, i mi pa fodd y mae i mi fod yn gymmedrol, ac yn weddaidd, ynghylch ansawdd bwydydd, &c.

CYM. Mewn trefn i eglurhâu y pwnc hwn yn well, y mae yn angenrheidiol i ni edrych yn ol at Adda, yr hwn a gafodd ganiattâd i fwytta o ffrwythau gardd Eden i gyd, ond yn unig gwaharddwyd iddo gymmeryd o ffrwyth y pren gwybodaeth da a drwg. Ac er mwyn dangos ansawdd neu natur yr ymborth a fyddai yn gymhwys i ddyn, yr oedd wedi ei ddysgu gan Dduw pa fath ffrwythau a llysiau a fyddai yn ymborth, a pha rai a fyddai yn fwyd i'r anifeiliaid; o bob llysieuyn yn hadu hâd, ac o bob pren ag oedd yn dwyn ffrwyth, yr oedd iddo ryddid i fwytta; a'r glaswellt ar y maes oedd efe yn orchymyn i fod yn fwyd i'r anifeiliaid. Yma mae i ni ddal sylw, nad oedd dim crybwylliad yn bod am fwytta cig a physgod wedi ei wneuthur etto, nac oedd, nes ydoedd wedi y diluw: ac y mae amryw yn barnu, nad oedd yr hen deidiau o flaen y diluw fyth yn bwytta un math o gîg: ac nid yw annhebygol mai dyma yr achos paham yr oedd eu hoes cyhyd ar y ddaear yn y dyddiau hynny; nid oes dim yn fwy buddiol i gynnal iechyd a hir ddyddiau nac ymborth gweddaidd, a'r ymborth hynny yw ffrwythau, gwreiddiau, a llysiau, a mêl, ac olew, &c. ond nid cîg na physgod.

Yr amser cyntaf yr ydym yn darllen i Dduw roddi rhyddid i ddyn i fwytta cîg ydoedd wedi y diluw, pan yr ydoedd efe yn bendithio Noah a'i feibion, gan ddywedyd, "Ffrwythwch, ac amlhewch, a llenwch y ddaear; eich ofn chwi a'ch arswyd fydd ar holl fwystfilod y ddaear, a holl ehediaid y nefoedd, ac ar yr hyn oll a symmudo ar y ddaear, ac ar holl bysgod y môr; yn eich llaw chwi y rhoddwyd hwynt. Pob ymsymudydd byw, yr hwn sydd fyw, a fydd i chwi yn fwyd, fel y gwyrdd-lysieuyn y rhoddais i chwi bob dim; er hynny na fwyttewch gîg ynghyd â'i einioes, sef ei waed."

Felly yma y gwelwch, y pryd cyntaf y cafodd dyn ryddid i fwytta cîg, ac attaliwyd ef i'w fwytta ynghyd â'r gwaed, yr hwn attaliad a gadarnheir yn fwy neillduol yn nghyfraith Moses, pan y mae gwêr yn cael ei wahardd yn y geiriau hyn: (Lef. vii. 23—27.) "Llefara wrth feibion Israel, gan ddywedyd, Na fwyttewch ddim gwêr eidion, neu ddafad, neu afr," &c. Y gwaharddiad hwn oedd raid ei gadw ac ufuddhâu iddo mewn perthynas

i frasder a gwêr. Ac ychydig wedi hyn (Lef. xi. 23, hyd y diwedd,) y mae dosparthiad yn cael ei roddi rhwng y bwydydd ag oedd yn gymhwys i fwytta, a'r hwn nad oedd gymhwys i fwytta, a rhwng y rhai glân a'r rhai aflan o'r anifeiliaid, o'r adar, ac o'r pysgod; ac y mae y gyfraith hon yn cael ei chadw yn fanwl gan feibion Israel trwy eu cenhedlaethau, hyd y dydd heddyw. Ac y mae yn ddiddadl, ar y cyfrif hwn, fod gwahaniaeth cynneddfau yn aros, drwg neu dda, yn nghnawd y creaduriaid hyn; canys yr oedd rhai o honynt yn waharddedig, ac yr oedd y lleill yn ganiattaol: ac er i'r gyfraith hon gael ei dirymu yn nyfodiad Crist i'r byd, etto yr ydym ni yn cael, fod yr apostolion yn eu cynghor yn Ierusalem yn gwahardd bwytta y pethau a dagwyd, ac yn gorchymyn i'r Cristionogion i ymgadw oddiwrth waed. Act. xv. 19, 20. Ac yn mywioliaeth yr apostolion yr ydym yn cael tystiolaeth fod rhai o honynt yn ymgadw oddiwrth gîg holl ddyddiau eu bywyd: ac nid yn unig yr apostolion, eithr Cristionogion ereill hefyd oedd yn y dyddiau hynny yn ymgadw yn ddiwair iawn, gan fyw yn syml ar lysiau neu ddail, neu ryw beth o'r cyffelyb, megys y mae Paul yn tystiolaethu yn eu Epistol at y Corinthiaid.

I bennu ar hyn oll, gallwn feddwl, am yr holl fanylrwydd hyn ynghylch gwahanol fwydydd, o ddechreu y byd hyd y diluw, ac o'r diluw hyd at gyfraith Moses, ac oddi yno hyd yr apostolion, na buasai yn bod, oni bai rhyw achos arbennig am hynny, heblaw profi ufudd-dod dynion trwy ddefodau cysgodol, neu chwaith roddi iddynt, fel y tybia rhai, addysg trwy arwydd-luniau am gynneddfau moesol. Mae yn rhaid fod rhyw beth yn naturiaeth rhai creaduriaid, yn ol eu gwahanol ansawdd, yn peri achos o wahardd y naill a chaniattâu y llall er ymborth dynol. Ac er nad ydym yn rhwym yn awr i gadw cyfraith Moses, etto yr wyf fi yn methu cael allan ar ba sail y mae llawer o Gristionogion yn cymmeryd eu rhyddid i fyw yn gwbl wrthwyneb i orchymyn yr apostolion, ac i fwytta gwaed, ac i fwytta y peth a dagwyd.

CYD.-DY. Yr wyf yn cofio i mi glywed y pwnc yma yn cael ei drin o'r blaen gan rai dadleugar; ac i'r rhan olaf o'ch ymadroddion chwi yr oeddynt yn atteb, fod Crist wedi tystiolaethu, mai "nid yr hyn sydd yn myned i mewn i ddyn sydd yn halogi dyn, ond yr hyn sydd yn dyfod allan o ddyn." Ac fod Paul yn dywedyd, "I'r rhai pur, pob peth sydd bur." Ac yr oedd yn galw yr athrawiaeth sydd yn dywedyd, "Na chyffwrdd, na theimla, nac archwaetha," yn athrawiaeth o egwyddor fydol, elfenau babanaidd.

PWYLLOG. Ond yn awr, os yw ymadrodd Crist i'w gymmeryd yn yr ystyr lythyrenol yn y lle hwn, yna gall dyn anturio i fwytta pob math o greaduriaid gwenwynig yn ddiberygl, heb un niwed. Eithr diddadl yw fod yma ragoriaeth; ac y mae y synwyrol yn gwneuthur dewisiad, megys ag y gweddai fod yn ein hymborth, megys y mae ansawdd y peth yr ydym yn ei fwytta ac yfed, ac y mae pob un yn y peth hwn wedi ei adael i'w feddwl ei hun; er hynny y mae yn y rheol hon ryw beth i'w ystyried, sef fod i ni beidio bwytta nac yfed yr hyn ag yr ydym yn cael trwy brofiad, neu yn ei wybod

wrth sylwi yn fynych, ei fod yn niweidiol i'n hiechyd, ac yn ein lluddias mewn daioni a rhinwedd, ac yn ein hyspardyno i nwydau drwg annuwiol, trwy feddwi yr ymenydd, berwi y gwaed, ac annhrefnu yr ysbryd; neu pa beth bynnag arall o weithredoedd y cnawd, neu demtasiynau y diafol. Ymattal rhag y cyfryw bethau sydd dda.

DOETH. Megys y mae Sant Paul yn dywedyd, mai "i'r rhai pur pob peth sydd bur," y mae yn fuddiol i ni fwrw golwg hefyd ar yr hyn a ddywed efe mewn lle arall fel hyn, "Pob peth sydd gyfreithlawn i mi, eithr nid yw pob peth yn llesâu: pob peth sydd gyfreithlawn i mi, eithr ni'm dygir dan awdurdod gan ddim." 1 Cor. vi. 12. Yn y fan wedi hyn y mae yn llefaru y geiriau hyn drachefn, "Bwydydd i'r bol, a'r bol i'r bwydydd: eithr Duw a ddinystria hwn a hwythau." Yn awr, wrth gyssylltu hyn, mae y testyn yn eglur mewn perthynas i'r rhyddid sydd yn cael ei roddi i'r Cristionogion mewn bwydydd, gan ddangos, er eu bod yn rhydd oddiwrth y daliadau manwl ag oedd yn nghyfraith Moses, yn ol y llythyren; etto, er hyn i gyd, eu bod yn rhwym, wrth gyfraith doethineb a rhinwedd Cristionogol, i ddosparthu a dewis y cyfryw fwydydd ag na fyddai fyth yn lluddias eu cariad, nac yn gwrthladd neb rhyw fwriadau da mewn crefydd, ond arfer yr hyn a'n gwnelo yn fwyaf pur a santaidd, ac nid yr hyn a'n gyrro yn fwy penrhydd ac afreolus.

CARIAD. Y mae eich crybwylliad am y tramgwydd sydd yn cael ei roddi ar ffordd cariad, trwy ryddid anllywodraethus mewn bwydydd, wedi peri i mi feddwl am ddarn arall o ymadrodd yr un apostol, (1 Cor. viii. 13,) lle y mae yn dywedyd, "Os yw bwyd yn rhwystro fy mrawd, (neu yn ei waradwyddo,) ni fwyttaf fi gîg byth, rhag i mi waradwyddo fy mrawd." Mewn gwirionedd, cariad yw y blodeuyn mwyaf sylweddol o holl rinweddau Cristion, a gogoniant a harddwch neillduol y grefydd Gristionogol, ac hefyd cyflawnder y gyfraith a'r prophwydi. Yr hwn sydd yn cymmeryd arno fod yn grefyddol, ac heb ganddo gariad, sydd yn gwadu Crist, gwaradwyddo y ffydd, a chanddo led-rith o grefydd, yn dynwared duwioldeb, ac yntau yn farw, yn gyffelyb i ddyn yn gwaeddi gyda'r cŵn, ac yn rhedeg gyda'r cadno; y mae yn gwatwar Duw, yn twyllo dynion, ac yn damnio ei hun; y mae efe yn un â phob rhyw ddrwg a llygredd o bechod, canys y mae ynddo bob twyll yn y byd.[w]

Eithr, rhag i neb o'r rhai sydd yn fy ngwrando yn rhoddi y fath garacter i ddyn heb gariad fy nghamgymmeryd, myfi a roddaf esponiad mwy helaeth arno, ac a roddaf i chwi ddesgrifiad neillduol o'r gwreiddyn rhinweddol hwn. Nid wyf yn meddwl wrth gariad, yn unig, y gangen honno sydd yn dwyn ffrwythau defnyddiol o weithredoedd da; megys porthi y newynog, diodi y sychedig, ymweled a dyddanu y cleifion a'r carcharorion, ac

[w] Gwir yw y cyfan a ddywedir am ragoriaeth cariad Cristionogol; gwael a rhagrithiol ydyw ein proffes heb fod genym gariad yn ol y desgrifiad a roddir o hono gan yr apostol, 1 Cor. xiii. Mae ymadroddion nerthol yn cael eu harferyd gan ein hawdwr, i ddangos twyll a thrueni y sawl sydd yn amddifad o'r gras hwn, eithr nid yw ei eiriau yn gryfach na'r eiddo Sant Paul: "Heb gariad nid wyf fi ddim," a'r "hwn nad yw yn caru yr Arglwydd Iesu, bydded Anathema Maranatha," sef yw hynny, yn felldigedig.

ymgeleddu y rhai sydd yn crwydro heb le i roddi eu pennau i lawr, a chynnorthwyo, cysuro, ac iachâu y rhai clwyfus, a'r cyffelyb weithredoedd o drugaredd: y mae cariad yn myned yn mhellach, yn helaethach, a mwy o ehangder ysprydol na'r holl swm hyn o weithredoedd da: nagê, rhai o honynt a gyflawnwyd heb gariad, megys y mae Sant Paul yn tystiolaethu, (1 Cor. xiii. 3,) pan y mae yn dywedyd, "Pe porthwn y tlodion â'm holl dda, a phe rhoddwn fy nghorph i'm llosgi, ac heb gariad gennyf, nid yw ddim llesâd i mi."

Yn y geiriau hyn y mae efe yn dangos yn eglur, y gellir gwneuthur llawer o weithredoedd da oddi allan, ac etto fod yr hwn sydd yn eu gwneuthur hwynt heb gariad. Gan hynny, pan yr ydwyf yn son am gariad, yr wyf yn deall y cyflawnder dwyfol o hono yn yr enaid, yr hwn y mae yr un apostol yn ei ymadroddion canlynol yn ddesgrifio. 1 Cor. xiii. 4. "Y mae cariad yn hir-ymaros, yn gymmwynasgar: cariad nid yw yn cenfigenu: nid yw cariad yn ymffrostio, nid yw yn ymchwyddo; nid yw yn gwneuthur yn anweddaidd, nid yw yn ceisio yr eiddo ei hun, ni chythruddir, ni feddwl ddrwg, nid yw lawen am anghyfiawnder, ond cyd-lawenhâu y mae â'r gwirionedd; y mae yn dyoddef pob dim, yn ymaros â phob dim."—Dyma beth yw darluniad cywir o gariad; ac y mae yr hwn sydd yn ei gyflawni yn ei ymarweddiad, yn Gristion perffaith. Credadyn yn ei wir liw, ymdrechwr yn mhlaid y ffydd, ac Israeliad yn wir, yn yr hwn nid oes dim twyll, y mae efe yn faen bywiol yn nheml Dduw. Y mae efe yn rhedeg yr yrfa a osodwyd o'i flaen ef, trwy amynedd; y mae efe yn ymarferyd i sobrwydd a duwioldeb, a chyfiawnder tuag at Dduw a dynion, a thuag atto ei hun; ei enaid sydd fel yn llawn o bob daioni, canol bwynt duwioldeb, yn yr hwn y mae yr holl rinweddau yn cyfanneddu. Yn mhob peth y mae efe yn sanctaidd, yn dyner, ac yn gweithredu yn ol cywreinrwydd a manylrwydd cariad dwyfol.

Er bod ei gorph yn trigo ar y ddaear, y mae ei enaid yn byw yn y nef: y mae yn eistedd dan gysgod preniau paradwys; ac yn anadlu anadl bywyd mewn awyr fywiog, ac yn bwytta ffrwythau sydd yn tyfu ar bren y bywyd yn fynych ac yn aml.

Ac yn awr, wrth gyssylltu hyn at y matter oedd gennych chwi mewn llaw, sef fod dyn, meddaf, wedi ei gynnysgaeddu trwy ddawn dwyfol a goruwchnaturiol â'r cariad hwn, fel ag y mae yn caru Duw uwchlaw pob peth, ac felly ei gymmydog fel ef ei hun; ac yn ymarfer ei hun fel yn ddiachos tramgwydd tuag at Dduw a dynion. Y mae efe yn mhob peth yn ddiduedd, yn ymfoddloni i gydymddwyn â'r rhagfarn a'r gwendid sydd yn aros yn ei frawd gwan; "I'r Iuddewon y mae megys yn Iuddew, fel yr ennillo efe yr Iuddewon; i'r rhai sydd dan y ddeddf, mae megys un dan y ddeddf, fel yr ennillo y rhai sydd dan y ddeddf; i'r rhai heb y ddeddf, megys heb y ddeddf (er hynny nid heb y ddeddf, eithr dan y ddeddf i Grist), fel y gallo ennill y rhai sy heb y ddeddf; i'r rhai gweinion y mae megys yn wan, fel yr ennillo y rhai sydd; wan y mae wedi gwneuthur ei hun yn bob peth i bawb, fel yr achubo efe rai." Y mae efe yn bwytta cîg gyda'r rhai

sydd yn bwytta cîg, "heb ofyn dim er mwyn cydwybod, (oblegid eiddo yr Arglwydd yw y ddaear a'i chyflawnder)." "Pa beth bynnag, pa un bynnag ai bwytta ai yfed, y mae yn gwneuthur pob peth er gogoniant i Dduw; ac yn ddiachos tramgwydd i Iuddewon a Chenedloedd, ac i eglwys Dduw; eithr rhyngu bodd pob dyn yn mhob peth; heb geisio ei lesâd ei hun, ond llesâd llaweroedd, fel y byddent hwy yn gadwedig." 1 Cor. x. 31—33. Dyma wir bortreiad o Gristion perffaith; dyma derfyn a dyben y gorchymynion, a gwir ogoniant y gyfraith a'r efengyl, a thyma yw amcan ein deddf a'n hordinhâd ni mewn bwytta ac yfed.

I'r ymadroddion hyn o eiddo Cariad y cyttunasant oll, a Chydwybod-dyner yn ddilys a gafodd fwy na chyffredin o foddlonrwydd a llonyddwch trwy y penderfyniad dwys yma. Canys efe a gawsai ei gythryblu yn hir yn ei feddwl ynghylch y matter yma; eithr yn awr efe a gafodd ei foddloni yn y gwirionedd, felly efe a ddiolchodd yn fawr iddynt oll am eu hyfforddiadau buddiol, gan gyfeirio yn fwyaf enwedigol at Gariad, ei gydnabyddiaeth am ddiwedd-gload efengylaidd.

Yna y llaw-forwyn honno, Cymmedroldeb, yr hon a ddechreuodd yr ymddiddan ynghylch bwytta ac yfed, swydd weddus yr hon yw dehongli ac esponio yr ordinhâd hon, a alwodd am ddwy lamp, y rhai yn y fan a ddygwyd gan law-forwyn a elwir Ufudd-dod, yr hon oedd yn gwasanaethu. Yn awr, yr oedd un o'r lampau yn rhoddi goleu caddug tywyll, fel ag yr oedd yn anhawdd gwybod pa un a'i bod yn llosgi ai nid oedd: a'r llall yn y gwrthwyneb, yn goleuo yn dra disglaer. Yna ebe Cymmedroldeb, Chwi a welwch y gwahaniaeth sydd rhwng y ddwy lamp hyn, pa fodd y mae un yn gweini dim ond goleu gwan darfodedig, a'r llall yn taflu ei phelydrau disglaer oddi amgylch yn llawn llewyrch. Y grisial ydyw defnydd y naill fel y llall, eithr bod un (fel y gwelwch) wedi ei difwyno a'i halogi gan fwg, tarth, a huddugl; a'r llall sydd yn loyw, yn ddisglaer, ac yn lân. Y mae y rhai hyn yn darlunio y gwahaniaeth sydd rhwng gweddeidd-dra a gloddesta, mewn bwytta ac yfed. Y lamp yw dyn, ac enaid dyn ydyw yr olew, yr hwn sydd yn ennyn ac yn disgleirio yn llawn llewyrch, os bydd y corph yn cael ei gadw yn lân, a'i buro trwy gymmedroldeb, sobrwydd, dirwest, ac ympryd: ond os aiff y dyn i fwytta ac yfed i ormodedd, a difwyno a halogi ei gorph, yna ei ysbryd, yr hwn sydd fel grisial yn ei enaid, a aiff yn gaddug ac yn dywyll, trwy y fath darth myglyd sydd yn magu mewn anghymmedroldeb; ac felly nis dichon ddisgleirio mewn gweithredoedd da tuag at ereill, na meddu ar oleuni ynddo ei hun: "ac os bydd y goleuni sydd ynddo yn dywyllwch, pa faint fydd ei dywyllwch!"[y]

CYD.-DY. Attolwg, rhoddwch gennad i mi eich blino âg un gofyniad etto yn

[y] Os na ddarostyngir y cnawd, ond gadael iddo feistroli, anmhossibl i'r enaid fod yn rhydd ei weithrediadau. Mae yn rhaid i'r nwydau fod dan lywodraeth i'r deall a rheol duwioldeb, onidê nid oes ond yr annhrefn gorwyllt, canys yr anian fwystfilaidd sydd yn cael y trechaf, ac y mae pob daioni yn myned ar goll mewn dyn. Craffwn yn fanwl ar yr hyn a ddywedir yma mor synhwyrol ar y matter pwysfawr hwn.

mhellach ynghylch ymprydio, oblegid mi a feddyliais eich bod chwi yn crybwyll am dano yn awr megys peth a fyddai yn foddion i buro a glanhâu y corph, ac o bossibl ei fod yn foddion gweithgar hefyd ar yr enaid. Gan hynny, da fyddai gennyf gael gwybod pa siamplau o ymprydio ydych yn ei gael yn yr ysgrythyrau, ac a ydyw yn angenrheidiol ac yn fuddiol i Gristion ymprydio yn awr dan yr efengyl, a pha beth yw yr effeithiau buddiol sydd yn dyfod trwy ymprydio?

CYM. Nid blinder ond hyfrydwch yw gennyf fi roddi boddlonrwydd i chwi yn y pwngc hwn, yn ol y cymhorth sydd gennyf, fel y mae fy swydd.

Gwybyddwch, gan hynny, fod yr ymarferiad o ymprydio yn cael ei chymmeradwyo yn llyfr Duw, ac yn cael ei chadarnhâu hefyd trwy siamplau amrywiol o'r duwiolion. Yr ydym yn darllen i Moses ymprydio ddeugain niwrnod a deugain nos yn y mynydd; ac er nad oes dim son am ympryd yn cael ei wneuthur cyn y diluw, etto wrth bob tebygolrwydd yr oedd bywioliaeth dynion yr amser hynny o'u mebyd o bossibl yn ympryd beunyddiol, neu o'r hyn lleiaf, yr oeddynt yn ymgadw oddiwrth gîg yn feunyddiol; yr hyn beth yr edrychid arno yn awr yn rhy flin, ac yn ddisgyblaeth rhy drom, o bossibl, i roddi barn ar naturiaethau yr ymborth cyffredinol sydd yn cael ei gymmeradwyo gan holl ddynolryw, eithr trwy hyn yr oeddynt hwy yn cadw eu cyrph mewn iechyd dilwgr, yn nerthol, ac yn estyn eu bywydau agos at fil o flynyddoedd. Eithr yn awr, yn yr oesoedd olaf hyn o'r byd, y mae cyrph dynion wedi myned yn fwy gwanaidd, ac fe'i cyfrifid yn dâsg rhy drom gan ddynion yn awr i ymprydio unwaith mewn mis, ïe, unwaith yn y flwyddyn, gan mor anhawdd yw ganddynt groesi eu tymherau moethus.

AM YMPRYDIO.

Ond yma yr ydym yn cael fod amrywiol o achlysuron i ymprydio yn mhlith pobl Dduw yn yr hen oesoedd gynt. Lef. xxiii. 27—32. Megys y diwrnod hwnnw a orchymynwyd i Israel gadw yn ŵyl y cymmod; gŵyl flynyddol oedd hon iddynt trwy eu cenhedlaethau yn dragywyddol; ac ar y dydd hwn yr oeddynt yn ymprydio ac yn cystuddio eu heneidiau o hwyr i hwyr; ac yr ydoedd y diwrnod hwn yn ddiwrnod blynyddol i gyhoeddi ympryd mewn gostyngeiddrwydd ger bron yr Arglwydd, wedi ei ordeinio felly i'r bobl yn dragywydd. Yr oedd hefyd arferiad o ympryd yn bod ar achlysur o alarnad, megys yr ymprydiodd Dafydd pan yr oedd y plentyn yn gorwedd yn glaf. 2 Sam. xii. 16, 17. A gwŷr Iabesh Gilead a ymprydiasant saith niwrnod, wrth gladdu esgyrn Saul a Ionathan ei fab, dan bren yn Iabesh Gilead. 1 Sam. xxxi. 13. A chyn gynted ag y clybu Dafydd am eu marwolaeth, "efe a'r gwŷr oedd gydag ef a ymaflasant yn eu dillad, ac a'u rhwygasant, a hwy a wylasant, ac a alarasant, ac a ymprydiasant hyd yr hwyr, am Saul, a Ionathan ei fab, ac am bobl yr Arglwydd, ac am dŷ Israel, o herwydd iddynt syrthio trwy'r cleddyf." 2 Sam. i. 11, 12. Ac heblaw hynny, yr oedd yr Israeliaid yn arferol o ymprydio yn fynych mewn amseroedd blinion, ac mewn helbul; ac nid yn unig hwynt-hwy, ond cenhedlaethau ereill hefyd, megys trigolion y ddinas fawr honno Ninefeh, pan yr oedd y prophwyd Ionas yn rhag-fynegi y

dystrywid y ddinas gadarn honno yn mhen deugain niwrnod, "hwy a gyhoeddasant ympryd, a wisgasant sachlian am danynt, o'r lleiaf hyd y mwyaf o honynt; canys y gair a ddaeth at frenhin Ninefeh, ac efe a gyfododd oddiar ei frenhin-faingc, ac a ddiosgodd ei frenhin-wisg oddi am dano, ac a wisgodd sachlian, ac a eisteddodd yn y lludw, ac efe a orchymynodd gyhoeddi wrth orchymyn y brenhin a'i bendefigion, gan ddywedyd, Na fwyttaed dyn nac anifail, eidion na dafad, nac archwaethant ddim, ac nac yfant ddwfr." Ionah iii. 5, 6.

Ac heblaw yr ymprydiau arbennig a chyhoedd, yr ydym yn darllen hefyd am rai ag oedd yn ymprydio ar eu pennau eu hunain, megys y prophwyd Daniel, yr hwn a ymprydiodd dros dair wythnos o ddyddiau, dros ba amser "ni fwyttaodd ddim bara gyda hyfrydwch, ac nid aeth dim cîg na gwîn o fewn ei enau, ac fe fu yr ympryd hwn yn dderbyniol gyda Duw, yn gymmaint ag y danfonodd efe un o'i angylion atto ef, yr hwn a'i cyfarchodd ef wrth yr enw Daniel, wr anwyl, gan orchymyn iddo beidio ofni a brawychu, "canys (ebe fe) oddiar y dydd cyntaf y rhoddaist ti dy galon i geisio deall, ac y syrthiaist o flaen yr Arglwydd dy Dduw, y gwrandawyd dy eiriau, ac o herwydd dy eiriau di y daethum i. Yn awr y daethum i beri i ti ddeall yr hyn a ddigwydd i dy genedl di yn y dyddiau diweddaf." Dan. x. 1, 2, 3. Ac yn ol iddo ef gysuro a chryfhâu Daniel fel hyn, yna efe a ddatguddiodd iddo lawer o bethau dirgelaidd a rhyfeddol y rhai oedd i gael eu cyflawni ar y ddaear. Ac yn awr, oddiwrth y ffafr ragorol a ddangoswyd tuag at Ddaniel, y gallwn ganfod yn eglur pa mor dderbyniol yw ympryd gostyngedig a duwiol ger bron Duw. Llawer mwy o siamplau o'r cyffelyb a ellir eu nodi allan o'r Hen Destament. Eithr y mae hyn yn ddigonol er dangos, fod ympryd fel dyledswydd yn cael ei arferyd yn fynych gan bobl Dduw, a chan y duwiolion gynt dan gyfraith Moses. A than yr efengyl y mae ympryd yn cael ei gymmeradwyo o'r dechreu i'r diwedd, trwy siamplau Crist a Ioan Fedyddiwr, a Phedr, a Phaul, a'r lleill o'r apostolion sanctaidd, ac hefyd yn eu cynghorion a'u hyfforddiadau yr un modd, gellir adnabod fod y ddyledswydd hon wedi ei hadrodd, a'i hargraffu yn aml yn ysgrifeniadau y Testament Newydd. Ac y mae allan o bob dadl, ei bod yn gwbl angenrheidiol yn awr, fel ag yr oedd hi erioed o'r blaen, canys yr ydym ni yn ddarostyngedig i'r un gwendidau, a'r un profedigaethau yn ymosod arnom, ac yn cael ein hamgylchynu gan gymmaint o beryglon a'r Cristionogion hynny a aethant o'n blaen; ac yn wir, ympryd yw y feddyginiaeth oreu yn erbyn pob balchder a drygioni. Y mae ympryd yn marwhâu y cnawd, yn dofi y trachwant, yn diffoddi chwantau trythyll, ac y mae yn meithrin duwioldeb, yn llaw-forwyn gweddi, ac yn fammaeth myfyrdod da; mae yn puro y deall, yn darostwng y nwydau, yn rheoli yr ewyllys, ac yn dyrchafu dyn i 'stad sydd yn fwy ysbrydol a gogoneddus; y mae yn fwyd efengylaidd, yn fywioliaeth yr enaid, mae yn fawr ddyrchafiad mewn crefydd, a'r cyfleusdra goreu yn y byd i fyfyrdodau dwyfol; pan y mae mwg a tharth y blys cnawdol yn cael ei ostegu a'i ddiffodd, yna y mae y galon yn torri allan mewn nefol dân, nes iddo

ennyn o'i fewn fel seraph nefol, mewn dyrchafiad ardderchog, ac ysbryd pur dihalogedig. Dyma y fath effeithiau gweddus a chywir sydd yn cael eu hargraffu yn fynych trwy dduwiol dristwch ac ympryd, megys y gall y rhai a wnaethant ymarferiad o hono dystiolaethu.

CYD.-DY. Chwi a wnaethoch i mi garu y gwaith o ymprydio, wrth roddi y fath hanes cywir am dano, ac wrth ddangos y canlyniadau daionus sydd yn tarddu oddi wrtho i'r corph a'r enaid : ac yr ydwyf yn bwriadu gwneuthur prawf o hono hefyd o hyn allan ; canys yn fy nhyb i, fel ag y darfu i chwi ddesgrifio, y mae yn foddion i ddwyn dyn yn nes at Dduw, megis ag y mae yr enaid yn ymddidoli ac yn ymprydio, fel hyn yn deilliaw oddi wrth y corph, y mae yn ymlanhâu oddi wrth bob peth allanol, ac yn ymgeleddu ei hun mewn pabell ddirgelaidd oddi fewn, ac yn ymorphwys dan ddwyfol gysgod y nefoedd, ac yn cael nesach cymundeb, ac undeb anwyl cymdeithasgar gyda Duw o bryd i gilydd.*

Yn awr, pan ddiweddodd Cydwybod-dyner y geiriau hyn, efe a ddechreuodd feddwl am ei daith, ac a ddiolchodd yn fawr iddynt oll, am yr holl ymgeledd a gawsai efe yno yn eu plith, ond yn enwedig, am eu hymddiddanion buddiol ac adeiladol, ac felly efe a gyfododd i gael cymmeryd ei gennad; yna hwythau a gyfodasant gyd âg ef, ac a aethant i'r arfdŷ, yr hwn oedd yn sefyll wrth y porth, ac yno hwy a'i gwisgasant ef drosto âg arfogaeth, sef arfau profedig, megis yr oeddid yn arfer gwneuthur i bawb o'r pererinion, o blegid fod y rhan arall o'r ffordd yn llawer mwy peryglus, ac yn ddygn flin gan ladron ac yspeilwyr, a chan feibion Belial, a llofruddion, ynghyd â llawer o elynion dieflig eraill. Hefyd, hwy a roddasant iddo ei lythyr tystiolaeth, yr hwn a roddasai efe iddynt pan ddaeth yno ar y cyntaf, a rhoddasant eu dwylaw wrtho oll er mwyn ei gadarnhâu yn fwy sicr, gan orchymyn iddo yntef fod yn sicr o gymmeryd gofal mawr am dano ; felly hwy a'i harweiniasant ef i'r porth, gan ddymuno iddo daith lwyddiannus, ac yntef a ymadawodd oddi wrthynt, a'r dagrau yn rhedeg o'i lygaid.

Yn awr, mi a welwn yn fy mreuddwyd Gydwybod-dyner yn myned rhagddo yn ei flaen encyd mawr o ffordd, hyd nes aeth ef ymlaen hyd at ael y bryn, lle yr ydoedd y ffordd yn arwain i wared i Ddyffryn Gostyngeiddrwydd, ac o achos ei bod yn serth ac yn beryglus iawn i fyned i lawr yma, fe orfu arno fyned yn bwyllog iawn, a phwyso yn drwm ar ei ffon fagl; etto efe a fu yn mron llithro a thripio, ac a gafodd lawn waith ymattal rhag rhedeg, neu, yn hytrach trolio i lawr dros lechwedd y bryn; etto, er hynny efe a

* Mae yr arfer dduwiol o ymprydio yn cael ei distadlu gan lawer o broffeswyr yn y dyddiau hyn, ac nid oes cywilydd ar rai wneuthur gwawd o'r fath ymarferiad, fel hen ddefod babaidd ac ofergoelus. Mae rhai, o ran iselder eu hamgylchiad, yn profi llawer o hunan-ymwadiad, ond da fydd i'r sawl a fo yn mwynhâu cysuron y byd, i ymarfer â'r ddyledswydd hon ar brydiau. Nid oes nemawr un na ddichon mewn rhyw fesur ymprydio, trwy ymattal oddi wrth fwyd blasus ar droiau, er fod llawer o Gristionogion na fyddai yn gyttunol â'u hiechyd i gynnal ympryd llwyr. Eithr fe ddylai gweddi a hunan-ymholiad, ac ymostyngiad enaid ger bron Duw, gyd-fyned â'r gwaith o ymprydio.

ymattaliodd ei hun o braidd, ac a ddaeth o'r diwedd yn ddihangol i wared i odreu'r bryn, ac a ddaeth i ddyffryn Gostyngeiddrwydd.[a]

DYFFRYN GOSTYNGEIDDRWYDD.

Ac yn awr, yr oedd yr holl ddyffryn hwn yn rhyw fath o forfa corsog a daear sigledig, ac yr oedd yr amser hwn wedi ei orchuddio drosto oll â dwfr, fel nad oedd yno ond un ffordd i fyned trosodd yn ddiogel, ac yr oedd y ffordd hon wedi ei gwneuthur o fyrddau, neu ystyllod, ac wedi eu sicrhâu wrth byst ag oedd yn y ddaear, ac yr oedd un bwrdd arall, ac yn cyrhaedd felly o'r naill i'r llall, fel nad oedd y ffordd ond lled un bwrdd, ac yr ydoedd hi yn gul iawn, a'r rhes hyn o fyrddau a elwid pont o Hunan-ymwadiad, ac yr oedd hi yn cyrhaeddyd dros y dyffryn hwn, sef Gostyngeiddrwydd, oll i gyd: ac yn awr yr ydoedd y dyfroedd yn uchel iawn, ac yn cyffwrdd â'r byrddau hyn, ïe, mewn rhai manau yr oedd y dwfr yn torri drostynt ac yn eu gorchuddio, fel ag yr oedd yn waith caled iawn i ddyn adnabod ei ffordd. Yr olwg ar yr holl beryglon hyn, ynghyd â'r bont gul, a ddigalonodd nid ychydig ar Gydwybod-dyner; eithr wrth ystyried ei bod hi yn hwyrhâu, ac nad oedd wiw iddo oedi, am hynny efe a ymroddodd i anturio drosodd; felly efe a aeth yn y blaen yn hŷf; etto yn bwyllog iawn, o herwydd fod y ffordd yn gul anghyffredin, ac yr oedd yr ystyllod hefyd megys pe buasent yn llaesu yn awr, ac yn plygu hefyd yn ol ac ymlaen yma a thraw dan ei draed, yr hyn a barodd iddo ofni yn fynych, y byddai iddynt dorri dano, a'i ollwng i lawr i ddyfnder y dyfroedd, a soddi cyn myned drosodd. Ac er mwy o ddigalondid iddo, yn awr, pan yr oedd efe ynghylch hanner y ffordd i fyned drosodd, yr ydoedd yr holl awyr yn llawn maglau, rhwydau, a chroglathau, yn crogi i lawr, ac yr oeddynt wedi eu rhoddi hefyd yn bur isel, fel na allai un dyn gerdded yn ei union sefyll, heb ymddyrysu a maglu mewn rhai o honynt; a'r rhwydau a'r maglau a roddwyd yma gan dywysog llywodraeth yr awyr, i'r dyben o ddala y fath bererinion ag a fyddai o feddyliau mawrion, a'r rhai sydd yn rhodio â gwddf estynedig. Am hynny, pan y canfu Cydwybod-dyner y fath beryglon wedi eu taenu o'i flaen, efe a blygodd i lawr, ac a ymgripiodd ar ei draed a'i ddwylaw, ac fel hyn yr ymgadwodd efe rhag y maglau a'r rhwydau; ac efe a gafodd gymmaint a hyn yn awr o fantais yn ychwaneg, oblegid y gallai efe fyned yn y blaen yn y dull hwn yn fwy diogel a sicr, ac yn llai o berygl i draws-gamu ryw ochr dros y bont i'r dwfr, megys yr oedd efe yn fynych yn dueddol i wneuthur, pan ydoedd efe yn ei uniawn hyd. Yn y dull hwn yr ymlusgodd ac yr ymgripiodd efe yn mlaen, nes oedd efe yn agos a myned drosodd; ac yna efe a welai amrywiol o fadau yn dyfod tuag atto a bob ochr i'r bont, ac yn y badau hyn yr oedd dynion yn eu rhwyfo hwynt tuag atto ef, a hwy a waeddasant 'Holo,' ac a alwasant ar ol Cydwybod-dyner; ond nid attebodd efe hwynt, canys yr ydoedd yn ofni y gallasai fod yno ladron, yspeilwyr,

[a] Rhai ydynt yn drymmach eu croesau, ac yn fwy aml eu temtasiynau na'u gilydd. Mae tymher ambell rai yn gofyn cael eu cadw i lawr dan dreialon. ac yn fwy anhawdd ganddynt ddioddef adfyd er ei fod yn angenrheidiol iddynt, ac felly nid yw dyffryn darostyngiad mor hyfryd ganddynt.

a llofruddion, yn gwarchae yn yr ardaloedd hyn, er mwyn gormesu yr ymdeithwyr: ac am hynny efe a gadwodd ar ei ffordd yn y blaen, a hwythau a rwyfasant yn dŷn ar ei ol, ac a saethasant atto ef amrywiol saethau, ac fe aeth rhai o'r saethau heibio iddo ef, y lleill a dderbyniodd efe, ac a amddiffynodd ei hun â tharian y ffydd, (Eph. vi. 16,) yr hon a roddwyd iddo o arfdŷ y Brenin Alpha: ac yn awr, enwau y gwŷr hyn, y rhai oedd yn y badau, yn rhwyfo ar ol, ac yn saethu at Gydwybod-dyner mor danllyd, oedd Anrhydedd-bydol, Balchder, Rhyfygus, Hunan-ymgais, Gwag-ogoniant, a Chywilydd; a'r olaf o honynt yn rhyw fodd a ollyngodd saeth, ac a glwyfodd Gydwybod-dyner yn ddirmygus ar ei rudd, yr hyn a gynhyrfodd ei holl waed ef i gyfodi yn ei wyneb; eithr ni wnaeth iddo lawer iawn o niwed, ac am hynny efe a aeth rhagddo nes daeth o'r diwedd drosodd i derfyn y bont hon; ac felly efe a ddiangodd allan o berygl y maglau a'r rhwydau hynny, ac yna efe a allai rodio yn ei uniawn hyd, fel o'r blaen, a hynny ar dir sych; yna efe a aeth yn ei flaen dan ganu fel hyn:

Trwy lawer o enbydrwydd, peryglus fwy na mwy,
Caledi, poen, a lludded, yn fynych aethum trwy;
Ond Duw fu'n dirion i mi ynghanol cystudd mawr,
Yn fynych gwenodd arnaf, pan oeddwn ar y llawr;
Fel yn ei law fe'm dygodd, dros fryniau serth ymla'n,
Trwy gorsydd a thros dyllau, trwy ddyfroedd a thrwy dân;
Mae'n porthi, yn dilladu, yn arfogi ei blant o hyd,
Ac yn eu cadw yn rhyfedd rhag drygau yn y byd;
Er fod y diawl yn lledu ei faglau, rhwydau blin,
Croglathau i ddala'r enaid mewn d'rysni iddo ei hun:
Er hyn trwy ras mi ddiengais rhag ei amcanion chwith,
Pererin gostyngedig nis huda Satan byth;
Gwir ostyngeiddrwydd yspryd sydd noddfa felus iawn,
Mae'r camrau mwyaf isel yn dwyn i'r gwynfŷd llawn.

Yna mi a welwn yn fy mreuddwyd fod Cydwybod-dyner yn myned i Ddyffryn Cysgod Angau, ac yna hi a aeth yn nos arno ef, a'i draed a ddechreuasant dripio a thramgwyddo yn y tywyllwch, ac yr ydoedd ef bob cam yn mron llithro i'r ffos oedd ar un llaw, neu i'r gors oedd ar y llaw arall i'r llwybr, ac yr oedd y llwybr hefyd yn gul iawn; eithr yr ydoedd yr amser hyn yn nghanol yr haf, ac am hynny yr haul a gyfododd yn mhen ychydig o oriau, ac felly efe a gafodd oleu y dydd drachefn, yr hyn oedd yn gysur nid bychan iddo ef, oblegid fod yn dyfod i'w gyfarfod ef yma ddychrynfeydd gwrthwynebus ac erchylldod ofnadwy, canys y mae y dyffryn hwn yn dywyll iawn o ran ei natur, ac y mae yma gymmylau duon, tewion, dychrynllyd, yn crogi yn wastadol uwch ben y dyffryn, ac yn abl peri syndod mewn dynion, am nas gwyddant beth i wneuthur; ac y mae angau hefyd yn lledu ei adenydd drosto, ac nid yw

DYFFRYN CYSGOD ANGAU.

yr haul ond rhoddi goleu caddug, gwanaidd, a methedig iawn, yn y dyffryn hwn; ond er hynny, hi a lewyrchodd yma ar yr amser hwn, i weini goleu i Gydwybod-dyner, tra y bu yn myned trwy y ffordd ddychrynllyd angeuol yma, lle yr oedd efe yn clywed o hyd, fel ag yr ydoedd yn myned yn mlaen, y fath udfa, ebwch, a bloeddio mwyaf arswydus yn y byd; eithr o'r diwedd efe a aeth yn ddihangol oddi wrthynt oll, ac a ddaeth i ddiwedd y dyffryn, i'r man lle y gwelodd Cristion y gwaed, a'r esgyrn, a'r lludw, a darnau o gyrph dynion yma ac accw ar y llawr; eithr yn awr yr oeddynt wedi eu claddu, a cholofn oedd wedi ei chyfodi i fynu yn y fan, megys arwydd, yn goffadwriaeth o'r holl greulondeb a wnaethid gan y ddau gawr oedd yn byw yn gyfagos i'r lle hwn; ac yr oedd yma ysgrifen hefyd ar y golofn, yn rhoddi hanes am yr holl waed cyfiawn a dywalltwyd yn y byd o achos duwioldeb, o amser Abel hyd y dydd hwn; yr oedd yma hefyd grybwylliad byr am yr holl gyfreithiau gwaedlyd creulawn a ordeiniwyd ar achosion, gan orthrymwyr annhrugarog, megys Pharaoh, Nebuchodonosor, Darius, Antiochus, Nero, &c. Yr oedd yma hanes am y wraig a'i saith mab, y rhai a gawsant ddyoddef creulondeb i'r eithaf, ac arteithiau dygn gan boenwyr creulawn, ac o'r diwedd eu rhoddi hwy i farwolaeth, am na fwyttaent gîg môch, yr hyn oedd yn wrthwyneb i gyfraith Duw, ac yn groes i'w cydwybodau hwythau; ar yr un achlysur hefyd cafodd hen wr parchedig, a'i enw Eleazer, ei fwrw i farwolaeth greulawn wrth orchymyn y gorthrymwr hwn; ac yr ydoedd llawer yn ychwaneg o goffadwriaethau hynod o'r fath wedi eu hysgrifenu ar y golofn hon, pa rai y cymmerodd Cydwybod-dyner hyfrydwch mawr i'w darllen hwynt. Yn awr, enw y golofn yw Hanesyddiaeth; ac yn gyfagos i'r golofn, sef gyferbyn âg ogof y ddau gawr, sef Pagan a'r Pab, yr oedd ogof arall, yn mha un y gwelodd Cydwybod-dyner ddyn ynghylch canol ei oedran, yn eistedd, ac yr oedd yn edrych yn addfwyn, yn dirion, ac o wynebpryd anrhydeddus, a'i enw ef ydoedd Diwygiad. A'r gwr hwn ydoedd yn gofalu am y golofn hon, ac yn edrych atti, rhag i ddim cam neu ogan gael ei wneuthur iddi, gan ladron neu yspeilwyr, y rhai oedd yn aflonyddu ar y ffordd, neu gan ryw un o'r cawri o gynnulleidfa y Pab, canys y mae efe yn cadw cynnulleidfa neu fyddinoedd mawr at orchymyn, oherwydd y mae ei ogof yn fawr ac yn helaeth iawn, ac y mae ei fyddinoedd ef yn arferol ar amserau o dorri allan, ac yn gwneuthur llawer o ddrygau ysgeler, gan anrheithio y gwledydd cymmydogaethol yn erchyll; ond yn awr yr oedd Diwygiad yn cadw byddin o wŷr mor lliosog a'i fyddin yntef agos, a chanddo gymmaint o le yn ei ogof i'w llettya hwynt ag oedd angenrheidiol, ac ar amserau y byddent yn myned allan i ymryson, ac yn fynych yn ymosod i ymladd â byddinoedd y Pab; am hynny, fe fyddai y ddaear yn fynych a chyrph meirwon wedi eu sarnu ar hyd-ddi, a gwaed wedi ei halogi, hyd nes caffent eu claddu drachefn allan o'r golwg. Hyn oll a ddysgodd Cydwybod-dyner gan ryw un a ddaethai allan o Ogof Diwygiad, ac a gyd-ymddiddanodd âg ef, ac a adroddodd hyn a llawer yn ychwaneg o fatterion ereill hefyd, fel yr oeddynt yn sefyll ac yn ymddiddan wrth y golofn.

O'r diwedd fe ddeallodd y gwr hwn fod Cydwybod-dyner yn dyfod o Ddyffryn Dystryw, a'i fod ef yn myned i Ierusalem nefol; ac yr oedd ef yn ymofyngar iawn am ei wlad, a gwlad ei enedigaeth, 'Canys,' ebe fe, 'myfi a glywais fy nhad yn dywedyd, mai yn y wlad hon y ganed finnau hefyd, ac fe'm dygwyd i oddi yno pan oeddwn yn ieuangc iawn, a phan ddaeth fy nhad i'r lle hwn, efe a'm gadawodd i ofal a chadwriaeth Diwygiad, gyda yr hwn yr arhosais hyd yn hyn, a pha beth a ddaeth o'm tad nis gwn i, a pha un a gaf ei weled ef byth ai nis caf; eithr yr ydwyf yn cofio ei fod yn arfer son yn fynych am fyned i'r ddinas nefol, ac yr ydwyf yn tybied mai dyma y lle, sef yr un man ag yr ydych chwithau yn ymdeithio tuag atto yn awr, ac am hynny, os derbyniwch chwi fi i'ch cymdeithas, fe fydd yn llawen gennyf gael cydymdeithio â chwi, gan obeithio y caf weled fy nhad yno, neu glywed rhyw beth am dano; ac heblaw hyn, y maent yn dywedyd fod bywioliaeth ogoneddus yn y ddinas honno, a'i bod yn un o'r lleoedd cyfoethocaf yn y byd, gan hynny yr wyf yn ewyllysgar i ymdeithio gyda chwi, mewn gobaith y caf finnau fyw yn y ddinas ogoneddus honno.

CYD.-DY. Yr ydwyf fi yn caru eich tueddiadau yn dda ddigon, oblegid i mi gael teithio hyd yn hyn wrthyf fy hun, yr hyn a barodd fod y ffordd yn ymddangos yn feithach i mi, ac fe fyddai cydymaith y rhan arall o honi, am a wn i, yn fuddiol, i gyd-ymddifyru mewn trymder, ac i galonogi y naill y llall yn ein pererindod. Eithr mae yn rhaid i mi gael hysbysu un peth i chwi yn gyntaf, a hynny yw, y bydd eich taith yn gwbl ddifudd, yr wyf yn ofni, o eisiau i chwi ddyfod i mewn trwy y Porth Cyfyng sydd yn mhen y ffordd gul yma, a gallu o honoch gael llythyr tystiolaeth gan y Dehonglwr, canys yr wyf yn sicr fod y Brenhin wedi rhoddi gorchymyn caeth, ac wedi cyhoeddi, na chai neb eu derbyn i'r ddinas nefol ag a fyddai heb y nodau hyn ganddynt.

Yna Ceisio'r-gwirionedd (canys felly y gelwid ef) a attebodd, gan ddywedyd, Y mae gennyf lythyr tystiolaeth, yr hwn a fynnodd fy nhad i mi, pan y dygodd efe fi gydag ef, ac efe a ddywedodd wrthyf, iddo ei gael ef gan y Dehonglwr, ac a archodd i mi fod yn sicr i gymmeryd gofal mawr am dano.

CYD.-DY. Pa beth oedd enw eich tad chwi? ac o ba le y daeth ef?

CEISIO'R-GWIR. Ychydig-ffydd oedd ei enw ef, ac efe a ddaeth o Dref Diragrith.

CYD.-DY. Ow! yr ydwyf yn credu i mi glywed siarad yn ei gylch, os efe oedd yr hwn ydwyf fi yn feddwl, fe aeth son iddo gael ei yspeilio gan ladron yn y lle a elwir Heol-y-Dyn-marw.

CEISIO'R-GWIR. Yr wyf yn gobeithio na fu ddim felly, canys yr wyf yn sicr fod ganddo lawer o aur ac arian oddi amgylch iddo, ac heblaw hynny, yr oedd ganddo lawer o berlau gwerthfawr; ïe, mi ddywedaf ei fod yn cario ei holl gyfoeth gydag ef, ac os felly y bu, iddo gael ei yspeilio ar y ffordd, yr oedd ef yn eithaf blin ac annedwydd, ac yr ydwyf fi yn hollol anesmwyth o herwydd y newydd drwg hwn; ac nis gallaf fod yn llonydd nes i mi gael ymofyn yn mhellach yn ei gylch: ac am hynny, os gwelwch chwi

fod yn dda, gadewch i ni frysio i fyned ymlaen yn ein taith, a chant i un, oni chaf fi gopinod mwy neillduol o'r matter yma, fel yr elom ymlaen yn ein ffordd; yn unig mi a gaf alw ar ddau neu dri yn ychwaneg o'm cyfeillion, y rhai sydd yn dymuno yn fawr i fyned ar bererindod tua'r wlad nefol, ac fe fydd yn llawen ganddynt gael y cyfleusdra hyn yn eich cyfeillach ddymunol chwi; felly efe a redodd i'r ogof, ac a alwodd am Meddwl-gwresog, Blino-ar-y-byd, Dychwelwr, a Pharod-i-ildio, a hwy a aethant allan i gyd, i gael gwybod beth oedd ganddo ef.

MEDDWL-GWRESOG. A ydych chwi yn sicr, ebe Meddwl-gwresog, nad oes dim niwed yn bod, pan y mae Ceisio'r-gwirionedd yn ein galw ni allan.

CEISIO'R-GWIR. Nac oes, fy nghyfeillion, yr wyf yn eich galw er eich daioni, yr wyf yn gobeithio, ac er mwyn cyflawni eich dymuniadau, canys chwi a ddywedasoch wrthyf yn fynych pa mor ddymunol y buasai gennych chwi oll gael myned ar bererindod tua'r ddinas nefol; ac yn awr, y mae yma ddyn ag sydd yn myned tuag yno, ac y mae yn dda ganddo gael eich cymdeithas: ac, o'm rhan i, yr wyf wedi ymroddi i fyned gydag ef; ond gwnewch chwi fel y gweloch yn dda.

BLINO-AR-Y-BYD. Mi ddeuaf finnau hefyd, ebe Blino-ar-y-byd, canys nid oes yma ddim yn y wlad hon, ond poen, blinder, gofid, gofalon, a phob math o ddrygioni; ni arosaf fi yma un diwrnod ond hynny, pe bawn yn gallu myned yn frenhin: deuwch, gadewch i ni ymysgwyd.[b]

DYCHWELWR. Yr wyf yn ennyn mewn dymuniad am fyned i'r lle gogoneddus, am yr hwn le y clywais gymmaint o bethau ardderchog yn ei gylch: ni ofalwn i pa galedi yr awn danynt, neu pa faint o gystuddiau a ddyoddefwn, neu sydd ar fy medr, ond i mi gael myned i mewn yno yn y diwedd.

PAROD-I-ILDIO. Yn wir, o'm rhan i, yr wyf yn caru eich cymdeithas cyn gystal, ag y gallwn fyned gyda chwi â'm holl galon hyd y diwedd, canys eich ymddiddan sydd mor gall, ac y mae gennych y fath chwedlau prydferth, fel ag yr ydych yn ennill fy nghalon i'ch caru chwi. Yr oeddwn i yn barod i doddi, pan y clywais Ceisio'r-gwirionedd yn adrodd am y fath bethau dyeithr ag sydd yn y wlad nefol; a phan oedd ef yn son am daith ei dad o Ddyffryn Dystryw, a pha mor garuaidd yr ymgeleddwyd ef ar y ffordd, mewn amrywiol deiau da.[c]

CEISIO'R-GWIR. Wel, os ydych chwi oll yn cydsynio, deuwch, a chanlynwch fi, a mi a'ch dygaf at y gwr, yr hwn sydd yn awr ar ei bererindod tua Sïon; canys y mae efe yn sefyll nid yn mhell oddiwrth enau yr ogof hon, sef wrth y golofn lle mae yr

[b] Mae rhai o herwydd eu gofidiau yn y byd yn taro at grefydd, ond ar yr un pryd heb gael eu dwyn i brofi nerthoedd y byd a ddaw, trwy waith gras ar eu heneidiau; er blino ar y byd, nid ydynt wedi blino ar bechod, nac wedi ffoi at Grist am noddfa.

[c] Mae rhai dynion yn hoff ganddynt am ryw beth newydd, ac y mae ganddynt awch neillduol at grefydd dros ennyd.

hanesion wedi eu hysgrifenu arni; felly hwy a'i canlynasant ef oll o un fryd, ac a aethant ymaith oddiwrth yr ogof, ac a gawsant Cydwybod-dyner yn disgwyl am danynt: yna hwy a aethant i fynu atto ef, ac a gyfarchasant iddo ef bob yn un ac un. Ac wedi i rai gofyniadau fyned heibio o bob ochr, hwy a ymosodasant i gychwyn oll gyda'u gilydd.

Yn awr mi a welwn yn fy mreuddwyd, fel yr oeddynt yn myned i fynu ar hyd rhyw fath o dir ag oedd ar ei godiad tuag i fynu, hwy a welent ryw wr yn myned o'u blaen, yn cerdded mewn dull rheolaidd; yna hwy a frysiasant ymlaen er mwyn ei orddiwes ef, canys wrth ei fynediad yr oeddynt yn dychymygu mai nid rhyw ddyn adwythig oedd efe, ond yn gyffelyb i ddyn doeth; oblegid wrth ymddygiad gwr y gellir gwybod pa beth yw ef. Felly pan ddaethant i fynu atto ef, hwy a gyfarchasant well iddo: yntef a drodd eu cyfarchiad, mewn modd a ddangosai dawelwch a sirioldeb ei feddwl

Yna Cydwybod-dyner a ddywedodd wrtho, Syr, os gall dyn dieithr gymmeryd ei ryddid i ofyn holiad i chwi, yr wyf yn deisyf arnoch hysbysu i mi, onid Dyn-ysbrydol yw eich enw chwi? canys yr ydwyf yn tybied i mi eich gweled chwi o'r blaen, ac fe ddywedwyd wrthyf mai felly y gelwir chwi.

DYN-YSBRYDOL. Iё, ebe y Dyn-ysbrydol, myfi yw, chwi a gyffyrddasoch â'm henw, ac yr ydych yn fy adnabod i; er hynny, nid wyf yn gwbl berffaith: etto yr wyf yn eich adnabod chwi yn dda ddigon, ac mi a adwaen eich cyfeillion chwi oll, ac yr ydwyf yn llawen eich gweled chwi, wedi dyfod cyn belled yn eich taith tua'r ddinas nefol, lle yr wyf fi a chwithau yn bwriadu myned.

CYD.-DY. Nid yw yn rhyfedd gennyf fi eich bod yn fy adnabod, ac yn adnabod y gwŷr hyn sydd gyda mi, canys myfi a glywais am bob dyn sanctaidd a duwiol, fel Paul yr apostol, (1 Cor. xi. 15,) "eich bod yn gwybod pob dim, ac yn barnu pob dim;" ac am hynny, y mae yn llawen gennyf, ein bod ni oll mor ddedwydd a'ch goddiweddyd chwi ar y ffordd, ac yr ydwyf yn gobeithio y cawn eich cyfeillach ddaionus o hyn hyd ddiwedd ein taith.

DYN-YSBRYDOL. Byddaf yn ewyllysgar iawn, canys dyma yw fy hyfrydwch i, i gadw cymdeithas y sawl sydd yn troi eu hwynebau tua Sïon, ac yn myned tuag yno: megys ag yr ydwyf yn amgyffred eich bod chwi yn bresennol: eithr mi a debygwn fod yn eich cymdeithas chwi yma ddyn ieuangc, yr hwn ydwyf yn ofni ei fod yn analluog i fyned trwy y fath daith hirfaith a hon, ac y bydd iddo lewygu ar y ffordd, neu droi i ryw ochr gyda rhai o'r gwenieithwyr, neu wrthgilwyr; neu gymmeryd ei breswylfod yn Ffair Gwagedd. Ac yna efe a drodd at Mr. Parod-i-ildio, ac a ddywedodd wrtho, Ti yw y dyn wyf fi yn ei feddwl; a ydwyt ti yn meddwl dy fod yn alluog i ddal allan yr holl ffordd i fyned i'r Ierusalem nefol?

PAROD-I-ILDIO. Nid wyf fi yn gwneuthur dim holiad o honi, Syr, canys yr ydwyf yn profi fy mod mewn iechyd da, ac yn gallu cerdded cystal ag un o'r cymdeithion.

Yna hwy a aethant ymlaen gyda'u gilydd, hyd oni ddaethant i anialwch mawr, lle

yr oedd amrywiol o ffyrdd, yn arwain i amrywiol o leoedd; ac oni buasai am y Dyn-ysbrydol, (canys efe yn unig oedd yn gwybod y ffordd uniawn,) mae yn ddi-ddadl y buasent yn crwydro mewn rhai neu gilydd o'r llwybrau cyfeiliornus a pheryglus hyn; ac yn cael eu distrywio gan fwystfilod gwylltion, neu yn cael eu cymmeryd yn garcharorion gan rai o'r cawri creulawn, y rhai yr oedd eu cestyll yn sefyll yn y cyrrau pellaf o'r anialwch. A hyn a barodd iddynt oll ddangos llawer iawn o barch ac ufudd-dod i'r Dyn-ysbrydol, a'i gymmeradwyo ef fel yn arweinydd, yn geidwad, ac yn gynddelw iddynt o hyd mwy. Ac felly hwy a aethant ymlaen gyda'u gilydd, hyd oni ddaethant i fan lle yr oedd allor wedi ei hadeiladu, ac yr oedd arogl-darth yn llosgi arni, ac yr oedd arogliad y mygdarthiad peraroglaidd hwn yn rhinweddol iawn i adnewyddu ysbrydoedd y pererinion. Yna fe lefarodd y Dyn-ysbrydol i'r dyben hyn: Fy mrodyr, mae yn rhaid i chwi wybod fod yr anialwch hwn yn cael ei gynniweirio gan fwystfilod gwylltion, a lladron, yspeilwyr, a llofruddion, ysbrydion ac ellyllon drwg, y rhai sydd yn rhuthro yn fynych ar y pererinion tlodion ar hyd y nos, ac hefyd ar hyd y dydd ar amserau. Ac yn awr, os buasem ni yn cymmeryd un o'r ffyrdd ereill, ni a fuasem mewn perygl o syrthio yn eu crafangau melldigedig hwy; ond yn awr, yr wyf yn gobeithio na fydd i un o'r fath beryglon ein cwrdd, os chwi a ddilynwch fy nghyngorion i. [d]

CYD.-DY. Yr ydym ni yn barod i ufuddhâu i ti yn mhob peth, canys yr ydwyf yn gweled mai gwr Duw ydwyt ti; ac fod gennyt feddwl Crist. Dywed i ni, gan hynny, pa beth a wnawn ni, fel y byddom yn ddiogel rhag pob peryglon a'n hamgylchyno yn y lle hwn.

DYN-YSBRYDOL. Yr ydych chwi yn gweled yr allor hon sydd a'i harogl-darth yn wastadol yn mygu, ac yn dyrchafu i fynu yn gwmmwl o arogl peraidd tua'r nefoedd. Ac yn awr, y mae mwg yr arogl-darth hwn yn cadw ymaith bob math o ellyllon drwg, ac mae y tân sydd ar yr allor hon yn cadw ymaith bob math o fwystfilod rheibus. Ac os ydych chwi, gan hynny, yn dymuno bod yn rhydd oddiwrth beryglon y bwystfilod rheibus hyn, cymmered pob un o honoch farworyn oddiar yr allor hon, i'w ddwyn gydag ef bob amser: ac os ydych yn ewyllysio bod yn rhydd oddiwrth ysbrydion drwg ac ellyllon; cymmered o olew yr arogl-darth hwn, yr hwn sydd yn nhrysordy yr allor, a dyged gydag ef wrth fyned trwy yr anialwch; a chynneued yn fynych dân oddiwrth farwor sydd ar yr allor, a llosged yr arogl-darth hwn; ac felly y cedwir ef rhag pob drwg. Cadwed ysbryd deffrous mewn gweddi, a gwir wres duwioldeb o'i fewn, trwy wneuthur arferiad daionus o ras Duw; canys y mae calon y gwr defosiynol, a'r hwn sydd yn ofni Duw, fel allor yn arogl-darthu yn feunyddiol, ac yn dyrchafu i fynu saeth-weddïau duwiol, y rhai sydd yn arogli arogl peraidd ger bron Duw. Mae y cyfryw ddyn yn tynnu atto ei hun fendithion nefol, ac amddiffyniad oddiwrth Dduw. [e]

[d] Dedwydd yw y rhai sydd yn synied pethau ysbrydol, ac nid yn rhodio mwyach ar ol y cnawd.

[e] Trwy offrymu arogl-darth ein gweddïau ar y wir allor, sef cyfryngdod Crist, mae i ni gael ein gwared rhag pob drygau.

CYD.-DY. Pa fodd y mae i ddyn weddïo? ai wrth ffurf, neu heb ffurf? ai mewn geiriau, neu mewn distawrwydd?

DYN-YSBRYDOL. Fel y caffoch well boddlonrwydd yn y pwngc hwn, deallwch, mai gweddi yw ymddiddaniad yr enaid, neu ei gyfeillach â Duw. Ac yn awr, wrth ystyried fod Duw yn gwybod pob peth, ac yn amgyffred meddyliau dirgel ein calonau, y mae yn beth diwahaniaeth mewn gweddi ddirgel, pa un a wnelom ai arferyd geiriau ai peidio, oblegid yr enaid sydd, ac a all ymddiddan a chyfeillachu â Duw mewn distawrwydd yr un fath ag mewn geiriau: mae yn hytrach rai prydiau yn well, oblegid fe all ymsefydlu mewn astudrwydd distaw ragflaenu meddyliau crwydredig, y rhai sydd yn gweithio i mewn i'r enaid, mewn gweddi gyhoeddus yn fynych, nes byddai ei weddi yn gyffelyb i addoliad gwefus; megys y mae yr Arglwydd yn achwyn yn y dyddiau gynt. "Y bobl hyn sydd yn nesâu attaf fi â'u geneuau, ac yn fy anrhydeddu â'u gwefusau, ond eu calon sydd bell oddi wrthyf." Eithr pa fodd bynnag, y mae gweddi ddistaw neu dufewnol yn rhodd yr hon nid yw pawb yn ddigonol i'w chyflawni, heb fod ganddynt adnewyddiad yr Ysbryd, a meddwl tawel, wrth weddïo felly: ac y mae yn gymhwys i'r dynion a'r na allant gadw meddwl llonydd, i arferyd geiriau. Eithr pa un a wnelont, ai arferyd geiriau ai peidio, nid yw o gymmaint pwys. Eithr gadewch i mi yn unig roddi y gocheliad hwn yn rhybudd mewn pryd; sef, y dylai y rhai sydd yn arfer gweddi ddifyfyr fod yn ofalus rhag gwneuthur dim yn anweddaidd; trwy lefaru ymadroddion anghymwys a gwag-siaradus, neu adrodd llawer mwy o eiriau nac a fyddai raid; ac felly anfoddloni y Goruchaf; yr hwn sydd yn gwybod ein hangenrheidiau cyn y gofynom ni hwynt, ac yn gofyn gostyngeiddrwydd a thueddiad gwastadol ein calonau tuag atto ef, am yr hyn yr ydym yn sefyll mewn diffyg o honynt; nid yw yr holl eiriau yn y byd, a'r holl areithiau hardd godidog, a'r holl daclusrwydd mewn dyrchafu a gostwng llais, a'r diwedd-gload mwyaf prydferth yn y byd, heb ysbryd briw, ond fel efydd yn seinio, neu symbal yn tingcian, yn nghlustiau Duw; ac am hynny da yw cynghor Solomon:—"Pan ddelych i dŷ Dduw, bydded dy eiriau yn anaml, a bydd barottach i wrando nac i roddi aberth ffyliaid:" yr arwyddocâd wrth hyn yw, fod amlhâu geiriau mewn gweddi yn gyffelyb i aberth ffyliaid: ac un sydd fwy na Solomon a ddywedodd, (Mat. vi. 7, 8,) "Pan weddïoch, na fyddwch wag-siaradus fel y Cenhedloedd, canys y maent hwy yn tybied y cânt eu gwrando am eu haml-eiriau: na fyddwch chwi gan hynny gyffelyb iddynt hwy; canys gŵyr eich Tad nefol pa bethau sydd arnoch eu heisiau cyn y gofynoch iddo." Ac am hynny y mae y ffurf o weddi, yr hon y mae Crist yn ei phennodi iddynt hwy, fel cynllun, yn bur fyr, ond yn gynnwysfawr iawn, yn crynhoi ynghyd mewn llawer llai na chant o eiriau, holl rannau gweddi i gyd, megys addoliad, diolchgarwch, offrymiad, eiriolaeth, cyfaddefiad, &c., ac y mae yn ddiddadl ei fod ef yn pennodi hyn yn gynllun i bawb ag a fyddai yn galw ar Dduw, fod iddynt mewn parch a gostyngeiddrwydd duwiol beidio arferyd ond ychydig eiriau, a'r rhai hynny yn deimladwy, yn synhwyrol, yn

gynnwysfawr, ac yn weddus i ddyfod o flaen y Duw Goruchaf, at yr hwn yr ydym yn cyfeirio ein hunain mewn gweddi.[f]

CYD.-DY. Chwi a roddasoch foddlonrwydd helaeth i mi yn y matter yma, yr hwn yn fynych a'm haflonyddodd yn fy meddyliau, ac a'm cadwodd yn rhy bell ar encil oddiwrth Dduw, heb wybod yn sicr pa fodd i weddïo yn gymmeradwy. Ond yn awr mi gefais fy ngoleuo fod Duw yn gofyn y galon yn gyfan iddo ei hun, a hynny o achos ei fod ef yn Ysbryd; ïe, a'r puraf o'r holl ysbrydion; yr hwn y mae yn rhaid ei wasanaethu mewn ysbryd a gwirionedd, yr hyn nis gellir ei wneuthur nes byddo y galon yn cyd-fyned â'r genau, ac os bydd hynny mewn gwirionedd; yna ni waeth pa un ai bod ffurf o eiriau yn cael eu harfer: gwresogrwydd a sefydliad y meddwl, a chariad rheolaidd, ynghyd â deisyfiadau cyfreithlawn, ydyw y pethau sydd yn cael eu cymmeradwyo fwyaf gan y Mawrhydi nefol.[g]

CEISIO'R-GWIR. Pa mor hyfryd yr ydwyf fi yn cael fy ngoleuo yn y fath gymdeithas dduwiol; mi a fum yn hir iawn yn ymofyn ac yn chwilio pa beth oedd natur a rhwymedigaeth dyledswyddau Cristion, ac yn enwedig y ddyledswydd hon, sef *gweddi*, yr hon a ddyrysodd lawer ar amryw o ddynion o fwriadau da: ond ni chefais erioed gymmaint o gysur a boddlonrwydd ag a gefais yn awr yn eich ymddiddanion chwi.

BLINO-AR-Y-BYD. Yr wyf fi yn brofiadol o'r hyn a ddywedwyd am weddi, canys yr ydwyf yn cael fod llawer o anmherffeithrwydd yn fy nghyflawniadau goreu; nid oes gennyf un galon, rai prydiau, i anturio i fyned i weddi yn gyhoeddus, canys os âf, fe fydd fy nghalon, ar ol llaw, yn fy nharo i am fod yn anfoddloni Duw, canys tra fyddwn yn nghanol fy nawswyllt eiriau, ac ymadroddion defosiynol, fe fyddai fy meddyliau yn sefydlu yn lân ffordd arall, tra fyddai fy nhafod yn bablan fel piogen wrth Dduw, a'm calon yn crwydro gan y diafol mewn mil a wag-feddyliau, a hynny yn nghanol y prysurdeb mwyaf crefyddol, a'r geiriau mwyaf gwresog a duwiol yn y byd. Nis gwn i pa fodd mae yn bod gyda dynion ereill, na phwy oruchafiaeth y maent yn gael ar hyn; eithr o'm rhan fy hun, yr wyf yn gwybod tra byddwyf yn dwyn cîg a gwaed oddi amgylch i mi, nis gallaf ryfygu dywedyd fy mod yn rhydd oddiwrth ynfydrwydd, dieithrwch meddwl, oerfelgarwch, diofalwch, a diflasrwydd, yn fy oriau mwyaf tawel a defosiynol; pa faint llai y gallaf obeithio bod yn rhydd oddiwrth y fath ffaeledigaethau, pryd ag y byddwyf yn rhoi llywodraeth i'm tafod, ac yn gadael fy nhafod i bratiau lluosogrwydd o eiriau ffurfiol. Yr

[f] Mae yn sicr na ddichon un ffurf o weddi gynnwys yr amrywiol bethau sydd yn angenrheidiol i ni yn ol ein hamrywiol achosion, ac etto ni ddylid yn hollol ddistadlu ffurfiau o weddi, yn yr addoliad cyhoeddus nac yn y teulu. Fe ddylai y rhai fo yn gweddïo heb lyfr na ffurf, bwyso eu geiriau, ac arferyd ymadroddion addas, ond yn enwedig hwy a ddylent weddïo o'r galon, ac oddiar deimlad o'u hangen. Mae gweddi daer a gwresog, a gostyngedig, o fawr effaith gyda Duw.

[g] Teilwng o ystyriaeth ddwys yw geiriau y Pererin, y dylai fod gwresogrwydd ysbryd yn ein gweddïau, a'r meddwl wedi ei sefydlu ar Dduw, a'n deisyfiadau am bethau cyfreithlawn, sef am bethau addawedig.

wyf yn cael ei bod yn digwydd gyda mi, megys yr ydwyf yn clywed dywedyd fod y cerddorion yn gwneuthur, y rhai trwy hir gynnefino eu hunain i chwareu ar eu hoffer cerdd, hyd nes y delont, o'r diwedd, i'r fath agwedd ag y gallant redeg dros eu tônau cynnefin, heb ystyried, neu roddi cyfrif pa beth y maent yn ei wneuthur. Nid wyf fi, trwy hyn yma, yn condemnio yr arfer o weddi gyhoeddus; canys y mae yn ddiamheuaeth ei bod yn fuddiol i rai dynion, ac yn angenrheidiol yn y dull o addoliad cyhoeddus i Dduw, lle y mae llawer o bobl yn cyd-uno i offrymu i fynu yr un deisyfiadau, diolchgarwch, a chyfaddefiadau, &c., yr hyn ni ellir ei gyflawni heb ffurf o eiriau, yr hyn sydd yr unig foddion gweddus i ddwyn ein bwriadau a'n meddyliau y naill at y llall, ac yn ganlynol, i wneuthur pawb ereill yn ystyriol o'r hyn oll ag yr ydym ni yn ei weddïo. Yn fyr, fy marn i am dderbyniad ein gweddi gyda Duw, nas gwaeth pa un a wnelom ai arferyd geiriau ai peidio, yn ddirgel neu yn gyhoeddus. Eithr mewn perthynas i ni ein hunain, y mae geiriau yn eu lle mewn addoliad cyhoeddus, ac astudrwydd gwresog y meddwl, yn hollol angenrheidiol yn ddirgel ac yn gyhoeddus, ag sydd fel yr unig foddion effeithiol i gymhwyso ein gweddïau, a'u cymmeradwyo ger bron y Mawrhydi nefol.

Yna mi a glywn yn fy mreuddwyd megys ag yr oeddynt yn myned ymlaen yn yr anialwch, yr holl fwystfilod gwylltion yn rhuo yn erchyll, ac yn gwneuthur lleisiau arswydus, yr hyn a barodd fraw a syndod ar rai o honynt: eithr y lleill ag oedd yn fwy calonog a'u hannogasant hwy i gryfhâu a dyfod yn mlaen. Ac felly o'r diwedd hwy a aethant allan o'r anialwch, ac a ddaethant i olwg Tref Gwagedd, lle y rhoddwyd Ffyddlawn i farwolaeth, am ei dystiolaeth o'r gwirionedd: ac yn awr yr oedd hi yn dref ardderchog a godidog iawn i'r olwg, yn llawn temlau ac adeiladau hardd, a thyrau uchel, wedi ei haddurno a'i goreuro âg aur, a phob math arall o harddwch gwerthfawr, yn disgleirio yn hynod iawn yn llewyrch yr haul. Hefyd, yr oedd y dref yn helaeth ac yn boblog iawn, ac yr oedd yma ryw swn parhaus, ac a ellid ei glywed o bell, fel rhuad tonnau y môr, gan y torfeydd lluosog o ddynion oedd ynddi; ac yr oedd y cerbydau a'r meirch yn gyrru yn wastadol i fynu ac i waered ar hyd yr heolydd, ac yn gwneuthur swn anghydsain, yr hyn a barodd i Mr. Parod-i-ildio, druan gwr, i feddwl mai hon oedd y ddinas i ba un yr oeddynt hwy oll yn ceisio myned iddi; felly efe a ddechreuodd ymhyfrydu yn y ffugwyr gogoneddus oedd yn cael ei wneuthur yn y dref hon, fel ag yr oedd ef yn cael gwaith ymattal rhag rhedeg i mewn yno o flaen y lleill o'r cymdeithion. Pan ganfu y Dyn-ysbrydol ef, efe a ddywedodd wrtho, Ddyn ieuangc, peidiwch a cham-gymmeryd, canys nid hon yw y ddinas nefol, megys ag yr ydych chwi yn dychymygu, er gwyched a thecced yw hi i'r golwg, canys Babylon yw Tref y Cymmysgedd a Gwagedd: ac er bod ein ffordd ni yn myned trwyddi hi, etto nid ydym yn aros yma ond dros ychydig bach o amser, megys mewn lletty, ac ni raid i ni feddwl ein bod yn aros dros fyth yn y ddinas hon.

PAROD-I-ILDIO. Syr, yn wir mi a feddyliais wrth y desgrifiad a roddwyd i mi am y ddinas ogoneddus, mai dyma y lle mewn gwirionedd; eithr yn awr chwi a roddasoch foddlonrwydd i mi ar y llaw arall, mai nad ê.

Felly y pererinion a aethant ymlaen, ac a ddaethant i mewn i'r dref, ac yno hwy a gawsant lawer iawn o anmharch, a diystyrwch, a gogan gan bobl y ffair wrth fyned yn mlaen, a hynny o achos y gwisgoedd dieithr ac anarferol oedd am danynt, ac o herwydd nad oedd nôd y bwystfil ganddynt ar eu talcenau, nac ar eu llaw ddehau, megys ag yr oedd gan holl drigolion y dref hon: ac am hynny y gwyr ieuaingc a'u hwtiasant ac a'u gwatwarasant, ac a waeddasant ar eu hol; a'r lliaws a gyd-redasant attynt, ïe, rhai o'r bonedd a daflasant lwch a dom arnynt, fel ag yr oeddynt yn myned heibio eu drysau, ac a'u gwawdiasant, ac a'u dirmygasant, ac fe gyhoeddwyd pob math o enllib arnynt trwy yr holl dref, ac nid oedd ond ychydig iawn o ddynion yn yr holl dref a ddangosasant iddynt ddim tosturi, na mwyneidd-dra. Ond ni wnaeth hyn oll ddim digalondid i neb o honynt, oddieithr y gwr ieuangc hwnnw ag y bu Dyn-ysbrydol yn ei rybuddio ychydig o'r blaen, enw yr hwn oedd Parod-i-ildio, yr hwn yn wir a ddigalonodd yn fawr trwy anghareiddiwch ac ymddygiad anfoesol gwŷr y dref tuag at ei gyfeillion, ac a ddenwyd yn gadarn i fyned ymaith oddi wrthynt, trwy ymadrodd rhyw ddyn dengar a'i cynghorodd ef i adael y fath frawdoliaeth bendröedig, benysgafn, o ddynion ffol, (canys felly yr oedd ef yn galw y pererinion,) ac i ddyfod atto ef i drigo, ac y cai ef bob peth wrth ei ddymuniad; felly efe a gydsyniodd yn fuan â hynny, ac a adawodd ei gymdeithion, ac a ganlynodd y gwr, yr hwn a'i harweiniodd i dŷ tafarn oedd yn Heol y Farchnad, ac a ddanfonodd am rai o'i gyfeillion llawen i gael yfed, a bod yn ddifyr: hefyd hwy a yfasant i gywilyddio y pererinion ag oedd yn myned tua'r ddinas nefol: eithr ychydig a ennillodd Mr. Parod-i-ildio oddiwrth y chwareu, canys efe a glafychodd trwy ormod gloddest ar wîn, ac a fu farw yn ddisymmwth y noson honno.

TREF GWAGEDD.

Yn y cyfamser, tra yr oedd y lleill o'r perinion yn myned heibio trwy heolydd y dref, hwy a gawsant eu trallodi a'u blino ar bob llaw gan lawer math o ddynion taeog, ac yr oedd eu cynddeiriogrwydd hwy tuag attynt yn ol eu sefyllfa, yn gwneuthur y lleill i edrych ryw beth yn fwy mwynaidd a phwyllog trwy y cwbl: fel hyn yr aethant ymlaen nes y daethant i le a elwid y Masnachdy, lle yr oedd y marchnatäwyr yn arferol o gyfarfod i elwa; ac yma yr oedd pobl o bob cenedl, llwyth, ac iaith, a dynion yn brysur iawn wrth eu gorchwylion neu eu masnach. Eithr pan ddaeth y pererinion i'w plith hwynt, hwy a adawsant eu gorchwylion, a'u cleber, pawb yn gyttun, gan sefyll i lygadrythu ar y dieithriaid hyn, gan ddywedyd yn eu plith eu hunain, 'Beth yw y dynion gwladaidd hyn, sydd yn ymddangos yn y fath wisgoedd anarferol yma, y rhai sydd yn wahanol oddiwrth bawb a'r y sydd yn cynniwair un amser i'r lle hwn?'

Yna mi a welwn yn fy mreuddwyd fod Meddwl-gwresog, sef un o'r pererinion, yn

sefyll i fynu; ac yn llefaru wrth y dyrfa, gan ddywedyd, 'Ha wŷr frodyr, y rhai sydd yn gyfranog o'r un cîg a gwaed a ninnau, paham y sefwch i edrych arnom ni, megys pe byddai rhyw beth newydd yn digwydd i chwi, y fath ni chlywsoch am dano, ac na welsoch erioed o'r blaen? A ydych wedi anghofio y dyddiau yn mha rai yr aeth Cristion a Ffyddlawn trwy eich tref chwi, y pryd y llosgwyd un o honynt am ddwyn tystiolaeth i'r gwirionedd; a'r llall, er iddo gael ei garcharu, etto, trwy allu anfeidrol, a rhagddarbodaeth Duw, a ddihangodd rhag eich llid a'ch cenfigen chwi? A ydyw y pethau hyn allan o goffadwriaeth yn hollol gennych; neu, a yw eich coflyfrau yn ddistaw ar y matter yma? Yr ydym ni wedi dyfod ar yr un achlysur a hwythau, ac yn myned tu ag at yr un etifeddiaeth; gan hynny, na ryfeddwch am ein gwisgoedd anarferol ni, canys y maent yn llwyr angenrheidiol i bawb o'r rhai hynny ag sydd yn ymdeithio tua mynydd Sïon, ac y maent wedi eu haddurno yn ol trefn y ddinas honno; a phan yr elont i mewn yno, hwy a fyddant yn weddus ac yn ddifeius. A hyn ydyw yr achos paham na'n dilledir ni yn ol dull y dref hon, neu y byd hwn: 'canys nid oes i ni yma ddinas barhâus, eithr yr ydym yn ceisio yr hon sydd i ddyfod, saer ac adeiladydd yr hon yw Duw.' Yna, wedi i Feddwl-gwresog ddiweddu ei ymadroddion, rhai o'r marchnatäwyr a adawsant eu trafferthion, ac a ymlynasant wrth y pererinion, y lleill a'u gwatwarasant, ac a'u dirmygasant hwy: a hwythau a ysgwydasant y llwch oddiwrth eu traed, ac a ymadawsant oddi yno; a'r marchnatäwyr y rhai a adawsant eu masnach, a aethant yn mlaen gyda hwy; a'r bobl a'u canlynasant hwy allan o'r dref, gan waeddi a bloeddio, a'u difenwi hwynt; eithr y pererinion a gofiasant ymadrodd Crist, "Melldigedig yw yr hwn a roddes ei law ar yr aradr ysbrydol, ac a edrycho yn ei ol." Ac ni wnaethant gyfrif o'u lleisiau bonllefus hwy, eithr cadwasant eu gyrfa yn y blaen ar hyd prif-ffordd y Brenin, heb droi ar y llaw ddehau nac ar y llaw aswy; ond myned rhagddynt yn union-gyrch yn ffordd yr Arglwydd eu Duw, hyd nes y daethant i fryn Esmwythdra, yn mha le y clybu y marchnatäwyr eiriau hudoliaethus yr hen Ddemas, ac yna hwy a aethant i waered i'r mŵn-glawdd arian, i gloddio am drysorau llygredig. Eithr y lleill o'r pererinion ni throisant ar un llaw o'r ffordd, er mwyn dilyn elw halogedig, er hynny nid aethant yn neppell nes i un o honynt, enw yr hwn oedd Blino-ar-y-byd, droi oddi amgylch i edrych drach ei gefn ar y mŵn-glawdd arian; ond pan y canfu Gwr-ysbrydol ef, efe a ymaflodd yn ei fraich fel ag yr oedd yn myned i droi oddi amgylch, ac a'i hattaliodd ef, gan ddywedyd, 'Frawd, dyma ddrych yn y fan o'ch blaen, yr hwn a ddatguddia i chwi y perygl o edrych yn ol yn y lle hwn.' Yna efe a ddangosodd iddo y golofn halen, i'r hon y cafodd gwraig Lot ei throi, yr hon oedd yn sefyll yn union-gyrch o'u blaen hwynt ar ochr y ffordd; yna Blino-ar-y-byd a ddiolchodd iddo am ei rybudd caredigol a'i gynnorthwy, ac a gyfaddefodd iddo gael ei demtio gan feddwl cybyddlyd, yr hwn a barodd iddo gynnyg edrych yn ei ol, tu ag at y mŵn-glawdd arian; eithr ei fod yn awr yn llawen am iddo mewn pryd gael ei

attal rhag y bai a'r gosp, trwy ddangos iddo siampl gwraig Lot, yr hon, am edrych drach ei chefn tua Sodom, a dröwyd yn golofn halen.[h]

Yn awr yn fy mreuddwyd, mi a welwn fod y pererinion yn myned rhagddynt yn eu

AFON DUW. blaen, hyd oni ddaethant at Afon Duw. Ac yr oedd eu ffordd yn gorwedd yn mlaen ar hyd glân yr afon; yr oedd yma breniau yn tyfu, y rhai oedd yn dwyn pob math o ffrwythau hyfryd, y rhai y bwyttaodd y pererinion o honynt gyda mawr foddlonrwydd, ac a gysurwyd yn rhyfeddol: hwy a yfasant hefyd o ddwfr yr afon, rhinwedd yr hwn sydd well na gwîn i lawenhâu yr enaid; ac y mae yma borfeydd gwelltog, yn wyrddlas ac yn hyfryd oll ar hyd glân yr afon; hwy a orweddent i lawr yma er mwyn esmwythâu eu hunain, ac a gyfodent drachefn mewn diogelwch, i ymorol am eu taith. Fel hyn, daethant o'r diwedd i'r fan ag oedd yn arwain at Gastell Amhëus, yr hwn a ddadymchwelwyd yn nyddiau Cristiana a'i chyd-bererinion: felly hwy a aethant heibio i'r gamfa, yr hon yr aeth Cristion a Gobeithiol drosti, pan y cymmerwyd hwy gan y cawr Anobaith, gan gadw ar y brif-ffordd o hyd, heb aros dim mewn un lle, hyd nes daethant i'r Mynyddoedd Hyfryd, ac yma drachefn y cawsant eu diddanu a'u llonni, yn y gerddi ac yn y gwinllanoedd, gan fwytta yn helaeth o'r ffrwythau iachus ag oedd yn tyfu yn y lleoedd hyn. Yn awr, fel yr oeddynt yn myned i fynu ar hyd y mynyddoedd hyfryd yma, hwy a ddaethant o'r diwedd i fynydd ag oedd goruwch yr holl fynyddoedd, ac wedi ei gadarnhâu yn ddyrchafedig goruwch y bryniau, ac fe a elwir "Mynydd tŷ yr Arglwydd." Ac yr oedd y bugeiliaid yn porthi eu praidd ar hyd yr holl fynydd hwn; ac yr oedd yma ddynion o bob cenedl, llwyth, ac iaith, yn rhodio i fynu ac i waered ar hyd y mynyddoedd, ac yn ymddiddan â'r bugeiliaid ar rai amserau, ac ar amserau ereill yn ymddiddan y naill a'r llall.

Felly mi a welwn yn fy mreuddwyd, fel ag yr oedd y pererinion yn myned yn mlaen ar hyd y brif-ffordd; fod rhai o'r bugeiliaid yn sefyll gerllaw ochr y brif-ffordd yn porthi eu praidd; a'r bugeiliaid a ofynasant i'r pererinion, o ba le yr oeddynt yn dyfod, ac i ba le yr oeddynt yn myned; i ba rai yr attebodd y Dyn-ysbrydol fel hyn, Syrs, yr ydym yn dyfod o Ddyffryn Dystryw, ac yr ydym yn myned tua'r ddinas ogoneddus.

BUGEILIAID. Groesaw i chwi hyd yma ar eich taith, canys yr ydych yn awr ar

Y MYNYDDOEDD HYFRYD. ben y Mynyddoedd Hyfryd, sef mynydd tŷ yr Arglwydd; ac y mae yma bobl o bob cenedl, llwyth, ac ieithoedd, yn ymdeithio tuag at yr un lle a chwithau, ond yn unig eu bod yn aros ychydig yma, ar y Mynyddoedd Hyfryd hyn, ac i fwytta y ffrwythau sydd yn tyfu ar y tir sanctaidd hwn, y rhai sydd yn dda i'w hadnewyddu a'u cryfhâu yn eu taith flinedig. Ac yn mhellach, yr ydym ni yn eu hiachâu hwy oddiwrth bob

[h] "Gwreiddyn pob drwg yw arian-garwch," ac er hynny, mae gormod o broffeswyr yn cael eu hudo gan gybydd-dod, wedi iddynt ddiangc rhag llawer o faglau Satan. Crist a ddywed wrth y cyfryw, "Cofiwch wraig Lot."

anhwyldeb mae y pererinion yn ddarostyngedig iddynt yn eu taith drafferthus; ac yr ydym yn gweini yn ewyllysgar iddynt o'r pethau sydd gennym; gan roddi physygwriaeth a chynghor i'r claf, ac agoryd llygaid y deillion, a chlustiau y byddariaid, a gollwng tafod y mudan yn rhydd, fel y gallo fendithio a moliannu yr Arglwydd ei Dduw. Ac i'r dyben hwn rhoddwyd ni yn y lle hwn, sef i weini i'r pererinion; ac y mae ein pebyll ni yn agored i'r holl fforddolion, lle yr ydym yn ymgeleddu y dyeithriaid, y gweddwon a'r amddifaid, y cyfoethog a'r tlawd, y gwan a'r cryf, yr ieuangc a'r hen, ar draul y Brenin, yr hwn sydd wedi darparu bwrdd llawn i bawb a ddel atto; ac a'n gwnaeth ni yn olygwyr arno, i gyfranu oddi yma i bob un yn ol ei angen: y mae gennym laeth i fabanod, a bwyd cryf i'r rhai sydd mewn gwth o oedran; nid yw ein pyrth ni yn cael eu cau ddydd na nos, ac nid ydym yn distewi ddydd na nos, ond yn llefain allan, "Pob un sydd a syched arno, pryned laeth heb arian, a gwîn heb werth: canys yr Arglwydd a wnaeth wledd o basgedigion breision, ac o loyw wîn puredig," ac y mae yn gwahodd pob dyn i ddyfod at ei fwrdd.[1]

Yna yr arweiniodd y bugeiliaid hwy i mewn i'w pebyll, ac a roddasant ger eu bron y fath ddanteithion, na chawsant eu cyffelyb o'r blaen yn eu holl daith, felly y bu iddynt hwythau fwytta ac yfed mewn llawenydd, a hwy a ymadnewyddasant yn rhagorol; ac wedi hynny y gwahoddodd y bugeiliaid hwy allan i rodio ar y mynydd, yr hyn a wnaethant; ac a brofasant ei bod yn iachusol, yn bur, ac yn hyfrydaf yn yr holl fyd, canys yr oedd yn arogli gan flodau, lemon, a phomgranadau, a choed cedrwydd, a phob math o berlysiau, y rhai oedd yn tyfu yn llawn ar y mynydd; felly, trwy y fath ymborth godidog, a'r fath awyr beraidd, eu nerth hwy a adnewyddwyd iddynt fel eryrod, canys hwy a orphwysasant yma gyda'r bugeiliaid, ddau neu dri diwrnod, y rhai a ddangosasant iddynt lawer o ymgeledd, canys yr oedd pob peth ganddynt yn gyffredin yn eu plith eu hunain; a'r pererinion gan hynny a aethant yn eofn i fynu ac i waered o'r naill babell i'r llall, ac a gawsant dderbyniad caredig ymhob lle; canys y wlad yma a elwir Tir Emmanuel, mynydd santaidd, a dinas heddwch; yma y maent yn "gyrru eu gwayw-ffyn yn bladuriau, a'u cleddyfau yn sychau; ac yr oedd pob un yn eistedd yn heddychol o dan ei winwydden a than ei ffigysbren ei hun;" ac nid oedd un dyn yn gwneuthur niwed i'r llall, eithr yr oeddynt yn byw ynghyd, mewn undeb, cariad, a heddwch.

A'r bugeiliaid hefyd a ddangosasant iddynt lawer o bethau rhyfeddol oddiar y mynydd hwn; megys Bryn Cyfeiliorni, a Bryn Gocheliad; a phan ddaeth yr amser i ben, pan ddeisyfodd y pererinion gael myned ar eu taith, yr oedd gan y bugeiliaid olygwr arnynt, yr hwn a roddasai y Brenin i weini arnynt, sef un o'u brodyr, a bugail. A hwy a ddygasant y pererinion at y gwr hwn; a phan ddaethant o'i flaen, efe a'u bendithiodd, gan ddywedyd, "Tangnefedd i chwi:" a phan ddywedodd y bugeiliaid pwy oeddynt, a

[1] Gorchymynir i'r sawl sydd yn bugeilio praidd yr Arglwydd, i weini pob ymgeledd i fforddolion Sïon, ac i gyhoeddi rhydd wahoddiad i bawb i ddyfod i dŷ y Brenin, a'r wledd ysbrydol sydd wedi ei darparu yno.

pha belled yr oeddynt wedi teithio, ac i ba le yr oeddynt yn myned, efe a'u heneiniodd hwy âg enaint gwerthfawr ardderchog, yr hyn a'u nerthodd hwy yn dra rhagorol i gerdded y rhan arall o'u taith. Yna y pererinion a ymgrymasant hyd lawr i'r hen wr parchedig, gan ddiolch iddo am y caredigrwydd a'r mwyneidd-dra a ddangosodd efe iddynt hwy, ac a gymmerasant eu cennad.

Yna y bugeiliaid a aethant yn mlaen gyda hwy ychydig o ffordd, ac a ddangosasant iddynt y drws oedd wrth ochr y bryn, lle yr oedd ffordd o'r tu cefn yn myned i uffern, a hwy a roddasant hefyd i'r pererinion fenthyg spïen-ddrych, i edrych trwyddo ar y Ddinas Ogoneddus; a phan y cawsant gip-olwg ar ogoniant y lle, hwy a synasant wrth weled y fath bethau ardderchog a gogoneddus, gan hiraethu yn fawr am fod yno; gan hynny, hwy a ddymunasant ar y bugeiliaid gael cennad i ymadael, yr hyn a ganiattaodd y lleill; yn unig, fe roddodd y bugeiliaid yn gyntaf hyfforddiadau cywir am y ffordd, gan orchymyn iddynt gymmeryd gofal neillduol rhag iddynt gysgu ar y Tir Rheibiedig, yr hwn oedd yn rhaid iddynt fyned drosto, cyn y gallent ddyfod i mewn i'r Ddinas Nefol; ac ebe hwy, Y mae yn gorwedd yn agos iawn i'r ardaloedd hynny a elwir gwlad Beulah.[k]

Yn mhellach, mi a welwn yn fy mreuddwyd y pererinion, wedi canu yn iach i'r bugeiliaid, yn myned i waered o'r mynydd i wastadedd ehang, ac yr oedd ganddynt o'u

DYFFRYN GWAG-DYBIAU.

blaen ddyffryn helaeth iawn, yr hwn a elwir Dyffryn Gwag-dybiau. Ac yn awr, fel ag yr oeddynt yn myned yn mlaen ar hyd y dyffryn, hwy a welent dyrfa o bobl o'u blaen, ac fel yr oeddynt hwy yn nesâu attynt, clywent hwy yn siarad yn llym iawn y naill wrth y llall, megys pe buasent wedi taro ynghylch rhyw fatter o bwys mawr. Felly pan y daethant hwy i fynu at y gwŷr, hwy a ganfuant eu bod yn ymddadleu â'u gilydd ynghylch Brenin y wlad, ac yr oeddynt yn pledio yn ddigllawn ac yn wyllt-naws, gyda llawer o sêl: ac yr oedd un yn taeru fod y Brenin o'i farn a'i fympwy ef, a'r llall mai efe yn unig oedd yn iawn ddirnad meddwl ac ewyllys y Brenin, a phob un oedd yn barod i dynnu rhai erthyglau neu destynau o lyfr deddfau y Brenin, i gadarnhâu yr hyn a ddywedasai ef; felly yr oedd yno ryw swn uchel anferth, a'r fath ymdolcio ac ymffrostio yn eu plith, fel yr oeddynt yn mron myned yngafael â'u gilydd, gwinedd a dannedd, mewn modd cynddeiriog; canys pob un oedd yn tybied ei hun ar yr iawn, a bod y lleill yn gwyro; fel hyn y buont nes i'r Dyn-ysbrydol lefaru wrthynt, gan ddywedyd, 'O bobl, pa beth yw yr holl stwr hyn sydd gennych?'[l] Yna hwy a adawsant eu gwrth-

[k] Mae y pererin ysbrydol yn myned yn y blaen ar ei daith o nerth i nerth, ac yn cael amlygiadau newydd o gariad ei Arglwydd, a golwg trwy ffydd ar y wlad nefol. Eithr wedi myned ar ei daith mor belled yn y blaen a'r Mynyddoedd Hyfryd, a chael cymmaint o gysuron, nid yw efe allan o berygl. Rhaid ymdrechu hyd y diwedd.

[l] Diffyg o ostyngeiddrwydd a phrofiad ysbrydol, sydd yn peri cymmaint o ymryson ac ymddadleu ynghylch crefydd. Mae rhai mor llawn o'u gwag-dybiau, ac mor hyderus ar gryfder eu synwyr, a chraffder eu deall, na fynnant gyd-ymddwyn mewn modd yn y byd â'r sawl sydd yn anturio barnu am bethau drostynt

ddadleuon chwerwon, ac a roddasant osteg i edrych pa beth a ddywedai ef; ac yntef a ymadroddodd fel hyn :—

DYN-YSBRYDOL. Mi a'ch clywaf chwi yn haerllug iawn, yn ymddadleu yn brysur ynghylch ewyllys y Brenin; un yn taeru mai efe sydd yn gwybod oreu, a'r llall mai yntef sydd fwyaf adnabyddus o hono ef. Y mae hyn wedi peri i mi feddwl am eiriau ein Harglwydd lle y mae yn dywedyd, "Os dywedant wrthych, Wele yma Grist, neu Wele accw, na chredwch; canys cyfyd gau-gristiau a gau-brophwydi, a rhoddant arwyddion mawrion a rhyfeddodau, hyd oni thwyllant (pe byddai bosibl) yr etholedigion. Wele, rhagddywedais i chwi gan hynny, os dywedant wrthych, Wele, y mae efe yn y diffeithwch, nac ewch allan; wele, y mae efe yn yr ystafelloedd, na chredwch: canys fel y daw y fellten o'r dwyrain, ac y tewyna i'r gorllewin, felly hefyd y bydd dyfodiad Mab y dyn." Mat. xxiv. 23—27. Gan hynny, y mae gennyf sail i farnu am danoch chwi oll, megys twyllwyr a gau-brophwydi, gan eich bod yn gwneuthur yn gymhwys yn ol y gair y mae ein Harglwydd yn ei roddi i'r rhai hynny, sef gau-brophwydi, canys lle mae un yn ymffrostio ei fod ef yn gwybod meddwl y Brenin, a'r llall yn ymffrostio mai yntef yw y dehonglwr goreu o'u ewyllys ef; yr ydych chwi oll allan o ffordd y gwirionedd, nid yw meddwl y Brenin gan un o honoch chwi, nid yw Crist ddim yn eich plith chwi. Daccw y bugeiliaid, ei gynghorwyr hynod ef, y rhai sydd yn gwybod dirgeledigaethau ei deyrnas ef; ewch, gan hynny, ac ymborthwch yn mhlith y praidd, ac ymofynwch am y lle maent yn gorwedd ganol dydd: ac felly y dysgwch wybodaeth, ac y cedwch eich traed rhag llithro i gyfeiliornadau. Ac wedi iddo lefaru y geiriau hyn, efe, ynghyd a'i holl gymdeithion, a droisant oddi wrthynt, ac a gadwasant ar eu ffordd yn y blaen ar hyd y gwastadedd.

Yn awr, cyn iddynt fyned yn neppell, fe neidiodd gwr attynt allan o ogof fechan, yr hon oedd wrth ochr y brif-ffordd, enw yr ogof hon oedd Bryd-olygiad Naturiol; ac enw y gwr oedd Rheswm-cnawdol; felly efe a ofynodd iddynt, o ba le yr oeddynt yn dyfod, ac i ba le yr oeddynt yn myned? A'r Dyn-ysbrydol a'i hattebodd ef, eu bod hwy yn dyfod o Ddyffryn Dystryw, ac yn myned tua'r Ierusalem nefol, ac fe fydd yn dda gennym gael dy gwmpeini, os ydwyt yn myned yn y blaen y ffordd hon gyda ni.

RHESWM-CNAWDOL. Yr ydwyf yn amcanu myned i'r lle hwnnw fy hunan, ac fe fyddai yn dda gennyf gael cyfarfod â rhyw gymdeithion gonest; eithr yr wyf yn tybied am danoch chwi, eich bod yn bwriadu myned ar hyd y ffordd honno ag a ddangosodd y bugeiliaid accw i chwi, y rhai ni wyddant fwy am y ffordd na dyn yn y lleuad: eithr er mwyn bywioliaeth yn unig y maent yn adrodd rhes o chwedlau wrth ddyeithriaid, er mwyn peri iddynt gredu eu bod hwy yn weision i'r Brenin, ac mai dyma yw eu swydd hwynt, sef diddanu y pererinion, a rhoddi iddynt gyfarwyddyd o'u ffordd; ac y maent yn

eu hunain. Dyledswydd pob Cristion yw chwilio yr Ysgrythyrau, arferyd ei reswm, a gweddïo am gymhorth dwyfol, fel y caffo wybodaeth o'r gwirionedd, a nerth i rodio yn ei ol.

cymmeryd arnynt roi golygiad o'r Ierusalem nefol, trwy eu hyspïen-ddrychau, ac yn dangos hefyd iddynt safn uffern, pryd nad ydynt ddim ond haid o hudolwyr a thwyllwyr crefyddol, yn diofalu yr ymdeithwyr trwy ddychymygion a hen chwedlau am nefoedd ac uffern, ac yn arferyd swyn-gyfaredd er twyllo y rhai yn eu ffordd, gan daflu rhith o flaen eu llygaid, pan y maent yn cymmeryd arnynt roddi cip-olwg ar y lle nefol; canys drych twyllodrus oedd y drych hwnnw yr edrychasoch chwi trwyddo, ac nid oedd ef yn dangos i chwi y gwir bethau gogoneddus, megys ag y gallaf fi brofi yn helaeth, os gwelwch chwi fod yn dda wrando arnaf; neu mi a allaf eu darlunio o flaen eich llygaid, heb gynnorthwy un drych, yn gywir, beth yw sefyllfa, harddwch, a phrydferthwch y ddinas ogoneddus, ac a ddangosaf ffordd yn barod, sydd yn nes o lawer i fyned yno, yr hon sydd mor amlwg ag y mae dau a thri yn gwneuthur pump.[m]

DYN-YSB. Yr wyt ti mor ddall dy hunan ag yw dyn heb lygaid; a wyt ti ar fedr cymmeryd arnat ein cyfarwyddo ni mewn ffordd na welaist erioed, ac na wyddost oddi wrthi; dos di yn ol i dy ffau etto, ac na chais hudo y pererinion tlodion diniwed; canys nid ydym ni ar fedr gwrando ar dy ymadroddion gwenieithus di, ond nyni a gadwn ar ein ffordd fel y cyfarwyddodd y bugeiliaid ni.

CYD.-DY. Nagê, attolwg, gadewch i ni glywed pa beth sydd gan y gwr i ddywedyd drosto ei hun; canys y mae ef yn edrych fel dyn ffel, call, ac nid fel ffol, am hynny yr wyf fi yn ewyllysio gwrando ar ei resymau ef.

DYN-YSB. Y mae eich manyldeb chwi yn beryglus, ac a gyst yn ddrud i chwi: gan hynny yr wyf yn dymuno arnoch droi ymaith eich clustiau oddiwrth wagedd a hudoliaeth: chwi a redasoch yn dda hyd yn hyn, attolwg na phetruswch yn awr yn mron diwedd eich taith.

CYD.-DY. Ië, nis gallaf ymfoddloni yn fy meddwl ar hynny, oddieithr i mi gael clywed dadl y gwr; canys y mae yn ymddangos fel rhyw beth hynod iawn yn ei wyneb, ac yn fwy hynod yn ei eiriau o lawer.

MEDD.-GWRES. I'r hwn sydd wag, y mae gor-wagedd bethau; ac os yw y dyn hwn mor wrthnysig ag aros, a gwrando ar glebr y ffol hwn, arosed ef ei hun; paham y collwn ni ein hamser o achos ei ffolineb ef? gadewch i ni frysio rhagom, a rhedeg yr yrfa a osodwyd o'n blaen.

DYN-YSB. Nagê, frawd, yn hytrach nyni a ddygwn faich y naill y llall, ac felly ni a gyflawnwn gyfraith Crist ein Brenin, a thosturiwn wrth ei wendid ef, megys ag y mae Paul yn ein cynghori yn y cyffelyb achos, Gal. vi. 1, 2. "Frodyr," ebe fe, "os

[m] Rheswm sydd oll yn oll gyda rhai, sef eu rheswm gwael eu hunain. Cynneddf ardderchog yw rheswm, dan gyfarwyddyd Ysbryd Duw, ac mewn ymostyngiad i'r datguddiad o'r gwirionedd a roddir i ni yn y gair; ond pan elo yn wrthwyneb i'r gair hwnnw, nid oes ynddo rinwedd na gallu i'n goleuo. Yr hyn y mae Duw wedi ei ddatguddio i'w greaduriaid, a ddylai gael ei dderbyn gennym, er fod ein rheswm yn analluog i'w amgyffred.

goddiweddir dyn ar ryw fai, chwychwi y rhai ysbrydol adgyweiriwch y cyfryw un mewn ysbryd addfwynder, gan dy ystyried dy hun rhag dy demtio dithau." Ac apostol arall sydd yn dywedyd, (Iago v. 19, 20,) "Frodyr, od aeth neb o honoch ar gyfeiliorn oddiwrth y gwirionedd, a throi o ryw un ef, gwybydded y bydd i'r hwn a drodd bechadur oddiwrth gyfeiliorni ei ffordd, gadw enaid rhag angau, a chuddio lliaws o bechodau." Yn awr, gan hynny, yn gymmaint a bod ein brawd yn cael ei hudo gan wag-fanyldeb, wrth wrando ar wrth-ddadleuon Mr. Rheswm-cnawdol; gan hynny ni a aroswn ronyn, ac mi a gymmeraf arnaf geisio ei wrthbrofi ef, a bydd hynny yn fwy o fudd o lawer i ein brawd, na phe buasai heb glywed ei leferydd ef erioed. Dos yn mlaen, ebe fe, gan droi at Mr. Rheswm-cnawdol, gâd i ni glywed pa ddrwg ddadleuon sydd gennyt yn erbyn y ffordd yr ydym ni arni.[n]

RHESWM-CN. Yna Rheswm-cnawdol gyda gwynebpryd dwys a difrifol, a lefarodd fel y canlyn:—'Foneddigion, nid peth gweddaidd i chwi syrthio mewn digofaint, a diystyru dyn dyeithr, cyn y byddo i'r matter gael ei roddi o'ch blaen yn gywir, yn enwedig os byddwch yn anwybodus o hono, neu o natur ei ddaliadau cyfeiliornus; canys yr ydwyf fi yn tarddu o dylwyth ardderchog a boneddigaidd o ran fy nhad: enw fy nhad yw Dealldwriaeth, yr hwn sydd yn dywysog o uchel radd, ac yn berthynas agos i frenhinol deulu y nef; gan hynny, megys ag yr ydych chwi yn wŷr boneddigaidd, yr ydwyf yn gobeithio yr ymddygwch tuag attaf yn ol y parch ag sydd ddyledus i fy ngenedigaeth a'm hachau, ac nid fy rhedeg i lawr â'r fath enwau gwaradwyddus, a'r fath iaith chwerw fustlaidd a hyn.

DYN-YSB. Gyda eich cennad, Syr, yr ydwyf fi yn adnabod eich tad o'r goreu, ac yn parchu ei enedigaeth anrhydeddus, a'i urddas foneddigaidd; ond gadewch i mi ddywedyd wrthych chwi, nad oedd eich mam ond gwael a thywyll ei hansawdd a'i bonedd, ac yn buttain hynod; ac am hynny rhaid i chwi ein hesgusodi ni, os na chyfrifwn chwi yn ddim gwell na basdardd, neu ar y goreu yn llwyr afrywiog a llygredig, ac yn fwngrel o hiliogaeth, yn gyfranog o fwy o natur wrthun eich mam, nac o rinweddau eich tad, yr hwn, yn sicr, oedd wedi ei lygad-dynu, pan gymmerodd ei hudo i fyned i ymgydio â'r fath buttain anllad ag ydoedd hi; ei henw hi oedd Golygus, merch i Mr. Anianol, hen loddestwr meddw, ac nid oedd yn meddwl am ddim arall ond bwytta ac yfed, a chysgu a thordain nid oedd ei enedigaeth ef mewn un lle gwell na phen y dommen. Dyma y fath wr da oedd eich taid chwi, o ran eich mam, ac efe a roddodd eich mam chwi, pan ydoedd hi yn ieuangc iawn, yn buttain agored i bawb ag a fyddai yn myned ac yn dyfod atti hi; ac yn mhlith ereill, digwyddodd i'ch tad chwithau, ar un amser, i gwympo mewn cariad â hi, ac a orweddodd gyda hi, ac a'ch cenhedlodd chwi; ac felly nid oes gennych chwi gymmaint

[n] Yr oedd y pererin wedi cael ei siglo yn ei ffydd, trwy droi clust at reswm cnawdol, a thrwy hyn rhoddwyd achlysur tramgwydd i'w frodyr, ond y mae Dyn-ysbrydol yn cyd-ddwyn â'i wendid. Nid oes ofn colli dim trwy chwilio a holi y gwirionedd, ond nid pob un sydd wedi ei arfogi at y frwydr

o achos ymffrostio yn eich genedigaeth oruchel, ond yn hytrach cywilyddio oblegid gwendid eich tad yn ymgydio, yn y fath ynfydrwydd, gyda phutteindra eich mam. Heblaw hyn, pa fudd sydd i chwi eich bod yn fab iddo ef, oddieithr i chwi hefyd barhâu yn ei rinweddau ardderchog ef; ond efe a gollodd y rhinweddau hyn ei hun, wedi iddo ymhalogi gyda eich mam, canys efe a fu unwaith yn ymddangos mor fywiog a'r eryr, ond yn awr mae ei lygaid yn dywyll, ac yn hyn yr ydych yn tebygu iddo, canys truan dall ydych: yr oedd eich tad yn ddiragrith ac yn fywiog, ond yn awr y mae ef yn ddwl, yn ddiog, ac yn anffyddlon; ac yn hyn hefyd yr ydych yn debyg iddo ef; canys yr ydych yn drymaidd ac yn anfedrus yn eich holl weithrediadau, ac mor ansefydlog ac anwadal a cheiliog y gwynt. Myfi a allwn sylwi ar lawer rhagor o dueddiadau drwg a nodau beius sydd arnoch chwi, eithr ni a fyddwn yn rhy faith, ac a flinwn ormod ar y cwmpeini.°

MEDD.-GWRES. Ië, ïe, canys ni thâl ddim i ni golli cymmaint o amser i siarad â'r fath dwyllwr a hwn, tra yr ydym ar ein taith.

BLINO-AR-Y-BYD. Na thâl yn wir, ac na wnewch ragor o ymddiddan fy mrawd Ysbrydol, oblegid pe byddech wedi blino hanner cymmaint a myfi, ni allasech sefyll yma i brattian â'r ynfyd hwn ynghylch ei achau, nac i geisio gwneuthur cymhariaeth rhyngddo ef â'i dad ychwaith. Yr wyf fi yn hiraethu am orphen fy nhaith; attolwg, dewch, gadewch i ni ymysgwyd a myned.

DYN-YSB. Byddwch amyneddgar, frodyr, dros ychydig, nes i'r gwr hwn a minnau gael ymddiddan yn mhellach ar y pwngc hwn, er mwyn Cydwybod-dyner, yr hwn a fu yn debyg i dramgwyddo ar y cyntaf wrth ei eiriau ef, ac yr oedd yn ysu o hiraeth am glywed pa beth oedd gan y gwr i ddywedyd drosto ei hun; ysgatfydd efe a gymmer well tybiau am y gwr, os bydd i ni wrthod siarad âg ef, ac a fydd yn barod i feddwl ein bod ni yn cywilyddio neu yn ofni sefyll yn erbyn ei amlygiadau ymffrostus ef, ac felly yn darnguddio y gwirionedd ag oedd o'i blaid ef, ac am hynny byddwch amyneddgar ychydig, er ei fwyn ef, ac nid wyf fi yn ammeu na's gallaf argyhoeddi y gwr o'i ddrygioni, a pheri iddo ddal ei dafod; ac os na chyfnewid ef ei sail dwyllodrus yn ei amcanion, etto bydd er gogoniant i Dduw, ac adeiladaeth i ninnau, yn enwedig i Gydwybod-dyner, druan gwr, sydd yn barod i gloffi.

Yna hwy a foddlonasant i aros ac i wrando arnynt yn dybenu y ddadl. Felly y Gwr-ysbrydol a archodd i Mr. Rheswm-cnawdol adael heibio ei holl ragymadrodd ynghylch ei enedigaeth a'i achau, a myned yn mlaen at y pwngc ag oedd mewn llaw, ac i wneuthur cymmaint o frys ag a allai.

RHESWM-CN. Wel, gan hynny, myfi a ddywedaf i chwi mor fyrred ag y medrwyf: yr ydych chwi allan o'r ffordd, ac os dilynwch chwi fy nghyngor i, myfi a ddangosaf i

° Dangosir yma fod rheswm wedi ei dywyllu a'i ddirywio trwy y cwymp, a'r hwn a ymddiriedo ar reswm dyn syrthiedig, a gaiff ei gam-arwain a'i dwyllo yn dosturus.

chwi ffordd ag sydd lawer yn nes, ac yn fwy sicr o fyned i'r wlad nefol. Yr ydwyf fi yn credu, ac yn gwybod fod Duw, cystal a chwithau, ac yn ei addoli ef ddydd a nos, eithr nid ydwyf fi yn cymmeryd y fath grediniaeth a hon, nac yn arfer addoli ar goel-gred dynion ereill; nid wyf mor gibddall a phinio fy ffydd wrth lewis dynion, nac addoli Duw yn ol traddodiadau dynion, megys ag yr ydych chwi yn gwneuthur; eithr yr ydwyf fi yn ymofyn sylfaen safadwy i fy ffydd: yr wyf fi yn canfod ac yn dal sylw ar adeilad rhyfeddol a gogoneddus y byd, ac wrth gasgliad rheolaidd oddi wrthynt, yr wyf yn olrhain camrau y mawredd tragywyddol: tra byddwyf yn dyrchafu y gadwyn wael ag sydd fel ail-achosion, yr ydwyf o'r diwedd yn ei sicrhâu wrth yr olwyn oruchel, neu yr uchaf, ac yn canfod yn eglur yr achos cyntaf a phennaf, sef ffynnon a gwreiddyn pob gweledig ac anweledig. Fel hyn, megys y gwrthddrych corphorol cyffredin sydd i'r cyntaf, a'r olwyn iselaf hon yn achos pob peth, ac felly y mae fy synwyr yn un o'r camrau cyntaf ac iselaf o'm ffydd: tra fyddwyf yn gwneuthur casgliad rhesymol oddiwrth yr olwyn, yr ydwyf yn cydio y cyntaf wrth y diweddaf, ac yn gwneuthur fy synwyr, fy ffydd, a fy rheswm, yn gwbl addas a gwasanaethgar yn yr addoliad, ac yr ydwyf yn ei dalu i'r Duwdod. Fel hyn yr ydwyf yn dirnad ei bod yn drefn ddyledus i adael i'r hyn sydd naturiol yn gyntaf gael lle, ac yna wedi hynny yr hyn sydd ysbrydol, lle yr ydych chwi yn cymmeryd eich gyrfa esmwyth i'r gwrthwyneb, ac felly y mae pawb yn gwneuthur ag sydd yn gwrando ar gyfarwyddwyr deillion, sef y bugeiliaid sydd ar y mynyddoedd accw, canys y maent yn eich dysgu chwi i gredu neu ddechreu mewn diweddd anweddus, ac i roddi heibio wasanaeth eich synwyr a'ch rheswm, y rhai sydd yn briodol anhepgorol i eich natur, ac i gredu wrth ffydd dywell trwy gynghor dynion. Dyma y fath athrawiaethau ac opiniynau sydd gan laweroedd o ddynion, ag sydd yn cymeryd arnynt eu bod wedi eu hysbrydoli yn ddwyfol hefyd, ac nid yn unig hyn, ond credu hefyd athrawiaethau ag sydd yn union-gyrch yn wrthwyneb i'ch rheswm a'ch synwyr cyffredin, ac yn groes brofiad i'r holl fyd, megys yn siampl: y maent yn eich dysgu fod yn rhaid i chwi gredu y gall Un fod yn Dri, a Thri fod yn Un, yn wrthwyneb i egwyddorion cyntaf rheswm naturiol, a bod Duw yn ddyn, a dyn yn Dduw, a bod morwyn wedi beichiogi ar Fab, heb adnabod gwr, ac wedi geni y plentyn iddi ei bod yn parhâu yn forwyn drachefn, ynghyd â llawer mwy o'r cyffelyb dybiau gwag o'r un natur, ag sy'n anghytunol ynddynt eu hunain, ac heb gydsefyll âg un o brif hanfodol egwyddorion natur.

CYD.-DY. Os gwir ydyw yr hyn oll ag a ddywedodd y gwr hwn, yna, mor belled ag yr ydwyf fi yn gweled, yr ydym yn euog o babyddiaeth amlwg: myfi a glywais lawer o wŷr doethion a dysgedig yn dywedyd, Mai y dirgelwch mwyaf ag sydd mewn crefydd yw peri i broselytiaid gredu, trwy gyfrwysdra, yr hyn a lefaro un arall yn ei dywyllwch, er fod y pethau yn gwbl groes i'w synwyr a'i reswm; ac os ydym ninnau yn euog o'r un cyfeiliornad, yna mewn pa beth yr ydym yn rhagori ar y Papistiaid; o'm rhan i, yr wyf wedi fy ynnill yn rhyfeddol trwy ymadroddion y gwr hwn, ac yr wyf yn methu canfod pa wrthddadl a allai un roddi yn ei erbyn, na pha fodd y gallai neb ei atteb ef.

DYN-YSB. Na chymmerwch eich arwain gan bob awel o gau-ddysgeidiaeth, eithr cadarnhewch eich calon yn y gwirionedd; na fyddwch ehud i gredu, eithr profwch ei ymadroddion ef yn dda, a chwi a gewch weled eu bod oll yn dwyllodrus, ac yn ddichellgar, fel y dangosaf yn amlwg, os bydd i chwi wrando arnaf.

Yn y lle cyntaf, gan hynny, efe a aeth ar uchaf sail ddrwg iawn, yn ei waith yn darlunio fod ein rheswm ni yn berffaith, ac yn alluog i sefydlu ei hun ar y gwir wrthddrych: cyn cwymp Adda yr oedd ef felly mewn gwirionedd; eithr yn awr y mae ef yn anmherffaith ac yn gamsyniol; y pryd hynny yr oedd yn gyfan fel perl disglaer o ddiamond, ond yn awr y mae ef wedi ei wasgaru yn ddarnau; nid oes yn nghadw gennym ond yn unig rhai darnau neu wreichion o'r tlws ardderchog hwn: nid oes gennym ddim i ymffrostio am ein rheswm ond ychydig ddarnau o weddillion toredig, wedi diangc rhag dinystr angheuol yn y llong-ddrylliad a wnawd ar y natur ddynol, yr hwn sydd etto yn nofio i fynu ac i waered ar y môr mawr Anwadal; yr ydym yn ymbalfalu mewn tywyllwch, ac o braidd y gallwn ddosparthu y pethau sydd yn gynnefin gennym: mae ein tybiau am bethau naturiol yn ddarostyngedig i fil o gamsyniadau; ein casgliadau sydd annrhefnus ac yn anghyson, a'n holl gynneddfau yn ddirywiedig. Ein hymadrodd am bethau, sydd yn cario ynddo fwy o ffraethineb nac o reswm cywir a didued l, ac y mae ynddo sawyr o gyfrwysdra yr hen sarph ddichellgar, neu ynte deganaeth teg a hudoliaethus y wraig gyntaf. Y pethau gwag hyn sydd yn cymmeryd lle gwir reswm a phwyll, yn rhai doethion y byd hwn, y rhai nid ydynt ddim ond dynwared gwir ddoethineb, ac ar yr un pryd yn cymmeryd arnynt areithio ar bethau dwyfol, fel y darfu i'r gwas yma geisio, dan liw ac esgus o ymresymu, ddwyn cyhuddiad yn erbyn y bugeiliaid er mwyn amddiffyn ei blaid ei hun.

Yn yr ail lle, ystyriwn, pe byddem yn gadael fod ei sail ef yn dda, a bod y rheswm yma yn berffaith, ac yn gallu gweithredu a chanfod o hono ei hun, a sefydlu ar yr union wrthddrych; etto ei gasgliadau ymdrechgar ef oddi wrtho, hynny sydd yn ddichellgar a chyfrwys, pan y mae ef yn ein hudo i gredu fod pethau dwyfol a goruwch-naturiol i'w profi wrth reswm cnawdol. Hefyd, y mae hyn yr un peth yn gymhwys a phe byddai ef yn ceisio peri i ni gredu y gallem glywed â'n trwynau, a gweled pethau â'n clustiau. Nyni a allem wneuthur hyn, yn gystal ag y gallem ddosparthu pethau ysbrydol a goruwch-naturiol, wrth natur a rheswm cnawdol. Y mae Duw wedi ein cynnysgaeddu ni â galluoedd gwahanol, addas a chymhwys i wahanu y gwrthddrychau sydd yn rhwym wrthynt. Ni a allwn ganfod pethau teimladwy wrth ein synhwyrau, a deall pethau rhesymol wrth ein rheswm, a phethau a berthyn i'r deall trwy ein dealldwriaeth; ond pethau dwyfol, ysbrydol, a gogoneddus, sydd raid ei fod yn orchwyl gweithgar ein ffydd, yr hon sydd o natur ddwyfol a goruchel synwyr yr enaid; y mae ein rheswm a'n deall ar amserau, yn cael cip olwg o lewyrchiad, eithr nis gallant gael golygiad gymhwys a sefydlog ar y pethau sydd yn mhell uwchlaw eu cyrhaeddiad. Fel hyn nyni a allwn, trwy gymhorth ein rheswm naturiol, wybod fod Duw yr achos cyntaf a dechreuol o bob

peth; eithr ei hanfod a'i briodoliaethau, a'i ewyllys, sydd yn guddiedig mewn dirgel oleuni, anhawdd ei gael allan; ac nis gellir eu hamgyffred gennym ni ond trwy ffydd gan ei ddwyfol ddatguddiad ef. Yr hwn sydd yn rhodio heb y goleuni hwn, sydd yn rhodio mewn tywyllwch, er ei fod yn chwilio allan beth o'r llewyrchiadau gwirionllyd egwan hyn ynddo ei hun, a'r hwn sydd yn ol hyfforddiad ei reswm naturiol, yn torri allan grefydd yn ol ei ddarluniad ei hun, sydd cyn debycced i eilun-addolwyr a'r rhai sydd yn addoli pren a maen, gan gymhwyso yr eilun yn ol eu meddyliau, gan addurno ac anrhydeddu eu gweithredoedd yn ol eu dychymmyg; o ba achos nid yw Duw yn dywedyd ei fod yn eiddugus, ond o achos ei addoliad. O ba herwydd yr oedd ef yn neillduol fanwl (ac i mi lefaru gyda pharch am dano) yn yr holl orchymynion hynny a roddodd efe i blant Israel, pa fodd yr oedd ei addoli ef, ac efe a roddodd bortreiad cywir i Moses, yn y mynydd, o ddull y tabernacl, a'i holl lestri, a'i ddodrefn perthynasol: ac efe a ddesgrifiodd amserau a thymhorau neillduol, a dull neillduol defodau a seremonïau ei addoliad ef, heb gymmaint a throseddu yr iot leiaf, dan boen marwolaeth.

Ac yn awr pa raid o'r holl drefniad arbenig hwn, pe byddai y matter o gyn lleied pwys yn mha fodd y mae i ni wasanaethu? megys pe byddai y cyfan i gael ei adael i'n rhyddid ni ein hunain, heb un reol ddwyfol? Tybied yn ddiau y mae y gwr hunanol hwn, y dichon efe trwy glyttio rhyw wael resymau i brofi y bôd o Dduw, a dwyn ger ei fron ryw fath o wasanaeth a chydnabyddiaeth yn deilwng o'i Fawredd anfeidrol; wedi twyllo o hono ei hun yn y modd hwn, y mae yn barnu ei fod yn y ffordd iawn, a'n bod ninnau yn cymmeryd taith gwmpasog, os nid yn llwyr golli y llwybr tua'r nefoedd, y rhai ni fynnwn ymorphwys ar ddim yn llai nac awdurdod y datguddiad dwyfol. Hyn, yn ol ei dyb ef, ydyw ymwadu â synwyr a rheswm, gan goelio, (fel y dywed ef,) trwy ffydd ddall hudoliaethus, athrawiaeth ac opiniynau llawer o ddynion, y rhai sydd yn cymmeryd arnynt eu bod wedi eu hysbrydoli gan Dduw; ac nid hynny yn unig, ond arwain i gredu athrawiaethau sydd yn union-gyrch yn wrthwyneb i'n rheswm a'n synhwyrau cyffredin, ac yn groes i brofiad yr holl fyd: eithr dywed i mi, O ddyn gwag, pa fodd yr ydym ni yn rhoddi ein synwyr a'n rheswm heibio, pan yr ydym ni yn eu harfer mewn cydymddibyniad dyledus tuag at ein ffydd? ffydd ei hun sydd yn dyfod trwy glywed, a chlywed yw un o'n synhwyrau: pan yr ydym yn clywed newyddion da yr efengyl yn cael eu pregethu i ni, ac y mae yn dwyn ein calonau i fod yn ufudd i'r gallu dwyfol hwnnw. Y mae ein rheswm naturiol yn ein dysgu fod ynddo, a pha fodd y mae ei wasanaethu ef. Y mae y pethau ydym ni yn gredu am dano ef, yn wir, uwchlaw deall ein synhwyrau a'n rheswm, ond nid yn wrthwyneb iddynt. Nagê, y mae ein synhwyrau a'n rheswm yn wasanaethgar i'n ffydd ni yn hyn, sef pan y byddom yn darllen, neu yn clywed am y gwyrthiau a wnaethpwyd gan Grist a'i apostolion, y mae ein rheswm yn tystio wrthym na's gallasid eu gwneuthur ond trwy nerth galluog Duw; ac na roddodd Duw dystiolaeth am y fath wyrthiau, a allasai fod yn gelwyddog. Gan hynny, yn ganlynol, y mae ein

rheswm yn ein dysgu ni i gredu fod Crist a'i apostolion, mewn gwirionedd, yr hyn ag oeddynt hwy eu hunain yn broffesu eu bod, sef ei fod ef yn Fab Duw, a hwythau yn weision iddo ef; ac yn ddynion wedi eu hysbrydoli gan yr Ysbryd Glân. Ac yn ganlynol, fod eu holl athrawiaethau yn wirionedd diamheuol. Pa fodd, gan hynny, y tramgwyddaf fi wrth athrawiaeth y Drindod am gnawdoliaeth Crist, yr hwn a gaed yn ddyn, ond nid trwy ddyn, ac a aned o forwyn pan oedd hi yn forwyn bur: fy rheswm a ddylai fod yn wasanaethgar i'm ffydd, fel tra fyddo y naill yn fy nhywys at y llen, y byddo i'r llall ei dynnu ef, a dangos i mi ddirgeledigaethau dwyfol; y mae rheswm yn llaw-forywn o'r goreu, a ffydd yn feistres; gadael synwyr a rheswm i wasanaethu yn y cyntedd nesaf allan i'r deml; ond ffydd sydd yn myned i mewn i'r sanctaidd sancteiddiolaf. Yn awr, heb ffydd, anmhosibl yw rhyngu bodd Duw; ffydd yw sicrwydd y pethau ni welir, a sail y pethau yr ydym yn gobeithio am danynt. Dyma y ffydd yr hon yr wyt ti yn condemnio cymmaint arni, O Rreswm cnawdol, ac yn ei diystyru. Dyma y ffydd ag yr oedd y Bugeiliaid yn ei chymmeradwyo i ni: dyma yr yspïen-ddrych hardd, trwy yr hwn yr ydym ni yn gweled gogoniant yr Ierusalem nefol. Ac am hynny, O ddyn, gad heibio dy ymddiddanion drwg am ffordd yr Arglwydd: gad ymaith geisio gwyrdroi a llygru yr eneidiau sydd yn ceisio yr Arglwydd mewn purdeb diragrith, a gostyngeiddrwydd, a ffydd ddiffuant.[p] Yn awr, pan oedd efe yn diweddu ei ymadrodd, Cydwybod-dyner a dorrodd i wylo o dristwch a gorfoledd: o dristwch am iddo ollwng ei feddwl i droi ymaith trwy hudoliaeth ddichellgar Mr. Rheswm-cnawdol, ac o lawenydd, oblegid i'r Gwr-ysbrydol ei atteb fe mor odidog, a diddymu ei holl ddaliadau gwrthwynebus ef. Am hynny efe a gyfeiriodd ei ymadrodd at y Gwr-ysbrydol fel hyn:—

CYD-DY. Yr wyf yn gofidio yn flin yn fy nghalon, oblegid fy ynfydrwydd, trwy yr hyn y rhwystrwyd yr holl gwmpeini yr amser hyn i gyd, lle y gallasem, erbyn hyn, fod yn mhell o ffordd ar ein taith: ac yn awr mi a gefais foddlonrwydd cyflawn ynghylch Mr. Rheswm-cnawdol, ac nad yw ef ond anwybodus cyfeiliornus yn ei feddyliau, gan oleuni sydd ganddo, a thwyllwr yw ef; ac am hynny nyni a'i gadawn ef i orphwys yn nghysgod ei gaban cyfeiliornus, a ni a ymroddwn i fyned rhagom ar ein taith.

Yna mi a welais yn fy mreuddwyd, fel ag yr oeddynt yn myned yn eu blaen ar hyd y ffordd encyd, Cydwybod-dyner a ganodd fel hyn:

Er fod gwag Reswm-cnawdol yn bostio'i oleu mawr,
'Dyw ond gwreichionen dywell, sigledig ar y llawr;

[p] Mae yr Awdwr wedi trin ei bwngc yn y modd mwyaf ardderchog, gan dynnu i lawr uchel-dyb y rhai sydd yn gosod i fynu reswm, neu yn hytrach eu tyb ymffrostus eu hunain yn erbyn y gwirionedd dwyfol. Y rhai sydd yn ymresymu yn deg, dan dynnu casgliadau cywir oddiar iawn egwyddorion, a gânt yn yr Ysgrythyr Lân yr addysg mwyaf pur, a'r mynegiadau hynny am y pethau mwyaf pwysig a sylweddol, y rhai ni allasai rheswm dynion byth eu dychymygu, ond yr awrhon gan eu bod wedi eu dwyn i'r goleu, y mae iawn reswm yn cydsynio â hwynt. Nid yw rheswm heb oleuni dwyfol, ond fel y llusern heb olew; ac nid meistres ar y goreu yw hi, ond llaw-forwyn i grefydd.

Genhedlwyd mewn diffeithwch, a diffrwyth anial dir,
Ar dommen ffiaidd aflan y ganwyd ef yn wir.
Er hyn fe dd'wed y twyllwr mai ysbryd didwyll yw,
Sy'n deilliaw o rieni o'r ardderchocaf ryw ;
Ymffrostio'i dad a'i deitlau, a'i achau uchel fri,
Er hynny arwydd mwngrel yn amlwg arno sy'.
Ond gwir eglurwr cywir a'i chwiliodd ef i ma's,
Nad oedd ei fam rinweddol ond puttain eger gas,
Yn ofer ceisiodd ddenu, a gyrru arnom fraw,
Yn ofer yr ymdrechodd i'n harwain yn ei law.
Y ddichell ddaeth i'r amlwg, gwirionedd ga'dd ei le,
Wrth bwyso'r glorian gywir trwy fywiol ffydd y ne'
Ein rheswm a'n synhwyrau, twyllodrus ydynt hwy,
Gwell moddion a ddarparwyd gan Dduw i'n harwain trwy.
Gwirionedd gogoneddus, goleuni pur didrai,
A guddiwyd yn y cwmmwl rhag cnawdol reswm brau,
A'r hwn sydd am gael gweled y dirgel oleu gwir,
Trwy ffydd rhaid iddo gredu y datguddiadau pur.
Ein rheswm sydd briodol i'w ddyben ar y llawr,
Ond byth ni fedr gyrhaedd i'r anfeidroldeb mawr.
Am hyn fy enaid gorphwys, oddiwrth dy boen bydd rydd,
Nid rheswm yw'th arweinydd, nid synwyr yw dy ffydd :
Ffydd yw'r arweinydd goreu, tua'r ddedwydd noddfa draw,
Peth ddwg i'r bryn sefydlog, lle nad oes aeth na braw.

Yn awr, fel yr oeddynt yn myned ymlaen, hwy a ddaethant i'r fan lle yr hudodd Gwenieithwr Cristion a Gobeithiol i droi allan o'r ffordd i ffordd groes, yr hyn oedd hawdd i'w wneuthur ; canys er ei bod yn ffordd groes, er hynny yr ydoedd yn ymddangos o'u blaen mor union ag yr ydoedd y wir ffordd. Ond pa fodd bynnag, y pererinion hyn a gawsant ffortun ddedwydd i ddiangc rhag y ffordd oedd yn arwain i groglathau, trwy gyfeillach ddedwydd y Gwr-ysbrydol, yr hwn oedd ganddo adnabyddiaeth fanol o'r ffordd.

Yn awr, mi a welwn yn fy mreuddwyd nad aethant yn neppell ymlaen cyn iddynt oll ddechreu myned yn farwaidd ac yn gysglyd, yn gymmaint ag i Mr. Blino-ar-y-byd ddechreu siarad am orwedd i lawr a chysgu hûn : ar hyn Mr. Dychwelwr, yr hwn ni ddywedasai un gair er pan y daethent ymaith oddiwrth ogof y Diwygiad hyd yr amser yma, a roddodd uchenaid drom, ac a wylodd yn dost ; ac yn nghanol ei ddagrau, efe a waeddodd yn groch ar Mr. Blino-ar-y-byd, gan ei rybuddio ef yn daer, i beidio a chysgu yn y lle hwn. Yr ymddangosiad mor wresog yn ymddygiad Dychwelwr, yr hwn a fu yn

ddistaw yr holl ffordd o'r blaen, a barodd i bob un fod yn brysur am gael gwybod yr achos; a'r Gwr-ysbrydol a ddymunodd arno hysbysu i'r cwmpeini beth oedd yr achos o'r fath gynnwrf disymwth: yna Dychwelwr a ddywedodd wrthynt, Os oeddent yn chwennych diangc rhag angau, a phob peryglon tu yma i angau, fod yn rhaid iddynt beidio cynnyg cysgu ar y tir hwnnw; ac fe addawodd roddi iddynt hanes o'i fywyd yn fyrr, ac a ddymunodd arnynt roddi astudrwydd manwl i'w eiriau ef, yr hyn, ysgatfydd, a fyddai yn foddion i'w cadw hwynt ar ddihûn: ac felly efe a ddechreuodd:

DYCHWELWR. Yr ydych yn cofio i'r bugeiliaid, wrth ymadael, yn mhlith ereill o'u cynghorion iachus a buddiol, erchi yn neillduol i ni gymmeryd gofal, rhag i ni gysgu ar y tir a reibiwyd. Yn awr, pan y gwelais i rai o'r cwmpeini yn gogwyddo i gysgu, myfi a elwais i'm meddwl gynghorion y bugeiliaid, ac hefyd fy aflwyddiant ar y cyntaf, yn y matter yma; a hyn a barodd i mi dorri mewn wylofain, wrth feddwl cyn belled yr aethum yn fy ol oddiwrth y nefoedd, o herwydd i mi gysgu yn y lle hwn, a pha berygl erchyll y buasem ni oll yn debyg o redeg iddo, os buasem yn gorwedd i lawr, a chysgu yma ar y tir a reibiwyd, canys dyma y lle ag y rhybuddiodd y bugeiliaid ni yn ei gylch.

GWR-YSB. Bendigedig fyddo yr Arglwydd, a bendigedig fyddech dithau gan yr Arglwydd, bererin dedwydd, yr hwn a'n hattaliodd ni rhag cysgu yn y lle hwn. Attolwg, adroddwch i ni eich helynt yn y rhan aeth heibio o'ch pererindod; canys yr ydwyf yn deall, wrth eich ymadroddion, eich bod chwi wedi bod y ffordd hon cyn yn awr.

DYCH. Y mae yn bossibl eich bod wedi clywed son am un Atheist, yr hwn a gyfarfu â Christion a Gobeithiol ychydig o ffordd oddiwrth y fan yma, fel ag yr oeddynt yn cerdded ar eu taith tua'r ddinas nefol; myfi oedd y dyn, er fod fy enw yn awr wedi ei gyfnewid; canys nid hynny oedd fy enw priodol i, ond fe'i rhoddwyd i mi wedi i mi gysgu ar y tir a reibiwyd: fy enw i o'r blaen oedd Bwriad-cywir, a'm henw yn awr yw Dychwelwr. Fe'm ganwyd yn Nyffryn Distryw, a fe'm dygwyd oddiyno gan fy nhad, pan oeddwn yn ieuangc iawn: eithr fel yr oeddym ni yn dyfod ymlaen heibio i'r gwr accw sydd o'n hol ni, sef Mr. Rheswm-cnawdol, mi a gefais fy moddio yn fawr trwy ei ymadroddion hudoliaethus ef, fel na allai fy nhad gael gennyf ddyfod yn mlaen; eithr yr oedd yn rhaid i mi gael aros yno ychydig, i gyd-ymddiddan â Mr. Rheswm-cnawdol, gan ddywedyd wrth fy nhad, ei fod ef yn hen ac yn egwan, ac y byddai i mi ei oddiweddyd ef yn fuan drachefn; eithr y mae gan Mr. Rheswm-cnawdol y fath ffordd ddengar i gadw rhai yn ei gwmpeini, fel nad oedd modd i mi ymadael â'i gyfeillach ef dros hir amser: ac o'r diwedd, pan y gwelodd ef fy mod yn ymroi i fyned ymaith, yr oedd yn rhaid iddo gyd-ymdeithio gyda mi hyd at y fan yma: ac wrth ymadael, fe roddodd i mi ryw beth i'w yfed o'i gostrel fechan, yr hyn, ebe fe, oedd yn iachus ragorol, ac yn odidog dda yn erbyn pob anhwyldeb yn yr ymennydd, yr hyn ag y mae y pererinion yn ddarostyngedig

iddo oblegid y gwres, yr oerfel, a'r cyffelyb, oeddynt yn gyfarfod ar eu ffordd; ac felly efe a gymmerodd ei gennad oddiwrthyf, ac a ddychwelodd yn ol i'w ogof; eithr yn mhen ychydig wedi iddo ymadael, mi a syrthiais i gysgu ar y llawr, a pha un ai trwy effaith yr hyn a roddodd ef i mi i'w yfed, neu trwy y natur wenwynig sydd yn cyfodi o'r tir hwn, nis gwn i: ond yr oedd fy nghwsg yn bur felus gennyf, ac yr ydwyf yn credu y buaswn yn cysgu yma hyd fy niwedd; canys yr oeddwn yn arferol, er yn blentyn, o gerdded yn fy nghwsg; ond yn awr mi a gyfodais yn fy nghwsg, ac a gerddais yn fy ol drachefn ar hyd yr un ffordd ag y daethum, hyd nes y daethum allan yn deg oddiwrth y tir a reibiwyd, ac yna mi a gyfarfum â Christion a Gobeithiol, y rhai oedd yn myned tua mynydd Sïon. Felly pan y dywedasant wrthyf i ba le yr oeddynt yn myned, mi a chwerddais fel ynfyd am eu pennau, gan eu galw hwy yn gant o ffyliaid, am iddynt gymmeryd arnynt y fath siwrnai faith, pryd nad oeddynt yn debyg o gael dim am eu poen ond yn unig llafur, a lludded, a gofid: ac yn awr, trwy gydol yr holl amser hyn, yr oedd rhyw syfrdandod yn fy ymenydd o achos y ddiod a barodd Mr. Rheswm-cnawdol i mi yfed, fel nad oeddwn yn ddealladwy, fy mod wedi bod yn cysgu, eithr yr oeddwn megys un mewn breuddwyd.

Yn awr yr oedd fy ffansi wedi ei pherchenogi â'r fath ddychymyg, fy mod wedi myned mor belled ag yr ydoedd yn bossibl i neb o'r pererinion i fyned; eithr ni welais argoel am y fath le a Ierusalem nefol; ac am hynny myfi a gredais nad oedd dim o'r fath le i gael; a dyma y modd y llefarais wrthynt hwy. Ond pa fodd bynnag, ni wrandawsant hwy ar fy ngeiriau ynfyd i, eithr hwy a aethant rhagddynt ar eu taith yn eu blaen, a minnau a gerddais yn fy ol, hyd nes y daethum i Dref Gwagedd, ac yno y cymmerais fy lletty, ac y gorphwysais dros hir amser, nes y digwyddodd ar un amser fy mod yn cymmeryd fy nigrifwch yn y ffair; ac mi a gefais fy nharo y pryd hwnnw â mellten o'r nefoedd, yr hyn a fu yn agos a pheri i mi golli fy mywyd; canys fe fu yn achos i mi gadw yn fy ystafell trwy y flwyddyn, ac yn awr, yn yr amser hyn o'm caethiwed, myfi a ddechreuais feddwl am y rhan a aeth heibio o'm bywyd, a'r cyflwr truenus ag yr oeddwn i yn awr ynddo, a'r gosp oedd yn rhaid i mi ddyoddef os byddai i Dduw fy nghymmeryd i ymaith o'r byd; hyn a barodd i mi wylo ddydd a nos wrthyf fy hun, gan ymprydio hefyd ac wylo, ac ymddarostwng ger bron yr Arglwydd yn y dirgel, ac addunedu adduned i'r Arglwydd, os byddai yn rhyngu bodd iddo adnewyddu fy iechyd i mi drachefn, yr ymdrechwn i fyned ar bererindod tua mynydd Sïon, cyn gynted ag y gallwn gael un math o gyfleusdra a chymdeithas.[q]

Felly, Duw a wrandawodd ar lef fy ngweddïau a'm dagrau, a'm haddunedau, ac a

[q] Yn yr hanes hwn ni a welwn mor beryglus ydyw gosod ein rheswm yn wrthwyneb i air Duw a'i addewidion. Pan fyddo yr enaid yn myned yn gysglyd ac yn colli blas ar bethau ysbrydol, y mae yn barod wrando ar goeg-resymau cnawdol, a thrwy hynny y mae rhai yn cwympo i anlladrwydd, neu ynte i gybyddiod, ac ereill i ddi-dduwiaeth. Mae rhai wedi cwympo yn mhell ac yn waradwyddus trwy ymresymu yn erbyn y gwirionedd, a thrugaredd neillduol ydyw gweled neb o'r cyfryw yn cael eu dychwelyd.

arbedodd fy mywyd, ac adnewyddodd i mi ychydig iechyd, a mi a rodiais allan, ac a ymadewais yn fuan o'r dref ddrygionus yma; ac wedi i mi alw i gof fy mod yn gydnabyddus âg un neu ddau yn mhabell Diwygiad, o ddynion sobr a chymmesur, y rhai oedd yn arwain bywyd crefyddol; mi a ymroddais i fyned hyd yno i ymweled â hwynt, ac y gallwn, ond odid, eu perswadio hwy i ddyfod ar bererindod gyda mi. Ac felly, yn ol hynny mi aethum tuag at y babell honno, ac a gyfarfum â fy nau gyfaill yno, i ba rai yr agorais fy meddwl yn fynych ynghylch y matter yma. Eithr hwy a barasant i mi fod yn llonydd, hyd nes gallem gael rhagor o gyfeillion, gan ddywedyd wrthyf, na's gallem ni ymdeithio hyd nes yn gyntaf i rai pererinion ddyfod heibio yno; yr hyn a barodd i mi hiraethu yn fynych am yr awr ddedwydd, pryd y gallwn gael clywed fod rhai pererinion yn dyfod y ffordd honno. Yn awr, tra bum yn aros yma yn y babell hon, mi a fum yn ymddiddan â llawer iawn o ddynion, ac yn mhlith y lleill o honynt, mi a berswadiais Feddwl-gwresog a Pharod-i-ildio, i ddyfod gyda ni ar bererindod; ac enwau fy nghyfeillion oedd yno o'r blaen, oedd Ceisio'r-gwirionedd a Blino-ar-y-byd, y rhai sydd yma yn ein cyfeillach ni yn awr. Felly, pan y daeth Cydwybod-dyner heibio, a phan oedd efe yn sefyll i edrych ar y golofn Hanesiaeth, fe ddigwyddodd i Mr. Ceisio'r-gwirionedd ei weled ef; efe a wybu wrth ei siacced mai pererin oedd efe, ac felly efe a gyttunodd yn fuan âg ef, i fod yn gydymaith ar bererindod, ac a alwodd y lleill o honom ninnau i ddyfod allan o'r babell, ac wedi dyfod ychydig o ffordd yn mlaen, nyni a gyfarfuom â'r Gwr-ysbrydol; felly cyttunasom oll i fod yn un gymdeithas, a daethom yn mlaen gyda ein gilydd hyd yma, ac ni chyfrgollwyd un o honom ond Mr. Parod-i-ildio, yr hwn oedd yn rhaid iddo gael canlyn y twyllwr yn Nhref Gwagedd; ac felly efe a glafychodd trwy ormodedd o wîn, yr hyn a'i lladdodd ef.

GWLAD BEULAH. Yn awr, mi a welwn yn fy mreuddwyd, fod y pererinion, erbyn hyn, wedi dyfod dros y tir a reibiwyd, a dechreu myned i mewn i wlad Beulah, lle yr oedd yr awyr yn beraidd hyfryd, gan arogl math o lysiau aroglaidd, yr hwn oedd yn adfywio eu hysbrydoedd llesg a thrymaidd, ag oedd agos wedi hurtio a syfrdanu wrth gerdded y tir a reibiwyd. Yr oedd yma brenau yn tyfu, y rhai nid yw eu ffrwythau yn diflanu byth, a'u dail sydd bob amser yn wyrddlas, canys y mae yn y lle hwn haf parhaol, a'r adar sydd yn canu yma bob dydd, a'r gweirgloddydd sydd wedi eu harddu â blodau, a phob peth sydd yma yn llawn hyfrydwch; canys y mae y wlad o fewn golwg Paradwys, ac y mae cysgod y ddinas ogoneddus yn cyrhaedd hyd atti. Felly hwy a rodiasant yma gan ddiddanu eu hunain â'r hyfrydwch ag oedd y wlad dda yma yn ei roddi: ac wrth edrych yn ol ar y llafur, a'r lludded, a'r caledi yr aethant drwyddo, hwy a gysurwyd yn ddirfawr wrth feddwl eu bod yn awr yn mron ar ddiwedd eu taith, ac mewn gwastadedd hyfryd o fewn golwg i'r Ierusalem nefol, yr hon oeddynt mor hiraethlawn ac mor awyddus am gael ei gweled; ac fel yr aent yn eu blaen, eglurach a mwyfwy oedd eu hiraeth am ddyfod iddo. Felly hwy a ddechreuasant annog eu gilydd trwy eiriau diddanus, gan ddywedyd,

"Deuwch ac esgynwn i dŷ yr Arglwydd, ein traed a saif yn dy gynteddau di, O Ierusalem, yn ngwydd angylion y canwn i ti, O Arglwydd, ac y'th foliannwn yn dy deml sanctaidd."

Ac fel yr oeddynt hwy yn myned yn eu blaen, hwy a ddaethant at winllan, yr hon oedd yn perthynu i'r brenin; a'r rhai oedd yn cadw y gwinllanoedd a'u gwahoddodd hwy i mewn, gan ddywedyd, "Deuwch i mewn chwi fendigedigion yr Arglwydd, ac yfwch o'r gwîn yr hwn sydd yn llawenhâu calon Duw a dyn." Barn. ix. 13. Felly y pererinion a aethant i mewn yno i'r gwinllanoedd, ac a yfasant o'r gwîn hwnnw, yr hwn a'u meddwodd o gariad a llawenydd, ynghyd â dymuniad a gobaith i gael gweled wyneb y Brenin, am yr hwn y dywedodd y rhai oedd yn cadw y gwinllanoedd lawer o bethau gogoneddus; sef ei fod ef yn rhagori ar ddeng mil, ac am hynny fod llangcesau yn ei garu ef; ac yn rhedeg atto oblegid arogl ei enaint ef; dywedasant hefyd ei fod ef yn caru y pererinion yn fawr, a'i fod ef ei hun wedi bod yn bererin unwaith; a llawer yn rhagor o ganmoliaeth a roddasant hwy iddo ef, sef i'r Brenin, yr hyn a wnaeth y dynion hyn i fod yn amyneddgar hyd nes caent fyned i mewn i'r ddinas. Felly hwy a adawsant y gwinllanoedd, ac a aethant rhagddynt yn eu blaen, ac a redasant fel rhai yn rhedeg am eu bywyd; ac fel hyn y parhausant yn rhedeg hyd nes daethant i olwg y porth. Eithr yn y glŷn o'u blaen, hwy a gawsant eu hattal oblegid yr afon yr hon oedd yn ddofn iawn, ac nid oedd yno un bont ychwaith i fyned drosodd.*

Yn mhellach, gwelwn yn fy mreuddwyd, fod yma dyrfaoedd lawer, o wŷr, gwragedd, a phlant, o bob cenedl, llwythau, ac ieithoedd, yn eistedd yn ymyl glân yr afon; a llawer oedd yno yn yr afon; felly pan y daeth y pererinion i waered at yr afon, hwy a eisteddasant yno ar lân yr afon fel y lleill, ac a ddechreuasant ymofyn y naill â'r llall pa fodd y gallent fyned drosodd; hefyd hwy a ofynasant i'r rhai oedd yn eistedd yno o'u blaen hwy, a ydoedd un ffordd arall i fyned i'r ddinas heb fyned drwy yr afon? a hwythau a attebasant nad oedd: yna hwy a gythryblwyd yn ddirfawr yn eu meddyliau wrth ystyried pa fodd y gwnaent i gael myned dros yr afon yma. Yna Mr. Blino-ar-y-byd a ddywedodd wrth y lleill o'i gyfeillion, Na lwfrhewch oblegid yr afon, canys myfi a anturiaf i mewn yn gyntaf, ac yn ol y byddo y peth yn myned gyda mi, y cewch chwithau wneuthur; os af fi drosodd yn ddihangol, yna y gellwch fy nghanlyn i yn ddiogel; ond os bydd i mi suddo a darfod am danaf yn y dyfroedd dyfnion hyn, yna chwi a ellwch ddewis yr hyn sydd o'ch blaen, a gwnewch y peth a fyddo yn dda yn eich golwg eich hunain: felly efe a ruthrodd yn hyderus i'r afon, ac a ymdaflodd, ac a soddodd ei hun dros ei ben a'i glustiau mewn munud; ac nis gwelsant hwy ddim o hono ef byth yn codi drachefn; yr hyn a ddi-

* Da yw i ni brysuro yn y ffordd i'r bywyd, trwy gynnyddu mewn gras, a bod yn wresog mewn cariad, ac yn llafurus yn ngwaith yr Arglwydd; ond ar yr un pryd, rhaid i amynedd gael ei pherffaith waith.

galonodd y lleill o'r pererinion yn fawr dros ben, fel nas gwyddent beth yn y byd i wneuthur, na pha ffordd i droi eu hwynebau.[r]

A thra yr oeddynt yno fel hyn yn anniddanus ac yn drymllyd, fe hedodd gwr attynt mewn gwisg ddisglaer, yr hwn a ddywedodd wrthynt, 'Heddwch i chwi, na flined ar eich calonau; oblegid y gwr yr hwn a aeth yr awrhon i mewn i'r afon, ac a soddodd yn fuan allan o'ch golwg chwi; enw yr hwn yw Blino-ar-y-byd, ac y mae ei gyflwr a'i amgylchiad yn atteb i'w enw; canys efe a fu yn hir o amser dan anfoddlondeb blin, o achos trafferthion y bywyd hwn, am nad oeddynt yn dawel esmwyth o'i du ef; efe a gyfarfu â llawer iawn o golledion, a chroesau, a blinderau, a gofidiau. Efe a gafodd ei groesi yn ei gorph a'i enaid; a'i groesi yn ei etifeddiaeth, a'i feddiannau, a'i wraig, a'i blant, a'i berthynasau, a'i gyfeillion. Ac yn awr yr holl bethau hyn gyda eu gilydd, a'u gyrrasant ef i flino ar y byd, ac i ymroddi i fyned allan o hono ef. Eithr ni ddioddefodd efe un o'r pethau hyn o achos cyfiawnder, nac er mwyn enw Crist, ond ei falchder a'i gybydd-dod, a'i genfigen, yr hyn a'i gwnaeth ef yn gas gan bob dyn ag oedd yn ei adnabod ef, a thrwy hynny efe a'i rhoddodd ei hun allan o bob ymgeledd amgylchiadol, ac nid oedd dim yn ffynnu a gymmerai ef mewn llaw: yr oedd ei ŷd ef yn deifio cyn aeddfedu ar y maes; ei ysguboriau yn llosgi hyd y llawr, pan yr oeddynt wedi eu llenwi o doraethog ffrwythau cynhauaf; ei gorph a gystuddiwyd gan amryw o glefydau, y rhai a ddaethant arno o achos ei chwantau; ei wraig a'i blant oedd yn ei felldithio ef ger bron ei wyneb, o achos ei sarrugrwydd a'i greulondeb; ei gyfeillion a'i gymmydogion oedd yn ei watwor ac yn ei ddirmygu yn ei holl adfyd a'i helbul. Yr holl bethau hyn a ddaethant yn ei erbyn ef, ac felly yn ei ddigofaint, efe a ymroddodd i ymadael â'r byd. Eithr nid oedd ganddo gariad at Dduw yn hyn i gyd; a dyna yr achos paham y gwelsoch chwi ef yn soddi i lawr yn nyfroedd yr afon, ac heb gyfodi mwyach. Canys nid digon i fod un yn blino ar y byd, ond blino ar bechod yw yr hyn sydd gymmeradwy ger bron Duw, ac o werthfawr bris: o herwydd hyn ni ddylasai efe fod mor rhyfygus ac ymdaflu i'r afon heb un galwad iddo: ond efe a ddylasai ddisgwyl am amser y Brenin i alw am dano, megys ag y gwelwch lawer yma yn eistedd o hyd ar lân yr afon, ac yn disgwyl am alwad oddiwrth y Brenin. Ac yn awr, yr wyf fi yn gennad yn dwyn cennadwri at Cydwybod-dyner, i fynegu iddo fod yn hyfrydwch gan y Brenin iddo ef ddyfod drosodd yn gyntaf.'

Cydwybod-dyner yn awr a barottodd ei hun i ufuddhâu i wys y Brenin, ond ei galon oedd yn dyheu, a chryndod a ddaeth trwy ei holl lwynau ef wrth feddwl am yr hyn a ddigwyddodd i Mr. Blino-ar-y-byd, gan ofni y byddai iddo yntef suddo yn yr un modd; ond pan welodd y Gwr-ysbrydol ef yn y fath loes a hyn, efe a'i dyddanodd ef, ac a archodd iddo fod yn gysurus, gan ddywedyd, 'Nid chwi ydyw y cyntaf, ac nid chwi ydyw yr olaf

[r] Er cymmaint a ddichon fod ein croesau a'n gofidiau, rhaid ymfoddloni aros yma nes y danfono y Brenin gennad i'n nhol ni.

chwaith, o'r rhai sydd yn rhaid iddynt fyned trwy yr afon hon: canys fe orfu ar bob un a fu o'ch blaen chwi o amser Adda hyd yn awr, fyned trwy yr afon hon, ond Enoch ac Elias; ac felly hefyd y bydd i bawb a ddelo ar eich ol chwi. Marwolaeth sydd yn ddyled arnom ni oll i Dduw a natur; ac y mae yn rhaid ei dalu ryw bryd neu gilydd, yn gynnar neu ddiweddar, canys "gosodwyd i ddynion farw unwaith, ac wedi angau dyfod i farn;" gan hynny, nac ofna yr hyn nis gellir diangc rhagddo.'[8]

CYD.-DY. Nid cymmaint ydwyf fi yn ofni cwrdd âg angau, ag yr ydwyf yn ofni cwrdd â'r hyn sydd wedi angau; ond yr wyf yn ofni nas caf byth weled dinas Duw, sef yr Ierusalem nefol, muriau a thyrau disglaerwych yr hon a sugnodd fy serch attynt, pan yr oeddwn yn dyfod trwy wlad Beulah. Yr ydwyf yn ofni y syrthiaf i lawr i wlad y tywyllwch; pan y bydd fy nhraed yn taro wrth y mynyddoedd tywyll; i wlad yr hon sydd heb oleuni na threfn, lle nad oes dim i'w gael ond yr annhrefn, a'r dychrynfeydd tragywyddol. Dyma yr hyn a barodd i linynau fy nghalon fod yn barod i dorri, a'm gliniau llesg i guro ynghyd: O na byddai i ryw un fy nghuddio i hyd nes elai angerdd ei lid ef heibio! O na roddai ef i mi gael llechu yn nirgelfa ei babell, a'm cysgodi dan gysgod ei adenydd! canys ychydig ennyd etto, y llygaid a'm gwelodd ni'm gwel mwyach. Ac ar y gair hwn efe a aeth i mewn i'r afon, ac a brofodd fod y dyfroedd ar y cyntaf yn fâs ac yn araf, ac efe a ymgysurodd. Eithr fel yr oedd efe yn myned yn mhellach i mewn, y dyfroedd a ymgryfhasant, ac a godasant i fynu hyd at ei enau a'i ffroenau, fel ag yr oedd yn waith caled iddo gael anadlu; yna efe a lefodd yn hiraethlawn, gan ddywedyd, 'Achub fi, O Dduw, canys y dyfroedd a ddaethant hyd at fy enaid, soddais mewn tom dwfn, lle nad oes dim sefyllfa; daethum i'r dyfroedd dyfnion, y tonnau a'r llifeiriant a aethant drosof; brysia i'm gwared i, O Dduw, brysia i'm cynnorthwyo; O Arglwydd, pallodd fy nghnawd a'm calon, ond nerth fy nghalon, a'm rhan yw Duw yn dragywydd:' fel hyn y llefarodd, gan fyned yn mlaen o hyd, hyd nes daeth i ganol yr afon; ac yna collodd y gwaelod oddi tan ei draed, a'r dyfroedd a orchuddiodd ei ben ef, ac efe a soddodd o'r golwg, nes i'r Gwr disglaer (yr hwn a'i gwahoddasai ef i ddyfod drosodd,) ehedeg atto i'w gynnorthwyo ef, gan ei ddal gerfydd gwallt ei ben, a chadw ei ben uwchlaw y dyfroedd, hyd nes aeth drosodd i'r lân arall, ac yna yr oedd y dyfroedd yn myned yn fasach, ac efe a ddechreuodd gerdded yn esmwyth hyd nes aeth allan yn ddihangol o'r afon. A phan oedd yn sefyll ar y bryn o'r tu arall i'r afon, efe a lamodd o lawenydd, canys yr oedd yn profi ei hun mor rhyfeddol fywiog ac ysgafn, fel yr oedd yn tybied y gallasai ehedeg, canys y gwisgoedd gwael ag oedd yn drymaidd iawn yr holl ffordd iddo ei dwyn, a syrthiasant

[8] Mae rhai o'r duwiolion yn profi teimladau dynol yn gryf, er hiraethu o honynt am fod gyda eu Harglwydd. Mae angau yn wrthwynebus i natur, ond na fydded i'r Cristion ofni ei chwerw loes; yr hwn sydd yn rhoddi gras iddo i fyw yn y byd, a'n cynnorthwya ni yn yr awr ddiweddaf, ac a rydd i ni ymddattodiad dedwydd.

ymaith oddi wrtho ef yn yr afon, fel ag yr oedd efe, yn awr, mor ysgafn oddi wrthyn a phlyfyn.[t]

Mi a welwn yn fy mreuddwyd, cyn gynted ag y rhoddai y Gwr disglaer ef i gerdded y rhan fâs o'r afon, efe a ddychwelodd drachefn i'r tu yma i'r afon, ac archodd i'r Gwr-ysbrydol, a Meddwl-gwresog, a Cheisio'r-gwirionedd, a Dychwelwr, ei ganlyn ef i'r afon; yr hyn a wnaethant oll, fel ag y byddai i'r Gwr disglaer gynnal eu pennau, hyd nes delent i'r ochr arall, lle yr ydoedd Cydwybod-dyner yn sefyll gyda phump neu chwech o wŷr mewn gwisgoedd gwynion; felly y pedwar gwŷr hyn a aethant trwy yr afon mewn gwahanol ddull, canys y Gwr-ysbrydol a fuasai mewn dyfroedd dyfnion o'r blaen cyn hyn, er nad oeddynt, pe buasent oll ynghyd, mor ddwfn a'r dyfroedd hyn, eithr yr oedd ganddo beth dyfais i nofio, ac i gadw ei ben uwchlaw y dyfroedd, hyd nes aethant drosodd; ond, druain gwŷr, Dychwelwr a Cheisio'r-gwirionedd a fuant yn debyg iawn o golli eu bywydau, pan y daethant i ganol yr afon, lle yr oedd y dyfroedd yn ddwfn iawn, ond hwy a lefasant am gymhorth ar yr hwn sydd yn alluog i achub, a'u gweddïau hwy a wrandawyd, a llaw a estynwyd allan, yr hon a'u daliodd hwy i fynu, hyd nes daethant i le bâs. Ac felly hwy a gerddasant trwy y rhan arall o'r afon yn esmwyth, hyd nes daethant at eu brodyr i'r làn arall.

Ond Mr. Meddwl-gwresog a dybiodd y gallai ef fyned drosodd yn fwy diogel nag yr aeth un o'r lleill; ac am hynny, efe a gasglodd yn ddirgel swp mawr o hesg oedd yn tyfu ar làn yr afon, ac a'i gosododd ar y dyfroedd, ac a bwysodd arnynt; ond pan y daeth ef i ganol yr afon, y ffrwd lifeiriol a ddygodd ymaith yr hesg oddi tano ef, ac efe a soddodd i lawr i'r dyfnder, ac nis gwelwyd ef byth mwy. Ac yna mi a ofynais yn fy mreuddwyd, i un ag oedd yn sefyll ger llaw i mi, pa beth oedd yr achos ei fod ef yn ymddangos mor hyf ac mor ffraeth trwy ei holl daith, ac wedi y cwbl yn awr yn soddi yn y diwedd? ac efe a'm hattebodd, gan ddywedyd, Nid digon yw i fod un yn wresog, ac yn ëon, ond bod yn ostyngedig, ac yn gariadus hefyd sydd angenrheidiol; yr oedd y gwr hwn o dymher danllyd boeth, ac yn wresog iawn gwir yw; eithr sêl anmherffaith ac annhrefnus ydoedd ei sêl ef, heb ei chyd-dymheru â chariad ac â doethineb; ac fel hyn efe a ymddiriedodd yn ei nerth ei hun, megys ag y gwelsoch chwi ef yn awr yn pwyso ar y sypyn hesg accw, yr hyn oedd uchder ei ffroen ef; canys pe buasai ef yn galw ar Dduw am gymhorth yn ei gyfyngder, ond odid, efe a fuasai yn gadwedig.[u]

[t] Trwy ffydd a gweddi, yr enaid duwiol a ddygir yn ddiangol trwy afon angau. Mae y gwrthwyneb yn daer ac yn ddyfal yn ein canlyn hyd y diwedd, ond y rhai a brofant fod gras yn ddigonol i'w cynnal mewn bywyd, a gant hefyd brofi fod yr un gras yn ddigonol i ddal eu pennau i'r làn, a'u dwyn trwy afon angau.

[u] Nid oes dim ond gwir dduwioldeb a'n cynnal yn yr oriau mwyaf cyfyng. Nid penboethrwydd a pharodrwydd geiriau, nid ymddangosiad o zêl, a hyfdra naturiol, a'n dwg ni trwy y dyfroedd. Y mae y gwir gredadyn o hono ei hun yn llawn o ofnau, y mae yn teimlo nerthoedd natur yn rhy lesg; ffydd yn unig sydd yn ei gryfhâu, a datguddiad o'i hawl i'r wlad nefol trwy Grist ei Iachawdwr, sydd yn dyrchafu ei ben, ac yn rhoi iddo y fuddugoliaeth.

Felly, myfi a welais yn fy mreuddwyd, fod y pedwar gwr hyn, sef Cydwybod-dyner, y Gwr-ysbrydol, Ceisio'r-gwirionedd, a Dycnweiwr, yn dderbyniol o ddau tu yr afon, ac fod y Gwr disglaer yn eu croesawu hwy o'r tu draw yr un modd ag o'r tu yma; yna y daeth cwmmwl gwŷn, ac a'u gorchuddiodd hwynt oll, a hwy a ddygwyd i fynu yn y cwmmwl, ar hyd llwybrau disathr yr awyr; ac fel yr oeddynt yn esgyn i fynu, y gwŷr ag oedd mewn gwisgoedd gwŷnion a ddywedasant wrthynt, eu bod hwy yn gwylio drostynt yn holl ffordd eu pererindod, a'u bod yn dal sylw manwl ar eu holl ymddygiadau, ac yn eu hysgrifenu hwynt i lawr mewn llyfr, ac iddynt eu hachub yn fynych rhag amryw beryglon, er eu bod yn anweledig i'r pererinion ar eu taith; felly hwy a ddycpwyd i fynu yn y cwmmwl, trwy y cylchoedd anfesurol fry; ac fel yr oeddynt yn esgyn i fynu trwy yr awyr, hwy a gawsant olwg ar y ser gogoneddus, y rhai oedd yn disgleirio fel yr haul yn y ffurfafen. Ac o'r diwedd, pan y daethant yn gyfagos at nef y nefoedd, fe ddaeth tyrfa o rai sanctaidd allan o'r ddinas i'w cyfarfod hwy. A'r ddinas oedd wedi ei sylfaenu ar ben y bryniau tragywyddol, ac yn cael ei hamgylchu â maesydd o ddisgleirdeb tragywyddol, lle yr oedd y seintiau a'r angylion yn rhodio. Yna hwy a ddaethant i'r fan lle yr oedd yr Hen Ddihenydd yn eistedd, gwisgoedd yr hwn oedd cyn wynned â'r eira, a'i ben a'i wallt yn wŷn fel gwlân; ei orseddfaingc oedd yn debyg i dân fflamllyd, a'i holwynion fel tân yn llosgi, ac yr oedd megys ffrwd danllyd yn deillio ac yn dyfod allan oddi ger bron ei wyneb ef; ac yr oedd mil o filoedd yn gweinyddu iddo, a deng mil o fyrddiynau o fyrddiynau oedd yn sefyll ger ei fron ef. Yna hwy a ddaethant i fynu at borth y ddinas, a'r gwŷr dsiglaer a orchymynasant i'r pererinion i alw yno, a hwy a wnaethant felly; yna, fe edrychodd un dros y porth, wrth yr hwn y dywedodd y gwŷr disglaer fel hyn; 'Y mae y dynion hyn wedi dyfod o Ddyffryn Dystryw, a hwy a ddaethant trwy flinderau mawrion oblegid y cariad oedd ganddynt tuag at eu Brenin.' A hwy a ddywedasant wrth y pererinion am roddi eu tystiolaethau i mewn, yr hyn a wnaethant, a'u tystiolaeth a roddwyd ger bron y Brenin; ac yntef a roddodd orchymyn i agoryd i'r pererinion, ac felly hwy a aethant i mewn, ac ar eu gwaith yn dyfod i mewn, fe ddaeth un i'w cyfarfod hwy, ac a ddywedodd wrthynt, "Deuwch, chwi fendigedigion blant fy Nhad, ac etifeddwch y deyrnas a barottowyd i chwi er cyn seiliad y byd; ewch i mewn i lawenydd eich Harglwydd." Yna fe ddaeth tyrfa o'r llu nefol, y côr gogoneddus, i'w cyfarfod hwy, â thelynau yn eu dwylaw, a hwy a ganasant gân yr hon na allasai un dyn ei deall, na neb ei chanu ond hwy eu hunain, a'r sawl a gyfrifir yn deilwng o gael eu derbyn i mewn i'r lle gogoneddus hwn. Ac felly, mi a ddeffroais, ac wele, breuddwyd oedd.

Wel bellach rhwydd-deb iti, bererin duwiol dewr,  
Ti ddiengaist rhag peryglon sydd greulon ar y llawr;  
De'st mewn i'r ddinas hardda' na chlybwyd am ei bath,  
Rhagori mae ar Ganaan oedd lawn o fêl a llaeth.

O Ddyffryn Dystryw diengaist trwy Gors Anobaith chwith,
Ond dan y cwmmwl goleu ce'st brofi'r nefol wlith.
Er i ti gael dy glwyfo gan saethau'r gelyn cas,
Ce'st etto feddyginiaeth trwy'r balsam pur ei flas.

Ti gefaist ffon a llythyr gan ewyllysiwr da,
A chan ddehonglwr tirion, dy lwyr iachâu o'th bla :
Ac yno gwelaist bethau a dalai eu cofio mwy,
Gan bawb ag a'u darlleno, ac a'u hystyrio hwy.

Rhag gwag lawenydd cnawdol ymgadw wne'st mewn pryd,
Ac yn nhŷ galar duwiol y ce'st orphwysfa glud ;
Dros un prydnhawn-gwaith bychan y bu'th wylofain prudd,
Ac erbyn gwawrio'r bore, dy rwymau aeth yn rhydd.

Ce'st weled pethau rhyfedd gan yr ymroddiad dwys,
Ac wedi'n cael dy hudo gan gnawdol hyder ffwys :
Ac amryw bethau ereill rhy faith eu henwi 'nawr,
Ond 'nawr ti lwyr orfuaist holl demtasiynau'r llawr.

DIWEDD Y DRYDEDD RAN.



"His wine was for him, his oil was for him." p. 945.

J. MOORE.

# The Good Samaritan.

Y Samariad Trugarog

# Y RHAGYMADRODD:

NEU,

HANES BYR O GYHOEDDIAD Y GWAITH HWN. A YSGRIFENWYD GAN YR AWDWR, AC A GYFLWYNWYD GANDDO I'R RHAI AG Y DARFU I DDUW EI GYFRIF YN DEILWNG I'W DWYN I'R FFYDD TRWY EI WEINIDOGAETH.

BLANT, gras a fyddo gyda chwi, Amen. Gan fy mod wedi cael fy nghymeryd oddiwrthych, o ran fy mhresenoldeb corphorol, a'm caethiwo, fel nas gallaf gyflawni y ddyledswydd sydd oddiwrth Dduw yn gorwedd arnaf tuag atoch, er eich hyfforddi a'ch adeiladu mewn ffydd a sancteiddrwydd; eto, fel y galloch weled fod gofal tadol a dymuniad yn fy enaid am eich llwyddiant ysprydol a thragwyddol, yr wyf yn awr, unwaith yn rhagor, megis gynt oddiar gopa *Senir* a *Hermon*, felly yn awr "o lochesau y llewod, o fynyddoedd y llewpardiaid," yn edrych arnoch oll, gan fawr hiraethu am eich mynediad diogel i'r porthladd dymunol.

Yr wyf yn diolch i Dduw yn mhob coffa am danoch; ac yn llawenhau, er fy machu rhwng danedd llewod yn yr anialwch, yn y gras a'r drugaredd, a'r wybodaeth o Grist ein Hiachawdwr, y rhai a gyfranodd Duw i chwi, ynghyd ag helaethrwydd o ffydd a chariad. Y mae eich newyn a'ch syched hefyd am ychwaneg o gydnabyddiaeth â'r Tad yn ei Fab; tynerwch eich calonau, eich arswyd rhag pechod, eich diwair a sanctaidd ymddygiad gerbron Duw a dynion, yn fy mywiogi yn ddirfawr: "Canys chwychwi yw ein gogoniant a'n llawenydd ni." 1 Thes. ii. 20.

Danfonais i'ch anerch y diferyn hwn o'r mêl a gymerais allan o ysgerbwd y llew. Barn. xiv. 5—8. Bwyteais o hono fy hun hefyd, ac fe'm hadfywiwyd yn fawr trwyddo. Y mae profedigaethau, pan y cyfarfyddom gyntaf â hwynt, yn rhüo fel llew Samson; ond os gorchfygwn hwynt, pan ddelom heibio iddynt

y tro nesaf, cawn nythaid o fêl ynddynt. Nid ydyw y Philistiaid yn fy neall. Math o adroddiad ydyw o waith Duw ar fy enaid fy hun, o'r dechreu hyd yr awr hon, lle y gellwch weled y bwrw fu arnaf i lawr, a'r codi fu arnaf i fyny: canys Efe sydd yn clwyfo, a'i ddwylaw Ef a iachâ. Y mae yn ysgrifenedig yn yr Ysgrythyr, "Y tad a hyspysa i'r plant dy wirionedd;" ïe, oherwydd hyn y daliwyd fi cyhyd dan Sinai, i weled y tân, y cwmwl, a'r tywyllwch, "fel yr ofnwn yr Arglwydd holl ddyddiau fy einioes, ac y mynegwn i'm plant ei fawrion a'i ryfeddol weithredoedd." Es. xxxviii. 19. Deut. iv. 10, 11. Ps. lxxviii. 3—5.

Ysgrifenodd Moses (Num. xxxiii. 1, 2) deithiau meibion Israel o'r Aipht i Ganaan; a gorchymynodd iddynt hefyd gofio eu teithiau ddeugain mlynedd yn yr anialwch, gan ddywedyd, "A chofia yr holl ffyrdd yr arweiniodd yr Arglwydd dy Dduw di ynddi y deugain mlynedd hyn trwy yr anialwch, er mwyn dy gystuddio di, gan dy brofi, i wybod yr hyn oedd yn dy galon, a gedwi ti ei orchymynion ef, ai nas cedwit." Deut. viii. 2. Oherwydd paham, myfinau a geisiais wneuthur hyn; ac nid hyny yn unig, ond ei gyhoeddi hefyd, fel, os yr Arglwydd a'i myn, yr adgofio eraill yr hyn a wnaeth efe i'w heneidiau, trwy ddarllen ei waith arnaf fi.

Mae yn fuddioı iawn i Gristionogion alw yn fynych i'w cof ddechreuad cyntaf gras yn eu heneidiau. "Nos yw hon i'w chadw i'r Arglwydd, ar yr hon y dygwyd hwynt allan o wlad yr Aipht: nos yr Arglwydd yw hon, i holl feibion Israel i'w chadw trwy eu hoesoedd." Ecs. xii. 42. "Fy Nuw (medd Dafydd yn Psalm xlii. 6), fy enaid a ymddarostwng ynof: am hyny y cofiaf di, o dir yr Iorddonen, a'r Hermoniaid o fryn Misar." Efe a adgofiodd hefyd y llew a'r arth, pan aeth i ymladd â'r cawr o Gath. 1 Sam. xvii. 36, 37.

Arfer yr apostol Paul, a hyny pan ar ei brawf am ei einioes (Act. xxii. a xxiii.), ydoedd adrodd gerbron ei farnwyr y modd yr argyhoeddasid ef. Meddyliai am y dydd a'r awr y cyfarfyddodd â gras gyntaf; canys gwyddai fod hyny yn gyfnerth iddo. Wedi dwyn o'r Arglwydd feibion Israel trwy'r Môr Coch, yn mhell i'r anialwch, eto, bu raid iddynt droi yn gwbl oddiamgylch i'r un lle

drachefn, fel yr adgofient mai yno y boddwyd eu gelynion. Num. xiv. 25. Canys er iddynt ganu ei fawl o'r blaen, eto buan yr anghofiasant ei fawrion weithredoedd ef. Ps. cvi. 13.

Yn fy hanes yma gellwch weled llawer, ïe, llawer, meddaf, o ras Duw tuag ataf. Yr wyf yn diolch am ei fod yn llawer, canys yr oedd yn fwy na'm pechodau, a hudoliaethau Satan hefyd. Gallaf gofio fy ofnau, fy amheuon, a'm holl fisoedd trist, gyda chysur; y maent fel pen Goliah yn fy llaw. Nid oedd dim i Dafydd megis cleddyf Goliah—y cleddyf a fwriadesid i'w galon ef ei hun; canys yr olwg arno, a'r adgof o hono, a bregethai waredigaeth Duw iddo. O! y coffadwriaeth am fy aml bechodau, am fy aml brofedigaethau, ac am fy aml ofnau, y byddwn yn golledig dros byth! Maent yn dwyn o'r newydd i'm meddwl goffadwriaeth am y cymhorth mawr, y cynhaliaeth mawr o'r nefoedd, a'r gras mawr a gyfranodd Duw i druan o ddyn o'm bath i.

Fy anwyl blant, galwch i'ch cof y dyddiau gynt, a blynyddoedd yr hen amser: cofiwch hefyd eich cân y nos, ac ymddiddenwch â'ch calonau eich hunain. Ps. lxxvii. 5—8. Ië, edrychwch yn ddyfal, ac na adewch un gongl yno heb ei chwilio, canys trysor cuddiedig ydyw, sef trysor eich profiad cyntaf ac ail o ras Duw tuag atoch. Cofiwch, meddaf, y gair a ymaflodd ynoch gyntaf; cofiwch ddychrynfeydd eich cydwybodau, ac ofnau angau ac uffern; cofiwch hefyd eich dagrau a'ch gweddiau ar Dduw; ïe, fel y griddfanech dan bob twmpath am drugaredd. Onid oes genych yr un bryn *Misar* i'w adgofio? A ollyngasoch chwi dros gof y maes, y beudy, yr ystabl, yr ysgubor, a'r cyffelyb, lle yr ymwelodd Duw â'ch eneidiau? Cofiwch hefyd y gair—y gair, meddaf, trwy yr hwn y g naeth yr Arglwydd i chwi obeithio. Os pechasoch yn erbyn goleuni; os h di chwi i gablu; os ydych mewn anobaith; os ydych yn tybied fod Duw yn ymladd yn eich erbyn; neu os ydyw y nefoedd yn guddiedig oddiwrthych, cofiwch ei bod felly gyda'ch tad yn yr efengyl; eithr yr Arglwydd a'm gwaredodd oddiwrthynt oll.

Gallaswn helaethu llawer yn y Traethawd hwn ynghylch fy mhrofedigaethau

a'm trallodau oblegid pechod, ac hefyd am drugaredd rasol a gwaith Duw ar fy enaid. Gallaswn hefyd ddefnyddio ymadroddion ardderchocach a dysgedicach, ac addurno y cyfansoddiad yn gywreiniach, nag y darfu i mi wneuthur; ond ni feiddiwn. Nid cellwair yr oedd Duw wrth fy argyhoeddi; nid cellwair yr oedd diafol wrth fy nhemtio; ac nid cellwair yr oeddwn inau, pan suddais megis i'r pwll diwaelod, pan ymaflodd pangfeydd uffern ynof; gan hyny, ni ddylwn gellwair wrth eu hadrodd, eithr bod yn eglur a diaddurn, a dangos y cwbl fel y bu.[a] Yr hwn a'i hoffo, derbynied; a'r hwn a'i gwrthwynebo, dangosed bethau amgenach.

Fy anwyl blant—Mae y llaeth a'r mêl tudraw i'r anialwch hwn. Duw a fyddo drugarog wrthych, ac a'ch nertho i gyrhaedd yr hyfryd wlad. Byddwch wych.

JOHN BUNYAN.

[a] Dichon i'r gweinidog goreu weithiau gyfarfod â thriniaeth galed, a'i lafur gael ei ddibrisio. Dywed un diwygiwr enwog :—"Canfyddir brychau mewn pregethwr yn ebrwydd : os bydd wedi ei gynysgaeddu â deg o rinweddau, a chanddo un bai, bydd i'r un bai hwnw beri diffyg a thywyllwch ar ei holl ddoniau a'i rinweddau, gan mor ddrygionus ydyw y byd yr amseroedd hyn. Mae gan y Doctor Justus Jonas bob dawn a rhinwedd sydd yn addurno dyn, ond oherwydd fod ynddo ychydig o ffaeleddau bychain, ni all y bobl oddef y gwr gonest a duwiol"—*Luther.*

# HELAETHRWYDD O RAS

I'R

# PENAF O BECHADURIAID;

NEU,

## DRAETHIAD BYR O FAWR DRUGAREDD DUW YN NGHRIST I'W WAS TLAWD,

## JOHN BUNYAN.

CYN llefaru o honof am waith gras Duw arnaf, ni bydd yn anaddas i mi roddi ychydig hanes o'm rhieni a'm meithriniad, fel, trwy hyny, y mawryger ac y dyrchafer Duw yn ei ras a'i ddaioni tuag ataf gerbron meibion dynion.

2. Am fy achau, nid oeddynt, fel y mae'n hyspys i laweroedd, ond tlawd ac isel; tŷ fy nhad oedd y gwaelaf a'r distadlaf yn mysg holl deuluoedd y tir. Gan hyny, nid oes genyf le, fel llawer, i ymffrostio mewn gwaedoliaeth genedigaeth-fraint oruchel na phendefigol, yn ol y cnawd; eto, wrth ystyried pethau, yr wyf yn clodfori'r mawrhydi nefol am mai trwy y drws tlawd hwn y dygodd fi i'r byd, i fod yn gyfranog o'r gras a'r bywyd sydd yn Nghrist Iesu, trwy'r efengyl.[a]

3. Ond er gwaeled ac er tloted oedd fy rhieni, rhyngodd bodd i'r Arglwydd roi yn eu calonau i'm rhoi mewn ysgol, i ddysgu darllen ac ysgrifenu, yr hyn beth a ddysgais, fel plant tlodion eraill o'm cydradd; ond, er fy nghywilydd, yr wyf yn cyfaddef, buan yr anghofiais y cwbl, a hyny yn hir cyn i'r Arglwydd weithredu tröedigaeth grasol ar fy enaid.

4. Am fy muchedd anianol, tra bum heb Dduw yn y byd, yr oedd yn ddiau "yn ol helynt y byd hwn, a'r yspryd sydd yr awr hon yn gweithio yn mhlant yr anufudd-dod." Eph. ii. 2. Fy mhrif hoffder oedd ymgyflwyno yn gaethwas i ddiafol yn ol ei ewyllys (2 Tim. ii. 2); yr oeddwn yn llawn o bob anghyfiawnder;

[a] Nid oes yr un gwaith o ysgrifell Bunyan yn fwy addysgiadol nag ydyw *Helaethrwydd o Ras i'r Penaf o Bechaduriaid.* Y mae yn cynwys hanes bachgenyn tlawd, sefyllfa isel yr hwn a'i gosododd yn agored i lygredigaethau y gymdeithas waethaf, fel y daeth i ymgynefino ag annuwioldeb—ei brofiad a'i edifeirwch llym am y cyfryw—a'i gwymp eilwaith i'w hen ffyrdd drygionus. Rhoddir yma hanes ffyddlon o'i ymdrechion meddyliol yn y cyflwr hwnw; ac y mae hyfrydwch dirfawr i'w gael wrth ddilyn gyrfa yr awdwr trwyddynt i'r wlad well.

yr hyn beth a weithiodd mor gryf yn fy nghalon, ac allan yn fy mywyd, a hyny er yn blentyn, fel nad oedd ond ychydig o'm cyffelyb (yn neillduol ac ystyried fy oedran) am dyngu, rhegu, dywedyd celwydd, a chablu enw Duw.

5. Iё, yr oeddwn wedi ymwreiddio ac ymarferu yn y pethau hyny, fel ag yr aethant megis ail natur i mi; yr hyn beth, fel ag yr ystyriais wedi hyny, oedd yn mawr anfoddloni yr Arglwydd, fel ag y byddai hyd yn oed pan oeddwn yn blentyn, yn fy arswydo â breuddwydion a gweledigaethau dychrynllyd ac ofnadwy; ac yn fynych, wedi treulio dydd ar ol dydd mewn pechod, byddwn yn cael fy mawr flino yn fy nghwsg gan weledigaethau cythreuliaid ac ysprydion drwg, y rhai a dybiaswn oeddynt yn ceisio fy llusgo ymaith, a minau heb un gallu i gael ymwared rhagddynt.

6. Byddwn hefyd yn y blynyddoedd hyny yn cael fy nhrallodi yn fawr gan feddyliau am arteithiau tân uffern, ac yn ofni beunydd mai i blith diafliaid ac ellyllon uffernol y syrthiai fy nghoelbren yn y diwedd, y rhai sydd yn rhwym yno mewn cadwynau tywyllwch hyd y dydd mawr.

7. Pan oeddwn yn blentyn naw neu ddeg oed, yr oedd y pethau hyny yn gofidio fy enaid yn y cyfryw fodd, fel ag y byddwn yn fynych, yn nghanol fy nifyrwch a'm gwagedd bachgenaidd yn mhlith fy ofer gyfeillion, yn cael fy suddo i lawr gan flinder meddwl o'u plegid; ac er hyny, nid allwn mewn un modd ymadael â'm pechodau. Yr oeddwn hefyd yn cael fy ngorchfygu gan anobaith am y nefoedd a bywyd tragwyddol, fel ag y byddwn yn dymuno yn fynych na buasai uffern yn bod, neu fy mod yn ddiafol fy hun, gan feddwl nad oedd efe ond poenydiwr yn unig; ac os gorfyddai arnaf fyned i uffern, gwell fyddai bod yn boenydiwr na chael fy mhoeni gan eraill.

8. Rhyw dalm o amser wedi i'r breuddwydion dychrynllyd hyny fy ngadael, myfi a'u hanghofiais yn fuan, canys torodd fy mhleserau bob coffadwriaeth o honynt ymaith mor llwyr a phe na buasent wedi bod erioed. Oherwydd paham, gyda mwy o drachwant, yn ol nerth fy natur, rhoddais y ffrwyn i'm llygredd, gan ymhoffi yn mhob troseddiad o gyfraith Duw; ac yr oeddwn yn brif arweinydd i'm holl gymdeithion ieuainc yn mhob drwg ac annuwioldeb, nes aethum i'r stâd briodasol.

9. Fe gafodd trachwantau a ffrwythau'r cnawd y fath lywodraeth ar fy enaid tlawd, fel, oni buasai i ras gwyrthiol a gwerthfawr ragflaenu, buaswn farw, nid yn unig trwy ddyrnod cyfiawnder tragwyddol, ond buaswn hefyd yn gosod fy hun yn agored i gospedigaeth y cyfreithiau hyny ag sy'n dwyn dynion i warth a gwaradwydd gerbron y byd.

10. Yr oedd fy meddyliau am grefydd yn dra blinderus i mi yn y dyddiau hyny; nid allwn eu goddef ynof fy hun, nac mewn eraill. Pan glywn rai yn darllen

llyfrau ag oedd yn dwyn perthynas â duwioldeb Cristionogol, yr oeddwn fel un mewn carchar: y pryd hwnw yr oeddwn yn dywedyd wrth Dduw, "Cilia oddiwrthyf, canys nid wyf yn chwenych gwybod dy ffyrdd." Job xxi. 14. Yr oeddwn y pryd hwn yn hollol wag o bob ystyriaeth dda; yr oedd nef ac uffern yn mhell o'm golwg; iachawdwriaeth a damnedigaeth oedd y pethau lleiaf yn fy meddyliau. "O Arglwydd, ti a wyddost fy muchedd, a'm ffyrdd ydynt amlwg i ti."

11. Ond hyn ydwyf yn ei gofio yn dda, er y gallwn bechu fy hun gyda'r pleser a'r tawelwch mwyaf, ac hefyd ymbleseru yn halogedigaeth fy nghyfeiliornad, eto, y pryd hwnw, os gwelwn bethau drwg yn y rhai hyny ag oeddynt yn arddel daioni, gwnai i'm hyspryd grynu. Unwaith, yn neillduol, pan oeddwn yn nghanol gwagedd, clywais un yn rhegu ag oeddid yn ei gyfrif yn wr crefyddol, yr hyn a roddodd y fath ergyd i'm hyspryd, fel y doluriodd fy nghalon.

12. Ond ni lwyr-adawodd Duw mo honof, eithr dilynodd fi yn wastadol, nid ag argyhoeddiadau, ond â barnedigaethau; eto, y cyfryw ag oedd gymysgedig â thrugaredd. Canys syrthiais unwaith i gilfach o'r môr, a bu agos iawn i mi foddi. Dro arall syrthiais i afon Bedford, ond Duw a'm hachubodd eilwaith. Bryd arall, pan oeddwn yn y maes gydag un o'm cyfeillion, digwyddodd i neidr ymlusgo o'm blaen, a chenyf bren yn fy llaw, tarewais hi ar draws ei chefn; wedi ei dirymu, agorais ei safn â'r pren, a thynais ei cholyn allan â'm bysedd; trwy y cyfryw weithred ryfygus, oni buasai i Dduw ragflaenu, gallaswn ddwyn fy hun i ddinystr.

13. Deliais hefyd sylw diolchgar ar y peth hwn: pan oeddwn yn filwr, detholwyd fi i fyned i warchae ar ryw le; ond pan oeddwn yn barod i gychwyn, un o'm cymdeithion a geisiodd fyned yn fy lle; â'r hyn y cydsyniais, ac efe a aeth. Pan ddaeth dydd y gwarchae, ac efe ar y wylfa, saethwyd ef yn ei ben â phelen, fel y bu farw.

14. Yma, fel y soniais eisoes, yr oedd barnedigaethau a thrugareddau, ond nid allai y naill na'r llall ddeffroi fy enaid i gyfiawnder; oherwydd paham, pechais rhagof, ac aethum yn fwy-fwy gwrthryfelgar yn erbyn Duw, a diofal am fy iachawdwriaeth.

15. Priodais yn fuan ar ol hyn; a'r Arglwydd a drefnodd i mi gael gwraig o ferch i rieni duwiol. Priodasom mor dlawd ag y gallai tlodi fod, heb fod genym gymaint o ddodrefn tŷ a dysgl neu lwy rhyngom. Ond yr oedd ganddi ddau lyfr ar ei helw, sef *Llwybr Hyfforddiadol i'r Nef*, a'r *Ymarferiad o Dduwioldeb*, a adawodd ei thad ar ei ol pan fu farw. Darllenwn y llyfrau hyn ar brydiau, a byddwn yn cael rhywbeth wrth fy modd ynddynt; ond yr oeddwn yr holl amser hyn heb fy argyhoeddi. Byddai fy ngwraig hefyd yn adrodd yn aml wrthyf y fath wr duwiol oedd ei thad; fel y diwygiai ac y ceryddai ddrygioni yn ei dŷ ei hun,

ac yn ei gymydogion; a r fath fuchedd dduwiol a manwl, mewn gair a gweithred, a arweiniodd dros ei holl ddyddiau.

16. Er-na chyrhaeddodd y llyfrau uchod fy nghalon, i'm deffroi o'm cyflwr pechadurus, eto cenhedlasant ynof ryw fath o ddymuuiad i ddiwygio fy muchedd annuwiol, ac i ymroddi yn awyddus i grefydd yr oes; hyny yw, myned i'r llan ddwywaith bob dydd, gan ddarllen a chanu mawl yn dra defosionol, fel eraill, ond er hyn i gyd, nid oeddwn wedi diwygio yn fy muchedd. Yr oeddwn wedi fy meddiannu i'r fath raddau gan yspryd coelgrefyddol, fel yr addolwn yr allor, yr offeiriad, y clochydd, y wen-wisg, y gwasanaeth, a phob peth arall perthynol i'r eglwys, gyda'r parch mwyaf, gan gyfrif y cwbl a berthynai iddynt yn sanctaidd. Yr oeddwn yn ystyried yr offeiriad a'r clochydd yn neillduol o ddedwydd, ac yn dra bendigedig, gan eu bod, dybiaswn i, yn weision i Dduw, ac yn benaf yn ngwasanaeth ei deml sanctaidd.

17. Effeithiodd y grediniaeth hon mewn byr amser mor gryf ar fy yspryd, fel os byddai i mi ddim ond gweled offeiriad, pa mor warthus bynag fyddai ei fuchedd, teimlwn fy hunan yn barod i ymgrymu iddo, ei anrhydeddu, a glynu wrtho; ïe, yr oedd y cariad oedd genyf atynt y fath, gan gredu mai gweinidogion Duw oeddynt, fel y gorweddaswn dan eu traed, i gymeryd fy sathru ganddynt; yr oedd hyd yn oed eu henw, eu gwisg, a'u gwaith, wedi fy swyngyfareddu.

18. Ar ol i mi fod fel hyn dros gryn amser, daeth peth arall i'm meddwl, sef pa un a oeddwn yn un o'r Israeliaid neu beidio. Yr oeddwn yn darllen yn yr Ysgrythyr eu bod unwaith yn bobl briodol i Dduw; a meddyliwn, os oeddwn yn un o'r genedl hòno, y byddai yn rhaid i'm henaid fod yn ddedwydd. Yr oedd ynof hiraeth mawr hefyd am gael amlygiad o'r cwestiwn hwn, ond nis gwyddwn pa fodd; o'r diwedd gofynais i'm tad, a dywedodd wrthyf nad oeddwn; oherwydd paham, gwangalonais am gael un gobaith y ffordd hòno.

19. Nid oeddwn, trwy yr holl amser hyn, yn ystyried perygl a drwg pechod;—cadwyd fi rhag credu y byddai i bechod fy namnio, pa grefydd bynag a broffeswn, ac heb gael fy niogelu yn Nghrist hefyd. Ië, nid oeddwn yn gofalu a oedd y fath un ai peidio. Fel hyny y mae dyn dall yn crwydro, ac yn blino ei hun â gwagedd, gan nas gŵyr y ffordd i ddinas Duw.

20. Ond un diwrnod, digwyddodd i offeiriad y plwyf son am y perygl o halogi y Sabboth, pa un ai trwy weithio neu chwareu, neu ryw ffordd arall. O ganlyniad, cefais fy nghlwyfo yn fy nghydwybod dan ei bregeth ef, gan feddwl iddo ei chyfansoddi yn bwrpasol, er dangos i mi fy mhechod. Y pryd hwnw teimlais y fath euogrwydd, nas gwn i mi ei brofi erioed o'r blaen, canys yr oeddwn wedi fy mawr lwytho ganddo; felly daethum adref ar ol diwedd y bregeth â baich gorthrymus ar fy yspryd.

21. Chwerwodd hyny, dros y pryd hwnw, fy mhleserau blaenorol; ond nid arosodd yn hir, canys cyn i mi orphen ciniawa, y gofid a ddechreuodd ymadael o'm meddwl, a'm calon a ddychwelodd i'w hen stâd bechadurus. O! mor llawen yr oeddwn fod y cynhwrf wedi cilio oddiwrthyf, a'r tân wedi ei ddiffodd, fel y gallwn bechu yn ddigyffro. Gan hyny; pan ymddiwellais ag ymborth, bwriais y bregeth allan o'm meddwl, a dychwelais gydag hyfrydwch mawr at fy hen arferion a'm digrifwch.

22. Ond ar yr un diwrnod, fel yr oeddwn yn nghanol fy rhodres yn chwareu y gâth, wedi i mi ei tharo o'r twll unwaith, yn ddiatreg, fel yr oeddwn yn myned i'w tharo yr ail waith, daeth lleferydd o'r nef yn ddisymwth, ac a darawodd i'm calon, gan ddywedyd, "A adewi di dy bechodau, a myned i'r nef, neu a ddilyni di hwynt, a myned i uffern?" Ar hyn tarawyd fi â syndod mawr; gan adael fy nghâth ar y llawr, edrychais i fyny tua'r nef, ac yr oeddwn megis pe buaswn yn gweled, â llygad fy nealldwriaeth, yr Arglwydd Iesu wedi ei anfoddloni yn fawr wrthyf, ac yn edrych i lawr yn dra digofus arnaf, ac yn fy mygwth yn llym â rhyw gospedigaeth ofnadwy am gyflawni yr hen arferion pechadurus hyn, ac eraill o'r fath.

23. Yr oeddwn newydd droi y pethau uchod yn fy meddwl, pan yn ddisymwth y darfu i'r casgliad hwn daro ar fy meddwl, (canys y rhybudd blaenorol a osododd fy mhechodau o flaen fy llygaid drachefn,) sef fy mod yn bechadur truenus, a'i bod yn rhy ddiweddar bellach i mi edrych am y nefoedd, gan na wnai Crist roddi gollyngdod i mi, na maddeuant o'm pechodau. A thra yr oeddwn yn myfyrio ar fy sefyllfa, ac yn ofni mai felly y byddai, teimlais fy nghalon yn suddo i anobaith, gan feddwl ei bod yn rhy ddiweddar; gan hyny, penderfynais fyned rhagof yn fy mhechod, canys meddyliais os oedd y peth felly, fod fy nghyflwr yn dra thruenus—yn druenus, os gadawn fy mhechodau, ac os canlynwn hwynt, nis gallwn ond bod yn golledig; ac os rhaid i mi fod felly, nis gwaeth genyf gael fy namnio am lawer nag am ychydig o bechodau.

24. Fel hyn y sefais yn nghanol fy chwareuyddiaeth gerbron pawb oedd yn bresenol, ond ni yngenais air wrthynt; eithr wedi gwneuthur o honof y cyfryw benderfyniad, dychwelais at fy ynfydrwydd drachefn. Ac yr ydwyf yn cofio yn dda, pan y meddiannodd yr anobaith hwnw fy enaid, i mi gael fy llithio i feddwl nad oedd bosibl i mi gael cysur mewn dim ond pechod; canys y nefoedd a aethai heibio eisoes, am yr hon nid oedd ond ofer i mi feddwl mwy. Felly teimlais ynof hiraeth mawr am ymlenwi â phechod, fel y gallwn brofi y melysder o hono; ïe, gwnaethum gymaint brys ag a allwn er llenwi fy mol ar ei ddanteithion, rhag ofn i mi farw cyn cael fy nymuniad, yr hyn a ofnwn yn ddirfawr. Yr wyf yn tystiolaethu gerbron Duw nad ydwyf yn dywedyd celwydd, nac yn dyfeisio yr ymadroddion, yn hyn oll. Yr Arglwydd daionus, o'i fawr drugaredd, a faddeuo i mi fy holl gamweddau.

25. Ac yr wyf yn dra sicr fod y brofedigaeth hon yn cael ei defnyddio gan ddiafol yn mysg dynion yn fynychach nag y mae llawer yn ystyried; er fod ganddynt yn barhaus ryw gred ddirgel yn eu mynwes nad oes un gobaith iddynt hwy, oherwydd eu bod wedi caru pechod, am hyny ei "ganlyn a fynant." Jer. ii. 25; xviii. 12.

26. Yn awr aethum rhagof mewn pechod gydag awyddfryd, gan rwgnach oherwydd nas gallaswn ymddigoni arno fel yr ewyllysiwn. Fel hyn y bu arnaf dros fis neu ychwaneg. Ond un diwrnod, fel yr oeddwn yn sefyll wrth ffenestr masnachdy cymydog, yn tyngu ac yn rhegu, yn ol fy arfer, digwyddodd i wraig y tŷ, yr hon oedd oddimewn, fy nghlywed; ac er ei bod yn druanas dra annuwiol, ac yn agored i unrhyw rusedd, eto tystiodd fy mod yn tyngu ac yn rhegu mor ofnadwy, nes yr oedd yn dychrynu wrth wrando arnaf; gan ddywedyd yn mhellach, fy mod y mwyaf echrydus am dyngu ag a glywsai hi erioed, a'm bod, o herwydd hyny, yn ddigon i lithio, llygru, a distrywio holl ieuenctyd y dref, pe buasent yn dyfod i'm cyfeillach drygionus.

27. Hyn a'm distawodd ac a'm cywilyddiodd yn ddirfawr, a hyny, fel y tybiais, gerbron Duw'r nefoedd; felly, tra'r arosais yno (gan blygu fy mhen), dymunaswn o'm holl galon i mi allu bod yn blentyn bach drachefn, fel y gallasai'm tad fy nysgu i lefaru heb y ffordd ddrygionus hon o dyngu, canys meddyliais, oherwydd fy mod wedi ymgynefino â'r arferiad atgas, nad allwn yn awr ymattal oddiwrtho.

28. Ond pa fodd y daeth, nis gwn—o'r pryd hwnw allan mi adewais dyngu, yr hyn, pan ystyriwn, oedd ryfedd iawn genyf; canys o'r blaen ni fedrwn ymddiddan heb osod ar fy ngeiriau lwon, un yn mlaen, a'r llall yn ol; ond wedi hyn gallwn lefaru hebddynt yn llariaidd ac yn hyfrydach nag o'r blaen: er hyny, trwy yr holl amser hyn nid oeddwn yn adnabod Iesu Grist, ac ni ymadawswn â chwareuon ofer.

29. Yn fuan wedi hyn daethum yn gyfeillachgar â phroffeswr tlawd, yr hwn, i'm tyb i, oedd y pryd hwnw yn llefaru pethau hyfryd am yr Ysgrythyr a sylwedd crefydd. Felly, oherwydd hyn, syrthiais mewn gradd o gariad â'r hyn yr oedd efe yn ei lefaru,fel yr ymröais i ddarllen fy Mibl gydag hyfrydwch mawr, yn enwedig y rhan hanesyddol o hono. Eithr am Epistolau Paul, a'r cyffelyb Ysgrythyrau, ni allwn eu dioddef, gan nad oeddwn eto yn gydnabyddus â llygredigaeth fy natur, nac ychwaith o'r diffyg a'r angen o Iesu Grist yn Waredwr.

30. Eto, er hyn, dechreuais adgyweirio ychydig o'm buchedd allanol, yn fy ngeiriau a'm gweithredoedd; gosodais y Gorchymynion ger fy mron yn ffordd i'r nefoedd, gan ymorchestu i'w cadw. Meddyliwn hefyd fy mod yn eu cadw yn dra gwych ar brydiau, am hyny mi ymgysurwn; a phan dorwn rai o honynt, ymdrallodwn yn fy nghydwybod, ac a edifarhäwn, gan ddywedyd, mae'n ddrwg genyf, mi fyddaf yn well bryd arall; yna ymgysurwn drachefn. Felly tybiais fy mod yn boddloni Duw gan odidoced ag un yn Lloegr.

31. Fel hyn yr arosais yspaid blwyddyn; trwy'r holl amser hwn y cymydogion a'm cyfrifent yn wr duwiol, yn ddyn newydd, a chrefyddol; gan ryfeddu yn fawr wrth weled y cyfryw gyfnewidiad yn fy mywyd a'm moesau. Ac yn ddiddadl felly yr oedd: ond er hyn oll, nid adwaenwn Iesu Grist, gras, ffydd, na gobaith—yr hyn a welais yn dda ar ol hyny; a phe buaswn yn marw yr amser hwnw, buasai fy nghyflwr yn ddychrynadwy.

32. Fy nghymydogion, meddaf, oeddynt yn rhyfeddu am fy nghyfnewidiad oddiwrth fy halogrwydd mawr a gwaradwyddus i rywbeth tebyg i fywyd sobr; oblegid felly yn ddiau y gallasent, canys fy nghyfnewidiad oedd mor fawr a phe buasai dyn lloerig yn dyfod i'w bwyll. Yna dechreuasant fy nghanmol a'm clodfori, a dywedyd yn dda am danaf, cystal yn fy nghefn ac yn fy ngwyneb. Yn awr yr oeddwn, fel y dywedent, yn wr duwiol, cywir, a gonest. Ond pan wybum eu geiriau a'u meddyliau am danaf, yr oeddynt yn fy moddio yn anghyffredin; ac er nad oeddwn eto ond creadur tlawd, wedi fy ngorchuddio â rhagrith, hoffwn ymddiddanion duwiol, ac a ymfalchïwn o'u herwydd fel pe buaswn yn meddu ar wir dduwioldeb; ond yn ddiau yn gwneuthur y cwbl oll, naill ai er ymddangosiad i ddynion, neu er cael gair da ganddynt. Fel hyn y bum am yspaid blwyddyn.

33. Gwybyddwch yn awr fy mod gynt yn cymeryd pleser mawr i ganu clychau; ond pan ddechreuodd fy nghydwybod dymheru, meddyliais nad oedd ond arfer wag; gan hyny, mi a'i gadewais. Ond er hyny, ymgyrchwn i'r clochdy, i'w gweled, ond ni feiddiwn ychwaneg, canys meddyliais nad oedd y cyfryw weithred un amser yn addas i'r efengyl. Wrth edrych yn ddyfal fel hyn, ystyriais, beth os syrthiai un o'r clychau? Yna sefais dan drawst oedd yn croesi o'r naill ochr o'r clochdy i'r llall, gan feddwl y byddwn yn dra diogel yno; eithr meddyliais wedi hyny y gallasai'r gloch syrthio, ac ar chwildro daro yn erbyn y mur, a dychwelyd a'm lladd, er a allai'r trawst; hyn a wnaeth i mi sefyll yn nrws y clochdy, gan feddwl yn ddiau fy mod yn ddiberygl yno; canys os syrthiai'r gloch, y gallwn fyned tu cefn i'r muriau ffyrfion, ac yno ymddiogelu yn ddiberygl.

34, Felly, wedi hyn, awn i'w gweled, ond nid pellach na drws y clochdy. Yna daeth i'm pen, beth os syrthiai'r clochdy ei hun? A'r meddwl hwn (a gallai syrthio, am a wyddwn i, tra yr oeddwn yn sefyll ac yn edrych arno) a barhaodd i ddychrynu fy meddwl, fel nas meiddiwn aros wrth y drws yn hwy; ond gorfu i mi ffoi, gan ofni y syrthiai'r clochdy ar fy mhen.

35. Fy mhleser arall oedd dawnsio; ac ni ellais ei adael heibio yn gwbl am flwyddyn gyfan; a'r holl amser hyn, pan y tybiwn fy mod yn cadw y naill orchymyn neu'r llall, mewn gair neu weithred, i wneuthur un peth ar a feddyliwn i ei fod yn dda, yr oeddwn yn mwynhau heddwch yn fy nghydwybod; gan feddwl ynof fy hun nas gallasai un dyn yn Lloegr foddloni Duw yn well na myfi.

36. Ond, Och! pa fath ddyn truenus oeddwn yr holl amser hwn, yn anwybodus o Iesu Grist, ac yn myned oddiamgylch i sefydlu fy nghyfiawnder fy hun, yn yr hwn y buaswn golledig, oni buasai i Dduw mewn trugaredd ddangos i mi ychwaneg o'm cyflwr wrth natur.

37. Wedi hyn, un diwrnod, Rhagluniaeth ddaionus Duw a'm galwodd i Bedford, i weithio'm galwedigaeth; ac yn un o heolydd y dref yr oedd tair neu bedair o wragedd tlodion yn eistedd wrth ddrws, yn ngwyneb yr haul; a minau gerllaw iddynt, clywn hwynt yn ymddiddan am bethau Duw; a chan fy mod inau yn awr yn ymadroddwr bywiog mewn materion crefydd, neseais atynt, i wrando pa beth oeddynt yn ddywedyd; yn wir gallaf ddywedyd fy mod "yn clywed, ond heb ddeall," canys yr oeddynt yn mhell uwchlaw fy nghyrhaeddiadau. Eu hymddiddan oedd yn nghylch yr ail-enedigaeth; gwaith Dnw ar eu calon; hefyd, y modd y cawsant eu hargyhoeddi o'u cyflwr truenus wrth natur;—yn nghylch y dull yr ymwelodd Duw â'u heneidiau mewn cariad yn haeddiant yr Arglwydd Iesu; ac â pha eiriau ac addewidion y cawsant eu bywiogi, eu cysuro, a'u cynnal, yn erbyn hudoliaethau y diafol. Yn mhellach, adroddent yn enwedigol am gyfrwysdra a thwyll Satan, a'r modd y cawsant eu trallodi; ac fel y cynhaliwyd hwynt yn erbyn ei ruthriadau. Llefarasant hefyd am drueni ac anghrediniaeth eu calon eu hunain: barnasant, dibrisiasant, a ffieiddiasant eu cyfiawnder eu hunain, megis peth budr ac annigonol i wneuthur dim daioni iddynt.

38. A thybygaswn eu bod yn llefaru fel pe cymhellasid hwynt gan ryw lawenydd peraidd; ïe, llefarasant gyda'r fath hyfrydwch yn iaith yr Ysgrythyrau, ac yr oedd y fath ymddangosiad o ras yn eu holl ymadroddion, fel yr ymddangosent (i'm golwg i) yn feddiannol o ryw fyd newydd; fel pe buasent "bobl yn preswylio eu hun, ac heb eu cyfrif ynghyd â'r cenhedloedd." Num. xxiii. 9.

39. Wrth hyn y teimlais fy nghalon yn dechreu crynu, ac yn ddwys bryderus o'm cyflwr presenol; canys canfyddais, hyd yn hyn, er fy holl syniadau am grefydd ac iechydwriaeth, na threiddiodd yr ail-enedigaeth gymaint ag i'm meddwl, ac na wyddwn i ddim oll am gysur gair yr addewid, nac ychwaith am fradwriaeth a drygioni fy nghalon bechadurus. Ond am fy meddyliau dirgel, ni ddaliais i erioed sylw arnynt; nac ychwaith pa beth oedd hudoliaethau Satan, na pha fodd i'w gwrthwynebu, &c.

40. Felly, ar ol gwrando ac ystyried eu geiriau, aethum at fy ngalwedigaeth drachefn; ond eu hymadroddion a'm canlynasant; fy nghalon hefyd a fynai drigo gyda hwynt, oblegid yr oeddwn wedi ymserchu tuag at eu geiriau, oherwydd datguddio i mi trwyddynt fy niffyg o arwydd gwirioneddol o ddyn duwiol; ac hefyd gyflwr dedwydd a bendigedig y cyfryw un a fyddai felly.

41. Gan hyny, myfi a'i gwnawn yn orchwyl mynych i fyned i gyfeillach y bobl

dlodion hyny, canys ni allaswn drigo o'u cymdeithas; a pha fynychaf yr elwn i'w mysg, mwyaf yr amheuwn ddedwyddwch fy nghyflwr fy hun; ac fel yr wyf yn cofio yn dda hyd yr awr hon, profais ynof ddau beth, am yr hyn yr wyf weithiau yn rhyfeddu, yn enwedig wrth ystyried pa fath un dall, ynfyd, annuwiol, a thruenus, oeddwn ychydig cyn hyny:—y naill oedd y tynerwch calon, yr hyn a wnaeth i mi syrthio dan argyhoeddiad o'r hyn oeddynt yn dystiolaethu trwy yr Ysgrythyrau; y llall oedd gogwyddiad gwastadol fy meddwl i fyfyrio yn, ac ar yr holl bethau daionus eraill, pa rai, ar bob amser, a glywn neu a ddarllenwn am danynt.

42. Trwy'r pethau yma yr oedd fy meddwl wedi ei ddychwelyd, gan ymlynu megis gelen wrth wythïen, gan waeddi, Moes, moes. Diar. xxx. 15. Ac yr oedd wedi ymsefydlu ar dragwyddoldeb, a'r hyn 'a berthynai i deyrnas nefoedd, yn y cyfryw fodd (cyn belled ag yr wyf yn deall, er nas gwyddwn eto ond ychydig, Duw a'i gŵyr) fel nas gallasai pleserau, cybydd-dra, ïe, anogaethau na bygythion, ei ryddhau, neu wneuthur iddo ollwng ei afael; fel y gallaf ddywedyd mewn gwirionedd diffuant, fod mor anhawdd i mi y pryd hyny dynu fy meddwl o'r nefoedd i'r ddaear, ag y profais yn aml wedi hyny (er fy nghywilydd) ei gael o'r ddaear i'r nefoedd.

43. Mae un peth nas gallaf esgeuluso ei adrodd. Yr oedd yn ein tref ni wr ieuanc, â'r hwn yr oedd fy nghalon mewn undeb yn fwy na neb arall; ond gan ei fod ef yn greadur tra drygionus am dyngu, rhegu, a phuteinio, mi a'i hysgydwais ymaith, ac a esgeulusais ei gymdeithas. Ond yn mhen oddeutu chwarter blwyddyn wedi hyn cyfarfum ag ef ar y ffordd, a gofynais iddo pa fodd yr oedd; yntau, yn ol ei hen arfer ddrygionus o dyngu, a atebodd, ei fod ef o'r goreu. "Harri, ebe fi, "paham yr ydych yn tyngu ac yn rhegu yn y modd hwn? Pa beth a ddaw o honoch, os byddwch farw yn y cyflwr hwn?" Fe'm hatebodd yn dra ffyrnig, "Pa beth a wnai'r diafol am gymdeithas, oni bae y fath ag ydwyf fi?"

44. Yn nghylch yr amser hwnw y cyfarfum â thri o lyfrau y RANTERS,* y rhai a gawsant eu mawrygu gan lawer o hen broffeswyr. Darllenais rai o honynt, ond nid oeddwn yn alluog i roddi barn arnynt. Gan hyny, fel yr oeddwn yn darllen ynddynt, ac yn gweled fy anallu i'w deall, ymroddais i daer weddi yn y ffurf hon: "O Arglwydd, ynfyd wyf, ac analluog i adnabod gwirionedd oddiwrth gyfeiliorn. Arglwydd, na âd fi i'm dallineb fy hun, i groesawu nac i wrthwynebu yr athrawiaeth hon: os o Dduw y mae, na âd i mi ei diystyru; eithr os o ddiafol, nac oddef i mi ei chroesawu. Arglwydd, yr wyf yn gosod fy enaid yn y dull hwn wrth dy draed, gan atolygu arnat na adewi di i mi gael fy nhwyllo." Yr oedd genyf un cyfaill rhagorol mewn crefydd trwy'r holl amser, yr hwn oedd y gwr tlawd a fynegais am dano o'r blaen; ond yn nghylch yr amser hwn yntau a droes yn Ranter tra dieflig,

* Rhyw sect a gyfododd yn amser y gwrthryfel yn Lloegr; a elwid hefyd TYLWYTH Y PECHOD.

ac a ymroddodd i bob math o aflendid a ffieidd-dra. Gwadai hefyd nad oedd na Duw, nac angel, nac yspryd; a chwarddai am ben pob anogaeth i sobrwydd. Pan lafuriwn i geryddu ei ddrygioni, efe a chwarddai yn fwy o lawer, gan ddywedyd, iddo ef dreio pob crefydd, ond iddo fethu cael yr iawn grefydd hyd yr amser hwnw. Dywedodd wrthyf yn mhellach, y cawn weled yr holl broffeswyr yn troi yn Ranters mewn ychydig amser, cystal ag yntau. Gan ffieiddio y syniadau melldigedig hyny, ymneillduais oddiwrtho yn hollol; a bum mor ddieithr iddo ag oeddwn o'r blaen yn gyfeillgar.

45. Nid y dyn hwn oedd yr unig brofedigaeth a'm cyfarfu. Gan fod fy ngalwedigaeth yn y wlad, myfi a aethum i gymdeithas amryw a fuasent yn selog gyda chrefydd, ond a dynwyd i gyfeiliorn gan y Ranters. Ymddiddanai y rhai hyn â mi am eu ffyrdd, gan fy marnu yn ddeddfol, a thywyll, a dywedyd mai hwy yn unig oeddynt wedi cyrhaedd perffeithrwydd, ac y gallent hwy wneuthur y peth a fynent heb bechu. O! fel yr oedd yr hudoliaethau hyn yn boddio ac yn cyduno â fy nghnawd! oherwydd yr oeddwn yn ieuanc, a natur yn ei blodau; ond Duw (yr hwn, gobeithio, a'm rhagordeiniodd i bethau amgenach) a'm cadwodd i ofni ei enw, ac ni oddefodd i mi lyncu yr athrawiaeth ddinystriol hòno. Bendigedig fyddo Duw, yr hwn a roes yn fy nghalon i weddio arno am iddo fy nysgu a'm cyfarwyddo, gan ameu fy noethineb fy hun; canys gwelais yn aml wedi hyny effeithiau y cyfryw yn fy nghynnal, nid yn unig yn erbyn cyfeiliornadau y Ranters, ond hefyd oddiwrth y rhai a gyfodasant mewn amser diweddarach. Yr oedd y Bibl yn werthfawr iawn i mi yn y dyddiau hyny.

46. Dechreuais syllu yn awr yn y Bibl â golwg newydd, ac a'i darllenwn, ond yn bur wahanol i'r hyn a wnaethwn yn flaenorol. Yr oedd Epistolau yr Apostol Paul, yn enwedig, yn dra melys a hyfryd i mi. Yn wir yn yr amser hwnw yr oeddwn yn wastadol yn fy Mibl, naill ai darllen ai myfyrio, gan lefain yn barhaus ar i Dduw fy nwyn i wybodaeth o'r gwirionedd.

47. Ac fel yr oeddwn yn darllen yr ymadrodd hwnw yn 1 Cor. xii. 8, 9, "Canys i un, trwy yr Yspryd, y rhoddir ymadrodd doethineb; ac i arall, ymadrodd gwybodaeth, trwy yr un Yspryd; ac i arall, ffydd." Ac felly y gwelais wedi hyn, wrth yr Ysgrythyr hon, fod yr Yspryd Glân yn bwriadu cyfranu pethau rhagorol; ond yr oeddwn i wedi fy nghloi i fyny ag argyhoeddiadau fy mod mewn angen o'r ddealldwriaeth a'r doethineb angenrheidiol i'w mwynhau, y cyfryw ag a feddiennid gan Gristionogion eraill. Ar y geiriau hyn y myfyriais yn ddwys, heb allu dywedyd pa beth i'w wneuthur, yn enwedig y gair ffydd, yr hyn a'm gwnaeth i holi yn fynych a oedd genyf ffydd ai nad oedd. Arhawdd oedd genyf gredu fy mod heb ffydd; canys tybiais os gwnaethwn hyny, y barnaswn fy mod wedi'm hwrw ymaith yn ddiau.

48. Nage, ebe fi wrthyf fy hun, er i mi gael fy argyhoeddi fy mod yn feddwyn anwybodus, a'm bod mewn eisieu o'r rhoddion bendigedig o wybodaeth a dealldwriaeth ag oedd pobl dda eraill yn gyfranog o honynt, eto, ar antur, mi farnaf nad wyf yn hollol heb ffydd—(er na wyddwn ar y pryd pa beth oedd ffydd); canys fe ddangoswyd i mi (a hyny gan Satan, fel y gwelais wedi hyn) fod y rhai a farnent eu hunain yn ddiffydd, heb na llonyddwch na gorphwysdra yn eu heneidiau; ac yr oedd yn anhawdd iawn genyf finau ymollwng i gwbl anobaith.

49. Gan hyny, fe'm gorfodwyd i ofni gweled fy niffyg o ffydd; ond ni ddarfu fy Nuw oddef i mi aros yn y cyflwr hwnw er dinystr i'm henaid, eithr efe a barhaodd i greu ynof yn wastadol y fath ymholiadau, fel nas gallwn fod yn foddlon nes dyfod i ryw wybodaeth sicr pa un ai bod genyf ffydd ai peidio. Hyn oedd yn rhedeg yn barhaus yn fy meddwl, Pa beth os oes arnaf eisieu ffydd yn ddiau? A pha fodd y gallaf ddywedyd a oes genyf ffydd? Hefyd gwelais os nad oedd genyf ffydd, fy mod yn sicr o ddamnedigaeth dragwyddol.

50. Ac felly, er fy mod ar y cyntaf yn chwennych edrych dros y mater hwnw o ffydd—eto, yn mhen ychydig, gan ystyried y peth yn well, boddlonais i osod fy hun ar brofiad, pa un a oedd genyf ffydd ai nad oedd. Ond, O! pa fath ddyn truenus oeddwn! Yr oeddwn hyd yma mor anwybodus fel na wyddwn fwy pa fodd i'w gyflawni nag y medrwn orphen rhyw ddarn o waith cywrain na welswn erioed.

51. Felly, tra yr oeddwn yn myfyrio ac yn ymdrabaeddu yn ei gylch, (canys hyd yn hyn nid agoraswn fy meddwl i neb, ond yn unig gwrando ac ystyried,) yr hudwr a ddaeth gyda'i hudoliaeth, gan ddywedyd, nad oedd un ffordd i mi wybod a oedd genyf ffydd ai nad oedd, ond yn unig wrth geisio gwneuthur rhyw wyrthiau; gan gymhell yr Ysgrythyrau hyny i'm sylw a dybygid eu bod yn tueddu y ffordd hòno, i gadarnhau a gweithio i mewn y brofedigaeth;—ïe, yn enwedig un diwrnod, fel yr oeddwn rhwng Elstow a Bedford, y brofedigaeth a ddaeth yn drom iawm arnaf, i brofi a oedd genyf fi ffydd, trwy weithio rhyw wyrthiau. Y cyfryw wyrthiau, yr amser hwnw, oedd dywedyd wrth y pydewau, Byddwch sychion, ac wrth y sychleoedd, Byddwch yn bydewau. Ac yn ddiau yr oeddwn yn myned i lefaru hyny, pan ddaeth y geiriau hyn i'm meddwl, Dos yn gyntaf i fol y clawdd acw, a gweddia ar i Dduw roddi cymhorth i ti. Ond pan aethum yn nghylch gweddio, daeth y peth hwn ar fy meddwl: Pa beth os, ar ol gweddio, y methwn ei wneuthur, er amcanu o honof?—yna yn ddiddadl credaswn fy mod heb ffydd, ac yn hollol golledig. Nage, ebe fi, os dyna fel y mae, ni threiaf, eithr arosaf ychydig yn mhellach.

52. Felly yr oeddwn mewn cyfyngder mawr; canys meddyliais os nad oedd gan neb ffydd ond y rhai a allent wneuthur gwyrthiau, nad oedd genyf fi ddim yr amser hwnw, ac nad oeddwn yn debyg o'i meddiannu. Fel hyn cefais fy ysgwyd rhwng

diafol am hanwybodaeth fy hun, a blinwyd fi (yn enwedig ar brydiau) fel nas gwyddwn pa beth i wneud â mi fy hun.

53. Yn nghylch yr amser yma ymddangosodd i mi, mewn math o weledigaeth, gyflwr dedwydd y bobl dlodion hyny yn Bedford. Gwelais hwynt fel pe buasent ar ochr heulog bryn tra uchel, yn ymgryfhau yn llewyrch hyfryd yr haul, tra yr oeddwn inau yn rhynu ac yn crynu gan oerfel, ac mewn trallod gerwin gan rew, eira, a chymylau tywyll. Tybygwn hefyd fod mur rhyngof a hwynt yn amgylchu y bryn; a thros y mur hwn yr oedd fy enaid yn hiraethu yn fawr i gael myned; gan fwriadu, os gallwn, fyned yn uniongyrchol i'w canol, ac ymgysuro yn ngwres eu haul hwynt.

54. Tybygwn drachefn fy mod yn myned o amgylch i'r mur, yn ol ac yn mlaen, gan ysbïo a allwn i gael un ffordd neu borth trwy yr hwn y gallwn fyned i mewn; ond ni chefais yr un dros enyd. O'r diwedd, canfyddais ryw dwll bychan, neu fath o borth cyfyng yn y mur, trwy yr hwn yr ymegniais fyned; ond yr oedd y porth mor gyfyng, fel nad ellais, er ymegnio o honof drachefn a thrachefn, nes oeddwn bron a diffygio. Ond ar ol ymdrech ac ymegniad caled, cefais fy mhen i mewn, ac ar ol hyny fy ysgwyddau a'm holl gorph. Yr oeddwn erbyn hyn yn llawen iawn: aethum i'w canol, eisteddais i lawr, ymdwymnais ac ymgysurais yn ngwres a goleuni eu haul adgyfnerthol.

55. Yn awr y bryn a'r mur a eglurwyd i mi fel hyn: y bryn oedd yn arwyddocau eglwys y Duw byw; yr haul yn llewyrchu arno, oedd yn gosod allan belydron gorfoleddus o gysur ei wyneb ar y rhai oeddynt oddimewn; y mur a ddychymygais oedd y Gair, yr hwn a wnai wahaniaeth rhwng y Cristionogion a'r byd; a'r porth cyfyng yn y mur ydoedd Iesu Grist, yr hwn yw'r ffordd at Dduw Dad. Ond yn gymaint a bod y porth mor gyfyng—ïe, mor gyfyng, fel nad allwn, ond trwy orchest fawr, fyned i mewn, yr oedd yn arwyddo i mi nas gall neb fyned i mewn i'r bywyd ond y rhai hyny yn unig ag ydynt mewn difrifoldeb digellwair, ac oni adawant y byd pechadurus ar ol; oherwydd nid oedd yma ddim ond lle i'r enaid a'r corph yn unig, ac nid i'r enaid a'r corph a phechod hefyd.

56. Y ddrychiolaeth hon a drigodd ddyddiau lawer ar fy ysbryd; a thrwy yr holl amser yr oeddwn yn gweled fy hun mewn cyflwr peryglus ac erchyll, ond eto enynwyd fi â newyn a dymuniad cryf am fod yn un o'r rhai hyny oeddynt yn eistedd yn llewyrch yr haul. Yn awr yr oeddwn yn gweddïo lle bynag y byddwn, gartref neu oddicartref; yn y tŷ neu yn y maes; a chan ddyrchafu fy nghalon, canwn yn fynych y rhan hôno o'r Salm, "O Arglwydd, ystyria fy nghyfyngder;" canys hyd yn hyn ni wyddwn yn mha le yr oeddwn.

57. Nis gallwn eto ychwaith gyrhaedd un gredimaeth foddlonol ac hyderus fod genyf ff dd vn Nghrist; ond yn lle cael boddlonrwydd, cafodd fy enaid ei amgylchu



I told him also that I was afraid I had sinned a sin against the Holy Ghost p. 361

The Ancient Christian.

ag amheuon o'r newydd, yn enwedig y rhai hyn: A oeddwn i yn etholedig? A pha beth os oedd dydd gras wedi myned heibio?

58. Blinwyd fi yn bur dost gan y ddwy brofedigaeth hyn—weithiau gan y naill, bryd arall gan y llall o honynt. Ac yn y lle cyntaf, i lefaru yn nghylch ameu fy etholedigaeth: deallais, er fy mod yn wresog iawn am gael gafael ar y ffordd i'r nef, er hyny y cwestiwn hwn a'm blinodd ac a'm digalonodd yn y fath fodd fel y tybygwn (yn enwedig ar droion) fod grym neu gryfder fy holl gorph yn cael ei ddwyn oddiarnaf gan y gallu o hono. Yr Ysgrythyr hon hefyd a ymddangosai fel pe sathrai ar fy holl ddeisyfiadau: "Nid o'r hwn sydd yn ewyllysio y mae, nac o'r hwn sydd yn rhedeg, chwaith; ond o Dduw, yr hwn sydd yn trugarhau." Rhuf. ix. 16.

59. Ni wyddwn pa beth i w wneuthur â'r Ysgrythyr hon, canys gwelais yn eglur, os nad oedd y Duw cadarn, o'i ras arbenig a'i haelioni, wedi fy ethol i fod yn llestr o drugaredd, er i mi hiraethu, dymuno, ac ymorchestu, nes tori fy nghalon, na ddeuai dim daioni o honof. O ganlyniad, yr oedd hyn o hyd yn glynu wrthyf: Pa fodd y gelli wybod a ydwyt yn etholedig? A pha beth os nad ydwyt? Beth wedi hyny?

60. O Arglwydd, ebe fi, pa beth os nad ydwyf hefyd? Fe allai nad ydwyt, ebe y twyllwr. Fe allai hyny hefyd, ebe finau. Wel, ynte, ebe Satan, ni waeth i ti adael heibio, a pheidio ag ymorchestu mwy; canys os na ddewiswyd ac yr etholwyd di gan Dduw, nid oes dim gobaith i ti fod yn gadwedig: canys "nid o'r hwn sydd yn ewyllysio y mae, nac o'r hwn sydd yn rhedeg, chwaith; ond o Dduw, yr hwn sydd yn trugarhau." Rhuf. ix. 16.

61. Trwy y pethau hyn gyrwyd fi i eithaf fy synwyrau; ac ni wyddwn pa beth i'w wneuthur, na pha fodd i ateb y profedigaethau hyn. Yn wir, ychydig oeddwn i yn ei feddwl mai Satan a ymosodasai arnaf yn y modd hwn, ond meddyliais yn hytrach mai fy noethineb fy hun a achosodd yr holiad; canys credais inau yn ddiddadl nad oedd neb ond yr etholedigion yn gadwedig. Ond pa un a oeddwn i yn un o honynt, oedd y cwestiwn.

62. Felly, dros amryw ddyddiau, clwyfwyd fi yn dost; ac yn fynych, wrth gerdded, yr oeddwn yn barod i syrthio gan lewyg yn fy meddwl. Ond un diwrnod, wedi fy ngwarchae lawer o wythnosau ganddo, nes yr oeddwn ar roddi i fyny yr yspryd, a'm holl obeithion i gyrhaedd bywyd ar fin diflanu, daeth yr Ysgrythyr hon yn rymus i'm meddwl: "Edrychwch ar y cenhedloedd gynt, a gwelwch: a ymddiriedodd neb erioed i Dduw, ac a gywilyddiwyd?"

63. Y geiriau hyn a ysgafnhaodd ac a gysurodd fy enaid yn annhraethol: "Dechreua gyda dechreu Genesis, a darllena i ddiwedd y Datguddiad, ac edrych a ganfyddi di un a ymddiriedodd yn yr Arglwydd, ac a waradwyddwyd." Felly, pan

gyrhaeddais adref, aethum yn ddiatreg at fy Mibl, i edrych a allwn gael hyd i'r lle, heb ameu y llwyddwn yn fy ymchwiliad yn ebrwydd; canys yr oedd yr ymadrodd mor newydd i mi, ac wedi disgyn gyda'r fath nerth a chysur ar fy meddwl, a phe buasai yn ymddiddan â mi.

64. Wele, chwiliais am dano, eithr yn ofer; ond parhaodd i lynu ar fy meddwl. Yna gofynais i'r gwr da hwn, ac i'r gwr da arall, a wyddent hwy yn mha le yr oedd? Eithr atebasant nas gwyddent. Yr oedd yn syndod i mi i'r fath ymadrodd ddyfod a gorphwys arnaf mor ddisymwth, a gyda'r fath rym a chysur, a phawb yn methu ei gael; canys nid amheuais mai yr Ysgrythyr gysegr-lân ydoedd.

65. Felly y bum dros ychwaneg na blwyddyn yn methu cael hyd i'r lle yn y Bibl; ond o'r diwedd, wrth fwrw fy ngolwg dros lyfrau'r Apocrypha, mi a'i cefais yn Ecclesiasticus ii. 10. Hyn, ar y cyntaf, a ddigalonodd ychydig arnaf, oherwydd na chefais ef yn y llyfrau sanctaidd a gwirioneddol; eto, yn gymaint a bod yr ymadrodd hwn yn cynwys swm a sylwedd amryw o'r addewidion, ystyriais mai fy nyledswydd oedd sugno cysur o hono, ac yr wyf yn mawrygu Duw am dano, oblegid da y bu i'm henaid. Mae'r ymadrodd hwnw eto, ar brydiau, yn llewyrchu ger fy mron.

66. Ar ol hyn yr amheuad hwn a ddaeth ataf: sef, Pa beth os oedd dydd gras wedi myned heibio? Yr wyf yn cofio hefyd, fel yr oeddwn un diwrnod yn rhodio yn y wlad, i'r meddwl hwn ddyfod yn gryf arnaf, Beth os ydwyf wedi esgeuluso yr unig adeg i gael trugaredd? Ac i chwanegu fy ngofid, y twyllwr a ddangosodd i'm meddwl gyflwr y bobl dlodion hyny yn Bedford, gan haeru wrthyf eu bod hwy wedi eu hargyhoeddi eisoes, ac felly mai hwy yn unig yn y parthau hyny a fynai Duw eu hachub, ac i mi ddyfod yn rhy hwyr, oblegid iddynt hwy etifeddu y fendith cyn i mi ddyfod.

67. Yr oeddwn yn awr mewn cyfyngder mawr, gan dybied yn ddiameu fod y peth felly. Aethum i fyny ac i wared, gan alaru fy nghyflwr gresynol; cyfrifwn fy hun yn fil o ynfydion am aros o honof allan cyhyd o amser, a threulio cynifer o flynyddau mewn pechod a drygioni, gan lefain allan yn wastadol, O! na buaswn yn dychwelyd yn gynt! O! na ddychwelaswn er's saith mlynedd yn ol! Gwnaeth hefyd i mi ffieiddio fy hunan, am nad oedd genyf fi ddim gwell synwyr na threulio fy amser am ffiloreg, nes colli fy enaid a'r nefoedd yn hollol.

68. Ond wedi i mi gael fy nhrallodi fel hyn gan yr ofn yma, fel braidd y gallaswn symud cam o'r lle yr oeddwn, ac yn agos i'r un man ag y derbyniais y cysur o'r blaen, y geiriau hyn a dorodd i mewn arnaf: "Cymhellwch hwynt i ddyfod i mewn, fel y llanwer fy nhŷ, ac etto mae lle." Luc xiv. 22, 23. Y geiriau hyn, "ac etto mae lle," yn enwedig, oeddynt yn felys iawn i mi; canys gwelais trwyddynt fod digon o le i minau yn y nef; ac heblaw hyny, pan lefarodd yr Arglwydd Iesu y

geiriau yma, tybiais iddo ef y pryd hwnw feddwl am danaf fi; a'i fod yn gwybod y deuai'r amser y byddai i mi gael fy ngofidio gan ofn nad oedd lle i mi wedi ei adael yn ei fynwes; ac iddo ef lefaru y gair hwn yn mlaen llaw, a'i ddodi ar gofrestr, fel y cynorthwyai fi yn erbyn y brofedigaeth erwin hon. Yr oeddwn yn credu hyn yn hollol ar y pryd.

69. Yn ngoleuni a chefnogrwydd y gair hwn aethum yn mlaen am enyd; ac yr oedd fy nghysur yn cael ei chwanegu, wrth ystyried fod yr Arglwydd yn meddwl am danaf er's y fath amser maith; canys meddyliais yn ddiau mai er anogaeth i mi y llefarodd efe hwynt.

70. Ond er hyn, nid oeddwn heb brofedigaethau i wrthgilio—profedigaethau, meddaf, oddiwrth fy nghalon fy hun, Satan, a'm cyfeillion cnawdol: ond yr wyf yn mawrygu Duw, y pethau yma a gawsant eu taflu ymaith trwy ystyriaeth gadarn o farwolaeth a dydd barn: byddai hyn yn gorphwys yn wastadol ar fy meddwl. Meddyliwn hefyd yn fynych am Nebuchodonosor, am yr hwn y dywedir fod ganddo lywodraeth ar holl deyrnasoedd y ddaear. (Dan. v.) Ond ystyriais, os cafodd y gwr mawr hwnw ei gyfran yn y byd hwn, un awr yn uffern a'i gwnai i anghofio y cwbl. Y cyfryw ystyriaethau a'm cynorthwyasant i raddau mawr iawn.

71. Yr oeddwn yn gweled yr amser yma rywbeth mewn perthynas i'r anifeiliaid oedd Moses yn gyfrif—y naill yn lân, a'r lleill yn aflan. Tybiais fod yr anifeiliaid yn gysgod o ddynion: y rhai glân yn gysgod o bobl Dduw, a'r aflan yn gysgod o blant y diafol. Darllenais fod y rhai glân yn cnoi eu cîl; meddyliais wrth hyn y dylem ymborthi ar Air Duw. Yr oeddynt hefyd yn fforchogi'r ewin; meddyliais fod hyn yn arwyddo y dylem, os mynem fod yn gadwedig, ymadael â ffyrdd yr annuwiolion. Ac wrth ddarllen yn mhellach, deallais, mai er ein bod yn cnoi ein cîl, fel ysgyfarnog, eto, os ydym yn rhodio â phalfau, fel ci; neu ynte yn fforchogi'r ewin, fel mochyn, ac heb gnoi ein cîl, fel dafad—nid ydym, er hyn oll, ond aflan; canys tybiais fod yr ysgyfarnog yn gysgod o'r cyfryw ag ydynt siaradwyr yn unig am Air Duw, eto yn rhodio yn ffordd pechod; a bod y mochyn yn gyffelyb i'r rhai hyny a ymadawant â'u budreddi allanol, ond eto yn weigion o air y ffydd, heb yr hyn nis gellir cael ffordd iachawdwriaeth, bydded dyn mor ddefosionol ag y myno. Deut. xiv. Canfyddais wedi hyn, wrth ddarllen y Gair, y bydd i'r rhai a gânt eu cydogoneddu â Christ mewn byd arall, gael eu galw ganddo yn y byd hwn—hyny yw, eu galw i fod yn gyfranog o'i Air a'i gyfiawnder, a chysuron blaenffrwyth ei Yspryd; ac i feddiannu hawl neillduol o'r holl bethau nefolaidd ag sydd yn ddiau yn cymhwyso ac yn addasu yr enaid i'r orphwysfa hòno, sef tŷ y gogoniant, y nefoedd uchod.

72. Yma hefyd ni wyddwn pa beth i wneuthur, gan ofni na chawswn fy ngalw. Tybiais, os nad oeddwn yn un o'r galwedigion, nad oedd un peth a wnai les i mi, ac

nad oedd neb ond y rhai a alwyd yn effeithiol, a etifeddent deyrnas nefoedd. O! fel yr oeddwn y pryd hwnw yn hoffi y geiriau a sonient am alwedigaeth y Cristion: megis y rhai hyny a lefarodd yr Arglwydd wrth y naill, "Canlyn fi;" ac wrth y llall, "Tyred ar fy ol i." O! gyda'r fath orfoledd y rhedaswn ato ef, pe llefarasai efe felly wrthyf finau!

73. Nis gallaf yn awr adrodd yr hiraeth a'r griddfanau oedd ar fy enaid ar i Grist fy ngalw. Fel hyn y parheais dros amser megis mewn fflam angherddol. Yr oeddwn y dyddiau hyny yn gweled y fath ogoniant mewn cyflwr dychweledig, fel nas gallaswn mewn un modd ymfoddloni heb gael cyfran ynddo. Aur! pe gallesid ei gael am aur, pa faint a roddaswn am dano! Rhoddaswn yr holl fyd, pe buasai yn eiddo i mi—ïe, deng mil o fydoedd, am gael hyn, sef dwyn fy enaid i gyflwr o dröedigaeth.

74. O! mor anwyl yn fy ngolwg oedd y gwŷr a gwragedd hyny a feddyliwn eu bod yn gadwedig! Disgleirient, a rhodient fel pobl a garient sel fawr y nefoedd yn eu cylch. O! yr oeddwn yn gweled eu coelbren hwynt wedi syrthio mewn lleoedd hyfryd, ac fod iddynt etifeddiaeth dêg. (Salm xvi.) Eithr y gair hwn o eiddo'r Iesu a'm clafychodd: "Ac efe a esgynodd i'r mynydd, ac a alwodd ato y rhai a fynodd efe: a hwy a ddaethant ato." Marc iii. 13

75. Yr Ysgrythyr yna a wnaeth i mi lewygu gan ofn: ond cyneuodd dân yn fy enaid. Y peth a'm dychrynodd ydoedd hyn, sef rhag ofn nad oedd gan Grist ddim cariad i mi, canys efe a alwodd y rhai a fynodd. Ond, O! y fath ogoniant a welais yn y cyflwr hwnw yn ymaflyd yn fy nghalon, fel nas gallwn ddarllen am neb a ddarfu i Grist alw, heb ddymuno yn ddioed i minau fod yn eu gwïsgoedd, neu gael fy ngeni yn Bedr neu Ioan, neu fod o honof gerllaw iddynt pan alwodd efe hwynt; yna llefaswn, O Arglwydd, galw finau—ïe, finau, finau hefyd. Ond ofni yr oeddwn na fynai efe alw mo honof.

76. Yr Arglwydd a'm gadawodd yn y profiad hwn lawer o fisoedd yn nghyd, heb amlygu i mi pa un a oeddwn eisoes yn alwedig, neu y galwai fi rhagllaw. Ond o'r diwedd, wedi treulio amser maith mewn ocheneidiau dwys at Dduw, ar i mi gael cyfranogi o'r alwedigaeth sanctaidd a nefol, rhuthrodd y gair hwn i mewn arnaf: "Glânhaf waed y rhai nis glanheais: canys yr Arglwydd sydd yn trigo yn Sïon." Joel iii. 21. Y geiriau hyn, fel y tybiais, a anfonwyd i'm galluogi i ddisgwyl yn ddyfal wrth Dduw; gan arwyddo i mi, os nad oeddwn eisoes, y gellai'r amser ddyfod i mi gael fy ngalw mewn gwirionedd at Grist.

77. O gylch yr amser hyn y dechreuais agor fy meddwl i'r bobl dlodion hyny yn Bedford, gan ddesgrifio iddynt fy nghyflwr; yr hyn, pan glywsant, a hysbysasant i Mr. Gifford am danaf, yr hwn a gymerodd achlysur i ymddiddan â mi, ac yn ewyllysgar i farnu y goreu am danaf; er, yn ol fy marn fy hun, nid oedd ganddo

ond sylfaen wan i hyny. Gwahoddodd fi i'w dŷ, lle y gallwn ei glywed ef yn ymddiddan ag eraill yn nghylch gwaith Duw ar eu heneidiau;—oddiwrth yr holl bethau hyn derbyniais chwaneg o argyhoeddiadau. Y pryd hwnw dechreuais weled y gwagedd oedd tumewn i fy nghalon ddrygionus; canys hyd yn hyn nis gwyddwn ond ychydig am dano; ond yn awr dechreuwyd ei amlygu i mi, ac hefyd yn gweithio yn y cyfryw radd na bu erioed o'r blaen. Yn awr yr oeddwn yn dyst profiadol fod trachwantau a llygredigaethau yn ymosod oddimewn i'm calon mewn dymuniadau a meddyliau drwg, yr hyn bethau yr oeddwn yn ddifraw o honynt o'r blaen; fy nymuniadau hefyd am y nefoedd a'r bywyd oeddynt yn lleihau. Gynt yr oedd fy enaid yn llawn o hiraeth am Dduw, ond yn awr yr oeddwn yn ymgais ar ol pob math o ynfydrwydd gwageddol; ïe, nid oedd yn fy nghalon gymaint ag ysgogiad am un daioni. Dechreuais ddiddarbodi am fy enaid a'r nefoedd; yna ymollyngais yn ol oddiwrth, ac yn mhob dyledswydd; ac yr oeddwn megis aderyn mewn magl, heb allu ehedeg.

78. Meddyliais hefyd fy mod yn myned waeth-waeth. Yn awr, ebe fi, yr ydwyf yn mhellach oddiwrth dröedigaeth nag o'r blaen; gan hyny, dechreuais wanychu, a syrthio yn fawr yn fy enaid; a choleddais y fath wan-galondid yn fy nghalon ag a'm gosododd mor isel ag uffern. Pe gorfyddasid i mi yn awr gael fy llosgi wrth ystanc, ni allaswn gredu fod gan Iesu Grist gariad ataf. Och! gwae! nis gallwn na'i glywed, na'i weled; ei deimlo, nac arogli ei bethau nefol ef! Cefais fy ngyru ar wasgar megis llong mewn tymestl. Fy nghalon fynai fod yn aflan. Y Canaaneaid oedd yn y wlad.

79. Weithiau adroddwn fy nghyflwr wrth bobl Dduw; yr hyn, pan glywent, a dosturient a chydymdeimlent â mi, gan fynegu wrthyf yr addewidion; ond yr un mor ofer ydoedd iddynt wneud hyny a phe buasent yn dangos yr haul i mi i'w gyrhaedd â'm bysedd, a'm perswadio i dderbyn cysur neu orphwys ar un o honynt. Pan ymgeisiwn ar y gorchwyl, byddai fy holl synwyrau a'm teimladau yn fy erbyn. Gwelais fod genyf galon yn dueddol i bechu yn barhaus; ac fy mod yn gorwedd dan ddeddf ag oedd â gallu i'm heuogfarnu.

80. Y pethau hyn a wnaeth i mi feddwl yn fynych am y plentyn a ddygwyd at Grist, yr hwn, tra "yr oedd efe eto yn dyfod, y cythraul a'i rhwygodd ef, ac a'i drylliodd: a chan syrthio ar y ddaear, efe a ymdreiglodd, gan falu ewyn." Luc ix. 42. Marc ix. 20.

81. Yn mhellach: yn y dyddiau hyny teimlais fy nghalon yn ymgais yn erbyn Duw, ac yn erbyn ei Air sanctaidd: yr oeddwn yn teimlo fy anghrediniaeth megis yn gosod fy ysgwydd yn erbyn y drws, i'w gadw ef allan; a hyny hefyd pan fyddwn yn llefain mewn chwerwder, "Arglwydd, tòr i mewn! Arglwydd, tòr y pyrth pres, a dryllia'r barau heiyrn yn chwilfriw!" Y gair bendigedig hwnw hefyd

a greodd yn fy nghalon ryw radd o dangnefedd a chalondid: "Gwregysais di, er na'm hadwaenit."

82. Ond trwy'r holl amser yma, mewn perthynas i bechu yn weithredol, ni bum erioed mor wagelog: ni feiddiwn symud pin, neu bren, er na byddai yn ffyrfach na gwelltyn; oblegid fy nghydwybod oedd yn awr yn ddolurus ar bob tarawiad; nis gallwn ddirnad pa fodd i lefaru, rhag ofn i mi gamddywedyd geiriau. O! mor ofalus yr oeddwn yn rhodio yn awr, (fel pe buaswn yn sefyll ar siglen,) wedi fy ngadael gan Dduw, Crist, a'i Sanctaidd Ysbryd, a phob daioni.

83. Deliais sylw, er fy mod yn bechadur mawr cyn fy nhröedigaeth, eto ni chyfrifodd Duw euogrwydd pechodau fy anwybodaeth i mi; ond dangosodd fy mod yn golledig heb Grist, oherwydd fy mod ya bechadur. Gwelais fod arnaf eisieu cyfiawnder perffaith i ymddangos yn ddifrycheulyd gerbron Duw—y cyfryw gyfiawnder nad oedd i'w gael mewn un lle ond yn nghyfiawnder Crist.

84. Ond fy llygredigaeth gwreiddiol a thumewnol oedd fy mhla a'm cystudd parhaus; yr oeddwn yn ei deimlo yn ymosod ynof, nes i'r euogrwydd o hono fy ngosod mewn syfrdandod. Yr ystyriaeth o hyny a'm gwnaeth yn waelach yn fy ngolwg fy hun na phe buaswn lyffant; a thybiais fy mod felly yn ngolwg Duw. Pechod, meddaf, a llygredigaeth, oedd mor naturiol yn tarddu allan o'm calon ag y tarddai dwfr o ffynnon. Yna meddyliais fod pawb yn meddu gwell calon na mi; gallaswn newid fy nghalon â'r gwaethaf o bawb; tybiais nad oedd neb ond y diafol ei hun a allasai fod yn gyffelyb i mi am ddrygioni tumewnol ac aflendid meddyliol; felly syrthiais, oherwydd yr ystyriaeth o'r pethau hyn, i ddygn betrusder; oblegid bernais nad allasai y cyflwr oeddwn ynddo gydsefyll â chyflwr o ras. Meddyliais yn ddiau fod Duw wedi fy anghofio, a'm rhoddi i fyny yn llwyr i'r diafol, ac i feddwl anghymeradwy. Fel hyn y parheais dros hir amser—ïe, rai blynyddau yn nghyd.

85. Tra yr oeddwn yn cael fy nhrallodi fel hyn gan arswyd o fy namnedigaeth fy hun, dau beth a'm synodd yn fawr: yn gyntaf, gweled hen bobl yn awyddu ar ol pethau'r bywyd hwn, fel pe buasent i fyw yma byth; yn ail, gweled proffeswyr, mewn cyfyngderau, yn dra gofidus a thrallodus, er na byddent ond pethau allanol, megis colli gwr, neu wraig, neu blentyn, &c. Yna dywedais, "O Arglwydd, y fath drallod yw hwn yn nghylch pethau mor fychain! Y fath ymgais a wna rhai ar ol pethau cnawdol! A'r fath ofid sydd mewn eraill oherwydd eu colli! Os ydynt hwy mewn cymaint helbul ar ol, ac yn tywallt cynifer o ddagrau am bethau'r bywyd hwn, oni ddylid yn hytrach gwyno, tosturio, a gweddio drosof fi, yr hwn ydwyf yn marw, a'm henaid yn golledig? Pe bae fy enaid mewn cyflwr diogel, a'm bod yn sicr o hyny, O! pa mor gyfoethog y cyfrifwn fy hun, pe cawn ymborthi ond yn unig ar fara a dwfr! Ni chyfrifwn y cwbl ond megis dim; ïe, dygwn hwynt fel baich ysgafn: ond *Yspryd cystuddiedig, pwy a ddichon ei oddef?*

86. Ac er fy nhrallodi yn y modd hyn, a'm hysgwyd gan deimlad a golygiad ar fy nrygioni dychrynllyd, er hyny arswydwn rhag gollwng yr olwg a'r teimlad ymaith yn gwbl o'm meddwl; canys deallais, oni byddai i euogrwydd cydwybod gael ei dynu ymaith mewn ffordd gywir, sef trwy waed Iesu Grist, y byddai i ddyn fod yn waeth oherwydd ei golli; gan hyny, pan fyddai euogrwydd yn gorwedd yn drwm arnaf, yna y llefwn allan ar i waed Iesu Grist ei dynu ymaith yn hollol. A phan y byddai yn myned ymaith amgen na thrwy waed yr Oen, (canys yr ystyriaeth am bechod, weithiau, fyddai yn farw, ac yn diflanu,) yna ymegniwn i'w gyrchu drachefn, trwy ddwyn cospedigaeth pechod yn uffern ar fy yspryd, gan lefain, Arglwydd, na âd iddo fyned o'm calon ond trwy yr iawn ffordd, sef trwy waed Iesu Grist, yn nghyd â chymhwysiad o'th drugaredd i'm henaid trwyddo ef; canys yr Ysgrythyr hon oedd yn gorphwys arnaf o hyd: "Heb ollwng gwaed nid oes maddeuant." Heb. ix. 12. Yr hyn a'm gweithiodd i hynyma oedd gweled o honof rai, dan argyhoeddiadau ac archollion cydwybod, yn gwaeddi ac yn gweddio, yn fwy yn hytrach er cael esmwythder arwynebol nag am gael maddeuant o'u pechodau. Nid oeddynt yn gofalu pa fodd y collasant yr euogrwydd; ond oherwydd iddynt ei wthio ef allan o'u meddyliau trwy foddion gau, ni chafodd mo'i sancteiddio iddynt, oblegid cynyddasant mewn caledrwydd a dallineb calon yn fwy drygionus ar ol i'w blinder ymadael. Hyn a wnaeth i mi arswydo; a llefais ar Dduw na byddai i mi gael fy ngadael felly.

87. Yna gofidiais oherwydd gwneuthur o Dduw fi yn ddyn, canys ofnais mai gwrthodedig oeddwn. Cyfrifwn ddyn annychweledig y mwyaf truenus o'r holl greaduriaid. Yn y modd hwn y cefais fy nhrallodi a'm siglo oblegid fy nghyflwr gwael ac alaethus; cyfrifais fy hun fel yn unig, ac yn fwy difendith ac anraslon na phawb eraill.

88. Meddyliais fod yn anmhosibl i mi byth gael cymaint o dduwioldeb calon ag y gallwn ddiolch i Dduw am fy ngwneuthur yn ddyn. Dyn, yn ddiau, fel y crëwyd ef ar y cyntaf, ydoedd y mwyaf godidog o'r holl greaduriaid yn y byd gweledig; eithr trwy bechod a ddarostyngodd ei hun islaw iddynt oll. Cyfrifwn gyflyrau bwystfilod, ehediaid, &c., yn dra dedwydd, oherwydd nad oedd ganddynt hwy natur bechadurus; gan hyny, nid oeddynt yn euog o ddigofaint Duw, nac yn etifeddion uffern ar ol marwolaeth; o ganlyniad, gallaswn lawenychu pe buasai fy nghyflwr i fel yr eiddynt hwy.

89. Yn y cyflwr hwn y bum am dymor maith; eithr pan ddaeth dwthwn i'm cysuro, clywais un yn pregethu ar y geiriau hyn: "Wele di yn dêg, fy anwylyd, wele di yn dêg." Can. iv. 1. Ar yr achlysur, efe a gymerodd y ddau air hyn, "fy anwylyd," yn brif destyn ei bregeth, oddiwrth ba rai (ar ol rhagymadroddi) efe a sylwodd ar amryw bethau yn niweddglo ei araeth, fel y canlyn:—Yn 1. Bod yr

eglwys, sef pob enaid cadwedig, yn anwyl gan Dduw—ïe, pan fyddont hwy yn ddigariad. Yn 2. Fod Crist yn caru yn rhad. Yn 3. Fod cariad Crist yn cael ei wrthwynebu gan y byd. Yn 4. Fod Crist yn caru mewn gorthrymderau. Ac yn 5. Fod Crist yn caru o'r dechreu, ac yn ddiddiwedd.

90. Ond ni chefais ddim cysur oddiwrth yr hyn a ddywedodd nes y daeth i ddiwedd y pedwerydd rheswm. Hyn oedd y geiriau: "Os felly," ebe ef, "fod yr hwn a fydd gadwedig yn anwyl gan Grist mewn gorthrymderau a phrofedigaethau, yna, enaid tlawd, pan y'th siomir ac y'th drallodir gan absenoldeb gwyneb Duw, meddylia am y ddau air hyn, 'fy anwylyd,' yn wastadol."

91. Fel yr oeddwn yn myned adref, y geiriau hyny a ddaethant eilwaith i'm meddyliau; ac yr ydwyf yn cofio yn dda, fel yr oeddynt yn dyfod i mewn, i mi ddywedyd yn fy nghalon, Pa elw fydd i mi o feddwl am y geiriau hyn? A chyn i'r meddwl hwn fyned yn hollol drwy'm calon, yna y geiriau hyn a enynodd yn fy yspryd: "Ti yw fy anwylyd, ti yw fy ngholomen," ugain o weithiau yn nghyd; ac fel yr oeddynt yn rhedeg yn barhaus drwy fy meddwl, ac yn ymhelaethu yn gryfach a gwresocach, dechreuasant wneuthur i mi edrych i fyny: ond yr oeddwn rhwng ofn a gobaith, yn wastadol yn gwrthateb yn fy nghalon, Ai gwir yw? Ai gwir yw? Ond gwir ydyw i'r cyfryw ymadrodd syrthio arnaf. Yn agos i'r un amser tarawodd y geiriau canlynol ar fy meddwl: "Ac nis gwybu mai gwir oedd y peth a wnaethid gan yr angel." Act. xii. 9.

92. Yna dechreuais roddi lle i'r gair, yr hwn drachefn gyda nerth a wnaeth yr adsain orfoleddus yma yn fy enaid: "Ti yw fy anwylyd, ti yw fy anwylyd;" "Ni chaiff dim dy wahanu oddiwrth fy nghariad." Gyda hyny llanwyd fy nghalon â chysur. Yna gallaswn gredu fod fy mhechodau wedi eu maddeu; ïe, cymerwyd fi gan drugaredd a chan gariad Duw, fel nas gwyddwn pa fodd i'w cynwys hyd onid aethum adref. Tybiais y gallaswn lefain am ei gariad a'i drugaredd i mi wrth y brain oeddynt yn sefyll ar y tir âr o'm blaen, pe buasent yn alluog i'm deall. Yna dywedais yn fy enaid, O! na bae genyf bin ac inc yma, fel yr ysgrifenwn hyn cyn fy myned yn mhellach; ond y mae yn sicr nas gallaf ei anghofio, pe byddwn fyw ddeugain mlynedd. Ond, Och! cyn treulio o honof ddeugain niwrnod, dechreuais ameu'r cwbl drachefn!

93. Eto, ar brydiau, fe'm cynorthwyid fi i gredu mai datguddiad gwirioneddol o ras Duw i'm henaid ydoedd, er colli o honof y tiriondeb a'r bywyd o hono. Yn nghylch i wythnos neu ychwaneg ar ol hyny, fe'm canlynid â'r Ysgrythyr hon: "Simon, Simon, wele Satan a'ch ceisiodd chwi." Luc xxii. 31. Byddai weithiau yn adseinio mor uchel o'm mewn, megis pe buasai yn crochlefain o'm bol; yn neillduol un waith galwodd, nes i mi edrych i'r naill ochr, gan dybied yn ddiau ddarfod i ryw ddyn o'm hôl alw arnaf o ryw bellder mawr. Daeth ataf, fel y tybiais

wedi hyn, i'm deffroi i weddi ac iachawdwriaeth; daeth hefyd i'm rhybuddio fod tymestl ar ddyfod, ond ni ddeallais mono.

94. Hefyd, hyd yr wyf yn gofio, y tro hwnw ag y galwodd mor uchel, ydoedd y tro diweddaf y seiniodd yn fy nghlustiau; ac yr ydwyf eto yn teimlo pa fath nerth ydoedd yn y geiriau, "Simon, Simon;" fel y dywedais wrthych, yr oeddynt megis pe buasai ryw un haner milltir o'm hôl yn galw arnaf; er nad hyny oedd fy enw, eto gwnaeth i mi edrych yn ddiatreg drach fy nghefn, gan gredu fod yr hwn a alwodd arnaf yn amcanu ataf fi.

95. Ond, O! mor ynfyd ac anwybodus oeddwn, fel nas gwyddwn beth oedd meddwl y lleferydd hwn, a ddanfonwyd o'r nef megis bonllef i'm deffro, a'm parotoi erbyn yr hyn oedd yn canlyn: yr hyn beth a welais ac a deimlais yn fuan wedi hyny. Myfyriwn a rhyfeddwn yn feunyddiol ynof fy hun pa beth allasai meddwl yr Ysgrythyr hòno fod, oedd mor fynych ac mor nerthol yn wastad yn adseinio yn fy nghlustiau; ond, fel y rhagddywedais, buan y deallais fwriad Duw ynddi.

96. Canys o gylch i fis wedi hyn tymestl ddirfawr a syrthiodd arnaf, yr hon a'm hysgydwodd ugeinwaith yn waeth nag un a'm cyfarfu o'r blaen. Ymosododd arnaf yn lladradaidd: un pryd yn y modd hwn, waith arall mewn dull arall. Fy holl gysuron a gymerwyd oddiwrthyf; yna tywyllwch a'm dallodd; llifogydd dirfawr o gableddau yn erbyn Duw, Crist, a'r Ysgrythyrau, a dywalltwyd ar fy yspryd, yr hyn fu er syndod a dyryswch mawr i mi. Y meddyliau hyn oeddynt hyd yn oed yn erbyn hanfod Duw a'i anwyl Fab, sef ameu pa un ai fod ai nid oedd; a bod yr Ysgrythyrau sanctaidd yn hytrach yn chwedlau hudol cyfrwys nag yn wir a sanctaidd Air Duw.

97. Y temtiwr a fyddai hefyd yn rhuthro arnaf â'r holiadau canlynol, sef, "Pa fodd y gellwch haeru nad oes gan y Tyrciaid gan odidoced ysgrythyrau i brofi eu Mahomet yn iachawdwr, ag sydd genych chwithau i brofi eich Iesu? A elli di feddwl (ebe ef) fod cynifer o fyrddiynau mewn amryw wledydd a theyrnasoedd heb adnabyddiaeth o'r ffordd i'r nefoedd (os oes y fath le a'r nefoedd)? Ai chwychwi yn unig, pa rai ydych yn byw fel ar y naill gongl o'r ddaear, a gynysgaeddir â'r bendithion o honi? Pawb a dybiant—Iuddewon, Ethiopiaid, a Phaganiaid—mai eu crefydd hwy yw'r oreu; a phwy a ŵyr nad yw eich Crist, eich ffydd, a'ch Ysgrythyrau chwithau, ond hudol?"

98. Ymdrechwn weithiau yn erbyn y meddyliau hyn, gan ymarfogi yn eu herbyn â geiriau bendigedig St. Paul. Ond, Och! pan y gwnawn hyny, dychwelai y cyfryw wrthddadleuon a'r rhai hyn i'w gwrthdaro: sef, Er gwneuthur o honof gyfrif mawr o Paul, ac o'i eiriau; eto, pa fodd y gallwn wybod nad oedd efe wedi ymroddi i ddichell ac amryfusedd cadarn, ac y gallai gymeryd poen i ddadymchwel ac i ddinystrio ei gyfeillion?

99. Y pethau hyn, yn nghyd â phethau eraill, pa rai nis gallaf, mewn gair nac ysgrifen, eu hadrodd, a ymaflasant yn fy yspryd, gan bwyso arnaf, o ran eu rhifedi, eu parhad, a'u rhuthr tanllyd, yn y fath fodd, fel pe na buasai dim arall, o'r boreu i'r hwyr, o'm mewn; ac yn wir nid oedd lle i ddim arall. Yr oeddwn yn casglu oddiwrth hyn, fod Duw o'i ogoniant wedi fy rhoddi i fyny, i'm dwyn ymaith ganddynt megis mewn corwynt nerthol.

100. Ond trwy'r diflasdra a roddasant i'm hyspryd, byddwn yn teimlo ynof rywbeth yn gwrthwynebu i'w cofleidio; ond yn unig tra y caniatâi Duw i mi amser i lyncu fy mhoeryn yr oeddwn yn profi hyny o seibiant: pe amgen, twrf, nerth, a chaddug o brofedigaethau, a fuasai yn llifo droswyf, a'm boddi, a chladdasent yr holl gyffelyb feddwl, a phob coffadwriaeth o hono. Tra bum yn y brofedigaeth hon, teimlwn fy meddwl yn ymosod i dyngu, rhegu, a llefaru pethau caledion yn erbyn Duw, Crist, a'r Ysgrythyrau sanctaidd.

101. Yn awr tybiais yn ddiau fy mod wedi fy meddiannu gan ddiafol: brydiau eraill tybiwn fy nifeddiannu o'm synwyrau; oblegid yn lle mawrygu a chlodfori Duw gydag eraill (pan fyddwn ond eu clywed), cableddau dychrynllyd a saethai allan o'm calon i'w herbyn; amheuwn hefyd pa un a oedd Duw ai peidio. Nid oedd heddwch, cariad, na thawelwch graslawn, yn deimladwy ynof.

102. Y pethau yma a'm suddodd i ddyfnderau anobaith; oblegid bernais mai anmhosibl oedd i'r pethau hyn fod mewn neb oedd yn caru yr Arglwydd. Pan fyddai'r brofedigaeth hon yn gwasgu arnaf, cymharwn fy hun i blentyn a ledratid gan Aiphtes, a'i ddwyn ymaith o'i wlad, ac oddiwrth ei berthynasau. Mynych y byddwn yn gofidio ac yn llefain, eto yn gaeth yn adenydd y brofedigaeth; a'r dymestl a fynai fy ysgubo ymaith yn ddiatreg. Meddyliais hefyd am Saul, a'r yspryd drwg a'i meddiannodd ef. (1 Sam. vi.) Ofnais yn fawr fod fy nghyflwr i fel yr eiddo yntau.

103. Yn y dyddiau hyny clywais rai yn ymddiddan am y pechod yn erbyn yr Yspryd Glân; yna'r temtiwr a'm hanogai i bechu y pechod hwnw; ac yr oeddwn mor awyddus iddo, fel nas mynwn, ac nas gallwn fod yn llonydd nes ei gyflawni; nid oedd un pechod a wnai'r tro y pryd hyny ond hwnw; os gallesid ei gyflawni trwy lefaru gair, byddai fy ngenau yn barod i ymagor i'w ddywedyd. Yr oedd y brofedigaeth hon wedi fy amgylchu mor gadarn, fel y byddwn yn gorfod gosod fy llaw dan fy ngên, i attal fy ngenau ymagor; brydiau eraill meddyliwn ymollwng fy hunan bendramwnwgl i ryw geudwll neu gilydd, er attal fy ngenau rhag llefaru.

104. Yna bernais fod cyflwr ci, llyffant, a phob peth a wnaeth Duw, yn rhagori yn ddirfawr ar fy nghyflwr arswydus i, a'r lleill o'm cyfeillion. Buasai yn dda genyf fod yn gi neu geffyl, canys gwyddwn nad oedd ganddynt hwy eneidiau i ddioddef pwysau poenau tragwyddol uffern, fel yr oeddwn yn darogan y byddai

fy nhynged. Ond er fy mod yn gweled ac yn teimlo hyn, eto, yr hyn a chwanegodd fy ngofid oedd, nas gallaswn â'm holl enaid ddymuno gwaredigaeth. Yn nghanol hyn o drueni, yr Ysgrythyr hòno hefyd a rwygodd fy enaid: "Ond y rhai anwir sydd fel y môr yn dygyfor, pan na allo fod yn llonydd, yr hwn y mae ei ddyfroedd yn bwrw allan dom a llaid. Ni bydd heddwch, medd fy Nuw, i'r rhai annuwiol." Esay lvii. 20, 21.

105. Yr oedd fy nghalon, ar amserau, yn galed iawn; pe cawswn fil o bunnoedd am wylo, nis gallaswn dywallt un deigryn, nac ychwaith yn fynych ddymuno hyny. Fe'm taflwyd i lawr i'r fath ddyfnder, fel yr ofnais mai hyny oedd fy nhynged. Gwelwn rai yn galaru a gofidio am bechod; eraill yn medru gorfoleddu a bendithio Duw am Grist; drachefn, canfyddwn eraill yn gallu adgofio Gair Duw gyda bywiogrwydd a gorfoledd, tra yr oeddwn inau yn soddi yn y dymestl. Tybiais fod fy nghyflwr yn anghymharol; a dechreuais alaru am fy nghaledrwydd; eithr myned allan o hono nis gallwn.

106. Tra parhaodd y brofedigaeth hòno, sef yspaid blwyddyn, nis gallaswn ymroddi i un o ordinhadau Duw ond gyda thristwch, blinder, a gofid. Y pryd hwnw trallodid fi yn ddirfawr gan gableddau. Pan fyddwn yn gwrando y Gair, aflendid, cabledd, ac anobaith, a'm caethiwai; os darllenwn, amcanwn yn fynych ameu y cwbl. Weithiau fy meddwl a ledratid ymaith i ddieithrwch ac ebargofiant, a llenwid ef â phethau anmherthynasol eraill, fel nas gallwn barchu na chofio yr hyn fyddwn yn ddarllen

107. Cefais fy nhrallodi yn fawr hefyd yr amser hwn gan Satan, pan fyddwn yn gweddio. Rai prydiau tybiwn ei fod o'r tu ôl i mi yn tynu fy nillad. Byddai yn wastadol yn fy ymyl ar amser gweddi, yn sisial wrthyf am wneuthur brys i dori i fyny, a diweddu. Dywedai: Gweddiaist ddigon; brysia, na saf yn hwy. Mewn gair, byddai yn barhaus yn dirwyn fy meddwl ymaith oddiwrth bethau daionus. Brydiau eraill taflai y fath feddyliau drwg a'r rhai hyn i'm meddwl: sef, bod yn well i mi weddio arno ef, a syrthio i lawr, a'i addoli. Meddyliwn inau weithiau am y geiriau hyny: "Os syrthi i lawr, a'm haddoli i." Mat. iv. 9.

108. Gan fy mod wedi'm hamgylchu gan feddyliau crwydredig ar amser gweddi, llafuriwn i gasglu a sefydlu fy meddwl ar Dduw; yna'r gelyn a ruthrai arnaf, i'm gosod mewn annhrefn a gorphwylliad, trwy ddarlunio i'm calon lwyn, tarw, ysgub, a phethau o'r fath, fel pe dylaswn weddio arnynt; i hyn, ar brydiau, y cylymai fy meddwl fel nas gallaswn fyfyrio am ddim arall ond y rhai hyn a'r cyffelyb.

109. Eto, ar amserau, meddiannwn serchiadau nerthol, calonog, a deallgar, am Dduw, ac o ddigonolrwydd gwirionedd ei efengyl ef. O! y fath riddfanau anfynegol a arllwysai o'm calon! Yr oedd fy enaid y pryd hyny yn mhob gair a lefarwn. Llefwn mewn cyfyngder ar i'r Arglwydd drugarhau wrthyf. Eithr

buan y'm llwfrheid fi drachefn â'r tybiau gweigion yma: sef, Nad oedd Duw ond diystyru fy ngweddiau, gan ddywedyd (a hyny yn ngŵydd yr angylion sanctaidd), Y truan tlawd, gresynol hwn, sydd yn ymgais ar fy ôl i, fel pe na byddai genyf ddim i'w wneuthur â'm trugaredd ond ei gyfranu ar ei fath ef! O! enaid truenus! O! enaid tlawd! pa fodd y'th dwyllwyd? nid i'th fath di y mae y Goruchaf yn dangos ei drugaredd.

110. Rhuthrai y temtiwr arnaf drachefn i'm digaloni, gan ddywedyd, "Yr ydwyt yn dra gwresog am drugaredd; myfi a oeraf y dymer hon; ni phery hi yn hir; llawer, fel tydithau, a fu yn wresog am fwynhad o'r Yspryd, ond myfi a foddais fywiogrwydd eu sel." Felly gosodai o flaen fy llygaid y cyfryw ag a syrthiasant ymaith. Yna ofnais mai felly y gwnawn inau hefyd; eithr hyn a ddaeth i fy meddwl, a dywedais, Wele, gwiliaf hyd y gallwyf. "Ond," ebe Satan, "er i ti wneuthur felly, mi a'th orchfygaf, ac a'th oeraf o radd i radd yn ddiarwybod. Beth waeth genyf," ebe ef, "pe bawn saith mlynedd yn llithio dy galon, os gallaf lwyddo yn y diwedd? Dyfal siglo a wna i blentyn llefgar ddistewi; mi a fyddaf yn ddyfal wrthyt, ac a fynaf o'r diwedd dy orthrechu. Er dy fod yn boeth fel yr eirias yn bresenol, eto mi a allaf dy dynu oddiwrth y tân hwn, a'th wneud yn ddigon oer cyn pen nemor o amser."

111. Y pethau hyn a'm dygodd i gyfyngder mawr; canys nid oeddwn yn barnu fy hun yn addas i farw; ond ystyriais, os oeddwn yn anmharod i farw yn bresenol, y byddwn yn fwy anghymhwys os estynid fy einioes; oherwydd amser a wnai i mi anghofio y cwbl, ac a wisgai ymaith hyd yn oed y coffadwriaeth o bechod, digofaint Duw, a'r angenrheidrwydd o waed Crist i'm glanhau; eithr diolchaf byth i Iesu Grist, ni allodd hyn ychwaith laesu fy llefain; ond yn hytrach gwnaeth fi yn fwy taer yn fy nghri, fel y llances yn Deut. xxii. 27. Yn y cyfryw ddyddiau, ar ol dioddef o honof y pethau hyn, bu y gair hwn yn dda i mi: "Canys y mae yn ddiogel genyf, na all nac angau, nac einioes, nac angylion, na thywysogaethau, na meddiannau, na phethau presenol, na phethau i ddyfod, nac uchder, na dyfnder, nac un creadur arall, ein gwaredu ni oddiwrth gariad Duw, yr hwn sydd yn Nghrist Iesu ein Harglwydd." Rhuf. viii. 38, 39. Yna gobeithiais na byddai i hir einioes fy nistrywio, na'm difeddiannu o'r tragwyddol wynfyd.

112. Cefais fy nghynnal hefyd yn y brofedigaeth hon, er fy mod yn ameu y cwbl y pryd hwnw. Y geiriau hyny yn Jer. iii. 4, 5, a'm daliasant i fyny: "Oni lefi di arnaf fi o hyn allan, Fy nhad, ti yw tywysog fy ieuenctyd?" er gwneuthur o honot ti "yr hyn oedd ddrwg hyd y gellaist."

113. Cefais hefyd dremiad tra hyfryd o'r geiriau dwyfol yn 2 Cor. v. 18: "Canys yr hwn nid adnabu bechod, a wnaeth efe yn bechod drosom ni; fel y'n gwnelid yn gyfiawnder Duw ynddo ef." Yr wyf yn cofio ar un diwrnod, a mi yn

eistedd mewn tŷ cymydog yn athrist, dan ystyriaeth dwys o'm hamryw gableddau, i mi ddywedyd yn fy meddwl, Pa sylfaen sydd genyf fi, yr hwn a fum byw mor aflan a llygredig, y caf fi byth feddiannu bywyd tragwyddol?—y gair hwn a ddaeth yn ddiatreg ataf: "Beth gan hyny a ddywedwn ni wrth y pethau hyn? Os yw Duw trosom, pwy a all fod i'n herbyn?" Rhuf. viii. 31. Y gair hwn hefyd fu yn gyfnerth mawr i mi: "Canys byw wyf fi, a byw fyddwch chwithau hefyd." Ioan xiv. 19. Ond er nad oedd y geiriau yma ond blaenbrawf o'i ymweliadau ef, eto yr oeddynt yn odidog o felys i'm henaid. Pan ddeuent, yr oeddynt i mi yn gyffelyb i'r llenllian i Pedr, "yr hon a gymerwyd yn ddisymwth oddiwrtho i'r nef drachefn." Act. x. 16.

114. Ond wedi hyn datguddiodd yr Arglwydd ei hun yn fwy cyflawn a graslawn i mi; ac yn wir rhyddhaodd fi yn hollol, nid yn unig oddiwrth yr euogrwydd oedd yn gorwedd ar fy nghydwybod, ond hefyd yr halogrwydd o hono; efe a symudodd y brofedigaeth i ffwrdd yn llwyr, a dygodd fi drachefn i fy iawn synwyrau, fel Cristionogion eraill.

115. Yr wyf yn cofio, fel yr oeddwn un diwrnod yn myfyrio ar ddrygioni a chabledd fy nghalon, a'r gwagedd oedd ynof tuag at Dduw, i'r Ysgrythyr hon ddyfod i'm meddwl: "Ac wedi iddo wneuthur heddwch trwy waed ei groes ef," &c. Col. i. 20. Trwy hyn gwelais, drachefn a thrachefn, y diwrnod hwnw, fod Duw a'm henaid yn gyfeillion trwy'r gwaed hwn;—ïe, gwelais y gallai cyfiawnder Duw a'm henaid pechadurus ymgofleidio ac ymgusanu trwy'r gwaed anfeidrol hwn: bu y dydd hwnw yn dra bendithiol i mi; a gobeithio nad anghofiaf ef byth.

116. Amser arall, a mi yn eistedd wrth y tân, yn fy nhŷ, yn myfyrio ar fy nhrueni, yr Arglwydd a wnaeth yr Ysgrythyr hon hefyd yn werthfawr i mi: "Oblegid hyny, gan fod y plant yn gyfranogion o gig a gwaed, yntau hefyd yr un modd a fu gyfranog o'r un pethau; fel trwy farwolaeth y dinystriai efe yr hwn oedd â nerth marwolaeth ganddo, hyny yw, diafol. Heb. ii. 14. Gogoniant ac ardderchawgrwydd y geiriau oedd y pryd hwnw mor bwysig arnaf, fel y bum agos a llesmeirio ddwy waith tra yr oeddwn yn eistedd; nid o ofid a chyfyngder, ond gan wir orfoledd a heddwch.

117. Yr amser yma hefyd yr oeddwn yn eistedd dan weinidogaeth y duwiol Mr. Gifford, athrawiaeth yr hwn, trwy ras Duw, fu yn nerthol i'm sefydlu. Y gwr da hwnw a'i gwnai yn orchwyl pendant i waredu pobl Dduw â'i holl egni o'u seiliau twyllodrus, y rhai yr ydym wrth naturiaeth yn dueddol i ymollwng iddynt. Byddai yn gorchymyn hefyd i mi gymeryd gofal neillduol i beidio derbyn un gwirionedd ar antur; eithr llefain yn daer ar y Duw byw am iddo fy argyhoeddi, a'm dwyn i'r gwirionedd o hono, a'm sefydlu trwy ei Ysbryd yn y Gair sanctaidd: "Canys," ebe ef, "os gwnewch yn amgen, pan ddel profedigaeth nerthol i'ch cyfarfod, a chwithau

heb dystiolaeth o'r nefoedd, cewch brofi eisieu y cynorthwy a'r gallu i orchfygu, yr hyn y tybiasech unwaith eu bod genych.

118. Yr oedd hyn mor dymherus i'm henaid ag yw'r "Cynar a'r diweddar-wlaw yn ei amser;" canys myfi a deimlais wirionedd ei eiriau ef trwy brofiad alaethus; credais nas gallasai undyn ddywedyd (mewn profedigaeth ddieflig) mai Iesu Grist sydd Arglwydd, ond trwy'r Yspryd Glân. Felly profais trwy ras, fod fy enaid yn ufudd i'r athrawiaeth hon, a gweddiais ar Dduw, nas goddefai, mewn dim a berthynai i'w ogoniant ef, a'm tragwyddol ddedwyddwch inau, i mi fod heb sicrwydd cadarn o hono o'r nefoedd; canys yna y gwelais yn eglur fod rhagoriaeth mawr rhwng syniad cnawd a gwaed a datguddiad Duw'r gogoniant; ac hefyd y rhagoriaeth sydd rhwng ffydd ffuantus yn y ddoethineb ddynol a'r hon sydd mewn dyn a anwyd o Dduw. Mat. xvi. 14. Ioan v.

119. Ond, O! pa mor ragorach dull yr oedd fy Nuw yn awr yn tywys fy enaid o'r naill wirionedd i'r llall yn Nghrist; sef, o'i enedigaeth i'w ddioddefaint, ac o'i ail ddyfodiad o'r nef i farnu y byd.

120. Mewn gwirionedd, profais ar y cyfrif hwn fod y Duw mawr yn dra daionus i mi; canys hyd yr wyf yn gofio, nid oedd dim ag a geisiwn ganddo ei ddatguddio i mi ac nas rhyngodd bodd iddo ei wneuthur; sef, cefais fy nhywys yn rheolaidd i holl ranau o efengyl Iesu Grist. Yr wyf yn meddwl i mi gael golwg, trwy dystiolaeth gadarn y pedwar Efangylwr, ar waith rhyfeddol Duw yn rhoddi Iesu Grist i'n hachub:—trwy ei genhedliad, ei enedigaeth, a'i ail ddyfodiad i'r farn; ïe, yr oeddwn fel pe buaswn yn gweled ei eni ef, a'i weled ef yn cynyddu, ac yn teithio trwy y byd hwn, o'r cryd i'r groes; at yr hon pan ddaeth, gwelais mor addfwyn y rhoddodd ei hun i fyny i'w groeshoelio arni, dros fy mhechod a'm gweithredoedd drygionus i. Fel yr oeddwn yn myfyrio hefyd ar ei deithiau ef, diferodd hyn ar fy yspryd: "Efe a ragordeiniwyd i'r lladdfa."

121. Hefyd, pan ystyriais wirionedd a grym ei adgyfodiad, cofiais y gair hwnw: "Na chyffwrdd â mi," &c. Ioan xx. 17. Yr oeddwn fel pe buaswn yn ei weled ef yn llamu o safn y bedd: gorfoleddais, gan iddo gyfodi a chael y fuddugoliaeth ar ein gelynion dychrynllyd. Gwelais ef hefyd, trwy yr Yspryd, yn ddyn, ar ddeheulaw y Tad, yn eiriol droswyf fi; a dull ei ail ddyfodiad ef o'r nef, i farnu'r byd gyda gogoniant a rhwysgfawredd. Cefais fy nghadarnhau yn hyn trwy yr Ysgrythyrau canlynol: Act. i. 9, 10; vii. 56; x. 42. Heb. vii. 24; viii. 38. Dat. i. 18. 1 Thes. iv.

122. Unwaith blinwyd fi i gael gwybod a oedd yr Arglwydd Iesu yn ddyn cystal ag yn Dduw, ac yn Dduw cystal ag yn ddyn. Ac yn wir, yn y dyddiau hyny, dyweded dynion y peth a fynont, oddigerth i mi ei gael o'r nef, byddai y cwbl megis dim yn fy ngolwg. Nid oeddwn yn cyfrif fy mod heb hyn yn sefydlog

mewn un o wirioneddau Duw. Cefais fy nghythryblu yn fawr oherwydd y pethau rhaggrybwylledig, heb wybod pa fodd i'w dirnad. O'r diwedd, y geiriau hyny yn y bummed bennod o'r Datguddiad a ddaeth i'm meddwl: "Ac mi a edrychais, ac wele, yn nghanol yr orseddfainc a'r pedwar anifail, ac yn nghanol yr henuriaid, yr oedd Oen yn sefyll megis wedi ei ladd." Yn nghanol yr orseddfainc, y meddyliais fod ei Dduwdod; ac yn nghanol yr henuriaid, mai ei ddyndod oedd. Ond, O! mor ogoneddus yr oedd hyny yn disgleirio, a'r fath foddlonrwydd annhraethol oeddwn yn dderbyn i'm meddwl oddiwrtho. Ysgrythyr arall hefyd a'm cynorthwyodd yn fawr iawn yn hyn: sef, "Canys bachgen a anwyd i ni, Mab a roddwyd i ni, a bydd y llywodraeth ar ei ysgwydd ef: a gelwir ei enw ef, Rhyfeddol, Cynghorwr, y Duw cadarn, Tad tragwyddoldeb, Tywysog tangnefedd." Esay ix. 6.

123. Heblaw yr athrawiaethau a enwyd, a'i Air, yr Arglwydd a ddefnyddiodd ddau beth i'm diogelu yn y gwirionedd hwn: y naill ydoedd cyfeiliornadau y Crynwyr *(Quakers)*, a'r llall oedd yr euogrwydd o bechod; canys fel yr oedd y Crynwyr yn gwrthwynebu y gwirionedd, Duw a'm cadarnhaodd ynddo yn fwy-fwy, trwy'm tywys i'r Ysgrythyrau hyny ag oeddynt yn ei amddiffyn yn ddiamheuol.

124. Y cyfeiliornadau ag oedd y Crynwyr yr amser hwnw yn draddodi ydoedd y rhai canlynol, sef—

"1. Nad oedd yr Ysgrythyrau sanctaidd yn Air Duw.

"2. Fod dyn yn y byd hwn yn meddiannu yspryd Crist, ffydd, a phob gras, &c.

"3. Na ddarfu i Iesu Grist, trwy ei groeshoeliad a'i farwolaeth, roddi boddlonrwydd i gyfiawnder Duw am bechodau dynolryw.

"4. Fod cnawd a gwaed Grist oddi mewn i'r saint.

"5. Na bydd i gyrph y dynion da na'r drwg, a gladdwyd mewn monwentydd, eglwysydd, &c., gyfodi.

"6. Fod adgyfodiad y dynion da wedi cymeryd lle eisoes.

"7. Na ddarfu i'r dyn Iesu, yr hwn a groeshoeliwyd rhwng dau leidr ar fryn Calfaria, gerllaw dinas Jerusalem, ddyrchafu uwchlaw'r nef serenog. Ac, yn

"8. Na fydd i'r Iesu hwnw, a fu farw trwy ddwylaw yr Iuddewon, ddyfod drachefn, y dydd diweddaf, ar agwedd dyn, i farnu'r holl genhedloedd."

125. Llawer ychwaneg o bethau atgas a ffiaidd oeddynt yr amser hwnw yn gyhoeddi, yr hyn a barodd i mi chwilio'r Ysgrythyrau gyda mwy o ddifrifoldeb; a thrwy eu goleuni a'u tystiolaeth cefais, nid yn unig fy ngoleuo, eithr fy nghadarnhau a'm cysuro yn ddirfawr yn y gwirionedd; ac fel y soniais, mewn perthynas i euogrwydd pechod, gwnaeth leshad mawr i mi; canys fel ag y byddai yn gwasgu arnaf, gwaed Iesu Grist a'i tynai ymaith, drachefn a thrachefn; a hyn yn dra melys, yn ol yr Ysgrythyrau. O! gyfeillion! llefwch ar i Dduw ddatguddio Iesu Grist i chwi; canys nid oes neb a'i dysga yn gyffelyb iddo ef.

126. Rhy faith fyddai i mi adrodd yn fanwl wrthych pa fodd y'm dysgwyd gan Dduw yn holl bethau Crist; a'r modd y'm tywysodd i mewn i'w holl eiriau ef; a'r modd hefyd yr agorai efe hwynt i mi, ac y gwnai iddynt lewyrchu gerbron fy wyneb, gan orphwys arnaf, i'm cynorthwyo drwy odidawgrwydd ei Hanfod ei Hun, ei Fab, ei Ysbryd, a'i Air efengylaidd ef, &c.

127. Yn unig, fel y dywedais eisoes, y dywedaf drachefn, rhyngodd bodd iddo arfer y driniaeth hon arnaf:—yn gyntaf, drwy ddioddef i mi gael fy mlino gan brofedigaethau perthynol i'r pethau rhagsoniedig; ac, yn ail, eu datguddio i mi drachefn;—ïe, pan fyddwn yn gorwedd yn drist mewn euogrwydd pechod, yn hollol felldigedig, y datguddiai'r Arglwydd i mi farwolaeth Iesu Grist, ac y taenellai i'm cydwybod o'i waed gwerthfawr ef, fel y profwn mai yn yr un gydwybod ag y bu'r gyfraith mewn digofaint dirfawr yn teyrnasu, y pryd hwnw y gorphwysai heddwch a chariad, yn wyneb Iesu Grist.

128. Cefais hefyd dystiolaeth o'r nef, fel y tybiais, am fy iachawdwriaeth, wedi ei selio â seliau euraidd, pa rai oeddynt o flaen fy llygaid: yna gallaswn adgofio amryw ddatguddiedigaethau o ras gyda gorfoledd, gan hiraethu dyfodiad y dydd diweddaf, fel y cawn byth olwg ar, a gorfoleddu yn yr hwn y coronwyd ei ben â drain, y poerwyd yn ei wyneb, y drylliwyd ei gorph, ac y gwnawd ei enaid yn aberth dros fy mhechodau i. Yr oeddwn o'r blaen yn gorwedd wrth safn uffern, ond yn awr rhyddhawyd fi gan belled oddiwrthi, fel nas gallwn, wrth edrych yn ol, ond prin ei chanfod. Hiraethais yn fawr am ddiweddu fy nyddiau ar y ddaear, fel y caffwn farw, ac i'm henaid gael myned i'r dragwyddol orphwysfa ddedwydd.

129. Ond cyn i mi ddyfod allan o'r profedigaethau hyn, hiraethais lawer am gyfarfod â llyfrau yn cynwys profiad rhai o'r hen dduwiolion, y rhai oeddynt yn byw rai cannoedd o flynyddau cyn fy ngeni, ac wedi eu hysgrifenu ganddynt hwy. Yr oeddwn yn barnu am y rhai a ysgrifenasant yn ein dyddiau ni, (eithr dymunaf yn bresenol eu maddeuant,) nad oeddynt yn ysgrifenu ond yr hyn ydoedd eraill wedi ei deimlo; neu, ynte, trwy nerth deall, doniau, a dysgeidiaeth, yn efrydu atebion i'r gwrthddadleuon hyny oeddynt yn feddwl fod eraill yn cael eu blino o'u herwydd, heb anturio eu hunain i'r dyfnder. Felly, ar ol llawer o'r dymuniadau hiraethus hyn, Duw, yr hwn y mae ein ffyrdd a'n dyddiau yn ei law, a drefnodd i mi gael gafael ar un o lyfrau Martin Luther: sef ei "Esponiad ar y Galatiaid;" yr oedd mor hen, fel yr oedd braidd yn myned yn ddarnau wrth droi ei ddalenau. Yr oeddwn yn falch iawn i'r fath hen lyfr syrthio i'm dwylaw, yn yr hwn y gwelais fy nghyflwr yn mhrofiad yr awdwr mor gyflawn ac eglur, a phe buasai ei lyfr wedi dyfod o fy nghalon fy hun. Hyn a wnaeth i mi ryfeddu; canys dywedais, y gwr hwn a ysgrifenodd brofiadau'r hynafiaid, canys ni allasai wybod profiadau a chyflyrau Cristionogion yn y dyddiau hyn.

130. Heblaw hyn, mae yr awdwr, yn y llyfr hwn, yn dadleu yn bur ddifrifol am ddechreuad y profedigaethau hyn: sef, cableddau, anobaith, a'r cyffelyb. Dengys fod gan gyfraith Moses, yn gystal a diafol, marwolaeth, ac uffern, law fawr ynddynt; yr hyn, ar y cyntaf, oedd yn bur ddieithr i mi; eithr wrth ystyried a gwilio, canfyddais mai felly yr oedd yn wir. Eithr am danynt yn neillduol, nid ydwyf yma yn bwriadu dywedyd dim, ond yn unig hyn: mae'n rhaid i mi gyfaddef gerbron pawb, fy mod yn gwerthfawrogi y llyfr hwn o eiddo Martin Luther, ar y Galatiaid, o flaen yr holl lyfrau a welais i erioed, oddigerth y Bibl sanctaidd, er meddyginiaethu cydwybod archolledig.

131. Yn awr yr oeddwn, fel y tybiais, yn caru Crist yn anwyl;—ïe, meddyliais fod fy enaid a'm serchiadau yn glynu wrtho; teimlwn fy nghariad tuag ato gan boethed a'r tân; tybiais, fel y dywed Job, y gallaswn farw yn fy nyth. Eithr cefais wybod yn fuan nad oedd fy nghariad nerthol ond egwan, a'm bod, er tybied o honof yn sicr fod genyf fi gariad gwresog tuag at Iesu Grist, y gadawn iddo fyned ymaith am ychydig. Duw a ŵyr pa fodd i'n darostwng, ac a ddichon gadw balchder rhag dyn. Yn fuan wedi hyny fy nghariad a gafodd ei brofi i'r eithaf.

132. Canys wedi i'r Arglwydd fy ngwaredu o'i drugaredd rasol oddiwrth y profedigaethau mawrion hyn, ac wedi i mi sefydlu yn ffydd ei efengyl sanctaidd, a rhoddi i mi dystiolaeth gadarn o'r nefoedd am ei gariad a'm hawl yn Nghrist, y gelyn a ruthrodd arnaf drachefn gyda phrofedigaeth fwy dychrynllyd nag o'r blaen.

133. A hyny am i mi werthu yr Iesu bendigedig, a'i gyfnewid am rywbeth o'r bywyd hwn. Y brofedigaeth hon a orphwysodd arnaf dros yspaid blwyddyn; ac a'm canlynodd, fel na chawn lonyddwch un diwrnod mewn mis; nac ychwaith gymaint ag un awr o seibiant mewn amryw ddyddiau yn nghyd, oddigerth mewn cwsg.

134. Er fy mod yn argyhoeddiedig, na fyddai i'r rhai oeddynt wedi cael meddiant effeithiol yn Nghrist (fel y gobeithiwn, drwy ei ras, fy mod inau felly) byth golli eu gafael ynddo ef yn dragywydd—("A'r tir ni chair ei werthu yn llwyr: canys eiddof fi yw y tir," medd Duw. Lef. xxv. 23)—er hyny, byddai yn ofid parhaus i mi, pan y meddyliwn am i mi goleddu y gwrthfeddwl lleiaf yn erbyn y Crist bendigedig hwnw oedd wedi gwneuthur cymaint drosof fi. Ond nid oedd genyf yr amser hwnw ond y meddyliau cableddus hyn am dano.

135. Eithr ni wnaeth na'm hanfoddlonrwydd at, na'm dymuniad aiddgar i'w gwrthwynebu, roddi i mi waredigaeth rhagddynt, yn y mesur lleiaf, canys byddent beunydd yn ymgymysgu â pheth bynag a feddyliwn, yn y fath fodd fel nas gallwn na bwyta nac yfed, nac ymgrymu i godi dim oddiar y llawr, na thaflu fy ngolwg at un peth, na byddai y brofedigaeth, yn ol ei hen drawsgymhelliad, yn gwaeddi, "Gwerth ef am y peth hwn, neu gwerth ef am y peth arall; gwerth ef! gwerth ef! gwerth ef!"

136. Weithiau rhedai i'm meddwl, nid llai na chanwaith yn nghyd, "Gwerth ef, gwerth ef," &c. Yn erbyn y cyfryw gallaf ddywedyd y byddwn dros oriau cyfan yn gorfod â'm holl yspryd eu gwrthsefyll, rhag, ysgatfydd, i'm calon yn ddiarwybod roddi cydsyniad; ac weithiau, gwnai y gelyn i mi gredu fy mod wedi gwneud hyny, ac yna dihoenid fi megis ar droell, amryw ddyddiau yn nghyd.

137. Y brofedigaeth hon a'm gwnaeth yn dra dychrynedig, rhag i mi anturio dywedyd fy mod yn cydsynio â hi, a chael fy ngorchfygu ganddi. Trwy ymegniad gorchestol fy meddwl yn gwrthsefyll yr annuwioldeb hwn, fy holl gorph oedd ar waith, yn gystal â'm dwylaw, ac atebwn, gan fynyched ag y'm hanogid gan y gelyn i ddywedyd, "Gwerth ef," drwy waeddi, "Na wnaf, na wnaf, er myrddiwn o fydoedd," &c. Gwnawn hyny, rhag ofn i mi osod rhy fychan o bris arno; felly aethum i'r fath ddyryswch, fel na wyddwn pa le yr oeddwn, na pha le i gael tawelwch drachefn.

138. Yr amserau hyn ni chawn lonydd ganddo i fwyta fy ymborth; eithr pan eisteddwn i lawr wrth y bwrdd, gorfyddid i mi gyfodi i fyny, a myned o'r neilldu i weddio; ïe, byddai yn rhaid i mi adael fy mwyd y pryd hyny yn ebrwydd, gan mor ffugsancteiddiol ydoedd y gelyn hwn. Pan fyddai yn fy nhemtio fel hyn, minau a ddywedwn, "Mi a gymeraf fy mwyd;" "Nage," meddai yntau; "mae'n rhaid i ti fyned yn awr, os amgen, ti a anfoddloni Dduw, ac a ddiystyri Grist." Felly, fe'm trallodid yn ddirfawr â'r pethau hyn; ac oherwydd pechadurusrwydd fy nghalon, meddyliais mai cynhyrfiadau oddiwrth Dduw oeddynt, a naceais eu gwneuthur; yna'r gelyn a'm bwriai yn euog, fel ped anufuddhauswn i'r Arglwydd.

139. Ond i fod yn fyr, a mi yn fy ngwely ar foreugwaith, yn cael fy arteithio, fel arferol, gan y brofedigaeth, sef, "i werthu ac ymadael â christ," yr anogaeth ddrwg hon a redai yn wastadol yn fy meddwl: "Gwerth ef! gwerth ef! gwerth ef!" mor gyflym ag y gallai dyn lefaru. Gwrthwynebwn inau hyny â'm holl egni, drwy ddywedyd, "Na wnaf, na wnaf, er mil o fydoedd," a hyny o leiaf ugeinwaith yn nghyd. Ond o'r diwedd, wedi hir wrthwynebu, hyd nes oeddwn agos allan o anadl, teimlais yr adlais hwn yn rhedeg trwy fy nghalon: "Gâd iddo fyned, os myn;" a thybiais i'm calon gydsynio yn hollol. O! mor ddiwyd yw Satan, ac, O! mor dwyllodrus ydyw calon dyn!

140. Yna'r frwydr a enillwyd; minau a syrthiais fel aderyn a saethid gan adarwr, i euogrwydd ac anobaith; felly aethum fel ynfyd i'r maes, ond fy nghalon mor drymed, Duw a'i gŵyr, ag y gallai fod; ïe, bum dros ddwy awr fel un a ddifeddiennid o'i synwyrau, ac megis yn ddiobaith, wedi fy rhwymo i fyny i gospedigaeth dragwyddol.

141. Yr Ysgrythyr hon hefyd a ddaliodd afael ynof: "neu halogedig, megis Esau, yr hwn am un saig o fwyd a werthodd ei enedigaeth-fraint. Canys chwi a

wyddoch ddarfod wedi hyny ei wrthod ef, pan oedd efe yn ewyllysio etifeddu y fendith: oblegid ni chafodd efe le i edifeirwch, er iddo trwy ddagrau ei thaer-geisio hi." Heb. xii. 17, 18.

142. Yr oeddwn yn awr fel un wedi ei gaethiwo; teimlwn fy mod wedi fy rhoddi i fyny erbyn y farn i ddyfod; nid oedd dim bellach ar fy meddwl am flynyddau yn nghyd ond damnedigaeth, a'r disgwyliad dychrynllyd o honi yn aros arnaf, oddigerth ambell i fynyd o seibiant, megis y dengys yr hyn a ganlyn.

143. Yr oedd y geiriau i'm henaid megis gefynau pres i'm coesau, swn pa rai oedd yn fy meddwl amryw fisoedd yn nghyd. Ond un diwrnod, yn nghylch deg o'r gloch, fel yr oeddwn yn rhodio wrth ochr clawdd, yn llawn tristwch ac euogrwydd, (Duw a'i gŵyr!) ac yn alarus oblegid cyfodi o'r cyfryw feddwl ynof, yn ddisymwth rhuthrodd y gair hwn i mewn: "A gwaed Crist a ryddhâ oddiwrth yr holl euogrwydd;"—ar hyny llonyddais yn fy yspryd. Ac ar fyrder cymerodd y gair gwerthfawr hwn afael ynof: "A gwaed Iesu Grist ei Fab ef, sydd yn ein glanhau ni oddiwrth bob pechod." 1 Ioan 1. 7.

144. Dechreuais ddeall yn awr fy mod yn gweled y temtiwr megis pe buasai yn cilio ymaith, ac yn cywilyddio oblegid yr hyn a wnaeth. Ar yr un amser hefyd dangoswyd erchylldra fy mhechod a gwaed Iesu Grist i'm golwg; a chanfyddais nad oedd fy mhechod i'w gystadlu â gwaed Crist, dim amgen na'r briddell fechan oedd ger fy mron i'r maes ëang oedd o'm hamgylch. Hyn a'm cysurodd yn fawr dros yspaid dwy neu dair o oriau. Yn y cyfamser tybiwn fy mod yn canfod (trwy ffydd) Mab Duw yn dioddef dros fy mhechodau i; ond oherwydd na arosodd yr argraph hwn ar fy meddwl ond dros ychydig amser, suddais yn fy yspryd dan yr euogrwydd dirfawr drachefn.

145. Ond yn enwedigol oblegid yr Ysgrythyr a ragddywedais yn nghylch Esau yn gwerthu ei enedigaeth-fraint; canys fe fyddai yr Ysgrythyr hòno trwy gydol y dydd ar fy meddwl, ac yn fy nàl i lawr, fel na allwn mewn un modd gyfodi i fyny; canys pan fyddwn yn ymorchestu i droi at yr Ysgrythyr hon neu y llall, i geisio ymwared, byddai'r gair hwn yn wastadol yn seinio yn fy nghlustiau:—"Canys chwi a wyddoch ddarfod wedi hyny ei wrthod ef, pan oedd efe yn ewyllysio etifeddu y fendith: oblegid ni chafodd efe le i edifeirwch, er iddo trwy ddagrau ei thaer-geisio hi." Heb. xii. 18.

146. Weithiau byddwn yn taro ar y gair hwnw yn Luc xxii. 32: "Eithr mi a weddiais drosot, na ddiffygiai dy ffydd di;" ond ni arosai gyda mi; ac ni allwn chwaith yn wir, pan ystyriwn fy nghyflwr, brofi fod genyf fi sylfaen, yn y mesur lleiaf, i amgyffred fod gwreiddyn o'r gras hwnw genyf fi, yr hwn a bechais mor fawr. Fel hyn y byddwn yn cael fy rhwymo a'm twyllo mewn cyfiwr trwm dros amryw o ddyddiau yn nghyd.

147. Yna dechreuais, gyda chalon bryderus ac athrist, i ystyried natur a maintioli fy mhechodau, ac i chwilio i mewn i Air Duw, i edrych a allwn mewn un lle o hono gael gair o addewid, neu un gair o anogaeth, trwy ba un y gallwn gael ymwared. Gan hyny, dechreuais ystyried y gair hwn yn Marc iii. 28: "Maddeuir pob pechod i feibion dynion, a pha gabledd bynag a gablant; a darfu i'w ddarllen beri i mi wrido, gan ei fod yn cynwys addewidion mor rhagorol am faddeuant o'r pechodau gwrthunaf; ond pan ystyriais arnynt yn fanylach, tybygwn eu bod yn hytrach i'w deall, i'r rhai a wnaethant y cyfryw bethau yn nghyflwr natur, ac nid i mi, a dderbyniodd oleuni a thrugaredd, ond a ddarfu ar ol hyny yn fwy neillduol ddiystyru Crist, fel y gwnaethum i

148. Ofnais hefyd yn ddirfawr y gallai y pechod erchyll a gyflawnais fod y pechod anfaddeuol a grybwyllir am dano yn Marc iii. 29: "Eithr yr hwn a gablo yn erbyn yr Yspryd Glân, ni chaiff faddeuant yn dragywydd." Ac mi a gredais, yn hytrach oherwydd y gair hwnw yn yr Hebreaid: "Canys chwi a wyddoch ddarfod wedi hyny ei wrthod ef, pan oedd efe yn ewyllysio etifeddu y fendith: oblegid ni chafodd efe le i edifeirwch, er iddo trwy ddagrau ei thaer-geisio hi;" a hyny a ymlynodd wrthyf yn wastadol.

149. Yr oeddwn yn awr yn faich ac yn ddychryn i mi fy hun; ac ni wybum o'r blaen beth oedd blino ar fy einioes, ac er hyny ofni marw. O! mor ddymunol fuasai genyf yn awr pe gallaswn fod yn rhywun heblaw fy hun; ïe, dymunaswn fod yn rhyw fath o greadur, neu ymlusgiad, yn hytrach na bod yn ddyn, neu mewn unrhyw gyflwr, ond yr eiddof fy hun. Nid oedd dim yn tramwy drwy fy meddwl mor fynych a bod yn anmhosibl i mi gael maddeuant o'm troseddiadau mawrion, a'm hachub rhag y llid a fydd.

150. Dechreuais ymboeni wedi hyn i alw yn ol yr amser a aeth heibio; gan ddymuno a dywedyd fil o weithiau am i'r dydd hwnw ddyfod drachefn, pan gawswn fy nhemtio i'r cyfryw bechod, gan fygythio, a dywedyd, gyda llidiawgrwydd mawr, yn erbyn fy nghalon a phob rhuthriadau, y dewiswn yn hytrach gael fy nhori yn ddarnau na chydsynio â'r cyfryw bechod. Ond, Och! yr oedd yr holl ddymuniadau brwdfrydus hyn yn rhy ddiweddar yn awr i'm cynorthwyo; canys y meddwl cableddus hwn a aeth i'm calon: Duw a'm gadawodd i fyned i'm ffordd fy hun, minau a syrthiais. "O!" ebe fi, "na bawn i fel yn y misoedd o'r blaen; fel yn y dyddiau pan gadwai Duw fi." Job. xxix. 2.

151. Yna drachefn dechreuais gymharu fy mhechod ag eraill, i edrych a allwn ganfod i neb o'r rhai cadwedig syrthio fel finau. Felly ystyriais odineb Dafydd â gwraig Urïas, a llofruddiaeth ei gwr hi;—yr oeddynt yn feiau atgas iawn yn fy ngolwg, ac yn cael eu cyflawni ganddo hefyd ar ol iddo dderbyn gras a gwybodaeth. Ond wrth ystyried, canfum nad oedd ei drosedd ef ond yn erbyn cyfraith Moses,

oddiwrth yr hon y gallai'r Arglwydd Iesu, ond dywedyd gair, ei ryddhau ef; ond yr oedd fy mhechod i yn erbyn yr efengyl; ïe, yn erbyn y Cyfryngwr o honi; yr oeddwn i wedi gwerthu fy Iachawdwr.

152. Byddwn yn awr drachefn megis ar y dröell yn cael fy nirdynu, pan ystyriwn fy mod, heblaw yr euogrwydd a'm meddiannai, mor ymddifad o ras, ac megis wedi fy llygad-dynu. Meddyliwn ynof fy hun, A raid i hwn fod y pechod yn erbyn yr Yspryd Glân? A raid i hwn fod yr anwiredd mawr? (Salm xix. 31.) A raid i'r drwg hwn gyffwrdd â'm henaid? 1 Ioan v. 18.) O! y fath bicellau oeddwn yn deimlo yn y geiriau hyn!

153. Yna dywedais, A oes onid un pechod yn anfaddeuol?—dim ond un a ŷr yr enaid o gyrhaedd trugaredd Duw?—ac a oedd yn rhaid i mi fod yn euog o hwnw? A oes dim onid un pechod, yn mhlith y miloedd pechodau, am yr hwn nid oes maddeuant?—ac a raid i mi fod yn euog o hwnw? O! bechod melltigedig! O ddyn annedwydd! Y pethau hyn a ddrylliasant fy nghalon i'r fath raddau, a'i brydiau, fel yr ofnais y collwn fy synwyrau; ac i chwanegu fy nhrueni, y geiriau hyny yn yr Hebreaid, a ddyfynais yn aml yn flaenorol, a redent yn ddibaid i'm meddwl: "Canys chwi a wyddoch ddarfod wedi hyny hefyd ei wrthod ef, pan oedd efe yn ewyllysio etifeddu y fendith: oblegid ni chafodd efe le i edifeirwch, er iddo trwy ddagrau ei thaer-geisio hi." O! ni ŵyr neb echryslonrwydd dychrynfëydd y dyddiau hyny ond fy hun.

154. Ar ol hyn dechreuais ystyried pechod Pedr, yr hwn a wnaeth efe wrth wadu ei Feistr; ac yn wir, hwn a ddaeth yn nes at fy nghyflwr i nag un a allwn feddwl am dano, canys efe a wadodd ei Iachawdwr, fel finau, ar ol derbyn goleuni a thrugaredd;—ïe, a hyny hefyd wedi iddo gael ei rybuddio. Meddyliais hefyd iddo wneud hyny unwaith a dwywaith, ar ol cael amser i ystyried rhyngddynt. Ond ar ol i mi osod yr holl bethau hyn yn nghyd, i edrych a allwn i gael ymwared; eto, pan ystyriais, nid oedd ei bechod ef ond gwadu ei Feistr, eithr fy mhechod i oedd gwerthu fy Iachawdwr. Oherwydd hyny, meddyliais i mi ddyfod yn nes at Suddas nag at Ddafydd na Phedr.

155. Yma drachefn y byddai fy arteithiau yn fflamio allan, ac yn fy mlino; ïe, byddent yn fy malurio megis yn chwilfriw, wrth feddwl am ddarbodaeth Duw dros eraill, tra bum i yn syrthio i'r fagl. Ond wrth fyfyrio fel hyn ar bechodau rhai eraill, a'u cymharu â'm heiddof fy hun, gallwn ganfod yn eglur fod Duw yn eu hamddiffyn hwynt, er cymaint eu hannuwioldeb, ac ni adawai iddynt fyned i golledigaeth, megis y gadawodd i mi fod yn fab colledig.

156. Ond, O! fel yr oedd fy enaid y pryd hwnw yn mawrygu yr amddiffyniad oedd Duw yn ei osod o amgylch ei bobl! O! mor ddiogel yr oeddwn yn eu gweled yn rhodio, sef y rhai yr oedd Duw yn eu castellu! Yr oeddynt o fewn ei ofal a'i

amddiffynfa rhagluniaethol, er eu bod yn hollol gynddrwg a minau wrth natur; eto, oblegid iddo eu caru hwynt, ni fynai iddynt syrthio o gyrhaedd trugaredd: ond am danaf fi, ni fynai fy amddiffyn na'm cadw; ond oherwydd fy mod yn wrthodedig, gadawodd i mi syrthio, fel y gwnaethum. Yn awr, yr oedd yr Ysgrythyrau hyny sydd yn crybwyll am waith Duw yn cadw ei bobl, yn llewyrchu ger fy mron; ac er na roddent i mi un cysur, er hyny dangosent i mi gyflwr adenedig ac etifeddiaeth bendigedigion yr Arglwydd.

157. Canfyddais yn awr, megis yr oedd llaw Duw yn mhob rhagluniaeth o'i eiddo ag sydd yn gorddiwes ei etholedigion, felly hefyd yr oedd ei law ef yn yr holl oruchwyliaethau a phrofedigaethau a'u cyfarfyddont, nid er eu hanog i bechu, ond i'w profi; ac y mae efe yn en gadael hefyd, dros amser, i'r cyfryw bethau, nid fel y difethid hwy ganddynt, ond er eu darostwng; nid er eu gyru oddiar y ffordd, ond i'r diben i'w gosod ynddi, trwy adnewyddu ei drugaredd iddynt. Ond, O! y fath gariad, y fath ofal, a'r fath hynawsedd a thrugaredd, oeddwn yn ganfod yn gymysgedig â ffyrdd mwyaf dychrynllyd ac ofnadwy Duw i'w bobl. Efe a adawai i Dafydd, Hezekia, Solomon, Pedr, ac eraill, syrthio, ond ni adawai iddynt syrthio i bechod anfaddeuol, nac i uffern, am bechod. O! mi feddyliwn mai dyma'r bobl yr oedd Dnw yn eu caru—dyma'r dynion yr oedd Duw (er iddo eu ceryddu hwynt) yn eu cadw mewn diogelwch, ac a orphwysant yn dawel dan ei gysgod ef. Ond yr oedd yr holl feddyliau hyn yn chwanegu tristwch, gofid, a dychryn i mi, ac agos a'm lladd i; fel, pa beth bynag a feddyliwn am y drefn ag oedd Duw yn cadw ei eiddo, byddai hyny yn fy nhristhau; canys megis ag yr oedd pob peth yn cydweithio er lleshad a daioni i'r rhai a alwyd yn ol ei arfaeth ef, tybiais, gan hyny, fod pob peth yn cydweithio er fy ninystr i.

158. Dechreuais drachefn gymharu fy mhechod ag eiddo Judas fradwr, fel, os byddai bosibl, i mi allu canfod y gwahaniaeth rhwng fy mhechod i a'r hwn sydd anfaddeuol. Ac, O! tybiais, os y rhagorai arno ond y mymryn lleiaf, yn mha fath gyflwr dedwydd y buasai fy enaid ynddo. Wrth ystyried fel hyn, deallais i Judas bechu o'i wirfodd; a bod yr eiddof fi yn groes i fy ngweddiau a'm hymdrechiadau. Efe a bechodd gyda phwyll ac ystyriaeth; ond myfi mewn sydynrwydd ac ofn dirfawr. Yn y cyfamser, yr oeddwn yn cael fy nhaflu yma ac acw, fel y locustiaid, a'm gyru o'r naill flinder i'r llall, gan glywed llais Esau yn barhaus yn swnio yn fy nghlustiau, a'r canlyniadau arswydus o'i drosedd

159. Er hyny, bu yr ystyriaeth am bechod Judas, dros ychydig amser, yn gweini rhywfaint o esmwythder i mi; canys meddyliais na ddarfu i mi, oherwydd yr amgylchiadau oeddwn ynddynt, bechu mor gyflawn ag ef. Ond diflanodd hyn yn fuan eto: canys meddyliais wrthyf fy hun, fod mwy nag un ffordd i gyflawni pechod anfaddeuol; ac hefyd meddyliais y gallai graddau o hono fod, yn gystal â

phechodau eraill; o ganlyniad, am ddim a'r a wyddwn i, gallai fy mhechod inau fod yn gyfryw na fynai Duw byth ei faddeu.

160. Yr oedd arnaf gywilydd yn awr fy mod i yn debyg i'r fath ddyn ag ydoedd Judas; meddyliais hefyd pa mor atgas y byddwn yn ngolwg holl seintiau Duw yn nydd y farn. Felly, nid allwn edrych yn ngwyneb dyn da, cydwybodol, er na byddai fy nghalon yn dychrynu ger ei fron. Yna gwelais pa fath ogoniant anrhydeddus ydoedd rhodio gyda Duw, ac o gael cydwybod dda ger ei fron ef.

161. Temtiwyd fi yn erchyll oddeutu yr amser hyn i feddwl yn ŵyrgam nad oedd y fath beth a dydd barn; na byddai adgyfodiad y meirw; ac nad oedd pechod gynddrwg ag y dywedid ei fod. Byddai y gelyn yn dadwrdd wrthyf fel hyn: "Pe byddai'r pethau hyn yn wir, er hyny, credu i'r gwrthwyneb fyddai esmwythach i ti dros yr amser presenol. Os rhaid i ti farw, na phoena dy hun yn mlaen llaw; gyr ymaith y meddyliau am golledigaeth allan o'th feddwl, trwy lenwi dy feddyliau â'r cyffelyb ddaliadau a chasgliadau ag y mae yr Atheistiaid a'r Ranters yn diddanu eu hunain â hwynt."

162. Ond, O! pan fyddai y fath feddyliau a'r rhai hyn yn trywanu trwy fy nghalon, fel yr ymddangosai angau a'r farn ddiweddaf ger fy mron! Tybygwn fod y Barnwr yn sefyll wrth y drws; ïe, yr oedd efe megis pe buasai wedi dyfod eisoes. Meddyliais wrth hyny, fy mod yn canfod y mynai Satan arfer pob moddion i gadw fy enaid oddiwrth Dduw, ac nad oedd yn ewyllysio i'm hyspryd fod yn ddeffröus ac yn fywiog am Dduw; ond diofalwch, dallineb, tywyllwch, ac amryfusedd, ydyw sylfaen teyrnas a phreswylfa yr yspryd drwg.

163. Yn awr cefais wybod mai gorchwyl caled iawn oedd gweddio ar Dduw, canys yr oedd anobaith wedi fy llyncu i fyny. Tybygwn fy mod yn cael fy nhaflu oddiwrth Dduw megis gyda thymestl ddirfawr; canys pan fyddwn yn llefain ar Dduw am drugaredd, yr ymadrodd hwn a ddeuai ataf: "Y mae yn rhy ddiweddar; yr wyt yn golledig; Duw a adawodd i ti syrthio, nid i'th geryddu, ond i'th gondemnio; y mae dy bechod yn anfaddeuol; a gwyddost am Esau, yr hwn, ar ol iddo werthu ei enedigaeth-fraint, pan fynai etifeddu y fendith, fethu ei hadenill hi." Yn nghylch yr amser hwn cyfarfum â hanes dychrynllyd Francis Spira. Yr oedd y llyfr hynod hwnw i'm hyspryd fel halen ar friw. Yr oedd pob gair o hono, a phob ochenaid o eiddo'r gwr hwnw, yn nghyd â'i holl weithredoedd—ei ofidiau ei ddagrau, ei weddiau, ei wylofain, ei rincian danedd, plethiad ei ddwylaw, a'i ddihoeniad maith dan law geryddol Duw, megis cleddyf yn trywanu i'm henaid;—yn enwedig y gair hwn a ddywedodd oedd yn bur echrydus i mi, sef, "Dyn a ŵyr ddechreuad pechod, ond pwy a ŵyr ei ddiwedd?" Yna daeth yr ymadrodd sobr a phwysig canlynol (a adroddais yn aml o'r blaen) i'm meddwl, megis clo ar y cwbl: "Canys chwi a wyddoch ddarfod wedi hyny ei wrthod ef, pan oedd efe yn ewyllysio

etifeddu y fendith: oblegid ni chafodd efe le i edifeirwch, er iddo trwy ddagrau ei thaer-geisio hi." Heb. xii. 17.

164. Yna tarawyd fi â dychryn dirfawr, yn gymaint a'm bod yn dra mynych, dros ddyddiau yn nghyd, yn teimlo fy nghorph, yn gystal a'm meddwl, yn ddrylliedig gan arswyd echryslon o farn Duw, yr hon a syrthiasai ar y rhai a bechasant y pechod anfaddeuol. Teimlais hefyd y fath bwysau llosgedig arnaf, fel y tybiais fod asgwrn fy nwyfron yn dryllio yn ddarnau; yna meddyliais am Judas fradwr, yr hwn, "wedi ymgrogi, a dorodd yn ei ganol, a'i holl ymysgaroedd ef a dywalltwyd allan." Act. i. 18.

165. Ofnais yn ddirfawr hefyd mai dyma oedd y nôd a osododd Duw ar Cain, sef ofn dychrynadwy a pharhaus, dan bwys dirfawr euogrwydd, yr hwn a osodasai Duw arno oherwydd gwaed Abel ei frawd. Fel hyn y byddwn yn ymbalfalu, yn ymddirdynu, ac yn ymofidio, gan y baich gorthrymus oedd arnaf, fel nas gallaswn na cherdded, sefyll, na bod yn llonydd.

166. Deuai yr ymadrodd hwn ambell waith, er hyny, i'm meddwl: "Derbyniaist roddion i ddynion; ïe, i'r rhai cyndyn hefyd, fel y preswyliai yr Arglwydd Dduw yn eu plith." Salm lxviii. 18. Meddyliais wrth y "rhai cyndyn," y rhai hyny a fu unwaith dan lywodraeth eu Tywysog; ac er cymeryd o honynt lw i ufuddhau i'w Frenhiniaeth, codasant arfau i'w erbyn. Yn ddiau, ebe fi, dyma fy nghyflwr inau hefyd; bum inau unwaith yn ei garu, ei ofni, a'i anrhydeddu; ond yn awr yr wyf finau yn wrthryfelwr. Myfi a'i gwerthais ef. Dywedais: Gadewch iddo ef fyned, os myn; ond eto, mae ganddo ef roddion i'r cyndyn—o ganlyniad, paham nad allant fod i minau yn gystal a hwythau?

167. Meddyliwn weithiau am hyn, gan obeithio cael ychydig esmwythâd; ond ni chefais ddim o'm dymuniad, oblegid gyrwyd fi allan o bob ymgeledd: yr oeddwn fel dyn yn myned i'w ddienyddio, yr hwn, wedi dyfod i'r dienyddle, a chwennychai ymguddio, ond eto yn methu.

168. Wedi i mi daflu golwg yn neillduol ar bechodau y prif dduwiolion, gwelais fod fy mhechodau fy hun yn fwy na hwynt oll; yna cydmherais yr eiddof fi â'u pechodau hwynt; canys er fod fy mhechodau yn fwy ac erchyllach na neb, eto, os nad oeddynt ond cydradd iddynt oll, yna, ebe fi, y mae gobaith; oherwydd fod y gwaed hwnw â'r fath werth anfeidrol ynddo i olchi ymaith eu holl bechodau hwynt, paham nas dichon olchi ymaith fy mhechodau gwrthun i, er eu bod cymaint, os nid mwy, na'u heiddo hwynt? Felly golygais bechodau Dafydd, Solomon, Manasseh, Pedr, ac eraill o'r prif droseddwyr; a llafuriwn hefyd i fwyhau a duo eu pechodau hwynt yn mhob modd.

169. Ystyriwn wrthyf fy hun i Dafydd dywallt gwaed i guddio ei odineb, a hyny trwy gleddyf meibion Ammon; ac nis gallasai wneud hyny ond trwy lawer o

ddyfeisiadau, yr hyn oedd yn chwanegu llawer at ei bechod. Ond hyn a ddychwelai i'm meddwl drachefn: A! nid oedd y pechodau hyn ond pechodau yn erbyn y gyfraith, oddiwrth ba rai yr oedd Iesu Grist wedi ei anfon i'w gwaredu hwynt; ond fy mhechod i ydoedd yn erbyn yr Iachawdwr, a phwy a'm gwared oddiwrtho?

170. Yna meddyliais am y modd y pechodd Solomon trwy garu gwragedd dieithr, ymgrymu i'w heilunod, ac adeiladu temlau iddynt; gwnaeth hyny hefyd yn ei hen oedran, wedi iddo dderbyn goleuni a thrugareddau mawrion; ond y cyffelyb wrthdarawiad ag a ddarfu fy ngwrthsefyll o'r blaen a'm rhwystrodd eto, sef, nad oedd y pechodau hyn ond yn erbyn y gyfraith, ar gyfer y rhai y darparodd yr Arglwydd ymwared; eithr myfi a werthais fy Ngwaredwr, am yr hyn nid oedd aberth wedi ei adael mwyach.

171. Chwanegais at y pechodau a gyflawnodd Solomon bechodau Manasseh, yr hwn a adeiladodd allorau eilunod yn nhŷ yr Arglwydd—a arferodd hudoliaeth a brudiau—a fawrhaodd swynyddiaeth a dewiniaeth—a arferodd ddewino ei hun—a losgodd ei blant yn ebyrth i gythreuliaid—ac a lanwodd heolydd Jerusalem â gwaed gwirioniaid! Y rhai hyny oeddynt yn bechodau mawrion—yn bechodau gwaedlyd! Ond er hyn oll, yr un meddyliau ag o'r blaen a ddychwelent drachefn ataf, sef, nad oedd yr un o honynt o'r un natur a'm pechod i: "Ymadewaist ti â'r Iesu; ti a werthaist dy Brynwr."

172. Yr oedd yr ystyriaeth hon yn wastadol yn tori fy nghalon, sef, bod fy mhechod i yn uniongyrchol yn erbyn fy Iachawdwr; a hwnw hefyd mor felltigedig, ag i mi ddywedyd yn fy nghalon am dano, Aed ymaith, os myn. O! tybiais fod y pechod hwn yn fwy na phechodau gwlad, teyrnas, neu fyd cyfan; nid oedd un cymaint ag ef; na'r cwbl yn nghyd yn ddigonol i'w cymharu â fy mhechod i, yr hwn oedd tuhwnt iddynt oll!

173. Yna teimlais fy enaid yn ffoi oddiwrth Dduw, megis o wyddfod Barnwr ofnadwy; eto hyn oedd yn fy arteithio yn ddirfawr, na allwn ddianc o'i law ef: "Peth ofnadwy yw syrthio yn nwylaw y Duw byw." Heb. x. 31. Ond bendigedig fyddo Duw, yr Ysgrythyr hòno a'm dadebrodd ac a'm llonyddodd mewn gofidiau dirfawr: "Dilëais dy gamweddau fel cwmwl, a'th bechodau fel niwl: dychwel ataf fi; canys myfi a'th waredais di." Esay xliv. 22. Hyn, meddaf, a ddeuai i fy meddwl pan fyddwn yn ffoi rhag wyneb yr Arglwydd; hyny yw, fy meddwl a'm hyspryd oedd yn ffoi oblegid ei Fawrhydi; nid allwn ei oddef. Yna yr Ysgrythyr hòno a lefai drachefn: "Dychwel ataf fi;" gwaeddai ar fy ol â lleferydd uchel: "Dychwel ataf fi; canys myfi a'th waredais di." Yn wir gwnai hyn i mi sefyll ychydig, ac megis i edrych dros fy ysgwydd o'r tu ôl i mi, i edrych a allwn i ganfod Duw'r trugaredd yn fy nghanlyn â maddeuant yn ei law. Ond gan gynted ag y gwnawn hyny, byddai y cwbl yn cael ei gymylu drachefn gan y gair hwnw: "Canys chwi

a wyddoch ddarfod wedi hyny hefyd ei wrthod ef, pan oedd efe yn ewyllysio etifeddu y fendith: oblegid ni chafodd efe le i edifeirwch, er iddo trwy ddagrau ei thaer-geisio hi." Heb. xii. 17. Oherwydd hyny, ni allwn ymattal a ffoi, er y byddai y llais weithiau yn llefain ar fy ol, "Dychwel, dychwel ataf fi;" ond yr oedd arnaf ofn nad oedd oddiwrth Dduw. Ond yr ymadrodd arall a ddywedais, oedd yn seinio yn ddibaid: "Canys chwi a wyddoch ddarfod wedi hyny," &c.

174. Unwaith, fel yr oeddwn yn cerdded i fyny ac i lawr mewn siop gwr duwiol, yn cwyno oblegid fy nghyflwr alaethus, ac yn gofidio oherwydd fy ffieidd-dra a'r meddwl drwg annuwiol hwn; ac hefyd yn galâru oherwydd fy nhynged drom yn cyflawni y fath bechod mawr ac echryslawn, gan ofni yn ddirfawr na chawn byth faddeuant am dano; ac yn dywedyd yn fy nghalon, os oedd y pechod hwn o'm heiddof i'w wahaniaethu oddiwrth y pechod yn erbyn yr Yspryd Glân, am i'r Arglwydd ei ddatguddio i mi;—ac fel yr oeddwn yn barod i soddi gan ofn, yn ddisymwth daeth megis rhuad gwynt i mewn trwy'r ffenestr arnaf, ac yr oedd yn dra hyfryd, ac megis pe buaswn yn clywed llef yn dywedyd fel hyn: "A ddarfu i ti eto erioed wrthwynebu dy gyfiawnhau trwy waed Crist?" Ac ar hyny, holl fywyd fy nghrefydd a agorwyd i mi, pryd y canfyddais na wnaethum hyny yn fwriadol; ac yr oedd fy nghalon yn ateb yn alarus, Naddo. Yna syrthiodd y gair hwnw arnaf gyda nerth: "Edrychwch na wrthodoch yr hwn sydd yn llefaru," &c. Heb. xii. 25. Gwnaeth hyn argraph rhyfedd ar fy yspryd; dygodd oleuni gyd ag ef, a gorchymynodd ddistawrwydd yn fy nghalon oddiwrth fy holl feddyliau terfysglyd oedd o'r blaen megis uffern-gŵn difeistrolaeth yn rhuo, ac yn udo, ac yn gwneuthur trwst erchyll, o'r tumewn i mi. Dangosodd yn mhellach, fod gan yr Arglwydd Iesu eto air o ras a thrugaredd i mi, ac na ddarfu iddo, megis yr oeddwn yn ofni, fy ngadael yn gwbl, na bwrw fy enaid ymaith; ïe, yr oedd hyn yn fath o gerydd i mi am fy nhueddrwydd i anobaith, ac yn fygythiad hefyd, oni byddai i mi, er cymaint ac er gwrthnysiced oedd fy mhechod, anturio fy iachawdwriaeth yn hollol ar fab Duw. Ond nid oeddwn yn gallu deall yr awel ddieithriol hòno; nis gwyddwn pa beth oedd, nac o ba le y daeth; ac nid ellais ei hamgyffred yn mhen ugain mlynedd wedi hyny. Yr oeddwn yn meddwl y pryd hwnw y peth yr wyf yr awr hon yn anewyllysgar i'w adrodd. Ond yn wir, yr oedd y rhuthriad disymwth o'r gwynt megis pe buasai angel yn dyfod ataf, i'm perswadio fod gobaith; tybiwn iddo ddangos y pechod anfaddeuol, a bod genyf eto yr uchelfraint fendigedig hòno i ffoi at Iesu Grist am drugaredd. Ond yn awr i ddywedyd yn nghylch y llef hòno. Nis gwn eto pa beth a ddywedaf; a hyn yn wir oedd yr achos na chrybwyllais am dano yn nechreu y llyfr. Yr wyf yn awr yn ei adael i wŷr o farn sefydlog. Nid wyf yn pwyso fy iachawdwriaeth arni, ond ar yr Arglwydd Iesu Grist; ond gan fy mod yn datguddio fy nghyfrinach, meddyliais na fyddai yn gwbl anghymhwys i mi

grybwyll am y peth hwn hefyd, er na fedraf yn awr adrodd y peth megis ag y profais ef yr amser hwnw; y cyflwr a'r archwaeth o hono a barhaodd yn nghylch tridiau neu bedwar, pan y dechreuais anhyderu ac anobeithio drachefn.

175. Er hyny, yr oedd fy einioes yn wastadol yn hongian ger fy mron mewn amheuaeth, heb wybod pa fodd i gael esmwythder; ond teimlwn mai dymuniad fy enaid oedd taflu fy hun i lawr yn y llwch gerbron gorseddfainc gras, trwy weddiau ac ymbiliau. Ond, O! yr oedd yn orchwyl caled i mi weddio am drugaredd ar y Crist hwnw y pechaswn mor ysgeler ac echryslawn yn ei erbyn; ac yn wir teimlais ynof anhawsdra i ddyfod at Dduw mewn gweddi, ar ol encilio mor bell oddiwrtho. O! y fath gywilydd oedd yn fy ngorchuddio, yn enwedig pan feddyliwn fy mod yn myned i weddio ar yr hwn a fuasai yn ddiweddar mor ddiystyr yn fy ngolwg; ïe, yr oedd cywilydd arnaf oherwydd i'r ysgelerder hwn gael ei gyflawni genyf. Deallais nad oedd ond un ffordd i mi gael ymwared—yr oedd yn rhaid i mi fyned ato ef, ymostwng iddo, ac ymbil arno o'i anfeidrol drugaredd i dosturio wrthyf, a chymeryd trugaredd ar fy enaid tlawd a phechadurus.

176. Yr hyn beth, pan ddeallodd y gelyn, efe a'm gwrthwynebodd, gan haeru yn gyffelyb i hyn: "Ni ddylit ti weddio ar Dduw; nid yw gweddi yn perthyn i neb yn dy gyflwr di, ac nid all wneud dim daioni i ti, oherwydd gwrthodaist y Cyfryngwr, trwy ba un y mae yr holl weddiau yn cael eu cymeradwyo gyda'r Tad, ac hebddo ef ni ddichon un weddi ddyfod ger ei fron ef; gan hyny, nid yw gweddio arno yn awr ond ychwanegu pechod at bechod;—ïe, gweddio arno yn awr, ar ol iddo dy fwrw ymaith, yw y ffordd debycaf i gyffroi ei ddigofaint i'th erbyn yn fwy nag o'r blaen.

177. "Canys Duw," chwanegai y gelyn, "a flinodd arnat er ys llawer o flynyddoedd bellach, oherwydd nad ydwyt yn eiddo iddo ef: nid yw dy ymbiliau taer a'th oernadau diymattal yn dderbyniol ganddo, nac yn hyfryd i'w glustiau; am hyny, gadawodd i ti bechu y pechod hwn, fel y byddai i ti gael dy dori ymaith yn hollol. Gan hyny, a fydd i ti barhau i weddio?" Byddai'r gelyn diafol hefyd yn dwyn ar gof i mi farnedigaethau arswydus yr Arglwydd yn erbyn y gwrthryfelwyr hyny ag y sonir am danynt yn Num. xiv., y rhai a ddinystriwyd yn llwyr, er iddynt "alaru yn ddirfawr;" yr hyn a'm brawychodd yn fawr iawn

178. Adroddir hefyd mewn lle arall (Exod. xxi. 14): "Ond os daw dyn yn rhyfygus ar ei gymydog, i'w ladd ef trwy dwyll, cymer ef i farwolaeth oddiwrth yr allor;" megis y cymerwyd Joab gan y brenin Solomon, pan feddyliodd gael noddfa yno. (1 Bren. ii. 27.) Yr Ysgrythyrau hyn a'm gwasgodd yn galed iawn; a dywedais wrthyf fy hun, Nid allaf ond marw, ac os felly y bydd, fe geir dywedyd i'r cyfryw un farw wrth draed Crist mewn gweddi. Hyn a wnaethum gyda llawer o orchest, Duw a'i gŵyr; a hyny oblegid y gair hwnw yn nghylch Esau a fyddai yn

wastad yn pwyso arnaf, megis y cleddyf tanllyd yn cadw ffordd pren y bywyd (Gen. iii. 24), rhag i mi gymeryd o hono ef, a byw. O! pwy a ŵyr gymaint o anhawsdra a gefais i ddyfod at Dduw mewn gweddi!

179. Dymunais hefyd am gael gweddiau pobl Dduw ar fy rhan, ond ofnais na roddai Duw iddynt galondid, ac na oddefai iddynt wneuthur hyny; ïe, yr oeddwn yn crynu ac yn arswydo yn fawr yn fy enaid, rhag ofn i rywrai neu gilydd o honynt ddywedyd wrthyf yn ebrwydd i Dduw lefaru wrthynt hwy y geiriau hyny a lefarodd efe wrth y prophwyd yn nghylch meibion Israel: "Am hyny, na weddia dros y bobl hyn, ac na chyfod waedd neu weddi drostynt: canys ni wrandawaf yr amser y gwaeddant arnaf oherwydd eu drygfyd." Jer. xi. 14. Felly na weddia drosto ef, oblegid i mi ei wrthod ef. Ië, tybygwn i'r Arglwydd lefaru wrth rai o honynt fel hyn eisoes, er na fynent fynegi hyny i mi; ac ni feiddiwn inau ofyn iddynt hwythau, rhag ofn y byddai i mi dderbyn y cyfryw ateb, yr hyn a'm gyrai i wallgofi. "Dyn a ŵyr ddechreuad pechod, ond pwy a ŵyr ei ddiwedd ef?" fel y dywed Spira.

180. Yn nghylch yr amser hyn cymerais gyfle i ddatguddio fy meddwl wrth hen Gristion, gan adrodd fy nghyflwr tosturus iddo—fy mod yn ofni i mi bechu yn erbyn yr Yspryd Glân. Yntau a ddywedodd wrthyf, ei fod yn barnu hyny hefyd. Ni chefais yma ond cysur gwael; ond wedi ymddiddan ychydig ag ef, deallais nad oedd efe, er ei fod yn wr da, ond anghynefin ag ymdrech llawer â'r diafol; oherwydd paham, aethum at Dduw drachefn, i ymbil arno am drugaredd i'm henaid tlawd, yr hwn oedd bron a threngu o anobaith.

181. Yn awr drachefn dechreuodd y temtiwr fy ngwatwar yn fy adfyd, gan ddywedyd, "Gan i ti fel hyn ymadael â'r Arglwydd Iesu, a'i anog ef i ddigofaint, yr hwn, pe amgen, fuasai yn sefyll rhwng dy enaid a'r tân anniffoddadwy, nid oedd yn awr ond un ffordd, a hòno ydoedd, gweddio ar Dduw'r Tad am iddo fod yn gyfryngwr rhwng ei Fab a myfi, fel y'n cymodid drachefn, a minau gael gafael yn y byd gwynfydedig ag oedd y seintiau eraill beunydd yn ei fwynhau.

182. Wedi hyn yr Ysgrythyr hon a gymerodd argraph ar fy enaid: "Efe sydd o un meddwl: pwy a'i dychwel ef?" O! fel yr oeddwn yn canfod fod gan hawsed perswadio yr Arglwydd i wneud byd newydd, cyfamod newydd, neu Fibl newydd, yn lle y rhai a wnaethpwyd eisoes, ag ydoedd gweddio arno am gael y cyfryw beth; ac yna yr ymadrodd hwn a rwygai fy enaid yn chwilfriw: "Ac nid oes iachawdwriaeth yn neb arall: canys nid oes enw arall dan y nef, wedi ei roddi yn mhlith dynion, trwy yr hwn y mae yn rhaid i ni fod yn gadwedig." Act. iv. 12.

183. Yn yr amser hyn byddai y geiriau mwyaf rhydd, cyflawn, a grasol, yn yr holl efengyl, yn fy mlino; ïe, nid oedd dim yn fy mlino gymaint a meddwl am Iesu Grist, neu goffadwriaeth am yr Iachawdwr. Yr oedd pob peth a feddyliwn am dano—ei gariad, ei ras, ei ddaioni, ei gymwynasgarwch, ei larieidd-dra, ei urddas,

ei addewidion, ei farwolaeth, ei gynghorion bendigedig, ei gysuron, a'i ddiddanwch, yn brathu fy enaid fel cleddyf. Canys yn wastadol, wrth ystyried fel hyn am yr Arglwydd Iesu, y meddyliau canlynol a gyfodent yn fy nghalon—sef, Ai hwn yw Iesu yr Iachawdwr, anwyl Fab Duw, pa un y darfu i ti ymadael oddiwrtho?—yr hwn y darfu i ti ei ddirmygu, ei ddibrisio, a'i anmharchu?Ië, hwn yw yr unig Iachawdwr, yr unig Achubwr, a'r unig Garwr pechaduriaid, a'u gylch hwynt yn ei waed ei hun;—ond nid oes i ti na rhan na chyfran ynddo; tydi a'i gwerthaist ef, ac a ddywedaist am dano, "Gadawer iddo fyned, os myn," a hyny yn dy galon. Yn awr, gan hyny, yr wyt ti wedi ymddidoli oddiwrtho ef; tydi a neillduaist dy hun oddiwrtho: wele ei ddaioni, ond ni chei di fod yn gyfranog o hono! O! meddyliais, pa beth a gollais?—am ba beth yr ymadewais ag ef? O! beth sydd wedi difeddiannu fy enaid? O! peth galarus yw i mi gael fy nifetha gan ras a thrugaredd Duw!—i'r Oen a'r Iachawdwr anwyl droi yn llew ac yn ddistrywiwr! (Dat. vi.) Myfi a arswydais hefyd, fel y dywedais o'r blaen, wrth edrych ar seintiau Duw; yn enwedigol y rhai hyny ag oeddynt yn ei garu yn fawr, ac yn ei wneuthur yn orchwyl penaf iddynt rodio ger ei fron ef yn y byd; canys yr oeddynt yn eu geiriau a'u hymddygiad yn dangos eu tynerwch a'u harswyd o bechu yn erbyn yr Iachawdwr gwerthfawr. Hyny oedd yn fy nghondemnio, ac yn dwyn cywilydd ac euogrwydd ar fy enaid: eu harswyd hwynt a ddaeth arnaf, a dychrynais. (1 Sam. xvi. 4.)

184. Drachefn dechreuodd y gelyn fy ngwawdio mewn ffordd arall, gan sisial wrthyf, fod Iesu Grist yn gresynu wrth fy nghyflwr, a bod yn alarus ganddo am fy ngholled; ond yn gymaint ag i mi bechu fel y gwnaethum, na allai efe mewn un modd fy nghynorthwyo, na'm gwaredu oddiwrth yr hyn ag oeddwn yn ei ofni; canys nid oedd fy mhechod i o'r un natur a'r rhai hyny y tywalltodd efe ei waed drostynt, ac y bu farw o'u herwydd, ac ni chafodd ei gyfrif gyda'r pechodau a roddwyd arno pan gafodd ei groeshoelio ar y pren; gan hyny, nid allwn i dderbyn un budd oddiwrtho ef, oddieithr iddo ef ddyfod i lawr o'r nefoedd drachefn, a marw dros ac am y pechod hwn, a'i fod ef yn gresynu yn ddirfawr o'm plegid. Dichon, ysgatfydd, fod y pethau hyn yn ymddangos fel gwatwargerdd i eraill, (megis ag yr oeddynt ynddynt eu hunain,) ond i mi yr oedd pob un o honynt yn feddyliau gofidus iawn—pob un yn chwanegu yn ddirfawr at fy ngofid i, sef bod gan Iesu Grist gymaint o gariad a thosturio wrthyf, pryd na allai roddi dim cymorth i mi. Yr oeddwn i yn tybied nad allai Iesu Grist fy achub, oherwydd fod ei haeddiant yn rhy fychan, neu fod ei ras a'i iachawdwriaeth wedi eu rhoddi i gyd i eraill eisoes; ond oblegid ei ffyddlondeb i'w fygythion, nas goddefai iddo estyn ei drugaredd i mi. Meddyliais hefyd (megis y rhagddywedais) fod fy mhechod wedi ei rwymo i fyny: ac os nad oedd, fy mod i yn gwybod yn sicr fod yn hawddach i'r nefoedd a'r ddaear

fyned heibio, nag i mi gael bywyd tragywyddol;—felly, sylfaen fy holl betrusder ydoedd y grediniaeth sefydlog ag oedd ynof am Air sanctaidd Duw, ac hefyd oherwydd i mi gamddeall natur fy mhechod.

185. Ond, O! fel yr oedd hyn yn chwanegu at fy mlinder—i feddwl fy mod i yn euog o'r fath bechod a chredu na fu Crist farw drosof. Y meddyliau hyn fyddent yn fy nherfysgu, yn fy nghaethiwo, ac yn fy rhwymo i fyny oddiwrth ffydd, fel nas gwyddwn pa beth i wneuthur. O! ebe fi, pe byddai i Grist ddyfod i lawr drachefn, ac i waith prynedigaeth dyn gael ei wneuthur eilwaith ganddo! O! fel yr ymbiliwn ac y gweddiwn arno i osod a chyfrif y pechod hwn yn mhlith y rhai ag y bu efe farw drostynt. Ond yr Ysgrythyr hon a'm tarawai bron yn farwol: "Gan wybod nad yw Crist, yr hwn a gyfodwyd oddiwrth y meirw, yn marw mwyach; nad arglwyddiaetha marwolaeth arno mwyach." Rhuf. vi. 9.

186. Fel hyn, trwy ymgyrchiad dieithr ac anarferol y gelyn Satan, yr oedd fy enaid, fel llestr drylliedig, yn cael ei chwythu gyda'r gwyntoedd, a'i daflu, yn aml, yn bendramwnwgl i anobaith—weithiau ar y cyfamod gweithredoedd; bryd arall, yn dymuno fod i'r cyfamod newydd, a'r telerau o hono, gael ei gyfnewid ffordd arall. Ond yn yr holl bethau hyn yr oeddwn yn debyg i'r rhai a yrwyd yn erbyn y creigiau—yn cael fy nryllio yn chwilfriw. O! y fath ddychymygion anghyffelyb, y fath fraw erchyll, a'r syfrdandod annarluniadwy, sydd yn cydganlyn argyhoeddiad cyflawn o euogrwydd pechod, wedi i ddyn ymollwng i anobaith! Wele hanes sobr y dyn hwnw yn Marc v: "Ac yn wastad nos a dydd yr oedd efe yn llefain yn y mynyddoedd, ac yn mhlith y beddau, ac yn ei dori ei hun â cherig." Ond nid oedd y cwbl ond ofer; ni roddai gwan obaith un cysur iddo; nid allai yr hen gyfamod mo'i achub: y nef a'r ddaear a ânt heibio cyn yr elo iot na thipyn o'r Gair, neu gyfraith gras heibio, neu ei symud. Hyn a welais ac a deimlais, a thàn hyn yr ocheneidiais; eto, cefais gymaint a hyn o fudd oddiwrtho, sef ychwaneg o gadarnhad o ddianwadalwch iachawdwriaeth, a bod yr Ysgrythyr yn Air Duw. Nid allaf yn awr ddatgan pa beth oeddwn yn ei weled ac yn ei deimlo am ddiysgogrwydd Iesu Grist, Craig iachawdwriaeth dyn; ond canfyddais ddigon i fy moddloni fi, nad ellid dadwneud y peth a wnaethpwyd, nac ychwaith chwanegu ato, neu ei gyfnewid. Gwelais yn eglur y gallai pechod—(sef y pechod anfaddeuol)—yru yr enaid tuhwnt i Grist; ond gwae y neb a yrir felly, canys y Gair a fyn ei gau ef allan.

187. Fel hyn yr oeddwn yn suddo yn barhaus, gan nad beth bynag a wnelwn neu a ddywedwn. Ar ryw ddiwrnod aethum i dref yn y gymydogaeth; ac fel yr oeddwn yn eistedd ar fainc yn yr heol, syrthiais i drymder meddwl adfydus yn nghylch y cyflwr ofnadwy y dygodd pechod fi iddo. Ar ol myfyrio dros enyd fel hyn, cyfodais fy mhen, a thybiais fy mod yn gweled yr haul yn grwgnach rhoddi

goleuni i mi; megis pe buasai y cerig yn yr heolydd, ac ar benau y tai, yn gogwyddo yn fy erbyn, a'u bod oll yn cydymgynghori i'm gyru allan o'r byd. Yr oeddwn yn gweled fy hun yn ffiaidd ganddynt, yn anaddas i ymgyfaneddu yn eu plith, ac i dderbyn un lleshad oddiwrthynt, oblegid i mi bechu yn erbyn yr Iachawdwr. O! mor ddedwydd y cyfrifwn bob creadur ond fy hun; canys yr oeddynt hwy yn sefyll i fyny, ac yn cadw eu sefyllfa, ond myfi a aethum ar wasgar, ac a gollwyd!

188. Yna torais allan, yn chwerwder fy enaid, a dywedais wrthyf fy hun, A ddichon Duw gysuro y fath ddyn truenus ag ydwyf fi? Mor gynted ag y dywedais hyn, daeth y geiriau hyn ataf, megis adsain yn gwrthateb: "Nid yw'r pechod hwn i farwolaeth." Ar hyny adfywiais, megis pe buaswn yn cyfodi o'r bedd, a llefais: "O Arglwydd, pa fodd y cefaist allan y fath air a hwn?"—canys fe'm llanwyd â rhyfeddod dirfawr wrth addasrwydd a chymwysder y gair annisgwyliadwy hwn; priodolder amserol pa un, yn nghyd â'r melysder, y llawenydd, a'r gogoniant, a ddaethant gydag ef, a barodd syndod annhraethol i mi. Bum dros amser byr heb ameu y peth oeddwn yn petruso yn ei gylch o'r blaen—sef, ofni nad oedd genyf hawl i weddio, nac edifarhau, &c.; neu, os gwnawn, na ddeilliai na budd na lles oddiwrth hyny. Ond yn awr, ebe fi, os nad yw y pechod hwn i farwolaeth, yna y mae yn faddeuol; y mae i mi anogaeth cadarn oddiyma i ddyfod at Dduw, trwy Grist, am drugaredd, wrth ystyried yr addewid faddeuol, â'i breichiau agored i'm derbyn i. Rhyfedd yr esmwythder a ddaeth i'm meddwl o fod fy mhechod i yn faddeuol, ac nad oedd yn bechod i farwolaeth. (1 Ioan v. 16, 17.) Nid oedd neb ond y rhai ag oeddynt yn gwybod fy mlinder trwy eu profiad eu hun, a allai fynegu yr ysgafnder a gafodd fy enaid trwy yr ystyriaeth hon: yr oedd yn rhyddhad i mi o'm rhwymau blaenorol, ac yn gysgod i mi oddiwrth y dymestl a'm goddiweddodd gynt. Tybiais yn awr fy mod yn sefyll ar yr un sylfaen a phechaduriaid eraill, a bod genyf gystal hawl i Air Duw a gweddi a hwythau.

189. Felly gobeithiais nad oedd fy mhechod yn anfaddeuol. Ond, O! fel yr oedd Satan yn awr yn ceisio fy amgylchu, ac yn rhuthro i'm tynu i lawr drachefn! Ond nid allai ef, mewn un modd, er ei waethaf, y dydd hwnw, na'r ail ychwaith; canys yr oedd y gair hwnw, fel trawst cadarn, yn sefyll wrth fy nghefn. Er hyny, tua'r prydnawn dranoeth, teimlais y gair yn dechreu fy ngadael, ac yn tynu ei gymorth oddiwrthyf; ac felly dychwelais at fy hen ofnau a'm amheuon, ond gyda llawer o gildynrwydd a digasedd; canys yr oeddwn yn ofni y tristwch o anobaith, ac yn awr nid allai fy ffydd attal y gair hwn yn mhellach.

190. Ond y prydnawn canlynol, pan yr oeddwn dan ofnau dwys, aethum i geisio yr Arglwydd: a gweddiais arno â llef uchel yn y geiriau canlynol: "O Arglwydd, yr wyf yn atolygu arnat i ti ddangos i mi i ti fy ngharu â chariad tragwyddol." Gan gynted ag y llefarais hyn, dychwelodd drachefn, fel gwrthlais,

gyda melysder, ataf: "A chariad tragywyddol y'th gerais." Jer. xxxi. 3. Aethum wedi hyn i'm gwely yn esmwyth; a phan ddeffroais boreu dranoeth, yr oedd y geiriau yn newydd ar fy meddwl, ac mi a'u credais.

191. Ond er hyny ni adawodd y gelyn fi yn llonydd, canys nid llai na chanwaith yn nghorph y dydd hwnw yr ymegniodd i dori fy nhangnefedd. O! y fath frwydrau meddyliol dychrynllyd yr oeddwn yn gyfarfod â hwynt y pryd hyn! Tra y byddwn yn ymroi i ddal gafael ar y gair hwn, cyflwr Esau a ehedai yn fy ngwyneb fel mellten: byddwn i lawr ac i fyny ugeinwaith mewn awr. Er hyny, Duw a'm cynhaliodd i fyny, ac a gadwodd fy nghalon ar y gair hwn, oddiwrth ba un y derbyniais lawer o felysder, a gobaith cysurol am faddeuant, dros amryw ddyddiau yn nghyd: Mi a'th gerais o'r blaen, ac yr ydwyf yn dy garu yn wastadol, ac myfi a'th garaf yn dragywydd.

192. Er hyn i gyd, yr oeddwn yn gweled fy mhechod yn dra ffiaidd, ac nid allwn lai nag addef, gyda chywilydd mawr, ddarfod i mi anmharchu yn ofnadwy sanctaidd Fab Duw. Teimlais fy enaid yn ei garu yn serchog, a'm hymysgaroedd yn cynesu tuag ato ef; canys yr oeddwn i yn gweled ei fod yn gyfaill i mi yn wastadol; ïe, ac yn fy ngobrwyo â daioni yn lle drygioni. Darfu y cariad a'r serch ag oedd y pryd hwnw yn llosgi oddi mewn i mi at fy Arglwydd a'm Hiachawdwr Iesu Grist, weithio ynof y fath ddymuniad cryf a brwd i ddial arnaf fy hun, ac i wneud iawn, i ryw fesur, am yr anmharch a wnaethum iddo ef, fel yr wyf yn tystio, yn ol sefyllfa fy meddwl y pryd hwnw, pe buaswn yn meddu mil o alwyni o waed yn fy ngwythïenau, y gallaswn ei roddi yn rhwydd ar orchymyn neu archiad fy Arglwydd a'm Prynwr bendigedig.

193. Fel yr oeddwn yn myfyrio, ac yn astud iawn yn ystyried, pa fodd i garu yr Arglwydd, ac i ddatguddio fy nghariad iddo, yr ymadrodd hwn a ddaeth ataf: "Os creffi ar anwireddau, Arglwydd, O Arglwydd, pwy a saif? Ond y mae gyda thi faddeuant, fel y'th ofner." Salm. cxxx. 3, 4. Y geiriau hyn oeddynt yn felys iawn i mi, yn enwedig y rhai olaf—sef, bod maddeuant gyda'r Arglwydd, fel yr ofner ef; hyny yw, fel y deallwn hwynt y pryd hyny, "fel y carom ac yr anrhydeddom ef;" canys fel hyn yr eglurwyd hwynt i mi—Fod y Duw mawr yn gosod y fath werth ar gariad ei waredigion, fel y byddai yn well ganddo, na bod heb eu cariad hwynt, faddeu iddynt eu dirfawr bechodau.

194. Ac yn awr y cyflawnwyd y gair hwnw i mi, a chefais fy adfywio yn fawr ganddo: "Fel y cofiech di, ac y cywilyddiech, ac na byddo i ti mwy agoryd safn gan dy waradwydd, pan ddyhudder fi tuag atat, am yr hyn oll a wnaethost, medd yr Arglwydd Dduw." Ezec. xvi. 63. Fel hyn yr oedd fy enaid ar yr amser hwnw (a thybiais y parhausai felly dros byth) wedi cael ei ryddhau oddiwrth flinder, trallod, ac euogrwydd, yr hyn yn flaenorol a'm dirboenai yn dra egr.

195. Ond cyn i nemawr o wythnosau fyned heibio, mi a ddechreuais anobeithio drachefn, gan ofni, er cymaint o gysuron a gefais eu mwynhau, y gallwn, er hyny, gael fy nhwyllo a'm difetha yn y diwedd; canys yr ystyriaeth hon a ddaeth yn rymus ar fy meddwl—mai pa gysur bynag oeddwn yn feddwl ei gael oddiwrth y gair am addewid o fywyd tragwyddol, er hyny, oddieithr bod fy niwygiad i yn cyduno â chysondeb yr Ysgrythyrau, bydded i mi feddwl y peth a fynwn am danynt, ac er mor ddiogel a sicr y byddwn yn dàl arnynt, cawn brofi na byddai y peth felly yn y diwedd, canys ni ellir tori yr Ysgrythyrau. (Ioan x. 35.)

196. Dechreuodd fy nghalon y pryd hyn ddolurio ac ofni eto, rhag i mi gyfarfod â siomedigaeth yn y diwedd oherwydd hyny. O ganlyniad, dechreuais yn awr holi yn fanwl o ddifrif i fy nghyflwr presenol, ac i ystyried a allai un a bechasai fel myfi ymddiried yn hyderus ar ffyddlondeb Duw, a osodir i lawr yn y geiriau hyny trwy ba rai y cefais gysur oddiwrthynt, ac y rhoddais fy mhwys arnynt; ond yn ddisymwth daeth yr Ysgrythyrau canlynol i fy meddwl:—"Canys anmhosibl yw i'r rhai a oleuwyd unwaith, ac a brofasant y rhodd nefol, ac a wnaethpwyd yn gyfranogion o'r Yspryd Glân, ac a brofasant ddaionus Air Duw, a nerthoedd y byd a ddaw, ac a syrthiasant ymaith, ymadnewyddu drachefn i edifeirwch; gan eu bod yn ail groeshoelio iddynt eu hunain Fab Duw, ac yn ei osod yn watwar," Heb. vi. 4, 5, 6; "Canys os o'n gwirfodd y pechwn, ar ol derbyn gwybodaeth y gwirionedd, nid oes aberth dros bechodau wedi ei adael mwyach; eithr rhyw ddisgwyl ofnadwy am farnedigaeth, ac angerdd tân, yr hwn a ddifa y gwrthwynebwyr." Heb. x. 26, 27; "Megis Esau, yr hwn am un saig o fwyd a werthodd ei enedigaeth-fraint. Canys chwi a wyddoch ddarfod wedi hyny hefyd ei wrthod ef, pan oedd efe yn ewyllysio etifeddu y fendith: oblegid ni chafodd efe le i edifeirwch, er iddo trwy ddagrau ei thaer-geisio hi." Heb. xii. 16, 17.

197. Yn awr yr oedd gair yr efengyl wedi ei yru allan o'm henaid! Nid oedd nac addewid nac anogaeth i mi i'w gael yn yr holl Fibl. Yna yr ymadrodd hwnw a weithiodd ar fy yspryd er dygn flinder: "Israel, na orfoledda gan lawenydd, fel pobloedd eraill," &c. Hos. ix. 1. Canys yr oeddwn yn gweled achos o orfoledd gan y rhai ag oeddynt yn cadw gyda'r Arglwydd Iesu; ond am danaf fi, yr oeddwn i wedi tori fy hunan ymaith drwy fy nghamweddau, ac ni adewais i mi fy hun na gafael llaw na throed yn mhlith holl addewidion cefnogol Gair Duw.

198. A diau yr oeddwn yn teimlo fy hun yn suddo i ryw lynclyn, megis tŷ wedi dadymchwel ei sylfaen. Cyffelybais fy hun, yn y cyflwr hwn, i ryw blentyn wedi syrthio i bwll; er y gallai wueud rhyw ymroad i ymlusgo allan o'r dwfr, eithr gan nad allai gael gafael i ymachub, rhaid oedd iddo farw yn y cyflwr hwnw. Gan gynted ag y tarawodd yr ymgyrch hwn ar fy enaid, yr Ysgrythyr hon a ddaeth ar fy meddwl: "oherwydd y mae y weledigaeth eto dros ddyddiau lawer." Dan. x. 14.

Ac yn wir mi a'i profais felly; canys nid allwn gael fy ngwaredu na'm hadferu i heddwch drachefn, nes gorphen dwy flynedd a haner yn gyfangwbl; oherwydd hyny, y geiriau hyn, er eu bod ynddynt eu hunain â'u tuedd i'm digaloni, er hyny, i mi, yr hwn oeddwn yn ofni y parhai y cyflwr drwg yn dragywydd, yr oeddynt yn gymhorth ac adfywiad.

199. Meddyliais ynof fy hun, nad oedd y "dyddiau lawer" dros byth;" felly, o ganlyniad, y "dyddiau lawer" a ddarfyddant: gan hyny, er fy mod yn cael fy mlino, nid dros ychydig, ond dros "ddyddiau lawer," er hyny, llawenychais am nad oeddynt ond dros ddyddiau, er eu bod yn llawer. Fel hyn, meddaf, y gallwn ymlonyddu rai prydiau, oblegid gan gynted ag y deuai y geiriau ar fy meddwl, gwybum y parhai'm blinder dros hir amser; ond ni fyddai ond ambell waith, canys nid allwn feddwl arnynt yn wastadol, na chael cymhorth ganddynt.

200. Tra yr oedd yr Ysgrythyrau hyn ar fy meddwl, yn gosod pechod o'r newydd wrth fy nrws, y gair hwnw yn Luc xviii. 1—8, yn nghyd ag eraill, a'm hanogodd i weddio: yna'r gelyn Satan a ruthrodd arnaf drachefn yn aruthr, gan haeru yn haerllug nad oedd trugaredd Duw na gwaed Crist yn perthyn i mi ar un cyfrif, ac nad allent fy ngwaredu oddiwrth bechod; gan hyny, nad oedd ond ofer i mi weddio. "Ond," ebe fi, "gâd iddo, Satan, myfi a weddiaf." "Ond," ebe y gelyn, "mae dy bechod yn anfaddeuol." "Wel," ebe fi, "myfi a weddiaf." "Ni wna hyny ddim lles," ebe yntau. "Er hyny," ebe fi, "myfi a weddiaf." Felly aethum i weddio ar Dduw mewn geiriau i'r perwyl hyn: "O Arglwydd, y mae Satan yn dywedyd wrthyf, nad yw na'th drugaredd di na gwaed Crist yn ddigonol i achub fy enaid. O Arglwydd, oni'th anrhydeddaf yn fwy trwy gredu dy fod yn alluog, ac yn ewyllysgar, na thrwy ameu dy allu a'th ewyllysgarwch? O Arglwydd, dymunwn gredu dy fod yn ewyllysgar a galluog."

201. Ac fel yr oeddwn gerbron yr Arglwydd, yr Ysgrythyr hòno a lynodd ar fy nghalon: "Ha wraig, mawr yw dy ffydd," Mat. xv, 28, megis pe buasai yn fy nharo ar fy nghefn, pan yr oeddwn ar fy ngliniau gerbron Duw: er hyny, nid oeddwn yn gallu credu—sef, ei bod hi yn weddi y ffydd, am yn agos i chwe' mis ar ol hyny; canys nid allwn feddwl fod genyf ffydd, na bod un gair o'm heiddof wedi gweithredu yn ffyddiog arno; gan hyny, myfi a fyddwn yn wastadol megis yn glynu rhwng dannedd anobaith, ac yn myned yn alarus bob amser.

202. Nid oedd dim yn awr yr oeddwn yn hiraethu am dano yn fwy na chael fy nwyn allan o amheuaeth yn nghylch y peth hwn oedd mewn dadl. Ac fel yr oeddwn yn dymuno yn daer am gael gwybod y gwirionedd, a oedd gobaith i mi i'w ddisgwyl, daeth y geiriau hyn yn gryf ar fy meddwl: "Ai yn dragywydd y bwrw yr Arglwydd heibio? ac oni bydd efe boddlawn mwy? A ddarfu ei drugaredd ef dros byth? a balla ei addewid ef yn oes-oesoedd? A anghofiodd Duw drugarhau?

a gauodd efe ei drugareddau mewn soriant?" Salm lxxvii. 7, 8, 9. A thrwy gydol yr amser ag yr oeddynt yn rhedeg ar fy meddwl, tybygwn fy mod yn cael hyn megis atebiad: "Mae'n ddadl pa un a wnaeth efe hyny ai peidio; fe allai nas gwnaeth." Yr oedd yr atebiad yn ymddangos yn sicrwydd o gadarnhad, na ddarfu iddo yn wir, ac na fynai chwaith fwrw heibio fel hyn, ond yn hytrach y byddai yn ffyddlon i gyflawni ei addewidion, ac nas anghofiodd efe drugarhau mewn soriant. Yr oedd rhywbeth arall ar fy nghalon ar y pryd, nas gallaf yn awr ei adgofio, yr hyn a bereiddiodd fy nghalon, ac a wnaeth i mi farnu nad oedd ei drugaredd ef wedi myned heibio yn gwbl, nac ymadael yn dragywydd.

203. Ar amser arall, yr wyf yn cofio fy mod dan yr holiad hwn—sef, A oedd gwaed Crist yn ddigon i achub fy enaid? Bum yn y petrusder hwn o'r boreu hyd saith neu wyth o'r gloch y nos; a phan oeddwn wedi llwyr ddiffygio gan ofn na chymerai afael arnaf, dadseiniodd y geiriau hyn yn ddisymwth ar fy nghalon: "Y mae yn ddigonol." Ond tybygwn fod y gair *digonol* yn cael ei lefaru yn fwy uchel wrthyf; yr oedd yn ymddangos i mi yn air pwysfawr, megis pe rhoddasai ysgŵd i'r amheuaeth oedd ynof. Tra y parhaodd, yr hyn oedd am agos i ddiwrnod, ni theimlais mo'i gyffelyb, na chynt na chwedi'n, yn fy holl einioes.

204. Un boreu, fel yr oeddwn mewn gweddi, yn dychrynu gan ofn nad oedd dim yn Ngair Duw a allai roddi cymhorth i mi, y gair hwnw a ddylifodd i mewn ataf: "Digon i ti fy ngras i." Ar hyny, tybygwn fy mod yn teimlo rhyw atebiad, megis pe buasai gobaith eto. O! mor ddymunol ydyw fod Duw yn anfon ei Air i'n calon; canys yn nghylch pythefnos cyn hyny yr oeddwn yn edrych ar yr un ymadrodd, a thybiais nad allai byth ddyfod yn agos at fy enaid gydag un cysur; gan hyny, teflais y Llyfr o'm llaw mewn soriant. Y pryd hyny meddyliais nad oedd yn ddigon ëang i mi; ond yn awr ymddangosai megis pe buasai ganddo freichiau o ras mor helaeth, ag y gallai, nid yn unig fy nghynwys i, ond llawer ychwaneg o'm cyffelyb.

205. Y geiriau uchod a'm cysurasant; ond nid heb lawer o wrthwynebiad a chythryfwl dros yspaid saith neu wyth o wythnosau; canys byddai fy heddwch yn myned ac yn dyfod ugeinwaith mewn un diwrnod—cysur yn awr, a'r mynyd nesaf ofn; heddwch yn awr, a chyn y gallwn fyned gant o gamau, byddwn mor llawn o euogrwydd ac ofn ag y gallai calon eu cynwys; ac nid yn awr ac eilwaith y bu hyn, ond drwy ystod y saith wythnos o'm profiad: canys y meddwl yn nghylch digonolrwydd o ras, ac am Esau yn ymadael â'i enedigaeth-fraint, oedd ynof fel pâr o glorianau: byddai y naill weithiau yn uchaf, ac yn mhen ychydig byddai y llall—yn cael eu llywodraethu bob amser yn ol fel y byddai fy heddwch neu fy ngofidiau.

206. Gan hyny, parheais i weddio ar Dduw, am iddo fy ngoleuo yn fwy cyflawn yn ei Air; hyny yw, am iddo fy nghynorthwyo fi i gymhwyso yr holl frawddeg at

fy nghyflwr, gan nas gallwn wneud hyny hyd yn hyn. Ei fod efe wedi rhoddi gras, a allwn gasglu yn rhwydd; ond myned yn mhellach nis gallwn, canys hyd yma nis cynorthwyid fi ond i obeithio y gallai fod trugaredd i mi. "Digon yw fy ngras i:" er na ddaeth y geiriau ddim nes ataf, yn bersonol, yr oeddynt yn atebiad i fy ngofyniad blaenorol—hyny yw, fod gobaith; ond am fod "i ti," wedi ei adael allan, nid oeddwn yn foddlon, a gweddiais ar Dduw am hyny hefyd. Felly, un diwrnod, fel yr oeddwn mewn cyfarfod gyda phobl Dduw, yn llawn o drallod a dychryn—canys yr oedd fy ofnau yn gryf arnaf drachefn—daeth i'm meddwl, nad oedd fy enaid un gronyn gwell, a bod fy nghyflwr yn dra thruenus ac arswydus, pan dorodd y geiriau hyn allan ar fy meddwl yn nerthol anarferol: "Digon i ti fy ngras i!" "Digon i ti fy ngras i!" "Digon i ti fy ngras i!" deirgwaith ar ol eu gilydd; ac, O! mor argraphiadol yr oedd pob gair i'm clyw, yn enwedig *fy, gras, digon,* ac *i ti* —yr oeddynt y pryd hyny, ac y maent weithiau yn awr, yn llawer mwy pwysig yn fy ngolwg na geiriau eraill.

207. Y pryd hwnw goleuwyd fi gymaint gan ddisgleirdeb y geiriau hyn, fel y tybiais weled o honof yr Arglwydd Iesu yn edrych arnaf trwy beithynau y tŷ, gan gymhwyso y geiriau ataf fi, yr hyn beth a'm gosododd yn y llwch, gan fy llenwi â gorfoledd, llawenydd, ac â galar toddedig: er na pharhaodd yr amlygiadau hyfryd hyn am hir amser, eto parhausant amryw wythnosau i'm galluogi i obeithio. Ond gan gynted ag y cymerwyd y llewyrchiadau hyn oddiwrthyf, daeth yr hen brofedigaeth yn nghych Esau arnaf fel cynt; felly byddai fy enaid yn crogi fel mewn clorian—weithiau i fyny, weithiau i lawr; yn awr mewn heddwch, yna yn ddiatreg mewn dychryndod.

208. Felly yr aethum yn mlaen am lawer wythnos, weithiau mewn cysur, droion eraill mewn arteithiau tra gofidus; canys yr Ysgrythyrau hyny yn yr Hebreaid, a raggrybwyllais, a deflid o'm blaen, fel yr unig rwystrau i'm cau allan o'r nef; yna yr edifarhawn oherwydd dyfod y fath feddwl i'm calon. Byddwn weithiau yn meddwl, Pa sawl Ysgrythyr oedd yn fy erbyn? Nid oedd ond tair neu bedair, meddwn: oni ddichon Duw fyned heibio iddynt, a'm hachub? Weithian, oni bai y tri neu bedwar gair yma, O! fel y cawn fy nghysuro; ac yn wir nis gallwn ond prin beidio a dymuno eu bod allan o'r Bibl.

209. Felly, meddyliais fod Paul, Pedr, Ioan, a holl ysgrifenyddion y Gair, yn edrych arnaf yn ddirmygus, ac megis pe dywedent wrthyf fel hyn: "Ein geiriau ni ydynt wirionedd, a chan bob un o honynt yr un awdurdod: gan hyny, nid nyni a'th dorodd ymaith, eithr tydi a'th fwriaist dy hun allan; nid oes yr un gair ond y rhai hyn a'r cyffelyb ag y gelli di gymeryd gafael arnynt." "Canys os o'n gwirfodd y pechwn, ar ol derbyn gwybodaeth y gwirionedd, nid oes aberth dros bechodau wedi ei adael mwyach." "Canys gwell fuasai iddynt fod heb adnabod ffordd cyfiawnder,

nag, wedi ei hadnabod, tori oddiwrth y gorchymyn sanctaidd yr hwn a draddodwyd iddynt." Heb. x. 26. 2 Pedr ii. 21.

210. Y gwŷr hyn oeddynt henuriaid y ddinas noddfa, a chanddynt awdurdod i'm barnu i a'm hachos, yr hwn oeddwn yn awr yn sefyll wrth y porth yn llawn o ddychryn a braw, a "dialydd y gwaed" wrth fy sodlau, rhag iddynt fy nghau allan o'r noddfa nefol yn dragywydd. (Josh. xx. 3, 4.)

211. Fel hyn y'm trallodid fi, a minau heb wybod pa beth i'w wneuthur, na pha fodd i gael boddlonrwydd yn y peth yma—sef, pa un a gydunai'r Ysgrythyrau am fy iachawdwriaeth i? Yr oeddwn yn arswydo wrth eiriau yr apostolion, gan wybod fod eu geiriau yn gywir, a bod yn rhaid iddynt sefyll dros byth.

212. Yr wyf yn cofio, ar un diwrnod, a mi mewn amrywiol dymherau yspryd, ymholais â mi fy hun a oedd y syniadau hyn yn ol natur yr Ysgrythyrau: os barnwn eu bod dros ryddhad, cawn esmwythder i'm meddwl; ond os am yr eiddo Esau, cawn fy arteithio yn ofidus. Yna dywedais, pe byddai i'r Ysgrythyrau hyn gydymgyfarfod yn fy enaid, pa un o honynt a enillai'r dydd ynof? Gan hyny, hiraethais am iddynt ddyfod felly; ïe, gweddiais ar Dduw am hyny.

213. Yn mhen deuddydd neu dri gwnaethant felly yn ddiau: cydwasgasant arnaf, ac ymrafaeliasant yn rhyfedd ynof. O'r diwedd, hòno am Esau a ddechreuodd laesu gafael, a diflanu; a'r llall, am gyfiawnder, a digonolrwydd o ras, a enillodd y frwydr, gan ddwyn i mewn gyda hi esmwythder, llawenydd, a heddwch. A thra yr oeddwn yn myfyrio ar y pethau hyn, yr Ysgrythyr hon a anturiodd i mewn i'm calon: "Y mae trugaredd yn gorfoleddu yn erbyn barn." Iago ii. 13.

214. Y peth hwn oedd ryfedd i mi; eto yr wyf yn credu mai o Dduw yr oedd, canys gorfu ar air y gyfraith a'r felldith roddi lle i air gras y bywyd: canys er bod y gair condemnio yn ogoneddus, eto gair yr iachawdwriaeth oedd yn rhagori yn mhell mewn gogoniant. 2 Cor. iii. 8—11. Marc ix. 5—7. Ioan vi. 37. Hefyd, rhaid yw i Moses ac Elias eill dau ddiflanu, a gadael Iesu Grist a'i seintiau wrthynt eu hunain.

215. Yr Ysgrythyr hon hefyd, y pryd hwn, a ymwelodd yn dra hyfryd â'm henaid: "A'r hwn a ddêl ataf fi, nis bwriaf ef allan ddim." O! y fath gysur a gefais yn y gair melys hwn. Deallwn ei ystyr, fel pe dywedasai, "Nis bwriaf ef ymaith, pa beth bynag a wnaeth." Ond byddai Satan yn ymegnio i'm difeddiannu o'r addewid hon, gan haeru nad oedd Crist yn meddwl am danaf fi a'm bath, ond pechaduriaid o radd îs mewn pechod, y rhai nas cyflawnasai mor erchyll ag y gwnaethum i. Yna gwrthatebwn ef, gan ddywedyd: "Satan, nid oes yn y geiriau hyn y fath wrthddadl: eithr pwy bynag a ddêl, bydded ef pwy bynag a fyddo, 'nis bwriaf ef allan ddim.'" Yr ydwyf yn cofio yn bur dda hefyd, er ffyrniced oedd y diafol â'i ddyfais i'm herbyn i ŵyrdroi yr Ysgrythyr hon oddiwrthyf, eto. ni

feiddiodd ofyn i mi a oeddwn i yn dyfod yn iawn; a thybiais mai y rheswm oedd, oherwydd ei fod ef yn gwybod fy mod yn deall yn dda pa beth oedd dyfod mewn gwirionedd at Iesu Grist—hyny yw, dyfod yn bechadur halogedig, fel ag yr oeddwn, cyfaddef fy mod yn euog o bechod, ac ymostwng yn isel ac edifeiriol wrth droedfainc trugaredd: hyn ydwyf yn feddwl oedd dyfod yn iawn. Pan ymosodai Satan i'm herbyn yn nghylch Gair Duw, byddai yr ymgyrch mewn perthynas i ymadrodd yr Arglwydd Iesu yn Ioan vi. 37—myfi wrth y naill ran o hono, yntau wrth y rhan arall. O! y fath ymrysonfa ydoedd rhyngom—efe yn tynu, a minau yn tynu; ond i Dduw y byddo'r gogoniant yn dragywydd, enillais y fuddugoliaeth arno, a chefais felysder o honi.

216. Ond er cynorthwyon y geiriau grasusol hyn, gwaith Esau yn gwerthu ei enedigaeth-fraint fyddai yn wastadol yn blino fy nghydwybod; canys er i mi gael fy nghysuro yn felys ychydig cyn hyny, pan ddeuai yr amgylchiad hwnw ar fy meddwl, gwnai i mi ofni nas gallwn ei orchfygu yn llwyr. Weithiau glynai gyda mi dros ddyddiau yn nghyd. Gan hyny, aethum i weithredu yn awr mewn ffordd arall— sef i ystyried natur y meddwl cableddus hwnw. Os cymerwn y geiriau yn eu hystyr helaethaf, a rhoi i bob gair ei ddehongliad priodol, meddyliwn y byddai iddynt wneuthur y fath glöad a hyn arno: i mi adael yn rhwydd i'r Arglwydd Iesu gymeryd ei ddewis, pa un a wnai efe, ai bod yn Iachawdwr i mi ai peidio; canys y meddwl annuwiol oedd hwn, "Gâd iddo ef fyned, os myn." Yna yr Ysgrythyr hon a roddodd i mi obaith: "Ni'th roddaf di i fyny, ac ni'th lwyr adawaf chwaith." Heb. xiii. 5. "O Arglwydd," ebe fi, "ond myfi a'th adewais di." Yna yr atebodd, "Ond nis gadawaf mo honot ti." Am hyn yr ydwyf yn bendithio Duw hefyd.

217. Eto yr oeddwn yn ofnus iawn; ïe, cefais brofi mai gwaith gorchestol oedd ymddiried ynddo ef, ar ol pechu o honof mor echryslon yn ei erbyn. O! y fath orfoledd fuasai genyf, pe buasai y geiriau cableddus hyny heb ruthro i'm calon, yna gallaswn gyda mwy o hyfdra a diddanwch orphwys arno. Yr oeddwn yn awr fel brodyr Joseph: euogrwydd eu drygioni oedd yn gorlanw eu cydwybod, gan arswydo rhag y byddai i'w brawd o'r diwedd eu handwyo hwynt. Gen. xliv. 16, &c.

218. Er hyn oll, yr Ysgrythyr a'm cynorthwyai fwyaf yn fy holl arteithiau oedd hòno yn Josh. xx, 5, yr hon sydd yn dangos dull y llofrudd yn ffoi i'r ddinas noddfa am ddiogelwch: "Ac os dialydd y gwaed a erlid ar ei ol ef, na roddant y lleiddiad yn ei law ef: canys mewn anwybod y tarawodd efe ei gymydog, ac nid oedd gas ganddo ef o'r blaen." O! bendigedig fyddo Duw am y gair hwn; teimlais gyda dychryn mai myfi oedd y llofrudd fföedig, a bod dialydd y gwaed yn canlyn yn ddiau. Ond yr ymholiad yma a ymaflodd ynof—sef, pa un ai bod genyf hawl i ffoi i'r ddinas noddfa ai nid oedd; oblegid nid oedd derbyniad i'r llofrudd bwriadol, ond i'r hwn a'i gwnai yn anghynllwynedig: os "nid oedd gas ganddo ef o'r blaen."

219. Tybiais yn sicr mai myfi oedd y dyn i gael dyfod i mewn, oblegid mai yn ddiarwybod y tarewais fy nghymydog, ac nad oedd genyf gasineb rhagfwriadol tuag ato ef; ïe, yr oedd arswyd arnaf droseddu i'w erbyn, gan i mi ymorchestu yn erbyn y brofedigaeth ddidduw hòno dros yspaid blwyddyn; ac mai o'm hanfodd y gorchfygwyd fi ganddi: gan hyny, meddyliais fod genyf hawl i'r ddinas; ac nad allai yr henuriaid (sef yr apostolion) fy rhoddi i fyny i'r dialydd, &c. Yr oedd hyn yn gysur mawrwych i mi, ac yn sylfaen gadarn i mi ddisgwyl mewn gobaith.

220. Yr oeddwn eto yn dra ofnus ac amheugar, ac mor hunan-gondemniol drwy fy anhwyldeb, fel nas gwyddwn pa droedle ydoedd yn ddigon diogel i'm hamddiffyn. Yr oedd fy enaid yn hiraethu yn ddwys am gael gwybod un peth—sef, A oedd yn bosibl i un enaid a bechodd y pechod anfaddeuol, gael y mymryn lleiaf o gysur ysprydol yn wyneb Iesu Grist? I'r hyn, wedi ei ystyried yn fanwl, y cefais yn atebiad, nas gallasai; a hyny oblegid y rhesymau canlynol:—

Yn gyntaf. Y rhai hyny a'u pechasant, a wrthodasant gyfran yn ngwaed Crist; a chan eu bod yn ymddifad o hyn, y mae yn rhaid eu bod yn wag o'r sylfaen leiaf am obaith, ac o gysur ysprydol; canys i'r cyfryw "nid oes aberth dros bechodau wedi ei adael mwyach," &c. Heb. x. 26, 27.

Yn ail. Oherwydd eu bod yn gwadu yr hawl yn addewid y bywyd tragwyddol: "Ond pwy bynag a ddywedo air yn erbyn yr Yspryd Glân, nis maddeuir iddo, nac yn y byd hwn, nac yn y byd a ddaw." Mat. xii. 31.

Yn drydydd. Y mae Mab Duw yn eu cau hwynt allan oddiwrth bob hawl yn ei eiriolaeth bendigedig ef; bydd cywilydd ganddo eu harddel hwynt gerbron ei Dad sanctaidd, a'i fendigedig angylion ef, yn y nefoedd. "Canys pwy bynag a fyddo cywilydd ganddo fi a'm geiriau yn yr odinebus a'r bechadurus genhedlaeth hon; bydd cywilydd gan Fab y dyn yntau hefyd, pan ddêl yn ngogoniant ei Dad, gyda'r angylion sanctaidd." Marc viii. 38.

221. Wedi i mi ystyried hyn gyda manylrwydd, nis gallaswn lai na chredu i mi dderbyn llawer o gysur gan Dduw, a hyny wedi i mi bechu mor ysgeler i'w erbyn; yna gallaswn anturio ar yr Ysgrythyrau a fuasai gynt yn ddychrynedig i'm henaid, fel prin y pryd hwnw y gallwn gymaint ag edrych arnynt; a phrin y byddwn lawer gwaith yn gallu ymattal rhag eu dymuno allan o'r Bibl, canys meddyliais y buasent yn fwy andwyol i mi byth; eithr yn awr galluogwyd fi, mewn mesur, i ymaflyd ynddynt, eu darllen, eu hystyried, eu pwyso, ac i farnu amcan eu tueddiad.

222. Pan ddechreuais ymosod ar y gorchwyl, cefais wybod fod fy ngwynebpryd yn gwedd-gyfnewid; canys nid ydoedd yr olwg arnynt mor llymdost a chynt, er tybied o honof eu bod felly. Oherwydd—

Yn gyntaf. Daethum at y chweched bennod o'r Hebreaid; eto yn ddychrynedig, rhag ofn y byddai i mi gael fy namnio ganddi; eithr pan yr ystyriais y lle, gwelais

mai y syrthiad a feddylir yno oedd syrthio ymaith yn llwyr—nyny yw, fel yr ydwyf fi yn meddwl, syrthio oddiwrth, a gwadu yn hollol, yr efengyl, a gwaredigaeth rhag pechodau, trwy Iesu Grist; canys felly y mae yr apostol yn dechreu ei ymadrodd yn adn. 4.

Yn ail. Deallais fod y syrthiad hwn yn gyhoeddus yn ngolwg y byd annuwiol, gan wneuthur Iesu Grist yn warth iddynt.

Yn drydydd. Deallais fod y rhai hyny y sonir am danynt uchod wedi eu cau i fyny gan Dduw mewn caledrwydd calon, dallineb, ac anufudd-dod; ac y mae yn anmhosibl i'r cyfryw ymadnewyddu drachefn i edifeirwch. Yn y pethau hyn oll, er clod tragwyddol i enw Duw, profais nad oedd fy mhechod i yn y rhes ddu hòno; er y gallaf gyfaddef—

1. Ddarfod i mi syrthio, eithr nid syrthio ymaith yn hollol—hyny yw, oddiwrth arddeliad o ffydd Crist i fywyd tragwyddol.

2. Ddarfod i mi waradwyddo enw Iesu Grist trwy fy mhechod, ond nid i warth cyhoeddus; ni feiddiais ei wadu ef gerbron dynion, na'i farnu fel un anfuddiol o flaen y byd.

3. Na chauodd Duw mo honof i fyny, ac ni'm hattaliodd i ddyfod ato ef; er i mi ei brofi yn orchwyl caled iawn i ddyfod ato ef, a hyny trwy dristwch ac edifeirwch. Ond bendigedig fyddo Duw am anchwiliadwy olud ei ras.

223. Ystyriais drachefn y ddegfed bennod o'r Hebreaid, a chanfyddais:—

Yn gyntaf. Mai nid pob pechod gwirfoddol yw y pechod a feddylir yno, ond yr un sydd yn bwrw Crist ymaith, yn nghyd a'i orchymynion.

Yn ail. Rhaid iddo gael ei gyflawni gerbron dau neu dri o dystion, fel y dywed y gyfraith. (Adn. 28.)

Yn drydydd. Y pechod hwn nis gellir ei gyflawni heb y dirmyg eithaf yn erbyn Yspryd y Gras—sef, dibrisio gwaredigaeth rhagddo, a'r anogaethau i'w wrthwynebu; eithr yr Arglwydd a ŵyr fod fy mhechod i yn ddiafledig, eto ni ddyrchafodd cyfuwch a hyn, bendigedig fyddo Duw.

224. Meddyliais hefyd am y ddeuddegfed bennod o'r Hebreaid, yn nghylch Esau yn gwerthu ei enedigaeth-fraint. Er mai hyn oedd yn fy lladd, ac yn sefyll i'm herbyn megis picell; eto, yr ydwyf yn ystyried—

Yn gyntaf. Mai nid meddwl byrbwyll oedd hwn, eithr meddwl rhagfwriadol, trwy ysgogiad gwastadol y galon lygredig. Gen. xxxv. 29—34.

Yn ail. Yr oedd hon yn weithred gyhoeddus gerbron ei frawd, os nid o flaen llawer eraill: hyn oedd yn gwneuthur ei bechod yn fwy pechadurus.

Yn drydydd. Efe a barhaodd hefyd dros flynyddoedd meithion i ddiystyru ei enedigaeth-fraint; canys efe a ddywedodd: "Y mae genyf fi ddigon, fy mrawd; bydded i ti yr hyn sydd genyt." Gen. xxxiii. 9.

225. Mewn perthynas i Esau yn ceisio "lle i edifeirwch," y meddyliais, mai nid oherwydd ei enedigaeth-fraint, eithr y fendith, y darfu iddo wneud hyny; yr hyn sydd yn dra eglur oddiwrth eiriau yr apostol; ac amlygir hyn hefyd gan Esau ei hun: "Ond iawn y gelwir ei enw ef Jacob? canys efe a'm disodlodd i ddwy waith bellach: dug fy ngenedigaeth-fraint; ac wele, yn awr efe a ddygodd fy mendith. Gen. xxvii. 36. Yna daethum at eiriau yr apostol, i edrych beth oedd meddwl Duw yn nghylch pechod Esau yn ngeiriau yr efengyl; ac mor belled ag y cefais i fy ngoleuo, hyn oedd meddwl yr Arglwydd am dano—sef bod yr enedigaeth-fraint yn arwyddocau yr etifeddiaeth dragwyddol: hyn, ysgatfydd, oedd meddwl yr apostol, pan y dywed: "na bo un halogedig, megis Esau, yr hwn am un saig o fwyd a werthodd ei enedigaeth-fraint;" fel pe y dywedasai, Hyn a geidw allan y cynygiadau grasusol gan Dduw at ail-enedigaeth, rhag iddynt, fel Esau, fod yn y diwedd yn wrthodedig pan yr ewyllysiant etifeddu y fendith.

226. Canys llawer yn nydd gras a thrugaredd a anmhrisiant yr uchelfraint hon; eithr pan ddêl dydd eu hymweliad, llefant allan â gwaedd uchel, megis Esau, "Arglwydd, Arglwydd, agor i ni;" ond megis Isaac, yr hwn nid edifarhäai, yr un ffunud felly nis gwna Duw, eithr dywed: Bendithiais y rhai hyny a fendithiais, bendigedig hefyd a fyddant; eithr chwychwi ymadewch oddiwrthyf, weithredwyr anwiredd. (Gen. xxvii. 32. Luc xiii. 25—27.)

227. Ar ol i mi ystyried yr Ysgrythyrau hyn fel yma, a chanfod nad oeddynt yn groes i'r lleill, ond yn cydgordio â hwynt, derbyniais gysur a gorfoledd hyfryd oddiwrthynt; a rhoddasant ergyd i'r gwrthddadleuon a goleddwn—nad oedd yr Ysgrythyrau yn cyduno yn iachawdwriaeth fy enaid. Yn awr nid oedd yn aros ond y rhan olaf o'r dymestl; canys y daran a aethai ymaith, ond bod eto rhyw ddafnynau o'r gawod yn disgyn arnaf; ac oherwydd bod fy arteithiau a'm hofnau o'r blaen yn gwasgu yn flinedig arnaf, megis un wedi ei ddeifio gan dân, tybiwn fod pob llais yn gwaeddi "Tân," "Tân:" yr oedd megis ergyd bychan yn trywanu fy nghydwybod dyner.

228. Ond un diwrnod, fel yr oeddwn yn rhodio yn y maes, gan drymder meddwl yn ofni nad oedd y cwbl ond ofer, yn ddisymwth syrthiodd yr ymadrodd hwn ar fy meddwl, "Dy gyfiawnder di sydd yn y nefoedd;" a thybygwn fy mod yn canfod, â llygaid fy enaid, yr Arglwydd Iesu Grist ar ddeheulaw Duw; yno, meddaf, yr oedd fy nghyfiawnder. Gan hyny, pa le bynag y byddwn, neu pa beth bynag a wnawn, Duw a ddywedai am danaf, Nad oedd arno ef eisieu fy nghyfiawnder, canys yr oedd y Cyfiawnder anfeidrol ger ei fron ef. Gwelais hefyd mai nid tymherau da fy nghalon a wnai fy nghyfiawnder yn well, nac ychwaith fy nhymherau drwg a'i gwnai ef yn waeth; oblegid fy nghyfiawnder i oedd Iesu Grist ei hun—"ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd." Heb. xiii. 8.

3 F

229. Yn awr y syrthiodd fy nghadwynau oddiarnaf yn wir; rhyddhawyd fi oddiwrth fy nghystuddiau a'r heiyrn; fy nychrynfeydd a ffoisant, a minau, fel aderyn o fagl yr adarwr, a ddiangais; attaliodd Duw ei angerdd digofus yn wyneb yr Ysgrythyrau a grybwyllais rhag syrthio arnaf;—ac felly o'r amser hwnw aethum adref, gan orfoleddu yn Nuw am ei ras a'i drugaredd anfeidrol. Pan gyrhaeddais yno, hiraethais yn fawr i gael gwybod a oedd yr ymadrodd hwn i'w gael—sef, "Dy gyfiawnder di sydd yn y nefoedd;" eithr nid ellais mewn un modd gael hyd iddo Yna dechreuodd fy nghalon suddo drachefn, nes dyfod i'm cof 1 Cor. i. 30: "Yr hwn a wnaethpwyd i ni gan Dduw yn ddoethineb, ac yn gyfiawnder, ac yn sancteiddrwydd, ac yn brynedigaeth." Wrth y geiriau hyn y gwelais mai gwir oedd yr ymadrodd blaenorol.

230. Trwy yr Ysgrythyrau hyn y gwelais fod y Dyn Crist Iesu, fel y mae efe yn absenol oddiwrthym ni o ran ei bresenoldeb corphorol; ac, o ganlyniad, efe yw ein cyfiawnder, ein sancteiddrwydd, a'n prynedigaeth, gerbron Duw; trwy hyn y bum fyw dros amser mewn hyfrydwch a gorfoledd heddychlon ger ei fron yn wyneb Iesu Grist. Nis gallwn y pryd hwnw chwennych meddwl nag hiraethu am bresenoldeb neb ond yr Arglwydd Iesu Grist yn unig; ac nid oedd neb ond efe yn wastad o flaen fy llygaid. Ni'd oeddwn yn edrych ar y naill na'r llall o ragorfreintiau Crist yn wahanol—sef ei ddioddefaint, ei gladdedigaeth, a'i adgyfodiad, eithr ei gymeryd ef yn Grist cyflawn; megis ynddo ef yr oedd yr holl freintiau hyny yn ymgyfarfod yn nghyd yn iachawdwriaeth pechadur, ac felly y mae efe yn eistedd ar ddeheulaw Duw yn y nefoedd.

231. O! mor ogoneddus oedd syllu ar ei ogoniant a'i fawredd ef, a gwerthfawrogrwydd ei anchwiliadwy olud, a hyny oherwydd y gallwn yn bresenol edrych allan o honof fy hun arno ef, a chyfrif yr holl rasusau, pa rai nad oeddynt ond newydd ac iraidd arnaf, yn gyffelyb i'r gwŷr mawrion a ddygant ddarnau bychain o arian yn eu codau pan y byddo eu haur mewn coffrau gartref. O! gwelais fod fy aur inau yn nghadw gartref yn Nghrist, fy Arglwydd a'm Gwaredwr. Yn awr efe oedd yn bobpeth i mi: fy holl ddoethineb, fy holl gyfiawnder, fy holl sancteiddrwydd, a'm holl waredigaeth.

232. Yr Arglwydd hefyd a'm harweiniodd i'r dirgelwch o'r undeb â Mab Duw, o'm bod wedi fy nghysylltu ag ef, a'm bod yn gnawd o'i gnawd ef, ac yn asgwrn o'i asgwrn ef. Yna bu y gair gogoneddus hwnw yn Eph. v. 30, yn dra cyfnerthol i mi. Cynorthwywyd fi trwyddo i weled yn ffyddiog bod ei gyfiawnder ef yn cael ei gadarnhau ynof; canys os oedd efe a minau yn un, yna ei gyfiawnder ef oedd fy nghyfiawnder i, a'i haeddiant ef oedd yn haeddiant i mi. Yn awr y gwelais fy hun yn y nef ac ar y ddaear hefyd: yn y nef, yn Nghrist fy Mhen, fy Nghyfiawnder, a'm Bywyd; eto ar y ddaear yn bresenol.

233. Yna canfyddais fod Cyfiawnder dwyfol yn edrych ar Iesu Grist (felly y dylem ninau) fel yr un Person cyffredinol, yn yr hwn y mae ei holl etholedigion, fel un corph, i'w hystyried wedi eu cyfan gydgysylltu: ynddo ef yr ydym wedi cyflawni y ddeddf; wedi marw ynddo; wedi cyfodi oddiwrth y meirw; wedi enill ynddo ef fuddugoliaeth ar bechod, marwolaeth, diafol, ac uffern. Pan fu ef farw, buom ninau feirw ynddo, ac felly y'n hadgyfodwyd yn ei adgyfodiad ef. "Dy feirw a fyddant byw, fel fy nghorph i yr adgyfodant. Deffrowch, a chenwch, preswylwyr y llwch: canys dy wlith sydd fel gwlith llysiau, a'r ddaear a fwrw y meirw allan." Esay xxvi. 19. "Efe a'n bywha ni ar ol deuddydd, a'r trydydd dydd y cyfyd ni i fyny, a byddwn fyw ger ei fron ef." Hos. v. 2. Yr hyn yn awr a gyflawnwyd, trwy fod Mab y dyn yn eistedd ar ddeheulaw y Mawredd yn y nefoedd. "Ac a'n cydgyfododd, ac a'n gosododd i gydeistedd yn y nefolion-leoedd yn Nghrist Iesu." Ephes. ii. 6.

234. Yr ystyriaethau a'r Ysgrythyrau bendigedig uchod, yn nghyd â llawer eraill o'r cyffelyb, oeddynt y pryd hwnw yn llewyrchu ger fy mron, fel y cefais achos i lefain allan mewn gorfoledd, "Molwch yr Arglwydd. Molwch Dduw yn ei sancteiddrwydd: molwch ef yn ffurfafen ei nerth. Molwch ef am ei gadernid: molwch ef yn ol amlder ei fawredd." Salm cl. 1, 2.

235. Wedi traethu wrthych fel hyn, mewn ychydig eiriau, megis blaen-brawf o'r cystuddiau, arteithiau, a'r profedigaethau, y dygodd fy meddyliau drwg fi yn gaeth iddynt, ac hefyd y gwaredigaethau dedwydd gefais oddiwrthynt, y diddanwch hyfryd a thra melys a deimlais wedi hyny, yr hyn a fwynheais yn orfoleddus am ddeuddeng niwrnod yn nghyd, er rhyfeddod annhraethol i mi,—rhoddaf i chwi yn awr, trwy ganiatâd Duw, cyn myned yn mhellach, yr hyn ydwyf fi yn gredu oedd yr achos o'r brofedigaeth hon, a'r manteision gwerthfawr a dderbyniais i'm henaid oddiwrthi.

236. Ystyriais fod dau o achosion yn neillduol, oherwydd y rhai y cefais fy archolli mor ddwys yn fy nghydwybod drwy yr holl amser ag y gwasgodd y brofedigaeth arnaf. A'r cyntaf oedd, am na ddarfu i mi, wedi cael fy ngwaredu o un brofedigaeth, weddio ar Dduw am iddo fy ngwaredu rhag syrthio i'r llall; er y gallaf dystio yn wirioneddol, cyn i'r brofedigaeth syrthio arnaf, fod fy enaid yn meddiannu yspryd gweddi; ond wedi hyn, ni weddiwn ond pan fyddai blinderau yn fy amgylchu, er mwyn cael gwaredigaeth o honynt, ac am gael datguddiad newydd o gariad Duw yn Nghrist; er y dylaswn weddio ar y Duw anfeidrol i'm hamddiffyn rhag y drygau i ddyfod.

237. O hyn y'm gwnaethpwyd yn wir deimladol o weddi ragorol y prophwyd sanctaidd Dafydd, yr hwn, pan fyddai trugareddau yn ei amgylchu, a weddiai ar i'r Arglwydd ei attal rhag rhuthro i bechod: "Attal hefyd dy was oddiwrth bechodau

rhyfygus; na arglwyddiaethont arnaf: yna y'm perffeithir, ac y'm glanhëir oddi wrth anwiredd lawer." Salm xix. 13. Cythruddid fi yn drallodus gan y gair hwn tra parhaodd y brofedigaeth hirddwys hon.

238. Byddai y gair hwn hefyd yn fy nghondemnio yn ddirfawr oherwydd fy oerfelgarwch, a'm hesgeulusdod o'r ddyledswydd: "Am hyny awn yn hyderus at orseddfainc y gras, fel y derbyniom drugaredd, ac y caffom ras yn gymhorth cyfamserol;" yr hyn nis gwnaethum i, oblegid syrthio o honof, heb sylwi ei fod ef yn dywedyd, "Gweddiwch rhag syrthio o honoch i brofedigaeth." Ac mae hyn, hyd y dydd hwn, o'r fath bwys ar fy yspryd, fel nas gallaf (pan fyddaf yn ymostwng gerbron Duw) lai na llefain arno i'm gwaredu rhag y profedigaethau hyny sydd yn barod i'm hamgylchu. A thithau, ddarllenydd, gwilia rhag i'm syrthni i dy oddiweddyd; a dyfod arnat yr arteithiau gofidus, y rhai dros ddyddiau, misoedd, a blynyddau, a ddioddefais o'u herwydd.

239. Achos arall o'r brofedigaeth â'r hon y temtiais Dduw, oedd hyn: un pryd, a mi yn fy ngwely, syrthiodd gwewyr blinedig ar fy ngwraig, yr hon, er ei bod yn feichiog, nid oedd ei hamser i fyny; eto gwewyr, fel gwraig yn esgor, oedd yn drwm arni. Ac oherwydd fy mod yn yr amser hwnw yn cael fy mlino gan yspryd annuwiaeth, sef lled-ameu hanfod y Duw anfeidrol, dywedais yn ddirgel yn fy nghalon, O Arglwydd, os bydd i ti symud y cystudd annioddefol hwn oddiar fy ngwraig, fel nas bliner hi mwy y nos hon, yna y gwybyddaf dy fod yn gwybod dirgelion y galon.

240. Yna yn ddiatreg symudwyd ei chystudd ymaith, fel y cafodd lonyddwch i huno hyd y boreu. Pan ddeffröais, adgofiais y dadwrdd dirgel oedd yn fy nghalon y noson o'r blaen. Dangosodd Duw i mi hefyd y gwyddai ef feddyliau dirgel fy nghalon: bu hyn yn syndod i mi dros lawer wythnos.

241. O gylch i flwyddyn a haner wedi hyny, y meddwl pechadurus, didduw hwnw, a grybwyllais am dano yn flaenorol, a ruthrodd i'm calon lygredig, hyd yn oed y meddwl hwn: "Gâd i Grist fyned, os myn." Pan syrthiais mewn euogrwydd oherwydd hyn, adgofiad o'r meddwl arall, yn nghyd â'r effaith o hono, a syrthiodd hefyd arnaf â'r fath wrthdro, gan gario gydag ef yr argyhoeddiad ceryddol hwn: "Ti a weli yn awr fod Duw yn gallu gwybod meddyliau dirgelaf y galon."

242. Gyda hyn, yr ymadrodd hwnw a fu rhwng yr Arglwydd a'i wasanaethwr Gedeon a ymaflodd yn fy yspryd—sef y modd y temtiodd efe Dduw â'i gnu gwlan, yn wlyb ac yn sych (Barn. vi. 37); pryd y dylasai gredu ac anturio ar ei air; gan hyny, yr Arglwydd a'i profodd ef trwy ei anfon yn erbyn llu o elynion aneirif; a hyny hefyd, o ran pob ymddangosiad allanol, heb allu na chynorthwy. (Barn. vii.) Felly y gwnaeth efe â minau, a hyny yn gyfiawn; canys dylaswn gredu ei Air ef heb osod un *os* ar orchymynion yr holl-weledig Dduw.

243. Dangosaf i ti yn awr rywbeth o'r manteision hefyd a gefais oddiwrth y

brofedigaeth hon. Yn y lle cyntaf, trwy hyn y'm gwnaethpwyd yn feddiannydd gwastadol yn fy enaid o ystyriaeth ddealladwy o drugaredd Duw, ac o'i ogoniant yn ngwyneb ei Fab. Yn y brofedigaeth flaenorol trallodwyd fi gan anghrediniaeth, cabledd, a chalon-galedwch; cwestiynau amheuol yn nghylch hanfod Duw, hanfod Crist, gwirionedd yr Ysgrythyrau, a sicrwydd y byd a ddaw; ïe, meddaf, trallodid fi y pryd hyny yn flinderus ag yspryd annuwiaeth; ond yn awr yr oedd y peth i'r gwrthwyneb, canys y pryd hyn byddai Duw yn wastadol o flaen fy llygaid, nid er cysur, ond mewn ffordd o ddychryn dirfawr i mi. Gogoniant, sancteiddrwydd, a disgleirdeb Duw, a'm drylliai yn ddarnau, ar brydiau, yr amser hwnw; byddwn megis ar droell; oblegid nis gallwn gymaint a meddwl am Iesu Grist ond wedi ei werthu genyf, a'i golli yn dragywydd. Yr ystyriaeth o hyn oedd yn ddrylliad beunyddiol i'm hesgyrn.

244. Yr Ysgrythyrau hefyd a ymddangosent yn dra rhyfedd i mi. Canfyddais mai y gwirionedd a'r sylwedd o honynt oedd agoriad teyrnas nefoedd; a'r rhai hyny sydd yn eu hanrhydeddu a gânt yn ddiau etifeddu gwynfyd byth; eithr y rhai sydd yn eu gwrthwynebu, a gyfrgollir yn dragywydd. Byddai y gair hwn, "A'r Ysgrythyr nis gellir ei thori, yn dryllio fy nghalon yn arw; felly hwn hefyd: "Pwy bynag y maddeuoch eu pechodau, y maddeuir iddynt; a'r eiddo pwy bynag a attalioch, a attaliwyd." Yma gwelais mai yr apostolion oedd henuriaid y ddinas noddfa. (Jos. xx. 4.) Y rhai hyny a dderbynient i mewn, a gyfranogid o'r bywyd; eithr y rhai a gadwent hwy allan, a leddid gan ddialydd y gwaed.

245. O! byddai *un* rhan o'r Ysgrythyr yn dychrynu llawer mwy ar fy meddwl (sef y rhai oeddwn i yn weled yn fy erbyn fwyaf, er fy mod yn fynych yn tybied eu bod oll) na phe buasai deugain mil o wŷr yn cynllwyn i'm herbyn. Gwae i'r dyn y byddo'r Ysgrythyrau yn gogwyddo i'w erbyn!

246. Trwy y profedigaethau yma dygwyd fi i weled yn mhellach i natur yr addewidion nag erioed o'r blaen; oblegid fy mod yn gorwedd yn ddychrynedig dan law alluog Duw; ac yn cael fy arteithio a'm dychrynu gan ŵg ei gyfiawnder anfeidrol. Hyn a wnaeth i mi sylwi â llygad craff a chalon ofalus, mewn ofn a dychryn, i droi pob dalen gyda manylrwydd mawr, gan ystyried pob ymadrodd yn ei dueddiad priodol ei hun.

247. Trwy y profedigaethau yma hefyd y nerthwyd fi i adael fy hen ynfydrwydd blaenorol—sef, gwrthwynebu gair yr addewid pan ddelai i'm meddwl; ond er nas gallaswn yn awr sugno y cyfryw gysur a'r melysder o'r addewidion ag a allaswn ar amserau eraill; er hyny, fel dyn ar fin boddi, amcanwn gipio gafael yn mhob peth a welwn. Tybiais gynt nad oedd yn weddus i mi dderbyn cymaint ag un o'r addewidion, oddigerth fy mod yn mwynhau eu tawelwch hwynt; ond yn awr nid oedd genyf hamdden i hyn, oblegid yr oedd dialydd y gwaed yn fy ymlid.

248. Yn awr, gan hyny, yr oedd yn hyfryd genyf ddal gafael ar y gair, yn yr hwn y meddyliais gynt nad oedd i mi hawl ynddo, ac ymollwng i fynwes yr addewid, yr hon a ofnwn oedd yn gauedig i mi. Gorfyddid arnaf yn awr gymeryd y gair o enau Duw fel ag yr oedd, heb feiddio gwyrdroi y sill lleiaf. O! mor hyfryd yn awr oedd yr olwg ar y chweched bennod o Ioan, adn. 30: "A'r hwn a ddêl ataf fi, nis bwriaf ef allan ddim." Yna y credais fod gan yr Arglwydd helaethach genau i lefaru nag oedd genyf fi o galon i dderbyn nac ystyried; credais hefyd iddo lefaru, nid mewn poethder a brys, ond mewn barn a doethineb anfeidrol, a ffyddlondeb gwirioneddol.

249. Gwnawn yn y dyddiau hyn yn fynych, yn fy arteithiau meddyliol, lamu at yr addewidion, rhwng hyder ac ofn (fel y gwna meirch neidio tuag at gyrhaedd tir sych rhag marwolaeth, pan fyddont yn suddo yn y donen) gan benderfynu (er fy mod agos allan o'm synwyrau) ymorphwys arnynt, a gadael y cyflawniad o honynt i Dduw'r nefoedd. Llawer ymdynfa fu rhwng Satan a minau yn nghylch y chweched bennod o Ioan. Nid oeddwn yn awr, fel y bum gynt, yn edrych yn neillduol am gysur, er mor ddymunol y buasai hyny genyf, ond am air—ïe, am un gair i enaid trallodus i bwyso arno, i'w achub rhag suddo byth! Hyn oeddwn yn hiraethu yn fawr am dano.

250. Laweroedd o weithiau, pan y byddwn yn ymgais yn galed am yr addewid, tybiwn fod yr Arglwydd yn gwrthod fy enaid yn dragywydd; byddwn fel un fyddai yn rhedeg ar bigau dur, neu fel pe buasai yr Arglwydd yn rhuthro arnaf â chleddyf tanllyd ysgwydedig. Yna meddyliais am Esther, yr hon a aethai i eiriol ar y brenin (dros ei chenedl) yn groes i'r gyfraith. (Esther iv. 16.) Meddyliais hefyd am weision Benhadad, y rhai a aethant â rhaffau am eu penau at eu gelynion am heddwch. (1 Bren. xx. 31, &c.) Am y wraig o Ganaan, yr hon, er i'r Arglwydd ei galw yn gi, ni chymerodd ei digaloni, eithr llefodd yn daerach. (Mat. xv. 22, &c.) Hefyd y dyn a aethai i geisio bara ganol nos yn echwyn. (Luc. xi. 5—7.) Hyn oll fu i mi yn anogaethau cryfion.

251. Ni welais erioed yr uchder a'r dyfnder ag sydd yn nhrugareddau Duw, fel ag y gwelais hwynt pan ddarfu iddo fy nwyn allan o safn y brofedigaeth. Lle y mae pechodau mawrion, mae Duw yn rhoddi gras mawr; a lle byddo euogrwydd yn fwyaf dychrynadwy, trugaredd Duw yn Nghrist, pan ddatguddir ef i'r enaid, a fydd y peth mwyaf anrhydeddus a goruchel. Felly y bu gyda'r patriarch, pan ddaeth trwy ei orthrymder: "a'r Arglwydd a chwanegodd yr hyn oll a fuasai gan Job, yn ddau-ddyblyg." Job xlii. 10. Bendigedig fyddo Duw am ei anfeidrol gariad yn wyneb Iesu Grist. Mi allwn wneuthur sylwadau am lawer o bethau yn y fan yma; ond byddaf yn fyr, ac a'u gadawaf heibio yn awr; a gweddiaf ar i Dduw beri i'm hanufudd-dod i wneud i eraill ofni pechu, rhag dioddef o honynt iau haiarn fel finau.

252. Oddeutu yr amser y'm gwaredwyd o'r brofedigaeth, cefais ddwywaith neu dair y fath fwynhad profiadol o gariad grasusol Duw, fel nas gallwn ond prin sefyll i fyny. Yr oedd mor anfesuredig o ryfeddol pan yr ymaflai ynof, a byddwn yn mwynhau y fath dangnefedd nefolaidd, mewn corph ac yspryd, fel na buaswn yn gymhwys, pe parhausai yn hir gyda mi, i gyflawni un gorchwyl.

253. Yn awr af rhagof i fynegu i ti, ddarllenydd, am y lleill o ymweliadau Duw â mi ar amryw amserau eraill: a'r cyntaf a soniaf am dano oedd pan ymunais mewn cyfeillach eglwysig â phobl Dduw yn Bedford. Ar ol i mi dystio wrth yr eglwys mai fy nymuniad oedd ymroddi i ordinhadau Crist mewn trefn gyda hwynt, a chael fy nerbyn ganddynt; a phan yr oeddwn yn meddwl am swpper diweddaf ein Harglwydd gyda'i ddisgyblion, cyn ei farwolaeth, bu yr Ysgrythyr hon yn dra gwerthfawr i mi: "Gwnewch hyn er coffa am danaf." Luc xxii. 19. Trwy gyfrwng hon y daeth yr Arglwydd i lawr i'm cydwybod, gan ddatguddio i mi werthfawrogrwydd ei farwolaeth, i'm gwaredu rhag y llid a fydd. Teimlais y pryd hyny ei fod yn fy ngolchi yn rhinwedd y cyfryw; ond wele, ni bum yn hir yn cyfranogi o'r ordinhadau nes daeth profedigaeth chwerw ac alaethus i'm cyfarfod—sef dymuno rhywbeth marwol i'm cydgymunwyr, pan y byddwn yn cydgyfranogi â hwynt o'r swpper sanctaidd; ond rhag i mi un tro roddi cydsyniad i'r ymgyrch annuwiol hwn, gorfyddid arnaf plygu fy mhen trwy gydol yr amser y byddwn yno, gan weddio ar Dduw am iddo fy attal rhag y fath gabledd pechadurus, ac iddo hefyd fendithio y bara a'r cwppan i'r cyfranogion, fel y byddai yn cael ei roddi i'r naill a'r llall o honynt. Tybiais mai yr achos y cefais fy mhrofi â'r brofedigaeth hon oedd, oherwydd nas daethum atynt y tro cyntaf gyda'r parch a'r hunan-ymwadiad ag y dylaswn.

254. Fel hyn y bum dros dri chwarter blwyddyn heb gael llonyddwch: ond o'r diwedd, daeth yr Arglwydd i mewn at fy enaid â'r un Ysgrythyr ag yr ymwelodd â mi o'r blaen; ar ol hyny teimlwn fy hun yn gysurus wrth gyfranogi o'r ordinhad fendigedig hòno, ac hyderais fy mod yn canfod Corph yr Arglwydd Iesu yn gywir yn cael ei dori am fy mhechodau, a bod ei waed gwerthfawr ef yn cael ei dywallt am, a thros, fy nghamweddau i.

255. Ar un pryd, yr oedd fy iechyd yn gwanychu, ac yn tueddu at y darfodedigaeth; ac yn y gwanwyn tarawyd fi mor ddisymwth â'r fath wendid mawr, fel y meddyliais na buaswn fyw yn hwy; yna y dechreuais o'r newydd ymroddi i hunanymholiad yn nghylch fy nghyflwr a'm hetifeddiaeth dragwyddol: gwnawn hyny yn arferiad gwastadol, yn enwedig mewn dydd o gystudd a thrallod; ac ymdrechwn i gadw fy hawl i'r bywyd yn oleu o flaen fy llygaid; ac yr wyf yn bendithio enw fy Iachawdwr beunydd am fy nghynorthwyo i wneud hyn.

256. Ond gan gynted ag y dechreuais alw i'm cof fy mhrofiadau o'r blaen am

ddaioni Duw i fy enaid, dyma luoedd aneirif o'm pechodau blaenorol yn heidio i'm gwyneb; ac yn eu mysg, a'r rhai a'm blinai fwyaf, oedd y rhai hyn—sef fy marweidd-dra, fy ffolineb, a'm clauarineb mewn dyledswyddau sanctaidd; fy syrthni yn mhob peth da, fy ngwagder o gariad at Dduw, ei ffydd, a'i bobl. Gyda hyn, fel diweddglo ar y cwbl, y cwestiynau canlynol ddeuai i'm meddw: Ai dyma ffrwythau Cristionogrwydd? A ydyw y rhai hyn yn arwydd o ddyn gwynfydedig?

257. Ar fy ystyriaeth o'r pethau hyn, fy nghlefyd a chwanegwyd yn ddau-ddyblyg arnaf; canys yn awr yr oedd fy enaid, y dyn oddimewn, wedi ei orlenwi ag euogrwydd; ac yr oedd daioni blaenorol Duw wedi ei dynu o'm meddwl mor llwyr, fel pe na buasai wedi bod yno erioed. Yr oedd fy enaid yn awr yn cael ei ddirdynu rhwng y ddwy ystyriaeth yma, bywyd a marwolaeth, "Byw nis caf, a marw nis anturiaf." Byddwn yr amser yma yn syrthio ac yn suddo yn fy yspryd, gan ymroddi yn hollol i golledigaeth. Ond fel yr oeddwn yn rhodio i fyny ac i wared yn y tŷ, disgynodd yr ymadrodd hwn o eiddo Duw ar fy yspryd: "A hwy wedi eu cyfiawnhau yn rhad trwy ei ras ef, trwy y prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu." Rhuf. iii. 24. O! y fath gyfnewidiad a wnaeth hyn arnaf.

258. Yn awr yr oeddwn fel un wedi deffro o gwsg breuddwydiog a gofidus; a chan glust-ymwrando, dychymygais ei fod yn llefain wrthyf: "Bechadur, yr wyt ti yn tybied, oherwydd dy bechodau a'th ffaeledigaethau, nas gallaf fi ddim achub dy enaid; eithr wele, mae fy Mab gyda mi; arno ef yr ydwyf yn edrych, ac nid arnat ti; ac myfi a wnaf â thi yn gyfatebol i'r boddlonrwydd a gefais ynddo ef." Wrth hyn y'm goleuwyd yn fawr yn fy meddwl; a gwnawd i mi wybod y gallai Duw gyfiawnhau pechadur ar bob amser; nid oedd iddo ond edrych ar Iesu Grist, a chyfrif ei haeddedigaeth ef oll i ni, a thyna yn ddiatreg y cwbl wedi ei orphen!

259. Ac fel yr oeddwn yn myfyrio ar hyn, yr Ysgrythyr hon hefyd a ddaeth yn awdurdodol ar fy yspryd: "Yr hwn a'n hachubodd ni, ac a'n galwodd â galwedigaeth sanctaidd, nid yn ol ein gweithredoedd ni, ond yn ol ei arfaeth ei hun a'i ras, yr hwn a roddwyd i ni yn Nghrist Iesu, cyn dechreu y byd." 2 Tim. i. 9. Yna y'm cyfodwyd i fyny, a gwelais fy hun yn mreichiau gras a thrugaredd. Er fy mod o'r blaen yn arswydo wrth feddwl am awr marwolaeth, yr oeddwn yn awr yn llefain am ymddatod; a chanfyddwn hawddgarwch a dymunoldeb yn wyneb angau, canys gwelais nas caem ni fyw byth yn ddidranc, hyd onid elom i'r byd tragwyddol. Nid yw y bywyd hwn ond megis breuddwyd i'w gymharu a'r hwn sydd fry. Y pryd hwnw y gwelais ddirfawr fwy yn y geiriau hyn: "Ac os plant, etifeddion hefyd; sef etifeddion i Dduw, a chyd etifeddion â Christ," &c. Rhuf. viii. 17. Nis gallaf, tra fyddwyf byw yn y byd hwn, fynegu dyfnder meddwl y gair hwn: "Etifeddion i Dduw." Duw ei hun yw eu hunig etifeddiaeth. Hyn a welais, a gwnaeth i mi ryfeddu; ond nid allaf ei ddarlunio.

260. Bryd arall yr oeddwn yn glaf iawn; a thrwy gydol yr amser hwnw byddai y gelyn yn ymosod yn fwy egr arnaf. Ymgyrchai at fy enaid pan y byddai yn neshau at y bedd; dyna'r pryd y cymerai gyfleusdra i ymwthio i guddio oddiwrthyf y profiadau a gefais gynt o ddaioni Duw, ac i osod ger fy mron ddychrynfeydd marwolaeth a barn Duw, nes yr ofnwn y darfyddai am danaf yn dragywydd: yr oeddwn fel pe buaswn yn teimlo fy hun yn disgyn i'r pwll: meddyliais nad oedd un ffordd i mi fyned ond i uffern. Fel yr oeddwn yn nghanol fy ofn, y geiriau am yr angylion yn dwyn Lazarus i fynwes Abraham a bicellodd arnaf, megis pe buasent yn dywedyd: "Fel hyn y bydd gyda thi pan ymadewi â'r byd hwn;" darfu hyn adfywio fy yspryd, a'm cynorthwyo i obeithio yn Nuw. Wedi i mi fyfyrio arno yn gysurus dros enyd, y gair yma a ddaeth yn bwysig ar fy meddwl: "O angau, pa le mae dy golyn? O uffern, pa le mae dy fuddugoliaeth?" 1 Cor. xv. 55. Ar hyn, daethum yn iach yn fy nghorph a'm meddwl ar unwaith, canys fy nghlefyd a'm gadawodd yn ebrwydd, a minau a rodiais yn gysurus yn fy ngwaith dros Dduw.

261. Yn mhen ychydig wedi hyn, cyn fy mod yn gwbl iach yn fy yspryd, yn ddisymwth dyma gwmwl dudew o dywyllwch yn fy ngorchuddio yn hollol, yr hwn a guddiodd odidogrwydd pethau Crist rhagof, mor effeithiol a phe nas gwelswn ac nas gwybuaswn ddim am danynt yn fy holl fywyd. Yr oeddwn hefyd mor ddiegni yn fy enaid i ymgais am Grist a'i ras bywiol, a phe buasai fy lwynau wedi eu dryllio, neu fod fy nhraed a'm dwylaw wedi eu rhwymo mewn cadwynau. Yr amser hwnw nis gallaswn ond prin ysgogi yn iawn, o ran y corph allanol, yr hyn oedd yn gwneuthur y ceryddon tumewnol yn fwy trwm ac annioddefol i mi.

262. Ar ol i mi fod yn y cyflwr hwn am dridiau neu bedwar, fel yr oeddwn yn eistead wrth y tân, teimlais y gair hwn yn seinio yn ddisymwth yn fy nghalon: "Y mae yn rhaid i mi fyned at Grist." Tra yr oeddwn fel hyn wedi fy nharo gyda syndod, dywedais wrth fy ngwraig: A oes y fath Ysgrythyr a hon: "Mae'n rhaid i mi fyned at Grist?" Hithau a'm hatebodd nas gallasai ddywedyd. Felly sefais enyd, gan fyfyrio a allaswn i gofio am y fath ymadrodd;—ïe, prin yr arosais ddau fynyd neu dri, nes bolltiodd y gair hwn ataf: "Ac at fyrddiwn o angylion." Heb. xii. 22; hefyd adnodau 23, 24, yn nghylch mynydd Sïon, a osodwyd o'm blaen. Ar hyn ciliodd y tywyllwch a'm hanghrediniaeth blaenorol ymaith, ac ymddangosodd pethau bendigedig y nef ger fy mron.

263. Yna mewn gorfoledd tra mawr y dywedais wrth fy ngwraig, "Yn awr mi wn, mi wn!" Bu y noswaith hòno yn un felys iawn i mi: ni chefais ond prin ei gwell yn fy holl fywyd. Hiraethais am gymdeithas pobl yr Arglwydd, fel y mynegaswn iddynt y pethau mawrion a wnaeth Duw i mi. Yr oedd Crist yn Grist gwerthfawr i'm henaid y noson hòno; prin y gellais gael hamdden i orwedd gan lawenydd, gorfoledd, a heddwch, wrth ganfod yr Arglwydd Iesu a'r llywodraeth ar

ei ysgwyddau. Ni pharhaodd y gorfoledd mawr hwn gyda mi hyd y boreu; ond bu y ddeuddegfed bennod o'r Hebreaid yn fendigedig i mi dros ddyddiau lawer.

264. Dyma'r geiriau y crybwyllais am danynt uchod: "Eithr chwi a ddaethoch i fynydd Sïon, ac i ddinas y Duw byw, y Jerusalem nefol, ac at fyrddiwn o angylion, i gymanfa a chynulleidfa y rhai cyntaf-anedig, y rhai a ysgrifenwyd yn y nefoedd, ac at Dduw, Barnwr pawb, ac at ysprydoedd y cyfiawn y rhai a berffeithiwyd, ac at Iesu, Cyfryngwr y testament newydd, a gwaed y taenelliad, yr hwn sydd yn dywedyd pethau gwell na'r eiddo Abel." Heb. xii. 22, 23. Arweiniodd yr Arglwydd fi trwy yr ysgrythyrau hyn drosodd a throsodd; weithiau at y gair hwn, ac yna at y gair arall, ac amlygodd i mi ogoniant rhyfeddol yn mhob un o honynt. Mae y geiriau hyn yn fynych er's hyny wedi bod yn adnewyddiad i'm hyspryd: bendigedig fyddo Duw am drugarhau wrthyf!

## HANES BYR O'M GALWAD I'R WEINIDOGAETH.

265. Yn awr, ddarllenydd, yr wyf yn myned i adrodd wrthyt, yn fyr, am fy ngwaith yn pregethu y Gair, ac am gyfraniad haelionus Duw tuag ataf yn hyn hefyd. Wedi i mi ddyfod yn ddeffröus am bum' mlynedd neu chwech, a gweled fy angen o'm Harglwydd Iesu Grist, rhai o'r duwiolion—ïe, y cadarnaf eu deall, a'r mwyaf diargyhoedd yn eu rhodiad, fel y tybid, a farnasant i'r Arglwydd fy nghynysgaeddu â dealldwriaeth i adnabod, mewn mesur, ei feddwl yn ei Air sanctaidd; a rhoddi i mi hefyd ddrws ymadrodd, er adeiladaeth i eraill; gan hyny, dymunasant yn daer arnaf i gymeryd y gwaith mewn llaw, a rhoddi gair o gyngor iddynt yn y cyfarfodydd, er eu hadeiladaeth.

266. Yr hyn, ar y cyntaf, a barodd i mi wrido â chywilyddio; ond gan eu bod yn parhau i daer-geisio genyf, cydsyniais o'r diwedd â'u dymuniad hwynt; a gwnaethum fy ngoreu ddwywaith, mewn dau gyfarfod, ond yn ddirgelaidd, a gyda llawer o wendid a llesgedd, i ddatguddio fy nawn yn eu plith; a thystiasant mewn sobrwydd, ar ol i mi derfynu, megis o flaen Duw, iddynt dderbyn cysur a lles i'w heneidiau; a diolchasant i Dduw am ei ras i mi.

267. Ar ol hyn, ar amserau, pan fyddai rhai o honynt yn myned i'r wlad i ddysgu, hwy a fynent i minau eu canlyn; yn mha le nid allwn, ac ni feiddiwn eto arferyd fy nawn yn gyhoeddus, er y byddwn yn gwneud hyny yn wastadol mewn lleoedd dirgel. Ond pan ddaethum i blith y bobl ddefosionol ag oedd yn y parthau hyny, byddwn weithiau yn traethu gair o gyngor iddynt, yr hyn a dderbyniasant, gan lawenhau yn nhrugaredd Duw ataf fi, a chyfaddefasant fod eu heneidiau yn derbyn budd a llesâd nid bychan oddiwrthyf.

268. O'r diwedd, trwy ddymuniad taer yr eglwys yn wastadol arnaf, cefais fy ngalw yn fwy neillduol i bregethu y gair yn fwy mynych a chyhoeddus, nid yn unig yn mhlith y rhai hyny ag oeddynt yn credu, ond hefyd i gymhell yr efengyl i'r rhai na dderbyniasent hyd yn hyn y ffydd o honi. Oddeutu yr amser hwn cefais dystiolaeth yn fy meddwl fod genyf ddymuniad dirgel i fyned yn mlaen gyda gwaith y weinidogaeth; er fy mod ar yr un pryd yn cael fy mlino yn dost gan bicellau tanllyd y fall mewn perthynas i'm cyflwr tragwyddol.

269. Ond er hyny, nid allwn ymfoddloni oddieithr fy mod yn ymarferyd fy nawn yn ddyfal; yn hyn cefais fy nghefnogi yn ddirfawr, nid yn unig gan ddymuniad parhaus y duwiol, ond hefyd gan eiriau yr apostol Paul: "Ond yr ydwyf yn atolwg i chwi, frodyr (chwi a adwaenoch dŷ Stephanus, mai blaenffrwyth Achaia ydyw, ac iddynt ymosod i weinidogaeth y saint) fod o honoch chwithau yn ddarostyngedig i'r cyfryw, ac i bob un sydd yn cyd-weithio, ac yn llafurio." 1 Cor. xvi. 15, 16.

270. Yn y testyn hwn canfyddais na fwriadodd yr Yspryd Glân i ddynion â doniau ganddynt, a gallu i'w cyhoeddi, eu claddu yn y ddaear; eithr yn hytrach a orchymynodd i'r cyfryw eu harfer; ac hefyd cenmyl y rhai ag oeddynt yn gwneud felly. "Y maent wedi ymroddi eu hunain i weinidogaeth y saint:" byddai y geiriau hyn yn rhedeg drwy fy meddwl yn barhaus, i'm nerthu a'm cefnogi i lefaru dros Dduw. Cefais fy nghyfnerthu yn fawr hefyd ag Ysgrythyrau eraill; a chawn esiamplau duwiolion, y sonir am danynt yn y Bibl, ac mewn hanesyddiaeth—megis, Act. viii. 4; xviii. 24, 25. 2 Pedr i. 10. Rhuf. xii. 6—8. *Fox's Acts and Monuments.*

271. Er fy mod yn ystyried fy hun y mwyaf annheilwng o'r holl saint; eto, gyda llawer o ofn, wrth edrych ar fy ngwaeledd a'm gwendid, dechreuais ar y gwaith, a gwnaethum fy ngoreu, yn ol y dawn a'r mesur o ffydd a dderbyniais, i bregethu yr efengyl fendigedig, yr hon a ddangosodd Duw i mi yn Ngair sanctaidd y gwirionedd. Pan ddaeth hyn yn hysbys, ymgynullodd y bobl yn nghyd yn finteioedd, o barthau pellenig o'r wlad, i wrando y gair; er iddynt, mae yn dra thebyg, ddyfod yno ar amryw ddibenion.

272. Ac yr wyf yn diolch i Dduw, efe a roddes i mi ryw fesur o ymysgaroedd a thosturi at eu heneidiau, yr hyn a wnaeth i mi ymestyn yn y blaen gyda diwydrwydd mawr i chwilio am y cyfryw air ag a allai, gyda bendith yr Arglwydd, ddal a deffroi y gydwybod: a rhyngodd bodd i'r Arglwydd edrych ar ddymuniad ei wasanaethwr, oherwydd ni ddarfu i mi bregethu yn hir, cyn i rai ddechreu cael eu dwysbigo, a'u trallodi yn fawr yn eu meddyliau, wrth ganfod mawredd eu pechodau, a'u hangen o Iesu Grist i'w hachub ganddo.

273. Ond ar y cyntaf, nid oeddwn yn credu y byddai i Dduw, trwyddof fi, lefaru wrth galon un dyn, gan gyfrif fy hun yn wastadol yn annheilwng; eto, y rhai hyny ag oeddynt wedi cael eu hargyhoeddi, a'm carent yn fawr; er y byddwn yn ameu

ddarfod iddynt gael eu deffroi trwy fy offerynoliaeth i, byddent yn wastadol yn cadarnhau ac yn cyfaddef y peth o flaen pobl Dduw, ac yn bendithio Duw am danaf, (ystruan annheilwng ag wyf!) a chyfrifent fi yn offeryn yn llaw Duw i ddangos iddynt ffordd iachawdwriaeth.

274. Oherwydd fy mod yn eu gweled mor sefydlog yn eu geiriau, ac mor ddifrifol yn ymdrechu am wybodaeth o Iesu Grist, gan lawenychu am i Dduw fy nanfon atynt, dechreuais farnu y gallai'r peth fod felly, ac i Dduw arddel yn ei waith y fath ddyn gwael ag oeddwn i. Wedi hyn daeth y gair hwn o eiddo Duw ataf gydag adnewyddiad melys: "Bendith yr hwn oedd ar ddarfod am dano a ddeuai arnaf; a gwnawn i galon y wraig weddw lawenychu." Job xxix. 13.

275. Oherwydd hyn, gan hyny, llawenychais yn fawr; ïe, byddai dagrau y rhai y darfu i Dduw eu deffroi drwy fy mhregethiad yn peri diddanwch a chefnogaeth i mi; canys meddyliwn am y geiriau hyn: "Oblegid os myfi a'ch tristâf chwi, pwy yw yr hwn a'm llawenhâ i, ond yr hwn a dristâwyd genyf fi?" 2 Cor. ii. 2. A thrachefn: "Onid wyf yn apostol i eraill, eto yr wyf i chwi: canys sêl fy apostoliaeth i ydych chwi yn yr Arglwydd." 1 Cor. ix. 2. Y pethau hyn oeddynt yn dystiolaethau ychwanegol fod Duw wedi fy ngalw, a'i fod yn sefyll gyda mi yn y gwaith.

276. Wrth bregethu, cymerais sylw ar un peth yn neillduol—hyny yw, ddarfod i'r Arglwydd fy nhywys a'm cyfarwyddo i ddechreu gyda phechaduriaid, sef i euog-farnu pob cnawd; i gyhoeddi fod melldith Duw, trwy'r gyfraith, oherwydd pechod, yn gorwedd ar bawb, ac yn dal gafael ar bob dyn, fel y maent yn dyfod i'r byd. Yn awr, y rhan hòno o'r gwaith a gyflawnais gyda theimlad dwys, canys yr oedd dychrynfeydd y gyfraith ac euogrwydd, oblegid fy nghamweddau, yn pwyso yn drwm ar fy nghydwybod. Pregethwn i eraill yr hyn ag oeddwn yn ei deimlo fy hunan, a'r hyn a wnaeth i'm henaid ochain a griddfan yn annhraethadwy.

277. Yn wir, yr oeddwn iddynt hwy fel un wedi ei ddanfon atynt oddiwrth y meirw; aethum fy hun mewn cadwynau i bregethu i'r rhai oedd mewn cadwynau; dygais y tân hwnw yn fy nghwydwybod fy hun ag oeddwn yn cynghori eraill i ochelyd rhagddo. Gallaf ddywedyd mewn gwirionedd, pan oeddwn yn pregethu, y byddwn yn llawn o euogrwydd a dychryn hyd at ddrws y pulpid: ond tra yr aroswn yno, cawn ryddid i'm meddwl hyd nes gorphenwn fy ngwaith; ac yna yn ddisymwth, cyn y deuwn i lawr o'r pulpid, byddwn gynddrwg ag o'r blaen; er hyny, Duw a'm dygodd yn mlaen; ond yn ddiau gyda llaw gadarn, oblegid nid allai nac euogrwydd nac uffern fy nghymeryd ymaith oddiwrth fy ngwaith.

278. Fel hyn y bum dros ddwy flynedd yn llefaru yn erbyn pechodau dynion, a'u cyflwr dychrynedig o'u herwydd. Ar ol hyn yr Arglwydd a ymwelodd â'm henaid mewn cariad, sicrwydd, a diddanwch, yn wyneb haeddiant Iesu Grist; o

ganlyniad, cyfnewidiais yn awr yn fy null o bregethu (er fy mod yn parhau i bregethu yr hyn a welwn ac a deimlwn), gan ymdrechu i osod allan ein Hiachawdwr yn ei berthynas â'i ddaioni i'r byd; ac fe'm nerthwyd hefyd i euog-farnu, a bwrw ymaith yr holl bilerau gau a hudol, ar ba rai y mae y byd yn ymorphwys arnynt, ac yn ymollwng i golledigaeth. Glynais wrth y pethau hyn cyhyd ag efo'r lleill, a datguddiais y cyfryw ar gyhoedd i'r bobl.

279. Wedi hyn, Duw a'm harweiniodd i rywfaint o'r dirgelwch sydd mewn undeb â Christ: hyn hefyd a gyhoeddais i'r bobl. Pan oeddwn wedi myned drwy y tri phwnc yma am bùm mlynedd neu ragor, rhwystrwyd fi yn fy ngwaith, a bwriwyd fi i garchar, lle y bum dros yr un yspaid o amser yn dioddef, mewn ffordd o gadarnhau y gwirionedd ag y bum o'r blaen yn dwyn tystiolaeth drosto, yn ol yr Ysgrythyrau, drwy fy ngweinidogaeth.

280. Wrth bregethu, yr wyf yn diolch i Dduw, byddai fy nghalon yn fynych, gyda dwysder mawr, yn llefain arno am iddo wneud i'r gair oeddwn yn gyhoeddi fod yn effeithiol i achub eneidiau, canys ofnwn rhag i'r gelyn gymeryd y gair ymaith o'r gydwybod; oherwydd paham, byddwn yn ymroi i lefaru y gair yn y fath fodd, os byddai bosibl, ag i gysylltu y pechadur â'r pechod y llefarwn yn ei erbyn.

281. Wedi gorphen y bregeth, byddai yn ofid calon i mi wrth feddwl fod y gair wedi disgyn megis gwlaw ar greig-leoedd; a llefwn, O! na byddai i'r rhai fu yn gwrando arnaf heddyw ddim ond gweled, fel ag yr ydwyf fi, pa beth yw pechod, marwolaeth, uffern, a melldith Duw; hefyd y fath ras, cariad, trugaredd, a thosturi, y mae Duw yn ei ddangos i bechaduriaid, yn wyneb Iesu Grist, y rhai, wrth natur, ydynt yn ddieithriaid a gelynion iddo. Ac yn wir, dywedais yn aml, o'm calon, o flaen Duw, "Pe gwnai fy nghrogi fi i fyny o flaen eu llygaid fod yn foddion i'w deffroi, a'u cadarnhau yn y gwirionedd, ymostyngwn i hyny yn llawen."

282. Canys bum wrth bregethu, yn enwedig wrth draddodi yr athrawiaeth o fywyd yn Nghrist heb weithredoedd y ddeddf, megis pe buasai angel yr Arglwydd yn sefyll o'r tu ol i'm cefn i fy nghynorthwyo; yr oedd ar fy enaid gyda'r fath dystiolaeth nerthol a nefolaidd, tra byddwn yn datguddio yr anfeidroldeb o hono i eraill, fel nas gallwn ymfoddloni dywedyd, "Yr wyf yn credu," "Yr ydwyf yn sicr," ond yn fwy na sicr (os yw yn gywir dywedyd felly) fod y gwirioneddau hyny oeddwn yn eu tystiolaethu yn wirionedd.

283. Pan aethum gyntaf i bregethu ar lêd, y doctoriaid ac offeiriaid y wlad oeddynt yn ymsenu yn gyhoeddus i'm herbyn: ond penderfynais na roddwn sen am sen, ond edrych pa nifer o'u proffeswyr a'u dilynwyr cnawdol hwy a allwn eu hargyhoeddi o'u cyflwr truenus trwy'r ddeddf, a'u hangen o werthfawrogrwydd Crist; canys meddwn: "A'm cyfiawnder a dystiolaetha gyda mi o hyn allan, pan ddêl hyny yn gyflog i mi o flaen dy wyneb di." Gen. xxx. 33.

284. Nid oeddwn yn gofalu am ymyraeth mewn pethau ysgafn a dadleugar yn mhlith y seintiau; er hyny, yr oedd yn werthfawr genyf ymddiddan am air y ffydd, a'r maddeuant a gwaredigaeth rhag pechodau trwy ddioddefaint anfeidrol a marwolaeth yr Iesu bendigedig: ond mewn perthynas i'r pethau eraill, meddaf, gadawn hwynt yn llonydd, canys canfyddais nad oeddynt ond meithrin anghydfod; ac o'u hymdrin, nad allent na'n cymeradwyo na'n hanghymeradwyo gerbron Duw. Heblaw hyny, ystyriais fod y gwaith oedd o'm blaen yn arwain i gylch arall—ïe, i gario gair y bywyd i glywedigaeth pechaduriaid; ac wrth hyny y glynais.

285. Ni ddarfu i mi geisio na meiddio ymarferyd â gwaith gwŷr eraill wrth bregethu (Rhuf. xv. 18, &c., er nad wyf fi yn condemnio pawb a wnant felly), canys yr oeddwn yn credu yn ddiysgog, a chefais allan, trwy brofiad, fod yn bosibl i'r hyn a ddysgwyd i mi yn yr Ysgrythyr ac Yspryd Crist, gael ei lefaru, ei amddiffyn, a'i gadarnhau, yn ol y gydwybod mwyaf tyner a sefydlog. Ac er na ddywedaf yn awr y cwbl ag wyf yn hysbys o hono, eto fy mhrofiad a gafodd fwy o awdurdod yn y testyn hwnw o'r Ysgrythyr (Gal. i. 11, 12) nag y mae llawer yn feddwl.

286. Os byddai i neb o'r rhai a gawsent eu deffro trwy fy ngweinidogaeth ar ol hyny encilio (megis y mae gormod yn gwneuthur), gallaf ddywedyd yn wirioneddol fod y golled yn fwy ar fy meddwl na phe buasai un o'm mhlant yn cael eu claddu. Yr wyf yn meddwl yn ddiau y gallaf ddywedyd hyn o flaen yr Arglwydd, nad aeth dim mor agos ataf a hyny, oddieithr yr ofn o golli iachawdwriaeth fy enaid. Cyfrifais fel pe buasai genyf adeiladaeth dêg ac arglwyddiaeth yn y lleoedd hyny y ganed fy mhlant. Cafodd fy nghalon ei rhwymo i fyny yn y gogoniant o'r gwaith bendigedig hwn, fel yr ystyriwn fy hun yn fwy urddasol ac anrhydeddus gan Dduw yn hyn na phe buasai yn fy ngwneuthur yn ymerawdwr yn y byd, neu yn arglwydd ar holl ogoniant y ddaear, hebddo. O! mor felys oedd y geiriau hyn: "Gwybydded, y bydd i'r hwn a drodd bechadur oddiwrth gyfeiliorni ei ffordd, gadw enaid rhag angau, a chuddio lluaws o bechodau." Iago v. 20. "Ffrwyth y cyfiawn sydd fel pren y bywyd: a'r neb a enillo eneidiau sydd ddoeth." Diar. xi. 30. "A'r doethion a ddisgleiriant fel disgleirdeb y ffurfafen; a'r rhai a droant lawer i gyfiawnder, a fyddant fel y sêr byth yn dragywydd." Dan. xi. 3. "Canys beth yw ein gobaith ni, neu ein llawenydd, neu goron ein gorfoledd? onid chwychwi gerbron ein Harglwydd Iesu Grist yn ei ddyfodiad ef? Canys chwychwi yw ein gogoniant a'n llawenydd ni." 1 Thes. ii. 19, 20. Y rhai hyn, meddaf, yn nghyd â llawer eraill o'r cyffelyb, oeddynt yn fy lloni yn fawr.

287. Deliais sylw, mai yn y lle yr oedd genyf fi waith i'w wneuthur dros Dduw, y byddwn yn teimlo ei fod ef yn gweithio ar fy yspryd i ddymuno am gael pregethu yno. Deliais sylw yn mhellach, fod y cyfryw eneidiau, yn neillduol, yn cael eu gosod ar fy nghalon, ac i mi gael fy nghyffroi i ddymuno am eu hiachawdwriaeth.

Sylwais hefyd, fod gair a deflid i mewn ar ddamwain, yn effeithio mwy o ddaioni mewn pregeth na'r cwbl a lefarwn hebddo. Bryd arall, pan fyddwn yn tybied na wnaethum ddim daioni, y byddwn wedi gwneuthur fwyaf; ac amser arall, pan y tybiwn fy mod yn gwneuthur llawer, byddwn yn hollol aflwyddiannus.

288. Sylwais eto, lle byddai gwaith i'w wneuthur ar bechaduriaid, yno byddai y diafol yn dechreu rhuo yn eu calonau; ïe, yn aml, pan fyddai y byd annuwiol yn terfysgu fwyaf, yno byddai eneidiau yn cael eu deffroi trwy y Gair. Gallwn enwi rhai engreifftiau, ond ymattaliaf.

289. Fy mhrif ddymuniad, yn nghyflawniad fy ngweinidogaeth, oedd am gael myned i bregethu i'r lleoedd mwyaf tywyll yn y wlad; nid am fy mod yn casâu goleuni (canys nid oeddwn yn ofni pregethu yr efengyl i bawb), ond am fy mod yn teimlo fy yspryd yn tueddu yn fwyaf at y gwaith o ddeffroi a dychwelyd; ac yr oedd y gair oeddwn yn ddwyn yn tueddu y ffordd hòno: "Ac felly gan ymorchestu i bregethu yr efengyl, nid lle yr enwid Crist; fel nad adeiladwn ar sail un arall: eithr megis y mae yn ysgrifenedig, I'r rhai ni fynegwyd am dano, hwynthwy a'i gwelant ef; a'r rhai ni chlywsant, a ddeallant." Rhuf. xv. 20, 21.

290. Yn fy mhregethiad byddwn yn ddiau mewn poen, fel pe buaswn mewn gwewyr esgor i ddwyn plant i Dduw; ac nid allwn gael fy moddloni mewn dim oddieithr bod ffrwythau yn ymddangos oddiwrth fy ngwaith. Os byddwn yn anffrwythlon, nid oedd waeth genyf pwy a'm canmolai; ond os yn ffrwythlon, nid oeddwn yn prisio pwy a'm heuogfarnai. Myfyriais ar yr Ysgrythyr hòno: "Wele, plant ydynt etifeddiaeth yr Arglwydd: ei wobr ef yw ffrwyth y groth. Fel y mae saethau yn llaw y cadarn; felly y mae plant ieuenctyd. Gwyn ei fyd y gwr a lanwodd ei gawell saethau â hwynt: nis gwaradwyddir hwy, pan ymddiddanant â'r gelynion yn y porth." Salm. cxxvii. 3—5.

291. Nid oeddwn yn cael dim boddlonrwydd i fy meddwl wrth weled rhai yn llyncu daliadau, os byddent yn anwybodus o Iesu Grist, a gwerthfawrogrwydd eu hiachawdwriaeth. Argyhoeddiad o'u pechodau, yn enwedig anghrediniaeth, a chalonau wedi eu gosod ar dân am gael eu hachub gan Iesu Grist, ac i'w heneidiau gael eu sancteiddio, dyma y rhai a gyfrifwn yn ddedwydd.

292. Yn y gwaith hwn, fel yn mhob peth arall, canlynid fi â phrofedigaethau, a hyny o amryw natur, fel y'm gwan-galonid fi yn fynych, gan ofni nas gallwn lefaru gair yn synwyrol er adeiladaeth i'r bobl: yn y cyfamser yr oeddwn wedi fy meddiannu â gwendid corphorol, fel nas gallwn ond prin gerdded i le o addoliad.

293. Weithiau, pan fyddwn yn pregethu, byddwn yn cael fy mlino yn alaethus gan feddyliau cableddus, ac yn cael fy hudo yn gryf i adrodd y cabledd â'm genau gerbron y bobl. Droion eraill, ar ol dechreu llefaru gydag eglurdeb a rhwyddineb, byddwn, cyn y diwedd, yn cael fy nallu a'm cam-arwain, a'm gyru oddiwrth y

pethau y bum yn sylwi arnynt o'r blaen; a thrwy hyny byddai fy ymadrodd yn cael ei gyfyngu gerbron y bobl, megis pe buaswn heb wybod na chofio yr hyn oeddwn yn ei gylch.

294. Pan y byddwn, ar amserau eraill, yn pregethu ar ryw ran fywiog o'r Ysgrythyrau sanctaidd, byddai y gelyn yn sisial wrthyf, "Beth! a bregethi di hyn? Os gwnei hyny, ti a gondemni dy hun; canys y mae dy enaid yn llawn o euogrwydd o'r peth hwn; gan hyny, na phregetha felly mwyach: neu, gwna hyny mor ysgafn a gwiliadwrus, fel ag i'th alluogi i ddianc; rhag i ti, wrth ddeffroi ac argyhoeddi eraill, osod y fath euogrwydd ar dy gydwybod dy hun fel na ellir byth ei dynu ymaith.

295. Ond yr wyf yn diolch i'r Arglwydd, efe a'm cadwodd oddiwrth gydsynio â'r anogaethau echryslawn hyn; ond yn hytrach, gyda Samson, ymgrymais â'm holl nerth i gondemnio pechod, pa le bynag y cawn ef; ïe, er y byddwn yn tynu i lawr euogrwydd ar fy nghydwybod fy hun. "Bydded farw fy einioes," ebe fi, "gyda'r Philistiaid," Barn. xvi. 30, yn hytrach nag y byddo i mi drin Gair Duw yn dwyllodrus. "Tydi yr hwn wyt yn dysgu eraill, dysg dy hun yn gyntaf." Mae yn llawer gwell i ti gondemnio dy hun, wrth bregethu yn amlwg i eraill, nag i ti, wrth geisio ymgadw dy hun, gelu y gwirionedd mewn anghyfiawnder. Clod i Dduw am ei gymhorth i mi yn hyn.

296. Tra byddwn wrth y gwaith bendigedig hwn o eiddo Crist, cefais fy nhemtio i falchder calon; ond ymddygodd yr Arglwydd yn dirion tuag ataf o'i drugaredd werthfawr, fel nas gellais roddi lle i'r cyfryw beth; canys fy arferiad oedd edrych i mewn beunydd i fy nghalon; a chanfyddwn yno y fath luaws o ddrygau ag a wnai i mi ymostwng yn isel, er cymaint oedd fy noniau a'm cyrhaeddiadau. Teimlais y swmbwl hwnw yn y cnawd (2 Cor. xii. 7) yn drugaredd rasol i mi.

297, Byddai hefyd, heblaw y peth hwn, ryw le hynod neu gilydd yn y Gair yn cael ei osod o flaen fy meddwl—yr hwn a gynwysai ynddo ryw ymadrodd llym a miniog yn nghylch colledigaeth yr enaid, er cymaint fyddai y doniau a'r synwyr: er engraifft, bu yr ymadrodd hwn yn dra buddiol i mi: "Pe llefarwn â thafodau dynion ac angylion, ac heb fod genyf gariad, yr wyf fel efydd yn seinio, neu symbal yn tincian." 1 Cor. xii. 1.

298. Symbal yn tincian sydd offeryn euraidd, â pha un y mae cerddorion cywrain yn gwneuthur y fath beroriaeth felysber ag a enyno y galon â llawenydd, fel na allo neb a'i clywo ond braidd ymattal rhag dawnsio; ac er hyny, nid oes bywyd ynddo, ac nid yw y peroriaeth yn deilliaw oddiwrtho ond trwy gywreinrwydd y sawl a fyddo yn chwareu gydag ef; felly, ynte, dichon yr offeryn o'r diwedd ddyfod i'r dim, a darfod yn hollol, er i'r fath fiwsig hyfryd gael ei gynyrchu o hono gynt.

299. Fel hyn yn gymwys yr oeddwn yn canfod y byddai gyda'r rhai hyny ag

oedd â doniau ganddynt, ac heb ras. Y maent yn llaw Crist, fel y symbal yn llaw Dafydd; ac fel y gallai Dafydd â'r symbal wneuthur y fath lawenydd yn ngwasanaeth Duw ag a ddyrchafai galonau yr addolwyr, felly dichon Crist wneuthur defnydd o'r gwŷr doniol hyn, yn y fath fodd ag y byddo iddo trwyddynt ddenu eneidiau ei bobl: er hyn oll, wedi iddo orphen y cwbl, eu crogi hwynt i fyny megis pethau difywyd, er eu bod yn tincian.

300. Yr ystyriaethau hyn oeddynt fel gordd ar ben balchder a chwant ar ol gwag-ogoniant. Pa beth, ebe fi, a ymfalchiaf fi am fy mod yn efydd yn seinio? A ydyw yn fraint fawr cael bod yn grwth? Onid oes mwy o Dduw yn y creadur lleiaf o berchen einioes nag sydd yn y rhai hyn? Heblaw hyny, gwyddwn na byddai cariad byth yn marw; felly bernais fod ychydig o ras, ychydig o gariad, ac ychydig o wir ofn Duw, yn well na'r holl ddoniau. Credais hefyd yn ddiamheuol, fod yn bosibl i eneidiau nad allent ond prin ateb cwestiwn yn ddealladwy ac yn rheolaidd—ïe, meddaf, fod yn ddichonadwy iddynt hwy feddiannu mwy o ras fil o weithiau, a thrwy hyny fwynhau cariad a ffafr yr Arglwydd yn helaethach, na'r rhai hyny, trwy nerth eu dysg a'u doniau, a allent areithio fel angylion.

301. Ystyriais hefyd fod doniau ynddynt eu hunain yn dda, i'r diben yr ordeiniwyd hwynt—sef er adeiladaeth i eraill; eto, yn ddifudd, ac yn analluog, o honynt eu hunain, i achub eneidiau eu perchenogion; ac nid ydynt yn un arwydd o gyflwr dedwydd dyn, eithr yn unig fel moddion goruchwyliaethol Duw i rywrai; am y defnyddioldeb neu yr annefnyddioldeb a wneir o honynt, y gorfyddir iddynt, mewn ychydig amser, roddi cyfrif i'r hwn sydd yn barnu y byw a'r meirw.

302. Hyn hefyd a ddangosodd i mi—fod doniau, wrthynt eu hunain, yn dra pheryglus, oherwydd y drygioni sydd yn eu canlyn: sef dymuniad ar ol gwag-ogoniant, hunan-dyb, &c., y rhai sydd hawdd i'w chwythu i fyny gan glod Cristionogion anystyriol, er eu bod yn dra niweidiol i'r gweiniaid, i'w gwthio i fagl Satan, gelyn eneidiau dynion.

303. Gwelais, gan hyny, fod yn angenrheidiol i'r hwn sydd o berchen doniau, adnabod eu natur sef, nad allant ddwyn eu perchenogion i gyflwr cadwedigol, fel na byddo iddynt ymorphwys arnynt, a dyfod yn fyr o ras a chariad Duw.

304. Mae gan y rhai sydd o berchen doniau hefyd achos i rodio yn ostyngedig gyda Duw, ac i fod yn fychain yn eu golwg eu hunain; a chofio mai nid eu heiddo hwy ydyw eu doniau, ond eiddo yr eglwys; a thrwyddynt hwy y maent yn cael eu gwneuthur yn weinidogion, ac y gorfyddir iddynt yn y diwedd roddi cyfrif manwl o'u goruchwyliaeth i'r Arglwydd Iesu Grist; a rhoddi cyfrif da fydd yn beth gwynfydedig.

305. Bydded i bawb, gan hyny, wneuthur yn fawr o'r ychydig, yn ofn yr Arglwydd. Doniau, yn wir, ydynt werthfawr a dymunol; ond y mae llawer o ras

ac ychydig o ddoniau, yn well na llawer o ddoniau heb ddim gras. Nid yw yn dywedyd, Yr Arglwydd a ddyry ddoniau a gogoniant, ond Yr Arglwydd a ddyry ras a gogoniant; a bendigedig yw yr hwn a wnelo Duw yn gyfranog o ras achubol, canys hwn sydd flaenbrawf o ogoniant.

306. Ond pan welodd Satan nad oedd ei waith yn fy nhemtio fel hyn yn ateb ei ddibenion—sef, dadymchwelyd fy ngweinidogaeth, a'i gwneuthur yn ddilês, efe a gymerodd ffordd arall i gyffroi meddyliau yr anwybodus a'r cenfigenus, i'm llwytho ag absenau celwyddog. Gallaf dystio, fod pobpeth a allasai y diafol ddyfeisio, neu ei offerynau ddychymygu, yn cael eu taenu ar hyd ac ar lêd y wlad yn fy erbyn, gan dybied y gallent drwy hyn ddwyn fy ngweinidogaeth i warth a dirmyg, a'i gwneud yn wrthodedig.

307. Dechreuwyd chwedleua i fyny ac i lawr yn mhlith y bobl, fy mod i yn ddewin, yn Jesuit, yn lleidr pen y ffordd, a'r cyffelyb. I'r holl achwynion hyn, dywedaf, y gŵyr Duw fy mod yn ddieuog. Ond am fy nghyhuddwyr, bydded iddynt barotoi eu hunain i gyfarfod â mi gerbron brawdle Mab Duw, ac i ateb am yr holl bethau y maent yn achwyn arnaf, yn nghyd â'u holl gamweddau eraill, oddieithr i Dduw roddi edifeirwch iddynt yn y cyfamser; am yr hyn beth yr ydwyf yn wastad yn gweddio o ewyllys fy nghalon.

308. Ond yr hyn oeddynt yn ei adrodd gyda'r hyder a'r hyfdra mwyaf ydoedd hyn—sef fod genyf fy ngordderchwragedd, fy mhuteiniaid, a'm bastardiaid; ïe, a dwy wraig ar unwaith. Yn awr yn yr enllibau hyn (yn nghyd â'r rhai eraill), yr ydwyf yn llawenhau o'u plegid, gan nad ydynt ond enllibau coegddrwg dynion ynfyd ac anwireddus, wedi eu bwrw arnaf gan y diafol a'i hâd; a phe buaswn heb dderbyn y fath enllibau gan y byd annuwiol, buasai arnaf eisieu un arwydd o fod yn sant a phlentyn i Dduw. "Gwyn eich byd," ebe'r Arglwydd Iesu, "pan y'ch gwaradwyddant ac y'ch erlidiant, ac y dywedant bob drygair yn eich erbyn er fy mwyn i, a hwy yn gelwyddog. Byddwch lawen a hyfryd, canys mawr yw eich gwobr yn y nefoedd: oblegid felly yr erlidiasant hwy y prophwydi a fu o'ch blaen chwi." Mat. v. 11, 12.

309. Y pethau hyn, gan hyny, o ran fy hunan, ni'm blinant; ïe, pe byddent ugeinwaith mwy. Mae genyf gydwybod esmwyth; ac er dywedyd o honynt fy mod yn ddrwg-weithredwr, caiff y rhai hyny eu cywilyddio sydd yn cam-achwyn ar fy ymarweddiad da i yn Nghrist Iesu fy Iachawdwr.

310. Pa beth a ddywedaf wrth y rhai fu yn poeri yn fy wyneb fel hyn? A fygythiaf fi hwynt? A geryddaf fi hwynt? A ymbiliaf fi arnynt i attal eu tafodau? Na wnaf ddim. Oni bai fod y cyfryw gelwyddau yn gwneud eu haddolwyr yn addfed i golledigaeth, mi ddywedwn wrthynt am eu cyhoeddi yn fwy-fwy, canys chwanega hyny at fy ngogoniant.

311. Am hyny, yr wyf yn rhwymo y celwyddau a'r absenau hyn megis addurn am danaf; canys y mae yn perthyn i'm proffes i gael ei dirmygu a'i dibrisio; megis nad ydyw yr holl bethau hyn ddim amgen, fel y mae fy enw a'm cydwybod yn dwyn tystiolaeth, yr wyf yn llawen yn dwyn gwaradwydd er mwyn Crist.

312. Yr wyf hefyd yn galw yr holl rai hyny a gymerasant y gorchwyl mewn llaw i'm goganu ag un o'r pethau a ragddywedwyd—sef, fy mod yn ddrwg gyda menywod eraill, a'r cyffelyb, yn ynfydion twyllodrus. Ar ol iddynt wneuthur eu gwaethaf, a chwilio mor fanwl ag y gallent, nid oes un fenyw yn y nef, neu ar y ddaear, neu yn uffern, a ddichon ddywedyd ddarfod i mi ar un amser, mewn unrhyw le, ar hyd y dydd neu y nos, gynyg gorwedd gyda hwynt. Ac nid wyf yn erfyn ar fy ngelynion i dybied yn dda am danaf—dim o'r fath beth; nid wyf yn y peth hwn yn deisyf ar neb fy nghoelio fi: credent neu beidient, yr un peth yw i mi

313. Fy nghaseion a fethasant gyrhaedd eu nôd wrth geisio saethu ataf. Nid myfi yw'r dyn. Gwynfyd pe byddent hwy yn ddieuog. 'Pe byddai holl buteinwyr a godinebwyr Lloegr wedi eu crogi, byddai John Bunyan, gwrthddrych eu cenfigen, yn wastadol yn fyw ac yn iach. Gallaf ddywedyd nad wyf yn adnabod un fenyw yn anadlu dan yr holl nefoedd, oddieithr fy ngwraig fy hun.

314. Yr wyf yn mawrhau doethineb Duw, yr hwn a wnaeth i mi fod yn yswil tuag at fenywod. Gwyddant, a gallant ddwyn tystiolaeth gyda mi, lle y byddwn yn tramwy fynychaf, ac yn fwyaf cydnabyddus, mai peth anaml oedd fy ngweled yn cyfeillachu â benywod. Yr oeddwn yn groes i'r arferiad gyffredin o gyfarch benywod, ac yn atgas genyf ei weled yn eraill. Ni fyddwn gymaint ag ymaflyd yn eu dwylaw, gan farnu nad oedd hyny yn weddus. Pan y byddwn yn gweled gwŷr da yn cyfarch y benywod a fyddent yn ymweled â hwynt, byddwn yn gwrthddadleu yn eu herbyn; a phan yr atebent fi, gan ddywedyd nad oedd hyny ond moesau da, dywedwn wrthynt nad oedd yn olwg hardd. Rhai yn wir a gyfeirient at y cusan sanctaidd; yna gofynwn iddynt paham yr oeddynt yn gwneuthur bylchau, trwy gyfarch y rhai prydferthaf, ac esgeuluso y rhai anolygus? Bydded y pethau hyn mor weddus ag y byddont yn ngolwg eraill,. yr oeddynt yn anolygus yn fy ngolwg i.

315. Ac wrth derfynu ar y mater hwn, nid wyf yn galw ar ddynion, eithr ar angylion, i brofi fy mod yn ddieuog o adnabod un fenyw heblaw fy ngwraig; ac nid wyf yn ofni galw ar Dduw yn dyst, fy mod yn ddiniwed o'r pethau hyn. Nid oblegid i mi gael fy nghadw fel hyn oherwydd dim daioni oedd ynof fi rhagor pobl eraill, ond Duw a fu yn drugarog wrthyf, ac a'm cadwodd yn wastadol, nid yn unig oddiwrth y peth hwn, ond oddiwrth bob drwg, ac a'm ceidw o'r diwedd i deyrnas nef. Amen.



"He told me all that ever I did." p. 953

Christ and the woman of Samaria.

Crist a'r Wraig o Samaria.

# Y RHYFEL YSPRYDOL,

A WNAETHPWYD GAN

## SHADDAI AR DIABOLUS;

ER ENNILL YN OL

## FAM-DDINAS BYD:

NEU

GOLLI AC ENNILL DRACHEFN

# DREF MAN-SOUL.

GAN

JOHN BUNYAN.

"Myfi a arferais gyffelybiaethau."—*Hos.* xii. 10.

# ANERCHIAD AT Y DARLLENWYR.

FY ANWYL GYDWLADWYR, Y CYMRY:

Rhoddodd Duw (yr hwn yw rhoddwr pob daioni) yn nghalonau rhai i gyfieithu y Traethawd canlynol i'r Gymraeg. Am yr awdwr, ni ddywedaf ddim, canys ei waith a'i cenmyl. Os darllenwch, cewch glywed son am y fath ryfel, nad oedd rhyfeloedd cewri y byd hwn ond fel chwareuyddiaeth iddo: y chwareufa yw enaid pob dyn. Nid oes un *neuter* yn y rhyfel hwn. Mae'r holl fyd yn ymrafaelio, naill ai gyda Duw yn erbyn Satan, neu gyda Satan yn erbyn Duw. Fy mrodyr, pwy ydych chwi drosto? O! drugaredd arbenig, eich bod mewn byd ag y gellwch, trwy ras, ddewis eich hochr! Yn nhragwyddoldeb, rhaid sefyll at eich lliw; eithr yma gellwch ffoi o lety milwraidd Satan, a chael eich derbyn â daliad Crist: mae drwm yr efengyl yn curo am *volunteers*. Duw a'ch gwnelo chwithau yn ewyllysgar yn nydd ei nerth. Mi a wn y dymunech fod ar yr ochr sicraf. Och! os dros Satan yr ydych, byddwch yn sicr o ddamnedigaeth. Mae melldith Duw arno, ac ar bawb a lynant wrtho.

Ddynion! y mae *cannon* Duw tuag atoch. Os gwrthwynebwch, eich rhan fydd marwolaeth dragwyddol; a pheth dâl y pryd hyny y llafn aur a'r fantell Fabilonaidd i chwi? Ni fynwn er y byd eich gadael yn y fan y rhed saethau Duw: ffowch! ffowch! rhag y digofaint sydd ar ddyfod. Ar i'r Traethawd canlynol fod yn foddion yn llaw Duw i'ch llwyr ddychwelyd, y taer weddia,

Eich ufudd Wasanaethydd yn yr Efengyl,

DANIEL ROWLAND.

# Y RHYFEL YSPRYDOL.

Yn fy ymdaith, fel yr oeddwn yn tramwy trwy amryw wledydd a theyrnasoedd, digwyddodd i mi o'r diwedd ddyfod i wlad enwog a elwir Mundus*—gwlad ëang a helaeth iawn ydyw. Y mae hi yn gorwedd rhwng y ddau begwn, yn union yn nghanol ffurfafen y nefoedd. Lle dyfradwy, ac wedi ei haddurno yn hardd â bryniau a dyffrynoedd, a'i hansawdd yn dda; a chan mwyaf (yn enwedigol lle yr oeddwn i) yn ffrwythlawn iawn; yn lle poblog, a'r awel yn hyfryd.

Nid ydyw y bobl oll o'r un ddull-wynebpryd, nac ychwaith o'r un dafodiaith, na modd, na ffordd o grefydd, ond y maent yn amrywio cymaint ag (fel y dywedir) y mae'r planedau eu hunain: y mae rhai o honynt yn uniawn, a rhai yn ŵyrgam, fel ag y mae mewn gwledydd llai.

Yn y wlad hon, fel y dywedais, y digwyddodd i mi ymdeithio, ac yno ymdaith a wnaethum, a hyny cyhyd, hyd oni ddarfu i mi ddysgu llawer o'u hiaith, yn nghyd â defodau a moesau y cyfryw rai ag oeddwn yn eu plith.† Ac i ddywedyd y gwir, yr oedd yn hoff genyf weled a chlywed llawer o bethau ag a welswn ac a glywswn yn eu plith hwynt;—ïe, myfi yn sicr a fuaswn fyw a marw fel un genedigol yn eu plith hwynt (oherwydd yr oedd mor hoff genyf hwynt a'u gweithredoedd) oni buasai i fy meistr anfon am danaf fi adref i'w dŷ; ac yno i wneuthur gwaith iddo ef, ac i olygu yr hyn a wnaethpwyd gan eraill.

Yn awr, y mae yn y wlad dda yma, sef Mundus, dref a *chorporasiwn* a elwir Man-soul;‡ tref o ran ei hadeiladaeth mor gywrain, o ran ei sefyllfa mor gyfleus, ac o ran ei breintiau mor fanteisiol, fel yr wyf yn meddwl mewn perthynas i'w dechreuad, y gallaf ddywedyd am dani, fel y dywedwyd o'r blaen am Mundus, lle yr oedd hi wedi ei gosod, nad oedd mo'i chyffelyb hi dan yr holl nefoedd.

Mewn perthynas i sefyllfa y dref yma, y mae hi yn gorwedd rhwng y ddau fyd, a'r sylfeinydd a'r adeiladydd cyntaf o honi, mor belled ag y gallaf fi gasglu oddiwrth y llyfrau coffadwriaethau hanesyddol goreu sydd ar gael, ydoedd un Shad-dai,§ ac efe a'i hadeiladodd hi er hyfrydwch iddo ei hun. (Gen. i. 26.) Efe a'i gwnaeth hi yn rhyfeddod ac yn ogoniant uwchlaw yr hyn oll ag a wnaeth, sef y peth penaf ag

* Y byd. † Cyflwr naturiol dyn. ‡ Y dyn, sef yr enaid a'r corph. § Yr Hollalluog.

a wnaeth efe yn y wlad hôno: ïe, yr oedd Man-soul yn dref mor hardd pan yr adeiladwyd hi gyntaf, fel y dywed rhai i'r duwiau, pan osodwyd hi i fyny, ddisgyn i'w gweled, a chanasant o lawenydd.

Ac fel y gwnaethai efe hi yn hardd yr olwg, felly hefyd yn gadarn, i arglwyddiaethu ar yr holl wlad o amgylch.Ië, gorchymynwyd i bawb gydnabod Man-soul yn lle eu mam-ddinas, a gosodwyd rhwymedigaeth ar y cwbl i wneuthur gwasanaeth iddi hi. Hefyd, yr oedd gan y dref ei hunan gomisiwn, ac awdurdod oddiwrth ei brenin i ofyn gwasanaeth gan bawb oll, ac hefyd i ddarostwng pob un ag a wrthodai ei wneuthur.

Yr oedd yn nghanol y dref yma balas* hynod a gwych; o ran ei gadernid, yn gastell; o ran ei hyfrydwch, yn baradwys; ac o ran ei helaethrwydd, yr ydoedd mor ëang ag y cynwysai yr holl fyd. (Preg. iii. 11.) Y lle hwn yr ydoedd y brenin Shad-dai wedi ei bwrpasu iddo ei hun yn unig, ac nid i arall gydag ef; a hyny, mewn rhan, er ei hyfrydwch ei hun, ac hefyd, fel na byddai ofn dieithriaid ar y dref. Y lle hwn hefyd a wnaeth Shad-dai amddiffynfa† o hono, ond ei chadwraeth a orchymynodd efe i wŷr y dref yn unig. Yr oedd mur y dref o adeilad teg; ïe, yr oedd wedi ei sicrhau yn nghyd mor sicr ac mor gadarn, fel, oni buasai i wyr y dref eu hunain, ni allesid ei siglo, na'i thori yn dragywydd.

Canys yn hyn yr oedd doethineb rhagorol yr hwn a adeiladodd Man-soul yn gorwedd—sef, nad ellid byth dori ei muriau‡ i lawr, na'u niweidio, gan y tywysog galluocaf a fyddai yn ei herbyn, oddieithr i wŷr y dref gydsynio i hyny.

Yr oedd i'r dref enwog yma bump porth,§ i ba rai y byddid yn dyfod allan ac yn myned i mewn, a'r rhai hyny hefyd oeddynt gyfatebol i'r muriau—hyny yw, yn anorchfygol, ac nid ellid byth eu hagor na'u gorchfygu, ond trwy ewyllys a chenad y rhai hyny ag oedd oddimewn.

Enwau y pyrth oedd y rhai hyn: Porth-y-clust, Porth-y-llygad, Porth-y-genau, Porth-yr-arogliad, a Phorth-y-teimlad.

Yr oedd pethau eraill yn perthynu i dref Man-soul, y rhai, os chwanegwch at yr hyn a glywsoch, a eglura eto yn mhellach i bawb ogoniant a chadernid y lle. Yr oedd ganddi bob amser ddigonolrwydd o bethau angenrheidiol ar gyfer pob rhaid, tu fewn i'w chaerau; yr oedd ganddi y gyfraith oreu, a'r fwyaf iachus a rhagorol, ag oedd y pryd hyny yn y byd.||

Nid oedd un drygddyn dichellgar, na bradwr, y pryd hyny, o fewn i'w chaerau: gwŷr cywir oeddynt oll, ac yr oeddynt yn un a chytun â'u gilydd; a hyn, fel y gwyddoch, oedd yn beth mawr. Ac heblaw hyn oll, yr oedd ganddi bob amser, tra y bu hi yn gywir i Shad-dai, ei brenin, ei bresenoldeb ef, a'i amddiffyniad; a hi oedd ei hyfrydwch ef, &c.

* Y galon. † Pwerau yr enaid. ‡ Y corph. § Y synwyrau. || Cyflwr dyn ar y cyntaf.

Yn awr, ar amser, darfu i un Diabolus,* cawr galluog, wneud ymosodiad ar y dref enwog Man-soul, i'w chymeryd, a'i gwneuthur yn drigfa iddo ei hun. Y cawr hwn oedd frenin yr Ethiopiaid,† neu'r bobl dduon, ac un o'r tywysogion cynddeiriocaf ydoedd. Nyni, trwy eich caniatâd; yn gyntaf peth, a ymddiddanwn ychydig am ddechreuad y Diabolus hwn, ac yna am ei waith yn cymeryd tref Man-soul.

Y Diabolus hwn yn wir sydd dywysog mawr a galluog, eto yn dlawd ac yn gardotaidd. Ac am ei ddechreuad, efe, ar y cyntaf, oedd un o weision y Brenin Shad-dai, wedi ei wneuthur, ac wedi ei osod ganddo ef yn y lle uchaf a chadarnaf; ïe, efe a osodwyd ar y cyfryw dywysogaethau goreu ag oedd yn perthyn i holl wledydd ei lywodraeth ef. (Esay xiv. 12.) Y Diabolus hwn a wnaethpwyd yn fab y boreuddydd, a lle gwych oedd ganddo. Efe a ddygodd iddo lawer o ogoniant, ac a roddes iddo lawer o hoywder ac elw, a ddylasai foddloni ei galon Lusifferaidd ef, oni buasai ei bod yn annigonol, ac wedi ymchwyddo fel uffern ei hun.

Yn awr, gan ei fod yn gweled ei hun wedi ei ddyrchafu fel hyn i fawredd ac anrhydedd, ac ymgynddeiriogi yn ei feddwl am radd a chyflwr uwch, pa beth y mae yn ei wneuthur ond meddwl ynddo ei hun pa fodd y gallai efe osod ei hun i fyny yn arglwydd ar y cwbl, a chael yr holl awdurdod dan Shad-dai. (2 Pedr ii. 4. Jud. vi ) Yn awr, hyny yr oedd y Brenin wedi ei gadw i'w Fab; ïe, rhoddasai yr awdurdod iddo ef yn barod; oherwydd paham, y mae efe, yn gyntaf, yn ymgynghori ag ef ei hun pa beth oedd oreu i'w wneuthur; ac yna y mae yn amlygu ei feddwl i rai eraill o'i gymdeithion, i'r hyn beth hefyd y cydsyniasant. Felly, o'r diwedd, hwy a ddaethant i'r bwriad yma—y byddai iddynt ymosod ar Fab y Brenin, i'w ddifetha ef, fel y byddai'r etifeddiaeth yn eiddo iddynt hwy. Yn awr, i fod yn fyr, y brad (fel y dywedais) oedd wedi ei fwriadu; yr amser wedi ei benodi; y gair wedi ei roddi; y gwrthryfelwyr wedi ymfyddino; yr ymosodiad a amcanwyd.

Yna y Brenin a'i Fab, gan eu bod oll, a phob amser, i gyd yn olwg, nid allai efe lai na dirnad pob peth trwy ei holl lywodraeth; a chan fod ganddo bob amser y cyfryw gariad i'w Fab ag oedd ganddo iddo ei hun, nid allai lai, wrth yr hyn a welodd, na bod wedi ei gyffroi a'i anfoddloni yn ddirfawr: ac oblegid hyn, pa beth a wnaeth ond eu cymeryd yn ddisymwth, ar y cynyg cyntaf a wnaethant tuag at gwblhau eu hamcan, ac a ddatguddiodd eu bradwriaeth, a'u gwrthryfelgarwch erchyll, a'r cydfwriad a ddychymygasant, ac yn awr a geisiasant ei gyflawni, ac a'u bwriodd hwynt yn nghyd allan o bob lle o ymddiried, elw, anrhydedd, a dyrchafiaeth. Wedi hyn efe a'u bwriodd hwynt oll o'i lys, ac a'u trodd hwynt i lawr i'r pydewau erchyll, ac a'u rhwymodd mor ddiogel yn nghadwynau tywyllwch, heb byth mwy le i ddisgwyl y ffafr leiaf ar ei law ef, ond i ddioddef y farn a appwyntiodd efe iddynt, a hyny yn dragywydd.

* Y diafol. † Yr angylion syrthiedig, a phechaduriaid.

Yn awr, wedi eu taflu fel hyn allan o bob lle o ymddiried, elw, ac anrhydedd; ac hefyd yn gwybod iddynt hwy golli ffafr eu Tywysog yn dragywydd; ac wedi eu bwrw o'i lys ef, a'u taflu i lawr i'r pydewau erchyll, chwi a ellwch goelio y byddai iddynt yn awr chwanegu at eu balchder blaenorol bob malais a llid ag a allent yn erbyn Shad-dai, ac yn erbyn ei Fab. (1 Pedr v. 8.) Am hyny, gan grwydro ac ymrodio i fyny ac i lawr, o le i le, mewn llid mawr; ac os digwyddai iddynt gael rhyw beth ag oedd yn eiddo y Brenin Shad-dai, hwy a ymddialent trwy ysglyfaethu hwnw iddynt eu hunain.

O'r diwedd digwyddodd iddynt ddyfod i'r wlad helaeth hon, sef Mundus, ac a ymdeithiasant tuag at y dref Man-soul; a chan ystyried mai y dref hòno oedd un o weithredoedd penigamp, ac hyfrydwch penaf, y Brenin Shad-dai, pa beth a wnaethant hwy, ar ol ymgynghori, ond ymosod ar hòno. Ië, meddaf, hwy a wyddent fod Man-soul yn perthyn i Shad-dai; canys yr oeddynt hwy yno pan adeiladodd efe hi, ac yr addurnodd efe hi iddo ei hun. Felly, wedi iddynt gael y lle, bloeddiasant yn erchyll o lawenydd, ac a ruasant arni fel llew ar ysglyfaeth; gan ddywedyd, Nyni a gawsom y tlws, a'r ffordd i ymddial ar y Brenin Shad-dai, am yr hyn a wnaeth efe i ni. Felly hwy a eisteddasant i lawr, ac a alwasant gyngor, ac a ystyriasant ynddynt eu hunain pa ffordd a threfn oedd oreu iddynt gymeryd, i enill iddynt eu hunain y dref enwog yma, Man-soul; ac yna y pedwar peth hyn a osodwyd gerbron i'w hystyried:

Yn gyntaf. Pa un oedd oreu iddynt hwy oll ymddangos yn eu hamcan hwn i dref Man-soul?

Yn ail. Pa un oedd oreu iddynt hwy i fyned ac eistedd i lawr gyferbyn â thref Man-soul yn eu hagwedd garpiog ac anghenus bresenol?

Yn drydydd. Pa un oedd oreu iddynt hwy amlygu eu hamcanion yn gyhoeddus i Man-soul, ac i ba ddiben y daethant; neu ynte, i ymosod arni trwy eiriau a ffordd o dwyll?

Yn bedwerydd. Pa un oedd oreu iddynt hwy, trwy rai o'u cymdeithion, i roddi allan awdurdod ddirgel i gymeryd y fantais, os gwelent un neu ychwaneg o'r gwŷr penaf yn y dref, i'w saethu hwynt—os trwy hyny y barnent y byddai i'w hachos a'u hamcan gael ei ddyrchafu yn well.

Atebwyd i'r peth cyntaf yn nacaol—sef, Nad oedd yn oreu iddynt oll ymddangos o flaen y dref; oherwydd y gallai yr ymddangosiad o lawer o honynt hwy ddychrynu ac arswydo trigolion y dref; yn gymaint ag nad oedd ychydig, neu un o honynt, mor debygol i'w wneuthur. Ac i gefnogi y cyngor hwn i gymeryd lle, chwanegwyd yn mhellach, Mai, os byddai i Man-soul gael ei ddychrynu, neu gymeryd alarwm, anmhosibl yw, ebe Diabolus (canys efe oedd yn llefaru yn awr), i ni gymeryd y dref; oblegid nid all neb fyned i mewn iddi heb ei chaniatâd ei hunan. Gan hyny, na

fydded ond i ychydig, neu un, ymosod ar Man-soul; ac yn fy marn i, ebe Diabolus, bydded hwnw fi fy hunan. Felly i hyn cytunasant oll.

Ac yna, hwy a aethant at yr ail beth i'w ystyried—sef, Pa un ai bod yn oreu iddynt hwy fyned ac eistedd i lawr o flaen Man-soul yn eu hagwedd garpiog ac anghenus bresenol? I'r hyn beth hefyd yr atebwyd yn nacaol, Na byddai hyny i fod mewn un modd; a hyny o achos, er i dref Man-soul wybod, a bod iddi a wnaeth â phethau anweledig cyn hyn, eto ni welsant, hyd yn hyn, un o'u cydgreaduriaid yn y fath gyflwr gwael a thruenus a hwynt-hwy. A thyma oedd cyngor y creulon Alecto. Yna, ebe Apolyon, y mae y cyngor yn berthynasol, oherwydd os bydd i un o honom ni ymddangos iddynt hwy fel ag yr ydym ni yr awr hon, gwnai hyny fagu a llenwi ynddynt y fath feddyliau ag a barai iddynt gymaint syndod a thesfysg yspryd ag a esyd angenrheidrwydd arnynt i osod eu hunain ar eu gwiliadwriaeth; ac os felly, eb efe, fel y dywedodd fy Arglwydd Alecto o'r blaen, ofer yw i ni feddwl am gymeryd y dref. Yna, ebe y cawr galluog hwnw, Beelsebub, y mae'r cyngor a roddwyd yn barod yn ddiogel; oblegid er i wŷr Man-soul weled y fath bethau ag oeddym ni unwaith, eto, hyd yn hyn, ni welsant erioed y fath bethau ag ydym ni yr awr hon. A gwell yw, yn fy marn i, i ddyfod arnynt yn y fath fodd ag sydd gynefin i, ac yn fwyaf cyfeillgar yn eu plith hwynt. I hyn, wedi iddynt gytuno, y peth nesaf i'w ystyried oedd, yn mha ddull, lliw, neu wedd, yr oedd oreu i Diabolus ymddangos ei hun ynddo, pan elai efe yn nghylch gwneuthur Man-soul yn eiddo iddo ei hun. Yna un a ddywedodd un peth, ac arall beth arall: o'r diwedd Lusiffer a atebodd—Yn ei farn ef, mai goreu oedd i'w arglwyddiaeth ef gymeryd corph un o'r creaduriaid ag yr oedd iddynt hwy o dref Man-soul lywodraeth arno. Canys, eb efe, nid ydyw y rhai hyny nid yn unig yn gyfeillgar iddynt, ond gan eu bod dan eu llywodraeth hwynt, ni feddyliant byth y byddai i ddim ymosodiad trwyddynt hwy gael ei wneuthur ar y dref; ac i ddallu y cwbl, cymered gorph un o'r anifeiliaid hyny ag y mae Man-soul yn barnu eu bod yn gallach na'r lleill. (Gen. iii. 1. Dat. xx. 1, 2.) Y cyngor hwn a ganmolwyd gan bawb; felly barnwyd y byddai i'r cawr Diabolus gymeryd y ddraig, am ei bod hi yn gyfryw un, yn y dyddiau hyny, ag oedd mor gyfeillachgar â thref Man-soul ag y mae'r aderyn â'r bachgen; oherwydd nid oedd dim ag oedd yn ei gyflwr dechreuol yn arswydus iddynt.

Yna hwy a aethant yn mlaen at y trydydd peth, yr hyn oedd—Pa un oedd oreu iddynt ddangos eu hamcanion, neu y diben o'u dyfodiad i Man-soul, neu beidio? Hyn hefyd a atebwyd yn nacaol; oblegid y pwys ag oedd yn y rhesymau o'r blaen —hyny yw, am mai pobl gryfion oedd gwŷr Man-soul; pobl gryfion mewn tref gadarn, muriau a phyrth pa un oedd yn anorchfygol, (heb son am eu castell,) ac nid ellir mewn un modd yn y byd eu henill ond trwy eu bodd eu hunain. Heblaw hyn, ebe'r Lleng (canys efe a atebodd i hyn), amlygiad o'n hamcanion a all beri iddynt

anfon at eu Brenin am gymhorth; ac os felly, myfi a wn, yn ebrwydd, pa bryd o'r dydd y bydd hi arnom ni; am hyny, ymosodwn arnynt gyda phob rhith o degwch, gan guddio ein hamcanion â phob math o gelwyddau, gweniaith, a geiriau amryfusedd; gan lyfelu iddynt bethau na bydd byth, ac addo iddynt yr hyn na bydd iddynt byth mo'i gael: dyma'r ffordd i enill Man-soul, ac i wneuthur iddynt o honynt eu hunain agoryd eu pyrth i ni; ïe, ac i ddeisyf arnom ni hefyd i ddyfod i mewn atynt hwy.

A'r rheswm paham yr ydwyf yn tybied y gwna y lyfeliaeth hon yw—am fod pobl Man-soul yn awr bob un yn wirion ac yn ddiniwed; oll yn onest, ac yn gywir; ac ni wyddant hwy eto beth yw i ymosod arnynt trwy dwyll, lliw, a rhagrith. Y maent yn ddieithriaid i wefusau celwyddog a rhagrithiol; oherwydd paham, nid allwn, os bydd i ni ymddieithrio fel hyn, fod yn ddirnadwy ganddynt; ein celwyddau a ymddengys yn ymadroddion gwirioneddol, a'n rhagrith yn fasnach uniawn. Yr hyn a addawom iddynt, yn hyny hwy a'n credant; yn enwedig, os yn ein holl gelwyddau a'n geiriau twyllodrus, y cymerwn arnom fod genym gariad mawr tuag atynt hwy, ac mai eu helw a'u hanrhydedd hwy yw ein unig amcan ni. Yn awr ni wnaethpwyd un tipyn o wrthddywediad yn erbyn hyn—aeth hyn i lawr mor lithrig a'r dwfr ar y llechwedd.

Felly hwy a ddaethant i ystyried y peth diweddaf, yr hyn ydoedd—Pa un oedd oreu iddynt hwy, trwy rai o'u cymdeithion, i roddi allan awdurdod ddirgel i gymeryd y fantais, os gwelent un neu ychwaneg o'r gwŷr penaf yn y dref, i'w saethu hwynt—os trwy hyny y barnent y byddai i'w hachos a'u hamcan gael eu dyrchafu yn well? Y peth hyn a gadarnhawyd; a'r gwr a amcanwyd ei ddifetha trwy y ddichell hon oedd un Mr. Gwrthwynebiad,* a elwir hefyd Cadben Gwrthwynebiad, a gŵr mawr yn Man-soul oedd y cadben yma; a gwr ag oedd y cawr Diabolus a'i fyddin yn ei ofni yn fwy nag yr oedd efe yn ofni yr holl dref. Yn awr, pwy a fyddai y lleiddiad, oedd y peth nesaf; a hwy a osodasant un Tisipon, un o ellyllon y llyn, i'w wneuthur.

Ac wedi iddynt ddibenu eu cyngor fel hyn, hwy a gyfodasant, ac a geisiasant wneuthur fel yr oeddynt wedi arfaethu—hwy a ddaethant tua Man-soul, ond oll mewn modd anweledig, ond un yn unig; ac ni ddaeth hwnw ychwaith yn ei ddull ei hunan, ond dan gysgod, ac yn nghorph y ddraig.

Felly hwy a ddaethant i fyny, ac a ymosodasant i lawr o flaen Porth-y-clust, oherwydd hwnw oedd y lle o glywed i bawb oddiallan i'r dref, fel yr oedd Porth-y-llygad y lle o weled. Felly, fel y dywedais, efe a ddaeth i fyny a'i rwysg gydag ef at y porth, ac a osododd gynllwyn i Cadben Gwrthwynebiad o fewn ergyd saeth at y dref. Ar ol hyn, y cawr a aeth i fyny at y porth, ac a alwodd ar y dref Man-soul

* Y gwrthwynebiad ag ydoedd yn y dyn ar y cyntaf at bechod.

am ymwrandawiad; ac ni chymeiodd efe neb gydag ef ond un Drygbwyll, yr hwn oedd ei areithydd ef yn mhob peth dyrus. Yn awr, fel y dywedais, gan ei fod wedi dyfod at y porth (fel yr oedd yn ddefod yn yr amseroedd hyny), efe a udganodd mewn udgorn am wrandawiad; ar hyn y gwŷr penaf o dref Man-soul—sef fy Arglwydd Diniweidrwydd, fy Arglwydd Ewyllysgar,* fy Arglwydd Maer,† Mr. Cofiadur,‡ a Chadben Gwrthwynebiad, a ddaethant i wared at y mur, i weled pwy oedd yno, a pheth oedd y mater. A'm Harglwydd Ewyllysgar, wedi iddo edrych dros y mur, a gweled pwy oedd yno yn sefyll wrth y porth, a ofynodd pa beth ydoedd, ac i ba beth y daethai, a phaham y cyffroiasai efe dref Man-soul â'r fath swn anarferol?

*Diabol.* Yna Diabolus, fel pe buasai yn oen, a ddechreuodd ei araeth, ac a ddywedodd:—Foneddigion o'r dref enwog Man-soul: Nid wyf fi, fel y gellwch ddeall, yn un ag sydd yn trigo yn mhell oddiwrthych, ond yn gyfagos i chwi, ac yn un ag sydd wedi ei rwymo gan y brenin i wneuthur pob cydnabyddiaeth a gwasanaeth i chwi ag a allaf; am hyny, fel y byddwyf yn ffyddlon i mi fy hun ac i chwithau, y mae genyf ryw beth ag sydd yn perthyn yn agos i chwi, i'w hysbysu. Oherwydd paham, caniatewch i mi eich gwrandawiad, a goddefwch fi yn amyneddgar. Ac, yn nghyntaf, sicrhaf i chwi nad fy hunân, ond chwychwi—nid fy lles fy hun, ond yr eiddoch chwi, yr ydwyf yr awr hon yn ei geisio trwy yr hyn yr wyf yn ei wneuthur, fel yr ymddengys yn eglur, wedi i mi ddywedyd fy meddwl wrthych. Oblegid, foneddigion, yr ydwyf (i ddywedyd i chwi y gwir) yn dyfod i ddangos i chwi pa fodd y gellwch gael rhyddhad mawr a gwaredigaeth helaeth oddiwrth gaethiwed ag yr ydych yn gaethion iddo yn ddiarwybod i chwi eich hunain. Ar hyn, tref Man-soul a ddechreuodd glustfeinio yn awyddgar—"A pha beth ydyw, atolwg?—pa beth ydyw?" ebe nhwy. Ac efe a ddywedodd, Y mae genyf ryw beth i ddywedyd wrthych mewn perthynas i'ch Brenin, ac mewn perthynas i'w gyfraith, ac hefyd mewn perthynas i chwi eich hunain. Am eich Brenin, mi a wn ei fod yn fawr ac yn alluog; ond eto, nid yw yr hyn oll a ddywedodd wrthych yn wir, nac ychwaith er lles i chwi eich hunain. 1. Nid ydyw yn wir; canys â'r hyn y'ch dychrynodd hyd yn hyn, nis bydd, ac nis cyflawnir, er i chwi wneuthur y peth a waharddodd: ond os ydoedd perygl, y fath gaethiwed ydyw i fyw bob amser mewn ofn o'r cospedigaethau mwyaf am wneuthur peth mor lleied ag ydyw bwyta ychydig ffrwyth? 2. Mewn perthynas i'w gyfreithiau, hyn yr ydwyf yn ei ddywedyd yn mhellach—y maent yn afresymol, yn ddyrus, ac yn annioddefol. Y maent yn afresymol, fel y dywedwyd o'r blaen, am nad ydyw y gospedigaeth yn gyfatebol i'r bai. Y mae llawer o wahaniaeth ac anghyfatebolrwydd rhwng y bywyd a'r afal; eto, rhaid i'r naill fyned yn lle y llall wrth gyfraith eich Shad-dai chwi. Ac hefyd

* Yr ewyllys. † Y deall. ‡ Y gydwybod.

y mae yn ddyrus, neu yn dywyll, yn yr hyn y mae yn ei ddywedyd: yn nghyntaf, Chwi a ellwch fwyta o bob pren, ac wedi hyn yn gwahardd bwyta o *un;* ac yn y lle diweddaf, y mae yn rhaid ei bod yn annioddefol, oblegid yn gymaint ag mai y ffrwyth hwnw a waherddir i chwi i fwyta o hono (os gwaherddir un i chwi) yw hwnw, a hwnw yn unig, a all, trwy i chwi ei fwyta, gyfranu i chwi ddaioni ag sydd eto yn anadnabyddus i chwi. Hyn sydd amlwg wrth enw y pren ei hun, fe'i gelwir pren *gwybodaeth da a drwg;* ac a oes genych chwi hyd yn hyn y wybodaeth hòno? Nac oes, nac oes, ac nis gellwch ddirnad pa mor dda, pa mor hyfryd, a pha mor ddymunol i beri deall ydyw, tra byddoch chwi yn sefyll wrth orchymyn eich Brenin. Paham y byddai i chwi gael eich cadw mewn anwybodaeth a dallineb? Paham nas byddai i chwi gael eich helaethu mewn gwybodaeth a dealldwriaeth? Ac yn awr, O! chwychwi drigolion Man-soul enwog, ac i ddywedyd yn fwy neillduol wrthych chwi eich hunain, nid ydych chwi yn bobl ryddion! Cedwir chwi mewn cadwynau a chaethiwed, a hyny trwy fygythiad tost, heb un rheswm yn gysylltiedig ag ef, ond felly yr wyf Fi yn ewyllysio, ac felly y bydd. Ac onid yw hyn yn greulon i feddwl am dano, fod y peth hyny ei hun ag a waherddir i chwi ei wneuthur, pe gallech ond ei wneud, a roddai i chwi ddoethineb ac anrhydedd?—oblegid yna yr agorid eich llygaid, a chwi a fyddech megis duwiau. Yn awr, gadewch fod y peth fel hyn, eb efe, a ellir eich cadw gan un tywysog mewn mwy o gadwynau, mewn mwy o gaethiwed, nag yr ydych chwi dano heddyw? Chwi a wnaethpwyd dan awdurdod, ac a oblygwyd i fyny mewn anghymhwysderau, fel y dangosais yn ddigon eglur. Oherwydd pa gaethiwed mwy na bod yn cael eich cadw mewn dallineb? Oni ddywed rheswm i chwi, fod yn well fod genych lygaid na bod hebddynt; ac felly i fod yn rhydd, yn well na bod wedi eich cau i fyny mewn ogof dywyll ddrewedig?

Ac yn awr, tra bu Diabolus yn llefaru y geiriau hyn wrth Man-soul, Tisiphon a saethodd at Gadben Gwrthwynebiad, lle yr oedd yn sefyll ar y porth, ac a'i marwolglwyfodd ef yn ei ben, fel y darfu iddo ef, er syndod i wŷr y dref, ac er cefnogaeth i Diabolus, syrthio i lawr yn farw hollol dros y mur. Yn awr pan fu farw Cadben Gwrthwynebiad (ac efe oedd yr unig ryfelwr yn y dref), Man-soul druan a lwyr adawyd yn noeth o wrolder, ac nid oedd ganddi hi yn awr galon i wrthwynebu. Ond hyn oedd fel y mynai diafol iddo fod. Yna safodd y Mr. Drygbwyll hwnw i fyny, yr hwn a ddug Diabolus gydag ef, yr hwn oedd ei areithiwr, ac efe a ymgyfeiriodd ei hun i lefaru wrth dref Man-soul; a swm ei araeth sydd fel y canlyn:

*Drygbwyll.* Foneddigion, eb efe, hapusrwydd fy meistr yw, fod iddo ef heddyw wrandawyr llonydd a dysgadwy; ac yr ydym yn gobeithio y bydd i ni dycio gyda chwi, na byddo i chwi wrthod cyngor da. Y mae gan fy meistr gariad mawr iawn tuag atoch; ac er, fel y gŵyr efe yn dda, ei fod yn anturio i fyned dan ddigofaint y Brenin Shad-dai, eto cariad tuag atoch chwi a bair iddo wneuthur mwy na hyny

Ac nid oes angenrheidrwydd i ddywedyd gair yn ychwaneg i gadarnhau y gwirionedd a ddywedodd; nid oes gair nad yw yn dwyn gydag ef dystiolaeth o'i gwaelod; enw y pren ei hun a all ddibenu pob ymddadleu yn y mater hwn. Myfi, gan hyny, ar hyn o bryd, a chwanegaf i chwi y cyngor hwn yn unig, dan, a thrwy genad fy meistr, (a gyda hyny efe a ymgrymodd yn foesgar iawn i Diabolus.) Ystyriwch ei eiriau, edrychwch ar y pren, a'i ffrwyth dymunol: cofiwch hefyd nas gwyddoch eto ond ychydig, ac mai dyma y ffordd i wybod mwy; ac os nad yw eich rhesymau wedi eu gorchfygu i dderbyn y cyfryw gyngor da, nid ydych y cyfryw ddynion ag y meddyliais i eich bod. Ond pobl y dref, pan welsant mai da oedd ffrwyth y pren yn fwyd, ac mai teg mewn golwg ydoedd, a'i fod yn bren dymunol i beri deall, hwy a wnaethant fel y cynghorasai hen Ddrygbwyll hwynt—hwy a gymerasant ac a fwytasant o hono.

Yn awr, hyn a ddylaswn i ei ddywedyd o'r blaen, mai yr amser hyny, pan oedd y Drygbwyll yma yn areithio wrth wŷr y dref, fy Arglwydd Diniweidrwydd, pa un ai trwy ergyd o wersyll y cawr, neu ynte oddiwrth ryw wasgfa a'i cymerodd ef yn ddisymwth, neu ynte trwy anadl ddrewedig y filain bradychlyd hwnw, hen Ddrygbwyll (canys felly yr wyf debycaf i goelio), a syrthiodd i lawr yn y lle yr oedd yn sefyll, ac nis gellid ei ddwyn i fywyd drachefn. Fel hyn y bu farw y ddau wr hynod hyny; gwŷr hynod yr ydwyf yn eu galw, canys hwynt-hwy oedd degwch a gogoniant Man-soul, tra buant byw ynddi: ac yn awr, ni thrigodd yno mwyach un yspryd boneddigaidd yn Man-soul, hwy oll a syrthiasant i lawr, ac a roddasant ufudd-dod i Diabolus, ac a ddaethant yn gaethweision ac yn iselwyr iddo ef, fel y cewch glywed.

Yn awr, wedi marw y gwŷr hyn, pa beth a wnaeth y lleill o bobl y dref, ond fel dynion ynfyd wedi cael paradwys, hwynt-hwy yn ebrwydd, fel y soniwyd o'r blaen, a ymosodasant i brofi gwirionedd geiriau y cawr: ac, yn nghyntaf, hwy a wnaethant fel y dysgasai Drygbwyll hwynt—hwy a edrychasant, ystyriasant, ac wedi hoffi y ffrwyth gwaharddedig, cymerasant o hono, ac a fwytasant; ac wedi bwyta, yn ebrwydd hwy a feddwasant arno; felly, hwy a agorasant y pyrth, Porth-y-clust, a Phorth-y-llygad, ac a ollyngasant Diabolus, a'i holl fyddinoedd, i mewn, gan lwyr anghofio eu Shad-daï daionus, a'i gyfraith, a'r farn a gysylltiasai efe gyda bygythiad cyhoeddus o'i throseddiad.

Diabolus yn awr, wedi cael mynediad i mewn trwy byrth y dref, a aeth i fyny i'w chanol hi, i wneuthur ei fuddugoliaeth mor ddiogel ag y medrai; ac yn gweled, erbyn hyn, fod serchiadau y bobl yn cynesu tuag ato—efe, fel un yn meddwl mai goreu oedd taro tra fyddai yr haiarn yn boeth, a wnaeth yn mhellach yr araeth dwyllodrus hon iddynt: "Och! fy Man-soul druan! myfi yn wir a wnaeth y gwasanaeth hwn i ti, i'th ddyrchafu di i anrhydedd, ac i chwanegu dy ryddid! ond yr

awr hon, Och! Och! Man-soul dlawd, y mae arnat eisieu yn awr i'th amddiffyn di; canys gwybydd yn sicr, pan glywo Shad-dai yr hyn a wnaethpwyd, efe a ddaw: oblegid trist a fydd efe i ti dori ei rwymau, a bwrw ei reffynau oddiwrthyt. Pa beth a wnei di? A fydd i ti, ar ol dy ddyrchafu, ddioddef i'th ragorfreintiau gael eu trawsfeddiannu, neu eu cymeryd ymaith? Neu beth yr ydwyt ar fedr ei wneuthur? Yna, hwy oll a ddwedasant yn gytun wrth y fieren yma: "Teyrnasa di arnom ni." Felly efe a dderbyniodd y cynyg, ac a ddaeth yn frenin ar dref Man-soul. Wedi gwneuthur hyn, y peth nesaf oedd rhoddi iddo ef feddiant o'r castell, ac felly, o holl gadernid y dref. Gan hyny, i'r castell yr aeth (efe ydoedd yr hwn a adeiladodd Shad-dai yn Man-soul, er ei hyfrydwch a'i hoffder ei hun): hwn, yn awr, a ddaeth yn ffau ac yn amddiffynfa i'r cawr Diabolus. Yn awr, wedi cael meddiant ar y palas gwych, neu y castell, pa beth a wnaeth efe, ond ei wneuthur yn gadarnle iddo ei hun; ac efe a'i nerthodd ac a'i cadarnhaodd â phob math o ddarpariaeth yn erbyn y Brenin Shad-dai, neu y rhai hyny ag a ymdrechent i'w henill hi yn ol iddo ef, ac i'w ufudd-dod drachefn.

Wedi hyn, ond heb weled ei hun yn ddigon diogel, yn y lle nesaf y mae efe yn meddwl ynddo ei hun am wneuthur y dref o ddull ac agwedd newydd; ac felly y mae yn gosod un i fyny, a thynu i lawr y llall, wrth ei ewyllys. Oherwydd paham, fy Arglwydd Maer, enw yr hwn oedd fy Arglwydd Dealldwriaeth, a Mr. Cofiadur, enw pa un oedd Mr. Cydwybod, y rhai hyn a osododd efe allan o le ac awdurdod.

Ac am fy Arglwydd Maer, er ei fod yn wr deallus, ac yn un hefyd a gydsyniodd gyda'r lleill o dref Man-soul yn ngollyngiad y cawr i'r dref; er hyny, nid oedd Diabolus yn gweled yn gymhwys i adael iddo aros yn ei wychder a'i ogoniant blaenorol, am ei fod yn un ag oedd yn gweled yn graff. Am hyny, ni ddarfu iddo ef yn unig ei dywyllu trwy ei dynu o'i swydd a'i awdurdod, ond trwy adeiladu tŵr uchel cadarn yn union rhwng adlewyrch yr haul a ffenestri palas 'm Harglwydd: trwy ba foddion, ei dŷ, a'i holl drigfan, a wnaethpwyd mor dywyll a thywyllwch ei hun: fel hyn y dieithriwyd ef oddiwrth y goleuni, ac efe a ddaeth fel un a anesid yn ddall. I'w dŷ hwn yr oedd fy arglwydd wedi ei gaethiwo, megis ag i garchar; ac nis gallai efe, ar ei goel, fyned yn mhellach na'i derfynau. Ac yn awr, pe buasai ganddo galon i wneuthur dros Man-soul, pa beth a allai efe ei wneuthur drosti, neu yn mha beth y gallai efe fod yn fuddiol iddi? Felly, tra bu Man-soul dan allu a llywodraeth Diabolus, (a chyhyd ag y bu dano, ac y bu hi yn ufudd iddo; yr hyn a fu, hyd oni ddarfu trwy ryfel ei gwaredu o'i law ef,—cyhyd a hyn yr oedd yr Arglwydd Maer yn hytrach yn rhwystr nag yn lles i dref Man-soul enwog.

Ac am Mr. Cofiadur, cyn cymeryd y dref, yr oedd efe yn wr hyddysg yn nghyfreithiau ei Frenin, ac hefyd yn wr o galon a ffyddlondeb i ddywedyd y gwir ar bob achos: ac yr oedd ganddo dafod mor barod ag oedd ei ben wedi ei lenwi â barn.

Yn awr, y gwr hwn nid allai Diabolus, mewn un modd yn y byd, ei aros; oblegid, er iddo roddi ei gydsyniad i'w ddyfodiad ef i'r dref, eto, nid allai efe, trwy bob cyfrwysdra, profiadau, dichellion, a dychymygion, ag a allai efe eu harferu, ei wneuthur ef yn hollol yn eiddo iddo ei hun. Gwir yw, yr oedd efe wedi dirywio llawer oddiwrth ei Frenin cyntaf, ac hefyd yn foddlon i lawer o gyfreithiau y cawr a'i wasanaeth. Ond nis gwnai hyn mo'r tro, am nad oedd efe yn hollol yn eiddo iddo. Efe, yn awr ac eilwaith, a feddyliai am Shad-dai, ac fe fyddai arswyd ei gyfraith arno ef, ac yna efe a lefarai yn erbyn Diabolus â llais cyfuwch a phan ruai llew: ïe, ac a wnai hefyd, ar ryw amseroedd, pan fyddai ei bangau arno (canys rhaid i chwi wybod fod arno bangau ofnadwy), i'r holl dref grynu â'i lais: o ganlyniad, brenin newydd Man-soul nid allai aros mo hono.

Am hyny, Diabolus a ofnodd y Cofiadur yn fwy na phob un a adawyd yn fyw yn nhref Man-soul; oblegid, fel y dywedais, ei eiriau a siglasant yr holl dref—yr oeddynt fel trwst a rhwygiad taranau. Yn gymaint, gan hyny, ag nas gallai y cawr ei wneuthur yn hollol yn eiddo iddo ei hun, pa beth y mae yn ei wneuthur ond dyfeisio pob ffordd i halogi yr hen wr bonheddig, a thrwy halogrwydd, i ddihuddo ei feddwl, ac i galedu ei galon yn fwy yn ffyrdd pechod. Ac fel yr amcanodd, felly y cyflawnodd ei amcan. Efe a halogodd y gwr; a thrwy ychydig ac ychydig, efe a'i tynodd ef felly i bechod a drygioni, fel o'r diwedd nad oedd efe nid yn unig wedi ei halogi, megis ar y cyntaf, ac, o ganlyniad, yn aflan hollol, ond yr oedd yn agos (o'r diwedd, meddaf) i fod wedi myned heibio i bob cydwybod o bechod. A dyma'r man pellaf y gallodd Diabolus fyned. Oherwydd paham, y mae yn dyfeisio llyfeliaeth arall—a hyny oedd i berswadio pobl y dref fod Mr. Cofiadur wedi anmhwyllo, ac na ddylid sylwi arno. Ac i brofi hyn, efe a soniodd am ei bangau ef, ac a ddywedodd: "Os ydoedd mewn meddiant arno ei hun, paham nad ydyw efe yn gwneuthur fel hyn bob amser? Ond," eb efe, "fel y mae gan bawb o'r dynion gwallgofus eu pangfeydd, a phan ynddynt hwy eu hiaith gynddeiriog, felly y mae gan yr hen wr bonheddig hurt hwn." Fel hyn, trwy ryw foddion neu gilydd, efe a gafodd yn ebrwydd gan wŷr y dref i ddirmygu, esgeuluso, a diystyru pa beth bynag ag a allai Mr. Cofiadur ei ddywedyd. Canys, heblaw y peth a glywsoch o'r blaen, yr oedd gan Diabolus ffordd i wneuthur i'r hen wr bonheddig, pan fyddai efe yn llawen, i alw yn ol, ac i wadu yr hyn, yn ei bangau, yr oedd yn ei daeru. Ac yn wir, dyma y ffordd nesaf i'w wneuthur ef yn ddiogel, ac i beri nas byddai i neb wneuthur sylw o hono. Hefyd, yn awr ni lefarodd efe un amser yn rhwydd dros y brenin Shad-dai, ond yn wastadol trwy drais a chymhell. Hefyd, efe a fyddai yn boeth ar ryw amser yn erbyn y peth hyny ag y byddai iddo amser arall dewi a son o'i blegid, gan mor ansefydlog yr oedd efe yn awr yn ei weithredoedd. Weithiau, fe fyddai megis mewn trwm gwsg; a thrachefn, amserau eraill, megis yn farw, sef y pryd ag yr

oedd holl dref Man-soul yn myned yn ei llawn frys ar ol gwagedd, ac yn dawnsio ar ol pibell y cawr

Am hyny, weithiau, pan fyddai Man-soul yn cael ei dychrynu â llais taranllyd y Cofiadur a fu, a phan ddywedent wrth Diabolus am dano, efe a atebai: "Nad oedd yr hyn a ddywedodd yr hen wr bonheddig yn tarddu o gariad tuag ato ef, na thosturi tuag atynt hwythau, ond o ryw hoffder ag oedd ganddo i wag-siarad:" ac felly efe a'i distewai, ac a'i gostegai, ac a wnai bob peth yn llonydd drachefn. Ac fel nas gadawai un rheswm heb ei gynyg ag a dueddai tuag at eu diogelu, efe a ddywedodd, ac a'i dywedodd yn fynych: "O! Man-soul! ystyriwch, mai er cymaint ydyw llid yr hen wr bonheddig, gyda'i swn uchel a'i eiriau taranllyd, nid ydych yn clywed dim oddiwrth Shad-dai ei hun;" oblegid, y celwyddwr a'r twyllwr ag ydoedd, pob llef o eiddo Mr. Cofiadur yn erbyn pechod Man-soul oedd llais Duw ynddo ef tuag atynt hwy. Ond y mae efe yn myned yn mlaen, ac yn dywedyd: "Chwi a welwch nad yw efe yn prisio y golled na gwrthryfel tref Man-soul, ac nis bydd iddo ychwaith flino ei hun trwy alw ei dref i gyfrif, am iddynt roddi eu hunain i mi. Efe a ŵyr, mai er i chwi fod yn eiddo iddo ef gynt, eich bod yn awr yn eiddo cyfreithlon i mi; felly, gan ein gadael y naill i'r llall, efe yn awr a ganodd yn iach i ni. Am hyny, O! Man-soul!" eb efe, "ystyriwch pa fodd y darfu i mi eich gwasanaethu chwi, sef hyd eithaf fy ngallu; a hyny â'r peth goreu ag a feddwn, a allwn ei gael, neu ddarparu i chwi, yn yr holl fyd. Hefyd, mi allaf ddywedyd, am y cyfreithiau a'r defodau yr ydych yn awr danynt, a thrwy ba rai yr ydych yn gwneuthur gwasanaeth i mi, eu bod yn rhoddi i chwi fwy o hyfrydwch a boddlonrwydd nag a roddodd y baradwys ag yr oeddych yn ei meddiannu gyntaf. Eich rhyddid hefyd, fel y gwyddoch o'r goreu, a ehangwyd ac a helaethwyd yn ddirfawr genyf fi; yn gymaint ag i mi eich cael yn bobl wedi eu penblethu i fyny mewn lle cyfyng. Ni osodais i ddim gwaharddiad arnoch chwi: nid oes genych chwi un gyfraith, deddf, na barnedigaeth, o'm heiddof fi i'ch ofni. Nid ydwyf fi yn galw un o honoch i gyfrif am eich gweithredoedd, ond y dyn gwallgofus (chwi a wyddoch pwy yr ydwyf yn feddwl). Myfi a ganiateais i chwi fyw, bob un o honoch, fel tywysog arno ei hun, ac mor ddireolaeth oddiwrthyf fi ag yr wyf finau oddiwrthych chwithau." Ac fel hyn y sîai Diabolus i fyny, ac y llonyddai dref Man-soul, pan fyddai y Cofiadur gynt yn eu blino hwynt. Ië, ac â'r fath ymadroddion melltigedig a'r rhai hyn, efe a osodai yr holl dref mewn llid a digofaint yn erbyn yr hen wr bonheddig;—ïe, fe fyddai y dynion drygionus weithiau am ei ddifetha ef.* Hwy a ddymunasant lawer gwaith (yn fy nghlyw i) ei fod ef yn byw fil o filltiroedd oddiwrthynt: ei gwmpeini, ei eiriau—ïe, yr olwg arno ef, yn enwedig pan gofient pa fodd, yn yr amser gynt, yr oedd efe yn arfer eu bygwth a'u condemnio hwynt (er e

* Y mae dynion drygionus, weithiau, yn ddig wrth eu cydwybodau eu hunain.

fod yn awr mor llygredig), a'u dychrynai ac a'u cystuddiai hwynt yn dost. Ond nid oeddynt oll ond dymuniadau ofer; ac nis gwn i, oddieithr ei fod trwy allu Shad-dai a'i ddoethineb, pa fodd y cadwyd ef yn fyw yn eu plith hwynt. Hefyd, yr oedd ei dŷ mor gadarn a chastell, ac yr oedd yn sefyll yn agos i amddiffynfa ag oedd yn perthyn i'r dref; felly, os ar un amser y byddai i'r bobl ddrwg gynyg ymosod arno, yr oedd ganddo allu i godi i fyny y dwfr-ddorau, ac i ollwng i mewn y fath lif-ddyfroedd* ag a foddai y cwbl oddiamgylch iddo.

Ond i adael Mr. Cofiadur, ac i ddyfod at fy Arglwydd Ewyllysgar—un arall o foneddigion tref Man-soul enwog. Yr Ewyllysgar yma oedd, o rań ei enedigaeth, cyfuwch ag un yn Man-soul; ac yr oedd ef gymaint, onid oedd yn fwy gwr rhydd, neu ryddfreiniwr, nag oedd llawer o honynt hwy. Heblaw hyn, os ydwyf yn cofio fy chwedl yn iawn, yr oedd ganddo ryw ragorfraint neillduol iddo ei hun yn nhref enwog Man-soul. Yn awr, yn nghyd â'r rhai hyn, gwr oedd ef â llawer o gryfder, ymroad, a gwrolder, ac nis gallai neb ei droi ef ymaith wrth ei achlysur. Ond, meddaf, pa un ai fod yn falch o'i etifeddiaeth, rhagorfreintiau, neu ei allu; pa beth bynag (ond sicr yw, trwy falchder o ryw beth), y mae yn chwith ganddo yn awr i fod yn gaethwas yn Man-soul; ac am hyny, y mae efe yn penderfynu i ddwyn swydd dan Diabolus, fel y gallai efe (y cyfryw un ag ydoedd) fod yn rheolwr ac yn llywodraethwr bychan yn Man-soul. Ac fel hyn (y dyn pen-galed ag ydoedd) efe a ddechreuodd yn gynar; canys y gwr hwn, pan wnaeth Diabolus ei araeth wrth Borth-y-clust, oedd un o'r rhai cyntaf i gydsynio â'i eiriau ef, i dderbyn ei gyngor fel peth iachus, ac yn ffafriol i agoryd y porth, a'i ollwng ef i mewn i'r dref: o ganlyniad, yr oedd gan Diabolus dderbyniad iddo; am hyny, efe a ddarparodd le iddo ef; a chan ddirnad gwrolder a chadernid y gwr, efe a chwennychodd ei wneud ef yn un o'i rai mawrion, i drefnu ac i wneuthur yn y materion mwyaf eu pwys.

Felly, efe a anfonodd am dano, ac a ymddiddanodd ag ef am y mater dirgel ag oedd yn gorwedd yn ei fynwes. Ond nid oedd dim llawer o waith perswadio yn y peth; canys, megis ag ar y cyntaf, yr oedd yn foddlon i Diabolus gael dyfod i mewn i'r dref, felly yn awr yr oedd yn foddlon ei wasanaethu ef yno. Gan hyny, pan welodd y gorthrymwr barodrwydd fy Arglwydd i'w wasanaethu ef, a bod ei feddwl yn tueddu tuag at hyny, efe, yn ebrwydd, a'i gwnaeth ef yn gadben ar y castell, yn llywodraethwr ar y mur, ac yn geidwad pyrth Man-soul; ïe, yr oedd gair yn ei gomisiwn ef, na byddai i ddim gael ei wneuthur yn holl dref Man-soul hebddo ef. Yn awr, nesaf at Diabolus ei hunan, pwy ond fy Arglwydd Ewyllysgar yn holl dref Man-soul?—ac nis gallai dim gael ei wneuthur yn awr, ond yn ol ei ewyllys a'i foddlonrwydd ef trwy yr holl dref. (Rhuf. viii. 7.) Yr oedd ganddo ef hefyd un Mr. Meddwl yn ysgrifenydd iddo—y gwr hwn oedd i ddynwared am dano yn mhob

* Ofnau.

ffordd yr un ffunud a'i feistr; canys efe a'i arglwydd oeddynt un mewn egwyddor, ac nid yn mhell oddiwrth eu gilydd mewn ymarferiad. (Eph. ii. 2—4.) Yn awr, yr oedd Man-soul wedi ei darostwng i bwrpas, ac wedi ei gwneuthur i gyflawni chwantau yr ewyllys a'r meddwl. Ond nid â o fy meddwl y fath un creulon ydoedd yr Ewyllys yma, pan yr oedd awdurdod wedi ei roddi yn ei law. Yn gyntaf, efe a wadodd yn hollol nad oedd arno ef na dyled na gwasanaeth i'w Dywysog cyntaf a'i Ben-Arglwydd. Wedi hyn, yn y lle nesaf, efe a gymerodd lw, ac a dyngodd ffyddlondeb i'w feistr mawr Diabolus; ac yna, wedi ei osod a'i sefydlu yn ei leoedd, swyddau, dyrchafiadau, a'i gymeriad, O! nid ellwch ddychymygu, oni buasai i chwi ei weled, y gwaith aruthrol a wnaeth y gweithiwr yma yn nhref Man-soul.

Yn nghyntaf, efe a gasâodd Mr. Cofiadur i farwolaeth*: nid allai efe aros ei weled ef, na gwrando geiriau ei enau; efe a gauai ei lygaid pan y clywai ef yn llefaru; hefyd ni oddefai fod cymaint a'r dernyn lleiaf o gyfraith Shad-dai yn weledig yn un lle yn y dref. Ac yn lle siampl, yr oedd gan ei ysgrifenydd ef, Mr. Meddwl, ryw hen ddarn (Neh. ix. 26) o femrwn toredig o gyfraith Shad-dai ddaionus yn ei dŷ; ond pan welodd Ewyllysgar hwynt, efe a'i bwriodd o'r tu ol i'w gefn. Gwir yw fod gan Mr. Cofiadur ryw faint o'r gyfraith yn ei fyfyrgell, ond nid allai fy arglwydd, mewn modd yn y byd, ei chael. Efe a feddyliodd hefyd fod ffenestri tŷ fy hen Arglwydd Maer yn wastad yn rhy oleu ar les tref Man-soul. Nis gallai efe oddef goleuni canwyll. Yn awr, nid oedd dim oll ag a foddlonai Diabolus ei arglwydd.

Nid oedd un o'i fath ef am udganu ar hyd yr heolydd natur dda, ymarweddiad doeth, a gogoniant mawr y brenin Diabolus. Efe a grwydrai ac a ymrodiai trwy holl heolydd Man-soul, i ganmol ei arglwydd gwych; ac a wnai ei hun fel un o'r efryddion, yn mhlith y gwaelaf a'r distadlaf, i ganmol ei dywysog galluog. Ac, meddaf, pa bryd, a pha fan bynag y cai efe y caethweision hyny, efe a wnai ei hun fel un o honynt hwy. Yn mhob drwg-ymarferiad, efe a weithredai heb ei erchi, ac a wnai ddrwg heb ei gymhell.

Yr oedd hefyd gan yr Arglwydd Ewyllysgar raglaw dano, a'i enw Mr. Serch—un hefyd ag oedd wedi ei halogi yn ddirfawr yn ei egwyddorion, ac yn gyfatebol i hyny yn ei fywyd. (Rhuf, i. 25, &c.) Yr oedd efe wedi ymroddi yn hollol i foddloni y cnawd, ac am hyny hwy a'i galwasant ef Gwŷn-warthus. Yn awr, yno yr oedd efe, ac un Chwant-gnawdol, merch Mr. Meddwl (cyffelyb at gyffelyb, ebe'r diawl wrth y glo-wr), a dyfasant mewn cariad, ac a ymgymharasant, ac a briodasant; ac hyd ag yr ydwyf yn deall, fe fu iddynt amryw o blant—megis Digywilyddrwydd, Genau-du, Casawr-cerydd: y tri hyn oeddynt fechgyn duon; ac heblaw y rhai hyn, yr oedd iddynt dair o ferched—megis Sarhau-y-gwir, Dirmygu-Duw, ac enw yr

* Mae'r ewyllys gnawdol yn gwrthwynebu y gydwybod.

ieuangaf oedd Tref, yr hon a esgorodd ar Ddrwg-ymddial); y rhai hyn oll a briodasant yn eu plentyndod, ac hefyd a genhedlasant lawer o blant, rhy liosog i son am danynt yma. Ond gadawn hyn.

Pan oedd y cawr wedi ymarfogi ei hun fel hyn yn nhref Man-soul, ac wedi darostwng a dyrchafu y sawl a fynai, y mae efe yn myned i anffurfio. Yn awr, yr oedd yn heol y farchnad, yn Man-soul, ac hefyd ar byrth y castell, ddelw y Brenin Shad-dai; yr oedd y ddelw hon wedi ei hargraffu mor gywir (ac yr oedd wedi ei hargraffu mewn llythyrenau aur) fel ag yr oedd hi y peth tebycaf i Shad-dai ei hun ag oedd y pryd hyny yn y byd. Gorchymynodd yn ddirmygus i hon gael ei hanffurfio; ac fe wnaed yn ddirmygus felly trwy law Mr. Anwir. Yn awr, chwi a ellwch fod yn sicr, mai fel y gorchymynasai Diabolus, a hyny trwy law Mr. Anwir, yr anffurfiwyd delw Shad-dai. Efe hefyd a roddodd awdurdod y byddai i'r un Mr. Anwir i osod i fyny yn ei lle hi ddelw erchyll ac ofnadwy Diabolus; er gwaradwydd mawr i'w Brenin cyntaf, a dirmyg i'w dref Man-soul.

Felly, Diabolus a anrheithiodd bob gweddill o gyfreithiau a deddfau Shad-dai ag a allai efe eu cael yn nhref Man-soul—sef y cyfryw ag a gynwysai, naill ai athrawiaethau, neu foesau, yn nghyd â phob dysgeidiaeth, naturiol a gwladol. Ceisiodd hefyd ddiffoddi pob tosturi perthynasol. I fod yn fyr, nid oedd yno ddim wedi ei adael ag oedd yn dda yn Man-soul, nas ceisiodd efe ac Ewyllysgar ei ddistrywio; canys eu hamcan oedd i droi Man-soul i fod yn anifail, ac i'w gwneuthur yn debyg i'r hwch aflan, trwy law Mr. Anwir.

Wedi iddo ddistrywio pob cyfraith a threfn ddaionus ag a allai, efe a aeth rhagddo i ddwyn i ben ei amcan—sef i ddieithrio Man-soul oddiwrth Shad-dai, ei Brenin cyntaf. Y mae efe yn gorchymyn, ac y maent hwy yn gosod i fyny, ei gyfreithiau, ei ddeddfau, a'i orchymynion ofer ei hun, yn mhob lle amlwg, lle byddai y mwyaf tramwyo yn Man-soul; sef y cyfryw ag a roddodd ryddid i chwant y cnawd, chwant y llygad, a balchder bywyd, y rhai nid ydynt oddiwrth Shad-dai—ond o'r byd y maent. (1 Cor. x. 21.) Efe a gefnogodd, ac a roddodd anogaeth i bob aflendid ac annuwioldeb yno. Ië, llawer ychwaneg a wnaeth Diabolus i anog drygioni yn nhref Man-soul. Efe a addawodd iddynt heddwch, boddlonrwydd, a dedwyddwch, trwy eu gwaith yn cyflawni ei orchymynion, ac nas byddai iddynt byth gael eu galw i gyfrif am y gweithredoedd ag a wnaent yn wrthwynebol i gyfraith Shad-dai. A byddai i hyn wasanaethu y tro i roddi prawf, neu hanes, i'r rhai sydd yn dda ganddynt glywed son am yr hyn nis gwyddant oddiwrtho yn mhell mewn gwledydd dieithr.

Yn awr, gan fod Man-soul yn hollol wrth ei amnaid ef, ac wedi ei dwyn yn gyfan at ei ewyllys ef, ni chlywid ac ni welid ynddi ond yr hyn a fyddai yn tueddu tuag at ei osod ef i fyny ynddi.

Ond yn awr, wedi iddo wneuthur fy Arglwydd Maer a Mr. Cofiadur yn anabl i ddwyn swyddau yn Man-soul; a chan weled fod y dref, cyn ei ddyfod ef iddi, y gorphoraeth hynaf yn y byd; a chan ofni, os na byddai iddynt ryw bryd wrthddadleu yn ei erbyn, a dywedyd iddo wneuthur cam â hwynt—am hyny, meddaf (fel y gwelent nad oedd efe yn bwriadu lleihau eu mawredd, na chymeryd oddiwrthynt ddim o'r pethau manteisiol), efe a ddewisodd iddynt Faer a Chofiadur ei hunan; a'r fath ag a'u boddlonodd hwynt yn eu calonau, a'r fath hefyd ag a'i boddlonodd yntau yn dda iawn.

Enw y Maer ag oedd o ddewisiad Diabolus oedd yr Arglwydd Chwantau—dyn heb na llygaid na chlustiau; a'r hyn oll ag a wnaeth efe fel dyn, neu fel swyddwr, efe a'i gwnaeth ef yn anianol, fel yr anifail. A'r hyn a'i gwnaeth ef eto yn waelach, er nad oedd efe felly i Man-soul; eto, y rhai hyny ag oedd yn edrych ac yn gofidio am ei distrywiad, oedd, nad allai efe un amser arogli yr hyn oedd dda, ond drwg.

Enw y Cofiadur oedd un Anghofio-daioni—a dyn gwael iawn ydoedd. Nid allai efe gofio dim ond drygioni, a'i wneud ef gydag hyfrydwch. Yr oedd efe yn naturiol yn dueddol i wneuthur pethau ag oedd yn niweidiol—sef yn niweidiol i dref Man-soul, ac i'r rhai oll a drigant ynddi. Y ddau hyn, gan hyny, trwy eu gallu, eu hymarferiad, eu siamplau, a'u gwênau ar bechod, a ddysgasant, ac a gadarnhasant y bobl gyffredin yn fwy o lawer mewn ffyrdd pechod a drygioni. Canys pwy nad yw yn dirnad, pan y mae y rhai hyny ag sydd mewn swyddau yn byw yn ddrwg, ac yn llygredig eu hunain, nad ydynt yn llygru yr holl deyrnas a'r wlad lle maent?

Heblaw y rhai hyn, fe wnaeth Diabolus lawer o fwrdeiswyr ac henuriaid yn Man-soul; allan o ba rai y gallai y dref, pan fyddai eisieu arnynt, ddewis iddynt eu hunain swyddogion a llywodraethwyr. A dyma enwau y rhai penaf o honynt: Mr. Anghrediniaeth, Mr. Uchel-drem, Mr. Tynghedig, Mr. Puteiniwr, Mr. Calon-galed, Mr. Didrugaredd, Mr. Digofaint, Mr. Anwir, Mr. Taeru-celwydd, Mr. Gau-heddwch, Mr. Meddwdod, Mr. Twyllgar, Mr. Didduwiaeth—tri-ar-ddeg i gyd: Mr. Anghrediniaeth yw'r hynaf, a Mr. Didduwiaeth yw'r ieuangaf o'r cwmpeini.

Yr oedd yno hefyd etholiad o gynghorwyr cyffredin, ac eraill—megis beiliaid, ceisiaid, cwnstabliaid, &c. Ond hwynt-hwy oll oeddynt gyffelyb i'r rhai a enwyd o'r blaen, gan eu bod naill ai tadau, brodyr, cefnderwyr, neu neieint iddynt; enwau pa rai, er mwyn bod yn fyr, a esgeulusais.

Wedi i'r cawr fyned rhagddo fel hyn yn ei waith, yn y lle nesaf efe a aeth i adeiladu rhai cestyll yn y dref; ac efe a adeiladodd dri ag oedd yn ymddangos yn anorchfygol. Y cyntaf a alwodd efe Castell Gwaethaf-pawb, am iddo gael ei wneud i amddiffyn yr holl dref, ac i'w chadw rhag gwybod dim am ei Brenin cyntaf; yr ail a alwodd efe Castell Canol-nos, am ei fod wedi ei adeiladu yn bwrpasol i gadw Man-soul oddiwrth adnabyddiaeth cywir o honi ei hun: y trydydd a elwid Castell y

Pechod-anwyl, oherwydd mai trwy hwnw yr oedd efe wedi arfogi Man-soul yn erbyn pob dymuniad o ddaioni. Y cyntaf o'r cestyll hyn oedd yn sefyll yn uniawn wrth Borth-y-llygad, fel, mor belled ag y gellid, y byddai i oleuni gael ei dywyllu yno; yr ail oedd wedi ei adeiladu yn agos at yr hen gastell, i'r diben fel y byddai i hwnw (os ydoedd bosibl) gael ei wneuthur yn dywyllach; a'r trydydd oedd yn sefyll yn heol y farchnad.

Yr hwn a wnaeth Diabolus yn llywodraethwr ar y cyntaf o'r rhai hyn oedd un Dirmygu-Duw—un o'r rhai truain mwyaf cableddus. Efe a ddaeth gyda'r holl rai hyny ag a ddaethant ar y cyntaf yn erbyn Man-soul; ac yr oedd efe ei hunan yn un o honynt hwy. Yr hwn a wnaethpwyd yn llywodraethwr ar Gastell Canol-nos oedd un Casawr-goleuni; efe hefyd oedd un o'r rhai a ddaeth ar y cyntaf yn erbyn y dref. A'r hwn oedd yn llywodraethwr ar y castell a elwid Castell y Pechod-anwyl oedd un Cariad-cnawdol; yntau hefyd oedd yn ddyn aflan iawn, ond nid o'r wlad hòno i ba un yr oedd y llall yn rhwym. Y dyn hwn a gai fwy o felysder pan y byddai yn sugno chwant nag a gai efe yn holl baradwys Duw.

Ac yn awr, Diabolus a feddyliodd ei fod yn ddiogel: efe a gymerasai Man-soul; ac yr oedd efe wedi diswyddo yr hen swyddogion, ac wedi gosod i fyny rai newydd; efe a anffurfiasai ddelw Shad-dai, ac a osodasai i fyny ei ddelw ei hun; efe a anrheithiasai yr hen gyfreithiau, ac a osodasai i fyny ei gelwyddau ofer ei hun; efe a wnaethai iddo swyddogion newyddion, ac a osodasai i fyny henuriaid newyddion; efe a adeiladasai ei gestyll newyddion, ac a osodasai wŷr ynddynt i'w cadw iddo ei hun. A hyn oll a wnaeth efe i ddiogelu ei hun, rhag ofn y byddai i Shad-dai ddaionus, neu ei Fab, ddyfod a gwneuthur rhyfel arno ef.

Yn awr, chwi ellwch feddwl, mai yn mhell cyn hyn o bryd y byddai i air, gan ryw un neu gilydd, gael ei ddwyn i'r llys at y Brenin daionus Shad-dai, y modd y darfuasai iddo golli Man-soul, yn ngwlad Mundus, ac i'r cawr Diabolus, gynt un o weision ei Fawrhydi, iddo ef mewn gwrthryfel yn erbyn y Brenin ei gwneuthur yn ddiogel iddo ei hun. Ië, yr hanes a ddygwyd at y Brenin hyd at yr amgylchiad mwyaf manwl.

Megis yn nghyntaf, y modd y daeth Diabolus ar y dref Man-soul (a hwythau yn bobl wirion diniwaid) trwy ddichell a chyfrwysdra, celwyddau a thwyll; hefyd, iddo ef, fel bradwr, ladd y gwir barchedig gadben, sef eu Cadben Gwrthwynebiad, fel yr oedd efe yn sefyll gyda'r rhan arall o wŷr y dref. Drachefn, y modd y syrthiodd fy Arglwydd Diniweidrwydd i lawr yn farw (o dristwch, medd rhai, neu trwy gael ei wenwyno gan anadl ddrewedig un Drygbwyll, medd eraill), wrth glywed anmharchu a dianrhydeddu ei Arglwydd Cyfiawn a'i Dywysog uniawn Shad-dai, trwy enau Diaboloniad mor aflan ag oedd y caethwas hwnw Drygbwyll. Y genad yn mhellach a ddywedodd. mai wedi i'r Drygbwyll yma wneuthur araeth fèr wrth

wŷr y dref yn mhlaid Diabolus ei feistr, y dref wirion, gan gredu fod yr hyn a ddywedpwyd yn wir, o un fryd a agorasant Borth-y-clust—y porth penaf ag oedd yn perthyn i'r gorphoraeth, ac a'u gollyngasant ef a'i wŷr i feddiannu tref Man-soul. Efe a ddangosodd yn mhellach, pa fodd y darfuasai i Diabolus drin y Maer a'r Cofiadur—sef, iddo ef eu diswyddo o bob lle o allu ac ymddiried. Drachefn, efe a ddangosodd hefyd fod fy Arglwydd Ewyllysgar wedi troi yn wrthryfelwr hollol, ac felly hefyd Mr. Meddwl, ei ysgrifenydd ef, a'u bod hwy eill dau yn cyflawni pob oferedd a direidi ar hyd yr holl dref, ac yn dysgu eu ffyrdd i rai drygionus. Efe a ddywedodd hefyd fod yr Ewyllysgar yma wedi ei osod mewn ymddiried mawr, ac yn neillduol rhoddi o Diabolus i law Ewyllysgar yr holl gestyll yn Man-soul, a bod Mr. Serch wedi ei wneuthur yn arglwydd dirprwy i Ewyllysgar, yn ei weithredoedd mwyaf gwrthryfelgar. Ië, ebe'r genad, yr anghenfil hwn, Arglwydd Ewyllysgar, a ddiarddelodd ei Frenin Shad-dai yn gyhoeddus, ac a dyngodd yn aethlyd ffyddlondeb i Diabolus. Hefyd, ebe'r genad, heblaw hyn oll, y brenin newydd, neu yn hytrach y gorthrymwr gwrthryfelgar ar y dref, yr hon oedd unwaith yn enwog, ond yn awr y dref golledig Man-soul, a osododd i fyny Faer a Chofiadur o'i eiddo ei hun. Yn Faer efe a osododd i fyny Mr. Chwantau; ac yn lle Mr. Cofiadur Mr. Anghofio-daioni—dau o'r rhai gwaelaf o'r holl dref. Y genad ffyddlon yma hefyd a aeth rhagddo, ac a fynegodd pa fath fwrdeisiaid newydd a wnaethai Diabolus; hefyd iddo ef adeiladu amryw o gestyll a thyrau cedyrn yn nhref Man-soul. Efe a ddywedodd hefyd, yr hyn y bum i agos a'i anghofio, y modd y darfuasai i Diabolus arfogi tref Mansoul, fel y byddent yn gymhwysach i ryfela drosto ef yn erbyn Shad-dai eu Brenin, os byddai iddo ef ddyfod i'w dwyn i'w ufudd-dod cyntaf.

Yn awr, ni ddarfu y genad yma ag oedd yn dwyn y newyddion hyn fynegu y peth yn ddirgel, ond mewn llys agored, a'r Brenin a'i Fab, arglwyddi uchel, pen-cadbeniaid, a gwŷr mawrion, oeddynt oll yno yn bresenol i wrando. Ond wedi iddynt glywed yr holl 'stori, fe fuasai yn aruthr gan un weled, pe buasai yno i weled, y tristwch a'r galar, a'r cyfyngder yspryd, ag oedd yn mhlith pob math, wrth feddwl fod Man-soul enwog yn awr wedi ei chymeryd; yn unig y Brenin a'i Fab a ragwelsent hyn oll yn mhell o'r blaen—ïe, ac fe ddarfu iddynt ddarparu yn ddigonol dros Man-soul, er nas dywedasant hyny i bawb; eto, am eu bod yn ewyllysio cymeryd rhan o'r galar am drueni Man-soul, hwy hefyd a alarasant, a hyny yn y radd uwchaf, gan gwyno iddynt golli Man-soul. (Gen. vi. 5, 6.) Fe ddywedodd y Brenin yn eglur fod yn ddrwg ganddo yn ei galon; a chwi a ellwch fod yn sicr nad oedd y Mab ronyn llai ei dristwch nag yntau.

Fel hyn y darfu iddynt ddangos i bawb oddiamgylch fod ganddynt gariad a thosturi tuag at y dref enwog Man-soul. Felly, wedi i'r Brenin a'i Fab fyned o'r naill du i'r ystafell ddirgel, yna hwy drachefn a ymddiddanasant yn nghylch yr

hyn a ddarfuasai iddynt o'r blaen ei fwriadu—sef, mai fel y dioddefid i Man-soul mewn amser i gael ei cholli:* felly, mor sicr a hyny, y byddai iddi gael ei henill yn ol drachefn; ei henill, meddaf, yn y fath fodd ag y byddai i'r Brenin a'i Fab gael iddynt eu hunain glod a gogoniant tragwyddol trwy hyny. Felly, ar ol yr ymddiddan yma, Mab Shad-dai—Person dymunol a hardd, ac un ag oedd ganddo bob amser dosturi mawr tuag at y rhai hyny ag a fyddai mewn cystudd, ond un ag oedd ganddo elyniaeth marwol yn ei galon yn erbyn Diabolus, oblegid ei fod ef wedi ei arfaethu i hyny, ac oblegid ei fod ef yn ceisio ei goron a'i anrhydedd ei hun (Esay xlix. 5. 1 Tim. i. 15. Hos. xiii. 14)—y Mab yma i Shad-dai, meddaf, gan ei fod wedi ymrwymo i'w Dad, ac addo y byddai iddo ef fod yn was iddo, i adferu Man-soul drachefn, a safodd wrth ei bwrpas neu ei ymroad; ac nid edifarha efe ychwaith am y cyfryw beth. Ystyr y cytundeb oedd hyn: sef, Mai ar ryw amser, wedi ei ragosod gan bob un o'r ddau, y byddai i Fab y Brenin gymeryd ei daith i wlad Mundus, ac yno, mewn ffordd o gyfiawnder ac uniondeb, trwy wneuthur iawn am ynfydrwydd Man-soul, y gosodai efe sail o'i rhyddhad a'i gwaredigaeth berffaith oddiwrth Diabolus, ac oddiwrth ei orthrymder.

Felly Emmanuel a fwriadodd, ar amser cyfaddas, wneuthur rhyfel ar y cawr Diabolus, a hyny tra fyddai efe yn y meddiant o dref Man-soul; ac y byddai iddo ef yn deg, trwy rym ei ddwylaw, ei lusgo ef allan o'i gastell, a'i nyth, ac a'i cymerai hi iddo ei hun, i fod yn drigfan iddo.

Y peth hyn yn awr, gan ei fod wedi ei bwrpasu, fe drefnwyd i'r Arglwydd Brif Ysgrifenydd dynu coffadwriaeth teg o'r hyn a arfaethasid, a pheri iddo gael ei gyhoeddi † yn mhob congl o deyrnas Mundus; hanes byr o gynwysiad pa un chwi a ellwch gymeryd, os gwelwch yn dda, fel y canlyn:

"Gwybydded pawb ag y perthyn iddynt, fod Mab Shad-dai, y Brenin mawr, wedi ymrwymo mewn cyfamod i'w Dad, i ddwyn ei Fan-soul iddo drachefn;—ïe, ac i osod Man-soul hefyd, trwy ei gariad anghydmarol, mewn llawer gwell a hapusach cyflwr nag yr oedd hi ynddo cyn ei chymeryd gan Diabolus."

Y papyrau hyn, gan hyny, a gyhoeddwyd mewn amryw leoedd, er rhwystr, nid bychan, i'r gorthrymwr Diabolus; canys yn awr, eb efe, fe'm haflonyddir, a'm trigfan a gymerir oddiarnaf.

Ond pan ddarfu i'r mater hwn—yr wyf yn meddwl i'r amcan hwn o eiddo y Brenin a'i Fab, ar y cyntaf, gael ei sibrwd yn y llys, pwy a ddichon fynegu pa fodd y darfu i'r arglwyddi uchel, pen-cadbeniaid, a'r tywysogion boneddigaidd ag oedd yno, hoffi y gwaith? Yn nghyntaf, fe ddarfu iddynt ei sibrwd y naill wrth y llall; ac ar ol hyn, fe ddarfu ddechreu swnio allan trwy holl lys y Brenin, a phawb yn rhyfeddu am yr amcan gogoneddus ag oedd ar droed rhwng y Brenin a'i Fab yn

* Dirgelwch ei arfaeth ef. † Yr Ysgrythyrau Sanctaidd.

nghylch Man-soul druenus.Ië, nid allai gwŷr y llys braidd wneuthur un peth, na thros y Brenin na'r deyrnas, ond hwy a gymysgent â'r gwneuthuriad o hono swn am gariad y Brenin a'i Fab, yr hwn oedd ganddynt tuag at dref Mansoul.

Ac nid allai yr arglwyddi, y cadbeniaid uchel, a'r tywysogion hyn, fod yn foddlon i gadw y newyddion yma yn y llys; ïe, cyn perffeithio y coffadwriaethau o hono, hwynt-hwy eu hunain a ddaethant i lawr, ac a'u mynegasant yn Mundus. O'r diwedd cyrhaeddodd i glustiau Diabolus, fel y dywedais, er anfoddlonrwydd nid bychan iddo. Canys chwi a ellwch benderfynu y blinai efe i glywed am y fath fwriad yn ei erbyn. Yn awr, ar ol myfyrio tipyn bach, efe a benderfynodd ar y pethau hyn:

Yn nghyntaf. Y byddai i'r newyddion yma, y genadwri ddaionus (os oedd bosibl) gael eu cadw oddiwrth glustiau tref Man-soul; "Canys," eb efe, "os deuant hwy unwaith i wybodaeth fod Shad-dai, eu Brenin cyntaf, ac Emmanuel, ei Fab, yn trefnu daioni i dref Man-soul, pa beth a allai ef ddisgwyl ond bod i Man-soul wrthryfela odditan fy llaw a'm llywodraeth i, a dychwelyd drachefn ato ef?"

I gyflawni yr amcan hwn, y mae efe yn adnewyddu ei weniaith â'm Harglwydd Ewyllysgar, ac hefyd yn rhoddi iddo orchymyn caeth, ar fod iddo gadw gwiliadwriaeth ar hyd y dydd, a'r nos, wrth holl byrth y dref, ond yn enwedig Porth-y-clust a Phorth-y-llygad. "Canys," eb efe, "yr ydwyf yn clywed am fwriad i'n gwneud ni oll yn fradwyr, a bod yn rhaid adferyd Man-soul i'w chaethiwed cyntaf drachefn. Yr ydwyf yn gobeithio nad ydynt ond chwedlau celwyddog," eb efe; "ond pa fodd bynag, na adawer, mewn modd yn y byd, i'r fath newyddion ddyfod i glustiau Man-soul, rhag i'r bobl wrth hyny gael eu llwfrhau, neu eu tafiu i lawr. Yr ydwyf yn meddwl, fy arglwydd, nad all efe fod yn newydd croesawgar i chwi, ac yr ydwyf yn sicr nad ydyw i mi. Ac yr ydwyf yn meddwl, mai ar hyn o bryd, y dylai fod ein holl ddoethineb a'n gofal i dori penau y fath soniadau oll ag a duedda tuag at drallodi ein pobl; oherwydd paham, fy arglwydd, y dymunaf ar i chwi wneuthur yn y mater yma fel ag yr wyf fi yn gorchymyn—bydded i osgordd gadarn gael ei chadw yn feunyddiol wrth holl byrth y dref. Deliwch hefyd, a holwch, o ba le y daw y cyfryw ag y dealloch eu bod yn dyfod o bell i farchnata yma; ac na chaniataer iddynt mewn modd yn y byd ddyfod i Man-soul, oni ddeallwch chwi yn eglur eu bod hwy yn ffafrio ein llywodraeth ragorol ni. Yr ydwyf hefyd yn gorchymyn, ebe Diabolus, ar fod yspiwyr yn wastadol yn rhodio i fyny ac i lawr ar hyd y dref Man-soul, a bydded ganddynt allu i ddal ac i ddifetha pob un ag y deallont eu bod yn cynllunio yn ein herbyn, neu a fyddo yn gwag-siarad am yr hyn y mae Shad-dai ac Emmanuel yn ei fwriadu."

Y peth hyn, gan hyny, a wnaethpwyd fel y gorchymynwyd. Fy Arglwydd Ewyllysgar a wrandawodd ar ei arglwydd, ei feistr, ac a aeth yn ewyllysgar ar ol ei

orchymyn; a gyda phob diwydrwydd ag a allai, efe a gadwodd bob un a chwennychodd rhag myned ar led; ac a rwystrodd bawb a geisiodd ddwyn y newyddion hyn i Man-soul rhag dyfod i'r dref.

Yn ail. Wedi gwneud hyn, yn y lle nesaf, Diabolus, fel y byddai iddo wneuthur Man-soul mor ddiogel ag y gallai, a wnaeth ac a gymhellodd lw newydd a chyfamod erchyll ar wŷr y dref.

Sef yw hyny: "Na byddai iddynt mo'i adael ef, na'i lywodraeth, nac ychwaith ei fradychu ef, na cheisio newid ei gyfreithiau ef; ond bod iddynt arddel, proffesu, sefyll wrth, a'i gydnabod ef fel eu brenin cyfiawn, er gwaethaf pawb ag sydd, neu a fydd rhagllaw, trwy bob hawl, cyfraith, neu ditl, neu beth bynag ag a fyntumio hawl yn nhref Man-soul." (Esay xxviii. 15.) Gan feddwl wrth hyny, mae'n debyg, nad oedd gan Shad-dai allu i ddiddymu eu hamod ag angau, a'u cyngrair ag uffern. Ac ni ddarfu i Man-soul ynfyd edrych neu brisio dim oll am y llw anghenfilaidd yma; ond fel pe buasai efe bysgodyn bychan yn safn morfil, hwy a'i llyncasant ef heb ei gnoi. A oedd hyn yn flin ganddynt? Nag oedd, ond yn hytrach fe ddarfu iddynt ymffrostio eu ffyddlondeb gwych i'r gorthrymwr, yr hwn oedd yn cymeryd arno fod yn frenin arnynt, gan dyngu na byddai iddynt byth fod yn rhai cyfnewidiol, na chasâu eu hen arglwydd am un newydd.

Fel hyn y rhwymodd Diabolus Man-soul, druan, yn ddiogel: ond eiddigedd, yr hwn nis gwel ei hun byth yn ddigon diogel, a'i gosododd ef yn y lle nesaf ar waith, yr hwn oedd eto yn fwy, os oedd bosibl, i halogi y dref hon, Man-soul. Oherwydd paham, fe barodd, trwy law Mr. Aflendid, i ddarn o ysgrifen anllad, ffiaidd, aflan, ac anifeilaidd, gael ei hysgrifenu, a'i gosod ar y pyrth, trwy ba un y caniatâodd, ac y rhoddodd genad i'w holl blant cywir a gonest yn Man-soul i gyflawni pa beth bynag y byddai eu harchwaethau trachwantus yn eu cymhwyso hwynt i'w gwneuthur, ac nad oedd i un dyn attal, rhwystro, na'u rheoli hwynt, dan boen o dynu am ei ben anfoddlonrwydd eu tywysog. Yn awr hyn a wnaeth efe oblegid y rhesymau hyn:

1. Fel y byddai i dref Man-soul yn mhellach gael ei gwneuthur yn wanach, wanach, ac felly yn anabl, os deuai cenadwri fod eu prynedigaeth wedi ei bwrpasu, i gredu, gobeithio, neu gydsynio â'r gwirionedd o hono. Canys rheswm a ddywed, pa fwyaf fyddo y pechadur, lleiaf fydd o sail a gobaith am drugaredd.

2. Yr ail reswm oedd: Os, ysgatfydd, y byddai i Emmanuel, mab Shad-dai, eu Brenin, edifarhau (wrth weled gweithredoedd erchyll ac halogedig tref Man-soul, er ei fod wedi myned mewn cyfamod i'w gwaredu hwynt) o gyflawni cyfamod eu prynedigaeth hwynt; canys efe a wyddai fod Shad-dai yn sanctaidd, a bod ei Fab, Emmanuel, yn sanctaidd; ïe, efe a'i gwyddai trwy brofiad—canys am anwiredd a phechod Diabolus y bwriwyd ef i lawr o'r lle uchaf. Oherwydd paham, pa beth oedd yn fwy rhesymol nag iddo ef gasglu mai yr un fath yn hollol, am bechod, y

digwyddai i Man-soul? Ond gan ofni hefyd y byddai i'r cwlwm hwn dori, y mae efe yn llyfelu un arall, sef,

3. I beri i bob calon yn Man-soul gredu fod y Brenin Shad-dai yn codi llu o wŷr, i ddadymchwelyd ac i lwyr ddifetha y dref yma, Man-soul (a hyn a wnaeth efe i ragflaenu unrhyw genadwri ag a allai ddyfod i'w clywedigaeth hwynt yn nghylch eu gwaredigaeth); "Canys," eb efe, "os bydd i mi gyhoeddi hyn yn nghyntaf, pa genadwri bynag a ddelo atynt rhagllaw a lyncir i fyny ganddo; canys pa beth arall a ddywed Man-soul, pan glywont fod yn rhaid eu gwaredu, ond mai y gwir feddwl yw, fod Shad-dai yn amcanu eu difetha hwynt?" Oherwydd paham, y mae efe yn gwysio yr holl dref i heol y farchnad, ac yno â thafod twyllodrus, y darfu iddo gyfeirio ei hun atynt:

"Foneddigion, a'm cyfeillion anwyl!—Chwychwi oll, fel y gwyddoch, ydych fy neiliaid cyfreithlon, a gwŷr o dref Man-soul enwog; chwi a wyddoch pa fodd, o'r dydd cyntaf y bum i gyda chwi hyd yr awr hon, yr ymddygais fy hun yn eich mysg, a pha ryddid a rhagorfreintiau a ddarfu i chwi eu mwynhau dan fy llywodraeth i: yr ydwyf yn gobeithio i'ch anrhydedd chwi a minau, ac hefyd i'ch boddlonrwydd a'ch hyfrydwch. Fy enwog Fan-soul! y mae son am helbul ar led, am helbul i dref Man-soul, ac yr wyf yn merwino oherwydd hyny, ei eich mwyn chwi. Canys myfi a glywais yn awr trwy y llythyrfa, oddiwrth fy Arglwydd Lusiffer (ac y mae efe yn arferol o fod yn hysbys iawn), fod eich hen Frenin Shad-dai yn codi llu o wŷr yn eich erbyn chwi, i'ch difetha, wreiddyn a changen; a hyn, O! Man-soul, yw yr achos yn awr y bu i mi ar hyn o bryd eich galw chwi yn nghyd—sef i ymgynghori ar y cyfryw amser a hwn, pa beth sydd oreu ei wneuthur. Ac o'm rhan i, nid ydwyf fi ond un, ac a allaf ymdaro yn hawdd drosof fy hun, pe bawn yn ewyllysio fy esmwythder fy hunan, ac i adael fy Man-soul mewn pob perygl; ond y mae fy nghalon wedi ei chysylltu mor gadarn â chwi; ac y mae mor anhawdd genyf eich gadael chwi, fel ag yr ydwyf yn foddlon i sefyll neu syrthio gyda chwi, er dim perygl ag a ddigwyddo i mi. Pa beth a ddywedwch chwi, O! fy Man-soul? A fydd i chwi yn awr adael eich hen gyfaill, neu a ydych chwi yn meddwl sefyll drosof?" Yna hwy, fel un dyn, ag un genau, a lefasant yn nghyd yn groch, "Bydded yr hwn nis gwnelo, farw y farwolaeth."

"Yna," ebe Diabolus drachefn, "gwaith ofer yw i ni ddisgwyl am ffafr, canys ni ŵyr y Brenin hwn pa fodd i'w ddangos ef. Gwir yw, fe allai y bydd iddo, pan ymosodo arnom gyntaf, son a chymeryd arno y bydd ef drugarog, fel trwy hyny y byddai hawsach, ac yn llai trafferth iddo ef wneuthur ei hun yn feistr ar Man-soul; pa beth bynag, gan hyny, a ddywedo efe, na chredwch un sillaf, na'r tipyn lleiaf o hono, canys pob cyfryw ymadrodd sydd er ein gorchfygu, ac i'n gwneuthur, tra byddom yn ymdrabaeddu yn ein gwaed, yn arwyddion o'i fuddugoliaeth greulon.

Am hyny, fy meddwl yw, ar fod i ni ymroddi hyd yr eithaf i'w wrthwynebu ef, ac na byddo i ni ei goelio ef ar unrhyw amodau; canys i mewn trwy y drws hwnw y daw ein niwaid. Ond a fydd i ni gymeryd ein gwenieithio am ein bywyd? Yr ydwyf yn gobeithio y gwyddoch chwi fwy o egwyddorion llywodraeth nag y byddo i chwi ddioddef cymeryd eich trin yn y fath fodd gresynol.

Ond bwriwch y byddai iddo, os caiff efe genym ymostwng, achub bywyd rhai o honom, neu fywyd rhai o'r rhai hyny ag sydd yn gaethion yn Man-soul, pa ddaioni a fydd hyny i chwi ag sydd benaf yn Man-soul, yn enwedig y cyfryw o honoch ag a osodais i fyny, a mawredd pa rai a bwrcaswyd genych chwi trwy eich gwaith yn glynu yn ffyddlon wrthyf fi? A bwriwch eto, pe byddai iddo ddangos trugaredd i bob un o honoch, bydded hyspys i chwi, y bydd iddo ef eich dwyn i'r fath gaethiwed ag oeddych dano o'r blaen, neu waeth; ac yna, pa ddaioni a wnai eich einioes i chwi? A gewch chwi fyw gydag ef mewn pleser, fel ag yr ydych yn awr? Na chewch, na chewch; rhaid yw eichrhwymo wrth gyfraith ag a fyddo yn eich gwasgu chwi; a gwneir i chwi wneuthur yr hyn beth ag sydd yn bresenol yn niweidiol i chwi; yr ydwyf fi am danoch chwi, os ydych chwithau am danaf finau, a gwell yw marw yn wrol, neu yn anrhydeddus, na byw fel caethion truenus. Ond, meddaf, bywyd caethwas a gyfrifir yn rhy dda i Man-soul yn awr; gwaed, gwaed, nid oes dim ond gwaed yn mhob chwythiad o udgorn Shad-dai yn erbyn Man-soul druan yn awr. Atolwg, ystyriwch, yr ydwyf yn clywed ei fod yn dyfod i fyny, a sefwch ar eich arfau, fel yn bresenol, tra fyddo genych arfod, fel y gallwyf ddysgu i chwi ryw weithredoedd ag sydd yn perthyn i ryfel. Arfogaeth i chwi sydd genyf, a gyda mi y mae; ïe, ac y mae yn ddigonol i Man-soul, o wadn y troed hyd y coryn; ac nis gellir eich niweidio gan unrhyw beth ag a allo ei luoedd ef ei wneuthur, os bydd i chwi ei gadw wedi ei wregysu yn ddiogel am danoch; deuwch, gan hyny, i'm castell, a chroesaw, ac ymarfogwch eich hunain i ryfel. Mae yno helm, a dwyfroneg, cleddyf, a tharian, a pha beth nid yw, ag a wnelo i chwi ymladd fel gwŷr.

1. Fy helm, a elwir hefyd penffestin, yw gobaith o wneuthur yn dda yn y diwedd, pa fath fywyd bynag y byddoch chwi byw ynddo. (Deut. xxix. 19.) Dyma yr un hwnw ag oedd ganddynt hwy, y rhai a ddywedodd y byddai iddynt heddwch, er iddynt rodio yn nghyndynrwydd eu calon i chwanegu meddwdod at syched. Arf cymeradwy yw hwn; a phwy bynag sydd yn berchen arno, ac a'i cadwo, cyhyd a hyny nid all un saeth, picell, cleddyf, neu darian, wneuthur niwed iddo; hwn, gan hyny, cadw am danat; a thydi a gedwi ymaith lawer ergyd, fy Man-soul.

2. Fy nwyfroneg sydd ddwyfroneg o haiarn. (Dat. ix. 9.) Fe a'i gwnaethpwyd yn fy ngwlad fy hun, ac y mae fy holl filwyr i wedi eu harfogi ag ef; ac i ddywedyd yn Gymraeg loyw, calon galed ydyw, calon mor galed a'r haiarn, ac mor ddideimlad a'r gareg; yr hon, os bydd i chwi ei cheisio a'i chadw, nis bydd i drugaredd eich

dychrynu. Hwn, gan hyny, sydd ddarn o arfogaeth mwyaf angenrheidiol i bawb ei wisgo ag sydd yn casâu Shad-dai, ac a fynai ymladd yn ei erbyn dan fy maner i.

3. Fy nghleddyf yw tafod wedi ei osod ar dân uffern. (Salm lvii. 4; lxiv. 3. Iago iii.) Plyga hwn ei hun i ddywedyd yn ddrwg am Shad-dai, ei Fab, ei ffyrdd, a'i bobl; arferwch hwn, efe a brofwyd fil o weithiau ac yn ychwaneg; pwy bynag sydd yn berchen arno, ac a'i cadwo, ac sydd yn gwneuthur y defnydd hyny o hono ag yr ydwyf yn ewyllysio iddo wneuthur, nis gorchfygir ef byth gan fy ngelyn.

4. Fy nharian ydyw anghrediniaeth (Salm lxxvi. 5, 6), neu ameu gwirionedd y Gair, neu yr holl ymadroddion ag sydd yn llefaru am y farn y mae Shad-dai wedi ei gosod i ddynion drwg. Gwnewch ddefnydd o'r darian yma; llawer ymosodiad a wnaethpwyd arni; ac weithiau, mae yn ddigon gwir, fe'i torwyd; ond y rhai a ysgrifenasant am ryfeloedd Emmanuel yn erbyn fy ngweision i, a dystiolaethasant nad allai efe wneuthur nemawr o weithredoedd nerthol yno, oblegid eu hanghrediniaeth hwynt. Yn awr, i drin yr arf yma o'm heiddo yn iawn, ydyw peidio credu pethau am eu bod yn wir, o ba fath bynag, neu gan bwy bynag ag y byddont yn cael eu taeru. Os llefara efe am farn, na ofalwch am hyny; os llefara am drugaredd, nac ystyriwch hyny; os bydd efe yn addo, os twng efe nas gwna i Man-soul (os dychwel) ddim niwaid, ond daioni, nac ymddiriedwch ynddo, ac na choeliwch yr hyn a ddywedir; amheuwch wirionedd y cwbl, canys dyma yw trin tarian anghrediniaeth yn iawn, ac fel y dylai fy ngweision, ac fel y maent yn gwneuthur; a'r hwn sydd yn gwneuthur yn amgenach, nid ydyw yn fy ngharu i, ac nid ydwyf finau yn ei gyfrif ef ond fy ngelyn.

5. Rhan, neu ddarn arall, ebe Diabolus, o'm harfogaeth ragorol, yw yspryd mud, diweddi—yspryd ag sydd yn diystyru llefain am drugaredd; oblegid paham, fy Man-soul, byddwch yn sicr i ddefnyddio hwn. Pa beth? llefain am drugaredd! Na wnewch byth mo hyny, os mynwch fod yn eiddo i mi. Myfi a wn mai gwŷr cedyrn ydych, ac y mae yn ddiogel genyf i mi eich gwisgo âg arfogaeth gymeradwy; am hyny, i lefain ar Shad-dai am drugaredd, bydded hyny yn mhell oddiwrthych. Y mae genyf fi luryg, pentewynion, saethau, a marwolaeth; pob math o arfau dwylaw, a'r cyfryw hefyd ag a wna ddihenydd.

Ac wedi iddo fel hyn arfogi ei wŷr â'i arfau, efe a gyfeiriodd ei ymadrodd atynt yn y fath eiriau a'r rhai hyn: Cofiwch, eb efe, mai myfi yw eich brenin cyfreithlon, a'ch bod chwi wedi cymeryd llw, ac wedi myned mewn cyfamod i fod yn gywir i mi ac i'm hachos: cofiwch, hyn, meddaf, a dangoswch eich hunain yn wrol, ac yn wŷr cedyrn Man-soul. Cofiwch hefyd y cymwynasgarwch a ddangosais i bob amser i chwi, a hyny heb i chwi ei geisio. Myfi a ganiateais i chwi bethau oddiallan; oherwydd paham, y rhagorfreintiau, y rhagoriaethau, yr elw, a'r anrhydedd, y'ch cynysgaeddais chwi â nhwy, sydd yn galw arnoch i fod yn ffyddlon, fy ngwŷr

pybyr o Man-soul; a pha amser mor gymeradwy i'w ddangos a hwn, pryd y mae eraill yn ceisio cymeryd fy arglwyddiaeth i arnoch chwi i'w dwylaw eu hunain? Un gair yn ychwaneg, ac mi a derfynaf. Pe gallem ni sefyll, a gorchfygu yr ymgyrch neu yr ymosodiad hwn, nid ydwyf yn ameu y byddai yr holl fyd yn eiddom ni cyn bo hir. A phan ddelo y dydd hwnw, fy anwyl gyfeillion, myfi a'ch gwnaf chwi yn frenhinoedd, tywysogion, a chadbeniaid; a pha fath ddyddiau gwych a gawn ni y pryd hyny!

Ac wedi i Diabolus fel hyn arfogi a rhagarfogi ei weision a'i gaethweision yn Man-soul, yn erbyn eu Brenin daionus a chyfreithlon Shad-dai; yn y lle nesaf, y mae efe yn dyblu ei osgordd wrth byrth y dref, ac yn myned ei hun i'r castell, yr hwn oedd ei amddiffynfa gadarn ef. Ei gaethweision hefyd, i ddangos eu hewyllys, ac fel y tybient (ond yn anfonheddig) eu gwasgwychder, a ymarferasent eu hunain bob dydd i drin eu harfau, ac a ddysgasant y naill y llall i ryfela; hwy hefyd a waradwyddasant eu gelynion, ac a ganasant glod eu gorthrymwr; hwy hefyd a fygythiasant, ac a ddywedasant pa fath wŷr a fyddent, os byth y digwyddai iddi fyned yn rhyfel rhwng Shad-dai a'u brenin hwy.

Yn awr, yr holl amser hyn, y Brenin daionus, sef y Brenin Shad-dai, oedd yn darparu i ddanfon byddin o wŷr i enill tref Man-soul yn ol drachefn odditan orthrymder Diabolus, yr hwn oedd yn cymeryd arno fod yn frenin iddynt. Ond efe a welodd yn dda ar y cyntaf beidio a'i danfon trwy law a chyfarwyddyd ei enwog Emmanuel, ei Fab, ond dan law rhai o'i weision, i weled yn gyntaf, trwyddynt hwy, dymher gwŷr tref Man-soul; a pha un a fyddai iddynt, trwyddynt hwy, gymeryd eu henill i ufudd-dod eu Brenin. Y fyddin oedd yn cynwys uwchlaw deugain mil o wŷr cywir oll, canys hwy a ddaethant o lys y Brenin, ac yr oeddynt o'i ddewisiad ef ei hun.

Hwy a ddaethant i fyny yn erbyn Man-soul dan law pedwar o gadbeniaid cedyrn, a phob un o honynt yn gadben ar ddeng mil o wŷr, a dyma eu henwau, a'u baneran hwynt: enw y cyntaf oedd Boanerges; enw yr ail oedd Cadben Argyhoeddiad; enw y trydydd oedd Cadben Barn; ac enw y pedwerydd oedd Cadben Dihenyddiad. Dyma oedd y cadbeniaid a ddanfonodd Shad-dai i enill Man-soul yn ol drachefn.

Y pedwar cadben yma (fel y dywedwyd) a welodd y Brenin yn gymhwys yn y lle cyntaf eu danfon i Man-soul, i wneuthur ymosodiad arni; oblegid, yn wir, yn gyffredin yn ei holl ryfeloedd efe a arferai ddanfon y pedwar cadben yma yn flaenaf, canys gwŷr cedyrn geirwon oeddynt;—gwŷr ag oedd yn gymhwys i dori yr ia, ac i wneuthur eu ffordd trwy fin y cleddyf; a'u gwŷr oeddynt fel hwy eu hunain. I bob un o'r cadbeniaid hyn y rhoddodd y Brenin faner, fel y byddai iddi gael ei gosod i fyny, oblegid mor gyfiawn oedd ei achos ac o achos yr hawl oedd ganddo ef yn Man-soul.

Yn gyntaf, i Gadben Boanerges, canys efe oedd benaf; iddo ef, meddaf, y rhoddwyd deng mil o wŷr. Ei luman-gludydd oedd Mr. Taranllyd; efe a ddug ei faner, a'i darian oedd tair bollten y daran losgedig. (Marc iii. 17.)

Yr ail oedd Cadben Argyhoeddiad; iddo ef y rhoddwyd deng mil o wŷr; ac enw ei luman-gludydd ef oedd Mr. Tristwch, ac efe oedd yn dwyn y faner las, a'i darian oedd llyfr y gyfraith yn lled agored, o ba le y daeth fflam o dân. (Deut. xxxiii. 2.)

Y trydydd oedd Cadben Barn; iddo ef y rhoddwyd deng mil o wŷr; enw ei luman-gludydd oedd Mr. Dychryn; efe a ddug y faner goch, a'i darian oedd ffwrnes danllyd losgedig. (Mat. xiii. 41, 42.)

Y pedwerydd gadben oedd Cadben Dihenyddiad; iddo ef y rhoddwyd deng mil o wŷr; ei luman-gludydd oedd un Mr. Cyfiawnder; yntau hefyd oedd yn dwyn baner goch, a'i darian oedd y pren diffrwyth, a bwyall wedi ei gosod ar ei wraidd. (Mat. iii. 10.)

Y pedwar cadben hyn, fel y dywedais, oedd ganddynt bob un o honynt ddeng mil o wŷr wrth eu gorchymyn, oll yn ffyddlon i'r Brenin, ac yn gedyrn mewn milwriaeth.

Felly y cadbeniaid a'u lluoedd, a'u gwŷr, a'u swyddogion israddol, wedi eu casglu ar ddiwrnod gan Shad-dai i'r maes, efe a'u galwodd hwynt oll drosodd wrth eu henwau, y pryd a'r man yr arfogwyd hwynt yn y fath fodd ag oedd yn addas i'w graddau, a'r gwasanaeth yr oeddynt yn awr yn myned yn ei gylch dros eu Brenin.

Yn awr, wedi i'r Brenin drefnu y fyddin (canys efe fydd yn trefnu y llu i'r gâd), efe a roddodd i'r cadbeniaid eu hamryw gommisiwnau; gyda siars a gorchymyn lle y clywai y milwyr oll, iddynt edrych atynt eu hunain ar fod iddynt gyflawni yr unrhyw yn ffyddlon ac yn egniol. Eu commisiwnau, o ran eu sylwedd, oeddynt un, yr un peth mewn ffurf; er, mewn perthynas i enwau, titlau, lle, a graddau y cadbeniaid, fe allai fod peth, ond nid oedd y gwahaniaeth ond bychan. Ac yma gadewch i mi roddi i chwi hanes y mater a'r swm cynwysedig yn eu commisiwn:

*Commisiwn oddiwrth Shad-dai mawr, Brenin Man-soul, at ei gywir a'i fonheddig gadben, y Cadben Boanerges, i wneuthur rhyfel ar dref Man-soul:*

O! Tydi Boanerges, un o'm nerthol a'm taranllyd gadbeniaid ar un deng mil o'm cedyrn nerthol a'm gweision ffyddlon. (Mat. x. 11. Luc x. 5.) Dos di yn fy enw i, gyda'th lu hwn, ar y dref druenus Man-soul; a phan ddelech di yno, cynyg iddynt amodau heddwch; a gorchymyn iddynt, trwy daflu ymaith iau a gorthrymder Diabolus ddrygionus, ddychwelyd ataf fi, eu Tywysog cywir a'u Harglwydd. Gorchymyn iddynt hefyd fod iddynt ymlanhau oddiwrth bob peth ag sydd yn eiddo iddo ef yn nhref Man-soul; ac edrych arnat dy hunan, ar i ti fynu cyflawn foddlon-

rwydd mewn perthynas i wirionedd eu hufudd-dod. Fel hyn, wedi i ti orchymyn iddynt, (os ymostyngant i hyny mewn gwirionedd,) yna, gwna di hyd eithaf ag a allech, hyd ag y mae ynot, i osod i fyny i mi amddiffynfa yn y dref enwog Man-soul; ac na wna di niwed i'r lleiaf o'r rhai genedigol ag sydd yn ymsymud neu yn anadlu ynddi, os bydd iddynt ymostwng i mi, ond trin di y cyfryw fel pe byddent dy gyfeillion neu dy frodyr; canys y cyfryw rai yr wyf yn eu caru oll, a hwy a fyddant yn anwyl i mi: a dywed wrthynt y cymeraf amser i ddyfod atynt, ac i beri iddynt wybod fy mod i yn drugarog. (1 Thes. ii. 7—11.)

Ond os bydd iddynt, er i ti eu rhybuddio hwynt, a dangos dy awdurdod, wrthwynebu, a sefyll allan yn dy erbyn di, a gwrthryfela; yna, yr wyf yn gorchymyn i ti wneuthur defnydd o'th holl arfogaeth, grym, gallu, a nerth, i'w darostwng trwy nerth arfau. Bydd wych.

Fel hyn y gwelwch swm eu commisiwnau hwynt; canys fel y dywedais o'r blaen, o ran eu sylwedd, yr un peth oedd gan y cadbeniaid boneddigaidd eraill.

Oherwydd paham, gan fod pob llywodraethwr wedi derbyn ei awdurdod oddidan law ei Frenin, a'r dydd wedi ei benodi, a'r lle yr oeddynt i ymfyddino ynddo wedi ei ragsefydlu, pob cadben a ymddangosodd yn y fath wychder ag yr oedd ei achos a'i alwad yn gofyn. Felly, ar ol derbyniad arall oddiwrth Shad-dai, gyda banerau hedfanaidd, hwy a gychwynasant ac a ymdeithiasant tuag at y dref enwog Man-soul. Cadben Boanerges oedd yn tywys blaen y gâd; Cadben Argyhoeddiad a Chadben Barn oedd yn gwneuthur i fyny y canol; a Chadben Dihenydd oedd yn tywys y llueddwyr olaf. Hwynt-hwy, gan hyny, a chanddynt ffordd bell i fyned—oblegid tref Man-soul oedd yn mhell oddiwrth lys Shad-dai (Eph. ii. 13, 17)—hwy a ymdeithiasant trwy wledydd a theyrnasoedd llawer o bobloedd, heb niweidio nac anmharchu neb, ond yn bendithio pa le bynag y delent. Yr oeddynt yno hefyd yn byw ar draul y Brenin yn eu holl ymdaith.

Wedi iddynt ymdeithio fel hyn dros lawer o ddyddiau, o'r diwedd hwy a ddaethant o fewn golwg i Man-soul; yr hon, pan welsant, nid allai y cadbeniaid, dros enyd, lai na galaru oblegid cyflwr y dref; canys hwy, yn ebrwydd, a welsant pa fodd yr oedd hi wedi ei darostwng i ewyllys Diabolus, ac i'w ffyrdd a'i amcanion ef.

Felly, i fod yn fyr, y cadbeniaid a ddaethant i fyny o flaen y dref, ac a ddaethant at Borth-y-clust, ac a eisteddasant i lawr yno; canys hwnw oedd y lle o wrandawiad. Felly, wedi iddynt wersyllu, a gwneuthur clawdd i amddiffyn eu hunain, hwy a wnaethant eu hunain yn gymhwys i ruthro ar y dref.

Yn awr, pobl y dref, ar y cyntaf, gan weled byddin hardd wedi ei harfogi mor wych, a'i dysgu mor rhagorol, wedi ei gwisgo yn ei harfau gloywon, a'i banerau yn gwau yn y gwynt, nis gallent lai na dyfod allan o'u tai i edrych. Ond y llwynog cyfrwys Diabolus, gan ofni y byddai i'r bobl, ar ol yr olwg yma, ar rybuddion

disymwth, agoryd y pyrth i'r cadbeniaid, a ddaeth i wared ar frys o'r castell, ac a wnaeth iddynt ddyfod yn ol i ganol y dref, yr hwn, pan gafodd efe hwynt yno, a wnaeth yr araeth gelwyddog a thwyllodrus yma wrthynt:

Foneddigion, eb efe, er eich bod i mi yn gyfeillion anwyl a chywir, eto nid allaf lai na cheryddu ychydig arnoch am yr hyn yn anystyriol a wnaethoch yn ddiweddar, sef myned allan i lygaid-rythu ar y llu mawr a chadarn hwnw, yr hwn nid yw ond er doe wedi ymosod i lawr o flaen (ac yn awr wedi gwneuthur iddynt eu hunain glawdd, mewn trefn i gynnal rhyfel yn erbyn) y dref enwog Man-soul. A wyddoch chwi pwy ydynt? ac o ba le y daethant? a pha beth yw eu pwrpas yn eistedd i lawr o flaen tref Man-soul? Hwynt-hwy ydynt y rhai hyny y dywedais i chwi am danynt er ys talm, y deuent i ddistrywio y dref yma, ac yn erbyn pa rai y bum i mewn traul i'ch arfogi chwi o wadn y troed hyd y coryn, heblaw amddiffynfeydd mawrion, er eich boddio chwi. Paham, gan hyny, na ddarfu i chwi yn hytrach, ar yr ymddangosiad cyntaf o honynt, lefain allan am dân o'r pegynau, a rhoddi alarwm i'r holl dref o'u plegid hwynt, fel y gallasem ni oll fod yn barod i amddiffyn ein hunain; ac y buasem yn y modd parotaf i'w derbyn, ac i ofyn eu gwaethaf hwynt; yna buasai i chwi ddangos eich hunain y fath wŷr ag yr wyf yn eu hoffi, oblegid trwy yr hyn a wnaethoch, chwi a wnaethoch i mi haner ofni; ïe, meddaf, haner ofni mai pan ddelom ni a hwythau yn nghyd i ymladd, y cawswn chwi yn ddigalon i ymdrechu â hwy. Oherwydd paham y gorchymynais i chwi osod gwyliadwriaeth, ac ar fod i chwi ddyblu yr osgordd wrth y pyrth? Paham y darfu i mi ymegnio i'ch gwneuthur mor galed a'r haiarn, a'ch calonau fel y maen isaf o'r felin? A oedd hyny, meddwch chwi, fel y byddai i chwi ddangos eich hunain yn wrageddos, ac yr aech allan fel byddin o rai diniwaid i lygaid-rythu ar eich gelynion marwol? Ffei, ffei, gosodwch eich hunain mewn agwedd amddiffynol, curwch y drwm, ymgesglwch yn nghyd mewn modd rhyfelgar, fel y gwybyddo ein gelynion mai cyn y byddo iddynt orchfygu y corphoraeth yma fod gwŷr cedyrn yn Man-soul.

Yn awr, mi a adawaf ymsènu, ac ni'ch ceryddaf yn mhellach: ond yr ydwyf yn gorchymyn i chwi, o hyn allan, nas gwelwyf mwy y fath weithredoedd. Na fydded o hyn allan i un o honoch chwi, heb gael fy nghenad yn gyntaf, gymaint a dangos ei ben dros y mur. Yn awr chwi a'm clywsoch i yn dweyd, gwnewch fel y gorchymynais, a chwi a berwch i mi drigo yn ddiogel gyda chwi; ac fel yr wyf fi yn cymeryd gofal am danaf fy hun, yr un modd felly y gwnaf am eich diogelwch a'ch anrhydedd chwithau hefyd. Bydd wych.

Yn awr, yr oedd gwŷr y dref wedi eu newid yn rhyfeddol: yr oeddynt fel dynion wedi eu taro ag ofn gwallgofus. Hwy a redasant i fyny ac i wared ar hyd y dref Man-soul, gan lefain allan, Cymhorth, cymhorth!—y gwŷr sydd yn aflonyddu y byd a ddaethant yma hefyd. Ac nid allent fod yn llonydd mwyach,

ond yn wastad, fel dynion wedi colli eu cof, hwy a lefasant allan, Distrywwyr ein heddwch a'n pobl a ddaethant. Yr oedd hyn wrth fodd Diabolus. Ha! eb efe wrtho ei hun, Yr wyf yn hoffi hyn o'r goreu; yn awr y mae fel yr wyf yn chwennychu iddi fod; yn awr yr ydych yn dangos eich ufudd-dod i'ch tywysog: pe byddai i chwi ond aros yn y sefyllfa yma, bydded iddynt gymeryd y dref, os gallant.

Felly, cyn i lu y Brenin aros o flaen Man-soul dri diwrnod, Cadben Boanerges a orchymynodd i'w udganwr fyned i lawr at Borth-y-clust, ac yno yn enw Shad-dai mawr, wysio Man-soul i roddi gwrandawiad i'r genadwriaeth ag a archesid iddo ef, yn enw ei Feistr, ei thraddodi iddynt. Felly, yr udganwr, enw yr hwn oedd Edrychwch-pa-fodd-y-gwrandawoch, a aeth i fyny, fel y gorchymynasid iddo, at Borth-y-clust, ac a udganodd am wrandawiad; ond nid ymddangosodd neb ag a roddai ateb, ac nid oedd neb yn ystyried; canys felly yr oedd Diabolus wedi gorchymyn. Felly yr udganwr a ddychwelodd at ei gadben, ac a fynegodd iddo yr hyn a wnaethai, a pha fodd yr ymdarawsai. Wrth yr hyn beth y gofidiwyd y cadben; ond efe a archodd i'w udganwr fyned i'w babell.

Drachefn, Cadben Boanerges a anfonodd ei udgorn at Borth-y-clust, i seinio megis o'r blaen am wrandawiad; ond hwynt-hwy, er hyny, a gadwasant arnynt, ac ni ddaethant allan, ac nis rhoddent ateb iddo, mor ofalus oeddynt i gadw gorchymyn Diabolus eu brenin.

Yna y cadbeniaid, a swyddogion eraill y llu, a alwasant gyngor, i ystyried beth yn mhellach oedd i'w wneuthur tuag at enill tref Man-soul; ac wedi iddynt ystyried yn fanwl a thrwyadl eu commisiwnau, hwy a farnasant roddi i'r dref eto, trwy law y rhagddywededig udganwr, wŷs arall i ddyfod i wrando; ond os byddai i hwnw gael ei wrthod, ebe hwy, ac i'r dref sefyll allan o hyd (Luc xiv. 23), yna hwy a farnasant ac a archasant i'r udganwr ddywedyd wrthynt, y byddai iddynt ymdrechu yn mhob modd ag a allent i'w cymhell hwynt trwy drais i ufuddhau i'w Brenin.

Felly, Cadben Boanerges, drachefn, a archodd i'w udganwr fyned i fyny at Borth-y-clust, ac iddo ef, yn enw y Brenin mawr Shad-dai, roddi iddi hi wŷs uchel iawn i ddyfod i wared i Borth-y-clust, ac yno i roddi gwrandawiad i foneddicaf gadbeniaid y Brenin. Felly yr udganwr a aeth, ac a wnaeth fel y gorchymynasid iddo: efe a aeth at Borth-y-clust, ac a udganodd yn ei udgorn, ac a roddes i Man-soul y trydydd gwŷs. (Esay lviii. 1.) Efe a ddywedodd hefyd, os byddai iddynt eto wrthod gwneuthur hyn, y byddai i gadbeniaid ei Dywysog ruthro arnynt gyda nerth, ac yr ymdrechent i ddyfod â hwynt i ufudd-dod trwy rym arfau.

Yna y safodd fy Arglwydd Ewyllysgar i fyny, yr hwn oedd lywodraethwr y dref (yr Ewyllysgar yma oedd y gwrthgiliwr, yr hwn y soniwyd am dano o'r blaen), a cheidwad pyrth Man-soul. Efe, gan hyny, â geiriau mawrion chwyddedig, a ofynodd i'r udganwr pwy ydoedd? ac o ba le y daethai? a phaham y gwnaethai y

fath swn dychrynllyd wrth y porth, a llefaru y fath eiriau anoddefadwy yn erbyn tref Man-soul?

Yr udganwr a atebodd: Gwas ydwyf i'r boneddicaf gadben, Cadben Boanerges, llywodraethwr lluoedd y Brenin mawr Shad-dai, yn erbyn pa un y darfu i ti dy hunan, a holl dref Man-soul wrthryfela, ac y codasoch eich sodlau; ac y mae gan fy meistr i, y cadben, genadwri neillduol at y dref yma, ac atat tithau, fel aelod o honi, yr hon, os bydd i chwi o Man-soul ei derbyn yn heddychol, da; ac onid ê, cymerwch yr hyn a ganlyn.

Yna, ebe yr Arglwydd Ewyllysgar, myfi a ddygaf y geiriau at fy arglwydd, ac a fynaf wybod beth a ddywed ef.

Ond yr udganwr a atebodd, gan ddywedyd, Nid ydyw ein cenadwri ni at y cawr Diabolus, ond at dref Man-soul druenus, ac ni wnawn gyfrif o'r hyn a ddywedo efe; nac ychwaith o neb ag a fyddo drosto ef. At y dref yma y'n danfonir ni, i'w gwaredu odditan ei orthrymder creulon ef, ac i'w pherswadio i ymostwng, megis ag y darfu iddi yn yr amseroedd gynt, i'r godidocaf Frenin Shad-dai.

Yna, ebe Ewyllysgar, mi a fynegaf eich neges i'r dref.

Yna yr udganwr a atebodd ac a ddywedodd: Syr, na thwyllwch ni, rhag, trwy hyny, i chwi eich twyllo eich hunain yn fwy. Efe a chwanegodd hefyd: Oblegid yr ydym ni yn ymroi, os na bydd i chwi mewn ffordd heddychol ymostwng eich hunain, i wneuthur rhyfel arnoch chwi, ac i'ch darostwng trwy drais. Ac am wirionedd yr hyn wyf yn ddywedyd, hyn a fydd yn arwydd i chwi—chwi a gewch weled y faner ddu, gyda'r bolltenau taranllyd llosgedig, wedi ei gosod ar y mynydd yfory, megis arwydd o ddifenwad yn erbyn eich tywysog, ac o'n hymroiadau ninau i'ch gwneuthur yn ufudd i'ch Brenin cyfreithlon.

Felly yr Arglwydd Ewyllysgar a ddychwelodd oddiwrth y mur, a'r udganwr a ddaeth i'r gwersyll. Pan ddaeth yr udganwr i'r gwersyll, y cadbeniaid a swyddogion y Brenin mawr Shad-dai, a ddaethant yno yn nghyd i gael gwybod a gawsai efe wrandawiad, a pha beth oedd yr effaith o'i genadwri. Felly yr udganwr a fynegodd, gan ddywedyd: Pan ddarfu i mi udganu yn fy udgorn, a galw yn uchel ar y dref am wrandawiad, fy Arglwydd Ewyllysgar, llywodraethwr y dref, a'r hwn y mae gofal y pyrth arno, a ddaeth i fyny, pan glywodd lais y corn, a chan edrych dros y mur, efe a ofynodd i mi pa beth oeddwn? o ba le y daethum? a pha beth oedd yr achos oedd yn peri i mi wneuthur y swn yma? Felly, mi a fynegais iddo fy neges, a thrwy awdurdod pwy y dygais ef. Yna, eb efe, mi a'i mynegaf i'r llywodraethwr ac i Man-soul: ac yna mi a ddychwelais at fy arglwydd.

Yna, ebe'r ardderchog Boanerges, gadewch i ni eto dros enyd aros yn ein cloddiau, a gweled pa beth a wna y gwrthryfelwyr hyn. Yn awr, pan nesaodd yr amser yr oedd Man-soul i roddi gwrandawiad i'r ardderchog Boanerges a'i

gwmpeini, fe orchymynwyd i'r holl ryfelwyr trwy holl wersyll Shad-dai, fel un gwr, i sefyll wrth eu harfau, a gwneuthur eu hunain yn barod: os bydd i dref Man-soul wrando, i'w derbyn i drugaredd; os na wnai, rhaid yw ei darostwng. Felly y dydd a ddaeth; yr udganwyr a ganasant, a hyny trwy yr holl wersyll, fel y byddai y milwyr yn barod i'r hyn, y pryd hyny, a fyddai gwaith y dydd. Ond pan glywsant hwy o dref Man-soul lais yr udgorn trwy holl wersyll Shad-dai, ac heb feddwl dim llai nad oedd raid ei fod mewn trefn tuag at aflonyddu y dref, yr oeddynt, ar y cyntaf, mewn cyfyngder yspryd mawr. Ond wedi iddynt dawelu ychydig, hwythau hefyd a wnaethant bob darpariad ag a allent i ryfel, os byddai iddynt ruthro ar y dref; neu ynte, i ddiogelu eu hunain mor ddiogel ag y medrent.

Felly, pan ddaeth yr amser, yr oedd Boanerges wedi ymroi i fynu gwybod eu hateb; oherwydd paham, efe a anfonodd allan ei udganwr drachefn, i wysio Man-soul i wrandawiad o'r genadwri a ddygasent hwy oddiwrth Shad-dai. (Zec. vii. 11.) Felly, efe a aeth ac a ganodd, a gwŷr y dref a ddaethant i fyny; ond hwy a wnaethant Borth-y-clust mor ddiogel ag y medrent. Yn awr, wedi iddynt ddyfod i fyny i ben y mur, Cadben Boanerges a ddymunodd gael gweled y Maer; ond yr Arglwydd Anghrediniaeth y pryd hyny oedd yn Faer, canys efe a ddaethai yn lle yr Arglwydd Chwantau.

Felly Anghrediniaeth a ddaeth i fyny, ac a ymddangosodd dros y mur. Ond pan welodd Cadben Boanerges ef, efe a lefodd â llef uchel, Nid dyma ef; pa le y mae fy Arglwydd Dealldwriaeth, hen Arglwydd Maer tref Man-soul, canys wrtho ef yr wyf fi yn ewyllysio mynegi fy nghenadwri?

Yna, ebe y cawr (canys Diabolus hefyd a ddaeth i wared) wrth y cadben, Fe ddarfu i chwi, trwy eich ëondra, roddi i Man-soul, o'r lleiaf, bedwar gwŷs, i'w darostwng ei hunan i'ch Brenin chwi; trwy awdurdod pwy nis gwn i; ac nis bydd i mi ymddadleu am hyny yn awr. Yr wyf fi, gan hyny, yn gofyn, pa beth yw yr achos o'r holl drwst yma? neu pa beth yr ydych ar fedr ei wneuthur, os gwyddoch eich cof?

Yna Cadben Boanerges, eiddo yr hwn oedd y faner ddu, ac arwyddai pa un ydoedd tair bollt y daran losgedig (heb gymeryd arno glywed y cawr na'i ymadrodd), a gyfeiriodd ei hun at dref Man-soul fel hyn:

Bydded hyspys i chwi, O! anhapus a gwrthryfelgar Man-soul! fod y grasusaf Frenin, y Brenin Shad-dai, fy Meistr, wedi fy nanfon i atoch gyda chommisiwn (ac felly efe a ddangosodd iddynt ei sel fawr) i ddyfod â chwi i'w ufudd-dod ef. Ac efe a orchymynodd i mi, os byddai i chwi roddi eich hunain i fyny ar fy rhybuddion i, i mi ymddwyn tuag atoch fel pe byddech fy nghyfeillion neu'm brodyr; ond efe hefyd a archodd, mai os ar ol rhybuddion i ymddarostwng, y bydd i chwi barhau yn wrthnysig, a gwrthryfela, y byddai i ni wneud ein goreu i'ch cymeryd trwy drais.

Yna Cadben Argyhoeddiad a safodd i fyny, ac a ddywedodd (efe a biodd y faner las, ac yn lle ysgwyd, yr oedd ganddo lyfr y gyfraith yn llydan-agored, &c.): Gwrando, O! Man-soul! Tydi, O! Man-soul, oeddit unwaith yn enwog am ddiniweidrwydd, ond yn awr tydi a ymddirywiaist at gelwydd a thwyll. (Rhuf. iii. 10—23; xvi. 17, 18. Salm l. 21, 22.) Tydi a glywaist pa beth a ddywedodd fy mrawd, Cadben Boanerges: dy ddoethineb a'th ddedwyddwch di ydyw ymostwng i, ac i dderbyn yr amodau o heddwch a thrugaredd, pan y cynygir; yn enwedigol pan y cynygir gan un, yn erbyn yr hwn y gwrthryfelaist, ac un ag sydd â gallu ganddo i'th dori di yn chwilfriw; canys felly y mae ein Shad-dai ni, ac nis gall dim, pan fo efe yn ddig, sefyll o'i flaen ef. Os dywedwch na phechasoch, ac na ddarfu i chwi wrthryfela yn erbyn ein Brenin ni, eich holl weithredoedd, er y dydd y gadawsoch ei wasanaeth ef (ac yno yr oedd dechreuad eich pechod) a dystiolaetha yn ddigonol yn eich erbyn chwi; pa beth, ynte, yw eich meddwl yn eich gwaith yn gwrando ar y gorthrymwr, a'ch gwaith yn ei dderbyn yn frenin i chwi? Pa beth, ynte, yw meddwl eich gwaith yn gwrthod cyfreithiau Shad-dai, a'ch gwaith yn ufuddhau i Diabolus? Ië, pa beth yw meddwl eich gwaith yn cyfodi mewn arfau, ac yn cau eich pyrth yn ein herbyn ni, y rhai ydym weision ffyddlon eich Brenin? (Luc xii. 58, 59.) Cymerwch eich perswadio, gan hyny, a rhoddwch dderbyniad i wahoddiad fy mrawd, ac na wastreffwch amser trugaredd, ond cytunwch â'ch gwrthwynebwr ar frys. O! Man-soul! na oddef dy gadw oddiwrth drugaredd, ac i redeg i filoedd o ofidiau, trwy weniaith a chyfrwysdra Diabolus. Ysgatfydd y bydd i'r dernyn hwnw o dwyll ymosod arnoch, i beri i chwi gredu mai ein helw ein hunain yr ydym yn ei geisio trwy ein gwasanaeth hwn; ond gwybyddwch mai ufudd-dod i'n Brenin, a chariad i'ch dedwyddwch chwithau, yw yr achos o'n gwaith ni yn hyn o beth.

Drachefn, meddaf i ti, O! Man-soul! onid yw yn ras annhraethol i Shad-dai ddarostwng ei hun fel y mae? (2 Cor. v. 18—21.) Yn awr, gadewch i ni ymresymu â chwi, mewn ffordd o berswadio trwy deg, ar fod i chwi ymostwng iddo ef. A oes arno ef y fath eisieu am danoch chwi, ag yr ydym ni yn sicr fed arnoch chwi am dano ef? Nac oes, nac oes; ond y mae efe yn drugarog, ac nid ydyw yn ewyllysio marwolaeth Man-soul, ond dychwelyd ato ef, a byw.

Yna safodd Cadben Barn i fyny; eiddo yr hwn oedd y faner goch, ac yn lle arwyddai, yr oedd ganddo y ffwrnes danllyd losgedig; ac efe a ddywedodd, O! chwychwi drigolion tref Man-soul! y rhai a fuoch byw cyhyd mewn gwrthryfel a bradwriaeth yn erbyn y Brenin Shad-dai: gwybyddwch, nad ydym ni yn dyfod heddyw i'r lle hwn, yn y modd yma, gyda chenadwri o'n hewyllys ein hunain, nac ymddial ein hunain arnoch; eithr y Brenin, ein Meistr, a'n danfonodd ni i'ch gwneuthur chwi yn ufudd iddo ef; yr hyn beth, os gwrthodwch, mewn ffordd o degwch, i ymroddi i fyny iddo ef, y mae genym ni gommisiwn i beri i chwi wneuthur

felly. Ac na feddyliwch byth o honoch eich hunain, ac na oddefwch i'r gorthrymwr Diabolus eich perswadio chwi i feddwl, nad yw ein Brenin ni, trwy ei allu, yn abl i ddyfod a chwi i lawr, a'ch gosod dan ei draed, canys efe ydyw dechreuad pob peth; ac os cyffwrdd â'r mynyddoedd, hwy a fygant. Ac ni bydd porth trugaredd y Brenin yn wastadol yn agored, canys y dydd a lysg fel ffwrn sydd o'i flaen ef; ïe, y mae yn prysuro yn ddirfawr, ac nid ydyw yn hepian. (Mal. iv. 1. 2. Pedr ii. 3.) O! Man-soul! ai bychan yw yn dy olwg fod ein Brenin yn cymhell trugaredd arnat, a hyny ar ol cynifer a gyffroiadau? Ië, y mae efe o hyd yn estyn allan ei deyrnwialen aur i ti, ac nid ydyw yn goddef i'w borth gael ei gau yn dy erbyn. A fydd i i ti ei gyffroi ef i hyny? Ystyria yr hyn yr wyf yn ei ddywedyd. Nid agorir ef i ti byth mwy. Er dywedyd o honot na weli ef, eto y mae barn ger ei fron ef; disgwyl dithau wrtho; ïe, "Oherwydd bod digofaint, gochel rhag iddo dy gymeryd di ymaith â'i ddyrnod: yna ni'th wared iawn mawr. A brisia efe ar dy olud di? Ni phrisia ar aur, nac ar holl gadernid nerth." "Efe a barotodd ei orseddfainc i farn." "Canys efe a ddaw â thân, ac â'i gerbydau fel tro-wynt, i dalu ei ddigter â llidiawgrwydd, a'i gerydd â fflamau tân." Job xxxvi. 18, 19. Salm ix. 7. Esay lxvi. 15. Am hyny, O! Man-soul, edrych, rhag, wedi i ti gyflawni barn y drygionus, i gyfiawnder a barn gymeryd gafael arnat ti. Yn awr, tra fu Cadben Barn yn gwneuthur yr araeth yma wrth dref Man-soul, fe ddaliodd rhai sylw i Diabolus grynu. Ond efe a aeth rhagddo yn ei ymadrodd: O! tydi dref Man-soul resynus! a wrthodi di bellach agoryd dy borth i'n derbyn ni, rhaglawiaid y Brenin, a'r cyfryw rai ag a lawenychent dy weled yn byw? (Ezec. xxii. 14.) A barhâ dy galon? A gryfha dy ddwylaw yn y dyddiau y bydd i mi a wnelwyf â thi? Ië, meddaf, a elli di ddioddef dy gymhell i yfed, fel yr yfai un win melys, o fôr y digofaint a ddarparodd ein Brenin i Diabolus a'i angylion? Ystyria mewn pryd, ystyria.

Yna safodd y pedwerydd cadben i fyny, y bonheddig Gadben Dihenydd, ac a lefarodd: O! dref Man-soul! gynt yn enwog, ond yn awr fel y gangen ddiffrwyth unwaith yn hyfrydwch y duwiau, ond yn awr yn ffau i Diabolus: gwrando hefyd arnaf fi, a'r geiriau a lefaraf wrthyt yn enw Shad-dai mawr. Wele, "y fwyall sydd wedi ei gosod ar wreiddyn y prenau: pob pren, gan hyny, yr hwn nid yw yn dwyn ffrwyth da, a dorir i lawr, ac a fwrir yn tân." Mat. iii. 7—10.

Tydi, O! dref Man-soul! a fuost hyd yma y pren diffrwyth hwn, nid ydwyt yn dwyn dim ond drain a mieri. (Deut. xxxii. 32.) Dy ffrwyth drwg sydd yn rhagddangos nad wyt yn bren da: dy rawnwin ydynt rawnwin bustlaidd, dy rawn-sypiau ydynt surion. Tydi a wrthryfelaist yn erbyn dy Frenin, ac wele nyni, gallu a chadernid Shad-dai, nyni ydym y fwyall a osodir ar dy wraidd. Pa beth a ddywedi di, a ddychweli di? Meddaf drachefn, mynega i mi, cyn rhoddi yr ergyd cyntaf, a ddychweli di? Rhaid yw gosod ein bwyall wrth dy wraidd, cyn ei gosod ar dy

wraidd; rhaid yw, yn gyntaf, ei gosod wrth dy wraidd, mewn ffordd o fygythiad, cyn ei gosod ar dy wraidd, mewn ffordd o gyflawniad; rhwng y ddau yma y gofynir dy edifeirwch, a dyma yr holl amser sydd genyt. Pa beth a wnei? A ddychweli di? neu a darawaf fi? Os bydd i mi gyrhaedd fy ergyd, Man-soul, yna i lawr yr âi; canys y mae genyf gommissiwn i osod fy mwyall ar, yn gystal ag wrth dy wreiddyn di; ac ni ragflaena dim y dihenydd ond ymroddiad i'n Brenin ni. I ba beth yr ydwyt yn gymhwys, O! Mansoul! os na ragflaena trugaredd di, ond i'th dori i lawr, a'th daflu yn tân, i'th losgi?

O! Man-soul, nid yw amynedd a dioddefgarwch yn parhau yn dragywydd: blwyddyn neu ddwy, neu dair, fe all barhau, ysgatfydd; ond os bydd i ti ei gyffroi trwy dair blynedd o wrthryfel—a thydi a wnaethost fwy na hyny eisoes—yna, pa beth a ganlyn, ond "tor ef i lawr?" (Luc xiii. 7.) Neu, a wyt ti yn tybied nad yw y rhai hyn ond bygythion? neu nad oes gan ein Brenin ni allu i'w cyflawni? O! Man-soul, tydi a gei wybod am eiriau ein Brenin, pan y byddo pechaduriaid yn eu diystyru, ac yn gwneuthur yn ysgafn o honynt, mai nid bygythiad yn unig fydd, ond marwor tanllyd.

Tydi a fuost yn diffrwytho y tir yn ddigon hir eisoes, ac a bery di felly o hyd? Dy bechod a ddug y llu yma at dy furiau; ac a gaiff ef ei ddwyn mewn barn, er dihenyddio dy dref? Tydi a glywaist pa beth a ddywedodd y cadbeniaid, ond hyd yma yr wyt yn cau dy byrth. Llefara allan, O! Man-soul, a bery di i wneuthur felly? neu, a fydd i ti dderbyn amodau heddwch?

Yr ymadroddion hynod yma, o eiddo y pedwar cadben boneddigaidd hyn, a ddarfu i Man-soul wrthod eu gwrando; eto, y swn o honynt a gurodd yn erbyn Porth-y-clust, er nad allai eu swn dori y pyrth yn hollol agored. O'r diwedd, fe ddymunodd y dref gael amser i ateb i'r gofynion hyn.

Yna y cadbeniaid a ddywedasant wrthynt, mai os byddai iddynt fwrw allan un Drygbwyll ag oedd yn y dref, fel y byddai iddynt dalu iddo yn ol ei weithredoedd, yna y rhoddent iddynt amser i ystyried; ond os na thaflent hwy ef iddynt dros y mur, ni byddai iddynt ganiatâu dim amser; Canys, ebe hwy, ni a wyddom mai tra byddo Drygbwyll yn anadlu yn Man-soul, pob ystyriaeth dda a derfysgir, ac ni ddaw dim daioni oddiar hyny.

Yna Diabolus, yr hwn oedd yno yn bresenol, gan fod yn anhawdd ganddo golli Drygbwyll, am mai ei areithiwr ef ydoedd (ac eto, byddwch sicr y collasai efe ef, pe buasai y cadbeniaid yn cael gosod eu dwylaw arno), a ymrodd y pryd hyn i'w hateb trwyddo ei hun; ond, gan newid ei feddwl, efe a orchymynodd i'r hwn oedd Arglwydd Maer y pryd hyny, sef yr Arglwydd Anghrediniaeth, i gymeryd y gorchwyl mewn llaw, gan ddywedyd: Fy arglwydd, rhoddwch ateb i'r crwydriaid yma, a llefarwch yn uchel, fel y clywo Man-soul, ac y deallo.

Felly Anghrediniaeth, wrth orchymyn Diabolus, a ddechreuodd, ac a ddywedodd: Foneddigion, fe ddarfu i chwi yma, fel y gwelwn, er terfysg i'n tywysog, a blinder i dref Man-soul, wersyllu yn ei herbyn; ond o ba le y daethoch, ni fynwn ni wybod, a pha beth ydych, nis credwn. Yn wir, yr ydych yn dywedyd wrthym, yn eich ymadroddion dychrynllyd, i chwi gael yr awdurdod hon oddiwrth Shad-dai; ond trwy ba hawl y mae yn erchi i chwi ei wneuthur, o hyny y byddwn ni eto yn anwybodus.

Fe ddarfu i chwi hefyd, trwy yr awdurdod ragddywededig, rybuddio y dref hon i adael ei harglwydd; ac am amddiffyniad, i ymroddi ei hun i fyny i Shad-dai mawr, eich Brenin chwi; gan ddywedyd wrthi yn bur wenieithgar, os bydd iddi wneuthur felly, y bydd iddo yntau fyned heibio, ac nas bydd iddo osod yn ei herbyn hi ei chamweddau blaenorol. Yn mhellach: fe ddarfu i chwi hefyd, er dychryndod i dref Man-soul, fygwth cospi y dref yma â distryw tost, os na chytuna hi i wneuthur yn ol eich meddyliau chwi.

Yn awr, gadbeniaid, chwaethach o ba le yr ydych yn dyfod, ac er uniawned ydyw eich dibenion, eto gwybyddwch, nad oes na'm Harglwydd, na minau, ei was ef Anghrediniaeth, nac ychwaith ein Man-soul enwog, yn prisio am danoch chwi, na'ch cenadwri, na'r Brenin yr ydych yn dywedyd a'ch danfonodd; nid ydym ni yn ofni na'i allu, na'i fawredd, na'i ddialedd ef; ac nis bydd i ni oll ymostwng i'ch gwŷs chwi.

Ac am y rhyfel yr ydych yn ei fygwth arnom, mae yn rhaid i ni amddiffyn ein hunain goreu gallom. A gwybyddwch, nad ydym ninau heb fodd i ofyn eich gwaethaf chwi. Ac i fod yn fyr (canys ni byddaf faith), yr ydwyf yn dywedyd wrthych, ein bod ni yn tybied mai rhyw ddynion crwydraidd, wedi dianc ymaith ydych chwi; wedi canu yn iach i bob ufudd-dod i'ch Brenin; wedi ymgynull yn nghyd mewn modd terfysglyd; ac yn crwydro o le i le, i edrych, os, trwy eich gweniaith, yn yr hon yr ydych yn gyfarwydd, ar y naill du, a'ch bygythion, â pha rai yr ydych yn meddwl dychrynu, ar y tu arall, y gallwch wneuthur i ryw dref wirion, dinas, neu wlad, i ymadael â'u lle, a'i adael ef i chwi: ond nid un o'r rhai hyny ydyw Man-soul.

I ddiweddu, nid oes arnom ni ddim o'ch ofn chwi, ac nid ufuddhawn ni i'ch gwŷs: ein pyrth a gadwn yn nghauad arnoch, ac ni a'ch cadwn chwi allan o'n lle hwn, ac ni bydd i ni yn hir eich goddef chwi i eistedd i lawr ger ein bronau ni. Rhaid yw i'n pobl ni gael byw yn llonydd: yr ymddangosiad o honoch sydd yn eu blino hwynt. (Luc xi. 21.) Oherwydd paham, cyfodwch eich cŵd a'ch casgl, ac ewch ymaith, ac onidê, nyni a'ch bwriwn chwi oddiar y mur.

Yr araeth yma, yr hon a wnaethpwyd gan hen Anghrediniaeth, a gadarnhawyd gan yr Arglwydd Ewyllysgar mewn geiriau at y pwrpas yma: Foneddigion, nyni a

glywsom eich gyfynion chwi, a swn eich bygythion chwi, a llais eich rhybuddion; ond nid ydym ni yn ofni mo'ch cryfder; nid ydym ni yn prisio am eich bygythion; ond yr ydym ni yn parhau o hyd fel y gwelsoch ni. Ac yr ydym yn gorchymyn, ar fod i chwi, mewn yspaid tri drwrnod, beidio ag ymddangos yn y parthau hyn, ac onidê, chwi a gewch wybod beth yw llyfasu cynyg unwaith ddihuno y llew Diabolus, pan ydyw yn cysgu yn Man-soul.

Y Cofiadur, enw yr hwn oedd Anghofio-daioni, efe hefyd a chwanegodd fel y canlyn: Foneddigion, fe ddarfu i'm harglwyddi, â geiriau hynawsaidd, ateb eich ymadroddion geirwon a llidiog chwi; fe ddarfu iddynt hefyd, lle clywais i, roddi i chwi genad i ymadael mewn heddwch, fel y daethoch. Oherwydd paham, derbyniwch eu cymwynas, ac ymadewch. Nyni a allem ddyfod allan â llu arnoch, a pheri i chwi deimlo mîn ein cleddyfau ni; ond fel ag yr ydym yn caru heddwch a llonydwch ein hunain; felly, nid ydym yn hoffi niweidio na blino eraill.

Yna, tref Man-soul a floeddiodd o lawenydd, fel pe cawsent, trwy Diabolus a'i wŷr, ryw oruchafiaeth fawr ar y cadbeniaid. Hwy hefyd a ganasant y clych, a wnaethant yn llawen, ac a ddawnsiasant ar y mur.

Diabolus hefyd a ddychwelodd i'r castell, a'r Arglwydd Maer a'r Cofiadur i'w lleoedd: ond yr Arglwydd Ewyllysgar a gymerodd ofal neillduol i ddiogelu y pyrth â gosgordd dau-ddwbl, bolltau dyblyg, a chloion dyblyg, a barau. Ac am Borth-y-clust (yn enwedigol), fel y gellid edrych yn well ato, canys hwnw oedd y porth yr oedd milwyr y Brenin yn ceisio myned i mewn iddo fwyaf, yr arglwydd Ewyllysgar a wnaeth un Mr. Rhagfarn (dyn digllon, drwg ei gyflwr) yn gadben ar y wiliadwriaeth wrth y porth hwnw, ac a roddes dan ei lywodraeth ef dri ugain o wŷr, a elwid Byddariaid: gwŷr cymhwys i'r gwasanaeth hyny; canys yn gymaint ag nad oeddynt yn prisio dim o eiriau y cadbeniaid, nid oeddynt am y milwyr ychwaith.

Felly, pan welodd y cadbeniaid ateb y gwŷr mawr, ac nis gallent gael gwrandawiad gan hen drigolion genedigol y dref, a bod Man-soul yn ymroi neu yn penderfynu i roddi câd i wŷr y brenin, hwy a wnaethant eu hunain yn barod i'w derbyn, ac i'w threio hi allan trwy rym arfau. Ac yn nghyntaf peth, hwy a wnaethant eu byddin yn gadarnach yn erbyn Porth-y-clust: canys hwy a wyddent, mai onid allent dori hwnw, nas gellid gwneuthur dim daioni i'r dref. Wedi hyn, hwy a osodasant y rhelyw o'u gwŷr yn eu lleoedd. Ar ol hyn rhoddasant y gair allan, yr hwn oedd, *Y mae yn rhaid eich geni chwi drachefn.* Yna, hwy a ganasant yr udgorn; a'r dref a'u hatebodd hwynt, bloedd yn erbyn bloedd, ergyd yn erbyn ergyd; ac felly y frwydr a ddechreuodd. Yn awr, gwŷr y dref a osodasant ar y tŵr uwchben Porth-y-clust, ddau wn mawr: un a elwid Meddwl-uchel, a'r llall Pen-drwm. I'r ddau wn yma yr oeddynt yn ymddiried llawer; hwy a fwriasid yn y castell gan doddydd Diabolus, enw yr hwn oedd Mr. Ymchwydd, a chyflegrau distrywgar

oeddynt: ond yr oedd y cadbeniaid mor wiliadwrus, pan welsant hwynt, fel, er hyny, na wnaethant iddynt ddim niwed, er bod yr ergydion yn chwibanu o bob tu i'w clustiau. Nid oedd gwŷr y dref yn ameu dim y byddai iddynt lwyddo, â'r ddau wn yma, i niweidio gwersyll Shad-dai yn ddirfawr, a'u bod hefyd yn ddigonol i ddiogelu y porth: ond ni chawsant nemawr o achos i ymffrostio am y gwaith a wnaethant, megis y gellir casglu wrth yr hyn a ganlyn.

Yr oedd gan y dref Man-soul enwog hefyd rai drylliau mân eraill ynddi, o ba rai y gwnaethant ddefnydd yn erbyn gwersyll Shad-dai. Fe ddarfu iddynt hwythau hefyd o'r gwersyll, gyda chymaint o galondid (ag a ellir ei alw mewn gwirionedd yn wrolder), ollwng ergydion mor aml at y dref ac at Borth-y-clust: canys gwelsant, os nad allent dori Porth-y-clust, na fyddai ond ofer iddynt dori y mur. Yn awr, yr oedd cadbeniaid y Brenin wedi dyfod, a chanddynt amryw ffyn-taflu gydâ hwynt, a dau neu dri o beiriannau rhyfel; â'u ffyn-taflu, gan hyny, y darfu iddynt dori y tai a phobl y dref, ac â'u peiriannau hwy a geisiasant dori Porth-y-clust yn agored.

Fe fu llawer o ymgiprys ac ymryson caled rhwng y gwersyll a gwŷr y dref, tra fu y cadbeniaid a'u hoffer rhyfel yn gwneuthur llawer ymosodiad gwych i dori ac i dynu i lawr y tŵr oedd uwchben Porth-y-clust, ac i wneuthur eu ffordd i'r dref trwy y porth hwnw: ond Man-soul a wrthsafodd mor gadarn, trwy gynddeiriogrwydd Diabolus, a gwrolder yr Arglwydd Ewyllysgar, a chyfarwyddyd hen Anghrediniaeth, y Maer, a Mr. Anghofio-daioni, y Cofiadur, fel yr oedd y gôst a'r draul tuag at ryfel yr hâf hyny, ar ochr y Brenin, yn ymddangos ei fod wedi ei golli yn gwbl, a'r fuddugoliaeth wedi troi o du Man-soul: ond pan welodd y cadbeniaid pa fodd yr ydoedd, hwy a dynasant yn ol, ac a auafasant yn eu gwarchglawdd. Yn awr, yn y rhyfel yma, rhaid i chwi feddwl fod llawer o golled bob ochr, o'r hyn, byddwch foddlon i gymeryd y cyfrif byr a ganlyn.

Cadbeniaid y Brenin, pan gychwynasant oddiwrth y llys yn erbyn Man-soul i ryfel, fel yr oeddynt yn dyfod, ac yn croesi'r wlad, hwy a gyfarfuasant â thri dyn ieuanc ag oedd â meddwl ganddynt i fyned yn filwyr; gwŷr cymhwys, medrus, a chalonog yr olwg oeddynt. Eu henwau oedd Mr. Traddodiad, Mr. Doethineb-dynol, a Mr. Dychymyg-dyn. Felly, hwy a ddaethant i fyny at y cadbeniaid, ac a gymhellasant eu gwasanaeth ar Shad-dai. Yna y cadbeniaid a fynegasant iddynt eu hamcan, ac a archasant iddynt beidio bod yn fyrbwyll yn y peth; ond y gwŷr ieuainc a fynegasant wrthynt, ddarfod iddynt ystyried y peth o'r blaen; a chan glywed eu bod hwy ar gychwyn ar y fath ymgyrch, hwy a ddaethant yma i'w cyfarfod hwy o bwrpas, fel y gallent restru eu hunain dan eu mawrhydi. Yna Cadben Boanerges, am eu bod yn wŷr o wrolder, a'u rhestrodd hwynt yn ei fyddin; ac felly, ymaith yr aethant i'r rhyfel.

Yn awr, pan ddechreuodd y rhyfel, yn un o'r brwydrau mwyaf pybyr fe ddig-

wyddodd i fyddin o wŷr yr Arglwydd Ewyllysgar fyned allan i gynllwyn i Borth-y-gynllwynfa, ac a syrthiasant ar y rhai olaf o wŷr Cadben Boanerges, lle digwyddodd fod y tri llanc yma; felly hwy a'u cymerasant yn garcharorion, ac a'u dygasant ymaith i'r dref; lle nis buont yn neppell, cyn dechreuwyd cyhoeddi ar hyd heolydd y dref pa fath dri carcharwr hynod yr oedd gwŷr yr Arglwydd Ewyllysgar wedi eu cymeryd, a'u dwyn i mewn yn garcharorion o wersyll Shad-dai. O'r diwedd, y newydd o hyny a ddygwyd at Diabolus i'r castell, sef, yr hyn a wnaethai fy Arglwydd Ewyllysgar a'i wŷr, a phwy a gymerasent hwy yn garcharorion. Yna Diabolus a alwodd am Ewyllysgar, i wybod sicrwydd am y mater yma. Felly, efe a ofynodd iddo, ac yntau a fynegodd iddo ef.

Wedi hyn y cawr a ddanfonodd am y carcharorion, y rhai, pan ddaethant, efe a ofynodd iddynt, pwy oeddynt, o ba le y daethent, a pha beth a wnaethent yn ngwersyll Shad-dai? A hwy a fynegasant iddo. Yna, efe a'i danfonodd hwynt i'r carchar drachefn. Ac yn mhen ychydig ddyddiau wedi hyny, efe a ofynodd iddynt, a fyddent yn foddlon i'w wasanaethu ef yn erbyn eu cadbeniaid blaenorol? Yna hwy a ddywedasant wrtho, nad oeddynt hwy yn byw gymaint ar grefydd ag ar dynged. Ac yn gymaint a bod ei arglwyddiaeth yn foddlon i'w cymeryd hwynt i'w wasanaeth, y byddent yn foddlon i'w wasanaethu ef. Yn awr, tra yr oedd pethau fel hyn ar droed, yr oedd yno un Cadben Diddim, neu Pobpeth, gwneuthurwr mawr yn Man-soul, ac at y Cadben Diddim yma y danfonodd Diabolus y gwŷr hyn, gydag ysgrifen oddidan ei law, i'w derbyn i'w gwmpeini. Ystyr y llythyr oedd hyn:

Cadben Diddim, fy anwylyd: y tri llanc sydd yn dwyn y llythyr hwn sydd ganddynt ewyllys i'm gwasanaethu fi yn y rhyfel; ac nis gwn i pwy sydd gymhwysach i'w tywys na thydi; derbyn hwynt, gan hyny, yn fy enw i; ac fel y byddo achos yn gofyn, gwna ddefnydd o honynt yn erbyn Shad-dai a'i wŷr. Bydd wych.

Felly hwy a ddaethant, ac efe a'u derbyniodd hwynt, ac a wnaeth ddau o honynt yn geisiaid; ond Mr. Dychymyg-dyn a wnaeth efe yn lumanwr. Ond hyn am hyny. Ac yn awr i ddychwelyd at y gwersyll.

Felly hefyd hwythau o'r gwersyll a wnaethant rywfaint o ddihenydd ar y dref, canys hwy a gurasant i lawr gronglwyd tŷ yr hen Faer, ac felly a'i gwnaethant yn fwy agored, neu yn oleuach, nag yr oedd o'r blaen; ni bu nemawr rhyngddynt (â ffon-dafl) a lladd fy Arglwydd Ewyllysgar yn farw. Ond efe a wnaeth ffordd i ymwellhau drachefn. Ond hwy a wnaethant lanastra hynod yn mhlith yr henaduriaid, canys ag un ergyd yn unig y lladdasant chwech o honynt hwy—sef Mr. Tyngedig, Mr. Puteinig, Mr. Digofaint, Mr. Taeru-celwydd, Mr. Meddwdod, a Mr. Twyll.

Hwy hefyd a dynasant i lawr y ddau wn oedd yn sefyll ar y tŵr uwchben Porth-y-clust, ac a'i gosodasant ar lawr yn y dom. Myfi a ddywedais i chwi o'r

blaen i gadbeniaid y Brenin dynu ymaith i'w llety gauaf, ac yno iddynt osod eu hunain yn eu gwarchglawdd, a'u clûd gyda hwynt, yn y fath fodd ag yr oedd mwyaf manteisiol i'w Brenin, a mwyaf niweidiol i'r gelyn, fel y gallent, yn amserol, roddi alarwm buan i dref Man-soul. A'u hamcan hwn a lwyddodd i'r fath raddau, fel y gallaf ddywedyd iddynt wneuthur agos yr hyn a ewyllysiasant i flino y dref.

Canys yn awr nid allai Man-soul gysgu yn esmwyth, fel o'r blaen, ac nis gallent hwy fyned at eu trachwantau gyda'r un tawelwch ag yn yr amseroedd gynt; canys hwy a gawsant o wersyll Shad-dai y fath alarymau aml, gwresog, a dychrynedig; ïe, alarwm yn gyntaf wrth un porth, ac wedi hyny wrth borth arall, a thrachefn wrth yr holl byrth ar unwaith, yn gymaint nes yr oeddynt wedi llwyr golli yr heddwch ag oeddynt yn ei fwynhau o'r blaen. Ië, yr oeddynt yn cael eu halarwm mor fynych, a hyny pan oedd y nos hwyaf, a'r tywydd oeraf, ac felly, o ganlyniad, y tymhor yn fwyaf annhymhoraidd, fel yr oedd y gauaf hwnw i dref Man-soul yn auaf wrtho ei hunan. Weithiau, yr udgyrn a ganent; ac weithiau y ffyn-taflu a daflent y cerig i'r dref dan chwyrnu. Weithiau, fe fyddai deng mil o wŷr y Brenin ar haner nos yn rhedeg oddiamgylch caerau Man-soul, yn gwaeddi ac yn bloeddio, "I'r frwydr!" Weithiau, drachefn, rhai o wŷr y dref a glywasid, a'u llefain a'u llais alaethus a glywid, er mawr flinder i'r dref alarus Man-soul yr awr hon. Ië, yr oedd mor flin arnynt gan y rhai oedd yn gwarchae yn eu herbyn hwynt, ag y gallaf fentro dweyd i Diabolus eu brenin, yn y dyddiau hyn, gael ei aflonyddu yn ddirfawr.

Yn y dyddiau hyn, fel y rhoddwyd ar ddeall i mi, y dechreuodd meddyliau newyddion, a meddyliau ag oedd yn rhedeg y naill yn erbyn y llall, feddiannu calonau gwŷr Man-soul. Rhai a ddywedent, Nid oes dim byw fel hyn. Eraill a atebent, Fe â hyn heibio ar fyrder. Yna safai y trydydd i fyny, ac a atebai, Dychwelwn at y Brenin Shad-dai, ac felly y diweddwn yr holl flinderau hyn. A'r pedwerydd a ddeuai i mewn â'i chwedl dêg, Yr wyf yn ofni nas bydd iddo ein derbyn.

Yr hen wr bonheddig yntau, sef y Cofiadur, a fuasai yn llenwi y swydd hòno cyn i Diabolus gymeryd Man-soul—yntau hefyd a ddechreuodd lefaru yn uchel; a'i eiriau ef y pryd hyn i dref Man-soul oeddynt fel pe buasent daranau ofnadwy. Nid oedd dim mor ddychrynllyd i Man-soul a'i lais ef, a swn y milwyr, a bloedd y cadbeniaid.

Ac hefyd, fe ddechreuodd pethau brinhau yn Man-soul. Yn awr, y pethau yr oedd ei henaid yn llewygu am danynt a ymadawsant oddiwrthi. (Luc xv. 14, 15.) Yr oedd diflaniad a malldod ar ei holl bethau dymunol hi; a llosgiad yn lle prydferthwch. Yr oedd crychni yn awr, a pheth ymddangosiad o gysgod marwolaeth ar drigolion Man-soul. Ac yn awr, O! pa mor llawen a fuasai Man-soul, pe cawsai hi lonyddwch a boddlonrwydd meddwl, gyda'r cyflwr gwaelaf yn y byd!

Y cadbeniaid hefyd, yn nhrymder y gauaf, a anfonasant archiad, neu wŷs, trwy enau udganwr Boanerges, i Man-soul roddi ei hunan i fyny i'r Brenin, y Brenin mawr Shad-dai. Hwy a ddanfonasant unwaith, dwywaith, a theirgwaith; heb wybod, nad allai, rywbryd, fod yn Man-soul rywfaint o ewyllysgarwch i roddi eu hunain i fyny iddynt hwy, pe byddai iddynt gael esgus, neu rith o wahoddiad, i'w wneuthur. Ië, gan belled ag y gallwn i gasglu, buasai y dref wedi ei rhoddi i fyny iddynt cyn hyn, oni buasai gwrthwynebiad hen Anghrediniaeth, ac anwadalwch fy Arglwydd Ewyllysgar. Diabolus hefyd a ddechreuodd ymgynddeiriogi; oherwydd paham, yr oedd Man-soul eto heb fod o'r un feddwl mewn perthynas i roddi ei hun i fyny; felly yr oeddynt yn wastadol yn cael eu trallodi gan y meddyliau a'r ofnau trallodedig yma.

Mi ddywedais i chwi gynneu, ddarfod iddynt hwy o wersyll y Brenin ddanfon y gauaf hwn dair gwaith i Man-soul, i erchi iddynt ymostwng. Y tro cyntaf yr aeth yr udganwr, efe a aeth gyda geiriau heddwch, gan ddywedyd wrthynt fod y cadbeniaid, sef cadbeniaid boneddigaidd Shad-dai, yn cwyno ac yn galaru oherwydd trueni presenol y dref drancedig Man-soul; a bod yn flin ganddynt weled eu bod hwynt yn sefyll cymaint ar ffordd eu gwaredigaeth eu hunain. Efe a ddywedodd hefyd i'r cadbeniaid erchi iddo ef ddywedyd wrthynt, mai os byddai i Man-soul ymostwng ei hun yn awr, a dychwelyd, y byddai i'w Brenin trugarog faddeu iddynt eu gwrthryfel a'u bradwriaeth erchyll o'r blaen; ïe, a'u hanghofio hefyd. Ac wedi erchi iddynt edrych na fyddai iddynt sefyll yn eu ffordd eu hunain, ac nas gwrthwynebent eu daioni eu hunain, na gwneuthur eu hunain yn golledwyr, efe a ddychwelodd drachefn i'r gwersyll.

Pan aeth yr udganwr atynt yr ail waith, efe a'u triniodd hwynt beth yn arwach; canys ar ol llais yr udgorn, efe a ddywedodd wrthynt, nad oedd eu parhad yn eu gwrthryfelgarwch yn gwneuthur dim ond chwerwi a llidio yspryd y cadbeniaid, a'u bod yn ymroi i oresgyn Man-soul, neu adael eu hesgyrn eu hunain o flaen y dref.

Efe a aeth drachefn y drydedd waith atynt, ac a'u triniodd hwynt yn arwach eto; gan ddywedyd am danynt, mai yn awr, yn gymaint a'u bod mor erchyll o halogedig, nis gwyddai efe ddim yn iawn pa un ai bod y cadbeniaid yn tueddu at drugaredd, neu ynte at farn; yn unig, eb efe, hwy a orchymynasant i mi roddi gwŷs i chwi i agoryd eich pyrth iddynt. Felly efe a ddychwelodd, ac a aeth i'r gwersyll.

Y tri rhybudd hyn, yn enwedigol y ddau ddiweddaf, a drallododd y dref yn y fath fodd ag y bu iddynt yn ebrwydd alw am gyngor; a'r hyn a farnwyd oedd hyn, sef y byddai i'm Harglwydd Ewyllysgar fyned i fyny at Borth-y-glust, ac yno â llais udgorn, i alw ar y cadbeniaid o'r gwersyll, i gael ymddiddan am heddwch. Felly yr Arglwydd Ewyllysgar a udganodd ar y mur; a'r cadbeniaid a ddaethant i

fyny yn eu llurygau, a'u deng miloedd gyda hwynt. Yna gwŷr y dref a fynegasant i'r cadbeniaid, iddynt glywed ac ystyried eu harchiad, neu eu gwŷs hwynt, ac y byddai iddynt gytuno â hwynt, ac â'u Brenin Shad-dai, ar y cyfryw fath amodau, erthyglau, a chynygiadau, ag yr oeddynt hwy, a thrwy genad eu tywysog, wedi cael cydsyniad i'w gosod ger eu bron hwynt: sef y byddai iddynt, ar y fath amodau a'r rhai hyn, gytuno i fod yn un bobl â hwynt:

1. Mai os byddai i'r rhai hyny o'u cwmpeini, megis y Maer presenol, eu Mr. Anghofio-daioni, yn nghyd â'u Harglwydd Ewyllysgar gwych, gael bod yn llywodraethwyr dan Shad-dai, ar y dref, y castell, ac ar byrth Man-soul.

2. Na byddai i neb ag oedd yn gwasanaethu yn awr dan eu cawr mawr Diabolus gael ei fwrw allan o'r tŷ gan Shad-dai, nac o ddiogelwch, neu y rhyddid ag yr oedd yn ei fwynhau hyd yn hyn yn nhref Man-soul enwog.

3. Y caniateir iddynt hwy, o dref Man-soul, i fwynhau y cyfryw ragorfreintiau, sef y cyfryw ag a ganiatawyd iddynt gynt eu mwynhau, ac y buasent yn byw yn hir ynddynt, dan deyrnasiad eu Brenin Diabalus, yr hwn sydd yn awr, ac a fu am amser maith, eu hunig arglwydd a'u hamddiffynydd mawr.

4. Nas byddai i un gyfraith newydd, swyddwr, neu gyflawnwr cyfraith neu swydd, gael dim awdurdod arnynt, heb eu dewisiad a'u cydsyniad eu hunain.

Dyma ein cynygion, neu ein hamodau heddwch: ac ar y telerau hyn, ebe hwy, y bydd i ni ymostwng i'ch Brenin chwi.

Ond pan glywodd y cadbeniaid y cynygion gweinion hyn o eiddo tref Man-soul, a'u gofynion mawr ac ëon, hwy a wnaethant iddynt drachefn, trwy eu cadben bonheddig, sef Cadben Boanerges, yr ymadrodd hyn a ganlyn:

O! chwychwi drigolion tref Man-soul, pan glywais eich udgorn yn lleisio am ymddiddaniad â ni, myfi allaf ddweyd mewn gwirionedd, fod yn llawen genyf; ond pan ddywedasoch chwi eich bod yn foddlon i ymostwng eich hunain i'n Brenin a'n Harglwydd ni, yna yr oeddwn yn llawenach: ond pan yr ydych, trwy eich rhagweliad ynfyd, a'ch gwatwariad ffol, yn gosod tramgwydd eich hanwiredd o flaen eich gwynebau eich hunain, yna y tröwyd fy llawenydd yn dristwch, a'm dechreuad gobeithiol o'ch tröedigaeth, i ofnau llesg llewygus. Yr ydwyf yn casglu, mai hen Ddrybwyll, hen elyn Man-soul, a dynodd i fyny yr amodau, neu y cynygion hyn yr ydych yn eu cynyg i ni megis amodau cytundeb; ond nid ydynt yn haeddu cael eu gwrando gan neb ag sydd yn cymeryd arno wasanaethu Shad-dai. (2 Tim. ii. 19.) Yr ydym ni, gan hyny, yn unfrydol, a hyny gyda'r diystyrwch mwyaf, yn gwrthod ac yn ffieiddio y cyfryw bethau megis yr anwireddau mwyaf.

Ond, O! Man-soul! os bydd i chwi roddi eich hunain i'n dwylaw ni, neu yn hytrach i ddwylaw ein Brenin ni, ac ymddiried iddo ef i wneuthur â chwi, ac i chwi, y fath amodau ag a fyddo yn dda yn ei olwg ef (ac mi a allaf ddywedyd y byddant

y cyfryw ag a fyddo yn oreu ar eich lles), yna, nyni a'ch derbyniwn chwi, ac a fyddwn mewn heddwch â chwi: ond os nad ydych yn hoffi ymddiried eich hunain i freichiau Shad-dai, ein Brenin ni, yna, nid ydyw pethau ond fel yr oeddynt ar y cyntaf, ac nyni a wyddom hefyd pa beth a wnawn.

Yna y llefodd allan hen Anghrediniaeth, yr Arglwydd Maer, ac a ddywedodd: Pwy ag sydd yn rhydd oddiwrth eu gelynion, fel ag yr ydym ni yn awr, a fydd mor ynfyd a rhoddi y ffon o'u dwylaw eu hunain, i law nis gwyddant pwy? O'm rhan fy hun, nis bydd i mi byth ymroddi i fyny i'r fath gynygion annherfynol. A wyddom ni arfer a thymher eu Brenin hwynt? Dywed rhai y bydd efe yn ddig wrth ei ddeiliaid, os digwydd iddynt fyned allan o'r ffordd drwch y blewyn; ac am eraill, ei fod ef yn gofyn ganddynt lawer mwy nag a allant ei gyflawni. Oherwydd paham, O! Man-soul! ymddengys mai dy ddoethineb ydyw edrych atat dy hun pa beth yr ydwyt yn ei wneuthur yn y mater yma; canys, os bydd i chwi unwaith roddi eich hunain i fyny, yr ydych yn rhoddi eich hunain i arall, ac felly nid ydych yn eiddo eich hunain mwy; oblegid paham, i chwi roddi eich huuain i fyny i allu diderfyn, ydyw yr ynfydrwydd mwyaf yn y byd.

Canys yna yn wir y gellwch edifarhau, ond byth nis gellwch achwyn gyda dim cyfiawnder. Ond a wyddoch chwi yn wir, pan byddoch yn eiddo ef, pwy o honoch a ladd efe, a phwy o honoch a geidw efe yn fyw? Neu, pa un a fydd iddo ef dori pob un o honom ymaith, a danfon pobl newydd o'i wlad ei hun, a pheri iddynt drigo yn y dref yma?

Yr ymadrodd yma o eiddo yr Arglwydd Maer a anrheithiodd y cwbl, ac a daflodd y cwbl i'r llawr mewn perthynas i'w gobaith am ymgymodi; oherwydd paham, y cadbeniaid a ddychwelasant i'w cloddiau, ac i'w pebyll, ac at eu gwŷr, fel yr oeddynt o'r blaen; a'r Maer i'r castell, ac at ei frenin.

Yn awr, yr oedd Diabolus yn disgwyl am ei ddychweliad ef, canys efe a glywsai eu bod yn ymbyncio. Felly, wedi iddo ef ddyfod i'r ystafell-ymgynghori, Diabolus a'i anerchodd ef, gan ddywedyd, Croesaw, fy arglwyddd: pa fodd y bu rhyngoch chwi heddyw? Felly yr Arglwydd Anghrediniaeth (gan ymgrymu yn isel) a fynegodd iddo yr holl bethau, gan ddywedyd: Fel hyn ac fel hyn y dywedodd cadbeniaid Shad-dai, ac fel hyn ac fel hyn y dywedais inau. Yr hyn, pan fynegwyd i Diabolus, yr oedd efe yn llawen iawn, ac a ddywedodd: Fy Arglwydd Maer, fy ffyddlon Anghrediniaeth, myfi a brofais dy ffyddlondeb uwchlaw dengwaith eisoes, ond nis cefais di erioed eto yn dwyllodrus; yr ydwyf yn addaw, os bydd i ni ond gorchfygu y tro yma, dy ddyrchafu di i le o anrhydedd—lle sydd lawer gwell na bod yn Faer yn Man-soul. Myfi a'th wnaf di yn rhaglaw cyffredin i mi, a thydi a gei yn nesaf ataf fi fy hun, bob cenedl dan dy lywodraeth; ïe, a thydi a gei osod rhwymau arnynt fel nas byddo iddynt dy wrthwynebu; ac ni chaiff neb mwy o'n

caethweision rodio yn rhyddion, ond y cyfryw rai ag a fyddo yn foddlon i rodio yn dy lyffetheiriau di.

Yn awr, fe ddaeth yr Arglwydd Anghrediniaeth allan oddiwrth Diabolus, megis un wedi cael ffafr yn wir; oherwydd paham, efe a aeth i'w le ei hun mewn rhwysg mawr, gan feddwl porthi ei hun yn ddigonol â disgwyliad, hyd oni ddelai yr amser y byddai i'w fawredd gael ei helaethu.

Ond yn awr, er i Diabolus a'r Maer fel hyn gytuno o'r goreu, eto y gwrthwynebiad hwn o'r cadbeniaid rhagorol a gododd derfysg yn Man-soul. Canys tra fu hen Anghrediniaeth yn myned i'r castell i gyfarch ei arglwydd â'r hyn a ddigwyddasai, yr hen Faer a fuasai o'r blaen cyn i Diabolus gymeryd y dref, sef fy Arglwydd Dealldwriaeth, a'r hen Gofiadur, Mr. Cydwybod, wedi cael hanes yr hyn a fuasai wrth Borth-y-glust—(canys mae'n rhaid i chwi wybod nas gellid goddef iddynt fod yn bresenol yn yr ymddadleu hwnw, rhag iddynt, y pryd hyny, ymddangos dros y cadbeniaid);—ond, meddaf, hwy a gawsant yr hanes o'r hyn a fu yno, ac yr oeddynt yn anfoddlon iawn iddo; oherwydd paham, wedi iddynt gael rhai o wŷr y dref yn nghyd, dechreuasant fynegu iddynt mor rhesymol ydoedd gofyniad y cadbeniaid boneddigaidd, a'r canlyniadau drwg a ddilynai araeth hen Anghrediniaeth a'r Arglwydd Maer: sef yw hyny, pa mor lleied o barch a ddangosodd efe yn hyny i'r cadben, neu ynte i'w Brenin; ac hefyd, y modd y darfu iddo ef yn ddichellgar osod yn eu herbyn anffyddloneb a thwyll. Canys pa beth, ebe hwy, llai a ellid wneuthur o'i eiriau ef, pan ddywedodd nas byddai iddo ymostwng iddynt, na derbyn eu cynygion; ac a chwanegodd hefyd, nad oedd efe yn ameu na byddai iddo ef ein distrywio ni, ac wedi iddo o'r blaen anfon atom, y byddai iddo ddangos trugaredd i ni? Y lluaws, yn awr, gan eu bod wedi eu hargyhoeddi o'r drwg a wnaeth hen Anghrediniaeth, a ddechreuasant redeg yn nghyd yn finteioedd yn mhob lle, ac yn mhob congl o heolydd Man-soul. Yn nghyntaf, hwy a ddechreuasant ymhustyngio, a siarad yn uchel; ac wedi hyny, i redeg i fyny ac i wared, gan lefain, O! ragorol gadbeniaid Shad-dai! O! na baem ni dan lywodraeth y cadbeniaid, a Shad-dai, eu Brenin! Pan glywodd yr Arglwydd Maer fod Man-soul mewn terfysg, efe a ddaeth i wared i ostegu y bobl; ac efe a feddyliodd i ddiffoddi eu gwrês â'i fawredd, ac ag ymddangosiad ei wynebpryd. Ond pan welsant ef, rhuthrasant arno, ac yn ddiau gwnaethent niwed iddo, oni buasai iddo fyned i mewn i'w dŷ. Pa fodd bynag, ymosodasant yn galonog ar y tŷ lle yr oedd efe yn byw, ac a fynent ei dynu i lawr am ben ei glustiau ef; ond yr oedd y lle yn rhy gadarn, a methasant gyflawni hyny. Yntau hefyd, gan gymeryd calon, a gyfeiriodd ei hun at y bobl trwy y ffenestr yn y modd hyn: Foneddigoion, pa beth yw yr achos fod y fath derfysg yma heddyw?

*Deall.* Yna yr atebodd fy Arglwydd Dealldwriaeth: Am na ddarfu i ti, na'th feistr, ymddwyn yn iawn, fel y dylasech, tuag at gadbeniaid Shad-dai; canys mewn

tri pheth yr ydych yn feius: yn gyntaf, am na ddarfu i chwi adael i Mr. Cydwybod a minau gael clywed eich ymddiddanion; yn ail, am i chwi gynyg y fath amodau heddwch i'r cadbeniaid ag nad ellid mewn un modd yn y byd eu caniatâu, oddieithr eu bod yn amcanu na byddai Shad-dai ond tywysog mewn enw yn unig, ac y byddai i Man-soul yn wastadol gael awdurdod trwy gyfraith i fyw mewn pob math o ddrygioni ac oferedd ger ei fron ef; ac felly, yn ganlynol, y byddai Diabolus yn wastadol yn frenin yma mewn awdurdod, a'r llall yn unig yn frenin mewn enw; yn drydydd, am i ti dy hunan, ar ol i'r cadbeniaid ddangos i ni ar ba amodau y byddai iddynt ein derbyn i drugaredd, ddadwneuthur y cwbl wedi hyny â'th ymadrodd brwnt, annhymherus, ac annuwiol.

*Ang.* Pan glywodd hen Anghredininiaeth yr ymadrodd yma, efe a lefodd allan, Bradwriaeth! bradwriaeth! At eich arfau! at eich arfau! O! chwychwi, gywir gyfeillion Diabolus yn Man-soul!

*Deall.* Syr, chwi a ellwch roddi y meddwl a fynoch, neu a weloch chwi yn dda, ar fy ngeiriau i; ond mae yn ddiogel genyf, fod cadbeniaid y fath Arglwydd uchel a'u Harglwydd hwy, yn haeddu gwell parch ar eich dwylaw chwi.

*Ang.* Yna ebe hen Anghredininiaeth: Nid ydyw hyn ond ychydig yn well. Ond, syr, eb efe, yr hyn a ddywedais, myfi a'i dywedais dros fy nhywysog, a thros ei lywodraeth, ac er gostegu'r bobl, pa rai a ddarfu i chwi, trwy eich gweithredoedd anghyfreithlon, eu cynhyrfu heddyw i wrthryfela yn eu herbyn.

*Cyd.* Yna yr atebodd yr hen Gofiadur, enw yr hwn oedd Mr. Cydwybod, ac a ddywedodd: Syr, ni ddylasech chwi fel hyn roddi gwrthfeddwl ar yr hyn a ddywedodd fy Arglwydd Dealldwriaeth. Y mae yn amlwg ddigon iddo ddweyd y gwir, ac mai gelyn i Man-soul ydwyt ti. Efe a'th argyhoeddodd di y pryd hyny o ddrygioni dy iaith salw, daeog, ac o'r blinder a wnaethost i'r cadbeniaid; ïe, ac o'r drygau a wnaethost i Man-soul trwy hyny. Pe buasech yn derbyn yr amodau, darfuasai llais yr udgorn, a dychryn y rhyfel erbyn hyn oddiamgylch tref Man-soul; ond y mae'r swn ofnadwy hyny yn parhau, a'ch annoethineb chwi yn eich ymadrodd a fu yr achos o hono.

*Ang.* Yna ebe hen Anghredininiaeth: Os byddaf fi byw, mi a wnaf eich neges chwi at Diabolus, ac yno y cewch chwi ateb i'ch geiriau; yn y cyfamser, nyni a geisiwn ddaioni i'r dref, heb ofyn cyngor genych chwi.

*Deall.* Syr, eich Tywysog a chwithau ydych ddieithriaid i Man-soul; ac nid rhai genedigol o honi ydych chwi. A phwy a ddichon ddywedyd na bydd i chwi, pan y byddo i chwi ein dwyn i fwy o gyfynder (pan weloch chwithau hefyd nas byddwch yn ddiogel mewn modd yn y byd eich hunain, ond trwy ffoi), ein gadael ni, ac ymdaro drosoch eich hunain, neu ein gosod ni ar dân, a myned o honoch ymaith yn y mwg, neu wrth ein goleuni ni, ac felly ein gadael yn ein dinystr?

*Ang.* Syr, yr ydych yn anghofio eich bod dan lywodraethwr, ac y dylech chwi ymddwyn eich hunain fel deiliaid; a gwybyddwch, pan y clywo'm harglwydd frenin am waith y dydd heddyw, ni bydd ganddo nemawr o ddiolch i chwi am eich llafur.

Yn awr, tra fu y gwŷr boneddigion yma yn ymsènu, dyma yn dyfod i wared oddiwrth y muriau a phyrth y dref, yr Arglwydd Ewyllysgar, Mr. Rhagfarn, hen Ddrygbwyll, ac amryw o'r henuriaid newydd a'r bwrdeisiaid, ac a ofynasant yr achos o'r hwbwb a'r terfysg. A gyda hyn fe ddechreuodd pob un ddywedyd ei chwedl ei hun; fel nad ellid, drwy hyny, glywed dim yn wahanredol. Yna gorchymynwyd distawrwydd; a'r hen lwynog Anghrediniaeth a ddechreuodd lefaru. Fy arglwydd, eb efe, y mae yma gwpl o wŷr boneddigion anynad, y rhai y darfu iddynt, fel ffrwyth eu drwg-dymher; ac, fel yr ydwyf yn ofni, trwy gyngor un Mr. Anfoddlonrwydd, gasglu yn nghyd yn derfysglyd y dorf hon yn fy erbyn i heddyw; ac hefyd a geisiasant gyffroi ac anog y dref i wrthryfela yn erbyn ein tywysog ni.

Yna safodd yr holl Ddiaboloniaid ag oedd yn bresenol i fyny, ac a gadarnhasant fod y pethau hyn yn wir.

Yn awr, pan ddeallodd y rhai oedd o blaid fy Arglwydd Dealldwriaeth a Mr Cydwybod eu bod yn debyg i gael y gwaethaf, hwy a ddaethant i mewn i'w cynorthwyo: felly yr oedd lluaws mawr ar bob ochr.

Yna y rhai oedd ar ochr Anghrediniaeth a fynent yn ebrwydd ddanfon y ddau hen wr bonheddig i'r carchar; ond y rhai oedd ar yr ochr arall a ddywedasant nas gwnaent. Yna dechreuasant grio i fyny eu gwahanol bleidiau eilwaith: y Diaboloniaid a griasant i fyny hen Anghrediniaeth, Anghofio-daioni, yr henuriaid newydd, a'u tywysog mawr Diabolus; a'r ochr arall, hwythau hefyd, cyfuwch a'u gwrthwynebwyr, a waeddasant i fyny Shad-dai, y cadbeniaid, ei gyfreithiau, a'i drugarogrwydd, ac a ganmolasant eu cyflyrau hwynt, a'u ffyrdd. Yr ymryson hwn a barhaodd dros dro; o'r diwedd, hwy a ddaethant o ymhaeru, at ymladd; ac yn awr yr oedd ergydion o bob ochr. Yr hen wr bonheddig da, Mr. Cydwybod, a darawyd i lawr ddwy waith gan un o'r Diaboloniaid; enw yr hwn oedd Mr. Marweidd-dra. A'm Harglwydd Dealldwriaeth a fu yn debyg o gael ei ladd ag ergyd o ddryll, oni buasai i'r hwn oedd yn saethu fethu ag anelu yn iawn. Ac ni ddihangodd yr ochr arall yn hollol, canys yr oedd yno un Mr. Ehud (Diaboloniad,) yr hwn y curwyd ei ymenydd ef allan gan Mr. Meddwl (gwas yr Arglwydd Ewyllysgar); a chynhyrfwyd fi i chwerthin allan wrth weled fel y cafodd hen Mr. Rhagfarn ei droedio, a'i droi yn y dom. Canys er ei fod ef er ys tro wedi cael ei wneuthur yn gadben ar y Diaboloniaid, er drwg a niwaid i'r dref; eto, yn awr, hwy a'i cawsant ef dan eu traed; ac yn wir, efe a gafodd dori ei goryn i bwrpas gan rai o'r gwŷr ag oedd o ochr yr Arglwydd Dealldwriaeth. Mr. Diddim, neu Pobpeth, a ddaeth hefyd i mewn yn wr mawr yn y ffrwgwd; ond yr oedd pob ochr yn ei

erbyn ef, am nad oedd efe yn gywir i'r naill ochr na'r llall. Eto efe a gafodd am ei sarugrwydd dori un o'i gliniau; a'r hwn a'i gwnaeth, a ddymunasai pe buasai hi ei wddf ef. Llawer ychwaneg o niwed a wnaethpwyd ar bob ochr; ond ni ddylid anghofio y peth hyn—yr oedd yn rhyfeddod yr amser yma i weled fy Arglwydd Ewyllysgar mor ddiduedd ag yr ydoedd; ni chymerodd efe arno gymeryd plaid un ochr mwy na'r llall, yn unig fe ddaliwyd sylw ei fod ef yn gwenu pan y gwelodd efe hen Mr. Rhagfarn yn cael ei dreiglo yn y dom. Ac hefyd, pan ddaeth Cadben Diddim, dan hercian, i fyny o'i flaen ef, ni chymerodd arno ei weled.

Yn awr, wedi gostegu y cythryfwl, Diabolus a ddanfonodd am fy Arglwydd Dealldwriaeth a Mr. Cydwybod, ac a'u cauodd hwynt i fyny yn ngharchar, yn gystal a'r blaenoriaid a'r llywodraethwyr penaf o'r cythryfwl blin yma yn Man-soul.

Erbyn hyn dechreuodd y dref fod yn llonydd drachefn, a'r carcharorion a driniwyd yn arw; ïe, efe a feddyliodd eu gosod hwynt i farwolaeth, ond bod yr amser presenol yn anghyfleus i hyny, oblegid bod rhyfel yn eu holl byrth hwynt. Ond gadewch i ni ddychwelyd drachefn at ein hanes. Y cadbeniaid, pan aethant ymaith oddiwrth y porth, a dyfod i'r gwersyll drachefn, a alwasant gyngor milwraidd, i ystyried pa beth oedd iddynt i'w wneuthur yn mhellach. Yn awr, rhai a ddywedasant, Gadewch i ni fyned yn ebrwydd, a rhuthro ar y dref; ond y rhan fwyaf a feddyliasant mai gwell yn hytrach oedd rhoddi iddynt wŷs arall i roddi eu hunain i fyny; a'r rheswm paham y barnasant mai hyn oedd oreu, ydoedd, o achos, mor belled ag y gellid casglu, yr oedd tref Man-soul yn awr yn fwy gogwyddol i hyny nag o'r blaen; ac os, ebe hwy, tra mae rhai o honynt hwy mewn ffordd o dueddrwydd, y byddai i ni, trwy erwindeb, roddi iddynt achos i'n casâu, gallwn beri iddynt bellhau oddiwrth ymostwng i'n gwŷs ni nag yr ydym yn ewyllysio iddynt fod.

Oherwydd paham, i'r cyngor hwn y cytunasant, ac a alwasant udganwr, ac a roddasant eiriau yn ei enau ef, ac a nodasant iddo ei amser; ac a archasant iddo—Duw yn rhwydd.

Felly, ar fyrder, yr udganwr a ymbarotôdd ei hun i'w daith. Oherwydd paham, gan ddyfod i fyny at fur y dref, efe a gyfeiriodd ei hun at Borth-y-glust, ac yno efe a udganodd, fel y gorchymynasid iddo; yna y rhai oedd i mewn a ddaethant allan, i weled pa beth oedd y mater, a'r udganwr a wnaeth iddynt yr ymadrodd a ganlyn:

O! galon-galed a gresynol dref Man-soul! pa hyd y bydd i ti garu dy ynfydrwydd pechadurus; a chwi, ynfydion, y bydd yn hoff genych watwar, y rhai ydych eto yn dirmygu y cynygion o heddwch a gwaredigaeth? A ydych chwi eto fel hyn yn gwrthod cynygion auraidd Shad-dai, ac yn ymddiried i gelwyddau a thwyll Diabolus? A ydych chwi yn meddwl y bydd, pan ddarffo i Shad-dai eich goresgyn chwi, y coffadwriaeth o'ch ymddygiadau tuag ato ef yn bethau ag a rydd i chwi heddwch a chysur? neu. y bydd i chwi, trwy eiriau mawrion, ei ddychrynu ef? A

ydyw efe yn ymhwedd arnoch, rhag eich ofn chwi? A ydych chwi yn meddwl eich bod yn gryfach nag ef? Edrychwch ar y nefoedd, a gwelwch ac ystyriwch y ser, mor uchel ydynt! A ellwch chwi attal yr haul rhag rhedeg ei yrfa, a rhwystro y lleuad rhag rhoddi ei llewyrch? A ellwch chwi gyfrif y sêr, neu attal costrelau y nefoedd? A ellwch chwi alw am ddyfroedd y môr, a pheri iddynt orchuddio gwyneb y ddaear? A ellwch chwi edrych ar bob balch, a'i daflu ef i lawr, a rhwymo eu gwynebau hwy mewn lle cuddiedig? Eto, dyma rai o weithredoedd ein Brenin ni, yn enw yr hwn, y dydd heddyw, yr ydym ni yn dyfod i fyny atoch chwi, fel eich dyger dan ei awdurdod ef. Yn ei enw ef, gan hyny, yr ydwyf yn eich rhybuddio chwi drachefn i roddi eich hunain i fyny i'w gadbeniaid ef.

Ar ol y rhybudd yma, yr oedd gwŷr y dref megis pe buasai eu synwyrau wedi pallu, fel nas gwyddent pa ateb i'w roddi; oherwydd paham, Diabolus yn ebrwydd a ymddangosodd, ac a gymerodd arno ei wneuthur ei hun; ac fel hyn y dechreuodd, (ond efe a drodd ei ymadrodd at Man-soul):

Foneddigion, eb efe, a'm deiliaid ffyddlon, os gwir yw yr hyn a ddywed y rhybuddiwr yma mewn perthynas i fawredd eu Brenin, fe'ch cedwir chwi yn wastadol trwy ei arswyd ef mewn caethiwed, ac felly cedwir chwi yn llechwrus. Ië, pa fodd y gellwch chwi yr awr hon, ac yntau yn mhell, oddef meddwl am y fath un cadarn? Ac os nas gellwch chwi feddwl am dano, tra y mae yn mhell, pa fodd y gellwch chwi ddioddef bod yn ei ŵydd ef? Myfi, eich tywysog, ydwyf yn gyfeillgar â chwi; a chwi a ellwch chwareu â mi fel y gwnaech â cheiliog rhedyn. Ystyriwch, gan hyny, pa beth fydd oreu er eich lles chwi, a chofiwch y breintiau a ganiatêais i chwi.

Yn mhellach; os ydyw pob peth yn wir ag a ddywedodd y gwr hwn, pa fodd y digwydd fod deiliaid Shad-dai yn cael eu caethiwo, neu eu cyfyngu, yn mhob lle ag y delont iddo? Nid oes neb yn y byd ag sydd mor anhapus a hwynt; nid oes neb yn cael eu damsangu fel hwynt-hwy. Ystyria, fy Man-soul; dymunwn pe buasai mor anhawdd genyt fy ngadael i ag ydyw genyf fi dy adael di. Ond, ystyria, meddaf, y mae y bêl eto wrth dy droed; a rhyddid sydd genyt hefyd, os gwyddost pa fodd i'w ddefnyddio; ïe, brenin sydd genyt hefyd, os gwyddost pa fodd i'w garu, ac ufuddhau iddo.

Ar yr ymadroddion hyn darfu i wŷr Man-soul galedu eu calonau drachefn eto yn fwy yn erbyn Shad-dai. Y meddyliau am ei sancteiddrwydd ef a'u caledodd hwynt mewn anobaith. Oherwydd paham, ar ol ymgynghoriad byr, hwynt-hwy (y rhai oedd o blaid y Diaboloniaid) a anfonasant y gair yma drwy yr udganwr yn ol: Mai o'u rhan hwy, eu bod yn ymroi i lynu wrth eu brenin, ond byth nis byddai iddynt roddi eu hunain i fyny i Shad-dai; felly nid oedd ond gwaith ofer cynyg iddynt hwy unrhyw rybuddion yn ychwaneg, canys gwell oedd ganddynt farw yn y fan na rhoddi eu hunain i fyny.

Yn awr, yr oedd pethau yn ymddangos i fod wedi myned yn ol yn hollol, a bod Man-soul allan o gyrhaeddiad neu alwad; eto y cadbeniaid, y rhai a wyddent pa beth a allai eu Harglwydd ei wneuthur, nis mynent eu digaloni; hwy, gan hyny, a anfonasant iddynt wŷs arall, yn fwy llym a chreulon na'r diweddaf; ond pan amlaf y danfonid am danynt i ymgymodi â Shad-dai, pellaf i gyd oeddynt. "Fel y galwent arnynt, felly hwythau a aent o'u gŵydd hwynt." Hos. xi. 2. Ië, er iddynt eu galw hwynt at y Goruchaf.

Felly hwy a beidiasant a'u trin hwynt yn y modd yma mwyach, ac a droisant i feddwl am ffordd arall. Y cadbeniaid, gan hyny, a ymgasglasant yn nghyd, i gael ymddiddan yn rhydd yn eu plith eu hunain, ac i wybod pa beth oedd eto i wneuthur tuag at enill tref Man-soul, a'i gwaredu hi oddidan orthrymder Diabolus; ac un a ddywedodd fel hyn, ac arall fel arall.

Yna safodd y gwir barchedig Gadben Argyhoeddiad i fyny, ac a ddywedodd: Fy mrodyr, fy marn i yw hyn: yn nghyntaf, fod i ein ffyn-taflu gael eu chwareu yn ddiffygio i'r dref, a'i chadw hi mewn dychryn gwastadol, gan eu blino hwynt ddydd a nos: trwy hyn bydd i ni attal cynydd eu hyspryd cynddeiriog hwynt; canys gellir dofi llew trwy ei flino yn barhaus. Yn ail, wedi gwneud hyn, yr ydwyf yn cynghori, ar fod i ni, yn y lle nesaf, yn gytun, dynu deiseb allan at ein Harglwydd Shad-dai; trwy yr hwn, wedi i ni ddangos i'n Brenin gyflwr truenus Man-soul, a'n helynt yma, ac ymbil arno am faddeuant, am na ddarfu i ni lwyddo yn well, nyni, yn ddifrifol, a ymbiliwn ar ei Fawrhydi am gymhorth, ac iddo ef weled bod yn dda ddanfon i ni fwy o ryfelwyr â gallu, a rhyw un cywrain a theg yn ben-swyddwr, neu yn gadben iddynt, fel nas collo ei Fawrhydi ei ddechreuadau daionus yma, ond bod iddo ef berffeithio ei fuddugoliaeth ar dref Man-soul.

A'r araeth hon o eiddo y parchedig Gadben Argyhoeddiad y cydsyniasant fel un gwr, ac a gytunasant ar unwaith ar fod i ddeiseb gael ei dynu i fyny, a'i ddanfon ymaith ar frys at Shad-dai drwy law gwr cyfaddas. Ystyr y deiseb oedd fel hyn:

Y grasusaf a'r gogoneddusaf Frenin, Arglwydd y byd goreu, ac adeiladydd tref Man-soul: Fe ddarfu i ni, y Brenin ofnadwy, ar dy orchymyn di, osod ein heinioes mewn perygl, ac ar dy archiad di, nyni a wnaethom ryfel ar y dref enwog Man-soul. Pan aethom i fyny yn ei herbyn hi, nyni a wnaethom yn ol ein commissiwn, trwy gynyg iddi hi, yn y lle cyntaf, amodau heddwch—(Mat. xxii. 5. Diar. i. Zech. vii. 10—13); ond hwynt-hwy, y Brenin mawr, a ddiystyrasant ein cyngor, ac ni fynent ddim o'n cerydd; yr oeddynt am gau eu pyrth yn ein herbyn, ac am ein cadw ni allan o'r dref. Hwynt-hwy hefyd a drefnasant eu magnelau, ac a ruthrasant allan arnom ni, ac a wnaethant i ni bob niwaid ag a allent; ond nyni a'u dilynasom hwynt ag alarwm ar alarwm, gan ad-dalu iddynt y cyfryw ad-daliad ag oedd gymhwys, ac a wnaethom rywfaint o ddihenydd ar y dref.

Diabolus, Anghrediniaeth, ac Ewyllysgar, ydyw y gweithwyr mwyaf ag sydd yn ein herbyn ni. Yn awr yr ydym ni yn ein llety gauaf, ond felly yn y cyfryw fodd, ag yr ydym eto yn trallodi ac yn blino y dref â llaw uchel. Yn awr, yr ydym yn meddwl, pe buasai genym ni un cyfaill o bwys neu ddylanwad yn y dref, yr hwn a gefnogasai ein gwŷs, fel y dylasai, y bobl a roddasai eu hunain i fyny i ni; ond nid oedd yno neb ond gelynion; nid oedd yno un i ddywedyd gair o blaid ein Harglwydd wrth y dref. Oherwydd paham, er i ni wneuthur a allem, er hyny y mae Man-soul yn aros mewn cyflwr o wrthryfel yn dy erbyn di.

Yn awr, Frenin y brenhinoedd, teilynga faddeu aflwyddiant dy weision, y rhai na fuont yn fwy llwyddiannus yn y fath orchwyl dymunol ag ydyw goresgyniad Man-soul; a danfon, Arglwydd, fel yr ydym yn awr yn dymuno, fwy o allu i Man-soul, fel y darostynger hi; a rhyw wr yn ben-cadben arnynt, fel y byddo i'r dref garu ac ofni y cyfryw. Nid ydym ni yn dywedyd hyn fel pe byddem yn ewyllysio gadael y rhyfel heibio (canys yr ydym ni am adael ein hesgyrn gyferbyn a'r lle), ond fel yr eniller tref Man-soul i'th Fawrhydi. Yr ydym ni hefyd yn deisyf ar dy Fawrhydi am brysuro yn y mater yma, fel, ar ol eu goresgyniad hwy, y byddom yn rhyddion i gael ein danfon yn nghylch rhyw amcanion grasol eraill o'th eiddot. Amen.

Y deiseb, wedi ei dynu i fyny fel hyn, a anfonwyd ymaith ar frys at y Brenin trwy law y gwr da hwnw, Mr. Cariad, at Man-soul. Pan ddaeth y deiseb yma i balas y Brenin, i bwy y rhoddwyd ef ond i Fab y Brenin. Felly efa a'i cymerth, ac a'i darllenodd; ac am fod yr ystyr yn ei foddio ef yn fawr, efe a'i gwellhaodd ef; ac hefyd, mewn rhyw bethau, efe a ychwanegodd ato ef ei hun. Felly, wedi iddo wneuthur y fath welliadau ac ychwanegiadau â'i law ei hun ag a farnodd efe yn addas, efe a'i dygodd i mewn at y Brenin; i'r hwn, pan ddarfu iddo, gydag ymddarostyngiad, ei draddodi ef, efe a ymwisgodd ag awdurdod, ac a ymddadleuodd drosto ei hunan.

Yn awr, y Brenin, ar yr olwg o'r deiseb, ydoedd lawen; ond pa faint mwy, dybygwch chwi, pan gadarnhawyd ef gan ei Fab? Yr oedd yn dda ganddo ef hefyd glywed fod ei weision ef, y rhai oedd yn gwersyllu yn erbyn Man-soul, mor galonog yn y gwaith, ac mor sefydlog yn eu hymroiadau, ac iddynt hwy eisoes enill peth tir ar y dref enwog Man-soul.

O ba herwydd, y Brenin a alwodd ato Emmanuel, ei Fab, yr hwn a ddywedodd, Wele fi, fy Nhad. Yna ebe y Brenin: Ti adwaenost, megis finau, gyflwr tref Man-soul, a'r hyn a wnaethost i'w gwaredu hi. Tyred yn awr, gan hyny, fy Mab, a pharotoa dy hun i'r rhyfel, canys ti a âi i'm gwersyll yn Man-soul. Tydi hefyd a lwyddi yno, ac a orchfygi, ac a oresgyni dref Man-soul.

Yna ebe Mab y Brenin: Y mae dy gyfraith o fewn fy nghalon. Y mae yn dda

genyf wneuthur dy ewyllys di. (Heb. x.) Dyma y dydd yr hiraethais am dano, a'r gwaith y disgwyliais am dano trwy gydol yr amser hyn. Caniatâ i mi, gan hyny, y cyfryw gadernid a gallu, ag a weli di yn dy ddoethineb yn addas, a myfi a âf, ac a waredaf oddiwrth Diabolus a'i allu, dy dref golladwy Man-soul. Fy nghalon o'm mewn a ofidiwyd yn fynych am y resynol dref Man-soul. Ond yn awr, y mae hi yn gorfoleddu, ond yn awr y mae hi yn llawen; a gydâ hyny, efe a lamodd ar y mynyddoedd o lawenydd, gan ddywedyd: Ni feddyliais i yn fy nghalon fod dim yn rhy anwyl neu werthfawr i Man-soul; dydd dial sydd yn fy nghalon drosot ti, fy Man-soul; a llawen ydwyf i ti, fy Nhad, fy ngwneuthur i yn Dywysog eu hiachawdwriaeth. (Heb. ii. 10.) Yn awr, myfi a ddechreuaf flino y rhai a'th flinasant di, ac a fuant yn bla i'm tref Man-soul, a mi a'i gwaredaf hi o'u dwylaw hwynt.

Pan ddarfu i Fab y Brenin ddywedyd fel hyn wrth ei Dad, yn ebrwydd efe a ymdaenodd trwy yr holl lys oddiamgylch; ïe, fe ddaeth yr unig siarad ag oedd yno; sef, pa beth yr ydoedd Emmanuel yn myned i'w wneuthur dros y dref enwog Man-soul. Ond nid ellwch chwi feddwl fel yr oedd gwŷr y llys hefyd yn hoffi y pwrpas neu'r amcan hwn o eiddo'r Tywysog. Ië, yr oedd y gwaith yma, ac uniondeb y rhyfel, wedi cael y fath effaith arnynt, hyd onid oedd yr arglwydd penaf, a'r llywiawdwr mwyaf yn y deyrnas, yn dymuno cael commisiwnau dan Emmanuel, i fyned i gynorthwyo i adferyd drachefn i Shad-dai y druenus dref Man-soul.

Yna barnwyd y byddai i rai fyned, a dwyn cenadwri i'r gwersyll, fod Emmanuel i ddyfod i adferyd Man-soul, ac y dygai efe gydag ef y fath gadernid anorchfygol, fel nas gellid ei wrthsefyll ef. Ond, O! pa mor barod oedd y rhai uchel yn y llys i redeg fel rhedegwyr, i ddwyn y genadwri yma i'r gwersyll oedd wrth Man-soul! Yn awr, pan ddeallodd y cadbeniaid fod y Brenin yn anfon Emmanuel, ei Fab, a bod hefyd yn hoff gan y Mab gael ei ddanfon ar y fath neges gan Shad-dai mawr, ei Dad, hwythau hefyd, i ddangos pa mor dda ydoedd ganddynt wrth feddwl ei fod ef yn dyfod, a roddasant y fath floedd ag a wnaeth i'r ddaear rwygo gan ei swn hi. Ië, y mynyddoedd a atebasant y ddadsain, a Diabolus ei hunan a siglodd ac a grynodd.

Canys rhaid i chwi wybod, er nad oedd tref Man-soul ei hunan yn ystyried, neu yn gofalu nemawr neu ddim oll am y lyfeliaeth hon—(canys Och! mewn perthynas iddynt hwy, yr oeddynt wedi eu penfeddwi yn druenus; ac hefyd, yn benaf, yr oeddynt yn meddwl am eu pleserau a'u trachwantau);—eto, Diabolus, eu llywydd, ydoedd, canys yr oedd ganddo yspiwyr yn wastad ar led, y rhai a ddygent iddo ef hanes am bob peth, a hwy a fynegasant iddo yr hyn ydoedd yn cael ei wneuthur yn y llys yn ei erbyn ef, ac y byddai i Emmanuel yn sicr ddyfod yn ebrwydd gyda gallu anwrthwynebol i ruthro i mewn arno ef. Ac nid oedd neb yn y llys, nag un llywodraethwr yn yr holl deyrnas, ag yr ydoedd Diabolus yn ei ofni gymaint ag yr ydoedd

efe yn ofni y Tywysog yma. Canys os ydych yn cofio, mi a ddangosais i chwi o'r blaen, i Diabolus brofi pwys ei law ef cyn hyn. Felly, yn gymaint ag mai efe oedd i ddyfod, hynyma a wnaeth iddo ef ofni yn fwy. Yn awr, chwi a welwch y modd y mynegais i chwi, yr oedd Mab y Brenin wedi ymrwymo i ddyfod o'r llys i achub Man-soul, ac i'w Dad ei wneuthur ef yn Dywysog ar y filwriaeth. Yn awr, gan hyny, gan fod amser ei gychwyniad wedi ei gyflawni, efe a gymhwysodd ei hun gyferbyn a'i daith, ac a gymerodd gydag ef i'r rhyfel bûm cadben boneddigaidd yn nghyd â'u gwŷr.

Y cyntaf ydoedd yr enwog gadben hwnw, Parchedig Cadben Crediniaeth, eiddo ef ydoedd y faner goch, a'r hwn ydoedd yn ei dwyn oedd Mr. Addewid. (Ioan i. 22. Eph. vi. 18.) Ac yn lle arwyddai yr oedd ganddo yr Oen Sanctaidd, a'r darian auraidd. Ac yr oedd ganddo ddeng mil o wŷr ar ei ol.

Yr ail ydoedd yr enwog gadben hwnw, Cadben Gobaith-da; ei eiddo ef ydoedd y faner las. (Heb. vi. 19.) Ei lumanwr oedd Mr. Disgwyliad; ac yn lle arwyddai, yr ydoedd ganddo ef y tair angor auraidd. Ac yr oedd ganddo yntau ddeng mil o wŷr ar ei ol.

Y trydydd cadben oedd y cadben gwrol hwnw, Cadben Cariad. (1 Cor. xiii.) Ei lumanwr ef ydoedd Mr. Tosturiol; eiddo ef ydoedd y faner werdd; ac yn lle arwyddai, yr oedd ganddo y tri ymddifad noethion yn gofleidiedig yn ei fynwes. Ac yr oedd ganddo ef ddeng mil o wŷr wrth ei draed.

Y pedwerydd oedd y cadben hynod hwnw, Cadben Diniweidrwydd. (Mat. x. 16.) Ei lumanwr oedd Mr. Diniwaid; efe a bïodd y faner wèn, ac yn lle ei arwyddai yr oedd ganddo ef y tair colomen auraidd.

Y pummed oedd y cywir ffyddlon, a'r anwyl gadben, Cadben Amynedd: ei lumanwr ydoedd Mr. Hirymaros; eiddo ef oedd y faner ddû; ac yn lle arwyddai yr oedd ganddo dair saeth trwy galon auraidd.

Dyma gadbeniaid Emmanuel, dyma eu llumanwyr, eu banerau, a'u hysgwydiadau, a'r rhai hyn ydyw y gwŷr ag oedd dan eu dwylaw hwynt. (Heb. vi. 12.) Felly, fel y sylwyd, y Tywysog hardd a gymerth ei daith, i fyned i dref Man-soul. Cadben Crediniaeth oedd yn arwain blaen y llu, a Chadben Amynedd a ddug i fyny y diwedd-lu. Felly, y tri arall a wnaeth i fyny ganol y fyddin. Y Tywysog ei hunan yn marchogaeth ar ei gerbyd o'u blaen hwynt.

Ond pan gychwynasant, O! fel yr oedd yr udgyrn yn canu, eu harfau yn disgleirio, a'u banerau yn chwifio yn y gwynt! Arfau y Tywysog oeddynt i gyd o aur, ac yr oeddynt yn disgleirio fel yr haul yn y ffurfafen. Arfogaeth y cadbeniaid hefyd ydoedd brofedig, ac yr oeddynt yn ymddangos fel y sêr disglaer. Yr oedd hefyd yno rai o'r llys yn marchogaeth yn ewyllysgar, oblegid y cariad ag oedd ganddynt tuag at y Brenin Shad-dai, ac am ddedwyddol ymwared Man-soul.

Emmanuel hefyd, pan gychwynodd fel hyn yn mlaen i enill yn ol dref Man-soul, a gymerodd, wrth orchymyn ei Dad, bedwar a deugain * o beiriannau rhyfel, a deuddeg o ffyn-taflu a chwyrn-daflu cerig gyda hwy. Y rhai hyn oll a wnaethpwyd o aur pur, a'r rhai hyn a ddygasant yn nghanol y fyddin o hyd fel yr aethant i Man-soul. Felly hwy a gychwynasant hyd oni ddaethant i lai na thair milltir at y dref, ac yno y safasant hyd oni ddaeth y cadbeniaid cyntaf atynt, i fynegu iddo ef pa fodd yr oedd pethau yn sefyll. Yna hwy a gymerasant eu taith i fyned i dref Man-soul, ac i Man-soul y daethant. Ond pan welodd yr hen filwyr, y rhai ydoedd yn y gwersyll, fod ganddynt filwyr newydd i ymgysylltu â hwynt, hwy drachefn a roddasant y fath floedd o flaen caerau Mansoul, fel ag y bu i Diabolus ddychrynu eilwaith. Felly hwy a eisteddasant i lawr o flaen y dref yn awr, nid fel y gwnaeth y pedwar cadben eraill, sef yw hyny, yn erbyn pyrth Mansoul yn unig, ond hwy a'i hamgylchasant hi oddiamgylch ar bob tu, ac a gauasant arni yn ol ac yn mlaen; fel yn awr, edryched Man-soul ffordd y myno, hi a welodd luoedd â gallu yn gwarchae yn ei herbyn. Heblaw hyn, yr oedd dau o garnau, neu fynyddau, wedi eu codi i fyny yn ei herbyn; y Garn Rasol ar y naill du, a Charn Cyfiawnder ar y tu arall. Heblaw hyn, yr oedd yno amryw fân gloddiau, a thir wedi ei godi i fyny, megis Bryn-gwirionedd-eglur, a'r Clawdd-dibechod, lle yr oedd llawer o'r ffyn-taflu wedi eu gosod yn erbyn y dref. Ar Fynydd Grasol yr oedd pedair wedi eu gosod, ac ar Fynydd Cyfiawnder yr oedd cynifer wedi eu gosod; a'r rhelyw oedd wedi eu gosod yn gyfleus mewn amryw fanau oddiamgylch i'r dref. Pump o'r peiriannau rhyfel goreu, sef y rhai mwyaf o honynt, a osodwyd ar Fynydd Gwrando—mynydd wedi ei gyfodi yn agos at Borth-y-glust, gyda bwriad i dori y porth hwnw yn agored.

Yn awr, pan welodd Man-soul y lluoedd milwyr a ddaethai i fyny yn erbyn y lle, a'r peiriannau, a'r ffyn-taflu, a'r mynyddoedd, neu'r carnau, ar ba rai yr oeddynt wedi eu gosod, yn nghyd â disgleirdeb yr arfau, ac ysgwydiad eu baneri, hwy a yrwyd yn eu meddyliau i'r fath gyfyngder ag nas gwyddent pa beth i wneud; ond braidd y gallasant fod o feddyliau cryfach, ond yn hytrach o feddyliau mwy llesg. Canys er eu bod o'r blaen yn tybied eu hunain yn ddigon diogel; eto, yn awr, hwy a ddechreuasant feddwl nas gallai neb wybod pa anffawd a ddigwyddai iddynt.

Wedi i'r Tywysog da Emmanuel fel hyn warchae ar Man-soul, yn y lle cyntaf efe a gyfododd i fyny y faner wèn, yr hon a barodd efe i osod i fyny yn mhlith y ffyn-taflu auraidd, y rhai ydoedd wedi eu gosod ar ben Mynydd Grasol. A hyn a wnaeth efe oherwydd dau achos: 1. I roddi rhybudd i Man-soul y gallai efe fod, ac y byddai iddo ef eto fod yn drugarog, os dychwelent ato ef; 2. Fel y byddai iddo eu gadael yn fwy diesgus, os byddai iddo eu distrywio hwynt, os parhaent hwy yn eu gwrthryfel.

* Y mae yn y Bibl 66 o lyfrau.

Felly y faner wèn, a'r tair colomen auraidd ynddi, a osodwyd allan dros dri diwrnod yn nghyd, i roddi iddynt amser ac yspaid i ystyried. Ond hwynt-hwy, fel y soniwyd o'r blaen, oeddynt fel pe buasent yn ddifater yn y peth, ni wnaethant ddim ateb i ffafrio arwydd y Tywysog.

Yna efe a orchymynodd, a hwy a osodasant i fyny y faner goch ar y mynydd hwnw a elwid Mynydd Cyfiawnder. Baner goch Cadben Barn ydoedd, ysgwyd yr hwn ydoedd y ffwrnes danllyd losgedig. A hon hefyd a safodd o'u blaen hwynt, gan ymysgwyd yn y gwynt dros amryw ddyddiau yn nghyd. Ond edrychwch pa fodd yr ymddygasant dan y faner wèn, pan y gosodwyd hòno allan; felly hefyd y gwnaethant pan osodwyd i fyny yr un goch. Ac eto ni chymerodd efe ddim o'r fantais yn eu herbyn hwynt.

Yna efe a orchymynodd eilwaith i'w weision i osod allan y faner ddû yn eu herbyn hwynt, i ofyn eu gwaethaf, ysgwyd yr hon ydoedd tair bollten y daran losgedig. Ond yr oedd Man-soul mor ddifater, neu mor anystyriol, wrth weled hon, a'r rhai o'r blaen. Ond pan welodd y Tywysog nad oedd na thrugaredd na barn, na chyflawniad o farn, yn tycio, neu yn dyfod yn agos at galon Man-soul, efe a gynhyrfwyd â llawer o dosturi, ac a ddywedodd, Yn ddiau yr ymddygiad chwith yma o eiddo tref Man-soul sydd yn cyfodi yn hytrach oddiwrth anwybodaeth o'r ddefod a'r arfer o'r rhyfel, nag oddiwrth ddibrisdod ddirgel o honom ni, neu gasineb at eu bywyd eu hunain; nid ydynt yn deall yr amcan ag sydd yn perthynu i'r rhyfel yr ydym ni yn ei gylch, pan yr ydwyf yn gwneuthur rhyfel ar Diabolus, fy ngelyn.

Oherwydd paham, efe a anfonodd i dref Man-soul, i beri iddynt wybod pa beth yr ydoedd efe yn ei feddwl wrth yr arwyddion a'r seremoniau hyny o'r faner, ac hefyd i fynu gwybod ganddynt pa bethau a ddewisent, pa un ai gras a thrugaredd, ai barn, a chyflawniad o farn. Trwy gydol yr amser yma yr oeddynt yn cadw tri phorth yn nghauad â chloion, trosolion, a barau, mor sicr ag y medrent. Yr oedd eu gosgordd hefyd wedi ei dyblu, a'u gwiliadwriaeth wedi ei gwneuthur mor sicr ag ydoedd bosibl. Diabolus hefyd a anogodd bob calon ag a allodd, gan gefnogi y dref i wrthsefyll. Gwŷr y dref hefyd a atebasant i genad y Tywysog, sylwedd yr hwn oedd yn ol yr hyn a ganlyn:

Ddyrchafedig syr: Mewn perthynas i'r peth a ddarfu i chwi ei hyspysu i nyni trwy eich cenad—sef, pa un a wnawn ni dderbyn eich trugaredd, neu ynte syrthio trwy eich cyfiawnder, yr ydym ni yn rhwym wrth gyfraith a defod y lle, ac nis gallwn ni roddi i chwi ateb cadarnhaol; canys y mae yn erbyn y gyfraith, y llywodraeth, a rhagorfraint freiniol ein brenin, i wneuthur na heddwch na rhyfel hebddo ef. Ond hyn a wnawn ni, nyni a ddymunwn, neu a ddeisyfwn ar fod i'n tywysog ddyfod i wared at y mur, ac yno i roddi i chwi y cyfryw ateb ag a welo ef fod yn dda ac a fyddo yn fuddiol i ninau.

Pan glywodd y Tywysog daionus Emmanuel yr ateb yma, a gweled caethiwed a rhwymau y bobl, a pha mor foddlon oeddynt hwy i aros yn nghadwynau y gorthrymwr Diabolus, efe a'i blinodd ef yn ei galon. Ac yn wir, ar unrhyw amser, pan welai efe fod neb yn foddlon dan gaethiwed y cawr, efe a ymofidiai o'i herwydd.

Ond i ddychwelyd drachefn at ein pwnc. Ar ol i'r dref ddwyn y newyddion yma at Diabolus, a mynegu iddo ef hefyd fod y Tywysog yn aros yn y gwarchae, y tu allan i'r mur, yn disgwyl wrthynt hwy am ateb, efe a wrthododd, ac a ymlidiodd, yn oreu gallai; ond yr oedd arno ofn yn ei galon. Yna, eb efe, mi a âf i wared at y pyrth fy hunan, ac a roddaf iddo ef y cyfryw ateb ag a welwyf fi fy hun yn addas. Felly efe a aeth i wared i Borth-y-genau, ac yno efe a ymgyfeiriodd ei hunan i lefaru wrth Emmanuel (ond yn y fath iaith ag nad ydoedd y dref yn ei deall);—yr ystyr o hono ydoedd fel y canlyn:

O! tydi Emmanuel mawr, Arglwydd y byd, myfi a'th adwaen di, mai tydi ydyw Mab y Shad-dai mawr! paham y daethost i'm poenydio i, ac i'm bwrw i allan o'm meddiannau? Y dref hon, Man-soul, fel y gwyddost yn dda, sydd eiddo i mi yn ddyblyg. 1. Mae hi yn eiddo i mi trwy uniondeb goresgyniad; myfi a'i henillais hi yn y maes. Ac a fydd i'r yspail gael ei ddwyn oddiar y cadarn, neu a waredir yr hwn a gaethiwyd yn gyfreithlon! 2. Y dref yma, Man-soul, sydd eiddof fi hefyd trwy eu hufudd-dod: hwy a agorasant byrth eu tref i mi; hwynt-hwy a dyngasant ffyddlondeb i mi, ac a'm dewisasant i yn gyhoeddus i fod yn frenin iddynt; hwy hefyd a roddasant eu castell i'm dwylaw i; ïe, hwy a osodasant holl gadernid Man-soul danaf fi.

Hefyd, y dref yma Man-soul a'th ddiarddelodd di; ïe, hwy a fwriasant dy gyfraith, dy enw, dy ddelw, a'r hyn oll sydd yn eiddo i ti, o'r tu ol i'w cefnau; ac a dderbyniasant, ac a osodasant i fyny yn eu lle, fy nghyfraith i, fy enw i, fy nelw i, a phob peth arall sydd eiddof fi; ac onidê, gofyn i'th gadbeniaid, a hwy a fynegant i ti, ddarfod i Man-soul, yn eu holl atebion i'w harchiad, neu eu gwŷs hwynt, ddangos cariad a ffyddlondeb i mi; ond yn oestadol ddirmyg, anmharch, diystyrwch, a gwatwar i ti, ac i'th eiddot. Yn awr, tydi ydwyt y Cyfiawn a'r Sanctaidd (ac nis dylit wneuthur anwiredd), yr ydwyf yn atolwg i ti, gan hyny, i ymadael oddiwrthyf fi, a'm gadael i feddiannu fy etifeddiaeth gyfiawn yn heddychlawn.

Yr araeth yma a wnaethpwyd yn iaith Diabolus ei hun; canys er y gall ef ymddiddan â phob dyn yn eu hiaith eu hunain (ac oni byddai hyny, nid allai efe eu temtio hwynt), eto y mae ganddo ef iaith briodol iddo ei hun—ac iaith yr ogof uffernol, neu y pwll dû, ydyw.

Oherwydd paham, tref Man-soul (druain) nis deallasant ef, ac nis gwelsant ychwaith pa fodd yr ydoedd yn ymgreinio, ac yn ymgrymu, tra fu efe yn sefyll o flaen Emmanuel, eu Tywysog hwynt; ïe, hwynt-hwy, trwy gydol yr amser yma, a

dybiasant ei fod ef y fath un galluog, cadarn, fel nas gellid, mewn modd yn y byd, ei wrthsefyll.

Oherwydd paham, tra fu efe fel hyn yn ymhwedd, fel y byddai iddo ef eto gael bod â'i orphwysfa yno, ac nas byddai i Emmanuel ei chymeryd oddiarno trwy drais, y trigolion a ymffrostiasant o'i wrolder ef, gan ddywedyd, Pwy a ddichon ryfela ag ef? Felly, pan ddarfu i'r brenin ffuantus yma ddiweddu yr hyn a fynai ei ddywedyd, Emmanuel, y Tywysog auraidd, a safodd i fyny, ac a lefarodd, ystyr geiriau yr hwn sydd fel y canlyn:

Tydi dwyllwr, eb efe, mae genyf fi, yn enw fy Nhad, yn fy enw fy hun, o blaid, ac er daioni i'r dref resynol Man-soul, rywbeth i'w ddywedyd wrthyt ti. Yr wyt ti yn cymeryd arnat fod genyt hawl gyfreithlon i'r dref druenus Man-soul, pan y mae yn ddigon amlwg i holl lys fy Nhad, fod y mynediad a gefaist di i mewn i byrth Man-soul trwy dy gelwyddau a'th dwyll; yr ydwyt ti yn gwneud fy Nhad a'i gyfraith yn gelwyddog, ac felly yr wyt ti yn twyllo pobl Man-soul. Yr wyt ti yn cymeryd arnat i'r bobl dy dderbyn di yn lle eu brenin, eu cadben, a'u pen-arglwydd, ond hyn hefyd a fu trwy dwyll a ffug. Yn awr, os bydd i gelwydd, hoced, cyfrwysdra pechadurus, a phob math o ragrith erchyll, yn llys fy Nhad (yn yr hwn lys y mae yn rhaid dy farnu di), gael myned yn lle uniondeb a chyfiawnder, yna yr addefaf i ti eu goresgyn yn gyfreithlon. Ond, Och! pa leidr, pa orthrymwr, neu pa ddiafol sydd, nas gall oresgyn fel hyn? Ond myfi a allaf ddangos, O! Diabolus, nad oes genyt ti, yn yr holl bethau trwy ba rai yr ydwyt yn cymeryd arnat orchfygu Man-soul, ddim gwirionedd i ddywedyd.

A ydwyt ti yn meddwl fod hyn yn gyfiawn, i ti osod y celwydd at fy Nhad, a'i wneuthur ef i Man-soul y twyllwr mwyaf yn y byd? A pha beth a ddywedi di, am i ti ŵyrdroi yn wybodus uniawn ystyr ac amcan y gyfraith? A ydoedd hi hefyd yn beth da i wneuthur ysglyfaeth o ddiniweidrwydd a gwirionedd y bresenol druenus dref Man-soul? Ië, tydi orchfygaist Man-soul trwy addaw iddynt hapusrwydd yn eu troseddiadau, yn erbyn cyfraith fy Nhad, pan wyddit, ac nad ellit lai na gwybod, pe buasit yn ystyried dy brofiad dy hun, mai dyna'r ffordd i'w distrywio hwynt. Tydi hefyd dy hunan a beraist, O! athraw gelyniaeth! o ddirmyg, anffurfio delw fy Nhad yn Man-soul, ac a osodaist i fyny dy ddelw dy hunan yn ei lle, er mawr ddiystyrwch i'm Tad, ac er ychwanegu dy bechod, ac er niwaid anoddefol i'r dref golladwy, Man-soul.

Fe ddarfu i ti hefyd (fel pe na buasai yr holl bethau hyn ond pethau bychain genyt), nid yn unig hudo a difetha y lle yma; ond fe ddarfu i ti, trwy dy gelwyddau a'th ymddygiad twyllodrus, eu gosod hwynt yn erbyn eu gwaredigaeth eu hunain. Pa fodd y darfu i ti eu cyffroi hwynt yn erbyn cadbeniaid fy Nhad, ac y gwnaethost iddynt ymladd yn erbyn y rhai a ddanfonasid i'w gwaredu hwynt oddiwrth eu

caethiwed? Yr holl bethau hyn, a llawer ychwaneg, a wnaethost yn erbyn dy oleuni, ac o ddirmyg at fy Nhad, a'i gyfraith; ïe, gyda bwriad i ddwyn tân ei anfoddlonrwydd ef ar y resynol dref Man-soul yn dragwyddol. Yr ydwyf fi, gan hyny, yn dyfod i ddial y cam a wnaethost i'm Tad, ac i ymweled â thi am y cableddau trwy ba rai y gwnaethost i Man-soul, druan, gablu ei enw ef; ïe, ar dy ben di, tywysog yr ogof uffernol, yr ad-dalaf ef.

Ac am danaf fy hun, O! Diabolus, yr ydwyf yn dyfod yn dy erbyn di trwy allu cyfreithlon, ac i gymeryd, trwy rym dwylaw, y dref hon, Man-soul, allan o'th ewinedd llosgedig di. Canys y dref yma, Man-soul, sydd eiddof fi, O! Diabolus, a hyny wrth y coffadwriaethau hynaf, a mwyaf awdurdodol; a mi a ddadleuaf fy hawl iddi, er gwarth i'th wyneb.

Yn gyntaf, am dref Man-sonl, fy Nhad a'i hadeiladodd, ac a'i ffurfiodd â'i law. Y palas hefyd ag sydd yn nghanol y dref hòno a adeiladodd efe er mwyn ei hyfrydwch ei hun. Y dref yma, Man-soul, gan hyny, sy'n eiddo fy Nhad, a hyny trwy yr hawl oreu yn y byd; a'r hwn sydd yn gwrthddywedyd y gwirionedd yma, a orfydd ddweyd celwydd yn erbyn ei enaid ei hun.

Ac yn ail, O! tydi athraw celwydd, y dref yma, Man-soul, sydd eiddof fi: yn

1. Am mai myfi ydyw etifedd fy Nhad, ei gyntaf-anedig, a gwir hyfrydwch ei galon. (Heb. i. 2. Ioan xv. 16.) Myfi, gan hyny, a ddaethum i fyny yn dy erbyn di yn fy hawl fy hun, sef, i enill yn ol fy etifeddiaeth fy hun o'th law di.

2. Ond yn mhellach, fel y mae genyf hawl a thitl yn Man-soul, trwy fod yn etifedd fy Nhad, felly hefyd y mae genyf trwy roddiad fy Nhad. (Ioan xvii.) Ei eiddo ef ydoedd, ac efe a'i rhoddes i mi; ac ni ddarfu i mi un amser droseddu yn erbyn fy Nhad, fel y byddai iddo ei chymeryd oddiarnaf fi, a'i rhoddi i ti. (Esay l.) Ac nis gorfu ychwaith arnaf fi, trwy fyw yn afradlon neu yn dreulgar, ei gwerthu, neu ei gosod ar werth, i ti, fy Man-soul anwyl. Man-soul ydyw fy nymuniad, fy hyfrydwch, a llawenydd fy nghalon. Ond, yn

3. Man-soul sydd eiddof fi trwy fy hawl yn ei phwrcasu hi. Myfi a'i prynais hi, O! Diabolus, myfi a'i prynais hi i mi fy hun. Yn awr, yn gymaint ag mai eiddo fy Nhad a minau ydoedd, megis ag yr oeddwn i yn etifedd iddo; ac yn gymaint hefyd ag i mi ei gwneuthur yn eiddo i mi fy hun trwy rinwedd pwrcasiad drud, y mae yn canlyn, wrth bob hawl neu uniondeb cyfreithlon, fod tref Man-soul yn eiddof fi, ac mai trawsfeddiannwr, gorthrymwr, a bradwr wyt ti, yn dy waith yn cadw meddiant ynddi. Yn awr, y rheswm neu yr achos o'm pwrcasiad o honi oedd hyn: Man-soul a droseddasai yn erbyn fy Nhad; yn awr fy Nhad a ddywedasai, mai yn y dydd y torent ei gyfraith ef, y byddent feirw. Yn awr y mae yn haws i'r nefoedd a'r ddaear fyned heibio, nag i'm Tad dori ei air. (Mat. v. 18.) Oherwydd paham, pan ddarfu i Man-soul bechu yn wir trwy wrando ar dy gelwydd di, myfi a

aethum i mewn, ac a ddaethum yn fechniydd i'm Tad, corph am gorph, ac enaid am enaid, y byddai i mi wneuthur iawn am droseddiadau Man-soul, a'm Tad a dderbyniodd o honaw. Felly, pan ddaeth yr amser gosodedig, myfi a roddais gorph am gorph, enaid am enaid, bywyd am fywyd, gwaed am waed, ac felly y prynais fy anwylyd Man-soul.

4. Ac nis gwnaethum i ychwaith hyn hyd ei haner; cyfraith fy Nhad a'i gyfiawnder, y rhai oeddynt yn cael eu golygu, neu eu hystyried, yn y bygythiad o droseddu, ydynt yn awr wedi cael iawn, ac yn ddigon boddlon i Man-soul gael ei gwaredu.

5. Ac nid ydwyf fi heddyw wedi dyfod yn dy erbyn di ond trwy orchymyn fy Nhad; efe ydoedd yr hwn a ddywedodd wrthyf, Dos i wared, a gwareda Man-soul. Oherwydd paham, bydded hyspys i ti, O! tydi y ffynnon o bob twyll, a bydded yn hyspys hefyd i Man-soul ynfyd, na ddaethum i yn dy erbyn di heddyw heb fy Nhad.

Ac yn awr, ebe y Tywysog pen-auraidd, y mae genyf air at y dref Mansoul—(ond gan gynted ag y soniwyd fod ganddo air i lefaru wrth y dref ben-feddw Man-soul, fe ddyblwyd y gosgordd wrth y pyrth, ac fe orchymynwyd i'r gwŷr oll beidio gwrando);—ond efe a aeth rhagddo, ac a ddywedodd: O! annedwydd dref Man-soul, nid allaf lai na gofidio a gresynu o'th blegid di. Tydi a gymeraist Diabolus yn frenin i ti, a thydi a ddaethost yn fammaeth ac yn weinidoges i'r Diaboloniaid yn erbyn dy Arglwydd Frenin. Dy byrth a agoraist iddo, ond tydi a gauaist dy glustiau pan oeddwn i yn llefain arnat; efe a ddygodd i ti dy ddistryw, a thi a'i derbyniaist hwynt yn nghyd; yr ydwyf fi yn dyfod atat ti gan ddwyn iachawdwriaeth, ond tydi a'm diystyraist fi. Heblaw hyn, tydi a'th gymeraist dy hun, megis â dwylaw cysegr-ladronaidd, â'r hyn oll ag oedd eiddof fi ynot ti, ac a'u rhoddaist i gyd i'm gelyn, ac i'r gelyn mwyaf a fedd fy Nhad. Chwi a ymgrymasoch ac a ymddarostyngasoch eich hunain iddo ef; chwi a addunedasoch ac a dyngasoch eich hunain ar i chwi fod yn eiddo ef. Man-soul druenus! Pa beth a wnaf i ti? A achubaf i di? Neu a ddistrywiaf i di? Pa beth a wnaf i ti? A syrthiaf fi arnat ti, a'th falurio di yn chwilfriw, neu ynte dy wneuthur yn goffadwriaeth o'r gras cyfoethocaf? Pa beth a wnaf i ti? Gwrando, gan hyny, tydi dref Man-soul, gwrando ar fy ngair, a thydi a fyddi byw. Yr ydwyf yn drugarog, Man-soul, a thydi a'm ceffi felly; na chaua fi allan o'th byrth. (Can. v. 2.)

O! Man-soul! nid ydyw fy nghommisiwn na'm tueddiad i oll i'th niweidio di; paham yr ydwyt ti yn ffoi gyda'r fath frys oddiwrth dy gyfaill, ac yn glynu mor gyflawn wrth dy elyn? Yn wir mi a ewyllysiwn i ti, oherwydd ei fod yn addas i ti, i fod yn alarus am dy bechod; ond na anobeithia am fywyd; nid ydyw y llu sydd yn ymgynulledig yma i'th niweidio, ond i'th waredu di o'th gaethiwed, ac i ddyfod â thi i'th ufudd-dod.

Fy nghommisiwn i, yn wir, sydd i wneuthur rhyfel ar Diabolus, dy frenin, ac ar yr holl Ddiaboloniaid gydag ef; canys efe yw y cadarn arfog sydd yn cadw y tŷ, a myfi a'i mynaf ef allan: ei yspail ef sydd raid i mi ei rhanu, ei arfogaeth ef sydd raid i mi ei chymeryd oddiarno, a rhaid i mi ei fwrw ef allan o'i gastell, ac y mae yn rhaid i mi ei gwneuthur yn drigfa i mi fy hun. A hyn a gaiff Diabolus ei wybod, O! Man-soul! pan orfo arno ef fy nilyn i mewn cadwynau, a phan lawenycho Man-soul wrth weled hyny. Myfi a allwn, pe rhoddwn allan fy nerth yr awr hon, beri iddo ef yn ebrwydd eich gadael chwi, a myned ymaith; ond y mae yn fy nghalon ei drin ef yn y cyfryw fodd ag y byddo i gyfiawnder y rhyfel a wnelwyf arno ef fod yn weledig, a'i gydnabod gan bawb. Efe a gymerodd Man-soul trwy dwyll, ac y mae yn ei chadw trwy drais a hoced, a myfi a'i gwnaf ef yn llwm ac yn noeth yn ngolwg pawb ag sydd yn edrych arno. Fy holl eiriau ydynt wirionedd; yr ydwyf yn gadarn i iachau, a mi a waredaf fy Man-soul allan o'i law ef.

Yr ymadroddion yma a amcanwyd yn benaf i Man-soul, ond ni wrandawai Man-soul arno. Hwynt-hwy a gauasant Borth-y-clust, hwy a'i bariasant ef i fyny, hwy a'i cloisant ac a'i bolltasant ef, ac a osodasant osgordd wrtho, ac a orchymynasant nad elai neb o wŷr y dref allan ato ef, ac nas goddefid ychwaith i neb o'r gwersyll i ddyfod i'r dref. Hyn oll a wnaethant; mor erchyll yr oedd Diabolus wedi eu llygad-dynu hwynt i wneuthur, ac i geisio gwneuthur drosto ef, yn erbyn eu Harglwydd uniawn a'u Tywysog; oblegid paham, nid oedd na dyn, na llais, na swn un ag oedd yn perthyn i'r llu gogoneddus, yn dyfod i'r dref.

Felly pan welodd Emmanuel fod Man-soul fel hyn yn ymdrybaeddu mewn pechod, efe a alwodd ei filwyr yn nghyd (yn gymaint yn awr a bod ei holl eiriau yn cael eu diystyru), ac a roddes allan orchymyn trwy ei holl fyddin, i fod yn barod erbyn yr amser gosodedig. Yn awr, yn gymaint ag nad oedd un ffordd yn gyfreithlon i enill Man-soul ond trwy fyned i mewn trwy y pyrth, a Phorth-y-clust, yn benaf, am hyny efe a orchymynodd i'w gadbeniaid a'i swyddogion i ddwyn eu peiriannau rhyfel, ffyn-taflu, a'u gwŷr, a'u gosod hwynt wrth Borth-y-llygad a Phorth-y-clust, gogyfer ag enill y dref.

Pan ddarfu i Emmanuel osod pob peth yn barod i ymladd â Diabolus, efe a ddanfonodd drachefn i fynu gwybod gan dref Man-soul, pa un a wnaent, ai rhoddi eu hunain i fyny mewn modd heddychlon, neu ynte a oeddynt hwy eto yn ymroi neu yn penderfynu ei brofi ef hyd yr eithaf? Yna hwy, yn nghyd â Diabolus, eu brenin, a alwasant gyngor, ac a gytunasant ar ryw gynygion ag a gynygid i Emmanuel, os byddai efe boddlon iddynt. Felly hwy a gytunasant; a'r peth nesaf ydoedd, pwy a ddanfonid ar y genadwri yma. Yn awr yr oedd yn nhref Man-soul hen ŵr o Ddiaboloniad, a'i enw ef ydoedd Mr. Anhawdd-ganddo-ymostwng, gwr syth yn ei ffyrdd, a gweithredwr mawr dros Diabolus: efe, gan hyny, a ddanfon-

asant, ac a osodasant yn ei enau pa beth a ddywedai. Felly efe a aeth, ac a ddaeth i'r gwersyll at Emmanuel; ac wedi iddo ddyfod, fe osodwyd amser iddo gael gwrandawiad. Felly ar yr amser efe a ddaeth; ac ar ol cyfarchiad Diabolonaidd neu ddau, efe a ddechreuodd fel hyn, ac a ddywedodd: Ddyrchafedig syr, fel y gwybyddo pawb pa mor hynawsaidd tywysog ydyw fy meistr, efe a'm hanfonodd i fynegu i'ch Arglwyddiaeth ei fod yn foddlon iawn, yn hytrach na myned i ryfel, i roddi i fyny i'ch dwylaw chwi y naill haner o Man-soul. Yr ydwyf fi, gan hyny, wedi dyfod i wybod a fydd i'ch Mawrhydi dderbyn y cynyg yma.

Yna ebe Emmanuel: Eiddof fi ydyw y cyfan, trwy rodd a phryniad; oblegid paham, nis collaf fi byth y naill haner.

Yna ebe Mr. Anhawdd-ganddo-ymostwng: Syr, fy meistr a ddywedodd y bydd efe boddlon i chwi fod yn arglwydd ar y cyfan mewn enw a thitl, os geill efe ond meddiannu rhan. (Luc xiii. 25.)

Yna yr atebodd Emmanuel: Y cwbl sydd eiddof fi mewn gwirionedd, ac nid mewn enw a gair yn unig; oherwydd paham, byddaf yn Ben-Arglwydd a meddiannydd o'r cyfan, neu ynte o ddim oll yn Man-soul.

Yna Mr. Anhawdd-ganddo-ymostwng a ddywedodd drachefn: Syr, gwelwch ymddarostyngiad fy meistr; y mae efe yn dywedyd y bydd efe yn foddlon, os gall efe ond cael rhyw le wedi ei osod iddo yn Man-soul—ïe, hyd yn oed cymaint a llecyn i fyw yn neillduol ynddo; ac heblaw hyny, chwi a gewch fod yn arglwydd ar y cwbl oll. (Act. v. 1—5.)

Yna ebe y Tywysog auraidd: Yr hyn oll ag y mae'r Tad yn ei roddi i mi, a ddaw ataf fi; ac o'r hyn oll a roddes efe i mi, ni chollaf ddim, na wnaf ewin, neu flewyn; nis caniatâf iddo, gan hyny, na wnaf y gongl leiaf yn Man-soul, i aros, neu i drigo ynddi; myfi a fynaf y cyfan i mi fy hun.

Yna Anhawdd-ganddo-ymostwng eilwaith a ddywedodd: Ond, syr, bwriwch y byddai i'm harglwydd roddi i fyny i chwi yr holl dref, gyda hyn o ocheliad—sef y gallai efe, ar ryw brydiau, pan ddelo efe i'r wlad yma, er mwyn hen gydnabyddiaeth, gael ei dderbyn fel ymdeithydd dros ddeuddydd, deng niwrnod, neu fis, neu gyffelyb; oni ellir caniatâu y fath beth bychan a hyn?

Yna ebe Emmanuel: Na ellir. Efe a ddaeth fel ymdeithydd at Dafydd, ac nid arosodd efe yn hir gydag ef, ac eto fe fu yn debyg o gostio ei enaid i Dafydd. (2 Sam. xii. 1—5.) Ni chytunaf fi iddo ef gael dim derbyniad yno byth mwy.

Yna ebe Mr. Anhawdd-ganddo-ymostwng: Syr, yr ydych yn ymddangos eich bod yn galed iawn. Bwriwch y byddai i fy meistr fod yn foddlon i'r hyn oll a ddarfu i'ch Mawrhydi ei ddywedyd, darparer fod i'w gyfeillion a'i geraint yn Man-soul gael rhyddid i farchnata yn y dref, ac i fwynhau eu trigfanau presenol, ai nid ellir caniatâu hyn, syr?

Yna ebe Emmanuel: Na ellir; y mae hyny yn erbyn ewyllys fy Nhad. (Rhuf. vi. 13. Col. iii. 5. Gal. v. 24.) Canys pob un, a phob math o Ddiaboloniaid ag sydd yn bresenol, neu un amser a gaffer yn Man-soul, ni chollant yn unig eu meddiannau a'u rhyddid, ond hefyd eu bywyd.

Yna ebe Mr. Anhawdd-ganddo-ymostwng drachefn: Ond, syr, onid all fy meistr, a'm harglwydd mawr, trwy lythyrau gydag ymdeithiwr, ar ddamweiniol odfeydd, a'r cyffelyb, fyntumio rhyw fath o hen gyfeillach â Man-soul, os rhydd efe y cwbl i fyny i ti? (Ioan x. 8.)

Emmanuel a atebodd: Nad ellir mewn modd yn y byd; oherwydd, yn gymaint a bod yr oll o'r cyfryw gymdeithas, cyfeillach, anwylder, neu gydnabyddiaeth, chwaethach pa ffordd neu wedd bynag y cadwer ef i fyny, yn tueddu i lygru Man-soul, i ddieithrio eu serchiadau oddiwrthyf fi, ac i beryglu eu heddwch gyda'm Tad.

Mr. Anhawdd-ganddo-ymostwng, eto, a ychwanegodd yn mhellach, gan ddywedyd: Ond, ddyrchafedig syr, yn gymaint a bod gan fy meistr lawer o gyfeillion, a'r rhai hyny o'r cyfryw rai ag sydd yn anwyl ganddo ef yn Man-soul, onid all efe, os ymâd ef â hwynt, o'i haelioni a'i hynawsedd, roddi iddynt hwy, fel y gwelo ef yn addas, ryw arwyddion o'i gariad a'i gymwynasgarwch ag oedd ganddo ef iddynt, fel y byddo i Man-soul, pan y byddo ef wedi ymadael, edrych ar y cyfryw arwyddion o garedigrwydd, wedi eu derbyn unwaith gan eu hen gyfaill, a'i gofio ef, yr hwn a fu unwaith yn frenin arnynt, a'r amseroedd llawen y darfu iddynt hwy eu mwynhau y naill gyda y llall, tra fu ef a hwythau yn byw mewn heddwch yn nghyd?

Yna ebe Emmanuel: Na all; canys os daw Man-soul i fod yn eiddof fi, nis goddefaf, ac nis boddlonaf fod yno y gronyn lleiaf, y briwsionyn, neu lwch o eiddo Diabolus i gael ei adael yn ol, megis arwyddion o'r rhoddion a roddwyd i neb yn Man-soul, a thrwy hyny alw i gof y cymundeb erchyll a fu rhyngddynt hwy ag ef.

Wel, syr, ebe Mr. Anhawdd-ganddo-ymostwng: Y mae genyf fi un peth yn ychwaneg i osod gerbron, ac yna mi a ddaethum hyd at ddiwedd fy nghommisiwn. (2 Bren. i. 3—7.) Bwriwch, pan elo fy meistr i ymaith o Man-soul, fod i'r hwn ag a gaffo fyw eto yn y dref, a bod ganddo waith ag a fyddo o'r fath bwys mawr i'w wneuthur, fel, os byddai iddo gael ei esgeuluso, y cyfryw un a ddifethid; a bwriwch, syr, nas gall neb helpu y cyfryw achos gystled a'm meistr a'm harglwydd i, onid ellir danfon am fy meistr yn awr ar y fath achos angenrheidiol a hwn? Neu, os na ellir caniatâu iddo ef ddyfod i'r dref, onid all efe, a'r sawl sydd yn perthyn iddo, gyfarfod yn un o'r pentrefi gerllaw Man-soul, ac yno osod eu penau yn nghyd, i ymgynghori yn nghylch materion?

Dyma y diweddaf o'r cynygion dichellgar ag oedd gan Mr. Anhawdd-ganddo-ymostwng i'w gosod gerbron Emmanuel, yn achos ei feistr Diabolus, ond ni chaniatâi Emmanuel y peth; canys efe a ddywedodd: Nid all fod un achos, neu beth, a

ddigwyddo yn Man-soul, pan fyddo dy feistr wedi myned ymaith, nas gall gael ei iachau gan fy Nhad. (1 Sam. xxviii. 15.) Heblaw hyny, fe fydd yn anmharch mawr ar ddoethineb a medr fy Nhad, i genadu i neb fyned o Man-soul at Diabolus i ymofyn cyngor, pan ydys wedi erchi iddynt o'r blaen, yn mhob peth trwy weddi ac ymbil, i wneuthur eu deisyfiadau yn hyspys i'm Tad. (2 Bren. i. 2, 3.) Hefyd, pe byddai iddo gael ei ganiatâu, a fyddai i ganiatâu drws agored i Diabolus, ac i'r Diaboloniaid yn Man-soul, i ddeor, ac i gydfwriadu, ac i ddwyn yn mlaen amcanion bradwriaethus, er gofid i'm Tad ac i minau, ac er distryw hollol i'r dref.

Pan glywodd Mr. Anhawdd-ganddo-ymostwng yr ateb yma, efe a gymerodd ei genad oddiwrth Emmanuel, ac a ymadawodd, gan ddywedyd y dygai efe air at ei feistr yn nghylch yr holl negesau hyn.

Felly efe a ymadawodd, ac a ddaeth at Diabolus i Man-soul, ac a ddywedodd yr holl hanes wrtho ef, a pha fodd na chaniatâi Emmanuel, mewn modd yn y byd, pan elai efe unwaith allan, fod iddo ef, byth mwyach, ddim a'r a wnelai nac yn, neu ynte â neb ag sydd yn perthyn i'r dref. Pan glybu Diabolus a Man-soul yr hanes yma o bethau, hwynt-hwy yn gytun a farnasant i wneuthur pob peth ag a allent i gadw Emmanuel allan o'r dref, ac a ddanfonasant hen Ddrygbwyll, am yr hwn y clywsoch o'r blaen, i fynegu hyny i'r Tywysog, ac i'w gadbeniaid. Felly yr hen wr bonheddig a ddaeth i fyny at ben Porth-y-clust, ac a alwodd ar y gwersyll am wrandawiad; pa rai, pan wrandawsant, efe a ddywedodd: Y mae genyf, mewn gorchymyn oddiwrth fy arglwydd uchel, i erchi i chwi ei fynegu ef i'ch Tywysog Emmanuel, fod Man-soul, a'i brenin, yn ymroi i sefyll neu syrthio yn nghyd, ac mai gwaith ofer yw i'ch Tywysog feddwl byth am gael Man-soul yn ei law, oddieithr iddo ef ei chymeryd trwy drais. Felly rhai a aethant ac a fynegasant i Emmanuel yr hyn a ddywedasai hen Ddrygbwyll, Diaboloniad yn Man-soul. Yna ebe y Tywysog: Y mae yn rhaid i mi brofi beth ydyw nerth fy nghleddyf. (Eph. vi. 17.) Canys ni bydd i mi, er yr holl wrthryfel a'r ymwrthodiadau a wnaeth Man-soul yn fy erbyn i, godi fy ngwarchae, ac ymadael, ond yn ddiau myfi a gymeraf fy Man-soul, ac a'i gwaredaf oddiwrth ei gelyn. A gyda hyny, efe a roddes orchymyn allan, ar fod i Gadben Boanerges, Cadben Argyhoeddiad, Cadben Barn, a Chadben Dienyddiad, i gychwyn yn ddiatreg at Borth-y-clust gyda sain udgyrn, banerau yn chwifio, a gyda bloedd i'r frwydr. Hefyd yr oedd efe yn ewyllysio i Gadben Crediniaeth ymgysylltu â hwynt. Emmanuel hefyd a orchymynodd i Gadben Gobaith-da a Chadben Cariad i ymosod eu hunain i fyny o flaen Porth-y-llygad. Efe a archodd hefyd i'r cadbeniaid eraill, a'u gwŷr, osod eu hunain yn y cyfryw le ag a fyddai mwyaf manteisiol iddynt yn erbyn y gelyn yn mhob man oddiamgylch y dref; a gwnaethpwyd y cwbl fel y gorchymynwyd. Yna yr archodd efe roddi y gair allan, yr hwn ydoedd y pryd hwn, Emmanuel! Yna y canwyd alarwm, a'r

peiriannau rhyfel a osodwyd ar waith, a'r ffyn-taflu a chwyrnasant y cerig i'r dref yn aruthrol; ac fel hyn y frwydr a ddechreuodd. Yn awr Diabolus ei hun a drefnodd wŷr y dref yn y rhyfel, a hyny wrth bob porth; oherwydd paham, yr oedd eu gwrthwynebiad yn gadarnach, ac yn fwy uffernol a rhwystrol i Emmanuel.

Fel hyn y cafodd y Tywysog daionus ei roesawu a'i dderbyn gan Diabolus a Man-soul dros lawer o ddyddiau yn nghyd; a golwg ydoedd werth ei gweled, i weled fel yr oedd cadbeniaid Shad-dai yn ymddwyn eu hunain yn y rhyfel yma.

Ac yn gyntaf, am Gadben Boanerges (nid i ddiystyru y lleill), efe a wnaeth dri ymosodiad ffyrnig ar Borth-y-clust, y naill ar ol y llall, hyd oni ddarfu iddo ef siglo ei ystlys-byst ef. Cadben Argyhoeddiad, yntau hefyd a ymdrechodd gyda Cadben Boanerges gymaint byth ag a allai; a phob un o honynt yn deall fod y porth yn dechreu siglo, hwy a orchymynasant ar fod i'r peiriannau rhyfel gael eu gosod ar waith yn wastadol yn ei erbyn. Yn awr Cadben Argyhoeddiad, gan fyned yn agos iawn at y porth, a yrwyd yn ol trwy orthrech mawr, ac efe a gafodd dri chlwyf yn y genau. A'r rhai ydoedd yn marchogaeth yn ewyllysgar, a aethant oddiamgylch, gan gefnogi y cadbeniaid.

Am wroldeb a phybyrwch y ddau gadben a soniwyd am danynt o'r blaen, y Tywysog a ddanfonodd am danynt i'w babell, ac a orchymynodd iddynt gymeryd eu gorphwysfa dros enyd, ac i rywbeth gael ei roddi iddynt i'w hadfywio. Gofal hefyd a gymerwyd am Gadben Argyhoeddiad, fel yr iacheid ef o'i glwyfau; a'r Tywysog a roddodd i bob un o honynt gadwyn o aur, ac a archodd iddynt gymeryd calon. Ac ni bu, ychwaith, Gadben Gobaith-da, na Chadben Cariad, yn ol o wneud eu rhan yn y frwydr beryglus yma, canys hwy a ymddygasant eu hunain cystled o flaen Porth-y-llygad, fel y buont agos a'i dori yn agored. Y rhai hyn hefyd a gawsant wobr gan eu Tywysog, megis ag y cafodd y cadbeniaid eraill yr un modd, am iddynt wneuthur gwrolder oddiamgylch y dref.

Yn y frwydr yma amryw o swyddogion Diabolus a laddwyd, a rhai o wŷr y dref hefyd a glwyfwyd; ac o'r swyddogion, fe laddwyd un cadben, a elwid Ymffrost. Yr Ymffrost yma a feddyliodd nad allai neb siglo pyst Porth-y-clust, na dychrynu calon Diabolus. Yn nesaf ato ef, fe laddwyd un Cadben Difraw—y Difraw yma a arferai ddywedyd y gallai y cloffion a'r deillion yn nhref Man-soul gadw pyrth y dref yn nghauad yn erbyn byddin Emmanuel. Y Cadben Difraw yma y darfu i Gadben Argyhoeddiad hollti ei ben ef â chleddyf dwy-ddwylaw, pan gafodd efe ei hun y tri chlwyf yn ei enau. Heblaw hyn, yr oedd yno un Cadben Ffrostiwr, dyn enbyd iawn, ac yr ydoedd efe yn gadben ar fyddin o'r rhai hyny ag oedd yn taflu pentewynion, saethau, a marwolaeth: yntau hefyd a gafodd ei glwyf marwol dan ei fron, trwy law Cadben Gobaith-da.

Yr oedd yno hefyd un Mr. Teimlad, ond nid oedd efe ddim cadben, ond un ag

oedd yn dra chwannog i anog ac i gyffroi Man-soul i wrthryfel: efe a glwyfwyd yn ei lygad, trwy law un o filwyr Boanerges; ac efe a laddesid gan y cadben ei hun, oni buasai iddo ddychwelyd yn ol yn ebrwydd. Ond ni welais i Mr. Ewyllysgar erioed mor ddigalon; nis gallai efe wneud fel yr arferai; ac fe ddywed rhai iddo yntau hefyd gael clwyf yn ei goes, ac i rai o wŷr byddin y Tywysog yn sicr ei weled ef yn gloff, fel ag yr oedd efe, ar ol hyny, yn rhodio ar y mur.

Ni chaf fi roddi i chwi hanes neillduol o enwau'r milwyr a glwyfwyd, a archollwyd, ac a laddwyd; canys pan welsant fod pyst Porth-y-clust yn siglo, a Phorth-y-llygad yn agos i gael ei dori trwodd, a bod hefyd eu cadbeniaid yn lladdedig—hyn a ddigalonodd lawer o'r Diaboloniaid; hwy a syrthiasant hefyd gan nerth yr ergydion a ddanfonwyd gan y ffyn-taflu auraidd i ganol tref Man-soul.

Ac o wŷr y dref, yr oedd yno un Anghariad-at-ddaioni, un o wŷr y dref, ond Diaboloniad ydoedd; yntau hefyd a gafodd ei glwyf marwol yn Man-soul, ond ni bu efe farw yn ebrwydd iawn.

Mr. Drygbwyll hefyd, yr hwn a ddaeth gyda Diabolus pan gynygiodd efe gyntaf gymeryd tref Man-soul; yntau hefyd a gafodd glwyf tost yn ei ben; ac fe ddywed rhai i badell ei ymenydd ef gael ei thori; ond hyn a ddarfu i mi ddal sylw arno, na allodd ef byth wneuthur y cyfryw ddrwg i Man-soul ag a wnaethai efe gynt. Hefyd, hen Mr. Rhagfarn a Diddim a ffoisant.

Yn awr, pan ddarfu y frwydr, y Tywysog a orchymynodd ar fod i'r faner wên unwaith drachefn gael ei gosod ar Fynydd Grasol yn ngolwg y dref Man-soul, i ddangos eto fod gan Emmanuel ras i'r dref resynol hòno.

Pan welodd Diabolus y faner wên wedi ei gosod allan drachefn, a chan wybod mai nid iddo ef, ond i Man-soul yr ydoedd, efe a feddyliodd chwareu dichell arall, sef i edrych a fyddai i Emmanuel godi ymaith ei warchae, a myned ymaith ar addewid o ddiwygiad. Felly efe a ddaeth i wared ryw brydnawn at y porth enyd fawr wedi i'r haul fyned i lawr, ac a alwodd am ymddiddan ag Emmanuel, yr hwn yn ebrwydd a ddaeth i wared at y porth, a Diabolus a ddywedodd wrtho ef:

Yn gymaint a'th fod yn dangos, trwy y faner wên, dy fod di yn hollol yn tueddu at heddwch a llonyddwch, myfi a fernais yn addas i hyspysu i ti ein bod ni yn barod i'w dderbyn, ar y fath amodau ag a elli di eu cenadu.

Myfi a wn dy fod di yn un defosionol, ac mai sancteiddrwydd sydd yn rhyngu dy fodd di; ïe, mai dy ddiben mawr yn gwneuthur rhyfel ar Man-soul ydyw, fel y byddo hi yn drigfa sanctaidd. Wel, tyn ymaith dy luoedd oddiwrth y dref, a mi a wnaf Man-soul yn ufudd i ti.

Yn gyntaf, myfi a osodaf i lawr bob gweithred o ryfel a gelyniaeth yn dy erbyn di, ac a fyddaf foddlon i fod yn rhaglaw i ti; ac fel y bum i gynt yn dy erbyn di, yn awr myfi a'th wasanaethaf di yn nhref Man-soul. Ac yn fwy neillduol, yn

1. Mi a berswadiaf y dref i'th dderbyn di yn lle eu harglwydd, a mi a wn y gwnant hyny yn gynt, pan ddeallont mai myfi yw dy raglaw di.

2. Myfi a ddangosaf iddynt yn mha beth y cyfeiliornasant, a bod troseddiadau yn sefyll ar y ffordd i fywyd.

3. Myfi a ddangosaf iddynt y gyfraith sanctaidd, â'r hon y mae yn rhaid iddynt gydymffurfio, sef yr hon a dorasant.

4. Myfi a gymhellaf arnynt yn mhellach, yr angenrheidrwydd o ddiwygiad, yn ol dy gyfraith di.

5. Ac hefyd, fel na phallo un o'r pethau yma, myfi fy hun, ar fy nghôst a'm traul fy hunan, a osodaf i fyny, ac a gynhaliaf weinidogaeth ddigonol, heblaw darlithwyr, yn Man-soul.

6. Ti a gei bob blwyddyn, yn wastadol, megis arwydd o'm hymddarostyngiad i ti, pa beth bynag a welych di yn gymhwys i'w drethu neu i'w osod arnom ni, yn arwydd o'n hufudd-dod i ti.

Yna Emmanuel a ddywedodd wrtho ef: O! gyflawn o dwyll, pa mor ansefydlog yw dy ffyrdd! Pa mor fynyched y darfu i ti newid a dadnewid, fel, os gellit mewn modd yn y byd, gadw meddiant o fy Man-soul i, er, fel y mynegwyd yn eglur o'r blaen, mai myfi ydyw yr uniawn etifedd iddi! Llawer gwaith y gwnaethost dy gynygiad eisoes, ac nid ydyw y diweddaf hwn ronyn gwell na'r rhai blaenorol. (2 Cor. ii 14.) A chan fethu twyllo, pan ymddangosaist dy hun yn dy liw dû, tydi yn awr a ymrithiaist dy hunan yn angel goleuni, ac a fynit, er mwyn twyllo, fod yn awr fel gweinidog cyfiawnder.

Ond, gwybydd di, O! Diabolus, nad oes dim ag a allech di ei osod gerbron, i gael ei dderbyn, na'i ystyried, canys ni wneir dim genyt ond i dwyllo: nid oes genyt ti na chydwybod i Dduw na chariad i dref Man-soul; o ba le, gan hyny, y deuai dy ymadroddion yma ond oddiwrth ddichell bechadurus a thwyll?—yr hwn a ymdrecho, ac a gynygio y peth a fyno, fel y gallo efe, trwy hyny, ddifetha y sawl a'i credo ef, sydd i'w wrthod, yn nghyd â'r hyn oll a ddywed. Ond os ydyw cyfiawnder y fath nôd o degwch yn dy olwg di yn bresenol, pa fodd y digwyddodd i ti lynu wrth anwiredd mor ddiwahan o'r blaen? Ond hyn ar y ffordd.

Yr ydwyt ti yn chwedleua am ddiwygiad yn Man-soul, ac y byddi di dy hunan, os mynaf fi, yn mlaenaf gŵr yn y diwygiad; gan wybod, yr holl amser, na wna y cyrhaeddiad mwyaf ag a allo dyn ei wneuthur yn y gyfraith a'i chyfiawnder, ddim llesâd yn y byd tuag at dynu y felldith oddiar Man-soul; canys gan fod y gyfraith ag oedd ganddi yn mlaen llaw, wedi ei thori gan Man-soul, ac ar yr ystyriaeth o'i thoriad, felldith wedi ei chyhoeddi yn ei erbyn gan Dduw, o ganlyniad, nis gall byth, trwy ei waith yn ufuddhau i'r gyfraith, waredu ei hun oddiwrthi, heb ddywedyd dim am y diwygiad sydd yn debyg o gael ei osod i fyny yn Man-soul, pan fydd

y diafol yn welläwr beiau. Tydi a wyddost nad yw yr hyn oll a lefaraist di yr awr hon ddim ond celwydd a thwyll; ac fel yr ydoedd ef y cyntaf, felly hefyd y cerdyn diweddaf ag sydd genyt i chwareu ydyw. Llawer sydd yn dy ddirnad, pan ddangosech iddynt dy ewin fforchog; ond yn dy liw gwŷn, a'th oleuni, ac yn dy ymrithiad, ni'th adwaenir ond gan ychydig. Ond ni chei di wneuthur fel hyn â'm Man-soul i, O! Diabolus! canys yr ydwyf fi o hyd yn caru fy Man-soul.

Heblaw hyny, nid ydwyf fi yn dyfod i osod Man-soul ar weithredoedd i fyw wrthynt; pe gwnawn i felly, byddwn yn gyffelyb i tithau. Ond myfi a ddaethum, fel trwof fi, a thrwy yr hyn a wnaethum, ac a wnelwyf dros Man-soul, y cymoder hwynt â'm Tad, er iddynt, trwy eu pechod, ei gyffroi ef i ddigofaint, ac er nas gallent trwy'r gyfraith gyrhaedd trugaredd. Yr ydwyt ti yn son am ddarostwng y dref yma at ddaioni, pryd nad yw neb yn ei geisio ar dy law. Myfi a ddanfonwyd gan fy Nhad i'w meddiannu hi fy hunan, i'w thrin trwy gyfarwyddyd fy nwylaw, i'r fath gydymffurfiad iddo ef ei hun ag a fydd boddlon yn ei olwg ef. Myfi, gan hyny, a'i meddiannaf hi fy hunan, ac a'th ddifeddiannaf di, ac a'th fwriaf allan; myfi a osodaf i fyny fy maner fy hun yn eu canol hwynt; myfi hefyd a'u llywodraethaf hwynt wrth gyfreithiau newyddion, swyddogion newyddion, anogaethau newyddion, a ffyrdd newyddion; ïe, myfi a dynaf i lawr y dref yma, ac a'i hadeiladaf hi o'r newydd, a hi a fydd fel pe buasai heb fod, ac yna y bydd hi yn ogoniant yr holl ddaear.

Pan glywodd Diabolus hyn, a dirnad ei fod ef wedi ei ddatguddio yn ei holl dwyliiadau, efe a waradwyddwyd ac a ostegwyd yn hollol; ond gan fod ganddo ynddo ei hun y ffynnon o anwiredd, llid, a malais, yn erbyn Shad-dai a'i Fab, a'r anwyl dref Man-soul, pa beth y mae yn ei wneuthur ond yn ymgadarnhau ei hun oreu ag y gallai efe, i roddi câd newydd i'r bonheddig Dywysog Emmanuel. Felly, gan hyny, yn awr y mae yn rhaid i ni gael brwydr arall cyn cymeryd Man-soul. Deuwch, gan hyny, i fyny i'r mynyddoedd, chwychwi oll ag sydd yn caru gweled gweithredoedd milwriaethol, a gwelwch gan bob ochr pa fodd y mae yr ergyd marwol yn cael ei roddi, tra y mae un yn ceisio cadw, a'r llall yn ceisio gwneuthur ei hun yn feistr ar y dref enwog Man-soul.

Diabolus, gan hyny, wedi myned ymaith oddiwrth y mur at ei lu i ganol y dref, Emmanuel yntau a ddychwelodd i'r gwersyll, a phob un o honynt, yn eu gwahanol ffyrdd, a osodasant eu hunain mewn agwedd i ymladd y naill â'r llall.

Diabolus, megis wedi anobeithio i gadw y dref enwog yn ei law, a benderfynodd wneuthur pob drwg ag a allai (pe, yn wir, y gallasai wneud) i lu y Tywysog, ac i'r dref enwog Man-soul; canys, Och! nid hapusrwydd y dref wirion a amcanwyd gan Diabolus, ond y dymchweliad a'r difethiad hollol o honi, megis yn awr y mae yn ddigon amlwg. (Marc ix. 26, 27.) Oherwydd paham, efe a orchymynodd i'w

swyddogion ar fod iddynt, pan welent nad allent gadw y dref yn hwy, i wneuthur iddi bob drwg a niwaid ag a allent, gan dori a rhwygo gwŷr, gwragedd, a phlant; Canys, eb efe, gwell fyddai i ni lwyr ddinystrio y lle, a'i adael fel carn distrywiedig, na'i adael felly, fel y byddo yn drigfan i Emmanuel.

Emmanuel, yn gwybod y gwnai y frwydr nesaf ef yn feistr ar y lle, efe a roddes allan orchymyn brenhinol i'w holl swyddogion, cadbeniaid uchel, a'i wŷr rhyfel, i fod yn siwr i ddangos eu hunain yn rhyfelwyr yn erbyn Diabolus a'i holl Ddiaboloniaid; ond yn ffafriol, trugarog, ac yn addfwyn, tuag at bob un o hen drigolion Man-soul. Pwyswch, gan hyny, ebe y Tywysog boneddigaidd, ar yr ochr boethaf i'r frwydr yn erbyn Diabolus a'i wŷr. Felly pan ddaeth y diwrnod, y gorchymyn a roddwyd, a gwŷr y Tywysog a safasant wrth eu harfau yn wrol, ac a wnaethant fel o'r blaen, gan bwyso â'u holl egni yn erbyn Porth-y-clust a Phorth-y-llygad. Y gair y pryd hyny ydoedd, Man-soul a enillwyd! Felly hwy a ruthrasant ar y dref. Diabolus yntau, gymaint oll ag a allodd, gyda'i holl gadernid, a wrthwynebodd oddi mewn, a'i arglwyddi uchel, a'i ben-cadbeniaid, a ymladdasant yn greulon iawn yn erbyn milwyr y Tywysog.

Ond ar ol tri neu bedwar o ymosodiadau ardderchog gan y Tywysog a'i gadbeniaid boneddigaidd, Porth-y-clust a dorwyd o led y pen; a'r barau, a'r trosolion, â pha rai y byddid yn arferol o'i gau ef i fyny yn ddiogel yn erbyn y Tywysog, a dorwyd yn chwilfriw. Yna y canodd udgyrn y Tywysog, bloeddiodd y cadbeniaid, crynodd y dref, a Diabolus a ddychwelodd i'w gastell. Wel, pan dorodd milwyr y Tywysog y porth yn agored, efe ei hun a ddaeth i fyny, ac a osododd ei orsedd ynddo; efe a osododd ei faner hefyd i fyny wrtho, ar fryn a gyfodasid i fyny o flaen ei wŷr ef, i osod y ffyn-taflu cedyrn arno. Y bryn a elwid Gwrando-yn-dda; yno, gan hyny, yr ydoedd y Tywysog yn sefyll, sef yn agos i'r mynediad i mewn i'r porth. Efe a orchymynodd hefyd i'r ffyn-taflu auraidd gael eu gosod ar waith yn erbyn y dref, yn enwedigol yn erbyn y castell, oherwydd mai yno yr oedd Diabolus wedi dychwelyd er mwyn ei ddiogelwch ei hun. Yn awr, oddiwrth Borth-y-clust yr oedd yr heol yn uniawn at dŷ Mr. Cofiadur, yr hwn ydoedd Gofiadur cyn i Diabolus gymeryd y dref, ac yn agos at ei dŷ ef yr ydoedd y castell yn sefyll, yr hwn, er ys llawer o amser, a wnaethai Diabolus yn ffau anhygar iddo ei hun. Y cadbeniaid, gan hyny, yn ebrwydd, trwy ddefnyddio eu ffyn-taflu, a wnaethant yr heol yn rhydd, a hyny yn y cyfryw fodd ag y bu i ffordd gael ei gwneuthur i fyny i galon y dref. Yna y gorchymynodd y Tywysog a fod i Gadben Boanerges, Cadben Argyhoeddiad, a Chadben Barn, gychwyn yn ddiatreg i fyny trwy y dref at borth yr hen ŵr bonheddig. Yna yr aeth y cadbeniaid i mewn i'r dref yn y modd mwyaf rhyfelgar; a chan fyned i mewn â'u banerau yn ysgwyd yn y gwynt, hwy a ddaethant i dŷ y Cofiadur, ac yr oedd hwnw agos mor gadarn a'r castell.

Peiriannau rhyfel, hefyd, a gymerasant gyda hwynt, i'w gosod yn erbyn pyrth y castell. Pan ddaethant i dŷ Mr. Cydwybod, hwy a gurasant, ac a ofynasant gael dyfod i mewn. Yn awr, a'r hen ŵr bonheddig eto heb gyflawn wybod eu hamcan, efe a gadwodd ei borth yn nghauad tra parhaodd y frwydr yma; oherwydd paham, Boanerges a ofynodd fyned i mewn i'w byrth ef; a chan nad oedd neb yn ateb, efe a roddodd iddo ergyd â phen magnel, a hyn a wnaeth i'r hen ŵr bonheddig grynu, a'i dŷ i grynu a siglo.

Yna daeth Mr. Cofiadur i wared at y porth, ac, yn oreu ag y gallai, â geriau dychrynedig, efe a ofynodd pwy oedd yno? Boanerges atebodd, Nyni ydym gadbeniaid a swyddogion y Shad-dai mawr, a'i Fab bendigedig Emmanuel, ac yr ydym ni yn gofyn meddiant och tŷ chwi at wasanaeth ein Tywysog boneddigaidd ni; a gyda hyny, y peiriant, neu y magnel, a roddodd i'r porth ysgydwad arall. Hyn a wnaeth i'r hen ŵr bonheddig grynu yn fwy, eto nid allodd efe lai nag agor y porth. Yna lluoedd y Brenin a aethant i mewn, sef y tri chadben hynod y soniwyd am danynt o'r blaen.

Yn awr tŷ y Cofiadur ydoedd le â chymhwysder mawr ynddo i Emmanuel, nid yn unig am ei fod yn gwynebu'r castell, y ffau lle'r oedd Diabolus yn bresenol; canys yn awr yr oedd arno ofn dyfod allan o'i gastell. Ac am Mr. Cofiadur, y cadbeniaid a ymddygasant tuag ato yn ddieithriol iawn, fel hyd yn hyn nas gwyddai ef ddim o amcanion mawrion Emmanuel; felly ni wyddai pa farn i roddi, na pha beth fyddai diwedd y fath ddechreuadau taranllyd. Hefyd, yr oedd y gair o hyn wedi ei daenu ar hyd y dref, y modd yr oedd tŷ y Cofiadur wedi ei feddiannu, ei ystafelloedd wedi eu meddiannu, a'i balas wedi ei wneuthur yn eisteddle rhyfel; a chan gynted ag y taenwyd ef ar led, hwy a gymerasant yr alarwm mor dwymned, ac a'i mynegasant i eraill o'u cyfeillion, (a chwi a wyddoch nad yw pellen o eira yn colli dim wrth dreiglo); felly, mewn ychydig amser, y meddiannwyd yr holl dref, yn y cyfryw fodd ag nad oedd iddynt le i ddisgwyl dim oddiwrth y Tywysog ond distryw; a sail y peth oedd hyn, yr oedd y Cofiadur yn crynu, a'r cadbeniaid a ymddygasant yn ddieithriol tuag at y Cofiadur; ond pan welsant hwy â'u llygaid eu hunain y cadbeniaid yn y palas, a'u peiriannau-rhyfel yn wastadol yn chwareu ar byrth y castell, i'w curo hwynt i lawr, hwy a sicrhawyd yn eu hofnau, ac a'u gosododd hwynt megis mewn syndod. Ac fel y dywedais, dynion y tŷ a chwanegasant at hyn oll; canys pwy bynag ag a ddeuai ato ef, neu a ymddiddanai ag ef, ni chwedleuai efe ddim wrthynt, ac nis gwrandawai hwynt, ond dywedyd fod marwolaeth a distryw tragywyddol yn aros Man-soul; Canys, ebe yr hen ŵr bonheddig, yr ydych chwi oll yn deimladol ein bod ni bob un yn fradwyr i'r hwn oedd unwaith yn ddirmygus, ond yn bresenol yr enwog, buddugoliaethol, a gogoneddus Dywysog Emmanuel, canys nid yw efe yn bresenol, fel y gwelwch, yn unig wedi gwarchae

arnom oddiamgylch, ond a dreisiodd ffordd i fyned i mewn trwy ein pyrth. Hefyd, y mae Diabolus yn ffoi o'i flaen ef, ac efe a wnaeth, fel y gwelwch chwi, amddiffynfa o'm tŷ i yn erbyn y castell, y mân lle y mae efe. Myfi, o'm rhan fy hun, a droseddais yn ddirfawr (a'r hwn sydd lân, y mae yn dda iddo); ond, meddaf, myfi a droseddais yn ddirfawr, trwy dewi â son, pan ddylaswn gyflawni yr unrhyw. Gwir yw, myfi a ddioddefais rywfaint ar law Diabolus, am daro yn mhlaid cyfreithiau Shad-dai: ond, Och! pa beth a wna hyny? A wna hyny iawn am y gwrthryfel a'r bradwriaeth a wnaethum, ac a oddefais heb ei wrthddywedyd, gael ei wneuthur yn nhref Man-soul. O! yr ydwyf yn crynu, wrth feddwl beth fydd diwedd y fath ddechreuadau dychrynllyd a digofus.

Yn awr, tra fu y cadbeniaid hynod yma yn ddiwyd fel hyn yn nhŷ yr hen Gofiadur, Cadben Dihenyddiad ydoedd mor ddiwyd mewn lleoedd eraill o'r dref, yn diogelu yr heolydd croesion a'r muriau. Efe hefyd a ymlidiodd yr Arglwydd Ewyllysgar yn dost, ac nis gadawodd iddo orphwys mewn un congl. Efe a'i herlidiodd ef mor galed, ag y bu iddo yru ei wŷr oddiwrtho ef, ac a wnaeth fod yn dda ganddo gael rhyw dwll i droi ei ben i mewn. Hefyd, y rhyfelwr cadarn yma a dorodd dri o swyddogion yr Arglwydd Ewyllysgar hyd lawr; un o honynt oedd Rhagfarn, efe, yr hwn y siglesid ei ben yn y terfysg; y gŵr yma a wnaethid gan fy Arglwydd Ewyllysgar yn geidwad ar Borth-y-clust, ac a syrthiodd trwy law Cadben Dihenyddiad. Yr oedd yno hefyd un Mr. Hwyrfrydig-at-bobpeth-ond-drwg; yntau hefyd oedd un o swyddogion yr Arglwydd Ewyllysgar, ac yr oedd yn gadben ar y ddau wn oedd unwaith wedi eu gosod uwchben Porth-y-clust; yntau hefyd a dorwyd i lawr hyd y llawr trwy law Cadben Dihenyddiad. Heblaw y ddau yma, yr oedd yno un arall yn drydydd, a'i enw oedd Cadben Anffyddlon: dyn gwael ydoedd hwn, ond un ag yr oedd Ewyllysgar yn rhoddi ymddiried mawr ynddo; ond hwn hefyd a dorodd y cadben yma i lawr gyda'r lleill hyd y ddaear. Efe hefyd a wnaeth laddfa fawr yn mhlith milwyr fy Arglwydd Ewyllysgar, gan ladd llawer ag oedd yn gedyrn ac yn warsyth, a chan glwyfo llawer ag ydoedd yn esgud ac yn fywiog dros Diabolus. Ond y rhai hyn oll oeddynt Ddiaboloniaid, ni niweidiwyd un o wŷr genedigol Man-soul. Gweithredoedd milwriaethol eraill a gyflawnwyd hefyd yr un modd, gan y cadbeniaid eraill, megis wrth Borth-y-clust, pa le yr oedd Cadben Gobaith-da, a Chadben Cariad wedi cael gorchymyn y gwnaethpwyd dihenydd mawr; canys Cadben Gobaith-da, â'i ddwylaw ei hunan, a laddodd un Cadben Tywyll, ceidwad y porth hwnw; y Tywyll yma ydoedd gadben ar fil o wŷr, a hwy ydoedd y rhai oeddynt yn ymladd mewn llurygau; efe hefyd a ddilynodd ei wŷr ef, ac a laddodd lawer, ac a glwyfodd fwy, ac a wnaeth i'r rhelyw guddio eu penau mewn tyllau.

Yr oedd hefyd wrth y porth hwnw Mr. Drygbwyll, am yr hwn y clywsoch o'r

blaen; efe ydoedd hen ŵr, ac yr oedd ganddo farf ag oedd yn cyrhaeddyd hyd ei wregys ef; yr un ydoedd efe ag oedd yn areithiwr i Diabolus; efe a wnaeth lawer o ddrwg yn nhref Man-soul, ac efe a syrthiodd trwy law Cadben Gobaith. Pa beth a ddywedaf? Y Diaboloniaid,* yn y dyddiau yma, oeddynt yn gorwedd yn feirw yn mhob congl, er bod gormod o honynt eto yn fyw yn Man-soul. Yn awr, yr hen Gofiadur a'm Harglwydd Dealidwriaeth, yn nghyd â rhai eraill o'r trigolion penaf yn y dref, sef y rhai ag a wyddent fod yn rhaid iddynt sefyll neu syrthio gyda'r enwog dref Man-soul, a ddaethant yn nghyd ar ryw ddiwrnod, ac wedi cydymgynghori, fe ddarfu iddynt, yn un a chytun, gytuno â'u gilydd i dynu i fyny ddeiseb, neu ddymuniad, a'i ddanfon ef at Emmanuel, tra yr ydoedd efe yn eistedd yn mhorth Man-soul. Felly hwy a dynasant i fyny eu deiseb at Emmanuel; ystyr yr hwn ydoedd hyn: Eu bod hwy, sef hen drigolion y dref resynol Man-soul, yn cyfaddef eu pechod, a'u bod yn pruddhau am iddynt droseddu yn erbyn ei Fawrhydi Tywysogaidd ef, ac yn gweddio ar iddo ef arbed eu bywydau hwynt.

I'r deiseb yma ni roddodd efe ateb oll; a hyny a'u blinodd hwynt eto yn fwy. Yn awr, trwy gydol yr amser yma, y cadbeniaid ydoedd yn nhŷ y Cofiadur oeddynt â'u peiriannau rhyfel yn chwareu yn erbyn pyrth y castell, i'w curo hwynt i lawr. Felly, ar ol rhywfaint o amser, llafur a phoen, Porth-y-castell, yr hwn a elwid Anorchfygol, a gurwyd i lawr, ac a dorwyd yn amryw ddarnau; ac felly y gwnaed ffordd i fyned i fyny i'r castell lle yr oedd Diabolus wedi ymguddio. Yna anfonwyd cenadwri i lawr i Borth-y-clust, canys yr oedd Emmanuel yno o hyd, i fynegu iddo fod ffordd wedi ei hagor i byrth castell Man-soul. Ond, O! fel yr oedd yr udgyrn yn canu wrth glywed y newydd trwy holl wersyll y Tywysog fod y rhyfel yn awr mor agos at ddiweddu, a Man-soul ei hun i gael ei gwneuthur yn rhydd!

Yna y Tywysog a gyfododd o'r màn lle yr ydoedd, ac a gymerodd gydag ef y cyfryw o'i ryfelwyr ag oedd gymhwysaf i'r fath orchwyl, ac a gychwynodd i fyned ar hyd heol Man-soul, i dŷ yr hen Gofiadur.

Yn awr, yr ydoedd y Tywysog ei hun wedi ei wisgo oll mewn arfogaeth o aur, ac felly efe a gychwynodd i fyny trwy y dref, a'i faner yn ddygadwy o'i flaen ef; ond ei wynebpryd a gadwodd efe yn lled guddiedig yr holl ffordd yr aeth efe, yn gymaint ag nad allai y bobl wybod pa fodd i gasglu cariad neu gasineb oddiwrth ei edrychiadau ef. Yn awr, fel yr ydoedd yn cychwyn i fyny ar hyd yr heol, pobl y dref a ddaethant allan i bob drws i edrych, ac nis gallent lai na hoffi ei berson ef, gan mor ogoneddus ydoedd, ond a ryfeddasant wrth ddieithriwch ei wynebpryd ef; canys hyd yn hyn yr oedd efe yn llefaru mwy wrthynt trwy ei weithredoedd nag yr ydoedd efe trwy ei eiriau na'i wênau. Ond heblaw hyn, Man-soul druan (fel y mae pawb yn y cyfryw achosion yn dueddol i wneuthur), hwy a ddehonglasant

* Y natur bechadurus, neu'r pechodau tufewnol.

ymddygiad Emmanuel tuag atynt hwy, fel ag y darfu i frodyr Joseph yr eiddo tuag atynt hwythau, sef yn hollol yn y gwrthwyneb: Canys, ebe hwy, pe buasai Emmanuel yn ein caru ni, fe a'i dangosasai i ni trwy air neu ymddygiad, ond nid ydyw efe yn gwneuthur un o'r rhai hyn; am hyny, y mae Emmanuel yn ein casâu ni; ac os Emmanuel sydd yn ein casâu, yna Man-soul a leddir, yna Man-soul a wneir yn domen. Hwy a wyddent iddynt droseddu cyfraith ei Dad, a'u bod hefyd i mewn gydâ Diabolus ei elyn yn ei erbyn ef. Hwy hefyd a wyddent y gwyddai y Tywysog Emmanuel hyn oll; canys yr oeddynt wedi eu hargyhoeddi ei fod ef yn Angel Duw, i wybod yr holl bethau a wneir ar y ddaear. A hyn a wnaeth iddynt feddwl bod eu cyflwr yn druenus, ac y gwnai y Tywysog daionus hwynt yn anghyfanedd. Ac, ebe hwy, pa amser mor gymhwys i wneuthur hyn yndào ag yn awr, pan ydyw ffrwyn Man-soul yn ei law? A hyn a ddeliais i sylw neillduol arno, nad allai y trigolion er hyn i gyd—na, nis gallent, pan welent ef yn myned trwy y dref, lai nag ymostwng, ymgrymu, a phlygu, ac yr oeddynt yn barod i lyfu y llwch oddiar ei draed ef. Hwy hefyd a ddymunasant fil o weithiau iddo ef ddyfod yn dywysog ac yn gadben iddynt, a'i ddyfod yn amddiffynwr iddynt. Hwy hefyd, y naill wrth y llall, a ymddiddanasent am brydferthwch ei berson ef, a pha faint, mewn gogoniant a chadernid, yr oedd efe yn rhagori ar rai mawrion y byd. Ond, druain bach, mewn perthynas iddynt eu hunain, eu meddyliau a newidient, ac a redent ar bob math o ormodedd. Ië, trwy eu gwaith yn gweithio yn ol ac yn mlaen, Man-soul a ddaeth i fod fel pêl a deflid, ac fel peth treigliedig o flaen corwynt.

Yn awr, pan ddaeth efe at byrth y castell, efe a orchymynodd i Diabolus ymddangos, ac i roddi ei hunan i fyny i'w ddwylaw ef. Ond, O! mor anhawdd oedd gan yr anifail ymddangos. Fel yr oedd efe yn dâl wrthi! Fel yr oedd efe yn ymgrymu! Ond er hyny, allan y daeth efe at y Tywysog.

Yna gorchymynodd Emmanuel, a hwy a gymerasant Diabolus, ac a'i rhwymasant ef yn ddiogel mewn cadwynau, fel y byddai yn gymhwysach i'w gadw ef gogyfer a'r farn a osodai efe arno ef. Ond Diabolus a safodd i fyny, i ymbil drosto ei hun, na byddai i Emmanuel ei ddanfon ef i'r dyfnder, ond gadael iddo ef fyned allan o Man-soul mewn heddwch.

Pan ddarfu i Emmanuel ei gymeryd ef, a'i rwymo ef mewn cadwynau, efe a'i harweiniodd ef i'r farchnadfa, ac yno, yn ngŵydd Man-soul, efe a'i dihatrodd ef o'i arfogaeth, yn yr hyn yr ymffrostiasai efe gymaint o'r blaen. Hyn, yn awr, oedd un o weithredoedd gorfoleddus Emmanuel ar ei elyn, a thrwy gydol yr amser y buwyd yn dihatru y cawr, udgyrn y Tywysog euraidd a ganasant yn ddirfawr; y cadbeniaid hefyd a floeddiasant, a'r milwyr a ganasant o lawenydd. Yna y galwyd ar Man-soul i edrych ar ddechreuad gorfoledd Emmanuel arno ef, yn yr hwn yr ymddiriedasent gymaint yn y dyddiau pan wenieithiodd efe iddynt.

Fel hyn, wedi gwneuthur Diabolus yn noeth yn ngolwg Man-soul, ac o flaen cadbeniaid y Tywysog, yn y lle nesaf efe a orchymynodd ar fod i Diabolus gael ei rwymo â chadwynau wrth olwynion ei gerbyd ef. Yna, gan adael rhai o'i wŷr, sef Cadben Boanerges a Chadben Argyhoeddiad, yn osgordd i byrth y castell, i wrthwynebu unrhyw ymosodiad a allai y rhai a ddilynasant Diabolus hyd yma wneud arno, efe a farchogodd mewn gorfoledd trwy holl dref Man-soul, ac felly allan trwy, ac o flaen y porth a elwir Porth-y-llygad, i'r gwastadedd lle yr ydoedd ei wersyll ef yn gorwedd. Ond nis gellwch chwi feddwl, oni buasai eich bod yno (fel yr oeddwn i), y fath floedd ydoedd yn ngwersyll Emmanuel, pan welsant y gorthrymwr wedi ei rwymo trwy ddwylaw eu Tywysog boneddigaidd hwynt, ac yn rhwymedig wrth olwynion ei gerbyd ef. A hwy a ddywedasant: Efe a gaethiwodd gaethiwed, efe a anrheithiodd dywysogaethau ac awdurdodau, Diabolus a ddarostyngwyd dan awdurdod y cleddyf, ac a wnaethpwyd yn wrthddrych pob gwatwargerdd.

Y rhai hyny hefyd a farchogasant yn ewyllysgar, ac a ddaethant i wared i weled y frwydr, a floeddiasant â'r fath lais uchel, ac a gânasant gyda'r fath dônau peroriaethol, fel y parasant i'r rhai ydoedd yn trigo yn y bydoedd uchaf i agoryd eu ffenestri, i estyn allan eu penau, ac i edrych i lawr, i weled yr achos o'r gorfoledd hyny. (Luc. xv. 7—10.) Gwŷr y dref, hefyd, cynifer ag a gawsent yr olwg yma, oeddynt megis wedi synu, tra yr oeddynt yn edrych rhwng y ddaear a'r nefoedd. Gwir yw, nis gallent ddywedyd pa beth fyddai diwedd pethau iddynt hwy; ond yr oedd pethau, yn y driniaeth o honynt, yn ymddangos i daflu gwên tua'r dref, fel yr oedd eu llygaid, eu penau, eu calonau, eu meddyliau, a'r hyn oll ag oedd eiddynt, wedi eu llyncu i fyny a'u meddiannu, tra yr oeddynt yn sylwi ar drefn Emmanuel. Felly, wedi i'r Tywysog gogoneddus orphen y rhan yma o orfoledd ar Diabolus ei elyn, efe a'i troes ef i fyny yn nghanol ei warth a'i gywilydd, gan ei fod wedi gorchymyn na byddai efe byth mwy yn feddiannydd o Man-soul. Yna yr aeth efe oddiwrth Emmanuel, ac allan o ganol ei wersyll ef, i etifeddu lleoedd sychion, mewn tir hallt, gan geisio gorphwysdra, ond nis cafodd.

Yn awr, yr oedd Cadben Boanerges a Chadben Argyhoeddiad yn wŷr mawrion iawn; eu hwynebau ydoedd fel gwynebau llewod, a'u geiriau fel rhuad y môr, ac yr oeddynt hwy o hyd yn lletya yn nhŷ Mr. Cydwybod, am yr hwn y soniwyd o'r blaen. Pan ddarfu, gan hyny, i'r Tywysog galluog fel hyn orphen ei oruchafiaeth ar Diabolus, yr oedd gan wŷr y dref fwy o hamdden i weled ac i olygu gweithredoedd y cadbeniaid boneddigaidd yma. Ond y cadbeniaid a ymddygasant eu hunain gyda'r fath ddychryn a braw yn yr hyn oll a wnaethent (a chwi a ellwch gredu iddynt gael cyfarwyddyd dirgel i wneuthur felly), fel y darfu iddynt gadw y dref dan ddolur calon gwastadol, ac a barodd, yn ol eu disgwyliad hwy, fod dedwyddwch Man-soul, yn yr amser i ddyfod, yn sefyll mewn petrusder o'u blaen hwynt, yn

gymaint felly (dros rywfaint o amser), fel nas gwyddent pa beth oedd gorphwysdra, nac esmwythder, na heddwch, na gobaith, yn ei feddwl.

Ac nid oedd y Tywysog ei hun, hyd yma, yn aros yn nhref Man-soul, ond yn ei babell frenhinol yn y gwersyll, ac yn nghanol lluoedd ei Dad; felly ar amser cyfaddas, efe a ddanfonodd orchymynion penodol i Gadben Boanerges i wysio holl wŷr tref Man-soul i gyntedd y castell, ac yno y pryd hyny, o flaen eu llygaid, i gymeryd fy Arglwydd Dealldwriaeth, Mr. Cydwybod, a'r un hynod hwnw, yr Arglwydd Ewyllysgar, a'u rhoddi hwynt yn nghyd eill tri yn ngharchar, ac y gosodent osgordd gref arnynt yno, hyd oni wybyddid ei ewyllys ef yn mhellach mewn perthynas iddynt. Y cyfryw drefn, pan gyflawnodd y cadbeniaid, a wnaeth ychwanegiad nid bychan at ofnau tref Man-soul; canys yn awr, yn eu meddwl hwy, yr oedd eu hofnau gynt am ddistryw Man-soul wedi eu cadarnhau. Yn awr, o ba angeu y byddent farw, a pha hyd y byddent yn marw, ydoedd yr hyn oedd yn blino neu yn trallodi eu penau a'u calonau hwynt; ïe, yr oedd arnynt ofn y byddai i Emmanuel eu gorchymyn hwynt i'r dyfnder, y lle yr oedd y tywysog Diabolus yn ei ofni; canys hwy a wyddent eu bod yn ei haeddu. Hefyd, i farw drwy y cleddyf yn ngŵydd y dref, ac yn y ffordd agored o waradwydd, trwy law Tywysog mor dda ac mor sanctaidd; hyny, hefyd, a'u blinodd hwynt yn dost. Y dref, hefyd, a drallodwyd yn ddirfawr o achos y gwŷr a roddasid yn ngharchar; canys hwynt-hwy oedd eu cynhaliaeth a'u cyfarwyddyd hwynt; ac am hyny y coeliasant, os y gwŷr hyny a dorid ymaith, na byddai eu dihenyddiad hwy ond dechreuad distryw tref Man-soul. Oherwydd paham, pa beth a wnaethant ond myned yn nghyd, a'r gwŷr oeddynt yn ngharchar a dynasant ddeiseb at y Tywysog, a'i anfon ef i Emmanuel yn llaw Mr. Yn-ewyllysio-byw. Felly efe a aeth, ac a ddaeth i lety y Tywysog, ac a gyflwynodd ei ddeiseb, swm yr hwn oedd hyn:

Y mawr a'r rhyfeddol beniaeth, buddugoliaethwr ar Diabolus, a choncwerwr tref Man-soul: Nyni, drigolion gresynol y corphoraeth mwyaf truenus hwnw, ydym yn ostyngedig yn ymbil ar i ni gael ffafr yn dy olwg, ac na byddo i ti gofio yn ein herbyn ni ein camweddau gynt, nac ychwaith bechodau penaethiaid ein tref ni; ond boed i ti ein harbed ni yn ol amlder dy drugaredd, ac na âd i ni farw, ond byw yn dy olwg di. Felly y byddwn ni yn foddlon i fod yn weision i ti; ac os gweli di yn addas, i gasglu ein bwyd dan dy fwrdd di. Amen.

Felly y deisyfiadwr yma a aeth, fel y dywedwyd, â'i ddeisyfiad at y Tywysog, a'r Tywysog a'i derbyniodd o'i law ef; ond efe a'i danfonodd ef ymaith heb yngan gair. Hyn hefyd a drallododd dref Man-soul; ond eto yn awr, gan ystyried fod yn rhaid deisyf neu farw, canys yn bresenol nis gallent wneuthur dim arall, am hyny, hwy a ymgynghorasant eilwaith, ac a ddanfonasant ddeiseb arall, yr hwn oedd, gan mwyaf, yr un ffurf a threfn a'r cyntaf.

Pan dynwyd y deiseb i fyny, y gofyniad nesaf ydoedd, gan bwy yr anfonid ef; canys nid oeddynt yn ewyllysio ei ddanfon gyda'r hwn y danfonasent y cyntaf—(oblegid hwy a dybiasant i'r Tywysog gymeryd rhyw dramgwydd oddiwrth ddull ei ymddygiad ger ei fron ef;)—felly hwy a gynygiasant wneuthur Cadben Argyhoeddiad eu cenadwr i'w gludo ef; ond efe a ddywedodd nas byddai, ac nas meiddiai efe ymbil ar Emmanuel dros fradwyr, na bod yn eiriolwr dros wrthryfelwyr. Eto, er hyny, eb efe, y mae ein Tywysog ni yn dda, a chwi a ellwch fentro ei anfon ef gydag un o wŷr eich tref, ond iddo fyned â rhaff am ei ben, ac heb ddadleu dim ond trugaredd yn unig. Felly, fe ddarfu iddynt, trwy eu hofnau, ddyhirio yn hwyaf ag y gallent, ac yn hwy nag yr oedd dyhirio yn dda; ond gan ofni o'r diwedd y perygl o oedi, hwy a benderfynasant, ond gyda llawer o lesgedd yn eu meddyliau, i ddanfon eu deiseb gyda Mr. Deisyfiadau-deffrous: felly hwy a anfonasant am dano. Yn awr yr oedd efe yn aros mewn bwthyn gwael yn Man-soul, ac efe a ddaeth ar ddymuniad ei gymydogion. Felly hwy a fynegasant iddo ef yr hyn a wnaethent, a pha beth a wnaent mewn perthynas i ddeisebu, a'u bod hwy yn dymuno arno ef am fyned ag ef at y Tywysog. Yna, ebe Mr. Deisyfiadau-deffrous, paham na wnawn i fy ngoreu i achub tref mor enwog a Man-soul oddiwrth ddistryw haeddiannol?

Hwynt-hwy, gan hyny, a roddasant eu deiseb iddo ef, ac a fynegasant iddo pa fodd yr oedd yn rhaid iddo ymgyfeirio ei hunan at y Tywysog, ac a ddymunasant iddo Duw'n rhwydd ddeng mil o weithiau. Felly efe a ddaeth at babell y Tywysog, megis ar y cyntaf, ac a ofynodd am gael ymddiddan â'i Fawrhydi. Felly gair a ddygpwyd at Emmanuel, a'r Tywysog a ddaeth allan at y gŵr. Pan welodd Mr. Deisyfiadau-deffrous y Tywysog, efe a syrthiodd i lawr â'i wyneb i'r ddaear, ac a lefodd allan, O! na byddai Man-soul byw ger dy fron di! a gyda hyny efe a gyflwynodd ei ddeiseb; yr hwn, wedi i'r Tywysog ei ddarllen, efe a drodd heibio dros enyd, ac a wylodd: ond gan ymattal ei hun, efe a drodd drachefn at y gŵr, yr hwn trwy yr holl amser yma ydoedd yn gorwedd wrth ei draed ef, megis ar y cyntaf, ac a ddywedodd wrtho ef, Dos ymaith i'th le, a mi a ystyriaf dy ddymuniadau.

Yn awr chwi ellwch feddwl nad allent hwy yn Man-soul, y rhai a'i danfonasent ef, rhwng cymysgedd o euogrwydd ac ofn, rhag y byddai i'w deiseb gael ei wrthod, lai nag edrych gyda llawer golwg hiraethlon, a hyny, hefyd, gyda gweithrediadau calon anarferol, i weled pa beth a ddeuai o'u deiseb hwynt. O'r diwedd, hwy a ganfuent eu cenhadwr yn dyfod yn ol; felly pan ddaeth efe, hwy a ofynasant iddo pa fodd yr ymdarawsai efe?—pa beth a ddywedasai Emmanuel?—a pha beth a ddaethai o'r deiseb? Ond efe a ddywedodd wrthynt y byddai efe yn ddistaw hyd oni ddeuai efe i'r carchar at fy Arglwydd Maer, fy Arglwydd Ewyllysgar, a Mr. Cofiadur. Felly efe a aeth rhagddo tua'r carchardy, lle yr ydoedd gwŷr Man-soul yn gorwedd yn rhwym. Ond, O! y fath luaws a ymdyrodd ar ol, i wrando pa

beth a ddywedodd y genad. Felly pan ddaeth efe, a phan ymddangosodd efe wrth borth y carchar, fy Arglwydd Maer ei hun a edrychodd mor wyned a'r lliain; y Cofiadur hefyd a grynodd; ond hwy a ofynasant, ac a ddywedasant: Deuwch, ddaionus syr, pa beth a ddywedodd y Tywysog mawr wrthych chwi? Yna, ebe Mr. Deisyfiadau-deffrous, pan ddaethum i babell fy Arglwydd, mi a elwais, ac efe a ddaeth allan: felly mi a syrthiais i lawr wrth ei draed ef, ac a draddodais iddo fy neiseb, oherwydd nis gadawai mawredd ei berson, na gogoniant ei wynebpryd ef, i mi sefyll ar fy nhraed. Yn awr, fel yr oedd efe yn derbyn y deiseb, myfi a lefais allan: O! na byddai Man-soul byw ger dy fron di! Felly, wedi iddo edrych arno dros enyd, efe a drodd ei hun oddiamgylch, ac a ddywedodd wrth ei was: Dos i'th ffordd ac i'th le drachefn, a myfi a ystyriaf dy ddymuniadau di. Y genad, hefyd, a ychwanegodd, ac a ddywedodd: Y Tywysog at ba un y'm danfonasoch, sydd gyfryw un am harddwch a gogoniant, ag y bydd rhaid i bob un ag a'i gwelo ef, ei garu a'i ofni ef. Myfi, o'm rhan fy hun, nid allaf wneuthur llai; ond nis gwn i pa beth fydd diwedd y pethau hyn.

Wrth yr ateb yma yr oeddynt oll mewn syndod, sef y rhai oedd yn y carchar, a'r rhai a ddilynasent y genad yno i wrando y newyddion, ac ni wyddent hwy pa fath ddehongliad i roddi ar yr hyn a ddywedasai y Tywysog. Yn awr, pan ryddhawyd y carcharorion oddiwrth y dorf, y carcharorion, yn eu plith eu hunain, a ddechreuasant esponio ar eiriau Emmanuel. Fy Arglwydd Maer a ddywedodd nad oedd yr ateb yn edrych gyda gwyneb garw; ond Ewyllysgar a ddywedodd ei fod yn arwyddocâu drwg; a'r Cofiadur a ddywedodd mai cenad marwolaeth ydoedd. Yn awr, y rhai a adawsid, ac a safasai yn ol, ac felly nis gallent glywed cystled yr hyn a ddywedasai y carcharorion, rhai o honynt a gydiasant afael o un darn o ymadrodd, a rhai ddarn o un arall; rhai a ddaliasant ar yr hyn a ddywedasai y genad, a rhai ar farn y carcharorion ar hyny, fel nad oedd gan neb yr iawn ddealldwriaeth o bethau. Ond nid ellwch chwi ddychymygu y fath waith a wnaeth y bobl yma, na pha derfysg neu annhrefn ydoedd yn Man-soul y pryd hyn; canys yn ebrwydd, y rhai a glywsent yr hyn a ddywedasid, a wibiasant ar hyd y dref—un yn llefain un peth, ac arall i'r gwrthwyneb, ac yr oedd pob un yn sicr ddigon ei fod ef yn dweyd y gwir, canys hwy a glywsent, meddent hwy, yr hyn a ddywedasid, ac am hyny nis gallent gael eu twyllo. Un a ddywedai: Y mae yn rhaid ein lladd ni. Arall a ddywedai: Y mae yn rhaid ein hachub ni i gyd. A'r trydydd a ddywedai: Na byddai i'r Tywysog ymflino oblegid Man-soul. A'r pedwerydd: Fod yn rhaid rhoddi y carcharorion yn ebrwydd i farwolaeth. Ac fel y dywedais, yr oedd pobun yn ssfyll arno, mai efe a ddywedasai ei chwedl gywiraf, a bob pawb arall, ond efe, yn camsyniad. Oherwydd paham, yr oedd gan Man-soul, yn bresenol, drallod ar drallod, ac nis gallai neb wybod ar ba beth y gosodai efe wadn ei droed i orphwys

arno; canys un a âi heibio yn awr, ac fel yr elai, os clywai ef ei gymydog yn dweyd ei chwedl, byddai yntau yn sicr o ddweyd yn hollol i'r gwrthwyneb, a phob un a fyntumiai ei fod ef yn dywedyd y gwir. Nage, rhai o honynt a gawsai yr ystori yma o'r diwedd: Fod y Tywysog yn amcanu rhoi Man-soul i'r cleddyf. Ac yn awr y dechreuodd hi fod yn dywyll; oblegid paham, Man-soul druan ydoedd mewn cyfyngder meddwl mawr yr holl nos hòno hyd y boreu.

Ond mor belled ag y gellais i gasglu, trwy yr hanes goreu ag a ellais i gael, yr holl wbwb yma a ddaeth o achos y geiriau a ddywedasai y Cofiadur, pan ddywedodd efe wrthynt mai ateb y Tywysog, yn ei farn ef, ydoedd cenad marwolaeth. Dyma y peth a osododd y dref ar dân, ac a ddechreuodd y dychryn yn Man-soul; oblegid yn yr amseroedd gynt yr oeddid yn arferol cyfrif mai gwiliedydd oedd y Cofiadur, a bod ei farn ef i'w chystadlu â'r oraclau goreu, ac fel hyn yr oedd hi yn ddychryn iddi ei hunan.

Ac yn awr y dechreuasant deimlo pa beth oedd effeithiau crefydd gyndyn, a gwrthwynebiad anghyfreithlon yn erbyn eu Tywysog. Ië, meddaf, hwy yn awr a ddechreuasant deimlo yr effaith o hono trwy euogrwydd ac ofn ag oedd yn awr yn barod i'w llyncu hwynt i fyny; a phwy a ymdrybaeddodd fwyaf yn y naill, ond y rhai oedd fwyaf yn y llall, sef y rhai penaf yn nhref Man-soul.

I fod yn fyr, pan oedd swn y dychryn wedi myned allan o'r dref, a'r carcharorion wedi dyfod atynt eu hunain ychydig, hwy a gymerasant ryw fesur o galon, ac a feddyliasant ddeisyfu ar y Tywysog drachefn am fywyd. Felly hwy a dynasant i fyny drydydd deiseb, cynwysiad yr hwn ydoedd hyn:

Y Tywysog Emmanuel mawr, Arglwydd yr holl fydoedd, a Meistr trugaredd: Nyni, dy wael, resynol, farwol, a thruenus dref Man-soul, ydym yn cyfaddef i'th Fawrhydi mawr a gogoneddus, i ni bechu yn erbyn dy Dad a thithau, ac nad ydym ni mwyach yn deilwng i'n galw dy Fan-soul, ond yn hytrach i gael ein taflu i'r pwll. Os lleddi di ni, nyni a'i haeddasom. Os condemni di ni i'r dyfnder, nis gallwn lai na dweyd dy fod ti yn gyfiawn. Nid oes genym ni le i achwyn, pa beth bynag a wneli, neu pa fodd bynag yr ymddygi tuag atom. Ond, O! teyrnased trugaredd, a bydded iddo gael ei estyn i ni. O! cymered trugaredd afael arnom ni, a rhyddhâ ni oddiwrth ein camweddau, ac ni a ganwn yn llafar am dy drugaredd, ac am dy farnedigaethau. Amen.

Y deiseb yma, pan y tynwyd i fyny, a amcanwyd ei ddanfon at y Tywysog, megis y cyntaf; ond pwy a'i dygai ef, oedd y gofyniad nesaf. Rhai a ddywedasent, Eled yr hwn a aeth ar y cyntaf ag ef; ond eraill a feddyliasant nad oedd hyny yn dda, a hyny o achos na ddarfu iddo lwyddo yn well. Yn awr yr oedd hen ŵr yn y dref, a'i enw ydoedd Mr. Gweithred-dda; dyn ag oedd yn dwyn yr enw yn unig, ond nid oedd ganddo ddim o natur y peth. Yn awr, rhai oedd am ei ddanfon ef

ond nid oedd y Cofiadur, mewn modd yn y byd, am hyny; Canys, eb efe, yr ydym ni yn awr yn sefyll mewn eisieu, ac yn dadleu am drugaredd; oherwydd paham, anfon ein deiseb gan ŵr o'i enw ef a ymddengys i groesi y deiseb ei hun; a wnawn ni Mr. Gweithred-dda yn genad i ni, pan y mae ein deiseb yn llefain am drugaredd?

Heblaw hyn, ebe yr hen ŵr bonheddig, pe byddai i'r Tywysog yn awr, wrth dderbyn y deiseb, ofyn iddo, a dywedyd, Pa beth yw dy enw di? ac ni ŵyr neb nas gwna; ac iddo yntau ddywedyd, Hen Weithred-dda;—beth, dybygwch chwi, a ddywedai Emmanuel ond hyn, Ai ê?—a ydyw Hen Weithred-dda eto yn fyw yn Man-soul? Yna gwareded Hen Weithred-dda chwi oddiwrth eich blinderau. Ac os dywed ef felly, y mae yn sicr genyf y byddwn ni yn golledig, ac nis gall mil o Hen Weithredoedd-da achub Man-soul.

Wedi i'r Cofiadur roddi ei resymau i mewn paham nad âi hen Weithred-dda â'r deiseb yma at Emmanuel, y rhan arall o'r carcharorion, a'r rhai penaf o'r dref, a'i gwrthwynebasant ef hefyd, ac felly Hen Weithred-dda a osodwyd heibio, a hwy a gytunasant i anfon Mr. Deisyfiadau-deffrous drachefn: felly hwy a anfonasant am dano, ac a ddymunasant arno ef fyned eilwaith â'u deiseb hwy at y Tywysog, ac efe (yn barod iawn) a ddywedodd yr âi efe. Ond hwy a archasant iddo, ar ddim a'r a wnai efe, iddo edrych ato ei hunan na byddai iddo, mewn gair nac ymddygiad, roddi dim tramgwydd i'r Tywysog; canys trwy wneuthur hyny, a'r a wyddom ni, y gellwch ddwyn Man-soul i ddistryw hollol, meddent hwy.

Yn awr Mr. Deisyfiadau-deffrous, pan welodd ef fod yn rhaid iddo fyned ar y neges yma, a ddymunodd arnynt fod iddynt ganiatâu i Mr. Llygaid-gwlybion fyned gydag ef; y Llygaid-gwlybion yma oedd gymydog agos i Mr. Deisyfiadau-deffrous; dyn tlawd, ac o yspryd drylliedig ydoedd; eto un ydoedd ag a fedrai ddweyd o'r goreu mewn deiseb. Felly hwy a gytunasant iddo ef fyned gydag ef. Oherwydd paham, hwy a barotoisant eu hunain i'w gorchwyl; Mr. Deisyfiadau-deffrous a roddes raff am ei ben, a Mr. Llygaid-gwlybion a aeth â'i ddwylaw yn mhleth yn eu gilydd. Fel hyn yr aethant i babell y Tywysog.

Yn awr pan ddaethant i ddeisyf y drydedd waith, nid oeddynt heb feddyliau y gallent fod, trwy eu mynych ddyfodiad, yn faich i'r Tywysog. Am hyny, pan ddaethant i ddrws ei babell, hwy a wnaethant eu hamddiffyniad drostynt eu hunain, ac am eu dyfodiad i flino Emmanuel mor fynyched; a hwy a ddywedasant, nas daethent yma heddyw am fod yn hoff ganddynt glywed eu hunain yn siarad, ond oblegid mai eu hangen a barodd iddynt ddyfod at ei Fawrhydi; nis gallent, meddent hwy, gael un gorphwysdra ddydd na nos, oblegid eu camweddau yn erbyn Shad-dai, ac yn erbyn Emmanuel ei Fab. Hefyd, hwy a feddyliasant y gallai rhyw gam-ymddygiad o eiddo Mr. Deisyfiadau-deffrous, y tro diweddaf, roddi rhyw anfoddlonrwydd i'w Uchelder, ac felly peri iddo ddychwelyd yn wag oddiwrth Dywysog mor

drugarog, ac heb dderbyniad. Felly, wedi iddynt wneud yr amddiffyniad yma, Mr. Deisyfiadau-deffrous a daflodd ei hun i lawr ar y ddaear, megis ar y cyntaf, wrth draed y Tywysog galluog, ac a ddywedodd, O! na byddai Man-soul byw ger dy fron di! ac felly efe a draddododd ei ddeiseb. Y Tywysog, gan hyny, wedi iddo ddarllen y deiseb, a drodd dros enyd, fel o'r blaen; a chan ddyfod drachefn i'r lle yr oedd y deisebwr yn gorwedd ar y ddaear, efe a ofynodd beth oedd ei enw ef, ac o ba barch neu gymeriad oedd ef yn nghyfrif Man-soul, am iddo ef, o flaen pawb eraill yn Man-soul, gael ei ddanfon ato ef ar y fath genadwri? Yna, ebe y gŵr wrth y Tywysog: O! na ddigied fy Arglwydd! paham yr ydwyt ti yn ymofyn ar ol enw y fath gi marw ag ydwyf fi? Pasia heibio, atolwg i ti, ac nac edrych pwy ydwyf, oblegid fod, fel y gwyddost o'r goreu, y fath anghyfatebolrwydd mawr rhyngof fi a thydi. Paham y darfu i wŷr y dref ddewis fy nanfon i ar y genadwri yma at fy Arglwydd, goreu y gwyddant hwy; ond nis gallai fod am eu bod yn meddwl fod genyf fi ffafr gyda'm Harglwydd. O'm rhan i, yr ydwyf yn ffieiddio fy hun; pwy, gan hyny, a fyddai mewn cariad â mi? Eto byw a ddymunwn, a mi a ddymunwn i wŷr fy nhref fyw hefyd; ac am eu bod hwy a minau yn euog o droseddiadau mawrion, am hyny y danfonasant fi, a myfi a ddaethum yn eu henwau hwynt, i ymbil ar fy Arglwydd am drugaredd. Rhynged bodd i ti, gan hyny, ogwyddo at drugaredd; ond na ofyn pa beth ydyw dy weision.

Yna, ebe y Tywysog, a pha beth yw yr hwn a ddaeth yn gydymaith i ti yn y mater pwysig yma? Felly Mr. Deisyfiadau-deffrous a fynegodd i Emmanuel mai cymydog tlawd iddo ydoedd, ac un o'i gyfeillion anwylaf ef; a'i enw, eb efe, os rhynga bodd i'ch enwocaf Fawrhydi, ydyw Llygaid-gwlybion, o dref Man-soul. Myfi a wn fod llawer o'r enw hwnw yn ddrwg, ond yr wyf fi yn gobeithio na bydd yn dramgwydd i'm Harglwydd i mi ddwyn fy nghymydog tlawd gyda mi.

Yna Mr. Llygaid-gwlybion a syrthiodd ar ei wyneb ar y ddaear, ac a wnaeth yr amddiffyniad yma am ei ddyfodiad gyda'i gymydog at ei Arglwyddiaeth:

O! fy Arglwydd, eb efe, pa beth ydwyf, nis gwn fy hun, na pha un a bod fy enw yn ffugiol neu yn gywir, yn enwedigol pan feddyliwyf gyntaf yr hyn a ddywed rhai, sef am roddi yr enw hwn i mi, oherwydd mai Mr. Edifeirwch ydoedd enw fy nhad. Y mae gan wŷr da blant drwg, a'r rhai cywir ydynt yn fynych yn cenhedlu rhagrithwyr. Fy mam hefyd a'm galwodd i wrth yr enw hwn o'm crud, ond pa un ai o achos lleithdra fy ymenydd, neu ynte o achos tynerwch fy nghalon, nis gallaf ddywedyd. Yr ydwyf fi yn gweled tom yn fy nagrau fy hun, ac aflendid yn ngwaelod fy ngweddiau. Ond atolygaf i ti (a thrwy yr holl amser yma yr oedd y gŵr bonheddig yn wylo), nas cofiech yn ein herbyn ein camweddau, nac ychwaith anghymhwysder dy weision, ond yn drugarog dos heibio i bechod Man-soul, ac nac ymattal dy hun yn hwy rhag gogoneddu dy ras.

Felly, ar ei arch ef, hwy a godasant, ac a safasant ger ei fron ef dan grynu, ac efe a lefarodd wrthynt i'r diben yma:

Tref Man-soul a wrthryfelodd yn dost yn erbyn fy Nhad, gan iddynt ei wrthod ef rhag bod yn frenin arnynt, ac a ddewisasant yn gadben iddynt gelwyddwr, lleiddiad, a chaethwas crwydraidd; oblegid y Diabolus yma, a'ch tywysog ffuantus chwi, er ei fod unwaith mewn mawr gyfrif genych chwi, a wrthryfelodd yn erbyn fy Nhad a minau, hyd yn oed yn ein palas a'n llys uchaf yno, gan feddwl dyfod yn dywysog ac yn frenin. Ond gan i'w fradwriaeth gael ei ddatguddio yn amserol, a'i ddal am ei ddrygioni, a'i rwymo mewn cadwynau, a'i fwrw ef i'r pwll diwaelod gyda'r rhai ag oeddynt yn gymdeithion iddo, efe a gynygiodd ei hun i chwi, a chwi a'i derbyniasoch ef.

Yn awr hyn sydd, a thros amser hir a fu yn ddirmyg mawr i'm Tad; am hyny yr anfonodd fy Nhad atoch chwi lu galluog, i'ch dwyn chwi i'w ufudd-dod; ond chwi a wyddoch pa fodd y cafodd y gwŷr hyny, eu cadbeniaid, a'u cynghorion, eu cyfrif genych chwi, a pha beth a dderbyniasant ar eich dwylaw chwi. Chwi a wythryfelasoch yn eu herbyn hwynt, ac a gauasoch eich pyrth arnynt; chwi a'u cymhellasoch hwynt i ryfel; chwi a ymladdasoch â hwynt, a thros Diabolus, yn eu herbyn hwynt. Felly hwy a aethant at fy Nhad am fwy o allu, a myfi a'm gwŷr a ddaethom i'ch darostwng chwi; ond fel y triniasoch hwynt, felly hefyd y triniasoch eu Harglwydd. Chwi a safasoch mewn modd gelyniaethus yn fy erbyn i, ac a gauasoch eich pyrth yn fy erbyn; chwi a droisoch glust fyddar tuag ataf fi; ond yn awr myfi a wnaethum orfodaeth arnoch. A lefasoch chwi arnaf fi am drugaredd, tra fu genych obaith o lwyddo yn fy erbyn? Ond yn awr, pan yr ydwyf fi wedi cymeryd y dref, yr ydych yn llefain arnaf, ond paham na lefasoch arnaf o'r blaen, pan oedd baner goch cyfiawnder, a'r faner ddû ag oedd yn bygwth dihenydd, wedi eu gosod i fyny i'ch hanog chwi ati? Yn awr gan fy mod wedi gorchfygu eich Diabolus chwi, yr ydych yn dyfod ataf am drugaredd; ond paham na chynorthwyasoch chwi fi yn erbyn y cadarn? Eto myfi a ystyriaf eich deiseb, ac a'i hatebaf ef, fel y byddo er gogoniant i mi.

Dos, arch i Gadben Boanerges a Chadben Argyhoeddiad ddwyn y carcharorion allan ataf fi yfory i'r gwersyll; a dywed wrth Gadben Barn a Chadben Dihenyddiwr am aros yn y castell; ac edrychwch atoch eich hunain yn fanwl, ar fod i chwi gadw pob peth yn llonydd yn Man-soul, hyd oni chlywoch yn mhellach oddiwrthyf fi; a gyda hyny efe a droes oddiwrthynt, ac a aeth i'w babell frenhinol drachefn.

Felly y deisyfwyr, wedi derbyn yr ateb yma gan y Tywysog, a ddychwelasant, fel ar y cyntaf, i fyned at eu cymdeithion drachefn. Ond nid aethant yn nepell hyd oni ddechreuodd meddyliau godi ynddynt, nad oedd dim trugaredd eto yn cael ei amcanu gan y Tywysog i Man-soul.

Felly hwy a aethant i'r lle yr oedd y carcharorion yn gorwedd yn rhwym; ond y cynhwrf meddwl yma yn nghylch pa beth a ddeuai o Man-soul a gafodd y fath oruchafiaeth gref arnynt, fel, pan ddaethant at y rhai a'u danfonasent, braidd y gallent draddodi eu cenadwri; ond hwy a ddaethant o'r diwedd at byrth y dref—(yn awr yr oedd gwŷr y dref yn disgwyl yn bryderus am eu dychweliad)—lle y cyfarfu llawer â hwynt, i wybod pa ateb a wnaethid i'r deiseb. Yna hwy a lefasant allan ar y rhai a ddanfonasid, Pa newydd oddiwrth y Tywysog, a pha beth a ddywedodd Emmanuel? Ond hwy a ddywedasant fod yn rhaid iddynt, fel o'r blaen, fyned i fyny i'r carchar, ac yno roddi eu cenadwri. Felly ymaith yr aethant i'r carchar, gyda lluaws wrth eu sodlau. Yn awr, pan ddaethant at ddrws y carchar, hwy a fynegasant y rhan gyntaf o anerchiad Emmanuel wrth y carcharorion—sef, fel yr edliwiodd efe iddynt eu hanffyddlondeb i'w Dad ac iddo yntau, a pha fodd y dewisasent Diabolus, ac y glynasent wrtho, ac ymladd o honynt drosto ef, a gwrando arno ef, ond iddynt ei ddirmygu ef a'i wŷr. Hyn a wnaeth i'r carcharorion edrych yn las; ond y genad a aeth rhagddo, ac a ddywedodd: Efe, sef y Tywysog, a ddywedodd hefyd, y byddai iddo ef eto ystyried eich deiseb, ac y rhoddai efe y cyfryw ateb iddo ag a fyddai yn cydsefyll â'i ogoniant ef.

Fel yr oeddid yn llefaru y geiriau yma, Mr. Llygaid-gwlybion a roddodd ochenaid drom. Ar hyn, hwy a synasant oll, ac nis gwyddent pa beth i ddywedyd: ofn hefyd a'u meddiannodd hwynt mewn modd rhyfeddol, a marwolaeth oedd yn ymddangos i fod yn eistedd ar amrantau rhai o honynt. Yn awr, yr oedd un dyn hynod o ddeallgar yn eu cwmpeini; dyn isel o ran ei sefyllfa, a'i enw ef ydoedd Hen Ymofyngar; hwn a ofynodd i'r deisyfwyr a ddarfu iddynt fynegu yr hyn oll a ddywedasai Emmanuel wrthynt? A hwy a atebasant: Naddo yn wir. Yna y dywedodd Ymofyngar: Yr oeddwn yn tybied hyny yn wir. Atolwg, pa beth a ddywedodd efe yn ychwaneg wrthych? Yna yr ystyriasant enyd; ond o'r diwedd hwy a ddygasant y cwbl allan, gan ddywedyd: Y Tywysog a archodd i ni ddweyd wrth Gadben Boanerges a Chadben Argyhoeddiad am ddwyn y carcharorion i lawr ato ef yfory, a bod i Gadben Barn a Chadben Dibenyddiad gymeryd siars y castell a'r dref, hyd oni chaent glywed yn mhellach oddiwrtho. Hwy a ddywedasant hefyd, mai pan ddarfu i'r Tywysog orchymyn iddynt wneud fel hyn, iddo ef yn ebrwydd droi ei gefn arnynt, a myned o hono i'w babell frenhinol. Ond, O! fel y darfu i'r dychweliad yma, yn enwedigol yr ymadrodd diweddaf yma—fod yn rhaid i'r carcharorion fyned allan at y Tywysog i'r gwersyll—ddryllio eu lwynau hwynt yn chwilfriw; oherwydd paham, hwy, ag un genau, a gyfodasant i fyny lef a gyrhaeddodd hyd y nefoedd. Wedi hyn, pob un o'r tri a barotoisant i farw—(a'r Cofiadur a ddywedodd wrthynt hwy: Dyma y peth yr oeddwn yn ei ofni)—canys hwy a farnasant mai yfory, tua'r amser y machludai yr haul, y byddai iddynt gael

eu treiglo allan o'r byd. Nid oedd holl dref Man-soul, ychwaith, yn barnu dim llai, ond bod yn rhaid iddynt oll, yn eu hamser a'u trefn, gydyfed o'r cwpan. Oherwydd paham, tref Men-soul a dreuliodd yr holl nos hòno mewn galar, sach-liain, a lludw, Y carcharorion, hefyd, pan ddaeth yr amser iddynt fyned i lawr o flaen y Tywysog, a wisgasant eu hunain mewn galar-wisg, a rhaffau am eu penau. Holl dref Man-soul, hefyd, a ymddangosodd ar y mur, wedi eu gwisgo oll mewn galar-wisgoedd, fel, ysgatfydd, y byddai i'r Tywysog, ar yr olwg arnynt, gael ei gynhyrfu gan dosturi. Ond, O! fel yr ydoedd yr Ymyredwyr* ag oedd yn nhref Man-soul y pryd hyn yn gofalu am danynt eu hunain. Hwy a redasant yn finteioedd yma ac acw ar hyd heolydd y dref, gan lefain allan mewn modd terfysglyd—un mewn un ffordd, ac arall i'r gwrthwyneb yn hollol, hyd onid oeddynt yn agos a gyru Man-soul i wallbwyllo yn hollol.

Felly yr amser a ddaeth, yn yr hwn yr oedd yn rhaid i'r carcharorion fyned i wared i'r gwersyll, ac ymddangos gerbron y Tywysog. A dyma y modd yr aethant: Cadben Boanerges a aeth o'u blaen hwynt, a gosgordd gydag ef, a Chadben Argyhoeddiad ar ei ol, a'r carcharorion a aethant i lawr yn rhwym mewn cadwynau yn y canol; felly yr osgordd a aeth gyda banerau cyhwfanedig yn ol ac yn mlaen, ond y carcharorion a aethant gydag yspryddoedd llesg. Neu, yn fwy neillduol, fel hyn:

Y carcharorion a aethant i wared oll mewn galar-wisgoedd; hwy a roddasant raffau arnynt eu hunain; hwy a aethant dan guro eu dwyfronau, ond ni feiddient godi eu golygon i fyny i'r nefoedd. Fel hyn yr aethant allan trwy borth Man-soul, hyd oni ddaethant i ganol llu y Tywysog, yr olwg a'r gogoniant o ba un a chwanegodd yn ddirfawr at eu cystudd. Ac nis gallent, y pryd hwn, ymattal yn hwy, ond gwaeddi allan yn uchel: O! ddynion annedwydd! O! druenus wŷr Man-soul! Eu cadwynau o hyd ydoedd yn cymysgu eu tônau alaethus gyda llef y carcharorion, yr hyn a wnaeth y llais yn fwy galarnadus.

Felly, pan ddaethant i ddrws pabell y Tywysog, hwy a fwriasant eu hunain i lawr ar y ddaear yn y fan hyny. Yn mhen enyd aeth un i mewn, ac a fynegodd i'w Arglwyddiaeth fod y carcharorion wedi dyfod i wared. Yna eisteddodd y Tywysog ar orseddfainc barn, ac a alwodd am y carcharorion i mewn; y rhai, pan ddaethant a grynasant o'i flaen ef, ac a guddiasant eu hwynebau â chywilydd. Yn awr fel y nesasant at y lle yr oedd efe yn eistedd, hwy a daflasant eu hunain i lawr o'i flaen ef; yna dywedodd y Tywysog wrth Gadben Boanerges: Arch i'r carcharorion sefyll ar eu traed. Yna y safasant gan grynu ger ei fron ef; ac efe a ddywedodd: Ai chwi yw y gwŷr a fu gynt yn weision i Shad-dai? A hwy a ddywedasant: Ië, ïe, Arglwydd. Yna y dywedodd y Tywysog drachefn: Ai chwi ydyw y gwŷr a oddefodd gymeryd eich llygru a'ch difwyno gan yr un ffiaidd hwnw Diabolus? A

* Meddyliau ofer.

hwy a ddywedasant: Nyni a wnaethom fwy na goddef hyny, Arglwydd, canys nyni a'i dewisasom o'n bodd. Y Tywysog a ofynodd yn mhellach, gan ddywedyd: A allech chwi fod yn foddlon ar fod i'ch caethiwed, neu i'ch cyffion, barhau dan ei orthrymder ef tra fuasech chwi byw? Yna, ebe y carcharorion: Gallem, gallem, Arglwydd; canys yr oedd yn boddhau ein cnawd, ac yr oeddym wedi myned yn ddieithriaid i gyflwr gwell. Ai onid oeddych chwi, eb efe, pan ddaethum i fyny yn erbyn y dref hon Man-soul, yn dymuno yn galonog nas byddai i mi gael yr oruchafiaeth arnoch chwi? Oeddym, oeddym, Arglwydd, meddent hwy.

Yna, ebe y Tywysog: A pha gospedigaethau, meddwch chwi, yr ydych chwi yn ei haeddu ar fy llaw i am y pethau yma, a'ch pechodau uchel mawrion eraill? A hwy a ddywedasant: Marwolaeth a'r dyfnder yn nghyd, Arglwydd; canys nid haeddasom ddim llai. Efe a ofynodd drachefn: Os ydoedd ganddynt ddim i ddweyd drostynt eu hunain, paham nas byddai i'r farn a gyfaddefasent eu bod yn eu haeddu, gael ei chyflawni arnynt? A hwy a ddywedasant: Nid allwn ni ddywedyd dim, Arglwydd; ti wyt gyfiawn, canys nyni a bechasom. Yna dywedodd y Tywysog: Ac am beth y mae y rhaffau yma am eich penau chwi? Yna yr atebodd y carcharorion: Y rhaffau yma sydd i'n rhwymo ni â hwy i'r lle o ddihenyddiad, os na fydd trugaredd yn beth boddlon yn dy olwg di. (Diar. v. 22.) Felly efe a ofynodd yn mhellach: A oedd yr holl ddynion yn nhref Man-soul yn y cyfaddefiad yma fel hwythau? A hwy a atebasant: Y mae yr holl rai genedigol, Arglwydd; ond am y Diaboloniaid a ddaethant i'n tref pan gafodd y gorthrymwr feddiant o honom ni, nis gallwn ni ddywedyd dim am danynt hwy.

Yna y Tywysog a orchymynodd alw am griwr, fel y byddai iddo ef gyhoeddi yn nghanol, a thrwy bob congl o wersyll Emmanuel, a hyny gyda sain udgorn, fod y Tywysog, Mab Shad-dai, yn enw ei Dad, ac er ei ogoniant ef, wedi cael goruchafiaeth a buddugoliaeth berffaith ar dref Man-soul, a bod i'r carcharorion ei ganlyn ef, a dweyd Amen. Felly hyn a wnaethpwyd, fel y gorchymynasai efe; ac yn ebrwydd y gerddoriaeth ag oedd yn y bydoedd uchaf a seiniodd yn beraidd; y cadbeniaid, y rhai oedd yn y gwersyll a floeddiasant; y milwyr a gânasant gâniadau o orfoledd i'r Tywysog; y banerau oeddynt yn cwhwfan yn y gwynt, a llawenydd mawr ydoedd yn mhob lle, yn unig yr ydoedd yn eisieu eto yn nghalonau gwŷr Man-soul.

Yna y Tywysog a alwodd am y carcharorion drachefn i ddyfod allan o'i flaen ef, a hwy a ddaethant ac a safasant dan grynu. Ac efe a ddywedodd wrthynt: Y pechodau, y camweddau, yr anwireddau, a ddarfu i chwi, yn nghyd â holl wŷr Man-soul, o amser i amser eu gwneud yn erbyn fy Nhad a minau, y mae genyf allu a gorchymyn oddiwrth fy Nhad i'w maddeu i dref Man-soul; ac yn ganlynol yr ydwyf yn maddeu i chwi. Wedi dywedyd felly, efe a roddes iddynt yn ysgrifenedig

ar femrwn, wedi ei selio â saith sêl, bardwn helaeth cyffredinol, gan orchymyn i fy Arglwydd Maer, a'm Harglwydd Ewyllysgar, a Mr. Cofiadur, ei gyhoeddi, ac i beri iddo gael ei gyhoeddi, ar gyfodiad yr haul yfory, trwy holl dref Man-soul.

Hefyd, y Tywysog a ddihatrodd y carcharorion o'u gwisgoedd galarus, ac a roddes iddynt brydferthwch yn lle lludw, ac olew llawenydd yn lle galar, a gwisg moliant yn lle yspryd cystuddiedig. (Esay lxi. 3.) Yna efe a roddes i bob un o'r tri dlysau o aur a meini gwerthfawr, ac a gymerodd ymaith eu rhaffau hwynt, ac a roddodd gadwynau aur am eu gyddfau hwynt, a chlust-dlysau wrth eu clustiau. Yn awr y carcharorion, pan glywsant eiriau grasol y Tywysog Emmanuel, a phan welsant yr hyn oll a wnaethid iddynt, hwy a lewygasant yn hollol ymaith agos, am fod y gras, y daioni, y pardwn, neu y maddeuant, mor ebrwydd, mor ogoneddus, ac mor fawr, fel nas gallent heb syndod, neu betrusder, sefyll i fyny dano ef.Ië, fy Arglwydd Ewyllysgar a lewygodd yn hollol, ond y Tywysog a neidiodd ato ef, a'i cofleidiodd ef, a'i cusanodd ef, ac a archodd iddo gymeryd calon, am y cyflawnid pob peth yn ol ei air ef.

Efe hefyd a gusanodd, a gofleidiodd, ac a wênodd ar y ddau eraill ag ydoedd yn gymdeithion i Ewyllysgar, gan ddywedyd: Cymerwch y rhai hyn fel arwyddion pellach o'm cariad, fy ffafr, a'm tosturi i chwi; ac yr ydwyf yn gorchymyn i chwi, Mr. Cofiadur, fynegu yn nhref Man-soul yr hyn a welsoch ac a glywsoch.

Yna torwyd eu llyffetheiriau hwynt yn chwilfriw o flaen eu hwynebau hwynt, a thaflwyd hwynt i'r awyr, a'u camrau a ehangwyd danynt.

Yna syrthiasant i lawr wrth draed y Tywysog, ac a gusanasant ei draed ef, ac a'u gwlychasant â dagrau. Hefyd, hwy a lefasant â llef uchel, gan ddywedyd: Bendigedig fyddo gogoniant yr Arglwydd o'r lle hwn. Felly fe archwyd iddynt gyfodi i fyny, a myned i'r dref, a mynegu i Man-soul pa beth a wnaethai y Tywysog. Efe a orchymynodd hefyd, ar fod i un fyned â phibell, ac â thympan, a chwareu o'u blaen hwynt o hyd, hyd oni ddeuent i dref Man-soul. Yna y cyflawnwyd yr hyn nid edrychasant erioed am dano, ag y gwnaethpwyd iddynt feddiannu yr hyn ni freuddwydiasent erioed o'i blegid. Y Tywysog hefyd a alwodd am y boneddigaidd Gadben Crediniaeth, ac a orchymynodd ar fod iddo ef, a rhai o'i swyddogion, gychwyn o flaen pendefigion Man-soul, gyda banerau cyhwfanedig i'r dref. Efe a roddes hefyd orchymyn i Gadben Crediniaeth yn nghylch yr amser y darllenai Mr. Cofiadur y pardwn, neu y maddeuant cyffredinol, yn nhref Man-soul, ar fod iddo ef, yr amser hyny yn neillduol, gyda banerau cyhwfanedig, gychwyn i mewn trwy Borth-y-llygad, gyda'i ddeng miloedd wrth ei draed, ac iddo ef fyned felly hyd oni ddeuai efe trwy brif heol y dref i fyny at byrth y castell, ac iddo ef ei hun gymeryd meddiant o hono, erbyn y deuai ei Arglwydd ef yno. Efe a archodd hefyd, iddo ef erchi i Gadben Barn a Chadben Dihenyddiad i adael yr amddiffynfa gadarn iddo

ef, ac i ymadael oddiwrth Man-soul, ac i ddychwelyd ar frys at y Tywysog i'r gwersyll. Ac yn awr yr oedd y dref wedi ei gwaredu hefyd oddiwrth ddychryn y pedwar cadben hyn a'u gwŷr.

Wel, mi a fynegais i chwi o'r blaen pa fath dderbyniad a gafodd y carcharorion gan y Tywysog Emmanuel, a pha fodd y darfu iddynt hwythau ymddwyn eu hunain ger ei fron ef, a'r modd y danfonodd efe hwynt ymaith i'w cartref gyda phibell a thympan yn myned o'u blaen hwynt. Yn awr y mae yn rhaid i chwi feddwl nad allai y rhai hyny ag oedd yn y dref, sef y rhai ydoedd trwy yr holl amser yma yn disgwyl clywed am eu marwolaeth hwynt—lai nag ymarferyd â thristwch calon, ac â meddyliau ag ydoedd yn pigo fel drain; ac nid allai eu meddyliau gael eu cadw ar un pwynt; yr ydoedd y gwynt yn chwythu gyda hwy trwy gydol yr amser hyn yn anwadal iawn; ïe, yr oedd eu calonau fel clorian a siglesid gan law grynedig.

Ond o'r diwedd, fel yr oeddynt â llawer golwg hiraethus yn edrych dros fur Man-soul, hwy a dybiasant iddynt weled rhywrai yn rhedeg tua'r dref; ac a feddyliasant drachefn, pwy a ddylent hwy fod? pwy a ddylent hwy fod? O'r diwedd hwy a ddeallasant mai y carcharorion oeddynt; ond a ellwch chwi ddirnad y modd yr ydoedd eu calon wedi synu gan ryfeddod, yn enwedigol pan ddeallasant hefyd yn mha drwsiad, a gyda pha anrhydedd yr anfonid hwynt adref? Hwy a aethant i wared i'r gwersyll mewn gwisg ddu, ond hwy a ddaethant yn ol mewn gwisg wèn; hwy a aethant i wared i'r gwersyll mewn rhaffau, ac a ddaethant yn ol mewn cadwynau o aur; hwy a aethant i wared i'r gwersyll â'u traed mewn llyffetheiriau, ond hwy a ddaethant yn ol â'u camrau wedi eu ehangu danynt; hwy, hefyd, a aethant i'r gwersyll gan edrych am farwolaeth, ond hwy a ddaethant yn ol gyda sicrwydd o fywyd; hwy a aethant i wared i'r gwersyll yn drwm eu calon, ond a ddaethant yn ol drachefn gyda phibell a thympan yn chwareu o'u blaen hwynt.

Pan gyntaf ag y daethant at Borth-y-llygad, y druan a'r ddychrynedig dref Man-soul a anturiodd roi bloedd, a hwy a roddasant y fath floedd ag a wnaeth i'r cadbeniaid yn myddin y Tywysog grynu gan eu swn. Och! druain bach, pwy a allai feio arnynt hwy, yn gymaint a bod eu cyfeillion meirw wedi dyfod i fywyd drachefn? canys iddynt hwy bywyd ydoedd oddiwrth y meirw, i weled henaduriaid tref Man-soul yn llewyrchu yn y fath hoywder. Nid oeddynt yn edrych am ddim ond am y fwyall a'r cyff; ond, wele! lawenydd, gorfoledd, cysur a diddanwch, a'r fath beroriaeth yn eu hamgylchu hwy ag ydoedd yn ddigonol i wneuthur dyn claf yn holliach. (Esay xxxiii. 24.)

Felly wedi iddynt ddyfod i fyny, hwy a anerchasent y naill y llall â chroesaw: Croesaw, a bendigedig fyddo yr hwn a'ch arbedodd chwi. Hwy a chwanegasant hefyd: Nyni a welwn ei bod hi yn dda gyda chwi, ond pa fodd y bydd ar dref Man-soul? Ac a aiff hi yn dda gyda thref Man-soul? meddent hwy. Yna yr

atebodd y Cofiadur a'm Harglwydd Maer hwynt: O! genadwri! llawen genadwri! newyddion da o ddaioni, ac o lawenydd mawr i Man-soul, druan. Yna hwy a roddasant floedd arall ag a wnaeth i'r ddaear ddadseinio drachefn.

Ar ol hyn, hwy a ymofynasant yn fwy neillduol pa fodd yr aeth pethau yn y gwersyll, a pha genadwri oedd ganddynt oddiwrth Emmanuel i'r dref. Felly hwy a fynegasant iddynt yr hyn oll a wnaethai y Tywysog iddynt hwy. Hyn a wnaeth i Man-soul ryfeddu wrth ddoethineb a gras y Tywysog Emmanuel. Yna hwy a fynegasant iddynt pa beth a dderbyniasant ar ei ddwylaw ef i holl dref Man-soul, a'r Cofiadur a'i hadroddodd ef yn y geiriau yma: Pardwn, pardwn, pardwn i Man-soul; a hyn a gaiff Man-soul ei wybod yfory. Yna efe a orchymynodd, a hwy a aethant ac a wysiasant Man-soul i ymgyfarfod yn nghyd yfory, yn heol y farchnad, ac yno i wrando darllen eu pardwn cyffredinol. Ond pwy a ddichon feddwl pa ymchweliad, pa gyfnewidiad, a pha ddiwygiad a wnaeth yr amnaid yma o bethau yn ngwynebpryd trigolion Man-soul! Nis gallai neb o wŷr Man-soul gysgu y noswaith hòno gan lawenydd; yn mhob tŷ yr oedd cynghanedd, llawenydd, canu, a gwneuthur yn llawen; mynegu a gwrando am hapusrwydd Emmanuel ydoedd yr hyn oll ag oedd gan Man-soul, y pryd hyny, i'w wneuthur; a hyn ydoedd baich eu holl gân hwynt: O! mwy o hyn ar godiad yr haul! mwy o hyn yfory! Pwy a feddyliasai ddoe, meddai un, y byddai y dydd heddyw y fath ddiwrnod i ni? A phwy dybygasai, ag a welodd ein carcharorion yn myned i wared mewn heiyrn, y dychwelent mewn cadwynau o aur? Ië, y rhai ag oeddynt yn eu barnu eu hunain, fel ag yr oeddynt yn myned i gael eu barnu, a ryddhawyd gan ei enau ef ei hun, nid am eu bod yn ddiniwaid, ond o drugaredd y Tywysog, a'u danfon adref â phibell ac â thympan.

Ond ai hyn yw defod gyffredin tywysogion? A ydynt hwy yn arfer dangos ffafr i fradwyr? Nac ydynt; hyn sydd yn briodol i Shad-dai yn unig, ac i'w Fab Emmanuel. Yn awr y boreu ydoedd yn nesâu ar frys; oherwydd paham, yr Arglwydd Maer, yr Arglwydd Ewyllysgar, a Mr. Cofiadur, a ddaethant i wared i heol y farchnad, ar yr amser a nodasai y Tywysog, lle yr oedd gwŷr y dref yn disgwyl am danynt; a phan ddaethant, hwy a ddaethant yn y gwisgiad a'r gogoniant hwnw y gosododd y Tywysog hwynt ynddo y dydd o'r blaen, a'r heol a oleuwyd gan eu gogoniant hwy. Felly y Maer, y Cofiadur, a'm Harglwydd Ewyllysgar, a dynasant i wared at Borth-y-genau, yr hwn ydoedd y pen isaf i'r farchnadfa, am mai hwnw, yn yr hen amser, oedd y lle y byddid yn arfer darllen materion cyhoedd. I'r màn yma, gan hyny, y daethant yn eu gwisgoedd, a'u tympaa a aeth o'u blaen hwynt. Yn awr yr oedd awydd y bobl i glywed y cwbl o'r mater yn gryf.

Yna y Cofiadur a safodd i fyny ar ei draed; ac yn gyntaf, gan amneidio â'i law am osteg, efe a ddarllenodd allan y pardwn â llais uchel. Ond pan ddaeth efe at y

geiriau yma: Yr Arglwydd, yr Arglwydd Dduw, trugarog a graslawn, yn maddeu anwiredd, a chamwedd, a phechod; iddynt hwy pob pechod a faddeuir, &c.—(Ex. xxxix. Marc iii)—nid allent ymattal, ond llamu o lawenydd; canys rhaid i chwi wybod hyn, fod enw pob gŵr yn Man-soul wedi ei gysylltu gyda hynyma. Hefyd, seliau y pardwn a wnaeth olygfa hardd.

Pan ddarfu i'r Cofiadur ddarllen y pardwn, gwŷr y dref a redasant ar hyd furiau y dref, ac a lamasant gan lawenydd, ac a ymgrymasant eu hunain seithwaith, â'u hwynebau tua phabell Emmanuel, ac a floeddiasant allan yn uchel o lawenydd, ac a ddywedasant: Bydded Emmanuel fyw yn dragywydd! Yna trefnwyd i'r gwŷr ieuainc yn Man-soul ganu y clych o lawenydd; felly y clychau a gânasant, a'r bobl a gânasant, ac yr oedd cynghanedd yn mhob tŷ yn Man-soul.

Pan ddanfonodd y Tywysog dri carcharor Man-soul adref gyda llawenydd, â phibell a thympan, gorchymynodd i'w gadbeniaid, yn nghyd â'r holl faes-swyddogion a'r milwyr trwy ei holl fyddin, i fod yn barod erbyn y boreu hwnw ag yr oedd y Cofiadur i ddarllen y pardwn yn Man-soul, i wneuthur ei ewyllys ef yn mhellach.

Felly y boreu, fel y dangosais, gan ddyfod a ddaeth; ac yn uniawn fel yr oedd y Cofiadur yn gorphen darllen y pardwn, Emmanuel a orchymynodd ar fod i'r holl udgyrn yn y gwersyll ganu, ac ar fod i'r banerau gael eu gosod i fyny—eu haner ar Fynydd Grasol, a'r haner arall ar Fynydd Cyfiawnder. Efe a orchymynodd hefyd ar fod i'r holl gadbeniaid ddangos eu hunain yn eu llurygau, ac ar fod i'r milwyr floeddio o lawenydd. Ac nid oedd Cadben Crediniaeth, ychwaith, er ei fod yn y castell, yn ddistaw ar y fath ddiwrnod, ond efe, o ben y castell, a ymddangosodd ei hun gyda sain udgorn i Man-soul, ac i wersyll y Tywysog.

Fel hyn y dangosais i chwi y modd a'r ffordd a gymerodd Emmanuel i enill yn ol dref Man-soul oddidan law a gallu y gorthrymwr Diabolus.

Yn awr, wedi i'r Tywysog orphen y seremoniau allanol yma o'i lawenydd, efe, drachefn, a orchymynodd i'w gadbeniaid a'i filwyr ar fod iddynt hwy ddangos i Man-soul rywfaint o drefn rhyfel. Felly yn ebrwydd y darfu iddynt ymbarotoi at y gwaith yma; ond, O! gyda pha fath fywiogrwydd, esgudrwydd, deheurwydd, a gwychder, y dangosodd y rhyfelwyr yma eu medr mewn milwriaeth i dref Man-soul! Hwy a gychwynasant ac a ddadgychwynasant; hwy a ymagorasant ar y llaw ddehau a'r aswy; hwy a ymranasant ac a ymadranasant; hwy a ymgysylltasant ac a ymdroisant; hwy a wnaethant yn gymwys eu hochr a'u cerddediad gyda eu hadein ddehau a'u haswy, ac ugain o bethau yn ychwaneg, gyda'r fath ddeheudra, ac yna yr oedd pawb fel ag yr oeddynt o'r blaen, fel y darfu iddynt ddwyn, ïe, dreisio y calonau ag ydoedd yn Man-soul i edrych arno. Ond ychwanegwch at hyn eu gwaith yn teimlo ac yn trin eu harfau rhyfel, yr hyn ydoedd ryfeddol o dda gan Man-soul a minau ei weled.

Pan ddarfu y weithred yma, holl dref Man-soul, fel un gwr, a ddaethant allan at y Tywysog i'r gwersyll, i'w glodfori ef, ac i ddiolch iddo am ei gariad helaeth, ac i ymbil arno fod yn wiw gan ei Fawrhydi ef ddyfod gyda'i wŷr i Man-soul, ac yno i gymeryd eu llety dros byth; a hyn a wnaethant yn y modd gostyngeiddiaf, gan ymgrymu o'i flaen ef seithwaith hyd y llawr; yna eb efe: Pob heddwch a fyddo i chwi.

Felly y dref a nesâodd, gan gyffwrdd â phen y deyrnwialen aur, a hwy a ddywedasant: O! na byddai i'r Tywysog Emmanuel, gyda ei gadbeniaid a'i filwyr, drigo yn Man-soul yn dragywydd, ac na byddai i'w beiriannau rhyfel a'i ffyn-taflu gael eu gosod ynddi, at achos a gwasanaeth y Tywysog, ac er cymhorth a chadarnhad i dref Man-soul! Canys, ebe hwy, y mae genym ni le i ti ac i'th wŷr; y mae genym ni le hefyd i'th arfau rhyfel di, a lle i wneuthur tŷ arfau i'th glud di. Gwna hyn, Emmanuel, a thydi a gei fod yn frenin ac yn dywysog yn Man-soul yn dragywydd; ïe, llywodraetha di yn holl ddymuniad dy galon, a gwna di lywodraethwyr a thywysogion danat ti o'th gadbeniaid a'th filwyr, a nyni a fyddwn yn weision i ti, a'th gyfreithiau di fydd ein cyfarwyddyd ni.

Ychwanegasant hefyd, a deisyfasant arno ef, gan ddymuno ar ei Fawrhydi ystyried y peth; Canys, ebe hwy, os yn awr, ar ol i'r holl ras yma gael ei roddi i ni, dy druenus dref Man-soul, y byddai i ti ymadael, tydi a'th gadbeniaid, oddiwrthym, tref Man-soul a fydd marw; Ië, ebe hwy, ein Emmanuel bendigedig, pe byddai i ti ymadael oddiwrthym yr awr hon, yn awr ti a wnaethost gymaint o drugaredd i ni, pa beth a ganlyn ond bod ein llawenydd fel pe buasai heb fod, a'n gelynion eilwaith a ddaw arnom gyda mwy o lid nag ar y cyntaf; oherwydd paham yr atolygwn i ti, O! tydi ddymuniad ein llygaid, a chadernid a bywyd ein tref dlawd, derbyn y cynyg yma a wnaethom yr awr hon i'n Harglwydd, a thyred a thrig yn ein calonau ni, a gâd i ni fod yn bobl i ti. Hefyd, Arglwydd, nis gwyddom ni na byddo hyd y dydd heddyw lawer o Ddiaboloniaid yn llechu eto yn nhref Man-soul, a hwy a'n bradychant ni pan ddarffo i ti ein gadael ni drachefn i law Diabolus, a phwy a ŵyr pa amcanion, bwriadau, neu lyfeliaethau a fu rhyngddynt hwy eisoes yn nghylch y pethau yma; anhawdd ydyw genym ni syrthio drachefn i'w ddwylaw erchyll ef, oherwydd paham, rhynged bodd i ti gymeryd ein palas ni yn orphwysfa i ti, a thai y gwŷr goreu yn y dref, i dderbyn dy filwyr a'u dodrefn. Yna, ebe y Tywysog: Os deuaf i'ch tref chwi, a oddefwch chwi i mi yn mhellach i wneuthur neu ganlyn yr hyn sydd yn fy nghalon yn erbyn fy ngelynion i a chwithau; ïe, a gynorthwywch chwi fi yn y fath weithrediadau? Hwythau a atebasant: Nis gwyddom ni pa beth a wnawn, nid oeddym ni ddim yn meddwl unwaith y buasem ni y cyfryw fradwyr i Shad-dai ag y daethom i fod. Pa beth, gan hyny, a ddywedwn wrth ein Harglwydd? Na rodded ddim ymddiried yn ei saint, triged y Tywysog yn ein castell,

a gwnaed o'n tref amddiffynfa; gosoded ei gadbeniaid boneddigaidd a'i filwyr rhyfelgar arnom ni; ïe, gorchfyged ni â'i gariad, a goresgyned ni â'i ras, ac yna diau y bydd efe gyda ni, ac a'n cynorthwya, fel y bu ac y gwnaeth efe y boreu hwnw ag y darllenwyd ein pardwn i ni; nyni a gytunwn ar hyn, O! ein Harglwydd, ac â'th ffyrdd, ac a darawn i mewn gyda'th air yn erbyn y cadarn.

Un gair yn ychwaneg, a'th weision a ddarfuant, ac yn hyn ni flinwn ni mo'n Harglwydd mwyach. Ni wyddom ni ddim o ddyfnder dy ddoethineb, ein Tywysog. Pwy a feddyliasai, ac a lywodraethasid gan ei reswm, y daethai cymaint o felysder ag yr ydym ni yr awr hon yn ei fwynhau, allan o'r profiadau chwerwon hyny â pha rai y'n profwyd ni ar y cyntaf? Ond, Arglwydd, aed goleuni yn mlaen, a deled cariad ar ol; cymer ni gerfydd ein dwylaw, ac arwain ni â'th gyngor, ac arosed hwn yn wastadol arnom, fel y byddo pob peth o'r goreu i'th weision, a thyred i'n Man-soul, a gwna fel y mynech. Neu, Arglwydd, tyred i'n Man-soul, a gwna yr hyn a ewyllysiech, os bydd i ti ond ein cadw ni rhag pechu, ac y gwnelech ni yn wasanaethgar i'th Fawrhydi.

Yna y dywedodd y Tywysog wrth dref Man-soul drachefn: Ewch, dychwelwch i'ch tai mewn heddwch, myfi yn ewyllysgar a gydsyniaf â'ch deisyfiadau yma. Myfi a symudaf fy mhabell freiniol, mi a dynaf i fyny fy lluoedd o flaen Porth-y-llygad yfory, ac felly y cychwynaf yn mlaen i dref Man-soul. Mi a osodaf fy hun mewn meddiant o'ch castell chwi yn Man-soul, a mi osodaf fy milwyr arnoch, ac a wnaf eto bethau yn Man-soul nas gellir eu cystadlu mewn un genedl, gwlad, na theyrnas dan y nefoedd.

Yna y rhoddes gwŷr y dref floedd, ac a ddychwelasant i'w tai mewn heddwch; hwy hefyd a fynegasant i'w ceraint a'u cyfeillion y daioni a addawsai Emmanuel i Man-soul, ac yfory, ebe hwy, y daw efe i'n tref, ac y gwnaiff ei drigfa yn Man-soul, efe a'i wŷr.

Yna trigolion tref Man-soul a aethant allan ar frys at y gwŷdd îrion, ac i'r gweirgloddiau, i gasglu cangau a blodau, i'w taenu ar hyd yr heolydd, erbyn y deuai eu Tywysog, Mab Shad-dai, i mewn. Hwy hefyd a wnaethant goronbleth o lysiau, a phethau gwychion eraill, i arwyddocâu mor llawen oeddynt, ac y byddent, wrth dderbyn Emmanuel i Man-soul; ïe, hwy a daenasant yr heol drosti yn hollol o Borth-y-llygad hyd at Borth-y-castell, lle yr oedd y Tywysog i fod. Hwy hefyd a barotoisant erbyn ei ddyfodiad bob cerddoriaeth ag a allai y dref gael, fel y chwareuent o'i flaen ef hyd balas ei breswylfod.

Felly ar yr amser gosodedig efe a nesâodd at Man-soul, a'r pyrth a osodwyd yn agored iddo ef; yno hefyd y darfu i hynafiaid a henuriaid Man-soul gyfarfod ag ef, i'w anerch ef â chroesawgarwch fil o weithiau. Yna efe a gyfododd, ac a aeth i mewn i Man-soul, efe a'i holl weision. Henuriaid Man-soul a aethant o'i flaen ef

dan ddawnsio, hyd oni ddaeth ef at Borth-y-castell. A dyma ddull ei fynediad ef i fyny yno: yr oedd efe wedi ei wisgo yn ei arfogaeth auraidd, efe a farchogodd yn ei gerbyd frenhinol, yr udgyrn a seiniasant o'i amgylch ef, y banerau ydoedd yn cwhwfan, ei ddeng miloedd a aethant i fyny wrth ei draed ef, a henuriaid Man-soul a ddawnsiasant o'i flaen ef. Ac yn awr yr oedd muriau y dref enwog Man-soul yn llawn o wasarnfeydd ei thrigolion, y rhai a aethant i fyny yno i weled dynesiad y Tywysog bendigedig a'i lu brenhinol. Hefyd yr oedd yr holl ffenestri, y rhodfeydd o'r tu allan i'r tai, a phenau y tai, yn llawn o ddynion o bob math, i weled pa fodd yr oedd eu tref i gael ei llenwi o ddaioni.

Yn awr, pan ddaethai efe i mewn i'r dref cyn belled a thŷ y Cofiadur, efe a orchymynodd ar fod i un fyned at Gadben Crediniaeth, i wybod pa un ai bod castell Man-soul wedi ei gymhwyso i dderbyn ei bresenoldeb brenhinol? canys y parotoad o hwnw a adawsid i'r cadben hwnw; a gair a ddygwyd ei fod ef. (Act. xv. 9.) Yna gorchymynwyd i Gadben Crediniaeth hefyd, gyda'i wŷr, i ddyfod allan i'w gyfarfod ef, yr hyn a wnaethpwyd fel y gorchymynasai, ac efe a'i cyfarwyddodd ef i'r castell. (Eph. iii. 17.) Yn awr, gofal nesaf gwŷr y dref ydoedd, pa fodd y lletyent gadbeniaid a milwyr byddinoedd y Tywysog yn eu plith, a'r gofal nid ydoedd pa fodd i gael gwared o honynt, ond pa fodd y llanwent eu tai o honynt, canys yr oedd gan bob gŵr yn Man-soul, yn bresenol, y cyfryw barch i Emmanuel a'i wŷr, fel nad oedd dim yn eu blino hwynt yn fwy na'u bod heb eu helaethu yn ddigon helaeth, bob un o honynt, i dderbyn holl fyddin y Tywysog; ïe, hwy a'u cyfrifasant yn ogoniant iddynt i fod yn sefyll ger eu bron, neu yn gwilied arnynt, a hwy a redent y dyddiau hyny ar eu harch hwynt fel rhedegwyr. O'r diwedd hwy a ddaethant i'r ymddibeniad yma:

1. Y lletyai Cadben Diniweidrwydd yn nhŷ Mr. Rhesymau.

2. Y lletyai Cadben Amynedd gyda Mr. Meddwl. Y Mr. Meddwl yma gynt oedd ysgrifenydd i'r Arglwydd Ewyllysgar yn amser y gwrthryfel.

3. Fe drefnwyd i Gadben Cariad gael ei letya yn nhŷ Mr. Serchiadau.

4. Y byddai i Gadben Gobaith-da gael ei letya yn nhŷ Mr. Maer.

Yn awr am dŷ y Cofiadur, efe ei hun a ddymunodd, am fod ei dŷ yn nesaf at y castell, ac am mai trwyddo ef y trefnwyd gan y Tywysog, os byddai achos, y rhoddid y rhybudd neu yr alarwn i Man-soul;—ïe, meddaf, dymunwyd ganddo ef ei hun ar fod i Gadben Boanerges a Chadben Argyhoeddiad gymeryd eu llety gydag ef, sef hwynt-hwy a'u holl wŷr.

5. Ac am Gadben Barn a Chadben Dihenyddiad, fy Arglwydd Ewyllysgar a'u cymerodd hwy a'u gwŷr i'w dŷ ef ei hun, am mai efe ydoedd yn awr i lywodraethu dan y Tywysog, er daioni i dref Man-soul, fel y gwnaethai o'r blaen dan y gorthrymwr Diabolus, er drwg a niwaid iddi. (Rhuf. vi. 19. Eph. iii. 17.)

6. A thrwy y rhan arall o'r dref y lletywyd y rhelyw o fyddinoedd Emmanuel; ond Cadben Crediniaeth a'i wŷr a arosodd o hyd yn y castell. Felly y Tywysog a'i filwyr a letywyd yn nhref Man-soul.

Yn awr, hynafiaid a henuriaid tref Man-soul a dybiasant nas caent hwy byth ddigon ar y Tywysog Emmanuel—yr ydoedd ei berson, ei weithredoedd, ei eiriau, a'i ymddygiad, mor hoff, mor gymeradwy, ac mor ddymunol iddynt. Oherwydd paham, hwy a ddeisyfasant arno, er mai castell Man-soul ydoedd le ei eisteddfod (a hwy a ddymunasant iddo ef weled yn dda drigo yno yn dragywydd), eto fod iddo ef ymweled yn fynych â'r heolydd, â'r tai, a phobl Man-soul; Canys, ebe hwy, y Brenin mawr, dy bresenoldeb, dy edrychiadau, dy wênau, a dy eiriau, ydynt fywyd, a chadernid, a giau tref Man-soul.

Heblaw hyn, hwy a ddeisyfasant arno ar fod iddynt hwy gael nesâd gwastadol ato ef, heb ddim anhawsdra na rhwystr; ac i'r diben hyny efe a orchymynodd y byddai i byrth Man-soul fod yn agored, fel y gallent yno weled dull ei weithredoedd ef, ac amddiffynfeydd y lle, a thŷ trigianol y Tywysog brenhinol.

Pan lefarodd efe, hwy a gauasant eu genau, ac a roddasant glustymwrandawiad; pan rodiodd efe, eu hyfrydwch oedd ei ganlyn neu ei ddynwared ef yn ei gerddediad.

Yn awr ar amser, Emmanuel a wnaeth wledd i dref Man-soul, ac ar ddydd y wledd gwŷr y dref a ddaethant i'r castell i ymgyfranogi o'i gyfeddach; ac efe a'u gwleddodd â phob math o ymborth tramor—ymborth na thyfasai yn meusydd Man-soul, nac yn holl deyrnas Mundus. Bwyd ydoedd a ddaethai o lys ei Dad, ac felly yr oedd dysgl ar ol dysgl yn cael ei gosod o'u blaen hwynt, a gorchymynwyd iddynt fwyta yn helaeth; ond yn wastadol, pan osodid dysgl newydd o'u blaen hwynt, hwy a ddywedent yn hustingaidd y naill wrth y llall: Pa beth ydyw? canys ni wyddent pa fodd y galwent ef. (Ex. xvi. 15.) Hwy a yfasant hefyd o'r dwfr a wnaethid yn win; ac yr oeddynt yn llawen iawn gydag ef. Yr ydoedd yno hefyd gerddoriaeth wrth y bwrdd o hyd, a dyn a fwytaodd fara angylion, a rhoddwyd iddo fêl o'r graig. Felly Man-soul a fwytaodd y bara ag ydoedd berthynol i'r llys; ïe, yn awr hwy a gawsant o hono eu gwala. (Salm lxxviii. 24, 25.)

Nid oes le i mi anghofio dywedyd i chwi, mai fel yr oedd wrth y bwrdd yma gerddorion, felly nid y rhai hyny o'r wlad oeddynt, nac ychwaith o dref Man-soul; ond meistriaid y caniadau a genid yn llys Shad-dai oeddynt.

Yn awr, wedi gorphen y wledd, Emmanuel a'u croesawodd hwynt â rhyw ddamhegion cywrain o ddirgeledigaethau, wedi eu hysgrifenu gan ysgrifenydd ei Dad, trwy gyfarwyddyd a doethineb Shad-dai; y cyffelyb i'r rhai hyn nid oes yn un deyrnas. Y damhegion hyn a wnaethpwyd ar Shad-dai ei hun, ac ar Emmanuel ei Fab ef, ac ar ei ryfeloedd, a'i weithredoedd tuag at Man-soul.

Emmanuel hefyd a esponiodd iddynt hwy rai o'r damhegion hyny ei hunan;

ond, O! fel y goleuwyd hwynt! hwy a welsant yn awr yr hyn nis gwelsant erioed o'r blaen; ni feddyliasant y gallasai y cyfryw bethau dieithriol fod yn gorwedd neu yn gynwysedig mewn cyn lleied o le, ac yn y fath eiriau cyffredinol.

Myfi a fynegais i chwi o'r blaen i bwy yr ydoedd y damhegion yma yn perthyn, ac fel yr agorid hwynt, y bobl a welsant yn eglur mai felly yr oedd. Ië, hwy a gasglasant mai rhyw bortreiad oedd y pethau eu hunain ar eiddo Emmanuel ei hun; canys pan ddarllenent yn y llyfr lle yr oedd y damhegion wedi eu hysgrifenu, ac edrych yn ngwyneb y Tywysog, hwy a ymddangosasant mor debyg y naill y llall, fel nad allai Man-soul lai na dywedyd, Dyma yr Oen, dyma yr Aberth, dyma y Graig, dyma yr Aner Goch, dyma y Drws, dyma y Ffordd, gyda llawer o bethau yn ychwaneg.

Ac fel hyn y gollyngodd ef ymaith dref Man-soul; ond, O! a ellwch chwi ddychymygu pa fodd y darfu i bobl y dref gael eu cario gyda y derbyniad neu y wledd yma o eiddo Emmanuel? O! hwy a ddygwyd ymaith gan lawenydd, a hwy a soddwyd gan ryfeddod, tra y gwelent, y deallent, ac yr ystyrient yr hyn y gwleddodd Emmanuel hwynt ag ef, a pha ddirgeledigaethau a agorodd efe iddynt; a phan oeddynt gartref yn eu tai, ac yn eu lleoedd mwyaf dirgel, nid allent lai na chanu am dano, ac am ei weithredoedd; ïe, yr oedd mor anwyl gan wŷr y dref, y pryd hyn, am eu Tywysog, ag y cânent am dano yn eu cwsg.

Yn awr yr oedd yn mryd y Tywysog Emmanuel i ddiwygio tref Man-soul, neu i'w gwneuthur ar ddull arall, ac i'w gosod yn y fath gyflwr ag a fyddai mwyaf boddlon ganddo ef, ac a fyddai goreu er lles a diogelwch Man-soul, yr hon yn bresenol ydoedd dref flodeuog. Efe a ddarparodd hefyd yn erbyn pob terfysg cartrefol, a phob ymgyrch oddiwrth ddieithriaid—y fath ydoedd ei gariad at Man-soul enwog. Oherwydd paham, yn gyntaf efe a orchymynodd ar fod i'r ffyn-taflu mawrion a ddygasid o lys ei dad, pan ddaeth efe i ryfela â Man-soul, gael eu gosod i fyny, rhai ar ganllawiau y castell, a rhai ar y tyrau, canys yr oedd tyrau yn Man-soul —tyrau newydd eu hadeiladu gan Emmanuel, wedi ei ddyfodiad yno. Hefyd, yr oedd yno offeryn wedi ei ddychymygu gan Emmanuel, ag ydoedd i daflu cerig o gastell Man-soul allan trwy Borth-y-genau; offeryn nad ellid ei wrthwynebu, ac na fethai o gyflawni; oherwydd paham, am y gweithrediadau rhyfeddol a wnai pan arferid ef, efe a aeth yn ddienw, ac efe a orchymynwyd i ofal, ac i gael ei drin gan yr ardderchog Gadben Crediniaeth, os byddai achos rhyfel.

Wedi gwneuthur hyn, Emmanuel a alwodd ato yr Arglwydd Ewyllysgar, ac a orchymynodd iddo ef gymeryd gofal am y pyrth, y muriau, a'r tyrau, yn Man-soul. Hefyd, y Tywysog a roddes iddo ef y filwriaeth dan ei law, a siars enwedigol i wrthwynebu pob terfysgoedd, cythrwfl, ag a ellid ei wneuthur yn Man-soul yn erbyn heddwch ein Harglwydd y Brenin, a heddwch a llonyddwch tref Man-soul.

Efe a roddes iddo ef hefyd gommissiwn, fel os cai efe neb o'r Diaboloniaid yn llechu yn un o gonglau y dref enwog Man-soul, y byddai iddo ef yn ebrwydd eu cymeryd hwynt, a'u dàl hwynt, neu eu rhoddi mewn carchar diogel, fel y gellid canlyn arnynt yn ol y gyfraith.

Yna y galwodd efe ato yr Arglwydd Dealldwriaeth, yr hwn ydoedd yr hen Arglwydd Maer, yr hwn a ddiswyddwyd pan gymerodd Diabolus y dref, ac a'i gosododd ef yn y lle oedd ganddo ar y cyntaf drachefn, ac efe a ddaeth yn lle iddo dros ei fywyd.

Efe a orchymynodd iddo hefyd, ar fod iddo ef adeiladu palas yn agos at Borth-y-llygad, a bod iddo ei wneud ar ddull tŵr, er amddiffyniad. Efe a archodd iddo ef hefyd ddarllen holl ddyddiau ei fywyd yn y datguddiad o'r dirgeledigaethau, fel y gallai efe wybod pa fodd i gyflawni ei swydd yn iawn.

Efe hefyd a wnaeth Mr. Gwybodaeth yn Gofiadur, nid o ddirmyg i hen Mr. Cydwybod, yr hwn a fuasai yn Gofiadur o'r blaen; ond am fod yn ei feddwl Tywysogaidd ef i roddi i Mr. Cydwybod swydd arall, am yr hon y dywedodd efe wrth yr hen ŵr bonheddig y cai efe wybod mwy am dani rhagllaw.

Yna efe a orchymynodd fod i ddelw Diabolus gael ei thynu i lawr o'r lle y gosodasid hi i fyny; ac iddynt ei dinystrio hi yn hollol, a'i malu yn chwilfriw, gan ei thaflu gyda y gwynt o'r tu allan i'r mur, a bod i ddelw Shad-dai ei Dad gael ei gosod i fyny drachefn, gyda'i eiddo yntau, ar byrth y castell, ac i gael ei thynu yn decach nag erioed o'r blaen, yn gymaint a bod ei Dad ac yntau wedi dyfod i Man-soul mewn mwy o ras a thrugaredd nag y daethant hyd yn hyn. (Dat. xxii. 4.) Efe a fynai hefyd fod i'w enw gael ei argraphu yn dêg ar ochr y dref, a bod iddo ef gael ei wneuthur yn y llythyrenau aur goreu, er anrhydedd tref Man-soul.

Ar ol gwneuthur hyn, Emmanuel a osododd allan orchymyn ar fod i'r tri Diaboloniaid hyny gael eu gosod i farwolaeth, sef y ddau Arglwydd Faer diweddar —y rhai ydoedd Mr. Anghrediniaeth, Mr. Chwantau, a Mr. Anghofio-daioni, y Cofiadur. Heblaw y rhai hyn, yr oedd yno rai ag a wnaethai Diabolus yn fwrdeisiaid ac yn henaduriaid yn Man-soul, ac a gawsant eu gosod yn ngharchar gan y presenol wrol a gwir anrhydeddus, yr ardderchog Arglwydd Ewyllysgar.

A dyma eu henwau hwynt: Henaduriad Didduwiaeth, Henaduriad Calon-galed, a Henuriad Gau-heddwch. Y bwrdeisiaid oeddynt Mr. Anwir, Mr. Didrugaredd, Mr. Uchel-drem, a'r cyffelyb. Y rhai hyn a roddwyd yn ngharchar yn ddiogel, ac enw ceidwad y carchar oedd Mr. Cywir. Y Cywir yma ydoedd un o'r rhai a ddug Emmanuel gydag ef o lys ei Dad, pan y gwnaeth efe ryfel gyntaf ar Diabolus yn nhref Man-soul.

Ar ol hyn y Tywysog a roddes orchymyn ar fod i'r tri castell a adeiladasai y Diaboloniaid wrth orchymyn Diabolus yn Man-soul gael eu distrywio a'u tynu i

lawr yn hollol; am ba gestyll, a'u henwau, yn nghyd â'u cadbeniaid a'u llywodraethwyr, y darllenasoch ychydig o'r blaen. Ond fe fuwyd yn hir yn gwneuthur hyn, o achos helaethrwydd y lleoedd, ac oherwydd bod y cerig, a'r coed, a'r haiarn, a'r holl sothach, i gael eu dwyn y tu allan i'r dref.

Pan ddarfu hyn, y Tywysog a roddodd orchymyn ar fod i'r Arglwydd Maer, a henaduriaid tref Man-soul, i alw llys barnedigaeth, i gael rhoddi barn ar y Diaboloniaid yn y dref, y rhai ydoedd yn bresenol dan law Mr. Cywir, ceidwad y carchar, i ddwyn y carcharorion i wared o flaen y bar. Yna y dygwyd y carcharorion i wared, wedi eu cadwyno yn nghyd, fel yr ydoedd hi yn ddefod yn nhref Man-soul. Felly pan gyflwynwyd hwynt o flaen yr Arglwydd Maer, y Cofiadur, a'r rhan arall o'r orsedd barchedig, y rheithwyr a ddewiswyd, a'r tystion a dyngwyd. Enwau y rheithwyr ydoedd: Mr. Crediniol, Mr. Cywir-galon, Mr. Uniondeb, Mr. Casâu-drwg, Mr. Cariad-Duw, Mr. Gweled-y-gwir, Mr. Meddylfryd-nefol, Mr. Cymedrol, Mr. Diolchgar, Mr. Gweithred-dda, Mr. Sel-dros-Dduw, a Mr. Gostyngedig.

Enwau y tystion ydoedd Mr. Gwybod-y-cwbl, Mr. Dweyd-y-gwir, Mr. Casâu-celwydd, gyda'm Harglwydd Ewyllysgar a'i was, os byddai achos.

Felly y carcharorion a osodwyd wrth y bar. Yna y dywedodd Mr. Gwneud-uniondeb (canys efe ydoedd ysgrifenydd y dref): Gosodwch Didduwiaeth wrth y bar, ceidwad y carchar. Felly efe a osodwyd wrth y bar. Yna ebe yr ysgrifenydd: Didduwiaeth, cyfod dy law. Fe achwynir arnat ti yma dan yr enw o Ddidduwiaeth, gormeswr ar Man-soul, am i ti yn echryslawn ac yn ynfyd ddysgu a myntumio nad oes un Duw, ac felly nad oes dim achos i ofalu am grefydd. Hyn a wnaethost yn erbyn hanfod, anrhydedd, a gogoniant y Brenin, ac yn erbyn heddwch a diogelwch Man-soul. Pa beth a ddywedi di, a wyt ti yn enog o'r achwyniad yma ai nid wyt?

*Didduw.* Dieuog.

*Ysgrif.* Criwr, gelwch ar y tystion i sefyll i fyny, ac i roddi eu tystiolaeth.

Felly hwy a alwyd, a hwy a ymddangosasant.

*Ysgrif.* Yna ebe yr ysgrifenydd: Chwychwi y tystion dros y Brenin, edrychwch ar y carcharor wrth y bar, a adwaenoch chwi ef?

*Gwybod.* Yna ebe Mr. Gwybod-y-cwbl: Adwaen, fy Arglwydd, nyni a'i hadwaenom ef, ei enw yw Didduwiaeth; efe a fu yn ddyn adwythig neu wenwynig iawn yn nhref Man-soul druenus dros amryw flynyddoedd.

*Ysgrif.* Yr ydych yn sicr eich bod yn ei adnabod ef?

*Gwybod.* Yn ei adnabod ef? Ydwyf, fy Arglwydd: myfi a fum hyd yn hyn yn rhy fynych yn ei gymdeithas ef i fod yn anghydnabyddus o hono ef yn awr. Diaboloniad ydyw, a mab i Ddiaboloniad: mi adwaenwn ei daid a'i dad ef.

*Ysgrif.* Da iawn: y mae efe yn sefyll yma wedi ei gyhuddo dan yr enw o Ddidduwiaeth, &c., ac a gyhuddir am iddo ef fyntumio a dysgu nad oes un Duw,

ac felly nad oes dim achos edrych am un math o grefydd. Pa beth a ddywedwch chwi, dystion y Brenin, am hyn? A ydyw efe yn euog ai nid yw?

*Gwybod.* Fy Arglwydd, myfi ac yntau oeddym unwaith yn Heol-y-filain yn nghyd, ac efe y pryd hyny a siaradodd yn bur fawr am amryw opiniynau, ac yn yr un lle a'r amser mi a'i clywais ef yn dywedyd, mai o'i ran ef, nid oedd efe yn credu fod un Duw. Ond, eb efe, mi a allaf addef un, a bod mor grefyddol hefyd, os bydd y cwmpeini y byddwyf ynddo, ac amgylchiadau pethau, yn gofyn.

*Ysgrif.* Y mae yn sicr genych i chwi ei glywed ef yn dywedyd fel hyn?

*Gwybod.* Ar fy llw mi a'i clywais ef yn dywedyd fel hyn.

Yna ebe yr Ysgrifenydd: Mr. Dweyd-y-gwir, pa beth a ddywedwch chwi wrth farnwyr y Brenin mewn perthynas i'r carcharor wrth y bar?

*Dweyd.* Fy Arglwydd, myfi gynt oeddwn yn fynych yn ei gwmpeini ef (am yr hyn beth, yn bresenol, y mae yn edifar genyf), ac a'i clywais ef yn fynych yn dywedyd, a hyny gyda digon o awch, ei fod ef yn credu nad oedd un Duw, nac angel, nac yspryd.

*Ysgrif.* Pa le y clywsoch chwi ef yn dywedyd felly?

*Dweyd.* Yn Lôn-y-genau-du, ac yn Heol-y-cablwyr, ac mewn amryw leoedd eraill hefyd.

*Ysgrif.* A oes genych chwi ddigon o adnabyddiaeth a hono ef?

*Dweyd.* Mi a wn ei fod ef yn Ddiaboloniad, ac yn fab i Ddiaboloniad, ac yn ddyn erchyll, gan ei fod yn gwadu y Duwdod; enw ei dad ydoedd Byth-nis-byddaidda, ac yr oedd ganddo fwy o blant na'r Didduwiaeth yma. Nid oes genyf fi ddim yn ychwaneg i'w ddywedyd.

*Ysgrif.* Mr. Casâu-celwydd, edrychwch ar y carcharor wrth y bar, a ydych chwi yn ei adnabod ef?

*Casâu.* Fy Arglwydd, y Didduwiaeth yma sydd un o'r dynion gwaelaf ag a gyfarfyddais i erioed ag ef, neu a fu i mi a wnaethum ag ef yn fy mywyd. Myfi a'i clywais ef yn dywedyd nad oes un Duw; mi a'i clywais ef yn dywedyd nad oes un byd i ddyfod, na phechod, na chosp ar ol hyn. Ac hefyd, mi a'i clywais ef yn dywedyd, ei bod hi cystled i un fyned i'r puteindy a myned i wrando pregeth.

*Ysgrif.* Pa le y clywsoch chwi ef yn dywedyd y pethau yma?

*Casâu.* Yn Heol-y-meddwon, yn union y pen diweddaf i Lôn-y-coegwyr, wrth y tŷ lle y mae Mr. Annuwioldeb yn byw.

*Ysgrif.* Gosodwch ef heibio, ceidwad y carchar, a gosodwch Mr. Chwantau wrth y bar.

Mr. Chwantau, fe'th gyhuddir yma wrth yr enw o Chwantau, gormeswr ar dref Man-soul, am i ti yn ddiawledig ac yn fradwraidd ddysgu, trwy ymarfer â geiriau aflan, ei bod yn gyfreithlon ac yn fuddiol i ddyn roddi rhyddid i'w chwantau

cnawdol, ac nas darfu i ti o'th ran dy hun, ac nas bydd i ti byth omedd i ti dy hun un pleser pechadurus tra byddo dy enw yn Chwantau; pa beth a ddywedi di, a wyt ti yn euog o'r achwyniad yma, neu nid wyt?

*Chwant.* Yna ebe Mr. Chwantau: Fy Arglwydd, dyn ydwyf o dylwyth uchel, ac wedi ymgynefino â phleserau, difyrwch, a mawredd. Nid arferais i gael fy ngheryddu am fy ngweithredoedd, ond fe adawyd i mi ddilyn fy ewyllys, megis pe buasai yn gyfraith; ac y mae yn ymddangos yn rhyfedd genyf fi gael fy ngalw heddyw i roddi cyfrif am yr hyn nid wyf fi fy hun yn unig yn ei wneud, ond yr hyn ag y mae yn agos yr holl fyd, naill ai yn ddirgel neu yn gyhoeddus, yn ei ganiatau, ei garu, ac yn rhoddi derbyniad iddo.

*Ysgrif.* Nid ydym ni yn edrych ar eich mawredd (er mai pa mwyaf yr oeddych, goreu y dylasech fod), ond yr ydym ni yn edrych ar, neu yn ystyried yr achwyniad sydd wedi ei osod yn eich erbyn chwi. Pa beth a ddywedwch, a ydych chwi yn euog o hono, ai nid ydych?

*Chwant.* Dieuog ydwyf.

*Ysgrif.* Criwr, gelwch ar y tystion i ymddangos, ac i roddi eu tystiolaeth.

*Criwr.* Foneddigion, chwychwi y tystion dros y Brenin, deuwch a rhodddwch eich tystiolaeth dros ein Harglwydd y Brenin, yn erbyn y carcharor wrth y bar.

*Ysgrif.* Deuwch, Mr. Gwybod-y-cwbl, edrychwch ar y carcharor wrth y bar, a ydych chwi yn ei adnabod ef?

*Gwybod.* Ydwyf, fy Arglwydd, yr ydwyf yn ei adnabod ef?

*Ysgrif.* Pa beth ydyw ei enw ef?

*Gwybod.* Ei enw ef ydyw Chwantau, mab yw efe i un Anifeilaidd, a'i hymddug ef yn Heol-y-cnawd, merch ydoedd hi i un Chwantau-aflan; mi a adwaenwn eu cenhedlaeth hwynt.

*Ysgrif.* O'r goreu. Chwi a glywsoch yma yr achwyniad a wnaethpwyd yn ei erbyn ef, pa beth a ddywedwch chwi am dano, a ydyw efe yn euog o'r pethau a osodir yn ei erbyn ef, ai nid yw?

*Gwybod.* Fy Arglwydd, efe a fu, fel y dywed, yn ŵr mawr yn wir, ac yn fwy mewn drygioni nag o ran ei achau fil o weithiau.

*Ysgrif.* Ond pa beth a wyddoch chwi am ei weithredoedd neillduol ef, ac yn enwedigol mewn perthynas i'w gyhuddiad?

*Gwybod.* Mi a wn ei fod ef yn dyngwr, yn gelwyddwr, ac yn dorwr Sabboth; mi a wn ei fod yn buteiniwr, ac yn ddyn aflan; mi a wn ei fod yn euog o aneirif o ddrygau. Efe a fu, drwy wybodaeth i mi, yn ddyn aflan iawn.

*Ysgrif.* Ond yn mha le yr oedd efe yn arfer gwneud ei ddrygioni, mewn rhyw gongl ddirgel, neu ynte yn fwy amlwg a digywilydd?

*Gwybod.* Dros yr holl dref, fy Arglwydd.

*Ysgrif.* Deuwch, Mr. Dweyd-y-gwir, pa beth sydd genych chwi i ddywedyd dros ein Harglwydd y Brenin yn erbyn y carcharor wrth y bar?

*Dweyd.* Fy Arglwydd, yr hyn oll ag a ddywedodd y tystion o'r blaen, a mi a wn ei fod yn wir, a mwy o lawer hefyd.

*Ysgrif.* Mr. Chwantau, a glywch chwi beth y mae y gwŷr boneddigion yma yn ei ddywedyd?

*Chwant.* Yr oeddwn i erioed o'r farn mai y bywyd mwyaf hapus ag a allai dyn fyw ar y ddaear oedd, nas byddo iddo ymattal ei hun oddiwrth ddim ag a chwennychai yn y byd; ac ni bum i ychwaith, un amser, yn anghywir i'r farn yma o'm heiddof fi, ond bum yn byw fy holl ddyddiau mewn cariad at fy mympwy a'm blys; ac ni bum i erioed mor daeog, gan i mi gael y fath felysdra ynddynt fy hun, a chelu eu canmoliaeth hwynt oddiwrth eraill.

*Llys.* Yna ebe y llys: Fe ddaeth digon allan o'i enau ef ei hun i'w osod yn agored i farnedigaeth; oherwydd paham, gosodwch ef heibio, ceidwad y carchar, a gosodwch Mr. Anghrediniaeth wrth y bar.

Anghrediniaeth yn cael ei osod wrth y bar.

*Ysgrif.* Mr. Anghrediniaeth, cyhuddir di yma wrth, neu dan yr enw o Anghrediniaeth, gorthrymwr ar dref Man-soul, canys fe ddarfu i ti yn lledradaidd ac yn ddrygionus, a hyny pan oeddit yn swyddog yn nhref Man-soul, wrthsefyll yn erbyn cadbeniaid y dyrchafedig Shad-dai, pan ddaethant i ymofyn meddiant o Man-soul; ïe, tydi a roddaist hèr i enw, lluoedd, ac achos y Brenin; ac fe ddarfu i ti hefyd, fel y gwnaeth Diabolus dy dywysog, gyffroi ac annog tref Man-soul i wrthsefyll ac i wrthwynebu lluoedd y dywededig Frenin. Pa beth a ddywedi di am yr achwyniad yma, a wyt ti yn euog, ai nid wyt?

Yna ebe Anghrediniaeth: Nid wyf fi yn adnabod dim o Shad-dai; yr oeddwn i yn caru fy hen dywysog; mi a dybiais mai fy nyledswydd oedd bod yn gywir yn yr hyn a ymddiriedwyd i mi am dano, ac i wneuthur yr hyn a allwn i feddiannu calonau gwŷr Man-soul, i wneuthur eu goreu i wrthwynebu dieithriaid ac alltudion, a gyda gwrolder i ymladd yn eu herbyn hwynt. Ac nis bu i mi, ac nis bydd i mi ychwaith newid fy marn rhag ofn blinder neu drallod, er eich bod chwi yn bresenol yn meddiannu lle ac awdurdod.

*Llys.* Yna ebe y llys: Y dyn, fel y gwelwch, sydd yn anniwygiol; y mae efe am fyntumio ei fileindra trwy gryfder geiriau, a'i wrthryfel trwy ëondra digywilydd. Ac am hyny gosodwch ef heibio, ceidwad y carchar, a gosodwch Mr. Anghofio-daioni wrth y bar.

*Ysgrif.* Mr. Anghofio-daioni, ti a gyhuddir yma wrth yr enw o Anghofio-daioni, gorthrymwr ar dref Man-soul, am i ti, pan ydoedd holl achosion tref Man-soul yn dy law, anghofio yn hollol eu gwasanaethu yn yr hyn oedd dda, ac a ymheddychaist

â'r gorthrymwr Diabolus yn erbyn Shad-dai y Brenin, yn erbyn ei gadbeniaid a'i holl luoedd, er dianrhydedd i Shad-dai, y toriad o'i gyfraith ef, a'r peryglìad o ddistrywio yr enwog dref Man-soul. Pa beth a ddywedi di am yr achwyniad yma, a ydwyt ti yn euog o'r achwyniad yma ai nid ydwyt?

Yna ebe Anghofio-daioni: Foneddigion, ac ar hyn o bryd fy marnwyr, am yr achwyniad wrth ba un yr wyf yn sefyll, gan gael fy nghyhuddo am amryw feiau o'ch blaen chwi, atolwg cyfrifwch fy anghof i i'm hoedran, ac nid i'm hewyllysgarwch, i orphwylliad fy ymenydd, ac nid i ddiofalwch fy meddwl, ac yna yr ydwyf yn gobeithio, trwy eich trugaredd chwi, allu cael bod yn esgusodol oddiwrth gospedigaeth greulon, er fy mod yn euog.

Yna ebe y llys: O! Anghofio-daioni, Anghofio-daioni, nid oedd dy angof o ddaioni yn unig o wendid, ond o fwriad, ac am dy fod yn ffieiddio cadw pethau daionus yn dy feddwl. Yr hyn ydoedd ddrwg a ellit ei gofio, ond yr hyn ydoedd dda nid ellit aros meddwl am dano; dy oedran, gan hyny, a'th waith yn cymeryd arnat dy fod yn orphwyllog, yr wyt yn gwneud defnydd o honynt i ddalln y llys â hwynt, ac megis cochl i guddio dy ddrygioni. Ond gadewch i ni glywed beth a ddywed y tystion dros y Brenin yn erbyn y carcharor wrth y bar, a ydyw efe yn euog o'r cyhuddiad yma, ai nid yw?

*Casâu-cêl.* Fy Arglwydd, mi glywais yr Anghofio-daioni yma yn dywedyd nad allai efe erioed aros meddwl am ddaioni, gymaint a thros chwarter awr.

*Ysgrif.* Pa le y clywsoch chwi ef yn dywedyd felly?

*Casâu.* Yn Lôn-pob-diffeithder, mewn tŷ ag oedd y drws nesaf at arwydd y Gydwybod-wedi-ei-serio-â-haiarn-poeth.

*Ysgrif.* Mr. Gwybod-y-cwbl, beth a ellwch chwi ddywedyd dros ein Harglwydd y Brenin yn erbyn y carcharor wrth y bar?

*Gwybod.* Fy Arglwydd, mi a adwaen y gŵr hwn yn dda, Diaboloniad ydyw, a mab i Ddiaboloniad, enw ei dad ydoedd Caru-drwg; ac am dano ef, mi a'i clywais ef yn dywedyd yn fynych ei fod ef yn cyfrif hyd yn oed y meddyliau o ddaioni y pethau mwyaf llwythgar yn y byd.

*Ysgrif.* Pa le y clywsoch chwi ef yn dywedyd y geiriau hyn?

*Gwybod.* Yn Heol-y-cnawd, yn union gyferbyn a'r eglwys.

Yna ebe yr Ysgrifenydd: Deuwch, Mr. Dweyd-y-gwir, rhoddwch i mewn eich tystiolaeth mewn perthynas i'r carcharor wrth y bar, yn nghylch yr hyn y mae efe yn sefyll yma, fel y gwelwch, yn gyhuddedig gerbron y llys anrhydeddus yma.

*Dweyd.* Fy Arglwydd, mi a'i clywais ef yn dywedyd yn fynych, fod yn well ganddo yn hytrach feddwl am y peth gwaelaf, nag ar yr hyn sydd yn gynwysedig yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd.

*Ysgrif.* Yn mha le y clywsoch chwi ef yn dweyd y fath eiriau câs a'r rhai hyn?

*Dweyd.* Yn mha le? mewn llawer o fanau, ac yn neillduol yn Heol-dirmyg, yn nhŷ un Digywilydd, ac yn Heol-brynti, wrth arwydd y Gwrthodedig, y drws nesaf i'r Disgyniad-i'r-pwll.

*Llys.* Foneddigion, chwi a glywsoch y cyhuddiad, a'i amddiffyniad, a thystiolaeth y tystion. Ceidwad y carchar, gosodwch Mr. Calon-galed wrth y bar.

Efe a osodwyd o flaen y bar.

*Ysgrif.* Mr. Calon-galed, fe'th gyhuddir dan yr enw o Galon-galed, gormeswr ar dref Man-soul, am i ti yn y modd mwyaf enbyd ac annuwiol, feddiannu tref Man-soul trwy anedifeirwch a chaledrwydd, ac a'u cedwaist hwynt oddiwrth edliwiad cydwybod, a thristwch am eu drygioni, trwy holl amser eu gwrthgiliad oddiwrth, a'u gwrthryfelgarwch yn erbyn y bendigedig Frenin Shad-dai. Pa beth a ddywedi di am yr achwyniad yma, a wyt ti yn euog ai nid wyt?

*Calon.* Fy Arglwydd, ni wyddwn i erioed, trwy fy holl fywyd, pa beth a feddylid wrth edliwiad cydwybod, a thristwch am bechod; yr ydwyf fi yn annhrywanedig, nid wyf fi yn gofalu am un dyn, ac nis gellir fy nhrywanu gan flinderau dynion eraill; nid all eu griddfanau archolli fy nghalon; pwy bynag a niweidiwyf, pwy bynag a golledwyf, nid yw ond difyrwch i mi, pan y mae eraill yn galaru.

*Llys.* Chwi a welwch fod y gŵr yn wir Ddiaboloniad, ac iddo ef gondemnio ei hunan. Gosodwch ef heibio, ceidwad y carchar, a gosodwch Mr. Gau-heddwch o flaen y bar.

Gau-heddwch yn cael ei osod o flaen y bar.

Mr. Gau-heddwch, tydi a gyhuddir yma dan yr enw Gau-heddwch, gormeswr ar dref Man-soul, am i ti, yn y modd mwyaf drygionus a chythreulig, ddwyn, dàl, a chadw tref Man-soul yn ei gwrthgiliad, a'i huffernol wrthryfel, mewn gau, disail, beryglus heddwch, a diofalwch damnedig, er dianrhydedd i'r Brenin, y troseddiad o'i gyfraith ef, a mawr niwed tref Man-soul. Pa beth a ddywedi di, a wyt ti yn euog o'r achwyniad yma, neu nid ydwyt?

Yna ebe Gau-heddwch: Foneddigion, a chwychwi yn awr y rhai a osodwyd yn farnwyr arnaf, yr ydwyf yn cydnabod mai Mr. Heddwch yw fy enw; ond mai Gau-heddwch yw fy enw, hyny yr ydwyf yn ei wadu yn hollol. Os gwel eich urddasrwydd yn dda i ddanfon am rywun ag sydd yn fy adnabod i yn iawn, neu am y fydwraig a'm derbyniodd i'r byd, neu am fy nhadau-bedydd, y rhai a fu yn fy medydd, hwy a ddeuant bob un, neu hwy oll a brofant nad Gau-heddwch yw fy enw i, ond Heddwch. Oherwydd paham, nis bydd i mi ymddadleu yn erbyn yr achwyniad yma, yn gymaint ag nad yw fy enw i wedi ei osod ynddo, ac fel y mae fy iawn enw, felly hefyd y mae fy nghywirdeb. Dyn oeddwn i ag ydoedd bob amser yn caru byw yn llonydd; a'r hyn a dybiais oedd hoff genyf fi fy hun, hyny a dybiais i allai fod yn dda gan eraill hefyd.

Oherwydd paham, pan welais i rywrai o'm cymydogion yn drallodedig gan aflonyddwch meddwl, myfi a wnaethum fy ngoreu i'w cynorthwyo hwynt yn oreu ag y gallwn, a mi a allwn roddi llawer o esiamplau o'r dymher dda yma o'm heiddof fi, megis—

1. Pan ar y cyntaf y darfu i'n tref Man-soul adael ffyrdd Shad-dai, rhai o honynt ar ol hyny a ddechreuasant fod o feddyliau aflonydd, wrth edrych yn ol arnynt eu hunain am yr hyn a wnaethent; ond myfi, yn teimlo yn flin genyf wrth eu gweled yn cael eu haflonyddu, yn ebrwydd a geisiais foddion i beri iddynt lonyddwch drachefn.

2. Pan ydoedd ffyrdd yr hen fyd, a Sodom, mewn bri, os digwyddai i unrhyw beth flino y cyfryw rai ag ydoedd am ddefodau yr amseroedd presenol, myfi a ymdrechais i'w llonyddu hwynt drachefn, ac i beri iddynt weithredu yn ddiflinder.

3. I ddyfod yn nes adref, pan dorodd y rhyfeloedd erchyll allan rhwng Shad-dai a Diabolus, os ar un amser y gwelwn neb o dref Man-soul yn ofni distryw, mi a arferais yn fynych, trwy ryw ffordd, llyfeliaeth, dychymyg, neu gilydd, i ymdrechu i ddyfod â hwy i heddwch drachefn, oherwydd fy mod i bob amser yn wr o'r fath dymher rinweddol, ag y dywed rhai fod heddychwr; ac os ydyw tangnefeddwr yn ddyn mor deilwng ag y bu i rai fod mor hyf i dystiolaethu ei fod ef, yna gadewch i mi, wŷr boneddigion, gael fy nghyfrif genych chwi, yr hwn sydd genyf enw mawr yn Man-soul am gyfiawnder ac uniondeb, yn gyfryw wr ag nad yw yn haeddu y driniaeth greulon yma, ond yn hytrach rhyddid, ac hefyd genad i geisio iawn gan y rhai hyny ag a fuant yn gyhuddwyr arnaf.

Yna ebe yr Ysgrifenydd: Criwr, gwnewch gyhoeddiad.

*Criwr.* O! ust! yn gymaint ag i'r carcharor wrth y bar wadu ei enw, ei fod ef y cyfryw un ag y soniwyd am dano yn yr achwyniad, y mae y llys yn erchi, os oes neb yn y lle yma a all roddi hanes i'r llys o wreiddiol ac iawn enw y carcharor, fod iddynt ymddangos, a rhoddi i mewn eu tystiolaeth, canys y mae y carcharor yn sefyll ar ei ddiniweidrwydd ei hun.

Yna y daeth dau i'r llys, ac a ddeisyfasant gael cenad i ddywedyd a wyddent mewn perthynas i'r carcharor wrth y bar; enw un ydoedd Chwilio-gwir, ac enw y llall oedd Amddiffyn-gwir. Felly y llys a ofynodd iddynt hwy: A oeddynt yn adnabod y carcharor, a pha beth a allent hwy ei ddywedyd mewn perthynas iddo ef, canys y mae efe yn sefyll, meddent hwy, yn ei amddiffyniad ei hun?

Yna ebe Chwilio-gwir: Fy Arglwydd—

*Llys.* Aroswch, rhoddwch ei lw iddo; yna hwy a'i tyngasant ef. Felly efe a aeth yn mlaen.

*Chwilio.* Fy Arglwydd, mi a adwaen, ac yr wyf yn adnabod y gŵr hwn er yn blentyn, ac a allaf brofi mai Gau-heddwch yw ei enw ef. Mi a adwaenwn ei dad ef,

ei enw ef ydoedd Mr. Gwenieithwr, a'i fam ef, cyn priodi, a elwid Mrs. Suo-i-fyny; a'r ddau hyn, pan aethant yn nghyd, ni buant byw yn hir nes cenhedlu y mab yma, a hwy a alwasant ei enw ef Gau-heddwch. Yr oeddwn i yn gyd-chwareuydd ag ef, yn unig yr oeddwn i rywfaint yn hŷn nag ef; a phan fyddai ei fam yn arfer ei alw ef adref oddiwrth ei chwareuaeth, yr oedd hi yn arfer dywedyd: Gau-heddwch, Gau-heddwch, tyred adref ar frys, neu myfi a'th gyrchaf di. Ië, mi a'i hadwaenwn ef pan ydoedd yn sugno; ac er nad oeddwn i y pryd hyny ond ieuanc, eto yr wyf yn cofio pan fyddai ei fam yn arfer bod yn eistedd gydag ef yn y drws, neu yn chwareu ag ef yn ei breichiau, hi a'i galwai ef ugain o weithiau yn nghyd, Fy Ngau-heddwch bach! Fy Ngau-heddwch anwyl! ac, O! fy hoff Au-heddwch! A thrachefn, O! fy 'neryn bach Gau-heddwch! ac, Mor anwyl yr wyf fi yn caru fy mhlentyn! Y tadau-bedydd a'r mamau-bedydd, hefyd, a wyddant mai felly y mae, er ei fod mor ddigywilydd a'i wadu ar g'oedd y llys.

Yna Mr. Amddiffyn-gwir a alwyd i ddywedyd yr hyn a wyddai am dano ef. Felly hwy a'i tyngasant ef.

Yna ebe Mr. Amddiffyn-gwir: Fy Arglwydd, yr hyn oll ag a ddywedodd y tyst cyntaf sydd wir, ei enw ef yw Gau-heddwch, mab Mr. Gwenieithwr, a Mrs. Suo-i-fyny yw ei fam ef; a mi a welais y byddai efe gynt yn ddig writh y rhai hyny ag a'i galwai ef ddim yn amgenach na Gau-heddwch; canys efe a ddywedai fod y cyfryw oll yn ei watwar, ac yn ei lysenwi ef; ond hyn ydoedd pan oedd Mr. Gau-heddwch yn ŵr mawr, a phan oedd y Diaboloniaid yn wŷr enwog yn Man-soul.

*Llys.* Foneddigion, chwi a glywsoch pa beth a dyngodd y gwŷr yma yn erbyn y carcharor wrth y bar; ac yn awr, Mr. Gau-heddwch, atoch chwi, chwi a wadasoch mai Gau-heddwch yw eich enw, eto chwi a welwch i'r gwŷr gonest yma dystio ar eu llw mai dyma yw eich enw. Ac mewn perthynas i'ch amddiffyniad, yn yr hyn yr ydych yn dywedyd eich bod yn hollol rydd oddiwrth yr hyn a gynwysir yn y cyhuddiad, nid ydych chwi yn cael eich cyhuddo ynddo am wneud drwg, oherwydd eich bod yn ŵr heddychol, neu yn heddychwr yn mhlith eich cymydogion, ond am i chwi, yn ddrygionus ac yn satanaidd, ddwyn, cadw, a dàl tref Man-soul, yn gystled yn ei gwrthgiliad oddiwrth, ag yn ei gwrthryfel yn erbyn ei Brenin, mewn gau, celwyddog, a damnedig heddwch, yn wrthwyneb i gyfraith Shad-dai, ac er perygl o ddistrywio tref Man-soul, yr hon, y pryd hyny, ydoedd mewn cyflwr gresynol. Yr hyn oll ag a ddadleuasoch drosoch eich hunan yw, i chwi wadu eich enw, &c., ond chwi a welwch fod genym ni dystion i brofi mai chwi yw y gŵr.

Am yr heddwch yr oeddych yn ymffrostio cymaint o'i blegid, i chwi ei wneuthur yn mhlith eich cymydogion, gwybyddwch fod yr heddwch hyny ag nad yw yn gydymaith â gwirionedd a sancteiddrwydd, ond yr hwn sydd heb y sylfaen yma, sydd wedi ei sylfaenu ar gelwydd, ac y mae yn dwyllodrus ac yn ddamnedig; megis

hefyd y dywedodd y Shad-dai mawr. Dy amddiffyniad, gan hyny, ni'th waredodd di oddiwrth yr hyn yr achwynir arnat yn dy gyhuddiad, ond yn hytrach y mae yn peri i'r cwbl ymaflyd ynot ti. Ond ti a gei ddigon o chwareu têg; galwn y tystion sydd i dystiolaethu mewn perthynas i'r weithred, a gwelwn pa beth sydd ganddynt hwy i'w ddywedyd dros ein Harglwydd y Brenin yn erbyn y carcharor wrth y bar.

*Ysgrif.* Mr. Gwybod-y-cwbl, pa beth a ddywedwch chwi dros ein Harglwydd Frenin yn erbyn y carcharor wrth y bar?

*Gwybod.* Fy Arglwydd, y gŵr yma, trwy wybodaeth i mi, er ys llawer dydd, a'i gwnaeth yn orchwyl iddo i gadw tref Man-soul mewn llonyddwch pechadurus, yn nghanol ei holl ddrygioni, ei haflendid, a'i ffieidd-dra; ac efe a ddywedodd, a hyny lle y clywais i, Deuwch, deuwch, gadewch i ni ddianc rhag pob helbul, deued ar ba sail bynag y byddo, a gadewch i ni fod am fywyd llonydd a heddychol, er na byddo iddo sail dda yn y byd.

*Ysgrif.* Deuwch, Mr. Casâu-celwydd, beth ddywedwch chwi?

*Casâu.* Fy Arglwydd, myfi a'i clywais ef yn dweyd fod heddwch, er ei fod mewn ffordd o anghyfiawnder, yn well na blinder gyda'r gwirionedd.

*Ysgrif.* Pa le y clywsoch chwi ef yn dywedyd hyn?

*Casâu.* Mi a'i clywais ef yn ei ddywedyd yn Nghyntedd-ynfydrwydd, wrth dŷ un Mr. Ynfyd, y drws nesaf at arwydd Hunan-dwyllwr. Ië, efe a ddywedodd hyn, trwy wybodaeth i mi, ugain o weithiau yn y lle hyny.

*Ysgrif.* Nid rhaid i ni wrth ychwaneg o dystion, y mae yr eglurhad yma yn eglur ac yn gyflawn. Gosodwch ef o'r neilldu, ceidwad y carchar, a gosodwch Mr. Anwir wrth y bar.

Mr. Anwir, fe'th gyhuddir yma dan yr enw Anwir, gormeswr ar dref Man-soul, am i ti yn wastadol, ac er dianrhydedd i Shad-dai, ac er enbydrwydd o ddinystr hollol yr enwog dref Man-soul, i osod dy hun i anffurfio, ac i gwbl anrheithio yr holl weddillion o gyfraith a delw Shad-dai a gafwyd yn Man-soul, ar ol ei dyfn wrthgiliad oddiwrth ei Brenin at Diabolus, y gorthrymwr cenfigenus. Pa beth a ddywedi di, a wyt ti yn euog o'r achwyniad yma, ai nid wyt?

*Anwir.* Dieuog ydwyf, fy Arglwydd.

Yna y tystion a alwyd, a Mr. Gwybod-y-cwbl a roddes ei dystiolaeth i mewn yn gyntaf yn ei erbyn ef.

*Gwybod.* Fy Arglwydd, y gŵr hwn oedd gyda'r rhai ag oedd yn tynu i lawr ddelw Shad-dai; ïe, dyma yr hwn a'i gwnaeth ef â'i ddwylaw ei hun; myfi fy hun oeddwn yn sefyll gerllaw, ac a'i gwelais ef yn ei wneuthur, ac efe a'i gwnaeth wrth orchymyn Diabolus. Ië, y Mr. Anwir yma a wnaeth fwy na hyn—efe a osododd hefyd ddelw gorniog yr anifail Diabolus yn yr un lle. Dyma efe hefyd, yr hwn, ar archiad Diabolus, a dorodd, a rwygodd, ac a barodd ddifetha yr holl weddillion, hyd

ag y gallai, o gyfraith y Brenin, sef, pa beth bynag yn Man-soul ag a allai efe ddodi ei law arno.

*Ysgrif.* Pwy a'i gwelodd ef yn gwneuthur hyn heblaw chwi?

*Casâu.* Myfi a'i gwelais ef, fy Arglwydd, ac felly llawer eraill hefyd; canys ni wnaethpwyd hyn yn lledradaidd, neu mewn congl, ond lle y gwelai pawb; ïe, efe a ddewisodd wneuthur ei hun yn gyhoeddus, canys yr oedd yn hoff ganddo hyny.

*Ysgrif.* Mr. Anwir, pa fodd y gallech chwi ddywedyd eich bod yn ddieuog, pan yr oeddych chwi mor amlwg yn wneuthurwr o'r holl ddrygioni yma?

*Anwir.* Syr, mi a feddyliais fod yn rhaid i mi ddweyd rhywbeth, ac fel y mae fy enw i, felly yr wyf fi yn llefaru. Fe fu i mi elw o hyny cyn yn awr, ac ni wyddwn i na fyddai i mi, trwy ddywedyd anwiredd, gael medi llesâd yn bresenol.

*Ysgrif.* Gosodwch ef heibio, ceidwad y carchar, a gosodwch Mr. Didrugaredd wrth y bar.

Didrugaredd, fe'th gyhuddir yma dan yr enw o Ddidrugaredd, gorthrymwr ar dref Man-soul, am i ti, yn y modd mwyaf bradwriaethus a drygionus, gau i fyny bob ymysgaroedd o dosturi, ac nas goddefit i Man-soul, druan, gymaint a galaru am ei thrueni ei hunan, pan oedd hi wedi gwrthgilio oddiwrth ei huniawn Frenin; ond fe ddarfu i ti nithio, ac fe ddarfu i ti, bob amser, droi ymaith ei chalon oddiwrth y meddyliau hyny ag oedd â thueddrwydd ynddynt i'w thywys i edifeirwch. Pa beth a ddywedi di am yr achwyniad yma, a wyt ti yn euog, neu nid wyt?

*Didrug.* Nid yn euog o ddidrugarogrwydd; yr hyn oll a wnaethum i oedd cysuro, yn ol fy enw, canys nid Didrugaredd yw fy enw i, ond Cysurwr, ac nid allwn i aros gweled Man-soul yn tueddu at brudd-der.

*Ysgrif.* Pa fodd yr ydych chwi yn gwadu eich enw, a dweyd mai nid Didrugaredd yw, ond Cysurwr? Gelwch ar y tystion. Pa beth a ddywedwch chwi, y tystion, am yr amddiffyniad yma?

*Gwybod.* Fy Arglwydd, ei enw ef yw Didrugaredd; felly yr ysgrifenodd efe ei hun yn mhob papyrau ag oedd yn perthyn iddo, neu yr oedd a wnai â hwynt. Ond y mae yn dda gan y Diaboloniaid yma wadu eu henwau. Mr. Cybydd-dod sydd yn cuddio ei hunan dan yr enw Hwsmonaeth-dda; Mr. Balchder a all, pan y byddo achos, alw ei hunan Mr. Hardd, Mr. Taclus, neu'r cyffelyb; ac felly am y lleill oll.

*Ysgrif.* Mr. Dweyd-y-gwir, pa beth a ddywedwch chwi?

*Dweyd.* Ei enw ef yw Didrugaredd, fy Arglwydd; mi a'i hadwaenwn ef er yn blentyn, ac efe a wnaeth yr holl ddrygau yr achwynir arno yn y cyhuddiad; ond y mae torf o honynt hwy ag sydd yn anghydnabyddus â'r perygl o ddamnedigaeth, am hyn y maent hwy yn galw yr holl rai hyny yn bendrist ag sydd ganddynt feddyliau difrifol pa fodd i ochelyd y cyflwr hwnw.

*Ysgrif.* Gosodwch Mr. Uchel-drem wrth y bar, ceidwad y carchar.

Mr. Uchel-drem, fe'th gyhuddir yma dan yr enw o Uchel-drem, gorthrymwr ar dref Man-soul, am i ti, yn y modd mwyaf anffyddlon a diawledig, ddysgu tref Man-soul i ymddwyn ei hun yn uchel ac yn wrol yn erbyn y rhybuddion a roddwyd iddynt gan gadbeniaid y Brenin. Tydi, hefyd, a ddysgaist y dref i ddywedyd yn ddirmygus ac yn wael am eu Brenin mawr Shad-dai, ac fe ddarfu i ti eu hanog, yn gystal trwy dy eiriau a'th esiamplau, i gyfodi arfau yn erbyn y Brenin, a'i Fab Emmanuel. Pa fodd y dywedi di, a ydwyt ti yn euog o'r achwyniad yma ai nid wyt?

*Uchel.* Foneddigion, gŵr oeddwn i ag oedd bob amser yn galonog ac yn gadarn, ac nid arferais i, pan oeddwn dan y cymylau mwyaf, lechu neu blygu fy mhen fel brwynen; ac nid oedd yn hoff genyf fi un amser weled dynion yn gorchuddio eu hetiau i'r rhai hyny ag a'u gwrthwynebodd hwynt;—ïe, er fod eu gwrthwynebwyr yn ymddangos i fod yn gryfach na hwynt ddengwaith. Nid arferais i ystyried pwy a fyddai fy ngelyn, na pha beth fyddai yr achos, yn yr hwn yr ymrwymwn i ynddo. Digon oedd genyf i mi ymddwyn yn wych, ymladd fel gwr, a dyfod ymaith wedi cario y dydd.

*Llys.* Mr. Uchel-drem, nid ydys yn eich cyhuddo yma am i chwi fod yn ŵr cadarn, nac am eich gwrolder a'ch cadernid yn mysg blinder, ond am i chwi arferyd y lliw yma o wrolder i dynu tref Man-soul i weithredoedd o wrthryfel yn erbyn y Brenin mawr, ac Emmanuel ei Fab. Dyma y bai, a'r peth yr achwynir arnat o'i blegid yn y cyhuddiad. Ond ni wnaeth efe ddim ateb i hyny.

Yn awr, pan ddarfu i'r llys ganlyn ar y carcharorion wrth y bar fel hyn, yna hwy a'u gosodasant hwynt ar farn eu rhaith, at ba rai yr ymgyfeiriasant fel hyn:

*Llys.* Gwŷr y rhaith, chwi a fuoch yma, ac a welsoch y gwŷr hyn; chwi a glywsoch eu cyhuddiadau a'u hamddiffyniadau, a pha beth a dystiolaethodd y tystion yn eu herbyn: yn awr, yr hyn sydd yn ol yw, i chwi yn ebrwydd dynu o'r neilldu i ryw le, lle y galloch yn ddirwystr ystyried pa farn a ddylech, mewn ffordd o wirionedd a chyfiawnder, ei dwyn i mewn dros y Brenin yn eu herbyn hwynt, ac felly deuwch â hi i mewn yn ddilynadwy.

Wedi hyn y rheithwyr—sef Mr. Crediniaeth, Mr. Cywir-galon, Mr. Uniondeb, Mr. Casâu-drwg, Mr. Caru-daioni, Mr. Gweled-gwir, Mr. Meddylfryd-nefol, Mr. Gweithred-dda, a Mr. Sel-dros-Dduw, a ymneillduasant mewn trefn at eu gwaith.

Yn awr pan gauwyd hwynt i fyny wrthynt eu hunain, hwy a ddechreuasant ymddiddan yn eu plith eu hunain, mewn trefn i ddyfod i mewn â'u barn.

Ac fel hyn y dechreuodd Mr. Crediniaeth, canys efe oedd y blaenaf: Foneddigion, eb efe, am y gwŷr, y carcharorion wrth y bar, o'm rhan i, yr wyf yn credu eu bod hwynt oll yn haeddu marwolaeth,

Priodol iawn, ebe Mr. Cywir-galon, yr wyf fi yn hollol o'r un farn a chwi.

O! y fath drugaredd ydyw, ebe Mr. Casâu-drwg, fod y fath fileiniaid a'r rhai hyn yn cael eu gosod i farwolaeth.

Ië, ïe, ebe Mr. Caru-daioni, dyma un o'r dyddiau llawenaf ag a welais i erioed yn fy mywyd.

Yna y dywedodd Mr. Gweled-gwir: Mi a wn os bydd i ni eu barnu hwynt i farwolaeth, y saif ein barn o flaen Shad-dai ei hun.

Ac nid wyf finau, mewn modd yn y byd, yn ameu hyny, ebe Mr. Meddylfryd-nefol; efe a ddywedodd hefyd, pan y bwrier pob anifeiliaid o'r fath yma allan o Man-soul, pa fath dref ddaionus a fydd hi y pryd hyny!

Yna ebe Mr. Cymedrol: Nid wyf fi yn arfer rhoddi barn ehud, ond y mae beiau y rhai hyn mor hynod, a'r tystion mor ddiymwrthryn, fel y mae yn rhaid fod y dyn hwnw yn gibddall o'i fodd, na ddywedo fod y carcharorion yn haeddu marw.

Bendigedig fyddo Duw, ebe Mr. Diolchgar, fod y bradwyr mewn carchar diogel.

Yr wyf fi yn uno â chwi yn hyn, ar fy ngliniau noethion, ebe Mr. Gostyngedig.

Y mae yn dda genyf finau hefyd, ebe Mr. Gweithred-dda.

Yna ebe y gwr cynes a chywir galon, Mr. Sel-dros-Dduw: Torwch hwynt ymaith, canys hwy a fuant yn bla, ac a geisiasant ddinystr Man-soul.

Fel hyn, gan hyny, gan eu bod oll yn cytuno yn eu barn, hwy a ddaethant yn ebrwydd i'r llys.

*Ysgrif.* Gwŷr boneddigion y rhaith, atebwch oll i'ch enwau: Mr. Crediniaeth, un; Mr. Cywir-galon, dau; Mr. Uniondeb, tri; Mr. Casâu-drwg, pedwar; Mr. Caru-daioni, pump; Mr. Gweled-gwir, chwech; Mr. Meddylfryd-nefol, saith; Mr. Cymedrol, ŵyth; Mr. Diolchgar, naw; Mr. Gostyngedig, deg; Mr. Gweithred-dda, unarddeg; a Mr. Sel-dros-Dduw, deuddeg. Gwŷr da a chywir, sefwch yn nghyd yn eich barn. A ydych chwi wedi cytuno i gyd?

***Rhaith.*** Ydym, fy Arglwydd.

*Ysgrif.* Pwy a ddywed drosoch chwi?

***Rhaith.*** Ein penrhaith.

*Ysgrif.* Chwychwi wŷr boneddigion o'r rheithwyr, gan eich bod wedi eich dewis dros ein Harglwydd y Brenin i wasanaethu yma mewn achos o fywyd a marwolaeth, chwi a glywsoch brawf pob un o'r gwŷr yma sydd garcharorion wrth y bar. Pa beth a ddywedwch chwi, a ydynt hwy yn euog o'r bai a'r beiau hyny ar ba rai y maent yn sefyll yma yn gyhuddedig, neu nid ydynt yn euog?

***Penrhaith.*** Euog, fy Arglwydd.

*Ysgrif.* Edrychwch at eich carcharorion, ceidwad y carchar.

Hyn a wnaethpwyd yn y boreu, ac ar ol haner dydd hwy a dderbyniasant farn marwolaeth yn ol y gyfraith.

Ceidwad y carchar, gan hyny, wedi derbyn y fath orchymyn, a'u bwriodd hwynt

oll i'r carchar nesaf i mewn, i'w cadw hwynt yno hyd ddydd eu dihenyddiad, yr hwn oedd i fod y boreu nesaf.

Ond yn awr fe ddigwyddodd, yn y cyfamser, i un o'r carcharorion, Anghrediniaeth wrth ei enw, rhwng cyhoeddiad y farn ag amser y dihenyddiad, dori allan o'r carchar, a dianc ymaith yn hollol o dref Man-soul, ac a lechodd yn y cyfryw leoedd ag a allai, hyd onid allai efe, drachefn, wneuthur drwg i dref Man-soul, am iddynt hwy ei drin ef yn y cyfryw fodd ag y gwnaethant.

Yn awr, pan ddarfu i Mr. Cywir, ceidwad y carchar, ddeall iddo golli ei garcharor, yr oedd hi yn drwm arno, am mai efe oedd y carcharor hwnw yr ydym ni yn son am dano, oedd y gwaethaf o'r holl fintai. Oherwydd paham, efe a aeth, yn gyntaf, ac a fynegodd i'm Harglwydd Maer, Mr. Cofiadur, a'm Harglwydd Ewyllysgar, ac i gael ganddynt hwy awdurdod i godi ymchwiliad am dano trwy holl dref Man-soul. Felly fe gafodd awdurdod, a chyfodwyd ymchwiliad, ond nid ellid cael yn bresenol y fath ddyn trwy holl dref Man-soul. Yr hyn oll ag a ellid ei gael oedd, iddo ef lechu dros dro y tu allan i'r dref, ac i ryw un neu gilydd, yma a thraw, gael cipolwg arno ef, fel yr ydoedd efe yn dianc allan o Man-soul. Un neu ddau, hefyd, a gadarnhasant iddynt ei weled ef y tu allan i'r dref, yn myned ar frys yn hollol dros y gwastadedd.

Yn awr, pan oedd efe wedi myned ymaith yn hollol, fe gadarnhawyd gan un Mr. A-welodd, iddo ef rodio ar hyd yr holl leoedd sychion, hyd oni chyfarfu â Diabolus ei gyfaill, a pha le y cyfarfyddasent y naill y llall ond ar Fryn-porth-uffern. Ond, O! pa fath ystori alarus a fynegodd yr hen ŵr bonheddig wrth Diabolus mewn perthynas i'r cyfnewidiad trist a wnaethai Emmanuel yn Man-soul.

Megis, yn gyntaf, y modd y darfuasai i Man-soul, ar ol aros rhywfaint, gael maddeuant hollol ar ddwylaw Emmanuel, iddynt hwy ei wahodd ef i'r dref, ac iddynt roddi y castell iddo ef yn feddiant.

Efe a ddywedodd hefyd, iddynt hwy alw ei filwyr i'r dref, gan ymdrechu pwy o honynt a dderbyniai fwyaf o honynt. Hwy hefyd a'i derbyniasant ef gyda thympan, canu, a dawnsio. Ond hyn, ebe Anghrediniaeth, yw y blinder gwaethaf genyf fi, iddo ef, O! dad, dynu i lawr dy swyddogion di, a gosod i fyny yr eiddo ei hunan, Ië, ac Ewyllysgar, y gwrthryfelwr hwnw, yr hwn, fel y tybygasai un, nas troisai byth oddiwrthym, sydd yn bresenol mewn cymaint ffafr gydag Emmanuel, ag y bu ef erioed gyda thithau. Ond heblaw hyn oll, yr Ewyllysgar yma a gafodd gommisiwn neillduol gan ei Feistr i chwilio am, i ddal, ac i roddi i farwolaeth bawb, a phob math o Ddiaboloniaid ag a gaffo ef yn Man-soul. Ië, a'r Ewyllysgar yma eisoes a gymerodd, ac a osododd yn ngharchar ŵyth o'th gyfeillion cywiraf yn Man-soul. Nage, yn mhellach, fy Arglwydd, gyda thristwch yr ydwyf yn ei ddywedyd, fe'u cyhuddwyd hwynt oll, ac a'u condemniwyd, ac yr wyf yn meddwl iddynt gael eu

gosod cyn hyn i farwolaeth yn Man-soul. Mi a fynegais i'm harglwydd am ŵyth, a myfi fy hun oeddwn y nawfed, yr hwn, yn ddiau, a yfaswn o'r un cwpan, oni buasai i mi trwy ddichell ddianc oddiarnynt hwy.

Pan glywodd Diabolus yr hanes alaethus yma, fe ddarfu iddo ubain, ac yfed y gwynt fel draig, a gwnaeth i'r awyr edrych yn dywyll gan ei ruad ef; efe, hefyd, a dyngodd y profai efe ymddial ar dref Man-soul am hyn. Felly hwy a farnasant fod iddynt ymgynghori yn ddwys pa fodd yr enillent Man-soul drachefn.

Yn awr, cyn hyn fe ddaethai y dydd yn yr hwn yr oedd y carcharorion yn Man-soul i gael eu gosod i farwolaeth. (Rhuf. viii. 13, 6, 12—14.) Felly hwy a ddygwyd at y groes, a hyny gan Man-soul, yn y modd mwyaf cyhoeddus; canys y Tywysog a ddywedasai y gwnelid y peth yma trwy law Man-soul, fel y gwelwyf, eb efe, barodrwydd fy mhresenol waredig dref Man-soul i gadw fy ngair, ac i wneuthur y weithred hon. (Gal. v. 24.) Prawf o gywirdeb sydd yn fy moddio yn fawr; gosoded Man-soul, gan hyny, eu dwylaw yn gyntaf ar y Ddiaboloniaid yma i'w difetha hwynt. Felly tref Man-soul a'u lladdodd hwynt yn ol gair eu Tywysog; ond pan ddygwyd y carchorion at y groes i farw, o'r braidd y credwch y fath waith blin a gafodd Man-soul wrthynt, wrth roddi y Diaboloniaid i farwolaeth; canys, a'r gwŷr yn gwybod fod yn rhaid iddynt farw, a chan fod ganddynt elyniaeth anghymodlon yn eu calonau i Man-soul, beth wnaethant ond cymeryd calon wrth y groes, ac yno y gwrthwynebasant wŷr tref Man-soul; oherwydd paham, gorfu ar wŷr Man-soul waeddi am gymhorth ar y cadbeniaid a'r milwyr.

Yn awr yr oedd gan y Brenin mawr Shad-dai gyfrinachwr neu ysgrifenydd yn y dref, a hoff iawn oedd ganddo ef wŷr Man-soul, ac yr ydoedd efe hefyd yn sefyll yn y fan lle yr oeddid yn eu gosod hwynt i farwolaeth; felly, gan glywed gwŷr Man-soul yn llefain allan yn erbyn gwingiadau ac afreolaeth y carcharorion, efe a gyfododd i fyny o'i le, ac a ddaeth ac a osododd ei ddwylaw ar ddwylaw gwŷr Man-soul. Felly hwy a groeshoeliasant y Diaboloniaid a fuasai yn bla, yn ofid, ac yn rhwystr i wŷr tref Man-soul. (Rhuf. viii. 13.)

Yn awr pan wnaethpwyd y peth hyn, y Tywysog a ddaeth i wared i edrych, ac i ymweled, ac i lefaru wrth fodd calon gwŷr Man-soul, ac i gadarnhau eu dwylaw yn y cyfryw orchwyl. Ac efe a ddywedodd wrthynt hwy, Iddo ef, trwy y weithred hon o'r eiddynt hwy, eu profi hwynt, a'u cael yn rhai ag oedd yn caru ei berson ef, ac yn rhai ag oedd yn cadw ei gyfreithiau ef, ac yn gyfryw rai hefyd ag oedd â chanddynt olwg ar ei ogoniant ef. Ac efe a ddywedodd hefyd, i ddangos iddynt hwy nas caen fod yn golledwyr am hyn, ac nas byddai y dref ddim yn wanach oblegid y golled o honynt, y gwnai efe iddynt hwy gadben arall, a hyny o un o honynt hwy eu hunain; ac y byddai y cadben yma yn llywydd ar fil, er daioni i'r dref flodeuog bresenol Man-soul.

Felly fe alwodd un ato, enw yr hwn ydoedd Disgwylydd, ac a archodd iddo ef fyned i fyny ar frys at borth y castell, ac ymofyn yno am un Mr. Profiad, yr hwn sydd yn gwasanaethu y cadben boneddigaidd, Cadben Crediniaeth, ac arch iddo ef ddyfod yma ataf. Felly y genad ag ydoedd yn gwasanaethu y Tywysog daionus Emmanuel a aeth, ac a ddywedodd fel y gorchymynasid iddo. Yn awr, y gŵr ieuanc oedd yn aros i weled y cadben yn hyfforddi ac yn byddino ei wŷr yn nghyntedd y castell; yna ebe Mr. Disgwylydd wrtho ef: Syr, y Tywysog sydd yn ewyllysio i chwi ddyfod i wared ato ef ar frys. Felly efe a'i dug ef i wared at Emmanuel, ac efe a ddaeth ac a ymostyngodd ger ei fron ef. Yn awr yr ydoedd gwŷr y dref yn adnabod Mr. Profiad yn dda, canys yr ydoedd efe wedi ei eni a'i fagu yn Man-soul; hwy hefyd a wyddent ei fod yn ŵr ymddygiadus, cadarn, ac yn synwyrgall mewn materion; yr oedd ef, hefyd, yn berson gweddus ac ymadroddus, ac yn llwyddiannus iawn yn yr hyn a gymerai efe mewn llaw. Oherwydd paham, yr oedd calonau gwŷr y dref yn llawn o lawenydd, pan welsant fod y Tywysog ei hun yn hoffi Mr. Profiad gymaint ag y gwnai ef yn gadben.

Felly hwy yn unfrydol a blygasant y glin gerbron Emmanuel, a gyda bloedd a ddywedasant: Bydded Emmanuel byw yn dragywydd. Yna ebe y Tywysog wrth y gŵr ieuanc boneddigaidd, enw yr hwn oedd Mr. Profiad: Mi welais yn dda roddi i ti le o ymddiried ac anrhydedd yn fy nhref yma Man-soul—(yna y gŵr ieuanc a ymgrymodd, ac a addolodd);—hyny yw, ebe Emmanuel, fel y byddit gadben, cadben ar fil o wŷr, yn fy nhref Man-soul. Yna ebe y cadben: Byw byth fyddo y Brenin. Felly y Tywysog a roddes orchymyn yn ebrwydd i ysgrifenydd y Brenin, ar fod iddo ef dynu i fyny gommisiwn i Mr. Profiad i'w wneuthur ef yn gadben ar fil o wŷr, a dyger ef ataf fi, eb efe, fel y gosodwyf fy sêl wrtho. A gwnaethpwyd fel y gorchymynasid; y commisiwn a ysgrifenwyd, ac a ddygwyd at Emmanuel, ac efe a osododd ei sêl wrtho. Yna efe a'i danfonodd ef i'r cadben trwy law Mr. Disgwyliad.

Yn awr, cyn gynted ag y cafodd y cadben ei gommisiwn, efe a ganodd ei udgorn am rai ewyllysgar i fyned i ryfel, a gwŷr ieuainc a ddaethant ato ef ar ffrwst; ïe, y gwŷr penaf yn y dref a ddanfonasant eu meibion i restru eu hunain dano ef.

Fel hyn y daeth Cadben Profiad dan orchymyn Emmanuel, er daioni i dref Man-soul. Yr oedd ganddo yn îs-gadben un Mr. Cyfarwydd, ac yn lle banerwr un Mr. Coffadwriaeth. Ni raid i mi enwi ei swyddogion isaf ef. (1 Sam. xvii. 36, 37.) Ei faner ef ydoedd y faner wèn, am dref Man-soul, a'i ysgwyd ydoedd y llew marw a'r arth marw. Felly y Tywysog a ddychwelodd i'w balas brenhinol drachefn.

Yn awr pan ddychwelodd efe yno, henaduriaid tref Man-soul, sef fy Arglwydd Maer, y Cofiadur, a'r Arglwydd Ewyllysgar, a aethant i'w gyfarch ef, ac yn neillduol i ddiolch iddo am ei ofal, ei gariad, a'i dosturi caredigol, a ddangosasai efe tuag at ei dref Man-soul, yr hon yr oedd arni rwymedigaeth dragywyddol iddo am hyny.

Felly yn mhen enyd, ar ol bod mesur o gymundeb melys rhyngddynt, gwŷr y dref, gan ddibenu eu defod, a ddychwelasant i'w lle drachefn.

Emmanuel, hefyd, a osododd iddynt ddiwrnod, yn yr hwn y byddai iddo ef adnewyddu eu braintlèn hwynt; ïe, yn yr hwn y byddai iddo ei adnewyddu a'i helaethu, gan ddiwygio amryw anmherffeithderau ynddo, fel y byddai iau Man-soul eto yn esmwythach. (Heb. viii. 13. Mat. 11.) A hyn a wnaeth efe heb iddynt hwy ei geisio, sef o'i rad-rodd, a'i feddwl boneddigaidd ei hun. Felly pan anfonasai ef am eu hen un hwynt, a'i weled, efe a'i gosododd heibio, ac a ddywedodd: Yn awr yr hwn sy'n hen, ac yn oedranus, sydd barod i ddiflanu. Efe a ddywedodd hefyd: Tref Man-soul a gaiff un arall, un ag sydd yn well. Y cynwysiad o ba un cymerwch fel y canlyn:

Myfi, Emmanuel, Tywysog heddwch, ac un ag sydd yn caru tref Man-soul yn ddirfawr, wyf, yn enw fy Nhad, ac o'm hynawsedd fy hun, yn rhoddi, yn cenhadu, ac yn gorchymyn i'm hanwyl dref Man-soul:

1. Maddeuant rhad a llawn am eu holl feiau, camweddau, a throseddiadau, a wnaethpwyd ganddynt yn erbyn fy Nhad a minau, eu cymydogion, neu hwy eu hunain. (Heb. viii. Ioan xvii. 8, 14.)

2. Yr ydwyf yn rhoddi iddynt fy nghyfraith sanctaidd, a'm testament, a'r hyn oll a gynwysir ynddo, er eu cysur a'u diddanwch tragywyddol. (2 Pedr i. 4. 2 Cor. vii. 1. Ioan i. 16.)

3. Yr wyf fi hefyd yn rhoddi iddynt gyfran o'r un gras a'r daioni ag sydd yn trigo yn nghalon fy Nhad a minau.

4. Yr ydwyf yn rhoddi, yn cenhadu, ac yn sefydlu arnynt yn rhad, y byd, a'r hyn sydd ynddo, er eu daioni. (1 Cor. iii. 21, 22.) A hwy a gânt y cyfryw awdurdod arno ag a fyddo yn cydsefyll â gogoniant fy Nhad a minau, â'u cysnr hwynt; ïe, yr ydwyf fi yn caniatâu iddynt lesâd bywyd a marwolaeth, a phethau presenol, a phethau i ddyfod. Y rhagorfraint yma ni chaiff un ddinas arall, tref, neu gorphoraeth, mo hono, ond fy Man-sonl yn unig.

5. Yr ydwyf yn rhoddi ac yn cenhadu iddynt ryddid i nesâu yn rhwydd at fy mhalas ar bob amser, ac ar bob achos, ac yno i wneuthur eu hangenrheidiau yn hyspys i mi; ac yr ydwyf fi hefyd yn rhoddi iddynt addewid y bydd i mi eu gwrando hwynt, a diwygio eu gorthrymderau hwynt oll. (Heb. x. 19, 20. Mat. vii. 7.)

6. Yr ydwyf yn rhoddi ac yn cenhadu i, ac yn awdurdodi i dref Man-soul, â chyflawn allu ac awdurdod, i chwilio allan, i gymeryd, i gaethiwo, ac i ddifetha pob un, a phob math o Ddiaboloniaid, o ba le bynag y byddont, ag a gaffer, ar unrhyw amser, yn crwydro yn, neu oddiamgylch tref Man-soul.

7. Yr wyf fi, yn mhellach, yn cenhadu i'm hanwyl dref Man-soul, fod iddynt gael awdurdod i beidio a goddef neb alltudion, neu ddieithriaid, na'u hiliogaeth, i

fod yn rhydd yn, ac o'r wynfydedig dref Man-soul, nac yn gyfranogion o'i rhagorol freintiau hi. Ond yr holl ryddid, a'r rhagorfreintiau, a'r manteision yr ydwyf fi yn eu sefydlu ar yr enwog dref Man-soul, a fydd i'r cyfryw rai o'r hen drigolion genedigol, a'r gwir gyfaneddwyr o honi; iddynt hwy, meddaf, ac i'w had ar eu hol hwynt. (Eph. iv. 22. Col. iii. 5—9.) Ond yr holl Ddiaboloniaid, o ba fath bynag, neu enedigaeth, gwlad, neu deyrnas y byddont, a gauir allan oddiwrth fod yn gyfranogion o honynt.

Felly pan gafodd tref Man-soul eu brantlèn grasol (yr hwn, ynddo ei hunan, sydd yn anfeidrol fwy helaeth), hwy a'i cyhoeddasant ef, a hyny yn y farchnadfa, ac yno Mr. Cofiadur a'i darllenodd ef yn ngŵydd yr holl bobl. (2 Cor. iii. 33. Heb. viii 10.) Wedi gwneuthur hyn, fe'i dygwyd ef yn ol at byrth y castell, ac yno fe'i argraffwyd yn dêg ar y drysau, mewn llythyrenau aur, fel y byddai i dref Man-soul, yn nghyd â'i holl bobl, ei gael bob amser yn eu golwg, neu fel y gallent fyned, lle y gwelent pa fath ryddid gogoneddus yr ydoedd eu Tywysog wedi ei sefydlu arnynt, fel y chwanegid eu llawenydd ynddynt eu hunain, ac yr adnewyddid eu cariad at eu goruchel a'u daionus Emmanuel. Ond, O! pa lawenydd, pa gysur, pa ddiddanwch, dybygwch chwi, oedd yn bresenol yn medianuu calonau gwŷr Man-soul! y clychau a ganasant, y pibau a ganasant, y bobl a ddawnsiasant, y cadbeniaid a floeddiasant, y banerau a chwifiasant yn y gwynt, yr udgyrn a ganasant, a'r holl Ddiaboloniaid yn bresenol oedd dda ganddynt gael lle i guddio eu penau.

Pan ddarfu hynyma, y Tywysog a anfonodd am henuriaid Man-soul, ac a ymddiddanodd â hwynt yn nghylch gweinidogaeth ag yr ydoedd ef yn amcanu ei gosod i fyny yn eu plith hwynt, y cyfryw weinidogaeth ag a allai egluro iddynt, a'u hyfforddi hwynt yn y pethau a berthynai i'w cyflwr presenol, a'r hwn oedd i ddyfod. Canys, eb efe, chwychwi, o honoch eich hunain, heb fod i chwi ddysgawdwyr a chyfarwyddwyr, nid ellwch wybod, ac oni bydd i chwi allu ei wybod, yna byddwch sicr nas bydd i chwi wneuthur ewyllys fy Nhad. (Jer. x. 33. 1 Cor. ii. 14.)

Ar y newydd yma, pan ddug henuriaid Man-soul ef at y bobl, yr holl dref a ddaeth yn nghyd ar redeg (canys yr oedd yn eu boddio hwynt yn fawr, megis ag yr oedd beth bynag a wnai y Tywysog yn bresenol yn boddio y bobl), a phawb yn gytun a ddeisyfasant ar ei Fawrhydi, ar iddo ef yn ebrwydd osod i fyny yn eu plith hwynt y cyfryw weinidogaeth ag a ddysgai iddynt hwy gyfraith a barn, deddf a gorchymyn, fel y dysgid hwynt yn mhob peth da ac iachusol. Felly efe a ddywedodd wrthynt, y caniatâi efe eu dymuniadau hwynt, ac y gosodai ef ddau i fyny yn eu plith hwynt, un o lys ei Dad, ac un a anwyd yn Man-soul.

Yr hwn sydd o'r neuadd, neu y llys, eb efe, sydd berson nad yw ddim llai ei fawredd a'i anrhydedd na'm Tad a minau—(2 Pedr i. 21. 1 Cor. ii. 10. Ioan i. 1. 1 Ioan v. 7)—canys efe yw yr Arglwydd Pen-Ysgrifenydd ar dŷ fy Nhad;—efe

sydd, ac erioed oedd, y dehonglwr penaf o holl gyfreithiau fy Nhad, person ag sydd yn gyfarwydd iawn yn mhob dirgeledigaethau, a gwybodaeth o ddirgeledigaethau, megis ag y mae fy Nhad, neu megis ag yr wyf fi fy hunan. Yn wir, un yw efe â ni mewn anian, ac hefyd mewn perthynas i gariad at, a bod yn ffyddlon i, ac mewn tragywyddol ofal am Man-soul.

A hwn yw efe, ebe y Tywysog, yr hwn sydd raid fod yn ddysgawdwr penaf i chwi; canys efe, ac efe yn unig, a all eich dysgu chwi yn eglur yn mhob pethau uchel a goruwchnaturiol. Efe, ac efe yn unig, sydd yn gwybod ffordd a threfn llys fy Nhad; ac nid all neb fel efe ddangos fel y mae calon fy Nhad bob amser yn mhob peth, ac ar bob achosion, tuag at Man-soul; canys megis ag nad adwaen neb bethau dyn, ond yspryd dyn yr hwn sydd ynddo—(Job xiv. 26; xvi. 13. 1 Ioan ii. 27)—felly pethau fy Nhad, nid edwyn neb ond hwn, ei uchel gadarn ysgrifenydd ef; ac nid all neb fel efe fynegu i Man-soul pa fodd, a pha beth a wnant i'w cadw eu hunain yn nghariad fy Nhad. Efe hefyd yw yr hwn a all ddwyn pethau ag sydd wedi myned yn angof i'ch cof chwi, ac a fynega i chwi bethau i ddyfod. Y mae yn angenrhaid, gan hyny, i'r dysgawdwr yma gael y blaenoriaeth, yn gystal yn eich serchiadau ag yn eich barn, o flaen eich dysgawdwr arall; ei anrhydedd personol, rhagoriaeth ei waith yn dysgu, a'r deheurwydd mawr sydd ganddo i'ch cynorthwyo i wneuthur, ac i dynu i fyny erfyniadau at fy Nhad, er eich cymhorth chwi, ac er rhyngu bodd iddo yntau, a ddylai osod rhwymedigaeth arnoch chwi i'w garu a'i ofni, ac edrych na byddo i chwi ei dristâu ef. (1 Thes. i. 5, 6.)

Y person yma a ddichon roddi bywyd ac egni yn mhob peth ag a ddywedo efe; ïe, ac a all ei roddi yn eich calonau chwithau hefyd. (Act. xxi. 10, 11.) Y person yma a all wneuthur gweledyddion o honoch chwi, ag a ddichon wneuthur i chwi fynegu yr hyn a fydd yn yr amser a ddaw. (Judas xx. Eph. vi. 18. Rhuf. viii. 26. Dat. ii. 7, 11, 17, 29. Eph. iv. 30. Esay lxiii. 13.) Trwy gyfarwyddyd y person hwn y lluniwch eich holl erfyniadau at fy Nhad a minau, ac na adewch i ddim ddyfod i mewn i dref neu gastell Man-soul heb i chwi gael ei gyngor a'i gyfarwyddyd ef, canys hyny a all flino a thristâu y person gogoneddus yma.

Edrychwch, meddaf, na thristâoch y gweinidog yma, canys os gwnewch, efe a all ymladd yn eich erbyn; ac os cyffröir ef unwaith genych chwi i ymosod ei hun yn eich erbyn—sef yn eich erbyn mewn brwydr drefniadol, hyny a'ch tralloda chwi yn fwy na phe byddai i ddeuddeg lleng o lys fy Nhad gael eu danfon i wneuthur rhyfel arnoch chwi. Ond, fel y dywedais, os gwrandewch chwi arno ef, a'i garu; os rhoddwch eich hunain iddo i'ch dysgu chwi, a cheisio ymddiddan, a myntumio cymundeb ag ef, chwi a'i cewch ef ddengwaith yn well na'r holl fyd i un dyn. (1 Cor. xiii. 14. Rhuf. v. 5.) Ië, efe a dywallt gariad fy Nhad yn eich calonau chwi, a Man-soul a fydd y doethaf a'r gwynfydedicaf o'r holl bobloedd.

Yna galwodd y Tywysog ato yr hen ŵr bonheddig, yr hwn o'r blaen a fuasai yn gofiadur yn Man-soul, Mr. Cydwybod wrth ei enw, ac a ddywedodd wrtho: Mai yn gymaint a'i fod ef yn gyfarwydd yn nghyfraith a llywodraeth tref Man-soul, ac yn ymadroddus, ac a allai yn berthynasol draddodi iddynt ewyllys ei Feistr yn mhob materion daearol a chartrefol; oherwydd paham, efe a'i gwnai yntau hefyd yn weinidog ar, yn, ac i'r dref ddaionus Man-soul, yn yr holl gyfreithiau, deddfau, a barnedigaethau, ag sydd yn perthynu i'r dref enwog Man-soul. Ac y mae yn rhaid i ti, ebe y Tywysog, osod dy hun heibio at ddysgu rhinweddau moesol, ac at ddysgu rhinweddau moesol, ac at ddysgu dyledswyddau naturiol a gwladol; ond nid oes le i ti gynyg rhyfygu bod yn ddatguddiwr o'r dirgeledigaethau uchel, goruwchnaturiol hyny, y rhai sydd yn nghadw yn guddiedig yn mynwes fy Nhad Shad-dai, canys y pethau hyny nid edwyn un dyn, ac nis gall neb eu datguddio hwynt ond Ysgrifenydd neu Gyfrinachwr fy Nhad yn unig. Tydi wyt enedigol o dref Man-soul, ond yr Arglwydd-Ysgrifenydd sydd un hanfodol gyda'm Tad; oherwydd paham, megis ag y mae genyt ti gydnabyddiaeth o gyfreithiau a defodau y corphoraeth, felly y mae ganddo yntau am bethau ysprydol, ac am ewyllys fy Nhad.

Oherwydd paham, O! Mr. Cydwybod! er i mi dy wneuthur yn weinidog ac yn bregethwr i dref Man-soul, eto mewn perthynas i'r pethau a ŵyr yr Arglwydd Ysgrifenydd, ac a ddysg efe i'r bobl yma, yn y pethau hyny y mae yn rhaid i ti fod yn ysgolhaig iddo ef, a dysgu ganddo, megis ag y mae yn rhaid i'r rhelyw o wŷr Man-soul fod.

Y mae yn rhaid i ti, gan hyny, yn mhob peth uchel a goruwchnaturiol, fyned ato ef am gyfarwyddyd; canys er fod yspryd mewn dyn, ysprydolrwydd y person yma sydd raid roddi iddo ef ddealldwriaeth. (Job xxxiii. 8.) Oblegid paham, O! tydi Mr. Cofiadur! bydd ostyngedig, a chofia i'r Diaboloniaid, y rhai ni chadwasant eu siars cyntaf, ond a adawsant eu sefyllfa eu hunain, eu bod yn awr wedi eu gwneuthur yn garcharorion yn y pwll; bydd di, gan hyny, yn foddlon i'th sefyllfa. Myfi a'th wnaethum di yn rhaglaw i fy Nhad ar y ddaear, yn y cyfryw bethau ag y soniais am danynt o'r blaen; a chymer di awdurdod i'w dysgu hwynt i Man-soul; ïe, ac i'w cymhell hwynt â ffrewyllau ac â cheryddon, os na wrandawant yn ewyllysgar ar dy orchymynion di.

A Mr. Cydwybod, am dy fod di yn hen ac yn fethiedig, am hyny yr wyf fi yn rhoddi i ti genad a rhyddid i fyned pan fynech at fy ffynon a'm pistyll i, ac yno yfed yn helaeth o waed fy ngrawnsypiau, canys y mae fy mhistyll i yn wastadol yn rhedeg o win. (Heb. ix. 14.) Wrth wneuthur fel hyn, ti a yri ymaith o'th galon a'th gylla yr holl aflendid, ffieidd-dra, a'r tymherau afiachus; efe hefyd a lewyrcha dy lygaid, ac a gadarnha dy gof di, i dderbyn ac i gadw yr hyn oll ag a fyddo y boneddigeiddiaf Ysgrifenydd y Brenin yn ei ddysgu.

Pan ddarfu i'r Tywysog fel hyn osod Mr. Cofiadur (yr hwn a fuasai unwaith felly) mewn lle a swydd gweinidog i Man-soul, ac i'r gŵr ei dderbyn yn ddiolchgar, yna y darfu i Emmanuel gyfeirio ei hun at wŷr y dref eu hunain.

Gwelwch, ebe y Tywysog wrth Man-soul, fy nghariad a'm gofal tuag atoch chwi, myfi a chwanegais at yr hyn oll a basiodd, y drugaredd yma, gan osod i chwi bregethwyr: y boneddigaf Ysgrifenydd i'ch dysgu chwi yn mhob uchel ddirgeledigaethau; a'r gŵr bonheddig yma, gan edrych ar Mr. Cydwybod, sydd i'ch dysgu yn mhob peth cynefin a dynol, canys hyny yw ei waith ef. Nid ydyw efe, trwy yr hyn a ddywedais i, wedi ei gau allan rhag mynegi i Man-soul bobpeth ag a glywodd ef gan yr Arglwydd Ysgrifenydd Uchel; yn unig ni chaiff ef gynyg rhyfygu cymeryd arno fod yn ddatguddiwr o'r dirgeledigaethau hyny ei hunan, canys y datguddiad o honynt, a'r amlygiad o honynt i Man-soul, sydd yn unig yn ngallu, awdurdod, a chyfarwyddyd yr Arglwydd Ysgrifenydd ei hun; ymddiddan am danynt a all, ac felly y gall y rhan arall o dref Man-soul, fel y byddo yr achos a'r amser yn rhoddi, a'u cymhell hwynt y naill ar y llall, er llesâd i bawb.

Y pethau hyn yr wyf fi yn ewyllysio i chwi ddal arnynt, a'u gwneuthur, canys eich bywyd, ac estyniad eich dyddiau ydynt. Un peth yn ychwaneg i'm hanwyl dref Man-soul: nid oes i chwi aros yn, neu orphwys ar ddim o'r hyn sydd ganddo mewn commisiwn i ddysgu i chwi mewn perthynas i'ch ymddiried a'ch disgwyliad am y byd nesaf—(y byd nesaf, meddaf, canys yr wyf fi yn amcanu un arall i Man-soul, pan y byddo hwn gyda hwynt wedi ei wisgo allan);—ond am hyny y mae yn rhaid i chwi gyrchu at, a gorphwys ar ei athrawiaeth ef, yr hwn yw eich dysgawdwr yn ol y drefn gyntaf. Ië, nid yw Mr. Cofiadur ei hun i edrych am fywyd oddiwrth yr hyn y mae yn ei ddatguddio ei hun; ei bwys a'i oglud am hyny sydd raid fod wedi ei sylfaenu yn, neu ar athrawiaeth y pregethwr arall. Edryched Mr. Cofiadur na byddo iddo ef dderbyn un athrawiaeth, neu bwnc o athrawiaeth, nas cyfranwyd iddo gan ei ddysgawdwr penaf, neu eto fydd o fewn cyrhaedd i'w wybodaeth ffurfiol ei hunan.

Yn awr wedi i'r Tywysog yn y modd yma sefydlu pethau yn yr enwog dref Man-soul, efe a aeth rhagddo i roddi y rhybudd angenrheidiol i henaduriaid y corphoraeth, hyny yw, y modd y dylent ymddwyn eu hunain tuag at y cadbeniaid boneddigaidd a ddarfuasai iddo ef ddanfon am danynt, neu eu dwyn gydag ef o lys ei Dad i mewn i'r enwog dref Man-soul. Y cadbeniaid yma, eb efe, sydd yn caru tref Man-soul, a gwŷr ydynt a etholwyd allan o blith llaweroedd, megis gwŷr ag sydd yn gweddu oreu, ac a wasanaetha yn y modd mwyaf ffyddlon yn rhyfeloedd Shad-dai yn erbyn y Diaboloniaid, er diogelwch tref Man-soul.

Yr wyf fi, gan hyny, yn gorchymyn i chwi, eb efe, O! chwychwi drigolion y bresenol flodeuog dref Man-soul! na byddo i chwi ymddwyn eich hunain yn

anaddas tuag at fy nghadbeniaid neu eu gwŷr, yn gymaint a'u bod yn wŷr dewisol, etholedig, a gwŷr a ddewiswyd allan o lawer, er llesâd i dref Man-soul. Meddaf, yr wyf yn rhoddi siars arnoch na byddo i chwi ymddwyn eich hunain yn anaddas tuag atynt; canys er fod ganddynt galonau a gwynebau llewod, pa bryd bynag y gelwir arnynt allan i ymladd â gelynion y Brenin, a gelynion tref Man-soul, eto ychydig o ddirmyg oddiwrth dref Man-soul a'u gwanhâ, ac a deifl i lawr eu hwynebau hwynt, ac a'u llesgâ, ac a'u digalona hwynt. Nac ymddygwch, gan hyny, yn anghariadus tuag at fy nghadbeniaid cedyrn, a'm rhyfelwyr calonog, ond cerwch hwynt, maethwch hwynt, ymgeleddwch hwynt, a gosodwch hwynt yn eich mynwesau, ac nis bydd iddynt yn unig ymladd drosoch, ond a barant i'r holl Ddiaboloniaid hyny ag sydd yn ceisio (a phe byddai yn bosibl, hwy a wnaent hyny) eich distrywio yn hollol, i ffoi oddiwrthych.

Os, gan hyny, y digwydd i un o honynt, ar unrhyw amser, i fod yn glaf, neu yn wàn, ac felly yn anabl i gyflawni y ddyledswydd hyny o gariad, yr hon â'u holl galonau y maent yn ewyllysgar i'w gwneuthur, ac hefyd a wnant pan fyddont yn iach ac yn hwylus—(Heb. xii. 12. Esay xxxv. 3)—na ddiystyrwch, ac na ddirmygwch hwynt, ond yn hytrach cadarnhewch a chefnogwch hwynt, er eu bod yn wàn ac yn barod i farw, canys eich amddiffyn a'ch gosgordd ydynt, eich muriau, eich pyrth, eich cloiau, a'ch barau. (Dat. iii. 2. 1 Thes. v. 14.) Ac er pan fyddont yn weinion, nad allant wneuthur ond ychydig, ond yn hytrach yn angenrheidiol iddynt hwy gael eu cynorthwyo genych chwi, na boed i chwi y pryd hyny ddisgwyl pethau mawrion oddiwrthynt; eto pan fyddont yn iach, chwi a wyddoch pa weithredoedd milwriaethus ardderchog a allant eu gwneuthur, ac a gyflawnant drosoch chwi.

Heblaw hyn, os byddant yn weinion, nis gall tref Man-soul fod yn gadarn; os byddant hwy yn gedyrn, yna nis gall tref Man-soul fod yn wàn. Eich diogelwch, gan hyny, sydd yn sefyll yn, neu ar eu hiechyd hwynt, ac yn eich gwaith yn eu mawrhau hwynt. Cofiwch hefyd, os claf a fyddont, eu bod yn cael y clefyd hwnw oddiwrth dref Man-soul ei hun.

Y pethau hyn a ddywedais i wrthych, oblegid fy mod i yn caru eich llwyddiant a'ch anrhydedd chwi. Dàl sylw, gan hyny, O! fy Man-soul! gan fod yn neillduol yn yr holl bethau a orchymynais i ti, a hyny nid yn unig megis tref wedi ei chorphori, ac felly wrth eich swyddogion a'ch gosgordd, a'ch cyfarwyddwyr yn benaf, ond wrthych chwi, fel ag yr ydych yn bobl, llwyddiant pa rai, fel personau sengl, sydd yn ymddibynu ar eu gwaith yn cadw trefniadau a gorchymynion eu Harglwydd.

Yn nesaf, O! fy Man-soul, yr ydwyf fi yn eich rhybuddio o'r hyn y mae eisieu eich rhybuddio chwi o'i blegid, serch y diwygiad hyny ag sydd yn bresenol wedi ei weithio yn eich plith; oherwydd paham, gwrando arnaf yn ddiesgeulus. Myfi, yn bresenol, yn ddiau a wn, a chwithau a gewch wybod ar ol hyn, fod eto rai Diabolon-

iaid yn nhref Man-soul—Diaboloniaid ag sydd yn war-sythion ac yn anghymodlon, ac sydd yn barod tra yr wyf fi gyda chwi, ac a fyddant eto yn fwy pan y byddwyf fi yn absenol oddiwrthych, yn astudio, yn cydfwriadu, yn llyfelu, ac yn dychymygu yn gytun i geisio eich dwyn i anghyfanedd-dra, ac felly i lawer gwaeth cyflwr na chaethiwed yr Aiphtiaid; cyfeillion cyhoeddus Diabolus oeddynt, am hyny bydd wiliadwrus. (Mat. vii. 21, 22.) Yr oeddynt hwy yn arfer lletya hyd yma gyda eu tywysog yn y castell, pan oedd Anghrediniaeth yn Arglwydd Maer ar y dref yma; ond er pan ddaethum i yma, y maent yn llechu yn fwy yn y tu allan, ac yn y muriau, ac a wnaethant iddynt eu hunain ffauau, ogofeydd, tyllau, ac amddiffynfeydd ynddi. (Rhuf. vii. 18.) Oherwydd paham, O! Man-soul! dy waith mewn perthynas i'r peth yma a fydd yn fwy anhawdd a chaled;—hyny yw, i ddal, i farwhau, ac i'w gosod hwynt i farwolaeth, yn ol ewyllys fy Nhad. Ac nid ellwch chwi ychwaith fod yn gwbl rydd oddiwrthynt, oddieithr i chwi dynu i lawr furiau eich tref, yr hyn beth nid ydwyf, mewn modd yn y byd, yn ewyllysio i chwi ei wneuthur. A ydych chwi yn gofyn i mi, Pa beth, gan hyny, a wnawn ni? Wel, byddwch chwi yn ddiwyd, ac ymddygwch fel gwŷr; creffwch ar eu hamddiffynfeydd hwynt, ceisiwch allan eu rhodfeydd, gosodwch arnynt, ac na wnewch ddim heddwch â hwynt; pa le bynag y byddont yn rhodio, yn llechu, neu aros, a pha fath bynag o amodau heddwch a gynygiont i chwi, ffieiddiwch hwynt; a phob peth fydd yn dda rhyngof fi a chwithau. Ac fel y byddo i chwi eu hadnabod yn well oddiwrth wir drigolion Man-soul, myfi a roddaf i chwi yr ysgrifen fèr yma o enwau y rhai penaf o honynt, a hwynt-hwy ydyw y rhai a ganlyn: yr Arglwydd Puteindra, yr Arglwydd Godineb, yr Arglwydd Lleiddiad, yr Arglwydd Digofaint, yr Arglwydd Anlladrwydd, yr Arglwydd Twyll, yr Arglwydd Drwg-lygad, Mr. Meddwdod, Mr. Cyfeddach, Mr. Eilunaddoliaeth, Mr. Hudoliaeth, Mr. Cynen, Mr. Gwynfydau, Mr. Llid, Mr. Ymryson, Mr. Terfysg, a Mr. Heresi. Dyma rai o'r penaf o honynt, O! Man-soul, a'r cyfryw rai ag a geisiant dy ddymchwelyd di â dymchweliad tragwyddol. Y rhai hyn, meddaf, yw y sugnwyr yn Man-soul, ond edrych yn ddiwyd yn nghyfraith dy Frenin, a thydi a gei weled dull eu hwynebau, a'r cyfryw nodau a marciau eraill o honynt, wrth ba rai y gellir eu hadnabod hwynt.

Y rhai hyn, O! fy Man-soul, ac mi a ddymunwn yn galonog i chwi ei wybod yn sicr, os goddefir hwynt i redeg ac i wibio o bob tu i'r dref fel y mynont, hwynt-hwy yn ebrwydd, fel gwiberod, a fwytânt allan eich ymysgaroedd; ïe, gwenwynant eich cadbeniaid, a thorant gîau eich milwyr, a thorant fàrau a bolltau eich pyrth, a dad-ddymchwelant eich presenol flodeuocaf Man-soul i fod yn anialwch diffrwyth anghyfaneddol, ac yn garnedd ddinystriol. Oherwydd paham, fel y cymeroch galon i ddal y fileiniaid yma, pa le bynag y caffoch hwynt, yr ydwyf fi yn rhoddi i chwi, fy Arglwydd Maer, fy Arglwydd Ewyllysgar, a Mr. Cofiadur, yn nghyd â holl drig-

olion tref Man-soul, gyflawn allu a chommisiwn i chwilio am, i ddal, ac i beri gosod i farwolaeth ar y groes, bob math o Ddiaboloniaid, pa le bynag y caffoch hwynt yn llechu tu fewn neu tu allan i gaerau Man-soul.

Myfi a ddywedais i chwi o'r blaen, i mi osod yn eich plith chwi weinidogion sefydlog, nid am nad oes genych chwi neb ond y rhai hyn gyda chwi; canys fy mhedwar cadben cyntaf, pa rai a ddaethant yn erbyn meistr ac arglwydd y Diaboloniaid ag ydoedd yn Man-soul, hwy a allant, os bydd raid, ac os ceisir ganddynt, ni bydd iddynt yn unig gyfarwyddo yn ddirgel, ond pregethu yn gyhoeddus i'r corphoraeth athrawiaeth ag a fyddo yn dda ac iachusol.

Ië, hwy a osodant wythnosol, ac, os bydd raid, feunyddiol ddarlleniad ynot ti, O! Man-soul, ac a'th gyfarwyddant di yn y cyfryw lithiau buddiol, fel, os dalier arnynt, hwy a wnant ddaioni i ti yn y diwedd. Ac edrych atat dy hun, na byddo i ti arbed y gwŷr hyny ag y mae genyt gommisiwn i'w dal ac i'w croeshoelio.

Yn awr, megis y gosodais i allan o flaen eich llygaid y crwydriaid a'r gwibiaid wrth eu henwau, felly y dywedaf i chwi, mai yn eich plith eich hunain yr ymlusga rhai o honynt i'ch twyllo chwi, sef y cyfryw rai ag a ymddangosant eu bod, a hyny mewn golwg megis yn wresog iawn am grefydd. A hwynt-hwy, os na byddwch wiliadwrus, a wnant niwaid i chwi, a'r cyfryw niwaid ag nad ydych chwi yn meddwl am dano. Y rhai hyn a ymddangosant i chwi mewn lliw arall, neu amgenach na'r cyfryw rai ag a ddesgrifiwyd o'r blaen; oherwydd paham, byddwch wiliadwrus a sobr, ac na oddefwch gymeryd eich bradychu.

Pan ddarfu i'r Tywysog mor belled a hyn adnewyddu Man-soul, a'u hyfforddi hwynt yn y cyfryw faterion ag ydoedd fuddiol iddynt eu gwybod; yna efe a osododd ddiwrnod arall iddynt, yn yr hwn yr arfaethodd, pan ddeuai gwŷr y dref yn nghyd, i roddi iddynt yn mhellach arwydd arall o anrhydedd; arwydd ag a'u gwahaniaethai hwynt oddiwrth bob pobl, a chenhedloedd, ac ieithoedd, ag sydd yn trigo yn nheyrnas Mundus. Yn awr ni bu hi yn neppell nes i'r diwrnod gosodedig ddyfod, a'r Tywysog a'i bobl a gyfarfuasant yn mhalas y Brenin; pa le, yn gyntaf, y darfu i Emmanuel wneuthur araeth fêr wrthynt, ac yna efe a wnaeth erddynt fel y dywedasai, ac iddynt fel yr addawsai.

Fy Man-soul, eb efe, yr hyn yr ydwyf yr awr hon ar fedr ei wneuthur, ydyw gwneuthur yn amlwg i'r byd mai eiddof fi ydych, ac i'ch gwahaniaethu chwi hefyd yn eich golwg eich hunain oddiwrth bob gau fradwyr a ymlusgo i mewn yn eich plith chwi.

Yna efe a orchymynodd ar fod i'r cyfryw rai ag oedd yn gwasanaethu arno ef fyned a chyrchu allan o'i drysordy ef y gwisgoedd gwynion disglaer hyny a ddarfu i mi, eb efe, eu darparu a'u trysori i fyny i fy Man-soul. Felly y gwisgoedd gwynion a gyrchwyd, ac a osodwyd allan o flaen llygaid y bobl. (Dat. xix. 8.)

Felly hefyd fe ganiatâwyd iddynt i'w cymeryd, ac i'w gwisgo hwynt. Felly y bobl a wisgwyd mewn gwisgoedd gwynion, mewn lliain main, gwyn a glân.

Yna ebe y Tywysog wrthynt hwy: Dyma fy lifrau i, O! Man-soul, a'r arwydd wrth yr hwn yr adnabyddir yr eiddof fi oddiwrth weision rhai eraill. Ië, yr hyn ydyw ag yr ydwyf fi yn ei ganiatâu i'r rhai oll ag sydd eiddof fi, ac heb yr hwn nis caniateir i un dyn weled fy wyneb. Gwisgwch hwynt, gan hyny, er fy mwyn i, yr hwn a'u rhoddais hwynt i chwi, ac hefyd os ewyllysiwch gael eich cydnabod gan y byd eich bod yn eiddo i mi.

Ond yn awr, a ellwch chwi feddwl fel yr oedd Man-soul yn disgleirio? Yr oedd yn dêg fel y lleuad, yn bur fel yr haul, ac yn ofnadwy fel llu banerog!

Y Tywysog a chwanegodd yn mhellach, ac a ddywedodd: Nid oes un tywysog, na phenaeth, neu un o rai mawrion y byd, yn rhoddi y lifrau yma ond myfi fy hunan. Gwelwch, gan hyny, megis ag y dywedais o'r blaen, chwi a adwaenir wrthynt, mai myfi a'ch piau chwi.

Yn awr, eb efe, myfi a roddais i chwi fy lifrau, gadewch i mi hefyd roddi i chwi orchymyn o'u plegid hwynt; a byddwch sicr i edrych yn ddiwyd at fy ngeiriau.

1. Gwisgwch hwynt yn feunyddiol, o ddydd i ddydd, rhag i chwi, ar ryw brydiau, ymddangos i eraill fel nas byddech yn eiddo i mi. (Preg. ix. 8.)

2. Cedwch hwynt bob amser yn wynion; canys os llychwynir hwynt, y mae hyny yn ddianrhydedd i mi. (Dat. iii. 2.)

3. Gan hyny, gwregyswch hwynt i fyny oddiar y ddaear, ac na lychwiner hwynt gan lwch a llaid.

4. Edrychwch na byddo i chwi eu colli hwynt, rhag i chwi rodio yn noethion, ac iddynt hwy weled eich gwarth chwi.

5. Ond pe byddai i chwi eu diwyno hwy, neu eu halogi, yr hyn yr ydwyf yn anfoddlon iawn i chwi ei wneuthur, a'r tywysog Diabolus a fydd llawen ganddo pe gwnaech—(Dat. vii. 15—17)—yna brysiwch i wneuthur yr hyn sydd ysgrifenedig yn fy nghyfraith i, fel y galloch eto sefyll, ac na syrthioch o'm blaen i, ac o flaen fy ngorseddfainc. (Luc xxi. 36.) Hefyd, dyma y ffordd i beri na byddo i mi eich gadael na'ch gwrthod chwi tra byddir yma, ond trigo o honof yn y dref yma Man-soul yn dragywydd.

Yn awr yr ydoedd Man-soul a'i thrigolion fel y sêl ar law ddehau Emmanuel; Pa le, yn awr, yr oedd tref, dinas, neu gorphoraeth, ag a allai ymgystadlu â Man-soul?—tref a waredasid odditan law a than allu Diabolus; tref ag yr ydoedd y Brenin Shad-dai yn ei charu, ac yr anfonasai efe Emmanuel ei Fab i'w henill yn ol oddiar dywysog yr ogof uffernol; ïe, tref ag yr ydoedd Emmanuel yn hoffi trigo ynddi, ac a ddewisasai efe yn drigfa freiniol iddo ei hunan; tref a gadarnhaodd iddo ei hun, ac a wnaethai yn gryf trwy rym ei luoedd. Pa beth a ddywedaf?—yr oedd

gan Man-soul yn bresenol y Tywysog mwyaf rhagorol, cadbeniaid auraidd, a milwyr, arfau profadwy, a gwisgoedd cyn wyned a'r eira. Nid ydyw, ychwaith, y dynion yma yn bethau i'w cyfrif yn fychain, ond yn fawrion; a all Man-soul eu cyfrif hwy felly, a'u gosod hwynt allan i'r diben a'r amcan, er mwyn pa un y rhoddwyd iddynt?

Pan ddarfu i'r Tywysog fel hyn berffeithio diwygiad y dref, i ddangos fod ganddo ef hoffder mawr yn ngwaith ei ddwylaw, a'i fod ef yn cymeryd pleser yn y daioni a wnaethai efe i'r enwog a'r flodeuog Man-soul, efe a orchymynodd, a hwynt-hwy a osodasant i fyny ei luman ef ar ganllawiau y castell. Ac yna, yn

1. Efe a roddodd iddynt hwy aml ymweliadau; nid oedd un diwrnod yn awr nad oedd yn rhaid i henaduriaid Man-soul fyned ato ef, neu efe atynt hwy, i'w balas. (2 Cor. vi. 16.) Yn awr yr ydoedd yn rhaid iddynt rodio ac ymddiddan yn nghyd am yr holl bethau mawrion a wnaethai efe, ac eto yn mhellach a addawsai ef ei wneuthur i dref Man-soul. Fel hyn, yn fynych, y gwnai efe â'r Arglwydd Maer, fy Arglwydd Ewyllysgar, a'r gonest raglawiol bregethwr, Mr. Cydwybod, a Mr. Cofiadur. Ond, O! mor rasol, mor hawddgar, mor garedigol, ac mor dyner yr ymddygodd y Tywysog bendigedig yma tuag at dref Man-soul; yn yr holl heolydd, gerddi, perllanoedd, a lleoedd eraill, y daeth efe iddynt, yn ddiau y tlodion a gai ei rad a'i fendith; ie, efe a'u cusanai hwynt, ac os byddent yn glaf, efe a osodai ei ddwylaw arnynt, ac a'u gwnai hwynt yn iach. Y cadbeniaid, hefyd, yn feunyddiol, ac weithiau bob awr, a gefnogai efe â'i bresenoldeb, ac â'i eiriau daionus; canys y mae yn rhaid i chwi wybod mai gwên oddiwrtho ef arnynt hwy, a osodai fwy o fywiogrwydd, bywyd, ac egni, ynddynt hwy, nag un peth arall dan y nefoedd.

Y Tywysog hefyd, yn awr, a'u gwleddai hwynt, ac a fyddai gyda hwynt yn wastadol; braidd yr âi wythnos heibio nad oedd yn rhaid bod cyfeddach rhyngddo ef a hwynt. (1 Cor. v. 8.) Chwi a ellwch gofio mai rhywfaint o dudalenau o'r blaen y soniasom am un wledd a gawsant yn nghyd, ond yn awr eu gwledda hwynt oedd beth mwy cyffredin; pob diwrnod gyda Man-soul oedd ddydd gwledd yn awr. Ac ni ddarfu iddo ef, pan ddychwelasant i'w lleoedd, eu danfon hwynt ymaith yn waglaw, naill ai yr oedd yn rhaid iddynt gael modrwy, neu gadwyn aur, ai breichled, ai careg wên, neu rywbeth; gan mor anwyl yr oedd Man-soul ganddo yn bresenol, a mor hawddgar ydoedd Man-soul yn ei olwg ef.

2. Pryd na ddeuai henuriaid a gwŷr y dref ato ef, efe a ddanfonai i mewn y fath gyflawnder o arlwyaeth iddynt hwy—bwyd a ddaeth o'r llys, gwin a bara a ddarparesid i fwrdd ei Dad; ïe, y cyfryw ddanteithion a ddanfonai efe iddynt, ac â hwynt efe a lanwai eu bwrdd yn y cyfryw fodd fel y darfu i bwy bynag a'i gwelodd ef, gyfaddef nas gellid gweled y cyffelyb yn un deyrnas.

3. Pan na byddai Man-soul yn ymweled yn fynych âg ef, fel yr oedd efe yn ewyllysio iddynt wneuthur, efe a rodiai atynt hwy, ac a geisiai ddyfod i mewn, fel y

byddai i gyfeillgarwch gael ei gynnal rhyngddynt hwy ag ef; os clywent ac agoryd iddo, megis yn gyffredin y gwnaent os byddent gartref, yna yr adnewyddai efe ei gariad gynt, ac a'i cadarnhai ef hefyd â rhyw amneidiau newyddion, ac arwyddion o ffafr barhaus. (Dat. iii. 20. Can. v. 2.) Ac onid oedd hi yn awr yn beth rhyfeddol i weled, mai yn y lle hyny ag y cawsai Diabolus rywbryd ei drigfan, a'r lle yr oedd yn croesawu ei Ddiaboloniaid, er agos hollol ddistryw Man-soul, y byddai i Dywysog y tywysogion eistedd, a bwyta ac yfed gyda hwynt, tra yr ydoedd ei gadbeniaid cedyrn ef, a'i filwyr, a'i udganwyr, gyda chantorion a chantoresau ei Dad, yn sefyll oddiamgylch yn gwasanaethu arnynt? Yn awr yr oedd phiol Man-soul yn colli drosti, yr oedd ei phibellau yn rhedeg o win melys: yn awr y bwytâodd hi frasder gwenith, ac yr yfodd win a llaeth allan o'r graig; yn awr y dywedodd hi: Mor fawr yw ei ddaioni ef; canys er pan gefais ffafr yn ei olwg, mor anrhydeddus y bum i! Y Tywysog bendigedig, hefyd, a ordeiniodd swyddog newydd yn y dref. (Col. iii. 15), a pherson daionus ydoedd; ei enw ef ydoedd Mr. Heddwch-Duw. Y gŵr yma a osodwyd ar fy Arglwydd Ewyllysgar, fy Arglwydd Maer, Mr. Cofiadur, y Pregethwr Rhaglawiol, a Mr. Meddwl, ac ar yr holl rai ag oedd â'u haniad o dref Man-soul. Nid oedd efe ei hun â'i haniad o honi, ond efe a ddaeth gyda y Tywysog Emmanuel o'r llys. Yr oedd efe yn gydnabyddus iawn â Chadben Crediniaeth, ac â Chadben Gobaith-da; fe ddywed rhai eu bod yn perthyn y naill i'r llall, ac yr ydwyf finau o'r farn hyny hefyd. (Rhuf. xv. 13.) Y gŵr hwn, fel y dywedais, a wnaethpwyd yn llywodraethwr ar y dref yn gyffredinol, yn enwedigol ar y castell, a Chadben Crediniaeth ydoedd yno i'w gynorthwyo ef. Ac mi a ddeliais sylw manwl arni, mai tra yr aeth pob peth yn Man-soul fel yr oedd y gŵr bonheddig caruaidd yma yn ewyllysio, yr oedd y dref yn y cyflwr mwyaf hapus. Nid oedd yn bresenol yno ddim anghydfod, ymryson, nac ymraniadau, na gweithredoedd anffyddlon yn holl dref Man-soul; pob gŵr yno oedd yn cadw yn gyson yn ei alwedigaeth. Y boneddigion, y swyddogion, a'r milwyr, a phawb ag oedd mewn lleoedd, a gadwasant eu trefn. Ac am y gwragedd a'r plant ag ydoedd yn perthynu i'r dref, hwy a ddilynasant eu gorchwylion yn llawen; hwy a weithient ac a ganent o'r boreu hyd yr hwyr; felly yn awr trwy holl dref Man-soul nid oedd dim i'w gael, neu i'w weled, ond cysondeb, llonyddwch, gorfoledd, ac iechyd. A hyn a barhaodd trwy yr haf hyny.

Ond yr oedd gŵr yn y dref, a'i enw oedd Mr. Hyder-gnawdol. Fe ddarfu i'r gŵr hwn, ar ol i'r holl drugaredd yma gael ei gyfranu ar y corphoraeth hwn, ddwyn tref Man-soul i galedi mawr a chaethiwed gofidus. Hanes byr o hono ef, a'i weithredoedd, cymerwch fel y canlyn:

Pan ddarfu i Diabolus ar y cyntaf gymeryd meddiant o dref Man-soul, efe a ddug gydag ef ei hunan yma lawer o Ddiaboloniaid, gwŷr yr un fath ag yntau. Yn

awr, yn mhlith y rhai hyn yr oedd un, enw yr hwn oedd Mr. Hunan-dyb, a dyn gwych hynod ydoedd efe, cystled a neb ag ydoedd yn meddiannu tref Man-soul yn y dyddiau hyny. Diabolus, gan hyny, gan ddirnad y dyn ei fod yn fywiog ac yn ëon, efe a'i danfonodd ef ar lawer o amcanion enbyd, y rhai a driniodd efe yn well, ac yn fwy i foddlonrwydd ei arglwydd, nag a allai y rhan fwyaf ag a ddaeth gydag ef o'r ffauau ei wneuthur. Oherwydd paham, gan ei fod yn ei weled mor gymhwys at ei waith ef, efe a'i dyrchafodd ef, ac a'i gwnaeth ef yn nesaf at yr Arglwydd mawr Ewyllysgar, am yr hwn y dywedasom o'r blaen. Yn awr yr Arglwydd Ewyllysgar, gan ei fod, yn y dyddiau hyny, yn ddigon boddlon iddo ef, a'i weithredoedd, efe a roddes iddo ef ei ferch, yr Arglwyddes Ofni-dim, yn wraig. Yn awr o'm Harglwyddes Ofni-dim y darfu i Mr. Hunan-dyb genhedlu y gŵr bonheddig hwn, Mr. Hyder-gnawdol. Oherwydd paham, gan fod yno y pryd hyny y cyfryw gymysgiadau o rywiogaethau, yr oedd yn anhawdd iddynt, mewn rhyw bethau, chwilio allan pwy oedd wedi eu geni a'u magu yn y dref, a phwy nid oedd; canys Mr. Hyder-gnawdol a darddasai oddiwrth fy Arglwydd Ewyllysgar o ran ei fam, er fod ei dad yn Ddiaboloniad rhywiog wrth natur.

Felly yr Hyder-gnawdol yma oedd yn gryn debyg i'w dad ac i'w fam; yr ydoedd efe yn tybied ei hun yn dda, ac nid ofnai efe ddim; yr ydoedd efe hefyd yn ŵr ymyredgar iawn; nid allai dim o newydd, na dim o athrawiaeth, na dim o gyfnewidiad, neu siarad am gyfnewidiad, ar unrhyw amser fod ar droed yn Man-soul, ond byddwch sicr y byddai Mr. Hyder-gnawdol wrth y naill ben iddo; ond yn ddiau efe a adawai y rhai hyny ag a farnai efe eu bod yn wanaf, ac a safai yn wastad gyda'r cyfryw rai, yn ei ffordd ef, ag a dybiai efe eu bod yr ochr gryfaf.

Yn awr pan ddarfu i Shad-dai y cadarn, ac Emmanuel ei Fab, wneuthur rhyfel ar Man-soul i'w henill hi, y Mr. Hyder-gnawdol yma ydoedd y pryd hyny yn y dref, ac yr ydoedd yn wneuthurwr mawr yn mhlith y bobl, gan eu cefnogi hwynt yn eu gwrthryfelgarwch, a'u hanog i ymgaledu eu hunain yn eu gwrthwynebiad o luoedd y Brenin; ond pan welodd efe fod y dref wedi ei henill, ac wedi ei hymchwelyd at waith y Tywysog gogoneddus Emmanuel; a phan welodd efe hefyd pa beth a ddaethai o Diabolus, a pha fodd y blinwyd ef, ac y gwnaethpwyd iddo et adael y castell, a hyny gyda y dirmyg a'r gwaradwydd mwyaf, a bod tref Man-soul wedi ei chadarnhau yn rhagorol â chadbeniaid, ac offer rhyfel, a gwŷr, ac hefyd â darpariaeth, pa beth a wnaeth efe ond troi o gwmpas, ac megis y gwasanaethasai efe Diabolus yn erbyn y Tywysog daionus, felly efe a gymerth arno wasanaethu y Tywysog yn erbyn ei elynion.

Gan hyny, wedi iddo gael rhywfaint o adnabyddiaeth o'r naill ben i bethau Emmanuel, gan fod yn ëon, efe a anturiodd ei hunan i gwmpeini gwŷr y dref, ac a geisiodd ymddiddan â hwynt. Yn awr efe a wyddai fod gallu a chadernid tref

Man-soul yn fawr, ac nas gallai lai na bod yn beth ag a foddhai y bobl, os byddai iddo ef ganmol eu gallu a'u gogoniant hwy. Oherwydd paham, efe a ddechreuodd ei chwedl yn nghylch mawredd, gallu, a chadernid Man-soul, ac a gadarnhaodd ei bod hi yn anorchfygol. Yn awr gan fawrygu eu cadbeniaid, eu ffyn-taflu, a'u peiriannau rhyfel, ac yna canmol eu hamddiffynfeydd, a'u cestyll cedyrn; ac yn ddiweddaf, y sicrwydd a gawsent gan eu Tywysog, y byddai Man-soul yn ddedwydd yn dragywydd.

Ond pan welodd efe fod rhai o wŷr y dref yn cael eu cogleisio a'u dâl gan ei ymddiddanion ef, efe a'i gwnaeth yn orchwyl neu yn waith iddo; a chan rodio o heol i heol, ac o dŷ i dŷ, ac oddiwrth y naill ddyn at y llall, efe a ddug Man-soul i ddawnsio ar ol ei bibell ef, ac i fod yn agos mor gnawdol hyderus ag ef ei hunan felly oddiwrth chwedleua hwy a aethant i wledda, ac oddiwrth wledda at ddifyrwch, ac felly at ryw faterion eraill; yn awr yr ydoedd Emmanuel eto yn nhref Man-soul, ac efe yn ddoeth a ddaliodd sylw ar eu gweithredoedd hwynt. Fy Arglwydd Maer, a'm Harglwydd Ewyllysgar, a Mr. Cofiadur, oeddynt oll wedi eu dal gan eiriau y gŵr bonheddig chwedleugar Diabolonaidd yma, gan anghofio i'w Tywysog roddi iddynt rybudd o'r blaen i gymeryd gofal na byddai iddynt gymeryd eu twyllo gan ddim twyll Diabolonaidd.

Efe a ddywedasai wrthynt hwy yn mhellach: Nad oedd diogelwch y bresenol flodeuog dref Man-soul yn gorphwys gymaint yn ei hamddiffynfeydd presenol a'i chadernid, ag yn ei gwaith yn defnyddio yr hyn oedd ganddi, fel y byddai iddi rwymo Emmanuel i aros yn ei chastell; canys iawn athrawiaeth Emmanuel oedd ar fod i Man-soul gymeryd gofal na byddai iddynt anghofio cariad ei Dad, a'r eiddo yntau; ac hefyd ar fod iddynt hwy felly ymddwyn eu hunain yn y cyfryw fodd ag y byddai iddynt ymgadw neu aros ynddo. Yn awr nid hynyma oedd y ffordd i wneud felly—sef i syrthio mewn cariad at un o'r Diaboloniaid, a gyda'r cyfryw un hefyd a Mr. Hyder-gnawdol, ac i gymeryd eu harwain i fyny ac i wared ganddo ef gerfydd eu trwynau. Hwy a ddylasent wrando ar eu Tywysog, a'i ofni, a'i garu, a llabyddio y crogddyn yma i farwolaeth, a chymeryd gofal i rodio yn y ffyrdd a osodasai eu Tywysog o'u blaen hwynt, canys yna y buasai eu heddwch fel afon, pan fuasai eu cyfiawnder fel tônau y môr.

Yn awr pan ddeallodd Emmanuel fod calonau gwŷr Man-soul wedi oeri, a threio yn eu hymarferol gariad tuag ato ef, a hyny trwy gyfrwysdra Mr. Hyder-gnawdol:

Yn gyntaf. Efe a alarodd o'u plegid hwynt, ac a gŵynodd eu cyflwr gyda'r Ysgrifenydd, gan ddywedyd: O! na wrandawsai fy mhobl arnaf, ac na rodiasai Man-soul yn fy ffyrdd! Myfi a'u porthaswn â brasder gwenith, ac â mêl o'r graig y diwallaswn hwynt.

Wedi hyn, efe a ddywedodd yn ei galon: Myfi a ddychwelaf i'r llys, ac a âf i'm

lle, hyd oni byddo i Man-soul ystyried a chydnabod eu bai. Ac efe a wnaeth felly, a'r achos a'r modd o'i fynediad ef ymaith oddiwrthynt ydoedd fel hyn:

Yn gyntaf. Oherwydd i Man-soul ei adael ef, fel y mae yn amlwg yn y pethau neillduol yma:

1. Hwy a adawsant heibio eu harfer gynt o ymweled ag ef—nis daethant i'w balas brenhinol ef, megis o'r blaen.

2. Nid oeddynt yn ystyried, nac ychwaith yn dal sylw pan ddeuai, neu pan na ddeuai efe i ymweled â hwynt.

3. Y cariad-wleddoedd ag ydoedd yn arfer bod rhwng eu Tywysog a hwythau, er ei fod ef yn eu gwneuthur hwynt yn wastadol, ac yn eu galw hwynt iddynt, eto hwy a esgeulusasant ddyfod iddynt, neu i ymhyfrydu ynddynt.

4. Ni ddisgwyliasant am ei gyngor ef, ond hwy a ddechreuasant fod yn bengaled, ac yn hyderus ynddynt eu hunain, gan gasglu eu bod hwy yn awr yn gedyrn, ac yn anorchfygol, a bod Man-soul yn ddiogel, a thuhwnt i bob cyrhaeddiad o eiddo y gelyn, a bod yn rhaid i'w chyflwr fod yn anghyfnewidiol yn dragwyddol.

Yn awr, fel ag y dywedwyd, Emmanuel, gan ddirnad mai trwy ddichell Mr. Hyder-gnawdol yr oedd Man-soul wedi ei chymeryd ymaith oddiwrth ymddibynu, neu bwyso arno ef, ac ar ei Dad trwyddo ef, ac yn gorphwys ar yr hyn a gyfranesid arni, efe, yn gyntaf, fel y dywedais, a gŵynfanodd oblegid eu cyflwr hwynt, yna efe arferodd foddion i beri iddynt ddeall fod y ffordd yr oeddynt yn myned ar hyd-ddi yn beryglus, canys efe a ddanfonodd fy Arglwydd Uchel Ysgrifenydd atynt i wahardd iddynt y cyfryw ffyrdd; ond y ddwy waith pan ddaeth efe atynt hwy, efe a'u cafodd hwynt ar giniaw yn mharlwr Mr. Hyder-gnawdol, a chan ddirnad hefyd eu bod yn anfoddlon i ymresymu yn nghylch materion a berthynai i'w daioni, efe a dristâodd, ac a aeth ymaith. Yr hyn, pan fynegodd i'r Tywysog Emmanuel, efe a dristâwyd hefyd, ac a ddychwelodd i lys ei Dad.

Yn awr y modd o'i ymadawiad, fel yr oeddwn yn dywedyd o'r blaen, ydoedd fel hyn:

1. Tra yr oedd efe eto gyda hwynt yn Man-soul, efe a ymgadwodd ei hun yn fwy diogel ac absenol na chynt.

2. Nid oedd ei leferydd ef yn bresenol, os deuai efe i'w cwmpeini hwynt, mor hyfryd ac mor gyfeillachgar a chynt.

3. Ac nid ydoedd efe, megis yn yr amser a aethai heibio, yn danfon i Man-soul, oddiar ei fwrdd, y tameidiau danteithiol hyny ag yr oedd efe yn arferol o'u danfon.

4. A phan elent hwy i ymweled ag ef, megis yn awr ac eilwaith y gwnaent, nis goddefai efe iddynt ymddiddan ag ef mor hawsed ag y cawsent ef yn yr amseroedd gynt. Hwy a gaent guro unwaith, ïe, ddwywaith, ond efe a ymddangosai fel pe na buusai yn eu hystyried hwynt mewn modd yn y byd; pryd y byddai efe gynt,

wrth swn eu cerddediad, yn rhedeg, ac yn eu cyfarfod hwynt ar haner y ffordd, eu cymeryd hwynt i fyny hefyd, a'u gosod yn ei fynwes.

Ond fel hyn yr ymddygodd Emmanuel yn bresenol, a thrwy yr ymddygiad yma efe a geisiodd beri iddynt feddwl am danynt eu hunain, a dychwelyd ato. Ond, gwae finau! nid ystyriasant, nid adnabuasant eu ffyrdd, ni phrisiasant, ac ni chyffyrddodd y pethau hyn â hwynt, na'r gwir goffadwriaeth o'r ffafr a dderbyniasent gynt ar ei law ef. (Esec. xi. 21. Hos. v. 15. Lef. xxvi. 21—24. Oherwydd paham, pa beth a wnaeth efe ond tynu ymaith, mewn modd dirgel, yn gyntaf i'r palas, ac oddiyno i borth y dref, ac felly ymaith yr aeth o Man-soul, hyd oni chydnabyddent eu bai, a cheisio ei wyneb ef yn fwy difrifol. Mr. Heddwch-Duw a roddes ei gommisiwn i lawr, ac ni fynai weithredu yn mhellach dros yr amser presenol. Fel hyn y rhodiasant yn wrthwyneb iddo ef, ac yntau drachefn, mewn ffordd o ad-daliad, a rodiodd yn wrthwyneb iddynt hwythau. (Jer ii. 32.) Ond, Och! erbyn hyn yr oeddynt wedi ymgaledu felly yn eu ffordd, ac wedi yfed athrawiaeth Mr Hydergnawdol yn y cyfryw fodd, fel nad oedd ymadawiad eu Tywysog yn effeithio arnynt, ac nis cofiwyd ef ganddynt ychwaith pan aethai efe ymaith; ac felly yn ganlynol nid oedd yno ddim cwyno ganddynt oblegid ei absenoldeb.

Yn awr yr oedd dydd yn yr hwn y darfu i'r hen ŵr bonheddig yma, Mr. Hydergnawdol, wneuthur gwledd drachefn i dref Man-soul; ac yr oedd, yn y cyfamser, yn y dref un Mr. Ofn-duwiol, un nad oedd yn bresenol nemawr gyfrif o hono, er ei fod ef gynt yn un ag oedd yn fawr ei barch.

Yr oedd gan hen Hyder-gnawdol feddwl, os ydoedd bosibl, i siomi ac i anmharchu y gŵr hwn, megis ag y darfu iddo wneuthur â'r lleill; ac yn awr, gan hyny, fe a'i gwahoddodd ef i'r wledd gyda ei gymydogion. Felly y dydd a ddaeth, a hwy a arlwyasant, ac efe a aeth, ac a ymddangosodd gyda y lleill o'r gwleddwyr; ac wedi iddynt oll eistedd wrth y bwrdd, hwy a fwytasant ac a yfasant, ac a wnaethant yn llawen i gyd oll, ond yr un gŵr yma; oherwydd Mr. Ofn-duwiol a eisteddodd yn eu plith hwynt fel dyn dieithr, ac ni ddarfu iddo ef na bwyta nac yfed, na bod yn llawen; yr hyn, pan ddeallodd Mr. Hyder-gnawdol, efe a gyfeiriodd ei hun mewn ymadrodd ato ef fel hyn:

*Hyd.* Mr. Ofn-duwiol, a ydych chwi heb fod yn iach? Yr ydych yn ymddangos fel un a fyddai yn anhwylus yn ei gorph, neu yn ei feddwl, neu yn mhob un o'r ddau. Y mae genyf fi gordial neu feddyginiaeth o wneuthuriad Mr. Anghofiodaioni, yr hyn, syr, os cymerwch, yr wyf yn gobeithio y gwna ef chwi yn holliach, ac felly fe'ch gwneir chwi yn fwy addas i ni gyfeillion ag sydd yn gwledda.

*Ofn.* I'r hwn yn synhwyrol yr atebodd yr hen ŵr bonheddig da: Syr, y mae genyf fi ddiolch i chwi am bob cariad a gweddeidd-dra, ond am eich cordial, nid oes arnaf ddim chwant iddo. Ond y mae arnaf fi eisieu siarad gair â gwŷr genedigol

Man-soul; chwychwi henuriaid, a'r rhai penaf o Man-soul, y mae yn rhyfedd genyf fi eich gweled chwi mor llawen ac mor ysgafn, pan y mae tref Man-soul yn y fath gyflwr gofidus.

*Hyd.* Yna ebe Mr. Hyder-gnawdol: Y mae arnoch eisieu cysgu, syr, dybygwn i. Os gwelwch chwi yn dda, gorweddwch i lawr a chysgwch hûn, a nyni yn y cyfamser a wnawn yn llawen.

*Ofn.* Yna y dywedodd Mr. Ofn-duwiol fel y canlyn: Syr, oni b'ai eich bod chwi yn ŵr heb fod o galon onest, nid allasech chwi wneuthur fel y gwnaethoch, nac fel yr ydych yn gwneuthur yn bresenol.

*Hyd.* Yna ebe Mr. Hyder-gnawdol: Paham hyny?

*Ofn.* Nagê, atolwg, na rwystrwch fi i lefaru. Gwir yw, fod tref Man-soul yn gadarn, ac, gyda chymhorth, yn anorchfygol; ond chwi a'i gwanhausoch hi, ac y mae hi yn awr yn gorwedd yn ddarostyngedig i'w gelynion; ac nid ydyw, ychwaith, yn bresenol, yn amser i dewi a son; a chwychwi, Mr. Hyder-gnawdol, yw yr un a ddihatrodd dref Man-soul, ac a yrasoch ei gogoniant oddiwrthi; chwi a dynasoch i lawr ei thyrau, chwi a dorasoch i lawr ei phyrth hi, a chwi a anrheithiasoch ei chloion a'i bàrau.

Yn awr, i egluro fy hunan, o'r amser hwnw y darfu i'm harglwyddi o Man-soul, a chwithau, syr, dyfu mewn cymaint cariad, o'r pryd hyny y rhwystrwyd neu y digiwyd cadernid Man-soul, ac yn awr efe a gyfododd ac a aeth ymaith. Os oes neb yn ameu gwirionedd fy ngeiriau i, myfi a'i hatebaf ef trwy y cyfryw ymofynion a'r rhai hyn: Pa le y mae y Tywysog Emmanuel? Pa bryd y gwelodd gŵr neu wraig ef yn Man-soul? Pa bryd y clywsoch chwi oddiwrtho ef, neu y profasoch un o'i dameidiau danteithiol ef? Yr ydych chwi yn awr yn gwledda gyda'r Ddiabolon-iaid anghenfilaidd yma, ond nid efe ydyw eich Tywysog chwi; meddaf, gan hyny, er nad allasai gelynion oddiallan wneuthur ysglyfaeth o honoch, pe cymerasech ofal; eto, er pan bechasoch yn erbyn eich Tywysog, eich gelynion tufewnol a fuant ry galed i chwi.

*Hyd.* Yna ebe Mr. Hyder-gnawdol: Ffei! ffei! Mr. Ofn-duwiol! ffei honoch! A ysgydwch chwi byth mo'ch tymher ofnus ymaith? A oes arnoch chwi ofn eich gogysgod? Pwy niwaid a gawsoch? Wele fi o'ch tu chwi, ond yn unig eich bod chwi am ameu, a minau am fod yn hyderus. Ac heblaw hyny, a ydyw hwn yn amser i fod yn brudd ynddo? Gwledd a wneir er mwyn llawenydd; paham yr ydych chwi, gan hyny, yn awr, i'ch cywilydd eich hunan, a'n blinder ninau, yn tori allan yn y fath ymadroddion digofus pruddaidd, pan ddylasech fwyta ac yfed, a bod yn llawen?

*Ofn.* Yna ebe Mr. Ofn-duwiol drachefn: Y mae genyf fi achos da i fod yn brudd, canys y mae Emmanuel wedi myned ymaith o Man-soul; ïe, meddaf drachefn, efe a

aeth, a chwi, syr, ydyw'r gŵr a'i gyrodd ef ymaith; ac efe a aeth heb gymaint a mynegu i foneddigion Man-soul ei fod ef yn myned ymaith, ac os nad yw hyny yn arwydd o'i ddigofaint, nid ydwyf fi ddim yn gydnabyddus â threfn duwioldeb.

Ac yn awr, foneddigion a'm harglwyddi, canys fy lleferydd i o hyd sydd tuag atoch chwi, chwychwi yn raddol, gan ymadael ag ef, a'i cyffroisoch yntau i'ch gadael chwithau, yr hyn a wnaeth efe yn raddol, fel, ysgatfydd, y gwnelid chwi yn deimladwy trwy hyny, ac y byddai i chwi gael eich adnewyddu trwy i chwi ymostwng eich hunain; ond pan welodd nad ystyriai neb, na gosod y dechreuadau dychrynllyd yma o'i ddigofaint a'i farn at eu calonau, efe a aeth ymaith o'r lle hwn, a hyn a welais i â'm llygaid. Oherwydd paham, yn awr tra yr ydych yn ymffrostio, eich cadernid a ymadawodd; yr ydych fel y gŵr a gollasai ei gudynau, y rhai oedd o'r blaen yn chwifio oddeutu ei ysgwyddau ef. Chwi a ellwch gyda meistr eich gwledd ymysgwyd eich hunain, a bwrw y gellwch wneuthur megis ar amserau eraill; ond yn gymaint mai hebddo ef nad ellwch chwi wneuthur dim, a'i fod ef wedi ymadael oddiwrthych chwi, trowch eich gwledda yn ocheneidio, a'ch llawenydd yn alar.

Yna y Pregethwr Rhaglawiol, hen Mr. Cydwybod, yr hwn gynt a fuasai yn Gofiadur yn Man-soul, gan ei fod ef wedi ei gyffroi wrth yr hyn a ddywedasid, a ddechreuodd ei gadarnhau fel hyn.

*Cyd.* Yn wir fy mrodyr, eb efe, yr wyf fi yn ofni fod Mr. Ofn-duwiol yn dywedyd y gwir wrthym ni; myfi, o'm rhan fy hun, nis gwelais fy Nhywysog er ys llawer dydd. O'm rhan i, nis gallaf fi gofio y diwrnod, ac nis gallaf ychwaith ateb cwestiynau Mr. Ofn-duwiol. Y mae arnaf ofn fod y cyfan yn ddrwg gyda Man-soul.

*Ofn.* Nagê, mi a wn nas cewch chwi ef yn Man-soul, canys efe a ymadawodd ac a aeth ymaith; ïe, ac am feiau'r henuriaid yr aeth, ac am iddynt dalu iddo am ei ras anoddefol angharíad.

Yna yr edrychodd y Pregethwr Rhaglawiol fel pe buasai ar gwympo i lawr yn farw wrth y bwrdd; hefyd, y rhai oll ag oedd yno yn bresenol, oddieithr gŵr y tŷ, a ddechreuasant edrych yn las ac yn wàn. Ond wedi iddynt ddyfod atynt eu hunain ychydig, ac yno yn gytunol i gredu Mr. Ofn-duwiol, a'i ymadroddion, hwy a ddechreuasant ymgynghori pa beth ydoedd oreu ei wneuthur—(yn awr Mr. Hyder-gnawdol a ymneillduasai i'w ystafell ddirgel, canys nid oedd efe yn prisio am y fath weithredoedd synedig)—yn gystled i ŵr y tŷ, am eu tynu hwynt i ddrwg, ac hefyd i ail-enill cariad Emmanuel.

A gyda hyny, ymadrodd eu Tywysog a ddaeth yn boeth iawn at eu meddyliau hwynt, sef yr hyn a archasai efe ei wneuthur i'r gau brophwydi a gyfodai i hudo tref Man-soul. Felly hwy a gymerasant Mr. Hyder-gnawdol, gan farnu mai efe oedd y gau brophwyd, ac a losgasant ei dŷ am ei ben â thân, canys yr ydoedd yntau hefyd yn Ddiaboloniad cynhwynol.

Felly pan aeth hyn heibio, hwy a frysiasant i edrych am Emmanuel eu Tywysog. (Can. iii. 2.) A hwy a'i ceisiasant ef, ac nis cawsant; yna y cadarnhawyd hwynt yn well yn ngwirionedd ymadroddion Mr. Ofn-duwiol, ac a ddechreuasant hefyd edrych yn ol yn greulon arnynt eu hunain, am eu gweithredoedd gwael ac annuwiol, canys hwy a farnasant yn bresenol fod y Tywysog wedi eu gadael hwynt.

Yna hwy a gytunasant, ac a aethant at fy Arglwydd Ysgrifenydd, efe yr hwn o'r blaen a wrthodasent ei wrando, efe yr hwn a dristasent â'u gweithredoedd, i wybod ganddo ef, canys gwiliedydd oedd efe, ac efe a allai ddweyd pa le yr oedd Emmanuel, a pha fodd y danfonent ddeiseb ato ef. Ond ni oddefai yr Arglwydd Ysgrifenydd iddynt hwy i gael ymddiddan ag ef yn nghylch y mater yma, ac nis goddefai iddynt ddyfod i'w balas brenhinol, ac ni ddeuai yntau allan atynt hwythau ychwaith. (Esay lxiii. 10. Eph. iv. 30. 1 Thes. v. 19.)

Ac yn awr yr ydoedd hi yn ddydd dû tywyll ar Man-soul, yn ddiwrnod cymylog a thywyllwch dudew. Yn awr hwy a welsant eu bod yn ynfyd, ac a ddechreuasant ddirnad neu ddeall pa beth a wnaethai cwmpeini a gwag-siarad Mr. Hyder-gnawdol, ac i ba gyflwr peryglus a niweidiol yr oedd ei eiriau mawrion chwyddedig ef wedi dwyn Man-soul, druan, iddo. Ond pa beth, yn mhellach, yr ydoedd yn debyg o gostio iddynt, nis gwyddent. Yn awr Mr. Ofn-duwiol a ddechreuodd fod mewn cymeriad drachefn gyda gwŷr y dref, ac yr oeddynt yn barod i edrych arno ef megis prophwyd.

Felly pan ddaeth y Sabboth, hwy a aethant i wrando eu Pregethwr Rhaglawiol; ond, O! fel yr ydoedd hi yn taranu ac yn melltenu y diwrnod yma! Ei destyn ef ydoedd yn y lle hwnw o'r prophwyd Jonah, pen. ii. 8: "Y neb a gadwant oferedd celwydd, a wrthodant eu trugaredd eu hun." Ond yr oedd y pryd hyny y fath allu ac awdurdod yn y bregeth hòno, a'r cyfryw ddigalonrwydd a welid y dydd hwnw yn wyneban y bobl, fel nas gwelsid ac nas clywsid ond yn anaml am y cyffelyb.

Y bobl, pan ddarfu y bregeth, o'r braidd y gallent fyned i'w cartrefi, neu ddilyn eu galwedigaethau yr wythnos ganlynol; yr oeddynt wedi eu taro gan y bregeth yn y cyfryw fodd, a chyn glafed ag nas gwyddent beth i'w wneuthur. (Hos. vi. 5.) Ni ddarfu iddo ef yn unig ddangos i Man-soul eu pechodau, ond efe a grynodd o'u blaen hwynt, dan y teimlad o'r eiddo ei hun, gan lefain allan yn wastadol am dano ei hun, fel ag yr oedd yn pregethu iddynt hwy: O! ddyn annedwydd ydwyf, fel y gwnelwn beth mor ddrygionus! I mi, bregethwr, yr hwn a osododd y Tywysog i fyny i ddysgu ei gyfraith i Man-soul, fod i mi fy hunan fyw yma yn swrth ac yn ddideimlad, a bod yn un o'r rhai cyntaf a gafwyd ar fai! Y trosedd hwn, hefyd, a syrthiodd tufewn i'm terfynau i; myfi a oddefais i Man-soul orwedd ac ymdrybaeddu ynddo, hyd oni ddarfu iddo ef eu gosod yn erbyn holl arglwyddi a boneddigion Man-soul, hyd onid oeddynt agos a gwallgofi!

Yn nghylch yr amser yma hefyd yr oedd afiechyd mawr yn nhref Man-soul, a'r rhan fwyaf o'r trigolion oeddynt yn gleifion iawn. Ië, y cadbeniaid hefyd, a'r milwyr, a ddygwyd drwy hyn i gyflwr llesg a nychlyd, a hyny dros hir amser yn nghyd, fel, pe buasai rhai yn ymosod arnynt, ni allesid gwneuthur dim i bwrpas yn bresenol, na chan wŷr y dref, na swyddogion y maes. (Heb. xii. 12, 13. Dat. iii. 2. Esay iii. 24.) O! pa sawl un o wynebau gleision, dwylaw gweinion, gliniau llesg, a dynion yn bwhwman, a welid yn awr yn rhodio ar hyd heolydd Man-soul! Yma yr oedd griddfanau, acw yr oedd brefiadau, a thraw yr oedd rhai yn gorwedd ag ydoedd yn barod i lewygu.

Y gwisgoedd hefyd a roddasai Emmanuel iddynt hwy oeddynt mewn cyflwr gwael—rhai wedi rhwygo, rhai wedi tori, a'r cwbl mewn cyflwr truenus; rhai o honynt hefyd a grogasant mor rhydd am danynt, fel ag yr oedd y llwyn nesaf ag y deuent ato yn barod i'w tynu hwynt ymaith.

Ar ol treulio rhywfaint o amser yn y cyflwr trist anghyfanedd yma, y Pregethwr Rhaglawiol a alwodd am ddydd ympryd, ac am iddynt ymddarostwng eu hunain, am fod mor ddrygionus yn erbyn y Shad-dai mawr a'i Fab: ac efe a ddymunodd ar Gadben Boanerges bregethu. Felly efe a gydsyniodd i wneuthur felly; a'r dydd a ddaethai, a'i destyn ef ydoedd hyn: "Tor ef i lawr, paham y mae efe yn diffrwytho y tir?" Luc xiii. 7—a phregeth lèm iawn a wnaeth efe ar y testyn.

Yn y lle cyntaf, efe a ddangosodd beth oedd yr achos o'r geiriau, sef, am fod y ffigysbren yn ddiffrwyth. Yna efe a ddangosodd beth oedd yn gynwysedig yn yr ymadrodd, sef edifeirwch, neu anghyfanedd-dra hollol. Efe a ddangosodd hefyd trwy awdurdod pwy yr oedd y farn yma yn cael ei hadrodd—a hyny oedd gan Shad-dai ei hun. Ac yn ddiweddaf, efe a ddangosodd yr achos o'r peth, ac yna fe ddibenodd ei bregeth. Ond yr ydoedd efe yn berthynasol iawn yn ei gymhwysiad, yn gymaint ag y darfu iddo wneuthur i Man-soul, druan, ddychrynu; canys y bregeth hon, yn gystled a'r un flaenorol, a weithredodd lawer ar galonau gwŷr Man-soul; ac efe a gynorthwyodd yn ddirfawr i gadw yn effro y rhai a ddihunasid gan y pregethau a aethai o'r blaen. Felly yn awr nid oedd ond ychydig, neu ddim, i'w weled neu i'w glywed trwy yr holl dref ond tristwch, a galar, a gwae.

Yn awr ar ol y bregeth, hwy a ymgasglasant yn nghyd, ac a ymgynghorasant pa beth oedd oreu i'w wneuthur. Ond, ebe y Pregethwr Rhaglawiol, ni wnaf i ddim o'm pen fy hun, heb ymgynghori â'm cymydog, Mr. Ofn-duwiol; canys os darfu iddo ef o'r blaen ddeall mwy o feddwl ein Tywysog na nyni, ni wn i nad yw yn gwybod mwy yn awr, sef yn awr pan yr ydym drachefn yn troi at ddaioni. Felly hwy a alwasant ac a anfonasant am Mr. Ofn-duwiol, ac efe yn ebrwydd a ymddangosodd; yna y dymunasant arno ar fod yn wiw ganddo ef yn mhellach amlygu ei farn yn nghylch yr hyn ag ydoedd oreu iddynt hwy ei wneuthur. Yna y dywedodd

yr hen wr bonheddig fel y canlyn: Fy marn i yw, ar fod i'r dref hon, Man-soul, yn ei dydd hwn o gystudd, dynu i fyny a danfon deiseb gostyngedig at eu Tywysog Emmanuel, yr hwn y pechasoch yn ei erbyn, ar fod iddo ef, yn ei ffafr a'i ras, weled bod yn dda ddychwelyd atoch drachefn, ac na byddo iddo ddal dig yn dragywydd.

Pan glywodd gwŷr y dref yr ymadrodd yma, fe ddarfu iddynt, yn un a chytun, gytuno â'i gyngor ef; felly tynasant i fyny yn ebrwydd eu dymuniad; a'r peth nesaf ydoedd, Pwy a'i dwg ef? O'r diwedd hwy a gytunasant ei ddanfon ef trwy law fy Arglwydd Maer. Felly efe a dderbyniodd y gwasanaeth, ac a ymbarotodd ei hun i'w daith; efe a aeth, ac a ddaeth i lys Shad-dai, lle yr oedd Emmanuel, Tywysog Man-soul, wedi myned. Ond yr ydoedd y porth yn nghauad, a gwiliadwriaeth fanwl wrtho, fel y gorfu ar y deisebwr aros oddiallan dros hir amser yn nghyd. Yna efe a ddeisyfodd ar fod i ryw un fyned i mewn at y Tywysog, a mynegu iddo pwy ydoedd yn sefyll wrth y porth, a pha beth oedd ei neges. Felly un a aeth ac a fynegodd i Shad-dai, ac i Emmanuel ei Fab, fod Arglwydd Maer tref Man-soul yn sefyll oddiallan, wrth borth llys y Brenin, yn dymuno cael dyfod i ŵydd y Tywysog, Mab y Brenin. Efe hefyd a fynegodd neges yr Arglwydd Maer i'r Brenin, ac hefyd i'w Fab Emmanuel. Ond ni ddeuai y Tywysog i wared, ac ni chaniatâi ef ychwaith i agoryd y porth; ond efe a ddanfonodd iddynt ateb i'r pwrpas yma: "Canys hwy a droisant ataf fi wegil, ac nid wyneb: ond yn amser eu hadfyd y dywedant, Cyfod, a chadw ni." (Jer. ii. 27.) Ond onid allant fyned yn awr at Mr. Hyder-gnawdol, at yr hwn yr aethant pan droisant oddiwrthyf, a'i wneuthur ef yn arweinydd, yn arglwydd, ac yn amddiffynydd iddynt? Paham yn awr, yn eu hadfyd, yr ymwelant â mi, yn gymaint ag iddynt yn eu llwyddiant fyned ar gyfeiliorn?

Yr ateb yma wnaeth i'm Harglwydd Maer edrych yn ddu yn ei wyneb; ac efe a'i trallododd, a'i gofidiodd, ac a'i rhwygodd ef yn dost. Ac yn awr efe a ddechreuodd weled eilwaith pa beth ydoedd bod yn gyfeillgar â'r Diaboloniaid, a'r cyfryw ag ydoedd Mr. Hyder-gnawdol. Pan welodd efe nad oedd fawr eto o gymhorth i'w ddisgwyl o'r llys, nac iddo ei hun, neu i'w gyfeillion yn Man-soul, efe a gurodd ei ddwyfron, ac a ddychwelodd dan wylo a galaru ar hyd yr holl ffordd am gyflwr alaethus Man-soul.

Felly, pan ddaeth efe o fewn golwg i'r dref, henuriaid a phenaethiaid pobl Man-soul a aethant allan i'r porth i'w gyfarfod ef, i'w gyfarch ef, ac i wybod pa fodd yr ymdarawsai efe yn y llys. Ond efe a fynegodd iddynt ei chwedl yn y fath fodd alaethus, fel y llefasant oll allan, gan alaru ac wylo. Oherwydd paham, hwy a roddasant ludw a llwch ar eu penau, a sach-liain am eu lwynau, ac a aethant dan lefain allan trwy dref Man-soul; yr hyn, pan welodd y lleill o wŷr y dref, hwy oll a alarasant ac a wylasant. Hwn, gan hyny, ydoedd ddiwrnod o gerydd a thrallod, ac o wasgfa a chyfyngder i dref Man-soul.

Ar ol rhywfaint o amser, wedi iddynt ymattal ychydig, hwy a ddaethant yn nghyd i ymgynghori drachefn, pa beth oedd eto iddynt i'w wneuthur, a hwy a ofynasant gyngor gan y parchedig Mr. Ofn-duwiol, megis ag y gwnaethent yn flaenorol, yr hwn a ddywedodd wrthynt nad oedd un ffordd well na gwneuthur fel y gwnaethent o'r blaen, ac ni fynai ychwaith iddynt hwy ddigaloni mewn ffordd yn y byd oblegid yr hyn a ddigwyddasai iddynt yn y llys; ïe, er fod i lawer o'ch deisyfiadau gael eu hateb trwy ddim ond tewi a son, neu a cherydd; canys, eb efe, dyma ffordd Shad-dai ddoeth, i wneuthur i ddynion ddisgwyl, ac i arfer amynedd, a'r rhai hyny ag sydd mewn eisieu, a ddylent fod yn foddlon i aros ei hamdden ef.

Yna hwy a gymerasant galon, ac a ddanfonasant drachefn, a thrachefn, a thrachefn; canys nid oedd un diwrnod, nac awr, yn myned dros ben Man-soul, yn yr hwn ni byddai i ddyn allu cyfarfod ar y ffordd ryw un neu gilydd yn marchogaeth yn rhedegwr o Man-soul i lys y Brenin Shad-dai, a chanddynt oll lythyrau deisyfiadol dros, ac am ddychweliad y Tywysog i Man-soul. Y ffordd, meddaf, oedd yn awr yn llawn o genhadon, yn myned ac yn dyfod, ac yn cyfarfod y naill y llall—rhai o'r llys, a rhai o Man-soul, trwy yr holl hir auaf llym, oer, a maith hwnw.

Yn awr, oni ddarfu i chwi anghofio, chwi a ellwch eto gofio i mi fynegu i chwi o'r blaen fod, ar ol i Emmanuel gymeryd Man-soul, ac ar ol iddo ef ail-ymosod ar y dref, fe arosodd yno mewn amryw leoedd o'r corphoraeth laweroedd o'r hen Ddiaboloniaid a ddaethai, naill ai gyda y gorthrymwr, pan enillasai efe y dref, neu a gawsent yno, o achos cymysgedd anghyfreithlon, eu genedigaeth, eu magwraeth, a'u dygiad i fyny; a'u tyllau, eu ffauau, a'u llechfeydd oedd yn, dàn, neu oddiamgylch i furiau y dref. Rhai o enwau y cyfryw rai ydynt y canlynol:—yr Arglwydd Puteindra, yr Arglwydd Godineb, yr Arglwydd Lleiddiad, yr Arglwydd Digofaint, yr Arglwydd Anlladrwydd, yr Arglwydd Twyll, yr Arglwydd Drwg-lygad, yr Arglwydd Cabledd, a'r hen filain erchyll ofnadwy hwnw, yr Arlgwydd Cybydd-dod. Y rhai hyn, a llawer yn ychwaneg, oedd ganddynt eu trigfan eto yn nhref Man-soul, a hyny wedi i Emmanuel yru Diabolus allan o'r castell.

Yn erbyn y rhai hyn y darfu i'r Tywysog daionus ganiatâu commisiwn i'r Arglwydd Ewyllysgar, ac eraill, ac i holl dref Man-soul, i chwilio am, i ddàl, i ddiogelu, ac i ddistrywio pob un, neu bawb oll, ag a allent eu cymeryd, oherwydd eu bod yn Ddiaboloniaid wrth natur, yn elynion i'r Tywysog, a'r rhai hyny ag ydoedd yn ceisio difetha y wynfydedig dref Man-soul. Ond ni ddarfu i Man-soul ganlyn y warant yma, ond hwy a esgeulusasant ddàl, carcharu, a difetha y Diaboloniaid hyn. Oherwydd paham, pa beth a wnaeth y fileiniaid yma ond cymeryd calon yn raddol i ymddangos eu hunain i drigolion y dref; ïe, ac fel y clywais ddweyd, rhai o wŷr Man-soul a dyfasant yn rhy gyfeillgar â rhai o honynt, er tristwch i'r corphoraeth, fel y cewch glywed mwy mewn amser a lle.

Felly pan ddeallodd yr arglwyddi Diabolonaidd fod Man-soul, trwy bechu, wedi digio Emmanuel eu Tywysog, ac iddo ef ymneillduo a myned ymaith, beth wnaethant ond cydfwriadu dinystr tref Man-soul. Felly hwy a ymgynullasant yn nghyd yn amddiffynfa neu gastell un Mr. Ysgelerder, neu Ddrygioni, yr hwn hefyd oedd Ddiaboloniad, ac yno yr ymgynghorasant pa fodd y gallent draddodi Man-soul i ddwylaw Diabolus drachefn. Yn awr rhai a gynghorasant un ffordd, a rhai ffordd arall, pob un yn ol ei fympwy ei hunan. O'r diwedd fy Arglwydd Anlladrwydd a gynghorodd ar fod i rai o'r rhai hyny ag oedd Ddiaboloniaid yn Man-soul ymgynyg eu hunain i fod yn weision i rai o wŷr genedigol y dref; canys, eb efe, os gwnant felly, a bod i Man-soul eu cymeryd hwynt, hwy a allant, drosom ni a thros Diabolus ein meistr, wneuthur yn haws i ni enill y dref, nag y byddai un ffordd arall. Yna y safodd yr Arglwydd Lleiddiad i fyny, ac a ddywedodd: Nid ellir gwneud hyn yn bresenol, canys y mae Man-soul yn awr mewn math o lid, am iddi hi eisoes gael ei maglu unwaith gan ein cyfaill Mr. Hyder-gnawdol, fel y gwnaethpwyd iddi bechu yn erbyn ei Thywysog, a pha fodd y cymoder hi â'i Harglwydd ond â phenau y gwŷr hyn? Heblaw hyn, ni a wyddom fod ganddynt gommisiwn i ddâl ac i'n difetha ni, pa le bynag y caffont afael ynom; byddwn, gan hyny, yn gyfrwys fel llwynogod; pan y byddom ni meirw, nid allwn wneuthur dim niwaid iddynt; ond tra y byddom byw, ni a allwn.

Pan ddarfu iddynt fel hyn dreiglo y mater i fyny ac i wared, hwynt-hwy, yn gytun, a gytunasant ar fod i lythyr gael ei ddanfon ar frys at Diabolus, yn eu henwau hwynt, trwy yr hwn y byddai i gyflwr tref Man-soul gael ei ddangos iddo ef, a pha mor belled y mae hi dan wg ei Thywysog; ni a allwn, ebe rhai, adael iddo wybod ein hamcanion ni, a gofyn ei gyngor ef yn y peth.

Felly llythyr a ddarluniwyd yn ebrwydd, ystyr yr hwn ydoedd hyn:

*At ein Harglwydd mawr, y Tywysog Diabolus, yr hwn sydd yn preswylio obry yn yr Ogof Uffernol.*

O! Dad dyrchafedig, a galluog Dywysog Diabolus!—Nyni, y gwir Ddiaboloniaid, ag sydd eto yn aros yn y dref wrthryfelgar Man-soul, gan i ni dderbyn ein bywyd a'n bôd genyt ti, nid allwn, gyda boddlonrwydd a llonyddwch, oddef gweled, megis ag yr ydym heddyw, y modd yr ydwyt ti yn cael dy oganu a'th waradwyddo yn mhlith trigolion y dref yma Man-soul, ac nid yw dy hir absenoldeb, mewn modd yn y byd, yn beth hoff genym, am ei fod er mawr niwaid i ni.

Yr achos neu y rheswm o'n hysgrifenu yma at ein Harglwydd sydd am nad ydym yn gwbl ddiobaith y gall y dref yma fod yn drigfan i ti; canys y mae hi wedi ymbellhau yn ddirfawr oddiwrth ei Thywysog Emmanuel, ac efe a ymadawodd oddi-

wrthynt; ïe, ac er eu bod hwy yn danfon, ac yn danfon, ac yn danfon ar ei ol ef i ddychwelyd atynt hwy, eto nid ydynt yn gallu gorchfygu, na chael geiriau daionus oddiwrtho ef.

Fe fu, hefyd, yn ddiweddar, ac y mae eto yn parhau, afiechyd a llesgedd mawr iawn yn eu plith hwynt, a hyny nid yn unig ar y rhai tlotaf o'r dref, ond ar ýr arglwyddi, cadbeniaid, a phenaethiaid y lle; nyni yn unig, y rhai ydym Ddiabolon-iaid wrth natur, ydym yn iach, yn fywiog, ac yn gedyrn: felly gan eu bod, trwy eu troseddiadau mawrion, ar y naill law, a'u clefyd enbyd ar y llaw arall, yr ydym yn barnu eu bod yn gorwedd yn agored i'th law di. Os bydd hi, gan hyny, yn sefyll gyda'th gyfrwysdra erchyll, a chyda chyfrwysdra y lleill o'r tywysogion gyda thi, i ddyfod a gwneud cynyg ar enill tref Man-soul unwaith eto, danfon air atom, a nyni a fyddwn yn barod hyd eithaf ein gallu i'w thraddodi i'th law di. Neu, os yr hyn a ddywedasom nis bernir yn oreu, ac yn gymhwysaf ei wneuthur, anfon atom dy feddwl mewn byr eiriau, ac yr ydym ni oll yn barod i ddilyn dy gyngor hyd at beryglìad o'n bywyd, a pha beth bynag arall ag sydd ar ein helw ni.

Wedi ei roddi oddidan ein dwylaw y dydd a'r flwyddyn a ysgrifenwyd uchod, ar ol dwys ymgynghoriad, yn nhŷ Mr. Ysgelerder, yr hwn sydd eto yn fyw yn nhref Man-soul.

Pan ddaeth Mr. Halogedig (canys efe oedd y rhedegwr) â'i lythyr i Fryn-porth-uffern, efe a gurodd wrth y porth. Yna y darfu i Cerberus, y porthor (canys efe yw ceidwad y porth hwnw), agoryd i Mr. Halogedig, i'r hwn y traddodes efe ei lythyr, yr hwn a ddygasai efe oddiwrth y Diaboloniaid oedd yn Man-soul. Felly efe a'i dug ef i mewn, ac a'i cyflwynodd ef i Diabolus ei feistr, ac a ddywedodd: Cenadwri, fy arglwydd, o Man-soul, ac oddiwrth eich cywir gyfeillion yno.

Yna daeth Beelsebub, Lusiffer, ac Apolyon, yn nghyd, gyda'r lleill o'r giwdawd, yno, i wrando pa newydd oedd o dref Man-soul. Felly y llythyr a ddarllenwyd, a Cerberus a safodd gerllaw. Pan ddarllenwyd y llythyr yn gyhoeddus, a phan daenwyd yr hyn oedd gynwysedig ynddo i bob congl o'r ffau, fe roddwyd gorchymyn ar fod, yn ddirwystr ac yn ddiattal, i Gloch-dyn-marw gael ei chanu o lawenydd. Felly y gloch a ganwyd, a'r tywysogion a lawenychasant, am fod Man-soul yn debyg o ddyfod i ddinystr. Yn awr tafod y gloch a ganodd: Y mae tref Man-soul yn dyfod i aros gyda ni, gwnewch le i Man-soul. Y gloch hon, gan hyny, a ganasant, am iddynt obeithio y caent hwy Man-soul drachefn. Yn awr pan gyf-lawnasant eu defod erchyll yma, hwy a ddaethant yn nghyd eto, i ymgynghori pa ateb a anfonent at eu cyfeillion yn Man-soul: rhai a gynghorent un peth, a rhai beth arall; ond o'r diwedd, am fod yr achos yn gofyn brys, hwy a adawsant y cwbl

ar Diabolus, gan ei farnu ef yn arglwydd mwyaf cymhwys o'r lle. Felly efe a dynodd i fyny lythyr mewn ateb i'r hwn a ddygasai Mr. Halogedig, ac a'i danfonodd ef at y Diaboloniaid y rhai oedd yn Man-soul, yn yr un llaw ag a ddygasai yr eiddynt hwy ato yntau; a dyma y cynwysiad o hono:

*At ein hiliogaeth, yr uchel a'r galluog Ddiaboloniaid ag sydd yn trigo eto yn nhref Man-soul, Diabolus, tywysog mawr Man-soul, sydd yn dymuno diwedd a dibeniad llwyddiannus o'r amryw weithredoedd ardderchog hyny, sef y bradwriaethau a'r amcanion yr ydych chwi o'ch cariad a'ch parch at ein anrhydedd ni, yn meddwl anturio eu gwneuthur yn erbyn Man-soul:*

Anwyl blant a disgyblion, fy Arglwydd Puteindra, Godineb, a'r lleill:—Fe ddarfu i ni yma yn ein ffau anghyfaneddol, dderbyn eich llythyr croesawus, i'n mawr lawenydd a'n boddlonrwydd eithaf, a hyny trwy ein cywir Mr. Halogedig; ac i ddangos mor dderbyniol ydoedd eich cenadwri, nyni a ganasom ein cloch o lawenydd; canys nyni a lawenychasom gymaint ag a allem, pan ddeallasom fod i ni eto gyfeillion yn Man-soul, a'r cyfryw rai hefyd ag ydoedd yn ceisio ein hanrhydedd, am ymddial yn ninystr tref Man-soul. Nyni hefyd a lawenychasom wrth glywed eu bod mewn cyflwr dirywiol, ac am eu bod wedi pechu yn erbyn eu Tywysog, a'i fod ef wedi ymadael. Eu clefyd, hefyd, sydd yn ein boddhau ni, megis ag y mae hefyd eich iechyd, eich gallu, a'ch cadernid chwithau. Llawen hefyd a fyddem ni, iawn erchyll garedigion, pe gallem ni gael y dref hon eto yn ein hewinedd; ac nis byddwn ni ychwaith yn gynil o dreulio ein synwyrau, ein dichellion, a'n huffernol ddychymygion, i ddwyn i ddiwedd dymunol eich dechreuadau ardderchog yma mewn trefn i wneuthur hyny.

A chymerwch hyn er eich cysur, ein hesgoredigaeth a'n hiliogaeth, os bydd i ni drachefn ei gorchfygu, a'i henill hi, nyni a gynygiwn roddi eich holl elynion i'r cleddyf, ac a'ch gwnawn chwi yn arglwyddi mawrion ac yn gadbeniaid ar y lle. Ac nid rhaid i chwi ofni, os bydd i ni unwaith ei henill hi eto, y bydd i ni wedi hyn gael ein bwrw allan byth mwy, canys ni a ddeuwn gyda mwy o allu, ac felly y cymerwn afael mwy sicr arnynt nag a wnaethom ar y cyntaf. Heblaw hyn, cyfraith y Tywysog hwnw y maent yr awr hon yn ei harddel, yw, os bydd i ni eu henill hwynt yr ail dro, hwy a fyddant yn eiddo i ni yn dragywydd. (Mat. xii. 43—45.)

Bydded i chwi, gan hyny, ein Diaboloniaid cywir, eto yn fwy hylldremu i, a gwneud eich goreu i chwilio allan wendid tref Man-soul. Nyni hefyd a ewyllysiem i chwi eich hunain gynyg eu gwanhau hwynt yn fwy-fwy. Danfonwch hefyd i ni air, fel y gwypom trwy ba foddion y byddai yn oreu i ni gynyg ceisio eu hail-enill hi—sef, pa un ai eu perswadio hwynt i fywyd rhydd, ai trwy eu temtio hwynt i

ameu ac i anobeithio, ai trwy chwythu y dref i fyny trwy falchder a hunan-dyb dda. Bydded i chwi hefyd, O! chwychwi Ddiaboloniaid ardderchog, a gwir feibion y pydew, fod yn wastadol mewn parodrwydd i wneuthur yr ymosodiad mwyaf ofnadwy oddimewn, pan fyddom ninau yn barod i ruthro arni oddiallan.

Yn awr prysurwch i ddwyn yn mlaen eich dichell, a ninau yn ein dymuniadau, hyd yr eithaf o allu ein pyrth; yr hyn yw dymuniad eich Diabolus mawr, gelyn Man-soul, a'r hwn sydd yn crynu pan feddylio am y farn sydd i ddyfod. Holl fendithion y pydew a fyddo arnoch, ac felly yr ydym yn cau i fyny ein llythyr.

A roddwyd wrth enau y pydew, trwy gydsyniad unol holl dywysogion y tywyllwch, i'w ddanfon (at y grym a'r gallu ag sydd genym ni eto yn aros yn nhref Man-soul) trwy law ein gwasanaethwr, Mr. Halogedig.

Genyf fi, DIABOLUS.

Y llythyr yma a ddanfonwyd i Man-soul at y Diaboloniaid ag ydoedd eto yn trigo yn y mur, o ddaeardy tywyll Diabolus, trwy law Mr. Halogedig, trwy yr hwn hefyd y darfu iddynt hwy yn Man-soul ddanfon yr eiddynt hwythau i'r pwll. Yn awr pan ddarfu i Mr. Halogedig yma ddychwelyd, a dyfod i Man-soul drachefn, efe a aeth ac a ddaeth fel yr oedd efe yn arfer, i dŷ Mr. Ysgelerder, canys yno yr oedd y lle yr oedd y bradwyr wedi ymgynull yn nghyd.

Yn awr pan welsant fod eu cenhadwr wedi dychwelyd yn iach ac yn ddiogel, hwy a lawenychasant o'i blegid. Yna efe a gyflwynodd iddynt ei lythyr, yr hwn a ddygasai iddynt oddiwrth Diabolus; yr hwn, wedi iddynt ei ddarllen a'i ystyried, a chwanegodd lawer at eu llawenydd hwynt. Hwy a ofynasant iddo ef am iechyd eu cyfeillion, megis: Pa fodd yr oedd eu Harglwydd Diabolus, Lusiffer, a Beelsebub, gyda'r lleill o'r rhai hyny ag sydd yn y ffau? I'r hyn yr atebodd yr Halogedig yma: Yn iach, yn iach, fy arglwyddi, y maent yn iach, sef cystled ag y gellir bod yn eu lle hwynt. Hwy hefyd, eb efe, a ganasant eu cloch wrth ddarllen eich llythyr chwi, fel y dealloch wrth hwn, pan ddarllenoch ef.

Yn awr, megis eg y dywedwyd, pan ddarllenasant eu llythyr, a dirnad ei fod yn eu hanog hwynt yn eu gwaith, fe ddarfu iddynt gwympo at eu gwaith o lyfelu drachefn; hyny yw, pa fodd y byddai iddynt gwblhau eu hamcan ar Mansoul. A'r peth cyntaf y cytunasant arno ydoedd cadw pob peth mor guddiedig ag y gallent oddiwrth Man-soul. Na wybydder ef; na wneler Man-soul yn gydnabyddus â'r hyn yr ydym ni yn amcanu ei wneuthur yn ei herbyn hi.

Y peth nesaf ydoedd, Pa fodd, neu trwy ba foddion y cynygient ddwyn i ben ddymchweliad a dinystr Man-soul; ac un a ddywedodd fel hyn, ac arall fel acw. Yna safodd Mr. Twyll i fyny, ac a ddywedodd: Fy nghywir gyfeillion Diabolon-

aidd, ein harglwyddi, a rhai mawrion y daeardy dwfn, sydd yn gosod ger ein bronau ni y tair ffordd yma:

1. Pa un a fyddai oreu i ni geisio ei dinystr trwy wneuthur Man-soul yn rhydd ac yn ofer.

2. Neu, pa un ai trwy eu gyru hwynt i amheuaeth ac anobaith.

3. Neu ynte trwy ymdrechu i'w chwythu hwynt i fyny trwy falchder a hunan-dyb dda.

Yn awr yr wyf fi yn meddwl, os bydd i ni eu temtio hwynt i falchder, fe all hyny wneuthur rhywbeth; ac os bydd i ni eu temtio i anlladrwydd, fe ddichon hyny gynorthwyo; ond yn fy marn i, pe gallem ni eu gyru hwynt i anobaith, fe darawai hyny yr hoel ar ei phen, canys yna y caem ganddynt, yn y lle cyntaf, ameu cariad calon eu Tywysog tuag atynt hwy, a hyny a'i dirmyga ef yn ddirfawr. Hyn, os gweithia yn iawn, a wna iddynt hwy yn ebrwydd adael heibio eu gwaith o ddanfon deisyfiadau ato ef, yna yn iach i bob taerni difrifol am help a chymhorth; canys yna y bydd y casgliad yma yn gorwedd yn naturiol o'u blaen hwynt:—Y mae hi cystled i un fod heb wneuthur dim, a gwneuthur peth na byddo i ddim pwrpas. Felly hwy a gytunasant yn unfryd â Mr. Twyll.

Yna yr holiad nesaf ydoedd, Ond pa fodd y gwnawn ni tuag at ddwyn ein llyfeliaeth i ben? Ac fe'u hatebwyd gan yr un gŵr bonheddig, Mai dyma y ffordd oreu a fyddai i'w wneuthur ef, sef: Gadewch, eb efe, i gynifer o'n cyfeillion ag sydd yn foddlon i anturio eu hunain er mwyn dyrchafu achos eu tywysog, ymddieithrio eu hunain â dillad, a newid eu henwau, a myned i'r farchnadfa megis dynion o wlad bell, a chynyg eu hunain yn weision i'r dref enwog Man-soul, a chymerant arnynt wneuthur i'w meistriaid mor ddaionus neu mor fuddiol ag a fyddo bosibl; canys wrth wneud felly, hwy a allant, os cyfloga Man-soul hwynt, mewn ychydig amser, lygru a difwyno y gorphoraeth yn y fath fodd, fel nas bydd i'w Thywysog presenol nid yn unig gael ei ddigio yn mhellach ganddynt, ond yn y diwedd efe a'u chwyda hwynt allan o'i enau. A phan wneler hyn, ein tywysog Diabolus a wna ysglyfaeth o honynt yn hawdd; ïe, o honynt eu hunain y syrthiant yn safn y bwytawr.

Ond pan gyntaf ag y gosodwyd y lyfeliaeth hon gerbron, hi a dderbyniwyd yn ebrwydd, ac yr oedd yr holl Ddiaboloniaid yn bresenol yn barod i ymrwymo eu hunain yn y weithred rymus yma; ond ni farnwyd yn addas i bawb wneud felly; oherwydd paham, hwy a roddasant ar ddau neu dri, sef yr Arglwydd Cybydd-dod, yr Arglwydd Anlladrwydd, a'r Arglwydd Digofaint. Yr Arglwydd Cybydd-dod a alwodd ei hun wrth yr enw o Gynilder-synwyrol, a'r Arglwydd Anlladrwydd a alwodd ei hunan wrth yr enw o Lawenydd-diniwed, a'r Arglwydd Digofaint a alwodd ei hun wrth yr enw Sel-dda.

Felly ar ddiwrnod marchnad, hwy a ddaethant i'r farchnadfa, yn dri o lanciau

gwrol yr olwg, ac yr oeddynt wedi eu gwisgo mewn gwisgoedd defaid cymysgliw, yr hwn, hefyd, yn bresenol, ydoedd, mewn ffordd, cyn wyned a gwisgoedd gwynion gwŷr Man-soul. Felly pan ddaethant i'r farchnadfa, a chynyg eu hunain i wŷr y dref, hwy yn ebrwydd a gyflogwyd, canys nid oeddynt yn gofyn ond ychydig o gyflog, ac yr oeddynt yn addaw yn dêg y gwnaent wasanaeth mawr a defnyddiol i'w meistriaid.

Mr. Meddwl a gyflogodd Gynildeb-synwyrol, a Mr. Ofn-duwiol a gyflogodd Sel-dda. Gwir, fe orfu ar y llanc yma, Llawenydd-diniwed, aros peth, ac nid allai gael meistr mor gynted a'r lleill, am ei bod hi yn Rawys yn Man-soul yn bresenol; ond cyn pen llawer o ddyddiau, oherwydd fod y Grawys ar fyned heibio, yr Arglwydd Ewyllysgar a gyflogodd Lawenydd-diniwed i wasanaethu arno, ac i fod yn frys-redegwr iddo; ac felly llwyddodd y tri dihiryn hyn i gael sefyllfaoedd yn nhref Man-soul.

Y fileiniaid yma yn awr, gan iddynt gael dyfod i dai gwŷr tref Man-soul, a ddechreuasant yn fuan wneuthur mawr ddrwg yno; canys gan eu bod yn aflan, ystrywgar, a chyfrwys, hwy yn ebrwydd a lygrasant y teuluoedd lle yr oeddynt; ïe, hwy a lygrasant eu meistriaid yn ddirfawr, yn enwedigol y Cynildeb-synwyrol yma, a'r hwn a alwant Llawenydd-diniwed.*

Y mae'n bur wir nad oedd yr hwn ag oedd yn myned dan rith Sel-dda mor gymeradwy gan ei feistr, canys efe a ddeallodd yn fuan nad oedd efe ond dihiryn twyllodrus; yr hyn, pan ddeallodd y llanc, efe a ddihangodd ar frys o'i dŷ ef, ac nid oes genyf fi yr amheuaeth lleiaf, pe yr arosasai yno ychydig ddyddiau yn hwy, y buasai ei feistr yn ei grogi ef.

Felly pan ddarfu i'r crwydriaid yma ddwyn eu hamcan yn y blaen cyn belled a hyn, a llygru y dref gymaint ag a allent, yn y lle nesaf hwy a ystyriasant rhyngddynt hwy eu hunain ar ba amser yr oedd hi oreu i'w Tywysog Diabolus oddiallan, ac iddynt hwythau oddifewn, i wneud cynyg ar feddiannu Man-soul: a hwy oll a gytunasant ar hyn, sef, mai dydd marchnad a fyddai oreu i'r gwaith hyny; canys paham, am mai y pryd hyny y byddai gwŷr y dref yn ddiwyd yn eu ffyrdd; ac yn wastad cymerwch hyn yn lle rheol: Pan y mae pobl yn fwyaf diwyd yn nghylch y byd, yr ofnant leiaf rhag perygl.

Nyni, hefyd, y pryd hyny, ebe hwy, a allwn gyda llai o amheuaeth, ymgasglu ein hunain yn nghyd i wneuthur gwaith ein cyfeillion a'n harglwyddi;—ïe, os cynygiwn wneuthur ein gwaith ar y cyfryw ddiwrnod, a methu, ni a allwn, pan yront ni i ffoi, guddio ein hunain yn well yn y dorf, a dianc, yr hyn fydd y llwybr doethaf, dan y cyfryw amgylchiadau, a ellir ei fabwysiadu.

* Y mae llawenydd diniwaid, os na chedwir gwiliadwriaeth gofalus, yn fynych yn arwain y rhai difeddwl drwg yn mhell iawn o ffyrdd gwirionedd.

Y pethau hyn, gan iddynt gytuno arnynt hyd yma, hwy a ysgrifenasant lythyr arall at Diabolus, ac a'i danfonasant ef yn llaw Mr. Halogedig, ystyr yr hwn oedd fel y canlyn :

*Arglwyddi Rhyddid at yr uchel a'r mawr Diabolus, o'n ffauau, a'n hogofeydd, a'n tyllau, a'n hamddiffynfeydd cedyrn, yn, ac oddiamgylch tref Man-soul, yn anfon anerch :*

EIN harglwydd mawr, a meithrinwr ein bywyd, Diabolus !—Pa mor llawen oeddym pan glywsom am eich parodrwydd tadol chwi i gydsynio â ni, ac i gynorthwyo ein hamcan yn mlaen yn ein hymgeisiadau i ddinystrio Man-soul, nid all neb fynegu ond y rhai hyny, y rhai, fel ninau, a ymosodasant eu hunain yn erbyn pob ymddangosiad o ddaioni, pa bryd, a pha le bynag y gwelom ef. (Rhuf. vii. 21. Gal. v. 17.)

Ac am yr anogaeth y mae eich mawrhydi yn ei roddi i ni i barhau i ddychymygu, i lyfelu, ac i astudio anghyfanedd-dra hollol tref Man-soul, yr hyn beth nid ydym yn ddiofal yn ei gylch, canys ni a wyddom yn rhy dda nad all hyny lai na bod wrth ein bodd, ac yn beth buddiol i ni i weled ein gelynion, a'r rhai hyny ag a geisiant ein heinioes, yn feirw wrth ein traed ni, neu yn ffoi o'n blaen ni. Nyni, gan hyny, ydym yn wastadol yn llyfelu, a hyny hyd yr eithaf o'n cyfrwysdra, i wneuthur y gwaith hwn yn fwy rhwydd a hawdd i'ch arglwyddiaethau ac i ninau.

Yn gyntaf, nyni a ystyriasom y dichell dri-dyblyg, ddarluniedig, gyfrwys, fwyaf uffernol hòno, ag a osodwyd ger ein bronau yn eich llythyr diweddaf; ac a farnasom mai er y gwnai eu chwythu hwynt i fyny â'r powdwr gwn o falchder brofi yn dda; ac i'w wneuthur ef trwy eu temtio hwynt i fod yn rhydd ac yn ofer, gynorthwyo llawer hefyd; eto i ymdrechu eu dwyn hwynt i'r llynclyn o anobaith, yr ydym yn meddwl fydd oreu o'r cwbl. Yn awr nyni, y rhai ydym wrth eich amnaid, a feddyliasom am ddwy ffordd i wneuthur hyn : yn gyntaf, nyni, o'n rhan ein hunain, a'u gwnawn hwynt mor bechadurus ag y gallom, ac yna chwychwi, yn nghyd â ninau, ar amser gosodedig, a fyddwn barod i ruthro arnynt gyda y trais mwyaf. Ac o'r holl genhedloedd ag sydd wrth eich chwibaniad, yr ydym yn meddwl mai llu o amheuwyr a allai fod yn fwyaf tebyg i ymosod ar, ac i orchfygu tref Man-soul. Fel hyn y gorchfygwn ein gelynion yma; ac onidê, y pydew a egyr ei safn arnynt, ac anobaith a'u gwthia hwynt i mewn iddo.

Fe ddarfu i ni hefyd, tuag at gyflawni ein hamcan dymunol yma, ddanfon yn barod dri o'n Diaboloniaid cywir i'w plith hwynt, a hwy a ymddieithriasant mewn dillad, ac a newidiasant eu henwau, ac y maent yn bresenol wedi cael derbyniad ganddynt, sef Cybydd-dod, Anlladrwydd, a Digofaint. Enw Cybydd-dod sydd wedi ei newid i Gynildeb-synwyrol, a Mr. Meddwl a'i cyflogodd ef, ac y mae efe agos a dyfod cynddrwg a'n cyfaill. Anlladrwydd a newidiodd ei enw i Lawenydd-diniwed,

ac y mae efe wedi cael myned yn rhedegwr i'r Arglwydd Ewyllysgar, ond efe a wnaeth ei feistr yn drythyllgar iawn. Digofaint a newidiodd ei enw i Sel-dda, ac a roesawyd gan Mr. Ofn-duwiol, ond yr hen wr bonheddig anynad a gymerth bupyr yn ei drwyn, ac a drodd ein cydymaith allan o'i dŷ; nagê, efe a fynegodd i ni wedi hyny iddo ddianc oddiwrtho ef, ac onidê, y buasai ei hen feistr yn ei grogi ef am ei boen. Yn awr y rhai hyn a gynorthwyasant lawer ar ein gwaith a'n hamcan ar Man-soul yn y blaen; canys, er gwaethaf dirmyg a thymher anynad yr hen wr bonheddig a soniwyd am dano ddiweddaf, y mae y ddau arall yn ddiwyd wrth eu gwaith, ac yn debyg i ddyfod â'r gwaith i ben yn ebrwydd.

Ein dichell nesaf yw, ar fod i chwi farnu yn fwyaf addas i ddyfod am ben y dref ar ddiwrnod marchnad, ac fel pan ydynt yn fwyaf poeth yn nghylch eu gwaith, mai dyna yr amser yn sicr y byddant yn fwyaf diofal, ac yn meddwl leiaf y gwneir ymosodiad arnynt. Hwy hefyd, ar y cyfryw amser, a fyddant yn fwy anabl i amddiffyn eu hunain, ac i'ch rhwystro chwithau i ddilyn neu i gario yn y blaen ein hamcan. A nyni eich cywir, ac yn ddiau eich rhai anwyl, a fyddwn, pan wneloch chwi eich ymosodiad mwyaf ffyrnig oddiallan, yn barod i gynorthwyo y gwaith oddimewn. Felly y byddwn, wrth bob tebygoliaeth. yn abl i osod Man-soul mewn annhrefn hollol, ac i'w llyncu hwynt i fyny cyn y delont atynt eu hunain.

Os gall eich penau seirphaidd, ddreigiau mwyaf cyfrwys, a'n hanrhydeddus arglwyddi, gael allan well ffordd na hon, gadewch i ni yn ebrwydd gael gwybod eich meddyliau.

At anghenfilod yr ogof uffernol, o dŷ Mr. Ysgelerder, yn Man-soul, yn llaw Mr. Halogedig.

Yn awr, trwy yr holl amser y bu y crwydriaid cynddeiriog, a'r uffernol Ddiaboloniaid, fel hyn yn llyfelu dinystr tref Man-soul, hwynt-hwy, sef y dref dlawd ei hunan, ydoedd mewn cyflwr trist a gofidus; a hyny, mewn rhan, oherwydd iddynt bechu mor ofnadwy yn erbyn Shad-dai a'i Fab; ac, mewn rhan, oherwydd i'r gelynion, trwy hyny, gael nerth newydd oddifewn iddynt drachefn. Ac hefyd oherwydd er iddynt, trwy lawer o ddeisebau, wneuthur eu deisyfiad at y Tywysog Emmanuel, ac at ei Dad Shad-dai, trwyddo ef, am faddeuant a ffafr; eto hyd yn hyn ni chawsent un wên; ond yn y gwrthwyneb, trwy ddichellion a chyfrwysdra y Diaboloniaid tufewnol, eu cwmwl a wnaethpwyd yn dywyllach, dywyllach, a'u Hemmanuel i sefyll yn mhellach oddiwrthynt.

Yr afiechyd ydoedd, hefyd, yn drwm iawn yn parhau yn Man-soul, yn gystled yn mhlith y cadbeniaid a thrigolion y dref; eu gelynion, a'u gelynion yn unig, yn awr oeddynt yn fywiog ac yn gedyrn, ac yn debyg i fod yn ben, tra yr ydoedd Man-soul yn cael ei gwneuthur yn gynffon.

Erbyn hyn y llythyr a soniwyd am dano ddiweddaf, a ysgrifenasid gan y Diaboloniaid ag oedd eto yn llechu yn nhref Man-soul, a ddygwyd at Diabolus i'r ffau ddû, trwy law Mr. Halogedig. Efe a ddug y llythyr heibio i Fryn-porth-uffern, megis o'r blaen, ac a'i trosglwyddodd ef trwy law Cerberus i'w arglwydd.

Ond pan gyfarfu Cerberus â Mr. Halogedig, yr oeddynt yn ebrwydd mor gyfeillgar a begeriaid, ac fel hyn y cwympasant i ymddiddan yn nghylch Man-soul, ac yn nghylch y ddichell a luniasid yn ei herbyn hi.

A! hen gyfaill, ebe Cerberus, a ddaethost ti i Fryn-porth-uffern drachefn? Myn Mair, y mae yn dda genyf fi dy weled di.

*Hal.* Do, fy arglwydd, mi a ddaethum drachefn yn nghylch achosion Man-soul.

*Cer.* Atolwg i ti, mynega i mi yn mha gyflwr y mae y dref Man-soul hôno ynddo yn bresenol.

*Hal.* Mewn cyflwr gwych, fy arglwydd, i ni, ac i'm harglwyddi, sef arglwyddi y lle yma yr wyf yn ei feddwl; canys y maent wedi ymadfeilio yn ddirfawr mewn perthynas i dduwioldeb, ac y mae hyny yn dda gan ein calonau ni; y mae eu Harglwydd wedi digio yn ddirfawr wrthynt, ac y mae hyny hefyd yn dda iawn genym. Y mae genym hefyd yn barod droed yn eu dysgl hwynt, canys y mae ein cyfeillion Diabolonaidd wedi eu gosod yn eu mynwesau hwynt, a pha beth sydd yn eisieu arnom ond bod yn feistriaid ar y lle? Heblaw hyn, y mae ein cyfeillion cywir yn Man-soul beunydd yn llyfelu y ffordd i'w bradychu hi i arglwydd y dref yma. Hefyd, y mae yr afiechyd yn drwm iawn yn eu plith hwynt; a'r hyn sydd oreu o'r cwbl, yr ydym ni yn gobeithio y bydd i ni eu gorchfygu hwy o'r diwedd.

Yna ebe Cerberus: Nid oes un amser mor gyfleus a hwn i ruthro arnynt hwy; mi a ddymunwn ar fod i'r ymosodiad yma gael ei ganlyn yn ddiwyd, ac i'r llwyddiant a ddymunir gael ei gyflawni yn ebrwydd; ïe, mi a'i dymunwn er mwyn y Diaboloniaid tlodion sydd yn byw yn wastadol mewn ofn am eu bywyd yn y dref fradwriaethus hôno Man-soul.

*Hal.* Y lyfeliaeth sydd agos i gael ei chyflawni; y mae yr arglwyddi yn Man-soul, y rhai ydynt Ddiaboloniaid, wrthi ddydd a nos, ac y mae y lleill fel colomenod ynfyd, y mae arnynt eisieu calon i ystyried eu cyflwr, ac i ystyried fod dinystr gerllaw. Heblaw hyn, chwi a ellwch, ac y mae yn rhaid i chwi feddwl, pan osoder pob peth at eu gilydd, fod llawer o resymau ag a ddylai orchfygu gyda Diabolus i wneuthur pob brys ag a allo.

*Cer.* Tydi a ddywedaist fel y mae; y mae yn dda genyf fi fod pethau fel yma. Dos i mewn, fy Halogedig dewr, at fy arglwyddi, a hwy a roddant i ti gystled gwobr am dy newydd ag a allo y deyrnas yma fedru ei roddi. Mi a ddanfonais dy lythyr i mewn yn barod.

Yna Mr. Halogedig a aeth i mewn i'r ffau, a'i arglwydd Diabolus a'i cyfarfu ef,

ac a'i hanerchodd ef gyda chroesawiad, gan ddywedyd: Fy ngwas cywir, fe ddarfu i'th lythyr fy ngwneuthur yn llawen. Y lleill o arglwyddi y pwll a roddasant iddo eu cyfarchiadau hefyd. Yna Halogedig, ar ol ymostwng iddynt oll, a ddywedodd: Rhodder Man-soul i'm harglwydd Diabolus, a bydded yn frenin arni yn dragywydd. A gyda hyny, safn ddylifedig uffern a roddes y fath ochenaid ddychrynllyd (canys dyna gerddoriaeth y lle hwnw) ag a wnaeth i'r mynyddoedd oddeutu i grynu, fel pe buasent ar syrthio yn gandryll. Yn awr, wedi iddynt ddarllen ac ystyried y llythyr, hwy a ymgynghorasant pa ateb a ddychwelent, a'r cyntaf a lefarodd am dano ef ydoedd Lusiffer.

*Lus.* Yna eb efe: Y ddichell gyntaf o eiddo y Diaboloniaid yn Man-soul sydd yn debyg i fod yn llwyddiannus, ac i gymeryd lle—sef fod iddynt hwy, trwy bob moddion ag a allont, wneuthur Man-soul eto yn waelach; nid oes un ffordd i ddistrywio enaid yn debyg i hon; ein hen gyfaill Balaam a aeth y ffordd hon er ys llawer blwyddyn, ac a lwyddodd. (Num. xxxi. 16 Dat. ii. 14.) Safed hyn, gan hyny, yn ddihareb gyda ni, a bydded yn rheol gyffredinol i'r holl Ddiaboloniaid yn mhob oes, canys nid oes dim a wna i hyn ballu ond gras, yn yr hwn yr wyf fi yn gobeithio nad oes gan y dref yma ddim rhan.

Ond pa un a wnawn ni a rhuthro arnynt ar ddiwrnod marchnad, oblegid eu trafferth mewn gwaith, hyny a fynwn ni gymeryd dan ein ymgynghoriad yn bresenol. Ac y mae mwy o achos i ymgynghori ar y pen yma na rhai penau eraill; oherwydd mai ar hynyma yr ymchwel y cwbl o'n hymgeisiadau. Os na bydd i ni drin ein gwaith yn iawn, y cwbl o'n llyfeliaeth a ddichon ballu.

Ein cyfeillion, y Diaboloniaid, a ddywedant mai diwrnod marchnad sydd oreu, canys yna y bydd Man-soul yn fwyaf diwyd, a chanddi leiaf o feddyliau am ymgyrch gelynion. Ond beth os bydd iddyut hwy ddyblu eu gosgordd ar y dyddiau hyny, ac yr wyf fi yn meddwl y dylai natur a rheswm eu dysgu hwynt i wneuthur hyny, a pha beth os cadwant y cyfryw wiliadwriaeth ar y dyddiau rhai'n ag y mae angenrheidrwydd yr achos presenol yn gofyn? Ië, pa beth os byddai eu gwŷr yn wastadol mewn arfau ar y dyddiau yma? Yna, fy arglwyddi, chwi a ellwch gael eich siomi yn eich cynygion, ac a ellwch ddwyn ein cyfeillion yn y dref i berygl hollol o ddinystr anocheladwy.

*Beel.* Yna ebe y Beelsebub mawr: Y mae rhywbeth yn yr hyn a ddywedodd fy arglwydd, ond ei debygoliaeth a all ddigwydd, ac a all beidio. Ac ni ddarfu i'm harglwydd ei osod ef i lawr megis peth nad ellir ei adael heibio, canys mi a wn iddo ef ei ddywedyd er mwyn ymanog i ymgynghoriad mwy manwl yn nghylch hyny. O ganlyniad, y mae yn rhaid i ni ddeall, os gallwn, pa un ai bod gan Man-soul y fath deimlad a gwybodaeth o'i chyflwr adfeiliedig, ac o'r bwriad sydd ar droed genym ni yn ei herbyn hi, ag a baro iddi osod gwiliadwriaeth wrth ei phyrth, ac i'w

dyblu hwynt ar ddiwrnod marchnad. Ond os, ar ol gwneuthur ymofyniad, y ceir allan eu bod hwy yn cysgu yna rhyw ddiwrnod arall a wna'r gwaith; ond diwrnod marchnad sydd oreu: a dyma fy marn inau.

*Diab.* Yna ebe Diabolus; Pa fodd y cawn ni wybod hyny! Ac fe atebwyd: Ymofynwch am dano o enau Mr. Halogedig. Felly Halogedig a alwyd i mewn, a gofynwyd iddo y cwestiwn, ac efe a wnaeth ei ateb fel y canlyn:

*Hal.* Fy arglwyddi, mor belled ag y gallaf fi gasglu, hyn ydyw cyflwr presenol tref Man-soul: y maent wedi llaesu yn eu ffydd a'u cariad; Emmanuel eu Tywysog a gefnodd arnynt; y maent yn anfon yn fynych trwy ddeisebau i'w gyrchu ef drachefn, ond nid yw efe yn gwneuthur nemawr o frys i ateb eu dymuniadau hwynt, ac nid oes ychwaith ddim llawer o ddiwygiad yn eu plith.

*Diab.* Y mae yn dda genyf eu bod hwy yn ol mewn perthynas i ddiwygiad, eto y mae arnaf fi ofn eu gwaith yn gweddio. Pa fodd bynag, y mae eu bywyd rhydd yn arwydd nad oes dim llawer o galon yn yr hyn y maent yn ei wneuthur, ac heb y galon ni thâl pethau ddim llawer. Ond ewch yn mlaen, fy meistriaid; ni chaf fi, fy arglwyddi, eich difyru ddim pellach.

*Beel.* Os ydyw y peth felly gyda Man-soul, megis ag y darfu i Mr. Halogedig ei ddesgrifio ef, nid oes dim llawer o fater pa ddiwrnod y byddo i ni ymosod arni; ni wna eu gweddiau, na'u gallu, ddim llawer o wasanaeth iddynt.

Pan ddarfu Beelsebub â'i araeth, yna Apolyon a ddechreuodd. Fy marn i, eb efe, mewn perthynas i'r mater yma, ydyw, fyned o honom yn mlaen yn dêg, ac yn araf, a pheidio gwneuthur pethau ar ffrwst, neu yn fyrbwyll.

Gadewch i'm cyfeillion yn Man-soul fyned yn mlaen o hyd i'w difwyno ac i'w halogi hi, trwy geisio ei thynu hi eto fwy-fwy i bechod, canys nid oes dim yn gyffelyb i bechod tuag at ddifetha Man-soul. Os gwneir hyn, ac iddo gael effaith, Man-soul, o honi ei hun, a âd ymaith wilio a gweddio, neu un peth arall ag a dueddai tuag at ei diogelwch a'i hamddiffyniad hi, canys hi a anghofia ei Hemmanuel, ac nis dymuna hi ei gwmpeini ef; ac os gellir cael ganddi hi fyw fel hyn, ni ddaw ei Thywysog ati ar frys. Ein cyfaill ffyddlon, ag un o'i driciau, a'i gyrodd ef allan o'r dref; a phaham nas bydd i'm Harglwydd Cybydd-dod, a'm Harglwydd Anlladrwydd, trwy yr hyn a allont hwythau ei wneuthur, ei gadw ef allan o'r dref? A hyn a ddywedaf i chwi, nid am nas gwyddoch hyny, y gwna dau neu dri o Ddiaboloniaid, os bydd iddynt gael eu croesawu a'u goddef gan dref Man-soul, fwy tuag at gadw Emmanuel oddiwrthynt, a thuag at wneuthur tref Man-soul yn eiddom ni, na phe danfonid lleng o filwyr allan oddiwrthym i'w wrthwynebu ef.

Bydded, gan hyny, i'r ddichell gyntaf a osododd ein cyfeillion yn Man-soul ar droed, gael ei dwyn yn y blaen yn wrol ac yn ddiwyd, gyda phob ystrywiaeth a chyfrwysdra ag a ellir ei ddychymyg; a bydded iddynt yn wastadol, dan ryw liw

neu gilydd, ddanfon rhagor, ac eraill o'u gwŷr i chwareu â phobl Man-soul, ac yna fe allai na bydd raid i ni fyned dan y draul o wneuthur rhyfel arnynt; neu, os bydd angenrheidrwydd gwneuthur hyny, eto pa mwyaf pechadurus y byddant, mwyaf anabl i'n gwrthwynebu a fyddant, ac yna ni a'u gorchfygwn hwynt yn haws. Ac hefyd, bwriwch (a dyna y peth gwaethaf ag a ellir ei fwrw) y deuai Emmanuel atynt drachefn, paham nad all yr un moddion, neu y cyffelyb, ei yru ef oddiwrthynt unwaith yn ychwaneg? Ië, paham nad all efe, trwy eu cwympiad i'r pechod hwnw drachefn, gael ei yru ef oddiwrthynt yn dragywydd, er mwyn yr hwn, ar y cyntaf, y gyrwyd ef ymaith dros amser? A phe digwyddai hyn, yna ymaith yr âi gydag ef ei beiriannau, ei ffyn-taflu, ei gadbeniaid, a'i filwyr, ac efe a adawai Man-soul yn noeth ac yn llwm. Ië, oni bydd i'r dref yma, pan welo ei hunan wedi ei chasâu yn hollol gan ei Thywysog, o honi ei hun agoryd ei phyrth drachefn i chwi? Ond y mae yn rhaid cael amser i wneuthur felly; nis gwna ychydig amser ddim mo'r tro i gyflawni gwaith mor fawr a hwn.

Mor gynted ag y darfu i Apolyon lefaru, Diabolus a ddechreuodd chwythu allan ei falais ei hunan, ac i ddadleu dros ei achos ei hun, ac efe a ddywedodd: Fy arglwyddi, ac awdurdodau yr ogof, fy nghywir a'm ffyddlon gyfeillion, fe ddarfu i mi, gyda llawer o anamynedd, fel y gweddai i mi, roddi gwrandawiad i'ch hir a'ch maith areithiau; ond y mae fy nghegen uffernol, a'm cylla gwag, yn hiraethu cymaint ar ol ail-feddianiad o'm henwog dref Man-soul, mal pa beth bynag a ddigwyddo, nid allaf fi aros yn hwy i weled digwyddiadau llyfeliaethau dihirol. Y mae yn rhaid i mi, a hyny heb aros dim yn hwy, geisio, trwy bob moddion ag a allwyf, i lanw fy safn annigonol ag enaid a chorph tref Man-soul. Oherwydd paham, benthyciwch i mi eich penau, a'ch calonau, a'ch cymhorth, yn awr yr wyf fi yn myned i enill yn ol fy nhref Man-soul.

Pan welodd arglwyddi a thywysogion y pydew yr uffernol ddymuniad ag oedd yn Diabolus i ddifetha y resynol dref Man-soul, hwy a adawsant heibio gyfodi mwy o wrthddadleuon, ond hwy a gytunasant i roddi iddo bob cymhorth ag a allent; er, pe buasid yn gwneuthur cyngor Apolyon, hwy a drallodasent dref Man-soul yn llawer mwy ofnadwy. Ond, meddaf, yr oeddynt yn foddlon i fenthyca iddo bob cadernid ag a allent, heb wybod pa angen a allai fod arnynt hwythau o'i gymhorth yntau, pan fyddai iddynt ymdrechu drostynt eu hunain megis yntau. Oherwydd paham, hwy a syrthiasant i ymgynghori yn nghylch y peth nesaf ag a osodasid ger eu gŵydd hwynt, sef, pa filwyr a fyddent, ac hefyd pa rifedi o honynt a fyddai, gyda pha rai yr elai Diabolus i fyny yn erbyn tref Man-soul, i'w henill hi. Ar ol rhywfaint o ymddadleu, fe farnwyd yn oreu gwneuthur fel yr oedd y Diaboloniaid yn y llythyr wedi dangos, sef nad oedd neb mor gymhwys i'r daith hòno a byddin neu lu o Amheuwyr dychrynllyd.

Barnasant yn oreu, gan hyny, i ddanfon yn erbyn Man-soul lu o Amheuwyr gwarsythion. Y rhifedi a farnwyd yn addas i'w gosod ar waith yn y gwasanaeth hyny ydoedd rhwng ugain a deg ar hugain o filoedd. Felly, diben neu ddiwedd y cyngor mawr hwnw o eiddo yr arglwyddi mawrion ac uchel ydoedd, ar fod i Diabolus, heb golli dim amser, guro ei dabwrdd am wŷr yn ngwlad Amheuaeth, yr hon wlad sydd yn gorwedd ar gyffiniau y lle a elwir Bryn-porth-uffern, am wŷr ag a ellid eu gosod ar waith ganddo ef yn erbyn y resynol dref Man-soul. Fe farnwyd hefyd, ar fod i'r arglwyddi hyn eu hunain ei gynorthwyo ef yn y rhyfel, ac y byddai iddynt hwy, i'r diben hyny, dywys a llywodraethu ei wŷr ef.

Felly hwy a dynasant i fyny lythyr, ac a'i danfonasant ef yn ol at y Diaboloniaid ydoedd yn Man-soul, ac yn disgwyl am ddyfodiad Mr. Halogedig yn ol, i amlygu iddynt i ba drefn y trefnasent hwy eu hamcan. Yr ystyriaethau o ba un sydd fel y canlyn:

*O ddaeardy tywyll erchyll uffern, Diabolus, yn nghyd â holl gyfeillach tywysogion y tywyllwch, yn anfon at ein cyfeillion cywir, yn, ac oddiamgylch muriau tref Man-soul, yn awr yn anesmwyth ddisgwyl am ein hateb mwyaf diawledig i'w hamcan a'u bwriad mwyaf gwenwynig yn erbyn tref Man-soul:*

Ein rhai anianol, yn mha rai yr ydym beunydd yn ymffrostio, ac yn ngweithredoedd pa rai yr ydym ni trwy yr holl flwyddyn yn dirfawr ymhyfrydu:—Ni a dderbyniasom eich croesawiad, am ei fod yn llythyr urddasol, o law ein cywir a'n caredig gyfaill, yr hen ŵr bonheddig, Mr. Halogedig. Ac yr ydym yn hyspysu i chwi, mai pan ddarfu i ni ei agoryd ef, a darllen y cynwysiad o hono (i'ch synedig goffadwriaeth y dyweder ef), ein dylyfedig wâgfoliog-le, lle yr ydym, a wnaeth y fath dwrf cethinllyd erchyll o lawenydd, fel ag y darfu i'r mynyddoedd a safant oddiamgylch Bryn-porth-uffern fod yn debyg i gael eu siglo a'u hysgwyd yn gandryll wrth ei sŵn ef.

Nid allem ni, hefyd, lai na rhyfeddu eich ffyddlondeb tuag atom ni, yn nghyd â maint y cyfrwysdra sydd yn bresenol wedi ymddangos ei fod yn eich penau chwi i'n gwasanaethu ni yn erbyn tref Man-soul. Canys chwi a ddychymygasoch i ni drefn mor rhagorol tuag at gario eu gwaith yn y blaen yn erbyn y bobl wrthryfelgar hyny, nid ellir meddwl am un ffordd fwy effeithiol gan holl gyfrwysdra uffern; y cynygion, gan hyny, y darfu i chwi eu danfon atom ni, er pan welsom hwynt, ni wnaethom ni ddim llawer gyda eu cymeradwyo a'u rhyfeddu hwynt.

Nagê, ni a gawn, tuag at eich hanog chwi i ddwyn yn y blaen ddyfnderoedd eich dichellion, adael i chwi wybod, ddarfod, mewn llawn gymanfa, ac eisteddfod o'n tywysogion a thywysogaethau y lle hwn, i'ch dichell gael ei holi a'i thaflu o'r naill ochr i'n hogof i'r llall gan eu hucheldérau; ond un well, neu ffordd gymhwysach,

megis ag y barnwyd ganddynt hwy eu hunain, nid ellid ei dychymygu gan eu holl gyfrwysdra hwynt, tuag at ddychrynu cymeryd, a gwneuthur yn eiddom ni ein hunain, yr wrthryfelgar dref Man-soul.

Oherwydd paham, i ddibenu, yr hyn oll a ddywedwyd ag ydoedd yn amrywio oddiwrth yr hyn a ddarfu i chwi yn eich llythyr ei osod ger ein bronau, a syrthiodd i'r llawr o hono ei hun, ac wrth yr eiddoch chwi y glynwyd, hyd yn oed gan Diabolus, y tywysog, ei hun; ïe, yr ydoedd ei wddf agored, a'i gylla dylyfedig ef ar dân, am osod eich dychymygion chwi ar waith.

Yr ydym ni, gan hyny, yn hyspysu i chwi, fod ein galluog, a'n creulon, a'n hannhrugarog Ddiabolus, yn cyfodi er eich cymhorth chwi, a dinystr yr wrthryfelgar dref Man-soul, fwy nag ugain mil o Amheuwyr i ddyfod yn erbyn y bobl hyny. Y maent oll yn wŷr cedyrn ystyfnig, a gwŷr ag sydd yn gynefin â rhyfel er ys amseroedd gynt; ïe, meddaf, y mae efe yn gwneuthur y gwaith yma o'r eiddo ei hun gyda phob brys ag a allo, canys y mae ei galon a'i yspryd wedi ymrwymo ynddo ef. Yr ydym ni, gan hyny, yn dymuno, fel megis ag y glynasoch wrthym ni hyd yma, a rhoddi i ni yn gystled anogaeth a chyngor, ar fod i chwi o hyd ddilyn eich amcan, ac ni fydd i chwi, ychwaith, wrth hyny fod yn golledwyr; ïe, yr ydym ni yn amcanu eich gwneuthur chwi yn arglwyddi ar Man-soul.

Y mae un peth nad ellir mewn modd yn y byd ei lysu—hyny yw, fod i bob un o honoch chwi ag sydd yn Man-soul yn wastadol arferyd eich holl allu, a'ch medr, a'ch cyfrwysdra, trwy eiriau dengar, i dynu tref Man-soul eto i fwy o bechod a drygioni, fel y byddo i bechod gael ei orphen, ac esgor ar farwolaeth.

Canys fel hyn y penderfynir gyda ni, mai pa mwyaf gwael, pechadurus, a halogedig y byddo Man-soul, mwyaf ymarhous a fydd ei Hemmanuel i ddyfod i'w cynorthwyo hwynt, naill ai trwy ei bresenoldeb, ai trwy ei gynorthwy; ïe, pa mwyaf pechadurus a mwyaf llesg, ac felly y byddant yn fwy anabl i wrthwynebu pan yr ymosodom arnynt i'w llyncu hwynt i fyny. Ië, hyny a all beri i'w Shad-dai galluog ei hunan i'w bwrw hwynt allan o'i amddiffyniad, a danfon am ei gadbeniaid a'i filwyr adref, ei ffyn-taflu a'i beiriannau, a'u gadael hwynt yn noeth ac yn llwm, ac yna tref Man-soul, o honi ei hun, a ymegyr i ni, ac a syrth fel y ffigysen yn safn y bwytawr, ac yn ddiau wedi hyn deuwn arni yn haws, ac a'i gorchfygwn hi.

Mewn perthynas i amser ein dyfodiad at Man-soul, yr ydym ni eto heb gyflawn gytuno yn nghylch hyny, er yn bresenol fod rhai o honom yn tybied, fel chwithau, mai dydd marchnad, neu nos ddydd marchnad, yn sicr a fyddai oreu. Pa ddelw bynag y byddo, byddwch chwi yn barod; a phan glywoch ein tabwrdd rhuadwy oddiallan, byddwch chwithau yn ddiwyd i wneuthur y terfysg erchyllaf oddimewn. (1 Pedr v. 8.) Felly yn sicr y bydd i Man-soul gael ei chystuddio yn ol ac yn mlaen, ac ni chaiff hi wybod pa ffordd i edrych am ymwared.

Y mae fy Arglwydd Lusiffer, fy Arglwydd Beelsebub, fy Arglwydd Apolyon, fy Arglwydd Lleng, yn nghyd â'r lleill, yn eich anerch chwi, megis hefyd y mae fy Arglwydd Diabolus; ac yr ydym ni yn dymuno i chwi oll, yn nghyd â'r hyn oll a wneloch ac a feddiannoch, yr unrhyw ffrwyth a llwyddiant am eu gwneuthur, ag yr ydym ni ein hunain, yr awr hon, yn ei fwynhau am yr eiddom ninau.

> O'n carchardy erchyllaf yn y pwll mwyaf ofnadwy, yr ydym yn eich anerch, ac felly y mae yr amryw lengau sydd yma gyda ni, gan ddymuno i chwi fod mor uffernol lwyddiannus ag yr ydym ni ein hunain yn ewyllysio bod. Yn llaw y rhedegwr, Mr. Halogedig.

Yna Mr. Halogedig a ymbarotodd ei hun i'w daith i Man-soul, gyda'i neges i'r Diaboloniaid sydd yn trigo yn nhref Man-soul o'r pydew erchyll.

Felly efe a ddaeth i fyny ar hyd y grisiau o'r dyfnder i enau yr ogof, a'r man lle yr oedd Cerberus. Yn awr pan welodd Cerberus ef, efe a ofynodd iddo pa fodd yr aethai pethau obry, yn nghylch, ac yn erbyn, tref Man-soul.

*Hal.* Y mae pethau yn myned cystled ag y dymunem. Y llythyr a ddygais i yno a gymeradwywyd yn ddirfawr, ac yr oedd yn dderbyniol iawn gan fy arglwyddi oll, ac yr ydwyf yn dychwelyd i ddywedyd felly wrth y Diaboloniaid. Y mae genyf ateb iddo yma yn fy mynwes, ac y mae yn sicr genyf y gwna ef fy meistri a'm hanfonodd yn llawen; canys y cynwysiad o hono sydd i'w hanog hwynt i ganlyn eu bwriad hyd yr eithaf, ac hefyd i fod yn barod i syrthio arnynt oddifewn, pan welont hwy fy Arglwydd Diabolus yn gwarchae ar dref Man-soul oddiallan.

*Cer.* Ond a ydyw efe yn bwriadu myned yn eu herbyn hwynt ei hunan?

*Hal.* A ydyw ef? Ydyw! ac efe a gymer gydag ef fwy nag ugain mil, oll yn Amheuwyr sythion, ac yn rhyfelwyr; gwŷr wedi eu dewis o wlad Amheuaeth, i'w wasanaethu ef yn y rhyfel.

*Cer.* Yna yr oedd Cerberus yn llawen, ac efe a ddywedodd: Ac a oes y fath ddarpariaeth gwych yn cael ei wneuthur tuag at fyned yn erbyn y dref resynol Man-soul! a mi a ddymunwn pe gosodid finau yn dywysog ar fil o honynt, fel y dangoswn inau hefyd fy ngwroldeb yn erbyn y dref enwog Man-soul.

*Hal.* Fe ddichon eich dymuniad ddyfod i ben; yr ydych yn edrych fel un eithaf dewr, ac fe fyn fy arglwydd gydag ef y rhai hyny oll ag sydd yn bybyr ac yn wrol. Ond y mae fy ngwaith yn gofyn brys.

*Cer.* Ydyw, felly y mae; brysia di, gan hyny, i dref Man-soul, gyda y drygioni mwyaf dichellgar ag a allo y lle yma ei ganiatâu i ti. A phan ddelych i dŷ Mr. Ysgelerder, y lle y mae y Diaboloniaid yn ymgyfarfod i gydfwriadu, dywedwch wrthynt fod Cerberus yn ewyllysio cofio ei wasanaeth atynt, ac os gall ef, efe a ddaw i fyny yn erbyn yr enwog dref Man-soul.

*Hal.* Mi wnaf hyny; ac mi a wn y bydd fy arglwyddi ag sydd yno yn llawen ganddynt ei glywed, a'th weled dithau hefyd.

Felly, ar ol ychydig yn ychwaneg o'r fath gyfarchiadau, Mr. Halogedig a gymerth ei genad oddiwrth ei gyfaill Cerberus, a Cherberus, drachefn, gyda mil o ddymuniadau uffernol, a archodd iddo fyned gyda phob cyflymder at ei arglwyddi; yr hyn, pan glywodd, efe a ymostyngodd, ac a ddechreuodd gymeryd y gwadnau, a rhedeg.

Fel hyn, gan hyny, y dychwelodd, ac yr aeth, ac a ddaeth i Man-soul; a chan fyned fel o'r blaen cyn belled a thŷ Mr. Ysgelerder, efe a gafodd y Diaboloniaid wedi ymgasglu yn nghyd, ac yn disgwyl am ei ddychweliad ef. Yn awr pan ddaeth efe, a gosod ei hun gerbron, efe a roddes ei lythyr, ac a roddes iddynt hefyd gydag ef ei gyfarchiad:

Y mae fy arglwyddi, o garcharau y pwll, sef yr uchel a'r galluog dywysogaethau ac awdurdodau y ffau, yn eich anerch chwi yma, Ddiaboloniaid cywir tref Man-soul, gan ddymuno i chwi bob amser y bendithion mwyaf perthynasol am y gwasanaethgarwch mawr, yr ymosodiadau uchel, a'r gweithredoedd ardderchog, y darfu i chwi anturio eich hunain danynt, tuag adferyd i'n tywysog Diabolus y dref enwog Man-soul.

Hyn, gan hyny, ydoedd cyflwr presenol y resynol dref Mansoul: hi a bechasai yn erbyn ei Thywysog, ac yr ydoedd efe wedi ymadael; hi a anogasai, trwy ei hynfydrwydd, alluoedd uffern i ddyfod yn ei herbyn, i geisio ei dinystrio hi yn hollol.

Gwir yw, fod tref Man-soul, mewn rhyw fesur, wedi ei gwneuthur yn deimladol o'i phechod, ond yr oedd y Diaboloniaid wedi myned i mewn i'w hymysgaroedd hi; yr ydoedd hi yn llefain, ond Emmanuel a aethai ymaith, ac ni ddarfu i'w gwylofain hyd yn hyn, ei gyrchu ef yn ol drachefn. Heblaw hyn, ni wyddai hi pa un ai hir, ynte byth, y dychwelai efe, a dyfod i'w Fan-soul drachefn; ac nis gwyddent hwy ychwaith allu a diwydrwydd y gelyn, na pha mor barod oeddynt i osod ar waith y fradwriaeth uffernol a ddychymygasant yn ei herbyn hi.

Hwy, yn wir, o hyd a ddanfonasant ddeiseb ar ol deiseb at y Tywysog; ond efe a'u hatebodd hwynt oll trwy dewi a son. Hwy a esgeulusant ymddiwygio, a hyny oedd fel y mynai Diabolus iddo fod; canys efe a wyddai, os yr edrychent ar anwiredd yn eu calonau, na wrandawai eu Brenin ar eu gweddiau hwynt. Hwy, gan hyny a aethant wanach wanach o hyd, ac yr oeddynt fel peth treigliedig o flaen y cor wynt; hwy a lefasant ar y Brenin am gymhorth, ac a osodasant Ddiaboloniaid yn eu mynwesau; pa beth, gan hyny, a wnai y Brenin iddynt? Iё, yr oedd yn ymddangos yn bresenol, fod rhyw gymysgedd yn nhref Man-soul, y Diaboloniaid a'r Man-souliaid a rodient yr heolydd yn nghyd; ïe, hwy a ddechreuasant geisio eu heddwch hwynt, canys hwy a dybiasant mai yn gymaint a bod y clefyd mor farwol

yn Man-soul, ei bod hi yn waith ofer i fyned i'w caethiwo hwynt: hefyd, gwendid Man-soul oedd cryfder ei gelynion, a phechodau Man-soul ydoedd yn fantais i'r Diaboloniaid. Gelynion Man-soul, hefyd, yn awr a ddechreuasant addaw iddynt feddiant o'r dref; nid oedd hefyd, yn bresenol, nemawr a wahaniaeth rhwng y Man-souliaid a'r Diaboloniaid: yr oedd pob un o'r ddwy blaid yn ymddangos i fod yn arglwyddi ar Man-soul. Ië, y Diaboloniaid a amlhasant ac a dyfasant, ond tref Man-soul a leihaodd yn ddirfawr. Yr oedd mwy nag un mil ar ddeg o wŷr, gwragedd, a phlant, wedi meirw o'r clefyd yn Man-soul.

Ond yn awr, fel y mynai Shad-dai iddo fod, yr oedd yno un gŵr, enw yr hwn ydoedd Mr. Gweled-yn-graff, un ag ydoedd yn caru pobl Man-soul yn fawr. Ac efe, fel yr oedd yn arfer, a aeth, dan ymwrando, i fyny ac i wared ar hyd Man-soul, i weled ac i glywed, fel, ar un amser, os gallai efe wybod pa un a wnai ai bod dim bwriad wedi ei fwriadu yn eu herbyn neu beidio; canys gŵr eiddigus ydoedd efe bob amser, ac yn ofni y digwyddai rhyw ddrwg iddi, ryw amser neu gilydd, naill ai oddiwrth y Diaboloniaid oddifewn, neu oddiwrth ryw awdurdod oddiallan.

Yn awr, ar amser, fe ddigwyddodd, fel yr oedd Mr. Gweled-yn-graff yn myned dan ymwrando yma ac acw, iddo ef ddyfod i le a elwid y Bryn-aflan, yn Man-soul; lle yr oedd y Diaboloniaid yn arfer ymgyfarfod; felly gan glywed dadwrdd, (y mae yn rhaid i chwi wybod mai ar hyd nos oedd hi,) efe yn araf bach a nesâodd i wrando; ac ni safasai efe yn nepell dan dalcen y tŷ (canys yr oedd yno dŷ) hyd oni chlywai efe un yn dywedyd yn hyderus nad oedd, ac nas byddai hi yn nepell, hyd oni byddai i Diabolus osod ei hun yn y meddiant o dref Man-soul drachefn, ac yna fod y Diaboloniaid yn amcanu rhoddi y Man-souliaid oll i'r cleddyf, ac y lladdent ac y difethent gadbeniaid y Brenin, ac y gyrent ei holl filwyr allan o'r dref.

Efe a ddywedodd hefyd, y gwyddai efe fod uwchlaw ugain mil o ryfelwyr wedi eu parotoi gan Diabolus tuag at gyflawni y peth hyn, ac nas byddai i lawer o fisoedd fyned heibio hyd oni chaent hwy i gyd weled hyny.

Pan glywodd Mr. Gweled-yn-graff yr ystori yma, efe a gredodd yn ebrwydd ei bod hi yn wir; oherwydd paham, efe a aeth yn ddiatreg i dŷ fy Arglwydd Maer, ac a'i gwnaeth ef yn hyspys o'r peth; yr hwn, gan anfon am y Pregethwr Rhaglawiol, a fynegodd y peth neu y mater iddo ef, ac efe mor gynted a roddes yr alarwm i'r dref; canys yn awr efe ydoedd y pregethwr penaf yn Man-soul, am fod fy Arglwydd Ysgrifenydd, hyd yn hyn, yn anhwylus. A dyma y ffordd a gymerodd y Pregethwr Rhaglawiol i rybuddio y dref: yn yr awr hòno efe a barodd i'r gloch-wasanaeth i gael ei chanu; felly y bobl a ddaethant yn nghyd; yna efe a roddes iddynt anogaeth fèr i fod yn wiliadwrus, ac a wnaeth newyddion Mr. Gweled-yn-graff yn rheswm o honynt; canys, eb efe, y mae bradwriaeth ofnadwy wedi ei lyfelu yn erbyn Man-soul, sef i'n lladd ni oll mewn un diwrnod; ac nid ydyw yr ystori hon ychwaith i'w

diystyru, canys Mr. Gweled-yn-graff yw yr awdwr o honi. Mr. Gweled-yn-graff oedd yn un ag ydoedd yn wastadol yn caru Man-soul—gŵr sobr, call; gŵr nad oedd yn wag-siaradus, nac yn codi celwyddau; ond un ag ydoedd yn hoffi edrych i waelod materion, ac ni choeliai ddim newyddion ond a fyddai â rhesymau cedyrn drostynt.

Mi a'i galwaf ef, a chwi a gewch ei glywed ef eich hunain; felly efe a'i galwodd ef, ac efe a ddaeth, ac a fynegodd ei chwedl mor uniawn, ac a gadarnhaodd y gwirionedd o hono gyda'r fath resymau amlwg, fel y darfu i Man-soul, yn ebrwydd, gael ei hargyhoeddi o wirionedd yr hyn a ddywedasai. Y pregethwr, hefyd, a'i cadarnhaodd ef, gan ddywedyd: Syrs, nid yw hi yn beth afresymol i ni ei gredu ef, canys fe ddarfu i ni anog Shad-dai i ddigofaint, ac a bechasom Emmanuel allan o'r dref; nyni a gadwasom ormod o gyfeillach â'r Diaboloniaid, ac a anghofiasom ein tirion drugareddau;—nid yw hi ddim yn beth rhyfedd, gan hyny, os yw y gelyn oddifewn ac oddiallan yn llyfelu ac yn amcanu ein dinystr; a pha amser cyffelyb i hwn i'w wneuthur ef? Y mae yr afiechyd, yn bresenol, yn y dref, a ni a wnaethpwyd yn weiniaid trwyddo ef. Llawer gŵr o feddwl da sydd wedi marw, ac y mae y Diaboloniaid, yn ddiweddar, yn myned gryfach gryfach.

Hefyd, ebe y Pregethwr Rhaglawiol, mi a glywais gan y gŵr geirwir yma yr amnaid hyn yn mhellach, iddo ef ddeall wrth siarad y rhai hyny ag yr oedd efe yn eu gwrando, fod, yn ddiweddar, amryw lythyrau wedi cerdded rhwng yr ellyllon a'r Diaboloniaid, mewn trefn i'n difetha ni.

Pan glywodd Man-soul hyn oll, ac heb allu ei wrthddywedyd ef, hwy a gyfodasant i fyny eu llef, ac a wylasant. Fe ddarfu i Mr. Gweled-yn-graff, hefyd, yn ngŵydd gwŷr y dref, gadarnhau yr hyn oll ag a ddywedasai eu Pregethwr Rhaglawiol hwynt; oherwydd paham, hwy yn awr a ddechreuasant o'r newydd i alaru oblegid eu hynfydrwydd, ac i ddyblu eu deisyfiadau at Shad-dai a'i Fab. Hwy, hefyd, a fynegasant y peth i'r cadbeniaid, y llywiawdwyr, a'r rhyfelwr yn nhref Man-soul, gan ddymuno arnynt ymgadarnhau, a chymeryd calon wych, ac ar fod iddynt edrych ar ol eu llurygau, a gwneuthur eu hunain yn barod i roddi câd i Diabolus, os byddai iddo ef ddyfod ar hyd dydd neu ar hyd nos, fel y clywsent hwy y deuai efe i warchae ar dref Man-soul.

Pan glywodd y cadbeniaid hyn, gan e bod hwy yn wastadol yn gyfryw rai ag oedd yn caru tref Man-soul yn gywir, beth a wnaethant, ond megis cynifer o Samsoniaid, hwy a ymysgwydasant eu hunain, ac a ddaethant yn nghyd i ymgynghori ac i ystyried pa fodd i ddiddymu y llyfeliaethau ëon, uffernol hyny ag oedd ar y droell gan Diabolus a'i gyfeillion yn erbyn tref Man-soul, yr hon, yn bresenol, sydd yn glaf, yn wanllyd, ac wedi tlodi yn ddirfawr; a hwy a gytunasant ar y pethau neillduol sydd yn canlyn:

1. Y cedwid pyrth Man-soul yn nghauad, a'u gwneud yn ddiogel â barau, ac â chloion, ac y byddai i bawb ag a elai allan, neu a ddeuai i mewn, gael eu holi yn fanwl gan gadbeniaid y gosgordd. (1 Cor. xvi. 13.) Fel, ebe hwy y byddo i'r rhai hyny ag sydd yn cydfwriadu yn ein herbyn ni gael eu dàl, naill ai wrth fyned ai wrth ddyfod; ac, hefyd, fel y gallom ni gael allan pwy yw y rhai hyny, yn ein plith ni, ag sydd yn ceisio ein difetha. (Gal. iv. 30.)

2. Y peth nesaf ydoedd, ar fod i ymchwiliad manwl gael ei wneuthur am bob math o Ddiaboloniaid trwy holl dref Man-soul, ac y chwilid tŷ pob gŵr, o'r penbwygilydd, a hyny hefyd o nesaf i nesaf, fel, os ydoedd bosibl, y gellid cael mwy goleuni o'r cyfryw oll yn eu plith hwy ag oedd â chanddynt law yn yr amcanion yma. (Heb. xii. 15, 16.)

3. Fe gytunwyd yn mhellach, mai yn mha le bynag, neu gyda phwy bynag y ceffid neb o'r Diaboloniaid, y byddai raid, hyd yn oed i'r rhai hyny o dref Man-soul ag a roddasai iddynt dŷ a derbyniad, er cywilydd iddynt eu hunain, ac er rhybudd i eraill, ddwyn eu penyd yn gyhoeddus. (Jer. ii. 34; v. 26. Esec. xvi. 52.)

4. Fe ddarfu, hefyd, i dref Man-soul enwog benderfynu, neu ymroi, ar fod ympryd cyhoeddus, a dydd o ymddarostyngiad i gael ei gadw trwy yr holl gorphoraeth, tuag at gyfiawnhau eu Tywysog, a'u hymostyngiad eu hunain ger ei fron ef, oblegid eu camweddau yn ei erbyn ef, ac yn erbyn Shad-dai ei Dad. (Joel i. 14; ii. 15, 16.) Fe ddarfu iddynt, yn mhellach, ymroi, y byddai i'r cyfryw oll yn Man-soul a'r nad ymdrechai i gadw yr ympryd hwnw, ac ymostwng eu hunain am eu beiau, ond meddwl am eu gorchwylion bydol; neu a gaid yn rhodio i fyny ac i wared ar hyd yr heolydd, gael eu cymeryd yn lle Diaboloniaid, a dioddef fel Diaboloniaid am y cyfryw weithredoedd drwg.

5. Fe farnwyd y pryd hyny yn mhellach, ar fod iddynt gyda ffrwst, a chyda phob gwresogrwydd meddwl ag a allent, adnewyddu eu hymddarostyngiad am bechod, a'u deisyfiadau at Shad-dai am gymhorth. Hwy hefyd a ymroisant i ddanfon cenadwri i'r llys o'r hyn oll ag a ddywedasai Mr. Gweled-yn-graff wrthynt. (Jer. xxxvii. 4.)

6. Fe farnwyd, hefyd, fod i ddiolchgarwch gael ei roddi gan dref Man-soul i Mr. Gweled-yn-graff, am ei ymgais diwyd ef am ddaioni neu lwyddiant eu tref hwynt: ac yn mhellach, mai yn gymaint a'i fod ef yn tueddu mor naturiol i geisio eu daioni hwynt, ac hefyd i fyned tuhwnt i'w gelynion, hwy a roddasant iddo gommisiwn i fod yn ben-yspiwr, er daioni i dref Man-soul.

Pan ddarfu i wŷr y dref, yn nghyd â'u cadbeniaid, ddibenu pethau fel hyn, hwy a wnaethant fel y dywedasent: hwy a gauasant i fyny eu pyrth; hwy a chwiliasant yn fanwl am y Diaboloniaid; hwy a wnaethant i'r rhai hyny, gyda pha rai y caed neb, i ddwyn eu penyd yn gyhoeddus; hwy a gadwasant eu hympryd, ac a adnewyddasant eu deisebau at eu Tywysog; a Mr. Gweled-yn-graff a gyflawnodd ei swydd,

a'r ymddiried a roddasai Man-soul ar ei law ef, yn gydwybodol iawn, a chyda ffyddlondeb mawr, canys efe a roddes ei hunan i fyny i'r gwaith yn hollol, a hyny nid yn unig oddifewn i'r dref, ond efe a aeth allan i chwilio, i weled, ac i glywed.

A chyn pen nemawr o ddyddiau wedi hyny, efe a ymbarotodd ei hun i'w daith, ac a aeth tua Bryn-porth-uffern, i'r wlad lle yr oedd yr Amheuwyr; yn mha le y clywodd ef yr hyn oll yr ymddiddanesid yn ei gylch ef yn Man-soul, ac efe a ddeallodd hefyd fod Diabolus yn agos a bod yn barod i gychwyn, &c.

Felly efe a ddaeth yn ol ar frys, a chan alw cadbeniaid a henuriaid Man-soul yn nghyd, efe a fynegodd iddynt pa le y buasai efe, a pha beth a glywsai ac a welsai efe. Ac yn neillduol, efe a ddywedodd wrthynt fod Diabolus gerllaw, yn barod i gychwyn, ac iddo ef wneuthur hen Mr. Anghrediniaeth, yr hwn a dorasai y carchar yn Man-soul, yn ben-cadben ar ei fyddin, ac mai byddin o Amheuwyr oeddynt oll, a bod eu rhifedi hwynt uwchlaw ugain mil.

Efe a ddywedodd hefyd fod Diabolus yn bwriadu dwyn gydag ef y rhai penaf o dywysogion y pydew uffernol, ac y gwnai efe hwynt yn gadbeniaid ar ei Amheuwyr. Efe a ddywedodd wrthynt hefyd, ei fod yn wirionedd sicr y marchogai llawer o'r ffau ddû yn Ewyllysgaryddion gyda Diabolus i ddwyn tref Man-soul i'w hufudd-dod i Diabolus eu tywysog.

Hefyd, efe a ddywedodd iddo ef ddeall wrth yr Amheuwyr, yn mhlith pa rai y buasai, mai yr achos paham y gwnaethpwyd hen Anghrediniaeth yn ben-cadben ar yr holl fyddin ydoedd, am nad oedd neb gywirach nag ef i'r gorthrymwr, ac am fod ganddo ef gasineb anghymodol yn erbyn tref Man-soul. Hefyd, eb efe, y mae efe yn cofio y sarhad neu yr anmharch a wnaeth Man-soul iddo ef, ac y mae efe yn ymroi i ymddial arnynt.

Ond y tywysogion duon a wneir yn swyddogion uchel, yn unig Anghrediniaeth a fydd yn ben arnynt hwy oll, am y gallai efe yn haws, ac yn ddeheuach, warchae ar dref Man-soul nag un o'r tywysogion eraill.

Yn awr, pan glybu cadbeniaid Man-soul, a henaduriaid y dref, y newyddion a ddug Mr. Gweled-yn-graff, hwy a dybiasant yn briodol, heb aros ddim yn hwy, i roddi y cyfreithiau a wnaethid gan eu Tywysog, yn erbyn y Diaboloniaid, mewn grym, yr hwn a archasai iddynt eu trefnuyn eu herbyn hwynt. Oherwydd paham, chwiliwyd holl dai Man-soul yn ddiwyd ac yn ddiduedd am bob un, ac am bob math o Ddiaboloniaid.

Yn awr yn nhŷ Mr. Meddwl ac yn nhŷ yr Arglwydd Ewyllysgar y cafwyd dau Ddiaboloniad. Yn nhŷ Mr. Meddwl yr ydoedd un Arglwydd Cybydd-dod, ond efe a newidiasai ei enw i Gynildeb-synwyrol. Yn nhŷ fy Arglwydd Ewyllysgar y cafwyd un Anlladrwydd, ond efe a newidiasai ei enw i Lawenydd-diniwed.

Y ddau yma, gan hyny, a ddaliodd gadbeniaid a henaduriaid tref Man-soul, ac

a'u bwriasant hwynt yn ngharchar, dan law Mr. Cywir, ceidwad y carchar; a'r gŵr hwn a'u triniodd hwynt mor greulon, ac a roddodd yr heiyrn mor drwm arnynt, fel y darfu iddynt ill dau gwympo i ddarfodedigaeth trwm iawn, ac a fuant feirw yn y carchar. Eu meistriaid, hefyd, yn ol cytundeb y cadbeniaid a'r henaduriaid, a ddygwyd i ddwyn eu penyd yn gyhoeddus, er cywilydd iddynt eu hunain, ac er rhybudd i'r lleill o dref Man-soul.

Yn awr, dyma fel yr oeddynt yn dwyn eu penyd yn y dyddiau hyny: y dynion a fyddai yn pechu, wedi y gwnelid hwynt yn deimladol o ddrygioni eu gweithredoedd, fe osodid arnynt gyfaddef eu pechodau yn gyhoeddus, a manwl wellhau eu bucheddau.

Ar ol hyn, cadbeniaid a henaduriaid Man-soul a chwiliasant eto am ychwaneg o'r Diaboloniaid, pa le bynag y byddent yn llechu, pa un ai mewn ffauau, ogofeydd, tyllau, selerau, neu yn mha le bynag y gallent, yn, neu oddeutu y mur, neu dref Man-soul. Ond er y gallent weled yn eglur ôl eu traed, ac felly dilyn eu hôl hwynt, ac arogli hyd at eu hamddiffynfeydd, a genau eu hogofeydd a'u ffauau, eto nis gallent eu dàl, a gwneuthur cyfiawnder arnynt, canys yr oedd eu ffyrdd mor geimion, a'u hamddiffynfeydd mor gedyrn, a hwythau mor gyflymed i ddiogelu eu hunain ynddynt.

Ond Man-soul, yn bresenol, a lywodraethodd mor llawdrwm ar y Diaboloniaid a adewsid, hyd onid oedd yn dda ganddynt lechu mewn conglau. Fe fu amser pan feiddient rodio yn gyhoeddus, ac ar hyd y dydd; ond yn awr, fe orfu arnynt gofleidio y tywyllwch a'r nos. Fe fu amser pan fyddai Man-souliaid yn gymdeithion iddynt, ond yn awr hwy a'u cyfrifasant hwynt yn elynion marwol iddynt. Y cyfnewidiad daionus yma a wnaeth gwybodaeth Mr. Gweled-yn-graff yn Man-soul.

Erbyn hyn yr oedd Diabolus wedi gwneuthur i fyny ei fyddin, yr hon yr oedd efe yn amcanu ei dwyn gydag ef i ddinystrio Man-soul; ac a osodasai gadbeniaid arnynt, a swyddogion maes eraill, sef y cyfryw rai ag oedd oreu wrth fodd ei gylla llidiawg ef: efe ei hun oedd yn ben-arglwydd, ac Anghrediniaeth oedd y maeslywydd. Eu pen-cadbeniaid a gânt eu henwi rhagllaw; ond yn awr am eu swyddogion, eu llumanau, a'u hysgwydiadau.

1. Eu cadben cyntaf ydoedd Cadben Llidiawgrwydd; efe oedd gadben ar Amheuwyr Etholedigaeth; ei eiddo ef ydoedd yr arwyddion cochion, a'i lumanwr ef oedd Mr. Niweidiol, a'r ddraig goch fawr oedd ganddo yn lle ei ysgwyd. (Dat. xii. 3, 4, 13, 14, 17.)

2. Yr ail gadben ydoedd Cadben Digofaint; efe ydoedd gadben ar Amheuwyr Galwedigaeth; ei lumanwr ydoedd Mr. Tywyllwch; ei arwyddion ef ydoedd y rhai hyny ag oeddynt leision, ac yr oedd ganddo ef yn lle ei ysgwyd y sarph danllyd hedegog. (Num. xxi. 6.)

3. Y trydydd cadben ydoedd Cadben Damnedigaeth; efe ydoedd gadben ar Amheuwyr Gras; ei eiddo ef oedd yr arwyddion cochion, a Mr. Difywyd oedd yn eu dwyn hwynt, a'i ysgwyd ef ydoedd y ffau ddû. (Dat. ix. 2.)

4. Y pedwerydd cadben oedd Cadben Annigonol; efe ydoedd gadben ar Amheuwyr Ffydd; ei eiddo ef ydoedd yr arwyddion cochion; a Mr. Difäwr oedd yn eu dwyn hwynt, a'i ysgwyd ef ydoedd y ddwy ên agored. (Diar. xxvii. 20.)

5. Y pumed cadben oedd Cadben Brwmstan; efe ydoedd gadben ar Amheuwyr Parhad; ei eiddo ef, hefyd, ydoedd yr arwyddion cochion, a Mr. Llosgedig oedd yn eu dwyn hwynt, a'i ysgwyd ef ydoedd y fflam las ddrewedig. (Salm xi. 6. Dat. xiv. 11.)

6. Y chwechfed cadben ydoedd Cadben Poen; efe ydoedd gadben ar Amheuwyr Adgyfodiad; ei arwyddion ef oedd y rhai hyny ag oedd leision, a Mr. Cnoi oedd ei lumanwr, ac yr oedd ganddo yn lle ei ysgwyd y pryfyn dû. (Marc ix. 44, 45.)

7. Y seithfed cadben oedd Cadben Anesmwyth; efe ydoedd gadben ar Amheuwyr Iechydwriaeth; ei eiddo yntau ydoedd yr arwyddion cochion, a Mr. Aflonydd oedd yn eu dwyn hwynt, a'i ysgwyd ef ydoedd llun cethin marwolaeth. (Dat. vi. 8.)

8. Yr wythfed cadben ydoedd Cadben y Bedd; efe ydoedd gadben ar Amheuwyr Gogoniant; ei eiddo yntau hefyd ydoedd yr arwyddion gleision, a Mr. Llygredigaeth ydoedd ei lumanwr ef, ac yr oedd ganddo yn lle ei ysgwyd benglog ac esgyrn y meirw.

9. Y nawfed cadben ydoedd Cadben Diobaith; efe ydoedd gadben ar y rhai hyny ag a elwir Amheuwyr Dedwyddwch; ei lumanwr ef ydoedd Mr. Anobaith; ei eiddo yntau hefyd ydoedd yr arwyddion cochion, a'i ysgwyd ef ydoedd yr haiarn poeth a'r galon galed. (1 Tim. ii. 4. Rhuf. ii. 3.)

Dyma y rhai oedd ei gadbeniaid, a dyma eu lluoedd, eu harwyddion, a'u hysgwydiadau.

Yn awr, ar y rhai hyn y gwnaeth Diabolus ben-cadbeniaid, a'u rhifedi ydoedd saith; megis yn enwedigol yr Arglwydd Beelsebub, yr Arglwydd Lusiffer, yr Arglwydd Lleng, yr Arglwydd Apolyon, yr Arglwydd Python, yr Arglwydd Cerberus, a'r Arglwydd Belial: y saith yma a osododd efe ar y cadbeniaid, ac Anghrediniaeth oedd ben-distain, a Diabolus oedd frenin.

Gwnaethpwyd rhai o'r Ewyllysgaryddion hefyd, sef y cyfryw o honynt ag oeddynt fel hwythau, yn gadbeniaid ar gannoedd, a rhai o honynt yn gadbeniaid ar fwy; ac fel hyn y gorphenwyd llu neu fyddin Anghrediniaeth.

Felly hwy a osodasant allan oddiwrth Fryn-porth-uffern (canys yno y buasent yn byddino eu gwŷr), o ba le y daethant ag uniawn gyrch, ar eu cychwyn tuag at dref Man-soul.

Yn awr, megis ag yr amneidiwyd o'r blaen, y dref a gawsai, fel y mynai Shad-dai

iddo fod, rybudd o enau Mr. Gweled-yn-graff o'u dyfodiad o'r blaen. Oherwydd paham, hwy a osodasant wiliadwriaeth gref ar y pyrth, ac hefyd, hwy a ddyblasent eu gosgordd; hwy, hefyd, a gyfodasent eu ffyn-taflu, ac a'u gosodasent mewn lleoedd cyfleus, lle y gallent daflu allan yn unionsyth eu cerrig mawrion er niwed i'r gelyn.

Ac nis gallai y Diaboloniaid ag oedd yn y dref, ychwaith, wneuthur cymaint o niwaid ag a feddyliwyd a wnaent; canys yr oedd Man-soul, yn bresenol, ar ddeffro. Ond, Och! O! druain! hwy a ddychrynwyd yn ddirfawr ar yr ymddangosiad cyntaf o'u gelynion, ac ar eu gosodiad i lawr o flaen y dref, yn enwedig pan glywsant ruad eu tabwrdd hwynt. (1 Pedr v. 8.) Hyn, o ddweyd y gwir, oedd ddychrynllyd aruthrol i'w glywed—fe ddychrynodd bawb saith milltir o gwmpas. Y chwifiad o'u baner hwynt, hefyd, ydoedd ofnadwy ac arswydus i edrych arno.

Pan ddaeth Diabolus i fyny yn erbyn y dref, yn gyntaf efe a nesâodd at Borth-y-clust, ac a ymosododd arni yn ffyrnig, gan feddwl, mae yn debyg, fod ei gyfeillion yn Man-soul yn barod i wneud y gwaith oddifewn; ond fe edrychasid at hyny o'r blaen, trwy wiliadwriaeth y cadbeniaid. Oherwydd paham, gan fethu cael y cymhorth hyny ag yr oedd efe yn ei ddisgwyl oddiwrthynt hwy; a chan weled fod ei wŷr yn cael eu curo mor boethed gan y rhai oedd yn taflu cerrig—(canys mi a ddywedaf hyny am y cadbeniaid, iddynt ymddwyn eu hunain yn wychion, ac ystyried y llesgedd ag oedd arnynt eto, o achos yr hir glefyd a niweidiasai dref Man-soul)—fe orfu arno fyned yn ol rywfaint oddiwrth Man-soul, a diogelu ei hun mewn gwarchglawdd yn y maes, efe a'i wŷr, allan o gyrhaedd ffyn-taflu y dref. (Iago iv. 7.)

Yn awr, wedi iddo amgaeru ei hunan, efe a gyfododd bedair o garneddau i fyny yn erbyn y dref: y gyntaf a alwodd efe Carnedd Diabolus, gan osod ei enw ei hunan arni, fel y byddai iddo ddychrynu tref Man-soul yn fwy; y tair arall a alwodd efe fel hyn—Carnedd Alecto, Carnedd Megara, a Charnedd Tisiphon, oblegid mai dyma enwau ellyllon ofnadwy uffern.

Fel hyn y dechreuodd efe chwareu ei gampau â Man-soul, ac i'w thrin hi fel y gwnai llew ei ysglyfaeth, sef gwneuthur iddi syrthio o flaen ei ddychrynfeydd ef. Ond, fel y dywedais i, y cadbeniaid a'r sawdwyr a wrthwynebasant mor wrol, ac a wnaethant gymaint o waith, fel y gwnaethant iddo ef, er fod hyny yn erbyn ei ewyllys, fyned yn ei ol; oherwydd paham, Man-soul a gymerodd galon.

Yn awr ar Garnedd Diabolus, yr hon a gyfodasid o'r tu gogleddol i'r dref, yno y gosododd y gorthrymwr i fyny ei luman, a pheth ofnadwy i edrych arni ydoedd hi, canys efe a weithiasai ynddi, trwy gelfyddyd ddiawledig, ar ddull ysgwyd, fflam danllyd, yn ddychrynllyd yr olwg arni, a llun Man-soul yn llosgi ynddi.

Pan ddarfu i Diabolus wneud fel hyn, efe a orchymynodd fod i'w dabwrddwr ef agoshau at gaerau tref Man-soul bob nos, a churo am ymddiddaniad; y gorchymyn

ydoedd am ei wneuthur ef ar hyd nos, canys ar hyd y dydd yr oeddynt yn ei anafu ef â'u ffyn-taflu, canys y gorthrymwr a ddywedodd fod ganddo feddwl ymddiddan â'r bresenol ddychrynedig dref Man-soul, ac efe a orchymynodd fod i'w dabwrdd ef gael ei ganu bob nos, fel, trwy iddynt eu blino hwynt, o'r diwedd (os, o bosibl, ar y cyntaf y byddent yn anewyllysgar eto) gael eu gorfodi iddo.

Felly ei dabwrddwr yma a wnaeth fel y gorchymynwyd; efe a gyfododd ac a ganodd ei dabwrdd. Ond pan ganodd ei dabwrdd ef, os edrychai un tua thref Man-soul, wele dywyllwch, a chyfyngder, a'r goleuni a dywyllasid yn ei nefoedd. (Esay v. 30.) Ni chlywid dim trwst erioed mor ddychrynllyd ar y ddaear, oddieithr llais Shad-dai, pan lefarai. Ond, O! fel yr oedd Man-soul yn crynu!—nid edrychodd hi am ddim ond cael ei llyncu i fyny yn ebrwydd.

Pan ddarfu i'r tabwrddwr yma guro cenadwri, efe a wnaeth yr ymadrodd yma wrth Man-soul: Fy meistr a archodd i mi ddywedyd wrthych, mai os bydd i chwi ymostwng yn ewyllysgar, daioni y ddaear a gewch; ond os anufudd a fyddwch, y mae efe yn ymroi i'ch cymeryd trwy drais. Ond erbyn i'r crwydryn ddarfod curo ei dabwrdd, pobl Man-soul a ymgynullasent at y cadbeniaid i'r castell, fel nad oedd yno neb i ystyried, nac i roi ateb i'r tabwrddwr yma; felly nid aeth efe ddim yn mhellach y noswaith hòno, ond efe a ddychwelodd drachefn at ei feistr i'r gwersyll.

Pan welodd Diabolus nad allai efe, trwy ganu ei dabwrdd, weithio Man-soul at ei feddwl, y noswaith nesaf efe a ddanfonodd ei dabwrddwr heb ei dabwrdd, a hyny o hyd i beri i wŷr y dref wybod ei fod ef yn ewyllysio cael ymddiddan â hwynt. Ond pan ddaeth hi oll yn oll, ei genadwri a drowyd yn rhybudd i wŷr y dref i ymroddi eu hunain i fyny; ond ni roddasant iddo nac ystyriaeth na gwrandawiad, canys hwy a gofiasant pa beth a gostiodd iddynt ei wrando ef mewn byr eiriau.

Y nos nesaf efe a ddanfonodd drachefn, ac yna pwy a fyddai ei genadwr at Man-soul ond Cadben dychrynllyd y Bedd; felly Cadben y Bedd a ddaeth i fyny at gaerau Man-soul, ac a wnaeth yr araeth ganlynol wrth y dref:

O! chwychwi drigolion y dref wrthryfelgar Man-soul! yr ydwyf fi yn eich rhybuddio chwi yn enw y tywysog Diabolus, i chwi, heb ddim rhagor o ddadwrdd, i agor pyrth eich tref, a gollwng eich harglwydd i mewn; ond os bydd i chwi wrthryfela o hyd, pan gymerom y dref trwy drais, nyni a'ch llyncwn chwi i fyny fel y bedd. Felly, os gwrandewch chwi ar fy rhybudd, mynegwch; ac os na wnewch, gadewch i mi gael gwybod.

Yr achos o'm rhybudd yma, eb efe, yw, am mai fy arglwydd ydyw eich tywysog chwi, a'ch uniawn arglwydd chwi, megis ag yr oeddych chwi eich hunain gynt yn arddel. Ac ni chaiff yr ymgyrchiad hyny a roddwyd i'm harglwydd, pan ddarfu i Emmanuel ei drin ef mor waradwyddus, beri iddo golli ei gyfiawnder, ac i beidio cynyg enill yn ol yr eiddo ei hun. Ystyria, gan hyny, O! Man-soul, rhyngot â

thi dy hun, a fydd i ti dy ddangos dy hun yn heddychol, neu beidio? Os ymroddi di dy hunan i fyny trwy dêg, yna yr adnewyddir ein cyfeillach gynt; ond os eto y gwrthodi ac y gwrthryfeli, yna na ddisgwyl ddim ond tân a chleddyf.

Pan glywodd tref Man-soul nychlyd y rhybuddiwr yma, a'i rybuddion, hwy a wnaethpwyd eto yn fwy synedig; ond ni roddasant ddim ateb oll i'r cadben. Felly ymaith yr aeth efe fel y daethai.

Ond ar ol ymgynghori rhywfaint yn eu plith eu hunain, megis hefyd â rhai o'u cadbeniaid, hwy a aethant o'r newydd at yr Arglwydd Ysgrifenydd, neu'r cyfrinachwr, am gyngor a chyfarwyddyd oddiwrtho ef, canys yr Arglwydd Ysgrifenydd ydoedd eu pregethwr penaf hwy, (megis hefyd y soniwyd rywfaint o dudalenau yn flaenorol,) yn unig yr oedd efe, yn bresenol, yn ddrwg iawn ei hwyl; ac arno ef y dymunasant ei ffafr yn y ddau neu y tri pheth yma:

1. Fod iddo ef edrych yn ddiddanus arnynt, a pheidio cadw ei hun mor guddiedig oddiwrthynt a chynt. Hefyd, deilyngu o hono ef iddynt allu gorchfygu gydag ef i roddi iddynt wrandawiad, tra y gwnaent eu cyflwr truenus yn hyspys iddo ef. Ond i hyn yr atebodd megis o'r blaen: Mai hyd yn hyn nad oedd efe ond anhwylus, ac am hyny nas gallai efe wneuthur fel y gwnaethai efe gynt.

2. Yr ail beth a ddymunasant oedd, ar fod yn wiw ganddo ef roddi iddynt ei gyfarwyddyd yn nghylch eu hachosion pwysfawr presenol, am fod Diabolus wedi dyfod o flaen y dref, a gydag ef ddim llai nag ugain mil o Amheuwyr. Hwy a ddywedasant hefyd, ei fod ef a'i gadbeniaid yn ddynion creulon, a'u bod hwy yn eu hofni hwynt. Ond i hyn yr atebodd: Y mae yn rhaid i chwi edrych yn nghyfraith y Tywysog, ac yno weled beth sydd raid i chwi ei wneuthur.

3. Hwy a ddymunasant ar ei Fawrhydi, ar iddo weled bod yn dda i'w cynorthwyo hwynt i lunio deiseb at Shad-dai, ac at Emmanuel ei Fab, ac ar fod iddo roddi ei law ei hunan wrtho, megis arwydd o'i fod ef ei hun yn un gyda hwynt ynddo ef; canys, ebe hwy fy Arglwydd, llawer un a ddanfonasom ni, ond yr ydym ni yn methu cael dim ateb heddychol; ond yn awr, yn ddiameu, un â'th law di wrtho a all gael daioni i Man-soul.

Ond yr ateb a roddodd ef i hyn i gyd oedd, iddynt hwy ddigio eu Hemmanuel, ac iddynt hefyd ei dristâu yntau, ac am hyny fod yn rhaid iddynt eto fod yn gyfranogion o'u dychymygion eu hunain

Yr ateb yma o eiddo yr Arglwydd Ysgrifenydd a syrthiodd arnynt fel maen melin; ïe, fe a'u hysigodd hwynt yn y cyfryw fodd, fel nad allent ddywedyd pa beth i'w wneuthur, eto ni feiddient gydsynio â gofynion Diabolus, nac â gofynion ei gadbeniaid ef. (Gal. i. 3.) Yma, gan hyny, yr oedd y cyfyngderau yr ydoedd tref Man-soul yn gorwedd rhyngddynt, pan ddaeth y gelyn arni: yr oedd ei gelynion yn barod i'w llyncu hi i fyny, a'i chyfeillion a beidiasant a'i chynorthwyo hi.

Yna safodd fy Arglwydd Maer i fyny, enw yr hwn oedd fy Arglwydd Deall-dwriaeth, ac efe a ddechreuodd gasglu a chasglu, hyd oni thynodd efe gysur allan o'r ymadrodd hwnw ag oedd yn ymddangos ei fod yn chwerw o eiddo yr Arglwydd-Ysgrifenydd; canys fel hyn yr eglurhaodd arno: Yn gyntaf, eb efe, y mae hyn yn anocheladwy yn canlyn oddiwrth ymadrodd fy arglwydd, Fod yn rhaid i ni eto ddioddef am ein pechodau. Yn ail. Ond, eb efe, y mae y geiriau eto yn swnio megis pe byddai i ni gael ein hachub o'r diwedd oddiwrth ein gelynion; ac mai ar ol ychydig yn ychwaneg o dristwch, Emmanuel a ddaw i'n cymhorth ni. Yn awr fy Arglwydd Maer ydoedd yn fwy abl i roddi barn yn ei waith yn trin geiriau yr Ysgrifenydd, am fod fy arglwydd yn fwy na phrophwyd, ac am nad oedd un o'i eiriau ef yn gyfryw a'r nad oeddynt bob amser yn arwyddocâol trwyddynt, a chaniatâwyd i wŷr y dref edrych ynddynt, a'u hesponio hwynt yn oreu ag y gallent, er eu lles eu hunain.

Felly hwy a gymerasent eu cenad oddiwrth fy arglwydd, ar a ddychwelasent, ac a aethant, ac a ddaethant at y cadbeniaid, i ba rai y mynegasant yr hyn a ddywedasai fy Arglwydd Uchel-Ysgrifenydd; y rhai, pan glywsant y peth, oeddynt oll yr un farn a'm Harglwydd Maer ei hunan; y cadbeniaid, gan hyny, a gymerasant beth calon, ac a ddechreuasant barotoi i wneuthur rhyw gynyg gwych ar wersyll y gelyn, ac i ddistrywio y rhai hyny oll ag oedd yn Ddiaboloniaid, yn nghyd â'r Amheuwyr ysglyfaethus a ddygasai y gorthrymwr gydag ef i ddistrywio tref Man-soul dlawd.

Felly pawb o honynt a aethant i'w lleoedd yn ebrwydd: y cadbeniaid i'r eiddynt, y Maer i'r eiddo yntau, y Pregethwr Rhaglawiol i'r eiddo yntau, a'm Harglwydd Ewyllysgar at yr eiddo yntau. Y cadbeniaid a hiraethasant am fod wrth ryw waith dros eu Tywysog, canys hoff oedd ganddynt weithredoedd ag oedd yn perthyn i ryfel. Y dydd nesaf, gan hyny, hwy a ddaethant yn nghyd, ac a ymgynghorasant, ac wedi ymgynghori, hwy a ymroisant i roddi ateb i Diabolus â'u ffyn-taflu, ac felly gwnaethant ar godiad yr haul dranoeth, canys Diabolus oedd wedi llyfasu dyfod yn nes drachefn, ond y ffyn-taflu oedd iddo ef a'i eiddo fel cacwn; canys fel megis ag nad oes dim mor ddychrynllyd i Man-soul a rhuad tabwrdd Diabolus, felly nid oes dim mor ddychrynadwy i Diabolus ac iawn drin ffyn-taflu Emmanuel.

Oherwydd paham, fe orfu ar Diabolus wneuthur enciliad arall eto, yn mhellach oddiwrth yr enwog dref Man-soul. Yna Maer Man-soul a barodd ganu y clychau, ac ar i ddiolch gael ei roddi i'r Arglwydd Uchel-Ysgrifenydd, trwy enau y Pregethwr Rhaglawiol, am i gadbeniaid a henaduriaid Man-soul, trwy ei eiriau ef, gael eu cadarnhau a'u nerthu yn erbyn Diabolus.

Pan welodd Diabolus fod ei gadbeniaid a'i sawdwyr, ei arglwyddi uchel a pharchedig, wedi eu hofni a'u curo i lawr gan y cerig a ddaethai o ffyn-taflu auraidd

Tywysog Man-soul, efe a ystyriodd, ac a ddywedodd: Mi a brofaf eu dâl hwynt trwy ddywedyd yn dêg, mi a dreiaf eu gwenieithio hwynt i'm rhwyd.

Oherwydd paham, yn mhen tro, efe a ddaeth i wared eilwaith at y mur, nid gyda ei dabwrdd yn awr, na chyda Chadben y Bedd, ond gan siwgro ei wefusau, efe a ymddangosodd ei fod yn safn-lyfn iawn, yn dywysog heddychol, heb amcanu dim er mwyn ei fympwy, nac i ymddial ar Man-soul am y sarhad a wnaethant iddo, ond llwyddiant, a daioni, a llesâd y bobl ynddi, ydoedd, yn bresenol, fel y dywedodd ef, oedd ei unig ddiben ef. Oherwydd paham, ar ol iddo alw am wrandawiad, a deisyf ar wŷr y dref ei ganiatâu, efe a aeth rhagddo yn ei araeth, ac a dywedodd:

O! ddymuniad fy nghalon, yr enwog dref Man-soul! pa sawl noswaith y bum i yn dy warchod di, a pha sawl cam diffygiol a gerddais, fel, ysgatfydd, y gwnawn i ti ddaioni. (1 Pedr iii. 8. Dat. xii. 10.) Pell oddiwrthyf, pell oddiwrthyf fi fyddo fod i mi ewyllysio gwneuthur rhyfel arnoch chwi, os bydd i chwi yn ewyllysgar ac yn heddychol roddi eich hunain i fyny i mi. Chwi a wyddoch mai eiddof fi oeddych chwi gynt. (Mat. iv. 8. Luc iv. 6, 7.) Cofiwch hefyd, mai cyhyd ag y mwynhasoch chwi fi yn lle eich Harglwydd, ac mai tra y mwynheais inau chwithau yn lle fy neiliaid, na fu arnoch chwi eisieu dim pleserau ag sydd ar y ddaear a allwn i ei gael i chwi, neu a allwn i ei ddychymygu i'ch gwneuthur chwi yn wych ac yn llawen. Ystyriwch, na chawsoch chwi erioed gynifer o oriau celyd, tywyll, trallodedig, a chalon-gystuddiol, tra fuoch yn eiddo i mi, ag a gawsoch er pan wrthryfelasoch oddiwrthyf fi; ac ni chewch chwi byth heddwch eto, hyd oni byddwyf fi a chwithau yn un megis cynt. Ond bydded i chwi gymeryd eich perswadio i'm derbyn i drachefn, a mi a ganiatâf, a mi a helaethaf eich hen freinlen chwi â helaethrwydd o ragorfreintiau, fel y byddo i chwi genad a rhyddid i gymeryd, dâl, mwynhau, a gwneuthur yn eiddo eich hunain bob peth ag sydd yn ddymunol, o'r dwyrain i'r gorllewin. Nis bydd, ychwaith, i un o'r anfoesau hyny, â pha rai y digiasoch fi, byth gael eu gosod yn eich erbyn genyf fi, tra y parhao haul a lleuad, Ni chaiff, hefyd, un o'm cyfeillion anwyl hyny sydd yn bresenol, rhag eich ofn chwi, yn gorwedd, gan lechu mewn ffauau, a thyllau, ac ogofeydd yn Man-soul, fod yn niweidiol i neb o honoch chwi byth; ïe, hwy a gânt fod yn weision i chwi, ac a gânt weini i chwi o'r hyn sydd ganddynt, ac o ba beth bynag a ddelo mewn llaw. Nid rhaid i mi dddwedyd dim yn ychwaneg, chwi a'u hadwaenoch hwynt, ac a fuoch rywbryd wedi hyn yn ymhyfrydu yn fawr yn eu cwmpeini hwynt; paham, gan hyny, y byddem ni yn aros mor bell oddiwrth ein gilydd? Gadewch i ni adnewyddu ein cydnabyddiaeth a'n cyfeillgarwch drachefn.

Cyd-ddygwch â'ch cyfaill; yr wyf fi yn cymeryd, ar hyn o bryd, rydd-did fel hyn i lefaru yn hyf wrthych; y cariad sydd genyf fi tuag atoch sydd yn fy nghymhell i'w wneud ef, fel megis hefyd y mae zel fy nghalon dros fy nghyfeillion y rhai

sydd gyda chwi; na pherwch i mi, gan hyny, fyned mewn helbul yn mhellach, ac nac yrwch mo honoch eich hunain i fwy o ofnau;—eich mynu a wnaf, naill ai trwy heddwch ai trwy ryfel; ac nac ymwenieithiwch i chwi eich hunain oblegid gallu a chadernid eich cadbeniaid, neu am y daw Emmanuel yn ebrwydd i'ch cynorthwyo, canys y cyfryw gadernid ni wna i chwi ddim pleser.

Mi a ddaethum yn eich herbyn chwi â lluoedd o gedyrn nerthol, ac y mae holl dywysogion penaf y ffau yn eu tywys hwynt. Hefyd, y mae fy nghadbeniaid yn gyflymach nag eryrod, yn gryfach na llewod, ac yn fwy awyddus i ysglyfaeth na bleiddiaid yr hwyr. Pa beth yw Og a Bashan?—pa beth yw Goliath o Gath?—a pha beth ydyw cant yn ychwaneg o'r cyfryw rai o honynt i'r lleiaf o'm cadbeniaid i? Pa wedd, gan hyny, y gall Man-soul feddwl dianc rhag fy llaw a'm cadernid i?

Diabolus, wedi iddo fel hyn ddibenu ei ymadrodd gwenieithus, ffuantus, twyllodrus, a chelwyddog, wrth yr enwog dref Man-soul, yr Arglwydd Maer a atebodd iddo fel y canlyn:

O! Diabolus, tywysog y tywyllwch, a meistr pob twyll: Nyni a gawsom brofiad digonol o'th weniaith gelwyddog di, ac a yfasom yn rhy drwm o'r cwpan niweidiol hwnw eisoes; pe gwrandawem ni, gan hyny, drachefn arnat ti, ac felly tori gorchymyn ein Shad-dai mawr, i ymgyfathrachu â thydi, oni byddai i'n Tywysog ein gwrthod ni, a'n taflu ni ymaith yn dragywydd? ac wedi ein taflu ni ymaith ganddo ef, a all y lle a ddarparodd efe i ti fod yn lle o orphwysdra i ni? Hefyd, O! tydi, yr hwn wyt yn wag o bob gwirionedd! yr ydym ni yn barod yn hytrach i farw trwy dy law di, na chymeryd ein henill trwy dy weniaith a'th gelwyddau twyllodrus.

Pan welodd y gorthrymwr nad oedd ond ychydig i'w enill trwy ymddiddan â'm Harglwydd Maer, efe a syrthiodd i gynddaredd uffernol, ac a ymrodd fod iddo drachefn, yn nghyd â'i fyddin o Amheuwyr, y gwnai efe, ar amser arall, ymosod ar dref Man-soul.

Felly efe a alwodd am ei dabwrddwr, yr hwn a gurodd i fyny am ei wŷr ef (a thra yr oedd efe yn curo, Man-soul a grynodd), i fod yn barod i roi câd i'r corphoraeth: yna Diabolus a nesâodd, a'i fyddin gydag ef, ac efe a drefnodd ei wŷr. Cadben Creulon, a Chadben Poen, a dynodd efe i fyny, ac a'u gosododd hwynt yn erbyn Porth-y-teimlad, ac a orchymynodd iddynt osod eu hunain i lawr yno gogyfer â'r rhyfel; ac efe a appwyntiodd, os byddai raid, i Gadben Anesmwyth ddyfod i mewn i'w cynorthwyo hwynt.

Wrth Borth-yr-arogliad y gosododd efe Gadben Brwmstan a Chadben y Bedd, ac a archodd iddynt edrych yn wiliadwrus at eu siars ar yr ochr hôno i dref Man-soul. Ond wrth Borth-y-llygad y gosododd efe yr un gwyneb hyll hwnw, Cadben Diobaith, ac yno hefyd, yn bresenol, y gosododd ef i fyny ei luman erchyll.

Yn awr Cadben Annigonol oedd i edrych at glud Diabolus, ac yr ydoedd, hefyd,

wedi ei appwyntio i gadw y person neu y personau hyny â'r pethau a ellid eu cymeryd oddiar y gelyn, fel ysglyfaeth, ar unrhyw bryd.

Yn awr Porth-y-genau a gadwasai trigolion Man-soul yn borth-y-gynllwynfa, neu borth i ruthro allan; oherwydd paham, hwy a gadwasant hwnw yn gadarn, canys hwnw oedd ef, trwy ac allan o ba un yr oedd gwŷr y dref yn danfon eu herfyniadau at Emmanuel eu Tywysog: hwnw hefyd oedd y porth oddiar ben pa un yr oedd y cadbeniaid yn bwrw y cerig â'u ffyn-taflu at y gelynion, canys yr oedd y porth hwnw yn sefyll rywfaint yn fwy dyrchafedig, o ganlyniad, yr oedd eu hymosodiad hwynt yno, a'r tafliad o honynt o'r lle hwnw yn gwneuthur llawer o waith rhagorol yn erbyn byddin y gelyn; oherwydd paham, o achos hyny, a phethau eraill, Diabolus a geisiodd, os ydoedd bosibl, gau Porth-y-genau i fyny â thom.

Yn awr, fel yr oedd Diabolus yn ddiwyd yn parotoi i wneuthur ei ymgyrch ar dref Man-soul oddiallan, felly y cadbeniaid a'r milwyr yn y corphoraeth oeddynt yn darparu neu yn parotoi oddifewn: hwy a osodasant i fyny eu banerau, hwy a ganasant eu hudgyrn, ac a osodasant eu hunain yn y cyfryw drefn ag a farnwyd yn fwyaf niweidiol i'r gelyn, ac yn fwyaf er mantais i dref Man-soul, ac a roddasant orchymyn i'w milwyr i fod yn barod i ryfel pan glywent lais yr udgorn. Yr Arglwydd Ewyllysgar, hefyd, a gymerodd y siars o warchod y gwrthryfelwyr oddifewn, ac i wneuthur ei oreu i'w dâl hwynt allan, neu i'w mygu hwynt yn eu hogofeydd, ffauau, a thyllau yn muriau tref Man-soul. Ac o ddywedyd y gwir am dano ef, fyth ar ol yr amser y bu ef yn dwyn ei benyd am ei fai, efe a ddangosodd gymaint o onestrwydd a gwroldeb yspryd ag un yn Man-soul, canys efe a gymerodd un Harddwych, a'i frawd Digrifwch, dau fab ei was Lawenydd-diniwed—(canys hyd y dydd hwnw, er bod y tad wedi ei ddâl, yr ydoedd gan y meibion le yn nhŷ fy arglwydd);—meddaf, efe a'u cymerodd hwynt, ac a'u gosododd hwynt ar y groes â'i ddwylaw ei hunan. A dyma yr achos paham y crogodd efe hwynt i fyny: ar ol i'w tad hwynt gael ei roddi yn nwylaw Mr. Cywir, ceidwad y carchar, hwy, eu meibion, a ddechreuasant chwareu eu castiau drwg â merched fy arglwydd; ïe, fe feddyliwyd fod gormod o gyfeillgarwch rhyngddynt hwy, yr hyn beth a ddygwyd i glust fy arglwydd. Yn awr, gan fod ei arglwyddiaeth yn anewyllysgar i osod neb i farwolaeth yn ddigyngor, ni ddarfu iddo ruthro arnynt yn ddisymwth, ond efe a osododd wiliadwriaeth ac yspiwyr i wybod a oedd y peth yn wir; o'r hyn y cafodd efe wybodaeth yn ebrwydd, canys ei ddau was, enwau pa rai oeddynt Cael-allan a Dweyd-y-cwbl, a'u daliodd hwynt yn nghyd mewn modd anweddus fwy nag unwaith neu ddwy, ac a aethant ac a fynegasant i'w harglwydd. Felly pan gafodd fy Arglwydd Ewyllysgar ddigon o sail i gredu fod y peth yn wir, efe a gymerodd y ddau Ddiaboloniaid—(canys y cyfryw rai oeddynt, ac yr oedd eu tad yn Ddiaboloniad o ryw)—ac a'u dug hwynt i Borth-y-llygad, lle y cododd ef groes uchel iawn, yn

uniawn gyferbyn a 'gwyneb Diabolus a'i lu, ac yno y crogodd efe y fileiniaid ieuainc, er dirmyg i Gadben Diobaith, a lluman echrydus y gorthrymwr.

Yn awr y eithred Gristionogol hon o eiddo yr Arglwydd Ewyllysgar gwych a gywilyddiodd Gadben Diobaith yn ddirfawr, ac a ddigalonodd fyddin Diabolus, ac a osododd arswyd yn y crwydriaid Diabolonaidd yn Man-soul, ac a osododd galon a gwrolder yn y cadbeniaid ag ydoedd yn perthyn i Emmanuel y Tywysog, canys fe ddarfu iddynt hwy oddiallan gasglu, a hyny oddiwrth y weithred hon o eiddo'm harglwydd, fod Man-soul yn ymroi i ymladd, ac nad allai y Diaboloniaid yn y dref wneuthur y cyfryw bethau ag yr ydoedd Diabolus yn gobeithio a wnaent; ac nid hyn ychwaith oedd yr unig brawf o onestrwydd y gwych Arglwydd Ewyllysgar i'r dref, nac o'i ffyddlondeb i'w Dywysog, fel yr ymddengys rhagllaw.

Yn awr, pan ddarfu i blant Cynildeb-synwyrol, yr hwn oedd yn trigo gyda Mr. Meddwl—(canys Cynildeb hefyd a adawodd blant gyda Mr. Meddwl pan fwriwyd yntau yn ngharchar, a'u henwau oeddynt—Crafu a Chasglu-y-cwbl, y rhai hyn a genhedlodd efe o ferch ordderch i Mr. Meddwl, enw yr hon oedd Mrs. Dal-gafael-ar-ddrwg)—meddaf, pan ddeallodd ei blant pa fodd y darfuasai i'r Arglwydd Ewyllysgar drin y rhai oedd yn aros gydag ef, beth a wnaethant hwy ond (rhag iddynt orfod yfed o'r un cwpan) ymdrecheu dianc; ond Mr. Meddwl a edrychodd at hyny, a'u cymerth hwynt, ac a'u gosododd mewn dalfa yn ei dŷ hyd y boreu (oblegid hyn a wnaethpwyd dros nos), a chan gofio fod yr holl Ddiaboloniaid i farw wrth gyfraith Man-soul, ac yn sicr yr oeddynt hwythau, o'r lleiaf, yn gyfryw rai o ran eu tad, ac fe ddywed rhai, eu mam hefyd; pa beth a wnaeth ef ond eu dàl, a'u gosod mewn cadwynau, a'u dwyn hwynt i'r unrhyw le ag y crogasai fy arglwydd ei ddau yntau o'r blaen, ac yno efe a'u crogodd hwynt.

Gwŷr y dref, hefyd, a ymwrolasant yn ddirfawr oblegid y weithred hon o eiddo Mr. Meddwl, ac a wnaethant bobpeth ag a allent i ddàl mwy o'r trallodwyr Diabolonaidd yma ag oeddynt yn blino Man-soul; ond ar yr amser hyny yr oedd y lleill yn llechu mor guddiedig, fel nad ellid cael gafael ynddynt; felly hwy a osodasant wiliadwriaeth fanwl yn eu herbyn hwynt, ac a aethant bob un i'w le ei hun.

Mi a ddywedais i chwi o'r blaen i Diabolus a'i fyddin gael eu cywilyddio a'u digaloni, i ryw raddau, wrth edrych ar yr hyn a wnaeth yr Arglwydd Ewyllysgar, pan grogodd ef y ddau Ddiaboloniaid ieuainc; ond ei ddigalonwydd ef a drowyd yn ebrwydd i lidiawgrwydd cynddeiriog a digofaint yn erbyn Man-soul, a'i hymladd hi a fynai. Hefyd, y cadbeniaid a gwŷr y dref, oddifewn, a ymgryfhausant yn eu gobaith a'u disgwyliad, gan gredu mai hwy gariai y dydd o'r diwedd, felly yr oedd arnynt lai o'u hofn hwynt. Eu Pregethwr Rhaglawiol, hefyd, a wnaeth bregeth yn nghylch hyny, ac efe a gymerth y gair hwnw yn destyn: "Gad, llu a'i gorfydd; ac yntau a orfydd o'r diwedd," Gen. xlix. 19; o ba le y dangosodd efe,

mai er y gallai hi fod yn gyfyng ar Man-soul ar y dechreu, eto yr oruchafiaeth yn ddiau a fyddai yn eiddo Man-soul o'r diwedd.

Felly Diabolus a archodd i'w dabwrddwr guro cyrch yn erbyn y dref, a'r cadbeniaid, hefyd, y rhai ydoedd yn y dref, a seiniasant gyrch yn eu herbyn hwythau; ond nid oedd ganddynt hwy un tabwrdd, ond udgyrn arian oedd ganddynt hwy, â pha rai y seiniasant yn eu herbyn. Yna hwy, y rhai oeddynt o wersyll Diabolus, a ddaethant i wared at y dref i'w chymeryd hi, a'r cadbeniaid, y rhai oeddynt yn y castell, yn nghyd â'r rhai oeddynt yn taflu cerig wrth Borth-y-genau, a chwareuasant arnynt yn daclus. Ac yn awr nid oedd dim i'w weled yn ngwersyll Diabolus ond cynddaredd echrydus a chabledd; ond yn y dref geiriau daionus, gweddiau, a chanu Salmau: y gelyn a'u hatebodd hwynt â gwrthddadleuon ofnadwy, ac â dychryn eu tabwrdd; ond y dref a atebodd iddynt â ffonodiau eu ffyn-taflu, ac â pheraidd lais eu hudgyrn. Ac fel hyn y parhaodd yr ymladdfa dros amryw ddyddiau yn nghyd, yn unig yn awr ac eilwaith hwy a gawsant ychydig seibiant, yn mha odfeydd yr ydoedd gwŷr y dref yn cael adnewyddu eu hunain, a'r cadbeniaid yn parotoi gogyfer a brwydr arall.

Cadbeniaid Emmanuel oeddynt wedi eu gwisgo mewn arfogaeth o arian, a'r milwyr, hefyd, yn yr hyn ag oedd brofadwy; sawdwyr Diabolus oeddynt wedi eu gwisgo mewn haiarn, yr hwn a orfu roi lle i ergydion magnel Emmanuel. Yn y dref rhai a ddoluriwyd, a rhai a glwyfwyd yn ddirfawr.

Yn awr y peth gwaethaf ydoedd, yr oedd meddyg yn anaml yn Man-soul, am fod Emmanuel, y pryd hyn, yn absenol oddiwrthynt. (Dat. xxii. 2. Salm xxxviii. 5.) Er hyny, dail pren a gadwodd y rhai a glwyfasid rhag marw, eto eu clwyfau a bydrasant yn ddirfawr, a rhai a ddrewasant yn drwm.

O wŷr y dref, dyma y rhai a glwyfwyd: sef fy Arglwydd Rheswm, efe a glwyfwyd yn ei ben; un arall a glwyfwyd ydoedd yr ardderchog Arglwydd Maer, efe a glwyfwyd yn ei lygad; un arall ag a glwyfwyd oedd Mr. Meddwl, efe a gafodd ei glwyfo yn agos i'r cylla.

Y Pregethwr Rhaglawiol gonest, hefyd, a gafodd ergyd, a hyny nid yn mhell oddiwrth ei galon, ond nid oedd un o'r rhai hyn yn farwol.

Fe gafodd llawer, hefyd, o'r rhai hyny ag oeddynt o raddau îs, nid yn unig eu clwyfo, ond eu lladd yn feirw.

Yn awr yn ngwersyll Diabolus y clwyfwyd ac y lladdwyd cryn rifedi, megis:—Cadben Llidiawgrwydd, efe a glwyfwyd; ac felly y gwnaed i Gadben Creulon.

Cadben Damnedigaeth a yrwyd i encilio, ac i amgaeru ei hun yn mhellach oddiwrth dref Man-soul; lluman Diabolus, hefyd, a gurwyd i lawr, a'i lumanwr, Cadben Mawrddrwg, a gafodd guro ei ymenydd allan â ffon-dafl, er gofid a chywilydd nid bychan i'w Dywysog Diabolus.

Llawer hefyd o'r Amheuwyr a laddwyd yn feirw; er fod digon wedi eu gadael yn fyw i wneuthur i Man soul grynu ac arswydo. Yn awr, gan i'r oruchafiaeth gael ei throi o du Man-soul y dwthwn hwnw, gosododd hyny lawer o galon yn ngwŷr y dref a'r cadbeniaid, ac a guddiodd wersyll Diabolus â chwmwl, ond trwy hyny fe'u gwnaeth hwynt yn fwy eu llid a'u cynddaredd o lawer iawn. Felly, dranoeth, Man-soul a orphwysodd, ac a archodd ganu y clychau; yr udgyrn, hefyd, a leisiasant yn orfoleddus, a'r cadbeniaid a floeddiasant oddeutu y dref.

Nid oedd fy Arglwydd Ewyllysgar ychwaith yn segur, ond efe a wnaeth araeth ardderchog oddifewn yn erbyn y gelynion cartrefol, neu y Diaboloniaid ag ydoedd yn y dref, nid yn unig trwy eu cadw hwynt mewn ofn, canys efe a syrthiodd o'r diwedd ar un, enw yr hwn oedd Mr. Diddim neu Bobpeth, dyn am yr hwn y soniwyd o'r blaen; oblegid efe oedd yr un hwnw, os ydych yn cofio, ag a ddug y tri llanc at Diabolus, y rhai a gymerasai y Diaboloniaid allan o gwmpeini Cadben Boanerge ac a'u perswadiodd hwynt i ymrestru eu hunain dan y gorthrymwr, i ymladd yn erbyn byddinoedd Shad-dai. Fy Arglwydd Ewyllysgar, hefyd, a ddaliodd un Diaboloniad hynod, enw yr hwn oedd Troedrydd; y Troedrydd yma ydoedd yspiwr i'r crwydriaid yn Man-soul, ag ydoedd yn arfer dwyn newyddion allan o Man-soul i'r gwersyll, ac allan o'r gwersyll drachefn at y gelynion yn y dref. Y rhai hyn a anfonodd fy arglwydd ill deuoedd yn ddiogel at Mr. Cywir, ceidwad y carchar, gyda gorchymyn i'w cadw hwynt mewn heiyrn; canys yr oedd efe yn bwriadu, y pryd hyny, eu dwyn hwynt allan i gael eu croeshoelio, pan fyddai hi oreu er lles y corphoraeth, a mwyaf er digalonrwydd i wersyll y gelynion.

Fy Arglwydd Maer, hefyd, er nad allai efe rodio oddiamgylch fel cynt, o achos y clwyf a gawsai ef yn ddiweddar, eto fe roddodd allan awdurdod i'r rhai oll ag oedd â'u haniad o Man-soul, i edrych at eu gwiliadwriaeth, ac i sefyll ar eu gocheliad; ac, fel y byddai yr achos yn gofyn, i ddangos eu hunain yn wŷr.

Mr. Cydwybod, y pregethwr, yntau hefyd a wnaeth ei eithaf i gadw ei holl athrawiaethau daionus yn fyw ar galonau pobl Man-soul.

Wel, yn mhen tro, y cadbeniaid a chedyrn tref Man-soul a gytunasant, ac a ymroisant, ar amser, i wneuthur rhuthriad allan ar wersyll Diabolus, a hyn oedd raid ei wneuthur ar hyd nos, a dyma y lle yr oedd ynfydrwydd Man-soul—(canys y nos yn wastadol sydd oreu i'r gelyn, ond yn waethaf i Man-soul i ymladd ynddi)—ond eto hwy a'i gwnaent, am eu bod mor galonog. Yr oedd, hefyd, yr oruchafiaeth ddiweddaf yn glynu eto yn eu cof hwynt.

Felly pan ddaeth y noswaith osodedig, cadbeniaid gwrol y Tywysog ardderchog a fwriasant goelbrenau pwy a dywysai y blaen-lu, yn yr ymdaith newydd enbyd yma yn erbyn Diabolus, ac yn erbyn ei fyddin Ddiabolonaidd ef, a'r coelbren a syrthiodd ar Gadben Crediniaeth, Cadben Gobaith-da, a Chadben Profiad, i dywys blaen-gad

y rhyfel—(y Cadben Profiad yma a wnaethpwyd yn gyfryw un gan y Tywysog ei hun pan ydoedd efe ei hunan yn aros yn nhref Man-soul);—felly, fel y dywedais, hwy a wnaethant eu rhuthriad allan ar y gelyn ag ydoedd yn gorwedd yn gwarchae yn eu herbyn hwynt, a'u hap oedd syrthio i mewn i ganol gwersyll eu gelynion.

Yn awr Diabolus a'i wŷr, gan eu bod yn gyfarwydd, ac wedi ymarferu â gwaith y nos, a gymerasent yr alarwm yn ebrwydd, ac yr oeddynt mor barod i roddi câd iddynt a phe buasent wedi mynegu iddynt eu bod yn dyfod. Oherwydd paham, ymladd a wnaethant yn greulon, ac ergydion a glywid bob ochr; y tabwrdd uffernol, hefyd, a gurwyd yn y modd mwyaf digofus, tra yr ydoedd udgyrn y Tywysog yn swnio yn y modd pereiddiaf. Ac fel hyn yr aeth y frwydr yn mlaen, a Chadben Annigonol a edrychodd at glud y gelyn, ac a ddisgwyliodd pa bryd y caffai efe unrhyw ysglyfaeth.

Cadbeniaid y Tywysog a'i hymladdasant hi yn wrol, ac yn wir tuhwnt i'r hyn yr oeddid yn ei ddisgwyl a wnaent; hwy a glwyfasant lawer, ac a wnaethant i holl fyddin Diabolus wneuthur enciliad. Nis gwn i pa fodd y digwyddodd, ond fel yr oedd Cadben Crediniaeth, Cadben Gobaith-da, a Chadben Profiad, yn erlid, yn tori i lawr, ac yn dilyn yn galed ar ol y rhai olaf o'r gelynion, Cadben Crediniaeth a dramgwyddodd ac a syrthiodd, trwy yr hwn gwymp y derbyniodd efe gymaint o niwaid, hyd onid oedd efe yn methu codi, nes daeth Cadben Profiad i'w gynorthwyo ef i fyny, ar yr hyn y bu i'w gwŷr gael eu hannhrefnu; y cadben, hefyd, oedd mor llawn o boen, fel nad allai efe ymattal, ond llefain allan yn uchel. Ar hyn, y ddau gadben arall a lewygasant, gan dybied i Gadben Crediniaeth gael ei glwyf marwol: yr ydoedd eu gwŷr, hefyd, wedi eu hannhrefnu yn fwy, ac nid oedd ganddynt ddim ewyllys i ymladd.

Yn awr, gan fod Diabolus yn graffus iawn, er iddo eto, ar hyn o bryd, gael y gwaethaf, a chan ddeall fod cloffni wedi ei wneuthur yn mhlith y gwŷr ag oeddynt yn erlidwyr, pa beth a wnaeth efe ond coelio fod y cadbeniaid naill ai wedi eu clwyfo, neu ynte wedi meirw; efe, gan hyny, yn gyntaf, a safodd, ac yna efe a edrychodd oddeutu, ac felly efe a ddaeth i fyny ar warthaf gwŷr y Tywysog gyda chymaint o lidiawgrwydd ag a allai uffern ei hun ei gynorthwyo, a digwyddodd iddo gwympo i mewn yn uniawn ar ben y tri cadben—sef Cadben Crediniaeth, Cadben Gobaith-da, a Chadben Profiad, ac a'u torodd hwynt, ac a'u clwyfodd, ac a'u gwânodd hwy mor ofnadwy, fel megis trwy eu digalonrwydd, a thrwy eu hannhrefn, a thrwy y clwyfau a gawsent yn bresenol, ac hefyd oblegid colli o honynt lawer o waed, o'r braidd y gallent, er fod ganddynt y tair byddin oreu yn Man-soul er eu cymhorth, fyned yn ddiogel i'r dref drachefn.

Yn awr pan welodd byddinoedd y Tywysog y modd y cawsai y tri cadben yma y gwaethaf, hwy a farnasant yn ddoethineb iddynt wneuthur enciliad diogel yn oreu

ag y gallent, ac felly hwy a ddychwelasant yn ol trwy Borth-y-gynllwynfa drachefn, a dyna ydyw diwedd y weithred bresenol. Ond yr oedd Diabolus mor llawen â gwaith y noswaith yma, fel yr addawodd iddo ei hunan, cyn pen ychydig ddyddiau, oruchafiaeth hawdd a chyflawn ar dref Man-soul; oherwydd paham, ar y dydd nesaf, efe a ddaeth i fyny at ei hystlysau hi gydag ëondra anghyffredin, ac a archoddd idynt agoryd iddo ef, ac iddynt hwy, ar frys, roddi eu hunain i fyny i'w lywodraeth ef.

Y Diaboloniaid hefyd, ag oeddynt oddifewn, hwythau a ddechreuasant ymhoywi, megis ag y bydd i ni ddangos rhagllaw. Ond yr Arglwydd Maer a atebodd yn galonog, mai pa beth bynag a enillai, fod yn rhaid iddo ei enill trwy drais; canys cyhyd ag y byddai Emmanuel eu Tywysog hwynt yn fyw (er nad oedd ef, yn bresenol, gyda hwy yn y cyfryw fodd ag y dymunent), nas cytunent byth i roddi Man-soul i fyny i un arall.

A chyda hyny yr Arglwydd Ewyllysgar a safodd i fyny ac a ddywedodd: Diabolus, tydi arglwydd y ffau, a gelyn i'r hyn oll ag sydd ddaionus; nyni, trigolion tlodion tref Man-soul, ydym yn rhy gydnabyddus â'th reolaeth a'th lywodraeth di, ac â diwedd y pethau hyny ag a fyddant yn sicr i ganlyn ymostyngiad i ti, fel y byddai i ni eu gwneuthur hwynt. Oherwydd paham, er i ni, dros amser, pan oeddym yn anwybodus, oddef i ti ein dàl ni, (fel yr aderyn nis gwelai mo'r fagl, ac a syrthiodd yn llaw yr adarwr,) eto, er pan y tröed ni o dywyllwch i oleuni, fe'n trowyd hefyd odditan feddiant Satan at Dduw. Ac er i ni, trwy dy gyfrwysdra di, a chyfrwysdra y Diaboloniaid oddifewn hefyd, gael llawer o golled, ac hefyd soddi ein hunain i lawer o ofidiau, eto rhoddi ein hunain i fyny, a rhoddi i lawr ein harfau, ac ymroi i'r fath orthrymwr erchyll a thydi, nis gwnawn; yr ydym ni yn hytrach yn dewis marw yn y fan na'i gyflawni. Heblaw hyn, yr ydym yn gobeithio y daw i ni, mewn amser, waredigaeth o'r llys, ac am hyny nyni a fyntumiwn ryfel yn dy erbyn di.

Yr ymadrodd ardderchog hwn o eiddo yr Arglwydd Ewyllysgar, gyda'r un hyny hefyd o eiddo yr Arglwydd Maer, a leihaodd beth ar ëondra Diabolus, er iddo enyn ei lid a'i gynddaredd yn fwy. Fe ddarfu i hyn, hefyd, gefnogi gwŷr y dref a'r cadbeniaid; ïe, yr oedd ef yn feddyginiaeth i glwyf yr ardderchog Gadben Crediniaeth, canys y mae yn rhaid i chwi wybod fod araeth odidawg, yn bresenol, pan yr oedd cadbeniaid y dref, a'u rhyfelwyr, wedi eu herlid adref, a phan gymerasai y gelyn galon ac ëondra oblegid y llwyddiant a gawsent i ddyfod i fyny at y muriau, ac erchi iddynt agor, fel y gwnaeth efe,—yr ydoedd, meddaf, yn amserol, ac hefyd yn fanteisiol.

Yr Arglwydd Ewyllysgar, hefyd, a chwareuodd yn wych oddifewn, canys tra yr ydoedd y cadbeniaid a'r milwyr yn y maes, yr oedd yntau mewn arfau yn y dref, a pha le bynag y caffai efe Ddiaboloniaid, fe orfu arnynt ddioddef pwys ei law drom

ef, ac hefyd fin ei gleddyf treiddiol ef; llawer, gan hyny, o'r Diaboloniaid a glwyfodd efe, megis yr Arglwydd Cellwair, yr Arglwydd Hoyw, yr Arglwydd Ymddadleuwr, a'r Arglwydd Grwgnach. Llaweroedd hefyd o'r fath waelaf a anafodd ef yn dost, er nad ellir, ar hyn o bryd, roddi i chwi hanes o neb a laddwyd yn farw. Yr achos, neu yn hytrach y fantais a gafodd fy Arglwydd Ewyllysgar, ar yr amser yma, i wneud fel hyn, ydoedd, am fod y cadbeniaid wedi myned allan i ymladd â'r gelyn yn y maes; canys yn awr, ebe y Diaboloniaid oddifewn, yw yr amser i ni gyffroi ac i wneuthur terfysg yn y dref; pa beth, gan hyny, a wnaethant ond ymgynull at eu gilydd, ac yn ebrwydd hwy a gyfodasant derfysg yn Man-soul, fel megis pe na buasai yno yn bresenol ddim ond corwynt a thymhestl; oherwydd paham, fel y dywedais, efe a gymerodd yr adeg yma i ruthro arnynt gyda ei wŷr, gan eu tori a'u fflangellu gyda gwroldeb anwrthwynebol, ar yr hyn y darfu i'r Diaboloniaid, gyda phob ffrwst, ymwasgaru eu hunain i fyned i'w hamddiffynfeydd, a'm harglwydd i'w le megis ag o'r blaen.

Y weithred ardderchog hon o eiddo fy arglwydd a wnaeth rywfaint tuag at ddial y cam a wnaethai Diabolus i'r cadbeniaid, ac hefyd i beri iddynt wybod nad oedd Man-soul i ymadael â hi, serch colli brwydr neu ddwy; oherwydd paham, y torwyd adenydd y gorthrymwr drachefn, (mewn perthynas i ymffrost, yr wyf yn meddwl,) mewn cymhariaeth i'r hyn a wnaethai pe buasai y Diaboloniaid yn gosod y dref yn yr un fath gyflwr ag y gosodai ef y cadbeniaid ynddo.

Wel, Diabolus eto a ymrodd i gael brwydr arall â Man-soul; canys, eb efe, yn gymaint ag i mi eu curo hwynt unwaith, mi a allaf ddwywaith; oherwydd paham, efe a orchymynodd i'w wŷr fod yn barod ar y cyfryw awr o'r nos i wneuthur ymosodiad newydd ar y dref, ac efe a'i rhoddes allan yn orchymyn enwedigol, ar iddynt hwy ymosod â'u holl allu yn erbyn Porth-y-teimlad, a chynyg tori i mewn i'r dref trwy hwnw

Y gair a roddes efe, y pryd hyny, i'w swyddogion a'i filwyr ydoedd, Tân uffern; ac, eb efe, os bydd i ni dori i mewn ar eu traws hwynt, fel y dymunaf i ni wneuthur, naill ai gyda rhai, neu ynte â'r holl lu, bydded i'r rhai a dorant i mewn edrych ati nad anghofiont y gair, ac na chlywer dim yn nhref Man-soul ond Tân uffern, Tân uffern, Tân uffern. Yr oedd y tabwrddwr, hefyd, i guro yn ddiorphwys, a'r llumanwyr oeddynt i ddâl eu banerau i fyny; y sawdwyr oeddynt hefyd i gymeryd pob calon ag a allent, ac edrych ar fod iddynt chwareu eu rhan yn wrol yn erbyn y dref.

Felly y noswaith a ddaeth, a phob peth i'r gwaith wedi ei wneuthur yn barod gan y gorthrymwr, efe yn ddisymwth a wnaeth ei ymgyrch ar Borth-y-teimlad, ac wedi iddo ymorchestu yno dro, efe a daflodd y pyrth yn llydan-agored; canys y gwirionedd yw, nad oedd y pyrth hyny ond gweinion, ac felly yn hawddach eu hagoryd.

Pan ddarfu i Diabolus ddwyn ei waith mor belled a hyn, efe a osododd ei gadbeniaid, sef Cadben Poen a Chadben Anesmwyth, yno. Felly efe a geisiodd ymwthio yn mlaen i'r dref, ond cadbeniaid y Tywysog a ddaethant i wared arno ef, ac a wnaethant ei fynediad i mewn yn anhawddach nag yr oedd efe yn ei ddymuno. Ac i ddywedyd y gwir, hwy a wnaethant bob gwrthwynebiad ag a allent; ond gan fod tri o'u cadbeniaid goreu, a mwyaf dewr, wedi eu clwyfo, ac wedi eu gwneuthur, trwy eu clwyfau, yn llawer mwy anabl i wneuthur i'r dref y gwasanaeth a ewyllysient, (a chan fod gan y lleill oll fwy na llonaid eu dwylaw o'r Amheuwyr, a'u cadbeniaid, y rhai a ddilynent Diabolus,) hwy a orthrechwyd gan drais, ac nis gallent eu cadw hwynt allan o'r dref. Oherwydd paham, gwŷr y Tywysog, a'u cadbeniaid, a aethant i'r castell, megis i amddiffynfa gadarn y dref; a hyn a wnaethant, mewn rhan, er mwyn eu diogelwch eu hunain, mewn rhan, er mwyn diogelwch y dref, ac mewn rhan, neu yn hytrach yn benaf, i gadw i Emmanuel y rhagorfraint frenhinol o Man-soul: canys felly yr oedd castell Man-soul.

Wedi i'r cadbeniaid, gan hyny, ffoi i'r castell, y gelyn, heb fawr o anhawsdra, a osodasant eu hunain mewn meddiant o'r rhan arall o'r dref, a chan ymdaenu eu hunain, fel yr oeddynt yn myned i mewn, i bob congl, hwy a lefasant allan fel yr oeddynt yn cychwyn, yn ol gorchymyn y tywysog, Tân uffern, Tân uffern, yn y cyfryw fodd, dros amser, fel nas gellid clywed dim trwy holl dref Man-soul ond swn Tân uffern, yn nghyd â rhuad tabwrdd Diabolus. Ac yn awr yr oedd y cymylau yn dywyll uwchben Man-soul; ac i reswm, nid oedd dim yn ymddangos i fod yn ei haros ond dinystr. Diabolus hefyd a letyasai ei filwyr yn nhai pobl tref Man-soul. Ië, yr oedd tŷ y Pregethwr Rhaglawiol mor llawn o'r Amheuwyr tramor yma ag y gweddai; ac felly hefyd yr oedd eiddo fy Arglwydd Maer a'm Harglwydd Ewyllysgar hefyd. Ië, pa le yr oedd yno yn awr gongl, na bwth, nac ysgubor, neu dwlc moch, nad oedd, yn bresenol, yn llawn o'r pryfed yma? Ië, hwy a droisant wŷr y dref allan o'u tai, ac a orweddent yn eu gwelyau hwynt, ac a eisteddent wrth eu byrddau hwynt, eu hunain. A! Man-soul druan! yn awr yr wyt ti yn teimlo ffrwythau pechod, a pha wenwyn ydoedd yn ngeiriau gwenieithus Mr. Hydergnawdol. Hwy a wnaethant araeth anferth o'r hyn oll y gosodasant eu dwylaw arno; ïe, hwy a osodasant dân yn y dref mewn amryw fanau; llawer o blant bychain hefyd a rwygasant; ïe, y rhai hyny ag oedd eto heb eu geni a ddifethasant yn nghrôth eu mamau, canys rhaid i chwi feddwl nad allai hi, yn bresenol, fod yn amgenach; canys pa gydwybod, pa dosturi, a pha ymysgaroedd o dosturi a all neb ei ddisgwyl ar ddwylaw Amheuwyr tramor? Llawer o wragedd, ieuainc a hen, yn Man-soul a dreisiasant, ac a anmharchasant yn anifeilaidd, fel y llewygasant, ac yr erthylasant, a llawer o honynt a fuant feirw, hyd onid oeddynt yn gorwedd ar ben pob heol, ac yn holl au-fanau y dref.

Ac yn awr nid oedd Man-soul yn ymddangos i fod yn ddim ond llochesdreigiau, cysgod o uffern, a lle o dywyllwch hollol. Yn awr yr oedd Man-soul yn aros (agos) fel yr anialwch diffrwyth; nid oedd dim ond danadl, mieri, drain, chwyn, a phethau drewedig, yn ymddangos i fod yn gorchuddio gwyneb Man-soul yn bresenol. Mi a ddywedais i chwi o'r blaen y modd y darfu yr Amheuwyr Diabolonaidd yma droi gwŷr Man-soul allan o'u gwelyau, ac yn awr mi a chwanegaf iddynt eu clwyfo hwynt, a'u hanafu, ac agos a churo ymenyddion llawer o honynt allan;—llawer, meddaf, ïe, y rhan fwyaf, os nid pawb oll. Mr. Cydwybod a glwyfasant felly, a'i glwyfau a bydrasant yn y cyfryw fodd, fel nad allai ef gael dim esmwythder na dydd na nos, ond yr oedd megis un yn gorwedd yn wastadol ar y ***Rack**** (ac oni buasai fod Shad-dai yn llywodraethu y cwbl, yn ddiau hwy a'i lladdasent ef yn farw.) Fy Arglwydd Maer a anmharchasant hwy yn y cyfryw fodd, fel y buant o fewn i ychydig i dynu ei lygaid ef; ac oni buasai i'm Harglwydd Ewyllysgar, yntau, fyned i mewn i'r castell, yr oeddynt yn amcanu ei dori ef yn ddarnau, canys yr oeddynt yn edrych arno ef (megis yr oedd ei galon yn sefyll yn awr) fel y gwaethaf ag ydoedd yn Man-soul yn erbyn Diabolus a'i wŷr; ac yn wir efe a ymddangosodd ei hun yn ddyn; ac am fwy o'i weithredoedd ef, cewch glywed hanes helaethach rhagllaw.

Yn awr fe allai gŵr rodio lawer o ddyddiau yn nghyd yn Man-soul, ac o'r braidd weled un ag a fyddai yn edrych fel gŵr crefyddol. O! ddychrynllyd gyflwr Man-soul yn bresenol! Yn awr yr oedd pob congl yn heidio gan yr Amheuwyr tramor yma; cotiau cochion a chotiau duon a gerddasant y dref yn dorfeydd, ac a lanwasant y tai o leisiau alaethus, caniadau ofer, ystorïau celwyddog, ac iaith gableddus yn erbyn Shad-dai a'i Fab. Yn awr, hefyd, y darfu i'r Diaboloniaid hyny ag oeddynt yn llechu yn y caerau, ffauau, a'r tyllau hyny ag oeddynt yn nhref Man-soul, ddyfod allan ac ymddangos eu hunain; ïe, rhodiasant yn wyneb-agored yn nghwmpeini yr Amheuwyr ag ydoedd yn Man-soul; ïe, yr oedd ganddynt, yn bresenol, fwy o ëondra i rodio yr heolydd, i aflonyddu y tai, ac i ddangos eu hunain ar led, nag oedd gan un o drigolion gonest y bresenol ofidus dref Man-soul.

Ond nid oedd Diabolus a'i wŷr tramor yn cael dim heddwch yn Man-soul, canys nid oeddynt yn cael eu croesawu yno fel cadbeniaid a gwŷr Emmanuel; ond yr oedd gwŷr y dref yn eu sych-bwnio hwynt hyd ag y gallent, ac ni buant ychwaith yn gyfranogion na distrywyr o ddim o bethau angenrheidiol tref Man-soul, ond yr hyn a feddiannasant yn erbyn ewyllys gwŷr y dref; yr hyn a allent a guddiasant oddiwrthynt, a'r hyn ni allent a gawsent gyda drwg-ewyllys. Yr oedd yn well ganddynt hwy, druain, eu lle nâ'u cwmpeini hwynt; ond yr oeddynt hwy, yn bresenol, yn gaethion iddynt; a'u caethion, dros yr amser presenol, a orfu arnynt

* Offeryn, ar lun march, i boeni dynion.

hwy fod. (Rhuf. vii.) Ond, meddaf, hwy a'u hanmharchasant hwynt gymaint ag a allent, ac a ddangosasant iddynt bob anfoddlonrwydd ag oedd yn eu gallu.

Y cadbeniaid, hefyd, o'r castell, a'u cadwodd hwynt mewn ymladd gwastadol â'u ffyn-taflu, er chwerwi a llidio calonau y gelynion. Gwir yw, i Diabolus wneuthur llawer ymosodiad i dòri pyrth y castell, ond yr oedd Mr. Ofn-duwiol wedi ei wneud yn geidwad ar hwnw; ac yr ydoedd efe yn wr calonog, ymddygiadus, cadarn nerthol, fel yr ydoedd hi yn waith ofer i feddwl gwneuthur hyny, tra parhäai dyferyn o waed yn ei gorph ef, er cymaint oedd ei chwant; oherwydd paham, yr holl ymosodiadau a wnaeth Diabolus yn ei erbyn ef, oeddynt yn ddiffrwyth—(mi fum yn dymuno, rywbryd, fod holl reolaeth tref Man-soul yn nwylaw y gŵr hwnw).

Wel, hyn ydoedd cyflwr tref Man-soul yn nghylch dwy flynedd a haner; corph y dref ydoedd yr ymladdle, a phobl y dref a yrwyd i dyllau, a gogoniant Man-soul a osodasid yn y llwch; pa lonyddwch, gan hyny, a allai fod i'r trigolion? Pa heddwch a allai Man-soul ei fwynhau, a pha haul a dywynai arni hi? Pe buasai y gelyn yn gorwedd allan ar y gwastadedd cyhyd yn erbyn y dref, fe fuasai yn ddigon i'w newynu hwynt; ond yn awr, pan fyddent tufewn, pan fyddai y dref yn babell iddynt, eu clawdd, a'u hamddiffynfa yn erbyn y castell oedd yn y dref, pan fyddai y dref yn erbyn y dref, a chael gwasanaethu i fod yn amddiffyniad i elynion ei chadernid a'i bywyd;—meddaf, pan wnelent ddefnydd o amddiffynfeydd a chestyll y dref, i ddiogelu eu hunain ynddynt, hyd oni chymerent, ac oni anrheithient, ac oni ddistrywient y castell—hyn ydoedd yn beth ofnadwy! ac eto dyma gyflwr tref Man-soul yn bresenol.

Ar ol bod tref Man-soul yn y cyflwr trist alaethus yma cyhyd o amser ag y dywedais i wrthych, ac heb fod un o'r deisebion ag yr oeddynt yn eu cyflwyno i'w Tywysog, yr holl amser hyn, yn gallu tycio, neu orchfygu; trigolion y dref, sef henaduriaid a phenaethiaid Man-soul, a ymgynullasant yn nghyd; ac ar ol treulio rhywfaint o amser yn cyd-gwyno eu cyflwr truenus, a'r farn druenus yma oedd wedi dyfod arnynt, hwy a gydsyniasant yn nghyd i dynu i fyny eto ddeiseb arall, a'i ddanfon ef ymaith at Emmanuel am gymhorth. Ond Mr. Ofn-duwiol a safodd i fyny, ac a atebodd, y gwyddai efe na ddarfuasai i'w Arglwydd a'i Dywysog ef erioed, ac nas gwnai byth dderbyniad o ddeiseb yn y materion yma oddiwrth neb pwy bynag, oddieithr fod llaw yr Arglwydd-Ysgrifenydd wedi ei gosod wrtho ef; a hyn, eb efe, yw yr achos nad ydych chwi yn tycio dim trwy yr holl amser yma.

Yna y dywedasant y tynent un i fyny, ac y mynent law yr Arglwydd-Ysgrifenydd wrtho. Ond Mr. Ofn-duwiol a atebodd eilwaith, y gwyddai efe, hefyd, nas byddai i'r Arglwydd-Ysgrifenydd osod ei law wrth un deiseb a'r na buasai ganddo ef ei hun law yn ei gyfansoddiad a'i dyniad i fyny; ac heblaw hyn, eb efe, y mae y Tywysog yn adnabod llaw fy Arglwydd-Ysgrifenydd oddiwrth yr holl ddwylaw yn

y byd; oherwydd paham, nid ellir ei dwyllo trwy un math o liw yn y byd: am hyny fy nghyngor i ydyw, fod i chwi fyned at fy Arglwydd, ac ymbil arno am roddi i chwi fenthyg ei gymhorth. Yn awr yr ydoedd efe eto yn aros yn y castell, lle yr oedd yr holl gadbeniaid a'r gwŷr arfog. Felly hwy a ddiolchasant yn galonog i Mr. Ofn-duwiol, ac a gymerasant ei gyngor, ac a wnaethant fel yr archasai efe iddynt. Felly hwy a aethant ac a ddaethant at fy Arglwydd, ac a fynegasant iddo yr achos o'u dyfodiad ato ef; sef yw hyny, mai yn gymaint a bod tref Man-soul yn y fath gyflwr alaethus, fod yn wiw gan ei Fawrhydi ef gymeryd arno dynu i fyny ddeiseb drostynt hwy at Emmanuel, mab Shad-dai alluog, ac at eu Brenin, ei Dad, trwyddo ef. Yna y dywedodd yr Ysgrifenydd wrthynt: Pa ddeiseb ydyw yr hwn a fynech i mi ei dynu i fyny i chwi? Ond hwy a ddywedasant: Goreu y gŵyr ein Harglwydd gyflwr tref Man-soul, a'r modd yr ydym wedi gwrthgilio a dirywio oddiwrth ein Tywysog: ti, hefyd, a wyddost pwy a ddaeth i fyny i ryfel yn ein herbyn ni, a'r modd y mae Man-soul, yn bresenol, yn eisteddle rhyfel. Ein Harglwydd a ŵyr eilwaith pa driniaeth farbaraidd a ddioddefodd ein gwŷr, ein gwragedd, a'n plant, ar eu dwylaw hwynt, a'r modd y mae ein Diaboloniaid teuluaidd yn rhodio, yn bresenol, gyda mwy o ëondra nag y beiddia neb o wŷr y dref yn heolydd Man-soul.

Bydded i'n Harglwydd, gan hyny, yn old oethineb Duw, yr hwn sydd ynddo, dynu i fyny ddeiseb dros ei weision tlodion at ein Tywysog Emmanuel.

Wel, ebe yr Arglwydd-Ysgrifenydd, mi a dynaf i fyny ddeiseb drosoch chwi, ac a osodaf fy llaw wrtho ef hefyd. Yna y dywedasant hwythau: Ond pa bryd y galwn ni am dano oddiar law ein Harglwydd? Ond efe a atebodd: Y mae yn rhaid eich bod chwi eich hunain yn bresenol wrth y gwneuthuriad o hono. Ië, y mae yn rhaid i chwi roddi eich dymuniadau wrtho. Gwir yw, y llaw a'r pin a fydd yn eiddof fi, ond yr inc a'r papyr fydd raid ei fod yn eiddoch chwi; ac onidê, pa fodd y gellwch ddywedyd mai eich deiseb chwi ydyw? Ac nid oes arnaf fi, ychwaith, eisieu ymbil drosof fy hun, am na phechais. Efe a ychwanegodd hefyd fel y canlyn: Nid oes un deiseb yn myned oddiwrthyf fi yn fy enw fy hunan at y Tywysog, ac felly at ei Dad trwyddo ef, ond pan y mae y bobl, ag y perthyn iddynt fwyaf, yn uno mewn calon ac enaid yn y peth; canys y mae yn rhaid gosod hyny ar lawr ynddo.

Felly hwy a gytunasant o'r galon ag ymadrodd yr Arglwydd-Ysgrifenydd; a deiseb a dynwyd i fyny yn ebrwydd drostynt hwy; ond yn awr, pwy a'i dygai ef, oedd y peth nesaf. Ond yr Ysgrifenydd a gynghorodd fod i Gadben Crediniaeth ei ddwyn ef, canys gŵr hawddgar ydoedd. Hwy, gan hyny, a'i galwasant ef, ac a osodasant y peth ger ei fron ef. Wel, ebe y cadben, mi a dderbyniaf y cynyg yn llawen; ac er fy mod yn gloff, mi a wnaf y gwaith hyn drosoch chwi. a hyny mor

ebrwydded a chystled ag y gallwyf. Cynwysiad y deisebau oeddynt i'r perwyl canlynol:

O! ein Harglwydd, a'n Pen-Tywysog Emmanuel! y galluog a r hir-ymarhous Dywysog! gras a dywalltwyd ar dy wefusau, ac i ti y perthyn trugaredd a maddeuant, er i ni wrthryfela yn dy erbyn. Nyni, y rhai nad ydym mwyach yn deilwng i gael ein galw dy Fan-soul, nac ychwaith yn gymwys i fod yn gyfranogion o drugareddau cyffredinol, ydym yn atolwg i ti, a'th Dad trwot ti, faddeu ein camweddau ni. Yr ydym ni yn cyfaddef y gelli di ein taflu ymaith o'u plegid hwy, ond na wna felly er mwyn dy enw; bydded i'r Arglwydd yn hytrach gymeryd achlysur oddiwrth ein cyflwr truenus i ollwng allan ei ymysgaroedd a'i dosturi i ni; fe'n hamgylchir ar bob tu, Arglwydd; y mae ein gwrthgiliad ein hunain yn ein hargyhoeddi ni, ein Diaboloniaid oddifewn i'n tref sydd yn ein dychrynu ni, ac y mae llu angel y pydew diwaelod yn ein trallodi ni. Dy drugaredd di yn unig a all fod yn iechydwriaeth i ni, ac nis gwyddom ni at bwy i fyned ond atat ti.

Yn mhellach, O! rasol Dywysog! fe ddarfu i ni wanychu ein cadbeniaid, ac y maent hwy wedi eu digaloni, ac yn gleifion; ac, yn ddiweddar, rhai o honynt a waethygwyd yn dost, ac a gauwyd allan o'r maes gan allu a thrais y gorthrymwr. Ië, hyd yn oed y rhai hyny o'n cadbeniaid, yn nghadernid pa rai yr oeddym ni gynt yn arfer rhoddi y rhan fwyaf o'n hymddiried, y maent hwy fel gwŷr archolledig.

Hefyd, Arglwydd, y mae ein gelynion yn fywiog ac yn gedyrn, y maent yn ymddyrchafu ac yn ymffrostio eu hunain, ac y maent yn bygwth ein rhanu ni rhyngddynt fel ysglyfaeth. Hwy, hefyd, Arglwydd, a syrthiasant arnom ni â llawer mil o Amheuwyr, a'r cyfryw rai ag nas gwyddom ni pa beth i wneud iddynt; y maent oll yn edrych yn gethinllyd, ac yn rhai annhrugarog iawn, ac y maent yn gofyn ein gwaethaf ni a thithau.

Ein doethineb a ballodd, ein gallu a ymadawodd, am dy fod ti wedi ymadael oddiwrthym ni, ac nid oes genym ni ddim ag a allom ni ei alw yn eiddom ni ein hunain ond pechod, gwarth, a chywilydd gwyneb am bechod. Cymer drugaredd arnom, O! Arglwydd, cymer drugaredd arnom ni, dy druenus dref Man-soul, a gwared ni o ddwylaw ein gelynion. Amen.

Y deiseb yma, megis ag y soniwyd o'r blaen, a gafwyd trwy law yr Arglwydd-Ysgrifenydd, ac a ddygwyd i'r llys gan yr ardderchog a'r cadarnaf Gadben Credmiaeth. Yn awr efe a'i dug ef allan trwy Borth-y-genau, canys hwnw, fel y crybwyllais, ydoedd borth cynllwynfa y dref, ac efe a aeth, ac a ddaeth ag ef at Emmanuel.

Yn awr pa fodd y daeth efe allan, nis gwn i, ond yn ddiau efe a ddaeth, a hyny yn y cyfryw fodd ag y bu iddo gyrhaeddyd clustiau Diabolus. Hyn yr wyf yn ei gasglu, am i'r gorthrymwr ei gael ef yn union erbyn y diwedd, ac iddo ei osod ef

yn erbyn tref Man-soul, gan ddywedyd: Tydi wrthryfelgar a gwàr-galed dref Man-soul, mi wnaf i ti adael heibio y gwaith yma; a ydwyt ti eto am weddio? Mi a wnaf i ti beidio. Ië, efe a wyddai hefyd pwy ydoedd y genad a ddygodd y deiseb at Emmanuel y Tywysog, ac fe wnaeth hyn iddo ofni a chynddeiriogi.

Oherwydd paham, efe a orchymynodd fod i'w dabwrdd ef gael ei guro drachefn, peth nad allai Man-soul oddef ei glywed; ond pan fynai Diabolus i'w dabwrdd gael ei guro, yr oedd yn rhaid i Man-soul oddef ei sŵn. Wel, y tabwrdd a gurwyd, a'r Diaboloniaid o gasglwyd yn nghyd. Yna y dywedodd Diabolus: O! chwychwi Ddiaboloniaid nerthol, gwybyddwch fod bradwriaeth wedi ei lunio yn ein herbyn yn y dref wrthryfelgar Man-soul; er fod y dref yn ein perchenogaeth, fel ag y gwelwch, eto fe ddarfu i'r Man-souliaid truenus yma gynyg meiddio, ac a fuant mor gyndyn ag anfon eto i lys Emmanuel am gymhorth. Hyn yr ydwyf yn ei hyspysu i chwi, fel y gwypoch pa fodd i ynddwyn eich hunain tuag at y resynol dref Man-soul. Oherwydd paham, O! fy nghywir Ddiaboloniaid, yr ydwyf fi yn gorchymyn i chwi eto gystuddio y dref yma, Man-soul, fwy-fwy; a blinwch hi â'ch dichellion, treisiwch eu gwragedd, halogwch eu gwyryfon, lleddwch eu plant, curwch allan ymenyddiau yr holl rai oedranus, gosodwch y dref ar dân, a pha ddrwg bynag arall ag a alloch ei wnenthur, gwnewch; a bydded hyn yn wobr i'r Man-souliaid oddiwrthyf fi, am eu gwrthryfel enbyd yn fy erbyn i.

Hyn, chwi a welwch, oedd y siars, ond fe neidiodd rhywbeth i mewn rhwng hyn a'r cyflawniad o'r peth, canys hyd yn hyn ni wnaethpwyd dim llawer mwy nag ymgynddeiriogi.

Hefyd, pan ddarfu i Diabolus wneuthur fel hyn, efe a aeth y ffordd nesaf i fyny at byrth y castell, ac a archodd, dan boen marwolaeth, fod i'r pyrth gael eu hagoryd iddo, a bod iddo ef, a'i wŷr ag oedd yn ei ganlyn ef, gael dyfod i mewn. I ba un yr atebodd Mr. Ofn-duwiol—(canys efe ydoedd yr hwn oedd â siars y porth hwnw arno)—nad agorid y porth iddo ef, nac i'r gwŷr ydoedd yn ei ganlyn ef. Efe a ddywedodd hefyd, y byddai i Man-soul, ar ol iddi ddioddef enyd, gael ei pherffeithio, ei chadarnhau, a'i sefydlu.

Yna y dywedodd Diabolus: Rhoddwch, gan hyny, yn fy llaw i y gwŷr a wnaethant ddeiseb yn fy erbyn i, yn enwedigol Cadben Crediniaeth, yr hwn a'i dug ef at eich Tywysog; rhoddwch yn fy llaw i y llechgi hwnw, a mi a ymadawaf oddiwrth y dref.

Yna neidiodd un o'r Diaboloniaid i fyny, enw yr hwn ydoedd Mr. Ynfydu, ac a ddywedodd: Y mae fy arglwydd yn cynyg yn ddigon têg i chwi, gwell yw i chwi farw o un gŵr, na bod i'ch Man-soul oll gael ei dinystrio.

Yna Mr. Ofn-duwiol a wnaeth iddo yr atebiad yma: Pa hyd y bydd i Man-soul gael ei chadw allan o'r daeardy, pan roddo hi ei ffydd i Ddiabolus? Y mae yn

gystled colli y dref a cholli Cadben Crediniaeth; canys os â un, y mae yn rhaid i'r llall ganlyn. Ond i hyny nid atebodd Mr. Ynfydu ddim.

Yna y darfu i'm Harglwydd Maer ateb, a dywedyd: O! orthrymwr dinystriol, bydded hyspys i ti, na wrandawn ni ar un o dy eiriau di; yr ydym ni yn ymroi i'th wrthwynebu di tra fyddo na chadben, na gŵr, na ffon-daflu, na chareg, i daflu atat ti, i'w cael yn Man-soul. Ond Diabolus a atebodd: A ydych chwi yn gobeithio, a ydych chwi yn disgwyl, a ydych chwi yn edrych am gymhorth a gwaredigaeth? Chwi a ddanfonasoch at Emmanuel, ond y mae eich hanwireddau yn glynu yn rhy agos wrth eich godrau i ollwng gweddiau diniwaid allan o'ch geneuau chwi. A ydych chwi yn meddwl y bydd i chwi orchfygu a llwyddo yn yr amcan yma? Chwi a fethwch yn eich dymuniad, chwi a fethwch yn eich ymosodiadau; canys nid myfi yn unig sydd, ond eich Emmanuel hefyd sydd yn eich herbyn chwi. Ië, efe ydyw yr hwn a'm danfonodd i yn eich herbyn, i'ch darostwng; am ba beth, gan hyny, yr ydych chwi yn gobeithio, neu trwy ba foddion y diangwch chwi?

Yna y dywedodd yr Arglwydd Maer: Nyni a bechasom yn wir, ond ni fydd hyny o un cymhorth i ti, canys ein Hemmanuel a'i dywedodd, a hyny mewn ffyddlondeb mawr: "a'r hwn a ddêl ataf fi, nis bwriaf ef allan ddim." Efe a fynegodd hefyd i ni, O! ein gelyn, y maddeuir pob pechod a chabledd i feibion dynion; am hyny nis meiddiwn anobeithio, ond nyni a edrychwn, ac a obeithiwn am drugaredd

Ac erbyn hyn, Cadben Crediniaeth a ddychwelasai o'r llys oddiwrth Emmanuel i gastell Man-soul, ac a ddychwelodd atynt, gan ddwyn gydag ef godaid o lythyrau.

Felly fy Arglwydd Maer, gan glywed fod Cadben Crediniaeth wedi dychwelyd, a ymneillduodd oddiwrth sŵn rhuad y gorthrymwr, ac a'i gadawodd ef i ymddifyru wrth gaerau y dref, neu yn erbyn pyrth y castell. Felly efe a ddaeth i fyny i lety y cadben, ac a'i cyfarchodd ef, ac efe a ofynodd iddo am ei iechyd, a pha beth ydoedd y newyddion goreu o'r llys? Ond pan ofynodd efe hyny i Gadben Crediniaeth, y dograu a safodd yn ei lygaid ef. Yna ebe y cadben: Cymerwch galon, fy arglwydd, canys fe ddaw pob peth o'r goreu mewn amser; a chyda hyny, efe, yn gyntaf peth, a ddangosodd ei godaid lythyrau, ac a'i gosododd hi heibio; ond fe gymerth yr Arglwydd Maer, a'r lleill o'r cadbeniaid, hyny yn arwydd o genadwri dda. Yn awr, gan fod amser gras wedi dyfod, efe a ddanfonodd am holl gadbeniaid a henaduriaid y dref ag ydoedd yma ac acw yn eu llety, yn y castell, ac ar eu gosgordd, i gael hyspysu iddynt fod Cadben Crediniaeth wedi dychwelyd o'r llys, a bod ganddo rywbeth yn neillduol i hyspysu iddynt hwy. Felly hwy oll a ddaethant i fyny ato ef, ac a gyfarchasant well iddo ef, ac a ofynasant iddo am ei daith, a pha beth ydoedd y newydd goreu o'r llys? Ac efe a'u hatebodd hwynt fel yr atebasai efe yr Arglwydd Maer o'r blaen, y byddai pobpeth o'r goreu o'r diwedd. Yn awr pan gyfarchasai y cadben hwynt fel hyn, efe a agorodd ei godaid lythyrau, ac oddiyno efe a dynodd

allan o honi amryw ysgrifeniadau i'r rhai hyny ag y galwasai efe am danynt. A'r ysgrifen, neu y nodyn cyntaf ydoedd i'm Harglwydd Maer, yn mha un yr oedd yn gynwysedig:

Fod yn dda gan y Tywysog Emmanuel fod fy Arglwydd Maer wedi bod mor gywir ac mor ffyddlon yn ei swydd, a'r gofal pwysfawr oedd yn gorwedd arno ef dros dref a phobl Man-soul. Hefyd, efe a barodd iddo wybod fod yn dda ganddo iddo ef fod mor ëon dros ei Dywysog Emmanuel, ac iddo ef ymosod mor ffyddlon yn ei achos ef yn erbyn Diabolus. Efe hefyd a arwyddocaodd, yn niwedd ei lythyr, y byddai iddo yn ebrwydd gael ei wobr.

Yr ail ysgrifen a ddaeth allan ydoedd i'r ardderchog Arglwydd Ewyllysgar, yn mha un yr oedd wedi ei arwyddocau, fod ei Dywysog Emmanuel wedi deall yn dda pa mor wrol a chalonog y buasai efe am anrhydedd ei Arglwydd, yn awr yn ei absenoldeb ef, a phan ydoedd ei enw dan ddirmyg gan Diabolus. Yr ydoedd, hefyd, yn arwyddocau fod yn dda gan ei Dywysog iddo ef fod mor ffyddlon i dref Man-soul, yn ei waith yn dàl ei law a'i lygad arni mor fanwl; a'i waith hefyd yn cadw y ffrwyn mor dỳn ar warau y Diaboloniaid a orweddent yno o hyd, gan lechu yn eu hamryw dyllau yn yr enwog dref Man-soul.

Efe a ddangosodd, hefyd, y modd yr ydoedd efe yn deall y darfuasai i'm harglwydd, â'i law ei hun, wneuthur galanastra mawr yn mhlith rhai o'r gwrthryfelwyr penaf yno, er digalonrwydd nid bychan i'r blaid wrthwynebol, ac er siampl dda i holl dref Man-soul, ac mai yn ebrwydd y byddai i'w arglwyddiaeth gael ei wobr.

Y drydedd ysgrifen a ddaeth allan i'r Pregethwr Rhaglawiol, yn mha un yr arwyddoceid, fod yn dda gan ei Dywysog iddo ef gyflawni ei swydd mor onest ac mor ffyddlon, a gwneuthur yr hyn yr oedd ei Arglwydd wedi ymddiried iddo yn ei gylch, tra y cynghorai, y ceryddai, ac y rhybuddiai dref Man-soul yn ol cyfreithiau y dref. Efe a ddangosodd, hefyd, iddo ef ei dderbyn ef yn beth cymeradwy ar ei law ef, am iddo alw am ympryd, ac i wisgo sachliain a lludw, pan ydoedd Man-soul dan ei gwrthryfel; ac hefyd am iddo ef alw Cadben Boanerges i'w gynorthwyo yn y cyfryw waith pwysfawr, ac y byddai iddo yntau ar fyrder dderbyn ei wobr.

Y pedwerydd ysgrifen a ddaeth allan i Mr. Ofn-duwiol, yn mha un yr arwyddocaodd ei Arglwydd fel hyn: Fod i'w Fawrhydi ddàl sylw mai efe o holl wŷr Man-soul, ydoedd y cyntaf a ddatguddiodd Mr. Hyder-gnawdol megis yr unig un ag a ddarfu, trwy ei ddichell a'i gyfrwysdra, gael i Diabolus ymadawiad, a llaesad o ddaioni yn y wynfydedig dref Man-soul. Heblaw hyn, ei Arglwydd a wnaeth iddo ddeall ei fod ef o hyd yn cofio ei ddagrau a'i alar o achos cyflwr tref Man-soul. Fe ddaliwyd sylw hefyd, wrth yr un ysgrifen, i'w Arglwydd ef ddàl sylw ar ei waith yn datguddio y Mr. Hyder-gnawdol yma wrth ei fwrdd ei hunan, yn mhlith ei wleddwyr yn ei dŷ ei hun, a hyny yn nghanol ei holl wychder, sef pan ydoedd efe yn ceisio

perffeithio neu gyflawni ei fileindra yn erbyn tref Man-soul. Emmanuel hefyd a ddaliodd sylw i'r gŵr parchedig yma, Mr. Ofn-duwiol, ddàl wrthi yn wrol wrth byrth y castell yn erbyn holl fygythion ac ymosodiadau y gorthrymwr, ac iddo ef osod gwŷr y dref ar y ffordd i wneuthur eu deiseb at eu Tywysog yn y cyfryw fodd ag y byddai iddo ef roddi derbyniad iddo, ac fel y byddai iddynt gael ateb o heddwch; ac am hyny y cai efe ar fyrder dderbyn ei wobr.

Ar ol hyn oll, fe ddygwyd allan eto ysgrifen, neu lythyr, yr hwn a ysgrifenasid at holl dref Man-soul, wrth yr hwn y deallasant fod i'w Harglwydd hwy ddàl sylw ar eu gwaith yn ail-adrodd deisebion wrtho ef, ac y caent weled mwy o ffrwythau oddiwrth y cyfryw o'u gweithredoedd yn yr amser i ddyfod. Eu Tywysog, hefyd, a ddywedodd wrthynt ynddo ef, fod yn dda ganddo ef fod eu calonau hwynt yn awr, o'r diwedd, yn aros wedi eu sefydlu arno ef, a'i ffyrdd, er fod Diabolus wedi gwneuthur y cyfryw ruthriadau arnynt, ac nad allai na gweniaith, ar y naill law, na chaledi, ar y llall, beri iddynt ymroi i wasanaethu ei amcanion creulon ef. Yr oedd, hefyd, wedi ei osod ar lawr yn niwedd yr ysgrifen yma, fod ei Arglwyddiaeth wedi gadael Man-soul yn nwylaw yr Arglwydd-Ysgrifenydd, a than dywysiad Cadben Crediniaeth, gan ddywedyd: Edrychwch ar fod i chwi eto ymroddi eich hunain i fod dan eu llywodraeth hwynt, ac mewn amser cyfaddas, chwi a gewch eich gwobr.

Felly, ar ol i'r ardderchog Gadben Crediniaeth draddodi ei ysgrifeniadau i'r rhai hyny ag y perthynent, efe a ymneillduodd ei hunan i ystafell neu lety yr Arglwydd-Ysgrifenydd, ac yno efe a dreuliodd gryn amser yn ymddiddan ag ef, canys yr oedd cyfeillach fawr rhyngddynt hwy â'u gilydd, ac a wyddent yn well, yn wir, pa fodd yr âi pethau gyda Man-soul na holl wŷr y dref i gyd. Yr Arglwydd-Ysgrifenydd, hefyd, a garodd Gadben Crediniaeth yn anwyl; ïe, llawer tamaid melys a ddanfonwyd iddo oddiar fwrdd fy Arglwydd: hefyd, efe a allai gael llewyrch ei wyneb pan fyddai y rhelyw o wŷr y dref yn gorwedd dan gymylau. Felly, ar ol treulio rhywfaint o amser yn ymddiddan, y cadben a aeth i'w ystafell, i'w orphwysfa; ond nis bu yn hir o amser hyd oni ddarfu i'm Harglwydd alw am y cadben drachefn: felly y cadben a ddaeth ato ef, a hwy a anerchasant y naill y llall yn ol y cyfarchiadau arferol.

Yna y dywedodd y cadben wrth yr Arglwydd-Ysgrifenydd: Pa beth sydd gan fy Arglwydd i'w ddywedyd wrth ei was? Felly yr Arglwydd-Ysgrifenydd a'i cymerth ef, ac a'i dug ef o'r neilldu, ac ar ol arwydd neu ddau o ffafr yn mhellach, efe a ddywedodd: Myfi a'th wnaethum di yn arglwydd-rhaglaw ar yr holl luoedd yn Man-soul, fel o'r dydd yma allan y caiff yr holl wŷr ag sydd yn Man-soul fod wrth dy air di, a thi a gai fod yr hwn a dywys Man-soul i mewn, a'r hwn a'i tywys hi allan hefyd. Tydi, gan hyny, yn ol dy le, a drefni y rhyfel dros dy Dywysog, a thros dref Man-soul, yn erbyn llu a gallu Diabolus, ac wrth dy orchymyn di y bydd y lleill o'r cadbeniaid.

Yn awr gwŷr y dref a ddechreuasant ddeall pa ffafr ydoedd gan y cadben yn y llys, ac hefyd gyda yr Arglwydd-Ysgrifenydd yn Man-soul, canys nid allai neb o'r blaen lwyddo pan yr anfonid ef, na dwyn y cyfryw newyddion da oddiwrth Emmanuel ag a wnaethai efe. Oherwydd paham, pa beth a wnaethant hwy, ar ol rhywfaint o alarnad nas gwnaethent fwy o ddefnydd o hono yn eu cyfyngderau, ond danfon, trwy law eu Pregethwr Rhaglawiol, at yr Arglwydd-Ysgrifenydd, i ddeisyfu arno ef, ar fod i'r hyn oll ag oeddynt ac a feddent, gael ei osod dan lywodraeth, gofal, siars, a thywysiad Cadben Crediniaeth.

Felly y pregethwr a aeth, ac a wnaeth eu neges hwy, ac a gafodd yr ateb yma o enau ei Arglwydd, Mai Cadben Crediniaeth fyddai y gweithydd mawr ar holl luoedd y Brenin yn erbyn ei holl elynion ef, ac hefyd er daioni i dref Man-soul. Felly efe a ymgrymodd hyd y llawr, ac a ddiolchodd i'w Arglwyddiaeth ef, ac a ddychwelodd ac a fynegodd y newydd i wŷr y dref. Ond hyn oll a wnaethpwyd mor ddirgel ag y gellid, am fod gan y gelynion eto gadernid mawr yn y dref.

Ond i ddychwelyd at ein hystori drachefn. Pan welodd Diabolus ei hun fel hyn yn cael ei wrthwynebu mor ëon gan yr Arglwydd Maer, a deall gwrolder Mr. Ofn-duwiol, efe a ymgynddeiriogodd, ac yn ebrwydd efe a alwodd am gyngor rhyfel, fel y gallai efe ymddial ei hun ar Man-soul. Felly holl dywysogion y pydew a ddaethant yn nghyd, a hen Anghrediniaeth yn benaeth arnynt, yn nghyd â holl gadbeniaid ei luoedd: felly hwy a ymgynghorasant pa beth i'w wneuthur. Yn awr effaith a chload y dydd hwnw ydoedd, pa fodd y gallent gymeryd y castell, oblegid nad allent hwy farnu eu hunain yn feistriaid ar y dref tra fyddai hwnw yn meddiant eu gelynion. Felly un a gynghorodd y ffordd yma, ac arall y ffordd acw; ond pan nad allent gytuno yn eu barn, Apolyon, rhaglaw y cyngor, a safodd i fyny, ac fel hyn y dechreuodd: Fy mrawdoliaeth, eb efe, y mae genyf rywbeth i'w osod ger eich bronau chwi, a'm peth cyntaf ydyw hyn, bydded i ni ymsymud ein hunain o'r dref allan drachefn i'r gwastadedd, canys ni wna ein presenoldeb ni yma i ni ddim daioni, am fod y castell eto yn nwylaw ein gelynion, ac nid ydyw, ychwaith, yn bosibl i ni gymeryd hwnw cyhyd ag y byddo cynifer o gadbeniaid ardderchog ynddo ef, a thra y mae y dyn ëon yma, Ofn-duwiol, yn cael ei wneuthur yn geidwad ar ei byrth ef.

Yn awr pan ddarfo i ni dynu ein hunain allan i'r gwastadedd, fe fydd yn dda ganddynt, o honynt eu hunain, gael rhywfaint o esmwythdra, ac fe allai y bydd iddynt, o honynt eu hunain, drachefn, ddechreu bod yn fusgrell neu yn swrth, a'u bod hwy felly a rydd iddynt drymach ergyd nag sydd bosibl i ni ein hunain ei roddi iddynt. Ond pe methai hyny, ein mynediad allan o'r dref a all dynu y cadbeniaid allan ar ein hol ni, a chwi a wyddoch pa beth a gostiodd iddynt pan ymladdasom â hwynt yn y maes o'r blaen. Heblaw hyn, pe gallem ni ond eu tynu hwynt allan i'r maes, nyni a allem osod cynllwyn iddynt o'r tu cefn i'r dref, y rhai a gânt, pan

ddelont hwy allan ar led, ruthro i mewn, a chymeryd meddiant o'r castell. Ond Beelsebub a safodd i fyny, ac a atebodd: Y mae yn anmhosibl eu tynu hwynt oll ymaith oddiwrth y castell; byddwch sicr y bydd i rai orwedd yno i gadw hwnw: oherwydd paham, ni bydd hi ond gwaith ofer i gynyg fel hyn, oddieithr ein bod ni yn sicr y deuent hwy oll allan. Efe, gan hyny, a farnodd, mai pa beth bynag a wnaid, fod yn rhaid ei wneud ef trwy foddion eraill; a'r moddion mwyaf tebygol ag a allai penau y rhan fwyaf o honynt ei ddychymygu, ydoedd yr un hyny ag a gynghorasai Apolyon o'r blaen—hyny yw, i dynu gwŷr y dref i bechod drachefn; canys, eb efe, nid ein bod yn y dref nac yn y maes, na'n gwaith yn ymladd, nac yn lladd eu gwŷr hwynt, a all ein gwneuthur ni yn feistriaid ar Man-soul, canys cyhyd ag y byddo un yn y dref yn abl i godi ei fys yn ein herbyn ni, Emmanuel a gymer eu plaid hwynt; ac os cymer efe eu plaid hwynt, nyni a wyddom pa bryd o'r dydd fydd hi arnom ni. Oherwydd paham, o'm rhan i, eb efe, nid oes un ffordd, yn fy marn i, yn debycach i'w dwyn hwynt yn gaethion i ni na dychymygu ffordd i wneuthur iddynt bechu. (2 Pedr ii. 18—21.) Pe buasem ni, eb efe, yn gadael ein holl Amheuwyr gartref, nyni a wnaethem cystled ag y gwnaethom yn bresenol, oni buasai i ni eu gwneuthur hwynt yn feistriaid ac yn llywodraethwyr ar y castell, canys nid ydyw Amheuwyr o hirbell ond megis gwrthddadleuon wedi eu tori gan resymau. Yn wir, pe gallem ni ond eu gosod hwy yn y castell, a'u gwneuthur hwy yn feddianwyr ar hwnw, y dydd a fyddai yn eiddom ni ein hunain. Bydded, gan hyny, i ni symud ein hunain i'r gwastadedd, heb ddisgwyl fod i'r cadbeniaid yn Man-soul ein dilyn ni; ond eto, meddaf, gwnawn hyn, a chyn y gwnelom felly, bydded i ni ymgynghori drachefn â'n Diaboloniaid cywir ag sydd eto yn amddiffynfeydd Man-soul, a'u gosod hwy ar waith i fradychu y dref i ni, canys yn wir hwy fydd raid ei wneuthur ef, ac onidê, nis bydd iddo gael ei wneuthur byth.

Trwy yr ymadroddion yma o eiddo Beelsebub—canys yr wyf fi yn meddwl mai efe a roddes y cyngor hwn—yr hwn gyngor a gymhellwyd i fod o'i farn ef, sef, mai y ffordd i enill y castell ydoedd trwy dynu tref Man-soul i bechu. Yna hwy a gwympasant i ddychymygu trwy ba foddion y gallent wneuthur y peth hyn.

Yna Lusiffer a safodd i fyny, ac a ddywedodd: Y mae cyngor Beelsebub yn berthynasol: yn awr y ffordd i ddwyn hyn i ben, yn fy marn i, yw hyn: bydded i ni dynu ymaith ein lluoedd oddiwrth dref Man-soul; gwnawn hyn, ac na ddychrynwn hwy ddim pellach, na thrwy wŷs, na thrwy fygythion, nac â swn ein tabwrdd, na thrwy ddim moddion deffrous eraill; yn unig bydded i ni aros yn y maes o hirbell, a bod megis pe na buasem ni yn meddwl dim am danynt hwy oll, canys mi a welaf nad ydyw ofnau yn gwneuthur dim ond eu cadw hwynt ar ddeffro, a gwneuthur iddynt sefyll ar eu harfau yn fwy.

Y mae genyf fi, hefyd, ddichell arall yn fy mhen: chwi a wyddoch fod Man-soul

yn dref marchnad, ac yn dref ag sydd yn ymhyfrydu mewn masnach, pa beth, gan hyny, pe byddai i rai o'n Diaboloniaid ni ymddieithrio eu hunain megis gwŷr o wlad bell, a myned allan, a dwyn i farchnad Man-soul rywfaint o'n marsiandaeth, neu ein moddion ni, i'w gwerthu; a pha fater fyddo am ba bris y gwerthont eu moddion, pe na byddai ond am haner a dalai? Yn awr bydded i'r rhai hyny ag a farchnataont fel hyn yn eu marchnad, fod yn gyfryw rai ag a fyddo yn gyfrwys, ac yn gywir i ni, a mi a ddaliaf goron y gwnaiff hyny y tro. Y mae dau wedi dyfod yn fy meddwl i yn barod, ag yr wyf fi yn tybied a fydd gyfrwys yn y gwaith yma, a hwy ydynt Mr. Gwerth-ceiniog-o-synwyr-a-phunt-o-ynfydrwydd, a Mr. Enill-yn-y-cwmwd-a-cholli-yn-y-sir—ac nid ydyw y dyn hwn, â'i enw hir, mewn modd yn y byd yn waeth na'r llall. Pa beth, hefyd, fyddai i chwi gysylltu gyda hwy Mr. Byd-hyfryd a Mr. Daioni-presenol?—y maent hwy yn ddynion moesol, cyfrwys, ond ein cywir gyfeillion a'n cynorthwywyr ni ydynt. (Dat. iii. 17.) Bydded i'r rhai hyn, gyda chynifer yn ychwaneg, ymrwymo drosom ni yn y gwaith yma, a bydded i Man-soul gael ei chymeryd i fyny gan lawer o drafferth, a gadewch iddynt ddyfod i lawnder a chyfoeth; a dyma y ffordd i enill tir arnynt hwy. Onid ydych chwi yn cofio mai fel hyn y darfu i ni dycio gyda Laodicea, a pha gynifer yr ydym ni yn eu dal yn bresenol yn y fagl yma? Yn awr, pan ddechreuont fod yn llawen, hwy a anghofiant eu trueni, ac os na bydd i ni eu dychrynu hwynt, fe allai y bydd iddynt gwympo i gysgu, ac felly gael ganddynt esgeuluso gwiliadwriaeth eu tref, a gwiliadwriaeth eu castell, yn gystled â'r wiliadwriaeth wrth eu pyrth.

Ië, onid allwn ni, trwy y moddion hyn, lwytho Man-soul yn y cyfryw fodd â llawnder neu helaethrwydd, fel y byddo iddynt gael eu cymhell i wneuthur trysordy o'u castell, yn lle amddiffynfa wedi ei chadarnhau yn ein herbyn ni, neu i fod yn dderbyn-le rhyfelwyr? Os bydd i ni fel hyn allu dyfod â'n marsiandaeth a'n moddion yno, yr wyf fi yn cyfrif fod mwy na haner y castell yn eiddom ni. Hefyd, pe gallem ni ond ei threfnu hi yn y cyfryw fodd, fel ag y byddai iddynt gael eu llenwi â'r cyfryw foddion, fel, wedi hyny, os byddai i ni ruthro arnynt yn ddisymwth, fe fyddai yn anhawdd i'r cadbeniaid gael un amddiffyniad yno. A wyddoch chwi am y lle hwnw am y ddameg (Luc viii. 14)?—Twyll cyfoeth a dagodd y gair. A thrachefn, pan y mae y galon wedi ei "thrymhau trwy lythineb a meddwdod, a gofalon y bywyd hwn, pob drwg a ddaw arnynt yn ddisymwth." Luc xxi. 34—36.

Yn mhellach, fy arglwyddi, eb efe, chwi a wyddoch o'r goreu nad ydyw ddim yn hawdd i bobl gael eu llenwi â'n pethau ni, ac heb fod ganddynt rai o'n Diaboloniaid megis wedi eu dal yn eu tai ac yn eu gwasanaeth. Pa le y mae y Man-souliad ag sydd yn llawn o'r byd hwn ag nad oes ganddo yn lle ei weision a'i ddisgwylwyr naill ai Mr. Gwastraff neu Mr. Afradlonrwydd, neu ryw un arall o'n cyfeillion Diabolonaidd ni, megis Mr. Trythyllgar, Mr. Cyfreithgar, Mr. Gwag-ymffrost, neu

y cyffelyb? Yn awr y rhai hyn a allant gymeryd castell Man-soul, neu ei chwythu ef i fyny, neu ei wneud ef yn anaddas i fod yn amddiffynfa i Emmanuel, ac un o'r rhai hyn a wna y tro.Ië, y rhai hyn, ar ddim a'r a wn i, a allent ei wneuthur ef i ni yn gynt na llu o ugain mil o wŷr. Oherwydd paham, megis y dechreuais, fy nghyngor i ydyw, fod i ni ymadael yn llonydd, heb gynyg dim trais yn mhellach, nac ynosodiadau treisiol ar y castell, o leiaf ar hyn o bryd; a gosodwn ar droed ein dichell newydd, a gwelwn oni wna hòno iddynt hwy eu dinystrio eu hunain.

Y cyngor yma a ganmolwyd yn ddirfawr ganddynt oll, ac a gyfrifwyd y darn penaf o gyfrwysdra uffern ei hun—hyny yw, i dagu Man-soul â llawnder o'r byd hwn, ac i drymhau ei chalon â'r pethau daionus o hono. Ond gwelwch fel y mae pethau yn ymgyfarfod: yn uniawn fel yr oedd y cyngor Diabolonaidd yma yn dibenu, Cadben Crediniaeth a dderbyniodd lythyr oddiwrth Emmanuel, ystyr yr hwn oedd hyn: Mai ar y trydydd dydd y byddai iddo ei gyfarfod ef yn y maes, yn y gwastadedd o amgylch Man-soul. Fy nghyfarfod i yn y maes! ebe y cadben. Pa beth y mae fy Arglwydd yn ei feddwl wrth hyn? Ni wn i pa beth y mae ef yn feddwl wrth fy nghyfarfod i yn y maes. Felly fe gymerth yr ysgrifen yn ei law, ac a'i dug ef at fy Arglwydd-Ysgrifenydd, i ofyn ei feddyliau ef arno—(canys gwiliedydd ydoedd fy Arglwydd yn mhob materion ag ydoedd yn perthynu i'r Brenin, ac hefyd er daioni a chysur i dref Man-soul.) Felly efe a ddangosodd i'm Harglwydd yr ysgrifen, ac a ddeisyfodd ei farn ef arno. O'm rhan i, ebe Cadben Crediniaeth, ni wn i beth y mae yn ei feddwl. Felly fy Arglwydd a'i cymerodd ac a'i darllenodd; ac ar ol ystyried ychydig, efe a ddywedodd: Fe fu gan y Diabolon-iaid ymgynghori mawr heddyw yn erbyn Man-soul; hwy a fuant, meddaf, heddyw yn llyfelu hollol ddinystr Man-soul ar y cyfryw ffordd, fel yr ydys yn bwrw, ag a fydd sicr i beri iddi ddistrywio ei hunan. Ac i'r diben yma y maent yn parotoi eu hunain i ymadael o'r dref, gan amcanu symud eu hunain i'r maes drachefn, ac yno i orphwys hyd oni welont pa un a wna eu dichell hon ai tycio ai peidio. Ond bydd di barod gyda gwŷr dy Arglwydd—(canys erbyn y trydydd dydd y byddant yn y maes), yno i syrthio ar y Diaboloniaid, canys y Tywysog erbyn hyny a fydd yn y maes; ïe, erbyn y byddo hi yn doriad y dydd, yn godi haul, neu yn gynt, a hyny gyda llu cadarn yn eu herbyn hwynt. Felly efe a fydd o'u blaen hwynt, a thi a fyddi o'r tu ol iddynt, a rhyngoch chwi eich dau eu llu a ddifethir.

Pan glywodd Cadben Crediniaeth hyn, ymaith yr aeth efe at y lleill o'r cad-beniaid, ac a ddywedodd wrthynt pa fath lythyr a gafodd ef yn ddiweddar o law Emmanuel; ac, eb efe, yr hyn a ysgrifenwyd ynddo a esponiodd fy Arglwydd-Ysgrifenydd i mi. Efe a ddywedodd wrthynt hefyd, pa beth oedd raid iddynt hwy ac yntau ei wneuthur tuag at ateb meddwl eu Harglwydd. Yna yr oedd y cadben-iaid yn llawen, a Chadben Crediniaeth a orchymynodd ar fod i holl udganwyr y

Brenin fyned i fyny i ganllawiau y castell, ac yno, lle y clywai Diabolus, wneuthur y gerddoriaeth oreu ag a allai calon ei ddychymygu. Yna yr udganwyr a wnaethant fel y gorchymynasid iddynt; hwy a aethant i fyny i ben y castell, ac fel hyn y dechreuasant ganu. Yna y darfu i Diabolus gyffroi, a dywedyd: Beth all fod y meddwl o hyn? Nid ydynt yn swnio botas a chyfrwy, na march ac ymaith, nac ymgyrch. Pa beth y mae yr ynfydion yma yn ei feddwl, fel y byddent eto mor ddifyr ac mor llawen? Yna yr atebodd iddo un o honynt hwy eu hunain, ac a ddywedodd: Hyn sydd o lawenydd am fod eu Tywysog Emmanuel yn dyfod i gynorthwyo Man-soul, fel ag y mae efe, i'r diben hyny, wrth ben byddin, ac am fod yr ymwared hwn yn agos.

Gwŷr Man-soul, hefyd, oeddynt yn ystyried yn ddirfawr wrth glywed y swyngân beroriaethol yma o eiddo yr udgyrn; hwy a ddywedasant, ïe, hwy a atebasant y naill y llall: Nid all hyn fod yn ddim niwaid i ni, yn ddiau nid all hyn fod yn ddim niwaid i ni.

Yna ebe y Diaboloniaid: Pa beth sydd oreu i ni ei wneuthur? Ac fe atebwyd: Mai goreu oedd gadael y dref; a hyny, ebe un, a ellwch chwi ei wneuthur trwy ganlyniad o'ch cyngor diweddaf; a thrwy wneud felly, hefyd, y byddwch yn ablach i roddi câd i'r gelyn, os deuai byddin oddiallan arnom. Felly yr ail ddydd hwy a aethant ymaith o Man-soul, ac a arosasant yn y gwastadedd oddiallan; ond hwy a wersyllasant eu hunain o flaen Porth-y-llygad yn y modd mwyaf arswydus a dychrynllyd ag a allent. Y rheswm paham nad allent aros yn y dref, heblaw y rhesymau y buwyd yn ymddadleu yn eu cylch yn eu cyngor diweddaf, ydoedd, am nad oeddynt mewn meddiant o'r amddiffynfa gadarn, ac am, ebe hwy, y cawn fwy o gymhwysder i ymladd, ac hefyd i ffoi, os bydd achos, pan fyddom ni wedi pebyllio ar wyneb y maes. Heblaw hyn, y dref a fuasai yn bwll iddynt, yn hytrach na lle o amddiffyniad, pe deuai y Tywysog i fyny, a gwarchae arnynt yn ddiogel ynddi. Oherwydd paham, hwy a aethant allan i'r maes, fel y gallent hefyd fod allan o gyrhaedd y ffyn-taflu, trwy ba rai yr oeddynt yn cael eu mawr niweidio trwy gydol yr amser yr oeddynt yn y dref.

Wel, a'r amser yr oedd y cadbeniaid i gwympo ar y Diaboloniaid wedi dyfod, hwy yn awyddus a barotoisant eu hunain i'r gwaith, canys Cadben Crediniaeth a ddywedasai wrthynt y nos o'r blaen, y byddai iddynt gyfarfod â'u Tywysog yn y maes yfory: hyn ydoedd fel olew i dân fflamllyd, canys dros hir amser y buasent yn mhell oddiwrth eu gilydd. Hwynt-hwy, gan hyny, oeddynt, oherwydd hyn, yn fwy difrifol ac yn fwy awyddus i'r gwaith.

Felly, fel y dywedais i, a'r awr wedi dyfod, Cadben Crediniaeth, gyda y lleill o'r rhyfelwyr, a arweiniasant allan eu byddinoedd, cyn ei bod yn ddydd, trwy borth cynllwynfa y dref; a chan eu bod hwy oll yn barod, Cadben Crediniaeth a aeth i

fyny wrth ben y llu, ac a roddes y gair i'r cadbeniaid eraill, ac felly hwythau i'r swyddogion oedd îs eu llaw, ac i'r milwyr; a'r gair ydoedd, Cleddyf y Tywysog Emmanuel, a tharian Cadben Crediniaeth!—hyny yw, yn y Man-soulaeg, Gair Duw a ffydd. Yna y cadbeniaid a bwysasant yn mlaen, ac a ddechreuasant osod ar bob cwr o wersyll Diabolus yn daclus.

Yn awr hwy a adawsent Gadben Profiad yn y dref, am ei fod ef yn archolledig o achos y clwyfau a roisai y Diaboloniaid iddo yn y frwydr ddiweddaf. Ond pan ddeallodd ef fod y cadbeniaid wrthi hi, beth a wnaeth ef ond galw am ei ffyn-baglau ar ffrwst, ac a gyfododd i fyny, ac a aeth ymaith i'r rhyfel, gan ddywedyd, A orweddaf fi yma, pan y mae fy mrodyr yn y frwydr, a phan y bydd i Emmanuel y Tywysog ymddangos ei hun yn y maes i'w weision? Ond pan welodd y gelyn y gwr yn dyfod ar ei ffyn-baglau, hwy a ddigalonwyd eto yn fwy, canys, ebe hwy, pa yspryd a feddiannodd y Man-souliaid yma, pan ydynt yn ymladd yn fy erbyn ar eu ffyn-baglau?

Wel, y cadbeniaid, fel y dywedais, a bwysasant yn mlaen, ac a driniasant eu harfau yn rhagorol, gan lefain allan o hyd, a bloeddio, fel yr oeddynt yn rhoddi ergydion, Cleddyf y Tywysog Emmanuel, a tharian Cadben Crediniaeth!

Yn awr pan welodd Diabolus fod y cadbeniaid wedi dyfod allan, ac iddynt amgylchu ei wŷr ef mor bybyr, efe a farnodd, dros yr amser presenol, nad oedd dim i'w ddisgwyl oddiwrthynt hwy ond ergydion, a mîn eu cleddyf dau-finiog.

Oherwydd paham, yntau hefyd a ddaeth yn mlaen ar fyddin y Tywysog, gan syrthio arnynt â'i holl lu marwol. Felly y gâd a aeth yn nghyd. Yn awr pwy a gyfarfyddai Diabolus gyntaf yn y rhyfel ond Cadben Crediniaeth, ar y naill law, a'r Arglwydd Ewyllysgar, ar y llaw arall. Yn awr ergydion yr Arglwydd Ewyllysgar oeddynt fel ergydion cawr, canys yr oedd gan y gŵr hwnw fraich gref, ac efe a syrthiodd i mewn ar Amheuwyr Etholedigaeth, canys hwy oeddynt wŷr gosgordd Diabolus, ac efe a'u cadwodd hwynt ar waith yn hir, gan dori a difetha yn anneddwydd. Yn awr pan welodd Cadben Crediniaeth fy Arglwydd yn ymladd, yntau yn wrol a bwysodd yn mlaen ar y llaw arall, ar yr un cwmpeini hefyd; felly hwy a'u gosodasant hwy mewn annhrefn mawr.

Yn awr Cadben Gobaith-da a ymosodasai yn erbyn Amheuwyr Galwedigaeth, ac yr oeddynt yn ddynion gwâr-sythion; ond y cadben ydoedd yn wr cadarn nerthol. Cadben Profiad, hefyd, a ddanfonodd iddo beth cynorthwy; felly efe a wnaeth i Amheuwyr Galwedigaeth encilio.

Y rhan arall o'r fyddin oeddynt yn ymladd yn bybyr, a hyny ar bob tu; a'r Diaboloniaid a ymladdasant yn wrol. Yna y gorchymynodd fy Arglwydd-Ysgrifenydd fod i'r ffyn-taflu o'r castell gael eu gosod ar waith, a'i wŷr ef a daflent gerig at drwch y blewyn. Ond yn mhen enyd, y rhai hyny ag y gwnaethid iddynt ffoi o

flaen cadbeniaid y Tywysog, a ddechreuasant ymladd drachefn, a hwy a ddaethant i fyny yn wrol ar y pen olaf o fyddin y Tywysog; oherwydd paham, gwŷr y Tywysog a ddechreuasant lewygu; ond gan gofio y caent weled gwyneb eu Tywysog yn ebrwydd, hwy a gymerasant galon, a brwydr greulon iawn a ymladdwyd. Yna y bloeddiodd y cadbeniaid, gan ddywedyd: Cleddyf y Tywysog Emmanuel, a tharian Cadben Crediniaeth! a chyda hyny Diabolus a roddes dir, gan feddwl fod mwy o gymhorth wedi dyfod; ond nid oedd un Emmanuel eto yn ymddangos. Hefyd, y frwydr ydoedd yn aros mewn petrusedd, a hwy a wnaethant enciliad bychan ar bob tu.

Yn awr yn amser y gorphwysdra, Cadben Crediniaeth a gefnogodd ei wŷr yn odiaethol i ddâl wrthi hi, a Diabolus a wnaeth yr un peth yn oreu ag y gallodd efe: ond Cadben Crediniaeth a wnaeth araeth ardderchog wrth ei filwyr, y cynwysiad o'r hyn a ganlyn yma: Filwyr boneddigion, a'm brodyr yn yr amcan yma, y mae yn llawen iawn genyf fi weled yn y maes, dros ein Tywysog, y dydd hwn fyddin mor gadarn ac mor nerthol, a chyfryw ewyllyswyr da i Man-soul. Fe ddarfu i chwi, hyd yma, fel yr oedd yn weddus i chwi, ddangos eich hunain yn wŷr o gywirdeb a chalon yn erbyn y Diabolonaidd luoedd, fel megis er cymaint oedd eu hymffrost, nad oes ganddynt eto ddim llawer o achos i ymffrostio oblegid eu henill.

Yn awr adnewyddwch eich gwrolder arferol, a dangoswch eich hunain yn wŷr yr unwaith hon yn unig, canys o fewn ychydig o fynydau ar ol yr ymladdfa nesaf y tro hwn, y gwelwch eich Tywysog yn ymddangos ei hun yn y maes; canys y mae yn rhaid gwneuthur yr ail ymgyrch hwn ar y gorthrymwr yma Diabolus, ac yna Emmanuel a ddaw.

Mor gynted ag y darfu i'r cadben wneuthur yr araeth hon wrth ei filwyr, wele un Mr. Ebrwydd a ddaeth ar redeg at y cadben oddiwrth y Tywysog, i fynegu iddo ef fod Emmanuel gerllaw. Pan dderbyniodd y cadben y newydd yma, efe a'i hyspysodd i'r maes-swyddogion eraill, a hwythau drachefn i'w sawdwyr a'u gwŷr o ryfel. Oherwydd paham, megis dynion wedi cyfodi oddiwrth y meirw, felly eu cadbeniaid a'u gwŷr a gyfodasant, ac a ymwnaethant i fyny at y gelyn, ac a waeddasant fel o'r blaen, Cleddyf y Tywysog Emmanuel, a tharian Cadben Crediniaeth!

Y Diaboloniaid, hefyd, a ymysgwydasant eu hunain, ac a wrthwynebasant yn oreu ag y gallent; ond yn y frwydr ddiweddaf hon y Diaboloniaid a gollasant eu gwrolder, a llawer o'r Amheuwyr a syrthiasant i lawr yn feirw ar y ddaear.

Yn awr, pan oeddynt wedi bod yn boeth yn yr ymladdfa yn nghylch awr neu well, Cadben Crediniaeth a ddyrchafodd ei olygon i fyny, ac a ganfu, ac wele Emmanuel wedi dyfod, ac efe a ddaethai gyda banerau ehedfanaidd, udgyrn yn canu, ac o'r braidd yr oedd traed ei wŷr yn cyffwrdd â'r ddaear, hwy a frysiasant gyda y cyfryw gyflymder tuag at y cadbeniaid ag oeddynt yn ymladd. Yna y

trodd Cadben Crediniaeth ei wŷr tua'r dref, ac a roddes y maes i Diabolus. Felly Emmanuel a ddaeth arno ef ar y naill du, a lle y gelynion ydoedd rhyngddynt hwy ill dau: yna drachefn hwy a gwympasant ati o'r newydd; ac yn awr nid oedd hi ond ychydig bach yn hwy hyd oni ddarfu i Emmanuel a Chadben Crediniaeth ymgyfarfod, yn damsangu i lawr y rhai lladdedig o hyd fel yr oeddynt yn dyfod.

Ond pan welodd y cadbeniaid fod y Tywysog wedi dyfod, a syrthio o hono ar y Diaboloniaid ar yr ochr arall, a bod Cadben Crediniaeth a'i Fawrhydi wedi eu cael hwynt i fyny rhyngddynt, hwy a floeddiasant yn y cyfryw fodd ag y rhwygodd y ddaear drachefn, gan ddywedyd, Cleddyf Emmanuel, a tharian Cadben Crediniaeth!

Yn awr pan welodd Diabolus fod y fath ymosodiad caled arno ef a'i wŷr gan y Tywysog, a'i lu Tywysogaidd, pa beth a wnaeth ef ac arglwyddi y pwll, y rhai oeddynt gydag ef, ond dianc, a gadael eu byddinoedd, a'u gadael hwynt i syrthio trwy law Emmanuel, a'i anrhydeddus Gadben Crediniaeth. Felly hwy a syrthiasant oll yn lladdedig o'u blaen hwynt, o flaen y Tywysog, ac o flaen ei lu brenhinol; nid oedd cymaint ag un Amheuwr wedi ei adael yn fyw, hwy a orweddasant yn daenedig ar y ddaear fel dynion meirw, fel pe taenai un dom ar y ddaear.

Pan oedd y frwydr wedi darfod, pob peth a ddaeth mewn trefn yn y gwersyll: yna cadbeniaid a henaduriaid Man-soul a ddaethant yn nghyd i gyfarch Emmanuel, tra yr oedd efe o'r tuallan i'r corphoraeth. Felly hwy a'i hanerchasant ef, ac a'i croesawasant, a hyny â chroesaw fil o weithiau, am ei fod ef wedi dyfod i derfynau Man-soul drachefn. Felly efe a wênodd arnynt hwy, ac a ddywedodd, Heddwch i chwi. Yna hwy a'u parotoisant eu hunain i fyned i'r dref; hwy a aethant, gan hyny, i fyned i fyny i Man-soul, hwynt hwy, y Tywysog, gyda yr holl luoedd newyddion a ddygasai efe, yn bresenol, gydag ef i'r rhyfel. Hefyd, yr oedd holl byrth y dref wedi eu gosod yn agored i'w dderbyn ef, mor llawen oeddynt oblegid ei ddychweliad bendigedig ef. A dyma ddull a threfn y mynediad hyn o'i eiddo ef i Man-soul:

1. Fel y dywedais, holl byrth y dref oeddynt wedi eu gosod yn agored; ïe, pyrth y castell, a henuriaid tref Man-soul a osodasent eu hunain wrth byrth y dref, i'w gyfarch ef ar ei fynediad i mewn yno; ac felly y gwnaethant: canys fel yr oedd efe yn agoshau, ac yn neshau tua'r pyrth, hwy a ddywedasant, Dyrchefwch eich penau, O! chwychwi byrth! ac ymddyrchefwch ddrysau tragywyddol, a Brenin y gogoniant a ddaw i mewn. A hwy a atebasant drachefn, Pwy yw Brenin y gogoniant? A hwy a ddychwelasant atynt eu hunain, Yr Arglwydd cadarn a galluog, yr Arglwydd cadarn mewn rhyfel. O! byrth! dyrchefwch eich penau, ac ymddyrchefwch ddrysau tragywyddol, &c.

2. Fe drefnwyd, hefyd, gan y rhai hyny o dref Man-soul, mai ar hyd yr holl ffordd o byrth y dref hyd y rhai hyny o eiddo y castell, y byddai i'w Fawrhydi

bendigedig ef gael ei roesawu â chân, gan y rhai hyny ag oeddynt yn fwyaf cyfarwydd mewn cerddoriaeth trwy holl dref Man-soul. Yna y darfu i'r henuriaid, a'r lleill o dref Man-soul ateb y naill y llall fel yr oedd Emmanuel yn dyfod i mewn i'r dref, hyd oni ddaeth efe at byrth y castell, â chaniadau a sain udgyrn, gan ddywedyd, Hwy a welsant dy fynediad, O! Dduw! sef mynediad fy Nuw, fy Mrenin, yn y cysegr. Y cantorion a aethant o'r blaen, a'r cerddorion ar ol; yn eu plith yr oedd llancesau yn canu tympanau.

3. Yna y cadbeniaid (canys mi a chwennychwn ddywedyd gair am danynt hwythau), hwy yn eu trefn a ddisgwyliasant ar y Tywysog fel yr oedd efe yn myned i mewn i byrth Man-soul. Cadben Crediniaeth a aeth o'r blaen, a Chadben Gobaith-da gydag ef; Cadben Cariad a ddaeth ar ol, gydag eraill o'i gymdeithion, a Chadben Amynedd a ganlynodd ar ol pawb; a'r rhelyw o'r cadbeniaid, rhai ar y llaw ddehau, a rhai ar yr aswy, a aethent gydag Emmanuel i Man-soul. A thrwy yr amser yma yr oedd eu banerau yn chwifio, yr udgyrn yn canu, a bloeddiadau gwastadol oedd yn mhlith y milwyr. Felly y Tywysog ei hunan a farchogodd i mewn i'r dref yn ei arfogaeth, y rhai oeddynt oll o aur coeth, ac yn ei gerbyd, pyst yr hwn ydoedd o arian, ei lawr o aur, ei lèni o borphor, a'i ganol a balmantwyd â chariad i ferched tref Man-soul.

4. Pan ddaeth y Tywysog i mewn i dref Man-soul, efe a gafodd yr holl heolydd wedi eu taenu â lili ac â blodau, wedi eu trwsio yn gywrain â brigau ac â changhenau o'r gwŷdd îrion ag oeddynt yn sefyll oddiamgylch i'r dref. Pob drws, hefyd, ydoedd yn llawn o ddynion, y rhai a addurnasent bob un y tu blaen gyferbyn a'u tai â rhywbeth o amrywiaeth ac o odidawgrwydd neillduol i'w roesawu ef, fel yr oedd yn myned heibio ar hyd yr heolydd. Hwy eu hunain, hefyd, fel yr oedd Emmanuel yn myned heibio, a'i croesawasant ef â bloeddiadau, ac â gwaeddi allan o lawenydd, gan ddywedyd, Bendigedig fyddo y Tywysog ag sydd yn dyfod yn enw ei Dad Shad-dai.

5. Wrth byrth y castell henaduriaid Man-soul, sef fy Arglwydd Maer, yr Arglwydd Ewyllysgar, y Pregethwr Rhaglawiol, Mr. Gwybodaeth, a Mr. Meddwl, ac eraill o foneddigion y lle, a gyfarchasant Emmanuel drachefn; hwy a ymgrymasant o'i flaen, a gusanasant lwch ei draed ef, a ddiolchasant, a fendithiasant, ac a glodforasant ei Fawrhydi, am iddo beidio cymeryd y fantais yn eu herbyn hwy am eu pechodau, ond yn hytrach a gymerasai drugaredd arnynt hwy yn eu trueni, ac a ddychwelasai atynt mewn trugaredd, ac i adeiladu eu Man-soul i fyny yn dragywydd. Fel hyn yr aed ag ef i fyny i'r castell yn ebrwydd, canys hwnw oedd y palas brenhinol, a'r lle yr oedd ei anrhydedd ef i aros; yr oedd ef wedi ei wneuthur yn barod i'w Fawrhydi ef gan bresenoldeb yr Arglwydd-Ysgrifenydd, a gwaith Cadben Crediniaeth. Felly efe a aeth i mewn.

6. Yna y bobl, a chyffredinolrwydd tref Man-soul, a ddaethant ato ef i'r castell, i alaru ac i wylo, ac i ofidio am eu drygioni, trwy yr hwn y darfuasai iddynt hwy ei yru ef allan o'r dref. Felly pan ddaethant hwy, hwy a ymgrymasant eu hunain hyd y llawr seithwaith; hwy hefyd a wylasant, ïe, hwy a wylasant yn uchel, ac a ofynasant faddeuant gan y Tywysog, ac a weddiasant ar fod iddo ef drachefn, megis cynt, gadarnhau ei gariad tuag at Man-soul.

I'r hyn yr atebodd y Tywysog mawr: Nac wylwch, ond ewch i'ch ffordd, bwytewch y breision, ac yfwch y melysion, ac anfonwch ranau i'r hwn nad oes ganddo ddim yn barod, canys llawenydd yr Arglwydd yw eich nerth chwi. Myfi a ddychwelais i Man-soul â thrugareddau, a'm henw a osodir i fyny, a bydd yn ddyrchafedig o'i herwydd. Efe, hefyd, a gymerodd y trigolion yma, ac a'u cusanodd, ac a'u rhoddes yn ei fynwes.

Hefyd, efe a roddes i henaduriaid tref Man-soul, ac i bob un o swyddogion y dref, gadwyn o aur, a sêl. Efe a ddanfonodd i'w gwragedd hwynt, hefyd, glustdlysau, tlysau, breichledau, a phethau eraill. Efe hefyd a ystofodd ar gywir anedig blant Man-soul lawer o bethau gwerthfawr.

Wedi i Emmanuel wneuthur yr holl bethau hyn i'r dref enwog Man-soul, yna efe a ddywedodd wrthynt, yn gyntaf, Golchwch eich gwisgoedd, ac yna gwisgwch eich addurniadau, ac wedi hyny deuwch ataf fi i gastell Man-soul. (Preg. ix. 8.)

Felly hwy a aethant i'r ffynon oedd wedi ei hagoryd i Judah a Jerusalem i ymolchi ynddi; yno yr ymolchasant, ac yno y cànasant eu gwisgoedd, ac a ddaethant drachefn at y Tywysog i'r castell, ac felly y safasant o'i flaen ef. (Zec. xiii 1. Dat. vii. 14, 15.)

Ae yn awr yr oedd cynghanedd a dawnsio trwy holl dref Man-soul, a hyny o achos i'r Tywysog genadu iddynt ei bresenoldeb, a llewyrch ei wyneb drachefn. Y clychau, hefyd, a gânasant, a'r haul a dywynodd arnynt yn gysurus dros hir o amser yn nghyd.

Tref Man-soul, hefyd, yn awr a geisiodd yn fwy hollol ddistrywio yr holl Ddiaboloniaid gweddilliedig ag ydoedd yn y caerau, a'r ffauau ag ydoedd ganddynt yn nhref Man-soul, canys yr oedd yno rai, hyd y dydd hwn, wedi dianc â'u bywydau a'u haelodau ganddynt oddidan law eu gorthrymwr yn y dref enwog Man-soul.

Ond yr oedd fy Arglwydd Ewyllysgar yn fwy dychryn iddynt, yn bresenol, nag y buasai efe erioed o'r blaen, yn gymaint a bod ei galon ef wedi ei phlygu yn gyflawnach i geisio, i lyfelu, ac i'w herlid hwynt i farwolaeth: efe a'u dilynodd hwynt nos a dydd, ac a'u gosododd hwynt yn awr mewn trallod blin, fel yr ymddengys rhagllaw.

Ar ol i bethau mor belled a hyn gael eu gosod mewn trefn yn y dref enwog Man-soul gofal a gymerwyd, a gorchymyn a roddwyd gan y bendigedig Dywysog

Emmanuel, fod i wŷr y dref, heb oedi yn hwy, appwyntio rhyw rai i fyned allan i'r gwastadedd i gladdu y meirw ag oedd yno, y meirw a syrthiasant trwy gleddyf Emmanuel, a tharian Cadben Crediniaeth, rhag i'r drygsawr a gyfodai oddiwrthynt wneuthur yr awyr yn afiachus, ac felly gwneuthur niwaid i'r dref enwog Man-soul. Hyn, hefyd, oedd yr achos o'r gorchymyn yma, sef, mai hyd ag a allai Man-soul, fel y byddai iddynt dori ymaith enw a bôd, a'r coffadwriaeth o'r gelynion hyn oddiar feddwl y dref enwog Man-soul, a'i thrigolion.

Felly gorchymyn a roddwyd allan gan fy Arglwydd Maer, y cyfaill doeth a chywir hwnw o eiddo tref Man-soul, ar fod i wŷr gael eu gosod ar waith yn nghylch y gorchwyl angenrheidiol yma; a Mr. Ofn-duwiol, ac un Mr. Uniondeb, oeddynt i fod yn olygwyr ar y mater yma. Felly gwŷr a osodwyd danynt i weithio yn y maesydd, ac i gladdu y rhai lladdedig a orweddent yn feirw yn y gwastadedd; a thyma leoedd eu galwedigaethau hwynt: rhai ydoedd i dori y beddau, a rhai oeddynt i gladdu y meirw, a rhai oeddynt i fyned yma a thraw ar hyd y gwastadedd, ac hefyd oddiamgylch terfynau tref Man-soul, i edrych os ydoedd na phenglog, nac asgwrn, neu ddarn o asgwrn Amheuwyr eto i'w gael ar wyneb y ddaear mewn lle yn y byd yn agos at y corphoraeth; ac os caid dim, fe drefnasid y byddai i'r chwilwyr a chwilient osod i fyny nôd neu arwydd wrtho, fel y gallai y rhai hyny ag ydoedd wedi eu gosod i gladdu ei gael ef, a'i gladdu ef allan o'r golwg, fel y byddai i enw a choffadwriaeth Amheuwyr Diabolonaidd gael ei ddileu allan oddi tan y nefoedd; ac fel na byddai i'r plant, a'r rhai a enid yn Man-soul gael gwybod, os byddai bosibl, pa beth ydoedd na phenglog, nac asgwrn, na darn o asgwrn Amheuwyr.

Felly y claddwyr, a'r rhai hyny ag oeddynt wedi eu gosod heibio at y pwrpas hyny, a wnaethant fel y gorchymynasid iddynt, a hwy a gladdasant yr Amheuwyr, yr holl benglogau a'r esgyrn, a darnau o esgyrn Amheuwyr, pa le bynag y cawsant hwynt, ac felly hwy a lanhausant y gwastadedd. Yn awr, hefyd, y darfu i Mr. Heddwch-Duw gymeryd i fyny ei gommisiwn, ac a weithredodd eilwaith megis yn y dyddiau gynt.

Fel hyn y claddasant hwy yn y gwastadedd o amgylch Man-soul—Amheuwyr Etholedigaeth, Amheuwyr Galwedigaeth, Amheuwyr Gras, Amheuwyr Parhad, Amheuwyr yr Adgyfodiad, Amheuwyr Iechydwriaeth, a'r Amheuwyr Gogoniant; cadbeniaid pa rai oeddynt y canlynol:—Cadben Llidiawgrwydd, Cadben Creulon, Cadben Damnedigaeth, Cadben Annigonol, Cadben Brwmstan, Cadben Poen, Cadben Anesmwyth, Cadben y Bedd, a Chadben Diobaith, a hen Anghrediniaeth yn bencadben arnynt dan Diabolus. Yr oedd yno, hefyd, saith benaeth eu llu hwynt, a hwy oeddynt yr Arglwydd Beelsebub, yr Arglwydd Lusiffer, yr Arglwydd Lleng, yr Arglwydd Apolyon, yr Arglwydd Python, yr Arglwydd Cerberus, a'r Arglwydd Belial; ond y tywysogion a'r cadbeniaid, gyda hen Anghrediniaeth, eu pen-cadben,

a ddiangasant oll. Felly eu gwŷr a gwympasant i lawr yn lladdedig trwy allu lluoedd y Tywysog, a thrwy ddwylaw gwŷr tref Man-soul. Hwy, hefyd, a gladdwyd, megis yr adroddir uchod, er mawr lawenydd i'r bresenol enwog dref Man-soul.

Y rhai a'u claddasant hwy, a gladdasant gyda hwynt eu holl arfogaeth, y rhai oeddynt offer creulon marwolaeth—(eu harfau oeddynt saethau, picellau, llurygau, pen-tewynion, a'r cyffelyb);—hwy a gladdasant hefyd arfau eu bonedd hwynt, eu harwyddion, eu banerau, gyda lluman Diabolus, a pha beth bynag arall ag a gawsant ag a fyddai yn arogli fel Amheuwr Diabolonaidd.

Yn awr pan ddaethai y gorthrymwr i Fryn-porth-uffern gyda ei hen gyfaill Anghrediniaeth, fe ddarfu iddynt yn ebrwydd ddisgyn i'r ffau, ac wedi iddynt yno dros dro, gyda eu dilynwyr, gydgwyno eu hanffodion, a'r colled mawr a gawsent wrth ryfela yn erbyn tref Man-soul, hwy a syrthiasant o'r diwedd i gynddaredd, ac ymddial a fynent am y golled a gawsent o flaen y dref Man-soul; oherwydd paham, hwy a alwasant gyngor, i lyfelu ac i ddychymygu eto yn mhellach pa beth oedd i'w wneuthur yn erbyn y dref enwog Man-soul, canys nid allai eu cylläau dylyfedig aros i weled diwedd cyngor eu Harglwydd Lusiffer a'u Harglwydd Apolyon, yr hwn a roddasent o'r blaen, canys yr oedd eu cegau cynddeiriog yn gweled pob dydd cyhyd â thragwyddoldeb byr, hyd oni byddai iddynt gael eu llenwi â chorph ac enaid, a chnawd ac esgyrn, ac â holl bethau dymunol Man-soul. Hwynt-hwy, gan hyny, a ymroisant i wneud ymosodiad arall ar dref Man-soul, a hyny trwy fyddin gymysgedig, ac wedi ei gwneuthur i fyny, mewn rhan, o Amheuwyr, ac, mewn rhan, o Wŷr-y-gwaed. Hanes mwy neillduol o bob un o'r ddau cymerwch fel y canlyn:

Yr Amheuwyr sydd gyfryw rai ag sydd â'u henwau oddiwrth eu naturiaeth, yn gystled ag oddiwrth eu harglwydd a'r deyrnas lle y ganed hwynt; eu natur sydd i osod holiad neu gwestiynau ar bob un o wirioneddau Emmanuel, a'u gwlad a elwir Gwlad Amheuaeth, a'r wlad hòno sydd yn gorwedd yn mhell, a'r nesaf i'r gogledd, rhwng Gwlad Tywyllwch a'r hon a elwir Dyffryn Cysgod Angeu, yn cael eu galw weithiau megis pe baent yr un a'r unrhyw le, eto yn wir y maent yn ddau le, yn gorwedd ond ychydig oddiwrth eu gilydd; ac y mae Tir Amheuaeth yn tueddu i mewn, ac yn gorwedd rhyngddynt. Dyma wlad Amheuaeth, a'r rhai hyny ag a ddaethant gyda Diabolus i ddinystrio tref Man-soul ydynt â'u haniad o'r wlad hòno.

Gwŷr-y-gwaed sydd bobl ag sydd â'u henwau wedi eu cymeryd oddiwrth elyniaeth eu natur, ac oddiwrth y llidiawgrwydd sydd ynddynt i'w gyflawni ef ar dref Man-soul; eu gwlad sydd yn gorwedd dan seren y cŵn, a chan hòno y llywodraethir hwynt mewn perthynas i'w dealldwriaethau. Enw eu gwlad yw Talaith Ffieiddio Daioni, y cyrau pellaf o honi ydynt bell oddiwrth wlad Amheuaeth, eto y maent yn cyffwrdd â'u gilydd ill dwyoedd ar y bryn a elwir Bryn-porth-uffern. Y bobl

yma ydynt mewn cyfamod â'r Amheuwyr, canys y maent yn gytun yn gwneuthur cwestiwn o ffydd a ffyddlondeb pobl tref Man-soul, ac felly y maent, fel eu gilydd, wedi eu cymhwyso at wasanaeth eu tywysog.

Yn awr, o'r ddwy wlad yma y darfu i Diabolus trwy guriad o'i dabwrdd, gyfodi llu arall yn erbyn tref Man-soul, o bûm mil ar hugain o leiaf. Yr oedd yno ddeng mil o Amheuwyr, a phymtheng mil o Wŷr-y-gwaed, a hwy a osodwyd dan ryw gadbeniaid i fyned i'r rhyfel; a hen Anghrediniaeth, drachefn, a wnaethpwyd yn ben ar y llu.

Ac am yr Amheuwyr, eu cadbeniaid oeddynt bump o'r fath ag ydoedd yn dywysogion ar y llu Diabolonaidd diweddaf; a thyma eu henwau hwynt: Cadben Beelsebub, Cadben Lusiffer, Cadben Apolyon, cadben Lleng, a Chadben Cerberus; a'r cadbeniaid a fuasai arnynt o'r blaen a wnaethpwyd, rai o honynt, yn gadbeniaid rhaglawiol, ac yn llumanwyr yn y llu.

Ond nid oedd Diabolus yn cyfrif y byddai yn y daith yma o'i eiddo ef, i'r Amheuwyr yma brofi yn rhai o'i wŷr penaf ef, canys eu gwrolder a brofasid o'r blaen. Hefyd, y Man-souliaid a wnaethai iddynt gael y gwaethaf, yn unig Diabolus a'u dug hwynt i liosogi y rhifedi, ac i gynorthwyo, os byddai raid, wrth angenrhaid mawr, ond ei ymddiried a roddes efe yn y Gwaedwyr, am eu bod hwynt oll yn fileiniaid geirwon, ac efe a wyddai iddynt wneuthur gwrhydri cyn hyn.

Ac am y Gwaedwyr, hefyd, yr oeddynt hwy dan awdurdod, ac enwau eu cadbeniaid oeddynt: Cadben Cain, Cadben Nimrod, Cadben Ishmael, Cadben Esau, Cadben Saul, Cadben Absalom, Cadben Suddas, a Chadben Pab.

1. Cadben Cain ydoedd gadben ar ddwy fyddin, sef yr eiddigus a'r digofus Waedwyr; ei lumanwr a ddug yr arwyddion cochion, a'i ysgwyd ef ydoedd ffon y lleiddiad. (Gen. iv. 8.)

2. Cadben Nimrod ydoedd gadben ar ddwy fyddin, sef y gorthrymaidd a'r gormesaidd Waedwyr; ei lumanwr ef a ddug yr arwyddion cochion, a'i ysgwyd ef oedd bytheiad mawr y gwaed. (Gen. x. 8, 9.)

3. Cadben Ishmael ydoedd gadben ar ddwy fyddin, sef ar y gwatwarus a'r dirmygus Waedwyr; ei lumanwr a ddug yr arwyddion cochion, a'i ysgwyd ef ydoedd un yn gwatwar Isaac, etifedd Abraham. (Gen. xxi. 9, 10.)

4. Cadben Esau ydoedd gadben ar ddwy fyddin, sef y Gwaedwyr a rwgnachent am i arall gael y fendith, ac hefyd ar y Gwaedwyr ag sydd yn ymddial yn ddirgel ar eraill; ei lumanwr a ddug yr arwyddion cochion, a'i ysgwyd ydoedd un yn llechu yn ddirgel i ladd Jacob. (Gen. xxvii. 42—45.)

5. Cadben Saul ydoedd gadben ar ddwy fyddin, sef yr eiddigus disail a'r digofus ddiawledig Waedwyr; ei lumanwr a ddug yr arwyddion cochion, a'i ysgwyd ydoedd tair picell waedlyd wedi eu taflu at Ddafydd ddiniwaid. (1 Sam. viii. 10.)

6. Cadben Absalom ydoedd gadben ar ddwy fyddin, sef ar y Gwaedwyr a laddant dad neu gyfaill er mwyn anrhydedd y byd hwn; ac hefyd ar y Gwaedwyr hyny ag a ddaliant un trwy deg mewn llaw â geiriau, hyd oni ddarffo iddynt ei wanu ef â'u cleddyfau; ei lumanwr ef a ddug yr arwyddion cochion, a'i ysgwyd ef ydoedd y mab yn erlid gwaed y tad. (2 Cron. xix. 10; xx. 33. 2 Sam. xv; xvi.)

7. Cadben Suddas ydoedd gadben ar ddwy fyddin, sef y Gwaedwyr a werthant einioes dyn am arian, a'r rhai hyny a werthant eu cyfaill â chusan; ei lumanwr a ddug yr arwyddion cochion, a'i ysgwyd ydoedd deg ar hugain o arian, a'r cebystr. (Mat. xxvi. 14—16.)

8. Cadben Pab ydoedd gadben ar un fyddin, canys y mae yr holl ysprydoedd hyny wedi eu huno yn nghyd dano ef; ei lumanwr ef a ddug yr arwyddion cochion, a'i ysgwyd ef ydoedd y post a'r fflam, a'r dyn da ynddi. (Dat. xiii. 7, 8. Dan. ii. 33.)

Yn awr y rheswm paham y darfu i Diabolus gyfodi llu arall mor ebrwydd ar ol iddo ef gael ei guro allan o'r maes, ydoedd, am ei fod ef yn rhoddi ymddiried mawr yn y fyddin yma o Waedwyr, canys yr ydoedd efe yn rhoddi llawer mwy o ymddiried ynddynt hwy nag a wnaethai efe o'r blaen yn ei lu o Amheuwyr, er iddynt hwythau hefyd, yn fynych, wneuthur gwasanaeth mawr drosto ef, tuag at ei gadarnhau ef yn ei deyrnas. Ond y Gwaedwyr yma a brofasai efe yn fynych, ac anfynych y darfuasai i'w cleddyfau hwynt ddychwelyd yn ol yn wag. Hefyd, efe a wyddai y byddai i'r rhai hyn, fel gwaedgwn, ymaflyd yn mhawb—mewn tad, mam, brawd, chwaer, tywysog neu lywodraethwyr; ïe, yn Nhywysog y tywysogion: a'r hyn a'i cefnogodd ef yn fwy ydoedd, am iddynt hwy unwaith yru Emmanuel allan o deyrnas Mundus, a phaham, eb efe, nad allent hwy hefyd ei yru ef oddiwrth dref Man-soul?

Felly y llu yma o bùm mil ar hugain, o leiaf, a arweiniwyd gan eu pen-cadben, yr Arglwydd mawr Anghrediniaeth, i fyny yn erbyn tref Man-soul. Yn awr Mr. Gweled-yn-graff, y pen yspiwr, a aeth ei hunan allan i yspio, ac a ddug i Man-soul yr hanes o'u dyfodiad hwynt; oherwydd paham, hwy a gauasant eu pyrth i fyny, ac a osodasant eu hunain mewn modd o amddiffyniad yn erbyn y Diaboloniaid newyddion yma a ddaethai i fyny yn erbyn y dref.

Felly Diabolus a ddug i fyny ei lu, ac a warchaeodd ar dref Man-soul: yr Amheuwyr a osodwyd oddeutu Porth-y-teimlad, a'r Gwaedwyr a ymosodasant i lawr o flaen Porth-y-llygad, ac o flaen Porth-y-clust.

Yn awr pan ddarfu i'r llu yma fel hyn ymwersyllu eu hunain, Anghrediniaeth a ddanfonodd, yn enw Diabolus, ac yn ei enw ei hunan, ac yn enw y Gwaedwyr, a'r lleill ag oeddynt gydag ef, wŷs neu archiad mor boethed a haiarn poeth i Man-soul, i ymroddi i'w gofynion hwynt, gan fygwth, os byddai iddynt eto sefyll allan yn eu herbyn hwynt, y byddai iddynt hwy yn ebrwydd losgi Man-soul i lawr â thân;

canys rhaid i chwi wybod am y Gwaedwyr, nad oeddynt hwy gymaint am i Man-soul roddi ei hunan i fyny, ag am fod i Man-soul gael ei distrywio, a'i thori ymaith oddiar dir y byw.

Gwir yw, hwy ddanfonasant atynt i geisio ganddynt ymroddi, ond pe gwnaethent felly, ni buasai hyny, ychwaith, yn tori syched y dynion yma; yr oedd yn rhaid iddynt hwy gael gwaed Man-soul, ac onidê yr oeddynt hwy yn meirw: ac oddiyma y maent yn cael eu henw. Oherwydd paham, y Gwaedwyr a gadwodd efe hyd yr amser presenol, fel y byddai iddynt, pan y byddai i'w holl offerynau eraill ef brofi yn aneffeithiol, megis ei gerdyn olaf a sicr i'w chwareu yn erbyn tref Man-soul. (Salm xxix. 10. Esay lix. 7; xxii. 17.)

Yn awr, pan gafodd gwŷr y dref y wŷs boeth yma, hi a fagodd ynddynt, dros yr amser presenol, rywfaint o feddyliau terfysgaidd; ond hwynt-hwy yn gytun a gytunasant, mewn llai na haner awr, i ddwyn y wŷs neu yr archiad at y Tywysog, yr hyn a wnaethant wedi iddynt ysgrifenu yn ei diwedd hi, Arglwydd, gwared Man-soul oddiwrth ddynion gwaedlyd. (Salm lix. 2.)

Felly efe a'i cymerth ef, ac a edrychodd arno, ac a'i hystyriodd ef, ac a ddaliodd sylw hefyd ar y deiseb byr hwnw a ysgrifenasai gwŷr Man-soul yn ei ddiwedd ef, ac a alwodd ato yr ardderchog Gadben Crediniaeth, ac a archodd iddo ef fyned a chymeryd Cadben Amynedd gydag ef, a myned a chymeryd gofal am yr ochr hyny o Man-soul ag ydoedd wedi ei hamgylchu gan y Gwaedwyr. (Heb. vi. 12—15.)

Felly hwy a aethant ae a wnaethant fel y gorchymynasid iddynt; yna Cadben Crediniaeth a aeth ac a gymerth Gadben Amynedd gydag ef, a hwy ill dau a ddiogelasant yr ochr hyny i'r dref ag yr oedd y Gwaedwyr yn gwarchae arni.

Yna efe a orchymynodd ar fod i Gadben Gobaith-da, a Chadben Cariad, a'm Harglwydd Ewyllysgar, gymeryd siars yr ochr arall i'r dref, a myfi, ebe y Tywysog, a osodaf fy lluman ar ganllawiau eich castell, a bydded i chwi eich tri wilied yn erbyn yr Amheuwyr. Wedi gwneuthur hyn, efe a orchymynodd fod i'r ardderchog gadben, sef Cadben Profiad, dynu i fyny ei wŷr yn y farchnadfa, ac iddo ef yno eu hymarferyd hwynt, o ddydd i ddydd, o flaen neu gerbron pobl Man-soul. Yn awr y gwarchae yma a barhaodd yn hir, a llawer ymosodiad ffyrnig a wnaeth y gelyn, yn enwedigol y rhai hyny ag a elwid y Gwaedwyr, ar dref Man-soul, a llawer o ymdrech anhapus a gafodd rhai o wŷr y dref wrth gyfarfod â hwynt, yn enwedigol Cadben Hunanymwadiad, am yr hwn y dylaswn wneud crybwylliad yn flaenorol, a orchymynwyd i gymeryd y gofal am Borth-y-clust a Phorth-y-llygad yn awr yn erbyn y Gwaedwyr. Gwy ieuanc ydoedd y cadben yma Hunanymwadiad, ond yn wrol, ac yn un o wŷr tref Man-soul, megis ag yr oedd Cadben Profiad hefyd; ac Emmanuel, ar ei ail ddychweliad i Man-soul, a'i gwnaeth ef yn gadben ar fil o'r Man-souliaid, er daioni i'r corphoraeth. Y cadben hwn, gan hyny, gan ei fod yn

ddyn caled, ac yn ddyn calonog, ac yn foddlon anturio ei hunan er mwyn daioni tref Man-soul, a ruthrai allan yn awr ac eilwaith ar y Gwaedwyr, ac a roddai iddynt lawer o alarymau hynod, ac amryw ymgyrchiadau bywiog a fu rhyngddo ef a hwynt; ac hefyd, efe a wnaeth rywfaint o ddiheuydd yn eu plith hwynt, ond y mae yn rhaid i chwi feddwl nad ellid gwneud hyn yn hawdd, heb gyfarfod o hono â llawer o ymosodiadau ei hunan, canys yr oedd ef yn dwyn llawer o'u creithiau ar ei wyneb, a rhai mewn manau eraill ar ei gorph.

Felly ar ol treulio rhywfaint o amser er mwyn profi ffydd, gobaith, a chariad tref Man-soul, y Tywysog Emmanuel, ar ddiwrnod, a alwodd ei gadbeniaid a'i filwyr yn nghyd, ac a'u rhanodd hwynt yn ddwy fyddin; wedi gwneuthur hyn, efe a archodd iddynt, ar amser nodedig, a hyny ar foreugwaith, yn foreu iawn, ruthro allan ar y gelyn, gan ddywedyd, Bydded i'r naill haner o honoch gwympo ar yr Amheuwyr, a'r haner arall ar y Gwaedwyr. Y rhai hyny o honoch ag sydd yn myned yn erbyn yr Amheuwyr, lleddwch, difethwch, a gosodwch i farwolaeth gynifer o honynt ag a alloch chwi mewn modd yn y byd osod eich dwylaw arnynt; ond am danoch chwi ag sydd yn myned allan yn erbyn y Gwaedwyr, na leddwch hwynt, ond deliwch hwynt yn fyw.

Felly ar yr amser gosodedig, yn foreuol iawn, y cadbeniaid a aethant allan, fel y gorchymynasid iddynt, yn erbyn y gelynion: Cadben Gobaith-da, Cadben Cariad, a'r rhai hyny ag a gysylltwyd â hwy, megis Cadben Diniweidrwydd a Chadben Profiad a aethant allan yn erbyn yr Amheuwyr; a Chadben Crediniaeth, Cadben Amynedd, gyda Chadben Hunanymwadiad, a'r lleill ag ydoedd i ymgystadlu â hwynt, a aethant allan yn erbyn y Gwaedwyr.

Yn awr y rhai hyny ag a aethant allan yn erbyn yr Amheuwyr, a ymgynullasant at eu gilydd gyferbyn a'r gwastadedd, ac a gychwynasant yn y blaen i'w cymhell hwynt i ryfel: ond yr Amheuwyr, gan gofio eu llwyddiant diweddaf, a enciliasant, heb feiddio sefyll gyferbyn a'r ymosodiad, ond hwy a ffoisant rhag byddin y Tywysog; oherwydd paham, hwy a erlidiasant ar eu hol hwynt, ac wrth eu herlid hwy a laddasant lawer o honynt, ond nid allent eu dàl hwynt i gyd.

Yn awr y rhai hyny o honynt ag a ddiangodd, rhai o honynt a aethant adref, a'r lleill bob yn bump, bob yn naw, a phob yn ddau ar bymtheg, fel crwydriaid, a aethant dan grwydro i fyny ac i wared ar hyd y wlad, lle y darfu iddynt, ar y bobl farbaraidd, ddangos ac ymarferyd llawer o'u gweithredoedd Diabolonaidd; ac ni ddarfu i'r bobl yma, ychwaith, godi mewn arfau yn eu herbyn hwynt, ond a oddefasant eu hunain i gymeryd eu caethiwo ganddynt. Hwy, hefyd, ar ol hyn, a ymddangosent eu hunain yn fyddinoedd o flaen tref Man-soul, ond byth nid allent ei haros; canys os byddai i Gadben Crediniaeth, Cadben Gobaith-da, neu Gadben Profiad, ond ymddangos eu hunain, hwy a ffoent.

Y rhai hyny ag a aethant allan yn erbyn y Gwaedwyr, a wnaethant fel y gorchymynasid iddynt; hwy a beidiasant a lladd neb, ond hwy a geisiasant eu hamgylchu hwynt oddiamgylch; ond y Gwaedwyr, pan welsant nad oedd un Emmanuel yn y maes, a gasglasant nad oedd un Emmanuel hefyd yn Man-soul; oherwydd paham, hwy, gan edrych ar yr hyn a wnaethai y cadbeniaid i fod, megis y galwent ef, yn ffrwyth o'u gormodedd a'u dychymygion gwylltion ynfyd hwy eu hunain, fe ddarfu iddynt yn hytrach eu diystyru na'u hofni hwynt; ond y cadbeniaid, gan feddwl am eu gwaith, a'u hamgylchasant o'r diwedd oddiamgylch. Y rhai hyny, hefyd, ag a fuasent yn erlid yr Amheuwyr, a ddaethant i mewn yn aml i'w cynorthwy hwynt.

Felly, o'r diwedd, ar ol ychydig o ymdrechu, canys y Gwaedwyr hefyd a fynent ddianc, ond yn unig yr oedd hi yn awr yn rhy ddiweddar—(canys, er eu bod hwy yn ddrygionus ac yn greulon lle y gorchfygont, eto yr holl Waedwyr ydynt mor wan-galon a chywion, pan ddelont unwaith i weled eu hunain wedi cyfarfod â'u cymhariaid, a'u cystadlu)—felly y cadbeniaid a'u daliasant hwynt, ac a'u dygasant at y Tywysog.

Yn awr, wedi eu dàl hwynt, eu dwyn o flaen y Tywysog, a'u holi, efe a ganfyddodd eu bod hwy o dair gwlad amrywiol, er eu dyfod hwynt oll o'r un tir.

1. Un fath o honynt a ddaeth allan o Sîr-y-gwr-tywyll, a hwy oeddynt y cyfryw rai ag a wnaethant yr hyn a wnaethant mewn anwybodaeth.

2. Math arall o honynt a ddaethant allan o Sîr-zel-dywyll, a'r hyn a wnaethant, hwy a'i gwnaethant yn goelgrefyddol.

3. Y trydydd math o honynt a ddaethant allan o dref Malais, yn ngwlad Cenfigen, a hwy a wnaethant yr hyn a wnaethant allan o ddirmyg ac anghymodlonrwydd.

Am y cyntaf o'r rhai hyn, sef y rhai hyny a ddaethant o Sîr-y-gwr-tywyll, pan welsant pa le yr oeddynt, ac yn erbyn pwy yr ymladdasant, hwy a grynasant, ac a waeddasant fel yr oeddynt yn sefyll o'i flaen ef, a chynifer o'r rhai hyn ag a geisiodd drugaredd ganddo ef, efe a gyffyrddodd â'u gwefusau hwynt â'i deyrnwialen aur.

Y rhai hyny ag a ddaethant allan o Sîr-zel-dywyll, ni wnaethant hwy fel y gwnaethai eu cyfeillion, am fod Man-soul yn dref, cyfreithiau pa un ydoedd yn amrywio oddiwrth bawb oll ag ydoedd yn trigo oddiamgylch yno; ychydig iawn o'r rhai hyn a ellid eu dwyn i weled eu drwg, ond y rhai hyny ag a ddaethant, ac a geisiasant drugaredd, hwythau hefyd a gawsant drugaredd.

Yn awr y rhai hyny ag a ddaethant allan o dref Malais, yr hon sydd yn ngwlad Cenfigen, ni ddarfu iddynt hwy wylo nac ymddadleu, ond hwy a safasant gan gnoi eu tafodau o'i flaen ef gan ofid ac ynfydrwydd, am nad allent hwy gael eu hewyllys ar Man-soul. Yn awr y rhai diweddaf hyn, gyda yr holl rai hyny o'r ddau fath



"Therefore they pursued them and in their pursuit slew many."
BUNYAN · HOLY WAR

## Pursuit of the Doubters

Ymlid yr Amheuwyr

eraill ag na ddarfu iddynt yn ddiffuant geisio maddeuant am eu pechodau. Y rhai hyny y gwnaeth efe iddynt i ymrwymo dàn feichiafon digonol, i ateb am yr hyn a wnaethant yn erbyn Man-soul ac yn erbyn ei Brenin, yn y brawdlys mawr cyffredinol ag sydd i gael ei gynnal gan ein Harglwydd y Brenin, lle y bydd ef ei hun yn farnwr ar wlad a theyrnas Mundus.

Felly hwy a ymrwymasant bob un drosto ei hun i ddyfod i mewn pan elwid arnynt, i ateb o flaen ein Harglwydd y Brenin am yr hyn a wnaethant, megis y dangoswyd uchod.

Cymaint a hyn yn nghylch yr ail lu yma a ddanfonwyd gan Diabolus i ddymchwelyd Man-soul.

Ond yr oedd yno dri o'r rhai hyny ag a ddaethant o dir Amheuaeth, y rhai, wedi iddynt grwydro enyd i fyny ac i wared ar hyd y wlad, a deall iddynt ddianc, oeddynt mor wàr-galed a thaflu eu hunain i mewn, gan wybod fod yn nhref Man-soul eto Ddiaboloniaid);—meddaf, yr oeddynt mor wàr-galed ag y bu iddynt wthio eu hunain i mewn i Man-soul i'w plith hwynt. (Tri, a ddywedais?—yr wyf yn meddwl fod yno bedwar.)

Yn awr i dŷ pwy y byddai i'r Amheuwyr Diabolonaidd yma fyned ond i dŷ hen Ddiaboloniad yn Man-soul, enw yr hwn oedd Ymholiadau-drwg, gelyn mawr iawn i Man-soul ydoedd, a gwneuthurwr mawr yn mhlith y Diaboloniaid yno. Felly i dŷ yr Ymholiadau-drwg yma, fel y dywedwyd, y daeth y Diaboloniaid—(chwi a ellwch wybod iddynt gael cyfarwyddyd pa fodd i gael y ffordd yno);—felly efe a wnaeth groesaw iddynt, ac a dosturiodd wrth eu hanffawd hwynt, ac a'u hymgeleddodd hwynt â'r pethau goreu ag oedd ganddo ef yn ei dŷ.

Yn awr, ar ol ychydig o gydnabyddiaeth (ac ni bu yn hir cyn y cawsant hyny), darfu i'r hen Ymholiadau-drwg yma ofyn i'r Amheuwyr a oeddynt oll o'r un dref; canys efe a wyddai eu bod oll o'r un deyrnas. A hwy a atebasant: Nagê, nac o'r un sîr ychwaith; canys myfi, ebe un, yw Amheuwr Etholedigaeth; minau, ebe un arall, wyf Amheuwr Galwedigaeth; yna ebe y trydydd: Amheuwr Iechydwriaeth ydwyf finau; a'r pedwerydd a ddywedodd mai Amheuwr Gras ydoedd yntau. Wel, ebe yr hen wr bonheddig, byddwch o'r wlad a fynoch, yr wyf yn credu mai plant tref ydych chwi oll, yr ydych chwi yr un fesur eich troed a minau, ac yr un galon a minau, ac y mae genyf fi groesaw i chwi. Felly hwy a ddiolchasant iddo, ac yr oeddynt yn llawen am iddynt gael derbyniad yn Man-soul. Yna y dywedodd Ymholiadau-drwg wrthynt hwy: Pa sawl un o'ch cwmpeini chwi a allai fod yno, ag a ddaethant i fyny gyda chwi i warchae ar Man-soul? A hwy a atebasant nad oedd yno ond deng mil o Amheuwyr i gyd, canys y rhan arall o'r llu oedd yn cynwys pymtheng mil o'r Gwaedwyr. Y Gwaedwyr yma, ebe hwy, sydd yn byw ar derfynau ein gwlad ni; ond druain, yr ydym yn clywed iddynt hwy i gyd gael eu

dâl gan wŷr Emmanuel. Deng mil, ebe yr hen wr bonheddig, mi wnaf yn dda fod hyny yn gwmpeini prydferth; ond pa fodd y bu i chwi fethu a meiddio ymladd â'ch gelynion, a chwithau mor lluosog mewn rhifedi? Ein pen-cadben, ebe hwy, ydoedd y gŵr cyntaf a ddiangodd. Atolwg, ebe gŵr y tŷ, pwy oedd hwnw ydoedd mor wan-galon? Fe fu unwaith yn Arglwydd Maer yn Man-soul, ebe hwy; ond, atolwg, nac alwch ef yn wan-galon, canys pa un ai bod un o'r dwyrain i'r gorllewin wedi gwneuthur mwy o wasanaeth i'n Tywysog Diabolus nag a wnaeth fy Arglwydd Anghrediniaeth, a fydd holiad anhawdd i chwi ei ateb. Ond pe buasent hwy yn ei ddâl ef, hwy a fuasent yn ei grogi ef yn ddiau, a nyni a wnawn yn dda mai gwaith brwnt yw crogi.

Yna ebe yr hen wr bonheddig: Mi a ddymunwn pe byddai y deng mil Amheuwyr hyny oll yn arfogion yn bresenol yn Man-soul, a minau yn dywysog arnynt, mi fynwn weled beth a allwn i ei wneuthur. Ah! ebe hwy, fe fyddai hyny yn ddymunol pe gallem ni weled hyny; ond, Och! pa beth yw dymuniadau?—a'r geiriau yma a lefarwyd yn uchel.

Wel, ebe hen Ymholiadau-drwg, cymerwch ofal na byddo i chwi siarad yn rhy uchel; y mae yn rhaid i chwi lechu yn ddirgel, a chymeryd gofal am danoch eich hunain tra fyddoch chwi yma, ac onidê mi wnaf yn dda y dèlir chwi.

Paham? ebe yr Amheuwyr.

Paham! ebe yr hen wr bonheddig, am fod y Tywysog a'r Arglwydd-Ysgrifenydd, a'u cadbeniaid, a'u milwyr, oll, yn bresenol, yn y dref; ïe, y mae y dref mor llawn o honynt ag y gweddo hi fod. Ac heblaw hyny, y mae yno un, enw yr hwn yw Ewyllysgar, un o'r gelynion creulonaf ag a feddwn i, a'r Tywysog a'i gwnaeth ef yn geidwad ar y pyrth, ac a orchymynodd iddo arferyd pob diwydrwydd ag a allai efe, i geisio neu i edrych am, i chwilio allan, ac i ddifetha pawb, a phob math o Ddiaboloniaid.

Ac os disgyn ef arnoch, i lawr yr ewch pe byddai genych chwi benau o aur.

Ac yn awr, i weled pa fodd y digwyddodd, un o filwyr ffyddlon yr Arglwydd Ewyllysgar, enw yr hwn oedd Mr. Diwydrwydd, a safodd trwy gydol yr amser yma gan wrando dan fargod hen Ymholiadau-drwg, ac a glywodd yr holl siarad a fuasai rhyngddo ef a'r Amheuwyr yr oedd efe wedi eu croesawu dan ei gronglwyd.

Y milwyr ydoedd un ag yr oedd gan fy arglwydd lawer o ymddiried ynddo, ag a garai efe yn anwyl, a hyny am ei fod yn wr calonog, ac hefyd am ei fod ef yn wr diddiffygio yn chwilio am Ddiaboloniaid, i'w dâl hwynt.

Yn awr y gŵr hwn, fel y dywedais wrthych chwi, a glywodd yr holl ymddiddan a fuasai rhwng hen Ymholiadau-drwg a'r Diaboloniaid yma; oherwydd paham, beth a wnaeth efe ond myned at ei arglwydd, a mynegu iddo yr hyn a glywsai. Ac a wyt ti yn dywedyd felly, fy ngwas cywir? ebe fy arglwydd. Ydwyf, ebe Diwyd-

rwydd, felly yr wyf, ac os gwel eich arglwyddiaeth yn dda i fyned gyda mi, chwi a gewch weled mai felly y mae, megis ag y dywedais i. Ac a ydynt hwy yno? ebe fy arglwydd. Yr wyf yn adnabod Ymholiadau-drwg o'r goreu, canys yr oedd efe a minau yn gyfeillion yn amser ein gwrthgiliad. Ond nis gwn i pa le y mae ef yn aros yn bresenol. Ond mi wn i, ebe y gwas, ac os â eich mawrhydi gyda mi, myfi a'ch tywysaf chwi ar hyd y ffordd sydd yn arwain i'w loches ef.

A âf fi? ebe fy arglwydd, myfi a âf yn ddiau. Tyred fy Niwydrwydd, awn, ceisiwn hwynt allan. Felly fy arglwydd a'i was a aethant yn nghyd yn uniawn ar hyd y ffordd i'w dŷ ef.

Yn awr y gwas a aeth yn mlaen i ddangos y ffordd iddo, a hwy a aethant hyd oni ddaethant dan fagwyr hen Ymholiadau-drwg. Yna ebe Diwydrwydd: Gwrandewch! a ydych chwi yn adnabod lleferydd yr hen wr bonheddig, fy arglwydd, pan glywoch chwi ef? Ydwyf, ebe fy arglwydd, mi a'i hadwaen ef yn dda, ond ni welais i mo hono er ys llawer dydd. Hyn a wn i, mi a wn ei fod ef yn gyfrwys, mi a ddymunwn na byddo iddo ddianc oddiarnom ni. Gadewch rhyngof fi a hyny, ebe ei was Diwydrwydd. Ond pa fodd y gallwn ni gael hyd i'r drws, ebe fy arglwydd? Gadewch rhyngof fi a hyny, ebe ei was. Felly efe a ddug fy Arglwydd Ewyllysgar oddiamgylch. Yna fy arglwydd, heb ddim trwst yn mhellach, a dorodd y drws yn agored, ac a rnthrodd i'r tŷ, ac a'u daliodd hwynt ill pump yn nghyd, megis ag y dywedasai ei was Diwydrwydd wrtho ef.

Felly fy arglwydd a'u cymerth hwynt, ac a'u harweiniodd hwynt ymaith, ac a'u rhoddes yn llaw Mr. Cywir, ceidwad y carchar, ac efe a orchymynodd, ac yntau a'u rhoddodd hwynt mewn dalfa. Wedi gwneuthur hyn, fy Arglwydd Maer a wnaethpwyd y boreu nesaf yn gydnabyddus â'r hyn a wnaethai fy Arglwydd Ewyllysgar y nos o'r blaen, a'i arglwyddiaeth a lawenychodd yn ddirfawr wrth glywed y newydd, nid yn unig am fod yr Amheuwyr wedi eu cymeryd, ond am fod hen Ymholiadau-drwg wedi ei ddàl, canys fe fuasai yn drallod nid bychan i dref Man-soul, ac yn flinder tost i'm Harglwydd Maer ei hunan. Fe fuwyd yn ymofyn am dano yntau lawer gwaith, ond ni allwyd erioed osod dwylaw arno hyd yn awr.

Wel, y peth nesaf ydoedd gwneuthur darpariaeth tuag at brofi y pump yma a gymerasai fy arglwydd, ag oeddynt dàn law Mr. Cywir, ceidwad y carchar. Felly y dydd a benodwyd, a'r llys a alwyd yn nghyd, a'r carcharorion a ddygwyd at y bàr. Yr ydoedd gan fy arglwydd awdurdod i'w lladd hwynt, pan gyntaf y cafodd efe afael ynddynt, a hyny heb ddim siarad yn mhellach; ond yr oedd ef yn meddwl y byddai hi, ar hyn o bryd, yn fwy er anrhydedd i'r Tywysog, cysur Man-soul, ac er digalonrwydd i'r gelynion, i'w dwyn hwynt allan i gael barn gyhoeddus.

Ond, meddaf, Mr. Cywir a'u dug hwynt at y bàr mewn cadwynau i ddadleudy y dref, canys hwnw oedd lle y farnedigaeth. Felly, i fod yn fyr, y cwest a alwyd, y

tystion a dyngwyd, a'r carcharorion a brofwyd am eu bywyd; y cwest oeddynt yr un rhai ag a brofasent Mr. Anwir, Mr. Didrugaredd, Mr. Ucheldrem, a'r lleill o'u cymdeithion. Ac yn gyntaf, hen Ymholiadau-drwg ei hunan a osodwyd wrth y bâr, canys efe ydoedd y derbyniwr, croesawwr, a'r diddanydd o'r Amheuwyr yma, ag oeddynt wrth eu cenedl yn wŷr tramor; yna fe archwyd iddo wrando ar ei gyhuddiad, a mynegwyd iddo fod iddo ryddid i wrthddadleu, os ydoedd ganddo ddim i'w ddywedyd drosto ei hun.

Felly ei gyhuddiad ef a ddarllenwyd, y dull a'r ffurf ydoedd fel y canlyn:

Mr. Ymholiadau, tydi a gyhuddir yma wrth, neu dân, yr enw o Ymholiadau-drwg, gorthrymwr ar dref Man-soul; am dy fod di yn Ddiaboloniad o ryw, ac hefyd yn gasâwr o'r Tywysog Emmanuel, ac yn un ag a astudiaist ddinystr tref Man-soul. Fe'th gyhuddir di yma, hefyd, am gefnogi gelynion y Brenin, ar ol i gyfreithiau iachusol gael eu gwneuthur i'r gwrthwyneb: canys,

1. Tydi a amheuaist wirionedd ei hathrawiaeth a'i chyflwr hi.

2. Trwy ddymuno fod deng mil o Amheuwyr ynddi hi; a thrwy dderbyn, croesawu, a chefnogi ei gelynion a ddaethant oddiwrth eu byddinoedd atat ti. Pa beth a ddywedi di am y cyhuddiad yma, a ydywt ti yn euog, neu ynte nid wyt?

Fy arglwydd, eb efe, nis gwn i beth yw meddwl yr achwyniad yma, yn gymaint mai nad myfi ydyw y gŵr y mae ef yn perthyn iddo; y sawl sydd yn sefyll dan y cyhuddiad hwn ag yr achwynir arno o flaen y fainc yma a elwir wrth yr enw o Ymholiadau-drwg, yr hwn yr wyf fi yn ei wadu ei fod yn eiddof fi, gan mai Ymofyniadau-gonest yw fy enw i; y mae y naill, yn wir, yn swnio fel y llall, ond yr wyf fi yn meddwl y gŵyr eich mawrhydi fod llawer o wahaniaeth rhwng y ddau yma, canys yr wyf yn gobeithio y gall dyn, hyd yn oed yn yr amseroedd gwaethaf, a hyny hefyd yn mhlith y gwaethaf o ddynion, wneuthur ymofyniad gonest am bethau, heb redeg mewn perygl o gael ei osod i farwolaeth.

Yna y llefarodd fy Arglwydd Ewyllysgar, canys efe ydoedd un o'r tystion: Fy arglwydd, a chwithau yr orsedd anrhydeddus, swyddogion tref Man-soul, chwychwi oll a glywsoch â'ch clustiau i'r carcharor wrth y bâr wadu ei enw, ac felly y mae ef yn tybied y gall ef ymachub oddiwrth yr hyn a osodir yn ei erbyn ef yn y cyhuddiad; ond mi wn i mai efe yw y gŵr ag y mae yn perthynu iddo, ac mai ei enw priodol ef yw Ymholiadau-drwg. Mi a'i hadwaenwn ef, fy arglwydd, er ys mwy na deng mlynedd ar hugain, canys efe a minau, er ei fod yn gywilydd i mi ei ddywedyd ef, oeddym gydnabyddus iawn â'n gilydd pan ydoedd Diabolus, y gorthrymwr hyny, yn llywodraethu ar Man-soul; ac yr wyf fi yn tystiolaethu ei fod ef yn Ddiaboloniad o ryw, gelyn i'n Tywysog, a chasâwr o'r fendigedig dref Man-soul. Fe fu, yn amseroedd y gwrthryfel, yn gorwedd yn fy nhŷ i, fy Arglwydd, fwy nag ugain o nosweithiau yn nghyd, ac yr oeddym ni yn arfer siarad (o ran y sylwedd y

chwedleuem am dano) fel yr oedd yntau a'i Amheuwyr yn siarad yn ddiweddar. Gwir yw, na welais i mo hono ef er ys llawer dydd. Yr wyf yn casglu i ddyfodiad Emmanuel i Man-soul wneuthur iddo newid ei lety, megis ag y darfu i'r cyhuddiad, neu'r achwyniad yma, ei yru ef i newid ei enw; ond dyma y dyn, fy arglwydd.

Yna ebe y llys wrtho: A oes genyt ti ddim yn ychwaneg i'w ddywedyd?

Oes, ebe yr hen wr bonheddig, y mae; canys yr hyn oll ag a ddywedyd eto yn fy erbyn i sydd trwy enau un tyst, ac nid yw hi yn gyfreithlon i'r enwog dref Man-soul i roddi neb i farwolaeth wrth dystiolaeth un tyst.

Yna y safodd Mr. Diwydrwydd i fyny, ac a ddywedodd: Fy arglwydd, fel yr oeddwn i ar fy ngwiliadwriaeth y noson a'r noson, y pen uchaf i Heol Drygioni, yn y dref yma, fe ddigwyddodd i mi glywed murmur yn nhŷ y gŵr bonheddig; yna ebe fi, pa beth sydd ar droed yma? Felly mi a aethum i fyny yn agos, ond yn ddistaw iawn, at ochr y tŷ i wrando, gan feddwl, megis yn wir ag y digwyddodd hi, y byddai i mi yno daro wrth ryw gyfarfod Diabolonaidd. Felly, fel y dywedais, mi a dynais nes-nes, a phan ddaethum i fyny yn hollol at y mur, ni bu hi yn neppell hyd oni ddeallais fod yno wŷr tramor yn y tŷ—(ond yr oeddwn i yn deall eu hiaith hwynt, canys yr oeddwn i wedi bod yn drafaeliwr fy hunan);—yn awr, gan glywed y cyfryw iaith yn y cyfryw fwth gwael ag yr oedd yr hen wr bonheddig yma yn trigo ynddo, myfi a osodais fy nghlust wrth y twll yn y ffenestr, ac yno mi a'u clywais hwynt yn chwedleua fel y canlyn:

Yr hen Ymholiadau-drwg yma a ofynodd i'r Amheuwyr pa beth oeddynt, o ba le y daethent, a pha beth oedd eu neges yn y parthau hyn? A hwy a'i hatebasant ef yn ol yr holl ymholiadau yma, eto efe a'u croesawodd hwynt. Efe, hefyd, a ofynodd pa rifedi oedd o honynt hwy, a hwy a ddywedasant wrtho ef, Deng mil o wyr. Yna efe a ofynodd iddynt hwy paham nas gwnaethent gyrch mwy gwrol ar Man-soul? A hwy a fynegasant iddo. Felly efe a alwodd eu pen-cadben yn wan-galon, am iddo ef ddianc ymaith pan ddylasai efe ymladd dros ei dywysog.

Yn mhellach, yr hen Ymholiadau-drwg yma a ddymunodd, a mi a'i clywais ef yn dymuno, fod y deng mil Amheuwyr oll yn bresenol yn Man-soul, ac yntau yn dywyswr iddynt. Efe a archodd iddynt gymeryd gofal am danynt eu hunain, a gorwedd a llechu, canys os byddai iddynt gael eu dàl, fe orfyddai iddynt farw, pe byddai ganddynt benau o aur.

Yna ebe y llys: Mr. Ymholiadau-drwg, dyma dyst arall yn awr yn eich erbyn chwi, ac y mae ei dystiolaeth ef yn gyflawn:

1. Y mae ef yn tyngu i chwi dderbyn y gwŷr yma i'ch ty, ac i chwi eu meithrin hwynt yno, er eich bod chwi yn gwybod eu bod hwynt yn Ddiaboloniaid, ac yn elynion i'r Brenin.

2. Y mae ef yn tyngu i chwi ddymuno fod deng mil o honynt hwy yn Man-soul.

3. Y mae ef yn tyngu i chwi eu cynghori hwynt i lechu yn ddirgel, rhag i weision y Brenin eu dàl hwynt; yr hyn oll sydd yn dangos mai Diaboloniad wyt ti, ond pebuasit ti yn ffyddlon i'r Brenin, tydi a fuasit yn eu dàl hwynt.

Yna ebe Ymholiadau-drwg: I'r cyntaf o'r rhai hyn yr wyf yn ateb, y gwŷr a ddaethant i'm ty oeddynt ddieithriaid, a mi a'u cymerais hwynt i mewn, ac a ydyw ef yn awr wedi dyfod yn bechod yn Man-soul i ddyn roesawu dieithriaid? Ac i mi eu meithrin hwynt hefyd, sydd wir, a phaham y beïid ar fy nghariad? Ac am y rheswm paham y dymunais i fod deng mil o honynt yn Man-soul, ni ddywedais i erioed mo hyny wrth y tystion, nac wrthynt hwythau eu hunain ychwaith. Mi allaswn fod yn dymuno iddynt gael eu dàl, ac felly fy nymuniad a allai fod yn meddwl yn dda i Man-soul, er dim a all neb eto ei wybod. Fe ddarfu i mi hefyd erchi iddynt gymeryd gofal na byddai iddynt syrthio yn nwylaw y cadbeniaid, ond fe allai hyny fod am fy mod yn anfoddlon i neb gael ei ladd, ac nid am fy mod yn ewyllysio i elynion y Brenin, fel y cyfryw, ddianc.

Yna fy Arglwydd Maer a atebodd: Mai er ei bod hi'n beth rhinweddol i roesawu dieithriaid, eto yr oedd hi yn fradwriaeth i roesawu gelynion y Brenin. Ac am ddim arall ag a ddywedaist, nid oes genyt ti ond ceisio osgoi dy hunan trwy eiriau, a cheisio oedi y cyflawniad o farn. Ond pe na byddai dim wedi ei brofi yn dy erbyn di ond dy fod yn Ddiaboloniad, y mae yn rhaid i ti, am hyny, farw y farwolaeth wrth y gyfraith; ond i fod yn dderbyniwr, yn faethwr, yn gefnogwr, ac yn llocheswr i rai eraill o honynt, ïe, o Ddiaboloniaid tramor; ïe, o'r rhai hyny ag a ddaethant o bell, mewn bwriad i dori ymaith ac i ddifetha ein Man-soul, nis gellir goddef hyn.

Yna ebe Ymholiadau-drwg: Mi a welaf fel y mae y chwareu yn myned: y mae yn rhaid i mi farw oblegid fy enw, ac am fy nghariad. Ac felly efe a dawodd a sôn.

Yna hwy a alwasant yr Amheuwyr tramor at y bàr, a'r cyntaf a gyhuddwyd o honynt oedd Amheuwr Etholedigaeth: felly ei gyhuddiad ef a ddarllenwyd, ac am ei fod ef yn wr tramor, ei sylwedd a fynegwyd iddo ef gan gyfieithydd; hyny yw, ei fod ef yn cael ei gyhuddo yno am ei fod yn elyn i Emmanuel, y Tywysog, ac yn gasäwr o'r dref Man-soul, ac yn wrthwynebwr o'i hathrawiaeth mwyaf iachusol.

Yna y barnwr a ofynodd iddo ef a gyffesai efe? Ond efe a ddywedodd hyn yn unig: Ei fod ef yn cyfaddef ei fod yn Amheuwr Etholedigaeth, ac mai dyna y grefydd y cawsai ef ei ddwyn i fyny ynddi erioed. Ac hefyd, eb efe, os gorfydd arnaf fi farw am fy nghrefydd, yr wyf fi yn tybied y caf farw yn ferthyr, ac felly yr wyf yn gofalu llai.

Yna atebodd y barnwr: I ameu etholedigaeth sydd i ddymchwelyd athrawiaeth fawr o eiddo yr efengyl ddwyfol—hyny yw, holl-wybodaeth, gallu, ac ewyllys Duw, i gymeryd ymaith ryddid Duw gyda ei greadur, i dramgwyddo ffyrdd tref Man-soul, ac i wneuthur iachawdwriaeth i bwyso ar weithredoedd, ac nid ar ras. Y mae

hyny, hefyd, yn gwneuthur y gair yn gelwyddog, ac yn aflonyddu meddyliau gwŷr Man-soul; o ganlyniad, wrth y goreu o gyfreithiau, y mae yn rhaid iddo ef farw.

Yna galwyd ar Amheuwr Galwedigaeth, ac a'i gosodwyd wrth y bàr; a'i gyhuddiad ef, o ran ei sylwedd, oedd yr un peth a'r llall, yn unig efe a gyhuddwyd yn neillduol am wadu galwad Man-soul.

Felly efe a atebodd: Na ddarfu iddo ef erioed gredu fod y fath beth a neillduol a galluog alwad oddiwrth Dduw i Man-soul, yn amgenach na thrwy lais cyffredinol y gair, na thrwy hwnw ychwaith, yn amgenach nag y mae yn eu cynghori hwynt i beidio gwneuthur drwg, ac i wneuthur yr hyn sydd dda, a thrwy wneuthur felly, fod addewid o ddedwyddwch wedi ei chysylltu wrtho.

Yna ebe y barnwr: Tydi wyt Ddiaboloniad, a thi a ddywedaist ran fawr o'r gwirioneddau mwyaf profiadol o eiddo Tywysog tref Man-soul; canys efe a alwodd, a hi a glybu y galwad mwyaf neillduol a mwyaf grymus o eiddo ei Hemmanuel, trwy yr hwn y galwyd, y dihunwyd, ac y meddianwyd hi â gras nefol i ddymuno cymundeb gyda ei Thywysog, i'w wasanaethu, ac i wneud ei ewyllys ef, ac i ddisgwyl am ei ddedwyddwch yn unig o'i ewyllys da ef. Ac am dy wrthwynebiad o'r athrawiaeth ddaionus yma, y mae yn rhaid i ti farw'r farwolaeth.

Yna Amheuwr Gras a alwyd, a'i gyhuddiad a ddarllenwyd, ac efe a atebodd iddo: Mai er ei fod ef o wlad Amheuaeth, eto ei dad ydoedd o hiliogaeth Pharisead, ac yr oedd efe yn byw yn weddus yn mhlith ei gymydogion, ac iddo ei ddysgu ef i gredu, a chredu yr wyf, ac a wnaf, na fydd i Man-soul byth gael ei chadw yn rhad trwy ras.

Yna ebe y barnwr: Paham hyny? Y mae cyfraith y Tywysog yn eglur. 1. Yn nacâol: Nid o weithredoedd. 2. Yn gadarnhâol: Trwy ras yr ydych yn gadwedig. (Rhuf. iii. Eph. ii.) A'th grefydd di sydd yn gorphwys yn, ac ar weithredoedd y cnawd, canys gweithredoedd y ddeddf ydynt weithredoedd y cnawd. Hefyd (i ddweyd fel y gwnaethost ti), tydi a yspeiliaist Dduw o'i ogoniant, ac a'i rhoddaist ef i ddyn pechadurus; tydi a yspeiliaist Grist o'r angenrheidrwydd o'r hyn a gymerodd ef arno, a'r digonolrwydd o hono, ac a roddaist y rhai hyn ill dau i weithredoedd y cnawd. Tydi a ddiystyraist waith yr Yspryd Glân, ac a fawrheaist ewyllys y cnawd, a'r meddwl deddfol. Tydi wyt Ddiaboloniad, a mab i Ddiaboloniad, ac am dy egwyddorion Diabolonaidd, y mae yn rhaid i ti farw.

Ar ol i'r llys fyned yn mlaen gyda'r achos hyd yma, danfonwyd y rheithwyr allan i ystyried eu dedfryd, pa rai, yn ebrwydd, a'u dygasant hwynt i mewn yn euog o farwolaeth.

Yna safodd y Cofiadur i fyny, ac a gyfeiriodd ei hunan at y carcharorion: Chwychwi y carcharwyr wrth y bàr, fe'ch cyhuddwyd chwi yma, ac fe'ch profwyd yn euog o feiau uchel yn erbyn Emmanuel, ein Tywysog ni, ac yn erbyn llwyddiant yr

enwog dref Man-soul, beiau am ba rai y mae yn rhaid eich gosod i farwolaeth, a byddwch chwithau farw yn ganlynol.

Felly hwy a fwriwyd i farw marwolaeth y groes. Y lle a osodwyd iddynt i gael eu colli ynddo ydoedd yr un hwnw lle y casglodd Diabolus i fyny ei lu diweddaf yn erbyn Man-soul, ond yn unig i hen Ymholiadau-drwg gael ei grogi y pen uchaf i Heol Drygioni, yn uniawn gyferbyn a drws ei dŷ ei hun.

Pan ddarfu i dref Man-soul, mor belled a hyn, waredu eu hunain oddiwrth eu gelynion, a thrallodwyr eu heddwch; yn y lle nesaf gorchymyn caeth a roddwyd allan, ar fod i'r Arglwydd Ewyllysgar eto, yn nghyd â Diwydrwydd, ei was, chwilio am, a gwneuthur ei oreu i ddâl pwy bynag o Ddiaboloniaid trefol ag a adawsid eto yn fyw yn Man-soul. Enwau amryw o honynt ydoedd Mr. Ynfydu, Mr. Gollwng-daioni-i-golli, Mr. Ofn-slafaidd, Mr. Digariad, Mr. Anhyderus, Mr. Cnawd, a Mr. Diogi. Fe orchymynwyd, hefyd, fod iddo ddâl plant Ymholiadau-drwg, y rhai a adawsai efe ar ei ol, ac ar fod iddynt dynu ei dŷ ef i lawr yno. Enwau y rhai a adawodd ar ei ol oeddynt: Mr. Ameu, canys efe ydoedd y mab hynaf ag a feddai efe; y nesaf un ato ef ydoedd Bywyd-deddfol, Anghoelio, Camfeddyliau-am-Grist, Byrhawr-Addewid, Synwyr-cnawdol, Byw-ar-deimlad, a Hunan-gariad. Y rhai hyn oll a gafodd efe o un wraig, a'i henw hi ydoedd Dim-gobaith; cares ydoedd hi i hen Anghrediniaeth, canys efe ydoedd ei hewythr hi, a phan fu farw ei thad hi, hen Dywyllwch, efe a'i cymerth hi, ac a'i magodd, a phan ydoedd hi yn gymhwys i briodi, efe a'i rhoddodd hi i'r hen Ymholiadau-drwg yma yn wraig.

Yn awr yr Arglwydd Ewyllysgar a wnaeth yn ol ei gommisiwn, gyda'r mawr Ddiwydrwydd, ei was. Efe a ddaliodd Ynfydu yn yr heolydd, ac a'i crogodd ef yn Lôn Eisieu-synwyr, gyferbyn a'i dŷ ei hun. Yr Ynfydu hwn ydoedd yr un hwnw ag a fynai i dref Man-soul roddi Cadben Crediniaeth i fyny i ddwylaw Diabolus, os byddai iddo ef, y pryd hyny, dynu neu symud ei luoedd allan o'r dref.

Efe, hefyd, a gymerodd Mr. Gollwng-daioni-i-golli ar ryw ddiwrnod fel yr oedd efe yn ddiwyd yn y farchnad, ac a'i gosododd ef i farw yn ol y gyfraith.

Yn awr yr oedd yn Man-soul wr tlawd gonest, a'i enw ydoedd Mr. Myfyrdod, un nad oedd dim llawer o gyfrif o hono yn amser y gwrthgiliad; ond yn awr o fawr barch gyda y rhai goreu yn y dref: y gŵr hwn, gan hyny, yr oeddynt yn ewyllysio ei ddyrchafu. Yn awr yr oedd gan Mr. Gollwng-daioni-i-golli gyfoeth mawr hyd yn hyn yn Man-soul, ac ar ddyfodiad Emmanuel hwy a drowyd at wasanaeth y Tywysog; hwnw, gan hyny, yn awr a roddwyd i Mr. Myfyrdod i'w chwanegu at y daioni cyffredin, ac i'w fab ar ei ol ef, Mr. Meddwl-yn-dda: y Meddwl-yn-dda yma a gafodd efe oddiwrth Mrs. Duwioldeb, ei wraig, a hi ydoedd ferch Mr. Cofiadur.

Ar ol hyn, fy arglwydd a ddaliodd Fyrhawr-yr-addewid: yr oedd hwn yn filain hynod, canys trwy ei weithredoedd ef, llawer o fâth y Brenin a anurddwyd;

oherwydd paham, efe a wnaethpwyd yn siampl gyhoeddus. Efe a gyhuddwyd ac a farnwyd, yn gyntaf, i gael ei osod yn y pilwri, ac wedi hyny i gael ei chwipio gan yr holl blant a'r gweision yn nhref Man-soul, ac wedi hyny i gael ei grogi hyd onid ydoedd yn farw. Fe all rhai ryfeddu wrth greulondeb cospedigaeth y gŵr yma, ond y rhai hyny ag sydd yn farnadyddion gonest yn Man-soul ydynt yn deimladol o'r mawr anmharch a all un Byrhawr-addewidion ei wneuthur mewn ychydig amser yn nhref Man-soul. Ac, mewn gwirionedd, fy marn i yw, ar fod i'r rhai hyny oll o'i enw a'i fywyd ef, gael eu trin yn union yr un modd ag yntau.

Efe, hefyd, a ddaliodd Synwyr-cnawdol, ac a'i rhoddodd mewn dalfa, ond pa fodd y bu, nis gwn i, ond efe a dorodd y carchar, ac a ddiangodd. Ië, a'r filain ëon nid ymedy â'r dref eto, ond y mae yn llechu y dydd yn y llochesau Diabolonaidd, ac yn rhodio fel yspryd yn nhai gwŷr gonest ar hyd nos. Oherwydd paham, yr oedd cyhoeddiad wedi ei osod i fyny yn y farchnadfa yn Man-soul, yn arwyddocâu mai pwy bynag a allai ddatguddio Synwyr-cnawdol, a'i ddâl, a'i ladd ef, y cai ef genad i ddyfod beunydd i fwrdd y Tywysog, ac y gwnaid ef yn geidwad trysor Man-soul. Llawer, gan hyny, a ymosodasant eu hunain i wneuthur y peth hyn, ond ei ddâl a'i ddifetha nis gallent, er ei ddatguddio yn fynych.

Ond fy arglwydd a ddaliodd Cam-feddyliau-am-Grist, ac a'i rhoddes ef yn ngharchar, ac efe a fu farw o glefyd nychlyd.

Hunan-gariad, hefyd, a ddaliwyd, ac a roddwyd mewn dalfa, ond yr oedd yno lawer ag ydoedd yn perthyn iddo ef yn Man-soul; felly ei farn ef a oedwyd. Ond o'r diwedd, Mr. Hunan-ymwadiad a safodd i fyny, ac a ddywedodd: Os goddefir y fath fileiniaid a hyn yn Man-soul, myfi a osodaf fy nghommisiwn i lawr. Efe, hefyd, a'i cymerth ef o blith y dyrfa, ac a'i dug ef i blith ei filwyr, ac yno y curwyd ei ymenydd ef allan: ond rhai yn Man-soul a rwgnachasant am hyny, er nas meiddiai neb ddywedyd yn eglur, am fod Emmanuel yn y dref. Ond y weithred ardderchog hon o eiddo Cadben Hunan-ymwadiad a ddaeth i glustiau y Tywysog; felly efe a anfonodd am dano ef, ac a'i gwnaeth ef yn arglwydd yn Man-soul. Fy Arglwydd Ewyllysgar, hefyd, a gafodd ganmoliaeth fawr gan Emmanuel am yr hyn a wnaethai ef i dref Man-soul.

Yna fy Arglwydd Hunan-ymwadiad a gymerth galon, ac a ymosododd ei hun i erlid y Diabolonaiaid gyda fy Arglwydd Ewyllysgar, a hwy a gymerasant Byw-ar-deimlad, ac a gymerasant Fywyd-moesol, ac a'u rhoddasant hwynt yn ngharchar hyd oni fuant feirw. Ond Mr. Anghoelio, neu Anghredu, ydoedd fachgen chwimwth, nis gallent byth ei ddâl ef, er iddynt gynyg gwneuthur yn fynych. Efe, gan hyny, â rhyw ychydig yn ychwaneg o'r rhai cyfrwysaf o'r llwyth Diabolonaidd, a arosasant eto yn Man-soul, hyd yr amser yr oedd Man-soul i adael heibio i drigo yn mhellach yn nheyrnas Mundus. Ond hwy a'u cadwasant hwynt yn eu llochesau

a'u tyllau; ac os ymddangosai un o honynt, neu ddigwydd iddynt fod yn weledig yn un o heolydd tref Man-soul, yr holl dref a gyfodai mewn arfau ar eu hol hwynt; ïe, hyd yn oed y plant yn Man-soul a lefai ar eu hol hwynt fel ar ol lleidr, ac a ddymunent iddynt allu eu llabyddio hwynt â cherig i farwolaeth. Ac yn awr yr oedd Man-soul wedi cyrhaeddyd i ryw radd dda o heddwch a llonyddwch: ei Thywysog, hefyd, a arosodd oddifewn i'w therfynau; ei chadbeniaid, hefyd, a'i milwyr a wnaethant eu dyledswyddau, a Man-soul a feddyliodd am y farchnadaeth ag oedd ganddi hi â'r wlad bell. Hefyd, yr oedd hi yn ddiwyd yn ngweithredoedd ei dwylaw. (Esay xxxiii. 17. Phil. iii. 20. Diar. xxxi.)

Wedi i dref Man-soul, mor belled a hyn, gael gwared o gynifer o'i gelynion, a thrallodwyr ei heddwch, y Tywysog a ddanfonodd atynt, ac a benododd ddiwrnod, yn yr hwn y byddai iddo yn y farchnadfa gyfarfod â'r holl bobl, ac yno i roi iddynt orchymyn mewn perthynas i ryw faterion i ddyfod, fel, os delid arnynt, a dueddent yn mhellach tuag at eu diogelwch a'u cysur hwynt, a thuag at ddamnedigaeth a distryw eu Diaboloniaid cartrefol.

Felly y dydd a benodasid a ddaethai, a gwŷr y dref a ymgyfarfuant yn nghyd; Emmanuel, hefyd, a ddaeth i wared yn ei gerbyd, a'i holl gadbeniaid, yn eu rhwysg, yn gweini arno ef ar y llaw ddehau, ac ar y llaw aswy.

Yna y gwnaethpwyd O! ust! am ddistawrwydd; ac ar ol rhai ymddygiadau cyfnewidiol o gariad, y Tywysog a ddechreuodd, ac a aeth rhagddo:

Chwychwi fy Man-soul, ac anwylyd fy nghalon, llawer a mawrion ydyw y rhagorfreintiau a ystofais i arnoch chwi; myfi a'ch neillduais chwi oddiwrth eraill, ac a'ch dewisais i mi fy hun, nid am eich teilyngdod, ond er fy mwyn fy hun. Myfi, hefyd, a'ch prynais chwi, nid yn unig oddiwrth ddychryn cyfraith fy Nhad, ond o law Diabolus. Hyn a wnaethum am fy mod yn eich caru chwi, ac am i mi osod fy nghalon arnoch, i wneuthur i chwi ddaioni. Fe ddarfu i mi, hefyd, fel y byddai i bob peth ag a allai rwystro dy ffordd i bleserau paradwys gael eu cymeryd allan o'r ffordd, osod i lawr drosot ti, dros dy enaid, gyflawn daledigaeth, ac a'th brynais di i mi fy hun; pris, nid o bethau llygredig, megis o arian neu aur, ond pridwerth o waed, fy ngwaed fy hun, yr hwn yn rhad a gollais i ar y ddaear, i'th wneuthur di yn eiddof fi fy hunan. Felly mi a'th gymodais di, O! fy Man-soul! â'm Tad, ac a roddais i ti hawl yn y trigfandai ag sydd gyda fy Nhad yn y frenhinol ddinas, lle y mae pethau, O! fy Man-soul! na welodd llygad, ac ni ddaeth i galon dyn i ystyried.

Heblaw hyn, O! fy Man-soul; tydi a weli pa beth a wnaethum, a pha fodd y'th gymerais allan o ddwylaw dy elynion, at ba rai y dwfn wrthryfelaist oddiwrth fy Nhad, a chan ba rai yr oeddit yn foddlon i gymeryd dy feddiannu, ac hefyd i gael dy ddistrywio. Mi a ddaethum atat ti ar y cyntaf trwy fy nghyfraith, ac wedi hyny trwy fy efengyl, i'th ddihuno di, ac i ddangos i ti fy ngogoniant; a thi a wyddost

pa beth oeddit, a pha beth a ddywedaist, a pha beth a wnaethost, a pha sawl gwaith y gwrthryfelaist yn erbyn fy Nhad a minau, eto ni'th adewaist ddim, megis ag y gweli heddyw; ond myfi a ddaethum atat ti, ac a gyd-ddygais â'th arferion, ac a ddisgwyliais wrthyt ti, ac ar ol y cwbl mi a'th dderbyniais di, a hyny yn unig o'm gras a'm ffafr; ac nis goddefwn i ti fod yn golledig, er y gwnaethit ti hyny yn y modd mwyaf boddlon.

Tydi a weli, hefyd, pa fath fyddin o luoedd fy Nhad a letyais i yn dy derfynau di; cadbeniaid, rheolwyr, milwyr, rhyfelwyr, offer rhyfel, a rhagorol ddychymygion i ddarostwng ac i ddwyn i lawr dy elynion di; tydi a wyddost fy meddwl i, O! fy Man-soul! a hwynt-hwy ydynt fy ngweision i, a'r eiddot tithau, hefyd, Man-soul.

Ië, fy amcan i yn dy feddiannu di â hwy, a thueddiad naturiol pob un o honynt hwythau sydd i'th amddiffyn, i'th buro, i'th gadarnhau, a'th berffeithio di i mi fy hun, O! Man-soul! ac i'th wneuthur di yn gymhwys i bresenoldeb, bendith, a gogoniant fy Nhad, canys tydi, fy Man-soul, a grëwyd i gael dy gymhwyso i'r pethau hyn.

Tydi a weli hefyd, fy Man-soul, y modd yr aethum i heibio i'th wrthgiliadau, ac y'th iacheais di. Yn wir yr oeddwn i yn ddig wrthyt ti, ond myfi a ddychwelais fy llid, a'm digofaint i a orphwysodd yn y distryw o'th elynion di, O! Man-soul.

Ac ni ddarfu i dy ddaioni di, ychwaith, fy nwyn i drachefn atat ti, ar ol i mi, am dy gamweddau, guddio fy wyneb, a thynu fy mhresenoldeb oddiwrthyt ti. Ffordd gwrthgiliad ydoedd yr eiddot ti, ond y ffordd a'r moddion o adferiad ydoedd eiddof fi. Myfi a ddychymygais foddion dy ddychweliad; myfi yw yr hwn a wnaethum gae a mur, pan oeddit ti yn dechreu troi at bethau nad oeddwn i yn eu hoffi. Myfi oeddwn yr hwn a wnaeth yr hyn oedd hoff genyt yn chwerw i ti; dy ddydd yn nos, dy ffordd esmwyth yn ddraenllyd, ac hefyd a waradwyddais bawb ag ydoedd yn ceisio dy ddistrywio di. Myfi oedd yr hwn a osododd Mr. Ofn-duwiol ar waith yn Man-soul. Myfi ydoedd yr hwn a gyffrôdd dy gydwybod a'th ddeall, dy ewyllys a'th serchiadau, ar ol dy fawr a'th ofidus dyniad yn ol. Myfi ydoedd yr hwn a gymerais, yr ail dro, y Diaboloniaid allan o Man-soul; myfi oeddwn yr hwn a'u gyrchfygodd hwynt, ac a'u difethodd hwynt o flaen dy wyneb di.

Ac yn awr, fy Man-soul, myfi a ddychwelais atat ti mewn heddwch, a'th gamweddau yn fy erbyn i ydynt fel pe buasent heb fod. Ac ni bydd hi gyda thi fel yn y dyddiau gynt, ond mi a wnaf yn well erot ti nag ar dy ddechreuad; canys yn mhen enyd bach o amser yn mhellach dros dy ben di, myfi (ond na thralloder di oherwydd yr hyn yr wyf yn ei ddywedyd) a dynaf i lawr y dref enwog yma, Man-soul, goed a cherig, i'r llawr, a mi a gludaf ei cherig, ei choed, ei muriau, ei llwch, a'i thrigolion hi, i fy ngwlad fy hun, sef i deyrnas fy Nhad, a mi a'i gosodaf hi i fyny yno yn y fath gadernid a gogoniant a'r nas gwelodd hi erioed yn y deyrnas lle y mae hi yn awr wedi ei gosod. Yno, hefyd, y gosodaf hi i fyny yn drigfan i fy

Nhad, canys i'r diben hyny y cyfodwyd hi ar y cyntaf i fyny yn nheyrnas Mundus, ac yno y gwnaf fi hi yn ddrych o ryfeddod, ac yn goffadwriaeth o drugaredd. Yno y caiff rhai genedigol Man-soul weled y cwbl o'r hyn oll nis gwelsant yma; yno y cânt hwy fod yn ogyfuwch â'r rhai hyny ag yr oeddynt yn îs na hwynt yma. Ac yno y cei di, O! fy Man-soul, y fath gymundeb â myfi, gyda'm Tad, a chyda eich Arglwydd-Ysgrifenydd, a'r nad yw yn bosibl iddo ei fwynhau yma, ac nis gellir byth, pe byddit ti byw yn Mundus fil o flynyddoedd.

Ac yno, O! fy Man-soul, ni bydd arnat ti ofn lleiddiaid mwyach, na Diabolon-iaid mwyach. Ni bydd yno ddim bradwriaeth, na llyfeliaethau, nac amcanion, yn cael eu llyfelu yn dy erbyn mwyach, O! fy Man-soul. Ni chei di yno glywed dim newyddion drwg, na llais y tabwrdd Diabolonaidd mwyach. Yno ni chei di weled dim o'r llumanwyr Diabolonaidd, nac ychwaith edrych ar luman Diabolus. Ni chyfodir mynydd neu garn Ddiabolonaidd yn dy erbyn di yno, ac ni osodir i fyny yno un faner Ddiabolonaidd, i beri i ti ddychrynu.

Yno ni chyfarfyddi di â dim tristwch, na gofid, ac ni bydd bosibl i un Diabolon-iad drachefn, yn dragywydd, allu ymlusgo i'th odrefau, na lletya yn dy furiau, na bod yn weledig yn dy derfynau holl ddyddiau tragywyddoldeb. Einioes yno a barhâ yn hŵy nag y gellwch chwi ddymuno iddo barhau yma, ac ni bydd dim rhwystr yn ei hamgylchu yn dragywydd.

Yno, O! Man-soul, y cyfarfyddi â llawer o'r rhai hyny ag a fuant fel tithau, ac a fuant yn gyfranogion o'th dristwch di, sef y cyfryw rai ag a ddewisais, a brynais, ac a neillduais i fel tithau, i lys a dinas frenhinol fy Nhad. Hwynt-hwy oll a fyddant lawen ynot ti, a phan welych di hwynt, ti a fyddi lawen yn dy galon.

Y mae yno bethau, O! Man-soul, sef pethau a ddarparodd fy Nhad a minau, nas gwelwyd erioed er dechreuad y byd, a hwy a osodwyd i fyny gyda'm Tad, ac a seliwyd i fyny yn mhlith ei drysorau ef i ti, hyd oni ddelych di yno i'w mwynhau. Mi a fynegais i ti o'r blaen y symudwn i fy Man-soul, ac y gosodwn hi i fyny mewn man arall, ac yn mha le y gosodaf hi, yno y mae y rhai hyny a'th garant di, a'r rhai hyny ag sydd yn gorfoleddu ynot ti yn awr, ond yn fwy o lawer pan welont hwy di wedi dy ddyrchafu i anrhydedd. Fy Nhad, y pryd hyny, a'u henfyn hwynt i'ch ceisio chwi, a'u mynwesau hwynt ydynt gerbydau i'ch gosod chwi i mewn ynddynt. A chwychwi, O! fy Man-soul, a farchogwch ar adenydd y gwynt. (Salm lxviii. 17.) Hwy a ddeuant i'ch caullawio, i'ch cyfarwyddo, ac i'ch dwyn yno, pan welo eich llygaid mwyach mai hwnw fydd eich porthladd dymunol.

Ac fel hyn, O! fy Man-soul, y dangosais i pa beth a wneir i ti ar ol hyn, os gelli ddeall; ac yn awr myfi a fynegaf i ti pa beth sydd raid ei fod, yn bresenol, yn ddyledswydd ac yn ymaarferiad i ti, hyd oni ddelwyf a'th gyrchu di ataf fy hunan, fel yr amlygir yn Ysgrythyr y gwirionedd.

Yn gyntaf, yr wyf yn gorchymyn fod i ti, rhagllaw, gadw y lifrau a roddais i ti cyn fy ymadawiad diweddaf oddiwrthyt ti, yn fwy gwyn a glân; gwna ef, meddaf, canys hyn fydd dy ddoethineb di. Hwynt-hwy, ynddynt eu hunain, ydynt liain main, ond y mae yn rhaid i ti eu cadw hwynt yn wyn ac yn lân. Hyn fydd eich doethineb, eich anrhydedd, ac a fydd yn fawr er fy ngogoniant inau. Pan y byddo eich gwisgoedd yn wynion, y byd a'ch cyfrif chwi yn eiddof fi. Hefyd, pan y mae eich gwisgoedd yn wynion, yna y bydd i mi ymhyfrydu yn eich ffyrdd chwi, canys yna eich rhodiad yma a thraw fydd fel tywyniad mellten, fel y gorfydd ar y rhai hyny ag a fyddo yn bresenol gymeryd, neu ddàl sylw arno; hefyd, fe wneir i'w llygaid ddallu wrth edrych arno. Trwsia dy hun, gan hyny, yn ol fy arch i; gwna lwybrau uniawn i'th draed; felly y bydd dy Frenin yn dirfawr chwennych dy degwch di, canys efe ydyw dy Ior, ymostwng dithau iddo ef.

Yn awr, fel y cadwech hwynt, fel yr archais i ti, myfi a ddarperais i ti ffynon agored i olchi dy wisgoedd ynddi. Gwel, gan hyny, ar fod i ti yn fynych ymolchi yn fy ffynon i, ac na rodia mewn dillad budron, canys fel y mae ef er dianrhydedd ac anmharch i mi, felly y bydd er anghysur i tithau. Cadw dy wisgoedd bob amser yn wynion, ac na fydded diffyg enaint ar dy ben.

Fy Man-soul, fe ddarfu i mi dy waredu di oddiwrth amcanion, bwriadau, gosodiadau, a bradwriaethau Diabolus; ac am hyn oll nid wyf fi yn ceisio dim genyt ti, ond na byddo i ti dalu i mi ddrwg am fy naioni, ond boed i ti gofio fy nghariad i, a'r parhad o'm caredigrwydd i'm hanwylyd Man-soul, fel y byddo iddo dy gynhyrfu di i rodio, yn dy fesur, yn ol y daioni a ystofwyd arnat ti.

Yn yr amseroedd gynt yr aberthau a rwymid â rhaffau wrth gyrn yr allor aur. Ystyria yr hyn a ddywedir wrthyt ti, O! fy ngwynfydedig Man-soul. O! fy Man-soul! mi a fum byw, mi a fum farw, a byw ydwyf fi, ac ni byddaf marw mwyach drosot ti. Yr wyf fi yn byw fel na byddech di marw. Am fy mod i yn fyw y byddi dithau byw hefyd. Myfi a'th gymodais di â'm Tad trwy waed fy nghroes; a chan dy fod wedi dy gymodi, tydi a gai fyw trwof fi. Mi a weddiaf drosot, mi a ymladdaf drosot, mi wnaf eto i ti ddaioni.

Nid oes dim a'th niweidia di ond pechod; nid oes dim a'm tristâ inau ond pechod; nid oes dim a all dy wneuthur di yn wael yn ngolwg dy elynion ond pechod; gochel bechod, fy Man-soul.

Ac a wyddost ti paham y darfu i mi ar y cyntaf, ac yr ydwyf yn bresenol, yn goddef Diaboloniaid i drigo yn dy furiau di, O! Man-soul? I'th gadw di ar ddeffro, ac i brofi dy gariad y mae; i'th wneuthur di yn wiliadwrus, ac i beri i ti eto brisio fy nghadbeniaid, eu milwyr, a'm trugaredd.

Y mae ef, hefyd, fel y gwnelid i ti eto gofio pa gyflwr gofidus yr oeddit ti

unwaith ynddo —yr ydwyf yn meddwl, pan ydoedd nid rhai, ond yr holl Ddiaboloniaid yn trigo, nid yn unig yn dy furiau, ond yn dy gastell, ac yn dy amddiffynfa gadarn, O! Man-soul.

Myfi, gan hyny, a'u gadewais hwynt ynot ti, nid i wneud niwed i ti, yr hyn eto a wnant, os gwrandewi di arnynt, a'u gwasanaethu hwynt, ond i wneuthur daioni i ti, yr hyn sydd raid i ti ei wneuthur, os tydi a wyli ac a ymleddi yn eu herbyn hwynt. Gwybydd, gan hyny, mai i beth bynag y temtiont di iddo, fy amcan i yw, nid dy yru di yn mhellach, ond yn nes at fy Nhad, i ddysgu i ti ryfel, i wneuthur gweddio yn ddymunol i ti, ac i'th wneuthur yn fychan yn dy olwg dy hun. Gwrando yn ddiesgeulus ar hyn, O! fy Man-soul.

Dangos, gan hyny, dy gariad, fy Man-soul, ac na âd i'r rhai hyny ag sydd tu fewn i'th furiau, ddwyn ymaith dy serchiadau oddiwrth yr hyn a waredodd dy enaid di. Ië, bydded i'r olwg ar Ddiaboloniad gyffroi dy gariad ataf fi. Myfi a ddaethum unwaith, dwywaith, a theirgwaith i'th achub di oddiwrth wenwyn y saethau hyny ag a weithiasai allan dy farwolaeth; saf drosof fi, dy gyfaill, fy Man-soul, yn erbyn y Diaboloniaid, a mi a safaf drosot ti o flaen fy Nhad a'i holl lys; a châr fi yn erbyn profedigaeth, a mi a'th garaf di, serch dy wendidau.

O! fy Man-soul! cofia pa beth a wnaeth fy nghadbeniaid, a'm milwyr, a'm hoffer rhyfel i drosot ti: hwy a ymladdasant drosot, hwy a oddefasant lawer ar dy law di, i wneuthur i ti ddaioni, O! Man-soul. Pe buasit ti hebddynt hwy i'th gynorthwyo di, Diabolus yn sicr a wnaethai law o honot ti; meithrin hwynt, gan hyny, fy Man-soul. Pan wnelych di yn dda, hwythau a fyddant o'r goreu; pan wnelych di yn ddrwg, hwythau a fyddant yn ddrwg, ac yn glaf, ac yn wàn. Na wna fy nghadbeniaid i yn gleifion, O! Man-soul, canys os byddant yn gleifion, ni elli di fod yn iach; os byddant hwy yn weiniaid, ni elli di fod yn gadarn; os byddant hwy yn llewygus, ni elli di fod yn rymus ac yn bybyr dros dy Frenin, O! Man-soul! ac na feddwl di yn wastadol fyw ar deimlad; y mae yn rhaid i ti fyw ar fy ngair i; y mae yn rhaid i ti gredu, O! fy Man-soul, pan ydwyf yn absenol oddiwrthyt, fy mod i eto yn dy garu di, ac yn dy ddwyn di ar fy nghalon yn dragywydd.

Cofia, gan hyny, O! fy Man-soul, dy fod yn anwyl genyf; megis, gan hyny, y dysgais di i wilio, i ymladd, i weddio, ac i wneuthur rhyfel yn erbyn fy ngelynion. felly yn awr yr wyf yn gorchymyn i ti gredu fod fy nghariad yn ddianwadal tuag atat ti. O! fy Man-soul! y modd y gosodais fy nghalon a'm cariad atat!— gwilia.

Wele, ni osodaf arnat faich arall, eithr dàl yr hyn sydd genyt, hyd oni ddelwyf.

# CADWEDIGAETH TRWY RAS;

NEU,

## DRAETHAWD AM RAS DUW.

YN DANGOS,

I. BETH YW BOD YN GADWEDIG.
II. BETH YW BOD YN GADWEDIG TRWY RAS.
III. PWY YDYNT HWY A GEDWIR TRWY RAS.
IV. PA FODD YR YMDDENGYS MAI TRWY RAS Y MAENT YN GADWEDIG.
V. BETH ALLAI FOD Y RHESWM I DDUW DDEWIS CADW PECHADURIAID TRWY RAS, YN HYTRACH NA THRWY UN MODD ARALL.

GAN

JOHN BUNYAN.

"Canys trwy ras yr ydych yn gadwedig, trwy ffydd; a hynny nid o honoch eich hunain: rhodd Duw ydyw."—*Ephesiaid* ii. 8.

# RHAGYMADRODD.

---

DDARLLENYDD,

Yn y Llyfr bychan hwn y gosodir o'th flaen Draethawd am ras Duw, ac iechydwriaeth trwy y gras hwnw; yn yr hwn Draethawd yr amlygir i ti fel y mae pob un o'r Personau yn y Duwdod yn gwneuthur ei ran yn nghadwedigaeth pechaduriaid—sef,

I. Y modd y gosodir ei ras allan gan y Tad.

II. Y modd y gosodir ei ras allan gan y Mab.

III. Y modd y gosodir ei ras allan gan yr Yspryd Glân.

Yr hyn bethau a gei yma wedi eu trin yn gyflawn.

Dangosir hefyd yn y Traethawd bychan hwn, ffordd Duw yn ymddwyn at bechadur, gydag ymddygiad y pechadur tuag at Dduw yn amser ei dröedigaeth, &c., lle y mae gras y naill, a gwrthnysigrwydd y llall, yn cael eu dangos yn eglur.

Os gweli fi yn fyr mewn rhai pethau, cyfrif hyny i'm tueddrwydd i fod felly.

Os tybi fy mod yn gŵyro ryw ochr i'r gwirionedd, cyfrif hyny i fy ngwendid.

Ond os cei yma ddim er dy adeiladaeth, a chynydd dy ras, a'th ddiddanwch ysprydol, cyfrif hyny i drugaredd Duw wedi ei roddi yn rhad i ti a minau.

Yr eiddot, i'th wasanaethu â'r ychydig sydd genyf,

JOHN BUNYAN.

# CADWEDIGAETH TRWY RAS;

NEU

## DRAETHAWD AM RAS DUW.

"Trwy ras yr ydych yn gadwedig."—EPHES. ii. 5.

YN y bennod gyntaf, o'r bedwaredd hyd y ddeuddegfed adnod, y mae'r apostol y traethu am etholedigaeth, mewn perthynas i'r weithred ei hun, yn nghyd â'r diben, a'r moddion trwy ba rai yr ydoedd yn cael ei dwyn oddiamgylch.

I. Y weithred, fel y mynega i ni, ydoedd rydd-ddewisiad Duw o *rai*: adn. 4, 5, 11.

II. Y diben ydoedd gogoniant Duw yn eu hiechydwriaeth: adn. 6, 14.

III. Y moddion yn tywys i hyny ydoedd Iesu Grist ei hun: "Yn yr hwn y mae i ni brynedigaeth trwy ei waed ef, sef maddeuant pechodau, yn ol cyfoeth ei ras ef:" adn. 7. Wedi darfod hyn, mae efe yn traethu yn nghylch ymostyngiad yr Ephesiaid i'r ffydd (megis yr arddangosasid iddynt yn ngwirionedd yr efengyl), ac hefyd yn nghylch eu seliad gan Lân Yspryd Duw hyd ddydd y prynedigaeth: adn. 12—14.

Yn mhellach, mae efe yn adrodd iddynt fel yr oedd yn diolch i Dduw drostynt, gan wneuthur coffa am danynt yn ei weddïau, fel y gwybyddent "beth yw gobaith ei alwedigaeth ef, a pheth yw golud gogoniant ei etifeddiaeth ef yn y saint; a pheth yw rhagorol fawredd ei nerth ef tuag atom ni y rhai ydym yn credu, yn ol gweithrediad nerth ei gadernid ef; yr hon a weithredodd efe yn Nghrist, pan y cyfododd ef o feirw:" adn. 15—20.

A rhag i'r Ephesiaid, wrth glywed adrodd eu holl ragorfreintiau hyn, ollwng dros gof eu hanhaeddedigrwydd o honynt, mae yn adgoffa iddynt fel yr oeddynt gynt yn feirw mewn camweddau a phechodau; a'u bod y pryd hyny yn rhodio ynddynt "yn ol helynt y byd hwn, yn ol tywysog llywodraeth yr awyr, yr yspryd sydd yr awr hon yn gweithio yn mhlant yr anufudd-dod:" pen. ii. 1, 2.

Wedi eu galw fel hyn yn ol i goffâu eu hunain, sef, pa beth oeddynt yn eu cyflwr diadgenhedledig; y mae yn myned yn mlaen i ddangos iddynt y modd y bywhasid hwynt ar y cyntaf trwy adgyfodiad eu pen, sef Crist, (yn yr hwn y dewisasid hwynt o'r blaen,) a'u bod eisoes ynddo ef wedi eu gosod i eistedd yn y nefolion-leoedd (adn. 6), gan grybwyll, ar y ffordd, wir achos yr holl wynfydedigrwydd hwn a gai y duwiolion eu fwynhau mewn byd arall, a hyny yw cariad a

gras Duw. "Eithr Duw, yr hwn sydd gyfoethog o drugaredd, oherwydd ei fawr gariad trwy yr hwn y carodd efe ni; ïe, pan oeddym feirw mewn camweddau, a'n cyd-fywhaodd ni gyda Christ (trwy ras yr ydych yn gadwedig.") Y geiriau diweddaf hyn sy'n ymddangos fel diweddglo yr apostol, megis pe dywedasai, Os chwychwi, Ephesiaid, yn wir oeddych feirw mewn camweddau a phechodau; os yn wir yr oeddych yn blant digofaint megis eraill, yna ni haeddech well nag eraill. Drachefn: Os Duw a'ch dewisodd, os Duw a'ch cyfiawnhaodd, ac a'ch gwaredodd trwy Grist, ac a adawodd i eraill, cystal a chwithau wrth natur, i farw yn eu pechodau—yna gwir achos eich cyflwr gwynfydedig hwn yw rhad ras Duw. Ond dyma yn gymwys fel y mae; gan hyny, "Trwy ras yr ydych yn gadwedig." Yr holl ddaioni yr ydych yn ei fwynhau yn rhagor nag eraill, o unig ewyllys da y mae: "Trwy ras yr ydych yn gadwedig."

Y ffordd a gymeraf i draethu ar y geiriau hyn fydd fel y canlyn. Cynygiaf rai cwestiynau oddiwrth y geiriau; a chyfarwyddaf atebion neillduol iddynt. Yr wyf yn gobeithio y bydd i mi, mewn rhyw fesur, yn yr atebion hyn, ateb disgwyliad y darllenydd duwiol, cydwybodol; ac yna tynaf gasgliad cymhwysiadol oddiwrth y cwbl. Y cwestiynau ydynt:

I. Beth yw bod yn gadwedig?

II. Beth yw bod yn gadwedig trwy ras?

III. Pa rai ydynt hwy a gedwir trwy ras?

IV. Pa fodd yr ymddengys mai trwy ras y maent yn gadwedig?

V. Beth allai fod y rheswm i Dduw ddewis cadw pechaduriaid trwy ras, yn hytrach na thrwy un modd arall?

Yn awr, y rheswm paham yr wyf yn cynyg y cwestiynau hyn oddiwrth y geiriau yw, am fod y geiriau eu hunain yn eu cynwys. Y tri cyntaf a seilir ar amrywiol ymadroddion y testyn; a'r ddau olaf sydd i wneuthur ffordd i eglurhad o'r cyfan

CWEST. I.—*Beth yw bod yn gadwedig?*

Wrth y cwestiwn hwn y gallwn ddeall fod y fath beth a damnedigaeth yn ddyledus i ddyn am bechod: canys cadw neu achub sy'n arwyddocau fod y neb a gedwir mewn cyflwr o golledigaeth yn bresenol. Cadwedigaeth i'r hwn ni chollwyd nid yw o ddim gwerth, nac ychwaith yn rhywbeth ynddo ei hun. Achub, prynu, neu waredu, yn gyffredin, ydynt eiriau o'r un cystadledd; ac yn arwyddocau ein bod ni mewn cyflwr caeth a thruenus. Gan hyny, y gair hwn, *cadwedig*, yn yr ystyr yr arferir ef yma gan yr apostol, sydd air o fawr werth, yn gymaint a bod y trueni oddiwrth yr hwn y cedwir, neu yr achubir ni, o bob math, yn fwyaf erchyll ac arswydus.

Y trueni oddiwrth yr hwn y bydd rhai yn gadwedig sydd dra arswydus: nid llai ydyw na chadwedigaeth oddiwrth bechod, melldith Duw, a thân uffern yn dragywydd. Beth mwy ffiaidd na phechod? Beth anhaws ei oddef na digofaint Duw anfeidrol? Beth mor ddychrynllyd ac ofnadwy a phwll diwaelod uffern? Ië, meddaf, beth mor ofnadwy a chael ein poeni yno byth gyda diafol a'i angylion. Yn awr, bod yn gadwedig, yn ol fy nhestyn, ydyw gwaredu y pechadur oddiwrth y pethau hyn, a'r holl bethau eraill sy'n perthynu iddynt.

Ac er y dichon pechaduriaid feddwl nad yw'n fater mor galed i ateb y cwestiwn hwn, eto rhaid i mi ddywedyd i chwi, nad oes un dyn a ŵyr, yn deimladol, *beth yw bod yn gadwedig*, ond a ŵyr rywbeth am ddychrynedigaeth y tri pheth hyn; megis y mae yn eglur, oblegid fod pawb eraill, wrth eu hymarferiad, yn ei gyfrif fel mater o ddim pwys, pan, yn y cyfamser, y mae yn fater o'r pwys a'r canlyniad penaf yn mhlith dynion: "Canys pa lesâd i ddyn os enill efe yr holl fyd, a cholli ei enaid ei hun?" Math. xvi. 26.

Eithr meddaf, os yw y gair hwn, *cadwedig*, yn meddwl ein gwaredigaeth oddiwrth bechod, pa fodd y geill efe wybod beth yw bod yn gadwedig, yr hwn yn ei gydwybod ni ocheneidiodd erioed dan bwys pechod? Ië, anmhosibl, un modd arall, iddo lefain allan â'i holl galon, "Ha wŷr frodyr, beth a wnawn ni?"—hyny yw, "Beth a wnawn ni i fod yn gadwedig?" Act. ii. 37. Y dyn nid oes clwyf na dolur arno, ni ddichon wybod rhinwedd meddyginiaeth, sef trwy ei brofiad ei hun; am hyny, nis geill ei brisio a'i werthfawrogi, megis yr hwn a gafodd iachâd trwyddo. Gosodwch blastr wrth le iach, ac ni wnaiff hyny i'w rinwedd ymddangos; ac nis geill efe at gnawd pa un y cymhwyswyd ef, trwy hyny ddeall ei werth. Bechaduriaid, chwy-chwi yr wyf yn ei feddwl ag sydd heb eich clwyfo gan euogrwydd, â'ch gorthrymu gan faich pechod, nis gellwch—mi a'i dywedaf drachefn, nis gellwch yn eich cyflwr annheimladwy hwn, wybod *beth yw bod yn gadwedig.*

Drachefn, y gair hwn, *cadwedig* (megis y soniais), sy'n cynwys gwaredigaeth oddiwrth ddigofaint Duw: pa fodd, gan hyny, y gall efe ddywedyd beth yw bod yn gadwedig, yr hwn ni theimlodd faich digofaint Duw? Efe, efe yr hwn sydd yn arswydo ac yn crynu rhag digofaint Duw, a ŵyr oreu beth yw bod yn gadwedig. (Act. xvi. 29.)

Yn mhellach, y gair hwn, *cadwedig*, sy'n cynwys gwaredigaeth oddiwrth angau ac uffern: pa fodd, gan hyny, y dichon efe ddywedyd beth yw bod yn gadwedig, yr hwn ni fu erioed yn deimladwy o ofidiau y naill, ac ni thrallodwyd ag ofnau y llall? Dywed y Salmydd, "Gofidion angau a'm cylchynasant, a gofidiau uffern a'm daliasant:· ing a blinder a gefais. Yna y gelwais ar enw yr Arglwydd." Creffwch —yna, "Yna y gelwais ar enw yr Arglwydd; attolwg, Arglwydd, gwared fy enaid." Salm. cxvi. 3, 4. Yna, yn ei gyfyngder, pan wyddai beth oedd bod yn

gadwedig; yna y galwodd, oherwydd, meddaf, yna y gwyddai beth oedd bod yn gadwedig.

Dyma y dyn, meddaf, ac ef yn unig, yw yr hwn a ŵyr beth yw bod yn gadwedig; yr hyn a ddengys yn eglur oddiwrth y gofal bychan sydd gan eraill i fod yn gadwedig; a'r ychydig arswyd sydd arnynt rhag bod yn golledig. Pa le y mae efe, yr hwn sy'n ymofyn ac yn griddfan am iechydwriaeth? Pa le, meddaf, y mae yr hwn a ffôdd am iechydwriaeth, oherwydd y digofaint sydd ar ddyfod? "O genhedlaeth gwiberod, pwy a'ch rhagrybuddiodd i ffoi rhag y llid a fydd?" Mat. iii. 7.

Och! onid yw y rhan fwyaf yn cyfrif iechydwriaeth fel peth diddim? Eithr am bechod, fel y maent yn ei garu, yn ei gofleidio, yn boddloni eu hunain arno, ac yn ei droi fel tamaid melys dàn ei tafodau. (Job xx 12.) Heblaw hyn, nid ydynt yn teimlo digofaint Duw, nac yn ffoi rhagddo. Ac am uffern, mae yn amheuaeth i lawer a oes un yn bod; ac yn wawd i eraill, y rhai y datodir eu hamheuon gan annuwiaeth. Ond i ddyfod at y cwestiwn, Beth yw bod yn gadwedig?

Bod yn gadwedig, a berthyn i iechydwriaeth, yn y rhanau, neu yn yr helaethrwydd o honi, neu yn mhob un. Fy meddwl yw, fod y testyn hwn yn perthyn i bob un, sef iechydwriaeth gyflawnedig, ac iechydwriaeth wedi ei chyflawni. Canys cadwedigaeth sydd waith graddol; neu, i fod mor ddealladwy ag a fyddo bosibl, cadwedigaeth sydd orchwyl â'i ddechreuad cyn seilio y byd, yr hwn ni chyflawnir ychwaith cyn ei ddiwedd.

1. Gan hyny, gellir dywedyd ein cadw yn arfaeth Duw er cyn dechreuad y byd. Yr apostol a ddywed, iddo ein hachub ni, a'n galw â galwedigaeth sanctaidd: "nid yn ol ein gweithredoedd ni, ond yn ol ei arfaeth ei hun a'i ras, yr hwn a roddwyd i ni yn Nghrist Iesu, cyn dechreuad y byd. (2 Tim. i. 9.) Dyma ddechreuad iechydwriaeth, ac yn ol y dechreuad hwn y mae y cyfan yn dyfod o amgylch, ac yn cyfarfod yn y diwedd. Efe a'u hachubodd "yn ol yr arfaeth dragywyddol, yr hon a wnaeth efe yn Nghrist Iesu." Eph. iii. 11. Gellir dywedyd fod Duw, trwy ein hachub yn y modd hwn, yn ein hachub trwy wneuthur y pethau hyny a ordeiniodd efe yn effeithiol i gyflawniad gwynfydedig ein hiechydwriaeth. Ac oddiyma y dywedir, ein hethol, neu ein dewis ni yn Nghrist i iechydwriaeth. A thrachefn; iddo ef, yn y dewisiad hwnw, gyfranu y cyfryw ras i ni ag a gyflawnai ein hiechydwriaeth. Ië, mae yr ymadrodd yn dra helaeth—"Yr hwn a'n bendithiodd ni â phob bendith ysprydol yn y nefolion leoedd yn Nghrist; megis yr etholodd efe ni ynddo ef cyn seiliad y byd." Ephes. i. 3, 4.

2. Megis y gellir dywedyd ein cadw ni yn arfaeth Duw cyn seiliad y byd, felly hefyd ddarfod ein cadw ni cyn ein tröedigaeth, neu ein galwedigaeth at Grist: oherwydd paham y gosodir *cadwedigaeth* cyn *tröedigaeth*. Efe a'n *hachubodd* ac

a'n *galwodd.* Nid yw yn dywedyd, Efe a'n *galwodd* ac a'n *hachubodd*—ond y mae efe yn dodi *achub* o flaen *galw.* Felly, drachefn, y dywedir ein cadw yn Nghrist, a'n galw. (Jud. i.) Am hyny, medd Duw drachefn, "Myfi a faddeuaf i'r rhai a weddillwyf," Jer. l.; ac hyny yw, megis y mae Paul yn egluro, y rhai a etholwyd ac a gadwyd (Rhuf. xi. 5), a'r rhan yma o iechydwriaeth a gyflawnir drwy hir-ymaros Duw. Mae Duw yn cyd-ddwyn â'i etholedigion, er mwyn Crist, drwy holl amser eu diadgenhedliad, nes y dêl yr amser i ben a benododd efe i'w tröedigaeth. Pe buasai y farn ddyledus i'r pechodau yr oeddym yn euog o honynt cyn tröedigaeth yn cael ei chyflawni arnom, ni buasem yn awr ar y ddaear yn cyfranogi o'r alwedigaeth nefol. Ond y dialeddau dyledus iddynt a ragflaenwyd drwy amynedd Duw, a chadwyd ninau drwy holl amser ein hannuwiol a'n hannychweledig gyflwr oddiwrth y farwolaeth a'r uffern hòno a haeddasom am ein pechodau ar ddwylaw Duw.

A dyma yr achos y caniateir hir oes i'r etholedigion cyn tröedigaeth; ac na ddichon yr holl bechodau y maent yn wneuthur, na'r holl farnedigaethau haeddiannol iddynt, eu gyru allan o'r byd cyn tröedigaeth. Manasseh, chwi wyddoch, oedd bechadur mawr, ac a gaethgludwyd o'i wlad ei hun i Babilon, am ei drosedd: ond ei ladd nis gellid, er i'w bechodau haeddu hyny fil o weithiau. Ond beth oedd yr achos? oherwydd nad oedd eto wedi ei alw. Duw a'i dewisasai yn Nghrist, ac a osodasai i fyny ynddo stôr o ras, yr hwn yr oedd raid ei gyfranu i Manasseh cyn ei farw. Am hyny, rhaid oedd argyhoeddi Manasseh, ei ddychwelyd, a'i achub. Y dyn yr oedd ynddo leng o gythreuliaid, nis gellid ei ddifetha ganddynt (gyda'r holl bechodau a wnaeth yn amser ei ddiadgenhedliad) cyn trôedigaeth. (Marc v. 1—20.) Pa gynifer o weithiau (fel y gallwn yn hawdd ddychymyg) yr ymosodwyd ar fywyd y creadur truan hwnw gan y cythreuliaid oedd ynddo? Eto nis gallent ei ladd, er bod ei drigfan yn agos i làn y môr, a chan y cythreuliaid allu i'w yru o amgylch; er hyn, nis gallent ei yru yn mhellach na'r mynyddoedd oedd ar làn y môr. Ië, cynorthwynent ef yn fynych i dori ei gadwynau a'i lyffetheiriau, gan ei wneuthur mor wallgofus ag un o Fedlam. Perswadient ef hefyd i neillduo oddiwrth ddynion, a'i dori ei hun â cherig; ond ei ladd nis gallent, ei foddi ni feiddient. Eithr efe a achubwyd i gael ei alw; cadwyd ef yn Nghrist, er hyn oll, ac a alwyd. Yr un modd y mynegir am y bachgen oedd ag ysbryd mud a byddar ganddo—(Marc ix. 14—29);—yr hwn a defiid gan ddiafol yn fynych i'r tân a'r dwfr i'w ddifetha; yr hyn nis gallai fod. Fel hyn hefyd y gwnaethpwyd â llawer eraill—ond rhaid oedd eu hachub i gael eu galw. Pa gynifer o farwolaethau y gwaredwyd ac yr achubwyd rhai oddiwrthynt cyn tröedigaeth! Rhai a syrthiasant i afonydd, eraill i ffynonau neu bydewau; rhai i'r môr, a rhai i ddwylaw dynion drwg. Ië, rhai a gyhuddwyd yn gyfiawn, ac a euogfarnwyd, fel y lleidr ar y groes, ond ni chaent farw cyn eu tröedigaeth. Hwy "a gadwyd yn Iesu Grist, ac a alwyd."

Gristion galwedig, pa sawl gwaith y gosododd dy bechodau di ar glaf-wely, ac, i'th dyb dy hun ac eraill, wrth fin y bedd? Eto Duw a ddywedodd am danat, "Bydded fyw, canys nis cafodd eto dröedigaeth." Gwelwch, gan hyny, fel y *cedwir* yr etholedig cyn eu *galw*. "Duw, yr hwn sydd gyfoethog o drugaredd, oherwydd ei fawr gariad trwy yr hwn y carodd efe ni; ïe, pan oeddym feirw mewn camweddau," &c., Eph. ii. 4, 5, a'n cadwodd yn Nghrist, ac a'n galwodd. Yn awr, ein cadwedigaeth hwn sydd yn tarddu oddiwrth chwech o achosion.

(1.) Duw a'n dewisodd ni i iechydwriaeth; am hyny ni fyn rwystro ei amcanion ei hun i ben. (1 Thes. v. 9.)

(2.) Duw a'n rhoddodd ni i Grist; a'i rodd yn gystal a'i alwedigaeth sydd yn ddiedifarus. (Rhuf. xi. 29. Ioan vi. 37.)

(3.) Crist a'n pwrcasodd ni â'i waed. (Rhuf. v. 8.)

(4.) Mae Duw yn cyfrif ei bobl yn Nghrist cyn eu tröedigaeth. (Ephes. i. 3, 4.)

(5.) Hwy a ordeiniwyd, cyn tröedigaeth, i fywyd tragywyddol; ïe, i'w galw, eu cyfiawnhau, a'u gogoneddu; ac am hyny, rhaid i hyn oll ddyfod arnynt. (Rhuf. viii. 29, 30.)

(6.) I'r diben hyn, fe appwyntiodd iddynt eu cyfran o'u mesur o ras, a hyny cyn dechreuad y byd; ac fel y byddont yn gyfranogion o'r holl ragorfreintiau hyn, hwy a gadwyd yn Nghrist, ac a alwyd.

3. Bod yn gadwedig ydyw cael ein dwyn at, a'n nerthu i gymeryd gafael ar Grist, trwy ffydd; a hyn a elwir cadwedigaeth trwy ras, trwy ffydd: "Canys trwy ras yr ydych yn gadwedig, trwy ffydd; a hyny nid o honoch eich hunain, rhodd Duw ydyw." Ephes. ii. 8.

(1.) Rhaid eu dwyn, ïe, eu tynu at Grist: "Canys ni ddichon neb ddyfod ataf fi, oddieithr i'r Tad, yr hwn a'm hanfonodd, ei dynu ef." Ioan vi. 44. Mae dynion, ïe, yr etholedigion, yn rhy weinion i ddyfod at Grist, heb gymhorth o'r nefoedd. Ni wnaiff gwahodd y tro: "Fel y galwent arnynt, felly hwythau a aent o'u gŵydd hwy:" am hyny, "*tynodd* hwynt â rhwymau cariad." Hos. xi. 2, 4.

(2.) Megis y rhaid eu dwyn at, felly rhaid eu helpu i gymeryd gafael ar Grist drwy ffydd: oblegid fel nad yw dyfodiad at Grist yn ein meddiant ein hunain felly nid yw ffydd chwaith; oherwydd paham, y dywedir ein cydgyfodi ynddo ef, "trwy ffydd gweithrediad Duw." Col. xi. 12. A thrachefn, dywedir ein bod "yn credu yn ol gweithrediad nerth ei gadernid ef; yr hon a weithredodd efe yn Nghrist pan y cyfododd ef o feirw." Ephes. i. 18—20. Yn awr, dywedir ein cadw *trwy ffydd*, oherwydd mai trwy ffydd yr ydym yn cymeryd gafael yn, yn mentro ar, ac yn gwisgo am danom Grist Iesu er bywyd i ni; er *bywyd*, meddaf, canys Duw, wedi ei wneuthur ef yn Iachawdwr, a roddes fywyd iddo ef i'w drosglwyddo i bechaduriaid. A'r bywyd y mae yn ei drosglwyddo iddynt yw haeddiant ei gnawd

a'i waed, y rhai, pwy bynag a fwytao ac a yfo o honynt, drwy ffydd, sydd ganddo fywyd tragwyddol; oherwydd bod haeddiant digonol yn y cnawd a'r gwaed hwnw i enill ffafr Duw. Ië, fe wnaeth hyny y dydd hwnw yr offrymwyd ef i fyny, trwy yr Yspryd tragywyddol, yn aberth o arogl peraidd iddo ef. Oherwydd paham, mae Duw yn cyfrif cyfiawnder Crist i'r hwn a gredo ynddo, trwy yr hwn gyfiawnder y cyfiawnheir ei berson, ac y gwaredir ef oddiwrth y gyfiawn farn hòno o'r gyfraith ag oedd ddyledus iddo. (Ioan v. 26; vi. 53—57. Ephes. iv. 32; v. 2. Rhuf. iv. 23—25.)

"Cadwedig trwy ffydd." Canys er dechreu o iechydwriaeth yn arfaeth Duw, a'i fod yn dyfod i ni trwy gyfiawnder Crist; eto ni fwrir ffydd allan oddiwrth fod â llaw yn ein hiechydwriaeth. Nid o ran ei bod yn haeddu dim, ond a roddir gan Dduw i'r sawl y mae efe yn eu hachub; fel trwyddi hi y cofleidiont ac y gwisgont am danynt y Crist hwnw, trwy gyfiawnder pa un y mae yn rhaid eu bod yn gadwedig.

Oherwydd paham, y ffydd yma yw'r hyn sydd yn gwahaniaethu y rhai a gedwir oddiwrth y rhai a ddemnir. Am hyny y dywedir, "Y neb ni chredo a gondemnir." Marc xvi. 16. Ac oddiyma, drachefn, y mae fod i gredinwyr gael eu galw yn blant, yn etifeddion, a'r rhai "a fendithir gyd ag Abraham ffyddlon: fel y rhoddid yr addewid trwy ffydd Iesu Grist i'r rhai sydd yn credu." Gal. iii. 9. 22.

Ac yma bydded i Gristionogion fod yn ochelgar i wahaniaethu rhwng haeddiannol ag offerynol achos eu cyfiawnhâd. Crist, gyda'r hyn a wnaeth ac a ddioddefodd, yw haeddiannol achos ein cyfiawnhâd. Oherwydd paham, y dywedir ei wneuthur ef "i ni gan Dduw yn ddoethineb, ac yn gyfiawnder." 1 Cor. i. 30. Ac fe ddywedir "ein cyfiawnhau ni trwy ei waed ef, a'n hachub rhag digofaint trwyddo ef." Rhuf. v. 9, 10. Canys ei waed a'i fywyd ef ydoedd gwerth ein prynedigaeth. "Gan wybod (medd St. Pedr) nad â phethau llygredig, megis arian neu aur, y'ch prynwyd:" (yn cyfeirio at arian y prynedigaeth dan y gyfraith, (Num. iii. 49,) "eithr â gwerthfawr waed Crist." 1 Pedr i. 18, 19. Gan hyny, yr wyt i wneuthur Crist Iesu yn wrthddrych dy ffydd a'th gyfiawnhâd. Canys trwy ei gyfiawnder ef y rhaid cuddio dy bechodau o olwg cyfiawnder y gyfraith: "Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwedig fyddi," Act. xvi. 31; "Oblegid efe a wared ei bobl oddiwrth eu pechodau." Mat. i. 21.

4. Bod yn gadwedig yw cael ein cadw yn y ffydd hyd y diwedd. "Y neb a barhao hyd y diwedd, hwnw a fydd gadwedig." Mat. xxiv. 13. Nid am fod parhad fel peth damweiniol mewn Cristionogrwydd, neu beth a ddygir oddiamgylch trwy ddiwydrwydd dynol. Y rhai ydynt gadwedig, a gedwir trwy allu Duw, a thrwy ffydd i iechydwriaeth. (1 Pedr i. 5.)

Eithr parhad sydd lwyr angenrheidiol i gyflawn gadwedigaeth yr enaid. canys yr hwn sydd yn syrthio yn fyr o'r ystâd y mae rhai cadwedig yn dyfod yn feddiannol o honi, nis gallant gyrhaedd yr ystâd hòno. Pe byddai un yn myned i forio, ac yn

amcanu tirio yn yr Yspaen, annichonadwy iddo gyrhaeddyd yno, os boddai ef ar y ffordd. Oherwydd paham, y mae parhad yn llwyr angenrheidiol i gadwedigaeth yr enaid; ac am hyny y cynwysir ef yn nghyflawniad o'n hiechydwriaeth: "Israel a achubir yn yr Arglwydd ag iechydwriaeth dragywyddol: ni'ch cywilyddir, ac ni'ch gwaradwyddir byth bythoedd." Esay xlv. 17. Parhad a wneir yma yn dra angenrheidiol i gyflawn gadwedigaeth yr enaid.

Ond, megis y dangosais o'r blaen, nid yw y rhan yma o iechydwriaeth yn ymddibynu arallu dynol: ond arno ef yr hwn a ddecheuodd waith da ynom. (Phil. i. 6.) Y rhan yma o iechydwriaeth, gan hyny, sydd fawr, ac yn galw am ddim llai na gallu Duw i'n cynorthwyo i'w gyflawni; megis yr ymddengys yn eglur i'r rhai a ystyriont—

(1.) Fod holl allu, dyfais, malais, a chynddaredd diafol ac uffern ei hun yn ein herbyn. Pob dyn ag sydd yn deall hyn, a wêl nad peth bychan yw bod yn gadwedig. Gelwir y diafol yn dduw, yn dywysog, yn llew, yn llew rhuadwy; dywedir fod marwolaeth ganddo, a'i nerth hefyd; ond beth a ddichon creadur truan sydd yn trigo mewn cnawd wneud yn erbyn duw, tywysog, llew rhuadwy, a nerth marwolaeth ei hun? Ein parhad, gan hyny, sydd yn gorphwys yn ngallu Duw. "A phyrth uffern nis gorchfygant hi." Mat. xvi. 18.

(2.) Yr holl fyd sydd yn erbyn yr hwn a fydd gadwedig, Ond beth yw un creadur truan wrth yr holl fyd?—yn enwedig, os ystyriwn fod gyda'r byd ddychrynfeydd, ofnau, gallu, mawrhydi, cyfreithiau, carcharau, crogbrenau, llosgfeydd, boddi, newyn, alltudiaeth, a miloedd o farwolaethau.

(3.) Chwanegwch at hyn, fod yr holl lygredd sydd yn aros yn ein cnawd ni yn ein herbyn; a hyny nid yn unig yn eu natur a'u bôd, ond maent yn trachwantu yn ein herbyn, yn rhyfela yn ein herbyn. (1 Pedr ii. 2), ac yn ein caethiwo i ddeddf pechod a marwolaeth. (Rhuf. vii. 23.)

(4.) Y twyll a'r hudoliaeth sydd yn y byd sydd yn erbyn y rhai a fydd gadwedig; llawer o ba rai a wauir mor gywrain, a drinir mor gymeradwy, ac a lyfnheir mor daclus ag Ysgrythyr a rheswm, fel y mae yn ddeng mil o ryfeddodau na lyncid yr etholedigion gyda hwynt. A'u llyncu a wnaid, pe na byddent yn etholedigion, a phe na byddai Duw ei hun wedi ymrwymo, un ai trwy allu i'w cadw rhag syrthio, neu trwy ras i faddeu iddynt, os syrthiant, a'u codi i fyny drachefn. (Mat. xxiv. 24. Ephes. iv. 14. Rhuf. iii. 10.)

(5.) Mae pob cwymp o eiddo yr etholedig yn erbyn iechydwriaeth ei enaid: ond y Cristion, wedi unwaith syrthio, ni chyfyd, ond fel y cynorthwyir ef gan Hollalluog nerth. "O! Israel, tydi a'th ddinystriaist dy hun; ond ynof fi y mae dy gymhorth," medd Duw. Hos. xiii. 9; xiv. 1. Salm xxxvii. 23.

Gristionogion, pe byddech effro, yma y byddai mater o syndod i chwi, i weled dyn

yn cael ymosod arno gan holl alluoedd uffern, ac i ddyfod ymaith yn goncwerwr. Onid rhyfeddod yw gweled creadur truan, yr hwn, ynddo ei hun, sydd waelach na phryf. (Job iv. 19), yn sefyll yn erbyn, ac yn gorchfygu yr holl ddiafliaid, yr holl fyd, ei holl chwantau, a'i lygredigaethau? Neu os syrth, onid rhyfeddod yw ei weled yn cyfodi drachefn, yn sefyll ar ei draed, ac yn rhodio gyda Duw drachefn, pan mae diafol ac euogrwydd ar ei uchaf, ac yn parhau ar ol hyn i gyd yn ffydd a sancteiddrwydd yr efengyl? Yr hwn sydd yn adnabod ei hun, a ryfedda. Yr hwn sydd yn adnabod temtasiynau, a ryfedda. Yr hwn sydd yn gwybod beth y mae cwymp ac euogrwydd yn ei feddwl, a ryfedda. Yn wir peth rhyfedd yw parhad; ac a lywodraethir gan allu Duw. Canys efe yn unig sydd yn alluog i'n cadw "yn ddigwymp, a'n gosod gerbron ei ogoniant ef yn ddifeius mewn gorfoledd. (Jud. xxiv.) Cynifer o blant Israel a aethant allan o'r Aipht ac a ddaethant i mewn i Ganaan, pa fodd y cyrhaeddasant yno? Dywed yr Ysgrythyr mai "Fel y cyfyd eryr ei nyth, y castella dros ei gywion, y lleda ei esgyll, y cymer hwynt, ac a'u dwg ar ei adenydd: felly yr Arglwydd yn unig a'i harweiniodd yntau, ac nid oedd duw dieithr gydag ef." Deut. xxxii. 11, 12. A thrachefn: "Efe a'u dygodd hwynt, ac a'u harweiniodd yr holl ddyddiau gynt." Esay lxiii. 9. Dafydd hefyd a ddywed, "Daioni a thrugaredd yn ddiau a'm canlynant holl ddyddiau fy mywyd, a phreswyliaf yn nhŷ yr Arglwydd yn dragywydd." Salm. xxiii. 6.

5. Bod yn gadwedig sydd yn galw am fwy na hyn oll. Yr hwn a fydd gadwedig, pan nad allo y byd hwn ei gynwys yn hwy, fydd raid iddo wrth arweiniad diogel i'r nefoedd. Canys dyna'r lle y mae yn rhaid i'r rhai cadwedig fwynhau eu hiechydwriaeth i'r eithaf. Y nefoedd hon a elwir yn *ddiwedd ein ffydd*; oherwydd mai yr hyn ag y mae ffydd yn edrych am dani ydyw, megis y dywed Pedr, y ben. i. 9: "Gan dderbyn diwedd eich ffydd, sef iechydwriaeth eich eneidiau." A thrachefn: "Eithr nid ydym ni o'r rhai sydd yn tynu yn ol i golledigaeth, namyn o ffydd i gadwedigaeth yr enaid." Heb. x. 39. Canys (megis y dywedais) y nefoedd yw lle y gwaredigion, i fwynhau eu hiechydwriaeth ynddo gyda'r llawenydd perffaith hwnw nad yw yma yn gyrhaeddadwy. Yna fe'n cedwir drwy ffydd, dan obaith o ogoniant; ond yno, nyni y rhai a gedwir, a fwynhawn ddiwedd ein ffydd, sef iechydwriaeth ein heneidiau. Yno y mae mynydd Sïon, y Jerusalem nefol, cymanfa a chynulleidfa y rhai cyntafanedig. Yno y mae lluoedd aneirif o angylion, ac ysprydoedd y cyfiawn, y rhai a berffeithiwyd: yno y mae Duw, Barnwr pawb, ac Iesu, Cyfryngwr y testament newydd. (Heb. xii. 22—24.) Yno y derbyn ein heneidiau gymaint o'r nefoedd ag a allant gynwys, a hyny yn ddidor. Oherwydd paham, pan ddelom yno, ni a fyddwn gadwedig yn wir!

Ond yn awr, i greadur tlawd gyrhaeddyd yno, dyna'r prif bwynt. Eithr pa fodd y deuaf yno? mae uchder a dyfnder ar y ffordd. (Rhuf. viii. 38. 39.)

Bwrier fod y Cristion tlawd yn awr ar glaf-wely, a miloedd o ofnau yn ei amgylchu, a deng mil ar ddiwedd hyn. Ofnau claf-wely—ac maent weithiau yn rhai arswydus: ofnau a genhedlir trwy olygu pechod, ysgatfydd, er ys deugain mlynedd o broffes; ofnau a genhedlir gan ddichellion dychrynllyd y diafol; golwg ar angau, y bedd, ac weithiau ar uffern ei hun; ac ofnau a genhedlir trwy neillduaeth a distawrwydd o Dduw a Christ, ac wrth, o bosibl, ymddangosiad y diafol ei hun. Rhai o honynt a wnaeth i Ddafydd lefain allan: "Paid a mi, fel y cryfhawyf, cyn fy myned, ac na byddwyf mwy." Salm xxxix. 13. "Gofidion angau (medd efe) a'm cylchynasant, a gofidiau uffern a'm daliasant, ing a blinder a gefais." cxvi. 4. Y pethau hyn, mewn lle arall, a eilw efe yn rhwymau, sydd gan y duwiol yn eu marwolaeth, a'r pläau nid yw eraill yn gynefin â hwynt. "Nid ydynt mewn blinder fel dynion eraill; ac ni ddialeddir arnynt hwy gyda dynion eraill." Salm lxxiii. 4, 5. Ond, yn awr, yr Arglwydd a weryd ei bobl oddiwrth hyn oll. Ni chaiff pechod nac ofn ein rhwystro, na'r bedd ein harswydo. Ond pa fodd y daw hyn i ben? Yn ddiau rhaid i ti wrth arweiniad diogel i'r nefoedd. Pa arweiniad? Arweiniad angylion. "Onid ysprydion gwasanaethgar ydynt hwy oll, wedi eu danfon i wasanaethu er mwyn y rhai a gânt etifeddu iechydwriaeth?" Heb. i. 14.

Nid yw yr angylion, gan hyny, i ballu y rhai a fyddant gadwedig; ond rhaid iddynt, megis cenadon dros Dduw, ddyfod i lawr i wneuthur y gwasanaeth hwn iddynt. Rhaid iddynt, meddaf, ddyfod i gymeryd gofal a siars yr enaid, i'w ddwyn yn ddiogel i fynwes Abraham. Nid ein gwaelder yn y byd, na gwendid ein ffydd, a rwystra hyn; ac ni chaiff sawyr ein doluriau beri i'r ysprydion prydferth yma fod yn ochelgar rhagom. Lazarus, y cardotyn, a brofodd hyn yn wir—cardotyn mor ddiystyrllyd gan y glwth bonheddig, na lyfasai ddyfod o'r tu mewn i'w byrth; cardotyn yn llawn o archollion a gwelïau crawnllyd. Ond, wele, pan y mae yn marw, yr angylion sydd yn dyfod o'r nef i'w gyrchu yno: "A bu i'r cardotyn farw, a'i ddwyn gan yr angylion i fynwes Abraham." Luc xvi. 22.

Mae yn wir fod profedigaethau gwely angau, yn fynych, yn fwyaf grymus, oherwydd mai y pryd hyny y mae y diafol yn chwareu ei gamp olaf â ni; nid yw byth i ymosod arnom mwyach. Heblaw hyny, ysgatfydd fod Duw o bwrpas yn caniatâu hyn, fel y byddo ein mynediad i mewn i'r nefoedd yn felysach, ac y dadseinio yn uwch o'r iechydwriaeth hon. O! peth gwynfydedig ydyw i Dduw fod yn Dduw i ni, a'n cyfarwyddwr, ïe, hyd angau, ac yno bod i'w angylion ein harwain yn ddiogel i ogoniant. Efe a "wared Israel o'i holl gyfyngderau." Salm xxv. 22.

6. Bod yn gadwedig, bod yn berffaith gadwedig, sydd yn galw am ychwaneg na hyn oll. Nid yw y duwiol yn berffaith gadwedig pan y mae eu heneidiau mewn meddiant o'r nefoedd. Gwir, y mae ein hyspryd wedi ei berffeithio; a chanddo gymaint o'r nefoedd ag a eill ei gynwys yn bresenol. Ond dyn, ac efe yn gynwys-

edig o gorph ac enaid, nis gellir dweyd ei fod yn berffaith gadwedig, tra nad oes ond rhan o hono yn y nefoedd. Gwerth gwaed Crist yw ei gorph yn gystal a'i enaid. Teml Dduw yw ei gorph, ac aelod o gorph, cnawd, ac esgyrn Crist. Nis gall efe, gan hyny, fod yn gyflawn gadwedig hyd oni adgyfodir y meirw. (1 Cor. vi. 13—19. Eph. v. 30.) Oherwydd paham, pan ddêl Crist yr ail waith, yna y gweryd efe y corph oddiwrth yr holl bethau hyny ag sydd yn ei wneuthur yn bresenol yn anghymhwys i'r nefoedd. "Canys ein hymarweddiad ni sydd yn y nefoedd; o'r lle hefyd yr ydym yn disgwyl yr Iachawdwr, yr Arglwydd Iesu Grist: yr hwn a gyfnewidia ein corph gwael ni, fel y gwneler ni yr un ffurf â'i gorph gogoneddus ef." Phil. iii. 20, 21. O! pa gymaint o ddaioni a osododd Duw i fyny yn y gair bychan hwn, cadwedig! Ni chanfyddwn yr holl ddaioni a osododd Duw i fyny yn y gair hwn, cadwedig, nes y dêl yr Arglwydd Iesu i adgyfodi y meirw. "Nid amlygwyd eto beth a fyddwn." Ioan iii. 3. Eithr hyd oni ymddengys beth a fyddwn, nis gallwn weled gwaelod y gair hwn, cadwedig. Gwir fod genym ernes yr hyn a fyddwn, mae genym Yspryd Duw: "Yr hwn yw ernes ein hetifeddiaeth ni, hyd bryniad y pwrcas." Ephes. i. 14. Y pwrcas yw ein corph ni. Gelwir ef yn *bwrcas prynedig*, oherwydd mai gwerth gwaed ydyw. Yn awr, prynedigaeth y pwrcas hwn yw ei adgyfodiad o'r bedd, yr hwn adgyfodiad a elwir yn brynedigaeth ein corph ni: "Fel y gwneler ni yr un ffurf a'i gorph gogoneddus ef." A phan fyddo y corph a'r enaid hwn yn gydgyfranogion o'r nefoedd, yna y byddwn bob ffordd yn gadwedig.

Mae tri pheth, oddiwrth ba rai y mae'n rhaid gwaredu y corph hwn oddiwrthynt.

(1.) Mae y budreddi pechadurus a gwael ag sydd eto yn aros ynddo, dan ba un yr ydym yn griddfan dros ein holl ddyddiau. (2 Cor. i. 2, 3.)

(2.) Mae marwoldeb, sydd yn ein darostwng ni i henaint, afiechyd, doluriau, poenau, clefydau, ac angau.

(3.) Mae y bedd a marwolaeth ei hun; canys angau yw y gelyn diweddaf a ddinystrir. "A phan ddarffo i'r llygradwy hwn wisgo anfarwoldeb, ac i'r marwol hwn wisgo anfarwoldeb, yna y bydd yr ymadrodd a ysgrifenwyd, Angau a lyncwyd mewn buddugoliaeth." 1 Cor. xv. 54.

Felly, pan ddêl hyn oddiamgylch, yna y byddwn gadwedig yn wir. Yna y bydd iechydwriaeth, yn mhob rhan o honi, yn cydymgyfarfod yn ein gogoniant. Yna y byddwn yn mhob ystyr yn gadwedig. Yn gadwedig yn arfaeth Duw—yn gadwedig yn ngwaith Crist—yn gadwedig trwy ffydd—yn gadwedig mewn enaid, ac mewn corph ac enaid yn nghyd yn y nefoedd—yn berffaith, yn ogoneddus, yn dragywyddol gadwedig.

Cyn y diweddwyf fy ateb i'r cwestiwn hwn, Beth yw bod yn gadwedig? ewyllysiwn ymddiddan ychydig am gyflwr eneidiau a chyrph y duwiolion yn y nefoedd, pan fwynhaont y stâd wynfydedig hon o iechydwriaeth.

Yn *gyntaf.* Am yr enaid. Efe a lenwir yno yn ei holl gynheddfau a'i alluoedd gyda'r fath fesur o wynfydedigrwydd a gogoniant ag a allo fyth ei gynwys.

(1.) Fe fydd y dealldwriaeth y pryd hyny yn berffaith mewn gwybodaeth. "Yn awr yr adwaen o ran:" yr ydym yn adnabod Crist, nefoedd, a gogoniant, o ran; "Eithr pan ddelo yr hyn sydd berffaith, yna yr hyn sydd o ran a ddilëir." 1 Cor. xiii. 10. Yna y cawn berffaith a thragywyddol weledigaethau o Dduw, a'r un bendigedig hwnw, ei Fab ef, Iesu Grist; meddwl cysurus am ba un sydd yn ein llanw rai gweithiau yn y fath fodd, tra yr ydym yn y byd hwn, a'i fod yn peri gorfoledd annhraethadwy a gogoneddus. (1 Pedr i. 8.)

(2.) Yna y bydd ein hewyllys a'n serchiadau yn enyn byth yn fflam o gariad tuag at Dduw, a'i Fab ef, Iesu Grist. Ein cariad yma sydd i lawr ac i fyny, yn frwd ac yn oer; ond yno fe fydd yn berffaith bob amser, ac yn y fath berffeithrwydd ag sydd yn anmhosibl ei fwynhau yn y byd hwn.

(3.) Yna y caiff ein cydwybod yr heddwch a'r gorfoledd hwnw na ddichon tafodau dynion ac angylion fyth ei fynegu.

(4.) Yna yr ehangir ein coffadwriaeth yn y fath fodd, i goffâu yr hyn oll a ddamweiniodd i ni yn y byd hwn, fel, gyda pharodrwydd tra rhyfedd, y galwn i'n cof holl ragluniaethau Duw—holl falais Satan—ein holl wendidau ein hunain—holl lid dynion; ac fel y gwnaeth Duw i bob peth gydweithio i ni er daioni, er tragywyddol orfoledd i'n heneidiau.

Yn *ail.* Am ein corph. Fe gyfodir mewn nerth, ac anllygredigaeth, yn gorph ysprydol a gogoneddus (1 Cor. xv. 44), gogoniant pa un a osodir allan trwy amrywiol bethau, megis, yn

(1.) Fe'i cydmarir i ddisgleirdeb y ffurfafen a'r sêr fyth ac yn dragywydd. (Dan. xii. 3.)

(2.) Fe'i cydmarir i ddisgleirdeb yr haul: "Yna y llewyrcha y rhai cyfiawn fel yr haul yn nheyrnas eu Tad. Yr hwn sydd ganddo glustiau i wrando, gwrandawed." Mat. xiii. 43.

(3.) Yna y bydd eu cyflwr yn gydradd o ogoniant â'r angylion. "Eithr y rhai a gyfrifir yn deilwng i gael y byd hwnw, a'r adgyfodiad oddiwrth y meirw, nid ydynt nac yn gwreica, nac yn gŵra. Canys nis gallent farw mwy, oblegid cydstad ydynt â'r angylion." Luc xx. 35, 36.

(4.) Dywedir, y pryd hwnw, y bydd ein corph gwael ni yn gyffelyb i gorph gogoneddus Iesu Grist. (Phil. iii. 20, 21.)

(5.) Ac yn awr, pan unir y corph a'r enaid â'u gilydd yn y modd hwn, pwy fedr ddychymygu y gogoniant y maent yn awr yn ei gydfwynhau? Byddant, y pryd hyny, yr un allu a'u gilydd, heb ddim anghysondeb yn ngwasanaeth yr Arglwydd; a chlodforedd, diolchgarwch, a choron o ogoniant dragywyddol ar eu penau.

Yn y byd hwn ni ddichon fod y cydgordiad a'r undeb hwnw rhwng corph ac enaid ag a fydd yn y nefoedd. Yma, y corph a becha weithiau yn erbyn yr enaid; a thrachefn yr enaid a ofidia ac a dralloda'r corph ag amgyffred dychrynllyd o ddigofaint a barn Duw. Tra byddom yn y byd yma, mynych y bydd y corph yn gogwyddo un ffordd, a'r enaid yn gymwys y ffordd arall. Ond yno, yn y nefoedd, bydd y fath undeb perffaith rhyngddynt, fel na chroesant eu gilydd mwyach. Ond y pryd hyny, gogoniant y corph a gydymagwedda â gogoniant yr enaid, a phob un yn addas i'w stâd nefolaidd, fel ag y metha geiriau ei adrodd, a meddyliau ei amgyffred.

Yn *drydydd.* A gaf fi yn awr lefaru am y lle yr erys y corph a'r enaid dedwydd hwn ynddo dros fyth? Yn awr, yn

(1.) Gelwir ef Dinas. (Heb. xi. 16; Ephes. ii. 19.)

(2.) Gelwir ef Nefoedd. (Heb. x. 34.)

(3.) Gelwir ef Tŷ Dduw. (Ioan xiv. 2.)

(4). Gelwir ef Teyrnas. (Luc xii. 32.)

(5.) Gelwir ef Gogoniant. (Col. iii. 3; Heb. ii. 10.)

(6.) Gelwir ef Paradwys. (Dat. ii. 7.)

(7.) Gelwir ef Trigfanau tragwyddol. (Luc xvi. 9.)

Yn *bedwaredd.* A gaf fi lefaru em eu cwmpeini?

(1.) Safant, a byddant fyw yn mhresenoldeb y gogoneddus Dduw, Barnwr pawb. (Heb. xii. 23.)

(2.) Hwy a fyddant gyda'r Oen, yr Arglwydd Iesu.

(3.) Byddant yn nghymdeithas aneirif o angylion sanctaidd. (Heb. xii. 22.)

(4.) Byddant gydag Abraham, Isaac a Jacob, a'r holl brophwydi yn nheyrnas nefoedd. (Luc xiii. 28.)

Yn *bummed.* A lefarafi fi am eu nefol wisgoedd?

(1.) Iechydwriaeth yw. Hwy a wisgir â gwisg iechydwriaeth. (Salm. cxxxii. 16; Esay lxi. 10.)

(2.) Y wisg hon a elwir *gwisg wen*; gan feddwl eu cyflwr pur a diniwaid yn y nefoedd. "A hwy (medd Crist) a rodiant gyda mi mewn dillad gwynion, oblegid teilwng ydynt." Dat. iii. 4.

(3.) Gelwir hi gogoniant: "Pan ymddangoso Crist ein bywyd ni, yna hefyd yr ymddangoswch chwithan gydag ef mewn gogoniant." Col. iii. 4.

(4.) Cânt hefyd goronau cyfiawnder, anniflanedig goron y gogoniant, a llawenydd tragwyddol ar eu pen. (2 Tim. iv. 8. 1 Pedr v. 4. Esay. xxxv. 10.)

Yn *chwechfed.* A lefaraf fi am eu parhâd yn y cyflwr hwnw?

(1.) Mae yn oes oesoedd. "A hwy a gânt weled ei wyneb ef, a'i enw ef a fydd yn eu talcenau hwynt: a hwy a deyrnasant yn oes oesoedd." Dat. xxii. 4, 5.

(2.) Mae yn dragwyddol. "A hyn yw ewyllys y Tad, yr hwn a'm hanfonodd i; cael o bob un a'r sydd yn gweled y Mab, ac yn credu ynddo ef, fywyd tragwyddol." Ioan vi. 40. "Israel a achubir yn yr Arglwydd ag iechydwriaeth dragywyddol." Esay xlv. 17.

O! bechadur! beth a ddywedi di? Oni chwennychit fod yn gadwedig? Onid yw dy enau yn gwlychu? Onid yw dy galon yn llamu am fod yn gadwedig? Tyred, gan hyny. "Mae yr Yspryd a'r briodas-ferch yn dywedyd, Tyred. A'r hwn sydd yn clywed, dyweded, Tyred. A'r hwn sydd â syched arno, deued: a'r hwn sydd yn ewyllysio, cymered ddwfr y bywyd yn rhad." Dat. xxii. 17.

### CWEST. II.—*Beth yw bod yn gadwedig trwy ras?*

Yn awr yr wyf yn dyfod at yr ail gwestiwn, sef, Beth yw bod yn gadwedig trwy ras? Canys felly y mae geiriau y testyn, "Trwy *ras* yr ydych yn gadwedig."

Yn *gyntaf.* Rhaid i mi gyffwrdd ychydig â'r gair gras, a dangos i chwi yr amrywiol ffyrdd y mae yn cael ei gymeryd.

1. Weithiau, cymerir ef am ewyllys da a ffafr dynion. (Esther ii. 17. Ruth. ii. 2. 1 Sam. i. 18. 2 Sam. xvi. 4.)

2. Weithiau, cymerir ef am addurnau hardd a hyfryd ag y mae ymarweddiad yn ol gair Duw yn ei ddodi o amgylch y gwddf. (Diar. i. 9; iii. 22.)

3. Weithiau, cymerir ef am elusenau y saint. (2 Cor. ix. 6—8.)

Ond gras, yn y testyn, a gymerir am ewyllys da Duw: "Ewyllys da preswylydd y berth." Deut. xxxiii. 16. Ac a adroddir yn amrywiol.

(1.) Weithiau, gelwir ef ei Ewyllys da; yr hwn yw yr un a chyfoeth ei ras ef. (Eph. i. 7.)

(2.) Weithiau, amlygir ef trwy ddaioni, tosturi, cariad, trugaredd, cymwynasgarwch, a'r cyffelyb. (Rhuf. ii. 4. Esay lxiii. 9. Tit. iii. 4, 5.)

(3.) Ië, y mae efe yn galw ei hun, "Jehofah, Jehofah, y Duw trugarog, a graslawn, hwyrfrydig i ddig, ac aml o drugaredd a gwirionedd: yr hwn sydd yn cadw trugaredd i filoedd, gan faddeu anwiredd, a chamwedd, a phechod, a heb gyfrif yr anwir yn gyfiawn," &c. Exod. xxxiv. 6, 7.

Yn *ail.* Megis y mae y gair gras yn arwyddocâu yr holl bethau hyn, felly y mae yn amlygu i ni mai gweithrediadau rhad Duw ydynt gariad rhad, trugaredd rhad, cymwynasgarwch rhad. Oddiwrth yr hyn y mae genym siamplau eraill yn y gair yn nghylch natur gras; megis, yn

1. Gweithred ewyllys Duw ydyw, ag sydd yn rhaid bod yn rhydd. Gweithred ei ewyllys da ei hun. Trwy bob un o'r ymadroddion hyn yr arwyddoceir fod gras yn weithred rad o ddaioni Duw tuag at feibion dynion.

2. Am hyny y dywedir yn benodol, "Wedi eu cyfiawnhau yn rhad drwy ei ras ef." Rhuf. iii. 24.

3. "A phryd nad oedd ganddynt ddim i dalu, efe a faddeuodd iddynt ill dau." Luc vii. 42.

4. A thrachefn, "Nid er eich mwyn chwi yr ydwyf fi yn gwneuthur hyn, medd yr Arglwydd Dduw; bydded hyspys i chwi." Ezec. xxxvi. 32.

5. Am hyny gras, a haeddiant y creadur, a osodir mewn gwrthwynebiad i'w gilydd. "Ac os o ras, nid o weithredoedd mwyach; os amgen, nid yw gras yn ras mwyach: Ac os o weithredoedd, nid yw o ras mwyach; os amgen, nid yw gweithred yn weithred mwyach." Rhuf. xi. 6.

Y gair *gras*, gan hyny, wedi ei iawn ddeall, sydd yn gosod allan wir achos dedwyddwch a derbyniad dyn gyda Duw, nid nad oes gan yr ymadroddion hyn, cariad, trugaredd, daioni, tosturi, cymwynasgarwch, a'r cyffelyb, eu priodol le yn ei hapusrwydd. Pe nas caresai Duw ddyn, ni weithredasai gras yn rhad yn ei iechydwriaeth. Pe na buasai Duw yn drugarog, yn ddaionus, yn dosturiol, ac yn gymwynasgar, efe a droisai ymaith oddiwrthym, pan welodd ni yn ymdrybaeddu yn ein gwaed. (Ezec. xvi.)

Felly, pan y mae yn dywedyd, "Trwy ras yr ydych yn gadwedig," yr un peth yw a phe dywedasai, Trwy ewyllys da, trugaredd rad, a daioni Duw, yr ydych yn gadwedig: megis y mae y geiriau cysylltiedig â'r testyn yn amlygu yn mhellach. "Eithr Duw, yr hwn sydd gyfoethog o drugaredd, oherwydd ei fawr gariad, trwy yr hwn y carodd efe ni, ïe, pan oeddym feirw mewn camweddau, a'n cydfywhaodd ni gyda Christ (trwy ras yr ydych yn gadwedig.")

Yn *drydydd*. Wedi deall y geiriau fel hyn, maent yn cynyg i ni yr ychydig ystyriaethau canlynol:

1. Nad yw Duw, wrth achub y pechadur, yn gwneuthur dim derbyniad o ddaioni y pechadur; oherwydd paham y dywedir faddeu iddo, a'i gyfiawnhau yn rhad. (Luc. vii. 42. Rhuf. iii. 24.)

2. Fod Duw yn gwneuthur hyn i'r neb y myno, a phan y gwelo fod yn dda; oherwydd mai gweithred o'i ewyllys da ei hun ydyw. (Gal. i. 15, 16.)

3. Dyma yr achos paham yr achubir pechaduriaid mawrion: canys Mae Duw yn maddeu yn ol cyfoethogrwydd ei ras. (Ephes. i. 7.)

4. Dyma yr unig achos o syndod a rhyfeddod sydd yn meddiannu rhai pechaduriaid, wrth amgyffred eu hiechydwriaeth eu hunain. Ei ras ef sydd anchwiliadwy; a thrwy hyny mae Duw yn fynych yn terfysgu ac yn gwaradwyddo ein rheswm ni. (Ezec. xvi. 62, 63. Act. ix. 6.)

5. Dyma yr achos paham yr adferir pechaduriaid mor fynych o'u gwrthgiliadau —yr iacheir hwynt o'u clwyfau y maent yn gael wrth eu cwymp, ac y nerthir hwynt

drachefn i orfoleddu yn nhrugaredd Duw. Oherwydd efe a drugarha wrth yr hwn y trugarhao, ac a dosturia wrth yr hwn y tosturia. (Rhuf. ix. 15.)

Yn *bedwarydd.* Ond y mae yn rhaid i mi beidio a diweddu y pwynt hwn yn y fan yma. Yr ydym yn awr yn traethu am ras Duw, ac mai trwyddo ef yr ydym yn gadwedig—yn gadwedig, meddaf, trwy ras Duw.

Yn awr, Duw a osodir allan i ni yn y gair dan ystyriaeth dyblyg:

1. Gosodir ef allan yn ei dragwyddol allu a'i Dduwdod: ac megis mai yn y modd hyny yr amlygwyd ef, yr ydym i ddeall am dano wrth ei briodoliaethau, gallu, cyfiawnder, daioni, sancteiddrwydd, tragwyddoldeb, &c.

2. Ond y mae wedi ei osod allan genym yn ngair y gwirionedd megis yn gynwysedig o Dad, Mab, ac Yspryd. Ac er bod yr ail ystyriaeth hwn yn cynwys ynddo natur y Duwdod, eto nid yw y cyntaf yn amlygu y Personau yn y Duwdod. Yr ydym yn gadwedig trwy ras Duw—hyny yw, trwy ras y Tad, yr hwn sydd Dduw; trwy ras y Mab, yr hwn sydd Dduw; trwy ras yr Yspryd Glân, yr hwn sydd Dduw.

Yn awr, gan mai trwy ras y dywedir ein bod yn gadwedig, a hwnw yn ras Duw; a thra yr ydym hefyd yn cael yn y gair fod y Duwdod yn gynwysedig o Dad, Mab, ac Yspryd Glân, rhaid i ni benderfynu mai trwy ras y Tad, y Mab, a'r Yspryd Glân, yr ydym yn gadwedig. Am hyny y cyfrifir gras i'r Tad, y Mab, a'r Yspryd Glân, yn wahanredol.

1. Gras a gyfrifir i'r Tad, megis y mae yr Ysgrythyrau hyn yn tystiolaethu: Rhuf. vii. 25. 1 Cor. i. 3. 2 Cor. i. 2. Gal. i. 3. Eph. i. 2. Phil. i. 2. Col. i. 2. 1 Thes. i. 1. 2 Thes. i. 2. 1 Tim. i. 2. 2 Tim. i. 2. Tit. i. 4. Philemon. 3.

2. Gras a gyfrifir i'r Mab, yr hyn sydd yn cael ei amlygu, yn gyntaf, yn yr Ysgrythyrau uchod, megis hefyd yn y rhai a ganlyn: 2 Cor. viii. 9; xiii. 14. Gal. vi. 18. Phil. iv. 23. 1 Thes. v. 28. 2 Thes. iii. 18. Philemon 25. Dat. xxii. 21.

3. Cyfrifir ef hefyd i'r Yspryd Glân. Yn awr, gelwir ef yma Yspryd y gras, oherwydd ei fod yn awdwr gras, megis y Tad a'r Mab. (Zec. xii. 10. Heb. x. 29.) Felly, gan hyny, y mae yn ofynol i mi ddangos i chwi,

Yn *gyntaf.* Pa fodd yr ydym yn gadwedig trwy ras y Tad.

Yn *ail.* Pa fodd yr ydym yn gadwedig trwy ras y Mab.

Yn *drydydd.* Pa fodd yr ydym yn gadwedig trwy ras yr Yspryd Glân.

*Am ras y Tad.*

Yn *gyntaf.* Pa fodd yr ydym yn gadwedig trwy ras y Tad. Yn awr, mi amlygaf hyn i chwi yn y drefn ganlynol:

1. Y Tad a rwymodd i fyny, trwy ei ras a'i gariad, mewn arfaeth dragywyddol o etholedigaeth, y rhai hyny a gânt fyned i'r nefoedd. Ac yma, yn wir, megis yr

arddangoswyd ar y cyntaf, y mae dechreuad ein hiechydwriaeth. (2 Tim. i. 9.) A chyfrifir etholedigaeth, nid yn eiddo y Mab, ond eiddo y Tad. "Bendigedig fyddo Duw, a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn a'n bendithiodd ni â phob bendith ysprydol yn y nefolion-leoedd yn Nghrist: megis yr etholodd efe ni ynddo ef cyn seliad y byd." Ephes. i. 3, 4. Yn awr yr etholedigaeth yma a gyfrifir yn weithred o ras. "Felly, gan hyny, y pryd hwn hefyd y mae gweddill yn ol etholedigaeth gras." Rhuf. xi. 5.

2. Gras y Tad sydd yn ordeinio, ac yn rhoddi y Mab i gymeryd ein prynedigaeth ni arno drosom. Y Tad a ddanfonodd y Mab i fod yn Iachawdwr y byd. "Yn yr hwn y mae i ni brynedigaeth trwy ei waed ef, sef maddeuant pechodau, yn ol cyfoeth i ras ef;" "Fel y gallai ddangos yn yr oesoedd a ddeuai, ragorol olud ei ras ef, trwy ei gymwynasgarwch i ni yn Nghrist Iesu." 1 Ioan iv. 14. Ephes. i. 7; ii. 7. Ioan iii. 16; vi. 32, 33; xii. 2, 19.

3. Gras y Tad sydd yn ein rhoddi ni i Grist, i'n cyfiawnhau drwy ei gyfiawnder, ein golchi yn ei waed, a'n gwaredu trwy ef fywyd ef. Hyn y mae Crist yn ei ddangos, lle y dywed, mai ewyllys y Tad yw iddynt fod yn ddiogel gadwedig yn y dydd diweddaf: ac iddo ef eu cadw dros ei holl fywyd, fel na choliid neb o honynt, ond mab y golledigaeth, fel y cyflawnid yr Ysgrythyr. (Ioan vi. 37—39; xvii. 2, 12.)

4. Gras y Tad sydd yn rhoddi teyrnas nefoedd i'r rhai a roddodd efe i Iesu Grist. "Nac ofna, "braidd bychan: canys rhyngodd bodd i'ch Tad roddi i chwi y deyrnas." Luc xii. 32.

5. Gras y Tad sydd yn arlwyo, ac yn gosod i fyny yn Nghrist, i'r rhai a ddewisodd efe, ddigonolrwydd o bob bendithion ysprydol, i'w cyfranu iddynt wrth eu hangen, er eu cynhaliaeth yn y ffydd, a'u parhad mewn ffyddlondeb yn y fuchedd hon. "Nid yn ol ein gweithredoedd ni, ond yn ol ei arfaeth ei hun a'i ras, yr hwn a roddwyd i ni yn Nghrist Iesu, cyn dechreu y byd." 2 Tim. i. 9. Eph. i. 3, 4.

6. Gras y Tad sydd yn ein hachub drwy alwedigaeth fendigedig ac effeithiol, ac yn rhoddi i ni gymdeithas ei Fab ef, Iesu Grist. (1 Cor. i. 9. Gal. i. 15.)

7. Gras y Tad sydd yn ein hachub trwy amlhau maddeuant i ni er mwyn Crist yn feunyddiol. "Yn yr hwn y mae i ni brynedigaeth trwy ei waed ef, sef maddeuant pechodau, yn ol cyfoeth ei ras ef." Heb. i. 7.

8. Gras y Tad sydd yn ein hachub trwy arferyd amynedd a dioddefgarwch tuag atom, yn holl amser ein diadgenhedliad. (Rhuf. iii. 24.)

9. Gras y Tad sydd yn ein hachub, trwy ein cynnal yn gadarn yn ei law, a'n hamddiffyn rhag holl ruthriadau y gelyn. "Fy Nhad i, yr hwn a'u rhoddes i mi, sydd fwy na phawb: ac nis gall neb eu dwyn hwynt allan o law fy Nhad i." Ioan x. 29.

10. Beth a ddywedaf yn ychwaneg? Gras y Tad sydd yn ein cadw trwy

dderbyn ein personau a'n gwasanaeth, drwy ddadlènu llewyrch ei wyneb arnom ni, drwy amlygu ei gariad i ni, a thrwy anfon ei angylion i'n cyrchu ato ei hun, pan orphenom ein pererindod yn y byd hwn.

*Am ras y Mab.*

Yn *ail.* Yr wyf yn dyfod yn awr i sylwi am ras y Mab; canys fel ag y mae y Tad yn gosod allan ei ras yn nghadwedigaeth y pechadur, yr un modd y mae y Mab yn gosod yr eiddo yntau hefyd: "Canys chwi a adwaenoch ras ein Harglwydd Iesu Grist, iddo ef, ac yntau yn gyfoethog, fyned er eich mwyn chwi yn dlawd, fel y cyfoethogid chwi drwy éi dlodi ef." 2 Cor. viii. 9.

Yma y canfyddwn hefyd fod gras ein Harglwydd Iesu Grist yn cael ei ddwyn i mewn yn gysylltiadol â gras y Tad yn iechydwriaeth eneidiau. Yn awr hyn ydyw gras ein Harglwydd Iesu Grist: yr oedd yn gyfoethog, ond er ein mwyn ni fe ddaeth yn dlawd, fel y cyfoethogid ni trwy ei dlodi ef.

Gwnawn holiad, gan hyny, mewn perthynas i'r gras hwn, sef y gras darostyngol hwn o eiddo Crist, a hyny drwy chwilio allan *pa mor gyfoethog oedd Iesu Grist,* ac yna, *pa mor dlawd y gwnaeth efe ei hun,* fel y galluogid ni, drwy ei dlodi ef, i dderbyn golud yr iechydwriaeth.

Yn *gyntaf.* Pa mor gyfoethog oedd Iesu Grist? I'r hyn yr atebaf—1. Yn gyffredinol; 2. Yn neillduol.

1. Yn gyffredinol. Yr oedd mor gyfoethog a'i Dad: "Yr holl bethau sydd eiddo y Tad (medd efe) ydynt eiddof fi." Iesu Grist ydyw Arglwydd pawb, Duw dros bawb, yn fendigedig yn oes oesoedd. "Ni thybiodd yn drais fod yn ogyfuwch â Duw;" yr oedd yn Dduw yn naturiol a thragwyddol, ac nid allai ymddiosg ei hun o'i Dduwdod. (Ioan x. 30; xvi. 15. Act. x. 36. Phil. ii. 6. Rhuf. ix. 4, 5.)

2. Yn neillduol. Yr oedd gan Iesu Grist ogoniant gyda'r Tad, ïe, gogoniant amrywiaethol gydag ef, yr hwn y darfu iddo ymddiosg ei hun o hono.

(1.) Yr oedd ganddo ogoniant llywodraethol—yr oedd yn Arglwydd ar yr holl greaduriaid; yr oeddynt yn ddarostyngedig iddo oddiar ddau ystyriaeth: fel eu Crëwr (Col. i. 16); ac fel y gwnaethpwyd ef yn etifedd i Dduw. (Heb. i. 2.)

(2.) Gan hyny, yr oedd gogoniant addoliad, parchedigaeth, ac ofn, oddiwrth bob creadur, yn ddyledus iddo ef; yr oedd addoliad, ufudd-dod, darostyngiad, a gwasanaeth angylion, yn ddyledus iddo; yr oedd ofn, anrhydedd, a gogoniant brenhinoedd, a thywysogion, a barnwyr y ddaear, yn ddyledus iddo; yr oedd ufudd-dod yr haul, y lleuad, y sêr, y cymylau, a phob tarth, yn ddyledus iddo; yr oedd gwasanaeth ac adoliad yr holl ddreigiau, dyfnderau, tân, cenllysg, eira, mynyddoedd a bryniau, bwystfilod, anifeiliaid, yr holl ymlusgiaid, ac adar asgellog, yn ddyledus iddo. (Salm cxlviii.)

(3.) Yr oedd gogoniant yr holl nefoedd yn ddyledus iddo ef; mewn gair, nef a daear oedd yn eiddo iddo.

(4.) Ond uwchlaw y cwbl oll, yr oedd y gogoniant o gymundeb gyda'i Dad yn eiddo iddo; ïe, meddaf, gogoniant y cymundeb annhraethadwy hwnw oedd ganddo gyda'r Tad cyn ei ymgnawdoliaeth, yr hyn yn unig oedd werth deng mil o fydoedd ag oedd yn eiddo iddo ef er tragwyddoldeb.

Ond drachefn; megis yr oedd hyn oll yn meddiant Iesu Grist, felly hefyd yr oedd efe yn Arglwydd y bywyd. Y gogoniant hwn hefyd ydoedd eiddo Crist. "Ynddo ef yr oedd bywyd," Ioan i. 4; am hyny y gelwir ef Tywysog y bywyd," Act. iii. 5, oherwydd ei fod ynddo ef megis yn y Tad. Efe a roes fywyd ac anadl i bob peth: angylion, dynion, anifeiliaid, a gawsant oll eu bywyd oddiwrtho ef.

Drachefn; megis yr oedd efe yn Arglwydd y gogoniant, a Thywysog bywyd, felly yr oedd efe hefyd yn Dywysog tangnefedd. (Esay ix. 6.) A thrwyddo ef y cynhaliwyd yr undeb a'r drefn ddaionus hòno ag ydoedd yn mhlith pethau nefol a daearol. Cymerwch ystyr y cyfan, yn fyr, yn yr ychydig ymadroddion canlynol:

(1.) Y nefoedd ydoedd eiddo ef, ac efe a'i gwnaeth.

(2.) Yr angylion oeddynt eiddo ef, ac efe a'i gwnaeth.

(3.) Y ddaear ydoedd eiddo ef, ac efe a'i gwnaeth.

(4.) Dyn ydoedd ei eiddo ef, ac efe a'i gwnaeth.

Yn *ail.* Pa mor dlawd y gwnaeth efe ei hun? Yn awr y nefoedd hon a adawodd er ein mwyn ni. Efe a ddaeth i'r byd i achub pechaduriaid. (1 Tim. i. 15.)

1. Efe a wnaethpwyd yn bryf, megis y mae yn ei alw ei hun. (Salm. xxii. 6.) Efe a ddaeth yn waradwydd a gwatwargerdd y bobl. Efe a anwyd yn y stabl, a ddodwyd yn y preseb, ac a enillodd ei fara drwy chwys ei wyneb. (Marc vi. 3.) Pan ddechreuodd efe ei weinidogaeth, bu fyw ar elusenau y bobl. Pan yr oedd dynion eraill yn myned i'w tai, yr Iesu a âi ymaith i fynydd yr olewydd. Gwrandwech yr hyn a ddywed efe ei hun i brofi y mater yma: "Mae ffauau gan y llwynogod, a chan adar yr awyr nythod; ond gan Fab y dyn nid oes lle y rhoddo ei ben i lawr." Luc ix. 58. Efe a wadodd iddo ei hun dda y byd hwn.

2. Drachefn; fel yr oedd efe yn dywysog bywyd; felly, er ein mwyn ni, efe osododd hwnw i lawr hefyd. Canys fel yr oedd y mater yn sefyll, fod yn rhaid iddo ef neu ninau farw. Ond y gras yr hwn oedd yn ei galon, a'i cymhellodd i ddodi ei einioes ei hun i lawr. Efe a roddodd ei einioes yn bridwerth dros lawer. (Mat. xx. 28.) Efe a gollodd ei fywyd, fel y caem ni fywyd. Efe a roddes ei gnawd a'i waed, i roddi bywyd i'r byd. Efe a osododd i lawr ei einioes dros ei ddefaid. (Ioan x. 15.)

3. Drachefn; yr oedd efe yn dywysog heddwch; eithr efe a ymadawodd â'i heddwch hefyd.

(1.) Efe a adawodd o'r neilldu heddwch a'r byd, ac a ddewisodd fod yn wr gofidus a chynefin â dolur; ac a erlidiwyd o'i gryd i'w groes, gan frenhinoedd, llywodraethwyr, &c.

(2.) Efe a osododd heibio heddwch â'i Dad, ac a wnaeth ei hun yn wrthddrych o'i felldith, fel y tarawyd, yr archollwyd, ac y trist-ofidiwyd ef ganddo; ac yn y diwedd a guddiodd ei wyneb, fel y gorfu iddo lefain allan, gyda llefain cryf yn awr ei drancedigaeth, "Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gadewaist." Marc xv. 34.

*Gof.* Ond yma, dichon rhai ddywedyd, Paham yr oedd yn angenrhaid i Iesu Grist wneuthur hyn oll? Onid allasai gras y Tad ein hachub heb yr ymddarostyngiad hwn o eiddo y Mab?

*Ateb.* Megis y mae gras, felly y mae yn Nuw gyfiawnder. Ac wedi pechu o ddyn, fe benderfynodd Duw ei achub mewn ffordd o gyfiawnder. Gan hyny, yr oedd yn llwyr angenrheidiol i Iesu Grist ddodi ei hunan yn ein lle ni, yn unig heb bechod.

1. Yn awr, drwy bechod yr oeddym wedi colli gogoniant Duw: gan hyny, fe ddododd Iesu Grist heibio y gogoniant oedd ganddo gyda'i Dad. (Rhuf. iii. 23. Ioan xvii. 5.)

2. Dyn, drwy bechod, a gauasai ei hun allan o baradwys ddaearol; ac Iesu Grist a adawai baradwys nefol i ddyfod i'w achub. (Gen. iii. 24. 1 Tim. i. 15. Ioan vi. 38, 39.)

3. Dyn, drwy bechod, a wnaethai ei huu yn ysgafnach na gwegi: a'r Arglwydd hwn, Iesu Grist, a wnaeth ei hun yn îs na'r angylion, i'w waredu. (Esay xl. 17. Heb. ii.)

4. Dyn, drwy bechod, a gollodd ei hawl i'r creaduriaid; ac Iesu Grist a ymwâd â'r holl fyd i'w adferu. (Luc xi. 58.)

5. Dyn, drwy bechod, a wnaeth ei hun yn ddarostyngedig i angau; ond Iesu Grist a gyll ei fywyd i'w achub ef. (Rhuf xi. 23.)

6. Dyn, drwy bechod, a enillasai iddo ei hun felldith Duw; ond Iesu Grist a oddef y felldith hòno yn ei gorph ei hun i'w achub ef. (Gal. iii. 13.)

7. Dyn, drwy bechod, a gollasai heddwch â Duw; ond hyn a fynai Iesu Grist ei golli hefyd, i'r diben i ddyn gael ei waredu.

8. Dyn a ddirmygasid gan Dduw; am hyny Crist a gymerai ei ddirmygu gan ddynion.

9. Dyn a fflangellasid byth yn uffern; ond i luddias hyn, Crist a fflangellwyd ar y ddaear.

10. Dyn a goronasid â gwarth ac â chywilydd; ond i ragflaenu hyny, yr Iesu a goronwyd â drain.

11. Dyn a drywansid â chleddyf llidiawgrwydd Duw; ond i ragflaenu hyn, yr Iesu a drywanwyd gan Dduw a dynion hefyd.

12. Dyn a wrthodasid gan Dduw ac angylion; ond i ragflaenu hyny, yr Iesu a adawyd gan Dduw, a wadwyd, a gashawyd, ac a wrthodwyd gan ddynion. (Esay xlviii. 22. Mat. xxvii. 46.)

Fel hyn y gallwn helaethu, a hyny gydag awdurdod, oddiwrth y testyn hwn. Efe a ddaeth yn dlawd, fel y cyfoethogid ni trwy ei dlodi ef. Yr holl gyfoeth y diosgodd efe ei hun o hono, er ein mwyn ni yr ydoedd. Yr holl ofidiau yr aeth efe trwyddynt, ydoedd er ein mwyn ni. Yr amgylchiadau lleiaf o ddioddefaint Crist oedd yn angenrhaid wrthynt, y cwbl ydoedd yn ein lle ni. Er ein mwyn ni y daeth yn dlawd, fel y cyfoethogid ni trwy ei dlodi ef.

Chwi welwch yr achos a gymhellodd Crist i wneuthur y gwasanaeth mawr hwn dros ddyn, sef y gras ag oedd yn ei galon. Megis y dywed y prophwyd hefyd, "Yn ei gariad ac yn ei drugaredd y gwaredodd efe hwynt. (Esay lxiii. 9.) Cyfatebol i hyn yw y geiriau yn y Corinthiaid: "Canys chwi a adwaenoch ras ein Harglwydd Iesu Grist;" mae y ddau yn cytuno â'r testyn, "Trwy ras yr ydych yn gadwedig."

Meddaf, hwn oedd gras y Mab, a'r effaith o hono. Mae y Tad, gan hyny, yn amlygu ei ras mewn un ffordd, a'r Mab mewn ffordd arall. Nid y Tad, ond y Mab, a ddarfu adael y nef er mwyn pechaduriaid; nid y Tad, ond y Mab, a dywalltodd ei waed dros bechaduriaid. Y Tad yn wir a roddodd y Mab, a bendigedig fyddo ei enw yn dragywydd am hyny; a'r Mab a roddodd ei fywyd a'i waed erddom, a moliant i'w enw byth am hyny.

Ond yr wyf yn tybied na ddylem orphwys ar hyn gyda gras y Mab. O! tydi Fab y Bendigedig, y fath ras a amlygwyd yn dy ddarostyngiad! Gras a'th ddygodd di i lawr o'r nefoedd, gras a'th ddiosgodd di o'th ogoniant, gras a'th wnaeth di yn dlawd ac yn ddirmygedig, gras a'th orfododd di i gario y fath lwythi o bechod, y fath lwythi o ofidiau, y fath lwythi o ddigofaint ag sydd yn annhraethadwy. O! Fab Duw! gras oedd yn dy holl ddagrau, gras ddaeth yn byrlymu allan o'th ochr gyda'th waed, gras ddaeth allan gyda phob gair o'th enau sanctaidd. (Salm xiv. 2. Luc iv. 22.) Gras ddaeth allan o'r lle y fflangellwyd di, o'r lle y darfu i'r drain dy bigo di, ac o'r lle y darfu i'r hoelion a'r waywffon dy drywanu di. O! fendigedig Fab Duw! Dyma ras yn wir! Anchwiliadwy olud gras! Annirnadwy olud gras! Gras i beri angylion ryfeddu, gras i wneud pechaduriaid yn ddedwydd, gras i syfrdanu diafliaid. Ond, O! pa beth ddaw o'r rhai hyny a sathrant dan draed y bendigedig Fab Duw hwn?

*Am ras yr Yspryd.*

Yn *drydydd.* Yr wyf yn dyfod yn awr i sylwi am ras yr Yspryd; canys yntau hefyd a'n gweryd ni drwy ei ras. Yr Yspryd, fel y dywedais yn flaenorol, sydd

Dduw, fel ag y mae y Tad a'r Mab, ac y mae, o ganlyniad, yn awdwr gras hefyd; ïe, ac y mae yn anhepgorol angenrheidiol iddo ef gyfranu ei ras hefyd, onite nid ellir achub un cnawd. Mae gan Ysprydd Duw law yn ein hachubiaeth ni mewn amrywiol ffyrdd; canys fel ag y mae y rhai a ânt i'r nefoedd yn ddyledus am hyny i'r Tad ac i'r Mab, felly y maent hefyd i Ysprydd Duw. Y Tad sydd yn ein dewis ni, yn ein rhoi ni i Grist, ac yn ein gwneud yn etifeddion teyrnas nef. Y Mab sydd yn cyflawni gofyniadau y ddeddf drosom, yn cymeryd melldith y ddeddf oddiarnom, yn dwyn ein holl feiau yn ei gorph ei hun, ac yn ein gosod, wedi ein cyfiawnhau, gerbron Duw. Mae gras y Tad yn cael ei amlygu yn y nef a'r ddaear; gras y Mab ar y ddaear, ac ar y groes; a bydd yn rhaid i ras yr Ysprydd Glân gael ei amlygu yn ein heneidiau ac yn ein cyrph cyn y cawn ni fyned i'r nefoedd.

*Gof.* Ond geill rhyw rai ofyn, Yn mha beth y mae gras achubol yr Ysprydd Glân yn ymddangos?

*Ateb.* Mewn amryw bethau.

Trwy gymeryd meddiant o honom fel ei eiddo ei hun, a'n gwneuthur ni yn dŷ a phreswylfa iddo, fel, er y darfu i'r Tad a'r Mab yn ogoneddus gydweithredu yn rasol yn ein hiechydwriaeth, eto yr Ysprydd Glân oedd y cyntaf i ymaflyd ynom. (1 Cor. iii. 16; vi. 19. Eph. ii. 22, 23.) Gan hyny, ni ddywedodd Crist, ar ei ymadawiad o'r ddaear, yr anfonai efe y Tad, ond yr Ysprydd Glân, ac y byddai iddo ef drigo ynom yn dragywydd: "A mi a weddiaf ar y Tad, ac efe a rydd i chwi Ddiddanydd arall, fel yr arhoso gyda chwi yn dragywydd;" "Ond yr wyf fi yn dywedyd gwirionedd i chwi; buddiol yw i chwi fy myned i ymaith: canys onid âf fi, ni ddaw y Diddanydd atoch: eithr os mi a âf, mi a'i hanfonaf ef atoch;" "Ond pan ddêl efe, sef Ysprydd y gwirionedd, efe a'ch tywys chwi i bob gwirionedd: canys ni lefara o hono ei hun, ond pa bethau bynag a glywo, a lefara efe: a'r pethau sydd i ddyfod, a fynega efe i chwi." Ioan xiv. 16; xvi. 7, 13.

Yr Ysprydd Glân, trwy ddyfod i'n mewn, a thrigo ynom, sydd yn gweithredu llawer o waredigaethau yn awr i ni; a phob un o honynt mewn trefn i'n tragwyddol gadwedigaeth.

1. Mae yn ein gwaredu oddiwrth ein tywyllwch, trwy ein goleuo ni; oddiyma y gelwir ef Ysprydd Datguddiad (Eph. i. 17), oherwydd ei fod yn agoryd llygaid y deillion; ac felly yn ein hachub ni oddiwrth y tywyllwch eithaf, lle mae wylofain a rhincian dannedd. (Mat. viii. 12.)

2. Efe yw yr hwn sydd yn ein hargyhoeddi o'r drwg o anghrediniaeth (Ioan xvi. 9), sydd yn dangos i ni yr angenrheidrwydd o gredu yn Nghrist: heb ein hargyhoeddi o hyn, fe ddarfyddai am danom.

3. Dyma'r bys Duw hwnw trwy ba un y gwneir i ddiafol roi lle i ras; trwy allu yr hwn, pe amgen, y'n dygid yn bendramwnwgl i uffern. (Luc xi. 20, 22.)

4. Dyma yr hwn sydd yn gweithredu ffydd yn ein calonau; heb ba un nis gall gras y Tad na'r Mab ein hachub. Canys "yr hwn ni chredo a gondemnir." Marc xvi. 16.

5. Hwn yw efe, trwy ba un y'n genir drachefn; a'r neb nas ganwyd felly, nis gall weled nac etifeddu teyrnas nefoedd. (Ioan iii. 3—7.)

6. Hwn yw efe, ag sydd yn gosod i fyny ei deyrnas yn ein calonau; a thrwy y modd hwnw sydd yn cadw allan y diafol, ar ol ei fwrw allan; yr hon deyrnas o eiddo yr Yspryd, pwy bynag sydd yn niffyg o honi, ydynt yn gorwedd yn ddarostyngedig i waeth meddiant o'r diafol nag erioed. (Mat. xiii. 13. Luc. xi. 24, 25.)

7. Trwy yr Yspryd hwn yr ydym yn dyfod i weled tegwch Crist, heb olwg ar ba un ni byddai i ni byth ei ddymuno, ond a fyddem yn sicr o fyw yn yr esgeulusdra o hono, a bod byth yn golledig. (Ioan xvi. 14. 1 Cor. ii. 9—12. Esay lii. 1, 2.)

8. Trwy yr Yspryd hwn y'n cynorthwyir ni i foli Duw mewn ffordd ddyladwy; eithr hebddo ef y mae yn anmhosibl cael ein gwrando er iechydwriaeth. (Rhuf. viii. 26. Ephes. vi. 8. 1 Cor. xiv. 15.)

9. Trwy yr Yspryd bendigedig hwn y tywelltir cariad Duw ar lêd yn ein calonau; ac y cyfarwyddir ein calonau i gariad Duw. (Rhuf. v. 5. 2 Thes. ii. 5.)

10. Trwy yr Yspryd bendigedig hwn y'n harweinir o ffordd marwolaeth i ffordd bywyd; a thrwyddo ef y bywheir ein corph marwol, yn gystal a'n henaid anfarwol yn ngwasanaeth Duw. (Gal. v. 18, 25. Rhuf. viii. 11.)

11. Trwy yr Yspryd daionus hwn yr ydym yn cadw y peth da hwnw, sef had Duw, yr hwn, ar y cyntaf, trwy air Duw, a fwriwyd i'n mewn; heb ba un yr ydym yn ddarostyngedig i'r ddamnedigaeth lemaf. (1 Ioan iii. 9. 1 Pedr ii. 3. 2 Tim. i. 14.)

12. Trwy yr Yspryd daionus hwn y mae genym gymhorth a goleuni yn erbyn holl ddoethineb a chyfrwysdra y byd, yr hwn sydd yn arferyd ei ddichellion melltigedig i ddadymchwel y symlrwydd sydd yn Nghrist Iesu. (Mat. x. 19, 20. Marc xiii. 11. Luc xii. 11, 12.)

13. Trwy yr Yspryd daionus hwn y cenhedlir ein grasusau mewn grym a bywyd; megis ffydd, gobaith, cariad, yspryd gweddi, a phob gras arall. (2 Cor. iv. 13. Rhuf. xv. 13. 2 Tim. i. 7. Ephes. vi. 18. Tit. iii. 5.)

14. Trwy yr Yspryd gogoneddus hwn y'n selir hyd ddydd y prynedigaeth. (Ephes. i. 14.)

15. A thrwy yr Yspryd daionus hwn y gwneir ni i ddisgwyl gydag amynedd am brynedigaeth y pwrcas. (Gal. v. 5.)

Yn awr, yr holl bethau hyn ydynt mor angenrheidiol i'n hiechydwriaeth, nas gwn pa un o honynt a ellir ei hepgor; ac nis gellir trwy un modd eu cyrhaeddyd ond trwy yr Yspryd bendigedig hwn.

Fel hyn y darfu i mi, mewn ychydig eiriau, amlygu i chwi ras yr Yspryd sydd

yn gosod ei hun allan tuag at gadwedigaeth yr enaid. Ac yn ddiau, frodyr, fod yn angenrhaid i chwi wybod y pethau hyn yn neillduol—sef gras y Tad, gras y Mab, a gras yr Yspryd Glân: canys nid gras Un, eithr y Tri hyn, sydd yn achub y rhai a achubir. Nid yw gras y Tad yn achub neb heb ras y Mab; ac nid yw gras y Tad a'r Mab yn achub neb heb ras yr Yspryd Glân. Canys fel y carodd y Tad, felly yr oedd yn rhaid i'r Mab ddioddef, a'r Yspryd sancteiddio; pe amgen, ni achubid un enaid.

Rhai a dybiant y bydd i gariad y Tad, heb waed y Mab, eu hachub hwynt, ond hwy a gamsyniant: canys "heb ollwng gwaed nid oes maddeuant." Heb. ix. 22.

Eraill a feddyliant y bydd i gariad y Tad, a gwaed y Mab, wneuthur y tro, heb sancteiddiad yr Yspryd Glân: ond hwy a gamsyniant hefyd: oblegid "od yw neb heb Yspryd Crist ganddo, nid yw hwnw yn eiddo ef." Rhuf viii. 9. A thrachefn: "heb sancteiddrwydd ni chaiff neb weled yr Arglwydd." Heb. xii. 14.

Y mae trydydd math, ag sydd yn tybied fod sancteiddrwydd yr Yspryd yn ddigonol o hono ei hun; ond hwynt-hwy (pe meddent ef) a dwyllir hefyd: canys mae yn rhaid i ras y Tad, gras y Mab, a gras yr Yspryd Glân gydweithredu i achub y rhai a fyddant yn gadwedig.

Ond eto, megis y mae y Tri hyn yn cyd-ddodi eu gras allan mewn gwirionedd yn iechydwriaeth pechadur; felly y maent yn ei ddodi allan (megis y dangosais i chwi o'r blaen) mewn amrywiol ddull a moddion. Y Tad sydd yn ein hamcanu ni i'r nefoedd; y Mab sydd yn ein gwaredu oddiwrth bechod ac angau; a'r Yspryd sydd yn ein cymhwyso ni i ogoniant y nef:—nid trwy ethol, dyna waith y Tad; na thrwy farw, hyny yw gwaith y Mab; ond trwy ei waith yn datguddio Crist, ac yn cymhwyso Crist at ein heneidiau, trwy dywallt cariad Duw ar lêd yn ein calonau, trwy sancteiddio ein heneidiau, a thrwy gymeryd meddiant o honom, megis ernes o'n meddiant ninau o'r nefoedd.

Cwest. III.—*Pa rai ydynt hwy a gedwir trwy ras?*

Yr wyf yn dyfod yn awr at y trydydd peth neillduol; nid amgen, Pwy ydynt hwy ag a fydd gadwedig trwy ras?

Yn *gyntaf*. Nid yr hunan-gyfiawn, nid y rhai sydd heb eisieu meddyg arnynt. "Y rhai sydd iach (medd Crist) nid rhaid iddynt wrth y meddyg, ond y rhai cleifion; ni ddaethum i alw y rhai cyfiawn, ond pechaduriaid i edifeirwch." Marc ii. 17. A thrachefn: "Y rhai newynog a lanwodd efe â phethau da; ac a anfonodd ymaith y rhai goludog mewn eisieu." Luc i. 53. Yn awr, pan yr wyf yn dywedyd, nid yr hunan-gyfiawn, na'r cyfoethog, fy meddwl yw, nid eu bod yn gwbl wedi eu gwrthod, canys St. Paul ydoedd y cyfryw un; eithr nid yw efe yn achub y cyfryw

rai, heb iddo yn gyntaf eu dadebru i weled yr angenrheidrwydd o gael eu cadw trwy ras.

Yn *ail.* Nid yw gras Duw yn achub yr hwn a bechodd y pechod anfaddeuol. Nid oes wedi ei adael iddo ef ond rhyw "ddisgwyl ofnadwy am farnedigaeth ac angerdd tân, yr hwn a ddifa y gwrthwynebwyr." Heb. x. 26, 27.

Yn *drydydd.* Y pechadur hwnw a barhao mewn anedifeirwch ac anghrediniaeth hyd y diwedd, a ddemnir. (Luc xiii. 3, 5. Rhuf. ii. 2—5. Marc xvi. 15, 16.)

Yn *bedwarydd.* Y pechadur hwnw ag y dallodd duw y byd hwn ei feddwl, fel na all llewyrch gogoneddus goleuni efengyl Crist, yr hwn yw delw Duw, fyth dywynu iddo, fydd golledig, ac a raid ei gondemnio. (2 Cor. iv. 4.)

Yn *bummed.* Y pechadur ag sydd yn gwneuthur crefydd yn orchudd i annuwioldeb, sydd ragrithiwr, a chan barhau felly, a raid iddo yn sicr fod yn ddamnedig. (Salm. cxxv. v. Esay xxxiii. 14. Mat. xxiv. 50, 51.)

Yn *chwechfed.* Mewn gair, pob pechadur ag sydd yn parhau yn ei ddrygioni, ni chaiff feddiannu teyrnas nefoedd. "Oni wyddoch chwi na chaiff y rhai anghyfiawn etifeddu teyrnas Dduw? Na thwyller chwi: ni chaiff na godinebwyr, nac eilunaddolwyr, na thorwyr priodas, na masweddwyr, na gwrywgydwyr, na lladron, na chybyddion, na meddwon, na difenwyr, na chribddeilwyr, etifeddu teyrnas Dduw." 1 Cor. vi. 9—12. "Na thwylled neb chwi â geiriau ofer; canys oblegid y pethau hyn y mae digofaint Duw yn dyfod ar blant yr anufudd-dod." Ephes. v. 5, 6.

*Gof.* Ond pa fath bechaduriaid, gan hyny, a fydd gadwedig?

*Ateb.* Y cyfryw, o bob math a rhyw, ag a ddug yr Yspryd Glân at y Tad trwy Iesu Grist—y rhai hyn, meddaf, ac nid eraill, a ddichon fod yn gadwedig;—pe amgen, gellid achub pechaduriaid heb y Tad, heb y Mab, neu heb yr Yspryd Glân.

Yn awr, yn yr hyn oll a ddywedais, ni chrybwyllais, yn yr hyn lleiaf, fod un pechadur yn wrthodedig, oherwydd bod ei bechodau, yn y naturiaeth o honynt, yn fawr. Crist Iesu a ddaeth i'r byd i achub y penaf o bechaduriaid. Gan hyny, nid y maintioli, ond y parhad o fyw mewn pechod, fydd, yn wirioneddol, yn damnio yr enaid. Ond yr wyf bob amser yn dodi o'r neilldu yr hwn sydd wedi pechu yn erbyn yr Yspryd Glân. Mai nid maintioli y pechod sydd yn damnio yr enaid sydd yn eglur—yn

1af. Oddiwrth y geiriau o flaen y testyn, ag sydd yn rhoddi hanes pa fath bechaduriaid a achubwyd trwy ras, megis y rhai ag oeddynt yn feirw mewn camweddau a phechodau, y rhai a rodiasant yn y pechodau hyny, "yn ol helynt y byd hwn, yn ol tywysog llywodraeth yr awyr, yr yspryd sydd yr awrhon yn gweithio yn mhlant yr anufudd-dod. Yn mysg y rhai hefyd y bu ein hymarweddiad ni oll gynt, yn chwantau ein cnawd, gan wneuthur ewyllysiau y cnawd a'r meddyliau; ac yr oeddym ni wrth naturiaeth yn blant digofaint megis eraill." Ephes. ii. 1—3.

2il. Mae yn eglur hefyd oddiwrth y lliaws o bechaduriaid a gawn eu bod wedi eu hachub trwy ddatguddiedig ewyllys Duw; canys yn y gair yr ydym yn cael hanes am iechydwriaeth pechaduriaid mawrion, yn mha un y mae eu henwau a'u pechodau yn sefyll mewn coffadwriaeth, er mwyn ein hanogaeth ni—megis, yn

1. Yr ydych yn darllen am Manasseh, yr hwn oedd yn eilunaddolwr, yn ddewin, yn erlidiwr; ïe, yn wrthryfelwr yn erbyn gair Duw, a ddanfonwyd ato trwy y prophwydi; ac er hyny y dyn hwn a achubwyd. (2 Cron. xxxiii. 2—13. 2 Bren. xxi. 16.)

2. Yr ydych yn darllen am Fair Magdalen, yn yr hon yr oedd saith o gythreuliaid; ei chyflwr oedd yn arswydus; er hyny hi a achubwyd. (Luc viii. 2. Ioan xx.)

3. Yr ydych yn darllen am y dyn ag oedd â lleng o gythreuliaid ynddo. O! mor ofnadwy oedd ei gyflwr ef! Er hyny, trwy ras, efe a gadwyd. (Marc v. 1—19.

4. Yr ydych yn darllen am danynt hwy y rhai a groeshoeliasant yr Arglwydd Iesu, ac fel y cyfnewidiwyd ac yr achubwyd hwynt. (Act. ii. 23.)

5. Yr ydych yn darllen am y consurwyr yn yr Actau xix. 13, fel y syrthiasant i mewn â Christ, ac y cadwyd hwynt trwy ras. (Act. ix. 15.)

6. Yr ydych yn darllen am Saul, yr erlidiwr, fel yr achubwyd ef trwy ras. (Act. ix. 15.)

*Gwrth.* Ond, meddwch, yr ydwyf fi yn wrthgiliwr.

*Ateb.* Felly yr oedd Noah; ac eto efe a gafodd ras yn ngolwg yr Arglwydd. (Gen. ix. 21, 22.)

2. Felly yr oedd Lot; er hyny Duw a'i cadwodd ef trwy ras. (Gen. xx. 36. 2 Pedr ii. 7—9.)

3. Felly yr oedd Dafydd; eto, trwy ras, fe faddeuwyd iddo ei anwiredd. (2 Sam. xii. 7—13.)

4. Felly yr oedd Solomon, ac un mawr ydoedd efe hefyd; eto, trwy ras, ei enaid a gadwyd. (Salm lxxxix. 28—31.)

5. Felly yr oedd Pedr, a hyny yn un ofnadwy; eto, trwy ras, efe a gadwyd. (Mat. xxvi. 69—74. Marc xvi. 7. Act. xv. 7—11.)

6. Heblaw hyn, er dy anogaeth yn mhellach, darllen Jer. iii; xxxiii. 25, 26; li. 5; Esec. xxxvi. 25. Hos. xiv. 1—4.)

*Gof.* Ond pa fodd y gallwn ni gael allan pa fath bechaduriaid a gedwir? Fe ymddengys nad pawb a fydd gadwedig. Heblaw hyn, am ddim a ellir gasglu oddiwrth yr hyn a ddywedasoch, fe gedwir rhai cynddrwg a'r rhai a ddemnir, (gosoder yr hwn a bechodd yn erbyn yr Yspryd Glân o'r naill du.)

*Ateb.* Gwir yw, fe gedwir rhai cynddrwg a'r rhai a ddemnir. Ond i'r cwestiwn hwn yr atebaf, yn

1. Y rhai hyny ag a elwir yn effeithiol, a gedwir.

2. Y rhai hyny ag sydd yn credu yn Mab Duw, a fydd gadwedig.

3. Y rhai hyny a sancteiddir, ac a gedwir yn Nghrist, a fydd gadwedig.

4. Y rhai a gymerant i fyny y groes beunydd, ac a ddilynant Grist, a fydd gadwedig.

Cymerwch restr o honynt fel hyn:

1. "Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwedig fyddi." Act. xvi. 31.

2. "Os cyffesi â'th enau yr Arglwydd Iesu Grist, a chredu yn dy galon i Dduw ei gyfodi ef o feirw, cadwedig fyddi." Rhuf. x. 9.

3. Cyfiawnhaer di trwy waed Crist, a chadwedig fyddi. (Rhuf. v. 9.)

4. Cymoder di â Duw, trwy farwolaeth ei Fab, a chadwedig fyddi trwy ei fywyd ef. (Rhuf. v. 10.)

5. "Canys pwy bynag a alwo ar enw yr Arglwydd, cadwedig fydd." Act. ii. 21.

Gwel rai Ysgrythyrau eraill:

(1.) "Efe a achub y gostyngedig ei olwg." Job xxii. 29.

(2.) "Ti a waredi y bobl gystuddiedig." Salm xviii. 27.

(3.) "Efe a achub feibion yr anghenus." Salm lxxii. 4.

(4.) "Efe a achub eneidiau y rhai anghenus." Salm lxxii. 13.

(5.) "Achub di dy was, O! fy Nuw, yr hwn sydd yn ymddiried ynot." Salm lxxxvi. 2.

(6.) "Efe a wna ewyllys y rhai a'i hofnant; gwrendy hefyd eu llefain, ac a'u hachub hwynt." Salm cxlv. 19.

Ond, bechadur, os myni yn wir fod yn gadwedig, gochel y pedwar peth hyn:

1. Gochel oedi edifeirwch. Oedi sydd beryglus, ac yn ddamnedig. Mae yn beryglus, oherwydd ei fod yn caledu y galon; mae yn ddamnedig, oherwydd ei fod yn dy dueddu i wrthsefyll amser gras. (Salm xcv. 7. Heb. iii; xii.)

2. Gochel orphwys yn ngair y deyrnas, heb yspryd a grym teyrnas yr efengyl: canys yr efengyl mewn gair yn unig ni cheidw neb; oherwydd teyrnas Dduw, neu yr efengyl, lle mae yn dyfod er iechydwriaeth, nid mewn gair, ond mewn gallu, y mae. (1 Thes. i. 4—6. 1 Cor. iv. 19.)

3. Gochel fyw mewn proffes yn unig; bywyd ag sydd yn cyffroi Duw: canys dyna y ffordd i wneuthur i Dduw dy daflu ymaith yn ei ddigter.

4. Cymer ofal fod dy dufewn a'th duallan yn cyfateb i'w gilydd, ac fod y ddau yn cydgordio â gair ei ras. Ymdrecha am fod yn debyg i'r creaduriaid glân y darlleni am danynt yn llyfr y prophwyd Ezeciel, y rhai yr oedd eu hymddangosiad oddiallan a hwythau yr un. (Ezec. x. 22.)

Yn hyn oll y'th gynghorais i beidio ymfoddloni heb rym ac Yspryd Duw yn dy galon; canys hebddo ef nis gellwch fod yn gyfranog o ddim o ras y Tad, na gras y Mab, ond a fyddwch yn sicr o ddyfod yn fyr o iechydwriaeth eich eneidiau.

CWEST. IV.—*Pa fodd yr ymddengys fod y rhai a gedwir, yn gadwedig drwy ras?*

Y pedwarydd cwestiwn hwn sydd yn gofyn rhyw eglurdeb i gael ei roddi o wirionedd yr athrawiaeth hon; sef, fod y rhai a gedwir, yn gadwedig drwy ras.

Yr hyn a ddywedwyd yn flaenorol a roddodd beth eglurdeb o'r gwirionedd hwn eisoes; gan hyny, i ail-adrodd, mewn ychydig eiriau, y crynodeb o'r hyn a ddywedwyd, mi a ddeuaf at brofiadau yn mhellach.

1. Fod hyn yn wir, yr Ysgrythyr sydd yn tystiolaethu: oherwydd i Dduw eu dewis i iechydwriaeth cyn gwneuthur o honynt dda. (Rhuf. ix. 11.)

2. Crist a ordeiniwyd i fod yn Waredwr iddynt er cyn seiliad y byd. (Ephes. i. 4. 1 Pedr i. 19—21.)

3. Yr holl bethau ag sydd yn cydgyfarfod, ac yn tueddu i'n hiechydwriaeth, oeddynt hefyd wedi eu gosod i fyny yn Nghrist, i'w trosglwyddo yn nghyflawnder amser i'r rhai a fyddent gadwedig. (Ephes. i. 3, 4, 10. 2 Tit. i. 9; iii. 8—11. Rhuf. viii. 30.)

Drachefn; megis yr arfaethwyd eu hiechydwriaeth gan Dduw; felly, megis y dangoswyd, yr iechydwriaeth hon a gymerwyd arno gan Un o'r Tri, sef Mab y Tad. (Ioan i. 29. Esay xlviii. 16.)

Bwrier fod arfaeth yn y nefoedd yn nghylch iechydwriaeth pechaduriaid ar y ddaear; eto, pe buasai yr arfaeth hòno yn penderfynu fod i ni gael ein hachub trwy ein gweithredoedd da ein hunain, nid cyfiawn fuasai i apostol neu angel ddywedyd, "Trwy ras yr ydych yn gadwedig." Ond yn awr, gan fod cyngor wedi ei alw yn nhragwyddoldeb yn nghylch iechydwriaeth pechaduriaid mewn amser, a chan benderfynu yn y cyngor hwnw fod i'r Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân eu hunain gyflawni gwaith yr iechydwriaeth hon, dyma ras, gras o naturiaeth—gras sydd gyfoethog a rhydd;—ïe, dyma annychymygol ras! Mi a'i dywedaf drachefn, dyma ras annychymygol! canys pwy erioed a feddyliasai fod Ceidwad yn mynwes y Tad; neu y rhoddasid ef gan y Tad i fod yn Achubwr dynion, pan wrthododd ei roddi yn Geidwad angylion? (Heb. ii. 16, 17.)

Drachefn; pe gallesid meddwl yr anfonai Duw ei Fab i fod yn Waredwr, buasem hefyd, wrth reswm, yn meddwl na chymerasai y gorchwyl yn gwbl arno ei hun, yn enwedig y rhan arswydus, bwysig, ac ofnadwy o hono. Pwy allasai unwaith ddychymygu y byddaï i'r Arglwydd Iesu wneuthur ei hun mor dlawd ag i sefyll o flaen Duw yn mratiau budron a ffiaidd ein pechodau; a'i ddarostwng ei hun i'r felldith a'r farwolaeth oedd ddyledus i'n pechodau ni? Ond hyn a wnaeth efe i'n cadw trwy ras. "Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn a'n bendithiodd ni â phob bendith ysprydol yn y nefolion leoedd yn Nghrist:

megis yr etholodd efe ni ynddo ef cyn seiliad y byd, fel y byddem yn sanctaidd ac yn ddifeius ger ei fron ef mewn cariad: wedi iddo ein rhagluniaethu ni i fabwysiad trwy Iesu Grist iddo ei hun, yn ol boddlonrwydd ei ewyllys ef, er mawl gogoniant ei ras ef, trwy yr hwn y gwnaeth ni yn gymeradwy yn yr Anwylyd: yn yr hwn y mae i ni brynedigaeth trwy ei waed ef, sef maddeuant pechodau, yn ol cyfoeth ei ras ef." Eph. i. 3—7.

Drachefn; os ystyriwn yr amodau ar ba rai y gwneir yr iechydwriaeth hon drosodd i'r rhai cadwedig, fe ymddengys yn mhellach ein bod yn gadwedig trwy ras.

1. Y pethau ag sydd yn uniongyrchol yn perthynu i'n cyfiawnhad a'n hiechydwriaeth, a gynygir, ïe, a roddir yn rhad i ni; ac fe orchymynir i ni eu derbyn trwy ffydd. Bechadur, agor dy fynwes! "Felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd efe ei unig-anedig Fab;" fel y rhoddodd efe ei gyfiawnder, ei Yspryd, a theyrnas nefoedd, i ni. (Ioan iii. 16. Rhuf. v. 17. 2 Cor. i. 21, 22. Luc xii. 32.)

2. Mae efe, hefyd, yn rhoddi edifeirwch; efe sydd yn rhoi ffydd, a thragwyddol gysur, a gobaith da trwy ras. (Act. v. 30, 31. Phil. i. 29. 2 Thes. ii. 16.)

3. Mae efe yn rhoi maddeuant, ac yn rhoddi mwy o ras i'n cadw rhag soddi i uffern, nag y mae genym o bechodau i'n soddi yno. (Act. v. 31. Diar. iii. 34. Iago iv. 6. 1 Pedr 5. v.)

4. Efe a wnaeth yr holl bethau hyn drosodd, mewn cyfamod o ras, oherwydd ei osod gogyfer â'r cyfamod o weithredoedd, ac oherwydd ei gadarnhau i ni yn ngweithredoedd Crist—wedi ei selio yn ei waed, a'i gadarnhau â'r addewidion goreu a wnaethpwyd iddo, ac i ninau trwyddo ef: "Oblegid holl addewidion Duw ynddo ef ydynt ïe, ac ynddo ef amen, er gogoniant i Dduw trwom ni." 2 Cor. i. 20.

Ond i fyned heibio i'r rhai hyn, ac i ddyfod at rai amlygiadau eraill, i egluro y peth yn mhellach, ystyriwn ychydig, Pa beth yw dyn, ar ba un y mae y Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân, yn cyfranu y gras hwn.

1. Wrth natur y mae yn elyn i Dduw; a gelyn hefyd mewn meddwl: "Oblegid syniad y cnawd sydd elyniaeth yn erbyn Duw; canys nid yw yn ddarostyngedig i ddeddf Duw, oblegid nis gall chwaith." Rhuf. viii. 7. Col. i. 21.

2. Dyma, gan hyny, ydyw cyflwr dyn: efe nid yn unig a berswadasid i bechu yn fyrbwyll yn erbyn Duw, ond hefyd efe a yfodd bechod fel dwfr i'w unig natur, ac a'i cymysgodd â holl gynheddfau ei enaid ac aelodau ei gorph; trwy yr hyn yr aeth yn alltud oddiwrth Dduw, ac yn elyn iddo yn ngwraidd ei galon. Ac a fydd i ti, O! Arglwydd, megis y dywed yr Ysgrythyr, "A agori di dy lygaid ar y fath un?" Job xiv. 3. Ië, agoryd dy galon, a chymeryd y dyn hwn, nid i farn, ond i drugaredd gyda thi?

3. Yn mhellach; dyn, trwy bechod, nid yn unig a roddasai ei hun i fod yn gaethwas i ddiafol, ond gan barhau yn ei bechod, efe a ysgydwodd ben yn erbyn

Duw, gan wneuthur cyfamod ag angau, a chyngrair ag uffern (Es. xxviii. 16—18); ond i Dduw agor ei lygaid ar y cyfryw un, ac i gymeryd gafael arno trwy gyfoeth ei ras, sydd ryfeddod yn wir!

Gwelwch pa le y cafodd Duw yr Iuddew pan ddaeth efe i edrych arno, a'i achub. "Ac am dy enedigaeth (medd Duw), ar y dydd y'th anwyd ni thorwyd dy fogail, ac mewn dwfr ni'th olchwyd i'th feddalhau; ni'th gyweiriwyd chwaith â halen, ac ni'th rwymwyd â rhwymyn. Ni thosturiodd llygad wrthyt, i wneuthur i ti un o hyn, i dosturio wrthyt; ond ar wyneb y maes y'th daflwyd, i ffieiddio dy einioes, ar y dydd y'th aned. A phan dramwyais i heibio i ti, a'th weled yn ymdrybaeddu yn dy waed, dywedais wrthyt yn dy waed, Bydd fyw; ïe, dywedais wrthyt yn dy waed, Bydd fyw. Pan aethum heibio i ti, ac edrych arnat, wele dy amser yn amser serchawgrwydd: yna lledais fy aden drosot, a chuddiais dy noethni: tyngais hefyd i ti, ac aethum mewn cyfammod â thi, medd yr Arglwydd Dduw, a thi a aethost yn eiddof fi." Ezec. xvi. 4, 5, 6, 8. Bechadur! edrych yn mhellach i'r bennod. Gras Duw ydyw hyn oll. Pob gair yn yr adnodau hyn sydd yn arogli o ras.

Ond cyn yr elwyf heibio i hyn, daliwn ychydig o sylw neillduol ar ymddygiad Duw tuag at ddyn; a thrachefn, ar eiddo dyn tuag at Dduw yn amser ei dröedigaeth.

Yn *gyntaf*. Am ymddygiad Duw tuag at ddyn. Mae efe yn dyfod ato yn ei bechodau, yn ei waed. Mae yn dyfod ato yn awr, nid yn ngwres a thân ei eiddigedd, ond gydag awel y dydd, mewn annrhaethol dynerwch, trugaredd, tosturi, ac ymysgaroedd cariad; nid yn arfogi ei hun â dial, ond mewn ffordd o erfyniad, ac yn addfwyn atolygu y pechadur i ymgymodi âg ef. (2 Cor. v. 19, 20.)

Fe ddisgwylir yn mhlith dynion, fod i'r hwn a roddo achos o ddigter, ymofyn yn gyntaf am wneuthur heddwch; ond, bechadur, rhwng Duw a dyn nid felly y mae; nid am i ni garu Duw, na'i ddewis ychwaith; ond yr oedd "Duw yn Nghrist yn cymodi y byd ag ef ei hun, heb gyfrif iddynt eu pechodau." 2 Cor. v. 19. Duw yw y cyntaf sydd yn ymofyn heddwch; ac, megis y dywedais, mewn ffordd o erfyniad mae yn gorchymyn i'w weinidogion, megis cenhadau dros Grist, "megis pe byddai Duw yn deisyf arnoch trwom ni: yr ydym yn erfyn dros Grist, Cymoder chwi â Duw." 2 Cor. v. 20. O! bechadur, a agori ddim! Wele Dduw y Tad, a'i Fab, Iesu Grist, yn sefyll yn nghyd wrth ddrws dy galon, yn erfyn yno am ffafr genyt, sef ymgymodi ag ef; ac yn addaw, os cydsyni, faddeu i ti dy holl bechodau. O! ras! O! ryfeddol ras! I weled tywysog yn erfyn ar gardotyn i dderbyn elusen, a fyddai yn olwg ddiethr; i weled brenin yn erfyn ar fradwr i dderbyn maddeuant, a fyddai yn olwg ddieithrach na hòno;—ond gweled Duw yn erfyn ar bechadur i wrando ar lais Crist yn curo wrth ddrws ei galon, a'i dderbyn i mewn, yn nghyd â'r nefoedd a bywyd tragwyddol gydag ef—y fath olwg yw hon ag sydd yn peri i angylion synu a rhyfeddu! Beth yn awr a ddywedi di, bechadur? Onid yw y Duw hwn yn

gyfoethog mewn trugaredd? Onid mawr yw y cariad sydd gan y Duw hwn i bechaduriaid. Nage, yn mhellach, fel na chaffech ddim sail i ameu nad yw hyn oll ond dy wenieithio, cei yma hefyd wedi ei dystiolaethu: I'r hwn nid adnabu bechod gael ei wneuthur yn bechod drosom ni, fel y'n gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo ef. (2 Cor. v. 21.) Pe buasai Duw yn rhuso un peth, buasai yn rhuso marwolaeth ei Fab. Ond fe'i traddododd ef drosom yn rhad; "pa wedd gydag ef hefyd na ddyry efe i ni bob peth?" Rhuf. viii. 32.

Ond nid hyn yw y cyfan. Nid yw Duw yn unig yn erfyn arnat ymgymodi ag ef, ond yn mhellach, er dy anogaeth, fe adroddodd yn dy glywedigaeth addewidion mawr iawn a gwerthfawr, ac "a gyfryngodd trwy lŵ: fel trwy ddau beth dianwadal, yn y rhai yr oedd yn anmhosibl i Dduw fod yn gelwyddog, y gallem ni gael cysur cryf, y rhai a ffoisom i gymeryd gafael yn y gobaith a osodwyd o'n blaen." Heb. vi. 17, 18.

Yn *ail.* Deuwn yn awr at ymddygiad y pechaduriaid hyn tuag at Dduw, a hyny o'r dydd cyntaf y dechreuo ddelio â'u heneidiau, hyd yr amser y cymerir hwynt i fyny i'r nef. Ac, yn

1. I ddechreu ar driniaeth arferedig Duw i bechaduriaid. Pan gyntaf y mae yn gweini argyhoeddiad iddynt trwy ei air, pa mor ddieithr y maent yn ymddwyn eu hunain! Ni charant gyffwrdd â'u cydwybodau; ni chwennychant fyfyrio ar yr hyn a fuont, yr hyn ydynt, neu yr hyn sydd debyg i ddyfod o honynt yn ol hyn. Maent yn cyfrif y fath feddyliau yn anwrol, yn niweidiol; am hyny maent yn gwrthod gwrando. (Zec. vii. 11.) Ac yn awr maent am bob peth yn hytrach na'r gair: tafarndy, puteindy, chwareudy, campau, pleserau, cwsg, neu y byd, a pheth arall nad ynt? fel y gallont wthio ymaith awdurdod gair Duw.

2. Os Duw a ddaw yn awr yn nes i fyny atynt, ac a ddechreua sicrhau argyhoeddiad ar y gydwybod, er nad yw y cyfryw argyhoeddiad ond y cam cyntaf i ffydd ac edifeirwch—ïe, ac i fywyd tragwyddol; eto, pa amddiffyniad na wnant i'w anghofio, a'i wisgo ymaith! Ië, er eu bod yn awr yn dechreu canfod fod yn rhaid iddynt naill ai troi ai llosgi; eto, yn fynych y pryd hyny hwy a ymegniant i ddodi heibio ddychwelyd yn bresenol. Maent yn dadleu eu bod yn rhy ieuainc i ddychwelyd eto; saith mlynedd i ddyfod sydd yn ddigon buan ganddynt, pan fyddont yn hen, neu ar eu claf-wely. O'r fath elyn yw dyn i'w iechydwriaeth! Fe'm perswadir ddarfod i Dduw ymweled â rhai o honoch, ïe, fwrw tân yn fynych ar eich cydwybodau trwy ei air; chwithau a fwriasoch ddwfr arno i'w ddiffoddi, mor gynted ag y medrech. Gristion, pa beth a ddaethai o honot, pe cymerasai Duw dy omeddiad yn atebiad, gan ddywedyd, "Yn awr dygaf air fy iechydwriaeth at arall, ac efe a'i gwrendy?" Tro, bechadur, medd Duw: Arglwydd, nis gallaf ei wrando, medd y pechadur. Tro, neu losga, medd Duw: mi anturiaf hyny, medd y pechadur.

Tro, a bydd gadwedig, medd Duw: nis gallaf adael fy mhleserau, medd y pechadur—pechodau melys, pleserau hyfryd, difyrwch anwyl, medd y pechadur. Ond, O! y fath ras ydyw yn Nuw i ymresymu fel hyn â'r pechadur! O! amynedd Duw tuag at bechadur tlawd! Beth pe dywedai Duw yn awr wrtho: Dos, gan hyny, at dy bechodau, at dy ddifyrwch, at dy bleserau, a chymer hwynt i ti yn rhan, dyna fydd dy holl nefoedd, dy holl hapusrwydd, a'th holl gyfran?

3. Ond y mae Duw yn dyfod drachefn, ac yn dangos i'r pechadur yr angenrheidrwydd o ddychwelyd *yn awr—yn awr*, neu *byth.* Ië, ac yn dodi yr argyhoeddiad hwn adref mor rymus fel nas geill ei droi heibio. Ond wele un wreichionen o elyniaeth yn cyfodi yn y pechadur eto. Os gorfydd iddo droi *yn awr*, efe a dry un ai oddiwrth y naill bechod at y llall, oddiwrth rai mawrion at rai bychain, oddiwrth lawer at ychydig, neu oddiwrth y cyfan at un, ac yno yr erys. Ond, nis gedy argyhoeddiad ef yma: oherwydd paham, efe a dry, ysgatfydd, oddiwrth bob halogedigaeth at gyfraith Moses, ac yno yr erys cyhyd ag y gadewir ef gan Dduw, i bwyso ar ei ddaioni ei hun. Ac yn awr, deliwch sylw arno, mae yn ymorchestwr mawr dros ddyledswyddau dwyfol. Yn awr fe fydd yn gymydog da, fe dâl i bawb ei eiddo, gedy heibio dyngu, y tafarndy, y gamp, a'r difyrwch cnawdol. Efe a dderllyn, a weddia, ac a sieryd am yr Ysgrythyr; ac a fydd yn un tra diwyd yn ei grefydd, y cyfryw ag ydyw. Yn awr efe a rynga fodd i Dduw, ac a dâl iddo am yr holl gamwri a wnaeth i'w erbyn. Efe a'i portha ef â llithoedd, gweddiau, addunedau, ymroad, a llawer yn ychwaneg o'r fath ddysgleidiau danteithiol a'r rhai hyn; gan berswadio ei hun ei fod yn awr mewn hwylwynt teg yn myned tua'r nefoedd. Ac heblaw hyny, mae yn tybied ei fod yn gwasanaethu Duw gystal ag y dichon y goreu yn y deyrnas ei wasanaethu. Ond trwy gydol yr amser hwn y mae efe mor anwybodus o Grist a'r ystôl y mae yn eistedd arni; ac heb fod yn nes i'r nefoedd nag oedd y Pharisead dall, ond ei fod wedi dyfod i droedio tecach ffordd i uffern nag eraill o'i gymydogion. "Y mae cenhedlaeth lân yn ei golwg ei hun, er nas glanhawyd oddiwrth ei haflendid." Diar. xxx. 12.

Onid allai Duw yn awr dori ymaith yn gyfiawn y pechadur hwn, a'i fwrw allan o'i olwg? Onis gallai ei adael yma i'w ddewisiad ei hun, i'w dwyllo gan, ac i syrthio yn ei gyfiawnder ei hun, oherwydd ei fod yn hyderu ynddo, ac yn gwneuthur anwiredd? (Ezec. xxxiii. 13.) Ond gras, rhagflaenol ras, sydd yn ei achub. Gwir yw fod y tröad hwn o eiddo y pechadur, megis y dywedais, yn dröad byr o Grist. Ond, yn

4. Duw, yn y ffordd yma o eiddo y pechadur, a'i dilyn yn drugarog, ac a ddengys iddo fyrdra ei weithredoedd, gwagder ei ddyledswyddau, ac anmhuredd ei gyfiawnder. (Esay xxviii. 20; lxiv. 6.) Hyn yr wyf yn ei ddywedyd am y pechadur, y graslawn-fwriadwyd iechydwriaeth ei enaid gan Dduw: canys efe, trwy efengyl-

aidd oleuni, a flinir yn raddol allan o'r cwbl; efe a wneir i weled oferedd y cyfan, ac mai cyfiawnder personol Iesu Grist, a hwnw yn unig, yw y peth a ordeiniwyd gan Dduw i achub pechadur oddiwrth ddyledus wobr ei bechodau. Ond, wele, y pechadur yn awr, wrth yr olwg a'r teimlad o'i ddiddymdra ei hun, yn barod i syrthio i anobaith; canys er fod ganddo ryw fath o obaith ryfygus am iechydwriaeth, trwy dwyll ei feddwl da o hono ei hun, eto nid oes ganddo ynddo ei hun feddwl da am ras Duw yn nghyfiawnder Iesu Grist, oherwydd paham, y mae yn penderfynu, os o ras Duw yn unig y mae iechydwriaeth, trwy y cyfiawnder sydd yn Nghrist, a bod yr eiddo dyn ei hun yn cael ei gyflawn wrthod, mewn perthynas i'w gyfiawnhad gyda Duw, yna y mae wedi ei lwyr fwrw ymaith. Yn awr, yr achos o'r soddiad calon hwn yw, yr olwg ysprydol a roddes Duw iddo—golwg ar halogedigrwydd ei weithredoedd goreu. Y golwg o'r blaen ar ei anfoesoldeb ydoedd, mewn rhyw fesur, yn ei drallodi, ac yn ei yru at ei weithredoedd da i lonyddu ei gydwybod; oherwydd paham, dyma oedd ei gynhaliaeth a'i orphwysfa. Ond yn awr, wele Duw wedi tynu ymaith y rhai'n odditano, ac yn awr mae yn syrthio. Ei bethau goreu sydd yn ei adael, ac yn ehedeg ymaith fel y gwlith boreuol, neu aderyn, neu y mân-us a chwaler gan gorwynt, ac fel mwg o'r ffumer. (Hos. ix. 11; xiii. 3.)

Heblaw hyny, y datguddiad hwn o wagter ei hunan-gyfiawnder sydd yn dwyn hefyd gydag ef ddatguddiad pellach o ddrygioni ei galon, yn ei rhagrith, balchder, anghrediniaeth, caledwch, marweidd-dra, a'i hannibendod yn mhob ufudd-dod efengylaidd; yr hwn olwg arno ei hun sydd yn gorwedd megis maen melin ar ei ysgwyddau, ac yn ei soddi eto yn mhellach i amheuaeth ac ofn damnedigaeth. Canys dywedwch wrtho yn awr am dderbyn Crist, efe a etyb nas geill. Gofynwch iddo paham nad eill, ac efe a ateba na fedd efe ddim ffydd na gobaith yn ei galon. Dywedwch wrtho fod gras yn cael ei gynyg iddo yn rhad, efe a etyb nad oes ganddo ef galon i'w dderbyn. Heblaw hyn nid yw efe yn cael, yn ol ei dyb ei hun, ddim tueddiad daionus yn ei enaid, ac am hyny y mae yn penderfynu na pherthyn efe i drugaredd Duw, ac nad oes iddo hawl yn ngwaed Crist, ac am hyny ni feiddia gredu. Oherwydd paham, megis y dywedais, mae y galon yn llwfrhau, a'i feddyliau yn diflanu; mae yn ameu, mae yn anobeithio, c yn penderfynu na fydd efe byth yn gadwedig.

5. Ond wele Dduw pob gras heb ei adael yn y cyfyngder hwn, ond yn dyfod yn nes i fyny ato yn awr nag erioed. Mae yn anfon Yspryd mabwysiad, y Diddanydd bendigedig ato, gan ddywedyd, "Duw cariad yw;" ac am hyny, heb ewyllysio gwrthod y trallodedig o galon, mae yn peri iddo hefyd a gweddio am dystiolaeth o drugaredd i'w enaid, gan ddywedyd, "Fe allai y cuddir chwi yn nydd digofaint yr Arglwydd." Zeph. ii. 3. Wrth hyn y mae y pechadur yn cymeryd peth cysur. Eto nis dichon gael ychwaneg nag sydd yn nghrog wrth debygolrwydd yn unig;

yr hwn, trwy yr amheuaeth nesaf a godo yn ei feddwl, a chwythir yn lân ymaith, a'r enaid a adewir drachefn yn ei drallod cyntaf, neu ei waeth, i gwynfan yn alarus oblegid ei gyflwr truenus, ac a boenydir â miloedd o ofnau colledigaeth; canys nid yw yn clywed gair o'r nefoedd, ysgatfydd, dros lawer o wythnosau yn nghyd. Yn awr anghrediniaeth sydd yn dechreu cael y meistrolaeth drachefn, ac yn dwyn ymaith awch ac yspryd gweddi, a thueddgarwch i wrando gair Duw. Ië, y diafol hefyd a wasg i mewn gyda y meddyliau hyn, gan ddywedyd y bydd i'ch holl weddiau, eich gwrando, eich darllen, a'r gymdeithas dduwiol yr ydych yn ei mynych arferyd, gyfodi i'ch erbyn yn y farn ddiweddaf; ac am hyny, gwell yw, os rhaid eich damnio, dewis y lle esmwythaf a ellwch chwi gael yn uffern. Yr enaid, fel hyn, wedi hollol ddigaloni, sydd yn amcanu gwneuthur fel yr addysgwyd iddo, a chyda meddyliau llesg, sydd braidd a llwfrhau pan êl i weddio, neu wrando y gair; ond, wele! pan y mae pob gobaith i'r golwg wedi diflanu, a'r enaid yn dechreu llefain allan, Yr wyf yn marw! Yr wyf yn golledig! daw Yspryd Duw i mewn ar fyrder drachefn, gyda rhyw air bywiol o'r Ysgrythyr, na feddyliasai yr enaid am dano o'r blaen; yr hwn air sydd yn gorchymyn tawelwch yn yr enaid, ac yn gwneuthur i anghrediniaeth gilio; yn anog i obeithio, a disgwyl wrth Dduw drachefn. Ysgatfydd y rhydd ychydig o olwg ar Grist i'r enaid, a'i waith bendigedig dros bechaduriaid. Ond, wele, cyn gynted ag y mae grym pethau yn gwisgo ymaith oddiar y galon, y pechadur sydd yn rhoi lle i anghrediniaeth, yn cwestiyno trugaredd Duw, ac yn arswydo colledigaeth drachefn. Mae efe hefyd yn coleddu meddyliau celyd am Dduw, ac yn cymeryd yr anogaethau o'r blaen am ffansi, twyll, a gwag-dŷb yn unig. A phaham nad yw Duw yn awr yn taflu y pechadur i uffern, am gamarfer, fel hyn, ei drugaredd a'i ras? O! Nage! Efe a drugarha wrth yr hwn y trugarhao, ac a dosturia wrth yr hwn y tosturio. (Rhuf. ix. 15.) Am hyny, daioni a thrugaredd yn ddiau a'i canlynant holl ddyddiau ei fywyd; ac efe a breswylia yn nhŷ yr Arglwydd yn dragywydd. (Salm xxiii. 6.)

6. Duw, gan hyny, ar ol yr holl gyffröadau hyn, sydd, drwy ei Yspryd, yn dyfod at yr enaid drachefn, ac yn dwyn seliedig ras a maddeuant i'r gydwybod; gan dystiolaethu iddi fod ei phechodau wedi eu maddeu, a hyny yn rhad, er mwyn gwaed Crist. Ac yn awr, mae y fath olwg gan y pechadur ar ras Duw yn Nghrist, ag sydd yn hyfryd doddi ei galon â llawenydd ac â chysur. Yn awr y gŵyr yr enaid beth yw ymborthi ar addewidion; gŵyr, hefyd, beth yw bwyta ac yfed cig a gwaed Crist trwy ffydd; yn awr y mae yn cael ei yru gan nerth gras ar ei liniau, i ddiolch i Dduw am faddeuant pechodau, ac am obaith o etifeddiaeth yn mhlith y rhai a sancteiddiwyd, trwy y ffydd yr hon sydd yn Nghrist Iesu. Yn awr y mae ganddo dawelwch a thywyniad haul. Yn awr fe ylch ei gamrau ag ymenyn; a'r graig a dywallt iddo afonydd o olew. (Job xxix. 6.)

7. Ond wedi hyn, ysgatfydd, dichon yr enaid lwfrhau drachefn. Mae yn anghofio y gras hwn a dderbyniodd, ac yn dechreu cynyddu yn gnawdol; gan ysu drachefn ar ol y byd, a cholli blas a bywyd pethau nefolaidd. Efe a ofidia Yspryd Duw, a wrthgilia yn druenus, a defly ymaith ddyledswyddau yr ystafell yn hollol, neu, ynte, gynnal y ffurf o honynt yn unig. Mae yn waradwydd i grefydd, yn gofidio calon y rhai sydd yn effro, ac yn dyner o enw Duw, &c. Ond beth a wna yr Arglwydd yn awr? A gymer efe y fantais hon i ddifetha y pechadur? Na wna. A edy efe lonydd iddo yn ei annuwiaeth? Na wna. A adewa efe iddo adferyd ei hun trwy nerth ei wywedig rasusau? Na wna. Pa beth, ynte? Efe a chwilia y dyn hwn allan nes ei gael, a'i ddwyn adref drachefn ato ei hun: "Canys fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, Wele myfi, ïe, myfi a ymofynaf am fy mhraidd, ac a'u ceisiaf hwynt. Fel y cais bugail ei ddïadell, ar y dydd y byddo yn mysg ei ddefaid gwasgaredig, felly y ceisiaf finau fy nefaid, ac a'u gwaredaf hwynt o bob lle y gwasgerer hwynt iddo ar y dydd cymylog a thywyll. Y golledig a geisiaf, a'r darfedig a ddychwelaf, a'r friwedig a rwymaf, a'r lesg a gryfhâf: eithr dinystriaf y fras a'r gref; â barn y porthaf hwynt." Ezec. xxxiv. 11, 12, 16.

Fel hyn y gwnaeth â'r dyn a aeth i wared o Jerusalem i Jerico, ac a syrthiodd yn mhlith lladron; ac fel hyn hefyd y gwnaeth â'r Mab Afradlon yr ydych yn darllen am dano. (Luc x. 30—35; xv. 20.)

Am ffordd gyffredinol Duw yn ymofyn y gwrthgiliwr adref, ni lefaraf nemor yn bresenol; sef, pa un a ydyw efe bob amser yn dryllio ei esgyrn am ei bechodau, megis Dafydd; neu a fydd iddo, oblegid eu dwfn droseddiadau hyn, eu gadael dros eu holl ddyddiau dan euogrwydd a thywyllwch; neu eu lladd yn awr, fel na ddamnier hwynt yn nydd y farn, megis y gwnaeth â'r rhai hyny yn Corinth. (1 Cor. ix. 30—32.) Mae efe yn ddoeth, ac a ŵyr pa fodd i chwerwi gwrthgiliad i'r rhai y mae yn eu caru.

Efe a fedr ddryllio eu hesgyrn, ac achub eu heneidiau. Medr eu gosod yn y pwll isaf, yn y tywyllwch a'r dyfnder, ac eto eu hachub. Medr eu lladd mewn perthynas i'r bywyd hwn, a'u cadw *eto* yn fyw. Ac yn hyn, drachefn, yr ymddengys rhyfeddol ras, na adawyd Israel na Juda gan ei Dduw, "er bod eu gwlad hwynt yn llawn o gamwedd yn erbyn Sanct yr Israel." Jer. li. 5.

8. Ond bwrier nad ymddwyn Duw yr un o'r ffyrdd hyn tuag at y gwrthgiliwr, eithr a dywyna arno drachefn, ac a selia i fyny iddo faddeuant o'i bechodau yr ail waith, gan ddywedyd, "Meddyginiaethaf eu hymchweliad hwynt, caraf hwynt yn rhad" (Hos. xiv. 4), beth a wna yr enaid yn awr? Yn sicr efe a rodia yn sanctaidd ac yn ostyngedig dros ei holl fywyd. Oni wna wrthgilio byth mwyach? Geill ddigwydd na wnaiff ddim, neu y gwna, yn gymwys fel y cynhalier ef gan Dduw. Canys er mai o hono ei hun y mae ei bechod, eithr ei waith yn sefyll sydd o Dduw

—ei waith yn sefyll, meddaf, tra y mae yn sefyll, a'i gofodiad, os syrth, o Dduw y maent bob un; oherwydd paham, os gadewir ef ychydig gan Dduw, yr adwy nesaf a gaffo, ymaith ag ef drachefn. "A'm pobl i (medd Duw) sydd ar feddwl cilio oddiwrthyf fi," Hos. xi. 7; neu, yn ol iaith arall, ydynt yn *gwyro,* neu yn *dueddol i gilio, oddiwrthyf fi.* Pa sawl gwaith y gwrthgiliodd Dafydd, ïe, Jehosaphat, a Phedr? (2 Sam. xi; xxiv. 2 Cron. xix. 1—3; xx. 5. Mat. xxvi. 69—71. Gal. ii. 11—13.) Megis hefyd yn y drydedd bennod o Jeremiah y dywedir, "Ond ti a buteiniaist gyda chyfeillion lawer; eto dychwel ataf fi, medd yr Arglwydd." Dyma ras! Cynifer o weithiau ag y mae yr enaid yn gwrthgilio, cynifer o weithiau y mae yn ei ddwyn yn ol drachefn—yr enaid a gedwir trwy ras yr wyf yn ei feddwl;—y mae yn adnewyddu ei faddeuant, ac yn eu hamlhau hwynt. "Wele, hyn oll a wna Duw ddwywaith neu dair â dyn." Job xxxiii. 29.

9. Ond gwelwch eto fwy o ras. Llefaraf yma am grwydriadau y galon, ac am gamymddygiadau beunyddiol;—fy meddwl yw, y gwendidau cyffredinol hyny ag sydd yn nglŷn wrth y goreu o'r saint, ac yn gorphwys ar eu gweithredoedd glanaf; nid fy mod yn amcanu eu crybwyll oll yn neillduol, oblegid hyny a fyddai yn dasg anmhosibl; eithr yr ychydig hyn a enwaf—megis meddyliau bydol, meddyliau aflan, meddyliau isel a rhy wael am Dduw, am Grist, am yr Yspryd, y gair, ffyrdd, ac ordinhadau Duw; trwy yr hyn y mae y Cristion yn troseddu lawer gwaith, os nad allaf ddywedyd lawer cant o weithiau, rai prydiau, yn y dydd—ïe, am ddim a'r a wn i, mae rhai saint (heb fod hir oes iddynt chwaith) a raid iddynt dderbyn, cyn yr elont i'r bywyd, filiynau o faddeuant am y pethau hyn; a phob maddeuant sydd yn weithred o ras, trwy y prynedigaeth sydd yn ngwaed Crist. Dengwaith a thriugain seithwaith yr ydym yn pechu yn y dydd, weithiau, yn erbyn ein brawd. (Mat. xviii. 21, 22.) Ond pa faint mwy yr ydym yn pechu yn y dydd hwnw yn erbyn Duw? "Arglwydd, pwy a ddeall ei gamweddau? glanha fi oddiwrth fy meiau cuddiedig." Salm xix. 12. A thrachefn: "Os creffi ar anwireddau, Arglwydd, O! Arglwydd, pwy a saif? Ond y mae gyda thi faddeuant, fel y'th ofner." Salm cxxx. 3, 4.

Ond i grybwyll rhai o honynt. Weithiau, maent yn ameu hanfod Duw; neu yn ynfyd ofyn, Pa fodd y daeth efe i fod ar y cyntaf? Weithiau, maent yn cwestiyno gwirionedd ei air, ac yn ameu cydgordiad yr unrhyw, am na fedr eu calonau deillion a'u meddyliau tywyll ei gydgymodi â'i gilydd. Ië, holl brif wirioneddau sydd yn agored weithiau i gerydd eu hanghrediniaeth a'u didduwiaeth—megis, yn bendifaddeu, pa un a oes y fath Berson a Christ? y fath beth a dydd y farn? neu pa un a fydd nefoedd ac uffern ar ol hyn, ai ni bydd? Ac y mae Duw yn maddeu yr holl bethau hyn drwy ei ras. Pan y maent yn credu y pethau uchod, yna hefyd y maent yn pechu o eisieu meddyliau parchus, uchel, a sanctaidd am danynt, megis y dylent. Maent yn pechu hefyd wrth goleddu meddyliau rhy dda am danynt eu

hunain, am bechod, ac am y byd. Weithiau (gadewch i mi ddywedyd yn *fynych*), y maent yn edrych heibio i bechod gwybodus yn ormod. Nid ydynt yn wylo megis y dylent, oherwydd gwendidau eu cnawd. Y tueddiad ysol y maent yn gael yn eu calonau ar ol oferedd y byd sydd, yn rhy fynych, yn myned heibio iddynt, heb edifeirwch o'i blegid. Nid wyf yn dywedyd nad ydynt yn galaru o'u herwydd yn y cyffredin; ond yr holl bethau hyn, O! pa mor fynych y mae Duw yn eu maddeu trwy gyfoeth ei rad ras!

Maent yn pechu oherwydd nad ydynt yn rhodio yn addas i'r trugareddau a dderbyniasant; ïe, maent yn dyfod yn fyr yn eu diolchgarwch i Dduw am danynt. Ië, y pryd hyny pan y maent wresocaf yn eu cydnabod, mor anhaeddiannol ydynt o honynt! Hefyd, pa mor lleied o'u nerth a dreulir i'w ogoniant ef, yr hwn sydd yn tywallt ei fendithion yn helaeth i'w mynwesau! Ond oddiwrth yr holl bechodau hyn y maent yn gadwedig drwy ras.

Maent yn pechu yn y cyflawniad goreu o'u dyledswyddau ysprydol. Ni weddiant, ni wrandawant, ni ddeallant, ni roddant elusen, ni ddeuant at fwrdd yr Arglwydd, neu bethau sanctaidd a gorchymynedig eraill gan Dduw, ond yn, a chyda llawer o oerfelgarwch, marweidd-dra, crwydriad calon, anwybodaeth, cam-amgyffrediadau, &c. Maent yn anghofio Duw, tra y maent yn gweddio arno; yn anghofio Crist, tra yr ydynt wrth ei fwrdd; yn anghofio ei air, tra y maent yn ei ddarllen, neu ei wrando.

Pa mor fynych y maent yn gwneuthur addunedau i Dduw, ac ar ol hyny yn eu tori? Ië, neu os cadwant adduned mewn golwg, pa mor ddirfawr mae eu calon yn grwgnach eu cyflawni? Pa ruso y maent wrth y groes; a pha mor anewyllysgar ydynt i golli yr ychydig sydd ganddynt dros Dduw, er mai oddiwrtho ef y mae y cyfan sydd ganddynt, i'w ogoneddu â hwynt! Y pethau hyn oll, a chymaint fil o weithiau yn ychwaneg, sydd yn trigo yn nghnawd dyn, a hwy a ânt cyn gynted oddiwrthynt eu hunain ag oddiwrth eu llygredd—ïe, haws iddynt dori eu cnawd oddiwrth eu hesgyrn na'r cynhyrfiadau hyn o bechod oddiwrth eu cnawd. Y rhai hyn a fyddant gyda hwynt yn mhob dyledswydd, sef yn eu meddyliau, ïe, mor fynych ag yr edrychant, y meddyliant, y clywant, y llefarant; maent gyda hwynt yn enwedigol pan fydd dyn yn amcanu rhyw ddaioni trwy hyny. "Yr ydwyf fi (medd Paul) yn cael deddf, a mi yn ewyllysio gwneuthur da, fod drwg yn bresenol gyda mi." Rhuf. vii. 21. A Duw ei hun sydd yn achwyn, Fod holl feddylfryd calon dyn yn unig yn ddrygionus bob amser. (Gen. vi. 5.)

Trwy y pethau hyn, gan hyny, yr ydym yn wastadol yn halogi ein hunain â phob un o'n gweithredoedd; hyny yr wyf yn ei feddwl yn marn y gyfraith. Yr ydym yn cymysgu anwiredd â'r pethau hyny a gysegrwn i'r Arglwydd. "Canys oddi mewn, allan o galon dynion, y daw drwg-feddyliau, tor-priodasau, puteindra,

llofruddiaeth, lladradau, cybydd-dod, drygioni, twyll, anlladrwydd, drwg-lygad, cabledd, balchder, ynfydrwydd. Yr holl ddrwg bethau hyn sydd yn dyfod oddi mewn, ac yn halogi dyn." Marc vii. 21—23. Yn awr beth a ddichon waredu yr enaid oddiwrth y pethau hyn ond gras? "Trwy ras yr ydych yn gadwedig."

CWEST. V.—*Beth allai fod y rheswm i Dduw ddewis cadw pechaduriaid drwy ras, yn hytrach na thrwy un modd arall?*

Yr wyf yn dyfod yn awr i ateb y pummed cwestiwn, sef i ddangos paham y mae Duw yn cadw y rhai a gedwir drwy ras yn hytrach na thrwy un modd arall.

Yn *gyntaf.* Mae Duw yn ein cadw drwy ras, oblegid wedi dyfod pechod i'r byd, nis gellir ein cadw un ffordd arall. Pechod a throsedd nis gellir eu symud ymaith ond trwy ras Duw yn Nghrist. Pechod yw troseddiad cyfraith Duw, yr hon sydd yn berffaith gyfiawn. Cyfiawnder anfeidrol nis gellir ei foddloni â'r taledigaeth a ddichon dyn ei wneuthur; oblegid hyny, pe gallasai, ni buasai raid i Grist ei hun farw. Heblaw hyn, dyn wedi pechu, a thrwy hyny halogi ei hunan, ei holl weithredoedd sydd yn halogedig. Nage, yn mhellach, y goreu o'i weithredoedd a halogir gan ei ddwylaw ei hun wrth eu cyflawni. Ei weithredoedd, gan hyny, nis gallant fod yn daledigaeth cymwys dros bechod. Heblaw hyny, i gadarnhau fod Duw yn achub dyn halogedig, er mwyn ei ddyledswyddau halogedig—canys *felly,* meddaf, *y mae holl waith eu dwylaw* (Hag. ii. 14)—beth yw ond dywedyd fod Duw yn derbyn un weithred halogedig yn foddlonrwydd am un arall? Eithr Duw, ïe, o'r cynfyd, a dystiolaethodd y modd y mae i ni ffieiddio offrymau anmherffaith, am hyny nis gellir drwy un modd ein gwaredu oddiwrth bechod ond drwy ras. (Rhuf. iii. 24.)

Yn *ail.* I haeru y gellir ein gwaredu drwy ryw ffordd arall, heblaw gras Duw, beth ydyw ond i wrthddadleu yn erbyn doethineb a synwyr Duw, yn yr hyn y bu yn helaeth tuag at y rhai a achubodd efe drwy ras. (Ephes. i. 5—8.) Ni fedrodd ei ddoethineb a'i synwyr gael allan un ffordd arall, am hyny fe ddewisodd ein cadw ni drwy ras.

Yn *drydydd.* Rhaid yw ein cadw yn unig drwy ras; os amgen, fe ganlyn fod Duw yn gyfnewidiol yn ei amcanion, canys felly yr amcanodd efe er cyn seiliad y byd. Am hyny, nid yw yn ein hachub, nac yn dewis ein cadw, un ffordd arall amgenach na thrwy ras. (Ephes. i. 3, 4.; iii. 8—11. Rhuf. ix. 23.)

Yn *bedwarydd.* Pe cedwid dyn ryw ffordd arall, heblaw drwy ras, Duw a siomid yn ei amcanion i dori ymaith ymffrost oddiwrth ei greadur. Eithr amcan Duw i dori ymaith ymffrost oddiwrth ei greadur nis gellir ei rwystro, neu ei siomi. Am hyny ni cheidw efe ddyn drwy ddim moddion eraill namyn drwy ras. Efe a amcanodd, meddaf, na chai un cnawd orfoleddu ger ei fron ef; ac am hyny eu

gweithredoedd a wrthodir ganddo. "Nid o weithredoedd, fel nad ymffrostiai neb." Ephes. ii. 89. "Pa le, gan hyny, y mae gorfoledd? Efe a gauwyd allan. Trwy ba ddeddf? ai deddf gweithredoedd? Nage; eithr trwy ddeddf ffydd." Rhuf. iii 24—28.

Yn *bummed.* Duw a ordeiniodd i ni fod yn gadwedig drwy ras, fel y cai efe y mawl a'r gogoniant o'n hiechydwriaeth. "Er mawl gogoniant ei ras ef, trwy yr hwn y gwnaeth ni yn gymeradwy yn yr Anwylyd." Eph. i. 6. Yn awr ni chyll Duw mo'i fawl, a'i ogoniant ni rydd efe i arall. (Esay xlii. 8.) Am hyny nid yw Duw yn dewis cadw pechaduriaid namyn drwy ei ras.

Yn *chwechfed.* Duw a ordeiniodd, ac efe sydd yn dewis ein cadw drwy ras; oherwydd pe byddai un ffordd arall yn weledig, eto dyma y ffordd ddiogelaf, ac sydd yn sicrhau yr enaid oreu. "Am hyny o ffydd y mae, fel y byddai yn ol gras; fel y byddai yr addewid" (sef addewid o etifeddiaeth dragwyddol, Heb. ix. 14—16) "yn sicr i'r holl had." Rhuf. iv. 16. Nis gallai un ffordd arall fod yn sicr. Hyn sydd eglur oddiwrth Adda, yr Iuddewon, ac, mi chwanegaf, yr angylion syrthiedig, y rhai, wedi eu troi i ffordd arall, chwi welwch, mewn byr amser, beth a ddaeth o onynt.

I fod yn gadwedig drwy ras sydd yn cytrif fod Duw wedi cymeryd iechydwriaeth ein heneidiau i'w law ei hun. Ac yn sicr mae yn ddiogelach yn llaw Duw na'r eiddom ni. Oddiyma ei gelwir iechydwriaeth yr Arglwydd; iechydwriaeth Duw; ac iechydwriaeth, a hyny o Dduw.

Pan mae ein hiechydwriaeth yn llaw Duw, efe ei hun sydd wedi ymrwymo i'w gyflawni drosom ni.

1. Yma y mae trugaredd Duw wedi ymrwymo drosom. (Rhuf. ix. 15.)
2. Yma y mae doethineb Duw wedi ymrwymo drosom. (Ephes. i. 7, 8.)
3. Yma y mae gallu Duw wedi ymrwymo drosom. (1 Pedr i. 3—5.)
4. Yma y mae cyfiawnder Duw wedi ymrwymo drosom. (Rhuf. iii. 24, 25.)
5. Yma y mae sancteiddrwydd Duw wedi ymrwymo drosom. (Salm lxxxix. 30—35.)
6. Yma y mae gofal Duw wedi ymrwymo drosom; a'i olwg gwiliadwrus sydd drosom bob amser er daioni. (1 Pedr v. 7. Esay xxvii. 1—3.)

Beth a ddywedaf yn mhellach?

1. Gras a'n cymer ni i ffafr Duw, a hyny pan fyddom yn ein gwaed. (Ezec. xvi. 7, 8.)
2. Gras a ddichon ein gwneuthur yn blant, er ein bod wrth natur yn elynion. (Rhuf. ix. 25, 26.)
3. Gras a ddichon wneuthur yn bobl i Dduw y rhai nid oeddynt bobl i Dduw. (1 Pedr ii. 9, 10.)

4. Gras nid ymddiried ein hiechydwriaeth i'n dwylaw ein hunain. "Wele, ni roddes efe ymddiried yn ei saint." Job xv. 15.

5. Gras a fedr faddeu ein hannuwioldeb, ein cyfiawnhau â chyfiawnder Crist; medi ddodi Yspryd Crist ynom; medr ein cyfodi i fyny pan fyddom ar lawr; medr ein hiachau pan fyddom yn archolledig; medr amlhau maddeuant pan fyddom ni, drwy wendid, yn amlhau trosedd. Beth a ddywedaf?

(1.) Gras a thrugaredd sydd yn dragywydd.

(2.) Mae wedi ei adeiladu yn dragywydd.

(3.) Mae yn ddifyrwch Duw.

(4.) Mae yn gorfoleddu yn erbyn barn.

(5.) Ac am hyny, y ffordd ddiogelaf a sicraf o iechydwriaeth ydyw: oherwydd paham, y dewisodd Duw ein cadw drwy ras a thrugaredd, yn hytrach na thrwy un ffordd arall. (Esay xliii. 25; Rhuf. iii. 24, 25. Esay xliv. 2—4. Salm xxxvii. 23. Luc x. 33, 34. Esay lv. 7, 8. Salm cxxxvi; lxxxix. 2. Mat. iii. 18. Jer. ii. 13.)

Yn *seithfed.* Rhaid ein cadw drwy ras Duw, os amgen, ni chaiff efe mo'i ewyllys. Y rhai ydynt gadwedig a ragluniaethodd efe i fabwysiad trwy Iesu Grist iddo ei hun, yn ol boddlonrwydd ei ewyllys ef, er mawl gogoniant ei ras. (Ephes. i. 5, 6.)

1. Ond os ei ewyllys ef yw i ddynion fod yn gadwedig drwy ras, yna i fyfyrio am ffordd arall sydd yn erbyn Duw. Oddiyma y rhai sydd yn ceisio gosod eu cyfiawnder eu hunain (Rhuf. x. 3) a gyfrifir yn wrthwynebwyr i gyfiawnder Duw, ac yn ddiddarostyngedig iddo: hyny yw, i'r cyfiawnder a ewyllysiodd efe, yn mha un, yn unig, yr ydym yn gadwedig drwy ras.

2. Os ei ewyllys yw i ddynion fod yn gadwedig drwy ras, yna ei ewyllys ydyw fod dynion yn gadwedig drwy ffydd yn y Crist hwnw a arfaethwyd gan ras. Gan hyny, y rhai a ymofynasant am gyfiawnhad mewn ffordd arall, a syrthiasant yn fyr, ac a gollwyd, wedi y cyfan o iechydwriaeth a arlwywyd gan Dduw i ddynion drwy ras. (Rhuf. ix. 31—33.)

3. Nid yw Duw yn ewyllysio fod i ffydd gael ei gwneuthur yn ofer, a'r addewid fyned yn ddirym. Gan hyny, hwynt-hwy o gyfiawnder y ddeddf a fwrir ymaith. "Canys os o'r ddeddf y mae yr etifeddiaeth, nid yw hayach o'r addewid: ond Duw a'i rhad-roddodd i Abraham trwy addewid." Rhuf. iv. 14. Gal. iii. 18.

4. Nid yw Duw yn ewyllysio i ddynion fod yn gadwedig trwy eu nerth naturiol eu hunain; ond yr holl weithredoedd deddfol y mae dynion yn eu gwneuthur i fod yn gadwedig trwyddynt, gweithredoedd galluoedd natur ydynt; am hyny y gelwir hwynt gweithredoedd y cnawd. (Gal. iii. 1—3. Phil. iii. 3.) Ond nid yw Duw yn ewyllysio cadw dynion trwy y rhai hyn, na thrwy ddim arall, onid drwy ras.

Yn *wythfed.* Rhaid ein cadw drwy ras, os amgen, prif-golofnau a seiliau iechydwriaeth nid yn unig a ysgydwir, ond hefyd a ddadymchwelir; sef etholedigaeth, y

cyfamod newydd, Crist, a gogoniant Duw. Ond y rhai hyn ni ddadymchwelir monynt; am hyny rhaid ein bod yn gadwedig drwy ras.

1. Etholedigaeth, yr hwn sydd yn cymeryd gafael ar ddynion drwy ras Duw, efe a fwriadodd i hyny sefyll. (Rhuf. ix. 11.) "Y mae cadarn sail (sef etholedigaeth) Duw yn sefyll." 2 Tim ii. 19. Am hyny, rhaid bod dynion yn gadwedig drwy rinwedd etholedigaeth gras.

2. Y cyfamod gras, rhaid i hwnw sefyll. "Y brodyr, dywedyd yr ydwyf ar wedd ddynol; cyd na byddo ond amod dyn, wedi y cadarnhäer,"—a hyn sydd drwy farwolaeth y testamentwr (Heb. ix. 16, 17)—"nid yw neb yn ei ddirymu, neu yn rhoddi ato." Gal. iii. 15. Am hyny, rhaid bod dyn yn gadwedig drwy rinwedd y cyfamod gras.

3. Crist, yr hwn yw dawn gras Duw i'r byd, rhaid iddo ef sefyll, oherwydd ei fod yn sylfaen safadwy (Esay xxviii. 16, 17);—yr un ddoe, heddyw, ac yn dragywydd (Heb. xiii. 8);—am hyny, rhaid bod dynion yn gadwedig drwy ras, drwy y prynedigaeth sydd yn Nghrist.

4. Gogoniant Duw, rhaid i hwnw hefyd sefyll; sef gogoniant ei ras; hwnw ni rydd efe i arall; am hyny, rhaid bod dynion yn gadwedig felly oddiwrth y llid a fydd, fel, yn eu hiechydwriaeth, y chwanego fawl i ogoniant ei ras ef.

Yn *nawfed*. Ni ddichon fod ond un ewyllys yn ben yn ein hiechydwriaeth; eithr ni chaiff hwnw fod byth yn ewyllys dyn, onid Duw; am hyny, rhaid bod dyn yn gadwedig drwy ras. (Ioan i. 13. Rhuf. ix. 16.)

Yn *ddegfed*. Nid eill fod onid un cyfiawnder i gadw pechadur; ond ni chaiff hwnw byth fod yn gyfiawnder dynion, onid Crist (gan hyny, rhaid bod dynion yn gadwedig drwy ras), yr hwn sydd yn cyfrif y cyfiawnder yma i'r neb y myno.

Yn *unfed-ar-ddeg*. Nid eill fod onid un cyfamod, trwy yr hwn y mae yn rhaid i ddynion fod yn gadwedig; ond ni chaiff hwnw byth fod yn gyfamod y ddeddf, oherwydd ei wendid a'i anmherffeithrwydd; gan hyny, y mae yn rhaid bod dyn yn gadwedig drwy y cyfamod gras, drwy yr hwn y bydd Duw yn drugarog wrth ein hanghyfiawnderau, a'n pechodau a'n hanwireddau ni chofia ddim o honynt mwyach. Heb. viii. 6—13.

### OLYSGRIFEN.

Ychydig o eiriau, mewn ffordd o ddefnydd, a thyna fi yn diweddu.

Defn. I. Yn *gyntaf*. Ai trwy ras Duw y mae iechydwriaeth pechadur? Gwelwch, gan hyny yma, paham nad yw Duw yn derbyn rhinweddau personol dynion, megis rhan o'u cyfiawnhad, wrth eu dwyn i ogoniant. A ddywedais i rinweddau personol? Pa fodd y dichon fod ganddynt ddim rhinwedd tuag at Dduw, a hwythau yn elynion iddo yn eu meddwl drwy weithredoedd drwg? Dynion, yn wir,

tuag at eu gilydd sydd yn ymddangos, rhai yn waeth, ac eraill yn well, wrth natur. Eithr tuag at Dduw y maent yr un ddull i gyd—yn feirw mewn camweddau a phechodau.

Bydded i ni, gan hyny, ymofyn arachefn, ai trwy ras, yn wir, y mae dynion yn gadwedig? Yma, gan hyny, y gwelwch yr achos paham y rhed tröedigaeth yn ol y gradd hyny yn mhlith meibion dynion, na ddychwelir neb oblegid eu gweithredoedd da, ac nis gwrthodir hwynt am eu gweithredoedd drwg, ond yn unig cynifer o bob un, a chynifer yn unig a ddygir adref at Dduw, ac a welo gras fod yn dda i ddwyn ato.

1. Ni dderbynir neb oblegid eu gweithredoedd da; pe amgen, nid achubid hwynt drwy ras, ond drwy weithredoedd. Gweithredoedd a gras, megis y dangosais i chwi, ydynt, yn y mater hwn, yn wrthwyneb i'w gilydd. Os cedwir dyn drwy weithredoedd, yna nid drwy ras; os drwy ras, yna nid drwy weithredoedd. (Rhuf. xi. 6.)

Na achubir neb gan Dduw oherwydd eu gweithredoedd da, sydd amlwg, nid yn unig am ei fod yn tystiolaethu ei ffieidd-dra o hyny, ond hefyd am iddo wrthod y personau a anturiodd ymddangos o'i flaen yn eu gweithredoedd da eu hunain am gyfiawnhad. Hyn a ddangosais i chwi o'r blaen.

2. Ni wrthodir dynion am eu gweithredoedd drwg. Hyn sydd amlwg oddiwrth Manasseh—llofruddion ein Harglwydd—y gwŷr y darllenwch am danynt yn y bedwaredd bennod-ar-bymtheg o'r Actau, a llawer eraill; pechodau pa rai oeddynt o gan ddyfned lliw a phechodau y gwaethaf o ddynion. (2 Cron. xxxiii. 2, 13. Act. ii. 23, 41; xix. 19.)

Gras, yn iechydwriaeth pechadur, sydd yn benaf yn golygu arfaeth Duw: gan hyny, y neb y mae yn ei gael yn yr arfaeth hòno, a gyfiawnha yn rhad, trwy y prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu.

Ar dröedigaeth Saul, Ananias, o Ddamascus, a ddug i mewn achwyniaeth ofnadwy yn ei erbyn, gerbron yr Arglwydd Iesu, gan ddywedyd, "O! Arglwydd, mi a glywais gan lawer am y gwr hwn, faint o ddrygau a wnaeth efe i'th saint di yn Jerusalem: ac yma y mae ganddo awdurdod oddiwrth yr arch-offeiriaid i rwymo pawb sydd yn galw ar dy enw di." Ond beth a ddywed yr Arglwydd wrtho? "Dos ymaith: y mae hwn yn llestr etholedig i mi." Act. ix. 13—15. Ni chai crenlondeb a chynddeiriogrwydd y gwr hwn luddias ei dröedigaeth, oherwydd mai llestr etholedig ydoedd. Nid yw gweithredoedd da dynion yn achos gyda Duw o'u derbyniad, na'u gweithredoedd drwg yn achos o'u gwrthodiad; fy meddwl yw, y rhai, trwy dyniad y Tad, sydd yn dyfod at Iesu Grist am fywyd. Dywed ein Harglwydd am y cyfryw rai, Nas bwrir hwynt allan ddim. (Ioan vi. 37—44.)

Yn *ail.* A ydyw iechydwriaeth y pechadur o ras Duw? Yma, gan hyny, y

gwelwch yr achos paham y gwneir i rai pechaduriaid ystyfnig wrth natur blygu ac ymostwng i Dduw eu hiechydwriaeth. Gras sydd yn eu cymeryd i weithredu, oherwydd iddo eu hamcanu i'r peth hyn. Gan hyny, cymerwyd rhai o'r cenhedloedd o blith eraill. Duw a roddodd iddynt edifeirwch i fywyd: oblegid iddo eu cymeryd o blith eraill drwy etholedigaeth a galwedigaeth, er mwyn ei enw. (Act. xi. 18; xv. 14.) Y dynion hyn nid oeddynt bobl a wnaethpwyd yn bobl i Dduw; a'r rhai hyny nid ydoedd yn anwyl o ran eu gweithredoedd, oeddynt yn anwyl drwy ras Duw. "Mi a alwaf yr hwn nid yw bobl i mi, yn bobl i mi; a'r hon nid yw anwyl, yn anwyl." Rhuf. ix. 25. Ond y maent o feddyliau cyndyn. Er hyny, hwy ydynt bobl ar ba rai y mae yr Arglwydd yn dyrchafu cyfoeth ei ras; am hyny, hwy a wneir yn ewyllysgar yn nydd ei nerth, ac a gredant drwy ras. (Salm cx. 3. Act. xviii. 27.) Ond a ydyw euogrwydd a baich pechod yn eu llethu felly i lawr, fal na allant, mewn un modd, gyfodi eu hunain i fyny? Bydd i Dduw, drwy ragorol fawredd ei nerth, drwy yr hwn y cyfododd efe Grist oddiwrth y meirw, weithio hefyd yn eu heneidiau hwynt drwy Yspryd y gras, i beri iddynt gredu, a rhodio yn ei lwybrau ef. (Ephes. i. 18—20.)

St. Paul sydd yn mynegi i ni, mai drwy ras Duw yr ydoedd yr hyn ydoedd: "A'i ras ef (medd efe), yr hwn a roddwyd i mi, ni bu yn ofer." 1 Cor. xv. 10. Y dyn hwn a gadwodd bob amser yn ei feddwl goffadwriaeth wresog o'r hyn ydoedd gynt wrth natur, ac hefyd y modd y chwanegodd at ei ddrygioni drwy ei weithredoedd. Ië, yn mhellach, efe a benderfynodd yn ei enaid ei hun, oni buasai i Dduw, drwy ei annrhaethol ras roddi terfyn ar ei yrfa annuwiol, y collasid ef yn ei anwiredd. Oddiyma y mae efe yn gosod ei alwedigaeth a'i dröedigaeth wrth ddrws trugaredd Duw. "Pan welodd Duw yn dda (medd efe), yr hwn a'm neillduodd i o groth fy mam, ac a'm galwodd i drwy ei ras, i ddatguddio ei Fab ef ynof fi." Gal. i. 14, 15. Ac oddiyma, drachefn, y mae efe yn adrodd fel y derbyniodd ras ac apostoliaeth—gras i gyfnewid ei enaid, a doniau ac awdurdod apostol i bregethu efengyl gras Duw.

Y dyn bendigedig hwn sydd yn cyfrif y cyfan i ras Duw.

1. Mae yn cyfrif ei alwedigaeth i ras Duw.

2. Mae yn cyfrif ei apostoliaeth i ras Duw.

3. Ei holl lafur yn y gorchwyl hwnw mae yn ei gyfrif i ras Duw.

Y gras Duw hwn oedd yr un ag oedd yn achub o'r dechreuad.

1. Noah a gafodd ras yn ngolwg yr Arglwydd, ac am hyny a alwyd, ac a gadwyd rhag y diluw. (Gen. vi. 7, 8.)

2. Abraham a gafodd ras yn ngolwg yr Arglwydd, am hyny a alwyd allan o'i wlad ei hun. (Gen. xii. 1, 2.)

3. Moses a gafodd ras yn ngolwg yr Arglwydd, am hyny nis gellir ei ddileu allan o lyfr Duw. (Exod. xxxiii. 12, 17.)

Nis gellir dychymygu ychwaith fod y dynion hyn, cyn i ras gymeryd gafael arnynt, yn well nag eraill, canys yna ni achubasid hwynt drwy ras; ni chawsai gras y llywodraeth a'r gogoniant o'u hiechydwriaeth. Ond megis y dywed St. Paul am dano ei hun, ac am y rhai a gedwid drwy ras yn ei ddydd ef, "Beth, gan hyny, a ydym ni yn fwy rhagorol? Nac ydym ddim; canys ni a brofasom o'r blaen fod pawb, Iuddewon a Groegwyr, dan bechod." Rhuf. iii. 9. Felly y gellir dywedyd am y bendigedigion hyn; canys y diweddglo hwn, yn wir, sydd yn gyffredinol, ac yn cyrhaedd holl blant dynion, Iesu Grist ei hun yn unig yn eithrad. Ond,

Yn *drydydd.* Ai o ras Duw y mae iechydwriaeth pechadur? Yma, gan hyny, y gwelwch yr achos paham yr adferir un gwrthgiliwr, ac y cyfrgollir y llall yn ei wrthgiliad.

Yr ydoedd gras i Lot, ond nid i'w wraig; am hyny y gadawyd hi yn ei throsedd. Yr ydoedd gras i Jacob, ond nid i Esau; am hyny y gadawyd Esau yn ei wrthgiliad;—ond Jacob a gafodd drugaredd wedi y cyfan. Yr ydoedd gras i Dafydd, ond nid i Saul; am hyny y cafodd Dafydd drugaredd;—ond Saul a gyfrgollwyd yn ei wrthgiliad. Yr ydoedd gras i Pedr, ond nid i Judas; am hyny Judas a gollir yn ei wrthgiliad, a Phedr a achubir oddiwrth ei bechod. Nid yw y testyn hwnw yn sefyll yn dda i neb ond i'r rhai etholedig trwy ras. "Nid arglwyddiaetha pechod arnoch chwi; oblegid nid ydych chwi dan y ddeddf, eithr dan ras." Rhuf. vi. 14.

Dichon rhai ddywedyd, gael edifeirwch yn y naill, ond nid yn y llall. Wel, ond pwy a ganiataodd ac a roddodd edifeirwch i hwnw? Yr Arglwydd a drodd, ac a edrychodd ar Pedr. Ni throdd i edrych ar Judas.Ië, yr Arglwydd a rágfynegodd i Pedr cyn ei gwympo, y canlynai efe ef i deyrnas nefoedd; eithr y gwadai efe ef yn gyntaf: ond wedi y cyfan na thrallodai ei galon—hyny yw, na lwyr anobeithia; oblegid ei fod ef yn myned i barotoi lle iddo, ac y deuai drachefn, gan ei gymeryd ef ato ei hun. (Ioan xiii. 36—38; xiv. 1—3.) Gair bendigedig yw hwnw yn Salm xxxvii. 23, 24: "Yr Arglwydd a fforddia gerddediad gwr da: a da fydd ganddo ei ffordd ef. Er iddo gwympo, ni lwyr-fwrir ef i lawr; canys yr Arglwydd sydd yn ei gynnal ef â'i law."

Defn. II. Fy ail ddefnydd a gaiff fod i'r rhai athrist yn eu heneidiau, wrth yr olwg a theimlad o'u pechodau.

Yn *gyntaf.* A ydyw y rhai a gedwir yn gadwedig drwy ras? Yna y rhai a fynent esmwythau eu cydwybodau euog, myfyrient ar athrawiaeth rhad ras.

Prif amcan Satan ydyw cadw y pechadur yn annheimladwy o'i bechodau; neu, os gwna Duw fe yn deimladwy o honynt, yna i guddio ac i gadw allan o'r golwg athrawiaeth felys gras Duw, drwy ba un yn unig y mae y gydwybod yn cael iechyd a gwelliant. Canys diddanwch tragwyddol a gobaith da a roddir drwy ras. (2 Thes.

ii. 16.) Pa fodd y gwir esmwytheir, gan hyny, gydwybod y pechadur llwythog, os na chenfydd efe ras Duw?

Myfyriwch, am hyny, ar yr athrawiaeth hon o ras Duw. Bwrw fod afiechyd arnat, yr hwn ni wellheir trwy y cyfryw a'r cyfryw feddyginiaeth; y radd gyntaf tuag at dy iachad fyddai gwybod am yr iawn feddyginiaeth. Yr ydwyf yn sicr fod hyn yn wir mewn perthynas i'r mater mewn llaw. Y radd gyntaf tuag at iachau cydwybod glwyfus yw i ti adnabod gras Duw; yn enwedig y gras perthynasol i'th gyfiawnhau oddiwrth felldith y gyfraith ger ei fron ef.

Dyn dan gydwybod glwyfus sydd yn naturiol i bwyso ar weithredoedd y gyfraith, ac yn meddwl y boddlonir Duw â rhyw beth a wnel efe. Pan y mae y gair yn dywedyd, "Trugaredd yr ydwyf yn ei ewyllysio, ac nid aberth; canys ni ddaethum i alw rhai cyfiawn, ond pechaduriaid i edifeirwch." Mat. ix. 13.

Oherwydd paham, myfyria ar ras Duw. "Canys da (medd yr Apostol) yw bod y galon wedi ei chryfhau â gras." Heb. xiii. 9. Gan feddwl, wrth hyny, nad oes dim cadernid yn yr enaid i'w gynnal i fyny, ond trwy adnabyddiaeth o ras Duw.

Dywedais fod dyn â'i gydwybod yn glwyfus, yn dueddol i bwyso ar weithredoedd y ddeddf. Rhaid i ti, gan hyny, fyfyrio yn fanylach ar ras Duw; ïe, myfyrio arno yn gywir, nid mewn dychymygiad yn unig, ond hefyd mewn ymarferiadau, i fedru ei wahaniaethu oddiwrth y ddeddf. "Canys y gyfraith a roddwyd drwy Moses, ond y gras a'r gwirionedd a ddaeth trwy Iesu Grist." Ioan i. 17. Myfyria arno, meddaf, yn y fath fodd ag i fedru ei wahaniaethu, nid yn unig oddiwrth y ddeddf, ond oddiwrth yr holl bethau hyny ag y mae dynion, mewn ffordd o gabledd, yn ei alw yn ras Duw.

Mae llawer o bethau ag y mae dynion yn ei alw yn ras Duw, a'r nad yw felly.

1. Y goleuni a'r gwybodaeth sydd yn mhob dyn.

2. Yr ewyllysgarwch naturiol hyny sydd mewn dyn i fod yn gadwedig.

3. Y gallu hwnw ag sydd mewn dyn wrth natur i wneuthur rhyw beth (fel y tybia efe) tuag at ei iechydwriaeth.

Yr wyf yn enwi y tri hyn. Y mae hefyd amryw bethau eraill a fyn rhai ei deitlo yn ras Duw. Ond cofiwch chwi, mai gras Duw yw ei ewyllys da a'i fawr gariad i bechaduriaid yn ei Fab Iesu Grist: "Trwy yr hwn ewyllys da y sancteiddir hwynt drwy offrymiad corph Iesu Grist unwaith." Heb. x. 14.

Drachefn: pan aroglech allan y gras Duw hwn, fel ag i fedru ei wahaniaethu oddiwrth yr hyn nid yw ras, yna ymdrecha i gadarnhau dy enaid â'r fendigedig wybodaeth o hono. "Tydi, gan hyny, fy mab, ymnertha yn y gras sydd yn Nghrist Iesu." 1 Tim. ii. 1. Cadarnha dy farn, a'th ddealldwriaeth; ond yn enwedig, ymdrecha i gael y cyfan i mewn i'th gydwybod, fel y byddo i hòno gael ei phuro oddiwrth weithredoedd meirwon, i wasanaethu y Duw byw. (Heb. ix. 14.)

Ac i gymhell y defnydd hwn arnat yn mhellach, ystyria fod dyn yn cael mwy o fudd drwy wybodaeth, a thrwy gynyddu yn gadarn yn ngras Duw.

1. Mae yn gweini iddo achosion o lawenydd: canys yr hwn sydd yn adnabod y gras Duw hwn yn gywir, fe ŵyr fod Duw mewn heddwch ag ef, oherwydd ei fod yn credu yn Iesu Grist; yr hwn, drwy ras Duw, a brofodd farwolaeth dros bob dyn. (Heb. ii. 9.) "Trwy yr hwn hefyd y cawsom ddyfodfa drwy ffydd i'r gras hwn, yn yr hwn yr ydym yn sefyll, ac yn gorfoleddu dan obaith gogoniant Duw." Rhuf. v. 2. Ac yn wir, pa ddiddanwch, pa orfoledd, sydd fel y gorfoledd hwn? I orfoleddu mewn gobaith o ogoniant Duw, yw gorfoleddu yn y gobaith o'i fwynhau yn dragywydd, gyda'r gogoniant annherfynol hwnw ag sydd ynddo ef.

2. Megis y mae yn amlygu achosion o orfoledd a hyfrydwch, felly y mae yn peri ffrwythlondeb mewn sancteiddrwydd a duwioldeb lawer. "Canys ymddangosodd gras Duw, yr hwn sydd yn dwyn iechydwriaeth i bob dyn; gan ein dysgu ni i wadu annuwioldeb a chwantau bydol, a byw yn sobr, ac yn gyfiawn, ac yn dduwiol, yn y byd sydd yr awrhon." Tit. ii. 11, 12. Ië, mae yn tueddu mor naturiol i'r ffordd hon, ag nas dichon yn gynt ymddangos i'r enaid nag y mae yn peri y ffrwyth bendigedig hwn yn y galon a'r fuchedd. "Canys yr oeddym ninau hefyd gynt yn annoethion, yn anufudd, yn cyfeiliorni, yn gwasanaethu chwantau ac amryw felyswedd, gan fyw mewn drygioni a chenfigen, yn ddigasog, yn casâu ein gilydd. Eithr pan ymddangosodd daioni a chariad Duw ein Hachubwr"—Beth yna? Yna yr hwn sydd yn credu, wedi ei gyfiawnhau drwy ei ras ef, ac yn disgwyl bod yn etifedd yn ol gobaith bywyd tragwyddol, sydd ofalus ar flaenori mewn gweithredoedd da. (Tit. iii.)

Gwelwch y geiriau hyny hefyd yn epistol St. Paul at y Colossiaid, pen. i. 3—6: "Yr ydym yn diolch i Dduw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, gan weddio drosoch chwi yn wastadol; er pan glywsom am eich ffydd yn Nghrist Iesu, ac am y cariad sydd genych tuag at yr holl saint; er mwyn y gobaith a roddwyd i gadw i chwi yn y nefoedd, am yr hon y clywsoch o'r blaen yn ngair gwirionedd yr efengyl; yr hon sydd wedi dyfod atoch chwi, megis ag y mae yn yr holl fyd; ac sydd yn dwyn ffrwyth, megis ac yn eich plith chwithau, er y dydd y clywsoch, ac y gwybuoch ras Duw mewn gwirionedd."

Yn *drydydd*. Y wybodaeth am, a'r nerth sydd yn dyfod oddiwrth ras Duw, sydd yn feddyginiaeth odidog rhag yr holl hudoliaethau sydd, neu a ddichon ddyfod i'r byd. St. Pedr, gan hyny, yn cynghori y gwir gredinwyr na ddygid hwynt ymaith gyda chyfeiliornadau y rhai drygionus, ac felly syrthio oddiwrth eu symlrwydd eu hunain, sydd yn chwanegu y cyngor hwn iddynt, megis eu hunig gymhorth: "Eithr cynyddwch mewn gras a gwybodaeth ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist." 2 Pedr iii. 18.

1. Bernwch y bydd i rai ddadleu fod cyfiawnder dyn ei hun yn achub y pech-

adur, yna mae yr Ysgrythyr hon genym wrth law: "Yr hwn a'n hachubodd ni, ac a'n galwodd â galwedigaeth sanctaidd, nid yn ol ein gweithredoedd ni, ond yn ol ei arfaeth ei hun a'i ras, yr hwn a roddwyd i ni yn Nghrist Iesu." 2 Tim. i. 9.

2. Bernwch y bydd eraill yn haeru nad oes i ni, wrth athrawiaeth rhad ras, ddeall ymestyniad o faddeuant rhad gan Dduw, cyn belled ag y pechom, neu y pechasom ni,—yr ateb yw: "Lle yr amlhaodd y pechod, y rhagor amlhaodd gras: fel megis y teyrnasodd pechod i farwolaeth, felly hefyd y teyrnasai gras drwy gyfiawnder (drwy gyfiawnder Duw, wedi ei foddloni yn ei Fab) i fywyd tragwyddol." Rhuf. v. 20, 21.

3. Bernwch y bydd i rai ddywedyd fod yr athrawiaeth hon yn tueddu i benrhyddid ac anniweirdeb,—yr ateb sydd barod: "Beth wrth hyny a ddywedwn ni? a drigwn ni yn wastad mewn pechod, fel yr amlhao gras? Na ato Duw. A ninau wedi meirw i bechod, pa wedd y byddwn fyw eto ynddo ef?" Rhuf. vi. 1, 2. Athrawiaeth rhad ras, wedi ei hiawn gredu, yw yr athrawiaeth sydd yn lladd pechod yn fwyaf o un yn y byd.

4. Bernwch fod i'r eglwys gael ei llwytho gan ddynion â defodau afreidiol, gan eu cymhell arni, megis y gau apostolion yn cymhell yr enwaediad gynt, gan ddywedyd, Oni chyflawnwch y pethau hyn, "ni ellwch fod yn gadwedig,"—yr ateb sydd barod: "Paham yr ydych chwi yn temtio Duw, i ddodi iau ar warau y disgyblion, yr hon nid allai ein tadau ni na ninau ei dwyn? Eithr drwy ras yr Arglwydd Iesu Grist, yr ydym ni yn credu ein bod yn gadwedig yr un modd a hwythau." Act. xv. 1, 10, 11. Ond i beidio ymhelaethu.

5. Yr athrawiaeth hon, "Trwy ras yr ydych yn gadwedig," yr unig feddyginiaeth ydyw yn erbyn meddyliau anobeithiol, wrth amgyffred ein hannheilyngdod ein hunain—megis,

1. Pan fyddech yn llefain allan, O! ddyn melldigedig ydwyf! Fy mhechodau a'm soddant i uffern!

*At.* Aros, ddyn. Y mae Duw yn y nefoedd ag sydd yn "Dduw *pob gras.*" 1 Pedr. v. 10. Nid wyt ti eto yn ddyn *pob pechod.* Os yw Duw yn Dduw *pob gras,* yna pe eiddot ti fyddai holl bechodau y byd, eto medrai Duw pob gras eu maddeu; os amgen, ymddangosai pechod yn gryfach mewn dyn edifeiriol i ddamnio, na gras Duw i achub.

2. Ond fy mhechodau ydynt o'r rhyw gwaethaf—cabledd, godineb, cybydd-dod, llofruddiaeth, &c.

*At.* "Yn wir y dywedaf i chwi, y maddeuir pob pechod i feibion dynion, a pha gabledd bynag a gablant." Marc iii. 28. "Gadawed y drygionus ei ffordd, a'r gŵr anwir ei feddyliau; a dychweled at yr Arglwydd, ac efe a gymer drugaredd arno; ac at ein Duw ni, oherwydd efe a arbed yn helaeth." Esay lv. 7.

3. Ond mae genyf fi galon galed, wrthryfelgar: calon ag sydd yn mhell oddiwrth ddaioni.

*At.* "Gwrandewch arnaf fi (medd Duw), y rhai cedryn galon, y rhai pell oddiwrth gyfiawnder. Neseais fy nghyfiawnder;" hyny yw, cyfiawnder Crist, drwy yr hwn y cyfiawnheir pechaduriaid calon-gedyrn. (Esay xlvi. 12, 13. Phil. iii. 9.)

4. Ond fy nghalon i sydd mor galeted a'r gareg.

*At.* "A rhoddaf i chwi galon newydd," medd Duw, yspryd newydd hefyd a roddaf o'ch mewn chwi; a thynaf y galon gareg o'ch cnawd chwi, ac mi a roddaf i chwi galon gîg." Ezec. xxxvi. 26.

5. Ond yr ydwyf mor ddall a'r wâdd; ni fedraf ddeall dim am yr efengyl.

*At.* "Arweiniaf y deilliaid ar hyd ffordd nid adnabuant; a gwnaf iddynt gerdded ar hyd llwybrau ni adnabuant; gwnaf dywyllwch yn oleuni o'u blaen hwynt, a'r pethau ceimion yn uniawn. Dyma y pethau a wnaf iddynt, ac nis gadawaf hwynt." Esay xlii. 16.

6. Ond ni chynhyrfir fy nghalon i â dioddefiadau, ac â gwaed Crist.

*At.* "A thywalltaf ar dŷ Ddafydd, ac ar breswylwyr Jerusalem, yspryd gras a gweddiau; a hwy a edrychant arnaf fi yr hwn a wanasant, galarant hefyd am dano fel un yn galaru am ei unig-anedig, ac ymofidiant am dano ef megis un yn gofidio am ei gyntaf-anedig." Zec. xii. 10.

7. Ond er fy mod yn canfod beth sydd debyg i ddyfod o honwyf, os na chaf afael yn Nghrist, eto fy meddwl (tra yr ydwyf yn myfyrio hyn) a red ar ol ynfydrwydd, oferedd, aflendid, a drygioni.

*At.* "Taenellaf arnoch ddwfr glân, fel y byddoch lân: oddiwrth eich holl frynti, ac oddiwrth eich holl eilunod, y glanhaf chwi." Ezec. xxxvi. 25.

8. Ond nis gallaf fi gredu yn Nghrist.

*At.* Ond fe addawodd Duw wneuthur i ti gredu. "Gadawaf ynot hefyd bobl druain dlodion; ac yn enw yr Arglwydd y gobeithiant hwy." Zeph. iii. 12. A thrachefn: "Fe fydd gwreiddyn Jesse, a'r hwn a gyfyd i lywodraethu y cenhedloedd: ynddo ef y gobeithia y cenhedloedd." Rhuf. xv. 12.

9. Ond nis gallaf fi weddio ar Dduw am drugaredd.

*At.* Ond Duw, yn rasol, a addawodd yspryd gweddi: "Ië, pobloedd lawer a chenhedloedd cryfion a ddeuant i geisio Arglwydd y lluoedd yn Jerusalem, ac i weddio gerbron yr Arglwydd." "Hwy a alwant ar fy enw, a minau a'u gwrandawaf: dywedaf, Fy mhobl yw efe; ac yntau a ddywed, Yr Arglwydd yw fy Nuw." Zec. viii. 22; xiii. 9.

10. Ond nis gallaf fi edifarhau.

*At.* "Duw ein tadau ni a gyfododd i fyny Iesu, yr hwn a laddasoch chwi, ac a groeshoeliasoch ar bren. Hwn a ddyrchafodd Duw â'i ddeheulaw, yn

Dywysog, ac yn Iachawdwr, i roddi edifeirwch i Israel, a maddeuant pechodau." Act. v. 30, 31.

Fel hyn y gallwn ymhelaethu; canys y Bibl Sanctaidd sydd yn llawn o'r annhraethol ras Duw hwn. Efe a ymrwymodd i wneuthur y pethau hyny dros bechaduriaid truain, y rhai, pe amgen, a fuasent byth heb eu gwneuthur. Lle y rhoes orchymyn, fe roddodd addewid am nerth i'w gyflawni, fel y byddai y gogoniant yn gryno yn cael ei roddi i rad ras.

Defn. III. Yn *drydydd.* A ydyw y rhai sydd gadwedig yn gadwedig drwy ras? Yna ymdreched Cristionogion i ddyrchafu gras Duw: 1. Yn eu calonau; 2. Yn eu bywydau.

1. Cred yn nhrugaredd Duw, trwy Iesu Grist, ac felly dyrchafa ras Duw;—fy meddwl yw, anturia yn galonog, yn hyderus; canys y mae pob digonolrwydd yn ngras Duw. Abraham a ogoneddodd ras Duw, pan "nad ystyriodd ei gorph ei hun, yr hwn oedd yr awrhon wedi marweiddio, na marweidd-dra bru Sara. Ac nid amheuodd efe addewid Duw trwy anghrediniaeth, eithr efe a nerthwyd yn y ffydd, gan roddi gogoniant i Dduw." Rhuf. iv. 19, 20.

2. Dyrchafa ef trwy ei ddyrchafu yn dy feddyliau. Bydded genyt bob amser feddyliau parchus ac uchel am ras Duw. Meddyliau gwael ac isel sydd yn ei ddianrhydeddu yn fawr. Ac i'th gynorthwyo yn hyn, ystyria, yn

1. Fod y gras hwn yn cael ei gydmaru i'r môr: "A thi a defli ei holl bechodau i ddyfnderoedd y môr." Micah vii. 19. Yn awr, y môr, trwy fwrw iddo, nis gellir ei lenwi i fyny byth.

2. Cyffelybir y gras hwn i ffynnon, i ffynnon agored: "Yn y dydd hwnw y bydd ffynnon wedi ei hagoryd i dŷ Ddafydd, ac i breswylwyr Jerusalem, i bechod ac aflendid." Zec. xiii. 1. Yn awr, ffynnon nis gellir ei sychu, trwy dynu dwfr o honi.

3. Y Salmydd sydd yn llefain allan mewn perthynas i ras a thrugaredd Duw, ei fod yn parhau yn dragywydd. Salm cxxxvi. Mae yn adrodd hyny chwech-arhugain o weithiau yn yr un Salm. Yn ddiau fe welodd beth mawr ynddo; yn ddiau efe a gymerwyd i fyny yn fawr ag ef!

4. St. Paul a ddywed: "Duw pob gras, yr hwn a ddichon wneuthur yn dra rhagorol, y tu hwnt i bob peth yr ydym ni yn eu dymuno, neu yn eu meddwl, yn ol y nerth sydd yn gweithredu ynom ni." Ephes. iii. 20.

5. Gan hyny, fel mae gair Duw yn adrodd, felly y dylit ti ystyried am ras Duw.

Yn *drydydd.* Tyred yn hyderus at orseddfainc y gras, trwy weddi galonog: canys dyma y ffordd hefyd i ddyrchafu gras Duw. Dyma gyngor yr apostol: "Am hyny awn yn hyderus at orseddfainc y gras, fel y derbyniom drugaredd, ac y caffom ras yn gymhorth cyfamserol." Heb. iv. 16.

Edrychwch yma ychydig, a rhyfeddwch!

Buom trwy yr holl amser hwn yn ymresymu am ras Duw. Ac yn awr yr ydym wedi dyfod at ei orseddfainc (at ei eisteddfa ef, fel y dywed Job, pen. xxiii. 3), ac, wele, hòno yn orseddfainc y gras. O! pan y mae Duw y gras ar orseddfainc y gras, a'r pechadur truan gerllaw yn deisyf am ras, a hyny yn enw Crist grasol, yn a thrwy gymhorth Yspryd y gras, a ddichon y cyfryw bechadur yn amgen na derbyn trugaredd a gras "yn gymhorth cyfamserol?" Ond nid i anghofio y cyngor, "Awn yn hyderus." Yn wir yr ydym yn dueddol i ollwng y cyngor hwn dros gof. Ein meddyliau ni yw, ein bod yn fath bechaduriaid aflan, na ddylem anturio dyfod yn ëon at orseddfainc y gras: ond eto felly y gorchymynir i ni wneuthur; ac i dori y gorchymyn yma sydd gynddrwg a'i dori yn un lle arall.

Dichon i chwi ofyn i mi, Beth yw dyfod yn hyderus?

*At.* 1. Dyfod yn hyderus yw dyfod trwy ymddiried: "Nesawn â chalon gywir, mewn llawn hyder ffydd, wedi glanhau ein calonau oddiwrth gydwybod ddrwg, a golchi ein corph â dwfr glân." Heb. x. 22.

2. Dyfod yn hyderus, yw dyfod yn fynych: "Hwyr a boreu a haner dydd y gweddiaf." Salm lv. 17. Yr ydym ni yn arferol o'u cyfrif hwynt yn gardotwyr hyfion, y rhai a ddelont yn fynych at ein drysau.

3. Dyfod yn hyderus, yw i ofyn pethau mawrion pan ddelom. Dyna y cardotyn hyfa, yr hwn nid yn unig a ofyn, ond hefyd a fyn ofyn yr hyn a ddewiso.

4. Dyfod yn hyderus, yw dyfod i ofyn dros eraill yn gystal a ni ein hunain; erfyn am ras a thrugaredd i holl saint Duw ar y ddaear yn gystal a ni ein hunain: "Gan weddio bob amser â phob rhyw weddi a deisyfiad yn yr Yspryd, a bod yn wiliadwrus at hyn yma, trwy bob dyfal-bara, a deisyfiad dros yr holl saint." Ephes. vi. 18.

5. Dyfod yn hyderus, yw dyfod heb gymeryd ein gomedd. Fel hyn y daeth Jacob at orseddfainc y gras: "Ni'th ollyngaf oni'm bendithi." Gen. xxxii. 26.

6. Dyfod yn hyderus, yw pledio addewidion Duw ag ef, mewn ffordd o gyfiawnder a thrugaredd, gan ymddried y bydd i Dduw roddi i ni (oherwydd iddo addaw hyny) beth bynag a ofynom yn enw ei Fab.

Yn *bedwerydd.* Ymdrecha i ddyrchafu gras Duw yn dy galon, trwy fynych ryfeddu, moliannu, a bendithio Duw yn y dirgel am dano: mae Duw yn ei ddisgwyl: "Yr hwn a abertho foliant a'm gogonedda," medd efe. Salm l. 23. "Trwyddo ef, gan hyny, offrymwn aberth moliant yn wastadol i Dduw, yr hyn yw ffrwyth ein gwefusau, yn cyffesu i'w enw ef." Heb. xiii. 15.

Ond drachefn; megis y dylem ddyrchafu y gras hwn yn ein calonau, felly y dylem yn ein bywydau. Dylem yn ein hymarweddiad addurno gras ein Harglwydd yn mhob peth. Cyngor mawr yr apostol ydyw: "Yn unig ymddygwch yn addas i efengyl Crist" (Phil. i. 27), yr hon yw efengyl gras Duw. Mae Duw yn disgwyl

fod archwaeth bendigedig yr efengyl ar ein holl fywyd; neu, fod ein hymarweddiad yn mhlith dynion yn pregethu iddynt ras efengyl Duw.

Yr efengyl sydd yn dangos i ni, fel y rhyfedd ymddarostyngodd Duw er mwyn daioni ei bobl; ac wrth wneuthur felly, ymostyngiad i eraill ydoedd.

Yr efengyl sydd yn dangos i ni fod helaethrwydd o gariad ac ymysgaroedd tosturi yn Nuw tuag atom ni; ac yn gyffelyb dylem ninau fod yn llawn cariad ac ymysgaroedd tosturi tuag at eraill.

Yr efengyl sydd yn dangos i ni fod yn Nuw ewyllysgarwch mawr i wneuthur daioni i eraill.

Yr efengyl sydd yn dangos i ni fod Duw yn gweithredu tuag atom ni yn ol ei wirionedd a'i ffyddlondeb, ac felly dylem ni fod yn ein holl weithredoedd y naill tuag at y llall.

Trwy yr efengyl y mae Duw yn datgan i ni ei fod yn maddeu i ni ddeng mil o dalentau; dylem ninau hefyd faddeu i'n brawd y can' ceiniog.

Ac yn awr, cyn y diweddwyf y defnydd hwn, gadewch i mi roddi o'ch blaenau ychydig o anogaethau gwerthfawr i ddyledswydd mor dda ac mor rhagorol a hon.

Yn *gyntaf.* Ystyria i Dduw dy achub di drwy ei ras. Gristion, Duw a'th achubodd di; ti ddiangaist o safn y llew; ti a waredwyd rhag y llid a fydd: dyrchafa, gan hyny, y gras a'th achubodd yn dy galon a'th fuchedd.

Yn *ail.* Ystyria i Dduw adael miliynau yn eu pechodau y dydd hwnw yr achubodd di trwy ei ras. Gadawodd filiynau allan, ac a'th gymerodd di i mewn; gallai hefyd fod cannoedd, ïe, miloedd, yn nydd dy dröedigaeth, yn sefyll o'i flaen ef dan bregethiad y gair megis tithau, eto efe a'th gymerodd di. Ystyriaethau o'r fath hyn a weithiodd lawer ar Ddafydd; ac fe fyn Duw iddynt dy gynhyrfu dithau i ddyrchafu ei rad ras yn dy fywyd a'th ymarweddiad. Salm lxxviii. 67—72.

Yn *drydydd.* Ystyria fod, ysgatfydd, y rhan fwyaf o'r rhai a wrthododd Duw y dydd hwnw y galwodd di drwy ei ras, yn llawer gwell mewn perthynas i dröedigaeth nag a fuasit ti erioed. "Yr hwn oeddwn o'r blaen yn gablwr, ac yn erlidiwr, ac yn drahaus: eithr mi a gefais drugaredd." 1 Tim. i. 13.

Yn *bedwerydd.* Ysgatfydd, yn nydd dy ddychweliad, dy fod yn fwy afreolus na llawer: fel yr ŷch anarferol a'r iau, yn anhawdd dy ddofi. Ti a ddygwyd adref gyda llaw gadarn; ni cherddit ddim; rhaid oedd i'r Arglwydd Iesu dy ddodi ar ei ysgwyddau, a'th ddwyn adref i dŷ ei Dad. Luc xv. 4—6. Hyn a ddylai osod rhwymedigaeth ar dy galon i fyfyrio am ddyrchafu gras Duw.

Yn *bummed.* Ysgatfydd fod i lawer ei gymeryd yn dramgwydd i Dduw dy ddychwelyd a'th achub di trwy ei ras, megis y mab hynaf—(Luc xv. 21—32)—yr hwn a ddigiodd wrth ei dad am ladd y llo pasgedig i'w frawd; er hyny ni rwystrwyd gras Duw oddiwrthyt, ac ni pharwyd iddo leihau ei gariad tuag at

dy enaid. Hyn, gan hyny, a ddylai dy anog i ddyrchafu gras Duw yn dy galon a'th fuchedd.

Yn *chwechfed*. Ystyria, drachefn, na chaniataodd Duw i ti ond ychydig o amser i'r gwaith mawr hwn yn mhlith dynion pechadurus, sef yr ychydig o ddyddiau sydd genyt yn awr i fyw; yna cei fyned i dderbyn y gwobr hwnw a rydd gras i ti hefyd am dy waith, er dy dragywyddol ogoniant.

Yn *seithfed*. Caffed hyn hefyd beth lle yn dy galon—pob dyn sydd yn dangos ufudd-dod i'r Duw y mae yn ei wasanaethu; ïe, pe na byddai y duw hwnw amgenach na'r diafol a'i drachwantau; ac oni fydd i ti, O! ddyn! cadwedig gan yr Arglwydd, fod yn llawer mwy ufudd a darostyngedig "i Dad yr ysprydoedd, a byw?" Och! maent hwy yn olrhain eu damnedigaeth eu hunain, eto yn llawen o hono, ac yn dawnsio ar hyd y ffordd yr elont. Maent yn gwasanaethu y "duw" hwnw gydag hyfrydwch a llawenydd, yr hwn yn y diwedd a'u sodda i lynclyn o anobaith tragywyddol, ac a'u poenydia dros fyth yn eirias dân uffern! Ond dy Dduw di, gredadyn, sydd Dduw iechydwriaeth: "Ac i'r Arglwydd Dduw y perthyn diangfäau rhag marwolaeth." Salm lxviii. 20. Oni fydd i ti ei wasanaethu gydag hyfrydwch yn y mwynhad o bob daioni—Efe, trwy yr hwn yr wyt yn disgwyl cael dy wneuthur yn wynfydedig i dragwyddoldeb?

*Gwrth*. Dyma y peth sydd yn fy lladd i!—anrhydeddu Duw nis gallaf; fy nghalon sydd mor druenus, mor farw, mor ddrwg-ddiobaith, nis gallaf.

*Ateb*. Beth a feddyli wrth nis gallaf?

1. Os meddwl yr wyt nad oes genyt nerth i hyny, ti a ddywedaist anwir: "Oblegid mwy yw yr hwn sydd ynoch chwi na'r hwn sydd yn y byd." 1 Ioan iv. 4.

2. Os meddwl yr wyt nad oes genyt ewyllys, yna yr ydwyt allan hefyd; canys pob Cristion (yn ei iawn bwyll) sydd ddyn ewyllysgar; a dydd nerth Duw a'i gwnaeth felly. (Salm cx. 3.)

3. Os dy feddwl yw fod arnat eisieu doethineb, dy fai dy hun ydyw hyny: "O bydd ar neb o honoch eisieu doethineb, gofyned gan Dduw, yr hwn sydd yn rhoi yn haelionus i bawb, ac heb ddanod; a hi a roddir iddo ef." Iago i. 5.

*Gwrth*. Nis gallaf wneuthur pethau fel y dymunwn.

*Ateb*. Dim mwy nis gallai y goreu o'r saint yn yr amseroedd gynt: "Yr ewyllysio sydd barod genyf (ebe St. Paul); eithr cwblhau yr hyn sydd dda, nid wyf yn medru arno." Rhuf. vii. 18. A thrachefn: "Y mae y cnawd yn chwennychu yn erbyn yr yspryd, a'r yspryd yn erbyn y cnawd, a'r rhai hyn a wrthwynebant eu gilydd, fel na alloch wneuthur beth bynag a ewyllysioch." Gal. v. 17.

Ac yma yn wir y gorwedda dirgelwch mawr y gwirionedd hwn, "Trwy ras yr ydych yn gadwedig;" canys plant Duw, tra y maent yma, er eu tröedigaeth at Dduw, a'u hiechydwriaeth trwy Grist a'i ras, ydynt mor weinion a diymadferth,

oherwydd corph y farwolaeth sydd yn trigo eto ynddynt; a phe byddai i bechod eu gweithredoedd goreu gael ei gyfrif iddynt, yn ol trefn y cyfamod gweithredoedd, caent ei weled yn anmhosibl iddynt fyned byth i mewn i'r gogoniant. Ond paham y dadleuaf fel hyn? Mae yn anmhosibl bod gwendidau y rhai a gedwir drwy ras yn gyfrifedig iddynt, megis y dangoswyd eisoes, oblegid nad ydynt dan y ddeddf. Maent yn guddiedig yn ngwaed a marwolaeth Mab Duw, yr hwn sydd yn byw bob amser i eiriol drostynt ar ddeheulaw Duw—(Heb. vii. 25. Rhuf. viii. 34)—eiriolaeth pa un sydd mor effeithiol gyda'r Tad a'i fod yn cymeryd ymaith anwiredd ein pethau sanctaidd o'i olwg; gan ein gosod yn bur, yn ddifeius, ac yn ddifrycheulyd, ger ei fron. Iddo ef, trwy Iesu Grist, a thrwy gymhorth Ysbryd bendigedig y gras, rhodder mawl a diolchgarwch, gogoniant ac anrhydedd, gan ei holl saint, yn awr ac yn dragwyddol. Amen.

# Y PORTH CYFYNG:

NEU,

## YR ANHAWSDRA MAWR O FYNED I'R NEFOEDD:

YN PROFI YN EGLUR, TRWY YR YSGRYTHYRAU, Y BYDD, NID YN UNIG YR ANFOESOL A'R HALOGEDIG, OND HEFYD LLAWER O BROFFESWYR MAWRION, YN DYFOD YN FYR O'R DEYRNAS HONO.

---

"Ewch i mewn trwy y porth cyfyng: canys ehang yw y porth, a llydan yw y ffordd sydd yn arwain i ddistryw a llawer yw y rhai sydd yn myned i mewn trwyddi: oblegid cyfyng yw y porth, a chul yw y ffordd, sydd yn arwain i'r bywyd; ac ychydig yw y rhai sydd yn ei chael hi."—Mat. vii. 13, 14.

---

## AT Y DARLLENYDD.

Ddarllenydd Hawddgar:

Duw, yr wyf yn gobeithio, a roddodd yn fy nghalon i ysgrifenu atat y waith hon yn ychwaneg, a hyny yn nghylch y mater mwyaf pwysfawr; canys yn awr nid wyf yn traethu am bethau a ymrysonir yn eu cylch yn mhlith y duwiolion, ond, yn uniongyrchol, am yr hyn a berthyn i gadwedigaeth neu golledigaeth yr enaid. Y Traethawd hwn sydd yn mynegi leied yw nifer y rhai cadwedig, ac yn profi y bydd llawer o broffeswyr godidog yn dyfod yn fyr o deyrnas nefoedd; oherwydd paham, angenrhaid yw fod yr ymadrodd yn llym, ac oherwydd hyny yn anoddefol gan rai, ond na fydded felly genyt ti. Y mae y testyn yn galw am awchlymdra, ac felly y mae yr amserau hefyd; ïe, ffyddlon gyflawniad o'm dyledswydd tuag atat ddarfu fy rhwymo i hynyma.

Nid wyf yn awr yn canu pibell, ond yn galaru; ac fe fydd yn dda gyda thi os gelli dithau wylo yn rasol. (Mat. xi. 17.) Y mae gwahanol farnau o barth lled a chulni porth y nefoedd; o'm rhan fy hun, yr wyf wedi ei arddangos i ti yma mor gywir ag y medrais yn ol gair Duw. Y gwaith hwn a fwriedais i'th ddihuno a'th adfywio di. Os bydd iddo dy archolli, cais feddyginiaeth trwy waed; os dug ymaith yr hyn oll a feddi—am nad yw *ddim* mewn gwirionedd—yna pryn gan Grist "aur wedi ei buro trwy dân, fel y'th gyfoethoger; a dillad gwynion, fel y'th wisger, fel nad ymddangoso gwarth dy noethder di; îra hefyd dy lygaid ag eli llygaid, fel y gwelech." Dat. iii. 18. Yr Arglwydd a roddo i ti ddeall da, i iawnfarnu am dy gyflwr, ac am y Llyfr hwn; ac felly i wir-ymbarotoi erbyn tragwyddoldeb, fel y gallot nid yn unig ddisgwyl cael mynediad, ond dy dderbyn i deyrnas Iesu Grist ein Harglwydd.

Felly y gweddia dy Gyfaill ffyddlon,

JOHN BUNYAN.

# Y PORTH CYFYNG.

"Ymdrechwch am fyned i mewn trwy y porth cyfyng: canys llawer, meddaf i chwi, a geisiant fyned i mewn, ac nis gallant."—Luc xiii. 24.

Y rhai hyn ydynt eiriau ein Harglwydd Iesu Grist, ac oblegid hyny, i sylwi yn neillduol arnynt; heblaw eu bod yn cynwys y mater mwyaf pwysfawr, sef, pa fodd y mae i ni gyrhaeddyd tragwyddol iechydwriaeth; am hyny, dylem eu hystyried gyda'r manylrwydd a'r difrifwch mwyaf.

Achlysur y geiriau ydoedd ofyniad a osododd un ag oedd yn bresenol yn mhlith y disgyblion gerbron yr Iesu; gan ddywedyd, "Arglwydd, ai ychydig yw y rhai cadwedig?" adn. 23. Dyma ofyniad pwysig; nid y fath ag oedd yn tueddu i ddadymchwelyd y gwrandawyr, megis llawer yn ein hoes ni; ond y cyfryw ag oedd yn fuddiol ynddo ei hun i ddihuno meddyliau y gwrandawyr, ac yn galw am y fath atebiad ag oedd yn llesol iddynt. Y cwestiwn hefyd a foddlonodd Iesu Grist yn fawr, i'r hwn y mae yn rhoddi cyflawn atebiad, er addysg a chymhorth i'r sawl a'i gwrandawai. Y geiriau sydd yn gynwysedig o atebiad ac hyfforddiad hefyd.

1. Atebiad, a hyny yn gadarnhaol: "Cyfyng yw y porth;" "llawer a geisiant fyned i mewn, ac nis gallant;" am hyny, ychydig yw y rhai cadwedig.

2. Yr atebiad sydd er addysg hefyd: "Ymdrechwch am fyned i mewn trwy y porth cyfyng." Wele yma gyngor ac addysg rhagorol. Atolygaf ar Dduw fy nghynorthwyo i a'm darllenydd, a phawb a garant eu hiechydwriaeth, i wneuthur derbyniad o hono.

Y drefn a gymeraf i drin y geiriau hyn a fydd, yn gyntaf, mewn ffordd o agoriad; yn ail, mewn ffordd o gymhwysiad neu ddefnydd oddiwrth y cyfan.

I. Agoriad. Y mae y geiriau i'w hystyried, yn gyntaf, yn mherthynas i'w prif ddiben cyffredinol; ac yna, yn mherthynas i'w hamrywiol ymadroddion.

Yn *gyntaf*. Y mae diben cyffredinol y testyn i'w ystyried, yr hyn yw iechydwriaeth; canys y mae y geiriau hyn yn uniongyrchol yn golygu, ac yn cyfarwyddo yn nghylch iechydwriaeth: "Ai ychydig yw y rhai cadwedig?" "Ymdrechwch am fyned i mewn trwy y porth cyfyng."

Y geiriau, meddaf, sydd i'n cyfarwyddo, nid yn unig i siarad am, neu ewyllysio

bod yn gadwedig, ond hefyd i ddeall pa fodd y mae i ni ymosod yn nghylch, a dyfod i ben â'r gorchwyl mawr yma; oherwydd paham, y mae y geiriau o'r pwys a'r canlyniadau mwyaf. Bod yn gadwedig! Beth sydd gyffelyb i fod yn gadwedig? Bod yn gadwedig oddiwrth bechod, uffern, a digofaint Duw, a rhag damnedigaeth dragwyddol, beth sydd gyffelyb i hyn? Cael ein gwneuthur yn etifeddion i Dduw drwy ras, yn ddeiliaid o'i deyrnas, ac yn feddiannol o fywyd tragywyddol, dyma fraint oruchel a digyffelyb! Ac eto, y mae hyn oll yn cael ei gynwys yn y gair hwn, *cadwedig*, ac yn yr atebiad i'r cwestiwn hwnw, "Ai ychydig yw y rhai cadwedig?" Yn wir, nid yw y gair hwn, *cadwedig*, ond o ychydig werth yn y byd, oddieithr yn mhlith y rhai hyny ag sydd yn ofni damnedigaeth. Mae y gair hwn yn gorwedd yn y Bibl megis cyffuriau neu feddyginiaeth yn nhai aneddau, wedi eu dodi mewn congl, neu ryw le dirgel, heb feddwl am danynt dros rai misoedd, am nad oes neb yn afiach neu yn friwedig yn y teulu. Yn amser afiechyd neu ddolur, beth sydd mor werthfawr a chyfrifol genym a llestri y meddyg gerllaw i ni, yn llawn o bethau rhinweddol i'n gwellhau? Ond pan iachao y cleifion drachefn, yna y gweddill a fwrir allan, ac a deflir i'r domen. O! pan y mae dynion yn glaf o bechod, ac yn ofni damnedigaeth, mor felys yw yr adnod hòno sydd â'r gair hwn, *cadwedig*, yn gynwysedig ynddi! Ië, y fath air hyfryd a bendithiol ydyw i'r hwn y mae euogrwydd cydwybod, a theimlad o ddigofaint dwyfol, yn pwyso arno, ac yn ei lethu yn wastadol! Ond nid rhaid i'r rhai iach wrth feddyg. Efe, gan hyny, ïe, efe yn unig a ŵyr beth y mae cadwedigaeth yn ei feddwl, yr hwn a ŵyr beth y mae uffern, marwolaeth, a damnedigaeth, yn ei feddwl. "Beth a wnaf fel y byddwyf gadwedig?" yw iaith pechadur crynedig. "Arglwydd, cadw fi, darfu am danaf," yw iaith y pechadur suddedig. Ac nid yw neb yn rhyfeddu gogoniant y gair hwn, *cadwedig*, ond y rhai a ganfu wagter pob peth yn y nef a'r ddaear hebddo. Y rhai hefyd ag sydd yn credu fod hawl ganddynt yn y bendithion a gynwysir ynddo, ydynt yn ostyngeiddiaf yn diolch ac yn moliannu Duw am eu cyfran. Ac oherwydd fod y pethau a gynwys y gofyniad, yn nghyd â'r atebiad iddo, yn ddim llai nag iechydwriaeth yr enaid, yr wyf yn atolwg i chwi ddàl yn fanylach arno. (Heb. ii. 1.) Ond i ddyfod at ymadroddiad neillduol y geiriau, a'u trin yn drefnus ac yn rheolaidd, yr wyf yn cael pedwar peth yn gynwysedig ynddynt:

Yn *gyntaf*. Arwyddocad teyrnas nefoedd.

Yn *ail*. Desgrifiad o'r mynediad i mewn iddi.

Yn *drydydd*. Cyngor neu anogaeth i fyned i mewn.

Yn *bedwerydd*. Cadarnhad o'r cyngor neu yr anogaeth uchod, gyda defnydd cyffredinol oddiwrth yr athrawiaeth.

1. Arwyddocad teyrnas nefoedd. Canys pan y mae yn dywedyd "Ymdrechwch i fyned i mewn," yr ydys yn meddwl *lle*, neu gyflwr, neu bob un, i'w mwynhau.

"Ymdrechwch i fyned i mewn;" i mewn i ba beth, ond i le, neu gyflwr, neu bob un o'r ddau? Gan hyny, pan ddarllenoch y geiriau hyn, *myned i mewn,* rhaid i chwi ddeall fod yr ymadrodd yn golygu rhyw beth neillduol, y peth daionus hwnw ag sydd eto heb ei amlygu. "Ymdrechwch i fyned i mewn," i mewn i'r *nefoedd;* dyna yw yr ystyr, lle y mae, ac y bydd, y rhai cadwedig. I'r nefoedd, y lle gogoneddus hwnw y mae Duw, a Christ, ac angylion, yn preswylio ynddo, gydag ysprydoedd y rhai cyfiawn a berffeithiwyd. "Ymdrechwch i fyned i mewn;" y peth hwnw a gynwysir yn y geiriau a elwir mewn lle arall, Mynydd Sïon, Jerusalem nefol, cymanfa a chynulleidfa y rhai cyntaf-anedig, y rhai a ysgrifenwyd yn y nefoedd. (Heb. xii. 23.) Am hyny, y mae y geiriau yn arwyddocau i ni fod cyflwr tra gogoneddus, a hwnw pan ddarfyddo y byd hwn; a bod y lle a'r cyflwr hwnw i'w mwynhau gan genhedlaeth o ddynion dros fyth.

Heblaw hyny, y gair hwn, "Ymdrechwch i fyned i mewn," sydd yn arwyddo mai yno yn unig y mae iechydwriaeth gyflawn i'w mwynhau, ac y mae yno y mae diogelwch tragwyddol. Pob lleoedd a sefyllfaoedd eraill ydynt yn ddarostyngedig i gyfnewidiad a pherygl, yn llawn o faglau, temtasiynau, blinder, ac anmherffeithrwydd. Ond yno y mae yn dda yn mhob modd; nid oes yno un diafol i demtio, un galon ddrwg anllywodraethus i'n blino, un chwant neu ddeisyfiad llygredig i'n difwyno, un byd gwageddus i'n rhwydo. Yno y bydd pawb yn ddedwydd i dragywyddoldeb. Yno y mae perffaith fwynhad o Dduw a Christ mewn gweledigaeth eglur; yn nghyd â chwmpeini angylion a seintiau, heb farwolaeth, afiechyd, trallod, poen, erlidigaeth, gorthrymder, na thywyllwch, i dywyllu rhyngom a'r gogoniant byth. O! Fynydd Sïon! O! Gaersalem newydd! O! y Jerusalem nefol! Preswylfod seintiau ac angylion, gyda Duw a'r Oen i dragywyddoldeb! 2 Cor. v. 1—4. Salm xvi. 11. Luc xx. 35, 36. Heb. xii. 12—14.

Gwelwch yma gymaint peth sydd yn gynwysedig yn yr ymadrodd hwn: "Ymdrechwch i fyned *i mewn.*" Y mae nefoedd gryno a bywyd tragwyddol wedi eu rhwymo i fyny ynddo. Y mae geiriau cyffelyb iddynt i'w canfod mewn amrywiol fanau o'r Ysgrythyrau Sanctaidd, &c. Dylai hyn ein dysgu nid yn unig i ddarllen, ond ystyried pa fodd y darllener. Canys os na chraffwn ar air Duw, a chael ein goleuo ynddo gan yr Yspryd, gallwn fyned heibio i ymadroddion gwerthfawr yn yr Ysgrythyrau, ag a fyddo â theyrnas nefoedd, a thragwyddol happusrwydd, yn gynwysedig yn eu hymysgaroedd. Fe arferai yr apostolion dynu pethau mawrion allan o'r Ysgrythyrau, oddiwrth wir drefn ac amseroedd y pethau hyny a gynwysir ynddynt. Gwelwch Rhuf. iv. 9—11. Gal. iii. 16, 17. Heb. viii. 13. Ond,

Yn *ail.* Megis y mae genym yma arwyddocad teyrnas nefoedd, felly hefyd y mae genym ddarluniad o'r mynediad i mewn iddi; a hyny trwy debygoliaeth ddeublyg.

I. Mae yn cael ei alw *porth.*

II. Porth *cyfyng:* "Ymdrechwch am fyned i mewn trwy y porth cyfyng."

1. Mae yn cael ei osod allan dan gyffelybiaeth *porth.* Porth, neu ddrws, chwi wyddoch, sydd o ddefnydd deublyg, sef, i agor a chau; ac, yn ganlynol, i ollwng i mewn, neu gau allan; a gwneuthur y ddau beth hyn yn eu tymhor priodol—megis y dywedir yn Nehemiah, pen. viii. 3: "Nac agorer pyrth Jerusalem nes gwresogi yr haul." A thrachefn: "Erchais gau y dorau, ac a orchymynais nad agorid hwynt wedi y Sabbath." Nehemiah xiii. 19. Ac felly y gwelwch am borth y nefoedd: pan ddaeth y pùm morwyn gall ato, agorwyd y porth iddynt hwy: "Wedi hyny daeth y morwynion eraill hefyd," ond cauasid y drws. (Mat. xxv. 10, 11.) Gelwir, gan hyny, fynediad i mewn i'r nefoedd yn *borth,* i ddangos fod amser o fynediad i mewn, ac y daw amser pryd na byddo. Ac yn wir dyma y prif wirionedd a gynwysir yn y testyn. "Ymdrechwch am fyned i mewn trwy y porth cyfyng: canys llawer, meddaf i chwi, a geisiant fyned i mewn, ac nis gallant." Yr wyf yn darllen yn yr Ysgrythyrau am *ddau* borth neu ddorau, trwy ba rai y mae yn rhaid i'r sawl a êl i'r nefoedd fyned i mewn.

(1.) Y mae porth yn ddrws ffydd; y drws a agorwyd gan ras Duw i'r cenhedloedd. Y drws yma yw Iesu Grist, megis y mae efe ei hun yn tystiolaethu, gan ddywedyd, "Myfi yw drws y defaid." Ioan x. 9. Act. xiv. 27. Trwy y drws hwn y mae dynion yn myned i mewn i ffafr a heddwch Duw, ac yn derbyn maddeuant trwy ffydd yn ngwaed Crist, ac yn byw mewn gobaith o fywyd tragwyddol. Am hyny hefyd y dywedodd efe, "Myfi yw y drws; os â neb i mewn trwof fi, efe a fydd gadwedig;" hyny yw, efe a dderbynir i ffafr a heddwch Duw, ac a etifedda fywyd tragwyddol. Ond,

(2.) Y mae porth neu ddrws arall—canys yr hyn a elwir yn y testyn *porth,* a elwir drws ddwywaith yn yr adnod nesaf—y mae porth arall, meddaf, a hwnw yw mynediad i mewn i'r nefoedd, yr hwn yw y porth a grybwyllir yn y testyn, a'r drws a sonir am dano ddwywaith yn yr adnod ganlynol. A dyma fel y galwyd ef gan Jacob, pan y dywedodd yn Bethel, "Nid oes yma onid tŷ Dduw, a dyma borth y nefoedd," Gen. xxviii. 17—hyny yw, *mynediad i mewn;* canys yr oedd yn canfod yno y mynediad i mewn i'r nefoedd. Yr oedd un pen i ysgol Jacob yn sefyll yn Bethel, tŷ Dduw, a'i phen arall yn cyrhaeddyd i'r nefoedd (adn. 12). Ysgol Jacob ydoedd gysgod o Grist, yr hon nid ydoedd borth y nefoedd, ond y ffordd o'r eglwys i'r porth hwnw a welodd efe wrth ben uchaf yr ysgol. Ond, yn mhellach, mai wrth y porth yn y testyn y meddylir y porth, neu fynediad i mewn i'r nefoedd, ystyriwch,

(1.) Mai y porth hwnw ydyw ag sydd yn gollwng dynion i mewn, neu yn eu cau allan o'r lle, neu y deyrnas hòno ag y mae Abraham, Isaac, a Jacob, yn preswylio ynddi; y baradwys a addawodd Crist y byddai y lleidr yn gydgyfranog o

boni y dydd hwnw y croeshoeliesid hwynt. Y lle hwnw yw ag y dywedodd Paul ei gipio i fyny iddo, pan glybu eiriau y rhai nid oedd gyfreithlon, neu bosibl i ddyn eu hadrodd. (2 Cor. xii. 4.)

*Hol.* Eithr onid Crist yw y porth, neu y mynediad i mewn i'r lle yma?

*Ateb.* Efe yw yr hwn heb ba un nis gall neb fyned i mewn yno; oherwydd trwy ei haeddiant ef y mae dynion yn mwynhau y bywyd hwnw; ac am mai efe, hefyd, megis y Tad, sydd yn rhoddi y deyrnas hòno i'r neb y myno. Yn mhellach: y lle hwnw, Bethel, a elwir yn dŷ Dduw, ac efe ei hun yn llywodraethwr arno. "Gwedi cyfodi gwr y tŷ, a chau y drws," &c. Luc xiii. 25. Ond nid ydym yn deall wrth y drws am wr y tŷ. Mae credinwyr, gan hyny, yn myned i mewn trwy Grist, nid megis y mae yn borth, drws, neu fynediad i'r tragwyddol drigfanau, ond fel y mae yn rhoddwr neu gyfranwr o honynt, i'r cyfryw a gyfrifo efe yn deilwng, oherwydd eu pwrcasu ganddo â'i waed ei hunan iddynt.

(2.) Mai wrth y porth yma y meddylir mynediad i mewn i'r nefoedd, ystyriwn fod y testyn yn neillduol olygu dydd y farn ddiweddaf, pan fyddo Crist wedi rhoddi heibio ei swydd gyfryngol, yr hon a ymarferodd o'r blaen i ddwyn ei etholedigion adref, &c. Y pryd hyny yr ymddwyn nid (megis yn awr) fel un yn cyfiawnhau yr annuwiol, ond yn farnwr pechaduriaid. Yn awr y bydd efe wedi cyfodi oddiar orsedd gras, ac wedi cau y drws yn erbyn yr holl rai anedifeiriol, ac yn eistedd ar orseddfainc barn, i alw i gyfrif yr holl annuwiolion.

*Gwrth.* Ond y mae Crist yn gorchymyn *ymdrechu:* "Ymdrechwch am fyned i mewn trwy y porth cyfyng." Eithr wrth y porth hwnw (fel y dywedwch chwi) y meddylir y porth, neu fynediad i mewn i'r nefoedd, yna fe ymddengys na ddylem ymdrechu hyd ddydd y farn; canys ni ddeuwn i sefyll wrtho hyd yr amser hwnw.

*Ateb.* Nid yw Crist, wrth yr ymadrodd hwn, *ymdrechwch,* &c., yn caniatau i ddynion oedi, neu esgeuluso *yn awr* eu hiechydwriaeth, ond yn eu dodi ar waith o ymbarotoad erbyn yr amser hwnw, ac yn eu hanog yn awr i ymofyn y pethau hyny a rydd iddynt fynediad i mewn i ogoniant. Y cyngor sydd dra chyffelyb i'r un hwnw yn Mat. xxiv. 44: "Am hyny, byddwch chwithau barod: canys yn yr awr ni thybioch y daw Mab y dyn;" "A'r rhai oedd barod a aethant i mewn gydag ef: a chauwyd y drws." Mat. xxv. 10.

Felly, pan y mae yn dywedyd, "Ymdrechwch i fyned i mewn," hyn sydd megis pe dywedasai, Gwyn fyd y rhai a gânt dderbyniad ddydd a ddaw i deyrnas nefoedd;" ond y rhai a fynent fod yn wrthddrychau teilwng o'r ffafr annhraethol hòno, a raid iddynt gael eu gwir gymhwyso iddi yn mlaen llaw. Yn awr, nid dydd y farn, ond dydd gras, yw yr unig amser o ymbarotoad. Nid y pryd hyny, ond, yn awr, yw yr amser cymeradwy; am hyny, ymdrechwch yn awr am y cyfryw bethau ag a roddo i chwi fynediad i mewn yn y diwedd i fywyd tragwyddol.

2. Megis y mae yn cael ei alw *porth*, felly y gelwir ef *porth cyfyng*: "Ymdrechwch am fyned i mewn trwy y porth cyfyng." Cyfyngdra y porth hwn ni ddylid ei ystyried yn gnawdol, ond yn ysprydol. Nid ydym i'w ddeall megis pe byddai y mynediad i'r nefoedd fel gorddrws bychan. Y mae cyfyngdra, neu gulni, y porth hwn i'w ystyried yn hollol mewn ffordd amgen. Y porth yma sydd ddigonol lydan i eneidiau gwir rasol, ag sydd yn caru ein Harglwydd Iesu Grist mewn purdeb; ond mor gul, neu gyfyng, nas gall neb arall, mewn un modd, fyned i mewn trwyddo. "Agorwch i mi byrth cyfiawnder: âf i mewn iddynt, a chlodforaf yr Arglwydd. Dyma borth yr Arglwydd; y rhai cyfiawn a ânt i mewn iddo." Salm cxviii. 19, 20. Wrth y gair hwn, gan hyny, y mynai Iesu Grist i ni ddeall, nad oes bosibl i ni fyned i mewn i deyrnas nefoedd, heb ein llwyr addasu iddi. Fe geidw y porth cyfyng bawb eraill allan. Pan y llefarodd Crist y ddameg hon, yr oedd efe yn ddiameu yn golygu rhyw fanau neillduol o'r Hen Destament, pa rai yr oedd yr Iuddewon yn hyspys o honynt. Bydd i mi grybwyll dau le, ac yna prysuro yn mlaen.

(1) Y pryd ag y mae Duw yn bwrw Adda ac Efa allan o baradwys. Mae yn debygol fod ein Harglwydd yn golygu y lle hwnw. Er bod y ffordd yn ddigon llydan iddynt fyned allan; eto, yr ydoedd yn rhy gyfyng iddynt ddyfod i mewn drachefn. Ond beth allai yr achos o hyny fod? Pechod yn ddiau, oherwydd paham, Duw a osododd, o'r tu dwyrain i ardd Eden, y cerubiaid, â chleddyf tanllyd ysgwydedig (â'i fin yn troi bob ffordd) i gadw ffordd pren y bywyd. (Gen. iii. 24.) Y cerubiaid, â'u cleddyfau tanllyd hyn, a wnaethant y mynediad i mewn yn ol i'r nefoedd iddynt hwy yn rhy gyfyng. Eneidiau! y mae cerubiaid a chleddyf tanllyd yn sefyll wrth borth y nefoedd, i gadw ffordd pren y bywyd. Am hyny, nis gall neb ond y rhai a addaswyd i'r nefoedd, fyned i mewn iddi. Y cleddyf tanllyd a geidw bawb eraill allan. "Oni wyddoch chwi na chaiff y rhai anghyfiawn etifeddu teyrnas Dduw? Na thwyller chwi: ni chaiff na godinebwyr, nac eilun-addolwyr, na thorwyr priodas, na masweddwyr, na gwrryw-gydwyr, na lladron, na chybyddion, na meddwon, na difenwyr, na chribddeilwyr, etifeddu teyrnas Dduw." 1 Cor. vi. 9.

(2.) Ysgatfydd fod ein Harglwydd yn golygu pyrth y deml, pan lefarodd y geiriau hyn wrth y bobl. Canys er bod pyrth, neu ddrysau y deml, yn chwe chufudd o led, eto yr oeddynt mor gyfyng nas gallai neb ag aflendid arno fyned i mewn trwyddynt—(Ezec. xl. 48);—oblegid fod porthorion wedi eu gosod wrth y pyrth hyny, swydd pa rai oedd edrych na byddai i neb ond y rhai ag oedd gyfreithlon iddynt fyned i mewn yno. Ac felly y mae yn ysgrifenedig ddarfod i Jehoiada gyfleu y porthorion wrth byrth tŷ yr Arglwydd, "fel na ddelai i mewn neb a fyddai aflan mewn dim oll." 2 Cron. xxiii. 19. Eneidiau! mae gan Dduw borthorion wedi eu gosod wrth byrth y deml, wrth borth y nefoedd; porthorion, meddaf, wedi

eu cyfleu yno gan Dduw, i edrych na byddai i ddim aflan ddyfod i mewn yno. Ni chaniateir yma yn y byd i neb ddyfod i byrth yr eglwys, neu i gymdeithas y ffyddloniaid, ag sydd yn halogedig, neu waradwyddus i grefydd: na wneir, er dadleu o honynt eu hanwyldeb gan Dduw. "Beth a wna fy anwyl yn fy nhŷ, medd yr Arglwydd, gan iddi wneuthur ysgelerder lawer." Jer. xi. 15.

Yr ydwyf, meddaf, yn dra thueddol i gredu, fod meddyliau ein Harglwydd Iesu Grist ar y ddau destyn yma, pan y dywedodd, "Ymdrechwch am fyned i mewn trwy y porth cyfyng." A'r hyn sydd yn fy nghadarnhau yn y peth yma ydyw, ei fod yn dywedyd, ychydig ar ol y testyn, "yno y bydd wylofain a rhincian dannedd, pan weloch Abraham, ac Isaac, a Jacob, a'r holl brophwydi, yn nheyrnas Dduw, a chwithau wedi eich bwrw allan," adn. 28. Yr oedd porthorion y deml i ymarfogi, os byddai angenrhaid, i'r diben i wrthwynebu y rhai a fynent fyned i mewn yn anghyfreithlon. Yr ydym yn darllen yn y Datguddiad am y ddinas sanctaidd, ac iddi ddeuddeg porth, ac wrth y pyrth ddeuddeg angel. Ond beth yr oeddynt yn ei wneuthur yno? Yn mysg pethau eraill, dyma oedd un rhan o'u swydd feunyddiol, sef gwilied rhag myned "i mewn iddi ddim aflan, nac yn gwneuthur ffieidd-dra, na chelwydd." Dat. xxi. 27.

Ac i ddangos yn fwy neillduol beth yw yr hyn ag sydd yn gwneuthur y porth yma mor gyfyng. Y mae tri pheth yn fy ngolwg, ag sydd yn ei wneuthur felly— 1. Pechod. 2. Y gyfraith. 3. Angylion Duw.

1. Pechod. Pechod y rhai anfoesol a'r digrefydd, a phechodau y proffeswyr o honi.

(1.) Pechod y rhai anfoesol. Ond nid rhaid ymhelaethu yma, oherwydd fod hyn yn cael ei benderfynu gan bawb sydd â chred gyffredinol am Dduw a barn i ddyfod, yr ymchwel y rhai drygionus i uffern, "a'r holl genhedloedd a anghofiant Dduw." Salm ix. 17.

(2.) Pechodau proffeswyr; neu cymerwch y peth fel hyn: y mae proffes a gydsaif â chalon heb ei chyfnewid, ac â chyflwr diadgenhedledig. Pechodau y cyfryw ddynion a oruwchbwysant eu rhinweddau, gan mai pen y glorian y dodir pechod ynddo a fydd drymaf, ac, er eu holl broffes wych, a'u pwysa i lawr i ddinystr a cholledigaeth; am "nad oes iddynt etifeddiaeth yn nheyrnas Crist, a Duw." Eph. v. 5. "Na thwylled neb chwi (gan hyny) â geiriau ofer; canys oblegid y pethau hyn y mae digofaint Duw yn dyfod ar blant yr anufudd-dod," adn. 6. Ni ddichon proffes eu hesgusodi a'u diogelu. Fe fydd y porth i'r cyfryw yn rhy gyfyng i fyned trwyddo. Dichon dyn feddiannu iechydwriaeth mewn rhan, heb gyrhaeddyd iechydwriaeth gyflawn. Fe waredwyd plant Israel allan o'r Aipht, ond fe'u dadymchwelwyd yn yr anialwch. "Ewyllysio, gan hyny, yr ydwyf eich coffau chwi, gan eich bod unwaith yn gwybod hyn; i'r Arglwydd, wedi iddo waredu y

bobl o dir yr Aipht, ddistrywio eilwaith y rhai ni chredasant." Jud. 5. "Ac yr ydym ni yn gweled—(er cychwyn o honynt tua Chanaan)—na allent hwy fyned i mewn oherwydd anghrediniaeth." Heb. iii. 19.

2. Y mae y gyfraith, yr hon hefyd sydd yn gwneuthur y porth yn gyfyng. Nid â neb i mewn trwyddo heb genad y gyfraith sanctaidd; canys er na chyfiawnheir neb *trwy* weithredoedd y ddeddf; eto, oddieithr i'r cyfiawnder hwnw, trwy ba un yr anturiwn fyned i'r nefoedd, gael ei gyfiawnhau *gan* y ddeddf, ofer i ni feddwl myned i mewn trwy y porth cyfyng yma. Yn awr, nid yw y ddeddf, neu y gyfraith, yn cyfiawnhau neb ond ar gyfrif cyfiawnder Iesu Grist; gan hyny, os byddi allan o'r cyfiawnder hwnw, ti gyfarfyddi â'r gyfraith yn dy wrthsefyll yn uniongyrchol ar y ffordd i'r nefoedd, i'th gadw allan o honi. Profir gwaith pob dyn trwy dân, fel y gellir canfod yn amlwg pa fath ydyw. Y mae dau gyfeiliornad yn aros yn y byd mewn perthynas i'r ddeddf, neu y gyfraith: un yw, pan y mae dynion yn dychymygu myned i mewn trwy y porth cyfyng yn nghyfiawnder y ddeddf; y llall ydyw y gwag-obaith sydd ganddynt o fyned i'r nefoedd heb genad y ddeddf, neu y gyfraith. Y rhai hyn, meddaf, bob un, ydynt gyfeiliornadau cyffredinol; canys megis trwy weithredoedd y ddeddf ni chyfiawnheir un cnawd; felly heb gydsyniad y ddeddf ni all un cnawd fod yn gadwedig. Canys "hyd onid êl y nef a'r ddaear heibio, nid â un iod nac un tipyn o'r gyfraith heibio, hyd oni chwblhaer oll." Mat. v. 18. Rhaid, gan hyny, iddo ef fod yn golledig, a'r nas cedwir trwy gydsyniad y gyfraith. Ac yn wir, y ddeddf, neu y gyfraith hon, yw y cleddyf tanllyd ysgwydedig, sydd yn aros hyd y dydd hwn yn y ffordd i'r nefoedd, i wrthsefyll anghredinwyr a phroffeswyr ffurfiol; ac a symudir ymaith yn unig oddiar lwybr y gwir gredadyn. Bydd i bawb eraill megis llew rhuadwy yn eu dryllio. Y porth, gan hyny, oblegid y gyfraith, a fydd yn rhy gyfyng i'r annuwiol fyned trwyddo. Pan y dywedodd yr apostol wrth y Corinthiaid na chai "y rhai anghyfiawn etifeddu teyrnas Dduw," yr hyn a fuasai rhai o honynt hwy, mae efe yn chwanegu: "Eithr chwi a olchwyd; eithr chwi a sancteiddiwyd; eithr chwi a gyfiawnhawyd, yn enw ein Harglwydd Iesu, a thrwy Yspryd ein Duw ni." 1 Cor. vi. 9, 11. Trwy yr hyn y dangosodd iddynt, mai oddieithr eu golchi, eu sancteiddio, a'u cyfiawnhau, yn enw yr Arglwydd Iesu, y cadwasai y gyfraith hwynt allan am eu hanwireddau; gwnaethai y porth yn rhy gyfyng iddynt fyned i mewn.

3. Yr angylion hefyd a safant ar y ffordd, ac a barant fod y porth yn gyfyng. Y mae yr Arglwydd Iesu yn galw diwedd y byd yn *gynhauaf;* ac a ddywed mai yr angylion a fydd y medelwyr, y rhai a gasglant yn nghyd ei wenith i'w ysgubor; a'r us, sef yr annuwiolion, "yn ysgubau i'w llwyr-losgi." Mat. xiii. 30. Oddieithr, gan hyny, i'r diedifeiriol allu meistrioli y gyfraith, a gorchfygu angylion; oddieithr iddo megis eu gwthio ymaith, a'u llusgo oddiar ffordd porth y nefoedd, ni ddichon

iddo fyned byth i mewn yno. Nid â neb i'r nefoedd ond trwy help a chymhorth angylion; hyny ydyw, yn nydd y farn. Canys Mab y dyn "a ddenfyn ei angylion â mawr sain udgorn; a hwy a gasglant ei etholedigion ef yn nghyd o'r pedwar gwynt, o eithafoedd y nefoedd hyd eu heithafoedd hwynt." Mat xxiv. 31. Os yw y rhai a ânt i mewn trwy y porth cyfyng i fyned yno trwy arweiniad yr angylion sanctaidd, atolwg pa fodd dybygwch chwi, yr â y rhai hyny i mewn yno, pa rai a orchymynir i'r angylion eu casglu yn nghyd "yn ysgubau i'w llwyr-losgi?" Dyma, gan hyny, y trydydd anhawsdra. Yr angylion a wnant y mynediad yma i mewn i'r nefoedd yn gyfyng; yn rhy gyfyng i'r halogedig a'r diffydd i fyned i mewn yno.

III. Yr wyf yn dyfod at yr anogaeth, neu y cyngor, yr hyn yw, "Ymdrechwch am fyned i mewn trwy y porth cyfyng." Y geiriau hyn a gymwys gydgysylltir; canys gan fod y porth yn gyfyng, mae yn canlyn fod yn rhaid i'r sawl a elo i mewn iddo *ymdrechu.*

"Ymdrechwch." Y gair hwn, ymdrechwch, sydd yn arwyddocau syrthni a marweidd-dra ysprydol mewn proffeswyr; megis pe baent yn meddwl myned i'r nefoedd dan hepian ar eu penelin. Y maent hefyd yn dàl allan amlder y rhwystrau a'r anhawsderau a gyferfydd proffeswyr â hwynt cyn yr elont i'r nefoedd. Ac yn dangos yn mhellach, mai y Cristion llafurus yn unig, pwy bynag fyddo, a â i mewn yno—"Ymdrechwch, &c."

Tri chwestiwn a godaf oddiwrth yr ymadrodd hwn, atebion i ba rai a ddichon roi geleuni i mewn i'r ystyr o hono:

1. Beth y mae y gair hwn, *ymdrechwch,* yn ei osod allan?
2. Pa fodd y mae i ni ymdrechu?
3. Paham y dylem ni ymdrechu?

*Ateb.* (1.) Pan y dywedir *ymdrechwch,* hyny sydd gymaint a phe dywedasai, Ymgrymwch eich hun at y gorchwyl gyda'ch holl egni: "Beth bynag a ymafael dy law ynddo i'w wneuthur, gwna â'th holl egni: canys nid oes na gwaith, na dychymyg, na gwybodaeth, na doethineb, yn y bedd, lle yr wyt ti yn myned." Preg. ix. 10. Fel hyn y gwnaeth Samson pan ddifethwyd y Philistiaid: "Efe a ymgrymodd â'i holl nerth." Barn. xvi. 30. Fel hyn y gwnaeth Dafyd hefyd, pan yr oedd yn gwneuthur parotoad tuag at adeiladu ac addurno tŷ Dduw. (1 Cron. xxix. 2. Ac felly y mae yn rhaid i tithau wneuthur, os byth yr âi i mewn i'r nefoedd.

(2.) Pan y dywedir *ymdrechwch,* yr ydys yn galw y meddwl a'r ewyllys i fod o'r un blaid, neu ochr, â'r pethau hyny a berthyn i'n hiechydwriaeth; canys nid oes neb yn ymdrechu mewn gwirionedd ond y rhai hyny a roisant eu calon i'r Arglwydd, o ba un y meddwl a'r ewyllys ydynt y prif ranau; canys y mae trö-

edigaeth achubol yn gorphwys yn fwy yn nychweliad y meddwl a'r ewyllys at Grist, a serch at bethau nefol, nag mewn gwybodaeth a deall. A hyn y mae yr apostol yn ei gadarnhau, pan y dywed wrth y Philipiaid am "sefyll yn un yspryd ag un enaid, gan gydymdrech gyda ffydd yr efengyl." Phil. i. 27.

(3.) Y gair hwn, *ymdrechwch,* a osodir allan hefyd trwy amrywiol ymadroddion eraill; megis, yn 1. Efe a arwyddoceir wrth yr ymadrodd: "Felly rhedwch, fel y caffoch afael." 1 Cor. xi. 24. 2. Trwy yr ymadrodd canlynol: "Ymdrecha hardd-deg ymdrech y ffydd; cymer afael ar y bywyd tragwyddol." 1 Tim. vi. 12. 3. Efe a arwyddoceir trwy yr ymadrodd hwn: "Llafuriwch, nid am y bwyd a dderfydd, eithr am y bwyd a bery i fywyd tragwyddol." Ioan vi. 27.

(4.) Efe a nodir trwy yr ymadrodd yma; "Nid yw ein hymdrech ni yn erbyn gwaed a chnawd, ond yn erbyn tywysogaethau, yn erbyn awdurdodau, yn erbyn bydol-lywiawdwyr tywyllwch y byd hwn." Eph. vi. 12. Oherwydd hyny, pan y dywedir *ymdrechwch,* cymaint yw a phe dywedasid, Rhedwch am y nefoedd; ymdrechwch, neu ymladdwch am y nefoedd; llafuriwch am y nefoedd, &c., os amgen, yr ydych yn debyg o fod yn ol o honi.

2. Yr ail ofyniad yw, Pa fodd y mae i ni ymdrechu?

*Ateb.* (1.) Yr ateb cyffredinol ydyw, rhaid ymdrechu yn gyfreithlon: "Ac od ymdrech neb hefyd, ni choronir ef onid ymdrech yn gyfreithlon." 2 Tim. ii. 5. Ond, chwi a ddywedwch, beth yw ymdrechu yn gyfreithlon?

(1.) Ymdrechu yn erbyn y pethau a waherddir, ac a ffieiddir gan yr Arglwydd; ie, i wrthwynebu "hyd at waed, gan ymdrech yn erbyn pechod." Heb. xii. 4. I gasâu yr holl bethau hyny a waherddir gan y gair, a'u bwrw ymaith; er mai dy law, neu dy lygad dehau, fyddant; ac i ddisgwyl, trwy ymarferiad pob moddion gorchymynedig, am nerth i'w darostwng hwynt. (Marc ix. 43.)

(2.) I ymdrechu yn gyfreithlon, yw ymdrechu yn erbyn, neu am y cyfryw bethau, ag a orchymynir i ni yn ngair Duw. "Eithr tydi, gwr Duw, gochel y pethau hyn; a dilyn gyfiawnder, duwioldeb, ffydd, cariad, amynedd, addfwyndra. Ymdrech hardd-deg ymdrech y ffydd; cymer afael ar y bywyd tragwyddol." 1 Tim. vi. 11, 12.

(3.) Yr hwn a ymdrech yn gyfreithlon sydd raid iddo fod yn gymedrol yn y mwynhad o bethau daionus y bywyd hwn: "Ac y mae pob un a'r sydd yn ymdrechu, yn ymgadw yn mhob peth; a hwynt-hwy yn wir, fel y derbyniont goron lygredig; eithr nyni, un anllygredig." 1 Cor. ix. 25. Y rhan fwyaf o broffeswyr a roddant le i'r byd, chwantau, nwydau, ac oferedd meddwl, a'u hymdrech sydd yn gynwysedig yn unig mewn cynifer o eiriau a chyfaddefiadau, yn hytrach nag ymdrech ysprydol, ac ymröad duwiol yn eu herbyn. Nid yw yr ymdrech uchod ond megis curo yr awyr, ac sydd debyg o ddyfod i ddim yn y diwedd. (1 Cor. ix. 26.)

(4.) Yr hwn a fyno ymdrech yn gyfreithlon, sydd raid iddo wrth Dduw, a

Christ, i'w gynorthwyo yn y gorchwyl, os angen, efe a fydd sicr o gael ei orchfygu. "Am yr hyn (medd Paul) yr ydwyf hefyd yn llafurio, gan ymdrechu yn ol ei weithrediad ef, yr hwn sydd yn gweithio ynof fi yn nerthol." Col. i. 29. Ac i wneuthur hwn yn iawn, rhaid iddo sylwi ar y pethau a ganlyn :—

(1.) Cymeryd gofal rhag ymdrechu yn nghylch geiriau, neu bethau heb ddim sylwedd ynddynt: canys ni ymrwymodd Duw y pryd hyny i fod gydag ef. "Dwg y pethau hyn ar gof (ebe yr apostol), gan orchymyn gerbron yr Arglwydd, na byddo iddynt ymryson yn nghylch geiriau, yr hyn nid yw fuddiol i ddim ond i ddadymchwelyd y gwrandawyr." 2 Tim. ii. 14. Ond, och! pa gynifer o broffeswyr yn ein ddyddiau ni ydynt euog o'r trosedd hwn? Eu crefydd, mewn rhan, os nid yn hollol, sydd yn sefyll mewn geiriau a gwag-gwestiynau yn nghylch pethau dileshâd; y rhai nid ydynt fuddiol i ddim ond i ddifuddio eu hunain a'u gwrandawyr.

(2.) Bydded ofalus rhag, tra y mae yn ymdrechu yn erbyn un pechod, iddo roesawu, neu gymeryd ei orchfygu gan ryw bechod arall. Neu, pan y mae yn llefain allan yn erbyn pechodau dynion eraill, na byddo yr un amser yn lletya, ac yn derbyn wyneb ei bechod ei hun.

(3.) Wrth ymdrech, ymdrechwch i gredu, a chydymdrechwch â ffydd yr efengyl, canys pa fwyaf y credom yr efengyl, a gwirionedd pethau y byd a ddaw, mwyaf prysur ac ymdrechgar fyddwn yn nghylch y pethau a berthyn i'n hiechydwriaeth. "Byddwn ddyfal, gan hyny, i fyned i mewn i'r orphwysfa hòno, fel na syrthio neb, yn ol yr un siampl o anghrediniaeth." Heb. iv. 11.

(4.) Megis y dylem ymdrechu am a thrwy ffydd, felly y dylem ymdrechu hefyd trwy weddi daer ac effeithiol. (Rhuf. xv. 30.) O! yr heidiau o broffeswyr diffrwyth a diweddi sydd yn ein plith! Pa beth a feddyliant o honynt eu hunain? Diau fod porth y nefoedd mor llydan yn y dyddiau gynt ag yn yr oes bresenol: eithr pa ymdrech trwy weddi oedd yn mhlith Cristionogion y pryd hyny, am yr hyn ag sydd yn rhoi mynediad i mewn i'r deyrnas hon, yn rhagor nag yn ein dyddiau ni?

(5.) Dylem ymdrechu trwy farwhau ein haelodau y rhai sydd ar y ddaear: "Yr wyf fi, gan hyny, felly yn rhedeg (medd Paul), nid megis ar amcan. Ond yr wyf fi yn cospi fy nghorph, ac yn ei ddwyn yn gaeth; rhag i mi mewn un modd, wedi i mi bregethu i eraill, fod fy hun yn anghymeradwy." 1 Cor. ix. 26, 27. Eithr hyn oll yr wyf yn ei lefaru wrth broffeswyr; felly y mynwn fy neall.

Yr wyf yn dyfod yn awr at y *trydydd* cwestiwn, Paham y dylem ymdrechu?

(1.) Oherwydd fod y peth a orchymynir i ni yma ymdrechu am dano yn gofyn hyny; nid llai nag am nefoedd gyfan y mae, a thragwyddol happusrwydd. Pa ymdrechu a welir gan y rhai sydd ag ychydig o anrhydedd, budd, neu bleser o'u blaen i'w feddiannu? Drachefn, meddaf, y fath ymdrechu sydd gan ddynion i gyrhaeddyd neu fwynhau y pethau hyn? Yn awr, hyn a wnant fel y derbyniont

bethau llygredig, eithr nyni bethau anllygredig. Yn wir fe ddylai y gair hwn nefoedd a bywyd tragwyddol, ein cynhyrfu i ymdrechu; canys pa beth sydd yn gyffelyb i werth a gwynfydedigrwydd y nef? Ni ddylid ymdrechu am ddim yn debyg iddynt.

(2.) Ymdrecha; os amgen, y diafol ac uffern a fydd sicr o honot: "Oblegid y mae eich gwrthwynebwr diafol megis llew rhuadwy, yn rhodio oddiamgylch, gan geisio y neb a allo lyncu." 1 Pedr v. 8. Yr angylion syrthiedig ydynt bob amser yn wiliadwrus, yn ddiwyd, ac yn anorphwysol. Maent hefyd yn rymus, yn ddichellgar, ac yn llawn malais a chenfigen, yn unig yn amcanu at golledigaeth eneidiau. O! chwychwi broffeswyr difraw a difywyd, ymdrechwch!

(3.) Ymdrecha; oherwydd y mae pob chwant yn ymdrechu, ac yn ymladd yn erbyn dy enaid. "Canys y mae y cnawd yn chwennychu yn erbyn yr yspryd." Gal. v. 17. Anwylyd (ebe Pedr), yr wyf yn atolwg i chwi, megis dieithriaid a phererinion, ymgedwch oddiwrth chwantau cnawdol, y rhai sydd yn rhyfela yn erbyn yr enaid." 1 Pedr ii. 11. Peth anfynych ydywcyfarfod â Christion a fedr mewn gwirionedd feistrioli ei chwantau a'i nwydau pechadurus; ond nid yw yn beth dieithr i weled proffeswyr wedi eu ffrwyno, ïe, a'u cyfrwyo hefyd, gan y diafol, a'u marchogaeth o chwant i chwant, ac o'r naill bechod i'r anwiredd arall.

(4.) Ymdrechwch, oherwydd fod genych fyd cyfan o elynion yn eich herbyn. Mae y byd yn dy gashau, os Cristion ydwyt mewn gwirionedd. Pethau y ddaear ydynt faglau i ti. Ië, dy fwrdd, dy wely, dy wr, dy wraig, dy blant, dy fwyniant cyfreithlon, sydd â'r effaith hòno ynddynt, ag a sydd sicr o soddi dy enaid i uffern, os na ymdrechi yn eu herbyn. (Rhuf. xi. 9.)

Y byd a ymdrecha dy gadw o'r nefoedd â gwatwar, gogan, sarhâd, bygythion, carcharau, rstanciau, fflangellau, llosgfeydd, ac â miloedd o farwolaethau; am hyny, ymdrecha. Drachefn; os na orchfygir di ganddo trwy y rhai hyn, bydd iddo ymosod arnat â gweniaeth, hudoliaeth, addewidion, deniadau, erfynion, ac â miloedd o ddichellion, i wneuthur pen am danat. A dàl sylw, ddarfod i lawer sefyll i fyny yn gadarn yn erbyn bygythion y byd, ond a orchfygwyd â'i weniaethau twyllodrus. Yr oedd gelyniaeth rhwng y diafol a'r eglwys yn mhob oes, a rhwng ei blant ef a'i had hithau. Y rhyfel rhwng Michael a'r ddraig, a rhwng ei angylion ef a'i hangylion hithau, sydd yn aros i fyny yn wastadol. (Gen. iii. 15. Dat. xii. 7.) Bu ymosodiadau mawrion yn mhlith dynion i gynyg cymodi y ddwy blaid hon â'u gilydd, sef had y sarph a had y wraig, ond nis gellid ei gyflawni. Dywed y byd, na ddeuant hwy byth drosodd atom ni; a ninau a ddywedwn drachefn, trwy ras, nad awn byth yn ol, neu trwodd, atynt hwythau. Felly y mae y ddadl yn para, a'r ymryson hyd heddyw heb ddibenu. Hwynt-hwy a ninau a chwanegasom at eiriau ymegnïon, i wneuthur y naill i'r llall ymostwng; ond fe brofodd hyny yn aneffeith-

iol hefyd. Hwynt-hwy, o'u rhan nhw, a ddyfeisiasant bob math o greulondeb i wneuthur i ni ufuddhau ac ymostwng—megis lladd â'r cleddyf, llifio, llabuddio, llosgi, alltudio, newynu, a miloedd eraill o gospedigaethau. Ninau drachefn, o'r tu arall, a lafuriasom trwy weddiau, dagrau, amynedd, hir-ymaros, addfwynder, cariad, athrawiaeth iachus, a thystiolaeth ffyddlon yn erbyn eu drygioni a'u pechodau, i'w dwyn hwynt drosodd atom ni, ond ni lwyddasom; ac felly y mae yr elyniaeth eto yn aros; am hyny, rhaid iddynt hwy ein gorchfygu ni, neu ni eu gorchfygu hwynt, cyn y dibener yr ymrafael. Mae yn rhaid i un blaid neu ochr gwympo; ond "arfau ein milwriaeth ni nid ydynt gnawdol, ond nerthol trwy Dduw i fwrw cestyll i'r llawr." 2 Cor. x. iv.

(5.) Ymdrechwch, oherwydd nid oes dim mewn Cristionogrwydd i'w gael trwy seguryd. "Cysgu a bair fyned mewn gwisg garpiog: a maes y diog a guddir ei wyneb â danadl." Diar. xxiii. 21; xxiv. 30—32. Ni ddichon proffes, heb ddiwydrwydd a llafur ysprydol gydfyned â hi, ddwyn yr enaid i'r nefoedd. Nid oedd Cristionogion gynt "yn ddiog mewn diwydrwydd, eithr yn wresog yn yr yspryd yn gwasanaethu yr Arglwydd." Rhuf. xii. 11. Am hyny na fyddwch "fusgrell, eithr yn ddilynwyr i'r rhai trwy ffydd ac amynedd sydd yn etifeddu yr addewidion." Heb. vi. 12.

"Ymdrechwch i fyned i mewn." Tybygwyf fod y geiriau, ar eu darlleniad cyntaf, yn dangos i ni fod y Cristion, yn ei holl ymarferiadau â phethau y bywyd hwn, i ofalu, yn benaf, yn nghylch iechydwriaeth ei enaid—yn ei holl ymarferiad, meddaf, pa un bynag ai ysprydol ai tymhorol. Llawer a fyfyriant ar eu cyflwr yn ddamweiniol, mewn amseroedd o ddychryn a gwasgfeuon; ond y Cristion gwirioneddol a ddylai olygu ei fater tragwyddol yn yr hyn oll a wnelo, ac a ymarfero ag ef yn y bywyd hwn. Yn ei holl ofal a'i ymdrech yn nghylch y pethau uchod, dylai *ymdrechu am fyned i mewn.* "Penaf peth yw doethineb (sef Crist): cais ddoethineb; ac â'th holl gyfoeth cais ddeall." Diar. iv. 7. Na chais ddim os na elli gael Crist, gras, a gobaith cadarnach o'r nefoedd gyda'r cais hwnw. Na chais ddim â chydwybod ddrwg, a fyddo yn peryglu dy heddwch â Duw, ac a wanycho dy rasusau wrth eu derbyn; canys nid yw hyn yn *ymdrechu,* ond dy *rwystro,* i fyned i mewn. Chwanega ras at ras yn nghyflawniad o ddyledswyddau ysprydol a thymhorol. "Canys felly yn helaeth y trefnir i chwi fynediad i mewn i dragwyddol deyrnas ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist." 2 Pedr i. 11. Nid dyledswyddau crefyddol yw yr unig bethau i ymdrechu ynddynt; yr hwn sydd yn tybied hyny a gamsyniodd. Dichon i'th ffydd a'th obaith gael eu cryfhau a'u sefydlu, trwy iawn drefniad o'th fywyd, ac ymarferiad duwiol o'th alwedigaeth. Bydd dy gamrau tua'r bywyd yn helaethach, wrth fyfyrio ar ogoniant Duw, yn dy holl ymarferiadau daearol. Yr wyf yn awr yn llefaru wrth gredinwyr a gyfiawnhawyd trwy ras, ac

yr ydwyf yn eu hanog, ïe, yn eu taer gymhell, i ymdrechu i fyned i mewn; canys y mae mynediad i mewn yn awr trwy ffydd a chydwybod dda, yn gystal ag â chorph ac enaid ar ol hyn.

"Ymdrechwch i fyned i mewn." Trwy y geiriau hyn hefyd y mae yr Arglwydd Iesu yn llym-geryddu y cyfryw broffeswyr ag sydd heb ogoniant Duw ac iechydwriaeth eu heneidiau, ond pethau daearol, a pherthynol i'r corph, yn hytrach yn eu golwg. Y mae eraill ag sydd yn gwneuthur cynwrf a dadwrdd yn nghylch eu ffurfiau a'u dychymygion cnawdol, a hyn, o bosibl, oherwydd iddynt fwyta o'r torthau, a'u digoni. (Ioan vi. 26.) Y rhai hyn, mae yn wir, ydynt yn ymdrechu, ond nid i fyned i mewn i'r nefoedd; maent yn gwneuthur ymddangosiad o grefydd, oherwydd eu bod yn canfod rhyw fasnach dda neu elw yn y naill ben iddi; neu y maent yn ei gweled yn ffordd i barch, cymeriad, dyrchafiad, a'r cyffelyb; ac am hyny, y maent yn ymdrechu am fyned i mewn i'r pethau hyn. Ond nid yw y porth cyfyng yn ngolwg y rhai yma; ac nid oes ganddynt ronyn o wir gariad tuag at, na gofal am eu heneidiau truain; gan hyny, y mae yr anogaeth hon, "Ymdrechwch am fyned i mewn trwy y porth cyfyng," yn euog-farnu y cyfryw, ac yn rhagfynegu eu damnedigaeth.

"Ymdrechwch i fyned i mewn." Y geiriau hyn sydd yn mhellach yn ceryddu yn llymdost y rhai hyny ag sydd yn boddloni eu hunain, megis angel eglwys Sardis, ag enw o fod yn fyw, a marw ydynt—(Dat. iii. 1);—neu hwynt-hwy o Laodicea, a ymfoddlonent yn eu clauarineb, ac ni wyddent eu bod yn druain, yn resynol, yn dlawd, yn ddall, ac yn noeth—(Dat. iii. 16, 17);—canys y fath rai a hyn ydynt yn gwbl yn y gwrthwyneb i'r anogaeth yn y testyn, ag sydd yn dywedyd *ymdrechwch;* ac y maent yn ymfoddloni ar broffes a'r nad yw fyth yn debyg o'u dwyn i'r nefoedd.

"Ymdrechwch i fyned i mewn." Yn mhellach: yr anogaeth sydd yn ein dodi ar waith i brofi yn awr wirionedd ein grasusau;—maent yn ein cymell, meddaf, yn awr i wneuthur prawf o honynt; canys os y porth cyfyng yw porth y nefoedd, a'n bod ninau *yn awr* i ymdrechu i fyned trwyddo, cyn yr elom yno, yna y mae yn ddiameu fod Crist, trwy yr anogaeth yma, yn arwyddocau fod i ni ymarferyd pob moddion cyfreithlon i brofi ein grasusau yn y byd hwn, pa un a ydynt yn debyg o sefyll yn y farn, ai nad ydynt. "Ymdrechwch i fyned i mewn"; ceisiwch y grasusau hyny yn awr a brofant yn *wirioneddol* yr amser hyny; oherwydd paham, profwch yr hyn sydd genych; ac os nad ymddangosant yn gywir, wrth eu profi, bwriwch hwynt ymaith, a llefwch am eu gwell, rhag iddynt hwy eich bwrw chwi ymaith yn dragywydd, pryd na byddo eu gwell i'w cael. Creffwch ar y lle hwnw yn Dat. iii. 18: "Yr wyf yn dy gynghori i brynu genyf fi aur wedi ei buro trwy dân, fel y'th gyfoethoger"—(Prynwch genyf fi ffydd, a gras a ddalio yn y farn ddiweddaf);—"a dillad gwynion, fel y'th wisger, ac fel nad ymddangoso gwaith

dy noethder di: îra hefyd dy lygaid ag eli llygaid, fel y gwelech." Daliwch sylw, atolwg, ar y cyngor sanctaidd hwn, sydd yn dangos pa fodd i wir ymdrechu i fyned i mewn.

Ond chwi a ddywedwch, Pa fodd y mae i ni brofi ein grasusau? A fynech i ni redeg i mewn i brofedigaeth, i edrych pa fodd y daliant, a pha un a ydynt yn gywir ai nad ydynt?

*Ateb.* Myned i brofedigaeth i brofi eich grasusau sydd afreidiol i chwi. Fe drefnodd Duw ddigonedd o honynt i'th gyfarfod cyn dydd dy ymadawiad â'r byd, i edrych pa un a ydyw dy rasusau yn wirioneddol, ai nid ydynt: "Digon i'r diwrnod ei ddrwg ei hun." Mat. vi. 34. Os bydd genyt ras digonol i wrthsefyll profedigaethau, ti gei ddigon o honynt i'th orddiwes i brofi dy rasusau; i weled pa un ai gwir ai anghywir fyddant. Gelli, gan hyny, trwy gymhorth Duw, weled pa fodd y mae yn debyg o fyned gyda thi mewn byd arall, pan ymadewi â'r bywyd hwn; sef pa un a ydyw dy rasusau y fath ag a'th ddygant i mewn i'r nefoedd, ai nid ydynt

*Hol.* Ond pa fodd y mae i ni yn awr brofi ein grasusau?

*Ateb.* Pa fath rai yr wyt yn eu cael mewn profedigaethau allanol? (Gwel Heb. xi. 15, 16.) Pa fodd yr wyt yn teimlo dy hun dan gynhyrfiadau llygredd tufewnol? (Rhuf. vii. 24.) Pa ddull sydd arnat yn y mwynhad uwchaf o ras a ffafr Duw yn dy amgylchiad presenol? (Phil. iii. 14.)

*Hol.* Ond beth yr ydych yn ei feddwl wrth y tri cwestiwn uchod?

*Ateb.* Fy meddwl yw, fod grasusau yn amlygu eu hunain yn eu hamser a'u gweithrediadau, pa un ai gwir ai anghywir fyddant.

*Hol.* Pa fodd y maent yn amlygu eu hunain dan yr ystyriaeth gyntaf?

*Ateb.* Trwy anhyderu ar ein digonolrwydd a'n grym ein hunain, a llefain ar Dduw am gymhorth; trwy ddeisyfu yn hytrach i farw, na dwyn dianrhydedd ar enw Duw, neu waradwyddo ei ffyrdd a'i achos; a thrwy ei gyfrif yn fwy o enill nag a allasai yr holl fyd ei roddi i ti, os bydd i Dduw gael ei ogoneddu trwy dy brofedigaeth. (2 Cron. xx. 12; xiv. 11. Act. iv; xx. 22. 2 Cor. iv. 17, 18. Heb. xi. 24, 25.)

*Hol.* Pa fodd yr ymddengys y gwirionedd o honynt dan yr ail ystyriaeth?

*Ateb.* Trwy alaru, cyfaddef, ymdrechu, a gweddio yn erbyn dy bechodau; a bod yn anfoddlon, er cael y nefoedd, iddynt hwy fyw a llywodraethu arnat; a thrwy gyfrif sancteiddrwydd yn brydferthwch mwyaf yn y byd; a dianc at Iesu Grist am fywyd. (Zec. xii. 10. Ioan xix. Heb. xii. 14. Salm xix. 12.)

*Hol.* Pa fodd y maent yn dangos y cywirdeb o honynt dan y trydydd ystyriaeth?

*Ateb.* Trwy werthfawrogi gwir rasusau yr Yspryd yn fwy na'r holl fyd; trwy weddio o'th galon ar i Dduw eu chwanegu ynot; a thrwy beidio ymorphwys ac

ymfoddloni ar yr holl ras a dderbyniech yr ochr hyn i ogoniant. (Salm lxxxiv. 10. Luc xvii. 5. Phil.iii.)

"Ymdrechwch i fyned i mewn." Y rheswm paham y mae Crist yn chwanegu y geiriau, "myned i mewn," a ymddengys yn eglur—sef oherwydd nad oes dim dedwyddwch sylweddol a pharhaus yr ochr hyn i'r nefoedd: "Canys nid oes i ni yma ddinas barhaus, eithr un i ddyfod yr ydym ni yn ei disgwyl." Heb. xiii. 14. Y nefoedd a'i gogoniant sydd i mewn—gan hyny "ymdrechwch i fyned i mewn;" Mynydd Sïon sydd i mewn—am hyny "ymdrechwch i fyned i mewn;" y Jerusalem nefol sydd i mewn—am hyny ymdrechwch i fyned i mewn;" angylion a seintiau sydd i mewn—am hyny "ymdrechwch i fyned i mewn;" ac, i wneuthur oll i fyny, Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, a'n Pryniawdwr gogoneddus hwnw, sydd i mewn—am hyny "ymdrechwch i fyned i mewn."

"Ymdrechwch i fyned i mewn," canys "Oddiallan y mae y cwn, a'r swyn-gyfareddwyr, a'r puteinwyr, a'r llofruddion, a'r eilun-addolwyr, a phob un sydd yn caru ac yn gwneuthur celwydd." Dat. xxii. 15. Oddiallan hefyd y mae angau, uffern, diafol, a'r holl angylion damniedig; oddiallan y mae udo, wylofain, a rhincian dannedd. (Mat. xxii. 13.) "Ymdrechwch am fyned i mewn trwy y porth cyfyng: canys llawer, meddaf i chwi, a geisiant fyned i mewn, ac nis gallant."

IV. Ni a ddaethom yn awr at yr achlysur y mae ein Harglwydd yn ei gymeryd i gadarnhau yr anogaeth yma. Dywedasai eisoes, mai "cyfyng yw y porth;" ac a'u cynghorodd i fyned i mewn trwyddo; neu geisio y pethau hyny yn awr a barai i ni fynediad i mewn trwyddo y pryd hyny; ac i wrthsefyll y pethau ag oedd yn tueddu i'n rhwystro i fyned i mewn.

Yn achlysur y cadarnhad o'r cyngor, neu yr anogaeth uchod, y mae pump o bethau i sylwi arnynt—yn

1. Y bydd rhai yn cyfarfod â siomedigaeth mawr yn nydd y farn.

2. Mai nid ychydig, ond *llawer*, a fydd yn cyfarfod â'r siomedigaeth hwnw: "Llawer, meddaf i chwi, a geisiant fyned i mewn, ac nis gallant."

3. Yr athrawiaeth hon o gau-ddisgwyliad *llawer* y pryd hyny, a sylfaenir ar awdurdod gair Crist; "canys llawer, *meddaf i chwi*, a geisiant fyned i mewn, ac nis gallant."

4. Proffeswyr a wnant rifedi mawr yn mhlith y rhai hyny a syrthiant yn fyr o'r nefoedd: "Canys llawer, meddaf i chwi, *a geisiant* fyned i mewn."

5. Lle y mae diffyg o ras ac ymdrech i fyned *yn awr* i mewn, fe fydd hyny yn anfuddiol yn y dydd olaf: "Canys llawer, meddaf i chwi, a geisiant fyned i mewn, ac nis gallant."

Ond mi âf yn mlaen, yn ol y drefn a amcenais, i agor yn mhellach y rhan ddiweddaf o'r testyn.

"Canys *llawer.*" Pe dywedasai, *rhai* a syrthiant yn fyr, buasai yn ymadrodd deffrous i sylwi arno; ond pan y mae yn dywedyd *llawer*—"llawer a geisiant fyned i' mewn," ïe, yn mhlith proffeswyr, ond a syrthiant yn fyr o hyny yn y diwedd, y mae hyn nid yn unig yn ddeffrous, ond yn arswydus a dychrynllyd hefyd!

"Canys llawer." Yr wyf yn cael y gair hwn, *llawer,* wedi ei briodoli i amrywiol bethau yn yr Ysgrythyr.

1. Weithiau, y mae yn arwyddocau yr halogedig, y drygionus, a'r byd annuwiol—megis lle y dywed Crist, "Ehang yw y porth, a llydan yw y ffordd, sydd yn arwain i ddistryw, a llawer sydd yn myned i mewn trwyddi." Mat. vii. 13. Wrth *lawer* y meddylir yma, yn benaf, y rhai hyny sydd yn myned yn mlaen ar hyd brif-ffordd pechod ac annuwioldeb, gan ddwyn nôd eu damnedigaeth yn eglur gyda hwynt yn eu talcenau, y rhai y mae eu hymarferiad beunyddiol yn datgan i bawb fod eu traed yn disgyn i angau, a'u cerddediad yn sangu uffern. (Diar. v. 5.)

2. Weithiau, y mae y gair hwn, *llawer,* yn tystio am y rhai hyny ag sydd yn glynu wrth gynulleidfa pobl Dduw mewn twyll a rhagrith—megis y dywed y prophwyd Daniel, pen. xi. 34: "Llawer a lŷn wrthynt hwy trwy weniaeth." Y *llawer,* yn y testyn hwn, sydd yn arwyddocau y rhai oll a ymddangosant yn well yn eu crefydd nag ydynt, ac a gymerant i fyny yr ymarferiad o honi yn mhlith y saint ar amserau, hyd oni ddelont i gymdeithas arall.

3. Weithiau, y mae y gair *llawer* yn arwyddo y rhai sydd yn gwrthgilio oddiwrth Grist; y rhai, dros amser, sydd yn credu, ac yn amser profedigaeth yn syrthio ymaith—megis y mae Ioan yn mynegu am rai o ddisgyblion Crist: "O hyny allan, llawer o'i ddisgyblion ef a aethant yn eu hol, ac ni rodiasant mwyach gydag ef." Ioan vi. 66.

4. Weithiau, y mae y gair *llawer* yn arwyddocau y rhai sydd yn gwneuthur swn mawr am grefydd, ac ymddangosiadau teg yn yr eglwys; ac eto, ar yr un amser, ydynt yn fyr o feddiannu gras cadwedigol. "Llawer (medd Crist) a ddywedant wrthyf yn y dydd hwnw, Arglwydd, Arglwydd, oni phrophwydasom yn dy enw di," &c. Mat. vii. 22. Creffwch yn fanwl, fe fydd *llawer* yn ymddangos yn y wedd yma.

5. Weithiau, drachefn, y mae y gair *llawer* yn nodi allan eneidiau truain, anwybodus, a hudir ymaith gan bob awel dysgeidiaeth; ac a ddelir gan y rhai sydd yn gwilied i dwyllo, ac i ddenu y rhai anwastad. "A llawer a ganlynant eu distryw hwynt, oherwydd y rhai y ceblir ffordd y gwirionedd." 2 Pedr ii. 2.

6. Weithiau, hefyd, y gair hwn, *llawer,* sydd yn arwyddocau, neu yn cynwys yr holl fyd, da a drwg: "A llawer o'r rhai sydd yn cysgu yn llwch y ddaear a ddeffroant; rhai i fywyd tragwyddol, a rhai i warth a dirmyg tragwyddol." Dan. xii. 2. (Cymharer gydag Ioan v. 28, 29.)

7. Yn ddiweddaf, y mae y gair *llawer*, weithiau, yn arwyddocau y rhai da yn unig, sef y rhai a fyddant gadwedig. (Luc i. 16; ii. 34. Rhuf. v. 19.)

Gan fod y gair hwn, *llawer*, yn arwyddocau, gan hyny, gynifer o bethau, ymofynwn yn ganlynol pa fodd yr ydym i'w ystyried yn neillduol yn y testyn; ac, yn

1. Nis gellir ei ddeall am y gwir dduwiolion, canys hwynt-hwy ni chyfrgollir byth. (Ioan x. 27, 28.)

2. Ni ddylid ei briodoli i'r holl fyd, canys yna ni byddai neb yn gadwedig.

3. Ac nis gallwn ychwaith ystyried wrtho y rhai anfoesol a halogedig yn unig, oherwydd yna fe gai rhagrithwyr eu hesgusodi.

4. Ond wrth *lawer*, yn y testyn, y mae ein Harglwydd, yn neillduol, yn meddwl *proffeswyr;*—proffeswyr, meddaf, er pa mor odidog bynag y maent yn awr yn ymddangos, y rhai a geir yn y diwedd heb fod yn feddiannol ar ras cadwedigol.

Yn awr, mai y proffeswr a feddylir yn neillduol yn y testyn, ystyriwch fod ein Harglwydd, mor gynted ag y dywedodd, "llawer, meddaf i chwi, a geisiant fyned i mewn, ac nis gallant," yn cyfeirio, fel â'i fys, at y rhai hyny y buasai efe yn dysgu yn eu plith; y rhai a fwytasant yn ei ŵydd ef, ac a fwriasant allan gythreuliaid, ac a wnaethant wyrthiau lawer yn ei enw. (Luc xiii. 26. Mat. vii. 22.) Dyma y llawer y mae ein Hiachawdwr yn ei feddwl yn y testyn, er bod eraill hefyd yn sefyll dan y farn o gondemniad, fel yr ymddengys oddiwrth ei eiriau mewn lleoedd eraill. Dywed St. Matthew, pen. vii. 14, mewn perthynas i'r porth cyfyng yma, mai ychydig yw y rhai sydd yn ei gael ef. Ond fe dybygid fod y rhai gwrthodedig yn fy nhestyn wedi ei gael, ac yn llefain allan, "Arglwydd, Arglwydd, agor i ni." Felly, gan hyny, fe ddichon fod ystyr pellach yr ymadrodd fel hyn—llawer, o'r ychydig a'i cânt ef, a geisiant fyned i mewn, ac nis gallant. Yr wyf yn cael y bydd rhai yn nydd y farn yn llefain ar fynyddoedd a chreigiau i'w gorchuddio; ac felly y bydd rhai wrth borth y nefoedd am fyned i mewn. Bwrier am y rhai cyntaf, mai y sawl ydynt ag na oddef eu cydwybod iddynt unwaith edrych yn wyneb Duw gan euogrwydd damniol, a rhag ofn llid yr Oen. (Dat. vi. 16.) A'r rhai a fyddo yn sefyll ac yn llefain wrth borth y nefoedd am fyned i mewn, yw y rhai hyny ag y bydd eu hyder yn sefyll i fyny hyd yr eithaf, ac yn peri iddynt ymryson ag Iesu Grist am fyned i mewn—y rhai hyn, meddaf, yw y cyfryw ag fydd â phroffes ganddynt, a llawer o rinweddau a gweithredoedd i ddadleu yn eu cylch. O'r rhyw neu y graddau yma y bydd llawer o'r rhai a sonir am danynt yn fy nhestyn. "Canys llawer, meddaf i chwi, a geisiant fyned i mewn, ac nis gallant." Pe medrem gymharu ymddygiadau proffeswyr yr oes ag anghyfnewidiol air Duw, yr athrawiaeth hon a ymddangosai yn wirioneddol tuhwnt i bob amheuaeth. Pa mor ychydig yn mhlith llawer, ïe, heidiau o broffeswyr, sydd â chanddynt galon i wneuthur cydwybod o rodio gyda Duw yn y byd hwn, ac i ofalu am ei ogoniant

yn mhlith dynion! Pa mor lleied, meddaf, sydd â'i enw yn gorwedd yn nes at eu calonau na'u materion daearol eu hunain! Nage, onid yw llawer yn gwneuthur masnach o'i air ef, ac yn cymeryd crefydd yn orchudd i'w hamcanion cnawdol? Mae Duw yn galw am ffydd, cydwybod dda, cymedroldeb, hunan-ymwadiad, gostyngeiddrwydd, myfrydodau nefol, cariad i'r saint, i elynion, ac am gydffurfiad mewn calon, mewn ymadrodd, ac ymarweddiad i'w air a'i ewyllys ef, ond pa le y mae? (Marc xi. 22. 1 Pedr iii. 16. Heb. xiii. 5. Phil. iv. 5. Mat. x. 37—39. Col. iii. 1—4. Mic. vi. 8. Dat. ii. 10. Ioan xv. 17. 1 Ioan iv. 21. Mat. v. 44. Diar. xxiii. 26. Col. iv. 6.)

"Canys llawer, meddaf i chwi." Y rhan olaf yma o'r testyn sydd yn cynwys ynddo ymadrodd deublyg, i brofi gwirionedd yr hyn a lefarwyd o'r blaen. Yn gyntaf, y mae ein Harglwydd yma yn cyfeirio ei eiriau yn uniongyrchol at ei ganlynwyr: "llawer, meddaf i *chwi*"—i *chwi*, fy nghyfeillion; i *chwi*, y rhai a fwytasoch ac a yfasoch yn fy ngŵydd i. Yr wyf yn addef i Grist, rai prydiau, gyfeirio ei ymadrodd at ei ddisgyblion, nid cymaint o'u rhan eu hunain ag oblegid eraill; ond nid felly yr ydoedd yma. "Meddaf i chwi," yn y lle hwn, oedd yn perthynu, yn benaf, iddynt hwy: "Meddaf i chwi," wedi dechreu o honoch sefyll oddiallan, a churo y drws, "gan ddywedyd, Arglwydd, Arglwydd, agor i ni; ac iddo yntau ateb a dywedyd wrthych, Nid adwaen ddim o honoch o ba le yr ydych: yna y dechreuwch ddywedyd, Ni a fwytasom ac a yfasom yn dy ŵydd di, a thi a ddysgaist yn ein heolydd ni. Ac efe a ddywed, Yr wyf yn dywedyd i chwi, Nid adwaen chwi o ba le yr ydych; ewch ymaith oddiwrthyf, chwi holl weithredwyr anwiredd." Luc xiii. 25—27. Chwychwi, *chwychwi*, CHWYCHWI, yr wyf yn ei feddwl! Peth arferol gan ddynion proffesedig ydyw, pan glywont bregeth lèm, daranllyd, ddywedyd ynddynt eu hunain, Yn awr y talodd y pregethwr i'r meddwyn, y tyngwr, y celwyddwr, y cybydd, a'r godinebwr; heb ystyried y gallant hwy fod yn euog o'r pechodau hyn mewn ffordd ysprydol a dirgelaidd. Y mae meddwdod a godineb ysprydol; ac fe ddichon dyn fod yn gelwyddog pan y mae yn galw Duw yn Dad iddo, pryd nad yw; neu a eilw ei hun yn Gristion, heb fod felly mewn gwirionedd. Oherwydd paham, dichon y mellt a'r taranau ag oedd yn y cyfryw bregeth arswydus fod yn eiddo iddo ef, sef y proffeswr ei hun, yn fwy nag y meddyliodd. "Meddaf i chwi"—i chwi, broffeswyr, y dylai yr ymadrodd mwyaf deffrous hwn gael ei gymhwyso. Dat. ii. 9; iii. 9.

"*Meddaf i chwi!*" Pe na buasai yr Arglwydd Iesu yn bwriadu dangos trwy y geiriau hyn pa ddadymchweliad mawr a wneir ryw ddydd yn mhlith proffeswyr, ni ddywedasai y gair *chwi* mor bendant ag y darfu yn y testyn; canys yr ymadrodd a redasai yn ddigon cyson a synwyrol hebddo. Ond y gwirionedd yw, mae y proffeswr ei hun mewn perygl; y llefarwr, y gwrandawr, a'r gwneuthurwr gwyrthiau, a

ddichon fod oll mewn perygl o ddamnedigaeth, er eu holl ddoniau a'u cyrhaeddiadau mewn crefydd. Ac i'n dihuno oll yn nghylch y mater pwysig hwn, rhaid i'r testyn redeg yn y modd yma—"Canys llawer, meddaf i *chwi*, a geisiant fyned i mewn, ac nis gallant."

A ydych chwi eto ddim yn gweled y proffeswyr mewn perygl, a bod y geiriau hyn, "meddaf i chwi," yn rhagfynegu tragwyddol ddinystr y rhai ag sydd yn enwog yn nghynulleidfa y saint? Ond os nad ydych yn ei weled, atolygwch ar Dduw i agoryd eich llygad; a gochel na byddo'ch rhan fel un o'r rhai hyny a grybwyllir yn adn. 28: "Yna y bydd wylofain a rhincian dannedd, pan weloch Abraham, Isaac, a Jacob, a'r holl brophwydi, yn nheyrnas Dduw, a chwithau wedi eich bwrw allan."

"Canys llawer, meddaf i chwi." Y geiriau hyn, fel y dywedais wrthych, sydd yn dwyn gyda hwynt ymadrodd deublyg, er cadarnhau y gwirionedd a osodwyd allan o'r blaen: yn gyntaf, mai proffeswyr a gyfeirir yma yn neillduol atynt; yn ail, ymadrodd gair y Gwirionedd ei hunan ydyw;—y gair, neu yr ymadrodd hwn, meddaf, sydd gyflawn o awdurdod. "Meddaf i chwi," ebe Crist. Y person yr hwn y mae ei eiriau yn awr dan ein hystyriaeth, nid pregethwr cyffredin ac anneallus ydoedd, ond gwir ddoethineb Duw ei hun, yr hwn oedd gydag ef er tragwyddoldeb. Efe oedd awdwr gwir grefydd, ac a wyddai pa fodd y byddai gyda'r proffeswyr o honi oll yn y diwedd. Ac yn awr, clywch yr hyn y mae efe ei hun yn ei ddywedyd am y geiriau a lefarodd: "Nef a daear a ânt heibio, eithr fy ngeiriau i nid ânt heibio ddim." Mat. xxiv. 35.

"Meddaf i chwi." Ni arferai y prophwydi lefaru yn y dull yma, nac ychwaith yr angylion sanctaidd, canys i lefaru fel hyn yw anog pethau i gael eu derbyn ar eu hawdurdod eu hunain. Hwy a arferent ddywedyd, "Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd," &c. Ond yn awr yr ydym yn clywed geiriau Mab Duw ei hun; ac yn cael allan y gwirionedd o golledigaeth *llawer* o broffeswyr wedi ei sicrhau a'i gadarnhau ganddo ef. Yr ystyriaeth hwn sydd ddeffrous, ac yn galw arnom i ddihuno. Ond y mae llawer yn y dyddiau hyn wedi syrthio i'r fath drymgwsg, na ddichon dim eu dadebru ond y waedd uchel ac arswydus hòno: "Wele, y mae y priod-fab yn dyfod, ewch allan i gyfarfod ag ef." Mat. xxv. 6.

"Meddaf i chwi." Dau beth sydd ar ba rai y gellir sylfaenu sicrhad y pethau hyn. 1. Y mae y fath beth a thebygolrwydd i ras yn y byd hwn, er nad ydyw yn wir ras. 2. Y mae pechod a elwir yn bechod yn erbyn yr Yspryd Glân, i ba un nid oes addewid am faddeuant; a phob un o'r rhai hyn y mae proffeswyr yn syrthio iddynt.

1. Y mae rhyw beth tebyg i ras mewn rhai dynion, er nad yw felly mewn gwirionedd. Hyn sydd amlwg oddiwrth yr Ysgrythyrau, lle yr ydym yn darllen, fod rhai "ag sydd yn ewyllysio ymdecâu yn y cnawd," Gal. vi. 12, yn "gorfoleddu

yn y golwg," 2 Cor. v. 12, "yn ymddangos yn deg oddiallan," Mat. xxiii. 27, y rhai a lynant wrth bobl Dduw, ond nid oes ganddynt ras pobl Dduw.

Mae hyn yn cael ei amlygu yn mhellach, oddiwrth y rhagrybuddion mynych a roddir i ni yn ei gylch yn yr Ysgrythyrau: "Na thwyller chwi," Gal. vi. 7; "Eithr holed dyn ef ei hun," 1 Cor. xi. 28; "Profwch chwychwi eich hunain, a ydych yn y ffydd." 2 Cor. xiii. 5. Yr holl ymadroddion hyn sydd yn addysgu i ni, y dichon fod ymddangosiad o rywbeth tebyg i ras mewn dyn, er nad yw yn wir ras.

Hyn sydd yn cael ei amlygu drachefn, oddiwrth y penderfyniad y mae yr Yspryd Glân yn ei wneuthur ar y mater yma: "Oblegid os tybia neb ei fod yn ei dwyllo ei hun." Gal. vi. 3. Y geiriau hyn a ddengys y gall dyn feddwl ei hunan yn *rhywbeth*; meddwl fod ganddo ras pan nad oes; meddwl ei fod yn rhywun mewn crefydd, pryd nad yw yn gwybod dim mewn gwirionedd am dani. Y cyfryw sydd yn twyllo ei hun am y nefoedd, ac iechydwriaeth ei enaid, ar yr un waith. "Na thwylled neb chwi am eich gwobr," Col. ii. 18; "Canys llawer, meddaf i chwi, a geisiant fyned i mewn, ac nis gallant." Och! fe ddichon fod goleuni, doniau, cymhwysderau, a hyder cryf am y nefoedd, lle nad oes dim gwir ffydd, cariad, edifeirwch, sancteiddrwydd; ac felly heb gadwedigol ras. Ond, yn

2. Megis y mae rhywbeth tebyg i ras, lle nid oes *gwir* ras; felly hefyd y mae pechod a elwir yn bechod yn erbyn yr Yspryd Glân, i'r hwn nid oes maddeuant. Hyn sydd amlwg oddiwrth eiriau yr Iesu yn efengyl Mathew a Marc: "A phwy bynag a ddywedo air yn erbyn yr Yspryd Glân, nis maddeuir iddo, nac yn y byd hwn, nac yn y byd a ddaw," Mat. xii. 32; "Eithr yr hwn o gablo yn erbyn yr Yspryd Glân, ni chaiff faddeuant yn dragywydd, ond y mae yn euog o farn dragywydd." Marc iii. 29. Pan wypom, gan hyny, fod dyn wedi pechu y pechod hwn, nid ydym i weddio drosto, neu dosturio wrtho. (1 Ioan v. 16. Judas 22.

Y pechod yma y mae proffeswyr yn fynych yn syrthio iddo; canys ychydig, os rhai, heb fod yn proffesu, a allant yn bresenol bechu y pechod hwn. Y "rhai a oleuwyd unwaith, ac a brofasant y rhodd nefol, ac a wnaethpwyd yn gyfranogion o'r Yspryd Glân, ac a brofasant ddaionus air Duw, a nerthoedd y byd a ddaw," Heb. vi. 4, 5—o'r fath yma ydynt hwy ag sydd yn pechu y pechod anfaddeuol. "Canys os, wedi iddynt ddianc oddiwrth halogedigaeth y byd, trwy adnabyddiaeth yr Arglwydd a'r Achubwr Iesu Grist, y rhwystrir hwy drachefn â'r pethau hyn, a'u gorchfygu; aeth diwedd y rhai hyny yn waeth na'u dechreuad." 2 Pedr ii. 20. Lle arall, yn y ddegfed bennod o'r Hebreaid, adn. 26, 27, sydd yn dàl allan yr un gwirionedd: "Os o'n gwirfodd y pechwn, ar ol derbyn gwybodaeth y gwirionedd, nid oes aberth dros bechodau wedi ei adael mwyach; eithr rhyw ddisgwyl ofnadwy am farnedigaeth, ac angerdd tân, yr hwn a ddifa y gwrthwynebwyr." Gwelwch, oddiyma, pwy yw y dynion ag sydd yn myned yn ysglyfaeth i'r pechod hwn; mae

yn ymborthi yn feunyddiol ar broffeswyr; hwynt-hwy yw y rhai sydd yn fynych yn syrthio i safn y bwytäwr yma. Rhai a ddèlir ganddo trwy hudoliaeth dynion, ac athrawiaethau cythreuliaid; ac eraill trwy ddychwelyd gyda'r ci "at ei chwydiad ei hun; a'r hwch wedi ei golchi, i'w hymdreiglfa yn y dom." 2 Pedr ii. 22. Ni roddaf yma ddesgrifiad neillduol i chwi o'r pechod hwn, gan i mi wneuthur hyny mewn lle arall; ond gwybydder fod y fath bechod yn bod, ac na chaiff y rhai sydd yn euog o hono faddeuant yn dragywydd; a sicr yw fod proffeswyr lawer yn euog o'r pechod anfaddeuol hwn; ïe, fwy nag y mae y rhan fwyaf yn meddwl. Edryched pawb, gan hyny, o'u hamgylch, a chwilient eu hunain yn ddifrifol wrth oleuni gair ac Yspryd Duw; a'r Arglwydd a'u dihuno, ac a'u cynorthwyo i wneuthur hyny yn brydlon. Canys pa les a wna proffes o grefydd, heb ei grym hi? Trwy natur ac effaith y pechod echryslon hwn yn erbyn yr Yspryd Glân, llawer "a geisiant fyned i mewn, ac nis gallant."

"A *geisiant* fyned i mewn." Y deyrnas hon, wrth borth pa un y bydd yr holl rai anwir yn cael eu hattal, a fydd yn ddymuniad yr holl fyd yn y dydd diweddaf; yn enwedig HWYNT-HWY yn fy nhestyn, y rhai "a geisiant fyned i mewn;" canys yna y canfyddant wynfydedigrwydd y rhai a ânt *i mewn;* megis y mae yn Ysgrifenedig: "Gwyn eu byd y rhai sydd yn gwneuthur ei orchymynion ef, fel y byddo iddynt fraint yn mhren y bywyd, ac y gallont fyned i mewn trwy y pyrth i'r ddinas." Dat. xxiii. 14. I brofi y bydd iddynt *geisio* myned i mewn, er gwneuthur o honynt hwy hyny eisoes, darllenwch yr Ysgrythyrau canlynol wrth eich cyfleusdra: Mat. xxv. 11; vii. 22. Luc xiii. 28. Rhoddaf i chwi yn mhellach rai rhesymau, paham y ceisiant fyned i mewn.

(1.) Yn awr y deallant pa fath deyrnas a fydd hi, a pha ogoniant a gynwysir ynddi; yn awr y gwelant y gwynfydedigrwydd a gânt hwy ei fwynhau, y rhai a fernir yn deilwng y pryd hyny o fyned i mewn iddi. Yr achos paham y mae y deyrnas hòno o gan lleied gwerth yn awr yn ngolwg dynion ydyw, oherwydd bod ei gogoniant yn guddiedig oddiwrthynt: "Ni welodd llygad, ac ni chlywodd clust, ac ni ddaeth i galon dyn, y pethau a ddarparodd Duw i'r rhai a'i carant ef." 1 Cor. ii. 9. Ië, ond hwy a welant ac a glywant hefyd y pryd hyny; a phan ddêl hyn oddiamgylch, yna y rhai lleiaf eu chwant yn awr i'r nefoedd, yn y diwedd "a geisiant fyned i mewn."

(2.) Yn awr y gwybyddant hefyd beth yw uffern, a beth fydd tragywyddol ddamnedigaeth yn ei feddwl yn fwy eglur nag erioed. Gwelant a phrofant hefyd y modd y bydd "anadl yr Arglwydd, megis afon o frwmstan, yn ei henyn hi." Esay xxx. 33. Yr olwg ar y ffwrnas boeth, losgadwy, wedi ei pharotoi i ddiafol â'i angylion; hyn, hyn a weithia yn rymus, ac a wasg yn galed ar y rhai annuwiol yn nydd Duw Hollalluog! Yna hwy "a geisiant fyned i mewn."

(3.) Yna y gwybyddant beth yw ystyr yr ymadrodd: "Lle nid yw eu pryf hwynt yn marw, na'r tân yn diffodd." Marc ix. 44. Y pryd hyny y gwybyddant beth y mae tragwyddoldeb, a'r gair *byth*, a'r pydew heb waelod, yn ei feddwl. (Dat. ix. 2.) Yna y clywant rüad damnedigion megis rhüad eirth yn un cwr; ac megis udiad cŵn, neu lef bwystfilod rheibus, yn y cwr arall; bydd rhai yn nydd y farn yn llefain ar y mynyddoedd a'r creigiau i syrthio arnynt a'u gorchuddio; yn awr ni chanfyddant wynfydedigrwydd a diogelwch yn un lle arall, ond "i mewn."

4. Yn awr y byddant yn gweled pa ogoniant a dedwyddwch fydd y cadwedigion yn ei feddiannu: y modd y byddant yn gorphwys yn mynwes Abraham, yn rhodio yn eu gwisgoedd gwynion, ac yn mwynhau llawenydd didor ac annhraethadwy, a hyny yn ngolwg y rhai a fwriwyd allan o ŵydd Duw a'i bresenoldeb, ac a arosant dan ei lid a'i gyfiawnaf ddial i bob tragwyddoldeb. (Luc xvi. 22, 23; xiii. 28.) Llawer, oblegid hyn, "a geisiant fyned i mewn."

*Hol.* Ond dichon rhai ddywedyd, Pa fodd y "ceisiant fyned i mewn?"

*Ateb.* 1. Hwy a ymnerthant â chymaint o hyder ag a allont: a gyda y morwynion ffol, a drwsiant i fyny eu lampau, ac a'u huddant, fel y goleuont iddynt dros dro, ac yr elont i mewn; ond Mab Duw ei hun yn gweled eu rhyfyg, ac yn gwadu yr adnabyddiaeth o honynt, a orchymyna iddynt fyned ymaith, a chauir y drws.

2. Hwy "a geisiant fyned i mewn" trwy ymgymysgu â'r duwiolion, fel y dyn heb y wisg briodas am dano. Efe a anturiodd fyned i mewn i'r ystafell briodas, ac eistedd i lawr yn mhlith y rhai a wahoddasid; ac yna efe a benderfynodd yn ddiau ei fod mor ddiangol a hwythau. Ond chwi a wyddoch mor fuan yr adwaenir un llwdn du yn mhlith cannoedd o rai gwynion. Yn gyffelyb i hyn y digwyddodd i'r dyn truan ac annedwydd hwnw: "A phan ddaeth brenin y wledd i mewn i weled y gwahoddedigion, efe a ganfu yno ddyn heb wisg prïodas am dano." Efe a'i canfu ef yn fuan; a chyn dywedyd gair wrth neb o'r lleill, efe a gafodd y cyfarchiad arswydus yma: "Y cyfaill, pa fodd y daethost i mewn yma, heb fod genyt wisg priodas? Ac yntau a aeth yn fud." Mat. xxii. 11, 12. Er y medrai ymadroddi yn hwylus wrth y gwahoddedigion, eto Arglwydd y wledd, ar ei ddyfodiad cyntaf i mewn, sydd yn ei daro yn fud; a phan nad oedd ganddo ddim i'w ddywedyd drosto ei hun, "Yna y dywedodd y brenin wrth y gweinidogion (yr angylion), Rhwymwch ei draed a'i ddwylaw, a chymerwch ef ymaith, a theflwch i'r tywyllwch eithaf; yno y bydd wylofain a rhincian dannedd." Mat. xxii. 13.

3. Hwy "a geisiant fyned i mewn" trwy ddadleu eu proffes, a'u hymarferiad o ordinhadau yr Arglwydd, tra ar y ddaear: "Arglwydd, ni a fwytasom ac a yfasom yn dy ŵydd, a thi a ddysgaist yn ein heolydd ni," Luc xiii. 26; ymgynullasom yn dy dŷ, eisteddasom wrth dy fwrdd, yr oeddym yn barchus gan y saint, a phroffesasom yr un ffydd a hwythau—"Arglwydd, Arglwydd, agor i ni!'

4. Hwy "a geisiant fyned i mewn" trwy ddadleu eu rhinweddau; y modd yr ymostyngasant i'r weinidogaeth, a disgyblaeth yr eglwys ar y ddaear; gymaint o bethau a wnaethant dros Grist yn y byd, a'r cyffelyb; ond ni thycia hyn iddynt ychwaith; yr ateb iddynt hwythau hefyd a fydd: "Ewch ymaith oddiwrthyf, chwi weithredwyr anwiredd." Mat. vii. 22.

5. Hwy "a geisiant fyned i mewn" trwy ddadleu eu hesgusodion. Y gwas diog a fynai amddiffyn ei hun, pan alwyd arno i roddi cyfrif o arian ei Arglwydd: "Arglwydd (eb efe), mi a'th adwaenwn di, mai gwr caled ydwyt, yn medi lle nis hauaist, ac yn casglu lle ni wasgeraist: ac mi a ofnais"—(un ai na roddwn foddlonrwydd i ti wrth osod dy arian allan, neu eu dodi mewn dwylaw nas gellid eu cael yn ol drachefn, pan elwid am danynt)—"ac a aethum, ac a guddiais dy dalent yn y ddaear: wele, yr wyt yn cael yr eiddot dy hun." Mat. xxv. 24, 25. Megis pe dywedasai, Gwir, Arglwydd, ni chwanegais, ac ni enillais at dy dalent; "wele, yr wyt yn cael yr eiddot dy hun." Ni all llawer ddywedyd yr ymadrodd olaf hwn yn nydd y farn. Y rhan fwyaf a wastraffant ac a gamdreuliant y talentau a roddwyd atynt; ac sydd â chyfrif galarus i roddi o honynt yn nydd yr ymweliad. Ond os na chafodd efe, meddaf, ei esgusodi, trwy ddywedyd, "Wele, yr wyt yn cael yr eiddot dy hun," ac os bydd i'r cyfryw un gael ei alw yn was drwg a diog, a'i fwrw ymaith i'r tywyllwch eithaf, er na chamdreuliasai arian ei arglwydd, beth a ddaw o honynt hwy, y rhai ni ofalasant roddi allan, neu ochelyd camdreulio yr hyn a dderbyniasant?

6. Hwy "a geisiant fyned i mewn," trwy ddadleu eu hanwybodaeth o'r pethau y troseddasant ynddynt. Am hyny, pan y mae Crist yn eu barnu yn fyr o'i garu ef, a'r pethau hyny wrth ba rai y dylasent brofi eu cariad yn wirioneddol—megis na roesent iddo fwyd neu ddiod, nas dygasent ef i dŷ, ac nas dilladasent ef, ni ymwelsent ag ef yn glaf ac yn ngharchar, a'r cyffelyb—byddant hwythau yn barod i ateb, "Arglwydd, pa bryd y'th welsom yn newynog, neu yn sychedig, neu yn ddieithr, neu yn noeth, neu yn glaf, neu yn ngharchar, ac ni weiniasom i ti?" Mat. xxv. 44. Fel pe dywedasent, Arglwydd, nid ydym ni ynom ein hunain yn gydwybodol o'n diffygiadau a grybwyllaist, a'u bod yn cael eu cyfrif yn gyfiawn i ni. Na ato Duw ein cael yn euog o'r fath droseddau. Arglwydd, dyro siampl i ni, pa le, neu pa bryd, y darfu i ni ymddwyn fel ag y dywedaist. Mae yn wir yr adwaenem ryw nifer o bobl ddiystyrllyd yn y byd, nad oedd neb yn gwneuthur cyfrif o honynt. Ond yr oeddym ni yn dy barchu ac yn dy fawrhau di; a phe buasit gyda ni yn y byd yn gwisgo aur, ac yn cymeryd dy ddewis ddanteithion genym, buasem ewyllysgar i'w cyfranu at dy] wasanaeth—am hyny "Arglwydd, Arglwydd, agor i ni." Ond a wna y dadleuon hyn y tro? Na wnant: "Yna yr etyb efe iddynt, gan ddywedyd, Yn wir meddaf i chwi, yn gymaint ag nas

gwnaethoch i'r un o'r rhai lleiaf hyn, nis gwnaethoch i minau," adn. 45. Y ddadl yma wedi ei sylfaenu ar anwybodaeth, ni allai eu hesgusodi am fyrdra eu dyledswydd. "A'r rhai hyn a ânt i gospedigaeth dragwyddol; ond y rhai cyfiawn i fywyd tragwyddol," adn. 46.

Gallwn adrodd ychwaneg o resymau, wrth ba rai yr ymddengys y modd y "ceisiant fyned i mewn, ac nis gallant." Megis, yn

1. Wedi eu hattal wrth borth y nefoedd rhag myned i mewn, hwy a safant yno hyd y gallont, megis yn anewyllysgar ganddynt fyned ymaith. Ni bu drwgweithredwr erioed mor anufudd i'w droi oddiar yr ysgol â'r cebystr am ei wddf, ag a fydd y rhai hyn i fyned ymaith oddiwrth borth y nefoedd i waelodion uffern.

2. Bydd iddynt nid yn unig sefyll, ond curo wrth borth y nefoedd; yr hyn a ddengys eu hewyllysgarwch a'u dymuniad "i fyned i mewn." Hwy a lefant allan, "Arglwydd, Arglwydd, agor i ni." Y gair Arglwydd wedi ei nodi ddwywaith, a ddengys eu difrifwch, a thaerineb eu deisyfiad. Arglwydd, Arglwydd, y mae y diafliaid yn dyfod, ac yn barod i'n llusgo ymaith! Arglwydd, Arglwydd, y mae y pydew heb waelod yn agor ei safn arnom! Arglwydd, Arglwydd, nid oes dim ond uffern a damnedigaeth wedi eu gadael yn ein rhan, os na chymeri di drugaredd arnom!—"Arglwydd, Arglwydd, agor i ni!"

3. Eu dadl diweddaf a fydd trwy wylofain a thywallt dagrau, pan na wnel hyder disail, dadleu rhinweddau, esgusodion, nac anwybodaeth, y tro; pan na thycia sefyll wrth y porth, a llefain, "Arglwydd, Arglwydd," yna y ffoant at eu dagrau, pa rai, ar amserau, sydd ag awdurdod nid bychan ganddynt; ond ni fyddant o ddim defnydd yno. Ni chafodd Esau etifeddu y fendith, "er iddo trwy ddagrau ei thaer-geisio hi." Heb. xii. 17. Yna y byddant yn wylofain ac yn rhincian dannedd, a'r porth yn gauedig arnynt. Trugaredd wedi eu gadael hwynt, a myned ymaith, a Christ wedi eu llwyr wrthod, a'u rhoddi i fyny dros fyth. Ni all eu holl ddadleuon, esgusodion, a'u dagrau, y pryd hyny leshau dim iddynt; na bod o ddim cynorthwy iddynt i fyned i mewn i'r nefoedd. "Canys llawer, meddaf i chwi, a geisiant fyned i mewn, ac nis gallant."

V. Yr wyf yn awr yn dyfod at ran diweddaf y testyn; ag sydd yn eglur ddangos i ni achos gwrthodiad y rhai hyny ag na allant fod yn gadwedig; hwy "a geisiant fyned i mewn, ac nis gallant."

Dichon y rhagrithiwr neu y gau-broffeswr fyned yn mhell mewn ymarferiadau crefydd, a myned heibio i'r wiliadwriaeth gyntaf a'r ail; nid amgen, cael derbyniad i gymundeb eglwysig a Christionogol; ond beth a wnant pan ddelont at y porth haiarn yma sydd yn arwain i'r ddinas? "Yno y syrth gweithwyr anwiredd; gwthir hwynt i lawr, ac ni allant gyfodi." Salm xxxvi. 12.

"Ac nis gallant." Yr amser, megis y dywedais eisoes, yw dydd y farn, pryd

y bydd pob llen a gorchudd wedi ei gymeryd ymaith oddiar bob gwyneb, ac y datguddir yr holl gyfrinachau—dydd ydyw yn mha un y bydd i'r Arglwydd "oleuo dirgelion y tywyllwch, ac a eglura fwriadau y calonau." 1 Cor. iv. 5. Dydd ei ddigofaint hefyd ydyw, pan y siglir y pethau mwyaf cyfrifol yn ngolwg dynion, ac y llwyr ddadymchwelir eu holl ddisgwyliadau.

Yn y dydd hwn, y pethau hyny ag y mae "llawer" yn eu hystyried yn dda a diogel, a ysgydwir fel siglen; ïe, hyd yn oed eu gwybodaeth fostfawr, eu ffydd dwyllodrus, eu cariad ymddangosiadol, eu gŵyl-eiriau, a'u hymarweddiad ffugiol, a fyddant yn hollol ddifudd iddynt. Yr wyf yn eu galw yn ŵyl-eiriau, oherwydd yr wyf yn canfod fod rhai proffeswyr yn ymddwyn tuag at grefydd fel y gwna pobl gyda'u dillad goreu—eu crogi i fyny ar yr hoel ar hyd yr wythnos, a'u dodi am danynt ar y Sul. Fel y mae yn anfynych yr ymdrwsia rhai pobl eu hunain i fyny ond pan yr elont i ffair neu farchnad, felly ychydig bach o grefydd deuluaidd a wna y tro i rywrai; eithr hwy a gadwant eu crefydd i fyned i'r tŷ cwrdd, neu pan y cyfarfyddont gyda chyfaill duwiol. O! grefydd dlawd! O! broffeswr truenus! Pa beth a wnei yn y dydd hwn—dydd dy brawf a'th gondemniad? Gorchuddio dy hunan nis gelli; ymddangos yn lle Cristion fydd yn anmhosibl i ti; sefyll o flaen y Barnwr yn ddigryn fydd yn ofer i ti geisio. Pa beth a wnei di yn y dydd sobr ac ofnadwy hwn? "Yr annuwiolion ni safant yn y farn, na phechaduriaid yn nghynulleidfa y rhai cyfiawn." Salm i. 5.

"Ac nis gallant." Wrth y gallu hwn, nid ydys yn meddwl gallu naturiol dyn, neu gyfrwysdra cnawdol; ond bod yn feddiannol o wirionedd y pethau hyny ag sydd yn nglŷn wrth iechydwriaeth. Y mae pump o bethau yn ddiffygiol yn y rhai nas gallant fyned i'r nefoedd:

1. Y deyrnas hon a berthyn yn unig i'r etholedigion, i ba rai y parotowyd hi er cyn seiliad y byd. (Mat. xxv. 34.) Oherwydd paham, pan ymddangoso Crist yn y dydd diweddaf i farnu y byw a'r meirw, "Efe a ddenfyn ei angylion â mawr sain udgorn; a hwy a gasglant ei etholedigion yn nghyd o'r pedwar gwynt, o eithafoedd y nefoedd hyd eu heithafoedd hwynt." Mat. xxiv. 30. A thrachefn, efe a ddywed: "Dygaf had allan o Jacob, ac o Juda un a etifedda fy mynyddoedd; a'm hetholedigion a'i hetifeddant, a'm gweision a drigant yno." Esay lxv. 29. "Hyd oni thwyllant, pe byddai bosibl, ïe, yr etholedigion." Mat. xxiv. 24. "Eithr yr etholedigion a'i cafodd, a'r lleill a galedwyd." Rhuf. xi. 7.

2. Nis gallant fyned i mewn oherwydd eu diffyg o feddiannu yr enedigaeth-fraint. "Os plant, etifeddion hefyd;" os wedi ein geni drachefn, yna etifeddion ydym. Am hyny y dywedir yn eglur, "Oddieithr geni dyn drachefn, ni ddichon efe weled teyrnas Dduw." Ioan iii. 3. Y mae pob rhagorfraint gnawdol o gael ein geni o gig a gwaed, wrth yr ymadrodd hwn, yn cael ei fwrw i lawr. A elli di

ddangos dy enedigaeth-fraint, ac a ydwyt yn sicr o hyny?—canys ychydig o gysur yw i ti feddwl am deyrnas nefoedd, os yw hyn yn niffyg arnat, sef bod yn feddiannol o'r enedigaeth-fraint, megis yr unig hawl iddi. Fe ddiystyrodd Esau ei enedigaeth-fraint, gan ddywedyd, "Pa les a wna yr enedigaeth-fraint hon i mi?" Gen. xxv. 32; ac y mae llawer o'r un egwyddor ag ef yn y byd hyd y dydd hwn. Yr ydys yn son, meddant, am eni drachefn, pa leshad sydd i ni oddiwrth hyny? Dywedant nad oes dim myned i'r nefoedd heb ail-enedigaeth: ond mae Duw yn drugarog, ac fe fu Crist farw dros bechaduriaid; ni a ddychwelwn ac a edifarhawn rywbryd cyn ein marw; ac nid oes amheuaeth y bydd o'r goreu gyda ni yn y diwedd. Ond yr wyf yn dywedyd i ti, blentyn Esau, fod y fendith a'r enedigaeth-fraint yn nglŷn â'u gilydd; metha y naill, a thi fyddi sicr o fod yn ol o'r llall. Fe brofodd Esau hyn yn wir; canys wedi iddo yn gyntaf ddiystyru yr enedigaeth-fraint, ac ewyllysio ar ol hyny etifeddu y fendith, hi a attaliwyd rhagddo: "oblegid ni chafodd efe le i edifeirwch, er iddo trwy ddagrau ei thaer-geisio hi." Heb. xii. 16.

3. Nis gall y rhai ni feddiannwyd â ffydd o weithrediad Yspryd Duw fyned i mewn—y ffydd ag sydd yn dwyn sancteiddrwydd gyda hi; ïe, ffydd etholedigion Duw. Y ffydd yma yw effaith cariad etholedig Duw, ac adenedigaeth o hono; am hyny, cynifer o broffeswyr a'r nis meddiannwyd â'r ffydd sydd yn tarddu oddiwrth ein genedigaeth o Dduw, "a geisiant fyned i mewn, ac nis gallant."

4. Nis gallant hwy fyned i mewn ag sydd â sancteiddrwydd efengylaidd heb fod yn nglŷn â'u proffes. Sancteiddrwydd yn tarddu oddiar wir ffydd sydd yn peri agosrwydd rhyngom â Duw, a gwynfydedigrwydd ei deyrnas nefol. "Gwynfydedig a sanctaidd yw yr hwn sydd â rhan iddo yn yr adgyfodiad cyntaf: y rhai hyn nid oes i'r ail-farwolaeth (yr hyn yw uffern a damnedigaeth) awdurdod arnynt." Dat. xx. 6. "Gwynfydedig a sanctaidd," trwy y sancteiddrwydd ag sydd yn tarddu oddiwrth ffydd yn Nghrist; canys i'r cyfryw yn unig y perthyn yr etifeddiaeth. Y sancteiddrwydd yma, yr hwn yw naturiol effaith gwir ffydd yn Mab Duw, a wahaniaetha yn nydd y farn oddiwrth bob sancteiddrwydd ymddangosiadol a ffurfiol, byddent mor hardd a theced ag y mynent; ac a bâr fynediad i mewn i'w pherchenog i ogoniant, pan fyddo eraill yn "ceisio myned i mewn, ac nis gallant."

5. Nis gall y rhai hyny fyned i mewn, y rhai nid arosant yn y ffydd wynfydedig, sanctaidd hon; nid y bydd iddynt hwy a'i derbyniodd unwaith lwyr-gwympo ymaith, a bod yn golledig. Fe orchymynodd Iesu Grist i'r sawl a feddiannwyd â gwir ras, i aros yn ei gariad ef, ac i ddâl yr hyn sydd ganddynt, gan sicrhau iddynt, mai yr hwn a barhao hyd y diwedd a fydd gadwedig. (Ioan xv. 9. Dat. iii. 11. Mat. xxiv. 13.) Ond er mai gwirionedd ydyw, nad oes neb yn meddu gallu ynddo ei hun i'w gadw rhag syrthio; eto, y mae Duw yn rhoddi nerth i'w bobl, ac yn eu galluogi i wrthsefyll temtasiynau y gelyn; y rhai a gedwir trwy ffydd i iachawd

wriaeth; i feddiannu yr etifeddiaeth anllygredig, a dihalogedig, a diddiflanedig, ac yn nghadw yn y nefoedd iddynt. (1 Pedr i. 4, 5.)

"Ynfydion ni safant yn dy olwg; casêaist holl weithredwyr anwiredd." Salm v. 5. Ynfydion yw yr holl rai hyny a'r nad yw ffydd, sancteiddrwydd, na pharhad mewn gras, yn perthyn iddynt; ac eto, er hyn i gyd, yn hòni hawl i deyrnas nefoedd. Ond "Gwell yw ychydig trwy gyfiawnder, na chnwd mawr trwy gam." Diar. xvi. 8. Beth ydyw i mi hòni hawl mewn tŷ neu dyddyn, pan nad oes iawn digonol genyf iddynt; neu i ddywedyd, Yr holl bethau hyn ydynt eiddof fi, heb ddim dangosiad am danynt? Y cyfryw feddiannau sydd yn sefyll yn unig mewn gwag ddychymygion, heb un hawl gyfreithlon iddynt. "Llawer, meddaf i chwi, a geisiant fyned i mewn, ac nis gallant."

Fel hyn yr ydych yn gweled na ddichon y rhai dietholedig fyned i mewn; nas gall yr hwn ni anwyd drachefn, ac sydd heb ffydd gadwedigol, a sancteiddrwydd, a pharhad mewn gras, fyned i mewn. Ystyriwch, gan hyny, yr hyn a draethwyd ar y cyfan, a Duw ei hun fyddo yn gymhorth i chwi.

## CYMHWYSIAD.

Yr wyf yn dyfod yn awr i wneuthur rhai cymhwysiadau a defnydd oddiwrth y geiriau, y rhai a fyddant y tri canlynol:

1. Wedi i ddynion osod i mewn bob hawl ag a allont i'r nefoedd, ychydig yw y rhai a fydd yn ei chael hi yn etifeddiaeth. "Canys llawer, meddaf i chwi, a geisiant fyned i mewn, ac nis gallant."

2. Y bydd llawer yn cyfarfod â siomedigaeth mawr yn nydd y farn. "Canys llawer a geisiant fyned i mewn, ac nis gallant."

3. Nad gorchwyl bychan, gan hyny, yw myned i'r nefoedd, ac ni feddiennir y deyrnas hòno wrth freuddwydio; y rhai a fynent y pryd hyny fod yn gadwedig, sydd raid iddynt ymdrechu yn bresenol i fyned i mewn. "Canys llawer, meddaf i chwi, a geisiant fyned i mewn, ac nis gallant."

Mi ymhelaethaf ychydig ar y cyntaf o'r penau hyn; sef, mai wedi i ddynion osod i mewn pa hawl a allont i'r nefoedd, ychydig a fydd yn ei meddiannu. Y pwnc yma a ellir ei ystyried yn gynwysedig o ddwy ran.

(1.) Fod yr amser yn dyfod pryd y gesyd pob dyn i mewn pa hawl a allo i deyrnas nefoedd.

(2.) Na bydd ond ychydig o'r rhai a hònant hawl i'r deyrnas hòno, yn y diwedd yn ei meddiannu.

Ni lefaraf ond gair neu ddau mewn perthynas i'r rhan gyntaf, oherwydd i mi draethu ychydig arno yn yr eglurhad ar eiriau y testyn; ond chwi ellwch weled

yn y bumed bennod ar hugain o Matthew, i'r holl rai hyny a safasant ar aswy-law y Barnwr, osod i mewn bob hawl a allent i'r deyrnas wynfydedig hon. Os wrth y rhai hyn y deallir yr holl bechaduriaid truenus a gondemnir, yna fe brofir yn helaeth wirionedd y rhan gyntaf o'r pwnc hwn; megis y mae yn ysgrifenedig yn y bennod uchod, adn. 44: "Yna yr atebant hwythau hefyd—(a phob un ar ei ben ei hun yn neillduol)—iddo, pa bryd y'th welsom—(yn y modd hyn a'r modd)—ac ni weiniasom i ti?" Gallwn ddwyn i mewn yma ddadleuon y gwas diog, a gwaedd y morwynion ffol; ac hefyd ymhelaethu ar yr ymadrodd hwnw, "Arglwydd, Arglwydd, ni a fwytasom, ac a yfasom yn dy ŵydd di, a thi a ddysgaist yn ein heolydd ni;" ond y pethau hyn a grybwyllwyd o'r blaen. I beidio, gan hyny, a chwanegu geiriau, bydd i mi ddyfod yn ddiymdro at yr ail ran; lle yr ydwyf i ddangos, mai ychydig o'r rhai a esyd i mewn eu hawl i'r nefoedd, a fydd yn y diwedd yn ei meddiannu.

Mi lefaraf yn wahaniaethol ar y rhan yma o'r cymhwysiad, ac a'i cadarnhaf, yn gyntaf, trwy un neu ddwy o Ysgrythyrau: "Cyfyng yw y porth, a chul yw y ffordd, sydd yn arwain i'r bywyd; ac ychydig yw y rhai sydd yn ei chael hi." Mat. vii. 14; "Nac ofna, braidd bychan; canys rhyngodd bodd i'ch Tad roddi i chwi y deyrnas." Luc xii. 32. Wrth y ddau destyn yma, a llawer ychwaneg a grybwyllir rhagllaw, gellwch ddeall gwirionedd yr hyn a lefarwyd, pa un y bydd i mi ei egluro yn mhellach: yn gyntaf, yn fwy cyffredinol; ac, yn ail, yn fwy neillduol.

Yn *gyntaf.* Yn gyffredinol, bydd i mi brofi mai ychydig oedd gadwedig yn mhob oes o'r byd.

Yn *ail.* Yn fwy neillduol, bydd i mi brofi mai ychydig o ddynion proffesedig sydd gadwedig.

(1.) Yn amser yr hen fyd, pan ydoedd fwyaf poblog, sef yn nyddiau Noah, nid ydym yn darllen ond am wyth nŷn a achubwyd ynddo rhag y diluw; cymwys, gan hyny, yr oedd Pedr yn eu galw yn ychydig. Pa mor ychydig? Dim ond wyth o eneidiau. "Yn yr hon ychydig, sef wyth enaid, a achubwyd trwy ddwfr." 1 Pedr iii. 20. Mae efe yn cyffwrdd eilwaith â'r gwirionedd hwn, gan ddywedyd, "onid arbedodd efe yr hen fyd, eithr Noah, pregethwr cyfiawnder, a gadwodd efe ar ei wythfed, pan ddug efe y diluw ar fyd y rhai anwir." 2 Pedr ii. 5. Creffwch, pawb ond y rhai a gadwyd rhag y diluw, a elwir yn anwir neu annuwiol, ac, yn ganlynol, a gollwyd. Y rhai a grybwyllir gan Eliphaz y Temaniad, yn llyfr Job, ac sydd yn myned yno dan yr enw gwir anwir: "A ystyriaist di yr hen ffordd a sathrodd y gwŷr anwir? Y rhai a dorwyd pan nid oedd amser; afon a dywalltwyd ar eu sylfaen hwy. Hwy a ddywedasant wrth Dduw, Cilia oddiwrthym: a pha beth a wna yr Hollalluog iddynt hwy?" Job 15—17.

Nid oedd, gan hyny, ond wyth enaid o fyd cyfan a ddiangodd rhag diluw digofaint Duw, yn y dydd y daeth y diluw tymhorol ar y ddaear; y lleill a fuont feirw i gyd yn annuwiol, ac ydynt wedi eu cau i fyny yn ngharchar uffern hyd y dydd hwn. (Heb. vi. 11. 1 Pedr ii. 19, 20.)

Nage, rhaid i mi brinhau y rhifedi drachefn. Nid oedd yno ond saith o'r wyth a gauwyd yn yr arch yn dduwiol. Canys os diangodd Cam rhag barnedigaeth y diluw, eto fe'i goddiweddwyd gan felldith Duw â barnedigaeth dragywyddol.

2. Wedi amlhau o ddynolryw ar y ddaear ar ol y diluw, pa mor lleied nifer a glywn am danynt oedd yn ofni Duw yn mhob oes, ac yn cilio oddiwrth ddrygioni.

(1.) Un Abraham a'i wraig a alwyd o wlad y Caldeaid. "Ei hunan (medd yr Arglwydd) y gelwais ef." Esay li. 2.

(2.) Un Lot, o Sodom a Gomorrah, Adam a Zeboim, pedair dinas. Mae yn wir i'w wraig a'i ddwy ferched fyned allan gydag ef o Sodom; eithr hwynt-hwy ill teiroedd a brofasant yn annuwiol, fel y gellwch weled yn y bedwaredd bennod ar bymtheg o Genesis. Am hyny y mae Pedr yn sylwi, na chadwyd ond Lot ei hun yn unig yn eu plith hwynt oll. (2 Pedr. ii. 7.)

Yr apostol Judas a ddywed, ddarfod i Dduw ddadymchwelyd nid yn unig ddinasoedd Sodom a Gomorrah, ond y rhai oddiamgylch hefyd; eto ni chafwyd ynddynt ond un Lot gyfiawn: "Megis y mae Sodom a Gomorrah, a'r dinasoedd o'u hamgylch mewn cyffelyb fodd â hwynt, wedi puteinio, a myned ar ol cnawd arall, wedi eu gosod yn esiampl, gan ddioddef dialedd tân tragwyddol," adn. 7.

(3.) Deuwn yn awr at amser y barnwyr: pa mor lleied y pryd hyny oedd nifer y duwiolion. "Y maes-drefi a ddarfuant yn Israel: y llwybrau a aeth yn anhygyrch, a'r fforddolion a gerddasant lwybrau ceimion." Barn. v. 6, 7.

(4.) Nid oeddynt ond ychydig ac anaml yn amser Dafydd. "Achub, Arglwydd (eb efe), canys darfu y trugarog; oherwydd pallodd y ffyddloniaid o blith meibion dynion." Salm xii. 1.

(5.) Yn amser Esay yr oedd y rhai cadwedig wedi myned mor fach o nifer, fel y llefodd allan: "Oni buasai i Arglwydd y lluoedd adael i ni ychydig iawn o weddill, fel Sodom y buasem, a chyffelyb fuasem i Gomorrah." Esay i. 9.

(6.) Ebe yr Arglwydd, yn amser Jeremiah y prophwyd: "Rhedwch yma a thraw ar hyd heolydd Jerusalem, ac edrychwch yr awr hon, a mynwch wybod hefyd, a cheisiwch yn ei heolydd hi, o chwech wr, a oes a wnel farn, a myfi a'i harbedaf hi." Jer. v. 1.

(7.) Fe ddangosodd Duw i'w was Ezeciel, pa mor lleied oedd gadwedig yn ei ddyddiau ef, trwy weledigaeth yr ychydig wallt, a achubid o ganol yr hyn a losgid: "Tithau fab dyn, cymer i ti gyllell lem, cymer i ti ellyn eillio, ac eillia dy ben a'th farf: yna y cymeri i ti glorianau pwys, ac y rheni hwynt. Traian a losgi yn tân,

yn nghanol y ddinas, pan gyflawner dyddiau y gwarchae; traian a gymeri hefyd, ac a'i tarewi â'r gyllell o'i amgylch; a thraian a daeni gyda'r gwynt: a mi a dynaf gleddyf ar eu hol hwynt. Cymer hefyd oddiyno ychydig o nifer, a chylyma hwynt yn dy odre. A chymer eilwaith rai o honynt hwy, a thafl hwynt i ganol y tân, a llosg hwynt yn tân: o hono y daw allan dân i holl dŷ Israel." Ezec. v. 1—5.

(8.) Yn amser y prophwyd Micah, chwi gewch y duwiolion yn achwyn y pryd hyny eu bod o ran nifer mor lleied ag i'r prophwyd eu cymharu i gasgliadau ffrwythydd haf, "fel lloffion grawnwin y cynhauaf gwin." Micah viii. 1.

(9.) Ar ol dyfodiad Crist yn y cnawd, gwelwch fel y cadarnhawyd y gwirionedd hwn ganddo ef ei hun—sef na fyddai ond ychydig o'r rhai a osodent i mewn eu hawl i'r nefoedd, yn y diwedd yn eu meddiannu. Ond ni ellid goddef ei ymadrodd ef y pryd hyny; a phan gyffyrddai ond ychydig â'r gwirionedd hwn, y bobl, ïe, unwaith, gymaint ag oedd yn gwrando arno yn y synagog, "a lanwyd o ddigofaint; ac a godasant i fyny, ac a'i bwriasant ef allan o'r ddinas, ac a'i dygasant ef hyd ar ael y bryn, yr hwn yr oedd eu dinas wedi ei hadaeiladu arno, ar fedr ei hadeiladu arno, ar fedr ei fwrw ef bendramwnwgl i lawr." Luc iv. 28, 29.

(10.) Dywed Ioan, wedi amser Crist, fod "yr holl fyd yn gorwedd mewn drygioni," 1 Ioan v. 19; a'r holl ddaear yn rhyfeddu, neu yn dilyn ar ol y bwystfil; a rhoddi iddo awdurdod ar bob llwyth, iaith, a chenedl. Awdurdod i ba beth? I beri "i bawb, fychain a mawrion, cyfoethogion a thlodion, rhyddion a chaethion, dderbyn nôd ar eu llaw ddehau, neu ar eu talcenau." Dat. xiii. 3, 7, 16.

(11.) Os deuwn at agosach siamplau a phrofiad o'r pethau hyn, dull ac ymddangosiad gwynebpryd y rhan fwyaf o ddynolryw a dystia yn eu herbyn; "a'u pechod, fel Sodom, a fynegant, ac ni chelant." Esay iii. 9. Pa le y mae y dyn ag sydd yn gwneuthur yr Hollalluog Dduw yn benaf hyfrydwch iddo; ac yn ceisio ei ogoniant ar y ddaear yn fwy na dim arall? Onid yw y rhan fwyaf, ïe, pawb agos, yn myned ar ol y byd, eu chwant, a phleserau cig â gwaed? Ac felly, mewn effaith, yn dywedyd wrth Dduw, "Cilia oddiwrthym; canys nid ydym yn chwennych gwybod dy ffyrdd. Pa beth ydyw yr Hollalluog, fel y gwasanaethom ef? a pha fudd sydd i ni os gweddiwn arno?" Job. xxi. 14, 15.; "Ofered yw gwasanaethu Duw; a pha lesiant sydd er i ni gadw ei orchymynion ef." Mal. iii. 14.

Felly, yn ddiau, yr ymddengys yn wirionedd yn nydd Duw, mai ychydig o'r rhai a osodant i mewn eu hawl i'r nefoedd, a fydd yn y diwedd yn ei meddiannu.

Cyn yr ymadawyf â'r pwnc yma, dangosaf i chwi yn mhellach, i ba beth y cyffelybir y rhai cadwedig yn yr Ysgrythyrau.

(1.) Fe'u cymharir i lonaid dwrn: "Bydd dyrnaid o ŷd ar y ddaear yn mhen y mynyddoedd," &c. (Salm lxxii. 16. Wrth y dyrnaid hyn ni feddylir ddim amgen na nifer y rhai cadwedig.

Ond beth yw dyrnaid mewn cymhariaeth i'r pentwr ŷd? Neu beth yw dyrnaid o ddynion i'w cymharu â'r holl fyd?

(2.) Fe'u cymharir hwynt i lili yn mysg drain, y rhai ni cheir yn fynych: "Megis lili yn mysg y drain (medd Crist), felly y mae fy anwylyd yn mysg y merched." Can. ii. 2. Wrth y drain, y meddylir yn y lle hwn pob rhywiogaeth o ddynion, drwg a da, ag sydd yn ymddifad o ras Duw. Canys "y goreu o honynt sydd fel mieren, yr unionaf yn arwach na chae drain." Mic. vii. 4. Yr wyf yn gwybod y gellir ystyried yr eglwys hefyd "megis lili yn mysg y drain," trwy ei bod yn cael ei phigo gan erlidigaethau, &c. (Ezec. ii. 6; xxiv. 24.) Ond nid hyn yw y cyfan: fe elwir y rhai cadwedig megis lili yn mysg y drain, i arwyddocau mor anaml ydynt yn y byd, ac nad yw eu nifer ond ychydig. Canys fel y mae Crist yn eu cymharu i "lili yn mysg y drain;" felly hefyd y mae yn eu cymharu i "bren afalau yn mhlith prenau y coed," adn. 3, yr hyn yn anfynych a ganfyddir.

(3.) Y rhai cadwedig a elwir yn *un* o lawer o rifedi: canys er bod "tri ugain o frenhinesau, ac o ordderchwragedd bedwar ugain, a llancesau heb rifedi: un ydyw hi, fy ngholomen, fy nihalog." Can. vi. 8, 9. Cyffelyb i hyn yw yr ymadrodd hwnw yn Jeremiah, pen. iii. 14: "Mi a'ch cymeraf chwi, un o ddinas," &c.; ac arall o eiddo Paul, 1 Cor. ix. 24: "Oni wyddoch chwi fod y rhai sydd yn rhedeg mewn gyrfa, i gyd yn rhedeg; ond bod un yn derbyn y gamp." Un; hyny yw, ychydig o lawer; ychydig o'r rhai a redant. Canys nid yw efe yma yn cymharu y rhai sydd yn rhedeg â'r rhai sydd yn eistedd i lawr yn llonydd; ond â'r rhai a redant. Y mae rhai yn rhedeg, ac yn colli y gamp; eraill a redant, ac a'i henillant hi. Y rhai sydd yn rhedeg, ac yn enill, ydynt ychydig i'w cymharu i'r rhai a redant, ac a gollant. Mae "y rhai sydd yn rhedeg mewn gyrfa, i gyd yn rhedeg, ond bod *un* yn derbyn y gamp;" ac er bod "tri ugain o frenhinesau, a phedwar ugain o ordderchwragedd, a llancesau heb rifedi, *un* yw hi fy ngholomen, fy nihalog;" felly ychydig yw nifer y rhai cadwedig wrth liaws y rhai colledig.

(4.) Y rhai cadwedig sydd yn cael eu cymharu, megis y soniwyd o'r blaen, "i loffion ar ol casgliad grawnwin y cynhauaf gwin." "Gwae fi! (medd yr eglwys) canys ydwyf fel casgliadau ffrwythydd haf, fel lloffion grawnwin y cynhauaf gwin; nid oes swp o rawn i'w bwyta," &c. Micah vi. 1. Lloffion!—beth yw hyny wrth yr holl gnwd? Ac eto, chwi welwch y rhai cadwedig yn cael eu cymharu yma i *loffion*. Y diafol a phechod sydd yn myned â'r ysgubau ymaith yn llwythi; pan y mae Crist a'i weinidogion yn cael eu dodi i erlid ar ol y lloffion. "Onid gwell yw lloffiad grawnwin Ephraim, na chasgliad grawnwin Abiezer?" Barn. viii. 2. Y rhai y mae Crist a'i weinidogion yn lloffa i fyny, ac yn eu rhwymo yn nghwlwm y bywyd, sydd yn well na'r llwythau mèn a gludir ymaith y ffordd arall. Achwyniaeth y tlodion yn fynych amser cynhauaf ydyw, eu bod yn cael ychydig loffion.

Gweinidogion yr efengyl hwythau a lefant allan, "Arglwydd, pwy a gredodd i'm hymadrodd, ac i bwy y datguddiwyd braich yr Arglwydd?" Esay iii. 1. Pan y mae y prophwyd yn llefaru am y rhai cadwedig, dan y gyffelybiaeth hon o *loffion*, gwelwch fel y mae yn ymhelaethu ar y mater: "Eto ynddo y gadewir lloffion grawnwin, fel ysgydwad olewydden, sef dau neu dri o rawn yn mlaen y brig, a phedwar neu bump yn ei changhenau ffrwythlon eithaf, medd Arglwydd Dduw Israel." Esay xvii. 6. Yma y gwelwch pa fath loffiad a adewid yn y winllan ar ol casglu y gwinwydd i mewn: dau neu dri yma; pedwar neu bump acw. Och! y rhai cadwedig, wedi i ddiafol a phechod gael eu digwydd o honynt, ni byddant ond megis lloffiad, ni byddant ond ychydig. Y rhai sydd yn myned i uffern, a ânt yno yn yroedd; ond y rhai cadwedig nid ânt felly i'r nefoedd. (Mat. xiii. 30.) Oherwydd paham, pan y mae y prophwyd yn llefaru am danynt, efe a ddywed, "Nid oes swp o rawn." Micah vii. 1. Ond am y rhai a ddemnir fe ddywedir, "A chasgl *ganghenau* gwinwydden y ddaear." Dat. xiv. 19. A thrachefn: "Rhwymwch hwynt yn *ysgubau*, i'w llwyr-losgi." Mat. xiii. 30. O! bechaduriaid! O! broffeswyr! ychydig fydd yn gadwedig!

(5.) Y rhai cadwedig a gymharir i dlysau. "A byddant eiddof fi, medd Arglwydd y lluoedd, yn y dydd y gwnelwyf briodoledd;" neu y *gwnelwyf i fyny fy nhlysau.* (Mal. iii. 17.) Tlysau, chwi wyddoch, ydynt brin ac anaml; pethau na cheir yn mhob tŷ cyffredin. Tlysau a gedwir mewn lle cynwys a chuddiedig, am eu bod yn werthfawr, ac yn fychan o faintioli; pan y mae dodrefni cyffredin yn myned â llawer o le. Gellwch ganfod yn bur agos yn mhob tŷ lestri o bres, haiarn, a phlwm; felly mynych y cyfarfyddir â phroffeswyr rhagrithiol ar hyd ein hardaloedd. Ond nid llestri cyffredin yw y rhai cadwedig: trysor neillduol ydynt. Mae St. Paul yn gwahaniaethu rhwng dodrefn cyffredin a llestri gwerthfawr pendefigion, gan ddywedyd, "Mewn tŷ mawr nid oes yn unig lestri o aur ac o arian, ond hefyd o bren ac o bridd; a rhai i barch, a rhai i anmharch." 2 Tim. ii. 20. Dyma air i bren a phridd broffeswyr. Y llestri o aur ac o arian ydynt i barch, a'r rhai o bren ac o bridd i anmharch; hyny yw, llestri digofaint ydynt. (Rhuf. ix. 20.)

(6.) Y rhai cadwedig a gymharir i weddillion: "oni buasai i Arglwydd y lluoedd adael i "ni ychydig iawn o weddill, fel Sodoma y buasem, a chyffelyb fuasem i Gomorra." Esay i. 9. Gweddill, ychydig weddill, ychydig iawn o weddill. O! fel y mae yr Yspryd Glân yn ei adrodd gyda sylw! a'r cyfan i ddangos i ni pa mor lleied yw nifer y rhai cadwedig. Fe ŵyr pawb beth a feddylir wrth weddill; ond dyma *ychydig* weddill. Felly y dywedir drachefn: "Cenwch orfoledd i Jacob, a chrechwenwch yn mhlith rhai penaf y cenhedloedd: cyhoeddwch, molwch, a dywedwch, O! Arglwydd, cadw dy bobl, *gweddill* Israel." Jer. xxxi. 7. Beth a ddywedaf? Y cadwedigion a elwir yn *weddill* yn fynych yn yr Ysgrythyr;

(7.) Y rhai cadwedig a gymharir i ddegwm, neu y ddegfed ran. Oherwydd hyny, pan y mae Duw yn anfon y prophwyd i frashau calon y bobl, i drymhau eu clustiau, a chau eu llygaid, mae yn gofyn iddo, "Pa hyd?" I'r hyn y mae Duw yn ateb, "Hyd oni anrheithier y dinasoedd heb drigianydd, a'r tai heb ddyn, a gwneuthur y wlad yn gwbl anghyfanedd, ac i'r Arglwydd bellhau dynion, a bod ymadawiad mawr yn nghanol y wlad." "Ac eto (medd yr Arglwydd), bydd ynddi ddegwm, a hi a ddychwel, ac a borir; felly yr had sanctaidd fydd ei sylwedd hi." Esay vi. 11—13.

Ni chwanegaf ymadroddion ar y mater hwn. Mi atolygaf ar Dduw na thramgwydda y byd wrth yr hyn a ddywedwyd; ond diameu genyf mai ychydig o'r llawer a osodant i mewn eu hawl i'r nefoedd a fydd yn y diwedd yn ei meddiannu.

Yn *ail*. Mi lefaraf eto yn fwy neillduol i chwi, mai ychydig a fydd gadwedig; ïe, ychydig, meddaf, o broffeswyr; canys dyna yr hyn y mae y testyn, yn benaf, yn ei olygu, ac yn ei amddiffyn. Moes, gan hyny, dy law, ddarllenydd anwyl, a rhodiwn yn mlaen yn sobr, tra byddwyf yn ymddiddan ychydig yn mhellach yn nghylch y mater pwysfawr hwn; a chymharwn y cyfan â'r Ysgrythyrau sanctaidd.

1. Fe ddywed Esay y prophwyd, "Merch Sïon a adewir megis lluesty mewn gwinllan, megis llety mewn gardd cucumerau, megis dinas warchaëedig," pen. i. 8. Y winllan yw yr eglwys Iuddewig; y lluesty yn y winllan ydoedd merch Sïon, neu y gwir dduwiolion yn yr eglwys hòno. Lluesty; nid oedd gan Dduw ond lluesty yno; dim ond preswylfod fechan yn yr eglwys; ychydig ag oedd yn wir rasol yn mhlith y lliaws mawr hyny ag oedd yn proffesu. A phe na buasai oblegid y rhai hyny, sef y lluesty yma, buasai y lleill yn cael eu dinistrio, megis Sodom, adn. 9. Gan hyny, proffeswyr a wnant rifedi mawr yn mhlith y rhai a gondemnir.

2. "Canys pe byddai dy bobl di Israel fel tywod y môr, gweddill o honynt a ddychwel;" "gweddill a achubir." Esay x. 22. Rhuf. ix. 27.

3. Dywedir yn Jeremiah: "Yn arian gwrthodedig y galwant hwynt, am wrthod o'r Arglwydd hwynt," pen. vi. 30. Y bobl, dan yr ystyriaeth yma, a elwir (adn. 27) "Fy mhobl;" pobl Dduw; sef ei bobl broffesedig ef. "Mi a'th roddais di yn dŵr, ac yn gadernid yn mysg fy mhobl, i wybod ac i brofi eu ffyrdd hwy. Cyndyn o'r fath gyndynaf ydynt oll, yn rhodio ag enllib: efydd a haiarn ynt; llygru y maent hwy oll," adn. 28. Hyn, gan hyny, yr wyf yn ei gasglu oddiwrth yr Ysgrythyrau yma, y dichon pobl, o ran eu perthynas i broffes a llywodraeth eglwysig, gael eu galw yn bobl Dduw; ond mewn perthynas i'r canlyniad a'r diben a fydd i Dduw wneuthur o rai o honynt, gellir mewn gwirionedd eu galw yn genhedlaeth ei ddigofaint.

4. Yn y bummed bennod o Esay yr ydych yn darllen drachefn am winllan Duw, yr hon a blanesid mewn bryn tra ffrwythlon, ac o'r winwydden oreu; a thŵr wedi



"I have need to be baptized of thee." p719.

J. MAYSON — J. MOORE

Christ coming to John to be baptized.

Crist yn dyfod at Ioan i gael ei [illegible]

ei adeiladu yn ei chanol, a gwinwryf ynddi; a phob peth arall wedi ei wneuthur iddi a allai ei gosod mewn trefn a llywodraeth dda: "Ac efe a ddisgwyliodd iddi ddwyn grawnwin, hithau ddug rawn gwylltion;" oherwydd paham, y mae efe yn tynu ei glawdd oddiwrthi, ac yn ei gadael yn sathrfa. Darllenwch eglurhad Crist ar y ddameg hon. (Mat. xxii. 2—11.) Edrychwch ati, broffeswyr, a chofiwch eiriau y testyn: "Canys llawer, meddaf i chwi, a geisiant fyned i mewn, ac nis gallant."

5. "Ha fab dyn (ebe yr Arglwydd wrth Ezeciel), tŷ Israel a aeth genyf yn anmhuredd; pres, ac alcam, a haiarn, a phlwm, ydynt oll yn nghanol y pair; anmhuredd arian ydynt," pen. xxii. 18. Yr oedd gan Dduw arian yno, peth arian; ond nid ydoedd ond ychydig; y rhan fwyaf o'r bobl hyny oeddynt anmhuredd yr eglwys, er eu bod yn aelodau o honi. Ond beth y mae yn ei feddwl wrth anmhuredd? sef nad oedd yn edrych yn well arnynt, er bod yn aelodau eglwysig, na chyffredin bobl y byd; hyny yw, o ran eu diwedd. Canys ein galw yn sothach, neu anmhuredd, yw ein cyfrif yn mysg eraill o bechaduriaid y ddaear, er trigo o honom yn bresenol yn ei dŷ. "Bwriaist heibio holl anuwiolion y tir fel sothach: am hyny yr hoffaais dy dystiolaethau." Salm cxix. 119.

6. Dywed yr Arglwydd am y rhai cadwedig, iddo eu dewis "mewn pair cystudd." Esay xlviii. 10. Pan y mae y purwr yn rhoddi ei arian yn y pair, fe ddyry blwm hefyd i mewn yn gymysg ag ef, yr hwn sydd yn gweithio i fyny yr anmhuredd oddiwrth yr arian, ac y mae yn ei daflu o'r naill du. Fel hyn y mae yr Arglwydd yn ymddwyn tuag at ei eglwys. Y mae arian ynddi; oes anmhuredd hefyd. Yn awr yr anmhuredd hwn yw rhagrithwyr, a dynion diadgenhedledig yn yr eglwys; y rhai, yn y diwedd, a ddatguddir, ac a fwrir ymaith fel anmhuredd. Felly y profa hyn yn wirionedd diamheuol, sef mai ychydig, ïe, o broffeswyr, o'r rhai a osodant i mewn eu hawl i'r nefoedd, fydd yn y diwedd yn ei meddiannu.

7. Dywedir am Grist, ei fod â'i "wyntyll yn ei law, ac efe a lwyr-lanhâ ei lawr-dyrnu, ac efe a gasgl ei wenith i'w ysgubor; eithr yr us a lysg efe â thân anniffoddadwy." Mat. iii. 12.

(1.) Y llawr-dyrnu yw eglwys Dduw. "O! fy nyrnaid, a chnwd fy llawr-dyrnu!" meddai Duw trwy y prophwyd Esay wrth ei bobl." Esay xxi. 10.

(2.) Y gwenith yw y rhai grasol yn ei eglwys, ac a gedwir yn ddiau; am hyny y dywedir, "Cesglwch y gwenith i'm hysgubor." Mat. xiii. 30. Y mae yr us, neu y peiswyn, yn tyfu ar yr un gorsen a'r grawn, a'r naill yn weledig fel y llall, ond nid o'r un sylwedd; oherwydd paham, mewn amser, fe'u neillduir oddiwrth eu gilydd. Y gwenith, sef credinwyr, a gesglir i'r ysgubor, neu y nefoedd; a'r us, sef proffeswyr diffrwyth a rhagrithiol, a fwrir i lawr i uffern, i'w llosgi â thân anniffoddadwy; am hyny edryched proffeswyr atynt eu hunain.

(3.) Y mae Crist yn rhoddi drygair i ddau neu dri math o diroedd a dderbyniodd yr had. Y creigle a'i derbyniodd yn llawen, a'r tir dreiniog a ddygodd ffrwyth *agos* i berffeithrwydd. (Luc viii. 10—14.) Y rhai ar fin y ffordd a ddengys nad yw y rhai anianol, cyhyd ag y maent yn aros yn hollol felly, yn derbyn y gair ddim oll. Ond dyma y lle mae y cyfyngdra; fod *dau* o'r *tri* a'i derbyniasant yn fyr o ddwyn ffrwyth, ac, yn ganlynol, yn myned yn ol am y nefoedd; canys un o'r tri yn unig a'i derbyniodd felly, fel y dygodd ffrwyth i berffeithrwydd: am hyny, edrychwch atoch eich hunain, broffeswyr!

8. Dameg y gwas anfuddiol, a'r dyn heb y wisg briodas, yn nghyd â dameg yr halen diflas, ydynt bob un yn cadarnhau y gwirionedd hwn. Yr un hyny am y gwas anfuddiol sydd yn dangos syrthni a diogi ysprydol y rhan fwyaf o broffeswyr; yr un arall am y dyn heb y wisg briodas, fel y mae Duw yn datguddio drygioni cywilyddus rhai proffeswyr yn mhlith plant y priodfab; a'r ddameg hòno am yr halen diflas a ddengys, mai megis nad yw yr halen wedi colli ei flas yn dda i ddim "ond i'w fwrw allan a'i sathru gan ddynion;" felly mae rhai proffeswyr, ïe, rai mawrion hefyd (canys y ddameg hon a gyrhaeddodd un o'r disgyblion), ni chyfrifir yn y dydd olaf yn dda i ddim, ond i'w sathru fel tom yr heolydd. O! broffeswyr diffrwyth, swrth, a diofal! pa fodd y'ch gwrthodir gan Grist, ac y'ch diarddelir ganddo yn ei ddyfodiad! Am hyny, edrychwch ati, broffeswyr!

9. Y mae dameg yr efrau hefyd yn tystio y gwirionedd hwn: canys er y dywedir "mai y maes yw y byd;" eto mae yn amlwg ddarfod hau yr efrau yn yr eglwys. "A thra yr oedd y dynion yn cysgu, daeth ei elyn ef ac a hauodd efrau yn mhlith y gwenith, ac a aeth ymaith." Mat. xiii. 25.

*Gwrth.* Ond dichon rhai wrthddadleu y gellid hau yr efrau yn mhlith y gwenith yn y byd, heb yr eglwys.

*At.* Ond y mae Crist, wedi egluro o hono y ddameg hon, yn dywedyd ddarfod hau yr had yn ei deyrnas ef, yr efrau, hyny yw, plant y diafol. "Megis gan hyny y cynullir yr efrau, ac a'u llwyr-losgir yn tân; felly y bydd yn niwedd y byd hwn. Mab y dyn a ddenfyn ei angylion, a hwy a gynullant allan o'i deyrnas ef yr holl dramgwyddiadau, a'r rhai a wnant anwiredd; ac a'u bwriant hwy i'r ffwrn dân: yno y bydd wylofain a rhincian dannedd." Mat. xiii. 40—42.

10. Dameg y deg morwyn hefyd sydd yn cytuno â'r pwnc presenol. Y rhai hyn a elwir teyrnas nefoedd, sef eglwys weledig Crist ar y ddaear. Canys y rhai hyny oedd â lampau ganddynt a aethant allan o'r byd, i gyfarfod â'r priod-fab; eto gwelwch y fath ddadymchweliad a gafodd pump o honynt, wedi myned at borth y nefoedd: hwy a gauwyd allan, a gorchymynwyd iddynt fyned ymaith, a Christ a ddywedodd, nad adwaenai ddim o honynt hwy. (Mat. xxv. 1—11.) Arswydwch wrth hyn, broffeswyr, a gweddiwch.

11. Dameg y rhwyd a fwriwyd yn y môr sydd yn mynegu y gwirionedd yma yn mhellach. Swm y ddameg hòno yw dangos y dichon eneidiau gael eu casglu trwy yr efengyl, a gymharir yno i rwyd, eu cadw ynddi, a'u tynu i'r làn (yn niwedd y byd) gan y rhwyd hòno, ac eto iddynt dyfu yn bysgod anghymeradwy, a'u bwrw ymaith. Y ddameg sydd yn rhedeg fel hyn: "Cyffelyb yw teyrnas nefoedd i rwyd a fwriwyd yn y môr, ac a gasglodd o bob rhyw beth; yr hon wedi ei llenwi, a ddygasant i'r làn, ac a eisteddasant, ac a gasglasant y rhai da mewn llestri, ac a fwriasant allan y rhai drwg. (Mat. xiii. 47, 48.) Rhai pysgod *drwg*, ïe, llawer hefyd, nid wyf yn ameu, a geir yn rhwyd yr efengyl yn nydd y farn. Gwiliwch, a byddwch sobr, broffeswyr!

12. "Ac yr wyf yn dywedyd i chwi, y daw llawer o'r dwyrain a'r gorllewin, ac a eisteddant gydag Abraham, ac Isaac, a Jacob, yn nheyrnas nefoedd. Ond plant y deyrnas a deflir i'r tywyllwch eithaf." Mat. viii. 11, 12. Plant y deyrnas, pa rai y dywedir am eu breintiau yn y modd yma: "Eiddo y rhai yw y mabwysiad, a'r gogoniant, a'r cyfamodau, a dodiad y ddeddf, a'r gwasanaeth, a'r addewidion." Rhuf. ix. 4. Yr wyf yn cymeryd rhyddid i lefaru yn helaethach am yr eglwys Iuddewig, oherwydd fod yr hyn a ddigwyddodd iddynt hwy wedi digwydd er siampl i ninau; gan roddi sail i feddwl y bydd i bethau o natur mor ofnadwy ddigwydd yn mysg eglwysi y cenhedloedd. (1 Cor. x. 11, 12.) Ac nid oes sicrwydd ychwaith gan yr eglwysi cenhedlig oddiwrth Dduw y digwydd pethau mor arswydus iddynt hwy. Mewn perthynas i hyn hefyd y rhoddwyd i ni helaethrwydd o rybuddion. (1 Cor. vi. 9, 10. Gal. v. 19, 20. Eph. v. 3—6. Phil. iii. 17—19. 2 Thes. ii. 11, 12. 2 Tim. ii. 20, 21, &c.)

13. Dameg y wir winwydden a'i changhenau sydd yn cadarnhau yr hyn a ddywedwyd. (Ioan xv. 1—5.) Wrth y winwydden, yn y lle yma, yr wyf yn deall Crist; wrth y canghenau, ei eglwys, neu yr amrywiol aelodau o honi. Rhai o'r canghenau hyn a brofasant yn ddiffrwyth, a thorwyd hwynt ymaith; ac a dorwyd mewn amser o'r eglwys, ac a deflir yn tân o'r diwedd i'w llwyr-losgi.

14. Yn ddiweddaf, deuwn at siamplau neillduol eraill.

(1.) Y deuddeg disgybl oedd ag un yn gythraul yn eu plith. (Ioan vi. 70.)

(2.) Ananïas a Sapphira oeddynt yn eglwys Jerusalem. (Act. v. 1—11.)

(3.) Simon Magus ydoedd yn eu plith hwy o Samaria. (Act. viii. 13.)

(4.) Yn eglwys Corinth yr oedd rhai heb ganddynt wybodaeth o Dduw. (1 Cor. xv. 34.)

(5.) Y mae St. Paul yn dywedyd wrth y Galatiaid, fod gau-frodyr wedi ymlusgo i mewn yn ddiarwybod yn eu plith (pen. ii. 4); ac felly y dywed yr apostol Judas (adn. 4); ac yn ddiau yr oeddynt mor gyflym a chraff eu llygaid y pryd hyny a neb yn ein dyddiau ni.

(6.) Nid oedd gan eglwys Sardis ond ychydig enwau, i ba rai y perthynai teyrnas nefoedd: "Eithr y mae genyf ychydig enwau, ïe, yn Sardis, y rhai ni halogasant eu dillad; a hwy a rodiant gyda mi mewn dillad gwynion, oblegid teilwng ydynt." Dat. iii. 4.

(7.) Am eglwys y Laodiceaid, gelwir hi yn druan, yn resynol, yn dlawd, yn ddall, ac yn noeth. (Dat. iii. 17.) Felly, ar ol dodi y cyfan fel hyn yn nghyd, gallaf ddywedyd yn hyf, megis y rhagddywedais eisoes, y bydd proffeswyr yn gwneuthur rhifedi mawr yn mhlith lliaws y rhai a ddemnir: neu, i lefaru yn ol geiriau yr ymadrodd yn y Cymhwysiad, Mai ychydig o lawer a osodant i mewn eu hawl i'r nefoedd, a fydd yn y diwedd yn ei meddiannu.

Deuaf yn awr i ddangos rhai rhesymau o'r pwnc hwn, heblaw y rhai hyny a grybwyllwyd eisoes.

1. Mi ddangosaf i chwi y modd y mae y byd anianol, tywyll, ac anneallus, yn dyfod yn fyr o'r nefoedd; ac yna, pa fodd y mae y proffeswyr a oleuwyd yn dyfod yn fyr o honi hefyd.

(1.) Y mae y byd anianol, tywyll, yn methu cael y nefoedd, oherwydd eu hundeb â, a'u cariad tuag at eu pechodau, y rhai nis gallant eu gadael. Y mae dynion yn caru y tywyllwch yn fwy na'r goleuni, oherwydd fod eu gweithredoedd hwy yn ddrwg. Y mae y byd tywyll, anwybodus, yn methu y nefoedd, oherwydd eu bod yn elynion mewn meddwl i Dduw, ei air, a'i sancteiddrwydd. Rhaid i'r rhai hyny oll gael eu condemnio ag sydd yn "ymfoddloni mewn anghyfiawnder." 2 Thes. ii. 12. Y byd truan, anwybodus, sydd yn methu y nefoedd, trwy attal eu clustiau a'u calonau rhag eu hargyhoeddi trwy y gair, a phallu ateb pan y mae Duw yn galw. "Yn gymaint ag i mi eich gwahodd, ac i chwithau wrthod; i mi estyn fy llaw, a neb heb ystyried; ond diystyrasoch fy holl gyngor i, ac ni fynech ddim o'm cerydd: minau hefyd a chwarddaf yn eich dialedd chwi; mi a wawdiaf pan syrthio arnoch yr hyn yr ydych yn ei ofni megis distryw, ac y del eich dialedd arnoch megis corwynt; a dyfod arnoch wasgfa a chaledi: yna y galwant arnaf, ond ni wrandawaf; yn foreu y'm ceisiant, ond ni'm cânt." Diar. i. 24—28.

(2.) Y byd tywyll, anwybodus, ydynt yn methu y nefoedd, oherwydd fod Duw y byd hwn wedi dallu eu llygaid hwynt, fel nas gwelant y cyflwr erchyll a damniol y maent ynddo yn bresenol, na'r ffordd i ddyfod allan o hono; nac ychwaith yn canfod yr hawddgarwch sydd yn Iesu Grist, a'r ewyllysgarwch sydd ynddo i achub pechaduriaid truain. (2 Cor. iv. 2, 3.)

(3.) Y mae y byd tywyll, anwybodus, yn methu y nefoedd, oherwydd eu bod yn dodi heibio, ac yn oedi dyfod at Iesu Grist, hyd oni bo amser amynedd a gras Duw wedi myned drosodd. Rhai, yn wir, ydynt eisoes wedi addunedu na ddeuant hwy ddim byth. Ond eraill, drachefn, a ddywedant y deuant hwy ryw bryd, ond

nid yn bresenol. Ac felly y mae yn digwydd iddynt yn ol geiriau yr Arglwydd trwy y prophwyd, "Megis y galwodd efe, ac na wrandawent hwy; felly y galwasant hwy, ac nis gwrandawn inau, medd Arglwydd y lluoedd." (Zec. vii. 13.)

(4.) Y mae y byd truan, anwybodus, yn methu y nefoedd oherwydd y camamgyffred sydd ganddo o drugaredd Duw. "A bod, pan glywo efe eiriau'r felldith hon, ymfendithio o hono yn ei galon ei hun, gan ddywedyd, Heddwch fydd i mi, er i mi rodio yn nghyndynrwydd fy nghalon, i chwanegu meddwdod at syched." Ond beth yw yr ateb? "Ni fyn yr Arglwydd faddeu iddo; canys yna y myga digllonedd yr Arglwydd a'i eiddigedd yn erbyn y gwr hwnw, a'r holl felldithion sydd ysgrifenedig yn y llyfr hwn a orwedd arno ef, a'r Arglwydd a ddilea ei enw ef odditan y nefoedd." Deut. xxix. 19, 20.

(5) Y mae y byd truan, anwybodus, yn methu y nefoedd, trwy wneuthur yn ysgafn o'r efengyl, ag sydd yn cynyg maddeuant a thrugaredd rad i'r sawl bynag a'u derbynio; ac oherwydd eu bod yn ymorphwys ar eu hunan-dybiadau, eu meddyliau, a'u gweithredoedd. (Mat. xxii. 1—5. Rhuf. ix. 30, 31.)

(6.) Y mae y byd truan, anwybodus, yn methu y nefoedd, trwy rym yr anghrediniaeth a'r didduwiaeth sydd yn llywodraethu ynddynt. Trwy hyn y cedwir hwynt rhag eu gwisgo â chyfiawnder, a'u golchi yn ngwaed Crist, heb yr hyn nid oes maddeuant am bechod, na derbyniad i heddwch a ffafr Duw. Ond mi âf heibio i hynyma yn bresenol.

2. Yr wyf i ddangos i chwi, pa fodd y mae llawer o broffeswyr hefyd yn dyfod yn fyr o'r nefoedd.

1. Yn gyffredinol. Maent yn gorphwys mewn pethau islaw neillduol ras; megis mewn teimladau a thymherau natur, gau-ffydd neu hyder, heb wirionedd ynddynt. Ac i ddangos yn eglurach y modd i wahaniaethu rhwng y pethau hyn, gwelwch,

(1.) Megis y mae gan y rhai a gedwir argyhoeddiadau yn nghylch eu cyflwr; felly y mae gan y rhai a ddemnir yr un modd. Y rhai nid ânt fyth i'r nefoedd a allant weled llawer o ddrwg mewn pechod, ac o ddigofaint Duw yn ddyledus iddo. Hyn a gafodd Cain a Judas, ac eto a ddaethant yn fyr o deyrnas nefoedd. (Gen. iv. Mat. xxvii. 4.) Y rhai cadwedig a argyhoeddir i fywyd tragwyddol; ond nid felly eraill a'r na arfaethwyd i iechydwriaeth. Y mae argyhoeddiadau y lleill yn eu gyru at y gyfraith, ac oddiyno i anobaith yn y diwedd.

(2.) Mae edifeirwch heb fod o natur gadwedigol, yn gystal ag edifeirwch ag sydd felly. (2 Cor. vii. 10.) Ië, cymaint o debygolrwydd a welir weithiau rhyngddynt, ag y cymerir y naill ar amserau yn lle y llall; a thrwy y camgymeriad yma, y mae proffeswyr lawer yn golledig. Megis, yn

(1.) Mewn edifeirwch cadwedigol fe fydd cyffes o bechod; felly y geill fod yn y rhai sydd ganddynt rith edifeirwch. (Mat. xxiv. 4.)

(2.) Mewn edifeirwch cadwedigol mae llefain ac wylofain trist oblegid pechod; felly, mewn graddau, y mae yn yr edifeirwch arall hefyd. (Gen. iv. 13.)

(3.) Mewn edifeirwch cadwedigol y mae ymostyngiad am bechod; dichon eraill ymostwng hefyd oblegid eu camweddau. (1 Bren. xxi. 29.)

(4.) Edifeirwch cadwedigol a ddug hunan-ffieiddiad i'r galon gydag ef; a'r hwn sydd â chanddo rith edifeirwch, a ddichon gasâu ei hun oblegid ei bechod yn gyffelyb. (2 Pedr ii. 22.) Casineb at bechod ni ddichon fod ganddo, oherwydd ei fod yn bechod; ond ei gasâu oherwydd ei fod yn ei anfoddloni, hyny a ddichon ei wneuthur. Nid yw y ci yn casâu yr hyn ag sydd yn flinder i'w gylla oherwydd ei fod yno, ond oblegid ei fod yn ei flino ef. Pan ddarfyddo iddo ei drallodi, efe a'i chwyda allan; efe a dry ato, gan ei lepian i fyny drachefn, megis y darfu y waith gyntaf.

(5.) Y mae gweddiau a dagrau yn canlyn gwir edifeirwch; a'r hwn sydd heb ddim ond edifeirwch arall ganddo, a ddichon weddio a thywallt dagrau hefyd. (Gen. xxvii. 34, 35. Heb. xii. 14—16.)

(6.) Mewn edifeirwch cadwedigol y mae ofn a pharchedigaeth i air Duw, ac i'r gweinidogion sydd yn ei bregethu ef: ond dichon fod hyn hefyd lle nad oes edifeirwch i fywyd: "Canys Herod oedd yn ofni Ioan, gan wybod ei fod yn wr cyfiawn." (Marc vi. 20.)

(7.) Edifeirwch cadwedigol a wna galon neu gydwybod dyn yn dra thyner, rhag gwneuthur dim yn erbyn gair Duw: ond medrai Balaam hefyd ddywedyd, "Pe rhoddai Balac i mi arian ac aur lonaid ei dŷ, ni allwn droseddu gair yr Arglwydd i wneuthur da neu ddrwg." Num. xxiv. 13.

Gwelwch, gan hyny, pa mor belled y dichon un fyned mewn edifeirwch; ac eto bod yn fyr o'r edifeirwch, na byddo edifeirwch o hono. 1. Dichon fod wedi ei ddihuno o gwsg pechod. 2. Dichon gyfaddef ei bechod. 4. Dichon ymostwng o'i blegid. 5. Dichon ei ffieiddio. 6. Dichon weddio yn ei erbyn, a thywallt dagrau. 7. Dichon fod yn ewyllysgar i wneuthur llawer o bethau dros Dduw. 8. Dichon iddo ofni pechu yn ei erbyn, ac wedi y cyfan bod yn golledig, o ddiffyg ei feddiannu ag edifeirwch cadwedigol.

2. A oes ffydd gan y rhai a fydd gadwedig? Dichon fod ffydd hefyd gan y rhai a gyfrgollir: ïe, ffydd, mewn llawer o bethau, tebyg i ffydd achubol, fel y mae yn anhawdd eu gwahaniaethu oddiwrth eu gilydd, er eu bod yn amrywio wreiddyn a changen. Ond i ddyfod at bethau neillduol.

(1.) Ffydd gadwedigol sydd â Christ yn wrthddrych iddi; felly y dichon fod gan yr un nad yw gadwedig. Dywedodd Crist wrth yr Iuddewon hyny am ba rai y sonir iddynt gredu ynddo, "O'ch tad diafol yr ydych," a hyny ar ol eu crediniaeth ynddo. (Ioan viii. 30—44.)

(2.) Ffydd gadwedigol a weithredir yn yr enaid trwy air Duw; ac felly yn gyffelyb i'r hon nid yw gadwedig. (Luc iii. 13.)

(3.) Ffydd gadwedigol sydd yn edrych am gyfiawnhad heb weithredoedd; felly y dichon y ffydd nad yw gadwedig. (Iago ii. 18.)

(4.) Y mae ffydd gadwedigol yn sancteiddio ac yn puro y galon; a'r ffydd nad yw gadwedig a ddichon weithio dyn allan o halogedigaeth y byd, megis y gwnaeth Judas, Demas, ac amrywiol eraill. (Gwel 2 Pedr ii.)

(5.) Ffydd gadwedigol a ddug flaen-brofiad i ddyn o ddaionus bethau y byd a ddaw; a gorfoledd hefyd trwy y profiad hwnw; ac felly hefyd y gwna y ffydd nad yw gadwedig. (Heb. vi. 4, 5. Luc viii. 13.)

(6.) Ffydd gadwedigol a nertha ddyn, os gelwir ef i hyny, i roddi ei gorph i'w losgi dros ei grefydd; ac felly gwna y ffydd a'r nad yw gadwedig. (1 Cor. xiii. 1—4.)

(7.) Ffydd gadwedigol a bâr i ddyn edrych am etifeddiaeth mewn byd arall; ac felly, mewn rhan, y gwna yr hon nad yw gadwedig.

(8.) Ffydd gadwedigol a wnaiff i ddyn nid yn unig i ddisgwyl am, ond ymbarotoi i gyfarfod â'r priodfab; ac felly y dichon y ffydd a'r nad yw gadwedig wneuthur. "Yna y cyfododd yr holl forwynion hyny, ac a drwsiasant eu lampau." Mat. xxv. 7.

(9.) Ffydd gadwedigol a wna i ddyn ddisgwyl meddiannu teyrnas nefoedd gyda hyder; a'r ffydd nid yw gadwedig a ddisgwyl ganiatâd i fyned i mewn i'r un deyrnas. (Mat. xxv. 11.)

(10) Ffydd gadwedigol a fydd â gweithredoedd da ganddi yn ei dilyn i'r nefoedd; a'r ffydd yr hon nid yw gadwedig a ddichon fod ganddi weithredoedd canmoladwy lawer yn ei dilyn hyd at borth y nefoedd: "Arglwydd, Arglwydd, oni phrophwydasom yn dy enw di?" &c. Mat. xxv. 22.

Yn awr, gan hyny, os yw Crist yn wrthddrych gan y ffydd nid yw gadwedig; os gweithredir hi yn y meddwl trwy y gair; os ydyw yn edrych am gyfiawnhad heb weithredoedd; yn gweithio dynion allan o halogedigaeth y byd; ac yn dwyn profiad a chysur blaenorol i ddyn o bethau y byd arall; os nerthir dyn ganddi i farw dros ei farn, ac i edrych am etifeddiaeth mewn byd arall; os pâr i ddynion ymbarotoi, a hòni hawl i'r nefoedd; ac os dug gyda hi liaws o weithredoedd canmoladwy hyd at borth y nefoedd; nid rhyfedd, ynte, fod cynifer o ddynion yn cymeryd y ffydd hon yn lle ffydd gadwedigol; a thrwy hyny dyfod yn fyr o'r nefoedd a bywyd tragwyddol.

3. Y rhai a ânt i mewn i'r nefoedd ydynt i gyd yn weddiwyr; ond dichon dyn weddio llawer heb fod yn gadwedig. Gweddio! geill weddio a gweddio drachefn yn feunyddiol. Geill ymarfer dyledswyddau ac ordinhadau, a chael rhyw bleser wrth nesâu at Dduw. Nage; yn mhellach, dichon amgylchynu allor Duw â dagrau ac ag wylofain. (Esay xxviii. 2.)

4. A ydyw pobl Dduw yn difrifol ymarfer ympryd? Dichon y rhai nad ynt bobl iddo ef ymprydio hefyd; ymprydio yn fynych, ïe, ddwywaith yn yr wythnos. (Luc xviii. 12.) Gallwn ymhelaethu ar y pethau hyn, ond ni fwriedais fy llyfr ond bychan. Ni amheuaf yr ymddengys Balaamiaid lawer o flaen y frawdle yn nydd y farn, i'w dinystr a'u gwarth tragwyddol. Dynion o gawsant amlygiadau eglur o Dduw, ac a wybuant wybodaeth y Goruchaf; y rhai y daeth Yspryd Duw arnynt (Num. xxiv. 2, 4, 16); y rhai, trwy hyny, a wnaethpwyd yn ddynion eraill (Sam. x. 6, 10); eto, y rhai hyn a ânt at genhedlaeth eu tadau, ac ni welant oleuni byth. (Salm xlix. 19.)

Yr ydwyf yn darllen am rai dynion, a'u godidowgrwydd mewn crefydd yn dyrchafu hyd y nefoedd, a'u pen yn cyrhaeddyd hyd y cymylau; y rhai, eto, a gollir yn dragwyddol; "y rhai a'i gwelsant a ddywedant, Pa le y mae efe?" Job xx. 6, 7. Bydd llawer un ag oedd yn broffeswr godidog yn y byd hwn, yn eisieu yn mysg y rhai cadwedig yn nyfodiad Crist i'r farn; ïe, llawer na freuddwydiwyd erioed am eu dinystr. Pa un o'r deuddeg a feddyliodd un amser y profai Judas yn gythraul? Nage, pan grybwyllodd Crist fod un yn ddrwg yn eu plith hwynt, yr oedd pob un yn barod i ameu am dano ei hun, yn hytrach nag efe. (Mat. xxvi. 21—23.) Pwy oedd yn cwestiyno iechydwriaeth y morwynion ffol? Y rhai call ni ddrwg-dybient eu cyflwr; hwy a ganiataent iddynt fod yn gyfranog o'r un breintiau. Adnabyddiaeth calonau, a phrofiad anffaeledig o wirionedd grasusau a chyflyrau dynion, a gedwir yn nghudd yn bresenol, hyd oni ddêl Crist ar gymylau y nef. Y mae yr eglwys a'r goreu o'r seintiau yn rhy analluog i ddirnad y pethau hyn yn eu stâd bresenol. A'r achos o hyny ydyw: 1. Am nas gellir bob amser wahaniaethu rhwng gras gwirioneddol a gras ymddangosiadol yn unig; 2. Oherwydd bod ganddynt y gelfyddyd o roi enwau da ar bethau cyfeiliornus. 3. Ac, mewn rhan, oherwydd y gorchymynir i dderbyn "yr hwn sydd wan," yr ydym yn ofni cau allan y Cristion gwanaf. "Myfi yr Arglwydd sydd yn chwilio y galon, yn profi yr arenau." Jer. xvii. 10. Drachefn: "A'r holl eglwysi a gânt wybod mai myfi yw yr hwn sydd yn chwilio yr arenau a'r calonau: ac mi a roddaf i bob un o honoch yn ol eich gweithredoedd." Dat. ii. 23. I'r chwiliwr calonau hwn y mae amser o brofiad anffaeledig yn cael ei gadw; ac yno y cewch weled pa mor belled yr aeth gras a'r nad yw yn gadwedig mewn crefydd; ac hefyd, pa mor lleied a gedwir yn y diwedd i fywyd tragwyddol.

### DEFNYDD.

Yr wyf yn awr i dynu rhai defnyddiau oddiwrth yr hyn oll a ddywedwyd. Ac,

1. Mi lefaraf ychydig wrth y pechadur halogedig a chyhoeddus. Enaid truan! yr wyt yn darllen yma mai ychydig a fydd yn gadwedig; ac y bydd llawer a ddis-

gwyliant fyned i mewn i'r nefoedd yn cael eu cau allan o honi. Beth a ddywedi di wrth y pethau hyn, bechadur truan? Cofia hyn drachefn a thrachefn, mai ychydig, ïe, ychydig iawn a fydd gadwedig. Ychydig broffeswyr, ïe, proffeswyr enwog hefyd. Ystyria hyn, bechadur. Os dechry y farn o dŷ Dduw, "beth fydd diwedd y rhai nid ydynt yn credu i efengyl Duw?" Dyma gwestiwn Pedr yr apostol; a fedri di ei ateb, bechadur? Ië, meddaf drachefn, os rhaid bod i'r farn ddechreu arnynt hwy ag sydd yn proffesu duwioldeb, a bâr hyn ddim i ti ystyried, Beth a ddaw o honwyf fi? A elli di feddwl, pan welych ser y nefoedd, sef proffeswyr disglair, yn syrthio i lawr i uffern, y bydd i anghenfil ffiaidd fel tydi gael ei dderbyn i mewn yno? Y mae Pedr yn gofyn cwestiwn arall: "Ac os braidd y mae y cyfiawn yn gadwedig, pa le yr ymddengys yr annuwiol a'r pechadur?" 1 Pedr iv. 18. A atebi di y cwestiwn hwn, bechadur? Sefyll yn mysg y rhai cyfiawn nis gelli yn y dydd hwnw. "Yr annuwiolion ni safant yn y farn, na phechaduriaid yn nghynulleidfa y rhai cyfiawn." Salm i. 5. Sefyll gyda'r annuwiol o flaen Duw ni feiddi; pa le, gan hyny, yr ymddangosi di, bechadur? Sefyll yn mhlith rhagrithwyr ni thycia ddim i ti. "Ni ddaw rhagrithiwr yn ei ŵydd ef;" hyny yw, mewn ffordd o gymeradwyaeth. Job xiii. 16. Gan fod hyn yn perthynu yn agos i'th dragwyddol iechydwriaeth, gad i mi ei adgoffa i ti unwaith drachefn. Pan welech bechaduriaid llai na thi yn cael eu rhwymo i fyny yn ysgubau i'w llwyr-losgi, pa le yr ymddangosi dithau, bechadur? Gelli ewyllysio dy hunan yn ddyn arall y pryd hyny, a galaru am na buasit yn dychwelyd at Dduw yn y byd. Ond ni rydd hyny yno i ti ddim ymwared. A phe newidid dy hun, megis gwraig Jeroboam, fe'th adwaenid gan y prophwyd, yr Arglwydd Iesu, yn fuan. Beth a wnei, gan hyny, bechadur truan, bechadur halogedig? O! gyflwr arswydus i fod ynddo y dydd olaf, bechadur! Pawb ag sydd â synwyr cyffredin ganddo a ŵyr fod y pechadur cyhoeddus, rhyfygus, ar ganol cefn-ffordd uffern, a'i wyneb yn gymwys tua distryw a thragwyddol golledigaeth; ac er hyny, y mae yn myned yn mlaen yn llawen ac yn heini ar hyd ei ffordd tuag at ei ddihenyddle.

Mi lefaraf ychydig wrth bechaduriaid neillduol ar y mater yma.

(1.) Bechadur aflan, y mae tŷ y butain "yn gwyro at angau, a'i llwybrau at y meirw:" "Ei thraed hi a ddisgynant i angau; a'i cherddediad a sang uffern." Diar.

(2.) Bechadur tyngedig a chelwyddog, mae yr Ysgrythyr yn dywedyd, "Na thwng ddim." Mat. v. 5. A thrachefn: "Na thyngwch nac i'r nef, nac i'r ddaear, nac un llw arall." Iago v. 12. A'r "Arglwydd a ddifetha y rhai a ddywedant gelwydd." Salm. v. 6. Ystyria hyn, bechadur.

(3.) Bechadur meddw, beth a ddywedaf wrthyt ti? "Gwae meddwon Ephraim." Esay xxviii. 1. "Gwae y rhai a gyfodant yn foreu i ddilyn diod gadarn." Esay v. 11. Ni chaiff y cyfryw etifeddu teyrnas Dduw. (1 Cor. vi. 9.)

(4.) Bechadur bydol a chybyddlyd, fe ddywed gair Duw am y cybydd, fod "yr Arglwydd yn ei ffieiddio." Salm x. 3. Ac "O char neb y byd, nid yw cariad y Tad ynddo ef." 1 Ioan ii. 15.

Ni fydd i mi ymhelaethu ychwaneg, bechadur. "Na thwylled neb di â geiriau; canys oblegid y pethau hyn y mae digofaint Duw yn dyfod ar blant yr anufudddod." Eph. v. 6. Rhoddaf un galwad byr yn mhellach arnat, ac yna y'th adawaf.

Bechadur, dihuna! ïe, meddaf wrthyt drachefn, dihuna! Y mae pechod yn gorwedd wrth dy ddrws, a bwyell Duw yn barod i'w gosod ar dy wreiddyn, a thân uffern yn gymwys odditanat: Yr wyf yn dywedyd drachefn wrthyt, dihuna! "Pob pren yr hwn nid yw yn dwyn ffrwyth da, a dorir i lawr, ac a deflir yn tân." Mat. iii. 10.

Deffro, bechadur truan! y mae tragwyddoldeb yn dyfod, ac Iesu Grist a ddaw ar fyrder i farnu y byd. Deffro, yr hwn wyt eto yn cysgu. O! bechadur! gad i mi unwaith eto osod yr udgorn wrth dy glust. "Y nefoedd," ar fyrder, "a ânt heibio gyda thwrf, a'r defnyddiau gan wir wres a doddant, a'r ddaear a'r gwaith a fyddo ynddi a losgir." 2 Pedr iii. 10. A glywi di hyn, bechadur? a wyt ti yn ei ystyried? Melysder y chwantau a'r pleserau yr wyt yn awr yn ymhyfrydu ynddynt, a ymedy y pryd hyny, a'r ffrwyth llosgadwy o honynt yn unig a erys. Beth a ddywedi erbyn hyn, bechadur? A ddichon i ti yfed ffioleidiau o'r tân hwn gyda hyfrydwch yn uffern? A fydd cwpan digofaint yr Hollalluog Dduw yn felys i ti? Dyma fydd dy gyfran yn sicr, os byw a marw yn dy gyflwr presenol a wnei di, bechadur!

Gosodaf gwestiwn neu ddau yn mhellach allan o air Duw ger dy fron, ac yna mi'th adawaf yn bresenol. "A bery dy galon, a gryfha dy ddwylaw yn y dyddiau y bydd i mi a wnelwyf â thi? myfi yr Arglwydd a'i lleferais." Ezec. xxii. 14. Beth meddi di am hyn, bechadur? a atebi di yn awr i'r cwestiwn yma? neu a gymeri di amser i ateb iddo rhagllaw? Neu a barhai di yn hollol anystyriol yn ei gylch, gan redeg yr antur am y cyfan? Eto, gad i mi adael yr Ysgrythyr yma yn ychwaneg yn dy glust, i'w chadw yn agored, a'r Arglwydd a gymero drugaredd arnat: "Ar yr annuwiolion y gwlawia efe faglau, tân a brwmstan, a phoethwynt ystormus: dyma ran eu phiol hwynt." Salm xi. 6.

2. Fy ail ymadrodd a gaiff fod at y rhai sydd megis ar yr olwyn dàn argyhoeddiadau, y rhai ni wybyddir yn iawn i ba le y troant; a pha un a fydd i'w hargyhoeddiad ddiweddu mewn dychweliad, ai ynte ni fydd. Mi ymdrechaf i osod ger eich bron amryw anogaethau, i ddwyn yn mlaen eich argyhoeddiadau, a'ch rhybuddio i beidio ymorphwys yn un lle yn fyr, neu tu yma i gadwedigol ras.

(1.) Cofia mai ychydig a fydd gadwedig; ac os cyfrif Duw di yn deilwng i fod yn un o'r ychydig hyny, ystyria pa fraint ac anrhydedd a fydd i ti.

(2.) Bydd ddiolchgar am yr argyhoeddiadau a gefaist o'th galon. Tröedigaeth sydd yn dechreu mewn argyhoeddiad, er nad yw pob argyhoeddiad yn diweddu mewn tröedigaeth. Trugaredd neillduol yw i ni gael ein hargyhoeddi ein bod yn bechaduriaid, ac yn sefyll mewn angen o Achubwr; am hyny gwerthfawroga y drugaredd hon, a boed i'th argyhoeddiad ddibenu mewn gwir ddychweliad at Dduw. Ac fel mai felly y byddo gyda thi, cymer ofal—yn

1. Rhag i ti ddiffodd, neu wrthsefyll argyhoeddiadau. Ffordd gyffredin gyda phechaduriaid truain ydyw, cyfrif argyhoeddiadau fel peth dieithr, neu niweidiol iddynt; am hyny, rhai a ymgadwant rhag gweinidogaeth effro i lonyddu eu cydwybodau. Y fath bechaduriaid ydynt gyffelyb i fachgenyn direidus yn sefyll y naill du i forwynig, i chwythu ei chanwyll allan mor gynted ag y goleuo hi. Bechadur argyhoeddiedig! y mae Duw yn goleuo canwyll dy gydwybod, a thithau yn ei diffodd, neu yn ei dodi allan mor gynted ag y goleuer hi. Mae Duw yn ei goleuo drachefn a thrachefn, a thithau a'i diffoddi. "Pa sawl gwaith y diffydd canwyll yr annuwiolion?" Job xxi. 17. O'r diwedd, y mae Duw yn bwriadu na oleuo dy ganwyll mwy; ac yna, fel yr Aiphtiaid, chwi a aroswch dros eich holl ddyddiau mewn tywyllwch, ac ni welwch oleuni mwy ond wrth oleu tân uffern. Am hyny dyro ogoniant i Dduw; ac os un amser y dihuner dy gydwybod, na ddiffodd yr argyhoeddiadau a anfono Duw. "Rhoddwch ogoniant i'r Arglwydd eich Duw, cyn iddo ef ddwyn tywyllwch, a chyn i chwi daro eich traed wrth y mynyddoedd tywyll; a thra fyddoch yn disgwyl am oleuni, iddo ef ei droi yn dywyllwch." Jer. xiii. 16.

(1.) Bydd foddlon i'r olwg waethaf ar dy gyflwr: gwell i ti ei weled yma nag yn uffern; canys rhaid i ti un ai yma ai yno gael llawn olwg ar dy drueni.

(2.) Cymer ofal rhag pechodau bychain; hwy a wnant ffordd i rai mawrion, a hwythau i rai mwy drachefn; ar ba rai y bydd digofaint Duw i ganlyn, ac yna dy ddiwedd a fydd yn waeth na'th ddechreuad. (2 Pedr ii. 20.)

(3.) Gochel ddrwg gymdeithas a drwg ymddiddanion yr annuwiol; canys hyny a'th lygra ac a'th bellhâ oddiwrth yr Arglwydd, a dwys ddifrifol ystyriaeth yn nghylch dy gyflwr: "Felly yr ennyn llid yr Arglwydd i'ch erbyn chwi, i'ch tori ymaith oddiar y ddaear." Deut. vii. 6.

(4.) Gochel y fath feddyliau twyllodrus ag a baro i ti oedi edifeirwch, canys peth damniedig yw hyny. (Diar. i. 24. Zec. vii. 12, 13.)

(5.) Gochel gymeryd siampl oddiwrth broffeswyr marwaidd a chnawdol, ag sydd â'u crefydd yn gorphwys yn unig ar flaen eu tafod. Gochel, meddaf, y dynion sydd â'u penau yn nofio o ddychymygion, "a'u bywyd gyda'r aflan." Job xxxvi. 14 "Yr hwn a rodio gyda'r doethion a fydd doeth: ond yr hwn sydd gyfaill i ynfydion, â gystuddir." Diar. xiii. 20.

(6.) Mynych ymarfer â'r gair, a gweddi, ac ymddiddanion da.

(7.) Ymdrecha i ganfod y pechod sydd yn nglyn â'r goreu o'th gyflawniadau; a gwybydd na lesha y cyfan ddim i ti, heb undeb â Iesu Grist.

(8.) Cadw yn nghof yn wastad fod Duw â'i olwg ar dy galon, ac ar dy holl ymddygiad. "A lecha un mewn dirgel-leoedd, fel nas gwelwyf fi ef? medd yr Arglwydd: onid ydwyf fi yn llenwi y nefoedd a'r ddaear? medd yr Arglwydd." Jer. xxiii. 24.

(9.) Mynych fyfyria ar angau, a'r farn a fydd. (Preg. xi. 9; xii. 9.)

(10.) Dwys ystyria, pa fath ddiwedd dychrynllyd a fydd i bechaduriaid truain a esgeulusasant Grist a'i iechydwriaeth yn nydd gras. (Heb. x. 31.)

(11.) Gosod dy hun, mewn meddwl, yn fynych gerbron brawdle Crist; ac ystyria, pe byddit yn bresenol i sefyll o flaen dy Farnwr, pa fodd yr ymdarawit ti.

(12.) Mynych fyfyria am danynt hwy ag sydd yn awr yn uffern, a phob gobaith o ymwared oddiyno wedi eu gadael hwynt, a myned ymaith. Myfyria am danynt, meddaf, megis fel hyn:

(1.) Yr oeddynt unwaith fel finau yn y byd.

(2.) Buont gynt yn ymddifyru, megis finau, mewn pechod.

(3.) Darfu iddynt esgeuluso edifeirwch, megis y mynai Satan i minau wneuthur.

(4.) Ond yn awr maent wedi eu tori ymaith yn nghanol eu hanwireddau, a myned i uffern; a'r pydew heb waelod wedi cau ei safn arnynt.

Gelli hefyd ddyblu dy fyfyrdodau am y damnedigion fel hyn:

(1.) Pe caniateid i'r trueiniaid gresynol hyny ddyfod i'r byd drachefn, a bechent hwy yma megis o'r blaen? a esgeulusent iechydwriaeth gymaint?

(2.) Pe clywent bregethau megis myfi? Pe byddai'r Bibl, a gwaith athrawon duwiol ganddynt? pe byddai dydd gras ac amser cymeradwy yn eu meddiant, a allent ei gamdreulio a'i esgeuluso megis o'r blaen? Bechadur, pe gallit yn ddifrifol fyfyrio ar y pethau hyn, byddent (trwy fendith Duw) yn foddion i'th ddihuno, a'th gadw yn effro uwchben dy gyflwr, ac i ddwyn yn mlaen dy argyhoeddiad.

*Gwrth.* Ond chwi a ddywedasoch, mai ychydig fydd gadwedig; a bod rhai yn myned yn mhell, ïe, hyd at borth y nefoedd, heb gael derbyniad i mewn iddi: wrth hyn yr wyf yn barod i lwfrhau a digaloni, ac yn dueddol i feddwl mai callach a fyddai i mi beidio myned yn mlaen yn mhellach mewn crefydd. Mae yn wir fy mod dan argyhoeddiad, ond gallaf fod yn golledig er hyny; ac os âf yn mlaen yn fy mhechod, ni allaf ond bod yn golledig yn y diwedd. Deg, ugain, neu gant i un i mi fod yn gadwedig, wedi fy holl ymdrech a'm llafur am y nefoedd.

*At.* Mai ychydig a fydd gadwedig sydd wirionedd diamheuol, megis y dangosir yn helaeth oddiwrth eiriau Crist ei hunan. Bod llawer yn myned yn mhell yn eu ffordd i'r nefoedd, ac yn syrthio yn fyr o honi yn y diwedd, sydd mor sicr hefyd, ac

wedi ei dystio gan yr un genau. Ond beth wedi hyn? Yna byddai gystal i mi beidio gwneuthur ymofyniad mwy am dani. Pwy a fynegodd hyny i ti? A oes neb i ymofyn am iechydwriaeth, oherwydd mai ychydig a'i caiff hi? Y mae hyn yn gwrthwynebu yn hollol yr anogaeth yn y testyn, yr hwn sydd yn gorchymyn ymdrechu am fyned i mewn, oblegid mai cyfyng yw y porth; ac y cais llawer fyned i mewn, ac nis gallant. Ond paham yr wyt yn crybwyll am yr ymadrodd hwn o "fyned yn ol drachefn?" gan mai dyna y ffordd uniongyrchol tuag uffern. Na ddos yno fyth dros wrychoedd a chloddiau. Os rhaid yw myned i uffern, cerdd yno ar hyd y ffordd fwyaf gwmpasog.

Ond dichon un ddywedyd, Os ychydig a fydd gadwedig, mai annhebyg iddo ef fod yn un o'r nifer hyny. *At.* Y rhai colledig ydynt yn dyfod yn fyr o fywyd tragwyddol, oherwydd na ollyngant eu gafael ar eu pechodau, neu oherwydd eu bod yn cymeryd i fyny broffes ag sydd yn fyr o gadwedigol ffydd yr efengyl. Maent yn golledig, meddaf, oherwydd eu bod yn cymeryd i fyny, ac yn boddloni ar rasusau a'r nad ydynt o waith Yspryd Duw, nac yn alluog i sefyll mewn dydd o brofiad; pe amgen, y mae yr addewid yn rhydd ac yn anghyfnewidiol. "Yr hwn a ddêl ataf fi," medd Crist, "nis bwriaf ef allan ddim." Ioan vi. 37. "Canys felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd efe ei unig-anedig Fab, fel na choller pwy bynag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragwyddol," pen. iii. 16. Oherwydd paham, na fydded i'r meddwl yma, *ychydig fydd gadwedig*, dy ddigaloni di; ond pared i ti ddyblu dy gamrau, a chwanegu dy ddiwydrwydd, ac edrych yn graff ar dy dystiolaeth am y nefoedd. Pared i ti ffoi yn gyflymach oddiwrth bechod at Grist. Cadwed di ar ddihuno, ac yn ochelgar rhag sicrwydd cnawdol, a thrwy hyn fe ddichon i ti fod yn gadwedig.

3. Fy nhrydydd anogaeth neu ymadrodd a fydd at broffeswyr. Gyfeillion, rhoddwch genad i mi osod yr udgorn unwaith eto wrth eich clustiau. Pan ddarfyddo i bawb ddodi i mewn eu hawl, meddaf, i'r nefoedd, ychydig fydd yn y diwedd yn ei meddiannu: fy meddwl yw, ychydig broffeswyr; canys dyma brif amcan neu ddiben y testyn, a'r hyn y mae yn benaf yn ei olygu; a dyna fel y darfu i minau ei ddehongli, a'i brofi yn y rhan flaenorol o'r traethawd. "Canys llawer, meddaf i chwi, a geisiant fyned i mewn, ac nis gallant."

Gadewch i mi, gan hyny, ymresymu ychydig yn mhellach â chwi ar y mater yma, O! chwychwi, filoedd o broffeswyr!

1. Mi gaf ddechreu arnoch chwi ag sydd â'ch crefydd yn unig yn eich tafodau, ac a wahaniaethir ond ychydig oddiwrth y werin annuwiol; oddieithr y medrwch siarad ychydig yn well na hwynt-hwy. Gwrandewch air neu ddau o rybydd allan o'r Ysgrythyrau. "Pe llefarwn â thafodau dynion ac angylion, ac heb fod genyf gariad;" hyny yw, cariad i Dduw, a Christ, a'r saint, a sancteiddrwydd, "nid wyf

fi ddim;"—ddim yn blentyn i Dduw, ac felly heb ddim a fynwyf â'r nefoedd. 1 Cor. xiii. 1 2. Ni ddichon tafod cleberddus ddatgloi porth y nefoedd, na dallu llygaid dy Farnwr. Meddwl am hynyma. "Y galon ddoeth a dderbyn orchymynion; ond y ffol ei wefusau a gwymp." Diar. x. 8.

(2.) Y proffeswr daearol a chybyddlyd; yr hwn sydd yn gwneuthur elw o grefydd, a masnach o broffes Gristionogol. Yr oedd llawer o grefydd Judas yn gynwysedig yn ei gôd, ond ei enaid sydd yn awr yn uffern. Cybydd-dod sydd eilun-addoliaeth. (Col. iii. 5.) "Gwreiddyn pob drwg yw ariangarwch: yr hon, a rhai yn chwanog iddi, hwy a gyfeiliornasant oddiwrth y ffydd, ac a'u gwânasant eu hunain â llawer o ofidiau." 1 Tim. vi. 10.

(3.) Broffeswyr cnawdol ac anianol, mae genyf air i'w gyfeirio atoch: chwychwi yr wyf yn ei feddwl ag a fedr ddadleu yr Ysgrythyrau dros eich balchder, eich gwleddoedd, a'ch ffiaidd eilunaddoliaeth. Darllenwch yr hyn a ysgrifenodd Pedr yr apostol mewn perthynas i chwi: "Gan ddywedyd chwyddedig eiriau gorwagedd, y maent hwy trwy chwantau y cnawd a thrythyllwch, yn llithio y rhai a ddiangasai yn gwbl oddiwrth y rhai sydd yn byw ar gyfeiliorn." 2 Pedr ii. 18. Cofiwch, atolwg, eiriau y testyn: "Llawer a geisiant fyned i mewn, ac nis gallant."

(4.) Yr wyf yn dyfod yn nesaf at osodwyr dychymygion, a'u cynhalwyr i fyny mewn rhith-grefydd. O'r cyfryw y mae y deyrnas yma yn heidio y dyddiau hyn. Y dynion yma a dybiant bawb ond eu hunain allan o'r ffordd, a'r nad ydynt o'u ffordd hwy; pan, yr un amser, y dichon mai hwynt-hwy sydd yn cyfeiliorni yn nghanol eu dychymygion. Atolygaf iddynt sylwi ar eiriau y testyn: "Llawer, meddaf i chwi, a geisiant fyned i mewn, ac nis gallant."

(5.) Nid yw y ffurfiwr ychwaith yn rhydd oddiwrth y nifer yma. Gwr yw efe a gollodd y cyfan onid plisgyn crefydd. Mae efe yn danbaid yn wir am ei ffurf; ac nid rhyfedd, oblegid dyna y cyfan sydd ganddo ef i bwyso arno. Ond y ffurf heb rym duwioldeb a'i gâd ef yn un o'r llawer "a geisiant fyned i mewn, ac nis gallant."

(6.) Y proffeswr deddfol sydd yn nesaf i gael ei goffâu—sef yr hwn sydd heb ddim bywyd ganddo ond a sugna efe allan o'i ddyledswyddau. Y mae y dyn hwn yn dewis sefyll a syrthio gyda Moses, er ei fod eisoes (trwy y gyfraith) wedi ei gondemnio. "Y mae a'ch cyhudda chwi, sef Moses, yn yr hwn yr ydych yn gobeithio." Ioan v. 45.

(7.) Yn y lle nesaf, y mae y proffeswr penrhydd yn dyfod i mewn; yr hwn sydd yn cymeryd arno wrthwynebu ffurfiau a dyledswyddau megis pethau ag sydd yn cenhedlu i gaethiwed, gan esgusodi trefn ac ordinhad Duw. Fe haera ei fod yn gweddio *bob* amser, pan nad yw yn gwneuthur hyny *un* amser mewn gwirionedd.

Cymer arno ei fod yn cadw pob dydd yn Sabboth; eithr nid yw hyny yn gwasanaethu ond i beri iddo daflu ymaith bob amserau gosodedig i addoli Duw. Dyma hefyd un o'r llawer "a geisiant fyned i mewn, ac nis gallant."

(8.) Y nesaf yw y cydymagweddwr, neu y cydffurfiwr â'r amserau; yr hwn y mae ei grefydd yn cyfnewid, ac yn troi gyda phob gwynt neu dywydd, fel y ceiliog ar ben y clochdy. Nid oes cydwybod onid un fud ganddo, wedi ei serio â haiarn poeth, ac sydd yn y drws nesaf at ddidduwiaeth. Dyma yn sicr un o'r llawer "a geisiant fyned i mewn, ac nis gallant."

(9.) Y mae hefyd y proffeswr ag sydd yn byw mewn anwybodaeth ewyllysgar; neu yr hwn sydd yn ofni llafurio am wybodaeth rhag croeshoelio ewyllys y cnawd; neu orphwys yn dawel mewn cyflwr o esmwythder. Pan oddiwedder ef un amser â chyhuddiadau cydwybod, efe a arfera iachau y cyfan ag esgusodion, na ddygwyd ef i fyny o'i febyd yn egwyddorion y ffydd, a'i bod weithian yn rhy ddiweddar iddo ymosod yn nghylch y gorchwyl; megis pe byddai yn anghyfreithlon i Gristionogion wybod ychwaneg nag a ddysgwyd iddynt ar eu dychweliad cyntaf. Mae llawer o Ysgrythyrau yn ergydio fel cyflegrau yn erbyn y cyfryw ddynion; a hwynt-hwy ydynt sicr o fod o nifer y llawer "a geisiant fyned i mewn, ac nis gallant."

(10.) Ni a chwanegwn at y rhai hyn oll y proffeswr a fynai brofi ei hun yn Gristion, trwy gymharu ei hunan â'r rhai o'i amgylch, yn lle cymharu ei hunan â gair Duw. Mae y dyn yma yn cysuro ei hun oherwydd ei fod mor sanctaidd, yn ei dyb ef, a'r proffeswr yma neu y crefyddwr acw, ac yn penderfynu fod ei gyflwr yn dda, a'r nefoedd yn etifeddiaeth iddo, megis pe byddai yn sicr y bydd y cyfryw ag y mae efe yn ei gymharu ei hun â hwynt yn gadwedig. Ond, beth ydyw mewn camsyniaeth? Oni ddichon fod y rhai mwyaf eu doniau a'u cymhwysderau yn yr eglwys yn fyr o gadwedigol ras, ac, yn ganlynol, yn ol o'r nefoedd yn y diwedd? Y dyn hwn, gan hyny, sydd mewn perygl o fod yn un o'r llawer "a geisiant fyned i mewn, ac nis gallant."

(11.) Mae eto broffeswr arall, ag sydd dros yr Arglwydd a thros Baal hefyd. Medr efe fod yn bob peth; a thaflu cerig â phob llaw. Ei grefydd a gyfnewid mor aml a'i gwmpeini. Mae yn debyg i lyffant yr Aipht, yr hwn a fydd byw yn y dwfr ac allan o hono hefyd. Medr fod yn nghymdeithas duwiolion ac annuwiolion yr un modd. Efe a ddeil gyda'r ysgyfarnog, ac a rêd gyda'r ci. Mae efe yn wir yn bob peth ond yr hyn a ddylai fod. Dyma hefyd un o'r llawer "a geisiant fyned i mewn, ac nis gallant."

(12.) Mae hefyd yr ewyllysiwr-rhydd, yr hwn sydd yn hollol wadu gwaith tröedigaeth i'r Yspryd Glân; a'r Sosiniaid, y rhai sydd yn gwadu i Grist roddi boddlonrwydd i Dduw am bechod; a'r Crynwyr (*Quakers*), y rhai sydd yn gwadu

undeb y ddwy natur yn mherson Crist, yn nghyd ag amryw eraill; mewn perthynas i gyflwr pa rai, a hwy yn meirw fel y maent, diameu eu bod yn ddamnedig: ac, yn ganlynol, y rhai hyn "a geisiant fyned i mewn, ac nis gallant." Ond, yn

4. Os felly y mae, pa siomedigaeth ddychrynllyd a gyferfydd llawer o broffeswyr â hi yn nydd y farn? Nid wyf yn crybwyll yn awr am y pechadur cyhoeddus. Fe ŵyr pob dyn (fel y dywedais eisoes) sydd â synwyr cyffredin ganddo, fod y cyfryw un, sef y tyngwr, cablwr, meddwyn, torwr Sabbothau, yn nghyd â'r holl giwdod o bechaduriaid cyffredin yr oes, ar ganol y gefn-ffordd lydan i uffern, ac, yn ganlynol, yn rhwym i fyned yno. Ni all dim eu rhagflaenu ond gras achubol a gwir ddychweliad at Dduw, oddieithr iddo ef ei hun fod yn gelwyddog; a pheth anmhosibl ydyw hyny.

Cymerwn ychydig siamplau o'r Ysgrythyr am broffeswyr a sonir yn neillduol am eu camymddygiad.

1. Judas a gyfrgollwyd o blith yr apostolion. (Act. i. 25.) 2. Demas (fel yr wyf yn tybied) a gyfrgollwyd o blith yr efangylwyr. (2 Tim. iv. 10.) 3. Diotrephes o blith y gweinidogion, neu rai mewn swyddau yn yr eglwys. 4. Ac am broffeswyr Cristionogol yn mhob oes, hwy a gwympasant wrth y pentyrau, a rhai eglwysi cyfain yn nghyd, hefyd. (2 Tim. i. 15. Dat. iii. 4, 15, 16.) 5. Chwanegwn at hynyma, nad yw y pethau a grybwyllir am danynt yn yr Ysgrythyrau ond megis cysgod o'r hyn a ddigwydd yn mhlith proffeswyr hyd ddiwedd y byd; fel y dywed yr apostol: "Pechodau rhyw ddynion sydd amlwg o'r blaen, yn rhagflaenu i farn; eithr rhai sydd yn eu canlyn hefyd." 1 Tim. v. 24. Felly, gydbroffeswyr, "Ofnwn gan hyny, gan fod addewid wedi ei adael i ni i fyned i mewn i'w orphwysfa ef, rhag bod neb o honoch yn debyg i fod yn ol." Heb. iv. 1. O! i fod yn ol! Beth a fydd yn lladd y meddwl, ac yn llosgi y gydwybod, yn debyg i hyn? Nid fy amcan yw digaloni, ond dihuno, fy nghydbroffeswyr. Mae achos ar yr eglwysi am ddeffroad, ac ar bob aelod neillduol ynddynt. Na ddiystyrwch, gan hyny, fy anogaethau, ond clust-ymwrandewch â hwynt, gan eu cymeryd yn ddifrifol at eich ystyriaeth, a sylwi arnynt drachefn a thrachefn. Pa siomedigaeth arswydus a gaiff llawer o broffeswyr mawrion yn nydd Duw Hollalluog?—siomedigaeth, meddaf, a hyny mewn amryw ystyriaethau.

(1.) Hwy a ddisgwyliant ddianc rhag uffern; ac yn y cyfamser yn syrthio i mewn iddi. Pa siomedigaeth a fydd hon?

(2.) Disgwyliant am y nefoedd; ond porth y nefoedd a gauir yn eu herbyn; pa siomedigaeth a fydd hon?

(3.) Disgwyliant dosturi oddiwrth Grist tuag atynt; ond a gânt weled yr holl ymysgaroedd o dosturi ynddo at bechaduriaid wedi cau i fyny oddiwrthynt. Pa siomedigaeth a fydd yma! Drachefn:

5. Megis y bydd y siomedigaethau hyn yn ddychrynllyd, felly y byddant yn dra chyflawn o syndod hefyd i'r rhai colledig.

(1.) Oherwydd eu neillduo oddiwrth Dduw, ei seintiau, a'i angylion, ac oddiwrth bob gobaith o iechydwriaeth.

(2.) Wrth ystyried eu hynfydrwydd a'u gwallgofrwydd ar y ddaear, yn cellwair â'u heneidiau ac â phethau perthynol i'w hiechydwriaeth; gan gymeryd yr hyn oedd ganddynt yn lle gwirionedd, pan nad oedd ond twyll a rhagrith ynddo.

(3.) Ond synant hefyd y naill wrth y llall, pan adgoffant y modd y cyfrifent eu hunain yn eu bywydau yn gydetifeddion o'r deyrnas nefol, yn gyfatebol i eiriau y prophwyd: "A hwy a ofnant; gwewyr a doluriau a'u deil hwynt; megis gwraig yn esgor yr ymofidiant; pawb wrth ei gyfaill a ryfedda; eu hwynebau fyddant wynebau fflamllyd." Esay xiii. 8.

(4.) Onid syndod a fydd gan y damnedigion eu hunain i edrych ar rai a fyddo y pryd hyny yn dyfod i uffern? I weled rhai pregethwyr y gair, proffeswyr, ac ymarferwyr ag ordinhadau, yn dyfod yno. Pa ryfeddod ydoedd yn mhlith rhai gwympo brenin Babilon? "Pa fodd y syrthiaist o'r nefoedd, Lusiffer, mab y wawrddydd!—pa fodd y'th dorwyd di i lawr, yr hwn a wanheaist y cenhedloedd!" Os y fath beth a hyn a oddiwedda y damnedigion gyda syndod; pa mor syn a fydd ganddynt weled un ag y cyrhaeddodd ei ben hyd y cymylau yn syrthio i lawr, megis plwm i waelodion uffern? "Uffern odditanodd a gynhyrfodd o'th achos, i gyfarfod â thi wrth dy ddyfodiad: hi a gyfododd y meirw i ti, sef holl dywysogion y ddaear; cyfododd holl frenhinoedd y cenhedloedd o'u gorseddfaoedd. Y rhai hyny oll a lefarant, ac a ddywedant wrthyt, A wanhawyd tithau fel ninau? a aethost ti yn gyffelyb i ni?" Esay xiv. 9, 10. Ai dyma yr un a'n gadawodd, ac a ymneillduodd oddiwrthym yn y byd i fyned yn broffeswr, ac yn awr a ddaeth i'r un lle truenus a ninau yn y diwedd?

6. Un gair yn ychwaneg drachefn i ddihuno, os yw bosibl, y proffeswr. Ystyria, er bod y byd tywyll, anianol, yn sicr o fod yn golledig, er hyny, bydd y pethau canlynol yn eisieu ynddynt hwy i drymhau eu barnedigaeth, y rhai a gyferfydd â thydi, os yn ol y byddi, er dy wae tragwyddol:—

(1.) Ni bydd ganddynt broffes o grefydd, i'w brathu, pan ddelont yno.

(2.) Ni fydd ganddynt brofiad o ddaioni, a melysder nefoedd wedi ei cholli, i'w brathu, pan ddelont yno.

(3.) Ni fydd yr ystyriaeth o'u bod unwaith yn agos i'r nefoedd eu gofidio, pan ddelont yno, sef i uffern.

(4.) Ni fydd ganddynt goffadwriaeth o gau-ffydd, gau-obaith, gau-hyder, a gau-sancteiddrwydd, i'w poeni a'u harteithio, pan ddelont yno. Ni allant ddywedyd, megis chwychwi, "Mi fum unwaith wrth borth y nefoedd, mi edrychais i mewn

iddi, mi ddisgwyliais wneuthur fy nhrigfan ynddi byth." O! fel y brath hyn! Dyma, os gellir ei alw felly, a fydd yn golyn angau yn uffern.

7. Dyro genad i mi yn awr, mewn gair byr, i osod yr ychydig gynghorion hyn at dy ystyriaeth cyn y diweddwyf:

1. A ydwyt ti mewn gwirionedd yn caru dy enaid?—yna gweddia ar Iesu Grist am gydwybod effro, am galon wedi ei dihuno yn nghylch pethau y byd arall, nes y byddo i'r ystyriaeth o hyn dy yru ato ef i ymofyn am ddiogelwch.

2. Pan ddelych yno, deisyfa drachefn am fwy o ddeffroad ac ystyriaeth yn nghylch pechod, uffern, gras, a chyfiawnder Crist.

3. Llefa hefyd am yspryd i iawn ddirnad yr efengyl, a phethau ysprydol, fel yr adnabyddech ras cadwedigol oddiwrth yr hyn a elwir yn ras cyffredinol.

4. Myfyria yn fanwl ar y pethau hyny ag sydd yn dangos i ti fwyaf o ddrwg pechod, byrdra einioes dyn, a'r ffordd sicr i fod yn gadwedig.

5. Cadw gwmpeini gyda'r rhai duwiolaf yn mhlith proffeswyr.

6. Pan glywech ddarlunio natur gwir ras, nac oeda ofyn i'th galon, a ydyw y cyfryw ras wedi ei blanu yno? Ac yma cymer ofal,

(1.) Fod y gweinidog yr wyt yn gwrando arno yn pregethu athrawiaeth iachus, ac yn arwain buchedd dda.

(2.) Na chymerech ras ymddangosol am ras cadwedigol; na ffrwythau naturiol yn lle ffrwythau ysprydol a gwirioneddol.

(3.) Cymer ofal rhag na byddo i bechod a'th fywyd gydfyned â'u gilydd heb edifeirwch, canys hyny a bâr rwyg yn dy dystiolaeth, archoll yn dy gydwybod, ac anesmwythder i'th yspryd; a chant i un na yr yr holl ras yn dy galon i gongl mor fechan a thywyll, nas gellir dros amser ei chwilio allan wrth holl ganwyllau yr efengyl, er dy gysur dy hun a'th foddlonrwydd. Bydd wych.

# TEML SOLOMON

## WEDI EI HYSBRYDOLI;

NEU,

## OLEUNI YR EFENGYL

YN CAEL EI GYRCHU ALLAN O'R DEML AG OEDD YN JERUSALEM.

YN SAESNEG GAN

Y PARCH. J. BUNYAN.

"Ti fab dyn, dangos y TY i dŷ Israel—a'i osodiad, a'i fynediadau allan, a'i ddyfodiadau i mewn, a'i holl ddull, a'i holl gyfreithiau."—*Ezec.* xliii. 10, 11.

# AT Y DARLLENYDD.

DDARLLENYDD CRISTIONOGOL:

Myfi, fel y gelli weled wrth y Llyfr bychan hwn, a anturiais yn awr wneuthur fy ngoreu i ddangos i ti beth o ogoniant efengylaidd Teml Solomon; sef o pa beth yr oedd hi, yn nghyd â'i dodrefn, yn gysgod, ac felly, pa fath hyfforddiant oedd hi i'n tadau, ac ydyw hefyd i ninau, eu plant. Pa un, er ei heglurhau yn well, a driniais bob yn rhan, o fesur un ac un, o rifedi deg a thriugain, sef y cwbl ag a allwn i alw i'm cof; canys yr wyf yn credu nad oedd yr un o honynt heb ei arwyddocad, ac felly yn fuddiol i ni i'w gwybod.

Canys er nad ydym ni yn awr i addoli Duw yn y fath ddull, neu trwy y fath ordinhadau ag oedd yn yr hen eglwys unwaith, eto i wybod eu trefn, ac i ddeall natur ac arwyddocad eu hordinhadau, pan y cymharir hwynt â'r efengyl, gallant yn awr, a hwynt-hwy eu hunain yn feirw, roddi goleuni i ni. Ac yn y modd hyn y gwnaeth gweinidogion y Testament Newydd, megis yr apostolion, ddefnydd mawr o iaith yr Hen Destament, ac ordinhadau seremoniaidd, trwy eu harwyddocad, gynorthwyo ffydd y duwiol yn y pregethiad o efengyl Crist.

Myfi a allaf ddywedyd, ddarfod i Dduw ryw fodd rwymo eglwys yr Iuddewon i fyny i gysgodau a chyffelybiaethau, sef i fod wedi ei rhwymo ganddynt yn ei holl ranau oddiallan o addoliad; ie, nid yn unig y gyfraith Lefitaidd a'r deml, ond (i'm tyb i) holl wlad Canaan, lle eu coelbren hwynt, oedd hefyd iddynt yn seremoni neu yn gysgod. Eu gwlad hwynt oedd yn gysgod o'r nefoedd; eu mynediad dros yr Iorddonen iddi yn gyffelybiaeth o'n mynediad ni i'r nefoedd trwy farwolaeth. Fe ddywedir fod ffrwyth eu tir yn ddienwaededig, megis eu bod yn aflan ar eu mynediad cyntaf i mewn yno; yn hyn yr oedd eu gwlad yn ddrych o beth arall, sef o ras a gogoniant yn y nefoedd. Heb. iii. 5—11. Lef. xix; xxiii. 34, 35. Ex. xii. 15. Lef. vi. 17; xxiii. 17.

Yn mhellach; fe ddywedir fod y tir ei hun yn cadw Sabboth, ac felly yn gorphwys gorphwysfa sanctaidd; ïe, hefyd yn yr amser ag yr oedd hi yn anghyfanedd, ac heb ei meddiannu gan y sawl y rhoddwyd hi iddynt i drigo ynddi.

Ië, gwedd eglwys Dduw yn yr amser hyny a osodwyd allan wrth leoedd a phethau yn y wlad hòno, yn gystal ag wrth gyffelybiaethau a chysgodau.

1. Yn gyffredinol, fe ddywedir ei bod hi yn deg megis Tirzah (Can. vi. 4), ac yn weddus megis Jerusalem.

2. Yn neillduol, ei gwddf a gyffelybir i dŵr Dafydd, yr hwn a adeiladwyd i fod yn arf-dy (Can. iv. 4); ei llygaid i bysgod-lynoedd Hesbon wrth borth Bath-rahim (Can. vii. 4); ei thrwyn a gyffelybir i dŵr Libanus, yr hwn sydd yn edrych tua Damascus (Can. iv. 1); ïe, gwallt ei phen a gyffelybir i ddiadell o eifr, a ddeuant i fyny o Fynydd Gilead: ac arogliad ei gwisgoedd i arogliad Libanus. Can. iv. 11.

Nid oedd y wlad hon ychwaith heb gysgodau, ïe, o'i Harglwydd a'i Hiachawdwr hefyd. Efe a ddywed am dano ei hun: "Myfi yw Rhosyn Saron, a Lili y dyffrynoedd." Can. ii. 1.

Hefyd ei anwylyd a ddywed am dano: "Ei wynebpryd sydd fel Lebanon, yn ddewisol fel cedrwydd." Can. vi. 5. Beth a ddywedaf? Yr oedd y ddwy ddinas, Sïon a Jerusalem, yn gosod allan weithiau y ddwy eglwys (Gal. iv), sef y wir eglwys a'r gau, a'u had hwynt, Isaac ac Ismael.

Myfi a allaswn hefyd ddangos i chwi yma fod hyd yn oed doniau a grasusau y wir eglwys wedi eu gosod allan trwy y peraroglau, canu, y grawn a'r pomgranadau ag oedd gwlad Canaan yn ddwyn; ïe, fod uffern ei hun yn cael ei gosod allan trwy ddyffryn plant Hinon a Thophet, lleoedd yn y wlad hòno. Yn ddiau yr oedd y cyfan, mewn rhyw ystyr, yn arwyddo ac yn cysgodi pethau eraill.

Ond yn y dywediadau o'r blaen myfi a osodais fy hun at y deml yn unig, y lle diatreg hwnw o addoliad Duw, yn nghylch perthynasau pa un, fel y dywedais eisoes, y traethais (er mor fyr ag y gallwn), canys nid oedd yr un o honynt heb arwyddocad ysprydol, ac felly yn fuddiol i ni wybod.

Ac yma y gallwn weled llawer o werthfawrogrwydd doethineb a gras Duw, sef iddo ef, yn yr unig le o addoliad gynt, ordeinio ffurfiau ac arddangosiadau gweledig i'r addolwyr, i'w dysgu hwynt i'w addoli ef trwyddynt; ïe, y deml ei hun oedd (yn hyn) yn hyfforddiad da iddynt.

Ond yn fy ngwaith yn dywedyd fel hyn, nid wyf yn anog neb yn awr i ddychymygu iddynt eu hunain gysgodau neu gyffelybiaethau i addoli Duw trwyddynt. Y peth a ddarparodd Duw i helpu gwendid ei bobl gynt oedd un peth, a'r hyn a ddychymygasant hwy heb ei orchymyn ef oedd beth arall; canys er iddynt gael ei fendith pan yr addolasant ef â'r fath gysgodau a chyffelybiaethau a osododd efe arnynt i'r perwyl hyny, eto efe a'u cospodd ac a'u blinodd hwynt yn dost pan y chwanegasant atynt eu dychymygion eu hunain. Ex. xxxii. 35. 2 Bren. xvii. 16—18. Act. vii. 38—44. Ië, pan yr ordeiniodd efe ffordd iddynt i'w addoli ef, efe a'u gwaharddodd rhag rhoi lle i'w chwantau a'u dychymygion eu hunain, ac a'u rhwymodd yn gaeth i wneud yn ol trefn y nefoedd. "Gwel (medd Duw wrth Moses, eu deddfwr mawr cyntaf) wneuthur yn ol y portreiad a ddangoswyd i ti yn y mynydd." Ex. xxv. 44. Heb. xiii. 5.

Ac nid ydyw ein hapostol ni ond cymeryd yr un mesurau, pan yw yn dywedyd,

"Os ydyw neb yn tybied ei fod yn brophwyd, neu yn ysprydol, cydnabydded y pethau yr wyf yn en hysgrifenu atoch, mai gorchymynion yr Arglwydd ydynt." 1 Cron. xiv. 37.

Pan yr oedd Solomon hefyd i adeiladu y deml hon at addoliad Duw, er ei fod ef yn ddoethach na phawb, er hyny ni ymddiriedodd Duw i'w ddoethineb a'i gof ef, nac i un addysg o'r nefoedd iddo tuag at ddangos pa fodd yr adeiladai efe hi; ond yr oedd i dderbyn portreiad y cwbl mewn ysgrifen trwy ysbrydoliaeth Duw; ac ni fynai Duw roddi y portreiad hwn o'r deml a'i dodrefn yn ebrwydd i'r gwr doeth hwn, rhag i eraill wneuthur ei ddoethineb ef yn eilun iddynt; neu rhag i rai wrthddadleu, a dywedyd mai ei ddychymyg ei hun ydoedd; ac nad oedd efe ond yn unig yn gwneud ymffrost o'r dadguddiad nefol, megis yn orchudd i'w weithredoedd.

Am hyny, meddaf, nid iddo ef, ond i Dafydd ei dad, y rhoddwyd ei holl bortreiad hi, o'r nefoedd; ac felly trwy law Dafydd i Solomon, ei fab, mewn ysgrifen. "Yna (medd y testyn) y rhoddes Dafydd i Solomon, ei fab, portreiad y porth, a'i dai, a'i selerau, a'i gellau, a'i ystafelloedd oddifewn, a thŷ y drugareddfa: a phortreiad yr hyn oll ag oedd ganddo, trwy yr Yspryd, am gynteddau tŷ yr Arglwydd, ac am yr holl ystafelloedd o amgylch, am drysorau tŷ Dduw, ac am drysorau y pethau cysegredig, ac am ddosparthiadau yr offeiriaid a'r Lefiaid; ac am holl waith gweinidogion tŷ yr Arglwydd, ac am holl lestri gwasanaeth tŷ yr Arglwydd." 1 Cron. xxvii. 11—14.

Ië, efe a gafodd wybod o'r nefoedd, neu trwy ddadguddiad dwyfol, o ba fetel yr oedd rhaid gwneuthur y canwyllbrenau, ac â pha gymaint yr oedd yn rhaid gwneuthur pob un; yr un fath drefn a gorchymyn a roddodd efe tuag at wneuthur y byrddau, cigfachau, phiolau, dysglau, gorfflychau, ac allor yr arogl-darth, yn nghyd â phortreiad cerbyd y cerubiaid. "Hyn oll (ebe Dafydd) a wnaeth yr Arglwydd i mi ei ddeall mewn ysgrifen, trwy ei law ef arnaf fi, sef holl waith y portreiad hwn," &c. 1 Cron. xxviii. 14—20.

Felly, meddaf, efe a roddodd bortreiad y deml i Dafydd; a Dafydd a'i rhoddodd i Solomon; ac yn ol y portreiad hyny yr adeiladodd Solomon y deml, ac nid un ffordd arall. Gwir, nid oedd y rhai hyn oll ond cyffelybiaethau, portreiadau a chysgodau o bethau nefol, ac nid gwir ddelw y pethau, eto (megis y rhagddywedwyd) pe buasai Duw mor wiliadwrus a chywrain yn y pethau hyn, ac heb adael dim i synwyr y duwiolaf a'r callaf o ddynion, beth! a allwn ni dybied y caniata efe yn awr ddoethineb a dychymygion dynion yn y pethau ag ydynt, mewn cyffelybrwydd i'r rhai hyny, y pethau nefol eu hunain.

Fe ellir barnu hefyd, yn gymaint a bod y cysgodau hyn o bethau nefol wedi eu traddodi gan Dduw i'r Ysgrythyr Lân, a bod yr Ysgrythyr Lân yn abl gwneuthur dyn Duw yn berffaith yn mhob peth. 2 Tim. iii. 15—17.

Mai ein dyledswydd yw peidio a gorphwys ar ddealldwriaethau cyffredin, ond ymofyn a chwilio allan o'r Ysgrythyr Lân hòno, ac nid un lle arall, pa fodd y dylem ni addoli Duw. Yr oedd Dafydd am ymofyn yn ei deml. Salm xxvii. 4.

Ac er bod ffordd o addoliad yr hen eglwys wedi ei gosod heibio mewn perthynas i ni yn amser y Testament Newydd; er hyny, gan fod yr ordinhadau hyn yn gysgodau o bethau, ac o drefn yr addoliad, ni a allwn, ac a ddylem chwilio allan eu harwyddocad ysprydol hwynt, oherwydd hwy a wasanaethant i gadarnhau ac eglurhau pethau i'n dealltwriaethau ni: ïe, y maent yn dangos i ni, nad oedd yr Hen Destament a'r Newydd, o ran ysprydolrwydd yr addoliad, ond un â'r unrhyw, ond yn unig bod yr Hen wedi ei orchuddio â chysgodau, a'r Newydd yn eglur ac yn wyneb-agored—yn wynebpryd i'r bywyd, fel y dywedwn, megis y gosodir ef allan gan lun *(picture)* sydd yn ardderchog osod allan fedr y celfyddydwr. Gan yr hen Destament yr oedd y cysgod, ac nid oes genym ni ond y gwir ddelw; yr oedd y cwbl yn gysgod o'r pethau ag oedd yn ol. Ni a allwn weled fod ein hefengyl wedi ei chymylu yn ei seremoniau; a'n haddoliad ysprydol wedi ei osod allan ryw fodd yn eu hordinhadau cnawdol hwy.

Yn awr, megis y dywedais, mae yn gorwedd, wedi ei rwymo i fyny mewn mantell, lawer o ogoniant ein pethau efengylaidd yn y deml a adeiladodd Solomon: gan hyny, mi a wnes y goreu y gallwn trwy gymharu pethau ysprydol â phethau ysprydol ar y pwnc, yn y llyfr hwn.

Ni allaf ryfygu dywedyd fy mod yn gwybod i mi gyffwrdd â phob peth yn iawn, ond myfi a allaf ddywedyd wneuthur o honof fy ngoreu i wneud felly.

Gwir yw, ni physgotais i am y pethau hyn yn nyfroedd pobl eraill; fy Mibl a'm *Concordance* ydyw fy unig lyfrau i yn fy ysgrifeniadau; oherwydd paham, ddarllenydd hawddgar, os gweli un peth, naill ai mewn gair neu fater, ag nad ydyw yn gytun â gwirioneddau Duw, na chyfrif i neb yn fai ond i mi fy hun; gweddia hefyd ar Dduw i faddeu fy meiau; a phasia heibio yr hyn ag sydd feius, yn gariadus; a derbyn yr hyn a ferni a wna ddaioni i ti.

Dy Wasanaethwr yn yr Efengyl,

JOHN BUNYAN.

# GOGONIANT Y DEML.

### I.—*Y Lle yr adeiladwyd y Deml.*

Y DEML a adeiladwyd yn Jerusalem, ar Fynydd Moriah, yn llawr-dyrnu Ornan y Jebusiad, yn agos i'r lle yr offrymodd Abraham ei fab Isaac, a'r lle y cyfarfu Dafydd ag angel yr Arglwydd, pan y daeth â'i gleddyf noeth yn ei law i dori ymaith y bobl yn Jerusalem, oblegid y pechod a bechodd Dafydd trwy rifo y bobl. Gen. xxii. 3—5. 1 Cron. xxi. 15; xxii. 1. 2 Cron. iii. 1.

Yno y derbyniodd Abraham ei fab Isaac oddiwrth y meirw; yno yr erfyniodd Dafydd ar yr Arglwydd i gymeryd ymaith y pla, ac i ddychwelyd at Israel mewn trugaredd: oddiwrth yr hyn y deallodd Dafydd mai yno yr oedd yn rhaid adeiladu teml Dduw. "Hwn," medd Duw, "yw tŷ yr Arglwydd Dduw, a dyma allor y poeth-offrwm i Israel." 1 Cron. xxi. 28; xxii. 1. 2 Cron. iii. 1.

Y Mynydd Moriah hwn, gan hyny, oedd yn gysgod o Fab Duw, mynydd tŷ yr Arglwydd, y Graig pa un nis gall pyrth uffern orchfygu.

### II.—*Pwy adeiladodd y Deml.*

Y deml a adeiladwyd gan Solomon, yr hwn oedd wr heddychol a llonydd; a hyny mewn enw, wrth natur, ac yn ei lywodraeth: canys felly y rhagddywedasai Duw wrth Dafydd. "Wele," medd ef, "mab a enir i ti, efe a fydd wr llonydd, a mi a roddaf lonyddwch iddo ef gan ei holl elynion o amgylch: canys Solomon fydd ei enw ef, heddwch hefyd a thangnefedd a roddaf i Israel yn ei ddyddiau ef. Efe a adeilada dŷ i'm henw, ac efe a fydd i mi yn fab, a minau yn dad iddo yntau." 1 Cron. xxii. 9, 10. Salm lxxii. 1—4.

Megis gan hyny yr oedd Mynydd Moriah yn gysgod o Grist fel sylfaen, felly yr oedd Solomon yn gysgod o hono fel Adeiladydd yr eglwys. Yr oedd y mynydd yn arwydd, oblegid mai yno yr amlygodd yr Arglwydd ei drugaredd o flaen Abraham a Dafydd. Ac megis yr adeiladodd Solomon y deml hon, felly y mae Crist yn adeiladu ei dŷ; "ïe, teml yr Arglwydd a adeilada efe; ac efe a ddwg y gogoniant." Zec. vi. 12, 13. Heb. iii. 3, 4. A Solomon a elwid yn heddychol; i ddangos â pha fath athrawiaeth a ffyrdd heddychol yr adeiledid tŷ ac eglwys Crist. Esay ix. 6. Micah v. 4, 5.

### III.—*Y Modd yr adeiladwyd y Deml.*

Y deml a adeiladwyd, nid yn hollol wrth reolau Solomon, er ei fod ef yn ddoethach nag Ethan, Heman, Calcol, a Darda, na neb rhyw ddynion eraill (1 Bren. iv. 31); ond fe'i hadeiladwyd wrth *reolau ysgrifenedig*, 'y rhai a gafodd ef gan Dafydd ei dad. Canys pan y rhoddodd Dafydd orchymyn i Dafydd i Solomon ei fab i adeiladu teml Dduw, heblaw y gorchymyn, efe a roddodd iddo hefyd bortreiad o'r cwbl mewn ysgrifen; sef portreiad y porth, y tai, y selerau, y cellau, yr ystafelloedd oddifewn, a thŷ y drugareddfa; yr hwn bortreiad a gafodd Dafydd gan Dduw: ac ni fynai Duw ymddiried ychwaith i'w gof ef. "Hyn oll," meddai ef, "a wnaeth yr Arglwydd i mi ei ddeall mewn ysgrifen, trwy ei law ef arnaf fi, sef holl waith y portreiad hwn." Fel hyn, gan hyny, y rhoddodd Dafydd bortreiad o'r cwbl i Solomon ei Fab, ac yr adeiladodd Solomon dŷ Dduw. 1 Cron. xxviii. 9—20.

Ac yn gyfatebol i hyn, y mae Crist Iesu yn adeiladydd ei dy ei hun, "tŷ pa un ydym ni," yn adeiladu ei drigfa sanctaidd iddo ef ei hun i drigo ynddi; sef yn ol gorchymyn Duw y Tad. "Canys," medd efe, "myfi ni leferais o honof fy hun, ond y Tad yr hwn a'm hanfonodd i, efe a roddes orchymyn i mi beth a ddywedwn." Ioan xii. 49. Ac oddiyma y dywedir, "mai Duw a roddodd iddo ef y datguddiad," Dat. i. 1: ac hefyd, "iddo ef gymeryd y llyfr o ddeheulaw yr hwn oedd yn eistedd ar yr orseddfainc," Dat. v. 7: ac felly y mae efe yn adeiladu ei eglwys.

### IV.—*O Beth yr adeiladwyd y Deml.*

Y defnyddiau â pha rai yr adeiladwyd y deml, oeddynt yn eu *nhatur eu hunain* yr un fath a'r rhai hyny a adawyd yn ol; pethau yn naturiol ag oedd yn anaddas i'w gosod yn y fath adeilad sanctaidd heb gywreinrwydd. A hyn sydd yn dangos nad yw y rhai hyny y mae Crist yn bwriadu adeiladu eglwys â hwynt, wrth natur, ddim gwell nag eraill: ond megis yr oedd y coed a'r cerig wedi eu cymynu a'u nhaddu, cyn eu bod yn addas i'w gosod yn y tŷ hwnw; felly y mae yn rhaid i bechaduriaid, â pha rai yr adeiledir yr eglwys, fod yn gyntaf wedi eu cyfaddasu trwy y gair, ac wedi hyn eu gosod yn eu lle yn yr eglwys.

Canys er nad oes dim gwahaniaeth, wrth natur, rhwng y rhai yr adeiledir tŷ Dduw â hwynt ag eraill; eto, trwy ras y maent megis ag yr oedd rhwng y coed a'r cerig a gymynwyd ac a naddwyd tuag at adeiladu trwy gelfydd, a'r rhai oedd yn ol yn y coedydd a'r cloddfeydd cerig.

Y mae yr Arglwydd Iesu, gan hyny, wrth ymofyn am ddefnyddiau i adeiladu ei dŷ, yn eu cael hwynt, pridd o'r un telpyn ag y mae ef yn wrthod, neu yn adael yn ol. "A ydym ni gan hyny yn well na hwynt-hwy? Nag ydym mewn un modd." Rhuf. iii; ix. Eithr mi a dybygwn, os oes rhai yn well na'u gilydd, mae y rhai a adawyd yn ol ydynt hwy. "Ni ddaethum i alw y rhai cyfiawn, ond pechaduriaid,

i edifeirwch." Marc ii. 17. Yn ddiau y mae efe yn hyn yn dangos mawredd ei ras yn dewis y fath, a'i fanylwaith yn eu gwneuthur hwy yn addas i'w gosod yn y fath drigfa sanctaidd.

Y mae yr holl Ysgrythyr yn amlygu hyn; gan hyny nid yw ond afreidiol i mi lenwi manau neillduol: yn unig ni a ddylem ddal sylw a chofio, na osodir neb yn yr adeilad yma fel y delont o'r goedwig a'r gloddfa gerig; ond fod yn rhaid iddynt yn gyntaf fyned dan law Adeiladydd mawr teml Dduw.

V.—*Pwy oedd i gymynu, neu dori y Coed, ac i dynu y Cerig, tuag at adeiladu y Deml.*

I gymynu y coed, ac i dynu y cerig, yr oedd *goruchwylwyr dewisol wedi eu pwrcasu;* y rhai nid oeddynt blant Jacob, nac o dŷ Israel, ond gweision Hiram brenin Tyrus a'r Gibeoniaid, sef plant y rhai a wnaeth gyfamod â Josua yn y dydd y rhoddasai Duw wlad Canaan i'w bobl. Jos. ix. 22—29. 1 Bren. v. 2. 2 Cron. xxvii. 28.

A'r rhai hyn oeddynt gysgodau o weinidogion yr efengyl, y rhai oedd ddynion wedi eu happwyntio gan Iesu Grist, trwy eu pregethiad, i wneuthur pechaduriaid yn gymhwys i'w gosod yn nhŷ Dduw. Megis gan hyny y neb ag oedd rymus i godi y fwyall i gymynu ac i naddu coed tuag at adeiladu y deml, yn enwog gynt; felly y mae gweinidogion yr efengyl, y rhai y mae Crist yn ordeinio i droi pechaduriaid ato ef ei hun, fel yr adeilado deml iddo â hwynt, yn enwog yn y dyddiau hyn. Salm vii. 4—6. Rhuf. xvi. 7.

Ond fe allai y dyweda rhai, paham yr ydwyf yn cymharu mor drwsgl? Yr wyf yn ateb, oherwydd fy mod yn credu ei fod yn wir; canys gras, ac nid doniau, sydd yn ein gwneuthur yn blant i Dduw. Doniau sydd yn gwneuthur gweinidog; ac nid yw neb o ran bod yn weinidog ond gwas "i gymynu coed, ac i dynu dwfr i dŷ yr Arglwydd:" ïe, Paul, er ei fod yn fab, ni chyfrifodd ei hun ond gwas, megis ag yr oedd yn weinidog: "gwas Duw, gwas yr eglwys, a gwas i chwi er mwyn Iesu." Tit. i. 1. Rhuf. i. 1. 2 Cor. iv. 5.

Y mae dyn yn fab, fel y mae wedi ei genhedlu gan Dduw iddo ei hun; ond yn was, fel y mae wedi ei ddonio tuag at weithio yn nhŷ ei Dad: ac er mai gwir yw, fe all y gwas fod yn fab, er hyny nid ydyw efe yn fab oherwydd ei fod yn was; ac nid yw yn canlyn, oherwydd y gall pob mab fod yn was, fod gan hyny bob gwas yn fab. Nid ydyw holl weision Duw yn feibion iddo; a chan hyny, fe ddaw yr amser pan y teflir y rhai nad ydynt ond gweision yn unig yn awr, allan o'r tŷ, ïe, o'r tŷ hwnw y cynorthwyodd efe iddynt adeiladu: "Nid ydyw y gwas yn aros yn y tŷ byth; Ezec. xlvi. 16, 17. Ioan viii. 35; sef yr hwn nid yw ond gwas yn unig.

Felly, gan hyny, gan fod yn fab, yr wyt yn Israeliad; a chan fod yn was, yn

Gibeoniad. Fe synodd Paul wrth ystyried hyn, canys efe a wyddai nad oedd doniau yn ei wneuthur yn fab. 1 Cor. xii. 28—31; xiii. 1, 2.

Y swm, gan hyny, ydyw, y gall dyn fod yn was ac yn fab: yn was fel y mae wedi ei osod ar waith gan Grist yn ei dŷ er daioni eraill; ac yn fab, fel y mae ef yn gyfranog o ras y mabwysiad: ond nid yw pob gwas yn fab! A bydded hyn yn ocheliad ac yn alwad i bob gweinidog i wneuthur pob rhan o'u gwasanaeth i Dduw, ac yn nhŷ Dduw, gyda pharch ac ofn duwiol: a deisyfwn, gyda phob gostyngeiddrwydd, i gael bod ein hunain yn gyfranogion "o'r gras yr ydym yn bregethu i eraill." 1 Cor. ix. 25. Ymadrodd helaeth yw hwn, wedi ei ysgrifenu, ysgatfydd, i beri i weinidogion fod yn addfwyn: "A dieithriaid a safant, ac a borthant eich praidd, a meibion dieithr fydd arddwyr a gwinllanwyr i chwi." Esa. lxi. 5. Bod yn arddwyr neu yn winllanwyr yma, yw bod yn bregethwyr. Luc ix. 59—62. 1 Cor. ix. 27. Mat. ii. 1—8; xxi. 28. 1 Cor. ix. 7. "Ac os gwnaiff efe o'i fodd, efe a gaiff wobr; ond os o'i anfodd, goruchwyliaeth yr efengyl a ymddiriedir iddo;" 1 Cor. ix. 17; a hyny yw y cwbl.

### VI.—*Yn mha Sefyllfa yr oedd y Coed a'r Cerig pan y dygwyd hwy i adeiladu y Deml.*

Yr oedd y coed a'r cerig wedi eu cymynu a'u nhaddu yn y *goedwig* a'r *gloddfa*, a'u gwneuthur yn gymhwys i'r gwaith cyn eu dwyn hwynt i'r lle yr adeiladwyd y deml: "fel na chlybuwyd na morthwylion, na bwyill, nag un offeryn haiarn yn y tŷ wrth ei adeiladu." 1 Bren. vi. 7. A hyn a ddengys, fel y dywedwyd eisoes, fod y defnyddiau â pha rai yr adeiladwyd y tŷ, yn anaddas i'w gosod yn yr adeilad, (cyn i'r crefftwr gyffwrdd â hwynt,) megis ag yr oedd y rhai a adawyd yn ol: ac yn ganlynol, nad oeddynt hwy mewn un modd yn gymhwys i'w gosod yn y fath adeilad, ond yn unig trwy gywreinrwydd eraill.

Y mae teml ein Testament Newydd ni yn gyfatebol i hyn: canys os cyfrifir plant Adda yn deilwng i'w gosod yn yr adeilad hon, eto nid ydynt felly wrth natur, ond trwy ras; nac ychwaith trwy eu doethineb eu hunain, ond trwy air Duw.

Oddiyma y dywedir, "Myfi a'u tarewais hwynt trwy y prophwydi;" Hos. vi. 5; ac hefyd gweinidogion a elwir adeiladwyr a goruchwylwyr Duw. 1 Cor. iii. 10. 2 Cor. vi. 1. Col. i. 28.

Ni osod neb brenau fel y delont o'r goedwig yn drawstiau ac yn gyplau yn ei dŷ, nac ychwaith gerig fel y delont o'r gloddfa yn y magwyrydd; ond hwy a neddir ac a'u gwneir yn gymhwys yn gyntaf, ac wedi'n fe'u gosodir yn y tŷ; ïe, y mae yn rhaid eu llifio a'u pedrogli hwynt, fel y gellir trwy eu cyplu, eu cysylltu yn gywrain, pe amgen ni fyddai yr adeilad yn dda, ac ni chai y crefftwr ond cywilydd ac anghlod oddiwrth ei waith. Felly fe ddywedir fod ein heglwys efengylaidd ni, o'r

hon yr oedd y deml yn gysgod, wedi ei ffurfio yn dra chymhesur, a bod pob cydiad wedi ei sicrhau yn dra diwall. 1 Pedr iii. 5. Eph. iv. 20, 21; iv. 16. Col. ii. 19.

Megis gan hyny y mae plant bychain yn adeiladu â choed fel y delont o'r goedwig, ac â cherig fel y delont o'r gloddfa, felly y mae y neb a gymero arno adeiladu tŷ Dduw o bechaduriaid annychweledig, heb eu cymynu, na'u nhaddu, na'u caboli: oherwydd hyny fe ddylai goruchwylwyr Duw, yn ol ei gyngor ef, "ddarparu eu gorchwyl oddiallan, a'i ddosparthu ef yn y maes; ac wedi hyny adeiladu y ty." Diar. xxiv. 27. Am hyny gwilied gweinidogion, rhag yn lle gostwng eu deall at yr Ysgrythyr, iddynt ostwng yr Ysgrythyr at eu deall.

## VII.—*Yn nghylch Sail y Deml.*

Yr oedd sail y deml, sef y lle yr adeiladwyd hi, o ddau blyg; yn gyntaf, *Mynydd Moriah*, ac hefyd *y llechau mawrion*, ar ba rai yr adeiladwyd hi. Yr oedd Mynydd Moriah, fel y rhagddywedais, yn gysgod o Grist; oddiwrth yr hyn y gelwir Moriah, "mynydd y ty:" a'r llechau mawrion, y rhai a elwid "y sylfeini," oeddynt gysgod o'r prophwydi a'r apostolion. Mat. xvi. 18. Eph. ii. 20, 21. Heb. xi. 10.

Y meini hyn, gan hyny, oeddynt o'r maintioli mwyaf; sef meini o wyth a deg cufydd. 1 Bren. vii. 10.

Yn awr, megis ag yr oedd gan y deml ddau fath o sail, felly nyni a ddylem eu hystyried ar wahan: canys y mae Crist yn sail mewn un ffordd, a'r prophwydi a'r apostolion mewn ffordd arall: Crist ydyw y sail yn bersonol ac yn haeddedigol, a'r prophwydi a'r apostolion ydynt trwy eu hathrawiaeth yn weinidogaethol. Megis y mae yr eglwys gan hyny, yr hon yw teml Dduw yn ol y Testament Newydd, wedi ei hadeiladu ar Grist megis y sylfaen; felly nid neb arall yw ei sylfaen ond efe. 1 Cor. iii. 11, 12. Ac megis y mae hi wedi ei hadeiladu ar yr apostolion, felly y dywedir fod ganddi ddeuddeg sylfaen, ac ni ddylai gael neb ond hwynt-hwy. Dat. xxi. 14.

Oherwydd paham, ni a ddylem gael ein hadeiladu ar Grist megis ein hoffeiriad, ein haberth, ein prophwyd, ein brenin, a'n heiriolwr; ac ar yr apostolion megis hyfforddwyr a phregethwyr dilys o hono; nid bod i neb gyfrif ei hun yn apostol, na gweinidogaethu unrhyw athrawiaeth arall, heblaw athrawiaeth y deuddeg; canys gosodir hwy allan fel "y rhai penaf a diweddaf." Y rhai hyn hefyd ydynt, megis Moses, yn olygwyr ar yr adeilad, i weled pob peth yn cael ei wneuthur yn ol y portreiad a ddangoswyd iddynt yn y mynydd. Ecs. xxxix. 43. Ioan xx. 21—23. 1 Cor. iii. 9; iv. 9.

Cadwn gan hyny y gwahaniaethau hyn yn amlwg, ac na osodwn apostol yn lle Crist, na Christ yn lle un o'r apostolion. Na fydded neb ond Crist yn archoffeiriad

ac yn aberth i Dduw dros ein heneidiau; nac un athrawiaeth i chwi megis genau Crist, ond yr hon ag sydd apostolaidd, er hyfforddiad i'ch parotoi chwi, ac i barotoi defnyddiau at y deml hon o eiddo Duw, a'u gosod hwynt mewn trefn ar y sylfaen hon.

VIII.—*Yn nghylch Gwerthfawrogrwydd y Meini a osodwyd yn Sail i'r Deml.*

Y meini a osodwyd yn sail i'r deml oeddynt nid yn unig yn *fawr*, ond hefyd yn *feini gwerthfawr:* er nad oeddynt, fel y dywedais eisoes, o honynt eu hunain, ddim mwy rhagorol na'r rhai o'r un natur â hwynt a adawyd yn ol; eto yr oeddynt yn werthfawrocach o lawer *o achos yr ychwanegiad a roddwyd atynt* wrth archiad y brenin.

1. O achos y boen a gymerwyd i'w llifio, cerfio, a'u pedrogli hwynt: canys y gweision, y rhai oedd dra chywrain yn y gwaith hwn, a ddangosasant yr eithaf o'u cywreinrwydd a'u poen ynddo, trwy osod y meini mewn trefn ragorol, ac a ychwanegasant at eu maintioli a'u tegwch, yr hyn oedd addas i feini ar ba rai yr oedd y fath adeilad godidog i gael ei adeiladu.

2. Y meini hyn, heblaw eu bod wedi eu cywreinio oddifewn ac oddiallan, oeddynt hefyd wedi eu brodrio a'u harddu â meini eraill mwy costus na hwynt-hwy eu hunain, ïe, â meini o amryw liwiau; yn ol yr hyn a ddywedwyd trwy y prophwyd: "Mi a'th sylfaenaf â meini saphir" Esay liv. 11. Nid oherwydd bod y seiliau yn saphir, ond yr oeddynt wedi eu brodrio â hwynt; neu fel y dywedir mewn lle arall, fod y deml "wedi ei harddu â meini teg a rhoddion." Luc xxi. 5.

Hyn sydd yn wastad yn helaethach ac amlycach yn y lleoedd y mae yn ysgrifenedig am Jerusalem Newydd (yr hon ydyw eglwys Testament Newydd ar y ddaear, ac felly yr un mewn sylwedd â'r un sydd yn awr), "a seiliau mur y ddinas oedd wedi eu harddu â phob rhyw faen gwerthfawr." Dat. xxi. 19. Gwir yw, fod y rhai hyn yn cael eu galw yno, "seiliau mur y ddinas," ond y mae yn berthynol i'r mater yn llaw; canys yr hyn a elwir o'r blaen yn deml, oblegid ei fychander, a elwir yma, oblegid ei mawr gynydd, yn ddinas: a seiliau mur y ddinas, yn gystal a'r deml, "ydynt ddeuddeg apostol yr Oen." Dat. xxi. 14.

Canys y cerfiadau a'r brodriadau hyn, yn nghyd â phob prydferthwch arall, oeddynt gysgodau o anfeidrol ddoniau a grasusau yr apostolion: oddiwrth yr hyn y geilw yr apostol y fath ddoniau yn "arwyddion apostoliaeth." Rhuf. xv. 19. 2 Cor. xii. 21. Heb. ii. 4. Canys megis ag yr oedd sylfeini y deml wedi eu taclu a'u cymhwyso â galwad, doniau, a grasusau perthynasol iddynt hwy eu hunain; o achos paham y dywedodd, "yn gyntaf apostolion," oblegid mai hwynt-hwy oeddynt gyntaf ac yn benaf yn eglwys Crist. 1 Cor. xii. 28.

Ac nid yn sylfaen y deml yn unig y gosodwyd y meini hyn, ond hefyd "i'r

cyntedd mawr yr oedd o amgylch, dair rhes o honynt, ac i gyntedd ty yr Arglwydd oddifewn, ac i borth y ty." 1 Bren. vii. 12. Yr hyn sydd yn arwyddocau, y dylai y rhan oddiallan yn gystal a'r rhan oddifewn, o addoliad Duw, gael ei sylfaenu ar athrawiaeth a gorchymynion apostolaidd. 1 Cor. iii. 10—12. 2 Thes. ii. 15; iii. 6. Heb. vi. 1—5.

## IX.—*Pa Ffordd yr oedd Wyneb y Deml yn Sefyll.*

1. Y deml a adeiladwyd â'i hwyneb *tua'r dwyrain*, o achos (fel y mae'n debygol) bod "gogoniant Duw Israel i ddyfod o ffordd y dwyrain iddi." Ezec. xliii. 1—5; xlvii. 1. Oherwydd paham, yn gymaint a bod talcen y deml tua'r dwyrain, y mae hyny yn ein dysgu y myn gwir eglwys Dduw fod â'i llygaid tuag at, a'i disgwylfa oddiwrth, yr Arglwydd. "Yr ydym yn edrych," medd Paul, ond i ba le? "Ein hymarweddiad ni," medd efe, "sydd yn y nefoedd, o'r lle hefyd yr ydym yn disgwyl yr Iachawdwr." 2 Cor. iv. 18. Phil. iii. 20, 21. Salm. lxii. 5.

2. Wyneb y deml oedd tua'r dwyrain, i gadw pobl Dduw rhag eilun-addoliaeth, sef rhag addoli llu y nefoedd, a'r haul, codiad pa un sydd o'r dwyrain. Canys gan fod wyneb y deml yn edrych tua'r dwyrain, a chan fod yr addolwyr i addoli â'u hwynebau tua'r deml, fe ganlyn, fod eu hwynebau wrth fyned, ac hefyd wrth addoli yno oddiwrth, a'u cefnau tuag at yr haul. Eu gwaith, gan hyny, yn adeiladu y deml fel hyn, oedd i faglu yr eilun-addolwyr, ac i brofi zel y gwir addolwyr; felly hefyd y mae gwir addolwyr yr efengyl hyd y dydd heddyw: oddiwrth yr hyn y dywedir ei fod efe a'r eilun-addolwyr yn fagl ac yn faen tramgwydd, ond i'r duwiol yn ogoniant. Esay viii. 14; lx. 19.

3. Gwelwch fel y daliodd Duw yr Iuddewon eilun-addolgar trwy y modd hyn yn eu drygioni: "Ac efe a'm dug," medd y prophwyd, "i gyntedd ty yr Arglwydd oddifewn, ac wele wrth ddrws teml yr Arglwydd, rhwng y porth a'r allor, yn nghylch pùm wr ar hugain, a'u cefnau tuag at deml yr Arglwydd, a'u hwynebau tua'r dwyrain." Ezec. viii. 16. Wyneb y deml, gan hyny, oedd tua'r dwyrain, i rwystro gau addoliadau, ac i ddatguddio eilun-addolwyr.

4. O'r dwyrain y daeth y gwyntoedd mwyaf tymhestlog, gwyntoedd ag sydd niweidiol i ddyn ac anifail, i ffrwythau a choedydd, a llongau ar y môr. Exod. x. 13. Job xxvii. 21. Ezec. xvii. 10; xix. 12. Salm xlviii. 7. Ezec. xxvii. 26. Ië, yr ydwyf yn dywedyd, mai y dwyrein-wynt sydd fwyaf niweidiol; eto chwi a welwch fod wyneb y deml yn ei erbyn ef, i ddangos nad ellir deifio eglwys Dduw, neu beri iddi droi yn ol trwy un math o orthrymder. Nid y dwyrein-wyntoedd, na'u hawelau, a bâr i'r deml droi. Oddiwrth hyn y dywedir, "Ni chywilyddir Jacob, ac ni lasa ei wyneb ef." Esay xxix. 22. Ac hefyd, "Gwnaethum dy wyneb yn gryf yn erbyn eu hwynebau hwynt, a phyrth uffern nis gorchfygant hi." Ezec. iii. 8. Mat. xvi. 18.

5. Fe allai hefyd ei hadeiladu â'i hwyneb tua'r dwyrain, i ddangos fod y wir eglwys yn disgwyl (fel y dywedais eisoes) am ei Harglwydd a'i Brenin o'r nefoedd, gan wybod y dug efe ar ei ddyfodiad feddyginiaeth yn ei esgyll: canys o'r dwyrain yr ymddengys efe pan y dêl yr ail waith heb bechod, er iachawdwriaeth; yr hyn beth y mae yr haul yn ei goffhau i ni yn ei godiad yno bob boreu. "Oblegid fel y daw y fellten o'r dwyrain, ac y tywyna hyd y gorllewin; felly hefyd y bydd dyfodiad Mab y dyn." Mal. iv. 2. Heb. ix. 28. Col. iii. 3. 2 Pedr i. 12—14. Mat. xxiv. 27.

6. Mae Crist, megis y pegwn-gogleddawl, yn tynu y sawl a gyffyrddo â maentyn ei air, ag wyneb eu heneidiau tuag ato ef, i ddisgwyl am, ac i frysio at ei ddyfodiad. A hyn hefyd a arwyddoceir trwy fod y deml yn sefyll â'i hwyneb tua'r dwyrain.

### X.—*Yn nghylch Cynteddau y Deml.*

Yr ydwyf yn deall fod *dau gyntedd* yn perthyn i'r deml. Y cyntaf a elwid *y cyntedd nesaf allan*. Ezec. xl. 17; xlvi. 21.

1. Hwn oedd yr un ag oedd raid i'r bobl fyned iddo, pan yr aent i'r deml i addoli; yn ganlynol, hwn oedd yn, ac wrth ba un yr oedd y bobl yn gyntaf yn dangos eu dymuniad i fod yn addolwyr Duw: a hwn sydd yn gyfatebol i'r argoelion a'r arwyddion hyny o gariad rhai pobl at grefydd mewn lliw ac ymddangosiad oddiallan. Mat. xxiii. 27. 2 Cor. x. 7.

2. Yn hwn, er y dichon fod yma weithiau wirionedd, eto, yn fynychaf gelwydd a rhagrith; felly yn gyffredinol y gosodir ymddangosiad oddiallan mewn cyferbyniad i ffydd a gwirionedd, fel y mae yr un oddiallan mewn cyferbyniad i'r cyntedd nesaf i mewn, a'r un oddiallan i'r dyn oddifewn; a hyny yw, pan y mae wrtho ei hun, nis gall weini dim budd. Rhuf. ii. 28. 1 Cor. xiii. 1—3. 2 Cor. v. 12.

3. Oddiyma y gellir dysgu, nad ydyw y cyntedd nesaf allan ddim i ni yn awr, er ei fod yn rhyw beth i'r Iuddewon, oherwydd bod gwahan rhyngddynt a'r cynteddoedd wrth eu cyrph oddiallan; "canys yn awr nid yw efe Iuddew ag sydd felly oddiallan yn unig:" am hyny yn holl amser teyrnasiad y bwystfil, y cyntedd yma a roddir i'w ddamsang dan draed: canys ni thâl ymddangosiad oddiallan ddim pan ddêl y bwystfil i ysgwyd a thaflu proffeswyr â'i gyrn. Dat. xi. 12.

4. Ond megis ag yr oedd yno gyntedd nesaf allan, felly yr oedd yno *gyntedd nesaf i mewn*, ïe, cyntedd yn nes at y deml, ac felly yn nes at wir addoliad Duw na'r un nesaf allan. Ezec. x. 13; xlvi. 1. 1 Bren. vi. 36.

5. Y cyntedd nesaf i mewn oedd yn un a elwid *cyntedd yr offeiriad*, oherwydd mai yno yr oeddynt yn berwi yr aberth dros gamwedd, a'r pech-aberth. 2 Cor. iv. 9. Ezec. xlvi. 20.

6. Y cyntedd hwn oedd y fan lle yr oeddynt yn ymarfer ac yn parotoi eu hunain i ymddangos gerbron Duw, yr hyn yw arwydd gyntaf o feddwl gonest a diragrith. Oherwydd paham, yma, ac nid yn y cyntedd nesaf allan, yr oedd yr allor bres yn sefyll, yr hon oedd yn gysgod o Grist, trwy ba un yn unig yr oedd y gwir addolwyr i ddynesu yn gymeradwy at Dduw. Yma hefyd yr oedd y pulpid pres yn sefyll, ar ba un y penliniai y brenin pan y gweddiai dros y bobl, cysgod o weddiau Crist dros ei eiddo pan yr oedd ar y ddaear. 1 Bren. ii. 2 Cron. vi. 13. Ioan xvii.

7. Oherwydd paham, yr oedd y cyntedd hwn yn gysgod o addoliad ymarferol, ac felly o'n gweddi, ein gwrando, a'n bwyta, o flaen Duw. Yr oedd yn perthyn i'r cyntedd hwn amryw byrth, sef porth y deau, porth y gogledd, a phorth y dwyrain; a phan yr elai pobl y tir i'r cyntedd hwn i addoli, nid oeddynt i fyned allan trwy yr un porth ag y daethant i mewn, ond trwy y porth oedd gyferbyn ag ef; i ddangos y dylai gwir Gristionogion fyned yn eu blaen yn ddianwadal, a pheidio troi yn eu hol, beth bynag a gyfarfyddont ar y ffordd. "Yr hwn a ddêl i mewn ar hyd ffordd porth y gogledd i addoli, a â allan i ffordd porth y deau; a'r hwn a ddelo ar hyd ffordd porth y deau, a â allan ar hyd ffordd porth y gogledd: na ddychweled i ffordd y porth y daeth i mewn trwyddo, eithr eled allan ar ei gyfer." Ezec. xlvi· 9.

8. Y cynteddau hyn oeddynt leoedd o hyfrydwch mawr i'r Iuddewon, fel y mae proffes yn gystal y ffugiol a'r diragrith i'r sawl sydd yn ei hymarfer. Am hyny yr Iuddewon pan yr elent i mewn i'r rhai'n, a arferent wneuthur hyny â mawl ac â phibau, fel y mae yn gystal y rhagrithwyr a'r rhai diragrith yn gwneuthur. Felly, gan hyny, pan y rhodio dyn yn y cyntedd yma, a throi mewn gwirionedd i fod y fath un ag y dylai; y pryd hyny, ac nid hyd y pryd hyny, y mae efe yn eu damsang hwynt fel y dylai: canys y pryd hyny nid yw ond gwneuthur y cyntedd nesaf allan ond llwybr i fyned i'r un sydd nesaf i mewn a'r glanaf. Yr hwn sydd yn aros yn yr un nesaf allan, nid ydyw yn boddloni Duw; canys nid yw yn ymarfer â'r hyn y mae yn ei broffesu â'i enau.

### XI.—*Yn nghylch yr Allor Bres fawr oedd yn sefyll yn y Cyntedd nesaf i mewn o'r Deml.*

Yn y *cyntedd nesaf i mewn* yr oedd yr *allor bres fawr* a wnaethai Solomon, yn sefyll: hyn sydd eglur, canys pan y gostyngai ar ei liniau ar y pulpid pres, yr oedd yn ymostyngiad o flaen yr allor. Exod. xl. 6, 29. 2 Cron. vi. 13. 2 Bren. xvi. 4. ii. 17.

2. Y mae yn debygol fod yr allor hon yn sefyll yn nghanol y cyntedd, gyferbyn a phorth y tŷ; a rhyngddi hi a'r deml oedd y fan y lladdwyd Zacarias. Yr allor hon a elwid *allor y poeth-offrwm*, ac am hyny oedd yn gysgod o Grist yn e'

fawrhydi; oblegid corph Crist oedd ein gwir boeth-offrwm ni, o ba un yr oedd cyrph yr anifeiliaid a aberthwyd yn gysgod. Yn awr, yr allor hon ar ba un yr offrymwyd ei gorph ef, oedd ei Dduwdod: oblegid hwnw yn unig a allai gynnal yr aberth hyny i fyny yn ei holl ddioddefiadau, am hyny hwnw yn unig oedd i dderbyn y brasder, sef y gogoniant: oddiwrth yr hyn y dywedir, "Efe trwy yr Yspryd tragywyddol a'i hoffrymodd ei hun yn ddifai i Dduw." Heb. ix. 14.

3. Canys y mae Crist yn offeiriad, yn aberth, yn allor, ac oll yn oll. Ac megis offeiriad yr offrymodd, megis aberth y dioddefodd, ac megis Duw y cynorthwyodd efe ei ddyndod i ddioddef yr holl boenau yr aeth efe trwyddynt. Gal. i. 4; ii. 20. 1 Pedr iii. 18. Heb. ix. 14.

4. Duwdod Crist, gan hyny, ac nid y coed, oedd allor y poeth-offrwm, trwy ba un yr offrymodd Crist ei hun yn offrwm ac yn aberth i Dduw o arogl peraidd.

5. Y mae yn amlwg mai nid y pren oedd hi, canys nid allai hwnw sancteiddio y rhodd, sef, ei gorph; ond y mae Crist yn sicrhau, "Mai yr allor sydd yn sancteiddio y rhodd:" a thrwy ddywedyd felly, y mae efe yn gwirio fod yr allor ar ba un yr offrymodd efe ei aberth, yn fwy na'r aberth ei hun. Mat. xxiii. 19. Yn awr, corph Crist oedd y rhodd; canys felly y dywed: "Yr wyf yn rhoddi fy nghnawd dros fywyd y byd." Ioan vi. 51. Ond yn awr, pa beth sydd fwy na'i gorph, ond yr allor, sef ei Dduwdod, ar ba un yr offrymodd ef? Am hyny nid y pren oedd yr allor a sancteiddiodd y rhodd, i'w gwneuthur yn ddigon rhinweddol i fod yn gymod am ein hanwiredd. Ioan vi. 15; xvii. 19.

Yn awr, gan fod allor y poeth-offrwm wedi ei gosod yn y cyntedd nesaf i mewn, fe ddysgir i ni amryw bethau:

1. Nad yw y sawl sydd yn dyfod i'r cyntedd nesaf allan yn unig, neu yn gorphwys mewn gwag ymddangosiad o Gristionogrwydd, trwy wneuthur felly, yn dyfod at Grist; canys nid yno y mae yr allor hon yn sefyll. Oddiyma y mae Ioan yn dàl sylw ar y deml a'r allor, a'r sawl sydd yn addoli yno, ac yn gadael heibio y cyntedd nesaf allan, ac felly y sawl nad ydynt yn dyfod yn mhellach. Dat. xi. 1, 2.

2. Mae hyn yn ein dysgu hefyd, y dylem fyned i mewn i'r deml hon o eiddo Duw trwy waed. Yr oedd yr allor hon, sef allor y poeth-offrwm, yn sefyll ar y ffordd yr oeddynt yn myned i'r deml, yr oedd yn rhaid iddynt fyned heibio iddi; ïe, a gadael eu hoffrwm yno, ac felly myned i mewn ac addoli, megis yn arwydd eu bod yn dyfod yno trwy aberth a gwaed.

3. Ar yr allor hon yr offrymodd Solomon, wrth gysegru y deml, filoedd o ychain a defaid; i arwyddocau yn sicr y gwerthfawrogrwydd anfeidrol a fyddai yn ngwaed Crist i achub, pan y tywelltid drosom ni; canys ei waed ef a grybwyllir am dano "gyda pha faint mwy?" "Oblegid os ydyw gwaed teirw a geifr, a lludw anner, wedi ei daenellu ar y rhai a halogwyd, yn sancteiddio i bureiddiad y cnawd; pa

faint mwy y bydd i waed Crist, yr hwn trwy yr Yspryd tragywyddol a'i hoffrymodd ei hun yn ddifai i Dduw, buro eich cydwybod chwi oddiwrth weithredoedd meirwon, i wasanaethu y Duw byw?" Heb. ix. 14; x. 11, 12. 2 Cron. vii. 5—8.

Ni anturiwn, gan hyny, lestair, neu aros yn y cyntedd nesaf allan, canys nid ydyw yr allor hon yno. Nac anturiwn i fod yn ddiofal pan y delom i'r cyntedd yma, pa un a edrychom ar yr allor hon ai peidio: oblegid trwy waed mae yn rhaid i ni fyned i mewn; "canys heb dywallt gwaed nid oes maddeuant" Golchwn, gan hyny, ein dwylaw mewn diniweidrwydd bob amser pan y delom yma, "ac felly amgylchwn yr allor sanctaidd hon:" oblegid trwy Grist, yr hwn ydyw y wir allor, y cymodir ni â Duw. Hyn ydyw "edrych ar yr Iesu;" hyn ydyw dyfod at Dduw trwyddo ef, o'r hwn yr oedd yr allor a'r aberth ag oedd arni yn gysgod.

### XII.—*Yn nghylch y Colofnau ag oedd o flaen Porth y Deml.*

Yr oedd amryw golofnau yn perthyn i'r deml: ond yn y fan hon ni siaradwn ni ond yn nghylch dau yn unig; sef *y rhai a safant o flaen y deml.*

Yr oedd y colofnau hyn yn sefyll o flaen y porth neu y mynediad i'r deml, yn edrych tua'r allor, y cyntedd, a'r rhai a addolent yno: yr oedd hefyd yn addurn a harddwch mawr i wyneb y tŷ.

1. Y colofnau hyn a safent wrth ddrws porth y deml, y naill o'r tu dehau, a'r llall o'r tu aswy, ac yr oedd enwau arnynt, yn ddiameu, i arwyddocau rhyw beth. Fe elwid yr un o'r tu dehau Jachin (sef Duw a sicrha): a'r un o'r tu aswy Boaz (ynddo y mae nerth). 1 Bren. vii. 21. 2 Cron. iii. 17.

2. Y ddau golofn hyn oeddynt gysgodau o apostolion Crist, o apostolion yr enwaediad, a'r dienwaediad. Y mae yr apostol Paul, gan hyny, yn eu galw hwynt yn golofnau; Gal. ii; ac yn dywedyd fod y golofn o'r tu dehau yn gysgod o hono ef a'i gyfeillion, y rhai oeddynt i fyned at y dienwaededig, ac i ddysgu ffordd y bywyd i'r Cenhedloedd: "A phan wybu Iago, a Cephas, ac Ioan, y rhai a dybid eu bod yn golofnau, y gras a roddwyd i mi, hwy a roddasant i mi ac i Barnabas ddeheuddwylaw cymdeithas; fel yr elem ni at y Cenhedloedd, a hwythau at yr enwaediad. Gal. ii. 9. Am hyny y ddau golofn hyn oeddynt gysgodau o'r ddau fath drefn hyn o'r apostolion yn eu hamrywiol wasanaeth i Dduw.

3. Fe ddangosir yn mhellach fod y golofn o'r tu dehau yn arwyddocau Paul a Barnabas, sef mai hwynt-hwy oedd apostolion y Cenhedloedd, lle y mae efe yn dywedyd, "Myfi ydyw gweinidog Iesu Grist at y Cenhedloedd, gan weini efengyl Duw, fel y byddai offrymiad y Cenhedloedd yn gymeradwy, wedi ei sancteiddio gan yr Yspryd Glân. Rhuf. xi. 13; xv. 16.

3. Fe ddangosir yn mhellach fod y golofn o'r tu dehau yn arwyddocau Paul a Barnabas, sef mai hwynt-hwy oedd apostolion y Cenhedloedd, lle y mae efe yn

dywedyd, "Myfi ydyw gweinidog Iesu Grist at y Cenhedloedd, gan weini efengyl Duw, fel y byddai offrymiad y Cenhedloedd yn gymeradwy, wedi ei sancteiddio gan yr Yspryd Glân." Rhuf. xi. 13; xv. 16.

4. Ac yn gymaint a bod enw y golofn hon Jachin (Duw a sicrha), y mae yn dangos y byddai nid yn unig ymosodiad yn ei erbyn, ond hefyd y bendithiai Duw ei air a bregethid ganddynt hwy i'r Cenhedloedd, er tröedigaeth lliaws aneirif o honynt, er gwaethaf holl ymosodiad a gwrthwynebiad y gelyn.

Hyn a arwyddoceir yn mhellach, oherwydd eu bod wedi eu gwneuthur o bres, fel y mae efe yn dywedyd am y prophwyd, "Myfi a'th wnaethum yn fôr pres cadarn, ac yn golofn haiarn;" ac nis gorchfyga eu hymdrech dydi. Oherwydd paham, Paul a ddywed am dano ei hun, "Er amddiffyn yr efengyl y'm gosodwyd," fel y parhai y gwirionedd o honi gyda chwi. Phil. i. 17. Gal. ii. 5.

XIII.—*Yn nghylch Uchder y Colofnau hyn a safent fel yma o flaen Porth Drws y deml.*

Yr oedd pob un o'r colofnau hyn yn *ddeunaw cufydd* o hyd, yn uwch ddwywaith nag un cawr ag ydym yn darllen am dano erioed yn y gair; canys nid oedd yr uchaf ydym yn ddarllen am dano ond chwech cufydd a dyrnfedd. Gwir yw, yr oedd pren gwely Og yn naw cufydd ei hyd, ond yr wyf yn credu fod y cawr ei hun yn fyrach. Deut. iii. 14. 2 Cron. iii. 15. Ond gosodwch yr uchaf ar yr uchaf, y naill ar ysgwyddau y llall, er hyny yr oedd pob colofn yn uwch na hwynt-hwy. Uchder y colofnau hyn, gan hyny, sydd i ddangos i ni pa fath uchelfraint a osododd Duw ar y seintiau hyn a alwodd efe i fod yn apostolion yr Oen; canys eu swydd a'u galwedigaeth i hyny ydyw yr uchaf yn eglwys Dduw. Y gwŷr hyn, meddaf, a wnaethpwyd cyn uched a hyn, trwy eu bwrw i'r fath ffurf. Yn nghylch yr hyn a chwanegodd eto yn mhellach at eu huchder, nyni a siaradwn yn y màn: nid ydym yn awr ond yn unig yn siarad am yr alwad uchel, trwy ba un y gwnaethpwyd hwy, a hwy yn unig yn gymhwys i'r fath awdurdod apostolaidd. Yr apostolion a ddanfonwyd yn ddigyfrwng, eu galwad oedd anarferol, eu swydd yn gyffredinol, eu hawdurdod oedd yn gyffelyb yn mhob eglwys, a'u hathrawiaeth yn anffaeledig. Act. xxvi. 16. 1 Col. ix. 1. Gal. i. 1. 1 Ioan. i. 1—3. Ioan ii. 23. Pa beth a all ein cewri ffuantus ni wneuthur neu ddywedyd mewn cyffelybiaeth i'r rhai hyn? Y gwir yw, nid yw pawb eraill, mewn cyferbyniad i'r rhai hyn, ond pobl fyrion, isel, anamlwg, gweinion, ac îs eu llaw hwynt, nid yn unig mewn galwad a swydd ond hefyd mewn doniau a gras. Y mae y geiriau hyn, "Paul, apostol Iesu Grist," yn boddi y cyfan. Pa beth, gan hyny, ydyw pob titl arall o rodres neu fawredd, pan eu cymharir â'r geiriau hyn? Gwir, nid oedd y gwŷr ynddynt eu hunain ond gwael; canys beth oedd Paul neu Apolos, neu beth oedd Iago ac Ioan? Eto trwy

eu galwad i'r swydd hòno, hwy a wnaethpwyd yn uchaf oll yn yr eglwys. Crist a'u cyfododd hwy yn ddeunaw cufydd o uchder, nid mewn meddwl, canys yr oedd llawer felly yn uwch na hwynt, ond mewn swydd, galwad, ac awdurdod ddwyfol. A dàlier sylw, fod y colofnau yn sefyll wrth borth y deml, trwy ba un yr oeddynt yn myned i mewn i addoli Duw, i ddangos fod pob addoliad cywir, y fath ag sydd gymeradwy gan Dduw, trwy, ac yn ol eu hathrawiaeth hwynt.

XIV.—*Yn nghylch Cnapau Colofnau y Deml.*

Fe wnaethpwyd hefyd *ddau gnap* i osod ar benau y colofnau, a'r cnap oedd ar ben pob un yn *bum cufydd ei uchder*. Y rhai hyn a osodwyd *i harddu y colofnau,* ac am hyny oeddynt gysgodau o ddigonoldeb y gras a osododd Duw ar yr apostolion ar ol adgyfodiad ein Harglwydd. Megis gan hyny y dywedir yma, "yr oedd y cnapau ar benau y colofnau," felly y dywedir "fod gras mawr ar yr holl apostolion." Act. iv. 33.

Yr oedd yn perthyn i'r, ac wedi gosod ar y cnapau hyn, *gnap coronog,* wedi ei wneuthur ar *lun gorflwch,* i ddangos, ysgatfydd, eu chwanogrwydd a'u cymhwysder i dderbyn, a'u helaethrwydd i ddàl gwlith y nefoedd, yn gysgod o athrawiaeth yr efengyl, pa athrawiaeth oedd yr apostolion, megis y rhai penaf, i'w derbyn a'i dàl allan i'r byd er eu dychweliad. Am hyny, megis ag yr oedd y cnapau coronog yn gymhwys i dderbyn gwlith y nefoedd, felly y dywedir i'r rhai hyn dderbyn gras, sef apostoliaeth er ufudd-dod i'r ffydd yn mhlith yr holl genedlaethau, er mwyn ei enw ef. Rhuf. i. 5. 1 Bren. vii. 16, 42. 2 Cron. iv. 13. Deut. xxxii. 1. Rhuf. xv. 29.

Yr oedd hefyd ar y cnapau hyn *rwyd-waith,* er ychwanegu eu tegwch. Y rhwydau hyn oeddynt yn dangos i ba ddiben yr ordeiniwyd y swydd apostolaidd; sef, y byddai iddynt hwy trwy eu pregethiad ddwyn eneidiau lawer at Dduw; am hyny Crist a'u geilw hwynt yn bysgodwyr, gan ddywedyd, "Chwi a ddeliwch ddynion." Mat. iv. 19. Marc i. 17. Luc v. 10. 2 Cor. xii. 16.

Y byd a gyffelybir i'r môr; dynion i bysgod; a'r efengyl i rwyd. Ezec. xlvii. 10—15. Mat. xiii. 47—51. Megis, gan hyny, y mae dynion yn dàl pysgod â rhwyd, felly yr oedd yr apostolion yn dâl dynion â'u gair, pa air, fel y dywedais eisoes, yn ol fy marn i, a arwyddoceir wrth y rhwyd-waith hwn ar benau y colofnau. Gwelwn, gan hyny, ddirgelwch Duw yn y pethau hyn.

XV.—*Yn nghylch y Pomgranadau oedd yn gysylltiedig wrth y Rhwydau hyn ar y Cnapau.*

Yr oedd hefyd yn gysylltiedig wrth y rhwydau hyn, ar benau y colofnau, bomgranadau lawer, sef *pedwar cant* at y rhwyd-waith. Pomgranadau, fel y gwyddoch, ydynt *dêg* i'r golwg, yn *beraidd* i'r genau, yn *llesol* i'r cylla, ac yn *ddymunol* eu sudd.

1 Bren. vii. 42. Can. iv. 3, 13; vi. 11; vii. 12; viii. 2. Yr oedd dwy res o'r pomgranadau hyn i un rhwyd-waith, a dwy res o honynt i'r un arall.

Yr oedd hyn yn dangos nad yw rhwyd yr efengyl yn beth gwag; ond ei bod wedi ei habwydo yn ddigonol â'r fath ddanteithion ag sydd chwanog i ddenu y byd i gael ei ddàl ganddynt. Nid yw y gyfraith ond swn geiriau, eithr nid yw yr efengyl felly: y mae hon wedi ei habwydo â phomgranadau, ac amrywiaeth o bethau rhagorol: am hyny y gelwir hi efengyl y deyrnas, ac efengyl gras Duw; o achos ei bod wedi ei habwydo â gras a gogoniant, fel y dener ac y dalier pechaduriaid â hi i'w hiachawdwriaeth dragwyddol. Mat. xxiv. 14. Act. xx. 24. Gras a gogoniant! y rhai hyn ydyw y pomgranadau â pha rai yr abwydwyd gair yr efengyl, fel y dalier ac yr achuber pechaduriaid trwy hyny. Yr oedd rheswm neu chwedl yn yr oes gynt, "Llaeth a mel;" hwnw, meddaf, oedd yr abwyd hudol, â pha un y tynodd Moses chwech chan mil gynt o'r Aipht i'r anialwch. Exod. iii. 8. Ond wele, y mae genym ni bomgranadau, ïe, ddwy res o honynt; gras a theyrnas, megis yn abwyd yr efengyl sanctaidd; nid rhyfedd, gan hyny, pan y bwriodd dynion cywrain y rhwyd hon i'r môr, iddynt ddàl y fath helfa o bysgod, a hyny trwy un bregeth. Act. ii. Hwy a abwydasant eu rhwydau â phethau serchus, pethau dymunol i'r llygaid a'r archwaeth.

Rhwydau, yn wir, ydynt offerynau marwolaeth; ond rhwyd yr efengyl sydd yn dàl i dynu oddiwrth farwolaeth; gan hyny y rhwyd hon sydd i'r gwrthwyneb, bywyd ac anfarwoldeb a ddygwyd i oleuni trwy hon. Na ryfeddwch, gan hyny, fod dynion cyn lawened, a'u bod o lawenydd yn neidio megis pysgod yn y rhwyd, pan y gwelont eu hunain wedi cael eu dàl yn yr helfa hon o efengyl Mab Duw. Y maent wedi cael eu dàl rhag marwolaeth ac uffern, eu dàl i fyw gyda Duw mewn gogoniant.

### XVI.—*Yn nghylch y Cadwynau oedd ar y Colofnau ag oedd yn sefyll o flaen y Deml.*

Megis ag yr oedd yno rwydau i ddàl, a phomgranadau i abwydo, felly hefyd yr oedd yn perthyn i'r cnapau hyn *gadwynau ar y colofnau hyn:* "ac efe a wnaeth gadwynau fel yn y gafell, ac a'u rhoddodd ar ben y colofnau." 2 Cron. iii. 16. Ond o ba beth yr oedd y cadwynau hyn yn gysgod? Atebaf: yr oeddynt, ysgatfydd, yn gysgod o'r rhwymau sydd yn cyd-fyned â'r efengyl, â pha rai y delid ac y rhwymid eneidiau yn dýn wrth gyrn yr allor. Efengyl gras, a rhwymedigaethau yr efengyl, ydynt gylymau a rhwymau: hwy a allant ddàl y sawl a feglir gan y gair: "Cariad sydd gryf fel angau." Rhwymau cariad, a rheffynau dynol a chadwynau a gymerant afael ar y sawl a ddelir gan yr efengyl. Hos. xi. 3, 4. Can. viii. 6. Ond nid yw y cryfder hwn i rwymo, yn gorwedd mewn gallu oddiallan,

eithr mewn cymhelliad hyfryd, trwy amlygiadol rinwedd cariad anhaeddiannol: "Y mae cariad Crist yn ein cymhell ni." 2 Cor. v. 14. Megis y cewch y rhwydau, felly yr oedd gan y cadwynau bomgranadau arnynt: "Ac efe a wnaeth gant o bomgranadau, ac a'u rhoddodd ar y cadwynau. 2 Cron. iii. 16. Yr oedd, gan hyny ar y cadwynau yn gystal ag ar y rhwydau, abwydau, i ddangos fod rhwymau yr efengyl yn ddaioni anwrthwynebol; y fath ag y mae dynion yn hoffi cael eu rhwymo â hwynt, ac yn gweddio ar iddynt gael eu dàl ganddynt: "Efe a rwyma ei ebol wrth y winwydden," ei saint wrth yr Iachawdwr hwn. Gen. xlix. 11.

Wrth y cadwynau hyn dangosir, gan hyny, y fath allu sydd yn swynion yr efengyl, os unwaith y clyw y neidr hwynt: ni allodd neb erioed hyd yn hyn, ag oedd yn deall eu hystyr, eu gwrthwynebu hwynt. Y maent yn alluog i wneuthur dynion yn ostyngedig, a hyny mewn gair a gweithred.

Y cadwynau yma ag oedd yn y gafell, oedd i ddangos fod rhwymau yr efengyl yn gryf, megis llawenydd y nefoedd, ac fel y gogoniant yno, a all wneud iddynt gadwynau fel yn y gafell, a'r lle sancteiddiolaf. Y nefoedd sydd yn rhwymo pechaduriaid ar y ddaear, i ffydd a gobaith o efengyl Crist.

### XVII.—*Yn nghylch y Gwaith Lili ag oedd ar y Cnapau hyny, y rhai oedd ar Golofnau y Deml.*

Yr oedd y colofnau hyn hefyd wedi *eu harddu a gwaith lili*, yn gystal a'r pomgranadau a'r cadwynau: "A'r cnapau y rhai oedd ar y colofnau oedd o waith lili: felly y gorphenwyd gwaith y colofnau." 1 Bren. vii. 19, 22.

Y gwaith lili hwn a osodwyd yma yn fwriadol, i ddangos i ni cyn belled yr oedd gwir apostolion yr Oen oddiwrth ymofyn am bethau cnawdol, neu wneuthur eu pregethu yn farch cynfas i fawredd a goruchafiaeth bydol. Yr oedd gwaith lili arnynt: hyny yw, yr oeddynt yn byw ar haelioni a gofal Duw, ac yn foddlon i'r gogoniant a osododd efe arnynt: "Nid yw lili y maes," medd Crist, "yn llafurio, nac yn nyddu: ac er hyny ni wisgwyd Solomon yn ei holl ogoniant fel un o'r rhai hyn." Mat. vi. 28, 29. Luc xii. 28, 29.

Fel hyn, gan hyny, y mae y colofnau hyn yn dangos, mai megis ag yr oedd yr apostolion i fod yn gymhwys i'w gwaith, felly hefyd fod yn rhydd oddiwrth ofalon bydol, ac yn foddlon i'r hyn a ddarparai Duw iddynt, megis y lili hardd-deg. A chan eu bod wedi eu parotoi fel hyn, hwy a osodwyd yn wyneb y tŷ, i weinidogion edrych arnynt, dysgu ganddynt, a chymeryd siampl oddiwrthynt, pa fodd i ymddwyn eu hunain yn y byd hwn wrth gyflawni eu swydd.

A'r peth sydd yn rhoddi ychwaneg o oleuni i ni yn hyn ydyw, fod y gwaith lili hwn ar gyfer canol y colofnau, yr hyn oedd gysgod o'n boliau ni. 1 Bren. vii. 20.

Peth trachwantus ydyw y bola; a'r pethau hyn, medd y testyn, a osodwyd ar gyfer y bola, i ddysgu na ddylent hwy foddhau, ond yn hytrach attal awydd a gwanc y bola; neu i ddangos nad yw raid iddynt hwy wneuthur felly oblegid y darpar yr hwn a'u galwodd hwynt at ei waith dros eu boliau. Fe ddywedir am yr eglwys, fod "ei bru fel tŵr gwenith, wedi ei hamgylchu â lili;" Can. vii. 2; i ddangos y cai hi ddigonedd heb gybydd-dod, os hi a osodai ei holl ofal ar Dduw, ei Harglwydd mawr. Hyn a wnaeth yr apostolion; ac y mae hyn yn glod ac yn ogoniant iddynt hyd y dydd hwn.

"Felly y gorphenwyd gwaith y colofnau." Fe debygir mai byw fel y lili ydyw gogoniant apostol, a pherffeithiad ei swydd a'i wasanaeth i Dduw. Ond hyn sydd yn union gyferbyn a'r bola, "ar gyfer y canol," i wneud y gwaith yn galetach. Ond eto byw fel yma ydyw y ffordd i wneuthur pob peth a wnelir yn bêr-arogl i'r sawl sydd dan y gofal hyn. Y mae cybydd-dod yn gwneuthur gweinidog i arogli yn sur, ac i edrych yn debycach i gi gwancus nag i weinidog Iesu Grist. Nid oedd mo'r gwaith lili hwn gan Judas, felly ei enw sydd yn drewi hyd y dydd heddyw. "Yr hwn a flodeua fel y lili, a leda ei wraidd megis Libanus, ei geinciau a gerddant, a bydd ei degwch fel yr olewydden, a'i arogl fel Libanus." Hos. xiv. 5, 6. Fel hyn y bu Crist fyw, yn gyntaf; a'i apostolion, yn nesaf: ac nis gall neb arall, yn hyn, fyw felly, neu gael eu cystadlu iddynt hwy. Ni chwennychasant aur nac arian, neu ddillad neb. Hwy a fuant fyw fel lili yn y byd, ac a aroglasant fel Libanus. Felly y gwelwch o bwy yr oedd y colofnau hyn yn gysgod; a pha beth yr oedd eu huchder, eu cnapau, eu cnapau coronog, eu cadwynau, eu pomgranadau, a'u gwaith lili, yn arwyddocau; a'r modd mwyaf dymunol yr oedd y cwbl yn cyfateb yn y gwrthgysgod. Yr oedd yr apostolion yn ddynion o'r gradd benaf.

## XVIII.—*Yn nghylch Agwedd y Deml.*

Am hyd a lled y deml, myfi a fyddaf ddistaw; ond am yr uchder, mi dybygaf fy mod yn gweled rhyw beth. *Yr oedd y deml yn uwch na'r colofnau,* ac felly y mae yr eglwys yn uwch na'r swyddogion, er yn îs mewn perthynas i'w doniau a'u swydd; canys fel y dywedais o'r blaen am weinidogion yn gyffredinol, felly yn awr yr wyf yn dywedyd yr un peth am yr apostolion; er eu bod mewn perthynas i'w swydd yn uchaf, eto yr oedd y deml oddi arnynt. Nid yw doniau a swydd yn gwneuthur unrhyw ddynion yn blant i Dduw: fel y cyfryw, nid ydynt ond gweision; er fod y rhai hyn yn weision o'r gradd uchaf. Yr eglwys, fel y cyfryw, sydd arglwyddes, brenhines, priodas-ferch, a gwraig yr Oen; a'r prophwydi, apostolion, a gweinidogion, &c., ydynt ond gweision, goruchwylwyr, a llafurwyr, er ei daioni. Salm. xlv. 9. Dat. xix. 7. 1 Cor. iii. 5, iv. 1, 2. Megis, gan hyny, y mae yr arglwyddes uwchlaw ei gwas, y frenhines uwchlaw ei goruchwyliwr, neu wraig uwchlaw holl swydd-

ogion ei gwr, felly y mae yr eglwys, fel y cyfryw, uwchlaw y swyddogion yma. Yr oedd y deml uwchlaw y colofnau.

2. Drachefn, megis yr oedd y deml yn uchaf, felly yr oedd hi yn ymhelaethu ei hun tuag i fyny, canys nid oedd yr ystafell isaf ond pùm cufydd ei lled, yr ystafell ganol oedd chwech cufydd ei lled, a'r drydedd yn saith cufydd ei lled. 1 Bren. vi. 5, 6. Yr oedd y deml, gan hyny, yn grwn oddi arnodd, rai cufyddau yn ehangach nag oddi tani: "ac fe a ehangwyd, ac oedd yn myned ar dro uwch-uwch i'r celloedd: oherwydd trô y tŷ oedd yn myned i fyny o amgylch y tŷ: am hyny y tŷ oedd ehangach oddi arnodd; ac felly y dringid o'r isaf i'r uchaf trwy y ganol." Ezec. xli. 7. A hyn oedd i ddangos i ai, y dylai teml efengylaidd Duw helaethu ei chalon yn wastadol tuag i fyny, yn fwyaf am bethau ysprydol a thragwyddol: am hyny, efe a ddywed, "dy galon a ofna, ac a helaethir;" hyny yw, "a rydd ei serch ar y pethau sydd uchod, lle mae Crist yn eistedd ar ddeheulaw Duw." Esay lx. 5. Col. iii. 23. Yn ddiau natur gras ydyw ymhelaethu ei hun tuag i fyny yn wastad, a gwneuthur y galon yn ehangach i bethau sydd uchod.

Yr oedd y deml yn gulach tuag i wared, i ddangos mai ychydig o ddaear, neu o bethau y byd hwn, a wasanaetha eglwys Dduw: "ac o bydd genym ymborth a dillad, ymfoddlonwn ar hyny." 1 Tim. vi. 8. Ond yn awr fe orchymynir i ni wrth agwedd y deml, ac hefyd mewn geiriau eglur, i chwennych pethau sydd uchod, sef pethau nefol, ac i ymhelaethu ein hunain iddynt. 1 Bren. iv. 29. Esay ix. 5. Phil. iii. 14. 1 Cor. xii. 21. 1 Tim. vi. 8. Salm cxix. 32. Am hyny, gan fod y deml yn ehangach i fyny nag i wared, cymerwn siampl oddiwrthi, a bydded ein hymarweddiad yn y nefoedd; bydded ein llygaid, ein clustiau, ein dwylaw a'n calonau, ein gweddiau a'n hymbiliau yn fwyaf am bethau sydd uchod: agorwn ein geneuau am bethau tragwyddol, megis ag y mae y sych-dir am y gwlaw diweddar. Job xxix. 23. Salm lxxxi. 10.

Daliwch sylw yn mhellach, mai rhanau isaf y deml oedd gulaf o'r deml; felly yn yr eglwys, y neb sydd nesaf at, neu fwyaf gofalus am y ddaear, ydynt gulaf eu hysprydoedd mewn perthynas i bethau Duw. Ond yn awr cymerer y fath un i fyny yn uwch, i ranau uchaf y deml, ac yno yr ymhelaethir ef, a'r galon yn cael ei hymestyn allan, canys chwi welwch fod y deml yn ehangach i fyny: a pha uchaf, ehangaf oedd. Nid allai Paul, pan gipiwyd ef i fyny i baradwys, lai na chael ei ymhelaethu yno. 2 Cor. xii. 2, 3. Fe all un ddywedyd am bortreiad y deml megis y dywed rhai am ddelw fywiog, sef ei bod yn llefaru. Ffurf ac agwedd y deml, meddaf, sydd yn llefaru; ïe, yn dywedyd wrth yr holl saint, ac eglwysi Crist, Agorwch eich calonau am y nefoedd, ac ymhelaethwch tuag i fyny.

Ni ddarllenais yn yr Ysgrythyr am un tŷ, ond hwn, yn ymhelaethu tuag i fyny, ac nid oes ond eglwys Dduw yn ateb y gyffelybiaeth hon. Y rhai eraill oll ydynt

ehangach i wared, a chanddynt y calonau helaethaf am bethau daearol: yr eglwys yn unig sydd ehangaf i fyny: a chanddi yr helaethrwydd mwyaf tua'r nefoedd.

XIX.—*Yn nghylch Gogoniant y Deml oddiallan.*

Yr ydwyf hefyd yn meddwl mewn perthynas i hyn, fod rhyw beth mawr yn y dywediad; llais Duw, llais ag sydd yn dysgu eglwys y Testament Newydd i gario argyhoeddiad, hyd yn oed yn ei hymarferiad allanol, fel y rhoddai argyhoeddiad i'r byd. Ac heblaw fod y deml yma yn ymhelaethu i fyny, yr oedd hefyd *y fath degwch a gogoniant oddiallan wedi ei gosod arni*, ag oedd yn denu yr edrychwyr: yr oedd y cerig wedi eu cerfio a'u cysylltu yn nghyd yn gywrain; a'i hymddangosiad oddiallan oedd yn tywynu yn ddisclaer i lygaid yr edrychwyr: ie, y disgyblion eu hunain a ddaliwyd ganddi; canys yr oedd hi mor rhyfeddol i edrych arni; oddiyma y dywedir iddynt ddyfod at Grist i ddangos iddo adeiladau y deml, gan ddywedyd, "Athraw, edrych pa ryw feini, a pha fath adeiladau sydd yma." Mat. xxiv. 1. Marc xiii. 1. Luc xxi. 5. Am hyny y dywedir ddâl brenhinoedd a phendefigion y ddaear â'i gogoniant hi: "er mwyn dy deml yn Jerusalem y dug brenhinoedd i ti anrhegion." Salm lxviii. 29, 31. Brenhinoedd, ïe, brenhinoedd y Cenhedloedd a ryfeddasant wrth edrych ar ei thegwch oddiallan, canys ni chaniatawyd iddynt hwy fyned i mewn iddi: ni chai neb dienwaededig fyned i mewn yno, am hyny â'i thegwch oddiallan y delid yr edrychwyr. Ei hymhelaethiad tuag i fyny oedd i ddangos i ni pa fath y dylai serch Cristionogion fod oddifewn." Col. iii. 1—3. Felly ei chywreinrwydd a'i thegwch oddiallan oedd yn ddull o ymarweddiad y saint, fel y gwnaethpwyd i'r rhai hyny ddywedyd am feini ac adeilad y deml oddiallan: Wele y fath Gristion ogion, a'r fath ymarweddiad hardd sydd yma! Hyfryd, meddaf, y byddai, pe llewyrchai ein goleuni gerbron dynion, fel y gorfyddai arnynt, trwy weled ein gweithredoedd da ni, ogoneddu ein Tad yr hwn sydd yn y nefoedd. Mat. v. 16. Ein hymarweddiad ni, gan hyny, a elwir ein prydferthwch, â pha un yr ydym yn harddu yr efengyl." Tit. ii. 10. Hyn, meddaf, sydd yn denu ac yn dâl yr edrychwyr, megis ag yr oedd y wyneb oddiallan i'r deml; ac heblaw hyn, pa beth sydd i'w weled yn eglwys Dduw? Ni all y byd ei gweled hi oddifewn, eithr hwy a allant weled ei hwyneb oddiallan. Nid oes ychwaith ddim tegwch i'w weled oddiallan iddi, oddieithr ei buchedd dduwiol, hyn yn unig yw ei harddwch gweledig; hyn sydd yn distewi anwybodaeth y ffyliaid: hyn sydd yn denu eraill i ymserchu yn eu hiachawdwriaeth eu hunain, ac i gwympo at Grist i wrthsefyll y diafol a'i deyrnas.

XX.—*Yn nghylch Porth y Deml.*

Yn nesaf yr ydym yn dyfod at borth y deml, sef yr hwn a elwir yn gyffredin *porth Solomon.*

1. Y porth hwn oedd yn wyneb y deml, ac felly a wnaethpwyd yn *ffordd gyffredin i fyned i'r deml.* 1 Bren. vi. 3. 2 Cron. iii. 4.

2. Y porth hwn, gan hyny, oedd y lle i dderbyn pawb yn gyffredinol, a ddaethant i Jerusalem i addoli, pa un ai Iuddewon ai proselytiaid crefyddol. Act. iii. 11; v. 12.

3. Yr oedd yn perthyn i'r porth hwn ddrws, yr hwn oedd fynychaf yn agored, oddieithr mewn amseroedd dadfeiliad, neu pan yr ymddigllonai rhai dynion yn erbyn eu gwell. 2 Cron. xix. 7. Act. xxi. 28—30.

4. Drws y porth hwn a elwid Prydferth, sef "drws prydferth y deml," wrth ba un yr oedd y gwr cloff wedi ei osod i ofyn elusen gan y rhai a elent i mewn yno i addoli. Act. iii. 1, 2, 10.

Yn awr, gan hyny, yn gymaint a bod y porth hwn yn le i dderbyn yr holl addolwyr yn gyffredinol, ac hefyd yn le y gosodent y rhai oedd yn cardota ynddo, fe edrych megis pe buasai yn gysgod o fynwes cariad yr eglwysi; yno y croesawent y proselytiaid, ac y derbyniai y tlodion elusenau, ac y caent eu dianghenu. Nid oedd y drysau hyn ond anfynych yn nghauad, felly y dylai tai tosturi Cristionogol fod yn agored yn wastadol: hyn, gan hyny, sydd yn harddu y porth hwn, megis ag y mae cariad yn harddu yr eglwysi. Helaethrwydd calon, a thosturi caruaidd wrth borth yr eglwys, sydd yn dra hyfryd: "rhwymyn perffeithrwydd ydyw." 1 Cor. xii. 31; xii. 1—5. Heb. xiii. 1—3. Ioan v. 6, 7. Col. iii. 14.

Y mae porth yr eglwys hyd y dydd hwn yn lle i'r rhai sydd yn cardota i ddyfod i mewn; a'r ymarfer hwn, ysgatfydd, a fenthycwyd gyntaf oddiwrth fod y cardotwyr yn gorwedd wrth borth y deml. Yr oedd y porth hwn yn helaeth; ac felly y dylai elusen yr eglwysi fod. Yr oedd ei hyd yn un hyd a lled y tŷ, ac o'r un maintioli a'r cysegr sancteiddiolaf. 1 Bren. vi. 3. 2 Cron. iii. 4—9.

Fe allai y cyntaf fod i'n dysgu, na ddylem fod yn gyfyng mewn cariad, eithr yn ol lled ein gallu nyni a ddylem ei ymledy i'r holl dŷ; a thrwy wneuthur felly, fod gwir ddelw y nefoedd arnom, o ba un yr oedd y cysegr sancteiddiolaf yn gysgod: "Megis, gan hyny, y caffom amser cyfaddas, gwnawn dda i bawb," &c.

Y mae yn harddwch hyfryd i wir eglwys gael o honi borth ëang, neu fynwes helaeth, i dderbyn pawb a ddelont i mewn yno i addoli. Hyn a orchymynwyd i'r Iuddewon, a'u gogoniant a ddiscleiriodd pan y gwnaethant felly: "A bydd yn mha lwyth bynag yr ymdeithio y dieithr, yno y rhoddwch ei etifeddiaeth ef, medd yr Arglwydd Dduw." Ezec. xlvii. 23. Y porth hwn oedd, fel y dywedais, nid yn unig ei hyd yn lled y deml, ac felly yn hyd a lled y cysegr sancteiddiolaf, eithr yr oedd ei hyd, onid wyf yn camsynied, lawer uwch na hwynt ill dau: canys nid oedd y lle sanctaidd ond deg cufydd ar hugain ar uchder, a'r sancteiddiolaf ond ugain; eithr y porth oedd yn chwech ugain cufydd ei uchder. Y porth Prydferth hwn, gan

hyny, oedd bedair gwaith yn uwch na'r deml ei hun. 1 Bren. vi. 2, 20. 2 Cron. iii. 4. Un harddwch godidog, gan hyny, i'r deml oedd, gael o honi borth cyn uched, hyny yw, cyn odidoced o ran uchder, mor uchel fel y gellid ei weled o bell. Y mae cariad, os bydd yn gyfoethog, yn rhedeg i fyny oddiwrth yr eglwys megis clochdy, ac a welir o bell—ïe, meddaf, os bydd yn gyfoethog, a helaeth, ac yn amlhau. Cariad Crist a gyhoeddwyd yn mhob màn; yr oedd mor uchel, fel nad allai neb mo'i guddio; a chariad yr eglwysi a welir o eglwys i eglwys, ïe, ac a ddywedir am dano er ei glod yn mhob lle, os bydd yn wresog ac yn uchel. Marc vii. 36. 2 Cor. viii. 24; ix. 2, 4, 13.

### XXI.—*Yn nghylch Addurniadau Porth y Deml.*

Yr oedd tri pheth yn perthyn i'r porth, heblaw ei uchder, ag oedd yn harddwch iddi.

I. *Yr oedd wedi ei wisgo oddifewn ag aur.*

II. *Yr oedd y colofnau yn gysylltiedig ag ef.*

III. *Yr oedd yn fynediad i mewn i'r Deml.*

1. *Yr oedd wedi ei wisgo oddifewn ag aur,* yr hwn oedd yn gysgod o ras, ac yn enwedig y gras o gariad. Can. iii. 9, 10. Y gras o gariad yn yr eglwys sydd megis aur; y mwyaf a'r gwerthfawrocaf o rasusau ydyw, a'r fath ag sydd yn aros yn dragywydd, am hyny y dywedir fod y neb ag sydd yn dangos cariad i'r saint yn gyfoethog; 1 Tim. vi. 17—19; ac am hyny y gelwir cariad yn drysor, ïe, trysor yn y nefoedd. Luc xii. 33, 34. Gras euraidd yw cariad. Bydded i'r eglwysi, gan hyny, fod wedi eu gwisgo oddifewn â chariad, megis ag yr oedd porth y deml ag aur.

2. *Yr oedd y colofnau yn gysylltiedig ag ef;* pa rai, heblaw eu huchder, oeddynt yno yn gysgodol i ddysgu siampl; canys yr oedd pedwar cufydd o'r gwaith-lili i'w weled yn y porth. 1 Bren. vii. 12. Y gwaith-lili, am yr hwn y dywedais eisoes, oedd wedi ei osod ar y colofnau, fel y gellid ei weled yn mhorth y tŷ, i fod (fel y mae yn debygol) yn siampl i ddysgu yr eglwys y dylai hi fyw yn rhydd oddiwrth ofalon bydol, megis yr oedd yr apostolion, y rhai a blanodd yr efengyl gyntaf. A gwnaed gweinidogion hyn; hwy ydynt yn awr golofnau yr eglwysi, a hwynt-hwy sydd yn sefyll o flaen porth y tŷ; dangosant hefyd eu gwaith-lili i'r tŷ, fel y dysgo yr eglwys ganddynt fod heb ofal, mewn perthynas i bethau y byd, ac hefyd i fod yn gyfoethog mewn cariad a haelioni tuag at y brodyr.

Gweinidog ariangar sydd ffiaidd: colofn yn arwyddocau yn hytrach gwraig Lot, nag apostol sanctaidd Iesu Grist; bydded iddynt hwy, gan eu bod yn sefyll wrth y drws, a chan fod llygaid pawb yn y porth arnynt, fod yn siamplau o weithredoedd da. 1 Tim. vi. 10—12. Tit. ii. 7.

3. Peth arall ag oedd yn harddu y porth, oedd *ei fod yn fynediad i'r deml.* Cariad ydyw yr hyn ag sydd yn derbyn yr ymddifaid, y tlodion, a'r cystuddiol, i'r eglwys: cariad bydol neu gnawdol a gau ei ymysgaroedd, ac hefyd ddorau yr eglwys, yn erbyn tlodion y praidd: gwiliwch, gan hyny, na chydsynioch â'r fath gariad a hwn un amser; yn hytrach deisyfwch hwnw ag sydd yn ffrwyth yr Yspryd.

O! eglwysi! bydded i'ch gweinidogion gael eu harddu gan eich cariad chwi, fel yr harddont hwy chwithau â'u cariad; ac hefyd y byddont yn harddwch i chwi, ac 'r efengyl hòno y maent yn ei gweinidogaethu i chwi er mwyn Iesu Grist.

XXII.—*Yn nghylch yr Esgynfa, ar hyd yr hon yr aent i fyny i Borth y Deml.*

Yr oedd hefyd i'r porth *rai grisiau ar hyd pa rai yr aent i fyny i dy yr Arglwydd.* Nis gwn eu rhifedi yn iawn, er bod Ezeciel yn crybwyll rhyw beth am danynt. Ezec. xl. 37, 38. Oddiyma y dywedir, pan yr elai pobl i fyny, i addoli yn y deml, eu bod yn myned i fyny i dŷ yr Arglwydd. Esay xxxviii. 22.

1. Y grisiau hyn, y rhai oeddynt esgynfa i'r deml, oeddynt wedi eu gosod mor gywrain, ac hefyd wedi eu gweithio mor hardd, fel yr oeddynt yn rhyfeddol i edrych arnynt! am hyny, pan y gwelodd brenhines Seba, yr hon a ddaeth i brofi doethineb Solomon, "y tŷ a adeiladasai efe, a'i esgynfa, ar hyd yr hon yr âi efe i fyny i dŷ yr Arglwydd; nid oedd mwyach yspryd ynddi." Hi a foddwyd ac a orchfygwyd â'r olwg hòno. 1 Bren. x. 4, 5.

2. Y grisiau hyn, pa un ai cedrwydd, aur, neu gerig; eto yr hyn a chwanegodd at eu harddwch oedd syndod y frenhines; ond â pha ddefnydd bynag y gwnaethpwyd hwynt, diau yw eu bod yn gysgod o'r ffyrdd hyny y dylem ni droedio tuag at, ac yn nhŷ yr Arglwydd. "Ffyrdd Duw; Salm lxxxv. 13; ffyrdd wedi eu trefnu ganddo; Salm xxxvii. 23; camrau wedi eu cyfarwyddo yn ei air; Salm cxix. 133; llwybrau ffydd; Rhuf. iv. 12; llwybrau yr Yspryd; 2 Cor. xii. 18; llwybrau gwirionedd; 3 Ioan 4; camrau wedi eu golchi ag ymenyn;" Job xxix. 6; llwybrau wedi eu cymeryd o flaen, neu yn mhresenoldeb Duw. Llwybrau wedi eu terfynu a'u hamgylchu â rheol ddwyfol. Y rhai hyn ydynt lwybrau yn ddiau.

3. Nid oes y fath risiau a'r rhai hyn i'w cael mewn un màn yn y byd. Grisiau neu gamrau i esgyn i anrhydedd, cyfoeth, ac i ogoniant bydol, ydynt yn mhob lle: ond beth yw y rhai hyn i'r grisiau ar hyd pa rai y mae dynion yn esgyn, neu yn myned i fyny i dŷ yr Arglwydd?

Fe ddywedir am yr hwn ag sydd yn myned i dŷ yr Arglwydd, ei fod yn ddyn esgynedig, megis am Moses, ei fod yn esgyn i fynydd Duw. Yr ydys yn esgyn wrth fyned i dŷ Dduw. Nid yw y byd yn credu mo hyn; tybied yr ydynt mai disgyn y maent wrth fyned i dŷ Dduw, eithr y maent mewn camsyniad dychrynllyd.

Y camrau hyn, gan hyny, ar hyd ba rai y mae dynion yn myned i'r deml, ydynt ac a ddylent fod yn wrthwyneb i'r rhai ag y mae dynion yn gymeryd tuag at eu trachwant a'u gwag-ogoniant, am hyny y dywedir fod y cyfryw gamrau, nid yn unig yn gogwyddo oddiwrth Dduw, eithr yn cymeryd gafael ar y llwybr sydd yn arwain i farwolaeth ac uffern. Salm xliv. 18. Diar. ii. 18; iv; vii. 25—27.

Y grisiau, gan hyny, ar hyd ba rai yr oedd y dynion yn myned i fyny i dŷ yr Arglwydd, oeddynt yn arwyddocau y llwybrau y mae dynion yn gymeryd pan y byddont yn myned tuag at yr Arglwydd i'r nefoedd a'r gogoniant, canys y grisiau hyn oeddynt y ffordd at Dduw yn ei deml sanctaidd.

Ond pa mor lleied yw nifer y rhai a ddelir, megis brenhines y dehau, â'r grisiau hardd hyn! Onid ydyw y rhan fwyaf yn hytrach yn ymgeisio i attal ein traed rhag cymeryd gafael ar lwybr y bywyd, neu ynte yn taenu maglau i ni yn y ffordd? Er y rhai hyn oll, Duw a'n harwain ni yn ffordd ei lwybrau; golygus yw y rhai hyn, a hwynt-hwy ydyw y goreu.

### XXIII.—*Yn nghylch Drws Porth y Deml.*

1. Yr oedd yn perthyn i'r porth yn yr hwn yr oedd yr esgynfa i'r deml ddrws a'r *drws hwn*, yn ol y prophwyd Ezeciel, *oedd chwech chufydd o led.* Dail y drws hwn oeddynt ddwbl; un ddalen yn plygu y naill ffordd, a'r ddalen arall ffordd arall. Ezec. xl. 48.

Yn awr fe all rhai, ysgatfydd, wrthddadleu, a dywedyd, Gan fod y ffordd at Dduw trwy y drysau hyn mor ëang, paham y mae Crist yn dywedyd fod y ffordd a'r porth yn gyfyng?—Ateb. Y cyfyngdra hyn a ddeallir nid am y drws yn unig eithr oherwydd y beichiau hyny ag y mae llaweroedd ag sydd yn cymeryd arnynt fyned i'r nefoedd yn eu dwyn gyda hwynt. *Chwech chufydd!* beth ydyw chwech chufydd ar hugain i'r hwn a fyno fyned i mewn yma â'r holl fyd ar ei gefn? Y gwr ieuanc yn yr efengyl, yr hwn oedd yn sôn cymaint am y nefoedd, a allasai fyned i mewn yn hawdd ddigon; canys mewn chwech chufydd o led y mae lle; ond druan gwr! nid oedd am fyned i mewn yno, oni allasai ddwyn ei dai ar ei ysgwyddau hefyd: ac felly y porth oedd gyfyng. Marc x. 17—23. Yr hwn, gan hyny, a fyno fyned i mewn i borth y nef, o ba un yr oedd y drws i'r deml yn gysgod, y mae yn rhaid iddo fyned i mewn wrtho ei hun, ac nid â beichiau o ddiffeithder ar ei gefn; ac os êl i mewn fel hyn, nid rhaid iddo ofni y mae lle. "Y genedl gyfiawn yr hon a geidw wirionedd, a ddaw i mewn." Esay xxvi. 2.

2. Rhaid yw i'r rhai a êl i borth y cyntedd nesaf i mewn fod *wedi eu gwisgo â lliain main;* pa fodd, gan hyny, yr â y rhai hyny i'r deml, ag sydd yn dwyn llwythi o fudreddi y byd wrth eu sodlau. "Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, ni ddaw i'm cysegr un mab dieithr, dienwaededig o galon, a dienwaededig o gnawd. Ezec. xliv. 9

3. Am hyny ëangdra y drws neu y porth hwn a grybwyllir am dano yma am yr achos hyn, sef i anog y sawl a fynant ddyfod i mewn trwyddo yn llawen, yn ol meddwl Duw, ac nid i ddenu y rhai hyny ag ni fynant ymadael â'r cwbl oll am Dduw.

4. Cofied, gan hyny, y sawl a chwennychant fyned i mewn, fod yma le, sef *drws o chwech chufydd ei led* i fyned i mewn trwyddo. Ni fuom ni yr holl amser hyn ond oddiallan i'r deml, sef yn nghynteddau tŷ yr Arglwydd, i weled yr harddwch a'r gogoniant sydd yno: godidawgrwydd yr hyn a wnaeth i ddynion ddywedyd, "Mor hawddgar yw dy babell di, O! Arglwydd y lluoedd! fy enaid a hiraetha, ïe, ac a flysia, am gynteddau yr Arglwydd," ac i ddweyd, "gwell yw diwrnod yn dy gynteddau di na mil." Salm lxxxiv. 1, &c.

## XXIV.—*Yn nghylch Pinaclau y Deml.*

1. Yr oedd hefyd yn perthyn i'r deml amryw binaclau. *Y pinaclau hyn oeddynt yn sefyll yn uchel ar y coppa, yn yr awyr, oc yr oeddynt yn flaenllym, ac yn anhawdd sefyll arnynt.* Yr hyn y mae dynion yn ddywedyd yn nghylch eu rhifedi a'u hyd, myfi a adawaf heibio, ac a ddeuaf yn union at eu harwyddocad.

2. Yr wyf, gan hyny, yn cymeryd y pinaclau hyn i fod yn gysgod o'r tybiau a'r deall uchel hyny ag y mae rhai dynion yn ymhyfrydu eu hunain â hwynt, tra y byddont megis adar yn cwhwfan uwchben gwirioneddau dwys a daionus Crist. Fe amcanodd Satan roesawu Crist â'r cynllun a'r eilun hyn ar unwaith, pan y gosododd efe ef ar binacl y deml, ac a gynygiodd ei daflu ar ymddiried ffugiol yn Nuw, trwy gyfieithiad anghywir ac anmhur o destyn. Mat. iv. 5, 6. Luc. iv. 9—11.

3. Y mae rhai math o ddynion nad allant fod yn foddlon i addoli Duw yn y deml, ond rhaid iddynt fod yn uchel; nid oes un lle a wasanaetha iddynt ond y pinaclau; fel y gallont fod yn llefaru yn ac wrth yr awyr; fel y gallont fod yn dyrchafu eu hopiniynau terfysgus yn lle gwirioneddau iachus; heb ystyried eu bod ar y cyfamser yn y fan y mynai y diafol iddynt fod; y maent yn balchio ar eu pynciau, ar eu pinaclau; ond edrychant atynt eu hunain, anhawdd ydyw sefyll ar binaclau; eu gyddfau a'u heneidiau sydd mewn perygl. Yr ydym yn darllen fod Duw yn ei deml, ond nid ar y pinaclau hyn. Salm xi. 4. Hab. ii. 20.

Gwir yw, fe fu Crist unwaith ar un o'r rhai hyn, ond y diafol a'i gosododd ef yno, mewn bwriad i'w falurio ef â chwymp, ac eto yn y cyfamser hyny a ddywedodd wrtho, os anturia efe fwrw ei hun i lawr, "Yr achubid ef rhag taro ei droed wrth gareg." I fod yno, gan hyny, oedd un o brofedigaethau Crist; ac, yn ganlynol, un o ddichellion cyfrwys Satan: ac nid aeth efe yno ychwaith o hono ei hun, canys efe a wyddai fod perygl yno; ni charodd efe ddringo i fyny pinaclau.

5. Hyn a ddylai ddysgu Cristionogion i fod yn isel yn eu golwg eu hunain,

a gochelyd rhyfygu i wybodaeth uchel a difudd, ac ymchwyddo â ffiaidd ac ofer feddyliau.

### XXV.—*Yn nghylch Porthorion y Deml.*

1. Yr oedd porthorion yn perthyn i'r deml. Yn amser Dafydd eu rhifedi oedd bedair mil. 1 Cron. xxiii. 5.

2. Y porthorion oeddynt Lefiaid, a'u gwasanaeth oedd *gwilio yn mhob porth o dy yr Arglwydd:* wrth borth y cyntedd nesaf allan, wrth borth y cyntedd nesaf i mewn, ac wrth ddrws teml yr Arglwydd. 2 Cron. xxxv. 15.

3. Gwaith y porthorion, neu yn hytrach yr achos o'u gwiliadwriaeth, oedd i edrych nad elai neb heb ei iawn gymhwyso i mewn i dŷ yr Arglwydd: "Efe a gyfleodd," medd y testyn, "borthorion wrth byrth tŷ yr Arglwydd, fel na ddelai i mewn neb a fyddai aflan mewn dim oll." 2 Cron. xxiii. 19.

4. Ardderchawgrwydd y porthorion oedd yn sefyll yn y tri pheth hyn, sef eu gwiliadwriaeth, eu dyfalwch, a'u gwroldeb, i wrthsefyll y cyfryw ag a anturient ddyfod yn anghymhwys i mewn i'r cynteddau hyn, ac i dŷ Dduw. 1 Cron. xxvi. 6. Marc xiii. 34.

5. Y porthorion hyn oeddynt gysgodau o weinidogion yr efengyl, megis y maent wedi eu gosod i fod yn wiliedyddion yn, a thros yr eglwys, a phethau sanctaidd Duw.

Megis, gan hyny, ag y mae Crist yn rhoddi i bob dyn yn yr eglwys ei oruchwyliaeth, felly y mae yn gorchymyn i'r porthorion wilied. Esay xxi. 11. Ezec. iii. 17; xxxiii. 7. Act. xx. 27—32. 2 Tim. iv. 5. Dat. iii. 2.

6. Fe ddywedir weithiau fod pob Cristion ag sydd wedi ei ddeffroi yn borthor, ac yn fath ag sydd yn agor yn ebrwydd i Grist ar yr alwad gyntaf. Luc xii. 36–40.

7. Calon Cristion a elwir hefyd weithiau yn borthor; canys pan ddêl y gwir Fugail ati, iddo ef yr egyr y porthor hwn hefyd. Ioan x. 3.

8. Y porthor olaf hwn sydd iddo ei gorph yn lle tŷ-gwilied ei lygaid, a'i glustiau yn lle ffenestri y tafod i waeddi allan, *pwy sydd yna?* ac hefyd i alw am gymhorth, pan yr anturio un peth aflan ddyfod i mewn trwy drais a nerth i halogi y tŷ.

### XXVI.—*Am Swydd Porthorion y Deml yn fwy neillduol.*

1. Swydd y porthorion oedd *gwilied ar bedwar o fanau, ïe, o amgylch teml Dduw;* fel hyn yr ordeiniwyd gan Dafydd, gan Moses o'i flaen ef, a chan Solomon, ei fab, ar ei ol ef. 1 Cron. ix. 24. Num. iii. 2. 2 Cron. xxiii. 19; xxxv. 15.

2. Dan lywodraeth rhai o'r porthorion yr oedd yr ystafelloedd a thrysorau tŷ Dduw; rhai o honynt oeddynt olygwyr ar lestri y weinidogaeth, fel y dygent hwynt

i mewn ac allan mewn rhif; a rhan hefyd o'u galwedigaeth a'u goruchwyliaeth oedd i agor a chau pyrth tŷ yr Arglwydd.

1. Myfi a ddywedais i chwi fod y porthorion yn gysgodau o weinidogion yr efengyl, fel y maent yn wiliedyddion yn, a thros dŷ yr Arglwydd; ac am hyny, trwy eu bod fel hyn i wilied o amgylch tŷ Dduw, beth yw ond i ddangos mor ddiwyd yw Satan i edrych a all efe fyned i mewn yn rhyw fàn, i halogi eglwys Dduw mewn rhyw fodd: y mae efe yn myned o'n hamgylch i edrych a all efe gael twll i'r perwyl hyny.

2. Hyn hefyd a ddengys nad yw yr eglwys o honi ei hun, heb ei gwiliedyddion, ond egwan a pheth digymhorth; pa beth a all yr arglwyddes neu y feistres wneud, i amddiffyn ei hun yn erbyn lladron a dynion drwg, os na bydd neb gartref ond hi ei hun? Fe ddywedir, "pan y tarewir y bugail, y defaid a wasgerir." Pa beth a allasai y deml wneuthur heb ei gwiliedyddion?

3. Drachefn, trwy fod ystafelloedd y trysorau dan lywodraeth y porthorion, 1 Cron. ix. 26, fe ddangosir mai gan weinidogion ein Duw y mae trysorau yr efengyl; ac y dylai yr eglwysi nesaf at Grist eu hymofyn o'u geneuau hwynt: "Y mae genym y trysor hyn mewn llestri pridd," medd Paul; ac y maent yn oruchwylwyr ar amryw ddirgeledigaethau Duw. 1 Cor. iv. 1. 2 Cor. iv. 7. 1 Pedr. iv. 10. Eph. iv. 11—13.

4. Y rhai hyn ydynt wir ysgrifenyddion Duw, ac a ddygant o'u trysorau bethau newydd a hen; neu, fel y dywed efe mewn lle arall, "wrth ein drysau;" hyny yw, lle y mae ein porthorion yn gwilied, "y mae pob rhyw odidog ffrwythau newydd a hen, y rhai a rois i gadw i ti, fy anwylyd." Mat. xiii. 52. Can. vii. 13.

5. Yn mhellach, yr oedd rhai yn olygwyr ar lestri y weinidogaeth, i'w dwyn hwynt i mewn ac allan mewn rhif. 1 Cron. vii. 18.

1. Os wrth lestri y weinidogaeth yr ydym yn deall ordinhadau yr efengyl, yno y gwelwn dan olygiad pa rai y maent, sef gwiliedyddion a gweinidogion y gair Luc xii. 2. 2 Thes. ii. 15. 2 Tim. ii. 2.

2. Os wrth lestri y weinidogaeth y deallwch aelodau yr eglwys, canys hwynthwy hefyd ydynt lestri y weinidogaeth, yno y gwelwch dan ofal pwy y maent, sef y bugeiliaid a gweinidogion yr efengyl.

Am hyny "ufuddhewch i'ch blaenoriaid, ac ymddarostyngwch: oblegid y maent hwy yn gwilio dros eich eneidiau chwi, megis rhai a fydd rhaid iddynt roddi cyfrif; fel y gallent wneuthur hyny yn llawen, ac nid yn drist; canys di-fudd i chwi yw hyny." Heb. xiii. 17.

3. I'r porthorion y perthynai agoryd y drysau, i ddangos mai i'r gwiliedyddion hyn y mae awdurdod yr agoriadau, sef i agoryd a chau, gollwng i mewn a chadw allan o'r eglwys, yn perthyn dan yr efengyl. Mat. xvi. 19. Heb. xii. 15.

4. *Y diweddglo yw*, Bydded i'r eglwys, gan hyny, garu eu bugeiliaid, gwrando arnynt, a chymeryd eu rheoli ganddynt, a gadael iddynt wilied drostynt, a goddef cael eu cynghori, eu cyfarwyddo, ac os bydd achos, eu hargyhoeddi a'u ceryddu ganddynt. Ac na fydded i'r gweinidogion gysgu, eithr bod yn wiliadwrus, ac edrych at yr ordinhadau, at eneidiau y saint, a phyrth yr eglwysi. Y gwiliedydd, y gwiliedydd, gwilia.

## XXVII.—*Yn nghylch Drysau y Deml.*

Weithian nyni a ddaethom at ddrws y deml; sef at yr hwn ag sydd yn myned allan o'r porth i'r lle sanctaidd.

1. Y drysau hynoed dynt *blygedig, ac a agorent yn raddol.* Yn gyntaf, y pedwerydd ran, wedi hyn yr haner, yna y trydydd ran, ac yn ddiweddaf oll, y cwbl. Yr oedd y dorau hyn yn crogi ar fachau o aur, ac ar orsingau a wnaed o goed olewydd. 1 Bren. vi. 33, 34. Ezec. xli. 23, 24.

2. Y dorau hyn oeddynt yn arddangos Crist, fel ag y mae efe yn ffordd at y Tad, megis ag yr oedd hefyd ddrws y tabernacl, wrth yr hwn yr arferai y bobl sefyll pan yr ymofynent am Dduw. Am hyny Crist a ddywed, "Myfi yw y drws: os â neb i mewn trwof fi, efe a fydd cadwedig: ac efe a â i mewn ac allan, ac a gaiff borfa." Exod. xxxiii. 9, 10; xxxviii. 8; xl. 12. Lef. i. 3, 4; viii. 3, 4, 13; xv. 14. Num. vi. 13, 18; x. 3; xxv. 6; xxvii. 2. 1 Sam. ii. 22. Ioan x. 9.

1. "Myfi yw y drws." Y drws i'r cyntedd, y drws i'r porth, y drws i'r deml, y drws i'r cysegr sancteiddiolaf, y drws at y Tad. Eithr yr ydym yr awrhon wrth ddrws y deml.

2. Deliwch sylw, ni fesurodd Solomon mo'r drws hwn fel drws y porth: canys er iddo fesur drws y cyntedd a drws y porth, i ddangos y dylai hawl i'r ordinhadau a'r ffordd i'r deml fod yn ol rheol orchymynedig, eto ni fesurwyd mo'r drws hwn: i ddangos fod Crist, fel y mae efe yn ffordd at ras cadwedigol, uwchlaw pob mesur, ac yn anchwiliadwy. Oddiwrth hyn y gelwir ei ras ef yn olud anchwiliadwy, a hyny uwchlaw yr hyn oll a allom ni ofyn neu dybied, canys y mae uwchlaw gwybodaeth. Eph. iii. 8, 19, 20.

3. Cymhwys yw i ni, gan hyny, ddàl sylw ar hyn, fel y gallom osod gwahaniaeth rhwng rheol a dyledswydd, a gras a thrugaredd maddeuol: canys fel y dywedais, er y gosodir Crist allan megis y drws i ragorfreintiau oddiallan, wrth reol a mesur: eto megis y mae efe yn ddrws i ras a ffafr, ni welodd creadur hyd yn hyn ei hyd a'i led ef. Eph. iii. 17—19.

4. Am hyny, meddaf, ni fesurwyd mo'r drws hwn, canys pa beth a wnai rheol yma, lle y mae pethau uwchlaw pob mesur?

5. Yr oedd y drws hwn hefyd yn agor yn raddol, yr hyn sydd o arwyddocad i

ni; canys yn gyntaf un plyg a egyr, wedi hyny un arall, ac eto nis gosodir ef yn ëang iawn hyd ddydd y farn: canys y pryd hyny, ac nid hyd y pryd hyny, yr agorir yr holl fater: "Canys gweled yr ydym yr awrhon trwy ddrych, mewn dameg, ond yna, wyneb yn wyneb: yn awr yr adwaen o ran; ond yna yr adnabyddaf megis y'm hadwaenir." 1 Cor. xiii. 12.

## XXVIII.—*Yn nghylch Dalenau y Drws hwn o'r Deml.*

Yr oedd dalenau y drws hwn, fel y dywedais eisoes, yn blygedig, ac fel y crybwyllwyd, ydynt o ryw arwyddocad; canys yn y modd hyn y gall dyn, yn enwedig disgybl ieuanc, yn hawdd gam-gymeryd; gan dybied fod y cwbl, pan nad oedd eto ond rhan o'r ffordd yn agored; fel ag y gellid cadw tair rhan yn anadnabyddus iddo ef. Canys ni bu y dorau hyn, fel y dywedais eisoes, yn gyflawn agored eto, sef yn y gwrthgysgod; nis gwelodd neb eto yr holl olud a'r cyflawnder sydd yn Nghrist. Felly, meddaf, fe ddichon ymdeithiwr ieuanc, os barna efe wrth yr olwg bresenol, yn enwedig os gwel efe ond ychydig, yn hawdd gam-gymeryd; oherwydd paham, y cyfryw a ofnant yn erchyll na chânt fyth fyned i mewn yno.

Pa beth a ddywedi, tydi ymdeithiwr ieuanc, onid fel hyn y mae gyda'th enaid? Felly yr wyt yn tybygu dy hun yn rhy fawr, gan dy fod yn bechadur mawr, ac mor gestog. Ond, O! bechadur, nac ofna, y mae y drysau yn ddrysau plygedig, ac a ellir eu hagoryd yn lledanach, ac eilwaith yn lledanach! Pan y delech, gan hyny, at y drws hwn, a thybied o honot nad oes yno ddigon o ëangder i ti fyned trwodd, "cura, ac fe agorir i ti" yn eangach, ac fe a'th dderbynir. Luc xi. 9. Ioan ix. 37. Felly, ynte, pwy bynag wyt a ddaethost at y drws, o ba un yr oedd drws y deml yn gysgod, gochel roddi coel ar dy ddychymygion cyntaf o bethau, eithr cred fod golud o ras: nis gwyddost eto pa beth a all Crist wneuthur, "y dorau ydynt ddorau plygedig." "Efe a ddichon wneuthur yn dra rhagorol, y tu hwnt i bob peth yr ydym ni yn eu dymuno, neu yn eu meddwl." Eph. iii. 20.

Y bachau, ar ba rai y mae y dorau hyn yn crogi, oeddynt, fel y dywedais i chwi, o aur, i arwyddocau eu bod hwynt ill dau yn troi ar gyffroadau a chynhyrfiadau cariad, ac hefyd fod eu hagoriadau yn werthfawr; ar y bachau aur y mae y drws sydd yn arwain at Dduw yn troi.

Y gorsingau ar ba rai yr oedd y dorau hyn yn crogi, oeddynt o goed olewydd, y goeden fras olewog hôno, i ddangos nad ydynt un amser yn agor yn ddiog ac yn llesg, megis y drysau ag sydd iddynt fachau heb olew arnynt. Y maent hwy bob amser yn llawn olew, ac felly yn agor yn hawdd ac ar frys i'r sawl a gurant wrthynt. Oddiwrth hyn yr ydym yn darllen fod yr hwn sydd yn cyfaneddu yn y ty, yn rhoddi yn rhad, ac yn gwneuthur daioni â'i holl galon. "Ië," medd ef, "mi a lawenychaf ynddynt, gan wneuthur lles iddynt; ac mi a'u planaf hwynt yn y tir

hwn yn sicr, â'm holl galon, ac â'm holl enaid." Jer. iii. 12, 14, 22; xxxii. 41. Dat. xxi. 6; xxii. 17.

Am hyny olew gras, yr hwn a arwyddoceir wrth y goeden îreiddlyd, neu y gorsingau olewydd hyn, ar ba rai y mae y dorau hyn yn crogi, sydd yn peri iddynt agor yn rhwydd ac yn hawdd i'r enaid.

### XXIX.—*O ba beth y gwnaethpwyd Drysau y Deml.*

1. Drysau y deml a wnaethpwyd o goed *ffynidwydd*, pren ag sydd yn felys, ac mor ddymunol i'r arogliad, ac hefyd i'r sawyr. 1 Bren. vi. 34.

2. Dynolryw a gymharir yn fynych i'r ffynidwydd. Esay xiv. 8; xli. 19; lv. 13.

3. Yn awr, gan fod drysau y deml wedi eu gwneud o'r un defnydd, onid ymddengys fod y ffordd i dŷ Dduw, ac i'w ffafr ef, o'r un natur a'r rhai hyny ag sydd yn myned i mewn trwodd, sef trwy y llen, ei gnawd ef? Heb. x—canys y drws hwn, sef gwrth-gysgod, sydd yn dywedyd am dano ei hun, "myfi sydd fel ffynidwydden îr, o honof fi y ceir dy ffrwyth di." Hos. xiv. 8.

4. Y ffynidwydden hon ydyw Crist, Crist megis yn ddyn, ac felly megis yn ffordd at y Tad. Drysau y deml sydd hefyd, fel y gwelwch yma, wedi eu gwneud o goed ffynidwydd; sef o'r goeden hyny ag oedd yn gysgod o ddyndod Iesu Grist. Heb. ii. 14.

5. Y ffynidwydd hefyd ydyw tŷ y ciconia, yr aderyn aflan hwnw, megis y mae Crist yn borth ac yn ymddiffynfa i bechaduriaid. Y ffynidwydd, medd y testyn, "ydyw tŷ y ciconia:" a Christ a ddywed wrth y pechaduriaid ag sydd yn gweled eu heisieu o ymddiffyniad, "Deuwch ataf fi bawb ag sydd yn flinderog ac yn llwythog; ac mi a esmwythaf arnoch: noddfa ydyw ef i'r gorthrymedig, noddfa yn amser trallod." Deut. xiv. 18. Lef. xi. 19. Salm lxxxiv. 2, 3; civ. 17. Mat. xi. 27, 28. Heb. vi. 17, 21.

6. Efe sydd fel drysau olewydd y deml, y mynediad i mewn i dy Dduw, i bresenoldeb Duw, ac i gyfranu o'i ogoniant ef. Fel hyn y dysgodd Duw gynt ei ffordd i'w bobl trwy gyffelybiaethau.

### XXX.—*Y modd yr addurnwyd Drysau y Deml.*

A Solomon *a gerfiodd ar y drysau gerubiaid a phalmwydd, a blodau agored arnynt, ac a'u gwisgodd ag aur.* 1 Bren. vi. 3. Ezec. xli. 15. "Efe a gerfiodd gerubiaid arnynt;" y cerubiaid hyn oeddynt gysgodau o'r angylion; ac yn gymaint a'u bod yn gerfiedig yma ar y drysau, oedd i ddangos:

1. Y fath hyfrydwch a gymer yr angylion wrth ddisgwyl ar yr Arglwydd, a myned wrth ei archiad ef. Gweision gwasanaethgar ydynt, yn disgwyl bob amser wrth ddrws tŷ eu Harglwydd.

2. Fe ddichon fod i ddangos mor hyfryd ydyw ganddynt eu bod hwynt i fod lle y gallont weled pechaduriaid yn dyfod at Dduw: "Canys y mae llawenydd yn ngŵydd angylion Duw am un pechadur a edifarhao," ac a ddêl at Dduw trwy Grist am drugaredd. Luc xv. 10.

3. Hwy a allant fod wedi eu gosod yma i ddàl sylw gyda pha fath barch neu anmharch y mae y neb a ddeuant yma i addoli yn ymddwyn eu hunain. Oddiwrth hyn y mae Solomon yn rhagrybuddio y neb a ddeuant i dŷ Dduw i addoli, "i wilied ar eu traed, pan fyddont yn myned i dŷ Dduw." Paul hefyd a ddywed, y dylai gwragedd wilied ar ymddwyn o honynt eu hunain yn yr eglwys megis ag y dylent, "a hyny oherwydd yr angylion." Preg. v. 1, 2, 6. 1 Cor. ix. 14.

4. Fe allai eu cerfio hwynt ar ddrysau y deml, i ddangos mor barod y maent, cyn gynted ag y dêl un creadur gwael at Grist am fywyd, i gymeryd gofal o'i arwain ef trwy y byd truenus hwn: "Onid ysprydion gwasanaethgar ydynt hwy oll, wedi eu danfon i wasanaethu er mwyn y rhai a gânt etifeddu iachawdwriaeth." Heb. i. 14.

5. Fe ddichon fod eu cerfiad yma, i ddangos eu bod yn barod ar orchymyn Crist, i ddial drosto ef ar y sawl a ddirmygant ei bobl, ac a gasânt ei berson. Am hyny efe a orchymynodd i'r byd wilied pa beth a wnelont i'w rai bychain ef: "canys eu hangylion a welant wyneb fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd," ac y maent yn barod wrth y drws i frysio wrth ei archiad. Mat. xviii. 10.

6. Fe ddichon eu bod wedi eu cerfio ar y drysau hyn, i ddangos mai Iesu Grist ydyw unig gynhaliwr a chynorthwywr angylion, yn gystal a Iachawdwr colledig ddynion: canys megis ag y mae efe o flaen pob beth, felly "trwyddo ef y mae pob peth yn bod." Trwy Grist y mae yr angylion yn sefyll, a phechaduriaid yn cael eu hachub; ac am hyny y cerfiwyd y cerubiaid eu hunain ar y drysau hyn, i ddangos mai efe sydd yn eu cynnal, ac yn rhoddi bod iddynt. 1 Cor. viii. 6. Col. i. 17. Heb. i. 3.

(2.) Drachefn; megis ag yr oedd y cerubiaid wedi eu cerfio yma, felly hefyd yr oedd yma balmwydd yn gerfiedig. Y balmwydden sydd uniawn, nid yw yn troi ei hun ar ŵyr. Jer. x. 5.

1. Cymhwysir hyn at Grist, ac yna yr ymddengys i ni uniondeb ei galon, ei air, a'i ffyrdd gyda phechaduriaid. "Daionus ac uniawn yw yr Arglwydd: am hyny y dysg efe bechaduriaid yn y ffordd," i mewn trwy y drws i'r bywyd. Salm xxv. 8; xcii. 15.

2. Y palmwydd sydd hefyd yn arwydd o fuddugoliaeth; a chan eu bod wedi eu gosod yma, fe arwyddoceir y fuddugoliaeth a enillai Crist, y drws, dros bechod, marwolaeth, y diafol, ac uffern, er ein mwyn ni. Rhuf. vii. 24; viii. 37. 1 Cor. xv 54—56. Dat. vii. 9—11.

3. Os nyni a gymhwyswn y balmwydden at yr eglwys, fel y gallwn—canys hi hefyd a gyffelybir iddi, Can. vii. 8—10—yna y balmwydden a ddichon fod yn gerfiedig yma, i ddangos na chaiff neb ond y cyfryw ag sydd uniawn eu calon a'u buchedd gyfaneddu yn mhresenoldeb Duw: "Ni ddaw," medd Job, "rhagrithiwr yn ei ŵydd ef." Ac medd Dafydd, "Yr uniawn a breswylia yn ei gynteddau." Job xiii. 16. Salm xxiv. 3, 4.

Hwynt-hwy yw y sawl sydd wedi eu dilladu â gwisgoedd gwynion; yr hyn sydd yn arwyddocau uniondeb buchedd, ag sydd yn sefyll gerbron yr Oen â phalmwydd yn eu dwylaw. Dat. vii. 9.

4. Yr oedd hefyd yn gerfiedig ar y drysau flodau agored; a hyny i ddysgu i ni, mai yma y mae yr arogl peraidd, ac y prawf yr enaid a ddêl at Grist felly ynddo ef, y drws hwn: "Myfi," medd ef, "ydwyf rosyn Saron, a lili y dyffrynoedd." A thrachefn, "Ei ruddiau sydd fel pêr-lysiau, fel blodau peraidd: ei wefusau fel lili yn dyferu myrr diferol." Can. ii. 1; v. 13.

Blodau agored! blodau agored sydd fwyaf peraidd eu harogliad, oherwydd eu bod yn eu cyflawn dyfiad, ac felly yn arogli yn rhwyddach. Am hyny pan y mae yn dywedyd, ar y drysau y mae blodau agored, y mae yn gosod Crist Iesu allan yn ei aroglau da, cyn ucheled ag y gellid trwy y fath gyffelybiaethau, a hyny mewn enw a swydd: canys blodau agored, trwy eu bod wedi ymagor eu hun fel hyn o'n blaen ni, a osodant hefyd eu holl brydferthwch yn dra amlwg gerbron ein wynebau. Mae amrywiaeth o degwch mewn blodau agored, yr hyn y maent hefyd yn draddodi i bawb a ddalio sylw arnynt. Yn awr ar y drysau hyn, chwi welwch, y mae blodau agored, blodau addfed, wedi ymledu ger ein bron, i ddangos fod ei enw a'i swyddau ef yn beraidd i'r sawl ag sydd yn myned i mewn trwyddo ef i dŷ Dduw ei Dad. Can. i. 1—5.

Yr oedd y rhai hyn oll wedi eu gwisgo ag aur pur. Aur ydyw y gwerthfawrocaf o bob metel, ac yma y dywedir fod y drysau, y cerubiaid, y palmwydd, a'r blodau agored wedi eu gwisgo ag ef. A hyn a ddengys mai megis ag y mae y pethau hyn yn gyfoethog ynddynt eu hunain, felly y dylent fod i ninau. Y mae genym ddrws o aur i fyned i mewn trwyddo at Dduw, ac angylion euraidd i'n harwain trwy y byd: y mae genym balmwydd euraidd, megis arwydd o'n buddugoliaeth, a blodau euraidd i arogli ar hyd yr holl ffordd i'r nefoedd.

## XXXI.—*Yn nghylch Mur y Deml.*

Mur y deml *a fyrddiwyd â ffynidwydd, y rhai a wisgodd efe ag aur dilin, ac a gerfiodd balmwydd a chadwynau ar hyd-ddo ef.* 2 Cron. iii. 5—7.

Y muriau oeddynt megis corph y tŷ, at ba un yr oedd Crist yn cyfeirio pan y dywedodd, "Dinystriwch y deml hon, ac mewn tridiau y cyfodaf hi." Ioan ii. 19—21

Oddiyma bod, ac addoli yn y deml, oedd gysgod o fod yn Nghrist, ac addoli Duw trwyddo ef: canys Crist, fel y dywedwyd, ydyw teml fawr Duw, yn mha un y mae yr holl etholedigion yn cyfarfod, ac yn mha un y maent yn gwneud gwasanaeth dros, ac i'w Dad.

Drachefn, dywedir fod y gwir addolwyr ynddo ef, yn llefaru ynddo ef, yn rhodio ynddo ef, ac yn ufuddhau ynddo ef. 2 Cor. ii. 14; xii. 19. Col. ii. 6. Canys megis yn yr amser gynt, yr holl wir addoliad oedd i'w gael yn y deml, felly yn awr yn Nghrist yn unig y ceir ef, a chyda'r sawl sydd ynddo ef. Yr addewid gynt a wnaed i'r sawl a addolent oddifewn i'r muriau hyn: "Rhoddaf," medd ef, "iddynt yn fy nhŷ ac o fewn fy magwyrydd" (i'r rhai hyny a addolant yno mewn gwirionedd) "le ac enw gwell na meibion ac na merched." Esay lvi. 5. Ond yn awr yn amser y Testament Newydd, "holl addewidion Duw ynddo ef ydynt ïe, ac ynddo ef amen, er gogoniant i Dduw trwom ni." 2 Cor. i. 20.

Hyn a grybwyllir eto yn mhellach i ni, yn gymaint ag y dywedir fod y muriau hyn wedi eu byrddio â ffynidwydd; yr hyn, fel y dangoswyd o'r blaen, oedd gysgod o ddyndod Iesu Grist.

Mur sydd er amddiffynfa, ac felly y mae dyndod Iesu Grist. Y mae, fe fu, ac a fydd yn dragywydd yn ddiogelfa i ni: canys yr hwn a aeth tan, ac a orchfygodd felldith y gyfraith oedd ef, a'r hwn y caed ein cyfiawnder tragwyddol ni ynddo. Oni buasai iddo ef yn hyny gyfryngu, nyni a fuasem byth yn golledig. Am hyny y dywedir ein bod ni wedi ein cymmodi â Duw yn nghorph ei gnawd ef trwy farwolaeth. Col. i. 19—21 Rhuf. v. 8—10.

Yn awr y mur a wisgwyd ag aur pur. Yr aur yma sydd gysgod o gyfiawnder Crist, trwy ba un y'n cyfiawnheir yn ngolwg Duw: am hyny chwi a ddarllenwch fod ei eglwys, fel y mae wedi ei chyfiawnhau, yn sefyll ar ei ddeheulaw mewn gwisg euraidd: "Ar dy ddeheulaw y safai y frenhines mewn aur coeth o ophir;" a thrachefn, "gem-waith aur yw ei gwisg hi." Salm xlv. 9, 13. A hyn y gwisgwyd y pared, â hyn y llanwyd Crist. Dynion, tra yr oeddynt yn y deml, a wisgid ag aur, sef ag aur y deml: a dynion yn Nghrist a wisgir â chyfiawnder, cyfiawnder Crist. Am hyny yr ystyriaeth o hyn sydd eto yn amlygu y mater yn fwy. Trwy fod y palmwydd wedi eu gosod ar y mur, yr ymddengys fod yr etholedigion wedi eu sefydlu yn Nghrist, ac a arosant felly yn dragywydd. "Yr hwn sydd yn credu ynof fi, sydd ganddo fywyd tragywyddol." Ioan vi. 47.

Cadwynau hefyd a gerfiwyd ar y muriau hyn, a chadwynau aur oeddynt; yr oedd cadwynau ar y colofnau; ac yn awr nyni a welwn gadwynau ar y muriau hefyd. Phil. i. 12, 13.

1. Cadwynau a arferid i ddâl caethion, a'r cyfryw a wisgodd Paul yn Rhufain; ond efe a'u geilw hwynt ei rwymau yn Nghrist.

2. Cadwynau, weithiau, a arwyddocant ofidiau mawr, pa rai y mae Duw yn osod arnom am ein pechodau. Salm cvii. 9—11. Gal. i. 14; iii. 7.

3. Cadwynau hefyd a ddeallir yn fwy dirgeledig, megis y rhwymau hyny y mae cariad Crist yn osod arnom, i wneuthur a dioddef er ei fwyn ef. Act. xx. 22.

4. Cadwynau a arwyddocant, weithiau, addurniadau hardd a thêg: "Hardd yw dy wddf gan gadwynau," medd Crist wrth ei anwylyd: a thrachefn, "Rhoddais freichledau am dy ddwylaw, a chadwynau am dy wddf." Can. i. 10. Ezec. xvi. 8—13. Diar. i. 9.

5. Cadwynau hefyd, weithiau, a arwyddocant fawredd ac anrhydedd, y fath ag a gafodd Daniel, pan gwnaeth y brenin ef yn drydydd o lywodraethwyr y deyrnas. Dan. v. 7, 16, 29.

Yn awr y rhai hyn oll ydynt gadwynau y deml, ac a osodir arnom er daioni: rhai i ragflaenu ein dinystr, rhai i drefnu ein meddyliau yn well, a rhai i'n hurddasu, a'n gwneuthur yn bendefigaidd. Cadwynau hardd yw cadwynau y deml. Ni chaiff neb ond addolwyr y deml wisgo cadwynau y deml.

## XXXII.—*Yn nghylch Addurniad y Deml â Meini gwerthfawr.*

*Ac efe a addurnodd y ty â meini gwerthfawr yn hardd.* 2 Cron. iii. 6, 7.

1. Hyn sydd degwch arall i deml yr Arglwydd: oherwydd paham, fel y dywed efe, fe'i haddurnwyd â hwynt; y mae yn dywedyd, fe'i haddurnwyd â hwynt yn hardd. Y llinell a ddywed addurnwyd, ymyl y ddalen gorchuddiwyd.

2. Am hyny myfi a dybygwn eu bod wedi eu gosod megis ser, neu fel ser yn y ffurfafen; felly yr oeddynt hwythau wedi eu planu yn myrddiad y tŷ, megis yn nef y deml sanctaidd.

3. A chan fod fel hyn wedi sef ydlu, y maent yn dangos i ni yn gymhwysach o ba beth yr oeddynt yn gysgod, sef o'r doniau gweinidogaethol a'r swyddogion yn yr eglwys. Canys gweinidogion, mewn perthynas i'w doniau a'u swydd, a elwir yn ser Duw, ac a ddywedir eu bod yn llaw Crist. Dat. i. 20.

4. Megis, gan hyny, y mae y ser yn discleirio ac yn crychneidio yn ffurfafen y nefoedd, felly y mae gwir weinidogion yn ffurfafen ei eglwys. 1 Cron. xxix. 2. Ioan v. 35. Dan. xii. 3.

5. Fe ddywedir drachefn, fod y doniau hyn yn dyfod i lawr oddiuchod, megis yn arwydd eu bod yn dyferu eu gwlith oddiuchod. A thrachefn y dywedir fod y gweinidogion wedi eu gosod drosom yn yr Arglwydd, megis yn ffurfafen ei nefoedd, i roddi goleuni ar ei ddaear: "y mae aur, a gemau lawer; ond gwefusau gwybodaeth sydd ddodrefnyn gwerthfawr." Diar. xx. 15.

Yn ddiau digon yw i beri dyn yn y tŷ hwn i edrych i fyny yn wastadol, gan fod y byrddiad uwchben yn discleirio â'r fath feini gwerthfawr.

Meini gwerthfawr, pob math o feini gwerthfawr; meini o bob lliwiau: "Canys y mae amryw ddoniau, amryw weinidogaethau, ac amryw weithrediadau: ond yr un Duw yr hwn sydd yn gweithredu pob peth yn mhawb." 1 Cor. xii. 4—8.

Yn y modd hyn yr oedd yn myrddiad y tŷ hwn beryl yma, ac adamant acw; jaspis yma. a saphir acw; sardius yma, hyacinthus yna; sardonycs yma, ac yna amethystus: "Canys i un, trwy yr Yspryd, y rhoddir ymadrodd doethineb; ac i arall, ymadrodd gwybodaeth:—i un ffydd,—ac i arall ddawn iachau;—i arall wneuthur gwyrthiau; ac i arall brophwydoliaethau; ac i arall wahaniaeth yspryd-oedd; ac i arall amryw dafodau." 1 Cor. xii. 8—12.

Efe hefyd a wisgodd y tŷ, y trawstiau, y pyst, y parwydydd, y drysau, &c., a'r cwbl oll, ag aur. O'r fath dŷ hardd oedd y deml!—mor llawned o ogoniant oedd hi! Ac eto nid oedd y cwbl ond cysgod, cysgod o bethau i ddyfod, a'r hyn ag oedd i gael ei ateb yn eglwys y Duw byw, colofn a sylfaen y gwirionedd, trwy bethau gwell na'r rhai hyn.

## XXXIII.—*Yn nghylch Ffenestri y Deml.*

*Ac efe a wnaeth i'r ty ffenestri, yn llydain oddifewn, ac yn gyfyng oddiallan.* 1 Bren. vi. 4. Yr oedd ffenestri i'r tŷ hwn, ffenestri i'r ystafelloedd, a ffenestri o amgylch-ogylch. Ezec. xl. 15—37.

Y ffenestri hyn oeddynt o amryw faintioli, eithr oll yn gyfyng, yn gyfyng oddiallan, on yn llydain odifewn; yr oeddynt hefyd wedi eu gweithio yn gywrain, a'u haddurno â meini teg. Esay liv. 14.

1. Ffenestri, fel y maent yn harddwch i dŷ, felly hefyd y maent yn llesâd iddo: "Melys yn ddiau yw y goleuni, a hyfryd yw i'r llygaid weled yr haul." Preg. xi. 7. Ffenestr yw yr hon y mae Crist yn edrych allan trwyddi, ffenestr yw yr hon y mae yr haul yn edrych i mewn trwyddi. Can. ii. 9.

2. Wrth y goleuni a lewyrcha i mewn trwy y ffenestr, y canfyddwn hefyd i wneuthur a chadw y tŷ yn lân, ac hefyd i wneuthur yr hyn sydd angenrheidiol i wneuthur yno: "Yn dy oleuni di y gwelwn ni oleuni;" goleuni i gyflawni ein dyledswydd, a hyny i Dduw a dyn.

3. Y ffenestri hyn, gan hyny, oeddynt gysgodau o'r gair ysgrifenedig, trwy ba un y mae Crist yn ymddangos ei hun i ni, a thrwy ba un yr ydym ninau hefyd yn ei amgyffred ef. Am hyny gair Duw a gyffelybir i wydr, trwy yr hwn y daw y goleuni, ac y gwelwn ninau nid yn unig belydr yr haul, ond y manau duon a fyddo arnom ein hunain hefyd. 2 Cor. iii. 18. Iago i. 23—25.

4. Y ffenestri yn wir oeddynt gyfyng, oblegid hyny nis gwelwn trwy eu gwrthgysgod ond yn dywyll ac anmherffaith: "Gweled yr ydym yr awrhon trwy ddrych, mewn dammeg;—yn awr yr adwaen o ran." 1 Cor. xiii. 12.

5. Nid yw y ffenestri a'u goleuni ond o ychydig wasanaeth i'r sawl sydd oddiallan; nid yw y byd yn gweled ond ychydig o degwch yr eglwys trwy oleuni y gair ysgrifenedig, er bod yr eglwys wrth y goleuni hyny yn gallu gweled cyflwr truenus y byd, ac hefyd pa fodd i'w ochelyd.

XXXIV.—*Yn nghylch Ystafelloedd y Deml.*

Solomon a wnaeth ystafelloedd yn y deml. 1 Bren. vi. 5.

1. Yr ystafelloedd oeddynt *o amryw faintioli;* rhai yn fychain, rhai yn helaeth; rhai yn uchel, rhai yn isel; rhai oddifewn, a rhai oddiallan.

2. Yr ystafelloedd hyn oeddynt *at amryw wasanaeth;* rhai i orphwys, rhai i ymguddio, rhai i gadw y trysor ynddynt, a rhai er mwyn diddanwch a difyrwch. 2 Cron. iii. 9. Ezec. xl. 7; xli. 5, 9, 44. 2 Cron. xxxi. 11, 12. 2 Bren. xi. 1—3. Ezra viii. 29.

1. Yr oeddynt yn lleoedd i orphwys ynddynt. Yma yr arferai y gweinidogion a'r porthorion letya.

2. Yr oeddynt yn lleoedd i ymguddio ynddynt. Yno yr ymguddiodd Joseba a Joas rhag Athalia, dros yspaid chwech mlynedd.

3. Ynddynt y gosodent drysor y deml, a'r pethau cysegredig i'w cadw yn ddilys i'r addolwyr.

4. A rhai o honynt oedd i ddiddanu a difyru; ac y mae yn rhaid i mi ychwanegu, yr oedd hefyd rai o honynt i fod yn drigle parhaus. Am hyny rhai a breswyliai mewn rhai o'r ystafelloedd yn wastadol; ïe, eu henwau a breswyliai yno pan y byddent hwy wedi meirw.

1. Y rhai hyny o honynt ag oeddynt er gorphwysfa, oeddynt yn gysgodau o'r orphwysfa hòno sydd genym trwy ffydd yn Mab Duw; Mat. xi; ac o'r orphwysfa dragwyddol hòno a gawn yn y nefoedd trwyddo ef. Heb. iv. 3.

2. Yr ystafelloedd hyny yn mha rai yr oeddynt yn ymguddio er eu diogelwch oeddynt yn gysgodau o'r diogelwch hyny sydd genym yn Nghrist oddiwrth gynddaredd y byd. Esay xxvi. 20.

3. Yr ystafelloedd oedd i gadw y trysorau a'r pethau cysegredig, oeddynt yn gysgodau o Grist, fel y mae efe yn ystordy cyffredin i'r holl ffyddloniaid: "Oblegid rhyngodd bodd i'r Tad drigo o bob cyflawnder ynddo ef; ac o'i gyflawnder ef y derbyniasom ni oll, ras am ras." Col. i. 19.

4. Yr ystafelloedd oedd er diddanwch a difyrwch, oeddynt yn gysgodau o neillduol gyrchfäau a dirgel gyfarfodau Crist â'r enaid, lle y mae ef yn ei gofleidio, ac yn ei ddiddanu â'i fynwes ac â digrifwch annhraethadwy: "Efe a'm dug i," medd hi, "i'w ystafell, i ystafell yr hon a'm hymddug;" ac yno y rhoddodd iddi ei gariad. Can. i. 4; iii. 4.

5. Yr ystafelloedd oedd i fod yn drigfäau parhaus; yr oeddynt yn gysgodau o'r trigfanau tragwyddol sydd yn y nefoedd wedi eu darparu gan Grist a'r Tad i'r sawl a achubir. Ioan xiv. 1—5. 2 Cor. v. 1—5.

Hyn ydyw preswylio yn yr uchelder, ac i fod yn ddihangol oddiwrth ofn drwg. Yma, gan hyny, y gwelwch fod ystafelloedd i orphwys, ystafelloedd i ddiogelwch, ystafelloedd i gadw y trysorau, ystafelloedd i ddiddanu a difyru, ac ystafelloedd i breswylio yn dragwyddol. O'r fath orphwysfa a diddanwch a rydd ystafelloedd uchel-dŷ Duw i'w breswylwyr mewn byd arall! Yno y gorphwysant oddiwrth eu llafur, gorphwysant ar eu gwelyau, gorphwysant gyda Duw, gorphwysant oddiwrth bechod, profedigaethau, a phob tristwch. Dat. xiv. 13. Esay lvii. 1, 2. 2 Thes. i. 7.

"Yna Duw hefyd a sych ymaith ein holl ddagrau oddiar ein llygaid," sef pan y dêl allan o'i ystafelloedd megis priod-fab, i gyrchu ei briodas-ferch, ei wraig, ato ef yno, fel y gallont gael diddanwch tragywyddol yn nghyd. O! y rhai hyn ydynt lawer gwell nag ystafelloedd y dehau.

### XXXV.—*Yn nghylch y Grisiau, ar hyd pa rai yr aent i fyny i Ystafelloedd y Deml.*

Yr oedd grisiau, ar hyd ba rai yr âi dynion i'r ystafelloedd hyn o'r deml, ac nid oeddynt ond un pâr, ac yr oeddynt yn myned o'r isaf i'r ystafell gyntaf, ac felly i'r ganol, ac oddiyno i'r drydydd gell yn y deml. 1 Bren. vi. 8. Ezec. xli. 7.

1. Y grisiau hyn oeddynt *dröedig*, fel yr oedd y sawl a'u dringent yn troi o amgylch-ogylch. Rhaid oedd, gan hyny, i'r neb a anturiai fyned i'r ystafelloedd hyn droi gyda'r grisiau, neu nis gallai fyned i fyny—na allai, gymaint ag i'r celloedd isaf.

2. Y grisiau hyn, gan hyny, oeddynt gysgod o edifeirwch dau-ddyblyg. Hwnw yr ydym yn troi oddiwrth natur i ras trwyddo, a thrwy yr hwn yr ydym yn troi oddiwrth y diffygiadau a gyd-ymganlynant ag ystâd gras, i ogoniant. Am hyny gwir edifeirwch, neu ddringiad syth i fyny ar hyd y grisiau tröedig hyn, a elwir edifeirwch i iachawdwriaeth; canys nid ydyw gwir edifeirwch yn attal pan y derbynir gras, oblegid nid ydyw hyny ond dringo y grisiau hyn i'r celloedd canol. 2 Cor. vii. 10.

Fel hyn, gan hyny, y mae yr enaid wrth ddringo y grisiau hyn yn troi o amgylch-ogylch, hyd onid êl i mewn i ddrysau y celloedd uchaf.

Y mae yn cwynfan, er ei fod mewn ystâd o ras, oherwydd nad yw hòno yn ystâd o ogoniant. Mi a dybygwn, gan hyny, fod y grisiau o'r celloedd cyntaf i'r canol, yn gysgod o ddychweliad o natur i ras; eithr y grisiau o'r rhai canol i'r rhai uchaf allant arwyddocau dychweliad cyson oddiwrth y diffygiadau a'r profedigaethau a gydgerddant ag ystâd o ras i ystâd o anfarwoldeb a gogoniant. 2 Cor. v. 1—10.

Canys megis ag y mae y grisiau o'r celloedd isaf i'r canol yn dröedig, felly y mae y grisiau oddiyno o hyd yn troi, ac felly y gwnant, nes y deuwch i'r celloedd uchaf. Nid wyf yn dywedyd fod y sawl a dderbyniasant ras yn edifarhau ddarfod iddynt ei dderbyn; eithr y sawl, meddaf, a dderbyniodd ras ydynt ofidus nad yw gras wedi ei berffeithio mewn gogoniant. Ac oddiyma y maent o hyd am fyned i fyny yno ar hyd y grisiau tröedig hyn; ïe, ni allant orphwys isod, fel ag y mynont, hyd oni esgynont i'r celloedd uchaf: "Ys truan o ddyn wyf fi;—am hyny yr ydym yn ocheneidio," ydyw iaith graslawn. Rhuf. vii. 24. 2 Cor. v. 1—3.

Gwir yw, nid ydyw pawb sydd yn dyfod i deml Dduw yn gwneuthur fel hyn; llawer a orphwysant islaw y grisiau, ni chwennychant ddringo y grisiau tröedig hyn. Nid wyf fi yn credu ychwaith fod pawb a anturiant ddringo i'r celloedd canol yn esgyn i'r rhai uchaf o'i gelloedd ef yn y nefoedd. Nid oes gan lawer yn yr eglwys, o'r rhai a dybygir fod yn troi o natur i ras, mo'r gras hwnw i fyned i fyny dan gyson droi, eithr gorphwys y maent yn yr ymddangosiad o bethau, ac yn y modd hyny yn marw heb gael rhan yn y celloedd uchaf.

Y pethau hyn oll ydynt yn wir yn y gwrthgysgod, ac i'm tyb i, wedi eu cysgodi trwy y grisiau tröedig hyn i gelloedd y deml. Eithr y mae y tröad hwn, a'r tröad gwastadol, yn anfoddhau rhai yn fawr; hwy a ddywedant ei fod yn eu gwneuthur hwy yn ben-feddw: ond yr ydwyf fi yn dywedyd nad oes un ffordd gyffelyb i hon, i beri i ddyn sefyll yn ddiysgog, yn ddianwadal yn y ffydd, ac yn ëon yn nydd y farn; canys hyn sydd ganddo yn eisteddfa yn ei galon, myfi a aethum i fyny ar hyd y grisiau tröedig, hyd oni ddaethum i'r celloedd uchaf. Grisiau uniawn sydd gyffelyb i'r ysgol hòno y mae dynion yn esgyn i'r crogbren ar hyd-ddi; eithr y rhai tröedig yw y rhai a'n harwain i'r trigfanau nefol. Am hyny, gwilied y sawl a ddêl i deml Dduw i addoli, na arosant wrth droed y grisiau tröedig hyn, eithr esgyn o honynt oddiyno i fyny, i fyny ac i fyny ar hyd-ddynt, hyd oni ddelont mewn golwg o'r nefoedd; ïe, hyd oni feddiannont y celloedd uchaf. Pa gynifer o weithiau y galwodd Duw arnoch, trwy yr Ysgrythyr, i droi, ac a ddywedodd wrthych fod yn rhaid i chwi droi, neu farw; ac yn awr dyma efe wedi ychwanegu at ei alwad, ffigur neu gysgod, trwy osod grisiau tröedig yn ei deml, i argyhoeddi eich synwyrau, fod yn rhaid i chwi droi, os ydych ar feddwl myned i fyny i'r ystafelloedd sanctaidd, ac yn y modd hyn i'w drigfanau tragywyddol ef. Ac edrychwch droi o honoch yn effeithiol; canys ni wasanaetha pob math o dröad. Rhai a dröant, ond nid i'r uchaf oll, ac felly ydynt yn troi yn ddiles.

### XXXVI.—*Yn nghylch y Môr Tawdd oedd yn y Deml.*

Yr oedd hefyd yn y deml fôr tawdd, *fe'i gwnaethpwyd o brês, ac a gynnwysai dair mil o fathau.* 2 Cron. iv. 2—9.

Y môr hwn oedd i'r offeiriaid i ymolchi ynddo, pan y deuent i'r deml i gwblhau gwasanaeth Duw; i olchi eu traed a'u dwylaw, fel na byddent farw pan y delent yno, oherwydd eu hanmharodrwydd. Y noe hefyd yn yr anialwch oedd o'r un defnydd yno. Exod. xxviii. 1.

1. Yr oedd yn cael ei alw yn fôr, fel y tybygir, oherwydd ei fod yn fawr i ddàl; ac yn fôr o bres, oherwydd ei wneud o hono. Fe'i gelwir yn y Datguddiad yn fôr o wydr, gan arwyddocau hwnw yn yr anialwch, a wnaethpwyd o ddrychau pres y gwragedd, a ddaethent i addoli wrth ddrws y tabernacl. Dat. iv. 6; xv. 2. Exod. xxxviii. 8.

2. Fe'i gelwid hefyd yn fôr tawdd, oblegid ei wneud ef o'r ffurf hwnw trwy dân; ac fe ddywedir fod ei wrthgysgod yn fôr o wydr wedi ei gymysgu â than. Dat. xv. 2.

1. Yr oedd y môr hwn yn gysgod o air yr efengyl yn ei rinwedd yn glanhau; sef y rhinwedd sydd ganddo pan y cymysger ef â thân yr Yspryd Glân. Ac at hyn y mae Crist yn cyfeirio pan y mae yn dywedyd, "Yr awrhon yr ydych yn lân trwy y gair a leferais i wrthych." Ioan xv. 3.

2. Yr oedd yn gysgod o'r gair heb gymysgaidd o ddychymygion dynion; am hyny gelwir ef yn ddwfr glân: "Gan gaffael o honoch eich cyrph wedi eu golchi â dwfr glân." A thrachefn: "Efe a sancteiddia ac a lanhâ ei eglwys â'r olchfa ddwfr trwy y gair." Eph. v. 26. Tit. iii. 5.

Yr holl leoedd hyn ydynt yn cyfeirio at y môr tawdd, yn mha un yr ymolchent pan yr elent i'r deml i addoli; am hyny, medd ef, "Gan fod wedi ein golchi â dwfr glân, nesawn at Dduw. Heb. x. 22.

3. Y môr hwn, o ymyl i ymyl, oedd yn ddeg cufydd cyflawn; ysgatfydd i ddangos fod cymaint o allu yn ngair yr efengyl i achub ag sydd yn y deng air i ddamnio.

4. Odditan y môr hwn "y mae ychain yn ei amgylchu o mgylch; mewn deg cufydd yr oeddynt yn ei amgylchu oddiamgylch." 2 Cron. iv. 3.

Deallwch wrth yr ychain hyn y gweinidogion; canys iddynt hwy eu cyffelybir; 1 Cor. ix. 9; ac yna fe'n dysgir o ba le y mae y gwir weinidogion yn deilliaw, sef odditan allu yr efengyl; megis y mae dyfroedd yn hilio pysgod, felly y mae y môr hwn yn magu gweinidogion yr efengyl.

5. Yn y testyn hefyd y dywedir doddi yr ychain hyn ar yr un amser ag y toddwyd y môr; gan arwyddocau, pan ordeiniodd Duw air ei ras i'n hachub ni, iddo hefyd yn ei arfaeth ddarparu gweinidogion i'w bregethu ef i ni i'r diben hwnw. Paul a ddywed i ni ei wneuthur ef yn weinidog yr efengyl, "yn ol yr arfaeth dragywyddol, yr hon a wnaeth efe yn Nghrist Iesu ein Harglwydd ni." Eph. iii. 9—11. Col. i. 25.

6. Fe ddywedir fod i'r môr hwn "ymyl fel gwaith ymyl cwpan," i'n denu ni i

yfed o'i ras yn gystal ag ymolchi yn ei ddwfr; canys y mae gan y gair a'r Ysbryd, pan y byddont wedi eu cymysgu, nid yn unig y "rhinwedd neu y dawn o lanhau," ond i achub hefyd. 2 Cron. iv. 1—6. 1 Cron. xv. 1, 2.

7. Yr oedd yr ymyl hwn wedi ei weithio â lili, neu yn debyg i flodau lili, i ddangos y modd y tyfai ac y blodeuai, a pha fath wisgoedd hardd yr addurnid y sawl a ymolchai yn, ac a yfai o'r dwfr sanctaidd; ac y gofalai Duw am danynt, fel y gwnai am y lili, ac na phallai roddi iddynt yr hyn oedd angenrheidiol i'r corph, yn gystal â'r enaid. Mat. vi. 28—34.

XXXVII.—*Ar ba beth yr oedd y Môr Tawdd yn sefyll yn y Deml.*

1. Y môr tawdd hwn *oedd yn sefyll ar gefnau deuddeg o ychain pres.* 2 Cron. iv. 4.

2. Yr ychain hyn ag oedd yn sefyll felly, "a edrychent tri tua'r gogledd, tri tua'r gorllewin, tri tua'r dehau, a thri tua'r dwyrain."

3. Y deuddeg ychain hyn oeddynt gysgodau o ddeuddeg apostol yr Oen, pa rai, fel yr anifeiliaid hyn, oeddynt yn edrych tua phedwar congl y ddaear; ac a orchymynwyd i fyned i bregethu yr efengyl trwy yr holl fyd.

4. Hwy a gyffelybwyd i ychain, oherwydd eu bod yn lân, canys yr oedd yr ŷch yn anifail glân. Am hyny y gelwir yr apostolion yn sanctaidd. Hwy a gyffelybwyd hefyd i ychain, oherwydd bod yr ŷch yn rymus: a hwythau hefyd oeddynt nerthol yn y gair. Diar. xiv. 4. 2 Cor. xii. 12.

5. Ni chyll yr ŷch yr hyn sydd ganddo wrth dynu; ni ollwng ef i'r olwynion redeg yn ol; felly y gosodwyd yr apostolion i amddiffyn, a lluddio yr athrawiaeth hòno fyned yn ol, yr hon a bregethasant hwy i eraill; nis gwnaethant ychwaith, hwy a'i traddodasant i ni yn bur.

6. Gan un o'r cerubiaid, am ba rai y darllenwch yn y weledigaeth, yr oedd gwyneb cyffelyb i ŷch, i ddangos fod yr apostolion, y dynion hyn, o'r radd uchaf, yn debycaf i angylion Duw. Ezec. i. 10.

7. Trwy eu bod yn sefyll â'u hwynebau bob ffordd, yr oeddynt yn dangos pa fodd y dygai yr apostolion yr efengyl i'r holl fyd. Mat. xxviii. 19. Marc xvi.

8. A deliwch sylw, mai megis ag yr oedd yr ychain hyny wedi eu gosod, yn edrych bob ffordd yn y deml, felly yr oedd pyrth Caersalem newydd, yn agored i dderbyn y rhai hyny a ddygid i mewn iddi trwy eu hathrawiaeth hwy: "A hwy a ddeuant o'r dwyrain, ac o'r gorllewin, ac o'r gogledd, ac o'r dehau, ac a eisteddant yn nheyrnas Dduw." Dat. xxi. 13, 14. Luc xiii. 29.

9. Ar gefnau yr ychain hyn yr oedd y môr tawdd, i ddangos mai hwynt-hwy a fyddai sail-weithwyr yr efengyl, ac na ddylai gael mo'i symud, megis y môr tawdd, o'r sail hòno i un arall.

10. Fe ddywedir yn mhellach am yr ychain hyn, ar ba rai yr oedd y môr tawdd

yn sefyll, "fod eu holl benau ol hwynt oddifewn," sef yn orchuddiedig gan y môr hwnw oedd oddiarnodd arnynt. Eu penau ol, neu fel y mae gan yr apostol, aelodau anhardd. 1 Cor. xii. 23, 24.

11. Ac yn wir fe weddai i weinidog yr efengyl gaffael o hono ei aelodau anhardd yn orchuddiedig gan y gras hwnw y mae efe trwy yr efengyl yn bregethu i eraill, megis y mae Paul yn cynghori Timothy "i edrych ato ei hun, ac at yr athrawiaeth." 1 Tim. v. 6.

12. Ond, Och! y mae gormod ysywaeth o rai, os gallant gaffael yn unig eu penau yn orchuddiedig gan ychydig wybodaeth o'r efengyl, ydynt ddiofal, er bod eu penau ol yn weledig i'r holl fyd. Eithr y cyfryw ydynt gau weinidogion, y prophwyd a'u geilw hwynt y gynffon. "Y prophwyd sydd yn dysgu celwydd, efe yw y gynffon." Esay ix. 15. Diar. vi. 12, 13.

13. Pa fath waradwydd ydyw i weinidog guddio ei ben dan y môr tawdd hwn, pan y byddo ei ben ol yn y golwg! Nid yw y cyfryw yn un o ychain Crist; canys hwy mewn anrhydedd i'w Meistr, a ddangosant eu penau yn ngolwg yr holl fyd, oherwydd bod eu penau ol oddifewn yn orchuddiedig.

14. Edrych, gan hyny, weinidog, at dy aelodau anhardd; rhag, pan y byddo'th enau yn pregethu yr efengyl, fod dy noethni a'th warth yn weledig i'r sawl a'th wrandawant.

Canys y sawl ni wilio i ddysgu y wers hon eu hunain, ni ddysgant mo eraill i gredu y gair, nac i fucheddu yn dduwiol: hwy a ddysgant ganddynt i ddangos eu cywilydd, yn lle dysgu bod yn sanctaidd.

## XXXVIII.—*Yn nghyl h Noeau y Deml.*

Heblaw y môr tawdd hwn, yr oedd yn y deml *ddeg o noeau, pump o'r tu dehau, a phump o'r tu aswy.*

1. Yn nghylch eu dull a'u haddurn, chwi ellwch weled 1 Bren. vii. Y noeau hyn oeddynt lestri i ddàl dwfr fel y môr tawdd, eithr nid oeddynt o'r un defnydd ag ef; gwir yw, yr oeddynt ill dau i ymolchi ynddynt: y môr oedd i olchi yr addolwyr, ond y noeau i olchi yr aberth: "Efe a wnaeth ddeg o noeau i drochi defnydd y poeth-offrwm ynddynt, ond y môr oedd i'r offeiriaid i ymolchi ynddo." 2 Cron. iv. 6.

2. Y poeth-offrwm oedd yn gysgod o gorph Crist, yr hwn a offrymodd efe un waith dros ein pechodau; a'r tân ar ba un y llosgid yr aberth, yn gysgod a felldith y gyfraith yr hon a gymerodd afael ar Grist, pan y rhoddodd efe ei hun yn bridwerth drosom: "Canys am hyny y galwyd hwnw dan y gyfraith yn boeth-offrwm, oherwydd ei fod yn cael ei losgi ar yr allor." Lef. vi. 8.

Eithr pa beth sydd i ni i'w ddeall wrth y noeau hyn, ac wrth fod yr aberth yn cael ei olchi ynddynt, fel y gellid ei losgi ar yr allor?

Atebaf; yn wir, yr wyf yn tybied fod y deg noeau yn gysgod o'r deg gorchymyn: yn mhurdeb a pherffeithrwydd ufudd-dod Crist, i ba rai y gwnaethpwyd ef yn addas i'w wneud yn boeth-offrwm cymeradwy gan Dduw dros bechodau y bobl. Crist a wnaethpwyd dan y ddeddf; a'i holl weithredoedd o ufudd-dod i Dduw drosom oedd ddeddfol; a'i fuchedd berffaith ddeddfol oedd ei olchiad yn y deg noeau hyn, tuag at ei offrymiad o hono ei hun ar yr allor dros ein pechodau. Y noeau oeddynt yn myned ar olwynion, i arwyddocau traed yn rhodio; a Christ a rodiodd yn y gyfraith, ac felly a wnaethpwyd yn offrwm pur i Dduw drosom. Yr oedd yr olwynion o'r un rhifedi a'r noeau, i ddangos fod ufudd-dod Crist a'r ddeddf o'r un hyd a'u lled yn eu gofynion a'u gorchymynion i'r graddau eithaf. Rhaid oedd golchi perfedd a thraed y poeth-offrwm yn y noeau hyn, Lef. i. 9, 13, i ddangos y byddai i Grist fod yn bur ac yn lân ei galon a'i fuchedd.

Nyni a wyddom fod ufudd-dod, pa un ai o eiddo Crist, neu ynte o'r eiddom ni, yn cael ei alw yn rhodiad yn y ffordd, yr hyn oedd y noeau yn rhodio ar yr olwynion yn gysgodi. Eithr nid wyf yn meddwl, trwy fod Crist yn golchi ei offrwm, fod dim brynti yn nglŷn â'i natur neu ei ufudd-dod ef: eto hyn wyf yn ddywedyd, mai cyn belled ag y gallai ein heuogrwydd ni, yr hwn a osodwyd arno ef, ddiwyno, cyn belled a hyny y sychodd efe ef ymaith trwy ei olchiad yn y noeau hyn. Canys ei offrwm ef oedd i fod yn ddifeius ac yn ddifrycheulyd i Dduw. Am hyny y dywedir iddo sancteiddio ei hun erbyn ei ddioddefaint; "ac wedi ei berffeithio, efe a wnaethpwyd yn Awdwr iachawdwriaeth dragywyddol i'r rhai oll a ufuddhant iddo." Ioan xvii. 19. Heb. v. 6—12.

Canys er dyfod o hono yn sanctaidd i'r byd, eto nid oedd y sancteiddrwydd hyny yn rhag-ddarpariad i hwnw trwy ba un y sancteiddiodd efe ei hun mewn trefn i'w ddioddefaint dros bechod. Ei olchiad yn y noeau hyn, sef ei barotoad digyfrwng ef erbyn ei ddioddefaint, oedd ei ufudd-dod i'r gyfraith. Am hyny efe yn gyntaf a roddodd gyflawn ufudd-dod i'r ddeddf drosom ni; ac yno, wedi ei gymhwyso felly, a offrymodd ei aberth golchedig dros ein pechodau, yn ddifai i Dduw.

Yn y modd hyn, gan hyny, y golchwyd yr hwn oedd ein poeth-offrwm ni yn y deg noeau, fel y gallai fod yn ol y gyfraith yn gymeradwy gan Dduw.

"Ac efe a osododd bùm ystôl ar ystlys ddehau y tŷ, a phump ar yr ystlys aswy i'r tŷ." 1 Bren. vii. 39. Fel hyn y rhanwyd y deg, fel llechau y gyfraith; y naill yn dangos ein dyledswydd tuag at Dduw, y llall ein dyledswydd tuag at ein cymydog: y poeth-offrwm a olchwyd yn mhob un o'r ddau, fel y byddai yn lân mewn pob ystyriaeth.

Hwy a allasent fod wedi eu gosod yma hefyd, i osod y bobl yn well mewn coffadwriaeth o'r angenrheidrwydd o osodiad Crist, yn ol y gyfraith, tuag at offrymu ei hun yn aberth i Dduw drosom ni.

## XXXIX.—*Yn nghylch y Byrddau yn y Deml.*

*Efe a wnaeth hefyd ddeg o fyrddau, ac a'u gosododd yn y deml, pump o'r tu dehau, a phump o'r tu aswy.* 2 Cron. iv. 8.

Ar rai o'r byrddau hyn, os nid arnynt oll, hyd ag yr wyf yn gweled, y dernid y poeth-offrwm, tuag at ei losgi.

Y byrddau hyn a wnaethpwyd o gerig, ïe, o gerig nadd. Ezec. xl. 40—44.

Yn awr, gan fod y poeth-offrwm yn gysgod o gorph Crist, rhaid yw fod y byrddau, i'm tŷb i, yn gysgod o'r galon, calon gareg yr Iuddewon: canys oni buasai fod ganddynt galonau mor galed a'r adamant, ni allasent fyth wneuthur mo'r peth hyny.

Ar y byrddau hyn, gan hyny, y dychymygwyd marwolaeth Crist, ac y gwnaethpwyd y llofruddiaeth hyn, sef y byrddau cerig hyn.

Yn gymaint ag y gelwir hwynt yn fyrddau o gerig nadd, fe all fod i ddangos i'r holl greulondeb hyn gael ei wneuthur dan ledrithiadau llyfn, canys cerig nadd ydynt lyfn. Y byrddau oeddynt wedi eu gweithio yn hardd ag offerynau, megis yr oedd calonau yr Iuddewon â rhagrith. Ond, Och! cerig oeddynt yn wastad, hyny yw, caled a chreulon, onide ni buasent yn eingion i forthwylion y fath ysgelerder arnynt. Y byrddau oeddynt o'r un rhifedi â'r noeau, ac wedi eu gosod gerllaw iddynt, i ddangos pa beth ydyw ffrwythau bod yn gysegredig i'r gyfraith, megis yr oedd yr Iuddewon mewn gwrthwynebiad i Grist a'i efengyl sanctaidd; nid oes dim yn deilliaw oddiyno ond caledwch a chalon gareg. Hyn a ddangoswyd yn yr ysgrifeniad o hono gyntaf, fe'i ysgrifenwyd ar lechau o gerig, cysgodau o galonau dynion; ac ar yr unrhyw lechau neu galonau y dygwyd i ben farwolaeth Iesu Grist.

Fe dybygai un y gallasai llarieidd-dra, addfwynder, a gweithredoedd da Iesu Grist, beri rhyw ddadmeiriad ynddynt, pan yr oeddynt yn nghylch dwyn ei fywyd; ond, Och! byrddau o gerig oedd eu calonau! Pa deimlad neu dosturi a all cerig fod yn syniol o hono? Yma yr oedd calonau, meddyliau, cynghorion, amcanion, cyfraith a dwylaw celyd fel y cerig: a pha beth a ellid ddisgwyl oddiyma ond creulondeb ysgeler yn ddiau? "ac os gofynaf hefyd i chwi," medd Crist, "ni'm hatebwch, ac ni'm gollyngwch ymaith." Luc xxii. 68.

Trwy fod y byrddau cerig hyn yn perthynu i'r deml, mae yn debygol mai gwŷr y deml, offeiriaid, ysgrifenyddion, penaethiaid, cyfreithwyr, &c., a fyddant y penaf ar galonau pa rai yr amcanwyd y llofruddiaeth hyn, a thrwy ba rai y cyflawnwyd er eu damnedigaeth, heb edifeirwch.

## XL.—*Yn nghylch yr Offer â pha rai y lleddid yr Aberth, a'r pedwar Bwrdd y gosodid hwynt arnynt yn y Deml.*

Nid oedd yr offer a osodent ar y byrddau yn y deml yn offer cerdd, ond y rhai

hyny y lladdent y poeth-offrwm â hwynt. "A'r pedwar bwrdd i'r poeth-offrwm oedd o gerig nadd, yn un cufydd a hanner o hyd, ac yn un cufydd a hanner o led, ac yn un cufydd o uchder: arnynt hwy hefyd y gosodent yr offer y rhai y lladdent yr offrwm poeth a'r aberth â hwynt. Hefyd yr oedd bachau, o un ddyrnfedd, wedi eu parotoi o fewn, o amgylch-ogylch: a chig yr offrwm oedd ar y byrddau." Ezec. xl.

1. Rhaid i ni ddàl sylw, fod y byrddau o'r un rhyw; a chrybwyllasom o'r blaen am rai o honynt.

2. Fod yr offer â pha rai y lladdent yr aberth wedi eu gosod ar y byrddau hyn. Yr offerynau â pha rai y lladdent yr aberthau, pa beth oeddynt onid bwyill gwaedlyd, cyllill gwaedlyd, bachau gwaedlyd, a dwylaw gwaedlyd? Hyn sydd yn ddigon amlwg, ac nid oes rhaid eu profi.

Eithr o ba beth yr oedd yr offerynau hyn yn gysgod?

*Ateb.* Yn ddiameu cysgod o'n pechodau ni oeddynt. Hwynt-hwy oedd y fwyall, y gyllell, a'r dwylaw gwaedlyd y tywalltwyd ei waed gwerthfawr ef â hwynt. Hwynt-hwy oedd y rhai haeddedigawl heb ba rai ni buasai efe farw. Pan yr wyf yn dywedyd ein pechodau ni, yr wyf yn meddwl pechodau yr holl fyd. Am hyny, er mai calonau yr Iuddewon oedd yr amcanwyr digyfrwng, eto ein pechodau ni oedd yr offerynau, neu yr offer gwaedlyd a laddodd Fab Duw: "Efe a archollwyd am ein camweddau ni; efe a fu farw dros ein pechodau." Esay liii. 1 Cor. xv. Gal. i.

O! yr arfau o'n heiddo ni, rai taeogaidd, â pha rai y cymerwyd y truan hwn oddiar y ddaear! Esay xxxii. 7. Diar. xxx. 14.

Y fflangell, y cernodiau, y goron ddrain, yr hoelion, y groes, yn nghyd â'r finegr a'r bustl, nid oeddynt oll ddim mewn cyffelybrwydd i'n pechodau ni. "Rhoddwyd pla arno ef am gamwedd fy mhobl." Esay. liii. Nid oedd y gwawdiau, y drwg absenau, y dirmygiadau, y goganau, &c., â pha rai y canlynasant ef o'r ardd i'r groes, ychwaith y fath offerynau creulon a'r rhai hyn.

Ein pechodau, ïe, ein pechodau melldigedig ni, gan hyny, oeddynt trwy, er mwyn, ac â pha rai y gwnaethpwyd yr Arglwydd Iesu yn aberth gwaedlyd.

Ond paham y rhaid gosod yr offer ar y byrddau?

1. Cymerwch y byrddau yn lle calonau y llofruddion, a'r offer yn lle eu pechodau; a pha le sydd gymhwysach i osod yr offer arno? Gorchymyn Duw ydyw gosod o honom y pethau hyn at ein calonau, ac y mae yn achwyn ar y sawl nad yw yn gwneuthur felly. Esay xlii. 25; lvii. 11.

2. Nid yw dynion ychwaith yn debyg i ddyfod i ddaioni, hyd oni osodont o ddifrif yr offer â pha rai y lladdwyd Mab Duw at eu calonau; yr hyn beth a wnaethant hwy (sef yr Iuddewon) ar fyr wedi hyny; ac a fu yn achos o dröedigaeth miloedd o honynt. Act. ii. 36, 37.

3. Am hyny, pan y dywedir fod yn rhaid gosod yr offer hyn ar y byrddau cerig,

coffâu y mae y cymerai Duw amser i osod llofruddiaeth ei Fab yn drwm ar gydwybodau y llofruddion, naill ai er eu tröedigaeth, neu eu damnedigaeth. Ac onid ydyw yn rhesymol caffael o'r rhai hyny a wnaeth yr ysgelerder erchyll hwn eu gweithredoedd yn osodedig o flaen eu hwynebau, ar lechau eu calonau, "Fel yr edrychont ar yr hwn a wânasant, ac hefyd y galarant am dano?" Zec. xii. 10. Dat. i. 7.

4. Eithr ni osodwyd yr offer hyn ond ar rai o'r byrddau, ac nid ar y deg cyfain, i ddangos na chai y cwbl, ond rhai o'r rhai erchyll hyn, drugaredd yr Arglwydd.

5. Ni ddylem ni gyfyngu y byrddau hyn yn unig at galonau yr Iuddewon gwaedlyd; dros ein pechodau ni hefyd y bu efe farw; am hyny y dylid gosod yr offer hyn yn yr un modd ar ein byrddau ni; a'r Arglwydd a'u gosodo hwynt yno er daioni, fel y gwelom ninau hefyd ein gweithredoedd erchyll, ac y delom yn ostyngedig ato ef am faddeuant.

6. Yr oedd yr offer hyn, trwy eu bod wedi eu gosod felly ar y byrddau yn y deml, yn gynhyrfiad gwastadol i bobl Dduw i edifarhau; canys cyn fynyched ag y gwelent hwy yr offer gwaedlyd a chreulon hyn, y dygid ar gof iddynt y modd y byddai i'w pechodan hwynt fod yn achos o farwolaeth Crist.

7. Da fyddai hefyd, pe byddai yr offer hyn wedi eu gosod bob amser ar ein byrddau ni, tuag at ein gwneuthur yn fwy gostyngedig am ein pechodau yn mhob peth a wnelom, yn enwedig ar fwrdd yr Arglwydd, pan y delom i fwyta ac i yfed ger ei fron ef. Y mae yn ddiau genyf, fod yr Arglwydd Iesu yn rhoddi i ni amnaid ei fod yn disgwyl gwneuthur o honom ni felly, pan yw yn dywedyd, "Pan y bwytaoch o'r bara hwn, ac yr yfoch o'r cwpan hwn, gwnewch hyn er coffa am danaf;" er coffa i mi farw dros eich pechodau, ac yn ganlynol, mai hwynt-hwy oedd yr achos haeddedigol o dywalltiad fy ngwaed.

I derfynu. Cofied pawb fod yr offer creulon hyn wedi eu gosod ar lech eu calonau, pa un a fyddai iddynt hwy eu gweled ai peidio: "Pechod Judah a ysgrifenwyd â phin o haiarn, ag ewin o adamant y cerfiwyd ef ar lech eu calon." Jer. xvii. 1.

Pin haiarn a wnaiff lythyrenau ar fwrdd o gareg, ac ewin adamant a wnaiff lythyrenau ar wydr. Am hyny yn yr ymadrodd hyn y mae Duw yn hyspysu i ni, os esgeuluswn ni ddarllen y llinellau hyn er ein tröedigaeth, y bydd i Dduw ryw ddiwrnod eu darllen hwynt yn ein herbyn ni er ein damnedigaeth.

## XLI.—*Yn nghylch Canwyllbrenau y Deml.*

*Ac efe a wnaeth ddeg canwyllbren aur yn ol eu portreiad, ac a'u gosododd yn y deml, pump o'r tu dehau, a phump o'r tu aswy.* 2 Cron. iv. 7.

1. Y canwyllbrenau hyn a wnaethpwyd o aur, i ddangos eu gwerthfawrogrwydd hwynt.

2. Hwy a wnaethpwyd yn ol y portreiad, yn gywir, yn ol rheol, yn gyffelyb i'r rhai hyny a wnaethpwyd yn y tabernacl, neu yn ol y portreiad a roddodd Dafydd i Solomon i'w gwneuthur wrtho; daliwch sylw, fod cywirdeb mawr yn y rhai hyn, ac angenrhaid oedd fod hyny, fel y gallai dynion weled na wasanaethai pob peth yn lle canwyllbren gwir drefnus gyda Duw. Exod xxv. 31—37. 1 Cron. xxviii. 15, 16.

Fe ddywedir weithiau fod y canwyllbrenau hyn yn ddeg, weithiau saith, ac weithiau un. Yn ddeg yma, yn saith yn Dat. i. ac un yn Zec. iv. Deg sydd nôd o liosogrwydd, saith yn nôd o berffeithrwydd, ac un yn nôd o unoliaeth.

Yn awr megis ag yr oedd y meini gwerthfawr â pha rai yr addurnwyd y tŷ, yn gysgod o ddoniau gweinidogaethol, felly y canwyllbrenau hyn oeddynt gysgod o eglwysi y Testament Newydd: am hyny y dywed efe, "Y saith canwyllbren a welaist, saith eglwys ydynt." Dat. i. 12, 13, 20.

1. Y canwyllbrenau oeddynt yn y fan yma ddeg mewn rhifedi, i ddangos y byddai i Grist, dàn y Testament Newydd, gael llawer o eglwysi efengylaidd: "a minau, os dyrchefir fi oddiar y ddaear," medd ef, "a dynaf bawb ataf fy hun," hyny yw, lliaws mawr: "canys i'r unig," sef eglwys y Testament Newydd, "y mae llawer mwy o blant nag i'r hon y mae iddi ŵr," Ioan xii. 32. Gal. iv. 27—sef eglwys yr Iuddewon.

2. Trwy fod y canwyllbrenau wedi eu gosod gerllaw y noeau a'r byrddau cerig, yr oeddynt fe allai i ddangos i ni y byddai eglwysi Crist ystyried yn fawr i Grist, er ei fod yn gyfiawn, eto farw am ein pechodau: er fod ei fuchedd ef yn ol y gyfraith sanctaidd, er hyny i'n calonau cerig ni beri iddo ef farw. Ië, y canwyllbrenau a osodwyd yno, i ddangos i ni hefyd y dylem edrych yn fawr ar y pechodau y gwnaethom iddo ef farw o'u plegid; canys canwyllbrenau a osodwyd ar y byrddau hyny y gosodent yr offer, â pha rai y lladdent yr aberth arnynt.

3. Y canwyllbrenau hyn wedi eu gwneuthur yn ol portreiad, a dybygir fod nid yn unig yn gywir o ran dull, eithr o ran gwaith hefyd: canys hwnw yn Exodus, yn nghyd â'i ddodrefn, a wnaethpwyd yn bendant o un dalent o aur; ysgatfydd i ddangos na byddai i ddyweddi Crist fod un gronyn mwy, na gronyn llai, ond rhifedi cymwys etholedigion Duw.

Hyn ydyw perffeithrwydd Crist, a'i gyflawnder; un yn fwy neu yn llai a wnelai ei gorph ef yn anghenfil.

4. Y canwyllbrenau oeddynt i ddàl y goleu, ac i'w ddangos i'r holl dŷ; a dylai goleuni yr eglwys ddiscleirio, fel y gwelo y rhai oddiallan y goleuni. Mat. v. 15. Luc viii. 16; xi. 33; xii. 35.

5. I'r diben hwn cyflawnwyd y canwyllbrenau ag olew yr olewydden; cysgod

o'r cyflawnder hyny sydd gan yr eglwys, fel y llewyrcho ei goleuni, hyd yn oed o yspryd y gras.

XLII.—*Yn nghylch y Lampau a berthynent i Ganwyllbrenau y Deml.*

I'r canwyllbrenau hyn y perthynai *amryw lampau, yn nghyd â'u blodau a'u cnapiau.* 2 Cron. iv. 21.

1. Y lampau hyn oeddynt gysgodau o'r broffes hòno y mae aelodau yr eglwys yn wneuthur o Grist, pa un ai bod gan y cyfryw aelodau ras cadwedigol ai peidio. Mat. xxv. 1—8.

2. Yr oedd y lampau hyn wedi eu haddurno â chnapiau a blodau, i ddangos mor weddus ydyw y proffeswr hwnw ag sydd yn addurno ei broffes â buchedd ac ymarweddiad cyfatebol.

3. Yr ydym yn darllen fod gan y canwyllbren hwnw yn Zechariah saith o lampau yn perthynu iddo, a phadell o olew euraidd ar ei ben ef, ac mai trwy bibellau aur yr oedd yr olew hwn yn ymarllwys ei hun i'r lampau, a'r cwbl, yn ddiameu, fel y llewyrchai y lampau. Zec. iv.

4. Crist, gan hyny, yr hwn yw yr arch-offeiriad, ac i ba un y perthyn taclu y lampau, sydd yn eu taclu hwynt yr un ffunud. Ond yn awr y mae dau fath o rai ag sydd yn dwyn lampau, y fath ag sydd ganddynt olew yn eu lampau yn unig, a'r fath ag sydd ganddynt olew yn eu lampau a'u llestri hefyd, ac y mae y ddau yn perthyn i'r eglwys, ac fe ogoneddir Crist yn mhob un o'r ddau; a hwy a gânt eu lle priodol yn y diwedd. Y sawl sydd ganddynt olew gras yn eu calonau yn gystal a phroffes Crist yn eu dwylaw, hwy a gânt fyned i mewn gydag ef i'r briodas; ond y sawl a wnant broffes yn unig, ac nid oes ganddynt olew yn eu llestri, a fyddant yn sicr o fethu yn y diwedd. Mat. xxv.

5. Am hyny, O! tydi broffeswr! tydi yr hwn wyt yn dwyn lamp! gwilia, ac edrych atat dy hun; nac ymfoddlona dy hun ar yr hyn yn unig a'th gynhalio mewn proffes, canys hyny a eilir wneuthur heb ras achubol.

Ond myfi a'th gynghorwn di i fyned at Aaron, at Grist, trwsiwr ein lampau, a deisyf llonaid dy lestr o olew ganddo ef (sef gras) i dymheru'th galon, fel y byddo genyt, nid cymaint yn unig a'th gynhalio i fyny yr awr hon, ond yn nydd dyfodiad y Priodfab, pan y diffydd llawer o lampau, ac y gadewir llawer o broffeswyr yn y tywyllwch, canys hwnw fydd i'r cyfryw yn ddiwrnod dychrynadwy. Lef. xxiv. 2. Mat. xxv.

Y mae rhai nad ydynt yn chwennych lampau nac olew iddynt eu hunain, ac nid ydynt, ychwaith, yn foddlon, os tybiant eu bod yn eu gweled yn eraill. Ond rhaid i'r sawl sydd ganddynt lampau, a'r sawl nid oes ganddynt, a'r sawl a ddymunai ddiffodd goleu rhai eraill, ymddangos ar fyr i roddi cyfrif i Dduw am eu holl weithredoedd,

ac yna y cânt weled pa beth ydyw cael o honynt olew yn eu llestri a'u lampau, a pha beth ydyw bod hebddo yn eu llestri, er ei fod yn eu lampau; a pha mor echryslawn yw bod yn ddrwg-ewyllysiol i un o'r ddau. Eithr bydded hyn yn ddigonol y pryd hyn.

### XLIII.—*Yn nghylch y Bara gosod ar y Bwrdd Aur yn y Deml.*

Yr oedd hefyd fara gosod ar y bwrdd aur yn y deml. 1 Bren. vii. 48.

Y bara gosod oedd ddeuddeg teisen wedi ei wneuthur o belliad têg, *dwy ddegfed ran oedd i bob teisen, a gosodwyd hwynt mewn trefn yn ddwy res ar y bwrdd pur.* Exod. xxix. 33. Lef. vi. 31; xxiv. 5—10.

1. Y deuddeg teisen hyn, dybygwn i, oeddynt gysgod o'r deuddeg llwyth dàn y ddeddf, a phlant Duw dàn yr efengyl, megis y maent yn cynnrychioli eu hunain o flaen Duw yn, a thrwy ei ordinhadau, trwy Grist. Am hyny y dywed yr apostol, "Oblegid nyni yn llawer ydym un bara," &c. 1 Cor. x. 17. Canys felly yr oedd y deuddeg teisen, am eu bod yn ddeuddeg; ac felly y mae saint yr efengyl, er eu bod yn llawer: "Felly ninnau, a ni yn llawer, ydym un corph yn Nghrist." Rhuf. xii. 5.

2. Eithr yr oeddynt hwy yn gysgod o'r wir, ac nid o'r gau eglwys, canys Ephraim yr hwn oedd ben y deg llwyth yn eu gwrthgiliad, a wrthodwyd megis teisen heb ei throi. Yn wir fe'i gelwir yn deisen, fel y gellid galw eglwys gau yn eglwys; ond efe a elwir yn deisen heb ei throi, megis gau eglwys nad yw wedi ei pharotoi i Dduw, nac yn addas i'w gosod ar y bwrdd aur o'i flaen ef. Hos. vii. 8.

3. Ar y teisenau hyn, neu y bara gosod, y dodent thus, fel yr oeddynt yn sefyll ar y bwrdd aur, yr hwn oedd gysgod o aroglau peraidd sacteiddiadau yr Yspryd Glân, at yr hyn y mae Paul yn cyfeirio, yr wyf fi yn meddwl, pan y dywed efe, "y byddai offrymiad y Cenhedloedd yn gymeradwy, wedi ei sancteiddio gan yr Yspryd Glân." Rhuf. xv. 16.

4. Yr oeddynt i'w gosod ar y bwrdd pur yn newydd ac yn frwd, i ddangos fod Duw yn ymhyfrydu yn nghymdeithas y credinwyr newydd a gwresog: "Cofiais di, caredigrwydd dy ieuengctid: pan oedd Israel yn fachgen, mi a'i cerais ef." Dynion, ar eu dychweliad cyntaf, ydynt gyffelyb i deisen wedi ei phobi yn dda, a newydd ei chymeryd allan o'r ffwrn; y maent yn wresog, ac yn arogli yn beraidd iawn, yn enwedig pan y byddont frwd, dodant arogl-darth arnynt. Jer. ii. 2. Hos. xi. 1.

5. Pan y byddai y bara gosod yn hen ac yn llwydo, hwy a'i cymerent ymaith, ac a osodent un newydd brwd yn ei le, i ddangos nad oes gan Dduw ond ychydig o ddifyrwch yn ngwasanaeth ei bobl ei hun, pan yr heneiddio ac y diflaso eu dyledswyddau. Am hyny y symudodd efe eglwys hen a diflas yr Iuddewon oddi ger ei fron, ac a osododd yn ei lle, ar y bwrdd aur, eglwys wresog y Cenhedloedd.

6. Yr oedd y bara gosod, trwy ei symud a'i adnewyddu yn fynych, i fod yn wastadol yn sefyll gerbron yr Arglwydd yn ei dŷ, i ddangos i ni y bydd gan Dduw bob amser, cyhyd ag y byddo yr ordinhadau o ddefnydd, bobl newydd, wresog, a sanctaidd, i'w addoli.

7. Aaron a'i feibion oedd i fwyta yr hen fara gosod, i ddangos, pan y byddo seintiau byw yn y byd cyhyd ag y byddo bywyd yn fuddiol iddynt, a phan nas gallont wneuthur ychwaneg o wasanaeth i Dduw yn y byd, y byddent eto yn dderbyniol gan Iesu Grist, ac y bydd megis bwyd a diod iddo ef eu hachub hwynt o'u holl annheilyngdod.

8. Y bara gosod newydd oedd i'w osod, ïe, ar y Sabboth, gerbron yr Arglwydd, i ddangos gyda pha fath wresogrwydd cariad a serchiadau y dylai gweision Duw nesâu at ei bresenoldeb ef ar ei ddydd sanctaidd.

XLIV.—*Yn nghylch y Salltringau a berthynai i Ganwyllbrenau a Lampau y Deml.*

Megis ag yr oedd canwyllbrenau a lampau, felly yr oedd salltringau hefyd wedi eu parotoi iddynt yn nheml yr Arglwydd: *a'r salltringau oeddynt o aur coeth.* 1 Bren. vii. 50.

1. Y salltringau, eu defnydd ydyw trwsio y lampau a'r canwyllau, fel y llewyrcho eu goleuni yn ddiscleiriach.

2. Y salltringau, chwi wyddoch, ydynt rai ag sydd yn cnoi ac yn gwasgu; eithr os arferwch hwynt yn dda, hwy a brofir nid yn unig yn ddefnyddiol i'r neb a fyddo oddifewn i'r tŷ, eithr i'r goleuadau hefyd.

Chwi a ofynwch, ysgatfydd, o ba beth yr oedd y salltringau yn gysgod?

*Ateb.* Os rhysedd ein drygioni ni ydyw penau y canwyllau, yna y salltringau ydynt yr argyhoeddiadau, y ceryddon cyfiawn, a'r cynghorion a ordeiniodd Crist i fod yn ei dŷ er daioni; neu fel y mae gan yr apostol, er adeiladaeth i ni; ac y mae Paul, ysgatfydd, yn cyfeirio at y rhai hyn, pan yw yn gorchymyn i Titus "argyhoeddi y Cretiaid yn llym, fel y byddent iach yn y ffydd." Tit. i. 12, 13.

Rhaid oedd iddynt arferyd salltringau y deml i drwsio eu canwyllau â hwynt, os na oleuant yn iawn; am hyny yr oedd y salltringau hyn o wasanaeth mawr yn nheml Dduw; yn unig, fel y dywedais, yr oedd yn rhaid eu harferyd yn ddoeth.

Nid yw yn briodol i bob ffol arfer y salltringau wrth neu o gwmpas y canwyllau, rhag iddynt eu ddiffodd yr lle gwella eu goleuni. Am hyny y mae Paul yn gorchymyn y neb sydd ysprydol ei wneuthur. Gal. vi. 1.

Fy rheswm a ddywaid i mi, os arferaf y salltringau hyn megis ag y dylwn, fod yn rhaid i mi, nid yn unig ymgais i gymeryd ymaith ben y ganwyll, eithr gwneuthur hefyd felly, fel ag y gwellheir y goleuni; yr hyn ynte a wnelir, os, fel y dywed yr apostol, yr arferaf doster, er adeilad, ac nid er dinystr. 1 Cor. v. 4, 5. 2 Cor. xiii. 10.

Onis gelwir saith eglwys Asia dân enw canwyllbrenau? a phaham canwyllbrenau, os nad oeddynt i ddâl canwyllau? a rhaid yw i'r canwyllau gael salltringau i drwsio eu goleuadau â hwynt; a Christ, yr hwn ydyw ein gwir Aaron, yn y ceryddon a roddodd efe i'r eglwysi hyny, gan eu cyfeirio at y salltringau hyn, a'u gwnaeth, fel y llewyrchai eu goleuadau yn fwy disclaer. Dat. ii; iii.

Am hyny, fel yr oedd efe yn eu harferyd hwynt, yr oedd yn ochelgar mewn perthynas i'w goleuni, rhag iddo waethygu; canys fel yr oedd efe yn trwsio y lampau hyn yn wastadol, yr oedd er hyny yn anog yr hyn oedd yn weled a lewyrchai, os byddent yn feddyginiaethol. Llwch pen y ganwyll yn unig a dorai efe ymaith. Yn y modd hyn, gan hyny, y daeth efe atynt hwy â'r salltringau hyn yn ei law, ac a drwsiodd eu lampau a'r canwyllbrenau. Dat. ii. 4, 20; iii. 2, 15.

Hyn a ddylai ddysgu gweinidogion, i ba rai y perthynant, dân Grist, i arferyd y salltringau yn iawn. Gosodwch at lwch llosgedig y babwyren, ac nid at y goleu, yn eich holl argyhoeddiadau a'ch cynghorion: na thynwch benau eich lampau o ran dirgel ymddial, ond o ran bwriad i feithrin gras a doniau mewn eglwysi. Felly y mae ein Harglwydd yn dywedyd iddo ef wneuthur wrth arferyd y salltringau hyn o amgylch y canwyllbrenau: "Yr wyf fi yn argyhoeddi," medd efe, "ac yn ceryddu y sawl yr wyf yn eu caru: am hyny bydded genyt zel, ac edifarha. Dat. iii. 19.

I ddiweddu. Wiliedyddion, gwiliwch, ac na oddefwch i benau eich canwyllau fod yn rhy hir, ac na thynwch hwynt ymaith â'ch bysedd, neu â'ch ymresymiadau cnawdol, eithr â chynghorion duwiol, &c. Arferwch eich salltringau yn raslawn, attaliwch ddrygioni, a maethwch rinweddau da, felly yr arferwch hwynt yn dda, ac y llewyrcha eich goleuni er gogoniant i Dduw.

### XLV.—*Yn nghylch y Llwch-gafnau ag oedd gyda'r Gefeiliau yn y Deml.*

Megis ag yr oedd gefeiliau, felly yr oedd hefyd lwch-gafnau yn y deml: "a hwy hefyd oeddynt o aur coeth." Exod. xxv. 23; xxxvii. 23. Num. iv. 9. Y llwch-gafnau oeddynt y rhai y gosodent benau y canwyllau ynddynt pan y torent ymaith, ac yn mha rai y dygid hwynt allan o'r deml. Hwy, gan hyny, megis y gefeiliau, ydynt o wasanaeth mawr yn nheml Dduw.

1. Ynddynt hwy y cedwid llawr aur y deml rhag cael ei ddiwyno â llwch y canwyllau.

2. Hwy hefyd a gadwent ddwylaw glân y sawl a addolent yno rhag cael eu diwyno.

A hwynt hefyd yr attelid drwg-sawyr penau y canwyllau yn gyntaf yn y deml, ac yn ganlynol, y cedwid ffroenau y rhai a addolent yno rhag cael eu sarhau.

Penau canwyllau, fel y gwyddoch, ydynt bethau ag sydd yn diwyno, yn drewi,

ac yn wrthwyneblyd, am hyny rhaid i ni wilied na chyffyrddont â'r llawr hwn yr ydym yn rhodio arno, na diwyno y dwylaw yr ydym yn godi i fyny at Dduw, pan y delom i'w addoli ef. Eithr pa fodd y gwneir hyn ond trwy eu cymeryd ymaith â'r salltringau, a'u dodi yn y llwch-gafnau hyn?

Rhai a dynant ben y ganwyll â'u bysedd, ac hefyd a'u taflant wrth eu traed, ac a ddiwynant lawr tŷ sanctaidd Duw; ond yn fynych y mae y cyfryw yn ymlosgi yn gystal ag yn ymddiwyno eu hunain. Eithr onid ydyw yn gywilydd i ddyn halogi ei hun â'r bai hwnw ag y mae yn geryddu yn eraill? Bydded i ni, gan hyny, tra byddom yn cymeryd ymaith anmhuredd rhai eraill, gasâu, ïe, yr wisg a fyddo wedi ei diwyno gan y cnawd, ac ymegnio i ddwyn ymaith y fath fudredd â'r llwch-gafnau allan o deml Dduw. Llwch-gafnau, meddwch, pa beth ydynt?

*Atebaf.* Os pechodau ydyw penau y canwyllau, a cheryddon a chynghorion y salltringau, yna myfi a dybygwn mai edifeirwch, neu o ddiffyg hwnw, thuserau yr eglwys, a ddylai fod y cafnau.

Oherwydd paham, edifeirwch a elwir yn ras glanhaol yr eglwys, a cheryddon yr eglwys yn garthiad allan yr hen lefain, a'i wneuthur yn does newydd. 1 Cor. v. 7. 2 Cor. vii. 11.

O! pe byddai y cafnau hyn yn cael eu harferyd yn fynychach yn yr eglwysi, ni byddai budredd y dyn hwn i halogi bysedd y dyn acw megis ag y mae; ac ni byddai teml Dduw wedi ei halogi, a'i diwyno â'r pabwyrau hyn fel ag y mae.

Och! pabwyrau y canwyllau, wedi eu tynu ymaith, ydynt yn gorwedd ar lawr y deml, ac yno a ddrewant, ac a ddiwynant y traed a'r bysedd, ïe, galwedigaethau ac ymarweddiadau addolwyr y deml; gan anurddo crefydd, a gwneuthur addoliad crefyddol o ychydig bris gyda dynion. A'r cwbl, meddaf, o ddiffyg dwys arfer y salltringau a'r cafnau hyn yno.

Ië, onid ydys yn diwyno eglwysi cyfain yn awr â'r pabwyrau hyny a dynwyd ymaith er ys talm, a'r cwbl oll o ddiffyg arferyd y cafnau hyn yn ol gorchymyn yr Arglwydd? Canys gwybyddwch nad yw ceryddon a chynghorion ond o ychydig ddefnydd, lle na byddo edifeirwch neu geryddon yr eglwys yn gysylltiedig â'u gilydd. Pan byddo y gweinidogion yn arferyd y salltringau, fe ddylai y bobl ddâl y cafnau.

Pan y disgyno ceryddon am bechod ar galonau edifeiriol, yno y bydd gwaith hardd yn yr eglwys: yna y pabwyrau nid yn unig a dynir ymaith, eithr hefyd a ddygir allan o deml Dduw yn rheolaidd, &c.

Ac yn awr, yr addoliad a'r addolwyr a ddiscleiriant fel aur: "Ceryddwr doeth, i'r glust a wrandawo, sydd fel anwyl-dlws euraidd, a gwisg o aur rhagorol. Diar. xxv. 12.

Weinidogion! i chwi y perthyn arferyd y salltringau, ac i ddysgu y bobl i ddâl

y cafnau yn iawn. Act. xx. 20, 21. 1 Tim. iv. 2. Fe ddylid tori penau ein canwyllau yn fynych â'r salltringau, onide ni lewyrcha ein goleuni ond niwliog; hefyd ein canwyll a dodda ymaith yn ofer: gweddiwch, gan hyny, chwi wŷr Duw, edrychwch yn ofalus at eich pobl; torwch benau y canwyllau fel y byddont yn gofyn, eithr gochelwch wneuthur hyny â'ch bysedd gwynion. Brycheuyn bychan arnoch chwi a welir o hirbell. Edrychwch hefyd na adawch mo honynt mewn un lle ond yn y cafnau hyn, fel y byddo y deml yn lân oddiwrthynt.

Gwnewch â phenau y canwyllau megis y gwna gwraig dda â'r llyffant a gaiff hi yn ei gardd. Hi a gymer fforch neu efail, ac a'i teifl â hi dros y clawdd. Teflwch hwynt ymaith, meddaf, gydag ofn, zel, gofal, a dial, ac hefyd â soriant dirfawr; 2 Cor. vii. 11; ac yna eich eglwys, eich ymarweddiad, eich bysedd, a'r cwbl, a gedwir yn wyn ac yn lân.

### XLVI.—*Yn nghylch y Gefeiliau Aur a berthynent i'r Deml.*

Yr oedd hefyd yn arferedig yn y deml gynt efeiliau aur. 1 Bren. vii. 49.

1. Y gefeiliau hyn a arferent *o gwmpas yr allor, i drefnu y tân yno.*

2. Hwy a'u harferent hefyd *o gwmpas y canwyllbren,* ac am hyny a elwir ei efeiliau ef.

3. Yr oedd, ysgatfydd, efeiliau at bob un o'r ddau wasanaeth hyn, eithr y gair sydd yn ddistaw yn nghylch hyny.

I ba bwrpas yr arferid hwy o amgylch y canwyllbren?

*Ateb.* I gymeryd y tân sanctaidd oddiar yr allor i oleuo y lampau ag ef. Canys tân y deml oedd dân sanctaidd, y fath a gynneuwyd gyntaf o'r nefoedd, ac wedi ei ennyn, a gynhaliwyd gan yr offeiriaid, ac oddiwrth hwnw y goleuwyd y lampau. Lef. ix. 24. 2 Cron. vii. 1.

Ac nid oedd ychwaith, dan boen marwolaeth, un tân arall i'w arferyd yno. Lef. x. 1. Y gefeiliau hyn, gan hyny, a arferid i gymeryd y tân oddiar yr allor i oleuo y lampau a'r canwyllbrenau; canys i Aaron y perthynai taclu y goleu, a thrwsio y lampau, o hwyr hyd foreu, bob amser: Exod. xl. 24, 25. Lef. xxiv. 2, 3. Num. viii. 2, 3. "Pan oleuech y lampau, llewyrched y saith lamp ar gyfer y canwyllbren. Ac felly y gwnaeth Aaron; ar gyfer y canwyllbren y goleuodd efe ei lampau ef, megis y gorchymynodd yr Arglwydd wrth Moses."

Pa beth a wnawn â lamp neu ganwyllbren, os ni byddant wedi eu goleuo? a pha fodd y goleuir hwynt heb dân? a pha fodd y codwn farworion i'w goleuo, os na bydd genym efeiliau wedi eu darparu at y defnydd hyny?

A'r gefeiliau hyn y codid tân hefyd oddiar yr allor i'w osod yn y thusserau, i losgi yr arogl-darth ag ef gerbron yr Arglwydd. Am hyny yr oedd y gefeiliau o wasanaeth mawr yn nheml yr Arglwydd. Eithr o ba beth yr oeddynt yn gysgod?

Yr allor oedd gysgod o Grist, y tân o'r Yspryd Glân, a'r gefeiliau o'r llaw sanctaidd hòno o ras Duw, â pha un y cymerir y marwor, neu amryw oruchwyliaethau a doniau yr Yspryd Glân hwn, ac a'i rhoddir i'r eglwys, ac i'w haelodau, er ei gwaith a'i lleshad yn y byd hwn.

Gefeiliau, ni a wyddom eu bod yn cael eu harferyd yn lle bysedd, am hyny gefeiliau aur Aaron oedd yn gysgod o fysedd aur Crist. Can. v. 14. Esay a ddywed i un o'r seraphiaid redeg ato, ac yn ei law farworyn, a gymerasai efe oddiar yr allor mewn gefail. Yma y gosodir y cysgod a'r gwrth-gysgod yn nghyd, sef gefeiliau, a'r llaw. Esay vi. 6. Y mae y prophwyd Ezeciel, wrth grybwyll am yr unrhyw bethau, yn gadael heibio y cysgod, sef yr efail, ac yn siarad yn nghylch y llaw sanctaidd yn unig: "Ac efe a lefarodd wrth y gwr a wisgasid â lliain, ac a ddywedodd, Dos i mewn rhwng yr olwynion, hyd dàn y cerub," lle yr oedd y drugareddfa yn sefyll, lle yr oedd Duw yn preswylio: Exod. ii. Salm viii. 1: a "llanw dy ddwylaw o farwor tanllyd,oddi rhwng y cerubiaid." Ezec. x. 2.

Fel hyn y gwelwch ein gefeiliau aur ni wedi eu troi yn llaw aur; yn llaw aur y gwr a wisgasid â lliain, yr hwn yw Iesu Grist, pa un ar ei esgyniad a dderbyniodd oddiwrth Dduw y Tad yr Yspryd mewn pob cyflawnder, i roddi fel y gwelai ei dduwiol ddoethineb ef oreu, yr amryw farwor neu ddoniau o hono i'w eglwys, er ei ogoniant ef, a'i hadeiladaeth hithau. Mat. iii. 11. Act. ii.

Ar y llaw hon hefyd y gosodir y tân sanctaidd hwn yn ein thuserau. Y llaw hon hefyd a gymer y marworyn i gyffwrdd â gwefusau y gweinidogion fel y gwresogo eu geiriau megis tân: a thrwy y llaw hon y rhoddir yr Yspryd i'r eglwysi, megis dychweliadau o'u gweddiau sanctaidd. Luc xi. 1, 2. Rhuf. viii. 26. Dat. viii. 5.

Yr oedd yn gymhwys i drefnu y tân yn y deml â gefail aur, eithr yr Yspryd Glân trwy y llaw aur o ras Crist, am hyny a all ei drefnu yn ddoeth, yn ol fel y mae dynion â moddion wedi eu gosod, a gwneuthur yr hyn sydd i'w wneuthur yn yr eglwysi. Am hyny efe a chwanega: "Yna yr estynodd un cerub ei law oddi rhwng y cerubiaid i'r tân yr hwn oedd rhwng y cerubiaid, ac a gymerth, ac a roddodd beth yn nwylaw yr hwn a wisgasid a lliain: yntau a'i cymerodd, ac a aeth allan." Ezec. x. 7.

A'r llaw hon, gan hyny, ïe, â llaw y gwr hwn, y dosparthid marwor yr allor, i'r lampau, i'r canwyllbrenau, i'r thuserau, ac i wefusau gweinidogion, yn ol ei ewyllys da ei hun. A'r gefeiliau yn y deml oeddynt gysgod o hyn oll.

## XLVII.—*Yn nghylch Allor yr Arogl-darth yn y Deml.*

Allor yr arogl-darth a wnaethpwyd gyntaf i'r tabernacl, a hòno o goed Sittim, eithr hi a wnaethpwyd i deml Cedar, ac a'i gosodwyd hi o flaen y wahanlen sydd wrth arch y dystiolaeth, o flaen y drugareddfa, hyny yw, wrth y mynediad i'r sancteidd-

iolaf, ond nid oddifewn. A'r offeiriad oedd i neshau ati bob boreu, yr hyn nis gallai wneuthur at y sancteiddiolaf. Yn mhellach, pan yr elai i wneuthur cymmod, yr oedd efe i gymeryd tân oddiar yr allor hòno, i losgi yr arogl-darth o fewn y lle sanctaidd. Exod. xxx. 4—11. Lef. xvi. 18.

1. Fe elwid allor yr arogl-darth yn allor aur, oherwydd ei bod *wedi ei gwisgo ag aur pur.* Nid oedd yr allor hon i aberthu y poeth-offrwm arni, megis yr allor bres, nac ychwaith y bwyd-offrwm, na'r ddiod-offrwm, *ond i losgi yr arogl-darth arni;* Exod. xxx. 7; pa arogl-darth oedd gysgod o'r dawn o weddi. Salm cxli. 2.

2. Arogl-darth, neu yr hyn a elwir yn arogl-darth yma, nid un peth ydoedd, eithr yr oedd yn gymysg o amryw lysiau peraidd, sef stacte, onycha, a galbanwm y tri hyn, ac a allant ateb i'r tair rhan hyn o ddyledswydd, sef gweddi, ymbil, ac eiriolaeth. Exod. xxx. 34—38; xxxvii. 29. 1 Tim. ii. 1.

3. Yr arogl-darth hwn oedd i'w losgi ar yr allor bob boreu, sef ar yr allor hòno a elwid allor yr arogl-darth, yr hon oedd o flaen y wahanlen; i ddangos mai ein dyledswydd ni ydyw bob boreu offrwm ein gweddiau i Dduw, trwy Iesu Grist, o flaen y wahanlen: hyny yw, o flaen porth y nefoedd, ac yno i ofyn, ceisio, a churo am yr hyn sydd arnom ddiffyg, yn ol y gair. Luc xi. 9—13.

4. Yr arogl-darth hwn oedd i'w gynneu bob boreu, i ddangos y modd y mae efe yn parhau i eiriol drosom, ac hefyd fod pob gwir foliant o eiddo dynion i Dduw trwy waith, adnewyddol waith yr Yspryd sanctaidd ar ein calonau. Rhuf. viii. 26.

5. Arogl-darth, fel y gwelwch, a wnaethpwyd o lysiau peraidd, y fath ag oedd y gŵm, ac felly yn dueddol ganddynt losgi dan fygu, i ddangos mai nid oer a diflas, eithr twym a gwresog ydyw y weddi sydd yn deilliaw oddiwrth yspryd y gras o ffydd. Zec. xii. 10. Jer. v. 16.

6. Mwg yr arogl-darth hwn oedd beraidd a safwyrus; yn debyg i fwg-darthiad hyfryd; i ddangos mor hyfryd a chymeradwy ydyw swn a llais gweddi uniawn i ffroenau y Duw byw, oherwydd ei fod yn deilliaw o galon ddrylliog. Salm li. 17. Can. ii. 14.

7. Yr oedd yr arogl-darth hwn i'w offrymu ar yr allor aur, i ddangos nad oes un weddi yn gymeradwy ond yr hon a gyfeirir at Dduw yn enw ei Fab sanctaidd a bendigedig, ein Hichawdwr. 1 Pedr ii. 5. Heb. xiii. 15.

8. Hwy a orchymynwyd i arogl-darthu ar yr allor hon bob boreu, i ddangos nad yw Duw un amser yn blino ar weddiau duwiol ei bobl. Fe ddengys hefyd fod genym achos beunydd i fyned at Dduw am gynorthwy newydd o'i ras, i'n dwyn trwy y byd drygionus hwn.

9. Yr allor hon, er ei bod yn sefyll o'r tu allan i'r wahanlen, sydd i'n dysgu ni i fyw trwy ffydd, ac i arferyd enw Crist, megis y gwelwn yn grybwylledig yn y deml gyntaf; er hyny, wedi ei gosod cyn agosed at y sancteiddiolaf, fel y gallai y mwg

fyned yno, i ddangos nad pellder lleoedd a all attal sain gweddi gywir oddiwrth ein Duw, Duw y nefoedd: eithr y bydd hoff ganddo yr hyn a ofynom iddo yn ol ei air.

Yr oedd hi yn sefyll, meddaf, gerllaw y wahanlen, gerllaw y sancteiddiolaf; a'r hwn a arogl-darthai yno a ddynesai at Dduw; am hyny y Salmydd, pan y mae yn son am weddio, a ddywed, "Da yw i ni nesâu at Dduw." Salm lxxiii. 28. Heb. x. 22.

10. Yr oedd yr allor hon wedi ei gosod fel hyn, yn gwynebu yr allor o fewn y wahan-len; i adgoffa i ni y cedwir y gyfraith yno rhag ein niweidio: i beri ni wybod hefyd, fod y drugareddfa oddiarnodd, ar yr arch, ac fod Duw yn eistedd arni, â'i bardwn yn ei law i'n hachub. O! pa bethau llefarus ydyw arwyddion, cysgodau, a damhegion, pe bai genym ond llygaid i weled, a chlustiau i glywed!

Yr hwn gynt a ddynesai at yr allor ag arogl-darth yn addas (ac efe a wnai felly, pan y neshai trwy Aaron, ei arch-offeiriad, a ryngai fodd i Dduw: pa faint mwy y cawn ni dderbyniad o'n personau a'n gweddiau, a chaniatad o'r hyn sydd arnom ddiffyg, os yn ddiau y deuwn fel y dylem at Dduw, trwy Iesu Grist?

Eithr gochelwch neshau o honoch at allor arall, na dyfod ychwaith â thân dieithr, canys pethau peryglus ydynt, ac yn peri i'r addolwyr golli yr hyn a fynent fwynhau. Ond ychwaneg o hyn yn y bennod nesaf.

## XLVIII.—*Yn nghylch y Thusserau Aur oedd yn perthynu i'r Deml.*

Yr oedd hefyd yn y deml thusserau aur, a'r fath oeddynt ag a berthynai naill ai i feibion Lefi yn gyffredinol, neu ynte i Aaron a'i feibion yn enwedigol. Num. vi. 16—19.

Thusserau y Lefiaid oeddynt gysgodau o'n rhai ni, eithr thusser Aaron oedd gysgod o un Crist.

Y thusserau, fel y crybwyllwyd eisoes, oeddynt at y defnydd hyn yn y deml, *sef i ddàl y tân sanctaidd ynddynt*, ar ba un yr oedd yr arogl-darth i gael ei losgi gerbron yr Arglwydd. Lef. x. 1.

Y thusserau hyn oeddynt gysgodau o galonau. Un euraidd Aaron oedd gysgod o galon euraidd Crist, a thusserau y Lefiaid oeddynt gysgodau o galonau addolwyr eraill.

Y tân hefyd a osodwyd ynddynt oedd gysgod o'r Yspryd hwnw, trwy yr hwn yr ydym yn gweddio, a'r arogl-darth a losgid arno, yn gysgod o'n dymuniadau.

Am thusser Crist, yr ydym yn darllen yn Dat. viii. yr hwn sydd yn llawn bob amser o arogl-darth, sef, gydag eiriolaeth gwastadol, pa un y mae efe yn offrymu i Dduw drosom, ac oddiwrth ba un hefyd y mae yn codi yn wastadol gwmwl o arogl peraidd, yn gorchuddio y drugareddfa. Lef. xvi. 13. Heb. vii. 25. Dat. viii. 3, 4.

Ond i ddywedyd am y thusserau, a thân, ac arogl-darth yr addolwyr; canys er eu bod hwynt oll wedi eu gosod dàn un rheol; hyny yw, i fod yn ol cyfraith, er

hyny yn fynych fel yr oedd yr addolwyr, felly yr oedd y thusserau, y tân, a'r arogl-darth.

1. Am hyny y ddau cant thusser a deg a deugain, â pha rai yr offrymodd Corah a'i gyfeillion, a elwir yn thusserau pechaduriaid. Canys hwy a ddaethant a chalonau drwg, yr amser hwnw, i losgi arogl-darth gerbron yr Arglwydd. Num. xvi. 17, 37.

2. Drachefn, megis ag y gelwid thusserau y dynion hyn yn thusserau pechaduriaid, yn dangos iddynt hwy ddyfod at yr amser hwnw â chalonau drwg, felly y tân oedd yn thusserau Nadab ac Abihu a elwir yn "dân dieithr," yr hwn ni orchymynodd Duw iddynt. Lef. x. 1.

3. Y tân dieithr hwn oedd gysgod o'r yspryd dieithr hwnw ag oedd yn gwrthwynebu Yspryd Duw; yn, a thrwy ba un, er hyny i gyd, yr anturia rhai i gyflawni addoliad i Dduw.

4. Drachefn, megis ag y gelwir y thusserau hyn yn thusserau pechaduriaid, a'r tân hwn yn dân dieithr; felly hefyd y gelwir arogl-darth y cyfryw yn ddieithr, ac a ddywedir fod yn ffieidd-dra gan Dduw. Exod. xxx. 9. Esay i. 13; lxvi. 3.

Fel hyn y gwelwch fod thusserau, tân, ac arogl-darth rhai yn wrthodedig, megis y mae calon, yspryd, a gweddi pechaduriaid, yn ffiaidd gan Dduw. Hos. vii. 14; iv. 12; v. 14. Diar. xxiii. 9.

Ond yr oedd heblaw y rhai hyn wir thusserau, tân sanctaidd, ac arogl-darth peraidd, yn mysg yr addolwyr yn y deml, a'u gwasanaeth oedd gymeradwy gan Aaron, eu harch-offeiriad: canys yr oedd hyny trwy ffydd o Grist. A'r rhai hyn oeddynt gysgod o'r gwir addolwyr efengylaidd, y rhai a ddeuant â chalonau sanctaidd, yspryd sanctaidd, a dymuniadau sanctaidd, gerbron eu Duw, trwy eu Hiachawdwr. Y rhai hyn ydynt ber-arogl yn ei ffroenau ef; gweddi y cyfiawn sydd hoff ganddo: "Gweddiau Dafydd oeddynt yn myned i fyny fel arogl-darth, a dyrchafiad ei ddwylaw fel yr offrwm prydnawnol." Diar. xv. 8. Salm cxli. 2.

Gan hyny, edryched y sawl sydd yn cymeryd arnynt addoli gerbron Duw yn ei deml sanctaidd, fod eu thusserau, eu tân, a'u harogl-darth, calon, yspryd, a'u dymuniadau, y fath ag yw y gair yn ei ofyn; rhag, yn lle derbyn atebiad graslawn oddiwrth Dduw y nefoedd, i'w thusserau gael eu gosod i fyny yn eu herbyn, rhag i dân Duw eu difa hwynt, a bod eu harogl-darth yn ffiaidd ganddo, fel y digwyddodd i'r rhai hyny y crybwyllwyd am danynt o'r blaen.

Ond fe ddywedir fod thusserau Corah a'i gefeillion wedi eu sancteiddio.

*Ateb.* Felly mae addoliad Duw, yr hyn sydd yn eiddo iddo ef trwy ei ordeiniad; eto, hyd yn oed yr addoliad hyny a ellir ei lygru trwy droseddiad dyn.

Ordinhad Duw yw gweddi, eithr nid yw pob gweddi yn gymeradwy gan Dduw. Mae'n rhaid i ni wahaniaethu rhwng y peth gorchymynedig a'n harferiad ni o hono.

Yr oedd y deml yn dŷ Dduw, eithr a lygrwyd trwy anmharch y rhai a addolasant yno, hyd onis distrywiwyd hi.

Thusser aur yw calon raslawn, tân nefol yw yr Yspryd Glân, ac arogl-darth peraidd yw gweddi effeithiol ffydd wresog. A oes genych y rhai hyn? Y rhai hyn y mae Duw yn eu disgwyl, a rhaid yw eu bod genych, os byth y bydd i'ch personau a'ch cyflawniadau fod yn gymeradwy gan Dduw.

### XLIX.—*Yn nghylch Llwyau Aur y Deml.*

1. Y llwyau aur a berthynai i'r deml oeddynt, yn ol Moses, *ddeuddeg* mewn rhifedi; yn gyfatebol i'r deuddeg llwyth. Eithr pan adeiladwyd y deml, yr ydwyf yn meddwl eu bod yn ychwaneg, oherwydd nifer y cawgiau. Num. vii. 14—87.

2. Y llwyau, i'm tyb i, *oeddynt i'r addolwyr yn y deml i yfed y cawl hwnw â hwynt, yn mha un y berwid yr aberth dros gamwedd,* at ba berwyl yr oedd amryw beiriau yn nghrog yn nghonglau y cyntedd hwnw a elwid cyntedd yr offeiriaid, i'w berwi hwynt ynddynt. 1 Sam. ii. 13, 14. Ezec. xlvi. 19, 20.

3. Yn awr trwy ei fod yn dywedyd fod yma lwyau, pa beth ydyw ond bod babanod hefyd yn nheml yr Arglwydd: yr oedd yno gawl i fabanod, yn gystal a bwyd i wŷr, a llwyau i yfed y cawl â hwynt.

4. Gwir yw, y mae yr efengyl, gan ei bod yn fwy rhagorol na'r gyfraith, yn newid y gair, ac yn lle cawl, yr dywedyd, Y mae yno laeth i fabanod; ond gan ei fod yn dywedyd llaeth, meddwl y mae fod yn yr eglwys lwyau i fabanod.

5. "Nis gallwn," medd Paul wrth y Corinthiaid, "lefaru wrthych megis wrth rai ysprydol, ond megis rhai cnawdol, megis wrth rai bach yn Nghrist. Mi a roddais i chwi laeth i'w yfed, ac nid bwyd: canys hyd yn hyn nis gallech, ac nis gellwch chwaith eto yr awrhon ei dderbyn." 1 Cor. iii. 1, 2.

6. Wele, yr oedd yn rhaid wrth lwyau yma: bwyd ydyw llaeth, canys yr oedd yma y cyfryw ag na allent borthi eu hunain â llaeth, gan hyny bwytaed y gwŷr y bwyd cryf: "Canys pob un ag sydd yn ymarfer â llaeth, sydd anghynnefin â gair cyfiawnder: canys maban yw. Eithr bwyd cryf a berthyn i'r rhai perffaith, y rhai oherwydd cynnefindra, y mae ganddynt synwyr, wedi ymarfer i ddosparthu rhwng da a drwg." Heb. v. 13, 14.

7. Lwyau, fel y gwyddoch, sydd i'n porthi ni ag ymborth gwan, teneu, sef â'r fath ag sydd gymhwysaf i'n harchwaeth egwan, neu i dymher fabanaidd, am hyny megis y mae y dyn cryf mewn cyferbyniad i'r gwan, felly y mae llaeth i fwyd cryf.

8. Felly, gan hyny, er bod y baban yn Nghrist yn wanach na'r gwr yn Nghrist, eto nid yw heb ddarparu drosto gan Grist, canys y mae yma laeth i fabanod, a llwyau i'w yfed â hwynt. Hyn oll a ddysgir i ni trwy y llwyau, canys pa raid sydd wrth lwyau, lle nad oes dim i'w fwyta ond bwyd cryf?

9. Babanod, chwi a wyddoch, sydd ganddynt nid yn unig archwaethiadau mabanaidd, eithr hefyd gastiau mabanaidd, a rhaid yw cyd-ddwyn â hwynt megis babanod; rhaid cyd-ddwyn â'u chwedlau plentynaidd, ac â'u hymddygiad ffromffol.

10. Weithiau hwy lefant am ddim, ac a farnant y sawl a geryddo eu coeg-chwedlau a'u ffyrdd yn gas-ddynion iddynt. Hyn oll a raid i'r eglwys oddef, oherwydd babanod Duw ydynt; ïe, rhaid iddynt eu porthi hefyd; canys os darparodd efe iddynt laeth a llwyau, â hwnw y cânt eu porthi, a thrwyddo y byddant byw: ïe, gweinidogion ydynt fammaethod Duw, oherwydd paham, angenrhaid yw bod ganddynt fynwes i'w gosod ynddi, arffed i'w maldodi arni, a llwyau i'w porthi â hwynt.

11. Nid yw babanod ychwaith heb fod yn ddefnyddiol yn eglwys Dduw; canys efe a orchymyn eu dwyn hwynt i lefain gyda'r gynulleidfa gerbron yr Arglwydd am drugaredd i'r tir. Joel ii. 16.

12. Arogl-darth, fel y dywedais i chwi, oedd gysgod o weddiau; a'r llwyau, yn amser Moses, a anrhegid yn y deml yn llawn o hono: ysgatfydd, i ddangos y rhydd Duw ef gyda'r llaeth a ddaparodd efe iddynt, megis tâl neu atebiad o'u llefain hwynt, fel ag y mae y fammaeth yn rhoddi y fron a'r llaeth i'r plentyn.

13. Chwi wyddoch y gelwir am laeth yn fuan pan y byddo y plentyn yn llefain, fel y dywedwn, i attal ei enau ag ef. O! fabanod! pe baech ond llefain yn groch, fe roddai Duw i chwi eto laeth yn ychwaneg.

14. Eithr o ba beth yr oedd y llwyau aur hyn yn gysgod?

*Atebaf.* Os y llaeth ydyw sudd a diddanwch y gair, yna rhaid bod y llwyau, yr ymadroddion tyner, a'r canlyniadau euraidd hyny, â pha rai y mae y gweinidogion yn porthi eu heneidiau trwyddo ef: "Myfi a'ch porthais â llaeth y gair," medd Paul; "megis ag yr oeddych abl i'w dderbyn," medd Pedr. Cymharwch y tri thestyn hyn, 1 Pedr ii. 1—3. 1 Cor. iii. 2. 1 Thes. ii. 7.

15. A dyma y modd i gadarnhau y dwylaw llesg, ac i gryfhau y gliniau gweiniaid. Dyma y modd i wneuthur iddynt gynnyddu i fod yn wŷr, y rhai nid ydynt ond babanod mewn dyddiau: fel hyn y bychan a all ddyfod yn fil, a'r gwael yn genedl gref. Iê, fel hyn, mewn amser, y gellwch beri i blentyn bychan ymorchestu â'r llewpart, ac arwain cenaw llew wrth ei ben: ïe, fel hyn y gellwch beri iddo estyn ei law yn hŷ at ffau y wiber, ac i chwareu wrth dwll yr asp. Esay xi. 6—10; lx. 22.

Yr hwn sydd yr awrhon wrolaf, a fu unwaith yn faban; yr hwn yr awrhon a all fwyta bwyd cryf, a fu ryw amser yn hoff ganddo laeth, a chael o hono ei borthi â llwy. Am hyny ni ddylid diystyru y rhai sydd fabanod yn Nghrist, neu edrych uwchlaw iddynt; Duw a ddarparodd iddynt laeth, a llwyau i'w fwyta, fel y cynnyddent i fod yn wŷr ger ei fron ef.

L.—*Yn nghylch y Cawgiau a'r Gorflychau ag oedd yn perthyn i'r Deml.*

Megis ag yr oedd llwyau, felly yr oedd cawgiau a gorflychau yn perthyn i'r deml; rhai o honynt oeddynt *o aur*, a rhai *o arian:* a'u rhifedi, pan y gosodwyd hwynt at eu gilydd, oedd *bedwar cant a deugain.* Ezra i. 10.

Y cawgiau, neu y gorflychau, nid oeddynt i olchi ynddynt, megis ag yr oedd y môr a noeau y deml, eithr yr oeddynt hwy yn hytrach *i ddàl ynddynt y seigiau a osodai yr offeiriaid ar eu gwelyau sanctaidd gerbron y bobl.* Gan fod felly, yr oeddynt yn gysgodau o'r cyfran hyny o ffydd, wrth ba un, neu wrth fesur pa un, y rhoddwyd i bob dyn o'r ymborth sanctaidd er meithriniad ei enaid. Canys megis nas gall dyn, pe gosodid mil o seigiau o'i flaen (ac efe yn bwyta er ei iechyd), gymeryd mwy nag a allo ei gylla oddef: felly nis gall plentyn Duw ychwaith, pan ddêl i addoli yn nheml Dduw, dderbyn o'r pethau da sydd yno, uwchlaw mesur ei ffydd ef: neu, fel y mae mewn lle arall, "yn ol y gallu y mae Duw yn roddi." Rhuf. xii. 6. 1 Pedr iv. 11.

Ac am hyny, rhai yn yr unrhyw ordinhad a dderbyniasant dri chymaint ag eraill, oherwydd bod eu cawg, sef eu ffydd, yn ddigonol i'w dderbyn. Ië, saig Benjamin ydoedd fwy o bùm rhan na seigiau un o'i frodyr; ac felly y mae'r saint, tra byddont yn bwyta gyda'u brawd Joseph yn nhŷ y Duw byw.

Meddyliwch fod tri a êl at yr unrhyw ordinhad, a phob un o honynt yn gredadyn, pa rai, pan y delont adref i gymharu eu nodau, a gânt yr hyn a dderbyniasant heb fod o'r un fesur.

Y naill a ddywed, Ni chefais ond ychydig; y llall a ddywed, Ordinhad weddol dda oedd hi i mi; a'r trydydd a ddywed, Yr oedd hi yn dda neillduol yno. Paham? yn ddiau, i'r hwn ni chafodd ond ychydig yno, nid oedd ond ychydig ffydd; eithr ffydd fawr ynddo a dderbyniasai ychwaneg; am hyny efe a gafodd yn ol helaethrwydd ei gawg, sef yn ol ei ffydd: "megis y rhanodd Duw i bob un fesur ffydd." Rhuf. xii. 3. Sylwch, mesur terfynedig ydyw ffydd, a hyny nid yn unig o ran ei gradd, ond oherwydd y gall dderbyn, cadw, neu ddàl yr hyn a osodir ynddo.

Felly, gan hyny, nid gwaeth pa faint o laeth neu gawl sanctaidd, eithr pa helaethed ydyw'th gawg, dy ffydd. Ni chynnwysir mewn cawgiau bychain ond ychydig; ac nis gelli dithau ychwaith dderbyn ond megis y goddefo dy ffydd: dywedyd yr wyf yn awr yn nghylch triniad cyffredin Duw â'i bobl) canys fel y dywed efe yn ei air, "Bydded i ti yn ol dy ffydd." Mat. ix. 29.

Os â dyn i'r môr i geisio dwfr, bydded iddo ddwyn ond plisgyn ŵy, ni ddichon iddo ddwyn galwyn adref. Gwir yw fod addewid y caiff ein ffiolau bychain ni eu gwneuthur fel cawgiau yr allor: eithr rhaid fyth fod ein saig yn ol ein mesur, bydded hyny yn fychan neu yn fawr. Yr un prophwyd a ddywed drachefn: Y seintiau a lenwir fel meiliau, ac fel conglau yr allor: yr hyn er ei fod yn meddwl

helaethrwydd, eto rhaid ei gynnwys i'r mesur hyny o ffydd a ddarparwyd i'w derbyn. Zec. ix. 15; xiv 2. A gadewch i'r cawgiau hyn arwyddocau yr addewidion, er y cymharir y seintiau iddynt, eto nid yr addewidion; oherwydd hwynt-hwy, nid yr addewidion, ydynt ddeiliaid ffydd. Eto yr addewid trwy ein mesur o ffydd yn hyny sydd yn meithrin ein heneidiau.

Pan y gwnaeth Ahasferus wledd i'w holl dywysogion a'i weision, yr oeddynt yn yfed y gwin mewn cwpanau. Ni yfasant o hono wrth faintioli y llestri hyny o ba un yr oeddynt yn ei ollwng, eithr yn ol eu hiechyd, a'u hewyllys i'w yfed. Esther i.

Dy ffydd, gan hyny, ydyw un o gawgiau, neu orflychau y deml, neu yn ol pa un yr ydwyt yn derbyn dy saig, pan yr eisteddoch i wledda wrth fwrdd Duw.

A dàl sylw, ni wnaethpwyd mo'r holl gawgiau o aur, megis nad ydyw pob ffydd o'r fath ag sydd achubol.

Y ffydd euraidd ydyw yr un iawn; y cawgiau arian oeddynt o fath ag oedd waelach. Dat. iii. 18.

Y mae gan rai, meddaf, ffydd euraidd; eithr nid ydyw pob ffydd felly. Am hyny, gwilia, enaid, fod o'th gawg, dy ffydd di, yn euraidd, neu o'r fath oreu. Edrych, meddaf, am ffydd iachus, helaeth, canys ffydd fawr a dderbyn saig fawr.

Yn yr amser gynt, y rhai oedd yn cardota a arferent ddwyn eu cawgiau ar eu harffedau, pan elent i ddrws am elusen: yn ganlynol, os eu cawgiau a fyddent fychain, hwy a ddeuent ymaith ar eu colled, er y byddai haelioni y rhoddwr yn helaeth. Ië, pa fwyaf fyddai yr haelioni, mwyaf oll a fyddai y golled, oherwydd bod cawg y cardotyn yn rhy fychan: sylwch yn dda, fel hyny y mae yn fynych yn ngwasanaeth ein Duw.

A wyt ti, gardotyn, yn gardotyn wrth ddrws Duw, bydd sicr i geisio o honot gawg mawr: canys megis y mae dy gawg, felly y bydd dy saig; "Yn ol dy ffydd," medd ef, "bydded i ti." Mat. ix. 29.

## LI.—*Yn nghylch Phiolau a Chwpanau y Deml.*

Y peth nesaf i'w ystyried ydyw phiolau a chwpanau y deml. 1 Cron. xxviii. 17. Jer. lii. 19. Yr oedd y rhai hyn o wasanaeth mawr yn mysg yr Iuddewon, yn enwedig ar eu dyddiau gwylion, fel ar eu Sabbothau, newydd-loerau, a'r cyfryw. Lef. xxiii. 13. Num. xxviii. 7. 1 Cron. xvi. 3. Esay xxv. 6; lxii. 8, 9. Er siampl, y diwrnod y dawnsiodd Dafydd gerbron yr allor: "Efe a ranodd i'r bobl, sef i holl dyrfa Israel, yn wr ac yn wraig, i bob un deisen o fara, ac un dryll o gig, ac un gostrelaid o win." 2 Sam. vi. 19. 1 Cron. xvi. 3.

"Yn y mynydd hwn," (hyny yw, yn y deml yn gysgodol) medd y prophwyd, "y gwna Arglwydd y lluoedd i'r holl bobloedd wledd o basgedigion, gwledd o loyw win; o basgedigion breision, a gloyw win puredig." Esay xxv. 6.

Dyddiau gwledda ydyw y rhai hyn: dyddiau yn mha rai yr oedd Duw yn arferol o ddwyn ei anwylyd i'w win-dŷ, ac yn mha rai yr oedd arferol i daenu ei faner gydag hyfrydwch drosti mewn cariad. Can. ii. iv.

Och! nid ydyw eglwys Crist o honi ei hunan ond peth tra chlafaidd ac ieuanc—gwraig, y llestr gwanaf; eithr pa faint mwy o achos sydd iddi fod yn llesg, pan y byddo hi yn glaf o gariad? Yna yn ddiau y mae yn angenrhaid iddi wrth draflwnc, canys llaesu y mae yn awr, ac ni fyn ei chynorthwyo yn amgenach: "Cynhaliwch fi â photelau, cysurwch fi ag afalau; canys claf ydwyf fi o gariad. Can. ii. 5.

Y phiolau hyn, gan hyny, oeddynt gysgodau o'r gwleddoedd hyny, a'r traflyncau mawrion hyny o gariad nefol, y mae yr Arglwydd Iesu yn ollwng ac yn roddi i'w anwylyd yn y dyddiau hyny yn mha rai y gwledda efe gyda hi. Canys dywedyd y mae y pryd hyny, "Yfwch, ïe, yfwch yn helaeth, fy rhai anwyl." Hyn y mae efe yn wneuthur i'w chysuro hi dan oriau ei thrymder a'i galar: "canys ŷd a lawenycha y gwŷr ieuainc, a gwin y gwyryfon." Diar. xxxi. 6, 7. Salm cxvi. 13. Jer. xvi. 7. Can. v. 1. Zec. ix. 17.

Megis ag yr oedd yno phiolau, felly yr oedd yno gwpanau, a gelwir hwynt cwpanau diddanwch, a chwpanau iachawdwriaeth, oherwydd, fel y dywedais, mai *trwyddynt hwy y mae Duw yn ei wleddoedd gyda y bobl,* neu pan swpero gyda hwynt, yn rhoddi allan y drachtiau mwy helaeth o'i gariad i'w saint, i adnewyddu yspryd-oedd y gostynedig, a chalonau y rhai gorthrymedig.

Ar yr amserau hyny y gwnaeth Duw i gwpan Dafydd redeg drosodd. Canys yn awr y caniateir i ni, os ein ffydd a oddef, i yfed yn helaeth o'i ras, a bod yn llawen gydag ef. Salm xxiii. 5. Luc. xv. 22—25. Can. v. 1; vii. 11, 12. Ioan xiv. 3. Dat. iii. 20.

At hyn y mae yr apostol yn cyfeirio, pan yw yn dywedyd, "Na feddwer chwi gan win, yn yr hyn y mae gormodedd, eithr llanwer chwi â'r Yspryd: gan lefaru wrth eich gilydd mewn psalmau, a hymnau, ac odlau ysprydol: gan ganu a phyngcio yn eich calon i'r Arglwydd."

Am y cwpanau, mewn perthynas i'w gwasanaeth yn gyffredinol, deallwch am danynt megis am y cawgiau a grybwyllwyd o'r blaen o'u plegid. Canys sicrwydd ydyw blaen-darddiant a blodau ffydd, nid bob amser, er ei fod fynychaf ar ddyddiau gwylion felly. Felly gradd y naill sydd yn wastad yn ol mesur y llall. Eph. v. 18. Iago v. Rhuf. iv. 13.

## LII.—*Yn nghylch Dysglau y Deml.*

Nid oedd ganddynt yn y tabernacl ond deuddeg o honynt, a'r rhai hyny a wnaethpwyd o arian; ond yr oedd yn y deml *fil a deg ar hugain* i gyd. Y deg ar hugain a wnaethpwyd o *aur*, y lleill o *arian*. Num. vii. 84.

Nid oedd y dysglau hyn at wasanaeth cyffredin neu halogedig, fel yr wyf fi yn deall; y rhai hyn oeddynt yn mha rai y trinient y Pasc, a'r bwydydd offrwm eraill, pan y delai y bobl i fwyta gerbron Duw yn ei deml sanctaidd.

Y mae bwyd, chwi a wyddoch, fel y dywedais i chwi, mewn cyferbyniad i laeth, ac felly y mae y dysglau hyn i'r cawgiau, a'r cwpanau, a phiolau y deml.

Yr oedd bwyd o ddau ryw, rhôst neu ferwedig. O'r un rhôst oedd y Pasc, ac o'r un berwedig oedd y pech-offrwm, oherwydd paham, yn nghylch y Pasc y dywed efe, "Na fwytewch o hono yn amrwd, nac ychwaith wedi ei ferwi mewn dwfr, eithr wedi ei rostio wrth dân; ei ben gyda'i draed a'i ymysgaroedd." Exod. xii. 9.

Y bwyd rhôst hwn oedd gysgod o Gorph Crist, megis yn dioddef dros ein pechodau, pa un, pan oedd rôst, oedd, ac ydyw, megis wedi ei drin i fyny mewn dysglau, yn osodedig gerbron cynulleidfa y saint.

Eithr o ba beth yr oedd y dysglau yn gysgod?

Yr wyf finau yn gofyn yn mha ddysgl y trinir ein Pasc efengylaidd ni yn awr, ac a'i gosodir gerbron y bobl?

Onid yn yr efengylwyr, y prophwydi, ac epistolau yr apostolion? Hwynt-hwy, gan hyny, ydynt y dysglau, ac ordinhad y swper; yn y rhai hyn hefyd yr oedd y pech-offrwm, yn nghyd â'r hyn a *ffreier* mewn padellau, yn ddirgeledig i blant y Goruchaf.

A phaham nas gallant hwy fod yn gysgod o bregethau efengylaidd?

*Atebaf.* Nid ydwyf yn meddwl mor gymhwys, canys och! nid ydyw y pregethau goreu yn y byd ond megis darnau teneu, wedi eu tori o'r dysgleidiau mawrion hyn. Ein gweinidogion ydyw y bwyd-dorwyr, athrawiaeth iachus ydyw y bwyd, a'r dysglau yn mha rai y ceir y bwyd, ydyw yr Ysgrythyrau Sanctaidd, &c.—er, fel y dywedais, yn fwyaf perthynasol, Testament Newydd ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist. Yn y rhai hyn y gosodir Crist yn gywiraf, fywiolaf, ac ehangaf ger ein bron yn groeshoeliedig, neu yn rhôst wrth dân cyfraith Duw am ein pechodau, fel y byddom byw trwyddo ef trwy ffydd, gan ymborthi arno ef. 2 Cor. iii. 12. Gal. iii. 22. Act. iii. 18—22; xiii. 4; xxvi. 22. 1 Pedr i. 10. Act. vii. 42; xv. 15; xxviii. 28. Rhuf. xvi. 26. Dat. x. 7.

Y mae yn y dysglau hyn nid yn unig fwyd, eithr hefyd (os rhynga eich bodd) saws i fwyta gyda'r bwyd. I'r Pasc y mae y llysiau chwerwon, neu edifeirwch diragrith; ac i eraill megis yr offrwm diolch, y mae llawenydd sanctaidd, a gweddiau at Dduw am ras. Y rhai hyn oll a osodir allan ger ein bron yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd, ac a anrhegir i ni trwyddynt, megis yn aur y deml. Yr hwn a wawdio am hyn, gwawdied. Y mae yn ddiau fod y dysglau yn ddrych o ryw beth, a'r hwn a allo ddangos gwrthddrych cymhwysach nag a gynygir yma i'w ystyried, dangsed, ac mi a fyddaf ddiolchgar iddo.

Gristionogion! wele eich bwyd ger eich bron: a gwybyddwch hyn, pa ddyfnaf y gwlychoch ef yn y saws, goreu oll yr archwaetha, eithr na oddefwch i'ch anghrediniaeth ddysgu i chwi y fath foesau, a pheri i chwi adael y tameidiau goreu yn ol; canys y mae i chwi rydd-did i fwyta yn rhad o'r goreu, o'r tewaf, ac o'r melysaf.

### LIII.—*Yn nghylch y Ffordd sydd yn myned allan o'r Deml.*

Yn nghylch y ffordd oedd yn arwain i'r deml, nyni a draethasom eisoes; sef yn nghylch y cyntedd nesaf allan, a'r nesaf i mewn, ac hefyd yn nghylch drysau y porth a'r deml. Nid oedd *y ffordd i ddyfod i mewn ond un rhediad union,* a'r un hyny yn gysgod o Iesu Grist: *eithr trwy amryw ffyrdd yr aent allan.* Ioan x. 9; xiv. 6.

Yn awr, fel y dywedais, fe ddeallir fod y mynediadau allan yn llawer, yn gyfatebol i'r amryw ffyrdd hyny a ddychymygodd plant dynion i gilio oddiwrth Dduw; Crist ydyw y ffordd i, eithr pechod ydyw y ffordd o deml Dduw. Gwir yw, nid ydwyf yn darllen am un hanes yn nghylch y mynediadau allan, megis am y dyfodiadau i mewn: yn unig pan y dygasant Athalia allan oddiyno, fe ddywedir iddi fyned ar hyd y ffordd feirch i dŷ y brenin, ac yno y lladdwyd hi: megis pe buasai hyny ar domen y meirch. 2 Bren. xi. 16. 2 Cron. xxiv. 15.

Pan aeth Uzziah hefyd allan o'r tŷ hwn am ei droseddiad, efe a fwriwyd allan o bob cymdeithas, ac a wnaethpwyd i drigo mewn math o dŷ neillduol (neu heint-dŷ) hyd ddydd ei farwolaeth. 2 Cron. xxvi. 20. 21.

Felly, gan hyny, er nad ydys wedi mynegu y ffyrdd hyn mewn modd enwedigol, eto y barnedigaethau a ganlynodd y sawl a daflwyd allan oddiyno am eu trosedd a fu hynod ac arswydus.

Canys marw felly ar domen, neu mewn heint-dŷ, a hyny am weithredoedd drygionus, sydd beth cywilyddus a gwaradwyddus. A Duw a fydd yn taenu tom yn wastad ar wynebau y cyfryw; nid dim mawredd a'i hattal: "Ië, ac a'u tyn hwynt ymaith gydag ef:" Mal. ii. "Bwriaf hwynt allan o'm tŷ," medd efe; "ni chwanegaf eu caru hwynt." Hos. ix. 15.

Eithr pa beth ydym ni i'w ddeall yn nyddiau yr efengyl, wrth fyned allan o dŷ yr Arglwydd, oherwydd, neu trwy bechod?

*Atebaf.* Os yn ewyllysgar y gwneir ef, yna pechod sydd yn eich arwain chwi allan; os wrth wthiad sanctaidd yr eglwys y gwneir ef, yna fe'i gwneir wrth farn synwyrol Duw; hyny yw, hwy a dorir ymaith, ac a deflir allan oddiyno, megis cyfiawn daledigaeth am eu troseddau. Lef. xx. 18; xxii. 3. Ezec. xiv. 8. Cor. v. 13.

Eithr pa le y mae y sawl a aethant fel hyn allan o deml neu eglwys Dduw yn myned?

*Atebaf.* Nid i'r domen, gydag Athalia, nac i'r heint-dy, gydag Uzziah, eithr i

ddiafol; dyna y cam cyntaf, ac felly i uffern, heb edifeirwch. Ond os na bydd eu pechod yn anfaddeuol, fe ellir eu henill yn ol trwy edifeirwch, ac mewn trugaredd droedio y cynteddau hyn drachefn. Yn awr y modd i'w henill yn ol ydyw ystyried yn ddifrifol pa beth a wnaethant hwy, neu trwy ba ffordd yr aethant allan o dŷ Dduw. Am hyny y gorchymynir i'r prophwyd ddangos i dŷ gwrthryfelgar Israel yn gyntaf "fynediadau allan y tŷ, ac yna dyfodiadau i mewn." Ezec. xliii. 10, 11.

A hyn sydd gwbl angenrheidiol at adferyd pechadur; canys hyd oni welo yr hwn a bechodd ei hun allan o dŷ Dduw pa fath berygl a dynodd efe arno ei hun trwy ei fynediad drygionus allan, ni all efe ddymuno yn ddiffuant a gwirioneddol i ddyfod i mewn yma drachefn. Y mae peth arall mewn perthynas i'w pwnc hwn i ddàl sylw arno. Y mae ffordd trwy ba un y mae Duw hefyd yn ymadael o'r tŷ hwn, a hòno hefyd sydd trwy bechod, fel yr achos. Pechod dyn a'i gwthia ei hun allan, a phechod dynion a wthia Dduw o'i dŷ ei hun. Ezec. xi. 22, 23. Am hyn, medd efe, "Gadewais fy nhŷ, gadewais fy etifeddiaeth; mi a roddais anwylyd fy enaid yn llaw ei gelynion." Jer. ii. 7.

A hyn hefyd sydd ofnadwy: y mae barn fawr Crist ar yr Iuddewon yn gorwedd fwyaf yn y geiriau hyn, "Eich tŷ a adawyd yn anghyfanedd i chwi;" hyny yw, Duw a'ch gadawodd i barwydydd noethion, ac i draddodiadau difywyd.

Ystyriwch, gan hyny, y mynediad allan hyn hefyd. Och! nid ydyw eglwys, gwir eglwys, ond peth tlawd iawn, os ymadawa Duw â hi, os gâd Duw hi. Wrth wir eglwys yr wyf yn meddwl un wedi ymgynull yn ol rheol oddiallan wedi pechu Duw ymaith, fel y gwnaeth eglwys y Laodiceaid, oddieithr ychydig. Dat. iii.

Nis gall yr hwn a bechodd ei hun allan gael dim daioni yn y byd; ac nis gall y sawl a bechasant Dduw allan gael dim daioni yn yr eglwys. Nid ydyw yr eglwys a bechodd Dduw ymaith oddiwrthi yn ddiau ond telpyn gwael. Chwi, gan hyny, y rhai ydych yn eglwys Dduw, gochelwch bechu eich hunain allan oddiyno; gochelwch hefyd, tra byddoch chwi yn cadw i mewn, bechu o honoch Dduw ymaith, canys ni bydd yno ddim daioni yn ol hyny: ïe, "Gwae hwynt pan ymadawaf oddiwrthynt," medd Duw. Hos. ix. 12.

## LIV.—*Yn nghylch y Cantorion a berthynai i'r Deml.*

Wedi myned trwy y deml hyd yma, yr wyf yn awr yn dyfod at y cantorion yno. Y cantorion oeddynt *lawer*, eithr *i gyd o'r eglwys*, naill ai Iuddewon neu Broselytiaid. Ni chaniataed i neb ychwaith, ar a wn i, dàn addoliad yr Hen Destament, i ganu caniadau yr eglwys, ac i weini y rhan hyny o wasanaeth gyda'r saint, ond y rhai oeddynt o leiaf mewn ymddangosiad felly. Càn Moses, Deborah, a'r rhai hyny a ddawnsiodd gerbron Dafydd, yn nghyd ag eraill y darllenwch am danynt, a arferid naill ai gan y sawl oeddynt Iuddewon wrth natur, neu ynte gan y cyfryw ag

oeddynt wedi eu proselytio i'w crefydd hwy. Exod. xv. 1. Barn. v. 1, 2. 1 Sam. xviii. 6. A'r cyfryw addoliad a achlysurwyd trwy ymddangosiad Duw drostynt yn erbyn gallu y Cenhedloedd, eu gelynion.

Eithr nyni a gyfyngir at ganiadau y deml, pa rai oeddynt gysgod mwy neillduol o'n rhai ni yn yr eglwys dàn yr efengyl.

1. Y cantorion, yr amser hyny, oeddynt lawer, eithr y penaf o honynt, yn nyddiau Dafydd, oedd Dafydd ei hun, Asaph, Jeduthan, a Heman, a'i feibion.

2. Yn amser Dafydd nifer y rhai penaf o'r cantorion hyn oedd ddau gant a thri ugain ac wyth. 1 Cron ii. 25.

Yr oedd y cantorion hyn gynt i ganu eu caniadau uwchben y poeth-offrwm, pa rai oeddynt gysgodau o aberthiad corph Crist. Coffad o ba offrwm sydd genym wrth fwrdd yr Arglwydd, cyflawniad o ba un Crist a'i ddisgyblion o glodforasant gyda hymn. Mat. xxvi. 30.

Megis yr eglwys gynt oedd yn canu yn y deml, yn ol ordinhad, i Dduw, felly hefyd y maent wrth apwyntiad Duw i'w canu gan yr eglwys dàn y Testament Newydd.

1. Am hyny, fe ddywedir mai y sawl a ganant ydyw y rhai prynedig.

2. Y caniadau y maent yn eu canu a ddywedir eu bod yn ganiadau eu prynedigaeth. Dat. v. 9, 10.

3. Yr oeddynt, ac y maent, y fath ganiadau, ag na ddichon neb eu dysgu ond hwynt-hwy.

Eithr gadewch i ni redeg ychydig yn mlaen yn yr hyn sydd yn gyfatebol.

1. Y sawl oeddynt gywrain a medrus mewn caniadau. Ac yn gyfatebol i hyny, fe ddywedir nas gallai neb ddysgu caniadau ein Testament Newydd ni ond "Y pedair mil, a'r saith ugain mil, y rhai a brynwyd oddiar y ddaear." 1 Cron xv. 22. Dat. xiv. 3.

2. Y caniadau hyn a ganwyd â symbalau, â nablau, â thelynau, ac udgyrn; cysgod o'n gwaith ni yn canu â "llawenydd ysprydol trwy râs yn ein calonau." 1 Cron. xxv. 6. 2 Cron. xxix. 26—28. Col. iii. 16.

3. Y cantorion gynt oeddynt i fod wedi ymwisgo mewn lliain main: y lliain main hwn oedd yn gysgod o ddiniweidrwydd ac ymarweddiad uniawn. Am hyny, y cantorion dàn y Testament Newydd o elwir yn "wyryfon, y cyfryw ag ni chaed twyll yn eu genau," ac oeddynt "ddifai gerbron gorsedd-faingc Duw." 1 Cor. xv. 27. Dat. xiv. 1—6; vii. 9—16. Salm xxxiii. 1.

4. Y caniadau o ganwyd yn y deml oeddynt newydd, neu y fath ag oedd wedi eu cyfansoddi yn ol dull yr aml drugareddau a dderbyniasai yr eglwys oddiwrth Dduw, neu i'w dderbyn; ac yn gyfatebol i hyn y mae yr eglwys i ganu ar yr awr hon ganiadau newydd â chalonau newydd, am drugareddau newydd. Salm xxxiii. 3; xl. 3; xcvi; cxliv. 9. Dat. xiv. 13.

Caniadau newydd, meddaf, a sylfaenir ar fater newydd, achosion newydd, trugareddau newydd, o gwaredigaethau newydd, amlygiadau o Dduw i'r enaid, neu am dymher newydd y galon: ac ydynt y cyfryw ag sydd fwyaf hoff, fwyaf boddhaus, a mwyaf adnewyddol i'r enaid.

5. Y caniadau hyn a elwid gynt (i osod gwahaniaeth rhyngddynt a'r rhai paganaidd) caniadau Duw, caniadau yr Arglwydd: oherwydd eu dysgu hwynt ganddo, a'u gorchymyn iddynt i'w canu er ei glod. Am hyny y dywedodd Dafydd "i Dduw roddi caniad newydd yn ei enau o foliant i'n Duw ni." 1 Cron. xxxv. 7. Salm xlvii. 6, 7; cxxxvii. 4; xl. 3.

6. Y caniadau hyn hefyd a elwid caniadau Sïon a chaniadau y deml: Salm cxxxvii. 3. Amos viii. 3: a hwy a elwid felly yn gymaint a'u bod yn ganiadau plant Sïon, ac addolwyr y deml, i'w canu ganddynt, ïe, i'w canu, meddaf, gan yr eglwys i'r hwn sydd yn Dduw yr eglwys, am y trugareddau, y lles, a'r bendithion a dderbyniodd hi oddiwrtho: rhaid yw canu caniadau Sion a chaniadau y deml gan blant Sïon ac addolwyr y deml: "Gwaredigion yr Arglwydd a ddychwelant, ac a ddeuant i Sïon â chaniadau, ac â llawenydd tragwyddol ar eu penau. Hwy a gânt orfoledd â llawenydd; gofid a thristwch a ffy ymaith. Am hyny y deuant ac y canant yn yr uchelfeydd, neu ar fynydd Sïon; ac a ymgasglant yn nghyd yno er daioni yr Arglwydd. Bloeddiwch ganu, fynyddoedd: caned preswylwyr y graig." Esay xliv. 23; xlii. 11.

Canu i Dduw ydyw yr addoliad penaf ac ydym ni yn abl gyflawni yn y nefoedd; a pheth mawr ydyw os bydd i bechaduriaid ar y ddaear, heb ras, fod yn gymhwys i'w gyflawni yn ol ei ordinhad ef yn gymeradwy. Duw a wnel gaffael o hyny ei wneuthur gan bawb oll o'r rhai a ddeuant yn y dyddiau hyn i mewn i'r eglwysi mewn yspryd a deall.

## LV.—*Yn nghylch Undeb y Deml Sanctaidd a'r Sancteiddiolaf.*

Yr hon a elwid yn gyffredin teml Dduw, yn Jerusalem, trwy ei hystyried, megis yn cynnwys dwy ran, a alwyd y deml oddiallan a'r deml oddifewn, neu y cyssegr sanctaidd a'r sancteiddiolaf. *Fe'i hadeiladwyd ar yr un a'r unrhyw sail, ac nis gallai neb fyned i'r sancteiddiolaf ond trwy y lle sanctaidd.* 1 Bren. iii. 1 Pedr vi. 1. 2 Cron. li. 13; vii. 2.

Y tŷ cyntaf, sef yr hwn y traethasom am dano, oedd gysgod o'r eglwys filwriaethus; a'r cyssegr sancteiddiolaf yn gysgod o'r eglwys orfoleddus; o'r eglwys orfoleddus, meddaf, fel y mae hi yr awrhon.

Felly, gan hyny, y tŷ hwn yn cynnwys y ddwy ran hyn, oedd gysgod o'r eglwys yn y nefoedd ac ar y ddaear. A thrwy eu bod wedi eu cysylltu yn nghyd wrth un neu unrhyw sail, y dangosir nad ydynt hwy oddiuchod a ninau oddi isod, ond yr un

a'r unrhyw dŷ Dduw. Am hyny hwynt-hwy a ninau yn nghyd a elwir "yr holl deulu yn y nefoedd ac ar y ddaear." Eph. iii. 14, 15.

Am hyny y dywedir drachefn, ein bod ni, y rhai ydym yn credu ar y ddaear, "wedi dyfod i fynydd Sïon, ac i ddinas y Duw byw, y Jerusalem nefol, ac at fyrddiwn o angylion, i gymanfa a chynulleidfa y rhai cyntaf-anedig, y rhai a ysgrifenwyd yn y nefoedd, ac at Dduw, barnwr pawb, ac at ysprydoedd y cyfiawn y rhai a berffeithiwyd, ac at Iesu, Cyfryngwr y testament newydd, a gwaed y taenelliad, yr hwn sydd yn dywedyd pethau gwell na'r eiddo Abel." Heb. xii. 22—25.

Y gwahaniaeth, gan hyny, rhyngom ni a hwy, ydyw, nid oherwydd ein bod yn ddiau yn ddau, eithr un corph yn Nghrist, mewn amryw leoedd. Gwir yw, yr ydym ni odditan y grisiau, a hwythau oddiarnynt; hwynt-hwy yn eu gwisgoedd dyddiau gwylion, a ninau yn ein rhai dyddiau gwaith; hwy yn eu porthladd, eithr nyni yn y demhestl; hwy mewn esmwythder, ninau yn yr anialwch; hwynt-hwy yn canu fel wedi eu coroni â llawenydd, nyni yn llefain, fel wedi ein coroni â drain. Eithr, meddaf, yr ydym ni oll o'r un tŷ, yr un teulu, ac oll yn blant i'r un Tad. Nid oes le i ni, gan hyny, anghofio hyn, rhag i ni attal oddiwrthym ein hunain lawer o'r hyn sydd genym hawl iddo, tra byddom ni yma. Cofiwn, gan hyny, meddaf, nad yw teml Duw ond un, er ei bod wedi ei rhanu, fel y gall un ddywedyd, i gegin a neuadd, goruwch y grisiau, ac odditanynt, neu i gyssegr sanctaidd a'r sancteiddiolaf; canys y mae yn sefyll ar yr unrhyw sail, ac a elwir yn un, sef teml Dduw, yr hon a adeiladwyd ar yr Arglwydd ein Hiachawdwr.

Myfi a ddywedais o'r blaen nas gallai neb gynt fyned i'r sancteiddiolaf ond trwy y cyssegr sanctaidd, sef trwy y wahanlen ag oedd yn rhanu rhyngddynt. Exod. xxvi. 33. Lef. xvi. 2, 12. Heb. ix. 7, 8; x. 19.

Oherwydd paham, fe dwyllir y rhai hyny a dybiant y cânt fyned i'r sancteiddiolaf, yr hon yw y nefoedd, pan byddont farw, y rhai ydynt yn gadael ac yn casâu y cyssegr sanctaidd tra byddont byw.

Nage, syrs, y ffordd i'r sancteiddiolaf sydd trwy y cyssegr sanctaidd: y ffordd i'r nefoedd sydd trwy yr eglwys ar y ddaear; canys y Crist hwnw sydd yno trwy ei air i'w derbyn trwy ffydd, cyn y gallom ei dderbyn ef yn bersonol yn y weledigaeth wynfydedig. Yr eglwys ar y ddaear sydd fel tŷ y gwragedd a grybwyllir am dano yn llyfr Esther, lle mae yn rhaid i ni gael ein glanhau a'n perarogli, a'n gwneuthur yn gyfaddas i fyned i ystafell y priod-fab; neu, fel y dywed Paul, "i'n gwneuthur ni yn gymhwys i gael rhan o etifeddiaeth y saint yn y goleuni." Esther ii. Col. i. 12.

### LVI.—*Yn nghylch y Cyssegr Sancteiddiolaf, neu y Deml oddifewn.*

Yr oedd y cyssegr sancteiddiolaf, fel y dywedais, yn gysgod o'r nefoedd ei hun; yn ganlynol, yn gysgod o'r lle hyny *lle y mae presenoldeb neillduol Duw ynddo, a'r lle*

*y mae ei wyneb ef i'w weled yn fwyaf eglur, a llawenydd ei wynebpryd i'w fwynhau fwyaf.* Heb. ix. 23, 24. Exod. xxv. 22. Num. vii. 8, 9.

Y cyssegr sancteiddiolaf oedd dywyll, nid oedd ffenestri iddo, er fod y fath o amgylch yr ystafelloedd. Presenoldeb neillduol Duw hefyd ar fynydd Sinai oedd mewn tywyllwch dudew. 1 Bren. viii. 12. 2 Cron. vi. 1. Exod. xix. 9; xx. 21.

1. Y sancteiddiolaf hwn, gan hyny, wedi ei wneud fel hyn, oedd i ddangos fod Duw megis yn y nefoedd, i ni ar y ddaear yn gwbl anweledig, ac nas gellir ei gyrhaeddyd yn amgenach na thrwy ffydd. Canys meddaf, yn gymaint ag nad oedd ffenestri i'r tŷ hwn, ni allesid gweled dim yno trwy oleuni penaf y byd hwn: y pethau ag oeddynt yno a welid yn unig wrth oleuni tân yr allor, yr hwn oedd gysgod o lewyrchiadau yr Yspryd Glân; 1 Cor. ii; am hyny y dywedir, er y tywyllwch hwn: "Efe a drig yn y goleuni ni ellir dyfod ato;" neb ond yr Arch-offeiriad Crist. 1 Tim. vi. 16. 1 Pedr iii. 21, 22.

2. Fe adeiladwyd y sancteiddiolaf yn y modd hyn, i ddangos mor anghyffelyb fydd ein cyflwr yn y nefoedd oddiwrth ein cyflwr ar y ddaear. Yr ydym yn rhodio yma wrth ein goleuni, wrth oleuni y gair ysgrifenedig; canys hwnw sydd yn awr "yn llusern i'n traed, a llewyrch i'n llwybr:" eithr yno, yn mha le ni bydd y gair ysgrifenedig, na'r ordinhadau fel yma, a ddiscleiria eto i ni yn fwy goleu ac eglur, na phe byddai holl oleuadau y byd wedi eu gosod yn nghyd i oleuo un dyn: canys "goleuni yw Duw, ac nid oes ynddo ddim tywyllwch." 1 Ioan i. 5. Ac yn ei oleuni ef, a goleuni yr Oen, yn ddigyfrwng, y byddwn byw, y rhodiwn, ac y gorfoleddwn holl ddyddiau tragywyddoldeb.

3. Hwn hefyd a ordeiniwyd fel hyn, i ddangos y dylem ni, tra byddom yn y deml gyntaf, fyw trwy ffydd, mewn perthynas i'r hwn oedd, neu oedd i wneuthur yn yr ail.

Am hyny y dywedir, mewn perthynas i hyny, "wrth ffydd yr ydym yn rhodio, ac nid wrth olwg." 2 Cor. v. 1—9.

Yr ydym yn cael hanes am y pethau sydd yno, sef am arch y dystiolaeth, a'r drugareddfa, a cherubiaid y gogoniant, a phresenoldeb Crist, a Duw; yr ydym, meddaf, yn cael hanes am danynt yn y gair, ac yn credu, ac yn synu wrthynt, ac yn gobeithio myned atynt yn ol hyn: eithr yn amgen nid ydym yn eu gweled; am hyny y dywedir ein bod "yn edrych nid ar y pethau a welir, ond ar y pethau ni welir; canys y pethau a welir sydd dros amser, ond y pethau ni welir sydd dragywyddol." 2 Cor. iv. 18.

4. Nid oedd gyfreithlawn i'r bobl gynt nesâu i edrych i'r sancteiddiolaf, dan boen marwolaeth; Num. xvii. 13; ond yn unig eu harch-offeiriad, efe a allai fyned i mewn iddo; i ddangos fod yn rhaid i ni, tra byddom yma, gymeryd gofal rhag golygiadau ofer, canys nid oes dim i ni i'w weled yn y nefoedd, tra byddom ni

yma, yn amgen na thrwy ffydd yn Nhestament tragywyddol Duw. Gwir, nyni a allwn ddyfod yn awr i'r sancteiddiolaf, sef cyn agosed ag y caniata y deml gyntaf i ni ddyfod; eithr rhaid yw i hyny fod trwy waed a ffydd, nid trwy wag ddychymygion meddwl, synwyr, neu reswm cnawdol.

5. Y sancteiddiolaf hwn oedd bedair-onglog yn mhob ffordd, o ran ei uchder, ei hyd, a'i led; bod fel hyn oedd nôd o berffeithrwydd, fel y dangosais mewn lle arall; am hyny fe'i hadeiladwyd fel hyn yn fwriadol, i ddangos i ni fod yno bob cyflawnder o wynfydedigrwydd, o ran ei natur, ei radd, a'i barhad: "Felly pan ddelo yr hyn sydd berffaith, yna yr hyn sydd o ran a ddileir." 1 Cor. xiii. 8—10. Heb. x. 19—23.

## LVII.—*Yn nghylch Gwahanlen y Deml.*

Gwahanlen y deml oedd lèn wedi ei gwneuthur *o sidan glas, porphor, ac ysgarlad, ac o liain main cyfrodedd: a cherubiaid hefyd y gweithiwyd arni.* Exod. xxvi. 31, 32.

1. Y wahanlen hon oedd *yn gwahanu rhwng y cyssegr sanctaidd a'r sancteiddiolaf.* Ac i'm tŷb i, yr oedd i gadw y pethau sancteiddiolaf o olwg yr addolwyr, pan yr elai yr arch-offeiriad i mewn yno, i gyflawni gwasanaeth Duw. Exod. xxvi. 33. 2 Cron. iii. 14. Heb. ix. 8.

2. Yr oedd y wahanlen yn gysgod o ddau beth:

1. O'r nefoedd weledig hon, trwy ba un yr aeth Crist, pan yr aeth i eiriol drosom ni. Ac megis yr oedd yr offeiriad yn myned o olwg y bobl, pan yr elai i mewn i'r sancteiddiolaf, o achos y wahanlen; felly Iesu Grist, pan yr esgynodd, a dderbyniwyd i fyny gan y nefoedd, y llèn fawr lydan hòno, allan o olwg ei bobl yma. Hefyd gan yr unrhyw lèn, gan ei bod fel pabell iddo drigo ynddi, y derbynir ef yn wastad, ac y cedwir ef allan o'n golwg ni: canys yn awr nid ydym yn ei weled, ac ni chawn ychwaith, hyd onid êl "y nef heibio fel llyfr wedi ei blygu ynghyd." Dat. vi. 14. Esay xl. 22. Act. i. 9—11; iii. 19—21. 1 Pedr. i. 8.

2. Hon ydyw y wahanlen hòno, trwy ba un, medd yr apostol, y mae yr Iesu yn rhag-redegwr i ni, wedi myned i mewn i bresenoldeb Duw. Canys wrth wahanlen y mae yn rhaid deall yma hefyd y nefoedd, neu ei ffurfafen lydan, megis y mae Marc a Phedr yn dywedyd, "Efe a gymerwyd i fyny i'r nef, ac y mae yn eistedd ar ddeheulaw Duw." Marc xvi. 19. 1 Pedr iii. 22.

3. Gwahanlen y deml a wnaethpwyd o las, unig liw y nefoedd, ac hefyd o borphor, sidan, ac ysgarlad, pa rai ydynt liwiau amryw o'r cymylau, o achos gwrthdrawiadau yr haul. Eithr drachefn:

4. Yr oedd y wahanlen yn gysgod o gorph Crist: canys megis ag yr oedd gwahanlen y deml, tra yr oedd yn gyfan, yn cadw oddiwrthym olygiad ar bethau y sancteidiolaf, ond wedi ei rwygo, yn rhoddi lle i ddyn i edrych i mewn atynt; yr un wedd corph Crist, tra yr oedd yn gyfan, a gadwodd bethau y sancteiddiolaf oddiwrth

yr olwg hôno; hyny a gawson o honynt oedd wedi iddo ef gael ei drywanu. Am hyny y dywedir ein bod ni yn myned i mewn i'r sancteiddiolaf trwy ffydd, trwy y wahanlen, sef ei gnawd. Heb. x. 19—23.

Ond eto, meddaf, y cwbl oll sydd trwy ffydd; ac yn ddiau rhwygiad y wahanlen y diwrnod hwnw y croeshoeliwyd Crist arno a bregethodd hyn yn groch i ni; canys cyn gynted ag y trywanwyd corph Crist, "gwahanlen y deml a rwygwyd yn ddau oddifyny hyd i waered:" ac felly ffordd a wnaethpwyd i weled yn amlycach yr hyn oedd yno tu hwnt iddi, yn y cysgod a'r gwrthgysgod. Mat. xxvii. 50—54. Heb. x. 19, 20.

Fel hyn y gwelwch fod gwahanlen y deml yn gysgod o'r nefoedd weledig hon, ac hefyd o gorph Crist; o'r cyntaf, oherwydd iddo ef fyned trwyddi at y Tad; o'r ail, oherwydd mai trwyddo ef y mae genym ni hyfdra i ddyfod at y Tad.

Yr wyf hefyd yn darllen am ddwy wahanlen arall, megis yr hon y gorchuddiodd Moses ei wyneb â hi, fel nad allai plant Israel edrych yn graff arno; ac am wahanlen gyntaf y tabernacl: eithr ni chaf draethu am y rhai hyn yn awr.

Yr oedd hefyd ar wahanlen y deml ddelwau cerubiaid wedi eu cerfio, sef angylion, i ddangos mai megis ag y mae yr angylion gyda ni yn awr, ac yn ein gwasanaethu ni holl ddyddiau ein pererindod yn y byd hwn; felly, pan y byddom farw, y maent yn sefyll yn barod, ïe, wrth y wahanlen, wrth ddrws y nefoedd hyn, i ddyfod, pan erchir iddynt, i'n hol ymaith i fynwes Abraham. Luc xvi. 22.

1. Y mae y deml, gan hyny, trwy ei hystyried fel hyn, yn gyntaf, yn dysgu i ni pa le mae Crist, sef nid yma, eithr wedi myned i'r nefoedd, o ba le y dylem ni ei ddisgwyl.

2. Y mae hi yn dysgu i ni hefyd y dylem, ïe, yr awr hon, ganfod yr ardderchawgrwydd y sydd yn y sancteiddiolaf; rhaid yw i ni edrych trwy yr Iesu arnynt, sef trwy y wahanlen, hyny yw, ei gnawd. Ië, dysgu i ni y mae y gallwn trwy ffydd trwyddo ef, gyrhaedd at ryw fath o bresenoldeb—o'r lleiaf, o'i degwch a'i hyfrydwch.

## LVIII.—*Yn nghylch Drysau y Deml oddifewn.*

1. Heblaw y wahanlen, yr oedd drws i'r deml oddifewn, a'r drws hwnw a wnaethpwyd o goed olewydd: *Ac i ddrws y gafell y gwnaeth efe ddorau o goed olewydd; ac ar ddwy ddôr o goed olewydd y cerfiodd efe gerfiadau cerubiaid, a phalmwydd, a blodau agored, ac a'u gwisgoedd ag aur, ac a ledodd aur ar y cerubiaid, ac ar y palmwydd.* 1 Bren. vi. 31, 32.

2. Y dorau hyn oeddynt gysgod o borth y nefoedd, sef o hwnw ag sydd yn gollwng i mewn i'r drigfa dragwyddol hôno sydd y tu hwnt i'r wahanlen. Myfi a ddywedais i chwi o'r blaen fod y wahanlen yn gysgod o'r nefoedd weledig, yr hon a

ledodd Duw megis llèn, a thrwy ba un yr aeth Crist, pan esgynodd i eistedd ar ddeheulaw y Tad.

3. Yn awr, y tu hwnt i'r wahanlen hon, fel y dywedais, y cefais ddrws yn agored a dwy ddalen, fel y cawsom o'r blaen wrth ddrws y deml oddiallan. Y rhai hyn ydyw y cyfryw y mae y Salmydd yn galw, pan yw yn dywedyd, "O byrth, dyrchefwch eich penau, ac ymddyrchefwch ddrysau tragwyddol, a Brenin y gogoniant a ddaw i mewn." Salm xxiv. 7, 9.

4. Dorau y deml a wnaethpwyd o ffynidwydd; ond y rhai hyn, fel y gwelwch, a wnaethpwyd o olewydd; i ddangos i ni wrth y goeden fras hòno, y cysgod gwerthfawr, a pha fath ogoniant a gyfarfyddwn ni, y rhai a gyfrifir yn deilwng i fyned i mewn trwy y pyrth hyn. Yr olewydden a elwir felly, oherwydd yr olew a'r brasder sydd yn naturiol ynddi; a'r dorau sydd yn arwain i mewn i'r sancteiddiolaf a wnaethpwyd o'r olewydden hon.

5. Cerubiaid hefyd a gerfiwyd ar y dorau hyn, i ddangos mai megis ag yr oedd yr angylion yn ein cyfarfod wrth ddrws y deml, ac megis ag yr oeddynt yn ein gwasanaethu yn y deml, ac yn sefyll yn barod wrth y wahanlen, felly y byddant wrth borth y tŷ trigianol yn barod i'n croesawu yno, ac i'n tywys i'r neuadd frenhinol.

6. Palmwydd hefyd, fel ag yr oeddynt wedi eu cerfio ar ddrysau y deml, felly y gwelwn hwy yma o flaen y gafell, ar y dorau sydd yn gollwng i mewn yma: i ddangos mai megis ag y rhoddodd Crist i ni fnddugoliaeth ar ein gwaith yn credu gyntaf, felly y perffeithia efe y fuddugoliaeth hòno, trwy roddi i ni iachawdwriaeth dragwyddol. Yn y modd hyn y mae efe "yn awdwr ac yn berffeithydd ein ffydd." Canys mor sicr i ni ar y cyntaf dderbyn y balmwydden trwy ffydd, cyn sicred hefyd y cawn ei gwisgo am ein dwylaw, megis arwydd o'i ffyddlondeb ef yn nef y nefoedd yn oes oesoedd. Dat. vii. 9.

7. Blodau agored a gerfiwyd yma hefyd; i ddangos y bydd Crist, yr hwn yw y drws i ogoniant, yn gystal a'r drws i ras, yn werthfawr i ni, ar ein mynediad i mewn yno, yn gystal ag ar y cam cyntaf a wnaethom tuag yno mewn byd gwael pechadurus. Ni chyll Crist fyth mo'i berarogliad yn ffroenau ei eglwys. Y mae efe yr awr hon yn beraidd, efe a fydd felly yn angau; ac yn bereiddiaf oll, pan trwyddo ef y cawn fyned i mewn i'r drigfa a barotowyd i ni yn y nefoedd.

8. Y palmwydd a'r blodau agored a allent fod yn gysgod o rai gwerthfawr Duw, y rhai a gânt eu cyfrif yn deilwng o'i deyrnas ef: y naill o uniondeb eu calonau, a'r llall o sawyr da eu bucheddau: "Y rhai uniawn a drigant ger dy fron di; a'r neb a osodo ei ffordd yn iawn, dangosaf iddo iachawdwriaeth Duw." Salm cxl. 13; l. 23.

9. Fel hyn yn hyfryd ar y ddaear, yn hyfryd yn y nefoedd: a'r hwn sydd yn dwyn ffrwyth yr efengyl yma, a'i caiff iddo ei hun, ac er ei ddiddanwch tragwyddol wrth byrth gogoniant.

10. Y rhai hyn oll a wisgwyd ag aur, fel y gellwch ddywedyd, ac felly yr oeddynt wrth ddrws y tŷ cyntaf. Gwir yw, eithr daliwch sylw, y mae genym chwanegiad yma. Y mae yma aur ar aur, aur wedi ei wisgo arnynt hwy, ac aur eilwaith wedi ei ledu ar hwnw. Y mae yr Arglwydd yn rhoddi gras a gogoniant. Salm xxxiv. 11.

Aur ar aur. Aur wedi ei ledu ar aur. Gras sydd aur yn ddalen, a gogoniant sydd aur mewn dysglau. Aur teneu ydyw gras, aur tew ydyw gogoniant. Y mae yma aur wedi ei wisgo arnynt, ac aur wedi ei ledu ar hwnw. A hyny, ar y palmwydd a'r cerubiaid. Aur ar y palmwydd, hyny yw, ar y saint; aur ar y cerubiaid, hyny yw, ar yr angylion. Canys nid wyf yn tybied amgen na chaiff yr angylion eu hunain dderbyn chwanegiad at eu gogoniant am y gwasanaeth â pha un y gwasanaethasant Grist a'r eglwys ar y ddaear.

11. Yr angylion ydynt fedelwyr Duw, ac yn ddiameu efe a rydd iddynt gyflog da yr amser hyny, ïe, gogoniant ar eu gogoniant. Mat. xiii. 38, 39, &c; xxiv. 31. Ioan iv. 36.

12. Chwi wyddoch fod medelwyr yn arferol o gael eu talu yn dda am gasglu y llafur i mewn, ac nid wyf yn anghoelio nad felly y caiff y rhai hyn, pan y diweddo y cynhauaf. Ond pa fath fynediad i mewn i fywyd sydd yma? y mae yma aur ar aur wrth y drws, ar ein cam cyntaf ni i'r deyrnas.

## LIX.—*Yn nghylch Hoelion Aur y Deml oddifewn.*

Ni chaf fi grybwyll am holl hoelion y deml, megis y rhai a wnaethpwyd o haiarn, &c., 1 Cron. xxii. 3, ond yn unig am y rhai aur: y mae yn dywedyd, *a phwys yr hoelion oedd ddeg sicl a deugain.* 2 Cron. iii. 4. Yr oedd yr hoelion hyn oll, i'm tŷb i, wedi eu sicrhau i mewn yn y sancteiddiolaf, ac yn ddull dra chymhwys i'r hyn yr oeddynt yn gysgod o hono.

1. Yr oedd rhai o honynt yn arwyddocau Crist ein Harglwydd megis wedi ei sefydlu yn y swydd o gyfryngdod yn y nefoedd; am hyny mewn un man, yr Yspryd Glân, wrth grybwyll am Grist, megis y daeth o Judah i fod yn Gyfryngwr, a ddywed, O hono ef y daeth allan y gongl (y gongl-faen), a'r hoel o hono ef. Zec. x. 4.

Yn awr yn gymaint ag y cymharir ef yn y lle hwn i hoel, hoel aur, dangos y mae, mai megis ag y sicrheir yr hoel yn ei lle wrth ei gyru i mewn; felly Crist wrth lw Duw a wnaethpwyd yn Offeiriad tragywyddol. Heb. vii. 25. Am hyny, fel y dywed efe drachefn, yr hoel, yr offeiriadaeth Aaronaidd, yr hon a hoeliwyd yn y màn sicr, a symudid, a dorid i lawr, ac a syrthiai: ond yr hwn sydd ganddo allwedd Dafydd, yr hwn yw Crist, Dat. iii. 7, a hoelir gan Dduw, megis hoel mewn lle sicr, ac a erys yno. Gan hyny, efe a ddywed drachefn, Ac efe a fydd yn orseddfa gogoniant, neu yn drugareddfa i dŷ ei Dad.

Ac yn mhellach, "y crogant arno ef holl ogoniant tŷ ei Dad (megis ar hoel), hil ac epil; yr holl fân lestri, o'r llestri meiliau hyd yr holl offer cerdd." Yn ol yr hyn a ysgrifenwyd, "A hwy a ganasant ganiad newydd i'r Oen oedd wedi ei ladd, gan ddywedyd, Teilwng ydwyt ti," &c. Esay xxii. 20—25. Dat. v. 9, 12.

Ac fe ddywedir drachefn, y cyfrifir Crist, dàn gyffelybiaeth o hoel, gan y seintiau yn ddiau, eu mawr wystl, neu yn obaith iddynt, fel y mae efe yn y nefoedd, o'u sicr ddyfodiad yno. Am hyny y dywedasant gynt, "Duw a roddodd i ni hoel yn ei le sanctaidd:" yn y llinell hoel yw, eithr yn yr ymyl pin trigfa sicr wastadol. Ezra. ix. 8.

Yn awr yr hoel yn y lle sanctaidd, fel y dangoswyd o'r blaen, ydyw Crist, Crist, megis yn perchenogi y nefoedd, ac megis yn trigo ac yn byw fyth yno drosom ni. Am hyny y gelwir ef, megis yno, "ein pen, ein bywyd, a'n hiachawdwriaeth;" ac hefyd fe ddywedir, y "gosodir ni i gyd-eistedd yno ynddo ef." Eph. i. 22; ii. 5, 6. Col. iii. 3.

2. Rhai o'r hoelion hyn oeddynt gysgodau o eiriau sanctaidd Duw, pa rai sydd wedi eu sicrhau yn y nefoedd dros fyth. Cysgodau, meddaf, o'u hïe hwynt, a'u hamen.

Y mae Solomon mewn lle arall yn cymharu geiriau y Duw doeth "i symbalau a hoelion wedi eu sicrhau gan feistriaid y gynulleidfa, y rhai a roddir oddiwrth yr un bugail." Preg. xii. 11.

Fe'u gelwir hwynt yn symbylau, oherwydd megis y mae y cyfryw yn pigo ac yn gweithio yr ychain yn mlaen wrth dynu, felly y mae geiriau Duw yn cymhell Cristionogion yn mlaen yn eu dyledswyddau sanctaidd. Fe'u gelwir hwynt yn hoelion, i ddangos mai megis nas gellir symud hoelion a fyddo wedi eu hoelio mewn màn sicr: felly y mae geiriau Duw, wrth ei ewyllys ef, yn sefyll yn sicr yn oes oesoedd. Meistriaid y gynulleidfa ydynt yn gyntaf yr apostolion; yr un Bugail ydyw Iesu Grist. Am hyny y dywedir fod efengyl Crist yn dragwyddol, yn sefyll byth, ac i fod yn fwy sicr na nef na daear. Esay xl. 6—8. 1 Pedr i. 24, 25. Heb. xviii. 20. Dat. xiv. 6. Mat. xxiv. 35.

Yr Arglwydd Iesu, gan hyny, a'i eiriau sanctaidd, ydynt hoelion aur y deml; a sicrhad yr hoelion hyn yn y deml oedd i ddangos yr un ydyw Crist heddyw, ddoe, ac fyth: ac fod ei eiriau yn aros ac yn parhau yr unrhyw yn oes oesoedd. Yr hwn, gan hyny, sydd â Christ gydag ef, sydd ganddo hoel yn y sancteiddiolaf; yr hwn sydd ganddo addewid o iachawdwriaeth, sydd hefyd â hoel yn y nef, ïe, hoel aur yn y nef.

### LX.—*Yn nghylch Llawr a Pharwydydd y Deml oddifewn.*

1. Llawr y gafell a fyrddiwyd ag ystyllod cedrwydd, ac hefyd parwydydd y tŷ

hwn yr un modd. *Efe a adeiladodd ugain cufydd ar ystlysau y ty ag ystyllod cedr, o'r llawr hyd y parwydydd. Felly yr adeiladodd iddo oddifewn, sef i'r gafell, i'r cyssegr sancteiddiolaf.* 1 Bren vi. 16.

2. Mynegu i ni y mae efe â pha beth ei byrddiwyd, ac hefyd yn ail adrodd hyn, gan ddywedyd, I'r gafell oddifewn, ïe, i'r cyssegr sancteiddiolaf, oherwydd y mynai i ni ddâl sylw, mai y lle hwn yn unig a wnaethpwyd fel hyn.

3. Ugain cufydd, hyny oedd hyd, a lled, ac uchder y tŷ: felly wrth ddywedyd fel hyn, dysgu y mae fod y tŷ wedi ei adeiladu yn y modd hyn o amgylch.

4. Y gedrwydden, onid wyf yn cam-gymeryd, ydyw yr uchelaf ei huchder o holl goed y maes. Ezec. xxxi. 3—9.

Yn awr y dywedir fod y tŷ a'r gafell wedi eu byrddio o amgylch â hwynt; fe allai mai dangos y mae, mai yn y nef, ac nid mewn un lle arall, y mae cyflawnder o bob perffeithrwydd. Y mae perffeithrwydd yn yr eglwys ar y ddaear, ond nid y fath ag sydd yn y nefoedd.

1. Y mae yno berffeithrwydd naturiol, ac felly y mae ceiniog mor naturiol yn arian ag yw y swllt.

2. Y mae yno berffeithrwydd naturiol cymharol, ac felly y gall un peth fod yn berffaith ac yn anmherffaith ar yr un amser, megis y mae haner coron yn fwy na swllt, eto yn llai na choron.

3. Y mae yno hefyd yr hyn yr ydym ni yn alw y perffeithrwydd eithaf, a'r hwn nas gellir chwanegu ato, na chymeryd oddiwrtho, ac felly Duw yn unig sydd berffaith.

Yn awr gogoniant nefol yw yr hwn sydd goruwch pob perffeithrwydd ar y ddaear, megis ag y mae y gedrwydden goruwch yr holl goed am uchder: am hyny Duw, pan y mae yn llefaru am ei odidawgrwydd ei hun, sydd yn ei osod wrth ei uchder: "y Duw uchel, y Goruchel a'r dyrchafedig, a'r Goruchaf." Salm xcvii. 9; cxxxviii. 6. Gen. xiv. 19—21. Dan. iii. 21; v. 18. Salm xviii. 13; lxxxv. 17. Luc i. 32; vi. 35. Salm ix. 2; lvi 2; xcii. 1. Esay xiv. 14.

Y titlau hyn hefyd a gyfrifir i'r tŷ hwn, oherwydd mai y lle ydoedd lle yr oedd y perffeithrwydd eithaf yn trigo.

Yr wyf, gan hyny, yn cymeryd y gedrwydden yn y lle hwn i fod yn nôd o berffeithrwydd; sef y cedrwydd â pha rai y byrddiwyd y tŷ hwn. Canys gan mai doethineb Duw ydyw llefaru wrthym weithiau trwy brenau, aur, arian, cerig, anifeiliaid, adar, pysg, pryfed copyn, morgrug, llyffaint, gwibiaid, llau, llwch, &c., ac yma trwy goed; pa fodd y deallwn ni ei leferydd ef trwyddynt hwy, os nad ydym yn cyfrif fod ynddynt arwyddocad? "A chedrwydd y tŷ oddifewn oedd wedi ei gerfio yn gnapiau, ac yn flodau agored: y cwbl oedd gedrwydd; ni welid careg." 1 Bren. vi. 18.

Cnapiau a blodau oedd y rhai yr addurnent y canwyllbren aur â hwynt. Exod xxv. 33, 35; xxxvii. 20, 21.

Y canwyllbren oedd yn gysgod o'r eglwys, a'r cnapiau a'r blodau yn gysgod o'i phrydferthwch hi. Eithr pa beth? a raid trwsio y nef o amgylch â harddwch y saint, ac â ffrwythau eu grasusau hwynt? Wele, sicr yw fod yn rhaid gwneuthur rhyw beth yn fwy na chyffredin â hwynt-hwy, gan y caniateir iddynt ei dilyn i'r lle sanctaidd: Dat. xiv. 13. Ac fel y dywedir, y cânt mwy godidog rhagorol a thragwyddol bwys gogoniant wedi eu rhoddi iddynt yn y nefoedd. 2 Cor. iv. 16, 17.

Y cwbl oedd gedrwydd, ni welid careg; cymerwch gareg yn gysgod am yr hon ag sydd felly yn ddiau; yn y gwrthgysgod, am yr hon sydd felly yn ddirgelaidd, ac yna y gall amlygu i ni na bydd yn y nefoedd, gwrthgysgod y cyssegr sancteiddiolaf, ddim caledwch calon yn y sawl a'i cyfaneddant hi yn dragywydd. Pob anmherffeithrwydd a gyfyd oddiwrth ddrygioni y galon, eithr ni fydd neb calonau drwg mewn gogoniant; dim byrdra mewn gwybodaeth, dim croesineb tuedd, dim gweithrediad chwantau neu lygredigaeth; na fydd, trwy yr holl nefoedd. Eithr yma fe'i gwelir, ïe, yn y goreu o'r seintiau, canys yma y mae goleuni yn gymysgedig â thywyllwch, eithr ni bydd nos yno, nac un gareg i'w gweled.

"A llawr y tŷ a wisgwyd ag aur:" 1 Bren. vi. 30: hwn sydd debyg i'r un hyny yr ydym yn darllen am dano yn nghylch Caersalem newydd, yr hon sydd i ddyfod oddiwrth Dduw o'r nefoedd; hoel y ddinas, medd y testyn, oedd aur pur: ac yn debyg i'r hyn yr ydym yn darllen am dano yn Exodus: "A gwelsant Dduw Israel; a than ei draed megis gwaith o faen saphir, ac fel corph y nefoedd o ddisgleirdeb." Dat. xxi. 21. Exod. xxiv. 10.

Yr holl weledigaethau oeddynt werthfawr, eithr hon y werthfawrocaf, fod llawr y tŷ wedi ei orchuddio, neu wedi ei wisgo ag aur, lleoedd ydyw y llawr, a'r heol i rodio ynddynt; a pha mor werthfawr gan hyny fydd ein camrau ni? Och! yr ydym weithiau yma yn rhoi ein camrau yn y llaid, a thrachefn yn tramgwyddo ar gipillon a meini. Yr ydym yma weithiau yn cwympo i dyllau, a'n sawdl yn cael ei ddâl yn fynych mewn magl, eithr ni bydd yr un o'r rhai hyn yno. Aur, aur, y cwbl oll a fydd aur, a pherffeithrwydd euraidd, pan y delom i'r cyssegr sanctaidd. Ni chymerodd Job yn ei amser goreu ei gamrau ond mewn ymenyn, eithr nyni yn yr amser hwnw a gymerwn ein holl gamrau yn aur y cyssegr.

LXI.—*Yn nghylch Arch y Cyfammod, yr hon a osodwyd yn y Deml oddifewn.*

Yn y gair yr wyf yn darllen am dair arch; sef arch Noah; yr arch y cuddiwyd Moses ynddi; ac arch cyfammod Duw: Gen. vi. 14. Exod. i. 3, 5. Eithr am arch y cyfammod yn unig y caf fi draethu yr awr hon.

*Yr arch a wnaethpwyd o goed Sittim, o ddau gufydd a haner ei hyd, a chufydd*

*haner ei lled, a chufydd a haner ei huchder. Hi a wisgwyd ag aur coeth oddifewn ac oddiallan, ac fe wnaethpwyd iddi goron o aur o amgylch.* Exod. xxv. 10, 11.

1. Yr arch hon a elwid yn arch y cyfammod, megis y galwyd y gyntaf yr ydym yn darllen am dani yn arch Noah; oherwydd mai megis ag y cadwyd ef yn hòno rhag boddi, felly llechau y cyfammod a gadwyd yn hon rhag tori.

2. Yr arch hon, yr hyn oedd gysgod o Grist, oblegid mai ynddo ef yn unig, ac nid yn nwylaw Moses, y cadwyd y llechau hyn yn gyfain. Moses a'u torodd hwynt, eithr y mae yr arch yn eu cadw.

3. Nid yn unig y gyfraith hòno a ysgrifenwyd ar ddwy lech gareg, eithr hefyd y gyfraith seremoniaidd a osodwyd i'w chadw yn yr arch. Y ddwy lech a osodwyd yn nghanol yr arch, i ateb i hyn: "dy gyfraith di sydd o fewn fy nghalon i'w gwneuthur." Eithr yr un seremoniaidd a osodwyd yn ystlys yr arch, i ddangos mai o ystlys Crist yr oedd yn rhaid dyfod yr hyn oedd angenrhaid i ateb hyny; canys oddiyno y daeth allan waed a dwfr; gwaed i gyfateb gwaed y seremoniau, a dwfr i gyfateb puredigaethau a golchiadau y gyfraith hòno.

Y seremoniau, gan hyny, a gadwyd yn ystlys yr arch, i ddangos yr atebid hwynt allan o ystlys Iesu Grist. Exod. xxv. 16, 17. Deut. x. 5; xxxi. 26. Salm. xl. 8. Ioan xix. 34. Heb. x. 7.

4. Yr oedd enw Duw wedi ei roddi ar yr arch; ïe, fe'i galwyd hi yn nerth Duw, a'i ogoniant, er ei gwneud o goed. Ac y mae Crist yn Dduw mewn enw ac anian, er ei wneuthur yn gnawd; ïe, yn ychwaneg, "a wnaethpwyd yn bechod drosom ni." 2 Sam. vi. 2. 2 Cron. vi. 14; xiii. 6. Ioan i. 14. Rhuf. ix. 5. 2 Cor. v. 21.

5. Yr arch a ddygid ar ysgwyddau y bobl y ffordd hyn a'r ffordd acw, i ddangos y modd y dygid ac y pregethid Crist gan ei apostolion a'i weinidogion i holl gyrau y byd. Exod. xxv. 14. 1 Cor. xv. 15. Mat. xxviii. 19, 20. Luc xiv. 46, 47.

6. Yr oedd gan yr arch y dystiolaeth hyn o bresenoldeb Duw yn cydfyned â hi, yr hyn nid oedd gan un seremoni arall o'r gyfraith; ac yr oedd gan Grist yr arwyddion hyn o'i bresenoldeb gydag ef, yr hyn nis cafodd un dyn dàn y gyfraith na'r efengyl. Hyn sydd mor amlwg, fel na raid wrth brawf. Ac yn awr am ychydig o gymhariaethau yn ychwaneg.

1. Wrth hòno, yr oedd yn arferol o ateb ei bobl, pan y deuent i ymofyn ag ef: "Ac yn y dyddiau diweddaf hyn y llefarodd Duw wrthym ni yn ei Fab." 1 Cron. xiii. 3. 1 Sam. xiv. 18. Heb. i. 2. Ioan xvi. 23, 24.

2. Dyfroedd yr Iorddonen a safasant yn bentwr wrth bresenoldeb yr arch, hyd onid aeth Israel, gwaredigion yr Arglwydd, drosodd i anialwch Canaan: a thrwy allu a phresenoldeb Crist yr ydym ninau yn myned trwy farwolaeth, gwrthgysgod yr Iorddonen, o anialwch y byd hwn i'r nefoedd. Jos. iii. 15—17. Ioan xi. 25. Rhuf. viii. 37—39. 1 Cron. xv. 54—58.

3. Muriau Jerico a syrthiodd i lawr gerbron yr arch; a holl dyrau uchel a chadarn-leoedd, ac ymguddfeydd pechaduriaid, a ddistrywir ac a doddant wrth bresenoldeb Crist ar ei ddyfodiad. Esay vi. 20. 2 Pedr iii. 10. Dat. xx. 11—13.

4. Dagon, y ddelw hòno o eiddo y Philistiaid, a syrthiodd i lawr gerbron yr arch; a cherbron Crist Iesu y syrthiodd cythreuliaid, duwiau yr holl ddelwau hyn, a rhaid iddo ef deyrnasu hyd oni osodir ei holl elynion dàn ei draed, ac hyd oni wneler hwynt yn droedfainc iddo. 1 Sam. v. 1—5. Marc v. 12. 1 Cor. xv. 25. Heb. x.

5. Y Philistiaid hefyd a ddinystriwyd am iddynt gyffwrdd â'r arch, tra yr arosasant yn ddienwaededig; a'r drygionus a gospir ryw ddiwrnod am gyffwrdd o honynt â Christ â'u calonau dienwaededig. 1 Sam. v. 1—13. Salm l. 16. Mat. xxiv. 51; xxv. 11, 12. Luc xiii. 25—29.

6. Yr oedd bendith Duw ar y sawl a roesawasant yr arch megis y dylasent; a mwy o lawer ydyw, ac a fydd ei fendith ef ar y sawl a gofleidiant ac a groesawant ei Grist felly, ac a broffesant ei enw yn ddifrifol. 1 Sam. vi. 11. Act. iii. 26. Gal. iii. 13, 14. Mat. xix. 27—29. Luc xxii. 28, 29.

7. Pan yr estynodd Uzza ei law i gynnal yr arch, pan yr oedd yr ychain yn ei siglo, megis yn gwan-obeithio yr amddiffynai Duw hi, heb gymhorth dynol, "Efe a fu farw gerbron yr Arglwydd;" yr un ffunud y bydd y rhai oll (heb edifeirwch) ag sydd yn arferyd moddion anghyfreithlo. i ddyrchafu crefydd Crist, a'i chynnal yn y byd. 1 Cron. xiii. 9, 10. Mal. xxvi. 52. Dat. xiii. 10.

8. Nid oedd yr arch, er ei bod wedi ei hanrhydeddu fel hyn, ond isel o honi ei hun, dim ond cufydd a haner ei huchder; Crist hefyd, er ei fod yn ngogoniant y nefoedd a Duw, eto a wnaeth ei hun yn isel ac yn ddigyfrif, ac a gafwyd ar lun dyn. Exod. xxv. 11, 12. Phil. ii. 6—11.

9. Yr oedd coron o aur o amgylch yr arch, i ddangos y modd y coronir Crist gan ei seintiau trwy ffydd, ac y coronir ef yn ol llaw ganddynt mewn gogoniant, am yr holl ddaioni a wnaeth efe iddynt; ac hefyd y modd y darostwng yr holl goronau iddo ef ryw ddiwrnod, ac y gosodir hwynt ar ei ben ef. Hyn a ddangosir yn y cysgod, Zec. vi. 11, 14, ac yn y gwrthgysgod. Dat. iv. 11; xix. 12.

10. A'r arch a wisgwyd ag aur oddifewn ac oddiallan, i ddangos fod Crist yn berffaith mewn gras oddifewn, a buchedd oddiallan; mewn yspryd ac mewn cyfiawnder. Ioan i. 12—14. 1 Pedr ii. 22.

11. Yr arch a osodwyd dàn y drugareddfa, i ddangos fod Iesu Grist, fel Achubwr, yn dwyn, megis ar ei ysgwyddau, drugaredd Duw i ni, sef "yn nghorph ei gnawd, trwy farwolaeth." Exod. xxv. 21. Eph. iv. 23; v. 1, 2.

12. Pan y symudwyd yr arch yn mhell oddiwrth y bobl, y duwiol a aethant dàn alaru ar ei hol: a phan y cuddir Crist, neu y cymerir ef oddiwrthym, "yna y galarwn yn y dyddiau hyny." 1 Sam. vii 2. Marc ii. 19, 20. Luc v. 34, 35. Ioan xvi. 20—22.

13. Fe gafodd holl Israel yr arch drachefn, wedi i amser eu galarnad fyned drosodd: a Christ, ar ol i'w bobl ef alaru enyd am dano, a ymwel â hwynt drachefn, "a'u calonau a lawenycha." Ioan xvi. 1—23.

Wrth yr holl bethau hyn, a llawer yn ychwaneg a ellid eu crybwyll, y mae yn dra amlwg fod arch y dystiolaeth yn gysgod o Iesu Grist: a daliwch ychydig sylw ar yr hyn a ganlyn, sef i'r arch o'r diwedd ddyfod i'r cyssegr sancteiddiolaf; Heb. ix. 3, 4; hyny yw, ar ol ei chrwydriadau; canys yr arch a wnaethpwyd ar y cyntaf i grwydro o fàn i fàn, fel un heb le trigianol; weithiau yma ac weithiau acw; yn awr yn nwylaw gelynion, ac yn y màn yn cael ei hanmharchu gan ei chyfeillion; ïe, gwnaethpwyd iddi grwydro o le i le, megis un ag oedd y byd wedi blino arni: 1 Sam. v. 6; vii: ac yn gyfatebol i hyn yr aflonyddwyd ein Harglwydd Iesu, ac fe'i gyrwyd ef yn ol ac yn mlaen, draw ac yma, gan angerdd cynddaredd ei elynion.

1. Efe a ymlidiwyd i'r Aipht cyn gynted ag y ganwyd ef. Mat. ii.

2. Yna y gyrwyd ef i fyw yn Galilea dros yspaid llawer o flynyddoedd.

3. Hefyd pan yr ymddangosodd ei hun i Israel, hwy a'i herlidiasant weithiau i'r anialwch, weithiau i'r diffeithwch, weithiau i'r môr, ac weithiau i'r mynyddoedd, ac yn wastadol yn mhob un o'r lleoedd hyn yn cael ei ymlid a'i erlid gan elynion newydd.

Ac yn ddiweddaf oll, y Phariseaid a gyd-fradwriaethasant am ei fywyd, Judas yn ei werthu, yr offeiriaid yn ei brynu, Pedr yn ei wadu, ei elynion yn ei watwar, yn ei fflangellu, yn ei gernodio, ac yn ei anmharchu yn fawr. I ddibenu, hwy a gawsant ei gondemnio, ei groeshoelio, a'i gladdu; eithr o'r diwedd Duw a orchymynodd, ac a'i cymerodd i'w le, sef o fewn y wahan-len, ac a'i gosododd ef i gynnal y drugareddfa i fyny, lle y mae efe hyd y dydd heddyw, yr hwn ydyw ein harch i'n hachub ni, fel yr achubodd un Noah ef, ac un Moses yntau: ie, gwell un, megis nad oes neb ond Crist yn achub ei eiddo ei hun.

## LXII.—*Yn nghylch Gosodiad yr Arch yn y Cyssegr Sancteiddiolaf, neu y Deml oddifewn.*

1. Yr arch, fel y dywedasom, ac fel y mae y testyn yn mynegu, pan y dygwyd i'w gorphwysfa, a osodwyd yn y Deml oddifewn, neu yn y cyssegr sancteiddiolaf, sef tàn *adenydd y cerubiaid; a'r offeiriaid a ddygasant arch cyfammod yr Arglwydd i'w lle ei hun i gafell y ty, i'r cyssegr sancteiddiolaf, dàn adenydd y cerubiaid.* Exod. xxvi. 33; xxxix. 35. 1 Bren viii. 6. 2 Cron. v. 7.

2. Cyn hyn, megis y dywedwyd o'r blaen, yr arch a ddygwyd o le i le, ac a barwyd i drigo mewn pabell dàn gortynau, megis ein holl dadau; i ddangos fod Crist, megis ninau, i grwydro yn y byd fel y gallai etifeddu gogoniant. 2 Sam. vii. 1, 2, 6. Heb. xi. 9. Ioan i. 10; xvi. 28; iii. 13.

3. Eithr yn awr, pan y dygwyd yr arch i'r sancteiddiolaf, fe ddywedir i'w dwyn hi i'w lle ei hun. Nid trigle Crist, gan hyny, oedd y byd hwn; nid oedd efe oddi-isod, efe a ddaeth o dŷ ei Dad; nis gallai fod ychwaith hyd oni ddyrchafodd i'r lle yr oedd efe o'r blaen. Ioan viii. 23. xvi. 28; vi. 63; i. 13.

4. Y sancteiddiolaf, gan hyny, ydyw lle priodol Crist. Ei le priodol, megis Duw, megis offeiriad, megis prophwyd, megis brenin, megis dadleuwr ei bobl. Nid oes iddo mwyach a wnel yma gyda ni, yn bersonol, megis Cyfryngwr. Pe byddai efe ar y ddaear, ni byddai yn offeiriad, &c. Ei le a'i waith ef sydd yr awr hon oddiuchod "gyda'i Dad, a cherbron yr angylion." Act. v. 31. 1 Pedr iii. 22. Heb. iv. 14; viii. 4. ix. 24. 1 Ioan ii. 1, 2. Dat. i. 1, 2.

5. Fe ddywedir ddwyn yr arch i gafell y tŷ. Nid oedd Solomon yn foddlon i ddywedyd ei dwyn hi i'r sancteiddiolaf; eithr efe a ddywed ei lle oedd y gafell sanctaidd—hyny yw, lle o wrandawiad. Canys yr oedd ganddo ef, pan esgynodd, ryw beth i'w ddywedyd wrth ei Dad dros ei bobl. I'r gafell—hyny yw, i'r lle o ddatguddiad; canys yr oedd efe yno hefyd i dderbyn, ac oddiyno i ddatguddio i'r eglwys ar y ddaear ryw beth nid allesid ei egluro onid o'i gafell sanctaidd. Yno, gan hyny, y mae efe â'r ddwy lech y dystiolaeth yn ei galon, megis wedi eu cadw yn berffaith-gwbl; y mae efe yno hefyd â'r holl gyflawniad o'r gyfraith seremoniaidd yn ei ochr, yn dangos, ac yn dadleu perffeithrwydd ei gyfiawnder, a haeddiant ei waed, gyda'i Dad; i dderbyn ac i wneuthur i ni ddaioni, y rhai ydym yn credu ynddo pa mor foddlon yw y Tad i'r hyn a wnaeth efe drosom ni.

6. "I'r cyssegr sancteiddiolaf." Wrth y geiriau hyn y dangosir i ba le yr aeth yr arch, pan yr aeth hi i gymeryd ei gorphwysfa. A thrwy fod yr arch yn gysgod o Grist yn hyn, dangos y mae, neu eglurhau yn mhellach, fod Crist yn gwneud yr hyn y mae yn ei wneud yr awr hon yn y nefoedd gerbron wyneb ei Dad; ïe, arwyddocau y mae fod Crist yno yn gwneuthur ei appeliau at Dduw yn nghylch gwerth yr hyn a wnaeth efe ar y ddaear, "at Dduw, Barnwr pawb," pa un, meddaf, a ddylai er mwyn ei ddioddefiadau gael caniatâd iddo o'i holl ddymuniad, megis offeiriad a dadleuwr dros ei bobl.

"A fyni di," ebe Ffestus wrth Paul, "fyned i fyny i Jerusalem, i'th farnu yno ger fy mron i am y pethau hyn?" Act. xxv. 9. Yr oedd ein Hiachawdwr hwn yn foddlon, pan yr oedd yma, i fyned i fyny i Jerusalem i'w farnu; ac wedi cael ei gamfarnu yno, efe a wnaeth ei appêl at Dduw, ac wedi myned yno yn awr, sef i'r lle sanctaidd, at yr hwn sydd Farnwr pawb, am ei farn ef ar ei weithred: a pha un ai bod gan yr eneidiau y rhai y cymerodd efe arno eu dwyn hwynt i ogoniant hawl trwyddo ef i deyrnas nef.

7. "Dàn adenydd y cerubiaid." Hyn sydd yn mhellach yn cadarnhau ein geiriau; canys gan appelio o'r ddaear i'r nefoedd, megis y gosodwyd yr arch dàn

adenydd y cerubiaid, felly efe wrth eiriol â Duw, a dadleu ei haeddiant drosom, a'i gwna yn mhresenoldeb a chlywedigaeth holl angylion y nef.

Hyn yn nghylch arch y cyfammod a'i gwrth-gysgod; nyni a ddeuwn yn nesaf i draethu yn nghylch y drugareddfa.

LXIII.—*Yn nghylch y Drugareddfa—y modd y gosodwyd hi yn y Deml sanctaidd.*

Y drugareddfa a wnaethpwyd yn yr anialwch, eithr a ddygwyd i fyny gan Solomon wedi adeiladu y deml, yn nghyd â'r pethau sanctaidd eraill. 2 Cron. v. 2—10.

Nid oedd y drugareddfa, fel y dangosais am yr arch, ond isel, *dau gufydd a haner ei hyd, a chufydd a haner ei lled*, eithr yr oedd *ei huchder heb fesur.*

1. Hyd a lled y drugareddfa sydd yr un â'r arch: ysgatfydd, i ddangos i ni fod trugaredd Duw i'w etholedigion yr un hyd a lled a haeddiant Crist: Exod. xxv. 10, 17: am hyny y dywedir ein bod ni wedi ein cyfiawnhau ynddo ef, a'n bendithio ynddo ef, sef yn ol yr arfaeth a fwriadodd Duw ynddo ef.

2. Eithr yn gymaint a bod y drugareddfa heb fesur, o ran ei huchder, dangos y mae ei bod, pe ehangai Duw hi, yn ddigonol i gyrhaeddyd hyd yn oed y sawl a gwympant o'r nefoedd, ac i achub pawb oll ag sydd yn byw ar y ddaear, hyd yn oed y rhai oll ag sydd yr awr hon yn uffern: canys y mae, nid yn unig ddigon o led i'r sawl a achubir, eithr gwala a gweddill o fara. Luc xv. 17.

"A dod," medd Duw, "y drugareddfa i fyny ar yr arch." Fel hyn y dywedodd efe wrth Moses, a dyma y lle a nododd Dafydd iddi. Exod. v. 21. 1 Cron. xxviii. 11.

Yn awr yn gymaint a'i bod wrth ordeiniad Duw wedi ei gosod yn y modd hyn, fe ddysgir i ni amryw bethau:

1. Mai Crist yw sylfaen trugaredd i ni. Y drugareddfa a osodwyd ar arch y dystiolaeth, ac yno y gorphwysodd i ni. Ni fuasai, ac ni allasai cyfiawnder oddef i ni gaffael budd trwy drugaredd, oni buasai iddi gaffael arch Crist i orphwys arno: "Gollwng ef," medd Duw, "rhag disgyn o hono i'r clawdd: myfi a gefais iawn." Job xxxiii. 24.

2. Yn ei bod wedi ei gosod oddiarnodd, y mae yn dangos fod Crist o ordeiniad trugaredd, yn ffrwyth trugaredd. Trugaredd oddiarnodd ydyw yr ordeiniwr: cariad yw Duw, ac a anfonodd, o gariad, ei Fab i fod yn Iachawdwr ac yn Iawn dros ein pechodau. Ioan iii. 16. 1 Ioan iv. 10.

3. Trwy fod y drugareddfa a'r arch wedi eu cysylltu fel hyn yn nghyd, y mae yn dangos hefyd nad ydyw trugaredd yn gweithredu heb Grist. Am hyny, pan y deuai yr offeiriad gynt at Dduw am drugaredd, yr oedd yn arfer dyfod â gwaed; ïe, ac a arferai ei daenellu ef ar y drugareddfa, ac o'i blaen saith waith. Cymerwch yr arch ymaith, a'r drugareddfa a gwymp, neu o leiaf a ddaw i lawr yn isel: felly cymerwch Grist ymaith, a dyfr-ddôr trugaredd a gwymp i lawr, a ffrwd trugaredd

a attelir. Hyn sydd wir, canys cyn gynted ag y rhydd Crist heibio eiriol, y daw y farn dragywyddol.

4. Drachefn, trwy fod y drugareddfa wedi ei gosod oddiuchod ar yr arch, y mae yn dysgu i ni wybod y gall trugaredd edrych i lawr o'r nefoedd, er bod y ddeddf yn sefyll gerllaw, ac yn edrych arni; eithr yna rhaid ei bod yn Nghrist, megis yn gadwedig yno, ac wedi ei chyflawni ganddo ef drosom ni. Y ddeddf allan o Grist sydd ddychrynadwy fel llew, y ddeddf ynddo ef sydd hawddgar fel oen. Y rheswm yw, oherwydd ei bod yn cael ynddo ef ddigon i ateb dros holl bechodau y rhai hyny a ddeuant at Dduw am drugaredd trwyddo ef. Crist yw diwedd y ddeddf er cyfiawnder; ac os yw hyny yn wir, nis gall y ddeddf edrych yn mhellach, pwy bynag a ddel at Dduw trwyddo ef. Yr oedd y ddeddf yn arfer barnu yn ddychrynllyd hyd oni osodwyd hi yn yr arch i'w chadw: eithr wedi ei bod yn nghadw yno, nid ydym yn darllen am dani fel o'r blaen. 1 Bren. viii. 9. 2 Cron. v. 10. Rhuf. v. 10.

5. Bydded, gan hyny, y sawl a ddeuant at Dduw am drugaredd yn sicr o ddyfod ato trwy yr arch Crist. Canys megis y mae gras yn disgyn i ni oddiar y drugareddfa, felly y drugareddfa hòno sydd yn gorphwys ar yr arch. Oherwydd paham, bechadur, tyred am drugaredd y ffordd hòno, canys os cyfarfyddi di â'r ddeddf yno, nis gwna i ti niwed; ac nis gall trugaredd, pe cyfarfyddet ti â hi mewn lle arall, wneuthur i ti ddaioni.

Deuwch, gan hyny, a deuwch "yn hyderus at orseddfaingc y gras," y drugareddfa hon, pa un a gynnelir i fyny gan yr arch, "fel y derbynioch drugaredd, ac y caffoch ras yn gymhorth cyfamserol." Heb. iv. 16.

Am hyny gosodiad y pethau yn y sancteiddiolaf yn y modd hyn sydd yn rhyfeddol i'w weled yn ngair Duw. Canys hwnw yn ddiau ydyw y drych wrth, a thrwy ba un y rhaid i ni edrych ar ogoniant yr Arglwydd. Yma y gwelwn yr achos o bethau: yma y gwelwn y modd y gall Duw gyfiawn wneuthur, a hyny mewn ffordd o drugaredd, ag un a bechodd yn ei erbyn ef: hyny sydd oherwydd bod y ddeddf yn nghadw gan yr Arglwydd Iesu Grist. Canys megis y gwelwch y drugareddfa yn sefyll ar arch y cyfammod, ac yno y mae Duw yn gweithredu mewn ffordd o ras tuag atom ni. Exod. xxv. 17, 23.

### LXIV.—*Yn nghylch Dwfr bywiol y Deml nesaf i mewn.*

Er na chrybwyllir am y dwfr hyn yn yr adroddiad sanctaidd yn nghylch adeilad y deml, eithr yn unig am y mynydd ar ba ún, a'r moddion â pha rai yr adeiladodd y brenin hi; eto mi dybygwn i fod yn y mynydd hwnw, ac hefyd lle yr adeiladwyd y deml, ffynnon o ddwfr bywiol. Hyn sydd yn debyg iawn i wir, canys y mae yn dywedyd: "Ac efe a'm dug i drachefn i ddrws y tŷ; ac wele ddwfr yn dyfod allan odditan riniog y tŷ tua'r dwyrain: oherwydd wyneb y tŷ oedd tua'r dwyrain; a'r

dyfroedd oedd yn disgyn odditanodd o ystlys dehau y tŷ, o du y dehau i'r allor. Ezec. xlvii. 1.

Felly drachefn, *A ffynnon a ddaw allan o dy yr Arglwydd, ac a ddyfrha ddyffryn Sittim.* Joel iii. 18. Ac nid oedd y ffynnon, pa le bynag yr oedd ymddangosiad cyntaf y dyfroedd sanctaidd, ond yn y cyssegr, sef y sancteiddiolaf, Ezec. xlvii. 12, yn mha le yr oedd y drugareddfa yn sefyll, yr hon a elwir "gorsedd-faingc Duw a'r Oen." Dat. xxii. 1, 2.

Hwn hefyd y mae y prophwyd Zechariah yn feddwl, pan yw yn dywedyd, "Dyfroedd bywiol a ddaw allan o Jerusalem, eu haner hwynt tua môr y dwyrain, a'u haner hwynt tua'r môr eithaf." Zec. xiv. 8. Fe ddywedir eu bod yn dyfod allan o Jerusalem, oherwydd dyfod o honynt i wared i'r ddinas o'r cyssegr, yr hwn oedd yn sefyll yn Jerusalem.

Hwn ydyw yr un a elwir mewn lle arall "afon o ddwfr y bywyd," oblegid ei fod yn tarddu allan o'r orsedd, ac oblegid yr arferent hi, i'm tyb i, yn ei dechreuad, ac yn nghylch addoliad y deml. Myfi a dybygwn mai â hon y llanwyd y môr tawdd a'r deg noeau, ac yn mha un yr ymolchai yr offeiriaid eu dwylaw a'u traed pan yr elent i'r deml i wasanaethu; ac yn mha un hefyd y golchent yr aberthau cyn yr offryment hwynt i Dduw; ïe, yr wyf yn tybied mai â'r dwfr hwn yr oedd yr holl olchiadau yn nghylch eu haddoliad yn cael eu gwneuthur.

Fe ddywedir yn Ezeciel a'r Datguddiad, fod "Pren y bywyd yn tyfu ar làn yr afon;" Ezec. xlvii. Dat. xxii; ac yr oedd yn gysgod o air ac Yspryd Duw, trwy ba un y sancteiddiodd Crist ef ei hun, mewn trefn i'w addoliad megis Arch-offeiriad; ac hefyd y dwfr hwn yw yr un ag sydd yn meddyginiaethu y rhai oll a achubir; a thrwy ba un y maent hwy, gan fod wedi eu sancteiddio hefyd trwyddo, yn gwneuthur eu holl waith o addoliad a gwasanaeth yn gymeradwy, trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

Am hyny fe ddywedir fod y dwfr hwn yn myned allan i'r môr, y byd, ac i iachau ei bysgod, y pechaduriaid sydd ynddo; ïe, hwn yw y dwfr, am ba un y dywedodd Iesu Grist ein Harglwydd, "Pwy bynag a yfo o hono, a fydd byw." Ezec. xlvii. 8—10. Zec. xiv. 8.

### LXV.—*Yn nghylch y Cadwynau oedd yn y Gafell, neu y Deml nesaf i mewn.*

Megis ag yr oedd cadwynau ar y colofnau hyny ag oedd yn sefyll o flaen porth y deml, ac yn y tŷ cyntaf, felly yr oedd yn gyffelyb iddynt hwy gadwynau yn y sancteiddiolaf, pa un a elwir yma yn gafell.

Nid cadwynau mewn ymddangosiad, neu wedi eu cerfio mewn coed, &c., ond cadwynau yn wir, a rheiny o aur, oedd y cadwynau hyn; ac fe'u darparwyd *i wahanu o flaen y gafell oddifewn.* 1 Bren. vi. 31. 2 Cron. iii. 16.

Myfi a ddywedais i chwi o'r blaen y gelwir y sancteiddiolaf yn gafell, nid oherwydd bod y cwbl o honi felly yn yr ystyr fanylaf, ond oherwydd fod y fath atebiad o eiddo Duw yno ag nad oedd yn y deml nesaf allan; eithr myfi a dybygwn mai yr arch a'r drugareddfa oedd y rhai a elwid yn fwyaf enwedigol y gafell: canys yno y cyfarfyddaf â thi, medd Duw, ac uwchben hòno y chwedleuaf â thi. Pan y dywedodd Dafydd, "Dyrchafaf fy nwylaw tuag at dy gafell sanctaidd," nid oedd efe yn meddwl cymaint tuag at y cyssegr sancteiddiolaf, a thuag at y drugareddfa oedd ynddo, neu fel y dywed efe yn yr ymyl, tuag at gafell dy gyssegr. Salm xxviii. 2.

1. Pan yw, gan hyny, yn dywedyd o flaen y gafell, meddwl y mae efe fod y cadwynau hyn wedi eu gosod yn y cyssegr sancteiddiolaf, o flaen yr arch a'r drugareddfa, i beri i Aaron a'i blant ddeall fod yno chwanegol ogoniant. Canys yr arch a'r drugareddfa a gyfrifid o flaen y tŷ sanctaidd ei hun; megis y cyfrifir Crist a gras Duw o flaen y nefoedd uchaf: "Uchel yw yr Arglwydd goruwch yr holl genhedloedd: a'i ogoniant sydd goruwch y nefoedd." Salm cxiii. 4.

Felly, gan hyny, nid oedd y rhaniad a wnaethpwyd yn y tŷ wrth y cadwynau hyn, y cadwynau aur hyn, yn gymaint i wahanu y lle sanctaidd oddiwrth y sancteiddiolaf, ag oedd i ddangos fod yn y sancteiddiolaf y peth hyny, yr hyn sydd eto yn fwy teilwng nag ef.

Y sancteiddiolaf oedd gysgod o'r nefoedd, ond yr arch a'r drugareddfa oedd gysgod o Grist, ac o drugaredd Duw i ni trwyddo ef; a diau yn genyf y barna pob dyn (os yw yn gwybod pa beth y mae yn ddywedyd) fod Duw a Christ y nefoedd yn anrhydeddusach na'r tŷ y maent yn trigo ynddo: am hyny y dywedodd Dafydd drachefn, "Pwy sydd genyf yn y nefoedd ond tydi?" Canys tydi wyt ardderchocach na hwynt. Salm lxxiii. 25.

Canys er y gwasanaethai yr hon â elwir y nefoedd rai; ïe, pe byddai Duw ei hun allan o honi; er hyny ni foddia dim o'r gwr gwir rasol ond Duw y nefoedd; am Dduw y mae enaid y gwr hwn yn sychedu, Duw yw hyfrydwch ei orfoledd ef. Salm xl. 2; lxiii. 1; cxliii. 6; xvii. 15; xliii. 4.

Y cadwynau hyn, gan hyny, megis ag yr oeddynt yn gwneuthur y rhaniad hwn yn y cyssegr sancteiddiolaf, a allant ddysgu i ni y cawn, pan y gogoneddir ni yn y nefoedd, wybod, ïe, y pryd hyny, ac yn y lle hwnw, y parha anghyfartalrwydd anfeidrol rhwng Duw a ni. Y cadwynau hyn sydd yno, i wahaniaethu rhwng y Creawdwr a'r creadur.

Canys nyni, sef y rhai a achubir, a gadwn ein natur, ac a barhawn yn wastadol yn hanfodau meidrol; ïe, ac a gawn hefyd weled yno anghyfartalrwydd rhwng ein Harglwydd, ein Pen, a nyni; canys er ein bod yr awr hon, ac y byddwn y pryd hyny, yn debyg iddo ef, o ran ei ddyndod: ïe, ac a fyddwn yn debyg iddo ef hefyd

o ran ein bod wedi ein gogoneddu â'i ogoniant ef; eto efe a ragora arnom, ac a â tu hwnt i ni o ran gradd a discleirdeb, cyn belled ag y discleiriodd y brenin mwyaf ar y ddaear erioed uwchlaw y deiliaid gwaelaf yn y deyrnas.

Fe arferid cadwynau yn yr amser gynt megis nodau o wahaniaeth, i ddangos i ni pa rai oedd gaethweision a pha rai oeddynt ryddion: ïe, hwy a fyddant yn nydd y farn yn nôd o wahaniaeth rhwng da a drwg; megis y maent yma yn dangos gwahaniaeth rhwng y nefoedd a Duw, a rhwng y creadur a'r Creawdwr. 2 Pedr ii. 4. Jud. 6. Mat. xxii. 13.

Gwir, cadwynau o bechod a digofaint ydynt hwy, eithr y rhai hyn yn gadwynau aur; eto y cadwynau hyn, ïe, y rhai hyn a gadwant greaduriaid yn eu lle, fel y caffo y Creawdwr ei ogoniant, ac y derbynio y gydnabyddiaeth hòno oddiwrthynt hwy yno, ag sydd ddyledus i'w fawrhydi ef. Dat. iv; v. 11—15.

LXVI.—*Yn nghylch yr Arch-offeiriad, a'i Swydd yn y Deml nesaf i mewn.*

Wedi ordeinio pethau yn y modd hyn yn y cyssegr sancteiddiolaf, yna yr âi yr arch-offeiriad i mewn yno, yn ol fel y gorchymynwyd iddo, i wasanaethu ei swydd, sef *i losgi yr arogl-darth yn ei thusser aur, ac i daenellu â'i fys waed ei aberth, dros y bobl, oddiar y drugareddfa.* Exod. xxx. 7—11. Lef. xvi. 11—15.

Yn awr at ei waith arbenig hwn yr oedd ganddo ef *barotoadau neillduol.*

1. Yr oedd i ymolchi mewn dwfr.

2. Yn ol hyny yr oedd i wisgo am dano ei wisgoedd sanctaidd.

3. Yn ol hyny, yr oedd i'w eneinio ag olew sanctaidd.

4. Ac wedi hyny yr oedd aberth i'w offrymu drosto, er ei wneuthur yn gymhwysach i'w swydd.

5. Rhaid oedd gosod peth o waed yr aberth ar ei glust ddehau, peth ar fawd-fys ei law ddehau, a pheth ar fawd-fys ei droed dehau.

Wedi gwneuthur hyn, rhaid oedd taenellu ychydig yn ychwaneg o'r gwaed, yn nghyd â'r olew, arno ef, ac ar ei wisg; canys yn y modd hyn yr oedd yn rhaid ei gyssegru ef at ei waith, megis arch-offeriad. Exod. xxix.

Ei ymolchiad yn y dwfr oedd i ddangos purdeb dyndod Crist.

Ei wisgoedd cywraint oeddynt gysgod o holl berffeithrwydd cyfiawnder Crist.

Yr olew sanctaidd a daenellwyd ar ei ben ef oedd i ddangos y modd yr eneiniwyd Crist â'r Yspryd Glân at ei waith, megis offeiriad.

Yr aberth o'i gyssegriad oedd gysgod o'r offrwm hwnw a offrymodd Crist yn yr ardd, pan y cymysgodd efe ei chwys â'i waed, "a thrwy lefain cryf a dagrau, offrwm gweddiau at yr hwn oedd abl i'w achub ef; a chael ei wrando yn yr hyn a ofynodd."

Canys â'i waed ei hun (megis Aaron â gwaed y bustach a laddwyd drosto)

gorchuddiwyd yr un bendigaid hwn o'i ben i'w draed, pan "ddisgynodd ei chwys fel defnynau gwaed o'i ben," a'i wyneb a'i holl gorph ar y ddaear. Luc xxii. 44. Heb. x. 20.

Pan yr oedd Aaron wedi ei barotoi yn y modd hyn, yna yr offrymodd efe ei offrwm dros y bobl, ac a ddygodd y gwaed o fewn i'r wahanlen: Lef. xvi: yr hyn a atebodd Crist Iesu hefyd, pan yr offrymodd ei gorph y tu allan i'r porth, ac yno a ddygodd ei waed i'r nefoedd, ac a'i taenellodd o flaen y drugareddfa. Heb. xiii. 1, 12; ix. 11, 12, 14.

Yr oedd Aaron yn gysgod o Grist; ei offrwm yn gysgod o Grist yn offrymu ei gorph: gwaed yr aberth yn gysgod o waed Crist; ei wisgoedd yn gysgod o gyfiawnder Crist; y drugareddfa yn gysgod o orseddfainc gras; yr arogl-darth yn gysgod o foliant Crist; a thaenelliad y gwaed ar y drugareddfa yn gysgod o Grist yn dadleu rhinwedd ei ddioddefiadau drosom ni yn mhresenoldeb Duw yn y nefoedd.

"Oherwydd paham, frodyr sanctaidd, cyfranogion o'r galwedigaeth nefol, ystyriwch Apostol ac Arch-offeiriad ein cyffes ni, Crist Iesu; a chan fod i ni Arch-offeiriad mawr yr hwn a aeth i'r nefoedd, Iesu Mab Duw, glynwn yn ein proffes. Canys nid oes i ni Arch-offeiriad heb fedru cyd-ddioddef gyda'n gwendid ni, ond wedi ei demtio yn mhob peth yr un ffunud a ninau, eto heb bechod. Am hyny awn yn hyderus at orseddfainc y gras, fel y derbyniom drugaredd, ac y caffom ras yn gymhorth cyfamserol. Canys pob arch-offeiriad, wedi ei gymeryd o blith dynion, a osodir dros ddynion yn y pethau sydd tuag at Dduw, fel yr offrymo roddion ac aberthau dros bechodau: yr hwn a ddichon dosturio wrth y rhai sydd mewn anwybodaeth ac amryfusedd, am ei fod yntau hefyd wedi ei amgylchu â gwendid.

"Hwn, gan hyny, yw ein Harch-offeiriad ni, a hwn a wnaed felly nid yn ol cyfraith gorchymyn cnawdol, eithr yn ol nerth bywyd annherfynol: canys Aaron a'i feibion yn wir a wnaed yn offeiriaid heb lw, ond hwn trwy lw, gan yr hwn a ddywedodd wrtho, Tyngodd yr Arglwydd, ac ni bydd edifar ganddo, Tydi sydd Offeiriad yn dragywyddol yn ol urdd Melchisedec.

"Ar Destament gwell o hyny y gwnaethpwyd Iesu yn Fachniydd. A'r rhai hyny yn wir, llawer sydd wedi eu gwneuthur yn offeiriaid, oherwydd lluddio iddynt gan farwolaeth barhau; ond hwn, am ei fod ef yn aros yn dragywydd, sydd ag offeiriadaeth anghyfnewidiol ganddo. Am hyny efe a ddichon hefyd yn gwbl iachau y rhai trwyddo ef sydd yn dyfod at Dduw, gan ei fod ef yn byw bob amser i eiriol drostynt hwy.

"Canys y cyfryw Arch-offeiriad sanctaidd, diddrwg, dihalog, didoledig oddiwrth bechaduriaid, ac wedi ei wneuthur yn uwch na'r nefoedd, oedd weddus i ni; yr hwn nid yw raid iddo beunydd, megis yr offeiriaid hyny, offrymu aberthau yn gyntaf dros ei bechodau ei hun, ac yna dros yr eiddo y bobl: canys hyny a wnaeth efe

unwaith, pan offrymodd efe ef ei hun. Canys y gyfraith sydd yn gwneuthur dynion â gwendid ynddynt yn arch-offeiriaid; eithr gair y llw, yr hwn a fu wedi y gyfraith, sydd yn gwneuthur y Mab, yr hwn a berffeithiwyd yn dragywydd.

"A phen ar y pethau a ddywedwyd yw hyn: y mae genym y fath Arch-offeiriad, yr hwn a eisteddodd ar ddeheulaw gorseddfainc y Mawredd yn y nefoedd; yn Weinidog y gyssegrfa, a'r gwir dabernacl, yr hwn a osododd yr Arglwydd, ac nid dyn. Canys pob arch-offeiriad a osodir i offrymu rhoddion ac aberthau: oherwydd paham, rhaid oedd bod gan hwn hefyd yr hyn a offrymai. Canys yn wir pe byddai efe ar y ddaear, ni byddai yn offeiriad ychwaith, gan fod offeiriaid y rhai sydd yn offrymu rhoddion yn ol y ddeddf: y rhai sydd yn gwasanaethu i esiampl a chysgod y pethau nefol, megis y rhybuddiwyd Moses gan Dduw, pan oedd efe ar fedr gorphen y babell. Canys, Gwel (medd efe) ar wneuthur o honot bob peth yn ol y portreiad a ddangoswyd i ti yn y mynydd.

"Eithr Crist, wedi dyfod yn Arch-offeiriad y daionus bethau a fyddent, trwy dabernacl mwy a pherffeithiach, nid o waith llaw, hyny yw, nid o'r adeiladaeth yma, nid chwaith trwy waed geifr a lloi, eithr trwy ei waed ei hun, a aeth unwaith i mewn i'r cyssegr, gan gael i ni dragywyddol ryddhad. Oblegid os ydyw gwaed teirw a geifr, a lludw aner wedi ei daenellu ar y rhai a halogwyd, yn sancteiddio i bureiddiad y cnawd, pa faint mwy y bydd i waed Crist, yr hwn trwy yr Yspryd tragywyddol a'i hoffrymodd ei hun yn ddifai i Dduw, buro eich cydwybod chwi oddiwrth weithredoedd meirwon, i wasanaethu y Duw byw?

"Canys nid i'r cyssegr o waith llaw, portreiad y gwir gyssegr, yr aeth Crist i mewn; ond i'r nef ei hun, i ymddangos yn awr gerbron Duw drosom ni: nac fel yr offrymai efe ei hun yn fynych, megis y mae yr arch-offeiriad yn myned i mewn i'r cyssegr bob blwyddyn, â gwaed arall (oblegid yna rhaid fuasai iddo yn fynych ddioddef er dechreuad y byd): eithr yr awr hon unwaith yn niwedd y byd yr ymddangosodd efe, i ddilëu pechod, trwy ei aberthu ei hun. Ac megis y gosodwyd i ddynion farw unwaith, ac wedi hyny bod barn: felly Crist hefyd, wedi ei offrymu unwaith i ddwyn ymaith bechodau llawer, a ymddengys yr ail waith, heb bechod, i'r rhai sydd yn ei ddisgwyl, er iachawdwriaeth." Heb. iii. 1; iv. 14—16; v. 1, 2; vii. 16—29; viii. 1—5; ix. 11—14, 24, &c.

LXVII.—*Yn nghylch Mynediad yr Arch-offeiriad i'r Cyssegr Sancteiddiolaf ei hun.*

Megis mai rhagorfraint yr arch-offeiriad oedd myned i'r sancteiddiolaf yn unig; felly yr oedd yno ryw ddirgelwch hefyd; am ba un y traethaf ychydig. *Na fydded un dyn (medd Duw) yn mhabell y cyfarfod, pan ddelo Aaron i mewn i wneuthur cymmod yn y cyssegr, hyd oni ddelo efe allan, a gwneuthur o hono ef gymmod drosto ei hun, a thros ei dy, a thros holl gynulleidfa Israel.* Lef. xvi. 17, &c.

Y rheswm yw, oblegid mai Crist yw yr unig Gyfryngwr: "efe a sathrodd y gwin-wryf ei hunan; ac o'r bobl nid oedd neb gydag ef, i'w gynorthwyo." Esay lxiii. 3. 1 Tim. ii. 5.

O'r bobl nid oedd un i'w gynorthwyo ef i ddwyn ei groes, neu yn ngweinidogaeth y rhan gyntaf o'r swydd offeiriadol; paham, gan hyny, y byddai un i gyfranu ag ef yn ngwasanaeth yr ail ran o honi? Heblaw hyn, y mae yn rhaid i'r hwn a gynorthwyo eiriolwr fod ei hun yn ddifai, neu mewn ffafr, ar ryw sail, heb ymddibynu ar werth yr eiriolaeth. Ond am eiriolaeth Crist, pwy a ddichon ddyfod i mewn i'w gynorthwyo ar gyfrif y fath ddiniweidrwydd a gwerth? Nid yr angel uchelaf; canys nid oes neb o'r fath, ond un, am hyny mae yn rhaid iddo ei gwasanaethu yn unig. Am hyny y dywedir iddo ef fyned i mewn yn unig, ei fod yno yn unig, ac yn eirioli yn unig. A hyn sydd eglur, nid yn unig yn y cysgod Aaron, eithr yn y gwrth-gysgod Crist Iesu. Heb. vi. 19, 20; ix. 7—25.

Nid wyf yn dywedyd nad oes un dyn yn y nefoedd ond Crist Iesu; eithr dywedyd yr wyf ei fod ef yno yn eirioli drosom ni yn unig. Ië, y gair sanctaidd sydd yn dywedyd yn mhellach: "Yr wyf yn myned (medd Crist) i barotoi lle i chwi; ac os myfi a af, ac a barotoaf le i chwi, mi a ddeuaf drachefn, ac a'ch cymeraf chwi ataf fy hun: fel lle yr wyf fi, y byddoch chwithau hefyd." Ioan xiv. 1—5.

Fe dybygir fod y testyn hwn yn meddwl fod Crist yn y sancteiddiolaf, neu y nefoedd uchaf yn unig; a rhaid iddo ef fod yno yn unig hyd oni ddibeno ei waith eiriolaidd; canys ni ddaw efe hyd y pryd hyny i'n cymeryd ni ato ei hun.

Caniatawn i Grist y blaenoriaeth hyn, megis hefyd yn mhob peth arall; canys efe sydd Eiriolwr dros ei eglwys, ac yn eirioli drostynt yn y sancteiddiolaf yn unig. Fe ddywedir mai efe yw y goleuni yr hwn nas gall un dyn nesâu ato.

### LXVIII.—*Yn nghylch Mynediad yr Arch-offeiriad i mewn yno ond unwaith yn y Flwyddyn.*

Megis yr oedd yr arch-offeiriad yn myned i'r sancteiddiolaf, pan yr elai yno yn unig, felly i wneuthur ei waith, nid âi ond unwaith yn y flwyddyn. Duw a ddywedodd, *Na ddos bob amser i'r cyssegr, o fewn y wahanlen, gerbron y drugareddfa sydd ar yr arch, fel na byddo i ti farw.* Lef. xvi. 2.

Ac megis nad oedd i fyned i mewn yno ond unwaith yn y flwyddyn, felly nid oedd i fyned y pryd hyny heb ei wisgo a'i addurno â'i sanctaidd wisgoedd offeiriadol. Yna yr oedd efe i'w wisgo, fel y crybwyllais eisoes, â'r gwisgoedd sanctaidd, y ddalen aur ar ei dalcen, enwau y deuddeg llwyth ar ei ddwyfron, a'r clychau aur ar odre ei fantell; ni wasanaethai hyn oll ychwaith oni buasai yn myned i mewn yno â gwaed. Exod. xxviii. Lef. xvi.

Yn awr mae yr apostol yn dâl sylw arbenig ar yr unwaith yn y flwyddyn hyn,

ac yn gwneuthur mawr ddefnydd o hono. Unwaith yn y flwyddyn, medd efe, yr oedd yr arch-offeiriad hwn yn myned i mewn yno; unwaith yn y flwyddyn, sydd i ddangos y byddai i Grist unwaith yn niwedd y byd fyned i'r nefoedd ei hun i eiriol drosom ni yno. Canys wrth y gair hwn, blwyddyn, y mae yn dangos mai diwedd y byd a feddylir, ac wrth unwaith yn y flwyddyn y mae yn meddwl, "unwaith yn niwedd y byd."

"Nid (medd efe) fel yr offrymai efe ei hun yn fynych, megis y mae yr arch-offeiriad yn myned i mewn i'r cyssegr bob blwyddyn, â gwaed arall: oblegid yna rhaid fuasai iddo yn fynych ddioddef er dechreuad y byd; eithr yr awr hon unwaith yn niwedd y byd yr ymddangosodd efe i ddilëu pechod, trwy ei aberthu ei hun." Heb. ix. 25, 26.

Ac wedi offrymu ei aberth yn y modd hyn o'r tu allan i'r wahanlen, efe a aeth yr awr hon i mewn i'r sancteiddiolaf, i berffeithio gwaith ei eiriolaeth drosom ni. Nid i'r cyssegr sanctaidd o waith llaw, yr hwn oedd gyffelybiaeth o'r gwir, eithr i'r nefoedd ei hun; ac y mae yr awr hon yn ymddangos gerbron Duw drosom ni.

Yn awr os aeth ein Harglwydd Iesu yn wir yr awr hon i ymddangos gerbron Duw drosom ni: ac os yr unwaith yn y flwyddyn yw yr awr hon, ag y mae y cysgod hyn yn ddywedyd am dano—yr unwaith yn niwedd y byd, fel y mae ein hapostol yn dywedyd; yna y canlyn y dylai pobl Dduw oll ddisgwyl am ei fendith, yr hon a ddug efe iddynt hwy gydag ef, pan y dychwel oddiyno.

Am hyny ychwanega efe, "Crist wedi ei offrymu unwaith i ddwyn ymaith bechodau llawer, a ymddengys yr ail waith heb bechod, i'r rhai sydd yn ei ddisgwyl, er iachawdwriaeth."

Hyn, gan hyny, sydd yn dangos i ni fawredd y gwaith sydd gan Grist i wneuthur ar ddeheulaw Duw, o achos ei fod yn aros yno cyhyd. Efe a orphenodd yr holl ran gyntaf o'i offeiriadaeth mewn llai nag yspaid deugain mlynedd, os cymerwch wneuthuriad ei wisgoedd sanctaidd a'r cwbl i mewn; ond yn nghylch yr ail ran hon o honi, efe a fu fry yn y nefoedd er ys mwy na dau gan' mlynedd ar bymtheg, eto ni ddarfu.

Mae hyn, gan hyny, yn galw am ffydd ac amynedd y saint, a thrwy hyn y mae efe hefyd yn profi y byd; fel ag y maent mewn modd gwatwarus yn dechreu dywedyd eisoes, "Pa le y mae addewid ei ddyfodiad ef?" 2 Pedr iii. 4. Eithr yr wyf fi yn dywedyd drachefn, rhaid i ni edrych a disgwyl.

Os ydoedd y bobl yn disgwyl am Zechariah, ac yn rhyfeddu ei fod ef yn aros cyhyd, oblegid iddo aros yn y lle sanctaidd ychydig yn hwy nag yr oeddynt yn tybied, nid rhyfedd os yw ffydd y byd yn nghylch dyfodiad Crist wedi dianc a rhedeg ymaith er ystalm; ïe, ac y gosodir y plant hefyd i ddisgwyl, gan fod ychydig yn yr Ysgrythyr yn parhau yn nghyd; canys y mae yr hyn y mae'r apostol yn

ddywedyd, "ychydig bachigyn eto," yn profi fod ychydig yn hir iawn i rai. Ioan xvi. Heb. x. 37.

Gwir, yr oedd a wnelai Zechariah y pryd hyny ag angylion, a hyny a barodd iddo aros cyhyd. Oh! ond y mae yr Iesu gyda Duw, ger ei fron ef, yn ei bresenoldeb ef, yn chwedleua ag ef, wedi ei lyncu i fyny ynddo, a chan ei ogoniant, a hyny yw un achos o'i fod yn aros cyhyd!

Y mae efe yno hefyd yn dadleu ei waed dros ei rai temtiedig, ac yn eiriol dros ei rai temtiedig, ac yn eiriol dros ei holl etholedigion, ac yn disgwyl yno hyd oni byddo ei holl rai ef yn gymhwys i'r gogoniant, ac yn barod i fyned iddo: yno y mae efe, meddaf, ac y rhaid ei fod hyd y pryd hyny: a hyn sydd reswm arall paham y mae efe yn aros yr amser ag ydym ni yn gyfrif cyhyd. Ac yn wir y mae yn rhyfedd genyf fi fod Iesu Grist ein Harglwydd yn meddwl unwaith, gan ei fod yn awr yno, ddychwelyd yma drachefn, wrth ystyried y fath driniaeth ddrwg a gafodd efe yma o'r blaen. Eithr pa beth nas gwna cariad? Yn ddiau ni chyffyrddai efe fyth â'r llawr drachefn, oni bai fod ganddo ef bobl yma, pa rai nas gellir eu gwneud yn berffaith ond trwy ei ddyfodiad ef atynt. Efe hefyd a wnaethpwyd yn Farnwr y byw a'r meirw, ac a fyn iddo ogoniant yn ninystr y rhai a'i casânt ef.

Y mae ei bobl mor anwyl iddo ag ef ei hun. A all gwr caredig fod yn wastadol oddiwrth ei anwyl briod? Heblaw hyny, fel y dywedais, y mae efe i dalu i'r drygionus am eu holl ddrygioni, a hyny yn y fàn y gwnaethant ef. Am hyny y mae y dydd gosodedig am hyn wedi ei appwyntio; efe a wna ac a ddaw yn fuan i wneuthur hyny. Canys pa fodd bynag y gallwn ni weled yr amser yn hir; eto, yn ol cyfrif Duw, nid oes ond ychydig bachigyn oddiar pan yr aeth efe i'r sancteiddiolaf i eiriol: "Mil o flynyddoedd gyda'r Arglwydd sydd megis un diwrnod," ac yn ol y ffordd hon o rifo, nid oes eto ddim yn gwbl ddau ddiwrnod er pan aeth efe i'r cyssegr sancteiddiolaf: "Nid ydyw yr Arglwydd yn oedi ei addewid (fel y mae rhai yn cyfrif oed), efe a ddaw yn fuan, ac nid oeda." 2 Pedr iii. 9. Heb. x. 37.

LXIX.—*Yn nghylch y Cerubiaid, a'u gosodiad uwchben y Drugareddfa, yn y Deml nesaf i mewn.*

Yr oedd hefyd yn y cyssegr sancteiddiolaf gerubiaid, pa rai a osodwyd yn *uchel* uwchben y drugareddfa. 1 Bren. vi. 23—29.

1. Y rhai hyn a elwir gan yr apostol, "cerubiaid y gogoniant yn cysgodi y drugareddfa." Heb. ix. 5.

2. Y cerubiaid hyn oeddynt gyffelybiaethau o angylion Duw, fel y profasom mewn lleoedd eraill.

3. Fe ddywedir wneuthur hyn o ddelw-waith, a hyny yn y fath fodd, fel y gallent, yn ol barn rhai, ysgwyd eu hadenydd trwy gywreinrwydd. Am hyny y

dywedir, hwy ymledasant eu hadenydd, adenydd y cerubiaid a ledwyd; ac i'r cerubiaid ledu eu hadenydd dros le yr arch, a'i throsolion oddiarnodd. 1 Bren. vi. 27. 2 Cron. iii. 13; v. 8.

4. Yr wyf yn darllen hefyd am y cerubiaid hyn, fod ganddynt gerbydau ac olwynion, wrth ba rai y dysgir i ni mor barod ac ewyllysgar yw yr angylion i'n cyrchu, pan y gorchymynir iddynt, i Baradwys Dduw: canys y cerbydau hyn oeddynt gysgodau o fynwesau yr angylion; a'r olwynion hyn o gyflymdra eu symudiad i ddyfod atom ni pan eu danfonir. Cerbydau Duw ydynt "ugain mil, sef miloedd o angylion; yr Arglwydd sydd yn eu plith megis yn Sinai, yn y cyssegr." Ezec. xvi. 9—29. 1 Bren. vi. 17. Salm lxviii. 17. 2 Bren. ii. 11. Dan. ix. 20.

5. Ni chaf ymofyn yr awr hon pa wahaniaeth sydd (os oes) rhwng cerubiaid a seraphiaid; er fy mod yn credu fod amryw raddau o angylion yn y nefoedd, megis y mae graddau yn mhlith dynion ar y ddaear. Eithr fod y cerubiaid hyn yn gysgodau o'r angylion sanctaidd, eu gosodiad yn llyn yn y gafell sanctaidd a fynega hyny; canys y nefoedd yw eu trigle, er eu bod, er ein mwyn ni, yn tramwyo y byd. Heb. i.

6. Fe ddywedir fod y cerubiaid hyn yn sefyll ar eu traed yn y cyssegr hwn. I ddangos, yn

(1.) Nad yw angylion y nefoedd wedi cwympo o'u sefyllfa, megis y mae yr angylion eraill.

(2.) I ddangos hefyd eu bod hwynt bob amser yn barod, ar archiad Duw, i redeg yn gyflym i wneuthur yr hyn a ewyllysio.

(3.) I ddangos hefyd y parhant yn eu sefyllfa, gan eu bod wedi eu sicrhau ynddo trwy Iesu Grist, "yn yr hwn y mae pob peth yn cydsefyll." Col. i.

7. Fe ddywedir fod eu hwynebau tuag i mewn, yn edrych y naill at y llall; eto yn dyrchafu ychydig tuag i fyny er hyny, i ddangos fod yr angylion yn edrych ar, ac yn rhyfeddu am ddirgeledigaethau gras, fel ei heglurir tuag atom ni, oddiwrth y drugareddfa. A bydded wynebau y cerubiaid bob un at eu gilydd: tua'r drugareddfa bydd eu hwynebau. Exod. xxv. 20. 2 Cron. iii. 13. 1 Pedr i. 12. Eph. iii. 10.

(1.) "Tua'r drugareddfa." Y maent yn awyddus i'w gweled hi, a'r modd y mae trugaredd yn edrych oddiyno (meddaf) tuag atom ni.

(2.) "Y maent yn edrych bob un at eu gilydd," i ddangos eu bod yn gytun yn gorfoleddu yn iachawdwriaeth ein heneidiau ni. Luc xv. 10.

(3.) Fe ddywedir eu bod hwynt yn sefyll oddiar y drugareddfa (ysgatfydd), i ddangos nad oes raid i'r angylion wrth y gweithredoedd hyny o drugaredd a maddeuant, ag sydd raid i ni wrthynt, y rhai ydym bechaduriaid, ac yn sefyll odditanodd: y maent hwy yn sefyll oddiarni, y maent hwy yn sanctaidd. Nid wyf yn dywedyd nad oes arnynt eisieu i ddaioni Duw gyrhaeddyd atynt, canys trwy hwnw

yr achubwyd, ac yr achubir hwy; ond nid oes raid iddynt hwy wrth faddeuant, canys ni wnaethant ddim anwiredd.

4. Y maent yn sefyll yno hefyd â'u hadenydd wedi lledu allan, i ddangos mor barod, os bydd achos, yw yr angylion i ddyfod o'r nefoedd, i bregethu yr efengyl hon i'r byd. Luc ii. 9—15.

5. Fe ddywedir fod eu hadenydd yn ymledu o bared i bared; o'r naill ystlys y cyssegr hwn i'r llall; i ddangos fod yr holl angylion o fewn terfynau y nefoedd, ag un cydsyniad, gydag un meddwl, yn barod i ddyfod i lawr i gynorthwyo, a gwasanaethu etholedigion Duw wrth ei archiad ef.

Fe ddywedir hefyd fod eu hadenydd yn lledu i fyny, i ddangos eu bod yn ymhyfrydu yn unig yn y dyledswyddau hyny a orchymynir iddynt gan y Goruchaf; ac nid ydynt dueddol i wasanaethu, ïe, y saint, yn eu hamcanion anianol a chnawdol. Fe all dangos i ni hefyd eu bod hwynt yn foddlon i ehedeg o'r naill gwr o'r nefoedd i'r llall, i wasanaethu Duw a'i eglwys er daioni. Mat. xiii. 41, 49; xxiv. 31; xxv. 31. 2 Thes. i. 7, 8.

## LXX.—*Yn nghylch y Lluniau oedd ar Barwydydd y Deml oddifewn.*

Yr oedd pared y tŷ oddifewn, yr hwn oedd gysgod o'r nefoedd, fel y dywedais eisoes, wedi ei fyrddio â chedrwydd o'r gwaelod hyd y pen. Yn awr wrth weledigaeth Ezeciel, fe ddywedir gerfio y pared hwn â *cherubiaid a phalmwydd, fel ag yr oedd palmwydden rhwng pob dau gerub, a dau wyneb oedd i bob cerub: ac wyneb dyn oedd tua'r balmwydden o'r naill du, ac wyneb llew tua'r balmwydden o'r tu arall; yr oedd wedi ei weithio ar hyd y ty o amgylch-ogylch, o'r ddaear hyd oddiar y drws; lle y gweithiasid cerubiaid a phalmwydd.* Ezec. xli. 17—21.

1. Am y cerubiaid a'r palmwydd hyn, myfi a ddywedais eisoes o ba beth (i'm tŷb i) yr oeddynt yn gysgodau: y cerubiaid o'r angylion sanctaidd, a'r palmwydd o'r rhai uniawn. Nid ydym yn y fan hon ond yn unig i draethu yn nghylch eu gosodiad hwynt yn y nefoedd.

2. Chwi welwch y palmwydd yn y sancteiddiolaf wedi eu gosod rhwng cerub a cherub, o amgylch y tŷ, yr hwn, i'm tŷb i, a allai arwyddocau na fydd y saint yn byw yno wrth ffydd a gobaith, fel yma, ond yn y mwynhad digyfrwng o Dduw: canys cael ei osod rhwng y cerubiaid ydyw cael ei osod yn y lle y mae Duw yn preswylio, canys yr Ysgrythyr Sanctaidd sydd yn dywedyd yn eglur, "efe a breswylia rhwng y cerubiaid," sef y lle y mae y palmwydd, neu y rhai uniawn hyn, wedi eu gosod. 1 Sam. iv. 4. 2 Bren. xix. 15. 1 Cron. xiii. 6. Salm lxxx. 1. Esay xxvii. 16.

Fe elwir yr eglwys ar y ddaear yn dŷ Dduw, ac efe a breswylia ynddo yn dragywydd; a'r nef ei hun a elwir yn dŷ Dduw, ac nyni a drigwn ynddo yn dragy-

wydd, a hyny rhwng cerubiaid: hyn sydd fwy na gras. Y mae hyn yn ras a gogoniant—gogoniant yn ddiau.

3. I breswylio rhwng y cerubiaid, a all hefyd i ddangos y cawn ni fod yno yn ogyfuwch â'r angylion. Daliwch sylw, y mae yma balmwydd a cherub, a phalmwydd a cherub. Yma yr ydym ychydig yn îs, eithr yno ni byddwn ddim yn îs na'r penaf o honynt. Palmwydd a cherub, un cyfiawn rhwng y cerubiaid a fydd y pryd hyny o amgylch y tŷ; fe'n gosodir ni yn yr un rhes, "nis gallant chwaith farw mwy; oblegid cyd-stad ydynt â'r angylion." Luc xx. 36.

4. Y palmwydd wedi eu gosod fel hyn, a allant fod hefyd i ddangos i ni y bydd i etholedigion Duw gymeryd i fyny yno wag-leoedd yr angylion syrthiedig: hwynthwy am bechod a daflwyd i lawr o'r nefoedd sanctaidd; a ninau trwy ras a gymerir i fyny yno, ac a osodir rhwng cerub a cherub. Pan yr wyf yn dywedyd eu lleoedd hwynt, nid wyf yn meddwl anwadalwch y cyflwr hyny yn mha un o ddiffyg cariad etholedig, y safasant hwy, tra yr oeddynt mewn gogoniant; canys y nefoedd, trwy waed Crist, a wnaethpwyd yr awrhon yn etifeddiaeth i ni: am hyny, megis y cawn ni eu lle hwynt yn y deyrnas nefol, felly trwy rinwedd y gwaed a'n prynodd, nyni a gawn aros yno, ac ni chawn fyned allan mwyach, canys trwy y modd hyny y saif y deyrnas hòno i ni yn ddisigl. Heb. ix. 9, 12; xii. 22—29. Dat. iii. 12.

5. Y palmwydd, meddaf, sydd yn cyflawni lle y rhai a daflwyd oddiyno am bechod. Yr etholedigion, gan hyny, a etifeddant y lle hwnw trwy well coron yn dragywydd. Fel hyn yr etifeddodd Israel etifeddiaeth y Canaaneaid; a Dafydd deyrnas Saul; a Mathias apostoliaeth Judas. Act. i. 20—27.

6. Nid oedd preswylfeydd yr angylion colledig chwaith, oddieithr yr hyn a grybwyllwyd o'r blaen, mewn un modd yn waelach na'r rhai a safodd; canys eu pen a'u tywysog a elwir yn "fab y wawr-ddydd." Esay xiv. 12.

7. Fel hyn y gwelwch eu gosod hwynt "o'r ddaear hyd oddiar y drws;" hyny yw, o'r isaf hyd yr uchaf o'r angylion yno: canys megis ag y mae seintiau mawrion a rhai bychain yn yr eglwys ar y ddaear, felly y mae angylion o amryw raddau yn y nef, rhai yn fwy na'u gilydd; eithr fe gaiff y sant lleiaf, pan esgyno i'r nef, barch ac uchelfraint angel; chwi welwch fod o'r llawr i fyny balmwydd rhwng cerub a cherub.

8. "Ac yr oedd dau wyneb i bob cerub," felly yma; eithr yr wyf yn darllen fod i bob un o honynt bedwar wyneb; "gan y cyntaf yr oedd wyneb cerub; gan yr ail, wyneb dyn; gan y trydydd, wyneb llew; a chan y pedwerydd, wyneb eryr." Ezec. x.

9. Yr oedd i bob un ddau wyneb, nid i ddangos eu bod o galon ddwyblyg, canys "eu dull hwynt a hwythau oeddynt yr un, cerddent bob un yn uniawn rhag ei wyneb." Ezec. x. 12.

Y ddau wyneb hyn, gan hyny, oedd i ddangos cyflymder eu deall hwynt, a'u dull dychrynllyd i gyflawni meddwl Duw. Wyneb dyn sydd yn arwyddocau eu bod hwynt yn feistri rheswm; wyneb llew, eu presenoldeb dychrynllyd. 1 Cron. xiii. 12. Barn. xiii. 6.

Yr wyf hefyd yn darllen mewn mân arall am eu holwynion; ïe, eu bod hwynt-hwy eu hunain, eu holl gyrph, eu cefnau, eu dwylaw, eu hadenydd, a'u holwynion oll, yn llawn llygaid o amgylch. Ezec. i. 18; x. 13. A hyn sydd i ddangos i ni mor wybodol a chyflym-olwg ydynt yn mhob rhagluniaeth a thywyll oruchwyliaethau; ac mor gyflym yn deall amcanion drwg gelynion eglwys Dduw, ac felly mor alluog ydynt i'w dinystrio hwynt; ac yn gymaint hefyd a bod iddynt wyneb llew, fe ddangosir i ni wrth hyny mor gyflawn o nerth ydynt i ladd a distrywio, pan y dywedo Duw, Ewch allan, a gwnewch felly.

Yn awr gyda'r rhai hyn y rhaid i ni breswylio a chyd-aneddu, palmwydd a cherub, palmwydd a cherub, rhaid yw eu bod o'r ddaear hyd oddiar y drws, o amgylch y tŷ, y nefoedd.

Felly yr oedd wyneb dyn tua'r balmwydden o'r naill du, ac wyneb llew ieuanc tua'r balmwydden o'r tu arall.

Wrth y ddau wyneb hyn y gellir dangos hefyd, y cawn ni yn y nefoedd ogoniant digonol i'n gwneuthur yn gyfeillgar i'r angylion. Eu hwynebau llewaidd, â pha rai yr arferent ddychrynu y sant mwyaf ar y ddaear—(Gen. xxxii. 39. Barn. xiii. 15, 22)—a ymgyfeillachir yr amser hwnw ag wynebau cynefin dynion. Yna angylion a dynion a fyddant gyfeillion, ac a gymdeithant â'u gilydd megis y cyfryw.

Fel hyn y gwelwch beth o'r ychydig hyny a gefais i yn nheml Dduw.

# ADOLYGIAD O'R DEML.

WEDI EI GASGLU O "BROWN'S DICTIONARY."

---

Y PAROTOADAU at y deml hon ydoedd yn anfeidrol. Dafydd a'i dywysogion a roddasant ati gant ac wyth o filoedd o dalentau o aur; un myrddiwn a dau-ar-bymtheg o filoedd o dalentau o arian; y ddau yn nghyd ydoedd yn swm yn nghylch naw cant a deugain o fyrddiynau, saith cant a phedwar-ar-bymtheg o filoedd, a saith cant a deg a deugain o bunnoedd; neu naw cant a phedwar-ar-bymtheg o fyrddiynau, dau cant a phedwar ugain a phedwar-ar-bymtheg o filoedd, chwe' chant a phedwar ugain a saith o bunnoedd, o arian cymeradwy (*Sterling*), ac o bwysau yn agos i chwech a deugain o filoedd o dunellau o bwysau o aur ac arian. Yr oedd oddeutu cant a phedwar ugain a thri o filoedd a chwe' chant o ddynion yn gweithio wrthi. Hebreaid a Chanaaneaid oedd ar waith yn ei hadeiladu. Pob peth a wnaethpwyd yn barod cyn dyfod i'r màn, fel nad oedd dim i wneuthur ond cydio yn y defnyddiau; ac er hyny hwy a fuont saith mlynedd yn ei hadeiladu. Nid arosodd y deml Iuddewaidd ond oddeutu pedair blynedd-ar-ddeg-ar-hugain yn ei gogoniant.

Yn nghylch y flwyddyn 3398 Nebuchodonosor a gludodd ran o'r llestri sanctaidd i Babylon, ac oddiamgylch saith mlynedd ar ol hyny a gludodd y lleill; ac yn y diwedd, yn y flwyddyn 3416, a lwyrosgodd ac a anrheithiodd y deml.

Yn nghylch y flwyddyn 3469, er llawenydd i rai, a galar i eraill, trwy archiad Cyrus, dechreuasant ail-adeiladu y deml; ac er hyny, er y mawr rwystrau a gawsant, a orphenwyd mewn oddeutu ugain mlynedd o amser, ac a gyssegrwyd i wasanaeth Duw gyda rhwysgfawredd mawr.

Herod, mewn modd arbenig, a gyssegrodd ei deml newydd. Nid oedd wedi sefyll fawr uwchlaw triugain a deg o flynyddau, pan y darfu i'r Iuddewon wneud amddiffynfa o honi yn eu rhyfel dinystriol. Ar ol eu bod wedi eu halogi â mwrdd-dra, a phob drygioni arall, ac er mawr alar i Titus, y tywysog Rhufeinaidd, fe'i llosgwyd hyd y ddaear.

Julian, yr emprwr Rhufeinaidd, mewn cytundeb â'r Iuddewon, a anturiasant ddwywaith ei hailadeiladu, yn nghylch y flwyddyn 390. Daeargryn a fflamiau o dân a wasgarodd eu moddion, ac a laddodd rifedi mawr o'u gweithwyr. Yn bresenol mae yno wawd-deml, o'r tu dehau-dwyreiniol i Jerusalem. Y cyntedd sydd 570 o gamrau* o hyd, a 370 o led. Yn y canol, lle y meddylir fod y sanctaidd sancteiddiolaf yn sefyll, mae yno deml Dyrcaidd, i hon y mae y Mahometaniaid yn talu parch mawr; ond nid oes Iuddew na Christion a feiddia anturio i'r cyntedd yma, dàn boen marwolaeth, neu brynu ei fywyd trwy droi yn Fahometan.

* Cam *(pace)*, mesur o bùm troedfedd. Felly hyd y cyntedd ydyw 2850 o droedfeddi o hyd, a 1850 o droedfeddi o led.

# AT Y DARLLENYDD.

Ddarllenydd Addfwyn:

Mi a gymerais fy rhydd-did unwaith eto i'th anerch di â rhai o'm myfyrdodau; ac y maent yn awr yn nghylch y Pharisead a'r Publican: dau ddyn yn nghyflwr pa rai y mae yr holl fyd yn cael eu cynnwys, mewn perthynas i'w cyflwr yn awr ac yn nydd barn.

Oherwydd paham, wrth ddarllen y Llyfr bychan hwn, y mae yn rhaid i ti ddarllen dy gyflwr dy hun. Nid wyf yn dywedyd y rhaid i ti ddeall dy gyflwr; canys rhodd Duw sydd i beri i ti wneuthur hyny. Pa fodd bynag, os bendithia Duw ef i ti, fe all fod yn foddion i'th ddwyn di i weled yn llwybrau pwy yr wyt yn troedio, ac felly i ba le yr wyt yn debyg o ddyfod yn y diwedd.

A gad i mi erfyn hyn arnat, yn awr yr wyt yn myned i ddarllen; cadw dy farn mewn perthynas i myfi hyd onid elych trwy y Traethawd. Fe draethir yma am gyfiawnhad, a'r ffordd i ddynion fod yn gadwedig.

Hefyd, O! Bublican, yn ol y medr oedd genyf, er dy anogaeth, mi a osodais yma ger dy fron y Pharisead a'r Publican yn eu gwir liwiau; ac mi a ddangosais i ti i'r Publican, er ei fod yn ymddangos yn mhell yn ol, eto wrth redeg, enill y gamp ar y Pharisead hunanol. Meddaf, ai Pharisead ydwyt? Dyma Pharisead i ti. Ai Publican ydwyt? Dyma Bublican i ti. A Duw a roddo i ti galon y Publican, os ydwyt yn mhechodau y Publican, fel gyda'r Publican y gallech gael trugaredd.

Yr hyn yw dymuniad dy Gyfaill,

JOHN BUNYAN.

# ESPONIAD

AR

# DDAMEG Y PHARISEAD A'R PUBLICAN.*

"Ac efe a ddywedodd y ddameg hon wrth y rhai oedd yn hyderu arnynt eu hunain eu bod yn gyfiawn, ac yn diystyru eraill: Dau wr a aeth i fyny i'r deml i weddio; un yn Pharisead, a'r llall yn bublican. Y Pharisead o'i sefyll a weddiodd rhyngddo ag ef ei hun fel hyn: O! Dduw, yr wyf yn diolch i ti nad wyf fi fel y mae eraill, yn drawsion, yn anghyfiawn, yn odinebwyr; neu fel y publican hwn chwaith. Yr wyf yn ymprydio ddwywaith yn yr wythnos; yr wyf yn degymu cymaint oll ag a feddaf. A'r publican, gan sefyll o hirbell, ni fynai gymaint a chodi ei olygon tua'r nef; eithr efe a gurodd ei ddwyfron, gan ddywedyd, O! Dduw, bydd drugarog wrthyf bechadur."—LUC xviii. 9—13.

YN nechreu y bennod hon chwi a ddarllenwch amcan dameg y barnwr anghyfiawn a'r weddw dlawd, sef anog dynion i weddio: "Efe a ddywedodd ddameg wrthynt, fod yn rhaid gweddio yn wastad, ac heb ddiffygio;" a dameg dra rhagorol ydyw i'r diben hyny; canys os dichon gwraig weddw, trwy daerni, lwyddo gyda barnwr anghyfiawn; ac felly yn ganlynol gyda gormesdeyrn annrhugarog, calon-galed, pa faint mwy y caiff pobl dlodion, cystuddiedig, gorthrymedig, a themtiedig Duw, lwyddo gydag ef, a chael trugaredd ganddo ef, yr hwn sydd Dduw graslawn, cyfiawn, a thrugarog? Ni wrandawai ac ni ystyriai y Barnwr anghyfiawn mo lef y weddw dlawd dros amser: "Eithr wedi hyny, efe a ddywedodd ynddo ei hun, Er nad ofnaf Dduw, ac na pharchaf ddyn; eto am fod y weddw hon yn peri i mi flinder, mi a'i dialaf, rhag iddi yn y diwedd ddyfod a'm syfrdanu i." "Gwrandewch," medd Crist, "beth a ddywed y Barnwr anghyfiawn. Ac oni ddial Duw ei etholedigion sydd yn llefain arno ddydd a nos? Yr wyf yn dywedyd i chwi, y dial efe hwynt ar frys."

Gan hyny, y mae y ddameg hon yn dra chysurus i'r cyfryw o'r saint ag sydd mewn blinderau celyd oherwydd nerth a gormes dynion drwg: canys fe'n dysgir trwyddi i gredu a disgwyl, er fod Duw, dybygid, dros amser yn peidio a gwrando, eto y bydd iddo, mewn amser cyfaddas, gyfodi a rhoddi mewn iachawdwriaeth yr hwn y magler iddo. Salm xii. 5.

Gweddied Cristion da yn wastadol; gweddied ac na ddiffygied, pan byddo'r Arglwydd, dybygai, yn oedi gwrando; canys os llwyddodd y weddw dlawd trwy daerni gyda'r barnwr anghyfiawn, pa faint mwy y caiff efe lwyddo gyda'i Dad nefol. "Yr wyf yn dywedyd i chwi," medd Crist, "y dial efe hwynt ar frys."

Ond yn awr, yn gymaint ag nad yw y ddameg hon mor uniongyrch yn cyrhaedd at y Publican yn y testyn, y mae ein Harglwydd yn dechreu drachefn, ac yn chwanegu y ddameg hon, a ddewisais yn destyn i mi, wrth ba un y mae yn amcanu dau beth: yn gyntaf, argyhoeddi y Pharisead balch hunanol; yn ail, cyfodi i fyny ac iachau y Publican clwyfedig athrist. A deliwch sylw, megis ag mai ei brif amcan wrth y ddameg gyntaf, oedd cysuro y rhai hyny ag oedd yn dioddef dàn law gormeswyr creulon; felly wrth y ddameg hon, y mae yn amcanu cysuro y rhai hyny ag sydd yn gorwedd dàn lwyth a baich cydwybod euog ac anesmwyth.

---

* I'r diben i alluogi y Cyhoeddwyr i roddi y Llyfr gwerthfawr hwn o eiddo Bunyan yn gyflawn, o fewn y terfynau addawedig, gorfuwyd gwneud ychydig o wahaniaeth ar ddullwedd y tudalenau.

Y mae y ddameg hon, gan hyny, yn llawn o gysur i'r cyfryw bechaduriaid, ag sydd wedi eu llwytho ag euogrwydd a'r ystyriaeth o bechod, ag sydd wedi eu gwasgu i'r llawr dàn y teimlad o hono, ac yn cael eu gyru at Dduw, trwy yr ystyriaeth o'r farn ddyledus iddynt am eu pechodau.

Wrth drin y testyn hwn, mi gaf ystyried y pethau hyn:

I. Y personau yn y testyn.

II. Cyflwr y personau.

III. Y penderfyniad ag y mae Crist yn ei wneuthur arnynt eill dau.

1. Am y personau. Yr oeddynt, fel ag y gwelwch, yn mhell y naill oddiwrth y llall yn eu meddyliau am danynt eu hunain—y naill yn dda, y llall yn ddrwg; ond er hyny, yn marn y gyfraith, eill dau yn gyffelyb, eill dau yr un peth, yn bechaduriaid eill deuoedd; canys yr oedd eisieu trugaredd ar bob un o'r ddau. Gwir yw, nad oedd y cyntaf a sonir yn gweled hyny, fel ag yr oedd pechadur tlawd yn ei weled; ond nid yw hyny yn cyfnewid y peth; y mae yr hwn ag sydd yn marn y gyfraith yn bechadur, wrth farn y gyfraith am bechod yn gondemniol, boed mor gyfiawn ag y myno yn ei farn ei hun.

Nid oes dim i ddynion i gael eu condemnio a'u cyfiawnhau yn ol yr hyn ag y maent yn ei feddwl am danynt eu hunain, eithr yn ol y farn a ddêl allan o enau Duw am danynt. Yn awr, dyma farn Duw, "Pawb a bechasant. Nid oes neb cyfiawn, nac oes un." Rhuf. iii. Nid oes mater, gan hyny, beth a feddylio y Pharisead am dano ei hun, y mae Duw, trwy ei air, wedi ei gyhoeddi yn bechadur. Pechadur oherwydd pechod gwreiddiol—pechadur oherwydd trosedd gweithredol. O ran eu personau, gan hyny, mewn perthynas i wir natur eu cyflwr, yr oeddynt eill dau yn bechaduriaid, ac eill dau wrth y gyfraith dan farn comdemniad. Gwir yw, yr oedd gwahanglwyf y Publican oddiallan, ond gwahanglwyf y Pharisead oddifewn: yr oedd ei galon, ei enaid, a'i yspryd mor aflan ac mor llawn o'r pla o bechod, ag oedd y llall yn ei fywyd a'i ymarweddiad.

2. Mewn perthynas i'w cyflyrau. Nid wyf yn meddwl wrth eu cyflwr greddf eu meddwl, gymaint a'r cyflwr y dodasant hwy eu hunain ynddo trwy y meddwl hyny. "Un," medd y testyn," yn Pharisead, a'r llall yn Bublican." Pharisead: sef yw, un wedi dewis iddo ei hun y cyfryw helynt o fywyd. Y mae yr enwau hyn, gan hyny, yn dangos y gwahanol helyntion o fywyd yr oedd pob un wedi dodi ei hun ynddo. Yr oedd y Pharisead, fel ag yr oedd ef yn meddwl, wedi gosod ei hun mewn cyflwr am nefoedd a gogoniant, eithr y Publican am y byd hwn a'i chwantau; oherwydd paham, pan mae y Pharisead yn sefyll yn y deml, y mae yn bostio am dano ei hun a'i gyflwr da; eithr yn condemnio y Publican, ac yn ymchwerwi yn greulon yn ei erbyn. Ond, fel ag y dywedais, nid oedd eu cyflwr personol, wrth y gyfraith wedi newid dim oll. Ni wnaeth y Pharisead ei hun ddim gwell; fe arosodd y Publican yn y lle yr oedd.

Yn wir fe welir fod y Publican yma yn galw yn ol, ac yn edifarhau oblegid ei gyflwr, a'r cyflwr yr oedd efe wedi gosod ei hun ynddo; a'r Pharisead yn bostio am ei gyflwr yntau. Ond nid o hono ei hun yr oedd edifeirwch y Publican, eithr o Dduw; yr hwn a ddichon, ïe, ac ar rai prydiau sydd hefyd, fel ag y mae yn eglur (Act. ix.) yn gwneuthur y Phariseaid edifarhau am y cyflwr hwnw ag y maent wedi dewis dodi eu hunain ynddo (Phil. iii. 3—8); nid yw y Pharisead, gan hyny, wrth ganmol ei hun, yn gwneuthur ei hun ddim gwell. Nid yw y Publican hefyd, wrth gondemnio ei hun, yn gwneuthur ei hun ddim gwaeth. Nac ydynt; eithr i'r gwrthwyneb, y mae y Pharisead, wrth ymganmol, yn gwneuthur ei hun yn llawer

gwaeth (adn. 14); ac y mae y Publican, wrth ymgondemnio, yn gwneuthur ei hun yn llawer gwell. "Dywedaf i chwi (medd Crist), aeth hwn i wared i'w dŷ wedi ei gyfiawnhau yn fwy na'r llall; canys pob un ag sydd yn ei ddyrchafu ei hun a ostyngir; a phob un ag sydd yn ei ostwng ei hun a ddyrchefir.

Ond, meddaf, am waith dynion yn canmol en hunain, ïe, pe canmolai eraill hwynt hefyd, nid yw yn lleshau y mymryn lleiaf iddynt tuag at Dduw: "Canys nid ŷm ni yn beiddio ein cystadlu, neu ein cyffelybu ein hunain, i rai sydd yn eu canmol eu hunain: eithr hwynt-hwy, gan eu mesur eu hunain wrthynt eu hunain, a'u cyffelybu eu hunain iddynt eu hunain, nid ydynt yn deall." 2 Cor. x. 12.

Yn awr dyma ffordd y Pharisead: "Nid wyf fi (medd efe) fel y mae dynion eraill. Nid wyf fi ddim yn draws, yn anghyfiawn, yn odinebwr, neu fel y Publican hwn.

"Dau wr a aeth i fyny i'r deml i weddio;" a'r ddau hyny, fel ag y dywedais, mor wrthwyneb y naill i'r llall, ag un dau ddyn a aeth yno erioed i weddio. Yr oedd un o honynt yn rhy gyfiawn, a'r llall yn rhy ddrygionus. Fe allasai rhai feddwl, oni buasai iddynt gael eu desgrifio i'r gwrthwyneb trwy eiriau Crist, eu bod eill dau o'r un grefydd; canys hwy a aethant eill dau i fyny i'r deml i weddio; ïe, eill dau i weddio, a hyny ar yr un pryd, fel pe buasent yn ei wneuthur trwy appwyntiad, neu trwy gytundeb; ond nid oedd dim o'r cyfryw beth. Yr oedd un yn Pharisead, a'r llall yn Bublican; canys felly dywed y geiriau sydd yn canlyn: ac am hyny, dynion mor wrthwyneb i'w gilydd a goleuni a thywyllwch, tân a dwfr—o ran eu meddyliau y naill am y llall, yr wyf yn feddwl. Ni allai y Pharisead aros mo'r Publican, na'r Publican mo'r Pharisead; ac eto fe aeth pob un o'r ddau i'r deml i weddio. Y mae yn beth dieithr i'w weled, ac eto y mae i'w weled, fod dynion croes yn eu meddyliau, croes yn eu hegwyddorion, croes yn eu dealldwriaethau, ïe, a chroes yn eu gweddiau hefyd, ac er hyny yn cyfarfod yn y deml i weddio.

"Dau wr;" nid gwŷr o radd gyffredin, a hwy eill dau wedi eu dethol allan o'r goreu a'r gwaethaf ag oedd: dau wr, Pharisead a Phublican.

Yr oedd bod yn Pharisead, yn y dyddiau hyny, yn cael ei gyfrif yn anrhydeddus am grefydd, ac am sancteiddrwydd bywyd. Yr oedd Pharisead yn wr o barch a bri yn mhlith yr Iuddewon, er ei fod yn enw o waradwydd gyda ni; yn amgen, ni buasai Paul yn dywedyd ar y cyfryw achos ag y gwnaeth, "Ha wyr frodyr, Pharisead wyf fi, mab i Pharisead," Act. xxiii. 6. Phil. iii. 5; canys yr oedd y pryd hyn yn sefyll ar ei buredigaeth a'i gyfiawnhad. Y mae yn ymddangos ei fod felly mewn modd neillduol, oddiwrth y lle a enwyd gyntaf. Pell fyddo i neb feddwl fod Paul yn gwneuthur defnydd o rith drygioni, er mwyn achub ei hunan trwy hyny rhag llid y bobl.

Yr oedd Publican yn y dyddiau hyny yn cael ei gyfrif y gwaethaf o ddynion, fel ag y mae yn eglur; canys pan sonir am danynt yn y gair, mewn ffordd o wahaniaeth, y maent yn cael eu rhestru gyda'r gwaelaf a'r halogedicaf; oherwydd paham, y maent yn cael eu huno â phechaduriaid. "Y mae yn bwyta gyda phublicanod a phechaduriaid, a chydâ phuteiniaid." "Y mae publicanod a phuteiniaid yn myned i deyrnas nefoedd." Ië, pan y mae ein Harglwydd Crist am wneuthur i'r proffeswr gwrthryfelgar gywilyddio i bwrpas, y mae yn dywedyd, "Bydded i ti megis yr ethnig a'r publican." Mat. xviii. 17.

Ni allwn ni, gan hyny, roi dim barn gywir yn ol ymddangosiad allanol dynion. Pwy a feddyliasid nad oedd y Pharisead yn ddyn da? canys yr oedd yn gyfiawn, ac yr oedd yn gweddio. A phwy allasai feddwl fod y llall yn ddyn da? canys Publican ydoedd;—dyn ag oedd, gan ddynion da, a dynion drwg, yn cael ei uno

gyda'r gwaethaf o ddynion, sef gyda phechaduriaid, puteiniaid, ac ethniciaid, rhai digred.

Yr oedd y Pharisead yn sectwr, crefyddwr neillduol; y Publican yn swyddog. Yr oedd y Pharisead, hyd yn oed am ei fod yn grefyddwr neillduol, mewn mwy o barch; ac yr oedd y Publican, oherwydd ei fod yn swyddog, yn fwy gwaradwyddus. I lefaru ychydig am bob un o'r rhai hyn.

1. Yr oedd y Pharisead yn grefyddwr neillduol, yn un ag oedd wedi gwyro, wedi troi oddiar ffordd Duw yn ei addoliad, o ran defnydd a dull ei addoliad; canys y cyfryw un yr wyf fi yn ei gyfrif yn sectwr. Ei fod wedi gwyro oddiwrth y defnydd, yr hyn yw rheol addoliad; hyny yw, y gair ysgrifenedig, sydd eglur canys y mae Crist yn dywedyd, "Eu bod yn gwrthod gorchymynion Duw, ac yn eu gwneuthur yn ddirym, fel y gallent gadw eu traddodiadau eu hunain. Marc vii. 9—13. Mat. xxiii. 5. Ei fod wedi gwyro hefyd o ran agwedd ei addoliad, ac wedi troi yn sectwr neillduol o ran dull ei addoliad, y mae genym awdurdod, nid dim llai nag uchod i'w brofi: "Canys yr oeddynt yn gwneuthur eu holl weithredoedd er mwyn eu gweled gan ddynion." Mat. xxiii. 5.

Yn awr, gan nad hyn oedd trefn ac ordinhad Crist, ac eto yn cael ei dewis a'i dilyn gan y fath hyn o bobl, ac hefyd yn cael ei gwneuthur yn rhan neillduol ac angenrheidiol i addoliad, hi a ddaeth yn sect, yn bwnc, neu yn grefydd i'r bobl ragrithiol ymrysongar hyn i lynu wrthi, ac i wneuthur disgyblion iddynt eu hunain o ddynion eraill. Ac fel y gallent gael eu hoffi yn fwy, a'r bobl gyffredin eu hanrhydeddu wrth eu cyfeillion, yr oeddynt yn caru myned mewn gwisgoedd llaesion; ac yn caru gweddio yn y marchnadoedd, ac yn nghonglau yr heolydd: yr oeddynt yn dangos mawr zel dros bethau bychain y gyfraith, ond nid oedd ganddynt ond yn unig eiriau mawrion am bethau sylweddol. "Yr oeddynt yn gwneuthur yn llydain eu phylacterau, ac yn gwneuthur ymylwaith eu gwisgoedd yn helaeth." Mat. xxiii. 5.

Pan wyf yn dywedyd mai sectwr oedd, neu grefyddwr neillduol, nid wyf yn meddwl fod pob sectwr yn Pharisead. Yr oedd sect o'r Herodaniaid, o'r Alecsandriaid, o'r Saduseaid, ac amryw eraill; eithr bod yn Pharisead, oedd bod o'r sect fanylaf. "Yn ol y sect fanylaf o'n crefydd ni y bum i fyw yn Pharisead." Y sect hon, gan hyny, oedd y fanylaf a'r ddichlynaf. Oherwydd paham, medd Paul, mewn lle arall, "Wedi fy athrawiaethu yn ol manylaf gyfraith y tadau." A thrachefn: "Yn ol y ddeddf yn Pharisead." Act. xxii. 3; xxvi. 4—6. Phil. iii. 5. Yr oedd y Phariseaid, gan hyny, yn dwyn y gloch (cael y clod) ac yn gwisgo y goron o ran crefydd, canys yr oeddynt yn rhagori ac yn myned tu hwnt i bob sectwyr eraill yn eu dydd. Efe oedd y manylaf, y mwyaf ei zel; oherwydd paham, y mae Crist, wrth lefaru y ddameg hon, yn myned heibio i bob sectau ag oedd y pryd hyny mewn bod, ac yn craffu ar y Pharisead megis y dyn cymhwysaf, trwy wrthodiad pa un y gallai osod allan olud ei drugaredd i bechaduriaid: "Dau wr aeth i fyny i'r deml i weddio, un yn Pharisead:" y cyfryw ddyn hardd a'r a glywsom ei ddesgrifio.

Fe aeth y Publican hefyd i fyny i weddio. Mi a ddywedais i chwi mai swyddog oedd y Publican; swyddog ag oedd yn gwasanaethu y Rhufeiniaid, a'u hunain hefyd; canys yr oedd y Rhufeiniaid yn teyrnasu ar wlad Judea (coelbren etifeddiaeth Israel), ac fe ddarfu i'r ymerawdwr, Tiberius Cæsar, osod pedwar llywydd, neu raglawiaid, dros y wlad—sef, Pilat, Herod, Philip, a Lysanias; Cenhedloedd, ethniciaid, a rhai digred oedd yr holl rai hyn; a math o ddynion îs-radd oedd y Publicanod, i ba rai yr oedd tiroedd yn cael eu rhoi ar rent, ac felly yn dynion ag

oedd yn cael eu defnyddio gan y rhaglawiaid hyny i gasglu y trethi a'r tollau, oedd y Cenhedloedd yn eu gosod ar yr Iuddewon i'w talu i'r ymerawdwr. Luc ii. 1; iii. 1—13.

Eithr yr oeddynt yn genhedlaeth o ddynion ag oedd yn anghyfiawn iawn yn nghyflawniad eu swydd. Yr oeddynt yn gofyn ac yn codi ar y bobl fwy nag oedd ddyledus; ïe, ac os pellid eu gofynion iddynt, hwy a gam-achwynent ar y rhai a wnelai felly wrth y llywodraethwr, a thrwy gam-achwyn yn mynu arian gan y bobl, ac felly trwy ddrygioni yn ymgyfoethogi. Luc iii. 13; xix. 2, 8. Yr oedd, gan hyny, yn ofidus i'r Iuddewon, y rhai oedd yn wastadol yn wŷr rhyddion, ac ni allent aros bod mewn caethiwed i neb. A thyma ryw beth o'r achos paham yr oedd y publicanod mor gyffredin yn cael eu cyfrif gan yr Iuddewon mor aflan a halogedig, a'u cyfrif gyda'r gwaethaf o ddynion, yr un modd ag y mae cyhuddwyr a cheispwliaid yn ein dyddiau ni.

Eithr yr hyn oedd yn enyn yspryd y bobl yn eu herbyn, ac yn eu gwneuthur hwynt mor atgas a ffiaidd yn eu golwg, oedd (o'r hyn lleiaf, yn ol fy meddwl i), nad oedd y publicanod hyn, fel y swyddogion eraill, yn estroniaid, Cenhedloedd, ac ethniciaid, eithr dynion o'u cenedl eu hunain, Iuddewon, ac felly yn frodyr i'r rhai oeddynt yn eu gorthrymu. Pe buasent yn Genhedloedd, ni buasai yn beth i'w ryfeddu.

Iuddew, gan hyny, oedd y publican, math o Iuddew gwrthgiliedig, yr hwn oherwydd ei gariad i elw anghyfiawn, a syrthiodd ymaith yn ei serchiadau oddiwrth ei frodyr, a ymlynodd wrth y Rhufeiniaid, ac a ddaeth yn fath o was iddynt yn erbyn ei frodyr yr Iuddewon, yn rhentu y trethi cenhedlig gan ddieithriaid, ac yn eu codi oddiar eu brodyr, gyda llawer o greulondeb, camwedd, a thrais. A thyma paham yr oedd bod yn bublican yn beth mor ffiaidd, yn bechadur mor aflan, ac yn ddyn mor atgas yn ngolwg yr Iuddewon. Dyma beth oedd y publican, Iuddew ydoedd, ac felly fe ddylasai aros gyda hwynt, ac ymfoddloni i fod yn gyd-gyfranog â'i frodyr yn y cyfyngderau; ond yn groes i natur, crefydd, rheswm, a gonestrwydd, fe gydunodd â'r Cenhedloedd, ac fe gymerth y fantais o'u gorthrymder i gneifio, i yspeilio, a thlodi ei frodyr. Ond i brofi mai Iuddew oedd y publican:

*Yn gyntaf.* Y maent, a hyny hyd yn oed pan y cymharir hwynt â'r Cenhedloedd, yn cael eu gwahaniaethu oddiwrth y Cenhedloedd: "Bydded i ti megis yr ethnig a'r publican." Mat. xviii. 17. Yr wyf yn meddwl na ddylid cymhwyso y ddau enw hyn at yr unrhyw ddyn, fel pe buasai yr ethnig yn bublican, neu y publican yn ethnig, ond dau ddyn o ddwy genedl wahanol; megis ag y mae'r enw publican a phutain i'w ddeall am bechaduriaid o'r ddwy genedl-ryw. Nid putain yw'r publican, canys gwr ydyw, &c., a'r cyfryw wr a gafodd ei ddesgrifio o'r blaen. Felly, wrth bublicanod a phechaduriaid, y meddylir publicanod, a'r cyfryw bechaduriaid ag oedd y Cenhedloedd, neu y cyfryw ag y mae y testyn yn gwahaniaethu y publican oddiwrthynt: lle mae y Pharisead yn dywedyd, nad "oedd efe yn draws, yn anghyfiawn, yn odinebwr, neu fel y publican ychwaith." Ac nis gall Crist, wrth yr ethnig, feddwl person, ac wrth yr enw publican swydd neu le yr ethnig; ond wrth y publican y meddylir yr Iuddew gwrthgiliedig yn y cyfryw le, &c., fel ag y mae eto yn fwy eglur wrth yr hyn a ganlyn. Canys,

*Yn ail.* Y mae y publicanod, ïe, bob un o honynt ag y sonir am danynt yn y Testament Newydd, yn cael y cyfryw enwau, ïe, ac amgylchiadau eraill yn cael eu hychwanegu atynt, ag sydd yn eglur ddangos mai Iuddewon oeddynt. Nid wyf yn cofio ond tri, sef Mathew, Lefi, a Zaccheus, ac Iuddewon oeddynt.

1. Yr oedd Mathew yn Iuddew, ac yr oedd yr un Mathew yn bublican, ïe, ac

wedi hyny yn apostol hefyd. Yr oedd efe yn Iuddew, ac fe ysgrifenodd ei efengyl yn Hebraeg. Yr oedd yn apostol, ac y mae yn cael ei gyfrif gyda'r deuddeg. Mai publican ydoedd hefyd, sydd dra eglur oddiwrth ei eiriau ef ei hun. Er fod Marc a Luc, wrth sôn am ei enw a'i apostoliaeth, yn peidio a'i alw yn bublican (Marc iii. 18. Luc vi. 15); eto, pan y mae y Mathew hwn yn dyfod i lefaru am dano ei hun, y mae yn galw ei hun Mathew y publican. Mat. x. 3. Canys yr wyf fi yn barnu mai yr un Mathew yw hwn ag y mae Marc a Luc yn sôn am dano, am nad wyf yn cael un Mathew arall yn mhlith yr apostolion ond efe: Mathew y publican; Mathew, y dyn oedd wedi syrthio mor ddwfn mewn gwrthgiliad; Mathew, y dyn â'r gair drwg hwnw yn mhlith ei frodyr. Fe ddarfu i gariad yn Marc a Luc, pan y cyfrifwyd ef yn mhlith y deuddeg, guddio gyda distawrwydd ei gyflwr publicanaidd hwn (ac y mae yn weddus i Pedr alw Paul ei anwyl frawd, pan y mae Paul yn galw ei hun y penaf o bechaduriaid); eithr ffyddlondeb i'r byd, a dymuniad i ymostwng, fel y byddai i Grist, a gras trwyddo ef, oherwydd hyny, gael ei ddyrchafu, a wnaeth i Mathew, yn ei ysgrifeniadau efengylaidd, alw ei hun wrth yr enw Mathew y publican. Ac ni chollodd efe ddim trwy hyny; fe ddarfu i Grist ei ddyrchafu ef (megis ag y gwnaeth hefyd â'r apostol Paul), gan osod, trwy ragluniaeth neillduol, y dystiolaeth a roddai y Mathew hwn o'i enedigaeth, bywyd, marwolaeth, athrawiaeth, a'i wyrthiau ef ei hun, yn y wyneb-ddalen gyntaf o'r holl Destament Newydd.

2. Y publican nesaf a glywaf son am dano yn Nhestament Crist, wrth ei enw, yw Lefi, apostol arall o eiddo Iesu Grist. Y mae y Lefi hwn hefyd yn cael ei alw gan yr Yspryd Glân yn yr ysgrifen sanctaidd wrth yr enw Iago: nid Iago, brawd Ioan, canys Zebedeus oedd ei dad; eithr Iago mab Alpheus. Yn awr yr wyf yn barnu mai un arall yw y Lefi hwn heblaw Mathew: yn gyntaf, am nad yw Mathew yn cael ei alw yn fab Alpheus; ac am fod Mathew a Lefi, neu Iago mab Alpheus, yn cael eu cyfrif ar wahan lle sonir am enwau yr apostolion (Mat. x. 3) yn ddau ddyn neillduol; ac mai publican oedd y Lefi hwn, neu Iago yr apostol, megis ag yr oedd Mathew, am yr hwn y soniasom o'r blaen, eglur yw; canys y mae Marc a Luc eill dau yn ei gyfrif felly. (1.) Y mae Marc yn dywedyd, i Grist ei gael pan y galwodd efe ef, yr un modd ag y cafodd efe Mathew, yn eistedd wrth y dollfa; ïe, y mae Luc yn dywedyd fel hyn: "Ac ar ol y pethau hyn yr aeth efe allan, ac a welodd bublican a'i enw Lefi, yn eistedd wrth y dollfa: ac efe a ddywedodd wrtho, Dilyn fi." Marc ii. 14. Luc v. 27.

Yn awr, mai Iuddew oedd y Lefi hwn, neu Iago mab Alpheus, y mae ei enw yn dangos yn ddigon eglur. Heblaw hyn, pe buasai Cenhedloedd ychwaneg yn mhlith yr apostolion, heblaw Simon y Canaaneaid, neu pe buasai y Lefi Iago hwn yma, yr wyf yn meddwl y buasai yr Yspryd Glân, er mwyn ei wahaniaethu, yn ei osod allan dàn yr enw gwahaniaethol, fel ag y gwnaeth â'r llall, pan y galwodd efe ef Simon y Canaaneaid. Mat. x. 4.

Gan hyny, yr oedd Mathew a Lefi, neu Iago, eill dau yn bublicanod, ac fel ag yr wyf fi yn meddwl, wedi eu galw eill dau yr un amser; yr oeddynt eill dau yn Iuddewon publicanaidd, ac fe'u gwnaed trwy ras yn apostolion i Iesu Grist.

3. Y publican nesaf a sonir am dano yn Nhestament Crist yw un Zaccheus. Ac yr oedd efe yn buplican; ïe, ac hyd a'r a wn i, yn ben arnynt oll. "Ac wele wr," medd Luc, "a elwid wrth ei enw Zaccheus, ac efe oedd ben-publican, a hwn oedd gyfoethog." Luc xix. 2. Yr oedd y gwr hwn, medd Crist, yn fab i Abraham, hyny yw, fel ag yr oedd Iuddewon eraill; canys fe ddywedodd hyny i gau geneuau fel Jacob, yn dodi ei ddwylaw i'r gwrthwyneb, ac yn gosod ei law ddehau ar ben y

gwaradwyddiadau Phariseaidd. Heblaw hyn, fe ddangosodd y Publican ei fod y cyfryw, pan dàn yr ystyriaeth o'i fod wedi cymeryd trwy gam-achwyn ddim o'r eiddo neb, yma yn edrych ar y gyfraith Iuddewig i dalu yn ol ar ei bedwerydd. Exod. xxii. 1. 2 Sam. xii. 6.

Y mae yn eglur yn mhellach mai Iuddew ydoedd, wrth waith Crist yn ei osod yn mhlith y rhai colledig, hyny yw, defaid cyfrgolledig tŷ Israel (adn. 10. Mat. xv. 24); canys yr oedd Zaccheus yn gyfryw un ag y gellid yn briodol ddywedyd ei fod yn golledig, a hyny yn nghyfrif yr Iuddewon; colledig, meddaf, a hyny nid yn unig yn yr ystyr fwyaf cyffredinol, oherwydd trosedd yn erbyn y gyfraith, eithr am ei fod yn Iuddew gwrthgiliedig, nid o ran crefydd genhedlig, ond o ran gweithredoedd creulon, barbaraidd, a chenhedlig; ac am hyny, yr oedd, fel y lleill, yn cael ei gyfrif cynddrwg a'r Cenhedloedd, ethniciaid, a phuteiniaid. Ond y mae iachawdwriaeth wedi dyfod i'r tŷ hwn, medd Crist, a hyny er cymaint oedd ei weithredoedd publicanaidd, oherwydd ei fod yntau yn fab i Abraham.

*Yn drydydd.* Drachefn, y mae Crist, trwy ddameg y ddafad gyfrgolledig, yn eglur arwyddocau, mai Iuddew oedd y Publican. "Ac yr oedd yr holl bublicanod a'r pechaduriaid yn neshau ato ef, i wrando arno, a'r Phariseaid a'r Ysgrifenyddion a rwgnachasant, gan ddywedyd, Y mae hwn yn derbyn pechaduriaid, ac yn bwyta gyda hwynt.

Ond trwy ba ateb y mae Crist yn dirymu eu gwrthddadleuon? Y mae yn dywedyd: "Pa ddyn o honoch a chanddo gant o ddefaid, ac os cyll un o honynt, nid yw yn gadael yr amyn un pum ugain yn yr anialwch, ac yn myned ar ol yr hon a gollwyd, hyd oni chaffo efe hi?" Luc xv. 4. A oedd efe ddim yma, wrth y ddafad golledig, yn meddwl y publican tlawd?—lluaws o ba rai, tra y pregethodd efe y bregeth hon, oedd yno yn wrthddrychau o wawd y Phariseaid, eithr o dosturi a thrugaredd Iesu Grist: yr oedd yn ddiameu yn eu meddwl hwynt. Canys pwy, atolwg, oedd praidd a defaid Crist, dàn y gyfraith, onid tŷ a phobl Israel? Ezec. xiii. 30, 31. Felly, gan hyny, pwy allasai fod yn ddefaid cyfrgolledig tŷ Israel ond y cyfryw ag oedd Mathew, Iago, Zaccheus, a'n cymdeithion mewn troseddau, yn nghyd a'u cyffelyb?

*Yn bedwerydd.* Drachefn, oni buasai mai Iuddewon oedd y publicanod, pa mor hawdd fuasai i'r Phariseaid wrthddadleu fod anmhriodoldeb yn gynnwysedig yn y ddameg dra rhagorol hòno am y ddafad a gollasid? Gallasent ddywedyd: Yr ydym ni yn tramgwyddo wrthyt, am dy fod yn derbyn y publicanod, ac er mwyn amddiffyn dy waith yr wyt yn adrodd dameg am ddafad a gollwyd; pechaduriaid tŷ Israel yw y rhai hyny, ac estroniaid a Chenhedloedd yw y publicanod. Pa mor hawdd, meddaf, y gallasent wrthddadleu fel hyn? Ond hwy wyddent o'r goreu fod y ddameg yn briodol, am fod y publicanod o'r Iuddewon, ac nid o'r Cenhedloedd. Ië, oni buasai eu bod o'r Iuddewon, ni ellir, ac nid oes lle i feddwl y buasai Crist yn bendant yn eu galw felly; ac eto fe wnaeth hyny pan y galwodd efe hwynt yn ddefaid cyfrgolledig.

Yn awr, mai Iuddewon oedd y publicanod hyn, beth sydd yn canlyn ond eu bod, oherwydd hyny, yn llawer mwy ffiaidd gan eu brodyr?—ac (fel y soniais o'r blaen) nid rhyfedd eu bod; canys y mae brawd bradychus yn waeth na gelyn cyhoeddus (Salm lv. 12, 13); canys, os yw halogi mewn trosedd cyhoeddus cyffredin yn ffiaidd, pa faint mwy ffiaidd yw i frawd fod felly—i frawd o ran natur a chrefydd fod felly? Meddaf, drachefn, hwy a wnaethant hyn oll, megis ag y mae Ioan yn awgrymu, a Zaccheus yn cyfaddef.

Nid oedd y Pharisead, gan hyny, ddim mor dda, fel nad oedd y Publican mor ddrwg: yn wir yr oedd y Publican yn bechadur ffiaidd, yn un ag oedd yn meddu ffordd neillduol i bechu; yn un nas gellid ei gondemnio yn ddigonol gan yr Iuddewon, na'i gysylltu â neb ond ei hunan. Gwir yw, chwi a'i cewch ef yma yn gweddio yn y deml, nid am fod ganddo yn ei wrthgiliad gydwybod o'r wir grefydd, ond am fod Duw wedi ei ddeffroi ef, a dangos iddo ei bechod, a thywallt arno y gras o edifeirwch, trwy yr hwn y cafodd nid yn unig ei hercyd drachefn i'r deml, ac i weddi, eithr at ei Dduw, ac at iachawdwriaeth ei enaid.

Yr oedd y Pharisead, gan hyny, yn wr o agwedd arall, ac yr oedd yn ei feddyliau ei hun, ïe, ac yn meddyliau eraill hefyd, ar y tir uchaf a goreu o lawer. Yr oedd y Publican yn bechadur cyhoeddus ffiaidd; yr oedd y Pharisead yn un ag oedd yn cael ei gyfrif yn wr cyfiawn. Yr oedd y Publican yn bechadur anghyffredinol o ran ei ffordd o bechu, a'r Pharisead hefyd yn wr aghyffredinol o ran cyfiawnder. Yr oedd y Publican yn dilyn ei ddrwg-weithredoedd anrasol, a'r Pharisead yn dilyn cyfiawnder; ac eto hwy a gyfarfuasant eill dau yn y deml i weddio: fe safodd y Pharisead i fyny, ac a ymffrostiodd yn nghyfraith Duw; eithr fe ymwrthododd y Publican â hi, ac fe galedodd ei galon yn erbyn ffordd y Pharisead o weddio. Fel hyn yr oeddynt yn amrywio yn eu hymddangosiadau: y Pharisead yn dda iawn, a'r Publican yn ddrwg iawn; eithr mewn perthynas i gyfraith Duw, yr hon oedd yn edrych arnynt eill dau mewn perthynas i gyflwr eu hysbrydoedd, a natur eu gweithredoedd, yr oeddynt wrth hôno eill dau yn bechaduriaid: y Publican yn bechadur allanol cyhoeddus, a'r Pharisead yn un aflan halogedig oddifewn. Y mae hyn yn eglur, oherwydd fe gafodd y goreu o'r Phariseaid ei wrthod, a'r gwaethaf o'r Publicanod ei dderbyn i drugaredd. Nid yw trugaredd ddim yn sefyll draw oherwydd drygioni y Publican, ac nid yw yn cael ei hânog a'i henill yn y blaen gan ddaioni y Pharisead: nid yw yn dioddef i'r gyfraith gymeryd gafael ar y ddau, er ei bod yn eu cael hwy eill dau mewn pechod, eithr yn graslawn gofleidio yr annheilyngaf, ac yn gadael y goreu i chwareu drosto ei hunan. Ac yr oedd rheswm da i ymdrin â'r ddau yn y modd hyn; sef, fel y byddai i air gras Duw gael ei gyfiawnhau ar enaid yr edifeiriol, ac fel y gallai y llall sefyll neu syrthio, wrth yr hyn ag oedd yn ei ddewis yn feistr iddo.

Y mae tri pheth yn canlyn yr ymadrodd hwn.

1. Nad yw cyfiawnder dyn o unrhyw bris gyda Duw o ran cyfiawnhad. Y mae yn cael ei daflu heibio fel peth halogedig, yn beth na thâl dim dâl sylw arno. Ni wnaed cymaint a dâl sylw ar berson, neu weddi y Pharisead, am iddo ddyfod i'r deml wedi ymwisgo yn ei bethau da ei hun.

2. Na chaiff y dyn hwnw nad oes ganddo ddim ond ei weithredoedd da ei hun i'w gymeradwyo gyda Duw, byth ffafr Duw. Y mae hyn hefyd yn amlwg oddiwrth y testyn: yr oedd ei gyfiawnder ei hun gan y Pharisead, ond nid oedd dim arall ganddo i'w gymeradwyo; oherwydd paham, ni allai byth trwy hyny fwynhau ffafr Duw, eithr arosodd o hyd mewn cyflwr gwrthodedig damniol.

3. Oherwydd paham, er ein bod yn rhwym wrth gyfraith cariad i farnu dynion yn ol y modd ag y maent yn ymddangos i ni; eto, er hyn, hyny yw, er ein bod yn barnu felly, y mae yn rhaid i ni adael lle i farn Duw. Fe all trugaredd dderbyn yr hwn a farnasom ni i uffern; ac fe ddichon cyfiawnder ddâl yr hwn a farnasom ni yn rhwym yn rhwymyn y bywyd. Ac y mae y ddau beth hyn yn amlwg yn y ddau wr dan ein hystyriaeth.

Yr ydym ni, fel Joseph, am ddodi Manasseh o flaen Ephraim; ond y mae Duw,

fel Jacob, yn dodi ei ddwylaw i'r gwrthwyneb, ac yn gosod ei law ddehau ar ben y dyn gwaethaf, a'i law aswy ar ben y goreu (Gen. xlviii), er syndod a rhyfeddod hyd yn oed i'r goreu o ddynion.

"Dau wr a aeth i fyny i'r deml i weddio; un yn Pharisead, a'r llall yn bublican. Y Pharisead o'i sefyll a weddiodd rhyngddo ag ef ei hun fel hyn: O! Dduw, yr wyf yn diolch i ti nad wyf fi fel y mae dynion eraill, yn drawsion, yn anghyfiawn, yn odinebwr; neu fel y publican hwn chwaith. Yr wyf yn ymprydio ddwywaith yn yr wythnos; yr wyf yn degymu cymaint oll ag a feddaf."

Y mae yn y geiriau hyn lawer o bethau teilwng i'w hystyried. Megis, yn

1. Y modd y mae y Pharisead yn desgrifio cyfiawnder, yr hyn sydd yn sefyll mewn dau fath o bethau.

I. Pethau nacaol.

II. Pethau cadarnhaol.

1. Mewn pethau nacâol; hyny yw, yr hyn ni ddylai dyn cyfiawn fod: "Nid wyf fi yn draws, yn anghyfiawn, yn odinebwr, neu fel y publican hwn chwaith."

2. Mewn pethau cadarnhaol; hyny yw, y pethau sydd raid i ddyn cyfiawn eu gwneuthur: "Yr wyf yn ymprydio ddwywaith yn yr wythnos; yr wyf yn degymu cymaint oll ag a feddaf." Gwir yw, fod cyfiawnder yn sefyll mewn sancteiddrwydd nacâol a chadarnhaol (ymgadw oddiwrth rai pethau, a gwneuthur pethau eraill); ond er hyny, mi a wnaf yn amlwg yn mhen ychydig, fod desgrifiad y Pharisead yn dwyllodrus. Ond mi a draethaf, yn gyntaf, am gyfiawnder yn y cyffredinol, oherwydd fod y testyn yn fy arwain ato.

*Yn gyntaf*, gan hyny, y mae yn rhaid i ddyn cyfiawn gael sancteiddrwydd nacâol; hyny yw, nid oes dim lle iddo fyw mewn pechodau gweithredol cyhoeddus; nid oes dim lle iddo fod yn draws, yn anghyfiawn, yn odinebwr, neu fel yr oedd y Publican. A hyn y mae yr apostol yn ei amcanu pan y mae yn dywedyd, "Gochelwch odineb," "Ffowch oddiwrth chwantau ieuenctyd," "Ffowch oddiwrth eilunaddoliaeth," "Blant bychain, ymgedwch rhag eilunod." 1 Cor. vi. 18; x. 14. 2 Tim. ii. 22. 1 Ioan v. 21. Canys ofer yw siarad am gyfiawnder, a'n bod ni ein hunain yn gyfiawn, pan y byddo pob daliwr sylw yn ein gwlad yn byw mewn pechod gweithredol. Ië, er i ddyn glytio i fyny ei ddiffyg o sancteiddrwydd nacâol â rhai gweithredoedd da, ni wna hyny ddim o hono yn ddyn cyfiawn. Megis, gadewch fod dyn yn dyngwr, yn feddwyn, yn odinebwr, neu'r cyffelyb, ac er hyny bod yn hael i'r tlawd, yn fawr wneuthurwr cyfiawnder yn ei sefyllfa; bod yn brynwr a gwerthwr gonest, ac yn cadw ei addewid â'i gyfaill, neu'r cyffelyb; nis gall y pethau hyn, ïe, a llawer mwy o'r cyffelyb, ei wneuthur ef yn ddyn cyfiawn. Oherwydd paham, y mae sancteiddrwydd nacâol yn gwbl angenrheidiol i wneuthur dyn ynddo ei hun yn ddyn cyfiawn; canys y mae dechreuad cyfiawnder, er hyn i gyd, yn gwbl ddiffygiol ynddo, yr hyn yw y sancteiddrwydd nacâol hwn: canys, oddieithr i ddyn roi heibio gwneuthur drwg, nis gall efe fod yn ddyn cyfiawn: gan hyny, y mae sancteiddrwydd nacâol yn llwyr angenrheidiol i wneuthur dyn ynddo ei hun yn ddyn cyfiawn. Y mae hyn, gan hyny, yn condemnio y rhai ag sydd yn barnu fod yn ddigonol os bydd gan ddyn rai gweithredoedd ag sydd yn dda ynddynt eu hunain, ac oherwydd gorchymyn Duw sydd yn dda i'w wneuthur ef yn ddyn cyfiawn, er bod sancteiddrwydd nacâol yn eisieu. Y mae hyn fel dywedyd wrth y dyn drwg, Yr wyt ti yn gyfiawn, ac yn gwyrdroi uniawn ffordd yr Arglwydd: gan hyny, y mae yn rhaid fod sancteiddrwydd nacâol mewn dyn cyn y gellir ei gyfrif yn gyfiawn.

*Yn ail.* Fel ag y mae sancteiddrwydd nacâol yn ofynol i wneuthur dyn yn gyfiawn, felly hefyd y mae yn rhaid cysylltu sancteiddrwydd cadarnhaol ag ef, yn amgen, fe fydd y dyn yn anghyfiawn byth. Canys nid yr hyn nad yw dyn, ond yr hyn ag y mae dyn yn ei wneuthur, sydd yn dangos mai dyn cyfiawn ydyw, Gadewch i ddyn beidio a bod yn lleidr, yn gelwyddwr, yn ddyn anghyfiawn; neu, fel ag y mae y Pharisead yn dywedyd, heb fod yn draws, na godinebwr, &c., ni wna hyn ddim o hono yn ddyn cyfiawn; ond y mae yn rhaid fod gweithredoedd sanctaidd a da wedi eu huno â'r pethau hyn, cyn y gellir dywedyd ei fod ef yn ddyn cyfiawn; oherwydd paham, fel ag y mae yr apostol, wrth anog y Cristionogion i gyfiawnder, yr oedd yn eu gosod, yn y lle cyntaf, yn nghylch sancteiddrwydd nacâol, yna y mae yn cyduno â hyny gyngor yn nghylch sancteiddrwydd cadarnhaol; gan wybod, os bydd sancteiddrwydd cadarnhaol yn eisieu, nis gall yr holl sancteiddrwydd nacâol sydd yn yr holl fyd ddatgan fod dyn yn ddyn cyfiawn. Oherwydd paham, wedi iddo ddywedyd, "Eithr tydi, gwr Duw, gochel y pethau hyn" (pechod a drygioni), y mae yn ychwanegu, "a dilyn gyfiawnder, duwioldeb, ffydd, cariad, amynedd, addfwyndra." 1 Tim. vi. 11. Y mae Timotheus yn cael ei gynghori yma i sancteiddrwydd nacâol, pan y perir iddo ochel pechod. Efe a gynghorir yma hefyd i sancteiddrwydd cadarnhaol, pan y perir iddo ddilyn cyfiawnder, &c. Gan hyny, y dyn hwnw yn unig, sydd, o ran gweithredoedd, yn ddyn cyfiawn, ag sydd wedi rhoi heibio gwneuthur drwg, ac wedi dysgu gwneuthur da (Esay i. 16, 17), y sydd wedi bwrw ymaith weithredoedd y tywyllwch, ac wedi gwisgo arfau goleuni. "Chwantau ieuenctyd, ffo oddiwrthynt," medd Paul, "a dilyn gyfiawnder, ffydd, cariad, tangnefoedd, gyda'r rhai sydd yn galw ar yr Arglwydd o galon bur." 2 Tim. ii. 22.

Oherwydd paham, fe wnaeth y Pharisead, o ran y desgrifiad cyffredinol o gyfiawnder, ei waith yn iawn; ond o ran ei berson a'i gyfiawnder personol, yr oedd yn gamsyniol. Nid wyf yn meddwl iddo osod allan ei gyfiawnder ei hunan yn feius; ond yr wyf yn meddwl iddo wneuthur ei bortreiad o wir gyfiawnder, yr hwn sydd yn sefyll mewn sancteiddrwydd nacâol a chadarnhaol, i ymostwng i gyfiawnhau ei gyfiawnder ei hun, a dyma'r lle y chwareuodd y rhagrithiwr yn ei weddi: canys er fod gwir gyfiawnder yn cynnwys sancteiddrwydd nacâol a chadarnhaol; eto, nid yw gwir gyfiawnder yn gynnwysedig mewn rhai darnau o weddillion bratiog o sancteiddrwydd nacâol a chadarnhaol. Os oedd y Pharisead, gan hyny, yn ei ddesgrifiad o wir gyfiawnder, am brofi fod ei gyfiawnder ef ei hun yn dda, yr oedd yn rhaid iddo brofi fod ei sancteiddrwydd nacâol a chadarnhaol yn gyffredinol; hyny yw, ei fod wedi rhoi heibio bob drygioni, ac wedi ymroddi i gadw y ddyledswydd ofynol yn mhob un o'r gorchymynion: canys dyna y modd y gosodir allan y dyn cyfiawn. Job i. 8; ii. 3. Ac fe ddywedir am Zacharias ac Elizabeth ei wraig, eu bod "ill dau yn gyfiawn gerbron Duw, yn rhodio yn holl orchymynion a deddfau yr Arglwydd yn ddiargyhoedd." Luc i. 5, 6. Dyma lle mae perffeithrwydd, hyny yw, cyffredinolrwydd nacâol yn gynnwysedig, a chyffredinolrwydd eu sancteiddrwydd cadarnhaol yn cael ei osod allan: hwy a rodiasant yn holl orchymynion yr Arglwydd, ond nis gallasant wneuthur hyny, pe buasent yn byw mewn un peth neu ffordd anghyfiawn. Hwy a rodiasant yn yr holl orchymynion yn ddiargyhoedd, hyny yw, mewn gwirionedd gyda chalonau uniawn. Nid oedd cyfiawnder, yn iawn, fel ag y mae yn eglur mewn dwy ffordd.

I. Nid oedd ei sancteiddrwydd nacaol yn gyffredinol neu yn gyflawn.

II. Yr oedd ei sancteiddrwydd cadarnhaol, neu weithredol, yn hytrach yn ddrwg nad yn dda.

1. Nid oedd ei sancteiddrwydd nacâol yn gyflawn. Y mae yn wir yn dywedyd nad oedd efe yn draws, yn anghyfiawn, yn odinebwr, nac ychwaith fel y Publican hwn: ond nid oes un o'r pethau hyn ar y neilldu, neu bob un o honynt, pe eu dodid yn nghyd, yn ddigonol i brofi ei fod yn berffaith o ran ei sancteiddrwydd nacâol; hyny yw, nid ydynt yn profi, pe caniatëid, nad oedd efe mor sanctaidd o ran y sancteiddrwydd hwn, ag y tystiodd ef ei hun am dano ei hun. Canys, yn

1. Beth, er nad oedd efe yn draws, eto efe a allasai fod yn ddyn cybyddlyd. Luc xvi. 14.

2. Beth, os nad oedd, o ran ei fasnach, yn anghyfiawn tuag at eraill, eto nid oedd efe yn onest i wneuthur cyfiawnder â'i enaid ei hun. Luc xvi. 15.

3. Beth, os oedd efe yn rhydd oddiwrth y weithred o odineb, efe a ellesid, er hyny, ei gael yn euog o lygad godinebus, yn erbyn yr hyn beth nid oedd y Pharisead yn gwilio. Mat. v. 28. Nid oedd y Pharisead yn dàl sylw ar hyn.

4. Beth, os nad oedd fel y Publican, eto yr oedd efe fel, ïe, yn rhagrithiwr hollol; yr oedd y pethau hyny yn eisieu arno mewn gwirionedd ag yr oedd yn bostio eu bod ganddo; ac heb wirionedd nis dichon un weithred fod yn dda, neu gael ei chyfrif gan Dduw yn weithred gyfiawn. Gan hyny, yr oedd cyfiawnder y Pharisead yn ddiffygiol, er ei holl ymffrost, ac er ei fod am ei ddarn-guddio dàn y portreiad a wnaeth efe o hono.

Ac nid yw ei sancteiddrwydd cadarnhaol yn cynorthwyo dim oll arno, yn gymaint a'i fod, gan mwyaf, os nid yn hollol, wedi ei sylfaenu ar sancteiddrwydd seremoniol: ïe, mi a gaf feddwl, yr oedd wedi ei sylfaenu mewn rhan ar sancteiddrwydd seremoniol, ac mewn rhan ar sancteiddrwydd coelgrefyddol, od oes y fath beth a sancteiddrwydd coelgrefyddol yn y byd. Yr oedd y talu degymau hyn yn beth seremoniol, ac yn gyfryw ag a ddaeth i mewn ac a aeth allan gyda'r offeiriadaeth gysgodol. Ond beth yw hyny at sancteiddrwydd cadarnhaol, pan nad yw ond dernyn bychan megis tan llaw. Pe ymresymasai y Pharisead yn eglur ac yn onest; fy meddwl yw, pe buasai yn ymdrin â'r gyfraith hòno, trwy ba un yr oedd am gael ei gyfiawnhau, fe ddylasai ddwyn gerbron gyfiawnder perffaith mewn pethau moesol, ac fe ddylasai ddywedyd hyny, a'i brofi hefyd: fel ag nad oedd efe yn ddyn drwg mewn perthynas i'r weithred o ddrygioni, yr oedd efe yn ddyn cyfiawn mewn gweithredoedd o rinweddau moesol. Efe a ddylasai, meddaf, brofi ei fod yn un ag oedd yn gwir garu Duw, nid yn unig un goelgrefyddol, ond yn wir addolwr Duw; canys y mae hyn yn gynnwysedig yn y llech gyntaf. Exod. xx. Ac y mae yn cael ei esponio felly, o ran swm, gan yr Arglwydd Crist ei hun. Marc xii. 30. Dylasai hefyd, yn y lle nesaf, brofi ei fod yn wir addfwyn, yn dosturiol, haelionus, ac yn llawn o gariad ac elusengarwch tuag at ei gymydog; canys dyna swm yr ail lech, fel ag y mae ein Harglwydd yn ei esponio, gan ddywedyd, "Câr dy gymydog fel ti dy hun." Marc xii. 32.

Gwir yw, y mae yn dywedyd na wnaeth efe ddim niwed iddo; ond a wnaeth efe ddim daioni iddo? Un peth yw peidio a gwneuthur niwed, a pheth arall yw gwneuthur daioni; ac y mae yn bosibl i ddyn beidio a gwneuthur drwg na da i'w gymydog. Beth, gan hyny, a ydyw efe yn ddyn cyfiawn, am nad yw yn gwneuthur niwed i'w gymydog? Yn wir nid yw; oddieithr, hyd eithaf ei allu, iddo wneuthur daioni iddo hefyd.

Oherwydd paham, ymresymu yn wyrdraws ac yn dwyllodrus iawn y mae y Pharisead, pan y mae yn llefaru fel hyn gerbron Duw yn ei weddiau: Yr wyf fi yn gyfiawn, am nas gwnaethum ddim niwed i'm cymydog, ac am i mi gyflawni

dyledswyddau seremoniol. Ac ni wna ei waith yn dywedyd ei fod yn degymu cymaint oll ag a feddai ddim daioni yn y byd iddo. Fe fuasai yn weddusach iddo ddywedyd ei fod yn eu talu hwynt; oherwydd eu bod wedi eu gorchymyn, yr oeddynt yn ddyled cyfiawn; ac nis gallasent wasanaethu gerbron Duw yn lle rhad-rodd, gan eu bod trwy y gorchymyn wedi eu gwneuthur yn daledigaeth; ond y mae dynion beilchion a rhagrithwyr yn caru ymadroddi felly gerbron Duw a dyn, fel pe baent o'r hyn lleiaf am ddangos eu bod yn fwy parod i wneuthur, nag yw gorchymyn Duw i ofyn ganddynt i wneuthur.

Yr oedd yr ail ran o sancteiddrwydd gweithredol yn goelgrefyddol; canys nid oedd Duw wedi ordeinio y cyfryw ymprydiau gosodedig nid mwy na llai, ond ddwywaith yn yr wythnos. "Yr wyf yn ymprydio ddwywaith yn yr wythnos." Ië, ond pwy a orchymynodd i ti wneuthur felly? either cael dy anog i hyny gan gydwybod goelgrefyddol gyfeiliornus, nid yw, ac nis geill wneuthur yn amlwg ddim amgenach. Gan hyny, coelgrefydd weithredol oedd y rhan hon o'i gyfiawnder gweithredol, camddefnyddiad o gyfraith Duw, a boddhad i'w gydwybod gyfeiliornus ei hun. Oherwydd paham, yr wyt hyd yma yn ddiffygiol yn y cyfiawnder hardd a gogoneddus wyt yn dybied sydd genyt.

Eto, gadewch i mi ddywedyd hyn er canmoliaeth i'r Pharisead: yn ol fy nghydwybod i, yr oedd efe yn well na llawer o'n Cristionogion Brutanaidd ni: canys y mae llawer o honynt mor belled oddiwrth fod mewn un mesur yn gyfranogion o gyfiawnder gweithredol, fel nas gall eu holl weinidogion, Biblau, llyfrau da, pregethau da, na barnedigaethau Duw, eu perswadio gymaint ag i gyrhaedd sancteiddrwydd nacâol, hyny yw, i adael heibio ddrygioni.

Yr ail beth wyf yn dàl sylw arno yn y weddi hòn o eiddo y Pharisead, yw, ei ddull o ymadroddi wrth sefyll i weddio yn y deml: "O! Dduw, yr wyf yn diolch i ti," medd efe, "nad wyf fi fel y mae dynion eraill." Gellid tybygu ei fod yr amser hyn mewn tymer uwch na chyffredin, tra yr oedd yn sefyll yn awr yn mhresenoldeb y dwyfol Fawrhydi: canys gweddi o'r radd uwchaf yw gweddi wedi ei chyfansoddi o fawl; a'r debycaf i'w ffordd hwynt ag sydd yr awr hon mewn cyflwr uwchlaw gweddi. Gwaith y nefoedd yw mawl. Ni a welwn yma y dichon rhagrithiwr gael ei godi ryw beth i'w awen hòno, hyd yn oed tra y mae yn rhagrithiwr, a thra y mae ar y ddaear isod. Ac nid wyf yn meddwl fod y weddi hon o'i eiddo yn ffurf wedi ei rhagfyfyrio a'i chyfansoddi; ond gweddi ddiragfyfyrdod, wedi ei gwneuthur yn ddisymwth, yn ol yr hyn ag oedd yn ei deimlo yn ei feddwl, neu yn ei ddeall am dano ei hun.

Gallwn weled yma, gan hyny, y dichon hyd yn oed gweddi, yn gystal a gweithredoedd eraill o addoliad crefyddol, gael ei chyflawni gyda llawer o ragrith; er fy mod yn meddwl mai cyflawni gweddi mewn rhagrith yw un o'r pechodau haerllucaf a wneir gan feibion dynion. Canys trwy weddi, uwchlaw pob dyledswyddau, yr ydym yn agoshau yn y modd mwyaf uniongyrch a digyfrwng yn ein personau ein hunain i bresenoldeb Duw; yn gymaint a bod yno osod pethau allan ger ei fron ef, yn enwedigol diolch am bethau a dderbyniwyd; neu ddeisyfu cael y cyfryw a'r cyfryw bethau. Ond yn awr y mae yn rhaid fod gwneuthur y pethau hyn mewn rhagrith (ac y mae yn hawdd i ni eu gwneuthur hwynt felly pan fyddom yn myned i fyny i'r deml i weddio) yn ddrygioni annioddefol, ac y mae yn datgan fod amynedd anfeidrol yn y Duw mawr, ei fod yn gadael y cyfryw a wnant felly i gyfodi yn fyw oddiar eu gliniau, neu ei fod yn dioddef iddynt fyned ymaith o'r lle y maent yn sefyll, heb ryw arwydd neu nôd a'i ddigofaint arnynt.

Yr wyf hefyd yn dàl sylw, i'r weddi ddiragfyfyrdod hon, o eiddo y Pharisead, gael ei chyflawni ganddo ei hun, neu trwy nerth ei alluoedd naturiol ei hun, canys felly y mae y testyn yn dàl allan: "Y Pharisead," medd y testyn, "o'i sefyll a weddiodd rhyngddo ag ef ei hun," neu wrtho ei hun; ac fe ddichon arwyddocau, naill ai iddo siarad yn bwyllog, neu iddo gyflawni y weddi hon trwy nerth ei alluoedd naturiol. "Mi a weddiaf â'r yspryd," ebe Paul. 1 Cor. xiv. 15. "Y Pharisead a weddiodd rhyngddo ag ef ei hun," ebe Crist. Y mae yn beth cyffredin rhyfeddol y dydd hwn hefyd gan ddynion i weddio yn ddiragfyfyrdod. Y mae darllen gweddi mewn llyfr, yn ol ffurf o ragfyfyriad, yn awr allan o arfer. Ni chyfrifir y dyn hwnw yn awr ond megis diddim, nas dichon ar unrhyw amser, ar funud o rybudd, weddio haner awr. Nid wyf yn erbyn gweddi ddiragfyfyrdod, canys yr wyf yn credu mai y ffordd oreu o weddio ydyw; ond yr wyf yn ofni fod llawer o'r cyfryw weddiau yn cael eu cyflawni, yn enwedig mewn pulpudau a chyfarfodydd cyhoeddus, heb anadliad yr Yspryd Glân ynddynt; canys os gallasai Pharisead gynt wneuthur hyny, paham nas gall Pharisead yn awr wneuthur yr un peth? Nid yw synwyr a rheswm, a deall naturiol, yn cael eu cloi i fyny mor gaeth yn awr; ac nid oes diffyg geiriau, dychymygion, neu falchder, ar ddynion, i wneuthur y peth hyn. Mawr yw y ffurfioldeb sydd mewn crefydd y dydd hwn, ac ychydig o'r grym o honi. Yn awr, lle mae llawer o'r ffurf, ac ychydig o'r grym (ac yr oedd felly hefyd yn mhlith yr Iuddewon yn amser ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist), y mae dynion yn y cyfryw amgylchiad dàn brofedigaeth neillduol i fod yn rhagrithwyr; canys nid oes dim mor briodol ac uniongyrch yn gwrthwynebu rhagrith na grym a gogoniant y pethau yr ydym yn eu proffesu. Ac felly i'r gwrthwyneb, nid oes un peth yn fwy profedigaeth i ragrith na gwybodaeth ffurfiol o bethau heb yr arogl (yr effaith) o honynt. Ac nis gellir gweled fawr o rym ac arogl pethau yr efengyl y dydd hwn ar broffeswyr (nid wyf yn llefaru yn awr am bawb) os cymharir eu meddyliau a'u hymarweddiadau â'u gilydd. Pa mor falch, mor gybyddlyd, mor debyg i'r byd mewn gwisg ac ymddygiad, mewn geiriau a gweithredoedd, yw y rhan fwyaf o broffeswyr mawrion ein hoes ni! Ond pan y delont i addoliad Duw, yn enwedig i weddio, braidd na farnai un, wrth eu geiriau a'u hymddygiad yno, mai angylion y nefoedd ydynt. Ond y mae yn rhaid bod y pethau hyn yn cael eu gwneuthur yn rhagrithiol, fel ag yr oedd gwaith y Pharisead hefyd.

"Y Pharisead o'i sefyll a weddiodd rhyngddo ag ef ei hun fel hyn."

A lle dywedir iddo weddio rhyngddo ag ef ei hun, fe ddichon arwyddocau, nad aeth efe yn ei weddi ddim pellach na'i ddeall a'i reswn ei hun, ddim pellach nag yr oedd ei deimlad a'i ddychymygion cnawdol yn myned. Y mae gwir weddi Gristionogol yn gadael deall a rheswm, teimlad a dychymygion cnawdol, o'i thu ol, ac yn myned rhagddi mewn ffydd, gobaith, a dymuniadau, i wybod yr hyn ag yr ydym yn bresenol yn anwybodus o hono, a'r hyn ag y mae ein deall, teimlad, rheswm, &c., yn ddieithriaid iddo. Y mae yr apostol yn wir yn dywedyd, "Mi a weddiaf â'r deall." 1 Cor. xiv. 15. Ond eto rhaid ei gymeryd yn ddeall wedi ei oleuo yn ysprydol. Meddaf, y mae yn rhaid ei ddeall felly, am nad yw y deall naturiol, fel y cyfryw, yn derbyn pethau Duw, oherwydd paham, nis gall weddio am danynt; canys ffol bethau ydynt i'r cyfryw. 1 Cor. ii. 24.

Yn awr, fe all deall, wedi ei oleuo yn ysprydol, fod yn ddefnyddiol mewn gweddi yn y ffurf ganlynol:

1. Fel ag y mae wedi derbyn argyhoeddiad o'r gwirionedd fod Yspryd Duw;

canys oddiwrth Yspryd Duw y mae argyhoeddiad o wirionedd a hanfod y cyfryw bethau yn dyfod, nid oddiwrth y ddeddf, teimlad, neu reswm. 1 Cor. ii. 10—12. Yn awr y mae y deall, wedi derbyn argyhoeddiad gan yr Yspryd Glân o wirionedd pethau, yn gwasgu y galon i lefain allan mewn gweddi ar Dduw am danynt. Oherwydd paham, y mae Paul yn dywedyd, "Mi a weddiaf â'r deall."

2. Y mae y deall, wedi ei oleuo yn ysprydol, wedi derbyn argyhoeddiad gan yr Yspryd Glân o ardderchawgrwydd a gogoniant y pethau sydd o Yspryd Duw; ac felly yn enyn y galon â dymuniadau mwy gwresog yn y ddyledswydd hon o weddi; canys y mae ardderchawgrwydd goruwchnaturiol yn mhethau yr Yspryd: "Ac os bu gweinidogaeth angau, mewn llythyrenau wedi eu hargraffu ar gerig, mewn gogoniant, fel na allai plant yr Israel edrych yn graff ar wyneb Moses, gan ogoniant ei wynebpryd, yr hwn a ddilëwyd; pa fodd yn hytrach na bydd gweinidogaeth yr Yspryd mewn gogoniant? Canys hefyd ni ogoneddwyd yr hyn a ogoneddwyd yn y rhan hon, oherwydd y gogoniant tra rhagorol." 2 Cor. iii. 7—10. Ac y mae Yspryd Duw yn dangos o'r hyn lleiaf, rai pethau yn eu gogoniont rhagorol hwnw i'r deall y mae yn ei oleuo. Eph. i. 17—19.

Y mae y deall sydd wedi ei oleuo yn ysprydol hefyd wedi derbyn gwybodaeth fod pethau rhagorol goruwchnaturiol hyny o eiddo yr Yspryd, yn cael eu rhoddi trwy gyfammod yn Nghrist, i'r rhai sydd yn caru, ac a gerir gan Dduw. "Nyni a dderbyniasom," medd Paul, "nid yspryd y byd (yr hwn oedd gan y Pharisead), "ond yr Yspryd sydd o Dduw." 1 Cor. ii. 12. Ac y mae y wybodaeth hon, fod pethau Yspryd Duw yn cael eu rhad-roddi i ni gan Dduw, yn gosod mwy o awch, mwy o o fywyd, a mwy o hyder hefyd yn y galon, i ofyn am y pethau hyny sydd eiddof fi trwy roddiad, trwy rad-roddiad Duw, yn ei Fab. Ond yr oedd y Pharisead tlawd yn ddieithr-ddyn hollol i'r holl bethau hyn; nid oedd efe yn adnabod yr Yspryd, na phethau yr Yspryd, ac am hyny yr oedd yn rhaid ei fod yn gadael heibio ffydd, barn, a chariad Duw—(Mat. xxiii. 23. Luc. xi. 42), ac yn dilyn ei hunan yn unig, o ran ei ddeall, teimlad, rheswm, a dychymygiad cnawdol mewn gweddi.

Efe a safodd ac a weddiodd fel hyn "rhyngddo ag ef ei hun." Efe a weddiodd fel hyn, gan ddywedyd wrtho ei hun; canys fe ellir, yr wyf fi yn meddwl, ei ddeall felly hefyd. Fe ddywedir am y barnwr anghyfiawn, "Efe a ddywedodd ynddo ei hun, er nad ofnaf Dduw, ac na pharchaf ddyn," &c.—(Luc xviii. 4)—hyny yw, fe ddywedodd felly wrtho ei hun. Felly dywedir i'r Pharisead "weddio rhyngddo ag ef ei hun:" nid oedd Duw a'r Pharisead gyda'u gilydd, nid oedd ond yn unig y Pharisead a'i hunan. Ni wyddai Paul am ba beth i weddio, heb i'r Yspryd Glân gyduno ag ef, a'i gynorthwyo ag ocheneidiau annhraethadwy; ond nid oedd dim eisieu hyny ar y Pharisead, yr oedd yn ddigon ei fod ef a'i hunan yn nghyd yn y gwaith hwn; canys yr oedd efe yn meddwl yn ddiameu y gallasai ef a'i hunan gyda'u gilydd wneuthur y tro. Pa sawl gwaith y clywais hen wŷr a hen wragedd yn ymsyfrdau wrthynt eu hunain, pan yr oeddynt yn unig mewn rhyw ystafell ddirgel, neu ar ryw lwybr unig; ac yn eu dadwrdd, hwy a fyddent rai prydiau yn ymresymu, rai prydiau yn gweddio, ac ar rai prydiau yn ymddadleu, rai prydiau yn gweddio, ac ar rai prydiau yn canu, ac eto fe wnaid hyn oll rhyngddynt a'u hunain, pan nad oedd neb ond eu hunain yn unig: ond eto wedi ei wneuthur yn y cyfryw fodd ag y buasai yn rhaid i un nas gwelsai hwynt farnu eu bod yn siarad, yn canu, ac yn gweddio gyda chyfeillion, pan y dywedasant yr hyn oll a ddywedasant rhyngddynt a'u hunain, heb neb yn gwrando nac yn ystyried.

Felly yr oedd y Pharisead wrth ei orchwyl ei hunan; efe a'i hunan, yn awr,

oedd yn cyflawni y ddyledswydd o weddi. Yn awr yr wyf yn dâl sylw, pan y mae dynion fynychaf yn siarad wrthynt, neu rhyngddynt a'u hunain, y maent yn mawr ymdrechu boddloni eu hunain: oherwydd paham, y dywedir fod dyn yn "ymwenieithio iddo ei hun yn ei olwg ei hunan, nes cael ei anwiredd yn atgas." Salm xxxvi. 2. Y mae yn ymwenieithio yn ei ffordd ei hun, yn ol cyfarwyddyd ei deimlad a'i reswm cnawdol, ac efe a ddichon ei wneuthur mewn gweddi yn gystal ag mewn un ffordd arall. Fe wrendy rhai dynion bregethau yn y cyfryw fodd, ag a'u cymhwysant atynt eu hunain, fel y gallont foddio eu hunain; ac fe weddia rhai dynion, ond hwy a ymwrthodant â'r cyfryw eiriau a meddyliau mewn gweddi nas byddo yn eu boddloni hwynt eu hunain.

O! pa gynifer o ddynion sydd yn llefaru yr hyn oll ag y maent yn ei lefaru mewn gweddi, yn hytrach wrthynt eu hunain, neu eu gwrandawyr, nag wrth y Duw sydd yn trigo yn y nefoedd! A dyma, yn ol fy marn i, ryw beth o'r modd yr oedd y Pharisead yn gweddio. Yn wir, fe soniodd am Dduw, fel ag y mae eraill yn gwneuthur hefyd; ond fe weddiodd rhyngddo ag ef ei hun, iddo ei hun, yn ei yspryd ei hun, ac i foddloni ei hun, fel ag y mae mater ei weddi yn amlygu. A oedd efe ddim yn beth boddhaol gan y rhagrithiwr hwn, meddyliwch chwi, i feddwl fel hyn yn dda am dano ei hun y pryd hyn? Yn ddiau yr oedd. Hefyd y mae plant a ffyliaid yr un dymher a rhagrithwyr yn hyn o ran; y maent hwy, er heb ddim sail, yn caru gwenieithio eu hunain, fel y Pharisead, yn eu golw eu hunain. "Eithr nid yr hwn sydd yn canmol ei hun sydd gymeradwy."

"O! Dduw, yr wyf yn diolch i ti nad wyf fi fel y mae dynion eraill, yn drawsion, yn angyfiawn, yn odinebwr; neu fel y Publican hwn ychwaith, &c.

Fel hyn y mae yn dechreu ei weddi; ac y mae, fel ag y rhoddwyd amnaid eisoes, yn weddi o'r radd uchaf. Canys gwneuthur gweddi oll o ddiolchgarwch, a gosod allan yn y weddi hòno yr achos o'r diolchgarwch hwnw, yw y modd ardderchocaf o weddio, ac, dybygid, yn cael ei gyflawni yn y ffydd grefaf, &c., yn y teimlad mwyaf o bethau. A'r cyfryw oedd gweddi y Pharisead, ond yn unig fod arno eisieu prawf i'r hyn a ddywedodd, sef, "Nad oedd efe fel yr oedd dynion eraill," oddieithr iddo feddwl, fel nad oedd, ei fod hyd yn oed y gwaethaf o ddynion: canys y mae hyd yn oed y goreu a'r gwaethaf o ddynion wrth natur yr un peth. "Beth gan hyny? a ydym ni yn fwy rhagorol?" medd Paul. "Nac ydym ddim." Rhuf. iii. 9. Felly, gan hyny, fe fethodd yn sylfaen ei ddiolchgarwch, ac felly yr oedd ei ddiolchgarwch wedi ei sylfaenu ar anwiredd, ac am hyny nid oedd ond twyll a hunan-weniaeth, ac ni allasai fod yn gymeradwy gyda Duw y nefoedd.

Heblaw hyn, yn ei weddi uchel hon o eiddo y Pharisead, fe ddarfu iddo dadogi ar Dduw yr hyn nas gallasai Duw mo'i arddel mewn un modd; hyny yw, ei fod ef cystal ag yr oedd yn meddwl ei fod, trwy gariad a ffafr neillduol Duw: "O! Dduw, yr wyf yn diolch i ti nad wyf fi fel y mae dynion eraill." Yr wyf yn diolch i ti am i ti fy ngwneuthur i yn well na dynion eraill; yr wyf yn diolch i ti am fod fy nghyflwr mor dda, ac am fy mod wedi fy nyrchafu gymaint uwchlaw fy nghymydog.

Y mae llawer o bethau yn tarddu oddiwrth y weddi hon o eiddo y Pharisead, ag sydd deilwng o'n sylw. Megis,

*Yn gyntaf.* Nad yw y Phariseaid a'r rhagrithwyr yn caru cyfrif eu hunain yn bechaduriaid, pan fyddont yn sefyll gerbron Duw. Y maent yn dewis yn hytrach canmol eu hunain ger ei fron ef yn ddynion rhinweddol a sanctaidd, gan ddywedyd weithiau, a meddwl yn fynychaf, eu bod yn fwy cyfiawn nag eraill. Ië, gellid tybygu wrth y gair, ei fod yn beth naturiol, etifeddiaethol, ac felly cyffredinol i

ragrithwyr hyderu arnynt eu hunain eu bod yn rhai cyfiawn, ac yna condemnio eraill; dyma y sylfaen ar ba un yr adeiladwyd y ddameg hon: "Efe a ddywedodd y ddameg hon hefyd," medd Luc, "wrth y rhai oedd yn hyderu arnynt eu hunain eu bod yn gyfiawn;" neu eu bod felly, ac yn diystyru eraill, adn. 9.

*Yn ail.* Y mae yr ymddygiad hwn o eiddo y Pharisead gerbron Duw yn dangos i ni fod rhinweddau moesol, a'r sylfaen o honynt, yr hon yw y gyfraith, os hyderir arnynt, yn dallu meddwl dyn, fel nas gall o'u herwydd ganfod y ffordd i ddedwyddwch. "Eithr dallwyd eu meddyliau hwynt; canys hyd y dydd heddyw y mae yr un gorchudd, wrth ddarllen yn yr Hen Destament, yn aros heb ei ddatguddio; yr hwn yn Nghrist a ddileir. Eithr hyd y dydd heddyw, pan ddarllenir Moses, y mae y gorchudd ar eu calon hwynt." 2 Cor. iii. 14, 15. A dyma paham y mae cynifer o ddynion moesol, ag sydd wedi eu haddurno â chyfiawnder gwladol a moesol, ac er hyny, yn dra anwybodus o honynt eu hunain, a'r ffordd o fywyd trwy Grist.

Y mae gweithredoedd a chyfiawnder y cnawd, yr hyn yw cyfiawnder y ddeddf, yn dallu eu meddyliau, yn cau i fyny eu llygaid, ac yn peri iddynt golli y cyfiawnder ag y maent yn ymgais mor wresog ar ei ol. "Eithr dallwyd eu meddyliau hwynt," medd y testyn. Meddyliau pwy?—y rhai hyny ag oedd yn glynu wrth, yn sefyll dros, ac yn ceisio cyfiawnder y ddeddf. Yn awr,

Yr oedd y Pharisead yn un o'r cyfryw; yr oedd yn gorphwys yn y ddeddf, ac yn gorfoleddu yn Nuw, ac yn ymddiried iddo ei hun ei fod yn gyfiawn; oddiwrth y dallineb a'r anwybodaeth ag oedd y ddeddf wedi meddiannu ei feddwl ag ef y daeth hyn oll; canys ni chaniatâwyd i'r ddeddf fod yn weinidogaeth bywyd a goleuni, ond i fod yn weinidogaeth angau pan fyddo yn llefaru, ac yn weinidogaeth tywyllwch pan ymddirieder iddi, fel y caffo Mab Duw y blaenoriaeth yn mhob peth: oherwydd fe ddywedir, "Pan ddychwelo y galon at yr Arglwydd, y tynir ymaith y gorchudd." 2 Cor. iii. 16.

*Yn drydydd.* Oddiwrth y weddi hon, ni a allwn weled grym gau hyder; fe wna i ddyn ëofn haeru celwydd gerbron Duw; fe wna i ddyn ëofn ymddiried iddo ei hun, ac i'r hyn a wnaeth; ïe, i ddadleu ei ddaioni ei hun yn lle trugaredd Duw gerbron Duw. Canys yr oedd y Pharisead yn un ag oedd nid yn unig yn cyfiawnhau ei hun gerbron dynion, eithr yn un ag oedd yn cyfiawnhau ei hun gerbron Duw; a pha beth oedd yr achos ei fod yn cyfiawnhau ei hun felly gerbron Duw, ond y gau hyder oedd ganddo ynddo ei hun a'i weithredoedd, yr hyn oedd yn dwyll ac yn gelwydd iddo ei hun. Ond, meddaf, rhyfeddol oedd hyfdra y dyn, canys fe safodd at y celwydd oedd yn ei ddeheulaw, ac fe ddadleuodd y daioni o hono gerbron Duw. Ond heblaw y pethau hyn, y mae pedwar peth yn chwaneg yn llechu yn y weddi hon o eiddo y Pharisead.

*Yn gyntaf.* Y mae trwy y weddi hon yn priodoli tröedigaeth iddo ei hun; y mae yn haeru mai ei waith ei hun a'i gyfeillion yw. "Nid wyf," medd efe, "fel y mae dynion eraill," hyny yw, yn annychweledig, mewn ystâd o bechod, digofaint, a marwolaeth: ac y mae yn rhaid mai hyn yw ei feddwl; canys nid oedd crefydd y Pharisead wedi ei sylfaenu ar unrhyw ragorfraint neillduol, naturiol; yr wyf yn meddwl, nid ar ei phen ei hun, nid yn unig ar hôno, ond ar gydsyniad â'r egwyddorion, dychymygion, opiniynau, gosodiadau, traddodiadau, a'r athrawiaethau oeddynt hwy yn eu dysgu yn wahanol oddiwrth wir a sanctaidd athrawiaethau y prophwydi. Ac yr oeddynt yn gwneuthur disgyblion iddynt eu hunain trwy y cyfryw athrawiaethau, dynion a allent gaethiwo trwy yr egwyddorion, cyfreithiau, athrawiaethau, a'r traddodiadau hyny; ac am hyny, fe ddywedir fod y cyfryw o sect y Phariseaid;

hyny yw, ysgolheigion a disgyblion iddynt, wedi eu troi atynt hwy a'u hathrawiaeth. O! y mae yn beth hawdd i eneidiau briodoli tröedigaeth iddynt eu hunain, nas gwyddant pa beth yw tröedigaeth. Y mae yn beth hawdd, meddaf, i ddynion hefyd briodoli tröedigaeth i Dduw, ar sail ddeddfol, seremoniol, dwyllodrus, ar y cyfryw sail ag a sudda dàn y llwyth a osodir arni; ar y cyfryw sail ag na saif pan y dygir hi dàn faen-prawf Duw, nac yn erbyn y gwlaw, gwynt, a'r llif-ddyfroedd a ordeiniwyd i'w phrofi pa un ai gwir neu gau ydyw. Y mae y Pharisead yn sefyll yma ar dyb ei fod wedi ei droi at Dduw: "Nid wyf fi fel y mae dynion eraill;" ond y mae efe a'i dröedigaeth yn cael eu gwrthod, fel y gwelir wrth yr hyn sydd yn canlyn y ddameg: "Y peth sydd uchel gyda dynion" (Luc xvi. 15) "sydd ffiaidd gerbron Duw;" hyny yw, nid yw y tröedigaeth hwnw, ag y mae dynion, fel dynion, yn gwenieithio eu hunain ei fod ganddynt ond y cyfryw. Ond fe fyn y Pharisead ei fod yn ddyn wedi cael tröedigaeth; fe fyn fod ganddo ychwaneg i ddangos am y nefoedd na'i gymydog: "Nid wyf fi fel y mae dynion eraill; hyny yw, mewn ystâd o bechod a damnedigaeth, ond mewn ystâd o dröedigaeth ac iachawdwriaeth. Ond gwelwn pa mor druenus yr oedd y sect hon, y grefydd hon, yn twyllo dynion. Yr oedd yn eu gwneuthur yn ddau mwy plant uffern nag yr oeddynt o'r blaen: ac yma yr oedd eu dysgawdwyr yn "dywysogion deillion" (Mat. xxiii. 16); hyny yw, yr oedd eu hathrawiaeth yn cenhedlu y fath ddallineb, y fath hyder gau a hyfdra disail yn eu disgyblion, ag oedd yn eu suddo hwynt i gau-feddwl am dröedigaeth, ac felly, os hyderid arno, yr oedd yn ddamnedig.

*Yn ail.* Wrth y geiriau hyn ni a welwn fod y Pharisead, nid yn unig yn priodoli tröedigaeth iddo ei hun, ond yn llawenhau yn y tröedigaeth hyny: "O! Dduw, yr wyf yn diolch i ti," medd efe, "nad wyf fi fel y mae dynion eraill." Y mae yr ymadrodd hwn o'i eiddo yn rhoi ar ddeall i ni ei fod yn ymffrostio yn ei dröedigaeth; nid oedd mewn un modd yn ameu mo'i gyflwr, ond yn llawenhau yn y diogelwch yr oedd yn meddwl fod ei enaid ynddo trwy ei dröedigaeth. O! diolch i Dduw, medd efe, nid wyf mewn ystâd o bechod, angau, a damnedigaeth, fel ag y mae y rhai anghyfiawn, a'r Publican hwn. Ond, O! hudoliaeth cadarn, i ymddiried i wê y pryf-copyn, a meddwl y gall ychydig o weithredoedd harddaf y cnawd fod yn ddigonol i ddàl yr enaid i fyny yn, wrth, a thân farn Duw! "Y mae cenhedlaeth lân yn ei golwg ei hun, er nas glanhawyd oddiwrth ei haflendid." Diar. xxx. 12. Ni ellir cymhwyso y testyn hwn yn fwy priodol at neb na'r Pharisead, ac at y rhai hyny sydd yn troedio yn llwybrau y Pharisead, ac wedi eu llyncu i fyny gan ei dybiau ef, a chan ogoniant ei gyfiawnder ei hun.

Felly, drachefn, "Y mae ffordd" (ffordd i'r nefoedd) "sydd uniawn yn ngolwg dyn, ond ei diwedd hi yw ffordd angau." Diar. xiv. 12. Y mae hyn hefyd yn cael ei gyflawni yn y fath hyn o bobl; y mae angau ac uffern yn niwedd eu ffordd, er eu holl hyder yn naioni eu cyflwr.

Drachefn, "Rhyw un a ymffrostia ei fod yn gyfoethog, ac heb ddim ganddo." Diar. xiii. 7. Pa beth a all fod yn fwy eglur oddiwrth yr holl destynau hyn, na bod rhai dynion ag sydd allan o'r ffordd yn meddwl eu bod ynddi, a bod rhai dynion yn meddwl eu bod yn lân, ag sydd eto yn eu haflendid? a rhai ag sydd yn meddwl eu bod yn gyfoethog erbyn byd arall, ac eto yn dlawd, yn resynus, yn wael, yn ddall, ac yn noeth? Fel hyn yr oedd y Pharisead tlawd, dall, noeth, a rhagrithiol, yn meddwl am dano ei hun, pan oedd Duw yn bygwth ei ddarostwng; ïe, fe feddyliodd am dano fel hyn, ac fe ymlawenychodd yn hyny, pan yr oedd mewn gwirionedd yn myned i wared i ystafelloedd angau.

*Yn drydydd.* Wrth y geiriau hyn y mae y Pharisead, dybygid, yn gosod daioni ei gyflwr ar ddaioni Duw. "Nid wyf fi fel y mae dynion eraill, ac yr wyf yn diolch i Dduw am hyny. "O! Dduw," medd efe, "yr wyf yn diolch i ti nad wyf fi fel y mae dynion eraill." Yr oedd yn diolch i Dduw pan nad oedd Duw wedi gwneuthur dim drosto. Yr oedd yn diolch i Dduw, pan nad oedd y ffordd yr oedd efe ynddi wedi ei hordeinio gan Dduw, ond wrth ei ddyfais ei hun. Felly yr oedd yr erlidiwr yn diolch i Dduw, am ei fod wedi cael ei osod yn y ffordd hôno o dwyll dichellgar ag yr oedd y diafol wedi ei osod ynddi, pan yr aeth i rwygo ac i ddryllio eglwys Dduw: "Y mae eu perchenogion yn eu lladd hwynt," medd y prophwydi, "heb dybied eu bod yn euog; a'u gwerthwyr a ddywedant, Bendigedig fyddo yr Arglwydd am fy nghyfoethogi." Zec. xi. 5. Yr wyf yn cofio fod Luther yn arfer dywedyd, "Yn enw Duw y mae pob drwg yn dechreu." Y mae yn rhaid tadogi y cwbl ar Dduw; y mae yn rhaid tadogi troëdigaeth y Pharisead ar Dduw; y mae yn rhaid tadogi yr hawl, neu yn hytrach ysgelerder yr erledigaeth waedlyd, yn erbyn pobl Dduw, ar Dduw. Y mae yn rhaid bod, "Yr wyf yn diolch i ti," a bendigedig fyddo Duw, yn fyrdwn cân i'r heretic. Felly, drachefn, fe briodola rhydd-ewyllysiwr y cwbl i Dduw; fe gyfrif y Crynwr, y Penrhyddiad, y Sosiniad, &c., y cwbl i Dduw. Y mae "O! Dduw, yr wyf yn diolch i ti," yn ngenau pob dyn; y mae yn rhaid ei gysylltu wrth bob cyfeiliornad, hudoliaeth, ac athrawiaeth ddamniol ag sydd yn y byd. Ond nid yw enw Duw a'u hathrawiaeth, addoliad, a'u ffordd hwy, ac athrawiaeth y Pharisead, yn cyd-dynu dim oll; canys ni ddarfu i Dduw osod dim o'u hegwyddorion hwynt allan, ac nid yw yn eu harddel hwynt; ni orchymynodd efe monynt, ac nid yw efe yn trosglwyddo trwyddynt y gras neu y drugaredd leiaf iddynt; ond yn hytrach yn eu gwrthwynebu, yn eu cyfrif yn elynion iddo, ac yn ddistrywyr y byd.

*Yn bedwerydd.* Yr ydym yn dyfod, yn y lle nesaf, at sylfaen hyn oll; a hyny yw, at yr hyn oedd y Pharisead wedi ei gyrhaedd, sef yw hyny, nad oedd efe yn draws, yn anghyfiawn, yn odinebwr, nac fel y Publican hwn chwaith: ac am hyny yr oedd yn ymprydio ddwywaith yn yr wythnos, ac yn degymu cymaint ag a feddai. Felly chwi a welwch ei fod yn cymeryd arno fod ganddo sail ddau ddyblyg i'w iachawdwriaeth, un foesol, ac un seremoniol; ond pob un yn wan, yn wael, ac yn ddistadl iawn: am ei sail gyntaf, pa beth ydyw yn ychwaneg, pe byddai y cwbl a ddywedodd yn wir, ond symudiad ychydig o fodfeddi oddiwrth y dynion gwaethaf yn eu gweithredoedd gwaethaf?—sylfaen deneu iawn i adeiladu fy hyder am y nefoedd arni.

Ac mewn perthynas i'r ail ran o'i sail am fywyd, pa beth ydyw ond ychydig seremoniau, os yw cystal? Fe gwestiynir y cyntaf fel peth nad yw wedi ei sylfaenu yn nghyfraith Duw; ac y mae yr ail y cyfryw ag sydd o'r fath bellaf o seremoniau ag sydd yn dysgu ac yn pregethu yr Arglwydd Iesu. Ond gadewch iddynt fod y rhai goreu, a'i gydffurfiad ef â hwynt y mwyaf trwyadl, ni ordeiniwyd mo honynt erioed i fyned i'r nefoedd trwyddynt, ac felly nid ydynt ond sylfaen o dywod. Ond rhyw beth a wasanaetha i rai dynion yn sylfaen ac yn ateg i'w heneidiau, ac i adeiladu eu gobaith am y nefoedd arni. Nid wyf fi ddim yn feddwyn, medd un, na chelwyddwr, na thyngwr, na lleidr, ac am hyny, diolch i Dduw, y mae genyf obaith am nefoedd a gogoniant. Nid wyf fi yn draws, nac yn odinebwr, nac yn anghyfiawn, nac fel y Publican hwn chwaith; ac am hyny, yr wyf yn gobeithio y caf fyned i'r nefoedd. Och! ddynion tlodion! a achub eich cynnysgaeddiad a'r pethau hyn chwi rhag y taranau a'r mellt tanllyd a deifl digofaint Duw ar bechod a

phechaduriaid yn y dydd y llysg efe fel ffwrn? Na wna, na wna, nid oes dim a all orchuddio dyn rhag y dialedd fflamllyd hwnw ond cyfiawnder Crist yn unig; nid cyfiawnder y ddeddf yw hwnw, pa fodd bynag y Cristionogir, y cyfenwir, ac yr harddir ef â holl gyfiawnder dyn.

Ond, O! tydi Pharisead dall, gan dy fod mor hyderus fod dy gyflwr yn dda, a'th gyfiawnder yn gyfryw ag a saif pan y profer trwy dân (1 Cor. iii. 13), gad i mi ymresymu â thydi yn awr am gyfiawnder. Na frawyched fy ymadrodd dydi; nid Duw ydwyf fi, eithr dyn fel tithau, fe'n ffurfiwyd ni ein dau o'r pridd.

*Yn gyntaf.* Atolwg, pa bryd y dechreuaist fod yn gyfiawn? Ai cyn neu wedi dy fod yn bechadur? Mi a anturiaf ddywedyd nid cyn; ac os wedi hyny, y mae y pechodau yr ymhalogaist â hwynt o'r blaen wedi dy wneuthur yn anghymhwys i gyflawni y cyfiawnder y mae y ddeddf yn ei ofyn: canys y mae pechod, pa le bynag y mae, yn halogi, yn diwyno, ac yn gwneuthur yr holl ddyn yn aflan; oherwydd paham, nis gelli trwy weithredoedd o ufudd-dod ol-llaw byth wneuthur dy hun yn gyfiawn gerbron y Duw yr wyt yn cymeryd arnat dy fod yn sefyll i weddio arno. Yn wir, ti a elli orchuddio dy dom, ac addurno dy fedd; canys fe wna gweithredoedd o ufudd-dod ol-llaw hyny, er fod pechod wedi myned o'r blaen. Ond, O! Pharisead, fe ddichon Duw weled trwy y wâl wên hon, hyd yn oed at y dom sydd ynddi: fe all Duw hefyd weled trwy goluriad ac addurniad dy fedd teg, at esgyrn y meirwon sydd ynddo; ac nis dichon un o'th ddyledswyddau mwyaf sanctaidd, ïe, dy holl ddyledswyddau, a'u dodi yn nghyd, ddallu llygad yr holl-weledig Fawrhydi rhag gweled holl aflendid dy enaid. Mat. xxiii. 27. Na saf, gan hyny, mor gadarn drosot dy hun, pan yr wyt yn awr gerbron Duw; y mae pechod gyda thydi, a barn a chyfiawnder ger ei fron ef. Y mae yn weddus i ti, gan hyny, yn hytrach i ddiystyru a ffieiddio y bywyd hwn, a chyfrif dy holl weithredoedd yn sorod ac yn dom, ac ymfoddloni cael dy gyfiawnhau trwy gyfiawnder un arall yn lle dy eiddo dy hun. Dyma y ffordd i fod yn ddiogel, meddaf, Pharisead dall, yn ddiogel rhag y llid a fydd.

Nid oes un peth yn fwy sicr na hyn, fod Duw, o ran cyfiawnhad oddiwrth felldith y ddeddf, wedi gwrthod cyfiawnder dyn oherwydd ei wendid a'i anfuddioldeb; ac wedi derbyn yn lle hwnw gyfiawnder gogoneddus ei Fab; canys hwnw yn wir, a hwnw yn unig, sydd gyffredinol, yn berffaith, ac yn cyfateb ei gyfiawnder a'i sancteiddrwydd ef. Dyma mewn ystyr gynhwysiadau yr holl Fibl, ac am hyny y mae yn rhaid ei fod yn wirionedd pur. Yn awr, gan hyny, Meistr Pharisead, yr wyf yn meddwl, beth os gwnaethost hyn â'r llall tra yr oeddit yn dy weddiau; hyny yw, treiglo yn dy feddwl pa beth y mae Duw yn ei garu fwyaf, ac fe fydd yr ateb yn barod wrth law. Y cyfiawnder goreu, y cyfiawnder goreu, yn sicr; canys fe ddywed dy reswm hyny wrthyt: wedi gwneuthur hyn, tra y byddot wrth dy weddi, gofyn i ti dy hun drachefn, Ond pwy sydd â'r cyfiawnder goreu ganddo? Ac fe fydd yr ateb hyn yn barod wrth law hefyd, sef, yr hwn sydd o ran person yn ogyfuwch â Duw; a hwnw yw ei Fab ef Iesu Grist; yr hwn sydd ddidoledig oddiwrth bechaduriaid, ac wedi ei wneuthur yn uwch na'r nefoedd; a hwnw yw ei Fab ef Iesu Grist, yr hwn ni wnaeth bechod, ac ni chafwyd twyll yn ei enau; ac ni bu y cyfryw HWN yn yr holl fyd ond Mab Duw, Iesu Grist.

Yn awr, Pharisead, wedi i ti wneuthur hyn, tra y byddot wrth dy ddefosiwn, gofyn drachefn, Eithr beth sydd i'w wneuthur â'r cyfiawnder goreu hwn, cyfiawnder Crist? ac fe fydd yr ateb yn barod. Y mae i'w wneuthur trwy weithred o benarglwyddiol ras Duw drosodd i'r pechadur a anturio hyderu arno am gyfiawnhad

oddiwrth felldith y ddeddf. "Y mae wedi ei wneuthur i ni gan Dduw yn gyfiawnder." "Yr hwn nid adnabu bechod, a wnaeth efe yn bechod drosom ni; fel y'n gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo ef." "Canys Crist yw diwedd y ddeddf, er cyfiawnder i bob un a'r y sydd yn credu." 1 Cor. i. 30. 2 Cor. v. 21. Rhuf. x. 4.

Wedi gwneuthur hyn, a phenderfynu arno, yna tro drachefn, Pharisead, a dywed fel hyn wrthyt dy hun, A ydyw yn dra diogel i mi i ymddiried yn y cyfiawnder hwn o eiddo Duw; cyfiawnder y Duw dyn hwn, cyfiawnder y Crist hwn? Yn sicr y mae, gan ei fod yn y testyn yn cael ei gyfrif yr un goreu, a'r hwn sydd yn boddloni Duw oreu; gan mai efe yw yr hwn a ordeiniodd Duw i gyfiawnhau pechaduriaid trwyddo. Canys os credwn, "Yn yr Arglwydd y mae i ni gyfiawnder; ac yn yr Arglwydd y'n cyfiawnheir, ac yr ymogoneddwn." Esay xlv. 24, 26.

Ië, Pharisead, gan fod dy gyfiawnder dy hun cyhyd, cyfuwch, mor ddwfn, mor berffaith, cystal, ïe, yn mhob ffordd cystal a chyfiawnder Crist; eto, gan fod Duw wedi dewis ein cymmodi ni ag ef ei hun, trwy Grist, a feiddi di geisio cymmodi dy hun ag ef trwy dy gyfiawnder dy hun, ac heb geisio (o'r hyn lleiaf) ymgystadlu â'r cyfiawnder hwn o eiddo Crist gerbron Duw; ïe, i haeru cymeradwyaeth i'th berson trwyddo yn groes i amcan Duw?

Bwrier fod brenin wedi dewis un i fod yn farnwr yn y tir, ac wedi penderfynu y caiff ef fod yn farnwr yn mhob achosion, ac mai yn ol ei farn ef y cai achos pob dyn sefyll;—meddaf, bwrier fod, wedi hyn, i un arall gyfodi, ac ymroi o'i ben ei hun i wneuthur ei orchwyl ei hun. Yn awr, pe byddai yn mhob ystyr mor abl, ïe, a bwrier iddo ei wneuthur mor gymhwys, ac mor gyfiawn hefyd, eto fe fyddai ei waith ef yn gwneuthur ei hun yn farnwr yn ddiystyrwch i'r brenin, ac yn weithred o wrthryfel, ac felly yn drosodd teilwng o gospedigaeth.

Canys, Pharisead, y mae Duw wedi ordeinio mai trwy gyfiawnder ei Fab, a thrwy y cyfiawnder hwnw yn unig, y cyfiawnheir dynion ger ei fron oddiwrth felldith y ddeddf. Oherwydd paham, gochel, a thân dy berygl pa beth bynag yw dy gyfiawnder, nac ymgystadla gyfiawnder Crist ag ef; meddaf, na ddwg ef i mewn, ac na ddadleu dithau dros hwnw yn llys ei gyfiawnder ef; canys ni elli wneuthur hyn a bod yn ddiniwed. Os ymddiried i'w gyfiawnder ei hun, y mae yn pechu, medd Ezeciel. Creffwch ar y testyn, "Pan ddywedwyf wrth y cyfiawn, Gan fyw y caiff fyw; os hydera ar ei gyfiawnder ei hun, ac a wna anwiredd, ei holl gyfiawnderau ni chofir; ond am ei anwiredd a wnaeth, am dano y bydd efe marw." Ezec. xxxiii. 13.

Dàl sylw ar ychydig bethau oddiwrth y testyn hyn, a'r rhai a ganlyn ydynt:

*Yn gyntaf.* Dyma ddyn cyfiawn, dyn (a'r ddim a glwyn) nad yw Duw y nefoedd yn beio arno.

*Yn ail.* Y mae yma addewid yn cael ei gwneuthur i'r dyn hwn, gan fyw y caiff efe fyw; ond ar yr ammod hon, na byddo iddo hyderu ar ei gyfiawnder ei hun. Oherwydd paham, y mae yn amlwg, nad yw yr addewid o fywyd i'r dyn cyfiawn hwn, er mwyn ei gyfiawnder ei hun, ond er mwyn rhyw beth arall, sef, cyfiawnder Crist.

1. Nid er mwyn ei gyfiawnder ei hun. Y mae hyn yn eglur, fe geniateir, ïe, fe orchymynir i ni hyderu ar gyfiawnder a allo achub. Y mae cyfiawnder Duw i bawb, ac ar bawb a gredant; hyny yw, ag sydd yn ymddiried ynddo ac iddo ef er cyfiawnhad. Yn awr, gan hyny, os gall dy gyfiawnder dy hun, pan fyddo berffeithiaf, dy achub di, ti a elli, ïe, ti a ddylit yn dra hyf ymddiried ynddo. Ond gan dy fod wedi dy wahardd i hyderu arno, y mae yn eglur nas gall dy achub, ac nid er mwyn hwnw y mae y dyn cyfiawn yn gadwedig. Rhuf. iii. 21, 22.

2. Ond er mwyn rhyw beth arall; sef yw hyny, er mwyn cyfiawnder Crist, yr hwn a osododd Duw yn iawn trwy ffydd yn ei waed ef, i ddangos ei gyfiawnder ef, trwy faddeuant y pechodau a wnaethid o'r blaen, trwy ddioddefgarwch Duw;—i ddangos, meddaf, ei gyfiawnder ef y pryd hyn, fel y byddai efe yn gyfiawn, ac yn cyfiawnhau y neb sydd yn credu yn Iesu. Rhuf. iii. 24—26. Gwel Phil. iii. 6—8.

"Os efe a hydera ar ei gyfiawnder, ac a wna anwiredd, ei holl gyfiawnderau ni chofir; ond am ei anwiredd a wnaeth (trwy hyderu yn ei gyfiawnder ei hun), am dano y bydd efe marw." Dàl sylw yn mhellach:

1. Fod mwy o rym mewn un pechod i ddistrywio, nag sydd o rinwedd yn dy holl gyfiawnder di i'th gadw yn fyw. Os hyderu arno, os hyderu arno byth mor lleied, os hyderu oll ar dy gyfiawnder dy hun, dy holl gyfiawnderau ni chofir; a thrwy, am, ac yn y pechod a wnaethost wrth hyderu arno, gan farw y byddi farw.

2. Dàl sylw hefyd, fod pechodau mwy damniol na'r rhai hyny yn erbyn y gyfraith foesol. Trwy ba un o'r deg gorchymyn y gwaherddir hyderu ar ein cyfiawnder ein hunain? Ac eto y mae yn bechod. Y mae yn bechod, gan hyny, gwaharddedig yn yr efengyl, ac y mae yn cael ei gynnwys yn llechu yn ddirgel; ïe, efe yw, neu wreiddyn anghrediniaeth ei hunan. "Yr hwn nid yw yn credu a ddemnir." Ac nid yw yr hwn sydd yn hyderu ar ei gyfiawnder ei hun yn credu, nac yn ngwirionedd, na digonolrwydd cyfiawnder Crist i'w achub ef, oherwydd paham, efe a ddemnir.

Ond pa fodd yr ymddengys fod yr hwn sydd yn hyderu ar ei gyfiawnder ei hun, yn ei wneuthur trwy amheuaeth, neu anghrediniaeth o wirionedd, neu ddigonolrwydd cyfiawnder Crist?

Yr wyf yn ateb, oherwydd ei fod yn hyderu ar ei gyfiawnder ei hun. Nid oes un dyn byth a ddewis hyderu o'i fodd ar y cynorthwyon gwaethaf, pan y mae yn credu fod gwell mor agosed, ac i'w cael mor gynted, a hyny hefyd ar ammodau mor esmwythed, os nid esmwythach. Pe byddai yr hwn sydd yn hyderu ar ei gyfiawnder ei hun am fywyd, yn credu fod y cyfryw beth mewn gwirionedd a chyfiawnder Crist i gyfiawnhau; a bod yn y cyfiawnder hwn o eiddo Crist bob digonolrwydd i wneuthur y gwaith bendigaid hwnw, byddwch sicr y dewisai hwnw, i ddodi, gorphwys, ac anturio ei enaid arno, a'r a welai oreu, a mwyaf digonol i achub; yn enwedigol pan y gwelo hefyd (a rhaid yw iddo weled hyny pan y gwelo gyfiawnder Crist) sef, ei fod i'w gael mor fuan am ei fod mor agosed, ac i'w gael ar ammodau mor esmwythed, ïe, esmwythach na chyfiawnder dyn ei hun. Meddaf, fe a'i dewis yn gynt, oherwydd pwys iachawdwriaeth, gwerthfawrogrwydd iachawdwriaeth, a'r tristwch ofnadwy a orddiwes yr hwn a fetho yn hyn o beth byth. Am gael y nefoedd, a dianc rhag uffern, llid, a damnedigaeth yr wyf, medd yr enaid; ac am hyny, mi a ddewisaf, y mae yn rhaid, ac ni feiddiaf lai na dewis hwnw, a hwnw yn unig, ag wyf yn gredu sydd oreu a mwyaf digonolrwydd i'm cynorthwyo mewn achos mor fawr ag yw achos enaid. Felly, gan hyny, y mae yr hwn sydd yn hyderu ar ei gyfiawnder ei hun, yn ei wneuthur oherwydd anghrediniaeth o ddigonolrwydd cyfiawnder Crist i'w achub ef.

Oherwydd paham, y mae yr hyderu hwn ar ei gyfiawnder ei hun yn drosedd mawr iawn, am ei fod yn diystyru cyfiawnder Crist, yr hwn yn unig yw y cyfiawnder sydd ddigonol i'w waredu ef o dàn felldith y gyfraith. Y mae hefyd yn gwrthsefyll amcan y nefoedd, ac ardderchawgrwydd digelwch doethineb Duw, yn trefnu y ffordd hon o iachawdwriaeth i ddyn. Pa beth a ddywedaf, y mae hefyd yn yspeilio Duw o'r anrhydedd o iachawdwriaeth dyn. Y mae yn ceisio tynu y goron oddiar ben Crist,

a'i dodi ar ben rhagrithiwr; am hyny, nid yw ryfedd fod y pechod hwn o'r fath bwys, grym ac effaith, ag y sudda efe y dyn hwnw, a'i gyfiawnder hefyd, i uffern, a bwyso arno, neu a ymddiriedo iddo.

Ond, Pharisead, ni raid i mi siarad fel hyn wrthyt ti, canys nid tydi yw y dyn ag sydd â'r cyfiawnder hwnw ganddo, nad yw Duw yn cael dim bai ynddo; ac nid yw i'w gael ond ganddo ef, yr hwn a ordeiniwyd i fod yn Iachawdwr dynol-ryw; ac nid oes dim o'r cyfryw un i'w gael heblaw yr Iesu, yr hwn a elwir Crist. Pa wallgof, gan hyny, a'th ddygodd i'r deml, ac yno sefyll mewn modd digywilydd i ymffrostio gerbron Duw, gan ddywedyd, "O! Dduw, yr wyf yn diolch i ti, nad wyf fi fel y mae dynion eraill?" &c.

Oni wyddost ti fod yr hwn sydd yn tori un, yn tori holl orchymynion Duw; ac yn ganlynol, nad yw yr hwn nad yw yn cadw holl orchymynion Duw yn cadw un o honynt? Onid yw yr Ysgrythyr yn dywedyd yr un peth? "Canys pwy bynag a gadwo y gyfraith i gyd oll, ac a ballo mewn un pwnc, y mae efe yn euog o'r cwbl." Iago ii. 10. Ymgywilyddia, gan hyny, ymgywilyddia.

A wyt ti yn adnabod y Duw yr wyt yn awr i ymdrin ag ef? Duw yw efe nas gall (fel ag y mae yn Dduw cyfiawn) dderbyn cyfiawnder hanerog yn lle un cyfan; cyfiawnder cloff yn lle un perffaith; cyfiawnder clefychlyd yn lle un da ac iachus. Mal. i. 7, 8. Ac os felly, pa fodd, gan hyny, y derbyn efe yr hyn nad yw ddim oll yn gyfiawnder? Pa fodd, meddaf, y derbyn efe yr hyn nad yw ddim yn y byd, canys y cyfryw yw dy un di? Ac os dywedodd Crist, Wedi i chwi wneuthur pob peth, dywedwch, "Gweision anfuddiol ydym ni," pa fodd y daethost ti i ddywedyd, cyn i ti wneuthur un peth yn iawn, Yr wyf fi yn well, yn fwy cyfiawn na dynion eraill?

A oeddit ti yn credu, pan y dywedaist fod Duw yn adnabod dy galon? Pe dywedasit hyn wrth y Publican, buasai yn ymadrodd uchel a godidog; ond y mae yn dywedyd o flaen Duw, yn ngwyneb Duw, pan y gwyddai efe dy fod yn aflan, yn bechadur o'r groth, ac o'th genhedliad, yn andwyo y cwbl. I geryddu dy falchder di, y dywedodd Crist, "Chwychwi yw y rhai sydd yn eich cyfiawnhau eich hunain gerbron dynion; eithr Duw a ŵyr eich calonau chwi." Luc xvi. 15.

A ddeliaist ti sylw ar hyn, fod Duw yn barnu y ffrwyth wrth y galon, o ba un y mae yn dyfod? "Y dyn da, o ddaionus drysor ei galon, a ddwg allan ddaioni; a'r dyn drwg, o ddrygionus drysor ei galon, a ddwg allan ddrygioni." Luc vi. 45. Ac ni ellir barnu yn amgen nad ydwyt ti yn ddyn drwg, ac felly nad yw yr holl ddaioni yr wyt ti yn meddwl fod genyt ddim yn y byd ond drygioni. Am i ti ei osod i fyny yn lle yr Iesu, a beiddio canmol dy hun o'i herwydd gerbron y Duw byw; canys ti a ymddiriedaist yn dy gysgod o gyfiawnder, ac a wnaethost anwiredd. Fe ddarfu i'th bechod doddi ymaith dy gyfiawnder, ac a'i troes yn ddim yn y byd ond sorod; neu, os mynwch, "yn wlith y boreu," fel pa un y mae yn diflanu, ac felly ni all mewn un modd wneuthur daioni i ti, pan y byddo eisieu arnat gael iachawdwriaeth a bywyd tragwyddol gan Dduw.

Ond yn mhellach, yr ydwyt yn dywedyd dy fod yn gyfiawn, ond nid ydynt ond geiriau ofer. Oni wyddost fod dy zel, yr hon yw bywyd dy gyfiawnder, yn gyfeiliornus mewn amryw bethau. Pa beth amgen yw meddwl ei chynddeiriogrwydd a'i llid yn erbyn dynion ag sydd cystal a thydi dy hun. Gwir yw, fe ddichon dy anwybodaeth o'u bod hwy yn rhai da, dy gadw rhag cyflawni y pechod anfaddeuol, ond nis gall byth dy gadw yn ddifrycheulyd yn ngŵydd Duw, eithr fe a'th wna di a'th gyfiawnder yn gwbl feius.

Y mae Paul, yr hwn oedd unwaith mor hardded Pharisead ag y gelli dithau fod,

yn galw llawer o'r zel hôno ag oedd ganddo yn y cyflwr hwnw, ac yn byw yn yr ymarferiad o honi, yn ynfydrwydd, ïe, yn ynfydrwydd allan o fesur (Act. xxvi. 9—11. Phil. iii. 5, 6; ac o'r un fath yw llawer o'th zel dithau, ac y mae yn rhaid ei bod felly; canys y mae yn rhaid fod deddfwr, dyn dros y ddeddf, ac yn gorphwys ynddi, yn erlidiwr dynion cyfiawn, a hyny o zel at Dduw; canys trwy y ddeddf, oherwydd y gwendid y mae yn ei gael ynot ti, y cenhedlir sarugrwydd, chwerwder yspryd, a llid, yn erbyn yr hwn ag sydd yn dy gyfiawn farnu di am dy ynfydrwydd, yn dewis hyderu ar dy gyfiawnder pan y mae Duw wedi darparu gwell i'n hachub ni. Gal. iv. 28—31. Y mae dy gyfiawnder di, gan hyny, yn ddiffygiol, ïe, y mae dy zel dros y ddeddf, a gwŷr y ddeddf, wedi cysylltu ynfydrwydd yn nghyd â'th rinweddau moesol, ac wedi gwneuthur dy gyfiawnder yn anghyfiawnder perffaith; pa fodd, gan hyny, y gelli fod yn gyfiawn gerbron Duw?

Yn mhellach, oni ddarfu i falchder dy yspryd yn dy zel benboeth hon dros dy feddyliau Phariseaidd, dy yru i feddwl y gelli wneuthur ychwaneg nag y mae Duw yn ei geisio genyt, ac felly y gelli wneuthur dy hun yn gyfiawnach nag y mae Duw yn gofyn genyt? Pa beth, ynte, yw yr achos dy fod yn chwanegu cyfreithiau at gyfreithiau Duw, gorchymynion at orchymynion Duw, a thraddodiadau at osodiadau Duw?—(Marc vii. 7, 8);—ïe, a ddarfu i ti ddim trwy y gwaith hwn gondemnio y ddeddf fel pe byddai yn amnherffaith, ac felly y Duw a'i rhoddodd, yn fyr yn ei ddoethineb, ac yn ei ffyddlondeb iddo ei hun a thithau?

Ië, meddaf drachefn, oni ddarfu i ti, trwy wneuthur fel hyn, osod Duw allan fel un nas gwyddai pa reolau oeddynt yn angenrheidiol i roddi i'w greaduriaid i wneuthur eu hufudd-dod yn gyflawn? Ac onid yw dy ynfydrwydd hyn yn arwyddocau yn mhellach, oni buasai i ti neidio i mewn â'th dorllwyth o draddodiadau, y buasai cyfiawnder yn anmherffaith, nid trwy wendid dyn, ond oherwydd i Dduw attal, neu oherwydd nas rhoddodd reolau cyfiawnder i ni?

Yn awr, wedi i ti ystyried hyn yn deg, ateb i ti dy hun yr holiadau hyn: onid yw hyn yn falchder? onid yw hyn yn gabledd? onid condemnio Duw yw hyn i gyfiawnhau dy hun? ac a wyt yn meddwl yn wir mai dyma y ffordd i fod yn gyfiawn?

Ond drachefn, beth wyt ti yn ei feddwl wrth ddyrchafu dy reolau, dy ddeddfau, *statutau*, ordinhadau, a'th osodiadau dy hun, uwchlaw rheolau, *statutau*, a gosodiadau Duw? A wyt ti yn meddwl fod hyn yn iawn? I ba le y gyr dy zel, dy falchder, a'th ffolineb dydi? A oes mwy o reswm, mwy o uniondeb, mwy o sancteiddrwydd, yn dy draddodiadau di, nag yn ngorchymynion cyfiawn, sanctaidd, a daionus Duw? Rhuf. vii. 12. Paham, gan hyny, yr wyt ti, meddaf, yn gwrthod gorchymynion Duw, i gadw dy draddodiadau dy hun? Ië, paham yr wyt ti yn llidio, yn rhuo, ag yn gweiddi allan, pan nad yw dynion yn cadw dy gyfraith di, neu y rheol o'th wneuthuriad di dy hun, a thraddodiadau dy hynafiaid; ac eto cauad dy lygaid, neu daflu dy lygaid drosodd gyda hwynt, pan yr wyt ti dy hun yn byw yn y troseddiad o gyfraith Duw? Ië, paham y condemni di ddynion, pan nad ydynt yn cadw dy gyfraith di, ond dyfeisio esgus, ïe, dadleu dros y rhai sydd yn byw mewn troseddiad o gyfraith Duw? Marc vii. 10—13. A wna hyn y tro yn lle cyfiawnder yn nydd y Duw Hollalluog? Na wna, eithr yn hytrach bydd fel maen melin am dy wddf. Oni sudda hyn dydi yn nyfnderoedd uffern? O'r dallineb, yr ynfydrwydd, a'r balchder, sydd yn trigo yn nghalonau y rhai hyny sydd yn cymeryd arnynt fod yn ddynion cyfiawn!

Drachefn, pa fath gyfiawnder o'th eiddo yw hwn, sydd yn gynnwysedig mewn anmharchiad o orchymynion Duw? Yr wyt yn gosod rhai yn rhy uchel, a rhai yn

rhy isel; fel yn y testyn, yr wyt yn dyrchafu seremoni uwchlaw ffydd, uwchlaw cariad, ac uwchlaw gobaith yn nhrugaredd Duw; pan ag y mae yn eglur mai y pethau a soniwyd ddiweddaf yw y pethau cyntaf yn eu lle, a'r materion mwyaf eu pwys. Mat. xxiii. 23.

Drachefn, yr wyt ti yn gwneuthur yr aur yn fwy na'r deml sydd yn sancteiddio yr aur; a'r rhodd sydd ar yr allor yn fwy na'r allor sydd yn sancteiddio y rhodd. Mat. xxiii. 17.

Meddaf drachefn, pa fath gyfiawnder y gelwir hwn? I ba gefn y gwedda y cyfryw wisg a glytir fel hyn yn nghyd? Pa beth a wneir â hi? Ac ni ddichon un cyfiawnder arall gael lle, pan y mae cam-farn wedi cymeryd meddiant yn mlaen llaw.

Ni ddichon cam-osod cyfreithiau Duw fel hyn, meddaf, ddwyn allan ond ufudd-dod wedi ei gam-osod. Yn wir y mae yn cenhedlu anghenfil, peth drwg ei lun, aflan, a ffieidd-dra i'r Arglwydd. "Canys gwel," medd efe (os wyt am wneuthur), "ar wneuthur o honot bob peth yn ol y portreiad a ddangoswyd i ti yn y mynydd." Gosod ffydd lle dylai ffydd fod, peth moesol lle dylai peth moesol sefyll, seremoni lle dylai seremoni fod; canys fe edrychir ar droi pethau fel hyn y pen uchaf yn isaf fel clai y crochenydd: ac a elwi di hyn yn gyfiawnder i ti? ïe, a sefi di yn hwn, a ddadleui di dros hwn, ac anturio peth o bwys tragwyddol yn y fath ddarn o gymysg-edd blith-draphlith a hwn? O! ffyliaid, a deillion!

Ond yn mhellach, gadewch i ni ddyfod yn nes at y mater. O! Pharisead dall, yr wyt ti yn sefyll ar dy gyfiawnder: pa beth yr wyt yn ei feddwl? A fyni di drugaredd am dy gyfiawnder, neu gyfiawnder am dy gyfiawnder?

Os trugaredd, pa drugaredd? Y mae Duw yn rhoi pethau tymhorol i'r anni-olchgar a'r aflan; ac nid yw yn arfer gwerthu y byd i ddynion am gyfiawnder. Fe roddodd efe y ddaear i feibion dynion. Ond nid hyn yw y peth; yr wyt ti am gael trugaredd dragwyddol am dy gyfiawnder: yr wyt ti am i Dduw feddwl pa fath ddyn cyfiawn wyt ti yn awr, ac wedi bod. Ond ni bu Crist farw dros y rhai da a chyfiawn, ac ni ddaeth efe i alw y cyfryw i'r wledd ag y mae gras wedi ei pharotoi dros y byd: "Ni ddaethum i, nid wyf fi yn dyfod (medd Crist) i alw y rhai cyfiawn, ond pechaduriaid i edifeirwch." Marc ii. Rhuf. v. Ac eto, dyma dy ddadl di: Arglwydd Dduw, dyn cyfiawn wyf fi; oherwydd paham, trugarha wrthyf, a dyro i mi ran yn dy nefol deyrnas. Beth arall yr wyt ti yn ei feddwl, pan y dywedi, "O! Dduw, yr wyf yn diolch i ti nad wyf fi fel y mae dynion eraill?" Paham yr wyt ti yn llawenhau? Paham y mae yn dda genyt dy fod yn fwy cyfiawn (os wyt mewn gwirionedd) na'th gymydog, onid wyt ti yn meddwl dy fod yn rhagori ar dy gymydog mewn perthynas i drugaredd? a'th fod trwy dy gyfiawnder wedi gweithio dy hunan i mewn i gariad Duw, ac enill hawl yn ei dragwyddol ffafr ef? Ond,

Pa beth a wnaethost ti trwy dy gyfiawnder? Meddaf, pa beth a roddaist i Dduw trwy hyny? Pa beth a dderbyniodd ef o'th law? Ysgatfydd y dywedi, y mae cyfiawnder yn boddloni Duw: ond yr wyf fi yn ateb nac ydyw; nid dy gyf-iawnder di, mewn perthynas i gyfiawnhad oddiwrth felldith y ddeddf, oddieithr ei fod mor berffaith a'r cyfiawnder y rhoddir iddo, yn nghyd â'r ddeddf sydd yn ei orchymyn. Ond nid yw dy eiddo di y cyfryw gyfiawnder: nac ydyw, y mae dy gyfiawnder di yn frithlwyd; y mae dy un di yn llawn brychau; y mae dy un di yn gwneuthur i ti edrych fel aderyn brith yn ngolwg Duw.

Mae dy gyfiawnder di wedi chwanegu anwiredd, oherwydd iddo dy gadw di rhag credu yn dy angen o edifeirwch, ac oherwydd iddo dy anog yn hyf i daflu dy hun yn ddigywilydd i bresenoldeb Duw, a gwneuthur i ti, hyd yn oed gerbron ei olygon

sanctaidd ef, y rhai sydd mor bur, fel nas gallant edrych ar anwiredd (Heb. i. 13), i ymchwyddo, ymffrostio, ac ymfalchio oherwydd dy aflendid sigledig, bratiog, drewedig di, canys y mae ein holl gyfiawnderau ni megis bratiau misglwyfus, oherwydd eu bod yn deilliaw oddiwrth beth, oddiwrth galon, oddiwrth ddyn, ag sydd yn aflan.

Ond, drachefn, a fyni di drugaredd am dy gyfiawnder? I bwy yr wyt ti am ei gael, i arall, neu i ti dy hun? Os i arall (ac y mae yn fwy priodol i ddyn cyfiawn eiriol trwy ei gyfiawnder dros arall na throsto ei hun), yna yr wyt yn gwthio Crist allan o'i swydd, ac yn gwneuthur dy hun yn iachawdwr yn ei le: canys y mae Cyfryngwr eisoes, sef Cyfryngwr rhwng Duw a dyn, ac efe yw y dyn Crist Iesu.

Ond a wyt ti yn dadleu am drugaredd i ti dy hun trwy dy gyfiawnder? Os wyt, y mae hyny yn dàl allan—

*Yn gyntaf.* Y gall dy gyfiawnder lwyddo mwy gyda Duw nag y gall dy bechodau. Meddaf, y gall dy gyfiawnder lwyddo mwy gyda Duw i'th gadw rhag marwolaeth, nag y gall dy bechodau lwyddo gydag ef i'th gondemnio i farwolaeth. Ac os felly, beth sydd yn canlyn, ond fod dy gyfiawnder yn fwy, ac wedi cael ei wneuthur gyda mwy o yspryd nag y gwnaethpwyd dy bechodau? Ond celwydd yw meddwl fel hyn; canys nid oes un dyn, tra y mae yn bechadur, nad yw yn pechu gyda mwy o yspryd nag y gall dyn da weithredu cyfiawnder.

Y mae pechadur, pan y mae yn pechu, yn ei wneuthur â'i holl galon, â'i holl feddwl, â'i holl enaid, ac â'i holl nerth; ac nid oes dim attaliad yn ei helynt gyffredinol. Ond nid yw felly gyda dyn da; nid yw efe, ac nis gall efe fod yn hollol, a phob rhan o hono ei hun, yn mhob dyledswydd dda ag y mae yn ei gwneuthur. Canys pan y mae am wneuthur da, y mae y drwg yn bresenol gydag ef. "Y mae y cnawd yn chwennychu yn erbyn yr Yspryd, a'r Yspryd yn erbyn y cnawd: a'r rhai hyn a wrthwynebant eu gilydd, fel na alloch wneuthur beth bynag a ewyllysioch." Gal. v. 17.

Yn awr, os nas gall dyn da wneuthur peth da gyda yr undeb a'r cyffredinoldeb meddwl hyny ag y mae dyn drwg yn pechu, yna y mae ei bechod yn drymach i'w wasgu i lawr i uffern, nag yw ei gyfiawnder i'w ddyrchafu i fyny i'r nefoedd.

A thrachefn, meddaf, os yw cyfiawnder dyn da yn fyrach na'i bechodau, mewn rhifedi, pwysau, a mesur, fel ag y mae (canys y mae dyn da yn arswydo ac yn crynu wrth feddwl y bydd i Dduw fyned i farn ag ef, Salm cxliii. 2), yna y mae ei anwiredd yn fwy na'i gyfiawnder. Ac, meddaf drachefn, os yw pechod un ag sydd yn wir rasol, ac felly yn un ag sydd â'r egwyddorion goreu ynddo, yn drymach ac yn gryfach i'w ddinystrio na'i gyfiawnder i'w achub ef, pa fodd y gall Pharisead, nad yw ddim yn ddyn grasol, ond yn un llwyr gnawdol (wedi ei ddiwygio a'i golurio drosodd rywfaint ag ychydig ffurfiau teneuon gwael), â'i gyfiawnder gwag, pleidiol, rhagrithiol, gyd-bwyso (neu bwyso ychwaneg) ei bechodau mawrion, cedyrn a phwysig, a lynasant wrtho yn mhob cyflwr o'i eiddo, i'w wneuthur yn ffiaidd yn ngolwg Duw?

*Yn ail.* A wyt ti yn dadleu trwy'th gyfiawnder am drugaredd i ti dy hun? Yna wrth wneuthur felly, yr wyt yn meddwl dy fod yn haeddu trugaredd; yna y drws nesaf yw, neu yn gymaint agos a dywedyd, y mae Duw yn fy nyled i o'r hyn wyf yn geisio. Y lliw goreu a ellir ddodi arno yw, dy fod yn ceisio diogelwch oddiwrth felldith ofnadwy Duw, "megis trwy weithredoedd y ddeddf" (Rhuf. ix. 31—33); ac yn sicr, rhwng Crist a'r ddeddf, ti syrthi i uffern. Canys nid yw yr hwn sydd yn ceisio trugaredd megis, ac ond megis, trwy weithredoedd y ddeddf, yn hyderu yn hollol i'r ddeddf. Ac nid yw yr hwn ag sydd yn ceisio y cyfiawnder hwnw, ac a'i

hachubo trwy weithredoedd y ddeddf, yn ei geisio yn unig yn gyfan-gwbl, ac yn hollol ar ddwylaw trugaredd.

Felly, gan hyny, ceisio y peth a allo'th achub di, naill ai ar ddwylaw y ddeddf, neu ar ddwylaw trugaredd, yw, yn sicr, ei geisio lle nad yw i'w gael; canys nid oes un ffordd ganol rhwng cyfiawnder y ddeddf a thrugaredd Duw. Y mae yn rhaid i ti ei gael, naill ai wrth ddrws y ddeddf neu wrth ddrws gras. Ond, meddi di, Yr wyf fi am ei gael wrth ddrws pob un o'r ddau. Ni ymddiriedaf fi ddim yn hollol yn un o honynt. Yr wyf yn caru cael dau saeth yn fy mwa. Os gall un o honynt, fel ag yr ydych chwi yn meddwl, wneuthur fy nhro wrth fy hun, y mae fy rheswm yn dywedyd y gall y ddau ei wneuthur yn well. Am hyny mi a fyddaf yn gyfiawn ac yn dda, ac mi a geisiaf trwy fy naioni fwynhau trugaredd Duw: canys yn sicr fe gaiff yr hwn sydd â rhyw beth ganddo weithio ei hun i ffafr ei dywysog ag ef, fwynhau ei drugaredd a'i ffafr yn gynt na'r hwn sydd yn dyfod wedi ei ddiosg o bob daioni.

Yr wyf yn ateb, Ond nid oes dim dwy ffordd i'r nefoedd, nid oes ond un ffordd newydd a bywiog, yr hon a gysegrodd Crist i ni trwy y llèn, sef ei gnawd; ac heblaw hòno, nid oes un yn ychwaneg. Heb. x. 19—24. Paham, gan hyny, yr wyt ti yn siarad am ddau saeth yn dy fwa? Pa beth a ddaeth o'r hwn a gafodd, ac a fynai, ddwy ystôl i eistedd arnynt? Y mae y testyn yn dywedyd yn eglur, na chyrhaeddasant gyfiawnder, am nas ceisiasant ef trwy ffydd, ond megis trwy weithredoedd y ddeddf. Gwel yma, y mae yr efengyl yn eu diarddelu, am nas ceisiasant ef trwy ffydd: hyny yw, trwy ffydd yn unig. Drachefn, y mae y ddeddf a'i chyfiawnder yn ffoi oddiwrthynt (ac nis gallasent ei chyrhaeddyd er iddynt ganlyn ar ei ol), am nas ceisiasant ef trwy ffydd.

Gan hyny, yn Nghrist yn unig y mae trugaredd i'w gael. Drachefn, trwy ffydd Iesu Grist yn unig y mae cyrhaedd cyfiawnder y ddeddf: hyny yw, yn Mab Duw y mae cyfiawnder y ddeddf i'w gael; canys y mae efe trwy ei ufudd-dod i'w Dad wedi dyfod yn ddiwedd i'r ddeddf er cyfiawnder. Ac er mwyn ei gyfiawnder deddfol ef (yr hwn hefyd a elwir cyfiawnder Duw, oherwydd mai Duw, yn nghnawd yr Arglwydd Iesu, a'i gorphenodd ef), y mae gras a thrugaredd oddiwrth Dduw yn cael ei estyn i bwy bynag a ymddiriedo trwy ffydd yn Nuw, trwy gyfiawnder yr Iesu hwn am dano. A thyma paham yr ydym yn darllen mor fynych mai yr Iesu hwn yw y ffordd at y Tad: fod Duw, er mwyn Crist, yn maddeu i ni: mai trwy ufudd-dod un y gwneir llawer yn gyfiawn, neu y cyfiawnheir: ac mai trwy y dyn hwn y pregethir i ni faddeuant pechodau; ac mai trwyddo ef y caiff pawb ag sydd yn credu eu cyfiawnhau oddiwrth yr holl bethau hyny, nas gallasent gael eu cyfiawnhau trwy gyfraith Moses.

Yn awr, er fy mod yma yn son am gyfiawnder a thrugaredd, eto yr wyf yn dàl nad oes ond un ffordd, sef, i fywyd tragywyddol—yr hon ffordd, fel ag y dywedais, yw Iesu Grist; canys efe yw y ffordd newydd, yr unig ffordd newydd a bywiol at Dad y trugareddau, am drugaredd i'n cymhwyso ni i drigo gydag ef yn y nefoedd dros byth bythoedd.

Ond, meddi di, mi a fyddaf gyfiawn ynof fy hunan, fel y byddo genyf ryw beth i'w gymeradwyo gyda Duw pan y byddwyf yn myned ato ef am drugaredd.

Yr wyf yn ateb, Ond tydi, O! Pharisead dall, yr wyf yn dywedyd i ti, nid ydwyt yn deall amcan Duw trwy yr efengyl; yr hyn yw, nid i ddyrchafu cyfiawnder dyn, fel ag yr wyt ti yn breuddwydio, ond dyrchafu cyfiawnder ei Fab, a'i ras trwyddo ef. Yn wir, pe amcan Duw, trwy yr efengyl, fuasai gosod i fyny, a dyrchafu cyf-

iawnder dyn, yna buasai yr hyn a ddywedaist o ryw ddefnydd; canys pa barch ychwaneg a ellir ei roddi i gyfiawnder dyn na'i dderbyn?

Meddaf, gan hyny, darfu i Dduw ei dderbyn ef i fod yn Ddadleuwr, yn Eiriolwr, yn Gyfryngwr; canys yr holl bethau hyn yw y rhai sydd yn anog Duw i ddangos trugaredd i mi. Ond ni feddyliodd Duw erioed am hyn, llai o lawer bwriadu hyn trwy yr efengyl; canys y mae y testyn yn rhedeg yn gwbl wrthwyneb iddo. Nid o weithredoedd, nid o weithredoedd cyfiawnder y rhai a wnaethom ni, "Nid o weithredoedd fel nad ymffrostiai neb," gan ddywedyd, Wele, mi a allaf ddiolch i'm bywyd da fy hun am drugaredd. Er mwyn fy ngweithredoedd da, mewn rhan, y mwynheais i y drugaredd o gael bod yn y nefoedd a gogoniant. Ai hyn fydd byrdwn cân nefoedd? Neu, ai hyn yw yr hyn a gyfansoddwyd gan y llu disglair nefol hyny, a'r hyn yr ydym yn darllen am dano yn llyfr sanctaidd Duw? Nage, nage, y mae y gân hòno yn rhedeg ar well mesurau, yn cynnwys odlau llawer gwell, wedi eu cyfansoddi o ddefnyddiau llawer uwch, a mwy gwir nefolaidd; "Canys Duw a'n rhagluniaethodd ni i fabwysiad trwy Iesu Grist iddo ei hun, yn ol boddlonrwydd ei ewyllys ef, er mawl ogoniant ei ras ef, trwy yr hwn y gwnaeth ni yn gymeradwy yn yr Anwylyd: yn yr hwn y mae i ni brynedigaeth trwy ei waed ef, sef maddeuant pechodau, yn ol cyfoeth ei ras ef." Eph. i. 5—7. Ac y mae yn angenrheidiol i'r gân gael ei chyfansoddi yn gyfatebol; oherwydd paham, y mae yn dywedyd fod y gân nefol yn rhedeg fel hyn: "Teilwng wyt ti i gymeryd y llyfr, ac i agoryd ei seliau ef: oblegid ti a laddwyd, ac a'n prynaist ni i Dduw, trwy dy waed, allan o bob llwyth, ac iaith, a phobl, a chenedl; ac a'n gwnaethost ni i'n Duw ni, yn frenhinoedd, ac yn offeiriaid: ac ni a deyrnaswn ar y ddaear." Rhuf. v. 9, 10.

Nid yw yn dywedyd iddynt brynu, neu gynorthwyo prynu a gwaredu eu hunain; ond mai yr Oen, yr Oen a laddwyd; yr Oen yn unig yr hwn a'u prynodd hwynt. Ac nid yw yn dywedyd mai hwynt-hwy a wnaeth eu hunain yn frenhinoedd ac yn offeiriaid i Dduw, i offrymu un aberth neu offrwm pa bynag, ond mai yr un Oen a'u gwnaeth hwy felly. Canys yr oeddynt, fel ag y mae y testyn yn cynnwys, yn, yn mhlith, yn un â, a dim gwell na llwythau, ieithoedd, cenhedloedd, a phobloedd y ddaear. Gwell! "Nac ydym ddim," medd Paul (Rhuf. iii. 2), oherwydd paham, gras yn unig oedd yr achos y neillduwyd hwynt oddiwrthynt, rhad ras, ewyllys da, a chariad neillduol; nid am, neu oherwydd gweithredoedd cyfiawnder y rhai a wnaethai neb o honynt hwy; nagê, yr oeddynt oll yr un gyffelyb. Ond fe neillduwyd y rhai hyn, am eu bod wedi eu caru pan oeddynt yn eu gwaed (fel y dywedir yn Ezeciel xvi) trwy rad ras; ac fel ag y mae mewn Ysgrythyr arall, "A brynwyd oddiar y ddaear, ac o blith dynion, â gwaed." Dat. xiv. 4. Oherwydd paham, nid oes dim lle i briodoli ymwared rhag digofaint dialeddol Duw, yn gyfan-gwbl nac mewn rhan, i'r holl ddeddf, neu i'r holl gyfiawnder sydd yn dyfod trwyddi, ond i'r Oen Duw hwn, Iesu Iachawdwr y byd; canys efe yw yr hwn a'n gwaredodd ni oddiwrth y llid a fydd: "Canys nid appwyntiodd Duw nyni i ddigofaint, ond i gaffael iachawdwriaeth trwy ein Harglwydd Iesu Grist." 1 Thes. v. 9. Edryched pob dyn, gan hyny, pa beth y mae yn ei wneuthur, ac ar ba beth y mae yn gosod pwys ei iachawdwriaeth: "Canys sylfaen arall nis gall neb ei gosod, heblaw yr un a osodwyd, yr hwn yw Iesu Grist." 1 Cor. iii. 11.

Ond a wyt ti yn dadleu o hyd fel ag yr oeddit o'r blaen, ac a sefi di at hyny? Os felly, y mae yn rhaid i'th fwriad di orchfygu Duw, neu y mae yn rhaid i arfaeth Duw dy orchfygu di. Dy fwriad di yw rhoi i'th fywyd da di, i'th weithredoedd da di, ran o ogoniant dy holl gyfiawnhad oddiwrth y felldith. Amcan Duw yw taflu

dy holl gyfiawnder di allan i'r heol, i'r baw a'r domen, fel yr wyt am gael gogoniant trwyddo, ac am ymffrostio yma o'i herwydd gerbron Duw; ïe, yr wyt am gael rhan yn ngogoniant cyfiawnhad, yr hyn sydd yn perthyn i Dduw yn unig. Ac y mae efe wedi dywedyd, "Fy ngogoniant nis rhoddaf i arall." Ni ymddiriedi di ddim yn hollol yn ngras Duw yn Nghrist am gyfiawnhad; ac ni chymer Duw ddim o'th gyfiawnder drewllyd di, i mewn fel cyd-gynorthwywr yn dy ryddhad oddiwrth bechod, angau, digofaint, ac uffern. Yn awr, y cwestiwn yw, Pwy a enill? Duw, neu y Pharisead? A gair pa un a saif, gair Duw, neu air y Pharisead?

Och! y mae yn rhaid i'r Pharisead ddyfod i lawr yma, canys y mae Duw yn fwy na phawb. Hefyd, y mae wedi dywedyd, na chaiff un cnawd orfoleddu ger ei fron; ac mai trugaredd y mae yn ewyllysio, ac nid aberth. A thrachefn, mai Nid o'r hwn sydd yn ewyllysio, nac o'r hwn sydd yn rhedeg y mae (nac y caiff fod), ond o Dduw yr hwn sydd yn trugarhau. Pa obaith, cymhorth, sylfaen, neu ymwared, gan hyny, sydd wedi ei adael, i'r haeddiant-weithiwr? Pa frigyn, neu welltyn, neu edefyn fain y sydd wedi ei gadael iddo i orphwys ei enaid arno? Fe ysguba yr ysgubell hon ei wê pryf-copyn ef ymaith; fe droir y ty y mae y pryf-copyn hwn yn pwyso arno bendramwnwgl, ac yntau ynddo, i dân uffern: canys nid oes dim llai na damnedigaeth dragywyddol wedi ei pharotoi gan Dduw, a hyny i'r Pharisead ofnadwy, anghrediniol hwn; fe lwydda Duw yn ei erbyn yn dragywydd.

*Yn drydydd.* Ond a ddadleui di eto dy gyfiawnder am gael trugaredd? Os felly, yr wyt yn cymeryd ymaith oddiwrth Dduw y gallu i roddi trugaredd. Canys os dy eiddo di yw fel cyflog, nid yw yn eiddo ef yn hwy i'w roddi fel y myno; canys nid yw yr hyn ag sydd ar ddyn arall i mi, mewn cyfiawnder at ei lywodraeth ef, ond at fy llywodraeth i. A ddywedais i dy fod trwy dy ddadl hwn yn tynu ymaith oddiwrth Dduw y gallu i roddi trugaredd? Mi a ychwanegaf, ïe, ac hefyd i roddi y nefoedd a bywyd tragywyddol fel y myno. Ac yna, atolwg, pa beth sydd wedi ei adael i Dduw, a pha beth a ddichon efe alw yn eiddo iddo ei hun? Nid trugaredd, canys yr wyt ti, trwy dy weithredoedd da, wedi pwrcasu hòno. Nid bywyd tragywyddol, yr wyt ti trwy dy weithredoedd da wedi pwrcasu hwnw. Fel hyn, Pharisead, (O! tydi ddyn hunan-gyfiawn), y gosodaist dy hun uwchlaw gras, trngaredd, nefoedd, gogoniant, ïe, uwchlaw Duw ei hun, canys fe ddylai y pwrcaswr wrth reswm gael ei gyfrif uwchlaw y pwrcas.

Deffro, ddyn! Pa beth a wnaethost? Ti a geblaist Dduw; ti a ddibrisiaist ogoniant ei ras; ti, yn ol dim ag sydd ynot ti, a wrthwynebaist amcan gogoneddus y nefoedd; ti a geisiaist wneuthur i'th fratiau budron di gael rhan yn dy gyfiawnhad.

Yn awr, y mae yr holl bethau hyn yn bechodau mawrion; y mae y rhai hyn wedi gwneuthur dy anwiredd yn anfeidrol. Pa beth a wnai? Yr wyt wedi creu i ti dy hun fyd o flinderau afreidiol; yr wyf yn eu galw yn rhai afreidiol, am fod genyt fwy na digon o honynt o'r blaen. Ti a osodaist dy hun yn erbyn Duw mewn ffordd o ymryson; yr wyt yn sefyll ar dy bynciau a'th ryglyddion, ac ni cholli ffyrling i Dduw o'r hyn a dâl dy gyfiawnder, ac a wnai hefyd iddo dalu yr hyn a weli di yn dda. Ti a fyddi yn farnwr i ti dy hun am yr hyn a dâl dy gyfiawnder; ni wnai na gwrando pa farn y mae y gair yn ei roi arno, na goddef i Dduw ei daflu allan yn y mater o'th gyfiawnhad; ac yr wyt yn cwerylu â'r athrawiaeth o rad ras, neu ynte ei wthio allan o'i le i wasanaethu dy amcanion Phariseaidd di; gan ddywedyd, "O! Dduw, yr wyf yn diolch i ti, nad wyf fi fel y mae dynion eraill," gan dadogi arnaf dy hun, ïe, ar Dduw ac arnat dy hun, gelwydd noeth; canys yr wyt fel ag y mae dynion eraill, er nid yn yr ystyr hyn, eto mewn ystyr arall; ïe,

mewn gwaeth cyflwr o lawer nâ'r rhan fwyaf o ddynion. Ac ni lesha ddim i ti i briodoli dy ddaioni hyn i Dduwy nefoedd, canys nid yw hyny ond chwareu noeth; y gwirionedd yw hyn, nid yw y duw sydd genyt ti ddim ond dy gyfiawnder, a'r gras wyt ti yn ei ddychymygu ddim ond dy amcanion da a gonest dy hunan. Felly, gan hyny.

*Yn bedwerydd.* Yn yr hyn oll a ddywedi, nid wyt ti ond chwareu y rhagrithwr noeth, "Yr wyt yn cymmeryd arnat yn wir dy fod am drugaredd, eithr nid wyt ti am ddim ond am haeddiant." Yr wyt yn cymmeryd arnat roddi y gogoniant i Dduw; ond ar yr un pryd yr wyt yn ei gymmeryd oll i ti dy hun. Yr wyt yn diystyru eraill, ac yn gwaeddi dy hun i fynu, ac mewn effaith yn tadogi'r cwbl ar Dduw mewn gair, ac arnat dy hunan mewn gwirionedd. Ac nid oes un peth yn fwy cyffredin yn mhlith y fath hyn o ddynion, nâ gwneuthur Duw, ei ras, a'i ddaioni, yn bwn-farch i'w hunan-glod, gan ddywedyd, "O! Dduw, yr wyf yn diolch i ti," pan y maent yn ymddiried iddynt eu hunain eu bod hwy yn gyfiawn, ac heb ddim eisiau edifeirwch, pan mewn gwirionedd y dynion gwaethaf yn y byd ydynt, am eu bod hwy yn dodi eu hunain yn y cyflwr na's dododd Duw hwynt, ac yna cyfrif hyny i Dduw, gan ddywedyd, "O! Dduw, yr wy'n diolch i ti," am i ti ei wneuthur; canys pa bechod fwy nâ gwneuthur Duw yn gelwyddog, neu dadogi ar Dduw yr hyn na's meddyliodd, amcanodd, neu na's gwnaeth erioed. A hyn oll dan yr esgus o ogoneddu Duw, pan nad oes dim arall yn cael ei amcanu ond cymmeryd yr holl ogoniant oddi wrtho, a'i wisgo ar dy ben dy hun fel coron a diadem yn ngwyneb yr holl fyd.

Ni ddichon dyn hunan-gyfiawn ddyfod byth at Dduw am drugaredd mewn un ffordd amgenach nâ than wenieithio: canys pa eisiau trugaredd sydd ar ddyn cyfiawn? Siaraded gan hyny am drugaredd, am ras, am ddaioni, a deued i mewn ganwaith â'i, "O! Dduw, yr wyf yn diolch i ti," yn ei enau, nid yw'r cwbl ond geiriau, nid oes dim teimlad, nac arogl, nac archwaeth trugaredd a gras; ac nid yw efe mewn gwirionedd o'i galon yn dyall natur trugaredd, neu beth sydd wrthddrych o hono; ond pan y mae efe yn diolch i Dduw, y mae yn canmol ei hun; pan y mae efe yn dadleu am drugaredd, y mae efe yn meddwl ei haeddiant ei hun; ac y mae hyn oll yn eglur oddiwrth yr hyn a ganlyn canys, medd efe, "Nid wyf fi fel y Publican hwn:" oddi yno yn dangos yn eglur mai nid y dyn da, ond y dyn drwg, a ddylai gael ei wrthod gan Dduw'r nefoedd: mai nid y drwg, ond y da, nid y pechadur, ond yr hunan-gyfiawn, yw y gwrthddrychau cymhwysaf o drugaredd Duw. Y mae eraill yn gwneuthur yr un peth yn ein dyddiau hyn; y mae ffafr Duw, trugaredd, gras, ac, "O! Dduw, yr wyf yn diolch i ti," yn eu geneuau, ond eu nerth eu hunain, digonolrwydd, ewyllys-rydd a'r cyffelyb, yw'r pethau y maent hwy yn eu meddwl wrth yr holl ymadroddion uchel a gogoneddus hyny. Ond,

*Yn ail.* Os nad wyt yn dadleu am drugaredd, ond am gyfiawnder, ni a gawn chwedleua ychydig am hyny.

1. "Y mae gan gyfiawnder fesurau a rheolau i fyned wrthynt;" oni elli ateb y mesurau a'r rheolau hyny, nid dichon cyfiawnder wneuthur i ti ddim daioni. Tyred gan hyny, O tydi Pharisead dall, gâd i ni dreulio ychydig funudau wrth ymadroddi yn nghylch y peth hwn. Yr wyt yn gofyn am gyfiawnder, o herwydd i Duw ddywedyd y cai'r dyn a wnelai'r pethau hyn fwy ynddynt a thrwyddynt.

A thrachefn, gwneuthyrwyr y ddeddf a gyfiawnheir, nid mewn ffordd o drugaredd, ond mewn ffordd o gyfiawnder. Efe a fydd byw ynddynt. Ond pa beth a wnaethost ti, O Pharisead dall? Pa beth a wnaethost pan yr wyt mor hyf ag anturio

sefyll a syrthio yn ol cyfiawnder perffeithiaf Duw? A gyflawnaist ti yr holl ddeddf, heb ballu mewn un pwngc? A buraist ti dy hun oddiwrth y llygredigaethau a chynhyrfiadau pechod oedd yn trigo yn dy gnawd, ac yn gweithio yn dy aelodau dy hun? A ydyw hyd yn oed y bod o bechod wedi ei ddiwreiddio allan o'th babell? A wyt ti mor berffaith ddiniwed yn awr ag oedd Iesu Grist? A wnaethost ti, trwy ddyoddef y gospedigaeth eithaf a allasai cyfiawnder yn gyfiawn osod arnat am dy bechodau, foddlondeb teg a chyfiawn i Dduw, yn ol rheol ei gyfraith, am dy gamweddau? Os gwnaethost yr holl bethau hyn, yna ti a elli ddadleu rhyw beth, ac eto ond rhyw beth drosot dy hun mewn ffordd o gyfiawnder. Mewn perthynas i hyn, myfi a fyddaf distawond yn hytrach mi a ofynaf, Pa beth a ynnillaist wrth dy holl gyfiawnder hyn (ni a feddyliwn yn awr yr hyn na's gellir ei ganiatâu) onid dyma dy gyflwr pan oeddit yn dy rieni cyntaf? Onid oeddit ti yn ddiniwed, yn ddiniwed perffaith a chyfiawn? A phe baet felly yn awr, pa beth a ynnillaist wrth hyny? Gâd i'r dyn ag oedd ddeugain mlyuedd aethant heibio, fod yn berchen deugain punt o'i eiddo ei hun, a chwedi eu gwario oll wedi hyny, yn gallu yn awr ddangos deugain punt drachefn. Pa beth a ynnillodd efe wrth hyny? neu pa faint cyfoethocach yw efe yn y diwedd, nâ phan y gosododd efe i fynu ar y cyntaf trosto ei hun? Ië, onid yw y brycheuyn o'i ddrwg fywyd rhwng ei gyflwr cyntaf a'i gyflwr olaf, yn gorwedd fel bai arno, oddi eithr iddo allu gwneuthur iawn drosto ei hun trwy weithredoedd uwchlaw yr hyn a ofynwyd, am y trosedd a ddichon cyfiawnder osod wrth ei ddrws.

Ond, meddaf, gad, O Pharisead, fod dy gyflwr di fel hyn, eto nid yw Duw yn rhwym mewn cyfiawnder i roddi y bywyd tragywyddol hwnw i ti, ag y mae yn ei roddi trwy ras i'r rhei'ny ag sydd yn cael prynedigaeth oddiwrth eu pechodau, trwy waed ei Fab. Mewn cyfiawnder gan hyny pan delo oll yn oll, ni elli ofyn ond bywyd diderfyn mewn paradwys ddaiarol; canys yno y gosodwyd di i fynu ar y cyntaf; ac nid yw yn ymddangos oddiwrth yr hyn a ddywedwyd, am yr hyn oll a wnaethost neu a elli ei wneuthur, dy fod yn haeddu gwell lle.

A ddywedais i y gellit yn gyfiawn ofyn bywyd diderfyn mewn paradwys ddaiarol, yna y mae yn rhaid i mi 'chwanegu at yr ymadrodd hyny yr ammod hon. Os parheui yn y ddeddf, ac yn y cyfiawnder o honi, yn amgen ni's gelli.

Ond pa fodd y gwyddost y parheui ynddi? Nid oes genyt un addewid o enau Duw am hyny, ac nid oes na gras na nerth yn cael ei drosglwyddo i ddynol-ryw trwy y cyfammod yr wyt ti dano. Felly yr wyt o hyd yn rhwym wrth dy ymarweddiad da, ac yn y dydd y llithrech gyntaf, pa mor lleied bynnag, neu fethu yn dy ufudd-dod, yr wyt yn fforffetio dy hawl yn mharadwys (ac mewn cyfiawnder) i unrhyw fendith yno.

Ond och! pa rhaid i ni siarad fel hyn am bethau, pan y mae yn eglur dy fod wedi pechu, nid yn unig cyn dy fod yn Pharisead, ond wedi i ti, yn ol y sect fanylaf o'th grefydd, fyw hefyd yn Pharisead, ïe, ac yn awr yn y deml, yn dy weddi yno yr wyt yn dangos dy fod yn llawn o anwybodaeth, balchder, hunan-dyb, ac ymffrost ofnadwy, dymuniad ar ol gwag-ogoniant, &c. Y rhai nid oes un o honynt yn eisteddfa neu ffrwythau cyfiawnder, ond eisteddfa'r diafol a ffrwyth ei drigfa ef, hyd yr awr hon yn dy galon.

A allesid byth feddwl y buasai'r cyfryw ddigywilydd-dra ecfn yn ymddangos mewn un dyn marwol yn ei agoshâd at Dduw trwy weddi, ag sydd yn ymddangos ynot ti? "Nid wyf fi fel dynion eraill," meddi di; ai dyma'r ffordd i fyned at Dduw mewn gweddi? "Y mae Duw yn hoffi gweddi'r uniawn." Ond y mae'r dyn

uniawn yn gogoneddu cyfiawnder Duw, trwy gyfaddef gwaeledd ei ystad a'i gyflwr: y mae yn gogoneddu trugaredd Duw trwy gydnabod mai hwnw, a hwnw yn unig, fel ag y mae yn cael ei gyfranu gan Dduw trwy Grist i bechaduriaid, a ddichon ei achub a'i waredu ef oddiwrth felldith y gyfraith.

Hyn, meddaf, yw swm gweddi'r dyn cyfiawn ac uniawn. Job i. 8; a xl. 4. Act. xiii. 22. Salm li.; a xxxviii. 2 Sam. vi. 21, 22; ac nid fel tydi yn llawn gwag-ogoniant yn ymffrostio, â'th, "O! Dduw, yr wyf yn diolch i ti, nad wyf fi fel y mae dynion eraill."

Yn wir, pan y cyhudder ar ddyn gan ei gymmydogion, gan frawd, gan elyn, a'r cyffelyb; os bydd yn ddieuog (ac fe ddichon bod felly, o ran y peth ag y maent hwy yn ei gyhuddo o'i herwydd) yna ymddiffyned, cyfiawnhaed, a rhyddhaed ei hun hyd eithaf ei allu mewn cyfiawnder a gwirionedd, er mwyn ei enw da, cadw pa un sydd fwy dewisol nag arian ac aur; fe all ei broffes hefyd, ïe, enw Duw, a chrefydd, fod mewn perygl, o herwydd y cyfryw gam-gyhuddiadau, ac ysgatfydd na's gellir trwy un moddion (o ran y dyn hwn) ei guddio â'i ymddiffyn rhag gwaradwydd a sarhad, ond trwy ei waith yn cyfiawnhau ei hun. O herwydd paham, yn y cyfryw waith y mae dyn yn gwasanaethu Duw, ac yn cadw crefydd rhag niwed; ïe, fel ag y mae'r hwn ag sydd yn broffeswr, a bywyd cywilyddus yn cydfyned â'i broffes, yn niweidio crefydd trwy hyny; felly y mae'r hwn sydd â bywyd da yn cydfyned, â'i broffes, ac yn ei dyoddef er hyny i orwedd dan waradwydd trwy gamgyhuddiadau, pan y mae gallu yn ei law i gyfiawnhau ei hun, yn niweidio crefydd hefyd. Ond peth arall yw achos y Pharisead; nid yw efe yma yn ymdrin â dynion, ond â Duw; nid am fod yn ddieuog yn ngwydd y byd, ond yn ngwydd y nefoedd ei hun; a hyny hefyd, nid mewn perthynas i'r hyn a ddichon dynion neu angylion gyhuddo arno, ond mewn perthynas i'r hyn y dichon Duw a'i gyfraith ei gyhuddo o'i herwydd, a'i osod yn gyfiawn wrth ei ddrws.

Y mae hyn gan hyny yn newid y mater yn fawr iawn, i ddyn sefyll yn hyn o beth ar ei byngciau, marwolaeth yw; canys y mae yn anmharchu Duw, y mae yn rhoi y celwydd iddo, y mae yn beio ar y gyfraith, ac mewn effaith yn ei chyhuddo yn euog o ddwyn cam dystiolaeth yn ei erbyn ef; y mae yn gwneuthur hyn, meddaf, hyd yn oed wrth ddywedyd, "O! Dduw, yr wyf yn diolch i ti, nad wyf fi fel y mae dynion eraill;" canys ni wnaeth Duw ddim o'r gwahaniaeth hyn. Y mae'r ddeddf yn condemnio pawb fel pechaduriaid, ac yn tystiolaethu fod pob meddylfryd calon meibion dynion yn ddrwg yn unig, a hyny yn wastadol. O herwydd paham, y mae y rhai hyny ag sydd yn gwneuthur fel ag y gwnaeth y Pharisead, hyny yw, ceisio cyfiawnhau eu hunain ger bron Duw oddiwith felldith y ddeddf, trwy eu gweithredoedd da eu hunain, er y gallant hefyd, fel ag y gwnaeth y Pharisead, dybygid, roddi'r diolch i Dduw am y cwbl, eto yn pechu yn ffiaidd iawn, hyd yn oed trwy eu gwaith yn gwneuthur felly, a gwobr Pharisead a dderbyniant yn y diwedd. O herwydd paham, O Pharisead, ofer yw i ti naill ai meddwl am, neu ofyn am drugaredd neu gyfiawnder ychwaith ar law Duw. O herwydd ni elli ofyn am drugaredd, tan deimlad o eisiau trugaredd, o blegid y mae'th gyfiawnder, yr hwn sydd trwy'r ddeddf wedi hollol ddallu dy lygaid, ac nid yw balch ymgyfarch â Duw yn tyccio dim. Ac mewn perthynas i gyfiawnder, ni all hwnw wneuthur i ti ddim daioni, ond pa fwyaf cyfiawn yw Duw, a pha fwyaf yr ymddygo tu ag atat ti yn ol cyfiawnder, mwyaf truenus ac ofnadwy a fydd dy gyflwr, o herwydd fod cymmaint o ddiffyg yn dy gyfiawnder, yr hwn gennyt ti a berchir mor fawr.

Yn mha fath gyflwr truenus y mae'r Pharisead tlawd gan hyny yntho! Ni all

weddio am drugraedd ni all weddio am dano â'i holl galon, canys nid yw, mewn gwirionedd, yn gweled dim eisiau o hono. Gwir yw, er fod y Pharisead yn ddigon digwilydd, eto ni chymmerai ddim o'r cwbl oddiwrth Dduw; yr oedd o hyd yn cyfrif fod teyrnged o ddiolch yn ddyledus iddo: "O! Dduw, yr wyf yn diolch i ti," medd efe, ond eto nid oedd dim o hyn am drugaredd; ond am iddo ei adael ef i fyw (canys ni's gwn i am pa beth y diolchodd iddo ei hun) hyd nes gwnaeth efe ei hun yn well nâ dynion eraill; ond nid oedd y gwelliant hyny yn welliant yn marn neb ond yn ei farn ef ei hun, ac nid oedd hwnw ond y cyfryw ag oedd yn dwyllodrus. Felly gan hyny, y mae'r Pharisead erbyn hyn wedi cael ei gau yn hollol y tu allan i'r drysau; ni thâl ei gyfiawnder ef ddim, ni thâl ei weddi ddim, ni thâl ei ddiolch i Dduw ddim; canys yr oedd yr hyn oedd gantho yn ddiffygiol ac yn anmherffaith a'i falchder a wnaeth iddo ei gynyg i Dduw er mwyn cael derbyniad gantho; ac ni allasai ei ddiolchgarwch gwenieithgar wellâu ei gyflwr, na gwneuthur ei achos oll yn dda ger bron Duw.

Ond mi a warantaf i chwi fod y Pharisead yn mhell oddiwrth feddwl fel hyn am dano ei hun, ac am ei gyfiawnder, fel nad oedd yn meddwl am ddim yn fwy nag am hyn, sef ei fod ef yn ddyn dedwydd: ïe, yn llawer dedwyddach nag eraill o'i gyd-greaduriaid rhesymol; ïe, y mae yn ei eglur ddatgan, pan y mae yn dywedyd, "O! Duw, yr wyf yn diolch i ti, nad wyf fi fel y mae dynion eraill."

O! yn mha fath baradwys ffyliaid yr oedd calon y Pharisead hwn yn awr, pan oedd yn sefyll yn y deml yn gweddio Duw! "O! Dduw, yr wyf diolch i ti," medd efe, canys yr wyf fi yn dda ac yn sanctaidd, yr wyf fi yn ddyn cyfiawn; mi a fum yn llawn o weithredoedd da; "nid wyf fi yn draws, yn anghyfiawn, yn odinebwr, nac ychwaith fel y Publican truenus hwn." Mi a ymgedwais yn fanol wrth reol-fy nghrefydd, a'm crefydd i yw yr un fanylaf o bob crefydd yn awr mewn bod; yr wyf yn ymprydio, yr wyf yn talu degwm o'r hyn oll a feddwyf. Ië, yr wyf mor barod i fod yn ddyn crefyddol; myfi a fum mor egniol i ymofyn ar ol fy nyledswydd, fel ag y gofynais gan Duw a dyn am ordinhadau barn a chyfiawnder; yr wyf yn hoffi agoshâu at Dduw. Pa beth lai a allaf fi ei gael nâ theyrnas nefoedd a gogoniant.

Yn awr y mae'r Pharisead, fel Haman, yn dywedyd yn ei galon, "I bwy yr ewyllysia'r brenin wneuthur anrhydedd yn fwy nag i mi?" Pa le y mae'r dyn ag sydd yn boddloni Duw fel myfi, ac yn ganlynol, yn ol cyfiawnder a rheswm a ddylai gael ei garu gan Dduw fel myfi? Fel hyn, yn debyg i frawd y mab afradlon, y mae yn dadleu, gan ddywedyd, "Wele cynnifer o flynyddoedd yr ydwyf yn dy wasanaethu di, ac ni throseddais i un amser dy orchymynion." Luc xv. 29. O hardd Pharisead! Ond dos rhagot yn dy araith: Nac fel y Publican hwn.

Ys truan tlawd, medd y Pharisead wrth y Publican, I ba beth yr wyt ti yn dyfod? A wyt ti yn meddwl y gwrendy Duw ar y fath bechadur a thydi? Nid yw Duw yn gwrando pechaduriaid; ond os bydd un dyn yn addoli Duw (fel ag yr wyf fi, fel yr wyf yn diolch fy mod) efe a wrendy arno. Ti fuost ti, o'th ran di, yn wrthryfelwr dros dy holl ddyddiau; y mae yn gâs genyf ddyfod yn agos atat, neu gyffwrdd â'th wisgoedd. Saf ar dy ben dy hun, na neshâ ataf fi, canys santeiddiach ydwyf nâ thi. Esay lxv. 5.

Dal, aros yna, na ddos yn mhellach; ffei, Pharisead, ffei; a wyddost ger bron pwy yr wyt ti yn sefyll, wrth bwy yr wyt yn llefaru, ac o ba ddefnydd y gwnaethpwyd dy araith ffol! Yr wyt yn awr ger bron Duw, yr wyt ti yn llefaru yn awr wrth Dduw, ac am hyny mewn cyfiawnder ac onestrwydd ti a ddylit son am ei gyfiawnder ef, nid dy gyfiawnder dy hun, ac am ei gyfiawnder ef yn unig.

Yr wyf yn sicr na bu gan Abraham, am yr hwn yr wyt ti yn dywedyd mai dy dad yw, erioed mo'r wyneb i wneuthur fel y gwnaethos ti, er y gellir rhyfygu meddwl fod gantho fwy o achos i wneuthur felly nag sydd genyt ti, neu a elli ei gael. Yr oedd gan Abraham le i orfoleddu, ond nid ger bron Duw; ïe, ac fe a'i galwyd yn gyfaill Duw, ac er hyny ni orfoleddai ddim ger bron Duw; eithr yn ymostwng ei hun, yr oedd yn ofni ac yn crynu yntho ei hun pan oedd yn sefyll ger bron Duw, ac yn cyfaddef am dano ei hun ei fod yn llwch ac yn lludw. Gen. xviii. 28—32. Rhuf. vi. 1, 2. Ond wyt ti, fel ag yr wyt wedi llwyr anghofio dy hun, i ti gael dy ffurfio o'r un defnydd, ac yn yr un ddull a dynion eraill, yn sefyll ac yn dadleu dy ddaioni ger bron Duw. Cywilyddia Pharisead. A wyt ti yn meddwl, mai llygaid o gnawd y sydd gan Dduw, neu ei fod ef yn gweled fel ac y mae dyn yn gweled? Onid yw dirgelion dy galon di yn agored iddo ef? A wyt yn meddwl ynot dy hun y gelli di ag ychydig o ffyrdd halogedig, orchuddio dy fur pwdr, yr hwn a ddwbiaist â chlai heb ei dymheru, ac felly guddio'r dom sydd yntho oddiwrth ei olygon: neu y bydd i'r geriau têg, llyfn, fel olew, sydd yn dyfod allan o'th enau di, i wneuthur iddo ef, anghofio mai bedd agored yw dy gêg di, a'th fod oddifewn yn llawn esgyrn meirwon, a phob aflendid? Nid yw dy waith fel hyn yn glanhau y tu allan i'r ddysgl a'r cwppan, a harddu beddau y rhai cyfiawn, ddim yn ngolwg Duw, ond pethau ag sydd yn amlygu mai rhagrithiwr dall ydwyt, am nad wyt yn dal dim sylw ar yr hyn sydd oddifewn, yr hyn sydd eto y peth ffieiddiaf gan Dduw, Am y ffrwyth, Och, pa beth yw ffrwyth y pren, neu pa beth yw ffrydiau'r ffynon? Y mae dy ffynon di wedi ei halogi; ïe, yn halogwr, ac felly yr hyn ag sydd yn dy wneuthur di trwyddot, yn nghyd â'th holl weithredoedd yn aflan yn ngolwg Duw.

Ond Pharisead, pa fodd y mae'r Publican tlawd yn gymmaint brycheuyn yn dy lygad di, fel na's gelli ei ddyoddef, ond rhaid i ti ei gyhuddo ger brawdle Duw; canys lle yr wyt yn dywedyd, nad wyt fel y Publican hwn, yr wyt yn dwyn cyhuddiad, euog-farn, a bil yn ei erbyn. Pa beth a wnaeth? A ddarn-guddiodd ef ryw beth o'th gyfiawnder di, neu a ddarfu iddo ddirgel gyhuddo arnat dy fod yn rhagrithiwr ac yn goel-grefyddol? Mi anturiaf ddywedyd na chyffyrddodd, ac na's gwnaeth yr ys truan tlawd ddim i ti yn y pethau hyn.

Ond pa beth sydd arnat ti Pharisead? A ydyw y Publican tlawd yn dy ofidio di? A ydyw yn cyffwrdd â thi â'i ddillad bryntion, neu a ydyw yn dy niweidio di â'i anadl drewllyd? A ydyw ei ddull yn sefyll fel dyn wedi gondemnio yn dy dramgwyddo di? Gwir yw, y mae yn sefyll yn awr â'i law wedi ei chyfodi i fynu ger bron brawdle Duw, y mae yn dadleu ei fod yn euog o'r hyn oll a ddywedir yn ei erbyn.

Ni ddichon ymysgog, ymareithio, ac ymwrio fel yr wyt ti yn gwneuthur. Ond paham yr wyt yn tramgwyddo wrth hyn? O, y mae efe wedi bod yn ddyn aflan! ac myfi a fum yn ddyn cyfiawn, meddi di. Wele, Pharisead, wele, ni osodir dim o'i aflendid ef arnat ti, os na ddewisaist yr un o'i ffyrdd. Ond gan dy fod eto am fy nghuro i lawr, trwy ddadleu dy fod di'n gyfiawn, dangos i mi yn awr, ïe, yn awr, tra yr wyt yn sefyll ger bron Duw gydâ'r Publican, rai, er na byddont ond ychydig ïe ond ychydig iawn, o ffrwythau dy gyfiawnder di. Gad lonydd i'r Publican, gan ei fod yn ymbil am ei fywyd ger bron Duw. Ac os na's gelli ei adael yn llonydd, eto paid a dywedyd yn ei erbyn, canys nid yw hyny ond profi dy fod di yn cofio y drwg a wnaeth y dyn i ti; ïe, a'th fod yn ddig wrtho am hyny hefyd, a hyny tra yr ydych eich dau yn sefyll ger bron Duw.

Ond Pharisead, y mae'r dyn cyfiawn yn ddyn trugarog, a thra y mae efe yn sefyll i weddio, y mae yn maddeu; ïe, ac hefyd yn llefain ar Dduw am iddo yntef

faddeu hefyd. Marc xi. 25, 26. Act. vii. 60. Gan hyny hyd yma ni ddangosaist ddim o ffrwythau'th gyfiawnder. Pharisead, fe ddysgasai cyfiawnder dydi i garu y Publican hwn, ond yr wyt ti yn dangos dy fod yn ei gasâu. Y mae cariad yn cuddio lluaws o bechodau; ond y mae casineb ac anffyddlondeb yn datguddio dirgelion.

Pharisead, dylasit gofio dy frawd hwn yn awr yn nydd ei gyfyngder, a thi a ddylasit ddangos fod genyt dosturi tu ag at dy frawd yn ei gyflwr truenus hwn; ond tydi, fel y dyn balch, creulon, ac uchel-drem, a gymmeraist y fantais ar dy gymmydog, a hyny pan yr oedd rhwng creigiau cyfyngder, ac yn sefyll ar binacl anhawsdra, rhwng nefoedd ac uffern, ac a wnaethost yr hyn a ellaist, yr hyn oedd ar dy law di, i'w daflu ef i lawr i'r dyfnder, gan ddywedyd, "Nid wyf fi fel y Publican hwn."

Pa fwy creulondeb a ddichon fod; pa ddigter mwy cynddeiriog, a pha lid a chasineb mwy damniol ac anghymmodlon, nâ dilyn dyn, neu ei gymmeryd, pan y mae yn ceisio trugaredd ar ddwylaw Duw, a gosod achwyniad i mewn yn ei erbyn rhag iddo fwynhau, trwy waeddi yn ei erbyn mai pechadur yw efe? Nid yw Athraw cyfiawnder yn gwneuthur felly: "Na thybiwch y cyhuddaf fi chwi wrth y Tad;" nid yw ysgolheigion cyfiawnder yn gwneuthur felly. "A minneu pan glafychent hwy" (sef fy ngelynion, ac yr oedd y Publican hwn wedi clafychu o glefyd ffyrnig iawn) "oeddwn â'm gwisg o sachlen, gostyngais fy enaid ag ympryd, a'm gweddi," (sef yr hon a wnaethum drostynt hwy) "a ddychwelodd i'm mynwes fy hun. Ymddygais fel pe buasai yn gyfaill neu yn frawd i mi. Ymostyngais mewn galarwisg fel un yn galaru am ei fam." Ioan v. 45. Salm xxxv. 13, 14.

Pharisead, a weli di yma pa mor wrthwyneb wyt i ddynion cyfiawn? Yn awr, pa le y cawn allan un i'w gymharu â thydi, eithr trwy ei gael ef yr hwn a elwir y ddraig a'r diafol; canys efe sydd yn cyhuddo'r brodyr ger bron Duw. Zec. iii. Dat. xii.

"Nid wyf fi fel y Publican hwn;" fe ddylasai gweddeidd-dra orchymyn i ti gnoi dy dafod mewn perthynas i hyn. Pa beth a allasai'r angylion feddwl, ond bod ymddial yn awr yn dy galon, ac i ti ddyfod i fynu i'r deml i ganmol dy hunan a chyhuddo'th gymmydog, yn hytrach nag i weddio ar Dduw'r nefoedd; canys pa ddeisyfiad yn dy holl weddi sydd yn rhoi yr amnaid leiaf fod genyt wydodaeth o Dduw neu o honot dy hun? Ië, pa un math o ddeisyfiad y sydd yn dy araith wag-ymffrostus o'r dechreu i'r diwedd? Cyhuddiad yn unig wedi ei dynnu i fynu yn erbyn un digymmorth a gofidus; yn erbyn dyn tlawd, am mai pechadur yw; cyhuddiad, meddaf, genyt ti yn ei erbyn ef, er na's gelli brofi dy fod di dy hun yn ddyn cyfiawn: ond tyred at brofiadau o gyfiawnder, ac yr wyt titheu hefyd yn ddiffygiol yno. Ië, beth os yw dy wisg yn well nâ'i eiddo ef, fe all dy groen fod yn gwbl mor ddued; ïe, beth os yw dy groen yn wynach nâ'i eiddo ef, fe all dy galon fod eto yn llawer duach. Ië, y mae felly, canys y mae'r gwirionedd wedi ei ddywedyd; "O'r tu mewn y maent yn llawn o drawsedd ac anghymmedroldeb." Mat. xxiii. 25.

Pharisead, y mae troseddiadau yn erbyn yr ail lech, ac fe gaiff y Publican fod yn euog o honynt: ond y mae hefyd bechodau yn erbyn y llech gyntaf, ac yr wyt ti dy hun yn eug o'r rhei'ny.

Fe ddarfu i'r Publican, trwy fod yn draws, yn anghyfiawn, ac yn odinebwr, wneuthur yn amlwg nad oedd efe yn caru ei gymmodog; ac yr wyt titheu, trwy wneuthur Duw, Iachawdwr, a Gwaredwr o'th gyfiawnder halogedig, yn ei wneuthur yn amlwg, nad wyt titheu ddim yn caru dy Dduw; canys, fel ag y mae yr hwn sydd yn cymmeryd neu yn tynu oddiwrth ei gymmydog yr hyn sydd eiddo ei

gymmydog, yn pechu yn erbyn ei gymmydog; felly y mae'r hwn sydd yn cymmeryd neu yn tynu oddiwrth Dduw, yn pechu yn erbyn Duw.

Yn awr, gan hyny, er na's chwareuaist, fel ag yr wyt ti yn meddwl, ar y chwareuyddiaeth isel, o dynu oddiwrth dy gymmydog, eto ti a chwareuaist ar y chwareuyddiaeth uchel hyny i dynu oddiwrth dy Dduw, canys ti a yspeiliaist, Dduw o ogoniant iachadwriaeth; ïe, a gyhoeddaist, mewn perthynas i hyny, nad oes dim ymddiried i'w roi yntho ef. "Wele'r gwr ni osododd Dduw yn gadernid iddo; eithr ymddiriedodd yn lluosogrwydd ei olud, ac a ymnerthodd yn ei ddrygioni neu ei olud." Salm lii. 7.

Pa beth ynte yw meddwl dy dalp mawr hwn o hunan gyfiawnder a ddygaist gydâ thi i'r deml? Ië, beth ynte yw meddwl dy waith yn canmol dy hun o blegid hwnw, a'th weddi mor bendant y gelli di er ei fwyn ef gael derbyniad gydâ Duw.

Beth y mae hyn oll yn arwyddocâu, meddaf, ond diffyg ffydd yn Nuw? a'th fod di yn cyfrif iachawdwriaeth yn sicrach yn dy gyfiawnder di nag yn nghyfiawnder Duw; a bod dy gariad di at, a'th ofal am, dy enaid dy hun yn llawer mwy, ac felly yn llawer gwell, nâ gofal a chariad Duw. Ai dyma beth yw cadw'r llech gyntaf; ïe, y gangen gyntaf o'r llech honno, yr hon sydd yn dywedyd, "Câr yr Arglwydd dy Dduw?" Canys ni ddichon y gwaith hwn o'th eiddo di gyd sefyll â chariad at Dduw. Pa fodd y gall y dyn hwn ddywedyd, Yr wyf fi yn caru Duw, yr hwn sydd yn methu o wraidd ei galon ymddiried yn Nuw? Neu pa fodd y gall y dyn hwnw ddywedyd, Yr wyf yn dymuno gogoneddu Duw, ag sydd o wraidd ei galon yn pallu anturio sefyll neu syrthio wrth drugaredd Duw?

Gadewch i wr wahodd holl dlodion y plwyf i'w dŷ i giniaw, a danfon hefyd gydâ geneu ei was, gan ddywedyd, "Y mae fy Arglwydd wedi lladd ei basgedigion, wedi arlwyo ei fwrdd, a pharotoi ei wîn, ac nid oes dim eisiau, dewch i'r wledd." Oni chyfrifid yn anfri uchel, yn ddirmyg mawr, ac yn llawer o anhyder yn naioni gwr y tŷ, os cymmerai rai o'r gwahoddedigion hyny gydâ hwynt o'u trysor tlawd eu hunain, rai arofenau llwydion o'u heiddo eu hunain, a'u gosod ar eu dysglau ar y bwrdd ger bron Arglwydd y wledd, a'r lleill o'i wahoddedigion, o herwydd ofn nad oedd wedi darparu digonedd i'r rhei'ny a wahoddasai i'r giniaw a wnaethai.

Clyw Pharisead, dyna fel y mae, fe a'th alwyd i wledd, sef i wledd gras Duw, ac fe darawodd ynot chwant i fyned: ond wele, ni chredaist ti ddim y gwnai efe wledd ar ei draul ei hun i ti, pan y deuit, o herwydd paham, ti a ddygaist hen rofenau brith-lwydion gydâ thi, ac a'u gosodaist ar dy ddysgl dy hun, ar ei fwrdd ef, yn ngwydd yr angylion a'r Publican tlawd hwn; ïe, ac yn llawn o ymffrost gydâ'r cwbl a ddywedaist, "O! Dduw, yr wyf yn diolch i ti, nad wyf fi fel y mae dynion eraill." Nid wyf fi yn ddyn mor anghenus. Luc xviii. 11. "Nid wyf fi ddim yn draws, yn anghyfiawn, yn odinebwr, nac fel y Publican hwn chwaith." Yr wyf yn wir wedi dyfod i'th wledd o ran gweddeidd-dra, ni's gallaswn lai; ond am dy ddanteithion, nid oes arnaf fi ddim o'u heisiau, y mae genyf ddigonedd o'r cyfryw bethau o'm heiddo fy hun. Luc xviii. 9. Yr wyf yn diolch i ti gan hyny am gynyg dy gymmwynas; ond nid wyf fi fel y rhei'ny ag sydd mewn eisiau o hono, "nac fel y Publican hwn ychwaith." Ac fel hyn, trwy ymborthi ar dy fwyd dy hun, neu gymysgu dy fwyd dy hun yn nghyd â'i eiddo ef, yr wyt yn dirmygu Duw, yr wyt yn ei gyfrif ef yn annigonol neu yn anffyddlon; hyny yw, naill ai yn un ag sydd heb ddigon gantho, neu od oes, ni rydd 'mo hono i'r tlawd a'r anghenus, ac am hyny, mewn rhith noeth yr wyt ti yn myned i'w wledd ef, ac eto yr wyt yn ymddiriedd i'th eiddo dy hun, ac i hwnw yn unig.

Dyma dorri y llech gyntaf; ac felly gwneuthur dy hun yn bechadur o'r radd uchaf: canys y mae pechodau yn erbyn y llech gyntaf o waeth natur nâ'r pechodau yn erbyn yr ail. Gwir yw, y mae y pechodau yn erbyn yr ail lech yn bechodau yn erbyn Duw, am eu bod yn bechodau yn erbyn gorchymynion Duw: ond y mae'r pechodau yn erbyn y llech gyntaf, yn bechodau, nid yn unig yn erbyn y gorchymyn, eithr yn erbyn cariad, gallu, sancteiddrwydd, a ffyddlondeb Duw: A thyma fel y mae dy gyflwr di yn bod; ni wnaethost, yr wyt yn dywedyd na's gwnaethost niwed i'th gymmydog; ond beth am hyny, os gwaradwyddaist dy Wneuthurwr.

Pharisead, mi a wnaf yn sicr i ti, yr wyt oddi ar y cyfrwy; nid yw dy gyflwr di yn dda, y mae dy gyfiawnder di mor belled oddiwrth wneuthur dim daioni, fel ag y mae yn dy wneuthur yn fwy pechadur, am ei fod yn taro yn fwy uniongyrch yn erbyn trugaredd, cariad, gras, a daioni Duw, nag y mae pechodau pechaduriaid eraill, o ran gradd yn gwneuthur.

Ac fel ag y maent yn atgas a ffiaidd yn ngolwg Duw (fel ag y mae rhaid iddynt fod, os gwir yw'r hyn a ddywedwyd, fel ag y mae yn wir) felly y maent yn fwy peryglus i fywyd ac enaid dyn: am eu bod yn ymddangos yn wastadol iddo ef yn yr hwn y maent yn trigo, ac i'r hwn sydd yn ymddiried ynthynt, nid yn bechodau a chamweddau, eithr yn rhinweddau a phethau rhagorol. Nid yn bethau ag sydd yn gosod dyn yn mhellach oddiwrth, ond yn bethau ag sydd yn dwyn dyn yn nesach at Dduw, nag y mae, neu y gall y rhei'ny ag sydd hebddynt fod.

Dyma gan hyny gyflwr peryglus y rhei'ny ag sydd yn myned oddiamgylch i osod i fynu eu cyfiawnder eu hun, fel nad ydynt, ac ni's gallasent ychwaith, tra maent yn gwneuthur felly ymostwng i gyfiawnder Duw. Rhuf. x. 3. Y mae yn llawer hawsach perswadio pechadur tlawd, yr hwn sydd â'i fywyd yn halogedig, a'i bechodau wedi eu hysgryfenu yn ei dalcen, i ymostwng i gyfiawnder Duw (hyny yw, i'r cyfiawnder ag sydd o ddarpariad a rhoddiad Duw) nâ pherswadio dyn hunan gyfiawn i wneuthur hyny; canys fe argyhoeddir dyn halogedig yn gynt o'r angenrheidrwydd o gyfiawnder i'w acbub ef: am nad oes gantho un o'i eiddo ei hun, y mae yn derbyn ac yn ymostwng i'r cymmorth a'r iachawdwriaeth ag sydd yn nghyfiawnder ac ufudd-dod un arall.

Ac ar y cyfrif hwn y mae Crist yn dywedyd, "Yr â Publicanod a phuteiniaid i mewn i deyrnas nefoedd o flaen yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid." Mat. xxi. 31. Pharisead tlawd, yn mha fath golled yr wyt! Yr wyt nid yn unig yn bechadur, ond yn bechadur o'r radd uwchaf. Nid yn bechadur o herwydd y cyfryw bechodau (o herwydd y cyfryw bechodau yn bennaf) ac y mae'r ail lech yn amlygu; ond yn bechadur, yn bennaf, yn y ffordd honno, na's breuddwydiodd un dyn hunan-gyfiawn erioed am dani. Canys pan y clywo y dyn cyfiawn, neu'r Pharisead, mai pechadur yw efe, y mae yn gwrthateb, "Nid wyf fi fel y mae dynion eraill."

Ac o herwydd mai trosedd yn erbyn yr ail lech yw'r desgrifiad cyffredin a mwyaf arferol o bechod, y mae yn buan ateb drachefn, "Nid wyf fi fel y Publican hwn;" ac felly y mae yn ymguddio dan ei ymroadau cloffion, bratiog, a chlytiau rhanol o gyfiawnder moesol a gwladol. O herwydd paham, pan y clywo fod ei gyfiawnder ef yn cael ei ddyrmygu, ei ddibriso, a'i gyfrif yn ddim, y mae yn ymddigio, yn ymffromi, ac fe a laddai'r dyn ag sydd yn anmharchu ac yn diystyru ei gyfiawnder daionus ef yn y cyfryw fodd; ond y mae Crist a'r pregethwyr gwir efengylaidd yn myned rhagddynt o hyd, ac yn condemnio ei holl gyfiawnder ef fel cadach misglwyfus, yn ffieidd-dra gan Dduw, ac yn ddim ond colled a thom.

Yn awr, nid yw cadach misglwyfus, pethau ffiaidd, a thom, yn ddefnydd

gymmwys i wneuthur gwisg o honynt i'w gwisgo, pan wyf yn dyfod at Dduw am fywyd, llai o lawer pan wyf yn dyfod ato i'w wneuthur ef yn Gyfaill i mi, yn Ddadleuwr, yn Gyfryngwr, ac yn Llafarwr, pan wyf yn sefyll rhwng nef ac uffern, (Esay lxiv. 5. Luc xvi. 15. Phil. iii. 6—8), i ddadleu drosof fel y byddwyf cadwedig.

Ysgatfydd y beia rhai arnaf, gan fy nghyfrif yn deilwng o hyny, am nad wyf yn gwahaniaethu rhwng defnydd a dull, neu drefn cyfiawnder y Pharisead. A chondemniant fi o hyd, am sefyll o blaid y gyfraith sanctaidd, yr hon nid yw naill na defnydd na dull cyfiawnder y Pharisead, eithr yn hytrach y rheolau (os yw am fyw wrthynt) y dylai fyw yn berffaith yn eu hol yn mhob peth a wnelo. Ac yr wyf yn dywedyd drachefn, Fod y cwbl o gyfiawnder y Pharisead yn bechadurus, er mai nid gydâ dynion, nac i ddynion, eto gydâ, a cher bron Duw'r nefoedd. Meddaf, y mae yn bechadurus ac yn ffiaidd yntho ei hun, ac hefyd yn ei effeithiau.

*Yn gyntaf.* Yntho ei hun; canys y mae yn anmherffaith, yn ddiffygiol, ac yn fyr o ddyfod i fyny at y rheol ag sydd yn gofyn cyfiawnder, a chyfatebol â pha un y dylai pob gweithred fod: canys y mae byrdra yn hyn o beth, hyd yn oed pob byrdra yn y dyledswyddau hyn yn bechod ac yn wendid pechadurus; o herwydd paham y mae y felldith yn cymmeryd gafael ar y dyn am ddyfod yn fyr, ond ni allasai wneuthur hyny; pe na buasai ei fyrdra yn bechod: "Melldigedig yw pob un nad yw yn gwneuthur, ac yn aros yn yr holl bethau a 'sgrifenwyd yn llyfr y ddeddf." Deut. xxvii. 26. Gal. iii. 10.

*Yn ail.* Y mae yn bechadurus, am ei fod yn cael ei weithredu gan gnawd pechadurus; canys gwaith y cnawd yw pob cyfiawnder deddfol. Rhuf. iv. 1. Phil. iii. 3—8.

Meddaf, gwaith y cnawd; ïe, y cnawd hwnw, hefyd, ag sydd yn gwneuthur y pethau ffieiddiaf. Canys nid yw'r cnawd ond un, er fod ei weithrediadau yn amrywiol: weithiau mewn ffordd anifeiliaidd a dieflig iawn yn gwneuthur i'r enaid ymdrochi yn y dom.

Ond nid dyma holl weithredoedd y cnawd; fe amcana'r cnawd weithiau fod yn gyfiawn, ac fe a ymesyd yn nghylch gweithredoedd ag a fyddent, pe baent yn berffaith, yn ogoneddus ac yn hardd iawn i'w gweled. Ond gan nad yw'r ddeddf ond geiriau yn gorchymyn, ac yn peidio a rhoddi dim nerth i'r dyn sydd yn ceisio ei chyflawni, am fod y cnawd yn wan, ac na's gall gyflawni hyny o hono ei hun, y mae'r gwaith gogoneddus hwn o eiddo'r cnawd yn methu.

Ond, meddaf, fel ag mai gwaith y cnawd yw, ni's gall fod yn dda, yn gymmaint a bod y llaw y sydd yn ei weithio wedi cael ei halogi gan bechod: canys mewn dyn da, dyn da yn ysbrydol; hyny yw, yn ei gnawd nid oes dim da yn trigo, ond yn ganlynol yr hyn sydd ddrwg; pa fodd gan hyny y dichon cnawd y dyn cnawdol, y dyn di-ras (a'r cyfryw un yw pob Pharisead a phob dyn hunan gyfiawn yn y byd) wneuthur, er iddo ymgyssylltu â'r ddeddf, a chyfiawn ddeddf Duw, yr hyn sydd dda yn ei olwg ef?

Os meddylia neb fy mod yn gwasgu yn rhy galed, am fy mod yn galw cyfiawnder dyn yr hwn sydd o'r ddeddf, o gyfiawn ddeddf Duw, yn gnawd, ystyrient yr hyn a ganlyn; sef, Er y dywedir fod dyn trwy bechod yn farw mewn pechod a chamweddau, eto nid mor farw, fel na's gall weithredu yn wastad yn ei elfen ei hun. Hyny yw, gwneuthur a dewis gwneuthur, naill ai'r hyn a gyfrifir gan bob dyn yn wael, neu'r hyn a gyfrifir gan rai yn dda, er nad yw, ac ni's yr holl fyd ei wneuthur ef yn gymmwys i wneuthur un peth a ddichon foddloni ei Dduw.

Fe ddichon dyn wrth natur er mor farw yw, ddymuno, a hyny gydâg ewyllys ei

gnawd, ei iachawdwiaeth ei hun. Fe ddichon dyn wrth natur, a hyny trwy nerth ei gnawd; ganlyn ar ol, ac amcanu dwyn oddiamgylch, ei iachawdwriaeth ei hun; ond eto y mae yn ei hewyllysio, ac yn canlyn ar ei hol, nid yn ffordd Duw, ond yn ei ffordd ei hun. Nid trwy ffydd yn Nghrist, ond trwy ddeddf Moses. Gwel Rhuf. ix. 16. adn 31. a pen. x. 3. 7.

O herwydd paham, nid cyfeiliornad yw dywedyd, fod gan ddyn naturiol EWYLLYS a GALLU i ddilyn ei ewyllys ei hun, a hyny mewn perthynas i'w iachawdwriaeth ei hun. Ond cyfeiliornad damnedig yw dywedyd fod gantho ewyllys a gallu i ymgais ar ei hol, a hyny yn ffordd Duw. Canys os felly, y mae yn rhaid i ni ddal mai pethau naturiol yw dirgeledigaethau'r efenyl; canys fe ddichon dynion naturiol, neu ddynion wrth natur, eu hamgyffred a'u dyall hwynt; ïe, a gwybod mai hwynt-hwy yw'r unig foddion, trwy pa rai y mae iddynt fwynhau bywyd tragywyddol: canys y mae yn rhaid i'r deall weithredu o flaen yr ewyllys: ïe, y mae yn rhaid i ddyn hoffi'r ffordd i fywyd trwy Iesu Grist, cyn y byddo i'w feddwl fudo, cyffro, neu ysgog yn y ffordd honno: "Eithr y dyn anianol nid yw yn derbyn y pethau sydd o Ysbryd Duw (o'r efengyl), canys ffolineb ydynt gantho ef; ac ni's gall eu gwybod, oblegid yn ysbrydol y bernir hwynt."

Nid yw yn derbyn y pethau hyn; hyny yw, y mae ei feddwl a'i ewyllys yn wrthwyneb iddynt, canys y mae yn eu cyfrif hwynt yn ffolineb; ac ni all holl ddoethineb y byd wneuthur i'w ewyllys ef gyd synio â hwynt, am nad yw yn eu dyall.

Y mae natur yn canfod y gyfraith, yn nghyd â'i chyfiawnder; ïe, y mae yn ei chanfod ac yn ei hoffi; hyny yw, mai ei chyfiawnder yw'r ffordd oreu, a'r unig ffordd i fywyd, ac am hyny y mae'r ewyllys naturiol a nerth y cnawd, fel ag y gwelwch yma yn y Pharisead, yn ymysgog yn eu ffordd tu a'r bywyd tragywyddol. 1 Cor. ii. 24

Gan hyny gwaith y cnawd yw cyfiawnder y ddeddf, gwaith cnawd pechadurus, ac am hyny y mae yn rhaid ei fod fel sorod a thom, ac yn ffieidd-dra i ateb y diben y darfu i'r dyn hwn ei ddwyn a'i gyflwyno yn y deml ger bron Duw.

Ac nid y Pharisead yn unig sydd yn cael ei ddyrysu yn y drygioni hwn; y mae llawer o eneidiau yn cael eu gwenieithio gan y gweithredoedd hyn o eiddo'r cnawd, fel ag y cafodd y Pharisead, i feddwl fod ei cyflwr yn dda pan nad oes dim yntho. Y peth mwyaf ag y mae eu troedigaeth hwy yn ei gyraedd, yw, fod y Publican yn dyfod yn Pharisead; y pechadur cyhoeddus yn dyfod yn ddyn hunangyfiawn. Fe gafodd ddigon ar ystlys ddu'r cnawd; gan hyny yn awr, fe a ymgysura ag ystlys wen y cnawd. Ac yn awr, y mae yn rhaid mai dyn drwg iawn yw yr hwn a gwestiyna nad yw y cyfryw ddyn mewn cyflwr da. Y mae efe, yr hwn ag oedd yn feddwyn, yn dyngwr, yn ddyn aflan, yn dorwr sabbath, yn gelwyddwr, a'r cyffelyb, wedi cael ei ddiwygio; yn caru cyfiawnder, yn cadw'n fanol, yn gwneuthur, ac yn ymfasnachu yn fawr yn ffurfiau'r ddeddf, ac yn gyd ymdeithiwr gydâ dynion o'r un gynneddf. Ac yn awr y mae wedi dyfod yn groch waeddwr mawr yn erbyn pechod a phechaduriaid, uwchlaw edrych ar y rhei'ny a fu unwaith yn gyfeillion iddo, gan ddywedyd, "Nid wyf fi fel y Publican hwn."

Y mae troi gan hyny oddiwrth bechod at gyfiawnder dyn; ïe, a llawenhau yn yr hyder fod dy gyflwr yn well nâ chyflwr y Publican: fy meddwl yw, gwell yn ngolwg cyfiawnder Duw, ac yn marn y gyfraith; a'r gyfraith yn eu dal er hyny yn y cnawd, nid yn yr Ysbryd; nid yn Nghrist, eithr dan y gyfraith; nid mewn ystad o iachawdwiaeth, ond mewn ystad o ddamnedigaeth, yn beth cyffredin yn mhlith dynion: canys hwynt-hwy, a hwynt-hwy yn unig, yw'r iawn ddynion ag "sydd yn addoli Duw yn yr Ysbryd, ac yn gorfoleddu yn Nghrist Iesu, ac nid yn

ymddiried yn y cnawd." Lle wrth y cnawd, nid oes i ni feddwl y troseddiadau cywilyddus yn erbyn y gyfraith (er eu bod hwy hefyd yn cael eu galw yn weithredoedd y cnawd, Gal. v. 19), canys nid ydynt hwy yn rhoi dim achosion i ddynion i ymddiried yn Nuw. Ond dyna'r peth a feddylir gan Paul, lle mae yn dywedyd, nad oedd yn ymddiried yn y cnawd, er y gallasai, fel y dywedodd, "Er bod genyf achos i ymddiried, ïe, yn y cnawd. Os yw neb arall," medd efe, "yn tybied y gall ymddiried yn y cnawd, myfi yn hytrach." Phil. iii. 3, 4. Ac yna y mae yn ail-adrodd deu ryw fraint oedd gantho yn ol y cnawd.

*Yn gyntaf.* Ei fod o had Abraham, ac o lwyth Benjamin, yn Hebrëwr o'r Hebrëaid, &c.

*Yn ail.* Ei fod wedi ymgyssylltu â'r dynion manylaf o'r grefydd honno, y rhai oedd y cyfryw yn ol y cnawd; hyny yw, yr oedd yn Pharisead, ac yn fab i Pharisead, gantho lawer o zel gnawdol dros Dduw, ac "yn ol y cyfiawnder sydd o'r ddeddf yn ddiargyoedd." Phil. iii. 3, 5, 6.

Ond meddaf o hyd, nid oes dim ond cnawd, breintiau cnawdol, a chyfiawnder cnawdol, ac yn ganlynol, hyder ac ymddiried cnawdol, am y nefoedd. Y mae hyn yn eglur pan agorwyd llygaid y dyn, yr oedd yn cyfryf pob peth yn golled ac yn dom, fel y cefid ef yn Nghrist, heb ei gyfiawnder ei hun, yr hwn sydd o'r gyfraith, ond yr hwn sydd trwy ffydd Crist, sef y cyfiawnder sydd o Dduw trwy ffydd.

Ac y mae hyn yn fy arwain at beth arall, a hyny yw, i ddywedyd i ti, O Pharisead dall, na's gelli fod mewn cyflwr diogel, am fod dy ymddiried yn y cnawd, hyny yw, yn nghyfiawnder y ddeddf. "Canys pob cnawd sydd wellt, a'i holl ogoniant fel blodeuyn y maes;" ac nid yw'r cnawd, yr hwn sydd a'i ogoniant mor waned a glaswelltyn, yr hwn y sydd heddyw, ac a deflir y foru i'r ffwrn, ond peth gwan i ddyn i anturio iachawdwriaeth dragywyddol arno. O herwydd paham, fel yr amneidiais hefyd o'r blaen, yr oedd y duwiol ddoeth yn ofni eu cael yn eu cyfiawnder eu hunan, fy meddwl yw, eu cyfiawnder personol eu hunan, er fod hwnw yn llawer gwell nag y dichon cyfiawnder dyn cnawdol fod: canys y mae cyfiawnder dyn duwiol yn cael ei weithredu trwy Ysbryd a ffydd Crist; ond y mae cyfiawnder y dyn annuwiol o'r cnawd ac o'r ddeddf. Eto, meddaf, y mae ofn ar y dyn duwiol hwn i sefyll yn ei gyfiawnder ei hun ger bron brawdle Duw, fel ag y mae yn eglur wrth y pethau canlynol:

*Yn gyntaf.* Y mae yn gweled pechod yn ei gyfiawnder, canys dyna'r peth y mae'r prophwyd yn ei feddwl, pan y mae yn dywedyd, "Megis bratiau budron yw ein holl gyfiawnderau." Esay lxiv. 6. Eithr nid oes dim yn gwneuthur cyfiawnder dyn yn aflan ond pechod. Nid cyflwr tlawd, isel, gwael ac afiachus dyn, nac eto ei waith yn cael ei gasâu gan ddiafliaid, ei erlid gan ddynion, ei ddryllio gan angenrheidiau, gwaradwyddiadau, cyfyngderau, neu unrhyw drallodau o'r natur hyn, a ddichon wneuthur cyfiawnder dyn da yn aflan; nid oes dim ond pechod a'i gwna, ac fe all hwnw, ac y mae yn ei wneuthur, fe a'i gwnaeth, ac fe a'i gwna. Ac ni all un dyn, bydded y sawl a fyddo, ac er iddo wilio, gweddio, ymdrechu, ac ymwadu ag ef ei hun, neu ddodi ei gorph dan y gosp a'r caledi mwyaf a allo; ïe, a chael dyrchafu ei ysbryd a'i enaid i'r pinacl uwchaf o sancteiddrwydd a meddyl-fryd nefol, ac felly cael ei lygredigaethau i'r radd isaf o farweddiad, byth ei wneuthur yn y cyfryw fodd fel na's b'o pechod gydâg ef yn y goreu o'i gyfiawnderau; gyd ag ef, meddaf, i lygru a halogi ei ddyledswyddau, a gwneuthur ei gyfiawnder yn frith a brycheulyd, aflan a halogedig.

Mi a roddaf i chwi ddau neu driio esamplau am hyn.

1. Yr oedd Nehemiah yn wr (yn ei ddydd) ag oedd yn wresog, yn wresog iawn dros Dduw, dros dŷ Dduw, dros ei bobl, a thros ffyrdd Duw, ac fe a barhaodd felly, a hyny o'r dechreu i'r diwedd, fel ag y gall y rhei'ny weled a wylo yn dda ddarllen hanes ei weithredoedd; eto pan y daeth i ymdrin yn ddifrifol â Duw yn nghylch ei ddyledswyddau, y mae yn ymwrthod sefyll wrthynt: gwir yw, y mae yn eu coffau wrth Dduw, ond y mae yn cyfaddef fod anmherffeithrwydd ynthynt, ac yn gweddio ar Dduw, "Na ddilea fy ngharedigrwydd a wnaethum i dŷ fy Nuw, ac i'w wiliadwriaethau." A thrachefn, "Am hyn hefyd" (gweithred dda arall), "cofia fi fy Nuw, ac arbed fi yn ol lluaws dy drugaredd; a chofia fi. O fy Nuw, er daioni." Neh. xiii.

Nid wyf yn meddwl ei fod trwy y gweddiau hyn yn dadleu am dderbyniad i'w berson, o ran cyfiawnhad oddiwrth felldith y ddeddf (fel ag y mae'r Pharisead tlawd hwn yn gwneuthur) ond ar i Dduw gymmeradwyo ei wasanaeth fel ag yr oedd efe yn fab, a pheidio nacâu gwobrwy o ras iddo am yr hyn a wnaeth, gan ei fod wedi datgan yn ei destament, y byddai iddo wobrwyo llafurus gariad ei saint â thragywyddol bwys gogoniant; ac am hyny y mae yn gweddio, ar i Dduw beidio a dileu ei weithredoedd da ef, eithr ei gofio er daioni, yn ol mawredd ei drugaredd.

2. Yr ail esampl yw Dafydd, lle mae yn dywedyd, "Na ddos i farn â'th was o herwydd ni chyfiawnheir neb byw yn dy olwg ti." Salm cxliii. 2. Fel yr amneidiais o'r blaen, fe ddywedir fod "Dafydd yn wr yn ol calon Duw" (Act. xiii.), fel ag y mae yma trwy'r Ysbryd yn ei addef yn was iddo; eto gwelwch fel y mae Dafydd yn ymostwng, fel y mae yn tynu yn ol, fel y mae yn gweddio ac yn ymbilian, ar i Dduw beidio gymmaint a myned i'r farn ag ef. Arglwydd, medd efe, os dygi fi i'r farn, fe ddarfydd am danaf, o herwydd fe a'm condemnir; canys ni ellir fy nghyfiawnhau yn dy olwg; hyny yw, trwy fy ngweithredoedd fy hun. Arglwydd, ar ddechreuad dy waith yn ymdrin â mi, trwy'r ddeddf a'm gweithredoedd yr wyf yn marw, am hyn na ddos gymmaint ag i'r farn â mi, O Arglwydd. Ac nid fy nghyflwr i yn unig yw hwn, eithr cyflwr yr holl fyd; "O herwydd ni chyfiawnheir neb byw yn dy olwg di."

Y trydydd esampl yw y penderfyniad cyffredinol y mae'r apostol Paul yn ei wneuthur, "Ond ni chyfiawnheir neb trwy'r ddeddf yn ngolwg Duw, eglur yw, o herwydd y cyfiawn a fydd byw trwy ffydd." Trwy y dywediad hwn o eiddo Paul, y mae'r peth yn amlwg, fel ag y mae yn cyfeiro at ymadrodd y prophwyd Habaccuc (Hab. ii. 2), felly y mae yn cyfeirio at yr ymadrodd hyn, ïe, ac at gyfiawnder personol Dafydd hefyd. Ni chyfiawnheir neb, medd efe, trwy'r ddeddf yn ngolwg Duw; na wneir, neb cyfiawn, neb sanctaidd, nid y dyn mwyaf manol a mwyaf cyfiawn. Ond paham? paham? "O herwydd y cyfiawn a fydd byw trwy ffydd."

Y mae yn rhaid i'r dyn cyfiawn gan hyny farw, oni bydd gantho ffydd mewn rhyw gyfiawnder, heb yr hwn sydd o'r ddeddf, a elwir ei gyfiawnder ei hun: meddaf, y mae yn rhaid iddo farw, onid oes gantho ryw gyfiawnder arall, heb ei eiddo ei hun trwy'r ddeddf. Y mae Paul hefyd yn cyfaddef hyn am dano ei hun: "Ni wn i," medd efe, "ddim arnaf fy hun," cyn troedigaeth na chwedi troedigaeth; hyny yw, ni wyddwn ddim i mi wneuthur dim yn erbyn y gyfraith, neu yn erbyn fy nghydwybod: canys yr oeddwn mewn perthynas i'r cyfiawnder sydd o'r ddeddf yn ddiargyoedd. Hefyd, wedi fy nychweliad, ni wn ddim o honof fy hun: "Canys mi a wasanaethais Dduw mewn pob cydwybod dda hyd y dydd heddyw."

Ymadrodd mawr, bydded hyspys i chwi, wele, ond eto yn hyn ni'm cyfiawnhawyd. Act. xxiii. 1. 1 Cor. iv. 4. Ac ni feiddiaf fi anturio iach wdwriaeth dragywyddol

fy enaid ar fy nghyfiawnder fy hun, "Canys yr Arglwydd yw yr hwn sydd i'm barnu i." Hyny yw, er na's gallaf fi, o herwydd, dywyllni fy ngolwg, weled anmherffeithrwydd fy nghyfiawnder fy hun; eto fe all, ac fe fydd i'r Arglwydd, yr hwn yw fy Marnwr a cher bron brawdle yr hwn y bydd yn rhaid i mi ar fyrder sefyll, ei weled; ac os ceir yn ei olwg ef ond un brycheuyn yn fy nghyfiawnder, y mae yn rhaid i mi, os dadleu fy nghyfiawnder fy hun a wnaf, syrthio yn dragywydd am yr un brycheuyn hyny.

*Yn ail.* Fod y goreu o ddynion yn ofni sefyll ger bron brawdle Duw, i'w barnu wrth y ddeddf, o ran bywyd a marwolaeth, yn ol digonolrwydd ac annigonolrwydd eu cyfiawnder sydd eglur, o herwydd trwy daflu ymaith eu cyfiawnder (yn y mater hwn o gyfiawnhad) y maent yn gwneuthur eithaf eu gallu am y peth hwn; hyny yw, ar fod i gyfiawnder Crist, trwy weithred o rad ras, gael ei wneuthur trosodd iddynt hwy, fel y gallont sefyll yntho ger bron Duw i'w barnu.

Dyma paham y mae Dafydd mor fynych yn llefain allan, "Arwain fi yn dy gyfiawnder." "Gwared fi yn dy gyfiawnder." "Barn fi yn ol dy gyfiawnder." "Gwna i mi fyw yn dy gyfiawnder." "O Arglwydd," medd efe, "gwrando fy neisyfiadau: ateb fi yn dy ffyddlondeb, ac yn dy gyfiawnder. Ac na ddos i farn âth was, o herwydd ni chyfiawnheir neb byw yn dy olwg di." Ië, Dafydd, beth os gwna Duw hyn? Beth, yna medd efe, "Fy ngenau a fynega dy gyfiawnder. Fy nhafod a gân am dy gyfiawnder. Fy ngenau a fynega dy gyfiawnder.Ië, dy gyfiawnder di, ïe, yn unig a gofiaf." Salm lviii. Salm xxxi. 1. Salm xxxv. 24. Salm cxix. 40. Salm xxxv. 28. Salm li. 14. Salm lxxi. 15, 16.

Daniel hefyd pan y mae yn dyfod i eiriol drosto ei hun â'i bobl, y mae yn y lle cyntaf yn taflu ei gyfiawnder ei hun a chyfiawnder ei bobl ymaith, gan ddywedyd, "Nid o herwydd ein cyfiawnderau ein hunain yr ydym ni yn tywallt ein gweddiau ger dy fron:" ac yn dadleu cyfiawnder Duw; ac fel y gallai gael rhan a hawl yn hwnw, y mae yn dywedyd, "O Arglwydd, i ti y perthyn cyfiawnder;" hyny yw, y cyfiawnder hwnw, er mwyn pa un y mae trugaredd a maddeuant, ac felly nefoedd a dedwyddwch yn cael eu rhoi i ni.

Y mae cyfiawnder yn perthyn i ti, ac y mae yn eiddo i ti, mor agos ag yw pechod, cywilydd, a gwarthrudd yn eiddom ni, ac yn perthyn i ni. Darllen Dan. ix. 16, 17. "O Arglwydd," medd efe, "yn ol dy holl gyfiawnderau, atolwg troer dy lidiawgrwydd a'th ddigter oddiwrth dy ddinas Jerusalem, dy fynydd sanctaidd; o herwydd am ein pechodau, ac am anwireddau ein tadau, y mae Jerusalem a'th bobl yn waradwydd i bawb o'n hamgylch. Ond yr awr hon gwrando, O ein Duw ni, ar weddi dy was, ac ar ei ddeisyfiadau, a llewyrcha dy wyneb ar dy gyssegr anrheithiedig, er mwyn yr Arglwydd." Er mwyn yr Arglwydd Iesu Grist; canys arno ef yr oedd llygad Daniel yn awr, a thrwyddo ef at y Tad yr oedd Daniel yn gwneuthur ei ddeisyfiad; ïe, ac yr oedd yr ateb yn gytunol â'r weddi; hyny yw, y byddai i Dduw drugarhau wrth Jerusalem, ac y byddai iddo yn ei amser ddanfon yr Arglwydd, y Messia, i ddwyn i mewn gyfiawnder tragywyddol iddynt.

Y mae Paul hefyd, fel yr amneidiais o'r blaen, yn ymwrthod â'i gyfiawnder ei hun, ac yn ymaflyd yn gadarn yn nghyfiawnder Duw, gan geisio ei gael yn hwnw, heb ei gyfiawnder ei hun; canys fe wyddai pan y disgynai'r gwlawogydd, pan y chwythau'r gwyntoedd, ac y deuai y llifddyfroedd ar bawb, y byddai rhaid i'r rhai hyny a fyddai heb gyfiawnder Crist, syrthio yn dragwydd. Phil. iii.

Yn awr y mae difrifol ddymuniad y cyfiawn am ei gael yn nghyfiawnder Duw, yn deilliaw oddiwrth argyoeddiad cryf o anmherffeithrwydd eu cyfiawnderau eu

hunain, a'r wybodaeth a rodded iddynt am y braw a ymafael mewn dynion ar ddydd y profiad tanllyd, fel dydd y farn. Canys er y gall dynion yn awr wenieithio eu hunain i baradwys ffyliaid, a pherswadio eu hunain y bydd pob peth o'r goreu gydâ hwynt y pryd hyny, er mwyn eu cyflawniadau gwaelion gwag-ymffrostus; eto pan ddelo y dydd yn llosgi megis ffwrn, a phawb a wnaethant ddrygioni fel sofl (ac felly y bydd pawb na chaffer yn Nghrist), yna y diflana eu cyfiawnder fel mŵg, neu fel cynnud tân i'r fflam losgadwy. A thyma paham y mae'r cyfiawnder hwnw ag y mae'r duwiol yn dymuno eu cael yntho, yn cael eu alw, "Enw yr Arglwydd," "Twr cadarn," "Craig, Tarian," "Amddiffynydd," "Astalch," "Craig amddiffynfa," i'r hon y maent yn cyrchu, ac i'r hon y maent yn rhedeg, ac yn cael eu diogelu.

Nid yw y duwiolion gan hyny fel y Pharisead hwn, yn dwyn eu cyfiawnder eu hunain i'r deml, ac yno dyrchafu eu hunain a'u hysprydoedd i'r cyfryw dyb da, y bydd i Dduw fod yn drugarog ac yn dda wrthynt: ond trwy daflu ymaith eu cyfiawnderau eu hunain, y maent yn ffoi at Dduw am ei gyfiawnder ef, canys gwyddant yn sicr, hyd yn oed wrth air Duw, na ddichon neb sefyll yn y farn i'w profi, ond y rhei'ny a geffir yn nghyfiawnder Duw.

*Yn drydydd.* Fod y dynion goreu yn ofni sefyll ger bron brawdle Duw wrth y gyfraith, i'w barnu yno am fywyd a marwolaeth, yn ol digonolrwydd neu annigonolrwydd eu cyfiawnder eu hunain, sydd eglur; canys gwyddant mai peth ofer yw iddynt geisio gwneuthur eu hunain yn ddynon cyfiawn trwy weithredoedd cyfiawnder, fel ag y mae pawb o'r rhei'ny sydd yn ceisio cael eu cyfiawnhau trwy weithredoedd y ddeddf.

A thyma'r lle mae'r gwahaniaeth mawr rhwng y Pharisead a'r dyn ag sydd yn wir Gristion. Y mae'r Pharisead yn meddwl y gall efe trwy weithredoedd cyfiawnder wneuthur ei hun yn ddyn cyfiawn; o herwydd paham, y mae yn dyfod i bresenoldeb Duw wedi ei addurno yn dda, fel ag y mae yn meddwl, â'i gyfiawnder naccaol a chadarnhaol ei hun.

Nid yw gras yn dyoddef i ddyn ymffrostio o'i herwydd ger bron Duw, pa beth bynag y mae yn ei ddywedyd ger bron dynion: nid yw enaid yr hwn sydd yn ymchwyddo yn uniawn o'i fewn: gwell yw'r tlawd yn yr ysbryd nâ'r balch yn yr ysbryd. Yr oedd y Pharisead yn ddyn balch iawn, yn ddyn balch, anwybodus iawn, balch o'i gyfiawnder ei hun, anwybodus o gyfiawnder Duw: canys pe ni buasai, ni allasai, fel ag y gwnaeth, gondemnio'r Publican, a chyfiawnhau ei hunan.

Ac, meddaf drachefn, yr oedd yr holl falchder a'r ymddangosiad gwag-ymffrostus hwn o eiddo'r Pharisead, yn deilliaw oddiwrth ei anwybodaeth yn y peth hwn; sef y rhaid i ddyn fod yn dda cyn y gallo wneuthur da; y mae yn rhaid ei fod yn gyfiawn cyn y gallo weithredu cyfiawnder. Y mae hyn yn amlwg oddiwrth Paul, yr hwn sydd yn dyfod a hyn i mewn fel rheswm, paham nad oes neb yn "gwneuthur daioni," sef, "am nad oes neb cyfiawn, nac oes un. Nid oes neb cyfiawn," medd efe, ac yna y canlyn, "Nid oes un yn gwneuthur daioni." Rhuf. iii. 10, 11, 12. Canys y mae yn anmhosibl i'r dyn hwnw na wnaethwyd yn gyfiawn yn gyntaf gan Dduw'r nefoedd, wneuthur un peth mewn ystyr efengylaidd a ellir ei alw yn gyfiawn. Fe all amcanu trwy ymdrin â moddion wneuthur ei hun yn ddyn cyfiawn, ond gwneuthur cyfiawnder, ac felly trwy'r cyfryw weithredoedd cyfiawnder, wneuthur ei hun yn ddyn cyfiawn, ni's gall.

Y mae yn wir fod cyfiawnder dyn cnawdol yn cael ei alw yn gyfiawnder gan Dduw: ond y mae yn rhaid i ni ei ystyried fel yn llefaru yn iaith y byd. Y mae'r byd yn wir yn ei alw yn gyfiawnder; ac ni wna ddim drwg os bydd yn deilwng o'r

enw hwnw mewn perthynas i faterion bydol. O herwydd paham y mae dynion bydol gweddaidd yn cael eu galw yn ddynion da a chyfiawn, ac felly yn yr olwg hono y cyfryw na's dyoddefodd Crist trostynt, nac yn rhoi ei ras iddynt, Rhuf. v. 7, 8. Ond nid ydym ni yn awr yn siarad am un cyfiawnder ond yr hwn a gyfrifir felly, naill ai yn ol y gyfraith, neu mewn ystyr efengylaidd; ac am hyny gadewch i ni ei ystyried ychydig yn mhellach.

Y mae yn rhaid i ddyn gan hyny fod yn gyfiawn yn ol y gyfraith, cyn y gallo wneuthur gweithredoedd cyfiawnder, fy meddwl yw y cyfryw ag y sydd felly mewn ystyr efengylaidd. Felly yn gyntaf, y mae genym gyfiawnder gwir efengylaidd yn cael ei wneuthur yn ffrwyth yr ail enedigaeth. "Os gwyddoch fod Crist yn gyfiawn, chwi a wyddoch fod pob un sydd yn gwneuthur cyfiawnder, wedi ei eni o hono ef." 1 Ioan ii. 29. Nid wedi cael ei eni o hono trwy rinwedd ei weithredoedd cyfiawn ei hun, ond wedi cael ei eni o hono trwy rinwedd nerthol weithrediad Crist ar yr enaid; yr hwn wedi hyny oddiwrth yr egwyddor o fywyd sydd yn gwneuthur ac yn gweuthredu cyfiawnder.

Ac y mae yn dywedyd drachefn, "O blant bychain, na thwylled neb chwi, yr hwn sydd yn gwneuthur cyfiawnder sydd gyfiawn, megis y mae yntef yn gyfiawn." Mi a ddaliaf ychydig sylw ar yr ysgrythur hon, er prawf o'r hyn a ddywedwyd eisoes; sef y rhaid i ddyn fod yn gyfiawn yn ol y gyfraith, cyn y gallo wneuthur y cyfryw bethau a ellir eu galw yn weithredoedd cyfiawnder mewn ystyr efengylaidd. Ac i'r perwyl hyn y mae'r ysgrythur hon (1 Ioan iii. 7) yn rhoi dau beth i ni i'w hystyried.

Y cyntaf yw, fod yr hwn sydd yn gwneuthur cyfiawnder yn gyfiawn, megis ag y mae Crist yn gyfiawn.

Yr ail yw, fod yr hwn sydd yn gwneuthur cyfiawnder yn gyfiawn, megis ag y mae Crist yn gyfiawn.

*Yn gyntaf.* Yr hwn sydd yn gwneuthur gyfiawnder; hyny yw, cyfiawnder ag y mae yr efengyl yn ei alw felly, sydd gyfiawn; hyny yw, o flaen, neu cyn y gwnelo y cyfiawnder hwnw. Canys nid yw yn dywedyd, y gwna efe ei berson yn gyfiawn trwy'r gweithredoedd cyfiawnder a wnelo efe; canys yna fe allai pren drwg ddwyn ffrwyth da; ïe, ac fe all wneuthur ei hun yn dda wrth wneuthur felly: ond y mae efe yn dywedyd, "Yr hwn sydd yn gwneuthur cyfiawnder, sydd gyfiawn," fel ag y mae yn dywedyd, yr hwn sydd yn gwneuthur cyfiawnder, sydd wedi ei eni o hono ef.

Felly gan hyny, y mae yn rhaid bod dyn yn gyfiawn cyn y gallo wneuthur cyfiawnder, cyn y gallo wneuthur cyfiawnder mewn ystyr efengylaidd.

Ein hail beth gan hyny ag yr ydym i ymofyn am dano yw, â pha cyfiawnder y mae yn rhaid i ddyn fod yn gyfiawn, cyn y gallo wneuthur yr hyn mewn ystyr efengylaidd a elwir yn gyfiawnder? Ac,

*Yn gyntaf.* Yr wyf yn ateb, y mae yn rhaid ei fod ef yn gyfiawn yn ol y gyfraith; hyny yw, y mae yn rhaid ei fod yn gyfiawn yn marn y ddeddf. Y mae hyn yn eglur, o herwydd y mae yn dywedyd, Yr hwn sydd yn gwneuthur cyfiawnder sydd gyfiawn, megis ag y mae yntef yn gyfiawn. Hyny yw, yn ol y gyfraith; canys nid yw Crist mewn ystyr yn gyfiawn mewn barn cariad yn unig; eithr yn ei weithredoedd gwaelaf, os cyfraithlon dywedyd felly, yr oedd efe yn gyfiawn yn ol y gyfraith, neu yn marn y gyfraith. Yn awr y mae'r apostol yn dywedyd, "Yr hwn sydd yn gwneuthur cyfiawnder sydd gyfiawn, megis y mae yntef yn gyfiawn." Geiriau Duw ydynt, am hyny ni's gallaf gyfeiliorni wrth eu coffau hwynt, er ysgatfydd na's gallwn wneuthur i'r gogoniant sydd ynthynt i ddisgleirio wrth lefaru oddiwrthynt.

Ond pa gyfiawnder yw hwnw yn mha un y mae yn rhaid i ddyn fod yn gyfiawn yntho ei hun yn marn y gyfraith, cyn y gwnelo neu y gallo wneuthur gweithredoedd cyfiawnder, y rhai a elwir felly gan yr efengyl?

Yr wyf yn ateb, *Yn gyntaf,* Nid dim o eiddo ei hun, yn ol y ddeddf, chwi a ellwch fod yn sicr o hono; canys y mae ei gyfiawnder gantho cyn y gwnelo un peth a ellir ei alw yn eiddo iddo ei hun. Yr hwn sydd yn gwneuthur cyfiawnder sydd gyfiawn eisioes, o flaen, neu cyn iddo wneuthur y cyfiawnder hwnw; ïe, y mae ef yn gyfiawn, megis y mae yntef yn gyfiawn.

*Yn ail.* Ni's gall fod yn un peth o'i eiddo ei hun yn ol yr efengyl; hyny yw, ag sydd yn tarddu oddiwrth egwyddor o ras yn yr enaid: canys y mae yn gyfiawn cyn gwneuthur y cyfiawnder hwn. "Yr hwn sydd yn gwneuthur cyfiawnder sydd gyfiawn." Nid yw yn dywedyd yr hwn a'i gwnaeth, ond yr hwn sydd yn ei wneuthur, yn olygu'r weithred tra mae yn cael ei gwneuthur, y mae efe yn gyfiawn. Y mae efe yn gyfiawn hyd yn oed pan y mae yn gwneuthur y weithred gyntaf o gyfiawnder; ond ni ellir galw gweithred tra y mae yn cael ei gwneuthur, hyd ne's gwneler, yn weithred o gyfiawnder; eto, medd y testun, "Yr hwn sydd yn gwneuthur cyfiawnder sydd gyfiawn."

Ond drachefn, os ni ellir galw gweithred tra y mae yn cael ei gwneuthur yn weithred o gyfiawnder, yn sicr ni ddichon bod dim o'r cyfryw rinwedd ynthi fel ag y gwna y gwneuthurwr yn gyfiawn; i'w wneuthur ef yn gyfiawn megis yr oedd Mab Duw yn gyfiawn, ac eto y mae'r cyfiawnder, â pha un y gwneir y gweithredwr hwn yn gyfiawn, a hyny cyn y gwnelo gyfiawnder, y cyfryw; canys felly dywed y testun, yr hwn sydd yn gwneuthur cyfiawnder sydd gyfiawn, megis ag y mae yntef yn gyfiawn.

Heblaw hyn, ni all fod yn gyfiawnder o eiddo dyn ei hun, yr hwn sydd yn gyfiawnder efengylaidd, yn tarddu oddiwrth egwyddor o ras yn yr enaid; canys y mae anmherffeithrwydd yn dilyn hwnw yn ei radd uwchaf tra f'om yn byw yn y byd hwn; hyny yw, y mae ein ffydd, ein cariad, a holl helynt ein sancteiddrwydd yn ddiffygiol, neu â rhyw beth yn eisiau ynthynt. Nid ydynt bob yn un, na phan y dodir oll yn nghyd, yn berffaith, o ran y gradd, y gradd eithaf o berffeithrwydd.

Ond y mae'r cyfiawnder tan ein hystyriaeth, â'r hwn y mae dyn, fel y dywed Ioan, yn cael ei wneuthur yn gyfiawn, yn gyfiawnder perffaith, nid yn unig o ran ei natur, fel ag y mae ceiniog o arian mor berffaith arian a swllt; nac eto o ran gradd gymhariaethol: canys y mae'r swllt fel hyny yn dyfod yn nes i'r nifer ugain, na darn o ddwy geiniog neu dair; ond y mae'r cyfryw berffeithrwydd na's gellir chwanegu ato na thynu oddiwrtho; canys felly y mae geiriau'r testun yn arwyddo, "Ar hwn sydd yn gwneuthur cyfiawnder sydd gyfiawn, megis y mae Crist yn gyfiawn." Ië, yn gyfiawn fel hyn o'r blaen, ac fel y gallai wneuthur cyfiawnder. Ac yn hyn y mae yn debyg i Fab Duw, yr hwn hefyd oedd yn gyfiawn cyn gwneuthur gweithredoedd o gyfiawnder yn perthynu i ddeddf-gorchymyn. O herwydd paham y dywedir, "Megis ag y mae efe yr ydym ninnau hefyd yn y byd hwn." Fel ag y mae neu yr oedd efe yn gyfiawn, cyn iddo wneuthur gweithredoedd o gyfiawnder yn mhlith dynion wrth y gyfraith, felly y mae ei eiddo yn gyfiawn cyn y gwnelont gyfiawnder wrth gyfraith yn mhlith dynion. "Yr hwn sydd yn gwneuthur cyfiawnder sydd gyfiawn," megis y mae yntef yn gyfiawn.

Yr oedd Crist yn gyfiawn, â deu-ryw gyfiawnder, cyn iddo ef wneuthur cyfiawnder. Yr oedd gantho gyfiawnder fel ag yr oedd yn Dduw; yr oedd ei Dduwdod yn

berffaith gyfiawn; ïe, cyfiawnder ei hun ydoedd. Yr oedd ei natur ddynol yn gyfiawn perffaith. Yr oedd wrth natur yn ddifrycheulyd a dihalog. Fel hyn yr oedd ei berson yn gyfiawn, ac felly wedi ei gymhwyso i wneuthur y cyfiawnder hwnw, ac o herwydd ei fod wedi ei eni o wraig, a'i wneuthur tan y ddeddf, yr oedd yn rhwym wrth y ddeddf i'w gyflawni.

Yn awr, megis ag y mae efe, yr ydym ninnau hefyd: nid mewn ffordd o gyfiawnder naturiol, ond mewn ffordd o fod yn gyffelyb iddo. Os oedd gan Grist, mewn trefn i wneuthur cyfiawnder, ddeu-ryw gyfiawnder yntho ei hun, y mae gan y Cristion mewn trefn i wneuthur cyfiawnder, ddeu-ryw gyfiawnder yn perthyn iddo. A ddarfu i gyfiawnder dau-ddyblyg Crist ei gymhwyso ef i wneuthur y cyfiawnder oedd Duw wedi ei arfaethu iddo ef i'w wneuthur? Felly y mae cyfiawnder dau-ddyblyg y Cristion yn ei gymhwyso yntef i wneuthur y cyfiawnder hwnw a ordeiniodd Duw iddo i'w wneuthur, a rhodio yntho yn y byd hwn.

Ond ysgatfydd y gofynwch, pa beth yw y cyfiawnder hwnw â pha un y gwneir Cristion yn gyfiawn cyn y gwnelo gyfiawnder?

Yr wyf yn ateb, Y mae yn ddau fath o gyfiawnder.

1. Cyfiawnder ydyw ag ydys yn ei ddodi am dano ef.

2. Cyfiawnder ydyw ag ydys yn ei ddodi o fewn iddo ef.

Am y cyntaf, Cyfiawnder yw ag ydys yn ei ddodi am dano ef, â'r hwn hefyd y mae yn cael ei wisgo fel â chochl neu fantell, (Rhuf. iii. 22), ac y mae hwn yn cael ei alw "Gwisg cyfiawnder;" ac y mae yn ei alw "Gwisg iachawdwriaeth." Esay lxi. 10. Nid yw y cyfiawnder hwn ddim arall ond ufudd-dod Crist, yr hwn a gyflawnodd efe yn nyddiau ei gnawd, ac ni ellir yn briodol ei alw yn gyfiawnder un dyn, eithr cyfiawnder Crist; canys nid oedd llaw gan un dyn yntho, ond efe ei hun a'i gorphenodd. Ac am hyny y dywedir, "Trwy ufudd-dod un y gwneir llawer yn gyfiawn," Rhuf. v. 19. Trwy ufudd-dod un, ufudd-dod un Dyn Iesu Grist, (fel y gwelwch yn adn. 15), canys efe a ddaeth i lawr i'r byd i'r unig ddyben hwn; hyny yw, i wneuthur cenedl yn gyfiawn, nid trwy wneuthur cyfreithiau ac ysgrifennu rheolau iddynt: (canys hyn oedd gwaith Moses, yr hwn a ddywedodd, "A chyfiawnder a fydd i ni, os ymgadw i wneuthur y gorchymynion hyn oll, o flaen yr Arglwydd ein Duw, fel y gorchymmynodd efe i ni;" Deut. vi. 25, a xxiv. 13.) Nac eto trwy dynu ymaith trwy ei ras anmherffethrwydd eu cyfiawnder hwy, a gwneuthur hwnw yn berffaith trwy chwanegiadau o'i eiddo eu hun; eithr y mae yn eu gwneuthur trwy ei ufudd-dodd, nid ynthynt, ond trostynt, tra yr ymostyngodd yn bersonol i gyfraith ei Dad yn ein lle ni, fel y byddai ganddo gyfiawnder i'w roddi i ni. A thyma paham y dywedir ein bod ni yn gyfiawn pan nad ydym yn gweithio, ac y cyfiawnheir ni pan ydym yn annuwiol. Rhuf. iv. 5. Yr hyn ni's gellir ei wneuthur trwy un cyfiawnder, ond yr hwn sydd eiddo Crist trwy gyflawniad, cyfiawnder Duw trwy roddiad, a'n gyfiawnder ninnau trwy gyfrifiad. Canys, meddaf, y person a weithredoedd y cyfiawnder hwn i ni, yw Iesu Grist; y person sydd yn ei roddi i ni yw y Tad, yr hwn a wnaeth Grist yn gyfiawnder i ni; ac a'i rhoddes ef i ni i'r unig ddyben hwn, fel y'n gwnelid ni yn gyfiawnder Duw yntho ef. 1 Cor. i. 40. 2 Cor. v. 21. Ac am hyn y mynych ddywedir, "Yn ddiau yn yr Arglwydd (medd un) y mae i mi gyfiawnder a nerth." A thrachefn, "Yn yr Arglwydd y cyfiawnheir ac yr ymogonedda holl had Israel." "Dyma edifeddiaeth gweision yr Arglwydd, a'u cyfiawnder hwynt sydd oddiwrthyf fi," medd yr Arglwydd. Esay xlv. 24, 25, a liv. 17.

Dyma'r cyfiawnder sydd yn cyfiawnhau ac yn diogelu'r enaid oddwrth felldith y

ddeddf, trwy guddio â'i berffeithrwydd holl bechodau ac anmherffeithrwydd yr enaid. O herwydd paham, y mae yn canlyn, "Megis y mae Dafydd hefyd yn datgan dedwyddwch y dyn y mae Duw yn cyfrif cyfiawnder iddo heb weithredoedd, gan ddywedyd, Dedwydd yw y rhai y maddeuwyd eu hanwireddau, a'r rhai y cuddiwyd eu pechodau. Dedwydd yw y gwr nid yw yr Arglwydd yn cyfrif pechod iddo." Rhuf. iv. 6, 7, 8.

Ac y mae yn gwneuthur hyn, ïe, pan y mae'r dyn a wneir yn gyfrannog o hono, heb ddim gweithredoedd da gantho, ac felly yn annuwiol. Cyfiawnder Crist yw hwn, cyflawniadau personol Crist y rhai a wnaeth efe pan oedd yn y byd hwn; dyna'r cyfiawnder, â pha un y mae'r enaid, pan y mae yn noeth, yn cael ei guddio, ac felly ei guddio, o ran ei noethni, oddiwrth farn ddwyfol y gyfraith; "Yna y lledais fy adain trosot, a chuddiais dy noethni." Ezec. xvi. 4—9.

Yn awr y mae'r cyfiawnder ufudd-dodol hwn o eiddo Crist yn cynnwys dwy ran: 1. Gwneuthur yr hyn y mae'r ddeddf yn ei orchymmyn i ni ei wneuthur. 2. Talu'r iawn neu'r gwerth hyny am y drosedd o honi a ddywedodd cyfiawnder y gofynai ar law dyn, a hyny yw angeu melldigedig. "Yn y dydd y bwytai o hono, gan farw ti a fyddi farw;" hyny yw, y farwolaeth sydd yn dyfod trwy felldith y gyfraith. Felly gan hyny, wedi i Grist ddwyn i mewn y rhan hono o'i ufudd-dod drosom ni, ag sydd yn gynhwysedig mewn gwneuthur y cyfryw weithredoedd o ufudd-dod cyfiawnder ag y mae'r ddeddf yn eu gorchymyn; y mae'n 'chwanegu at hyny dywalltiad ei waed, i fod yn werth ein prynedigaeth oddiwrth y farwolaeth felldigedig hono a ddygasom trwy bechod ar ein cyrph a'n heneidiau. Ac fel hyn y mae'r Crist'nogion yn berffaith gyfiawn; y mae ganthynt holl ufudd-dod Crist wedi ei wneuthur trosodd iddynt hwy; hyny yw, y cyfiawnder hwnw sydd yn gynhwysedig mewn gyflawni y gyfraith, a'r ufudd-dod hwnw sydd yn gynhwysedig mewn dalu gwerth am ein camweddau ni. Felly gan hyny, a ydyw'r ddeddf yn galw am gyfiawnder? Dyma efe. A ydyw'r ddeddf yn galw am foddlondeb am ein pechodau ni? Dyma efe. A pha beth ychwaneg a ddichon y ddeddf ei ddywedyd wrth y pechadur ond yr hyn sydd dda, pan y byddo yn cael ufudd-dod personol Crist trosto ef, yr hwn sydd yn ateb i'r hyn a all orchymmyn, a'r hyn a all ei ofyn gennym ni.

Dyma, gan hyny'r lle y mae diogelwch y Cristion yn sefyll, nid mewn cryglwyth o'i weithredoedd ei hun, ond mewn cyfiawnder ag sydd yn dyfod iddo trwy ras a rhoddiad: canys y mae'r cyfiawnder hwn y cyfryw ag sydd yn dyfod trwy rodd, trwy rodd Duw. Dyma paham y mae yn cael ei alw yn ddawn (neu rodd) cyfiawnder, dawn trwy ras, dawn cyfiawnder trwy ras, yr hyn yw cyfiawnder un, sef ufudd-dod Iesu Grist. Rhuf. v. 15, 16.

A thyma'r cyfiawnder trwy ba un y mae'r hwn sydd yn gwneuthur cyfiawnder yn gyfiawn, megis ag y mae yntef yn gyfiawn; canys yr unrhyw gyfiawnder yw, ag a orphenodd Mab Duw ei hunan. Ac nid oes gantho nn cyfiawnder arall, neu fwy rhagorol, ar ba un y mae'r ddeddf yn edrych, neu yn ei ofyn, ond hwn: canys mewn perthynas i gyfiawnder ei Dduwdod, nid oes gan y ddeddf ddim i wneuthur â hwnw; canys am ei fod ef y cyfryw, ei greadur a'i was yw'r ddeddf, ac ni's gall gyffwrdd ag ef.

Am gyfiawnder ei natur ddynol hefyd, nid oes gan y ddeddf ddim i'w wneud â hwnw; canys gwaith Duw yw hwnw, ac y mae mor dda, mor bur, mor sanctaidd a dihalog, ag yw'r ddeddf ei hunan. Gan hyny y cwbl ag y sydd gan y ddeddf i'w wneuthur, yw gofyn ufudd-dod perffaith gan yr hwn a wnaethpwyd dani, a gwir foddlondeb am y trosedd o honi, yr hyn os caiff, y mae Moses yn foddlon.

Yn awr, dyma'r cyfiawnder, â pha un y mae'r Cristion, mewn perthynas i gyfiawnhad, yn cael ei wneuthur yn gyfiawn; hyny yw cyfiawnder, yr hyn nad yw, o ran ei hanfod, yn briodol i Dduwdod na Dyndod Crist, ond y sydd yn gynhwysedig yn ufudd-dod y person gogoneddus hwnw (yr hwn oedd y cyfryw) i'r ddeddf. Yr hwn gyfiawnder oedd gantho, mewn perthynas iddo ei hun, heb raid oll wrtho; canys yr oedd ei Dduwdod, ïe, ei Ddyndod, yn gyfiawn perffaith hebddo. O herwydd paham yn yr achos hwnw, ac yno yn unig, yr oedd yn angenrheidiol, lle yr oedd Crist yn cael ei ystyried fel gwas i Dduw (a Machnydd i ninnau) i ddwyn Jacob drachefn at Dduw, ac i adferu y rhai a adawyd o Israel. Canys er fod Crist yn Fab, eto efe a ddaeth yn Was i gyflawni yr holl ddeddf, nid drosto ei hun, o blegid nid oedd raid iddo, eithr drosom ni, ac felly i ddwyn cyfiawnder tragwyddol i mewn i ni.

A thyma paham y dywedir, i Grist wneuthur yr hyn a wnaeth drosom ni: efe a ddaeth yn ddiwedd i'r ddeddf er cyfiawnder i ni; fe ddododd i lawr ei fywyd drosom, ac a roddodd ei hun drosom. Nid iddo ei hun gan hyny y cyflawnodd Crist gyfiawnder pan oedd yn y byd, ystyried fel yn unig ar ei ben ei hun, na throsto ei hun, a'i ystyried yn bersonol, gan nad oedd raid iddo wrtho: eithr dros yr etholedigion yr ydoedd, dros aelodau ei gorph.

Ni ddarfu i Grist gan hyny gyflawni'r ddeddf drosto ei hun, o blegid nid oedd raid iddo wrth hyny. Drachefn fe gyflawnodd Crist y gyfraith trosto ei hun, canys yr oedd eisiau ei chyfiawnder arno; yr oedd ei eisiau arno i guddio ei gorph a'r amrywiol aelodau yntho; canys hwynt-hwy, mewn ystyr dda, yw efe ei hunan, aelodau o'i gorph, o'i gnawd, ac o i esgyrn; ac y mae yn eu harddel fel rhanau o hono ei hun mewn amryw fanau o'r ysgrythur sanctaidd, Eph. v. 30. Act. ix. 4, 5. Mat. xxv. 45, a x. 40. Marc ix. 37. Luc. x. 16. 1 Cor. xii. 12, 27. Gan hyny i'w ei eiddo y mae'r holl gyfiawnder hyn, sef yr hyn oll a wnaeth Crist mewn atebiad i'r gyfraith, ac y mae Duw wedi ei ddodi arnynt hwy, ac y maent hwy yn gyfiawn yntho, ie, cyfiawn megis ag y mae yntef yn gyfiawn. Ac y maent yn cael hwn cyn y gwnelont weithredoedd cyfiawnder.

*Yn ail.* Y mae cyfiawnder yn cael ei ddodi ynthynt cyn y gwnelont bethau cyfiawn. Cyfiawnder, meddaf, yn cael ei ddodi ynthynt; neu mi a ddewiswn yn hytrach i chwi ei alw yn egwyddor o gyfiawnder; canys egwyddor o fywyd i gyfiawnder ydyw. Y mae mewn dyn cyn ei droedigaeth egwyddor o farwolaeth trwy bechod; ond pan y mae yn cael ei droi at Grist, y mae egwyddor o gyfiawnder yn cael ei dodi yntho, fel y gallo ddwyn ffrwyth i Dduw. Rhuf. vii. 4, 5, 6.

Dyma paham y dywedir eu bod yn cael eu bywhau, eu gwneuthur yn fyw, eu cyfodi o farwolaeth i fywyd, fod Ysbryd Duw yn trigo ynthynt; nid yn unig i fywhau eu heneidiau, eithr i fywiocâu eu cyrph marwol i'r hyn sydd dda. Rhuf. viii. 11.

Dyma paham, fel y soniais o'r blaen, y dywedir fod y rhai sydd yn gwneuthur cyfiawnder wedi eu geni o hono ef, hyny yw, yn mlaen llaw, fel y gwnelent gyfiawnder. 1 Ioan ii. 29. "Wedi ei eni o hono ef;" hyny yw, â bywyd newydd, ysbrydol, nefol. O herwydd paham cyngor iddynt yw hyn, "Na rhoddwch eich aelodau yn arfau anghyfiawnder i bechod, eithr rhoddwch eich hunain i Dduw, megis rhai o feirw yn fyw, a'ch aelodau yn arfau cyfiawnder i Dduw." Rhuf. vi. 13.

Yn awr y mae yn rhaid bod yr egwyddor hon hefyd mewn dynion, cyn y gallont wneuthur yr hyn sydd ysbrydol: canys pa bethau da bynnag a dybygid fod un dyn yn eu gwneuthur, cyn y caffo yr egwyddor nefol hon oddiwrth Dduw, y maent yn

cael eu cyfrif yn ddim, y maent yn cael eu cyfrif yn bechod ac yn ffieidd-dra yn ngolwg Duw; canys ni ddichon pren drwg ddwyn ffrwyth da: "Nid yw dynion yn casglu grawnwin oddiar ddrain, na ffigys oddiar ysgall." Nid y ffrwyth sydd yn gwneuthur y pren, ond y pren sydd yn gwneuthur y ffrwyth. Y mae yn rhaid bod dyn yn dda cyn y gallo wneuthur daioni, a drwg cyn y gallo wneuthur drygioni.

Dyma'r peth a gadarnheir gan Fab Duw ei hunan; ac y mae yn cyttuno â rheswm a natur pethau yn y cyfryw fodd, fel na's gellir ei wrthwynebu. Matt vii. 16—18. Luc. vi. 43, 44, 55. "Y dyn da o ddaionus drysor ei galon a ddwg allan ddaioni: a'r dyn drwg o ddrygionus drysor ei galon a ddwg allan ddrygioni." Ond er cymmaint oll a ddywedir, y mae yn ymddangos yn ddieithr iawn i'r byd cnawdol; canys ni chymmerant eu perswadio yn amgenach nad gweithredoedd da sydd yn gwneuthur dynion yn dda, a rhai drwg sydd yn gwneuthur dynion yn ddrwg: ac felly trwy'r cyfryw feddyliau gwyrdraws yn gwneuthur cymmaint ag a allont i gadarnhau eu calonau â'r niwl o dywyllwch yn erbyn llewyrchiad eglur y gair, ac argyoeddiad y gwirionedd.

Ac fel hyn yr oedd o'r dechreuad: yr oedd y gwasanaeth cyntaf a wnaeth Abel i Dduw oddiwrth yr egwyddor hon o gyfiawnder: ond fe fynai Cain gael ei wneuthur yn gyfiawn trwy ei weithredoedd; ond gan nad oedd ei weithredoedd yn tarddu oddiwrth yr un gwreiddyn o ddaioni â rhai Abel, er iddo eu gwneuthur hyd yn oed â'r pethau goreu a fyddai, eto y maent yn cael eu cyfrif yn ddrwg: canys, meddaf, yr oedd eisiau yr egwyddorion arno, sef yr egwyddor o ras a ffydd, heb ba rai ni ellir cyfrif un weithred yn dda mewn ystyr efengylaidd.

Y mae yn rhaid gan hyny i'r dyn a wnelo gyfiawnder gael y ddau beth hyn. Y mae yn rhaid iddo gael ei wisgo â chyfiawnder perffaith Crist; ac y mae yn rhaid iddo gael egwyddor o gyfiawnder i drigo yntho fel ffrwyth yr enedigaeth newydd. Wedi cael hyn, y mae yn bren cyfiawnder mewn gwirionedd, ac y mae Duw yn debygol o gael ei ogoneddu yntho a thrwyddo; ond yr oedd y Pharisead yn hollol ddieithr i hyn, ac yn sefyll yn y man pellaf oddi wrtho.

Ond chwi a ellwch ofyn i mi yn nesaf, Eithr pa un o'r rhain sydd yn cael ei roddi i'r Cristion gyntaf, perffaith gyfiawnder Crist er cyfiawnhad, neu'r egwyddor efengylaidd hon o gyfiawnder a sancteiddrwydd?

*Atteb.* Y mae yn rhaid i gyfiawnder perffaith Crist gael ei wneuthur trosodd yn gyntaf iddo ef trwy weithred o ras. Y mae hyn yn amlwg:

1. O herwydd y mae yn cael ei gyfiawnhau megis yn annuwiol; hyny yw, tra y mae yn annuwiol: ond nid oes lle i ddywedyd am y rhai sydd a'r egwyddor hon o ras ynthynt eu bod yn annuwiol; canys y maent hwy yn saint ac yn dduwiol. Ond am y cyfiawnder hwn, trwy yr hwn y mae Duw yn cyfiawnhau yr annuwiol, trwy ei gyfrif iddynt, pan, a thra y maent, o ran yr egwyddor o ras, yn ddi-ras.

Y mae hyn yn cael ei amlygu yn mhellach fel hyn: y mae yn rhaid cymmeradwyo person y dyn cyn y gellir cymmeradwyo ei gyflawniad; "A'r Arglwydd a edrychodd ar Abel, ac ar ei offrwm." Gen. iv. Os edrychodd Duw ar berson yn gyntaf, yr oedd yn rhaid iddo edrych arno er mwyn rhyw gyfiawnder; ond nid oedd gan Abel eto un cyfiawnder; canys wedi i Dduw edrych ar ei berson y gwnaeth gyfiawnder. "A'r Arglwydd a edrychodd ar Abel, ac ar ei offrwm: ond nid edrychodd efe ar Cain, nac ar ei offrwm."

Y mae'r prophwyd Ezeciel hefyd yn dangos hyn i ni, lle y mae, dan y gyffelybiaeth o faban truenus, a'r modd y derbyniodd Duw i drugaredd, yn dangos y modd y derbyniodd Duw yr Iuddewon i'w ffafr. Yn gyntaf, medd efe, "Lledais fy adain

drosot, a chuddiais dy noethni." Dyna gyfiawnhad; "cuddiais dy noethni:" Ond pa fath noethni ydoedd? Yr oedd mor noeth ag y gallasai noeth fod, mor noeth ag ar y dydd y ganwyd ef, pen. xvi. 4—9. Ac fel hyn (yn noeth) y cuddiwyd, nid ag unrhyw beth o'i eiddo ei hun, eithr ag adain Crist; hyny yw, â'i wisg o'i gyfiawnder ef, â'i ufudd-dod ef, yr hwn a gyflawnodd efe i'r dyben hwnw yn unig: "Canys trwy ufudd-dodd un y gwneir llawer yn gyfiawn."

2. Y mae yn rhaid bod cyfiawnder trwy gyfiawnhad yn gyntaf, Canys y mae yn rhaid bod y ddyledswydd gyntaf a gyflawnodd Cristion i Dduw yn gymmeradwy, nid er mwyn yr egwyddor yn y galon oddiwrth ba un y mae yn tarddu, nac eto er mwyn y person y sydd yn ei gwneuthur; ond er mwyn Crist, yn ngyfiawnder pa un y mae'r pechadur yn sefyll yn gyfiawn ger bron Duw. A thyma paham y dywedir, "Trwy ffydd yr offrymmodd Abel i Dduw aberth rhagorach nâ Chain." Heb. xi. 4. Trwy ffydd y gwnaeth hyny; eithr ffydd mewn perthynas i'r cyfiawnder sydd yn cyfiawnhau: canys trwy ffydd y'n cyfiawnheir, nid trwy ffydd fel gras gweithredol, ond cyfiawnder ffydd; hyny yw, trwy y cyfiawnder hwnw ag y mae ffydd yn ei gofleidio, yn ymaflyd yntho, ac yn cynnorthwyo'r enaid i orphwys arno, ac i ymddiried iddo, am gyfiawnhad bywyd, yr hyn yw ufudd-dod Crist. Heblaw hyny, fe a ddywedir, iddo offrymu trwy ffydd: yr oedd ffydd yn Nghrist gan hyny yn myned o flaen ei waith yn offrymu.

Yn awr gan fod ffydd mewn gweithred cyn iddo offrymmu, a chan nad oedd gantho cyn offrymmu ddim daioni personol o'i eiddo ei hun, y mae yn rhaid i ffydd edrych allan oddi cartref: meddaf, at arall am gyfiawnder; ac yn cael allan mai cyfiawnder Crist yw'r cyfiawnder a ordeiniodd Duw i'w gyflawni er cyfiawnhad pechadur, y mae yn ei gofleidio, a thrwyddo yn offrymmu i Dduw aberth rhagorach nâ Chain.

Ac yma y mae yn canlyn, "Trwy'r hon y cafodd efe dystiolaeth ei fod yn gyfiawn." Trwy'r hon; nid trwy ei aberth, ond trwy ei ffydd: canys ni allasai ei aberth, fel aberth yn unig, ei wneuthur ef yn gyfiawn, oni buasai ei fod ef yn gyfiawn o'r blaen; "Oblegid ni's gall pren drwg ddwyn ffrwyth da." Heblaw hyny, os caniateir hyn, paham nad edrychodd Duw ar offrwm Cain yn gystal ag ar offrwm Abel? Canys a offrymodd Abel? Felly gwnaeth Cain. A offrymodd Abel ei bethau goreu? Felly gwnaeth Cain ei bethau goreu yntef. Ac os daliwn sylw gydâ hyn ar drefn eu hoffrymiad, fe dybygid i Cain offrymmu yn gyntaf, ac felly gydâ'r ewyllys ryddaf a'r meddwl parotaf; ond eto medd y testun, "A'r Arglwydd a edrychodd ar Abel, ac ar ei offrwm." Ond paham ar Abel? paham, am fod ei berson wedi ei gyfiawnhau cyn iddo offrymmu ei rodd; "Trwy yr hon y cafodd efe dystiolaeth ei fod yn gyfiawn." Duw yn dwyn dystiolaeth i'w roddion, eu bod yn dda, ac yn gymmeradwy, o herwydd eu bod yn datgan i Abel dderbyn cyfiawnder Crist, trwy olud gras Duw.

Trwy ffydd, gan hyny, yr offrymodd Abel i Dduw, aberth rhagorach nâ Chain. Fe a ymguddiodd dan gysgod cyfiawnder Crist, ac felly, o'r cyfiawnder hwnw, efe a offrymodd i Dduw; a Duw hefyd yn edrych ac yn ei gael ef yno (lle na's gallasai fod, o ran ei wybodaeth ei hun, mewn un ffordd ond trwy ffydd) y mae yn derbyn ei rodd yn gymmeradwy; trwy'r hwn dderbyniad (canys felly y gellwch ei dyall hefyd) fe dystiolaethodd Duw ei fod yn gyfiawn: canys nid yw Duw yn derbyn rhoddion ac offrymau y rhei'ny nad ydynt yn gyfiawn, canys y mae eu haberthau hwynt yn ffiaidd gantho ef, Diar. xxi. 27.

Fe wnaed Abel gan hyny yn gyfiawn yn gyntaf, gan ei fod yn annuwiol yntho ei

hun; y mae Duw yn cyfiawnhau y rhai annuwiol, Rhuf. iv. Yn awr, wedi ei gyfiawnhau, yr oedd efe yn gyfiawn: a chan ei fod yn gyfiawn, fe a offrymodd ei aberth o fawl i Dduw, neu ryw offrymau ereill ag oedd yn gymmeradwy gan Duw, o herwydd ei fod yn credu yn ei Fab. Ond nid yw ein Pharisead ni yn dyall dim o hyn.

*Yn drydydd.* Y mae yn rhaid bod cyfiawnder drwy gyfrifiad yn gyntaf, o herwydd ein bod yn cael ein gwneuthur felly; hyny yw, gan un arall, "Trwy ufudd-dod un y gwneir llawer yn gyfiawn." Y mae gwneuthur yn gyfiawn yn arwyddocau bod un yn dyoddefol (neu fod heb weithio) yn yr hwn a wneir felly, a gweithrediad neu wneuthwriad y gwaith i orwedd ar un arall; oddi eithr iddo ddywedyd hwy a wnaethant eu hunain yn gyfiawn; ond nid yw yn dywedyd hyny, ac nid yw'r testun yn gadael dim o'r lle lleiaf i neb feddwl hyny; ïe, y mae yn eglur gadarnhau i'r gwrthwyneb, canys y mae yn dywedyd, "Trwy ufudd-dod un, un dyn, Crist Iesu, y gwneir llawer yn gyfiawn;" trwy gyfiawnder un, Rhuf. v. Felly gan hyny, os gwneir hwy yn gyfiawn trwy gyfiawnder un; meddaf, os gwneir llawer yn gyfiawn trwy gyfiawnder un, yna y mae y rhai a wneir felly, o'u rhan eu hunain, yn ddyoddefol, ac nid yn weithredol; mewn perthynas i weithio allan y cyfiawnder hwn, nid oes ganddynt ddim llaw yn hyny; canys gweithred un yw hwnw, cyfiawnder un, ufudd-dod un, gwaith un, sef Crist Iesu.

Drachefn, os gwneir hwy yn gyfiawn trwy'r cyfiawnder hwn, yna y maent yn ddyoddefol o ran eu braint gyntaf trwyddo, canys fe'u gwneir (gan arall) yn gyfiawn trwyddo, nid ydynt yn gwneuthur ei hunain yn gyfiawn trwyddo.

Gweithred o eiddo Duw hefyd yw cyfrifiad. Megis y mae Dafydd hefyd yn dadgan dedwyddwch y dyn y mae Duw yn cyfrif cyfiawnder iddo. Gwaith Crist, gan hyny, yw cyfiawnder; ei ufudd-dod ef ei hun i gyfraith ei Dad. Gweithred o eiddo Duw yw ei wneuthur yn eiddom ni, ac o'i anfeidrol ras: "Eithr yr ydych chwi o hono ef yn Nghrist Iesu, yr hwn a wnaethpwyd i ni gan Dduw yn ddoethineb ac yn gyfiawnder. Canys yr hwn nid adnabu bechod, a wnaeth efe" (Duw) "yn bechod drosom ni, fel y'n gwnelid ni yn gyfiawnder Duw yntho ef." Ac fe amlygodd Duw y ddau beth hyn i'n rhieni cyntaf, pan yr ymddygodd mewn fford o ras tu ag atynt ar ol y cwymp.

Fe a ddywedir yno i'r Arglwydd Dduw wneuthur i Adda ac i'w i wraig beisiau crwyn, a'u gwisgo am danynt hwy, Gen. iii. 21.

O ba le deliwch sylw—

1. Fod Adda a'i wraig yn noethion eill dau yn ngholwg Duw, ac yn eu golwg eu hunain, adn. 10, 11.

2. I'r Arglwydd Dduw wneuthur peisiau crwyn iddynt.

3. Yn ei waith ef yn eu gwneuthur hwynt yr oedd yn meddwl am Adda a'i wraig; hyny yw, fe a'u gwnaeth iddynt hwy.

4. Wedi iddo eu gwneuthur, fe a'u gwisgodd am danynt hwy.

Nid hwy a wnaeth y peisiau, ac ni pharodd Dduw iddynt eu gwneuthur; ond Duw ei hunan a'u gwnaeth i guddio eu noethni hwynt. Ie, wedi iddo eu gwneuthur, ni pharodd iddynt eu dodi hwynt am danynt, eithr efe ei hun a'u gwisgodd am danynt hwy; canys fel hyn y mae'r testun yn rhedeg: "A'r Arglwydd Dduw a wnaeth i Adda ac i'w wraig beisiau crwyn, ac a'u gwisgodd am danynt hwy." O! yr Arglwydd Dduw a wnaeth y bais hon, â pha un y mae pechadur tlawd yn cael ei wneuthur yn gyfiawn! A'r Arglwydd Dduw hefyd sydd yn ei gwisgo am danom. Ond nid yw ein Pharisead yn dyall hyn.

Ond yn nawr, os nad yw dyn yn gyfiawn cyn y gwnelir ef felly—cyn y gwnelo'r Arglwydd Dduw trwy gyfiawnder un arall ef felly—yna, pa un ai yn gyntaf neu yn olaf y mae'r cyfiawnder hwn yn dyfod, nid yw'r dyn yn gyfiawn hyd ne's delo; ac os nad yw yn gyfiawn hyd ne's delo, yna pa weithredoedd bynnag a wneler cyn y delo, nid gweithredoedd dyn cyfiawn ydynt, na ffrwythau pren da, ond ffrwythau pren drwg. Ac felly, drachefn, y mae yn rhaid i'r cyfiawnder hwn ddyfod yn gyntaf cyn y byddo dyn yn gyfiawn, a chyn y gwnelo dyn gyfiawnder. Gwnewch y pren yn dda, ac fe fydd ei ffrwyth yn dda.

Yn awr, gan y rhaid gwneuthur dyn yn gyfiawn cyn y gallo wneuthur cyfiawnder, y mae'n eglur na's gall ei weithredoedd cyfiawnder ef ei wneuthur ef yn gyfiawn, mwy nag y mae'r ffigysen yn gwneud ei phren ei hun yn ffigysbren, neu y dichon y grawn wneuthur gwinwydden ei hun yn winwydden. Dyma paham y mae'r gweithredoedd hyny o gyfiawnder ag y mae dynion crist'nogol yn eu gwneuthur, yn cael eu galw yn ffrwythau cyfiawnder, y rhai sydd trwy Iesu Grist er gogoniant a moliant i Dduw, Phil. i. 11.

Y mae ffrwythau cyfiawnder trwy Iesu Grist, fel ag y mae ffrwythau'r pren trwy'r pren ei hun; canys y gwirionedd yw, y mae'r egwyddor honno o gyfiawnder, am ba un y soniwyd o'r blaen, ac mewn perthynas i ba un y dywedais, y mae yn dyfod i mewn yn yr ail le; nid yw'r gwraidd o honi i'w gael i ni mewn un lle ond yn Nghrist. Dyma paham y dywedir ei bod trwy Iesu Grist; a thrachefn, "O'i gyflawnder ef y derbyniasom, a gras am ras," Ioan i. 16. Y mae yn rhaid i ddyn yn gyntaf gael ei uno â Christ, ac felly wedi cael ei uno, y mae yn gyfrannog o'r fendith hon, sef yw hyny, egwyddor ag sydd oruwch-naturiol, ysbrydol, a nefol. Yn awr nid yw ei undeb â Christ, o hono neu oddi wrtho ei hun, ond o'r Tad ac oddiwrth y Tad, a'r hwn, mewn perthynas i'r gwaith hwnw, yw'r llafurwr; fel nad yw'r brigyn a impir mewn pren, ddim yn gweithredu,—hyny yw, yn impio ei hun yno, eithr yn cael ei impio gan ryw un arall, y mae efe ei hun yn ddyoddefol hollol yn hyny o ran. Yn awr wedi ei uno â Christ, y mae'r enaid yn cael ei wneuthur yn gyfranog o gyfiawnhad, neu o gyfiawnder cyfiawnhaol, ac yn nawr nid yw mwyach yn myned dan yr enw o ddyn annuwiol, canys y mae wedi ei wneuthur yn gyfiawn trwy ufudd-dod Crist; gan ei fod hefyd wedi ei uno â Christ, y mae yn gyfrannog o wreiddyn a brasder Crist; y gwreiddyn, hyny yw, ei natur ddwyfol; y brasder, hyny yw, y cyflawnder hwnw o ras a drysorwyd i fynu yntho i'w gyfrannu i ni, fel ag y mae'r gangen a impiwyd yn yr olewydden, yn gyfrannog o wreiddyn a brasder yr olewydden. Yn awr, trwy fod yn gyfrannog o hyny, y mae yn bywhau, y mae yn cynnyddu, y mae yn blodeuo, ac yn dwyn ffrwyth i glod a gogoniant Duw, Rhuf. xi. 17.

Ond fel ag y mynych-ddywedais, yr oedd y Pharisead tlawd yn anwybodus o'r pethau hyn, pan y daeth mor ymffrostus, â'i "O, Dduw, yr wyf yn diolch i ti," i'r deml i weddio; ac, yn wir, y mae yn yr hyn a ddywedwyd ryw beth o ddirgelwch ewyllys Duw tu ag at ei etholedigion; ac y mae'r cyfryw ddirgelwch ag sydd yn gorwedd byth yn guddiedig oddiwrth natur â dynion naturiol; canys nid y'nt yn meddwl am ddim llai nac am hyn, nac am ddim yn fwy pan y maent yn meddwl am eu heneidiau ac am iachawdwriaeth, nâ bod yn rhaid iddynt wneuthur rhyw beth eu hunain i'w cymmodi â Duw. Ie, os caiff eu dyalldwriaethau trwy ryw argyoeddiadau cyffredinol ei hynnill i gyd-synio â hyn, sef fod cyfiawnhad o ras trwy Grist, ac nid o weithredoedd a wneir gan ddynion; eto fe gyfyd cydwybod, rheswm, a deddf natur, heb gael ei darostwng eto trwy nerth a gogoniant gras i ufudd-dod

Crist, i fynu mewn gwrthryfel yn erbyn yr athrawiaeth hon, gan oruwch-reoli a phlygu'r enaid i lawr drachefn at y ddeddf a'r gweithredoedd am fywyd.

*Yn bedwarydd.* Y mae yn rhaid bod cyfiawnder trwy gyfrifiad yn gyntaf, o herwydd, yn amgen, ni bydd gan ffydd, yr hon sydd ran, ïe, y rhan fwyaf, o'r hyn a elwir egwyddor o ras yn yr enaid, ddim i ymsefydlu arno, nac annogaeth i weithio wrthi: bydded i hyn, gan hyny, gael ei ystyried gan y rhai sydd i'r gwrthwyneb.

1. Y mae ffydd, mor gynted ag y caffo hanfod yn yr enaid, fel y plentyn mewn hanfod ar lun ei fam, y mae yn rhaid iddi gael rhyw beth i ymborthi arno, nid rhyw beth yn gryn bell, neu yn mhell iawn, i gael ei barcassu (yr wyf yn siarad yn awr am gyfiawnhad oddiwrth y felldith), ond rhyw beth trwy addewid yn cael ei wneuthur trosodd o rad-ras i'r enaid; rhyw beth i ymborthi arno i'w chynnal rhag yr ofnau o farw trwy'r felldith am bechod. Ac ni orphwys yn llonydd o phob dyledswyddau a chyflawniadau ag y mae grasusau ereill yn dodi yr enaid arnynt; nac ag un o'i gweithredoedd ei hun, hyd nes byddo yn cyrhaeddyd ac yn ymaflyd yn nghyfiawnder Crist. Y mae ffydd fel y golommen, yr hon ni chafodd ddim gorphwysfa mewn un lle ne's dychwelyd at Noe i'r arch. Ond nid yw ein Pharisead ni yn dyall hyn.

Ysgatfydd y gall rhai wrthddadleu,—Oddiwrth y ffordd hon o ymresymu y mae yn eglur mai sancteiddiad sydd gyntaf, gan y dichon yr enaid gael ffydd, ac felly egwyddor o ras yntho, ac er hyny, hyd yn hyn, y mae yn methu cael Crist i ymborthi arno, ac i ymgysuro yntho.

*Atteb.* Nid yw yn ymddangos wrth y ffordd hon o ymresymu, fod sancteiddiad, neu egwyddor o ras yn yr enaid, cyn y cyfrifir cyfiawnder, a gwneuthur yr enaid yn gyfiawn berffaith trwy hyny. Ac er mwyn eglurhau hyn, gadewch i mi osod ychydig bethau ger bron.

1. Y mae cyfiawnder cyfiawnhaol, hyny yw, ufudd-dod yr un Dyn hwnw, Crist, yn cael ei gyfrif i bechadur i'w gyfiawnhau yn ngholwg Duw. Canys y mae ei gyfraith yn galw am gyfiawnder perffaith, a chyn y caffer hwnw a'i wisgo am y pechadur tlawd, ni ddichon Duw ddim cyfrannu bendithion ysbrydol ereill iddo, o herwydd ei fod trwy'r gyfraith wedi ei gyhoeddi yn felldigedig; wrth ba felldith y mae yn cael ei ddal yn y cyfryw fodd, hyd nes caffo'r pechadur ei wisgo â chyfiawnder a fyddo'r gyfraith a chyfiawnder Duw yn ei hoffi ac yn foddlon iddo. Felly, gan hyny, mewn perthynas i gyfiawnhad pechadur y mae yn rhaid bod cyfiawnder i Dduw; meddaf, i'r pechadur ac i Dduw. I'r pechadur i gael ei wisgo ag ef, ac i Dduw i edrych arno fel y gallo, er mwyn hwnw, mewn ffordd o gyfiawnder, fendithio'r pechadur â maddeuant pechodau: canys maddeuant pechodau yw'r peth cyntaf sydd yn canlyn ar ymddangosiad y pechadur ger bron Duw yn nghyfiawnder Crist, Rhuf. iv. 6, 7.

Yn awr, ar y maddeuant hwn, y mae'r ail fendith yn canlyn. Crist a'n prynodd ni oddiwrth felldith y ddeddf, gan ei wneuthur ei hun yn felldith drosom ni. Ac felly yn ganlynol, fe a fwynhaodd faddeuant pechodau; canys y mae yr hwn a waradwyddwyd oddiwrth y felldith wedi derbyn maddeuant pechodau, neu yn hytrach wedi ei wneuthur yn gyfrannog o hono; yn awr, wedi ei wneuthur yn gyfrannog o hono, y mae ail fendith yn buan ganlyn; sef bendith Abraham, hyny yw, addewid yr Ysbryd trwy ffydd, Gal. iii. 13, 14. Ond nid yw ein Pharisead ni yn dyall hyn.

Yn awr, er ei fod yn gwbl angenrheidiol fod cyfiawnder cyfrifol yn gyntaf i'r

enaid; hyny yw, i Dduw gael y pechadur yn gyntaf wedi ei wisgo â chyfiawnder perffaith, fel y gallo roi bendithion ereill iddo mewn ffordd o gyfiawnder.

Gwisged Duw fi gan hyny â chyfiawnder ei Fab; a thrwy rinwedd hwnnw deued ail fendith Duw arnaf; a thrwy rinwedd honno, boed i mi gael gweled fy hun yn bechadur, a chyfiawnder Crist a'm heisiau o hono, yn yr athrawiaeth o hono, fel ag y mae yn cael ei ddatguddio yn ysgrythurau'r gwirionedd. Boed i mi, gan hyny, gredu fod yr athrawiaeth hon yn wir, a chael fy nwyn trwy fy nghrediniaeth i edifeirwch am fy mhechodau, i fawr newynu a sychedu am y cyfiawnder hwn; canys dyma "deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef." Ie, boed i mi weddio, llefain, ochneidio ddydd a nos ar Dduw'r cyfiawnder hwn, ar iddo o'i ras fy ngwneuthur yn gyfrannog o hono: a boed i mi fod fel hyn yn y llwch ger bron Duw dros yr holl amser y gwelo efe fod yn dda yn ei ddoethineb i'm gadael. Ac yn ei amser ei hun fe a ddengys i mi fy mod yn ddyn wedi ei gyfiawnhau, yn ddyn yn yr hwn y trigodd Ysbryd Duw dros amser, er na's gwyddwn i.

Felly, gan hyny, un peth yw cyfiawnhad yn ngolwg Duw, a pheth arall yw cyfiawnhad yn fy ngolwg fy hunan: nid fod y rhai'n yn ddau gyfiawnhad, eithr y dichon fod Duw yn gweled yr un cyfiawnder trwy'r hwn yr wyf yn sefyll yn gyfiawn yn ei olwg ef, pan yr wyf fi fy hun yn anwybodus o hono; ïe, mi a allaf fod er ei fwyn ef wedi fy nghymmeradwyo, fy mhardynu, a'm cyfrif yn gyfiawn ger bron Duw, a myfi eto heb ei ddyall. Ie, fe a ddichon fyned yn mhellach rhagddo mewn ffordd o fendith, i'm bendithio â bendithion chwanegiadol, a fi eto yn anwybodus o'm cyfiawnhad.

Felly nid y cwestiwn yw, A ydwyf fi yn gwybod fy mod i yn ddyn cyfiawn? eithr, a ydwyf fi felly? A ydyw Duw yn fy nghael i felly, pan y mae yn gweled fod cyfiawnder ei Fab am danaf, wedi ei wneuthur drosodd i mi trwy weithred o'i ras ef? Canys yn rhad trwy ei ras ef yr wyf yn cael fy nghyfiawnhau, trwy'r prynedigaeth sydd yn Grist Iesu, yr hwn a osododd Duw yn iawn trwy ffydd yn ei waed ef, trwy faddeuant o'r pechodau a wnaethid o'r blaen trwy ddioddefgarwch Duw, Rhuf. iii. 24. Ond nid yw ein Pharisead yn dyall hyn.

Gan hyny yr wyf yn cael fy ngwneuthur yn gyfiawn, yn gyntaf, trwy gyfiawnder un arall; ac am fy mod felly yn gyfiawn, y mae Duw yn derbyn fy mherson fel y cyfryw, ac yn rhoi i mi ei ras; o'r hwn, ar y cyntaf, o eisiau medr a phrofiad yn ngair cyfiawnder, nid wyf yn gwneuthur ond defnydd gwael iawn; ac y mae arnaf eisiau cael fy sicrhau fy mod wedi fy ngyfiawnhau, a bod i mi fywyd tragywyddol; nid trwy ffydd yn gyntaf ac yn ddigyfrwng, ond trwy'r gair ysgrifenedig, yr hwn a elwir gair y ffydd; yr hwn air sydd yn dadgan i mi (i'r hwn y rhoddwyd gras, ac felly i'r hwn y rhoddwyd ffydd yn yr hedyn o honi) fod i mi fywyd tragywyddol; ac y dylwn gydâ hyfdra, mewn heddwch a llawenydd, gredu yn Mab Duw, Heb. v. 13. Rhuf. xv. 13. 1 Ioan v. 13. Ond,

Drachefn, Nid wyf fi yn y gweithrediadau cyntaf o'm ffydd, pan ydwyf yn dyfod at Grist, yn ei dderbyn am fy mod yn gwybod fy mod yn gyfiawn trwy gyfiawnder cyfrifol, neu trwy yr hwn sydd dufewnol chwaith; fe all y ddau hyn, o ran fy mraint bresenol i ynthynt, fod yn guddiedig oddiwrth fy llygaid, a finneu yn cymmerid annogaeth i lynu wrth Grist am fywyd a chyfiawnder, oddiwrth y modd y mae yn cael ei osod allan yn iawn am bechod ger bron fy llygaid yn ngair gwirionedd yr efengyl; wrth ba air yr wyf yn glynu fel ag yr wyf, neu o herwydd fy mod yn profi fod arnaf eisiau heddwch â Duw yn fy enaid, ac am fy mod wedi fy argyoeddi, nid yw cyfryngau heddwch i'w cael mewn un lle ond yn Iesu Grist. Trwy fy ngwaith

yn glynu fel hyn wrtho ef, yr wyf yn cael gorphwysfa i'm henaid, a heddwch i'm cydwybod, am fod y gair yn sicrhau i mi, fod gan yr hwn sydd yn credu yntho ef faddeuant pechodau, fod gantho fywyd tragywyddol, ac y caiff ei achub rhag y llid a fydd.

Ond och! pwy a ŵyr am (yr amrywiol gyfyngderau, ac fel y gallaf ddywedyd, nerth y tywydd, fy meddwl yw) yr awelon oerion o uffern y sydd yn chwythu ar yr enaid tlawd, rhwng ei waith yn derbyn gras, a'i waith yn glynu mewn teimlad wrth Iesu Grist? Nid neb, mi a anturiaf ddywedyd, ond efe a'i gyfeillion. "Y galon sydd yn gwybod chwerwder ei henaid ei hun, a'r dieithr ni bydd gyfrannog o'i llawenydd hi," Diar. xiv. 10. Mor gynted ag y mae Satan yn dyall fod Duw yn ymdrin a'r enaid mewn ffordd o ras a thrugaredd, y mae yn ymroi hyd eithaf ei allu i wneuthur yr adnewyddiad o hono yn waith chwerw a blinedig i'r pechadur. O! pa fath niwl, pa fath fynyddoedd, pa fath gymhylau, pa fath dywyllwch, pa fath wrthddadleuon, pa fath feddyliau gau am Dduw, am Grist, am ras, am y gair, ac am gyflwr yr enaid, y mae yn eu taflu yn awr o'i flaen, ac yn ei erlid â hwynt; trwy ba rai y mae yn ei bruddhau, yn ei daflu i lawr, yn ei ddigaloni, yn ei ormesu, ac o fewn i ychydig yn ei yrru i lwyr anobaith. Yn awr, o herwydd y pethau hyn, y mae yn waith caled ar ffydd (a'r holl ras ag sydd yn yr enaid) i ddyfod at addewid, a thrwy'r addewid at Grist, fel ag y dywedir am y dymhestl, a'r mawr berygl o long-ddrylliad oedd ar y llestr yr oedd Paul yntho, "Braidd y gallasent gael y bad," Act. xxvii. 16. Canys amcan Satan yw, os na's gall gadw'r enaid rhag glynu wrth Grist, gwneuthur ei ddyfodiad at Grist, a glynu wrtho, mor galed, mor anhawdd a gofidus, ag y gallo trwy ei ddichellion. Ond gras yw ffydd—gwir ffydd gyfiawnhaol—na's blinir gan yr hyn oll a allo Satan ei wneuthur; eithr yn myfyrio ar y gair, yn cymmeryd blys a chalondid, yn ymladd ac yn llefain, trwy gymmorth o'r nef, y mae yn gweithio ei ffordd trwy'r holl wrthwynebiadau sy'n ymddangos mor gadarn, ac yn gweithio i fynu yn y diwedd at Iesu Grist, yn mynwes pa un y mae yn dodi'r enaid, lle y mae, dros yr amser, yn melus orphwys, ar ol ei holl dafliadau rhyfeddol yma a thraw.

Ac heblaw yr hyn a ddywedwyd, gadewch i mi eglurhau y gwirionedd hwn i chwi trwy y gyffelybiaeth gyfeillgar hon.

Gadewch fod dyn o deyrn-fradwr, ag a ddylai farw wrth y gyfraith am ei bechod, ac eto yn un ag sydd gan y brenin gariad rhagorol ato; oni ddichon y brenin bardynu'r dyn hwn o'i garedigrwydd; ie, a gorchymyn i'r pardwn gael ei ysgrifennu a'i selio i fynu; ac felly yn mhob ystyr cael ei wneuthur yn sicr, ac eto, dros yr amser presennol, cadw hyn oll yn ddigon dirgel oddiwrth glustiau neu wybodaeth y dyn y mae yn perthyn iddo. Ie, oni all y brenin, wedi hyn oll, adael y dyn hwn, ynghyd ag ereill yn yr un trosedd, i ymbil am, a mwynhau y pardwn hwn gydâ llawer o draul ac anhawsdra, gydâ llawer o ddagrau a gofidiau calon, gydâ llawer o ofnau a meddyliau cythryblus ac anmheus?

Dyma fel y mae yn bod rhwng Duw a'r enaid y mae yn ei achub: y mae yn ei achub, yn ei bardynu, ac yn ei ddiogelu rhag y felldith a'r angeu sydd ddyledus am bechod, ond eto nid yw yn dywedyd hyny wrtho, ond yn gadael iddo weithio ei ffordd i fynu at Dduw trwy lawer o anhawsdra. Yn unig fod yn rhaid i ni wneuthur y gwahaniaeth hwn rhwng Duw a mawrion y byd hwn: ni ddichon Duw bardynu cyn y safo'r pechadur ger ei fron yn gyfiawn yn nghyfiawnder Crist; o herwydd ei fod, mewn barn a chyfiawnder wedi bygwth a phenderfynu y caiff yr hwn a fyddo heb gyfiawnder farw.

Ac meddaf drachefn, am mai cyfiawnder Duw ydyw, ac ar rodd Duw yn unig, Duw sydd raid i wneuthur dyn yn gyfiawn cyn y gallo faddeu ei bechod, neu rhoi ail fendithion, sef ei Yspryd, a'i rasusau. A thrachefn meddaf, y mae yn rhaid mai'r cyfiawnder hwn (canys ni ddichon un arall fod) sydd yn cyfiawnhau pechadur oddiwrth bechod y'ngŵydd Duw, ac oddiwrth farnedigaeth y gyfraith.

*Yn ail.* Hon yw'r ffordd—a rhaid yw mai hon ydyw—ag y mae Duw yn ymdrin â pechadur, fel y gallo ffydd gael nid yn unig wrthddrych i weithio arno, ond hefyd annogaeth i weithio oddiwrthi.

1. Yma, fel ag y dywedais, y mae gan ffydd wrthddrych i weithio arno, a hyny yn mherson Crist, a'i gyfiawnder personol ef, yr hwn a gyflawnodd efe yn nyddiau ei gnawd i gyfiawnhau pechadur ag ef. Dyma, meddaf, wrthddrych ffydd am gyfiawnhad, lle mae'r enaid trwyddi yn ffoi yn wastadol.

Dyma paham y dywedodd Dafydd wrth Grist, "Bydd i mi yn drigfa gadarn;" neu, fel ag y mae yn ymyl y ddalen, yn "graig gyfanedd" i ddyfod iddi bob amser, Salm lxxi. 3. A dau beth y mae yn ei feddwl wrth ddywedyd felly.

Y cyntaf yw, Fod y Cristion yn un ag sydd mewn ymarferiadau gwastadol, weithiau ffordd hyn ac weithiau ffordd arall, ond y mae tueddiad yn ei holl ymarferiadau, mwy neu lai, i'w yspelio ef, o herwydd paham y mae yn hytrach am ffoi at Grist nag am ymdrechu â hwynt yn a thrwy ei nerth ei hun.

Yr ail yw, Fod Crist yn noddfa, wedi ei wneuthur i ni gan Dduw yn hyn o beth. Dyma paham y dywedir, mai "Tŵr cadarn" yw ei enw; a bod y cyfiawn yn rhedeg iddo, a'i fod yn "ddiogel," Diar. xviii. 10. Y mae'r hyn hefyd ag y mae Dafydd yn ei ddywedyd yn Salm lvi. 2, yn rhagorol iawn i'r perwyl hwn: "Beunydd i'm llyngcei fy ngelynion," medd efe, "canys llawer sydd yn rhyfela i'm herbyn, O Dduw goruchaf." A pha beth wedi'n? Pa beth medd efe? "Mi a ymddiriedaf ynot ti." Fel hyn, chwi a welwch fod gan ffydd wrthddrych i weithio arno i ddwyn yr enaid ato, ac i ddiogelu'r enaid mewn amseroedd o gyfyngder, a'r gwrthddrych hwnw yw Iesu Grist a'i gyfiawnder ef. Ond,

2. Drachefn, megis ag y mae gan ffydd wrthddrych i weithio arno, felly hefyd y mae ganthi annogaeth i weithio oddiwrthi, a hyny yw, cariad Duw yn rhoddi Crist i'r enaid yn gyfiawnder. Ac nid oes un broffes, crefydd, neu ddyledswydd a chyflawniad, oll yn gymmeradwy, lle mae'r ffynd hon (yr hon a ddichon weithio trwy'r cyfryw foddion) yn eisiau: "Canys yng Nghrist Iesu ni all enwaediad ddim, na dïenwaediad; ond ffydd yn gweithio trwy gariad," Gal. v. 6. Felly y mae yn gweithio yn garedig, neu trwy ffydd, ffrwyth pa un yw cariad (er mai plentyn gwir ffydd yw cariad), ond y mae gwir ffydd yn gweithio trwy gariad; hyny yw, gwir ffydd gadwedigol, gyfiawnhaol, fel ag y mae yn canfod cyfiawnder Crist, wedi ei wneuthur trosodd i'r enaid er cyfiawnhad; felly y mae yn gweled cariad, mai cariad oedd yr achos o'i wneuthur trosodd felly. Y mae yn gweled cariad yn y Tad yn rhoddi ei Fab, a chariad yn y Mab yn rhoddi ei hun i fod yn gyfiawnder i achub ei enaid. Ac felly y mae yn gweithio trwy gariad; hyny yw, y mae yn cael ei annog i hyfdra sanctaidd i anturio ei holl achosion tragywyddol, ac hefyd i gariad sanctaidd, anwyl, a serchiadol at Grist, am ei gariad melus a bendigedig yn gwaredu'r enaid. Dyma paham y mae Paul yn dywedyd, "Y mae cariad Crist yn ein cymmell ni, gan farnu o honom hyn, os bu un farw dros bawb, yna meirw oedd pawb. Ac efe a fu farw dros bawb, fel na byddai i'r rhai byw fyw mwyach iddynt eu hunain, ond i'r hwn a fu farw drostynt, ac a gyfododd," 2 Cor. v. 14, 15.

Fel hyn, gan hyny y mae'r galon yn cael ei huno mewn serch a chariad at y

Tad a'r Mab, am y cariad a ddangosasant i'r pechadur tlawd, yn ei waredu yn y cyfryw fodd rhag y llid a fydd. Canys trwy'r cariad hwn y mae ffydd yn gweithio mewn serchiadau melus a fflamiau hyfryd o gariad at bawb ag y sydd wedi cael eu cymmodi fel hyn, fel ag y mae'r pechadur tlawd hwn yn gweled ei fod. Yr annogaeth, gan hyny, trwy ba un y mae ffydd yn gweithio mewn perthynas i gyfiawnhad a sancteiddiad; y brif annogaeth, meddaf, i etifeddion ffydd, yw cariad—cariad Duw a chariad Crist; "Yr ydym ni yn eu garu ef, am iddo ef yn gyntaf ein caru ni." Hyny yw, wedi i ffydd ddywedyd hyny; canys felly y mae'r geiriau uchod, "Nyni a adnabuom ac a gredasom y cariad sydd gan Dduw tu ag attom ni." Ac yna, "Yr ydym ni yn ei garu ef, am iddo ef yn gyntaf ein caru ni." A chwedi hyny, "A'r gorchymyn hwn sydd gennym oddi wrtho ef, Bod i'r hwn sydd yn caru Duw, garu ei frawd hefyd," 1 Ioan iv. 16—21. Ond nid yw ein Pharisead tlawd ni yn dyall hyn. Ond,

*Yn bummed.* Y mae yn rhaid bod cyfiawnder trwy gyfrifiad yn gyntaf, "i dori ymaith ymffrost oddiwrth galon, meddylfryd, a gwefusau dynion." O herwydd paham y mae yn dywedyd fel o'rblaen, "Wedi ein cyfiawnhau yn rhad trwy ei ras ef," nid trwy neu er mwyn un egwyddor efengylaidd sanctaidd ynom ni, ond trwy'r "prynedigaeth sydd yng Nghrist Iesu," &c. "Pa le, gan hynny, y mae gorfoledd? Efe a gaewyd allan. Trwy ba ddeddf?" "Trwy ddeddf ffydd." A thyma ddeddf ffydd, ein bod ni wedi ein cyfiawnhau fel o'r blaen, Rhuf. iii. 24, &c.

Ac ni ddichon un dyn ddyfeisio ffordd mwy effeithiol nâ hon i dorri ymffrost ymaith, yr hon a ddarparodd Duw: canys beth sydd gan y ddyn yma i ymffrostio o'i herwydd? Dim cyfiawnder, na'r cymhwysiad o hono at yr enaid. Eiddo Crist yw'r cyfiawnder, nid eiddo'r pechadur. Eiddo Duw yw'r cyfrifiad, nid y pechadur. Cariad a gras Duw yw'r achos o'r gyfrifiad, nid gweithredoedd cyfiawnder y pechadur. Yr amser y mae Duw yn cyfrif cyfiawnder, yw pan y mae'r pechadur yn bechadur, wedi ei gaead i fynu mewn anwybodaeth, ac yn ymdreiglo yn ei wagedd; nid pan oedd yn dda, neu pan oedd yn ceisio cyfiawnder, canys ffrwyth y cyfrifiad o gyfiawnder cyfiawnhaol, yw ei ddaioni efengylaidd tufewnol. "Pa le, gan hynny, y mae gorfoledd?" Pa le y mae ein Pharisead â'i ymffrost, nad yw fel dynion ereill? Y mae wedi ei gae allan, ag yntef gyd ag ef; a'r Publican tlawd wedi ei dderbyn i ffafr, fel y torid ymffrost ymaith. "Nid o weithredoedd, fel nad ymffrostiai neb." Nid oes dim ymddiried i'w ddodi mewn dynion; y mae yn naturiol i'r dynion ag sydd dybygid fwyaf gostyngedig mewn ymddangosiad, a phellaf oddiwrth falchder, i falchio, ïe, pan nad oes ganthynt achos i falchio: canys trwy ras yr ydym yn gadwedig trwy ffydd, a hyny nid o honom ein hunain, rhodd Duw ydyw. Nid o weithredoedd, fel nad ymffrostia neb.

Ond os yw dyn mor dueddol i fostio, pan nad oes dim sail i fostio yntho, nac eto yn yr hyn ag y mae yn ei wneuthur, pa fodd yr ymffrostiai, pe caniattausai Duw'r nefoedd iddo gael rhyw beth, er na buasai y rhyw beth hyny ond rhyw beth bychan iawn tuagat ei gyfiawnhad. Ond fe rhagflaenodd Duw ymffrostio trwy wneuthur fel y gwnaeth, Eph. ii. 8, 9. Ie, y mae'r apostol yn 'chwanegu ymhellach (fel nad ymffrostiai neb) o rhan gweithredoedd da, "Ei waith ef ydym ni, wedi ein crëu yng Nghrist Iesu i weithredoedd da, y rhai a rag-ddarparodd Duw, fel y rhodiem ni ynthynt," adn. 10. A ddichon y pren ymffrostio, gan mai Duw a'i gwnaeth y cyfryw: pa le y mae gorfoledd gan hyny? "Eithr yr ydych chwi o hono ef yn Nghrist Iesu, yr hwn a wnaethpwyd i ni gan Dduw yn ddoethineb, ac yn gyfiawnder, ac yn sancteiddrwydd, ac yn brynedigaeth: fel megis ag y mae yn ysgryfenedig,

Yr hwn sydd yn ymffrostio, ymffrostied yn yr Arglwydd," 1 Cor. i. 30, 31. Pa le y mae ymffrostio gan hynny? Pa le gan hyny y mae ein Pharisead â'i holl weithredoedd o gyfiawnder, ac â'i holl ymffrostio ei fod yn well nâ'i gymmydogion?

Fe ellir dywedyd, Pe cyfiawnheid ni er mwyn ein cyfiawnder tufewnol, gan mai rhodd Duw yw'r cyfiawnder hwnw, onid yw yn canlyn fod ymffrostio o rau yr achos o hono yn cael ei dori ymaith?

*Atteb.* Na ellir, canys er mai rhodd Duw yw yr egwyddor dufewnol o gyfiawnder, etto trwy, ac mewn dyn, mae yn dwyn ffrwythau, ac felly y mae llaw gan ddyn yntho, er bod gantho byth mor lleied, eto y mae achos i ymffrostio yn cael ei gynnyg iddo. Ie, pe cyfiawnheid dyn ger bron Duw trwy y gras, neu weithrediad y gras o ffydd yntho ef, fe fyddai gantho sylfaen achos i fostio, o herwydd fod ffydd, er mai rhodd Duw ydyw, megis y mae'n gweithredu mewn dyn, yn cymmeryd dyn gydâ hi trwy ei gweithredu felly; ïe, y mae gweithrediad ffydd mor fynyched yn cael ei briodoli i'r dyn, trwy yr hwn y mae yn gweithredu, ac yn fynychach, nag i'r gras ei hun; pa fodd gan hyny, na's rhaid fod gan ddyn law ynthi, ac felly sail i ymffrostio yntho, neu am dano.

Ond yn awr, gan fod cyfiawnhad oddiwrth felldith y gyfraith yn gorwedd yn unig ac yn hollol yn ngwaith Duw yn cyfrif cyfiawnder Crist i ddyn, a hyny hefyd tra y mae'r dyn y cyfrifir iddo yntho ei hun yn ddrwg ac yn annuwiol, nid oes dim lle wedi ei adael i ymffrostio ger bron Duw, canys dyna'r ymffrost a feddylir, eithr yn hytrach rhoddi achos i gywilydd a gwarthrudd wyneb, a chae'r genau dros byth, gan fod cyfiawnhad yn dyfod mewn ffordd gymmaint uwch ei law, ac mor belled oddi allan iddo, sef ei fedr a'i gymmorth, neu ba peth bynnag arall, Ezeciel. xvi. 61—63.

*Yn chweched.* Y mae yn rhaid bod cyfiawnder trwy gyfrifiad yn gyntaf, "fel na's byddo cyfiawnhad o ddyled, eithr o drugaredd a gras." Y mae hyn yn eglur oddiwrth reswm: y mae yn gymmwys i Dduw gan hyny, ein cyfiawnhau ni â chyfiawnder o'i eiddo ei hun, nid o'i bortreiad ei hun, canys fe a ddichon wneuthur felly, ac eto fod y cyfiawnder yn eiddo ni; ond o'i ddarpariad ei hun, fel y byddo'r cyfiawnder yn eiddo ef. "Eithr i'r neb sydd yn gweithio, ni chyfrifir y gwobr o ras, ond o ddyled," Rhuf. iv. 4. Os gweithiaf am gyfiawnder cyfiawnhaol, a chael cyfiawnder yn y ffordd honno, nid yw fy nghyfiawnhad o ras ond o ddyled, nid Duw sydd yn ei roddi i mi, ond y mae yn ddyledus arno ef i mi; felly gan hyny nid yw mwyach yn eiddo ef, ond fy eiddo i: fy eiddo i nid o ras, ond o ddyled: ac yna, os felly, nid wyf yn diolch iddo am ei faddeuant pechodau, nac am deyrnas nefoedd, nac am fywyd tragywyddol; canys os yw cyfiawnder cyfiawnhaol o ddyled, yna pan y caffwyf ef, a'r hyn sydd yn perthyn iddo, nid wyf yn cael ond fy eiddo, yr hyn sydd ddyledus ar Dduw i mi.

Ac ni lesha ddim i ddywedyd, "Ond mi a'i mwynhais trwy ras Duw ynof fi," am nad yw hyny yn tori ymaith fy ngwaith i, nac yn rhagflaenu bod gennyf law yn fy nghyfiawnder cyfiawnhaol.

Gadewch i mi roddi i ddyn foddion, ie pob moddion angenrheidiol i wneuthur y cyfryw a'r cyfryw orchwyl, etto os gweithia efe, er mai fy eiddo i yw'r defnyddiau, yr wyf yn ddyledwr iddo, ac y mae yn haeddu ei wobrwy. Yr wyt ti yn dywedyd, i Dduw roddi i ti ei Yspryd, ei ras, a phob peth arall ag sydd angenrheidiol i wneuthur i fynu gyfiawnder perfaith. Wele, a oes eisiau dy waith di i orphen y cyfiawnder hwn? Os felly, nid dyma'r cyfiawnder sydd yn cyfiawnhau, am ei fod y cyfryw ag y mae dy law di, dy waith di yntho, ac felly y mae am gael gwobrwy. A dal sylw, nid yw cyfiawnder, cyfiawnder cyfiawnhaol, yn gynhwysedig mewn

egwyddor o gyfiawnder, ond mewn gweithredoedd cyfiawnder; hyny yw, mewn dyledswyddau da, mewn ufudd-dod, mewn rhodiad yn y ddeddf wrth fodd y ddeddf, ac wrth fodd cyfiawnder Duw.

Ie, gad drachefn i ti benderfynu gydâ mi, fod cyfiawnder cyfiawnhaol, fy meddwl yw, yr hyn sydd yn cyfiawnhau oddiwrth felldith y ddeddf, yn bod yn unig yn ufudd-dod Mab Duw; ac nad yw'r egwyddor o ras sydd ynot ti ddim o'r cyfiawnder hyny, nac ydyw ddim, wedi i ti rodio gydâ Duw hyd yr eithaf yn ol dy ddawn a'th ras: etto os barnu fod yn rhaid bod yr egwyddor hon ynot ti, a'r gweithredoedd hyn wedi eu gwneuthur gennyt ti, cyn y cyfrifer y cyfiawnder cyfiawnhaol hwn i ti er cyfiawnhad, yr wyt yn taflu attalfa yn erbyn dy gyfiawnhad trwy ras; ac felly penderfynu, nad wyt yn cael dy gyfiawnhau trwy dy gyfiawnder dy hun, ond trwy Grist, ac etto dy fod yn cael dy gyfiawnhau trwy gyfiawnder Crist er mwyn dy gyfiawnder dy hun, ac felly yr wyt yn gwneuthur cyfiawnder o hyd i fod o ddyled. Ond y mae yr ysgrythur yn dy dori di ymaith yma hefyd: "Nid am dy gyfiawnder, nac am uniondeb dy galon, yr wyt ti yn myned i feddiannu eu tir hwynt;" (yr hwn nid oedd ond cysgod o'r nefoedd); ac os na ddichon ein cyfiawnder ni trwy ei ragoriaeth roddi i ni ran yn y cysgod, byddwn sicr na chawn byth er ei fwyn ran yn y gwrth-gysgod neu'r sylwedd ei hun.—"Gwybydd dithau gan hyny, nad am dy gyfiawnder dy hun y rhoddes yr Arglwydd it' y tir daionus hwn i'w feddiannu, canys pobl war galed ydych," Deut. ix. 6.

Nid cyflawniadau efengylaidd gan hyny y sydd gyntaf; cyfiawnder cyfammodol oedd y peth cyntaf er mwyn yr hwn y derbyniodd Duw y bobl hyn i'w ffafr ei hun; ac yn mha le y gellid cael y cyfiawnder cyfammodol hwn, ond yn Nhywysog, Cyfryngwr, ac Archoffeiriad y Cyfammod? Canys efe, ac efe yn unig, a ordeiniwyd gan Dduw, ac ni's gallasai neb ond efe ei hun ddwyn i mewn gyfiawnder tragywyddol, Dan. ix. 24, 25. Y mae hyn yn eglur oddiwrth y testunau a soniwyd ddiweddaf; nid am eu cyfiawnder hwy yr etifeddasant y tir.

Drachefn, megis ag nad am eu cyfiawnder eu hunain y gwnaed hwy yn etifeddion o'r tir, felly nid er mwyn eu cyfiawnder hwy y gwnaed hwynt yn gyfrannogion o'r cyfryw gyfiawnder a'r a wnaeth iddynt feddiannu'r tir. Y mae hyn yn amlwg i reswm; canys nid yw cyfiawnder personol, pan y cyflawnir gennym ni, o ddim teilyngdod i fwynhau cyfiawnder cyfiawnhaol oddiwrth Dduw. Ond os nad yw o ddim teilyngdod i fwynhau cyfiawnder cyfiawnhaol, yna fe dybygid ei fod yn fwy llesiol i'r ddwy blaid na chyfiawnder cyfiawnhaol. Yn gyntaf, Y mae yn fwy llesiol i'r hwn sydd yn ei weithio. Ac yn ail, Y mae yn fwy llesiol i'r hwn sydd yn ei dderbyn, yn amgen, pa ham y mae yn rhoi dyled cyfiawn i ni am dano, ac felly yn ein gwisgo ni a chyfiawnder cyfiawnhaol tragywyddol.

Ysgatfydd y gwrthddadleuir, fod Duw yn gwneuthur hyn oll o ras; ond yr wyf yn atteb, nid yw y rhai'n ond geiriau twyllodrus, a lefarwyd gan dafod y cyfrwys. Canys nid ydym yn siarad yn awr am y gwobrwyon a ddichon roddi i weithrediadau ei ras ei hun ynom ni, eithr pa un a ddichon mewn ffordd o gyfiawnder (neu fel ag y mynno) roddi unrhyw fendith ysprydol i ni greaduriaid pechadurus, yn erbyn pa rai, am bechod, y mae wedi cyhoeddi melldith y gyfraith cyn y caffo hwynt mewn cyfiawnder, a ellir brofi ei fod cystal o ran purdeb a chyfiawnder, ag yw purdeb a chyfiawnder y gyfraith, a'r hon yr ydym i ymdrin.

Yr wyf yn dal na's gall, am na's gall ddywedyd celwydd, am na's gall wadu ei hun: canys os bygwth efe yn gyntaf y troseddiad o'i gyfraith â marwolaeth, ac er hyny derbyn y troseddwr i ras heb foddlondeb cyflawn, beth yw hyn ond dywedyd

celwydd, a gwneuthur cam â'i wirionedd, cyfiawnder, a ffyddlondeb: ie, ac hefyd dymchwelyd awdurdod sancteiddrwydd perffaith ei gyfraith? Y mae yn rhaid gan hyny i'w drugaredd weithredu yn y cyfryw fodd tu ag at y pechadur hwn, fel y gallo cyfiawnder gael ei foddloni, ac ni all hyny byth fod heb gyfiawnder cyfiawnhaol.

Yn awr pa beth yw'r cyfiawnder cyfiawnhaol hwn, a pha bryd y mae yn cael ei gyfrif, yw'r cwestiwn. Meddaf, cyfiawnder neu ufudd-dod Mab Duw yn y cnawd, yr hwn a gymmerth efe ydyw, ac felly ei eiddo ei hun, ac nid cyfiawnder neb arall ond trwy gyfrifiad.

Meddaf, drachefn, y mae yn rhaid i'r cyfiawnder hwn gael ei gyfrif, yn gyntaf, fel y gallo'r pechadur sefyll yn gyfiawn yng ngwydd Duw oddiwrth y felldith, fel y gallo Duw ymdrin ag ef mewn ffordd o gyfiawnder yn gystal ag mewn ffordd o drugaredd, ac eto gwneuthur dim drwg i'r pechadur.

Ond fe allai y gofynech, Pa fodd yr oedd Duw yn ymdrin â pechaduriaid cyn bod cyfiawnder Crist mewn bod gweithredol?

Yr wyf yn atteb, Yr oedd yn ymdrin â pechaduriaid y pryd hyny fel y mae yn ymdrin â hwynt yn awr; fe a'u cyfiawnhaodd hwynt trwy yr un cyfiawnder, trwy rinwedd machniaeth yr hwn ag oedd i'w ddwyn i mewn. Fe ddaeth Crist yn fachniydd drosom ni, a thrwy ei fachniaeth fe a ddododd ei hun dan rwymedigaeth dros y rhei'ny ag yr aeth yn fachniydd iddynt, i ddwyn y cyfiawnder tragywyddol cyfiawnhaol hwn i mewn, a thrwy rinwedd y cyfiawnder hwn, y cafodd y rhei'ny o'i etholedigion a ddaeth i'r, ac a aeth allan o'r byd, cyn iddo ef ddyfod a gorphen ei waith, eu hachub trwy ddioddefgarwch Duw. O herwydd paham, cyn i'r Arglwydd Iesu ddyfod, fe a'u hachubwyd er mwyn yr Arglwydd Iesu, ac er mwyn ei enw ef. Ac yr oedd y rhai ag oedd yn ddoeth ysbrydol yn dyall hyn, ac yn ei ddadleu fel ag yr oedd eu hangenrheidiau yn gofyn, ac yr oedd yr Arglwydd yn eu cymmeradwyo hwynt, Heb. vii. 22. Rhuf. iii. 25. Dan. ix. 17. Salm xxv. 11.

*Yn seithfed.* Y mae yn rhaid bod cyfiawnhad trwy gyfrifiad yn gyntaf: "Fel y byddo cyfiawnhad yn sicr; o herwydd paham o ffydd y mae," (o'r cyfiawnder ag y mae ffydd yn ymaflyd yntho), "fel y byddai yn ol gras, fel y byddai yr addewid yn sicr i'r holl had," Rhuf. iv. 16. Fel y byddai'r addewid. Pa addewid? Yr addewid o faddeuant pechodau, &c., yn sicr.

Yn awr y mae addewid o faddeuant pechodau yn arwyddo, fod cyfiawnder yn myned o'r blaen; canys nid oes dim maddeuant pechodau, nac addewid o faddeuant, er mwyn un cyfiawnder a wnelir gennym ni, ond er mwyn hwnw a gafwyd eisoes yn Nghrist Iesu fel pen, ac felly yn cael ei gyfrif i'r etholedigion er maddeuant pechodau iddynt. "Megis y maddeuodd Duw er mwyn Crist i chwithau," Eph. iv. 32. Er mwyn Crist; hyny yw, er mwyn cyfiawnder Crist. Y mae yn rhaid i gyfiawnder cyfrifol fod yn gyntaf; ïe, y mae yn rhaid ei fod o flaen maddeuant, a Duw sydd yn rhoi maddeuant y pryd yr ydym ni yn gorwedd yn ein gwaed, er mai ar ol hyny y mae yn cael ei amlygu i ni. Am hyny o ffydd y mae, nid yw yn dywedyd trwy ffydd, gan edrych ar y weithred o ffydd; eithr o ffydd, gan olygu'r athrawiaeth neu'r gair sydd yn gosod allan i ni y cyfiawnder cyfrifol bendigedig hwn; "Y rhai sydd o ffydd, y rhai hyny yw plant Abraham." Y rhai sydd o athrawiaeth ffydd, canys meibion yr athrawiaeth honno yw'r holl etholedigion, yn mha un y cynhwysir y cyfiawnder hwn o eiddo Crist; ïe, y maent yn cael eu cenhedlu trwyddi gan Dduw i'r etifeddiaeth hon, i'r cysurus fwynhad o'r diddanwch o hono trwy ffydd.

Fel y byddai'r addewid yn sicr i'r holl had, i'r holl rai hyny ag sydd wedi eu cae i fynu yn yr addewid, ac felly wedi eu cenhedlu a'u geni. Fel y byddai yn sicr, yn

dal allan, nad oes un ffordd sicr o iachawdwriaeth i'r etholedigion ond hon, am na's gall Duw byth ein cymmodi ag ef hun trwy un moddion eraill; canys y mae ei olygon nefol yn gweled, ïe, yn eglur ganfod beiau yn ein cyflawniadau efengylaidd goreu. Ie, y mae bai yn ein ffydd, ac y mae hefyd yn anmherffaith. Pa fodd gan hyny y rhoddid maddeuant pechodau i ni er mwyn honno? Ond yn awr y mae cyfiawnder Crist yn berffaith, yn dragywyddol, ac mor gadarn a'r mynyddoedd mawrion, o herwydd paham y mae yn cael ei alw yn Graig ein Hiachawdwriaeth, oblegid y dichon dyn mor fuan daflu'r mynyddoedd o'i flaen bendramwnwgl, ag y dichon pechod ddirymu cyfiawnder Crist, pan, ac i'r hwn, y cyfrifo Duw ef er cyfiawnhad, Salm xxxvi. Yn ymyl y ddalen fe ddywedir ei fod fel mynydd Duw; yr hwn a elwir mynydd Seion, neu fynydd Moria, ar yr hwn yr adeiladwyd y deml, ac ar yr hwn yr oedd yn sefyll: y mae pob sylfeini ereill yn sigledig, y mae pob cyfiawnderau ereill mor egwan, mor fyr, mor gul, ïe, mor llawn o anmherffeithrwydd; "Canys yr hyn ni allai y ddeddf, o herwydd ei bod yn wan trwy'r cnawd, Crist a'i gwnaeth yn nghyffelybiaeth cnawd pechadurus." Ond beth ni allasai'r ddeddf ei wneuthur? Beth? ni allasai roi dim cyfiawnder i ni, na nerth i'w gyflawni. Ni allasai roddi i ni un sail gobaith da, sicr, a safadwy am faddeuant pechod ac iachawdwriaeth.

O herwydd paham wedi cyfrif y cyfiawnder hwn i bechadur, nid yw cyfiawnder Duw yn cael dim bai yntho, eithr yn cyd-synio i roddi i'r pechadur y bendithion angenrheidiol hyny i berffeithio ei ddedwyddwch yn y nefoedd.

*Yn wythfed.* Y mae yn rhaid bod cyfiawnder trwy gyfrifiad yn gyntaf, fel ag y byddo Crist yn blaenori yn mhob peth. Crist yw pen yr eglwys, am hyny gadewch iddo ef gael yr anrhydedd uwchaf yn yr enaid; ond pa fodd y caiff, os â neb o'i flaen o ran cyfiawnhad, cyn y cyfrifer ei gyfiawnder perffaith ef; os dywedir, Fe all gras fod yn yr enaid, er nad yw'r enaid yn ei weithredu hyd y funud y caffo cyfiawnder cyfiawnhaol ei gyfrif iddo?

Yr wyf yn gofyn, Pa beth a wnai gras yno cyn hyny, neu i ba ddyben y mae yno, onid yw yn cael ei weithredu? A thrachefn, pa fodd y daeth yno? pa fodd y cafodd yr enaid feddiant o hono tra yr oedd heb ei gyfiawnhau? Neu, pa fodd y gallasai Duw mewn cyfiawnder ei roddi i ddyn, ag oedd wedi ei gondemnio wrth y gyfraith, cyn ei ryddhau oddiwrth y farn-condemniad honno? Ac meddaf, nid oes dim a all ryddhau yr enaid oddiwrth y felldith honno, ond perffaith ufudd-dod Crist; na hwnw ychwaith, oni chyfrifir i'r dyben hyny i'r pechadur gan ras Duw.

Cael ei gyfrif; hyny yw, cael ei roddi trosodd iddo, fel ag y byddai megis yn eiddo ef ei hun: a phaham na's cyfrifid iddo ef yn gyfiawnder? I ba beth y dygodd Crist ef i'r byd, i'r rhai cyfiawn, neu i bechaduriaid? I bechaduriaid yn ddiammeu. A pha fodd y mae yn rhaid ei gyfrif iddynt hwy? Nid yn yr enwaediad, eithr yn y dienwaediad; nid fel rhai cyfiawn, ond fel pechaduriaid. A pha fodd y maent i edrych arnynt eu hunain, yn y pryd y maent yn gweled eu heisiau gyntaf o hono? A ydynt i edrych arnynt eu hunain yn rhai cyfiawn neu yn bechaduriaid?

A thrachefn, pa fodd y maent i gredu am danynt, y pryd y maent yn gweithredu ffydd gyntaf tu ag at y cyfiawnder hwn er cyfiawnhad? A ydynt i feddwl eu bod yn rhai cyfiawn, neu yn bechaduriaid? Diammeu mai yn bechaduriaid y maent i gyfrif eu hunain, ac fel y cyfryw i gyfrif eu hunain wedi eu cyfiawnhau trwy y cyfiawnder hwn. Ac y mae hyn yn ol yr hyn ag y mae Duw wedi ei ddywedyd, fel yr ymddengys wrth y cyfryw ymadroddion ag sydd yn canlyn:—"Canys Crist, pan oeddem ni etto yn weiniaid, mewn pryd a fu farw dros yr annuwiol."

"Eithr y mae Duw yn canmol ei gariad tu ag atom, o blegyd a nyni eto yn bechaduriaid, i Grist farw drosom ni."

"Canys os pan oeddem yn elynion y'n heddychwyd â Duw trwy farwolaeth ei Fab, &c." Rhuf. v.

I. I Grist, trwy ordeiniad Duw, farw drosom ni.

II. Iddo trwy ei farwolaeth ein heddychu ni â Duw.

III. Ein bod ni, hyd yn oed y pryd hyny, pan oedd gweithred o heddychiad yn cael ei chyflawni, ac hefyd pan oedd wedi ei chyflawni, yn annuwiol, yn bechaduriaid, ac yn elynion.

Yn awr y weithred, trwy'r hon y dywedir y'n heddychir â Duw pan oeddem yn annuwiol, yn bechaduriaid, a phan oeddem yn elynion, oedd gwaith Crist yn offrymu ei hun yn aberth drosom ni, yr hyn yn y geiriau a soniwyd uchod, a elwir ei farwolaeth. "Crist a fu farw dros yr annuwiol, a nyni eto yn bechaduriaid, Crist a fu farw drosom ni, Crist a'n heddychodd â Duw trwy ei farwolaeth." Ac megis ag y dywedir i Grist farw drosom, felly y dywedir fod y Tad yn cyfrif cyfiawnder i ni; sef, fel ag yr ydym heb weithredoedd, fel ag yr ydym yn annuwiol. Yn awr, Eithr i'r neb nid yw yn gweithio, ond yn credu yn yr hwn sydd yn cyfiawnhau yr annuwiol, ei ffydd a gyfrifir iddo yn gyfiawnder. Nid yw yn gweithio, eithr y mae yn annuwiol, pan y mae'r weithred rasol hon o eiddo Duw, yn cyfrif cyfiawnder Crist iddo yn cael ei chyflawni, pan y credo, ei ffydd a gyfrifir iddo yn gyfiawnder. A phaham na's cawn lleshad oddiwrth y cyfiawnder hwn, gan ei fod wedi ei orphen drosom tra'r oeddem ni yn annuwiol? Ie, yr ydym ni yn cael y lleshad oddiwrtho; "Canys pan oeddem yn elynion, y'n heddychwyd â Duw, trwy farwolaeth ei Fab."

Pan wyf yn dywedyd lleshad, fy meddwl yw, y lleshad o fod yn gymmwys i gael ein cyfiawnhau ger bron Duw; canys fe ddichon dyn fod yn gymmwys i hyny tra y mae yn annuwiol yntho ei hun, am fod hyny yn dyfod iddo trwy gyfiawnder un arall. Gwir yw, pe buasai dyn i gael ei gyfiawnhau trwy ei gyfiawnder ei hun, ni allasai fod. Ond eiddo Crist yw'r cyfiawnder, a hwnw yn cael ei gyfrif gan Dduw, nid fel gwobrwy am waith, neu o ddyled, ond yn rhad trwy ei ras ef; ac am hyny fe all bod, ac y mae felly, tra y mae'r dyn y mae yn perthyn iddo heb weithredoedd, yn annuwiol, ac yn bechadur.

Ac fe all yr hwn a wado ein bod ni yn gymmwys i dderbyn y lleshad hyn tra yr ydym yn bechaduriaid ac yn annuwiol, wadu gydâ'r un rheswm mai dynion creuedig ydym ni; canys fe all yr hyn a wneir dros ddyn hebddo gael ei wneuthur trosto pan y gwelo y rhai sydd yn ei wneuthur yn gymmwys. Tra y mae dyn yn gardottyn, oni allaf ei wneuthur i feddiannu deng mil o bunnau yn y flwyddyn, os gallaf a mynnu; ac etto fe ddichon efe fod heb wybod am hyny yn y funud yr wyf fi yn ei wneuthur felly? etto fe fydd rhent yr etifeddiaeth honno yn gyfiawn iddo ef o'r foment y gwnelwyf fi ef felly, ac fe gaiff ei wybod hefyd pan delo dydd talu'r rhent.

Dyma fel y mae'r peth yn bod: yr ydym ni yn bechaduriaid ac yn annuwiol; y mae cyfiawnder wedi ei weithio allan gan Iesu Grist, yr hwn a ordeiniodd Duw i'n gwneuthur ni yn gyfiawn trwyddo; ac os efe a'i cyfrif i ni, ni a gawn fod trwyddo yn gyfiawn yn ei olwg ef, ie, pan ydym yn annuwiol yn ein golwg ein hunain; "Canys y mae yn cyfiawnhau yr annuwiol."

Yn awr, er ei fod yn anghyfreithlon ac yn feius mewn dyn i gyfiawnhau'r drygionus, am na's gall ddarparu, a'i wisgo â chyfiawnder cyfiawnhaol; eto y mae yn beth gogoneddus, ac yn deilwng o dragywyddol glod yn Nuw i wneuthur felly;

am ei fod yn ei allu, nid yn unig i faddeu ond i wneuthur dyn yn gyfiawn; ïe, pan y mae yn bechadur, a'i gyfiawnhau pan y mae yn annuwiol.

Ond fe ellir gwrthddadleu eto, Er fod Duw wedi derbyn boddlondeb am bechod, ac felly ammodau digonol o heddychiad trwy ufudd-dod a marwolaeth ei Fab, etto nid yw yn cyfrif dim o hyny i ni ond ar yr ammod fod i ni ddyfod yn ddynion da.

*Atteb.* Nid oes dim lle i ganiatâu hyny; Canys.

*Yn gyntaf.* Nid yw yr Ysgrythyr yn dywedyd felly; ond ein bod yn cael ein heddychu â Duw trwy farwolaeth ei Fab, a'n cyfiawnhau hefyd, a hyny tra neu pan yr ydym yn bechaduriaid ac yn annuwiol.

*Yn ail.* Od oes gwirionedd yn y gwrthddadl hwn, yna y mae yn canlyn, y gall yr Ysbryd Glân, ffydd, ac felly pob gras, gael ei roddi i ni, ac ni a allwn ei gael i drigo ynom, ïe, i weithredu ynom, cyn y gallom ni sefyll yn marn y gyfraith yn gyfiawn ger bron Duw, (canys ni ddichon dim wneud i ni sefyll yn gyfiawn ger bron Duw yn marn y gyfraith, ond ufudd-dod ei Fab, hebddom ni.) Ac os gall yr Ysbryd Glân, ffydd, ac felly yn ganlynol, greddf pob gras, fod ynom, ac yn gweithredu ynom cyn y cyfrifer cyfiawnder Crist i ni gan Dduw, yna nid ydym yn cael ein cyfiawnhau fel pechaduriaid ac yn annuwiol, ond fel dynion sanctaidd a chyfiawn ynthynt eu hunain o'r blaen.

Ond mi a ddangosais i chwi na's gall hyn fod, am hyny y mae yn rhaid bod cyfiawnder er cyfiawnhad wedi ei gyfrif yn gyntaf. Ac yma gadewch i mi osod dau neu dri pheth o flaen y darllenydd.

*Yn gyntaf.* Un peth yw cyfiawnhad ger bron Duw, a pheth arall yw cyfiawnhad yn y deall a'r gydwybod. Yr wyf yn awr yn llefaru am gyfiawnhad ger bron Duw, nid am dano yn neall a chydwybod dyn: ac, meddaf, fe all dyn fod wedi ei gyfiawnhau ger bron Duw, ïe, pan na's gŵyr efe ei hun ddim oddi wrtho, Esay xl. 2. Mat. ix. 2. a phan y mae heb ffydd am dano, ond yn annuwiol.

*Yn ail.* Y mae cyfiawnhad trwy ffydd, trwy ffydd yn cymhwyso'r cyfiawnder hwnw at y deall a'r gydwybod, yr hwn a gyfrifodd Duw o'i ras yn gyfiawnder i'r enaid er cyfiawnhad ger ei fron. A thrwy hyn yma yr ydym ni, o ran ein teimlad a'n profiad, yn cael heddwch â Duw: "Wedi ein cyfiawnhau trwy ffydd, y mae genym heddwch tu ag at Dduw trwy ein Harglwydd Iesu Grist," Rhuf. v. 1. Ac y mae'r apostol yn cadw'r ddau beth ar wahan yn y ddegfed adnod; "Canys pan oeddem yn elynion y'n heddychwyd â Duw trwy farwolaeth ei Fab ef." Y mae yn chwanegu, "Ac nid hyny yn unig, eithr gorfoleddu yr ydym hefyd yn Nuw trwy ein Harglwydd Iesu Grist, trwy'r hwn yr awr hon y derbyniasom y cymmod," adn. 11. Chwi a welwch yma mai un peth yw i ddyn gael ei heddychu â Duw trwy farwolaeth ei Fab, ac mae peth arall yw i ni dderbyn y cymmod hwn yn weithredol trwy ffydd. Ac nid hyny yn unig, eithr ni a dderbyniasom y cymmod.

*Yn drydydd.* Nid yw dynion yn casglu eu bod wedi eu cyfiawnhau oddiwrth unig weithred Duw yn cyfrif cyfiawnder, fel y byddem ni yn rhydd yn ei olwg oddiwrth felldith a barn y gyfraith; ond oddiwrth air Duw yr hwn nid ydynt yn ei ddyall hyd nes caffo ei ddwyn i'w dyall trwy oleuni a gogoniant yr Ysbryd Glân.

Nid ydym ni gan hyny i gyhoeddi un dyn yn gyfiawn, trwy weinidogaeth y gair, oddiwrth ryw dyb fod Duw wedi cyfrif cyfiawnder iddo, (gan nad yw'r weithred honno yn hyspys i ni), hyd nes byddo i'r ffrwythau sydd yn canlyn hyny dorri allan ger bron ein llygaid; sef arwyddion ac effeithiau'r Ysbryd Glân yn trigo yn ein heneidiau. Ac yna ni a allwn farnu ei fod felly; hyny yw, fod y cyfryw un yn gyfiawn ger bron Duw, etto nid er mwyn ei gyfiawnder tufewnol, nac ychwaith er mwyn y ffrwyth o

hono, ac felly nid er mwyn y weithred o ffydd, ond er mwyn gwaith Iesu Grist yn gwneuthur ac yn dyoddef drosom ni.

Ac ni thâl ddim i ni wrthddadleu, Os ydym ni ar y cyntaf yn gyfiawn ger bron Duw trwy ei waith ef yn cyfrif cyfiawnder Crist i ni, er nad oes ffydd ynom ni i weithredu, ni allwn fod yn wastadol wedi ein cyfiawnhau felly; ac felly pa raid wrth ffydd? Canys dyna paham y cyfiawnheir ni, yn gyntaf, trwy gyfrifiad Duw, fel ag yr ydym ni yn annuwiol, fel y cymhwysid ni trwy hyny i dderbyn yr Ysbryd Glân a'i rasusau mewn ffordd o gyfiawnder ac uniondeb. Heblaw hyn, am y rhei'ny a gyfiawnheir trwy ei ras trwy'r prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu, y mae Duw am iddynt gael yr Ysbryd Glân, ac felly ffydd, fel y gwypont ac y credont nid yn unig y pethau a gaiff eu rhoddi iddynt, ond y pethau y sydd eisoes wedi eu rhad-roddi iddynt gan Dduw. Yn awr, medd Paul, "Nyni a dderbyniasom, nid yspryd y byd, ond yr Ysbryd sydd o Dduw, fel y gwypom y pethau a radroddwyd i ni gan Dduw," 1 Cor. ii. 12. Fel y gwypom, hyny yw, credu: "I chwi y rhoddwyd i gredu, y rhai ydych yn credu yn ol nerthol weithrediad ei allu ef, a nyni a adnabuom y cariad sydd gan Dduw tu ag attom ni," cyn i ni gredu, 1 Ioan iv. 16. Yna fe gaiff yr hwn a gyfiawnheir trwy gyfrifiad Duw ei ddwyn i gredu trwy nerth yr Ysbryd Glân; canys y mae yn rhaid iddo ddyfod, a gweithio ffydd, a chynnorthwyo'r enaid i'w gweithredu, am fod cyfiawnder cyfrifol wedi myned o'r blaen. Gan hyny, yr hwn a gredo a fydd gadwedig; canys y mae ei gredu yn arwydd, nid yn achos o'i fod wedi ei gyfiawnhau ger bron Duw trwy gyfrifiad; A'r hwn nid yw yn credu a ddamnir.

A chymmaint a hyn am y Pharisead, ac am ei waith yn y deml; ac yn awr yr wyf yn dyfod at y rhan honno o'r testun ag sydd yn ol, mewn perthynas i'r Publican.

"A'r Publican gan sefyll o hirbell, ni fynnai cymmaint a chodi ei olygon tu a'r nef, eithr a gur dd ei ddwyfron, gan ddywedyd, O Dduw, bydd drugarog wrthyf bechadur."

Mi a ddangosais i chwi pa beth oedd y Publican hwn, o ran ei genedl, ei swydd, a'i dymmer. O herwydd paham ni chaf flino'r darllenydd yma mewn perthynas i hyny: yr ydym ni yn awr gan hyny yn dyfod at ei edifeirwch yn hollol ac yn y rhannau o hono; mewn perthynas i ba un mi a gaf ddal sylw ar amryw bethau, rhai mwy pell a mwy agos i'r mater, neu'r defnydd a'r bywyd o hono.

Ond yn gyntaf, gadewch i ni weled mor wrthwyneb i'w gilydd oedd y Pharisead a'r Publican yn sefyll yn y deml, pan oedd pob un yn cyflwyno eu gweddiau i Dduw.

*Yn gyntaf.* Y mae'r Pharisead yn myned i mewn yn hyf, nid yw yn ofni dim, ond yn ymddiried yntho ei hun fod ei gyflwr yn dda, fod Duw yn ei garu, ac nad oedd dim achos i ammeu na's llwyddai efe yn ei weithred grefyddol hon. Ond och! y mae'r Publican tlawd yn cilio yn ei ol ac yn dyfod gan ofni yn bwyllig iawn i'r deml, a chwedi dyfod yno, y mae yn sefyll o'r tu ol, yn mhell draw, fel un anheilwng i agoshau i bresennoldeb Duw.

*Yn ail.* Y mae'r Pharisead ar ei ddyfodiad a'i enau yn llawn o bethau gwychion, â pha rai y mae'n tynnu ei law dros ei ben, ac mewn effaith yn galw ei hun yn un o fechgyn gwynion Duw, a gadwasai yn wastatol yn agos at ei ewyllys, a arosai gydâg ef; neu fel ag y dywedodd brawd y mab afradlon, "Wele cynnifer o flynyddoedd yr ydwyf yn dy wasanaethu di, ac ni throseddais i un amser dy orchymyn," Luc. xv. 29. Ond och! Bublican tlawd, o ran y dadleuon hyn, y mae dy euogrwydd yn caead dy enau, nid oes gennyt ti un peth da i ddywedyd trosot dy hunan, un brettyn o gyfiawnder; y mae dy gydwybod yn dywedyd hyny wrthyt; ïe, a phe

gynnygit osod wyneb da ar dy gyflwr yn awr, ac er mwyn dy air da i ddywedyd rhyw beth ar ol y Pharisead mewn ffordd o hunan-ganmoliaeth, eto y mae Duw ar y naill du i ti, y Pharisead ar tu arall, yn nghyd â'th galon yn barod i'th attal, i'th geryddu, i'th gondemnio, a'th daro yn un â'r llawr am dy falchder.

*Yn drydydd.* Y mae'r Pharisead yn ei agoshad at Dduw, yn sychu pen ei fysedd oddiwrth bechodau'r Publican, ni ddaw ddim yn agos ato ef, rhag halogi ei hun â'i frattiau anifeilaidd ef: "Nid wyf fi fel y dynion ereill, nac fel y Publican hwn 'chwaith." Ond y Publican tlawd, och! am dano ef, nid oes dim o'i fysedd ef yn lân, ac ni's gŵyr efe pa fodd i'w gwneuthur felly; heblaw hyny, y mae yn dyoddef y cyhuddiad hwn o eiddo'r Pharisead arno yn addfwyn ac yn llonydd, a thrwy ymddygiad distaw yn cyfiawnhau barn dost lym y dyn hunan-gyfiawn hwnw, gan gyd-farnu ag ef ei fod ei ran ei hun yn druan, yn resynol, yn dlawd, yn ddall, ac yn noeth, ac yn annheilwng i ddyfod yn agos at neu i sefyll gerllaw, dyn mor ddaionus, mor rinweddol, mor sanctaidd, ac mor haeddiannol ag yw ein Pharisead disglair hwn.

*Yn bedwarydd.* Y mae'r Pharisead, megis mewn gwleddoedd a synagogau, yn dewis y lle goreu a blaenaf i'w berson ac i'w weddi, yn cyfrif nad yw y Publican yn deilwng, na's dylai ryfygu gollwng ei anadl drewllyd ddyfod unwaith allan o'i wefusau halogedig yn y deml, hyd nes darfyddai efe â'i weddi sanctaidd. A Publican, pa fodd yr wyt ti yn clywed ac yn dyoddef hyn gydâ phob ammarch arall, a barnu fel ag y mae'r Pharisead yn barnu am danat, nad wyt ond cî mewn cymhariaeth iddo ef, ac felly nid yn deilwng i fyned yn mlaen, ond i ddyfod fel mewn cadwynau o'r tu ol, ac attal cyflwyno dy erfyniad galarus ger bron y Duw sanctaidd, nes darfyddai iddo ef gyflwyno ei araith (yn ei dyb ef) hardd, odidog, a rhagorol.

*Yn bummed.* Y mae'r Pharisead, fel ag y mae yn helaeth yn ei ail adroddiad o'i weithredoedd da, felly y mae yn sefyll yn gadarn drostynt, yn ymdderchafu fel un a chantho sail ddigonol i ddal ei enaid i fynu yn erbyn holl ruthriadau'r ddeddf, y diafol, pechod ac uffern. Ond och! Bublican tlawd, yr wyt ti yn sefyll yn noeth, ie, yn waeth nâ bod yn noeth; canys yr wyt wedi dy wisgo â gwisgoedd bryntion, y mae dy bechodau yn gorchuddio dy wyneb â chywilydd; ac nid oes gennyt ti ynot, neu o honot dy hunan, un noddfa rhag, neu ymddiffynfa yn erbyn cynnygiadau, ymgyrchiadau, a chyhuddiadau dy elynion ysbrydol, ond yr wyt yn awr yn dy olwg dy hun, er yn y deml, "Gwedi dy daflu ar wyneb y maes yn gwbl noeth i ffieiddio dy einioes, fel ar y dydd y'th anwyd," ac yno yn barod i gael dy ddyfetha a'th dorri yn ddarniau am dy gamweddau yn erbyn Duw.

Pa beth a wnai di Bublican? Pa beth a wnai? Tyred, gâd i ni gael gweled yn mha ffordd yr wyt ti yn meddwl dechreu dy weddi at Dduw; meddwl ynot dy hun, a oes gennyt ddim i'w ddywedyd, llefara allan ddyn, y mae'r Pharisead erbyn hyn wedi darfod, a chwedi derbyn ei farnedigaeth; gwaedda, O chwi oll, distawed yr holl fyd; ïe, neshaed angylion y nefoedd, a gwrandawent; canys y mae Publican wedi dyfod i ymdrin â Duw! ïe, wedi dyfod o'r dollfa i'r deml i weddio ar Dduw.

"A'r Publican, gan sefyll o hirbell, ni fynnai cymmaint a chodi ei olygon tu a'r nef; eithr efe a gurodd ei ddwyfron, gan ddywedyd, O Dduw, bydd drugarog wrthyf bechadur." Ai dyma'th ffordd, Bublican tlawd? O bechadur medrus! O Bublican cyfrwys! Fe aeth dy ddoethineb tu hwnt i'r Pharisead; canys gwell yw taflu ein hunain ar drugaredd Duw nâ meddwl ynom ein hunain ein bod ni yn gyfiawn Ond ddarfod i'r Publican daro ar y nod, ïe, myned yn nesach, ac yn fwy i galon Duw a'i Fab nâ'r Pharisead, fe wna'r canlyniad y peth yn amlwg.

Daliwch sulw gan hyny ar yr ymadrodd dwys hyn o eiddo'r Publican, "O Dduw,

bydd drugarog wrthyf bechadur;" ïe, fe gafodd Mab Duw ei ynnill yn y cyfryw fodd i hoffi'r weddi hon, fel er ei mhwyn y mae efe, megis darluniwr celfyddgar, yn portreiadu'r Publican yn ei ddull o sefylliad, ymddygiad, gweithrediadau, &c., tra y mae yn gweddio ar Dduw: o herwydd paham ni a gawn ddal sulw ar bob un o'r ddau; canys y mae'n sicr fod ei ymddygiadau yn gosod rhyw harddwch ar ei weddi a'i edifeirwch.

1. Ei weddi, chwi a welwch, yw hyn, "O Dduw, bydd drugarog wrthyf bechadur."

Y mae ei weithrediadau yn ei weddi yn gyffredinol yn gynhwysedig mewn tri pheth.

1. Fe safodd "o hir bell."

2. Ni fynnai "cymmaint a chodi ei olygon tu a'r nef."

3. "Efe a gurodd ei ddwyfron," a'i ddwrn, gan ddywedyd, "O Dduw, bydd drugarog wrthyf bechadur."

I ddechreu yn gyntaf ar ei weddi. Yn ei weddi hon y mae gennym ddau beth i'w hystyried.

1. Ei gyffes: "Wrthyf bechadur."

2. Ei erfyniad am feddyginiaeth yn erbyn yr afiechyd hwn: "O Dduw, bydd drugarog wrthyf bechadur."

Y mae amryw bethau yn ei gyffes i ddal sylw arnynt. Megis,

*Yn gyntaf.* Onestrwydd a symlrwydd ei gyffes. "Wrthyf bechadur;" yr wyf yn bechadur; "O Dduw, bydd drugarog wrthyf bechadur." Yn wir dyma beth oedd, ac y mae yn wir yn cyfaddef hyn; ac y mae yn gwneuthur hyn, meddaf, mewn symlrwydd duwiol. Canys dywedyd yn ei erbyn ei hun yr hyn oll a ellir ei ddywedyd, yw i ddyn gyfaddef ei fod yn bechadur. Y mae dyn, fel ag y mae wedi ymddirywio, yn ormod o ragrithiwr, ac yn ormod o hunan-wenhieithiwr, i gyfaddef fel hyn yn ei erbyn ei hun, oddi eithr ei wneuthur yn syml ac yn onest trwy rym argyoeddiad ar ei galon. Ac efe a dâl i chwi ddal sylw, nid yw yn dywedyd ei fod, neu wedi bod, ond fod ei gyflwr y pryd hyny y cyfryw, hyny yw, yn bechadur. "O Dduw, bydd drugarog wrthyf bechadur," neu yr hwn wyf, ac yn sefyll yn awr ger dy fron di yn bechadur yn fy mhechodau.

Yn awr i ddangos i chwi ychydig pa beth yw bod yn bechadur; canys ni ellir galw pob un ag sydd yn pechu mewn ystyr briodol yn bechadur. Y mae'r saint, y rhai a sancteiddiwydd yn Nghrist Iesu, yn pechu yn fynych; ond nid yw yn gymmwys eu galw hwynt yn bechaduriaid: ond y mae'r Publican yma yn galw ei hun yn bechadur; ac am hyny, mewn effaith, y mae'n galw ei hun yn bren drwg, yn un nad yw yn dwyn dim ffrwyth da; un ag y mae ei enaid a'i gorph wedi ei halogi; un ag y mae ei feddwl a'i gydwybod wedi eu llygru; un ag sydd wedi "rhodio yn ol helynt y byd hwn, ac yn ol yr ysbryd sydd yn gweithio yr awr hon yn mhlant yr anufudd-dod." Y rhai sydd a'u meddyliau "yn elyniaeth yn erbyn Duw, ac yn cael eu dal yn gaethion gan y diafol wrth ei ewyllys." Pechadur, un a wnaeth grefft o bechod a gweithredoedd Satan trwy ei holl ddyddiau.

Dyma'r modd y mae yn taflu ymaith bob dadleuon, ac yn dodi ei wddf yn fuan ar y boncyff. Er ei fod yn ddyn drwg, eto fe allasai fod gantho ddadleuon; dadleuon, meddaf, yn gystal a'r Pharisead, ond nid cynnifer, eto cystal. Yr oedd efe o had Abraham, yn Iuddew, yn Israeliad o'r Israeliaid, ac felly yn ddyn breintiol yn nghrefydd yr Iuddewon, yn amgen, pa beth y mae yn ei wneuthur yn y deml? Ie, os un o'r Cenhedloedd ydoedd, paham na buasai'r Pharisead yn taro hyny yn ei ddannedd pan oedd yn sefyll ger bron Duw? Ond y gwirionedd yw, ni's gallai, canys yr oedd y Publican yn Iuddew yn gystal a'r Pharisead, ac yn ganlynol fe allai, pe buasai am

hyny, ddadleu hyny ger bron Duw. Ond ni's gwnai, ni's gallai, canys yr oedd ei gydwybod tan argyoeddiadau, yr oedd deffroadau dychrynfeydd Duw arno; o herwydd paham fe doddodd ei freintiau ymaith fel bloneg, a hwy a ffoisant oddiwrtho fel us o'r llawr-dyrnu haf, yr hwn y mae'r gwynt yn ei gasglu i fynu ac yn ei wasgaru fel llwch y llawr; am hyny y mae'n gadael i bob breintiau syrthio, ac yn dadleu yn unig ei fod ef yn bechadur.

*Yn ail.* Y mae yn y cyfaddefiad hwn yn barnu ac yn condemnio ei hun; canys y mae i ddyn ddywedyd, "Yr wyf yn bechadur," yn gymmaint a dywedyd, yr wyf yn groes i sancteiddrwydd Duw, yn droseddwr o'r gyfraith, ac yn ganlynol yn wrthddrych o'r felldith, ac yn etifedd uffern. Y mae'n Publican gan hyny yn myned yn mhell iawn yn ei gyfaddefiad hwn; canys yn y

*Trydydd* lle, y mae yn cyfaddef, nad oes dim yntho, wedi ei wneuthur, neu a ellir ei wneuthur gantho, a ddichon annog neu lwyddo gydâ Duw i wneuthur dim drosto. Canys ni all pechadur wneuthur dim daioni; na all, ddim gweithio i fynu ei galon i un meddwl da: na all, pe cai'r nefoedd ei hun, pe gallai, neu pe b'ai yn sicr o losgi yn nhân uffern byth bythoedd, os na's gallai. Canys pa beth bynnag y mae pechod mewn meddiant, ac yn llywodraethu, fel ag y mae yn mhob un a ellir alw yn-briodol yn bechadur, y mae gantho yno feistrolaeth ar y dyn; y mae wedi rhwymo i fynu ei synhwyrau â rhaffau a chadwynau, a chwedi gwneuthur nad oes un peth mor ffiaidd gan yr enaid a phethau Ysbryd Duw. O herwydd paham fe ddywedir am y cyfryw rai, "Eu bod yn elynion yn eu meddwl; fod synniad y cnawd yn elyniaeth yn erbyn Duw, ac mai oddiwrth y rhai anwir y daw anwiredd; ac y gall yr Ethiopiad newid ei groen, neu'r llewpard ei frychni, mor gynted ag y gall y rhei'ny sydd wedi ymgynnefino a gwneuthur drwg, ddysgu gwneuthur da," Eph. ii. Rhuf. viii. 1 Sam. xxiv. 13. Jer. xiii. 23.

*Yn bedwarydd.* Y mae yn ei gyfaddefiad hwn yn addef yn noeth mae pechod yw'r peth gwaethaf, yn gymmaint a'i fod yn taflu'r enaid allan o gyrraedd pob meddyginiaeth tan y nefoedd. Nid oes dim tan neu y tu yma i drugaredd Duw a all waredu enaid tlawd o'r cyflwr ofnadwy hwn. Nid oedd y Pharisead yn gweled hyn. Diammeu ei fod yn barnu iddo bechu ryw bryd neu gilydd; ond ni ddaeth erioed yn ei holl fywyd i weled pa beth oedd pechod: nid oedd ei wybodaeth o bechod ond twyllodrus a chymmysgedig, fel ag y mae yn amlwg oddiwrth y feddyginiaeth, sef ei gyfiawnder ei hun. Canys cymmerwch hyn yn wirionedd diamheuol, na chafodd yr hwn ag sydd yn meddwl ei fod yn well ger bron Duw, o herwydd ei ddiwygiadau, erioed etto wir wybodaeth o bechod: ond yr oedd y Publican tlawd wedi ei chael, wedi ei chael mewn gwirionedd, fel ag y mae yn amlwg, am ei fod yn ei yrru at yr unig wir feddyginiaeth. Canys yn wir, y mae'r iawn wybodaeth o bechod, yn ei halogrwydd, a'i euogrwydd, a'i rym damniol, yn gwneuthur i ddyn ddyall, nad oes un peth ond gras a thrugaredd trwy Grist, a ddichon ei ddiogelu rhag y canlyniadau uffernol o hono.

Gadewch fod dyn yn glaf o'r *apoplecsi* i farwolaeth, ac er mwyn ei feddyginiaeth a ddefnyddiai yn unig y pethau hyny ag sydd yn dda rhag y cryd bob ail ddydd, oni amlygai hyn nad yw y dyn hwn ddim yn dyall natur ac enbydrwydd y clefyd hwnw. Fe ellir dywedyd yr un peth am bob pechadur ag sydd yn gwneuthur defnydd o'r moddion hyny yn unig i'w cyfiawnhau ger bron Duw, a ddichon yn brin brofi ei fod ef yn Gristion da ger bron dynion dyallus. Ond y Publican tlawd, fe wyddai efe natur ac enbydrwydd ei glefyd; ac fe a wyddai hefyd, nad oedd dim ond trugaredd—anfeidrol drugaredd—a allasai ei iachau ef o hono.

*Yn bummed.* Y mae'r cyfaddefiad hwn o eiddo'r Publican yn dadgan ei fod ef ei hun yn cael el ddal i fynu yn awr gan law Hollalluog, er yn anweledig. Canys y mae pechod pan y gwelir yn ei liwiau, a phan ymddangoso yn ei lun anghenfilaidd, yn brawychu pawb ymaith oddiwrth Dduw. Y mae hyn yn amlwg oddiwrth Cain, Judas, Saul, ac ereill, y rhai ni allent sefyll i fynu tan y teimlad a'r olwg ar eu pechodau, eithr ffoi oddiwrth Dduw, un i un math o anobaith, ac arall i un arall. Ond yn awr, y mae'r Publican hwn, er ei fod yn canfod ei bechod, ei fod ef ei hun yn un ag oedd yn bechadur, etto y mae yn dal i fynu, yn dyfod i'r deml, ac yn agoshau i bresennoldeb Duw sanctaidd a phechod-ddialwr, yn sefyll ger ei fron, ac yn cyfaddef mai efe yw'r dyn hwnw ag y mae pechod wedi ei halogi, a'i ddwyn i'r perygl o gael ei ddamnio o'i herwydd.

Yr oedd hyn gan hyny yn weithred nerthol o eiddo'r Publican: fe a aeth yn ei flaen yn erbyn llais cydwybod, yn erbyn rheswm a theimlad, yn erbyn melldith a barn gondemniol y gyfraith; fe aeth, fel y gallaf ddywedyd, ar farwor tanllyd, at un ag sydd yn dân ysol i bechod a phechaduriaid.

Yn awr gan hyny, a wnaeth y Publican hyn o'i ben ei hun, neu o'i feddwl ei hun? Naddo yn wir, yr oedd rhyw nerth goruwch-naturiol oddi fewn yn ei ddwyn yn y blaen, ac yn ei nerthu yn yr antur ragorol hon. Gwir yw, nid oes dim yn fwy cyffredin yn mhlith dynion drwg, nâ gwawdio a gwatwor, a chwareu â'r ymadrodd hwn o eiddo'r Publican, "O Dduw, bydd drugarog wrthyf bechadur," heb fod oll yn deimladwy beth yw pechod, nac o'u heisiau o gael trugaredd. Ac fe gaiff y cyfryw bechaduriaid weled y llwyddiant wrth weddi'r Publican yn gwbl wrthwyneb i'r modd y llwyddodd y Publican ei hun; fe ddigwydda iddynt hwy yn gryn debyg i'r modd y digwyddodd i'r Iuddewon crwydraidd, y rhai oedd gonserwyr, y rhai a gymmerasant arnynt enwi uwch ben y rhai oedd ag ysbrydion drwg ynthynt, enw yr Arglwydd Iesu; fe'u curwyd gan yr Ysbryd hwnw, hyd oni ffoisant allan o'r tŷ hwnw yn noeth ac yn glwyfedig, Act. xix. 13. Bechadur tlawd, ti a ddywedi weddi'r Publican, ac a wnai gyfaddefiad y Publican, gan ddywedyd, "O Dduw, bydd drugarog wrthyf bechadur." Ond gan bwyll, a wyt yn ei wneuthur â chalon y Publican, gydâ'i deimlad, braw, a'i symlrwydd ef? Os nad wyt, nid ydwyt ond anmharchu'r Publican a'i weddi, a'th hunan, a Duw'r Publican; a thi a gei weled y bydd i Dduw dy wrthod di a'th weddiau, gan ddywedyd, Y Publican a adwaen, mi a adwaen ei weddiau a'i ddagrau duwiol, ond pwy, a pheth wyt ti? Ac efe a'th enfyn ymaith yn noeth. Y rhai newynog a lenwir a phethau da, ond y rhai cyfoethogion a'r dideimlad y mae yn eu gyrru ymaith mewn eisiau.

O'm rhan i, yr wyf yn ei brofi yn un o'r goruchwilion calettaf a gymmer fy enaid mewn llaw, sef dyfod at Dduw, pan y byddwyf wedi fy ngwneuthur yn wir ystyriol mai pechadur ydwyf, am ran mewn gras a thrugaredd. O! mi a debygwn fel pe b'ai holl wyneb y nefoedd yn fy erbyn. Ie, y mae hyd yn oed meddwl am Dduw yn fy nharo trwyof, ni allaf ddal i fynu, ni allaf sefyll ger ei fron ef, ni's gallaf, ond gydâ mil o ddagrau, ddywedyd, "O Dduw, bydd drugarog wrthyf bechadur." Ezra ix. 15.

Amser arall, pan y byddo fy nghalon yn fwy caled ac anystyriol, a phan na byddo ofn yr Arglwydd yn fy mrawychu, yna mi allaf ddyfod o'i flaen, a gofyn trugaredd ar ei law, heb braidd fod yn ystyriol o bechod na gras, nac yn wir fy mod ger bron Duw: ond uwchlaw'r cwbl, amseroedd neillduol yw y rhei'ny, pan y byddwyf yn gallu myned at Dduw fel y Publican, yn ystyriol o'i fawredd gogoneddus ef, a llefain gydâ serchogrwydd, "O Dduw, bydd drugarog wrthyf bechadur."

Ond drachefn, y mae'r Publican trwy ei gyfaddefiad yn dangos rhan o'r doethineb

mwyaf a ddichon dyn marwol ei ddangos, am ei fod trwy wneuthur felly yn rhwymo yn gystal ag yn gweddio am ras a thrugaredd Duw i'w achub ef. Chwi welwch wrth y testun ei fod yn gweddio am dano; yn awr mi a ddangosaf ei fod yn ei rwymo ef ac yn gwneuthur ei hun yn gyfrannog o hono.

"Y neb a guddio ei bechodau ni lwydda: ond y neb a'u haddefo, ac a'u gadawo, y gaiff drugaredd," Diar. xxviii. 13. A thrachefn, "Os cyfaddefwn ein pechodau, ffyddlon yw efe a chyfiawn, fel y maddeuo i ni ein pechodau, ac y'n glanhao oddiwrth bob anghyfiawnder," 1 Ioan i. 6.

*Yn gyntaf.* Yn gyfrannog o hono, yn yr addewid o bardwn, a gaiff drugaredd; fe gaiff faddeuant o'i bechodau. Megis ag y mae Solomon hefyd yn gweddio ar Dduw faddeu i bob un a wyddai ei glefyd ei hun, ac y maent yn wir y cyfryw rai ag sydd yn adnabod pla ei calon ei hun, 2 Chron. vi. 29, 30. 1 Bren. viii. 37, 38. A'r rheswm am hyn yw, fod y pechadur yn awr wedi ei yrru i'r man eithaf; canys cyfaddefiad yw'r dyben eithaf, a'r terfyn pellaf, a ordeiniodd Duw i'r Publican, fyned, mewn perthynas i'w waith. Fel ag y dywedir am Saul a Dafydd, pan oedd yn nghylch roddi Mical ei ferch yn wraig i Dafydd, "Nid wyf yn ewyllysio cynnysgaeth, ond cael cant o flaen grwyn y Philistiaid i ddial ar elynion y brenin," 1 Sam. xviii. 25.

Felly medd Duw yn y mater hwn, Nid wyf yn ewyllysio aberthau na chyfiawnder deddfol i'th gymmeradwyo ger fy mron, yn unig cydnebydd dy anwiredd, droseddu o honot yn fy erbyn i, Jer. iii. 13. Er ysgatfydd y meddwl rhai mai ffordd hawdd iawn yw hon ddyfod at, a chael trugaredd Duw; eto profed pechadur ystyriol hyn, ac efe a gaiff ei brofi y gorchwyl calettaf yn y byd. Ac y mae dau beth ag y mae cyfaddefwr yn dueddol iddynt, ag y sydd yn gwneuthur cyfaddefiad yn anhawdd.

*Yn gyntaf.* Y mae tueddiad mawr ynom i fod yn bleidiol, ac nid yn drwyadl ac yn onest yn ein cyfaddefiadau. Yr ydym yn dueddol i wneuthur cyfaddefiadau hannerog; i gyfaddef rhai pethau, a chuddio rhai pethau; neu wneud cyfaddefiadau ffugiol, gwenhieithio ein hunain a Duw hefyd, tra yr y'm yn gwneud ein cyfaddefiadau wrtho; neu ynteu i gyfaddef pechod fel ag y mae ein tybiau ni yn dirnad, ac nid fel ag y mae'r gair yn ei ddatguddio. Yr ydym yn dueddol iawn i'r pethau hyn: gall dynion gyfaddef pechodau bychain, tra y maent yn cuddio rhai mawrion. Gall dynion gymmeryd arnynt fod yn edifeiriol am bechod pan nad ydynt, neu yntef yn eu cyfaddefiadau anghofio barnu am bechod wrth y gair. Am y dywedir, "Hwy a ddychwelasant at Dduw, nid a'u holl galon, eithr yn ffugiol." Ni lefarasant yn iawn, gan ddywedyd, Pa beth a wnaethum? Y maent yn ei wenhieithio ef â'u gwefusau, ac yn dywedyd celwydd wrtho â'u tafodau, ac yn gweithredu drygioni yn y tywyllwch, ac yn pechu yn ei erbyn ef â llaw uchel, ac yna dyfod ato a gorchuddio'r allor â'u dagrau. Y mae'r pethau hyn gan hyny yn dangos anhawstra cyfaddefiad cywir o bechod; a gwneuthur hyny fel y dylid, nid yw yn beth mor hawdd.

Tu ag at iawn gyfaddefiad o bechod, y mae amryw bethau yn angenrheidiol. Megis,

*Yn gyntaf.* Rhaid bod gwir argyhoeddiad am bechod ar yr ysbryd: canys cyn i ddyn gael ei argyhoeddi yn nghylch natur, canlyniad, a drwg pechod, pa fodd y gall ef wneuthur cyfaddefiad gwirioneddol o'i herwydd? Yn awr, tu ag at argyhoeddi enaid o bechod, y mae'n rhaid gosod y ddeddf adref at y gydwybod gan Ysbryd Duw; "Canys trwy y ddedd, y mae adnabod pechod," Rhuf. iii. 20. A thrachefn, "Nid adnabuaswn i drachwant, oni b'ai ddywedyd o'r ddeddf, Na thrachwanta," Rhuf. vii. 7. Y mae'r ddeddf hon, yn awr, pan y mae yn effeithiol weinidogaethu argyhoeddiad am bechod i'r gydwybod, yn gwneuthur hyny trwy osod bywyd, a grym, a dychryn

mewn pechod. Trwy ei gweithrediad ar y gydwybod, y mae yn gwneuthur i bechod adfywio, "grym pechod yw'r gyfraith," Rhuf. vii. 1. 1 Cor. xv. 56. Y mae hefyd yn cynnyddu ac yn amlhau pechod, trwy ddatguddiad o ddigofaint Duw yn erbyn yr enaid, ac hefyd trwy gyfrif i fynu, a galw i gof bechodau a wnaethpwyd, ac a ollyngwyd dros gof. Y mae gweled pechod yn nrych y gyfraith yn beth dychrynllyd iawn, ni all neb edrych arno a byw; "Pan ddaeth y gorchymyn yr adfywiodd pechod, a minneu a füm farw," Rhuf. vii. 9. Pan ddaeth oddiwrth Dduw at fy nghydwybod, yn cael ei rheoli gan hollalluog fraich, yna y'm lladdodd. Ac yn awr yw yr amser i gyfaddef pechod, canys yn awr y mae enaid yn gwybod pa beth ydyw, ac yn gweled pa beth ydyw, yn ei natur, a'r canlyniadau o hono.

*Yn ail.* Tu ag at iawn gyfaddefiad o bechod, rhaid bod gwir wybodaeth o Dduw, yn enwedig o'i uniondeb, sancteiddrwydd, cyfiawnder, a'i burdeb; gan hyny y mae'r Publican yma yn dechreu ei gyfaddefiad trwy alw ar, neu trwy gyfaddefiad o fawredd Duw; "O Dduw, bydd drugarog wrthyf bechadur;" fel pe dywedasai, O Dduw, O Dduw mawr, O Dduw pechod-ddialwr, mi a bechais i'th erbyn, mi dorrais dy gyfreithiau, mi a wrthwynebais dy sancteiddrwydd, dy uniondeb, dy gyfraith, a'th ewyllys gyfiawn. O Dân ysol! (canys ein Duw ni sydd dân ysol) mi a'th demtiais di yn gyfiawn i ddigofaint, ac i gymmeryd dial arnaf am fy nhroseddiadau. Ond, och! mor lleied o'r rhai sydd yn cyfaddef pechod, sydd â iawn ystyriaethau am Dduw, i'r hwn y perthyn cyfaddefiad pechod! Och! hawdd yw i ddynion gynnwys y fath ystyriaethau am Dduw, ag a foddlono eu meddyliau eu hunain, i ddal i fynu dan y teimlad o bechod, yr hyn a wna eu cyfaddefiad yn esmwyth a ffugiol, yn hytrach nâ gwirioneddol a chalonddrylliol. Golwg ac ystyriaeth o'r Duw mawr yw'r peth mwyaf ofnadwy yn y byd i ddyn pechadurus, yr hyn sydd yn gwneuthur cyfaddefiad o bechod yn beth mor brin. Y mae y rhan fwyaf o ddynion yn cyfaddef eu pechodau megis y tu cefn i Dduw, eithr nid oes ond ychydig yn cyfaddef ger bron ei wyneb; a chwi a wyddoch fod gwahaniaeth mawr yn fynych yn y gwaith hwn yn mhlith dynion.

*Yn drydydd.* Cyn y byddo iawn gyfaddefiad o bechod, y mae yn rhaid bod argyhoeddiad dwfn o ddychryndod dydd y farn. Y mae Ioan Fedyddiwr yn taflu amniad at hyn, lle y mae yn crybwyll fod y Phariseaid yn ddiffygiol (o eisiau dwys ystyriaeth) o wir gyfaddefiad pechod, am nad oeddent wedi eu rhybuddio (neu na chymmerasent y rhybudd) i ffoi rhag y llid a fydd. Pa fraw, pa ddychryn, pa ystyriaeth arswydus a ddichon bod, lle nad oes ystyriaeth o ddydd y farn, ac y rhaid i ni roi cyfrif i Dduw y pryd hwnw am bechod, Matt. iii. 7. Luc iii. 7.

Meddaf, gan hyny, cyn y byddo gwir gyfaddefiad o bechod y mae yn rhaid, yn

1. Fod argyhoeddiad dwfn o sicrwydd dydd y farn; sef fod y cyfryw ddiwrnod yn dyfod; y bydd y cyfryw ddiwrnod. Dyma beth y mae'r apostol yn amcanu ato, lle y mae yn dywedyd, "Fod Duw yn gorchymyn i bob dyn yn mhob man edifarhau: o herwydd iddo osod diwrnod, yn yr hwn y barna efe y byd mewn cyfiawnder, trwy y Gwr a ordeiniodd efe, gan roddi ffydd neu sicrwydd i bawb, o herwydd darfod iddo ei gyfodi ef oddiwrth y meirw," Act. xvii. 30, 31.

Fe rydd hyn ystyriaeth o'r peth ag y mae yr enaid i'w ddisgwyl am ei bechod yn y dydd hwnw; ac felly fe a'i gyrr i gyfaddefiad o'r galon o hono, a llefau cryfion am waredigaeth oddiwrtho. Canys fe ymddadleu'r enaid fel hyn ag sydd yn disgwyl dydd y farn, ac y bydd rhaid iddo roddi cyfrif am y cwbl:—O fy nghalon! Gwaith ofer yw gwenhieithio yn awr, cuddio, neu leihau camweddau; canys y mae barn i ddyfod, "diwrnod yn yr hwn y barna Duw dirgelion dynion trwy ei Fab," ac yn y

dydd hwnw fe "oleua efe ddirgelion y tywyllwch, ac a eglura fwriadau calonnau." Ac os rhaid i bethau fod felly y pryd hyny, pa beth a dâl ceisio gwenhieithio yn awr. 1 Cor. ix. 5. Y mae hyn hefyd yn cael ei osod ger bron yn yr Hen Destament fel rheswn i annog dynion ieuaingc, a dynion o bob oed, i sobrwydd, ac felly i gyfaddef eu pechod i Dduw; lle mae'r Ysbryd Glân mewn ffordd o ogan yn dywedyd, "Gwna yn llawen, wr ieuangc, yn dy ieuengctyd, a llawenyched dy galon yn nyddiau dy ieuengctyd, a rhodia yn ffyrdd dy galon, ac yn ngolwg dy lygaid: ond gwybydd y geilw Duw di i'r farn am hyn oll," Preg. xi. 9. Yn yr un modd drachefn, "Canys Duw a ddwg pob gweithred i farn, a phob peth dirgel, pa un bynnag fyddo ai da ai drwg," Preg. xii. 14.

Rhaid cael y sicrwydd o hyn, meddaf, tu ag at gyfaddefiad cywir o bechod; ac y mae hyn yn cael ei grybwyll gan y Publican, yr hwn, gydâ'i gyfaddefiad sydd yn 'chwanegu, "O Dduw, bydd drugarog wrthyf bechadur." Megis pe dywedasai, os na byddi drugarog wrthyf, dy farn a'm llwngc i fynu; heb dy drugaredd nid allaf sefyll, ond mi a syrthiaf wrth y farn a ordeiniaist.

2. Megis y mae'n rhaid bod, tu ag at gyfaddefiad gwirioneddol o bechod, argyhoeddiad dwfn o sicrwydd, felly hefyd o ddychryndod dydd y farn. O herwydd paham y mae'r apostol, tu ag at dywys dynion i edifeirwch, yr hyn yw cyfaddefiad syml o bechod, yn dywedyd, "Canys rhaid i ni oll ymddangos ger bron brawdle Crist, fel y derbynio pob un y pethau a wnaethpwyd yn y corph, yn ol yr hyn a wnaeth, pa un bynnag ai da, ai drwg. A ni gan hyny yn gwybod ofn yr Arglwydd, yr ydym yn perswadio dynion," 2 Cor. v. 10, 11. Ofn yr Arglwydd, megis y gwelwn yma, y mae efe yn defnyddio, i berswadio dynion i gyfaddefiad pechodau, ac edifeirwch tu ag at Dduw am drugaredd.

Ac yr ydwyf yn credu, mai un rheswm paham y mae'r amser presennol mor llawn o broffeswyr anllad, yw, o herwydd nad oes ganthynt argyhoeddiad cywir o bechod, na mynediad at Dduw â chyfaddefiad gwirioneddol o hono: ac un achos o hyny yw, am na's iawn ystyriasant erioed sicrwydd na dychryndod dydd y farn.

O! ofn yr Arglwydd! yr olwg arswydus a osodir ar bob peth o flaen gorseddfaingc Duw. Ie, mor ddychrynadwy, y pryd hyny, y bydd wyneb Duw, Crist, seintiau ac angylion, yn ymddangos i'r annuwiol! yr hwn a'i credo ac a'i hystyrio, ni all fyw heb gyfaddef pechod i Dduw, a dyfod ato am drugaredd.

"Y mynyddoedd a'r creigiau syrthiwch arnom ni, a chuddiwch ni o wydd yr hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfaingc, ac oddiwrth lid yr Oen: canys daeth dydd mawr ei ddigter ef; a phwy a ddichon sefyll?" Dat. vi. 16, 17. Y mae'r dychryn hwn hefyd yn cael ei osod allan, lle y dywedir, "Ac mi a welais orseddfaingc wen fawr, a'r hwn oedd yn eistedd arni, oddiwrth wyneb yr hwn y ffodd y ddaiar a'r nef, a lle ni chafwyd iddynt. Ac mi a welais y meirw, fychain a mawrion, yn sefyll ger bron Duw; a'r llyfrau a agorwyd: a llyfr arall a agorwyd, yr hwn yw llyfr y bywyd, a barnwyd y meirw wrth y pethau oedd wedi eu hysgrifenu yn y llyfrau, yn ol eu gweithredoedd. A rhoddodd y môr i fynu y meirw oedd yntho; a marwolaeth ac uffern a roddasant i fynu y meirw oedd ynthynt hwythau: a hwy a farnwyd bob un yn ol eu gweithredoedd. A marwolaeth ac uffern a fwriwyd i'r llyn o dân. Hon yw yr ail farwolaeth: a phwy bynnag ni chafwyd wedi ei ysgrifenu yn llyfr y bywyd, bwriwyd ef i'r llyn o dân," Dat. xx. 11—15. Dyma ddychryn, ac y mae yn cael ei datguddio yn ngair Duw, fel y byddo i bechaduriaid ei glywed a'i ystyried, ac felly dyfod a chyfaddef, ac ymbil am drugaredd Duw.

Dychryn neu ofn yr Arglwydd, pa fodd yr ymddengys, pan "ymddangoso yr

Arglwydd Iesu o'r nef, gydâ'i angylion nerthol, a thân fflamllyd, gan roddi dial i'r sawl nad adwaenant Dduw, ac nid ydynt yn ufuddhau i efengyl ein Harglwydd Iesu Grist: y rhai a ddyoddefent yn gospedigaeth, ddinystr tragywyddol oddi ger bron yr Arglwydd, ac oddiwrth ogoniant ei gadernid ef," 2 Thes. i. 7—9.

Ofn yr Arglwydd, pa fodd yr ymddengys, pan byddo i'w lid ef losgi a fflamio allan megis ffwrn, neu ffwrnes danllyd o'i flaen, tra byddo'r drygionus yn sefyll ger ei fron! Mal. iv. 1. Mat. xiii. 50.

Ofn yr Arglwydd, pa fodd yr ymddengys, pan byddo'r angylion wrth ei orchymyn yn casglu'r annuwiol i'w llosgi! "Megis gan hyny y cynhullir yr efrau, ac a'u llwyrlosgir yn tân: felly y bydd yn niwedd y byd hwn. Mab y dyn a ddenfyn ei angylion, a hwy a gynhullant allan o'i deyrnas ef yr holl dramgwyddiadau, a'r rhai a wnant anwiredd, ac a'u bwriant hwy i'r ffwrn o dân; yno y bydd wylofain a rhingcian dannedd," Mat. xiii. 40, 41, 42. Pwy a all ddirnad yr ofn hwn, llawer mwy analluog yw dynion i'w ddatgan â thafod, neu ei osod allan yn ysgrifenedig: etto y mae y Publican gwir edifeiriol, cyfaddefol, yn ei amgyffred mor belled, trwy air a thystiolaeth Duw, fel ag y mae yn ei yrru at Dduw, gan gyfaddef ei bechodau am hawl yn nhrugaredd Duw. Ond,

*Yn gyntaf.* Tu ag at iawn a gwirioneddol gyfaddefiad o bechod, rhaid bod argyhoeddiad o bosiblrwydd cael trugaredd: y mae hyn hefyd yn gynnwysedig yn nghyfaddefiad y Publican, "O Dduw," (medd efe) "bydd drugarog wrthyf bechadur.' Yr oedd gantho ryw feddyliau am drugaredd, rhyw argyhoeddiadau o bosiblrwydd cael trugaredd, neu y gallai efe gael trugaredd i'w bardynu, os ai a chyffesu ei bechodau wrth Dduw â gwefusau diffuant.

Y mae anobaith o drugaredd yn cau i fynu y genau, yn caledu'r galon, ac yn gyrru dyn ymaith oddiwrth Dduw: fel y mae yn amlwg yn achos Adda a'r angylion syrthiedig. Ond y meddwl lleiaf am drugaredd, os gall y galon ond cyffwrdd, teimlo, profi, neu gael y posiblrwydd lleiaf o hono, hyny a egyr y genau, a feddalha'r galon, ac a wna hyd yn oed i Bublican ddyfod i fynu at Dduw i'r deml, a dywedyd, "O Dduw, bydd drugarog wrthyf bechadur."

Rhaid gan hyny fod y cymmysgedd sanctaidd hwn o bethau yn nghalon y Publican gwir gyfaddefol. Rhaid bod gwir deimlad o bechod, iawn wybodaeth o Dduw; argyhoeddiad dwfn o sicrwydd a dychryndod dydd y farn, ac hefyd o bosiblrwydd cael trugaredd.

Ond i ddyfod at yr hyn sydd yn ol; mi a ddywedais wrthych fod dau beth ag sydd yn gwneuthur gwir gyfaddefiad yn anhawdd. Mi a gyffyrddais â'r peth cyntaf.

*Yn ail.* Ac yma canlyn yr ail beth; hyny yw, rhyw dueddiad ddirgelaidd at ryw daioni, a dybio dyn iddo ei wneuthur o'r blaen, neu yn ei wneuthur yn awr, neu ei fod yn bwriadu llwyddo gydâ Duw am bardwn o'i bechodau. Yn sicr, ni ŵyr y dyn hwn ddim am bechod yn y natur a'r drwg o hono, ond yn unig fod gantho ryw gau feddyliau am dano. Oblegid pa le bynnag y mae iawn wybodaeth o bechod yn y galon, y mae y dyn hwnw yn gweled cymmaint o ddrwg yn y pechod lleiaf, ag a dorrai gefn holl angylion y nefoedd, pe cyfrifai y Duw mawr ef iddynt. Ac y mae'r hwn sydd yn gweled hyn yn ddigon pell oddiwrth feddwl am leihau, neu ddirymu llymder y gyfraith, neu i wneuthur ei bechodau ei hunan yn bardynol trwy hyny. Ond ni all yr hwn nid yw yn gweled hyn gyfaddef ei gamweddau yn iawn; canys y mae cyfaddefiad yn gyffredinol yn cynnwys bod dyn yn cymmeryd ei bechodau arno ei hun, a chyfaddef mai ei eiddo ef ydynt, ac na's gall ef syflyd oddi tanynt, na gwneuthur dim mewn ffordd o iawn am danynt, neu droi heibio grym cyfiawnder yn

erbyn yr enaid. A hyn a wnaeth y Publican pan y llefodd, "O Dduw, bydd drugarog wrthyf bechadur."

Efe a wnaeth ei bechodau i gyfaddef, efe a safodd o flaen Duw ynthynt, gan gyfrif y byddai dros fyth yn golledig, oni byddai i Dduw faddeu iddo. A hyn yw gwneuthur megis ag y mae'r Prophwyd Jeremi yn gorchymyn; sef yn unig cyfaddef ein camweddau, eu cyfaddef o flaen gorseddfaingc ofnadwy cyfiawnder Duw, nes cymmero trugaredd hwynt allan o'r ffordd; nid trwy wneuthur, nac addaw gwneuthur, y gweithredoedd da hyn neu hyny. A'r rheswm o'r fath gyfaddefiad a hyn yw,

*Yn gyntaf.* Am fod hyn yn cynnwys gwir natur cyfaddefiad, cyfaddef, ac aros tan y beiau a gyfaddefir, heb ymesgusodi na throi ar y naill du, yw'r unig wir a diffuant ffordd i gyfaddef pechod. "Dywedais, Cyffesaf yn fy erbyn fy hun fy anwireddau i'r Arglwydd;" a pha beth wedi'n, "a thi a faddeuaist anwiredd fy mhechod," Sal. xxxii. 5. Daliwch sylw, nid oes dim yn dyfod i mewn rhwng cyfaddefiad a maddeuant pechod, dim gweithredoedd o gyfiawnhad, dim diwygiad deddfol, dim ond llefain allan am drugaredd; ac y mae gwneuthur hyny mor belled oddiwrth leihau pechod, fel ag y mae yn ei fwyhau yn fawr, ac yn ei wneuthur yn echryslonach. Dyna'r rheswm cyntaf.

*Yn ail.* Yr ail reswm yw, o herwydd fod Duw yn disgwyl nid yn unig i'r cyfaddefwyr edifeiriol gyfaddef eu pechodau, ond cymmeryd eu gwaradwydd arnynt eu hunain; ïe, medd Duw, "Cywilyddia ditheu, a dwg dy waradwydd;" pan gymmero Duw ymaith dy anwiredd, "y cywilyddi ditheu, ac nid agori dy safn gan dy waradwydd," Ezec. xvi. 52, 54, 61, 63. Yr ydym yn ei gyfrif yn beth cymmwys i ddynion, pan byddo eu camweddau a'u pechodau i gael eu hegluro iddynt, gael eu gosod mewn lle amlwg, â phapur, ar yr hyn y byddo eu troseddau yn ysgrifenedig, fel y byddo iddynt nid yn unig gyfaddef, ond dwyn eu gwaradwydd eu hun. Y mae gan Dduw ryw beth i'w wneuthur â chyfaddefiad edifeiriol pechaduriaid, os nid o flaen dynion, etto o flaen angylion, fel y gwelont, ac y caffo argraff arnynt, ac y llawenychont pan y gwelont, ar ol y datguddiad o bechod, y pechadur yn cael gymmeryd i ffafr a thrugaredd anfeidrol Duw. Luc. xv.

*Yn drydydd.* Y trydydd rheswm yw, am y myn Duw yn maddeuant pechodau fawrhau golud ei ras; ond ni all hyn fod, os dyoddef, neu os derbyn Duw y cyfryw gyfaddefiad o bechod, ag sydd hyd yn hyn yn gymmysgedig â'r pethau hyny ag a dwylla echryslondeb y pechod.

Fod Duw yn iachawdwriaeth, ac felly yn nghyfaddefiad y pechadur, yn bwriadu mawrhau ei ras, sydd ddigon eglur oddiwrth holl ffrwd yr ysgrythyrau, ac y byddai i un o'r pethau a soniwyd yn awr am danynt, os goddefir iddynt, dywyllu a chymmylu y peth hwn, sy'n amlwg i reswm ei hun.

Gadewch fod dyn yn sefyll yn gyhuddol o deyrn-fradwriaeth, etto fod iddo drefnu'r mater felly, fel yr elo'r gair allan trwy'r wlad, nad yw ei drosedd ond bychan, er i'r brenin faddeu i'r dyn hwn, ni bydd llawer o glod yn deilliaw trwy hyny i fawredd a golud trugaredd y brenin. Ond gadewch i bob peth i orwedd yn noeth ac yn agored, heb ddim yn ddirgel neu'n guddiedig, gadewch i bechod gael ei weled, ei ddangos a'i gyfaddef, fel ag y mae yn y pechadur ei hun, ac yna, yn ei faddeuant, fe fydd trugaredd yn cael ei fawrhau yn rhagorol.

*Yn bedwarydd.* Y pedwarydd rheswm yw, yn amgen ni chyfiawnhaid Duw pan lafarai, ac ni byddai bur pan farnai, Salm. li. 4. Rhuf. iii. 4. Y mae gair Duw yn dangos i ni pa beth yw pechod yn ei natur a'i effeithiau drwg. Y mae gair Duw yn dywedyd wrthym, nad yw'n cyfiawnderau goreu ni ddim gwell nâ bratiau budron.

Y mae gair Duw yn dywedyd wrthym hefyd, fod pechod yn cael ei faddeu yn rhad trwy ras, ac nid er mwyn ein diwygiad ni: y mae Duw yn dangos yr holl bethau hyn, nid yn unig yn ngweithredoedd ei drugaredd tu ag atom, ond hyd yn oed yn narostyngiad a chyfaddefiadau yr edifeiriol: canys fe fyn Duw i'w drugaredd gael ei osod allan, hyd yn oed yn nghychwyniad cyntaf y pechadur tu ag ato; "Fel megis y teyrnasodd pechod i farwolaeth, felly hefyd y teyrnasai gras trwy gyfiawnder i fywyd tragwyddol, trwy Iesu Grist ein Harglwydd," Rhuf. v. 21.

*Yn bummed.* Y pummed rheswm yw, o herwydd y myn Duw, trwy droedigaeth y Publican, i ereill fod yn deimladwy o ymddangosiadau a datguddiadau rhyfeddol ras, ac nid ei gymmylu a'i guddio trwy leihau pechod.

Canys pa beth a ddywed y cyfryw pan ddechreuo pechod ymddangos i'r gydwybod, a'r gyfraith ei ganlyn â llais geiriau, pob un fel taran dychrynllyd? Meddaf, pa bechod a ddywed y cyfryw pan ddarllenont na wnaeth y Publican ond yn unig cyfaddef ei bechodau, a chael gras a thrugaredd gan Dduw? Fod Duw yn anfeidrol drugarog i'r rhei'ny sydd mewn gwirionedd yn gweled eisiau trugaredd. A'i fod yn trugarhau hefyd o'i ewyllys da ei hun, heb ddim yn ei annog i hyny.

Meddaf, dyma'r ffordd i wneuthur ereill yn ystyriol o drugaredd, megis y mae yn dywedyd trwy'r apostol Paul, "Eithr Duw, yr hwn sydd gyfoethog o drugaredd, o herwydd ei fawr gariad trwy yr hwn y carodd efe ni, ïe, pan oeddym feirw mewn camweddau, a'n cyd-fywhaodd ni gydâ Christ (trwy ras yr ydych yn gadwedig) ac a'n cyd-gyfododd, ac a'n gosododd i gyd-eistedd yn y nefolion leoedd yn Nghrist Iesu: fel y gallai ddangos yn yr oesodd a ddeuai, ragorol olud ei ras ef, trwy ei gymmwynasgarwch i ni yn Nghrist Iesu," Eph. ii. 4—7. Hyny a ellwch weled hefyd yn 1 Tim. i. 15, 16.

*Yn chweched.* Rheswm arall am hyn yw, o herwydd mai dyma'r ffordd i chwanegu cysur a gorfoledd i'r enaid; a hyny yma a rhagllaw. Pa beth sydd yn tueddu yn fwy i hyn, nag i bechaduriaid weled, a chyd âg euogrwydd syndod, gyfaddef pa beth yw pechod, ae felly cael pardwn gan Dduw fel pechadur? Y mae hyn yn llanw'r galon, ac megis yn hollol dreisio'r enaid! yn gosod gorfoledd yn y meddyliau am iachawdwriaeth oddiwrth bechod, ac ymwared rhag y llid a fydd. "Yn awr y dychwelant, ac a ddeuant i Sion, a chaniadau, ac a llawenydd tragywyddol ar eu pen; goddiweddant lawenydd a hyfrydwch; a chystudd a galar a ffŷ ymaith," Esay xxxv. 10. Yn wir, fe wna crediniaeth o'r pethau hyn lawenydd a hyfrydwch diddiwedd.

*Yn seithfed.* Heblaw hyn, y mae yn gosod y mwyaf o rwymau ar yr enaid i sancteiddrwydd; pa beth sydd debyg i ddatguddiad o faddeuant rhad (a rhaid i hwnw ddyfod i mewn trwy olwg ar fawredd pechod, ac o anlladrwydd, i wneuthur dim tu ag at iawn am dano) i rwymo calon gwrthryfelwr i garu ei dywysog, ac i ymostwng i'w ddeddfau.

Pan gymmerodd Eliseus y Syriaid yn gaethion, yr oedd rhai am eu taro a gwneuthur yn greulon â hwynt, ond efe a ddywedodd, "Gosod fara a dwfr ger eu bron hwynt, fel y bwytaont, ac yr yfont, ac yr elont at eu harglwydd," a gwnaethpwyd felly. A pha beth a ganlyn? "Felly byddinoedd Syria ni 'chwanegasant ddyfod mwyach i wlad Israel." Efe a orchfygodd eu llid â'i garedigrwydd, 2 Bren. vi. 13—23. A chariad Crist sydd yn ein cymmell i fyw iddo ef, 2 Cor. v. 14.

Gellid crybwyll yn hawdd lawer o bethau ereill, ond yn bresennol caiff hyn fod yn ddigonol.

Yr ail beth a soniwyd am dano yn ngweddi'r Publican, oedd ymbil cymmorth yn erbyn yr afiechyd hwn; "O Dduw, bydd drugarog wrthyf bechadur." Yn mha ddeisyfiad mi ddaliaf sylw ar amrywiol bethau.

1. Nid yw cymmorth dyn yn erbyn pechod, yn gynhwysedig mor bendant yn ei oruchafiaeth arno, ag yn y maddeuant o hono. Yr wyf yn meddwl fel pe bai goruchafiaeth, er nas gall bod un gan neu trwy ddyn, tra y mae yn byw yn y byd hwn; fy meddwl yw, goruchafiaeth hollol ar, a llwyr ddiwreiddiad o bechod.

Y mae'r Publican, ac felly pob enaid grasol ag sydd wedi ei ddeffroi, yn ddiammeu am ddarostwng pechod; ond eto y mae yn gweled fod y cymmorth pennaf yn ei erbyn yn gorwedd yn y pardwn o hono. Gadewch i ddyn wanu ei gymmydog â'i gyllell, a chwedi'n llosgi ei gyllell i ddim yn y tân, a roddai hyny ryw gymmorth iddo yn erbyn ei lofruddiaeth? Na wnai yn wir, fe fyddai ei wddf er hyny yn ddarostyngedig i'r cebystr, ïe, a'i enaid i dân uffern. Ond y mae pardwn yn rhoi cymmorth hollol iddo: "Duw yw'r hwn sydd yn cyfiawnhau, pwy yw'r hwn sydd yn damnio?" Rhuf. viii. 33, 34. Gadewch i ddyn fyw lawer o ddyddiau mewn gwrthryfelgarwch yn erbyn Duw, a gadael heibio fyw mor wrthryfelgar rhagllaw, a gynnorthwyai hyny efe yn erbyn yr euogrwydd a dynodd arno o'r blaen? Na wnai yn wir. Nid oes dim cymmorth heb faddeuant eithr y mae'r gwrthryfelwr wedi ei anwydo. O herwydd paham y mae'r gwynfyd cyntaf, ïe, ac heb hwnw ni all pob peth arall wneuthur dyn yn wynfededig, yn gynhwysedig mewn pardwn. "Gwyn ei fyd y neb y maddeuwyd ei drosedd, ac y cuddiwyd ei bechod. Gwyn ei fyd y dyn ni chyfrif yr Arglwydd iddo anwiredd," Salm. xxxii. Rhuf. iv.

Gadewch i ddyn gael ei sancteiddio i radd uchel; meddaf, gadewch i hyny fod; os nad yw'r pechodau a wnaeth o'r blaen wedi eu maddeu iddo, ni ddichon efe fod yn ddyn gwynfydedig.

Drachefn, gadewch i ddyn gael ei gyfodi i'r nefoedd, a'i bechodau heb eu maddeu, ni ddichon y nefoedd ei hun ei wneuthur yn ddyn gwynfydedig. Yr wyf yn meddwl, a gadael i'r pethau hyn fod, nid y gallant fod, er mwyn egluro fy mater; ni ddichon un dyn fod yn wynfydedig ag sydd yn ddifaddeuant. Chwi a welwch gan hyny fod llawer o ddoethineb yr Ysbryd Glân yn y weddi hon o eiddo'r Publican. Fe gafodd ei gyfarwyddo i'r iawn ffordd, yr unig a'r nesaf i gymmeryd noddfa lle mae gwynfydedigrwydd yn dechreu, sef at drugaredd Duw am bardwn o'i bechodau. Och! pa fantais fyddai i deyrnfradwr gael ei gymmeryd i gerbyd y brenin, cael ei wisgo â gwisgoedd breninhol y brenin, a chael modrwy aur y brenin ar ei fys, a gwneuthur iddo wisgo, dros yr amser presennol, gadwyn aur am ei wddf, os wedi'r gwbl y dywed y brenin wrtho, ond ni faddeuaf dy wrthryfelgarwch; ti a gei farw am dy deyrn-fradwriaeth? Y maddeuant gan hyny, i'r hwn sydd yn caru bywyd, sydd well, ac yn fwy i'w ddymuno ac ymgais ar ei ol, nâ phob peth arall; ïe, a'r doethineb mwyaf mewn unrhyw bechadur yw ymgais ar ol hyny yn gyntaf.

Y mae hyn gan hyny yn gwrth-brofi dallineb rhai, a rhagrith ereill. Y mae rhai mor ynfyd ac mor ddall, a llwyr anghofio ac edrych dros faddeuant pechod, ac yn gosod eu happusrwydd mewn rhyw ddigwygiadau allanol; tra y maent, drueiniaid tlodion, fel ag ydynt, yn aros tan ddigofaint Duw. Ac os nad ydynt yn gwbl mor ynfyd a llwyr anghofio maddeuant pechod, etto nid ydynt yn meddwl am dano; ond yn yr ail le y maent am osod sancteiddiad o flaen cyfiawnhad, ac felly yn ceisio gwyrdroi trefn Duw; a'r hyn sydd waethaf iddynt, y maent trwy hyny yn gwneuthur yr hyn ag sydd yn eu llwyr gadw rhag bod yn gyfrannogion o'r fendith fawr o faddeuant pechod.

Eithr fe gafodd y Publican yn hyn yma ei dywys gan ddoethineb y nefoedd; y mae yn dyfod i'r deml, yn cyfaddef ei hun yn bechadur, ac yn y funud, yn ddioed, cyn symmud troed o'r fan, yn ymbil am bardwn; canys fe wyddai nid allai yr holl bethau ereill, os arosai tan euogrwydd, ei waredu oddiwrth y ddamnedigaeth oedd yn perthyn i bechadur aflan difaddeuant.

Y mae hyn hefyd yn gwrth-brofi y rhagrithwyr, y cyfryw ag yw'r Pharisead yn ein testun, y rhai nad ydynt yn ymffrostio mewn dim yn fwy nag am "nad ydynt fel y mae dynion ereill, yn anghyfiawn, yn odinebwyr, yn draws, nac fel y Publican hwn ychwaith;" ac fel hyn yn colli maddeuant pechod; ac felly gan eu bod yn colli'r daioni cyntaf, na chânt byth, tra fyddont yn aros fel hyny, dderbyn yr ail, neu'r trydydd; cyfiawnhad, sancteiddiad, gogoneddiad, hwynt-hwy yw'r tri pheth, ond nid oes dim lle i wyrdroi trefn Duw. Y mae yn rhaid i gyfiawnhad fod yn gyntaf, o herwydd fod dyn yn cael ei gyfiawnhau tra y mae yn annuwiol ac yn bechadur.

Ni ddichon cyfiawnhad fod lle mae Duw heb roi pardwn. Pardwn, gan hyny, yw'r peth cyntaf ag y mae pechadur i edrych ar ei ol; yr hyn ni wnaeth y Pharisead, o herwydd paham efe a aeth i wared i'w dŷ heb ei gyfiawnhau; gan osod maen-dramgwydd ei anwiredd gêr bron ei wyneb pan aeth i ymofyn â'r Arglwydd; ac megis yr esgeulusodd, dibrisiodd, ac y diystyrodd bardwn, am nad oedd yn gweled dim o'i eisiau, am hyny fe a'i rhoddwyd i'r Publican tlawd, rheidus, a thruenus, ac efe a aeth ymaith â'r fendith.

Bublicanod, gan fod hwn yn bwngc mor bwysfawr, gadewch i mi eich cynghori nad anghofioch y weddi hon o eiddo eich doethaf a'ch henaf frawd, sef y Publican, yr hwn a aeth i fynu i'r deml i weddio. Meddaf, nac anghofiwch hi, ac na ddyoddefwch i neb rhagrithwyr gwagymffrostio â rhesymmau a thafodau ynfyd a thwyllodus i'ch denu oddiwrth yr athrawiaeth iachus hon. Cofiwch eich bod yn bechaduriaid mor ffiaidd ag oedd y Publicanod, o herwydd paham, fel ag y mae efe yn batrwn gennych, ewch at Dduw, cyfaddefwch mewn pob symlrwydd, onestrwydd, ac ymddarostyngiad, eich aneirif a'ch ffiaidd bechodau, a byddwch sicr nad anghofioch yn y lle nesaf oll i geisio pardwn, gan ddywedyd, "O Dduw, bydd drugarog wrthyf bechadur." A chofiwch na all neb ond Duw eich gynnorthwyo yn erbyn, na'ch cadw rhag, y ddamnedigaeth a'r trueni sydd yn dyfod trwy bechod.

*Yn ail.* Fel ag y mae'r Publican yn deisyf cymmorth, felly, er bod barn y gyfraith wedi myned allan yn ei erbyn, y mae efe yn dywedyd, wrth Dduw, Bydd drugarog wrthyf; ac hefyd gan ei fod yn cyfaddef ei hun yn bechadur: meddaf, y mae yn cyfiawnhau ac yn cydsynio â barnedigaeth y gyfraith oedd yn awr wedi myned allan yn ei erbyn, ac wrth ba un yr oedd yn sefyll yn awr wedi ei gondemnio yn ei gydwybod ger bron brawdle cyfiawnder Duw. Nid yw yn dywedyd fel y rhagrithiwr, "Am fy mod yn ddiniwaid, yn ddiau y trŷ ei lid ef oddi wrthyf," Jer. ii. 35. Neu, "Pa beth a ddywedasom ni yn dy erbyn di?" Mal. iii. 13. Nag yw, nid yw efe yn un o'r grwgnachwyr a'r achwynwyr hyny, eithr yn syrthio yn dêg o flaen y gyfraith, tystion, barnwr a chwest, ac yn cyd-synio â thystiolaeth a barnedigaeth pob un o honynt.

Er mwyn eglurhau hyn ychydig, gadewch fod drwgweithredwr wedi cael ei ddwyn ger bron barnwr, a chwedi i'r tystion, cwest a barnwr oll ei gondemnio i farwolaeth am ei weithred, ac i'r barnwr ofyn iddo, pa beth a ddichon ddywedyd trosto ei hun, paham na rodder barn marwolaeth arno? Yn awr os dywed "Dim, eithr eich trugaredd fy arglwydd," y mae yn cyfaddef y cyhuddiad, yn cyfiawnhau dedryd neu ferdyd y cwest, ac yn cyd-synio â barnedigaeth y barnwr.

Y mae'r Publican gan hyny wrth lefain am drugaredd, yn cyfiawnhau barn y

gyfraith oedd wedi myned allan yn erbyn ei bechodau: nid yw yn ymryson â'r gyfraith, gan ddywedyd ei bod yn rhy greulon, er bod llawer o ddynion yn gwneuthur felly, gan ddywedyd, "Na atto Duw, os felly gwae ni." Nid yw yn ymrafaelio â'r tyst, yr hwn yw ei gydwybod ei hun, er y bydd i rai ei chernodio, ei churo, a chau ei safn, neu beri iddi fod yn ddistaw. Nid yw yn ymrafaelio â'r cwest, y rhai oedd y prophwydi a'r apostolion, er na's gall rhai dynion aros clywed yr hyn oll y maent yn ei ddywedyd. Nid yw yn ymrafaelio â'i farnwr, nac yn ymddangos yn anweddaidd ger ei fron, eithr gydâ phob ymddygiadau a'r a allai fynegi ei gyd-syniad â'r farnedigaeth, y mae yn ffoi at drugaredd am ymwared.

Ac nid dyma'r ffordd y Publican yn unig, eithr ffordd dynion duwiol ereill cyn ei amser ef: pan gondemniwyd Dafydd, fe gyfiawnhaodd farnedigaeth y Barnwr, o enau'r hwn y daeth, ac a ffodd felly am gymmorth at drugaredd Duw, Salm li. Pan gyhoeddodd y prophwyd Semaia farnedigaethau Duw yn erbyn tywysogion Juda o herwydd eu bechodau, dywedasant, "Cyfiawn yw yr Arglwydd," 2 Cron. xii. 6. Pan oedd yr eglwys yn y Galarnad wedi cyfrif i fynu amryw o'r cystuddiau gofidus, â pha rai y cystuddiwyd hi; yn lle achwyn, y mae yn cyfiawnhau'r Arglwydd, ac yn cyd synio â'r farn a roddasai efe arul, gan ddywedyd, "Cyfiawn yw yr Arglwydd, oblegid myfi a fum anufudd i'w air ef," Galar. i. 18. Felly Daniel, wedi cyfrif i fynu'r drygau a ddigwyddasai i'r eglwys yn ei ddyddiau ef, a chwanegodd, "Am hyny y gwyliodd yr Arglwydd ar y dialedd, ac a'i dug arnom ni; o herwydd cyfiawn yw'r Arglwydd ein Duw yn ei holl weithredoedd y mae yn ei wneuthur; canys ni wrandawsom ni ar ei lais ef," Dan. ix. 14.

A thyma fel y mae'r peth yn bod gydâ'n Publican. Yr oedd wedi troseddu cytraith cyfiawn, sanctaidd, a da: y tyst sydd yn ei gyhuddo ef o hyny yw Duw, a'i gydwybod; y mae hefyd yn cael ei fwrw i farw wrth farnedigaeth dynion sanctaidd; y mae yn gwybod hyn oll, ac yn eu llwyr-gyfaddef pan y mae yn cyfeirio ei weddi at ei Farnwr am faddeuant. Ac un o'r pethau rhagorach yn y byd, yw gweled neu ddyall fod pechadur fel hyn yn derbyn yn onest farn y gyfraith sydd wedi myned allan yn ei erbyn; gweled a chlywed Publican fel hyn yn cyfiawnhau Duw. Ac fe fyn Duw i bethau fod felly, o herwydd y rhesymau hyn:—

1. Fel y byddai yn amlwg i bawb fod diffyg trugaredd ar y Publican. Y mae hyn yn gogoneddu cyfiawnder Duw, am ei fod yn ei amddiffyn yn ei amlygiadau yn erbyn y Publican. Y mae Duw yn caru gwneuthur pethau mewn cyfiawnder ac uniondeb, pan y mae yn myned yn erbyn dynion, er fod y cyfryw fynediad allan yn eu erbyn ag sydd yn tueddu yn unig at ei argyoeddiad a'u dychweliad. Pan yr ymdriniodd â'n tad Abraham yn y mater hwn, "fe a'i galwodd wrth ei droed," fel ag y mae yn gwneuthur â'r Publican. Bechadur, os yw Duw yn dy gyfrif yn deilwng i etifeddu gorsedd gogoniant, fe a'th ddwg dithau i'r un fan. Ond,

2. Y mae'r Publican trwy rym argyoeddiad yn ymostwng i, ac yn syrthio tan, y gyfiawn farnedigaeth a gyhoeddwyd yn ei erbyn, "fel y byddai yn amlwg hefyd fod yr hyn a dderbyniai ar ol llaw yn dyfod o rad ras noeth a daioni pen-arglwyddiaethol Duw." Ac yn wir nid oes un ffordd ag sydd yn tueddu yn fwy i wneuthur hyn nâ hon. Fel hyn, gadewch fod dyn a phethau mewn mater bywyd wedi myned yn ei erbyn wrth y gyfraith, ac yn y diwedd barn marwolaeth yn dra chyfiawn ac uniawn yn cael ei rhoddi arno gan y barnwr. Bernwch wedi hyn oll fod y dyn yn cael byw, ei ddyrchafu i anrhydedd, yn mwynhau pethau mawrion, ac yn cael ei osod mewn lle o ymddiried ac awdurdod, a hyny gan yr hwn y troseddodd yn ei erbyn, hyd yn oed gan yr hwn a gyhoeddodd barn marwolaeth arno.

Pa beth a ddywed pawb, neu pa beth a gasglant, hyd yn oed pan glywont gyntaf am hyn? Oni ddywedant, Wele pwy bynnag oedd yr hwn a amgylchynwyd fel hyn trwy'r fath ragluniaeth ddieithr, y mae yn rhaid iddo ddiolch i drugaredd tywysog graslawn; canys y mae'r holl bethau hyn yn amlygu gras a ffafr. Ond,

3. Fel ag y mae'r Publican yn syrthio o'i fodd tan y farn, ac yn cyfiawnhau ei chyhoeddiad yn ei erbyn; felly trwy ffoi at drugaredd am gymmorth, y mae yn datgan i bawb na's gall waredu ei hun: y mae yn gosod cymmorth ymaith oddi wrtho ei hun, neu yn dywedyd, "Nid yw ynof fi."

Dyma, meddaf, beth arall cynnwysedig yn y weddi hon, ac y mae yn wahanol oddiwrth y llall. Canys y mae yn bosibl i ddyn gyfiawnhau a syrthio tan farn y barnwr, ac etto cadw yntho ei hun yr hyn ag sydd yn sicr o'i waredu oddi wrth y farnedigaeth honno pan wnelo ei gwaethaf. Fe gyfododd llawer eu dwylaw wrth y frawdle, ac a waeddasant euog, ac a dynasant eu hunain yn rhyddion er hyny; ond ni ymbleidiasant am drugaredd (canys y mae'r hwn sydd yn gwneuthur hyny yn gosod ei fywyd yn hollol yn llaw arall) ond braint neu weithredoedd da, naill a wnaed neu a wneir ganthynt. Eithr y mae'r Publican yn ein testun yn gosod y cwbl allan o'i law ei hun; ac mewn effaith yn dywedyd wrth y Duw hwnw, ger bron pa un yr aeth i fynu i'r deml i weddio; "Arglwydd, yr wyf yn sefyll yma wedi fy nghondemnio wrth orsedd dy gyfiawnder, a hyny yn deilwng, canys y mae'r farnedigaeth yn dda, a chwedi ei roi mewn cyfiawnder yn fy erbyn; ac ni's gallaf waredu fy hun, yr wyf yn rhwydd ac o'm calon yn cyfaddef na's gallaf; o herwydd paham yr wyf yn ffoi at dy drugaredd yn unig, ac yn atolygu arnat i faddeu i mi, bechadur, fy nghamweddau." O, pa mor lleied sydd o'r cyfryw Bublicanod! Fy meddwl yw, Publicanod wedi eu gwneuthur fel hyn yn deimladwy, ac yn dyfod at Dduw am drugaredd.

Y mae gweddio am drugaredd gydâ llawer yn hytrach yn fath o barch defodol, fy meddwl yw, pan y maent yn ymbil â Duw am dano, yn hytrach nâ mater o gwbl angenrheidrwydd; ni ddarfu iddynt gydâ phwyll ac ystyriaeth yn eu gydwybodau syrthio tan y farnedigaeth, na gosod eu hunain allan o bob dadl ond dadl trugaredd. Yn wir, gwneuthur fel hyn yw effaith profiad o wagedd ac anfuddioldeb pob peth arall a ddefnyddiwyd o'r blaen.

Yn awr y mae dau brofiad o bethau; y mae un yn deilliaw oddiwrth ymarferiad; y llall oddiwrth ffydd.

Fe gafodd y wraig a'r difeir-lif gwaed trwy ymarferiad, pan oedd wedi treulio yr hyn oll a feddai ar feddygon heb fod dim yn well, eithr yn hytrach yn waeth, Marc v. Ond y mae ein Publican yma yn profi gwagder ac anfuddioldeb pob cynnorthwyon ereill, trwy daflu un olwg o ffydd ar gymhwysiadau'r Bibl, a golwg arall ar ei gyflwr presennol o gondemniad; o herwydd paham, y mae yn ddioed yn condemnio pob cynnorthwyon, ffydd, trefn, neu foddion ereill o waredigaeth, ac yn ffoi at drugaredd Duw yn unig gan ddywedyd, "O Dduw, bydd drugarog wrthyf bechadur.

Ac y mae yn hyn yma yn dangos doethineb rhyfeddol. O herwydd,

*Yn gyntaf.* Trwy hyn y mae yn taflu ei hunan tan nodded a bendith yr addewid: ac yr wyf yn sicr ei fod yn llawer gwell a mwy diogel i wneuthur felly, nâ gorphwys ar y pethau mwyaf rhagorol a ddichon y byd ei ganiattau, Hos. xiv. 1—4.

*Yn ail.* Y mae yn cymmeryd y iawn ffordd i foddloni Duw; canys y mae Duw yn cymmeryd mwy o hoffder mewn dangos trugaredd nag mewn un peth a allwn ni ei wneuthur, Hos. vi. 6, Matt. ix. 13, a xii. 7. Ie, a thyna'r dyn sydd yn ei

foddloni ef, sef yr hwn sydd yn gobeithio yn ei drugaredd, Salm cxlvii. 11. Yr oedd y Publican gan hyny, pa beth bynnag a allasai'r Pharisead ei feddwl, yn sefyll yr holl amser hwn ar dir diogel, ac yn llawer nesach i'r nefoedd nag efe. Och! ni allai ei ben syfrdanllyd ef edrych ddim pellach nâ'r tyb da oedd gantho am degwch a disgleirdeb truenus ei hunan-gyfiawnder drewllyd. Ac ni feiddiai efe adael hwnw i ymddiried yn hollol yn nhrugaredd Duw; ond y mae'r Publican yn dyfod allan er yn ei bechodau, etto fel dyn wedi ei ddeffroi a'i oleuo, ymrous, ac yn gyntaf yn ymostwng ei hun, ac yna gogoneddu cyfiawnder Duw, a chwedi hyny yn gogoneddu ei drugaredd, gan ddywedyd, "O Dduw, bydd drugarog wrthyf bechadur;" ac fel hyn fe ganodd glych y nef yn nghlustiau'r angylion. Ac,

*Yn drydydd.* Y mae'r Publican, wrth daflu ei hunan fel hyn ar drugaredd, yn dangos fod mwy yn ei feddwl ef o rinwedd mewn trugaredd i achub, nag oedd o rym yn y ddeddf a phechod i gondemnio. Er nad yw hyn yn cael ei gyfrif yn fater mawr i'w wneuthur, tra y mae dynion yn mhell oddiwrth y ddeddf yn dyfod yn agos, a chydwybod yn deffroi, pwy bynnag a'i profo fe a'i caiff yn waith llafurus. Ni allasai Cain wneuthur hyn er ei fywyd, na allasai er ei enaid; na Judas ychwaith. Y mae hyn yn amgenach peth nag y mae y rhan fwyaf o ddynion yn meddwl ei fod neu y cânt ei weled, pa bryd bynnag y gwelont wyneb digllon Duw, a phan y clywont eiriau ei gyfraith ef.

Pa fodd bynnag, fe wnaeth y Publican hyn, ac fe anturiodd ei gorph, ei enaid, a'i gyflwr tragywyddol ar y sylfaen hon, gydâg ereill o saint a gweision Duw, gan adael y byd i nofio tros fôr o ddigofaint Duw (os mynnent) yn eu llestri gweinion gwael o lafrwyn, neu i bwysio ar we'r pryf copyn, pan y cyfodo efe i'r farn a ordeiniodd.

Yn y cyfamser gweddiwn ar Dduw ein deffroi ni fel y gwnaeth â'r Publican; gweddiwn ar Dduw ein goleuo fel efe; gweddiwn ar i Dduw roï i ni hyfdra i ddyfod ger ei fron fel y daeth y Publican: ac hefyd yn yr un ysbryd crynedig ag efe, pan y llefodd yn y deml ger bron Duw, "O Dduw, bydd drugarog wrthyf bechadur."

Wedi myned fel hyn dros ei weddi, ni a ddeuwn yn nesaf i ystyried ei arferion corphorol; canys fe ry'r iawn ddyall o hyny ychwaneg etto o amgylchiad o'r ystyriaeth a'r deffroad ysbryd hyny ag oedd yn y Publican yn y weithred hon o'i eiddo.

A myfi a ddeliais sylw i lawer o drueiniaid tlodion redeg yn fuan at weddi'r Publican, na wybu erioed beth oedd ei arferion corphorol yn ngŵydd Duw, tra y mae'n gweddio, yn meddwl. Ac nid oes dim lle caniattau i un dyn feddwl fod yr arferion hyny o'i eiddo mewn defod a ffurf yn mhlith yr Iuddewon yn y dyddiau hyny; canys y mae yn amlwg ddigon oddiwrth ymddygiad y Pharisead, eu bod islaw iddynt hwy a'u defod pan ddeuent i'r deml, neu pan weddient mewn un lle arall; ac yr oeddent hwy yn y dyddiau hyny yn cael eu cyfrif y goreu o ddynion, ac mewn materion crefyddol yr oeddid i ddilyn a chymeryd patrwn oddiwrth y goreu, nid oddiwrth y gwaethaf.

Gan hyny arferion corphorol priodol y Publican ei hun oedd ei rai ef, o herwydd euogrwydd ei bechod, a'r ystyriaeth hyny o fawredd Duw oedd ar ei ysbryd. A dull corphorol gweddus ydoedd, yn amgen ni buasai byth o Iesu Grist, Mab Duw, yn dal y cyfryw sylw ar hyny ag a wnaeth, neu gwenu cymmaint ar hyny, a'i ail-adrodd fel yr hyn ag oedd yn gwneuthur ei wedd yn fwy pwysfawr i ddal sylw arni. Ie, yn fy marn i, yr Arglwydd Iesu a'u coffaodd am ei fod yn eu hoffi, ac am yr â fel rhyw fath o faen-prawf o weddi a wneler tan ddwys ystyriaeth o Dduw a phechod, a'r eisiau o'i ddaioni a'i drugaredd. Canys yn wir, pob dull corphorol o'i eiddo oedd yn arwyddo teimlad a golwg ar gyflwr colledig, a chalon mewn gwir ddifrifwch am gael trugaredd.

Mi a wn y gellir gwneuthur y fath ddull corphorol yn ffugiol, a Christ Iesu a adwaen y rhai sydd yn gwneuthur felly; eithr ni rwystra hyny, ac ni wna yn ddirym neu'n egwan yr hyn a lefarwyd yn barod yn ei gylch. Ond i beidio ag ymhelaethu yn mhellach, ac i ddyfod at rai pethau neilltuol.

"A'r Publican gan sefyll o hirbell, ni fynnai cymmaint a chodi ei olygon tu a'r nef, eithr efe a gurodd ei ddwyfron," &c.

Ni a allwn, fel ag y dywedais eisoes, ganfod tri pheth yn y geiriau hyn, trwy ba rai y gosodir allan ddull neu arferion corphorol y Publican.

1. Y mae yn "sefyll o hirbell."

2. "Ni fynnai gymmaint a chodi ei olygon tua'r nef."

3. Efe "a gurodd ei ddwyfron," &c.

Am y cyntaf o'r rhai'n, "Efe a safodd o hirbell." A'r Publican gan sefyll o hirbell. Dyma, meddaf, y peth cyntaf, y dull corph cyntaf o'i eiddo a hyspysir i ni, ac y mae yn dangos i ni amryw bethau.

*Yn gyntaf.* Ni ddaeth efe ddim yn anystyriol o fawredd Duw pan y daeth i weddio, fel y daeth y Pharisead, ac fel ag y mae pechaduriaid yn gwneud ac yn dyfod yn gyffredin. Canys y mae ei waith yn sefyll o hirbell, yn datgan fod arswyd mawrhydi Duw ar ei ysbryd; yr oedd efe yn gweled i ba le, at bwy, ac am beth yr oedd yn dyfod yn awr i'r deml. Fe ddywedir yn yr ugeinfed bennod o Ecsodus, pan welodd y bobl y taranau a'r mellt, a sain yr udgorn, a'r mynydd yn mygu (ac arwyddion o bresenoldeb dychrynllyd a mawredd Duw oedd y rhai hyn oll) ciliasant, a safasant o hirbell, Ecs. xx. 18. Yr oedd yr ymddygiad hwn gan hyny o eiddo'r Publican yn iawn gydâ gweddu â'i weithred bresennol, yn enwedig gan ei fod etto yn ei olwg ei hun yn bechadur heb faddeuant. Och! beth yw mawredd Duw i ddyn pechadurus, ond tân ysol? A pha beth yw dyn pechadurus yntho ei hun, neu yn ei agoshad at Dduw, ond sofl cwbl sych?

Pa fodd gan hyny y gallasai'r Publican lai nâ gwneuthur fel y gwnaeth, sefyll o hirbell, os oedd yn meddwl am Dduw, neu am dano ei hunan? Yn wir prin y gallesid cadw'r bobl a rag-ddywedwyd, cyn gweled mawredd dychrynadwy Duw, ymaith oddiwrth y mynydd â geiriau a therfynau fel ag y mae llawer yn awr. Y mae eu dallineb yn eu gwneuthur yn eon, y mae eu hanystyriaeth yn eu gwneuthur yn hyderus; ond pan welont yr hyn a welodd y Publican, teimlo a dyall fel efe, hwy a weddiant ac a safant o hirbell, fel y gwnaeth y bobl a soniwyd. Hwy a giliasant ac a safasant o hirbell, ac a ddechreuasant weddio a'r Moses, ar fod i'r olwg a'r sain ddychrynadwy hyn gael ei gymmeryd oddi wrthynt. A pheth pe byddai i mi ddywedyd, ei fod ef yn sefyll o hirbell rhag ofn cael ergyd, er iddo ddyfod am drugaredd, fel y dywedir am y rhei'ny, "Gan sefyll o hirbell gan ofn ei gofid hi," Dat. xviii. 10, 18.

Mi a wn beth yw myned at Dduw am drugaredd, a sefyll trwy'r holl amser, gan ofn, o hirbell; yn cael fy meddiannu gan ŷ meddwl hwn, Oni thery Duw fi yn awr i'r llawr ar unwaith am fy mhechodau? Yr oedd Dafydd yn meddwl rhyw beth, pan ddywedodd wrth weddio, "Na fwrw fi ymaith oddi ger dy fron, ac na chymmer dy Ysbryd sanctaidd oddi wrthyf," Salm li. 11.

Nid oes neb yn gwybod, ond y sawl sydd â hwynt, pa fath droion a gwrth-droion, pa ddyfod yn mlaen a ffoi ymaith y sydd mewn ysbryd wedi ei wir ddeffroi, ac sy'n sefyll yn ddeffrous ger bron y Mawrhydi gogoneddus mewn gweddi. Fe weddiodd y mab afradlon mewn bwriad ar ei dad, pan oedd efe eto yn mhell. Ac felly gwnaeth y gwahan-gleifion hefyd, Luc xvii. 12, 13. Gwelwn yma mai arfer pobl

yn gweddio oedd sefyll yn mhell, a pheidio a rhuthro yn eon anweddus i bresennoldeb y Mawrhydi sanctaidd a nefol; yn enwedig os gwnaethpwyd hwy'n deimladwy o'u gwaeledd eu hunain a'u pechodau, fel ag yr oedd y mab afradlon, y gwahan-gleifion, a'r Publican hwn. Ie, a pheth a wnaeth Pedr ar ryw bryd, pan welodd fwy nâ chyffredin o fawrhydi'r Iesu ei Arglwydd? Luc v. 8. O pan welo dynion Dduw a'u hunain! y mae yn eu llenwi ag ofn sanctaidd o anfeidroldeb mawrhydi Duw, yn gystal â chariad at, a dymuniad cael ei drugaredd.

Hefyd, wrth ei waith yn sefyll o hirbell, fe allai ei fod yn arwyddo ei fod yn awr yn meddwl, a hyny gydâ llâwer o bwys ar ei gydwybod, y pellder anfeidrol oedd rhyngtho a Duw. Fe ddylai dynion wybod hyny, a chrynu wrth feddwl am dano, pan y maent yn agoshau i'r presennoldeb Hollalluog.

Pa beth yw dyn tlawd truenus, llwch a lludw tlawd, pan yr ymdderchafo a myned yn gellwerus i bresennoldeb y Duw mawr? yn enwedig pan y mae yr anghydmariaeth rhwng Duw ac ef mor amlwg. Ni wnaeth Esther, pan aeth i ymbil â'r brenin ei gwr, dros ei phobl, ddim defnydd o'i thegwch na'i perthynas, na'i breintiau a allasai fod yn brofedigaeth iddi i wneuthur defnydd o honynt, yn enwedig ar y cyfryw amser, ac yn y cyfryw gyfyngderau ag oedd yn awr yn ei amgylchu; ond, meddaf, ni wnaeth ddim defnydd o honynt i ruthro i mewn i'w bresennoldeb ef, eithr gwyddai am, a chadwodd ei phellder oddi wrtho, gan aros o'r tufewn i gyntedd ei balas, hyd oni estynodd efe ei deyrn-wialen aur tu ag atti; "Ac Esther a nesaodd ac a gyffyrddodd a phen y deyrn-wialen," Est. v. 1, 2.

Fe ddylai dynion hefyd wrth neshau i bresennoldeb Duw, wybod eu pellder, ïe, a dangos eu bod yn ei wybod, trwy'r cyfryw arferion ac ymddygiadau corphorol ag sydd weddus. Ymadrodd hynod yw hwnw o eiddo Solomon: "Gwylia ar dy droed," (medd efe) "pan fyddech yn myned i dŷ Dduw, a bydd barottach i wrando nag i roi aberth ffyliaid; canys ni wyddant hwy eu bod yn gwneuthur drwg." Ac fel ag y dylent wylio ar eu troed, felly y mae yn chwanegu hefyd, "Na fydd ry brysur a'th enau, ac na frysied dy galon i draethu dim ger bron Duw: canys Duw sydd yn y nefoedd, a thithau sydd ar y ddaiar, ac am hyny bydded dy eiriau yn anaml," Preg. v. 1, 2. Y mae'r Ysbryd Glân yn ein cynghori i dri pheth yn y testun hwn.

Un yw, y dylem wylio ar ein traed, a pheidio a rhuthro yn rhy eon i bresennoldeb Duw.

Y llall yw, y dylem ni edrych yn fanol at ein tafodau, na ddywedont ddim yn fyrbwyll ger bron Duw.

A'r trydydd, yw'r pellder anfeidrol sydd rhwng Duw a ni, yr hwn a arwyddoceir trwy'r geiriau, "Canys Duw sy'n y nefoedd, a thithau sydd ar y ddaiar."

Fe ddangosodd y Publican gan hyny ddoethineb mawr, cywilydd sanctaidd a gostyngeiddrwydd yn yr ymddigiad rhagorol hwn o'i eiddo, sef yn ei waith yn sefyll o hirbell, pan aeth i fynu i'r deml i weddio. Ond nid hyn yw'r cwbl.

*Yn ail.* Wrth sefyll o hirbell, fe adawodd y Publican le i Ddadleuwr, Archoffeiriad a Chanol-wr ddyfod i mewn rhyngddynt, i wneuthur heddwch rhwng Duw a'i greadur tlawd. Yr oedd Moses, cyfryngwr mawr yr Hen Destament, i fyned yn nes at Dduw, nâ'r lleill o'r henuriaid, neu neb o'r bobl, Ecs. xxvi. 1. Ie, yr oedd gorchymyn neillduol i'r lleill o'r bobl i addoli gan sefyll o hirbell. Nid oedd un o feibion Aaron ag oedd ag anaf arno, i ddyfod yn agos, Lef. xxi. 21.

Ni feiddiai y Publican fod yn gyfryngwr iddo ei hun, efe a wyddai bod anaf arno, a'i fod yn wahan-glwyfus, am hyny efe a safodd yn ol; canys efe a wyddai nad ei fath ef yr oedd Duw wedi ei ddewis i neshau at ei fawredd i offrymmu'r brasder a'r

gwaed, Ezec. xliv. 13—15. Yr oedd y Publican gan hyny, ar y iawn yn hyn. Ni chymmerodd i fynu y lle ei hun â'i berson nac â'i gyflawniadau, ond efe a safodd yn ol, ac a roddodd le i'r Archoffeiriad ag oedd i fod yn Ddadleuwr.

Yr y'm yn darllen, pan aeth Zacharias i'r deml i losgi arogl-darth yn nhrefn ei ddydd-gylch, "fod holl liaws y bobl oddi allan yn gweddio," Luc i. 6, 10. Hwy a'i gadawsant ef lle'r oedd, yn agos at Dduw, rhwng Duw a hwynt-hwy, i gyfryngu drostynt; canys yr oedd gwaith yr Archoffeiriad yn offrymmu arogl, yn eiriolaeth gysgodol dros y bobl, ac yr oeddent hwythau yn cadw eu pellder.

Mater mawr wrth weddio ar Dduw, yw peidio a myned yn rhy bell, na dyfod yn rhy fyr yn y ddyledswydd honno. Fy meddwl yw, y ddyledswydd o weddi, ac y mae dyn yn dueddol iawn i wneuthur y naill neu'r llall. Fe aeth y Pharisead yn rhy bell, yr oedd efe yn rhy eon, fe a ddaeth i'r deml gydâ'r fath ddadwrdd am ei ragoriaethau, fel nad oedd arno, yn ei feddyliau ef, ddim eisiau Cyfryngwr. Fe aeth i fynu mor agosed i Dduw, fel ag y cymmerodd efe le y Cyfrygwr iddo ei hun; ond am y Publican tlawd hwn, y mae yn gwybod ei bellder, ac yn ei gadw, ac yn gadael lle i'r Archoffeiriad i ddyfod, ac eiriol drosto ar Dduw. Fe safodd ef yn mhell, nid rhy bell canys dyna le yr anghredinwyr, ac yn yr ystyr hyny y mae'r ymadrodd hyn yn wir, "Canys, wele, difethir y rhai a bellhant oddi wrthyf," Salm lxxiii. 27. Hyny yw, y rhei'ny ag y mae anghrediniaeth wedi gosod eu calonau a'u serchiadau gymmaint ar eu heilunod, fel ag y taflasant Dduw tu ol i'w cefnau, i fyned i butteinio ar eu hol hwynt.

Hyd yma gan hyny y mae yn ymddangos, er fod mwy o hunan-gyfiawnder gan y Pharisead nâ'r Publican etto yr oedd mwy o gyfiawnder ysbrydol gan y Publican Ac er bod gwaelach ac anferthach tu allan gan y Publican nâ'r Pharisead, eto fe fedrai'r Publican lwyddo gydâ Duw am drugaredd yn well nag efe.

Am ddull y Publican yn sefyll wrth weddio, y mae i'w esgusodi, a hyny yn ol siampl tad y ffyddloniaid eu hun: canys fe safodd Abraham i weddio, pan eiriolodd dros Sodom, Gen. xviii. 22. Ac y mae Crist hefyd yn caniattau hyny, lle y mae yn dywedyd, "A phan safoch i weddio, maddeuwch, o bydd gennych ddim yn erbyn neb; fel y maddeuo eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd i chwithau eich camweddau," Marc xi. 25. Yn wir nid oes un dull corph yn orchymynedig mewn gweddi, pa un ai penlinio, sefyll, rhodio, gorwedd, neu eistedd; canys fe arferodd y duwiolion bob un o'r rhai'n. Fe roddodd Paul ei liniau i lawr, Act. xx. 36. Fe safodd Abraham a'r Publican i weddio. Fe weddiodd Dafydd wrth rodio, 2 Sam. xv. 31. Fe syrthiodd Abraham ar ei wyneb i weddio, Gen. xvii. 17. Fe eisteddodd Moses i weddio, Ecs. xvii. 12. Ac yn wir fe all gweddi wresog effeithiol at Dduw fod yn mhob un o'r rhai'n, ac y mae yn fynych: canys nid yw Duw wedi ein rhwymo wrth un o honynt, ac y mae yr hwn a rwymo ei hun, neu ei bobl wrth un o'r rhai'n, yn gwneuthur mwy nag y mae gantho warant oddiwrth Dduw; gocheled y cyfryw wyro, y ffordd nesaf ydyw i wneuthur dynion yn rhagrithwyr ac yn ffugiol yn y dyledswyddau hynny yn mha rai y dylent fod yn wirioneddol.

Gwirionedd yw, dewisied dyn yr un a fyno o'r rhai hyn i gyflawni y ddyledswydd hon o weddi, gofynir iddo, ac y mae Duw yn disgwyl iddo, i weddio mewn gwirionedd, gydâ dymuniad, serch, a newyn, ar ol y pethau hyny ag y mae ei dafod yn son am danynt ger bron gorsedd Duw. Ac yn wir heb hyn, nid yw'r cwbl ond dim. Ond och! pwy mor lleied sydd yn y byd a'u calonau a'u geneuau yn cyd-fyned mewn gweddi! A wyt ti pan fyddech yn gofyn am yr Ysbryd, neu ffydd, neu gariad at Dduw, at sancteiddrwydd, at y saint, at y gair, a'r gyffelyb, yn eu gofyn mewn gariad atynt, dymuniad am danynt, a newyn ar eu hol? O dyma beth rhagorol!

ac etto nid yw gweddi ddim ger bron Duw, ond fel y mae yn cael ei thymeru â'r cymhwysiadau hyn. O herwydd paham fe ddywedir, pan fo dynion yn gweddio, fod Duw yn chwilio'r galon, i edrych beth yw meddwl yr ysbryd, neu pa un a ydyw'r ysbryd a'i feddwl yn yr hyn oll ag y mae'r tafod yn ei lefaru, naill ai trwy eiriau, griddfanau neu ocheneidiau, canys trwyddo ef, a thrwy ei gymmorth ef yn unig, y mae rhai yn gweddio yn gytunol ag ewyllys Duw, Rhuf. viii. 26, 27. Pa fath bynnag gan hyny fo dull dy gorph, gwel fod dy weddiau yn ddyallus ac yn wresog, nid yn gwatwor dy enaid dy hun â geiriau, pan yr wyt yn ddieithr hollol i wir fywyd ysbryd gweddi wresog.

Yn awr yr oedd gwir ysbryd gweddi gan y Publican, ac yr oedd yn ei osod ar waith mewn gweddi. Fe weddiodd gydâ theimlad, difrifwch, a gwresogrwydd, gan newynu, sychedu, a hiraethu ar ol y pethau hyny ag oedd â'i enau yn ddeisyfu gan Dduw'r nefoedd: yr oedd ei galon a'i enaid yn ei eiriau, a thyna'r peth a wnaeth ei weddi yn weddi, sef am iddo weddio mewn gweddi; fe weddiodd oddi fewn yn gystal ag oddi allan.

Y mae Dafydd yn dywedyd, i Dduw wrando llais ei ddeisyfiad, llais ei waedd, llais ei ddagrau, a llais ei ruad. Canys yn wir, y mae'r holl bethau hyn yn gymmeradwy, yr oedd serch a dymunid difrifol yn eu gwneuthur i seinio'n dda yn nglustiau Duw. Fe all fod dagrau, deisyfiadau, gweddiau, llefau bob un o honynt fod yn ffurfiol, rhagrithiol, oddiwrth achosion a dibenion amgen nâ'r hyn sydd onest ac uniawn yn ngholwg Duw: canys yr oedd Duw yn chwilio ac edrych ar lais ei ddagrau, deisyfiadau, rhuadau, gweddiau, a llefau.

A phe cymmerai dynion lai o ofal i foddloni dynion, a mwy o ofal i foddloni Duw, yn y mater â'r modd o weddio, fe fyddai'r byd yn well nag yw ef. Ond nid yw yn ngallu dyn i helpu a gwellhau: pan argyoeddo'r Ysbryd Glân ddynion yn fwy o'u ystad a'u cyflwr, ac o ddefnydd a rhagoriaeth y gras o wirionedd a gostyngeiddrwydd mewn gweddi, y pryd hyny, ac nid cyn hyny, y caiff y gras o weddi ei barchu'n fwy, a gwefusau ehang, hyawdlaidd, rhith ostyngedig y gwenhieithwyr eu troi ar y neilldu. Mi a'i dywedais eisoes, ac a'i dywedaf drachefn, fod llawer o ddrwg yn y dyddiau hyn yn cael ei wneuthur, hyd yn oed yn y ddyledswydd o weddi, trwy eiriau nad oes gan ddynion ddim teimlad o honynt, wrth ymgais ar ol y cyfryw gasgliadau a chyssylltiadau ynthynt, a'r a wnelo i'w personau gael eu parchu gan ddynion, trwy fyfyrio am, ac ymdrechu ar ol y cyfryw ymhelaethiadau, nad oes dim o'r Ysbryd yn cydfyned â hwynt yn y galon. O Arglwydd Dduw, uniona ein calonau ynom, megis yn holl byngciau a rhanau ein proffes, felly hefyd yn y peth arbenig hwn o osodiad Dduw. "Pe edrychaswn ar anwiredd yn fy nghalon," medd Dafydd, "ni wrandawsai Duw fy ngweddi." Ond os byddaf mewn gwirionedd, fe wrendy; yna nid oes fater pa un wnelwyf ai penlinio, sefyll, eistedd, gorwedd, neu rodio; canys ni wnaf un o'r rhai'n, ac ni weddiaf yn un o'r ffyrdd hyn yn ysgafn, ynfyd, ac yn oferwag, ond mi a barddaf ddull y corph â gweithrediad tufewnol y meddwl a'r ysbryd mewn gweddi; fel pa un bynnag a wnelwyf ai sefyll neu eistedd, rhodio, neu orwedd i lawr, fe gaiff difrifwch a dwysder, gostyngeiddrwydd a gwirionedd, wneud fy ngweddi yn fuddiol, a'm hymddygiad allanol yn hawddgar yn ei olwg ef, â pha un, mewn gweddi, y mae i mi i ymddiddan ag ef. A phe buasai'r Publican heb gael ei dymheru â'r rhai'r oddifewn, ni chymmerasai Crist ond ychydig hoffder yn ei ystymiau a'i ddull allanol Ond o herwydd ei fod mor onest oddifewn ac yn nghymhwysiad ei weddi, fe wnaeth ddull allanol ei gorph yn hawddgar hefyd; a thyna paham y mae Crist gydâ chymmaint o hoffder yn son am danynt, ac yn eu gosod allan ar led o flaen llygaid ereill.

Mi a fynych ddeliais sylw, fod yr hyn sydd naturiol ac mor hardd mewn un, yn edrych yn wrthun pan ceisio arall wneud yr un peth: am luniau ac ymddygiadau wrth bregethu a gweddio yr wyf yn llefaru. Fe ganlyn llawer y Publican (nid wyf yn ammeu) yn ei weddi ac yn ei ddull o gweddio; ac y bydd eu personau a'u gweithredoedd er hyny yn drewi yn ffroenau yr hwn sydd sanctaidd ac yn gyfiawn, ac yn chwilio'r galon a'r arenau.

Wele, fe safodd y Publican ac a weddiodd, fe safodd o hirbell ac a weddiodd, ac fe aeth ei weddi hyd yn oed i glustiau Duw. "A'r Publican gan sefyll o hirbell, ni fynnai gymmaint a chodi ei olygon tu a'r nef," &c.

Yr ydym yn dyfod yn awr at y ran arall o'i ymddygiadau. "Ni fynnai," medd y testun, "gymmaint a chodi ei olygon tu a'r nef." Dyma ddull corph arall yn cael ei chwanegu at yr hyn a aeth o'r blaen; dull corph ag oedd wedi cael ei gondemnio o'r blaen gan yr Ysbryd Glân ei hunan. "Ai dyma'r ympryd a ddewisais, dydd i ddyn i gystuddio ei enaid? ai crymmu ei ben fel brwynen ydyw?" Esay lviii. 5. Ond paham y condemniwyd y pryd hyny, ac y gwenwyd arno yn awr? Paham? Am ei fod yn cael ei wneuthur y pryd hyny yn rhagrithiol, ac mewn gwirionedd yn awr. Ni chymmer Duw ddim hoffder mewn rhagrith ac ysbryd cyfeiliorni; ond fe wna gwirionedd ac onestrwydd mewn dyledswyddau. Mae ddyledswyddau yn hardd hyd yn oed yn ngwydd dynion. A allaf ddim dywedyd yn ngwydd Duw? Nid Duw a orchymynodd i'r Recabiaid wneuthur fel y gwnaethant, ond eu tad; eithr am fod gwirionedd yn eu hufudd-dod i hyny, y mae hyd yn oed Duw ei hunan wedi gwneud defnydd o'r hyny a wnaethant i gondemnio anufudd-dod yr Iuddewon; ac yn dywedyd yn mhellach wrth y Recabiaid yn y diwedd, na phallai gwr o honynt i sefyll ger ei fron ef yn dragywyddol, Jer. xxxv. 18, 19. "Ni fynnai cymmaint a chodi ei alygon tu a'r nef." P'am? yn sicr am fod cywilydd wedi gorchuddio ei wyneb. Fe wna cywilydd i ddyn wrido a phlygu ei pen fel brwynen; y mae cywilydd am bechod yn rhinwedd ac yn beth hardd, ac yn nod o degwch yn ngwyneb y pechadur sydd yn dyfod at Dduw am drugaredd.—Y mae Duw yn achwyn am dŷ Israel, y gallent bechu yn ddigywilydd; ïe, ac yn bygwth eu cospi hefyd â barnedigaethau ar farnedigaethau am nad oedd cywilydd arnynt, fel ag y mae yn Jer. viii. Eu beiau yn gyffredin oedd eu bod yn troi pawb i'w ffyrdd eu hunain, fel march yn rhuthro i'r frwydr: yn neilltuol eu bod yn gyfryw ag oedd yn gwrthod gair Duw, yr oeddent yn caru'r byd hwn, ac yn ymosod yn erbyn llef y Prophwydi, yn gwaeddi heddwch, heddwch, pan fyddent hwy yn gwaeddi barn, barn. "Ac ni bu gywilydd arnynt hwy pan wnaethant ffieidd-dra: na fu ddim cywilydd arnynt, ac ni fedrasant wrido: am hyny y syrthiant yn mysg y rhai a syrthiant: yn amser eu hymweliad y syrthiant, medd yr Arglwydd," ad. 12. O! y mae sefyll, eistedd, gorwedd, penlinio, neu rodio ger bron Duw mewn gweddi, gydâ gruddiau yn gwrido am bechod, yn un o'r pethau harddaf a ellir eu gweled yn y byd. O herwydd paham y mae yr eglwys yn cymmeryd rhyw faint o galon iddi ei hun, o herwydd y gallai "orwedd yn ei chywilydd;" ïe, ac yn gwneuthur hyny yn fath o ddadl gydâ Duw i brofi fod ei gweddiau yn d'od o'i chalon, ac y byddai i Dduw eu gwrando hwynt, Jer. iii. 22, 25. Y mae cywilydd am bechod yn arddangos ystyriaeth o bechod; ïe, gwir ystyriaeth o bechod, ystyriaeth dduwiol o bechod. Y mae Ephraim yn dadleu hyn pan oedd tan law Duw, Jer. xxxi. 18—20. Mi a wn fod cywilydd nad yw o ysbryd calon onest, ond yn hytrach yn tarddu oddiwrth fraw sydyn, pan y mae'r pechadur yn cael ei ddal yn y weithred yn ddiarwybod, ac fe ddaliwyd tŷ Israel weithiau fel hyn, ac y mae eu cywilydd y pryd

hyny yn cael ei gymharu i gywilydd lleidr, Jer. ii. 26. Ond yn mha le y daliwyd hwynt, ac yn nghylch pa beth y cafwyd hwynt? Yn nghylch pa beth! fe'u cafwyd yn dywedyd wrth bren, "Tydi yw fy nhad, ac wrth garreg, tydi a'm cenhedlais," Jer. ii. 27. Fe ddaliodd Duw hwynt yn gwneuthur fel hyn, ac fe wnaeth hyn iddynt gywilyddio, fel ag y mae lleidr yn cywilyddio pan ddalo'r perchen ef yn dal ei geffyl. Eithr nid dyma gywilydd y Publican; nid oes dim o'r cywilydd hwn yn dyfod a dyn i'r deml i weddio, i sefyll yn ewyllysgar, ac ymgywilyddio ger bron Duw mewn gweddi. Y mae'r cywilydd hwn yn hytrach yn peri i un ffoi rhag wyneb Duw, ac i gyfrif ei hunan oreu pa bellaf y b'o oddiwrth Dduw. Gan hyny yr oedd y cywilydd ag oedd y Publican yn ei amlygu wrth grymmu ei ben yn dduwiol ac yn dda, ac yn debyg iawn i gywilydd y mab afradlon, pan y dywedodd, "Fy nhad, pechais yn erbyn y nef ac o'th flaen dithau; ac mwyach nid wyf yn deilwng i'm galw yn fab i ti," Luc xv. 21. Yr wyf yn meddwl y gallai dull ei gorph ef fod yr un a'r Publican, gan fod eu gweddiau o ran eu sylwedd yr un. Pa fodd bynnag, yr oedd gras yn gweithio i'r un dyben yn mhob un o honynt, ac yr oeddent yn cywilyddio yn dduwiol am eu pechodau. "Ni fynnai gymmaint a chodi ei olygon tu ar nef."

Ni allai, ni fynnai, yr hyn etto sy'n ei wneud yn fwy eglur mai cywilydd oedd, nid euogrwydd yn unig neu yn bennaf (er ei fod yn ddigon amlwg fod euogrwydd arno) wrth ei waith yn llefain, "O, Dduw, bydd drugarog wrthyf, bechadur!" Meddaf, nid euogrwydd oedd yr unig achos paham yr oedd yn crymmu ei ben, o herwydd y mae y gair yn dywedyd, "Ni fynnai;" canys pan fyddo euogrwydd yn achos o grymmu pen, ni ddichon ei ewyllys na'i allu ei gyfodi i fynu. Y mae Dafydd yn dweud, pan oedd efe tan euogrwydd, "fod ei gamweddau wedi myned tros ei ben, megis baich trwm yr oeddent yn rhy drwm iddo;" a'i fod wedi ei ddarostwng yn ddirfawr ganthynt. Nid fel ag y mae'n dweud mewn lle arall, "Fy mhechodau a'm daliasant, fel nad allaf edrych i fynu," Salm xxxviii. a ix. Ni ALLAF ei wneuthur; y mae euogrwydd yn gwanhau y deall a'r gydwybod, y mae cywilydd yn gwneud pawb yn foddlon i gwympo wrth draed Crist.—Ni fynnai, fe wyddai pa beth oedd, pa beth a fuasai, ac a fyddai, oni thrugarhai Duw wrtho: ïe, fe a wyddai hefyd y gwyddai Duw beth oedd, a fuasai, ac a fyddai oni ragflaenai trugaredd; o herwydd paham meddyliodd, Paham y CODWN i fy ngolwg? Nid wyf fi ddim dyn cyfiawn, ddim dyn duwiol, ni ddarfu i mi wasanaethu Duw, ond y diafol; mi a wn hyn, fe wyr Duw hyn, fe ŵyr yr angylion hyn, o herwydd paham ni chyfodaf fi mo'm golwg. Y mae'n gymmaint a phe dywedai, Ni byddaf ragrithiwr, fel y Pharisead: canys y mae codi golwg yn arwyddo uniondeb a diniweidrwydd bywyd, neu gydwybod dda, a thystiolaeth cydwybod dda, tan ac ynghanol pob cyhuddiadau. O herwydd paham, hyn yma oedd cyngor Zophar i Job, Job xi. 13, 15. Nid dyma gyflwr y Publican, yr oedd efe wedi byw mewn aflendid a mileindra dros ei holl ddyddiau; ac nid oedd wedi parotoi ei galon i geisio Arglwydd Dduw ei dadau, nid oedd wedi glanhau ei galon na'i ddwylaw oddiwrth drawsedd, na gwneuthur barn a chyfiawnder. Nid oedd efe ond wedi ei argyhoeddi o'i ddrygioni, a chwedi dyfod i'r deml fel ag oedd, yn aflan oll, ac yn ei wisgoedd budron, ac ynghanol ei halogedigaethau; pa fodd gan hynny y gallai efe fod yn ddiniwed, sanctaidd, neu ddifrycheulyd? ac yn ganlynol, pa fodd y gallai godi ei wyneb tu ag at Dduw? Yr wyf yn cofio'r hyn a ddywedodd Abner wrth Asahel, "Cilia oddiar fy ol i," eb efe, "paham y tarawaf di i lawr? canys pa fodd y codwn fy ngolwg ar Joab dy frawd di wedi hynny?" 2 Sam. ii. 22. Fel pe dywedasai, Os

lladdaf di, mi a wridaf, mi a gywilyddiaf, ac a grymmaf fy mhen fel brwynen y tro nesaf y delwyf i gymdeithas dy frawd.

Dyma gyflwr y Publican, yr oedd efe yn euog, yr oedd wedi pechu, wedi gwneuthur trosedd, a chwedi dyfod yn awr i'r deml, i ŵydd y Duw hwnnw, cyfreithiau yr hwn a dorasai, ac yn erbyn yr hwn y pechasai, "pa fodd y gallai godi ei ben?" pa fodd y gallai wneud hyny? Na allai, gwell dyfod i mewn i gymmeryd cywilydd, a chrymmu ei ben, yn arwydd o euogrwydd; ac yn wir fe wnaeth hyny, ac a'i gwnaeth i bwrpas hefyd; "canys ni fynnai godi ei ben, na wnai, cymmaint a golwg tu a'r nefoedd." Gwir yw, fe wnaethai rhai hyny; fe wnaeth y Pharisead hyny; er ped ystyriai fod rhagrith ac ymddiried i'w gyfiawnder ei hun yn bechod, fe welsai fod gantho mor lleied achos i wneuthur hyny ag oedd gan y Publican ei hun: ond fe wnaeth hyny; ac a aeth i wared i'w dŷ fel ag y daeth i fynu i'r deml, yn Pharisead tlawd anghyfiawn, a'i berson a'i weddi wedi eu gwrthod, o herwydd iddo, fel y ferch odinebus a sonir am dani yn y Diarhebion, yr hon wedi cyflawni pob math o ragrith, ddyfod i'r deml, a sychu ei safn, a dywedyd, "Ni wneuthum i anwiredd," Diar. xxx. 20. Y mae'n codi ei ben, ei wyneb, a'i olygon, tu a'r nefoedd; y mae yn ymareithio, yn ymchwyddo, yn ymlydanu, yn ymanadlu, ac yn gwaeddi, "O Dduw, yr wyf yn diolchi ti, nad wyf fi fel dynion ereill."

Gwir yw, pe buasai yn dyfod o flaen pren neu gareg, fe allasai ddywedyd fel hyn, heb gael ei geryddu; canys duwiau yw y rhei'ny nad ydynt yn gweled, yn clywed, nac yn dyall. Eithr dyfod i ŵydd y gwir Dduw, y Duw byw y Duw hwnw ag sy'n llenwi nefoedd a daear â'i bresennoldeb, yn gwybod y cwbl oll sy'n dyfod i feddwl dyn, "bob un o honynt." Meddaf, dyfod i'w dŷ, sefyll ger ei fron, a chodi golygon fel hyn yn y fath ragrith o'i flaen: yr oedd hyn yn ffiaidd; dyma demtio Duw a'i gyffroi; ïe, fel ryw *sialens* i wybod pa beth oedd mewn dyn os gallai, fel ag y gwnaeth y rhai hyny a ddywedasant, "Pa fodd y gŵyr Duw? a farn efe trwy'r cymmwl tew?" Job xxii. 13. Salm lxxiii. 11. Ond y Publican ni wnai hyn, na wnai, "ni fynnai gymmaint a chodi ei olygon tu a'r nef," fel un a ddywedasai, O Arglwydd, myfi a fum yn dy erbyn, yn fradwr ac yn wrthryfelwr, ac fel bradwr a gwrthryfelwr yr wyf yn sefyll yma ger dy fron; mi a ddygaf fy nghywilydd ger dy fron yngwydd yr angylion sanctaidd, ïe, mi a'th ragflaenaf di i'm barnu wrth farnu fy hun yn dy ŵydd, ac a safaf fel un condemniol o'th flaen cyn y rhoddech y gollfarn arnaf.

Dyma beth yw i bechadur i fyned i ddyben eithaf pethau, Canys pa beth yw dyben Duw yn y gwaith o argyoeddiad am bechod, a deffroi y gydwybod o'i blegid? Beth yw'r dyben meddaf, ond gwneuthur y pechadur yn ystyriol o'r hyn a wnaeth, ac fel y gallo yn ddiffuant farnu ei hun am yr un peth. Yn awr y mae ein Publican yn gwneud hyn, y mae ei ewyllys wedi ei phlygu i air Duw, y mae yn cyfiawnhau Duw yn ei holl ffyrdd a'i weithredoedd tu ag ato. Bendigedig fyddo Duw am ryw brofiad o'r pethau hyn!

"Ni fynnai gymmaint a chodi ei olygon tu a'r nef." Fe a wyddai wrth ei weithredoedd a'i haeddedigaethau, nad oedd gantho un gyfran yno; ac ni fynnai ddifyru ei feddwl oddiwrth gofio ac oddiwrth ystyried drygioni ei ffyrdd. Fe wna rhai dynion a allont, pan fyddont tan euogrwydd ac argyoeddiad, i edrych ryw ffordd, a hyny o wir ddyben i ddifyru eu meddyliau, a'u tynnu oddiwrth feddwl am yr hyn a wnaethant; ac wrth wneuthur hyn y maent yn tynnu llawer o ddrygau yn rhagor ar eu heneidiau; canys y mae hyn yn fath o ymdrechu â Duw, a dangos anfoddlondeb i'w ffyrdd. Oni feddyliech, pan fyddech yn dangos i'ch mab neu'ch

gwas ei feiau, os gwnai ei eithaf i droi ymaith ei feddwl oddiwrth yr hyn a ddywedech, ei fod yn ymdrechu'n eich erbyn, ac yn dangos anhoffder yn eich gweithredoedd? Pa beth, ynte, yw meddwl achwyniadau meistri a thadau yn yr achos hwn? Y mae gennyf was, y mae gennyf fab, ag sy'n gwneud yn wrthwyneb i'm meddwl. Ond paham nad ydych yn eu ceryddu am hyny? Yr atteb yw, felly yr wyf, ond nid ydynt yn ystyried fy ngeiriau; y maent yn gwneud a allont, hyd yn oed tra yr wyf yn llefaru wrthynt i ddifyru ymaith eu meddyliau oddiwrth fy ngeiriau a'm cynghorion. Fe waedda pawb allan fod hyn yn galed, y mae hyn yn deilwng o gerydd mawr; fe haeddai'r cyfryw fab, y cyfryw was, eu troi dros y drysau i ddysgu ymddygiad gwell, trwy eisiau a chaledu. Ond ni fynnai'r Publican droi ymaith ei feddwl oddiwrth yr hyn ag oedd Duw yn awr yn ei wneud yn deimladwy o hono, na wnai, gymmaint a thrwy roi un olwg ar y gwrthddrych mwyaf dewisedig, ni fynnai gymmaint a chodi ei olygon tu a'r nef. Ysgolheigion drwg yw y rhei'ny sydd â'u llygaid yn gwibio yma a thraw oddiar eu llyfrau, pan y mae eu mestri yn eu dysgu hwynt.

Y mae Duw yn dywedyd wrth ddynion, pan y mae yn eu dysgu i adnabod drygioni eu ffyrdd, fel y dywedodd yr angel wrth y prophwyd, pan ddaeth i ddangos portreiad y deml iddo, Ezec. xl. 4. Felly fel y gallai Dduw ddangos i'r Publican ddrygioni ei ffyrdd, y dygwyd ef tan rym argyoeddiadau a dychrynfeydd y gyfraith; ac fe ddarfu iddo yntef hefyd, fel dysgwr da, ddal iawn sylw ar y wers oedd Duw yn awr yn ddysgu iddo; canys ni wnai gymmaint a chodi ei olygon tu a'r nef. Y mae edrych i lawr yn fynych yn dangos fod dynion yn feddylgar iawn a dwfn yn eu myfyrdodau; hefyd fod y peth ag y mae eu meddyliau yn awr yn ei gylch, wedi cymmeryd gafael ar eu hysbrydoedd. Y mae gan y Publican yn awr bethau newyddion, pethau mawrion, a phethau parhaus i'w hystyried; y mae ei bechodau, y felldith, angeu, ac uffern, yn dechreu edrych yn ei wyneb yn awr; am hyny nid oedd yn amser i adael ei galon neu ei olygon a'i feddyliau i wibio, ond i fod yn sefydlog, ac i wresog ymneshau (fel pechadur) at Dduw'r nefoedd am drugaredd.

Nid oes ond ychydig yn gwybod pwys pechod, pan gymmero'r eogrwydd o hono afael ar y gydwybod, y mae yn galw adref holl alluoedd yr enaid. Ni all un dyn fyned neu ffoi ymaith yn awr: y mae yn garcharor, neu fel ag y mae Paul yn dywedyd, wedi ei ddal: fe wnaed iddo yn awr feddiannu dyddiau chwerwon, nosweithiau chwerwon, oriau chwerwon, meddyliau chwerwon, ac ni all ddiangc oddiwrthynt, canys y ma'r pechod hwn yn wastad ger ei fron. Fel y dywedodd Dafydd, "Yr wyf yn cydnabod fy nghamweddau, a'm pechod sy'n wastad ger fy mron;" yn fy llygad, ac yn glynu yn ddiysgog ymhob un o'm meddyliau, Salm li. 3. "Ni fynnai gymmaint a chodi ei olygon tu a'r nef, eithr efe a gurodd ei ddwyfron."

Dyma'r trydydd a'r dull corph diweddaf; "efe a gurodd ei ddwyfron;" sef â'i law neu a'i ddwrn. Yr wyf yn darllain amryw drawiadau â llaw â throed, yn ol gweithrediad anwydau'r meddwl. Fe ddywedir i Balac "daro ei ddwylaw ynghyd," gan lid, am i Balaam fendithio ac nid melldithio plant Israel iddo ef. Y mae Duw hefyd yn dywedyd iddo "daro ei law" o herwydd pechodau meibion Israel. Y mae Duw hefyd yn peri i'r Prophwyd "guro â'i droed a tharo ar forddwyd," Num. xxiv. 10. Ezec. vi. 11, a xxi. 12, a xxii. 13, ar amryw achosion ac o herwydd amryw gyfeiliornadau, ond fe ddywedir yma i'r "Publican guro ei ddwyfron." Ac yn

1. Y mae curo'r ddwyfron yn arwyddocau tristwch am ryw beth a wnaed, y mae hyn yn brofiad cyffredin ymhlith dynion. Ac yn wir dyma paham (fel ag yr wyf fi yn ei gymmeryd) y mae ein Harglwydd Iesu yn ei osod ef i amlygu ei edifeirwch yn y dull hwn o weithredu, fel y dull ag sy'n ei amlygu'n fwyaf bywiog.

Gadewch i ddyn ddyfod i ryw enbydrwydd mawr o herwydd rhyw ynfydrwydd a wnaeth, a pheri bod (ac yn bod) yn ddrwg gantho hyny: nid oes dim yn fwy cyffredin i'r cyfryw ddyn, os gall, nâ rhodio i fynu ac i wared yn yr ystafell lle y mae, gan grymmu ei ben, a chyraedd uchenaid ddofn yn awr ac yn y man, a churo ei ddwyfron yn ei gyflwr athrist; "ond curo ei ddwyfron a dywedyd, O Dduw, bydd drugarog wrthyf bechadur."

2. Y mae curo'r ddwyfron weithiau yn arwyddocau dial a ffieidd-dra at yr hyn y meddylir am dano. Yr wyf yn darllen yn Luc, pan groeshoeliwyd Crist, i rai ag oedd yn gweled y driniaeth greulon a gafodd gan ei elynion, "guro eu dwyfronau a dychwelyd," Luc xxiii. 48. Hwy a gurasant eu dwyfronau; hyny yw, mewn arwydd o ddigofaint a chasineb at y creulondeb a ddangoswyd i Fab Duw. Y mae gennym yma hefyd y Publican yn curo ei ddwyfron, mewn arwydd o ddigofaint a chasineb at ei fywyd gynt. Ac yn wir heb ddigofaint a chasineb at ei fywyd gynt, ni allai ei edifeirwch fod o'r iawn ryw. O herwydd paham y mae'r apostol yn gwneud digofaint neu ddial at bechod, ac atom ein hunain, yn un o arwyddion gwir edifeirwch, 2 Cor. vii. 11, ac yr oedd ei ddigofaint at ei bechod yn gyffredinol, a'i fywyd gynt yn enwedigol, yn cael ei amlygu trwy ei waith yn "curo ei ddwyfron," fel ag yr oedd gwaith Ephraim yn taro ar ei forddwyd yn arwydd o'r eiddo yntef, Jer xxxi. 19. Pan y byddo dyn yn mawr ffieiddio ryw beth, y mae'n dueddol iawn i ddangos ei gasineb at hwnw trwy ryw ddull allanol corph neu gilydd: megis gosod blaguryn yn eu trwyn, neu ffroeni, neu oganu; neu fel ag y dywed rhai, chwythu o'u trwynau arno, Ezec. viii. 17, Mal. i. 13; ond y mae'r Publican yma yn dewis yn hytrach ddefnyddio'r dull dwysaf hyn; canys y mae "curo'r ddwyfron," debygid, yn arwyddo dull mwy difrifol, ystyriol, a dwys o ffieiddio, nag un o'r rhai a soniwyd ddiweddaf.

3. Y mae "curo'r ddwyfron" debygid, yn arwyddo cwerylu â'r galon am dwyllo, hudo, gwenhieitho a denu i'r cyfryw bechod; canys fel ag y mae argyoeddiad am bechod (os bydd un drwyadl) yn cyfodi mewn dyn ystyriaeth o ddrwg a phla ei galon: felly y mae edifeirwch (os bydd yn wir) yn cyfodi mewn dyn lef yn erbyn ei galon; yn gymmaint ag mai trwy'r goleuni hyny, ag y mae edifeirwch yn cymmeryd lle, y gwneir i'r pechadur weled mai ei galon yw'r ffynnon o ba un y mae pechod yn tarddu, Marc vii. 21. A thyma paham yn gyffredin y mae dychweledigion ieuaingc yn achwyn cymmaint ar eu calonau, yn eu galw yn rhai "drwg, bradychus, twyllodrus, a diobaith." Yn wir y mae un gwahaniaeth rhwng gwir a gau edifeirwch yn gynhwysedig yn hyn. Y mae'r dyn ag sy'n gwir edifarhau yn llefain allan ar ei galon; ond y llall fel Efa ar y sarph, neu ryw beth arall. Ac yr wy'n barnu i'r Publican ddyall fod ei galon yn ddrwg wrth ei waith "yn curo ei ddwyfron."

4. Y mae "curo'r ddwyfron" debygid, yn arwyddo fod dyn yn ddyalladwy o ryw beth newydd, sydyn, dyeithr ac aruthrol: megis pan welo dyn ryw beth dieithr yn yr awyr, neu glywed ryw swn sydyn ac echrydus yn y cymmylau: felly fel ag y mae yn cael ei daro â syndod dwfn yn ei feddwl, peth rhyfedd yw os gall ymgadw rhag curo ei ddwyfron.

Yn awr y mae golwg ar Dduw ac ystyriaeth o bechod yn d'od at y pechadur fel tarawiad mellten (nid am fyr barhad ond) am fod yn ddisymmwyth, ac am syndod; felly y mae'r pechadur yn cael ei daro, ei gymmeryd, a'i gaethiwo er syndod iddo ei hun, gan yr hyn sy'n dyfod mor annisgwyliadwy arno. Fe ddywedir am Paul ar ei droedigaeth, pan ymaflodd argyoeddiad am bechod yn gadarn yn ei gydwybod, iddo

"grynu, a bod braw arno," Acts ix. 6, ac er nad y'm yn darllen am un amgylchiad neillduol o'i ymddygiad allanol dan ei argyoeddiad, etto y mae bron yn anmhosibl ei fod heb ryw beth, a hyny o'r fath fwyaf dwys. Canys y maer fath gydymdeimlad rhwng yr enaid a'r corph, fel na's gall un fod mewn cyfyngder neu gysur heb fod y llall yn gyfrannog ag ef, ac hefyd arwyddoccau'r un peth. Os cysur fydd, yna fe ymddengys trwy neidio, llammu, gwenydd yn yr wynebpryd, neu ryw ystym allanol arall: os tristwch neu drymder ysbryd, yna y mae'r corph yn dangos hyny trwy wylo, ocheneidio, griddfan, ysgwyd y pen, yr wynebpryd, yn ymostwng, taro ar y forddwyd, neu guro'r ddwyfron, fel ag y gwnaeth y Publican yma. Nid oes lle i ni gan hyny i edrych ar y gweithrediadau allanol, neu'r ymddygiadau hyn o eiddo'r Publican yn bethau gwag, disylwedd, ond y cyfryw ag oedd mewn gwirionedd yn gosod allan dymmer, ansawdd ac agweddiad ei enaid. Canys fe'u coffaodd Crist, doethineb Duw, fel y gallai ynddynt a thrwyddynt osod pethau allan, fel y gallai aynion, fel mewn drych, weled gwir lun pechadur dychweledig, gwir edifeiriol. "Efe a gurodd ei ddwyfron."

5. Y mae "curo'r ddwyfron" weithieu yn arwyddocau cymmysgedd o anhyder wedi ei gysylltu â gobaith. Ac yn wir mewn dychweledigion ieuaingc y mae gobaith ac anhyder, neu radd o anobaith, yn gweithio ac yn ateb y naill y llall fel ag y mae llais clorian awryddo (*watch*) mewn llogell gwr. Bywyd a marwolaeth yw gwastadol ysgogiad y meddwl y pryd hyny, a thyma'r swn sy'n parhau hyd nes cryfhao ffydd, ac nes byddo'r enaid yn fwy adnabyddus â threfn a ffyrdd Duw yn ymdrin â phechadur. Ie, pe b'ai dyn cnawdol ynghalon un newydd ei ddychwelyd, a gallu gweled, fe allai ganfod y ddau hyn, sef Ofn a Gobaith, mewn ysgogiad gwastadol yn yr enaid: yn ymdrechu ac yn gwrthwynebu y naill y llall, fel goleuni a thywyllwch yn ymladd am fuddugoliaeth. A thyma paham y mae'r cyfryw mor anwadal ac ansefydlog yn eu hysbrydoedd; yn awr ar y mynydd, yn y man yn y dyffryn; yn awr yn llewyrch yr haul, yn y man yn y cysgod; yn awr yn wresog, yn y man yn rhewlyd; yn awr yn llawen ac yn llon, mewn moment yn bendrwm ac yn brudd, yn meddwl am gyfran yn un lle ond yn uffern. Fe bair hyn "guro'r ddwyfron." Ac ni allaf fi ddim meddwl fod y Publican ddim pellach nâ hyn yn y daith gristionnogol.

6. Y mae "curo'r ddwyfron" debygid, yn arwyddo fod yr hwn sy'n gwneud hyny yn ystyriol iawn o ryw golled fawr a gafodd; naill ai trwy esgeulusdra, diofalwch, ynfydrwydd, neu'r cyffelyb. A thyma'r ffordd ymha un y mae dynion yn colli eu heneidiau. Yn awr y mae colli peth, peth mawr, yr unig beth dewisedig ag sydd gan ddyn, trwy esgeulusdra, diofalwch, ynfydrwydd, neu'r cyffelyb; y mae'n rhaid i hyn wneud y colled yn fwy a gafodd y dyn, a chwanegiadau at y meddyliau am hyny i fyned allan o'r enaid a dyfod i mewn yn ddisymmwyth fel ceispwl neu arfswyddog y brenin, ac ar bob ymddangosad o honynt yn peri i'r enaid neidio, ac wrth neidio "guro ei ddwyfron." Mi allwn chwanegu llawer o bethau neillduol; ond i fod yn fyr, y mae genym enaid teimladwy ger ein bron, enaid athrist, enaid edifeiriol, un ag sy'n gweddio mewn gwirionedd, yn gweddio gydâ theimlad, gydâ serch, ac yn effeithiol. Un ag syn gweled ei golled, yn ofni ac yn crynu ger bron Duw wrth yr ystyriaeth o hyny. Un na's gŵyr am un ffordd ond y wir ffordd i ddiogelu ei hunan rhag colledigaeth, a honno yw, agoshad gostyngedig ac o'i galon at Dduw'r nefoedd am drugaredd.

Mi a ddylwn ddyfod yn awr i lefaru ryw beth mewn ffordd o ddefnydd a chynhwysiad; ond cyn y gwnelwyf hyny, mi a gaf gasglu rhai addysgiadau'n fyr ag sydd, yn fy marn i yn tarddu yn naturiol oddiwrth y testun. "Dau wr a aeth i fynu i'r deml

i weddio, &c." Oddiwrth y geiriau mi a gasglaf yr amrywiol bethau sy'n canlyn, gydâ'r addysgiadau.

*Yn gyntaf.* Nid yw yn canlyn yn wastadol, fod y rhai sydd yn gweddio yn adnabod Duw, neu yn ei garu, nac yn ymddiried yntho. Y mae hyn yn amlwg oddiwrth y Pharisead yn y testun; fe weddiodd, ond nid oedd yn adnabod Duw, nid oedd yn caru Duw, nid oedd yn ymddiried yn Nuw; hyny yw, nid oedd yn ei adnabod yn ei Fab, yn ei garu, nac yn ymddiried yntho. Yr oedd, er ei fod yn gweddio, ymhell oddiwrth hyn. O ba le gellir casglu, na all y rhei'ny nad yw byth yn gweddio yn rhai da, ni allant fod yn adnabob Duw, ei garu, nac ymddiried yntho. Canys os nid yr haul yw seren, er ei bod yn disgleirio, yn sicr ni ddichon talp o dom fod yn haul. Y mae dyn ag sydd yn gweddio yn rhagori ar yr hwn nad yw yn gweddio, fel seren ar dalp o bridd. Y mae dyn diweddi yn byw fel anifail, Esa. i. 3. Nid yw'r dyn diweddi o un grefydd, oddieithr ei fod yn atheist neu'n epicuread. O herwydd paham y mae'r dyn diweddi yn cael ei gyfrif ymhlith y Cenhedloedd, a'r rhai nad adwaenant Dduw, ac sydd wedi eu hapwyntio a'u hordeinio trwy farnedigaeth y gair, i ddigofaint ofnadwy Duw, Salm lxxix. 6. Jer. x. 25.

*Yn ail.* Yr ail gasgliad yw, fod y dyn sydd yn gweddio, os yw yn ei weddi yn dadleu am dderbyniad, yn hollol, neu mewn rhan, en mwyn ei weithredoedd da, mewn cyflwr truenus. Y mae hyn yn cael ei gasglu oddiwrth y Pharisead sydd yma: fe a weddiodd, ond yn ei weddi yr oedd yn dadleu ei weithredoedd da ei hun am dderbyniad i'w berson, am hyny efe a aeth i wared i'w dŷ heb ei gyfiawnhau. Ac y mae r hwn a wnel fel hyn yn yr unrhyw gyflwr. Y mae'r casgliad yn wir, yn gymmaint na choffair am y Pharisead a sonir yn y ddammeg er mwyn y sect honno o ddynion; ond i rag-rybuddio dynion a pheri iddynt ochelyd na b'o iddynt trwy wneud fel efe, wneud eu hunain yn anghymmeradwy gydâ Duw, a chael eu gyru ymaith oddi wrtho heb eu cyfiawnhau. Yr wyf yn casglu oddi yma, os yw'r hwn sy'n dadleu ei weithredoedd da ei hun, er cymmeradwyaeth i'w berson ger bron Duw, fel hyn yn druenus, yna y mae'r hwn sy'n dysgu dynion i wneud felly yn fwy truenus o lawer. Yr ydym yn barnu yn wastadol fod y blaenor, mewn ffordd ddrwg, yn fwy beius nâ'r rhei'ny a dywysir gantho. Y mae hyn yn cwympo yn drwm ar ddysgawdwyr sosiniaeth ac ereill, ag sy'n dysgu fod gweithredoedd dynion yn cymmeradwyo eu personau ger bron Duw.—Gwir yw, y maent yn dywedyd, Trwy Grist; ond nid yw-hyny ond cael ei ddwyn i mewn i dwyllo'r gwirion, ac y mae yn gelwydd erchyll; canys nid ydym yn darllain yn holl air Duw mewn pethynas i gyfiawnhad personol yng wydd Duw oddiwrth y felldith (a thyna'r pwngc tan ystyriaeth) y rhaid ei fod trwy gyfiawnder dyn, wedi ei wneud yn gymmeradwy gan Grist, ond i'r gwrthwyneb try ei gyfiawnder ef, a hwnw yn unig, heb weithredoedd, neu gyfiawnder y ddeddf, yr hwn yw ein cyfiawnder ni. O herwydd paham, meddaf, y mae dysgawdwyr a blaenoriaid yr athrawiaeth hon yn fwy eu pechod.

*Yn drydydd.* Y trydydd casgliad yw, y dylid cwestiyno symlrwydd a gwirionedd y rhei'ny ag sy'n arfer iaith uchel chwyddedig mewn weddi, pa un a ydynt yn cyfiawni'r ddyledswydd honno mewn gwirionedd ai peidio. Y mae hyn eto yn tarddu oddiwrth y testun, fe ddarfu i'r Pharisead ddefnyddio llawer o hyn, canys prin y gellir cael iaith uwch a mwy chwyddedig nag y sydd yng ngenau'r Pharisead: ni wellha rhoi clod a mawl i Dduw â'r un genau un gronyn ar y gorchwyl; canys yn sicr lle byddo'r effaith yn wael ac yn ddrewedig, ni all yr achos fod yn dda.

Canys fe fynn y Pharisead ddal, nad yw efe ei hun fel y mae dynion ereill, ac yna y mae yn diolch i Dduw am hyny: ond yr oedd y peth yn anfad gelwyddog, ac

am hyny ni allasai diolch am dano fod ond ynfydrwydd, ofer a gwag. O ba le yr wyf yn dysgu fod defnyddio'r fath iaith mewn gweddi yn beryglus, fod hoffi hyny yn fwy peryglus: rhaid cyflawni gweddi â chalonau gostyngedig a geiriau teimladwy; ni a soniasom am hyny eisoes, o herwydd paham nid yw geiriau gorwag, uchel, chwyddedig, hyawdlaidd, yn gweddi i enau pechadur un amser, llai o lawer pan y mae yn dyfod i gyflwyno ei hunan ger bron Duw yn y ddyledswyd bwysig hono o weddi. Ond, meddaf, y mae rhai yn hoffi dull ymadrodd y Pharisead, fel na's gallant yn iawn mewn rhyw ffordd neu gilydd lai nâ'i harfer, heb wybod pa beth y maent yn ei ddywedyd, na pha beth y maent yn ei haeru; ond y mae y rhai'n yn tueddu yn fawr i ragrith, a dymuniad o wagogoniant, yn enwedig os bydd swn eu geiriau o fewn cyraedd clustiau dynion ereill.

*Yn bedwarydd.* Nad yw diwygiad a gwelhad, er eu bod yn dda ger bron dynion, ddim at gyfiawnhad gydâ Duw. Y mae hyn yn eglur ynghyflwr y Pharisead; yr oedd ef yn ddyn wedi diwygio, a thu hwnt i ereill o ran cyfiawnder personol, eto efe a aeth allan o'r deml heb ei gyfiawnhau, fe ddaeth ei weithredoedd i ddim ger bron Duw. O ba le yr wyf yn dysgu fod gan y dyn hwnw ag sydd heb ddim o'i eiddo ei hun i'w gymmeradwyo gyd â Duw, yn sefyll o flaen Duw mewn cystal cyflwr tu ag at gael ei gyfiawnhau, ac felly ei dderbyn gydâ Duw, ag un dyn yn y byd.

*Yn bummed.* Mai gweddiau'r pechadur teimladwy, sydd yn griddfan, yn barnu, yn ffieiddio ac yn condemnio ei hunan, sy'n tyccio gydâ Duw am drugaredd. Yr wyf yn meddwl mai paham y mae dynion yn gweddio cymmaint, ac yn llwyddo mor lleied, sef am fod eu gweddiu yn tarddu yn fwy oddiar ddychymygion gwammal Phariseaidd, nag oddiar wir deimlad o bechod, a dwys ddymuniadau am fwynhau trugaredd Duw, ac yn ffrwythau o eiddo'r Yspryd Glân.

# DANGOSEG CYFFREDINOL (GENERAL INDEX.)


| | TUDALEN |
|---|---|
| HANES BYWYD YR AWDWR | ix |
| RHAGARAITH | 3 |
| AMDDIFFYNIAD YR AWDWR | 7 |
| TAITH Y PERERIN | 17 |
| " " YR AIL RAN | 155 |
| " " Y DRYDEDD RAN | 271 |
| HELAETHRWYDD O RAS IR PENAF O BECHADURIAID | 349 |
| Y RHYFEL YSPRYDOL | 425 |
| CADWEDIGAETH TRWY RAS | 631 |
| Y PORTH CYFYNG | 684 |
| TEML SOLOMON WEDI EI HYSBRYDOLI | 738 |
| Y PHARISEAD A'R PUBLICAN | 836 |

# DARLUNIADAU.

TUDALEN

Breuddwyd Bunyan—ar gyfer y wyneb-ddalen—(*Frontispiece.*)

Lle Genedigol Bunyan—(*Vignette.*)

Cristion yn ymadael â'i Deulu (Christian leaving his Family) . . . . . . . 20

Y Gors Anobaith (The Slough of Despond) . . . . . . . . . 23

Cristion a'r Efangylwr (Christian and Evangelist) . . . . . . . . 27

Cristion yn myned at y Porth (Christian got up to the Gate) . . . . . . . 31

Tri Disglaer yn Dyfod at Cristion (Christian relieved of his burthen) . . . . . 42

Y Palas a elwid Prydferth (The Palace called Beautiful) . . . . . . . 48

Dangos y Mynyddoedd Hyfryd i Cristion (Christian shown the Delectable Mountains) . . . 56

Cristion yn ymladd ag Apolyon (Christian's fight with Apollyon) . . . . . . 61

Dyffryn Cysgod Angau (The Valley of the Shadow of Death) . . . . . . 63

Cristion wrth Ogof Pab a Phagan (But by this place Christian went without much danger) . . . 65

Ffair Gwagedd (Vanity Fair) . . . . . . . . . . . . 87

Y Mynyddoedd Hyfryd (The Delectable Mountains) . . . . . . . . . 112

Yna ebe'r bugeiliaid wrth eu gilydd gadewch i ni ddangos oddiyma byrth y ddinas nefol i'r pererinion os medrant edrych trwy'n-olwg ni (Then said the Shepherds one to another) . . . . 115

Y Pererinion (The Pilgrims) . . . . . . . . . . . 155

Trugaredd wrth draed y Porthor (Mercy at the feet of the Keeper of the Gate) . . . . 164

Yr Arweinfa i'r Porth Bychan (The Approach to the Wicket-gate) . . . . . . 166

Cristiana a'i Phlant wrth y Porth Bychan (The Wicket-gate) . . . . . . 167

Dyffryn Darostyngol (The Valley of Humiliation) . . . . . . . . . 210

Tir Beulah (The Land of Beulah) . . . . . . . . . . 262

Y Samariad Trugarog (The Good Samaritan) . . . . . . . . . 345

Crist a'r Wraig o Samaria (Christ and the Woman of Samaria) . . . . . . 421

Alltudiad Diabolus (The Banishment of Diabolus) . . . . . . . . . 428

Yr Hen Gristion (the Ancient Christian) . . . . . . . . . 496

Ymlid yr Amheuwyr (Pursuit of the Doubters) . . . . . . . . . 612

Crist yn dyfod at Ioan i gael ei Fedyddio (Christ coming to John to be baptised) . . . . 627

Gwynebpryd Bunyan (Head of Bunyan) . . . . . . . . . . ix

Bunyan yn cael ei Ddâl (The Arrest of Bunyan) . . . . . . . . xxxi

Bunyan yn Ngarchar (Bunyan in Prison) . . . . . . . . . . xxxii

Elizabeth Bunyan o flaen y Barnior Hale (Elizabeth Bunyan before Judge Hale) . . . . xxxiv

Gwerthu Pulpud Bunyan (Sale of Bunyan's Pulpit) . . . . . . . . . xl

BRIGHAM YOUNG UNIVERSITY
3 1197 22568 8545

Date Due
All library items are subject to recall at any time.

AUG 13 2007
JUL 25 2007

Brigham Young University